600022271K

Digitized by Google

ach).

Digitized by Google

Digitized by Google

# ENWOGION Y FFYDD:

NEU,

## HANES CREFYDD Y GENEDL GYMREIG,

### O'r Diwygiad Protestanaidd hyd yr Amser Presennol,

FEL YR ARDDANGOSIR HI YM

MYWYDAU PRIF DDUWINYDDION A CHREFYDDWYR Y CYFNOD HWNW.

O DAN OLYGIAD

Y PARCH. JOHN PETER A GWEIRYDD AP RHYS.

CYNNORTHWYWYR—

Y Parch. William Rees, D.D. (Hiraethog), Caerlleon.
Y Parch. Owen Thomas, D.D., Liverpool.
Y Parch. Thomas Rees, D.D., Abertawe.
Y Parch. John Hughes, D.D., Liverpool.
Y Parch. John Thomas, D.D., Liverpool.
Y Parch. Hugh Jones, D.D., Llangollen.
Y Parch. H. E. Thomas, D.D., Pittsburgh, America.
Y Parch. J. Pan Jones, Ph.D., Mostyn.
Henry Richard, Ysw., A.S., Llundain.
Y Parch. Samuel Davies, Bangor.
Y Parch. J. Jones (Mathetes), Llansawel.
Y Parch. Roger Edwards, yr Wyddgrug.
Y Parch. William Griffiths, Caergybi.
Y Parch. Daniel Rowlands, A.C., Bangor.
Y Parch. J. Spinther James, Llandudno.
Y Parch. John Evans, Llundain (gynt Eglwys Fach).
Y Parch. Robert Thomas, P.D. (Ap Fychan), Bala.

CYF. II.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

LLUNDAIN:
WILLIAM MACKENZIE, 69 LUDGATE HILL, E.C.
LLYNLLEIFIAD, CAERODOR, ABERTAWY, A CHAERLLEON.

210. h. 222
Digitized by Google

Digitized by Google

# ENWOGION Y FFYDD.

## LLYFR V.

### ENWOGION Y PEDWERYDD CYFNOD: O 1689 HYD 1760.

WILLIAM III., ANN, GEORGE I., GEORGE II.

### PENNOD I.

SYLWADAU CYFFREDINOL AR HANES A NEILLDUOLION Y CYFNOD.

Y MAE hanes y cyfnod hwn, a'r rhai nesaf, yn dra gwahanol i hanes y tri chyfnod blaenorol, a gwelir eu bod yn tra rhagori, ar y cyfan, ar y lleill. Pan gyhoeddwyd William a Mari yn frenin a brenhines Lloegr, Ffraingc, a'r Werddon, ar y 13ydd o Chwefror, 1689, rhoddasant eu henwau, yr un diwrnod, wrth DDATGANIAD YR HAWLIAU,* trwy yr hyn y cydnabyddent "nas gellid deddfu un gyfraith, na chodi un dreth, na chadw byddin reolaidd, heb gydsyniad cynddrychiolwyr y genedl; nas gellid carcharu un dŷn, yn oed am ddiwrnod, trwy ewyllys unbenol y penadur; ac nas gallai unrhyw swyddog ddadlau y gorchymyn brenhinol fel awdurdod dros dreisio unrhyw hawl o eiddo y deiliad distadlaf." Ni adawyd cyfreithiau sylfeunol y deyrnas mwyach mewn amheuaeth. Chwalwyd hawl ddwyfol brenhinoedd, mympwy a ddelid mor gyndyn gan yr Esgobyddion, i'r pedwar gwynt; a chafodd William orsedd Brydain mewn canlyniad i gyngrair dealladwy rhyngddo a'r bobl. Cydnabyddwyd, mewn senedd rydd ac annibynol, nad yw awdurdod y goron yn deilliaw o un ffynhonell heb law ewyllys y genedl. O blegid peidio cydnabod y gwirionedd yma y bu Brydain mor fynych yn olygfa gwrthryfel, brwydrau, a gwaed. Mewn canlyniad i'r gwirionedd hwn, cymmerwyd meddiant o'r diwedd o feddyliau dynion, trwy gydweithrediad egnïol William, a chadwyd Brydain o hyny hyd yn awr rhag y dirdyniadau mawrion ac erchyll sydd wedi bod yn ysgwyd Ewrop mor fynych hyd ei chraidd, gan orchuddio ei dinasoedd a'i meusydd â gwaed ei thrigolion.†

Nid oedd sefydliad y goron yn Lloegr, yn yr oes honno, o angenrhaid, yn arwyddo cydsyniad Ysgotland a'r Werddon; am hyny, ymgasglodd y pendefigion Ysgotaidd oedd yn Llundain ynghyd, dan lywyddiaeth y Duc Hamilton, i ddarpar cyfarchiad cyffelyb i'w gyflwyno i William ag a gyflwynasid iddo gan Senedd Lloegr. Ymhlith y dirprwywyr ar yr achlysur yr oedd yr Iarll Argyle, i'r hwn yr ymddiriedwyd gweinyddu llw y coroniad. Yr oedd un adran yn y llw yn rhwymo y brenin i ddiwreiddio pob hereticiaid. Pan ynganodd yr iarll y geiriau hyny, attaliodd William ef yn sydyn, a thystiodd nad oedd efe yn bwriadu ymrwymo i fod yn erlidiwr. Attebodd y dirprwywyr nad hyny oedd ystyr y geiriau. "Yna," eb William, "dealler i mi eu cymmeryd yn yr ystyr hyny."‡ Ymddygodd William, ar hyd ei oes, er ei fythol glod, yn gysson â'i wrthdystiad ar yr achlysur yma, trwy ymdrechu yn egnïol i osod ei holl ddeiliaid Protestanaidd, o bob enwad crefyddol, ar dir cwbl gyfartal o ran rhyddid a breintiau gwladol a chrefyddol. Wedi gwneud Ysgrif yr Hawliau§ yn gyfraith, yr hon a gynhwysai yr un egwyddorion a darpariadau a Datganiad yr

* Declaration of Rights.

† Ferguson's Hist. of Engl., vol. iv., pp. 39–49; Hume and Stafford's Hist. Engl., vol. ii., pp. 285–304.

‡ Ralph, vol. ii., p. 95; Dalrymple, vol. i., p. 285.

§ Bill of Rights.



Digitized by Google

Hawliau, gwnaeth William ymdrech clodfawr i gael gan y Senedd dderbyn ei Gynhwysdrefn,* sef cynllun i osod yr holl sectau ar yr un tir mewn ystyr grefyddol a gwladol; ond llwyr drechwyd ef gan yr Uchel-Eglwyswyr a'r Jacobiniaid culfarn ac erlidgar oedd yn nau Dŷ y Senedd. Yna ceisiodd ddodi adran yn yr ysgrif oedd o flaen y Senedd yn nechrau y flwyddyn 1689, i ddatgan bod y prawf sacramentol yn afreidiol fel cymhwysder i ddal swyddi gwladol; ond gorchfygwyd ef etto gan yr un pleidiau hunanol ac eiddigus, er eu holl addewidion gwenieithgar a thwyllodrus i'r Ymneillduwyr, pan mewn angen am eu cynhorthwy yn erbyn cynlluniau Pabaidd Iago II. Y cwbl a allodd y brenin rhyddfrydig yma ei gael i'w ddeiliaid Ymneillduol, er ei holl egni canmoladwy o'u plaid, oedd y gyfraith a elwir DEDDF GODDEFIAD,† yr hon a gafodd awdurdod y Senedd ar y 24ydd o Fai, 1689. Rhyddhawyd yr Ymneillduwyr gan y ddeddf hon, er mor ddiffygiol ydyw, oddi wrth yr holl gospau am beidio myned i Eglwys y Plwyf, ac am gynnal cyfarfodydd crefyddol ar wahan i'r Eglwys uchel-freiniog honno. Estynid budd y ddeddf hon mewn modd neillduol i'r Crynwyr, trwy yr hon yr ystyriwyd datganiad o deyrngarwch ganddynt hwy yn gyfartal i lw o ffyddlondeb i'r brenin. O herwydd rhagfarn brwnt ac iselwael yr Uchel-Eglwyswyr a'r Jacobiniaid, llwyr fethodd y Brenin William osod yr Ymneillduwyr ar yr un tir a'r Eglwyswyr; ond er mwyn dangos ei deimlad personol ei hun tu ag atynt, neillduodd yr anrheg flynyddol a elwir y Rhodd Frenhinol,‡ i'w rhanu rhwng gweinidogion tlodion y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr.§ Yr oedd y dadleuon gwleidyddol a ddygid ym mlaen mor ddallbleidiol y pryd hyn, a thros hir amser wedyn, yn Eglwys Loegr, rhwng yr Anhyngwyr a'r Gwŷr Twng,‖ wedi dwyn dysgeidiaeth a chrefydd yn eu plith i gyflwr pur isel. Digwyddiadau eglwysig mwyaf bendithiol y teyrnasiad yma oedd sefydliad y "Gymdeithas er Lledeunu Gwybodaeth Gristionogol," yn 1698; a'r "Gymdeithas er Lledeunu yr Efengyl mewn Gwledydd Tramor," yn 1701.*

Gwaethygu yn fawr a wnaeth cyflwr crefydd ar ol esgyniad yr eiddil Frenhines Ann i'r orsedd ar y 23ydd o Ebrill, 1702, o blegid dadleuon a chyndynrwydd yr un pleidiau penboeth ac erlidgar, canys llwyddasant yn fuan i leihau llawer ar y rhyddid crefyddol a gwladol a roddwyd i'r Anghydffurfwyr gan yr enwog Frenin William. Ymdrechwyd cyfyngu Deddf y Goddefiad yn fuan ar ol esgyniad Ann, trwy ysgrif a ddygwyd i mewn yn erbyn Cydffurfiad Achlysurol, yr hon a ddygwyd i'r Tŷ y naill eisteddiad ar ol y llall, nes o'r diwedd y cafwyd cydsyniad y frenhines iddi. Dygwyd y gyfraith yma i mewn dan yr enw golygus o Ddeddf i Gadw y Grefydd Brotestanaidd, Cadarnhau Goddefiad, a Sicrhau Olyniad Protestanaidd. Ar ol dywedyd ychydig bethau ymddangosiadol o blaid goddefiad, aiff ym mlaen i ddeddfu, "O bydd i ryw bersonau mewn swydd, y rhai a orfodir gan y cyfreithiau i ymgymhwyso trwy dderbyn y sacrament, neu'r prawf, fyned byth i gelgyfarfod, neu gyfarfod yr Ymneillduwyr, i addoli yn ystod yr amser y parhaont yn y cyfryw swydd, y bydd iddynt fforffetu 20p. am bob trosedd o'r fath, a bod yn anghymmwys at unrhyw swydd rhag llaw, nes y bo iddynt dyngu eu bod wedi llwyr gydymffurfio â'r eglwys [Eglwys Loegr], ac na buant mewn unrhyw gelgyfarfod yn ystod blwyddyn gyfan." Felly, nis gallai neb a fyddai yn y swyddi gwladol lleiaf fyned byth i dai addoliad ond yr Eglwysydd Plwyfol yn unig.† Yn y flwyddyn olaf o deyrnasiad Ann, cyfyngwyd goddefiad ymhellach trwy Ddeddf i Attal Cynnydd Sism; a dylid cofio mai *sismaticiaid* oedd pob Ymneillduwyr ynghyfrif y deddfroddwyr hyny; ac er mwyn attal eu cynnydd, cymmerwyd addysg eu plant o ddwylaw eu cyfeillion, a dodwyd ef yn nwylaw y rhai a fyddent yn gydymffurfwyr trwyadl a hollol. Er mwyn cyrraedd eu hamcan treisiol, deddfwyd, os byddai i ryw athraw ysgol fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod crefyddol gyd â'r Ymneillduwyr, y cospid ef â thri mis o garchar,

* Scheme of Comprehension.

† Toleration Act.—Barn Baxter fod hwn yn gamenw ar y gyfraith hon: yr enw a roddwyd iddi oedd, Deddf i Ryddhau Deiliaid Protestanaidd ei Fawrhydi, sy'n Ymneillduo oddi wrth Eglwys Loegr, rhag Cospau rhai Cyfreithiau. Gellir casglu, eb efe, i'r gyfraith hon ddeilliaw o gyfrwysdra gwleidyddol, yn hytrach nag o unrhyw amcan cywir, oddi wrth ei bod yn gadael y Pabyddion a'r Undodiaid allan o'i nawdd.—Hist. Church Engl., p. 646, note 1.

‡ *Regium Donum*, yr hon sydd 1700p. y flwyddyn.

§ Neal's Hist. Purit., vol. ii., pp. 630–8; Journal of the House of Lords, March 16, 1689; Journal of the House of Commons, April 13, 14; Reresby, Mem., p. 327; Burnet, vol. iv., p. 24.

‖ *Nonjurors and Jurors*. sef yr Uchel a'r Isel Eglwyswyr. Gwrthodai yr Anhyngwyr gydnabod hawl William III. i'r orsedd, o herwydd yr honnent hwy fod yr Olyniaeth Frenhinol yn Hawl Dwyfol, anghyfnewidiol, ac mai Iago oedd y brenin cyfreithlawn, er ei ddïorseddu, a gwrthodent dyngu llw o ffyddlondeb i'r Brenin William; am hyny, diswyddwyd hwy, yn ol eu heuddiant. Galwyd y gorphwylliaid hyn yn Jacobiniaid oddi wrth ddull Lladin enw Iago, sef *Jacobus*. Yr oedd nifer y penboethiaid hyn dros 400; ac yn eu plith yr oedd un Archesgob (Sancroft) a saith o Esgobion, un o'r sawl oedd Llwyd (Cymro?), Esgob Caercynan (Norwich). Heurai y rhai hyn fod eu Hawl hwy i'r Glerigaeth yn Ddwyfol, fel Hawl y Brenin i'r Orsedd; am hyny eu bod hwy yn Glerigwyr ar hyd eu hoes, er eu diswyddo.—Baxter's Hist. Church Engl., p. 645.

* Idem, p. 654.

† Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 637.

Digitized by Google

ac yr anghymhwysid ef i fod yn athraw ysgol byth mwyach. Yr oedd y ddeddf erlidgar yma i ddyfod i rym ar y laf o Awst, 1714, y diwrnod y bu'r ddïymadferth Frenhines Ann farw.* Yr oedd y cyfreithiau treisiol hyn, a wthid ar y genedl gan yr Uchel-Eglwyswyr a'r Jacobiniaid hanner Pabaidd, yn dihyspyddu yr Eglwys Wladol o'i dynion gorau a mwyaf Protestanaidd, ac yn eu tywallt i rengau yr Anghydffurfwyr; am hyny, nid rhyfedd i'r genedl, yn enwedig y Cymry, gefnu mor llwyr ar yr Eglwys Sefydledig yn ystod y teyrnasiadau hyn, a throi yn Ymneillduwyr.

Dilynwyd Ann i'r orsedd gan George I., mab Sophia (a'i gŵr, Etholydd Hanover), merch Elizabeth (a'i gŵr, Etholydd Palatine), merch Iago I., mab Mari, merch Iago V. (o Ysgotland), mab Margaret, merch Harri VII., mab Edmwnt Tudur, Iarll Richmond, mab Owain Tudur, o Benmynydd, Mon. Canfu y brenin Protestanaidd yma yn fuan ddarfod i'r cyfreithiau anfad a nodwyd eisoes gael eu llunio yn erbyn Anghydffurfwyr, o blegid eu hymlyniad disyfl wrth yr olyniad Protestanaidd i'r orsedd yn erbyn y weinyddiaeth Doriaidd a Jacobinaidd, aelodau yr hon oedd yn palmantu y ffordd i'r ymhonwyr Pabaidd; am hyny, wedi i'r brenin sefydlu achosion tymhorol ei deyrnas, trodd efe a'i brif weinidogion Chwigaidd eu sylw at byngciau eglwysig, yn gynnar yn eisteddiad 1718. Gan eu bod yn awyddus i sicrhau corph y bobl o'u plaid, yn enwedig yr Ymneillduwyr, penderfynasant ddileu rhai o'r cyfreithiau oedd yn gwasgu drymaf arnynt, megis y cyfreithiau yn erbyn Cydffurfiad Achlysurol, i Attal Sism, ac i orfodi y Prawf Sacramentol. Mynnai'r Arglwydd Stanhope leddfu y cyfreithiau oedd fyth mewn grym yn erbyn y Pabyddion; ond yr oedd rhagfarn y wlad ar y pryd, ac am oesoedd wedyn, yn rhy gryf yn eu herbyn. Yn y flwyddyn ganlynol (1719) gwnaed cyfraith bwysig mewn cyssylltiad â'r Eglwys Wladol, trwy ddiddymu y Gymmanfa Eglwysig. Y mae'n wir bod dau Dŷ'r Gymmanfa yn ymgyfarfod ar ddechrau pob eisteddiad hyd heddyw; ac ar ol darllen y gwasanaeth, a thraddodi pregeth yn Lladin, bydd yr aelodau yn dadlau weithiau yn bur zelog ar wahanol byngciau pwysig; ond nid oes ganddynt awdurdod i benderfynu dim yn y byd, gan fod hyny yn gwbl yn llaw y Senedd: o herwydd paham, y mae'r Ymneillduwyr yn ystyried yr holl ymdrafodaeth yma o eiddo yr Eglwys Wladol, yn eithaf priodol hefyd, yn "rhithwaith disfrifol."†

Yn gynnar yn 1722, lluniwyd Celgyfrinach beryglus gan yr Uchel-Eglwyswyr a'r Jacobiniaid yn erbyn y Llywodraeth, a thros osod yr "Ymhonwr" ar yr orsedd yn lle George; ac wedi carcharu llawer o'u harweinwyr, a chospi eraill mewn gwahanol ffyrdd, pasiodd y Tŷ Cyffredin ysgrif, ar y 9fed o Hydref, yn attal Deddf y Corphwys‡ dros flwyddyn gyfan. Hefyd, gan y priodolid yr holl gyffro, a'r treuliau a'i dilynodd, i'r Pabyddion, dygodd y Tŷ Cyffredin ysgrif i mewn, yr un amser, i godi can mil o bunnau ar etifeddieuthau y Pabyddion, neu rai wedi eu dwyn i fynu a'u haddysgu yn y grefydd Babaidd, er mwyn talu y costau a achoswyd gan y gwrthryfel diweddar. Parotowyd ysgrif gyffelyb yn Nhŷ'r Arglwyddi, i orfodi yr holl Babyddion yn Ysgotland, a phawb ym Mrydain Fawr a wrthodent gymmeryd y llwon er dïogelu person a llywodraeth y brenin, i ddodi enwau a gwerth eu hetifeddieuthau mewn coflyfr cyffredin; a thrwy gynnyg ychwanegol, estynwyd hi at yr holl Anghydffurfwyr.§ Y cyfreithiau rhyfedd hyn oedd y rhai olaf, perthynol i grefydd, y rhoddes y Brenin George I. ei gydsyniad iddynt. Cafodd ef ei daro gan y parlys ymhen tu a phum mlynedd ar ol hyn, pan ar ei daith i Hanover, a bu farw ar yr 11fed o Fehefin, 1727, a dilynwyd ef i'r orsedd gan ei fab, George II.‖

Ychydig, yn dwyn perthynas arbenig â chrefydd, a wnaed gan y Senedd yn ystod y teyrnasiad yma; a'r hyn a wnaed, yr oedd yn hytrach er gwaeth nag er gwell. Yn eisteddiad 1753, dygwyd ysgrif i'r Senedd yn caniatâu i rai yn proffesu y grefydd Iuddewig gael eu rhyddfreinio, a'u goddef i fwynhau rhyw freintiau a ommeddid iddynt hyd yn ddiweddar gan y gyfraith. Ar ol hir ddadl yn y ddau Dŷ, a chynnwrf nid bychan o'r tu allan, cymmeradwywyd yr ysgrif gynnygiedig, ac mewn amser cyfaddas cafodd yr awdurdod frenhinol. Ond nis gellid darostwng ofnau a rhagfarnau y bobl. Amlygodd maer a chyngor cyffredin dinas Llundain eu harswyd, mewn erfyniad at y Senedd, y tueddai'r gyfraith gynnygiedig i fawr ddïanrhydeddu y grefydd Gristionogol, ac y byddai yn dra niweidiol i fasnach y deyrnas.

* Neal's Hist. Purit., vol. ii., p. 638.

† Baxter's Hist. Church Engl., p. 657.

‡ Habeas Corpus Act.

§ Journal of the House of Commons, vol. xx., p. 210; Coxe, vol. i., p. 175; vol. ii., p. 555.

‖ Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. v., pp. 150-1.

Digitized by Google

Coleddid syniadau cyffelyb yn bur gyffredinol. Heurwyd ymhellach y byddai i'r Iuddewon lanw y wlad â diluw o ocrwyr, rhyngfeulwyr, a chardotiaid; ac yn bendifaddau y byddai i'r dosparth isaf o honynt, trwy weithio am gyflogau bychain, niweidio dosparthiadau diwyd y deyrnas, y rhai sy'n ynnill eu bara trwy lafur eu dwylaw. Ond er maint y gwrthwynebiad a gyfodwyd ar y seiliau poblogaidd hyn, pasiodd yr ysgrif, fel y dywedwyd, trwy ddau Dŷ'r Senedd. Pa wedd bynag, yr oedd y teimlad cenedleuthol a amlygwyd ar y pwngc mor nerthol fel y prysurodd y gweinidogion, ar ddechrau yr eisteddiad dyfodol, i ddileu y gyfraith oedd mor atgas yngolwg y wlad ar y pryd.* Ni wnaed dim arall o bwys gan y Senedd, gyd â golwg ar grefydd, yn oes George II., yr hon a derfynodd ar y 25med o Hydref, 1760.

Rhaid edrych byth ar dduwinyddiaeth yr eilfed ganrif ar bymtheg fel cofgolofn ardderchog o athrylith wedi ei sancteiddio. Nid ydyw gyfoethocach ac ehangach o ran ei duwinyddiaeth nag ydyw o ddofn a gwreiddiol o ran ei meddwl. Y mae'n gynnyrch dynion yn y rhai yr oedd mawredd meddyliol ac ardderchowgrwydd moesol wedi dedwydd gydgyfarfod. Ac yr ydym ni yn falch dros ben o blegid bod llawer o'r cawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny, yn Lloegr cystal ag yn y wlad hon, yn Gymry diledryw, megis y Dr. Parry, y Dr. Davies, William Wroth, William Erbury, Rhys Prichard, Rowland Fychan, Roger Williams, Walter Cradoc, John Milton, Richard Symonds, Ambrose Mostyn, y Dr. John Owen, Vavasor Powel, Charles Edwards, Stephen Huws, Morgan Llwyd, ac amryw eraill. Rhaid bod dylanwad duwinyddiaeth ac addysg y gwŷr hyn, a'u cyffelyb, ar yr oes yn yr hon yr oeddynt yn byw ac yn ysgrifenu, yn fywiocaol a dyrchafedig dros ben. Rhaid hefyd bod duwioldeb y bobl yn cyfatteb i ryw raddau i orucheledd yr addysg a fwynheid ganddynt. Ond pan symmudwyd yr athrawon i fyd arall, adfeiliodd crefydd i raddau tra annymunol. Newidiwyd ffydd a bywyd efengylaidd am Eglwysyddiaeth ddiymadferth. Cymmerth ffurfioldeb le Cristionogaeth fywiol, hunan-ymwadol, ac ysprydol. Llanwyd pulpudau yr Eglwys Wladol gan ddynion, y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn ddieithriaid i fywyd duwiol, dŷn oddi mewn y sawl nid oedd yn cydymdeimlo â'r gwirioneddau y galwyd hwynt i'w traddodi a'u dysgu. Nid oedd gan yr Anghydffurfwyr, oedd fyth yn agored i lawer o gospau a dirwyon gwladol, ond ychydig o gyfleusderau i ledeunu egwyddorion ac athrawiaeth yr efengyl tu hwnt i'w cylch cyfyng eu hunain; a rhaid cyfaddef bod yspryd claiarineb ac anweithgarwch yn llawer rhy gyffredin yn eu plith hwythau hefyd, ac yr oedd yspryd y bobl wedi cael ei sïo i gysgu, a hwnw yn gwsg marwolaeth ysprydol. Nid oedd dim a allai ddeffro yr yspryd hwnw drachefn ond y Bywyd Hollalluog. Daeth y gallu nerthol yma i lawr ar Gymru yn y rhan olaf o'r cyfnod hwn, a disgynodd ar Loegr hefyd o gylch yr un amser. Nid effaith gallu gwyrthiol oedd hwn, ond effaith moddion arferedig, a dylanwadau hyspys. Nid oes dim traul afreidiol yn perthyn i'r ymddygiad Dwyfol. O bydd moddion yn bod eisoes i gyflawni rhyw amcan pennodol, yna at y moddion hyny, ac nid at ddim goruwchnaturiol, y rhaid i ni edrych. Ni ddaw y gwyrthiol byth i'r golwg nes y canfyddir bod y naturiol a'r cyffredin yn annigonol i gyrraedd yr amcan a ddymunir. Canfyddir mai trwy'r moddion cyffredin a ordeiniodd Duw, er dyddiau Crist a'r apostolion, i achub y byd, y cynhyrchwyd y diwygiad mawr a ddaw dan sylw yn y bennod nesaf.

* Mackenzie's Fam. Hist. Engl., vol. v., p. 194.

## PENNOD II.

### Y METHODISTIAID.†

Y MAE rhai, yn enwedig rhai estroniaid, yn edrych ar Fethodistiaeth yng Nghymru fel effaith neu ganlyniad y diwygiad Methodistaidd yn Lloegr, trwy offerynoliaeth John Wesley a George Whitfield (Witffild); ond gŵyr pawb sy'n gydnabyddus â dechreuad y ddau ddiwygiad mawr yn y ddwy wlad bod hyny yn llwyr gamsyniad. Y gwir yw nad oedd y Diwygwyr Cymreig yn gwybod dim am eu gilydd, chwaethach am y Diwygwyr Seisnig. Argyhoeddwyd HOWEL HARRIS yn gynnar yn haf 1735, blwyddyn cyn ordeinio Whitfield, a dechreuodd bregethu‡ yn danllyd ac effeithiol iawn yn ebrwydd wedyn o gylch ei gartref yn Nhrefeca, sir Frycheiniog, heb wybod bod neb arall, mewn un man, yn gwneuthur felly, canys dywed ei hun,

† Cymreigiad ydyw *Methodistiaid* o'r gair Saesneg *Methodists*= Trefnyddion. Y mae'r *Wesleyaid* yn cael eu galw weithiau yn *Fethodistiaid*; ond *Wesleyaid* y gelwir hwy fynychaf yng Nghymru; am hyny cyfyngwn ni yr enw *Methodistiaid* yn y gwaith hwn at y Trefnyddion Calfinaidd, a *Methodistiaeth* at eu cyfundrefn; a galwn y Trefnyddion Wesleyaidd yn *Wesleyaid*, a'u cyfundrefn yn *Wesleyaeth*.

‡ "Cynghori," medd yr Esgobyddion a'r "hen Ymneillduwyr," am nad ystyrient hwy y medrai neb *bregethu* heb urddiad Esgobol neu Ymneillduol.

Digitized by Google

pan ddeffrowyd ef am ei sefyllfa ysprydol yn y flwyddyn grybwylledig, ac y dechreuodd rybuddio ei gymmydogion "i ffoi rhag y llid a fydd," "nad oedd wedi gweled neb, na chlywed am neb, yr ymddangosai ei fod yn gweithio allan ei iachawdwriaeth yn ddifrifol, nac yn meddu unrhyw wybodaeth am Dduw yng Nghrist."* Cyn diwedd y flwyddyn 1736, yr oedd Harris yn prysur sefydlu cyfeillachau neillduol ("seiadau preifat") yn ei gymmydogaeth ei hun, a'r ardaloedd cyfagos. "Dyma ddechreuad y cyfarfodydd eglwysig ymhlith y Methodistiaid."

Yr oedd gŵr ieuangc mewn urddau esgobol, yn sir Benfro, a'i enw HOWEL DAFYDD, neu DAVIES, yr hwn oedd ddisgybl i'r enwog Gruffydd Jones, Llanddowror, yn dechrau pregethu yn danllyd ac effeithiol dros ben o gylch yr un amser, fel y tybir, a Howel Harris, ac ychydig o flaen Daniel Rowlands, ac ymdyrai miloedd i'w wrando. Ffromodd yr Eglwyswyr diddawn, dïegni, a dïoruchwyliaeth, yn aruthr wrtho o blegid hyn, a cheuasant eu heglwysydd rhagddo. Yna aeth yntau, yn ol cyfarwyddyd ei Arglwydd, "i'r prif ffyrdd a'r ceuau," ac ymdyrai lluoedd i wrando'r pregethwr bywiog ac efengylaidd.† Bu ef, fel Harris, yn pregethu fel hyn dros amser, heb wybod bod neb arall yn gwneuthur felly; ond pan ddaeth yn gydnabyddus â Harris a Rowlands, ymrôdd i gydweithio â hwynt yn egnïol hyd ddiwedd ei oes ddefnyddiol.‡

Ymddengys mai ymhen ychydig ar ol y ddau ŵr enwog uchod, tu a diwedd 1735, neu ddechrau 1736, yr argyhoeddwyd DANIEL ROWLANDS i fywyd, wrth wrando, un dydd cyntaf o'r wythnos, ar Gruffydd Jones, Llanddowror, yn pregethu yn Llanddewi-Brefi, sir Aberteifi; ond ni ddaeth Harris yn gydnabyddus âg ef, medd efe, hyd 1737. Dywedir mai Daniel Rowlands oedd y cyntaf yng Nghymru a alwyd yn Fethodist.§ Awdur galluog "Methodistiaeth Cymru" a draetha ar y pethau rhyfedd hyn fel y canlyn:—

"Amgylchiad hynod oedd, bod y cyffro diwygiadol wedi cychwyn yn Lloegr a Chymru tu a'r un amser, a hyny heb un ymgynghoriad nac ymgynghreiriad o eiddo'r diwygwyr â'u gilydd. Daeth H. Harris dan yr argyhoeddiad am ei gyflwr yn y flwyddyn 1735, a dechreuodd bregethu yn deithiol yn 1737.‖ Yr oedd hyn ychydig o flaen Whitfield a Wesley. Am Rowlands, y mae sicrwydd ei fod ef yn pregethu yn llwyddiannus yn 1738, gan y gwneir crybwylliad am dano, fel cydweithiwr grymus, gan Harris ei hun yn ei ddyddlyfr. Yn y flwyddyn ganlynol, yr oedd y diwygiad yn sir Aberteifi wedi ennill cryn lawer o dir, a phrofid gradd o'i effeithiau yn sir Gaerfyrddin. Gwelwn, wrth hyn, fod Harris a Rowlands [a Howel Davies] wedi eu cyffroi tu a'r un adeg o amser. Wele gawodydd o wlaw graslawn wedi disgyn ar y llanerchau hyn yng Nghymru ddiffrwyth ar yr un amser. Aeth y cwmmwl bendithiol rhagddo, ac arllwysodd drachefn o'i gynhwysiad gogoneddus ar Loegr gras; a'r anialwch a'r anghyfanneddle a lawenychasant, a'r diffeithwch hefyd a orfoleddodd ac a flodeuodd fel rhosyn.

"Pa gyfrif a ellir ei roddi am y cyd-amseriad hwn? Pa gyfrif hefyd? Ond bod yr amser i drugarhau wrth Sïon wedi dyfod. Nid oedd yma neb i beri dylanwad ar arall, ac ni allai y naill gipio'r cyffro oddi wrth y llall. Yr oeddynt yn rhy bell oddi wrth eu gilydd. Ni wyddai y Diwygwyr Cymreig ddim oddi wrth y rhai Seisnig, na'r rhai Seisnig ddim oddi wrth y rhai Cymreig; ïe, yn wir, ni wyddai y naill Gymro ddim am y Cymro arall. Nid oes gyfrif i'w roi am hyn, ond bod yr un Yspryd wedi disgyn arnynt oll. Prawf hyn fod yr un Yspryd ag a roddwyd i Wroth, Cradoc, a Vavasor Powel, etto yngweddill gan yr Iesu, a'i fod wedi penderfynu na chai'r gelyn ddim gorfoleddu yn dragywydd. Ac nid yn unig yr oeddynt yn cyd-daro o ran amser, ond hefyd o ran grym y weinidogaeth, a natur ei heffeithiau. Yr oeddynt oll wedi eu meddiannu gan yr un eiddigedd tanllyd: aent allan yn 'gedyrn o nerth gan Yspryd yr Arglwydd,' ac nid oedd dim yn sefyll o'u blaen. Gwnaed hwy yn 'ddrych i'r byd, ac i angylion, ac i ddynion.' Safent ym mron yn unig, ac heb eu cyffelyb, ynghanol cenhedlaeth ddrwg a throfaus. Nid oedd neb o'u hamgylch o gyffelyb feddwl. Y llwybr a gerddent oedd unig a disathr. Nid oedd cywair eu hysprydoedd na chyfeiriad eu camrau yn cyd-daro â'r eiddo neb ond â'u gilydd. Os edrychent, ar y naill law, ar y gwŷr llên, sef y clerigwyr o'u hamgylch, ni chaent ond y gwrthwynebiad ffyrnicaf; ac os, ar y llaw arall, yr edrychent ar yr ychydig weinidogion Ymneillduedig a allent fod yn eu cyrraedd, nid oedd yno, ychwaith, nemmawr fwy na ffurf. Yr oedd yr Yspryd a ddisgynodd arnynt, gan hyny, yn Yspryd dïeithrol i'n byd ni. Y zel a'u hysai hwy oedd gair Duw, fel tân wedi ei gau o fewn eu hesgyrn, ac ni allent ymattal. Dygid hwy ym mlaen gan rym aruthrol, yr hwn a'u cymhwysai i gyflawni pethau anhygoel ac anghyffredin. Nerth o'r uchelder oedd wedi eu gwisgo, y fath na ellir ei ddisgrifio, ac anhreuthol uwch law i neb allu ei ddynwared.

"Nid oedd yma un *olyniad* i'w gilydd. Nid llaw un oedd wedi cyfleu i arall y ddawn hon; ond derbyniai pob un y ddawn o lygad y ffynnon. Bedyddiwyd hwy oll i'r un Yspryd. Yr oedd yma radd o amrywiaeth yn amgylchiadau cychwynol pob un; etto, bwrid hwy oll i'r un ddelw, a llenwid hwy oll â'r un eiddigedd. Nid oedd amgylchiadau Whitfield a Wesley yn Lloegr yn gyffelyb i'r eiddo eu brodyr yng Nghymru; ac nid oedd amgylchiadau Harris a Rowlands yn unffurf; etto, parodd yr ymweliad a gawsant effeithau cyffelyb arnynt oll. Y peth hynod a'u nodweddai hwy oedd *bywyd*. Yr oedd y bobl o'u hamgylch yn gorwedd ym mro a chysgod angau. Nid oedd bywyd yng weinidogaeth y rhai a gyfrifid yn athrawon. Ffurf a phroffes difywyd a diserch oedd crefydd yr oes. Ond yn y Diwygwyr yr oedd bywyd. Nid llythyren hen oedd yr athrawiaeth yn eu genau hwy; ond yspryd yn bywhau. Nid proffes o beth, fel gwisg am danynt, oedd ganddynt hwy; ond bywyd ei hun oedd ynddynt. Dichon fod gan ambell un arall iachusrwydd athrawiaeth, ehangder gwybodaeth, a threfnusrwydd rheol, etto heb fywyd. Nid oes genym air cymhwysach i osod allan brif nodwedd y Diwygwyr, na'r gair BYWYD. Yr oedd crefydd yn *fyw* yn eu calonau; gweinidogaeth yr

* Morgan's Life and Times of H. Harris, pp. 5–14.

† Evangelical Mag. for 1814, p. 338.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 379.

§ The Welsh Calvin. Method. Record for 1852, p. 24; Morgan's Minist. Records, part i.

‖ Digwyddodd hyn, fel y gwelsom, ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo ddechrau sefydlu'r cyfeillachau crefyddol cyntaf.

Digitized by Google

efengyl yn *fyw* yn eu genau; a sancteiddrwydd yn *fyw* yn eu rhodiad." *

Aeth Howel Harris ar deithiau pregethwrol trwy Ogledd Cymru yn 1739, 1740, ac yn 1741, yr hyn a gynhyrfodd yr Eglwyswyr i'w erlid a'i faeddu hyd y gallent; ond gadawodd ei bregethau tanllyd argraph annileadwy ar lïaws yn y wlad, ac y mae'n ddilys ddïammau mai efe a fu yn foddion i osod sylfaen Methodistiaeth i lawr yng Ngwynedd, cystal ag yn y Deheubarth. Erbyn 1742, yr oedd deg o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig wedi eu deffro trwy bregethiad Howel Harris, Daniel Rowlands, a Howel Davies, ac yn cofleidio'r drefn deithiol, Fethodistaidd, o bregethu. Ond gan mai Eglwyswyr urddedig, clerigol, oedd holl gychwynwyr y diwygiad Methodistaidd, a'u bod yn credu, oddi ar ragfarn dygiad i fynu, nad oedd neb wir gymmwys i bregethu, tori bara, a bedyddio, ond rhai wedi cael urddau esgobol; a chan fod amryw wŷr llëyg weithian, yn ol esampl Harris, yn troi allan i bregethu, penderfynodd y clerigwyr eiddigus ddefnyddio moddion i attal yr hyn a ystyrient hwy yn anhrefn, rhag iddo fyned yn rhy bell. Er mwyn cyrraedd yr amcan anysgrythyrol yma, dechreuodd y clerigwyr ymgynnull unwaith yn y mis, neu unwaith yn y deufis, yn absennoldeb yr eglwysi, mor forau ag 1740, er mwyn awdurdodi neu wrthod pregethwyr llëyg a gynhygient eu gwasanaeth i'r achos. Dyma ddechreuad cyfarfodydd misol a chymdeithasfa (Sasiwn) chwarterol y Methodistiaid yng Nghymru.

Dywedir i WILLIAM WILLIAMS, o Bant-y-Celyn, "peraidd ganiedydd Cymru," gael ei argyhoeddi dan bregeth Howel Harris yn y flwyddyn 1738, pan oedd efe yn 21 oed, ac urddwyd ef yn ddïacon yn yr Eglwys Sefydledig yn 1740, pan oedd yn 23 oed. Yn lled fuan ar ol iddo gael ei wneud yn "offeiriad hanner pan," fel y galwai Goronwy Owen urdd dïacon, efe a aeth allan, dros derfynau y llan, ar annogaeth Whitfield, ac yn ol esampl ei "dad" yng Nghrist, fel y galwai efe Howel Harris, i "bregethu y gair," ac i gymmell ei gydwladwyr i "ffoi rhag y llid a fydd;" a phan ymgeisiodd am urdd offeiriad, gwrthododd y Dr. Nicholas Claget, Esgob Seisnig Tŷ Ddewi, gydsynio â'i gais, o blegid iddo "beidio rhoi arwydd y groes wrth fedyddio; peidio darllen rhyw ranau o'r gwasanaeth; myned i'r prif-ffyrdd a'r caeau i bregethu;" a rhyw 16 o bechodau eraill cyffelyb, am y rhai y soniai'r bardd hyd ddiwedd ei oes "gyd â llawer o ddifyrwch." Williams "oedd yr offeiriad [y dïacon] a droes allan gyntaf o'r Eglwys [Wladol] ymhlith tadau y Methodistiaid yng Nghymru," a gwasanaethodd ei genedl fel pregethwr, bardd, a llenor, yn ddiwyd ac effeithiol mewn undeb â hwynt hyd derfyn ei fywyd; ac fel bardd Cristionogol, ni chyfododd neb, hyd yn hyn, mewn unrhyw wlad, yn rhagori arno.†

Ar y 5med a'r 6ed o Ionawr, 1742, cynhaliwyd y Gymdeithasfa Fethodistaidd gyntaf yng Nghymru, yn Watford,‡ lle yr oedd pedwar o Eglwyswyr mewn urddau esgobol, sef George Whitfield, Daniel Rowlands, William Williams, a John Price, ynghyd â deg o bregethwyr di urddau esgobol, o ba rai y penaf oedd Howel Harris. George Whitfield a ddewiswyd yn gymmedrolwr. "Yna ymddangosai mai ewyllys yr Arglwydd, trwy *undeb* goleuni yr holl frodyr, ar ol disgwyl wrtho ef yn ostyngedig, a dadlau yr holl bwngc, oedd, mai arolygwyr (*superintendents*) a chynghorwyr anghyhoedd y dylai'r drefn fod ymhlith y brodyr llëyg; y dylai Howel Harris eu harolygu hwynt oll; ac y dylai y gweinidogion ordeiniedig fyned o amgylch cyn belled ag y gallont; y dylai fod gan bob un o'r arolygwyr gylchdaith bennodol; ac mai un neu ddwy gymdiethas (*seiat*) yn unig a ddylai gael eu harolygu gan gynghorwyr anghyhoedd, a dilyn eu galwedigaeth gyffredin." § Yn y gymdeithasfa dan sylw penderfynwyd ar y pethau canlynol:—

"1. Bod Herbert Jenkins, James Beaumont [Bômont], Thomas James, Morgan John Lewis, Benjamin Thomas, John Jones, a Thomas Lewis, i fod yn gynghorwyr cyhoeddus.

"2. Bod Richard Tibbott i fod yn ymwelwr cyffredinol â'r mân gyfarfodydd eglwysig (*bands*) cyfrinachol neu neillduol.

"3. Bod pedwar ar hugain o frodyr, dan eu henwau, i fod yn gynghorwyr anghyhoedd.

"4. Bod y brodyr a betrusant dderbyn y cymmun yn yr

* Method. Cymru, cyf. i., t. 61–2.

† Trysorfa, cyf. ii., t. 443; Method. Cymru, cyf. i., t. 77–9; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 379.

‡ "Watfford [Water-ford] sydd enw capel Presbyteraidd neu Annibynol ger llaw Caerphili, sir Forganwg. Y mae yma gynnulleidfa flodeuog er dyddiau y gweinidogion diswyddedig. Cyflwynodd Mr. Dafydd Williams, yr hwn a ymsefydlodd fel bugail arni o gylch 1733, Mr. Howel Harris i'r bobl yn 1738. Pa wedd bynag, bu Methodistiaeth yn ffynhonell gofid mawr iddo ef a'i eglwys. Ymranodd yr eglwys cyn bo hir ar ol cyfarfod y Gymdeithasfa, ac ymneillduodd y blaid a gofleidiodd Fethodistiaeth, a chyfododd gapel yn y Groes Wen, tu a dwy filltir o Watfford. Gan fod ynddynt ormod fyth o duedd at Anghydffurfiaeth i ddilyn y Methodistiaid clerigol ymhob peth, ordeiniasant Mr. William Edwards, aelod o'u cymdeithas, i fod yn fugail iddynt. Daeth Mr. D. Williams, ar ol ymrwygiad ei eglwys, yn sur ei feddwl, nid yn unig at y Methodistiaid, ond hefyd at bob Anghydffurfwyr efengylaidd penderfynol Tybir ei fod yn Belagiad, os nad yn Ariad, yn ei flynyddoedd diweddaf. Bu farw yn oedranus ar y 6ed o Ebrill, 1784."—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 387, note *.

§ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 387.

Digitized by Google

Eglwys [Wladol] o blegid annuwioldeb y gweinyddwyr a'r derbynwyr, ac ymhlith yr Ymneillduwyr o herwydd eu cleiarineb, barhau i'w dderbyn yn yr Eglwys hyd oni agoro yr Arglwydd ffordd amlwg i adael ei chymmundeb.

"5. Na fyddai i'r un cynghorwr gael ei gyfrif yn un o honom ni, ond a brofid ac a gymmeradwyid; ac na fyddai i neb fyned hwnt i'w derfynau pennodol, heb ymgynghoriad blaenorol.

"6. Bod i bob cynghorwr ddwyn hanes ei gymdeithasau priodol, ac o'r rhai a dderbynir iddynt, i'r gymdeithasfa nesaf, yr hon a gynhelir y Mercher cyntaf ar ol y 25med o Fawrth, 1743."*

Ar ol y gymdeithasfa grybwylledig, yn 1742, cynhaliwyd cyfarfodydd o'r swyddogion yn Chwefror a Mawrth, yn Llanddeusant a Glan-yr-afonddu, yn sir Gaerfyrddin; Trefeca a Llanwrtyd, yn sir Benfro; a'r Dyffryn, yn sir Feirionydd; a chynhaliwyd Ail Gymmanfa Gyffredinol yn Watfford ar y 6ed o Ebrill, 1743, lle y dewiswyd Whitfield, fel o'r blaen, yn gymmedrolwr. Derbyniwyd yr amryw gynnygiadau y cyttunwyd arnynt yn y cyfarfodydd rhag-grybwylledig: enwyd y pregethwyr, neu'r gweinidogion, appwyntiedig i wahanol gylchoedd, ynghyd a'r cynghorwyr anghyhoedd, neu'r goruchwylwyr oedd i'w cynnorthwyo. Dosparthwyd holl siroedd y Deheubarth a sir Drefaldwyn yn gylchdeithiau i'r amrywiol swyddogion hunan-etholiedig hyn. Cyttunwyd hefyd yn y gymmanfa hon fel y canlyn:—

"Bod yr arolygwyr at eu rhyddid i bregethu ar eu teithiau; bod Harris i arolygu dros Gymru oll, ac i fyned i Loegr pan elwid am dano; a rhaid i bawb a dybiont iddynt gael eu galw i gynghori wneud deisyfiad at un o'r Cymmanfaoedd Misol, gan y rhai yr ymchwilir yn fanwl i'w doniau, eu grasusau, a'u galwedigaeth; ac, os cymmeradwyir hwy, bod iddynt gael y cyfryw gylchdaith ag a farno'r Gymmanfa yn briodol, ac y rhaid i'r *cymmeradwyad* gael ei anfon i'r Gymmanfa Gyffredinol: bod yr arolygwyr i anfon *hanes* yr hyn a wnaeth Duw yn eu cylchdeithiau neillduol i Lundain bob mis, wedi ei chyfeirio at Mr. J. Simms, Charles Square, Hoxton, i weinidog y Tabernacl.† Bod i bob arolygwr gael llyfr, yn yr hwn yr ysgrifena enw pob un o'u cynghorwyr anghyhoedd, ac enw pob un o aelodau eu cymdeithas neillduol, ac adrodd sefyllfa pob cymdeithas i'r Gymmanfa Gyffredinol.

"Bod y Gymmanfa Chwarterol Gyffredinol nesaf i gael ei chynnal yn Nhrefeca, ar y dydd Mercher cyntaf ar ol Gŵyl Ifan: bod *ysgrifenydd* i gael ei ddewis i bob cyfarfod misol, yr hwn a ysgrifena fanylion y gweithrediadau mewn llyfr: bod Cymmanfa Fisol i gael ei chynnal ymhob sir o'r Deheubarth: bod y Cymmanfaoedd Misol i gynnwys gweinidog ordeiniedig fel cymmedrolwr, arolygwr y gylchdaith, a'i gynnorthwywyr: bod pob Cymmanfa i ddechrau a diweddu gyd â gweddi: bod yr holl arolygwyr i fod yn bresennol, a hyd yn oed y cynghorwyr anghyhoedd: na wiw i'r cynghorwyr anghyhoedd, yn eu teithiau, anfon eu cyhoeddiadau, neu rybuddion i bregethu i un man, namyn llefaru mewn rhyw dai anghyhoedd i'r teulu a'r cymmydogion, os dymunir arnynt. Agorwyd y Gymmanfa â gweddi, a phregeth gan y Parch. G. Whitfield, gyd â grym mawr, ar 'A rhodiodd Enoch gyd â Duw.' Dygwyd yr holl Gymmanfa ym mlaen gyd â mawr undeb a chariad. Ymadawodd y brodyr a'u gilydd, gan ogoneddu a bendithio Duw am yr hyn a wnaethai, a chan ddisgwyl yn hyderus am weled pethau gwell."‡

Y mae'r Cymmanfaoedd neu'r Cyfarfodydd Misol wedi eu cynnal ymhob sir o'r flwyddyn 1742 hyd yn awr, a'r Gymmanfa Gyffredinol o'r holl siroedd unwaith bob chwarter blwyddyn. Ar ol sefydlu y Corph Methodistaidd fel hyn, parhaodd byth wedyn, oddigerth rhwystrau achlysurol, i gynhyddu yn sefydlog, ac weithiau yn bur gyflym. Ymunodd amryw glerigwyr, mwy neu lai enwog am eu gras a'u doniau, â'r Corph o bryd i bryd. Y mwyaf clodfawr ac ehangaf ei ddefnyddioldeb o'r sawl oedd Peter Williams, Dafydd Jones, Llangau, a Thomas Charles y Bala. Daeth y cyntaf yn aelod o'r Gymmanfa yn 1746, yn ail yn 1768, a'r trydydd yn 1785.

Ymddengys nad oedd arweinwyr cyntaf y symmudiad Methodistaidd erioed wedi meddwl am sefydlu enwad newydd. Eu hunig amcan hwy oedd dwyn adfywiad crefyddol i'r Eglwys Sefydledig; ond gan fod y moddion a arferent yn *anghanonaidd*, ni chyfarfyddent â dim ond anghefnowgrwydd a gwrthwynebiad ffyrnig oddi wrth urddasolion eu Heglwys eu hunain; ac ar y llaw arall, yr oedd eu hymlyniad wrth yr Eglwys Sefydledig yn peru i'r ychydig Ymneillduwyr oedd yn y wlad (yn y Deheubarth gan mwyaf o lawer§), yn peru iddynt hwythau ymgadw oddi wrthynt i raddau pell, rhag niweidio Anghydffurfiaeth. O herwydd paham, yr oeddynt mewn sefyllfa bur ddyrys; ac yr oedd y ddau ddosparth gwahanol, a braidd anghyttunol, o'r sawl yr oedd eu cymdeithasau yn gynnwysedig, yn enwedig mewn rhai parthau o'r Deheubarth, yn tueddu i fwyhau nid ychydig ar eu hanhawsderau. Yr oedd un o'r dosparthau hyn yn gynnwysedig o rai wedi eu dwyn i fynu ymhlith yr Anghydffurfwyr, ac yn gyffredin yr oeddynt wedi eu haddysgu yn dda mewn gwybodaeth grefyddol. Y dosparth arall a gynhwysai y minteioedd anghrefyddol a argyhoeddasid trwy bregethiad Harris, Rowlands, a'r clerigwyr Methodistaidd eraill. Ys-

* Method. Cymru, cyf. i., t. 161-2; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 387-8.

† "I'w ddodi yn y *Weekly History*, o bossibl."—Y Dr. T. Rees.

‡ Morgan's Life and Times of H. Harris, pp. 96-100; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 389, 390.

§ "Ar ddechreuad 1700, dywedir nad oedd ond chwech o gapelau ganddynt [sef gan yr Ymneillduwyr] yn y Gogledd, a deg ar hugain yn y Deheubarth. Ac er i aml seren ddisglair ymddangos yn ffurfafen Ymneillduaeth, o ddyddiau Mr. Wroth i waered; etto, llawer o'r rhai disgleiriaf a fachludasant yn angau; a'r gweddill, gan mwyaf, a orchuddiasid gan lenni duon o ddifrawder a chleiarineb. Yr oedd yr ychydig dduwiolion Ymneillduol yn ychydig o rif, fel lloffion grawnwin, ac yn llwfr a digalon gan y gorthrymder a'r gwarth y darostyngid hwy iddo, oddi wrth fonheddig a gwreng."—*Method. Cymru*, t. 48.—Ychydig iawn hefyd a fu eu cynnydd nes y dechreuodd Methodistiaeth, fel y ceir gweled rhag llaw.

Digitized by Google

Gyd â golwg ar yr un pwngc, dywed yr awdur fel hyn:—

"Ymddengys i mi, wedi'r cwbl, nad oedd undeb Methodistiaeth âg Eglwys Loegr yn yr amser nesaf ati, ond arwynebol ac mewn enw yn unig; ïe, a bod elfenau Ymneillduaeth yn hanfodol yn yr ysgogiad cyntaf, er cymmaint a broffesid yn y gwrthwyneb. Yr oedd elfenau Ymneillduaeth yn gorwedd yn ddwfn, pryd yr oedd y cydffurfiad yn fwy arwynebol; ac fel yr oedd yr ysgogiad yn cerdded ym mlaen, teimlwyd yn fwy effeithiol oddi wrth ddylanwad yr egwyddorion gwreiddiol, pryd y teimlid lleilai, o bryd i bryd, oddi wrth y broffes allanol. Yr oedd gwaith Howel Harris yn myned o amgylch y wlad i bregethu, heb ei awdurdodi a'i urddo gan Esgob [Eglwys Loegr], yn afreolaidd ac anghanonaidd, yn ol trefniadau yr Eglwys y proffesai efe ei hun yn aelod o honi. Yn neillduol, yr oedd ymgorphori, fel y gwnaed yn y fl. 1742, yn gyfundeb o bobl; i osod swyddogion, ac i chwilio cymmwysderau; i benderfynu ar drefniadau a rheolau i ysgogi wrthynt; a hyny heb un math o ymgynghoriad âg Esgobion [gwladol] y gwledydd; yn ymhoniad o hawl nad yw Eglwys Loegr erioed etto wedi ei ganiatâu i neb ond i'r sawl a ymneillduasant oddi wrthi. Cam pellach fyth mewn enciliad drachefn oedd adeiladu capelau, a chydbregethu ynddynt â rhai di-urddau. Addefir bod syniadau athrawieuthol y Diwygwyr yn gysson âg erthyclau yr Eglwys [Wladol]; ond gall hyny fod er ymneillduo: yr oedd parch yn aros i'w gweddïau, a ffurf ei gwasanaeth: y mae hyn i'w gael etto lle y mae Ymneillduaeth yn ffynnu. Nid mewn gwrthdarawiad i athrawiaeth yr erthyclau, ac nid cymmaint mewn gwrthodiad o'i gweddïau a'i gwasanaeth, y mae Ymneillduaeth yn gynnwysedig; ond mewn *ymddïosg oddi wrth awdurdod esgob*, fel y mae'r esgob yn gyssylltiedig â'r Eglwys Wladol. Bwrw ymaith iau yr Esgob [Gwladol] ydyw egwyddor Ymneillduaeth; a hyn a wnaeth y tadau Methodistaidd o'r dechreuad. Ofer ydyw heuru mai gweinidogion urddedig gan Esgob [Gwladol] oedd yn gweinyddu y sacramentau i'r holl aelodau, ac nid neb arall, o blegid yr oedd gweinyddiadau mor bwysig ag ydyw y sacramentau wedi eu gosod yn nwylaw dynion heb un urddiad esgobawl erioed wedi bod arnynt; a'r dynion hyn oedd y gweithwyr amlaf o lawer yn y cyfundeb, a'r pregethwyr mwyaf eu dylanwad, oddi eithr ychydig eithriaid, o neb yn y cyfundeb. Ymha beth, ynte, yr oedd yr undeb âg Eglwys Loegr yn gynnwysedig? Nid mewn cyssegriad esgobawl o'u capelau, nac mewn urddiad esgobawl o'u pregethwyr, nac mewn awdurdodiad esgobawl o'u cynnadleddau, nac mewn cymmeradwyaeth esgobawl o'u trefniadau. Ymha beth, ynte? Yr oedd y digwygwyr yn benderfynol o'r dechrau nad ymostyngent i awdurdod yr un esgob, os ceisiai ganddynt beidio a phregethu, neu beidio a theithio, neu beidio a phregethu mewn lleoedd anghyssegredig, neu allan o'u plwyfydd; neu os galwai efe arnynt i beidio cydgyfarfod i osod rheolau a threfniadau, heb eu gosod yn gyntaf ger ei fron ef am gymmeradwyaeth: mewn gair, yr oedd yr holl ysgogiad o'r dechreuad wedi ei sylfeunu ar yr egwyddor o fwrw ymaith iau yr esgob. Ac ar ol ymgyfarfod mewn cymdeithasfa, a chymmeryd mewn llaw y gwaith o osod deddfau, a galw gweinidogion, heb gyfarch neb ond Crist ei hun, fel Pen yr eglwys, ofer yw siarad mwyach am undeb gwirioneddol âg Eglwys Loegr."*

Fel yr oedd y Corph Methodistaidd yn heneiddio ac yn cynhyddu, yr oedd anesmwythder y pregethwyr di urddau esgobol ac eraill, ynghylch eu hymlyniad rhy dyn wrth yr Eglwys Wladol, yn mwyhau yn wastadol. Ceir y mynegiad canlynol mewn ysgriflaw a amserwyd y 26ed o Fai, 1744, ymhen tu a phum wythnos ar ol y Gymmanfa a gynhaliwyd yng Nglan-yr-afon-ddu:—

"Galwodd fy nghyfaill, Thomas Williams, yn ein tŷ, a chefais ymddiddan maith gyd âg ef. Dywedodd wrthyf, ym mysg pethau eraill, bod y Methodistiaid oll wedi cyttuno unwaith i ymneillduo oddi wrth Eglwys Loegr, oddi eithr Mr. Howel Harris, yr hwn a wrthwynebodd yr amcan â'i holl nerth."†

Llawnodwyd llythyr ar y 30fed o Fawrth, 1745, gan bump o "gynghorwyr" yn sir Forganwg, sef Thomas Price (Prys), William Edward (yr archadeiladydd enwog), Thomas William, John Belcher, ac Evan Thomas, yr hwn lythyr a anfonwyd i'r Gymdeithasfa a gynhaliwyd yn Ebrill yr un flwyddyn, yn Nghaio, sir Gaerfyrddin, yn yr hwn y dadleuir sefyllfa amddifaid y cyfeillachau neillduol, o ddiffyg "gweinidogion ordeiniedig i weinyddu yr ordinhadau," fel rheswm dros i'r clerigwyr ordeinio rhai o'r pregethwyr. Nid yw hyspys pa fodd y derbyniwyd y llythyr hwn gan y Gymdeithasfa; ond gellir casglu na chafodd yr ymgeiswyr fawr o foddlonrwydd fel atteb i'w llythyr, os cawsant atteb o gwbl, canys yr oedd yr hen offeiriaid Methodistaidd mor eiddigus rhag i neb fwynhau eu hawl-freintiau hwy, ond a gaffai urddau esgobol, ag ydyw eu holynwyr clerigol ym mysg y sectau yn awr, rhag i neb sangu ar eu tir cyssegredig hwythau, ond a gaffo "urddau gan weinidogion ordeiniedig." Pa wedd bynag, ni roddodd yr eglwys fechan yn y Gwestty Newydd mo'i chais i fynu, canys wedi hir ddisgwyl wrth y Gymdeithasfa, heb gael dim boddlonrwydd, cyttunasant ar y cynllun canlynol:—

"Penderfynasant, gan hyny, wedi ymgynghori yn bwyllog â'u gilydd, ac wedi ceisio cyfarwyddyd yr Hwn a bïodd y gwaith, i anfon at y Parch. D. Rowlands, ac i erchi am ei gyngor a'i gyfarwyddyd. Yntau, wedi gwrando arnynt, a dwys ystyried yr amgylchiadau, a'u cynghorodd i alw Morgan John Lewis yn weinidog iddynt, a'i ordeinio eu hunain trwy ympryd a gweddi, gan ddatgan y byddai i weddi'r ffydd fod yn llawer mwy effeithiol na dwylaw un esgob dan haul.‡ Anfonodd hefyd lythyr at Morgan John Lewis i'w gynghori i gydsynio â'u cais. Hwn, y mae'n debyg, oedd yr ordeiniad cyntaf a fu erioed mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid.

"Felly, ar ddydd y Sulgwyn, yn y flwyddyn 1756, ymgynhullodd yr holl aelodau. Wedi darllen yn gyntaf ranau o'r gair, canu, a gweddïo, adroddodd y pregethwr grynhodeb o'i gredo ar goedd y gynnulleidfa. Ar ol hyn, gofynwyd am arwydd, gan yr eglwys, trwy godi eu deheulaw, i ddynodi eu dewisiad o hono. Yna un o'r blaenor-

* Method. Cymru, cyf. i., t. 183–4.

† Thomas Morgan's MSS.; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 392.—Gwel hanes Thomas Morgan rhag llaw yn y gwaith hwn.

‡ Dengys hyn nad oedd gan Daniel Rowlands ddim meddwl o ordeiniad esgob mor forau ag o gylch 1755; er hyny, cadwodd efe ei le yn yr Eglwys Wladol cyhyd fyth ag y gallodd, sef hyd 1763, pan y bwriwyd ef allan ar ei waethaf. Pa resymau oedd ganddo dros y fath ymddygiad rhyfedd, gwell i ni bellach beidio dyfalu.



Digitized by Google

iaid a gyfododd, ac a gyhoeddodd Morgan John Lewis yn weinidog dros Grist, i Eglwys y Gwestty Newydd, ac i gymmeryd ei gofal yn yr Arglwydd. Y gweddill o'r dydd a dreuliwyd mewn ympryd a gweddi, gan daer erfyn ar i gymmeradwyaeth Duw gael ei roddi megis sêl wrth yr hyn a wnaed, ac i gawodydd bendith ddisgyn ar y pregethwr a'r gynnulleidfa.

"Mawr y cyffro a barodd yr ordeiniad hwn, nid yn unig ym mysg y Methodistiaid gymmaint, ond ymhlith Eglwyswyr, Annibynwyr, a Bedyddwyr; a 'llawer o ddieithrwch, chwerwder, anfrawdgarwch, a dirmyg,' medd y gweinidog ei hun, 'a daflwyd arnom gan amryw, ac fe'n gwrthwynebwyd yn gyhoeddus y cyfle cyntaf a gafwyd; ond y mae'r ffordd yr ydym ni wedi ei phroffesu yn ymddangos i ni yn fwy cydsyniol â threfn yr efengyl, ac yn atteb y diben yn well, ar y dewisiad cyhoeddus, neu *ordinasiwn* gweinidogion. Dymunwn i'r Arglwydd ein cynnorthwyo bawb i gyd-oddef ein gilydd mewn cariad.' Codwyd y brawddegau hyn allan o'r Rhagdraith a osododd Morgan John Lewis o flaen Cyffes ei Ffydd, yr hwn a argraphodd, fel y gallai pawb weled pa egwyddorion a broffesai. Yr oedd hyn yn angenrheidiol, tybygid, gan gynnifer o chwedlau a ledeunid am dano, a chan mor ddisail oedd llawer o honynt. Barnasai hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoddi taw ar yr enllibwyr, ac er mwyn hyspysiad i'r sawl a allai ddymuno ymgyssylltu o bryd i bryd âg Eglwys y Gwestty Newydd."*

Dywed y Dr. T. Rees yr ordeiniwyd, o gylch yr un amser, "Mr. Edwards, Mr. Dafydd Williams, o Lysfronydd, Mr. Thomas Walters, o Fynyddislwyn, a rhyw gynghorwyr eraill, nid gan y glerigiaeth Fethodistaidd, ond gan ddīaconiaid [blaenoriaid] eu heglwysydd eu hunain." "Parhaodd y gweinidogion hyn," eb efe, "i gymdeithasu â'r Methodistiaid cyhyd ag y buant byw; ond y mae eu heglwysi wedi ymuno er ys talm â'r Annibynwyr."†

Ychydig o gynnydd a wneuthai Methodistiaeth hyd yn hyn yng Ngwynedd; ond yr oedd yno amryw gynghorwyr yn pregethu yn ddiwyd mewn gwahanol barthau o'r wlad, megis Lewis Ifan, Llanllugan, a Thomas Meredith, Mochdre, yn sir Drefaldwyn; John Richard, Bryniog, Llanrwst; Evan Jones, Adwy'r Clawdd; Morgan a Hugh Gruffydd, Lleyn, ac eraill, ac yr oedd y nifer yn ychwanegu yn barhaus. Ymhen ennyd, dechreuwyd adeiladu capelydd yn y parth yma o'r wlad cystal ag yn y Deheubarth.

Tra'r oedd y Methodistiaid yn prysur gynhyddu yn y wlad, a phan "yr oedd rhai cannoedd o eglwysi bychain bellach yn britho De a Gogledd," dechreuodd rhai, ac yn eu plith Daniel Rowlands, fel eu harweinydd, feddwl bod syniadau Howel Harris ar berson Crist yn Sabelaidd, a gelwid ef i gyfrif yn y naill gymdeithasfa ar ol y llall o blegid ei syniadau a'i ymadroddion ar y pwngc. Y mae'n anhawdd gwybod yn fanwl pa bryd y dechreuodd D. Rowlands a'i blaid derfysgu ynghylch y matter amhenderfynol yma; ond gellir casglu oddi wrth y difyniad canlynol o lythyr a ysgrifenodd Howel Harris at George Whitfield, a amserwyd yr 16fed o Orphenaf, 1745, i'r ymyriad afreidiol ac anfad ddechrau rywbryd cyn hyny:—

"Yr wythnos ddiweddaf, bu genym gyfarfod gweinidogion a chynghorwyr, sy'n cynnorthwyo yn y gwaith, pryd yr oedd yr Arglwydd yn eu plith mewn modd neillduol. Ceuwyd *y rhwyg oedd yn debyg o gael ei wneuthur*, a gobeithaf y gwnaed hyny yn effeithiol. Boddlonwyd y brodyr a fynnent ymddadlau."‡

Yr oedd Rowlands, arweinydd y blaid bregethwrol oedd yn ymyryd â syniadau Harris, yn absennol o'r "cyfarfod gweinidogion a chynghorwyr" crybwylledig, ar ei daith yn Llundain, ac ymddengys mai hyny a barodd i'r "cyfarfod" hwnw fyned heibio mor dangnefeddus. Y mae'n amlwg mai ynghyfarfodydd y "gweinidogion a'r cynghorwyr," a gynhelid yn absennoldeb yr eglwysi, yr oedd "y rhwyg" niweidiol yn cael ei ledu yn barhaus. Ymddengys oddi wrth ddifyniad o lythyr a ysgrifenodd Harris drachefn o Lundain, ym mis Chwefror, 1746, "at frawd yng Nghaerloyw," bod ymyriad hunan-dybus Rowlands a'i blaid wedi gwneud niwaid mawr i achos crefydd ymhlith y Methodistiaid cyn hyny yn y wlad. Dyma fel y dywed Harris wrth "y brawd" crybwylledig:—

"Yn awr, y mae pethau yn myned rhagddynt yn rhwydd: y mae'r brawd Edwards wedi ymuno â ni, ac yr ydym yn ddedwydd gyd â'n gilydd. Y mae'r praidd gwasgaredig yn dechrau ail-ymgyssylltu mewn undeb. Yr ydym yn sefydlu'r gymdeithas, ac yn adsefydlu'r cyfarfodydd. Y mae drysau newyddion yn agoryd, ac angen am fwy o lafurwyr." §

Er na welwn ni ddim yn eithafol yn ymadroddion Howel Harris ei hun am y Cyfryngwr gogoneddus, fel y ceir gweled yn fanylach yn hanes y gŵr enwog rhag llaw; etto, para i ymosod arno o gymdeithasfa i gymdeithasfa a wnaeth Rowlands a'i blaid, nes o'r diwedd y chwerwodd ei yspryd yntau tu ag atynt; ac ar ol yr ymosodiad arno yng nghymdeithasfa Llanidloes yn 1751, efe a lwyr ymneillduodd oddi wrthynt, a sefydlodd achos crefyddol pur ehang, o achos lleol, yn Nhrefeca, lle y bu yn llafurio yn ddiwyd hyd derfyn ei oes. "Bu'r effeithiau o'r ymraniad yn alarus iawn," medd Mr. Charles: "aeth y bobl yn ddwy blaid, sef 'pobl Mr. Harris' a 'phobl Mr. Rowlands,' fel y galwent hwy. Aethant i ymddadlau ac ymryson â'u gilydd, hyd nes y drylliwyd y cymdeithasau

* Method. Cymru, cyf. iii., t. 21, 22, 374–5; hefyd, cyf. i., t. 448.
† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 393.
‡ Method. Cymru, cyf. i., t. 387.
§ Method. Cymru, cyf. i., t. 388.

Digitized by Google

bychain ar hyd y wlad, ac yr aeth crefydd yn gwbl i'r dim mewn llawer o ardaloedd lle yr oedd ymddangosiad golygus wedi bod unwaith."*

Gwelir mai ffrwyth y cymdeithasfaoedd, a gynhelir yn absennoldeb yr eglwysi, oedd yr ymosodiad ar Howel Harris, a'r ymraniad dinystriol a ddilynodd hyny. Ymlynodd y pregethwyr, ac o ganlyniad, wrth reswm, y gymdeithasfa, wrth Daniel Rowlands; a chan iddo ef a'i blaid barhau i *bregethu yn deithiol*, llïosogodd eu plaid yn gyflym yn lled fuan ar ol yr ymraniad, fel canlyniad naturiol o'u *pregethu teithiol*, a bu eu llïosogiad o fendith fawr i'r wlad yn gyffredinol. Cyfyngodd Howel Harris ei lafur pregethwrol, gan mwyaf o lawer, ar ol yr ymraniad, i Drefeca, a'r ardaloedd cylchynol; o ganlyniad, pan fu efe farw yn 1773, ymunodd y rhan fwyaf o'i "bobl" ef â "phobl Rowlands;" ymunodd rhyw rai âg enwadau eraill, a syrthiodd llawer i wrthgiliad.† Pe parhasai Howel Harris i bregethu yn deithiol ar ol yr ymraniad fel y gwnai efe cyn hyny, gan gefnogi pawb a allent i wneuthur yr un modd, fel y gwnaeth Eglwys Jerusalem;‡ a phe sefydlasai efe eglwysi annibynol trwy yr holl wlad, gan osod amryw o henuriaid neu esgobion anghyflogedig ymhob eglwys, yn ol y cynllun Ysgrythyrol,§ y mae pob lle i gredu y buasai'r cyfryw eglwysi mor llïosog heddyw yng Nghymru ag ydyw cymdeithasau neillduol y Methodistiaid.

Parhaodd effeithiau niweidiol yr ymraniad afreidiol a nodwyd ar y cynnulleidfaoedd bychain oedd yn britho Cymru, heb liniaru ond ychydig dros un mlynedd ar ddeg. Pa wedd bynag, gan fod Daniel Rowlands a'i blaid yn para i bregethu yn deithiol yn egnïol ac ymroddgar, fe dorodd digwygiad grymus allan o'r diwedd, yr hwn a ddarlunir yn effeithiol gan awdur "Methodistiaeth Cymru," fel y canlyn:—

"Ond tua'r fl. 1762, mwy na deng mlynedd ar ol yr ymraniad, ymddangosai arwyddion dïymwad na wrthodai yr Arglwydd ei bobl, er mwyn ei enw mawr. 'Yr amser i drugarhau wrth Sïon, ïe, yr amser nodedig a ddaeth. O blegid yr oedd ei weision yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch hi,' Ps. cii. 13, 14. Dychwelai'r llif, fel llanw mawr y môr ar ol trai isel. Cariai bob peth o'i flaen: rhoddai brawf, gan ei rym aruthrol, ei fod wedi ei anfon gan Grewr y bydoedd. Safai dynion yn syn, gan ofyn, 'Pa beth a allai hyn fod?' Ymaflai y gwirionedd ynghydwybodau dynion gwylltion, megis gwŷs oddi wrth y brenin, a rhaid oedd ymostwng. Profai y saint felusder newydd mewn gwirioneddau hen: rhoddid awch newydd yn eu gweddïau, a mwyniant hyfryd mewn ymarferiadau crefyddol. 'Pechaduriaid a ofnent yn Sïon, a dychryn a ddaliai'r rhagrithwyr.' Ieuengctid gwylltion wrth y cannoedd a adawent eu hoferedd, heb wybod yn sicr paham, ac a ymunent âg eglwys Dduw. Hen bobl wedi cynefino â gwrando yn farwaidd, a gynhyrfid megis o gwsg maith i ymofyn am loches rhag y llid a fydd. Prin y byddai, mewn ardal fawr, un teulu diweddi i'w gael, pe chwilid am dano. Am bethau byd arall y byddai yr holl ymddiddanion. Trinid y byd â'r dwylaw, ond rhoddid y serch ar bethau sydd uchod. Byddai gwedd wahanol ar agweddau dynion yn y ffeiriau a'r marchnadoedd; y tafarnau wedi eu gwacâu, a'r addoldai wedi eu gorlenwi. Bywiowgrwydd yn y canu, ac awch grymus ar y weinidogaeth [y pregethu]; gwersyll y saint yn cychwyn, a myrdd o bechaduriaid yn dywedyd, 'Awn gyd â chwi, canys gwelsom fod Duw gyd â chwi.' Beth oedd hyn ond 'Duw yn cyfodi, ei elynion yn gwasgaru, a'i gaseion yn ffoi o'i flaen.'

'Yn Llangeitho fe ddechreuodd
Weiddi distryw anwir fyd;
Miloedd ffodd o'r De a'r Gogledd,
Yn un dyrfa, yno ynghyd:
Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
Yr holl werin, fawr a mân;
Nid oedd gwedd wyneppryd un-gŵr
Fel y gwelid ef o'r bla'n.

'Gliniau'n crynu gan y daran,
Fel pe buasai angau'i hun,
Wedi cymryd llawn berchnogaeth
Ar y dyrfa bob yr un:
"Beth a wnawn am safio'n henaid?"
Oedd yr unrhyw gydsain lef;
Chwi sy am wybod hanes DANIEL,
Dyma fel dechreuodd ef.'

"Fel hyn y darluniai Williams, Pant-y-Celyn, y wedd oedd ar y diwygiad cyntaf oll, pan y torodd gwawr Methodistiaeth ar sir Aberteifi, dan weinidogaeth [dan bregethiad] grymus Rowlands, a chyffelyb ydoedd ei rym a'i effeithiau yn y fl. 1762. Ymledeunodd yr un olaf hwn ymhellach: cyrheuddodd eithafion y Gogledd; a chafwyd graddau helaeth o hono yn Lleyn, sir Gaernarfon.

"Tu a'r fl. 1762 (medd Robert Jones), yn wyneb mawr anheilyngdod a gweuledd, cofiodd Duw ei gyfammod, trwy ymweled yn rasol â *thorf fawr* o bechaduriaid ar hyd amryw o ardaloedd Cymru: cododd Haul cyfiawnder ar werin fawr oedd ym mro a chysgod angau. Yn y dyddiau hafaidd hyn gellid dywedyd, 'Wele y gauaf aeth heibio, y gwlaw a basiodd ac a aeth ymaith. Gwelwyd y blodau ar y ddeuar, daeth amser i'r adar ganu, clywyd llais y durtur yn ein gwlad.'"‖

Ymhen tu a blwyddyn ar ol y diwygiad rhyfeddol a nodwyd, sef yn 1763, trowyd Daniel Rowlands allan o'i fywioleuthau eglwysig yn Llangeitho a Nantcwnlle,¶ yr hyn, yn hollol groes i ddisgwyliad ac amcan yr Eglwyswyr, a fu o fantais ddirfawr i Fethodistiaeth, canys efe a drodd allan bellach, fel y cenhadon teithiol eraill oedd ar y maes eisoes, heb ofn na bonheddwr nac esgob, i bregethu trwy Gymru oll, yn ddiwahardd, oddi eithr gan erlidwyr achlysurol a dïawdurdod; ac ymgasglai'r Cymry wrth y cannoedd a'r miloedd i wrando arno, lle bynag y byddai; a rhyfeddol a fu effeithiau ei bregethau hyawdl a grymus ymhob

* Trysorfa, cyf. ii., t. 152.
† Trysorfa, cyf. ii., t. 142; Method. Cymru, cyf. i., t. 384, 401.
‡ Act. viii. 1, 4; xi. 19–24.
§ Act. xiv. 23; xx. 17, 28–35.

‖ Method. Cymru, cyf. i., t. 247–8; Drych yr Ams., t. 138.
¶ Method. Cymru, cyf. i., t. 357.

Digitized by Google

parth o'r wlad. Yn 1764, adeiladwyd capel ehang yn Llangeitho iddo ef a'i gynnulleidfa, ac ymdyrai miloedd yno, bob mis, i wrando arno, ac i gyfranogi o swper yr Arglwydd.

Yn 1768, agorwyd math ar athrofa yn Nhrefeca Isaf, gan yr Iarlles Huntingdon, i gymhwyso gwŷr ieuaingc i bregethu yr efengyl. Dewisodd y lle hwn, yn benaf, o blegid y credai y gallai ei hen gyfaill duwiolfrydig, Howel Harris, fod o wasanaeth mawr i'r myfyrwyr, trwy ei gynghorion, ei bregethau, a'i esamplau. Pregethodd Whitfield yno ar ddydd yr agoriad; ac ar gylchwyl agoriad y coleg yn y flwyddyn ganlynol, yr oedd Rowlands a Harris yn cydgyfarfod yn serchog, a'r naill a'r llall, ynghyd âg eraill, yn pregethu ar yr achlysur. Yr oedd yr hen ymrafael yn awr bron wedi darfod. Nis gwyddom dros ba hyd y bu'r coleg yn Nhrefeca, ac nid ydym yn gwybod i neb o brif bregethwyr y Methodistiaid gael eu dwyn i fynu ynddo. Yr oedd yr hen Fethodistiaid, o'r ail a'r drydydd oes, o leiaf, megis John Evans, Bala; Robert Roberts, Clynog; John Elias, ac eraill, yn credu, a hyny yn berffaith gywir, nad yw addysg golegol anhebgorol angenrheidiol er galluogi dŷn i "bregethu y gair," a "phregethu yr Arglwydd Iesu." Symmudwyd coleg yr Iarlles Huntingdon, ymhen rhyw ennyd, o Drefeca i Cheshunt, yn sir Hertford; o ba herwydd, nis gwyddom, oddi eithr gweled nad oedd pregethwyr Cymru yn malio dim llawer am dano.*

Yn 1770, cyhoeddodd yr enwog a'r llafurus Peter Williams ei Fibl Teuluaidd rhagorol, yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar bob pennod, ynghyd âg amryw gyfeiriadau ar ymyl y dail; ac yn fuan wedyn gwnaed ymosodiad brwnt arno, gan rai ymyrwyr hunanol ymhlith y Methodistiaid, y rhai a heurent bod ei sylwadau ar y bennod gyntaf o Efengyl Ioan yn pleidio Sabeliaeth; yr un cyhuddiad ag a ddygasid yn erbyn Howel Harris. Ymddengys bod Daniel Rowlands wedi canfod ei gamsyniad, erbyn hyn, gyd â golwg ar yr ymosodiad ar Harris; am hyny, ymunodd yn awr â Williams, Pant-y-Celyn, i amddiffyn Peter Williams, fel na feiddiodd ei erlidwyr hunandybus ei ddiarddel yn eu hoes hwynt. Ymddengys mai Nathaniel Rowlands, mab yr enwog Daniel Rowlands, "y dŷn balchaf a welsai Rowland Hill erioed," eb efe,† oedd yr ymosodwr mwyaf haerllug ar P. Williams. "Nid rhyfedd, ynte, i'w dad ddywedyd wrtho, ar ol y drafodaeth hon âg achos Peter Williams, 'Nat! Nat! ti a gondemniaist dy well.'" Bu farw D. Rowlands yn 1790, a dilynwyd ef i'r orphwysfa nefol gan "Beraidd Ganiedydd Cymru" yn 1791; ac yn y gymdeithasfa gyntaf a gynhaliwyd wedyn yn Llandeilo, yn 1792, diarddelwyd yr enwog P. Williams o gyfundeb y Methodistiaid, ac efe yn 70 oed! A gellir casglu oddi wrth amryw awgrymiadau mai gan y coegyn gan Nat. Rowlands yr oedd y llaw benaf yn yr anfadwaith, yr hwn, medd awdur tirion "Method. Cymru," "mewn amgylchiadau eraill, a ddangosodd lawer gormod o'r dŷn, a llawer rhy fychan o'r Cristion." Wele un arall o weithredoedd anfad y cynnulliadau hyny a elwir cymmanfaoedd, y gyntaf o ba rai, fel y barna haneswyr yn gyffredin, a gynhaliwyd gan y Pabyddion tu a chanol y 3edd ganrif. "Am y gŵr parchedig hwn," Peter Williams, medd awdur "Method. Cymru," "fe ddeuthai at y Methodistiaid yn forau, tu a'r fl. 1748, ac a fu'n llafurio yn eu mysg yn ddiwyd, egnïol, a llwyddiannus, am fwy na deugain mlynedd; ac nid gormod a fyddai dywedyd iddo wynebu mwy o beryglon, dïoddef mwy o galedi, ac arloesi mwy ar Gymru na neb o'i frodyr urddedig." Yn wyneb yr ymosodiad sarhaus a nodwyd arno, tosturiodd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr wrtho, a chroesawent ef i bregethu yn eu capelydd hyd ddiwedd ei oes, yr hyn sy'n arwyddo yn eglur nad oedd mor gyfeiliornus ag y mynnai ei erlidwyr hunan-dybus i'r wlad gredu ei fod. Er i'r ymosodiad haerllug a nodwyd ar y tangnefeddus a llafurus Peter Williams beri gofid dwys i lawer o oreuon y Methodistiaid; etto nid effeithiodd yn agos gymmaint ar y cyfundeb yn gyffredinol a'r ymraniad a gymmerth le mewn canlyniad i'r ymosodiad ar Howel Harris.‡

Y mae'r amgylchiadau bellach ynglyn â chynnydd Methodistiaeth yn Nghymru yn rhy lïosog i'w cofnodi oll genym yma; gan hyny rhaid i ni foddloni ar gyfeirio at rai o'r prif bethau. Bu ymuniad Thomas Charles â'r Methodistiaid, ar ei droad allan o'r Eglwys Wladol yn 1785, yn lles amhrisiadwy, nid yn unig i'r cyfundeb hwnw, ond hefyd i holl gyfundebau Cymru; ïe, ac i'r byd oll.

Yn ebrwydd ar ol i Charles ymuno â'r "Corph" y flwyddyn a nodwyd, dechreuodd sefydlu ysgolion rhad cylchynol, ar gynllun Griffith Jones, Llanddowror, i ddysgu plant tlodion i ddarllen yr

* Credoau y Byd, cyf. ii., t. 355; Gwyddoniadur, cyf. v., t. 563.
† Method. Cymru, cyf. i., t. 419, nod *.

‡ Method. Cymru, cyf. i., t. 84-7, 414-21; hefyd, y bennod ar P. Williams yn y gwaith hwn.

Digitized by Google

Ysgrythyrau yn Gymraeg. Un athraw oedd ganddo y flwyddyn honno, i'r hwn y talai o'i logell ei hun; ond trwy ei lafur diflino yn ceisio, ac yn cael, cynhorthwy gan gyfoethogion yng Nghymru a Lloegr, cynhyddodd rhifedi yr athrawon yn raddol hyd ugain o nifer. Yr oedd amryw o honynt mor anfedrus yn y gorchwyl ar y cychwyn fel y bu raid i Charles dreulio llawer o amser i'w dysgu a'u hyfforddi yn eu gwaith, yr hyn a wnaeth efe yn llwyddiannus ac am ddim.

Arweiniodd llwyddiant yr ysgolion hyn Mr. Charles i sefydlu YSGOLION SABBOTHOL ymhlith y Methodistiaid yng Nghymru, o gylch y flwyddyn fythgofiadwy, 1789, tebyg i'r rhai a sefydlasid yng Nghaerloyw gan yr enwog Robert Raikes, yn 1782. Yn ebrwydd ar ol sefydlu yr Ysgolion Sabbothol, annogodd Mr. Charles yr athrawon a'r ysgolheigion i ddysgu pennodau o'r Bibl ar dafod leferydd, a'u hadrodd yn y dosparthiadau. Daeth yr arfer ddaionus yma mor gyffredin yn lled fuan, fel y gwelodd yr ysgolion angenrhaid i sefydlu "gwrandawyr pennodau," rhag cymmeryd gormod o amser yr athrawon i'w gwrando. Gŵyr yr ysgrifenydd am un bachgen o grefftwr oedd yn yr Ysgol Sabbothol y dygwyd ef i fynu ynddi, a ddysgodd y Testament Newydd oll ar dafod leferydd, ynghyd â Llyfr Job, y Psalmau, y Diarhebion, y Pregethwr, Caniad Solomon, Esaiah, Daniel, a Malachi, heb law lliaws o bennodau yngwahanol lyfrau eraill yr Hen Destament; a diau nad oes odid neb yng Nghymru sydd fwy hyddysg nag ef yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac y mae'n cydnabod hyd heddyw mai i'r Ysgol Sabbothol y mae'n ddyledus am y wybodaeth anhebgorol angenrheidiol hon, ac mai iddi hi hefyd y mae'n ddyledus am y rhan fwyaf o'i wybodaeth yn yr iaith Gymraeg yn gyffredinol; a chredir bod canoedd, os nad miloedd, eraill yn y wlad a allant dystiolaethu yr un peth. Yr oedd rhai, yn enwedig ar gychwyniad yr Ysgolion Sabbothol, yn ammau eu hysgrythyroldeb; ond ni wyddom ni am un moddion mwy cysson â gorchymyn olaf ein Harglwydd i'w ddisgyblion, yr hwn a ddywedodd, "Ewch gan hyny a *dysgwch* yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân; gan *ddysgu* iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi. Ac wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen." Wrth weled lles a llwyddiant yr Ysgolion Sabbothol ym mysg y Methodistiaid, dechreuwyd eu cynnal, bob yn dipyn, gan yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, ac wedyn gan y Wesleyaid; ac erbyn hyn y mae hyd yn oed yr hen Eglwys Wladol yn eu cynnal mewn llawer o fanau.

Trwy gyfrwng yr Ysgol Sabbothol fendigedig, daeth Mr. Charles i weled bod prinder arswydus yn y wlad o Air Duw, yr hyn a'i cynhyrfodd, pan ar daith yn Llundain yn 1802, i ymdrechu, ymhlith cyfeillion yno, sefydlu cymdeithas er diwallu y Cymry â Biblau. Wrth ymddiddan yn ddifrifol ar y pwngc yma, sylwodd y Parch. Joseph Hughes, gweinidog y Bedyddwyr yn Battersea, megis pe buasai yn cael gweledigaeth yn y fan, od oedd y Cymry mor amddifaid o Fiblau, beth a allai fod amddifadrwydd yr holl fyd! Ac ychwanegodd "y byddai yn fuddiol iawn heleuthu y cynllun, fel ag i hyrwyddo lledeuniad cyffredinol yr Ysgrythyrau. Derbyniodd y crybwylliad gymmeradwyaeth pawb oedd yn bresennol. Dymunwyd ar Mr. Hughes barotôi cylch-lythyr, i wahodd ac annog Cristionogion o bob enw i ymuno mewn cymdeithas i anfon Gair Duw, heb nod nac esponiad, dros y byd." Gwelir wrth hyn, er mai syniad y Mr. Hughes* crybwylledig oedd ehangu gweithrediad "Y Bibl Gymdeithas" dros y bŷd, etto mai ymdrech Mr. Charles i ddiwallu y Cymry â Biblau oedd gwreiddyn y cyfan; a chydnabyddwyd hyny yn deilwng wedyn gan Gyfeisteddwyr y Gymdeithas, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf i sefydlu "Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor," yn y *London Tavern*, ar y 7fed o Fawrth, 1804, yn yr hwn yr oedd o 200 i 300 o Gristionogion o wahanol gyfundebau crefyddol yn bresennol; a thanysgrifiwyd 700p. yn y fan at gychwyn y symmudiad gogoneddus. Cydnabyddwyd gwasanaeth Mr. T. Charles i'r gymdeithas yn y llythyr canlynol a anfonwyd iddo, wedi ei amseru yr 8fed o Fawrth, 1809, a'i lawnodi gan y tri ysgrifenydd, Mr. Owen, Mr. Hughes, a'r Dr. Steinkopff:—

"Yr ydym yn eich hyspysu, gyd â theimladau o wir foddhad, eich bod, mewn cyfarfod lliosog o Gyfeisteddwyr y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, a gynhaliwyd ddydd Llun, y 6ed o'r mis hwn, mewn canlyniad i rybudd a roddwyd yn flaenorol o hyny, wedi eich ethol yn unllais yn Llywodreuthwr Anrhydeddus dros eich bywyd o'u sefydliad.

"Y mae eich gwasanaeth i'r Gymdeithas yn rhy hyspys i ofyn cael ei nodi na'i ganmol. Yr oedd y Cyfeisteddwyr yn dymuno ei hynodi trwy arwydd parhaol o'u cymmeradwyaeth. Wrth roddi eich enw lle y mae i sefyll o hyn allan, byddant yn cyflawni amcan tra dyddorol i'w teimladau, a byddant yn rhoddi yr arwydd o'u diolchgarwch yn

* Dywed rhyw "E. M.," yn "Llyfr y Jubili, gan y Parch. T. Phillips," 1854, t. 71, nod [1]—"Cefais fy hyspysu yn ddiweddar nad oedd Mr. Hughes yn enedigol o Gymru, er ei fod o haniad Cymreig."

Digitized by Google

y fan ag y bydd y gwasanaeth a'i cynhyrchodd yn cael ei goffáu yn flynyddol."

Cydnabyddir yma, yn deilwng, mai Mr. Charles a fu'n foddion, yn llaw Rhagluniaeth, i gynhyrchu "Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor," a gwnaed hyny, fel yr awgrymwyd eisoes, trwy gyfrwng yr Ysgolion Sabbothol Cymreig, o fendigedig goffadwriaeth. Y mae'r pethau gwerthfawr a fyr nodwyd eu hunain, heb son am bregethu, catecéisio, ac ysgrifeniadau duwinyddol godidog Mr. Charles, yn ddigon i wneud ei enw yn anwyl a gwerthfawr gan bob Cristion a'i clywo, ac a wypo ddim am dano, ymhob parth o'r byd adnabyddus.*

Heb law yr holl orchestion Cristionogol a nodwyd, "bu Mr. Charles, mewn cydweithrediad â'i frodyr, yn offeryn penaf i ddwyn y Corph [Methodistaidd] i'r agwedd y mae ynddi yn bresennol," trwy sefydlu "rheolau tu ag at iawn drefn a gweddeidd-dra yn eu cymdeithasfaoedd, neu gyfarfodydd chwarterol," yr hyn a wnaed "mewn cymdeithasfa a gynhaliwyd yn y Bala, Mehefin 9, 1790." Yn 1801, dan olygiad Mr. Charles etto, cyhoeddwyd "Rheolau Dysgybliaethol y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru."†

Yr oedd y Methodistiaid yng Nghymru yn ymddibynu, hyd ddechrau y flwyddyn 1811, am weinyddiad bedydd a swper yr Arglwydd, ar yr ychydig glerigwyr o Eglwys Loegr oedd wedi ymuno â hwy yn barhaus, neu a weinyddent iddynt yn achlysurol, oddi eithr yr ychydig eglwysi a nodwyd eisoes, a osodasant rai di urddau esgobol i weinyddu iddynt. Gan nad oedd y Methodistiaid y pryd hyny, ac nad ydynt etto, mwy na'r enwadau eraill, yn credu bod yr "offeiriadaeth sanctaidd," sef y credinwyr, y disgyblion, fel y cyfryw, yn gymmwys i dori bara,‡ i fedyddio,§ i bregethu,‖ ac i wneud pob gwasanaeth crefyddol arall a'r a allant, heb fyned trwy un math o seremoni o waith dynion; gan nad oedd y "Corph," meddwn, mwy nag eraill, wedi canfod hyn, yr oedd rhyw rai o honynt, er eu cychwyniad yn 1742, yn aflonyddu am roi rhyw fath o "ordeiniad" i rai o'u pregethwyr, ne'u "cynghorwyr" di urddau esgobol, er eu cymhwyso, yn ol eu barn hwy, i dori bara a bedyddio; ond yr oedd yr hen glerigwyr esgobol, yn y De a'r Gogledd, yn dra gwrthwynebus i hyny, "yn gymmaint ag y dygwyd Charles hefyd i'w rhagrith hwy" dros amser. Pa wedd bynag, fel yr oedd y "Corph" yn parhaus gynhyddu, a hyny yn gyflym, teimlid bod yr ychydig glerigwyr esgobol oedd yn eu plith yn llawer rhy annigonol i gyfarfod amgylchiadau ac anghenion yr eglwysi. O herwydd y syniad anysgrythyrol nad oedd neb yn gymmwys i fedyddio a thori bara, fel y crybwyllwyd, heb rhyw fath o urddiad, gorfodid rhieni yn fynych i gymmeryd eu plant at offeiriad y plwyf, neu weinidog Annibynol, o byddai un yn agos, i'w bedyddio; a mynych y cerddai aelodau eglwysig o bellafoedd Gwynedd i Langeitho yn eithafoedd sir Aberteifi, er mwyn cyfranogi o swper yr Arglwydd! Bu'r pethau hyn a'u cyffelyb, cyn hir, yn achos o anniddigrwydd mawr ym mysg bleunoriaid ac aelodau yr eglwysi, a daeth y mwyafrif o'r diwedd i ystyried bod neillduo rhyw nifer o "bregethwyr llëyg" y "Corph" "i weini'r ordinhadau" yn anhebgorol angenrheidiol. O herwydd paham, dygid yr achos i sylw y Gymdeithasfa Chwarterol yn fynych, yr hyn a barai ddadlau brwd, a gradd o ddrwgdeimlad, rhwng clerigwyr esgobol a "phregethwyr llëyg" y cyfundeb, ac a barai ofid dwys i'r goreuon o'r ddwy blaid. Canfu yr addfwyn Charles o'r diwedd resymoldeb cais y llëygwyr, a throdd i'w cefnogi a'u harwain yn yr ymdrech; ac "yn y cyfarfod blynyddol [y Gymdeithasfa] yn y Bala, Mehefin 19, 20, 1811," holwyd y "pregethwyr llëyg" canlynol o siroedd y Gogledd, gan T. Charles, yn ol y cynllun a geir yn "Hanes, Cyfansoddiad, Rheolau Dysgyblaethol, ynghyd â Chyffes Ffydd y Corph" (t. 42–5); ac wedi derbyn "attebion tra addas a boddlongar," neillduwyd hwynt "i weini'r ordinhadau, sef "Thomas Jones a John Davies, o sir Ddinbych; John Elias a Richard Llwyd, o sir Fon; Evan Richards, o sir Gaernarfon; John Roberts, o sir Feirionydd; Evan Griffiths a William Jones, o sir Drefaldwyn; a Robert Ellis, o sir Fflint."¶ "Mewn cyfarfod yn Llandeilo Fawr [ym mis Awst yr un flwyddyn], neillduwyd, yn yr un dull, y brodyr canlynol i weini yr ordinhadau, yn gynnorthwyol i'r offeiriaid a ymunai â hwynt, yn y parth Deheuol o'r dalaeth:—John Evans, David Rees, Arthur Evans, a David Charles, o sir Gaerfyrddin; James James, David Parry, ac Evan

* Talfyriad o Hanesyddiaeth Genhadawl, Bala, 1804; Cofiant y Parch. T. Charles, gan y Parch. T. Jones, 1816; Method. Cymru, cyf. [illegible] t. [illegible]; Llyfr y Jubili, t. 65, &c.; hefyd, Thomas Charles [illegible].

† Hanes a Chyffes Ffydd y Method. Calf., t. 29–34, 46–62.

‡ A[illegible] 44, 46, 47, xx. 7.

§ [illegible] 10, 11, 17, 18; x. 23, 46–48.

‖ [illegible] 1, 4, xi. 19–24; xviii. 24–28.

¶ "Yr oedd Mr. Robert Ellis, o sir Fflint, wedi ei neillduo at weini'r ordinhadau, gan Gorph arall, cyn ei ddyfodiad at y Methodistiaid, ond dyma'r pryd y caniatawyd iddo ddechrau gweinyddu yn y Corph hwn."

Digitized by Google

Evans, o sir Frycheiniog; Ebenezer Morris, John Thomas, ac Ebenezer Richards, o sir Aberteifi; Evan Harris, o sir Benfro; Hopkin Bevan, o sir Forganwg; a John Rees, o sir Fynwy.

Fel math ar attodiad at yr Eglwys Sefydledig yr edrychai tadau Methodistiaeth Cymru ar y sefydliad hyd yn hyn; ond parodd neillduad cynnifer o "bregethwyr llëyg i weini yr ordinhadau" i'r "Corph" ymrestru weithian yn weithredol ymhlith yr Ymneillduwyr. Y fath oedd eiddigedd hen offeiriaid esgobol y Methodistiaid dros y swydd syml o weini yr ordinhadau (yr hon nid yw fymryn cyssegredicach na gweddïo, pregethu, neu ddysgu rhai yn yr Ysgol Sul), fel y ciliodd saith o honynt yn llwyr o'r cyfundeb, herwydd iddo ddyrchafu "pregethwyr llëyg" i'r un urdd a hwy!* Dichon ped ymddygai y "Corph" yn awr yn ol yr Ysgrythyrau, trwy oddef i frodyr heb eu "neillduo" i dori bara a bedyddio, yr ymddygai llawer o'i "weinidogion" etto fel y gwnaeth y saith offeiriad gynt yn y Deheubarth, rhag maint yw awydd proffeswyr crefydd, fel eraill, am fod yn uwch a hynotach na'u brodyr. Dywedodd hen fleunor wrthym (John Jones, Capel Llanrhyddlad, dan ei enw), yr hwn a fu farw tu a 40 mlynedd yn ol yn agos i 80 oed, ei fod ef unwaith yn "Sasiwn y Bala," pan y galwyd Thomas Jones o Ddinbych (Caerwys gynt) i gyfrif, am iddo ryfygu bedyddio plentyn, ac yntau ei hun heb ei "neillduo i waith y weinidogaeth." Ymosodwyd arno mor filain gan yr offeiriaid Methodistaidd, fel y torodd Jones allan i wylo yn chwerw dost. Yna cyfododd Robert Jones, Rhos y Lan, a dododd ei law ar ben y pechadur, gan ddywedyd, "Jones, druan! Pe pechasit yn erbyn Duw, cawsit faddeuant yn y fan ar dy edifeirwch; ond gan mai yn erbyn yr offeiriaid y pechaist, yr wyf yn ofni na chei faddeuant yn dragywydd!" A hyny a derfynodd yr ymosodiad anysgrythyrol.

Cyttunwyd ar byngciau "Cyffes Ffydd y Corph o Fethodistiaid Calfinaidd yng Nghymru," mewn Cymdeithasfaoedd yn Aberystwyth a'r Bala, yn y flwyddyn 1823, y rhai, ynghyd a "Hanes, Cyfansoddiad, a Rheolau Dysgyblaethol† y Corph," a argraphwyd y tro cyntaf yn nechrau y flwyddyn 1824.

Ymhen tu a thair blynedd ar ol i'r Methodistiaid drefnu a phenderfynu eu "Cyffes Ffydd," dodasant sylwedd eu rheolau, ynghyd â'u capelydd, dan nawdd *cyfreithiau y wlad*, mewn cyfansoddiad a elwir—"Gweithred Gyfreithiol, hyspysol o Amcanion a Threfniadau Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig.—A ddyddiwyd Awst 10fed, 1826.—Wilks, *Cyfreithiwr, Finsbury Place, Llundain.*"‡—Mewn "Rhagdraith" i'r cyfieithiad Cymraeg, dywed H. Gwalchmai fel hyn:—

"Dyben y Weithred hon ydyw darlunio y Methodistiaid Calfinaidd, o ran prif byngciau eu credo, a rhoddi braslun o arddull eu cyfansoddiad a llwybr eu gweithrediadau henaduriaethol, fel na byddo achos dadlau pwy ydyw perchenogion eu capelydd."

Ar y tu arall i'r ddalen y mae'r mynegiad canlynol:—

"The English copy of this Deed has been enrolled in the High Court of Chancery, and the Welsh copy deposited in the British Museum, according to law."

Y symmudiad mawr nesaf ym mysg y Methodistiaid y dylid ei gofnodi oedd sefydlu colegau i ddwyn gwŷr ieuaingc i fynu i waith y weinidogaeth. Y cyntaf y penderfynwyd ei "anfon i athrofa, er mwyn ei berffeithio yn fwy i gadw athrofa i'r cyfundeb yn y Gogledd," ydoedd "ŵr ieuangc o alluoedd a gras, o'r enw Mr. O. Williams. Erthylodd y cais hwnw, pa fodd bynag, trwy farwolaeth Mr. Williams. Erthylodd cais arall o'r un natur a wnaed yn ddiweddar. Trwy'r siomedigaethau hyn, fe roddwyd heibio y drafodaeth am flynyddau." Ond o'r diwedd, yn 1837, fe agorwyd athrofa yn y Bala, dan arolygiaeth y Parch. Lewis Edwards, M.A. y pryd hwnw, a D.D. yn awr, o Brif Ysgol Edinburgh; a'r Parch. David Charles, B.A., o Brif Ysgol Rhydychain. Yn 1842, agorwyd athrofa yn Nhrefeca, yn hen adeilad Howel Harris, wedi ei adgyweirio, at wasanaeth y "Corph" yn Neheubarth Cymru, a symmudodd y Parch. D. Charles yno i'w harolygu. Yna dewiswyd y Parch. John Parry, D.D., o Brif Ysgol Edinburgh, i fod yn olynydd iddo yn y Bala. Parhaodd Mr. Parry yn ei swydd hyd ei

* Yr oedd deg o glerigwyr esgobol yn dilyn y "Corph" y pryd hyn yn y Deheubarth; ond nid arhosodd ond tri o honynt gyd âg ef ar ol y "neillduad," sef John Williams, mab y Bardd o Bant-y-Celyn; John Williams, o Ledrod; a Howel Howels, o Drehil. Tri offeiriad esgobol oedd gyd â'r cyfundeb yn y Gogledd ar y pryd, sef T. Charles a Simon Llwyd, o'r Bala; a William Llwyd, o Gaernarfon; a pharhaodd y tri i wasanaethu'r "Corph" yn ffyddlawn hyd ddiwedd eu hoes.

† Yr oedd "Rheolau a Dybenion y Cymdeithasau Neillduol ym mhlith y Bobl a elwir y Methodistiaid yn Nghymru" wedi cael cytuno arnynt "mewn Cymdeithasfa yn y Bala, Mehefin 16 a'r 17, 1801." Argraphwyd hwy gan W. Jones, Caerlleon; ond gan fod darn o enwadddalen y copi sydd genym ni wedi ei dori ymaith, nis gwyddom pa flwyddyn, ond y mae'n debyg iddynt gael eu hargraphu tu a diwedd 1801, neu ddechrau 1802.

‡ Fel hyn y mae'r enw yn Saesneg—"Constitutional Deed Declaratory of the Welsh Calvinistic Methodist Connexion.—Dated 10th August, 1826.—Wilks, *Solicitor*, *Finsbury Place*, *London*.—Holywell: Printed by P. M. Evans. 1873." Yr ail argraphiad ydyw hwn. Nis gwyddom pa flwyddyn y cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf.

Digitized by Google

farwolaeth yn 1874, pan y dilynwyd ef gan y Parch. Hugh Williams, M.A., o Athrofa Llundain, a'r Parch. Ellis Edwards, M.A., o Athrofa Edinburgh. Casglodd y diweddar Barch. Edward Morgan, o'r Dyffryn, sir Feirionydd, ym mysg y Methodistiaid yng Nghymru a Lloegr, y swm enfawr o gylch 26,000 er gwaddoli Athrofa y Bala, yn annibynol ar y swm mawr a gasglwyd at adeiladu y coleg yno. Pan roddes Mr. D. Charles ei swydd i fynu yng Ngholeg Trefeca yn 1865, dilynwyd ef yno gan y Parch. William Howels, M.A., o Brifysgol Llundain, a'r Parch. J. Harris Jones, M.A., o Brifysgol Glasgow, a Ph.D. o Brifysgol Heidelberg yn Germania. Clywsom yr ymdrechodd y Parch Edward Mathews, o Forganwg, gasglu cronfa gyffelyb at Goleg Trefeca ag a gasglodd Morgan at Goleg y Bala; ond methasom gael gwybod i ba raddau y llwyddodd. Os cyrheuddodd faint cronfa'r Bala, y mae'r ddwy ynghyd yn cyrraedd y swm dirfawr o 52,000.*

Y mae'r athrofau wedi bod yn foddion i'r cyfundeb wneud symmudiad pwysig arall, sef gosod bugail sefydlog, cyflogedig, mewn eglwys, neu "daith Sabbath." Y mae cryn wrthwynebiad i'r symmudiad yma gan rai o brif ddynion y cyfundeb; am hyny, nid yw yn cynhyddu ond yn lled arafaidd. Ond rhaid i ni brysuro ym mlaen.

Yn ol yr ystadegau a gyflwynwyd i'r Gymdeithasfa Gyffredinol yn Aberdâr, yr oedd cyfrifon y Methodistiaid yn 1871 yn sefyll fel hyn:—Capelau a lleoedd pregethu, 1145; gweinidogion, sef pregethwyr wedi eu hawdurdodi gan Gymdeithasfa "i weini'r ordinhadau," 449; pregethwyr heb eu hordeinio, 344; diaconiaid (*blaenoriaid*, yn ol y "Gyffes Ffydd"), 3374; cymmunwyr, 93,276; ymgeiswyr am aelodaeth, 4102; plant yn yr eglwysi, 43,274; athrawon ac athrawesau yr Ysgolion Sabbothol, 20,075; gwrandawyr, 245,316. Tybir na ddylid ystyried bod y ffugrau yna yn sefyll am *wahanol* bersonau. Y mae'r blaenoriaid, bron oll, yn athrawon yn yr Ysgolion Sabbothol; ac y maent hwy, y cymmunwyr, yr ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig, a phlant yr eglwysi, fel rheol, yn ddeiliaid o'r Ysgolion Sabbothol; ac y maent oll, ar y cyfan, yn "wrandawyr." Od ydyw y casgliad yma yn anghywir, dylai'r cyfrifwyr gymmeryd rhan o'r amryfusedd. Cyfanswm yr holl dderbyniadau arianol yn ystod y flwyddyn 1871, at wahanol achosion, oedd 115,336p. 6s. 10c; ac o'r cyfanswm yna derbyniwyd at y weinidogaeth 44,171p. 16s. 2c., ac at ddyled y capelau 25,728p. 16s. 4c.†

Y mae'r taliadau i bregethwyr, neu "at y weinidogaeth," yn awr o ddau fath, sef cyflog blynyddol y "bugail sefydlog," a thâl i'r pregethwyr, yn ordeiniedig ac anordeiniedig, yn eu teithiau Sabbothol ac wythnosol. A oedd y swm crybwylledig o 44,171p. 16s. 2c., am y flwyddyn 1871, yn cynnwys y naill a'r llall, nid yw hyspys i ni. Dichon y dymunai rhai wybod pa swm a delir yn flynyddol i'r "bugeiliaid sefydlog," i'r pregethwyr ordeiniedig ("y gweinidogion"), ac i'r pregethwyr heb eu hordeinio" ("y pregethwyr cynnorthwyol," "cynghorwyr" yr hen Fethodistiaid); y cwbl ar wahân. Pa wedd bynag, y mae'r symiau mawrion uchod, a'r symiau at y ddau goleg, ynghyd â rhifedi dirfawr aelodau y cyfundeb, athrawon ac athrawesau ei Ysgolion Sabbothol, a'i wrandawwyr, y fath nas ceir y cyffelyb, ond odid, mewn cyn lleied o le ag ydyw Cymru, ac mewn cyn lleied o amser (o 1736 hyd 1871), o ddyddiau yr apostolion hyd yn bresennol. Ymddengys cynnydd dirfawr a chyflym y Methodistiaid yn rhyfeddach fyth os ystyrir agwedd foesol a chrefyddol y wlad ar eu cychwyniad. Ceir golwg bur gyflawn ar iselder agwedd *foesol* y Dywysogaeth ar gychwyniad Methodistiaeth yn hanes bywydau y Diwygwyr Methodistaidd, Howel Harris, Howel Dafydd, Daniel Rowlands, Williams Pant-y-Celyn, Peter Williams, ac eraill diweddarach. Gan hyny, ymgyfyngwn yma at roi trem frysiog ar agwedd *grefyddol* y Cymry ar gychwyniad y Methodistiaid, ac ym mlaen, yn ol yr awdurdodau gorau, er mwyn dangos y lles mawr a chyflym a wneuthant i grefydd ymhlith eu cydwladwyr.

Os cymmerir golwg ddiragfarn ar agwedd grefyddol y genedl rhwng 1639, pan sefydlodd Wm. Wroth yr Eglwys Annibynol gyntaf yn Llanfaches, a'r flwyddyn 1736 (yr yspaid o 97 flynedd), pan sefydlodd Howel Harris y gymdeithas neillduol (y *seiat breifat*) gyntaf, rhaid cyfaddef bod yr Anghydffurfwyr yng Nghymru, heb son am yr Eglwys Sefydledig, ar ol marwolaeth Morgan Llwyd yn 1659, a marwolaeth Stephen Hughes yn 1688, wedi ymollwng i drwmgwsg swrth, oedd yn ymylu ar gwsg marwolaeth ysprydol, fel yr awgrymwyd yn y bennod flaenorol. Yn 1700, ymhen 61 mlynedd ar ol sefydlu yr

* Method. Cymru, cyf. iii., t. 547; Credoau y Byd, cyf. ii., t. 357; Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 525.

† Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 525.

Digitized by Google

Eglwys Ymneillduol gyntaf gan Wroth, 30 o gynnulleidfaoedd Ymneillduol oedd yn y De, a 6 yn y Gogledd.*

Yn y flwyddyn 1715, ymhen 76 mlynedd ar ol i Wroth sefydlu yr Eglwys Ymneillduol gyntaf, casglodd y Dr. John Evans gyfrif, trwy ofal a diwydrwydd nodedig, o'r cynnulleidfaoedd Anghydffurfiol, trwy Gymru a Lloegr, a safai y cyfrif yng Nghymru fel hyn:—

Y Deheubarth: Annibynwyr, 32; Bedyddwyr, 14; Presteriaid, 15: oll 61.

Y Gogleddbarth: Annibynwyr, 5; Bedyddwyr, 1; Presbyteriaid, 5: oll, 11.

Nifer y cynnulleidfaoedd yn y De a'r Gogledd, y pryd hyn, fel y gwelir, oedd 72.†

Dywed y Dr. T. Rees fod y rhestr a ddyry efe i mewn, o'r hon nid yw yr uchod yn cynnwys ond y cyfansymiau, yn cynnwys yr holl gynnulleidfaoedd Anghydffurfiol yng Nghymru a sir Fynwy, yn y flwyddyn 1715, oddi eithr y gynnulleidfa Annibynol ym Merthyr Tydfil, a chynnulleidfa y Bedyddwyr, yr hon a ymgyfarfyddai yn gyffredin yng Nglyndwr, sir Aberteifi, a'r Felindre, ger llaw Castell Newydd Emlyn; ond ni ŵyr beth oedd yr achos i adael y rhai hyny allan, yn enwedig Merthyr Tydfil, yr hon oedd yn un o'r cynnulleidfaoedd lliosocaf yng Nghymru, ac y gallai pobl anhyspys o'r wlad, a ymgynghorent â'r rhestr dan sylw, gael eu harwain i gasglu mai 71 (72, hyd y gwelwn ni) yn unig oedd yn y tair sir ar ddeg, oblegid bod dwy, tair, ïe, a phump neu chwech o honynt dan ofal yr un gweinidogion, yn cael eu huno a'u harddangos megis un, tra yr oeddynt, mhob ystyr, yn rhai gwahanol.‡ Ymddengys, gan hyny, mai ystyried cynnifer o gynnulleidfaoedd ag a fyddai dan yr un gweinidog, neu weinidog a'i gurad, megis personoliaeth y gŵr hwnw, yr oedd y Dr. Evans; ac yn ol ystyr esgobyddol yn oed yr Annibynwyr eu hunain, yr oedd hyny yn ddigon teg hefyd. Pa ddelw bynag, er bod cynnifer ag o un i chwech o fân gynnulleidfaoedd yn yr un esgobaeth Annibynol, Fedyddiol, neu Bresbyteraidd, er hyny nid oedd y lliosocaf, yn ol rhestr y Dr. Evans, yn ddim mwy na 1006; dwy arall yn 1000; tra'r oedd y gweddill yn myned i lawr o 900 i 30.

Yn y flwyddyn 1742, ymhen 27 mlynedd ar ol y Dr. Evans, ac ymhen 6 blynedd ar ol i Howel Harris ddechrau sefydlu cymdeithasau neillduol, ysgrifenodd Edmund Jones, Pont-y-Pwl, medd y Dr. T. Rees, dreuthodyn ar nifer yr eglwysi Anghydffurfiol yng Nghymru. Ymddengys ei fod ef yn dodi yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid yn yr un cyfrif, tra y rhifa'r Bedyddwyr ar wahân. Saif ei gyfrif ef, cyn belled ag y gallwn ni ganfod, fel hyn:—

Y Deheubarth: Annibynwyr, 64.
Y Gogleddbarth: Annibynwyr, 11; oll, 75.
Y Deheubarth: Bedyddwyr, 14.§

Yn ol y cyfrif yna, nid oedd yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid (?) wedi sefydlu dim ond 18 cynnulleidfa trwy yr holl Dywysogaeth yn ystod 27 mlynedd! tra'r oedd y Bedyddwyr wedi myned yn llai o un yn y cyfamser! canys ni ddengys Edmund Jones bod gan y Bedyddwyr gymmaint ag un gynnulleidfa yn y Gogledd yn 1742, tra'r oedd ganddynt un yn 1715, yn ol y Dr. John Evans.

Yn awr, cymmerwn drem frysiog o'r hyn a wnaeth y Methodistiaid, yn ol tystiolaeth ddiffygiol Edmund Jones, yn ystod y 6 blynedd olaf o'r cyfnod crybwylledig, a'r 6 blynedd blaenaf o lafur Howel Harris a'i gydlafurwyr Methodistaidd, sef o 1736 hyd 1742, yn y Deheubarth yn unig. Casglwyd un gynnulleidfa yn sir Faesyfed "trwy lafur rhyw Fethodistiaid," a rhyw foneddiges. Yr oedd "holl barth isaf" sir Aberteifi bron "wedi dyfod yn grefyddol er pan ddechreuodd Howel Harris a'r Methodistiaid lafurio yno;" ac "yr oedd ganddynt *amryw* o leoedd darlithio‖ yn y sir." "Argyhoeddwyd, diwygiwyd, a dychwelwyd lliaws o bobl yn sir Benfro trwy gyfrwng cynghorion‖ Howel Harris, a chynghorwyr Methodistaidd eraill." Yn sir Frycheiniog, yr un amser, "gosodwyd tu ag 20 o gymdeithasau Methodistaidd i fynu, trwy lafur Howel Harris," tra nad oedd gan yr hen Ymneillduwyr ddim ond 8 yn y sir ar y pryd, er eu bod yno er ys ugeiniau o flynyddoedd o flaen y Methodistiaid. Yn yr un flwyddyn yr oedd gan y corph Methodistaidd "lawer o gymdeithasau" yn sir Forganwg a sir Fynwy.

Yn awr, cymmerwn amcanrif, yn ol hen ysgrif Edmund Jones, o'r cymdeithasau Methodistaidd a sefydlwyd gan "Howel Harris a rhyw Fethodistiaid eraill," yn y Deheubarth, cofier, yn ystod y 6

* Method. Cymru, cyf. i., t. 48.
† Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 286–291.
‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 292.

§ Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 385–6.
‖ Lleoedd *pregethu* oedd y rhai hyn, a *phregethau*, a bywyd ynddynt hefyd, oedd "cynghorion Howel Harris, a chynghorwyr Methodistaidd eraill," ac nid llithoedd sychion, dïenneiniad, fel eiddo yr Eglwyswyr a'r hen Ymneillduwyr; ond yr oedd yr hen greadur yma mor rhagfarnllyd a seremonïol fel y credai na fedrai neb *bregethu* heb gael dwylaw esgob Eglwys Loegr neu weinidogion Ymneillduol ar ei ben!



Digitized by Google

blynedd crybwylledig, a cheir y saif eu rhif, ar amcan, yn debyg i hyn:—

| | |
|---|---|
| Sir Faesyfed, | 1 |
| Sir Aberteifi, | 15 |
| Sir Benfro, | 15 |
| Sir Frycheiniog, | 19 |
| Sir Forganwg, | 15 |
| Sir Fynwy, | 15 |
| Amcan-gyfanrif, | 80 |

Od ydyw yr amcanrif yna yn gywir, ac nis gall neb brofi, trwy gyfrwng hen ysgrif Edmund Jones, nad ydyw, sefydlodd y Methodistiaid fwy o eglwysi yn y Dehcubarth o 2, mewn 6 blynedd, nag a sefydlodd yr holl hen Ymneillduwyr yno mewn 103 o flynyddau, sef o'r amser y sefydlodd Wroth eglwys Annibynol Llanfaches, yn 1639, hyd gyfrifiad Edmund Jones yn 1742. O berthynas i gynnydd cyflym y Methodistiaid y pryd hyn, ac yn fuan wedyn, dywed awdur "Methodistiaeth Cymru" fel y canlyn:—

"Rhoddodd yr Arglwydd y fath arwyddion grymus a diymwad o'i foddlonrwydd ar lafur y cenhadau hunanymwadol hyn [Howel Harris, Howel Davies, D. Rowlands, W. Williams, Pant-y-Celyn, ac eraill], nes y cawn fod ynghylch saith ugain [140] o gymdeithasau neillduol, neu eglwysi, wedi eu codi ganddynt mewn yspaid 10 mlynedd, sef erbyn 1746; a thu a 40 o bregethwyr neu gynghorwyr wedi eu chwanegu atynt. Hyd y pryd hyn, yr oedd yr holl foddion cyhoeddus a neillduol yn cael eu cynnal yn y 'prif ffyrdd a'r caeau,' ac mewn tai annedd ac ysguboriau. Nid oedd ganddynt etto un addoldy wedi ei godi yn bennodol at wasanaeth y cyfundeb. Codwyd y cyntaf ymhen blwyddyn ar ol hyn, sef Capel Alpha, fel y'i gelwir, yn Llanfair Muallt, sir Frycheiniog. Codwyd dau eraill y flwyddyn ganlynol, sef 1748, yn sir Gaerfyrddin."*

Wrth sylwi ar yr "ymraniad rhwng Harris a Rowlands" yn 1751, dywed yr un awdur—"Yr oedd y diwygiad wedi dechrau er ys yn agos i 15 mlynedd. Yr oedd *cannoedd* o eglwysi bychain bellach yn britho De a Gogledd."† Parhaodd cynnydd y Methodistiaid yn llawn mor gyflym, os nad cyflymach, trwy y De a'r Gogledd, yn enwedig yr olaf, dros y 90 mlynedd blaenaf o'u hanfod, sef hyd tu a'r rhan olaf o oes bregethwrol yr enwog JOHN ELIAS, a buant yn foddion i ddeffro yr hen Ymneillduwyr i raddau braidd anhygoel; ïe, effeithiodd eu gweithgarwch a'u llwyddiant digyffelyb i ddeffro llawer yn oed ar yr hen Eglwys Sefydledig ei hunan.

Wrth ystyried y gwirioneddau pwysig ac anwadadwy hyn, cydsynia pob darllenydd diragfarn fod o'r pwys mwyaf i grefydd yn ein gwlad, i'r oes hon ganfod ac ystyried yn ddifrifol a diragfarn, beth oedd yr achosion penaf o gynnydd cyflym a rhyfeddol y Methodistiaid yn y wlad. Y mae awdur craffus "Methodistiaeth Cymru" yn priodoli hyn i dri pheth yn fwyaf arbenig, sef pregethu teithiol; amryw o henuriaid neu esgobion, a elwir blaenoriaid, ymhob eglwys; a'r Ysgol Sabbothol. Gyd â golwg ar bregethu teithiol, dywed yr awdur fel hyn:—

"Elfen arall sy'n dynodi Methodistiaeth Cymru gymmaint ag un, ydyw ei gweinidogaeth *deithiol* neu *ansefydlog*. Elfen yw hon y mae cryn feio arni ar y naill law, a chanmol mawr arni ar y llaw arall. Gan rai, nid oes dim a wna'r tro ond gweinidogaeth *sefydlog*, na chan eraill ond un *amrywiol*. Tebygol ydyw nad oes un enwad o bobl wedi cario allan yr egwyddor deithiol mor bell a chyffredinol a'r Methodistiaid. Nid oes amheuaeth ychwaith nad amgylchiadau a roes y wedd yma arno, yn yr ysgogiad cychwynol, yn fwy nag argyhoeddiad o briodoldeb y peth fel *pwngc*. Gwibdeithiol a fu gweinidogaeth Howel Harris o'i dechrau, hyd yr amser yr ymsefydlodd yn arhosol yn Nhrefeca; a gellir dywedyd am dani mai tra'r oedd y wedd symmudol arni, y parhaodd ei grym a'i defnyddioldeb, a chychwyniad ei gwendid a fu ei sefydlowgrwydd. Yr oedd ei gyd-lafurwyr, pa fodd bynag, yn wahanol eu sefyllfa, fel gweinidogion Eglwys Loegr; ond fel yr oeddynt hwythau yn cael eu harddel a'u llwyddo, yr oedd anesmwythder oddi fewn, a gwahoddiadau oddi allan, yn eu tueddu i fyned i'r prif-ffyrdd a'r ceuau i gymmell pechaduriaid i ddyfod i mewn. Bu gweinidogaeth Howel Harris, er mor ansefydlog ydoedd, o werth amhrisiadwy i'r Dywysogaeth; ïe, nid gormod yw ychwanegu, ei bod o fwy o werth *am* ei bod yn deithiol. Gwasgarodd Duw Williams, Pant-y-Celyn, a H. Davies, sir Benfro, ar hyd y wlad, trwy erledigaeth yr awdurdodau eglwysig, fel y gwasgarent hwythau, o hyny yn fwy, arogledd y wybodaeth am Dduw dros yr holl dir. Rowlands, Llangeitho, oedd ym mron yr unig un, ymhlith y Diwygwyr boreuaf, yr oedd gwedd sefydlog ar ei weinidogaeth; ac nid oedd yr eiddo yntau ddim yn hollol felly; ond am y lleill oll, *teithiol* oedd eu gweinidogaeth dros eu hoes. Yn yr adeg y cychwynodd y Diwygiad, nid oedd un weinidogaeth ond un deithiol, yn gymmwys i ymosod ar y genedl. Nid oedd cynnulleidfaoedd etto wedi eu cynnull; ac am yr ychydig gynnulleidfaoedd, dan yr enw rhai Presbyteraidd, yr oedd y weinidogaeth sefydlog a fwynheid yn y rhai hyny, er ys can mlynedd o'r blaen, wedi gadael y wlad ymhob man o'u hamgylch mewn eithaf tywyllwch a chwsg. Sicr ydyw ddarfod i Harris a'i gyd-lafurwyr wneuthur mwy i ddeffro Cymru mewn 10 mlynedd nag a wneuthai gweinidogaeth sefydlog y plwyfydd a'r Ymneillduwyr er ys 150 o flynyddoedd. . . . . .

"Yr oedd gwedd apostolaidd hefyd yn ymddengys ar yr ysgogiad: 'A bu wedi hyny, iddo [sef Iesu] fyned trwy bob dinas a thref, gan bregethu, ac efengylu teyrnas Dduw: a'r deuddeg oedd gyd âg ef.'* 'Ac efe a alwodd ynghyd ei ddeuddeg disgybl, ac a roddes iddynt feddiant ac awdurdod ar yr holl gythreuliaid, ac i iachâu clefydau. Ac efe a'u hanfonodd hwynt i bregethu teyrnas Dduw, ac i iachâu y rhai cleifion. . . . . Ac wedi iddynt fyned allan, hwy a aethant trwy y trefi, gan bregethu yr efengyl, a iachâu ymhob lle.'† 'Wedi y pethau hyn yr ordeiniodd yr Arglwydd ddeg a thriugain eraill hefyd, ac a'u danfonodd hwynt bob yn ddau o flaen ei wyneb i bob dinas a man yr oedd efe ar fedr dyfod.'‡ 'A bu yn y dyddiau hyny erlid mawr ar yr eglwys oedd yn Jerusalem: a phawb [*pawb*] a wasgarwyd ar hyd gwledydd Judea a Samaria, ond yr apostolion. . . . . A'r rhai a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch

* Method. Cymru, cyf. i., t. 207. † Yr un, t. 386.

* Luc viii. 1. † Luc ix. 1, 6. ‡ Luc x. 1.

Digitized by Google

Stephen, a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyrene, ac Antiochia,' &c., 'gan bregethu yr Arglwydd Iesu,'* &c. Paul hefyd a ddywed, 'O Jerusalem, ac o amgylch hyd Ilyricum, y llenwais efengyl Crist,† 'hyd oni ddarfu i bawb a oedd yn trigo yn Asia, yn Iuddewon a Groegiaid, glywed gair yr Arglwydd Iesu.'‡ Ceisiodd gelynion Cristionogaeth lethu ei lledeuniad trwy erledigaeth ymhob oes; ond bu yr erledigaeth ar y cenhadau yn foddion cynnydd dirfawr i Gristionogaeth. Y cyfrwys a ddaliwyd yn ei rwyd ei hun. Bwriadwyd yr erledigaeth er drwg, ond Duw a'i goruwchlywodreuthodd er daioni. Yr un modd, mewn llawer ystyr, y bu yng Nghymru. Trwy wibdeithiau y tadau, yr oedd y disgyblion yn amlhau ymhob cwr o'r wlad; drysau newyddion yn agor, a thaer ddeisyfiad yn codi ar bob llaw am gael clywed 'holl eiriau y fuchedd hon.' Barnai y Diwygwyr, yn ddiamheuol, tra yr oedd esamplau Crist a'i apostolion, a holl eglwys liosog Jerusalem, ac esampl lliaws o efengylwyr o'u blaen, na allent fod ymhell allan o'u lle wrth efengylu yn deithiol ar hyd ac ar led y Dywysogaeth; ac yn enwedig, gan y rhoddid iddynt y fath amlygiadau fod eu llafur dan y fath arddeliad, ac yn cynhyrchu y fath effeithiau grasusol ar bob llaw. Yn y modd yma y rhoddwyd cychwyniad i weinidogaeth deithiol y Methodistiaid. Yr oedd amgylchiadau Cymru, ar y pryd, y cyfryw nad oedd un dull o lafurio yn gymmwys i'w cyfarfod ond gweinidogaeth deithiol. Canmolai y dull hwn hefyd ei hun yn neillduol trwy ei effeithiau; a chyd â'r cwbl, yr oedd yn haws gweled gweinidogaeth deithiol, fel y dangoswyd eisoes, yn yr Efengylau, yr Actau, a'r Epistolau, na gweinidogaeth sefydlog. Cydweithrediad yr amgylchiadau hyn, tebygid, a roes y fath fri ar yr un deithiol yng Nghymru, fel nad oedd prin un meddwl gwahanol ym mysg y crefyddwyr. Yr un mor ffol a fuasai gwadu ei phriodoldeb ag a fuasai gwadu goleuni yr haul. Trwy fod ei heffeithioldeb mor amlwg a diamheuol, gwreiddiodd y syniad mai gweinidogaeth deithiol oedd yr unig un y gellid disgwyl bendith y nefoedd arni."§

Dan ddylanwad yr argyhoeddiad mai gweinidogaeth deithiol ydyw yr unig un Ysgrythyrol ac effeithiol i argyhoeddi y byd o bechod, ac i ledeunu crefydd Mab Duw ar y ddeuar, penderfynodd y Methodistiaid, mewn cymdeithasfa a gynhaliwyd yn y Bala, ar y 19ydd a'r 20fed o Fehefin, 1811, ar y rheol ganlynol:—

"Nad oes i un llefarwr a neillduir i olygu ei hun yn weinidog|| arbenig i un gangen o eglwys, ond eu bod oll, yn ol y dull presennol, i weini yr ordinhadau i bob cangen o'r Corph, fel y byddo eu cyfleusdra a'r galwad am danynt."¶

Ar y 10fed o Awst, 1826, gwnaed y rheol yna yn rhan o gyfraith y tir, trwy y "Weithred Gyfreithiol" a gofrestrwyd ar lyfrau y deyrnas yr amser crybwylledig.** Gan hyny byddai gwaith y Methodistiaid yn cadw gweinidogion sefydlog yn groes i gyfraith y wlad, ac yn rhoddi meddiant o'r capelydd a wnelent hyny mewn perygl.

Yr elfen arall a grybwylla awdur "Methodistiaeth Cymru," oedd yn un achos mawr o gynnydd cyflym y cyfundeb, yw *amryw* flaenoriaid ymhob eglwys, y rhai a elwir yn y Testament Newydd yn henuriaid neu esgobion,* cystal a blaenoriaid;† ac yn y "Weithred Gyfreithiol" gelwir hwy yn "flaenoriaid neu henuriaid."‡ Yn unol â'r syniad yma, penderfynwyd ar y rheol ganlynol:—

"Y mae pob Cymdeithas Neillduol i fod dan olygiad *dau* neu *ychwaneg* o flaenoriaid, wedi eu dewis gan yr holl Gymdeithas, a'u cymmeradwyo gan Gymdeithas Fisol y Sir, ac yn meddu y cyfryw gymmwysderau ag a ddarlunir yn Rheol 33."§

Y mae y rhan gyntaf o'r rheol hon wedi ei seilio ar yr Ysgrythyrau canlynol:—Act. xi. 40; xiv. 21, 23; xv. 2, 4, 6, 22, 23; xvi. 4; xx. 17, 28; xxi. 18; Phil. i. 1; 1 Tim. v. 17; Tit. i. 5; Heb. xiii. 7, 17, 24; Iago v. 14; 1 Petr v. 1, 2, sef yr holl Ysgrythyrau sydd yn y Testament Newydd yn crybwyll am henuriaid, esgobion, neu flaenoriaid eglwysi, ac y maent oll yn dangos bod yr apostolion yn ordeinio amryw o honynt ymhob eglwys yn ddieithriad, yr un modd a'r Methodistiaid.

Yn ol Rheol 33,|| dylai blaenoriaid neu henuriaid yr eglwysi Methodistaidd atteb i'r cymmwysderau a ofynir mewn esgob yn 1 Tim. iii. 1–7; Tit. i. 5–9; Ioan xxi. 15–17; Gal. vi. 1.

Gwaith pennodol neu ddyledswyddau blaenoriaid neu henuriaid y Methodistiaid a ddarlunir yng "Ngweithred Gyfreithiol" y cyfundeb fel hyn:—

"Mewn Cyfarfod Chwarterol, neu Gymdeithasfa, o'r dywededig gyfundeb, a alwyd wedyn Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, a gynhaliwyd yn neu tu a'r flwyddyn un mil saith gant a thair a deugain [1743], gwelwyd bod angenrhaid appwyntio blaenoriaid neu henuriaid i arolygu a chyfarwyddo y cymdeithasau crefyddol a sefydlid, ac i ddysgu a hyfforddi y bobl lle na byddo gweinidogion neu bregethwyr; a hefyd, i'w cynnorthwyo

* Act. viii. 1, 4; ix. 17–24. † Rhuf. xv. 19.
‡ Act. xix. 10. Gwel hefyd Gal. i. 11–24.
§ Method. Cymru, cyf. iii., t. 535–37.
|| "Er nad ydynt yn cael eu galw i fod yn weinidogion sefydlog, etto yr ydys yn eu hystyried yn rhai y dylai bod gofal neillduol arnynt am eu heglwys gartrefol, a'r rhai cymmydogaethol."—Cyffes Ffydd, t. 39, nod *.
¶ Yr un lle. ** Constitutional Deed, ed. 1873, p. 35.

* Act. xx. 17, 28; Tit. 5, 7. † Heb. xiii. 7, 17, 24.
‡ Const. Deed, p. 11. § Cyffes Ffydd, t. 64, Rheol 2; Const. Deed, p. 22, Rule 2.
|| Cyffes Ffydd, t. 61, lle y ceir y nodiadau canlynol gyd â golwg ar flaenoriaid neu henuriaid y Methodistiaid:—" Dylid edrych am eu bod *nid yn ddoniol yn unig*, ond yn ddynion *ysprydol*, yn caru Crist; yn dal dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur.—*Dirgelwch y ffydd*, sef yr athrawiaethau sydd i'w credu, y rhai ydynt ysprydol, gogoneddus, a dyfnion iawn. Rhaid iddynt *ddeall*, er nas gallant *lawn amgyffred*, y dirgeledigaethau hyn—eu *dal* hwynt hefyd, sef eu credu, neu eu cofleidio, yn wirioneddol, yn brofiadol, yn eu heneidiau eu hunain—eu *dal* yn athrawiaethol i eraill—ïe, eu *dal* yn wyneb pob cyfeiliornadau ac erledigaethau, yn ffyddlon a chysson; a hyny hefyd 'mewn cydwybod bur,' wedi ei phuro trwy waed Crist; yn onest a diragrith ger bron Duw, ac yn tueddu at burdeb ymhob ymarweddiad. Nid oes dim modd i'r gydwybod fod yn bur heb iawn gredu yr efengyl, nac ychwaith os byddwn yn ddichellgar ac yn rhagrithiol, neu halogedig mewn un rhan o'n hymarweddiad."—Dengys y rheol a'r nodiadau hyn yn eglur bod y Methodistiaid yn gofyn yr un cymmwysderau yn hollol yn eu blaenoriaid ne'u henuriaid a'r rhai y dengys Paul y dylent fod mewn esgobion yn 1 Tim. iii. 1–7; Tit. i. 5–9.

Digitized by Google

lle y byddont yn bresennol.* . . . . Dyledswyddau henuriaid neu flaenoriaid y cymdeithasau a fydd cynnorthwyo y gweinidogion a'r pregethwyr (os digwydd y naill neu'r llall fod yn y cyfryw gymdeithas)† yngorchwylion ysprydol eu heglwysi priodol, ac yn nhrefniad achosion cyffredin eu heglwysi priodol."‡

Y mae y rheolau hyn, y rhai sy'n gyfraith y tir, cofier, wedi eu seilio ar yr Ysgrythyrau canlynol, y rhai sy'n dangos gwaith a dyledswyddau henuriaid, esgobion, neu flaenoriaid yr eglwysi apostolaidd:—

"Ac o Miletus efe (Paul) a anfonodd i Ephesus, ac alwodd ato henuriaid yr eglwys.§ A phan ddaethant ato, efe a ddywedodd wrthynt, . . . Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Yspryd Glân chwi yn esgobion,‖ i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed."¶

"Rhaid gan hyny i esgob fod yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig, . . . yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod ynghyd â phob onestrwydd; o blegid oni fedr un lywodraethu ei dŷ ei hun, pa fodd y cymmer efe ofal dros eglwys Dduw. Nid yn newyddian,** rhag iddo ymchwyddo, a syrthio i ddamnedigaeth diafol."††

"Cyfrifer yr henuriaid [yr *henuriaid*, sylwer], sydd yn llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dau-ddyblyg; yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth."‡‡

"Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt. . . . Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch: o blegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megis rhai a fydd raid iddynt roddi cyfrif; fel y galloch wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist: canys difudd i chwi yw hyny."§§

"Yr henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriad, a thyst o ddioddefiadau Crist, yr hwn hefyd wyf gyfrannog o'r gogoniant a ddatguddir: Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg arnynt :‖: nid trwy gymmell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Dduw, ond gan fod yn esamplau i'r praidd."¶¶

Yn ol yr Ysgrythyrau uchod, ar y rhai y sylfeunodd y Methodistiaid y rheolau a nodwyd yn flaenorol, dyledswyddau blaenoriaid, henuriaid, neu esgobion pob eglwys ydyw *arolygu* yr eglwys y byddont ynddi; ei *bugeilio*, ei *llywodraethu*, neu ei *llywyddu*, fel yr arwydda yr iaith wreiddiol; *gofalu* dros yr eglwys; *poeni* yn y gair a'r athrawiaeth, fel y gallont ddeall yr athrawiaeth iachus, a'i *dysgu* i'r eglwys; *porthi* praidd Duw, gan ei *harolygu*, a bod yn *esamplau* i'r praidd.

Y mae blaenoriaid, henuriaid, neu esgobion y Methodistiaid yn gwneuthur y pethau hyn i'r eglwys y perthynont iddi (ac felly y gwnai y pregethwyr neu'r gweinidogion a ddigwyddent fod mewn eglwys, pan wnaed y "Weithred Gyfreithiol"), heb unrhyw dâl bydol am eu gwasanaeth, yn ol cyfarwyddyd Paul i henuriaid neu esgobion eglwys Ephesus, yr hwn a ddywedodd wrthynt—

"Arian, neu aur, neu wisg neb, ni chwennychais: îe, chwi a wyddoch eich hunain, ddarfod i'r dwylaw hyn wasanaethu i'm cyfreidiau i, ac i'r rhai oedd gyd â mi. Mi a ddangosais i chwi [henuriaid neu esgobion eglwys Ephesus] bob peth, mai wrth lafurio felly y mae'n rhaid cynnorthwyo y gweiniaid; a chofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef, mai dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn."*

Y mae'r gwirionedd ddarfod i flaenoriaid, henuriaid, neu esgobion pob eglwys Fethodistaidd ymgadw yn fanwl at y cyfarwyddiadau dwyfol hyn, fel y sylwa awdur galluog "Methodistiaeth Cymru," yn elfen dra phwysig yn llwyddiant a chynnydd mawr y cyfundeb yn y Dywysogaeth.

Yr elfen arall a ddygwyd i'r cyfundeb Methodistaidd yn gynharach nag i'r un o'r cyfundebau eraill, yr hon a fu mor llwyddiannus ag unrhyw elfen i wareiddio, dysgu, a goleuo y genedl Gymreig, ac i heleuthu terfynau Methodistiaeth yn y wlad, yr hon elfen sydd wedi ymestyn er ys hir amser bellach i'r cyfundebau eraill hefyd, ydyw yr YSGOL SABBOTHOL, ar yr hon y sylwyd yn fyr eisoes yn y bennod hon, ynghyd â'r sefydliad ardderchog a hanodd o honi, sef y BIBL GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR. Rhaid i ni adael y sefydliadau gogoneddus hyn heb heleuthu arnynt hyd y bennod a gyhoeddir ar eu cynlluniwr duwiol a gwladgarol, yr ENWOG THOMAS CHARLES O'R BALA.

---

## PENNOD III.

### WILLIAM PRICHARD AC IAGO AB DEWI.

WILLIAM PRICHARD, neu, fel y geilw'r Dr. T. Rees ef, WILLIAM JOHN PRICHARD, o Abergefeni, ydoedd fugail neu weinidog cyntaf eglwys y Bedyddwyr yn Llanwenarth, sir Fynwy. Ymddengys ei fod yn ddŷn dysgedig. Yr oedd hefyd, fel amryw o'r Bedyddwyr y pryd hyny, a'r rhan fwyaf o honynt yn awr, yn zelog dros gymmundeb caeth; ac wedi i John Myles ymfudo i'r America, efe a ddaeth yn

* Const. Deed, p. 11.

† Dengys hyn mai *digwyddiad* yn unig, ac nid peth o angenrhaid, yw bod "gweinidogion neu bregethwyr" mewn eglwys Fethodistaidd.

‡ Const. Deed, p. 33.

§ Gwelir yma fod eglwys Ephesus "dan olygiad *dau* neu *ychwaneg* o flaenoriaid," henuriaid, neu esgobion, fel yr oedd yr holl eglwysi apostolaidd, ac nid un cyllogedig.

‖ "Golygwyr" sydd yn y cyfieithiad Cymraeg, ond *ἐπισκόπους*=esgobion, sydd yn yr iaith wreiddiol.

¶ Act. xx. 17, 18, 28.

** Nid "ysgolhaig-ieuanc" yw cyfieithiad W. Salesbury.

†† 1 Tim. iii. 2, 4–6; Tit. i. 5, 7–9.

‡‡ 1 Tim. v. 17. §§ Heb. xiii. 7, 17.

‖ *Ἐπισκοποῦντες—gan eu hesgobyddu*, ydyw y gwreiddiol.

¶¶ 1 Petr v. 1–3.

* Act. xx. 33-35.

Digitized by Google

**arweinydd cyfundeb y Bedyddwyr.* Dyma fel yr ysgrifena Joshua Thomas am William Prichard, ei amserau, a'i gyd-bregethwyr:—**

"Yr oedd yn amser yr erledigaeth rai o aelodau y Fenni (Abergefeni) yn byw yn y Cwm Du. Y mae'r hanes hyn yn y llyfr.† Yr oeddynt i wrando yn y Fenni ddwywaith y mis; ac yr oeddynt i gael cwrdd yn eu plith eu hunain ddwywaith yn y mis. Yr oeddynt i dori bara yn y Fenni bob dau fis. Nid yw'r llyfr yn dywedyd pa bryd y gwnaed y drefn hon. Yr oeddynt y pryd hyny yn tori bara ar ol swperu yn eu tai. Nid yw yn ymddangos pun ai o gydwybod yr oeddynt yn gwneuthur hyn, yn ol y gair;‡ neu ynte o achos yr erledigaeth awchlym a didrugaredd. Ond er pob anfantais ac angof, hyn sydd eglur ddigon, sef i eglwys y Fenni ddal allan yn enwog trwy yr holl erledigaeth; a'u gweinidog enwog, Mr. Wm. Prichard, yn dïoddef trwy'r cyfan, ynghyd â'r Dr. Christopher Prys (Price), yr hwn a enwyd yn barod. Yn hanes Llantrisant, nodir i ddwy o'r hen eglwysi farw a diffodd, sef Llantrisant a Chaerfyrddin. Am y ddiweddaf, y mae'n debyg nad allodd gael un gweinidog sefydledig tra fu; felly, pan ddaeth yr erledigaeth, gwasgarwyd y ddiadell honno, gan ei bod heb un bugail.§ Y mae'n debyg mai hyn oedd gwendid Llantrisant; er ei bod yn cael cynhorthwy, etto yr oedd yno ryw wendid mawr a diffyg. Yn hanes Rhydwilym, nodir i'r eglwys honno ymgorpholi‖ yn 1668. Y cyfarwyddwr penaf yno yn y gwaith oedd Mr. Wm. Prichard, o'r Fenni, fel y gwelir yn yr hanes yno. Ac efe, neu Mr. Thomas Watkins, o Olchon, a fedyddiodd (fel y mae lle i farnu) y cyntaf yno, sef Mr. Wm. Jones. . . . .

"Pan ddaeth diwedd yr erledigaeth yn y wlad hon, trwy ddyfodiad yr enwog Frenin William i deyrngadair Lloegr, darfu i'r Bedyddwyr trwy y deyrnas gael eu gwahodd i gyfarfod mewn cymmanfa yn Llundain.¶ Daeth yno amryw ynghyd yn 1689. Yr oedd yno rai o Gymru, yn enwedig Mr. Wm. Prichard a Mr. C. Prys. Yn hanes argraphedig y gymmanfa honno, gelwir Mr. W. P. yn fugail Blaenegwent [Blaenau Gwent], a Mr. C. P. yn weinidog y Fenni. Yma, daliwn sylw fod y Blaenau yr amser hyny yn gangen o eglwys y Fenni. Yn hanes y gymmanfa yn Llundain, y mae'r Fenni, a Llanwenarth, a'r Blaenau yn cael eu cyfrif yn dair eglwys, er nad oeddynt, mewn gwirionedd, ond un, a Mr. Wm. Prichard yn fugail arni oll, a Mr. Christopher Prys yn gynnorthwywr da iddo amryw ffyrdd.** Yn hanes argraphedig y gymmanfa yn Llundain yn 1690, y mae'r tri lle yn cael eu cyfrif yn wahanol, fel y flwyddyn o'r blaen. . . . .

"Yn 1699 yr ymgorpholodd y Trosgoed, a elwir yn awr Maes y Berllan. Yn hanes yr eglwys honno y gwelir iddi gael ei dechrau mewn rhan o Lanwenarth. Yr oedd Llanwenarth a'r Fenni yn cael ei chyfrif fel Eglwys Gadeiriol* holl barthau y wlad hyny dros hir flynyddau, a Mr. Wm. Prichard fel eu hesgob.† Bu'r Cymry dros rai blynyddau yn myned i gymmanfa Llundain, ac wedi hyny i gymmanfa Brysto [Caerodor]. Dechreuodd cymmanfa Cymru yn Llanwenarth yn 1700, a bu yno y flwyddyn ganlynol, ac yn Abertawe yn 1702; yna bob ail flwyddyn yn y ddau le hyny hyd 1708. Wedi hyny aeth ar gylch i leoedd eraill.‡

"Yr oedd Mr. W. P. yn un o'r aelodau gwreiddiol yn 1652. Ordeiniwyd ef yn 1653, ac a fu ddefnyddiol ac anrhydeddus yn eu plith dros hir amser. Yma, daliwn sylw ar un peth neillduol: soniwyd yn t. 24, ac yn hanes Olchon a Llantrisant, &c., fod y Bedyddwyr o gylch 1640, &c., yng Nghymru a Lloegr, rai dros gymmysg gymmundeb, a rhai yn ei erbyn. Yr oedd dadl arall yn eu mysg, yn yr hyn ni allent gyttuno; ond ni chafodd hwnw le yn hir yn eu plith. Y sylwedd a'r achos o hono oedd hyn: Torodd allan ryfel blin yn y deyrnas o gylch 1641, rhwng y brenin a'r Senedd. O achos hyny a phethau eraill, yr oeddynt yn cael eu mawr erlid tra parhaodd y rhyfel; ond yn y flwyddyn 1648, darfu i'r Senedd ennill y fuddugoliaeth. Yn y flwyddyn ganlynol, gwnaed cyfnewidiad mawr ar amryw bethau trwy y deyrnas, yn enwedig mewn pethau crefyddol. Gosodwyd i lawr awdurdod yr esgobion [gwladol], y rhai a fuasant cyhyd yn erlid o'r blaen. Rhodded heibio, gan mwyaf, arfer llyfr y gwasanaeth cyffredin [y Llyfr Gweddi Gyffredin] o Eglwys Loegr yn yr addoliad cyhoeddus. Rhodded hefyd y rhan fwyaf o'r offeiriaid anfoesol a drygionus allan o'r llanau trwy y deyrnas. Parodd hyn fod llawer iawn o'r llanau a'r plwyfau heb weinidogion. Tu ag at gyflawni y diffyg hyn, trefnodd y rhai oedd yn llywodreuthu y pryd hyny i'r gweinidogion duwiol bregethu yn y llanoedd. Yn gymmaint a bod defodau anysgrythyrol Eglwys Loegr wedi eu rhoi heibio, a'r angenrhaid mor fawr, aeth llawer o'r Ymneillduwyr i'r llanoedd i bregethu. Ond yr oeddynt yn cael eu gosod ynddynt trwy drefn ac awdurdod y Llywodraeth; a byddent yn ol y drefn honno yn cael eu talu am eu gweinidogaeth, naill ai oddi wrth ran o'r degymau, neu ryw ffordd arall yn ol y gyfraith. Byddent yn barnu mai cymmwys oedd iddynt gael eu cynhaliaeth yn gymhedrol, gan eu bod yn ymdreulio yn y weinidogaeth. Ond yr oedd llawer o'r Bedyddwyr, trwy Gymru a Lloegr, yn groes iawn i'r drefn honno, ac yn edrych arni yn anysgrythyrol, ac am hyny yn bechadurus. Yr oedd ganddynt ddau beth neillduol yn ei herbyn: y cyntaf oedd, nad allai eglwys blwyfol fod yn eglwys efengylaidd, eithr eglwys gynnulledig; a'r ail oedd, y dylai cynhaliaeth y weinidogaeth fod oddi wrth yr eglwys gynnulledig o'i gwir fodd yn ol y gair, ac nid trwy awdurdod a threfn cyfraith y tir. Yr oedd amryw o'r Bedyddwyr yn Lloegr a Chymru o wahanol farn yn hyn. Rhai a bregethent yn y llan ar brydiau, gan eu bod yn gweled angenrheidrwydd mor fawr; a hwy a bregethent hefyd i'w cynnulleidfaoedd

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 162.

† Sef llyfr eglwys y Bedyddwyr yn y Fenni, yn yr hwn, eb Joshua Thomas, y cafodd efe "lawer iawn o gynhorthwy yn hanesion yr eglwysi."—GOL.

‡ Od oeddynt yn gwneuthur hyny "o gydwybod yn ol y gair," yr oeddynt yn dilyn esampl yr Arglwydd Iesu yn llythyrenol, fel y dylai ei holl ddisgyblion ef wneuthur, Luc xxii. 19, 20; 1 Cor. xi. 23–26.—GOL.

§ Gresyn na buasai yr eglwys yn dilyn y cyfarwyddyd apostolaidd, trwy ddewis *amryw* henuriaid neu esgobion i'w bugeilio, pa un bynag ai pregethwyr ai eraill, cyn i'r erledigaeth ymosod arni, Act. xiv. 23; xx. 17, 28–35; Phil. i. 1; Tit. i. 5–9.—GOL.

‖ Eglwys, yn ol y Testament Newydd, ydyw rhyw nifer o bobl wedi ymgynnull ynghyd, mewn rhyw le, yn enw yr Arglwydd Iesu Grist: Matt. xviii. 17–20; Act. xiv. 27; Rhuf. xvi. 3, 5; 1 Cor. xiv. 23; xvi. 19; Col. iv. 15; Philem. 2.—GOL.

¶ Hyny yw, *gweinidogion* y Bedyddwyr, yn absennoldeb yr eglwysi, fel y crybwyllwyd.—GOL.

** Hyny yw, math ar *gurad* i Wm. Prichard oedd C. Prys. Y mae'n amlwg wrth hyn, fel y cafwyd achlysur yn fynych i sylwi o'r blaen, mai cynllun eglwysig yr Eglwys Sefydledig, yr hwn a gafodd hithau gan Eglwys Rhufain, a ddilynai yr hen Fedyddwyr, fel yr hen Annibynwyr, cystal a'r rhai diweddar, ac nid cynllun syml y Testament Newydd, canys, yn ol y cynllun anffaeledig yma, yn lle bod *un dŷn*, megis yr oedd Wm. Prichard, yn fath ar esgob taleithiol ar *amryw* eglwysi, yr oedd yr apostolion yn gosod *amryw* henuriaid neu esgobion *ymhob eglwys*. Gwel y nodyn blaenorol §.—GOL.

* Cathedral=Mameglwys.—GOL.

† Dyma brawf dïamheuol mai cynllun yr Eglwys Wladol, yn llythyrenol, a ddilynid gan y Bedyddwyr.—GOL.

‡ Dechreuwyd y cyfarfodydd anysgrythyrol hyn, a elwir "cymmanfaoedd," gan "gynddrychiolwyr yr eglwysi," fel y'u gelwir, yn absennoldeb yr aelodau, yn gynnar yn y 3edd ganrif, pan yr oedd Pabyddiaeth yn prysur ddringo i'w rhwysg a'i thraws-arglwyddiaeth. Yr oedd yr esgobion uchelfryd wedi cyrraedd y fath uwchder treisiol erbyn O.C. 285 fel y medrodd Cyprian, esgob taleithiol Carthage, gasglu cynnifer a 87 o esgobion cyffelyb iddo ei hun, i gynnal cymmanfa y flwyddyn honno yn absennoldeb yr eglwysi.—Gwericke's Church Hist., vol. i., p. 74.—GOL.

Digitized by Google

eu hunain. O'r nifer hyn yr oedd Mr. Hugh Evans o sir Faesyfed, a Mr. Thomas Evans o'r Pentre; ac yr wyf fi yn barnu Mr. John Edwards o Langors, Mr. John Myles o Ilston [Llanilltyd], &c. Ond yr oedd rhai o'r Bedyddwyr mor anfoddlon i'w gweinidogion bregethu yn y llanoedd. a derbyn tâl y Llywodraeth, fel na chaent fod yn weinidogion iddynt hwy mwyach. O'r nifer hyn yr wyf yn cyfrif Mr. Howel Thomas, Mr. Thomas Joseph, &c., y rhai a fuasant yn Eglwys Llantrisant. Yr oedd rhai o'r gweinidogion nad aent ddim i'r llanoedd ar y cyfrif uchod, ond aros yn drefnus gyd â'u cynnulleidfaoedd yn ol y gair. O'r nifer hyn yr oedd Mr. Henry Gregory, Mr. WM. PRICHARD, Mr. Lewis Thomas, Mr. Thomas Jones, &c. Dechreuodd y dadlau hyn ar y rhyddid a gafodd y Bedyddwyr yn 1649, a darfu pan ddaeth yr erledigaeth drachefn yn 1660. Yma nodir ymhellach,—

"Pe buasai y gweinidogion a aethant i'r llanoedd (yn groes i'w cynnulleidfaoedd) yn cydffurfio â defodau a gwasanaeth Eglwys Loegr, cawsent gadw eu lleoedd pan ddaeth yr erledigaeth; ond gan na allent wneuthur hyny mewn cydwybod, bwriwyd hwy allan, ac erlidiwyd hwy yn hytrach yn waeth na'r lleill; ac nid oedd eu derbyniad gymmaint wedyn ymlith y Bedyddwyr, am iddynt gydffurfio mor bell ag y gwnaethant o'r blaen. Felly, ar ol troi y gwŷr hyn allan o'r llanoedd yng Nghymru, nid ydym yn cael fawr son am eu gweinidogaeth mwyach. Ond y rhai a barhasant gyd â'u pobl heb fyned i'r llanoedd, na derbyn arian y Llywodraeth, dyma y rhai a fuant fwyaf defnyddiol a derbyniol wedyn; a thrwy yr holl erledigaeth, y gweinidogion hyn a fu offerynol i gynnal y Bedyddwyr heb eu difa yn hollol yng Nghymru. Un o'r rhain oedd y gŵr da yr ydys yn son am dano yn awr, sef Mr. WILLIAM PRICHARD. Nid wyf yn deall iddo ef oll fyned i'r llan. Efe a barhaodd yn ddiwyd a defnyddiol ymhell ac agos trwy yr holl erledigaeth. Efe oedd yr offeryn penaf i osod mewn trefn ar y dechrau eglwys Rhydwilym, yn 1668. Aeth i Lundain i ddwyn ei dystiolaeth yn y gymmanfa enwog yn 1689. Ymhlith yr enwau wrth lythyr cymmanfa Llundain, 1690, nid oes neb o Gymru ond Mr. Wm. Prichard yn unig. Odid nad oedd efe y trefnwr blaenaf pan gorpholwyd y Blaenau yn 1696. Efe oedd y cynnorthwywr penaf yn Olchon ar ol marw Mr. Thomas Watkins. Efe hefyd a gorpholodd, neu a drefnodd, eglwys y Trosgoed ar y dechrau. Yn yr ychydig hanes sydd genyf fi o'r cymmanfaoedd yr amser hyny, y mae ei enw ef yn y llythyr 1702 ac 1704. Yr hanes ddiweddaf a ellais gael am dano, oedd yn anfon, neu ordeinio Mr. Timothëus [Timothy] Lewis, yn 1704. Ni ellais i ddim clywaid gan neb pa flwyddyn y bu farw: os gosodwyd yr amser i lawr, y mae'n debyg ei golli; ond yr wyf fi yn meddwl iddo orphen ei [illegible] waith yn 1708, neu ar fyr wedyn, a'i fod yn fugail yr eglwys yn agos i driugain mlynedd. Rhaid wrth hyn iddo ddechreu yn ieuangc, a chanlyn yn hir. Odid nad efe a fu fugail yn yr un lle hwyaf o un o'r Bedyddwyr trwy Gymru yr oesoedd diweddaf hyn. Claddwyd ef wrth dy cwrdd Llanwenarth. Nid oes un gareg yno."*

Dyma gymmaint ag a welsom o hanes y gŵr enwog hwn, William Prichard. Un arall pur enwog, os nad mwy nag un ystyr, o'i gydoeswyr, ond peth yn ieuengach nag ef, oedd

IAGO AB DEWI, dull Seisnig enw yr hwn oedd James Davies; ond y blaenaf a ddefnyddiai efe yn wastad wrth ei gyfansoddiadau. Ganwyd y bardd medrus, y llenor coeth, yr hanesydd ymchwilgar, a'r crefyddwr enwog hwn yn Llandysul, Ceredigion, yn y flwyddyn 1648. Ni wyddys ddim o hanes ei deulu, heb law bod "ab Dewi" yn arwyddo yn ddigon eglur mai Dafydd oedd enw ei dad. Bu efe yn preswylio dros rai blynyddau ger llaw Pencadair, yn sir Gaerfyrddin. Ymunodd â'r eglwys Annibynol ym Mhencadair yn ystod yr amser yr oedd Stephen Hughes yn weinidog yno, a bu ei fywyd sanctaidd a defnyddiol yn addurn i'w broffes hyd derfyn ei oes lafurus. Symmudodd oddi yno ryw bryd i dŷ a elwid Blaengwili, ym mhlwyf Llanllawddog, yn yr un sir, ac yno y gorphenodd ei yrfa ddaearol ar y 24ydd o fis Medi, 1722, ac efe yn 74 oed.

Dywedir ei fod yn fardd enwog, ac y cyhoeddwyd amryw o'i gyfansoddiadau yn ystod ei fywyd, a bod rhai cyfrolau o honynt fyth mewn llawysgrifen.* Nis gallwn ganfod yng "Nghofrestr" ei gydoesydd, Moses Williams, nac yn "Llyfriaeth y Cymry," i ddim o'i farddoniaeth gael ei gyhoeddi yn ystod ei fywyd ef; ond gwelwn y cyhoeddwyd rhai englynion o'i waith ar ddiwedd yr *ail* argraphiad o'r llyfr a elwir "Gwaedd Ynghymru," o waith Morgan Llwyd o Wynedd, a argraphwyd yn y Mwythig yn 1750, ymhen o gylch 28 mlynedd ar ol marwolaeth Iago ab Dewi.† Dywedir hefyd ei fod yn awdur cant neu ragor o "Ddyrïau Moesol," y rhai sy'n llawn moeswersi diddan; bod ychydig bennillion o honynt yn bobogaidd gyd â'r delyn; y cyhoeddwyd hwynt yn yr "Awenydd," casgliad o ganeuon, &c., a gyhoeddwyd gan P. Evans, Caernarfon; ac y gwelir englynion o'i waith yma ac acw hyd y cylchgronau Cymreig. Dywed yr un awdur ymhellach mai efe a gyhoeddodd y "Flores Britannicorum," o ddetholiad y Dr. Davies o Fallwyd;‡ ond ymddengys wrth y difyniadau canlynol fod y mynegiad yma yn gamsyniol:—

"Flores Poetarum Britannicorum: sef Blodeuog Waith y Prydyddion Bryttannaidd. O gasgliad J.D. SS. Th. D. fal yr ydys yn tebygu.—Printiedig yn y Mwythig, gan T. Jones dros D. Lewys. 1710."

"Y D. Lewys hwn ydoedd y Parch. Dafydd Lewis, ficar Llangatwg, ger Castell Nedd, canys y mae'r 'Llythyr at y Darllenydd' wedi ei arwyddo, 'Dafydd Lewis, Llan-Llawddog, Gor. 10, 1710,' lle yr ydoedd y pryd hyn. Y Dr. Davies, o Fallwyd, a dybid oedd y casglwr. Detholion ydyw o waith hen feirdd, dan wahanol benau neu byngciau. Y mae hefyd yn cynnwys 'Llyfr Barddoniaeth o waith y Capten William Midleton.'"

"Argraphwyd ef o newydd yn Llundain yn 1864, ac yn ddiweddarach yn Llanrwst [gan Gwilym Cowlyd]. Llyfryn o 94 tudalen yw yr argraphiad cyntaf."§

Ymddengys wrth y difyniadau canlynol fod

* Han. y Bed., t. 181-6.

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 330.
† Llyfr. y Cymry, t. 420.
‡ Enwogion Cymru, t. 539.
§ Llyfr. y Cymry, t. 289.

Digitized by Google

rhyw lyfr (ysgrifenedig yn ddïau) o waith Iago ab Dewi yn hyspys i Iolo Morganwg:—

"Ym Maes y Crugiau, ar Lan Teifi, y mae grammadeg o waith Dafydd ab Gwilym (medd Ben Simon o Lyfr Iago ab Dewi).—*Llyfr Brechfa.*"*

"Hwedl Rhitta Gawr. O Lyfr Iaco ab Dewi, medd Iolo Morganwg."†

"Y LLYFR a elwir y Cwtta Cyfarwydd o Forganwg a ysgrifenwyd gan MEURYG, Trysorydd Llandaf. Efe a elwis ei Lyfr y *Cwtta Cyfarwydd o Forganwg*, ac o hynny y cafes ef ei hun yr enw hwnnw. Ond y mae yn y llyfr hwnnw ynawr lawer o chwanegiadau at a pethau a oeddynt o'r dechreu ynddo. Efe ysgrifenodd y MEURYG hwnnw hanes holl Ynys Prydain, a Llyfr Diarhebion, a Dosparth Cerdd Dafawd, a Theologyddiaeth Gymreig, ac a wnaeth Efengyl Ieuan yn Gymraeg o'r Lladin ac Esponiad arni. Ac yr oedd y llyfrau hynn yn Abermarlas o gylch hanner canmlynedd yn ol. Iaco ab Dewi."‡

Dywed Teilo, Ystrad Tywi, bod ganddo ef lyfr ysgrifenedig, 8plyg, 190 o dudalenau, y tybia iddo gael ei gasglu, gan mwyaf, gan un "Iago ab Dewi;" a dengys y "daflen" a gyhoeddodd o'i gynhwysiad fod ynddo 108 o wahanol ysgrifau, o'r sawl y mae 4 yn waith Iago ab Dewi.§ Dyna y cwbl a wyddom ni am ei farddoniaeth a'i ysgriflyfrau.

Pa mor enwog bynag oedd Iago ab Dewi fel bardd, detholydd, a hynafieithydd, y mae'n ddilys ddïammau mai fel cyfieithwr rhwydd a galluog y gwnaeth efe fwyaf o les parhaol i'w gydgenedl y Cymry. Cyfieithodd saith, o leiaf, o lyfrynau tra chrefyddol a buddiol, fel y dengys y rhestr isod; a gresyn na chyhoeddid hwy yn yr oes hon, er mwyn eu rhoi ynghyrraedd ieuengctid ein gwlad. Dyma eu henwau:—

"Llythyr Edward Wells, D.D., at Gyfaill ynghylch y Pechod mawr o gymmeryd Enw Duw yn ofer, &c. O gyfieithiad Iaco ab Dewi.—Mwythig. 8plyg. 1714."‖

"Cyfeillach beunyddiol â Duw yn Gynddelw neu Ensampl ym Muchedd Sanctaidd Armele Nicholas, &c. O gyfieithiad Iago ap Dewi.—Mwythig. 8plyg. 1714."¶

"Pregeth a bregethwyd yng Nghapel Tŷ Ely, yn Holburn, yn Llundain, ar Ddydd Mercher, Mehefin 17, 1716, Dydd y Diolchgarwch cyhoeddus am fendŷth Duw ar Gynghorion ac Arfau ei Fawrhydi yn llonyddu y Gwrthryfel annaturiol diweddar. O gyfieithiad Iago ab Dewi.—Mwythig. 8plyg. 1716."**

"Meddyliau Neillduol ar Grefydd. Dosparthedig mewn Deuddeg Pwngc; a Bwriadau Gweithadwy Ffurfiedig arnynt. Gan y Gwir Anrhydeddus Dâd yn Nuw Gwilim Beveridge, D.D., gynt Arglwydd Esgob Llan Elwy. O gyfieithiad Jago ab Dewi.—Printiedig yn Llundain, . . . 1717. 12plyg."††

"Catecism o'r Scrythur, yn Nhrefn Gwyr y Gymmanfa: A Scrifenwyd yn Saisoneg gan Fatthew Henry Gweinidog yr Efengyl, Ac yn Gymraeg i ddangos i'r Cymro uniajth (1) Y pethau y dylai efe eu credu. (2) Y Dyledswyddau a ddalai efe eu cyflawni tu âg at Dduw a Dynion. (3) Y cyfryngau neu'r Moddion, a ddylai efe ei harfer. (4) Y pethau a ddylai efe eu gofyn gan Dduw mewn Gweddi, a hynny allan o Air Cyssegrlan Duw ei hun. O brintiad Cyntaf yr awdwr gan Iaco ab Dewi. Ai Brintio yn y Mwythig gan John Rhydderch, i David Johnes, Christmas Samuel, a William Davies. 1717."*

"Tyred a Groesaw at Jesu Grist. Neu Draethiad Eglur a Buddiol ar Joan vi: Adnod xxxvii. Yn Dangos Achos, Gwirionedd, a Dull Dyfodiad Pechadur at Jesu Grist. â'i dderbyniad Dedwydd â'i Roesaw Bendigedig. A Scrifenwyd yn Saesoneg gan John Bunyan, Awdwr Taith y Pererin,† Ac yn Gymraeg gan Iaco ap Dewi, o'r unfed Printiad ar ddeg yn Saesonaeg.—Printiedig yn y Mwythig gan John Phydderch, tros B. W. a J. J." 1719.‡

"Yr Ymarfer o Lonyddwch: i gyfarwyddo Cristion pa fodd i fyw yn Llonydd yn y Byd trafferthus hwn. Gan George Webb. A gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Jago ap Dewi o'r pummed Argraphiad yn Saesonaeg.—Argraphwyd yng Haerfyrddin gan Nicholas Thomas, dros Gruffydd Sion o Bant yr Haidd. 1730."§

Dyma'r llyfryn olaf a gyfieithwyd gan y diwyd a'r enwog Iago ab Dewi, hyd y gallwn ni ganfod, yr hwn ni chyhoeddwyd hyd ymhen tu ag wyth mlynedd ar ol ei farwolaeth. Gwelir wrth y rhestr uchod fod yr holl lyfrau a gyfieithwyd ganddo ef yn rhai gwir grefyddol ac ymarferol. Y "Meddyliau Neillduol ar Grefydd" ydyw yr heleuthaf o'r holl lyfrau a gyfieithwyd gan y diwyd Iago ab Dewi, ac y mae'n un o'r llyfrau gorau sydd yn yr iaith Gymraeg. Yr ail argraphiad sydd yn ein meddiant ni, yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1726, ymhen tu a phedair blynedd ar ol marwolaeth y cyfieithydd enwog. Maint yr argraphiad yma yw 12plyg bychan, o 280 o dudalenau, ynghyd â rhagflaenolion yn cynnwys llun "Gwilim Beveridge, D.D., Arglwydd Esgob Llan Elwy. Y flwyddyn o'i oed lxxi.; 5 tudalen o 'Gyflwyniad *i'r Urddasol a'r Anrhydeddus* HARRI LLWYD *o* Lan Llawddog, *yn* Sîr Gaer Fyrddin, *Ysgwïer a Sersiant o'r Gyfraith,*'" gan "MOSES WILLIAMS;"‖ 3 thudalen o "Fawl i'r Llyfr," yn cynnwys 8 englyn gan "*Samuel Williams*, Person *Llan Gynllo* yng '*Winionydd;*" pedwar englyn gan "*Theophilus Evans;*" a chywydd gan "*Jenkin Thomas;*" ynghyd ag wyth tudalen o "Gynhwysiad·" Hefyd, Olddodion, yn cynnwys tair thudalen o "*Gywydd*

* Iolo MSS., p. 94.

† Yr un, p. 193.—"Hwedl" ryfelgar, led ddyddorol, ydyw honyma.

‡ Iolo MSS., p. 222.

§ Y Brython, cyf. iv., t. 154–6.

‖ Llyfr. y Cymry, t. 299.

¶ Yr un, t. 300.

** Llyfr. y Cymry, t. 308.

†† Yr un, t. 312.

* Llyfr. y Cymry, t. 314.

† Dywed dau ysgrifenydd ar Iago ab Dewi mai "efe a gyfieithodd *Daith y Pererin* (Y Brython, cyf. iv., t. 155; En. Cymru, t. 538); ond nis gallwn ni ganfod hyny. Charles Edwards, a thri eraill, a wneuthant y cyfieithiad, neu aralleiriad Cymraeg cyntaf o "Daith y Pererin," yn 1688 (Llyfr. y Cymry, t. 240), o'r hwn y cyhoeddwyd ail argraphiad yn 1722, y flwyddyn y bu Iago ab Dewi farw (Llyfr. y Cymry, t. 332); ond nis gwelwn fod gan Iago ddim llaw yn a naill na'r llall.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 322.

§ Llyfr. y Cymry, t. 355.

‖ Parotowyd y "Cyflwyniad" yma gan M. Williams, yn "*Llundain y Seithfed o Idiau Rhagfyr*, 1716," sef tu a blwyddyn cyn yr argraphiad cyntaf; ac y mae'n debyg ei fod yn rhagfleunu yr argraphiad hwnw hefyd.

Digitized by Google

restr"* yn rhoi dim o'i hanes; ond cyfieithodd ef amryw lyfrau da."†

A dyma fel y dywed ei gymmydog a'i gyfaill, Christmas Samuel, am Iago ab Dewi:—

"Bu farw y cyfieithydd enwog, Iago ab Dewi, ar ol deunaw wythnos o afiechyd, a chladdwyd ef yn Llanllawddog, y 27fed o Fedi, 1722. Yr oedd yn ddŷn tra phwysig; yn ddŷn o ychydig eiriau, ond o wybodaeth dra ehang. Yr oedd yn ddŷn o foesau daionus, ac yn hen Gristion profiadol. Nid oes angen i mi ddywedyd ychwaneg am dano: ei gyfansoddiadau a'i clodforant ef yn y pyrth."‡

---

## PENNOD IV.

### JAMES OWEN, DAFYDD OWEN, JEREMIAH OWEN, A CHARLES OWEN.

GANWYD JAMES OWEN § ar y 1af o Dachwedd, 1654, yn y Bryn, tyddyn bychan, gwledig, ymhlwyf Abernant, o ddeutu 8 milltir i dref Caerfyrddin, ar y ffordd i Aberteifi. Preswylid y Bryn yn flaenorol gan un Howel, yr hwn a fagodd dri o feibion, y rhai a ddeuthant i enwogrwydd mawr mewn gwahanol gylchoedd; James Howel, fel llenor; un arall fel meddyg; a'r llall fel gŵr eglwysig; ac y mae disgynyddion y teulu yn lliosog yn yr ardal hyd y dydd hwn. Gellid enwi Howels, Cwm-gest; Howels, Pen y Bont; a Howels, Caerfyrddin; ac y maent oll yn ofalus dros ben am gadw i fynu anrhydedd yr hen deulu. Chwaer i'r brodyr uchod, neu ferch chwaer iddynt, oedd mam James Owen, yr hon a ymsefydlodd yn y Bryn pan adawodd y brodyr eu cartref am gylchoedd ehangach. Enw tad James Owen oedd John Owen, yr hwn, yn gystal a'i wraig, oedd yn dwyn mawr zel dros yr Eglwys Sefydledig a'i hordinhadau; ac yr oeddynt mor deyrngarol fel, yn amser y rhyfel gartrefol, yr hon a fu bron dyrysu ei amgylchiadau, yr aeth John Owen allan, heb ei gymmell, i ymladd o blaid y brenin. Bu iddynt naw o blant, a chafodd y rhieni fyw i'w gweled oll wedi ymsefydlu yn y byd, a phob un o honynt, er cymmaint oedd zel y rhieni dros yr Eglwys Sefydledig, y gobeithion mawr am ddyrchafiadau eglwysig a ddelid o'u blaen, a dylanwadau a ddefnyddid i geisio eu rhwystro i ymneillduo, yn Anghydffurfwyr trwydl. Cyrheuddasant gryn enwogrwydd fel amddiffynwyr Anghydffurfiaeth, a dïoddefwyr drosti. Er cymmaint o golledion a gafodd y rhieni trwy y rhyfel gartrefol, llwyddasant i roddi addysg dda i'w plant, gan feddwl eu cymhwyso i gael bywioleuthau cysurus yn yr Eglwys Sefydledig; ond yn lle hyny, aeth tri o honynt, Dafydd, James, a Charles, yn weinidogion Ymneillduol.

Yr oedd James, yr ail fab, pan yn ieuangc iawn, yn yr ysgol a gedwid yng Nghaerfyrddin gan James Picton, Crynwr duwiolfrydig, crefyddolder ac ymarweddiad yr hwn, y mae'n ddïau, a gawsant ddylanwad mawr ar feddwl yr ysgolor ieuangc; a phan garcharwyd y Crynwyr y tro cyntaf yn 1666, pan oedd ei ddisgybl, James, yn 12 oed, symmudwyd yr olaf i Ysgol Rydd y dref. Nis gallai carchariad ei athraw lai nag effeithio yn ddwys ar fachgen o'r fath agwedd meddwl, a'i gynhyrfu i chwilio drosto ei hun a oedd egwyddorion y bobl a allent wneud y fath anfadwaith yn ol duwioldeb; ac i'w gyssylltiad â'r Crynwr, a'r amgylchiadau cydfynedol â hyny, y tueddir ni i briodoli hadau cyntaf ei Ymneillduaeth. Ymwrthododd yn hollol, o'r amser yma allan, â phob math o chwareuon plentynaidd, gan lwyr ymroddi i fyfyrdodau. Teimlodd awydd hefyd, tu a'r pryd hyn, i fyned i wrando Ymneillduwyr yn pregethu, er cael mantais i farnu drosto ei hun a oeddynt yn heuddu y trinieuthau creulon a dderbynient. Testyn y bregeth Ymneillduol gyntaf a glywodd oedd Malachi iv. 1. Ond ni ddywedir pwy oedd y pregethwr, yr hyn sy'n rhoddi lle i gasglu mai Crynwr ydoedd, o herwydd yr oedd yn naturiol iddo fyned i wrando Crynwr er cael mantais i farnu egwyddorion ei athraw carcharedig; a gwyddys y byddai y Crynwyr yn dra hoff o'r fath destynau.‖ Heb law hyny, coleddai yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Presbyteriaid, cystal a'r Eglwyswyr, deimladau angharedig dros ben at y Crynwyr: o ba herwydd, ni cheir cymmaint a gair caredig ynghofnodion yr enwadau hyny am ddim gwasanaeth a wnaeth y Crynwyr, er y byddent gymmaint ar y blaen i'r cyfryw enwadau, ymhob symmudiad diwygiadol, ag ydyw John Bright o flaen Disraeli yn symmudiadau yr oes hon. Felly, nid oedd ond naturiol iddynt adael allan

* "Cofrestr" Moses Williams oedd hon, "o'r holl Lyfrau Printiedig, gan mwyaf a gyfansoddwyd yn yr Iaith Gymraeg, neu a Gyfieithwyd iddi hyd y Flwyddyn 1717."

† Han. y Bed., t. 50.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 331.

§ Y neb a ewyllysio gael hanes helaethach am James Owen, darllened ei Fywgraphiad gan ei frawd, y Dr. Charles Owen; Traethodydd, llyfr v., t. 476; Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 166; Method. Cymru, cyf. i., t. 41; En. Cymru, t. 787; Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 314; Williams's Em. Welshm., p. 375; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 315; Bogue and Bennett's Hist. Dissenters.

‖ Sewel's Hist. of the Quakers; Besse's Hist. of their Sufferings; gwel Rhisiart Dafydd y Crynwr, cyf. i., llyfr iv., pen. xxiii.



Digitized by Google

enw y pregethwr a roddes gyfeiriad i feddwl Jas. Owen. Arhosodd dylanwad y bregeth honno ar ei feddwl trwy ei oes; a phan yn llangc ieuangc, fel William Penn, penderfynodd gyssegru ei fywyd i wasanaeth yr hwn a'i dygasai i'r goleuni, ac o'r adeg honno allan edrychid arno ym mysg ei gydnabod fel plentyn yn ofni Duw, teilwng i'w restru gyd â Samuel a Timothëus.

Gan ei fod yn fachgen ufudd, ac o dymmer siriol, ac yn ddysgwr rhagorol, yr oedd mewn ffafr gan ei athraw, am na roddai iddo fawr o drafferth; a chan ei gydysgolheigion, am y byddai bob amser yn barod i'w cynnorthwyo gyd â'u gwersi. Wedi gorphen ei amser yn Ysgol Rydd Caerfyrddin, yn lle myned i Rydychain, aeth ef i ysgol y Parch. Samuel Jones, M.A., Bryn-Llywarch, ger llaw Pen-y-Bont, Morganwg. Yr oedd Mr. Jones, fel y gwelsom,* wedi ei eni yn agos i Gastell y Waun, yn sir Ddinbych, yn gymmrawd o Goleg yr Iesu yn Rhydychain, lle yr oedd wedi bod yn athraw llwyddiannus. Pan drowyd ef allan o'i fywioliaeth yn 1662, dechreuodd gadw ysgol yn ei gartref ei hun, ym Mryn-Llywarch, er parotoi gwŷr ieuaingc ar gyfer y weinidogaeth Ymneillduol; a honno oedd yr ysgol gyntaf o'r fath yng Nghymru. Yr oedd awyrgylch Bryn-Llywarch yn gydnaws â theimladau ac a thueddiadau James Owen, ac yn fanteisiol iawn i ddadblygiad yr hedyn Ymneillduol oedd yn blanedig yn ei feddwl. Rhyfeddai ei athraw y cynnydd a wnai yn ei efrydiau, a dywedai ei fod bob amser yn barod i adrodd ei wers cyn y byddai efe yn barod i'w gwrando. Wedi myned trwy y cwrs arferol yn yr ysgol, arhosodd yno dros dymmor yn gynnorthwywr i Mr. Jones i ddysgu eraill. Arferodd ei berthynasau bob dylanwad a fedrent, yr adeg hon, i geisio ei ddenu i gymmeryd urddau yn yr Eglwys: sicrhaent ei fod, trwy lynu wrth yr Ymneillduwyr, yn dinystrio ei hun, ac yn tynu gwarth ar ei deulu, gan y gwelai mai ynglŷn â'r Eglwys Sefydledig yr oedd y bri, y mawredd, y cyfoeth, a phob brasder; tra nad oedd ond gwawd, dirmyg, tlodi, a charchar ynglŷn âg Ymneillduaeth. Ond glynodd efe wrth Ymneillduaeth yn dawel ei feddwl, o herwydd, eb efe, "nad oedd dim yn ei herbyn yn y Bibl."

Dechreuodd bregethu yn Abertawy, fel cynnorthwywr i Stephen Hughes, pan yn lled ieuangc, a phan yr oedd yr erlid a'r deddfau cospawl yn eu llawn nerth, llymder y rhai a gafodd deimlo cyn hir. Pan welwyd y llymder yn cau am dano yn Abertawy, annogwyd ef yn daer i symmud i'r Gogledd gan y Parch. H. Morus (Maurice), yr hwn oedd yn enedigol o Lëyn, sir Gaernarfon,† lle y credai y gallai wneud llawer o ddaioni heb i neb gymmeryd sylw o hono. Y mae'r gymmeradwyaeth a roddwyd iddo gan S. Hughes ar ei ymadawiad, a thystiolaeth Thomas Gough am ei alluoedd, yn dangos ei fod yn ddŷn ieuangc na cheid ei fath ond anfynych. Ymsefydlodd yn Bodwel, ger llaw Pwllheli, sir Gaernarfon, lle y daeth yn boblogaidd fel pregethwr yn fuan; ond cyn pen blwyddyn ar ol iddo fod yn llafurio yno, codwyd erledigaeth yn ei erbyn, a bu raid iddo ffoi ganol nos i Fron y Clydwr, lle oedd yn agored bob amser i dderbyn a noddi y gorthrymedig.‡ Meddyliwyd unwaith yr arhosai yn sir Feirionydd, a dechreuodd yr erlidwyr barotôi ar ei gyfer; a dywedir fod yn yr ardal ryw foneddwr wedi tyngu dïofryd arno ei hun i alltudio pob Ymneillduwr o'r wlad, ac aeth at ryw feddyg yn y Mwythig, cyn dechrau, i geisio ymwared o ryw anhwyldeb oedd yn ei flino, fel y gallai fod yn barod i orphen ei waith; ond, yn ffodus, ni ddychwelodd byth yn ol.

Yn 1676, ymsefydlodd James Owen yn ardal Croesyswallt, fel caplan i un Mrs. Baker, a phregethai yn rheolaidd i gynnulleidfa fechan yn Swiney,§ yr hon yn flaenorol a fuasai dan weinidogaeth R. Nevett; ac yn Hydref, 1677, urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth, pryd y rhoddwyd iddo y gymmeradwyaeth ganlynol gan y rhai a weinyddent yn yr urddiad:—"Credwn ei fod yn ŵr ieuangc tra chymmwys at y gwaith pwysig: credwn y bydd yn offeryn defnyddiol i ledeunu yr efengyl, ac i heleuthu teyrnas y Gwaredwr." Ac yr oeddynt yn barnu yn gywir. Wedi ymsefydlu yng Nghroesyswallt, dechreuodd dori allan ar bob llaw fel cenhadwr, ac ymwelai â'r gwahanol leoedd yn rheolaidd ar gylch. Pan yn ymweled â'r Tryddyn, ger llaw y Wyddgrug, am y tro cyntaf, galwodd mewn rhyw dafarndy i ofyn y ffordd, yr hyn, pan glywodd un o'r rhai oedd yn eistedd wrth y tân, yr hwn oedd yn elyn calon i Ymneillduaeth, cynhygiodd ei arwain; ond wedi iddo ddeall i ba le yr oedd yn myned, dychwelodd at ei gymdeithion i gynllunio gwneud ymosodiad iawn ar y cyf-

* Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xxi.—Gol.

† Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xxi.—Gol.

‡ Yr un, pen. xxiv.—Gol.

§ Dywedir iddo fyned i Lëyn ar gais y Parch. H. Morus, yr hwn oedd yn enedigol o'r lle hwnw; a thueddir ni i gredu, er nad oes genym awdurdod dros hyny, iddo fyned i Groesyswallt ar gais ei hen athraw, Samuel Jones, yr oedd wedi ei ddwyn i fyny yn lled agos i Swiney.

Digitized by Google

arfod oedd i gael ei gynnal drannoeth. Pan ddaeth y borau, aethant hwythau i ben y bryniau cyfagos, fel pe'n myned i hela; ac wedi gweled y bobl yn ymgasglu, rhuthrasant arnynt yn arfog: cymmerasant afael yn y pregethwr, a'r Bibl oedd ganddo, yr hwn yr heurent ei fod yn waharddedig, gan fod Mynegair wedi ei rwymo gyd âg ef; ac yr oeddynt yn barod hefyd i gymmeryd eu llw mai Jesuit ydoedd, am ei fod wedi ysgrifenu ei bregeth yn Lladin. Pan ddaeth y ceisbwl i'r lle, estynodd un o'r aflonyddwyr ddarn o bapur iddo, gan ei sicrhau mai gwyseb ydoedd i gymmeryd y pregethwr a'r gwrandawyr i'r Wyddgrug o flaen yr ynadon; a chan nas gallai hwnw ddarllen, nis gwyddai yn amgen. Trinai yr ynad hwynt yn chwerw; a chan nas gallai wneud dim o'r bregeth, anfonodd i ofyn i'r offeiriad ddyfod yno i'w gynnorthwyo, yr hwn, pan ddaeth, a ddywedodd mai pregeth ydoedd ar y geiriau, "Y mae efe oll yn hawddgar," wedi ei hysgrifenu yn Lladin. Addefai yr ynad a'r offeiriad y credent fod James Owen yn ddŷn talentog a medrus, a mawr ofidient fod y fath ddŷn yn andwyo ei ddefnyddioldeb trwy fod yn Ymneillduwr. Ond wedi gweled nad oedd dim yn llwyddo, taflwyd ef a Thomas Fenner, perchen y tŷ lle yr oedd yn pregethu, i garchar Caerwys, a rhwymwyd y gynnulleidfa i ymddangos yn y llys chwarterol. Gwnaeth James Owen y gorau o'r amser yn y carchar: treuliai oriau bob dydd i bregethu ac esponio yr Ysgrythyrau i'w gydgarcharorion, a'r cymmydogion a ewyllysient ddyfod atynt, ac i weddïo drostynt. Pan ddeallodd y boneddigion cymmydogeuthol fod carchar Caerwys wedi ei droi yn deml, a bod hadau Ymneillduaeth yn cael eu hau trwy yr ardal, tra yr oedd yr heuwyr wedi eu cloi i fynu dan y bolltau tynaf a feddai yr ymlidwyr, anfonasant at geidwad y carchar i ofalu na adawai i neb mwyach ymweled â'r carcharorion. Ond er i'r bobl gael eu hattal i fyned i'r carchar, ymdyrent yn lluoedd o gylch y drws a'r ffenestri ar yr adegau arferol, a gwrandawent yr efengyl yn ewyllysgar.

Wedi gweled nad oedd ond gobaith gwan iddynt gael na rhyddid na chyfiawnder, appeliodd John Evans, o Wrecsam, am farn llys uwch ar eu hachos, fel yr appeliwyd i lys y Frenhines yn achos George Matcalf, yr hwn a gondemniwyd ar gam gan ynadon Treffynnon. Cyhoeddodd hwnw fod carchariad J. Owen yn afreolaidd ac anghyfreithlawn, a bod yr ynadon a'i condemniasai yn agored i gael eu cospi. Pan ddygwyd yr achos ger bron y llys chwarterol, mynnai yr holl ynadon osod y bai i gyd ar Mr. F——, yr hwn, fel ynadon Philippi, a roddes orchymyn i geidwad y carchar ei ollwng allan yn ddïaros. Nacaodd Mr. Owen erlyn yr ynadon am iawn, gan ddewis yn hytrach adael ei achos yn llaw yr Hwn a ddywedodd, "Myfi bïa dial." Pan welodd yr ynad nad oedd Mr. Owen am ei erlyn ef am gamgarchariad, cymmerth fantais ar ei ysbryd heddychol, a gosododd ddirwy arnynt oll; a chan na thalent, anfonodd i gymmeryd eu meddiannau oddi arnynt. Ysgrifenodd Mr. Owen at ei gyfeillion o'r carchar, gan ddywedyd, "Nid yw crefydd yn werth ei phregethu os nad yw yn werth dïoddef drosti. Mantais dragywyddol sydd ynglŷn â hi, yr hyn yn fynych sy'n dwyn colledion tymhorol; a chan mai teithwyr ydym, ni ddylem ddisgwyl ffyrdd llyfnion o hyd."

Priododd James Owen ar yr 17fed o Dachwedd, 1679, â Sarah George, gwraig weddw o Groesyswallt, dynes enwog am ei duwiolfrydedd a'i rhinweddau Cristionogol. Bu iddynt saith o blant, ond buant feirw oll, ond dau, o flaen eu tad; a bu'r fam farw yn Ionawr, 1692. O ddeutu yr amser yma, symmudodd y gynnulleidfa o Swiney i Groesyswallt; a symmudodd yntau i'r dref i fyw, yr hyn, y mae'n debyg, oedd yn fwy cyfleus iddo.

Ymdeunodd dychryn trwy galon yr holl genedl ar ddarganfyddiad y Fradwriaeth Babyddol (*Popish Plot*), rhag y dymchwelid Protestaniaeth, ac yr ail sefydlid Pabyddiaeth yn ei lle; a mawr oedd y pryderu a'r cynllunio oedd trwy y wlad ar gyfer y fath ddigwyddiad. Ymdrechai James Owen barotoi y gynnulleidfa y perthynai efe iddi ar gyfer dïoddef merthyrdod; ac y mae'r ymadroddion yn dangos yn amlwg fod ei ymddibyniad ef ar Dduw, y rhai sydd fel y canlyn:—

"Y mae'n well i ni golli ein bywydau na'n heneidiau anfarwol. Rhydd Fox hanes am un, yr hwn a ddywedodd nas gallai efe oddef ei losgi am ei grefydd; ond ni bu yn faith cyn i'w dŷ gymmeryd tân, a llosgwyd yntau ynddo. Ystyriwch arddderchog lu y merthyri. Dywed Jerome fod pum mil o honynt ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. Beth oeddynt, onid eiddilod pechadurus fel ninnau? Heb law hyny, rhaid i ni oll feirw cyn bo hir iawn, yn ol cwrs natur: pa wahaniaeth, gan hyny, os rhaid i ni ymadael â'r byd ychydig flynyddoedd yn gynt? Dylem fod bob amser yn barod i ddïoddef, os gofynir i ni wadu y gwirionedd; os rhwystrir ni i gyflawni rhyw ddyledswydd; os ceisir genym bechu yn erbyn Duw. Byddai yn well i ni farw filwaith na phechu unwaith."

Ond trodd pethau allan yn well nag y disgwylid, neu nag yr ofnid, a rhyddid a amlhaodd. Pa wedd bynag, prin yr oedd llinynau gorthrwm gwladol wedi llacio, a'r Ymneillduwyr yn dechrau

Digitized by Google

ymuniawni dan eu beichiau, nad oedd y gwahanol enwadau yn troi i erlid eu gilydd, ac i ddadlu ynghylch gwahanol athrawieuthau crefydd. Ymosododd rhywun ar Dduwdod Crist, gan ysgubo yr hen athrawiaeth, fel y tybiai, o'i flaen; ond prin yr oedd yr ymosodiad allan nad oedd James Owen yn ei atteb gyd â'r fath nerth fel y dygwyd ef i sylw pobl nad adweunent ef o'r blaen, a chadarnhawyd ymddiried ei gyfeillion yn ei alluoedd a'i gymmwysderau.

Gobeithiai y Dr. William Llwyd, pan wnaed ef yn Esgob Llanelwy, y gallai ennill yr Ymneillduwyr yn ei esgobaeth yn ol i fynwes yr Eglwys, trwy ddangos atgasrwydd at bob math o erledigaeth a gorthrwm; a chynlluniai fesurau tyner i weithio ei hun i'w ffafr.* Ymwelodd â'r rhan fwyaf o lanerchau pwysig ei esgobaeth, gan gynnal cyfarfodydd i ymddiddan â'r bobl. Llwyddodd i ddallu llawer o honynt, ac mewn rhai cymmydogeuthau gwnaeth gryn ddifrod yngwersylloedd yr Ymneillduwyr. Yr oedd wedi clywed son mawr am James Owen, fel un o arweinwyr y rhengau Ymneillduol, a theimlai y byddai ei drechu ef yn drechu lleng. Gorchymynodd iddo, gan hyny, ei gyfarfod ef yn y neuadd gyhoeddus yng Nghroesyswallt ar adeg bennodol, fel y gallai gael ei resymau dros bregethu heb gael ei urddo gan esgob, a bod iddo groesaw i gymmeryd y nifer a fynnai o bregethwyr anurddedig i'w gynnorthwyo yn y ddadl. Boddlonodd Philip Henry, y Dderwen Lydan (*Broad Oak*), a Jonathan Roberts, Llanfair, ei ddau gymmydog agosaf, i fyned gyd âg ef i gyfarfod yr esgob; ac er nad oedd yr un o'r tri wedi cael ond amser byr i ddarparu ar gyfer y ddadl, etto dangosasant eu hunain yn ddigon o feistriaid ar eu gwaith. Cymmerth yr esgob H. Dodwell gyd âg ef, am yr hwn y gellid dywedyd, os priodol dywedyd hyny am rywun, "Llawer o ddysg sydd yn dy yru di yn ynfyd." Dechreuwyd y ddadl am 2 o'r gloch y prydnawn, a pharhaodd hyd 9 o'r gloch y nos, pryd y trinwyd amryw o'r pwyntiau sy'n gwahanu y Cydffurfwyr a'r Anghydffurfwyr; ond prif destyn y ddadl oedd yr holiad canlynol:—

"A ydyw urddiad esgobol yn hanfodol i fodolaeth eglwys, ac effeithiolrwydd y weinidogaeth, pan y mae'r Olyniaeth Apostolaidd wedi ei thori?"

Dadleuai yr esgob a'i gydymaith fod yr olyniaeth yn ddi fwlch; ac felly amcanai symmud testyn y ddadl.

I hyn, attebodd James Owen bod y cyfryw syniad yn milwrio yn erbyn yr eglwysi diwygiedig, gan y rhai nid oes esgobion; ond nad o angenrheidrwydd y maent hebddynt, fel y gwelir yn y cyffesiadau.

"2. Nad oedd gweinidogion gan Eglwys Loegr, o herwydd y bwlch hwn yn yr Olyniaeth: torwyd hi yn Rhufain, gan mai'r Pab yw yr Anghrist. Heb law hyny, yr oedd amryw o'r Pabau yn anghymmwys: aeth Liberius yn Ariad: condemniwyd Honorius I. fel heretic gan Gyngor Cyffredinol: yr oedd Marcellinus yn eulunaddwr, a Sylvester II. yn swynwr: daliodd Eugenius IV. ei awdurdod ar ol cael ei ddiswyddo gan Gyngor Basil.

"3. Nis gall neb wybod felly yn sicr a ydyw yn weinidog iawn, er cael ei urddo gan esgob: pa fodd y gall y bobl wybod bod eu gweinidog yn awdurdodedig, gan y gall fod y llinell wedi ei thori heb yn wybod iddynt? Pa fodd y gellir gwybod nad oedd yr esgob oedd yn urddo, neu yr hwn a urddid, wedi anghymhwyso ei hun mewn rhyw ddull neu gilydd?

"4. O'r tu arall, od yw'r Olyniaeth Esgobol yn ddi fwlch, felly hefyd yr Olyniaeth Henadurol." "Ie," ebai Dodwell; "ond y maent wedi colli yr hawl i urddo." "Os felly," ebai James Owen, "yr oedd awdurdod ganddynt yn y dechrau; ac nid ydynt ond yn unig wedi cael eu hattal i weithredu, eithr nid eu hyspeilio o'r awdurdod."

Yr unig resymau a ddygwyd ym mlaen trwy y dydd o blaid esgobyddiaeth oedd Titus, Timothëus, ac angylion eglwysi Asia; ond dangosai James Owen i Paul, pan yn canu yn iach i eglwys Ephesus, ei chyflwyno i'r henuriaid, er bod Timothëus, ei hesgob tybiedig, yn bresennol. Ac os nad oedd Timothëus yn esgob ar y pryd, bod yn rhyfedd na buasai Paul yn enwi ei olynydd cyn ymadael, ac yntau yn gwybod "na chaent weled ei wyneb ef mwy."

Gan na ddygodd y ddadl fawr o glod i'r esgob, nac o ennill i'r eglwys, codwyd erledigaeth yn erbyn yr Ymneillduwyr, fel y bu raid i James Owen ymguddio dros dymmor yn ei dŷ. A chan fod ganddo lu mawr o gyfeillion ac ewyllyswyr da yn barod bob amser i'w rybuddio pan welent berygl yn codi, llwyddodd yn rhyfedd i gadw allan o afael ei erlidwyr. Cadwai wasanaeth crefyddol bob borau gyd â'i deulu, ac, yn gyffredin, byddai llawer o'i gymmydogion yn bresennol; ac ar y Sabbothau byddai yn pregethu iddynt, ac yn gweinyddu yr ordinhadau. Cyn gynted ag y cyhoeddwyd ychydig ryddid i'r Ymneillduwyr, trodd ef allan fel cenhadwr i ymweled â chonglau mwyaf anhyspell y Dywysogaeth. Pregethai yn achlysurol ymhob pentref, a byddai yn aml yn gorfod dwyn ei draul ei hun. Bu am dymmor yn ymweled yn fisol â Rhuthyn, ond heb weled fawr o lwyddiant ar ei lafur. Yna, symmudodd i Ddinbych, lle y gommeddodd yr ynadon drwyddedu tŷ at ei wasanaeth, nes y gorfodwyd hwy gan yr awdurdodau cyfreithiol. Y tro cyntaf iddo bregeth yn Ninbych, aflonyddwyd y gwasanaeth yn y dull mwyaf barbaraidd, gan giwaid o wehil-

* Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xx.

Digitized by Google

ion y dref, i'r rhai y telid gan y cyfoethogion, a chymmerwyd y gynnulleidfa i fynu; ond erbyn deall, yr oeddid wedi eu cymmerwyd i fynu dan ddeddf oedd wedi ei dilëu. Ond gwrthododd Mr. Owen gospi yr aflonyddwyr, gan ddywedyd bod yn well ganddo ef weddïo ar Dduw am faddau iddynt. Er i erlidwyr Dinbych aflonyddu arno dros hir amser, gan dori y ffenestri, taflu cerig a budreddi i ganol y gynnulleidfa, a churo tabyrddau o amgylch y lle i geisio ei fyddaru, daliodd heb ddigaloni: teimlodd ei fod yn ennill tir, a diflannodd ei holl erlidwyr yn raddol; a daeth cynnulleidfa Dinbych yn un o'r rhai mwyaf gobeithiol.

Gan iddo ef, a rhai o'i frodyr mwyaf bleunllaw, wneud defnydd helaeth o'r goddefiad a gyhoeddasid gan y Brenin Iago II., dechreuodd eu gelynion a'u brodyr gweiniaid eu cyhuddo o fod yn Babyddion, ac yn myned i ddymchwel Protestaniaeth. Hen arfer yr Esgobeuthwyr yw cyhuddo Ymneillduwyr o ddymchwel Protestaniaeth, pan fyddont yn ymdrechu am eu rhyddid. Buasai yn well gan lawer o Ymneillduwyr lled weiniaid fod heb yr ychydig ryddid hwnw o gwbl, gan y credent mai mantais y Pabyddion oedd mewn golwg gan Iago wrth ei ganiatâu. Cyhoeddodd Mr. Owen "Ddeg o Resymau," fel amddiffyniad iddo ei hun a'i frodyr, yn erbyn y fath gyhuddiad disail. Wele ran o'i amddiffyniad:—

"Yr ydych chwi, yr Esgobeuthwyr, yn dywedyd bod yn warth i ni dderbyn, a mwynhau rhyddid sydd wedi cael ei fwriadu i ddymchwel Eglwys Loegr, ac i ail sefydlu Pabyddiaeth. Ond, ai nid ydym ni yn pregethu yr un athrawiaeth a chwithau? Ymha ystyr, gan hyny, y gall ein cynnulliadau ni niweidio mwy ar Eglwys Loegr, nag a niweidia y naill eglwys blwyfol ar y llall? Hefyd, pan fyddoch chwi wedi dïoddef cymmaint oddi wrth y Pabyddion ag a ddïoddefasom ni oddi wrthych chwi, byddwch chwi mor falch o gael rhyddid ag ydym ninnau; er na ddymunwn weled y dydd drwg, Duw yn dyst! Gŵyr pawb mai erledigeuthau sydd wedi bod hyd yma yn palmantu fforld Pabyddiaeth ymhob oes a gwlad: pa fodd, gan hyny, y gall rhyddid ei hyrwyddo yn yr amgylchiad yma? Paham y digiwch wrthym ni am arfer ein rhyddid, o herwydd bod y Pabyddion yn mwynhau rhyddid? Pe gwrthodem ni y rhyddid presennol, a wnai hyny ryw wahaniaeth i'r Pabyddion? Yn gymmaint a rhyngu bodd i'r brenin roddi eu rhyddid iddynt hwy, ai nid gwell oedd iddo roddi ein rhyddid i ninnau yr un ffordd, na phe rhoddasai ef iddynt hwy hebom ni? Yr oedd y Pabyddion yn rhydd er pan ddaeth y brenin i'r orsedd; ond nid oeddych yn achwyn; eithr cyn gynted ag y rhyngodd bodd i'r brenin estyn yr un ffafr i ninnau, yr ydych chwi yn ddigofus. Pe cawsai y Pabyddion eu rhyddid, a chwithau eich hoff ryddid i erlid, buasai pob peth yn iawn. Ai nid pregethu yr efengyl yw un o'r cyfryngau mwyaf effeithiol i ddadymchwel Pabyddiaeth? Dyna a ddywedir yn 2 Thes. ii. 8. Yn sicr, byddai yspryd apostolaidd yn gweddu i eglwys sydd yn ymffrostio cymmaint mewn Olyniad Apostolaidd: gwnai y fath yspryd i chwi lawenhau am fod Crist yn cael ei bregethu, pa un bynag ai o gynfigen ai o ewyllys da."

Yn 1690, dechreuodd James Owen gynnal cyfarfodydd yn Llanfyllin, sir Drefaldwyn, yn nhŷ un John Gruffydd, yr hwn oedd yn ddŷn cyfoethog, ac yn ol rhai haneswyr yn Ynad Heddwch; ac un o'i ddisgynyddion ef a roddes y tir i adeiladu y capel presennol. Ni bu y terfysgwyr yn Llanfyllin yn ol i derfysgwyr Dinbych: torasant y ffenestri a'r drws, a thyngent y mynnent afael ar y pregethwr, fel y gallent wneud iddo yn ol eu hewyllys; a phan geisiodd y bonheddwr ei hun eu gostegu, bu agos iddynt wneud diwedd arno trwy ei dynu yn ddarnau.

Gan fod y Bedyddwyr yn ennill tir yn rhanau gorllewinol y Dywysogaeth, cymmerent bob cyfleusdra i godi dadleuon, ac i aflonyddu yr enwadau eraill; ac wedi methu o honynt benderfynu y pwngc trwy ddadleuon cyhoeddus a chyfrinachol, cyttunodd y pleidiau i ddewis personau i draddodi pregethau ar y pwngc ym Mhen-lan, ger llaw y Feni-fawr, ar adeg bennodol. Dewiswyd Mr. Thomas, gweinidog Llechryd, dŷn wedi cael addysg o radd uchel, i amddiffyn bedydd babanod; a Mr. Jenkins, gweinidog Rhydwilym, dŷn o dduwioldeb uchel, ond annysgedig, a hollol anghymmwys i ymgymmeryd â'r ddadl, i bregethu ar fedydd y crediniol. Yr oedd Mr. Thomas yn ddŷn o dymmer uchel; a phan welodd y Bedyddwyr yn gosod dŷn nad oedd fawr well na bod yn anllythyrenog i'w wrthwynebu, methodd reoli ei yspryd fel y dylasai; o ba herwydd, er y tybiai ei blaid bod rhesymau a'r Bibl o'i du, gogwyddodd teimlad y dyrfa o du Mr. Jenkins. Dan yr amgylchiadau hyn, appeliodd Bedyddwyr babanod at yr hybarch Samuel Jones, Bryn-Llywarch, i ysgrifenu ar y pwngc; ond efe, gan wrthod gwneud ei hun, a ddymunodd ar James Owen ymgymmeryd â'r gwaith. Er nad oedd ef ond prin wedi cael amser i sychu dagrau ei alar ar ol ei briod, cydsyniodd â'r cais; ac yn 1693, ymddangosodd ei lyfr, "Bedydd Plant o'r Nefoedd," yr hwn oedd y gwaith cyntaf a ymddangosodd yn Gymraeg ar ddadl bedydd. Gan ei fod yn rhywbeth newydd, yn fwy, fe allai, nag am ei fod yn dda, creodd drwst anarferol trwy Gymru; o ganlyniad, rhedodd y Bedyddwyr i geisio cymmorth y wasg i amddiffyn eu hunain a'u hegwyddorion. Yn anffodus, nid oedd ganddynt neb ar y pryd yng Nghymru a fedrai ymgymmeryd â'r gwaith; am hyny, ymddiriedasasant ef i'r Parch. Benjamin Keach, yr hwn oedd

Digitized by Google

yn ddadleuwr galluog, ac yn adnabyddus iawn i lawer o weinidogion Cymru. Gan nad oedd Keach yn deall un gair o Gymraeg, bu raid cyfieithu llyfr Owen i'r Saesneg, er mwyn i Keach ei ddeall, a chyfieithu gwaith Keach drachefn i'r Gymraeg, yr hyn oedd yn waith mawr ac anhawdd. Wedi hir oedi, ymddangosodd cyfieithiad o'r atteb yn gyfrol fawr, 8plyg, yn cynnwys 400 o dudalenau. Ond gan fod yr arddull yn Seisnig ac anystwyth, ni lwyddodd i wneud ond ychydig iawn o les i achos y Bedyddwyr. Yn 1701, cyhoeddodd Jas. Owen lyfryn bychan, 12plyg, yn atteb iddo, dan yr enw, "Ychwaneg o Eglurhad am Fedydd Plant Bychain: neu Atteb i Wrthresymau Mr. Keach a Mr. Narcot yn erbyn Bedydd Plant, ac Amddiffyniad o'r Rhesymau tros eu Bedyddio hwynt," yn yr hwn y dangosai fod is law iddo wneud un sylw pellach o hono, ac felly y claddwyd y ddadl ar y pryd.

Yn 1693, priododd J. Owen ei ail wraig, sef gweddw R. Edwards, Ysw., o Groesyswallt, yr hyn, yn ddïau, a fu yn foddion i rwymo ei deimladau yn dynach wrth y lle. Gan yr edrychid arno bob amser fel un o ysgolheigion blaenaf ei oes, mewn gwybodau hen yn gystal a rhai diweddar, ymddengys i'r frawdoliaeth erfyn arno, pan fu farw ei hen athraw, Samuel Jones, Bryn-Llywarch, gadw yr ysgol honno ym mlaen er darpar bechgyn ieuaingc ar gyfer y weinidogaeth. Ym mysg ei ysgolheigion yn 1700, ceir enwau Thomas Perrot, o Lanybri, sir Gaerfyrddin, a Jeremiah Owen, mab Dafydd, ei frawd, yr hwn oedd yn weinidog yn Henllan, yn yr un sir. Yr amser hwn yr oedd y ddadl fawr Arminaidd yn cael ei dwyn ym mlaen rhwng y Dr. Crisp a'r Dr. D. Williams, yn anterth ei gwres, a'r holl eglwysi trwy Loegr a Chymru mewn cyffro parhaus, heb "gymmeryd hamdden i ddim arall, ond i ddywedyd neu i glywed rhyw newydd." Cymmerth hen eglwys Gwrecsam, o'r hon yr oedd y Dr. Williams yn aelod gwreiddiol, ddyddordeb mwy na chyffredin yn y ddadl; ac o ddeutu'r flwyddyn 1691, ymranodd yn ddwy blaid. Cymmerwyd y rhan Bresbyteraidd, Isel-Galfinaidd, yr hon oedd yn pleidio golygiadau y Dr. Williams, gan James Owen a Mathew Henry; a glynodd yr hen weinidog, y Parch. J. Evans, wrth y blaid Annibynol, Uchel-Galfinaidd. Byddai y ddau ŵr ieuaingc, T. Perrot a Jer. Owen, yn myned yn achlysurol i bregethu i Wrecsam, ac yno yn gweled ac yn clywed y dull y dygid y ddadl ym mlaen, a'r ymosodiadau a wnai y naill blaid ar y llall; a dïau y byddai yr athraw yn ymddiddan â hwynt yn fynych am drafodaeth y cymmerai efe ran mor flaenllaw ynddi, a'r hyn, ar y pryd, oedd yn bygwth rhanu a rhwygo yr eglwysi a gyfrifid yn uniongred yn yr holl wlad. Ynglŷn â'r ddau ŵr ieuaingc crybwylledig y ceir yr olwg gyntaf ar Undodiaeth yng Nghymru.

Bu farw ail wraig James Owen yn 1699, pan oedd efe ynghanol berw y ddadl, a newydd gael dwy alwad, un o Fanchester a'r llall o'r Mwythig; a chyn diwedd y flwyddyn 1700, priododd y drydedd waith âg Elizabeth Hough, gweddw John Hough, o Gaer, o deulu yr hwn y mae'r Parch. W. Hough, Llanarmon, yn hanu. Merch ydoedd y wraig hon i John Wynn, Ysw., o Coperlenny, yn sir Fflint. Bu James Owen mewn cyfyng gyngor y pryd hyn, yn methu gwybod beth i'w wneuthur. Yr oedd ei ymlyniad yn gryf wrth Groesyswallt; ond gan y bwriedid iddo, os symmudai i'r Mwythig, gymmeryd gofal yr athrofa a fuasai hyd yn hyn dan ofal Francis Tallents a John Bryan, dau glerigwr dysgedig a droisid o'u bywioleuthau yn 1662, a bod teimlad ei frodyr yn y weinidogaeth trwy yr holl wlad yn ffafriol i hyny, penderfynodd gydsynio â'r cais, a symmudodd i'r Mwythig cyn diwedd y flwyddyn 1700.

Yn fuan wedi ei symmudiad i'r Mwythig, dechreuodd ei iechyd amharu; a chan fod ei ddyledswyddau cartrefol yn lliosocach yno nag yng Nghroesyswallt, amddifadwyd ef o'r ymarferiadau corphorol a gaffai wrth deithio o amgylch y wlad i bregethu. Blinid ef er ys rhai blynyddau gan y graianwst, yr hwn a waethygodd yn gyflym ar ol ei symmudiad. Pan ddywedwyd wrtho fod pob gobaith am adferiad wedi darfod, galwodd ei deulu ato i ddymuno yn dda iddynt, a chyflwynodd y myfyrwyr i nawdd Duw, gan lawenhau wrth weled mor obeithiol yr ymddangosai crefydd yn y dyfodol. Annogodd hwynt yn ddifrifol i geisio crefydd bersonol; a'i eiriau olaf wrthynt oedd, ar iddynt ofalu am beidio myned at Dduw mewn gweddi heb ragfeddwl beth a ddywedent wrtho. Wedi dïoddef cystudd trwm yn amyneddgar a thawel, bu farw yn wrol, fel yr oedd wedi byw, ar yr 8fed o Awst, 1706, yn 52 oed.

Ysgrifenodd lawer o lyfrau yn ei oes heb law y ddau a grybwyllwyd. Efe yw awdur y llyfr rhyfedd a elwir "Trugaredd a Barn," 1687, yr hwn a eilw Gwallter Mechain yn "gasgliad hygoelus."*

* Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 304.—Er mor "hygoelus" yr ym-

Yn hwn ceir llu o engreifftiau o farnau neillduol yn disgyn ar bechaduriaid neillduol, a rhaglunieuthau neillduol yn gofalu am bobl dduwiol, yr hwn, er ei fod yn annog ei gydwladwyr i'w ddarllen yn lle yr hen chwedlau mynachaidd, sydd yn cynnwys llawer o chwedlau nas gallasom erioed eu credu? Y llyfrau Cymraeg, heb law y rhai a nodwyd, a ysgrifenodd efe oedd y rhai canlynol—

"Dyledswyddau Gweinidogion ac Eglwysi tu ag at eu gilydd." 1693.
"Cyfieithiad o Gatecism y Gymmanfa." 1701.

Cyhoeddodd hefyd ddeuddeg o gyfansoddiadau Seisnig, y rhai sy'n amrywio cryn lawer yn eu gwerth cystal ag yn eu maint. Y diweddaf a gyfansoddodd oedd "Hanes Ordeiniad,"* yr hwn a orphenwyd ac a gyhoeddwyd gan ei frawd, y Dr. Charles Owen.†

Dafydd Owen, brawd hynaf James Owen, ydoedd weinidog yr eglwys yn Henllan, sir Gaerfyrddin, o 1696 hyd 1710. Ganwyd ef yn 1651, a bu farw ar y 7fed o Hydref, 1710, yn 59 oed.‡

Jeremiah Owen, ei fab, yr hwn a fu yn myfyrio dan ei ewythr yn y Mwythig, fel y gwelsom, a ddilynodd ei dad fel gweinidog Henllan. Ni bu ei arhosiad yn Henllan ond byr, sef o bedair i bum mlynedd. Y mae'n cyfeirio at ei anfoniad ymaith yn ei atteb i Mr. Matthias Morus. Beth bynag a fu'r achos o hyny, y mae'n rhyddhau yr eglwys oddi wrth bob bai yn yr amgylchiad, ac yn ei briodoli yn gwbl iddo ei hun. Yr oedd yn Barnet, sir Hertford, yn 1727, ac yn Rochdale, sir Gaerwerydd, yn 1746. Dyna'r cwbl o'i hanes sy'n hyspys hyd yn hyn.

Ymddengys wrth ei gyfansoddiadau ei fod yn ddŷn dysgedig a thalentog. Cyhoeddoedd ddau lyfr, o leiaf, yn Gymraeg, sef "Golwg ar y Beiau y sydd yn yr Hanes a Brintiwyd ynghylch Pedair neu Bump Mlynedd i nawr, ymherthynas i'r Rhwygiad a wnaethpwyd yn Eglwys Henllan, yn y Blynyddoedd 1707, 1708, 1709." 1732–3.

Llyfr ar y ddadl rhwng yr awdur a Matthias Morus, ynghylch trefu eglwys y Testament Newydd, ydyw hwn. Morus a ddadleuai dros y drefn Annibynol, a'r athrawiaeth a elwir yn Uchel-Galfiniaeth; a Jer. Owen a ddadleuai dros y drefn Bresbyteraidd, a'r athrawiaeth a ystyrid yn Wrthddengys y gwaith yn yr oes hon, etto credwn iddo wneud cryn les yn ei amser. Yr ydym yn cofio i ni ei ddarllen pan rhwng 10 a 12 oed, a'n bod yn methu cysgu gan ofn bod yn y dosparth y disgynai y barnau ofnadwy a gofnodai arnynt; a'n bod yn gweddïo am gael bod ym mysg y rhai a amddiffynid mor dirion gan Ragluniaeth Ddwyfol. Hwn oedd y llyfr cyntaf a ysgrifenodd J. Owen, pan oedd efe o gylch 33 oed.—Gol.

* "History of Ordination." † Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 169.
‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 325.

Galfinaidd, yr hon a amddiffynid gan y Dr. Daniel Williams ac eraill.*

Y llyfr Cymraeg arall a gyhoeddodd Jeremiah Owen yw "Traethawd i Brofi ac i Gymmell ar yr hôll Eglwysi y Ddyledswydd Fawr Efengylaidd o Weddïo dros Weinidogion," 1733. Dyry Gwilym Lleÿn a'r Dr. T. Rees ganmoliaeth uchel i'r llyfr hwn.†

Y llyfrau Saesneg a gyhoeddodd Jer. Owen yw y rhai canlynol:—"The Goodness and Severity of God in his Dispensations, with respect unto the Ancient Britains," 1717: Pregeth ar gylchwyl genedigaeth Tywysoges Cymru;‡ "The Christian Conduct and Crown," 1746: Pregeth ar farwolaeth ei ewythr, y Dr. Charles Owen; "The End of all Perfection," 1746: Pregeth ar farwolaeth James Hardman, masnachydd.§

Charles Owen, D.D., oedd frawd ieuengaf Jas. Owen, fel y crybwyllwyd eisoes. Bu yn weinidog y gynnulleidfa Bresbyteraidd yn Warrington, sir Gaerwerydd, dros o gylch 50 mlynedd, ac yr oedd hefyd yn athraw coleg yno. Bu farw yn hen ac yn llawn o ddyddiau yn y flwyddyn 1746, a dyna'r cwbl a wyddom ni o'i hanes bersonol. Heb law gorphen a chyhoeddi y ddau lyfr a nodwyd olaf, mewn cyssylltiad â'i frawd James Owen, efe a ysgrifenodd hanes ei fywyd, dan yr enw "The Life and Times of James Owen," amryw dreuthodau dadleuol, a llyfr rhagorol, medd y Dr. T. Rees, a elwir "The Wonders of Redeeming Love." Hefyd, cyfieithodd lyfr Cymraeg ei frawd ar "Fedydd Plant" i'r Saesneg, dan yr enw "The Infant Ark;" ond ni chyhoeddwyd hwn, eithr gwerthwyd yr ysgrifenlaw o hono yn 1860, ymhlith llyfrau cywrain E. Edwards, o'r Mwythig, am 5s. 6c. Cyhoeddwyd llyfr o'i law-ysgrifau yn 1769, ymhen 23 blynedd ar ol iddo ef farw, dan yr enw "The Character and Conduct of Ecclesiastics in Church and State, from the First Plantation of this Island to the Accession of the Royal House of Hanover to the Crown of Great Britain."‖

---

## PENNOD V.

### JOHN JENKINS AC ELIS PUW.

John Jenkins, Rhydwilym,¶ un o weinidogion

* Llyfr. y Cymry, t. 363, 348; gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xxv.
† Llyfr. y Cymry, t. 363; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 324.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 317. § Yr un, t. 409.
‖ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 324; Llyfr. y Cymry, t. 506–7.
¶ Rushacre y gelwid Rhydwilym cyn cael yr addoldy yn 1701, a Rhydwilym wedi hyny.

Digitized by Google

gorau y lle, a anwyd ym mhlwyf Cilmaenllwyd, tu a'r flwyddyn 1656, a bedyddiwyd ef yn ardal Rhydwilym, a elwid gynt *Rushacre*, yn 1677, pan oedd yn 21 oed. Neillduwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Rhydwilym tu a'r flwyddyn 1704; ac wedi treulio amser maith mewn llafur caled a llwyddiannus yn y weinidogaeth, bu farw ar y 3ydd o Orphenaf, 1733, yn 77 oed, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys y Bedyddwyr, yn Rhydwilym. Ymddengys bod brawd iddo, a'i enw Dafydd, yn henuriad llywodreuthol yn eglwys Rhydwilym, ac mai mab iddo ef oedd Evan Jenkins, o Wrecsam, yr hyn sy'n dangos bod rhai o'i berthynasau agosaf yn ddynion crefyddol. Dyma ddarlun J. Richards o John Jenkins:—

"Yr oedd yn ddŷn ieuangc gwyllt a chyndyn; yn arfer chwarau pêl-droed, ymaflyd codwm, a phob difyrwch egnïol, a throseddu dydd yr Arglwydd. Dïosgai i ymladd mewn munud os digid neu y cynhyrfid ef; ond effeithiodd gras Duw gyfnewidiad mor fawr yn ei duedd, fel y daeth yn ddŷn difrifol a phwyllog, yn cael ei barchu yn fawr gan ei gymmydogion a'i gydnabod yn gyffredinol, y rhai a wyddent yn dda am ei fuchedd a'i fywyd llygredig yn flaenorol. Ar ol myned i'r weinidogaeth, llafuriodd gyd â diwydrwydd diflino gartref, ac yn fynych oddi cartref. Parhaodd ei yspryd ymroddgar o hyd, ond, yn ffortunus, mewn cyfeiriad arall."

Tybir iddo gychwyn ei yrfa fel efengylwr yn fuan wedi derbyn Cristionogaeth. Modd bynag, ceid deuddeg o weinidogion yn eglwys Rhydwilym yn 1689, ac yr oedd J. Jenkins yn un o honynt; ond yn 1701, nid oedd yno fwy na thri, sef J. Jenkins, G. Howels, ac A. Jones.* Bu Howels farw yn 1705 neu 1706; ac wedi i P. Jones dderbyn gweinidogaeth eglwys Cilfowyr yn 1704 (sef y flwyddyn y sefydlwyd yr eglwys honno), cafodd J. Jenkins holl ofal y fam eglwys rhag llaw; ond cynnorthwyid ef gan D. James, T. Mathews, a Phylip Jones, yr hwn a elwid Philip John. Dywed Neal fod y pedwar uchod yn weinidogion Rhydwilyn yn 1715; ond nid oeddynt felly. J. Jenkins oedd yr unig weinidog, a'r lleill yn gynnorthwywyr.† Gan mai cangen o Rydwilym‡ oedd Dewsland (hen enw Llangloffan), byddai Jenkins a'i frodyr cynnorthwyol yn pregethu yno ar gylch, ac mewn llïaws o fanau eraill. Tu a'r fl. 1720, gorphenwyd adeiladu addoldy Ffynnon-gwell-na-Buwch (yr hwn a adweinir yn gyffredin wrth yr enw Ffynnon), ymhlwyf Llanddewi, heb fod ymhell o Rydwilym, ac yr oedd brawdoliaeth y Ffynnon yn fath o gangen o Rydwilym. Cyn gorphen addoldy y Ffynnon, ymddengys bod y tri chynnorthwywyr crybwylledig yn weinidogion; ond gadawodd Mathews y weinidogaeth (am dymmor, beth bynag), a meddylir i Phylip Jones farw tu a'r flwyddyn 1720, fel nad oedd ond J. Jenkins a D. James i weinidogeuthu rhag llaw. Yn anffodus, cymmerth ymrafael le rhwng y ddau esgob [y ddau weinidog], yr hyn a fu yn drallodus iawn iddynt, yn chwerwder mawr i gyfeillion Rhydwilym a'r Ffynnon, ac yn ofid a galar i holl Fedyddwyr y Dywysogaeth. Nid yw cofnodi na darllen amgylchiadau gofidus yn ddymunol; ond gan y gall y fath drallodion wasanethu yn ocheliadol, rhoddwn yr hanes annymunol yma ger bron yng ngeiriau Joshua Thomas:—

"Yn fuan ar ol gorphen y tŷ cwrdd [Ffynnon], cymmerodd rhyw ymryson dibwys le rhwng rhai o'r aelodau ar beth bach; ond profodd y canlyniadau yn wir yn dra chwerw. Pe buasent yn ystyried Diar. xvii. 14, buasai yn dda iddynt, ac i lawer eraill. Cafodd tymherau a nwydau eu tanio yn fawr. . . . . Digwyddodd i mi gael rhyw bapurau gwasgaredig yn sir Frycheiniog yn rhoi hanes pur fanwl o godiad a chynnydd y ddadl. . . Yn fuan dechreuodd yr ymryson weithio fel ychydig lefain, yr hwn, er hyny, yn fuan a weithiodd trwy yr holl does. Rhwygwyd yr eglwys yn ddwy, un dan flaenoriaeth Mr. John Jenkins, a'r rhan arall yn anffodus dan Mr. David James. Dechreuodd y gofid yn benaf rhwng y ddau weinidog; ond cododd yn fuan ymhlith yr holl aelodau, ac yr oeddynt yn llïosog. Gofidiai hyn y gymmanfa yn 1724 yn fawr, ac nis gallent yno mewn un modd

* Yr oedd hyn ymhen blwyddyn ar ol adeiladu addoldy Rhydwilym, gan John Evans, Llwyn-Dŵr, yn 1701. Dïau y bydd gair byr am y dŷn da hwnw yn dderbyniol:—Yr oedd yn fab i foneddwr arianog yng nghymmydogaeth Rhydwilym; ac efe oedd yr ieuengaf o dri o feibion. Gosododd y tad ei diroedd i'r ddau fab hynaf, gan drefnu i'r fam roddi dysgeidiaeth i John, er ei gymhwyso i ryw gylch uchel ac ennillfawr. Penderfynodd hithau wneud offeiriad o hono, ac er mwyn hyny anfonodd ef i ysgol rammadegol dda, i'w barotôi i'r athrofa; ond pan oedd ei fam yn trefnu dyrchafiad a chyfoeth iddo, meddiannwyd John gan ddifrifoldeb mawr ynghylch matter ei enaid, trwy ddyfod i gyfeillgarwch â rhai o'r dynion a elwid yn Ailfedyddwyr. Pan siaradai ei fam âg ef am Rydychain, ymddangosai efe yn amddifaid o fwriad i fyned yno, yr hyn a barodd i'w fam geisio ei ddenu, ac wedyn ei fygwth; ond nid oedd na deniadau na bygythion yn llwyddo. Pan oedd hi yn myned heibio i'w ystafell ryw dro, clywai swn, ac wedi clustfeinio, deallodd mai John oedd yno yn gweddïo drosto ei hun a thros ei fam. Mewn canlyniad, daeth hi yn gyfeillgar iawn ato, a rhoddes arian iddo i brynu Llwyn-Dŵr yn etifeddiaeth iddo ei hun, ac yn y lle hwnw y bu efe byw trwy amser yr erledigaeth; a'r Hollwybodol yn unig a ŵyr am heleuthrwydd ei garedigrwydd i Gristionogion erlediedig yn y fath dymmor brawychus.

Yn 1673, bedyddiwyd ef yn Rhydwilym, a derbyniwyd ef i gyflawn aelodaeth yn y lle. Dewisodd efe ddïoddef adfyd gyd â'r rhai a ystyriai yn bobl Dduw, yn hytrach na manteision Rhydychain a dyrchafiad offeiriadol. Ni bu ei frodyr hynaf fyw yn hir, a thrwy hyny daeth eu holl gyfoeth i John. Gan ei fod yn byw mewn llawnder, ac yn meddu cydymdeimlad dwys â chrefydd, adeiladodd addoldy cyfleus ar ei dir ei hun, ac ar ei draul ei hun, at wasanaeth y Bedyddwyr erlidiedig, yr hwn a alwyd yn Rhydwilym. Ar fur y tŷ, oddi fewn, gosodwyd yr hyn a ganlyn:—"John Evans, o Lwyn Dŵr, a ddygodd draul adeiladaeth y tŷ hwn, yn y flwyddyn 1701, gan ewyllysio iddo fod at wasanaeth y bobl hyny sydd yn dal y chwech egwyddor yn Heb. 6. 1. 2." Mr. Lewis Thomas, Abertawe, oedd yr hwn a bregethodd ar yr achlysur o agor yr addoldy. Wedi bod yn henuriad llywodreuthol yn yr eglwys am flynyddau, bu farw tu a blwyddyn o flaen Gruffydd Howels, Rhydwilym, sef yn 1704 neu 1705.

† Pregethwyr di urddau, y mae'n debyg, sef rhai heb gael eu hawdurdodi gan ddynion "i weini yr ordinhadau."—GOL.

‡ Y mae "cangen" o eglwys mor ddïeithr i'r Testament Newydd ag ydyw "mam eglwys," fel y crybwyllwyd o'r blaen.—GOL.

Digitized by Google

gymmodi y pleidiau. Y mae crybwyllion am y gofid yn y cylchlythyrau y flwyddyn honno. Yno dymunwyd ar yr eglwysi gadw y dydd Mercher cyntaf yn y mis yn ympryd a gweddi ar amryw achosion, ac yn neillduol ar yr achos hwn, am chwe mis yn olynol; ond parhaodd y gymdeithas hon yn ddwy ran, ac ymddygent fel dwy eglwys, ond yn dra chwerw tu ag at eu gilydd. Gweinyddent yr ordinhadau a derbynient aelodau yn y ddwy ran. Os deallwyd y papurau yn gywir, yr oedd plaid Mr. Jenkins tu a 80, a'r llall tu a 140. Gofidid yr eglwysi yn y cyfundeb yn fawr. Gweddïid yn ddirgel ac yn gyhoeddus am i gymmod gael ei wneuthur yn y gymmanfa ddynesol yn Llanelli yn 1725, ac ysgrifenwyd amryw lythyrau i gynnorthwyo yr amcan. Ysgrifenodd y ddwy blaid eu llythyrau ar wahân i'r cyfarfod. Daeth yr amser disgwyliedig, ac wedi hir ddadl, llwyddwyd i gael gan y gweinidogion a'u pleidiau ganiatâu rhai pethau o bob tu, ac felly gosodwyd i lawr sylfaen o gymmod dyfodol. Dymunwyd ar yr eglwysi gadw dyddiau o ddïolchgarwch, yn ol yr un drefn ag y cadwasent ddyddiau ympryd a gweddi y flwyddyn flaenorol. Y flwyddyn 1726, cynhaliwyd y gymmanfa yng Nghilfowyr; ond nid oedd clwyf Rhydwilym wedi ei lwyr wella etto, a thrinwyd ef ymhellach yno, mewn trefn i orphen a chadarnhau yr hyn a osodasid ar droed mor ffortunus yn Llanelli; ac o herwydd bod y cyfarfod hwnw mor agos, daeth llawer o Rydwilym iddo. Mewn trefn i gymmodi pethau, cyttunwyd bod cymmanfa 1728 i fod yn Rhydwilym, ac yn Llangloffan, y rhan arall yn 1729; ac felly rhoddwyd terfyn gweddol ar y ddadl annymunol. Yr oedd yno ddynion duwiol a theilwng iawn o'r ddwy ochr. Ymadroddion cyffrous a llidiog oedd y prif droseddau trwy'r cyfan, a'r rhai hyny yn achosi cyflawniadau anweddus ar brydiau: ond na chadwer y rhai hyny o fedd ebargofiant. Mor ddymunol yw i aelodau eglwys ofalu yn briodol am eu hyspryd a'u geiriau."*

Dengys y difyniad hwn nad yw bod dynion yn methu cydweled ymhob cyfeiriad yn un prawf o annuwioldeb y pleidiau, ac y dylid arfer gwyliadwriaeth ofalus rhag ofn i'r hyn sy'n fychan ynddo ei hun arwain i ganlyniadau dychrynllyd. Nid oedd Paul a Phetr yn cydolygu ar bob peth, ond yr oedd y ddau yn apostolion cymmeradwy er hyny. Gellir casglu mai rhwng rhai o'r aelodau cyffredin y dechreuodd yr ymrafael gofidus uchod; ac fe allai i'r ddau weinidog galluog gael eu tynu i ofid trwy ymrafeulion rhai eraill. Bu Abraham a Lot mewn profedigaeth o herwydd cynnen eu bugeiliaid; ac ymddengys mai trwy ddoethineb "tad y ffyddloniaid" y gochelwyd yr ymryson. Nid yw yspryd crefyddol Bedyddwyr oes John Jenkins a D. James yn anheilwng o ystyriaeth. Trefnent ympryd a gweddi am dymmor maith yn amser y cynnwrf, a dyddiau i ddïolch am yr ymwared wedi i heddwch rhanol gael ei sefydlu. Nid heb achos, yr ydys yn ofni, nad yw crefyddolder yr hen dadau i'w weled mor amlwg ag y gellid dymuno yn ysgogiadau crefyddol eu holynwyr yng Nghymru. Gan nad yw manylion y drafodaeth rhwng y pleidiau crybwylledig yn hyspys, nis gellir gwybod am ddoethineb nac annoethineb Jenkins ynddi: y mae'n bossibl nad ymddygodd efe yn y modd mwyaf doeth, er ei fod braidd yn ddiarhebol am ei fedrusrwydd i gymmodi pleidiau gwrthwynebus.† Dichon y gallasai J. Jenkins droseddu yn erbyn ei gallineb arferol mewn ymrysonau, yn yr amgylchiad y cyfeiriwyd ato, gan ymddibynu gormod ar ei fedrusrwydd ei hun mewn amgylchiadau o'r fath, ac y gallasai ragfleunu y trallodion trwy arfer mwy o ofal. Sut bynag y bu yn y cythrwfl a nodwyd, dilys yw bod mwy o annoethineb na drygioni yn yr amgylchiad, yn ei berthynas â'r ddau weinidog, ac i'r naill a'r llall, yn enwedig Jenkins, ennill enwogrwydd mawr yngwasanaeth eu Harglwydd.

Nid ysgrifenwyd hanes John Jenkins yn fanwl, hyd y gwyddom; ond nid yw prif linellau ei gymmeriad fel gweinidog galluog a ffyddlon i Grist yn hollol ddïeithr i ni, er y buasai mwy o fanylrwydd yn ddymunol. Gweithiodd yn galed yn eglwys Rhydwilym a'i changhenau am flynyddau, a theimlwyd dylanwad argyhoeddiadol a meithrinol ei weinidogaeth ar raddeg ehang mewn ardaloedd pellenig yn y Deheubarth; ac yn gymmaint a'i fod yn byw yn y cyfnod erledigeuthus, cafodd ddïoddef llawer o gynddaredd esgobeuthol ei oes, fel Cristionogion Anghydffurfiol yn gyffredin.‡ Wedi i T. Jones, Craig-yr-Allt (Hengoed wedi hyny), farw yn 1675, bu J. Jenkins yn teithio yn

* Dywedir nad oes sicrwydd pa bryd y terfynodd dyddiau Dafydd James, arweinydd un o'r pleidiau. Yn ol traddodiad, bu farw cyn i'r ymryson ddarfod. Dywedir bod rhai amgylchiadau yn dangos iddo huno rhwng cymmanfaoedd 1725 ac 1726. Dywedir ei fod yn ddŷn o gymmeriad rhagorol, ac nad oedd yn amddifaid o ddoniau derbyniol; ond bod ei orthrymderau yn yr anialwch yn llïosog ac yn drymion, ac nad ychydig oedd ei drallodion yn herwydd yr ymryson y cyfeiriwyd ato. Pan yn ffarwelio â chyfaill yn ymyl angau, dywedodd:—"Cofia Dafydd, a'i holl flinder" (Ps. cxxxii. 1). Yr mae ei enw ymhlith y rhai a law-nodasant y cylchlythyrau yn 1721 ac 1722, a phennodwyd ef i bregethu y bregeth gymmanfaol yn 1723.

† Mewn galargan a gyfansoddwyd ar ei farwolaeth, y mae'r galarnadwr yn cyfeirio at y cymhwysder hwn yn y geiriau canlynol:—

"Yr oedd e'n hyfryd, megis Job,
I drafod pob ymryson,
Heb gynnyg dim ond pethau pur,
Yn ol y gwir achosion.
Llaeth i fagu, gwin i loni,
Gair o rinwedd oedd e'n ranu,
Cyngor iachus a chysurus,
Yn ddi drai a ro'i e'n drefnus.

"Os byddai 'mrafael mewn rhyw fan
Yn tori allan weithiau,
A methu'n llwyr gyttuno'n llon
Ynghylch y dyfnion bethau:
Pan agorai hwn ei enau,
Pob ymryson a ddarfyddai;
Pawb yn tewi gan lonyddu,
Heb ymrwysgo na therfysgu."

‡ Gwelodd Joshua Thomas lyfr pregethau o'i waith, yn yr hwn y ceid brasluniau tu a 40 o bregethau, wedi eu cyfansoddi yn benaf ar gyfer amseroedd erledigeuthus, ac wedi eu traddodi ar y cyfryw amserau.



Digitized by Google

fynych o Rydwilym i Graig-yr-Allt i gynnorthwyo yr eglwys yno; ac ymddengys mai efe a arweiniodd y frawdoliaeth at Morgan Griffiths, yr hwn oedd yn un o'r gweinidogion gorau a mwyaf llwyddiannus a fu erioed yn Hengoed. Byddai weithiau yn teithio yr holl ffordd o Rydwilym i Graig-yr-Allt ar ei draed, ac y mae'n debyg nad oedd efe yn uchel mewn amgylchiadau tymhorol. Meddai gorph cryf iawn, a rhoddodd ei gryfder corphorol yn fynych dan dreth i wasanaethu ei Geidwad. Gellir meddwl ei fod yn un o'r rhai sy'n mwynhau llafur, ac yn ymbleseru mewn anhawsderau. Ni fynnai heneiddio; o'r hyn lleiaf, ni adawai i henaint ei rwystro, nac yn oed arafu, ei ysgogiadau yngwinllan ei Geidwad. Er bod y pellder rhwng Rhydwilym, ar gyffiniau Penfro, a Phen-y-Fai, ym Morganwg, yn fawr, pregethodd mewn cymmanfa yn y lle olaf yn 1733, y flwyddyn y bu farw, er ei fod ar y pryd o fewn tair blwydd i 80 oed. Mynychai y cymmanfaoedd yng Nghaerodor, a manau eraill yn Lloegr; a bu eu cael i Gymru yn orfoledd mawr i'w enaid llafurus. Dywed Joshua Thomas ei fod yn wir barchus ac enwog; ac nid oes amheuaeth ynghylch ei weithgarwch egnïol a'i ddefnyddioldeb mawr yngwahanol eglwysi Deheudir Cymru. Meddai allu neillduol o dreiddiol i weled trwy bersonau a phethau. Yr oedd ei dymmer naturiol yn boeth, ond lliniarwyd hi yn fawr gan ras, profiad, ac oedran. Yn ol yr hanes, nid oedd heb radd helaeth iawn o'r gallu angenrheidiol i drefnu achosion eglwysig, a pharhaodd ei yspryd arwraidd a diofn hyd ddiwedd ei yrfa. Yn llythyr Rhydwilym at y gymmanfa yn 1734, y maent yn cwyno eu colled, ac yn dywedyd bod eu hen weinidog yn gyfaill anwyl; bod eu bugail yn fawr iawn a gwerthfawr yn eu golwg; a bod eu colled ar ei ol fel pe buasai colofn fawr wedi syrthio, neu ganwyll fawr wedi diffodd.

Bu dadlau zelog ar fedydd yn sir Benfro yn ei amser ef, a chymmerth ef ran bwysig yn y matter hwnw, fel y dengys y difyniad canlynol:—

"Fel yr oedd y Bedyddwyr yn cynhyddu y pryd hyn yn y rhan orllewinol o Gymru, bu llawer o ddadleuon rhyngddynt â Bedyddwyr plant. Oddi amgylch i'r flwyddyn hon [1691], cyttunodd y ddwy blaid i bregethu ar y pwngc o fedydd ym Mhen-y-Lan, yn agos i Fenni Fawr. Mr. John Thomas, o Lwyn-y-Grawys, a bregethodd gyntaf dros fedydd plant; a phregethodd Mr. John Jenkins, gweinidog Rhydwilym, ddiwrnod ar ol hyny, dros fedydd y crediniol. Mewn canlyniad i'r cyfarfod hwn, llawer o aelodau Mr. Thomas a unasant â'r Bedyddwyr, yr hyn a fu yn achos i'r Indepeniaid yn y parthau hyny ddymuno ar Mr. Samuel Jones, o Fryn-Llywarch, ysgrifenu llyfr ar fedydd babanod. Ond pan ballodd Mr. Jones, Mr. James Owen a gymmerodd y gorchwyl mewn llaw, a dywedir nad oedd neb mwy cymmwys i'r gwaith nag oedd ef.* Cyhoeddodd Mr. Owen ei lyfr dan yr enw 'Bedydd Plant o'r Nef,' a bu achos o gymmaint cynnwrf trwy yr holl wlad fel y barnodd y Bedyddwyr fod yn angenrheidiol amddiffyn eu hunain yn yr un dull. Ond y mae'n debygol nad oedd ganddynt neb yn eu plith eu hunain yng Nghymru yn abl dadlau â Mr. Owen. Dymunasant gan hyny ar Mr. Benjamin Keach, o Loegr, gymmeryd y gorchwyl mewn llaw. Daeth ei lyfr ef allan dan yr enw 'Goleuni wedi tori allan yng Nghymru.' Yr oedd y Bedyddwyr yn llafurio dan beth anfantais yn y dadl hwn, o blegid gorfu iddynt gyfieithu llyfr Mr. Owen i'r Saesneg i'r diben i Mr. Keach i'w ddeall; ac wedi hyny cyfieithu llyfr Mr. Keach i'r Cymraeg er budd i'r Cymry."

James Owen oedd y cyntaf a ysgrifennodd yng Nghymru dros fedydd babanod, ac amddiffyn, ac nid ymosod, oedd gorchwyl cyntaf y Bedyddwyr mewn ffordd o ysgrifenu dros eu syniadau neillduol, ac yn erbyn golygiadau gwahanol; ac oddi eithr yr hyn a gymmerth le yn ardal Abergefenni yn 1653 ac 1654, mewn canlyniad i'r ddadl rhwng Tombs† a rhai Bedyddwyr babanod, dadl y Fenni oedd y ddadl gyhoeddus gyntaf ar fedydd yng Nghymru, a dadl Pen-y-Lan, rhwng Jenkins a Thomas, oedd yr ail. Y mae Mr. Peter yn awgrymu yn y difyniad blaenorol mai mewn tymmor o lwyddiant cymharol ar achos y Bedyddwyr y cychwynid dadl Pen-y-Lan; a dywed eraill mai eu llwyddiant a fu yn achlysur o honi. Dywed Spinther fod cynnydd cyflym y Bedyddwyr ar y pryd (bedyddiad John Phylip, Cilcom), yn codi iddynt yn wrthwynebiad cryf oddi wrth Fedyddwyr babanod, ac yn neillduol yr Annibynwyr. Yn ei gyfeiriad at y ddadl rhwng Mr Tombs a Mr. Cragge, dywed Jos. Thomas fel y canlyn:—

"Pan gyfarfyddai cyfundeb y Bedyddwyr â llwyddiant a chynnydd neillduol y dyddiau hyny [1653], ac yn aml ar ol hyny, celent hefyd wrthwynebiad brwd. Felly y bu yn y Fenni a'r ardal. Ymhen tu a saith wythnos ar ol y gymmanfa [1653], bu dadl gyhoeddus ar fedydd yn Eglwys Fair yn y dref."

Cyhoeddodd y pleidiau adroddiadau o'r ddadl, a bu ychydig o "ryfel bapur" mewn canlyniad. Gellid meddwl, wrth ddarllen rhai awdwyr, mai i hyfder ac yspryd ymladdgar y Bedyddwyr yr ydys i briodoli dadleuon ar fedydd yn gyffredin; ond ymddengys oddi wrth y difyniadau blaenorol mai y Bedyddwyr babanod oedd yn gyfrifol am y brwydrau cyhoeddus cyntaf yn y Dywysogaeth. Gan mai John Jenkins a ddewiswyd gan y Bedyddwyr i bregethu ar fedydd yn ymyl y Fenni Fawr yn 1694, mewn gwrthwynebiad i Mr. Tho-

* Gwel James Owen yn y bennod flaenorol o'r gwaith hwn.
† Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. iv., John Tombs.

Digitized by Google

mas, rhaid bod ganddynt farn ffafriol am ei alluoedd i amddiffyn egwyddorion gwahanieuthol y cyfundeb Bedyddiedig.

ELIS PUW.

Ganwyd Elis Puw mewn tyddyn bychan ymhlwyf Dolgellau, sir Feirionydd, ym Mehefin 1656. Yr hyn oll a wyddys am ei rieni ydyw, eu bod yn grefyddol a pharchus, isel eu hamgylchiadau; i'w dad farw cyn ei eni ef; ac i'w fam farw yn fuan ar ol ei eni. Gan iddo gael ei adael fel hyn yn amddifaid a thlawd mor ieuangc, yr unig addysg a gafodd oedd troi allan i ennill ei fywioliaeth mor fuan ag y gallai. Tyfodd i fynu yn benrhydd i raddau; ond cyn myned o hono ymhell iawn yn ei wylltineb, dechreuodd deimlo yn anesmwyth yn achos ei enaid; ond yr oedd mor dywyll ac anwybodus fel nas gwyddai beth i'w wneuthur, na pha beth a geisiai ei Arglwydd ganddo. Pa wedd bynag, ni bu'r Arglwydd yn faith cyn ei alw o'i dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.

Yn y flwyddyn 1654, dwy flynedd cyn geni Elis Puw, yr oedd George Fox ar ymweled â chymmydogaeth Gwrecsam, sir Ddinbych, lle yr oedd Morgan Llwyd ar y pryd, ŵyr, fel y tybir, i'r enwog Huw Llwyd, o Gynfal,* yn gweinidogeuthu gyd â'r Annibynwyr. Efe ydoedd un o gedyrn y ffydd yn yr oes honno, ac ar y pryd ymlodau ei ddyddiau. Teimlodd ei fod yn ormod o hyfdra yn George Fox ddyfod i'w esgobaeth ef, ac i fysg ei braidd i hau ei olygiadau, y rhai yr edrychid arnynt yn yr oes honno gyd â chymmaint o amharch ag yr edrychir ar olygiadau Mormoniaeth yn yr oes hon. Anfonodd ddau ŵr ieuangc o'i gynnulleidfa i'w brofi, a hwyrach i geisio ei rwydo yn ei ymadrodd; a bwriadai, y mae'n debyg, fyned i ddadl gyhoeddus âg ef er "amddiffyn y ffydd." Ond yn lle dychwel at Morgan Llwyd, dychwelasant hwythau, fel y doethion gynt, ar hyd ffordd arall. Ymunodd y ddau â'r Crynwyr, a bu un o honynt, John ap John, o'r adeg honno hyd ei fedd yn un o'r pregethwyr ffyddlonaf yng Nghymru. Yn 1657, ymwelodd George Fox ac yntau â Dolgellau; a phan oeddynt yn dyfod i'r ardal dros ben mynydd mawr, dwy filltir o uchder, meddai y bobl (Bwlch-y-Groes, y mae'n debyg), edrychodd George Fox o'i amgylch, a phan oedd ei lygaid ar Ddolgellau, teimlodd ysbryd prophwydoliaeth yn disgyn arno, a dywedodd y byddai i'r Arglwydd gael llawer iawn o bobl o'r lle hwnw, a dymunodd ar John ap John wneud cyfiawnder o'r hyn a ddywedasai.

Llwyddasant ar yr ymweliad hwnw i sefydlu amryw gymdeithasau o Grynwyr yn y gymmydogaeth, yn neillduol un yn Tyddyn-y-Garreg, cartref Owen Lewis, yr hwn oedd ddŷn cyfoethog a dylanwadol yn ei ardal, ac yr oedd wedi bod yn ynad heddwch yn amser Cromwel. Yr oedd efe yn un o'r ddau ar hugain a lusgwyd gan y milwyr o ardal Dolgellau ganol nos i'r Bala, ac y cymmerwyd 660 o'u hanifeiliaid i dalu y dirwyon. Mewn canlyniad i'r llwyddiant crybwylledig, ymwelai John ap John yn achlysurol â'r cymdeithasau yn ardal Dolgellau, er eu cadarnhau a'u gwreiddio yn y gwirionedd. Pan ar un o'r ymweliadau cenhadol hyn, yn 1674, aeth Elis Puw, yr hwn oedd yn awr yn 18 oed, i wrando arno yn pregethu, a gafeulodd y gair mor ddwfn yn ei enaid nes y teimlodd ei hun yn cael ei godi allan o dywyllwch i weled goleuni mawr. Y peth cyntaf a welodd oedd bod Duw yn dad i'r amddifaid. Dan ddylanwad yr olygfa honno, er bod y Crynwyr yn y blynyddau hyny dan erledigaeth greulon trwy y wlad oll, yn neillduol felly ym Meirionydd; etto, ni phetrusodd ddim fwrw ei goelbren yn eu plith. Ni bu yn hir ar ol ymuno â hwy heb ddyfod i sylw fel un yn meddu cymmwysderau i bregethu; ac yn y flwyddyn 1680, ynghanol ystormydd erchyll erledigaeth, dechreuodd bregethu a chadarnhau ei frodyr. Daeth yn fuan yn bregethwr cymmeradwy, a bu ei lafur yn llwyddiannus, a hyny, y mae'n debyg, yn fwy o blegid ei gymmeriad a'i zel nag ar gyfrif ei alluoedd a'i dalentau.

Yr oedd ystormydd erledigaeth yr amser hwnw yn rhuthro yn angerddol trwy y wlad, a phob ceiniogwerth o swyddog gwladol yn gwneud ei egni i chwyddo eu cynddaredd; ac ar y Crynwyr yr ymosodent gyntaf ymhob amgylchiad. O ddeutu y flwyddyn y dechreuodd Elis Puw bregethu, yr oedd William Penn yn gwneud trefniadau pryniad Pensylfania, gyd â'r amcan o arwain y Crynwyr erlidiedig i ryddid.† Derbyniodd yr holl frawdoliaeth y newydd gyd â mwy o lawenydd na llawenydd teulu y priddfeini pan glywsant am wlad Canaan.

Dywedir yn hanes bywyd Elis Puw iddo ef, a llawer o'i gydnabyddion, ymfudo i Bensylfania yn 1686; a phan oeddynt yn aros i'r llong fod yn barod, i gymmaint o helbul meddwl ei ddal ef fel y bu yn glaf am ddiwrnodau, ac i Dduw ddangos

* "Mab ydoedd medd rhai, nai medd eraill, i Hugh Llwyd, o Gynfal."—Drych yr Amseroedd, t. 18. Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xv. —Gol.

† Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xxvi.—Gol.

Digitized by Google

iddo, mewn gweledigaeth, yn ystod y clefyd hwnw, y caent finderau a thrallodion mawrion ar eu taith, a bod llawer o waith yn ei aros yn y wlad yr oeddynt yn myned iddi. Troes y weledigaeth allan yn wirionedd, canys buant ar y môr am rai misoedd, yn cael eu curo gan wyntoedd croesion, a glaniasant yn Barbadoes y mis cyntaf o'r flwyddyn ganlynol, ac ni chyrreuddasant Bensylfania cyn dechrau haf 1687. Ond gwel y nodiad isod.*

Pa fodd bynag, bu Elis Puw yno yn llafurio gyd â chymmeradwyaeth a llwyddiant mawr hyd y fl. 1706, pryd y teimlodd gymhellion i ymweled â Chymru, yn ol fel y rhagddangosasai Duw iddo, pan yn hwylio i gychwyn allan tu ag yno. Ar ol teithio o hono am ddwy flynedd yn y wlad hon, a phregethu yn ddibaid, dychwelodd at ei deulu yn 1708, a theimlid i'w ymweliad fod yn adfywiad i achos y Crynwyr trwy Gymru oll.

Ar ol ei ddychweliad i'r America, parhaodd yn llafurus yngweinidogaeth y gair am dros wyth mlynedd. Pan glywodd am farwolaeth ei hen gyfaill Gruffydd Owen, un, y mae'n debyg, o deulu Dolserau, ger llaw Dolgellau, gŵr o ddylanwad mawr yn yr eglwys, a defnyddiol gyd â phob achos da, ymollyngodd ei yspryd i'r fath raddau fel yr aeth yn glaf o'r clefyd a derfynodd yn angau iddo, ar ol dïoddef o hono yn amyneddgar am dros 15 mis. Bu farw ynghanol ei gyfeillion, â'i bwys ar y Gŵr yr ymddiriedasai ei enaid iddo, mewn parch ac yn gymmeradwy gan bawb a'i hadweunai, y 3ydd o'r 10fed mis, yn y flwyddyn 1718; a dywedir yn y dystiolaeth a ysgrifenodd y cyfarfod misol ar ei ol, wrth yr hon y mae enwau 16 o'r frawoliaeth, bod ei goffadwriaeth mor barchus yn yr eglwys ac yn y teuluoedd yr arferai ymweled â hwynt, fel "na wisga allan yn fuan." Ac y mae'n amlwg eu bod yn gywir, canys ceir ddarfod i Gyfeilles o'r America ymweled â Dolgellau, cartref Elis Puw, yn y fl. 1786, yr hon a wiriai y dystiolaeth uchod.

Wedi iddo gael ei analluogi i fyned o amgylch i bregethu, dechreuodd ysgrifenu llyfr bychan, yn Gymraeg, er ceisio deffrôi meddwl ei gydwladwyr yng Nghymru, a'u dwyn i'r goleuni ar bwngc mawr iachawdwriaeth eu heneidiau. Enw y llyfr sydd fel y canlyn:—

"Annerch ir Cymru, iw galw oddiwrth y llawer o bethau at yr un peth angenrheidiol er mwyn cadwedigaeth eu heneidiau, yn enwedig at y Tlodion annysgedig, sef y Crefftwyr, Llafurwyr, a Bugeiliaid, y rhai o isel radd, o'm cyffelyb fy hunan, Hyn er eich cyfarwyddo i adnabod Duw a Christ (yr hyn yw bywyd tragwyddol) yr hwn sydd yn Dduw unig ddoeth. A Dyscu ganddo ef, fel y deloch yn ddoethach nach Athrawon. O Waith Ellis Pugh.

"Llundain: Argraphedig gan J. Phillips, M.DCC.LXXXII." [12plyg bychan].†

Y mae wedi ei ddosparthu yn 10 o bennodau [a 212 o dudalenau], trwy y rhai y mae gwythïen o deimlad caredig a chrefyddol yn rhedeg; ac er nad oes ynddo ddim newydd, nis gellir ei ddarllen heb deimlo ei fod yn waith dŷn oedd yn caru Duw. Pan ymwelodd â'r eglwys am y tro diweddaf, yn wan a llesg ei gorph, ond yn wresog ei yspryd, dywedai ei fod wedi cael ei ddymuniad gan Dduw am y tro diweddaf, sef ymweled â hwynt am y waith honno, er eu hannog i ymgadw mewn undeb, a chadw allan bob ymrafeulion o'u plith, fel eglwys a brawdoliaeth. A buant yn hir yn teimlo bod ei le yn wag.‡

---

## PENNOD VI.

### MATHEW HENRY, A'I DAD, PHYLIP HENRY.

GAN fod MATHEW HENRY, nid yn unig yn frodor

* Tueddir ni, o herwydd amryw resymau, i gredu bod yr amseriad uchod yn anghywir, a bod ystorm fawr erledigaeth wedi tawelu yn 1686, o blegid ni charcharwyd yr un o'r Crynwyr am wrthod cymmeryd llw ar ol Evan Morus, yng Nghaernarfon yn 1683. Aeth llu mawr o Grynwyr o Ddolgellau a'r cylchoedd allan i Bensylfania gyd â'r fintai gyntaf. a cheir eu henwau ynglŷn â'r Senedd gyntaf a etholwyd, yr hyn a ddigwyddodd yn gynnar yn 1683. Yr oedd William Penn yn 1686 wedi dychwel i Loegr; ac yr oedd ei gymmeriad dan gwmmwl, a'r holl wlad yn ei hwtio; ac nid oedd neb yn chwerwach wrtho na'i bobl ei hun; fel mai prin y buasai ffydd gref iawn gan Elis Puw, a "llawer o'i gydnabyddion," i ymfudo i diriogaeth a lywodreuthid gan un y credid mor ddïysgog ei fod yn Jesuit. Yr oedd amgylchiadau y wladfa yn 1685 mor derfysglyd a thorcalonus fel yr oedd W. Penn ei hun yn methu gwybod beth i'w wneuthur er ei thawelu. Nid yw yn debyg, gan hyny, y buasai y Cymry yn ymfudo ar y fath amser, a phob peth yn dawel gartref. Ceir yn hanes bywyd W. Penn i dair llong, dwy o Lundain ac un o Gaerodor, hwylio gyd âg ymfudwyr i Bensylfania yn 1681, blwyddyn gyntaf y wladfa; ac i un o'r llongau, yr hon a elwid "Amity," gael ei chwythu i India Orllewinol, un o ynysoedd yr hon yw Barbadoes, ac na chyrreuddasant Bensylfania cyn y gwanwyn canlynol. Y mae amgylchiadau yr "Amity" yn cyd-daro yn hynod âg amgylchiadau ymfudiad Elis Puw. Ceir hefyd yn llythyr cymmeradwyaeth cymmeriad a choffadwriaeth Elis Puw, a gyhoeddwyd gan gyfarfod misol Philadelphia, ddywediad fel hyn:—"Ac yn *nechreuad* ein cynhulliad ynghyd, yn y cyflwr yma, i ddisgwyl wrth yr Arglwydd, fe welodd yn dda barotôi ein cyfaill a'n cydwladwr, Elis Puw, i fod yn offeryn buddiol yn ei law i'n hymgeleddu a'n hyfforddi mewn cyfiawnder:" yr hyn sydd gystal a dywedyd mai efe oedd y pregethwr cyntaf a fu yn eu plith. Ond os yn 1686 yr aeth i'r America, rhaid y bu'r Crynwyr am bum mlynedd heb un pregethwr.

† Llyfr. y Cymry, t. 609.—Os hwn oedd yr argraphiad cyntaf, ni chyhoeddwyd y llyfr yn Gymraeg hyd ymhen 64 o flynyddau ar ol i'r awdur duwiol farw; ond cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg o hono, o waith un Rowland Ellis (un o'i geraint ond odid), wedi ei gywiro gan David Lloyd, yr hwn a argraphwyd yn Philadelphia yn 1727, ymhen naw mlynedd ar ol i'r awdur farw. Cynnwys yr argraphiad Saesneg hwnw 15 tudalen o arweiniad, a 222 tudalen o draethawd; oll yn 237 o dudalenau, 12plyg.—Llyfr. y Cymry, t. 349.—GOL.

‡ Hanes Bywyd Ellis Pugh, ynglŷn â'i Dreuthawd ef ei hun; Hanes Bywyd Wm. Penn, gan Clarkson; ac yn y gwaith hwn, cyf. i., llyfr iv., pen. xxvi.; Treuthawd Catherine Price, Tabor; Hanes Bywyd Rebecca Jones, Philadelphia.

Digitized by Google

genedigol o'n gwlad, ac wedi hanu yn ddilys o'n cenedl ni, fel y ceir gweled yn ebrwydd, ond hefyd bod ei enw mor hyspys i bawb sy'n gwrando pregethau yng Nghymru, cystal ag yn holl wledydd cred, fel un o esponwyr mwyaf efengylaidd y Bibl Cyssegr-Lân, credir nad oes dim angen i ni wneud un math o esgusawd am ei gyfleu ymhlith ein "Henwogion y Ffydd."*

MATHEW HENRY ydoedd ail fab y Parch. Phylip Henry, mab John Henry, mab Henry Williams (Harri ab Gwilym), o Llansawel, ger llaw Castell Nedd, sir Forganwg. Ymddengys mai'r John uchod, tad Phylip Henry, a thaid *Matthew*, oedd y diweddaf i ddilyn yr hen ddull Cymreig o gymmeryd enw bleunaf ei dad yn gyfenw iddo ei hun, fel hyn:—Ioan ap Harri, ab Gwilym, &c.

Cyn myned at y mab godidog, tybir y bydd talfyriad o hanes y tad enwog, PHYLIP HENRY, yn bur gymmeradwy. Bu Ioan ap Harri, tad Phylip, yn wychwas *(page)* i'r Iarll Penfro, yr hwn, y mae'n debyg, a'i cyflwynodd i wneud yr un gwasanaeth i Dduc Caerefrog, ac wedyn i Charles I., trwy yr hyn y cafodd ei fab, Phylip, ddygiad athrofaol i fynu. Ganwyd Phylip yn Neuadd Wen (Whitehall), Llundain, ar ddydd Gŵyl Bartholomëus, Awst 24, 1631. Yr oedd plant brenhinol Charles a Phylip Henry yn gyfeillion mawr, ac addawai y tywysogion ieuaingc le da iddo wedi iddynt hwy dyfu i fynu. Anfonwyd ef i ysgol Westminster pan oedd o ddeutu 12 oed, a dangosodd yn fuan fod ganddo alluoedd i ddysgu yn gyflym, a daeth yn uchel yn ffafr y prif athraw, y Dr. Busby. Yr oedd ei holl fryd ar ddysgu ei wersi, darllen llyfrau, a chasglu gwybodaeth; ac yn lle chwarau efo'i gydysgolheigion, treuliai efe ei amser rhwng ysgol y borau a'r prydnawn i wrando achosion cyfreithiol yn cael eu trafod yn Westminster, a hyny yn fynych ar draul colli ei ginio. Yn ystod ei arhosiad yn yr ysgol hon y teimlodd nerth Gair Duw ar ei feddwl, a'r pryd hyn yr amserai efe ei wir ddychweliad at y Gwaredwr.

Yn 1647, ac efe yn 16 oed, anfonwyd ef i Athrofa Rhydychain, a rhoddes Iarll Penfro, ei dad bedydd, ddeg punt yn ei logell i dalu ei gostau. Yn lled fuan ar ol ei fynediad i'r Brifysgol, parodd y Senedd wneuthur ymchwiliad yno am y Brenhinwyr, a gofynid i bob un gydnabod awdurdod gwrthwynebwyr Charles I. Yr holiad oedd, "A wnewch chwi ymostwng i awdurdod y Senedd yn yr ymweliad presennol?" Attebiad Phylip Henry oedd, "Gwnaf, cyn belled ag y gallaf wneud hyny â chydwybod rydd, ac heb dyngu anudon." Ym mis Rhagfyr, 1652, pan oedd newydd basio ei 21 oed, a blwyddyn union cyn i Cromwel gael ei sefydlu yn Arglwydd Amddiffynydd Brydain Fawr a'r Werddon, graddiwyd ef yn A.M. (Athraw yn y Celfyddydau); a'r mis Ionawr canlynol traddododd ei bregeth gyntaf. Ei destyn oedd Ioan viii. 34, "Pwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn was i bechod." Er ei fod yn nodedig am ei ostyngeiddrwydd a'i wyleidd-dra, daeth i fri mawr yn y Brifysgol, a chanmolwyd ef yn gyhoeddus am ehangder ei wybodaeth a'i ddysg gan y Cymro dysgedig a gwladgarol, y Dr. Owen, yr hwn oedd ar y pryd yn Is-Ganghellydd yr Athrofa, dan Oliver Cromwel.†

Ymadawodd Phylip Henry o Rydychain ym Medi, 1653, ac ymsefydlodd yn Worthenbury, pentref ar gyffiniau sir Fflint, y Mwythig, a Chaer. Yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yno, gwnaed ef yn gaplan ac athraw i deulu Syr John Pulston, barnwr yn Llys y Dadleuon Cyffredin. Heb law pregethu unwaith bob Sul yn yr eglwys, arferai gadw math ar gyfeillachau crefyddol yn nhai y plwyfolion, i gydymddiddan am bethau yr efengyl, ac i gysuro ac adeiladu eu gilydd yn "yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb."‡ Ar y 26ed o Ebrill, 1660, pan oedd efe yn tynu at ei 25 oed, priododd â Miss Catherin Mathews, unig ferch ac etifeddes Daniel Mathews, Ysw., gŵr bonheddig yn byw ar ei etifeddiaeth ei hun yn y Dderwen Lydan (Broad Oak), ar gyffiniau sir Fflint. Yr oedd ei thad, ar y cyntaf, yn groes i'w ferch ymuno â gŵr ieuangc oedd mor anhyspys yn yr ardal honno. "Nid oes yma neb a ŵyr o ba le y mae'n dyfod," eb y tad pryderus. "Ond mi wn i, fy nhad, i ba le y mae yn myned; ac yr wyf fi am fyned gyd âg ef,"

* O herwydd bod cymmaint wedi ei ysgrifenu ar hanes M. Henry, ni ddisgwylir i ni yma ddodi ond crynhodeb o hanes ei fywyd, ei gymmeriad, a'i gyfansoddiadau. Y neb a chwennycho weled ei hanes yn helaeth a manwl, ymgynghored â'r llyfrau canlynol:—W. Tong's Life and Times of the Rev. M. Henry; J. Ben. Williams's Memoirs of the Life, Character, and Writings of the Rev. M. Henry; S. Palmer's Memoir of the Rev. M. Henry, prefixed to the Exposition, 4to, 1811; M. Henry's Diary of Orig. MS.; The Life of the Rev. Philip Henry, by his son, the Rev. M. Henry, 8vo ed., 1825; Dr. James Hamilton's Life of M. Henry, in Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biography; Y Gwyddoniadur; Hanes Bywyd M. Henry, o flaen Bibl yr Addoliad Teuluaidd, gan Gweirydd ap Rhys, 1876.

† Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. x.

‡ Dywed bywgraphwyr Howel Harris mai efe a sefydlodd gyfeillachau crefyddol gyntaf o neb ym Mrydain, o gylch 1736; ond wele Phylip Henry yn cynnal rhai cyffelyb yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yn Worthenbury, ar gyffiniau sir Fflint, yn 1653, tu a 80 mlynedd o flaen Howel Harris; ac y mae'n bur debyg bod y saint, cynnefin â'r Ysgrythyrau, yn eu cynnal ymhob oes. Gwel Mat. xviii. 17; 1 Cor. xiv. 23–26, a manau eraill.

Digitized by Google

oedd atteb pert y ferch dduwiol ac ymroddgar. Pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i rym yn 1662, ac iddo ef gael drws eglwys y plwyf wedi ei gau yn ei erbyn, am nas gallai gydymffurfio â Phabyddiaeth yr Eglwys Sefydledig, megis y ceuwyd drysau eglwysydd yn erbyn "y ddwy fil" eraill o offeiriaid duwiol yr oes erledigeuthus honno, gan yr un ddeddf ysgeler, symmudodd efe a'i briod hawddgar i'r Dderwen Lydan, hen gartref a threftadaeth ei anwylyd, ac yno y treuliasant weddill eu hoes lafurus a duwiol. Pan attaliwyd ei lafur cyhoeddus, ni phallodd ei lafur Cristionogol. Cysurai ei feddwl ei hun, a meddyliau eraill, â'r ysgrythyr honno, "Triged fy ngwasgaredigion gyd â thi, Moab; bydd di loches iddynt rhag y dinystrydd," Esa. xvi. 4. Dywedai, od oeddynt wasgaredig, mai gwasgaredigion yr Arglwydd oeddynt, ac y byddai efe yn sicr o ofalu am danynt. Pan na chaffai bregethu yn gyhoeddus, gwnai gymmaint ag a allai o waith efengylwr yn ei deulu lliosog, ac yn ei ardal. Rhoddai waith i'r tlodion, dysgai yr anwybodus, a chwiliai am bob adeg a chyfleusdra i wneuthur daioni. Er nad oedd na phenboeth nac eithafol yn ei Anghydffurfiaeth, etto yr oedd yn gydwybodol a phenderfynol. Yr oedd ei lafur a'i ymroddiad crefyddol yn ei deulu, a chyd â'i weinidogion a'i ardalwyr, yn ddigyffelyb, mewn esponio yr Ysgrythyrau, gweddïo gyd â hwy, a'u dysgu ymhob peth a berthynai i fywyd a duwioldeb. Ei gyngor a'i rybudd cyffredin i'w blant, ei weinidogion, a'i gyfeillion ydoedd, "Cofiwch fod yn ddyfal gyd â'ch dyledswydd yn y dirgel: cedwch hyny i fyny beth bynag a'r a fyddo. Nis gall enaid lwyddo yn yr esgeulusdra o weddi ddirgel. Y mae gwrthgiliad yn dechrau yn gyffredin wrth ddrws yr ystafell ddirgel." Os cyfyngwyd maes llafur Phylip Henry gan yr ysgymmun Ddeddf yr Unffurfiad, dichon na chafodd crefydd gymmaint o golled o'r herwydd ag a ellid feddwl, wedi'r cyfan, canys rhoddes ei holl ymadferthoedd ar waith i grefyddoli ei ardal, ac i gymhwyso ei deulu i fod o fendith i'r byd. Pan wasgarodd y teulu yma, yr oedd yn llawn o'r dylanwad nefol, a dygodd pob un o honynt "gyflawnder bendith efengyl Crist" gyd âg ef. Os gommeddwyd iddo, fel Dafydd, adeiladu y deml, cafodd gasglu defnyddiau yn barod i'w fab. Pan basiodd Deddf y Goddefiad yn 1689, dan William a Mari, cafodd yntau ryddid i bregethu yn gyhoeddus drachefn; ond yn lle ymgyfyngu at un gynnulleidfa, yn ol dull yr Eglwys Sefydledig, a'r Ymneillduwyr o honi yn gyffredin, dewisodd ef bregethu yn deithiol, fel yr apostolion, y cenhadon apostolaidd, a hen ddiwygwyr y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, dros y saith mlynedd olaf o'i oes. Bu efe farw mewn tangnefedd heddychol ar y 24ydd o Fehefin, 1696, yn y 65med flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef yn yr Eglwys Wen (Whitchurch) y Sadwrn canlynol. Bu ei wraig dduwiol fyw un mlynedd ar ddeg ar ei ol ef, sef hyd y 25med o Fai, 1707, pan yr hedodd ei hyspryd hithau, yr un mor obeithiol a'i hanwylyd, i "Dragywyddol Orphwysfa y Saint."

Cofnodwyd duwioldeb a dysgeidiaeth Phylip Henry mewn cofiant mor nodedig o brydferth, gan ei fab galluog, Mathew Henry, fel y crybwyllwyd eisoes ar odrau y ddalen, fel y mae'n taenu disgleirdeb neillduol o ysplenydd a chyssegredig o amgylch ei enw peraroglaidd. Yr oedd Mrs. Henry hefyd, er nad anrhydeddwyd hi yn gyfartal, gan nad ysgrifenwyd cofiant am dani *hi* ar wahân, yn wraig o enwogrwydd anghyffredin. Yr oedd ganddi feddwl siriol a thawel, mewn undeb a galluoedd cryfion ac uwchraddol; ac, er llawn eglurhâd o ysprydolrwydd ei henaid, yr oedd "yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd." Sylwa ei mab enwog "nad oedd hi, yn ei chylch a'i galwedigaeth, yn ddim is law i'r hyn ydoedd ei dad yn yr eiddo yntau." Adroddasom gymmaint a hyn o hanes rhieni duwiol M. Henry, fel y gwelo'r darllenydd cyffredin y fath fagwraeth a gafodd eu mab talentog a duwiolfrydig, ac y cymmero addysg yn y cylch y mae efe yn troi ynddo. Weithian am y mab ardderchog,

### MATHEW HENRY.

Ganwyd ef yn nhŷ ei rieni, y Dderwen Lydan grybwylledig, yn Is-y-Coed, sir Fflint, ar y 18fed o Hydref, 1662, ymhen pythefnos ar ol symmudiad ei rieni o Worthenbury, ar ddyfodiad y Babyddol Ddeddf Unffurfiad i rym. Digwyddodd ei enedigaeth yn annisgwyliadwy, ac, fel y tybid, yn anamserol, o blegid y cyffro disymmwth a barodd erledigaeth ei hanwyl briod i'w fam dyner a phryderus. Bernid mai hyn oedd yr achos ei fod ef yn faban mor eiddil a gwan ei iechyd. Ganwyd ef ddydd Sadwrn, a bedyddiwyd ef drannoeth gan Mr. Holand, person Malpas. Dymunodd y tad ar y person beidio rhoi arwydd y groes ar ei dalcen; ond dadleuai y llall fod hyny yn anhebgorol yn ol defod yr eglwys. "Gan hyny, syr, gorwedded wrth eich drws chwi," oedd atteb tawel Phylip

Digitized by Google

Henry. Cesglir mai yn nhŷ ei rieni y bedyddiwyd ef, gan y dywedir nad oedd iddo na thad na mam fedydd. Yr oedd mor eiddil ac afiach yn nyddiau ei blentyndod fel y tybid yn gyffredin na chyrheuddai byth i oedran gŵr. Ond o herwydd fod gan Dduw waith mawr iddo i'w wneuthur, arbedwyd y gronyn tyner er mwyn y fendith oedd ynddo; bendith fawr i'w deulu, i'w gyfeillion, ac i'r eglwys. Symmudwyd ei frawd hynaf, John, i ogoniant gan yr un anhwylder ag a'i bygythiai yntau. Er gwaned oedd ei gorph ef, dangosodd arwyddion yn forau ei fod yn perchen meddwl cryf a bywiog anarferol. Dywedir y medrai ddarllen ei Fibl yn rhwydd ac eglur pan nad oedd ond tair blwydd oed. Dïau y gallasai ddywedyd am hyn yngeiriau Lemuel, "Y brophwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo."

Ei fam a'i dad oedd athrawon cyntaf Mr. Henry; ond wedi iddo gynhyddu ychydig mewn nerth ac oedran, cymmerwyd un Mr. Turner, a fu wedyn yn Ficar Walburton, i'r Dderwen Lydan dros amser i ddysgu ieithyddiaeth iddo, er ei barotôi i fyned i'r athrofa. Yr oedd ymdrechion yr ysgolhaig yn cydfyned â'i fanteision: rhoddes bethau plentynaidd heibio yn forau, gan lwyr ymroddi i ddarllen a myfyrio. Yr oedd mor ymroddgar i'w fyfyrdodau, er yn dra ieuangc, fel y gorfodid ei fam dyner yn fynych i'w alw o'i lyfrgell, gan ei ddenu i'r meusydd i rodio ac ymddiddan â hi, yr hyn a wnai les mawr i'w iechyd a'i nerth. Gweinydda difyniadau o lythyr a ysgrifenodd M. Henry pan yn naw oed at ei dad, oedd ar y pryd yn Llundain, i egluro y cyfnod yma o'i fywyd; a pha fodd bynag yr edrychir arnynt, ai fel arwydd o gynnydd mewn dysg, ai fel dangosiad o effeithiau addysg grefyddol, neu ai fel yr esampl gyntaf o'i arddull llythyrol, nis gallant lai na bod yn ddyddorol:—

"Yr wyf fi wedi bod yn gwneud fy ngwersi bob dydd er pan aethoch ymaith: tudalen o Ladin, neu bennillion Lladin; a dwy adnod yn y Testament Groeg. Gobeithiaf fy mod yn myned trwyddynt yn dda; a pharhâf i wneuthur yr un modd hyd oni ddychwelwch."—O berthynas i newyddion a anfonasid o'r blaen ynghylch un o'i berthynasau, efe a ddywed (ac y mae'r tebygolrwydd i'w arddull dyfodol o ysgrifenu yn sicr o dynu sylw:—"Gallwn weled trwy yr oruchwyliaeth hon mai pechod yw'r drwg gweuthaf, canys gyd â phechod y daeth clefyd. Crist yw'r daioni penaf; am hyny, bydded i ni ei garu ef. Pechod yw'r drwg gweuthaf; am hyny, bydded i ni gasâu hwnw â chas cyflawn."

Yr oedd ei iechyd weithian yn parhaus wella, a'i nerth yn cynhyddu beunydd, fel yr edrychai ei rieni duwiol ym mlaen gyd â hyfrydwch ar ei lwyddiant dyfodol; tra'r oedd yntau ei hun yn ymroddi â'i holl egni galluog i ymbarotôi erbyn myned i'r athrofa. Ond pan oedd tu a deg oed, ymaflodd clefyd tost ynddo, fel yr ofnid dros amser am ei fywyd. Dangosodd ei rieni duwiol y fath amynedd a ffydd yn yr amgylchiad profedigeuthus yma, fel yr oeddynt yn syndod i bawb a'u hadweunent. Yr oedd gweddw y Parch. Zechariah Thomas y pryd hwnw ar ymweliad yn y Dderwen Lydan, a bu o gysur mawr i'r teulu yn eu trallod blin. Dywedodd Phylip Henry wrthi mai tra'r oedd efe yn absennol, yn pregethu, y cyflwynodd efe ei anwyl blentyn yn y modd mwyaf difrifol ac ymddiriedgar i ewyllys Duw. Ac atteb "yr hen foneddiges dduwiol" ydoedd, "Ac yr wyf finnau yn credu, syr, mai yn y lle ac ar y pryd hwnw y rhoddes Duw ef yn ol i chwi drachefn." Pa wedd bynag, adferiad prysur a ddilynodd. Yr oedd Mrs. Savage yn gwrando yr ymddiddan rhwng ei thad a Mrs. Thomas, a dywedai ymhen llawer o flynyddoedd wedi hyny, er nad oedd hi ond plentyn wyth oed ar y pryd, ac nas gallai feddwl ond "fel plentyn," etto y cafodd argraph dwys iawn arni; a chan y credai i fywyd ei brawd gael ei adfer braidd yn wyrthiol, y daeth yn anwylach ganddi, os dichonadwy, nag o'r blaen. O berthynas i'w dröedigaeth, gadawn i Mr. Henry lefaru drosto ei hun, yr hyn a wna efe yn dra effeithiol. Mewn ysgrif a alwai efe "Cofres o Drugareddau," a amserwyd Hydref 18, 1675, pan oedd efe yn 13 oed, efe a ddywed fel y canlyn:—

"Yr wyf yn meddwl mai tu a thair blynedd yn ol y dechreuais i gael fy argyhoeddi, wrth wrando pregeth gan fy nhad ar Ps. li. 17, 'Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig: calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi.' Yr wyf yn meddwl mai *honno* a doddodd fy nghalon i: wedi hyny mi a ddechreuais ymofyn am Grist. . . . Arglwydd Iesu, yr wyf yn dïolch i ti am dy air, am rieni daionus, am addysg dda, am fy mod wedi cael fy nghymmeryd i gyfammod mewn pryd yn y bedydd; hefyd, Arglwydd, yr wyf yn dïolch i ti am fy mod yn eiddo i ti, ac y byddaf yn eiddo i ti. . . .

"Rhagfyr 7, 1673. Ar forau dydd Sabbath, clywais bregeth yn yr hon yr oedd nodau gwir ras. Profais fy hun wrthynt, a dywedais fy mhrofion wrth fy nhad. Yr oedd ef yn eu hoffi; a dywedodd, od oedd y profion hyny yn wirioneddol (fel y credaf fi eu bod), fy mod wedi cael gwir ras. Etto bu arnaf ofn uffern yn ddirfawr, dros ddeuddydd neu dri ar ol hyn, hyd oni chysurodd yr Arglwydd fi. Holais fy hun yn ddifrifol, pa obaith sydd genyf y bydd i mi ar ol marw, a rhoi y tabernacl hwn heibio, gael fy nerbyn i'r nefoedd; a llwyddais i gael amryw nodau fy *mod* yn blentyn i Dduw. Dywed ei genhadon ef—

"1. Bod gwir ddychweliad lle y bo gweithrediadau cyfammodol wedi bod rhwng Duw a'r enaid. Ac yr wyf wedi canfod y bu'r cyfryw rhwng Duw a'm henaid i; ac

Digitized by Google

yr wyf yn gobeithio y bu hyny mewn gwirionedd a chyfiawnder. Os na wneuthum hyn erioed o'r blaen, yr wyf yn ei wneuthur yn awr; canys yr wyf yn cymmeryd Duw yng Nghrist i fod yn eiddo i mi dros byth. Yr wyf yn rhoddi fy hun i fynu i fod yn eiddo iddo ef mewn rhwymyn cyfammod tragywyddol yr hwn nid anghofir byth. Ond a fu hyny mewn gwirionedd? Cyn belled ag yr wyf fi yn deall fy nghalon fy hun, yr wyf yn ei wneuthur mewn gwirionedd a sobrwydd. Gwneuthum hyny ar y 7fed o Rhagfyr, ar y 5med o Fedi, ac ar y 12ydd o Hydref, a llawer gwaith arall. Yr wyf yn ei wneuthur bob dydd.

"2. Lle y byddo gwir edifeirwch am bechod wedi bod; a gofid, a chywilydd, a galar, am dano, gyd â golwg ar yr amser a aeth heibio, ynghyd â phob peth perthynol iddo, megis cyffesiad, ymofidiad, hunan-ymholiad, hunan-gondemniad, a'r cyffelyb. Ac yr wyf wedi canfod hyn ynof fy hun, er nad yn y mesur y dymunwn. Yr wyf yn wir edifarus am yr hyn a aeth heibio. Yr wyf yn barnu fy hun ger bron yr Arglwydd; yr wyf yn gwrido gan gywilydd o blegid i mi erioed ei ddigio ef; ac y mae cenhadon yr efengyl yn fy sicrhau, wedi i mi edifarhau am bechod, a chredu yng Nghrist, y gallaf gredu fy mod wedi cael maddeuant. Yn awr, yr wyf *wedi* gwneuthur hyn, ac yr wyf yn gwir gredu fy mod wedi cael maddeuant er mwyn Crist. Sylfeunir hyn ar amryw Ysgrythyrau, Diar. xxviii. 13; Esa. i. 18; lv. 7; Mat. v. 4; Act. ii. 37, 38; iii. 19; 1 Ioan i. 9; ac y mae llawer o Ysgrythyrau eraill, lle y mae Duw yn galw yn bendant ar bobl i edifarhau a dychwelyd. Ond a ydyw y galar yma wedi bod *yn wirioneddol?* Cyn belled ag yr wyf yn adnabod fy nghalon, y mae wedi bod yn wirioneddol 'Ond yr wyf yn pechu yn fynych.' Yr wyf yn galaru ac yn wylofain ger bron yr Arglwydd o blegid hyny, ac yn ymdrechu, trwy ras Duw, na wnaf felly mwyach.

"3. Lle y mae gwir gariad Duw. Canys y mae caru yr Arglwydd ein Duw â'n holl enaid, ac â'n holl nerth, yn well na'r holl boeth-offrymau ac aberthau. Yn awr, cyn belled ag yr wyf yn adnabod fy nghalon fy hun, yr wyf yn caru Duw mewn purdeb. Ond a ydyw y cariad hwnw yn wir gywir? Y mae felly cyn belled ag y gallaf fi farnu; canys—

"(1.) Yr wyf yn caru gair Duw. Yr wyf yn ei fawrygu uwch law pob peth. Felly y canfyddaf fy nghalon yn tueddu. Yr wyf yn ei ddymuno megis ymborth fy enaid. Yr wyf yn mawr ymhyfrydu ynddo, yn ei ddarllen ac yn ei wrando; a gall fy enaid dystio fy ymostyngiad iddo mewn rhyw fesur. Yr wyf yn meddwl fy mod yn caru gair Duw o blegid ei burdeb. Yr wyf yn caru pregethwyr a chenhadon y gair. Yr wyf yn ei ddarllen yn fynych. Yr wyf yn ymhyfrydu yn ei lwyddiant. Dyna'r holl nodau o wir gariad at y gair a roddwyd mewn pregeth a wrandewais yn ddiweddar ar Ps. cxix. 140, 'Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr: am hyny y mae dy was yn ei hoffi.'"

Y mae'n amlwg oddi wrth y difyniadau dyddorol hyn fod M. Henry wedi cael ei arwain, cyn ei fod yn llawn 11 oed, i'r rhan fywiol ac hanfodol honno o wir ddoethineb, sef adnabyddiaeth o hono ei hun, "enaid *mawr* dŷn," fel yr hoffai ei alw, "canys," eb efe, "y mae ar ddelw Duw." "Y mae rhyw obaith o bobl," fel yr arferai sylwi mewn amser dyfodol, "pan y dechreuont *bryderu* ynghylch eu heneidiau; ynghylch darpariaeth ysprydol, iechyd ysprydol, trafodaeth ysprydol; ynghylch hau i'r Yspryd." Wedi iddo wrando pregeth unwaith gan ei dad, yn egluro natur a chynnydd gwir ras, megis y'i cymharir yn yr Ysgrythyr i ronyn o had mwstard (yr hwn, er bod ei ymddangosiad yn ddibwys, a gynhyrchai bethau mawrion mewn amser), yr oedd ei bryder am feddiannu egwyddor mor effeithiol a gwerthfawr yn angerddol. Ac fel yr oedd efe yn cerdded gyd â'i dad, "heb allu ymattal yn hwy," dechreuodd amlygu ei helbulon. Nid oes dim o'r ymddiddan wedi ei gadw; ond dywedodd "y disgybl ieuangc" wedi hyny, wrth un o'i chwiorydd, gyd â llawenydd hyfryd, y gobeithiai ei fod *wedi* derbyn y gronyn bendigaid o wir ras; ac er ei fod weithion yn bur fychan, y cynhyddai i rywbeth mewn amser. Y fath lawenydd anhreuthadwy oedd i ŵr duwiol fel Phylip Henry glywed ei fab, ei unig fab, yn ymofyn y ffordd fel hyn, mor bryderus, yn forau tu a Sïon! A'r fath fraint ddirfawr i'r mab oedd meddu tad wedi ei ddysgu i'r fath raddau yn athrawiaeth teyrnas nefoedd, yr hwn, i'r fath raddau, oedd "yn athrawaidd," ac yn barod bob amser i gefnogi yr ymofynydd pryderus "yn ffordd yr Arglwydd!" Byddai yn dda i rïeni a phlant gofio yr esamplau bendigedig hyn, ac ymdrechu gwneuthur yr un modd. Y fath gyfnewidiad dedwydd a bendithiol a fyddai yn y byd hwn pe byddai yn llawn o deuluoedd fel teulu dedwydd Phylip Henry!

Ymddengys bod tuedd yn M. Henry o'i febyd at bregethu. Yr arwyddion penaf o hyn oedd yr hyfrydwch a gymmerai mewn ysgrifenu ac adrodd pregethau, ac o ddynwared pregethu, yr hyn a wnai, ac ystyried ei oedran, gyd â mawr briodoldeb a difrifwch. Fel arwyddion eraill o'i duedd foreuol at bregethu, crybwyllir ei fod yn dra hoff o ddarllen y Bibl, ac o gyfeillachu â phregethwyr duwiol; ond y mae pob gwir Gristion, cystal a rhai yn tueddu at bregethu (od oes rhyw Gristion difrifol heb dueddu at hyny), yn hoff o'r Bibl, ac o gyfeillachu â duwiolion, pa un bynag ai pregethwyr ai eraill a fyddont. Byddai M. Henry hefyd, pan yn dra ieuangc, yn arfer gweddïo ac adrodd pregethau yn y cyfeillachau crefyddol; ac ar achlysuron, byddai yn egluro y pennodau a ddarllenid, gan heleuthu llawer arnynt er budd a chysur i'w wrandawyr. Yr oedd yn naturiol i hyn gynhyrfu syndod ym mysg y brodyr; ac ymddengys iddo greu ofn, neu eiddigedd, mewn un o'r cyfeillion yn neillduol, rhag iddo fyned yn rhy fleunllaw, a chwympo yn ysglyfaeth i falchder. Aeth y brawd hwnw at dad doeth a gofalus Mathew ieuangc i adrodd ei-ofnau am dano, yr hwn a'i hattebodd yn bur bwyllog, gan ddywedyd, "Gadewch iddo fyned

Digitized by Google

ym mlaen: y mae efe yn ofni Duw, ac yn amcanu yn dda; a gobeithiaf y ceidw Duw ef, gan ei fendithio." Hynod mor ofalus yw rhai proffeswyr dros eraill, yn enwedig dros wŷr ieuaingc doniol, ac awyddus am wneuthur rhywbeth er lledeunu teyrnas eu Gwaredwr. Byddai yn llawn cystal, a gwell hefyd, i'r cyfryw eiddigeddwyr gofalus dros eraill edrych adref yn dipyn amlach, os na allant ddilyn esampl Acwila a Phriscila, y rhai a gymmerasant Apòlos ieuangc atynt, "ac a agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach," Act. xviii. 24–28. Neu esampl Barnabas, "yr hwn pan ddaeth, a gweled gras Duw," mewn canlyniad i holl aelodau eglwys fawr Jerusalem "dramwy, gan bregethu y gair," a "phregethu yr Arglwydd Iesu," "a fu lawen ganddo, ac a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd," Act. viii. 1, 4; xi. 19–24. Annogai Phylip Henry wŷr ieuaingc i ysgrifenu y pregethau a wrandawent, yr hyn a wnai yntau yn ddiwyd; a mabwysiadwyd y cynllun yn forau gan ei fab galluog, a pharhaodd i'w ddilyn hyd ddiwedd ei oes. Dywed J. B. Williams, un o'i fywgraphwyr, bod cyfrolau o'r cyfryw ar gael yngwaith ei law, pan ysgrifenai ei gofiant, yn brawf o'i ddiwydrwydd diflino, ei gof gafeulgar, a'i sylw beirniadol digyffelyb. A ydyw y cyfryw gyfrolau gwerthfawr, a ysgrifenwyd ddau can mlynedd yn ol, ar gael hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod. Y mae'n anhawdd dros ben ymadael â'r fath *blentyn* rhyfedd a hwn; ond rhaid i ni brysuro at y *llangc* a'r *dyn*.

Gan fod Phylip Henry ei hun, fel yr ymddengys, wedi derbyn mantais fawr trwy fod yn astudiwr yn Rhydychain, yr hon fantais y gwyddai efe yn dda pa fodd i'w defnyddio, arweiniwyd ef i goleddu "caredigrwydd" at y Prifysgolion dros lawer o flynyddau, ac annogai ei gyfeillion a fwriadent ddwyn eu plant i fynu yn ysgolheigion eu hanfon yno. Yr oedd efe yn Rhydychain yr amser gorau, yn ddilys ddïammau, a fu ar y Brifysgol erioed, pan oedd y Puritan galluog, Oliver Cromwel, un o'i gydgenedl, os nad un o'i berthynasau (y Williamsiaid),* yn Ganghellydd yr Athrofa; a'r duwinydd enwog a duwiol, y Dr. John Owen (Cymro arall), † yn Is-Ganghellydd ynddi. Ond pan ddaeth yr halogedig Charles II. i'r orsedd, dodes greaduriaid o'r un anian lygredig ag ef ei hun yn swyddogion yn y prif athrofâu, ac mewn canlyniad deuthant yn nythod i bob aderyn aflan ac atgas, tebyg i'r rhai oedd yn y Cyfrin-Gyngor, a llysoedd uchel eraill. Dïau i Phylip Henry ddyfod i ddeall hyn mewn amser; a phan y penderfynodd anfon ei fab oddi cartref i gael ei addysgu, o blegid llïosowgrwydd ei alwadau ei hun, yn lle ei anfon i'r un o'r Prifysgolion cenedleuthol, lle y cyflwynid iddo gynnifer o demtasiynau halogedig, dododd ef dan addysg y pregethwr ffyddlon hwnw, Mr. Thomas Doolittle, oedd yn byw yn y cyfamser yn Islington, pentref mawr ar y pryd, o'r tu gogledd-orllewin i ddinas Llundain, yr hwn sydd, er ys llawer oes bellach, mewn cyssylltiad â'r brifddinas. Digwyddodd hyn yn 1680, pan oedd M. Henry yn 18 oed. Y mae'r llythyr canlynol, a ysgrifenodd y llangc hynod yma, ar ei daith bell gyntaf, fel yr ymddengys, yn sicr o fod, yn y pellder yma oddi wrth yr awdur, yn ddifyrus a dyddorol:—

"Fy Chwiorydd Anwyl,

"Deuthum yn ddïogel, trwy ragluniaeth ddaionus Duw, ddydd Gwener diweddaf i Lundain; ac y mae genyf achos i ddywedyd, 'Trugareddau yr Arglwydd yw na ddarfuasai am danaf,' canys efe 'sydd yn gosod fy enaid mewn bywyd,' ac 'yn cyfrif fy holl esgyrn.' Dydd Llun daethom [Phylip Henry, yntau, a'i gefnder Boiser] i Newport, lle yr ebranasom.‡ Aethom i weled Mr. Edwards, a deuthom trwy Tong i Wolverhampton y noswaith honno, ynghylch machlud haul. Troisom allan oddi yno, y borau canlynol, tu a chwech neu saith o'r gloch, a deuthom trwy Birmingham i Hanley, ugain milltir o Wolverhampton; ac yno ebranasom, ac arhosasom yn Stratford-upon-Afon, bum milltir o Hanley. Borau ddydd Mercher, deuthom o Stratford i Shipston, oddi yno i Longcompton, oddi yno i Enston, lle yr ebranasom; ac yna deuthom i Rydychain rhwng pump a chwech. Yn Rhydychain gwelsom y barnwyr yn dyfod i mewn, Syr Job [Charleton, brodor o'r Mwythig] yn un; a'r borau nesaf clywsom y bregeth frawdlysol, yn Mari Santes. Pregethwyd hi gan un Mr. Jessy, gŵr ieuangc. Y testyn oedd Hos. iv. 1, 2, 3.

"Dydd Mercher, tu a thri o'r gloch, troisom allan o Rydychain, a deuthom ugain milltir y noswaith honno, sef i Wickham; a'r diwrnod canlynol, ebranasom yn Uxbridge, ac o gylch tri o'r gloch deuthom i Chelsom. Gwelsom nad oedd modryb Dyer yn iach, a daeth modryb Sara i ymweled â hi. Arhosasom yno tu ag awr, ac yna deuthom i Lundain, lle a gyrreuddasom tu a chwech. Ni welais erioed gymmaint o gerbydau (*coaches*). Pe dywedwn i ni gyfarfod dros gant ar ol dyfod i'r dref cyn dyfod i'n gwestty, ni ddywedwn ormod.

"Dydd Sadwrn aeth fy nhad i Islington, ac euthum innau at fy nghefnder Hotchkiss, a Mr. Church. Daeth Mr. Church gyd â ni i weled Bedlam yn gyntaf, ac yna y Gofadail. Y mae'r Gofadail bron fel clochdy pigfain, wedi ei chodi lle y dechreuodd y tân mawr. Y mae ei huchder yn 345 o gamrau, ac oddi yno cawsom olwg ar yr holl ddinas. Doe euthom i dŷ cyfarfod Mr. Doolittle; ei eglwys, fel y gallaf ei galw, canys credaf bod llawer eglwys na chynnal yn agos gymmaint o bobl. Y mae ynddi amryw orielau, oll yn llawn o eisteddleoedd; a phulpud gwych, yn llawer uwch na'r bobl. Y maent yn dechrau rhwng naw a deg yn y borau; ac wedi canu Psalm, gweddïa Mr. Doolittle yn gyntaf, ac yna pregetha, a dyna'r cwbl.

* Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. iv. † Gwel yr un, pen. x.

‡ Dengys hyn mai ar feirch yr oeddynt yn teithio o'r Dderwen Lydan, ar gyffiniau sir Fflint, i Lundain; ac am hyny yr oeddynt yn aros yn fynych, mewn lleoedd cyfleus, i roi *ebran* i'r meirch, ac i gymmeryd ymborth eu hunain.



Digitized by Google

Ei destyn oedd Jer. xvii. 9. Yn y prydnhawn pregethodd fy nhad ar Galar. iii. 22, yn yr un lle. Yn wir, dywedodd Mr. Lawrence wrtho ar y cyntaf na wiw iddo ddyfod i Lundain i segura; ac y maent yn penderfynu na chaiff fod felly, canys y mae i bregethu y ddau Sabbath canlynol, yn lle Mr. Steel, yr wyf yn credu, a Mr. Lawrence. Nos Sabbath, tu a phump o'r gloch, aeth fy nghefnder Robert a minnau i le arall, a chlywsom, nis gallaf ddywedyd pregeth arall, ond darn o un arall, gan ddŷn pur ieuangc, un Mr. Shower; a phregeth ardderchog ydoedd, ar ddrwg pechod. Y gwir yw, nis gallem ni braidd gael dim lle, rhag mor orlawn ydoedd yr addoldy.

"Euthom heddyw y borau i Islington, pan y gwelsom y lle yr ydym yn debyg o aros ynddo, a chanfyddaf fod ein hystefyll yn debyg o fod yn bur gyfyng a bychain; bod Mr. Doolittle yn bur fyfyrgar a diwyd; a bod Mrs. Doolittle, a'i merch, yn bur goeth a mawrfrydig.

"Fy chwiorydd anwyl, yr wyf yn meddwl am danoch bron yn wastadol, ac am y cartref, ond ni wiw i mi feddwl dychwelyd rhag i hyny fy niweidio.

"Attolwg, nac anghofiwch fi yn eich meddyliau, nac yn eich gweddïau, ond cofiwch fi yn y naill a'r llall. Felly, gan eich cyflwyno oll i ofal ac amddiffyn yr Hollalluog Dduw, brenhiniaeth yr hwn sy'n rheoli dros bawb, y gorphwysaf,

"Eich byth-garedig a serchog frawd,

"MATHEW HENRY.

"*Llundain, yn y Castell, ger llaw Aldersgate,*
"*Gorphenaf y* 18*fed, Prydnhawn Dydd Llun*, 1680."

Ennillodd M. Henry ieuangc lawer o barch a chyfeillion ffyddlawn tra'r arhosodd yn Islington, yn enwedig ei gefnder, Robert Boiser, Samuel Bury, Henry Chandler, a William Tong, yr hwn, fel y gwelsom, a ysgrifenodd hanes ei fywyd yn helaeth. Y mae'n anhyspys weithiau pa bryd y bu M. Henry yn y coleg yn Islington. Gyrwyd Doolittle oddi yno yn fuan gan yr erledigaeth. Symmudodd efe ei hun i Battersea, a gwasgarwyd ei ddisgyblion ymhlith gwahanol deuluoedd yn Clapham; ond yn lle eu dilyn hwy, credir i M. Henry ddychwel i'w hoff gartref yn y Dderwen Lydan. Beth bynag am hyny, y mae'n sicr iddo, *pan* ail ymaflodd yn ei fyfyrdodau gartref, eu dilyn, megis yn Islington, gyd â diwydrwydd diflino, a llwyddiant cyfattebol.

Wedi i M. Henry adael Islington, yr oedd yn ymwelydd mynych a chymmeradwy yn Boreatton, yn sir y Mwythig, preswylfod Rowland Hunt, Ysw., un o gyfeillion anwylaf Phylip Henry. Nid oedd Hunt, gan hyny, yn ddïeithr i alluoedd M. Henry, nac i'w fwriad gyd â gôlwg ar bregethu. Er hyny, cynghorid ef gan y boneddwr dysgedig a chrefyddol hwnw i ddychwel i Lundain, fel y gallai ychwanegu gwybodaeth o'r gyfraith at ei gyrheuddiadau eraill; arfer oedd mewn mawr fri yn y 16fed ganrif yn y wlad hon ac ar y Cyfandir. Nid yw hyspys beth oedd yr amcan mewn golwg gan Hunt; pa un ai ystyried yr oedd fod gwybodaeth o'r gyfraith yn gymhwysder ychwanegol i bregethwr, ai ceisio troi meddwl M. Henry ieuangc at y gyfraith yn lle pregethu. Beth bynag oedd yr amcan, "cymmeradwyodd y tad a'r mab" y cyngor; a thu a diwedd Ebrill, 1685, ac efe yn ei 23edd flwyddyn, efe a deithiodd i Lundain yr ail waith, ac yn Llys Holborn, Gwestty Gray, dechreuodd gyfres newydd, ac o ymddangosiad gwrthwynebol, o fyfyrdodau. Yr oedd diwydrwydd Henry yn "nhŷ'r gyfraith" yn ddïymmod a theilwng o efelychiad; a phed ymroddasai efe yn hollol at y "fyfyrdod ddynol," ymddengys y buasai yn ymddyrchafu i fri fel cyfreithiwr. Er nad oedd y "wybodaeth odidog" yn *llwyr* ddenu ei serch, etto yr oedd ei ymroddiad y fath fel y parai ofn i amryw o'i gyfeillion, rhag i'r canlyniad fod yn anffafriol i'w benderfyniadau boreuol. Ond yr oedd yr arswyd yn afreidiol: parhaodd efe yn gywir i'w amcan cyntefig, canys yr oedd efe fyth "yn chwennych swydd esgob," ac yn cadw *hyny* yn wastad mewn golwg, er y dichon bod anhawsderau yr amseroedd yn ei wneud weithiau, ond odid, yn amheus. Er mwyn cyrraedd ei amcan penaf yn well, yr oedd efe yn amrywio ei ymchwiliadau. Cyssegrai ran o'i amser at ddarlleniad duwinyddol; rhan at weddi gymdeithasol, a chyfeillach grefyddol, ymhlith ei hoff gyfeillion; ac yn achlysurol, esponiai iddynt yr Ysgrythyrau. Gan hyny, os na *ddywedodd* efe wrth ei gyfeillion, fel y Cardinal Xemenes (Zimenis), y newidiai efe ddysgeidiaeth gyfreithiol yn ewyllysgar am eglurhâd ar un ymadrodd o'r Ysgrythyr Sanctaidd, *gweithredodd* yn gwbl unol â'r cyfryw syniad. Y mae'n amlwg, gan hyny, na pharodd myfyrio y gyfraith na dim arall i M. Henry golli ei olwg ar y gorchwyl y dododd ei fryd arno o'i febyd, sef pregethu ac esponio yr Ysgrythyrau.

Tu a blwyddyn yr arhosodd yn Llundain i fyfyrio y gyfraith, canys dychwelodd i'w hoff gartref at ei rieni, i'r Dderwen Lydan, ym Mehefin, 1686. Gwahoddwyd ef yn fuan wedi hyny gan gyfaill i Heledd Wen (Nantwich), ger llaw Caerlleon, lle y pregethodd amryw nosweithiau i dyrfaoedd llïosog, a chafwyd prawf iddo fod yn foddion i droi amryw "i'r iawn allan o fagl diafol." Ei destyn ar yr achlysur olaf oedd Job xxxvii. 22, "Y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy." Yr oedd M. Henry yn awr tu a 24 oed, ac yr oedd ei benderfyniad weithiau at bregethu wedi ei sefydlu yn ddïysgog. O gylch y pryd hyn yr oedd ar ymweliad yng Nghaerlleon. Nid oedd rhyddid

Digitized by Google

etto wedi ei ganiatâu i neb bregethu ond "offeiriaid ordeiniedig" Eglwys Loegr; ond ar daer ddymuniad rhai cyfeillion, pregethodd amryw weithiau yn nhŷ un Mr. Henthorne, pobydd siwgr, ac mewn rhai tai eraill, "ac a dderbyniodd bawb a'r a oedd yn dyfod i mewn ato, gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawieuthu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyd â phob hyfder, yn ddīwahardd." O gylch dechrau y flwyddyn 1687, clywodd fod y Llywodraeth yn foddlon i roddi trwydded i Ymneillduwyr i bregethu am 10p. yr un. Mewn canlyniad i hyn, aeth Mathew Henry i Lundain i gael trwydded ar yr ammod hwnw; ac yn y cyfamser, traddododd yno amryw bregethau. Yr oedd ei bregethau mor gymmeradwy yn Llundain fel y taer erfyniwyd arno ymsefydlu yno; ond gan iddo gael amryw alwadau teurion i ymsefydlu yn Nghaerlleon, ac o blegid bod ei gartref heb fod neppell o'r dref honno, yno y penderfynodd fyned.

Wedi dychwel i Gaer, bu ei feddwl mewn petrusdod dwys dros gryn amser ynghylch ei ordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth: pa un a ddylasai ymdrechu cael ordeiniad esgobol, megis y cafodd ei dad, ai ynte a allai efe foddloni ar yr hyn a elwir ordeiniad henadurol neu Bresbyteraidd. Wedi myfyrio yn ddwys ar hyn, ac ysgrifenu ymholiad hirfaith yn ei gylch, a chael cymmorth ei dad hefyd ar y pwngc, penderfynodd o'r diwedd yr ymfoddlonai ar ordeiniad Presbyteraidd; ond yr oedd "y rhesymau a ofynent gadw y peth yn ddirgel yn rhwystro iddo gael y dystysgrif *(certificate)* arferol." Beth oedd "y rhesymau" hyny ni fynegir. Am nad oedd cyfraith y tir y pryd hyn, y mae'n debyg, yn awdurdodi y fath ordeiniad. O herwydd paham, "y dysteb fer ganlynol yn unig a lawnodwyd gan ei ordeinwyr ef, rhai o'r sawl," medd Tong, "oedd yn bur hen, ac yn bur wyliadwrus." Wele y dystysgrif bwysig:—

"Yr ydym ni, y rhai y mae ein henwau isod, yn sicr ddigon fod Mr. Mathew Henry yn weinidog ordeiniedig yr efengyl.

"Yn ol Tystiolaeth,
"W. Wickens,
"Fran. Tallents,
"Edw. Lawrence,
"Nath. Vincent,
"James Owen,*
"Rich. Steele.

"*Mai* 9*fed*, 1687."

Y mae'r llwyddiant mawr a ddilynodd bregethau ac ysgrifeniadau M. Henry yn profi bod y cyfryw "ordeiniad" yn llawn mor effeithiol a'r ddefod o "arddodiad dwylaw," neu pa ddefodau eraill bynag a arferir ar y fath achlysuron; ac y mae'n ddilys ddīammau, pe buasai efe heb fath yn y byd o "ordeiniad" dynol, mwy nag a gafodd Apòlos, a holl aelodau eglwys Jerusalem, pan "dramwyasant, gan bregethu y gair," na buasai ei bregethau a'i ysgrifeniadau un mymryn llai eu gwerth; er bod yr un mor ddilys na buasent mor gymmeradwy gan Gristionogion sydd mor hoff o seremonīau a defodau dynol dirinwedd.

Llafuriodd M. Henry ar ol hyn yng Nghaerlleon, ac ymhob man arall, ymhell ac yn agos, hyd y gallai, dros 25 o flynyddau. Daeth yr amseroedd yn dawel oddi wrth erledigeuthau, dan nawdd Deddf y Goddefiad, ymhen tu a dwy flynedd ar ol hyn; ac yr oedd ei feddwl yntau yn gwbl groes i ddadleuon ac ymrysonau. Yr oedd y pregethwyr a'r gwrandawyr mwyaf crefyddol, ar ol blino ar hanner can mlynedd o gwerylon eglwysig, a dadleuon athrawieuthol, yn tueddu at bregethiad ymarferol; a chan fod meddwl M. Henry o ansawdd dawel a rheolaidd, yr oedd ei bregethiad ef yn tueddu at hyfforddi ac adeiladu, yn hytrach nag at gyffrôi a chynhyrfu, a diwylliodd ef ei dueddiad hyd yr eithaf. Y bregeth gyntaf a draddododd, ar ol ymsefydu yng Nghaer, oedd oddi wrth 1 Cor. ii. 2, "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Yr oedd W. Tong yn bresennol ar yr achlysur, yn dyst o'r llawenydd a'r dīolchgarwch a lanwai feddyliau ei wrandawyr. "Gellir dywedyd, mewn gwirionedd," eb efe, "iddynt ei dderbyn ef megis angel Duw." Cynhullodd eglwys ynghyd yn fuan, yn cynnwys 350 o gymmunwyr, a'r rhai hyny y dinasyddion mwyaf bucheddol a difrifol. Arferai bregethu chwech neu saith waith yr wythnos, heb law y traddodai ddarlithoedd yn rheolaidd ar byngciau duwinyddol. Cyfyngodd ei ddarlithiau dros ugain mlynedd at holiadau Ysgrythyrol. Ar nos Iau yn Hydref, 1692, ei destyn oedd Gen. iii. 19, "Adda, pa le yr wyt ti?" Ac felly ym mlaen hyd fis Mai, 1712, pan y terfynodd y gyfres gyd â'r Dat. xviii., "Pa ddinas debyg i'r ddinas fawr honno?" Heb law pob llafur arall, ymwelai yn barhaus â'r siroedd cyffiniol i bregethu iddynt, fel y gellir dywedyd yn briodol am M. Henry ei fod yn gymmaint o "bregethwr teithiol," neu genhadwr, ag ydoedd o "weinidog sefydlog," canys nis gallai efe wrthod myned i bregethu i bob man lle y cai wahoddiad,

* Ymddengys mai James Owen oedd yr unig Gymro a roddes ei enw wrth "dysteb" ryfedd M. Henry.

os caniatâi ei amgylchiadau, heb ofalu dim pa dâl bydol a gaffai am ei lafur. Rhaid bod ei sefyllfa y pryd hyn, er mor hynod lawn o waith ydoedd, yn dra hyfryd hefyd. Bu ei dad ardderchog fyw dros naw mlynedd ar ol iddo ymsefydlu yng Nghaer, sef hyd ddiwedd ei oes, yn y Dderwen Lydan, o fewn taith fer a difyr iddo; ac yr oedd ei bedair chwaer briodasol a duwiol naill ai yn y ddinas, neu yn agos ati, y rhai oedd mor hoff o hono a chanwyll eu llygaid, ac mor anwyl ganddo yntau a'i einioes ei hun. Heb law hyn, yr oedd yn y ddinas lu o gyfeillion duwiol, dysgedig, a ffyddlawn, y rhai, fel y Galatiaid gynt gyd â Phaul, pe buasai achos a phossibl, a dynasent eu llygaid, ac a'u rhoisent iddo.

Ond yr hyn a wnaeth Gaer yn fwy dymunol fyth iddo, oedd ei gyflwyniad i deulu Hardware, ym Moldsworth. Yr oedd y mab, Mr. John Hardware, wedi priodi merch Mr. Hunt, o Boreatton, ac yr oedd ganddo unig chwaer yn preswylio gyd â'i rhieni, am ansoddau dymunol yr hon, tra'r oedd Henry yn Llundain, yr oedd wedi clywed digon i gynhyrfu ei gywreindeb a'i sylw; ac yr oedd ei gymmeriad *yntau* wedi cael ei ddarlunio mor ddymunol yn ei chlyw hi yn Boreatton, nes y teimlai awydd am ei gyfeillach, heb law ei bod yn adnabod ei chwiorydd. Yr oedd eu teimladau at eu gilydd, gan hyny, wedi eu rhagbarotôi cyn belled a hyn; ac nid hir y parhaodd eu hadnabyddiaeth bersonol cyn i Henry amlygu iddi ei bryder, yr hyn, gan ei fod yn hyspys iddi eisoes, a barodd iddi roi derbyniad boneddigaidd iddo. Yr oedd Mr. Hardware a'i fab John yn hollol barod i dderbyn cynhygion Henry; ond teimlai y fam, Mrs. Hardware, gryn lawer o bryder, gan ofalu yn benaf am amgylchiadau bydol ei hunig ferch. Ond canfu y fam yn lled fuan, yr hon oedd yn wraig wir dduwiol, bod ei merch hi am fyned gyd â'r Henry hwn, fel y dywedai merch y Dderwen Lydan gynt ei bod hithau am fyned gyd â'i dad ef, "er gwell er gwaeth, er cyfoethocach er tlotach, yn glaf ac yn iach;" a rhoddes y fam ei gwrthwynebiad heibio yn ebrwydd, a chydnabu, wedi hyny, y credai bod ei phryder yn codi oddi ar gybydd-dod, am yr hyn yr edifarhai mewn llwch a lludw.

Wedi i'r awyr glirio fel hyn, priododd Mathew Henry Catherin Hardware ym mis Awst, 1687, pan oedd efe o gylch 25 oed, a hithau newydd basio ei 23 oed. Sylwa Mrs. Savage yn arbenig, yn ei dyddlyfr, ar brydferthwch a duwioldeb ei chwaer ynghyfraith newydd. Symmudodd Mr. a Mrs. Hardware yn fuan ar ol hyn i Gaer, ac aeth Mr. a Mrs. Henry atynt i lettya. Rhoddes hyn fantais ychwanegol iddynt farnu pa mor ddedwydd yr ymunodd eu hunig ferch; ac yr oedd duwioldeb diffuant, ymddiddan difyrus, tymmer ardderchog, ynghyd â diwydrwydd a doethineb mawr Henry, yn peru iddynt fod ymhell oddi wrth edifarhau o blegid yr hyn a gymmerth le, fel y cydnabyddai y fam ynghyfraith yn fynych â dagrau o lawenydd yn ei llygaid. Ond nid oedd yr undeb yma, pa mor hyfryd bynag yr ymddangosai, mwy na phob llawenydd arall dan haul, ddim i fod ond o fyr barhâd. Pan oedd Mrs. Henry yn ymyl cael ei gwely ar enedigaeth ei chyntaf-anedig, ymosodwyd arni gan y frech wen; a chyn iddi ond prin deimlo serch mamaidd, symmudwyd hi o'r fuchedd hon i dragywyddol wynfyd. Pan glybu Mrs. Savage am afiechyd ei chwaer ynghyfraith, prysurodd i Gaer, lle yr arhosodd dros ennyd i gysuro ei brawd mewn gorthrymder. Daliodd Mrs. Hardware y brofedigaeth lem, er maint ei gofid, yn well na Mr. Henry. Dywedodd Mr. Tong, yr hwn oedd yn llygad-dyst, pan welodd ei hanwyl blentyn yn gorph marw, y galluogwyd hi i attal ei dwfn dristwch, gan ddywedyd yn ebrwydd, gyd â duwiolfrydedd patriarchaidd, "Yr Arglwydd yw efe. Darfu mi: darfu mi. Ni rwgnachaf mwy." Ymdrechodd gysuro eraill, gan fawr feio ei hun am na roddasai gydsyniad i'r briodas, ac ychwanegodd, "Gwyddai Duw pa hyd y byddai fy mhlentyn fyw, a dygodd hi i deulu Mr. Henry i'w pharotôi i'r nefoedd." Traddodwyd ei phregeth angladdol gan Mr. Lawrence, oddi wrth Phil. i. 21, "A marw sydd elw." Yr oedd arbediad ei gyntaf-anedig yn beth ysgafnhâd i ddwfn dristwch Mr. Henry. Ychwanegwyd ei gysur hefyd gan ymweliad ei odidog dad. Bedyddiwyd y baban gan y gŵr sanctaidd hwnw, gyd â difrifwch rhyfeddol. Galwyd hi, ar enw ei mam ymadawedig, yn Catherin. Dilynwyd y cyflwyniad gan gyffes y rhiant galarus o'i ffydd, at yr hyn yr ychwanegodd, gyd â chythrwfl meddwl annisgrifiadwy, "Er nad yw fy nhŷ i felly yn awr gyd â Duw; etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei lunieuthu yn hollol ac yn sicr; canys fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw, er nad yw yn peru i mi flaguro; ac yn ol cynnwys a rhediad y cyfammod yma, yr wyf yn cyflwyno fy mhlentyn yma i fynu i Dduw, planhigyn o dir sych, gan ddymuno iddo gael ei ail

Digitized by Google

blanu yng Nghrist." Ar yr olygfa yma, yr hon oedd yn cyffwrdd holl linynau natur a gras, dywedir i'r gynnulleidfa fawr oll dori allan i wylo yn hidl.

Ymhen tu a blwyddyn ar ol hyn, tra nad oedd Henry, druan, wedi hanner bwrw ei alar ar ol ei wraig gyntaf, annogodd ei fam ynghyfraith ef yn daer i briodi merch ieuangc dduwiol arall, o deulu tra anrhydeddus a Phuritanaidd, a'i henw Mari, merch Robert Warburton, Ysw., o Grange, yn sir Gaer, yr hwn oedd gâr i Mrs. Hardware. Gweinyddwyd y briodas ar yr 8fed o Orphenaf, 1690, yn Grange. Yr oedd Mr. a Mrs. Phylip Henry yn bresennol, ac yn llawenhau o blegid eu hadnabyddiaeth â theulu mor deilwng, a'u perthynas hwythau iddo. Bu'r wraig rinweddol hon yn ymgeledd gymmwys a ffyddlawn iddo, a gwnaeth ei hegni i hyrwyddo ei lafur crefyddol, ac i'w gysuro yn wyneb pa brofedigaeth bynag a'i cyfarfyddai. Ond rhaid i ni adael ei amgylchiadau teuluaidd, er mor ddyddorol yw yr hanes am lawer o honynt.

Er bod M. Henry yn Anghydffurfiwr egwyddorol, ac i raddau pell yn Buritan, fel ei enwog dad; etto, yr oedd, yn ol esampl ei dad, ym meddu ar ryddfrydigrwydd oedd yn perffaith gydweddu â grym ei dduwioldeb; am hyny, yr oedd dynion da o bob enwad crefyddol yn ei fawr hoffi. Yr oedd amryw o ddeiliaid yr Eglwys Sefydledig yn wrandawyr cysson ar ei ddarlithiau wythnosol, y rhai, mewn gwirionedd, nid oeddynt amgen na *phregethau* ar yr holiadau Ysgrythyrol, fel y crybwyllwyd yn barod. Dywedai, "Y mae'n gas genyf weled neb yn hawlio crefydd a'r eglwys oll iddynt eu hunain, fel pe byddai Crist yn cymmeryd ei gynlluniau oddi wrth ein tybiau a'n dychymygion ni.* Nid y rhai a berthyn i'r blaid hon neu arall† a alwaf fi yn Gristionogion, ond y sawl, dan ba enw bynag y gelwir hwynt, sy'n galw ar enw Iesu Grist ein Harglwydd, ac yn byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol."

Yn y flwyddyn 1690 y daeth M. Henry allan gyntaf fel awdur, ac efe yn 28 oed, mewn llyfryn bychan, heb ei enw wrtho, a alwai "Ymofyniad Byr i Wir Natur Sism."‡ Er mor ddidramgwydd oedd yr yspryd yn yr hwn yr ysgrifenwyd y treuthodyn hwn, fe ymosodwyd arno yn chwerw, cecrus, a hynod o anfoneddigaidd, gan un a alwai ei hun "T. W. Dinesydd o Gaer," a "Charwr Diffuant Gwirionedd." Ni chymmerth M. Henry ei hun arno ei glywed, yr hwn nis hoffai "na rhyfeloedd cyfreithiol, na rhyfeloedd cleddyfau, na rhyfeloedd llyfrau." Ond cymmerth Mr. Tong, ar annogaeth yr hwn y cyhoeddwyd yr "Ymofyniad Byr," arno ei hun y swydd o amddiffynwr, a thalodd i'r ymosodwr yn ol ei heuddiant. Ni therfynodd y "rhyfel bapur" ar hyn, canys gwnaed ail ymosodiad ar yr "Ymofyniad Byr," gan un dysgedicach a mwy gwybodus na'r cyntaf, ond yn llawn mor chwerw ac anheg a'i ragfleunor. Attebodd Tong hwn etto mor effeithiol fel y terfynodd yr ymosodiad.

Ni chyhoeddodd M. Henry ddim mwyach hyd 1694, a dim ond casgliad o hymnau o amryw awduron y pryd hwnw, o'r hwn y cyhoeddwyd amryw argraphiadau mewn blynyddoedd dyfodol. Yn 1696, collodd M. Henry ei dad duwiol ac enwog, fel y crybwyllwyd eisoes; ac yn y flwyddyn 1698, cyhoeddodd yntau ei fywgraphiad, dan yr enw "Bywyd Phylip Henry,"* am yr hwn y dywedodd y Dr. Chalmers, "Y mae'n un o'r bywgraphiadau crefyddol gwerthfawrocaf yn yr iaith." Y mae hwn yn cadw ei le fyth ymhlith y darluniau mwyaf boddhaol o dduwioldeb personol a chymdeithasol a gynhyrchwyd mewn unrhyw oes. Ar ol cyhoeddi y gwaith godidog yna, "aeth ei glod ef trwy yr holl wlad," fel clod Joshua ar ol gorchfygu Jericho. Daeth y galwadau am dano o bob cwr i bregethu; a chan iddo benderfynu pan yn ieuangc, fel yr awgrymwyd, na wrthodai gais i bregethu i neb, os byddai yn ei allu mewn un modd, ychwanegwyd ei lafur bellach yn ddirfawr.

Dilynwyd y gwaith hwn, o'r flwyddyn 1698 hyd 1714, gan 35 o lyfrau neu dreuthodau bychain, y rhan fwyaf o honynt yn bregethau ar byngciau dyddorol neu boblogaidd. Ymhlith y rhai hyn, ei brif gynhyrchion yw y rhai canlynol:—

"Treuthawd ar Lareidd-dra," 1698.†
"Cydymaith y Cymmunwr," 1704.‡
"Catecism Ysgrythyrol," 1708.§

* Diffyg mawr crefyddwyr pob oes, ar ol yr oes apostolaidd, yw dilyn "tybiau a dychymygion" dynion, yn lle cymmeryd cyfarwyddiadau eglur ac anffaeledig y Testament Newydd ymhob peth a berthyn i'r Eglwys a'i threfniadau, cystal a phob peth ag "a berthyn i fywyd a duwioldeb," heb ofalu dim am "draddodiadau yr hynafiaid."

† Ped ymroddai Cristionogion, yn gyffredin, i ddilyn "llythyren y gyfraith," yn lle cymmeryd o'r Hen Destament, ac o "dybiau" dynion ar y Newydd, fe ddarfyddai "ymbleidio" yn yr Eglwys Gristionogol yn bur fuan.

‡ "A Brief Inquiry into the True Nature of Schism."

* "The Life of Philip Henry."

† "A Discourse concerning Meekness."

‡ "The Communicant's Companion."

§ "Scripture Catechism."—Cyhoeddwyd hwn y waith gyntaf yn 1702, heb y profion Ysgrythyrol ynddo; ond ar ddymuniad y Parch. Jenkin Evans, pregethwr Ymneillduol yng Nghroesyswallt, yn y flwyddyn a nodwyd (1708), chwanegwyd y profion Ysgrythyrol at bob attebiad, a chyfieithwyd ef i'r Gymraeg yr un flwyddyn, gan Evans,

Digitized by Google

"Trefn Gweddi," 1710.*
"Cyfarwyddiadau at Gymmundeb Beunyddiol â Duw," 1712.†
"Hyfrydwch Bywyd Crefyddol," 1714.‡

Ond prif waith Mathew Henry, yr hwn a gostiodd iddo flynyddau meithion o fyfyrdod, a'r hwn a geidw ei enw yn ddiffael mewn bendigedig goffawdwriaeth hyd "na byddo amser mwyach," yw ei

"Espondiad ar yr Hen Destament a'r Newydd."§

Er mai byr amser, mewn cymhariaeth, y bu M. Henry yn ysgrifenu yr esponiad helaeth hwn; etto, yr oedd yn ffrwyth llafur ei holl oes, er yn blentyn. Y mae'n ddilys ddïammau i sylw yr esponiwr clodfawr gael ei dynu at y gorchwyl yma gan waith ei dad enwog yn esponio y Bibl bob dydd yn rheolaidd yn ei deulu, ac yn gorchymyn i'r plant ysgrifenu cymmaint ag a allent o'r sylwadau; a dywed y bywgraphwyr i M. Henry wneud defnydd helaeth o'r ysgrifeniadau hyny yn ei esponiad. Y mae'n amlwg bod llawer o'r gwaith wedi ei ysgrifenu cyn 1700, pan anfonodd yr awdur ddarnau helaeth o hono i'r Parch. Samuel Clark, yr hwn a'i hannogodd yn daer i'w cyhoeddi. Mewn llythyr at y gŵr hwnw yr un flwyddyn, efe a ddywed fel hyn:—

"Yr wyf yn gadael arnoch chwi benderfynu ynghylch cyhoeddi'r gwaith, a phenderfynaf finnau ddilyn Rhagluniaeth. Y mae'r gwaith ei hun wedi bod, ac yn para i fod, yn ddigon o gyflog i mi, a'r hyfrydwch yn ddigon o wobr am y boen. Byddwch gystal, attolwg, a'm hyspysu beth sydd i'w wneud o berthynas iddynt. Pe dychwelent i'r lle yr aethant allan o hono, caent dderbyniad croesawgar. Nid edifarhâf am eu hysgrifenu, a gobeithio nad edifarhewch chwithau am eu darllen, pe nad elent ddim pellach."

Awgryma hyn i'r llyfr-werthwyr wrthod eu cyhoeddi. Pa wedd bynag, adnewyddwyd y gwaith ganddo yn 1704, ar raddfa ehangach; ac ymhen dwy flynedd wedyn, yr oedd y gyfrol gyntaf (unplyg) o'r gwaith wedi ei hargraphu, canys ysgrifenodd fel hyn:—"Tach. 12, 1706. Heno, derbyniais y ddalen olaf o Bum Llyfr Moses (cyf. i.)." Aeth yr awdur rhagddo gyd â'r un diwydrwydd a difrifwch hyd yr 17fed o Ebrill, 1714, pan yr hyspysai iddo orphen yr Actau; ac felly yr oedd y 5med gyfrol unplyg, y diwrnod hwnw, yn barod i'r wasg. Attaliwyd "pin yr ysgrifenydd buan" ymhen dau fis wedi hyny gan angau, ac yr ydys yn ddyledus am y 6ed gyfrol o'r argraphiad cyntaf i'r enwogion canlynol:—

Rhufeiniaid, y Dr. John Evans, o Wrecsam (Cymro);* 1 Corinthiaid, Simon Brown; 2 Corinthiaid a'r ddau Thessaloniaid, D. Mayo; Galatiaid, Bayes; Ephesiaid, Roswell; Philippiaid a'r Colossiaid, y Dr. W. Harris; y ddau Timothëus, Atkinson; Titus a Philemon, J. Smith; Hebreaid a'r Datguddiad, W. Tong; Iago, y Dr. S. Wright; 1 Petr, Z. Marriot;† 2 Petr, J. Hill; tri Epistol Ioan, J. Reynolds; Judas, J. Billingsley.‡

Od oedd raid cael pymtheg o wŷr dysgedig ac enwog i ysgrifenu ar ran mor fechan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd ag o'r Rhufeiniaid at y Datguddiad, beth a raid fod llafur a diwydrwydd Mathew Henry yn ysgrifenu o ddechrau Genesis hyd ddechrau yr Epistol at y Rhufeiniaid, heb son am ei ysgrifeniadau lliosog eraill! Am gymhwysder M. Henry at y fath waith pwysig, yn annibynol ar graffter ac ehangder naturiol ei feddwl, dywed ei fywgraphwyr ei fod yn medru Hebraeg, Groeg, a Lladin er yn ieuangc, ac iddo ddysgu Ffrangcaeg yn weddol, pan yn Llundain yn myfyrio y gyfraith wladol. Am yr esponiad ei hun, y mae uwch law pob canmoliaeth. Y mae miloedd o Gristionogion penaf yr oes hon, cystal a'r oesoedd bleunorol, yn berffaith barod i ddywedyd yngeiriau yr enwog a'r duwiol Romaine, "Nad oes un esponiad ar y Bibl, na hen na diweddar, yn gyfartal iddo ymhob peth."§ A'r duwiol ddysgedig Dr. Doddridge a ddywed, "Henry, ond odid, ydyw yr unig esponiwr, mor helaeth, sy'n deilwng i gael ei ddarllen oll yn fanwl trwyddo. Dylai y darllenydd nodi yr ymadroddion nodedig sydd ynddo wrth fyned ym mlaen. Y mae ynddo lawer i'w ddysgu yn ddamcaniadol, a mwy fyth mewn ffordd ymarferol."‖ Y Dr. Adam Clarke, wrth gyfeirio at gasgliadau bychain o esponiadau, y rhai a ymddangosasant o bryd i bryd, a sylwa i'r fath nifer o honynt y rhoddes gwaith ardderchog M. Henry enedigaeth. "Pob un o ba rai," eb efe, "tra yn proffesu tori ymaith yr hyn sydd ormodol ynddo, a gwneud i fynu ei ddiffygion, sy'n syrthio hanner tryfesur y gronell ddirfawr o lenyddiaeth a chrefydd, yn fyr o gyrraedd enwogrwydd yr awdur ei hun."¶ Gallesid ychwanegu lliaws dirfawr, pe

fel y tybir, dan yr enw "Catecism byr i Blant; at yr hwn y chwanegwyd un arall, er Addysc i'r rhai sydd i'w cymmeryd i Swper yr Arglwydd. Gan M. H. Mwythig, 8plyg."—Llyfr. y Cymry, t. 285.

* "A Method of Prayer."

† "Directions for Daily Communion with God."

‡ "The Pleasantness of a Religious Life."

§ "The Exposition of the Old and New Testament."

* Am yr esponiad ar yr Epistol hwn, dywed y Dr. Doddridge—"Y mae'r esponiad ar y Rhufeiniaid, a ddechreuwyd gan Henry, ac a orphenwyd gan y Dr. Evans, y gorau a welais erioed."

† Dywed y Dr. Watts mai Zechariah Merrill a ysgrifenodd ar y 1 Petr.

‡ Y mae enw pob un o'r awduron hyn wedi ei ddodi o flaen ei waith yn yr argraphiad 8plyg breiniol, sydd yn dair cyfrol.

§ Prefat. Recom. to a folio ed. published in 1761.

‖ Dr. Doddridge's Works, vol. v., p. 474.

¶ Dr. A. Clarke's Com. on the Old Test. General Pref., p. 15.

Digitized by Google

buasai angen a lle yn goddef, o sylwadau cyffelyb prif enwogion duwinyddol y byd ar ragoroldeb "Esponiad Mathew Henry ar yr Hen Destament a'r Newydd."

Yr oedd galwadau parhaus yn cael eu hanfon i M. Henry, yn erfyn arno fyned i aros yn Llundain. O'r diwedd, ar annogaeth perthynasau a chyfeillion, cydsyniodd â'r cais ym mis Mai, 1712, ac ymsefydlodd mewn eglwys Annibynol yn Hackney, yr hon a gasglwyd gyntaf gan y Dr. Bates. Dechreuodd ei lafur yn yr awyrgylch newydd yma ar y 18fed o Fai, y flwyddyn grybwylledig, "gan ddechrau ei fyd o'r newydd," ac esponiodd y bennod gyntaf o Genesis yn y borau, a'r gyntaf o Efengyl Mathew yn y prydnhawn. Yr oedd ei serchiadau yn glynu fyth wrth Gaer, mangre ei flynyddoedd boreuaf a dedwyddaf, ac ymwelai yn fynych â'i felus gartref, y Dderwen Lydan, a'r tro diweddaf ym Mai, 1714. Pan ar ei deithiau o Gaer i Lundain, arferai ymweled âg amryw fanau yn y wlad i bregethu iddynt. Y Sul diweddaf ond un y bu fyw, pregethodd ar Heb. iv. 9, "Yr orphwysfa sydd etto yn ol;" a'r Sul canlynol, y diweddaf oll y bu ar y ddaear, ei destyn oedd Heb. iv. 1, "Ei orphwysfa Ef." Y dydd Llun canlynol, yr 21fed o Fehefin, pan yn dechrau ei daith yn ol tu a Llundain, nid ymdeimlai yn llawn mor iach ag arferol; ond mynnodd fyned rhagddo i'r Heledd Wen at ei gyhoeddiad. Pregethodd yno ar Jer. xxxi. 18, "Dychwel di fi, a mi a ddychwelir; o blegid ti yw yr Arglwydd fy Nuw." Yr oedd pawb yn sylwi bod cyfnewidiad mawr i'w weled arno. Trannoeth, sef borau dydd Mawrth, yr 22fed o Fehefin, 1714, tu a pump o'r gloch, yn nhŷ y Parch. Joseph Mottershed, tarawyd ef gan y parlys mud; ac wedi gorwedd dros dair awr, heb yngan gair, â'i lygaid wedi sefyll yn ei ben, efe a fu "farw yn yr Arglwydd," yn y 52fed flwyddyn o'i oedran. Wrth fyfyrio ar y symmudiad dedwydd a disyfyd yma, cyfansoddodd Syr J. B. Williams, un o'i fywgraphwyr galluog, linellau tlysion, o'r sawl y mae y rhai canlynol yn fath o aralleiriad:—

"Yn ofer lliwia ein dychymyg
 Y foment gyntaf ar ol angau:
Y gwynfyd mawr sy'n amgylchynu
 Y sant, pan êl yn rhydd o'i rwyma
Un esmwyth och, ei rwymau ddetyd,
 Prin cyn y gallwn ddweyd 'Aeth ymaith!'
Braidd cyn i'r yspryd pur gymmeryd
 Ei sedd ger bron yr orsedd berffaith.
Ymdrecha ffydd, ond yn gwbl ofer,
 Olrheiniaw ei ehediad nefol:
Nis traidd y llygaid trwy'r wahanlen
 A guddia'r disglair fyd yn hollol.
Hynyma (dim ond hyn yn unig)
 A wyddom am y dedwydd wynfyd:
Llwyr ddarfu pechod, poen, a galar;
 Gorphwysant gyd â'u Crist mewn hawddfyd.
Ar aur delynau'i enw molant
 Byth bythoedd yn ei bresennoldeb:
Os rhodiwn *ninnau* yn eu llwybrau,
 Ei foli gawn i dragwyddoldeb."

Dydd Iau, y 24ydd o Fehefin, cyn symmud y corph o'r Heledd Wen, pregethodd y Parch. J. Reynolds, o'r Mwythig, bregeth briodol i'r amgylchiad galarus. Yna hebryngwyd ei gorph i Gaer, a chladdwyd ef yno yn anrhydeddus, yn Eglwys y Drindod, yn yr un bedd a'i anwyl briod. Yr oedd Mr. Acton, pregethwr y Bedyddwyr yng Nghaer, y diwrnod cyn hyny, wedi gwneud sylwadau tra phriodol ar y golled fawr a gafwyd trwy farwolaeth yr esponiwr enwog a'r pregethwr efengylaidd; a'r Sul canlynol, pregethodd Mr. Gardner, olynydd M. Henry yng Nghaer, i gynnulleidfa lïosog a galarus ar 2 Bren. ii. 12, "Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion." Traddodwyd dwy bregeth, y rhai a gyhoeddwyd wedi hyny, ar yr un amgylchiad difrifol, i gynnulleidfa Hackney, un gan y Dr. Daniel Williams (Cymro o Wrecsam), ar y 27fed o Fehefin; a'r llall gan y Parch. W. Tong, bywgraphydd enwog yr ymadawedig, ar yr 11fed o Orphenaf. Yr oeddynt yn nodedig o briodol i gysuro galarwyr, i foddhau olafiaid, i hyfforddi yr eglwys, ac i beraroglai coffadwriaeth yr anfarwol esponiwr, MATHEW HENRY, un o brif "Enwogion y Ffydd" yn yr eilfed ganrif ar bymtheg.

---

## PENNOD VII.

### PHYLIP JAMES, Y DR. JOHN WYNN, MORGAN GRUFFYDD, AC ELIS WYNN Y BARDD CWSG.

PHYLIP JAMES, neu, fel y gelwid ef yn fynych, y Dr. James, a anwyd ymhlwyf Llandilo-Tal-y-Bont, ger llaw Pontarddulais, ym Morganwg, ar gyffiniau sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei rieni yn Eglwyswyr zelog, os nad penboeth ac erlidgar, yn groes iawn i'r Ymneillduwyr, yn neillduol y blaid a gamenwid yn Ail-Fedyddwyr, a gellir casglu eu bod mewn amgylchiadau cysurus. Rhoddasant addysg anrhydeddus i Phylip, yr hwn, fel y dywedir, oedd eu hunig blentyn, gan fwriadu ei barotôi i offeiriadaeth Eglwys Loegr; ond wedi i'r llange ddechrau meddwl o ddifrif drosto ei hun, ymunodd ef â'r Anghydffurfwyr, a daeth yn bleidiwr calonog iddynt. Mewn canlyniad i hyn, ffyrnigodd ei rieni ato yn chwerw; a chan na fynnai

Digitized by Google

efe wadu ei egwyddorion, yn 1684 neu 1685, hwy a'i gyrasant ef ymaith oddi wrthynt, yr hyn oedd brawf arall o ddïeithrwch yr Esgobeuthwyr yn gyffredin i natur rhyddid crefyddol.

Wedi cael ei droi allan fel hyn gan ei rieni creulawn a dallbleidiol, aeth ryw fodd, nad yw hyspys yn awr, yn ddigon trwm ei galon a gwag ei logell, fel y gellir casglu, yr holl ffordd o Bont-arddulais i Lynlleifiad; a thrwy ryw Ragluniaeth sydd anhyspys weithion, cymmerwyd ef i wasanaeth un Dr. Fabus, yr hwn oedd aelod ffyddlawn gyd â'r Bedyddwyr yn y dref honno. Tra yng-wasanaeth y gŵr crefyddol hwnw, ymroddodd i fyfyrio physigwriaeth, a llwyddodd i feistroli y gelfyddyd feddygol i'r fath raddau fel y daeth i gael ei ystyried yn feddyg cyfrifol. Ni wyddys a gafodd ei raddio yn rheolaidd fel meddyg ai peidio; ond y mae'n hyspys y byddai yn gweithredu fel y cyfryw, ac yn cael ei adnabod gan y cyffredin fel "y Dr. James."* Y mae'n dra thebyg i P. James gael ei fedyddio yn eglwys Abertawe cyn iddo fyned i Lynlleifiad; ac fe allai mai hyny a gynhyrfodd ei rieni i fyned i'r fath eithafoedd yn ei erbyn nes ei droi dros y trothwy. Fe allai iddo ddechrau pregethu cyn gadael Llandilo-Tal-y-Bont, ac mai hyny oedd un achos i'r Dr. Fabus fod mor garedig ato, a chefnogol iddo.

Rywbryd wedi'r chwyldroad yn 1689, dychwelodd P. James o Lynlleifiad i'w ardal enedigol. Beth a achosodd ei ddychweliad, nid yw hyspys. Fe allai i'w rieni weled eu ffolineb, ac iddynt anfon am dano; neu fe allai iddynt feirw, ac iddo yntau ddyfod i'r wlad i ofalu am yr eiddo a adawsant ar eu hol. Beth bynag oedd yr achos o'i ddychweliad i wlad ei enedigaeth, dechreuodd yn ebrwydd ar ei hoff waith o bregethu, a bu ei lafur yn dderbyniol a llwyddiannus iawn yn Abertawe a'r amgylchoedd. Ennillodd barch mawr, a safle neillduol o uchel ym mysg pregethwyr a gweinidogion y Bedyddwyr, cyhyd ag yr arhosodd yng Nghymru yr amser hwnw, fel y prawf y ffaith iddo gael ei ddewis yn un o bregethwyr y cymmanfaoedd blynyddol. Gan na thraddodid mwy nag un bregeth mewn cymmanfa yr amser hwnw, ac y byddid yn pennodi y pregethwr flwyddyn ym mlaen, gellir casglu mai y pregethwr a ystyrid yn orau a bennodid; o ganlyniad, yr oedd pennodiad i bregethu mewn cymmanfa dan y fath amgylchiadau yn sicrhau i'r pennodedig safle uchel ym mysg cedyrn y weinidogaeth. Bu yn gweinidogethu am ryw gymmaint o amser yn Abertawe; ac y mae ei enw gan Joshua Thomas ar restr gweinidogion y lle uchod, ar ol enw Robert Morgan, ac o flaen enw John Morgan.† Wedi iddo draddodi y bregeth gymmanfaol yn Llanwenarth, yn 1705, nid oes genym lawer o hanes am dano yng Nghymru, ac ymddengys mai yr amser hwnw y symmudodd i Loegr. O gylch yr un amser, priododd â boneddiges deilwng iawn yn Curborow, pentref ger llaw Litchfield.‡ Dywedir mai yn 1704 y cafodd y Dr. James wahoddiad i eglwys y Bedyddwyr yng Nghaerwythelin (Warwick); a gellir casglu mai tu a diwedd y flwyddyn honno neu ddechrau y ganlynol y dechreuodd efe ei weinidogaeth yno, a llanwodd ei gylch yno er anrhydedd iddo ei hun a budd i eraill am 13 neu 14 o flynyddau. Symmudodd oddi yno i Hemstead, lle y bu'n llafurio am 30 o flynyddau; ac ar y 12fed o Fai, 1748, bu farw yn 84 oed, wedi gweithio yn galed a llwyddiannus yngwinllan ei Geidwad am tu a 60 mlynedd. Dechreuodd ei daith grefyddol pan yr arllwysid dïaledd gyd â'r ffyrnigrwydd mwyaf gan y Wladwriaeth ar yr Anghydffurfwyr, a disgynodd cynddaredd ei deulu hefyd arno ef, fel y dangoswyd; ond bu ef yn ffyddlon trwy ei holl fywyd i hawliau goruchel cydwybod, er holl ffyrnigrwydd ei deulu a'i elynion; a chafodd brofion llïosog ac amlwg o foddlonrwydd y nef ar ei ddïoddefiadau boreuol a'i lafur rhag llaw.

* Bu Mr. James yn weinidog yn Homstead, fel y ceir gweled; ac y mae bonheddwr o Lundain, a'i enw Hornson, yn ei hanes am yr eglwys honno, yn dywedyd iddi "roi galwad i Mr. Phylip James, M.D., i'r weinidogaeth yn eu plith, yr hon a dderbyniodd." Dywed hefyd, "Yr oedd Mr. James yn ddŷn o ddysg a duwioldeb." Gellir casglu oddi wrth yr M.D. yn yr adroddiad uchod iddo gael ei raddio yn rheolaidd. "Yno" (Llynlleifiad, eb Joshua Thomas) "ymgyflogodd am ryw yspaid gyd âg un Mr. Fabus, Bedyddiwr, yr hwn oedd mewn rhyw gangen o'r gelfyddyd feddygol. Yno cynhyddodd, a chyrheuddodd wybodaeth helaeth a gallu neillduol mewn meddyginiaeth. Aeth i'r weinidogaeth ym mysg y Bedyddwyr, ac arferai ei gelfyddyd yn achlysurol."

† Yr ydym ni wedi methu taro wrtho enw Phylip James yn rhestr Joshua Thomas, ymhlith gweinidogion Abertawe (Han. y Bed., t. 281-299). "Robert Morgan," a "John Morgan, ei fab," ydyw y 7fed a'r 8fed yn rhestr Jos. Thomas (t. 298–9), heb neb rhyngddynt; ac nid yw enw P. James yn ei restr ef o gwbl, o leiaf yn y tudalenau crybwylledig. Ond yn rhestr David Jones, Caerfyrddin (Han. y Bed., t. 524-5), yr 8fed yw "Mr. Robert Morgan;" y 9fed, "Dr. Phillip James;" a'r 10fed, "Mr. John Morgan." Pymtheg sydd yn rhestr Jos. Thomas, o "Mr. John Miles, y bugail cyntaf a aeth i'r America, wedi 1660," hyd "Mr. John Hopkin, yn cynnorthwyo yno yn awr" (1778); ond y mae gan D. Jones 19 o "Mr. John Miles, y bugail cyntaf, a aeth i America, ac a fu farw yno yn 1683," hyd "Mr. John Hopkins, cynnorthwywr ffyddlawn am flynyddau, a fu farw yn 1779." Ni wyddom ni pa un o'r ddau sydd gywir, na pha fodd i'w cyssoni. Dichon bod y naill a'r llall yn gywir mewn *rhyw ystyr*.—GOL.

‡ Bu iddo amryw blant, a throisant allan yn deilwng o'u tad. Bu ei fab ieuengaf, Samuel, yn weinidog defnyddiol a phoblogaidd yn Hitchin, lle y bu farw tu a'r flwyddyn 1773. Cyhoeddodd lyfr da iawn a elwid "*An Abstract of the Gracious Dealings of God with several Eminent Christians*," yr hwn a aeth trwy amryw argraphiadau. Cyhoeddodd Isaac James, mab arall i'r Dr. Phylip James, un argraphiad o hono yng Nghaerodor, gyd âg ychwanegiadau a gwelliantau.

Digitized by Google

### JOHN WYNN, D.D.

Ganwyd y gŵr enwog yma ym Maes-y-Coed, plwyf Caerwys, sir Fflint, yn y flwyddyn 1667. Ail fab ydoedd i John Wynn, o Faes-y-Coed, a deillient o hen deulu anrhydeddus. Addysgwyd ef dros dymmor yn ysgol Llaneurgain, o'r lle y symmudwyd ef i ysgol Rhuthyn, yn sir Ddinbych. Wedi hyny aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, a daeth yn gymmrawd y gymdeithas honno. Bu yn gaplan dros beth amser i Iarll Penfro pan ar lysgenhadaeth; ac wedyn yn beriglor Llangelynin, sir Gaernarfon, yn Esgobaeth Bangor, ac yn gôr-weinydd Brycheiniog, yn Esgobaeth Tŷ Ddewi. Yn 1705, pennodwyd ef yn Broffeswr Duwinyddiaeth o waddoliad y Foneddiges Margaret, yn Rhydychain; ac yn rhinwedd y swydd honno, yr oedd hefyd yn gôr-weinydd yn eglwys gadeiriol Caerwrangon. Yn 1712, etholwyd ef yn brif-athraw Coleg yr Iesu, Rhydychain; ac ar yr 11fed o Ionawr, 1714, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llanelwy, a digwyddodd mai efe oedd yr esgob cyntaf a bennodwyd gan George I. Dywedir iddo fod yn bur haelionus gyd â golwg ar yr eglwys gadeiriol a'r palas esgobol. Tanysgrifiodd efe, clerigwyr, a boneddigion y gymmydogaeth 600p. at adgyweirio y difrod a wnaed gan dymmestl a ymosododd ar y lle yn Chwefror 2, 1714.

Yn 1720, priododd yr esgob Ann, unig ferch ac etifeddes Robert Puw, o Bennarth, ymhlwyf Penmachno, sir Gaernarfon, ac o Ddôl-y-Moch, yn Nyffryn Ffestiniog, sir Feirionydd. Gweinyddwyd y briodas ym Mhalas Lambeth, gan Archesgob Caergaint. Pan fu farw yr Esgob Hooper yn 1727, symmudwyd Wynn i Esgobaeth Bath a Wells, a bu yn llywyddu dros yr esgobaeth honno am 16 mlynedd, fel y llanwodd swydd esgob gwladol dros 29 mlynedd. Yr oedd y Cymry mor zelog dros y Brenin Iago II. a'i hiliogaeth, am eu bod yn nes ceraint i Owain Tudur, o Benmynydd, Mon, na theulu Hanover, fel y digiodd y teulu olaf mor greulon wrth y Cymry, fel cenedl, ag y penderfynasant ddilëu yr *iaith* Gymraeg allan o hanfod. Fel un cam da at hyny, dygasent hwy, llanwasant holl esgobeuthau gwladol y Dywysogaeth â Seuson, fel na bu un Cymro yn esgob yng Nghymru ar ol yr Esgob Wynn yn 1727, hyd nes y cafodd y Parch. W. Hughes Esgobaeth Llanelwy yn 1870, yr yspaid o 143 o flynyddau. Gwnaeth yr esgobion Seisnig eu rhan hefyd, yn ffyddlon, chwarau teg iddynt! at gyrraedd amcan tywysogion Hanover, trwy lenwi y periglorieuthau brasaf yn y wlad â Seuson, a phregethu Seusneg i'r Cymry, a'r rhan fwyaf o honynt heb ddeall un gair o'r estroniaith! Ond nid oedd dyddiau blynyddoedd einioes yr hen iaith etto wedi dirwyn i'r pen. Gadawodd y Cymry, fel cenedl, ei thai i'r hen Fam Wladol yn anghyfannedd, ac euthant yn Ymneillduwyr; a'r canlyniad ydyw bod y Gymraeg yn fwy byw heddyw, filoedd o weithiau, nag ydoedd yn amser Charles y Cyntaf. Ond at yr Esgob Wynn.

Cyhoeddodd yr esgob dalfyriad o dreuthawd Locke "Ar y Deall Dynol," gyd â llawn gymmeradwyaeth yr awdur, yr hyn, fel y tybir, a barodd iddo gael ei gyfieithu i'r Ffrangcaeg. Cyhoeddodd un bregeth hefyd, a dyna'r cwbl o'i lafur llenyddol a duwinyddol a drosglwyddwyd, hyd y gwyddom ni, i'w olafiaid. Nid ydym yn gwybod iddo ysgrifenu dim yn Gymraeg. Yn 1732, prynodd yr esgob etifeddiaeth Soughton, yn Llaneurgain, sir Fflint, ac yno y bu efe farw ar y 15fed o Fehefin, 1743, yn 76 oed, a chladdwyd ef yng Nghapel Eglwys Llaneurgain, dan feddfaen o fynor glas, ar ran o'r hwn y cerfiwyd ei bais arfau. Yr oedd gan yr esgob ddau fab a dwy ferch. Ei fab hynaf, John, a'i dilynodd i etifeddiaeth Soughton, yr hwn a fu farw yn ddibriod. Yr ieuengaf oedd Syr William Wynn, marchog, Llywydd Swyddogol yr Areglwyslys, Barnwr y Breintlys, Barnwr y Morlys, Meistr Neuadd y Drindod, Caergaint, a Chyfrin-Gynghorwr. Ganwyd ef ar y 25med o Ionawr, 1729, a bu farw yn 1815, yn 86 oed. Ei ferch Mari a briododd Henry Vane, brawd Iarll Westmoreland. Bu hi farw yn 1744, a chladdwyd hi yn ymyl ei thad yn Eglwys Llaneurgain. O honi y mae'r presennol Arglwydd Le Dispencer yn hanu. Margaret, ei ferch arall, yr hon a anwyd yn 1724, a briododd Henry Banks, Ysw., A.S. dros Gastell Corfe, sir Dorset, ac a fu farw yn Llundain yn 1822, yn 98 oed. Teulu y rhai hyn sydd yn awr yn mwynhau etifeddieuthau yr Esgob Wynn.*

### MORGAN GRUFFYDD, CRAIG-YR-ALLT.

Un o weinidogion gorau a mwyaf poblogaidd Craig-yr-Allt a Hengoed, ym Morganwg, oedd y gŵr enwog hwn. Ganwyd ef ger llaw mynydd-dir Preselau, yn agos i le a elwir Trelettest (Letteston), yn sir Benfro, yn 1669. Dechreuodd ei

* Williams's Em. Welshm., p. 549–50; Enwogion Cymru, I. F., t. 1060–1.



Digitized by Google

yrfa grefyddol yn Rhydwilym (Rushacre), pan oedd William Jones yn weinidog yno. Wedi pregethu am rai blynyddoedd yn Rhydwilym, dechreuodd weinidogeuthu yng Nghraig-yr-Allt, yn 1701, lle y bu yn ddefnyddiol a llwyddiannus iawn hyd ei farwolaeth ar yr 11fed o Fehefin, 1738, pan yn 69 oed.* Ymddengys mai John Jenkins,† Rhydwilym, a ddygodd M. Gruffydd (Griffiths) a chyfeillion Craig-yr-Allt i adnabod eu gilydd.‡ Yr oedd pregethu mewn lliaws o fanau, heb un lle cyfleus i addoli, yn anfantais a deimlai y gweinidog o'i phlegid; ond yr oedd yr aelodau wedi cynnefino â'r amgylchiadau, fel yr oeddynt hwy yn bleidiol i bethau barhau fel yr oeddynt. Gan mai felly y teimlent, dangosodd M. Gruffydd lawer o benderfyniad a doethineb er cael lle cyfleus i addoli. Gan fod ei lafur mor llwyddiannus, aeth yr annedd-dai lle yr ymgynhullent yn rhy gyfyng i'r cynnulleidfaoedd, a theimlid hyny yn neillduol pan fyddai yr aelodau yn cyfranogi o swper yr Arglwydd: ond er i'r anghyfleusdra gynhyddu, ni fynnai rhai o'r aelodau newid y dull. Gan fod yr eglwys mor wasgarog, nid gorchwyl hawdd oedd penderfynu ymha fan y byddai y capel yn fwyaf cyfleus i'r mwyafrif, a chael y rhai pellaf o'r fan a bennodid i ymgymmodi â'r drefn newydd. Modd bynag, cyn diwedd 1710 yr oedd yr addoldy yn barod ar gefn Hengoed, ac erys yn gofgolofn o zel, doethineb, a phenderfyniad y gweinidog. Yr oedd bod yr anghyfleusderau mor amlwg, ac yn cael eu teimlo gan bawb ond y rhai mwyaf rhagfarnllyd, yn fanteisiol i'w lwyddiant; a'r un modd y ffaith bod pedwar o dai cyrddau wedi eu hadeiladu yn flaenorol, sef Llanwenarth, yn 1695; Rhydwilym, 1701; Llangloffan, yn 1706; a'r Felin-Foel, yn 1709. Awdur "Hengoediana" a ysgrifena ar hyn fel y canlyn:—

"Wedi agor y tŷ newydd, a theimlo cysur yr eisteddleoedd, a chael cyflawnder o le cyfleus i wrando, dechreuodd y rhagfarn ddiflannu; ymgasglodd y tyrfaoedd, a bu llwyddiant mawr. Yn lle cyfyngu ei lafur i'r tŷ newydd yn unig, fel yr ofnai y brodyr, gwasgarodd Mr. Gruffydd ei lafur yn heleuthach nag o'r blaen, fel pe buasai wedi cael y boddlondeb o osod ei deulu blaenorol mewn cartref cyfleus. Ymwelai yn fynych â'r annedd-dai ymha rai y buasent yn addoli; ac ymwelai â Llantrisant, Casbach, Pen-y-Fai, Llanharan, Llan-Sant-Ffraid, a Llantrisant, sir Fynwy. Yn yr Argoed, plwyf Bedwellty, yr oedd efe ei hun yn byw, a byddai yn pregethu weithiau yn ei dŷ ei hun. Dywed Joshua Thomas bod traddodiad yn ei amser ef bod 500 o aelodau yn yr eglwys yr un amser. Gallasai fod felly tu a 1654, pryd yr oedd ganddi gymmaint a phedwar o bregethwyr doniol, a phryd yr oedd mor helaeth ei therfynau fel y bu son am iddi ymranu yn dair o eglwysi, a phennodi gweinidogaeth ymhob un o honynt. Nid yw holl fanylion yr hanes yn adnabyddus; ond gellir penderfynu mai tu a'r amser hwnw y bu lïosocaf yn yr 17fed ganrif. Ymhen tu a 10 mlynedd ar ol agoriad yr addoldy [yn amser M. G.], yr oedd yr eglwys yn lïosog iawn. Os nad oedd y fameglwys yn cadw llyfr coffadwriaeth, ac yn edrych yn graffus iddo, gallasai bod meddylddrych camsyniol iawn am eu nifer, o blegid eu bod mor wasgaredig, ac nad oeddynt yn gallu dod at eu gilydd ond yn anaml, nac un amser oll yr un pryd. Yr oedd yn yr eglwys tu a'r blynyddau 1721–24, dri o leiaf o bregethwyr, heb law y gweinidog. . . . Tybir mai at y tymmor hwnw y cyfeiriai Jenkin Llywelyn pan ddywedai ei fod yn cofio yr eglwys yn 260 o aelodau; ac os felly, dyma'r amser y bu'r eglwys lïosocaf yn y 18fed ganrif." §

Er mwyn cyfarfod yr anhawsder o fod llawer o'r aelodau yn byw mor bell o Hengoed, trefnwyd iddynt gyfarfod yno wrth fwrdd yr Arglwydd dair gwaith yn y flwyddyn, yr hyn a fu'n fwy o fantais nag o niwaid iddynt am amser maith; ond bu'r arfer yn achlysur i ddrygioni ar ol marwolaeth M. Gruffydd, fel y dengys awdur yr "Hengoediana." Yr amser cyntaf wedi adeiladu Hengoed, penderfynwyd i'r holl aelodau, cyn belled ag y gallent, gyfarfod mewn cymmundeb yno ym misoedd Mai, Mehefin, a Gorphenaf. Teithid degau o filltiroedd gan rai y misoedd hyny er mwyn bod yno. Byddai perthynasau a chydnabod yr aelodau pellenig yn myned yno hefyd ar y Sabbothau hyny, yr hyn a arweiniodd i raddau helaeth o lygredigaeth. "Pen-mis-mawr-Hengoed" y gelwid pob un o'r Sabbothau hyny; a'r fath yw grym arferiad fel y mae'r Suliau hyny hyd heddyw yn fwy poblogaidd yn Hengoed na rhai eraill. Yn yr hen amser, gwelid cannoedd o feibion a merched yn teithio o wahanol gyfeiriadau tu a Hengoed, rhai ar feirch ac eraill ar eu traed, fel yr oedd y cynhulliad yn y capel a'r fynwent yn llawer tebycach i ffair nag i addoliad. Nid oedd lle i un ran o bedair o honynt yn yr addoldy, ac nid oedd llawer o'r ymwelwyr yn myned yno i geisio myned iddo. Gwelid rhai yn y fynwent ac ar y ffyrdd yn yr ardal yn gwerthu teisenau, ac eraill yn gwerthu dïodydd meddwol; ac yr oedd y tafarnau yn y gymmydogaeth yn llawnion, ac weithiau trwy y nos Sul a'r Llun canlynol. Gwnai yr eglwys bob peth yn ei gallu i rwystro y fath lygredigaethau; ond bu'r holl ymdrech yn annigonol i

* Welsh Noncon. Mem., pp. 249–58.

† Gwel pen. iv. o'r llyfr hwn (y v.).

‡ Yng Nghraig-yr-Allt yr oeddynt pan ddaeth M. Gruffydd atynt; ac ymddengys mai yn nhŷ William John (neu Jones), yn y lle hwnw, yr ymgynhullent. Wedi hyny ymgyfarfyddent mewn tŷ annedd arall yn yr ardal, a elwid y Waungaled. Buant mewn tri neu bedwar o fanau eraill cyn adeiladu Hengoed yn 1710. Bu'n fath ar eglwys gymmundol am flynyddau lawer cyn cael yr addoldy. Bu M. G. yn weinidog i'r frawdoliaeth am tu a 9 mlynedd cyn cael y capel.

§ Hengoediana, pp. 41–2.

Digitized by Google

roddi attalfa hollol arno, hyd nes y daeth John Jenkins (y Dr. Jenkins wedi hyny) i weinidogeuthu i'r lle, yr hwn a gymmerth y matter mewn llaw yn benderfynol, ac a ddiffoddodd yr aflendid a ffynnai. Cafodd wrthwynebiad cyndyn gan dafarnwyr a thorwyr Sabbathau; ond er y cyfan, bu'n llwyddiannus yn y diwedd.

Llafuriodd M. Gruffydd yn Llantrisant, Mynwy, ar ol marwolaeth y llafurus T. Quarrel yn 1709, ac ystyrid yr eglwys honno yn gangen o eglwys Hengoed yn 1720. Er i eglwys Llantrisant fyned dan ryw fath o ail gorpholiad yn 1723, ni leihaodd hyny lafur mawr M. Gruffydd, canys mynnai efe fanau eraill i lafurio ynddynt. Cangen o Hengoed oedd eglwys Pen-y-Fai, yr hon a wasanaethwyd yn helaeth gan M. Gruffydd a'i gydlafurwyr, ac a gorpholwyd yn 1726. Bu llwyddiant mawr trwy yr holl eglwysi yn y flwyddyn hon a'r un ganlynol; ond nid ydym yn gwybod pa nifer a chwanegwyd at eglwys Hengoed ar y pryd. Yn yr amser hwnw, bu Bedyddwyr a Bedyddwyr Plant yn dadlau llawer ar fedydd; ac yn ol awdur yr "Hengoediana," ac eraill, llwyddiant mawr y Bedyddwyr ar y pryd a barodd i Fedyddwyr Plant anesmwytho, a siarad yn erbyn y bedydd a arferir gan y Bedyddwyr. Y mae rhai yn gofidio neu'n cymmeryd arnynt deimlo yn ofidus o herwydd dadleuon crefyddol, ac yn neillduol dadleuon ar fedydd; ond nid yw yn ymddangos bod dadl yn niweidiol, os cael allan y gwirionedd a fydd yr amcan, ac nid ennill buddugoliaeth i blaid. Nid yw y gwirionedd yn gofyn am lonydd, na'r hyn sydd groes iddo yn heuddu llonydd. Byddai crefyddwyr y ddwy ganrif ddiweddaf yn dadlau llawer; ac er y byddent weithiau yn croesi y terfynau cyfreithlon, etto bu eu dadleuon, ar y cyfan, yn fwy o fendith nag o niwaid i dduwinyddiaeth a chrefydd.

Bu'r llwyddiant y cyfeiriwyd ato, yr hyn a arweiniodd i gorpholiad eglwys Pen-y-Fai, yn gysur mawr i Morgan Gruffydd, a'r un modd corpholiad eglwys Pen-y-Garn, Pont-y-Pwl, yn 1729, yr hon oedd gangen arall o eglwys Hengoed. Nid ydym yn gwybod i un gweinidog yng Nghymru gael ei fendithio â mwy o lwyddiant ar ei lafur yn y tymmor hwnw na Morgan Gruffydd. Wedi gweinidogeuthu yn Hengoed am 37 o flynyddau, fel y crybwyllwyd, bu farw yn 1738, yn 69 oed, a chladdwyd ef ym mynwent yr eglwys a wasaneuthasai mor effeithiol ac mor faith, a dodwyd cerfiad Saesneg lled helaeth ar gareg ei fedd. Er nad yw ein braslun o'r dŷn gwerthfawr hwn ond byr, etto y mae'n ddigon i ddangos mai bywyd o lafur mawr a arweiniodd efe, ac na bu ei lwyddiant yn anghyfartal yngwasanaeth ei Arglwydd. Gadawai ei dyddyn yn Argoed, gan deithio ugain milltir o ffordd i bregethu, ac felly yn fynych yn ystod 37 o flynyddau, heb son am ei deithiau mynych i gymmanfaoedd, yn y rhai y gwasaneuthai mor fynych. Y gymmanfa ddiweddaf y pregethodd ynddi oedd un Castell-Newydd-Emlyn, a gynhaliwyd yn 1737. Yr oedd yn dderbyniol, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd mewn rhanau o Loegr, lle y pregethai yn achlysurol yn Saesneg. Eglwyswyr, yn ol y Dr. Richards, oedd ei hynafiaid, ac efe oedd y cyntaf o honynt i ymuno â'r Anghydffurfwyr, yr hyn sy'n dangos ei fod yn ddŷn o feddwl annibynol. Yn Prendergast, yn ymyl Hwlffordd, yn ol yr un awdurdod, y clywodd bregethwyr y Bedyddwyr gyntaf;* ac y mae'r pellder rhwng Trelettest a Rhydwilym, lle yr ymaelododd gyntaf, yn brawf o nerth ei benderfyniad i ymddwyn yn ol argyhoeddiad ei gydwybod. Meddai lawer o bwyll a doethineb i weithio allan ei argyhoeddiadau, fel y dengys y tawelwch a ffynnai yn Hengoed pan y cychwynwyd y ddadl Arminaidd yno gan Charles Winter. Er lliosoced oedd yr eglwys, ymddengys mai ychydig a dderbyniai oddi wrthi am ei wasanaeth, canys yn 1716 derbyniai ran o'i gynhaliaeth o'r drysorfa yn Llundain. Cyfrenid gan y gymdeithas honno yn ol defnyddioldeb y derbynwyr, y rhai a drefnid yn dri dosparth; ac yr ydys yn cael M. G. yn y dosparth bleunaf. Y cymmeriad a roddid iddo gan swyddogion y gymdeithas oedd, "Gŵr enwog a defnyddiol, yn cael ei fawr arddel: gwasaneuthwr da i Iesu Grist: gŵr ymdrechgar iawn." Dywedir mai y cwbl a dderbyniai Lewis James (Lewis Siams) am ei lafur gweinidogeuthol yn Hengoed, tu a diwedd y ganrif ddiweddaf, neu ddechrau yr un bresennol, oedd ambell swllt i gael trewlwch *(snuff)*, o'r hwn yr oedd efe yn dra hoff; a chan mai felly yr oedd yn amser Lewis Siams, nis gallai fod yn dda yn amser Morgan Gruffydd, am yr hwn y dywedir fel y canlyn:—

"Dŷn ydoedd o dueddfryd caredig a mwynaidd; o ymddygiad boneddigaidd ac ewyllysgar; a'i holl fuchedd yn gyfryw ag a weddai i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Nid yn unig yr oedd yn gyfarwydd yn ei iaith ei hun, ond hefyd yr oedd yn alluog yn y Saesneg; a phregethai gryn dipyn yn Lloegr, yn enwedig yng Nghaerodor, lle yr oeddynt yn hoff iawn o'i glywed. Y disgrifiad a ddyry Joshua Thomas o honno fel pregethwr ydyw—'Bod ei bre-

* Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 250.—Gol.

Digitized by Google

[illegible] yn gyffredin yn fyrion, yn drefnus, yn ddeallus, ac yn gynhwysfawr iawn; etto yn felus ac yn dderbyniol, yn [illegible] a hawdd eu cofio. Yr oedd ei ymadrodd yn serchog a [illegible], ac yn ennillgar iawn.' Yn ei amser ef y bu eglwys Hengoed yn fwyaf ehang ei therfynau, ac fe allai yn fwyaf lliosog ei haelodau. Yn ol y cyfrif a ddanfonwyd i Lundain, i'r Dr. John Evans, yn 1715, yr oedd nifer y gwrandawyr a gyfarfyddent dan weinidogaeth M. G. yn [illegible], ac yn cynnwys 20 o foneddigion, 52 o berchenogion tiroedd, 17 o grefftwyr, 115 o dyddynwyr, 210 o lawweithwyr, gan y rhai yr oedd 54 o bleidleisiau dros siroedd Mynwy a Morganwg, a 130 dros y bwrdeisdrefi. Yn yr Hengoed a'r Hendre y cyfarfyddent. Bu'r eglwys yn flodeuog braidd trwy holl dymmor ei weinidogaeth; yn gref ei dylanwad, yn llïosog ei haelodau, yn nerthol ei grasusau, ac yn fywiog iawn yn ei chyflawniadau."

Nid oes hanes fanwl am ei deulu, ond dywedir y bu iddo rai plant. Bu ei fab John yn preswylio ym Mhont-y-Pwl, ac yn olygwr medrus a llwyddiannus ar waith haiarn a *japan* Mr. Hanbury yno. Yr oedd yn ddŷn crefyddol, ond nid oedd yn pregethu. Ymfudodd wedi hyny i'r America, a bu yn dal cyssylltiad â gwaith haiarn yn East Jersey, lle y bu farw. Priododd merched J. Gruffydd yn y wlad hon (Brydain); ond dilynodd ei fab John ei dad i'r America, ac ystyrid ef yn un o ysgolheigion gorau y wlad honno. Priododd yr ysgolhaig hwnw ddynes gyfoethog yn yr Unol Daleithiau, i ran yr hon y daeth etifeddiaeth dda wedi hyny yn sir Aberteifi. Yn 1777, dychwelodd yr ysgolor i Gymru, lle y treuliodd weddill ei oes, ac y bu farw yn 1791, tu a 56 oed. Gadawodd ddau o blant ar ei ol, un o ba rai oedd yn byw yn nhreftadaeth ei fam, ym Mhen-y-Wenallt,* ger llaw Castell-Newydd-Emlyn, yn 1820; ac yr ydym yn meddwl mai rhai o'i hiliogaeth sydd yno yn bresennol, yn 1878.

### ELIS WYNN, Y BARDD CWSG.

Buasai yn dra dymunol genym gael pob manylion am awdur enwog "Gweledigaethau y Bardd Cwsg," a chyfieithydd Cymreigaidd "The Rule and Exercises of Holy Living" yr Esgob Jeremy Taylor, yr hwn gyfieithiad a alwodd y bardd yn "Rheol Buchedd Sanctaidd." Hoffasem gael gwybod yn oed pa fath wyneb oedd ganddo; pa fath oedd ei enau a'i drwyn; pa liw oedd ar ei lygaid, a pha mor dreiddgar yr edrychai; pa faint oedd lled ac uchder ei dalcen, ac o ba liw yr oedd ei wallt; pa fath gorph a gosgedd oedd iddo; pa un ai tal esgyrniog, fel John Elias a Gwilym Hiraethog, ai ynte llaprwth corphorol, fel Christmas Evans a Chynddelw ydoedd (yr ydym yn dra sicr nad corryn dan faint cyffredin oedd, fel ——); pa fath ydoedd yn blentyn ac yn llangc, neu y daeth i oedran addfed; pa fanteision addysg a gafodd, a pha mor gyflym neu arafaidd y dysgai, a'r cyffelyb; eithr, ysywaeth, ychydig iawn a geir o hanes am dano, ond a ellir ei gasglu oddi wrth ei waith. Tueddir un ysgrifenydd† i farnu mai yr achos o ddistawrwydd y beirdd, prif gyfryngau yr oes honno i drosglwyddo hanes personau a digwyddiadau i'w holynwyr, oedd ei ddull didderbynwyneb ef yn dinoethi llygredd y frawdoliaeth honno. Y mae'n amlwg fod y gŵr hynod hwn yn bur eiddigus dros ddyrchafu rhinwedd ymhlith ei genedl, ac yn bur llym yn erbyn pob llygredd a drygfoes, a threuthai ei farn yn gwbl ddiseremoni: ac o herwydd hyny, y mae'n bur debyg iddo dynu arno ei hun ŵg beirdd ac offeiriaid, dau ddosparth oedd ar y pryd yn dra llygredig; ac nid gronyn gwell oedd proffeswyr y ddwy grefft ddysgedig arall, y cyfreithwyr a'r physigwyr; am hyny, nid oedd yntau odid ddim tynerach wrth y naill na'r llall o honynt, fel y prawf y difyniadau canlynol:—

"Oddi yno ni a aethom lle clywem drwst mawr, a churo a dwndrio, a chrio a chwerthin, a bloeddio a chanu. 'Wel, dyma Fedlam yn ddiddadl,' eb fi. Erbyn i ni fyned i mewn, darfuasai'r ymddygwd [y terfysg]; ac un ar y llawr yn glwt; un arall yn bwrw i fynu; un arall yn pendwmpian uwch ben alwydaid o fflageni [costreli] tolciog, a darnau pibelli a godardau;‡ a pheth, erbyn ymorol, ydoedd ond cyfeddach rhwng saith o gymmydogion sychedig, eurych [tingcof], a lliwydd, a gof, mwyngloddiwr, ysgubwr simneiau, a phrydydd, ac offeiriad a ddeuthai i bregethu sobrwydd, ac i ddangos ynddo ei hun wrthuned o beth yw *meddudod;* a dechrau'r ffrwgwd diweddar oedd dadlau ac ymdeuru a fuasai rhyngddynt, pa un orau o'r seithryw a garai bot a phibell; a'r prydydd aethai â'r maes ar bawb ond yr offeiriad, a hwnw, o barch i'w alwad, a gawsai'r gair trechaf o fod yn ben y cymdeithion da; ac felly cloes y bardd y cwbl ar gan:

'O'r dynion ple'r adweunych,
Ar ddeuar faith, saith mor sych?
A'r gorau o'r rhain am gwrw rhydd,
Offeiriedyn a Phrydydd.'

"Wedi llwyr flino ar y moch abrwysg [meddwon] hyn, ni a aethom § . . . trwy fyrddiwn o gysgodion ac ymlusgiaid, a beddi, a monwentau, a beddrodau, ni a aethom ym mlaen i weled y wlad yn ddirwystr, tan na welwn i rai yn troi ac yn edrych arnaf; a chwipyn, er maint oedd y distawrwydd o'r blaen, dyma si o'r naill i'r llall, fod yno ddŷn bydol [dŷn o'r byd]. 'Dyn bydol!' ebr un; 'Dŷn bydol!' ebr y llall, tan ymdyru ataf, fel lindys, o bob cwr. 'Pa fodd y deuthoch, Syre?' ebr rhyw furgyn o Angau bach oedd yno. 'Yn wir, Syr,' ebr fi, 'nis gwn i mwy na chwithau.' 'Beth y gelwir chwi?' ebr yntau. 'Gelwch fi yma fel y mynnoch yn eich gwlad eich hun, ond fe'm gelwid i gartref, Bardd Cwsg.'

* Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 259-60.

† Y Traethodydd, llyfr vii., t. 320.

‡ Cwpanau pridd crynion, tu a phum modfedd o uchder, wedi eu barneisio yn ddu oddi allan ac o fewn, â chlust ar eu hymyl, y rhai a arferid y pryd hyny, ac yn llawer diweddarach, i fwyta o honynt, yn lle cawgiau (bowls) a ddefnyddir yn awr.

§ Y Bardd Cwsg, argr. Caerfyrddin, 1865, gan D. S. Evans, t. 31.

Digitized by Google

"Ar y gair, gwelwn gnap o henddyn gwargam, â'i ddeupen fel miaren gen lawr, yn ymsythu, ac yn edrych arnaf yn waeth na'r dieflyn coch; a chyn dywedyd gair, dyma fe'n taflu penglog fawr heibio i'm i. Dïolch i'r gareg fedd a'm cysgododd. 'Llonydd, Syr, ertolwg,' ebr fi, 'i ddŷn dïeithr na fu yma erioed o'r blaen, ac ni ddaw byth, pe cawn unwaith ben y ffordd adref.' 'Mi wnaf i chwi gofio eich bod yma,' eb ef, ac eilwaith âg asgwrn morddwyd, gosododd arnaf yn gythreulig, a minnau yn osgoi fy ngorau. 'Beth,' ebr fi, 'dyma wlad anfoesol iawn i ddieithriaid; oes yma un ustus o heddwch?' 'Heddwch?' ebr yntau, 'pa heddwch a heuddit ti, na adewit lonydd i rai yn eu beddi?' 'Attolwg, Syr,' ebr fi, 'a gawn i wybod eich enw chwi? o blegid nis gwn i flino ar neb o'r wlad yma erioed.' 'Syre,' ebr yntau, 'gwyddoch mai fi, ac nid chwi, yw'r Bardd Cwsg: ac a ges lonydd yma er's naw cant o flynyddoedd gan bawb ond chwychwi;' ac a aeth i'm cynnyg i drachefn. 'Peidiwch, fy mrawd,' ebr Merddyn,* oedd yn agos, 'na fyddwch ryboeth; dïolchwch iddo yn hytrach am gadw coffadwriaeth parchus o'ch enw ar y ddeuar.' 'Yn wir, parch mawr,' eb yntau, 'oddi wrth y fath benbwl a hwn. A fedrwch chwi, Syre, ganu ar y pedwar mesur a'r hugain? a fedrwch chwi ddwyn achau Gog a Magog, ac achau Brutus ap Silvius hyd gan-mlwydd cyn difa Caer Troia? A fedrwch chwi frutio pa bryd, a pheth a fydd diwedd y rhyfeloedd rhwng y llew a'r eryr, a rhwng y ddraig a'r carw coch? ha!' 'Hai! gadewch i minnau ofyn iddo gwestiwn,' ebr un arall oedd wrth efyddan fawr yn berwi soc, soc, dy gloc, dy gloc.† 'Tyred yn nes,' ebr ef, 'beth yw meddwl hyn?'—

> 'Mi fyddaf hyd ddydd-brawd
> Ar wyneb deuar-brawd,
> Ac ni wyddys beth yw 'nghawd,
> Ai cig ai pysgawd.'

"'Dymunaf eich enw, Syr,' efr fi, 'fel y'ch attebwyf yn gymhwysach.' 'Myfi,' ebr ef, 'yw Taliesin Ben Beirdd y Gorllewin; a dyma beth o'm difregwawd [dychymyg] i.' 'Nis gwn i,' ebr finnau, 'beth a allai eich meddwl fod, onid allai'r fad felen‡ a ddifethodd Faelgwyn Gwynedd, eich lladd chwithau ar y feisdon, a'ch rhanu rhwng y brain a'r pysgod.' 'Taw ffwl,' ebr ef, 'brutio'r oeddwn i am fy nwy alwedigaeth, gŵr y gyfraith a phrydydd: a pha un meddi di yr awran, debycaf ai cyfreithiwr i gigfran reibus, ai prydydd i forfil? Pa sawl un a ddigia un cyfreithiwr i godi ei grombil ei hun? ac O! mor ddifatter y gollwng e'r gwaed, a gadael dŷn yn lledfarw! A'r prydydd yntau, pa le y mae'r pysgodyn sy'r un lwngc ag ef! ac y mae hi 'n fôr arno bob amser, etto ni thyr y môr heli mo'i syched ef. Ac erbyn y bai dŷn yn brydydd ac yn gyfreithiwr, pwy a ŵyr pa un ai cig ai pysgod fyddai? ac yn sicr, os byddai yn un o wŷr llys, fel y bûm i, ac yn gorfod iddo newid ei flas at bob genau. 'Ond dywed i mi,' ebr ef, 'a oes yr awran nemmor o'r rhai hyny ar y ddeuar?' 'Oes,' ebr finnau, 'digon: os medr un glytio rhyw fath ar ddyri, dyna fe'n gadeirfardd. Ond o'r lleill,' ebr fi, 'y mae'r fath bla yn gyfarthwyr, yn fân dwrneiod, a chlarcod, nad oedd locustiaid yr Aipht yn ddim pwys ar y wlad wrth y rhai hyn. Nid oedd yn eich amser chwi, Syr, ond bargeinion bol clawdd, a lled llaw o ysgrifen am dyddyn canpunt, a chodi carnedd, neu gocten Arthur, yn goffadwriaeth o'r pryniant a'r terfynau. Nid oes mo'r nerth i hyny yr awran, ond y mae chwaneg o ddichell ddyfeisddrwg, a chyfled a chromlech o femrwn ysgrifenedig i sicrhau'r fargen; ac er hyny odid na fydd, neu fe fynnir, rhyw wendid ynddi.' 'Wel, wel,' ebr Taliesin, 'ni thalwn i yno ddraen; ni waeth genyf lle'r wyf: ni cheir byth wir lle bo llawer o feirdd, na thegwch lle bo llawer o gyfreithwyr, nes y caffer *iechyd* lle bo llawer o physygwyr.'"*

Mab oedd Elis Wynn (y Bardd Cwsg) i Edward Wynn, a'i wraig, etifeddes y Lasynys; a mab oedd Edward i Elis, trydydd mab William Wynn, o Lyn Cywarch, a'i wraig Lowri, merch Edward Thomas.† Ganwyd y bardd yn y Lasynys, palasdy o ddeutu milltir o dref Harlech, yn sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1671. Yr oedd yr hen dŷ lle y ganwyd, y magwyd, ac y bu farw y Bardd Cwsg yn aros mor ddiweddar ag 1853, a dichon ei fod felly etto; a dangosid yr ystafell i ddïeithriaid, yn yr hon, yn ol traddodiad, yr ysgrifenwyd "Gweledigeuthau y Bardd Cwsg." Efe oedd unig fab ei rieni; ac felly, yr oedd etifeddiaeth y Lasynys yn disgyn yn naturiol iddo. Yr oedd ganddo un chwaer, yr hon, fel yr ymddengys, a fu farw yn ddibriod. Pa fanteision addysg a gafodd, ac yma le y derbyniodd ei ddysg, nid yw hyspys. Nid oes brawf iddo erioed fod mewn Prifysgol; ac os bu, dïau na chymmerth un radd athrofaol ynddi. Pa wedd bynag, awgrymir yn un o englynion "Edm. Prys, Ficar Clynog Fawr yn Arfon," sydd o flaen "Rheol Buchedd Sanctaidd," ei fod yn deall tair iaith heb law y Gymraeg. Dyma yr englyn:—

> "Swyno [anturio] *teir-iaith* yn fwythus
> I feithrin di‡ fam-iaith;
> Cym'raist i'th gwys *wiw-ddwys waith*,
> Dwfn ail yw dy fanylwaith."

Dywedir nad oedd ynddo lawer o duedd at yr offeiriadaeth, ac mai ar gais yr Esgob Humphrey Humphreys, o Fangor, y cymmerth efe ei urddo; ac ymddengys na ddigwyddodd hyny nes ei fod mewn gwth o oedran. Dichon mai rhagoroldeb y "Rheol Buchedd Sanctaidd," a gyflwynasai y bardd i'r Esgob Humphreys, a barodd i'r esgob ei gymmell i ymgymmeryd â'r offeiriadaeth. Os felly, ni ddigwyddodd hyny nes yr oedd efe yn 30 oed, o leiaf, canys ni chyhoeddwyd y llyfr gwych hwnw hyd 1701. Urddwyd ef yn ddiacon ac yn offeiriad yr un diwrnod; a thrannoeth, cyflwynwyd ef i berigloriaeth Llanfair, ger llaw Harlech. Gwnaed ef hefyd yn beriglor Llandanwg a Llanbedr, yn yr un gymmydogaeth; ac felly cafodd fyw ar hyd ei oes yn ardal ei enedigaeth, ac ar dreftadaeth ei hynafiaid yn y Lasynys.

Yn 1702, priododd Lowri Llwyd, o Hafod Lwy-

* Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. i., t. 325, 345–8.

† Cyfeiriad sydd yma at Bair Ceridwen y sonir am dano yn "Hanes Taliesin" (Myv. Arch., p. 22); a'r "soc, soc," &c., sydd ddyfaiseirian wedi eu llunio oddi wrth swn pair yn berwi.

‡ "Y *fad* neu *fall felen* y gelwir yr haint y bu Maelgwyn Gwynedd, brenin y Brython yn y chweched ganrif, farw o honi."—*D. S. Evans.*

* Y Bardd Cwsg, t. 55–7.

† Yr un, Adgofiant yr Awdwr, t. xv.

‡ Camargraph, yn ddïau, yw y *di* yma am *dy*.

fog, ymhlwyf Beddgelert, sir Gaernarfon, ac efe yn 31 oed, a bu iddynt bump o blant, tri mab a dwy ferch. Bu'r mab hynaf, William, yn beriglor Llanbedr, ger llaw Abermaw, ac iddo ef y disgynodd tiriogaeth y Lasynys. Priododd efe Miss Llwyd, o'r Trallwyn, a bu iddynt un ferch, yr hon a briododd Robert Puw, o'r Garthmeilian; a bu iddynt un mab, Ioan Wynn Puw, yr hwn a briodes Cathrin Parry, o'r Cae Cyrch, yr hwn, er ei warth, a werthodd y Lasynys, ac a adawodd ei fab Robert yn ddietifeddiaeth. Yr oedd y mab hwn yn fyw yn 1849. Bu farw y mab arall, Ioan, yn ei fabandod. Bu farw Elis, ail fab y Bardd Cwsg, yn ieuangc; ac ymddengys i'w ddwy ferch, Ann a Lowri, feirw yn ddibriod. Priododd Edward, trydydd mab y bardd, Ann Anwyl, o'r Parciau, a bu'n beriglor Penmorfa a Dolbenmaen, yn Eifionydd, o'r flwyddyn 1759 hyd ei farwolaeth yn 1767. Elis, mab hynaf Edward Wynn, mab ieuangaf y bardd, periglor Llanferras, yn sir Ddinbych, a briodes Elizabeth Royle; ac yr oedd Ioan Wynn, eu mab hwy, a gor-ŵyr y Bardd Cwsg, yn beriglor yn Llandrillo yn Edeyrnion, yn 1853, a dichon ei fod yn fyw etto.

Bu farw Elis Wynn (y Bardd Cwsg), ym mis Gorphenaf, 1734, yn 63 oed, a chladdwyd ef ar yr 17fed o'r un mis, dan fwrdd y cymmun, yn Eglwys Llanfair, ger llaw Harlech, heb gymmaint a llinell ar na maen na mynor i nodi'r fan lle y gorphwys gweddillion yr athrylithiog Fardd Cwsg, cymmwynaswr ei genedl, ac addurn llenyddiaeth ei wlad. Ceir y cofnod Lladin canlynol o'i gladdedigaeth yn Llyfr Gwyn Eglwys Llanfair:—

"Eliæus Wynne, Cler. nuper Rector dignissimis hujus Ecclesiæ, sepultus est 17mo die Julii 1734"=Claddwyd Elis Wynn, Clerigwr, diweddar deilyngaf Beriglor yr Eglwys, ar yr 17fed dydd o Orphenaf, 1734.

Gwaith llenyddol cyntaf Elis Wynn, yr hwn hefyd sy'n waith pur grefyddol, ac yn Gymreigiad campus, yw yr hwn a grybwyllwyd cisoes, sef—

"Rheol Buchedd Sanctaidd yn dangos y Moddion a'r Arfeu i ynnill pob Grâs, a Meddyginiaeth rhag pòb rhyw Bechod, a Myfyrdodau cymmwynascar i wrth-wynebu pôb Profedigaeth. Ynghŷd â Gweddiau yn cynnwys Hôll Ddyledswydd Cristion. A'r Rhannau o Ddefosiwn wedi eu cymmwyso at bôb Achosion, a'u cyfansoddi at bôb Angenrheidiau.—Gan Jer. Taylor, D.D.—O'r deunawfed Argraphiad yn Saesonaeg.—Argraphwyd yn Llundain 1701." [8plyg].

Gwelir nad yw Elis Wynn ar y ddalen enwol; ond y mae "E. W." ar ol y cyflwyniad i'r Esgob Humphreys; "Ell. Wynne" ar ol y Rhagymadrodd; ac "E. W." ar ol yr englynion "At Ddarllenydd Rheol Buchedd Sanctdd." Y mae cymmaint o anian y Bardd Cwsg yn y cyflwyniad "I'r Parchedicaf Dâd yn Ghrist, Humphrey, Arglwydd Escob Bangor," sydd yn y gwaith hwn, ac y mae'r syniadau am bechod a byrder oes dŷn, mor rhyfedd, a'r dull mor hynod wreiddiol a hynafol, tra y mae'r llyfr mor nodedig o anhawdd ci gael erbyn hyn, fel y credwn, gan nad ydyw y cyflwyniad ond byr, y bydd yn hoff gan y darllenydd ei gael yn gyflawn, yn ei ddull gwreiddiol;* a dyma fe:—

"F' Arglwydd,—Yn nherfynau'r oesoedd y cyfleodd y Llywodraethwr mawr nyni, a'r Dynghedfen grafangddu agos a dirwyn hôll Gorph Amser bôb ychydig oddiarnom, ninneu megis â'n gafael ynddo gerfydd ei droed, a hwnnw ar ddianc i Dragwyddoldeb. Gwenwynodd y Sarph ei ben ef, a welsei Adda yn aur-goronog o Degwch a Hyfrydwch, Diniweidrwydd a Pherffeithrwydd. Cwttogodd y Diluw fwnwgl yr Hiroes, a diffrwythodd freichiau'r Cryfdwr. Yna syrthiodd y ddwy Lêch yn dra phwysfawr ar ddwyfron y Gydwybod, onid oedd yr hôll Gorph yn gweggian o lescedd. Hyd pan ddaeth Tynged at y galon, yno cafwyd Gwreiddyn y bywyd, pan gododd Haul y Cyfiawnder adfywiodd yr Amser trancedig gan Dês ysplenydd yr Efengyl, a Gwrês Cariad perffaith. Ond gwae feddwl i fagddu Pabyddiaeth bendifadu Crefydd o'r galon i'r bol, trigfa Anghymedrolder; ac oddi yno i'r dirgelwch, lle y trowyd grâs Duw yn drythyllwch. A phan aillewyrchodd Ymwahaniad rhwng Crist ac Anghrist, megis ynghyfwng morddwydydd yr Amser, ciliodd yr amhuredd a'r gwaed afiach i'r forddwyd asswy sy'n unchwydd aruthrol o Babyddion, Iuddewon, Tyrciaid ac Anffyddloniaid. Eithr y gwaed dà a'r ymborth pur trwy ddirgel bibellau a drosglwyddwyd o'r galon i'r forddwyd ddeheu, lle mae'r wîr Athrawiaeth yn tramwy'n rhedegog mewn dyledus gwrs a rheol. Ac er digwydd i ni y goes leiaf ac iachusaf, etto och Dduw hael, faint sy rhyngddi hitheu a bôd yn holliach! Onid oes yn hon aml ymrysonau rhwng y gwythi, ie rhwng amryw geinciau o'r un wythîen? aml gramp a chreppychiad? aml lannerch o gîg marw anheimladwy? A pha ryfeddod er fferri'n Cariad a phelled ydym oddiwrth y Galon? pa ryfedd er oeri'r diwrnod a'r Haul ymron machludo? Am hynny nghanol y fath Gryndod ac Oerfel cyffredin od oes Allor o dân cynnesfawr yn llosci yn ddibaid oddi mewn a hefyd yn ffaglu allan ar bôb achlysur, od oes ffynnon ferwedic o Gariad naturiol a chrefyddol i'r Wlâd, ai rhyfedd bôd tynn ac ymgyrch llaweroedd at honno? Felly na ryfeddwch chwithau f' Arglwydd, weled hyn o ledfegyn noethlwm [ymhlith eraill] yn hedeg tan adenydd eich Nodded, am achles a chynnesrwydd iw gryfhau cyn anturio peryglon yr Awyr yma sy 'sywaeth mor anhymmerus gan adwyth Annuwioldeb: eithr o'ch Dadawl diriondeb ac awdurdod bendithiwch ac urddwch ef. Canys er maint ei barch a'i groesaw yn Lloegr [eisys yn ei ddeunawfed wisc] nid yw ef etto ond dieithr yn Ghymru, ac ymdeithydd egwan ac ieuanc yn y Mynydd-dir: Eich swydd a'ch arfer chwithau yw derbyn y dieithr, noddi'r gwan, a hoffi'r ieuanc. Hefyd gan mai neges hwn yw Llês cyffredin y Wlâd, ni all o rann hynny na bo iddo groesaw gennychwi; drachefn pan wypper wrth eich Henw iddo gael croesaw a chymmeriad gennychwi, fe a fydd cymmeradwyach gan y Wlâd, ac felly fâ'r llês yn gyffredinach. Am hynny ynteu i'ch ymgeleddus Nodded y gadawaf, i chwi fy arglwydd yr anrhegaf;

* Mewn llythyrenau Italaidd yn gymmysg â rhai blewog y mae'r gwreiddiol; oddi eithr hyny, y mae'r difyniad uchod air am air a llythyren am lythyren.

Digitized by Google

a chwitheu sy well anrheg a orch'mynaf i well Arglwydd, sef i geidwadaeth Pen-bugail ac Escob yr eneidiau: Cadw o hwnnw chwi [i aros eich trosglwyddo i blith y nefolion archoffeiriaid] mewn heddwch a hiroes yn un o Golofnau Eglwys Loegr, yn un o bedair Têth ysprydol y Praidd Cymreig, yn Llês ac yn Harddwch i'ch Gwlâd, ac yn Llawenydd i'ch Cenhedl a'ch Cydnabod, yw taer a beunyddiol Weddi,

"Barchusaf Arglwydd, eich ufyddaf,

"rwymediccaf Wasanaethwr,

"E. W."

Y mae rhagymadrodd y cyfieithydd enwog yr un mor nodedig a dyddorol; ond ni oddef lle i ni ddodi ond ychydig o hono ger bron, fel esampl yn unig:—

"*Anwyl gariadus Gymro,*

"Yr wyti a phawb rywfodd neu i gilydd â'th gais ar fod yn Ddedwydd, nid oes fodd i ti amgen na thaerddeisyfu Happusrwydd a Gwynfyd; ac etto nid oes fodd b ŷth i oddiwes Gwynfyd amserol a thragwyddol ond trwy Fywioliaeth sanctaidd; nid oes un ffordd i Wlâd y Dedwyddwch ond hyd lwybrau Sancteiddrwydd. Dyma i titheu Scwîr neu *Reol Buchedd Sanctaidd*, dyma i ti Ganllaw a Sarn gûl Grâs a'th dywys yn ddiogel i dragywyddol gaereu Gogoniant. I ddal ar y llwybr grasol hwn, ac i ddyfod i'r diben gogoneddus hwnnw y gwnaeth dy Greawdr di; yr anfonodd ei Fab i'th brynu â'i werthfawr waed; a'i Yspryd glân i'th sancteiddio, trwy ddirgel gynnyrfiadau, trwy weinidogaeth ei Air a'i Sacramentau, a thrwy Lyfrau ysprydol a yrrodd ef i'th Wlâd. Canys heblaw'r Bibl Brenhin y llyfrau, daeth attat amryw Lyfrau da eraill megis yn swyddogion tan hwnnw, rhai i'th ddyfyn, rhai i'th helpu, rhai i'th ddenu i'th Daith nefol, i'r unic waith angenrheidiol hwn. Ac er godidocced pob un o'r Llyfrau Cymraeg yn ei Le a'i Swydd briawd; etto mi a ryfygwn orchymmyn i ti *dri*'n enwediccaf ôll, megis o lês cyffredinach ac angenrheitiach na'r lleill i gŷd Oherwydd at Waith Iechydwriaeth a phob gorchwyl arall, mae *tri pheth* yn angenrheidiol cyn yr êl byth i ben; Yn 1. rhaid i ti wybod beth yw'r gwaith, at hynny mae Llyfr 'Holl Ddyledswydd Dyn' yn odiaeth i yspysu i ti'r cwbl a ofynnir gennit; Yn 2. rhaid i ti ymroi yn hollawl i gychwyn ac i ganlyn ar y gwaith, ac at hyn y daeth 'Llyfr y Resolusion' yn unswydd i roi cwbl o'th fryd a'th fwriad ar wasanaethu Duw; Ac yn 3. cyn yr elych byth yn weithiwr hwylus rhaid i ti gael y Moddion a'r Arfeu a Mesureu'r gwaith, ac am y rheiny odid oes un drysorfa gyfoethoccach a llownach na'r llyfran hwn. . . .

"Pan gynnygier i ti Arfau at ynnill rhyw Râs, neu i attal rhyw Fai, ymorol pa un o honynt sy gymmwysaf i ti ac i'th achosion, a dewis hwnnw yn hytrach na'r llall; modd yr ymrwymech wrth hynny mewn celfyddyd ysprydol a chadwraeth gwiliadŵrus ar dy enaid. O blegid megis mai trin yr Enaid yw'r hwsmonaeth fuddiolaf ôll, felly y rwystrusaf ôll ydyw; lle mae'r gofalon a'r gofynion yn amlaf ôll, a'r peryglon a'r damweiniau yn fwyaf ac yn daeraf ôll. Ac mae cadw Enaid yn fwy camp a chywreiniach nac achub Tyddyn o dir, neu iachâu Corph clwyfus. Cydnebydd ditheu â'r Gwirionedd mawr hwn; trwy galedrwydd synhwyrol a diwydrwydd dyfalbarhaus yn hôll Foddion Grâs: Ac felly chwanegi wobr y Gwrda a'u casglodd, ac y teli i minneu bwyth fy llafur yn eu cyfieithu er dy fwyn, â'm brŷd ar ogoniant Duw, a chyssur amserol a Gwynfyd tragwyddol i'th enaid ditheu, yr hyn yw gwîr ewyllys a difrifol ymgais dy Gydwladwr carediccaf, *Ell. Wynne.*"

Yn nesaf i hyn, y mae chwech o englynion "At Gyfieithydd Rheol Buchedd Sanctaidd," o waith "Edm. Prys, Ficar Clynog fawr yn Arfon," o'r sawl y difynwyd un yn barod. Yna ceir ugain llinell o brydyddiaeth Lladin i'r awdur, gan "Fulco Pricæus, Lhan-Chyvniæ Parochus Arvonensis"=Ffowc Prys, o Blwyf Llanllyfni, yn Arfon. Dilynir y llinellau crybwylledig gan ddeg o englynion "At Ddarllenydd Rheol B. Sanc^dd^.," fel y crybwyllwyd, gan "E. W.," sef y cyfieithydd dysgedig ei hun. Tybia rhai i'r englynion hyny gael eu cyfansoddi ar gyfer "Gweledigaeth y Nef," y bwriadai y bardd ei hysgrifenu fel yr "Ail Ran" o "Weledigaethau y Bardd Cwsg;" ond pan benderfynodd beidio cyhoeddi y rhan honno o'r gwaith gorchestol hwnw, ddarfod iddo eu dodi o flaen y llyfr hwn; eithr credwn fod y dyb yna yn anghywir, canys ni chyhoeddodd efe y "Rhan gyntaf" o'r "Gweledigaethau" hyd ymhen dwy flynedd ar ol cyhoeddi y "Rheol" hon; ac nid ysgrifenodd yr "Ail Ran," os ysgrifenodd hi o gwbl, hyd ymhen llawer o amser ar ol y "Rhan gyntaf." Heb law hyny, at y "Rheol Buchedd Sanctaidd" y cyfeiria'r pum englyn olaf yn amlwg. Gan nad ydym yn gwybod am ddim o waith y Bardd Cwsg ar yr un o'r "pedwar mesur ar hugain" ond yr englynion hyn, dodwn y pump sy'n cyfeirio yn uniongyrchol at y "Rheol" ger bron yma, y rhai a brofant fod y bardd yn deall *cynghanedd* cystal ag y prawf ei ganiadau eraill ei fod yn deall gwir farddoniaeth:—

"Mae Llwybr i'r Wybr ferr ebrwydd a'i hennill,
honno yw Sancteiddrwydd;
'R unig Heolig hylwydd:
Os Heol heb *Reol* rwydd.

"Hwde Reol iw Heol hi a'th ddwg
o'th Ogo'r Trueni,
Fel pellen yn d'arwen di
O'r glynnoedd i'r Goleuni.

"Canllaw yw hon uwch cenlli Eigiawn
na ogwydd oddiwrthi,
Rhag marwol gwymp; mae'r Weilgi
Yn disgwyl yn d'ymyl di.

"Eur-faich yw hon o Arfe' i'mwino
â Mynydd y Seinctie',
I'th gynnal yn ardal Ne',
Lle diergych uwchllaw d' Ange'.

"Dôd ti Un a Thri o'th Râd, i'r Cymru
o'r camrwysge ddychweliad;
Rhwydd at hyn bôb Rhoddiad,
A'r Rheol hon, dirion Dâd."

Gyd â golwg ar gyfieithiad y "Rheol," dywed un "fod Ellis Wynne yn llawn gwell [yn well] cyfansoddwr na chyfieithydd," gan ei fod "yn ymrwymo yn rhy gaeth wrth y gystrawen Seisnig;"* tra y dywed Cymreigydd galluog arall

* Y Traethodydd, llyfr vii., t. 326.

Digitized by Google

mai "rhydd gyfieithiad o'r gwaith Seisonig ydyw; a gellir ei restru yn ddiammheu ymhlith y cyfieithion goreu yn yr iaith."* Tueddir ni i farnu fel yr olaf, canys credwn ei fod wedi ei ysgrifenu yn llithrig, ac yng ngwir arddull Gymreig yr 17fed ganrif, cyn iddi ddechrau cael ei hanystwytho a'i hestroneiddio gan arddull Seisnig y ddwy ganrif ddilynol; ond dodwn baragraph byr neu ddau o ddechrau y cyfieithiad ger bron, fel y gallo'r darllenydd farnu drosto ei hun:—

"Rhagdraethawd am y Moddion a'r Arfeu cyffredinol at Fuchedd Sanctaidd.

"Pwy bynnac o ddyn ydwyt meddwl hyn a chydnebydd, os rhoes Duw i ti Natur mor ardderchawg, Synhwyr i ddewis, Yspryd dealltwrus ac Enaid anfarwol, a'th wneud yn Arglwydd ar yr holl anifeiliaid, ac ond ychydig îs na'r Angylion; ddarfod i'th Wneuthurwr osod i ti Waith hefyd a Gorchwyl i arferu'r Donieu a'r Galluoedd hynny, a darparu i ti Fywyd ar ôl hwn iw gael yn unic trwy dy ffyddlon ufudd-dod yn y gwasanaeth hwnnw. Megis ynte mai eiddo Duw yn hollawl wyti o ran dy greadigaeth, felly yn ei wasanaeth yn hollawl y dyliti dreulio dy holl Ddoniau a'th Nerthoedd, a'th boen a'th ofal, hôll ddyddiau dy einioes, fel pan derfyno'r bywyd hwn y caffech fyw gydâg êf yn dragywydd.

"Ac ni wasanaetha i ti dybied yn yscafn o wasanaeth Duw, megis peth afraid, neu heb fawr gamp arno, ond ei wneuthur e'n ôl bwriad Duw, sef, o ddifrif dy galon, gydâ zêl ac awyddfryd mawr; heb rusio er dim poen, a cheisio'r cyfarwyddyd goreu, ac felly hyd hôll lwybrau Grâs a Duwioldeb ddyfod o honot o'r diwedd o hyd i Ogoniant."†

Y mae'r gwaith drwyddo yn gyffelyb o ystwyth a Chymreigaidd, heb ynddo ddim o'r sothach Seisnig a lusgwyd yn ddiweddar i'r Gymraeg, megis "bradychu anwybodaeth," "yr oll o honynt," "yr oedd yr ysgol *yn rhifo* 400," "yn llawn gwell," a'r cyffelyb. Ar fyr, y mae'r cyfieithiad yn gwbl deilwng o'r Bardd Cwsg; a gresyn calon nad ailargrephid ef, a llawer o lyfrau eraill prif awduron yr eilfed ganrif a'r bymtheg, gan fod eu cynnwys yn wir deilwng o ddarlleniad manwl a myfyrgar, a'u hiaith yn esampl odidog o ieithwedd y Gymraeg yn ei phurdeb.

Ail orchwyl llenyddol Elis Wynn, a'i bencampwaith ef, cystal ag un o bencampweithiau ein cenedl ni, ydyw,—

"Gweledigaetheu y Bardd Cwsc. Y Rhan Gyntaf. Argraphwyd yn Llundain gan E. Powell, i'r Awdwr. 1703."‡ 24plyg.

Er i'r gwaith gael ei argraphu "i'r awdwr," nid yw enw yr awdur wrtho mewn un man. Argraph-

* Adgofiant o'r Awdwr, o flaen y Bardd Cwsg, t. viii.

† Rheol Buch. Sanct., t. 1–2.

‡ "Hwn ydyw yr argraphiad gorau a chywiraf [oddi eithr argraphiad Caerfyrddin, 1865], cystal a chyntaf, o'r gwaith. Nid yw wedi ei ddosparthu yn wahanranau, ond un synhwyrcb fawr ydyw o benbwygilydd."—D. Silvan Evans, B.D.

wyd y gwaith gorchestol hwn bymtheg o weithiau, o leiaf, ar ol yr argraphiad cyntaf yma, sef—2. Mwythig, gan Richard Lathorp.*—3. Mwythig, 1755, 16plyg, gan Thos. Durston.—4. Mwythig, 1759, 16plyg, gan Thomas Durston.†—5. Caerfyrddin, 1767, 12plyg, gan J. Ross.‡—6. Mwythg, 1768, 16plyg, gan J. Eddows.—7. Mwythig, 1774, 24plyg, gan Stafford Prys.§—8. Merthyr Tydfil, 1806, 12plyg.‖—9. Caerfyrddin, 1811, 12plyg.¶—10. Dolgellau, 1825, 12plyg.—11. Caerfyrddin, 1828, 12plyg.**—12. Llanrwst, 12plyg.—13. Caernarfon, 12plyg.††—14. Gweledigaeth y Bardd Cwsg. Gan Elis Wynne. Argraphiad newydd, gyda Nodiadau Eglurhaol, gan D. Silvan Evans. Caerfyrddin: William Spurrell, 1853,‡‡ 16plyg.—15. Llanidloes [1854], 16plyg.§§—16. Caerfyrddin, 1865–78, 16plyg.

Yr argraphiad cyntaf a gyhoeddwyd dan olygiad y bardd ei hun, yn 1703; a'r olaf (rhif 16), a gyhoeddwyd yn 1865, dan olygiad y Parch. D. Silvan Evans, yw y rhai rhagoraf o lawer. Dywed y golygydd mai "ail argraphiad diwygiedig, sef adgyhoeddiad o argraphiad 1853 (rhif 14), gyd â chyweiriadau," ydyw yr olaf. Y mae hwn

* "Nid oes i hwn amseriad; ond gan y gwyddys fod Richard Lathorp yn argraphu yn y Mwythig rhwng 1740 ac 1745, rhaid mai yn ystod y blynyddoedd hyny yr ymddangosodd yr argraphiad hwn."—D. S. E.

† "Y mae'r ddau argraphiad hyn [y 3 a'r 4] yn cyfatteb yn gwbl i'w gilydd ymhob peth, oddi eithr y flwyddyn ar y tudalen cyntaf, ynghyd â rhyw ychydig bach o wahaniaeth argraphwaith yn y tudalen diweddaf, lle y crybwyllir am 'Y llyfrau a argraphwyd ac sydd ar werth gan Tho. Durston.' Tebygol, gan hyny, mai yr un argraphiad yw y ddau, ac nad oes dim newydd yn argraphiad 1759, ond yn unig dalen yr enw a dalen yr hyspysiad."—D. S. E.

‡ "Yn yr argraphiad hwn tröed 'ebr' yn 'ebe' ac 'ebe'r,' a gwnaed ynddo lawer o fân gyfnewidiadau cyffelyb. Ymddengys mai'r tro hwn y gwnaed cyfnewidiadau *bwriadol* gyntaf yn y gwaith."—D. S. E.

"Ebe, eb," ac "eb'r," sydd hefyd yn argraphiad Caerfyrddin, 1853; ond yn argraphiad 1865, tröed hwy i hen ddull y bardd ei hun, yn "eb," "ebr," ac "eb y."

§ "Y mae hwn ddalen a dalen trwy yr holl waith yn cyfatteb i'r argraphiad cyntaf, ac yn dilyn ei wallau argraphyddol gyd â chryn fanyldeb."—D. S. E.

‖ "Enwir a rhifnodir y tair Gweledigaeth ar ragddalen yr argraphiad hwn; mynegir fod y gwaith 'gan Ellis Wynn;' ac attodir—'At ba un yr ychwanegwyd Mynegiad o'r Geiriau mwyaf Anualladwy trwy Gorph y Gwaith.' Ceir y 'Mynegiad' hwn yn y rhan fwyaf o'r argraphiadau diweddarach, heb un ymgais i'w diwygio lle y mae'r eglurhâd yn anghywir. Ymddengys i'r argraphiad hwn gael ei gymmeryd o un 1767 (rhif 5). Cynnwys 95 o dudalenau."—D. S. E.

¶ "Yn hwn y dosparthwyd y gwaith yn wahanranau gyntaf. Cymmerwyd ef o argraphiad 1806 (rhif 8), a dilynwyd ef yn lled ddiesgeulus gan yr argraphiadau a ymddangosasant ar ei ol hyd un 1853 (rhif 14)."—D. S. E.

** "Argraphiad newydd o'r rhif 9, ac yn dwyn ei holl nodweddau."—D. S. E.

†† "Crach argraphiadau yw'r ddau olaf hyn (rhif 12 a 13), heb fawr o gamp arnynt, nac un amseriad wrthynt."—D. S. E.

‡‡ "Hwn [rhif 14] yw'r argraphiad cyntaf gyd â nodiadau eglurhaol, heb law'r 'Mynegiad' y soniwyd am dano eisoes."—D. S. E.

§§ "Adargraphiad o *destyn* yr un blaenorol (rhif 14), heb y Nodiadau. Yr un fath a rhif 12 a 13, nid oes amseriad wrtho; ond yn y flwyddyn uchod (1854) yr ymddangosodd."—D. S. E.

Digitized by Google

yn argraphiad gwir werthfawr. Y mae'r "Nodiadau" ar odrau'r dail yn dra defnyddiol i'r darllenydd cyffredin, y rhai hefyd, gan mwyaf, sydd yn argraphiad 1853; ac y mae'r "Egluriadur," sydd ar ddiwedd y llyfr, sef cyfeiriadau egwyddorol i'r "Nodiadau," yn bur hwylus a gwerthfawr. Y mae llythyraeth yr argraphiad yma (rhif 16) hefyd yn llawer ystwythach, a nes i'r cyntaf, na llythyraeth rhif 14. Yn hwn, fel yn y gwreiddiol, troir *n*, yn yr arddodiad *yn*, yn *m* pan o flaen *m* mewn geiriau fel hyn:—Ym mlaen, ym mon, ym mrig; ym mhen, ym mhell, ym mhob; yn *ng*, yn y sefyllfa yma:—Yng ngwallt, yng ngwasg, yng ngwegil, yng nglŷn; yng nghrog, yng nghyngor, yng nghysgod. Pan ddilynir yr arddodiad gan *mh* neu *ngh*, ymddengys i ni bod ymhen, ymhell, ymhob; ynghrog, ynghanol, ynghyngor, yn llawn mor rymus ac mor eglur ag ym mhen, yng nghrog, &c. Y mae brenines, breninoedd, cenedloedd, yn llawer gwanach na'r hen dull awdurdodol, brenhines, brenhinoedd, cenhedloedd, heb law mai fel hyn y cynhanir hwy gan bawb dirodres. Hefyd, gwell genym ni o lawer yr hen ddull llithrig, ammau, cyngor, disglair, distewi, eraill, angau, megis, lliaws, na'r dull mympwyol diweddar ammheu, cynghor, dysglaer, dystewi, ereill, angeu, megys, lluaws. Am cainc, dianc, Ffrainc, ymbincio, a'u cyffelyb, nis gallwn ni eu cynanu heb ystumio gormod ar ein peiriannau llafar, heb law mai caingc, diangc, Ffraingc, ymbingcio, y clywn ni bawb difympwy yn eu llefaru. Ond at waith y Bardd Cwsg ei hun.

Y mae argraphiadau y llyfr godidog yma mor lliosog, a'r argraphiadau diweddaraf a gorau o hono mor rhad, fel nad oes angen i ni ddifynu o hono, heb law yr hyn a ddifynwyd eisoes wrth ddechrau treuthu ar ei awdur, er dangos ei ragoroldeb. Yr oedd Theophilus Jones, awdur yr "History of Breconshire"=Hanes sir Frycheiniog, wedi bwriadu ei gyfieithu i'r Saesneg; ond bu ef farw cyn rhoi ei fwriad mewn grym. Clywsom fod George Borrow, awdur talentog y "Wild Wales"=Cymru Wyllt, wedi cyhoeddi rhyw fath ar gyfieithiad Saesneg o hono, ond nad ydyw deilwng mewn un modd o'r gwaith gwreiddiol. Y gwirionedd yw, nad oes neb ond gwir fardd, a llenor Cymreig a Seisnig o'r fath orau, a fedr gyfieithu y Bardd Cwsg i'r Saesneg yn deilwng o'r gwaith cyntefig.

Y mae'n ddigon amlwg fod yr awdur yn bwriadu cyfansoddi ail ran o'r "Gweledigaethau," gan y dywedir ar ddalen enwol yr argraphiad cyntaf, "Y Rhann Gyntaf;" ac ar derfyn y llyfr dywedir, "Diwedd y Rhann Gyntaf." Dywedir iddo ysgrifenu yr ail ran, sef "Gweledigaeth y Nef;" ond o blegid i rywrai edliw iddo mai llên-ladrad oedd ei "Weledigaethau" blaenorol, wedi eu cyfieithu o waith yr Hispaenwr enwog, *Francisco Gomez de Quevedo y Villegas*, y taflodd yr ysgrif i'r tân mewn digllonedd llidiog. Od ydyw hyn wir, gresyn dirfawr oedd i'r hen fardd enwog gymmeryd ei gythruddo i'r fath raddau gan feibion dirmygedig angof, y rhai erbyn hyn nad yw hyd yn oed eu henwau ar gof a chadw. Y mae'n wir ddarfod i Quevedo (Cafêdo) ysgrifenu gweledigeuthau (Sueños) ar yr un pyngciau a rhai y Bardd Cwsg, y rhai a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn Madrid yn 1649, a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Syr *Roger L'Estrange* (Lestrêndz), ac a gyhoeddwyd yn 1668, dair blynedd cyn geni Elis Wynn. Y mae'n ddigon amlwg hefyd ei fod yntau yn gydnabyddus â Gweledigeuthau Quevedo, a bod gradd o debygrwydd rhyngddynt; "ond nid cymmaint," fel y dywed un ysgrifenydd, "ag sydd rhwng Homer a Virgil. Nid yw yn ymddangos bod Elis Wynn yn fwy dyledus i'r awdur Hispaenaidd nag oedd Shakspeare a Milton i awduron blaenorol oedd wedi cyfansoddi ar yr un testynau a hwy. Nid oes un cyhuddiad y mae mân-feirniaid yn fwy hoff o hono na hwn, o blegid y maent yn tybied eu bod fel hyn yn rhoddi prawf o ddysgeidiaeth ddigymmar. Dygwyd ef gan gorachod hunanol yn erbyn Milton ei hun. Y mae pob meddwl yn cael ei achlysuro gan ryw feddwl arall, a'r naill lyfr yn fynych gan lyfr arall. Y mae'n ddiammau fod Elis Wynn wedi darllen 'Gweledigaethau Quevedo;' . . . ac y mae lle i gasglu mai darlleniad y llyfr hwn a barodd iddo synio gyntaf am ysgrifenu y 'Bardd Cwsg.' Er hyny, y mae delwedd ei feddwl ef i'w weled yn y cwbl; ac nid ydym yn petruso dywedyd bod ein hen gyfaill Cymreig, ar y cyfan, yn waith gwreiddiol diledryw."* John Walters, y geiriadurwr enwog, a ddywed yn ei dreuthawd godidog ar yr iaith Gymraeg am y gwaith fel hyn:—

"Y mae cyfansoddiad gwreiddiol yn y Gymraeg, a elwir *Y Bard Cwsg*, yn cynnwys tair Gweledigaeth; sef, Gweledigaeth y Byd, Gweledigaeth Angau, a Gweledigaeth Uffern. Math ar duchan ydyw, mewn rhan yn llythyrenol, ond gan mwyaf yn arallegol, lle y ffrewyllir Dygioni, Ynfydrwydd, a Gwagedd, yn gampus dros ben: tynir hwynt yn y lluniau mwyaf dychrynllyd (hyny yw, eu lluniau mwyaf priodol), ac arddangosir hwynt yn holl amrywiaeth aleuthus Gwae. Yn y gwaith hwn y mae'r

* Y Traethodydd, llyfr vii., t. 336.



Digitized by Google

dynsodiadau mwyaf tarawiadol a phrydyddol, y darluniadau mwyaf bywiog ac ysprydlawn, a'r ehediadau dychymmyg mwyaf ardderchog a geir yn unlle, pa un bynag ai mewn rhyddiaith ai mewn barddoniaeth. Nid yw Gweledigeuthau Quevedo mewn un modd i'w cystadlu â'r rhai hyn, fel y canfyddir ac y cydnabyddir gan bwy bynag a'u cymharo â'u gilydd, bid hyny mor arwynebol ag y bo. Clywais am un â'i serch gymmaint ar Don Quixote (Cwicsot) fel y cymmerth y drafferth i ddysgu yr Hispaeneg er mwyn cael yr hyfrydwch o ddarllen ei hoff awdur yn yr iaith wreiddiol. Ni ryfeddwn i ddim pe dysgai llawer yr iaith Gymraeg, modd y gallent ddarllen *Y Bardd Cwsg*, pe gallent ond unwaith amgyffred ei ragoroldeb."*

Y mae'n hyfryd gan bob Cymro gwladgarol, sy'n hoffi iaith a moesoldeb ei gydgenedl, weled bod y Bardd Cwsg yn para byth ynghymmeradwyaeth y Cymry, er maint o wahanol farnau gwladol, llenorol, a chrefyddol sy'n ffynnu yn eu plith. Wele gynnifer a *naw* o leiaf o argraphiadau wedi eu cyhoeddi o hono yn ystod y ganrif bresennol, mwy nag odid un llyfr anenwadol yn yr iaith, ond y Bibl yn unig. Mor ddiweddar ag 1853, dywedodd y diweddar Barch. W. Jones, Periglor Nefyn, am dano fel y canlyn:—

"Fe allai mai y 'Bardd Cwsg' yw'r cyfansoddiad mwyaf hynod am gymhlethiant barn fanwl a darfelydd grymus a hedegog, o'r holl weithiau sydd ym meddiant ein gwlad. Barddoniaeth lawn o dân awenyddol ydyw mewn gwisg rydd ddigynghanedd. Beth? Barddoniaeth heb gynghanedd? Ië, ddarllenydd, a barddoniaeth ardderchog hefyd. Y mae yn y 'Bardd Cwsg' gryn lawer o anian, ond ei bod yn ymwisgo mewn dull ffugrol, yr hyn, ar yr un pryd, sy'n peri bod y gwaith yn fwy barddonol. Er bod cryn lawer o ddiffyg yn chwaeth y cyfansoddiad, etto y mae'r iaith yn anghymharol o gref, fel nad oes dim yn y Gymraeg yn dyfod yn agos iddo yn y peth hwn. Nid yw bob amser yn hollol gywir yn ei rammadeg, y mae'n wir, ond gwna iawn am hyn yn ei nerth, a'i ieithwedd, yr hon sydd mor drwyadl Gymroaidd. Y mae'n tynu llun personau, ac yn corpholi pechodau a llygredigeuthau, gan eu harddangos yn eu gwrthuni, mewn dull hynod o argraphawl. Y mae y 'Bardd Cwsg' yn un o'r llyfrau ag y byddai yn ddymunol ei fod ymhob teulu, ac, yn fynych, yn llaw pob prydydd ieuangc yn y Dywysogaeth."†

Yr awdur yn *Y Traethodydd* a ddywed am y Bardd Cwsg fel hyn:—

"Ysgrifenodd mewn dull dychymmygol; etto, yr oedd yn darlunio pethau oedd yn bod mewn gwirionedd y pryd hwnw. Ond nid ydys i gymmeryd y cyfan mewn ystyr naturiol fel y'u gosodid hwynt i lawr. Yr oedd yn cyfaddasu ei ddychymmyg a'i holl sylwadau at briod-ddull yr amser. Geilw yr ysprydion aflan yn 'Dylwythion Teg,' o blegid dyna oedd cred yr oes am ymddangosiad y cyfryw fodau. Dengys, os creffir arno, bod yr ysprydion aflan yn dra lliosog yn y byd hwn, ac am ddrygu yr holl hil ddynol gymmaint ag a allent; a bod yr angylion da yn gwylio ac yn cadw dynion rhag niweidiau. Yn hyn yr oedd ei olygiadau yn dra Ysgrythyrol."‡

Cyhuddir yr awdur doniol yn lled gyffredin o ddiffyg chwaeth, ac weithiau o ddefnyddio ymadroddion anweddus. Gyd â golwg ar hyn, dywed y Parch. D. Silvan Evans, yn dra phriodol, fel y canlyn:—

"Cyn y gallom ei gyhuddo o ddiffyg chwaeth, rhaid i ni ystyried yr oes yr oedd yr awdur yn byw ynddi, a'r dosparth o bobl yr oedd efe yn eu hannerch yn benaf. Y mae ansawdd cymdeithas yng Nghymru wedi newid llawer yn ystod cant a hanner o flynyddoedd; ac nid yw yn canlyn mewn modd yn y byd fod yr hyn sy'n werinaidd y dydd heddyw yn rhwym i fod yn werinaidd yn y dyddiau hyny. Y mae llawer o eiriau a ystyrid y pryd hwnw yn weddaidd ac yn llednais, wedi myned erbyn y pryd hwn yn anghoeth ac yn serthus; ac ni chlywir byth mo honynt ond yngenau gwehilion y bobl. Y mae tipyn o wahaniaeth yn y peth hwn rhwng Gwynedd a Deheubarth; ac weithiau y mae hyd yn oed dau gwmmwd yn amrywio. . . . Dylid cadw y pethau hyn oll mewn golwg wrth feirniadu chwaeth y *Bardd Cwsg*, ac ar weddnod y dafodiaith arferedig ganddo. Ac os cymmer neb y drafferth i'w gymharu â chyfieithiad *L'Estrange* o *Quevedo*, yr hwn oedd mewn bri yn ei amser ef, ac yn ddilys ddigon wedi cael ei ddarllen ganddo, ceir gweled ar unwaith fod ein cydwladwr yn haeddu clod dauddyblyg am goethder ei chwaeth, a gweddusder ei syniadau a'i ymadroddion; ac etto, er ei holl serthedd a'i fudr-iaith, yr oedd y gwaith Seisnig mor boblogaidd a derbyniol yn ei ddydd, fel yr ymddangosodd dim llai na deg argraphiad o hono mewn yspaid o ddeuddeng mlynedd; ond y mae ei werinoldeb yn gyfryw ag y byddai yn waith ofer ei gynnyg ym marchnad lenyddol y dydd heddyw. Y mae gan bob oes, i gryn raddau, ei phriod chwaeth ei hun; ac nid teg fyddai ei barnu yn hyn o beth wrth archwaeth oesoedd eraill. Dïau mai gwella, ac nid drygu, chwaeth a moes ei gydgenedl oedd yr amcan mewn golwg gan Elis Wynn; ac yr ydym yn gweled iddo lafurio yn helaethach na nemmawr o'i gydoeswyr i ddwyn ym mlaen ddiwygiad yn eu plith. Ymddengys mai un annibynol iawn ydoedd: yr oedd y gŵr bonheddig, y gŵr eglwysig, a'r gŵr wrth gerdd, wedi ymgyfarfod ynddo: yr oedd yn ddigon gwrol i ddannod beiau, ac i ddadlenu twyll a hoced, gyd â llymder a dïystyrwch, heb barchu wyneb ungwr dan haul. Dïau fod ymddangosiad ei lyfr yn frath cleddyf i laweroedd; ond pwy a glywai ar ei galon wrthwynebu y bardd diweniaith a'r offeiriad glân-fucheddol yn yr amser hwnw? Oes lawn o bob ofergoel, anwybodaeth, ac anfoesoldeb, oedd yr oes yr oedd efe yn byw ynddi; ymdrechodd yntau yn egnïol i chwalu y tywyllwch oedd yn gorchuddio y Dywysogaeth, ac i yru ar ffo y cymmylau duon oedd yn crogi uwch ben ei thrigolion; dinoethodd ormes a rhagrith, gwagedd a ffolineb y byd isod hwn, a hudolieuthau aneirif merched Belial yn y Ddinas Ddihenydd; ac annogodd bawb i gymmeryd Buchedd Sanctaidd yn Rheol i'w tywys yn ddïogel i Ddinas IMMANUEL."§

Gorchwyl llenyddol nesaf Elis Wynn, a'r olaf a gyhoeddwyd yn ei oes ef, oedd golygu argraphiad newydd a diwygiedig o'r "Llyfr Gweddi Gyffredin," yr hwn a argraphwyd gan Edm. Powell, yn Llundain, ac a gyhoeddwyd yn 1710, yn gyfrol unplyg fawr, at wasanaeth yr Eglwysydd Plwyfol. Cymmerth y gorchwyl yma mewn llaw ar gais Esgobion Cymru ac Esgob Henffordd,‖ gan y rhai y mae wedi ei gymmeradwyo a'i orchymyn. Y mae'r "Hyspysiad" i'r argraphiad hwn wedi ei

* Walters's Dissert. on the Welsh Lang., Denbigh ed., 1828, p. 23.
† Traethawd ar Farn a Darfelydd, t. 24.
‡ Y Traethodydd, llyfr vii., t. 326.
§ Adgofion o'r Awdwr, t. xiii., xiv.
‖ Y Dr. Humphrey Humphreys, Esgob Bangor gynt, oedd hwn, fel y gwelsom eisoes.

Digitized by Google

gyfansoddi yng ngwir arddull yr awdwr; a chan ei fod erbyn hyn yn bur brin, ac nad yw yn faith iawn, credwn yr hoffa llawer o'n darllenwyr ei gael yn ddinewidiad:—

"HYSPYSIAD.

"Os gormod i'r llyfreu goreu y bo amryw benneu'n eu cydwilio, ymhonni o fod yn gwbl ddifai, ofer yn sicr i Hwn lle nid oedd ond un egwan, a hwnnw wedi digwydd i amgylchion rhy rwystrus ac afrwydd i gywreinio gwaith yn berffeith gwbl, ac yn lân bur hyd yr eithaf; rhwng chwithigrwydd ac amhrydlonwch yr Hwyliad. Ac yn enwedig os ystyrir un peth ychwaneg a gydnebydd pawb deallus yn hyrwydd, sef, faint rhwystr i lwyr ddifeio yr hwn ydoedd y lliaws o feiau, sy'n dryfrith yn ei Hynafiaid ef, sef yn yr holl argraphiadau o'r blaen. Er hyn oll, gan fod fy mynwes yn tystio i mi wrthladd fy ngoreu ar y rhwystreu hyn uchod, drwy ofal a dychlinrwydd cyfaddas i orchwyl mor bwysfawr, yr wy'n mawr obeithio, na bydd e mewn rhan yn y byd yn anghymeradwy, nac yn anfuddiol i'm gwladwyr. Canys pe rhon ymlithro llawer o fân frycheu i hwn, ynghysgod yr hen rai mawrion a oedd yn y lleill ar gynnydd; mae'n gryn gymwynas fras-nithio y rhai mwyaf ymaith, i wneud y lleiaf yn amlwg (yn yr Argraph brâs yma yn sicr) pettei hwn ddim ond gris at gyfuchio y llyfr nesaf a chywirdeb Ieithoedd eraill. Ond i Oruwch-reolwr rhwystrau a Chynnorthwywr y gwaelaf o offer ei wasanaeth y bo'r unig ddiolch, ni welaf i ar ail olygiad amgen nas gall hwn ymgystadlu ag amryw o Lyfrau Seisnig. A diddadl y ceir e'n llawer cywirach a chyflawnach nag yr un a fu erioed yn Gymraeg. Canys y ddau argraphiad Cymraeg cywiraf oedd hwnnw 1664, a'r llall yn Rhydychen, 1678, etto mae amryw o eiriau a gwersi yngholl yn y cyntaf o'r ddau hyn, ac i'w yn yr ail; a chymmaint arall wedi ei adel allan yn yr ail o bethau y sy'n gyfan yn y cyntaf: ac yma y mae'r ddeubar ddiffygion wedi eu cyfan gyflawni. Heblaw llaweroedd o eiriau a gwersi ac adnodau sy'n y Saesnaeg, Lladin, a Groeg, ac a adawid allan yn y Llyfrau Cymraeg i gyd oll, a arddodwyd yma yn gywirlawn, ac er mwyn eu hynodi, amgylchynwyd llawer a'r dosparthiadau hyn { } a llawer hefyd drwy amgen achos a gynhwyswyd i mewn yn ddinod.

"Chwanegwyd hefyd ymma amryw Weddiau a Rubricau sy'n y Saesnaeg er's talm yn y trefnau Gwasanaethgosodedig i'r 5 o Dachwedd, y 30 o Ionawr, a'r 29 o Fai, na base erioed yn Gymraeg o'r blaen, heblaw y Drefn osodedig i'r 8 o Fawrth (pan ddechreuodd Anne Frenhines ei theyrnasiad); Y rhai'n a'r hen rannan hefyd o'r Gwasanaeth hynny, a'u croes-osodiad, a iawn gyflewyd yr awrhon yn y cyfartal ac unffurf a'r Argraphiadau Seisnig diweddaraf.

"Ac ymhellach i urddo yr Argraphiad ymma, digwyddodd o hir-olrhain, i ni gael, drwy Eglwyswr parchedig o Went, afael ar y namyn un deugain *Articlau*'n Crefydd o gyfieithiad y Pen-cymreigydd a'r Prif-awdur dysgedig hwnnw Dr. Davies.

"A chan mae'n bryd a'n bwriad-gais ni ydoedd gael hwn mor gyflawn ddigoll a chyfrdo ag yw'r llawnaf o'r rhai Seisnig, chwanegasom yn nesa ar ol yr *Articlau* y Cymreigiad cyntaf o Ganonau yr Eglwys. Ac at hyn gynnifer ag a fedrasom gael o'r hen Hymnau, a Graddau gwaharddedig i briodas, &c.

"A lle y newidiwyd yma ychydig eiriau trwy farn ac awdurdod cyfreithlon, ac er gwell y newidiwyd hwynt; nid i amgenu ond i amlygu'r gwir ystyr cyffredinol. Ymbell air anhyspys a dieithrol gan henaint, ac ymbell un estronol o Dadogaeth Seisnig, a roisant le i ychydig o rai eraill mwy sathredig a Chymreigaidd, ac mor (ïe weithiau mwy) gyflawn a chymmwys eu harwyddocâd, a rhwyddach i ddealltwriaeth y cyffredin bobl o'r oes hon.

"Weithian ar air, am Ddiwygiad yr hen, a chyfieithiad a chwanegion, wedi i farn cydwybod a ffyddlondeb f' ymgais, rhaid gadael yr Affaith a'r Arwydd sy ac ansawdd gwaith dan farn y ddwyryw gyffredin, y da a'r drwg, boddus ac anfoddus, ac odid nad oes yn hwn a foddio'r ddeuryw; canys gall yr ehud-farnwŷr anfoddus hel ymma rai beiau i borthi'r drygwyr edliwgar honno. Ond i'r darllenyddion rhinweddol, cariad-lawn a gwybodol, ymddengys y cwbl y sy ymma o walliau (er nad yw traean hynny chwaith ond mewn rhai o'r llyfrau cyntaf oll) yn hawdd i ychydig gariad eu cuddio a'u diwygio; a'r llyfryn yn ei grynswth ymhell goruwch oll a fu o'i flaen, yn urddas a chymmwynas i'n Teuluoedd, ac yn Hwylusder a harddwch i Gyhoeddawl Wasanaeth Duw yn ein Heglwysau. Ond i roddi un blaen-weddi gyffredin ar i Dduw deilyngu ei fendithio a'i dderbyn e'n offeryn i hyfforddi ei Foliant a'i Addoliant ei hun a'n dyledswydd ninnau. Hyn ddylei fod cyrchfa a chanolbwynt ein holl orchwylion; hyn yn ddiau oedd fwriad a phen ergyd ei Gyfansoddwyr cyntaf; a hyn gobeithio oedd ac a fydd Prif-berwyl a thuedd-nod gofal ei Olygwr presennol.

"E. W."

Ymddengys i Elis Wynn ysgrifenu amryw ddarnau gwerthfawr heb law y "Bardd Cwsg," a'r pethau eraill a nodwyd eisoes, a'u gadael mewn llawysgrifen ar ei ol. Trodd amryw o'r Psalmau ar fesur cerdd, a chyfansoddodd amryw Hymnau a Charolau; ond nid ydym yn gwybod i ddim o'r ysgrifau hyn gael eu cyhoeddi ond ei "Ysponiad Byrr ar y Catecism," a rhai o'i "Hymnau a Charolau," yn y llyfr canlynol:—

"Prif Addysc y Cristion. Y rhan Gyntaf, sy'n cynnwys, I. Cyngor Difrifol i Rieni faethu eu Plant yn ofn ac Addysg yr Arglwydd. II. Ysponiad Byrr ar y Catecism. III. Ychwaneg o Eglurad ynghylch Sacrament y Bedydd. IV. Addysc ferr ynghylch Conffirmasiwn, neu Fedydd Esgob. V. Eglurhad, Swpper yr Arglwydd, &c. Yr ail ran sydd yn cynnwys, I. Annogaetheu difrifol I Gadw yn sanctaidd a chrefyddol Ddydd yr Arglwyd. II. I fynŷch Gymmuno. III. I ymddwyn gyda pharchedig ofn'n Nhŷ Dduw, sef yr Eglwys. IV. I arfer Enw Duw gŷda pharch yn ein hymddiddanion cyffredin. V. Cyngor yn erbyn y pechod o feddwdod. VI. Yn erbyn dywedyd celwydd. VII. I ymarfer y mawr Ddyledswydd o weddio mewn Teuluoedd, mewn dull o amryw Lythyrau oddiwrth Weinidog Eglwys Loegr at êi Blwyfolion. O gyfieithiad Edward Wynne, Curad Llanaber.

"Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Cotton, a J. Eddowes. M.DCC.LV." [8plyg.]

Yr "Edward Wynne" yna oedd drydydd mab Elis Wynn. Er meithed y titl uchod, nid yw yn crybwyll am "Hymnau a Charolau o waith Mr. Elis Wynne, o Lasynys," sydd yn ei ddiwedd. Y mae genym esamplau godidog o ddawn farddonol Elis Wynn yn y Bardd Cwsg, yn ei gân "At y Darllenydd," ar ddechrau y gwaith; ar "Gwrs y Byd," t. 48; ar "Angeu," t. 67; ac ar "Uffern," t. 113; ond gan fod y gwaith doniol hwn ym meddiant cynnifer o'r Cymry (dylai fod gan bawb a fedrant ddarllen Cymraeg), ni ddodwn esampl o'r rhai hyn; eithr terfynwn ein herthygl ar y

Digitized by Google

gŵr athrylithfawr hwn o "Enwogion y Ffydd," gyd â'i aralleiriad prydyddol o'r Psalm cxlviii.:—

"O Molwch yr Arglwydd,
O'r Nen wen lawen lu,
Clodforwch E'n un swydd
Holl fro uchelder fry;
Angylion glân,
Moliennwch ef,
Holl luoedd nef,
O fawr i fân.

"Chwi haul a lloer er lles,
A'r ser a'r golau i gyd,
Nef, a'r holl nefoedd nes,
I'ch Brenin rhowch bob pryd
Dda fawl ddi feth;
Ffurfafen draw,
Cymmylau'r gwlaw,
Gwnewch chwi'r un peth.

"Brenhinoedd daear gron,
A'r bobloedd oll ynghyd,
Pob twysog sydd ar hon,
Holl swyddwyr barnwyr byd;
Pob llangc, gwell yw,
Pob morwyn glau,
Pob hen, pob iau,
Addolwch Dduw.

"Cans tra rhagorol yw
Ei unig enw ef,
Ei ardderchowgrwydd gwiw
Sy 'mhell uwch daer a nef;
Cans codi bydd
Gorn grym a pharch
I'w bobl, a'i harch
A glyw bob dydd.

"Dadseinied ei holl saint,
Ar led ei lawnglod glân,
Datganant ei fawr fraint,
Blant Israel, fawr a mân;
A phawb a nes
I wneud a bair
Ef yn ei air,
I'w lwyddfawr les."

## PENNOD VIII.

### WILLIAM GAMBOLD, ABEL MORGAN, CHRISTMAS SAMUEL, JOHN HARRI, AC EDWARD SAMUEL.

WILLIAM GAMBOLD a anwyd yn nhref Aberteifi, o rieni parchus, ar y 10fed o Awst, 1672. Cafodd ei addysg elfenol yn ysgolion gorau ei sir ei hun; ac yna anfonwyd ef i Goleg Exeter, yn Rhydychain, er ei gymhwyso i fod yn offeiriad Eglwys Loegr. Wedi derbyn urddau eglwysig, bu'n gwasaneuthu fel curad dros rai blynyddau; ac yna pennodwyd ef i ficeriaeth Puncheston a Llanychaer, ger llaw Abergwaun, yn sir Benfro, lle yr ennillodd ei fuchedd ddichlynaidd a duwiol iddo fawr gymmeradwyaeth. Yn y cyfamser, cafodd ryw adwyth i'w deimladau a'i fynwes a'i hanalluogodd i wasaneuthu ei swydd eglwysig; ac yna cyssegrodd ei flynyddau olaf bron yn llwyr at lenyddiaeth ei wlad. Treuliodd o gylch 15 mlynedd o'r tymmor hwn o'i fywyd i gasglu defnyddiau, ac ysgrifenu geiriadur Saesneg a Chymraeg. Er mwyn gwneud y gwaith yma mor gyflawn ag y gallai, darllenodd bob llyfr yn yr iaith, a phob llawysgrif y medrai gael gafael ynddynt. Yn yr ysgrifeniad cyntaf o'r gwaith, cyfleodd y Lladin rhwng y Saesneg a'r Gymraeg; eithr yn yr ysgrif o'r gwaith y bwriadai ei hargraphu, gadawodd y Lladin allan. Gorphenodd y gwaith llafurus yma yn 1722; ond o ddiffyg cefnogaeth ddigonol, gadawodd y gwaith heb ei gyhoeddi; ac ymhen rhyw ennyd ar ol iddo farw, cafodd y geiriadurwr godidog, y Parch. John Walters, afael arno, yr hwn a ddywedai, pe cyhoeddasid ef, na buasai yr angen am ei eiriadur ef yn ddim llai.

Wedi hyny, neu, fe allai, yn ystod yr un amser, ysgrifenodd "A Grammar of the Welsh Language" =Grammadeg yr Iaith Gymraeg, yn Saesneg. Dengys annerch yr awdur "To the Reader"=at y darllenydd, fod y gwaith yn barod i'r wasg ar y 14ydd o Ebrill, 1724; a dengys golygydd y trydydd argraphiad y cyhoeddwyd ef yn y flwyddyn honno yng Nghaerfyrddin.* Dywed ei fywgraphwyr mai yn 1817 y cyhoeddwyd ef yr ail waith, yng Nghaerfyrddin drachefn; ac yn 1833, cyhoeddwyd ef y drydedd waith, yn y Bala, gyd â chyfnewidiadau a chwanegiadau, at yr hwn y chwanegwyd pennod werthfawr, yn Saesneg a Chymraeg, yn dangos effaith y blaenddodiaid yn y llythyrenau dilynol, ynghyd â Broddiadur (*Vocabulary*) byr, Saesneg a Chymraeg; ac y mae'r gwaith oll yn deilwng o ganmoliaeth uchel. Bu'r awdur llafurus farw ar y 13ydd o Fedi, 1728.†

### ABEL MORGAN, BLAENAU.

Ym mysg "Enwogion y Ffydd," yr ydym yn cael rhai wedi byw yn hir, er marw yn ieuangc; ac un o'r cyfryw oedd ABEL MORGAN. Ganwyd ef mewn lle a elwir Yr Allt Goch, ymhlwyf Llanwenog, sir Aberteifi, yn 1673, a dechreuodd bregethu yn 18 neu 19 oed; ac efe oedd gweinidog sefydlog cyntaf eglwys Blaenau Gwent, ym Mynwy. Symmudodd yn ieuangc o sir Aberteifi i ardal y Fenni a Llanwenarth; ac ymddengys mai yn y lle olaf y dechreuodd efe bregethu, ac mai yno y priododd. Wedi cynnorthwyo eglwys Blaenau Gwent am yspaid o amser, yn 1697, cafodd gynnyg i fod yn weinidog yno, yr hyn a dderbyniwyd ganddo; ond ymddengys na chymmerth y gofal yn gyflawn hyd 1700. Wedi cymmeryd y swydd, dechreuodd weithio â'i holl egni, gan annog yr eglwys i wneuthur yr un modd. Credai Morgan mewn henuriaid a dïaconiaid; ond barnai nad oeddynt i gael eu gosod yn eu swyddi cyn eu profi. Gan y credwn y gall y drafodaeth a gymmerth le y pryd hyny fod yn ddyddorol i'r darllenydd, dodwn hanes yr hyn a wnaed gan Morgan a'i gyfeillion ger bron. Yn 1701, neillduwyd pedwar o'r aelodau i fod ar brawf fel henuriaid llywodreuthol; a phennodwyd tri o frodyr eraill i fod ar brawf fel dïaconiaid. Neillduwyd brawd arall i

* Advert. to the present ed. (the 3rd), p. vi.

† Williams's Em. Welshm., p. 160; En. Cymru, I. F., t. 361; En. Sir Aberteifi, G. Menai, t. 54; Llyfr. y Cymry, t. 346–7.

Digitized by Google

fod yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Yn 1702, neillduwyd tri o'r brodyr i fod yn henuriaid llywodreuthol. Gadawyd un o'r pedwar allan, am ei fod ef yn ystyried ei hun yn rhy oedranus. Y mae hanes yr ordeiniad hwnw i'w weled yn llyfr eglwys y Blaenau fel y canlyn:—

"Gan fod yr eglwys ynghyd, gofynwyd a oeddynt yn parhau yn eu dewisiad o'r cyfryw bersonau i'r cyfryw swydd neu waith. Dywedasant hwythau eu bod trwy ddistawrwydd. Yna gofynwyd i'r ymgeiswyr a oeddynt yn derbyn yr alwad a gydnabyddasid yn awr. Amlygodd pob un ei feddwl a'i brofiad, gan gyfaddef ei anheilyngdod, &c.; a chyd â dagrau, dywedasant eu bod yn rhoddi eu hunain i fynu i farn yr eglwys. Yna eisteddodd y tri â'u hwynebau at y bobl; a'r henuriaid a weinyddent a eisteddasant o'r tu ol iddynt, gan wynebu'r gynnulleidfa yr un modd; a chan osod dwylaw arnynt a gweddïo drostynt, hwy a neillduwyd i'r gorchwyl hwn o reolaeth eglwysig. Y gweinidogion a weinyddent ac a gynnorthwyent yn y gwaith oedd Robert Morgan, Richard Williams, ac Abel Morgan. . . . . Yr olaf, yr hwn oedd weinidog yr eglwys, a orchymynodd i'r henuriaid llywodraethol a ordeiniasid sefyll i fynu, ac edrych ar yr holl bobl, a gweled â'u llygaid y praidd ar ba rai y gosodasid hwy yn olygwyr i ofalu am danynt. Yna cyfarwyddwyd yr aelodau i edrych arnynt hwythau, a'u hystyried fel eu blaenoriaid, er mwyn iddynt eu dilyn, gwrando ar eu cynghorion, ac ymostwng iddynt yn ol gair Duw."

Yn yr un flwyddyn gosodwyd amryw o bethau mewn trefn gyd â golwg ar gyrddau, &c., yn y lleoedd y byddent yn addoli ynddynt, sef Aberystruth, Llanhenddal, Argoed, a Bedwellty; a cheisiasant wneud rhyw fath o gyssylltiad rhwng y Blaenau a Llanigon (yr oedd Llanigon, Olchon, a'r Trosgoed, sef Maes-y-berllan, yn un eglwys yr amser hwnw), i'r diben o sicrhau cydweithrediad mewn cyflawniadau crefyddol, ac yn heleuthiad eu terfynau, a'r cyffelyb. Gallasid meddwl braidd, wrth edrych ar lafur egnïol Abel Morgan yn y Blaenau, ei fod yn ymwybodol nad oedd ei arhosiad i fod yn faith yn y lle, a'i fod, o blegid hyny, yn awyddus am wneud cymmaint o ddaioni ag a allai cyn ymadael i faes arall. Modd bynag, wedi gwasaneuthu yr eglwys i raddau mwy neu lai am o dair i bedair blynedd a'r ddeg, a threuliodd un ar ddeg o'r blynyddau hyny dan yr holl gyfrifoldeb gweinidogeuthol, yr ydys yn ei gael yn canu yn iach i'w hen gyfeillion, gan wynebu ar America, i'r lle yr ymfudasai llawer o'i gyfeillion a'i berthynasau yn flaenorol. Nid ydys yn sicr beth oedd achos uniongyrchol ei ymadawiad. Dywed un ysgrifenydd fod rhyw flinder yn yr eglwys; ond dengys y dyddordeb a deimlai efe yn ei hachos cyn ffarwelio, a'i bryder yn ei chylch rhag llaw, fod y teimladau gorau rhyngddo â'r gynnulleidfa yn gyffredinol. Dichon i ryw ychydig weithiau fod yn ddrain yn ystlys gweinidog, ac yn genhadau Satan i boeni y frawdoliaeth; ac fe allai mai felly yr oedd yn eglwys Blaenau Gwent, ac mai gwell oedd gan Abel Morgan ymadael nag ymostwng i ymladd â dynion twyllodrus. Beth bynag a fu'r achos o'r ysgariadau, wynebodd Morgan a'i deulu ieuangc ar y Gorllewin pell, wedi i'r eglwys ac yntau gynnal cyfarfod ymadawol pwysig ar y 23ydd o Awst, 1711. Gan ei fod wedi gwneud cymmaint o ddaioni ym Mleunau Gwent, Llanwenarth, a'r ardaloedd, a thrwy y Dywysogaeth yn gyffredin, hawdd dirnad chwerwder galar a dyfnder trallod yr eglwys ar ei ymadawiad. Dangosodd Morgan, yn y cyfarfod y cyfeiriwyd ato, nad oedd cysur dyfodol yr eglwys yn ddibwys yn ei olwg, ac ymawyddai am eu gadael yn y sefyllfa fwyaf ffafriol i'w llwyddiant. Yn y cyfarfod hwnw, pennodwyd Mr. William Phylips, yr hwn a fuasai yn henadur llywodreuthol am tu a naw neu ddeng mlynedd, i ddilyn Abel Morgan yn y cylch pregethwrol a bugeiliol. Y mae amryw, os nad yr holl, gynghorion a roddes efe i'r eglwys cyn ymadael i'w cael yn llyfr eglwys y Bleunau, megis—1. Cynghorai hwy i beidio gofidio eu gweinidogion, y rhai oedd yn llafurio yn y gair a'r athrawiaeth; 2. I garu eu gilydd, a pheidio esgeuluso eu cydgynhulliad eu hunain, ond i aros yn ofalus yn y ffydd, gan ymdrechu yn eu proffes; 3. I gefnogi y doniau a ymddangosent yn addawol gyd â golwg ar y weinidogaeth, &c. Yn fuan ar ol y cyfarfod crybwylledig, ym Mleunau Gwent, aeth efe a'i deulu i Gaerodor, o'r lle yr oeddynt i gychwyn i'r Gorllewin; a cheir darlun yn y difyniad canlynol o'r fordaith anghysurus:—

"Aethant i'r llong yng Nghaerodor ar y 28fed o fis Medi [1711], a hwyliasant yn fuan; ond bu'r hin mor anffafriol fel y gorfu iddynt droi i mewn i Aberdaugleddyf (*Milford Haven*), lle y cadwyd hwy am dair wythnos. Wedi iddynt gychwyn, cododd ystorm gref arall, a chawsant eu gyru i Cork, yn y Werddon, lle y bu raid iddynt aros am bum wythnos mewn trallod blin, gan fod rhai o honynt yn glaf, yn debyg o farw yno. Ond moriasant oddi yno yn fyw ar y 19ydd o Dachwedd. Cymmerwyd hwy yn glaf yn fuan drachefn ar y môr, a bu farw mab bychan Mr. Morgan; ac ymhen tri diwrnod wedyn, bu farw mam y plentyn; ac felly y cafodd y gŵr da hwnw y tristwch mawr o golli ei briod a'i blentyn ar y fordaith ofidus. Bu un wythnos ar ddeg rhwng y Werddon a'r America, ac yn y llong o ddechrau'r fordaith hyd ei diwedd 22 o wythnosau; ond glaniodd yn ddïogel o'r diwedd yn America ar y 14ydd o Chwefror, 1712. Cymmerwyd yr hanes yma o lythyr Cymraeg a ysgrifenwyd gan Abel Morgan ei hun at eglwys y Blaenau. Y mae hwnw yn llythyr brawdol a chyfeillgar, wedi ei ysgrifenu yn Philadelphia y 12fed o Ebrill, 1712, ac yn cynnwys caledi a gwaredigeuthau y fordaith drafferthus. Ceir cyfarwyddiadau a chynghorion ychwanegol yn y llythyr i'r eglwys, ynghyd âg hyspysrwydd am rai cyfeillion a fuant feirw yn ystod y fordaith, heb law Mrs. Morgan a'i phlentyn."

Digitized by Google

Wedi byw yn Philadelphia am dymmor, symmudodd A. Morgan i Peupec, lle y cymmerth ofal eglwys y Bedyddwyr, ac yr arhosodd hyd ei farwolaeth, y 16fed o Ragfyr, 1722, pan nad oedd ond 49 oed. Claddwyd ef yn Philadelphia, a gosodwyd careg goffadwriaethol ar "fan fechan ei fedd." Teimlid ei allu, ac edmygid ei weithgarwch tra yn "yr hen wlad;" ac ymddengys nad oedd y teimlad yn llai yn America. Ceid ynddo gydgyfarfyddiad hapus o allu yr athronydd ac ymroddiad dïarbed y dyngarwr, y Cristion, a'r gweinidog. Ystyrid ef yn un o ddynion galluocaf ei oes, er iddo farw yn fuan wedi ymddadblygiad cyflawnder ei nerth; etto gwnaeth iddo ei hun hanes nas gellir ei ddileu. Yn ol Morgan Edwards, yr oedd o ran y "Defnyddiau" yn ddŷn *mawr* ac yn ddŷn *da*, a'i goffadwriaeth yn barchus gan bawb a'i hadweunai. Er bod ei waith yn y weinidogaeth yn ehang iawn; etto ni chyfyngid ei lafur i'r fyfyrgell a'r pulpud.

Gadawodd amryw ysgrifau ar ei ol, ac y mae rhai o honynt wedi eu cyhoeddi, y penaf o ba rai yw y Mynegair Ysgrythyrol a barotowyd ganddo, ac a gyhoeddwyd yn Philadelphia yn 1730, ymhen wyth mlynedd ar ol ei farwolaeth. Dyma'r Mynegair cyntaf a ymddangosodd yn yr iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd y Mynegair dan olygiad brawd iddo a'i enw Enoch, a'i hanner brawd, Benjamin Gruffydd. Dywedir i'r ddau hyn, a thri o gyfeillion eraill, sef Elias Thomas, Jenkin Jones, a John Davies, roddi iddo ryw gynhorthwy yn y gwaith oedd ar y pryd mor anhawdd ac mor angenrheidiol.

Cyflwynwyd y Mynegair i'r Anrhydeddus Dafydd Llwyd, Ysw., llywydd talaeth Pensylfania, ac ysgrifenwyd y cyflwyniad a'r llythyr at y darllenydd gan Enoch Morgan, brawd yr awdur galluog ac ymroddgar. Yr oedd gweithgarwch crefyddol Abel Morgan braidd yn ddifesur. Ysgrifenodd lythyr at eglwys Blaenau Gwent ymhen tu a deufis ar ol glanio yn America; er hyny, ymddengys ei fod wedi dechrau effeithio diwygiad eglwysig mor fuan a hyny yn y Taleithiau. Yr oedd wedi bod mewn un gymmanfa cyn ysgrifenu y llythyr hwnw, lle y dewiswyd ef i fyned i Jersey Orllewinol i adsefydlu trefn mewn eglwys oedd tu a 120 o filltiroedd o'r man y cynhelid y gymmanfa; a bwriadai ymweled â dwy gymmanfa arall cyn dychwelyd. Teimlai yn ddwys ar ol gwraig ei ieuengctid a'i blentyn hoff; ond nid oedd hiraeth a galar yn gallu arafu ei gamrau ar lwybr dyledswydd. Ystyrid ef yn un o flaenoriaid y Bedyddwyr yn ystod yr amser y bu yn y Gorllewin. Dangosir mawredd ei lafur, ac mor gydnabyddus ydoedd â sefyllfa yr eglwysi, mewn llythyr o'i waith a gyhoeddwyd gan Crosby, er na fuasai yn y wlad ar y pryd fwy na dwy flynedd a hanner. Cyhoeddodd Crosby lythyr arall wedi ei amseru y 13ydd o Fedi, 1717, wedi ei lawnodi gan ddeuddeg o bersonau, ac Abel Morgan yw'r blaenaf o'r deuddeg. Teimlai ddyddordeb dwys yn sefyllfa'r *holl* eglwysi.

### CHRISTMAS SAMUEL.

Ychydig iawn o hanes y gŵr enwog hwn sydd ar gof a chadw, oddi eithr yn ei gyssylltiad â chyhoeddiad amryw lyfrau gwerthfawr yn Gymraeg, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Ganwyd ef, fel y tybir, ymhlwyf Llanegwad, sir Gaerfyrddin, yn 1674. Dilynodd Mr. Thomas Bowen fel gweinidog yr eglwys Annibynol yn Pant-teg, ger llaw Caerfyrddin, yn 1710, a bu yn dra llwyddiannus yno. Bu hefyd yn offerynol i gasglu amryw gynnulleidfaoedd eraill mewn gwahanol barthau o'r un sir. Bu'n gyfranog âg eraill i gyhoeddi amryw lyfrau defnyddiol yn yr iaith Gymraeg, ac fel y cyfryw y mae ffrwyth ei lafur yn parhau ymhlith y genedl hyd y dydd hwn. Nodir y rhai canlynol yn *Llyfryddiaeth y Cymry* y bu ganddo ef law yn eu cyhoeddiad, sef "Gemau Doethineb," 1714;* "Llythyr at y cyfryw o'r Byd, ac sydd raid eu deffroi a'u cyfarwyddo er lleshad a Budd tragwyddol eu Heneidieu," 1716;† "Catecism o'r Scrythur, yn Nhrefn Gwyr y Gymmanfa, gan Mtthew Henry," 1717;‡ "Llun Aggrippa," 1723;§ "Golwg ar Destament Newydd ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist," 1728;‖ "Y Cyfrif Cywiraf o'r Pechod-Gwreiddiol," 1730.¶ Yr oedd Christmas Samuel yn un o'r dynion mwyaf ymdrechgar yn ei oes i oleuo ei gydgenedl, trwy bregethu a chyhoeddi llyfrau iddynt, a pherchid ef yn fawr gan bawb a'i hadweunai. Bu o gymmorth mawr i Gruffydd Jones, Llanddowror, yn sefydliad ei ysgolion yng Nghymru. Dywedir nad oedd un pregethwr Ymneillduol yn y wlad yn meddu cymmaint o ddylanwad gyd â'r boneddigion ag efe, ac y mae'n bur debyg i hyny fod yn gymmorth mawr

* Llyfr. y Cymry, t. 300. † Yr un, t. 307. ‡ Yr un, t. 314.
§ Yr un, t. 334. ‖ Yr un, t. 350.—Crynhoad ydyw hwn "o swm a sylwedd y pethau hynny a gynhwysir ym mhob Llyfr, ac ym mhob pennod, wedi ei gasglu allan o Esponiad helaeth . . Matthew Henry;" ac y mae canmoliaeth uchel iddo.
¶ Llyfr. y Cymry, t. 357.

Digitized by Google

iddo i gynnorthwyo cymmaint i ddwyn allan gynnifer o lyfrau daionus i'w gydgenedl. Bu farw ar y 18fed o Fehefin, 1764, yn yr oedran teg o 90.*

### JOHN HARRI.

Pan ymfudodd Abel Morgan i'r America, canlynwyd ef yngweinidogaeth Blaenau Gwent gan William Phylip; ac yn 1714, ordeiniwyd John Harri i'w gynnorthwyo, fel y cynghorasai Abel Morgan cyn ei ymadawiad i'r America. Digon o brawf o werth J. Harri ydyw i Abel Morgan roddi y fath gyfarwyddyd i'r frawdoliaeth o berthynas iddo Bu'n cydweinidogeuthu â W. Phylip hyd 1730, pryd y gorphenodd yr olaf ei yrfa.† Ym mis Tachwedd, 1731, derbyniodd J. Harri yr holl ofal gweinidogeuthol. Cynhaliwyd cyfarfod i'w neillduo, a phregethodd Miles Harri ar yr achlysur. Yn 1732, dodwyd enwau yr holl aelodau, a'r plwyfau ymha rai y preswylient, mewn llyfr; ac yn ol y gofrestr honno, yr oedd o 40 i 60 o'r aelodau ymhlwyf Bedwellty, a'r gweinidog a'i deulu ym Mynyddislwyn. Yr oedd llawer o honynt ymhlwyf Aberystruth, a'r lleill ymhlwyfi Gelligaer, Llanhiddel, Llangynidr, Llanwenarth, Llangattwg, Llanfoist, Trefddyn, a Brynbiga. Cymmerth hyny le wedi corpholiad eglwys Pen-y-Garn, ychydig cyn hyny. Yn 1732 yr ordeiniwyd Miles Harri ym Mhen-y-Garn, a phregethodd John Harri yn y cyfarfod. Dengys yr uchod nad anaml oedd yr aelodau yn 1732, er ymadawiad eglwys Pen-y-Garn yn ddiweddar. Gŵyr y rhai sy'n adnabyddys â deuaryddiaeth y plwyfi a nodwyd, a'r pellder rhwng rhai o honynt a'r Blaenau, nad gorchwyl didrafferth oedd crefydda yn Ymneillduol yn y dyddiau hyny, ac nad gwaith hawdd oedd bugeilio eglwys mor wasgaredig, ac yn neillduol pan ystyrir nad oedd J. Harri ond ieuangc pan gymmerodd eu cyfrifoldeb gweinidogeuthol yn hollol arno ei hun. Bu J. Harri yn llafurus ac yn llwyddiannus iawn, fel y dengys yr hyn a ganlyn sydd yn llyfr eglwys y Blaenau, ac yn hanes y Bedyddwyr:—

"Tachwedd 19, 1727, wrth dŷ Lewis Llewelyn, y bedyddiwyd John Harri a Rahel King, yr hon oedd yn 65 oed y diwrnod hwnw; a bedyddiwyd hi yngŵydd tyrfa fawr o bobl. O'r dydd cyntaf o Ebrill, 1724, hyd y dydd hwnw, bedyddiwyd 48. Bu chwanegiad mawr wedi hyny, tu ag 20 yn y flwyddyn dros rai blynyddau. Yr oeddynt yn 170 o aelodau ym mis Rhagfyr, 1729. Bedyddiodd J. Harri luoedd yn ei oes; ac ym mysg eraill, ei dad ei hunan."

Er nad oedd ysgafn ei waith gartref, etto ni chyfyngai ei wasanaeth i'r eglwys y perthynai iddi, ond gwnai ei orau i gynnorthwyo eglwysi eraill, megis Olchon, Llanigon, Trosgoed, &c. Cyfieithodd lyfr hefyd a elwir "Nefoedd Newydd a Daear Newydd," ac a'i cyhoeddodd yn ol annogaeth y gymmanfa yn 1723. Yr oedd yn aelod yn eglwys y Blaenau cyn 1696, pan gorpholwyd hi; ond nid oes sicrwydd pa bryd mor fuan wedi hyny y dechreuodd bregethu. Yn 1737, bu farw, pan yn 63 oed; ac felly ganwyd ef yn 1674. Claddwyd ef wrth addoldy Blaenau Gwent, a dodwyd careg ar ei fedd, ar yr hon y cerfiwyd yr adnod ganlynol:—"Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a dreuthasant i chwi air Duw; ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt," Heb. xiii. 7. Ymddengys nad oedd ei amgylchiadau tymhorol ond lled isel, canys ceir bod William Phylip ac yntau yn derbyn rhyw gynhorthwy o Drysorfa Llundain yn 1718.

### EDWARD SAMUEL.

Er maint a wnaeth y Cymreigiwr enwog yma er goleuo ei gydgenedl, a phuro ac ystwytho ieithwedd y Gymraeg, trwy gyfrwng y llyfrau gwerthfawr a gasglodd, a gyfieithodd, ac a gyhoeddodd; er hyny nid oes ond ychydig iawn o hanes helyntion ei fywyd wedi eu trosglwyddo i'r oes bresennol. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1674, mewn lle a elwid Cwt y Defaid, ymhlwyf Penmorfa, nid neppell o Dremadog, sir Gaernarfon. Dywedir mai mab i ŵr tlawd ydoedd, a phriodolir ei ddygiad i fynu i'r offeiriadaeth i nawdd a chefnogaeth y Dr. Humphreys, Esgob haelfrydig Bangor; yr un gŵr ag a annogodd awdur y "Bardd Cwsg" i gymmeryd urddau offeiriadol.‡ Pa fodd y canfu y

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 342; En. Cymru, I. F., t. 930.

† "Yr oedd efe [W. Phylip] yn un o'r hen aelodau oedd wedi ymsefydlu ac ymgorpholi yn yr eglwys yn 1696. Yr wyf yn meddwl ei fod yn ddiacon y pryd hwnw; a dewiswyd ef yn henuriad llywodreuthol yn 1702, ac yn weinidog yr eglwys yn 1711. Yr oedd yn ŵr defnyddiol a derbyniol iawn yn yr eglwysi a'r wlad; ac yr oedd ganddo ddeall hynod mewn adeiladaeth a gwaith coed a cherig. Yn 1715, adeiladwyd addoldy y Blaenau dan ei arolygiaeth; ac o dan ei ofal ef yr adeiladasid capel Llanwenarth 20 mlynedd cyn hyny. Yr oedd yn ŵr medrus iawn mewn llawer o bethau: adeiladu pontydd, &c.; ond uwch law'r cyfan, yr oedd yn ddŷn duwiol, ac yn weinidog da i Iesu Grist. . . . Yr oedd yn byw mewn lle a elwid Gwaelod-y-Waun, ger llaw Hengoed. Ni ellais i gael gwybod pa bryd y bedyddiwyd ef, na pha oedran oedd pan fu farw."—Han. y Bedyddwyr, Jos. T., t. 230.

‡ Pe nas gwneuthai Humphrey Humphreys ddim ond dwyn allan Elis Wynn ac Edward Samuel, y mae'n deilwng o gofnod byr ymhlith "Enwogion y Ffydd." Humphrey ydoedd fab hynaf Richard Humphreys, Ysw., o'r Penrhyn-Deudraeth, sir Feirionydd, lle y ganed ef ar y 24ydd o Dachwedd, 1648. Bu am rai blynyddau yn Ysgol Rydd Croesyswallt, dan ofal ei ewythr, y Parch. Humphrey Wynn, M.A., yr hwn oedd yn ysgolfeistr a ficar y plwyf hwnw; a phan fu ei ewythr farw, symmudwyd ef i Ysgol Bangor. Yn y flwyddyn 1665, derbyn-

Digitized by Google

Dr. Humphreys alluoedd a theilyngdod Edward Samuel, ni fynegir. Tybir mai yn un o ysgolion Cymru y cafodd ei addysg, naill ai ym Mangor, Bomaris, neu Ruthyn, ysgolion penaf Gwynedd yn yr oes honno. Cesglir hyn am na chanfyddir yr un o raddau y prif ysgolion un amser yn gysylltedig â'i enw ef, mwy na'r eiddo Elis Wynn, yn llyfrau yr un o golegau Rhydychain na Chaergrawnt.

Yr hanes gyntaf a geir am dano ydyw ei bennodiad, gan yr Esgob Humphreys, ar y 4ydd o Dachwedd, 1702, i berigloriaeth Bettws-Gwerfil-Goch, ger llaw Corwen, sir Feirionydd. Wedi iddo fod yno am yn agos i 14 blynedd, symmudwyd ef, ar y 12fed o Ionawr, 1721, i blwyfoliaeth Llangar, yn yr un gymmydogaeth, lle yr arhosodd hyd ddydd ei farwolaeth, sef yr 8fed o Ebrill, 1748, ac efe yn y 75fed flwyddyn o'i oedran. Claddwyd ef ymynwent Llangar, wrth ben dwyreiniol yr eglwys, ac y mae ei gareg fedd yn aros hyd heddyw. Cofnodir marwolaeth ei wraig, ac un o'i ferched hefyd, y rhai a elwid Ann, ar yr un gareg.

Ysgrifenodd Edward Samuel lawer yn ei ddydd, a rhestrir ef yn gyfiawn ymhlith ysgrifenwyr Cymreig gorau y ddeunawfed ganrif. Nid rhyw lawer o gyfansoddiadau gwreiddiol a gyhoeddwyd ganddo; ond gwasaneuthodd ei oes a'i genedl yn benaf trwy gyfieithu llyfrau gwir werthfawr o ieithoedd eraill i Gymraeg lân diledryw. Ymddengys mai'r cyntaf a gyhoeddodd oedd yr un canlynol:—

"Bucheddau'r Apostolion a'r Efengylwyr a gasglwyd allan o'r Ysgrythyr-Lan ac o Ysgrifeniadau'r Athrawon goreu gan E. S. Person Bettws Gwerfil Goch.

"Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Jones, 1704." 16plyg.

Gan fod y llyfr yma weithian yn bur brin, o blegid nad argraphwyd ef ond unwaith, ac o herwydd mai hwn oedd y gwaith cyntaf a gyhoeddodd y Cymreigiwr destlus, credir y bydd esampl fer o hono yn gymmeradwy gan amryw o'n darllenwyr:—

"BUCHEDD ST. PETER YR APOSTOL.

"ST. Peter, yr hwn cyn ei droiadigaeth a elwid Simon, oedd frawd i Andreas yr Apostol, a mab i Jonas (neu Joan) trigiannydd o Bethsaida, Dinas o Galilea uchaf, yr hon a enwid hefyd Galilea'r Cenhedloedd. Philip y Tetrarch, Mab Herod ai haddurnodd hi gwedi hynny â llawer o adeiladoedd harddwych orchestol, ac a'i cyfenwodd hi Julias er anrhydedd Julia merch Augustus. Y Dref yma oedd yn sefyll ar lann llŷnn Genesarth neu Fôr Tiberias, ac felly'n drigfa gyfleus i'r sawl a arferent bysgodta yn y llŷnn; a hynny oedd gwaith a gorchwŷl Simon ac Andreas. Pan briodwyd Simon 'fe a symmudodd i Capernaum, ac a drigfanodd yno gyda'i fam ynghyfraith. Yn ymmŷl môr Tiberias yr oedd y dref honno hefyd, ac yn agos i Aber yr Jorddonen; ac o herwydd ei bod cystal a Bethsaida am bysgodta fe a fudodd Andreas yno hefŷd, at ei frawd lle buont eill dau yn Cŷdymweini yn y bŷd i geisio ennill eu bywŷd wrth y gelfyddŷd enbyd drafferthus honno. Ond er eu bod yn ddynion diwyd, a gofalus yn eu swydd wael honno, er darparu mewn ffordd gywir ddiniweid gynhaliaeth iddynt eu hunain ac i'w teulu, nid ymroesant er hynny mor llwyr gwbl i'w budd a'u lleshad amserol, ag yr esgeulusent yr hyn oedd lawer angenrheitiach, sef eu gwynfyd a'u hiechydwriaeth tragwyddol. Jo. 1. 44. Mar. 1. 29. Luc 4. 38.

"Y tuedd-fryd crefyddol hwn a wnaeth i Simon (fel ei frawd Andreas) ymroddi'n ddisgybl i Joan Fedyddiwr, yr hwn a ymddangosodd y pryd hwnnw i ddarparu meddyliau dynion, trwy fedydd ac Edifeirwch, i groesawu'r Messiah; yr hwn yr oedd pawb o'r Juddewon yn ol prophwŷdoliaethau'r yscrythyr lân, yn ei ddisgwyl ynghylch yr amseroedd hynny. Diammeu ei fod ef yn dyfal hiraethu am deyrnas Dduw a 'diddanwch yr Israel,' pan oedd cyn barodted i goelio'r newydd rhagorol a fynegwyd iddo gan ei frawd 'ni a gawsom y Messiah yr hwn o'i ddeongl yw Crist:' ac am hynny a bryssurodd yn gyflŷm gydag ef at yr Jesu, gan ddangos wrth ei frŷs a'i ffwdan faint oedd ei awydd i weled yr Arglwydd ardderchog hwnnw, a bod yn rhywŷr ganddo gael bod yn gydnabyddus ag ef. Ac ynteu fel y rhoddai i Simon brawf diammeu o'i gyflawn wybodaeth, a fynegodd iddo ei enw a'i rieni, ac y gelwid ef Cephas neu Petr, yr hyn o'i gyfieithu yw Carreg, gan ragddangos wrth y cyfenw hwnnw y byddai ef megis craig yn gadarn ac yn sefydlog yn ffydd Crist, ac y goddefai ef gyfryw galedfŷd a llafur er ei fwyn ef, ag nas gallai neb eu gorfod ond y sawl a fyddai ganddynt gryfdwr cerrig a chnawd o bres. *Edrych Fuchedd St. Andreas.* Jo. 1. 43. Job 6. 12."

Y mae'r gwaith yn cynnwys bucheddau 16 o'r apostolion, neu'r cenhadon cyntefig, sef Petr, Paul, Andreas, Iago y Mwyaf, Ioan, Phylip, Bartholomëus, Matthew, Thomas, Iago y Lleiaf (yr hwn a gamenwir ganddo yn Esgob Jerusalem), Simon Zelotes, Judas, Matthias, Marc, Luc, a Barnabas. Y mae'n cynnwys cryn lawer o fympwyon Esgobyddol Eglwys Loegr, seiliedig ar gyfeiliornadau

iwyd ef i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain; ac yn Hydref, 1669, graddiwyd ef yn B A. Yna etholwyd ef yn ysgolor ei goleg yn 1670; ac ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad, a phennodwyd ef yr un diwrnod i berigloriaeth Llanfrothen, sir Feirionydd. Ar y 12fed o Fehefin, 1672, graddiwyd ef yn M.A.; ac yn Awst, yr un flwyddyn, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg yr Iesu, a phennodwyd ef ym mis Tachwedd i berigloriaeth Trawsfynydd, sir Feirionydd; ac yn 1673, dewiswyd ef yn gaplan gan y Dr. Humphrey Llwyd, Esgob Bangor. Ar yr 16fed o Ragfyr, 1680, ac efe ar y pryd yn B.A., yn gymmrawd Coleg yr Iesu, ac yn ganon Bangor, pennodwyd ef yn Ddeon y Brifeglwys honno. Yn 1682, graddiwyd ef yn D.D.; ac yn 1689, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Bangor. Wedi bod yno am 12 mlynedd, symmudwyd ef yn 1701 i Esgobaeth Henffordd, ac yno y bu farw ar yr 20fed o Dachwedd, a chladdwyd ef ger llaw yr allor yn y Brifeglwys honno. "Yr oedd yn ŵr o fuchedd dra rhinweddol trwy ei holl fywyd; ac yn ystod ei flynyddoedd olaf, yr oedd ei dduwioldeb mor amlwg fel mai ychydig a geid yn gyffelyb iddo." Ymddengys ei fod yn hynafieithydd Cymreig galluog. Ysgrifenodd fywgraphiadau amryw Gymry enwog, o'r sawl y cyhoeddwyd rhai yn yr argraphiad diweddaf o'r *Athenæ Oxonienses*, gan Wood; ac y mae amryw o honynt yn y *Cambrian Register* am 1795 (pp. 155–60), yn yr hwn hefyd y mae bywgraphiad byr o hono ef ei hun (pp. 160–2). Ond y mae'n ddiau mai'r gymmwynas fwyaf parhaus a wnaeth i genedl y Cymry oedd dyrchafu, noddi, a chynnorthwyo ELIS WYNN ac EDWARD SAMUEL.

Digitized by Google

Eglwys Rhufain; ac y mae ynddo amryw chwedlau o'r hen ysgrifenwyr a elwir "Tadau yr Eglwys," ac yn enwedig o'r hanesydd eglwysig hynaf, sef Eusebius; ond y mae amryw o honynt yn hynod ddifyrus, a rhai yn adeiladol hefyd. Y mae ganddo un hynod iawn ym muchedd yr Apostol Thomas, yr hwn, gan ei bod yn dangos ansawdd y gwaith yn bur dda, a hefyd yn ddifyrus i'w ddarllen, a ddodwn ger bron yma:—

"Pan gynnysgaeddwyd yr Apostolion â doniau addas i gyflawni gorchwylion eu galwedigaeth, St. Thomas trwy ysprydol orchymyn; a hyfforddiant yr yspryd glân, a yrodd Thadæus un o'r deg disgybl, a thriugain at Agbarus llywŷdd Edessa ym Mesopotamia, am yr hwn y mae Eusebius yn mynegi'r Hanes a ganlyn.

"Yr Agbarus hwn oedd Dywysog galluog yn llywodraethu Osroene, ac amryw wledydd eraill ger llaw Euphrates. Eithr er maint ei freiniol Rwsg a'i gadernid bŷdol, gorfu arno ymddarostwng i glefŷd trwm anaele heb fodd na gobaith o ymwared. Eithr gan glywed fod Jesu yn Judæa yn gwneuthur amryw wyrthiau ac yn iachau pob doluriau heb feddyginiaeth, f'a gredodd mai naill a'i Duw Tad ei hun a'i mab Duw ydoedd, ac a sgrifenodd atto ef ir perwyl yma.*

"Llythyr Brenhin Agbarus at Jesu; a ddanfonwyd atto ef i Jerusalem gydag Ananias ymdeithydd Cyflym.

"Agbarus llywŷdd Edessa at Jesu, iachawdr cyflawn o ddaioni, ym mharthau Jerusalem annerch. Mynegwyd i mi am danat ti, a'r gwyrthiau yr wyt yn eu gwneuthur heb lyssau na meddyginiaeth. Canys mae'r Gair allan dy fod yn gwneuthur i'r deillion weled, a'r Cloffion gerdded, ac yr wyt yn glanhau gwahangleifion, yn tarfu Cythreuliaid ac ysprydion aflan, ac yn iachau y rhai sy fin gystuddiedig gan hir ddoluriau, a hefyd yn adfywioccau'r meirwon. Minneu gwedi clywed yr holl bethau hyn am danat a feddyliais ynof fy hun mai naill ai Duw ai gwir Fab Duw ydwyt gwedi desgyn o'r nefoedd i wneuthur y pethau hyn. Am hyny ynteu'r ysgrifenais attat i ddeisyf arnat ar fod yn wiw gennyt ddyfod i ymweled a mi. O blegid mi a glywais fod yr Juddewon yn dy fawr amherchi, ac yn chwennych dy ddrygu. Mae gennyf Ddinas fechan drefnus, sy ddigon o faint i ni ein dau.

"Nid aeth yr Jesu i Edessa yn ol dymmuniant Agbarus, oblegid at Ddefaid Cyfr-golledig tŷ Israel yr anfonasid ef: Ond er hynny fe 'sgrifennodd lythŷr gyda'r gennad at y Tywysog, yn cynwŷs y geiriau hyn.

"Gwŷn dy fŷd ti, Agbarus, am i ti gredu ynof a thithau heb fy ngweled. Canys 'sgrifenedig yw am danat, y rhai am gwelsant ni chredant ynof, fel y credo y rhai ni'm gwelsant ac y caffont fywyd: Ond am yr hyn a 'sgrifenaist a'r i mi ddyfod attat, mae'n rhaid i mi gyflawni'r holl bethau y danfonwyd fi o'u plegŷd, ac wedi gorphen hynny dychwelŷd at yr hwn am hanfonodd. Eithr pan elwyf gyntaf atto ef, mi a ddanfonaf attat un o'm disgyblion, fel yr iachao dy glwyf, ac y paro fywyd i ti ac i'r rhai sydd gydâ thi. Y mae amryw Hên Athrawon, heblaw Eusebius, yn crybwyll am y llythyr hwn, ac yn edrych arno megis diau waith Christ ei hun. Er hynny ni dderbyniwyd mo'no gan yr Eglwys megis rhan o'r ysgrythur; oblegyd na chafwyd mono oddiwrth yr Apostolion, megis llyfrau eraill y Testament newydd: Eithr ei dynnu a wnaethpwyd o Gof-lyfrau Edessa; ac nid oedd awdurdod y rheini ddigonol i warantu'r Eglwys iw dderbyn i blith llyfrau'r yscrythur lân.

"St. Thomas a gywirodd yr addewid a wnaeth Ghrist i Agbarus wrth anfon Thadæus attô ef. Pan aeth y Disgybl hwnnw i Edessa f'a letteuodd yn nhy gwr a elwid Tobias, lle'r ynnillodd ef air mawr gan y trigolion wrth bregethu a gwneuthur amryw ryfeddodau. Pan glybu Agbarus sôn am dano, fe feddyliodd yn ddiammeu mai hwn oedd y disgybl a addawsei'r Jesu iddo, ac a barodd i Tobias ei gyrchu ef i'r llys. Pan ddaeth Thadeus ger bron, gofynodd Agbarus iddo a'i disgybl ydoedd i Jesu Grist, yr hwn a addawsei ddanfon gwr i'w iachau ef. Attebodd Thadæus mai e', a dyfod o hono i wobrwyo'i ffydd ef yn yr Jesu, ac os credai efe ynddo rhagllaw, y cai ef bob peth a geisiai, yn ol purdeb a gwirionedd ei gredиniaeth. Agbarus megis y gweddai i filwr, a attebodd ei fod yn ffyddio cymmaint iddo, ac y buasai'n llwyr ddinystrio'r Juddewon a'i Croeshoeliasant oni bai rhag ofn y Rhufeiniaid. Thadeus ynteu a ddywedodd, Ein Harglwydd ni a'n Duw Jesu Grist, a gyflawnodd ewyllys ei Dad, ac yna a ddychwelodd at ei Dad. Attebodd Agbarus ei fod yn credu i'r Jesu ac iw Dad hefyd. Am hynny ynteu ebr Thadæus, mi a ddodaf fy llaw arnat yn Enw'r Arglwydd Jesu Grist. ac Agbarus yn ebrwydd a wnaethpwyd yn holliach oddiwrth ei ddolur anesmwyth. A'r un modd iachawyd Abdus car anwyl i'r Tywysog oedd yn glaf o'r gymmalwst neu'r Gowt, gydâ llawer o gleifion eraill trwy arddodiad dwylo Thadæus.†

"Gwedi i Thadæus trwy'r gwyrthiau hyn a llawer o ryfeddodau iachusol eraill gyweirio meddyliau'r tywysog, a'i bendefigion, i dderbyn ei Athrawiaeth: ar ddymuniant Agbarus (yr hwn a orchymmynodd i holl drigolion y Ddinas ymgynnull i'r unlle erbyn y boreu drannoeth) f'au hathrawiaethodd hwynt yn seiliau'r ffydd Grist'nogol: gan fynegi iddynt Edrydd Cnawdoliaeth, Genedigaeth, ymddygiad, gweithredoedd, rhyfeddodau, blinderau, marwolaeth, ac adgyfodiad Christ; a darfod iddo ymdderchafu i'r nefoedd; a'i fod ef yn eistedd ar ddeheulaw ei Dad, hyd oni ddel mewn gogoniant i farnu byw a meirw. Ac ar hynny credodd yr holl i Ddinas i Grist, a pharhausant yn y ffydd hyd ddyddiau Eusebius, megis y tystioliaetha'r Awdwr hwnnw; Agbarus o ran diolchgarwch i Thadæus a fynnai anrhegu iddo ryw anfad gyflog yn aur ac Arian. Eithr y Gwr Sanctaidd a'i gwrthododd, gan atteb yn lednais ac yn orchwylaidd, os gadawsom ni ein heiddo ein hunain er mwyn Christ, i ba beth y derbyniwn eiddo arall.‡

"Thadæus yn ol hyn a aeth i Berytus yn Phœnicia, lle gwedi troi llawer a'u bedyddio yn y ffydd Grist'nogol, y gorchymmynodd ei Enaid i ddwylo ei iachawdwr, ac y cafodd orphwys oddiwrth ei lafur."§

Er bod argraphwaith y llyfr hwn, fel llyfrau yr un cyfnod yn gyffredin, yn bur garbwl a gwallus, a bod y llythyraeth yn ddiffygiol ac anghysson; etto y mae'r ieithwedd yn ystwyth a Chymreigaidd, ac yn dra theilwng o efelychiad ysgrifenwyr yr oes hon, megis y mae holl ysgrifeniadau yr ieithydd godidog yma. Y gwaith cyntaf a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd gan Edward Samuel oedd—

"Gwirionedd y Grefydd Grist'nogol. O Waith Hugo Grotius. . . . 1716." 16plyg.

Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r cyfieithiad godidog hwn yn argraphdy y Wesleyaid, yn Llundain, tu a dechrau y ganrif bresennol, am yr hwn argraphiad y dywed y Parch. D. Silvan Evans—

* Euseb. Lib. i. cap. 13.

† Eus. L. 2. cap. 1.

‡ Dupin ex Chron. Eus: an. 318.

§ Buchedd yr Apost., t. 203–8.



Digitized by Google

"Gwnaed amryw gyfnewidiadau yn y cyfieithiad; ond, fel y mae'n digwydd yn rhy gyffredin, y maent gan mwyaf wedi eu gwneuthur er gwaeth, yn hytrach nag er gwell; ac yn fynych iawn y maent wedi eu gwneuthur lle nid oedd achos yn y byd am danynt. Y mae'r argraphiad hefyd yn bur anghywir."

Yn 1853, cyhoeddodd Mr. W. Spurrell, Caerfyrddin, argraphiad prydferth dros ben o'r gwaith rhagorol yma, dan olygiad y Parch. D. Silvan Evans, am yr hwn y dywed y golygydd medrus fel y canlyn:—

"Yn yr argraphiad newydd hwn, sef y trydydd, dilynwyd yr argraphiad cyntaf, yr hwn a gyhoeddwyd gan y cyfieithydd hyfedr ei hun, yn y flwyddyn 1716. Argraphwyd y llyfr y tro cyntaf gan Sion Rhydderch; a gwyddys yn burion mai crefftwr lled anghelfydd ac annillyn oedd efe: ac yr oedd ei brinder o lythyrenau, accenion, a'r cyffelyb, yn peri bod holl gynnyrch ei wasg yn hynod o anghywir, ac yn anferth yr olwg arnynt.

"Yn yr argraphiad hwn, gan hyny, cyfnewidiwyd y llythyraeth, diwygiwyd yr attalnodau, ac ymdrechwyd cyweirio yr aneirif wallau a ymlithrasant i'r argraphiad hwnw. Cydgymharwyd y cyfan â'r Lladin; a lle'r ymddangosai fod y cyfieithydd wedi gosod i mewn ryw bethau o bwys, nad oeddynt yn y gwaith gwreiddiol, dodwyd y cyfryw chwanegion rhwng cromfachau, er mwyn eu gwahaniaethu oddi wrth yr hyn a ysgrifenasid gan yr awdur ei hun. Mewn dau neu dri o fanau, lle yr oedd yn amlwg ddigon fod amryfusedd wedi digwydd, chwanegwyd ychydig eiriau, er gwneuthur yr ymadrodd yn gyflawn, neu ddealladwy.

"Ym mhob peth ond a grybwyllwyd eisoes, canlynwyd yr argraphiad cyntaf gyd âg eithaf ffyddlondeb."

Dylai y llyfryn prydferth a buddiol hwn fod ym meddiant pob Cristion, er mwyn yr egwyddorion mawrion a phwysig sydd ynddo; ac ym meddiant pob llenor Cymreig, er mwyn yr iaith goeth, ystwyth, ac ieithweddol sydd ynddo, canys y mae'n sicr ddiammau fod Edward Samuel yn un o Gymreigwyr gorau y 18fed ganrif, cyn i'r iaith ddechrau cael ei hanystwytho gan fympwyon geirdarddol y Dr. Puw a'i ysgol, a chyn iddi ddechrau cael ei hanurddo gan ieithweddau Seisnig clogyrnog coeg ysgrifenwyr diweddarach. Yr ail waith a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd gan Edward Samuel oedd—

"Holl Ddyledswydd Dyn a osodwyd ar lawr mewn ffordd eglur, hawdd ei deall, er lles i bawb, ond yn enwedig i'r darllenydd gwaelaf. Gwedi ei dosparthu yn XVII. o Bennodau. Ac wrth ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglwydd, gellir darllen y Cyfan dair gwaith yn y Flwyddyn. Angenrhaid i Bob Teuluoedd. Gyda Duwiol Swyddau Dirgel ar amryw Achosion. Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rhydderch tros yr Awdwr [sef Awdwr y Cyfieithiad] yn y Flwyddyn 1718." 16plyg.

Yr oedd y gwaith hwn wedi cael ei gyfieithu o'r blaen i'r Gymraeg, gan un John Langford, genedigol yn Rhuthyn, yr hwn a raddiwyd yn B.A. yng Ngholeg Crist, Rhydychain, yr 28fed o Chwefror, 1659. Cyhoeddwyd y cyfieithiad hwnw deirgwaith, yn ol barn Gwilym Lleyn, sef yn 1672, 1684, ac 1711;* ond ni chyhoeddwyd cyfieithiad gwych Ed. Samuel ond unwaith yn unig, sef yn 1718, fel y gwelir uchod. Dywed Gwilym Lleyn "nad ydys wedi gweled enw awdwr erioed i'r llyfr hwn yn Saesneg na Chymraeg." Y mae enw H. Hammond wrth y rhagymadrodd Seisnig at "Mr. Garthwait," y cyhoeddwr, wedi ei amseru "*March* 7, 1657," sydd o flaen yr argraphiad Seisnig a gyhoeddwyd yn 1669, ymhen naw mlynedd ar ol marwolaeth Hammond; a hwnw, fel y tybiwn, yw yr argraphiad Seisnig cyntaf, yr hwn hefyd sydd yn ein meddiant. Cyfieithwyd y rhagymadrodd crybwylledig gan E. Samuel, yr hwn sydd o flaen ei gyfieithiad ef o'r gwaith; ac wedi ei amseru "Mawrth 7, 1567," trwy amryfusedd yr argraphydd trwstan, Sion Rhydderch, bid sicr, yn lle 1657. Y mae'n hawdd canfod wrth y rhagymadrodd hwnw nad y Dr. Hammond oedd *awdur* y gwaith. Dywed y Parch. B. H. Cooper mai y Foneddiges Packington, yn ol pob tebygolrwydd, oedd awdures "Holl Ddyledswydd Dŷn," ym mhalas yr hon, a'i gŵr, Syr John Packington, yn Westwood, sir Gaerwrangon, y cafodd y Dr. Hammond nawdd yn ei gyfyngder; ac yno y treuliodd weddill ei oes, yr hon a derfynodd ar y 25med o Ebrill, 1660.† Er mwyn i'r darllenydd gael mantais i farnu drosto ei hun ar y pwngc yma, dodwn gyfieithiad E. Samuel o'r rhagymadrodd byr a duwiolfrydig ger bron:—

*"At y Gwerthwr Llyfrau.*

"SIR,—Ni buasai raid i chwi wrth neb i eiriol trosoch er mwyn gwneuthur hyn o Dasg yn gymmeradwy gennyf fi, a hithau'n dwyn ei Gwahodd ai gwobr gyda hi. Mi a ddarllenais yn Ewyllysgar jawn holl ddalenau'r *Traethawd a'r Duwiol swyddau* sy'n canlyn, ac a welaf achos mawr i fendithio a moliannu Duw am bob un o'r ddau, o ran nid wy'n dirnad fod dim yn ddiffygiol mewn un rhan o'r naill na'r llall iw wneuthur, trwy Rad a Bendith Duw; yn gyflawn-ddigonol ac yn ddigon Cyfaddas i'r diben mawr yr amcanwyd Ef o'i blegyd, sef rhoddi Cymmorth a lles ysprydol i bawb a ymarferant ag Ef. Mae'r Testyn yn wir, yn gyfattebol i Enw'r Llyfr, yn Cynnwys *Holl Ddyledswydd Dŷn*; gwedi ei gosod ar lawr yn ei holl Geinciau cyn fyrred ac mor ddosparthedig er mwyn gwahodd a chymmorth a bodloni'r Darllennydd, a hefyd yn ymostwng cyn ised at y Dealltwriaethau gwannaf, Eithr yn Cynnwys gydâ hynny y fath Bwys o Resymmau Ysprydol trwy y rhai y bydd da gan rhai sydd oreu eu gwybodaeth gael eu cynnorthwyo, a'i fod yn fy nhŷb i, gwedi ei gymhwyso'n gyfaddas i bob un o'r ddau fath o Ddarllennyddion a fo'n deisyf yn ddiragrith gael bûdd amserol a dedwyddwch trag'wyddol iddynt eu hunain. Nid yw'r Duwiol-swyddau

* Llyfr. y Cymry, t. 200, 230, 291.

† Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 802.

Digitized by Google

yn y diwedd ronyn llai eu godidowgrwydd ac y mae'nt yn gymmorth Cyfaddas i wendid pob Dyn, ac yn Cyrraedd yn ddigon manwl at ein holl achosion arbennig, mae'r Darn cyntaf, ynghylch *gofalu am yr Enaid*, yn gwasanaethu yn lle *rhagymadrodd*, ac heb adael lle i mi ychwanegu dim ond fy ngweddiau at Dduw ar fod i'r Awdur a gymmerodd ofal i ddwyn y fath Elusen haelionus i'r *Corban cyn ddirgeled*, gael ei wobrwyo yn amlwg yn Ffrwythau Bûdd gweledig y gwaith yma at Galonnau yr holl wlad, yr hon ni bu arni Eirioed fwy o Eisieu'r fath gymmorthion ag a gynhwysir yma? Bod i'w gwbl-ddigonol Râs Ef fendithio'r Hâd a hauwyd a rhoddi cynnydd toreithiog yw ufuddaf ddeisyfiad

"Eich Ewyllysiwr da diragrith,

"H. HAMMOND.

"Mawrth 7. 1567."

Y trydydd gwaith o gyfieithiad a chyhoeddiad Edward Samuel oedd—

"Prif Ddledswyddau Christion. sef Angenrhaid a Mawrlles Gweddi Gyffredin a Mynych Gymmuno. A fwriadwyd er mwyn adnewyddu'r Duwioldeb oedd arferedig gynt ym mhlith y Prif Grist'nogion. O waith y Gwir Barchedig Dâd yn Nuw William Beveridge, D.D. diweddar Arglwydd Esgob Llanelwy. . . .

"Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch, tros yr Awdur. 1722." 16plyg.

Y mae 1723 ar ddalen enwol rhai copïau o'r gwaith hwn, o argraphiad Sion Rhydderch; ond yr un yn hollol yw'r ddalen enwol ymhob peth arall a'r copïau y mae 1722 wrthynt, ac y mae'n dra sicr mai yr un argraphiad oeddynt, ond bod yr argraphydd yn tybied, ond odid, y byddai'r copïau a werthid ddiweddaf yn fwy cymmeradwy trwy roi blwyddyn ddiweddarach wrthynt. Argraphwyd yr un cyfieithiad drachefn yn 1793, yng Nghaerlleon, gan John Fletcher, a chopi o'r argraphiad hwnw sydd genym ni. Y mae'r copi yma, fel y dywed y Parch. D. Silvan Evans fod y copi sydd ganddo yntau ag 1723 wrtho, "yn gwneuthur llyfr dyblyg; y cyntaf yn cynnwys 'Angenrhaid a Mawrlles Gweddi Gyffredin,' a'r olaf 'Angenrhaid a Mawrlles (a) Mynych Gymmuno.'"* Nid yw'r cyflwyniad "At yr Anrhydeddus Robert Price, Esq., un o Ddeuddeg Barnwyr Lloegr," o flaen y cyntaf o'r copi sydd genym ni; ond y mae "At yr Anrhydeddus Watkin Williams Wynne, Esq. o Wynnstay," o flaen yr ail. Cynnwys y cyntaf 134 o dudalenau, a chynnwys yr ail 218 o dudalenau, rhwng "Tair o Bregethau, y gyntaf o waith yr Archesgob Tillotson; y ddwy olaf o waith yr Esgob Beveridge," sydd yn ei ddiwedd. Ni ddywedir pwy oedd cyfieithydd y pregethau hyn. Y pedwerydd llyfr a gyfieithodd ac a gyhoeddodd E. Samuel oedd yr un canlynol:—

"Athrawiaeth yr Eglwys. Y Rhan Gyntaf. Yn cynnwys xii o Draethiadau Bucheddol, a'r amryw Achosion, Wedi eu casglu allan o Homiliau Etholedig Eglwys Loegr. A'u cyfansoddi mewn Dull Newydd, ac Araith Gyfaddas i'r amser, er llês i'r Cyffredin. Gan Peter Nourse, D.D. At yr hyn y 'chwanegwyd Gweddiau Boreuol a Phrydnhawnol i Deuluoedd. O Waith y Parchediccaf Dâd yn Nuw William Wake, D.D. Arglwydd Arch-Esgob Caergaint, neu Canterbury. A'u Cyfieithu gan E. S. Person Llangar.

"Argraphedig yn Ghaerlleon gan Roger Adams,† 1731." 16plyg.

"Mewn hyspysiad Seisnig ar ddiwedd y gwaith hwn," eb y Parch. D. Silvan Evans, "mynegir bod ail ran neu gyfrol i ymddangos yn dra ebrwydd; a chynghorid nas rhwymid mo'r rhan gyntaf nes ymddangos o'r ail, modd y gellid rhwymo'r ddwy ynghyd: ond nid yw debygol gael o'r gyfrol addawedig byth ei chyhoeddi."

Yr ail lyfr o waith Edw. Samuel ei hun yw—

"Pregeth ynghylch Gofalon Bydol a bregethwyd yn Eglwys Llangywer, ail Dydd o Fis Mai, 1720. Ar Gladdedigaeth Mr. Robert Wynne, diweddar Vicar Gwyddelwern. Gan E. S.

"Argraphedig yn Ghaerlleon gan Roger Adams, 1731." 16plyg.

Y trydydd llyfr o waith Edward Samuel, a'r olaf a gyfansoddwyd ganddo, oedd—

"Adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist wedi ei brofi, mewn Pregeth, a bregethwyd ar Ddydd Sul y Pasg. Gan y diweddar Barchedig Mr. Samuel o Langar. Argraphwyd tros William James."

* Llyfr. y Cymry, t. 330.

† Ymddengys bod yr argraphydd Cymreig trwsgl, ond hynod ddiwyd a gwladgar, SION RHYDDERCH, wedi marw erbyn hyn (1731), canys yr hanes ddiweddaf sydd am dano a geir mewn llythyr lled faith a ysgrifenodd at Lewis Morus o Fon, "Rhagfyr 1, 1729," o Lundain, yn yr hwn y dywed—"Yr wyf megis alltud yn y ddinas hon, yn ddiswydd ddifudd i mi fy hunan na neb arall, yr hyn sydd i'm digaloni'n ddirfawr; a gorfod arnaf fi o herwydd anfoddlonrwydd cartrefol, roddi llythyr ysgar i'm holl offerynau galwedigol, er nad oedd arnaf na chwyn na cholyn mewn modd yn y byd am gymmaint a cheiniog pan ddaethum o'r Amwythig, nac etto, i Dduw y bo'r diolch. A chan fy mod mor ansefydlog, nid oes ynwyf na chalon na chefn i ysgrifenu at neb o'm hen gymdeithion: ond digwyddodd i mi ddydd Gwener diwaetha fyned i ymweled â Mr. Thomas Williams, gweinidog Lewis y Crynwr, lle y tarewais wrth y cenhadwr hwn, sef Mr. Bulkely, yr hwn a addawodd gyflwyno hyn o lythyr yn ddiogel i'ch dwylaw. Fe fydd da gennyf glywed oddi wrthych pan fo oedfa yn caniattâu. Ac os darfu i chwi âg ysgrifen Sieffre [*Brut y Brenhinoedd*, gan Sieffre o Fynwy, yn ddïau, oedd hwn], trosglwyddwch hi i mi; yr wy'n llettya o fewn ychydig dai i Mr. Hugh Davies, y Crŷdd; os daw dim atto ef, mi fyddaf sicr o'i dderbyn" (*Gwyliedydd*, llyfr iv., t. 152).

Ni wyddys ddim beth oedd yr "anfoddlonrwydd cartrefol" a'i gyrodd o'r Mwythig i Lundain, na pha bryd y bu farw; ond y mae'n debyg i hyny ddigwydd, fel yr awgrymwyd, rywbryd rhwng 1729 ac 1731. Y mae teulu Sion Rhydderch hefyd, amser a lle ei enedigaeth, ynghyd â'r lle a'r amser y bu'n brentis o argraphydd (o bu'n brentis o gwbl), yn anhyspys. Y cyfeiriad cyntaf ato a welwn ni a geir mewn cyssylltiad âg argraphiad "Egwyddorion y Grefydd Gristionogol yn gynnwysedig mewn Catecism Byr," 1664, fel awdur pedwar englyn o "Fawl" i gyhoeddwyr y llyfr hwnw, wrth y rhai y mae "John Rhydderch a'i cânt." Pe na buasai ond 18 oed y pryd hwnw, ganesid ef yn 1646; ac os felly, yr oedd yn 73 oed pan yn ysgrifenu at Lewis Morus yn 1729 (Llyfr. y Cymry, t. 192). Argraphodd Sion Rhydderch lïaws o lyfrau Cymraeg tra gwerthfawr o'r flwyddyn 1716 hyd 1728 (Llyfr. y Cymry, t. 309–351). Y gwaith cyntaf a argraphwyd ganddo, hyd y gallwn ganfod, oedd hwn—"Llythyr at y cyfryw o'r Byd, ac sydd raid eu deffroi a'u cyfarwyddo, er lleshad a Budd tragwyddol eu Heneidieu. . . . Gan Garwr Eneidieu, &c. Wedi ei

Digitized by Google

"Ni ddywedir wrthym pa le yr argraphwyd y bregeth hon," medd y Parch. D. Silvan Evans; "ond y mae'n gyffelybol mai o wasg Stafford Prys, y Mwythig, yr ymddangosodd, yn y flwyddyn 1766, sef ymhen deunaw mlynedd wedi marw yr awdur."

Heb law bod Edward Samuel yn gyfieithydd uwchraddol, ac yn dduwinydd coeth, yr oedd efe hefyd yn fardd medrus yn y mesurau rhyddion a cheuthion. Y mae pump o ganiadau crefyddol lled faith o'i waith yn y *Blodeugerdd;** a dywed D. S. Evans fod "darnau prydyddol o'i waith yn

gyfieithu gan Iaco ab Dewi.—Printiedig yn y Mwythig, gan John Rhydderch, 1716" (Lyfr. y Cymry, t. 307). Dau lyfr a welwn o'i lafurwaith ef ei hun: y cyntaf yw—"The English and Welsh Dictionary: or, the English before the Welsh. Y Geirlyfr Saesneg a Chymraeg; Neu'r Saesneg o flaen y Cymraeg. . . . Salop: Printed and sold by the Author, John Roderick, 1725.—Argraphwyd yn y Mwythig, ac a werthir yno gan yr Awdwr, John Rhydderch. MDCCXXV." 8plyg bychan. Gwelir yma y tybiai *Rhydderch* mai *Roderick* oedd ei gyfenw cyfystyr yn Saesneg. Yr ail lyfr o'i gasgliad ef ei hun, a'r diweddaf a argraphodd, hyd y canfyddwn, oedd—"Grammadeg Cymraeg. . . . O Gasgliad, Myfyriad, ac Argraphiad John Rhydderch, ac ar werth ganddo ef yn y Mwythig. 1728." Y mae'r eglurhâd ar yr enw hwn yn llawn llonaid y tu dalen cyntaf, fel yr oedd yr arfer gyffredin yn yr oes honno. "Crynhodeb ydyw o Rammadeg y Dr. Sion Dafydd Rhys, gyd â rhai pethau ychwanegol," fel y dywed Gwilym Lleyn; wedi ei argraphu ar bapur sal, ac â llythyren salach, fel y rhan fwyaf o'r llyfrau a argraphwyd gan "Sion Rhydderch garbwl," chwedl Hirlas. Am y gwaith hwn, dywed Goronwy Owen fel hyn—"Dyma fy hen gyfaill anwylaf y Parch. Hugh Williams, (yn awr) Periglor Aberffraw ym Môn, wedi gyrru i mi Rammadeg Sion Rhydderch, i'm hyfforddio yn yr hen gelfyddyd. Nid yw y Grammadeg hwnnw (ê wyr Duw) ond un o'r fath waelaf, etto, y mae yn well na bod heb yr un, canys y mae ynddo engraffau o'r Pedwar Mesur a'r hugain, ac y mae hynny yn fwy nag a welsom erioed o'r blaen" [ysgrifenwyd hyn ar "Ionawr yr ail dydd, 1754."] "Disgwyl yr oeddwn weled rhyw odidawg ragoriaeth o gywreindeb gorchestol rhwng gwaith y beirdd o'r oesoedd diweddaraf, (sef Dafydd ab Gwilym ac eraill,) a gwaith trwsgl yr hen feirdd gynt, yn amser Taliesin, Llywarch Hen, Cynddelw, a'r cyffelyb, ond i'm mawr syndod, nid oedd hynny ond siomedigaeth."—*Gwaith Gr. Owen*, t. 235.

Ar ol Rhagymadrodd lled faith a doniol, gan yr awdur, y mae cywydd byr o waith Lewis Morys (Llywelyn Ddu o Fon), yr hwn yw'r dernyn prydyddol teilyngaf o gadwedigaeth o ddim a'r a welsom ni o brydyddiaeth y bardd gwamnal hwnw; a chan nad yw ond byr, a'r hen Rammadeg wedi myned weithian yn bur anhawdd ei gael, tueddir ni i'w gofnodi yma. Heleuthiad ydyw, gan mwyaf, ar y syniadau canlynol o waith Pope, yn ei "*Essay on Criticism*," a ysgrifenwyd yn 1709:—

"A *little learning* is a dang'rous thing;
Drink deep, or taste not the Pierian spring:
There shallow draughts intoxicate the brain,
And drinking largely sobers us again."

Dyma'r cywydd:—

"*Annerch i'r Prif-Fardd Cymreig Sion Rhydderch.*

"GWR i'ch Annerch a'ch Perchi,
Lewis (o Fôn Lwys) wyf i,
Aethus, gwael ym mysg Eithin.
Fal Tarw blwydd ar Fol tir blin,
A barus na chawn bori,
Tir Rhywiog'n chwannog fal chwi,
A myned i lawr Maenol
I bori dawn a berw Dôl;
Brefu'r wyf (na bwyf heb hon)
Oer Ofid! am yr Afon,
Afon ddofon hoywlon hir,
Gwiwled! a Dysg y gelwir,
Ar 'Yfo 'dwr arafedd,
Dyfn i Fael nid ofna Fedd;
Rhyfedd ei Rhinwedd (os rhaid)
'Oleu egyr ei Lygaid!
Profais ac a Yfais gynt,
O'i Dwr hoywliw, (da'r helynt;)
Gwelaf nad yw ond gwaeledd
I'm Min, ac fal Yfed Mêdd:
Fe chwŷd a yfo 'chydig,
Dan droi'n ddewr a dwndrio'n ddîg,
Ond yfed lloned Llannerch,
Fe sobra, (tro siccra serch,)
Rhoi fy mryd Ennyd union,
Ar Yfed ynnhynged yn hon,
Ac Yfed anarbed 'wnaf,
Naws Ebrwydd oni sobraf;
O Syched ys weled Sely,
Yn Cwyno am ddysg hoywddysg hy',
Pob Yfed rhag syched sydd;
Mae Gwin yn magu awenydd:
Trafod i Fardd nid rhyfedd,
Garu'n i fin Gwrw neu Fedd.

"*Yr Ardderchog dra Chelfyddgar Blanhigyn.*
"*Lewys Morrys a'i cant.*"

Dywed I. Foulkes am S. Rhydderch—"Yn 1745, cyhoeddodd drydydd argraphiad o'r 'Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol,' yr hwn a ddygwyd allan gyntaf gan Foulk Owen yn 1686. Yn yr argraphiad hwn, ceir amryw garolau, &c. o waith y cyhoeddwr ei hun" (En. Cymru, t. 884). Y mae braidd yn amheus a fu gan S. Rhydderch un llaw yn y gwaith hwn o gwbl. Casglwyd ef ar y dechrau gan "Ffoulke Owens," ac argraphwyd ef "yn Rydychan, 1686;" a barna Gwilym Lleyn mai gwaith "y casglydd ei hun" (Ff. Owens) yw'r ychydig ganiadau sydd heb enw awdur wrthynt. Ni cheir enw S. Rhydderch wrth yr un o'r caniadau sydd ynddo (Llyfr. y Cymry, t. 235). Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r "Llyfr Carolau" yn 1696, gan Thomas Jones; ond ni ddywedir ymha le (Llyfr. y Cymry, t. 258). Cyhoeddwyd y trydydd argraphiad o hono yn y Mwythig, yn 1720, gan T. Durston (Llyfr. y Cymry, t. 325); a chyhoeddwyd y pedwerydd argraphiad (os oedd hwn yn argraphiad newydd hefyd), gan yr un gŵr, yn 1745, ymhen tu a 17 flynedd ar ol i Sion Rhydderch farw (Llyfr. y Cymry, t. 401). Ymddengys y barn y Parch. D. S. Evans fod gan S. Rhydderch law yn yr argraphiad a gyhoeddwyd yn 1720, a elwir "y trydydd argraphiad," Llyfr. y Cymry, t. 401, y nodiad hwn [ ].

Yr unig ddarnau barddonol o'i waith, a welsom ni, yw saith englyn sydd ar ol cywydd "Lewys Morrys," o flaen y Grammadeg, fel "Annerch yr Jaith Gymraeg iw Chydwladwyr." Dyma'r ddau flaenaf:—

"At bob Haddgar gâr rhagorol, *Gymro*
Ac amrŵd Naturiol;
A 'wyllysia yn llesol,
(Eitha nerth) iw Jaith yn ôl.

"Mae'r Jaith ag Araith yn gyrru, Annerch
Mor union i GYMRU;
Mewn Trefn Enwog gaerog gu,
Hardd wisgiad i'w hir ddysgu."

Y darn barddonol arall o'i waith a welsom yw "Carol Plygain," sydd yn yr hen *Flodeugerdd*, 1759, t. 33; ac wele'r pennill blaenaf ac olaf ynddi:—

"POB cynnil pawb cenwch un fryd mewn hyfrydwch,
Hosanna hŷ seiniwch a llefwch yn llû;
O fawl ir oen Enwog, an Llywydd Galluog,
Trigarog Dywysog Duw Jesu.

"Os gofyn un prydydd pwy ganodd ar gynydd,
Er gwanned awenydd moes ufudd mae serch,
I [illegible] annerch a chaniad oi ddwyfron yn ddifrad,
Ywbwriad swyn rhoddiad *Sion Rhydderch.*"

Y mae'n amlwg bod Sion Rhydderch yn deall y gynghanedd yn burion; ond a oedd efe yn deilwng i gael ei ystyried yn "Brif-Fardd Cymreig," fel y geilw "Lewys Morrys" ef, sydd braidd yn amheus.

Heb law bod Sion Rhydderch yn argraphydd, llenor, a bardd, yr oedd efe hefyd yn Almanaciwr mawr yn ei ddydd. "Yr oedd *Almanaciau Sion Rhydderch* mor boblogaidd yr amser hwnw ag y bu *Amseroniau* Roberts o Gaergybi yn ystod y ganrif hon."—Williams's Em. Welshm., p. 442; En. Cymru, I. F., t. 884.

* Blodeugerdd, t. 27, 29, 301, 320, 367.

Digitized by Google

*Llu o Ganiadau*," a gyhoeddwyd yn 1798. Hefyd, y mae yn *Newisol Ganiadau yr Oes Hon* "Gywydd Marwnad Huw Morris y Prydydd" o'i waith, yn cynnwys 208 o linellau,* yn profi ei fod yn feistr galluog ar y cynghaneddion. Ar fyr, credwn nad oes un awdur o'r 18fed ganrif a wnaeth fwy, os cymmaint, er coethi a dyrchafu llenyddiaeth dduwinyddol y Cymry a'r ENWOG EDWARD SAMUEL.

---

## PENNOD IX.

### PHYLIP PUW, VAVASOR GRUFFYDD, MATTHIAS MORUS, A S. THOMAS.

### PHYLIP PUW.

YCHYDIG sydd o hanes y pregethwr enwog a thanllyd yma ar gael, fel llawer o'i gydoeswyr, cystal a'i gynoeswyr. Ganwyd Phylip Puw (ffurf Seisnig enw yr hwn yw *Phillip Pugh*) yn ardal Llangeitho, sir Aberteifi, yn 1679. Bu yn myfyrio dros rai blynyddau yn ysgol yr enwog Samuel Jones, o Frynllywarch;† ond y mae'n debyg mai yng Ngholeg Abergefeni, dan Roger Gruffydd, olynydd S. Jones, y gorphenodd efe ei addysg. Wedi gorphen tymmor ei addysg, yn ol y ddefod, dychwelodd i'w fro enedigol. Wedi bod yn pregethu yno dros rai blynyddau gyd â chymmeradwyaeth gyffredinol, ordeiniwyd ef yn Hydref, 1709, pan yn 30 oed, fel cyd-fugail Dafydd Edwards a Jenkin Jones yn eglwysi Ciliau Aeron, Cilgwyn, Cae-yr-Onnen, Llwyn-y-Pïod, Blaen-Pennal, ac Aber-Meurig, *chwech*,‡ nid "*pump*, o eglwysi Annibynol cryfion," yn cynnwys "cydrhyngddynt fil o aelodau."§ O herwydd hyn, y mae'n debyg, y gelwir ef "yr apostolaidd Phillip Pugh," ac nid am ei fod yn *bregethwr teithiol*, fel yr apostolion, amryw o'r rhai a bregethasant i fwy o deyrnasoedd na nifer yr eglwysi y pregethai Phylip Puw iddynt. Ymddengys y llafuriodd yn y cylch bychan hwnw yn bur egnïol a llwyddiannus, a'i fod yn dra chymmeradwy gan ei wrandawyr dros yr yspaid maith o 51 mlynedd, ac y byddai weithiau yn tori dros derfynau y chwech eglwys, canys dywed D. Morgan yr "arferai deithio weithiau trwy ranau o'r Deheudir, ac unwaith trwy ranau o'r Gogledd. Cydnabyddai law yr Arglwydd yn ei gadw ymheryglon y daith, yn rhoddi iddo fesur

* Dewisol Ganiadau, argr. Merthyr, 1827, t. 73.
† Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xxi.
‡ Gwel Jenkin Jones, pen. x. o'r llyfr hwn.
§ Hanes Ymneillduaeth, t. 150; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 490.

o gynnorthwyon i fod yn ddefnyddiol, ac am y caredigrwydd a dderbyniodd oddi wrth gyfeillion. Medrai droi pob peth a'i cyfarfyddai fel hyn yn ddefnyddiau meddyliol, ac yn destynau mawl a gweddi ger bron Duw. Yr oedd fel pe buasai wedi ei lyngcu i fynu mewn nefolrwydd ac ysprydolrwydd meddwl cyn diwedd ei oes, ac ymddieithrio yn hollol oddi wrth y byd hwn a'i bethau."* "Cofnoda," medd awdur llafurus *Hanes Ymneillduaeth* (wrth law yr hwn yr oedd rhanau helaeth o Ddyddlyfr Puw, heb law llyfr eglwys Cilgwyn), "ei fod wedi bedyddio 680 o blant o'r flwyddyn 1709 hyd 1760, yr hyn sydd yn hynod, ac ystyried rhagfarn gyffredinol y wlad yn erbyn Ymneillduaeth yn yr oes honno, a dengys hefyd ei fod yn barchus iawn gan ei frodyr;"† a dylid ystyried hefyd, fel y sylwa'r Dr. T. Rees, nad oedd efe ond un o dri o weinidogion y chwech eglwys.‡ Dengys y difyniadau o'i Ddyddlyfr ei fod yn ŵr o feddwl tra duwiolfrydig a difrifol, a bod holl feddylfryd ei galon ar achub ei wrandawyr. Ar y 15fed o Fai, 1743, ysgrifenodd fel hyn:—

"Yn y Cilgwyn heddyw, cyn i mi ddechrau pregethu, dyrchefais fy meddwl mewn gweddi at Dduw, ar fod rhywair yn dyfod yn nerthol i'm meddwl er cynhaliaeth a nerth i mi fyned trwy y gwaith. Cyfeiriwyd fy meddwl at yr addewid werthfawr sydd ym Matthew, 'Wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.' Teimlais yn y fan megis pe buasai nerth dwyfol yn dyfod i'm meddwl, a'r geiriau hyny yn rhedeg trwy fy nghalon, 'Nac ofna, yr ydwyf fi gyd â thi.' Cefais rwyddineb mawr i draddodi geiriau y bywyd tragywyddol i'm cydddynion. Y mae fy ngweddi arnat ti, O Arglwydd, am i ti fy nghadw yn barhaus i ddisgwyl yn hireuthlawn wrthyt ti am bob cynnorthwyon ysprydol trwy Iesu Grist, fy Ngwaredwr mawr, ac nas gadawer fi byth i ymddiried yn y cnawd. Nid wyf yn teimlo y filfed ran o'r hyn a ddylwn deimlo dros iachawdwriaeth fy nghyd-ddynion. Am hyny, yr wyf yn gweddïo arnat ti, O Arglwydd, ar fod y peth hwn yn cael mwy o le yn fy meddwl, fel y delwyf i deimlo yn ddwysach dros eraill, a'th fod yn gwneud mwy o ddefnydd o honof yn barhaus i fod yn fwy o wir lesâd i eneidiau pechaduriaid, ac na'm gadawer yn ddiddefnydd tra byddwyf byw ar y ddeuar."§

Gellir casglu oddi wrth y difyniad canlynol mai ei ddull o bregethu, yn gyffredin o leiaf, oedd y tanllyd, y cyffrous, y bygythiol, a'r difrifol, ac mai efe a gymmerth Daniel Rowlands, Llangeitho, yn gynllun i bregethu:—

"Yn ol un adroddiad, dywedir mai'r peth cyntaf a ddeddodd i'w ddeffro [sef D. Rowlands] o'i gwsg ysprydol, oedd canfod leied y nifer oedd yn dyfod i'w wrando yn

* Han. Ymneillduaeth, t. 153–4.
† Han. Ymneillduaeth, t. 150.
‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 342.
§ Han. Ymneillduaeth, t. 151.—Cyfieithiad Morgan ydyw y difyniad yma ac eraill o Ddyddlyfr Phylip Puw, canys yn Groeg, Lladin, neu Saesneg yr ysgrifenai efe ei Ddyddlyfr (Han. Ymneillduaeth, t. 150); o herwydd paham, cymmerasom ein rhyddid i newid ychydig ar y geiriad pan farnem hyny yn orau.

Digitized by Google

Llangeitho: er cystal, yn ei dyb ei hun, yr ymdrechai bregethu, bod y bobl yn ei adael, yn myned i wrando gweinidog Ymneilduol, sef y Parchedig Phylip Puw, yr hwn oedd ŵr difrifol, duwiol, a llafurus, yn ardal Blaenpennal, ger llaw Llangeitho. Wedi deall bod gweinidogaeth y gŵr da hwnw yn tueddu i gyffrôi y rhai diofal, trwy ddangos iddynt fawr ddrwg pechod, ac enbydrwydd ei ganlyniadau, ac yr arferai daer annog ei wrandawyr i ffoi rhag y llid a fydd, penderfynodd y ceisiai yntau bregethu yn yr un modd, a gwneud prawf o'i effeithiau. I'r amcan hwn, dewisai y testynau mwyaf cyfaddas y gallai feddwl am danynt, megis y rhai canlynol:—'Yr annuwiolion a ymchwelant i uffern;' 'Daeth dydd mawr ei ddigter Ef;' 'Y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol;' ac oddi wrth y rhai hyn a'u cyffelyb ymdrechai osod allan y cyfryw wirioneddau a dueddent i gyffrôi ei wrandawyr, i weithio allan eu hiachawdwriaeth trwy ofn a dychryn, i brynu yr amser, ac i ymbarotoi erbyn tragywyddoldeb. Llwyddodd y cynllun ymhell tu hwnt i'w ddisgwyliad: daeth y bobl yn lluoedd i'w wrando, a deffrôwyd llawer dan ei weinidogaeth." *

Dengys y difyniad canlynol o Ddyddlyfr Phylip Puw, y cyfarfu â phrofedigeuthau teuluaidd trymion a llymion iawn yn ei hen ddyddiau, er ymhell cyn ei farw, ond yr ymostyngai yn dduwiolfrydig ac edifarus dan geryddol law ei Greawdwr, gan briodoli y cwbl i'w ddiffygion ei hun. Ar y 13ydd o Orphenaf, 1744, ysgrifenodd fel hyn:—

"Yr wyf heddyw yn edrych arnaf fy hun fel dŷn unig, wedi fy ngadael yn yr anialwch wrthyf fy hunan. Y mae fy ngyfeillion a'm perthynasau anwyl yn ol y cnawd wedi fy ngadael, gan fyned i ffordd yr holl ddeuar o'm blaen. Yr ydym yn pechu bendithion penaf y byd hwn yn fynych o'n meddiant, ac yn eu gwneud yn achos gofid trwy eu camddefnyddio. Pechais ymaith fy holl berthynasau anwyl a mwyaf hoffus genyf ar y ddeuar. Nid oes genyf weithian na thad na mam, na phriod nac un plentyn i ymlawenhau ynddynt, i obeithio am un cysur oddi wrthynt, nac i ofidio yn eu cylch. Y mae arnaf ofn, tra'r oeddwn yn meddu y rhai hyn oll, fy mod ryw fodd wedi camymddwyn tu ag atynt, trwy osod fy meddwl yn ormodol arnynt hwy a'u hachosion, neu yn fwy pryderus yn eu cylch hwy nag am adnabod cariad fy Nuw yng Nghrist, a llwyddiant ei achos yn y byd. Ond er bod y diferynau o gysuron oll wedi sychu i fynu, etto y mae ffynnon fy nghysuron heb sychu na lleihau. Y mae fy ngweddi atat ti, O Arglwydd! ar i ti o'th drugaredd, trwy Iesu Grist, faddau yr aml gamweddau a wneuthum yn dy erbyn di, a thu ag at fy mherthynasau ymadawedig; ac ar i ti, O fy Nuw! fy ngwneud yn ffyddlawn i wneuthur a dywedyd drosot yn y byd, heb geisio rhyngu bodd dynion, nac ofni eu hanfoddlonrwydd chwaith. Fy nymuniad a'm gweddi ydyw, na byddo genyf wrthrych ar y ddeuar mwyach i osod fy meddwl arno ond fy Nuw, fy Nghrist, a'i bethau tragywyddol. Efe yw pob peth, ac ymhob peth, ac yn lle pob peth er fy nedwyddwch a'm cysur; o blegid y mae efe ei hun yn hollddigonol i lenwi lle pob perthynas. Am hyny bydded fy nghwbl o hono, a'm cwbl arno, a'm cwbl iddo, tra y byddwyf byw yn y byd, ac yn dragywydd. Amen." †

Pwy, yn meddu y radd leiaf o ystyriaeth ddifrifol am wagedd y byd hwn a'i bethau gorau, ac am bwys anfeidrol y byd tragywyddol, na ddymunai o eigion calon am feddu graddau helaeth o yspryd duwiol, addfwyn, ac ymostyngar y dŷn enwog yma! Preswyliodd Phylip Puw dros y rhan fwyaf o'i oes ym Mhengwern, plwyf Llanfair-Cludogau, ac yr oedd yn perchen etifeddiaeth dirol lled ehang. Bu farw yn y flwyddyn 1760, wedi cyrraedd yr oedran teg o 81 mlynedd.

Er bod Phylip Puw yn Annibynwr egwyddorol a chydwybodol, gyd â golwg ar drefn eglwys, a'i fod yn dra zelog dros y drefn honno, fel yr unig un a welai yn y Testament Newydd; etto yr oedd dymuno llwyddiant pawb a bregethai yr athrawiaeth a farnai efe ei bod yn ol duwioldeb, am yr hwn yr dywed awdur *Hanes Ymneillduaeth* ymhellach fel hyn:—

"Y mae'n eglur oddi wrth ei holl ysgrifeniadau ei fod yn wresog iawn ei enaid dros yr athrawiaeth o ras Duw yn hollol ynghadwedigaeth pechaduriaid yng Nghrist Iesu; o ganlyniad, teimlai ofid dwys iawn yn ei feddwl, ryw yspaid o amser cyn ei farwolaeth, am fod cynnifer o'i frodyr yn y weinidogaeth, a'r eglwysi yn y gymmydogaeth, yn suddo i Arminiaeth, Ariaeth, a Sosiniaeth, dan enw 'y cynllun newydd o bregethu.' Hefyd, pan oedd wedi myned ymhell mewn dyddiau, a gwendid corph a meddwl wedi ei oddiweddyd, torodd y diwygiad allan, megis y dywedir, yn Llangeitho, yn ymyl Llwyn-y-Pïod, a doniau newyddion y Trefnyddion megis rhyw lifeiriant cryf, gan ysgubo poppeth o'i flaen. Er y gallai Mr. Puw lawenychu yn y daioni oeddynt yn ei wneuthur, a'r daioni oeddynt yn debyg o'i wneuthur trwy y wlad; etto nid oedd heb weled llawer o bethau anhrefnus ac anysgrythyrol iawn yn eu hymddygiadau y pryd hwnw. Ni allai lai na theimlo o herwydd bod rhai o honynt yn annog, yn cefnogi, ac yn ymdrechu dwyn y bobl i ymadael âg ef, a'u dwyn atynt hwy, pan yr oedd wedi llafurio cyhyd o amser yn eu plith, ac yn fendithiol i eneidiau ugeiniau o'r rhai a fedrent yn awr ei ddibrisio gyd â diystyrwch. Nid oedd heb weled y byddai i ffrwyth ei lafur, mewn ystyr, i raddau helaeth, gael ei feddiannu gan y Trefnyddion, ar ol ei ddyddiau ef, os nad cyn hyny. Y mae'n wybyddus i lawer yn bresennol eu bod wedi meddiannu capel Llwyn-y-Pïod ac Abermeurig, lle y bu efe yn llafurio am hanner can mlynedd." ‡

Er nad oedd yr hen bererin gweithgar ac effro, Phylip Puw, yn ei amser gorau, heb ei wendidau, yn enwedig gwendidau sectyddol; etto y mae ei holl hanes yn dangos y bu efe yn weithiwr difefl mewn un cwr o winllan ei Arglwydd, a'i fod yn wir deilwng o gael ei restru ym mysg "Enwogion y Ffydd."

### VAVASOR GRUFFYDD.

Yn y Maes-Gwyn, sir Faesyfed, y ganwyd y gŵr enwog yma; ond nid yw amser ei enedigaeth yntau, hyd y gwyddom ni, wedi ei gofnodi. Cafodd ei addysg athrofaol yn athrofa glodfawr Samuel Jones, yn Tewkesbury, ac urddwyd ef yn weinidog yr eglwys Annibynol yn y Maes-Gwyn ryw bryd rhwng 1714 ac 1725; a bu'n llafurio yno, ac

* Cofiant D. Rowlands, gan M. Davies, Bangor, t. 6.

† Han. Ymneillduaeth, t. 153

‡ Han. Ymneillduaeth, t. 153.

mewn amryw leoedd eraill yn sir Faesyfed, hyd ei farwolaeth yn 1741.

Yn 1733, ar farwolaeth Thomas Perrot, athraw yr athrofa yng Nghaerfyrddin, fel y gwelsom uchod, pennodwyd V. Gruffydd i fod yn athraw y sefydliad. Gwrthododd ef fyned i Gaerfyrddin, am y barnai y byddai yn well ar les y myfyrwyr i'r athrofa gael ei chadw yn y wlad, rhag eu bod yn agored i hudolieuthau y dref. Yn wyneb hyny, penderfynodd y Bwrdd Henadurol a'r Bwrdd Cynnulleidfaol yn Llundain i'r athrofa gael ei symmud at yr athraw. Bu'n cael ei chadw dros dymmor yn Llwyn-Llwyd, tŷ Mr. Prys, gweinidog Maes-yr-Onnen. Bu'r athrofa yn cael ei chadw mewn tri neu bedwar o annedd-dai yn ystod y saith mlynadd y bu dan arweiniad Vavasor Gruffydd.

Yr oedd Mr. Gruffydd yn un o'r ysgolheigion gorau, ac yn un o'r dynion duwiolaf yn ei oes. Ysgrifenodd Edmund Jones, Pont-y-Pŵl, yn 1742, ymhen tu a blwyddyn ar ol marwolaeth V. Gruffydd, mai un o'r dynion gorau a adnabu efe erioed ydoedd, ac na ddisgwyliai gyfarfod ei well nes ei fyned i'r nefoedd. Yr oedd yn athraw o radd uchel, ac yn llywodreuthu y myfyrwyr gyd â gofal a llymder. Dichon ei fod yn arfer mwy o lymder nag a wnelsai, oni buasai fod tynerwch eithafol ei ragfleunor, T. Perrot, wedi bod yn achlysur i'r myfyrwyr ymollwng i gyfeiliornadau blinion mewn barn a buchedd. Cafodd yr athrofa ac Annibynwyr Cymru golled drom ymarwolaeth y gŵr enwog hwn.*

### MATTHIAS MORUS.

Dull cyfenw y gŵr enwog hwn yn Saesneg yw *Maurice*. Ganwyd ef yn ymhlwyf Llanddewi-y-Felffre, ger llaw Narberth, sir Benfro, yn 1684. Dilledydd (*tailor*) oedd ei dad, a dygwyd yntau i fynu yn yr un gelfyddyd; a dywed Morgan y "bu yn dilyn ei waith am beth amser."† Ni wyddys ddim am ei hynafiaid; ond dywedir bod ei rieni yn rhai "addfwyn a duwiol," ac wedi ei ddwyn yntau i fynu yn grefyddol.‡ Dywedir yr ymunodd â'g eglwys Henllan, ymhlwyf Henllan-Amgoed, pan yn ieuangc; ac wrth ganfod ei fod ym meddu doniau a thalentau uwch law y cyffredin, annogwyd ef yn lled fuan ar ol ei ymuniad â'r eglwys i ddechrau pregethu. Ymhen rhyw ennyd wedyn, ymddengys iddo gael ei anfon rywfodd i athrofa Caerfyrddin, yr hon oedd ar y pryd dan olygiad y Parch. William Evans.§ Dywedir ei fod yn yr athrofa pan dorodd y ddadl fawr allan yn eglwys Henllan yn 1709, ynghylch athrawiaeth a disgyblaeth eglwysig. Yr oedd efe ar y pryd tu a 25 oed; ond bernir na chymmerth efe ran yn y ddadl y pryd hwnw: eithr yn lled fuan wedyn, cymmerodd efe ran arbenig ynddi. O herwydd hyny, credwn y bydd hanes y ddadl honno yn gymmeradwy gan ein darllenwyr. Fel hyn y dywed awdur *Hanes Ymneillduaeth* am dani:—

"Testyn y ddadl oedd ynghylch athrawiaeth a disgyblaeth eglwysig. Dylem sylwi mai Henaduriaeth oedd eglwys Henllan y pryd hwnw o ran ei chyfansoddiad, fel y rhan amlaf, os nid yr holl eglwysi a sefydlwyd gan Mr. [Stephen] Hughes, ynghyd â llawer o'r rhai a sefydlwyd gan y gweinidogion a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig. Er na osodwyd Henaduriaeth erioed i fynu yn gyflawn yn ei chynllun a'i threfniadau yn Lloegr, a llawer llai felly yng Nghymru, etto yr oedd ynghyfansoddiad yr eglwysi gydnabyddiaeth o'r egwyddorion hyny, trwy eu bod yn ystyried bod llywodreuthiad yr eglwys yn hollol yn llaw rhyw rai o honi, a bod penderfyniad pob peth i fod mewn cynghorfa o honynt hwy, ac nid mewn un eglwys neillduol trwy bleidlais ei haelodau. Yr oedd yn rhaid i'r fath gyfansoddiad eglwysig effeithio, nid yn unig ar bwngc y ddisgyblaeth, ond hefyd ar yr athrawieuthau a bregethid, o blegid amddifadid y bobl, trwy henaduriaeth, o'u rhyddid i farnu pa athrawiaeth a wrandawent; ond rhwymid hwy i wrando a derbyn yr hon a drefnid iddynt gan yr henuriaid.

"Dechreuodd y ddadl yn Henllan ynghylch y 'pum pwngc,' fel y gelwir hwy, y rhai a gynhwysant y gwahaniaeth rhwng Arminiaeth a Chalfiniaeth. Dygai rhai o'r aelodau gŵyn yn erbyn y gweinidog, ac amryw o'r aelodau eraill oeddynt o'r un golygiadau ag ef, nad oeddynt o'r un farn am y pyngciau hyny a sylfaenwyr yr eglwys, a'u bod wedi myned yn fusgrell iawn gyd â'r ddisgyblaeth. Bob yn ychydig, fel yr oedd yr ymryson yn mwyhau, aethpwyd i ddadlau pwy oedd i farnu y pethau hyn; pa un ai yr henuriaid yn unig, ynte a oedd gan yr aelodau cyffredin lais hefyd. Y rhai a flaenorent yn y ddadl yn erbyn y gweinidog|| a'i bleidwyr [y rhai a bleidient Bresbyteriaeth] oedd Lewis Thomas, Bwlch-y-Sais; Henry Palmer, Llwyn-Dyrysni; a Matthias Morus. Yr oedd eu pleidwyr hefyd yn dra lliosog. Yr oeddynt yn ddynion duwiol, syml, a brwdfrydig yn eu crefydd. Yr oedd ganddynt ddylanwad mawr yn yr eglwys, ac yr oeddynt yn dra phenderfynol gyd â'r hyn yr ymaflent ynddo. Tystient mai eu hamcan ynghyfodiad y ddadl oedd adfer yr athrawiaeth i'w phurdeb, a dwyn y ddisgyblaeth i ymarferiad manwl yn yr eglwys. Y canlyniad a fu i eraill eu gwrthsefyll, a gwadu eu hawl i ymyraeth dim â'r pethau hyn. Dechreuasant ddrwgdybio eu gilydd, ymddieithrio oddi wrth eu gilydd, a phregethu yn erbyn eu gilydd, nes oedd eu teimladau wedi chwerwi yn fawr at y naill y llall. Cynnaliasant lawer o gyfarfodydd gartref ac mewn manau amgylchynol i ymdrin â'r achos; ond nid oedd dim yn tycio er eu dwyn i undeb a heddwch, a'r canlyniad a fu i'r rhai a ymosodai yn erbyn yr eglwys encilio oddi yno, ac adeiladu addoldy yn Rhyd-y-Ceisiaid." ¶

Dywed y Dr. T. Rees yr ymddengys y bu dau

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 531-2.
† Han. Ymneillduaeth, t. 391. ‡ Seren Gomer, cyf. v., t. 97.
§ Yr un lle; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 346.
|| Dafydd John Owen, brawd yr enwog James Owen.
¶ Han. Ymneillduaeth, t. 389-90.

Digitized by Google

Henllan yn dal yn dyn at olygiadau Calfinaidd, ac yn pendant wadu y cyhuddiad a ddygid yn eu herbyn o fod yn ddiofal am burdeb disgyblaeth. Y mae'n ddigon amlwg fod y pleidiau yn y ddadl dan sylw, fel y bydd yn gyffredin ymhob anghydfod, yn rhoddi y lliw gweuthaf ar ymddygiadau a geiriau eu gilydd.

Ymddengys y bu eglwys Annibynol Rhyd-y-Ceisiaid yn bur llwyddiannus yn ystod yr amser byr y bu M. Morus yn pregethu yno gyd â Lewis Thomas. Dywed un o'i fywgraphwyr* y llwyddodd efe, yn 1712, i sefydlu eglwys Annibynol yn Glyndwr, yr hon sy'n para fyth, cystal a Rhyd-y-Ceisiaid, ac yn dra llïosog. Bu ei ddoniau a'i lwyddiant yn achlysur i fagu eiddigedd, cynfigen, a brad yn ei elynion crefyddol, ac ni orphwysasant nes cael gwared o hono. Fel yr oedd efe yn myned un diwrnod ar neges i Hwlffordd, llwyddodd ei fradwyr i'w draddodi i ddwylaw y ddirgnud *(press-gang)*, y rhai a'i cludasant mewn llong ryfel o gyffiniau sir Benfro i rywle ar afon Llundain. Wedi cyrraedd yno, ysgrifenodd at un o weinidogion y brifddinas i'w hyspysu o'i sefyllfa adfydus. Trwy ddylanwad y gweinidog hwnw gyd â rhai o awdurdod yn y Llywodraeth, rhyddhawyd ef; ac wedi cael boddlonrwydd am ei gymmwysderau fel pregethwr, cymmeradwywyd ef i'r eglwys Annibynol yn Olney, sir Buckingham, a llafuriodd yno yn dra chymmeradwy am tu a blwyddyn a hanner. Ym mis Tachwedd, 1714, derbyniodd wahoddiad oddi wrth yr eglwys Annibynol oedd yn Rowel, sir Northampton, i fod yn olynydd i'r Cymro clodwiw, Richard Davies, gŵr genedigol o sir Aberteifi. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar y 6ed o Ionawr, 1715, i'w gydnabod fel gweinidog. Barnai Matthias Morus mai o'u plith eu hunain y dylai eglwysi edrych allan am weinidogion; a chyn y gall eglwys roi galwad i unrhyw ddŷn dïeithr, y dylai ei dderbyn yn gyntaf, trwy lythyr, yn aelod o honi. Yr oedd yr eglwys yn Rowel, fel eglwysi Annibynol yn gyffredin, yr un farn a M. Morus am hyny; ond bu tipyn o benbleth arno i gael gollyngdod rheolaidd. Gwrthodai yr eglwys yn Olney roddi llythyr gollyngdod iddo, o blegid nad oedd am ymadael âg ef; ac ymddangosai yn anhawdd i eglwys Rhyd-y-Ceisiaid wneuthur, o blegid yr oedd honno wedi rhoi gollyngdod iddo i Olney yn flaenorol. Pa wedd bynag, nid oedd gan yr eglwys yn Rowel ddim i'w wneud yn ei chyfyngder ond troi at eglwys Rhyd-y-Ceisiaid, ac welo yn canlyn y llythyr a dderbyniodd:—

"Yr ydym ni yn caniatâu eich dymuniad i chwi ar yr ammod hwn, sef bod y gollyngdod a roddasom ni o'r blaen i gael ei anfon yn ol i ni, neu i gael ei ddinystrio, ynghyd â hanes byr oddi wrth bobl Olney, i'n hyspysu pa fodd y mae pethau wedi digwydd fel y maent; a hefyd, llythyr oddi wrthych chwi yn rhoddi hanes ei dderbyniad rheolaidd i'ch plith: felly yr ydym yn myned rhagom:—Yr ydym ni, eglwys Crist, cynnulledig er cynnal addoliad cyhoeddus yn Rhyd-y-Ceisiaid, yn unfrydol yn caniatâu ac yn rhoddi gollyngdod cyflawn i'n brawd Matthias Maurice, yn ol ei ddymuniad duwiol, i gael ei dderbyn genych chwi; ac ymddygwch tu ag ato fel aelod i Grist. Byddwch wych.

"Lewis Thomas, Gweinidog.
"Henry Palmer, William Jones, a David Rees."

Ystyriai Matthias Morus hefyd nad oedd urddiad yn ddim ychwaneg na gwaith eglwys yn dewis dŷn a farnent hwy yn gymmwys i bregethu a gweinyddu yr ordinhadau, ac nad yw dŷn yn weinidog mewn un man ond yn unig yn yr eglwys a'i dewiso. Dywedir y cafodd M. Morus brofedigeuthau mawrion oddi wrth rodiad anweddus rhai o aelodau yr eglwys y perthynai efe iddi, ac y cafodd wrthwynebiadau lawer gan rai a heuent y cyfeiliornad yma, sef "Nad yw ddyledus ar bechadur anedifeiriol gredu yng Nghrist." Dywedir mai pen bleunor y blaid hon oedd un o'i eglwys ef ei hun, ac y cyhoeddwyd rhai llyfrau ar y ddadl o bob ochr; ac er ei fod ef yn amddiffynwr gwresog i athrawiaeth *rhad ras* yr efengyl, etto nas goddefai *benrhyddid*, gan y taniai ei enaid ynddo pan welai neb yn cymmeryd crefydd megis mantell dros fuchedd anfoesol.

Bu'n briod ddwywaith. Enw ei wraig gyntaf oedd Elizabeth Humphreys, a bu iddynt lawer o blant, y rhai a fuant feirw oll yn eu babandod. Ei ail wraig oedd Elizabeth Buck, o Saffron Walden, Essex, a bu iddynt dri mab ac un ferch. Dyna gymmaint o'i hanes deuluaidd a'r a welsom ni. Bu'n gwasaneuthu eglwys Rowel gyd â ffyddlondeb a llwyddiant, er y profedigeuthau a nodwyd, dros 24 blynedd. Bu farw ar y 1af o Fedi, 1738, yn y 54edd flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef dan fwrdd y cymmun yng nghapel yr eglwys yn Rowel, lle hefyd y gorwedd ei ail wraig.

Er iddo gael ei symmud mewn modd hynod, fel y gwelsom, o wlad ei enedigaeth, ac iddo dreulio bron ei holl yrfa gyhoeddus mewn gwlad estronol, yr oedd dedwyddwch a llwyddiant ei gydgenedl yn agos at ei galon ar hyd ei oes fer a llafurus, fel y prawf yr amryw lyfrau a ysgrifen-

* Seren Gomer, cyf. v., t. 97.

odd yn eu hiaith; ïe, a rhai o honynt ymhen ugain mlynedd o'i ymdaith yng ngwlad estron. Yr oedd yn ŵr o athrylith anghyffredin, yn ysgolhaig gwych, ac yn bregethwr o'r fath ffyddlonaf a mwyaf egnïol. Ysgrifenodd yr enwog Thomas Bradbury am dano mewn rhagymadrodd i un o'i lyfrau, a gyhoeddwyd ar ol iddo farw, fel hyn:—"Yr oedd awdur y llyfr hwn yn ŵr o'r fath ddysgeidiaeth, tymmer, a duwioldeb ag a'i gwnaeth ef yn anwyl dros ben i mi ar hyd ei oes."

Ysgrifenodd M. Morus amryw lyfrau yn Gymraeg a Saesneg. Wele restr o'i lyfrau Cymraeg:—

1. "Y Athrawiaeth yn ol Duwioldeb, Gwedi ei Seilio ar Sanctaidd Scrythyrau'r Gwirionedd; ac yn gyttunol à rhan athrawiaethol Erthyglau a Chyfaddefiadau Protestanaidd. Att'r hyn y chwanegwyd, Byr Hanes o Drefn Eglwys'r Efengyl yn ol y Scrythyrau. Gan Isaac Chauncy, M.A. A chwedi ei Gyfieithu i'r Gymraeg gan Matthias Maurice, er Cynnydd Gwybodaeth, a Dyrchafiad Cyfiawnder, Cariad, ac Efengyl Iessu Ghrist ym Marn a Bywyd ei Frodyr a'i Gid-Wladwyr Anwyl y Cymru.

"Argraphwyd yn Llundain i'r Cyfieithydd, gan Edm. Powell, yn Black-friars, yn agos i Ludgate. 1711."

2. "Cywir a Phrydlon. Gan Mathias Morice."

"Cywir a *Ffyddlon*, *i.e.* Sincere and *Faithful*, 1820," ydyw gan y Dr. Rees;* ond "Cywir a *Phrydlon*" ydyw gan Gwilym Lleyn,† a gwyddys ei fod ef yn bur ofalus wrth ddifynu enwau llyfrau, gan eu dodi air a llythyren fel y caffai hwynt yn argraphedig, a dïau mai hyny sydd gywir. Ymddengys nad yw y flwyddyn yr argraphwyd y llyfr ar yr enwad-ddalen; ond yn y flwyddyn 1720 y dyry Gwilym Lleyn ef fel y Dr. Rees.

3. "Y Wir Eglwys," &c. Dodwyd enw'r llyfr hwn yn gyflawn yn t. 32, nod ‡.

4. "Eglurhad Athrawiaeth Dioddefaint Crist. Mewn tair Pregeth. Gan enwog wasanaethwr Crist Mr. Thomas Bradbury. O Gyfieithiad Matthias Maurice. Argraphwyd yn Llundain, 1733."

5. "Byr Hyfforddiad yn Addoliad Duw, a Discyblaeth Eglwysi y Testament Newydd. Gan y Duwiol wr Mawr ei ddysc Doctor John Owen. O Gyfieithiad Matthias Maurice. Argraphwyd yn Llundain, 1734."

Ei lyfrau Seisnig, yn ol y Dr. T. Rees, yw y rhai canlynol:—

1. "The Work of the Spirit in Prayer, 1725."
2. "The manner of Baptizing with Water cleared up, in a plain, free debate, 1726."
3. "Faith encouraged."
4. "Plunging into Water no Spiritual Mode of Baptism, or Mr. Gill fairly answered; and Baptizing with Water defended, 1727."
5. "Faith working by Love, 1718."
6. "Monuments of Mercy, 1729."
7. "The Tribes of the Lord appearing before Him, 1735."
8. "The Modern Question modestly stated, viz. That the Eternal God does, by his Holy Word, make it the duty of poor unconverted sinners, who hear the Gospel, to believe, 1737."
9. "The Modern Question confirmed and proved, 1739."*
10. "Social Religion Exemplified, in an Account of the first Settlement of Christianity in the City of Caerludd. By Matthias Maurice. London, 1759."

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 335-6.
† Llyfr. y Cymry, t. 324.

Enwad-ddalen y trydydd argraphiad ydyw hwnyna. Dywed y Dr. T. Rees fod y gwaith hwn "yn anfarwol." Cyhoeddwyd ef yn rhanau rhwng 1738 (blwyddyn y bu'r awdur enwog farw, fel y gwelsom) ac 1740. Cyhoeddwyd ail argraphiad o hono yn 1750, a thrydydd yn 1759. Yn 1786, cyhoeddwyd talfyriad o hono gan y Dr. Edward Williams, o Rotherham, yr hwn a wnaeth amryw sylwadau yngodrau'r dail. Cyhoeddwyd argraphiad cyflawn o hono (y pedwerydd) tu a dechrau'r ganrif bresennol, yn Colchester, heb amseriad wrtho. Yn 1820, cyhoeddwyd ail argraphiad o dalfyriad y Dr. Williams, gan Mr. Carnes, Treffynnon; ac 1860, cyhoeddwyd argraphiad prydferth talfyredig o hono, gyd âg amryw nodiadau eglurhaol, gan y Dr. T. Nicholas, Caerfyrddin. Yn 1797, cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg o dalfyriad y Dr. Williams, gan y Parch. B. Evans, y Dre-wen, yng Nghaerfyrddin; ac yn 1860, cyhoeddwyd cyfieithiad o'r gwaith cyflawn gan y Parch. E. Evans, Nant-y-glo. Canfyddir i'r gwaith hwn gael cylchrediad helaeth yng Nghymru cystal ag yn Lloegr, a dilys ddïammau ei fod yn wir deilwng o hono.†

## S. THOMAS.

Ni wyddys ond ychydig iawn am y gŵr enwog hwn, oddi eithr mewn cyssylltiad â'r llyfrau rhagorol a ysgrifenodd. Nid yw'n Geiriaduron Bywgraphyddol yn son dim am dano. Hefyd, y mae gwahanol farnau ynghylch ei enw. "*Simon* Thomas, gweinidog y Presbyteriaid, gŵr o ger llaw Cilgwyn yn sir Aberteifi," y geilw Joshua Thomas ef,‡ a dyna'r enw a ddyry Gwilym Lleyn iddo;§ ond Nefydd (y Parch. W. Roberts, Blaenau Gwent) a'i geilw yn *Sampson* Thomas.‖ Yr oedd y tri ŵ̂r crybwylledig yn ymchwilwyr pur fanwl i'r fath bethau; am hyny nid anturiasom ni ben-

* Ymddengys mai sylwadau ac attebion ydyw y ddau lyfr hyn i'r heuriad gwrthun "Nad yw ddyledus ar bechadur anedifeiriol gredu yng Nghrist," y crybwyllwyd am dano yn flaenorol.
† Seren Gomer, cyf. v., t. 97-8; Han. Ymneill., t. 389-92; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 333-6; En. Cymru, I. F., t. 719-20; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 338-9, 346-7; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 291; Llyfr. y Cymry, t. 290, 324, 348, 365, 366, 455.
‡ Han. y Bedyddwyr. Rhagymadrodd, t. xxvii.
§ Llyfr y Cymry, t. 328.
‖ Crefydd yr Oesoedd Tywyll, neu Mari Llwyd, t. 49.

Digitized by Google

derfynu rhyngddynt. S. T. yn unig sydd wrth yr holl lyfrau a ysgrifenwyd ganddo, fel y ceir gweled rhag llaw. Dywedir y bu dan addysg yn Lloegr dros dymmor, ac yna y dychwelodd i Gymru, lle yr arhosodd dros beth amser, gan bregethu yng Nghae-yr-Onnen, Cilgwyn, a manau eraill. Y "manau eraill," y mae'n debyg, oedd y lleoedd a nodwyd eisoes, wrth dreuthu ar Phylip Puw yn nechrau'r bennod hon, oedd mewn cyssylltiad â Chae-yr-Onnen a'r Cilgwyn. Dywed Nefydd, fel Jos. Thomas, mai "un o weinidogion y Presbyteriaid" oedd S. Thomas; a golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* a ddywed fod, "neu o leiaf yr oedd, addoldy gan yr Henaduriaid yn y Cilgwyn hwn," sef y Cilgwyn ger llaw Llanbedr, lle hefyd yr oedd Cae-yr-Onnen, a'r capelydd eraill a nodwyd oedd mewn cyssylltiad â hwynt. Gwelsom, yn yr adroddiad ar hanes Matthias Morus, bod math ar Bresbyteriaeth mewn amryw o eglwysi yr Ymneillduwyr yn yr oes honno, "er na chafodd erioed ei gosod i fynu yn gyflawn yn ei chynllun a'i threfniadau yn Lloegr, llawer llai felly yng Nghymru." Y mae'n debyg mai rhai o'r fath oedd y cynnulleidfaoedd y pregethai S. Thomas iddynt tra yn ardal y Cilgwyn. Wedi hyny symmudodd i ryw le yn sir Henffordd, lle y bu hyd ddiwedd ei oes; a dywed y Dr. T. Rees mai gweinidog i eglwys Annibynol ydoedd yno.* Dywedir fod ganddo argraphwasg yn ei dŷ yn Henffordd, ac mai ef ei hun a fyddai yn argraphu ei waith.† Dywed Gwilym Lleyn iddo farw yn sir Henffordd tu a'r flwyddyn 1743;‡ ond dywed Syr Thomas Philips, o'r Bryn Canol (*Middle Hill*), yr argraphodd lyfr mor ddiweddar ag 1746, fel y ceir gweled rhag llaw; gan hyny rhaid ei fod yn fyw y pryd hwnw. Ymddengys i ni nad yw hyspys pa bryd, yn fanwl, y bu farw, mwy na pha bryd y ganwyd ef. Dyna gymmaint ag a allwn ni ei gasglu o hanes bersonol y gŵr enwog hwn; eithr nid ar gyfrif hynyna o'i hanes yr ydym yn galw sylw ato yma, ond fel awdur galluog amryw o lyfrau Cymraeg a Saesneg a ysgrifenodd efe, y rhai sydd erbyn hyn, ysywaeth, yn dra anadnabyddus i lawer o ddarllenwyr Cymreig. Wele gyfrif o'i lyfrau Cymraeg:—

1. "Hanes y Byd a'r Amseroedd; Er Hyfforddi rhai o'r Cymru. O Waith S. T.
"Argraphwyd yn Llundain gan J. Batlz, dros David Lloyd, yn y flwyddyn 1721." 16plyg.

Dywed Nefydd yn briodol am y gwaith hwn ei fod yn "un o'r llyfrau gorau, yn ol ei faint, sydd yn yr iaith Gymraeg," canys yn wir y mae rhyw athrylith wreiddiol a gwirioneddol yn rhedeg fel gwythïen euraidd trwy bob paragraph o hono, sydd yn ei wneud mor ddifyr i'w ddarllen ag ydyw o fuddiol i'w wybod. Y mae yn amrywiol a difyrus, yn ysgrythyrol ac adeiladol. Y mae'n llym ac argyhoeddiadol dros ben tu a'i derfyn yn erbyn y "gwyliau anysgrythyrol," y "seremonïau gweigion," yr "Apocrypha ffug-ysgrythyrol," y "gweddïau gwneuthur Pabaidd," y "gwisgoedd Iuddewig a Phaganaidd," a lusgwyd o'r defodlyfrau Pabaidd i Eglwys Loegr, ac a ddynwaredir i raddau cywilyddus gan y gwahanol enwadau crefyddol. Nid ydym yn rhyfeddu bod yr hen Buritaniaid Cymreig, a ddarllenent y llyfr hwn a'i gyffelyb, mor syml, mor dduwiolfrydig, mor ochelgar rhag pob math ar wâg seremonïau, coegddysgeidiaeth, a swydd-wisgoedd rhodresgar, ac mor ofalus am ddilyn cyfarwyddiadau eglur y Testament Newydd, ag y darlunir hwy mewn hanesion eglwysig. Argraphwyd y llyfr godidog hwn dair gwaith yn oes yr awdur athrylithgar, sef yn y flwyddyn a nodwyd uchod; yn y Mwythig, gan John Rogers, 1724; ac yn Llundain, 1728; ac argraphwyd ef ddwy waith yn ystod yr un ganrif, ar ol i'r awdur farw, sef yn y Mwythig, gan Stafford Prys, 1780; ac yn Nolgellau, gan T. Williams, 1799;§ a gresyn calon na cheid argraphiad iawn o hono etto.

2. "History yr Heretic Pelagius. Yn yr hwn y rhoddir cyflawn Hanes o'i Heresi ef. Dangosir y modd y torrodd yr Heresi honno allan yn ddiweddar ym mysg y Protestaniaid: Y modd yr ydys yn gwyrdroi yr Ysgrythyrau tuag at ei Hamddiffyn. Hefyd, Y modd y cafodd ei dwyn i mewn (yn yr Oes ddiwaetha a aeth heibio) i'r Deyrnas hon. Gan S. T.
"Argraphwyd yn y flwyddyn 1735."

Y mae'n debyg mai efe ei hun a argraphodd y llyfryn difyrus a buddiol hwn, gan nad oes enw neb wrtho fel argraphydd, nac enw'r lle yr argraphwyd ef. Y mae o gylch ei hanner yn cynnwys "Histori Arminius." Am Pelagius, efe a ddywed fel hyn:—

"Ei enw cyntaf priodol ef oedd *Morgan*. Yr enw hwn sydd gyffredin ym mysg y Cymru hyd heddyw. Y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth yr hen Rufeiniaid. Canys preswyliodd y Rhufeiniaid yn yr Ynys hon ym mysg y Brytaniaid amryw Gannoedd o Flynyddoedd. Yr enw Rhufeinaidd oedd *Marcus*. Nid oedd un enw agos mwy cyffredin ym mysg y Rhufeiniaid na'r enw hwn. Y Cymru a'i cymmerasant ac a'i galwasant *Marc*. Ac o'r Enw hwn [*Marc*] ffurfiasant Enw arall, yr hwn oedd *Marcyn*. Ar ol hir arferiad yr Enw hwn [*Marcyn*], rhoddodd tafod y bobl

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 299.
† Llyfr. y Cymry, t. 388, 409.
‡ Yr un, t. 328.
§ Llyfr. y Cymry, t. 328, 337, 349, 600, 718.

Digitized by Google

gyffredin droad iddo, ac a'i galwasant *Morgan*. Yr un gyffelyb beth a wnaethant mewn perthynas i'r Enw *Joan*. *Joan*, gair Hebraeg yw: Fe'i arferwyd yn gyffredin iawn ym mysg yr hen Iuddewon. *Jochanan* a'i galwent: mae'n dyfod o'r gair Hebraeg [Chanon], yr hwn sy'n arwyddocau *graslawn*. Yr enw Hebraeg *Jochanan*, y Groegiaid a'i galwent ac a'i scrifenent *Joannes;* a'r Rhufeiniaid *Johannes*. Y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth y Rhufeiniaid, a'i galwasant *Ioan*. *Ioan* y galwe y Cymru ef ar y cyntaf: eithr ar ol hir arferiad, y cyffredin bobl, a'i lled droesant ac a'i galwasant *Ieuan*, ac ar ol hyny *Iewan*, ac o'r diwedd *Ifan*. Y Saeson o honynt hwythau a gymmerasant yr enw hwn *Johannes*, ac a'i galwasant *John*. Yr enw *John*, y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth y Saeson, ac a'i galwasant *Shon:* ac o'r enw hwn *Shon*, y cyffredin a ffurfiasant enw arall, sef *Shoncyn;* a'r enw hwn *Shoncyn*, trwy hir arferiad a drowyd ac a alwyd *Shencyn*. Ac felly, *Ioan*, *Iouan*, *Iewan*, *Ifan*, *Shon*, a *Shencyn*, nid ydynt ond un enw, wedi ei wyrdroi a'i drawsffurfio gan Dafodau y Bobl gyffredin. Felly hefyd *Walter*, *Wat Watcin*. Yr un modd *Marcyn* a alwyd o'r diwedd *Morgan*. Eithr Pelagius, er bod o hono yn Lladingwr gweddol, eto ni ddangosodd ef yma fod ganddo Wybodaeth dra chywrain yn Nhafodiaeth ei wlad ei hun. Canys fe debygodd fod ei enw ef [*Morgan*] yn arwyddocau y Mor-*heli;* ac am hyny efe a gymmerodd yr enw Llading am y gair *môr*, sef *Pelagus*. Y Rhufeiniaid a'r Groegiaid a alwent y môr *Pelagus:* a thrwy chwanegiad un llythyren, fe ffurfiwyd ei enw *Pelagius*. Ac oddiwrth yr enw hwn y mae ei ganlynwyr yn cael eu galw *Pelagians*."

Dengys yr awdur galluog yr un craffder, dysg, a llafarwedd trwy gorph y gwaith, yr hwn sy'n werth ei ddarllen lawer gwaith drosodd.

3. "Deonglydd yr Ysgrythyrau Tuac at Eglurhau ac amddiffyn amryw Leoedd o'r Ysgrythur Lan, Y Rhai a wyrdroir gan Hæreticiaid er mwyn cynnal i fynu eu Hæresiau a'u Camsoniadau. Y Rhan Gyntaf.
"Printiwyd yn y Flwyddyn 1741."

Gwilym Lleyn a ddywed, "Y mae 'Diwedd y Rhan Gyntaf' ar ei ddiwedd, er na welwyd etto yr ail ran. Ei awdur ydoedd y Parch. Simon Thomas, gynt o'r Cilgwyn a Chae-yr-Onnen, ac wedi hyny o Henffordd, lle yr ydoedd yn argraphu ei lyfrau yn ei dŷ ei hun."* Dyma y diweddaf o'i lyfrau Cymraeg, hyd y canfyddwn ni, yr hwn nis gwelsom, mwy na'r llyfrau Seisnig canlynol a briodir iddo:—

1. "The Arminian Heresy and the (Commonly call'd) New Method; Compar'd And the Foundation of these two Schemes Consider'd and Examined.
"Printed in the year, 1742."

"Y mae'r awdur," medd Gwilym Lleyn, "yn gwrthwynebu Arminiaeth, Pelagiaeth, a'r hyn a eilw y 'New Method,' sef cyfundrefn y Parch. R. Baxter."† Gellir casglu oddi wrth hyn mai uchel Galfiniad oedd S. Thomas.

2. "Remarks upon a Small Treatise entitl'd The Beauty of Holiness in Book of Common Prayer."

Nid oes amseriad wrth hwn; ond Gwilym Lleyn a'i dyry yn yr un flwyddyn a'r uchod, ac a ddywed am y ddau fel hyn:—"Awdur y ddau ydoedd y Parch. Simon Thomas, canys dywed nodyn ysgrifenedig yn Saesneg gan hen law yn gyssylltedig â thri o'i weithiau (rhif 12, 1741," sef y diweddaf o'i lyfrau Cymraeg a nodwyd uchod, "a'r ddau uchod) fel hyn:—'Pob un o'r rhai hyn a ysgrifenwyd gan Mr. Simon Thomas, gweinidog Ymneillduol, yr hwn a anwyd yn y Cilgwyn, yn sir Aberteifi; ond a fu yn cyfanneddu lawer o flynyddoedd yn Henffordd; ac yno diweddodd ei yrfa.' Gwaith y Dr. Biss, Esgob Henffordd, yw'r 'Beauty of Holiness,' a chafodd ei gyfieithu i'r Gymraeg"* gan Theophilus Evans, awdur *Drych y Prifoesoedd*, dan yr enw "Prydferthwch Sangcteiddrwydd yn y Weddi Gyffredin," a'i argraphu yn 1722, yn y Mwythig, gan John Prydderch.

3. "The History of the Cymbri (or Brittains) for three hundred years from the commencement of Christianity, giving an account of the Patriarch of the Tribes. Their Peregrination: Their Settlement in this Isle: Their Struggles with forrein Invaders: The Gospel preach'd among them by Apostolical men. All that has hitherto writt relating to the Primo-primitive State of the British Isles, confuted: and the true History stated and demonstrated. All new Discoveries.
"Printed in the Year 1746."

Yn ol Gwilym Lleyn, "Dywed Syr Thomas Philips, Barg., o Middle Hill, mai awdur ac argraphydd y llyfr hwn oedd y Parch. Simon Thomas, o Henffordd. Dywed hefyd fod yr argraphwaith yn nodedig o aflêr. Ymddengys i Mr. Thomas sefydlu argraphwasg yn ei dŷ, yn Henffordd, yn gyssylltedig â'i weinidogaeth. Tebyg mai math ar gyfieithiad oedd hwn, wedi iddo fyned i Loegr, o'r hyn a gyhoeddasai yng Nghymru, sef 'Hanes y Byd a'r Amseroedd.'"†

Yn gymmaint ag i'r gŵr enwog hwn gyfansoddi chwech o lyfrau lled drwchus, mewn dwy iaith wahanol, yn yr yspaid o 25 mlynedd, a'r rhan fwyaf o honynt yn gofyn darlleniad helaeth ac ymchwiliad manwl, ac yntau, yr un pryd, yn bregethwr sefydlog ac argraphydd, rhaid ei fod yn ddyn diwyd dros ben, cystal a dysgedig a galluog.‡

---

## PENNOD X.

### GRUFFYDD JONES, LLANDDOWROR, A MADAM BEVAN.

YR oedd GRUFFYDD JONES, LLANDDOWROR,§ yn un o'r "tri chedyrn" a wneuthant fwyaf er addysgu,

* Llyfr. y Cymry, t. 388.
† Llyfr. y Cymry, t. 391.

* Llyfr. y Cymry, t. 390.
† Llyfr. y Cymry, t. 409.
‡ Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 679.
§ Gwel cyf. i., t. 100, nod ‖.

coethi, a chrefyddoli y Cymry o neb a fu o'u blaen nac ar eu hol, hyd yn hyn, sef y Dr. William Morgan, yr hwn a gyfieithodd y Bibl i'r Gymraeg, heb gael dim cymmorth gan y Llywodraeth, fel y cafodd y cyfieithwyr Seisnig;* Gruffydd Jones, yr hwn a sefydlodd "Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig" trwy 11 o siroedd Cymru, i ddysgu darllen y Bibl Cymraeg, a llyfrau daionus eraill, i'r werin bobl; a Thomas Charles, yr hwn a sefydlodd yr ysgol Sabbothol ym mysg y Cymry ymhob gwlad dan haul, lle y maent yn preswylio, ac a fu'n foddion hefyd i sefydlu "Y Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor," i roddi

"Bibl i bawb o bobl y byd." †

"Hyn a wnaeth y tri chedyrn hyny." Gwnaeth Thos. Gouge a Stephen Hughes, ac enwogion eraill, wrhydri crefyddol ymhlith y Cymry, sydd deilwng o fythol a bendigedig goffadwriaeth; ‡ "etto ni chyrreuddasant hwy y tri chyntaf."

Gellir casglu oddi wrth y cerfiad ar y marmor hardd a osodwyd i fynu yn eglwys Llanddowror, er "Cyssegredig Goffadwriaeth am y Parchedig Griffith Jones," § ar draul Mrs. Bevan, y ganwyd ef yn y flwyddyn 1683, rywbryd ar ol yr 8fed o Ebrill, tu a chanol neu ddiwedd y flwyddyn honno, ond odid, ymhlwyf Cilrhedyn (neu Cil-y-Rhedyn), yn sir Benfro; a gellir yn eithaf priodol ei alw yn "Seren Forau y Diwygiad yng Nghymru." Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol a pharchus, ac yn aelodau, fel y tybir, yn yr eglwys Ymneillduol yn Henllan, am yr hon y treuthwyd ychydig eisoes yn hanes Matthias Morus, yn y bennod flaenorol. Bu ei dad farw pan oedd efe yn ieuangc; ac o ganlyniad, syrthiodd holl ofal ei ddygiad i fynu ar ei fam. Dangosodd fywiowgrwydd cynheddfau ac awyddfryd i ddysgu yn forau. Yr oedd o duedd grefyddol o'i febyd, yr hyn a blanwyd ynddo, ac a faethwyd o'r dechrau, yn ddilys ddïau, gan ei fam grefyddol; ac fel yr oedd yn tyfu i fynu, dilynai ei fam i wrando ar y pregethwyr Ymneillduol yn ei ardal, megis John Thomas, Llwyn-y-Grawys; Dafydd Jones, o Gynwil; a phregethwyr poblogaidd eraill, y rhai a arferent bregethu yng Nghil-y-Rhedyn a'r gymmydogaeth yn ystod yr 20 mlynedd cyntaf o'i fywyd. ‖ Wedi bod mewn ysgol yn y wlad o'i febyd, pan ddangosodd awydd am bregethu, neu at fod yn "weinidog," fel y dywedir, anfonodd ei fam ef i'r Ysgol Rammadegol Bresbyteraidd oedd yng Nghaerfyrddin, lle y cynhyddodd yn fuan mewn gwybodaeth helaeth o'r Groeg a'r Lladin, er ei fod yn wanaidd ei iechyd pan yn ieuangc, gan ddiffyg anadl, yr hyn, yn ffodus, a'i gadawodd yn raddol, fel yr oedd yn cynhyddu mewn oedran. Yr oedd ei ymddygiad yn bur a dilychwin, a'i feddwl yn dra difrifol yn ystod ei arhosiad yn ysgol Caerfyrddin. Yn lle dilyn y difyrwch a'r oferedd a hudant, a lygrant, ac a faglant nifer mawr o fyfyrwyr mewn colegau, ymdynai efe o'r neilldu o'u plith, ac ymroddai i fyfyrdod a gweddi.

Nid yw hyspys pa fodd y tueddwyd ei feddwl i ddewis pulpud yr Eglwys Sefydledig yn lle eiddo yr Ymneillduwyr, ymhlith y rhai y dygasid ef i fynu o'i febyd; ond pa fodd bynag, y mae'n ddigon hyspys iddo ymddwyn yn llawer tebycach i Ymneillduwyr nag i Eglwyswyr dïymadferth ei oes. Ar y 19ydd o Fedi, 1708, urddwyd ef gan y dysgedig Esgob Bull yn ddïacon (neu "offeiriad hanner pan," yn ol Goronwy Owen), ac efe yn 24 oed; ac ymhen y flwyddyn wedi hyny, sef ar y 25med o Fedi, 1709, cafodd gwbl urddau offeiriadol, gan yr un esgob, yng Nghapel Abermarlais. Yn ebrwydd ar ol cael "cwbl urddau," fel y dywedir, dechreuodd bregethu yng Nghil-y-Rhedyn, ei blwyf genedigol, a theimlwyd yn fuan ei fod yn bregethwr ieuangc tra gobeithiol. Gyd â golwg ar ei ddechreuad a'i gynnydd fel pregethwr, dywed Mr. Charles fel y canlyn:—

"Tybiaf, wrth ei lythyrau yn fy meddiant, mai lled dywyll oedd ei amgyffred am wirioneddau yr efengyl a threfn iechydwriaeth yn ei gychwyniad. Amlyga ynddynt lawer o ddwys ystyriaeth a difrifwch sobr; ond yr oedd ei forau yn dywyll: pelydrodd y goleuni dwyfol ar ei feddwl yn raddol yn fwy disglair a gogoneddus. Yr oedd ei fanteision yn brin iawn yn y dyddiau hyny. Duwinyddiaeth oedd brif wrthrych ei fyfyrdod a'i astudrwydd. Yr oedd yn ŵr o gynheddfau cryfion; ei ddeall yn gyflym, a'i gof yn afaelgar; a thrwy astudrwydd dyfal, gwnaeth ei hun yn dra hyddysg yn ysgrifeniadau y duwinyddion mwyaf enwog, Saesneg a thramor. Trwy gynnorthwyon dwyfol, a bendith Duw ar ei ddiwydrwydd, cynhyddodd yn brysur mewn gras a gwybodaeth o Dduw a'r Iachawdwr Iesu Grist. Fy hyfforddwyr yn hyn yw ei lythyrau at Mrs. Bevan." ¶

Ymhen rhyw yspaid ar ol bod yn pregethu yng Nghil-y-Rhedyn, cafodd guradiaeth plwyf Llacharn; a thra y bu yno, ymddengys ei fod wedi cynhyddu yn ddirfawr yn ei wybodaeth a'i hyawdledd, a bod ei bregethau difrifol, hyawdl, ac efengylaidd yn gwneud cyffro dirfawr yn y plwyf hwnw a'r holl ardaloedd cylchynol. Ar yr 31fed o Orphenaf, 1711, cyflwynwyd iddo berigloriaeth Llan-

* Myv. Arch., p. 383.
† Diliau Barddas R. Davies, Nantglyn, t. 23.
‡ Gwel cyf. i., llyfr iv., pen. xiv.
§ Trysorfa 1813, t. 11.
‖ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 346.
¶ Trysorfa, 1813, t. 8.

Digitized by Google

dilo Abercowyn, ac efe yn 28 oed. Ymhen rhyw ennyd ar ol iddo gael y berigloriaeth honno, efe a briododd ferch* Syr Erasmus Phylips, Barwn., hanner chwaer Syr John Phylips, Barwn., o Gastell Picton, sir Benfro; ac ar yr 17fed o Orphenaf, 1716, cyflwynwyd iddo ficeriaeth Llanddowror at fywioliaeth Llandeilo, gan Syr John Phylips, noddwr y ficeriaeth. Heb law Llanddowror a Llandeilo, byddai Gruffydd Jones yn gwasanaeuthu yn achlysurol yn Llanllwch, ger llaw Caerfyrddin. Yr oedd Llanllwch ar y pryd ym meddiant un Dafydd Jones, ŵyr iddo, ac am hyny byddai yn pregethu yn fynych yno. Dan ei bregethiad ef yn Llanllwch y cafodd Miss Bridget Fychan (*Vaughan*), merch y Derllysg, ymhlwyf Merthyr, yn agos i Gaerfyrddin, gwedi hyny Mrs. Bevan, o Lacharn, ei dwyn i ddwys-feddwl am bethau byd arall, ac i ymofyn am wir grefydd, am yr hon y bydd genym ychwaneg i'w dreuthu yn fuan.

Yr oedd Gruffydd Jones yn ŵr o ddeall cryf a bywiog, o dymmer siriol a mwynaidd, o lais soniarus a threiddgar, o draddodiad hyawdl a dengar; ac yn goron ar y cwbl, yr oedd ei dduwioldeb yn amlwg a dīamheuol, a'i bregethau yn efengylaidd ac ysgrythyrol, pethau yr oedd clerigwyr yr oes honno yn bur amddifaid o honynt, ac yn bur ddifatter am danynt, fel yr awgryma Bardd enwog Pant-y-Celyn yn ei farwnad odidog iddo, lle y dywed fel hyn:—

"Cwympodd seren olau hyfryd,
 Hynod ymhlith ser y ne',
Nes i'r lleill o'r ser i synu,
 Ac mae twllwch yn ei lle!
Hon ei hunan a ddisgleiriodd,
 Pan oedd tew gymmylau'r hwyr
Wedi hedeg dros ardaloedd,
 A difetha golau'n llwyr:
Gweinidogion bron yn gysson
 Oedd yn eu *hanner nos o hûn;*
Bloedd ei udgorn ddaeth yn union,
 Ac fe'i clywodd ambell un."†

Nid rhyfedd i'r fath gyfarfyddiad dedwydd o ragorieuthau ei wneuthur y pregethwr mwyaf poblogaidd, y pryd hyny, a feddai y Dywysogaeth, a bod y clerigwyr llygredig a dioglyd oedd o'i amgylch mor eiddigus at ei boblowgrwydd; ond ymddengys wrth yr un farwnad ardderchog bod Gruffydd Jones yn goflaid pur drom iddynt, a'i fod yn fynych yn *distewi* eu cabledd cenfigenllyd:—

"Fe 'sgrifenaist o blaid gweddi,
 Fe 'sgrifenaist o blaid dysg;
Fe *ddistewaist*, trwy'th ddoethineb,
 Fleiddiaid rheibus yn ein mysg."‡

Y mae Mr. Charles, ac efe yn unig, hyd y gwelsom ni, yn cofnodi yr hyn a ganlyn am Gruffydd Jones:—

"Enwogrwydd G. Jones, fel gweinidog yr efengyl, a ddaeth ag ef dan sylw rhai o aelodau y gymdethas anrhydeddus yn Llundain, a elwir 'Cymdeithas i Daenu yr Efengyl mewn Parthau Pellenig;' a barnasant ef wedi ei addasu yn neillduol i'w anfon yn genad i blith yr Indiaid, a thaer erfyniwyd arno gymmeryd y gorchwyl pwysig hwn mewn llaw, fel y mae'n eglur oddi wrth lawer o lythyrau ysgrifenedig, ac ar gael wedi ei farwolaeth. Cydsyniodd â'u dymuniad, a dechreuodd ymbarotôi i'r gwaith. Beth a'i llesteiriodd i fyned sydd i mi yn anhysbys: tebygol iddynt ganfod yr angen mawr am lafurwr ffyddlawn o'i fath yn nhalaeth Cymru dywyll. Beth bynag oedd yr achos, eglur yw mai ewyllys Rhagluniaeth oedd iddo aros i lafurio ymhlith y Cymry tlodion ac anwybodus."§

Aeth y son am "offeiriad Llanddowror," fel pregethwr, ymhell ac yn agos, ïe, hyd yn oed ymhell tu hwnt i derfynau Cymru, ac ymdyrai y bobl yn lluoedd i'w wrando lle bynag y byddai. Bu yn pregethu mor bell ag Ysgotland; a chafodd y Frenhines Ann y fraint o'i wrando unwaith, o leiaf, fel y dywed Bardd Pant-y-Celyn yn ei farwnad:—

"Fe gâdd Scotland oer ei wrando,
 Draw yn eitha'r Gogledd dir,
Yn dadseinio maes yn uchel
 Byngciau'r iachawdwriaeth bur:
Câdd myrddiynau deimlo geiriau
 Hedd, o'i enau'n llawer man;
Clywodd hithau rym ei ddoniau,
 Frenhinol ardderchocaf Ann."‖

Wrth ddychwel adref o'r brifddinas, ar ol bod yn pregethu i'r frenhines, dywedir "yr ymosodwyd arno ef a'i was yn eu lletty, a bod ei waredigaeth a'i fywyd o'u dwylaw yn rhywbeth fel gwyrth;"¶ ond methasom gael allan pwy oedd yr ymosodwyr, na pha fodd y cafodd waredigaeth. Am ei bregethiad cyhoeddus, dywed Mr. Charles fel hyn:—

"Yr oedd ei destynau a'i ddull o ymadroddi yn neillduol o addas i gyflyrau ei wrandawyr; yn aml yn finiog, yn danllyd, ac yn ddeffröus; bob amser yn athrawieuthol, yn ddefnyddiol, ac yn fucheddol; yn cadw ymhell oddi wrth benrhyddid Antinomaidd, a deddfoldeb digysur ac anffrwythlawn. Yr olwg arno yn myned i'r areithfa oedd yn neillduol sobr a phwysig. Darllenai y gweddïau gyd â llawer o ddifrifoldeb, a'r llithoedd yn arafaidd ac yn ddeallus. Yn ei bregethau dechreuai yn bwyllog, a dos-

* Bu farw Mrs. Jones yn y flwyddyn 1755, yn 80 oed, ac felly ganwyd hi yn 1675, wyth mlynedd o flaen ei gŵr, G. Jones. Clywodd Mr. Charles ei bod yn wraig dduwiol a bucheddol iawn, ac y byddai'n fynych yn afiach, a bod G. Jones yn dra thyner ac ymgeleddgar o honi.—Trysorfa, 1813, t. 2.

† Holl Weithiau William Williams, Pant-y-Celyn, argr. Mackenzie, t. 680.

‡ Holl Weith. W. Williams, Pant-y-Celyn, t. 681.

§ Trysorfa, 1813, t. 2, 3.

‖ Holl Weith. W. Williams, Pant-y-Celyn, t. 680.

¶ Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 869; En. Cymru, L. F., t. 592.

Digitized by Google

parthai y defnydd yn llaw yn olau ac yn rheolaidd, mewn dull cyfeillgar, nid yn anhebyg i ymddiddan: ond fel yr âi i mewn i'w fatter, byddai e :yspryd yn tanio ac yn gwresogi, a'i ymadroddiad yn fywiog ac awdurdodol, yn meistroli'r gwrandawyr yn gwbl. Yr oedd ei agwedd gorphorol yn barchus; ei lais yn eglur ac yn beraidd; ei ddarluniadau yn ardderchog; ei resymiadau yn gedyrn; a'i gynghorion a'i rybuddion yn fywiog, yn llym, ac yn afeulgar yn y gydwybod. Yr oedd ei holl enaid yn y gwaith, ac yn profi yn fywiog bob teimlad addas i'r gwirionedd a draddodai. I ddywedyd y cwbl am dano mewn un gair, yr oedd wedi ei 'wisgo â nerth o'r uchelder;' ac am hyny yr oedd yn gweini ymhethau sanctaidd Duw gyd â harddwch a gweddeidd-dra addas, yn awdurdodol ac yn fuddiol. Holl ymddygiad Mr. Jones oedd bob amser yn addfwyn, yn sobr, yn garedig at bawb; yn barod i roddi cynghorion i'r tlotaf fel meddyg corph ac enaid. Yn feddiannol ar ddoniau helaeth, ac ynghanol enwogrwydd a llwyddiant tu hwnt i bawb o'i gyfoedion, yr oedd wedi ei harddu â gostyngeiddrwydd anghyffredin, ag oedd yn ei gymmeradwyo yn neillduol i sylw pawb. Yn ddim yn ei olwg ei hun, taer erfyniai am weddïau y Cristion gweulaf drosto."*

Yr oedd yr holl ragorieuthau godidog hyn a'u cyffelyb yn peri bod galwadau parhaus am dano i bregethu yn dylifo ato o wahanol barthau, a byddai yntau yn barod i gydsynio yn wastad hyd eithaf ei allu. Byddai y tyrfaoedd a gyrchent o bell ac agos i'w wrando mor llïosog yn fynych fel na chynhaliai yr eglwysydd mo'u hanner; ac yr oedd llïaws o'r clerigwyr anfoesgar a didalent mor eiddigus a ffyrnig fel, pan fyddai y plwyfolion yn benderfynol i fynu ei gael i bregethu iddynt, y cloent hwythau yr eglwysydd, ac y cludent yr allweddau yn eu llogellau adref. Ar y cyfryw achlysuron, a ddigwyddent yn fynych, pregethai Ficar Llanddowror oddi ar y beddfeini yn y mynwentydd, at yr hyn y cyfeiria Bardd Pant-y-Celyn fel y canlyn:—

"Allan 'raeth yn llawn o ddoniau,
 I bregethu'r 'fengyl wir,
Ac i daenu'r iachawdwriaeth
 Olau, helaeth, 'rhyd y tir:
Myrdd yn cludo idd ei wrando,
 Llenwi'r llanau, mawr yn llawn,
Gwneud eglwysydd o'r monwentydd,
 Cyn ei glywed ef yn iawn."†

Cynhyddodd cynfigen yr Eglwyswyr dïoglyd a drwg eu buchedd mor fawr ato o'r diwedd, fel y troisant yn erlidwyr creulon a dïalgar iddo. Doddasant achwynion yn ei erbyn yn y Llys Eglwysig, a bu'n cael ei flino gan ymyriadau erlidgar y dosparth hwn dros ugain mlynedd. Er hyny, glynodd efe yn hen Eglwys ddefodgar y Wladwriaeth hyd ddiwedd ei oes; ac nid oes arwydd iddo erioed anturio i bregethu, er hoffed ganddo y gwaith, ac er amled y galwadau am dano, o'r tu allan i gyffiniau ffug-gyssegredig Eglwys Loegr, fel yr anturiodd ei ddisgyblion hyfach a mwy penderfynol, Howel Davies a Daniel Rowlands, fel y gwelsom eisoes, yn ein pennod ar y Methodistiaid. Priodola Bardd Pant-y-Celyn hyn i dywyllwch ei foreuddydd a gwendid ei ffydd, gan ddywedyd:—

"GRIFFITH JONES pryd hwn oedd ddeffro
 Yn cyhoeddi Efengyl gras
Hyd cyrheuddai'r swn o'r pulpud,
 Neu os rhaid, o'r fynwent las;
Ond am fod ei forau'n dywyll,
 Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
Fe arswydodd fynd i'r meusydd,
 Ac i'r lleoedd nad oedd llan."‡

Er y diffyg yma (os diffyg hefyd, ac ystyried yr amser, a phob peth arall), gosododd Gruffydd Jones ei wyneb yn gryf yn erbyn oferedd, anwybodaeth, ac anfoesgarwch ei wlad. Gan mai ar wythnosau y Pasc a'r Sulgwyn, yn benaf, yr arferai Cymry yr oes honno gynnal eu cyfarfodydd gloddestgar, a dilyn eu campau annuwiol, a'u harferion gwammal a thrythyll, trefnai yntau deithiau pregethu ar draws y wlad ar yr adegau hyny, er pregethu y cyfryw lygredigaethau andwyol i lawr; a dywedir na byddai nemmor bregeth yn myned heibio heb fod yn foddion dychweliad i rywrai. Ysgrifena Mr. Charles ar y matter yma fel hyn:—

"Clywais ddywedyd gan un a fyddai yn arfer cyd-deithio âg ef ar y cyfryw achlysuron, y byddai yr olwg ar y tyrfaoedd ar y cyntaf yn wyllt ac anifeilaidd; ond yn raddol, dan bregethiad Mr. Jones, canfyddid eu gwedd yn sobri i symlrwydd dirfawr, ac i ddagrau a wylofain; a phregethai yntau weithiau ar yr amserau hyny dros dair awr o amser. Byddai y tyrfaoedd mor llïosog ar brydiau, fel y gorfyddai arno bregethu yn y fonwent, gan nad allai y llanau eu cynnwys. Fel hyn yr oedd Mr. Jones ymhob ffordd yn ymdrechgar a llafurus yng ngwaith ei Arglwydd, ac yn achos pwysfawr eneidiau dynion. Yr oedd yn cadw athrofa yn y Llan, yn yr hon y dygwyd i fynu amryw ddynion defnyddiol yn yr eglwys. Y mwyaf enwog o'r rhai hyn oedd y Parchedig Howel Davies, yr hwn, pan oedd yn myned i gael ei gyflawn urddau, rhoddodd Mr. Jones hysrpyswydd o hyny i'r gynnulleidfa, a thaer erfyniodd eu gweddiau drosto, ac am fendith Duw arno, ac ar ei weinidogaeth, yr hyn a wnaeth yn helaeth."§

Ond nid fel pregethwr yn unig yr oedd "Offeiriad Llanddowror" yn enwog, eithr yr oedd yr un mor odidog fel llenor Ysgrythyrol, ac addysgwr efengylaidd. Bu'r ddau ragoriaeth yma (y *tri*, yn wir, sef pregethu hefyd) yn cydfyned ynddo dros hir flynyddau. Y llyfr Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd ganddo, fel y tybir, oedd hwn:—

"Hynodeb Eglwysydd, &c. Gan G. J., h.y. Griffith Jones, o Wells."‖

* Trysorfa, 1813, t. 8, 9.
† Holl Weith. W. Williams, Pant-y-Celyn, t. 680.
‡ Yr un, t. 676.
§ Trysorfa, 1813, t. 7, 8.
‖ Llyfr. y Cymry, t. 296.

Nid oes amseriad wrth y gwaith hwn; ond tybir iddo gael ei argraphu yn 1712, pan oedd G. J. tu a 29 oed. Yr ail lyfr Cymraeg a gyhoeddwyd ganddo oedd yr un canlynol:—

"Y Llyfr a elwir Holl Ddyledswydd Dyn. Wedi ei grynhoi yn fyrr, Er lles i'r Tlodion a'r Gwannaf eu Coffadwriaeth, &c. Gan Richard Stacy, a'i osod allan yn Gymraeg gan G. J.

"Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rogers, Gwerthwr Llyfrau."

Nid oes amseriad wrth hwn ychwaith; ond tybir wrth yr amser yr oedd John Rogers yn ei flodau i hyny ddigwydd o gylch y flwyddyn 1722. "Ymddengys bod y talfyriad hwn o'r 'Llyfr Holl Ddyledswydd,' &c.," medd Gwilym Lleyn, "yn 6ed argraphiad. Dichon fod peth cyfnewidiad wedi ei wneud ynddo er boddhau rhai duwinyddion mwy Calfinaidd na'r awdur gwreiddiol; ac mai hwn a argymhellid ganddynt i'w cyfeillion dan yr enw 'Holl Ddyledswydd Dyn, sef y Newydd,' fel yn fwy efengylaidd, fel y dywedent hwy, na'r llall. Tebygol mai Mr. Griffith Jones, Llanddowror, oedd y cyfieithydd; lle y gwelir ei fod yn gyfieithiad yn gystal a thalfyriad ac argraphiad newydd."*

Ond er mor odidog oedd Jones, Llanddowror, fel pregethwr ac awdur, y benaf o'i holl orchestion Cristionogol, yn ddilys ddïammau, oedd ei waith yn sefydlu "Ysgolion Elusengar Cylchynol" ymhlith y Cymry, y rhai a fu o fawr fendith i'r holl Dywysogaeth yn ol llaw; ac ar hyn, yn ddïau, y gorphwys ei brif enwogrwydd. "Y mae Cofiannydd Charles o'r Bala, wrth nodi am ddechreuad yr ysgolion Cymreig, *dyddiol* a *Sabbothol*, a sefydlodd efe," medd Nefydd, "yn dywedyd bod yn bossibl iddo gael y drychfeddwl oddi wrth hanes ysgolion Gruffydd Jones, Llanddowror. Felly y dywedaf finnau: er fy mod yn ystyried G. Jones yn llawer mwy teilwng o enwogrwydd na Howel Harris, D. Rowlands, ac eraill y sonir am danynt, ganwaith am bob tro y daw enw G. Jones ym mlaen; ond etto, meddwl yr wyf iddo yntau gael y meddylddrych am y cynllun ardderchog a gymmerth i lesoli a diwygio ei gyd-genedl oddi wrth yr enwog T. Gouge, yr hwn yr oedd ei ysgolion wedi bod yn gweithio yn anwyl tu a 60 mlynedd cyn i Gruffydd Jones ddechrau ar ei gynllun."† Yr oedd hyn yn eithaf naturiol, ac y mae'n digwydd gyd â phob darganfyddiad mawr a defnyddiol. Un yn darganfod, i ddechrau; arall yn diwygio'r cynllun; a'r trydydd, neu rywun ar ei ol, yn ei berffeithio. Gyd â golwg ar gychwyniad yr ysgolion bendithfawr hyn, dywed Mr. Charles fel y canlyn:—

"Yr hanes a rydd am eu dechreuad sydd fel hyn:—Ei arfer oedd darllen y gwasanaeth yn fisol ar y dydd Sadwrn o flaen y Sul y cyfranai ordinhâd swper yr Arglwydd. Ar ol darllen yr ail lith, gofynai a oedd neb yn y gynnulleidfa gwedi dal sylw ar un adnod yn y pennodau a ddarllenodd. Gwedi i ryw rai enwi adnod neu adnodau, yna yr eglurai yntau yr adnodau a enwid, mewn modd tirion, golau, a deallus, addas i amgyffred pobl dywyll gyffredin. Gwedi hyny, holai y rhai a fyddai yn dyfod o'r newydd i'r ordinhâd,—

"1. Ynghylch gwaith Ysbryd Duw ar eu heneidiau.

"2. Am eu gwybodaeth o athrawieuthau yr efengyl.

"3. Am eu bucheddau.

"Byddent yn dyfod o bob parth o'r wlad i wrando arno, ac i gydgyfranogi o'r swper sanctaidd gyd âg ef: ac yn aml byddai 15, neu 20, neu 30 weithiau, fel hyn yn cael eu holi yn gyhoeddus, er mawr adeiladaeth i'r gwrandawyr, cyn eu derbyn i'r ordinhâd.‡ Ond y rhan fwyaf ag oedd eisiau y cyfryw addysgiadau arnynt, a safent yn ol; yn enwedig dynion wedi tyfu i fynu, a heneiddio mewn anwybodaeth. I feddyginieuthu hyn, o leiaf ymhlith y tlodion, cyhoeddai ar y Sabboth y byddai bara yn cael ei gyfranu ar y Sadyrnau misol hyn i'r tlodion, wedi ei brynu â'r arian a dderbynid wrth weinyddu y cymmun. Pan ddöent i dderbyn y bara, gosodai hwynt yn rhes, a gofynai iddynt ychydig gwestiynau mwyaf hawdd i'w hatteb, mewn dull tirion, caredig, rhag eu dyrysu na'u cywilyddio. Yr oedd rhai wedi eu hyfforddi ym mlaen llaw, ag oedd yn dymuned llwyddiant y gwaith, ac o feddwl difrifol, i sefyll i fynu i atteb, fel yn annogeuthol i eraill oedd yn fwy tywyll. Yn raddol cynhyddodd eu rhifedi, a daethant yn rhwydd ac ewyllysgar ym mlaen i atteb. Er eu cynnydd mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau, rhoddodd arnynt ddysgu adnod neu ddwy o'r Bibl i'w dywedyd yn gyhoeddus yn y Llan cyn derbyn y bara; fel yr aeth yn ddefod i bob un adrodd adnod cyn derbyn y dorth fara. Bu'r arferiadau hyn, medd efe ei hun, yn dra bendithiol er cynnydd gwybodaeth ymhlith ei bobl druain anwybodus. 'Pe gwybyddai pawb sy'n llafurio yn y weinidogaeth y buddioldeb o gateceisio, rhagor pregethu yn *unig* eu holl ddyddiau, ymosodent,' medd efe, 'yn ei gylch yn ddïoed, a chyd â'r awyddfryd mwyaf.' Yn y ffordd hon y daeth i hyspysrwydd o'r anwybodaeth dirfawr oedd ymhlith y bobl dlodion nas gallent ddarllen; ïe, lle'r oedd pregethu gwastadol, ond cateceisio yn cael ei

* Llyfr. y Cymry, t. 331.

† Crefydd yr Oesoedd Tywyll, t. 29.

‡ Y mae'n resyn nad arferai henuriaid neu esgobion eglwysi, a elwir weithiau yn ddïaconiaid, ryw gynllun cyffelyb yn awr yn gyffredin, nid yn unig wrth dderbyn rhai i'r cymmun, ond hefyd wrth eu derbyn i'r eglwysi. Gwyddom am rai eglwysi, ïe, eglwysi Ymneillduol, yn meddu hyd yn oed bregethwr sefydlog, cyflogedig, yn derbyn plantos dan oed, hollol anwybodus a dibrofiad, i'r eglwys, ac yn oed at fwrdd yr Arglwydd, heb geisio eu dysgu yn bersonol yn "y pethau a berthynant i'w heddwch." Mor anhebyg ydyw y cyfryw i Priscila ac Acwila, "a'r eglwys oedd yn eu tŷ hwynt," y rhai a gymmerasant Apòlos ieuangc, anwybodus, atynt, "ac agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach," Act. xviii. 24–28. Gwyddom fod gan blant credinwyr hawl Ysgrythyrol i gael eu dwyn i fynu yn Eglwys Dduw, "canys," medd Paul, "y gŵr digred a sancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gŵr: pe amgen, aflan yn ddiau fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt." Ond nid oes gan rieni yn proffesu crefydd hawl i ddwyn eu plant i fynu heb eu "maethu hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd;" ac nid oes gan neb hawl i fwytta swpper yr Arglwydd heb fod mewn oedran a synwyr cyfaddas i "holi ei hun," ac i "iawn farnu corph yr Arglwydd," "canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd," 1 Cor. xi. 17–34.

Digitized by Google

esgeuluso. Y canfyddiad galarus o'r anwybodaeth anferth cyffredin, mewn pethau yn perthyn i iechydwriaeth, a barodd iddo 'fawr ofal calon,' ac ystyriaeth boenus; gan fod yr achos galarus yn gyffredin, ac anhawsderau mawrion ar y ffordd i hyfforddi y sawl ni allent ddarllen. Gwedi hir brofiad o'r dull hwn dros amryw flynyddoedd, daeth i'w feddwl fel peth dymunol, yn hytrach na gobeithiol, i osod i fynu Ysgolion Rhad Cymreig. A'r arian oddi wrth yr ordinhâd, gosododd i fynu yn gyntaf un ysgol, ac wedi hyny dwy: attebodd y rhai hyn y diben mor rhagorol, fel y buont yn annogaeth i osod i fynu ychydig yn ychwaneg; a daeth Rhagluniaeth yn dirion â modd i'w cynnal. Gwelodd yr Arglwydd yn dda gynhyddu eu llwyddiant a'u rhifedi. Yr oedd rhifedi y plant mor fawr, fel yr oedd yn angenrheidiol yn rhai ysgolion gael dau, ac yn eraill dri, o ysgolfeistriaid. Yr oedd effeithiau yr ysgolion i'w canfod ar foesau trigolion yr ardaloedd lle byddent yn cael eu cadw; yn enwedig os byddai'r ysgolfeistr yn ŵr o symlrwydd, gwybodaeth, a duwioldeb. Rhoddwyd heibio rodiana a chwaryddieuthau ar y Sabbothau, er mawr dristwch y crythorion a'r telynwyr, y rhai a gyflogai yr ieuengctid wrth y flwyddyn i chwarau iddynt ar y Sabbothau. Y teulu annuwiol hyn a gynddeiriogasant yn greulawn yn eu herbyn, 'am fyned gobaith eu helw hwynt ymaith;' ond rhai o'r tylwyth hyn hefyd a ddeuthant i'r ysgolion i dderbyn addysg. Doi llawer i wrando yr holi yn egwyddorion crefydd, ar yr oriau gosodedig, heb law y rhai fyddai yn yr ysgol; a byddai'r addysgiadau yn effeithio yn hynod arnynt, fel y byddent yn tori allan i wylo wrth wrando."*

Dywed A. J. Johnes, Ysw., i'r gyntaf o'r ysgolion gwerthfawr hyn gael ei sefydlu yn 1730, ac y sefydlwyd yr ail yn fuan ar ol hyny; ac y dilynwyd hon drachefn â'r fath effeithiau dymunol, fel y daeth amryw bobl elusengar yng Nghymru a Lloegr i gynnorthwyo y cynllun gyd â'r fath haelioni ag a alluogodd y sylfeunydd i gyrraedd ei ddisgwyliadau hoffusaf.† Pa wedd bynag, yn 1734 y dechrau G. Jones ei hun hanes ei ysgolion bendithfawr, fel y dengys y llyfr Saesneg cyntaf a gyhoeddodd, sef—

"Welsh Piety, or an Account of the Circulating Welsh Charity Schools, from Michaelmas 1734 to Michaelmas 1737.—London, Printed by M. Downing"‡=Duwioldeb Cymreig, neu Hanes yr Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig, o Wyl Fihangel 1734 hyd Wyl Fihangel 1737.

Y mae hwn, fel y rhai a'i canlynant o'r un enw, yn gronfa wych o hanes ansawdd dysg a chrefydd yr oes honno. Yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd G. Jones ei drydydd a'i bedwerydd cyfansoddiad Cymraeg, yn un llyfr, dan yr enwau canlynol:—

"Cyngor Rhad yr Anllythyrenog: neu Lyfr bâch mewn ffordd o Holiad ac Atteb, yn anrheg mewn cariad y ddynion tlawd ac isel y ddyscu darllain. Gyda Dymuniad difrifol ô fendith y Nefoedd arno, fel y delont trwy Râs ac addysc y'r Yscrythurau y adnabod ac addoli Duw, y fod yn gyfoethog mewn ffydd ac yn ddedwydd yn y bŷd a ddaw. Gan Weinidog o Eglwys Loegr. . . .

"Dwy Ffurf o Weddi. Y gyfarwyddo yr anghyfarwydd ynghylch y ddyledswydd fawr hon, a'r y llwyddiant ô ba ûn, gyda Duw, y mae llwyddiant tragwyddol Jechydwriaeth dŷn yn sefyll, fel na ddylem neb y esceuluso gweddi (mewn amser cymmeradwydd) ac ewyllysio fod yn gadwedig.

"Argraphwyd yn Llundain yn y fl. M.DCC.XXXVII." 16plyg.*

Y mae "Argraphwyd yn Llundain," &c., ar ol y cyntaf fel yr ail. Cynnwys y cyntaf 72 o dudalenau, a vii. tudalen o ragarweiniad; a'r ail a gynnwys 18 o dudalenau, fel y mae'r ddau ynghyd yn 127 o dudalenau. "Y mae'n dra sicr mai G. Jones a'i gwnaeth, canys y mae ynddo yr un syniadau yn Gymraeg ag sydd yn y "Welsh Piety" yn Saesneg. . . . Cyferfydd â phob gwrthddadl yn erbyn sefydlu ysgolion Cymreig, gyd â phwyll a nerth mawr. Y mae'n werth i'r sawl a'i meddianno ei fyfyrio, o herwydd ei fod yn ddiammau yn cynnwys y gwrth-ddadleuon oedd gwrthwynebwyr G. Jones yn eu dwyn yn erbyn ei ymdrech glodwiw."†

Dengys y llyfrau hyn, a hanesion eraill, fod yr ysgolion daionus yma wedi cynhyddu yn ddirfawr erbyn y flwyddyn hon, 1737. Y cynllun a ddilynai G. Jones yn aml oedd hyn:—Ymleunaf oll, rhoddes gorph o ysgolfeistriaid ar waith, ac yna dosparthai hwynt i wahanol ardaloedd dros y wlad. Dyledswydd y rhai hyny oedd dysgu y bobl i ddarllen yr Ysgrythyrau yn Gymraeg, eu cateceisio, eu hyfforddi i ganu Psalmau, a dwyn ym mlaen eu cynnydd crefyddol trwy bob moddion yn eu gallu. Anfonid hwy, yn gyntaf, i dref neu bentref a ofynai am eu cynhorthwy; ac yna, wedi dysgu pawb, yn hen ac ieuangc, a ddymunent gael hyfforddiant, yr oeddynt i fyned i'r ardal nesaf a ddangosai ddymuniad cyffelyb am danynt. Ymhen amser, yr oeddynt i ail ymweled â'r lleoedd y buasent gyntaf, ac i ail gymmeryd mewn llaw i addysgu yr ieuengctid a godasent i fynu yn ystod eu habsennoldeb; ac fel hyn, yr oeddynt i wneud cylchdeithiau parhaus dros yr holl wlad, er mwyn cyflwyno i bob cenhedlaeth, fel y cyfodai i fynu, foddion gwybodaeth, ac annogaethau i gofleidio egwyddorion daionus.‡ Gyd â golwg ar yr athrawon hyn, dywed y Dr. Thomas Rees fel y canlyn:—

"Er mwyn gweithio ei gynllun allan yn effeithiol, efe a sefydlodd athrofa yn Llanddowror i hyfforddi athrawon;§

* Trysorfa, 1813, t. 3-5.
† Johnes's Causes of Dissent in Wales, p. 17.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 372.

* Llyfr. y Cymry, t. 373-4.
† Crefydd yr Oesoedd Tywyll, t. 29.
‡ Johnes's Causes of Dissent in Wales, p. 18.
§ Prawf hyn fod yr enwog G. Jones, Llanddowror, wedi sefydlu Coleg Athrawol (*Normal College*) er ys mwy na 200 mlynedd cyn i'r diweddar ddiwygd John Phylips ac eraill gael y cyfryw i Gymru.



Digitized by Google

ond gan na roddai efe neb ar waith fel athrawon ond rhai gwir grefyddol, bu raid iddo appelio at ei frodyr Anghydffurfiol am wŷr ieuaingc y byddai arno eu heisiau, gan nas gallai gael braidd neb o'r fath gymmwysderau ynghynnulleidfaoedd yr Eglwys Sefydledig. Bu hyny yn ffynhonell o fawr anhawsder a gofid i'r gŵr daionus. Yr oedd ei elynion ymhlith y clerigwyr a'r boneddigion yn llïosog, dyfal, a pharod bob amser i godi pob gwrthddadleuon a'r a allent, er cynhyrfu meddwl y bobl yn erbyn ei gynlluniau duwiol a gwladgarol. Ei waith yn cymmeryd Anghydffurfwyr fel athrawon oedd un o'r dadleuon mwyaf golygus a mynych a gymhellent yn ei erbyn, tra yr oedd yntau yn gwneuthur hyny o angenrhaid yn hytrach nag o ddewisiad. Er ei holl ryddfrydigrwydd, nid yw debyg y rhoddasai efe unrhyw Anghydffurfiwr ar waith, pe gallasai gael nifer digonol o Eglwyswyr galluog; ond yn hytrach na gadael i'w gydwladwyr truain feirw o eisiau gwybodaeth, derbyniai efe ddynion galluog a chymmwys i'w wasanaeth, o ba gyfundeb crefyddol bynag y gallent fod. Nid un o'r creaduriaid bychain, cul-feddwl oedd efe, y rhai a aberthent les tymhorol a thragywyddol eu cyd-ddynion ar allor sect a mympwy."*

Tra'r oedd y diwyd a'r enwog G. Jones ynghanol ei ymdrech gyd â'i ysgolion, oedd weithian yn bur llïosog yngwahanol barthau y wlad, heb law ei fod yn dyfal bregethu yr efengyl ymhob llan a mynwent y cai alwad a chaniatâd, cyhoeddodd ei bumed llyfr Cymraeg, sef—

"Galwad at Orseddfaingc y Gras, fel na'n Condemniwr o flaen Gorseddfaingc Barn; neu Ymddiddanion ynghylch Gweddi, yn cynnwys Annogaethau a Chyfarwyddjadau i weddïo Duw tra fyddom yn y Bŷd hwn, fel y byddom sicr o Ras a Thrugaredd i Fywyd Tragwyddol yn y Bŷd a ddaw. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

"Argraphwyd yn Llundain yn y fl. M.DCC.XXXVIII."†

Argraphwyd y gwaith rhagorol yma drachefn yn oes yr awdur, yn 1750,‡ a'r drydedd waith yn 1838, yr hwn yw'r treuthawd cyntaf o'r gyfrol gyntaf o "Holl Ysgrifeniadau Cymraeg y diweddar Barch. Griffith Jones, Llanddowror, swydd Gaerfyrddin; ynghyd â Chopinod o'i Fywyd. A gyhoeddwyd gan y Parch. E. Morgan, M.A., Vicar Syston a Radcliffe, swydd Leicester, a Chaplain Arglwydd Ferrers. Cyf. I. Caernarfon: argraphwyd gan James Rees, Heol Fawr. 1838." 12plyg.

Cynnwys y treuthawd yma, yn yr argraphiad hwn, 168 o dudalenau, yn y llythyren fân a elwir *Bourgeois*, ynghyd â x. tudalen o arweinolion. Dywed y cyhoeddwr, "Gwneir ychydig o gyfnewidiad ar orgraffiaeth, ond dim ar sylwedd, y traethawd hwn." Yr ydym ni yn ystyried hyn yn hyfder, yn terfynu ar haerllugrwydd. Yr oedd yn llawn ddigon i'r golygydd newid "y llythyreniad, ynghyd â phethau perthynol i ramadeg;" a chredwn na wnaeth hyny ond anfynych er gwell, canys llythyreniad ein papurach cyfnodol a ddilyna, heb fod yn perthyn i unrhyw gyfundrefn gysson. Holiadau ac Attebion meithion, ond tra phwysig, ydyw y gwaith rhagorol hwn, ac y mae'n wir deilwng o ddarlleniad ac ystyriaeth ddifrifol pob dŷn, fel holl gyfansoddiadau G. Jones. Ni chyhoeddwyd ond un gyfrol o argraphiad Caernarfon, yn cynnwys un treuthawd arall o waith yr awdur galluog a diwydfryd, sef y chweched llyfr Cymraeg o'i waith, yr hwn a enwai yr awdur ei hun fel hyn:—

"Hyfforddwr at Orseddfaingc y Grâs: neu, Ail ran o'r Alwad at Orseddfaingc y Grâs. Yn dyscu Ym mha fodd i nesâu at Dduw, ac i ymbil ag ef yn ei eirjau ei hun; megis ag y gallo'r Pechaduriaid mwyaf, a geisio, gael Grâs Duw a Thrugaredd, trwy'r Arglwydd Jesu, i Fywyd tragywyddol. Yn cynnwys Matter a Threfn, ac amryw Gyfarwyddiadau ynghylch y Ddyledswydd o Weddi, ac Ymadroddjon perthynasol i'w harferu ym mhob rhan o honi; wedi eu casglu allan o'r Ysgrythur Lân. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

"Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn MDCCXL."§

Nid yw'r gwaith gwreiddiol yn ein meddiant; ond y mae'r gwaith, fel y mae yn argraphiad Caernarfon (1838), yn cynnwys 192 o dudalenau, ynghyd â "Rhagdraethawd;" "Taer Ddeisyfiad yr awdur at Benau-teuluoedd ac Ysgolfeistri;" a "Chynhwysiad;" oll yn lxviii. o dudalenau. Gwaith ydyw y treuthawd anghydmarol hwn ar lïaws o bethau y dylid gweddïo am danynt; a gellid meddwl, wrth ei ddarllen, fod yr holl Ysgrythyrau Sanctaidd ar gof yr awdur tra galluog. Nis gallwn ymattal heb ddodi esampl o hono ger bron:—

"X.—AM GARIAD BRAWDOL.

"Dysg ni, O Dduw! i garu ein gilydd o galon bur yn helaeth; gan garu eraill fel ni ein hunain, â'r cyfryw gariad ag sydd yn cyflawni'r gyfraith, a chynhyddu ynddo fwyfwy. Canys diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith. Ac wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i Grist ydym, os bydd genym gariad i'n gilydd: 1 Thes. iv. 9, 10. Rhuf. xiii. 8, 9. 1 Tim. i. 5. Ioan xiii. 35.

"Par di i'n cariad fod yn ddiragrith, gan gasâu y drwg, a glynu wrth y da: mewn cariad brawdol, yn garedig i'n gilydd; yn rhoddi parch, yn blaenori ein gilydd. Na fyddom yn nyled neb o ddim, ond o garu bawb ein gilydd; ac fel y gwneler ein holl bethau ni mewn cariad. Canys pe llefarem â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod genym gariad, yr ydym fel efydd yn seinio neu symbal yn tingcian: Rhuf. xii. 9, 10. xiii. 8. 1 Cor. xvi. 14. xiii. 1.

"Yr Arglwydd a'n llïosogo, ac a'n chwanego ymhob cariad i'n gilydd ac i bawb. Fel y byddom yn meddwl yr un peth, a'r un cariad genym, yn gyttûn, yn synied yr un peth; ac na wnelom ddim trwy gynnen neu wag-ogoniant, eithr mewn gostyngeiddrwydd, gan dybied ein gilydd yn well na ni ein hunain; ac nad edrychom bob un ar yr eiddo ei hun, eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd: Phil. ii. 2–4.

"Pura ein heneidiau, O Arglwydd, i ufuddhau i'r gwirionedd trwy'r Yspryd, i frawdgarwch diragrith, gan garu ein gilydd o galon bur yn helaeth. Gan fod yn unfryd,

* Rees' Hist. Prot. Noncon., p. 350–1.
† Llyfr. y Cymry, t. 376. ‡ Yr un, t. 420.
§ Llyfr. y Cymry, t. 384.

Digitized by Google

yn cyd-ddïoddef â'n gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn fwynaidd; nid yn talu drwg am ddrwg, neu sen am sen, eithr yn y gwrthwyneb, yn bendithio, gan wybod mai i hyn y'n galwyd, fel yr etifeddom fendith: 1 Petr i. 22. iii. 8, 9.

"Caniatâ, Arglwydd, o flaen pob peth, fod genym gariad helaeth tu ag at ein gilydd, canys cariad a guddia lïaws o bechodau. Gan fod yn llettygar y naill i'r llall, heb rwgnach; a phob un, megis y derbyniodd rodd, i gyfranu â'u gilydd, fel daionus oruchwylwyr amryw ras Duw. Gan garu, nid ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd. Wrth hyn y gwybyddwn ein bod o'r gwirionedd, ac y sicrhâwn ein calonau ger bron Duw: 1 Petr vi. 8-10. 1 Ioan iii. 18, 19.

"Os yw bossibl, hyd y mae ynom, cymmorth ni i fyw yn heddychol â phob dŷn: gan ddilyn y pethau a berthynant i heddwch, a'r pethau a berthynant i adeiladaeth ein gilydd; gan ddilyn heddwch â phawb, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad, nag ŷch pasgedig a chas gyd âg ef: Diar. xv. 17. Rhuf. xii. 18. xiv. 19. Heb. xii. 14.

"O cymmorth ni i roddi heibio bob digter, llid, drygioni, cabledd, a serthedd, allan o'n genau! Na bo i ni gnoi a thraflyngcu, a difetha ein gilydd; eithr megis etholedigion Duw, sanctaidd ac anwyl, gwisgo am danom ymysgaroedd trugareddau, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros; gan gyd-ddwyn â'n gilydd, a maddau i'n gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb; megis yr ydym yn disgwyl maddeuant gan Grist. A phan y goddiweddir un ar ryw fai, adgyweiriwn y cyfryw un mewn addfwynder: Col. iii. 8, 12, 13. Gal. vi. 1.

"O bydded genym ras! fel y gallom, megis cydaelodau, gyd-deimlo, a chyd-ddïoddef â'n gilydd; gan lawenhau gyd â'r rhai sydd lawen, ac wylo gyd â'r rhai sy'n wylo; a bod yn unfryd â'n gilydd, heb roddi ein meddwl ar uchel bethau, eithr yn gyd-ostyngedig â'r rhai iselradd. Gan rybuddio y rhai afreolus, a diddanu y gwan eu meddwl; cynnal y gweiniaid, a bod yn ymarhous wrth bawb: ac nid rhyngu ein bodd ein hunain, ond boddhau bob un o honom ei gymmydog yn yr hyn sydd dda iddo er adeiladaeth: Rhuf. xii. 15, 16. 1 Thes. v. 14. Rhuf. xv. 15.

"AM RAS I GARU EIN GELYNION.

"Nertha ni â'th ras i garu ein gelynion, i fendithio y rhai a'n melldithiant, i wneuthur daioni i'r rhai a'n casânt, i weddïo dros y rhai a'n drygant ac a'n herlidiant; fel y byddom blant i ti y Tad o'r nefoedd, yr hwn sy'n peru i'r haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. O achub ein blaen, fel na thalom ddrwg am ddrwg, ac na chwennychom ymddïal; eithr rhoddi lle i ddigofaint, canys i ti y mae dïal, a thi a deli: Mat. v. 44, 45. Rhuf. xii. 17, 19."

Cyffelyb ydyw y llyfr gwerthfawr hwn trwyddo oll, ar wahanol byngciau gweddi. Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y llyfr uchod, sef 1740, cyhoeddodd G. Jones ei ail lyfr Saesneg, dan yr enw canlynol:—

"A Further Account of the Progress of the Circulating Welsh Charity Schools. By the Reverend Mr. Jones, Minister of Landowror, near Laugharne, Carmarthenshire"=Hanes Ychwanegol am Gynnydd yr Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig. Gan y Parchedig Mr. Jones, Gweinidog Llanddowror, ger llaw Llacharn, sir Gaerfyrddin.

Yn y flwyddyn nesaf, cyhoeddodd G. Jones ei drydydd llyfr Saesneg, sef yr un canlynol:—

"An Address to the Charitable and Well-Disposed, in Behalf of the Poor in the Principality of Wales. . . . MDCCXLI"=Annerchiad at yr Elusengar a'r Da ei Duedd, ar Ran y Tlawd yn Nhywysogaeth Cymru.

Dengys y ddau lyfr hyn bod rhif yr ysgolion a fu mewn bod yn ystod y deng mlynedd a aethant heibio yn gymmaint a 128; bod y rhai a ddysgwyd ynddynt, yn hen ac ieuangc, yn 7,595. Er maint oedd llafur a phryder y dŷn digyffelyb hwn gyd â'i ysgolion lliosog a phwysig, nid oedd ball arno chwaith fel ysgrifenydd, canys yn yr un flwyddyn etto tybir iddo gyhoeddi ei seithfed lyfr Cymraeg, sef—

"Hyfforddwr," &c.

Dywed Gwilym Lleyn mai y "Rhan 1af o Gatecism G. Jones, Llanddowror," ydyw hwn, a seilia ei hyspysiad am dano ar "Lythyr Mr. B. Davies, ysgolfeistr."* Nid yw y rhan hon o'r hen argraphiad sydd genym ni o'r gwaith hwn ond bechan, sef 36 o dudalenau 12plyg.

Yn y flwyddyn ganlynol, 1742, cyhoeddodd G. Jones ei bedwerydd a'i bumed treuthawd Saesneg, y ddau dan yr enw "Welsh Piety Continued"†=Parhad o'r Duwioldeb Cymreig: y cyntaf yn cynnwys hanes yr Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig o Awst 1740 hyd Awst 1741, a'r ail yn cynnwys eu hanes o Fedi 1741 hyd Fedi 1742: y ddau "mewn llythyr at gyfaill." Yn y flwyddyn nesaf, 1743, cyhoeddodd yr awdur diflino ei brif waith, sef yr wythfed o'i gyfansoddiadau Cymreig, dan yr enw canlynol:—

"Drych Difinyddiaeth: neu Hyfforddiad i Wybodaeth jachusol o Egwyddorion a Dyledswyddau Crefyddol: Sef, Holiadau ac Attebion Ysgrythyrol ynghylch yr Athrawiaeth a gynhwysir yng Nghatecism yr Eglwys. Angenrheidiol i'w dysgu gan Hen ac Ieuaingc. Yn Bum Rhan. Gan Weinidog o Eglwys Loegr."‡

Cyhoeddodd yr awdur ail argraphiad o'r gwaith hwn yn 1748, dan yr un enw; ac yn 1749, cyhoeddodd "Grynodeb" o hono, yr hwn sydd yn ein meddiant, dan yr enw "Hyfforddiad Gynnwys i Wybodaeth jachusol o Egwyddorion a Dyledswyddau Crefydd," &c. Er mor "gynnwys" yr ymddangosai yr argraphiad hwn i'r awdur llafurus, yr ydym ni yn ei ystyried yn un pur helaeth; rhy helaeth, yn wir, i bobl gyffredin ei ddysgu ar dafod leferydd, fel yr annog efe i wneuthur, canys y mae corph y gwaith yn cynnwys 319 o dudalenau 12plyg, mewn llythyren fân, ac y mae iddo 9 tudalen o arweinolion. Y mae'r gwaith wedi ei

* Llyfr. y Cymry, t. 387.
† Llyfr. y Cymry, t. 391. ‡ Yr un, t. 392.

ddosparthu yn bum rhan:—1. "Esponiad o Gatecism yr Eglwys" [Sefydledig]. 2. "Esboniad o Gredo'r Apostoljon." 3. "Esboniad o'r Deg Gorchymmyn." 4. "Esboniad o Weddi'r Arglwydd." 5. "Esboniad o'r Ddau Sacrament." A therfynir y gwaith gyd âg "Ystyriacthau" lled helaeth "cyn dyfod i'r Sacrament," ac "ar ôl y Sacrament," oll yn holiadau ac attebion.

Y mae'n ymddangos i ni y byddai annogeuthau taerion a chymmelliadau difrifol yr awdur i ddarllen a dysgu y Catecism yn fwy priodol pe cymhwysid hwy at "chwilio yr Ysgrythyrau," ac at ddarllen a dysgu y Testament Newydd. Tybir mai prif wall catecismau yn gyffredin yw tynu adnodau o'u cyssylltiad priodol a'u hystyr Ysgrythyrol, i geisio profi y pwngc a fyddo dan sylw yn y catecism. Gellid nodi ugeiniau o'r cyfryw ddirdyniadau yn yr "Hyfforddiad Gynnwys;" ond ni chawn nodi yma ond un esampl, sef yr atteb cyntaf i'r ail holiad sydd yn y llyfr, fel hyn:—

"Cwest. Pa ham y dylech ddysgu'ch Catecism?
"Att. 1. Er mwyn adnabod Duw a Christ. 'Canys hyn yw'r bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Jesu Grist.' Ioan xvii. 3."

Nid oes yn yr adnod hon, nac mewn un adnod arall yn y Bibl, ddim awgrym, fel ag y gellid casglu oddi wrtho, bod dysgu catecism yn y byd yn ddyledswydd; ond tystiolaeth eglur, anflaeledig, sydd yma mai adnabod Duw a Iesu Grist yw'r bywyd tragywyddol. Llusgir *darnau* o adnodau cwbl amherthynasol weithiau i gatecismau i geisio profi eu hattebion, megis—

"Onid dirgelwch mawr yw hwn? [sef bod 'mwy nag un Person yn y Duwdod'].
"Iё, dirgelwch mawr i'w gredu, ac nid i'w amgyffred: 'Mawr yw dirgelwch duwioldeb.' 1 Tim. iii. 16."

Nid yw'r adnod y difynir y dernyn yna o honi yn cyfeirio dim at y "Drindod," eithr tystiolaeth yw'r adnod mai ymddangosiad Duw yn y cnawd sy'n ddirgelwch mawr, fel hyn:—"Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr Yspryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd i'r cenhedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymmerwyd i fynu mewn gogoniant." Gorchymyn Iesu Grist gyd â golwg ar fywyd a'i adnabod yntau ydyw—"Chwiliwch yr Ysgrythyrau; canys ynddynt hwy yr ydych yn meddwl cael bywyd tragywyddol: a hwynt-hwy yw y rhai sy'n tystiolaethu am danaf fi" (Ioan v. 39). "Ynddynt *hwy*," ac nid yn y Catecism, y mae i ni "feddwl cael bywyd tragywyddol," am mai "hwynt-hwy sy'n tystiolaethu" yn ddiwyrni am y Gwaredwr bendigedig.

Yn y flwyddyn 1745, cyhoeddodd G. Jones ei chweched treuthawd Saesneg, sef—

"A Letter to a Clergyman, evincing the Necessity and vindicating the Method of Instructing Poor and Ignorant People to read the Holy Scriptures in their native Language," &c.=Llythyr at Glerigwr, yn arddangos yr Angenrhaid ac yn amddiffyn y Drefn o Hyfforddi Pobl Dlodion ac Anwybodus i ddarllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn eu Hiaith frodorol," &c.

Ac yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd ei nawfed llyfr Cymraeg, sef—

"Hymnau Detholig, o Waith amryw Awdwyr, wedi eu cynnull ynghŷd, a'i diwygio yn yr Ysgrifenyddiaeth a'r Brydŷddjaeth, ac yn yr Ystyr o honynt, er Lles y Cymru. Gan Weinidog o Eglwys Loegr."

Ymddengys bod dwy ran fechan o "Aleluja" Bardd Pant-y-Celyn wedi cael eu cyhoeddi y flwyddyn flaenorol* (1744); ond ni wyddom a oedd rhai o hymnau y prif-fardd hwnw yn "Hymnau Detholedig" G. Jones a'i peidio. Os ydoedd, yr ydym yn ddigon sicr yn ein meddwl ein hun nad oedd efe yn gymmwys i'w "diwygio" mwy na'r ymyrwyr a amcanasant wneuthur hyny ar ei ol.

Yn y flwyddyn 1746, llwyddodd G. Jones i gael gan "Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol" argraphu 15,000 o'r Bibl yn Gymraeg, o dan olygiad y dysgedig Risiart Morus, o Fôn, oedd yn Swyddfa'r Llynges, yn Llundain, brawd Llywelyn Ddu o Fôn (Lewis Morys). Yn yr argraphiad 8plyg helaeth yma, yr hwn sydd yn ein meddiant, o flaen yr Hen Destament, y mae

"Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremonïau eraill yr Eglwys, yn ol arfer Eglwys Loegr, ynghyd â'r Sallwyr neu Salmau Dafydd, ar ôl cyfieithiad y Beibl mawr ["Bibl yr Esgob Llwyd," yn 1690], wedi eu nodi megis ag y maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn Eglwysydd; a Ffurf a Dull Gwneuthur, Urddo, a Chyssegru Esgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid, yn ôl Trefn Eglwys Loegr; Gosodedigaethau a Chanonau Eglwysig; a Graddau Carennydd a Chyfathrach, gwaharddedig yn yr Ysgrythur ac wrth ein Cyfreithiau ninnau, i neb Brïodi ynddynt." Rhwng y ddau Destament y mae'r Apocrypha; ac ar ol y Testament Newydd, y mae "Mynegai i'r Beibl Cyssegr-Lân, neu Hanes y Pethau Hynottaf yn Llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn dangos yr amser y digwyddasant, a pha Leoedd yn yr Ysgrythyr y maent wedi eu gosod i lawr; Tablau Arian, Pwysau, Mesurau," &c.; Ynghyd â "Llyfr y Salmau wedi eu Cyfieithu a'u Cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraeg. Drwy Waith Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd."

Heb law y pethau a nodwyd uchod, addurnid yr argraphiad yma â dwy barthlen (map), "Rhodd

* Llyfr. y Cymry, t. 396-97.

Digitized by Google

Wm. Iones, Esqr., F.R.S. j'r Cymru," sef tad yr hyglod ieithydd Dwyreiniol, Syr Wm. Jones. Argraphwyd y Bibl dan sylw yng Nghaergrawnt, 51 milltir o Lundain; ac y mae ynddo amryw wallau argraphyddol, o blegid bod y golygydd yn byw mor bell oddi wrth y wasg. Yr oedd yr argraphiadau a ddygasid allan dan olygiad Moses William, yn 1718, yn cynnwys 10,000, ac yn 1727 yn cynnwys 5,000 o gopïau, wedi myned mor brinion, cyn dwyn y Bibl uchod allan yn 1746, fel nas gellid cael copi o hono yn unman am bunt. Gyd â golwg ar ymdrech G. Jones i gael yr argraphiad yma, dywed Gwilym Lleyn fel hyn:—

"Yr oedd efe yn awr yn llawn gwaith gyd â'i Ysgolion Rhad Symmudol; ac yn ei 'Fynegiadau' o sefyllfa ei ysgolion o flwyddyn i flwyddyn, yn yr iaith Saesneg, dan yr enw '*Welsh Piety*,' yr oedd yn darlunio sefyllfa'r wlad, o ran prinder o air Duw, mewn iaith gref. Gwelwyd iddo, yn y fl. 1741, gyhoeddi 'An Address to the Charitable and Well Disposed, in Behalf of the Poor in the Principality of Wales,' yn yr hwn y mae'n dymuno caniatâd, yn ostyngedig i osod o'u blaen y darluniad byr canlynol; 'mor fawr y mae eisiau eu cydymdeimlad y pryd hwn tu ag at gynhyrchu llesiant ysprydol a thragywyddol y bobl dlodion yn Nhywysogaeth Cymru, y rhai sy'n llafurio dan yr angenrhaid mwyaf gofidus o gael eu cyflenwi â Biblau Cymraeg, Llyfrau Gweddi Gyffredin, Catecismau, ac Ysgolion Elusenol, i ddysgu iddynt y pethau a berthyn i'w hiachawdwriaeth dragywyddol, yn eu hiaith eu hunain, yr unig dafodiaith y mae'r tlodion yn alluog i gael eu dysgu ynddi.' Efe a chwanega:—'Y mae angen gofidus a dymuniad taer am argraphiad helaeth o'r Biblau a'r Llyfrau Gweddi yn yr iaith Frytanaidd; dim llai [na deuddeng mil, y rhif a argraphwyd o'r rhan gyntaf o'r 'Esponiad ar y Catecism'] all ddigoni a diwallu y rhai sydd eisoes wedi dysgu, neu sy'n awr yn dysgu, darllen, ac yn sychedig am danynt.' Yr oedd rhyw ddwy, y pryd hyn, wedi rhoddi 30p. bob un, a dau arall 100p. bob un, tu ag at y draul. Yn ei '*Welsh Piety*,' am yr un flwyddyn, y mae'n taflu at yr esgobion, bod yn awr y cyfleusdra gorau iddynt a allai fod i 'wneud eu hunain yn anwyl gan y genhedlaeth hon a'r ddyfodol, trwy gefnogi argraphiad o'r Bibl Cymraeg.' O ddeutu pum swllt, meddai efe, a gostiai argraphu Bibl a Llyfr Gweddi ynghyd; ac yr oedd trysorfa wedi ei chasglu erbyn 1742, digon i dalu un rhan o bedair o'r draul i argraphu deng mil o Fiblau a Llyfr Gweddi Gyffredin, sef tu ag 1,250p. Erbyn y fl. 1744, yr oedd ysgogiad am gael argraphiad newydd oddi wrth y 'Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol' [trwy ymdrech G. Jones, fel y gwelsom]; ac erbyn diwedd y fl. 1746, yr oedd 'gobaith i'r tlodion am gael y Bibl Sanctaidd yn eu hiaith, am bris isel; a chymmaint ag a fyddo'n bossibl o'r rhai tlotaf heb dalu dim.' Yr oedd cyssylltiad arbenig rhwng cyhoeddiad yr argraphiad hwn a'r ysgolion rhad hyny, yn ol y cyttundeb â'r cyfranwyr, sef bod y Personau y mae eu henwau isod tu ag at ad-argraphu y Bibl a Llyfr Gweddi Gyffredin, i'w lledeunu yn y dull canlynol; sef, Bod iddynt gael eu rhoddi yn ddi dâl i'r tlodion teilwng, yn enwedig y rhai hyny a gyrchant at Weinidog y Plwyf i adrodd Catecism yr Eglwys o flaen y gynnulleidfa, mewn trefn i'w haddysgu ymhellach ynddo trwy esponiad syml ac eglur y Bugail arno; yr hyn, gobeithir, a gynnorthwya i adfywio yr hen drefn fawr, ddymunadwy, o Gateceisio. Yn ail, Bod yr arian a ddaw oddi wrth werthiant y cyfryw Fiblau i'r rhai sy'n alluog ac yn ewyllysgar i'w prynu hwynt, i gael eu defnyddio i gynnal yr Ysgolion Rhad Cymreig, felly i ddysgu rhifedi mawr iawn, y rhai nid ydynt etto yn medru darllen.* Yr oedd Mr. [G.] Jones yn derbyn cwynion o bob parth o'r wlad, oddi wrth offeiriaid, ac eraill o gefnogwyr yr ysgolion, am Fiblau, a'r anhawsder i gael rhai. 'Y mae llawer o'r rhai a ddysgwyd nad oes ganddynt Fiblau i ddarllen ynddynt, na dim i'w prynu pe gellid cael rhai am arian,' meddai Thomas Meylor, o Gastell-y-Blaidd, sir Benfro. 'Gobeithiwn na bydd i chwi ddiffygio yn eich ymdrechiadau i gael argraphiad o'r Bibl Cymraeg,' meddai Ev. Davies, gweinidog Ymneillduol dysgedig, ac athraw Athrofa.† 'Nid oes gan y rhai sydd wedi dysgu fodd i bwrcasu iddynt eu hunain lyfrau da, yn enwedig y Bibl Sanctaidd, prinder yr hwn sydd yn awr mor fawr ag ydyw yr eisiau yn angenrheidiol,' meddai 'Jonathan Griffies, Vicar Bettws, ar ffinoedd siroedd Caerfyrddin a Morganwg.' Dengys y tystioleuthau hyn fod yr angen am air Duw yn fawr, yn cael ei deimlo trwy fod mwy yn gallu darllen, pe cawsent ef, trwy addysg Ysgolion Elusengar Symmudol y Parch. G. Jones. Dywedir i lawer o Ymneillduwyr gyfranu yn helaeth tu ag at yr argraphiad hwn, trwy law y Dr. Stennett, un o weinidogion y Bedyddwyr, er mwyn eu cael heb fod mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig; canys ni allai yr un tlawd gael y Bibl yn rhodd yn ol ammod y cyfraniadau cyffredin, ond ar yr ammod o ddyfod i adrodd Catecism yr Eglwys wrth yr offeiriad ar gyhoedd." ‡

Yn y flwyddyn ganlynol, 1747, cyhoeddodd G. Jones ei seithfed llyfr Saesneg, sef—

"Twenty Arguments for Infant Baptism"=Ugain o Resymau dros Fedydd Babanod.§

Nis gwyddom ai yr un oedd hwn a'r "Christian Covenant, or Baptismal Vow, 1st and 2nd Part," a briodolir iddo gan Mr. Charles.‖ Ymddengys mai dyma yr unig dreuthodau (od ydynt yn rhai gwahanol hefyd) a ysgrifenwyd gan y tangnefeddus G. Jones ar bwngc dadleuol. Yn 1749, cyhoeddodd G. Jones ei ddegfed llyfr Cymraeg, dan yr enw canlynol:—

"Llythyr ynghylch y Ddyledswydd o Gateceisio Plant a Phobl Anwybodus."

Yn yr un flwyddyn etto, cyhoeddodd ei wythfed llyfr Saesneg, a'i unfed ar ddeg llyfr Cymraeg, sef y rhai canlynol:—

"Welch Piety Continued: Or a Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1747 to Michaelmas 1748. In a Letter to a Friend"=Parhâd o'r Duwioldeb Cymreig: Neu Hanes Ychwanegol o'r Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig, o Wyl Fihangel 1748 hyd 1749. Mewn Llythyr at Gyfaill.

"Pigion Prydyddiaeth Pen-fardd Cymru: Sef Caniadau, a Hymnau ac Odlau Ysprydol; Allau o Waith y Parchedig Mr. Prichard, gynt Ficcer Llanymddyfri."

* *A Memorial* cyssylltedig â'r *Welsh Piety*.

† "Gweinidog yr Ymneillduwyr yn Hwlffordd, yr hwn a anwyd yn Llanbedr, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Hoxton, dan yr athrawon enwog, y Dr. Ridgley a Mr. John Eames. Dewiswyd ef yn 1741 yn athraw yr athrofa oedd yng Nghaerfyrddin, ar farwolaeth Mr. V. Griffiths. Yn 1743, symmudodd i Gaerfyrddin at yr athrofa; ond o blegid anghydfod rhyngddo a'i gyd-athraw, efe a ymadawodd o Gymru, ac a ymsefydlodd yn Billericay, yn Essecs.—Hanes Crefydd yng Nghymru, gan D. Peter, argr. 1af, t. 683-84."

‡ Llyfr. y Cymry, t. 404–7. § Yr un, t. 410.

‖ Trysorfa 1813, t. 11.

Digitized by Google

Talfyriad ydyw y llyfryn hwn o ganiadau yr "Hen Ficar." Yn y flwyddyn ganlynol, 1750, cyhoeddodd ei nawfed treuthawd Saesneg, a'i ddeuddegfed Cymraeg, yn un llyfr, dan yr enw canlynol:—

"Introduction for the Young Christian, &c. By a Minister of Church of England. Or Addysg i'r Cristion Ieuange: neu Eglurhâd ar Gatecism yr Eglwys. Mewn ffordd o Holiad ac Atteb. Gan Weinidog o Eglwys Loegr."

Math ar gyfieithiad o'r Saesneg ydyw y rhan Gymraeg, neu yn y gwrthwyneb. Yn y flwyddyn hon hefyd, cyhoeddodd ail argraphiad o'i "Alwad at Orseddfaingc y Gras."

Yn y fl. 1752, llwyddodd y clodfawr Gruffydd Jones, trwy gyfrwng ei "*Welch Pieties*," a'i annerchiadau Seisnig eraill, yn y rhai y darlunia amddifadrwydd y Cymry o Fiblau, a llyfrau da eraill, i gael gan y "Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol," ddwyn argraphiad arall o'r Bibl Cymraeg allan, dan olygiad Rhisiart Morus* etto, yn cynnwys 15,000 o gopïau, fel argraphiad 1746. Argraphwyd hwn yn Llundain, ac o herwydd hyny yr oedd y golygydd medrus yn cael gwell mantais i ddiwygio gwallau y wasg yn fanylach nag yn yr argraphiad a gyhoeddwyd yn Rhydychain. Dywed y Dr. Llewelyn y cred bod hwn mor gywir ag unrhyw argraphiad a gyhoeddwyd o'r Bibl. Yr oedd yr argraphiad yma yn cynnwys yr un pethau ag argraphiad 1746, ond bod yr Apocrypha wedi ei adael allan.† Gyd â golwg ar yr argraphiadau hyn o'r Bibl, dywed Bardd Pant-y-Celyn, ym marwnad G. Jones, fel hyn:—

"Dacw'r Biblau teg a hyfryd,
Ddeg ar hugain filoedd llawn,
Wedi eu trefnu i ddod allan,
Trwy ei ddwylaw'n rhyfedd iawn:
Dau argraphiad, glân ddiwygiad,
Llawn ac isel bris i'r gwan;
Mewn cabanau fe geir Biblau,
'Nawr gan dlodion ymhob man.

"Hi Ragluniaeth ddyrys, helaeth
Wna bob peth yn gydsain lawn;
Dwêd nad gwiw argraphu Biblau
Heb eu darllen hwy yn iawn:
Daeth yn union ag Ysgolion
O Werddon Fôr i Hafren draw;
Rhwng y defaid mae'r bugeiliaid
'Nawr â'r 'Sgrythyr yn eu llaw."‡

Yn yr un flwyddyn ag y dygwyd yr argraphiad dan sylw o'r Bibl allan, sef 1752, cyhoeddodd G. Jones ei ddegfed llyfr Saesneg, sef "*Welch Piety*," yr hwn oedd yn fath ar barhâd o'r llyfrau eraill o'r un enw, yn cynnwys "hanes ychwanegol am yr Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig, o Wylfihangel 1750 hyd Wylfihangel 1751. At yr hwn yr ychwanegwyd Tystioleuthau Perthynol i Ysgolfeistriaid ac Ysgolheigion y dywededig Ysgolion. Mewn Llythyr at Gyfaill." Tra'r oedd G. Jones, fel hyn, yn ymdrechu yn egnïol a phur lwyddiannus i oleuo a chrefyddoli ei gydwladwyr difreintiau, ymhob parth o Gymru, trwy deunu Biblau rhad yn eu plith, pregethu iddynt, ysgrifenu llyfrau, ac arolygu a threfnu ei ysgolion

* Rhisart Morys (canys felly yr ysgrifenai efe ei enw) oedd ail fab i Morys Rhisart Morys, a'i wraig Margaret, merch Morys Owen, o Fodafon-y-Glyn, ymhlwyf Llanfihangel-Tre'r-Beirdd, ym Môn. Gwneuthurwr llestri (*cooper*) oedd M. R. Morys ar ddechrau ei yrfa briodasol, ac yn byw mewn lle a elwir Tyddyn-Melus, yn y plwyf crybwylledig; ond wedi hyny symmudodd i dyddyn helaeth a'i enw Pentref-Eirianell, ymhlwyf Penrhos-Llugwy, Môn. Dywedir i M. R. Morys droi yn fasnachwr ŷd ar ol ymsefydlu ym Mhentref-Eirianell, yr hyn, ond odid, ynghyd â chynnyrch y tyddyn, a'i galluogodd i ddodi ei dri mab galluog, Lewis (Llywelyn Ddu o Fôn), Rhisiart, a William, mewn galwedigaethau mor barchus. Methasom gael allan pa un ai yn y Tyddyn-Melus ai ym Mhentref-Eirianell y ganwyd Rhisiart, ail fab ei rieni; na pha bryd, yn fanwl, y cafodd ei eni; ond gan i'w frawd hynaf, Lewis, gael ei eni ar y 12fed o fis Mawrth, 1700, gellir casglu iddo yntau gael ei eni rywbryd o gylch 1702.

Yr oedd Rhisiart Morys yn ŵr talentog a gwir alluog, yn dra chyfarwydd yn iaith a barddoniaeth ei wlad, ac yn wladgarwr trwyadl a ffyddlon. Difyrai oriau hamddenol borau ei oes wrth ysgrifenu hen farddoniaeth Gymreig, ac y mae ei Ysgriflyfrau yn cael eu cadw fyth yn Llyfrgell yr Ysgol Gymreig yn Llundain. Dywed Williams (*Em. Welshmen*, p. 350) iddo gael lle fel prif ysgrifenydd yn Swyddfa'r Llynges, trwy ddylanwad ei frawd Lewis. Ni fynegir pa bryd y cafodd y swyddogaeth honno; ond y mae sicrwydd ei fod yno er ys rhyw faint o amser cyn 1746, pan y dewiswyd ef i olygu argraphiad o'r Bibl, fel y gwelsom, gan y "Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol." Heb law golygu y ddau argraphiad crybwylledig uchod o'r Bibl, dywedir y bu'n gynnorthwywr ymdrechgar a haelionus i Peter Williams i ddwyn allan y Bibl, "gyd â Nodau a Sylwadau ar bob Pennod," yr hwn a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn 1770. Bu'n gynnorthwywr llwyddiannus hefyd i blwyfolion Trefdraeth, Môn, pan mewn cyfraith yn erbyn cymmeryd Sais yn berson y plwyf, a chollodd y Sais y bersonoliaeth. Pan oedd Goronwy Owen yn ei gyfyngder mwyaf, a llawer hen gyfaill wedi troi ei gefn arno, glynodd R. Morys a'i frawd W. Morys, yr hwn oedd arolygydd y cyllid, a chasglwr treth yr halen, dan y Llywodraeth, yng Nghaergybi, Môn, yn gyfeillion cywir a haelionus iddo hyd onid ymfudodd i'r America; ac atynt hwy yr ysgrifenodd yr enwog Oronwy yr holl lythyrau sydd yn y "*Gronoviana*," oddi eithr tri llythyr yn unig, sef 19 o lythyrau at R. Morys, a 27 at W. Morys. Er y gwyddys bod serchiadau Lewis Morys, yr hynaf o'r tri Morysiaid dawnus, wedi oeri llawer at ei ddisgybl barddonol godidog, Goronwy Owen, ryw bryd cyn i'r olaf fyned i'r America; er hyny, y mae'n syndod braidd nad oes gymmaint ag un llythyr o waith Goronwy ato ef ar gael, hyd y gwyddom ni, tra y mae cynnifer o'i waith at y ddau frawd arall ar gof a chadw. Bu'r Morysiaid enwog feirw fel y canlyn:—William Morys, yr ieuengaf o'r tri brawd, a fu farw tu a chanol oed, fel y tybir, yng Nghaergybi, yn 1764, a chladdwyd ef, y mae'n debyg, ym monwent Cybi.—Lewis Morys, yr hynaf o'r tri brawd, yr hwn a fu'n olynol yn gylchlestrwr, yn fesurydd tir, yn gasglydd cyllid a threth yr halen, yng Nghaergybi; yn fesurydd a pharthleuwr arfordiroedd Cymru, yn arolygydd tirgyllid y brenin, a chasglwr porth-dollau yn Aberteifi, yn arolygydd mŵn-weithiau y brenin yng Nghymru, ac a adysgrifenodd gyfrolau lawer o hen ysgrifau Cymreig, a fu farw ym Mhenbryn-y-Barcut, etifeddiaeth ei ail wraig, ymhlwyf Llanbadarn-fawr, sir Aberteifi, ar yr 11fed o Ebrill, 1765, yn 65 oed, a chladdwyd ef yn Eglwys Llanbadarn, lle nad oes na maen na mynor i ddynodi "Man fechan ei fedd."—Rhisiart Morys, yr ail frawd enwog, a fu farw mewn gwth o oedran, yn y flwyddyn 1779, a chladdwyd ef ym monwent St. Siôr, yn Llundain.—Cambrian Register, vol. ii., p. 231; Diddanwch Teuluaidd, Cofion, t. xxii.-xxviii.; Parry's Cambrian Plutarch, p. 348; Williams's Em. Welshm., p. 350; Gronoviana, Byr Gofion, t. lxxiv.-lxxviii.; En. Cymru, I. F., t. 758; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 581-7.

† Llewelyn's Hist. Acc., pp. 51-55.

‡ Holl Weithiau Wm. Williams, t. 680.

**llïosog a gwerthfawr, ac efe weithion yn y 69fed flwyddyn o'i oedran, yr oedd offeiriaid dïoglyd, diwerth, ac annuwiol y wlad, yn malu ewyn o gynddaredd at ei lafur a'i lwyddiant; a llwyddasant yn ystod y flwyddyn hon, 1752, i gael gan esgobion Seisnig y wlad lwgr-obrwyo adyn dïegwyddor o offeiriad i gyhoeddi y treuthodyn bustlaidd canlynol yn ei erbyn, heb enw wrtho:—**

"Some Account of the Welch Charity Schools, and of the Rise and Progress of Methodism in Wales, through the Means of them, under the sole Management and Direction of Griffith Jones, Clerk, Rector of Llanddowror, in Carmarthenshire, in a short History of the Life of that Clergyman as a Clergyman."*

"Goddaith a roir mewn Eithin
Gwanwyn Crâs, trwy'r Gwyunon Crin;
Anodd fydd ei ddiffodd;
Ac un Dŷn a'i hennyn Hi. i.e.

"One Sinner destroyeth much Good.

"'Mong these, there was a Politician
With more Heads than a Beast in Vision;
And more Intrigues in every one
Than all the Whores of Babilon;
And, in his Dark Pragmatick Way,
As busy as a Child at Play.

"London: Printed in the Year 1752."

**"Awdur y llyfr uchod," medd Gwilym Lleyn, "ydoedd y Parch. John Evans, person Eglwys Gymmun, ger llaw Llanddowror. Yr oedd yn elyn mawr i Mr. G. Jones, a'r diwygiad drwyddo. Y mae ei lyfr yn cynnwys pob cableddau ar y gŵr da hwnw, y rhai, os gwir, a'i gwna y dŷn gwneuthaf yn y byd. Y cyhuddiadau ydynt:"—**

1. "Y gellid meddwl, wrth ddull G. J. yn rhoi hanes ei gateceisio yn yr Eglwys, rhwng y llithoedd, yn 1738, mai Catecism Eglwys Loegr ydoedd yn ei arfer, pan mewn gwirionedd mai Catecism Matthew Henry a arferai!†

2. "Y cydnabyddai fod ŵyn gwerthfawr Crist ymhlith yr amryw sectau!

3. "Na fu Mr. Jones erioed yn gymmodlawn âg Eglwys Loegr; ei chanonau, homiliau, &c.!

4. "Mai Mr. Jones oedd yr unig athraw Methodistaidd yng Nghymru am flynyddau!

5. "Bod yn debyg mai efe oedd yr offeryn mawr, a'r penaf, i sefydlu Methodistiaeth yn Lloegr!

6. "Mai efe a wnaeth Howel Harris yn Fethodist!

7. "Y dysgai fod yr un hawl gan bobl i ddewis eu gweinidog ag i ddewis eu meddygon!

8. "Ei fod yn casglu eglwys allan o'r Eglwys, ar egwyddorion yr Annibynwyr a'r Ailfedyddwyr!

9. "Bod ei athrawiaeth o'r areithfa yn Antinomaidd: bod hyny yn gwneud ei dilynwyr mor hynod, fel os dywedid wrth ddïeithr fod y dŷn y byddai'n myned i fasnach âg ef yn *Jonesiad*, y deallid yn ebrwydd ei fod i'w ochelyd!

10. "Bod ganddo fic at yr offeiriaid rheolaidd: os beient hwy ef am bregethu teithiol, y galwai yntau hwy yn ddreliaid dioglyd: os cyhuddid ef o fod yn annysgedig, heurai yntau nad oedd dim i'w ddysgu yn y prifysgolion ond yfed ac ysmocio!

11. "Mai yn durnor llestri coed y cafodd ei ddwyn i fynu, a'i fod yn arfer y gwaith hwnw wrth ei bleser pan yn berson Llanddowror!

12. "Bod y bobl yn ei ddilyn i gyfarfodydd nos, ac mewn canlyniad fod deunaw cwpl wedi priodi yr un flwyddyn o'r rhai a gyrchent i'r cyfarfodydd hyny; ac yn eu plith oll, nad oedd ond un heb fod yn feichiog fawr!

13. "Bod Mr. G. Jones wedi cael personoliaeth Llanddowror trwy ddichell anghyfreithlawn, yn ystod bywyd yr hen berson, sef Mr. John Jones!

14. "Ei fod yn dïeithrio'r bobl oddi wrth eu gweinidogion, ac y byddai offeiriaid a gwardeiniaid pleidiol iddo yn ei gyhoeddi i bregethu yn yr eglwysydd ar hyd y wlad; ac os na chai allweddau'r eglwys, neu ffordd i mewn trwy ffenestr, er gweuthaf yr offeiriad, yr esgynai i ben un o'r coed yn y fynwent i bregethu, ac y galwai'r offeiriaid rheolaidd yn weision cyflog, cŵn mudion, &c.!

15. "Pan wysiwyd ef ger bron y Parch. D. Howard, capelwr yr Esgob Bull, a changhellwr llys yr esgob, am ei afreolaeth, yr heurodd nad oedd yn myned i blwyf nac eglwys neb heb ei genad; ond nad oedd ganddo namyn myned yn fud pan ddaeth offeiriaid y cyfryw blwyfau i'w wyneb; ac mai y rheswm paham yr aeth i blwyfau eraill wedi addaw nad elai, oedd ei fod wedi addaw o'r blaen fyned, cyn addaw peidio, a'i fod yn ystyried ei hun yn gydwybodol rwym i'r addewid gyntaf!

16. "Mai dyfais Mr. Jones i lenwi ei eglwys oedd addaw torth geiniog i bob gŵr, gwraig, a phlentyn a'i cyfarfyddai ef unwaith yn y mis, ac a adroddent ryw adnod o'r Ysgrythyr yn yr eglwys y Sadwrn cyn Sul y cymmun; ac wedi eu cael felly i gymmeryd y cynnyg cyntaf, y rhoddai ail ammod, sef bod yn rhaid iddynt ddyfod i'r eglwys y Sabboth hefyd am y dorth geiniog!

17. "Iddo deunu ar led fod y cythraul wedi marchogaeth yn ei sgîl ryw noswaith dywyll, pan gyfaddefodd y cythraul, wedi cryn ymddiddan rhwng y ddau elyn a'u gilydd, nad oedd arno ofn yr un gweinidog yn Eglwys Loegr ond Mr. Jones yn unig!

18. "Ei fod yn gwneud casgliadau yn yr eglwys y Suliau cymmundeb, heb roi dim cyfrif i'r gwardeiniaid; ac ar yr un pryd yn codi treth flynyddol i dalu am yr elfenau, ac yn pocedu'r casgliad iddo ei hun!

19. "Ei fod yn derbyn tâl am bregethu ar hyd y wlad, tra'r oedd yn cael cynhorthwy i gyflenwi ei eglwysydd ei hun, yn ei absennoldeb, yn rhad: ei fod ei hun yn cael hanner coronau ynghil ei ddwrn gan amryw, ac yn disgwyl eu cael yn rheolaidd!

20. "Ei fod yn cyfnewid y Litani, ac yn gadael allan ddarnau cyfain o'r gwasanaeth, er mwyn prynu'r amser i bregethu a gweddïo ei hunan!

21. "Bod yn rhaid i bwy bynag a brynai Fibl gan Mr. Jones am 4s., brynu ei Gatecism ef hefyd am 2s.; ac mai trwy'r ddyfais honno yr oedd yn gwerthu miloedd o honynt.

22. "Ei fod yn ei 'Esboniad ar Gatechism yr Eglwys,' yn gwneud i ffwrdd âr athrawiaeth o 'adenedigaeth ym medydd;' ac yn heuru nas gall bedydd, na dim arall, wneud dŷn yn Gristion, heb ffydd yng Nghrist.

23. "Ei fod ef, a'i gydymaith,‡ wedi myned i draul a thrafferth fawr i ddiddymu gŵyl-mabsantau, a chwaryddieuthau, er mawr niwaid i haelfrydedd a chariad Cristionogol, a phob cymmydogaeth dda, &c."

* "Peth Hanes am yr Ysgolion Elusengar Cymreig, ac am Gyfodiad a Chynnydd Methodistiaeth yng Nghymru, trwy eu Hofferynoliaeth, dan unig Drefniad a Chyfarwyddyd Griffith Jones, Offeiriad, Person Llanddowror, yn sir Gaerfyrddin, mewn Hanes fer o Fywyd y Clerigwr hwnw fel Clerigwr."

† "Yr hwn a gyhoeddasid, fe allai, o ddeutu'r pryd hyn; ond gan nad oes amseriad wrtho, y mae wedi ei roddi yn rhif 7, d.f. 1743 [Llyfr. y Cymry, t. 393], gyd â nod o ambeuaeth (?). Ymddengys bod Mr. G. Jones heb ddechrau cyhoeddi ei Gatecism ei hun yn 1738, gan mai yn 1741 y daeth y rhan gyntaf allan."

‡ Y mae'n debyg mai Mrs. Bevan, a elwid Madam Bevan, oedd y gydymaith (*friend*) yma.

Digitized by Google

Y mae'n amlwg mai amcan awdur huriog y truth gwaradwyddus hwn oedd difrïo a chablu y gweithiwr difefl, a'r gwladgarwr ymroddgar, Gruffydd Jones; er, mewn gwirionedd, bod llawer o'i gyhuddiadau maleisus y canmolieuthau uwchaf i'r diwygiwr mawr a llwyddiannus a'r a allai neb o'i gefnogwyr eu rhoddi iddo. Ni chymmerth G. Jones arno weled na chlywed baldardd y cyflogddyn dirmygedig, ac nid ymddengys i neb arall chwaith wneud un sylw cyhoeddus o hono hyd 1776, ymhen hir amser ar ol i G. Jones, a'i gablwr hefyd, y mae'n debyg, fyned i ffordd yr holl ddaear, pan y cyfeiriodd Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir yr ail) ato, ynghyflwyniad y llyfr cyntaf o bregethau "I Syr Watkin Williams Wynn, o Wynnstay, Barwn." Wedi crybwyll yno am ddiffygion clerigwyr yr Eglwys Sefydledig ynghyflawniad eu dyledswyddau, efe a ddywed wrth Syr Watkin fel hyn:—

"Yn awr y pwngc ydyw, Beth a ddylai gweinidog ffyddlawn yr efengyl ei wneuthur yn y fath amseroedd peryglus? Yr wyf yn eithaf sicr fod rhai gweinidogion cydwybodol yr efengyl wedi dioddef yn greulawn yn y blynyddau diweddaf dan yr esgobion arglwyddaidd a gormesol hyn; ïe, rhai oedd yn meddu llawer mwy o zel dros ogoniant Duw a chynhaliad gwir grefydd a rhinwedd, nag a feddent hwy [y gormeswyr]. Rhaid cyfaddef nad oedd rhifedi y cyfryw bersonau haelfrydig ond ychydig, ac arferwyd pob dull a modd i'w hanghefnogi a'u digaloni. Od amheuir yr hyn a heuraf yma, myfi a appeliaf at ysgrifeniadau y diweddar dduwiol a gwir barchedig Mr. Gruffydd Jones, o Landdowror, yr hwn a ddioddefodd holl fustleiddiwch offeiriad llwgr-obrwyedig, yr hwn a gyflogwyd gan yr esgobion i'w drybeuddu, er ei fod ef, trwy neillduol ras Duw, heb na brycheuyn na chrychni, ond yr hyn a welai malais a gwallgofrwydd yn dda ei fwrw arno."*

Y mae gwaith a choffadwriaeth G. Jones yn para mewn bri a chymmeradwyaeth gan bob dynion da, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, hyd y dydd hwn, a pharhânt felly tra y parhao'r iaith Gymraeg, os nad yn hwy; tra y bydd gwaith ac enwau ei gablwyr a'i erlidwyr yn ddrygsawr yn ffroenau eu holafiaid, hyd oni "choller hwynt yn dragywydd fel eu tom."

Yn y blynyddoedd canlynol, sef 1753, '55, '56, '57, ac 1758, cyhoeddodd G. Jones o'i unfed ar ddeg llyfr Saesneg hyd ei bymthegfed, dan yr enw "*Welch Piety*," yn cynnwys parhâd o hanes cynnydd a llwyddiant ei Ysgolion Elusengar Cylchynol Cymreig, hyd y flwyddyn olaf a nodwyd. Nid ydym yn gwybod iddo gyhoeddi dim ychwaneg, ond ail argraphiad o'r "Pigion Prydyddiaeth Pen-fardd y Cymry," dan yr enw "Lloffion Prydyddiaeth, &c., 1758," ac efe yn 75 oed. Fel awdur, dywed Mr. Charles am dano fel y canlyn:—

"Fel ysgrifenydd, yr oedd ei ddoniau yn helaeth, ond yn hytrach yn gwmpasog, gorlanwog, ac aml eiriog, a'i frawddegau yn faith ac yn ddyryslyd. Dengys bob amser wybodaeth ehang o'r hyn y treutha am dano, ac amlyga ei feddwl mewn ymadroddion addas, ac iaith, gan mwyaf, yn bur ac ardderchog. Y mae rhai o'i dreuthodau diweddaf yn rhagori llawer ar ei gyhoeddiadau mwy boreuol, o ran destlusrwydd cyfansoddiad, dichlynion ymadrodd, a phurdeb iaith. Ysgrifena bob amser yn Ysgrythyrol, yn ddifrifol, ac yn bwysig, fel un am wneuthur lleshâd i eneidiau dynion. Yn y cwbl, ymddengys yn dduwinydd da, o wybodaeth a doniau helaeth, a chariad gwresog at achos yr efengyl."†

Yr oedd ysgolion gwerthfawr G. Jones wedi eu lledeunu ganddo erbyn hyn bron dros yr holl Dywysogaeth, fel y dengys y daflen ganlynol a wnaed yn 1760:—

| Siroedd. | Ysgolion. | | Ysgolheigion. |
|---|---|---|---|
| Brycheiniog, | 4 | ...... | 196 |
| Aberteifi, | 20 | ...... | 1153 |
| Caerfyrddin, | 54 | ...... | 2410 |
| Morganwg, | 25 | ...... | 872 |
| Mynwy, | 2 | ...... | 61 |
| Penfro, | 23 | ...... | 837 |
| Môn, | 25 | ...... | 1023 |
| Caernarfon, | 27 | ...... | 981 |
| Meirionydd, | 15 | ...... | 508 |
| Dinbych, | 8 | ...... | 307 |
| Trefaldwyn, | 12 | ...... | 339 |
| Oll ynghyd, | 215 | | 8687 |

Gwelir wrth y daflen uchod mai dwy o siroedd Cymru yn unig oedd heb ysgolion "Seren Forau y Diwygiad," sef Fflint a Maesyfed. Beth oedd yr achos o hyn, nis gwyddom, oddi eithr nad oedd gelyniaeth yr Esgobyddion yn gryfach yn erbyn y diwygiad yn y siroedd hyny nag ydoedd yn yr un o'r lleill: beth bynag, y mae'n amlwg ei fod yn fwy llwyddiannus. Peth arall sydd yn ein taro wrth syllu ar y daflen uchod ydyw, bod yr ysgolheigion yn llïosocach yn sir Fôn fechan, y bellaf oddi wrth y diwygiwr mawr, nag mewn un sir arall ond Caerfyrddin ac Aberteifi yn unig. Yr ydym yn barod i ddywedyd o galon, yn yr olwg ar hyn, "Da iawn sir Fôn!" Gyd â golwg ar yr ysgolion hyn, dywed Syr Thomas Phylips fel y canlyn:—

"Yr oedd yr ysgolion cylchynol wedi cynhyddu erbyn 1746 i 116, gyd â 5,685 o ysgolheigion; erbyn 1754 i 149, gyd â 6,018 o ysgolheigion; erbyn 1760 i 215, gyd âg 8,687 o ysgolheigion; ac erbyn 1761, yr oedd yr ysgolion wedi cynhyddu i 218. Yr oedd nifer y rhai a ddysgwyd i ddarllen yn cyrraedd i 10,000 mewn un flwyddyn yn unig; a dysgwyd cynnifer a 150,212 mewn pedair blynedd ar hugain i ddarllen y Bibl Cymraeg, yn cynnwys pob oedran o chwe blwydd hyd dros ddeg a thriugain."‡

* Casgliad o Bregethau, gan y Parch. E. Evans, llyfr ii.; Dedic. to Sir Watkin, p. 66.

† Trysorfa, 1813, t. 11.

‡ Sir Thomas Phillips's Wales, p. 284.

Digitized by Google

Rhaid i ni gael lle etto i enwog Fardd Pant-y-Celyn i dreuthu ei lên ar y pwngc yma, yn ei farwnad odidog i brif wrthrych ein pennod:—

"Tair o filoedd o ysgolion
Gawd yng Nghymru faith, a mwy;
Chwech ugeinmil o ysgoiheigion,
Fu, a rhagor, ynddynt hwy:
Y goleuni gâdd ei ennyn
O Rheidol wyllt i Hafren hir,
Tros Bimlimmon faith yn union
Twnodd ar y Gogledd dir.

"Os yw Cymru'n gylch o boptu
Yn chwe chan milltir faith o dir,
Ac o'i mewn rhyw fil o blwyfau,
Lle bu twllwch dudew'n hir;
Braidd câdd plwyf nac ardal ddïangc
Heb gael iddo gynnyg rhad,
O fanteision ddysgai'n union
Iddynt ddarllen iaith eu gwlad.

"Cryf a chadarn fu'r elyniaeth
Ydoedd yn y Gogledd dir,
I bob moddion a fâi'n ffyddlon
I ledaenu'r 'fengyl bur;
Etto fe wnaed ffordd i ddysgu,
Lle'r oedd dig a llid yn llawn;
Eirth cynddeiriog, call lwynogod
Ddaeth fel ŵyn yn wirion iawn.

"Dyma'r gŵr a dorodd allan,
Ronyn bach cyn tori'r wawr;
Had fe heuodd, fe eginodd,
Fe ddaeth yn gynheuaf mawr:
Daeth o'i ol fedelwyr lawer,
Brâf mor ffrwythlawn y mae'r ŷd!
'Nawr mae'r wyntell gref a'r gogor
Yn eu nithio'r hyd y byd.

"Gorfoledda, ddedwydd Gymru!
Brâf yw'r breintiau ddaeth i'th ran!
Trugareddau erioed na feddwyd
Yn Borneo na Japàn:
Meddu Beiblau, dysg i'w darllain,
A phregethu'r iachol ras;
Yn Llanddowror gyntaf torodd
Y goleuni hwn i ma's."*

Er mor anhawdd, yngolwg dŷn, oedd i Gymru hebgor Gruffydd Jones; er hyny, ei ddyddiau ef, megis "dyddiau Dafydd, a nesasant i farw," a dyma ddarlun Mr. Charles o hono yn y dyddiau hyny:—

Yn ei ddyddiau olaf, "cyffesai ei weuledd a'i ddiffrwythder ei hun mewn geiriau dwys, sobr, unwaith wrth hen gyfaill iddo, a adroddodd yr hanes i mi: ei gyfaill a attebodd na ddylasai ddywedyd felly, gan ei fod wedi treulio ei fywyd yn llafurus, a bod yr Arglwydd wedi gwneuthur defnydd mawr o hono. Ar hyny ymsythodd, o'r blaen yn grwm, yn pwyso â'i ddwy benelin ar ei benliniau, ac attebodd, 'R——s! ai cymmeryd plaid y gelyn yr ydych?' Cyfaill arall a ymwelodd âg ef yn nhŷ Mrs. Bevan, lle y bu farw, ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, a rydd yr hanes ganlynol am ei ymddiddanion âg ef—'Yn fuan wedi i mi fyned i'r ystafell,' medd y gŵr hwn, 'cyferchais, a gofynais iddo am helynt ei iechyd: yn llawn oed, ac ar gyffiniau tragywyddoldeb, gyd âg wynepryd tirion, siriol, attebodd, 'Rhaid i mi ddwyn tystiolaeth o blaid daioni Duw! O mor rhyfedd yw cariad Duw tu ag ataf! Yr ydwyf, ïe, yn awr, yn rhydd oddi wrth y diffyg anadl poenus yr oeddwn yn ddarostyngedig iddo yn fy ieuengctid, i'r fath radd nas gallwn gerdded ar draws yr ystafell hon heb yr anhawsdra mwyaf. Mor rhyfedd yw cariad Duw tu ag ataf! Nid ydwyf yn ddall, fel y bûm dros dair wythnos yn fy mabandod gan y frech wen; ac nad ydwyf yn gardotyn dall, yn hel fy nhamaid o ddrws i ddrws! Mor rhyfedd yw cariad Duw, bod genyf y fath gyfaill i ofalu am danaf, pan nad ydwyf yn gallel helpu fy hun! Mor rhyfedd yw daioni Duw, nad ydwyf yn teimlo dim poen, ac am fy mod yn debyg o fyned i'r bedd mewn esmwythder! Mor rhyfedd yw trugaredd Duw, fy mod yn gallel canfod yn eglur yr hyn a wnaeth ac a ddïoddefodd Crist drosof fi; ac nad oes ynof yr amheuaeth leiaf am fy hawl yn fy Achubwr Hollalluog! Ymgais y gelyn i aflonyddu fy heddwch a'm tangnefedd; ond dïolch i Dduw am ei ras digonol! Mor rhyfedd yw tiriondeb Duw, bod holl gynheddfau fy meddwl mor gryfion ag erioed; ond yn unig yr wyf yn profi ychydig balldod ar fy nghof.' Aeth rhagddo yn y dull hwn o ddïolch tra y gallodd lefaru. Amser arall dywedodd, 'Bendigedig fyddo Duw! Y mae ei ddiddanwch yn llenwi fy enaid!' Mwynhaodd lawer o ddiddanwch, a disgwyliad hireuthlawn am ei orphwysfa dragywyddol, nes llewygu natur, ac i'r babell briddlyd gael ei dattod.

"Ymadawodd â'r bywyd hwn ar yr 8fed o Ebrill, 1761, yn y 78fed flwyddyn o'i oed, yn nhŷ Mrs. Bevan, lle'r oedd wedi bod dros ennyd amser cyn ei farwolaeth. Rhoddwyd ei gorph i orphwys yn Eglwys Llanddowror. Yr oedd ei gladdedigaeth yn dra galarus: lluoedd o bobl dlodion yn tystioleuthu eu cariad a'u tristwch yn eu hwynebau gwlybion gan ddagrau heilltion, gwedi colli gŵr mor rhagorol, yr hwn a fu byw fel cyfaill caredig, duwinydd deallus, a gweinidog llafurus yn eu plith am 45 o flynyddoedd. Gellir dywedyd am dano, mai ychydig a fu byw yn fwy nefolaidd a defnyddiol, nac a fu farw yn fwy buddugolieuthus."†

* Holl Weithiau Wm. Williams, t. 680.

† Trysorfa, 1813, t. 9, 10.

### MADAM BEVAN.

Crybwyllwyd eisoes mai enw morwynol y foneddiges dduwiol, haelfrydig, a gweithgar hon, oedd Bridget Fychan, merch y Derllysg, ymhlwyf Merthyr, ger llaw Caerfyrddin. Ymddengys iddi gael ei hargyhoeddi yn ieuangc (pa mor ieuangc, nis gwyddom), dan bregethiad yr enwog Gruffydd Jones uchod, yn Llanllwch. Methasom gael allan pa bryd y priododd Arthur Bevan, Ysw., o Lacharn, pan y galwyd hi yn Mrs. Bevan, neu Madam Bevan. Wedi iddi symmud i Lacharn, at ei gŵr, arferai fyned i wrando G. Jones bob Sabbath, naill ai i Landdowror neu i Landeilo-Abercowyn, a hyny, meddir, "er gweuthaf llawer o wawd a dirmyg," a pharhaodd yn ei duwioldeb a'i gweithgarwch elusengar a gwladgarol hyd ddiwedd ei hoes.

Pan ddechreuodd ysgolion G. Jones amlhau, fel y deuthant yn gostus i'w cynnal, daeth Mrs. Bevan ym mlaen i roddi iddo gynhorthwy ffyddlon ac effeithiol, a pharhaodd yn un o'i gynnorthwywyr penaf hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd, fel y gwelsom, yn ei thŷ hi, yn Llacharn. "Pan fu efe farw gadawodd dros 7,000p. yn nwylaw ei gyfeilles, Madam Bevan, i'w cymhwyso

gwneud hi ar yr un amcanion."* Bellach, ymroddes Madam Bevan i ddwyn yr ysgolion yn mlaen fel cynt a chafodd gynorthwy y Dr. Stonehouse† a T. Jones, Ysw., yn y gwaith buddiol ac elusengar. Dygwyd yr ysgolion yn mlaen yn llwyddiannus gan y cynghorwyr hyn hyd farwolaeth Madam Bevan, yr hyn a ddigwyddodd, yn ol Syr Thomas Phyllips, yn 1779, sef 18 mlynedd ar ol yr enwog Griffith Jones; ac yn ol ei esampl ef, medd Mr. Charles, hithau a adawodd 10,000p. yn ei hewyllys tuag at eu [illegible]. Trwy [illegible] y cymmun-weinyddes (y Lady Stepney,) ag ewyllys Mrs. Bevan, rhoddwyd yr achos yn Llys yr Arglwydd Ganghellwr; ac yno yr arhosodd hyd yn ddiweddar; pan benderfynodd yr Arglwydd Ganghellwr yr achos mewn dull sydd yn debygol o wneuthur yr arian yn gwbl ddefnyddiol i'r Cymry, ac yn groes i'r dull yr oedd yr ysgolion wedi cael eu dwyn yn mlaen dan olygiad Mr. Jones a Mrs. Bevan. Y mae'r swm uchod, trwy ei log er ys agos i ugain mlynedd, wedi cynhyddu yn y Drysorfa Gyffredin yn Llundain i ynghylch 30,000p."§ Dywedai yr enwog Morgan John Rhys, yn ei "Annerchiad difrifol i'r Cymry,"‖ cyn ei fynediad o wlad ei enedigaeth i ymofyn rhyddid i'r America, fel y canlyn:—

"Fe ymddengys oddi wrth lyfr a argraphwyd yn Llundain yn y flwyddyn 1775, yr hwn sydd yn rhoi hanes am yr ysgolion Cymraeg, dan olygiad Mrs. Bevan, y Dr. Stonehouse, a T. Jones, Yswain, bod yn yspaid 39 o flynyddau 297,121 o blant wedi eu dysgu i ddarllen eu Biblau! Oni buasai fod hyn wedi ei brofi gan dystion cywir, fe fuasai'n anhawdd ei gredu. Y mae'n alar meddwl bod yr arian ag oedd yn cynnal yr ysgolion Cymraeg yn yr amser hwnw, yn debyg o gael eu colli trwy ddifrawder. A oes neb bonedd yng Nghymru a fyn chwarau teg i'r tlawd sy'n cael ei ddifeddiannu o fwy na deng mil o bunnau?¶ Os nad oes, fe fyn Duw waredigaeth i'r Cymry ffordd arall, er cywilydd a gwarth tragwyddol i'w *gormeswyr*. Pe byddai pregethwyr, ac eraill sydd yn ofni Duw, yn ffurfio cymdeithas ymhob cymmydogaeth i olygu y fath waith, ac yn gwneud casgliadau i gynnal ysgolfeistri, a rhoi llyfrau i'r plant, ni ddelai ddim i lawer o arian yn y flwyddyn."**

Er na ddaeth "neb bonedd yng Nghymru," er eu tragywyddol warth, ym mlaen i fynnu "chwarau teg i'r tlawd," a ddifeddiennid o gymmaint a 30,000 o bunnau; etto, fe gyflawnwyd prophwydoliaeth Morgan Ioan Rhys i'r llythyren; ond nid oedd yr hen brophwyd, er craffed ac mor hyderus ydoedd, wedi canfod ymha *ddull* y cyflawnid ei brophwydoliaeth, fel y prawf ei gyfeiriad at "wneud casgliadau i gynnal yr ysgolfeistri," ac i "roi llyfrau i'r plant" a ddysgid ganddynt. Yr enwog Charles o'r Bala a ddarparwyd gan Ragluniaeth ddoeth i ganfod cynllun difeth i roi Bibl Cymraeg ynghyrraedd pob gradd o'i gydgenedl, ac i drefnu athrawon ac athrawesau, a ystyrient yn fraint cael eu dysgu hwy a'u hiliogaeth ynddo yn rhad,

Tra rhodia dŷn, tra rhedo dŵr.

## PENNOD XI.

### JENKIN JONES A MOSES WILLIAMS.

Gan mai y Jenkin Jones hwn a bregethodd Arminiaeth gyntaf yng Nghymru, a'i fod felly nid yn unig yn dechrau cyfnod newydd yn hanes hen enwadau crefyddol y Dywysogaeth, ond hefyd yn dechrau enwad newydd, bydd yn ofynol, er gwneud cyfiawnder â'i hanes ef, rhoddi ychydig yma a thraw o helyntion yr oes yr oedd yn byw ynddi.

Ganwyd ef yn y Goetre-Isaf, ameuthdy lled fawr rhwng Llanbedr a Llandyssul, yn sir Aberteifi; ond ni ddywedir ymha flwyddyn. Yr oedd mewn amgylchiadau cysurus, a'i gymmeriad yn dda; ac yr oedd yn aelod yn hen eglwys Annibynol Pant-y-Creuddyn, yr hon a sefydlasid gan Stephen Hughes, mewn ameuthdy a elwid Pant-Gwyn, fel cangen o eglwys Pen-Cadair, rhwng y fl. 1666 ac 1670. Bu'r eglwys yn cyfarfod i addoli yno am dros ddeng mlynedd ar hugain; a phan fyddai y gynnulleidfa yn myned yn fwy na llonaid y tŷ, yr hyn a ddigwyddai yn aml ar brydnhawn Sabbath yn yr haf, cynhelid y gwasanaeth yn yr awyr agored, dan hen dderwen fawr, gysgodol, boncyff yr hon a ddangosid yn bryderus gan deulu y Pant-Gwyn 40 mlynedd yn ol.

Pan ddaeth yr eglwys yn gref, a pheidio o'r erledigeuthau, adeiladwyd capel Pant-y-Creuddyn,* ar dir Gelli-Faharen, o ddeutu chwarter milltir o'r lle yr oedd y dderwen yn sefyll, mewn pantle

* Sir Thos. Phillips's Wales, p. 284.

† Yr ydym yn tybied mai'r Dr. James Stonehouse oedd y gŵr yma, yr hwn a ymsefydlodd yng Nghaerodor yn 1763, ymhen tu a dwy flynedd ar ol marwolaeth G. Jones, ac a bregethai ar y cyntaf yn *All Saints*, wedyn yn *St. Warburgh's*, ac yn olaf yn *Wells Chapel*, lle y preswyliodd bron yn hollol hyd ei farwolaeth yn 1795. Argyhoeddwyd ef dan bregethiad y Dr. Doddridge (Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 1070). Nis gwyddom pwy oedd T. Jones, Yswain.

‡ Ysgrifenodd Mr. Charles hyn yn 1809.

§ Trysorfa, 1813, t. 6, 7.

‖ "Argraphwyd yr 'Annerchiad' uchod yn 1794, gyd â dwy bregeth gan M. J. Rhys a J. Jones, Ramoth, a draddodwyd yn y Glyn Ceiriog, ar neillduaeth John Edwards a Thomas Jones yn Henuriaid, ac E. Hughes a J. Roberts yn Ddiaconiaid. Pregeth ardderchog yw un M. J. Rhys. Nid oedd J. Jones ond ieuangc y pryd hyn."—*Nefydd.*

¶ Cymmaint a 30,000p., yn ol Mr. Charles, fel y gwelsom.

** Crefydd yr Oesau Tywyll, t. 30.

* Cymmerai y bobl lawer o ddyddordeb mewn egluro tarddiad yr enw Pant-y-Creuddyn: Pant crau dŷn; pant wedi ei wneud gan waed dynol.

Digitized by Google

anghyspell, tebyg i hen wely afon, a wnaed, medd traddodiad, gan waed y milwyr a dywalltwyd ar lethri Coed-y-Foel; a symmudodd yr eglwys o'r Pant-Gwyn i'r capel newydd rywbryd yn 1700. Ac yn y capel bychan, gwledig hwnw, o ddeutu y flwyddyn 1719, y dechreuodd Jenkin Jones bregethu. Er nad oes un cofnodiad pendant ar gael am yr amser y dechreuodd ei yrfa bregethwrol, etto y mae'n amlwg oddi wrth lythyrau dyddorol Anna Beynon* ei fod wedi treulio un tymmor, neu chwaneg, yng Ngholeg Caerfyrddin, neu mewn rhyw ysgol yng Nghaerfyrddin, cyn mis Hydref, 1720, o herwydd dywed bod eglwys Pant-y-Creuddyn, pan oedd hi yn ysgrifenu, yn ferw gwyllt o achos golygiadau Jenkin Jones, a bod Mr. Lewis, y gweinidog, yr hwn oedd yn weinidog hefyd ym Mhencadair, ac amryw o'r "dynion gorau," yn groes iawn iddo, am ei fod yn pregethu rhywbeth a elwid "Arminiaeth;" bod llawer o'r bobl ieuaingc yn boeth iawn drosto; bod Arminiaeth yn cael edrych arni lawn cynddrwg a Phabyddiaeth; a bod yr achos wedi peri "cetyn" o ddiflasdod yn yr eglwys. Mewn llythyr arall, wedi ei amseru Tachwedd, 1721, dywed fod Arminiaeth yn ennill tir ym Mhencadair, yr eglwys yn ymranu yn ddwy blaid, a Mr. Lewis a'r "prif ddynion" yn groes iawn wrth Jenkin Jones, am ei fod yn gwadu "etholedigaeth a pharhâd mewn gras," a'r pyngciau eraill sydd yn dal perthynas â hwynt. Dywedai Jenkin Jones mai "Calfin culfarn" oedd Mr. Lewis, a'i fod ymhell ar ol yr oes. Cyhuddid Jenkin Jones o fod yn gellweirus, ac yn rhy hunanol i dderbyn cyngor gan neb. Ond barnai ei gyfeillion ei fod yn fachgen serchus, yn bregethwr da, ac yn un a gerid yn fawr. Dygwyd y ddadl ym mlaen gyd â'r fath frwdfrydedd nes yr aeth y naill i goledd teimladau angharedig i'r eithaf at y llall. Dywedai Mr. Lewis, os llwyddai egwyddorion Jenkin Jones, y diflannai crefydd o'r ardal; y llenwid hi gan bob math ar lygredigaeth; ac na chai Jenkin Jones fyned byth ond hyny i'w bulpud ef i lygru dynion â'i wenwyn afiach. Ond er holl fygythiadau Mr. Lewis a'i "bobl ore," nid oedd Jenkin Jones a'i blaid yn myned i dori eu calonau.

Pan oedd Jenkin Jones gartref o'r coleg yngwyliau haf 1721, aeth i Bant-y-Creuddyn un borau Sabbath, pryd yr oedd Mr. Lewis ym Mhencadair, cyn i neb o'r "prif ddynion" ddyfod ynghyd; a hwythau, pan ddeuthant a'i weled yn y pulpud, a farnasant mai doethach oedd gadael iddo fyned ym mlaen am y tro, na cheisio ei dynu i lawr trwy nerth braich, yn enwedig gan fod llawer o'r bobl ieuaingc, "ddibris," yn boeth drosto, ac yn perthyn iddo. Gwyddent mai'r bobl ieuaingc, fel rheol, fydd yn iawn, pan ddelo pwngc i gael ei benderfynu trwy nerth! Yr oedd bron gorphen gweddïo pan ddaeth Mrs. Lewis, gwraig y gweinidog, i mewn; a honno, wedi synu a chyffroi, a eisteddodd i lawr yn llonydd hyd nes yr oedd yn myned i ddechrau pregethu; yna cododd o ganol y gynnulleidfa, ac aeth allan gyd âg arddeliad. Ystyrid hi gan bawb yn ddynes wybodus (beth bynag am gall?), a phenderfynol ei hyspryd; ond ni chanmolid hi, ond gan ychydig, am ei hymddygiad y tro hwnw. Etto, pan ddaeth yr achos i gael ei drin yn yr eglwys, penderfynwyd trwy fwyafrif mawr nad oedd Jenkin Jones i gael pregethu byth mwyach ymhulpud Pant-y-Creuddyn.† Ond er gweuthaf angharedigrwydd Mr. a Mrs. Lewis, a phenderfyniad caled yr eglwys, parhaodd Jenkin Jones i fyned i Bant-y-Creuddyn i addoli pan fyddai gartref o'r coleg; ond nid oes hanes iddo gynnyg pregethu yno byth ar ol y tro crybwylledig. Bu diwygiad lled nerthol ym Mhant-y-Creuddyn y flwyddyn ganlynol: derbyniwyd 24 o aelodau newyddion i gymmundeb yr un Sabbath, ac yr oedd Mr. Lewis, wrth eu derbyn, yn siarad "yn dda a drylliog ei deimladau wrth weled y dychweledigion newyddion;" ond yr oedd Jenkin Jones yno, medd ei wrthwynebwyr, yn gwawdio y gweinidog, ac yn cellwair y diwygiad. Myned rhagddi yr oedd y ddadl, ac ymddengys i Mr. Lewis a Jenkin Jones gael ymgom gyhoeddus ar y pwngc yn gynnar yn 1723. Barnai "pobl gall fwyaf crefyddol a phrofiadol" yr eglwys mai Mr. Lewis oedd yn ymgadw agosaf at y Bibl; ac nid oedd amheuaeth yn eu meddyliau nad oedd

* Ysgrifenwyd y llythyrau dyddorol hyn gan Anna Beynon, Bargoed, Llandyssul, at ei chwaer, Mari Powel, oedd yn byw yn Mhencadair, Pensylfania, America. Dywed nad oedd ond dwy ferch, heb law ei hunan, yn y plwyf yn gallu ysgrifenu. Cadwyd hwynt yn ofalus gan y teulu, mewn gobaith y byddent yn gymmorth iddynt i gael meddiant o ryw eiddo yn y wlad hon. Cynhwysant lawer iawn o wybodaeth ddifyr, a thaflant oleuni ar helyntion glanau Teifi wyth ugain mlynedd yn ol. Y llenor coeth, Dewi Emlyn, a gafodd hyd iddynt, ac a'u cyhoeddodd ym *Mauer America*, yn 1870, ac ail gyhoeddwyd hwynt yn yr *Ymofynydd* yn 1871 ac 1872. Amseriad y llythyr cyntaf yw Mai 20, 1719.

† Ymddengys bod y Dr. T. Rees (*Hist. Prot. Noncon.*, p. 297) wedi gwneud ychydig gamsyniad ynglŷn â'r amgylchiadau uchod, fel y sylwa golygydd *Yr Ymofynydd*. Dywed mai yn 1721 yr aeth Jenkin Jones i Goleg Caerfyrddin, ac na wnaeth broffes gyhoeddus o'i olygiadau hyd ar ol cael ei urddo yn 1726, pe amgen, na chawsai neb i'w urddo; ond y mae'r cyfeiriadau uchod yn profi ei fod yn y coleg cyn Hydref, 1720, a'i fod wedi cael ei attal i bregethu yn achos Arminiaeth cyn Tachwedd, 1721.

Digitized by Google

golygiadau Jenkin Jones yn arwain i dir Sosiniaeth ac anfoesoldeb. Pleidid Jenkin Jones gan "bobl ieuaingc fwyaf dibris ac anystyriol" yr ardal; ond ymddengys erbyn heddyw fod y naill blaid yn llawn mor ddibris a'r llall yn nygiad y ddadl ym mlaen. Cymmerai pob dosparth o bobl ran yn y ddadl; a'r rhai oedd yn deall leiaf, y mae'n debyg, oedd fwyaf bleunllaw, yr hyn, braidd bob amser, fydd yn gwneud dadleuon crefyddol yn hynod ddifudd. Teimlai y dosparth "mwyaf dibris ac anystyriol" y dylasai Jenkin Jones gael chwarau teg i gyhoeddi ei olygiadau, ac nad oedd ymddygiad yr eglwys tu ag ato fawr well nag erledigaeth. Nid peth anghyffredin yn yr oes hon, mwy nag yn yr oes honno, yw gweled pobl "ddibris ac anystyriol" yn troi allan i gadw chwarau teg i'r gwan, pan welant ef yn cael ei erlid gan rai yn proffesu pethau gwell. Llywodreuthid Twm, Pendol, y mae'n debyg, gan yr yspryd amddiffynol hwn pan ddywedai wrth un o bleidwyr Mr. Lewis, "D—l nghato i! os nad Jenkin Jones yw'r pregethor gore yn y wlad: mae e'n folon i bawb gael myned i'r nefoedd: nid fel Mr. Lewis am i chadw iddo'i hunan a'i etholedigion."

Yn y flwyddyn 1726, pan oedd Morgan Beynon, Bargod, un o brif gefnogwyr Mr. Lewis, yn ymyl marw, ymwelwyd âg ef gan Enoch Francis, Calfiniad manwl, gweinidog y Bedyddwyr yn Pantteg a Chastell-Newydd-Emlyn. Gofynodd Francis iddo pa fodd yr oedd yn teimlo wrth edrych ar y glyn. Attebodd yntau:—

"Yr wyf yn gofidio'n ddwys o achos Arminiaeth Abel Francis [cyd-weinidog E. Francis yng Nghastell Newydd], a Jenkin Jones; a chewch weled y gwnant niwaid mawr i achos Duw yng Nghymru; a phen draw'r athrawieuthau hyn fydd arwain pobl i wadu aberth yr Iachawdwr, a bendithion ei angau; a myned rhagddynt yn Sosiniaid hollol. Caiff y neb a fyddo byw ymhen can mlynedd weled y sir yn frith o Sosiniaid: yr wyf fi'n gweled wyau Sosiniaeth yn cael eu dodwy bob dydd. Yr wyf yn dïolch yn fawr i chwi, Mr. Francis, ac i Mr. Lewis, am sefyll dros hen wirioneddau."*

Gwelir yn eglur oddi wrth y difyniad uchod mai'r un ddadl oedd yn rhanu eglwys Pant-y-Creuddyn, yn 1726, ag oedd yn rhanu eglwys Gwrecsam yn 1691, a'r hon oedd wedi bod am flynyddoedd yn ysgwyd yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Presbyteriaid trwy Loegr benbaladr.

Ymhlith y gwŷr ieuaingc a ddysgid i'r weinidogaeth gan James Owen, Croesyswallt, yn amser y cynnwrf yng Ngwrecsam, yr oedd dau o'r Deheudir; Jeremiah Owen,† mab Dafydd, brawd James Owen, yr hwn oedd yn aelod a phregethwr cynnorthwyol yn Henllan, sir Gaerfyrddin, a bu yn weinidog yno am rai blynyddoedd cyn diwedd ei oes; a Thomas Perrot, aelod o eglwys Llan-y-Bri, ger llaw Caerfyrddin, yr hon oedd yn perthyn i gylch gweinidogaeth Henllan. Ymddengys i'r ddau ŵr ieuangc hyn yfed yn helaeth o yspryd ac egwyddorion dadl Gwrecsam, yn yr hon y cymmerasai eu hathraw ran mor fleunllaw, ac y byddent wrth ymweled â chartref yn adrodd yr helynt wrth eu perthynasau a'u cyfeillion, ac yn eu lefeinio mor bell ag y gallent. Yn fuan wedi ei urddo, dechreuodd D. Owen ddirmygu y golygiadau Calfinaidd, a phleidio y golygiadau newyddion; ond gwrthwynebwyd ef yn ddewr gan Lewis Thomas, pregethwr cynnorthwyol parchus yn yr eglwys, ynghyd â nifer mawr o'r aelodau. Parhaodd y ddadl i aflonyddu yr eglwys am flynyddoedd, a bu pob ymgais gan weinidogion a chynnadleddau i adfer heddwch yn ofer; ac ymadawodd un adran o'r blaid Galfinaidd i Ryd-y-Ceisiaid, a'r llall i Glyndwr, gan adael y capel ym meddiant y cyfeiliornwyr, fel y gelwid hwynt. Credodd y fintai a euthai i Glyndwr fod rhai Arminiaid wedi glynu wrthynt, a diarddelasant hwy yn lled ddiseremoni. Teimlodd gweinidog Trelech eu bod yn cael cam, a derbyniodd hwynt dan ei adenydd; ond nis gallai Calfiniaid Trelech eu goddef, a bu raid iddynt ymadael. Er nad oedd neb yn ammau Calfiniaeth y gweinidog, etto, o gydymdeimlad â'r bobl erlidiedig, aeth efe allan gyd â hwy, ac adeiladasant gapel Rhyd-y-parc; ac ar ol marwolaeth Mr. Davies, aeth y gynnulleidfa yn hollol Undodaidd.

Pan orphenodd y gwŷr ieuaingc eu hefrydiaeth, gwahoddwyd Jer. Owen i fod yn olynydd i'w dad yn esgobaeth derfysglyd Henllan, yr hyn ar unwaith sy'n profi bod teimladau gwrth-Galfinaidd yn rhedeg yno yn lled uchel. Urddwyd T. Perrot, yn ol y drefn Bresbyteraidd, yn y gymmanfa a gyfarfu y flwyddyn honno yn Knutsford, sir Gaerlleon, lle ar y pryd yr oedd Samuel Lowe yn gweinidogeuthu.‡ Wedi ei urddo, ymsefydlodd

* Dywedir yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* (cyf. iv., t. 196), fod y rhwyg yn Mhant-y-Creuddyn wedi cael ei achosi, mewn rhan, gan [illegible] yn [illegible] i Jenkin Jones gael rhan o'r [illegible] gan mai i Galfiniaid yr oeddynt wedi cael eu [illegible]. Ond nid yw Anna Beynon, er mai ei thad hi oedd prif gefnogydd Mr. Lewis yn yr holl ddadl, wedi son dim am yr arian, er ei [illegible] yr amgylchiadau yn bur fanwl.

† Gwel pen. iv. o'r llyfr hwn (y v.).—Gol.

‡ Dywedir yn *Han. Egl. Annib. Cymru* (cyf. iii., t. 433), i T. Perrot gael ei urddo yn Knutsford, ac iddo fod yno am dymmor yn gweinidogeuthu; ond trwy garedigrwydd y Parch. J. B. Lloyd, y gweinidog presennol yn yr hen gapel, lle yr urddwyd T. Perrot, yr

Digitized by Google

yn Newmarket, sir Fflint, yr hon oedd yr amser hwnw yn eglwys Bresbyteraidd; ac y mae'n mwynhau ychydig ffafrau hyd heddyw o blegid y berthynas honno, er ei bod er ys talm wedi troi yn eglwys Annibynol. Byddai hefyd yn ymweled yn fisol â Bromborough, yn sir Gaer, ac âg Upton, yn sir y Mwythig, lleoedd yr ymgydnabyddasai â hwy pan yn aros yng Nghroesyswallt. Yr oedd yn sefyll yn uchel ym mysg y frawdoliaeth, canys pennodwyd ef yn 1717 i bregethu ger bron cymmanfa sir Gaer. Ei destyn oedd Luc ix. 62.

Yn 1719, symmudodd o Newmarket* i Gaerfyrddin, i fod yn weinidog i'r eglwys, ac yn athraw yn y coleg yn lle W. Evans, yr hwn a fuasai farw y flwyddyn flaenorol, a pharhaodd i lanw y ddwy swydd hyd ei farwolaeth yn 1734. Daeth y coleg i enwogrwydd dan ei arolygiad: bu yno yn ystod 15 mlynedd dros 150 o fyfyrwyr Ymneillduol; llu mawr o wŷr ieuaingc ar gyfer yr Eglwys Sefydledig; a byddai meibion boneddigion yn myned yno i orphen eu haddysg. Ni welsom un crybwylled erioed i neb feddwl bod T. Perrot ei hun yn heretic; etto, y mae'n wirionedd hynod yn hanes ei fywyd, y byddai pawb y deuai efe i gyffyrddiad â hwynt yn myned yn Arminiaid, Ariaid, neu Sosiniaid. Aeth y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r myfyrwyr a fu yn y coleg yn ei amser ef ar gyfeiliorn oddi wrth Galfiniaeth, a bu llawer o honynt yn offerynol i gychwyn cynnulleidfaoedd Arminaidd, Ariaidd, neu Sosinaidd; ac y mae'n debyg iddynt oll fod yn llwyddiannus i aflonyddu ar yr hen gredo Calfinaidd, a symmud yr eglwysi, lle y byddent, ym mlaen at y syniadau Arminaidd. Pan fu farw T. Perrot, teimlodd y blaid uniongred fod awyrgylch Caerfyrddin wedi myned mor afiach mewn barn a buchedd fel y byddai cadw yr athrofa yno yn hwy yn beryglus i fywyd yr eglwysi uniongred, a symmudwyd hi i sir Faesyfed, dan ofal Vavasor Gruffydd.

Gwelir yn amlwg fod Jenkin Jones yn un o'r cyntaf a dderbyniwyd i athrofa wedi pennodiad T. Perrot yn athraw;† ac ymddengys iddo yn nhymmor cyntaf ei efrydiaeth lyngcu golygiadau ei athraw, a'u taenu ym mysg ei gyfeillion lle bynag y cai gyfle, yr hyn a arweiniodd i'r helynt ym Mhant-y-Creuddyn. Cyn diwedd y flwyddyn 1725, priododd ferch Pant-y-Defaid, unig blentyn ei rhieni, ac etifeddes treftadaeth ehang, yr hyn, y mae'n debyg, a fu'n fantais iddo weithio allan ei gynlluniau. O ddeutu yr amser yma yr argraphwyd llyfryn bychan i egluro yr athrawieuthau a gredai; ond prin yr oedd o'r wasg nad oedd attebiad iddo wedi ymddangos. Yr oeddid wedi ei attal i bregethu ym Mhant-y-Creuddyn a Phencadair er ys dwy flynedd; ond pregethai yn rheolaidd, bob mis, y mae'n debyg, yn Llan-y-Bri, Caerfyrddin, a Llechryd, a byddai yn cynnal gwasanaeth gartref ym Mhant-y-Defaid. Teimlwyd dylanwad ei weinidogaeth Arminaidd yn gryf yn y cylch hwnw, a bu'n aros yn yr eglwysi am ugeiniau o flynyddoedd. Er nad aeth eglwys Llan-y-Bri drosodd at yr Undodiaid, etto parhaodd rhyw arogl Undodaidd arni hyd yn ddiweddar. Aeth mab i un o weinidogion Llan-y-Bri at yr Undodiaid, a bu'n gweinidogeuthu iddynt am flynyddau yn Penrhiw, cangen a dorasai allan yn 1746, o herwydd ei Harminiaeth, oddi wrth eglwys Drefach, yn awr Saron. Ymwrthododd eglwys Caerfyrddin mor hollol â Chalfiniaeth fel, ar farwolaeth T. Perrot, y rhoddes alwad i Samuel Thomas, un o'i ddisgyblion, yr hwn oedd yn Ariad proffesedig, os nad yn rhywbeth pellach. Yr oedd eglwys Llechryd yn 1739, adeg urddiad D. Evans, yn eithafol Arminaidd, os nad gwaeth na hyny; a than weinidogaeth ei olynwyr, o 1742 hyd 1788, aeth yn un o'r eglwysi mwyaf cymmysglyd a therfysglyd yn y sir, a bu'r blaid wrth-Galfinaidd am dymmor yn dal meddiant o'r capel.

hwn, er ys blynyddau, sy'n gapel Undodaidd, cawsom restr o'r gweinidogion a fu yno o gychwyniad yr achos yn 1689. Y mae careg goffadwrieuthol i Lowe ar y mur y tu mewn i'r capel â'r geiriau hyn arni:—"Here was interred the body of Mr. Samuel Lowe, faithful minister of Jesus Christ in this place for 13 years, and departed this life the 19th day of April, An°. Dom. 1709. aetatis suae 40." Felly nis gallasai T. Perrot fod yno o gwbl.

* Etto, dywedir yn *Han. Egl. Annib. Cymru* (cyf. iii., t. 433), i T. Perrot fod yn Newmarket hyd ei symmudiad i Gaerfyrddin yn 1718, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1733; ond yn ol *Record of Unitarian Worthies*, yn 1719 y symmudodd yno, ac yn 1734 y bu farw. Drachefn, yn ol *Han. Egl. Annib. Cymru*, yn 1720 y bu W. Evans farw, ac y symmudodd T. Perrot i'w le. Etto, dywedir yn *Han. Egl. Annib. Cymru* (cyf. iv., t. 218), bod T. Perrot wedi gadael Newmarket cyn 1715. Dywedir yn *Hist. Sketches of Noncon. in the County Palatine of Chester* iddo gymmeryd gofal yr eglwysi yn Bromborough ac Upton yn 1717 neu 1718, ac y mae'n debyg mai ei gyssylltiad â'r eglwysi hyny a fu'r achos iddo gael ei ddewis i bregethu ger bron y gymmanfa yn 1717; ond ni thorodd ei gyssylltiad â Newmarket.

† Y mae lle i gredu bod T. Perrot yn hanu o hen deulu Syr Herbert Perrot, y sonia Da. yn y *Nonconformity* (p. 255) am dano, yr hwn oedd yn byw rhwng Hwlffordd a Chaerfyrddin, nid neppell o gartref T. Perrot, a'r hwn a fu'n garedig iawn wrth yr Ymneillduwyr pan yn cael eu herlid. Dywedir i Syr John Perrot, un o hynafiaid Syr Herbert, fod yn Arglwydd Raglaw y Werddon yn amser Elizabeth; ond nid yw ei enw yn rhestr y rhaglawiaid. Dywed Thomas Mooney (*Hisory of Ireland*, vol. i., p. 650) i un Syr John Perrot ddyfod i Cork, gyd â chwech o longau, i amddiffyn y glanau. Dichon i'r awdur gamgymmeryd un swydd am y llall. Gall fod dylanwad rhyw gyssylltiadau teuluaidd fel yna wedi palmantu y ffordd iddo gael ei ddewis i swydd mor barchus, ac i roddi iddo y fath safle yn y dref. Dywedir ei fod yn ysgolhaig rhagorol. Bu Gruffydd Jones, Llanddowror, yn myned ato i gael gwersi yn Hebraeg.

Digitized by Google

Gan fod y coleg yr amser hwnw, fel y mae wedi bod byth ar ol hyny, yn agored i bob enwad, ymledodd y golygiadau Arminaidd trwy eglwysi y Bedyddwyr. Cynhyrfwyd eglwys Castell-Newydd-Emlyn gan Abel Francis, y gweinidog, a Rees David neu David Rees, ysgolfeistr, dau gydfyfyriwr i Jenkin Jones; ac wedi hir derfysgu, ymunodd y ddau, a llawer o'u cefnogwyr, âg eglwys Llwyn-rhyd-Owen; ond arhosodd rhyw weddillion Arminaidd ar ol, ac ni lwyr dawelwyd yr ystorm nes i'r Arminiaid ymuno yn un gynnulleidfa, a chymmerwyd meddiant o hen gapel y Bedyddwyr ym Mhant-teg, lle y maent, er ys talm, wedi myned yn Sosiniaid i bob amcan. Cadwodd Charles Winter,* un arall o ddisgyblion T. Perrot, eglwys Hengoed yn llawn o ddadleuaeth o'r flwyddyn 1730 hyd 1750, pryd, wedi i bob cyfryngwriaeth fethu, yr ymadawodd efe â'r blaid Arminaidd, ac adeiladasant gapel Craig-y-bargod, ac aeth y gynnulleidfa honno yn gwbl Undodaidd yn fuan ar ol ei farwolaeth ef.

Gan na chaniateid i Jenkin Jones bregethu ymhulpudau yr eglwysi a ystyrid yn uniongred, penderfynodd adeiladu capel Llwyn-rhyd-Owen, ac urddwyd ef yno yn 1726. Aeth mintai gref o aelodau Pant-y-Creuddyn i'w ganlyn i'r capel newydd. Cynhyrfodd hyn eu gwrthwynebwyr, a galwasant allan bob dawn a'r a feddent i ymosod arnynt; ac y mae rhai o goeth ebychiadau y beirdd ar dafod yr ardal hyd y dydd hwn. Er engraifft:—

> "Mae trwp o adar llawen
> Yn nythu'n Llwyn-rhyd-Owen;
> A'r rheini'n dweyd yr ânt yn serth
> I'r nef, yn nerth eu hunain."

A gellid tybied mai mewn attebiad i'r fath ebychiadau y dywedodd y bardd Arminaidd—

> "Hil Galfin drablin dryblwr."

Casglodd Jenkin Jones yn fuan gynnulleidfa gref yn y capel newydd, ac ni arbedodd na llafur na thraul er ehangu ei derfynau; a bu'n dra llwyddiannus ynghyfeiriad y Gogledd-Orllewin a Llwyn-rhyd-Owen. Hwyrach y gellir rhoddi, fel un rheswm dros ei lwyddiant yn y cyfeiriad hwnw, mai yn y parth hwnw yr oedd ei berthynasau yn byw. Wrth weled ei lwyddiant, daeth y frawdoliaeth i edrych ar Lwyn-rhyd-Owen mor barchus a Phant-y-Creuddyn, a byddai gweinidogion yn myned yno i bregethu yn achlysurol, ac yntau yn cael derbyniad caredig i'w pulpudau hwythau. Nid oes dim mor llwyddiannus a llwyddiant i ennill parch y cyhoedd.

Bu ei ddylanwad yn foddion i ostwng safon ac i leddfu gwres y credo Calfinaidd trwy holl eglwysi y gymmydogaeth, a chafodd fyw i weled chwe chynnulleidfa yn dyfod allan yn gyhoeddus i arddel y golygiadau Arminaidd. A phan fu farw Phylip Puw, patriarch uniongred sir Aberteifi yn ei ddydd, yr hwn a fu, o 1709 hyd 1760, yn weinidog Ciliau-Aeron, Cilgwyn, Caer-Onnen, Llwyn-Pïod, Blaen-Pennal, ac Abermeurig,† ym mysg y rhai y byddai Jenkin Jones yn arfer troi, gwelwyd eu bod wedi eu lefeinio mor drwyadl âg Arminiaeth, fel y mynnodd y tair eglwys flaenaf o'r chwech gael D. Llwyd, Brynllefrith, nai Jenkin Jones, a'i olynydd yn Llwyn-rhyd-Owen, i fod yn gydweinidog a chynnorthwywr P. Puw. Rhodd y tair eglwys arall alwad i Thomas Gray; a chan nad oedd maes ei weinidogaeth ef ymhell o Langeitho, lle ar y pryd yr oedd Daniel Rowlands yn anterth ei glod, gwnaeth Gray ei hun yn was bach iddo, er mwyn cael ei gymmorth i gadw allan Arminiaeth; a'r diwedd fu i'r Methodistiaid gymmeryd meddiant hollol o'r tair eglwys, ac y mae'r maes hwnw hyd heddyw yn ffurfio math ar lanerch ganolog rhwng Methodistiaeth Rowlands ac Arminiaeth Jenkin Jones. Bu farw yr olaf yn 1742, ynghanol ei barch, a theimlai pawb a'i hadweunai fod gŵr mawr yn Israel wedi cwympo.

Er nas gwelsom un crybwylliad fod Jenkin Jones ei hun, na'i gydweinidog, yn cael eu cyhuddo o wadu Duwdod Crist; etto, llithrodd yr holl eglwysi a fabwysiadasant ei olygiadau i Undodiaeth yn fuan ar ol ei gladdu. Priodolir y ddwy linell ganlynol i'w olynydd, Dafydd Llwyd, Brynllefrith:—

> "Hen Galfin ac Arminws,
> Gyrais draw goris y drws."

Ac yn y flwyddyn 1745, dair blynedd wedi claddu Jenkin Jones, pan gadwodd y Bedyddwyr gyfarfod cyhoeddus am ddau ddiwrnod wrth Bont Llandyssul, lle yr oedd pump o weinidogion yn pregethu ar y pum pwngc, ni soniodd neb air am Dduwdod Crist, yr hyn yn ddïau a wneuthent, pe'n gwybod bod eu cymmydogion yn ei wadu.‡ Nis gellir casglu ychwaith oddi wrth ysgrifeniadau§ Jenkin Jones ei fod wedi amcanu

* Han. y Bedyddwyr, gan D. J., t. 569; Han. Cref. yng Nghymru, D. P., t. 620.

† Gwel pen. viii. o'r llyfr hwn.

‡ Han. y Bed., gan D. J., t. 394.

§ Nid ydym yn gallu canfod yn *Llyfryddiaeth y Cymry* i ddim ond dau lyfryn o waith Jenkin Jones gael eu cyhoeddi, sef "Cyfrif Cywir

Digitized by Google

arwain ei ganlynwyr i wadu Duwdod Crist. Ymddengys bod y pennill canlynol o un o'i hymnau yn ddigon iach:—

"I adrodd gwyrthiau Iesu hael,
A'i gariad pur, nis gellir cael
Na geiriau llwyr, na myfyr maith,
Rhy fyr yw'n cof, rhy fer yw'n iaith."

Ychydig iawn a fu llwyddiant ei ddilynwyr ar ol myned yn Undodiaid. Nid yw eu terfynau deuaryddol yn sir Aberteifi ddim yn ehangach na therfynau Arminiaeth Jenkin Jones; ac er bod ganddynt yn awr fwy o gapeli, y mae'n sicr mai yr amser hwnw yr oedd ganddynt fwyaf o aelodau. Y maent fel wedi eu cau i fynu, er nad yn hollol, wrthynt eu hunain, gan yr afonydd Teifi, Aeron, a Cherdin. Prin y mae'r un teulu o honynt yn gallu byw yn hir iawn y tu allan i'r llinellau terfyn yna. Gellir edrych ar y darn yna o'r wlad, "darn Undodaidd sir Aberteifi," fel y'i gelwir, yr hwn sydd o ddeutu 160* milltir ysgwâr, ar yr hwn y mae gan yr Undodiaid o ddeutu deuddeg o addoldai, fel cofadail i JENKIN JONES.

### MOSES WILLIAMS.

Y mae'r cymmwynasau mawrion a wnaeth yr hynafieuthydd a'r gwladgarwr dysgedig a chlodfawr hwn, MOSES WILLIAMS, i'w gydgenedl y Cymry, trwy gyfrwng llyfrau duwinyddol a llenyddol, yn hawlio yn deg iddo gyfran ymhlith "Enwogion y Ffydd."

Mab ydoedd Moses Williams i Samuel Williams, periglor Llangynllo, a ficar Llandyfrïog, yn sir Aberteifi; a'i fam ydoedd ferch Thomas John ap Ieuan Thomas, Nantremenyn. Ganwyd Moses mewn lle a elwir Glaslwyn, ymhlwyf Llandyssul, yn y sir honno, ar yr 2fed o fis Mawrth, 1685. Cafodd elfenau cyntaf ei addysg yn Ysgol Rammadegol·Caerfyrddin; ac ar yr 31fed o Fai, 1705, derbyniwyd ef i Goleg y Brifysgol yn Rhydychain. Yn nherm Mihangel, 1708, cymmerth radd B.A. (B.C.=Baglor Celfyddydau), a chorphorwyd ef yn yr unrhyw yng Nghaergrawnt. Urddwyd ef yn ddïacon yn yr un flwyddyn, yn Westminster, gan y Dr. Trimnell, Esgob Caercynan (Norwich); a dywedir iddo wasaneuthu fel curad wedyn dros ryw dymmor yn Lloegr.* Tra'r oedd yn y sefyllfa yma, cyhoeddodd dri, os nad pedwar, o lyfrau Cymraeg, sef y rhai canlynol:—

"Y Namyn un deugain Articlau Crefydd. O gyfieithiad J.D. SS. T.D. ac o adgyweiriad S. ac M. Williams."

Y cyhoeddwyr oedd Moses Williams a'i dad, Samuel Williams. Y cyfieithydd oedd y Dr. Davies, o Fallwyd, ac yr oedd hwn y trydydd argraphiad. Nid oes amseriad wrth hwn, na mynegiad ymha le yr argraphwyd ef; ond M. Williams ei hun a'i dyry yn ei restr yn 1710.† Yn y flwyddyn nesaf (1711), cyhoeddodd M. Williams y llyfrau canlynol:—

"Ymarferol-waith i'r Elusen-Ysgolion; yn egluro Natur Conffirmrsiwn, mewn ffordd o Gwestiwn ac Atteb. Gyda Gweddïeu cyfaddas i'r Achos arbenig hwnw. Gan Robert Nelson, Esqr. O gyfieithiad Moses Williams." ‡

"Boreuol a Phrydnhawnol Weddi i Deulu. O gyfieithiad Moses Williams." §

Ac iddo ef y priodola'r *Llyfryddiaeth* ‖ y llyfr canlynol, a gyhoeddwyd yr un flwyddyn, sef 1711:—

"Cas gan Gythraul neu Annogaeth i bawb ochelyd myned i ymgynghori a Dewiniaid, Brudwyr, a Chonsurwyr, gydac Eglurhad ynghylch y perigl mawr o fyned i ymgynghori a hwynt, a Chrybwylliad ynghylch llawer o arferion a thraddodiadau drygionus, sydd yn cael eu harferyd yng Nghymru."

Ond "T. P." sydd ar ol y Rhagymadrodd, gyd â'r amseriad, "Mis Medi, y 15, 1711.¶

Yn y flwyddyn 1713, urddwyd Moses Williams yn offeiriad gan y Dr. Ottley, Esgob Tŷ Ddewi, yn Fulham; ac ar y 13ydd o Fai, yr un flwyddyn, medd Glan Menai,** ond yn y fl. 1715, medd eraill, cafodd fywioliaeth Llanwenog, yn ei sir enedigol, gan yr Arglwydd Ganghellydd Cowper, a chyflewyd ef yn ei swydd gan Esgob Tŷ Ddewi.†† Yn y flwyddyn hon, 1715, cyhoeddodd Moses Williams y llyfr canlynol:—

o'r Pechod Gwreiddiol." Llyfryn dïenw a dïamseriad ydyw hwn; ond "bernir mai ei awdur oedd Jenkin Jones, Llwyn Rhyd Owain," a thybir iddo gael ei gyhoeddi yn 1730 (*Llyfr. y Cymry*, t. 354).—Enw'r llall yw "Hymnau cymmwys i Addoliad Duw, o waith y diweddar Barchedig Jenkin Jones. At yr hwn y chwanegwyd Caniadau o Waith yr un Awdwr, ynghyd a'i Farwnad, gan Evan Thomas." Cyhoeddwyd hwn yng Nghaerfyrddin, yn 1768, ymhen 26 blynedd ar ol iddo farw.—Llyfr. y Cymry, t. 506.

Cyfieithiodd bedwar o lyfrau, y rhai a gyhoeddwyd fel y canlyn:—"Cyffes Ffydd y Bedyddwyr," 1720 (*Llyfr. y Cymry*, t. 324); "Llun Aggrippa," &c., 1713 (yr un, t. 334); "Dydd y Farn Fawr," &c., 1727 (yr un, t. 347); "Catechismau i'w dysgu i Blant," 1732 (yr un, t. 363).—GOL.

* Gwel yr erthyclau galluog yn *Y Cylchgrawn*, Awst, 1872, gan J. E.

* Enwogion Sir Aberteifi, gan Glan Menai, t. 164.

† Llyfr. y Cymry, t. 288.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 292. § Yr un, t. 293.

‖ Dangoseg, t. 753, gan "Williams, Moses."

¶ Llyfr. y Cymry, t. 293.

** En. Sir Aberteifi, G. M., t. 164; Llyfr. y Cymry, Rhagdraith, t. xxiii.; Williams's Em. Welshm., p. 531; En. Cymru, I. F., t. 1018.

†† Yn wyneb i awdur y *Llyfryddiaeth* ddywedyd mai gan Esgob Tŷ Ddewi y cafodd Moses Williams fywioliaeth Llanwenog, dywed y golygydd fel hyn:—"Gan yr Arglwydd Ganghellydd Cowper, nid gan Esgob Tŷ Ddewi, y cafodd ef fywioliaeth Llanwenog. Ni wnaeth yr esgob ond ei gyfleu yn ei swydd. Ni chafodd efe mo'r dyrchafiad eglwysig lleiaf gan neb o esgobion ei wlad. Tywysog Cymru (y Brenin Sior II. wedi hyny) a roddes iddo Defynog; ac nid i benaethiaid yr Eglwys yr oedd efe yn ddyledus am fywioliaeth Bridgewater."

Digitized by Google

Y mae'n debyg mai o gylch y pryd hyn, pan y trigai efe yn Lundain, y digwyddodd yr amgylchiad lled ddifrifol a ganlyn iddo, yr hwn a gofnodir gan Syr Samuel Meyrick, yn debyg i hyn:—

"Ymddengys bod Williams, druan, wedi bod mor anffodus a syrthio mewn cariad â boneddiges brydferth yn Llundain; a chan ei fod ef ei hun yn hynod o wylaidd ar achos felly, efe a ddymunodd ar gyfaill iddo, un Mr. Alban Thomas, yr hwn a briododd, yn ail wraig, etifeddes Tyglyn [yn Nyffryn Aeron, Ceredigion], a'r hwn oedd y pryd hyny yn Llundain, yn astudio meddyginiaeth, dori yr ia drosto, gan y gwyddai Williams yr arferai ef ymweled â'r teulu. Ond wrth siarad â'r foneddiges ar y pwngc, efe a ddeallodd na fynnai hi ddim i'w ddywedyd wrth Moses Williams; ac wrth gael cymmell arni yn lled drwm gan y llatai (the love messenger), hi a ollyngodd awgrym o'r diwedd, pe buasai efe yn ceisio drosto ei hun, y dichon y buasai'r canlyniad yn wahanol. Cymmerth Mr. Thomas yr awgrym, ac aeth ymaith. Wrth fynegi ei helynt i'w gyfaill, ciliodd serch M. Williams oddi wrthi; a chymhellodd Thomas i ysgrifenu at y foneddiges drosto ei hun ar unwaith. Dadleuai'r meddyg ieuangc ei ieuengctid, a'i ddiffyg o foddion, i feddwl am briodi, ac amryw esgusodion eraill; ond y cwbl yn ofer: pwysai Williams ar ei gyfaill i wneud y cynnyg drosto ei hun, fel prawf nad oedd yntau yn gwneud yn ffol pan y dymunasai ei chael. Cydsyniodd Thomas â chymhellion ei gyfaill, a llwyddodd. Nid oedd gan y foneddiges hawddgar ond un gwrthwynebiad, sef priodi dŷn heb ach boneddigion, heb fod yn ŵr bonheddig o waed, ac yn meddu pais arfau! Yr oedd hyn yn beth na feddyliasai Thomas am dano, ac yr oedd mewn peth dyryswch ar y cyntaf pa fodd i atteb pryder y rhian deg. Yr oedd wedi gadael ei wlad yn ieuangc, cyn astudio dim ar athrawiaeth yr achau. Pa wedd bynag, efe a ysgrifenodd at ei dad, y Parch. Alban Thomas, o'r Rhos, ymhlwyf Blaen y Porth, yr hwn oedd dduwinydd a bardd o gryn enwogrwydd; a'i dad a olrheiniodd y Tomasiaid, mewn llinell gywir, o Arglwydd y Tywyn i lawr hyd iddo ei hun.* Efe a anfonodd, gyd â'r atteb i'w fab, bais arfau, gyd â choedan fawr o achau, wedi ei lliwio yn hardd. Nid oedd dim rhwystr ar y ffordd bellach: priododd Thomas y foneddiges o Lundain yn ebrwydd, a buant fyw yn ddedwydd hyd ei marwolaeth hi a'i mab."†

Blwyddyn bwysig iawn i Moses Williams, ac i Gymru hefyd, yn wir, oedd 1718. Yn ystod y flwyddyn hon, efe a gymmerth radd M.A. (A.C. = Athraw Celfyddydau), ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn yr un flwyddyn etto, er mor wylaidd y gesyd y difyniad uchod ef yn ei ymwneud â boneddigesau, etto, trwy ryw fodd neu gilydd, llwyddodd i briodi un Margaret Davies, o'i blwyf ei hun, Defynog; ac ynghofrestr y plwyf, ar yr achlysur hwnw, gesyd ei hun allan fel o Cellan, sir Aberteifi. Yn ystod y flwyddyn hon hefyd, llwyddodd Moses Williams i gael gan y "Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol" gyhoeddi argraphiad 8plyg hardd o'r "BIBL CYSSEGR-LAN," yr hwn oedd yr argraphiad cyntaf o'r Bibl a gyhoeddwyd gan y gymdeithas ddaionus honno. Moses Williams oedd golygydd y Bibl yma, neu ddiwygiwr y wasg; am hyny galwyd yr argraphiad yma, "Bibl Moses Williams." Dywedir bod yr argraphiad yma yn rhagori yn fawr, o ran cywirdeb llythyreniad, a'r cyffelyb, ar y saith argraphiad blaenorol o'r Bibl. Cynhwysai yr un pethau a "Bibl Rhisiart Morys," a nodwyd eisoes yn y bennod flaenorol, ynghyd â'r ychwanegiad o oed y byd ar frig y dail. Dywed y Dr. Llewelyn nad oedd hyspys yn ei amser ef (1768) pa nifer o gopïau a gynhwysai yr argraphiad yma;* ond hyspysir yn *Y Gwyddoniadur*, ar ba awdurdod ni fynegir, bod y nifer yn 10,000,† ac felly hefyd y dywed y Dr. T. Rees.‡ Drachefn, yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd "Bregeth," ond ni fynegir ar ba destyn.§ Yn y flwyddyn 1723, cyhoeddodd Moses Williams waith Humphrey Llwyd, dan yr enw "The Breviary of Britain," gyd âg esponiadau arno.‖

Yn y flwyddyn 1724, dyrchafwyd ef, trwy ddylanwad yr Arglwydd Ganghellydd neu Dywysog Cymru, y mae'n ddïau (canys ni "chafodd ef mo'r dyrchafiad eglwysig lleiaf gan neb o esgobion ei wlad," fel y gwelsom), i berigloriaeth Clinton Trinity, a ficeriaeth St. Mary, yng Ngwlad yr Haf (Somersetshire), a rhoddes ficeriaeth Defynog i fynu; a gellir casglu bod yn rhywyr ganddo gael cefnu ar "esgobion ac archddïaconiaid" Seisnig, erlidgar Cymru, y rhai a "rybuddient ac a bregethent yn ei erbyn," o blegid ei hoffder a'i egni gwladgarol o blaid iaith a llenyddiaeth ei wlad. Ond er ei alltudio i wlad estronol i fyw, gan ffug grefyddwyr esgobol ei wlad ei hun, nid anghofiodd efe mo les llenorol ac ysprydol ei gydgenedl y Cymry, canys yn 1726, ymhen llai na dwy flynedd ar ol myned i fyw i fysg estroniaid, efe a gyhoeddodd waith oedd yn ffrwyth llafur ac ymchwiliad dirfawr, sef trefniant egwyddorol o linellau cyntaf barddoniaeth Gymraeg oedd yn aros mewn llawysgrifen, yn dwyn yr enw Lladin canlynol:—

"Mosis Gulielmi, A.M. R.S. Socii Repertorium Poeticum, sive Poematum Wallicorum, quotquot hactenus videre contigit, Index Alphabeticus, primam singulorum

* Y Tywyn sydd ddarn o wlad ar fin y môr yn sir Aberteifi, o geg y Teifi tu a'r gogledd, lle yr oedd Llys gan Arglwyddi'r Tywyn. Enw Arglwydd y Tywyn, yr hwn oedd Ysgwain Corph i Harri VII., oedd Rhydderch ap Rhys, i'r hwn y canodd Lewis Glyn Cothi awdl, yr hwn a adawodd ddau fab ar ei ol o'i wraig Margaret, sef Rhydderch a Thomas; ac o hyny allan, daeth Thomas i mewn i'r achau.—*Gwaith L. G. Cothi*, nod, t. 283.

† Meyrick's Hist. of Cardiganshire, pp. 293–4.—Dengys yr ystori yma, a'r nodiad a ddifynwyd o'r *Taliesin*, mai dŷn gwylaidd, lled ddigalon oedd "Moses Williams, druan."

* Llewelyn's Hist. Acc., p. 54.

† Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 343.

§ Llyfr. y Cymry, t. 318. ‖ Yr un, t. [illegible].



Digitized by Google

lineam, et loca ubi inveniantur, exhibens. Accedit Poetarum Nomina, et quando plerique omnes floruerint."*

Nis gwyddom paham y dodes yr awdur enw Lladin ar y llyfr hwn, oddi eithr nad oedd yn disgwyl y byddai yn fwy derbyniol gan ddysgedigion y deyrnas. Enw go ryfedd hefyd ydyw, "Mosis Gulielmi, A.M. R.S. Socii Repertorium Poeticum" = Cydymaith Cofrestriad Prydyddol Moses Williams, A.C. C.F. Dywedir mai yn 1732 yr etholwyd ef yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol;† ond y mae yr "R.S." (Royal Society) uchod yn arwyddo ei fod yn dwyn rhyw berthynas â'r gymdeithas honno yn 1726. Tybia rhai hefyd y bu'n Is-geidwad y Gywreinfa Ashmalaidd yn Rhydychain dros ryw dymmor.‡

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1727, llwyddodd y gwladgar a'r diwyd M. Williams i gael gan y "Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol" gyhoeddi argraphiad arall o'r "BIBL CYSSEGR-LAN," dan ei olygiad ef. Dywed y Dr. Llewelyn fod hwn yn 8plyg llai na Bibl 1718, a'i fod hefyd heb gynhwysiad y pennodau, a heb y cyfeiriadau ar ymyl y dail; ac o herwydd hyny, na bu erioed mor werthfawr yngolwg y bobl, er mwyn y rhai y cyhoeddwyd ef, ag oedd yr argraphiad arall, er ei fod yn cynnwys y cwbl oedd yn hwnw, ond y pethau a nodwyd.§ Ymddengys i'r Dr. Llewelyn fethu cael gwybod pa nifer o gopïau a gynhwysai yr argraphiad yma, mwy na'r llall. Dywedir yn *Y Gwyddoniadur* mai 5,000;‖ ond dywed y Dr. T. Rees ac Isaac Foulkes ei fod yn 20,000, yr hyn sydd yn bur debyg o fod yn anghywir.¶ Y llyfr nesaf y bu gan M. Williams law yn ei gyhoeddiad, hyd y gallwn ganfod, oedd hwn:—

"Cyfrreithjeu Hywel Da ac Eraill, seu Leges Wallicae Ecclesiasticae et Civiles Hoeli Boni et Aliorum Walliae Principum, quas et variis Codicibus Manucriptis eruit, Iterpretatione Latina, Notis & Glossario illustravit Gulielmus Wottonus, S.T.P. adjuvante Mose Gulielmo, A.M.R.S. Soc. Qui & Appendicem adjecit.
"Londini: Tipis Gulielmi Bowyer, MDCCXXX." Folio.

Dywedir yn yr enwad-ddalen yna i'r gwaith mawr hwn gael ei gyfieithu i'r Lladin gan y Dr. Wotton, trwy gynnorthwy Moses Williams; ond y mae prawf mewnol yn y gwaith mai gan Moses Williams yr oedd y llaw benaf yn y gorchwyl, canys y mae'r cyfieithiad mor odidog o gywir a manwl fel mai prin y gellir canfod cymmaint ag un gwall ynddo.**

* Llyfr. y Cymry, t. 346. † Williams's Em. Welshm., p. 532.
‡ En. Cymru, I. F., t. 1018. § Llewelyn's Hist. Acc., pp. 51–4.
‖ Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.
¶ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 343; En. Cymru, t. 1018.
** Williams's Em. Welshm., p. 532.

Y gorchwyl llenyddol cyhoeddus olaf a wnaeth yr enwog Moses Williams, hyd y gallwn ganfod, oedd ail gyhoeddi gwaith H. Llwyd, yn y fl. 1731. Dichon mai yn ystod y deng mlynedd olaf o'i oes, wedi iddo orphen cyhoeddi llyfrau, yr ysgrifenodd y pedair cyfrol fawr a adawodd mewn llawysgrif i'r Llyfrgell Bodleianaidd, yn cynnwys rhestr o'r holl lyfrau oedd yn y llyfrgell honno ar y pryd. Bu farw y dŷn enwog a llafurus hwn tu a diwedd mis Chwefror, 1742, a chladdwyd ef ar yr 2il o Fawrth, yn eglwys St. Mary, Bridgewater. Yn ei ewyllys gadawodd gasgliad gwerthfawr o lyfrau a llawysgrifau, yn benaf ar byngciau ieithyddol, hanesyddol, perthynol i wlad ei enedigaeth, i'w noddwr, yr Arglwydd Macclesfield.

## PENNOD XII.

### ENOCH FRANCIS, EI GYDWEITHWYR, A'I DEULU.

ENOCH FRANCIS, Castell Newydd Emlyn,* yn sir Gaerfyrddin. Hanodd y gweinidog poblogaidd a chlodfawr hwn o deulu parchus a chrefyddol yn sir Aberteifi. Ymunodd rhai o'i hynafiaid â'r

* Y mae'r eglwys yn yr hon yr ymaelododd Enoch Francis yn gyfryw yn ei hanes foreuol, fel y mae gair o eglurhâd yn angenrheidiol. Geilw un ysgrifenydd hi, ond nid amhriodol, yn "eglwys a gyfarfyddai mewn gwahanol fanau yn y parthau hyny;" ac un felly ydoedd mewn gwirionedd, fel lliaws o eglwysi eraill yr un cyfnod, sef Rhydwilym, Hengoed, &c. Treuliodd E. Francis gryn amser yn eglwys y Castell Newydd, tra'r ymgyfarfyddai mewn manau eraill. Byddai yr hen eglwysi yn ymsymmud o ardal i ardal, ac o dŷ i dŷ, am ugeiniau o flynyddoedd weithiau, cyn ymsefydlu yn arhosol mewn un man neillduol, fel y dengys hanes amryw o hen eglwysi y Bedyddwyr yng Nghymru; ac ni bu yr eglwys hon yn wahanol. Y mae'r prif ffeithiau yn ei hanes fel y canlyn:—Dangoswyd fod llawer o hen aelodau Rhydwilym ar lanau y Teifi, ac ymhell yn sir Aberteifi (gwel William Jones, Rhydwilym, cyf. i., llyfr iv., pen. xviii.). Pan wnaed cofres o'r aelodau yn 1689, yr oedd rhai o honynt o *ddeg* o blwyfi yn sir Aberteifi, ac eraill o dri neu bedwar o blwyfi ar lan y Teifi, yn sir Gaerfyrddin. Golygir mai Mari Jones, Llanllwni, yr hon a fedyddiwyd yn 1667, oedd dechreuad Bedyddwyr y cymmundeb caeth yn y parthau hyny, ac mai T. D. Rees, yr hwn a fu'n un o'r Annibynwyr, oedd y gweinidog cyntaf a fu arnynt yn eglwys Glandwr, tu ag wyth milltir o bont Llandyssul, yr hon oedd fath ar gangen o eglwys Rhydwilym ar y cyntaf, neu yn rhan o'r eglwys wasgarog honno. Cafodd Rees ei erlid, ei ddirwyo, a'i garcharu. Bedyddiwyd ef yn 1668. Yr oedd T. D. Rees yn arianog, ac ymddengys mai rhan o'i etifeddiaeth ef oedd Glandwr. Nid oedd addoldy yng Nglandwr; ond ymgyfarfyddent, y mae'n debyg, mewn rhyw ysgubor neu dŷ annedd. Wedi i T. D. Rees farw, symmudodd yr eglwys o Landwr, ymhlwyf Llandyssul, i le a elwid Rhos-goch, ymhlwyf Llanarth. Nid oes sicrwydd ymha flwyddyn yr aethant i'r Rhos-goch, nac ymha flwyddyn y gadawsant y lle; ond yr oeddynt yn addoli yno yn 1720. Ymhlwyf Llanarth y mae mynwent Pen-y-lan-noeth, yr hon a ddarparwyd gan y Bedyddwyr. Pan ymadawsant o Landwr, ymddengys mai yn Llanllwni a'r cylchoedd yr oedd mwyrif yr aelodau; ac o blegid hyny, dechreuwyd cynnal cyfarfodydd yn y Felin-dre, yn Llanllwni, yn ol llythyr y Gymmanfa am 1702. Y mae'n rhesymol casglu bod y dosparth a ymgynhullai yno yn gryfach na'r rhan arall yn y Rhosgoch, ac mai o blegid hyny y galwyd yr eglwys ar enw y lle hwnw. Buant yn ymgyfarfod hefyd mewn lle a elwid Wlchog, ymhlwyf Llanfihangel Erarth. Pan ymgyfarfu yr eglwys yn y lleoedd a nodwyd, yr

Digitized by Google

Bedyddwyr yn fuan wedi corpholiad eglwys Rhydwilym yn y flwyddyn 1668, ac ymfudodd amryw o honynt i'r America. Ganwyd Enoch Francis yn 1688, mewn lle a elwid Pant-y-llaethdy, ymhlwyf Llandyssul, ar lan y Teifi, sir Aberteifi, ac ymddengys mai un o efeilliaid ydoedd. Pan tu a thair oed, syrthiodd i'r afon Teifi; ond trwy i'w chwaer fechan redeg at ei thad mewn dychryn, prysurodd yntau i'r lle yn frawychus, a llwyddodd i'w achub. Nid oes hanes neillduol am ei ddyddiau boreuol, heb law y dywedir ei fod yn blentyn bywiog a gweithgar. Ymunodd â chrefydd yn ieuangc. Yr hyn sydd debyg ydyw, mai yn eglwys Glandwr yr ymaelododd, ac mai James James neu T. D. Rees,* y gweinidogion yno ar y pryd, a'i bedyddiodd ef. Dechreuodd bregethu pan yn 19 oed, ac ennillodd lawer o sylw a chymmeradwyaeth uchel yn fuan. Traddododd ei bregeth gyntaf mewn lle a elwid Pengwaun, neu Penwaun, ger llaw y Bryn, ymhlwyf Llanllwni. Ei destyn oedd Esa. lv., neu ryw ran o'r bennod. Bu Jos. Thomas yn ymddiddan â hen frawd, yr hwn a gofiai yr amser a'r lle y dechreuodd E. F. ei yrfa ogoneddus fel pregethwr. Gan fod ynddo y fath gydgyfarfyddiad o'r rhagorieuthau angenrheidiol i wneud pregethwr cymmeradwy, gelwid yn fynych am ei wasanaeth ymhell ac yn agos. Adweunid ef am hir amser, os nad ar hyd ei oes, wrth yr enw Enoch Francis, Rhos-goch.† Dan yr enw hwn yr ydym yn cael cyfeiriad ato mewn cyssylltiad â Thrysorfa Llundain yn 1718. Nid oedd eglwys y Castell Newydd y pryd hwnw, nac am amser maith wedi hyny, ond un fechan o'i chymharu â'r cynnulliadau yng Nglandwr, y Rhos-goch, a'r Felin-dre. Nid ymddengys iddo fod nemmawr o amser, wedi dechrau pregethu, cyn cael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, canys pennodwyd ef i bregethu yn lle un arall yng Nghymmanfa Maesyfed yn 1721; ac efe oedd i bregethu yn Hengoed yn 1722. Enoch Francis oedd yn pregethu y Bregeth Gymmanfaol yn Llangloffan yn 1729, yr hon a argraphwyd wedi hyny mewn cydsyniad â chais y gynnadledd. Ymddangosodd fel rhyw seraph disglair ar unwaith, yn debyg i Spurgeon yn Llundain; a chynhyddodd mewn disgleirdeb hyd ddiwedd ei oes fer a llwyddiannus.

Arferai dalu ymweliadau blynyddol ag eglwysi y Bedyddwyr yn y gwahanol siroedd, er mwyn eu deffroi a'u hadeiladu; a gwahoddid ef yn fynych i addoldai yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, lluoedd o ba rai a ymawyddent gymmaint am ei glywed a'i enwad ei hun. Ar fyr, yr oedd yn fath ar hoff-ddyn cyffredinol gan bawb, ac mewn ystyr yn feddiant i holl grefyddwyr Cymru. Gwahoddid ef yn fynych i ymweled â'r eglwysi. Dywedir bod rhyw swyn neillduol yn ei lais a'i ddifrifoldeb, ac y byddai ei sylwadau efengylaidd yn mynnu sylw ac ystyriaeth. Nid yn fynych y pregethai heb wylo; ac weithiau ni cheid nemmor lygaid sychion ym mysg y tyrfaoedd a'i gwrandawent. Gan y cyrchai'r fath luoedd i'w wrando, ac nad oedd addoldai mawrion a chyfleus i'w cael yn ei amser ef, rhesymol i'w casglu y

oedd amryw o'r aelodau yn byw yn ardal Castell Newydd Emlyn. Gan fod Thomas Morgans a'i wraig yno, ac yn aelodau yn Rhydwilym yn 1689, y mae'n bossibl mai y ddau hyny a ddechreuasant achos y Bedyddwyr yn y dref. Yn ol yr hanes, yn y flwyddyn 1697 y dechreuwyd cynnal cyfarfodydd gan y Bedyddwyr yn y Castell Newydd, yn nhŷ un a'i enw William Melchior, yr hwn oedd wedi priodi gweddw y T. Morgans uchod. Fe allai y byddid yn cynnal cyfarfodydd yn nhŷ T. Morgans a'i wraig cyn i'r bleunaf farw; ond gan nad oes hanes am hyny, rhaid derbyn y flwyddyn 1697, am mai honno yw yr unig un sicr. Nid oedd E. Francis felly ond tu a naw oed pan ddechreuodd y Bedyddwyr bregethu yn y dref. Gan fod y Castell Newydd yn dref farchnad, a'r Felin-dre yn lle dinod, mewn cymhariaeth, daeth yr eglwys mewn blynyddau i gael ei galw yn Eglwys y Castell Newydd, ac nid yn Eglwys y Felin-dre: ar enw Glandwr y gelwid hi am flynyddau. Felly y gelwid hi yn llythyr y Gymmanfa yn 1694; ac wedi hyny, adweunid hi fel Eglwys Felin-dre, fel y dangoswyd. Y mae Jos. Thomas yn barnu mai tu a'r flwyddyn 1742 y dechreuodd pawb ei galw ar enw y Castell Newydd, pan gyfarfyddai yn nhŷ Griffith, yr hwn oedd un o'i gweinidogion, yn y dref, ymhen o ddwy i dair blynedd, fe allai, ar ol marwolaeth E. Francis. Golyga Jos. Thomas fod y brydles oedd ganddynt ar y tŷ yn sir Aberteifi allan tu a'r amser hwnw; a chan i lawer o'r aelodau yn y sir honno ymfudo i'r America, ni ofynasant am brydles newydd, ond ymgyfarfyddai corph yr eglwys yn y Castell Newydd rhag llaw. O ganlyniad, nid yw E. Francis yn cael ei alw yn weinidog Castell Newydd Emlyn, o blegid mai felly y gelwid yr eglwys yn ei amser ef, o herwydd mai tu a diwedd ei oes y cafodd yr enw hwnw.

* Ordeiniwyd T. D. Rees yn 1669, ac yr oedd yn byw mewn lle a elwid Moyddyn, ymhlwyf Llanarth. Yr oedd efe mewn sefyllfa uchel yn y byd; a dywedir i'r erlidwyr gymmeryd ei anifeiliaid, a meddiannau eraill, droion, am nad elai i'r llan ar y Sabboth, ac iddo gael ei garcharu hefyd am y trosedd; ond glynodd efe yn ffyddlon yn ei broffes hyd ei farwolaeth. Nid oes sicrwydd pa bryd y bu farw; ond dywed Jos. Thomas ei fod yn fyw yn 1700. Y mae'n amlwg ei fod yn ddŷn rhagorol, o'r un dosparth a G. Howells, Rhydwilym, ac iddo ddioddef yn drwm yngwasanaeth ei Geidwad.

† Bu'r eglwys yn cyfarfod mewn lle a elwid Ty-newydd-dan-yr-allt. Pan yr oedd anghydfod yn Rhydwilym, ysgrifenodd E. Francis lythyr rhagorol atynt, yn enw yr eglwys, wedi ei arwyddo ganddo ef, a chan bedwar neu bump o frodyr eraill; ac amserwyd y llythyr hwnw yn y Tŷ-newydd-dan-yr-allt-fawr, Llandyssul, 1725. Y mae Jos. Thomas yn golygu iddynt, wedi gadael Glandwr a'r Rhos-goch, ardrethu ysgubor, codi prydles arni, a'i gwneud yn lle cyfleus i gynnal gwasanaeth crefyddol, gan ei galw yn Dŷ-newydd-dan-yr-allt. Amserwyd llythyr y Gymmanfa yn 1734, yn y tŷ hwnw, heb enwi un lle arall, yr hyn sy'n dangos mai yno y cyfarfyddai corph yr eglwys. Bu hyny tu a phum mlynedd cyn i Enoch Francis farw. Y mae'n debyg mai wrth yr enw Enoch Francis, Tŷ-newydd-dan-yr-allt, yr adweunid ef ar y pryd. Enw a roddwyd iddo gan grefyddwyr diweddar, ac nid gan ei gyfoedion, yw Enoch Francis, Castell Newydd Emlyn. Yr enw diweddar ar y lle yw Tan-yr-allt. Dywed Jos. Thomas mai rhyw anghyfleusdra yn Rhos-goch a barodd iddynt gymmeryd a thaclu Tan-yr-allt, ac mai'r lle yma oedd y cyntaf yn yr holl ardaloedd i gael ei alw yn *Dŷ Cwrdd*, neu addoldy. Mewn tai annedd yr arferasent addoli am fwy na 60 mlynedd. Enw arall ganddynt ar Tan-yr-allt oedd Tŷ Newydd.

Digitized by Google

pregethai yn fynych yn yr awyr agored, fel y gwnai llawer o efengylwyr poblogaidd ei oes.

Gellir casglu yr ymwelai â'r eglwysi, fel y nodwyd, cyn priodi cystal ag wedi hyny; ac y mae'n debyg mai yn ystod ei deithiau pregethwrol, pan yn ieuangc, y cafodd yr olwg gyntaf ar yr hon a fu'n ymgeledd gymmwys iddo cyhyd ag y parhaodd eu hundeb priodasol. Merch ydoedd i Walter Dafydd Ifan, Blaenrhymnwy-Fach, lle tu a deuddeng milltir i'r gogledd-orllewin o Hengoed, lle yr arferai llawer o aelodau Hengoed addoli gynt.* Y mae J. Thomas yn tybied mai tu a'r flwyddyn 1715 y mudodd efe, ac yn dywedyd mai i le a'i enw Capel Iago, ger llaw Llan-y-bydder, yr aeth ei wraig ieuangc ac yntau, lle yr arhosasant am ddeuddeng mlynedd. Ymadawsant oddi yno i le arall yn y gymmydogaeth, ac oddi yno i Bengelli, ger llaw Castell Newydd Emlyn. Ar y dybiaeth mai yn 1715 y priododd efe, ac mai yn 1742 y sefydlwyd Aberduar, yr hwn sydd yn agos i Lan-y-bydder a Chapel Iago, dïau i E. Francis wneud llawer er parotôi ar gyfer sefydliad yr eglwys yno. Tra yn byw yng Nghapel Iago, pregethai yn ei dŷ ei hun, a bedyddiai gredinwyr mewn rhyw "ddwfr oedd loywa" ger llaw, gan "dori bara" i'r aelodau yn ei dŷ annedd; ac yn y flwyddyn 1723, ceir y Gymmanfa a gynhaliwyd yn Llanwenarth yn cyfarwyddo llythyr at eglwys Capel Iago. Tybir y golyga J. Thomas yn briodol mai camgymmeriad yw hyny, o blegid mai yn y Felin-dre y bu corph yr eglwys am flynyddau ar ol 1723, ac mai rhan o'r eglwys honno oedd yn nhŷ E. Francis ar y pryd. Y mae'n dra thebyg mai cyssylltiad Enoch Francis â Chapel Iago a barodd i'r ysgrifenydd syrthio i'r camgymmeriad uchod. Gan i Vavasor Powel† a'i gyfeillion bregethu llawer yn sir Aberteifi, a chasglu cynnulleidfaoedd ym Mlaenpennal, Cellan, Llwyn-y-pïod, Abermeurig, a manau eraill, a bod ei gynnulleidfaoedd ef yn siroedd Trefaldwyn, Maesyfed, ac Aberteifi, yn gymmysg o Fedyddwyr a Bedyddwyr Plant,‡ y mae'n rhesymol casglu bod llawer o Fedyddwyr mewn ardaloedd yn sir Aberteifi, ar gyffiniau sir Gaerfyrddin, cyn amser Enoch Francis, am yr hyn y dywed Jos. Thomas fel y canlyn:—

"Ond wedi iddo ef [V. Powel] farw, ac i'r erlid ddarfod, yr oedd y Bedyddwyr yn cael eu herlid gan eu brodyr yn fynych, a chan y wladwriaeth: felly y mae'n debyg iddynt ddarfod gan mwyaf yn yr ardal hon [Aberduar, &c.] cyn diwedd yr oes ddiweddaf. Tu a dechrau yr oes hon, mi a glywais nad oedd ond un o honynt yn y wlad honno, a bod hwnw yn byw yng Nghellan, ac yn cael ei chwerw erlid gan y gweinidog a'r pulpud. Rhyfedd y dywedyd sydd wedi bod yn erbyn y sect hon! O'r diwedd, ni adawyd o honynt yn y wlad, na had, na gwreiddyn, na changen. Darfuant oll: er hyny, nid hir y bu'r wlad heb rai o honynt, fel y gwelir ar fyr."

Pan sefydlwyd eglwys Rhydwilym, yr oedd Bedyddwyr yn Llanwenog, Pencarreg, a manau eraill, yr hyn sy'n dangos bod egwyddorion y blaid hon yn yr ardaloedd, ac mai yr angen o deimlad oedd cael y dŷn iawn i ddeffro y cysgaduriaid. Byddai E. Francis yn pregethu mewn llawer o fanau yn ardaloedd Llan-y-bydder, a'r gororau; ac yn 1720, a chyn hyny, bedyddiwyd llawer tu a Silian, y Bettws, Llanfair, a manau eraill yn sir Aberteifi, a lleoedd eraill y pregethasai V. Powel ynddynt; a dywed Jos. Thomas y byddai rhai yn teimlo'n flin iawn o herwydd eu llwyddiant, ac y byddent yn eu goganu, ac yn arllwys anfoddlonrwydd arnynt. Pregethai E. Francis yn egnïol yn ardaloedd Blaen-y-waun, ger llaw Silian, heb esgeuluso ei eglwys, yr hon a

* [illegible] gan Abel Edmunds, aelod galluog yn [illegible] yr hanes canlynol:—"Byddai rhai [illegible] yr erledigaeth, yn nechreuad teyrnasiad [illegible] isaf plwyfau Gelli-gaer a Llan- [illegible] cyfarfodydd crefyddol, ac yn dychwelyd [illegible] fyned at eu gorchwylion, rhag ofn i'w gelyn- [illegible] 24 i 30 o filltiroedd wrth ddyfod a [illegible] crefyddol yr oes hon am eu llafur [illegible] cwm cul, troiog, a elwir Cwm [illegible] yn agos iawn ato. Nid oes [illegible], yr hyn oedd yn ei wneud [illegible]. Wedi bod yn nhŷ Cristor [illegible] a hanner milltir yn is i odir ddwy- [illegible], a gelwir adfeilion y tŷ yn "Dy'r [illegible] fyned i'r America, symmud- [illegible] W. D. Ifan, sef tad-yng-nghyfraith E. [illegible] y man honno, yn ol traddod- [illegible] yn wyboi iddynt. Cynhelid y cyf- [illegible] rhag i'r [illegible] y gwyliedydd am [illegible] a myned at ddrws yr [illegible], daeth E. Francis i mewn, a [illegible] y geiriau hyn—"Y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn," yr hyn a barodd i'r bobl dewi a brawychu. Pan ddeallasant pwy oedd yno, cawsant noswaith nefolaidd yn y lle. Gan fod yr erledigaeth wedi peidio er 1689, neu ddiwedd 1688, blwyddyn gweinidogaeth E. Francis, nid erlidwyr y Llywodraeth oedd yn eu herlid; ond y mae'n bossibl y byddent yn cael eu herlid gan eu cymmydogion o blegid mai Bedyddwyr oeddynt. Bu ysgrifenydd y llinellau hyn yn ymyl y tŷ crybwylledig droion. Rai blynyddau yn ol, ymollyngodd clawdd neu waldon (*bank*) llyn, neu gronfa fawr iawn o ddwfr perthynol i Waith Heuarn Rhymnwy, a rhuthrodd y cyflawnder o ddwfr oedd yn y llyn allan, gan ysgubo y cwbl o'i flaen ar ei ffordd i'r môr yng Nghaerdydd. Gan fod yr hen dŷ uchod yn digwydd bod ar lwybr y llifeiriant dinystriol hwnw, ysgubodd ef a'r cwbl oedd ynddo ymaith yn llwyr, a'r tebygrwydd yw i bob defnyddiau nofiadwy oedd yn y tŷ gael eu hyrddio i'r môr, yr hwn sydd tu a 24 milltir o'r man y safai yr adeilad.

† Yn 1750, dywedodd hen ŵr geirwir o Dregaron wrth J. Thomas ddarfod i ddŷn ieuangc geisio dirmygu Vavasor Powel neu Walter Cradoc, pan yn pregethu yn ymyl Tregaron, ond torodd ei goes yn yr ymgais. Addefodd ei bechod wrth y pregethwr, a daeth yn un o'r pregethwyr mwyaf defnyddiol yn yr ardaloedd. Ei enw oedd Morgan Howel, am yr hwn y mae'r Dr. Calamy yn crybwyll yn barchus.—Han. y Bed., t. 398–9.

‡ Powell's Life, pp. 122-3.

ymgynhullai yn y Felin-dre a'r Castell Newydd. Yn 1730, symmudodd E. Francis o ardal Aberduar i Ben-y-gelli,* ger llaw Castell Newydd Emlyn, a chymmerwyd y cyfarfod o'i dŷ ef, ger llaw Llan-y-bydder, i dŷ annedd Ifan Sanders yn Aberduar. Yr oedd I. S. yn ddïacon parchus a galluog yn yr eglwys, a bu yn hynod o ddefnyddiol wedi i E. Francis adael y gymmydogaeth. Erbyn hyny, yr oedd eglwys y Castell Newydd yn ymgodi o'i dinodedd; ac fe allai nad oedd y rhai oedd yn sir Aberteifi mor addawol, o herwydd y symmudiadau mynych i'r America, a manau eraill. Dichon i'r pethau hyn beri gadael Aberduar i Ben-y-gelli, ymhlwyf Cenarth.

Wedi symmud i Ben-y-gelli-fawr, yn ardal y Castell Newydd, pregethai E. Francis yn fynych yn ardaloedd Aberduar a Blaen-y-waun, a bedyddiwyd amryw yn ardal Tregaron, ac yn uwch i fynu na hyny. Er pelled y ffordd o Dregaron i'r Castell Newydd, etto deuai pobl Tregaron yno yn fynych i gymmundeb, a dywedir y byddent yn caru eu gilydd a'r gwirionedd yn fawr. Er mwyn ysgafnhau beichiau yr aelodau yn Nhregaron a'r Bettws, adeiladwyd math ar gapel yn y Coedgleision, ymhlwyf y Bettws, yr hwn a alwyd yn Ben-y-coed; ac adfywiodd crefydd yno i gryn raddau dan weinidogaeth E. Francis a'i gyfeillion. Bu ei gynnorthwywyr, sef I. E. David, Rees Jones, ac eraill, fel yntau, yn pregethu ym Mwlch-y-rhiw, Llan-y-cwnwys, Caio, a manau eraill; ond efe a fyddai yn bedyddio ac yn tori bara, am nad ordeiniasid y lleill. Gŵyr y rhai sy'n adnabyddus â meithder y ffordd o Ben-y-gelli-fawr i Dregaron, Bwlch-y-rhiw, &c., nad ysgafn oedd llafur Enoch Francis; a mawr fu effeithiau daionus ei ymdrechion. Gresyn meddwl bod achos y Bedyddwyr wedi marw er ys blynyddau mewn amryw o'r lleoedd y bu efe yn llafurio yn galed ynddynt, ac nad yw ond gwan iawn mewn llawer o'r manau a gawsant eu bendithio â'i weinidogaeth. Nid oes eisiau hyspysu y bobl sy'n adnabyddus o hanes Tregaron, y Coed-gleision, y Felin-dre, y Rhosgoch, a manau eraill, nad ydym yn cwyno heb achos.

Yr oedd ganddo gydlafurwyr teilwng ar y maes; ond er mai efe oedd i'w weled a'i glywed yn benaf, etto nid ydym i gasglu nad oedd ei gydweithwyr mor gymmeradwy gyd â Duw ag yntau, canys nid yn ol rhif ein talentau y cawn ein barnu, eithr yn ol ein ffyddlondeb yn eu harfer. Bydd llïaws o weision yr un dalent yn uwch mewn gogoniant na llawer o berchenogion y pump, o blegid iddynt ddefnyddio yr hyn a ymddiriedwyd iddynt yn well nag yr arferwyd cyflawnder heleuthach o fendithion gan eraill. Yr oedd James James,† a dau neu dri o frodyr da eraill, yn llafurio yn eglwys Glandwr a'r cylchoedd pan ddechreuodd E. Francis bregethu, ac er mwyn cydweithredu â hwy y cafodd efe ei ordeinio. Gan y byddent yn cyfarfod mewn cynnifer o fanau, byddent oll yn gwasaneuthu yr un pryd mewn gwahanol gymmydogeuthau.‡ Yr oedd ei

* Y mae ymhlwyf Cenarth (rhan o blwyf yw Castell Newydd Emlyn) ddau le a elwir Pen-y-gelli, a dichon nad oes fwy na thri chwarter milltir rhwng y ddau ameuthdy. Dwy ffarm lled fawr ydynt: y mae'r naill yn cael ei galw yn Ben-y-gelli-fawr, a'r llall yn Ben-y-gelli-fach. Rhwng y ddau Ben-y-gelli, gryn lawer yn nes at Ben-y-gelli-fawr nag at y llall, y mae tri neu bedwar o dai llafurwyr, y rhai a elwid, ddeugain mlynedd yn ol, os nad etto, "Yr Hen Ben-y-gelli." I un o'r lleoedd hyn y symmudodd E. Francis yn 1730, tu a naw mlynedd cyn iddo farw; ac yno y ganwyd Benjamin Francis enwog, plentyn ieuengaf E. Francis, yn 1734. Gan fod y tad yn sefyll mor uchel, a'r mab yn un o brif emynwyr y byd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, dymunol fyddai gwybod pa un o'r tri lle a anrhydeddwyd. Y mae argraph ar feddwl yr ysgrifenydd, yr hwn a fagwyd yn un o'r manau agosaf at bob un o'r tai, mai ymhen blynyddau lawer ar ol amser E. Francis yr adeiladwyd y ddau Ben-y-gelli presennol, ac mai yr Hen Ben-y-gelli oedd Pen-y-gelli-fawr yr amser gynt. Os nad ydym yn camgofio, ceid rhyw bethau tebyg i olion neu adfeilion hen adeiladau yn ymyl tai yr Hen Ben-y-gelli, ddeugain mlynedd yn ol. Yr hyn sy'n ymddangos yn debyg ydyw, bod ameuthdy ac adeiladau allanol Pen-y-gelli-fawr yn hen, ac i raddau yn anghyweiriedig, flynyddau meithion yn ol, ac i benchenog neu berchenogion y ffarm adeiladu tŷ annedd ac adeiladau allanol newyddion tu a chant neu gant a hanner o latheni i'r de-orllewin o'r man y safai yr hen adeiladau, a rhoddi yr hen enw arferol, sef Pen-y-gelli-fawr, i'r adeiladau newyddion, a galw yr hen fangre yn Hen Ben-y-gelli, gan wneud tri neu bedwar o dai annedd i weithwyr o ddefnyddiau yr hen adeiladau. O ganlyniad, y mae'n lled debyg mai yn yr Hen Ben-y-gelli y ganwyd y tra enwog Benjamin Francis. O leiaf, yr ydym yn sicr nad oedd Pen-y-gelli-fawr a Phen-y-gelli-fach yn bod fel y maent yn bresennol yn 1730. Nid ydym sicr fod milltir rhwng Pen-y-gelli-fawr a'r dref.

† JAMES JAMES ydoedd un o hen weinidogion Glandwr, y Felindre, a'r Castell Newydd, yr hwn a ymboenai yn galed, ond yn ddistaw, "yn y gair a'r athrawiaeth," cyn geni E. Francis, a'r hwn a gymmerwyd oddi wrth ei waith at ei wobr yn 1734, wedi gadael ei 80 oed, ryw bum mlynedd cyn E. Francis gael ei symmud. Yr oedd yn henuriad yn Rhydwilym yn 1689, ac yn un o weinidogion cyntaf eglwys Glandwr, yr hon a gorpholwyd yn 1696. Yr oedd yn byw ym Mherth-y-berllan, ymhlwyf Llanllwni; ond cyn ei farw, yn Llandyssul. Wedi bod yn y weinidogaeth am 60 mlynedd, bu farw â'i goron ar ei ben. Yr oedd yn ddŷn addfwyn, caruaidd, heddychol, ac ymdrechgar, a dïoddefodd lawer o'i erlid; ond bu fyw am flynyddau lawer ar ol i fflamau yr erledigaeth gael eu diffoddi. Unwaith pennodwyd dydd ympryd gan y Llywodraeth yn amser yr erlid. Yr oeddynt i weddïo y dydd hwnw; ac os derbynid dŷn i dŷ i bregethu, yr oedd perchenog y tŷ i dalu 40p. o ddirwy. Cyfarfu y Bedyddwyr ynghylch esgobaeth James, ac eglurodd yntau ddiben y cyfarfod, ac o herwydd hyny cyhuddwyd ef o bregethu, a gofynid i ŵr y tŷ am 40p. o ddirwy am y trosedd, a chymmerwyd ei anifeiliaid am nad oedd ganddo arian i dalu. Benthyciodd yr arian, a chafodd ei anifeiliaid yn ol, ac aed i gynghaws cyfreithiol ar yr achos. Ennillodd yr hwn a gamddirwywyd y gyfraith, a chafodd y 40p. eu dychwelyd iddo. Pan welodd y cyfreithiwr erlidgar yn y llys ei fod yn colli, ymgynddeiriogodd yn aruthr; a chan daro y bwrdd â'i ddwrn, dywedodd—"Tra byddo'r fraich hon wrth fy nghorph, byddaf yn elyn i'r sect hon." Gyd â'i fod yn dywedyd y gair, ymaflodd poen dirfawr yn ei fraich; ac o'r diwedd, pydrodd ymaith oddi wrtho, a bu yntau farw. Dywedir i amryw amgylchiadau rhyfedd ddigwydd i erlidwyr yr amser hwnw, y rhai a elwid yn farnedigeuthau.

‡ Un o'i gydweithwyr oedd IFAN DAFYDD (Evan David), o blwyf Llanllawddog, yr hwn oedd yn ddŷn da, ac yn un o'r dïoddefwyr.

Digitized by Google

gydweinidogion yn hynach o lawer nag ef; er hyny, ymddengys bod ei ddoniau y fath fel nad oedd yn anhawdd ganddynt ei ystyried y bleunaf o honynt, megis y golygid ef, o angenrhaid, gan eraill; ac ymddengys y byddent yn cyttuno yn y modd mwyaf dedwydd.

Gwnaeth y ddadl Arminaidd niwaid i'r crefyddwyr yn amser E. Francis; a dïau iddi fod yn rhwystr mawr i weinidogion y cyfnod. Ym mysg y Presbyteriaid a'r Annibynwyr y dechreuodd y ddadl, ac aeth hefyd i blith y Bedyddwyr. Gelwid dosparth o'r Presbyteriaid yn Annibynwyr, y Bedyddwyr yn Arminiaid, a'r dosparth arall yn Galfiniaid. Dadleuid yn frwd ac yn fynych ar brynedigaeth gyffredinol, a phyngciau eraill, mewn cymmanfaoedd, a'r cyffelyb. Bu siarad cynhyrfus iawn yng nghymmanfa Hengoed yn 1730 ar y pwngc, yn yr hon yr oedd E. Francis yn gadeirydd; ac ymddengys mai trwy ddylanwad a doethineb D. Rees, Llundain, y dïogelwyd y Bedyddwyr rhag ymranu yn y gymmanfa honno. Yn ol Calamy,* tu a'r flwyddyn 1691 y dechreuodd y ddadl yn Llundain ymhlith y Presbyteriaid a'r Annibynwyr. Gan fod cyssylltiad rhwng y Dr. Daniel Williams, yr hwn a anesid yng Ngwrecsam, â hi, dechreuwyd dadlau yn nhref enedigol y Doctor, a daeth y ddadl yn fuan i'r Deheubarth, ac effeithiodd yn drwm ar siroedd Penfro a Chaerfyrddin. Dywedir mai yn ardaloedd y Castell Newydd a Hengoed y teimlwyd anghydwelediad yn fwyaf niweidiol. Yn yr amser hwnw cyfieithwyd gwaith Elisëus Cole, gan Howel Powel, Maes-y-Cletwr, sir Frycheiniog, a chyhoeddwyd mwy nag un argraphiad o hono. Ymddengys i gymmanfa Llangloffan gyttuno i ddwyn allan un argraphiad o hono. Yn y fath gyfnod anesmwyth a therfysglyd, astudiodd Enoch Francis y pyngciau y dadleuid yn eu cylch, a ffrwyth ei astudiaeth ef oedd ymddangosiad y "Gair yn ei Bryd,"† yn yr hwn y mae, mewn modd tyner a chariadus, yn pleidio yr ochr Galfinaidd, ac yn dangos y cariad mwyaf at Iesu Grist. Ymunodd perthynas agos iddo, sef Abel Francis, â'r blaid Arminaidd, yr hyn a fu'n ofid dwys iddo. Yn y flwyddyn 1734, ysgrifenodd E. Francis lythyr, o Dŷ-dan-yr-allt, at y gymmanfa, yn yr hwn y dywed na fuasai nemmawr o gynnydd yn eu plith er cychwyniad yr ymrysonau; ond gan fod yr Arglwydd, o'i drugaredd, wedi gostegu yr ystorm, hyspysa ei frodyr nad oedd heb sail i obeithio am lwyddiant. Mewn llythyr a anfonwyd i Lundain y flwyddyn honno, yn cynnwys hanes gweinidogion Cymru, dywedir bod James James yn rhy wan ac oedranus i wneud llawer o waith, ond bod E. Francis yn llafurus ac yn ddefnyddiol iawn trwy yr holl eglwysi. Cyn cofnodi marwolaeth a chladdedigaeth E. Francis, gellir sylwi iddo ymadael cyn i'r twrf dadleuol ddarfod, ac i'r aflonyddwch barhau am bedair neu bum mlynedd, neu ychwaneg, ar ol iddo farw. Gan y byddai'r aelodau yn parhau i ddadlau yn ardaloedd Aberduar a Llandyssul, yn 1745, medd Jos. Thomas,—

"Cyttunwyd i gadw cyfarfod wrth bont Llandyssul, a chael pum gweinidog i bregethu ar y pum pwngc mewn dadl, rhwng y Dr. Gill yn erbyn y Dr. Whitby, gan mai y rhai hyny oedd testynau'r dadleuon yn y dyddiau hyny. Trefnwyd y pum gweinidog, a neillduwyd y pyngciau. Methodd rhai o'r gweinidogion ddyfod, er hyny cynhaliwyd y cyfarfod, yr hwn a barhaodd ddau ddiwrnod. Dechreuwyd y gwasanaeth yn gynnar y dydd cyntaf, pryd y gweddïodd pedwar o'r aelodau cyn i'r gweinidogion ddyfod; ac yna dechreuwyd y gwasanaeth cyhoeddus trwy weddi gan ddau o'r gweinidogion. Yn gyntaf, pregethodd Timothy Thomas, yr hwn, er ei fod yn ieuangc, a safodd yn lle un arall a bennodasid, ond a fethasai ddyfod. Ei bwngc ef oedd 'Pechod Gwreiddiol,' a'i destyn oedd Rhuf. v. 19. Canlynwyd ef gan Evan Thomas, gweinidog Moleston. Ei bwngc ef oedd 'Etholedigaeth Bersonol,' a'i destyn oedd Rhuf. xi. 7. Yna ymwasgarodd y gynnulleidfa am awr neu ddwy; ac wedi ymgynnull yn y prydnhawn, pregethodd Morgan Harri, gweinidog y Blaenau, sir Fynwy, ar 'Brynedigaeth Neillduol,' ar Rhuf. viii. 33, 34. . . . Yr ail ddydd, pregethodd Thomas Edwards, Llanwenarth, ar 'Alwedigaeth Effeithiol;' a D. Thomas, Cilfowyr, ar 'Barhad mewn Gras.' Ymddengys iddynt gael mwy o dawelwch rhag llaw am rai blynyddau."

Dengys y difyniad uchod y dyddordeb a deimlid gan ein hynafiaid mewn duwinyddiaeth, a'u parod-

Pan oeddynt unwaith yn myned i weinyddu swper yr Arglwydd yn Henfas, plwyf Llanllwni, daeth swyddogion y Llywodraeth i'r tŷ, a chymmerasant ef o flaen yr ynadon. Methodd y rhai hyny ei gondemnio y pryd hwnw, am nas gwyddent ei enw; ac wedi ei ryddhau, dychwelodd at ei frodyr i Henfas, lle y gweinyddodd y swper, er y cwbl, cyn i'r wawr dori. Dywedir i'w frodyr barhau i weddïo am ei waredigaeth yn ystod ei absennoldeb. Wedi cael ei enw, &c., bwriwyd ef i garchar. Tra yn y carchar, aeth yr ynad llidiog yno ato, gan siarad yn wawdus âg ef. Dywedodd Ifan Dafydd wrth y gwawdiwr ei fod ef a'i frodyr yn canu ac yn gweddïo, a'u bod yn ddedwydd felly er ei waethaf ef a'i gydynadon. Collodd y ddau ynad, y rhai oeddynt frodyr, eu swyddogaeth yn fuan; a chredai un o honynt mai mewn attebiad i weddïau I. Dafydd a'i frodyr y collodd ei frawd ac yntau yr anrhydedd. Golygir i I. D. gael ei fedyddio yn Rhydwilym, yn 1667.

* Continuation, pp. 972, &c.

† Pregeth oedd y gwaith hwn, a estynwyd i draethawd, yn cynnwys 214 o dudalenau. Enw y llyfr yn llawn sydd fel hyn:—"Gair yn ei Bryd, neu ychydig o Eglurhad ar Ddirgeledigaethau ag sydd yn cael eu datguddio yn yr ysgrythyrau, perthynol ac angenrheidiol idd eu gwybod. Am ddoeth a da, uniawn a chyfiawn Arfaeth Duw, mewn perthynas i Gadwedigaeth Pechaduriaid, yn gyttunol âg Articlau Eglwys Loegr, ac â barn Difinyddion duwiol yn fwyaf cyffredin. Gwedi eu gosod allan gan un ag sy'n ewyllysio cynnorthwyo y Cymro uniaith i farnu'n uniawn."—*Llyfr. y Cymry*, t. 364.

Cyhoeddodd E. Francis bregeth arall hefyd, yn 1729, dan yr enw,—"Gwaith a gwobr ffyddlon weinidogion yr Efengyl, wnaed yn gyhoeddus ar ddymuniad eglwys Llangloffan."—*Llyfr. y Cymry*, t. 352.—Gol.

Digitized by Google

rwydd i wneud llawer o aberth yn herwydd syniadau neillduol.

Rhaid i ni weithian roi cipolwg ar rai o amgylchiadau marwolaeth E. Francis, hanes ei gladdedigaeth, ynghyd â dylanwad ei ymadawiad buan ac annisgwyliadwy ar y wlad a'r eglwysi. Dywedwyd y byddai yn talu ymweliadau blynyddol â rhai o eglwysi y Deheubarth; ac fe allai mai yn ystod un o'r rhai hyny yr aeth i Langloffan yn Ionawr 1739–40. Ar y daith honno, pregethodd yn Aber-gwaun oddi wrth Ps. lxxiii. 25, 26; a'r bregeth honno oedd ei ddiweddaf.* Cymmerwyd ef yn glaf yn yr areithfa; ac wedi gorwedd yn Aber-gwaun am rai dyddiau, cymmerwyd ef oddi ei waith at ei wobr. Teimlai yn hollol gysurus gyd â golwg ar ei ddïogelwch personol. Dywedai ei fod wedi gwahodd llawer at ei anwyl Geidwad, a'i fod y pryd hyn ar gychwyn ato, i aros gyd âg Ef yn dragywydd; ond blinid ef yn fawr gan bryder am ei chwe phlentyn amddifaid, y rhai a gollasant eu mam dyner rai misoedd yn fleunorol. Dywedai y fammaeth a fu'n gweini arno yn ei gystudd diweddaf, y byddai weithiau yn dywedyd, "Fy mhlant bach sydd heb eu magu!" Gan mai yng Nghilfowyr y claddasid ei wraig anwyl a ffyddlon, yno hefyd y claddwyd yntau. Dygwyd ei gorph ar elor ar ysgwyddau o Aber-gwaun i Gilfowyr, pellder o tu ag ugain milltir. Yr oeddynt i fyned trwy ddeg o blwyfi; a'r fath oedd awydd y dyrfa fawr am gael yr anrhydedd o'i gario, fel y penderfynwyd nad oedd neb i gael y fraint ond yn unig yn y plwyf y byddai'r cludydd yn byw ynddo. Gan fod y cariad ato mor ddirfawr, nid yw yn rhyfedd fod ei angladd mor dra llïosog. Ar gais yr ymadawedig, pregethodd Thos. Mathias, Llangloffan, yn ei angladd, oddi wrth Phil. i. 21. Bu farw mab iddo yn 1749; ac yna symmudwyd yr hen gareg fedd, a dodwyd un arall yn ei lle, a'r ysgrifen ganlynol arni:—

"ENOCH FRANCIS,
Gweinidog Eglwys y Bedyddwyr
yn y
CASTELL NEWYDD,
*a'i hamryw Ganghenau,*
a orphenodd ei yrfa
trwy lawenydd iddo ei hun,
ond tristwch i lawer,
*Y 4ydd o Chwefror*, 1739-40, *yn* 51 *oed.*
*Enoch a rodiodd gyd â Duw*, Gen. v. 22.
MARY ei Wraig hefyd a hunodd
*Y 23n o Awst*, 1739, *yn* 49 *oed.*
*Mair a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arni*, Luc x. 42.
A NATHANIEL eu Mab a fu farw
*Yn* 1749, *yn* 18 *oed.*
*Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll*, Ioan i. 47."

Nid yw darlunio dyfnder a chyffredinolrwydd y galar ar ei ol yn hawdd, os dichonadwy. Yr oedd ei gymmeriad difrychau, ei grefyddolder dïamheuol, ei serchowgrwydd, a'i yspryd heddychol, absennoldeb trahausder ac awydd plentynaidd am barch gormodol, ei lafur mawr, a'i ymroddiad diarbed i heleuthu terfynau Teyrnas ei Arglwydd, a'i allu ymarferol er peru i'r rhai a'i gwrandawent yn pregethu deimlo dylanwad yr hyn a draddodai, yn peru i'r miloedd ymhell ac yn agos wylo o herwydd ei golli, yn debyg i wraig yn galaru ar ol eu hunig anedig. Nid un wedi bod yn ddefnyddiol, a'i allu i lafurio rhag llaw ar ben, oedd efe; ond dŷn bleunaf yr holl ardaloedd, yn cael ei symmud ynghanol ei boblowgrwydd a'i lwyddiant, tra'r oedd ei fwa yn gryf a'i gleddyf yn finiog, ac yntau yn myned rhagddo yn amlder ei nerth. Dywed un ysgrifenydd fod ei farwolaeth yn golled genedleuthol, a bod galar pob enwad crefyddol yng Nghymru ar ei ol yn annisgrifiadwy. Traddodwyd llawer o bregethau angladdol iddo, ac ymddengys mai testyn amryw o honynt oedd, "Ac Enoch a rodiodd gyd â Duw." Cyfansoddwyd galarnadau a chywyddau lawer er coffadwriaeth am dano,† yn y rhai y cyfeirir at ei lafur mawr a'i

* Dywedir mai dŷn golyglus, o faintioli cymhedrol, ydoedd; yn meddu cyfansoddiad cadarn, â gwyneb siriol, llawen, a bywiog.

Jos. Thomas a ddywed am dano—"Yr oedd Mr. Enoch Francis yn ŵr bardd yn ei gorph, o faintioli canolig, yn gadarn ar olwg, o wynepryd siriol, o dymmer serchog, ennillgar, yn barod a rhwydd ei ymadrodd. Yn ei bregethiad, yr oedd ynddo gymmysgiad rhagorol o fawrhydi, prudd-der, cariad, ac ewyllys da. Yr oedd ei ddawn yn hynod i ennill gwrandawyr. Derbyniad mawr oedd iddo; a gwelodd Duw yn dda ei fawr arddel er llawer o ddaioni."—*Han. y Bedyddwyr*, t. 387.—GOL.

† Ym mysg y galarnadau a gyfansoddwyd ar ei ol, gwnaed cywydd pur darawiadol iddo gan Jenkin Thomas, gweinidog yr Annibynwyr yn y Dre-wen, ger llaw Castell Newydd Emlyn, yr hwn sy'n rhy faith i ni ddodi dim ond difyniadau o hono:—

"Du oer naws ein daear ni,
Du dristwch a do drosti.
Machludodd, ymguddiodd gwên
Ragorol, siriol seren.
Enoch fu enwog unwaith,
Yn deg gorphenodd ei daith:
Canwyll oedd fel yn cynnu;
Gloyw o ben, goleuo bu.
Llafurwr, heuwr had,
A bugail duwiol difrad.
Perl a gem o ran tymmer;
Ei eiriau, moethau a mêr.
Gŵr cywir yn llawn cariad,
Gŵr tyner heb bryder brad;
Gŵr dwys, goruchwyliwr doeth,
Cofus, i ranu cyfoeth.
Gŵr duwiol, doniol a da,
Llwyr addfwyn, a llarieiddia:
Gŵr Duw oedd ef, a di ddig,
Arafaidd, a diryfyg.

Digitized by Google

ragorieuthau disglair; a gellir ystyried y cynhyrchion barddonol hyn yn fath ar gyfryngau, trwy y rhai y gwnai crefyddwyr y Deheubarth (a llawer nad oeddynt grefyddol) yn gyffredinol arllwys eu teimlad pruddaidd ar ol dŷn nad yw'n hawdd gweled ei gyffelyb, nac yn ddichonadwy, fe allai, cyfarfod ei ragorach ym mysg hen weinidogion y Deheubarth. Cymmerodd "Tad yr amddifaid" ofal ei blant: ni bu arnynt "eisiau dim daioni." Gwneuthant broffesu crefydd ymorau eu hoes; priodasant yn ddedwydd; a llanwodd rhai o honynt, yn neillduol dau o'i feibion, Joseph a Benjamin, gylchoedd o ddefnyddioldeb uchel yn y byd crefyddol.* Gan fod y tad yn cael ei edmygu mor gyffredinol, y mae'n bossibl iddynt hwy gael cydymdeimlad a pharch er ei fwyn; ac os yw'r Goruchaf yn atteb gweddïau duwiolion ar ran eu plant, ac yn bendithio hiliogaeth er mwyn rhieni rhinweddol, nid yw afresymol i ni gredu nad yn ofer y cafodd amddifaid Enoch Francis nodded rhaglunieuthol eu Duw. Dilys yw mai Benjamin oedd y tebycaf i'w dad; ac os dylanwadodd yr olaf yn ehangach ac yn danbeidiach yn ystod ei fywyd cyhoeddus, y mae'n dra thebyg y bydd dylanwad y mab yn fwy parhaus yn yr emynau bendigedig a gyfansoddodd, y rhai y parheir i'w canu gan grefyddwyr hyd ail ymddangosiad ein Harglwydd.

---

## PENNOD XIII.

### THEOPHILUS EVANS AC IFAN TOMOS RHYS.

Am y Cymreigydd gorenwog, **Theophilus Evans**, dywedir mai pummed mab ydoedd i Charles Evans, Pen-y-wenallt, sir Aberteifi, o'i ail wraig, a ganwyd ef yn 1694. Ychydig iawn o'i hanes foreuol sydd ar gof a chadw; ond tybir iddo fod dros ryw yspaid mewn ysgol yn y Mwythig, a dyna'r unig awgrym sydd am ei addysg a'i ddygiad i fynu. Y mae bron yn sicr na chafodd addysg athrofaol, canys nid oes yr un o lythyrenau graddau y Prifysgolion ar ol ei enw, sydd ynglŷn â'i amryw gyfansoddiadau. Beth bynag am raddau y Prifysgolion, y mae'n amlwg y trodd Theo. Evans allan yn awdur, pwysig hefyd, yn oed cyn cael urddau esgobol o fath yn y byd, canys mor forau ag 1716, "pryd nad oedd ond ieuangc [22 oed] ac ar frys," cyhoeddoedd "Ddrych y Prifoesoedd, yn ddwy ran,"† yr hwn, wedi ei ddiwygio a'i fawr

Llon o'i fodd, llawen fyddai;
Mwyn i bawb y man y b'ai.
Llwyr ymrodd er lles amryw,
Cadwai ei daith gyd â Duw.
Yn ei rym ca's ei symmud,
O'i holl barch i gan gwell byd.
Trwm alar a thrist wylo,
'Mysg ei braidd dros fryn a bro.
Mae gloes am eu bugail glân;
Mawr yw'r cur ymhob corlan."

Yna noda'r bardd y prif fanau lle yr arferai fyned, naill ai'n gysson neu'n achlysurol, i bregethu iddynt, a lle'r oedd mawr alar ar ei ol, sef Tan-yr-allt, Emlyn, Cynwil [Cynwyl?], Bwlch-y-rhiw, y Bettws, Cilfowyr, Aber-gwaun, Llangloffan, Moleston, Pren'gast, Rhydwilym, Llanelli, Abertawe, Pen-y-fai, Blaenau Gwent, Cefn-hengoed, Pen-y-garn, Llantrisant, Llanwenarth, Olchon, y Trosgoed, y Pentref, a'r Dolau. Ar ol enwi'r lleoedd yna, a darlunio eu galar trist am yr efengylwr, efe a ddywed:—

"Felly heb gelu gwelir,
Maith alar sydd mewn wyth sir.
Ei frodyr ar y mur a'r maes,
Gwiw, doethion, o'i gymdeithas,
Dywalltant ddagrau heilltion,
Yn llif am y cyfaill llon;
A bron ei geraint sy brudd,
Rhed y dŵr 'rhyd eu deurydd.
Er marw'r llafurwr gwrol,
Mae chwe chaingc ieuaingc o'i ol;
Tri mab, tair merch tra mwynaidd:
Mewn gras bônt debyg i'r gwraidd!
Boed iddynt rwydd hynt a hedd,
A rhodient mewn anrhydedd,
Gan gadw enw hynod
Y gŵr glân, o gywir glod.
Mae'i waith per fyth yn para,
O'i lafur doeth, dau lyfr da:
'Gwaith ffyddlon weision Iesu,
Eu trysor a'u gwobor gu.'
Enwir y llall yn union,
'Gair yn ei Bryd,' ger ein bron.
Pregethai, fe ddysgai'n ddwys,
Yn eglur yn yr Eglwys.
Rhagorol oedd mewn gweddi,
O waith rhad Duw, Un a Thri.
Cafodd 'madrodd y medrus,
Heb chwyn, heb ewyn, heb us.
Bu'r sant glân yn ei glefyd
Foddlongar a hygar o hyd.
Marw wnaeth pennaeth y pwyll,
Yn ddedwydd mewn ffydd ddidwyll."
—*Han. y Bedyddwyr*, J. T., t. 387–9.

Y mae'n amlwg, wrth liaws o linellau yn y cywydd yma, bod Jenkin Thomas yn deall cynghanedd yn burion; ond y mae ynddo amryw linellau eraill sy'n profi bod yr awdur yn meddwl llawer mwy o *synwyr* nag o "swn cydseiniaid yn clecian," a gwych fyddai pe bai mwy o feirdd yr oes hon o'r un syniad."—Gol.

* Ymunodd y ferch hynaf âg eglwys y Castell Newydd yn fuan wedi i'w thad farw, pan nad oedd ond 14 oed. Ymaelododd y ddwy arall yn yr un eglwys yn eu hieuengctid, ac ymddygasant yn deilwng. Priododd y ferch hynaf â Stephen Davies, pregethwr yng Nghaerfyrddin; ond ni bu fyw yn hir ar ol priodi. Cafodd Jonathan, yr ail fab, a Caleb Harris, un o weinidogion Llanwenarth, eu bedyddio yr un pryd, yn y Castell Newydd, yn 1738. Bu Jonathan yn weinidog da ym Mhen-y-fai; ac Enoch, ei fab yntau, yn weinidog yn Exeter a Wantage. Bedyddiwyd Benjamin, y mab ieuengaf, yn Abertawe, yn 1749, gan Gruffydd Davies; ac aeth i weinidogeuthu i Horsley, yn sir Gaerloyw. Dywedir ei fod yn debyg iawn i'w dad o ran talentau, tymmer, a thueddiadau. Gan fod ei emynau Cymreig a Seisnig yn anfarwol, parha enw Benjamin Francis tra bo dwfr yn rhedeg a'r haul yn goleuo. Bedyddiwyd Jonathan a Benjamin pan yn 15 oed, a dechreuasant bregethu, fel eu tad, pan yn 19. Bu B. Francis yn athrofa Trosnant yn 1752, a than Fosket ac Evans yng Nghaerodor. Wedi bod yn Sadbury am beth amser, symmudodd i Horsley yn 1757, ac ordeiniwyd ef yno yn 1758. Er yn byw yn Lloegr, etto carai wlad ei enedigaeth a'i thrigolion yn fawr ac egnïol. Traddododd bymtheg o bregethau cymmanfaol yng Nghymru.

† Llyfr. y Cymry, t. 308.

Digitized by Google

heleuthu, fel y ceir gweled rhag llaw, a drosglwyddodd ei enw mewn anrhydedd i'r oes hon, yr hyn hefyd a wna i'r oesoedd dyfodol, fel un o'r ysgrifenwyr Cymraeg llithricaf a mwyaf ieithweddiadol (*idiomatic*) a fedd cenedl y Cymry. Ai yr antur lenyddol yma a fu'n foddion i'r awdur ieuangc gael sylw peneuthiaid yr Eglwys Sefydledig, ni fynegir. Pa fodd bynag, cafodd ei urddo yn ddïacon ymhen dwy flynedd ar ol cyhoeddi y llyfr, sef yn 1718, ac yn offeiriad yn 1719, gan Esgob Tŷ Ddewi. Dywed ei fywgraphwyr mai ei guradaeth gyntaf oedd Tir-yr-Abad, sef Llanddulas-tir-yr-abad, ynghantref Buallt, sir Frycheiniog; ond dywed efe ei hun, mewn llythyr a gyhoeddwyd ganddo rywbryd rhwng 1719 ac 1728, medd golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry*,* mai "P. [*Person*] Llanddulas" ydoedd, ac nid *curad.* Dyma enw'r llyfr y cyfeirir atto:—

"Gwth i Iuddew, Neu Bregeth, I. Yn rhoddi Hanes pobl yr Iuddewon; Gymmaint o ffafr ag oedd Duw yn ei ddangos iddynt. II. Pa mor Ysgeler ddynion oeddynt. III. Pa fodd y goddiweddodd Barn Duw hwy am eu Hysgelerder: Dinystr eu Teml: eu gorthrymderau, &c. Gan Theophilus Evans, P. Llanddulas Abercressau.

"Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston."

Nid oes amseriad wrth y llyfr hwn; ond y mae yn amlwg bod yr awdur ar y pryd yn "Berson Llanddulas Abercressau," sef yr un lle a Llanddulas-tir-yr-abad; a digwyddodd ei gyhoeddiad yn lled fuan, os nad yn ebrwydd, ar ol i'r awdur gael urdd offeiriad. Dywedir iddo gael ei symmud o Landdulas i Lanlleonfel, yn agos i Langammarch. Y mae'n debyg mai o gylch y pryd hyn y priododd efe Alis (Alice), merch i Morgan Ifan, o'r Gelli-galed, sir Forganwg; a bu iddynt dri o feibion a dwy o ferched. Priododd un o'r merched Huw Jones; a mab iddynt hwy oedd Theophilus Jones, hanesydd enwog sir Frycheiniog. Tra yr oedd Theo. Evans yn aros yn Llanddulas neu Lanlleonfel, y cyfieithiodd y llyfr canlynol, yr hwn a gyfleir gan Gwilym Lleyn yn 1722†:—

"Prydferthwch Sangcteiddrwydd yn y Weddi Gyffredin, mewn pedair pregeth, o waith y Parchedig Thos. Besse, D.D. A chyfieithiad Theophilus Evans."

Ymhen tu a chwe blynedd ar ol cyhoeddi y llyfr hwn, sef yn 1728, rhoddes Esgob Tŷ Ddewi iddo fywioliaeth fechan Llanynys, yr hon a ddaliodd efe am ddeng mlynedd. Ymhen tu a phedair blynedd ar ol hyn, dywedir i'r clefri poeth (*scurvy*) ymosod yn dost ar Theophilus Evans, a gwreiddio yn ddwfn yn ei gyfansoddiad, yr hyn, yn ol y traddodiad, a'i harweiniodd, tu a'r flwyddyn 1732, i ddarganfod rhinweddau Ffynnon Llanwrtyd, ar yr hon, cyn hyny, yr edrychai yr ardalwyr, a phawb eraill, fel *ffynnon wenwynig.* Un diwrnod, pan yn dïoddef yn llym gan losgfeydd y clefri, aeth ar ei hynt at y ffynnon beryglus, ac wedi syllu ennyd uwch ei phen, gwelai lyffant yn neidio'n wisgi o honi, yr hyn a'i hargyhoeddodd yn y fan nas gallai y dwfr fod yn wenwynig; ïe, tybiodd y gallai fod rhinwedd ynddo, ac yfodd lymaid mawr o hono. Credodd i'w boen liniaru graddau y noswaith ganlynol ar ol y traflwngc hwnw; o ganlyniad, parhaodd i fyned at y ffynnon bob dydd i yfed o honi, a'r diwedd a fu iddo gael llwyr adferiad. Aeth son am iachâd person enwog Llanynys yn ebrwydd trwy yr holl wlad, a dechreuodd cleifion gyrchu i "Ffynnon Llanwrtyd" o bob cyfeiriad; ac erbyn hyn, y mae'r ffynnon y tybid cyn amser Theophilus Evans ei bod yn *wenwynig*, wedi dyfod yn un o brif fendithion ein gwlad. Yn y flwyddyn nesaf, 1733, cyhoeddodd Theo. Evans y llyfr canlynol:—

"Pwyll y Pader, neu Eglurhad ar Weddi'r Arglwydd. Mewn amryw Bregethau. Wedi ei Gyfieithu (gan mwyaf;) a'i wneuthur yn gwbl yn ôl Esponiad y Gwir Barchedig Esgob Blackal ar Weddi'r Arglwydd. Gan Theophilus Evans."‡

O herwydd bod yr awdur galluog mor ffyddlon i'r Eglwys Sefydledig, ac yn cyhoeddi llyfrau mor ffafriol i'w hegwyddorion a'i threfniadau, dyrchafwyd ef etto gan Esgob Tŷ Ddewi i Ficeriaeth Llangammarch yn 1738; ac yn 1739, ychwanegodd ati fywioliaeth Eglwys Dewi Sant, Llanfaes, Aberhonddu, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Tra'r oedd efe yn mwynhau y bywioleuthau hyn, ail ysgrifenodd ei brif waith; ac yn 1740, cyhoeddodd ef dan yr enw canlynol:—

"Drych y Prifoesoedd, yn Ddwy Ran. Rhan I. Sy'n traethu ar hen Ach y Cymry, o ba le y daethant allan: Y Rhyfeloedd a fu rhyngddynt a'r Rhufeiniaid, y Brithwyr, ac a'r Saeson. Eu Moesau gynt, cyn troi yn Gristianogion. Rhan II. Sy'n traethu am Bregethiad a Chynnydd yr Efengyl ym Mrydain: Athrawiaeth y Brif Eglwys. Moesau'r Prif Gristnogion. Gan Theophilus Evans, Vicar Llangamarch yngwlad Fuallt, a Dewi ym Mrycheiniog. Yr Ail Argraphiad yn llawnach o lawer na'r cyntaf."

Maint yr argraphiad yma oedd 8plyg bychan, yn cynnwys 361 o dudalenau, a 24 tudalen o arweinolion, yn cynnwys cyflwyniad Lladin o'r gwaith i'r Dr. Nicholas Claget, Esgob Tŷ Ddewi; rhagymadrodd yr awdur i'r ail argraphiad; cyfres lïosog o danysgrifwyr; ac englynion lawer gan

* Llyfr. y Cymry, t. 352. † Yr un, t. 331.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 331.



Digitized by Google

"Lle y mae'r hanes yn y bennod gyntaf, i Fadog ap Owen Gwynedd, a'i wŷr, ymgyfathrachu a myned yn un bobl a hen drigolion yr America, er ys ychwaneg na phum cant o flynyddoedd; ond y mae'n debyg eu bod yn ymgadw yn bobl ar wahân, ac yn cadw eu hiaith hyd y dydd heddyw. Canys y mae'r Parchedig Morgan Jones, (gŵr eglwysig a aned ger llaw Tredegar yn sir Fynwy) yn dywedyd iddo yn 1660 dramwy trwy'r anialwch, nes y daeth o'r diwedd i wlad gyfanneddol: yno fe a'i daliwyd yn garcharwr, am fod y trigolion yn drwgdybied mai bradwr ac yspïwr oedd efe, a ddeuthai i edrych noethder y wlad. Ar eu gwaith yn myned i'w ddihenyddu ef, fe a ddigwyddodd iddo (ac achos da paham) drwm ocheneidio, a dywedyd yn Gymraeg, 'O Dduw! a ddihengais i allan o gymmaint a chymmaint o beryglon ar fôr ac ar dir, ac yn awr yn cael fy nharo yn fy mhen megis ci!' Ac yno fe ddaeth y capten ato, ac a'i cofleidiodd, ac a ddywedodd wrtho, na chai efe ddim marw; ac a fu cystal a'i air; canys efe a'i derbyniodd ef yn garedig, ac a'i dygodd i'r rhan honno o'r wlad a elwir Dyffryn-pant-teg, lle yr oedd ei gydwladwyr yn byw. Yno bu Mr. Jones dros bedwar mis, yn fawr ei barch a'i roesaw, yn siarad Cymraeg â hwy beunydd, ac yn pregethu yr efengyl dair gwaith yn yr wythnos yn Gymraeg, fel y mae'r hanes wedi ei hargraphu yn Saesneg yn dangos, ynghyd âg ychydig o eglurhâd a ychwanegais i ati.*

"Lle y dywedir yn y llyfr hwn i'r Rhufeiniaid fenthycio amryw eiriau Cymraeg oddi ar y Gwylliaid, megis y geiriau Lladin *terra*, *aer*, *mare*, *amnis*, *mel*, *mutus*, &c., oddi wrth y geiriau a ganlyn yn ein hiaith ni, *tir*, *awyr*, *môr*, *afon*, *mêl*, *mud*. Fe ddichon fod rhai yn min-gamu, ac yn dywedyd nad yw hyn ond chwedl gwneuthur, heb awdurdod: ond gwybydded y cyfryw un, bod y geiriau hyny erioed ac hyd heddyw yn iaith y Gwyddelod, lle ni chyrheuddodd holl arfau y Rhufeiniaid, ac am hyny yn amhossibl iddynt hwy eu benthycio ganddynt; a phrin y troseddai un oddi wrth y gwirionedd, pe dywedai fod y geiriau yma yn yr iaith Gymraeg cyn gosod sylfeini dinas Rhufain erioed."†

"Nid oes neb yn gwadu na fenthyciodd yr hen Frutaniaid amryw eiriau Lladin tra bu y Rhufeiniaid yn rheoli yma, ac etto heb golli'n llwyr yr hen eiriau priodol i'r iaith. Ac yn wir, yr oeddid yn cymmysgu'r ddwy iaith ynghyd yn rhy arw yr amser hwnw, megis y tystia yr ysgrifen-fedd a gafwyd yn ddiweddar yn Eglwys Brynbiga yng ngwlad Fynwy, yr hon a osodwyd yno gyntaf ymhell

* Gentleman's Magazine, March, 1740."

Yn t. 30–1 o'r *Drych*, dywed yr awdur ffraeth fel hyn:—"Iaith Brutus a'i wŷr oedd Groeg; ac y mae'n ddilys mai oddi wrtho ef y cawsom yr amryw eiriau Groeg, y rhai sydd hyd heddyw yn gymmysg â'r Iaith Gymraeg. Canys Brutus a'i bobl a ymgymmysgodd â'r hen drigolion yr un ffunud ag y darfu Madog ap Owain Gwynedd ymgymmysgu â phobl America. Canys y Madog hwnw, yn y flwyddyn o oedran Crist 1170 (pan oedd ei frodyr yn mwrdro eu gilydd fel bleiddiau ffyrnig ynghylch eu treftadaeth yng Nghymru) a gymmerth long (*Powel's Chron.*, p. 227; *Herbert's Travels*, p. 218), ac a hwyliodd tu a'r Gorllewin, heibio i'r Werddon, nes dyfod o'r diwedd i'r deyrnas fawr ac ehang honno a elwir yn awr America. Yna y gadawodd efe rai o'i wŷr i gadw goresgyn a meddiant o'r wlad, ac a fordwyodd adref i Gymru drachefn, lle y treuthodd efe wrth ei gydwladwyr, 'Pa wlad ffrwythlawn a rhagorol a gafodd efe wrth hwylio gyd a'r haul i bellder y Gorllewin. Dymunodd arnynt ystyried am ba greigle, a mynydd-dir, ac anialwch yr oeddynt hwy yng Nghymru, megis cynnifer cigyddion gwaedlyd yn llofruddio ac yn darnio eu gilydd: deuant gyd âg ef, a hwy a gânt drigo mewn brasder gwlad, yn yr hon y bwytaent fara heb brinder, ac ni bydd eisiau dim arnynt.' Fe effeithiodd hyn gymmaint ar ei gydwladwyr fel y cododd llu mawr o wŷr a gwragedd gyd âg ef, yn enwedig o'r rheiny ag oedd yn caru byw yn llonydd, ac a diriasant ymhen 8 mis a deng niwrnod, yn y porthladd y buasai efe o'r blaen ynddo. Tra y parhaodd y to hwnw, hwy a gadwasant gyd â'u gilydd, o'r un iaith, o'r un grefydd, a'r un gyfraith. Ond ymhen talm o amser (ar ol dwy genhedlaeth neu dair), fe ymgyfathrachodd y to nesaf â thrigolion y wlad, ac a aethant yn un genedl a hwy, fel y gwelwch chwi ddwfr a llaeth yn ymgymmysgu.

"Yn awr, y mae genym y sicrwydd mwyaf sydd bossibl fod, mai y Cymry oeddynt y cyntaf o holl drigolion Ewrop, a gawsant y ffordd allan i America; o blegid, (1.) Bod Croniclau yr Oesoedd yn tystio hyny. (2.) Bod amryw eiriau Cymraeg gan bobl y parthau hyny hyd y dydd heddyw, lle y gwladychodd y Cymry gyntaf; megis, pan y byddant yn siarad, *gwrando*. *Pengwyn* yw enw aderyn â phen gwyn iddo. *Coch-y-dŵr* yw enw aderyn arall. *Corraeso* yw enw y lan gyntaf y tiriasant arni. A *Gwenddŵr* y gelwir un o'u hafonydd. Ac heb law hyn oll, fe gafwyd beddrod Madag ap Owain Gwynedd yn y wlad honno, a'r ysgrifen a ganlyn ar gareg ei fedd ef.

"Madoc wyf mwyedic ei wedd,
Iawn genau Owain Gwynedd:
Ni fynnwn dir, fy awydd oedd,
Na da mawr ond y moroedd."

Y mae'r difyniadau hyn, cystal a'r "Rhagymadrodd" a ddifynir uchod, nid yn unig yn esamplau teg o arddull Cymreigaidd a hyawdl yr awdur o ysgrifenu, ond hefyd o ansawdd chwedlonol a hygoelus y gwaith trwyddo draw. Y mae'n amlwg i Theo. Evans seilio'r chwedl gyfeiliornus hon am Madog ap Owain ar gyfeiriad amwys sydd yn y "Trioedd" at "ddifancoll" Madog, ac ar hanes darganfyddiad Columbus o'r America yn 1492, a gydblethwyd gan y Dr. Powel yn ei *Historie of Cambria*, t. 227, ac a gyhoeddwyd yn 1584, ymhen yn agos i 500 mlynedd ar ol Madog ap Owain; ac ar ail adroddiad o chwedl Powel, gyd âg ychwanegiadau doniol gan Syr Thomas Herbert, yn ei *Travels*, t. 218, a gyhoeddwyd yn 1634, ymhen 50 mlynedd ar ol cyhoeddiad *Historie* Powel. Dywed Herbert i "Syr Meredydd ap Rhys" ganu clod Madog yn 1477, a difyna'r pedair llinell, o'r sawl y mae'r pedair uchod gan Evans yn llurguniad. Dywed Evans, fel y gwelir uchod, y cafwyd y pedair llinell a ddifyna efe "ar gareg fedd" Madog, yn America; pan, mewn gwirionedd, na chyfansoddwyd hwy hyd ymhen tu a 300 mlynedd ar ol marwolaeth Madog ap Owain, yn y wlad hon! Dywed T. Stephens, Merthyr Tydfil, bod heuriad Evans am gaffeuliad y llinellau dan sylw "ar gareg fedd" Madog, "yn anwiredd rhy wrthun i'w gredu;" ond nid yw fawr wrthunach na holl chwedl Evans am Madog ap Owain, cystal ag am yr *hen* Frutaniaid yn gyffredinol.

Y gwir yw y prawf Prydydd y Moch, yr hwn a gyhuddid o'i lofruddio ("Awdyl yr Haern Twymyn," *Myv. Arch*, p. 205), a Chynddelw Brydydd Mawr ("Marwnad Teilu Ywein Gwynet," Id. p. 164), dau o gydoeswyr Madog, iddo gael ei lofruddio yn ddirgel yn ei wlad ei hun, neu foddi, na ŵyr neb pa le, ar ei gororau.

Cyfeiriad amwys sydd gan Meredydd ap Rhys at y syniad sydd ynghaniadau Prydydd y Moch a Chynddelw, mewn cywydd a wnaeth efe yn 1440 (nid 1477, fel y dywed Herbert) "i ddiolch am Rwyd Bysgota," fel y canlyn:—

"Helied Ifan, hael dyfiad,
Ar ei dir teg, wir dre tad:
Mewn awr dda, minnau ar ddŵr,
O fodd hael a fydd heliwr:
Madog wych mwyedig wedd,
Iawn genau Owain Gwynedd,
Ni fynnai dir, f'enaid oedd!
Na da mawr ond y moroedd.
Madog wyf, i'm oed a gais,
Ar foroedd hyn arferais:
Rhodiaf hyd fôr ac afon,
Ar hyd eu gro, â'm rhwyd gron."

*Iolo MSS.*, t. 323–4.

Rhoddwyd pwys mawr ar y llinellau hyn yn fuan ar ol iddynt ddyfod yn hyspys, yn enwedig y pedair llinell ganol; ond paham yr edrychwyd arnynt fel adgof am ddarganfyddiad America gan Madog ap Owain, nis gallwn ni ddyfalu, oddi eithr i hyny gael ei wneud o wirfodd i dwyllo. Y mae'n amlwg wrth linellau Meredydd mai'r cwbl yn ei olwg ef oedd cyffelybu ei hun, mewn digrifwch barddonol, i Madog fel anturieuthwr morwrol. Gesyd y llinellau Madog allan fel morwr, wedi gwneud ei gartref ar y dyfroedd dyfnion: felly yr oedd yntau, Meredydd, am fod yn bysgotwr, gan ymofyn am fywioliaeth, yr un fath a Madog, yn yr eigion. Dyna'r cwbl a ellir ei gasglu yn deg oddi wrth linellau Meredydd, a dim ychwaneg.—Han. Cymru, Carnhuanawc, t. 589; Stephens's Lit. Kymry, p. 141; Y Trioedd, gan Stephens, Beirniad, llyfr vi., t. 302; Erthygl gan yr Ysgrifenydd yn y Gwyddoniadur, cyf. vii., d.g. Madog ap Owain Gwynedd, t. 165; Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 58.

† "Camd. in Ordovic, p. 659. Llwyd Annot."

Digitized by Google

cyn dyfodiad y Saeson i'r deyrnas hon. Yr ysgrifen yw hon, cymmysg o Gymraeg a Lladin:—'Noli cloddi yr Ellrhod Caerlleon, Advocad Llawnhaedd Llundain, a Barnwr Bedd Breint apud Ty'n ei aro Ty Avale; Selif synwybr Sumæ sedum usk, val kylche deg kymmyde; Doctor Kymmen, lleua Loer ini llawn oleuni.' A hyn yw'r ystyr (yn ol barn y dysgedig) yn Lladin llawn:—'Noli effodere Professorem Caerlegionensem, Advocatum dignissimum Londinensem, & Judicem sacri Privilegii apud Fanum Avaloniæ; Solomonem Astrologum summæ Civitatis Usk, tenentis circiter decem Comotos; Doctorem Eloquentem, Lunam lucidem ni plenilunio lucentem.'

"Nid oes genyf ddim i'w ddywedyd ychwaneg na bod yma amryw ac amryw o bethau newydd nad oeddynt yn yr argraphiad cyntaf: yr wyf yn tybied bod yr iaith yn awr yn rhwydd ac yn ddeallgar drwy Wynedd a Deheudir; a chwedi ei thrwsio (os harddwch ydyw hyny) âg amryw gyffelybieuthau cynnefin, a hawdd eu hystyried. Yr wyf yn gobeithio bod yr hanes oll mor gywir ac mor llawn hefyd a'r a ellir ei ddisgwyl dros yr amser yr wyf yn myned drosto: canys er nad yw maintioli y llyfr ond bychan; etto pe buasai wedi ei argraphu â llythyrenau breision, fe fuasai o leiaf o ddau cymmaint ei faintioli nag yw yn awr. Y fath ag ydyw, derbyniwch ef, attolwg, megis yr anrheg orau a chywiraf o hanes yr hen Frutaniaid a feidr yr Awdur anheilwng.*

"THEOPHILUS EVANS.

"Dydd Calanmai, 1740."

Yn y rhan gyntaf o'r gwaith hwn, nid yw'r awdur yn honni olrhain "yr hen Frutaniaid, neu'r Cymry," yn ddim pellach nag Uthr Bendragon ac Arthur, a rhyw ychydig gyfeiriadau byrion at y Tywysogion Cymreig o Cadwaladr hyd Llywelyn ab Gruffydd; ac nid yw'r cyfan nemmor amgenach na ffugchwedl, o'r un ansawdd a'r *Brutiau* a'r *Trioedd*, wedi ei hysgrifenu yn yr arddull Cymreig prydferthaf a'r a feddwn, llawn cyfartal o ran llithrigrwydd ac ieithwedd i'r *Bardd Cwsg*, a chyfieithiadau godidog Edward Samuel. Fel cyfansoddiad Cymraeg o'r fath deleidiaf, gan hyny, y mae *Drych y Prifoesoedd* yn deilwng o'i ddarllen a'i fyfyrio gan bawb a garo ragori fel ysgrifenydd Cymreig hylithr a darllenadwy; ond fel hanesyddiaeth, rhaid dywedyd am dano fel y dywedodd William Midelton (Gwilym Ganoldref) am "Owdl Fair a gânt Gwilym Tew, gochelwch y surdoes."

Hanes eglwysig yw yr ail ran o'r *Drych*, ac nid yw hon ddim glanach oddi wrth chwedlau na'r rhan gyntaf, nac yn teilyngu odid ddim ymddiried fel gwir hanes eglwysig; ond y mae yr un mor brydferth fel cyfansoddiad Cymraeg diledryw ac ieithweddiadol a'r rhan gyntaf. Nid yw deilwng i'w gymharu, fel gwir hanes eglwysig, i'r *Ffydd Ddiffuant, sef Hanes a Rhinwedd y Ffydd Gristionogol*, gan Charles Edwards; ac y mae'r llyfr godidog hwnw yn gyfartal iddo o ran Cymraeg ieithweddiadol, er, fe allai, nad ydyw bob amser yn llawn mor llithrig ei ymadroddion. Cyhoeddwyd *Drych y Prifoesoedd* dair gwaith yn y 18fed ganrif ar ol yr ail argraphiad sydd dan sylw, sef yn 1794, 1796, ac 1799; a phum waith neu chwech yn ystod y ganrif bresennol; a phriodol y dywedodd un o fywgraphwyr Theophilus Evans, "nad oes odid lyfr cenedleuthol yn Gymraeg a gafodd dderbyniad a darlleniad mor helaeth."

Yn yr un flwyddyn, sef 1740, ag y cyhoeddodd Evans ail argraphiad o'r *Drych*, cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Llythyr Addysg Esgob Llundain at y bobl o'i Esgobaeth; yn eu rhybuddio yn erbyn Claiarwch o'r naill du; a zel danbaid nid ar ol Gwybodaeth o'r tu arall, A Gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Theophilus Evans, Vicar Llangammarch."†

Llyfryn yn erbyn George Whitfield a'r Methodistiaid (Wesleyaid, y mae'n debyg) oedd hwn; a chyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg o "Ateb y Parchedig Mr. Whitfield i Lythyr Bugeilaidd diweddaf Esgob Llundain," yr un flwyddyn, sef 1740, yn Pont-y-Pŵl.‡ Pwy oedd y cyfieithydd, ni fynegir. Y llyfrau eraill a gyhoeddwyd gan Theophilus Evans yw y rhai canlynol:—

"Drych y Dyn Maleisus, neu Bregeth yn dangos Ysbryd chwerw, ffyrnig y dyn maleisus yn y Byd hwn, a'i gyflwr gwael truenus dan feddiant Satan yn y byd arall. O waith T. Evans, Vicar Llangamarch." 1747.

"Y Gwir Ddoethineb, neu Bregeth, &c. Gan Theophilus Evans, P. Llanddulas Abercressin." 1759.

"History of Modern Enthusiasm. By T. Evans"= Hanes Penboethni Diweddar. 1759.

Dyma'r unig waith Seisnig a gyfansoddwyd gan awdur enwog *Drych y Prifoesoedd*, hyd y gwyddom ni. Dywed ei ŵyr, Theophilus Jones, awdur *History of Breconshire*, wrth Syr Samuel Meyrick, awdur *History of Cardiganshire*, medd Gwilym Lleyn, mai hwn ydoedd gwaith diweddaf awdur *Drych y Prifoesoedd;* ond nid cywir hyn, fel y sylwa golygydd craffus y *Llyfryddiaeth*,§ canys ei waith diweddaf yw yr un a nodir yn nesaf. Ymosodiad pur chwerw ar yr Anghydffurfwyr ydyw *Hanes Penboethni Diweddar;* ond dywedir ei fod yn difynu yn ddigon gonest o'u hawdwyr hwy eu hunain, ac yn nodi'r pethau a ystyriai efe yn fwyaf gwrthwynebus yn egwyddorion eu prif arweinwyr. Y mae'n dra thebyg mai gwrthwynebiad anhyblyg yr enwog Theophilus Evans i'r Ymneillduwyr oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, a'i gefnogaeth egnïol i egwyddorion a defodau yr

* Gan fod yn amlwg nad yw argraphiad Trefriw, sydd at ein galwad ni, yn dilyn llythyraeth yr awdur, dodasom y difyniadau blaenorol yn ein llythyraeth ein hunain, yr hon, y mae'n ddilys genym, sydd nes i eiddo'r awdur nag ydyw un Trefriw.

† Llyfr. y Cymry, t. 383. ‡ Yr un, t. 382.
§ Llyfr. y Cymry, t. 453.

Digitized by Google

"Hen Fam," oedd un achos mawr i'r Seisnig Esgob Claget, o Dŷ Ddewi, ei anrhegu a chynnifer o fywioleuthau. Gwaith olaf ein hawdur galluog, fel yr ymddengys, oedd y canlynol:—

"Pregeth, yn dangos beth yw Natur ac Anian y Pechod yn erbyn yr Yspryd Glân. Gan T. Evans, Vicar Dewi, yn Aberhonddu. . . . . 1760."

Amserwyd y Rhagymadrodd "At y Darllenydd," sydd o flaen y bregeth hon, yn "Llwyn-Einion, yn Llangammarch o fewn gwlad Fuellt. Dydd Calan Mai 1759."* Y mae'r un ansoddau cyfansoddiadol Cymreigaidd a thelediw, bron, ym mhregethau yr awdur clodwiw ag sydd yn *Nrych y Prifoesoedd*, ac o herwydd *hyny* y maent yn deilwng o ganmoliaeth gyffelyb. Dywed ei ŵyr, Theophilus Jones, bod ei daid yn bregethwr grymus ac effeithiol; ond nid yw'r cyfryw bregethwyr, bob amser, yn ysgrifenwyr o'r fath ystwythaf a galluocaf: John Elias, prif bregethwr Cymru, yn dyst.

Yn y flwyddyn 1763, rhoddodd Theo. Evans ficeriaeth Llangammarch i fynu i'w fab ynghyfraith, Hugh Jones, tad yr enwog Theophilus Jones, y crybwyllwyd ei enw mor fynych o'r blaen. Ymhen chwe blynedd wedyn, sef yn 1769, bu farw yr enwog Theophilus Evans, yn 75 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llangammarch, lle hefyd y claddwyd ei ŵyr enwog, Theophilus Jones, yn 1812. Un ysgrifenydd a ddywed am awdur *Drych y Prifoesoedd* fel hyn:—

"Yr oedd Ficar Llangammarch, yn ol pob hanes sydd genym am dano, yn enwog am y rhinweddau sy'n gwneud dŷn yn anwyl i'w gymmydogion a'i gyfoedion, yn gystal ag am ei ddysg a'i ddoniau. Ymddengys ei fod yn hynod am ei garedigrwydd cyffredinol; ac mewn diniweidrwydd a symledd diddichell, yr oedd yn berffaith blentyn. Nid oedd arian fawr o werth yn ei olwg. Ei drysorau penaf ef oedd ei lyfrau, gyd â'r rhai y treuliai lawer iawn o'i amser."†

### IFAN TOMOS RHYS.

Ganwyd Ifan Tomos Rhys yn Llwyn-Dafydd, plwyf Llandysiliogogo, sir Aberteifi, ond ni wyddys ymha flwyddyn; eithr y mae'n sicr ei fod yn gydoesydd â Theophilus Evans, ac felly ganwyd ef rywbryd yn ystod y deng mlynedd olaf o'r 17fed ganrif. Nid ysgrifenwyd dim am dano cyn 1842, a phrin y buasai'r ychydig grybwyllion sydd am dano ar lafar gwlad yn werth eu cofnodi yn y gwaith hwn, oddi eithr mai ei awen ef oedd y gyntaf i amddiffyn y golygiadau Arminaidd, ac felly, mewn rhyw ystyr, yn ddechreuad cyfnod newydd mewn barddoniaeth grefyddol.

Tomos Rhys Siâms, y crydd, y gelwid ei dad, ac ymddengys i Ifan, pan yn ieuangc, ddysgu'r un gelfyddyd. Ond gwelwyd yn fuan fod Ifan yn meddu talentau a'i cymhwysai i lanw cylch oedd bwysicach na thrin lledr; ac er mwyn rhoddi gwell manteision i'w fab, fel y tybir, y symmudodd T. R. Siâms o Lwyn-Dafydd i Lanarth i fyw, fel y gallai Ifan fod ynghyrraedd person y plwyf hwnw, yr hwn a ystyrid yn athraw gwych yn ei ddydd. Dywedir mai amcan y tad oedd dwyn ei fab i fynu yn offeiriad; ac y mae'r gwirionedd i Ifan ddysgu cryn lawer o Roeg a Lladin, yn arwyddo hyny. Gwnaeth y llangc y defnydd gorau o'i fantcision, a daeth yn ysgolhaig gwych; ond gan i'w dad farw pan nad oedd efe ond prin 18 oed, bu raid iddo adael yr ysgol, a myned i ennill ei fywioliaeth wrth drin lledr. Pa wedd bynag, dechreuodd ei awen ymddadblygu pan nad oedd ond ieuangc, a dywedir y byddai'r offeiriad yn cymmeryd dyddordeb neillduol ynddo, ac yn talu yn hael iddo am ei gynhyrchion barddonol; ond y mae llawer o'i gyfansoddiadau wedi myned i ddifancoll. Ond, os nad oes hanes ysgrifenedig am dano, na chofnod o'r flwyddyn y ganwyd ef, er hyny y mae'n hawdd canfod wrth ei waith ymha amser yr oedd yn ei flodau, a pha fath ddŷn ydoedd o ran ei egwyddorion. Ymddengys ei fod yn ei lawn nerth, fel bardd a dinesydd, pan oedd y wlad ynghanol terfysg a chythrwfl Charles Edward, yr Ymhonwr (*Pretender*), a chyfansoddodd gân ar y pwngc cyn brwydr Culloden, yr hon a ymladdwyd yn Ebrill, 1746. Y mae'n amlwg wrth y gân honno ei fod yn ddinesydd teyrngarol, yn wladgarwr brwdfrydig, yn Ymneillduwr anhyblyg, ac yn Brotestant diledryw. Yn 1751, cyfansoddodd alarnad ar ol tri llongwr a foddasant yn Aberporth y flwyddyn honno.

Coleddodd y syniadau Arminaidd pan yn lled ieuangc, ac ymaelododd yn Llwyn-rhyd-Owen, dan weinidogaeth Jenkin Jones,‡ er ei fod yn byw o wyth i ddeng milltir oddi yno. Ymddengys y byddai llawer o'r pyngciau duwinyddol oedd yn cynhyrfu y wlad yr amser hwnw yn cael eu trin yn ei weithdy ef, ac iddo ef, fel dŷn o farn a dysgeidiaeth, yr ymddiriedid y gwaith o'u penderfynu; a bernir mai hyny a fu'r achos iddo ddechrau barddoni ar y fath destynau dadleugar. Credir y gwnaeth ei gerddi, llawer o'r rhai sydd ar lafar gwlad hyd

* Llyfr. y Cymry, t. 457.
† Williams's Em. Welshm., p. 154; Gwyddon., cyf. iv., t. 549; En. Cymru, I. F., t. 846; En. Sir Aberteifi, G. Menai, t. 51.

‡ Gwel pen. x. o'r llyfr hwn, y v.

Digitized by Google

y dydd heddyw, lawn cymmaint, os nad mwy, er lledeunu y golygiadau Arminaidd, ag a wnaeth pregethau Jenkin Jones, gan fod y bobl yn gallu cofio pennillion, pan na fedrent gofio pregeth, neu gadwyn o resymeg dduwinyddol. Dygai fawr zel dros ei olygiadau Arminaidd, a chymmerai bob cyfleusdra i wrthwynebu Calfiniaeth fel y pregethid hi yn y dyddiau hyny gan Daniel Rowlands ac eraill; ac y mae'r rhan fwyaf o'i gyfansoddiadau yn tueddu i amddiffyn y naill neu i ymosod ar y llall. Un tro, pan ar ei ffordd adref o Gaerfyrddin, troes i gapel y Waun Ifor, lle'r oedd Rowlands yn pregethu yn daranllyd, ac yn cyhoeddi collfarn ddidrugaredd ar bawb oedd yn beiddio credu yr un peth a "Dafydd Llwyd, Brynllefrith," olynydd Jenkin Jones yn Llwyn-rhyd-Owen. Wedi i Ifan gael ei gynhyrfu gan y fath feiddgarwch, aeth o'r neilldu, ac ysgrifenodd y pennill canlynol ar ddarn o bapur oedd yn digwydd bod yn ei logell; ac wedi ei hoelio wrth bost llidiart ger llaw y capel, aeth i'w ffordd ei hun yn llawen:—

"Mae'n amser enbyd rhyfedd,
Fe dynwyd Iesu o'i orsedd
I lawr heb arswyd:
Ac yn ei le fe RHAGFARN
O amryfusedd cadarn
I'r fainge a godwyd.
Pob darn o'r cariad aeth o'r carn
Efe fa'i'n trefnu
Y Llwyd a'i gwmni
I'r cambwll obry,
Tros fyth i soddi'n sarn.
Cans Rowlands, nid yr Iesu,
Sy'n penderfynu'r farn!
Fe chwyth, â'i salw ragfarn syth,
Bob cyfryw enaid
Nad ŷnt o'i ddefaid
Yn hereticiaid,
Dan chwerw dynged chwith,
Yn dorf ar gefn yr arfaeth,
I uffern boeth am byth!"

Dywedir mai corph bychan oedd ganddo, ac i raddau yn afluniaidd; ond yr oedd ei freichiau mor hirion fel y gallai ddattod botymau penliniau ei glôs heb blygu. Yr oedd o wneuthuriad cadarn, ac yn heinif iawn ar ei draed: cerddai yn rhwydd o Lanarth i Lundain mewn tri diwrnod, yr hyn oedd yn 72 milltir yn y dydd, o leiaf. Gan ei fod yn ysgolhaig da, ac yn meddu synwyr cryf, ystyrid ef yn ddŷn pwysig yn yr ardal, yr hyn oedd yn beth lled anghyffredin, pan gofir mai dŷn tlawd, mewn cymhariaeth, ydoedd; a gwyddys mai cyfoeth, fel rheol, sy'n rhoddi i ddŷn safle barchus yn y byd. Galwyd am dano unwaith i festri'r plwyf, er mwyn cael ei farn a'i gyngor ar ryw achos yr oeddid yn croesddadlau yn ei gylch, ac yn bygwth myned i gyfraith o'i herwydd. Treuthodd Ifan ei farn yn ddiduedd, a rhoddes ei gyngor pa fodd i benderfynu yr ymrafael; ond gan mai dŷn tlawd ydoedd, ac heb fod yn drethdalwr, ac eraill o berchenogion meddiannau yn cynghori'n wahanol, ni wnaed sylw o gyngor Ifan, ac i gyfraith gethin yr aethpwyd, yr hyn a daflodd y plwyf i gostau trymion. Parodd hyny iddynt feddwl mwy o'r "Crydd Bach," ac edifarhau am beidio gwrando arno. Pan oedd yr un bobl yn fuan ar ol hyny yn cadw festri er cynllunio pa fodd i dalu'r costau, anfonasant am Ifan Tomos, er mwyn cael ei farn a'i gynllun ef; ond yn lle myned yno atynt, anfonodd y llinellau canlynol iddynt:—

"Ffarwel, fy hen gyfeillion pur,
Naturiol, difyr, doeth;
'Dwy'n gweld dim parch heb aur neu dir,
I synwyr cywir coeth:
'Rwy'n ffoi o'ch ffordd garedig, ffwrdd,
A'ch llawen gymffwrdd llon,
Rhyw heol gul wy'n fedru gael,
Nad â'r dŷn hael drwy hon:
'Rwy'n gweld y synwyr cywir, cry',
Naturiol, yn colli tir;
Fe gaiff y carl, mewn llan a llys,
Gymmeriad parchus pur.
Cynghorion call, heb aur mewn cist,
Fe'u troir hwy'n drist dan dra'd;
Ond carl yw'r gŵr, er mwyn ei gôd,
Sy'n cario'i glod drwy'n gwlad:
Fe gaiff ei barchu yn y bla'n,
Rhwng cwmni glân mor glws;
A challach dŷn, waith pallu o'r da,
Sydd draw yn nesa' i'r drws."

Defnyddiai ei awen, nid anfynych, i ffrewyllu carliaid, neu gybyddion, fel y dywed Daniel Ddu:—

"Corniai a benddai gybyddion—diffydd:
Ffrwynai â chwilydd y ffroen uchelion."

Arferai ohebu yn aml â'i gydoeswyr barddonol; ac y mae rhai o'r gohebieuthau hyny yn aros, yn neillduol yr ohebiaeth ddadleugar rhyngddo ac Ifan Dafydd, o Gwswch, ger llaw Llanfair-Clydogau, yr hwn, fel yr ymddengys oddi wrth yr ohebiaeth, oedd yn Galfiniad lled boethlyd, ac i raddau yn ddallbleidiol. Gwadai efe yn y modd mwyaf dïamwys,—

"Fod gan ddŷn allu i wella,
A byw yn dda'n yn y byd;"

a dadleuai yr un mor benderfynol,—

"I Dduw cyn dechrau,
Lwyr ddewis rhai i fywyd:
Gan iddynt gael eu hethol,
A phob enaid a arfaethwyd,
I'r gogoniant,
Byth ni fethant,
Cant nef yn fythol."

Ond gwrthwynebai Ifan yr arfeuthau a'r etholedigaeth ddïammodol, ac yn neillduol athrawiaeth

Digitized by Google

Gwrthodedigaeth, yr hon a ddysgid yn dra chyffredin gan Galfiniaid yr oes honno; ac amddiffynai Ryddid Ewyllys ar bob pwngc. Llefara yn gryf yn erbyn y gred bod neb wedi ei osod mewn sefyllfa lle na cha—

"Na gwadd na galwad,
Na hawl i Geidwad,
Ond byw'n ddideimlad
Mewn clymiad wedi eu cloi;"

a gofyn yn hyderus,—

"A oedd partïaeth
Yn y grasol Iesu,
Neu ryw anallu ynddo
I achub gwaith ei ddwylo,
Bob rhai, a'u prynu?"

Y mae ei gerddi, gyd âg ychydig eithriadau, ar destynau cyffredin a phur gartrefol. Y rhai gorau, ond odid, yw "Cân Tri Chaethwas Cymru;" "Gwagter y Byd;" "Rhyfelgan," yn dymuno llwydd y Duc William yn y rhyfel yn erbyn yr Ymhonwr, yn 1746; ychydig Farwnadau; ac un "Gân Serch," yr hon, wedi ei llurgunio yn druenus, a gyhoeddwyd flynyddoedd yn ol yn *Llais Awen Gwent a Morganwg.*

Gohebai hefyd â "Siôn y Crydd Bach," o Aberteifi, ac â Nathaniel, ei frawd; ond nid oes air o'r gohebieuthau hyny ar gael. Gan nad oedd trefn cludiad llythyrau wedi cyrraedd odid ddim perffeithrwydd y pryd hwnw, byddai'r ddau fardd yn defnyddio rhyw gyfleusderau a gaffent i anfon eu cynhyrchion i'w gilydd. Ymddengys y byddai dŷn lled feddw, a elwid Ffrangc, yn gwneud negesau yn lled reolaidd rhwng y rhan honno o'r wlad a sir Aberteifi, a gwasaneuthai fel llythyrgludydd, yr hyn, yn ddïau, a chwyddai ei gyflog. Un tro, pan mewn tafarndy ar ochr y ffordd, heb fod ymhell o Aberteifi, cymmerth rhai o'r cymdeithion afael yn llythyrau Ffrangc, a phan welsant yno lythyr i'r bardd, agorasant ef, gan feddwl cael difyrwch uwch ei ben; ac ni siomwyd hwynt, o herwydd testyn yr ohebiaeth honno oedd blys Ffrangc am y ddïod feddwol. Pan ddaeth ato ei hun, a deall cynnwys y llythyr a gludai, ymdeimlai yn ofidus dros ben, a phenderfynodd na chai un prydydd fêl o'i ysgerbwd ef byth mwyach. A dywed traddodiad na feddwodd efe byth ond hyny.

Yr oedd Ifan ei hun wedi bod gynt yn dra hoff o gymdeithas lawen; a byddai'r cymdeithion weithiau yn ei arwain i yfed i ormodedd, o herwydd yr hyn y byddai Siân, ei wraig, yn bur ddigofus wrtho. Gellir casglu hyn oddi wrth yr amgylchiad a roddes fod i "Gân y Witsus." Un hwyrnos, aeth allan i dŷ cymmydog i geisio tân (yr oedd hyny cyn dechreuad goruchwyliaeth y fflachellau =*matches*). Cyfarfu ar y ffordd â rhyw gyfaill barddol, yr hwn a'i denodd i dŷ ger llaw i gael gwydraid; ac o wydraid i wydraid, anghofiwyd y tân; ac yn lle myned yn ol at ei wraig, aeth gyd â'r cymmrawd i Aberaeron, lle y buant ar eu term hyd nos drannoeth. Credodd Siân, druan, bod naill ai'r Tylwyth Teg wedi ei gymmeryd i'w gwlad eu hunain, neu ddarfod iddo gael ei reibio gan y Witsus (*Witches*), y rhai, yn yr oes honno, oedd yn lïosog a nerthol iawn yng Nghymru. Wrth ddychwel adref, clywodd Ifan am ofid ac ofnau ei wraig, a phenderfynodd gymmeryd mantais oddi wrthynt er ysgoi'r driniaeth y gwyddai ei fod yn ei heuddu; a dywedodd, ar ei fynediad i'r tŷ, ddarfod i'r Witsus ei gymmeryd ymaith ar un tarawiad, ac mai wrth y Groes yng Nghaerfyrddin y cafodd ei hun, tu a 30 milltir o'i gartref yn Llanarth. Yr oedd Siân yn glustiau i gyd yn gwrando'r hanes, ac ni phetrusodd am funud ei gredu; ac y mae'n debyg mai i foddio ei chywreinrwydd hi y cyfansoddodd efe "Gân y Witsus," yr hon sy'n diweddu fel hyn:—

"Y mae'n ddigon gwir y geiriau,
Imi dreulio'r nos i ma's,
A rhyw chwithrwydd yn fy arwain
Megis cathod cethin cas:
Rhai'n fy nala, rhai'n fy hela,
Gan fy ngwthio trwy bob ffos,
Nes rhoed fi i orphwys erbyn drannoeth
Yng Nghaerfyrddin, wrth y Groes."

Pa wedd bynag, ymddengys wrth y pennillion canlynol y cafodd ofid dwys oddi wrth y digwyddiad anfad, a phenderfynu nad ymollyngai byth mwyach gyd â'r demtasiwn:—

"Yn enw'r Gallu! mi ymro
I beidio tra bwyf byw,
Byth mwyach redeg yn ei rhwyd
Rhag mynd yn llwyd fy lliw:
Nid oes ond taliad tost am drin
Y ddïod gethin gas;
Rwy'n gweld y gwaith, a dweyd y gwir,
Yn groes i natur gras.

"Yn barchus, foneddigion gwiw,
Tr'wy byw mi gymra'ch part;
Waith llawer meithgen drom ges i,
Wrth fynych godi'r chwart:
Pan bawn a'm bwriad, megis cawr,
I fwrw i lawr i'm bol,
Mewn ennyd bach, wfft iddi byth!
Hi neidiai'n syth i'm siol."

Cyfansoddodd alarnad wych ar ol Jenkin Jones, yn yr hon y gwelir yn amlwg ei fod yn deall y ddadl Arminaidd, ac yn gallu gwerthfawrogi talentau a gwybodaeth Jenkin Jones yn drwyadl, i daflu goleuni, fel y dywed,—

Digitized by Google

"Ar athrawieuthau, clymau caeth,
A phyngciau dyrys,
Fe fedrai ddadrys,
Trwy reswm grymus
Ac athrawieuthau ffraeth;
Dwyn allan eu tywyllni,
I'n deall ni a wnaeth."

Gwelir wrth ystwythder llinellau ei gerddi ei fod yn adnabod teithi'r Gymraeg yn dda. Y mae'n wir ei fod, fel beirdd yn gyffredin yn yr oes honno, yn defnyddio amryw eiriau estronol; ond gwnai hyny wedi eu Cymreigio yn ddestlus. Dywed traddodiad y byddai gwythïen las fawr yn ymddangos ar ei dalcen pan fyddai yn barddoni; a phan welid honno yn dechrau ymchwyddo, rhedai pawb rhagddo, gan ofyn yn ddistaw i'w gilydd, "Pwy, tybed, sydd yn ei chael hi ganddo yn awr?" Casglwyd cymmaint o'i gyfansoddiadau a'r a ellid eu cael, gan y boneddwr llenorol, W. H. Griffiths, Tŷ-hen, Llandysilio-gogo; a chyhoeddwyd hwy yn gyfrol fechan, dan yr enw "Diliau yr Awen," yn 1842, ymhen yn agos i gan mlynedd ar ol ei gladdu. Nis gall y neb a ewyllysio gael syniad clir am darddiad a thyfiad y golygiadau Arminaidd, a deall y pwyntiau ar y rhai yr oedd y ddadl yn troi ar y dechrau, wneud yn well na darllen y gyfrol fechan honno. Nid oedd yr Arminiaid cyntaf yn meddwl am wadu Duwdod Crist. Pa wedd bynag, y mae llawer o ddisgynyddion Ifan Tomos Rhys, yn yr ardal, wedi myned yn Undodiaid eithafol; tra y mae eraill yn parhau yn Drindodiaid. O'i wehelyth ef yr hanodd Ifan Tomos, y Bardd o Horeb, a'r Dr. Evan Pan Jones, Mostyn.

Y mae amser marwolaeth I. T. Rhys yr un mor ansicr ag amser ei enedigaeth. Dywedodd ei ŵyrion wrthym, tu a deng mlynedd ar hugain yn ol, ei fod wedi marw cyn cof iddynt hwy; ac ni wyddent ymha fan y claddwyd ef, heb law mai mewn rhyw lanerch ym mynwent Llanarth. Casglodd Brutus gymmaint ag a allai gael ar lafar gwlad o hanes ei fywyd, yr hyn a gyhoeddwyd gyd â'i weithiau. Hefyd, gwel *Enwogion Sir Aberteifi*, gan Glan Menai, t. 130–2.

---

## PENNOD XIV.

### GRUFFYDD JONES, THOMAS WILLIAM, CHARLES WINTER, A MILES HARRIS.

MAB oedd Griffith Jones i Morgan Jones, un o weinidogion cyntefig a gorau Abertawe. Ganwyd ef yn yr Allt-Fawr, ymhlwyf Llanon, sir Gaerfyrddin, tu a'r flwyddyn 1695, a dechreuodd bregethu yn Abertawe yn 1714. Bu'n cynnorthwyo ei dad gartref, ac yn pregethu ynghymmydogeuthau Abertawe, a manau eraill, hyd 1726, pryd y derbyniodd weinidogaeth Pen-y-Fai, yr hon a fuasai yn gangen ddwyreiniol o eglwys Llanilltyd ac Abertawe am 71 o flynyddau. Gan ei fod yn ddŷn gwir dda, ac yn bregethwr dylanwadol a phoblogaidd, nid yw'r arddeliad mawr a fu ar ei lafur er yn ieuangc yn peru i ni synu, ond yn hytrach yn ennyn dïolchgarwch a llawenydd. Dïoddefodd y frawdoliaeth lawer ynghyfnod brawychus yr erledigeuthau Esgobyddol; ac yn awr, wedi i'r ystorm beidio, ac iddynt, am y tro cyntaf, gael gweinidog wrth fodd eu calon, yr oedd eu dïolchgarwch yn wresog, eu llawenydd i fesur yn ddigymmysg, a'u rhagolygon braidd yn bob peth y gellid eu dymuno. Pregethai gyd â dylanwad a llwyddiant gartref, ac mewn manau eraill ym Morganwg, Mynwy, &c.; a bu am flynyddau yn gweinyddu yr ordinhadau yn Abertawe ar ol marwolaeth ei dad yn 1730. Ymawyddai dosparth o eglwys Abertawe am ei gael i olynu ei dad yn y weinidogaeth yno; ond ymddengys mai yn wahanol y trefnodd Rhagluniaeth.

Heb law bod yn bregethwr poblogaidd a llwyddiannus, yr oedd G. Jones hefyd yn ddŷn pwyllog, doeth, a chymhedrol, ac, fel y cyfryw, yn alluog i hwylio ei lestr mewn manau peryglus ar fordaith dymhestlog; ac ymddengys mai ei allu fel blaenor a barodd i eglwys Hengoed ei wahodd i olynu Morgan Gruffydd. Gan fod y ddadl Arminaidd yn blino yr eglwys uchod ar y pryd, yr oedd doethineb a phwyll yn angenrheidiol er osgoi y llongddrylliad a ofnid; a bernid mai Gruffydd Jones oedd y dŷn iawn i gymmeryd y llywyddiaeth. Y mae awdur parchus *Hengoediana* yn adrodd yr amgylchiadau fel y canlyn:—

"Wedi marwolaeth y gweinidog [M. G.], gan fod yn yr eglwys amrywiaeth syniadau yn aros, megis tân marw mewn lludw, hawdd yw canfod yr anhawsder i ddewis canlynydd iddo. Gwyddid fod pleidwyr Arminiaeth yn lled lïosog yn yr eglwys er ys wyth neu ddeng mlynedd yn ol, ac yr oedd y blaid Arminaidd am ddewis Charles Winter i'r weinidogaeth; ond yr oedd y gallu Calfinaidd yn rhy bwysig. Hefyd, yr oedd yn anhawdd cael Calfiniad digon cymhedrol yn ei ysbryd a'i olygiadau i fedru cydymddwyn â'r Arminiaid, ac yn neillduol felly gan fod ganddynt bleidiwr mor alluog, a dŷn mor dda a Charles Winter i'w blaenori. Ond gan nas gallasant gyttuno i ddewis Mr. Winter, nac un o'r pregethwyr eraill oedd yn yr eglwys ar y pryd, meddyliasant am Mr. Gruffydd Jones, gweinidog Pen-y-Fai. Er bod Pen-y-Fai yn ferch i Hengoed, etto amlwg yw mai anheg iawn oedd i'r olaf fwriadu yspeilio y fleunaf o'i gweinidog parchus a llwyddiannus; ond amlwg yw mai ei olygu ef y person mwyaf cyfaddas i

Digitized by Google

atteb amgylchiadau peryglus neillduol yr eglwys o ran barn, a fu'r achos o'r fath ddewisiad. Ymgynghorasant â brodyr eraill, y rhai a gydwelent â hwynt yn hyn: felly rhoddasant alwad unfrydol i Mr. Jones, ac efe a symmudodd oddi wrth ei frodyr hoff ym Mhen-y-Fai tu a diwedd 1739. Yn ganlynol, aeth yr eglwys ym mlaen yn dra chysurus. Yr oedd Charles Winter ac yntau yn caru heddwch; ac, er yn gwahanieuthu, etto yn cydymddwyn yn rhagorol. Bu llwyddiant cysurus yn yr eglwys; a dywedir y byddid yn bedyddio rhai yno bob mis am gryn amser. Byddai y canghenau hefyd yn cael sylw gofalus Mr. Jones. Cafodd cyfarfod cymmundeb ei sefydlu yn gysson yn y Cas-Bach, unwaith bob tri mis. Yr oedd yno erbyn hyny amryw aelodau, ac ystyried y lle yn gangen o Hengoed. Aeth yr eglwys ar ei chynnydd, ac yn 1742, dan ofal meithringar Mr. Jones, penderfynodd y gangen adeiladu addoldy, yr hwn yn bresennol yw Bethesda, Maesaleg; ac yno y corpholwyd yr eglwys yn 1746. Ond nid hir wedi hyny y cafodd yr eglwys y gofid o ddeall fod y gweinidog ffyddlon a fuasai mor wasaneuthgar iddi, ac mor gysurus ynddi, yn tueddu i fyned i'r Unol Daleithiau. Bu hyny yn flinder mawr i Hengoed, nid yn unig o blegid ei golli ef, ond hefyd o herwydd bod yspryd yr hen ddadl athrawieuthol yn ymrithio o flaen eu meddyliau. Yr oedd rhyw ystyrieuthau teuluaidd yn gorchfygu gyd â Mr. Jones, ac i America yr aeth yn y fl. 1749. Bu'r eglwys yn llwyddiannus a thra chysurus yn holl amser gweinidogaeth Gruffydd Jones, sef deng mlynedd; ac a'i gadawodd mewn cyflwr cysurus, fel y credwn, o ran rhif, ond etto heb fod yn unol mewn golygiadau. Nid ydym i anghofio nodi yma mai efe a fedyddiodd, yn fuan wedi iddo ddyfod i Hengoed, Mr. Thomas Llywelyn, wedi hyny y Dr. Llywelyn, un o'r dynion mwyaf ei ddysg a'i ddefnyddioldeb yn ei ddydd yn y deyrnas hon."

Dywed Joshua Thomas hefyd mai dŷn doeth oedd Mr. Jones, fel gweinidog yr efengyl; ei fod ef a Charles Winter yn dangnefeddus a dïoddefgar; ac na fyddent yn croesdynu nac yn gwrthddadlau, er yn wahanol yn eu syniadau duwinyddol. Yr oedd Winter yn ddŷn o safle yn y byd, yn ysgolhaig da, ac yn bregethwr galluog; a byddai yn pregethu yn Hengoed a manau eraill. Aeth yr eglwys ym mlaen mewn heddwch, ac yn llwyddiannus, yn eu hamser hwy; ond pan ddechreuwyd siarad am olynydd i Mr. Jones wedi ei ymadawiad, dechreuodd ymrafael, yr hwn a arweiniodd i ganlyniadau difrifol. Dywedir bod Mr. Winter ar y pryd yn 50 oed, ac wedi coleddu ei syniadau Arminaidd am 25 o flynyddau; ac mai ei benderfyniad yn awr oedd, sefydlu Arminiaeth bur yn yr eglwys. Nid hawdd dirnad y blinder a fu yn yr eglwys am tu a blwyddyn neu chwaneg ar ol ymadawiad G. Jones. Golygir mai gyd â theimladau dolurus y treulid pob Sabboth, yn y man y buasai heddwch yn teyrnasu am tu a chan mlynedd. Byddai hoffwyr tangnefedd yn cynllunio mesurau heddychlawn, a'r lleill yn eu sathru, fel nad oedd dim braidd ond swn rhyfel athrawieuthol i'w glywed yn yr awyrgylch; yr hyn a ddefnyddid gan elynion crefydd i fflangellu Cristionogion, ac i ddiraddio crefydd. Y diwedd fu i Charles Winter, a thri ar hugain o'i ddisgyblion, gael eu dïarddel, yn ol cyfarwyddyd y gymmanfa, yn 1750. Yr oedd hwn yn ganlyniad sobr iawn; ond golygid bod amgylchiadau yn ei wneud yn anocheladwy. Ysgrifenodd G. Jones at yr eglwys o'r America droion, gan amlygu ei ofid a'i alar o herwydd yr anghydfod, a cheisio eu cyfarwyddo yn y dymmestl yr oeddynt ynddi; ond ni bu ei allu i sefydlu heddwch yn gyfartal i'w ddymuniad. Ni chymmerth G. Jones ofal bugeiliol yn America, ond ymaelododd mewn eglwys oedd o dan ofal Mr. Davies, yn y *Welsh Tract*, ym Mhensylfania, gan gynnorthwyo yn y weinidogaeth yno, a manau eraill, yn dderbyniol a llwyddiannus hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 1754, pan yn 59 oed, wedi pregethu 40 mlynedd.

Y mae hanes G. Jones yn Hengoed, a'r tawelwch a'r llwyddiant a ffynnent yn ei amser, a'r ymrafeulion chwerwon a ddilynasant ei ymadawiad, yn dangos bod *un* dŷn o werth mawr iawn weithiau, mewn man neu amgylchiad arbenig. Er y perchid G. Jones yn fawr gan Fedyddwyr Hengoed o blegid ei wahanol ragorieuthau, etto gellir casglu mai ar ol iddo eu gadael y teimlasant heleuthrwydd ei werth. Wedi i G. Jones lanio yn America, tybir iddo gymmeryd ffarm yno; ond tybia Richards na bu efe byth mor ddedwydd ag ydoedd yn Hengoed, yr hyn sydd wers i bobl beidio symmud heb ystyried yn ddifrifol a fydd Rhagluniaeth yn galw arnynt wneuthur hyny. Dywed Richards fel hyn am dano:—

"Yr oedd ei enwogrwydd fel pregethwr yn cael ei gydnabod yn gyffredinol ym mysg ei gydwladwyr; a dywedir bod ganddo dalent nodedig o ddedwydd i adrodd hanesion neu ddigwyddiadau priodol, y rhai a ddygai efe yn fynych i'w bregethau i egluro ei bwngc, ac yn gyffredin cynhyrchent effeithiau pur ddymunol. Yr oedd ei dymmer yn dawel a hyfryd, a'i foesau yn dyner a deniadol, yr hyn yn gyffredin a sicrhai iddo barch ac ymlyniad ei gyfeillion. Cofiwyd am dano yn hir a serchiadol yng ngwlad ei enedigaeth gan y bobl dda a fwynhasent fendithion ei lafur."*

Gadawodd weddw a chwech neu saith o blant; pedwar o feibion a dwy neu dair o ferched. Arhosodd ei holl deulu yn America, oddi eithr ei fab Morgan Jones, yr hwn a ddaw dan sylw yn ei amser priodol.

### THOMAS WILLIAM,

Gweinidog yr eglwys Annibynol yn Nghapel Isaac a'r Fynydd-bach, Llandilo, sir Gaerfyrddin, a anwyd mewn rhyw barth o'r sir honno yn y flwyddyn

* Richards's Cambro-Brit. Biog., p. 305.



Digitized by Google

1697. Nid ydym wedi gallu cael allan ymha gymmydogaeth y ganwyd ef. Yr oedd yn aelod yng Nghapel Isaac yn y flwyddyn 1715; a chafodd ei ferch Ann, yr hon, fel y tybiwn, oedd ei unig blentyn, ei bedyddio gan Mr. William Davies, gweinidog Capel Isaac, Ebrill 10, 1723. Medi 1, 1734, cafodd Thomas William ei neillduo yn ddïacon yng Nghapel Isaac; ac yn Awst 1735, dechreuodd bregethu yno. Ar yr achlysur, traddododd gyffes o'i ffydd, yr hon sydd i'w gweled etto yn ei law ysgrifen ef ei hun yn hen lyfr yr eglwys. Ebrill 5, 1744, ymddangosodd ef a thri eraill, sef Joseph John, Capel Isaac; Thomas Morgan, Henllan; a James Davies, Abermeurig, ger bron yr ynadon yng Nghaerfyrddin, i gael eu trwyddedu i bregethu. Bu Thomas William am ddwy flynedd ar hugain yn bregethwr cynnorthwyol yn ei fam eglwys, a'r eglwysi cymmydogeuthol; ac yn y flwyddyn 1757, urddwyd ef yn weinidog i'r eglwys y buasai yn aelod o honi am fwy na deugain mlynedd. Yr oedd yn gyflawn driugain mlwydd oed pan yr urddwyd ef; ond parhaodd wedi hyny i gyflawni ei weinidogaeth yn effeithiol am un mlynedd ar hugain. Bu farw yn yr oedran teg o bedwar ugain ac un, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfynydd, Mehefin 12, 1778. Clywsom amryw hen bobl oeddent yn bresennol ar ei gladdedigaeth yn adrodd i'r hen berson hynod, Cornelius Copner, fyned i dymmer ddrwg wrth y clochydd ar ganol darllen gwasanaeth y claddedigaeth. Pan ddaethai at y rhan honno o'r gwasanaeth lle y dywedir, "Pridd i'r pridd," &c., wrth daflu ychydig bridd i lawr ar flaen y rhaw, digwyddodd fod ynddo gareg fechan, yr hon a wnaeth gryn swn wrth ddisgyn ar gauad yr arch. Ar hyn, trodd yr hen berson at y clochydd, a dywedodd yn chwerw wrtho, "Taflwch y pridd i lawr yn esmwyth, ŵr. Dŷn duwiol oedd y dŷn hwn, canys efe a gysgodd un noswaith yn fy nhŷ i." Ffordd hynod i brofi duwioldeb dŷn, onid e! Dŷn hynod iawn oedd Copner, ac yn arfer dweyd llawer o bethau chwerthinllyd a ffôl iawn o'r pulpud. Prin yr ystyrid ef yn gyflawn yn ei synhwyrau; ond er ei holl hynodion a'i ffolineb, yr oedd ynddo lawer o natur dda. Gwehydd oedd Thomas William wrth ei alwedigaeth, a dilynodd yr alwedigaeth honno hyd derfyn ei oes. Ni chafodd addysg athrofaol; ond yn rhyw fodd, yr oedd wedi dyfod yn ysgolhaig rhagorol. Medrai gyfansoddi yn y Gymraeg a'r Saesneg yn rammadegol a thlws, ac y mae ei law-ysgrifen yn nodedig o hardd a darllenadwy. Cyfanneddai mewn tŷ bychan, nodedig o daclus, ar gwr Mynydd-bach, Llandilo, tu a thri chwarter milltir i'r dwyrain o Gapel Isaac; ac ymhen dwyreiniol y tŷ, ar y llofft, yr oedd ei lyfrgell. Yr ydym yn casglu oddi wrth yr ychydig o'i bregethau yn ei law-ysgrifen ef ei hun, y rhai sydd yn ein meddiant, ei fod yn bregethwr call ac adeiladol; ond ni chlywsom neb a'i gwrandawodd yn son dim yn y naill ffordd na'r llall am ei ddoniau fel traddodwr. Yr oedd yn ddŷn a gerid yn fawr gan bawb o'i gydnabod, ac yn un nodedig am ei ostyngeiddrwydd. Barnai fod gosod *s* wrth ei gyfenw yn arwydd o falchder, ac felly Thomas *William*, ac nid *Williams*, yr ysgrifenai ef ei enw yn wastad. Wrth roddi copi yr argraphiad cyntaf o'r "Oes Lyfr" i'r argraphydd, gorchymynodd iddo beidio gosod yr *s* wrth gynffon ei enw ar wyneb-ddalen y llyfr; ond anufuddhaodd yr argraphydd i'w gais, ac o herwydd hyny cyfansoddodd yntau bennill o sen iddo, fel hyn:—

"Dywedais wrtho'n ddinam,
Mai f'enw oedd Thomas William;
Ond wedi'r cyfan oll a wnes,
Fe ddododd e'r *s* fongam."

Gwnaeth Thomas William, ac ystyried ei oes, ei sefyllfa, a'i fanteision, lawer o ddefnydd o'r argraphwasg. Yn y flwyddyn 1724, pryd nad oedd ond saith ar hugain oed, cyhoeddodd yr argraphiad cyntaf o'r "Oes Lyfr," yr hwn a gyflwynwyd ganddo i Syr Gruffydd Rice, un o gyndadau Arglwydd Dynefwr. Yn 1768, cyhoeddodd ail argraphiad o hono, gyd â llawer iawn o ychwanegiadau. Er ys amryw flynyddau yn ol, daeth argraphiad newydd o'r llyfr hwn allan o wasg Humphreys, Caernarfon; ond ar y wyneb-ddalen camddywedir mai y Mynydd-bach, ger llaw Abertawy, oedd trigfan yr awdur, yn lle Mynydd-bach, Llandilo. Yn 1727, cyhoeddodd "Y Waedd yng Nghymru yn wyneb pob Cydwybod," gan Morgan Llwyd o Wynedd, gyd â rhagymadrodd helaeth. Yn 1761, cyhoeddodd "Ddamhegion ein Iachawdwr ar gân," o gyfansoddiad Joseph John; ac yn 1771, y llyfr buddiol a elwid "Cynghorion Tad i'w Fab."

Meddai Thomas William ar lawer o ddawn prydyddu, ac yr oedd cannoedd o'i bennillion yn cael eu hadrodd gan hen bobl yn ardal Capel Isaac hanner cant a thriugain mlynedd yn ol; ond nid ymddengys i nemmawr o'i gyfansoddiadau gael eu hargraphu. Gadawodd ar ei ol lyfrgell werthfawr, yn cynnwys yn ddïau lawer o law-ysgrifau dyddorol; ond trwy ddïofalwch ei

Digitized by Google

ŵyrion, cafodd y cyfan ei gwasgaru neu ei dinystrio. Gorwyr i Thomas William oedd y diweddar Barch. David Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn Ngwynfe, sir Gaerfyrddin.

### CHARLES WINTER.

Y gŵr enwog hwn ydoedd fab hynaf Francis Winter, ameuthwr cyfrifol ymhlwyf Bedwellty, ger llaw Hengoed, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1700. Yr oedd ei dad mewn sefyllfa gysurus; a chan ei fod yn meddu synwyr cryf, yr oedd yn alluog i werthfawrogi dysg, a chafodd Charles lawer o ddysgeidiaeth uchel er ei barotôi i'r alwedigaeth feddygol. Bu'n freint-was am dymmor gyd â meddyg yng Nghasnewydd, lle y treuliodd ran o'i ddyddiau boreuol mewn musgrellni ac ysgafnder. Pan yn 23 neu 24 oed, bu farw y meddyg gyd â'r hwn yr oedd yn freint-was, a dychwelodd yntau at ei dad, yr hwn a benderfynai ei ddwyn i fynu yn swyddog yn Eglwys y Llywodraeth; ond nis hoffai y bachgen yr offeiriadaeth, yr hyn a barodd i'r tad deimlo yn siomedig a gofidus. Erbyn hyn yr oedd Winter ieuangc yn dechrau newid ei ddull o fyw, yn meithrin meddylgarwch, ac wedi dyfod i adnabyddiaeth o syniadau ac arferion y Bedyddwyr, ac yn penderfynu ymuno â'r cyfundeb. Pan ddeallodd yr hen Winter ei dueddiad, dangosodd fawr anfoddlonrwydd; a phan glybu fod ei fab yn penderfynu cymmeryd ei fedyddio yn Hengoed, aeth at Morgan Gruffydd, y gweinidog, gan ei fygwth yn ddychrynllyd os bedyddiai efe yr ymgeisydd. Ond prin y mae achos mynegi na thyciodd y bygythion. Golyga'r Dr. Richards iddo gael ei fedyddio cyn diwedd 1724, a bod gwrthwynebiad ei dad wedi lleddfu i raddau cyn i'r ordinhâd gael ei gweinyddu. Modd bynag, canfu yr eglwys a'r gweinidog yn fuan bod ei alluoedd, ei ddysg, a'i gymmeriad yn ei gymhwyso i waith y weinidogaeth; ac mewn canlyniad dechreuodd bregethu gyd â'r Bedyddwyr yn Hengoed. Er ei fod yn ddysgedig yn barod, golygid y byddai addysg mewn athrofa dduwinyddol yn ychwanegiad at ei gymmwysderau, ac annogwyd ef i fyned at Mr. Foskett i Goleg Caerodor; ond dewisodd efe Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin, llywydd yr hon a amddiffynai olygiadau duwinyddol y Dr. Daniel Williams yn erbyn y Dr. Crisp, a Chalfiniaid eraill. Yn ol y Dr. Richards, meddyliai C. Winter y caniateid mwy o ryddid i fyfyrwyr Caerfyrddin i farnu drostynt eu hunain nag a oddefid i ysgolheigion Caerodor; ac y mae'n dra thebyg nad oedd heb radd o ogwyddiad at yr ochr Arminaidd pan yn Hengoed. Beth bynag am hyny, i Gaerfyrddin yr aeth, er bod ei draul yn drymach yno nag a fuasai yn yr athrofa Seisnig. Nid ymddengys iddo aros yn hir yng Nghaerfyrddin, canys canfyddir ei fod gartref yn Hengoed cyn diwedd 1725, lle y pregethai gyd â llawer o gymmeradwyaeth; a dywedir iddo gael ei bennodi i gynnorthwyo y gweinidog yno cyn diwedd y flwyddyn, ac y byddai yn wir ddefnyddiol dros amryw flynyddau.

Yn ystod ei wasanaeth yn Hengoed, cafwyd allan yn fuan nad oedd yn anffafriol i syniadau y Bedyddwyr Cyffredinol, yr hyn a barodd gryn anesmwythder i'r dosparth Calfinaidd o'r eglwys, y rhai a ystyrient ei dduwinyddiaeth yn beryglus, canys nid oeddynt wedi arfer gwrando y fath olygiadau. Gan fod dynion parchus eraill yn yr eglwys yn coleddu yr un farn, ac nad oedd amheuaeth yn bod am ei dalentau, ei gymmeriad, a'i ysbryd hynaws a thangnefeddus, aeth y Calfiniaid a'r Arminiaid rhagddynt heb lawer o ymryson difrifol am rai blynyddau. Cydymddygent â'u gilydd cystal ag y gellid disgwyl, fe allai, dan y fath amgylchiadau. Perchid Chas. Winter yn fwyaf fel dŷn galluog a dysgedig gan bob dosparth yn yr eglwys. Cymmeradwyid ei bregethau, ar y cyfan, fel rhai da a gwir adeiladol; ac yr oedd y gweinidog, Morgan Gruffydd, ac yntau yn hoff iawn o'u gilydd. Gan fod y ddau yn ddynion call a phwyllog, yr oeddynt yn alluog i gadw yr aelodau mewn trefn; ac felly aethant ym mlaen yn gysurus am rai blynyddau. Ond yn y gymmanfa a gynhaliwyd yn Hengoed yn 1730, darfu yr heddwch a ffynnasai hyd hyny; a chanlynwyd ef gan y fath ryfel crefyddol, yr hwn a arweiniodd yn y diwedd i ganlyniadau gofidus. Y mae'n dra thebyg mai presennoldeb Abel Francis, perthynas agos i Enoch Francis,* a achosodd yr ystorm yn y gymmanfa fythgofiadwy honno. Yr oedd efe yn hynach na C. Winter, ac yn ddŷn o gryn allu, ac yn tueddu i fod yn aflonydd ac ymrysongar, ac fe allai, i ryw fesur, yn gecrus. Gwyddai'r gweinidogion a'r cenhadau hefyd iddo ffarwelio â'r hen syniadau, ac y byddai yn dadlau dros yr hyn a elwid "y ffydd newydd." Nid yw holl fanylion y ddadl yn adnabyddus i ni; ond y mae'n eglur i Abel Francis gael ei gyhuddo o'r dduwinyddiaeth yno, ac i rai yn y gynnadledd ei ddwrdio yn

* Gwel pen. xi. o'r llyfr hwn.

Digitized by Google

erwin o herwydd ei amryfusedd. Gwyddai aelodau Hengoed nad oedd C. Winter ddïeuog yn wyneb y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn Abel Francis, a chasglent y dylasid cymhwyso y ceryddon a arllwysid yn ddïarbed arno ef yn ddiseremoni at C. Winter; a dechreuodd rhai o'r personau mwyaf anesmwyth a chwerylgar yn eu plith ei senu am ei gyfeiliornadau. Dywedir i rai o'r gweinidogion [mwyaf anffaeledig, wrth reswm!] oedd yn bresennol eu cefnogi, yr hyn sy'n dangos, fel y sylwa un ysgrifenydd, i Winter gael ei ddwyn i'r llyngclyn yn erbyn ei ewyllys. Er mwyn cael dadl gyhoeddus, gofynodd un o'r gweinidogion yr holiad canlynol:—

"Beth a ddylid ei wneud o'r rhai sy'n dal Prynedigaeth Gyffredinol ac Ewyllys Rydd, ac yn dywedyd y gall dŷn gael ei gadw heb Ras Duw?"

Gwyddai C. Winter mai ei gyfeillion ac yntau oedd mewn golwg gan y gofynwr, a dywedodd hyny wrth y gwyddfodolion, gan ychwanegu y sylw canlynol ynghylch ei farn ar y pyngciau y cyfeiriasid atynt:—

"Teimlaf fy hun yn rhwym i amddiffyn yr athrawieuthau bod Crist wedi marw dros *bawb*, a bod ewyllys dŷn yn *rhydd* i wneuthur da neu ddrwg, heb un reolaeth neu attaliad anwrthwynebadwy. Ond *nid* wyf yn disgwyl cael fy nghadw heb *ras Duw*, canys effeithiau ei ffafr ef yw iachawdwriaeth, a phob bendithion eraill."

Wedi rhoddi ei resymau dros y syniadau uchod, a chyfeirio ei wrthwynebwyr at Ioan iii. 16, 1 Ioan ii. 2, Heb. ii. 9, gofynodd iddynt "A oedd yn ddyledswydd ar Judas Iscariot gredu yng Nghrist er iachawdwriaeth?" Wedi iddynt atteb yn gadarnhaol, sylwodd yntau "nas gallasai fod yn ddyledswydd ar neb gredu yng Nghrist er iachawdwriaeth ond yn unig y rhai y bu Crist farw drostynt; ac os bu Crist farw dros Judas, paham na bu efe farw dros bawb?" Dilynwyd y sylwadau hyn gan dwrf ac anhrefn; terfynodd y gymmanfa yn hollol anghysurus; a gadawyd achos Winter a'i gyfeillion heb ei benderfynu. Barnai rhai o'r Bedyddwyr Calfinaidd mai dïaelodiad oedd heuddiant y Bedyddwyr Cyffredinol, ac nad oedd bossibl eu harbed; ond trwy ddylanwad y Parch. D. Rees, Limehouse, Llundain (hen aelod o Hengoed, yr hwn oedd yng Nghymru ar y pryd), Mr. Gruffydd, y gweinidog, a rhai o aelodau mwyaf cymhedrol yr eglwys, llwyddwyd i attal y dïarddeliad a fwriedid. Ysgrifenwyd ammodau heddwch, y rhai a lawnodwyd gan Chas. Winter a'i gefnogwyr; ond gwrthododd dau o'i bleidwyr eu harwyddo, gan heuru eu bod yn credu y Bibl, ac nad oedd eisiau gwneud ychwaneg, a dïarddelwyd hwy o blegid eu gwrthodiad.

Wedi i'r ystorm honno fyned drosodd, parhaodd Winter i wasaneuthu fel cynnorthwywr Morgan Gruffydd am saith neu wyth mlynedd, pryd y bu yr olaf farw; ac ymddengys na ddigwyddodd unrhyw anesmwythder yn ystod y cyfnod hwnw. Dywedir y byddai M. Gruffydd yn mawrhau ac yn caru Winter. Galwai ef yn fynych yn "anwyl fab;" a phan ofynid ei farn ar ranau o'r Bibl, dywedai weithiau, "Gofynwch i Charles, a gwna efe eu hegluro i chwi." Dywed y Dr. Richards i M. Gruffydd, pan ar ei wely angau, annog yr eglwys i ddewis Winter yn olynydd iddo;* ac yr oedd dosparth o'r eglwys yn awyddus am ei wasanaeth ef; ond gan nad oedd y rhan lïosocaf yn ei ystyried "yn iach yn ei farn," dewiswyd Gruffydd Jones, Pen-y-fai, yr hwn a gymmerodd y fugeiliaeth yn 1740. Parhaodd Winter i gynnorthwyo G. Jones yn y weinidogaeth hyd 1749, pan aeth yr olaf i'r America. Wedi ymadawiad G. Jones, dechreuodd ymrafael arall ynghylch Winter a'i athrawiaeth. Ceisiai ei gefnogwyr ei wneud yn olynydd G. Jones; a dywed rhai nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r fugeiliaeth ar y pryd, wedi gwasaneuthu mor ffyddlon fel cynnorthwywr am gryn ugain mlynedd. Sychedai rhai am newidiad yn ei athrawiaeth, a chynhaliwyd amryw gyfarfodydd ar y pwngc, yn y rhai y cynnorthwyodd gweinidogion eglwysi eraill; ond bu'r gorchwyl o geisio ei argyhoeddi yn hollol aflwyddiannus. Gofynwyd iddo roddi crynhodeb byr ac eglur o'i syniadau crefyddol o'r pulpud, rhag eu bod yn ei gamddeall. Ar y diwrnod pennodol daeth llïaws mawr ynghyd, ac yn eu plith amryw weinidogion, i'r rhai y pregethodd efe ei olygiadau am tu a dwy awr oddi wrth 2 Tim. i. 13, yn y

* Dywed awdur *Hengoediana* nad oes sail i'r dywediad am ddymuniad M. Gruffydd gyd â golwg ar ei olynydd. Er mwyn dïogelu yr eglwys rhag dadleuon ynghylch yr athrawiaeth rhag llaw, dodwyd yr hyn a ganlyn ym mbrydles (*lease*) yr addoldy yn 1777:—Bod aelodau yr eglwys "i bregethu, dal, tystio, a chredu yr athrawieuthau ysgrythyrol a ganlyn, sef Undod y Duwdod a Thrindod mewn Undod; pen-cynddrychiolaeth Adda; pechod gwreiddiol; etholedigaeth dragywyddol; prynedigaeth neillduol; galwedigaeth effeithiol trwy weithrediad gallu Duw; parhâd y saint mewn gras hyd y diwedd; cyfiawnhâd ger bron Duw trwy gyfiawnder cyfrifol Iesu Grist yn unig, yn cael ei gyfranu i'r etholedigion trwy ffydd; bod y gyfraith yn llaw Crist yn rheol ymarweddiad a chyfeillach i bob Cristion; bod yr Ysgrythyrau yn cynnwys pob peth angenrheidiol eu credu gan Gristionogion, a'u hymarfer er iachawdwriaeth; bod iachawdwriaeth o rad ras Duw yn unig; nad yw gweithredoedd da yn heuddiannol, etto yn angenrheidiol, i brofi gwirionedd ffydd, ac yn gymmeradwy gan Dduw yng Nghrist yn unig; adgyfodiad y meirw; y farn ddiweddaf; proffes bersonol o ffydd yng Nghrist cyn bedydd; mai dull ysgrythyrol bedydd yw trochi yn ddïesgeulus mewn dwfr; ac y bydd iddynt arfer a chadw y fath drefn a disgyblaeth ag sydd yn unol â Gair ysgrifenedig Duw."

Digitized by Google

modd mwyaf eglur a meistrolgar. Wedi i Mr. Williams, gweinidog yr Annibynwyr ym Mhenmain, glywed yr annerchiad i weinidogion y Bedyddwyr oedd yn y capel, gofynodd, "A all un o honoch chwi amddiffyn ei syniadau mor alluog?" Modd bynag, ni lwyddodd efe i argyhoeddi ei wrthwynebwyr, ond parhau a wneuthant i'w erlid. Cynhaliwyd cyfarfod wedyn mewn tŷ annedd yn yr ardal, yn yr hwn y bu Winter yn dadlau â'r Calfiniaid am o gylch tair awr, yn benaf ar bechod gwreiddiol. Ar ddiwedd y ddadl, dywedodd efe wrthynt, gan ddal y Bibl yn ei law, "Cofiwch nas gellwch brofi o'r Llyfr hwn fod pechod Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth; ac er hyny yr ydych yn fy nghondemnio i am anghredu y fath athrawiaeth." Ar ol y cyfarfod hwnw, penderfynodd yr eglwys ei ddïaelodi ef, ynghyd â 24 o'i gefnogwyr, yn gyhoeddus wrth fwrdd y cymmun; ond dywedir iddynt gael cryn drafferth i gael gweinidog i weinyddu ar yr achlysur. O'r diwedd llwyddasant i gael un, yr hwn a ddywedodd, "Yr wyf yn eu bwrw hwynt allan, ond *nid i'r byd.*" Achosodd y ddedfryd gryn syndod, am na wyddai y gwrandawyr am sefyllfa ganol rhwng y byd a'r eglwys. Mewn canlyniad i'r dïarddeliad, ymffurfiodd y rhai ysgymmunedig yn eglwys o Fedyddwyr Cyffredinol, a dewisasant Charles Winter i'w bugeilio. Wedi ymgynnull mewn gwahanol dai annedd yn yr ardal am dymmor, adeiladasant gapel mewn lle a elwid Craig-y-fargod, yr hwn a agorwyd yn 1753; a bu Winter yn weinidog yno hyd ei farwolaeth ar y 23ydd o Ebrill, 1773, ac efe yn 73 oed, a chladdwyd ef wrth Eglwys Bedwellty.

Fel y sylwyd eisoes, yr oedd yn ddŷn galluog, hynaws, tangnefeddus, a charedig iawn, ac fel y cyfryw perchid ef yn fawr gan ei gymmydogion. Dywed awdur *Hengoediana* mai "gŵr rhagorol o ran ei gymmeriad ydoedd Mr. Winter, cystal a dŷn o ddoniau a gwybodaeth helaeth, ac yn cael ei fawr garu fel y cyfryw." Gan iddo ennill gwybodaeth feddygol ymorau ei oes, penderfynodd ei myfyrio ymhellach, fel y gallai gynnorthwyo tlodion yr ardaloedd pan mewn afiechyd; a gwnaeth lawer o les yn y cyfeiriad hwnw. Dywed y Dr. Richards, i'r hwn yn benaf yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o ddefnyddiau yr erthygl hon,* nad yw efe yn cyhoeddi barn ar syniadau crefyddol C. Winter, nac ar eiddo ei wrthwynebwyr, ond yn treuthu ffeithiau, hyd eithaf ei wybodaeth, yn annibynol ar bersonau, heb fwriadu boddio na chlwyfo y naill blaid na'r llall; ac yr ydym ninnau yn yr ysgrif hon wedi ceisio mabwysiadu yr un cynllun, gan adael i'r darllenydd dynu ei gasgliadau ei hun oddi wrth yr hanes.

Y mae'n dra thebyg y gwel pob dŷn diragfarn, beth bynag a all ei syniadau duwinyddol fod, mai anffawd, ac nid drygioni, a dynodd C. Winter i'r blinderau a gafodd: dïau mai i fyrbwyllder cyfeillion yr ydys i briodoli llawer o'i drallodion. Yr oedd efe yn hollol gydwybodol yn ei farn, ac yn un o'r rhai mwyaf amharod i flino eraill am na chydwelent âg ef. Gallai efe gydweithio mewn tawelwch a chysur â dynion call a phwyllog o olygiadau gwahanol, fel y prawf y cyssylltiad maith a dedwydd rhyngddo â Morgan Gruffydd a Gruffydd Jones; ond nid hawdd yn oed i'r dynion gorau ymgadw o drallod pan mewn cyssylltiad â rhai byrbwyll ac anesmwyth. Y mae'n deg casglu nad oedd pawb o bleidwyr C. Winter mor ddoeth a gofalus ag efe ei hun; a dïau nad dynion tebyg i Morgan Gruffydd a Gruffydd Jones oedd holl Galfiniaid Hengoed, a manau eraill yr amser hwnw, ac i fôd ac ysgogiadau y dosparthiadau hyny yr ydym i briodoli y trallodion a oddiweddasant Charles Winter.

Ystyrid tri neu bedwar o'r blaid Arminaidd, fel y'i gelwid, yn fwy enwog na'r cyffredin, sef Chas. Winter, Abel Francis, a Jenkin Jones, Llwynrhyd-Owen; ac ymddengys y byddai dŷn o gryn allu, a'i enw Rees Davies, ysgolfeistr, un o aelodau E. Francis yng Nghwm-yr-allt, yr hwn a symmudodd o sir Aberteifi i gadw ysgol yn ardal Hengoed, yn gwneud llawer dros y syniadau a olygid yn wrth-Galfinaidd; ac er y meddent lawer o fedr, etto y mae argraph ar ein meddwl nad oedd y naill na'r llall o honynt yn gyfartal i C. Winter, yn neillduol mewn pwyll ac yspryd tangnefeddus. Ymunodd A. Francis â'r Presbyteriaid; ond ni fwynhaodd ond ychydig gysur o'r amser y gadawodd y Bedyddwyr hyd ei farwolaeth yn 1734; ac ymddengys na bu blynyddau diweddaf Jenkin Jones a Rees Davies mor llwyddiannus ag y gallasid dymuno. Ymddengys bod pob un o'r tri crybwylledig yn fwy cyfrifol am y twrf Arminaidd na C. Winter; ac fe allai na ddigwyddasai y dadwrdd o gwbl, pe buasai pob un o honynt yr un fath a'r gŵr enwog o Hengoed. Y mae'n dra thebyg nad oes nemmawr wahaniaeth, od oes dim, rhwng golygiadau Winter a'r hyn sy'n awr yn cael ei bregethu mewn gwahanol ranau o'r Dywysogaeth. Fe allai fod pregethwyr diweddar yn

* Richards's Cambro-Brit. Biog., pp. 268–77.—Gol.

Digitized by Google

fwy gofalus nag ydoedd rhai o'r hen bregethwyr gwrth-Galfinaidd, gyd â golwg ar *eiriau*. Caiff dŷn bregethu unrhyw athrawiaeth, braidd, mewn rhai manau, os ymgeidw efe rhag y *geiriau* a ystyrir gan ci wrandawyr yn dramgwyddys, megis "marw dros bawb," a'r cyffelyb.

#### MILES HARRI.

Y gŵr enwog a llafurus hwn a anwyd yn yr un flwyddyn a Charles Winter, sef yn 1700, ym Mlaenau Gwent, a bedyddiwyd ef yno ym mis Ebrill, 1724. Dechreuodd bregethu yn fuan wedi hyny, a gwnaed ef yn weinidog cynnorthwyol yn y Blaenau a'r cylchoedd. Yn 1729, corpholwyd eglwys Pen-y-garn, nifer yr hon ar y pryd oedd tu a 50, y rhan fwyaf yn bobl ieuaingc.* Bu Miles Harri yn pregethu yno dros gryn amser ar brawf; ac wedi i'r frawdoliaeth ac yntau gael boddlonrwydd yn eu gilydd, neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yno ar y 24ydd o Fai, 1732, pryd y pregethodd John Harri, gweinidog y Blaenau, ar yr achlysur. O herwydd ei fod ef mor serchus a defnyddiol ym Mlaenau Gwent, bu yn anhawdd iawn gan y frawdoliaeth yno ei ollwng; ond o'r diwedd llwyddasant i gael llythyr gollyngdod. Gan ei fod yn ddŷn o athrylith, ymroddiad, a duwioldeb, bu ei sefydliad ym Mhen-y-garn, yn ymyl Pont-y-pwl, yn fendith i achos crefydd yn y gymmydogaeth. Llïosogodd yr eglwys yn fuan, fel nad oeddynt unwaith, yn ol llythyr a ysgrifenodd M. Harri, yn llai na 200 o aelodau. Yn y blynyddau dyfodol, aeth amryw eglwysi newyddion allan o Ben-y-garn, yr hyn, o angenrhaid, a effeithiodd yn anffafriol ar nifer yr aelodau. Yn 1747, gollyngwyd pump neu chwech ar hugain i ffurfio eglwys Bethesda, ac aeth llawer oddi wrthynt yn 1764. Yn 1771, aeth deg o honynt i sefydlu eglwys Caerlleon; ac yn 1773, ymadawodd amryw i Gaerlleon, ac eraill i Bethesda ac i'r Wern; ac aeth llïaws i sefydlu achos i'r Bedyddwyr ym Mrynbiga. Dengys y ffeithiau hyn nad dibwys a fu llwyddiant y frawdoliaeth ym Mhen-y-garn, am flynyddau wedi i M. Harri gymmeryd gofal yr eglwys. Bu'n ddefnyddiol iawn yn ardaloedd Pont-y-pwl, a'r wlad o amgylch, am amser maith; ac nid yn unig yn sir Fynwy, ond ym mysg y Bedyddwyr trwy Gymru oll. Ymdrechodd lawer dros grefydd yn ei ddydd: pregethai yn fynych ym Mlaen-afon, Risca, Glasgoed, Goetre, a lleoedd eraill, yn y rhai y parhaodd i efengylu hyd ddiwedd ei daith.

Yr oedd yn ddŷn galluog a zelog, ac fel y cyfryw ennillodd fwy o sylw na phregethwyr yn gyffredin cyn ei fyned i'r weinidogaeth. Coronwyd ei weinidogaeth â llwyddiant mawr yn y Blaenau a Hengoed yn 1725. Dywedir y bedyddiwyd tu a 80 mewn dwy flynedd, yr hyn oedd yn llwyddiant anarferol yr amser hwnw; ac, fel y sylwyd, tu a dechrau yr adeg honno y bedyddiwyd Miles Harri yn y Blaenau, yr hwn a ddechreuodd bregethu yn fuan ar ol cael aelodaeth. Dengys hanes dadl fedydd fawr y Fenni, rhwng Jenkins a Thomas, a dadl y Fenni rhwng Tombs a Gregg, y byddai Bedyddwyr plant yn anesmwytho yn yr amser gynt, pan goronid gweinidogaeth y Bedyddwyr â llwyddiant mawr; ond nid ydynt wedi bod felly yn y blynyddau diweddaf. Modd bynag, bu dadl boeth iawn o gylch y pryd hyny ar fedydd rhwng Miles Harri ac Edmund Jones, o'r Trans (hen gymmeriad rhagorol, ond hynod, ym mysg yr Annibynwyr); ac y mae'n debyg na chadwodd y naill na'r llall, na'r rhai a'u cefnogent, o fewn terfynau priodol, fel y dengys y difyniad canlynol:—

"Dechreuodd ysprydoedd chwerwon a geiriau serth gael eu seuthu, fel gwreichion yn eu tymherau, ac eraill yn gofidio. Erbyn hyn barnodd y ddwy blaid mai gwell fyddai iddynt amcanu am heddwch, yn hytrach na rhoddi lle i elynion yr Arglwydd gablu. Er mwyn sicrhau y diben hwnw, trefnwyd cyfarfod ym Merthyr Tydfil yn 1728, i'r hwn y daeth amryw weinidogion. Yno gwnaed rhyw fath ar gyfaddefiad, a maddeuodd y naill i'r llall pa bethau bynag a gawsant eu dywedyd, eu hysgrifenu, ne'u gwneuthur gan y naill yn erbyn y llall hyd yr amser hwnw. Nodasant chwech o bethau gyd â golwg ár fedydd, a dau beth yr anghyttunent yn eu cylch, sef dull a deiliaid bedydd. Cyttunasant yno i amcanu gogoneddu Duw ac anrhydeddu yr efengyl rhag llaw, ac i barchu eu gilydd, a'r cyffelyb. Cafodd y pethau hyn eu hysgrifenu, eu hargraphu, a'u llawnodi gan y rhai oedd yno yn gwneud y cyttundeb. Llawnodwyd y cyttundeb gan bedwar o weinidogion y Bedyddwyr, a chwech o weinidogion Bedyddwyr Plant (M. H. ac E. J. yn eu plith), a chan bump o dystion, sef Fowler Walker, ac eraill. Wedi hyny bu mwy o heddwch rhwng y ddwyblaid dros ryw amser; ond nid hir y bu cyn i un o'r tystion, sef Fowler Walker, gweinidog y Fenni, ysgrifenu llyfr yn erbyn y Bedyddwyr, er ei fod yn cynnorthwyo yn yr heddwch uchod. Efe ei hun a adfywiodd ac a ddeffrôdd y dadwrdd. Ysgrifenodd

* Bu'r Bedyddwyr yn pregethu yn ardaloedd Pont-y-pwl, Trosnant, a manau eraill, am ugeiniau o flynyddoedd cyn i eglwys Pen-y-garn gael ei chorpholi. Pregethwyd yn yr ardaloedd gan William Jones, Rhydwilym; Lewis Thomas a Robert Morgan, Abertawe; y Dr. Christopher Prys, Abel Morgan, Morgan Gruffydd, Hengoed, a llawer eraill; a dywedir y byddai yr hen Yswain Hanbury yn eu gwrando yn fynych yn y tai annedd bychain lle y pregethent. Bedyddiwyd llawer yno, y rhai a ymaelodent yn Llanwenarth, Llantrisant, Hengoed, a'r Blaenau. Parodd y llwyddiant a fu ar bregethu yr enwogion uchod, a'u cydlafurwyr, i Fedyddwyr Pont-y-pwl ymawyddu am addoldy; ac yn y flwyddyn 1728 neu 1729, agorwyd capel Pen-y-garn, sy'n agos i filltir i'r gogledd-orllewin o dref Pont-y-pwl. Yn y flwyddyn 1729, anfonasant eu llythyr cyntaf at y gymmanfa, yn yr hwn y maent yn hyspysu eu bod wedi gorphen eu haddoldy, ond nad oedd ganddynt weinidog.

Digitized by Google

Mr. Walker lyfr bychan dros fedydd plant yn Saesneg, yr hwn a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan un o'i aelodau. Argraphwyd y llyfr a'r cyfieithiad yn 1732; ond attebwyd ef yn fuan gan Dafydd Rees mewn llythyr at Mr. Walker, cyfieithiad o'r hwn a argraphwyd yn Gymraeg yr un flwyddyn. Yn y llythyr hwnw, addawai Mr. Rees ysgrifenu yn heleuthach ar y pwngc yn fuan, ac felly y gwnaeth. Yn 1734, ymddangosodd llyfr mawr a dysgedig Mr. Rees* ar y pwngc, yn Saesneg, am mai Sais oedd Mr. Walker; ond gan nad attebwyd y llyfr hwnw gan Mr. Walker na neb arall, llonyddwyd y ddadl ar hyny o bryd."

Y mae'r difyniad uchod yn dangos i Miles Harri gael ei wthio, mewn ffordd, i gyhoeddusrwydd arbenig ym moreuddydd ei oes. Bu'r "hen brophwyd o'r Trans," fel y gelwid ef, ac yntau, fyw yn gymmydogion agos wedi y ddadl honno, hyd 1776, pan ehedodd yspryd yr olaf i'r wlad well. Er iddo gael ei ordeinio yn 1729, ni symmudodd i ardal Pen-y-garn cyn 1736; ond teithiai at ei eglwys o gymmydogaeth Bedwellty, lle y trigai. Yr oedd John Gruffydd, mab Morgan Gruffydd,† Hengoed, yn aelod ym Mhen-y-garn yn amser M. Harri, ac mewn sefyllfa gysurus; ac ymddengys mai dwy chwaer oedd Mrs. Harri a Mrs. Gruffydd. Tu a'r flwyddyn 1736, ac wedi hyny, yr oedd eglwys Pen-y-garn yn enwog gyd â golwg ar undeb, brawdgarwch, a llwyddiant; ond ymddengys i Harri deimlo awelon oerach nag un gauaf ar ol hyny. Er mai cysur iddo oedd gweled Sion yn heleuthu ei phabell, etto yr oedd yr ymadawiadau y cyfeiriwyd atynt yn effeithio yn anffafriol mewn rhai cyfeiriadau; a dīau i fynediad ei gyfaill mynwesol, John Gruffydd, i'r America yn 1759, beru iddo fwy o ofid na chysur. Dywedir i anghydfod yn yr eglwys ei flino fwy nag unwaith; ond ni chafodd ymrafeulion eglwysig a blinderau eraill ei luddias ef ar yrfa dyledswydd, ond aeth rhagddo, gan ymdrechu yn ddīarbed hyd ddiwedd ei oes. Yr ydys yn deall mai i'r J. Gruffydd y cyfeiriwyd ato, ac i Miles Harri, yr oeddys yn ddyledus am athrofa fechan Trosnant, yr hon a fu'n lles mawr i gryn 40 o wŷr ieuaingc.* Dywed ein haneswyr i John Gruffydd daclu tŷ yn Nhrosnant i gadw ysgol ynddo, yn yr hwn hefyd y bwriedid pregethu yn achlysurol. Bwriedid cael ysgol ddefnyddiol yno, nid yn unig i ddysgu darllen, ysgrifenu, a'r cyffelyb, ond hefyd i gyfranu y gwybodau mwyaf angenrheidiol i wŷr ieuaingc ar gyfer y weinidogaeth. Os llwyddent yn yr antur, bwriadent i'r sefydliad wasaneuthu y Bedyddwyr trwy'r holl Dywysogaeth; ac ymdrechwyd cael athraw addas i egwyddori yr efrydwyr. Gan nad hawdd oedd cael ysgolheigion o radd uchel iawn y pryd hwnw, ac mai anhawddach fyth a fuasai cael modd i gynnal un o'r fath yn Nhrosnant; a chan fod J. Gruffydd ei hun yn ysgolhaig da iawn, ac mewn sefyllfa i wasaneuthu y sefydliad yn rhad, neu am y peth nesaf i ddim, penderfynwyd ef i fod yn athraw, am yr hwn y dywedir fel y canlyn:—

"Ymddengys mai John Gruffydd, mab Morgan Gruffydd, yr hwn a fu byw yn hir ym Mhont-y-pwl, fu â'r llaw fleunaf yn sefydliad yr athrofa fechan yn Nhrosnant. Yr oedd y dywededig John Gruffydd y dŷn mwyaf gweithgar, ac, fe allai, y mwyaf defnyddiol yn ei ddydd ym mysg y Bedyddwyr Cymreig, ac y mae parch i'w goffadwriaeth yn ddyledus oddi wrthynt."†

Ymddengys mai tu a'r flwyddyn 1732, neu ychydig yn ddiweddarch, yr agorwyd athrofa fechan Trosnant, a pharhaodd mewn bod am tu a deugain mlynedd; ac er na chefnogwyd hi yn galonog gan y Bedyddwyr, etto effeithiodd yn fawr er lles ar y weinidogaeth ymhlith y Bedyddwyr yng Nghymru a Lloegr.‡ Y diweddar Nefydd, un o'n hawdwyr gorau, a ddywed am yr athrofa uchod fel y canlyn:—

"Mor bell ag y gallaf ddeall, yr wyf yn meddwl mai yng Nghymru (ym mysg yr enwad hwn, y Bedyddwyr), y

* Dywedir bod D. Rees yn un o'r dynion mwyaf cymmeradwy, yn alluog iawn, ac yn ysgolhaig rhagorol. Ganwyd ef yn ardal Hengoed tu a'r fl. 1683. Pan yn ieuangc bu yn ysgol yr enwog Samuel Jones, M.A., Bryn Llywarch (gwel llyfr iv., pen. xxi.). Ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys Limehouse, yn Llundain, 1704 neu 1705 (nid yn 1709, fel y dywed y Dr. Richards), lle y bu'n weinidog galluog a llafurus hyd nes y gorphenodd ei yrfa yn 1748, yn 65 oed. Mawrygid ef yn fawr o blegid ei alluoedd, ei ddysgeidiaeth, a'i gymmeriad, gan rai o brif ddynion Lloegr, a manau eraill, megis y Dr. Stennett, a'r cyffelyb. Ymwelai yn achlysurol â Chymru, ac yn neillduol â'i ardal enedigol; a bu ei ymweliadau o fendith i'r Bedyddwyr Cymreig fwy nag unwaith. Blinid ef yn dost gan y gymmalwst yn ei flynyddoedd olaf. Dygid ef i'r areithfa y borau Sabboth, ac arhosai yno trwy'r dydd hyd ddiwedd y gwasanaeth hwyrol, pryd y cludid ef yn ol i'w breswylfod. Bu am rai blynyddau cyn marw yn analluog i adael ei dŷ o gwbl, o herwydd llymder arteithiol y poenau a ddïoddefai. Yr oedd ei gyfansoddiad yn gryf iawn, ond treuliodd ei ddïoddefiadau dirdynol ei nerth allan. Dywedir fod ei lyfr yn erbyn Walker ac eraill (*Infant Baptism no Institution of Christ*, &c.) yn un o'r llyfrau gwerthfawrocaf a ysgrifenwyd erioed ar fedydd. Nis gellir darllen ei bregeth angladdol gan Stennett heb deimlo ei fod yn un o ddynion gorau a galluocaf ei oes. Ceir hanes heleuthach am dano yn *Hengoediana*, *Cambro-Brit. Biog.*, ac yn *Hanes y Bedyddwyr*, gan Joshua Thomas.

† Gwel pen. vi. o'r llyfr hwn.

* Dywed y Dr. Richards fod yr ysgolheigion a fuant dan addysgiaeth Mr. Mathews, Abertawe, yno yn 30 neu 40 o nifer; ac felly rhaid bod nifer mawr wedi cael eu dysgu yno o'r dechrau hyd derfyn y sefydliad yn 1770. Ni chynnorthwyid yr athrofa gan rai, o blegid y byddai llawer o'r myfyrwyr ym myned at y Saeson.

† Noncon. Mem., p. 278.

‡ Yr oedd Joseph Francis, un o feibion yr enwog Enoch Francis, yn un o'r ysgolheigion. Aelod gwreiddiol o eglwys Castell Nedd oedd efe, ond ym Mhen-y-fai y dechreuodd bregethu. Aeth o'r lle olaf i athrofa Trosnant yn 1740; ac wedi gorphen ei dymmor athrofaol, dychwelodd i gymmeryd gofal gweinidogeuthol Pen-y-fai, lle yr ymdrechodd yn ffyddlon a llwyddiannus dros ei Waredwr hyd ei farwolaeth yn 1801. Cafodd rai blinderau yn ei weinidogaeth, a llawer o'i wawdio o herwydd ei gyssylltiad â'r Bedyddwyr; a dywedir mai offeiriad Llanfriad-Leiaf oedd ei erlidiwr penaf, Yr oedd J. Francis yn ddŷn cymmeradwy a pharchus, ond ni chyrheuddodd enwogrwydd cyffelyb i'w dad a'i frawd.

Digitized by Google

dechreuodd y peth tebycaf i athrofa reolaidd, sef y sefydliad uchod yn Nhrosnant. Yna gwnaed ymdrech lled debyg ym Mrysto [Caerodor]; a bu B. Foskett, Hugh Evans, D.D., ac eraill, yn ymdrechol yn cyfranu llawer o addysg i lawer o fechgyn Cymru a Lloegr yno, cyn i Athrofa y Bedyddwyr gael ei sefydlu yn Stokescroft, ger llaw y ddinas honno, yr hyn a gymmerth le yn y fl. 1770. Dīau mai sefydliad yr athrofa honno oedd yr achos i athrofa Trosnant gael ei rhoddi i fynu."*

Bu tu a phedwar o athrawon yno ar ol John Gruffydd; ac yn ol Cofiant y Parch. H. Phylips,† gwasaneuthodd Miles Harri y swydd athrawol yno am ryw dymmor, yr hyn sy'n dangos nad oedd ddīeithr i ddysgeidiaeth. Y cofiannydd a ddywed fel hyn:—

"Bedyddiwyd ef (H. Ph.) ym Mhen-y-garn, ym Mawrth 1750, a daeth yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn y lle hwnw. Dechreuodd ei ddysgeidiaeth dan olygiaeth Mr. Miles Harri, pa un, yr amser hwnw, oedd prif athraw athrofa y Bedyddwyr yn Nhrosnant."

Y mae'r ffaith uchod yn cael ei chadarnhau hefyd yng Nghofiant D. Jones, Pont-y-pwl.‡ Yr oedd dynion cryfion a phenderfynol yn yr oes honno, yn ymladd âg anhawsderau, ac yn eu gorchfygu yn eu hymdrechion am ddysgeidiaeth; ac y mae'n eithaf amlwg mai un o'r cyfryw oedd gweinidog cyntaf Pen-y-garn. Meddai M. Harri ddawn neillduol i fagu dynion ieuaingc; ac fe allai fod hyn yn cyfrif i raddau am lwyddiant ei eglwys, lle yr oedd llīaws o ieuengctid yn 1729, fel y crybwyllwyd. Y mae'n dra thebyg mai i'w gydymdeimlad â dynion ieuaingc, a'i fedrusrwydd yn eu harwain, yr ydys i briodoli y llīosowgrwydd o bregethwyr a godasant ym Mhen-y-garn yn ei amser ef, a'r safleoedd uchel a gyrheuddwyd gan rai o honynt ar y maes gweinidogeuthol. Rhai a fedyddiwyd gan Miles Harri oedd y gwŷr hyn:—Benjamin Fychan (Vaughan: y cyntaf a fedyddiodd efe ym Mhen-y-garn), John Andrews, Morgan Edwards, M.A., Thomas Lewis, Daniel Thomas, Thomas Phylips, Dafydd Jones, cydweinidog M. H. am dymmor, a'i olynydd wedyn; ac ym Mhen-y-garn y dechreuodd Miles Edwards bregethu. Bu'r brodyr hyn yn athrofa Trosnant, a chyrheuddodd rhai o honynt enwogrwydd mawr yn y byd crefyddol. Ceir byr nodiadau coffadwrieuthol am danynt, ac am eraill o ysgolheigion yr un athrofa, gan Rupes yn Hanes Athrofeydd y Bedyddwyr, ac yn *Hanes y Bedyddwyr* gan Jos. Thomas a D. Jones. Yn athrofa J. Gruffydd a M. Harri, yn Nhrosnant, y dechreuodd y Dr. Morgan Jones, a'r anfarwol Ddr. Llewelyn, eu gyrfaoedd; ac y mae hyn, mewn cyssylltiad âg amgylchiadau eraill, yn dangos pa mor anheg yw ymddygiad y rhai sy'n anwybyddu hanfod yr athrofa uchod, pan yn dodi hanes athrofeydd y Dywysogaeth. Gelwid eglwys Rhydwilym, yn amser William Jones ac eraill, "Y Coleg," o blegid i līaws mawr o bregethwyr gael eu codi ynddi; ond y mae'n amlwg nad yw'r enw yn llai nodweddol o eglwys Pen-y-garn yn amser Miles Harri. Bywyd ymdrechol iawn a arweiniodd efe, a bu ei lwyddiant, i fesur helaeth, mewn cydweddiad â mawredd ei lafur. Yr oedd yn un o bregethwyr mwyaf derbyniol y cymmanfaoedd, a theithiai yn fynych ac ymhell i'w gwasaneuthu, fel y dengys hanes y cymmanfaoedd gan Joshua Thomas. Ysgrifenai a derbyniai lawer iawn o lythyrau ar fatterion crefyddol, a phethau eraill. Cynhwysai cylch ei ohebiaeth ranau helaeth o Gymru, Lloegr, y Werddon, ac America. Teimlai ddyddordeb mawr mewn crefydd yn ei hagweddion ehangaf, ac edmygid heleuthrwydd ei wybodaeth, purdeb ei deimlad, ac addfedrwydd ei farn i'r fath raddau fel yr ymgynghorid âg ef ar fatterion eglwysig gan wahanol ddosparthiadau ymhell ac yn agos. Wedi bod yn y weinidogaeth am tu a 50 mlynedd, bu farw, fel yr awgrymwyd o'r blaen, yn y flwyddyn 1776, yn 76 oed. Ni chafodd ond cystudd byr iawn. Pregethodd ym Mhen-y-garn y Sabboth diweddaf y bu fyw, ac yr oedd yn cael ei gladdu yn yr un lle y Sabboth nesaf, neu Sul pen yr wythnos. Er ei holl fawredd, a'r parch mawr oedd iddo, ni theimlodd yr eglwys y golled i'r un graddau ag y teimlai rhai eglwysi wedi colli eu gweinidogion. Cyrheuddasai oedran mawr, fel yr oedd tymmor ei ddefnyddioldeb ar derfynu; a pharai y ffaith fod ganddynt ddŷn mor dda ac mor boblogaidd i'w olynu, yr hwn a gydweinidogasai âg ef am tu a thair blynedd, sef yr enwog Dafydd Jones, iddynt ymgymmodi i raddau âg ymadawiad yr hen weinidog llafurus ac enwog.

---

## PENNOD XV.

### EDMUND JONES, WILLIAM PRICHARD, AC ERAILL.

YR enwog a'r hynod EDMUND JONES ydoedd fab i un John Lewis, a'i wraig Catherin Morgan, Pen-y-llwyn, ymhlwyf Aberystruth, sir Fynwy, y rhai oedd yn bobl pur grefyddol, ac yn aelodau o eglwys yr Annibynwyr ym Mhenmain. Ganwyd Edmund ar y 1af o Ebrill, 1702; a chymmerth

* Seren Gomer, 1858, t. 388.
† Greal y Bedyddwyr, 1832, t. 289.
‡ Yr un, 1830, t. 1.

Digitized by Google

ffurf o enw priod ei dad John, sef Jones, yn gyfenw, yn ol arfer y Cymry yn gyffredinol, hyd yn bur ddiweddar. Dull Cymreigaidd ei enw yw **Emwnt ap Ioan**. Dywedir y bwriadai ei rieni duwiol ei ddwyn i fynu yn bregethwr; ac er eu bod mewn sefyllfa isel, rhoddasant gymmaint o addysg ag a allent i'w mab, mewn ysgol fechan, ddinod, a gedwid gan gurad y plwyf. Ymddengys i Edmund wneud y gorau o honi, canys gallai siarad ac ysgrifenu yn wych yn Saesneg cystal a Chymraeg, fel y prawf yr amryw lyfrau a ysgrifenodd yn y ddwy iaith. Ymddengys nad oedd gogwydd yn ei feddwl ef, pan yn bur ieuangc, at bregethu, nac at grefydd ychwaith, a bod ei rieni, o blegid hyny, wedi gwan-obeithio ei weled yn bregethwr. Pa wedd bynag, daeth tro tra dymunol ar ei feddwl pan tu a 19 oed, canys yn 1721 efe a ymunodd â'r eglwys Annibynol a ymgynhullai ar y pryd ym Mhenmain ac Abertryleri.

Yn y flwyddyn 1724, pan oedd efe yn 22 oed, cymhellwyd ef i ddechrau pregethu, â'r hyn y cydsyniodd yntau. Ymddengys bod Miles Harri ac Edmund Jones yn dechrau pregethu o gylch yr un amser, a'u bod yn lled fuan wedi dechrau ar y gwaith hwnw wedi troi i ddadlau yn bur gyndyn, os nad chwerw hefyd; y blaenaf dros fedydd y crediniol trwy drochiad, a'r olaf dros fedydd plant trwy deunelliad, canys gwelsom bod telerau heddwch wedi cael eu cynnyg rhyngddynt (beth bynag am eu derbyn), mewn cyfarfod a gynhaliwyd i'r perwyl ym Merthyr Tydfil, mor forau ag 1728.*

Wedi i E. Jones fod yn pregethu yn ddiwyd am tu a deng mlynedd, ac yn llafurio yn egnïol yn y cyfamser, cystal a chyn hyny, i ehangu ei wybodaeth Ysgrythyrol a chyffredinol, "cafodd ei urddo," fel y dywedir, "yn weinidog cynnorthwyol," ym Mhenmain, yn 1734, ac efe yn 32 oed. Dywedir ei fod wedi priodi yn ieuangc; ond ni fynegir pa mor ieuangc, na phwy oedd ei wraig; ond y mae genym dystiolaeth Whitfield, fel y ceir gweled rhag llaw, yr hwn oedd yn llygad-dyst, ei bod hi, cystal a'i gŵr, yn un o ragorolion y ddeuar. Yr oedd yr un anian yn union a'i phriod, a holl hyfrydwch y ddau oedd gwasanaeuthu Duw, a dedwyddoli dynion. Methasom gael allan i ba le yr euthant i fyw gyntaf ar ol priodi; ond y mae genym sicrwydd eu bod yn preswylio mewn tŷ eu hunain yn 1738, ac y mae'n dra thebyg mai yn ardal Penmain yr oedd eu hannedd.

* Gwel y bennod flaenorol.

Pan ddechreuodd Howel Harris sefydlu mân gymdeithasau crefyddol *(societies)* mewn tai annedd, o gylch y flwyddyn 1736–7, ymddengys y tybiodd yr hen Ymneillduwyr yn y Deheubarth ei fod am droi yn Annibynwr; ac yn gynnar yn 1738, llwyddodd Edmund Jones i gael ganddo addaw myned i'w ardaloedd ef i bregethu. Pan ddeallodd periglor neu gurad plwyfi Bedwellty a Mynyddislwyn hyny, anfonodd y nodyn canlynol ato:—

"Mr. Harris,—Yr wyf yn synu at y rhyddid a gymmerwch o ddyfod i'm curadieuthau i, Bedwellty a Mynyddislwyn. Rhaid i chwi dynu yn ol; os amgen, rhaid i chwi a'r person neu'r personau a'ch gwahoddasant ac a anfonasant am danoch ddisgwyl yr ad-daliad cyfiawn sydd briodol am y fath arferion anghyfreithlawn.

"Yr eiddoch,

"DAVID PERROT.

"*Mynyddislwyn, Mawrth* 17, 1738."

Ymddengys i'r bygythion clerigol hyn ddychryn neu ddigaloni Harris rhag cyflawni ei addewid i E. Jones, ac ysgrifenodd yntau y llythyr canlynol at Harris:—

"Caerloyw, Awst 10fed, 1738.

"Anwyl Syr,—Anfonais un llythyr atoch eisoes, yn dymuno arnoch ddyfod i'r parthau hyn cyn gynted ag y galloch, ac i'm tŷ i,† gan fod genyf genadwri ddymunol i'w thraddodi i chwi, yr hon sy'n dyfod megis arwydd gweledig o gariad yr Arglwydd tu ag atoch, wedi ei anfon gan law Rhagluniaeth; ac o ran dim a'r wn i, y mae'n dyfod fel ernes o drugareddau dyfodol i chwi. Ymddengys bod yr Arglwydd etto yn gwneud Dyffryn Achor yn ddrws gobaith; ac fe allai y canfyddwch bod yr Arglwydd yn myned i dalu i chwi am eich llafur mawr o'i blaid. Rhag na chyrheuddodd y llythyr blaenorol chwi, anfonais hwn i ail adrodd y dymuniad ar i chwi ddyfod i lawr ataf yn ebrwydd. Anfonwch lythyr i mi yn bur fuan, a chaniatewch i mi dri diwrnod i appwyntio i chwi lle y barnaf yn fwyaf cyfleus neu angenrheidiol. Anfonwch y llythyr i Mrs. John Morgan, Abergefenni, wedi ei gyfeirio i mi gyd â phob brys cyfleus. Yr wyf i fod gartref, os yr Arglwydd a'i myn, ddydd Llun nesaf, wedi bod yn Lloegr dros ennyd o amser yn ol.

"Yr eiddoch yn ostyngedig,

"A diffuant yn yr Arglwydd,

"EDMUND JONES.

"O.Y.—Yr wyf yn erfyn ar i chwi drefnu bod ddwy noswaith yn fy nhŷ i. Y mae arnaf eisiau peth amser i ymddiddan â chwi, ac i gyd-drefnu mesurau pa fodd, yn y dull gorau, y gallwn ymosod ar achos y Diafol, a dyrchafu achos ein Harglwydd.

"*I'r Parch. Mr. Howel Harris, yn Tregarth, sir Frycheiniog.—Hwn gyd â phob gofal a brys.*"

Ymhen llai na blwyddyn ar ol hyn, ysgrifenodd E. Jones drydydd llythyr at Howel Harris, yr hwn sy'n dangos bod y cariad mwyaf gwresog, a'r

† Prawf hyn bod Edmund Jones yn cadw tŷ ei hun yn 1738.



Digitized by Google

cydweithrediad mwyaf dymunol rhyngddynt; ac y mae'n wir deilwng o gael ei gofnodi yma:—

"Mai yr 21fed, 1739.

"ANWYL SYR,—Yr wyf wedi bod o amgylch amryw o'ch cymdeithasau fel gwyliwr, i weled pa fodd yr oeddynt yn gweithio, ac a oedd y Diafol yn cynnyg gwneud niwaid iddynt ai peidio; a dywedaf, diolch i Dduw, i mi eu cael oll yn gysurus, a bod eich mam a'ch modryb yn iach. Bûm mewn cymdeithas yn nhŷ eich mam, a chawsom bresennoldeb Duw tu â therfyn y cyfleusdra. Gobeithiaf i mi wneuthur y daith hon yn ol ewyllys Duw, cystal ag ar eich dymuniad chwithau, canys ni chefais gymmaint o bresennoldeb Duw mewn un daith a'r a wneuthum yn ystod y saith mlynedd hyn. Ond yn enwedig yr oedd yn dda iawn arnaf ym Maes-yr-onnen; ar y weddi olaf yn Gwenddwr; ar ddydd yr Arglwydd yn Nhredwstan; a dydd Llun yn Grwyne-Fychan, o'r prydnhawn hyd amser cysgu, yn enwedig yn y gymdeithas, wrth ymddiddan am ysgol Jacob. Y mae eich cyfeillion yn sir Frycheiniog yn dechrau hireuthu am danoch, ïe, y maent yn hireuthu yn bur serchog am danoch. Ond dymunwn roddi i chwi hanes fwy neillduol am ddaioni Duw yn Nhredwstan. Yr oedd yno gynnulleidfa fawr; ac fel yr oeddynt yn rhoddi y 84edd Psalm allan yng ngwaith y Dr. Watts, y rhan gyntaf, dechreuodd fy enaid i wresogi a chynnau, yr hyn a ddilynwyd gan wylo melus. Dodais i fy mhen ar y pulpud, gan ddewis tra'r oeddwn felly na'm gwelent hwy fi. Nid euthum ymhell ar y bregeth, cyn i bresennoldeb Duw gynhyrfu fy enaid i lefaru yn egnïol wrth y bobl, a chynhyrfwyd hwythau. Tra'r oeddynt yn canu y Psalm olaf, cynhyrfodd Duw fy nghalon yn rymus i dywallt fy enaid yn egnïol drosoch at Dduw mewn gweddi, ger eu bron hwy oll; ac yr oeddwn ar frys am weddïo drosoch, yr hyn hefyd a wneuthum. Yr oeddwn yn gweled ac yn teimlo bod Duw yn eich caru, ac y gwnai eich anrhydeddu ger bron y gynnulleidfa fawr honno. Effeithiwyd yn ddwys arnynt, yn enwedig Mrs. Thomas, Gwernddyfrog, yr hon a ddywedodd ei bod yn mawr hireuthu am eich gweled etto. Cefais nerth gan Dduw i weddïo drosoch yn y gymdeithas yng Ngrwyne-Fychan; ac yr oedd rhai yn barod i lefain ar unwaith wrth wrando. Yr wyf yn credu y disgyn bendithion Duw yn gawodau arnoch. Ond wrth roddi'r geiriau hyn allan i'w canu,—

"Fe dwymna'n henaid â'i oludog ddoniau;
Y golomen nefol ddisgyn ac a leinw'r lle;"

ar y geiriau, 'a ddisgyn ac a leinw'r lle,' taniodd fy enaid; a chredaf mai prophwydoliaeth ydoedd o'r hyn a ddilynai, megis ag y daeth i ben.

"Y mae'r warant a godwyd yn eich erbyn wedi myned yn ddirym. Ni fynnai'r Cynghorwr Gwynn ymyryd â hi, na neb o'r Ynadon, oddi eithr yr Ynadon clerigol; a sylwyd bod Price Davies yn arbenig yn eich erbyn; ond anghefnogwyd hwynt, a sylwyd bod arnynt gywilydd o'u hymddygiad. Bu agos i'r Periglor James, o Lanarth, yr hwn oedd mor ymdrechgar yn eich erbyn, a boddi ychydig amser yn ol, yr hyn sydd deilwng o sylw. Dymunais ar bobl ieuaingc y cymdeithasau weddïo yn neillduol dros y boneddigion a safasant o'ch plaid. Y mae'r llyfrau wedi dyfod i dŷ eich mam.

"Gorphwysaf yr eiddoch yn garedig yn yr Arglwydd,

"EDMUND JONES.

"O.Y.—Anfonais lythyr bob un i chwi, Mr. Whitfield, a Mr. Seward, y rhai hyderaf a dderbyniasoch oddi wrth Mr. Hutton, y llyfrwerthwr, er pan aethoch i Lundain.

"Y mae un Hannah Parri, o Lanfron, wedi cynnyg ymuno yn Nhredwstan; a'r rheswm a ddyry dros hyny i Mr. Williams a minnau ydyw, nas gallai gael dim o bresennoldeb Duw yn yr eglwys, a'i bod wedi ei gael mewn cyfarfod ym Maes-yr-Onnen, yn enwedig wrth eu gwrando yn y sacrament. Cynghorais hi i aros nes y clywem eich meddwl chwi ar yr achos, ond ni thueddid hi i aros.

"Yr eiddoch, E. JONES.

"*I Mr. Howel Harris, ynghymdeithas y Parch. Mr. Whitfield, i'w adael gyd â Mr. James Hutton, Llyfrwerthwr, ger llaw Temple Bar, Llundain.*" *

Dechreuodd Edmund Jones yn fuan ar ol cael ei urddo fyned i bregethu yn rheolaidd yn ardal Pont-y-pwl, lle y casglodd gynnulleidfa, neu eglwys, mewn amser. Yn 1740, ymsefydlodd ef a'i wraig rinweddol mewn tŷ bychan a elwid Trans, ar lechwedd bryn ger llaw Pont-y-pwl; ac yno y preswyliodd y ddau hyd ddydd eu marwolaeth. Yn y flwyddyn ganlynol, 1741, ymosododd ar y gorchwyl pwysig (pwysig *iawn* yr amser hwnw) o adeiladu addoldy i'r gynnulleidfa a gasglasai efe yn yr ardal. Yr oedd y rhan fwyaf o aelodau yr eglwys yn rhy dlodion i roddi iddo fawr o gynhorthwy at y gwaith. Ar y 7fed o Awst, 1741, efe a ysgrifenodd lythyr maith at Howel Harris, oedd yn Llundain ar y pryd, yn yr hwn, ym mysg llawer o bethau eraill, y dywed fel y canlyn:—

"Yr wyf yn awr yn dechrau casglu rhyw gymmorth at adeilady tŷ cyfarfod, ac âf o amgylch y cyfarfodydd a'r cymdeithasau, lle y mae genyf ryw gydnabyddiaeth, a lle y caf dderbyniad. Od oes genych gydnabyddiaeth â rhai o weinidogion a phobl Ymneillduol, yr wyf yn erfyn arnoch ofyn iddynt am ryw gynhorthwy bychan tu ag at adeiladu ein tŷ addoliad; rhywbeth a allant yn hawdd ei hebgor. Cynhygiwch y peth yn unig i'r rhai y gellwch ddirnad bod ganddynt ffydd i gredu y cânt eu gobrwyo, ac nid i neb arall. Os gwnewch i mi ryw wasanaeth yn y ffordd yma, bydd yn garedigrwydd mawr mewn gwirionedd, ac fe allai y gobrwyaf chwi rywbryd; ond os na wnaf fi, fe wna Duw. Y mae mwy o'n gweinidogion Ymneillduol yn gyfeillion i'r Methodistiaid nag a grybwyllwch yn yr ochr yma i'r wlad, heb law Mr. Harri Dafis, Mr. Phylip Puw, a minnau, sef Mr. Lewis Jones, Mr. Joseph Simmons, Mr. Owen Rees, Mr. William Williams, Mr. Cole, &c.; ond fe allai na weithredant lawer; eithr gwyddoch eiriau ein Harglwydd, "Y neb nid yw i'n herbyn, o'n tu ni y mae.'" †

Nis gallasom wybod pa faint o gymmorth iddo a gafodd Harris yn Llundain. Y mae'n ddïammau i'r gŵr da hwnw wneud ei orau drosto; ond gellir casglu nad oedd hyny yn llawer. Yr oedd ganddo ef 40p. o arian ar y pryd yn ei feddiant; a dywedir bod *chwe swllt* yr amser hwnw yn gyfartal i *bunt* yn awr. Os felly, yr oedd y swm oedd ganddo yn gyfartal i tu a 133p. o'n harian ni. Ac o'r swm hwnw rhoddes 30p., sef tair rhan o bedair o'i holl gyfoeth, at adeiladu y capel; ond nid oedd hyny, a'r ychydig a gafodd gan eraill, yn ddigon i orphen y gwaith; a dywedir iddo werthu gwerth 15p. o'i lyfrau er cael yr hyn oedd angen-

* Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 366–8.
† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 369.

Digitized by Google

rhaid i'w orphen. Adeiladwyd y capel ar lanerch gyferbyn a'r Trans, cantref E. Jones a'i wraig, a galwyd ef Ebenezer. Y mae ychydig o wahaniaeth yn y mynegiadau ynghylch maint ei gyflog blynyddol. Dywed Whitfield, fel y ceir gweled rhag llaw, mai tu a 6p. y flwyddyn a dderbyniai; ond dywed y Dr. T. Rees ei fod yn derbyn tu a 10p. oddi wrth yr eglwys, cyfartal i tu a 33p. o'n harian ni, a rhoddion achlysurol o'r trysorfäu a chan ychydig gyfeillion neillduol; ond y fath oedd ei duedd elusengar, fel y ceir achlysur i sylwi etto, fel y rhoddai yn fynych y geiniog olaf yn ei feddiant i'r tlawd; ond gofalai Rhagluniaeth, megis yn wyrthiol, am wneud ei wir anghenion i fynu.

Pan welodd Edmund Jones, a'r hen Ymneillduwyr Annibynol eraill, tu a'r flwyddyn 1741, nad oedd Howel Harris a'i bleidwyr Eglwysig yn bwriadu i'r cymdeithasau (*societies*) a sefydlasid yn y wlad trwy ei bregethiad ef, Daniel Rowlands, ac eraill o'r Eglwyswyr deffröedig, fod yn Annibynol, ond y bwriadid sefydlu sect newydd, syrthiodd yr hen Ymneillduwyr allan â hwynt i raddau pell; ac ymddengys mai un o'r rhai bleunaf a mwyaf ymdrechgar yn eu herbyn oedd Edmund Jones. Aeth efe ar ymweliad i amryw o'r cymdeithasau a gasglasid yn benaf trwy bregethiad Harris a'i gyfeillion Eglwysig, a llwyddodd i wneud tair neu bedair o honynt yn eglwysi Annibynol. Teimlodd Harris yn anfoddlawn at hyny, ac anfonodd y gwrthdystiad addfwyn canlynol ato:—

"Caerodor, Awst 14ydd, 1742.

"Anwyl Frawd,—Derbyniais eich dau lythyr yma yng Nghaerodor, am yr rhai yr wyf yn dïolch i chwi. Gwelaf fod ein syniadau yn gwahanieuthu mor bell, ynghylch trefnu yr anwyl ŵyn, fel nas gallwn fwynhau y fath gyttundeb allanol ag a fwynhasom; ond hyderaf y bydd i'n hanwyl Arglwydd gynnorthwyo pob un o honom i gyddddwyn â'n gilydd. Yr wyf yn credu am danoch chwi (ac felly yr wyf wedi meddwl a dywedyd ymhob man, cyn belled ag y cofiaf) eich bod yn gwneuthur yr hyn a ystyriwch yn ewyllys Duw; a hyderaf eich bod chwithau yn meddwl felly am danaf finnau. Er y dichon y meddyliwch nad yw rhai mesurau a gymmeraf yn iawn, etto mi wn na byddwch ddigofus ataf; a phe byddech felly dros ychydig amser, ni byddwch felly yn faith, canys yr wyf yn hyderu y cyd-deyrnaswn i bob tragywyddoldeb. Ac am yr hyn a wnawn yn awr yn anghywir, tosturia ein Harglwydd grasol wrthym, canys y mae pob un o honom yn meddwl ein bod yn ei ddilyn Ef. Goddefwch i mi ddywedyd yn ostyngedig, a chyd â phob cariad a'r a feddaf, yr hwn sydd wirioneddol, nas gallaf, o herwydd rhyw resymau, gyttuno â rhai o'r mesurau a gymmerasoch. Nid wyf yn dywedyd eich bod yn anghywir; ond wedi meddwl yn ddifrifol, gweddïo yn ddyfal, pwyso pethau yn bwyllog, ac ymdrechu ystyried llais Duw, yr wyf yn credu nad oedd y gweithrediadau yn Defynog, y cynnyg ger llaw Castell Nedd, ac yn sir Wilts, ddim yn deg a chyfaddas. O na fyddwch ddigllawn! yn hytrach, teflwch y llythyr ymaith. Yr wyf yn ysgrifenu yn ostyngedig a gwir gariadus, gyd â'r holl barch sydd ddyledus i was Crist a phlentyn Duw. ac ymha beth bynag yr ymddygais yn anheilwng atoch, attolwg gweddïwch drosof, a maddeuwch i mi. Ni fynnwn yn ewyllysgar ddilyn fy hunan. Bûm yn meddwl yn fynych ysgrifenu atoch, neu eich gweled; ond ofnwn fy yspryd fy hun, rhag nad ymddygwn atoch, neu nas traddodwn fy meddwl yn yspryd ein Harglwydd. Yr wyf yn dewis ei adael i'r Arglwydd. Yn awr, yr ydych wedi cael y blaen arnaf trwy ysgrifenu ataf yn gyntaf, a galluoger finnau i anfon atoch fy meddyliau yn ostyngedig, yn addfwyn, ac yn gariadus. Yn gyntaf,—Am yr ymraniad yn Defynog, tybiais nad oedd y peth ynddo ei hun yn iawn; nad attebai y rhesymau drosto mewn barn i'r gwrthddadleuon yn ei erbyn; a'r canlyniadau niweidiol oedd o'i ddilyn atom ni, ac at yr annuwiol;—1af, atom ni, er gwanhau ein dwylaw trwy sefydlu gelynion, a chreu rhagfarn mewn meddyliau gonest rhag dyfod i'n gwrando, trwy sefydlu yn awr yr hyn a ddrwgdybid am danom o'r dechreuad, ein bod yn myned o amgylch i sefydlu plaid, yr hyn y parheais o'm calon gyd â phob difrifwch i'w wadu, canys ni bu genyf fi yr amcan hwnw erioed;—2il, i gadarnhau gelynion â rhesymau yn ein herbyn, i'n herlid, a'n profi yn rhagrithwyr hunan-ymgeisiol, ac yn gynhyrfwyr yn yr eglwys, ac felly i ddarpar iddynt a'u cyflenwi â rhesymau newyddion i berswadio yr anwybodus rhag dyfod i'n gwrando;—3ydd, dylanwada hyn yn fwy arnom, am nad yw'r gwaith ond ar ei ddechreuad;—4ydd, am mai dyma'r ffordd y mae'r Arglwydd wedi ein galw, a dechrau dyfod i'n plith, a'n bendithio. Nis gallaf fi weled yn ddigonol ei fod ef yn bwriadu dwyn unrhyw newidiad.

"Am y dull y dygwyd y peth o amgylch, gwyddoch ei fod y fath ag a roddai i ni achos cyfiawn i dramgwyddo, gan na ddanfonasoch at Mr. Gruffydd Jones [Llanddowror], Mr. Rowlands [Llangeitho], na minnau, fel y gallem bwyso pethau, ymresymu yn bwyllog, a threulio peth amser mewn gweddi ynghyd yn ei gylch, gan mai hwn oedd y cam cyntaf o'r fath yng Nghymru, a chan fod y rhan fwyaf o'r bobl wedi eu galw trwy fy ngwasanaeth i. Mi a wn, os dodwch chwi eich hun yn ein lle ni, y canfyddwch nad oedd y peth yn hollol deg, mwy nag y byddai i minnau, pe deuwn a chymmeryd eich pobl chwi yn ddirgel, er iddynt anfon am danaf.

"Gyd â golwg ar hyny yng Nghastell Nedd, nis gallaf fi weled bod galwad eglur ar ein cyfeillion fyned a gwneud sect newydd, gan lwyr adael yr Eglwys [Sefydledig]. Nis gellir profi bod Thomas yn Ddeistiad; a phe byddai, o ran ei athrawiaeth, ni niweidiai neb o honom ni, canys nid oes neb yn myned i'w wrando, o leiaf hyd y gwn i, ond yn unig i dderbyn yr ordinhâd ganddo. Tystiolcuthais i yn gyhoeddus yn erbyn ei athrawiaeth, fel y gwyddant oll, yr wyf yn credu, un dydd Sul, cyn gynted ag y deuthum allan o'r eglwys, yn y ffordd fawr, ger llaw y fynwent; ac ymhellach, y mae gweinidog arall o'n heglwys, yr hwn sy'n pregethu athrawiaeth iachus yn agos yno, ac yn eu derbyn i gymmundeb. Gyd â golwg ar bregethu y gair, gallant fyned i wrando i bob man y cyfarfyddont yr Arglwydd, ac y gwesgir hwynt ato. Pe cymmerai yr Arglwydd ei Yspryd o'r ordinhâd, galwai hyny hwynt oddi yno hefyd; ond nis gallaf fi weled bod yr adnod yn 1 Cor. v. 11, yn gwahardd yn eglur mewn un modd i fwyta'r bara ysprydol gyd â'r halogedig neu'r diadgenedledig, fel ag i wrthbwyso testynau a rhesymau eraill sydd drosto. Ymunai ein Hiachawdwr â'i ddisgyblion mewn addoliad, a chyfranogai o'r ordinhadau gyd â rhai o'r cyfryw gymmeriad. Tyf yr efrau bob amser gyd â'r gwenith, a bydd morwynion ffol ym mysg y rhai call. Ein baich ydyw, mai felly y mae; a gellwch deimlo yn ddwys yn eich enaid ei hun; ond ni wnaed yn eglur i mi hyd yn hyn y gall pob person unigol yn ein hamser ni fyned ymhellach er mwyn gwellâu hyn nag yr ydym ni wedi myned, heb

fod yn euog o dori heddwch, a chreu ymraniadau, yr hyn nis gellir profi yn eglur ei fod yn cael ei wneud er mwyn Crist. Y mae llawer o bethau yn awr yn faich i mi ymhlith yr holl sectau, y rhai, pe'm gosodid i mewn awdurdod, yr ymdrechwn eu diwygio; ond yn y sefyllfa yr wyf fi ynddi, yr wyf yn gostyngedig gredu nas gelwir arnaf ond yn unig i alaru yn ddirgel a chyhoeddus o herwydd yr hyn a welaf yn gyfeiliornus mewn egwyddor ac ymarferiad ymhlith yr holl sectau. O berthynas i wrando y gair, yr wyf yn cyfarwyddo pawb gyd â difrifwch gostyngedig i fyned—1. Lle y pregethir yr efengyl yn fwyaf pur; 2. Lle y pregethir fwyaf i'w calonau hwy; 3. Lle y canfyddont fod yr Arglwydd yn gweithio yn fwyaf grymus ar eu heneidiau; 4. Lle y pwysir fwyaf arnynt, yr arweinir, y porthir, y cedwir hwy oddi wrth gysgadrwydd, ac y cymhellir hwy i gynhyddu mwyfwy i gydymffurfio â Duw, ac allan o honynt eu hunain, ac yspryd y byd. O berthynas i'r ordinhâd, yr wyf yn cynghori pawb, er mwyn heddwch, i aros hyd yr eithaf lle y maent, pa un bynag ai yn yr eglwys ai yn y cyfarfod; a phan y llwyr argyhoedder hwy fod Duw yn galw arnynt i ymneillduo, ac na bônt yn cael eu harwain mewn un modd gan hunan neu Satan, yna, ar iddynt gymmeryd rheol cariad efengylaidd, a dilyn yr Arglwydd."*

Y mae'n amlwg mai prif amcan Howel Harris oedd llenwi yr Eglwys Sefydledig â dynion duwiol; ond yr oedd ei waith yn pregethu heb urddau eglwysig, ac mewn lleoedd heb eu cyssegru gan esgobion, ac yn cynnal cymdeithasau neillduol mewn tai annedd, a'r cyffelyb, yn milwrio yn uniongyrchol yn erbyn y cyfryw amcan, fel y profodd sefydliad Methodistiaeth yn bur fuan ar ol hyny;† ac y mae'n amlwg bod Edmund Jones, ac eraill o'r Annibynwyr, yn rhagweled y canlyniad, ac iddynt ymdrechu, hyd y gallent, i wneud Annibynwyr o ddychweledigion Harris, fel y cwyna efe ei hun yn y llythyr uchod. Llwyddodd E. Jones i sefydlu eglwys Annibynol o'i ddychweledigion ef, gan mwyaf, os nad yn gwbl, yn Defynog; ac adeiladwyd capel Annibynol yn lled fuan wedyn yn y Brychgoed, yn yr un plwyf, ac y mae'r achos Annibynol yn para'n llewyrchus yno hyd y dydd hwn. Ymddengys i'r un peth gael ei wneud yng Nghastell Nedd, a manau eraill.

Nid oes genym hanes i un llythyr basio mwyach rhwng Howel Harris ac Edmund Jones, na neb arall o'r Annibynwyr; a gellir casglu i'r gyfeillach rhyngddynt lwyr ddarfod yn fuan ar ol hyn, a pharhaodd yr oerfelgarwch rhwng eu holynwyr, sef yr Annibynwyr a'r Methodistiaid, hyd yn lled ddiweddar; ond yn awr, y mae cyfeillach bur ddymunol rhyngddynt, fel y gweddai fod rhwng deiliaid yr un Penadur bendigedig, "Tywysog tangnefedd."

Ymhen tu a phum mlynedd ar ol i Edm. Jones ymsefydlu yn y Trans, fel gweinidog Ebenezer, Pont-y-pwl, cyhoeddodd y llyfr canlynol, y cyntaf, hyd y gallwn ganfod, o'i gyfansoddiadau:—

"Dail Pren y Bywyd: Neu, Iechydwriaeth y Cenhedloedd trwy Efengyl Iesu Grist. Wedi ei hagorŷd a'i chymmwyso mewn Pregeth. Ar Dat. xxi. adn. 2, a'r Rhan ddiweddaf. Pennau'r hon a ddysgwŷd mewn Breuddwŷd, yr 20fed o Fis Mawrth, 1742. Gan Solomon Owen Cradock, Bugail yng Nghymru, ac a scrifenwŷd gan mwyaf ganddo ei hun, yn Saeson-aeg. Ac a wnaed yn awr yn gŷhoeddus, er Llês Cyffredinol i Genedl y Cymru, gan Edmund Jones, Gweinidog yr Efengyl. . . M.DCC.XLV."‡

Yr oedd y bregeth yma yn taro archwaeth E. Jones i'r dim, yn enwedig gan i'w phenau gael eu dysgu i'w hawdur mewn breuddwyd, canys yr oedd efe yn gredwr cadarn a chydwybodol mewn breuddwydion, ymddangosiad ysprydion, Tylwythion Teg, a'r cyffelyb, fel y ceir achlysur i grybwyll etto; ac y mae'n debyg mai o blegid hyny a'r cyffelyb y galwyd ef yn "Hen Brophwyd Pont-y-Pwl."

Ymhen ennyd ar ol hyn, clywodd Whitfield am dduwioldeb a hynodrwydd Edmund Jones a'i wraig, ac aeth atynt unwaith i'r Trans i lettya noswaith yn eu cymdeithas; ac mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo wedyn yn Abergefenni, ar y 27fed o Fai, 1749, efe a ddywed fel hyn:—

"Ar ddydd Iau, gwelais Mr. E. J., y gweinidog Ymneillduol, y lleferais o'r blaen am dano; a chanfyddais ef mewn gwisg hynod o wael. Y mae'n ddŷn o'r fath deilyngaf; ac o wir zel dros Dduw, ryw amser yn ol, gwerthodd werth 15p. o'i lyfrau i orphen tŷ cyfarfod bychan, yn yr hwn y pregetha. Nid yw yn cael ond 3p. y flwyddyn o'r drysorfa,§ ac o gylch yr un faint oddi wrth ei bobl. Y mae'n byw yn bur isel, ond yn mwynhau llawer o Dduw, ac yn deall cymmaint o ranau ffugyrol yr Ysgrythyr a neb yn y byd y gwn i am dano. Y mae efe yn Zacharïas, a'i wraig yn Elisabeth. Byddai yn dda ped anrhegid hwy â phedwar neu bum gini. Y fath olygfa a fydd yn y dydd mawr! Y fath nifer o offeiriaid cyfoethog a safant mewn erchyll ddychryndod, tra'r aiff gweinidogion tlodion, dirmygedig, a ffyddlon Crist i mewn, ar ol eu holl drallodion, i lawenydd eu Harglwydd!"||

Dywedir y tarawyd Whitfield â'r fath foddhâd wrth weled dedwyddwch teuluaidd Edmund Jones a'i wraig rinweddol, pan yn llettya dan eu cronglwyd syml a dïaddurn, fel y penderfynodd yntau ei feddwl i edrych allan yn ddïoed am gymhares bywyd. Cyn iddo adael y gymmydogaeth, penderfynodd gymmeryd un Mrs. James, o Abergefenni, yn briod; ond cafodd allan, er ei ofid, pan yn rhy ddiweddar, nad Mrs. Jones oedd Mrs. James.

Yn y flwyddyn ganlynol, 1750, cyhoeddodd E. Jones bregeth Seisnig, Ioan v. 28, 29, ar farwol-

* Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 383–4; The Trevecca MSS.
† Gwel pen. ii. o'r llyfr hwn.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 402.
§ Trysorfa *(fund)* yr Ymneillduwyr yn Llundain, y mae'n debyg.
|| Whitfield's Letters, ed. 1772, p. 260.

Digitized by Google

aeth "Mr. Evan Williams,* Pregethwr yr Efengyl yng Nghymru, at yr hon y chwanegwyd peth o Hanes ei Fywyd a'i Farwolaeth." Y digwyddiad pwysig nesaf, heb law ei deithiau pregethwrol llïosog, y rhai a ddeuant dan sylw rhag llaw, oedd marwolaeth ei "anwyl briod," fel yr arferai efe ei galw, ar y 1af o Awst, 1770, yr hyn a fu'n archoll mor ddofn i'w galon fel nas gellir ei disgrifio. Er iddi farw 25 mlynedd o'i flaen ef, prin y gallai ei henwi byth wedyn heb i'w lygaid lifo gan ddagrau, megis yn ddïarwybod iddo. Pan yn myfyrio ar ddedwyddwch y nef, mynych y rhagolygai y dedwyddwch a fwynhai wrth ei chyfarfod hi yno. Arferai ddywedyd, "Ni fynnwn er hanner y nefoedd beidio ei chyfarfod hi yno."

Yn 1777, cyhoeddodd ddwy bregeth Seisnig ar "Wallt Samson;"† yn 1779, cyhoeddodd lyfr Saesneg, yn cynnwys "Hanes Plwyf Aberystruth;"‡ yn 1781, cyhoeddodd ddwy bregeth Seisnig ar "Arch Noa;"§ ac yn 1782, cyhoeddodd gyfieithiad Cymraeg o'r ddwy bregeth ar yr "Arch."‖ Yn 1785, cyhoeddodd bregeth Gymraeg ar "Oleuni yr Efengyl;"¶ ac yn 1786, cyhoeddodd bregeth Gymraeg ar "Wallt Samson,"** cyfieithiad, ond odid, o un o'r ddwy bregeth Seisnig a gyhoeddasai efe yn 1777. Dyna ei holl lafur llenyddol, hyd y canfyddwn ni, heb law ei "Hanes Drychiolaethau," yr hwn yw'r hynotaf, fel yr ymddengys, o'i holl gyfansoddiadau, er bod rhai eraill o honynt hefyd yn bur hynod, yn enwedig ei "Wallt Samson" a'i "Arch Noa." Nid yw *Llyfryddiaeth y Cymry* yn son am ei "Hanes Drychiolaethau," ac ni ddywed ei fywgraphwyr pa bryd yr ysgrifenwyd nac y cyhoeddwyd ef; ond dywedant fod yr "Hen Brophwyd," yn 1780, pan oedd ar fin ei 78 oed, yn prysur gasglu enwau er ei roddi yn y wasg. Fe allai mai ar wahanol amserau, yn ystod ei fywyd maith a llafurus, yr ysgrifenodd efe y llyfr rhyfedd hwn. Dywedir ei fod yn cynnwys hanes ymddangosiad ysprydion yn sir Fynwy yn neillduol, a thrwy Gymru yn gyffredinol, ac na ddylai neb o ewynau gweiniaid ei ddarllen wrth ganwyll ar ddechreunos tywyll yn y gauaf."††

Parhaodd yr "Hen Brophwyd" yn bur fywiog a defnyddiol hyd y diwedd. Teithiodd tu a 400 milltir ar ei draed trwy Ogledd Cymru, gan bregethu ddwywaith bob dydd, pan oedd efe yn 80 oed. Ond er cryfed oedd ei gyfansoddiad, pallodd o'r diwedd, a chyfyngwyd ef i'w dŷ, a chan mwyaf i'w wely, dros flwyddyn cyn iddo farw. Dïoddefodd boenau dirdynol yn ei gorph yn ystod yr wythnos ddiweddaf o'i fywyd; ond yr oedd ei feddwl, nid yn unig yn dawel, ond hefyd yn orlawn o fwynhâd. Pan ofynodd Mr. Jayne, un o ddïaconiaid eglwys Ebenezer, iddo, ychydig oriau cyn ei farw, "A oes ofn marw arnoch chwi, Mr. Jones bach?" Agorodd ei lygaid, ac er ei fod er ys oriau cyn hyny heb allu llefaru dim, dywedodd gyd â phwyslais nodedig, "Ofn marw arnaf fi! Nac oes: yr wyf yn adnabod Iesu Grist yn rhy dda i fod arnaf ofn marw. Y mae marw

* Mab ydoedd Evan Williams i Evan Williams a Gwenllian Ifan, o Aber-craf, ymhlwyf Ystrad Gynlais, yn sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef ar y 6ed o Ionawr, 1719. Argyhoeddwyd ef yn ieuangc dan bregethiad Lewis Jones, un o bregethwyr yr Annibynwyr, a dyfnhawyd ei argyhoeddiad trwy ddarllen llyfrau Cymraeg crefyddol a gyhoeddid yn yr oes honno. Ymunodd â'r Annibynwyr yng Nghwm Llyfnant, neu Llyngell, dan weinidogaeth Roger Howel, yn 1739, pan yn 20 oed; ond o blegid y tybiai bod Howel, a'r eglwys yn y lle, yn gwyro oddi wrth symledd yr efengyl, efe a ymunodd â chymdeithas Daniel Rowlands a Gruffydd Jones, Llanddowror; eithr ymddengys nad oedd yn meddu gwroldeb ac egni y gwŷr enwog hyny, ond mai dŷn llwfr a digalon ydoedd, er y dywedir ei fod yn ddŷn duwiol iawn, ac yn bregethwr da a doniol. Yn 1742, anfonodd Gruffydd Jones ef i ardal Pwllheli, yn sir Gaernarfon, i gynnyg cadw un o'r Ysgolion Rhad Symmudol yno, ac i bregethu, neu "gynghori," fel y dywedid; ac yr oedd yno gynghorwr arall yr un amser, a elwid John Jones, o'r Penrhyn, Llaniestyn. Nodwyd y ddau allan gan yr erlidwyr i'w dal a'u baeddu, a llwyddasant i gael gafael ar John Jones. Ar ol hyny, ymroisant i chwilio am Evan Williams. Y lle tebycaf i'w gael oedd y Tyddyn Mawr, am fod y lle hwnw yn adnabyddus eisoes fel prif loches y "Pengryniaid." Daeth yr haid ddireol ac erlidgar i'r Tyddyn Mawr, a John Jones mewn dalfa ganddynt, a chwiliasant y tŷ yn fanwl am Evan Williams. Ond yr oedd y teulu wedi cael amnaid blaenorol o'u bwriad, a gwnenthant eu gorau i'w siomi yn eu hamcan barbaraidd, a llwyddasant hefyd i gyflawni eu bwriad trwy ddodi Evan Williams mewn cwpwrdd mawr a chlo arno. Wedi i'r erlidwyr chwilio llawer, a methu ei gael, aeth un o honynt at y cwpwrdd, gan ddywedyd, "Hwyrach mai dyma lle mae o," ond aeth ymaith heb wneuthur ychwaneg; ac i wneud siomiant yr erlidwyr yn fwy, dïangodd John Jones ymaith yn ddistaw tra yr oeddynt yn chwilio am Williams, yr hyn a'u ffromodd yn aruthr.

Dychrynodd Williams, druan, gymmaint y pryd hyny fel y penderfynodd ddychwel adref yn ddïoed i'w wlad ei hun yn y Deheubarth. Dywedir i'w iechyd gael y fath ysgytiad gan y dychryndod crybwylledig fel nad ymadferodd byth i'w gyflawn iechyd. Disgynodd arno y fath lwfrdra ac ofn fel y tybiai dros ryw dymmor bod ei fywyd mewn perygl bob awr. Danfonwyd ef ran o'r ffordd gan ei gyfeillion ar hyd y nos; ac yr oedd y fath fraw ynddo hyd nes y croesodd yr afon Dyfi, a thirio yn y Deheubarth, fel y tybiai bod pawb a welai am ei ddal a'i lofruddio.

Wedi iddo gyrraedd adref, ail ymunodd â'r Annibynwyr yn Nefynog, eglwys a sefydlasid gan Edmund Jones, yr hwn a'i calonogodd i bregethu. Ar y 4ydd o Hydref, 1746, ac efe yn 26 oed, aeth i athrofa Caerfyrddin; a thra y bu yno, arferai bregethu bob dydd cyntaf o'r wythnos o ddeutu Caerfyrddin, ac yn fynychaf yng nghapel Glan-dwr, yn sir Benfro, lle yr oedd hen weinidog a'i enw John David. Bwriadwyd ei ordeinio yno fel cynnorthwywr i'r gŵr hwnw; ond daeth galwad daer ato oddi wrth eglwys Annibynol yng Nghaernarfon, ac yno yr aeth ar y 7fed o Fedi, 1774, lle y bu hyd y Nadolig, pan y dychwelodd yn ol i'r athrofa. Pa wedd bynag, er bod ei gyfansoddiad naturiol yn gryf, cynhyddodd yr afiechyd a achoswyd gan y dychryn a gafodd yn y Tyddyn Mawr, fel y bu farw ar y 19ydd o Awst, 1748, yn 29 oed.—Some Acc. of the Life and Death of E. Williams, by Edm. Jones; Drych yr Ams., t. 67; Han. Ymneillduaeth, D. Morgan, t. 253; Meth. Cymru, cyf. ii., t. 126; Llyfr. y Cymry, t. 422.

† Llyfr. y Cymry, t. 584. ‡ Yr un, t. 594. § Yr un, t. 594.
‖ Yr un, t. 606. ¶ Yr un, t. 610. ** Yr un, t. 626.
†† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 434; En. Cymru, I. F., t. 582.

Digitized by Google

ynddo ei hun yn chwerw i'r cnawd; ond nid wyf fi yn ei ofni." Pan ofynodd un arall iddo pa fodd yr ymdeimlai, attebodd yntau, gan ddywedyd, "Y mae'r wlad nefol i'w gweled yn eglur: nid oes un cwmmwl na braw rhyngof fi a'r gogoniant nefol." Fel hyn y gorphenodd y patriarch enwog hwn ei yrfa ddeuarol ar y 26ed o Dachwedd, 1793, yn y 92fed flwydd o'i oedran, wedi bod yn pregethu am 69 mlynedd. Claddwyd ef wrth gapel Ebenezer, a thraddodwyd ei bregeth angladdol gan Mr. John Gruffydd, Abergefenni, oddi wrth 2 Tim. iv. 7, 8, testyn a ddewisasid ganddo ef ei hun ychydig cyn ei farwolaeth.

Yr oedd Edmund Jones yn un o'r cymmeriadau hynotaf yn ei oes, a gwnaeth iddo ei hun enw anfarwol. Nid trwy rym ei alluoedd meddyliol, ei hyawdledd fel pregethwr, na'i ddysg y tragywyddolodd efe ei enw; ond trwy ei lafur dibaid, ei ymlyniad gafeulgar wrth yr athrawieuthau neillduol y credai efe eu bod yn Ysgrythyrol, a'i dduwioldeb seraphaidd. Nid oedd heb ei wendidau, a'r rhai hyny yn amlwg iawn yn ei hanes. Ymddengys ei fod yn llawer rhy anffaeledig, byrbwyll, ac unbeneuthol yn ei ymwneud âg achosion yr eglwys y perthynai iddi; ac oni buasai ei fod yn ddŷn anghyffredin o ragorol mewn pethau eraill, ni oddefasid hyn ynddo. Yr oedd hefyd yn hynod o hygoelus, fel y dengys ei lyfr ar "Hanes Drychiolaethau," a llawer rhan o "Hanes Plwyf Aberystruth." Credai y chwedlau mwyaf anhygoel am ymddangosiad ysprydion, canhwyllau cyrph, bwcïod, a'r Tylwyth Teg, mor ddïysgog ag y credai yr efengyl. Credai bod y cythraul yn ei aflonyddu yn ei wely, a bod yr eppil ddu yn trigo'n wastad mewn cŵn a chathod; o herwydd paham, nis gallai oddef y creaduriaid hyny yn agos ato. Pan ymwelai â chyfaill, erfyniai arno rwymo ei Sataniaid nes yr elai efe ymaith. Os deuent i'r addoldy, nis gallai yngan gair nes i Dafydd Josua, y pastynwr swyddogol, eu bwrw allan; ac os cyfarfyddai â hwynt ar y ffordd, mawr a fyddai ei arswyd. Cyfarfu unwaith â chi William Jayne, y dïacon y cyfeiriwyd ato eisoes. Cyfododd ei fugeilffon, gan feddwl gwrthwynebu y diafol; ond yn lle cilio oddi wrtho, neidiodd y dieflyn ci, gan afael yn ei bastwn â'i ddanedd, nes y dolefai yr "Hen Brophwyd" mor druenus a phe buasai haid o gŵn annwn ar ei sodlau. Credai bod pob hen wraig annuwiol, yn enwedig os digwyddai ei hwynepryd fod yn lled hagr, ac ychydig farf yn tyfu ar ei gên, yn rheibes neu ddewines, ac ymgadwai mor bell ag y gallai oddi wrth bob un o'r fath. Adroddwyd yr hanesyn canlynol, mewn modd difyrus, gan Mr. Thomas, Penmain, wrth un o awduron *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*:—

"Ychydig amser cyn ei farwolaeth, aeth Edmund Jones i dalu'r ymweliad olaf âg ardal Penmain. Treuliodd yno amryw ddiwrnodau, gan bregethu bob nos mewn gwahanol dai annedd. Elai Thomas gyd âg ef o fan i fan trwy'r gymmydogaeth. Un prydnhawn, pan yn myned trwy bentref Crumlin, galwodd dynes ar eu hol, a deisyfodd arnynt droi i dŷ yno, lle yr oedd hen wraig yn glaf iawn, i ddarllen a gweddïo. Gofynodd E. Jones, yr hwn a adweunai bawb yn y pentref, pwy ydoedd. Pan ddywedwyd ei henw wrtho, 'Gweddïo gyd â honyna!' eb efe, 'na weddïaf fi: y mae'r hen greadures yn *witch* [dewines]. Ceisiai Thomas ei berswadio i fyned i'r tŷ, ond nid elai ar un cyfrif. Pan welodd fod Thomas yn awyddu am fyned, dywedodd wrtho, 'Wel, os wyt ti yn awyddus i weddïo gyd â hi, dos i mewn, a minnau a safaf wrth y drws.' Felly y bu. Yr oedd gwely yr hen wraig glaf mewn ystafell fechan ar y llawr, a'r ddeuar oddi allan o fewn troedfedd i waelod y ffenestr, yr hon oedd yn agored er mwyn i'r glaf gael awyr. Safai E. Jones wrth ddrws yr ystafell, ac aeth Thomas ar ei liniau rhwng gwely yr hen wraig a'r ffenestr agored, a dechreuodd weddïo. Pan oedd ar ganol ei weddi, daeth bytheuad mawr at y ffenestr o'r tu allan, gan osod ei ddau droed blaen ar gareg y ffenestr, â'i ben i mewn, ac udo yn oernadus. 'Dyna!' ebai Jones, gan ymaflyd ym mraich Thomas, 'Gad hi yn awr: y mae ei pherchen wedi dyfod i'w nhol hi.' Felly aethant ymaith, ac nid oedd dim a dynai o ben yr hen ŵr nad cythraul yn ffurf ci oedd wedi dyfod i gymmeryd meddiant o'r hen wraig."

Y mae'n ddigon hyspys nad oedd "Hen Brophwyd Pont-y-pwl" yn unigol yn ei gred mewn ymddangosiad ysprydion a drychioleuthau. Yr oedd haneswyr, athronwyr, a duwinyddion o'r radd fleunaf ac uwchaf yn dal y grediniaeth yn ddïysgog, megis Ambrose, Luther, Mather, Gerson, Le Brun, Kircher, Morton, Baxter, Burton, Glenville, Robert Boyle, Peter Du Moulin, Francis Pereaud, Daniel De Foe, a llïaws o'n gwŷr mawr ninnau, y Cymry, ac yn eu plith yr enwog Stephen Hughes, fel y prawf ei "Lythyr at y Darllenydd," tu hwnt i bob dadl, yn t. 8–15 o'i gyficithiad, a elwir "Adroddiad Cywir, o'r Pethau pennaf, ar a wnaeth, ac a ddywedodd Yspryd Aflan, ym Mascon yn Burgundy; yn Nhŷ un Mr. Francis Pereaud, Gweinidog Eglwys y Protestaniaid yn y Dref honno," a gyhoeddwyd mewn cyssylltiad â *Chanwyll y Cymru*, ac a argraphwyd yn 1681. Gwyddys hefyd y dywed yr apostol Paul bod "Satan yntau yn ymrithio yn angel goleuni." Gwelir, gan hyny, nad dynion dwl yn unig sy'n credu mewn ymddangosiad ysprydion aflan, a glân hefyd, o ran hyny. Y mae'n wir fod yr "Hen Brophwyd" yn myned yn llawer rhy bell yn ei gred ar hyn, cystal a rhai pethau eraill; ond "heb ei fai heb ei eni;" ac od oedd ynddo yntau

Digitized by Google

rai beiau neu wendidau, er hyny yr oedd ei ragorieuthau yn llawer amlach, fel y prawf y difyniadau canlynol:—

"Yr oedd yn weithiwr difefl. Pe buasai ei Ddydd-lyfrau wedi cael eu cadw heb eu difrodi gan ddynion na wyddent eu gwerth, buasai genym bethau rhyfedd i'w cofnodi. Y mae'n debyg nad oes dim ond naw o'i Ddydd-lyfrau wedi diangc rhag y difrod a fu ar ei ysgrifeniadau. Dengys y rhai hyn i raddau y fath lafur yr elai trwyddo. Yn 1731, pregethodd 104 o weithiau; yn 1732, bu am rai misoedd yn glaf, ond pregethodd er hyny 76 gwaith; yn 1739, 240; yn 1768, 300; yn 1770, 337; yn 1773, 511; yn 1778, 260; yn 1780, 340; ac yn 1789, yn yr 88fed flwyddyn o'i oedran, pregethodd 405 o weithiau. Dylid cofio hefyd mai rhan o'i waith oedd pregethu. Teithiai gannoedd o filltiroedd bob blwyddyn, ac yn wastad ar ei draed, â'i ffon yn ei law. Nid elai i un tŷ heb ddarllen a gweddïo; a chymmerai tu a hanner awr at y darllen, yr esponio, a'r gweddïo. Gwnelai hyny fynychaf amryw weithiau bob dydd trwy'r flwyddyn. Nid âi i ardal na thŷ heb adael rhyw argraph ar ei ol. Cofnoda ysgrifenydd cyntaf hanes ei fywyd engraifft darawiadol o'i ymdrech i wneud lles i bawb. Yr oeddynt ill dau mewn tŷ yn eistedd gyd â'u gilydd. Daeth geneth fechan, nodedig o dlws, i mewn i'r ystafell atynt. Ymaflodd Mr. Jones yn ei llaw, a thynodd ei law dros ei phen amryw weithiau, gan ddywedyd yr un pryd, 'O fy anwyl blentyn! y fath weithiwr ardderchog ydyw Duw! Mor brydferth yw'r corph dynol! Mor hollol y dylai gael ei ddefnyddio yn ei wasanaeth ef, i'w ogoneddu! O! y fath golled a fyddai i'r corph tlws hwn fyned i uffern! O! fel y byddai cythreuliaid yn gorfoleddu am hyny!' Yna torodd allan i wylo yn hidl. Byddai yn arfer siarad yn y modd yma â phlant i ba le bynag yr elai. Crybwyllasom ei enw tu a deng mlynedd yn ol wrth hen wraig 80 oed. Bywiocaodd ei hwynepryd gyd â'r son am ei enw: 'Cofio Mr. Jones, o'r Trans!' ebai hi, 'Ydwyf! ac nid anghofiaf ef byth! Bu ei ddwylaw ar fy mhen i, a dywedodd bethau rhyfedd wrthyf.' Dydd y farn yn unig a ddengys pa faint o ddaioni a wnaeth efe ymhob lle, ac i bob gradd ac oedran.

"Yr oedd ei zel a'i hunan-ymwadiad gyd â'r achos gorau yn ddiail. Pwy ond dŷn yn berwi gan zel a chariad at Dduw a'i dŷ a fuasai yn rhoddi 30p. o'r 40p. oedd ar eu helw at adeiladu tŷ cyfarfod, ac a werthasai werth 15p. o'i lyfrau i orphen talu am dano? Nid enw nac elw, ond gogoniant Duw a lles eneidiau, a barai iddo gerdded ugeiniau o filltiroedd i wasaneuthu cynnulleidfaoedd am dri neu bedwar swllt. Cofnoda yn ei Ddydd-lyfrau ei fod yn myned o Gwm Ebbwy, yn sir Fynwy, i Gwm Llynfell a Gwynfe i dreulio Sabbothau, heb dderbyn mwy na thri swllt a chwecheiniog am ei lafur. Ië, cawn iddo fyned cyn belled a Llanbrynmair am ddau Sabboth yn 1732, lle y derbyniodd bum swllt a chwecheiniog am ei wasanaeth, ac ni rydd yr awgrym lleiaf fod y tâl yn anfoddhaol ganddo.

"Yr oedd ei ffydd yn Nuw, a'i ymddiried yn ei Ragluniaeth ef, yn ddisigl. 'JEHOFA-Jire: yr Arglwydd a ddarpara,' oedd ei arwyddair gwastadol. Treuliodd ei holl fywyd yn yr hyn a eilw dynion y byd yn sefyllfa o dlodi mawr; ond ni bu arno erioed eisiau dim. Chwe phunt yn y flwyddyn oedd ei gyflog sicr, fel y dywedir, sef tair punt oddi wrth yr eglwys, a thair o'r Drysorfa Gynnulleidfaol yn Llundain.* Ymddibynai am y gweddill o'i gynhaliaeth ar Ragluniaeth noeth. Byddai weithiau ar fin newyn a noethni; ond nid ymddengys i bryder ynghylch ei amgylchiadau bydol derfysgu dim erioed ar ei fynwes. Anfonai cyfeillion o bell ac agos anrhegion iddo, ac yr oedd yr anrhegion hyny yn dyfod fynychaf i law pan fyddai y dyrnaid diweddaf o'r blawd wedi ei gymmeryd o'r celwrn, a'r diferyn olaf o'r olew wedi ei dywallt o'r ystên. Cedwid ef felly mewn ymddibyniad gwastadol, a disgwyliad beunyddiol, wrth yr Arglwydd. Gallasai yn brofiadol trwy ei oes ganu,—

'Ti wnei wyrthiau, os bydd achos,
Cyn yr elo'r gwan i lawr:
Mae dy enw er y cynfyd
Wedi swnio'n enw mawr.'

Yr oedd ei haelioni yn ddifesur [fel y crybwyllwyd eisoes]. Os gwelai ryw un mewn angen, estynai iddo y geiniog ddiweddaf ar ei helw. Ië, y mae genym hanes iddo unwaith dynu ei grys oddi am dano, a'i wisgo am ddŷn hanner noeth a gyfarfuasai ar y mynydd, ar ddiwrnod oer. Pan ddaeth adref, dywedodd wrth ei wraig yr hyn a wneuthai. Canmolodd hithau ef, gan ddywedyd, 'Da y gwneuthost dosturio wrth y tlawd. Y mae'r Arglwydd wedi talu yr echwyn adref yn dda eisoes. Gynnau daeth gwas Mrs. —— yma â gwlanen chwech o grysau yn anrheg i chwi.'†

"Ond y peth a goronai ei holl ragorieuthau oedd ei dduwioldeb seraphaidd, a'r cymmundeb cysson a ddaliai â'r Arglwydd. Treuliai ei holl amser i siarad â Duw dros ddynion, neu â dynion dros Dduw. Byddai am oriau bob dydd yn ei ystafell yn gweddïo. Gwlychai y cadeiriau a'r llawr â'i ddagrau, wrth ymdrechu â'r Arglwydd mewn ymbiliau a gweddïau, ac anrhydeddwyd ef âg attebion anghyffredin a hynod i lawer o'i weddïau. Rhagfynegodd lawer o bethau rhyfedd am bersonau, lleoedd, a phethau, y rhai a ddeuthant i ben yn ol ei air; ac o herwydd hyny edrychid arno fel un yn meddu yspryd prophwydoliaeth. 'Yr Hen Brophwyd' oedd yr enw wrth yr hwn yr adweunid ef yn gyffredin. Y mae'n amlwg fod 'dirgelwch yr Aglwydd gyd âg ef,' fel dŷn a ofnai Dduw, ac a rodiai yn wastadol gyd âg ef, pa un bynag a ddatguddid pethau yn oruwch-naturiol iddo ef ai peidio.

"Gan fod ynddo gydgyfarfyddiad o'r holl ragorieuthau rhag-grybwylledig, nid rhyfedd ei fod yn cael ei barchu ac edrych i fynu ato gan ddynion da o bob sefyllfa. Yr oedd yn un o gyfeillion mwyaf mynwesol yr Iarlles Huntingdon. Ymwelai yn fynych â'i Hathrofa hi yn Nhrefeca, a derbyniodd lawer o anrhegion o'i llaw hi a phendefigion eraill, ac yn eu plith fantell nodedig, yr hon a wisgai bob amser ym mlynyddau diweddaf ei oes, ac a wnelai ei ymddangosiad yn hynod ac urddasol iawn. Ysgrifenai ei Harglwyddiaeth un tro, pan yr oedd Mr. Jones newydd ymadael o Drefeca, fel hyn:—'Y mae'r Hen Brophwyd anwyl newydd ein gadael. O! y fath sant bendigedig ydyw! Mor ymroddgar, mor fywiog, mor weithgar! Y mae'n wastad yn sychedu am gymmundeb cyflawn â Thad

* Crybwyllwyd eisoes bod gwahanol ysgrifenwyr yn gwneud peth gwahaniaeth ym maint ei gyflog.

† Y mae un arall o fywgraphwyr Ed. Jones yn crybwyll y digwyddiad canlynol, yr hwn sydd bur debyg i'r uchod:—

"Yr oedd un tro wedi bod yn ymweled â chyfaill, yr hwn a'i hanrhegasai âg arian i brynu brâg i ddarllaw erbyn y gauaf; a digwyddodd iddo droi i dŷ yn Mhont-newydd, lle yr oedd y plant yn llefain am fwyd. Ar ol chwilio i'w hamgylchiadau, deallodd nad oedd ymborth yn y tŷ, na modd i'w brynu. Yr oedd hyn yn ddigon. Gadawodd arian y brâg i borthi y teulu newynllyd; a chanfyddodd erbyn cyrraedd adref bod rhyw gyfaill wedi anfon gwerth yr arian o frâg yno at ei wasanaeth."

Wele hanes digwyddiad arall, gan yr un ysgrifenydd, sydd yn dra nodweddiadol o'r "Hen Brophwyd:"—

"Un tro, cyfarfyddai â thlawd ar y ffordd, pan nad oedd ganddo ond deunaw ceiniog yn ei logell. . . . Buan y darfu i daerni y cardotyn dynu chwecheiniog o logell led-wag ein hen gyfaill tosturiol. Ond wedi troi ei gefn, dechreuodd ei galon ei boeni, am ei fod wedi rhoddi cymmaint. Yr oedd yr hen ŵr a'i galon yn digwydd ffreuo ar brydiau, ac aeth yn ffrae ben-ben ar y ffordd. Gweuddodd yr "Hen Brophwyd" ar y tlawd, yr hwn a ddychwelodd mewn braw mawr, rhag y buasai raid iddo roddi y chwecheiniog yn ol; ond yn lle hyny, yr oedd wedi digio cymmaint wrth ei galon fel y rhoddodd iddo bob ffyrling oedd yn ei feddiant."—*En. Cymru*, I. F., t. 580–1.

Digitized by Google

y goleuni. Bydd ei annerchiadau cyffrous i'r myfyrwyr, a'i weddïau teurion ac effeithiol am eu llwyddiant, yn sicr o gael eu dilyn gan fendith.'"

Terfynwn hanes yr hen Gristion rhyfedd, nodedig, ac enwog yma â difyniad arall o waith un o'i fywgraphwyr:—

"Dyna'r gŵr y mae ei enw yn air teuluaidd yn Neheudir Cymru. Cyfarfyddasom âg un a chwiliai gredoau duwinyddol gyd â'r llymder miniocaf, ond a dderbyniai gredoau poblogaidd heb un ymofyniad yn eu cylch. Yr oedd yn ŵr a allai anturio i ganol twr o feddwon ymladdgar, ac a ddolefai, 'Tangnefedd yn y tŷ hwn,' nes y distawai yr holl udiadau Babelaidd; ac etto, a ofnai ar yr un dydd, a bron yn yr un awr, weddïo gyd â hen wraig glaf, rhag mai swyn-wraig ydoedd hi. Cyflwynai ei holl amgylchiadau ei hun i ofal Duw; ond ymgynghorai â'r planedau am dynged eraill. Yr oedd yn gwybod am ofal Duw dros ei blant; ond crynai fel dail yr aethnen rhag y cythreuliaid y tybiai eu bod mewn ci neu gath. Credai ei fod dan nodded uniongyrchol Duw; ac etto, rhaid oedd rhwymo ci cyn y gallai fod yn gysurus. Yr oedd, fel ei oes, yn meddu pob cryfder, ac yn perchen pob gwendid. Gallasai deilen ei ddychrynu, a gallasai fod yn dawel ped ymdreiglasai y mynydoedd i ganol y môr."*

### WILLIAM PRICHARD.

Er nad oedd y gŵr rhagorol hwn na gweinidog, na phregethwr, na llenor; etto, credir nad oes ond ychydig o ddiwygwyr Gogledd Cymru yn fwy teilwng o gael ei restru ymhlith "Enwogion y Ffydd" yng Nghymru, a hyny o blegid ei dduwioldeb gwresog, ei ddefnyddioldeb mawr, ei ymlyniad didroi yn ol wrth ei egwyddorion, a'i ddïoddefiadau llymion a llïosog o blegid hyny; ac ymhellach, efe a lwyddodd i sefydlu y diwygiad Ymneillduol yn Ynys Môn. Ganwyd ef yn y Bryn-rhydd, ymhlwyf Llanarmon, sir Gaernarfon, yn 1702, sef yr un flwyddyn ag y ganwyd yr "Hen Brophwyd Pont-y-pwl." Methasom gael enwau ei rieni, na dim o'u hanes; ond y mae'n dra sicr mai Richard oedd enw ei dad, gan mai arfer y Cymry hyd yn bur ddiweddar, fel y crybwyllwyd eisoes, oedd defnyddio enw bleunaf y tad yn gyfenw. Cafodd lawer gwell addysg na'r cyffredin o feibion ameuthwyr ei oes, gan ei fod yn deall Saesneg a pheth Lladin, cystal a Chymraeg; ond treuliodd forau ei oes yn hollol anwybodus am drefn yr iachawdwriaeth. Ar ol iddo briodi, aeth i fyw i ffarm a'i henw Glasfryn-Fawr, ymhlwyf Llangybi, ger llaw Pwllheli, yn sir Gaernarfon.

Yr oedd amryw o drigolion y plwyf y pryd hwnw yn arfer myned i'r dafarn ar ol y gosper yn y prydnhawn, i fod yn llawen, ac i ymddifyru mewn dïota, cellwair, chwedleua, a phob gwagddifyrwch; a therfynai y gynnadledd anfoesol weithiau mewn ymladd a rhyfela. Wedi i William Prichard aros yn y gyfeillach anfad un nos Sul yn hwy nag arferol, collodd y ffordd wrth fyned adref; ac wedi ymddyrysu dros ennyd yn ei lwybr, canfu oleuni o'r diwedd, a chyrchodd tu ag ato. Deallodd yn y fan mai Pen-y-cae-newydd oedd y tŷ, preswylfod gŵr duwiol a'i enw Francis Evans, yr hwn oedd yn aelod gyd â'r Annibynwyr yn yr eglwys fechan a ymgynhullai ynghyd yn ardal Pwllheli. Wedi i Wm. Prichard adnabod y lle, a chymmeryd pwyll, cychwynodd tu ag adref; ond cyn ei fod neppell o'r fan, dyrysodd eilwaith. Wedi sefyll dros ennyd i edrych o'i gwmpas, gwelai oleuni drachefn, a chyfeiriodd ato; ac er ei syndod, gwelai mai wrth Ben-y-cae-newydd yr ydoedd etto. Rhoddes drydydd cynnyg i fyned tu ag adref; ond er ei fod yn berffaith adnabyddus o'r ffordd, dyrysodd y waith hon hefyd, fel nad oedd dim i'w wneud ond edrych etto am oleuni, yr hwn a ganfu yn ebrwydd, ac wedi cyrraedd ato, gwelai, er mwy o syndod iddo ei hun, a pheth braw hefyd, mai ger llaw Pen-y-cae-newydd yr ydoedd fyth. Safodd yn syn dros ennyd, gan ystyried yn ddifrifol beth a allai hyn fod, a pha beth oedd yn ei dywys yno y naill dro ar ol y llall! Yna nesaodd at y ffenestr, a gwelai Francis Evans â'r Bibl ar y bwrdd o'i flaen, a'i deulu o'i amgylch; ac wedi clust-ymwrando, clywai ef yn darllen y 25med bennod o Matthew, ac ar ol darllen ymostyngodd ef a'i holl deulu ar eu gliniau i weddïo. Arhosodd Prichard i wrando y weddi yn ddifrifddwys, a suddodd rhai o eiriau y bennod a'r weddi yn ddwfn i'w galon. Synai yn ddirfawr wrth glywed y gŵr da yn gweddïo dros ei deulu, a thros ei gymmydogion annuwiol, gan erfyn ar yr Arglwydd eu dychwelyd o'u ffyrdd drygionus. Cychwynodd y waith hon etto tu ag adref yn synfyfyriol, a rhwydd ganfu y llwybr priodol i'w breswylfod; ond nis gallai ysgwyd y bennod bwysig, y weddi ddifrifol, a'r amgylchiad hynod o'i feddwl. Teimlai euogrwydd a chywilydd wrth gofio bod ganddo yntau deulu llïosog, yn blant a gweinidogion, ond nad oedd efe erioed wedi gweddïo drostynt hwy na throsto ei hunan fel y dylasai. Bu dan argyhoeddiad llym, ac mewn pryder dwys ynghylch ei gyflwr ei hun a'i deulu dros gryn ddwy flynedd, ac ymneillduai yn fynych i leoedd dirgel i weddïo;

* E. Jones's MSS., Evan. Mag., 1794, pp. 177-185; Adolygydd, cyf. i.; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 367-70, 182-84, 430-35; En. Cymru, I. F., t. 580-83 Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 67-71.

Digitized by Google

ond o'r diwedd cafodd "orphwysfa i'w enaid blinderog a llwythog," ac ymunodd â'r eglwys Annibynol fechan oedd ym Mhwllheli. Bu ei ymarweddiad sobr a'i weddïau difrifol yn foddion i ennill dau o'i weision yn lled fuan i adael eu ffyrdd drygionus, ac i broffesu crefydd yn gyhoeddus.

Yn fuan ar ol i W. Prichard ymuno â chrefydd, agorodd ei dŷ i dderbyn yr efengyl, ac yr oedd Glasfryn-Fawr yn "lletty fforddolion" i'r pregethwyr a ddeuent heibio. O gylch y flwyddyn 1738 neu 1739, ymwelodd Lewis Rees, o Lanbrynmair, pan ar un o'i deithiau pregethwrol, â Phwllheli. Digwyddodd hyn yn lled fuan ar ol dychweliad W. Prichard i'r ffydd. Ar ol y bregeth gan L. Rees, aeth rhai o'r ychydig gyfeillion crefyddol ato, gan gwyno yn dosturus wrtho eu bod hwy yn isel a digalon iawn: nad oedd neb braidd yn dyfod atynt o newydd; a bod y gwrandawyr yn lleihau yn barhaus. Yntau a ddywedodd yn siriol wrthynt,—

"Na lwfrhewch yn ormodol, ac nac ymollyngwch yn eich eneidiau. Y mae'r wawr nefol yn dechrau tywynu yn olau yn y Deheudir. Y mae rhyw ŵr ieuangc hynod iawn, a'i enw Howel Harris, wedi dyfod allan yn ddiweddar, 'yn llawn gwreichion golau, tanllyd, o Drefeca fach i maes,' yr hwn sydd yn myned oddi amgylch i heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd, ac i'r prif ffyrdd a'r ceuau; ac y mae fel ôg fawr, yn rhwygo'r ffordd yr elo o'i flaen."

"O!" meddent hwythau, "na chaem ni ef yma i'n plith."

"Fe allai," eb yntau, "ac y mae'n debyg hefyd, y daw efe, canys pregethu teithiol, ac argyhoeddi pechaduriaid o gyfeiliorni eu ffyrdd, a'u dwyn o feddiant Satan at Dduw, ydyw holl hyfrydwch ei galon. Heb law hyny, y mae gŵr ieuangc ger llaw y Bala, a elwir Jenkin Morgan, yn cadw yr ysgol rad dan y Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror, yr hwn hefyd sydd yn arfer pregethu yn ddeffrous a phur lwyddiannus."

"A oes dim modd cael hwnw i'r ardal yma, tybed, i gadw ysgol yn ein plith ni?" oedd eu gofyniad pryderus.

"Dan aden Eglwys Loegr y mae efe a'r ysgol," ebai L. Rees; "ond pe gallech gael rhyw ŵr cyfrifol yn eich ardal, yn caru crefydd, ac heb fod yn Ymneillduwr cyhoeddus iawn, fe allai y llwyddai hwnw gyd â'r person i ganiatâu cadw yr ysgol yn y llan."

Daeth i feddyliau y cyfeillion hyn yn ebrwydd mai William Prichard, o Lasfryn-Fawr, oedd y cymhwysaf o bawb a wyddent am dano i gymmeryd y gorchwyl hwn mewn llaw. Y borau Llun canlynol, aeth Francis Evans, y gweddïwr a fu'n foddion i argyhoeddi W. Prichard, ar daith i'r Bala, a llwyddodd i gael yr ysgolfeistr gyd âg ef adref. Rhag creu dim amheuaeth ym meddyliau y cymmydogion rhagfarnllyd, arweiniodd Francis Evans Jenkin Morgan heibio ei dŷ ei hun, a dygodd ef yn syth i Lasfryn-Fawr. Wedi cydymgynghori, aeth W. Prichard at y person i ddeisyf y ffafr o gael y llan i Jenkin Morgan i gadw ysgol ynddi; ond ni welodd y person yn dda ei rhoddi, gan dybied, yn ddïau, bod yr ysgolfeistr yn un o'r crefyddwyr. Wedi cyfarfod â'r siomedigaeth yma am le i gadw yr ysgol, dywedodd W. Prichard wrth y person, "Wel, od oes genych chwi awdurdod ar yr eglwys, y mae genyf finnau awdurdod ar gegin fy nhŷ: caiff gadw yr ysgol yno;" ac felly y bu. Aeth llïaws o blant, a rhai mewn oedran hefyd, i'r ysgol ato. Yr oedd Morgan yn ddiwyd iawn gyd â'i orchwyl yn dysgu iddynt ddarllen, yn eu hegwyddori, ac yn gweddïo gyd â hwy forau a hwyr. Trefnwyd cyfarfodydd hefyd iddo bregethu ynddynt, a deuai cryn nifer i wrando arno; ac ni bu ei lafur yn ofer.* Nid oes le i gasglu bod tŷ neb yn yr ardal honno ar y pryd yn rhoddi derbyniad iddo, ond Glasfryn-Fawr. Un tro daeth dŷn i'r bregeth â cherig yn ei logell, gan fwriadu lluchio'r pregethwr â hwynt; eithr Duw a annelodd ei air at ei galon ef, a gorfu arno fwrw ymaith y cerig o un i un, fel yr oedd ei

* Yr oedd Jenkin Morgan yn meddu llawer o gymhwysder fel ysgolfeistr a phregethwr. Dywedir mai un o "feibion y daran" ydoedd o ran ei ddull o bregethu, fel y rhan fwyaf o bregethwyr y dyddiau hyny, a bu yn dra defnyddiol yn ei dymmor yn y parthau lle y llafuriai. Rhoddir i ni hanes am un bregeth nodedig iawn a draddododd unwaith yn ardal y Bala. "Un o'r odfeuon hynotaf a glywais am dani oedd hon," ebai yr hybarch John Evans, o'r Bala; ac fel hyn y rhed yr hanes:—

"Yr oedd (fel y byddai yn fynych yn y wlad y pryd hyny) *noswaith* ganu gan ieuengctid y gymmydogaeth yn ysgubor Ty'n-y-nant, ger llaw y Bala, yn cael ei chynnal bob nos Sadwrn. Yr oedd yr ysgubor dan yr un to a'r tŷ. Cafodd hen ŵr, un o'r Ymneillduwyr, sef yr Annibynwyr, ar ei feddwl yn ddwys roi cais am genad i Jenkin Morgan ddyfod i'r tŷ yn ymyl yr ysgubor i bregethu, a hyny ar un o'r nosweithiau, ac ar yr un pryd, ag y byddai'r bobl ieuaingc yn yr ysgubor wrth eu dawns. Cenad rywfodd a gafwyd, ac aeth Jenkin Morgan, a'r hen Annibynwr gyd âg ef, at y tŷ. Aethant yno erbyn bod y bobl ieuaingc wedi dyfod ynghyd. Aeth Jenkin i'r tŷ, a'r Duw Goruchaf gyd âg ef, ac a ddechreuodd ar ei orchwyl. Aethant hwythau, eu telyniwr, a'u plaid ynghyd (Satan a feddylir) at eu gorchwyl hwythau yn yr ysgubor. Gan fod y tŷ a'r ysgubor mor agos i'w gilydd, yr oedd llais y naill blaid yn cyrraedd y llall. Dechreuodd y bobl ieuaingc gyd â mawr awch ac egni ar eu dawns, gan feddwl boddi'r sain, a llwyr orchfygu'r gwaith, oedd yn y tŷ. Ond bu llaw yr Arglwydd arnynt mewn ffordd ddirgelaidd, fel na chawsant na hwyl na thymmer ar eu dawns, er eu holl ymgais a'u hymegnïad. Yr oedd Jenkin wedi ymaflyd yn ei waith er ys tro erbyn hyn, ac yn cael ei gynnorthwyo ynddo. Ciliodd un o'r dawnswyr oddi wrth ei gymdeithion at ddrws y tŷ i glust-ymwrando; ac wrth wrando, glynodd y gair ynddo, fel y bu raid iddo dynu ym mlaen i'r tŷ. Yn y man, un arall a'i canlynodd, a thrydydd, a phedwerydd, a phummed, nes y daethant o'r diwedd oll i'r tŷ, a'r hen delyniwr hefyd, a gorfu arnynt ymlonyddu i wrando. Tra'r oeddynt yn gwrando, syrthiodd y fath yspryd grymus o argyhoeddiad arnynt oll, y telyniwr a chwbl, nes y llefasant allan fel y tair mil yn Jerusalem gynt (Act. ii. 37), os nad yn yr un geiriau, etto mewn geiriau oedd yn arwyddo yr un dychryn ac ofn yn achos eu heneidiau. Wedi yr odfa, aethant allan dan lefain felly, ar hyd y ffyrdd a'r ceuau, tu a'u cartrefydd. Myfi a adweunwn bump o'r bobl hyn a gawsant eu galw yn yr odfa hon, y rhai a barhasant yn syml a sylweddol yn eu proffes grefyddol hyd ddydd eu marwolaeth."

Y cyfryw yw y disgrifiad a roddes yr hen ŵr o'r odfa ryfeddol honno. Gwelodd yr Arglwydd yn dda ddefnyddio Jenkin Morgan i roddi cychwyniad i ddiwygiad nerthol, effeithiau yr hwn a welwyd dros amser maith, ac ar wrthrychau lawer.—*Meth. Cymru*, cyf. i., t. 93–4.

enaid yn plygu i awdurdod y gwirionedd. Bu argoelion amlwg o dduwioldeb ar y gŵr hwn ar hyd ei oes, a throdd allan, mewn amser dyfodol, yn bregethwr egnïol, ac o fendith i lawer o'i gydwladwyr. Ei enw oedd Rhisiart Dafydd.

Nid oedd dim pregethu yr amser hwnw yn sir Gaernarfon na sir Fôn, ond gan offeiriaid Eglwys Loegr, a hyny ond unwaith yn y mis gan rai, neu unwaith bob pythefnos yn gyffredin gan eraill.* Yn fuan ar ol i Jenkin Morgan ddechrau cadw ysgol a phregethu yn Glasfryn-Fawr, dechreuwyd llunio chwedlau anwireddus arno ef a'i noddwr, William Prichard, gan heuru eu bod yn dysgu egwyddorion cyfeiliornus a niweidiol, mewn ystyr wladol ac eglwysig, i'r plant; a bod llong o'r gwledydd tramor yn dyfod i ryw borthladd cyfagos, a'u bod yn bwriadu gwerthu y plant yn gaethweision, fel nas gwelai eu rhieni hwynt byth mwyach. Teunai eraill y gair ar led eu bod am ddenu dynion o'u plaid i godi gwrthryfel yn y wlad; a heurai eraill mai ymgasglu yr oeddynt yn y nos, i fyw mewn anniweirdeb a thrythyllwch, ynghyd â llawer o chwedlau ynfyd a niweidiol o'r fath a deunid arnynt gan eu gelynion.

Yn y cyfamser, clywodd William Prichard fod un John Owen, oedd yn Ficar Llanor a Dyneio, ger llaw Pwllheli, ac yn Ganghellwr Bangor; clywodd fod y gŵr hwnw yn ddŷn o ddoniau mwy na chyffredin, ond ei fod yn ymosodwr dïarbed ar y "Pengryniaid;" ac ar un Sul, aeth i wrando arno yn Llanor. Pan ddaeth allan o'r llan, gofynwyd iddo gan rywun beth oedd ei farn am y bregeth. Dywedodd yntau yr ystyriai ei bod yn gyfeiliornus, ac yn groes i Air Duw. Yn fuan ar ol hyn, gwysiwyd ef gan ringyll llys eglwysig Bangor i ymddangos yno i atteb am y sarhâd a roddes ar y Canghellwr. Cafodd flinder poenus a chostfawr trwy yr erlyniad yma, yr hwn a gadwyd yn llys eglwysig Bangor dros ddwy neu dair blynedd, am nas gallai gael un cyfreithiwr i gymmeryd ei blaid; ond o'r diwedd cymmerth y Cynghorwr (*Counsellor*) Williams, o Dŷ-fry, Môn, ei achos mewn llaw, yr hwn a gododd yr achos ar unwaith o'r Llys Eglwysig i Frawdlys y Wlad; a phrofodd y Cynghorwr Williams, trwy dystion credadwy, bod tystiolaeth W. Prichard am y Canghellydd Owen yn wirionedd safadwy, ac o ganlyniad ennillodd Prichard y gyfraith. Dywedodd y Cynghorwr Williams wrth Prichard y gallai ddiswyddo y Canghellwr, od ewyllysiai fyned ym mlaen gyd â'r achos; ond yr oedd W. Prichard yn gwybod gorchymyn ei Arglwydd yn rhy dda, yr hwn a ddywedodd, "Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a wnêl niwaid i chwi, ac a'ch erlidiant;" am hyny, gwrthododd efe erlyn y Canghellwr. Ond, os oedd W. Prichard o'r yspryd llariaidd yma, nid felly ei wrthwynebydd, canys ni orphwysodd y Canghellwr dïalgar nes llwyddo, trwy adrodd chwedlau anwireddus a maleisus wrth ei feistr tir, i'w droi allan o'i ffarm; ac yn y flwyddyn 1742, bu raid i W. Prichard ymadael o Glasfryn-Fawr. Pan welodd y rhaid iddo ymadael, ymddengys iddo gymmeryd ffarm arall yn ebrwydd, sef Plas-Penmynydd, ger llaw Llangefni, Ynys Môn, ac o'i sefydliad ef yno y dylid amseru cychwyniad Ymneillduaeth yn yr Ynys. Yr oedd yn y sir deulu wedi cael eu deffro mewn modd neillduol cyn i W. Prichard fyned i Blas-Penmynydd, sef Howel, Harri, Thomas, a'u chwaer, plant Thomas Prichard, Tŷ-gwyn, ger llaw Llangefni, y rhai a fu o fendith fawr yn y wlad mewn amser dyfodol, am y rhai y sylwir yn fanylach yn y nodiad isod;† ond cyt-

* Drych yr Amseroedd, t. 87.

† Ychydig o hanes y teulu rhagorol yma sydd ar gof a chadw; ond y mae yr hyn sydd genym yn dra neillduol. O gylch y flwyddyn 1730, tu a chwe blynedd cyn i Harris a Rowlands dori allan yn y Deuheubarth, dechreuodd rhyw gyffro crefyddol dirgelaidd ymeddyliau meibion y Thomas Prichard, Tŷ-gwyn, a grybwyllwyd uchod. Cynhyrchwyd y cyffro hwn trwy ddarllen y Bibl, a thrwy sylwi ar ei gynhwysiad. Nid trwy bregethau na thrwy esamplau dynion da, o'r sawl nid oedd odid un ar y pryd; ond yn unig trwy ddarllen yr Ysgrythyrau, ac ychydig o lyfrau daionus y caent afael arnynt, y rhai oedd yn bur anaml yn y dyddiau hyny ymhob rhan o'r wlad. Anaml hefyd y medrai neb o'r werin ddarllen llyfr y pryd hyny, pe buasai llyfr ganddynt. Yr oedd meibion Thomas Prichard, fel y crybwyllwyd, yn dri o nifer, sef Howel, Harri, a Thomas; ac yr oedd ganddynt chwaer a ddeffroisid fel hwythau i ystyried ei ffyrdd, ac i droi at yr Arglwydd. Wedi i'r teulu yma gael eu cyffroi eu hunain yn achos eu heneidiau, dechreuasant aflonyddu ar eraill, trwy ddangos iddynt, mewn ymddiddanion, nad oedd eu cyflwr mor ddïogel ag y tybient hwy ei fod. Nid oedd doniau na gwybodaeth y teulu hyn, fel y gellid meddwl, ddim yn helaeth; etto, yr oedd eu hamcan yn gywir, a'u rhodiad yn weddus. Bu eu hymddiddanion crefyddol, a'u hymarweddiad difrycheulyd, o fendith i eraill, cyn i William Prichard, Glasfryn-Fawr, symmud i Blas-Penmynydd. Bu Howel Thomas, yr hynaf, fyw ar ei dir ei hun, yn Nhrefolwyn, a elwir yn awr Trefollwyn; a chofrestrodd ei dŷ i bregethu ynddo, a bu pregethu yno tra y bu efe byw. Harri Thomas, yr ail fab, a fu byw ym Mwlch-y-fen, ffarm fawr rhwng Llangefni a Bodffordd; a chofrestrodd yntau ei dŷ, yr un modd a'i frawd, i bregethu ynddo, a phregethid yn nhŷ un ym morau y Sul, ac yn y llall y prydnhawn. Thomas Thomas, y trydydd brawd, a fu byw ym Mhen-yr-allt, Hen Eglwys, a bu pregethu yn ei dŷ yntau ar hyd ei oes.

Gan mai yn 1742 yr aeth William Prichard o Lasfryn-Fawr i Blas-Penmynydd, ac mai efe a ddygodd bregethiad Ymneillduol gyntaf i Ynys Môn, ymddengys y bu teulu Thomas Prichard, y Tŷ-gwyn, fyw yn dduwiol, trwy gyfrwng y Bibl yn unig, am gryn ddeuddeng mlynedd cyn cael neb i bregethu iddynt. Y mae'n debyg, gan hyny, mai ar ol i W. Prichard ymsefydlu yn yr Ynys y darfu i'r tri brawd crybwylledig gofrestru eu tai i bregethu ynddynt, a hyny, yn ddïau, trwy gyfarwyddyd a chynhorthwy William Prichard. Hefyd, gan mai Jenkin Morgan, yr hwn a aeth i Fôn gyd â W. Prichard, oedd y pregethwr Ymneillduol cyntaf a fu yn y sir, y mae'n dra sicr mai efe oedd y cyntaf a bregethai yn nhai y tri brodyr crybwylledig. Bu'r

Digitized by Google

tunir yn gyffredin mai W. Prichard a ddygodd bregethu gyntaf i'r sir, ymhlith yr Ymneillduwyr. Yr oedd yr holl ardaloedd wedi clywed am dano cyn ei fynediad yno, fel dŷn o ryw grefydd newydd ryfedd, ac y byddai i bawb a wnelent unrhyw gyfeillach âg ef, neu â'i deulu, yn sicr o fyned allan o'u synhwyrau. Edrychid arnynt fel pla yn y wlad, ac ymgadwai pawb oddi wrthynt fel pe buasai y gwahanglwyf arnynt; a'r gwŷr eglwysig yn neillduol a flaenorent yn y gwaith o'i ddrwgliwio, ac o annog pawb i'w ddirmygu a'i golledu. Yr oedd yn y gymmydogaeth ŵr yn byw, ac yn masnachu llawer mewn defaid, ac anfonai hwnw ddiadelloedd o honynt i ŷd a gwair Wm. Prichard, ac anfonai ddihirod yno i'w cadw, fel na feiddiai efe na'i weision eu gyru ymaith. Dïoddefodd ef a'i deulu sarhâd a cholledion dirfawr er mwyn enw yr Arglwydd Iesu.

Cyfododd William Prichard allor i Dduw yn ei deulu ar unwaith wedi myned i Blas-Penmynydd, megis yr arferai efe wneuthur cyn hyny, a dechreuwyd pregethu yn ei dŷ yn ebrwydd. Gan i Jenkin Morgan ymfudo i Fôn gyd âg ef, y mae'n sicr mai efe a arferai bregethu gyntaf yn y teulu.* Cododd hyn gynnwrf dirfawr yn yr ardal, a mawr oedd y dyfalu gan y werin anwybodus pa beth a allai hyn fod. Heurai rhai mai gwallgofiaid oeddynt, ac yr âi pawb a gyfeillachent â hwynt yn wallgofiaid hefyd. Eraill, gan gymmeryd arnynt fod yn ddoethach na'r cyffredin, a ddywedent mai dyma'r gau brophwydi y son yr Ysgrythyrau am danynt, yn dyfod yngwisgoedd defaid, ond oddi mewn eu bod yn fleiddiaid rheibus. Pregethai y gwŷr eglwysig hefyd yn egnïol yn eu herbyn, gan eu dinoethi fel gau athrawon a hereticiaid peryglus, y rhai y dylid ar bob cyfrif eu gochelyd: mewn gwirionedd, bu mynediad yr Ymneillduwyr i Fôn, cystal a'u cyfodiad yn y Dywysogaeth, yn achlysur i gael pregethau yn y llanau plwyfol yn llawer amlach na chyn hyny. Ond, gyd â golwg ar yr Ymneillduwyr ym Môn, y farn fwyaf cyffredin oedd mai dynion o syniadau cyffelyb i Cromwel oeddynt, a gelwid hwy y "Pengryniaid," ac mai eu diben oedd dymchwel yr Eglwys Sefydledig, a throi yr offeiriaid o'u swyddau. Teunid llawer o anwireddau digywilydd am danynt trwy'r holl wlad. Heurai llawer fod yr yspryd drwg mewn dull gweledig yn eu cyfarfodydd; yr ymddangosai weithiau fel ebol bach, neu fel gafr, neu ryw ddull arall yn ol ei ewyllys. Tyngai yr erlidwyr eu bod yn llygad-dynu pawb a elent atynt, fel, os digwyddai neb fyned i'w gwrando, er cadarned y gallai fod yn y ffydd y bedyddiwyd ef, y byddai mewn perygl o gael ei siglo, a gwadu ei fedydd, yr hyn a ystyrid yn bechod dirfawr ei faint, os nad anfaddeuol. Ac, mewn gwirionedd, yr oedd cryn lawer o wir yn yr heuriad yma, canys anfynych y gwrandewid pregethau yr Ymneillduwyr y pryd hwnw, ac ymhell ar ol hyny hefyd, na byddai rhywrai yn tori allan i lefain, fel ceidwad y carchar gynt, "O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" Mewn canlyniad i hyn, ymröent â'u holl egni i ddysgu darllen; ac yn fynych, ceid allan eu bod

ieuengaf o'r tri brawd, sef Thomas Thomas, yn foddion i ddychwelyd gŵr a'i enw William Thomas Owen, yr hwn, ynghyd â'i fab Thomas, a fu byw yn Nhŷ-Mawr, Llantrisant, Môn; a chofrestrodd hwn ei dŷ, fel ei athraw, i bregethu ynddo. Yr oedd i'r gŵr olaf hwn wraig hynod am ei gwasanaeth i'r efengyl; ac yr oedd ei chwaer hefyd yn ferch dduwiol iawn. Bu'r chwaer yma fyw yn Llanllibio, ffarm eang yn ymyl Bodedern; a pharhaodd yn fywiog ac effro ar hyd ei hoes, a thrwy ei ffyddlondeb a'i llafur diflino, bu o fendith i lawer yn ei hardal. Ni ddywedir fod Llanllibio wedi ei gofrestru i bregethu ynddo, ond y mae hyny yn bur debyg. Wele, dyma *flagur cyntaf* y Diwygiad Ymneillduol yn sir Fôn, yr hwn, erbyn hyn, sydd wedi llwyr oresgyn yr holl Ynys.—*Meth. Cymru*, cyf. i., t. 105–6.

* Ychydig iawn a wyddys am y gŵr enwog hwn, Jenkin Morgan, heb law yr hyn a ddywedwyd eisoes gan John Evans, o'r Bala, am dano, mewn nodiad blaenorol. Brodor o sir Forganwog ydoedd, ac aelod o'r eglwys Bresbyteraidd yn Watford, ger llaw Caerphili. Tra'r oedd efe gyd â William Prichard yng Nglasfryn-Fawr, priododd ferch ieuangc dduwiol, a symmudodd, fel y crybwyllwyd, gyd â'i noddwr i sir Fôn. Nid ymddengys iddo aros ond ychydig ym Mhlas-Penmynydd, gyd â William Prichard, ond yr aeth rhagddo i ganol yr Ynys, i le a elwir Rhos-y-meirch, ger llaw Llangefni, rhwng y dref olaf a Llanerchymedd. Dywedir i Jenkin Morgan fod yn y lle hwn am ugain mlynedd; ac os felly, rhaid yr aeth yno yn 1742, yr un flwyddyn ag yr aeth W. Prichard i Blas-Penmynydd, canys 1762 yw'r amseriad diweddaf a geir ynglŷn âg ef yn y lle hwnw. Dywedir mai mewn lle a elwir Ceuau-Môn, yn nhŷ un John Owen, yr ymgynhullai yr eglwys ar y cyntaf, a hyny yn 1744, ymhen dwy flynedd ar ol i Jenkin Morgan fyned i ardal Rhos-y-meirch. Pa wedd bynag, y mae sicrwydd mai yn Rhos-y-meirch y sefydlwyd yr eglwys Ymneillduol gyntaf yn sir Fôn, ac y mae yr un mor sicr mai Jenkin Morgan oedd y pregethwr Ymneillduol cyntaf a fu yn y sir. Cyn hyny, medd John Evans, o'r Bala, "Yr oedd holl wlad Môn o un grefydd: nid oedd yno ddim pleidiau, ond pawb yn cyrchu i eglwys ei blwyf yn ddyfal; ac yr oeddynt yn rhagori yn hyn ar drigolion llawer o barthau Cymru. Ond yr oeddynt yn gyffredin trwy'r wlad yn dra thywyll, anystyriol, ac ofergoelus, a swn mawr yn eu plith am y Tylwyth Teg. Byddai son mawr am bregeth yn y llan, *os digwyddai fod*, gan mor anaml y byddai yr offeiriaid yn pregethu."

Yn y flwyddyn 1746, urddwyd Jenkin Morgan yn Watford, ger llaw Caerdydd, yr eglwys yr ymunodd efe â hi gyntaf, i fod yn weinidog yn sir Fôn, a hyny am nad oedd urddedigion Ymneillduol ym Môn i gyflawni y ddefod. Wedi hyny, yn 1747, rhoddwyd enw Jenkin Morgan ar y rhestr i dderbyn cynnorthwy o'r Drysorfa Bresbyteraidd, a pharhaodd i'w dderbyn, "fel gweinidog Rhos-y-meirch," hyd 1762, pan y bu farw, ond odid. Yn y flwyddyn 1748, prynodd J. Morgan dyddyn bychan a elwid Ty'n-yr-eithinen, ar yr hwn yr adeiladwyd capel Rhos-y-meirch, y cyntaf o holl gapelydd Ymneillduol sir Fôn. Y personau mwyaf bleunllaw gyd â'r achos yn adeg codiad y capel oedd y rhai canlynol:—John Hughes, Rhydyspardyn; John Roberts, Dafarn-newydd; William Prichard, Bodlew-fawr; a John Owen, Ceuau-Môn. Bu Jenkin Morgan ar daith trwy'r Deheudir yn casglu at y capel, o blegid mynegir yn llyfr eglwys Annibynol Bryn-teg ei fod yno ar yr 22fed o Ebrill, 1749, yn casglu at gapel yn Ynys Môn, ac iddo gasglu 3p. 12s. 6c.; a chofnododd ysgrifenydd yr eglwys fod y diwrnod hwnw yn Sabboth cymmundeb. Terfynodd cyssylltiad Jenkin Morgan â Rhos-y-meirch yn y flwyddyn 1762; ac y mae'n dra thebyg mai o gylch y pryd hyny y bu efe farw, canys ni cheir dim o'i hanes ef mwyach.—*Han. Egl. Annib. Cymru*, cyf. ii., t. 455.

Digitized by Google

Ymddengys mai yn Nghalangeuaf 1750 y mudodd William Prichard i Glwchdernog, canys dywed John Wesley iddo fod yn pregethu yn nhŷ Wm. Prichard, ger llaw Llanerchymedd, ym mis Mawrth y flwyddyn honno, a thrachefn yn Ebrill yr un flwyddyn. Yn fuan ar ol i W. Prichard ymsefydlu yng Nghlwchdernog, cofrestrodd dŷ bychan ar ei dir, a elwid y Clwch-hir, i bregethu ynddo, ac i gynnal moddion crefyddol eraill. Nid ydyw yn debyg i eglwys Annibynol gael ei sefydlu yn y Clwch-hir, ond rhoddid croesaw i bregethwyr pob enwad i bregethu ynddo, canys er bod W. Prichard yn Annibynwr cydwybodol, etto yr oedd yn gwbl ddiragfarn at bawb o bob cyfundeb crefyddol. Yr oedd yn dra chyfeillgar gyd â'r Methodistiaid ar hyd ei oes; a dywed awdur galluog *Methodistiaeth Cymru* mai efe a fu "yn brif offeryn i ddwyn Methodistiaeth i Arfon a Môn, er y perthynai efe ei hun i enwad arall. Hoff oedd ganddo dduwiolion o bob enwad, ac eiddigeddai dros ledeuniad a phregethiad o'r gwirionedd megis y mae yn yr Iesu ymhob man, a chan bwy bynag." Bu pregethu yn y Clwch-hir hyd derfyn oes William Prichard, ac y mae'n debyg hyd onid aeth yr Annibynwyr i bregethu i bentref Llanddeusant, lle a elwid yn ddiweddar y Siop-newydd, lle y bu pregethu yn achlysurol, o leiaf, hyd onid adeiladwyd capel gan yr Annibynwyr heb fod ymhell o'r pentref yn 1795, yr hwn a elwir Bethania. Ystyriai William Prichard ei hun yn aelod o eglwys Annibynol Pwllheli hyd ddiwedd ei oes, a chyrchai yno bob mis i gymmundeb, er bod y ffordd, rhwng myned yno a dychwelyd, yn llawn pedwar ugain milltir. Ar Sabbothau eraill elai i Ros-y-meirch i wrando yr efengyl, yr hwn le sydd yn llawn deng milltir o Glwchdernog, yr hyn sydd brawf pur eglur nad oedd pregethu cysson bob Sul yn y Clwch-hir.

Rhaid i ni gofnodi un amgylchiad pwysig arall y bu gan William Prichard law arbenig ynddo, sef cyfodiad y capel Ymneillduol cyntaf ymhlwyf Llanrhyddlad, yr hwn a safai (ac a saif etto yn wir) tu a dwy filltir i'r gogledd-orllewin o Glwchdernog. Adroddwyd yr hanes i ni gan John Jones, Ty'n-y-capel, Llanrhyddlad, un o flaenoriaid hynaf yr ail do o Fethodistiaid yn yr ardal, a'r hwn a fagodd ein hanwyl gydwedd fel merch iddo ei hun. Y mae'r hanes yma yn gwahanieuthu ychydig oddi wrth yr hyn a adroddir ym *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii., t. 498–501.

Rhyw bryd o gylch 1748, aeth Siân Morus, a'i mab, Morus Edward, o'r Gareg-gam (tyddyn bychan ymhlwyf Llanrhwydrys, ar derfyn plwyf Llanrhyddlad, yn ymyl Melin Bodronyn), i rywle i wrando Howel Harris yn pregethu, a chawsant gymmaint o flas ar y bregeth fel y dymunasant yn daer arno ddyfod i'w tŷ hwythau, y Gareg-gam, i bregethu; â'r hyn y cydsyniodd yntau yn garedig. Wedi taenu'r gair ar led, daeth nifer bychan i wrando y pregethwr enwog, ac yn eu plith yr oedd Evan Thomas, hen feddyg-esgyrn, o Faes-y-brethyn-brych, Llanfairynghornwy; Richard Thomas, Tŷ-wîan, o'r un plwyf; Thomas Phylip, o Ben-yr-orsedd, Llanrhwydrys, y tyddyn nesaf i'r Gareg-gam ond un; a Richard Parry, Ty'n-llan, Llanfflewyn; oll yn ameuthwyr cefnog, y rhai oll a ddaliwyd yn rhwyd yr efengyl yr un pryd, a rhoisant brawf o'u gwir ddychweliad trwy barhau yn ffyddlawn i'w proffes hyd angau. Dychwelwyd y rhan fwyaf o'u hiliogaeth at grefydd mewn amser dyfodol, a bu amryw o honynt yn flaenoriaid duwiol a phregethwyr cymmeradwy gyd â'r Methodistiaid hyd derfyn eu hoes. Mab i Evan Thomas, y Maes, oedd y Parch. John Evans, Bodedern; a mab iddo yntau ydyw y Parch. Ebenezer Evans, yr hwn sydd yn aros hyd y dydd hwn. Wyres i Thomas Phylip ydyw yr ysgolheiges enwog a'r grefyddwraig ffyddlon, Mrs. Grace Hughes, Pen-yr-orsedd, Cemlyn, yr hon a fu'n cydymryson dysgu Groeg â'r ysgrifenydd, er mwyn deall y Testament Newydd yn yr iaith wreiddiol, a'r hon sydd adnabyddus i'r rhan fwyaf o bregethwyr y Methodistiaid trwy Ogledd Cymru, ac i amryw o'r Deheubarth hefyd.

Sefydlwyd cymdeithas eglwysig yn y Gareg-gam ymhen rhyw ennyd ar ol i Howel Harris fod yno yn pregethu, ac ymunodd gŵr oedd yn byw ar y pryd mewn tŷ oedd ar y llain, lle y saif Capel Llanrhyddlad, â'r gymdeithas. Yr oedd tŷ'r gŵr hwnw (nid oedd John Jones yn cofio ei enw ef) yn heleuthach na'r Gareg-gam; am hyny symmudasant i'r tŷ hwnw i bregethu, ac i gynnal moddion crefyddol eraill. Cynhyddodd y gymdeithas yn gyflym, nes yr aeth y tŷ hwnw hefyd yn rhy fychan; a bu'r cyfeillion mewn cryn ddyryswch dros ennyd yn methu gwybod pa le a pha fodd y gallent gael lle heleuthach. Yr oedd y gymdeithas ar y pryd yn cynnwys rhai Annibynwyr, rhai Bedyddwyr, a'r rhan fwyaf yn Fethodistiaid. Perchenog y llain y safai'r tŷ arni oedd Mr. Llwyd, Bwlch-y-fen, ger llaw Llangefni. Yn y flwyddyn 1772, cyttunodd y gymdeithas yn

Digitized by Google

Llanrhyddlad i anfon tri o wŷr cyfrifol, un dros bob plaid, at Mr. Llwyd i ofyn caniatâd i adeiladu tŷ addoliad ar y llain grybwylledig, yr hon sydd tu a chwarter erw o dir, sef William Prichard, Clwchdernog, dros yr Annibynwyr; William Roberts, Bottedd (Bod-hedd), ffarm fawr yn terfynu, o fewn un cae bychan, ar y llain dan sylw, dros y Bedyddwyr; a Morus Edward, y Gareg-gam, dros y Methodistiaid. Mr. Llwyd, yn dra gwahanol i foneddigion yr oes honno yn gyffredin, a gydsyniodd â'u cais, a gosododd y llain iddynt ar brydles am 10s. y flwyddyn. O ganlyniad ymosodwyd ar y gwaith o adeiladu capel ar unwaith; ond gan fod llïaws yn yr ardaloedd o amgylch yn credu mai dihirod peryglus i wlad ac eglwys oedd y crefyddwyr dïeithr hyny, bu cryn gyffro yn yr achos, yn enwedig ym mysg y boneddigion. Gan hyny, er mwyn ymgynghori ar y pwngc, galwyd cyfarfod ynghyd, dan rith gwledd, yn y Gareg-lwyd, Llanfaethlu, yr hwn sydd o fewn tu a milltir a hanner o'r capel. Wedi gosod y matter ger bron, penderfynwyd bron yn unfryd i chwalu yr hyn a adeiladasid o'r capel hyd lawr yn ddïoed. Ar hyny, cododd hen beriglor Llanrhyddlad i fynu, a dywedodd, "Foneddigion, ystyriwch beth a wneloch yn yr achos hwn. Os o ddynion y mae, fe ddaw i'r dim; ond os o Dduw, ofer fydd eich gwaith, ac fe'ch ceir chwithau yn ymladd yn erbyn Duw." Ar hyn, disgynodd math ar ddychryn ar y cwmni oll, ac ni feiddiodd neb o honynt ymyryd â'r achos mwy. Gorphenwyd adeiladu'r capel yn fuan wedyn, ac adeilad bychan a gwael ydoedd, wedi ei wneud o glai a phridd, â tho gwellt arno; a galwyd ef "Y Capel Mwd." Gwelodd John Jones, ein hyspysydd, enwau yr ymddiriedolwyr (*trustees*) ar ei drawst, sef William Prichard, William Roberts, a Morus Edward.

Ymhen rhyw gymmaint o amser ar ol hyn, aeth "Y Capel Mwd" yn rhy fychan i'r gynnulleidfa, a bu raid adeiladu un arall, yr hwn a wnaed o gerig, yn gymmysg â chlai, ond gyd â tho gwellt; ac er yr edrychid arno yn y dyddiau hyn yn fychan, etto galwyd ef "Y Capel Mawr." Yr oedd William Prichard, Clwchdernog, wedi marw er ys cryn amser erbyn hyn, a'r Methodistiaid wedi cynhyddu yn fawr yn yr ardal; ac yr oedd yr enwog John Elïas wedi myned i fyw i Lanfechell, o fewn tu a thair milltir i'r "Capel Mawr," ac yno yr ystyrid ef yn aelod. O gylch y pryd hyn, ymneillduodd yr Annibynwyr a arferent ymgynnull yno, rhai i gapel Proc-y-tôl, ger llaw Llanfechell, ac eraill i Landdeusant; ac aeth yr ychydig Fedyddwyr oedd yno i Ryd-wyn, ger llaw Eglwys Llanrhyddlad, i addoli.

Yn lled fuan ar ol adeiladu y "Capel Mawr," dechreuodd William Llwyd, brawd hynaf Mr. Llwyd, Bwlch-y-fen, ymgyfreithio âg ef am yr etifeddiaeth, ac ynnillodd y gyfraith, a thorodd brydles y capel; ond caniatâodd yntau iddynt ei gael, ar yr ammod iddynt dalu 5p. y flwyddyn o gydnabyddiaeth am y capel a'r llain, yn lle 10s., fel o'r blaen. Yr oedd 5p. yn swm mawr y pryd hyny; a chan nad oedd aelodau y gymdeithas neillduol ond ychydig, a'r rhan fwyaf o honynt yn ddim ond gweithwyr yn y ffermydd cyfagos, teimlent y swm yn faich trwm. Ychydig amser cyn talu y 5p. cyntaf, cynhygiodd y Parch. John Elïas bregethu yn y capel ryw noson cyn talu'r ardreth, er mwyn cael cyfleusdra i osod yr achos ger bron y gynnulleidfa. Felly y gwnaed, "a chasglwyd 5p. union; dim mwy na dim llai." Y John Jones, y crybwyllwyd am dano, a drefnwyd i anfon y 5p. i Mr. Llwyd, yr hwn a osododd achos y gynnulleidfa fechan dlodaidd ger ei fron mor effeithiol a gostyngedig fel y tosturiodd y bonheddwr wrthynt, ac y gadawodd iddynt gael y capel a'r llain am 10s. y flwyddyn, fel o'r blaen. Yr oedd y Mr. Llwyd yma yn frawd i'r enwog Richard Llwyd, Bomaris, yr hwn a fu'n bregethwr a gweinidog tra chymmeradwy gyd â'r Methodistiaid o'i ieuengctid hyd ddiwedd ei oes, fel y ceir gweled rhag llaw, yn y lle priodol.

Aeth "Y Capel Mawr" yn rhy fychan i'r gynnulleidfa, ymhen tu a deugain mlynedd ar ol ei adeiladu; ac yn y flwyddyn 1799, tynwyd rhan o hono i lawr, ac yn gyssylltedig â'r rhan a adawyd, adeiladwyd capel cwbl newydd, gan droi y rhan a safai o'r hen gapel yn dŷ annedd, a siop, lle y preswyliai John Jones a'i briod dduwiol, Elin Edward, modryb i briod yr ysgrifenydd, a chwaer ei thad, gyd â'r rhai y magwyd hi yn ofalus a chrefyddol, fel yr awgrymwyd o'r blaen. Gwnaed y capel y tro yma yn adeilad cryf, wedi ei doi â llechau, ac yn lle cysurus i addoli, a galwyd ef "Bethel Hen;" ond "Y Capel Mawr" ydyw yn yr ardal hyd y dydd hwn. Cynhaliwyd addoliad yn yr adeilad yma am yr yspaid maith o ddeugain o flynyddau. Erbyn hyny, yr oedd hwn hefyd wedi myned yn rhy gyfyng i'r gynnulleidfa, ac yn dechrau adfeilio hefyd; ac yn y flwyddyn 1840, adeiladwyd ef drachefn, a gwnaed ef yn gryf a chyfleus. Yn y flwyddyn 1846, bu farw

Digitized by Google

yn dysgu yn gynt nag y gwnai pobl ieuaingc yn gyffredin yn yr ysgolion diwerth a gedwid yn y dyddiau hyny. O herwydd paham, heurid yn groch bod cyfrinach rhyngddynt â'r ysbryd drwg. Ond, er yr holl waradwydd a fwrid arnynt, a'r holl anwireddau a deunid am danynt, a'r holl erlidiau a ddïoddefasant, daeth eu diniweidrwydd yn raddol i'r golwg, a chanfuwyd absen ac enllib y cyhuddwyr bob yn ychydig ac ychydig, nes o'r diwedd y dymchwelwyd y sarhâd ar ben eu gwrthwynebwyr.

Yn nechrau y flwyddyn 1743, aeth Lewis Rees, o Lanbrynmair, i Blas-Penmynydd, a phregethodd ger llaw, yn ymyl hen dŷ oedd ar y tir yno, a elwid Minffordd; a phregeth i'w chofio oedd y bregeth honno. Yn y flwyddyn 1814, pan oedd y diweddar Ddr. Arthur Jones, Bangor, ar daith ym Môn, pregethodd ar ganol dydd mewn tŷ ffarm a elwid Hafod, ymhlwyf Llangwyllog, ger llaw Llangefni. Yr oedd hen ŵr yr Hafod yn Gristion cywir, ac ar y pryd yn bur oedranus, ac yn hollol ddall;* ac o dan y bregeth grybwylledig, gan Lewis Rees, yn 1743, yr argyhoeddwyd ef. Adroddodd yr hen ŵr duwiol yr hanes wrth y Dr. A. Jones fel y canlyn:—

"Ni bu Saul o Tarsus erioed yn fwy penderfynol i garcharu disgyblion Iesu nag oeddwn i a'r fintai erledigeuthus oedd wedi ymgasglu gyd â phastynau i gyfarfod y Pengrwn oedd i ddyfod i bregethu ym Mhenmynydd. Yr oeddym oll wedi cyttuno, os efe a bregethai, y gwnelem ben am dano rhag blaen. Ac wedi iddo ddyfod yno, dechreuasom wasgu ym mlaen tu ag ato; a phan aeth i ben hen gareg fawr yn ymyl yr hen dŷ hwnw (Minffordd), trodd ei wyneb tu ag Arfon, a rhodd y pennill hwnw i'w ganu gan ryw nifer fechan oedd yn ei ganlyn:—

'Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
Lle daw im' help 'wyllysgar,' &c.

Ninnau yn tybied mai disgwyl gwŷr arfog o fynyddoedd Arfon yr oedd efe, a giliasom ryw ychydig oddi wrtho. Ac wedi ymgynghori, penderfynodd rhai o honom gael clywed beth oedd gan y pregethwr i'w ddywedyd; ac felly, ni a aethom dros y clawdd yr ochr isaf i'r ffordd, a cherddasom yn araf a distaw ynghysgod y clawdd, hyd nes y deuthom ar gyfer y man lle y safai. Nid oedd ef yn gallu ein gweled ni, ac nid oeddym ninnau am ei weled yntau; ond yr oeddym yn clywed pob gair a ddywedai mor eglur a phe buasem yn ei ymyl. O dan y bregeth honno, ar y diwrnod rhyfeddaf yn fy oes, y deuthum i weled fy hun fel pechadur colledig, ymhob man, ac er [illegible], oddi allan i Iesu Grist, a hwnw wedi ei groes-

* Yr hen ŵr dall yma ydoedd tad "Huw Jones yr Hafod," enw oedd yn [illegible] adnabyddus yn sir Fôn tu a dengain mlynedd yn ol. Ei hynodrwydd pennaf oedd ei allu digyffelyb i holi plant yn yr Ysgolion Sabbothol. Bu hefyd yn flaenor ffyddlawn a defnyddiol iawn gyd â'r Methodistiaid yn Llangwyllog am fwy na hanner can mlynedd. Arferai yr hen ffarmwr duwiol yma deithio ar ei geffyl, pan oedd yr [illegible] yn ieuangc, trwy holl Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid yn Môn i "holi'r plant," ac yr oedd ei ddawn mor llithrig, syml, a [illegible], fel y cai gan holl blant yr ysgol ei atteb yn unllais; ac os [illegible] ei rhywun mewn oedran eu helpu, rhoddai daw tyner arnynt ar [illegible] gan ddywedyd, "Chwarau teg i'r plant!"

hoelio. Dïolch iddo byth am fy nghipio fel pentewyn o'r tân!"†

Ond er i Lewis Rees gael llonydd i bregethu yn y borau hwnw, trwy'r dull rhyfedd a nodwyd; ac er i'r bregeth ragorol honno fod yn arogl bywyd i fywyd ar un o'i wrandawyr erlidgar, o leiaf; etto, ni chafodd heddwch i bregethu yn y prydnhawn, canys ymgasglodd torf lïosocach o erlidwyr gwerinaidd ac anwybodus ynghyd yn ei erbyn, a phrin iawn y diangodd yn ddïanaf o'u crafangau. Cofrestrodd William Prichard y tŷ bychan, Minffordd, yn ebrwydd ar ol hyn i bregethu ynddo; ac ym mis Ebrill, 1743, aeth un Benjamin Thomas, o'r Deheudir, yno, gan fwriadu pregethu yn y lle; ond ymgasglodd torf erchyll o erlidwyr at y tŷ, a chanddynt ffyn mawrion yn eu dwylaw, i aflonyddu y cyfarfod. Yr oedd un o honynt wedi darpar ffon â phen haiarn mawr iddi, gyd â'r hon y bwriadai roddi ergyd marwol i'r pregethwr. Pan ddechreuodd B. Thomas bregethu, taflodd un o'r dihirod lestriaid mawr o ddwfr am ei ben, fel arwydd i'r lleill i ymosod; ac yn y fan dechreuasant ei ffonodio â'u holl egni; ond gan fod Thomas yn ddŷn cryf a bywiog, llwyddodd i ddïangc o'u gafael heb gael llawer o niwaid. Wedi i B. Thomas ddïangc, tarawodd y dihiryn oedd yn meddu y ffon â phen haiarn arni Howel Thomas, o Drefolwyn, y crybwyllwyd am dano eisoes, nes yr oedd ei waed yn llifo; a thorodd y ffon, nes y neidiodd y pen haiarn dros y clawdd i'r cae. Dilynodd y dihirod erlidgar y gwrandawyr diniwaid ar hyd y ffordd â'u ffyn mawrion nes yr oedd eu gwaed yn lliwio'r llawr, a'r creuloniaid eu hunain wedi diffygio.

Ond William Prichard oedd prif nôd eu cynddaredd. Ar un borau Sabboth, yn fuan ar ol yr amgylchiad a nodwyd, aeth yn agos i 250 at Blas-Penmynydd, gan dybied bod pregethwr wedi myned yno er nos Sadwrn; ond, fel y digwyddodd, nid oedd yno yr un. Yr oedd y gŵr oddi cartref, a'r gweision oll wedi myned i Eglwys Llanffinan, fel nad oedd ond y wraig ac un forwyn gartref; a phan glywodd y gweiddi a'r tyngu erchyll o amgylch y tŷ, aeth i'r drws, â baban bychan deufis oed yn ei breichiau. Haws dychymmygu na darlunio ei theimladau cyffröus pan lefodd bleunor y dihirod yn ei hwyneb, "Yr ydym ni wedi dyfod yma i ladd dy Bengrwn di a'i bregethwr!" "Os Pengrwn yr ydych yn ei alw," eb hithau yn

† Drych yr Ams., t. 89; Meth. Cymru, cyf. i., t. 108; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 452-3.

Digitized by Google

bwyllog, â'i baban yn ei breichiau, "Nid yw efe gartref yrŵan, ac nid oes yma un pregethwr ychwaith." "Celwydd a ddywedi di," meddent hwythau, mewn cynddaredd. Ar hyny, gofynodd y forwyn, "Meistres, a gaf fi gau'r drws rhagddynt?" "Na," eb hithau, gyd â'r un arafwch mwynaidd a hunan-feddiannol, "gâd iddynt; mi fedraf fi ddioddef er mwyn crefydd Iesu Grist." Pan welodd yr haid farbaraidd nad oedd prif wrthrychau eu dïaledd dïachos yn eu cyrraedd, drylliasant yr holl ffenestri, distrywiasant bresebau yr anifeiliaid, ac aethant i'r ysgubor, gan gymmysgu y ceirch a'r haidd ynghyd, a thyngu y lladdent pwy bynag a'u gwrthwynebant. O gylch yr un amser, yr oedd un o'r gweision ar ddechreunos yn yr ysgubor yn darpar yr aradr at ei waith, a bachgen yn dal y ganwyll iddo, pan y seuthodd rhyw ddihiryn ergyd atynt; ond yn rhaglunieuthol, aeth yr ergyd rhyngddynt i'r pared heb wneud dim niwaid iddynt.

Teimlodd Wm. Prichard o'r diwedd bod y trinieuthau creulawn hyn yn ormod i'w dïoddef; ac wedi cael cyfarwyddyd cyfreithiwr oedd yn ewyllysiwr da i grefydd, gwysiwyd y difrodwyr erlidgar i ymddangos yn y Brawdlys yn y Mwythig, a gorfodwyd rhai o honynt i dalu yn llawn am y colledion a wneuthant, tra y dihangodd eraill o'r wlad rhag ofn y carchar a'r crogbren.

Rhoddes hyn derfyn, i fesur, ar yr erlidiau cyhoeddus; ond yr oedd llid yr erlidgar yn aros yr un. O'r diwedd, llwyddodd rhai o'r erlidwyr cyfoethocaf i gael gan ei feistr tir i'w fwrw allan o Blas-Penmynydd; ac yn y flwyddyn 1745, symmudodd oddi yno i Fodlew-fawr, ymhlwyf Llanddaniel, sir Fôn. Ond nid oedd pobl Llanddaniel un mymryn gwareiddiach na phobl Penmynydd. Gorfodwyd ef i gadw ci mawr i'w amddiffyn ar y ffyrdd, rhag mor ddïalgar oedd yr ardalwyr tu ag ato. Prynodd rhyw ddŷn yn Niwbwrch gyllell fawr, â'r hon y bwriadai ei ladd y cyfle cyntaf a gaffai, ac aeth at ei dŷ un noswaith gan lwyr benderfynu rhoi ei fwriad mewn grym; ond pan gyrhaeddodd y tŷ, yr oedd y gŵr yn darllen pennod, ac yn gweddïo gyd â'i deulu. Synodd y dŷn yn aruthr, a dywedodd, "Os hyn ydyw arfer y bobl yma, yn enw'r Mawredd! ni wnaf fi ddim niwaid iddynt." Cyfaddefodd ei fwriad gweudlyd, ac aeth adref yn heddychol. Dïoddefodd William Prichard lawer o sarhâd ac amharch wrth fyned a dyfod i farchnadoedd Caernarfon, yn enwedig gan wŷr eglwysig, y rhai a heurent mai "efe a ddechreuodd deunu sismau a heresiau ar hyd y wlad, i ŵyrdroi pobl ddiniwaid i gredu celwydd, ac i wadu yr eglwys." Un tro, fel yr oedd yn myned adref dros Foel-y-don, digwyddodd fod un o brif erlidwyr yr ardal yn y bâd gyd âg ef, a elwid Mr. Morus, o ardal Paradwys. Dechreuodd hwnw ffonodio ei geffyl ac yntau, yn y bâd; ac wedi dyfod i'r lan, yr oedd yn parhau i'w guro yn ddiarbed. Yna gofynodd Wm. Prichard iddo, "Paham yr ydych yn fy nghuro i a'm ceffyl heb un achos?" Attebodd yntau, gan dyngu'r mawrllw, "Y mae hyny yn ormod o barch i ti, yr heretic cythraul!" Pan welodd Prichard nad oedd dim yn tycio er cael heddwch, barnodd mai ei ddyledswydd oedd amddiffyn ei hun. Gollyngodd ben ei farch yn ddisymmwth, a rhuthrodd ar y terfysgwr, gan ei daflu ar ei gefn ar y traeth caregog, a llusgodd ef gerfydd ei draed ar hyd y gro, nes torchi ei ddillad, a pheth o'i groen hefyd. Newidiodd y gŵr ei dôn erbyn hyn, gan lefain yn groch am ei fywyd. Gan yr ystyrid y gŵr hwnw yn gryn gawr yn yr ardal, syrthiodd arswyd William Prichard ar y trigolion, fel na feiddiodd neb mwyach ymosod arno yn bersonol.

Pan welodd yr erlidwyr nad oedd ei sarhau a'i bastynu yn llwyddo i wneud iddo wadu ei grefydd, nid oedd dim i'w wneud ond defnyddio yr un ystryw ag a lwyddasai o'r blaen i'w ymlid o Lasfryn-fawr a Phlas-Penmynydd, er ei yru etto o Fodlew-fawr, trwy berswadio ei feistres tir i roddi rhybudd iddo ymadael o'i ffarm y Calangeuaf canlynol. Bu awyrgylch ei amgylchiadau yn bur gymmylog dros ryw ennyd, gan fod y tirfeddianwyr erlidgar yn cyngreirio yn ei erbyn; ond yn ddisymmwth, "cyfododd goleuni i'r uniawn yn y tywyllwch." Clywodd fod ffarm yn rhydd gan William Bulkeley (Bwcle), Ysw., Brynddu, Llanfechell, un o hynafiaid W. B. Hughes, Ysw., A.S., Plas Coch, ac aeth yno i ymofyn y lle. Gofynodd Bwcle iddo, "Beth yw yr achos eu bod yn dy droi allan o'th dyddyn? Ai methu talu yr oeddit?" "Nage, nage," eb yntau; "ond o achos fy marn mewn pethau crefyddol, ac am fy mod yn Ymneillduwr oddi wrth Eglwys Loegr." "Os nad oes rhywbeth heb law hyny yn dy erbyn," eb y bonheddwr, "gosodaf fi iti ddigon o dir;" ac felly fu. Rhoddodd brydles iddo ar ffarm sydd rhwng pedwar a phum can erw o dir, a elwir Clwchdernog (Clwch-Edeyrniog), ymhlwyf Llanddeusant, Môn; ac yno y bu hyd ddiwedd ei oes, a bu'n dra chyfeillgar â'i feistr tir yn y cyfamser.

Digitized by Google

Ymddengys mai yn Nghalangeuaf 1750 y mudodd William Prichard i Glwchdernog, canys dywed John Wesley iddo fod yn pregethu yn nhŷ Wm. Prichard, ger llaw Llanerchymedd, ym mis Mawrth y flwyddyn honno, a thrachefn yn Ebrill yr un flwyddyn. Yn fuan ar ol i W. Prichard ymsefydlu yng Nghlwchdernog, cofrestrodd dŷ bychan ar ei dir, a elwid y Clwch-hir, i bregethu ynddo, ac i gynnal moddion crefyddol eraill. Nid ydyw yn debyg i eglwys Annibynol gael ei sefydlu yn y Clwch-hir, ond rhoddid croesaw i bregethwyr pob enwad i bregethu ynddo, canys er bod W. Prichard yn Annibynwr cydwybodol, etto yr oedd yn gwbl ddiragfarn at bawb o bob cyfundeb crefyddol. Yr oedd yn dra chyfeillgar gyd â'r Methodistiaid ar hyd ei oes; a dywed awdur galluog *Methodistiaeth Cymru* mai efe a fu "yn brif offeryn i ddwyn Methodistiaeth i Arfon a Môn, er y perthynai efe ei hun i enwad arall. Hoff oedd ganddo dduwiolion o bob enwad, ac eiddigeddai dros ledeuniad a phregethiad o'r gwirionedd megis y mae yn yr Iesu ymhob man, a chan bwy bynag." Bu pregethu yn y Clwch-hir hyd derfyn oes William Prichard, ac y mae'n debyg hyd onid aeth yr Annibynwyr i bregethu i bentref Llanddeusant, lle a elwid yn ddiweddar y Siop-newydd, lle y bu pregethu yn achlysurol, o leiaf, hyd onid adeiladwyd capel gan yr Annibynwyr heb fod ymhell o'r pentref yn 1795, yr hwn a elwir Bethania. Ystyriai William Prichard ei hun yn aelod o eglwys Annibynol Pwllheli hyd ddiwedd ei oes, a chyrchai yno bob mis i gymmundeb, er bod y ffordd, rhwng myned yno a dychwelyd, yn llawn pedwar ugain milltir. Ar Sabbothau eraill elai i Ros-y-meirch i wrando yr efengyl, yr hwn le sydd yn llawn deng milltir o Glwchdernog, yr hyn sydd brawf pur eglur nad oedd pregethu cysson bob Sul yn y Clwch-hir.

Rhaid i ni gofnodi un amgylchiad pwysig arall y bu gan William Prichard law arbenig ynddo, sef cyfodiad y capel Ymneillduol cyntaf ymhlwyf Llanrhyddlad, yr hwn a safai (ac a saif etto yn wir) tu a dwy filltir i'r gogledd-orllewin o Glwchdernog. Adroddwyd yr hanes i ni gan John Jones, Ty'n-y-capel, Llanrhyddlad, un o fleunoriaid hynaf yr ail do o Fethodistiaid yn yr ardal, a'r hwn a fagodd ein hanwyl gydwedd fel merch iddo ei hun. Y mae'r hanes yma yn gwahanieuthu ychydig oddi wrth yr hyn a adroddir ym *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii., t. 498–501.

Ryw bryd o gylch 1748, aeth Siân Morus, a'i mab, Morus Edward, o'r Gareg-gam (tyddyn bychan ymhlwyf Llanrhwydrys, ar derfyn plwyf Llanrhyddlad, yn ymyl Melin Bodronyn), i rywle i wrando Howel Harris yn pregethu, a chawsant gymmaint o flas ar y bregeth fel y dymunasant yn daer arno ddyfod i'w tŷ hwythau, y Gareg-gam, i bregethu; â'r hyn y cydsyniodd yntau yn garedig. Wedi taenu'r gair ar led, daeth nifer bychan i wrando y pregethwr enwog, ac yn eu plith yr oedd Evan Thomas, hen feddyg-esgyrn, o Faes-y-brethyn-brych, Llanfairynghornwy; Richard Thomas, Tŷ-wīan, o'r un plwyf; Thomas Phylip, o Ben-yr-orsedd, Llanrhwydrys, y tyddyn nesaf i'r Gareg-gam ond un; a Richard Parry, Ty'n-llan, Llanfflewyn; oll yn ameuthwyr cefnog, y rhai oll a ddaliwyd yn rhwyd yr efengyl yr un pryd, a rhoisant brawf o'u gwir ddychweliad trwy barhau yn ffyddlawn i'w proffes hyd angau. Dychwelwyd y rhan fwyaf o'u hiliogaeth at grefydd mewn amser dyfodol, a bu amryw o honynt yn fleunoriaid duwiol a phregethwyr cymmeradwy gyd â'r Methodistiaid hyd derfyn eu hoes. Mab i Evan Thomas, y Maes, oedd y Parch. John Evans, Bodedern; a mab iddo yntau ydyw y Parch. Ebenezer Evans, yr hwn sydd yn aros hyd y dydd hwn. Wyres i Thomas Phylip ydyw yr ysgolheiges enwog a'r grefyddwraig ffyddlon, Mrs. Grace Hughes, Pen-yr-orsedd, Cemlyn, yr hon a fu'n cydymryson dysgu Groeg â'r ysgrifenydd, er mwyn deall y Testament Newydd yn yr iaith wreiddiol, a'r hon sydd adnabyddus i'r rhan fwyaf o bregethwyr y Methodistiaid trwy Ogledd Cymru, ac i amryw o'r Deheubarth hefyd.

Sefydlwyd cymdeithas eglwysig yn y Gareg-gam ymhen rhyw ennyd ar ol i Howel Harris fod yno yn pregethu, ac ymunodd gŵr oedd yn byw ar y pryd mewn tŷ oedd ar y llain, lle y saif Capel Llanrhyddlad, â'r gymdeithas. Yr oedd tŷ'r gŵr hwnw (nid oedd John Jones yn cofio ei enw ef) yn heleuthach na'r Gareg-gam; am hyny symmudasant i'r tŷ hwnw i bregethu, ac i gynnal moddion crefyddol eraill. Cynhyddodd y gymdeithas yn gyflym, nes yr aeth y tŷ hwnw hefyd yn rhy fychan; a bu'r cyfeillion mewn cryn ddyryswch dros ennyd yn methu gwybod pa le a pha fodd y gallent gael lle heleuthach. Yr oedd y gymdeithas ar y pryd yn cynnwys rhai Annibynwyr, rhai Bedyddwyr, a'r rhan fwyaf yn Fethodistiaid. Perchenog y llain y safai'r tŷ arni oedd Mr. Llwyd, Bwlch-y-fen, ger llaw Llangefni. Yn y flwyddyn 1772, cyttunodd y gymdeithas yn

Digitized by Google

Llanrhyddlad i anfon tri o wŷr cyfrifol, un dros bob plaid, at Mr. Llwyd i ofyn caniatâd i adeiladu tŷ addoliad ar y llain grybwylledig, yr hon sydd tu a chwarter erw o dir, sef William Prichard, Clwchdernog, dros yr Annibynwyr; William Roberts, Bottedd (Bod-hedd), ffarm fawr yn terfynu, o fewn un cae bychan, ar y llain dan sylw, dros y Bedyddwyr; a Morus Edward, y Gareg-gam, dros y Methodistiaid. Mr. Llwyd, yn dra gwahanol i foneddigion yr oes honno yn gyffredin, a gydsyniodd â'u cais, a gosododd y llain iddynt ar brydles am 10s. y flwyddyn. O ganlyniad ymosodwyd ar y gwaith o adeiladu capel ar unwaith; ond gan fod lliaws yn yr ardaloedd o amgylch yn credu mai dihirod peryglus i wlad ac eglwys oedd y crefyddwyr dïeithr hyny, bu cryn gyffro yn yr achos, yn enwedig ym mysg y boneddigion. Gan hyny, er mwyn ymgynghori ar y pwngc, galwyd cyfarfod ynghyd, dan rith gwledd, yn y Gareg-lwyd, Llanfaethlu, yr hwn sydd o fewn tu a milltir a hanner o'r capel. Wedi gosod y matter ger bron, penderfynwyd bron yn unfryd i chwalu yr hyn a adeiladasid o'r capel hyd lawr yn ddïoed. Ar hyny, cododd hen beriglor Llanrhyddlad i fynu, a dywedodd, "Foneddigion, ystyriwch beth a wneloch yn yr achos hwn. Os o ddynion y mae, fe ddaw i'r dim; ond os o Dduw, ofer fydd eich gwaith, ac fe'ch ceir chwithau yn ymladd yn erbyn Duw." Ar hyn, disgynodd math ar ddychryn ar y cwmni oll, ac ni feiddiodd neb o honynt ymyryd â'r achos mwy. Gorphenwyd adeiladu'r capel yn fuan wedyn, ac adeilad bychan a gwael ydoedd, wedi ei wneud o glai a phridd, â tho gwellt arno; a galwyd ef "Y Capel Mwd." Gwelodd John Jones, ein hyspysydd, enwau yr ymddiriedolwyr (*trustees*) ar ei drawst, sef William Prichard, William Roberts, a Morus Edward.

Ymhen rhyw gymmaint o amser ar ol hyn, aeth "Y Capel Mwd" yn rhy fychan i'r gynnulleidfa, a bu raid adeiladu un arall, yr hwn a wnaed o gerig, yn gymmysg â chlai, ond gyd â tho gwellt; ac er yr edrychid arno yn y dyddiau hyn yn fychan, etto galwyd ef "Y Capel Mawr." Yr oedd William Prichard, Clwchdernog, wedi marw er ys cryn amser erbyn hyn, a'r Methodistiaid wedi cynhyddu yn fawr yn yr ardal; ac yr oedd yr enwog John Elïas wedi myned i fyw i Lanfechell, o fewn tu a thair milltir i'r "Capel Mawr," ac yno yr ystyrid ef yn aelod. O gylch y pryd hyn, ymneillduodd yr Annibynwyr a arferent ymgynnull yno, rhai i gapel Proc-y-tôl, ger llaw Llanfechell, ac eraill i Landdeusant; ac aeth yr ychydig Fedyddwyr oedd yno i Ryd-wyn, ger llaw Eglwys Llanrhyddlad, i addoli.

Yn lled fuan ar ol adeiladu y "Capel Mawr," dechreuodd William Llwyd, brawd hynaf Mr. Llwyd, Bwlch-y-fen, ymgyfreithio âg ef am yr etifeddiaeth, ac ynnillodd y gyfraith, a thorodd brydles y capel; ond caniatâodd yntau iddynt ei gael, ar yr ammod iddynt dalu 5p. y flwyddyn o gydnabyddiaeth am y capel a'r llain, yn lle 10s., fel o'r blaen. Yr oedd 5p. yn swm mawr y pryd hyny; a chan nad oedd aelodau y gymdeithas neillduol ond ychydig, a'r rhan fwyaf o honynt yn ddim ond gweithwyr yn y ffermydd cyfagos, teimlent y swm yn faich trwm. Ychydig amser cyn talu y 5p. cyntaf, cynhygiodd y Parch. John Elïas bregethu yn y capel ryw noson cyn talu'r ardreth, er mwyn cael cyfleusdra i osod yr achos ger bron y gynnulleidfa. Felly y gwnaed, "a chasglwyd 5p. union; dim mwy na dim llai." Y John Jones, y crybwyllwyd am dano, a drefnwyd i anfon y 5p. i Mr. Llwyd, yr hwn a osododd achos y gynnulleidfa fechan dlodaidd ger ei fron mor effeithiol a gostyngedig fel y tosturiodd y bonheddwr wrthynt, ac y gadawodd iddynt gael y capel a'r llain am 10s. y flwyddyn, fel o'r blaen. Yr oedd y Mr. Llwyd yma yn frawd i'r enwog Richard Llwyd, Bomaris, yr hwn a fu'n bregethwr a gweinidog tra chymmeradwy gyd â'r Methodistiaid o'i ieuengctid hyd ddiwedd ei oes, fel y ceir gweled rhag llaw, yn y lle priodol.

Aeth "Y Capel Mawr" yn rhy fychan i'r gynnulleidfa, ymhen tu a deugain mlynedd ar ol ei adeiladu; ac yn y flwyddyn 1799, tynwyd rhan o hono i lawr, ac yn gyssylltedig â'r rhan a adawyd, adeiladwyd capel cwbl newydd, gan droi y rhan a safai o'r hen gapel yn dŷ annedd, a siop, lle y preswyliai John Jones a'i briod dduwiol, Elin Edward, modryb i briod yr ysgrifenydd, a chwaer ei thad, gyd â'r rhai y magwyd hi yn ofalus a chrefyddol, fel yr awgrymwyd o'r blaen. Gwnaed y capel y tro yma yn adeilad cryf, wedi ei doi â llechau, ac yn lle cysurus i addoli, a galwyd ef "Bethel Hen;" ond "Y Capel Mawr" ydyw yn yr ardal hyd y dydd hwn. Cynhaliwyd addoliad yn yr adeilad yma am yr yspaid maith o ddeugain o flynyddau. Erbyn hyny, yr oedd hwn hefyd wedi myned yn rhy gyfyng i'r gynnulleidfa, ac yn dechrau adfeilio hefyd; ac yn y flwyddyn 1840, adeiladwyd ef drachefn, a gwnaed ef yn gryf a chyfleus. Yn y flwyddyn 1846, bu farw

Digitized by Google

John Jones; ac ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad galarus, erfyniodd ar yr ysgrifenydd fyned i Fwlch-y-fen i erfyn ar William Llwyd, Ysw., mab y Mr. Llwyd crybwylledig, ganiatâu iddo ef gael ei gladdu yn yr ardd oedd wrth dalcen gogleddol tŷ'r capel; â'r hyn y cydsyniodd y boneddwr yn rhwydd a charedig; ac ymhen dwy flynedd wedyn, claddwyd ei briod, Elin Edward, yn yr un beddrod. Yn lled fuan ar ol hyn, prynodd y cyfundeb y llain a'r holl adeiladau oedd arni, perthynol i'r capel; ac yn y flwyddyn ddiweddaf, 1877, adeiladwyd y capel drachefn, y bummed waith, fel y mae weithian yn un o'r adeiladau harddaf yn yr holl wlad. Dodasom gymmaint a hyn o hanes y sefydliad enwog a hynafol yma, am mai William Prichard, Clwchdernog, a fu'n offeryn penaf i gychwyn yr achos crefyddol ynddo. Weithian, dychwelwn ato ef, prif wrthrych ein hanes, dros ychydig amser ymhellach.

Yn nechrau mis Ebrill, 1773, ymhen tu a blwyddyn ar ol i Wm. Prichard gychwyn achos crefyddol yn Llanrhyddlad, daliwyd ef gan glefyd trwm; ond dïoddefodd dano yn dawel ac amyneddgar. Pan y cai ychydig hamdden gan rym y clefyd, ei hyfrydwch a fyddai dywedyd rhywbeth am ddaioni Duw. Annogai ei wraig a'i blant i ymddiried yn yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ddifrifol am rym duwioldeb, gan ddywedyd, "Yr wyf fi yn myned i'ch gadael." Parodd i un o'i feibion ddarllen y 17fed bennod o Ioan; ac ar ol ei gwrando dywedodd, "O ryfedd gariad Crist! Ië, ïe, i bechadur!" Fel yr oedd angau yn nesâu, yr oedd yntau yn cael mwyfwy o bresennoldeb Duw, ac yn myned yn fwy dïysgog i wynebu yr hen Iorddonen. Pan deimlodd elynion ei enaid yn ymosod arno ychydig cyn iddo farw, dywedodd wrthynt yn hyderus, "Siglwch fy sail, siglwch fy sail os gellwch: y mae cadarn sail Duw yn sefyll." Bu farw mewn tangnefedd ar y 9fed o Fai, 1773, a chladdwyd ef ym monwent yr Annibynwyr yn Rhos-y-meirch.

Yr oedd William Prichard yn ŵr gwir grefyddol. Cyflawnai ei ddyledswyddau crefyddol yn ei deulu llïosog, forau a hwyr, yn ddifwlch, pa drafferth bynag a fyddai arno, hyd yn oed ar ganol cynheuaf. Tystiai gŵr a fu yn ei wasanaeth am un mlynedd ar ddeg, nad oedd yn cofio iddo gymmeryd ei rwystro gymmaint ag unwaith i ddarllen a gweddïo, forau a hwyr, yn ei deulu, yn ystod yr holl amser hyny; a mynych y byddai ei ddagrau yn disgyn i'r llawr, tra'r esgynai ei weddïau i'r nef. Yr oedd ei ymarweddiad mor addas i'w broffes fel y parodd i'w gymmydogion mwyaf annuwiol gydnabod ac addef ei gywirdeb.

Y mae'r gwirionedd fod hanes William Prichard yn hanes cyfodiad Ymnillduaeth yn sir Fôn yn teilyngu, yn ol barn yr ysgrifenydd, y rhan led helaeth a roddwyd iddo yma ymhlith "Enwogion y Ffydd." Er bod Daniel Williams, o Bwllheli, yn arfer pregethu ar amserau, mewn amryw barthau o'r sir, gryn 30 mlynedd cyn amser William Prichard; etto, nid ymddengys iddo dynu llawer o sylw, na llwyddo i gasglu eglwys mewn un man yn yr Ynys. Yr eglwys yn Rhos-y-meirch, a gasglwyd gan Jenkin Morgan, fel y crybwyllwyd, oedd yr eglwys Ymneillduol gyntaf yn y wlad. Yr oedd J. Morgan, cystal a'i noddwr, W. Prichard, yn ddïoddefwr mawr yn achos crefydd, "canys blinid hwy yn ddirfawr gan y gwŷr eglwysig yn Llys yr Esgob dros lawer o flynyddoedd." Bu'r ddau ŵr da yma, yn enwedig William Prichard, fyw i weled cynheuaf toreithiog o'r had a heuwyd ganddynt hwy mewn dagrau. Yr oedd y gynnulleidfa yn Rhos-y-meirch, ynghyd a'r cynnulleidfaoedd a hanasant o honi yngwahanol barthau o'r wlad, yn cynnwys 800 o bersonau pan fu farw William Prichard.*

Nis gwyddom pa nifer o blant a fu i William Prichard, ond gwyddom y bu dau o honynt yn fleunoriaid enwog a ffyddlawn hyd ddiwedd eu hoes gyd â'r Methodistiaid, sef Richard Williams, Pentref-bwâu, ffarm ehang ymhlwyf Llandrygarn; a John William Prichard, Plas-y-brain, ffarm ger llaw Pentraeth, Môn.

Bu'r Methodistiaid yn pregethu ac yn cynnal moddion crefyddol eraill yn y Pentref dros hir flynyddau, sef hyd yn agos i ddiwedd oes Richard Williams, yn gynnar yn nechrau y ganrif bresennol, sef, fel y tybiwn, hyd yr amser yr adeiladwyd Capel Sïon, o fewn tu a hanner milltir i'r Pentref, ymhlwyf Llandrygarn. Ymhen rhyw ennyd, ymestynodd y pregethu o'r Pentref i Dre-Walchmai, yr hon sydd tu a dwy filltir o'r Pentref; ac o gylch 1794, adeiladodd y Methodistiaid gapel yno, yr hwn erbyn hyn sydd wedi ei adeiladu deirgwaith drosodd; ac y mae'r achos Methodistaidd yno yn un o'r rhai mwyaf llewyrchus yn y sir.†

Yr oedd John William Prichard, Plas-y-brain, mab arall William Prichard, Clwchdernog, yn

* Drych yr Amseroedd, t. 53-85; nod *, t. 85-94; Meth. Cymru, cyf. i., t. 90-111; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 421-427; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 450-4, 479.

† Meth. Cymru, cyf. ii., t. 528.

Digitized by Google

hynafieithydd enwog ac yn fardd lled wych. Dywedir bod amryw o'i lythyrau mewn ysgrifen ac yn argraphedig yma a thraw.* Y mae copi o'r *Greal*, 1805–7, a'r *Rhetoreg, neu Rheitheg*, Henri Perri, sydd ynglŷn âg ef, a fu ym meddiant J. W. Prichard, yn awr genym ni, yn yr hwn y mae amryw esamplau o'i lawysgrif. Y mae yn y copi crybwylledig un esampl yn dangos y gallai ysgrifenu mor brydferth ag argraph, tra y dengys y lleill nad oedd ei lawysgrif naturiol ond digon cyffredin. Y mae un erthycl fer o'i gyfieithiad yn *Y Greal* (t. 271–2), â'r ffugenw "Northumberland" wrthi; ac o dani, ar weulod y ddalen, y mae'r geiriau canlynol, mewn llawysgrif brydferth, tebyg i argraph:—"Cyfieithiad I: W: Prisiart o Blasybrain, allan o Arthur Young's Annals of Agriculture." Testyn yr erthycl yw "Maeroni (*Husbandry*)." Hon ydyw yr unig erthycl argraphedig a welsom ni o'i waith. Ar ddiwedd y *Rhetoreg*, sydd ynglŷn â'r *Greal*, y mae'r geiriau canlynol, mewn llawysgrif bur gyffredin:—"Y mae llawer iawn o bethau yn ddiffygiol yn yr argraphiad hwn wrth fel yr oedd yn yr argraphiad cyntaf.—J. W. P." Y mae'r nodiadau ysgrifenedig sydd yn y copi dan sylw o'r *Greal* a'r *Rhetoreg* yn arwyddo bod J. W. P. yn ddŷn craffus iawn, hyspys mewn amryw wybodau, ac yn Gymreigydd rhagorol: ar fyr, nad oedd anheilwng mewn un modd o'i enwog dad, Wm. Prichard.

---

## PENNOD XVI.

### MORGAN HARRI, PHYLIP DAFYDD, DAFYDD WILLIAMS, A LEWIS REES.

Morgan Harri ydoedd fab i John Harri.† Ganwyd Morgan yn 1706, ymhlwyf Mynyddislwyn, a bedyddiwyd ef yn 1720, pan oedd efe yn 14 oed. Wedi iddo dreulio peth amser yn athrofa Caerodor, ordeiniwyd ef yn eglwys Blaenau Gwent yn Awst, 1735, i gynnorthwyo ei dad yn y weinidogaeth. Gan fod eglwys y Bedyddwyr yng Ngwrecsam heb weinidog y pryd hwnw, efe a aeth dros ychydig amser i gynnorthwyo yr eglwys honno; ond y fath oedd yr angen am ei wasanaeth yn y Blaenau fel y bu raid iddo ddychwel yno yn fuan. Ar ol i J. Harri farw yn 1737, cafodd ei fab holl ofal eglwys y Blaenau yn 1738, fel olynydd i'w dad; a neillduwyd Thomas Edwards, tad Morgan a Miles Edwards, i'w gynnorthwyo, o herwydd gwendid ei iechyd. Yn 1743, symmudodd Thos. Edwards i eglwys Llanwenarth. Yr oedd Morgan Harri yn ddŷn dysgedig, serchog, a thra chymmeradwy a defnyddiol, trwy holl eglwysi y Bedyddwyr yn y Dywysogaeth; ond mawr rwystrid ef gan ei afiechyd. Bu farw yn y flwyddyn 1748, pan tu a 42 oed, a chladdwyd ef wrth eglwys y Blaenau.

* Enwogion Cymru, I. F., t. 861.

† Gwel pen. vii. o'r llyfr hwn, y pummed.



#### PHYLIP DAFYDD.

Ganwyd y gŵr dysgedig a llafurus hwn yng Nghwm Ebwy Fawr, ar y 11fed o Fehefin, 1709. Ymddengys iddo gael ei dderbyn i eglwys Penmain yn lled ieuangc, canys dechreuodd bregethu yn 1732, pryd nad oedd dros 23 oed. Ar y 14ydd o Fai, 1734, priododd yn Abergefenni, a thybir mai merch o'r ardal honno oedd ei wraig. Nid yw hyspys ymha le yr addysgwyd ef; ond y mae'r ffaith ei fod yn ysgolhaig gwych, ac yn gallu ysgrifenu Cymraeg a Saesneg yn gywir, yn brawf iddo gael addysg dda yn rhywle. Yn 1739, urddwyd ef i fod yn gydweinidog â Dafydd Williams, a bu'n cydlafurio âg ef am ugain mlynedd, sef hyd farwolaeth Williams.‡ Ar ol marwolaeth Williams, dewisodd eglwys Pen-main Phylip Dafydd yn olynodd iddo, a llafuriodd yno hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn ddŷn o feddwl treiddgar, craffus, a gafeulgar, fel y mae'n eglur oddi wrth y sylwadau a ysgrifenodd ar ddynion ac amgylchiadau. Yr oedd yn bregethwr call, ond nid ymddengys ei fod yn boblogaidd. Byddai yn cadw ei bregeth yn ysgrifenedig ar y Bibl, bron bob amser, wrth ei thraddodi; ac os nad oedd yn ei darllen air yng ngair, byddai yn ymgadw yn lled gaeth at yr hyn a ysgrifenasai. Ymddengys mai Calfiniad uchel ydoedd o ran athrawiaeth, canys y mae llawer o sylwadau llymion yn ei ysgrifeniadau yn erbyn

‡ Nid oes odid ddim o hanes Dafydd Williams ar gof a chadw, ond a geir yn Nyddlyfr Phylip Dafydd. Urddwyd ef ym Mhen-main, yn 1710, a bu yngwasanaeth yr eglwys yno hyd derfyn ei oes. Preswyliai yng Ngweulod-y-waun, ymhlwyf Bedwellty. Bu farw yn 1759, a chladdwyd ef ym monwent Bedwellty. Cofnodir ei gladdedigaeth yn Nyddlyfr Phylip Dafydd fel y canlyn:—"Hydref 28, 1759. Heddyw y claddwyd y Parch. Mr. David Williams. Dymunwyd arnaf fi bregethu yn ei gladdedigaeth, yr hyn yr ymdrechais ei wneuthur oddi wrth Ps. xci. 16. Gan mai'r dydd Sabboth ydoedd, daeth torf ddirfawr o bobl ynghyd yno. Yr oeddwn i ac amryw eraill yn dymuno iddo gael ei gladdu y dydd canlynol, neu yn ddiweddar yn y prydnhawn; ond ni ddarfu i ni lwyddo, ac felly dyryswyd dau gyfarfod; a darfu i'r rhai oedd gymmaint am ei gladdu y pryd y claddwyd ef gael eu siomi hefyd, trwy i'r curad redeg ymaith a gommedd aros hyd nes i'r angladd gyrraedd yr eglwys. Bu Mr. Williams yn weinidog yr eglwys ym Mhen-main am 49 mlynedd. Er ei fod wedi methu pregethu er ys chwe blynedd, etto byddai yn gallu dyfod beunydd i'r addoliad cyhoeddus, ac yr oedd ei bresennoldeb yno i mi bob amser yn hyfryd. Pa fodd y dygir pethau ym mlaen ym Mhen-main, o hyn allan, nis gwn i."—*Han. Egl. Annib. Cymru*, cyf. i., t. 26.



Digitized by Google

Arminiaid ac Ariaid ei oes. Dywed am y rhai a ystyriai efe yn gyfeiliornwyr y pryd hyny fel y canlyn:—

"Y mae'n hawdd canfod meddwl ac amcan y boneddigion a floeddiant gymmaint yn erbyn credoau a chyffesiadau ffydd, ond y cyfryw yn unig a ellir eu gosod allan yngeiriau yr Ysgrythyr, sef agoryd drws digon ehang i bob math ar gyfeiliornad a heresiau i gael eu dwyn i mewn i'r eglwys, os gallant gael ymadroddion Ysgrythyrol wedi eu gwyro, eu darnio, a'u dirdynu i'w hattegu, yr hyn beth a wnant yn fedrus iawn. A phe gallai y dynion hyn ddim ond dwyn eu credoau a'u cyffesiadau eu hunain i mewn, a chael gan yr eglwys gydsynio â hwy, a'u derbyn yn dawel, byddai pob peth wrth eu bodd. Ymhellach, y peth sydd yn fy synu i yn fawr ydyw, bod y personau hyn, sydd yn dadlau cymmaint dros arfer ymadroddion Ysgrythyrol yn unig, i osod allan eu golygiadau, yn defnyddio cyn lleied o eiriau y Bibl yn eu pregethau. Os ymadroddion Ysgrythyrol yw y rhai mwyaf priodol i'w harfer mewn credoau, cyffesiadau, a chatecismau, paham nad ydynt felly mewn pregethau? canys amcan y naill fel y llall yw dysgu dynion ymhethau crefydd. Ac, yn ol fy marn i, pan fyddo credoau, catecismau, a chyffesiadau yn cael eu gosod o'r neilldu, ni chaiff y weinidogaeth ei dal i fynu yn hir, ond gosodir hithau hefyd o'r neilldu, fel y mae amryw o'r dynion hyn, sy'n gwrthwynebu credoau, yn gwneud beunydd. Nid wyf fi dros ddilyn un dŷn, nac unrhyw nifer o ddynion, ond mor bell ag yr wyf yn barnu eu bod hwy yn dilyn Crist. Mor bell a hyny, y mae genyf fi hawl i'w dilyn hwy: Can. i. 8; 1 Cor. iv. 16, xi. 1; Heb. xii. 1.

"Cyn belled ag yr wyf fi yn deall ystyr y gair *orthodoxy*, sef crediniaeth iawn o athrawieuthau y Datguddiad Dwyfol, nid ydyw i'w ddirmygu; ac nid yw cyfeiliornad a heresiau chwaith yn bethau i chwarau â hwynt. Y mae iawn grediniaeth yn angenrheidiol er iachawdwriaeth, a chyfeiliornad yn bechod damniol. Y fath boen a thrafferth a gymmerai yr apostolion i unioni camgymmeriadau a chyfeiliornadau yr eglwysi ymhob peth, yn neillduol gyd â golwg ar y pwngc mawr o *gyfiawnhâd*, fel y gwelir pan oedd y Galatiaid wedi cymmysgu Iuddewiaeth a Christionogaeth, ac yn ymofyn cael eu cyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf! Y mae'n amlwg i mi fod cyfeiliornadau a chamgymmeriadau yn awr yn llawn mor beryglus ag oeddynt y pryd hwnw; ac y maent yn awr yn llawer mwy lliosog nag oeddynt yr amser hwnw."

Tra'r oedd Phylip Dafydd yn eiddigeddu gan zel dros yr hyn a ystyriai efe yn athrawiaeth iachus, yr oedd hefyd yn llawn mor wrthwynebol i drefn a dull y Methodistiaid o bregethu, yr hyn a alwai efe yn "ddull newydd." Ceir cyfeiriadau anghymmeradwyol at y Methodistiaid yn fynych yn ei Ddyddlyfrau. Cymmerer y difyniadau canlynol fel amlygiad o'i deimlad:—

"Mehefin 21, 1775.—Heddyw yr oedd cyfarfod gweinidogion yn y Tŷ newydd, Mynyddislwyn. Nid oedd yno ond ychydig o weinidogion. Pregethodd Mr. Abraham Williams bregeth dda oddi wrth Ps. cii. 16. Darfu i un arall a elwid David Williams [Llysfronydd, y mae'n debyg] bregethu oddi wrth 2 Petr ii. 9. Efe a gymmerth lwybr cyffredin llawer o bregethwyr y dyddiau presennol, sef troi yma ac acw, difynu ambell hanes Ysgrythyrol, a llenwi ei bregeth â chymmarieuthau, a rhai o honynt heb fod o'r fath fwyaf priodol. Yr oedd rhai yn hoffi y fath ddull, ac yn gwneud llawer o swn, fel pe buasent yn analluog i gynnwys eu teimladau o herwydd mawredd y llawenydd a deimlent; a chodai y pregethwr ei lais i gywair uchel anghyffredin. Nid wyf fi yn ystyried y pethau hyn yn un ran o grefydd Iesu. Hydref 19, 1783.—Heddyw yr oedd ein cyfarfod cymmundeb. Pregethodd John Williams yn fy lle. Pregeth dda. Yr oedd y gynnulleidfa yn lliosog, ac ystyried bod offeiriad, a gyfrifir yn bregethwr da, yn eglwys Mynyddislwyn ar yr un amser; ond neidio ac annhrefn oedd yno. Ion. 11, 1785.—Yr oedd gŵr dieithr ym Mhen-main heddyw, a'i enw Howel Powel. Ei destyn oedd 1 Ioan iii. 8. Efe a aeth ym mlaen yn hollol yn null y Methodistiaid. Dywedodd gyflawnder o bethau, ond gyd â'r fath gyflymder fel nas gallasai neb ddal ar yr hyn a lefarai."

Hen Ymneillduwr sych oedd Phylip Dafydd ynghyfrif Methodistiaid ei oes, a hen Galfiniad rhagfarnllyd ynghyfrif ei gydoeswyr Arminaidd ac Ariaidd. Yr oedd i'w ganmol am ei wrthwynebiad i'r hyn a ystyriai yn gyfeiliornus; ond gresyn na buasai gŵr o'i alluoedd rhagorol ef yn llawnach o yspryd cyhoeddus, fel ei gymmydog Edmund Jones, ac na buasai yn yfed mwy o yspryd diwygiadol yr oes.

Bu iddo naw neu ddeg o blant, ac, wrth reswm, cafodd lawer o ofidiau teuluaidd, ac anhawsder parhaus i gael moddion i gynnal ei deulu lliosog; ond ynghanol ei holl drafferthion, glynodd gyd â gwaith y weinidogaeth yn ffyddlon; ac y mae'n ddigon hawdd canfod, wrth ddarllen ei Ddyddlyfrau, ei fod yn treulio ei holl fywyd mewn cymmundeb agos â'r Arglwydd. Bu farw ar y 3ydd o Chwefror, 1787, a chladdwyd ef wrth gapel Pen-main. Nid ymddengys iddo gael llawer o gystudd, o blegid cofnoda ei Ddyddlyfr iddo bregethu ym Mhen-main ar y 17fed o Ragfyr, 1786, oddi wrth Dat. vi. 9–11. Dichon mai dyna'r waith olaf y pregethodd; o leiaf, dyna'r cofnodiad diweddaf sydd yn ei Ddyddlyfr.*

### LEWIS REES,† NEU RHYS.

Ganwyd y gŵr enwog hwn yng Nglynllwydrew, Cwm-gwrach, Glyn-Nedd,‡ yn sir Forganwg, ar yr 2fed o Fawrth, 1710. Enw ei dad oedd Rees Edward Lewis, yr hwn oedd fab i offeiriad plwyf Penderyn, sir Frycheiniog. Ni fynegir pwy oedd ei fam; ond dywedir bod ei rieni yn

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 26–8.

† Y dull Seisnig o *Rhys* ydyw *Rees*. Yr olaf a arferir yn gyffredin gan y Deheuwyr.

‡ Y mae'r enwau hyn yn wahanol gan wahanol gofianwyr Lewis Rees. "Glynrhwydre, yn mhlwyf Glyncorwg, yn agos i Blaengwrach, yn nghymmydogaeth Castell-Nedd, sir Forganwg," sydd gan John Roberts, Llanbryn-mair, yn 1812 (Ychydig Hanes L. Rees, t. 1). "Glanrhwydre, yng Nglyn Nedd, sir Forganwg," sydd gan y Dr. T. Rees, yn 1861 (Hist. Prot. Noncon., p. 441). "Glyn Llwydrew, ym mhlwyf Glyn Corwg, yn sir Forganwg," medd Gwilym Lleyn, yn 1866 (Llyfr. y Cymry, t. 527). Ond gan y Dr. T. Rees a'r Dr. J. Thomas, yn 1871, yn Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 20, y mae fel yr uchod; a chan fod y Dr. Rees yn frodor o'r Deheubarth, cymmerasom yn ganiataol ei fod ef wedi chwilio yn fanwl i'r matter.

Digitized by Google

bobl dduwiol, ac yn aelodau o'r eglwys Ymneillduol ym Mlaen-gwrach, lle yr oedd un Henry Davies, gŵr hynaws a chrefyddol, yn weinidog.* Yr oedd rhieni Lewis yn dal tyddyn bychan o dir, ac yn gysurus eu hamgylchiadau. Un plentyn oedd ganddynt heb law efe, sef merch a'i henw Christiana, yr hon, fel ei brawd, a wnaeth broffes o Grist yn bur ieuangc, ac a barhaodd yn ffyddlon hyd ddiwedd ei hoes. Pan ddeallodd Lewis, ac efe yn blentyn pur ieuangc, mai offeiriad oedd ei daid, gofynodd i'w dad beth oedd yr achos iddo ef, ac yntau yn fab i offeiriad, ymuno â'r Ymneillduwyr; a chafodd yr atteb canlynol:—

"Lewis bach, gwrando fy machgen i! Mi adewais dŷ fy nhad, ac a ymneillduais oddi wrth yr Eglwys Wladol, o herwydd yspryd erledigeuthus yr offeiriaid a'r ucheleglwyswyr yn gyffredinol; ac yr oedd yn rhaid i mi ymneillduo, neu fod yn elyn calon i grefydd a chanlynwyr Iesu Grist; a sicrhaf i ti, Lewis, os byddi di byw i weled fy oedran i, a bod o ryw ddefnydd gyd âg achos Crist, y cai dithau deimlo yn chwerw oddi wrth eu hyspryd erlidgar hwy. Hefyd, Lewis, nid wyf yn gweled pa fodd y gall dŷn fod yn dduwiol wrth erlid duwiolion, na pha fodd y gall Eglwys Wladol fod yn eglwys i Grist; am hyny yr wyf yn dewis crefydda ym mysg y bobl debycaf eu hyspryd i Iesu Grist."†

Ymddengys i'r atteb yma roddi cyflawn foddlonrwydd i Lewis ieuangc dros Ymneillduaeth ei dad, a gellir casglu y bu megis careg sylfaen i'w Ymneillduaeth yntau. Dodwyd ef pan oedd yn blentyn ieuangc gyd â Henry Davies, gweinidog Blaen-gwrach, a derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Annibynol honno pan oedd yn bur ieuangc, er mawr gysur i'w rieni duwiol a gofalus. Ar ol bod yn ysgol Henry Davies dros rai blynyddau, rhoddwyd ef yn ysgol rammadegol Joseph Simons, yr hon a gadwai efe naill ai yn Abertawe, neu yn agos yno. Wedi hyny, dodwyd ef dros ryw dymmor dan addysg Rees Price (Rhys Prys), Ty'n-tor, Pen-y-bont-ar-ogwy; ac wedi hyny, symmudwyd ef i'r athrofa yn Llwyn-llwyd, yr hon, ar y pryd, oedd dan ofal yr enwog Vavasor Gruffydd. Gellir casglu ei fod wedi dechrau pregethu erbyn hyn, canys dywedir i'w athraw craffus, wrth ganfod ei fod yn meddu doniau a chymmwysderau mor rhagorol, a'i fod hefyd yn meddu graddau dymunol o ddysg, ei annog i beidio aros yn hwy yn yr ysgol, ond ymroddi yn gwbl i waith y weinidogaeth. "Y mae llawer o angen am weithwyr yngwinllan Crist yng Nghymru," meddai Mr. Gruffydd, "ac ymddengys eich bod chwi yn ddigon parod i waith; am hyny yr wyf yn golygu mai eich dyledswydd yw ymroddi i weithio yn ddïymaros."

O gylch y pryd hyn galwodd yr enwog Edmund Jones, o Bont-y-pwl, heibio'r Llwyn-llwyd, ar ei ffordd adref, ar ol bod ar daith trwy'r Gogledd yn pregethu. Cwynai yn dost wrth Mr. Gruffydd bod angen dirfawr am bregethwyr mewn llïaws o fanau yn y Gogledd; ac wedi clywed barn yr athraw am Lewis Rees, annogodd ef yn daer i fyned i Lanbryn-mair, gan y barnai fod yno faes addfed iddo i weithio; â'r hyn y cydsyniodd yntau, ar yr ammod bod Jones i fyned yno gyd âg ef i'w gyflwyno i'r bobl. Ni phetrusodd hen apostol Pont-y-pwl ddim cyn cydsynio âg ef. Wedi cyrraedd yr ardal, aethant i dŷ y gwyddai "hen brophwyd Pont-y-pwl" y caent dderbyniad croesawgar, a elwid Tŷ-mawr; ac wedi cyfarch y teulu yn fyr, dymunodd Jones gael myned i ystafell ar ei ben ei hun, â'r hyn y cyttunwyd yn y fan, a chafodd y fath hwyl mewn gweddi ddirgel yno dros Lewis Rees fel yr oedd ei wyneppryd yn disgleirio o lawenydd, gan y credai yn ei galon iddo gael sicrwydd y byddai mynediad Rees ieuangc yno o fendith fawr, nid yn unig i'r gymmydogaeth honno, ond hefyd i lïaws o fanau eraill yng Ngogledd Cymru; ac felly y bu. Digwyddodd hyn, cyn belled ag y gallai yr hen Roberts o Lanbryn-mair gasglu, yn y flwyddyn 1734, pan oedd Lewis Rees yn 24 oed.‡

Wedi i Rees fod yn Llanbryn-mair, Aberhafesp, a lleoedd eraill, yn llafurio yn ddiwyd, ymdrechgar, a llwyddiannus, dros o gylch pedair blynedd, ac iddo ef ynnill eu serch hwy, a hwythau ei serch yntau, rhoddasant alwad iddo i fod yn weinidog iddynt, â'r hyn y cydsyniodd yntau; ac yn gynnar yn Ebrill, 1738, aeth ar daith i eglwys Blaengwrach, â'r hon yr ymunasai gyntaf, i gael ei ordeinio yn weinidog yn Llanbryn-mair. Yr oedd yr hen Ymneillduwyr Cymreig yn arfer y dull yma yn lled fynych, fel y gwelsom eisoes, gan ddilyn cynllun Eglwys Loegr yn hyn yn lled agos, o'r hon yr ymneillduasant. Cymmerth yr ordeiniad le ar y 13ydd o Ebrill y flwyddyn grybwylledig. Yn y flwyddyn ganlynol, 1739, adeiladwyd capel Llanbryn-mair; a thrwy lafur diwyd Rees, talwyd am dano yn lled fuan. Yna adeiladwyd y Capel Newydd, ymhlwyf Llandinam, yn yr hwn y gweinyddai Rees mewn cyssylltiad â Llanbryn-mair. Y mae Roberts yn cofnodi han-

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 374, note *.
† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 20.
‡ Ychydig Han. L. Rees, t. 4, 5; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 442; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t .21.

Digitized by Google

esyn pur ddyddorol mewn cyssylltiad â hyn, fel y canlyn:—

"Pan oedd Mr. Rees yn y Mwythig yn casglu arian at un o'r capelydd hyn, aeth i dŷ gŵr bonheddig; ac thra'r oedd yn disgwyl cyfle i ymddiddan âg ef, digwyddodd iddo ei glywed yn ceryddu ei forwyn yn llym am iddi wastraffu ychydig o ganwyll. Tybiodd yntau, wrth hyn, mai cybydd mawr ydoedd, ac mai ofer fyddai iddo ofyn dim ganddo. Ond cyn gynted ag y cafodd gyfleusdra i siarad âg ef, a dywedyd ei neges, er ei fawr syndod, edrychodd y gŵr da yn llon iawn arno, a rhoddes iddo bum gini, yr hyn oedd yn fwy o werth y pryd hyny nag ugain gini yn bresennol. Ar ol derbyn yr arian, a dechrau ymddiddan yn siriol, dywedodd Mr. Rees wrth y gŵr bonheddig iddo ofni, wrth ei glywed yn ceryddu ei forwyn, na chaffai ddim ganddo. 'O, Syr,' eb yntau, 'wrth ofalu na bo dim gwastraff yn fy nheulu, *mewn pethau bychain*, yr wyf yn meddu pum gini i'w rhoddi i chwi.' Boddlonodd hyn Mr. Rees yn fawr iawn, a mynych yr adroddai yr hanes, am ei bod yn gwbl gysson â'i duedd a'i ymddygiad ef ei hun dros ei holl fywyd." *

Ymhen tu a blwyddyn ar ol adeiladu y capelydd, sef o gylch 1740, priododd L. Rees Esther, merch Mr. Abraham Penry, o blwyf Penderyn, sir Frycheiniog. Pan ofynodd gydsyniad ei ddarpar tadynghyfraith, gofynodd hwnw pa eiddo oedd ganddo tu ag at gadw gwraig. Gafeulodd yntau mewn Bibl oedd ar y bwrdd o'i flaen, a dywedodd, "Syr, fy etifeddiaeth benaf i ydyw y llyfr hwn." Mawr foddhawyd Mr. Penry ganddo ef a'i etifeddiaeth, a chydsyniodd yn rhwydd iddo briodi ei ferch. Bu iddynt chwech o blant, sef Josiah, Abraham, Mari, Isaac, Jacob, ac Ebenezer; ond yr unig un a ddaeth yn enwog a chyhoeddus iawn oedd yr ail fab, Abraham Rees,† fel y ceir gweled rhag llaw.

Yr oedd crefydd yn isel iawn yng Ngogledd Cymru pan ymsefydlodd Mr. Rees yn Llanbrynmair, ac yr oedd annuwioldeb a phob anfoes yn uchel iawn yn y wlad. Mewn gwirionedd, yr oedd yma newyn trwm: "nid newyn am fara, ac nid syched am ddwfr, ond am wrando geiriau yr Arglwydd." Nis gallai Roberts gael allan bod yn yr holl barth yma o'r Dywysogaeth fwy na chwech o dai addoliad, heb law yr Eglwys Sefydledig, yn perthyn i unrhyw gyfundebau crefyddol, sef dau yng Ngwrecsam (un yn perthyn i'r Bedyddwyr), un yn Llanfyllin, un yn Newmarket, un yn Ninbych, ac un ym Mhwllheli. Yr oedd ychydig Ymneillduwyr mewn manau eraill, ond ychydig iawn oeddynt, ac arferent ymgynnull i addoli mewn tai annedd. Mewn "Ymddiddan" tra dyddorol "rhwng Scrutator a Senex,"‡ yn y *Drysorfa Ysprydol*, ceir y darlun canlynol o agwedd foesol a chrefyddol y wlad yn yr amser dan sylw, yn yr hwn ddarlun y dygir i mewn amgylchiad hynod ynglŷn â Lewis Rees:—

"*Scr.* Pa bryd y deuthoch gyntaf i'r parthau hyn o'r wlad? [sef y parthau o amgylch y Bala].

"*Sen.* Mi a ddeuthum yma yn y flwyddyn 1742.§

"*Scr.* Y mae cryn gyfnewidiad, o ran crefydd a moesau, i'w weled yma, wrth gofio agwedd y wlad y pryd hyny, onid oes?

"*Sen.* O, rhyfedd son! oes, goeliaf fi, gyfnewidiad mawr iawn.

"*Scr.* Llawer o anwybodaeth, ac afreolaeth buchedd, oedd yma yr amser hwnw, y mae'n debygol; ac o'r hyn y mae gormod hyd heddyw,|| ysywaeth.

"*Sen.* Ie, yr oedd tywyllwch mawr yn y wlad. Biblau oeddynt anaml: ychydig iawn o'r bobl gyffredin a fedrent air ar lyfr; ac yr oedd arferion y wlad yn dra llygredig ac anfoesol. Yr oedd bonedd a gwreng, gwŷr llên a gwŷr lleyg, yn o gyffelyb i'w gilydd: y rhan fwyaf yn byw yn anghymmedrol, yn ddibarch i orchymynion sanctaidd Duw, ac yn dra esgeulus o addoliad. Yr oedd glythineb, meddwdod, ac anlladrwydd, fel ffrydiau llifeiriol, wedi gorchuddio y wlad. Ac nid oedd yr athrawiaeth a'r addysgiadau yn y llanau, yn gyffredin, ond yn dywyll a dirym iawn i wrthsefyll y pechodau gweuddfawr hyn, ac i ddiwygio oddi wrthynt. Nid oedd ynddynt nemmawr o son am drueni gwreiddiol dŷn; am ffydd yng Nghrist a chyfiawnhâd pechadur; nac adnewyddiad gan yr Yspryd Glân.

"*Scr.* Galarus oedd hyny. Goleuni'r byd, a halen y ddaear, yw athrawon duwiol yn cyhoeddi'r efengyl i bechaduriaid. Y mae athrawiaeth iachus yn feddyginieuthol: y mae fel halen, yn pereiddio byd llygredig, ac yn dwyn ymaith ei adflas: neu fel dyfroedd Ezeciel, yn myned i'r môr marw, ac yn iachâu'r dyfroedd. Ond mynegwch i mi rywfaint o'u dull a'u harferion.

"*Sen.* Yr oedd y bobl gyffredin yn fwy am fyned i'r eglwysydd, y borau Sabboth, nag oedd y boneddigion; ond brydnhawniau Sabbothau, rhedeg y byddent hwythau at eu chwaryddieuthau. Nid oedd odid Sul brydnhawn na byddai'r peth a elwid 'Chwaryddfa gampau' yn rhyw fan o'r wlad. Yn y rhain y byddai gwŷr ieuaingc yn dangos eu grymusder, a llawer iawn o bobl y cymmydogeuthau yn dyfod i edrych arnynt. Ar nosau Sadwrn, yn enwedig yn yr haf, y byddai ieuengctid, meibion a merched, yn cadw'r pethau a elwid 'Nosweithiau canu,' ac yn difyru eu hunain, wrth ganu efo'r delyn a'r ddawns, hyd doriad y wawr ddydd Sabboth. Yn y dref yma (Bala), hwy fyddent, ar brydnhawniau Sabbothau, yn canu ac yn dawnsio yn y tafarndai, yn chwarau *tenis* ar yr *Hall*, yn *bobio* [pwyo], &c. Ymhob cwr o'r dref fe fyddai rhyw chwaryddiaeth yn myned ym mlaen tra parhai golau dydd Sul. Yn yr haf, fe fyddai *Interludes* [coegchwarau] ar fwrdd yr *Hall*, ar brydnhawniau Sabbothau, a boneddigion a chyffredin yn ymddifyru yn y modd hwn, i halogi dydd yr Arglwydd. Yr oedd minteioedd hefyd o'r rhai a elwid 'y bobl-gerdded,' yn dyfod i'r dref yma ar amserau. Crwydriaid oedd y rhain, yn tramwy'r wlad i gardota, os nid pethau gwaeth na hyny. Yr oeddynt o fucheddau llygredig ac anifeilaidd, yn ormes ar y wlad, ac yn gywilydd i'r swyddogion am eu goddef. Dyma beth o ddull ein gwlad o ran ei moesau, yn y flwyddyn 1742, ac yrhawg wedi hyny. Am wir grefydd a duwioldeb, os wrth y ffrwythau yr adwaenir hwynt, nid oedd yma nemmawr; o'r hyn lleiaf, i'm golwg i.

"*Scr.* A oedd neb yn y wlad, yr amser hyny, yn gwneuthur un math ar broffes neillduol o Grist a duwioldeb?

"*Sen.* Oedd, ychydig o Ymneillduwyr. Trwy weini-

* Ychydig Han. L. Rees, t. 6.

† Ychydig Hanes L. Rees, t. 19, 26; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 442, 446.

‡ Mr. Charles oedd Scrutator. a'r hybarch John Evans oedd Senex.

§ Dyma'r flwyddyn y daeth John Evans i'r Bala.—Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 553.

|| Ysgrifenwyd hyn yn Ebrill, 1799, pan oedd John Evans yn 76 oed.

Digitized by Google

dogaeth Mr. Walter Cradoc, yng Ngwrecsam, y cafodd Morgan Llwyd o Gynfal ei alw. Gŵr tra enwog yn ei oes oedd Morgan Llwyd; o gynheddfau cryfion, dwys fyfyrdod, a symlrwydd duwiol. Fe fu'n fynych yn y parthau hyn yn pregethu; yn y Bedwenni, a manau eraill. Y rhai a alwyd trwy ei weinidogaeth ef oedd dechreuad y gynnulleidfa gyntaf o Ymneillduwyr yn y fro hon. Yr oedd hefyd amryw weinidogion o leoedd eraill yn dyfod i bregethu iddynt ar amserau, megis Mr. Baddy o Ddinbych, a Mr. Jervis o Lanfylling. Mr. Kenrick o Fron y Clydwr a fyddai hefyd yn dyfod atynt yn fynych; ac ar ol marwolaeth Mr. Kenrick, fe ddaeth Mr. Lewis Rees yn achlysurol i bregethu iddynt. Yr oedd y gŵr hwn wedi ei sefydlu yn weinidog ar gynnulleidfa Llanbryn-mair, ac wedi ei gynnysgeuddu â doniau helaeth, yn enwedig mewn gweddi. Ar ryw dro, pan oedd yn y Bala, digwyddodd fod un Meirig Dafydd, o'r Weirglodd Gilfach, ynghwm Cynllwyd, plwyf Llanuwchllyn, yn gwrando arno. Cafodd y bregeth effaith ar Meirig: fe fawr hoffodd y gŵr a'i athrawiaeth. Bu daer arno ddyfod i'w dŷ yntau, y Weirglodd Gilfach, i bregethu. Efe a addawodd ddyfod, a'r dydd a bennodwyd. Pan ddaeth yr amser, fe fu Mr. Rees gystal a'i addewid. Daeth amryw o bobl y gymmydogaeth i'r odfa; ond *i gyd â'u hosanau yn eu dwylaw*, fel y nosweithiau eraill, yn myned i dai eu gilydd (y mae cyfarfod i gyd-weu hosanau yn arferiad nosweithiol yn y wlad hon); ac felly yr eisteddent o amgylch llawr y tŷ; pawb â'u bysedd yn gyflym yn eu gorchwyl. Yn y cyfamser yr oedd Mr. Rees yn eistedd wrth y tân; ac, ond odid, yn bwrw cil ei lygad ar ei ddarpar-wrandawyr. Pan welodd ei amser, cododd oddi wrth y tân at y bwrdd yn ochr y llawr, a chymmerth y Bibl i ddarllen pennod, gan ddisgwyl yn ddïammau iddynt roddi yr hosanau heibio i wrando gair Duw; ond glynu wrth eu gorchwyl yr oeddynt hwy oll yn ddyfal. Fe gymmerodd achlysur i sylwi ar ryw fatterion oedd yn y bennod; etto, nid oedd dim yn tycio i gael gan eu bysedd, mwy na'u meddyliau, ymlonyddu. Wedi hyn, meddyliodd am fyned i weddi, er nad oedd argoel yn y byd y cai efe yno fawr o gydweddïwyr. Myned i weddi a wnaeth; ac wrth fyned ar ei liniau, yr olwg ddiweddaf a gafodd arnynt oedd mewn prysur driniad ar eu gweyll. Chwi ellwch feddwl na chafodd efe mo'r llawer o galondid oddi wrth ei wrandawyr i ddechrau ei ymbiliad; ond ni adawodd yr Arglwydd mono'n ddigymmorth, na'i weddi chwaith yn ddieffaith. Cyn ei diwedd, clywai ocheneidiau dwysion, distaw yn eu plith; ac erbyn codi oddi ar ei liniau, fe welai *bob hosan wedi cwympo i'r llawr.* Erbyn hyn, cafodd y gŵr ei wrandawyr i hwyl well i wrando, ac yr oedd yntau mewn hwyl well i bregethu iddynt."*

Bu'r weddi a'r bregeth hyny yn foddion i ddwyn amryw yn barod i lefain, "Beth sydd raid i ni ei wneuthur fel y byddom gadwedig?" Ar ol y bregeth, taer ddymunodd y gwrandawyr ar Mr. Rees ddyfod i ymweled â hwynt drachefn. Addawodd yntau ddyfod cyn hir, a phregethodd iddynt ddwywaith ar y Sabboth. Dywedodd Rees wedi hyny na welodd erioed gymmaint o arwyddion fod y gair yn cael effaith mawr ar y gwrandawyr yn gyffredinol. Wrth weled y fath olwg obeithiol, annogodd Rees Meirig Dafydd i gofrestru ei dŷ; ond yr oedd Meirig yn bur ddigalon i wneuthur hyny, am yr ofnai nas gallai gael neb braidd yno i bregethu. "Pe gwyddwn," eb efe, "y cawn bregethwr gymmaint ag unwaith yn y flwyddyn, mi a'i cofrestrwn ef er mwyn hyny." Mor brin oedd gair Duw yn y dyddiau hyny! Dywedodd Mr. Rees y gwnai efe ei hun fwy na hyny; yr ymrwymai efe i ddyfod atynt bedwar Sabboth yn y flwyddyn, sef Sabboth bob chwarter, ac y gwnai ei orau i gael peth cymmorth iddynt oddi wrth eraill. Llawen iawn oedd gan Meirig Dafydd a'i gymmydogion gael yr addewid yma, a chofrestrwyd y tŷ yn ddïoed. Bu Mr. Rees cystal a'i air, canys aeth yno ei hun, yn ol ei addewid, a llwyddodd i gael Howel Harris, Jenkin Morgan, ac eraill i ymweled â hwynt, ac amryw leoedd eraill yn y Gogledd; a mawr y llwyddiant a fu ar eu llafur yn ystod yr amser, i beri newidiad dedwydd yn agwedd foesol a chrefyddol y wlad. Llwyddodd Rees i ffurfio eglwys Annibynol yn fuan ar ol hyn yn Llanuwchlyn, yr hon sy'n para yn llewyrchus yno hyd y dydd heddyw.

Er mor deilwng o barch oedd Lewis Rees, o blegid ei fawr ymdrech o blaid yr efengyl, ac er mor anwyl ydoedd gan lawer; etto cafodd rai trinieuthau chwerwon, a gwaredigeuthau hynod, mewn cyssylltiad â Llanuwchllyn, ymhlith manau eraill. Ar un tro, pan oedd i bregethu yn nhŷ Meirig Dafydd, aeth gŵr nerthol o ôf i'r odfa, â dwy gareg fawr yn ei logellau, gan lwyr fwriadu ei daro, pan y dechreuai bregethu, os nad ei ladd, â hwynt; ond rhagfleunodd Duw ef â'i ras. Bu'r gair, o enau y pregethwr, yn allu Duw er iachawdwriaeth i'r hwn a fwriadai fod yn erlidiwr creulon. Ymunodd y gôf yn fuan â'r eglwys, a bu'n addurn i'w broffes Gristionogol. Bu'r enwog Lewis Rees mewn perygl bywyd yn fynych wrth fyned trwy bentrefydd Dinas a Llanymawddwy, ar ei daith o Lanbryn-mair i Lanuwchllyn a'r Bala, o blegid y cefnogid y werin anwybodus a difoes gan y person i'w erlid; o herwydd hyny, byddai yn gorfod myned o Lanbryn-mair i Lanuwchllyn ar hyd y nos Sadwrn, am fod arno ofn yr erlidwyr. Ond byddai yn well arno wrth ddychwel yn ol, canys yr oedd gan Meirig Dafydd frawd a'i enw Morgan, yr hwn oedd yn perchen llawer mwy o nerth corphorol na chyffredin, ac yr oedd yn ymladdwr mawr. Er nad oedd dim arwyddion crefyddol ar Morgan Dafydd, etto yr oedd ganddo feddyliau uchel iawn am Mr. Rees, a pharch diffuant iddo; a phan y byddai yn dychwel adref ddydd Llun, âi Morgan i'w hebrwng trwy Fawddwy, â phastwn onnen mawr yn ei law i amddiffyn y pregethwr diniwaid rhag yr erlidwyr. Os gwelai rai o honynt yn dechrau terfysgu,

* Trysorfa Ysprydol, 1799, t. 30–2.

Digitized by Google

ysgydwai ei ddwrn arnynt, gan ddywedyd y deuai efe, ar ol hebrwng y gŵr da allan o'u cyrraedd, yn ol i siarad â hwynt. Cyfarfu Mr. Rees y person un diwrnod, a chwynai wrtho pa mor anfoesgar yr ymddygai ei blwyfolion at ddŷn nad oedd yn gwneud dim niwaid i neb o honynt, ond a oedd yn ewyllysiwr da iddynt hwy, ac i holl ddynol ryw. "Pa fodd," ebai'r person, "y gellwch chwi, a chwi yn Bresbyteriad, ddisgwyl cael eich goddef yn y wlad hon? Ewch i Ysgotland: dyna wlad y Presbyteriaid." "Yr wyf yn gobeithio, Syr," ebai Mr. Rees, "eich bod chwi yn ymddwyn oddi ar egwyddorion uwch, mewn crefydd, na defod y wlad y digwydda i chwi fod yn byw ynddi; os amgen, pe newidiech eich gwlad, chwi a newidiech eich crefydd hefyd. Ped elech i Ysgotland, tröech yn Bresbyteriad; i'r Ital, yn Babydd; os i Twrci, ymwrthodech â'ch Bibl yn hollol, a derbyniech y Coran fel rheol eich ffydd a'ch ymarweddiad." Gwelodd y person, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn ddŷn lled ddiduedd, y fath reswm yn hyn fel yr addawodd ddefnyddio ei holl ddylanwad yn erbyn iddo gael ei aflonyddu mwy, ac ni roddes neb o'i blwyfolion ddim ychwaneg o flinder iddo.*

Yr oedd gŵr duwiol yn perthyn i'r gynnulleidfa fechan o Ymneillduwyr oedd ym Mhwllheli, sir Gaernarfon, a'i enw Walter Williams, Pen-rhos. Aeth y gŵr hwnw o Bwllheli i Lanbryn-mair, yn un swydd, i erfyn ar Mr. Rees fyned dros Sabboth neu ddau i Bwllheli i'w cynnorthwyo, ac i bregethu iddynt; â'r hyn y cydsyniodd yntau ar unwaith, yn llawen. Aeth tyrfa fawr i wrando arno, yr hyn a gynhyrfodd yspryd erlidgar yr ardal yn aruthr, a dygwyd ef, yn gyntaf, o flaen yr Ynad Parry, o'r Wern, yr hwn, wedi deall ei fod yn bregethwr trwyddedig rheolaidd, a'i gollyngodd ymaith, gan ddywedyd wrth ŵr parchus a aeth gyd âg ef i'w bleidio, "Cymmer o gyd â thi, a rhwym ef wrth erchwyn dy wely." Wedi hyny cymmerwyd ef o flaen un Owens, o'r Goetre, yr hwn oedd Ganghellydd Bangor, ac yn dra ffyrnig yn erbyn Ymneillduwyr. Pan ddeallodd hwnw nas gallai ei garcharu o blegid ei drwydded, ymgynddeiriogodd yn arswydus. Cipiodd gleddyf, gan fygwth ei ladd â'i law ei hun; ond gan y gwyddai'r canlyniad o hyny, yn lle ei ladd, darniodd ei gôt, fel na thalai ei gwisgo mwy. Annogwyd Mr. Rees ei erlyn â chyfraith; ond efe, yn llariaidd, a ddywedodd wrth ei gyfeillion, "Ni wyddoch o ba yspryd yr ydych chwi. Cyfarwyddyd fy Athraw bendigedig i mi ydyw, 'Y neb a fynno ymgyfreithio â thi, a dwyn dy bais, gâd iddo dy gochl hefyd.'"†

Yn 1743, aeth Lewis Rees i sir Fôn, i bregethu ym Mhlas-Penmynydd, preswylfod Wm. Prichard; a gwelsom eisoes yr hyn a ddigwyddodd iddo ef ac eraill yno.‡ Bu'n dra llafurus a llwyddiannus i sefydlu eglwysi newyddion mewn gwahanol fanau ym Maldwyn a Meirion, heb law ymweled a chynnorthwyo rhai eraill, fel y gwelsom, yn ystod ei arhosiad yn Llanbryn-mair. Dywedir nad oedd un eglwys yn y Gogledd, yn y tymmor hwnw, nad ymwelai efe â hi unwaith neu ddwy bob blwyddyn.

Wedi bod yn Llanbryn-mair am un mlynedd ar ddeg, o 1734 hyd 1745, symmudodd i Faes-yr-onnen, sir Drefaldwyn; ac wedi aros yno dair blynedd, sef hyd 1748, dychwelodd at ei hen gyfeillion i Lanbryn-mair. Byddai yn myned atynt bob mis yn ystod y tair blynedd y bu ym Maes-yr-onnen, ac ni chafodd lonydd ganddynt hwy, na chan ei feddwl ei hun, nes iddo ddychwelyd atynt. Tybir mai ei amgylchiadau teuluaidd a barasant y symmudiad i Faes-yr-onnen, canys un o'r ardal honno oedd Mrs. Rees.§ Ar ol llafurio drachefn yn Llanbryn-mair a'r cylchoedd am un mlynedd ar ddeg arall, sef o 1748 hyd 1759, penderfynodd symmud i'r Deheudir; a derbyniodd alwad, yn 1759, oddi wrth eglwys Annibynol Mynydd-bach, a elwid y pryd hwnw Ty'rdwncyn, ger llaw Abertawe; ac yno y bu yn llafurio yn egnïol a llwyddiannus nes i lesgedd henaint, yn y flwyddyn 1795, ei orfodi i roddi ei wasanaeth i fynu. Y mae'n debyg mai sefyllfa isel crefydd ynghymmydogaeth Abertawe, ynghyd â'r ystyriaeth fod Richard Tibbot yn un cymmwys ymhob ystyr i gymmeryd ei le yn Llanbryn-mair, a barodd iddo symmud; a dangosodd ei lwyddiant yn y cylch newydd hwn, a llwyddiant Tibbot yn Llanbryn-mair, iddo ymddwyn yn unol â meddwl ei Arglwydd. Testyn Mr. Rees pan aeth yn gyntaf ar dro i'r Mynydd-bach, ar ol cael galwad, oedd Act. x. 29, "O ba herwydd, ïe, yn ddinag, y daethum, pan anfonwyd am danaf: yr wyf gan hyny yn gofyn am ba achos y danfonasoch am danaf." Ar ol myned yno i aros, ei destyn cyntaf oedd 1 Cor. xvi. 6,

* Ychydig Han. Lewis Rees, t. 10, 11; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 444.

† Ychydig Han. Lewis Rees, t. 11, 12; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 445.

‡ Gwel pen. xiv. o'r llyfr hwn, y pummed.

§ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 21.

Digitized by Google

"Ac nid hwyrach yr arhosaf gyd â chwi, neu y gauafaf hefyd, fel y'm hebryngoch i ba le bynag yr elwyf." Ei destyn olaf cyn ymadael o Lanbryn-mair oedd Col. ii. 5, "Canys er fy mod i yn absennol yn y cnawd, er hyny yr ydwyf gyd â chwi yn yr yspryd, yn llawenychu, ac yn gweled eich trefn chwi, a chadernid eich ffydd yng Nghrist." Ac yn unol â'i destyn, rhoddes brawf mynych fod achos Crist yn Llanbryn-mair yn agos iawn at ei galon hyd ddiwedd ei oes.

Ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo symmud i'r Mynydd-bach, tynwyd hen dŷ cwrdd Ty'rdwncyn i lawr am ei fod yn rhy fychan, ac adeiladwyd tŷ cwrdd newydd, yr hwn a elwid ar y cyntaf Ty'r-dwncyn Newydd; ond am fod yr ardal yn cael ei galw yn Fynydd-bach, felly y galwyd y tŷ cwrdd. Yn 1770, adeiladwyd y tŷ cwrdd a elwir Ysgetty, tu a dwy filltir is law Abertawe; ac yn 1780, adeiladwyd tŷ cwrdd Treforus; oll trwy ymdrech Lewis Rees yn benaf. Ymhen tu a deuddeng mlynedd ar ol ymsefydlu ym Mynydd-bach, sef yn 1771, cyhoeddodd Lewis Rees y llyfr canlynol:—

"Rhai Rheolau a Chyfarwyddiadau a gynnygiwyd er cynnyddu Cyfeillach Grefyddol ymhlith Crist'nogion, yngh-hyd â Hymn ar Dymmer Lonydd. O waith Mr. Lewis Rees."

Calfiniad cymhedrol oedd Rees o ran ei olygiadau athrawieuthol, ac yr oedd yn dra zelog dros yr hyn a farnai efe yn athrawiaeth efengylaidd, ac yn erbyn yr hyn a ystyriai yn wahanol. O herwydd ei fod yn dal mor dyn dros sancteiddrwydd ymarferol yn ei bregethau, dywedodd rhywun wrtho unwaith, "Pregethwch rad ras i'r bobl, ac fe ddysg gras iddynt wneud eu dyledswydd;" ac yntau a attebodd, "Yr wyf yn ofni y dysg eu llygredd iddynt beidio." Er mai Arminiad uchel, os nad Ariad, medd rhai, oedd ei enwog fab, y Dr. Abraham Rees; etto nid oedd yn effeithio dim ar olygiadau Calfinaidd ei dad. Tybir mai golygiadau Arminaidd ei fab, a'i zel dros ei olygiadau ei hun, a gynhyrfodd Lewis Rees, pan yn 83 oed, i gyfieithu y llyfr canlynol:—

"Y mawr bwys o fod ein tybiau mewn crefydd yn gysson â'r Ysgrythyr.—Pregeth a bregethwyd o flaen Cymmanfa o Weinidogion yn Ringwod, Gorphenaf 29, 1788. Gan y Parch. David Bogue, o Gosport. Wedi ei chyfieithu o'r ail argraphiad yn Saes'naeg, a'i chyhoeddi er lles i'r Cymry. Gan y Parch. Lewis Rees. At ba un y chwanegwyd Rhai Hymnau ar destynau efengylaidd, gan E. ap Jago ap Dewi. . . . 1793."

Yn y flwyddyn ganlynol, 1794, ar y 5med o Fai, bu farw anwyl wraig Lewis Rees, yn 79 oed. Yr oedd y gŵr duwiol erbyn hyn yn 84 oed, ac yr oedd y ddau wedi byw yn gysurus iawn ynghymdeithas eu gilydd dros 54 blynedd; am hyny, nid rhyfedd i'w marwolaeth hi gael effaith dwys iawn ar ei feddyliau ef. Hyn, ynghyd â theimlad o lesgedd henaint, a barodd iddo annog yr eglwys i ymofyn am rywun i fod yn gydweinidog âg ef; a rhoddasant hwythau alwad i Mr. David Davies, o Langeler, yr hwn a aeth atynt yn 1795. Yn lled fuan ar ol hyny, rhoddes ef ei swydd i fyny ym Mynydd-bach, Ysgetty, a Threforus, ac aeth dros ychydig amser i Abertawe. Yn nechrau 1796, symmudodd at ei ferch a'i fab ynghyfraith, y Parch. John Davies, o Lansamlet, a chafodd yno gartref cysurus hyd ddiwedd ei yrfa ddeuarol.

Yn y flwyddyn 1798, yr oedd L. Rees, a'i fab, y Dr. A. Rees, ynghymmanfa Caerfyrddin, a dodwyd y ddau i bregethu yno yn yr un odfa. Pregethodd y Doctor ar Ioan vi. 68, 69, a'i dad ar ei ol oddi wrth Ps. l. 15. Dechreuodd yr hen bererin ei bregeth fel hyn:—

"Myfi a wn feddyliau pob un yn y lle yn bresennol. 'Beth ydynt?' Dyma hwy: 'Paham y mae'r bobl mor ffol a gosod y fath hen ddŷn i bregethu heddyw pan y mae cynnifer o rai cymhwysach nag ef yn bresennol?'"

Ond sicr ydyw ei fod yn hyn yn camsynied. Nis gallasai un peth fod yn fwy derbyniol a chymmeradwy gan y gwrandawyr yn gyffredinol na gweled yr hen bererin yn y 89fed flwyddyn o'i oedran, ac efe bellach ar gyffiniau y nefoedd, yn cyfodi i fynu ar ol ei fab i bregethu geiriau y bywyd tragywyddol. Cafodd hyn y fath effaith ar y gwrandawyr fel nad oedd ond ychydig o lygaid sychion yn y lle, a pharhaodd y dagrau i ffrydio yn helaeth ar hyd y bregeth; ac nid oedd ei fab dysgedig, y Doctor, yn brinach o'i ddagrau nag eraill o'r gwrandawyr.

Parhaodd Rees i bregethu, yn ol y caniatâi ei nerth a'i iechyd, yn y Mynydd-bach, Ysgetty, a Threforus, hyd yn agos i'w farwolaeth. Testyn ei bregeth olaf, yr hon a draddododd efe yn y Mynydd-bach, oedd 1 Cor. ii. 2, "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Bernir ei fod ef ei hun a'i wrandawyr yn credu ar y pryd bod terfyn ei lafur fel pregethwr weithian ger llaw, a mawr yr effaith a gafodd y bregeth ymadawol, doddedig honno ar y gwrandawyr. Bu farw mewn tangnefedd heddychol yn nhŷ ei fab ynghyfraith, y Parch. John Davies, Llansamlet, ar yr 21fed o Fawrth, 1800, yn 90 oed, wedi bod yn pregethu yn ddiwyd

Digitized by Google

a llwyddiannus am tu a 70 o flynyddau. Claddwyd ef yn yr un bedd a'i wraig a'i fab Ebenezer, ym mynwent y Mynydd-bach, a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Evan Davies, Llanedi, ar Luc ii. 29, testyn a ddewisasid gan yr ymadawedig rai blynyddau cyn ei farwolaeth.

Yr oedd Lewis Rees yn un o'r pregethwyr mwyaf enwog, llafurus, a defnyddiol yn ei oes; ac fel gweddïwr, yr oedd heb ei ail. Teithiodd lawer trwy holl siroedd Cymru, ac yr oedd yn dderbyniol a defnyddiol i ba le bynag yr elai. A thra yr oedd ei gyflawniadau cyhoeddus agos bob amser yn cael eu dilyn gan effeithiau daionus, nid oedd ei ymddiddanion cyfrinachol â phersonau unigol, ac â theuluoedd, yn llai effeithiol. Adroddir ei fod unwaith yn llettya mewn tŷ, ac ar ol swper, dywedai y tad a'r fam wrtho, gyd â dagrau, y gofid a deimlent o herwydd afradlondeb eu hunig blentyn, Thomas, yr hwn oedd yn troi allan yn llangc gwyllt iawn, ac anystyriol. Borau drannoeth, cyn y weddi deuluaidd, ymaflodd Rees yn llaw y gŵr ieuangc yn dyner a deniadol, yn ol ei arfer ef, a siaradodd ychydig yn effeithiol a serchus ynghylch matter ei enaid; ac yn ei weddi, tywalltai allan ddymuniadau ei galon ar ei ran gyd â dylanwad anorchfygol. Ym mysg pethau eraill dywedai, "O Arglwydd! dywed wrth y Thomas hwn, 'Na fydd anghredadyn, ond credadyn.'" Dywedai Thomas ar ol hyny bod y geiriau yn myned i'w galon fel cleddyf llym daufiniog. Y canlyniad fu iddo gael ei wir droi at yr Arglwydd, a threuliodd weddill ei oes yn Gristion hardd a defnyddiol. Adroddai Mr. John Roberts, Llanbryn-mair (tad "J. R." ac "S. R.") yr hwn oedd fab i un o gyfeillion mynwesol Mr. Rees, yr hanesyn canlynol:—

"Pan oedd Mr. Rees ar ymweliad â Llanbryn-mair, ar ol iddo symmud i'r Mynydd-bach, galwodd un diwrnod, tu a chanol dydd, yn nhŷ fy nhad, ychydig wythnosau wedi marwolaeth fy mam. Ar ol ymddiddan ychydig â'm tad, dymunodd am i'r plant gael eu galw ynghyd i'r ystafell. Eisteddodd efe mewn cadair freichiau. Galwodd ato bob un o'r plant; ac yr oeddym yn saith o nifer. Ymaflodd yn llaw pob un o honom, o'r hynaf i'r ieuengaf, gan ofyn ein henwau, a dywedyd ychydig eiriau caredig wrthym, cyfattebol i'n hoedran. Ar ol darllen pennod, ac egluro ychydig arni, aeth ar ei liniau a gweddïodd, gan ddymuno rhyw beth neillduol i bob un o'r teulu, a chrybwyll pob un o'r plant wrth eu henw. Er nad oeddwn i y pryd hwnw ond 11 oed, etto gadawodd argraph ar fy meddwl nas gall amser byth ei ddilëu."*

Nid yw'r hanesion hyn ond esamplau yn unig o'r hyn a wnelai y gŵr da hwn yn gyffredin yn y teuluoedd yr elai iddynt. Heb law bod L. Rees yn ddŷn duwiol iawn, a phur wyliadwrus, yr oedd hefyd yn hynod o ffraeth a pharod ei atteb. Goddiweddwyd ef unwaith gan gyfreithiwr siaradus, gyd â dau neu dri o foneddigion eraill, ar y ffordd. Yr oedd y cyfreithiwr wedi clywed o'r blaen bod ei ffraethineb yn barod ar bob achlysur. Er mwyn ei brofi, ac o bossibl er dangos ei ffraethineb ei hun i'w gyfeillion, dywedodd wrtho—"Mr. Rees, a ydych yn meddwl y bydd priodasau yn y nefoedd?" Yntau a ddywedodd yn y fan—"Syr, nid oes fawr o briodasau pwysig yma heb fod gan gyfreithwyr law yn y gwaith; ond yr wyf yn ofni na bydd yno fawr o gyfreithwyr." Aeth un o weinidogion y Bedyddwyr yn Abertawe ato unwaith i ofyn benthyg ei geffyl i fyned ar daith bregethwrol; ac medd yntau, "Cewch, a chroesaw, frawd anwyl, canys *dyfroedd lawer* nis gallant ddiffoddi cariad." Y gwir yw, er ei fod yn zelog dros ei olygiadau neillduol ei hun, etto yr oedd yn ddŷn nodedig o ryddfrydig. Cyfeillachai lawer â'r Methodistiaid; ac, fel y mae'n hyspys, trwy ei annogaeth ef yr aeth yr enwog Howel Harris gyntaf i'r Gogledd. Er iddo gael peth gofid yn Llanbryn-mair o herwydd y croes olygiadau oedd yn yr eglwys yno ar fedydd, a bod rhai o'r Bedyddwyr mwyaf penboeth yn ei feio; etto yr oedd y rhai duwiolaf o'r cyfundeb hwnw, cystal a'r cyfundebau eraill, yn ei anwylo a'i barchu; ac yr oedd yntau, fel y dengys yr hanesig dyddorol uchod, yn barchus o honynt hwythau, ac yn barod bob amser i wneud pob cymmwynas a'r a allai iddynt.

Heb law ei fod yn bur ffraeth a pharod ei atteb, ar achlysuron cyffredin, fel y gwelsom uchod, nid anfynych y byddai ffraethineb mawr yn ei bregethau, a dueddai, o leiaf, i ynnill clustiau ei wrandawyr; ond yr oedd yn dra gochelgar rhag dywedyd un gair a dueddai i godi ysgafnder yn ei wrandawyr, ac i dynu eu meddyliau oddi wrth yr ystyrieuthau difrifol a sobr a berthyn i iachawdwriaeth yr enaid. Yr oedd yn cwbl gyttuno â dywediad y duwiol Baxter, sef "Yr wyf yn ffieiddio y dŷn a ddywed un gair mewn pulpud a bâr i'w wrandawyr wenu." Yr oedd yntau yn dra gofalus am ddefnyddio ffraethineb, cystal a'r talentau eraill a dderbyniasai gan yr Arglwydd, i wasaneuthu gwir grefydd, ac i achub ei gyddynion.†

* Ychydig Han. L. Rees, t. 21; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 22.

† Ychydig Han. L. Rees; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 441–6; Llyfr. y Cymry, t. 527–8; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 20–3.

Digitized by Google

## PENNOD XVII.

### DAFYDD JONES O GAIO, HUW EVANS, JOHN GRIFFITH, AC ERAILL.

Y mae cryn wahaniaeth yn yr amser a briodola gwahanol ysgrifenwyr i enedigaeth y gŵr enwog hwn, Dafydd Jones; a gwahanieutha un a welsom gyd â golwg ar amser ei farwolaeth hefyd. Dywed yr ysgrifenydd hwn iddo gael ei eni yn y flwyddyn 1669, a marw o hono yn y flwyddyn 1773, yn 74 oed!* Fe allai mai camargraph yw'r flwyddyn a nodir yn fleunaf. Un arall a ddywed iddo gael ei eni yn y flwyddyn 1710;† ond y mwyrif a gyttunant mai yn 1711 y ganed ef,‡ mewn ameuthdy a elwid Cwmgogerddan, ymhlwyf Caio, yn y rhan uchaf o sir Gaerfyrddin, ac mewn milltir o'r ffordd fawr sy'n arwain o Lanymddyfri i Lanbedr-pont-Stephan. Enw ei dad oedd Daniel John, ac yr oedd yn perchen dau dyddyn lled helaeth, sef Cwmgogerddan Uchaf, a Chwmgogerddan Isaf; a rhoddes un o honynt ar ei ol i'w fab Dafydd, a'r llall i'w fab arall, Samuel, yr hwn hefyd oedd yn ŵr crefyddol, ac yn aelod defnyddiol gyd â'r Annibynwyr yng Nghrug-y-bar.

Ni wyddys odid ddim am ddyddiau boreuaf Dafydd Jones, na pha fanteision addysg a fwynhaodd; ond y mae ei waith yn profi ei fod yn ysgolhaig gwych iawn yn Saesneg, cystal a Chymraeg, yr hyn a ynnillodd yn benaf, y mae'n ddïau, trwy rym ei dalentau disglair ei hun, wedi cael rhyw faint o addysg, y mae'n debyg, yn yr ysgol a gedwid yng Nghaio gan Ficar y plwyf. Yr oedd ei dalentau, yn enwedig ei ddawn brydyddol, o radd uchel; ond ni chafodd crefydd eu gwasanaeth hyd onid oedd rhwng 30 a 40 oed. Ymddengys wrth y rhigymau a gofnodwyd yn *Y Traethodydd* (cyf. v., t. 374–383), mai mewn duchan (*lampoon*), a duchan lled isel yn fynych, yr ymhyfrydai y bardd yn benaf, hyd oni ddychwelyd ef at grefydd.

Gwraig gyntaf Dafydd Jones ydoedd ferch ieuangc a elwid Miss Jones, o Abercarfan, Llanddewibrefi, ger llaw Llangeitho, yn sir Aberteifi, yr hon oedd foneddiges synhwyrol ac addfwyn; a bu hi a'i gŵr fyw yn gysurus dros ben, yn nhŷ ei dad ef, yng Nghwmgogerddan, hyd oni bu hi farw yn 1748, gan adael dwy eneth ieuangc yn amddifaid o fam dyner a rhinweddol, a'i gŵr yn weddw, ac efe yn 37 oed. Gan na bu i Dafydd Jones ond dwy ferch o'r briodas hon, yr ydym yn casglu ei fod ef gryn lawer dros 30 oed pan briododd y tro cyntaf. Ymhen rhyw yspaid o amser,§ priodd Dafydd Jones eilwaith âg un Miss Prys, o Hafod-dafolog, ymhlwyf Llanwrda, sir Gaerfyrddin. Dywedir na bu D. Jones mor ffodus yn ei ddewisiad yr ail dro, a bod cryn wahaniaeth rhwng Miss Prys a Miss Jones, o ran synwyr ac addfwynder. Bu iddo bump o ferched o'r briodas hon: saith i gyd, fel y dywed yn y llinellau hyn:—

"Bu saith o ferched imi,
Elizabeth a Neli;
Pegi a Mari o'r un rhyw,‖
Jemima, Ru',¶ a Thobi."

Wedi iddo briodi yr ail wraig, symmudodd o Gwmgogerddan i fyw i Hafod-dafolog, ei chartref hi; ac ymhen rhyw amser wedyn prynodd y tyddyn hwnw. Yr oedd ei hen gydnabod a'i gymmydogion yn synu ei fod yn ymadael o'i hen gartref, Cwmgogerddan, ei dreftadaeth, yr hwn a lechai yn glyd wrth odrau gorllewinol mynydd Llansadwrn, ac a wynebai ddyffryn tlws, toreithiog Llansawel; tra mai lle oer, ynghil haul, yr ystyrient hwy yr Hafod-dafolog. Yn atteb i duchan un o'i gymmydogion i'r Hafod, dywedodd D. Jones fel hyn:—

"Nid oes neb ond sy'n ei nabod
Wyr fath le rhyfedd sy'n yr Hafod:
Fe geir yno lafur ddigon,
Gwenith, barlys, a phys gwynion;
Ceirch yn llawn,
Porfa iawn,
Gwair a mawn yn gywrain:
Mae pob peth yno ag sy'n angen,
Ond y dŵr, yr harn, a'r halen."

Heb law trin y tyddyn, i'r hwn y dyry'r fath ganmoliaeth yn y llinellau uchod, yr oedd yn arfer prynu anifeiliaid yngwahanol ffeiriau Cymru, ac yn myned â hwy i'w gwerthu i wahanol drefydd Lloegr; a dywedir iddo ynnill llawer o arian fel porthmon. Fel yr oedd efe yn dychwel adref o wlad y Saeson un borau Sabboth, trodd i mewn i hen Gapel Troedrhiwdalar, yr hwn sydd ger llaw y ffordd sy'n arwain o Lanymddyfri i Lanfairmuallt, o ddeutu chwe milltir o'r dref olaf. Enw'r gŵr a bregethai yno y borau hwnw oedd Isaac Prys,** a bu'r bregeth honno o fendith dragy-

* Traethodydd, cyf. v., t. 373, 387.

† Williams's Em. Welshn., p. 253.

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 427; En. Cymru, I. F., t. 573; Llyfr. y Cymry, t. 436 Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 553.

§ Dywed un o fywgraphwyr D. Jones y bu'n weddw am o ddeutu pymtheng mlynedd cyn priodi yr ail wraig. Os felly, yr oedd yn 52 oed pan briododd eilwaith, yr hyn sydd braidd yn anhebyg.

‖ O'r un fam.

¶ Ruth. Yr oedd hon yn byw yn Llanymddyfri yn 1849, ac yn 88 oed o leiaf.

** Ganwyd y gŵr duwiol yma, Isaac Prys, neu *Price*, fel y gelwid ef fynychaf, yn y flwyddyn 1735, mewn lle a elwir Gellicrugion, o fewn dwy filltir i gapel Llanwrtyd; ac felly yr oedd efe yn ieuengach na D.

wyddol i enaid Dafydd Jones. Bu tröedigaeth Dafydd Jones, trwy offerynoliaeth Isaac Prys, yn foddion i'r Annibynwyr sefydlu achos crefyddol yn Crug-y-bar, ger llaw Caio. Efe a fu'n offerynol i ddyfod ag I. Prys i bregethu i ardal Crug-y-bar; ac ar y dechrau, fel y gwelir yn y nodiad isod, nid oedd braidd neb ond efe a'i derbyniai i dŷ; ond ymhen ennyd wedi iddo ddechrau pregethu yn yr ardal, byddai yr ameuthwyr parchusaf yn y gymmydogaeth yn ymryson am dano i'w tai. Mewn bwthyn bychan, a elwid "Tŷ Mari Dafydd," yr arferai cynnulleidfa Crug-y-bar gyfarfod ar y cyntaf. "Dydd y pethau bychain" oedd hi y pryd hwnw. Tynwyd "Tŷ Mari Dafydd" i lawr pan adeiladwyd y capel presennol. Buasai cyferbyniad dyddorol ac addysgiadol iawn rhwng yr adeilad hardd sy'n awr yng Nghrug-y-bar a'r bwthyn cynnwys lle y dechreuwyd casglu pobl ynghyd i'w dysgu yn egwyddorion crefydd, trwy offerynoliaeth Dafydd Jones, o Gaio. Pan oedd yr hen dŷ addoliad ar ei draed, defnyddid "Tŷ Mari Dafydd" fel math ar ystafell neillduol ynglŷn â'r achos yn y lle.

Yn lled fuan ar ol i Dafydd Jones ymuno â chrefydd, rhoddes bob rhigymu gwageddus heibio, a throdd ffrwd ei awen ystwyth i wasaneuthu crefydd ei Waredwr bendigedig; a pha faint bynag o les a wnaeth efe i grefydd yn ystod ei fywyd, ffrwyth ei awen doreithiog a'i gwnaeth ef o ddefnydd parhaus i eglwys Dduw ymhlith ei gydwladwyr. Rhaid ei fod yn brydydd adnabyddus a galluog cyn y buasai pregethwyr, a chrefyddwyr eraill, yn ei annog yn lled fuan ar ol ei dröedigaeth i gyfieithu Psalmau y Dr. Watts i'r iaith Gymraeg. Prawf arall o feddwl uchel ei gydoeswyr am awen gyssgredig a thoreithiog Dafydd Jones ydyw, bod ei ganiadau mor boblogaidd, a hyny yn yr un amser ag y cyhoeddai Prif Fardd Cymru, o Bant-y-Celyn, ei Hymnau anfarwol a gogoneddus.† Cyhoeddwyd cyfieithiad Dafydd Jones o gyfieithiad y Dr. Watts o'r Psalmau, y waith gyntaf, yn 1753, dan yr enw canlynol:—

"Salmau Dafydd: Wedi eu cyfansoddi yn ol jaith y Testament Newydd. Ac wedi eu cymhwyso i Stat ac Addoliad Crist'nogol. Yn Saesneg gan I. Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r Pymthegfed Argraphiad. Gan D. Jones, o Gayo."‡

Y mae rhai wedi cymharu cyfieithiad D. Jones o gyfieithiad Watts o'r Psalmau, â chyfieithiad

Jones o 24 blwydd. Gan mai efe oedd unig blentyn ei rieni, cafodd fanteision addysg rhagorol. Ymddengys bod gogwydd at bregethu ynddo bron o'i febyd. Gorphenodd ei addysg ar gyfer y weinidogaeth yn ysgol Joseph Simons, Castellnedd, a dechreuodd bregethu pan yn 19 oed. Yn ol coflyfr eglwys Llanwrtyd, priododd un Elizabeth Williams, o'r plwyf hwnw, ar y 3ydd o Orphenaf, 1755, sef ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo ddechrau pregethu. Urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth ymhlith yr Annibynwyr yn y flwyddyn 1758. Bu farw ar y 10fed o Orphenaf, 1805, yn 70 oed, a chladdwyd ef ym mynwent hen gapel y Gelynos.

Yr oedd wedi cael ei analluogi gan y parlys i bregethu er ys tu a dwy flynedd neu ychwaneg cyn ei farwolaeth. Bu Crug-y-bar, sir Gaerfyrddin, mewn cyssylltiad â Llanwrtyd a Throedrhiwdalar, dan ofal Prys trwy holl dymmor ei weinidogaeth. Un Sabboth yn y mis yn unig y gweinyddai efe yn Nghrug-y-bar; ac yr oedd hyny yn cael ei ystyried yn y parthau gwledig ar y pryd yn weinidogaeth gyflawn, ymhlith yr hen Ymneillduwyr, yr un modd ag yn yr Eglwys Sefydledig. Ymddibynai y cyfryw gynnulleidfaoedd ar bregethwyr cynnorthwyol y tri Sabboth arall; a mynych iawn y gorfodid hwy i dreulio Sabboth heb gymmorth unrhyw bregethwr. Y troion cyntaf yr ymwelai I. Prys ieuangc â Chrug-y-bar, ni byddai neb ond Dafydd Jones, ei ddisgybl, yn gwneud sylw neillduol o hono, nac yn ei gymmell i ddyfod i'w tai i bregethu; ond wedi i'w ddoniau ymddadblygu, ac iddo yntau fyned yn enwog, fel Mr. Prys, Llanwrtyd, aeth pob ameuthwr yn ardal Crug-y-bar braidd i ymryson â'u gilydd am ei gael i'w tai i bregethu bob prydnhawn Sabboth y byddai yno. Hyny a barodd i Dafydd Jones ganu y rhigwm canlynol:—

"Pan ddeuai Isaac yma gynta,
Mi gawn ganddo ambell odfa;
Ond nawr mae pob proffeswr neis
Yn mynd a Phreis oddi arna."

Wele ddarlun o berson a gweinidogaeth Prys gan ei ganlyniedydd, yr hybarch Dafydd Williams, a ysgrifenwyd er ys mwy nag ugain mlynedd yn ol:—

"Yr oedd efe o gyfansoddiad corph prydferth iawn; ei ruddiau yn deg a rhosynaidd; a'i wisgoedd yn lanwedd, ac yn gyfattebol i'w swydd. Yr oedd rhywun, rywdro, yn dywedyd yn ymyl Crug-y-bar nad rhyfedd bod cymmaint o bobl yn gwrando Isaac Prys, gan na welodd efe harddach dŷn erioed. Yr oedd hefyd, o ran ei dymmer naturiol, yn addfwyn iawn; yn caru pawb, ac yn cael ei garu gan bawb. Yn ei berthynas â'r weinidogaeth, gellir dywedyd am dano ei fod yn fab y daran ac yn fab diddanwch. Fel mab y daran, byddai yn dyrchafu ei lais fel udgorn yn erbyn pechodau yr oes: yr oedd yn ail i Harris a Rowlands yn ei weinidogaeth: sobreiddiwyd a diwygiwyd yr holl gymmydogaeth; a rhoddwyd chwaryddieuthau ofer, a dawnsio, heibio braidd yn hollol. Yr oedd yn fab diddanwch yn ei weinidogaeth. Byddai yn cyhoeddi iachawdwriaeth rad, trwy angau y groes, nes y byddai calonau ugeiniau yn toddi trwy'r lle, ac yn moliannu Duw am oriau wedi i'r bregeth darfod. Yn amser y diwygiadau grymus hyny, byddent yn moliannu o un lle addoliad i'r llall. Bu'n pregethu yr efengyl am hanner can mlynedd; ond yn y ddwy flynedd olaf o'i fywyd, gwanhaodd ei iechyd yn fawr, o herwydd iddo gael ei daro gan ergyd o'r parlys."

Er bod Isaac Prys yn un o'r dynion hawddgaraf a mwyaf ymroddgar i wasanaeth ei Arglwydd yn ei oes; etto, ni ddiangodd yntau mwy nag eraill o ragorolion y ddeuar, rhag ymosodiadau ffyrnicaf y gelyn. Tu a'r flwyddyn 1770, neu'n fuan ar ol hyny, taenwyd chwedl enllibus trwy ardal Llanwrtyd bod merch yn feichiog gan Mr. Prys yn ardal Crug-y-bar. Gwnaed ymchwiliad dïoed i'r peth, a chanfuwyd mai anwiredd noeth a hollol ddisail ydoedd. Olrheiniwyd y chwedl gelwyddog i ddau neu dri o bersonau a berthynent i eglwys Llanwrtyd, a dïarddelwyd hwy, a rhai eraill a geisient eu hamddiffyn. Yr oedd y rhai a ysgymmunwyd yn saith o nifer. Cynnygiasant eu hunain i eglwys y Methodistiaid yn y Gorwydd, ond gwrthodwyd eu derbyn yno. Yna cynnygiasant eu hunain i'r Methodistiaid yng Nghilcwm, a chawsant eu derbyn; ac yn fuan wedyn ffurfiwyd hwy fel cangen o eglwys y Cilcwm yn Llanwrtyd. Gan mai dan amgylchiadau fel hyn y dechreuodd yr achos crefyddol yma, gwrthodai'r Bardd enwog o Bant-y-Celyn fyned yno i bregethu tra bu efe byw, o herwydd fod ganddo y fath barch i Mr. Prys. Ni bu nemmawr o gydweithrediad rhwng yr Annibynwyr a'r Methodistiaid yn Llanwrtyd tra y bu Prys, a'r rhai a wneuthant y fath ymosodiad ar ei gymmeriad, yn fyw; ond y mae heddwch a chydweithrediad hyfryd rhwng y ddau gyfundeb yno er ys mwy nag ugain mlynedd bellach. Y mae'n amlwg erbyn hyn fod yr Arglwydd wedi goruwch-lywodraethu y drwg hwnw, fel llawer drwg arall o'i flaen ac ar ei ol, i fod er daioni i'w achos mawr ei hun.—*Han. Egl. Annib. Cymru*, cyf. iv., t. 369–70.

† Gwel pen. xx. o'r llyfr hwn, y pummed.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 436.

Digitized by Google

Edmund Prys, ac ystyried yr olaf yn rhagori; ond dylid ystyried amcan Prys a Watts, i ddechrau, gyd â golwg ar eu cyfieithiadau; ac yna, amcan D. Jones yn ei gyfieithiad yntau. Amcan Prys oedd cyfieithu y Psalmau ar fesur cerdd addas i'w ganu mewn addoliad, mor llythyrenol ag y medrai o'r Hebraeg; ac y mae beirniaid galluog yn barnu ei fod wedi cyrraedd ei amcan mor llwyddiannus, fel y mae ei gyfieithiad mydryddol ef yn nes i ystyr yr iaith wreiddiol yn fynych yn oed na chyfieithiad rhyddieithol godidog y Dr. Morgan a'r Dr. Parry, a chanmoliaeth uwch nis gellir ei rhoddi iddo. Amcan y Dr. Watts oedd cyfaddasu y syniadau sydd yn ymadroddion y Psalmydd at syniadau a phrofiadau y duwiolion dan oruchwyliaeth yr efengyl; ac y mae'r bri a osodir ar ei waith ef gan grefyddwyr Seisnig hyd y dydd hwn yn profi ddarfod iddo yntau fod yn bur llwyddiannus. Amcan Dafydd Jones yn ei gyfieithiad oedd gosod allan syniadau y Dr. Watts yn gywir, mewn mesurau syml, ac iaith ystwyth a Chymreigaidd; ac ni ruswn ddywedyd y cyrheuddodd ei amcan yn llawn cyfartal i'r ddau ŵr enwog arall. Y mae rhai yn meddwl bod yn haws i'r Archddïacon Prys gyrraedd ei amcan na Dafydd Jones, am fod y blaenaf yn fwy o ysgolhaig mewn ieithoedd estronol na'r olaf; ond dylid cofio mai amcan y naill oedd cyfieithu yr Hebraeg yn gywir, pan mai amcan y llall oedd gwneuthur hyny â'r Saesneg; ac y mae'n bur amheus fod Prys yn deall Hebraeg yn well nag y deallai Jones y Saesneg, ac yr ydym ni yn sicr nad oedd yn deall Cymraeg yn well nag ef. Dengys y difyniadau isod o ragymadrodd D. Jones i'w gyfieithiad ei fod yn deall amcan y Dr. Watts yn drwyadl, heb law eu bod yn esamplau pur wych o'i ddull meistrolgar o ysgrifenu rhyddiaith:—

"Dïau mai geiriau a deunydd yr Ysgrythyr Lân sydd fwyaf addas i'w harferu ar yr achos hyn [mewn 'odlau ysprydol']; ac y mae Salmau Dafydd, rai o honynt, yn gymmwys iawn i'w canu bob amser, ac ymhob lle; ond nid oes ond ychydig o honynt, mewn cymhariaeth â'r nifer fawr sydd yn cynnwys ynthynt ryw ymadroddion a phrophwydoliaethau tywyll, a phoethoffrymau neu isop, a lleuadau newydd, ac udgyrn a thympanau; a chyfaddefiad o bechodau, na wneuthom ni erioed; achwyniad o drallodau o'r fath na theimlasom erioed; rhoddi dïolch am fuddugoliaethau o'r fath na chawsom ni erioed; neu ein harwain i lefaru, yn ein personau ein hunain, am bethau, lleoedd, gweithredoedd, nas adnabuom ni erioed; fel y mae'n anhawdd i neb dynion gymhwyso y cyfryw ymadroddion yn briodol at eu cyflyrau eu hunain, oddi eithr cael iddynt droad, neu gyfansoddiad efengylaidd, i fod yn fwy cyttunol â chyfryngau *gras*, a chyflyrau a phrofiadau pobl Dduw, dan y *Testament Newydd*. Yr hyn beth a gadd ei gyflawni yn rhagorol yn Saesneg gan y difynydd [duwinydd] enwog hwnw, Isaac Watts, D.D., yr hwn yn ei Ragymadrodd yn yr argraphiad helaethaf o'i lyfr, sy'n rhoddi hanes eglur o'r ffordd a gymmerth yn nhroad neu gyfansoddiad y *Salmau*, ynghyd â llawer o resymau goleu ac ennillgar i ymgynnal neu i amddiffyn ei hun am y cyfryw orchwyl; ac, er boddlonrwydd i'm cydwladwyr, mi a osodais i lawr rai o honynt. Mewn un man y mae yn ymresymu fel hyn:—'Yr oedd Moses, Debora, a thywysogion Israel, Barac, Asaph a Habacuc, a'r holl saint dan y stat Iuddewig, yn canu eu gorfoledd a'u buddugoliaethau eu hunain; eu gobaith, a'u hofnau, a'u gwaredigaethau eu hunain; ac a gawn ni dan yr efengyl, ganu dim arall ond gorfoledd Asaph a Dafydd? Paham y gomeddir i Gristionogion bob mesurgerdd arall, ond a fo'n cyfodi oddi wrth fuddugoliaethau a gwaredigaethau'r Iuddewon? Dafydd a'i tybiasai yn galed iawn gael ei gaethiwo at eiriau Moses, a chael o hono ganu dim arall ar ei holl ddyddiau gorfoleddus, ond ynghylch boddiad Pharaoh, yn y bymthegfed o Exodus.' Mewn man arall, medd efe,—'Paham y bydd i mi yn awr gyfeirio fy hun at Dduw fy Iachawdwr mewn cân ac *ebyrth llosg o anifeiliaid breision ac arogldarth hyrddod*? Paham y *rhywmaf fi fy aberth â rhaffau wrth gyrn allor*, neu ganu moliant Duw ar symbalau soniarus, pan y mae'r efengyl wedi dangos i mi amgenach a rhagorach Iawn am bechod, ac wedi appwyntio addoliad purach a mwy ysprydol? Paham y rhaid i mi ymuno gyd â *Dafydd* yn ei ddeddfol a'i brophwydol ymadradd ef, i felldithio fy ngelynion, pan y mae fy Iachawdwr yn ei bregethau wedi fy addysgu i'w caru a'u bendithio hwynt? Paham na ddichon *Cristion* adael heibio'r manau hyny sy'n dueddol i lanw'r enaid â thristwch gorchuddiol, meddyliau anobaith, neu chwerw ddigofaint personol; pethau nad ydynt addas i yspryd *Cristionowgrydd*, yr hwn sydd ganiatâd o obaith, llawenydd, a chariad? Pa angenrheidrwydd sydd i mi rwymo i fynu anrhydedd disglair fy *Mhrynwr* mewn iaith dywyll a chysgodol crefydd ag sydd wedi ei diddymu dros byth; yn enwedigol, pan y rhybuddir *Cistionogion* mor ddifrifol, yn epistolau Sant Paul, yn erbyn yspryd Iuddewig, yn eu haddoliad yn gystal ag athrawiaeth? A pha fai a fydd o helaethu ychydig ar y testunau mwyaf defnyddiol yn null ymadrodd yr *efengyl*, lle byddo'r *Salm* yn rhoddi achlysur, gan fod holl grefydd yr Iuddewon wedi ei barnu yn fynych yn y *Testament Newydd* fel peth diffygiol ac amherffaith?'

"Yn awr, wrth ystyried y rhesymau hyn, a'r derbyniad a gafodd y cyflawniad hwnw o eiddo'r Dysgawdwr yn Saesnaeg, o herwydd nad oedd y fath beth wedi ei gyflawni yn ein iaith ni o'r blaen, ynghyd â hiraeth am weled cyfansoddiad o'r fath gyd â ninnau, trwy gyngor ac annogaeth rhai gweinidogion parchedig (ond nid heb olwg ar fy anghymmwysdra fy hun) mi a ymosodais ar y gwaith; a thrwy lawer o boen a llafur (ond nid heb lawer o bleser a hyfrydwch weithiau) mi a'i gorphenais; ac wedi cael barn a phrofiad rhai gweinidogion dysgedig arno, danfonais ef i'r argraphwasg; ac wedi ei ddyfod i'm llaw drachefn, yr wyf yn ei anfon ef i'm cydwladwyr dymunol: yr hyn beth sydd fath ar gyfieithiad neu gyffelybrwydd o *Salmau* y difynydd parchedig hwnw, mor agos ag y gellais i gael gan y ddwy iaith gydgordio â'u gilydd ar fesur cerdd, neu farddoniaeth; a gwneuthum fy ngorau i gadw yn gydwybodol i fynu at ei yspryd a'i feddwl ef yn y cyfan, er i mi orfod mewn rhai manau amrywio oddi wrtho mewn geiriau: ac o herwydd fod cymmaint o athrawiaeth yr efengyl yn cael eu gosod allan ynddynt, a'u bod mewn iaith esmwyth, a chynghanedd hawdd a gwastad, yr wyf yn gobeithio, gyd â bendith Duw, y gallant fod o ryw fudd ac adeiladaeth i rai Cristionogion cyffredin, ac na byddant ychwaith yn anghymmwys i'w canu mewn cynnullfaoedd cyhoeddus, hyd oni byddo i'r Arglwydd gyfodi rhyw un mwy cymmwys i'r cyfryw orchwyl. Yr hyn yw dymuniad eich cydwladwr a'ch gwasanaethwr gostyngedig,

"DAFYDD JONES."

Digitized by Google

Yn unol â'i gynllun, gadawodd y Dr. Watts amryw Psalmau allan, a darnau o eraill; tra yr ehangodd lawer ar rai mewn dull o esponiad; ac, wrth reswm, dilynodd Jones ei gynllun yn fanwl. Y mae beirniaid cymmwys i farnu yn tystio bod y cyfieithiad yn y Gymraeg yn llawn mor ystwyth a pheraidd, ac nid anfynych yn llawer mwy felly, na'r eiddo Watts yn Saesneg. Gan y tybir nad yw cyfieithiad D. Jones, namyn darnau o hono yma ac acw, yn bur hyspys yn awr, yn enwedig yng Ngwynedd, dodwn un esampl yn ddidalfyr ger bron yma:—

"PSALM* C. [M. CYNTAF.]

"CYFIEITHIAD EGLUR.

"*Mawl i'n Creawdwr.*

"1. Cenhedloedd yr holl ddaear, dewch
A llawenhewch ger bron ein Duw;
Gwasnaethwch ef â chalon rwydd,
Yr Arglwydd ein Pen-llywydd yw.

"2. Yr Arglwydd sydd yn Dduw, fe'i hun
Sy'n rhoddi bywyd, ffun, a bod;
Ei waith ef ŷm, a'i ddefaid gwâr,
Byw 'r ydym ar ei borfa a'i nod.

"3. O! ewch i'w byrth dan lawenhau,
Ac i gynteddau teg ei dŷ;
Rhowch yno glod i'w enw glân,
Fe haeddai'ch cân a'ch diolch cu.

"4. Cans da yw'r ION, a mwyn un wedd,
Ac i'w drugaredd pall nid oes:
Caiff dynion weld ei wir di-âu,
Byth yn parhau o oes i oes.

"PSALM C. [YR AIL FESUR.]

"ESPONIAD.

"1. I'r Arglwydd cenwch hyfryd gân,
Pob gwlad rhowch fawl i'w enw glân:
Frytaniaid! â'ch calonau a'ch llef,
Dyrchefwch chwi ei enw ef.

"2. Nesêwch ger bron ei faingc yn brudd,
Mewn ofn a gwir lawenydd ffydd:
JEHOFA yw'ch Arglwydd chwi bob gradd,
Ei air all greu, ei air all ladd.

"3. Gyd â'i orchymyn gallu aeth,
Y byd o ddim mewn bod a ddaeth:
Dewch, greaduriaid oll o'i fla'n;
Clodforwch eich Creawdwr Glân.

"4. Saint! molwch ef, yr hwn a'ch gwnai,
O'r pridd cyffredin, fel pob rhai;
A phan grwydrasoch megis ŵyn,
I'w gorlan darfu iddo'ch dwyn.

"5. Chwi yw ei ofal ef o hyd,
Eich enaid byw, a'ch cyrph i gyd:
Pa barch ddangoswch chwi yn awr
I enw ein JEHOFA mawr?

"6. I'w byrth â chân ddïolchgar dewch,
A chodi'ch llef uwch nef a wnewch;
Ond ni all holl delynau'r nef
Byth hanner ei foliannu ef.

"7. Trwy'r holl-fyd mae llywodraeth Duw,
Ei gariad ef tragwyddol yw;
A'i lân wirionedd saif yn syth,
Heb lygru na chyfnewid byth."

Dywed un ysgrifenydd am gyhoeddiad y cyfieithiad yma o'r Salmau gan Dafydd Jones fel y canlyn:—

"Ni a welwn y rhesymau a ddefnyddid [yn y difyniadau blaenorol o'r Rhagymadrodd], er dangos yr angenrheidrwydd o gyhoeddi cyfieithiad o 'Salmau Watts' i'r Gymraeg; ac ymddangosant i ni yn rhai cwbl foddhaol. Edrychwn ar yr annogaeth a gafodd Dafydd Jones i gyhoeddi el waith, fel amgylchiad dyddorol, o blegid dengys bod mesur o adfywiad wedi cymmeryd lle ym mysg Cristionogion y tymmor hwnw, gan y teimlid fod eisiau rhyw gyfrwng mwy efengylaidd ac ysprydol na chyfieithiad Edmund Prys o Salmau Dafydd, er dangos eu golygiadau a'u profiadau crefyddol. Yn flaenorol i hyn, nid oedd angen am ddim amgenach na gwaith yr Archddïacon, er dwyn ym mlaen *un* ran bwysig o addoliad Duw yn ystod yr hin oer a ragflaenodd ymddangosiad y Diwygwyr Cymreig. Ystyriwn yr alwad am y cyfryw gyfansoddiadau a 'Salmau Watts,' fel math o arddangosiad o gyflwr ysprydol crefyddwyr Cymru yn y cyfwng rhwng diflanniad graddol yr hen weinidogion ffurfiol, Laodiceaidd gynt, ac ymdeuniad Methodistiaeth dros y wlad; ac nis gallwn lai na'i ystyried fel cynnyrch gwelliant moesol a chrefyddol. Ac nid anheilwng o sylw ychwaith ydyw y ffaith taw [mai] un o ffrwythau toreithiog y Diwygiad mawr cyntaf yng Nghymru ydoedd hymnau 'yr hen Williams o Bant-y-Celyn.' Ni a welwn ynte i Dafydd Jones, o Gaio, gael y fraint o gyfranu ei ran tu ag at ddiwallu angenrheidiau ysprydol ei gydwladwyr."†

Yn 1754, ymhen tu a blwyddyn ar ol cyhoeddi ei gyfieithiad o'r Psalmau, cyhoeddodd Dafydd Jones y rhan gyntaf o'i Hymnau, dan yr enw canlynol:—

"Difyrwch y Pererinion o Fawl i'r Oen, yn cynnwys Hymnau ar amryw Destunau o'r ysgrythyr lân."‡

Yn y flwyddyn 1763, cyhoeddodd ail argraphiad o'r rhan yna, dan yr un enw; ac yn y flwyddyn ganlynol, 1764, cyhoeddodd "ail ran" o'r Hymnau, wedi heleuthu cryn lawer ar yr enw, fel hyn:—

"Difyrrwch i'r Pererinion o Fawl i'r Oen. Yr ail ran: Neu Gasgliad o Hymnau ar amryw Destynau allan o'r Ysgrythyr lan; iw canu yn ddirgel a chyhoeddus; a rhai o honynt yn gymmwys iw harfer wrth Fwrdd yr Arglwydd. Gan Dafydd Jones o Lanwrda, gynt o Gayo."§

Yn 1766, cyhoeddodd "ail argraphiad" o'i gyfieithiad o'r Psalmau; ac yn y flwyddyn 1770, cyhoeddodd "y drydydd ran" o'i Hymnau, wedi newid ychydig ar yr enw, fel hyn:—

"Difyrrwch i'r Pererinion o Fawl i'r Oen: yn cynnwys Hymnau ar amryw Destynau o'r Ysgrythyr lân; ac Ymddiddanion rhwng Y Pererinion Gwyr a Gwragedd. Y Drydedd ran. Gan mwyaf wedi eu cymmwyso i'w canu mewn Cymdeithasau Crefyddol. Gan Dafydd Jones, o Lanwrda."‖

* Y trydydd argraphiad, a gyhoeddwyd yn 1817, sydd yn ein meddiant ni, ac yr ydym yn sicr bod y cyhoeddwr, J. Evans, Caerfyrddin, wedi newid llythyraeth yr awdur, os nad rhai pethau eraill hefyd; o herwydd paham, cymmerasom ninnau ein rhyddid i newid peth ar yr eiddo yntau, ond cadwn yn fanwl at y *geiriad.*

† Traethodydd, cyf. v., t. 385.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 440.
§ Llyfr. y Cymry, t. 481. ‖ Yr un, t. 518.

Digitized by Google

Yn y flwyddyn 1771, cyhoeddodd lyfr hymnau etto, dan yr enw canlynol:—

"Caniadau Dwyfol; wedi eu hamcanu mewn iaith esmwyth er budd a gwasanaeth i Blant yn Saisneg gan Isaac Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dafydd Jones, o Lanwrda."*

Drachefn, yn 1775, cyhoeddodd y tair rhan o "Ddifyrrwch y Pererinion," yn un llyfr, dan yr enw canlynol:—

"Hymnau a Chaniadau Ysprydol. Yn Dri Llyfr. I. Wedi ei gasglu o'r Ysgrythyrau. II. Wedi ei gyfansoddi ar Destunau dwyfol. III. Wedi ei barotoi i Fwrdd yr Arglwydd. Gan Isaac Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dafydd Jones, Cyfieithydd y Salmau."†

Dywed y Dr. T. Rees fod hymnau *gwreiddiol* Dafydd Jones, heb law ei gyfieithiadau llïosog, yn 177 o nifer, a bod "rhai o honynt y cyfansoddiadau barddonol prydferthaf yn yr iaith Gymraeg. Dylid rhestru Dafydd Jones yn nesaf i'r per ganiedydd o Bant-y-Celyn, fel emynwr Cymreig. Y mae rhai o'i gyficithiadau o Watts yn rhagori yn oed ar y bardd Seisnig mawr ei hunan. Bydd cannoedd o'i hymnau dewisol a'i gyfieithiadau godidog fyw cyhyd ag iaith y Cymry." Fel rhai esamplau, gellid nodi y Psalmau a'r Hymnau sy'n dechrau â'r llinellau canlynol:—

"Gwyn-fyd yr hwn nid â ar hyd.
"Gwyn-fyd y rhai adweunant lais.
"Gogoniant yn ddyledus yw.
"O! chwiliwn yr Ysgrythyr Lân.
"Pa fodd y mola'i'r bythol Dduw?
"I'r Tad a'i gariad rhoddwn glod.
"Jehofah sy'n teyrnasu.
"Rhyfeddol yw'th amcanion Iôr.
"Fy nghalon, O mor gaeled yw!
"Trwy Moses daeth y gyfraith bur.
"Messïah gwir mewn pryd a ddaeth.
"Wrth edrych gynt ar sarph o bres.
"Iesu yw Rhosyn Saron mwyn.
"Wele cawsom y Messïah.
"Gwrandawed clustiau pob dŷn byw.
"Yr iachawdwriaeth fawr yng Nghrist.
"Dewch ataf bawb, medd Iesu Grist.
"Llefwch genhadon Duw o hyd.
"Dewch bechaduriaid tlodion.
"Ofer yw gobaith pob rhyw ddŷn.
"Wele'r fath gariad rhyfedd rhad.
"O! pwy mor ddïogel a dedwydd a'r rhai.
"Efengyl yn ddïysgog saif.
"Deffrowch! eneidiau llesg, deffrowch!
"Nid ffurf allanol o un rhyw.
"Maddau, a thrugarha, O Dduw!
"Pwy dreutha'r fath lawenydd sy?
"Gwyn-fyd y galon bur lle mae.
"Pe meddwn ar dafodau doeth.
"Nis gallaf, Arglwydd, oddef.
"Gogoniant Duw y Tad.

* Llyfr. y Cymry, t. 530. † Yr un, t. 570.

"Arglwydd y bydoedd fry.
"Boed imi â'm gwefusau.
"Gwaith hyfryd iawn a melus yw.
"Bendigaid forau teg ei wawr.
"O gariad gynt dywedodd Naf.
"Tyrd, nefol glomen oddi fry.
"Yr Iesu a deyrnasa'n grwn.
"O! Arglwydd galw etto.
"Y sawl wnaeth Duw yn noddfa gref.
"Mewn bywyd mae gwasneuthu Duw.
"O Iesu cu! mor olau cair.
"Caersalem, dinas hedd.
"Plant ydym etto dan ein hoed.
"Mae, mae yr amser hyfryd yn nesâu.
"Daw, daw fy anwyl Iesu maes o law.
"Arglwydd, oni ddarfu it addaw?
"Tyred Arglwydd cu i'r canol.
"Gwaith hyfryd iawn a melus yw.
"Mae gwlad o wynfyd pur heb haint.
"O! am gael golwg hoff o'r wlad.
"Pa bryd daw'r dydd, fy anwyl Dduw!
"Coffawn yn llawen gyd â pharch.
"Cyd-deimlo mae â'm natur wan."

Nid yw'r Psalmau a'r Hymnau a ddechreuant â'r llinellau uchod mo'r degwm o gyfansoddiadau prydyddol prydferth Dafydd Jones; ond nodwyd y rhai yna, am mai hwynt-hwy, ond odid, yw y rhai mwyaf hyspys ac arferedig, a'r rhai a briodolir gan amryw, yn amryfus, i brydyddion enwog eraill. Ysgrifenydd yn yr *Adolygydd* a ddywed am Dafydd Jones fel hyn:—

"Gwrthdarawem y farn genedleuthol pe dywedem ei fod o flaen Williams, Pant-y-Celyn. Addefwn yn rhwydd fod Williams o'i flaen ef mewn gwreiddioldeb a goruchel-edd ehediadau barddonol; ond wedi cymmeryd i ystyriaeth fanteision y ddau; y naill wedi cael addysg athrofaol, a'i ddwyn i fynu i'r offeiriadaeth, ac yn cyssegru ei holl amser i ddarllen a myfyrio; a'r llall yn ameuthwr gwledig, heb gael fawr o addysg, mewn cymhariaeth, ac yn gorfod treulio y rhan fwyaf o'i amser gyd â gorchwylion bydol, ni theimlai Jones fawr o anfantais gael ei gyferbynu â'r offeiriad. Am nifer ei Hymnau, er llïosoced yr eiddo Williams, y mae Jones yn sicr o fod o'i flaen, rhwng ei gyfansoddiadau gwreiddiol a'i gyfieithiadau; a dichon fod cynnifer, os nad mwy, o bennillion Jones yn adnabyddus i'r llïaws‡ ag o bennillion Williams. Ond dichon mai mwy buddiol na cheisio pwyso a chymharu y gwŷr da fyddai i ni oll droi at Ffynhonell 'pob rhoddiad daionus, a phob rhodd werthfawr,' i ddïolch iddo am fendithio ein cenedl â doniau a gwasanaeth gwŷr mor enwog, ac i ddeisyf arno gyfodi lluoedd o'u cyffelyb yn ein mysg etto."

Dyma dystiolaeth y Dr. T. Rees am Dafydd Jones:—"Yr oedd efe y Cristion mwyaf twym-galon a gweithgar, ac yn nodedig o ddoniol mewn gweddi. Heb law ei fod yn effeithiol arolygu ei achosion tymhorol fel ameuthwr mawr, yn cyfansoddi ac yn cyfieithu Hymnau, ac yn cyflawni dyledswyddau dïacon yn eglwys Crug-y-bar, byddai efe yn canfod amser yn achlysurol i ddilyn gweinidogion yn eu teithiau pregethwrol i barthau pellenig y wlad; a byddai ei bresennoldeb mewn rhai manau yn hynod o wasaneuthgar, fel y dengys yr esampl ganlynol:—Wedi

‡ Yn hytrach yn *arferedig gan y llïaws*, canys gwyddom bod llawer o'r llïaws yn priodoli y rhan fwyaf o bennillion Jones i Williams ac eraill, fel yr awgrymwyd eisoes.

Digitized by Google

cyhoeddi Mr. Perkins, o Bencadair, i bregethu mewn tŷ a elwid *Y Pownd*, ger llaw pont Llanbedr, sir Aberteifi, yr oedd boneddwr a breswyliai yn y gymmydogaeth, gelyn proffesedig i'r Anghydffurfwyr, wedi cyflogi nifer o ddihirod i fyned i'r cyfarfod i'w aflonyddu. Aethant i'r tŷ yn filain, a llusgasant y pregethwr a'r gwrandawyr i'r heol. Syrthiodd Dafydd Jones, yr hwn oedd yn un o'r gynnulleidfa, ar ei liniau ar yr heol, a dechreuodd weddïo gyd â'r fath nerth ac effaith anghyffredin, fel y tarawyd yr aflonyddwyr â dychryn. Pan derfynodd efe ei weddi, ail ddechreuodd y pregethwr ei waith, ac ni chynhygiodd neb ei rwystro ef mwyach."

Gellir casglu oddi wrth y pennillion prydferth canlynol, cystal ag oddi wrth y disyniad uchod, bod Dafydd Jones yn grefyddwr zelog a thanbaid iawn, ac y byddai nid anfynych yn moliannu "yr Oen" mewn llais cân a gorfoledd cyhoeddus, er ei fod yn proffesu gyd â'r "Dissenters sychion," fel y galwai yr hen Fethodistiaid hwynt:—

"Mae plant y byd yn holi,
Ac yn rhyfeddu'n syn,
Pan fwy i'n moliannu f' Arglwydd,
'Beth yw'r ynfydrwydd hyn?'
Rhyddhawyd fi o'm caethiwed,
Ni thawaf ddim a son;
Mi gana'n wyneb gwawdwyr
Am rinwedd gwaed yr Oen.

"Mi fûm yn hir dan gwmmwl,
Yn ffeulu canmol Duw;
'R oedd pechod, a'i euogrwydd,
O'm mewn fel colyn byw:
Fe dynwyd hwnw ymaith,
Ynghyd â'i bwys a'i boen,
Mi ganaf yn dragywydd
Am rinwedd gwaed yr Oen.

"Mi fûm dan fynydd Sinai,
Dan ofnau Duw a'i ŵg,
Heb glywed ond bygythion,
Taranau, mellt, a mŵg;
Ond de's i Sïon dawel,
Pedd galla' i dewi a sôn,
Heb ganu yn wastadol
Am rinwedd gwaed yr Oen?

"A pheth pe bawn yn neidio,
A'i wneud e gyd â pharch,
A chwarau, megis Dafydd,
Cyn hyn, o flaen yr arch;
Neu'r cloff wrth borth y demel,
(Am hwnw clywsoch sôn),
Pan oedd e'n teimlo iechyd
A rhinwedd gwaed yr Oen?"

Ond, er holl ddawn a rhinweddau Dafydd Jones o Gaio, daeth ei dymmor yntau, fel y daw tymmor pawb, i ben. "Ymadawodd o'r byd hwn y 30 o Awst, 1777," medd awdur ei farwnad a'i gydoeswr, "J. T. Gweinidog yr Efengyl," sef "y Parch. John Thomas, gynt o Raiadr Gwy a'r Cae Bach, sir Faesyfed," medd Gwilym Lleyn.*

Cyhoeddwyd un o'i ganiadau am y tro cyntaf yn 1779, ymhen dwy flynedd ar ol iddo farw, sef—

"Can Dduwiol, ar Ddull Ymddiddan, rhwng Proffeswr Hunan Gyfiawn a'i Gydwybod, wedi ei argyhoeddi."†

Hefyd, cyhoeddwyd y "Pigion o Hymnau," gyd âg ychwanegiad, yn 1791;‡ y trydydd argraphiad o'i "Hymnau a Chaniadau Ysprydol," yn gyflawn, yn 1794;§ a'r trydydd argraphiad, fel y crybwyllwyd o'r blaen, o'i "Salmau;" ac ni chyhoeddwyd cymmaint ag un Casgliad o Hymnau, o 1791 hyd yn awr (1878), heb fod ynddo lïaws o Salmau a Hymnau yr enwog Dafydd Jones o Gaio.

### HUW EVANS.

Ganwyd y gŵr enwog a dysgedig hwn yn ardal Pentref-newydd, yn sir Faesyfed, yn 1712, ac ymddengys mai yn ysgol Mr. Prys, Llwyn-llwyd, gweinidog Maes-yr-onnen, yr addysgwyd ef ym morau ei oes, am yr hwn y dywed y Parch. J. Spinther James fel y canlyn:—

"Mab ydoedd H. Evans i Caleb Evans, gweinidog y Bedyddwyr yn y Pentref, ac ŵyr i Thomas Evans, gweinidog cyntaf yr eglwys honno. Ei fam oedd Hannah, merch Huw Lewis o Olchon, yr hon a fu farw ar ei enedigaeth ef. Galwyd ef yn Huw er mwyn ei daid, ac er coffadwriaeth am Huw Evans, sir Faesyfed. . . . Pan tu a 18 oed, aeth i ymweled â'i fodryb, Mrs. Mari Evans, i Brystau; ac ar y 7fed o Awst, 1730, bedyddiwyd ef yn Bedminster, gan Foskett, a dechreuodd bregethu yn fuan."‖

Joshua Thomas, wrth roddi hanes borau ei oes, a ddywed fel y canlyn:—

"Yr oedd y tad yn awyddus am iddo [H. Evans] fod yn ysgolhaig. Ar ol cael yr ysgolion gorau yn ei ardal enedigol, rhoddwyd ef dan ofal Mr. Prys, gweinidog Annibynol ym Maes-yr-onnen, yr hwn oedd yn cadw ysgol enwog yn y Llwyn-llwyd, yn agos i Glasbury, sir Frycheiniog. Yno y cafodd ei addysg rammadegol a chlasurol. Wedi iddo gael y manteision o'r ddysgeidiaeth a allai yno, teimlai duedd i ymweled â Chaerodor, i'r diben o ymweled â'i fodryb yno, ac i'r perwyl o orphen ei addysg, dan ofal a dysgeidiaeth Mr. Bernard Foskett, bugail yr eglwys Fedyddiedig yn Broadmead, yr hwn oedd yn ysgolhaig da, ac yn cymmeryd, weithiau, ychydig ddisgyblion gobeithiol dan ei ofal, y rhai a fwriadent fyned i'r weinidogaeth. Dan ddylanwad y cymhellion hyn, aeth i Gaerodor o gylch 1729. Wedi bod yno am beth amser, cafodd ei fedyddio o gylch 1730, a'i dderbyn yn aelod yn Broadmead, pan tu a 18 oed. Wedi bod yno am tu a 15 mis, gwanychodd ei iechyd; am hyny gadawodd Gaerodor, heb wybod a gai ei weled byth mwyach, a dychwelodd i'r Pentref. Pan oedd gartref, ysgrifenodd Mr. Foskett lythyr at ei dad, yn dymuno arno geisio perswadio y bachgen i arfer ei ddawn i bregethu, os gallai, dros ychydig amser yn eu plith hwy yn y wlad, gan nodi fod ei wyleidd-dra yn gyfryw fel nas gallent hwy gael ganddo ddywedyd ond ychydig yn y cyfeiriad hwnw yng Nghaerodor. Gwelais a darllenais y llythyr hwnw flynyddau lawer ar ol hyny. Gwelodd Duw yn dda adfer ei iechyd, ac yna efe a ddychwelodd i Gaerodor. Dechreuodd ei weinidogaeth o gylch 1731, a daeth ei dalentau a'i gynnydd yn amlwg iawn yn fuan."

Er mai yn Lloegr y bedyddiwyd ef, ymddengys

* Llyfr. y Cymry, t. 583–4.—Gwel ei hanes yn Williams's Em. Welshm., p. 253; Yr Adolygydd, cyf. ii., t. 475–95; Traethodydd, cyf. v., t. 370–3; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 427–29; En. Cymru, I. F., t. 573–5; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 552–3.

† Llyfr. y Cymry, t. 598.
‡ Yr un, t. 659. § Yr un, t. 683.
‖ Y Greal am 1872 ac 1875.

Digitized by Google

mai yng Nghymru, trwy bregethiad grymus Enoch Francis, y dygwyd ef i ystyried ei ffyrdd. Ar yr 17fed o Awst, 1733, dechreuodd bregethu, ac yn 1735 cafodd gymhelliad taer gan yr eglwys yn Little St., Llundain, i ddilyn y diweddar Mr. Arnold; a thu a'r un amser, derbyniodd alwad o eglwys y Bedyddwyr yn Exeter; ond yng Nghaerodor y trefnwyd iddo ef lafurio.* Nid oes genym hanes neillduol am dano rhwng 1735 ac 1740; ond y mae'n debyg iddo dreulio y blynyddau hyny i bregethu yr efengyl yn ei wlad enedigol ac yn Lloegr, ac i ymberffeithio mewn ysgolheigdod, yn yr hyn y mawr ymenwogodd. Modd bynag, ar y 7fed o Chwefror, 1740, neillduwyd Hugh Evans, A.C., i gynnorthwyo Mr. Foskett yn eglwys Broadmead, dan yr enw "Henadur Llywodreuthol a Dysgawdwr;" ac o blegid bod gan Mr. Foskett athrofa fechan ar y pryd, yn yr hon yr addysgwyd lliaws o bregethwyr ieuaingc o Gymru a Lloegr, cyn sefydlu "Cymdeithas Athrofaol Caerodor," gwahoddwyd H. Evans i gydweithio â Foskett yn ei lafur athrofaol, trwy'r hyn y bu o les i lawer o bregethwyr addawol yn y Dywysogaeth. Gan ei fod yn Gymro, ac yn bur wladgarol, yr oedd yn hynod addas i gynnorthwyo y rhai na feistrolasent y Saesneg cyn cael eu derbyn i'r athrofa. Bu'n ffyddlon a llwyddiannus fel athraw yn Athrofa Caerodor, ac fel pregethwr hefyd. Tu a'r flwyddyn 1758, bu farw Mr. Foskett, ac o hyny allan H. Evans oedd y prif weinidog. Ymhen tu a blwyddyn wedyn, neillduwyd ei fab, Caleb Evans (y Dr. Evans wedi hyny), i'w gynnorthwyo yn y weinidogaeth. Teithiodd H. Evans lawer i Gymmanfaoedd yng Nghymru a Lloegr. Arferai ymweled â chymmanfa y Bedyddwyr yng Nghymru yn rheolaidd bron, o'r amser y dechreuodd ei wasanaeth yng Nghaerodor hyd derfyn ei oes, megis y dywed Spinther James yn y difyniad canlynol yn y *Greal*:—

"O gymmanfa Rhydwilym yn 1736, hyd gymmanfa Caerlleon yn 1777, yr ydym yn cael ei enw *ddwy ar bymtheg* o weithiau ym mysg pregethwyr y gymmanfa, a byddai ei bresennoldeb yng nghymmanfaoedd Cymru yn cael edrych am dano fel gwyneb haf am lawer o flynyddoedd. Bu'n pregethu yng nghymmanfa Rhydwilym, Llanwenarth, Garth, Dolau, Bethesda, Llanglofan, Blaenau, Pen-y-garn, Abertawe, Maes-y-berllan, Llanelli, Capel-yffin, Brynbiga, a Chaerlleon-ar-Wysg; a phregethodd mewn mwy nag un gymmanfa mewn rhai o'r lleoedd hyn. Pregethodd tu a phymtheg o weithiau yng nghymmanfa Orllewinol Lloegr. Byddai yn pregethu yn fynych ar sefydliad gweinidogion ymhell ac yn agos. Pan sefydlwyd Athrofa Caerodor ar sylfaen ehangach yn 1770, H. Evans a flaenorai yn ffurfiad y gymdeithas enwog honno. Efe oedd llywydd y sefydliad; ac ar eu cais hwy, efe a bregethodd y bregeth gyntaf yn y cyfarfod blynyddol, yn 1773, yr hon a argraphwyd. . . . . Pregethodd yng nghymmanfa Bethesda, sir Fynwy, tu a dau fis cyn y cyfarfod blynyddol uchod; ac ar gais y gweinidogion, argraphwyd y bregeth gymmanfaol honno yn y ddwy iaith, a honno oedd y bregeth gyntaf a gyhoeddodd efe."

Yn y "Broadmead Records," dywedir y "gwnaed yr 28fed o Fawrth, 1781, yn gofiadwy trwy farwolaeth y gweinidog, Huw Evans, yr hwn a fu'n aelod o'r eglwys am 50 mlynedd, ac yn ddysgawdwr iddi am 47 mlynedd. Bu farw o adfeilion araf henaint, gan adael ar ei ol goffadwriaeth o anfarwol werth." Spinther James a ddywed am dano fel y canlyn:—

"Dywedir fod ynddo ryw allu anghyffredin mewn gweddi, ac y byddai'r myfyrwyr yn barnu nad oedd neb yn debyg iddo. Yr oedd mor gyflawn, ac mor nefolaidd a gwresog, fel un yn tywallt ei holl enaid ger bron Duw, a hyny gyd â'r fath amrywiaeth fel na chlywid ef byth yn gweddïo heb fod ganddo ryw newydd-deb o hyd. Yr un modd yn y teulu ac yn yr eglwys, ac ar achosion neillduol. Dyma nerth yr hen bregethwyr gynt: yr oeddynt yn nerthol gyd â Duw. Yr oedd pregethau Mr. Evans yn eglur a bywiog. Ychydig iawn a allai gymmeryd y fath olwg ehang a chyflawn ar destyn, na threuthu arno mor eglur, nerthol, a gwresog. Yr oedd ei iaith yn bur a dewisol, ei lais yn soniarus, a'i allu areithyddol yn rhoddi iddo awdurdod hollol ar y gynnulleidfa. Goleuai eu deall, argyhoeddai eu cydwybod, a chynhyrfai eu teimladau mwyaf nefolaidd, nes byddai eu calonau yn llosgi pan agorai efe iddynt yr Ysgrythyrau. Safai yn uchel fel athraw; cyfuwch, mewn dysgeidiaeth, a'i ragflaenor, heb ddim o'i lymder; ac felly arweiniai ei ddisgyblion trwy feusydd athroniaeth gyd â difyrus hyfrydwch. Edrychai y myfyrwyr arno fel cyfaill a thad, gan gymmaint eu parch iddo, a'u hedmygedd o'i alluoedd; ac yr oedd ei bryder yntau, a'i ofal am eu lles a'u defnyddioldeb, yn gwneud i bob myfyriwr edrych ar yr athrofa fel ei gartref; a llawenydd penaf yr athraw oedd clywed fod ei blant yn rhodio yn y gwirionedd. Y Cymro enwog hwn, o sir Faesyfed, a fu'n foddion i osod athrofa Caerodor ar ei safle eang presennol. Trwyddo ef y dyrchafwyd y sefydliad, fel y gallodd ddywedyd wrth orphen ei yrfa,—'Yr awr hon y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air; canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth.'"

Bu Huw Evans yn briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Sara Brown, merch i un o ddïaconiaid eglwys Broadmead, yr hon oedd fam y Dr. Caleb Evans. Bu hi farw yn Penshore, ar yr 8fed o Orphenaf, 1751, pan yn 28 oed. Ei ail wraig oedd Ann Brain, yr hon a fu farw ar y 23ydd o Ionawr, 1776, yn 56 oed, tu a phedair blynedd o flaen ei phriod.†

### JOHN GRIFFITH.‡

Ganwyd John Griffith yn swydd Faesyfed, De-

* Broadmead Records, p. 306.

† Han. Cym., cyf. i., t. 527; Broadmead Records; Han. Bed., Jos. Thomas, argr. B. Davies.

‡ Journal of the Life, Travels, and Labours of John Griffith.

Digitized by Google

heudir Cymru, Mai 5ed, 1713. Yr oedd ei rieni, John ac Amy Griffith, yn bobl dduwiol iawn, ac yn aelodau gyd â'r Crynwyr. Er bod ei dad wedi cyrraedd oedran gŵr cyn ymuno â hwynt, etto daeth yn enwog fel pregethwr. Yr oedd ei fam wedi ei magu ym mynwes yr eglwys, a byddai ganddi ryw air o dystiolaeth bron ymhob cyfarfod.

Yr oedd efe er yn blentyn dan argyhoeddiadau crefyddol dwys, a bu bywyd sanctaidd a chynghorion duwiol ei rieni yn foddion i'w hachlesu a'u meithrin. Yn y flwyddyn 1726, pan nad oedd ond prin 13 oed, ymfudodd i America, lle yr oedd amryw o'i berthynasau wedi ymsefydlu. Cychwynodd o Aberdaugleddyf ar fwrdd y llong *Constantine*, Cadben Edward Foy. Yr oeddynt yn bedwar ugain o deithwyr, o'r rhai ni bu un farw, ond ychwanegwyd tri atynt; ac ar ol bod ar y môr ddau fis, mordaith gysurus yn yr oes honno, glaniasant yn Philadelphia. Wedi myned o gyrraedd yr addysg a'r ddisgyblaeth deuluaidd, ymollyngodd i gryn lawer o ysgafnder a phenrhyddid; ac er parhau o hono i fynychu y cyfarfodydd ar y Sabboth, ac weithiau yn yr wythnos, nid oedd y cwbl ond ymddangosiad allanol: yr oedd ei galon mor ddideimlad a chareg. Parhaodd yn ei ysgafnder hyd nes oedd o ddeutu 19 oed, pryd y digwyddodd fod gyd â chwmni ieuangc, fel efe ei hun, yn treulio noswaith lawen yn absennoldeb y pen teulu. Er na bu erioed yn euog o ddywedyd celwydd, na chymmeryd enw Duw yn ofer, etto wrth fyned i'w wely y noswaith honno, teimlodd ei fod wedi ymollwng i ormod ysgafnder; a chyn ei fod ond prin yn cau ei lygaid i gysgu, dywedwyd wrtho fod un o'r cyfeillion llawen y buasai yn eu cwmni ym mron marw, ac yn dymuno cael ei weled ef. Credai pawb ei fod ym mron marw, a bu gweled ei boenau yn foddion i ddifrifoli John Griffith, ac ni bu yn faith iawn cyn bod yn foddlon i roddi ei hunan i Grist; ond bu yn agos i flwyddyn yn y tywyllwch, yn methu yn lân a dyfod o hyd iddo. Cyn pen blwyddyn ar ol derbyn o hono y goleuni, dechreuodd deimlo ei fod yn cael ei alw i'r weinidogaeth, a rhoddodd ei "dystiolaeth" yn gyhoeddus am y tro cyntaf pan yn 21 oed. Wedi bod yn llafurio am dymmor gartref yn Abingdon, a'r cymmydogeuthau agosaf, aeth efe a chyfaill, yn Gorphenaf, 1736, ar daith bregethwrol i New Jersey, gan ymweled â'r frawdoliaeth yn Pilsgrove, Salem, Aloes Creek, a Quohansey. Torodd ei gyfaill ei galon yn y lle olaf, a gadawyd John Griffith wrtho ei hun. Ond ni bu yn hir cyn i gyfaill arall ymuno âg ef, a theithiasant am rai diwrnodau drwy yr anialwch, o gyfarfod i gyfarfod. Teimlent ymhob lle fod boddlonrwydd Duw ar eu llafur. Pan ar daith yn Jersey Ddeheuol, yn 1737, blinwyd ef gan heidiau o ferched a gwragedd, y rhai oedd yn perthyn i'r *Ranters*, ond yn galw eu hunain yn Grynwyr. Deuent i'r cyfarfodydd yn barhaus, ac aflonyddent ar bob gwasanaeth drwy siarad ar draws ac ar hyd, gwaeddi a neidio; ond ni fedrai efe na'r frawdoliaeth dderbyn eu tystioliaeth mwy nag y medrodd Paul dderbyn tystiolaeth y llangces honno yn Philippi. Wedi cael ei hir ddilyn ganddynt, teimlodd fod yr Yspryd Glân yn peri iddo ddywedyd wrthynt mai wrth rai o'u bath y dywedai Paul am iddynt dewi yn yr eglwysi, a'i bod yn llawn bryd iddynt hwythau wneud ei gyngor.

Hydref 10fed, 1737, priododd â Rebecca Fearn, o Lower Derby, yr hon oedd yn hanu o un o'r hen deuluoedd mwyaf parchus a ffyddlon a berthynai i'r Crynwyr yn y rhan honno o'r wlad. Yr oedd y teulu yn gyfoethog iawn; a chan mai hi oedd yr unig blentyn, daeth yr holl eiddo i'w rhan hi ar farwolaeth ei rhieni, a thrwy hyny galluogwyd John Griffith i roddi ei holl amser at y weinidogaeth. Cymmerodd dri mis o daith drwy Loegr Newydd yn 1741, gan ymweled â Long Island, Rhode Island, Connecticut, a phob lle o bwys o fewn cyrraedd. Pan yn rhodio drwy heolydd Boston, sylwodd ar ryw hen adeilad afler, a thybiodd y gallasai mai hwnw oedd y carchar lle y bu y Crynwyr yn cael eu trin mor greulon. Crybwyllodd y peth wrth ryw hen ddynes a safai ger llaw, yr hon a'i hattebodd yn gadarnhaol, gan ychwanegu fod eu dïoddefiadau wedi bod mor ofnadwy fel y mae'r wlad o dan farn amlwg hyd y dydd hwn. Dywedai un arall fod cyfaill iddo ef yn bresennol pan ddïenyddiwyd y pedwar Crynwr hyny; fod llawer yn darogan ar y pryd y byddai melldith Duw yn sicr o ddyfod ar y dalaeth yn herwydd gweithred mor annuwiol, ac ychwanegai ei fod ef yn credu fod hyny wedi dyfod arnynt; nad oeddid wedi gallu codi cnwd o wenith na phys byth er y pryd hyny o fewn ugain milltir i Boston: gwywai y naill yn yr eginyn, a bwytai pryfaid y llall pan yn dechrau addfedu, tra y codid cystal cnydau yno ag un lle yn y wlad cyn hyny. Aeth ar daith arall yn Awst 1743, ac yn 1744 aeth drwy ranau gorllewinol y wlad. Yn 1746, aeth am dri mis o daith drwy Loegr Newydd. Ar ei ddychweliad, claddodd ferch fechan bedair oed;

ac ar yr 22fed o Gorphenaf, bu farw ei wraig. Bu yntau ei hun yn gorwedd yn glaf iawn am rai diwrnodau. Aeth drachefn ar daith i Loegr Newydd ym Mawrth 1747, ac ymwelodd â'r coleg yn New Haven, lle y derbyniwyd ef yn garedig gan y myfyrwyr, y rhai a ymddygent yn llawer mwy boneddigaidd na myfyrwyr y colegau yn Lloegr. Cafodd gryn anhawsder yn y coleg, fel ymhob lle arall, i ddangos nad yr un rhai oedd Crynwyr a Ranters, y rhai a arweinid gan un a ddiarddelasid gan y Crynwyr am ryw gamymddygiad. Pan yn trefnu i dalu ymweliad â Brydain, cymmerwyd ef yn glaf o'r dwymyn felen; ond mor fuan ag y daeth yn alluog i symmud, hwyliodd gyd âg amryw gyfeillion am Lundain ar y 30fed o Fedi, 1747. Yn nhŷ Grace Llwyd, Cymraes wrth reswm, y cadwodd ei gyfarfod ymadawol. Gan nad oedd Brydain ar delerau cyfeillgar iawn â Ffraingc, nac â'r Hispaen (prin yr oedd trwst y rhyfel diweddar wedi distewi), byddai llongau rhyfel y naill yn gwylio yn barhaus am gyfle i gymmeryd rhyw ysglyfaeth oddi ar y llall; a chyn eu bod hwy wedi gwneud hanner y fordaith, cymmerwyd hwy gan long Ffrengig, a glaniwyd hwy yn Bayonne, wedi bod ar y môr dros ddau fis. Cadwyd hwynt yn gaethion yn y castell am rai dyddiau. Yna danfonwyd hwy i fynu i Dax, o ddeutu 30 milltir o Bayonne, lle yr oeddynt i aros nes cael cyfle i fyned i Loegr. Cyrraeddasant yno yn amser y Grawys; ac o herwydd bod y dref yn ddïarhebol am ei Phabyddiaeth, cedwid yr holl seremonïau gyd â'r manylrwydd mwyaf. Ond yr oedd John Griffith naill ai yn anwybodus o'r trefniadau Pabyddol, neu yn ddifater am danynt, a bwytai gig ac yfai fel ryw amser arall, yr hyn, pan welodd yr offeiriaid, cynhyrfu a wneuthant, ac ymaith â hwy ar frys at y maer i ofyn iddo arfer ei awdurdod i attal y fath annuwioldeb; ond yr oedd gofalu am yr ymladdfeydd, y campau, a'r dawnsiau yn llawer pwysicach yngolwg hwnw nag edrych faint o gig oedd John Griffith yn fwyta. Ymwelodd â phob sefydliad Pabyddol a allai, y mynachdai a'r lleiandai; ond troid ef allan bron o o bob lle, o herwydd ei ymddygiad difoes yn cadw ei het am ei ben, yr hyn nad allai y Ffrangcod boneddigaidd ei oddef. Daeth llong Seisnig i Bayonne ymhen o ddeutu tair wythnos, gyd â'r hon y gallai fyned adref. Cychwynodd gyd â'r cyfleusdra cyntaf i'w chyfarfod, a bu ar yr afon drwy'r nos, mewn cwch agored, bron rhynu, ac yn orchuddiedig gan eira; a buasid wedi ei osod yn y carchar drachefn yn Bayonne, oni buasai i'r capten, yr hwn oedd yn deall y gyfraith, gyfryngu drosto, a hawlio iddo ei ryddid. Arhosodd y llong rai dyddiau yn y Sebastian. Aeth yntau i'r lan i weled dulliau yr Hispaenwyr yn byw; ond teimlai ei hun mewn llawer mwy o berygl yn eu mysg nag ym mysg y Ffrangcod. Ymddangosent iddo ef yn Babyddion penboeth ac ofergoelus. Gofynodd morwyn y gwestty iddo, un tro, gusanu rhyw groes bres fechan oedd ganddi hi; ond gan iddo wrthod, cynhyrfodd y tŷ i gyd yn erbyn y fath *infidel*, ac ymosodwyd arno yn drwm gan amryw o'r cynffonau offeiriadol. Gan ei fod yn gryf a chalonog, dïangodd heb gael dim niwaid. Yr oedd y llong yn rhwym i Plymouth; ond gan yr ofnai y dwylaw gael eu cymmeryd i fwrdd y llongau rhyfel, gorfodasant y capten i droi i Torbay. Glaniodd ar y 26ed o Ionawr, 1748, a chyrhaeddodd dŷ ei fam yng Nghymru ar y 26ed o Chwefror, wedi bod yn absennol ddwy flynydd ar hugain. Wedi treulio pythefnos gyd â'i fam, aeth i Lundain, lle y bu am rai wythnosau o gyfarfod i gyfarfod, nes y teimlai ei fod wedi gorphen ei waith yn y brif ddinas. Wedi cychwyn ei daith o Lundain, gwahoddwyd ef i lettya un noswaith i dŷ Frances Wyatt, yr hon wedi hyny a fu yn wraig iddo. Teithiodd drwy y rhan fwyaf o ddwyrain a gogledd yr ynys, gan ymweled â'r eglwysi. Weithiau byddai yn cael hwyl ragorol i bregethu; ond gorfodid ef yn fynych i fod yn ddistaw, yn methu agor ei enau, a theimlai yn aml ei fod yn gwneud mwy o ddaioni wrth fod yn ddistaw nag wrth lefaru. Aeth i'r Werddon y 19ydd o Chwefror, 1749, lle y bu yn teithio ac yn pregethu am dros dri mis, gan gynnal cyfarfodydd ymhob man y gallai. Dychwelodd oddi yno ynghanol Mai, a glaniodd yn Peel. Cyrraeddasant y lle ar amser trai; a chan nad oedd yno borthladd cyfleus i lanio, a bod y bangciau tywod yn ymestyn allan ymhell i'r môr, yr oedd raid iddynt aros yn y llong dan y borau, neu anturio myned fel y gallent drwy'r tywod. Cynhygiodd un o'r morwyr gario John Griffith ar ei ysgwyddau, gan ei sicrhau y byddai pob peth yn ddïogel; ond gyd â'i fod yn cychwyn, dechreuodd suddo ynghanol tywod byw (*quick sand*), a thaflodd ei lwyth i ymdaro drosto ei hun, a thrwy ymdrech galed y daeth y ddau i dir yn fyw.

Aeth i edrych am ei fam drachefn, a chynhaliodd amryw gyfarfodydd o amgylch ei chartref; ond teimlai ymhob cyfarfod fod achos y Crynwyr



Digitized by Google

yn cyflym ddarfod yng Nghymru. Yr oedd yn teimlo erbyn hyn ei bod yn amser iddo ddychwelyd i America; ond pa fodd y gallai ddychwelyd heb Frances Wyatt oedd y pwngc; eithr wedi agor o hono ei feddwl iddi, deallodd ei bod hithau yn teimlo yn union yr un peth, a chyttunasant i briodi pan ddychwelai efe o America, lle yr oedd yn rhwym o fyned i drefnu ei amgylchiadau. Cychwynodd o Gravesend ar y 3ydd o Fawrth, 1750, a glaniodd yn Chester, Pensylfania, ar y 5ed o Fai. Pan ddeallodd y frawdoliaeth yn America ei fod yn bwriadu dychwelyd i Brydain i fyw, dechreuasant gwyno, ac awgrymu ei fod yn myned yn ol er mwyn cael gwraig, ac felly yn gwneud crefydd yn wasaneuthgar i'r byd; a thrwy lawer o anhawsder y llwyddodd i'w darbwyllo ei fod yn deall, cyn gweled y wraig, mai yn Lloegr yr oedd ei weinidogaeth ef i fod yn ddefnyddiol. Pan orphenodd drefnu ei amgylchiadau, cychwynodd gyd â'i ferch fach ar yr 8fed o Fedi, a glaniasant yn Falmouth ar y 19ydd o Hydref. Wedi priodi, ymsefydlodd yn Chelmsford, o'r lle yr âi yn barhaus ar ei deithiau pregethwrol. Cymmerodd daith i Gymru yn yr haf, a chafodd gyfarfodydd rhagorol yn y Pales, Tal-y-coed, a'r Cwm, ger llaw tŷ ei fam. Aeth oddi yno dros y mynyddoedd i sir Aberteifi, lle yr oedd crefydd yn isel iawn; ac ni ddeallodd iddo wneud un daioni yn eu plith, heb law dal un rhagrithiwr, yr hwn oedd ymhob cyfarfod yn ochi ac yn udo nes aflonyddu ar bawb a phob peth; ond erbyn edrych, dŷn o fywyd aflan iawn ydoedd, ac o hyny allan bu yn ddistaw. Aeth oddi yno i sir Gaerfyrddin, a chafodd gyfarfodydd llewyrchus iawn yn Pen-y-bangc, Penplas, Llacharn, Hwlffordd, ac Aberdaugleddyf, ac yna dychwelodd i Gaerfyrddin, Pont-y-pwl, a Chaerodor, wedi taith o ychydig gyd â dau fis. Bu yn glaf iawn yn 1756, ac nis gallodd fyned ymhell iawn oddi cartref am ddwy flynedd ar ol hyny. Aeth i'r Werddon drachefn yn 1760; ac er bod achos y Crynwyr yn cyflym ddarfod o'r wlad, cafodd yno lawer o gyfarfodydd gwresog; ond yr oeddynt oll yn gyfarfodydd cymmysg o Bresbyteriaid, Esgobeuthwyr, a rhai Pabyddion. Aeth i America drachefn yng Ngorphenaf 1765: ymweloddâ'r rhan fwyaf o eglwysi Lloegr Newydd, a dychwelodd i Loegr yn Tachwedd 1766. Cymmerodd daith drwy Ddeheu a Gogledd Cymru yn 1769, gan gadw cyfarfodydd ymhob pentref, a hyny yn fynych iawn lle na byddai un dŷn yn perthyn i'r Crynwyr. Ni theithiodd fawr ar ol y flwyddyn hon, gan fod ei iechyd yn gwaelu yn gyflym. Bu yn hir yn gorwedd mewn poenau enbyd; ond yr oedd yn wir ddioddefgar mewn cystudd, a pharhaodd i ddiolch i Dduw am ei ddaioni mawr iddo drwy ei oes. Bu farw ar yr 17fed o Fehefin, 1776, yn 63 oed, wedi bod yn pregethu Crist lawn dwy a deugain o honynt.

Rhestrid ef ym mysg y ffyddloniaid. Trinai ei bwngc yn eglur a nerthol. Yr oedd yn fedrus dros ben gyd â'r ddisgyblaeth: chwiliai yn fanwl am yr achosion fyddai wrth wraidd gwrthgiliadau, a thrwy hyny tynodd arno ei hun ddigofaint llawer o grefyddwyr beilchion, claiar; ond mewn achosion amheus, byddai bob amser yn oddefgar a thyner. Ni adawodd fawr o ysgrifeniadau ar ei ol, heb law ei "Ddyddlyfr," ac ychydig dreuthodau byrion ar byngciau ymarferol, yn llawn o berarogl Crist.

---

## PENNOD XVIII.

### DANIEL ROWLANDS AC ERAILL.

WELE ni yn awr ar ddechrau cofnodi "tywysog a gŵr mawr yn Israel" Duw yng Nghymru, DANIEL ROWLANDS* o LANGEITHO. Y mae'n ymddangos i ni braidd fod rhyw ddirgelwch rhyfedd yn y rhif *Tri*. Gwyddys yn hyspys ein bod ni, fel cenedl, yn dra hoff o Drïoedd er yr hen amseroedd; ac mor wir a hyny ydyw, bod gan genhedloedd eraill hefyd eu Trïoedd er yn forau iawn. Yr oedd gan Dafydd, brenin Israel, Drïoedd hynod dros ben; ond yr oedd *un* o bob tri yn rhagori ar y lleill yn wastad; ac felly y digwydd gyd â Thrïoedd pawb, bob amser. Wele rai o Drïoedd y Brenin Dafydd:—

Y tri phenaf o gedyrn Dafydd: "Sammah mab Agee yr Harariad; Eleazar mab Dodo: a Jasobeam mab Hachmoni." Dyma "y tri cyntaf;" a'r olaf o'r tri oedd "Y Tachmoniad a eisteddai yn y gadair yn benaeth y tywysogion."†

Y tri phenaf o'r deg ar hugain cedyrn Dafydd: "Asahel brawd Joab, Benaiah mab Jehoiada, ac Abisai brawd Joab, mab Serfiah, oedd benaf o'r tri; etto ni chyrheuddodd efe y tri cyntaf."†

Dyma etto rai o Drïoedd bendigedig y Testament Newydd:—

Y tri sanctaidd ar fynydd y gweddnewidiad: "Moses, ac Elias, a IESU GRIST."‡

* Dywedir mai *Rowland*, heb yr *s*, yr arferai y gŵr enwog hwn ysgrifenu ei gyfenw; ond *Rowlands* y mynnai'r wlad gynt, ac y myn etto, ei alw a'i ysgrifenu.

† 2 Sam. xxiii. 8-38; 1 Chron. xi. 10-47.

‡ Mat. xvii. 1-4; Marc xi. 2-4; Luc xi. 28-35.

Tri thystion y gweddnewidiad: "Petr, ac Iago, ac Ioan ei frawd."*
Tri thystion yr ing a'r chwys gwaedlyd yng ngardd Gethsemane, sef yr un tri, "Petr, ac Iago, ac Ioan."†
Tri phrif ras y Cristion: "ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad."‡

Ond, i ddynesu at ein testyn. Heb law bod genym ni, y Cymry, Drïoedd hanesyddol a chwedlonol, lawer iawn, y mae genym hefyd lïaws o Drïoedd crefyddol; eithr ni chrybwyllwn weithian ond y rhai canlynol:—

Tri phrif gyfieithwyr y Bibl i'r Gymraeg: William Salesbury, y Dr. Richard Parry, a'r Dr. William Morgan.
Tri phrif bregethwyr y tri chyfundeb Anghydffurfiol hynaf yng Nghymru, yn y rhan gyntaf o'r 19fed ganrif: Williams o'r Wern, Christmas Evans, a John Elias.
Tri chymmwynaswyr crefyddol penaf Cymru: y Dr. Morgan, Gruffydd Jones o Landdowror, a Thomas Charles o'r Bala.
Tri phrif gychwynwyr Methodistiaeth Cymru: Howel Davies, Howel Harris, a Daniel Rowlands, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn oedd DANIEL ROWLANDS, prif destyn y bennod hon.

Y mae rhai yn golygu mai Gruffydd Jones, Llanddowror, oedd cychwynydd bleunaf Methodistiaeth Cymru; ond nis gwelwn ni fod ganddo ef ddim llaw ynghychwyniad y cyfundeb, fel y cyfryw. Bu ef byw a marw, fel y gwelsom eisoes,§ o fewn cyffiniau yr Eglwys Wladol; a chredwn nad oedd dim ymhellach o'i feddwl ef nag ymneillduo o honi. Yr holl ran a gafodd efe, a hyny yn gwbl ddïarwybod iddo ei hun gyd â golwg ar y Diwygiad Methodistaidd, oedd bod yn offeryn yn llaw Rhagluniaeth y nef i argyhoeddi *dau* o'r *tri* chychwynydd mawr Methodistaidd, sef Howel Davies a Daniel Rowlands. Er hyny, yr ydym yn llwyr gydsynio â'r sylw canlynol, eiddo'r Dr. Edwards, cyn belled ag y mae'n myned, sef—

"Os gofynir, 'Pwy oedd yr offeryn cyntaf i ddeffro Cymru o'r trwmgwsg yr oedd wedi syrthio iddo ar ol dyddiau yr hen Anghydffurfwyr, ac i fod yn rhagfleunor y Diwygiad Methodistiaidd?' Y mae'n rhaid myned yn ol at Gruffydd Jones o Landdowror. Os gofynir drachefn, 'Pwy oedd y cyntaf yn yr oes honno a dorodd allan o'r Eglwys Sefydledig i'r prif ffyrdd a'r ceuau?' Yr atteb ydyw, Howel Harris. Ond os gofynir, 'Llafur pwy, yn fwyaf neillduol, a roddes fod, dan fendith y Goruchaf, i'r Methodistiaid yng Nghymru fel cyfundeb?' Yr atteb ydyw, Daniel Rowlands." ||

Gresyn fyddai gadael Howel Davies allan o'r cyssylltiad yma, canys efe a wnaeth gymmaint, yn ystod ei oes fer, ar gychwyniad Methodistiaeth, ag a wnaeth yr un o'r lleill "i ddeffro Cymru o'r trwmgwsg yr oedd wedi syrthio iddo ar ol dyddiau yr hen Anghydffurfwyr."¶ Er hyny, gwir a ddywed y Dr. Edwards mai Daniel Rowlands a wnaeth fwyaf i'r Methodistiaid, fel cyfundeb, o'r holl Ddiwygwyr cyntaf; ond bu ei oes ef yn hwy nag oes Howel Davies o 24 blynedd, ac yn hwy nag oes Harris o 18 mlynedd, heb son yn awr am ymneillduad yr olaf.

Ganwyd Daniel Rowlands yn y flwyddyn 1713, mewn lle a elwir Pant-y-beudy, ymhlwyf Llancwnlle, neu Nantcwnlle, fel y'i gelwir weithiau, tu a dwy filltir i'r gorllewin o Langeitho. Enw ei dad ydoedd Daniel Rowland, person Llangeitho a Llancwmlle, yr hwn ydoedd fab i un John Rowland, o ardal Pwllheli, sir Gaernarfon, yr hwn y dywedir iddo gael ei bennodi yn ficar, neu berson, Llancwnlle tu a 200 mlynedd yn ol. Ni wyddys nemmor ychwaneg am dad D. Rowlands, heb law y dywedir ei fod yn ŵr difrifol, ac o dduwioldeb amlwg, yn enwedig yn ei hen ddyddiau. Bu farw yn y flwyddyn 1731, yn 72 oed. Enw ei wraig, sef mam D. Rowlands, oedd Jennet, a dyna'r cwbl a wyddys am ei rieni. Gyd â golwg ar berthynas Daniel Rowlands â'r oes yr oedd yn byw ynddi, dywed y Dr. Lewis Edwards fel y canlyn:—

"Fe allai y byddai yn well i ni chwanegu iddo gael ei eni y flwyddyn o flaen marwolaeth y frenhines Ann; ei fod ddeng mlynedd ieuangach na Wesley, un flwyddyn yn hŷn na Whitfield a Howel Harris, pedair blynedd yn hŷn na Williams o Bant-y-Celyn; ac, yn ei berthynas â llenyddiaeth yr oes honno, ei fod bedair blynedd yn ieuangach na'r Dr. Johnson, a dwy flynedd yn ieuangach na Hume yr Anffyddiwr. Erbyn hyn yr oedd Huw Owen o Fron-y-clydwr, yr olaf o'r hen Anghydffurfwyr Cymreig, wedi marw er ys pedair blynedd ar ddeg. Yr enwocaf yn Lloegr fel cynddrychiolwr y Puritaniaid y pryd hwn ydoedd y Dr. Watts; ac er ei fod ef yn ddŷn da a duwiol, nid oedd ond duwinydd egwan. Dadleuir gan rai nad oedd crefydd yn y cyfnod hwn mewn cyflwr isel; ond carem gael gwybod gan y rhai sy'n dadlau felly pa bryd, ac ymha amgylchiad, y gellir dywedyd bod crefydd yn isel. A ydyw crefydd mewn cyflwr isel neu uchel y dyddiau hyn yn Ffraingc, neu Awstria, neu Affrica? Ac nid mewn cyflwr isel yn unig yr oedd crefydd yng Nghymru hyd nes y daeth Gruffydd Jones, a Harris, a Rowlands; ond yr oedd mewn cyflwr gwaeth na bod yn isel, o blegid yr oedd yn myned o hyd yn fwy isel. Gall cynnulleidfaoedd fod yn fychain ac anaml, a'r olwg arnynt er hyny yn obeithiol. Gallant fod o'r tu arall yn fawrion a lliosog, ac etto yr olwg arnynt yn ddigalon, am eu bod wedi dechrau gwywo. Ond yr oedd yr hyn sydd wael ac isel yn y ddau amgylchiad yma wedi cydgyfarfod yn y cyfnod yr ydym yn son am dano, o blegid er bod Gruffydd Jones wedi ei eni yn y flwyddyn 1683, nid oedd etto wedi dechrau ar ei waith fel Diwygiwr. Nid yn unig yr oedd yr eglwysi efengylaidd yn fychain, ond yr oeddynt yn myned yn llai. Nid yn unig yr oeddynt yn anaml, ond yr oeddynt yn myned yn anamlach. Dyma yr olwg oedd ar Gymru pan

* Mat. xvii. 1–4; Marc xii. 2–4; Luc ix. 28–35.
† Mat. xxvi. 36, 37; Marc xiv. 32, 33; Luc xxii. 44.
‡ 1 Cor. xiii. 13. "Y mwyaf" a ddodir yn olaf yn wastad mewn Trioedd.
§ Gwel pen. ix. o'r llyfr hwn, y pummed.
|| Traethodau Llenyddol y Dr. Edwards, t. 478.
¶ Gwel pen. xix. o'r llyfr hwn, y pummed.

Digitized by Google

anwyd Daniel Rowlands ym Mhant-y-beudy, ymhlwyf Llancwnlle."*

Ail fab ydoedd Daniel Rowlands i'w rieni, a dygwyd ef a'i frawd hynaf, John, i fynu i'r offeiriadaeth yn Eglwys Loegr. Od oedd y tad yn ddŷn difrifol a duwiol, fel y dywedir ei fod, gellir casglu er hyny nad edrychai ar yr offeiriadaeth wladol yn ddim amgen na galwedigaeth, neu grefft, i gael bywioliaeth trwyddi: "rhyw offeiriadaeth," fel y dywedai'r Lefiad hwnw gynt, "fel y gallent fwyta tamaid o fara" ynglŷn â hi, canys ni bu dim argoelion duwioldeb yn oed ar Daniel hyd ymhen rhai blynyddau ar ol i'r tad farw. Am John, yr hynaf, dilynodd ef ei dad fel periglor Llangeitho a Llangwnlle, ac ychwanegwyd perigloriaeth Llanddewi-brefi iddo yn lled fuan at y ddau le arall. Dywedir ei fod yn ddŷn o alluoedd nerthol a bywiog, ond yn wyllt ac afradlon, ac iddo foddi ynghanol ei ddyddiau wrth ymdrochi yn y môr, ger llaw Aberystwyth, yn y flwyddyn 1760.

Ychydig iawn o hanes Daniel sydd genym am yr ugain mlynedd cyntaf o'i hanfod, ac fe allai fod hyny yn fwy o fantais i ni nag o golled, fel na bo genym ond un Daniel Rowlands o flaen y meddwl, sef *Daniel Rowlands y Pregethwr.* Felly hefyd, fel y sylwa un ysgrifenydd galluog arno, "y gweledd yr Yspryd Glân yn dda gyflwyno hanes Iesu Grist i'r byd, sef hanes ei oes gyhoeddus. Nid ydym yn gydnabyddus âg Ef ond fel dysgawdwr. Yr ydym yn darllen fod y rhai oedd yn gydnabyddus âg ef mewn cymmeriad arall, dan anfantais, o blegid hyny, i dderbyn ei eiriau. Tystiolaeth y rhai nad oeddynt yn ei adwaen ond fel dysgawdwr ydoedd, 'Ni lefarodd dŷn erioed fel y dŷn hwn;' tra yr oedd eraill oedd yn ei adwaen yn ei gymmeriad blaenorol yn dywedyd, 'Onid hwn yw Mab y saer?' Ac fel y mae'n fantais i'r prophwyd byw, er cael parch dyledus i'w swydd, fyned o'i wlad, ac o blith ei genedl, at rai na byddont gydnabyddus â'i fuchedd flaenorol; felly y mae'n fantais i'r prophwyd marw na byddo ei olafiaid yn gydnabyddus âg ef ond yn ei nodweddiad cyhoeddus, yr hon fantais sydd genym gyd â Rowlands. Dïau na ddïangodd oddi wrth wagedd mebyd ac ieuengctid, a'i fod yn hynod yn ei gylch y pryd hwnw, fel y bu wedi hyny. Os byddai rhyw fawrddrwg wedi ei wneuthur, neu gamp orchestol wedi ei chyflawni, byddai pawb yn gwybod mai Daniel, mab person Llangeitho, a fu yno."†

* Traeth. Llenyddol y Dr. L. Edwards, t. 477.
† Traethodydd, cyf. vi., t. 277–78.

Gorphenodd Daniel ei addysg yn Ysgol Rammadegol Henffordd; ac o herwydd ei gynnydd cyflym fel ysgolor, yn enwedig yn yr ieithoedd gwreiddiol, ordeiniwyd ef yn ddïacon ar y 10fed o Fawrth, 1733, pan nad oedd ond 20 oed, yn ieuengach nag yr ordeinir neb yn yr Eglwys Wladol yn y dyddiau hyn; ac ar yr 31fed o Awst, 1735, ordeiniwyd ef yn offeiriad. Dywedir mai yn Llundain yr ordeiniwyd ef, trwy lythyrau cenad oddi wrth Esgob Tŷ Ddewi, ac y teithiodd yno ac yn ol ar ei draed, yr hyn sy'n arwyddo ei fod braidd yn dlawd, cystal ag yn benderfynol ymha beth bynag a gymmerai mewn llaw. Wedi iddo gael ei urddo, dywedir y bu'n gurad dros ryw yspaid yn Ystrad-ffin, sir Gaerfyrddin, lle y cerid ef yn fawr gan y plwyfolion o blegid ffraethineb ei hyawdledd, diddanwch ei chwedlau, a hynawsedd ei dymmer. Wedi hyny appwyntiwyd ef yn gurad i'w frawd John, ymhlwyfydd Llangeitho a Llancwnlle, am y tâl ardderchog o 10p. y flwyddyn; ac ni chafodd byth ddyrchafiad uwch yn yr Eglwys Sefydledig, er iddo barhau i'w gwasanaethu dros 28 mlynedd.‡

Bu Daniel Rowlands yn pregethu am flwyddyn neu ddwy (dim llawer ychwaneg, os cymmaint), heb edrych ar ei swydd yn ddim amgen na moddion bywioliaeth, ac heb deimlo dim o effaith gras cadwedigol ar ei enaid ei hun, na gofalu dim am achub ei wrandawyr. Ei holl bryder y pryd hyny oedd bod yn boblogaidd. Gyd â golwg arno fel pregethwr yn y cyfamser, a'r hyn a arweiniodd i'w dröedigaeth, dywed y Parch. John Hughes fel hyn:—

"Nid oedd ganddo syniadau cywir ar athrawiaeth yr efengyl, ac nid ymofynai am eu cyrraedd. Cymmerai arno ddysgu dynion mewn pethau yr oedd efe ei hun heb eu deall na'u profi; i arwain dynion mewn ffordd na cherddai efe ei hunan. Nid oedd, ar ddechreuad ei weinidogaeth, yn gweled un angen am Grist; dïofal ydoedd, fel y llïaws o'i amgylch, ynghylch pethau pwysig tragywyddoldeb. Tybiai fod ganddo grefydd cystal a neb arall, ac mai mympwy ffol a fuasai ymgyrraedd at ddim mwy. Arferai y Parch. Gruffydd Jones [Llanddowror] fyned i bregethu, yn awr ac eilwaith, i rai eglwysydd yn yr ardaloedd hyny. Yr oedd son mawr am G. Jones yn y wlad, fel dŷn hynod, ac fel pregethwr grymus; a pharai hyn i lïaws mawr ymgasglu i wrando arno, pan y deallid ei fod i bregethu o fewn terfynau cyfleus. Arferai fyned yn achlysurol, ym mysg manau eraill, i Landdewi-brefi, pedair neu bum milltir o Langeitho. Ar un o'r achlysuron hyn, aeth Daniel Rowlands i wrando arno. Anhawdd yw gwybod pa beth a'i tueddodd. Nid oes le i gasglu ei fod mewn un modd yn ymofyn am les ysprydol iddo ei hun, na bod ganddo wir barch i Mr. G. Jones ar gyfrif efengyleidd-der ei syniadau a'i bregethau. Fe ddichon fod rhyw awydd ynddo am fod yn boblogaidd ym mysg ei blwyfolion, ac y

‡ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 375; En. Cymru, I. F., t. 914.

Digitized by Google

gallai ennill rhywbeth a wasaneuthai i'r amcan hwnw oddi wrth bregethwr oedd â doniau mor boblogaidd ganddo a G. Jones. Arweinir ni i feddwl hyn oddi ar fod Mr. Rowlands wedi dangos awydd i gael gwybod paham yr oedd gweinidogaeth un Mr. Pugh [Phylip Puw, Llwyn-y-pïod], gweinidog Ymneillduol [Annibynol] yn y gymmydogaeth, yn tynu cynnifer i wrando arno."* . . .

"'Yr oedd [D. Rowlands] y pryd hyn,' medd y Parch. J. Owen, yr hwn a ysgrifenodd hanes ei fywyd, 'o olwg ucheldrem, falchaidd iawn, ac yn ymddangos yn llawn coegni ac ysgafnder.' A phan ddaeth i wrando Mr. G. Jones, ymddangosai yr eofndra balchaidd hwn yn dra amlwg. Yn y cwrdd, fe safai gyferbyn â'r pregethwr (nid oedd le iddo eistedd gan y dyrfa); a'r cyfryw oedd ei olwg uchel, a'i drem drahaus, ag a dynai sylw y pregethwr arno. Canfyddai ynddo naws chwyddedig, ysgafn, a gwatwarus; a disgynodd arno, tra'r oedd yn pregethu, awydd i dori allan mewn gweddi ar ran y dŷn ieuangc balchaidd oedd ger ei fron, gan erfyn ar Dduw i'w wneud yn ddefnyddiol yn ei dymmor, i lesâu pechaduriaid. Ymddengys bod yr Yspryd a barodd i'r pregethwr weddïo yn ddisymmwth felly dros y gŵr ieuangc wedi cyffwrdd, ar yr un pryd, â chalon y llangc y gweddïai drosto. Ymddangosodd y cyfnewidiad arno yn y fan: syrthiodd ei wyneppryd, llesmeiriodd ei galon, gan y saeth a'i trywanai; a darostyngwyd y creadur uchel-olwg yn bechadur digymmorth ger bron Duw. Ciliodd ei ysgafnder oddi wrtho, a dychwelodd adref â saeth argyhoeddiad yn ei enaid, gan ocheneidio yn ddwys a synfyfyriol. Ymddangosodd cyfnewidiad mawr yn ei bregethau ar ol hyn. Er nad oedd ei wybodaeth etto ond cyfyng yn athrawiaeth yr efengyl; er hyny, yr oedd difrifwch a dwysder, na chanfyddid o'r blaen, yn anadlu trwy ei weinidogaeth. Y son am y fath gyfnewidiad ym mryd ac ymddygiad y person ieuangc, a aeth ar led y wlad. Yr oedd mor amlwg a hynod fel nad ellid ei guddio.

"Crybwyllir am amgylchiad ar ei ddychweliad adref o wrando Mr. G. Jones, yr hwn a ddengys mor 'dda ydyw gair yn ei amser.' Yr oedd ei feddwl wedi syrthio i'r fath ddigalondid, trwy'r olwg arswydus a gawsai arno ei hun dan y bregeth honno, ag y penderfynodd nad anturiai i bregethu byth mwy. Ar eu ffordd adref, yr oedd y bobl yn son am y bregeth a glywsent, ac yn cyd-dystio na chlywsent erioed o'r blaen bregeth o'i bath. Disgynai eu hymadroddion fel plwm ar galon Rowlands, druan, nes ydoedd bron llewygu. Yr oedd rhyw ŵr yn eu plith a farchogai wrth ystlys Rowlands; ac wrth eu clywed oll yn mawrygu y bregeth a glywsent, efe a ddywedodd, 'Wel, wel, canmolwch chwi a fynnoch ar y cyfarfod heddyw, ni chefais i ddim budd ynddo: y mae genyf fi achos i ddïolch i Dduw am offeiriad bach Llangeitho,' gan daro ei law ar ei ysglwydd. Amgylchiad digon dibwys oedd hwn ynddo ei hun; etto, cafodd effaith rymus ar feddwl llwfr y gweinidog ieuangc. Teimlai ei rwymau i raddau yn cael eu tori, a'i yspryd ymollyngar yn adfywio; a dywedai ynddo ei hun, 'Pwy a ŵyr na wna'r Arglwydd ryw ddefnydd o honof finnau, greadur gwael!' . . .

"Clybu Mr. Puw, o Lwyn-y-pïod, y gweinidog Ymneillduol y crybwyllasom am dano, son am y cyfnewidiad a wnaed ar Rowlands, ac am y gwahaniaeth a ymddangosai yn ei bregethau. Yr oedd Mr. Puw yn Gristion cywir, ac yn weinidog ffyddlon a llwyddiannus. Edrychai ymhell tu hwnt i derfynau plaid; llawenychai wrth feddwl bod llaw yr Arglwydd ar weinidog y plwyf; ac annogai ei wrandawyr i achub y cyfleusdra i'w wrando. Nid oedd Rowlands, hyd yn hyn, yn eithaf cywir yn ei olygiadau ar rai matterion, er y pregethai yn rymus ac effeithiol iawn. Parai hyn i rai o bobl Mr. Puw led achwyn arno; ond yr hen ŵr duwiol a chall a attebai iddynt, 'Gadewch ef yn llonydd. Offeryn ydyw y mae yr Arglwydd yn ei godi. Plentyn ydyw efe etto; fe'i dysg ei Dad nefol ef yn well. Yr wyf yn credu yn sicr fod yr Arglwydd, mewn modd neillduol, yn ei arddel, a bod ganddo waith mawr iddo i'w wneuthur.'† Bu farw yr hen weinidog duwiol cyn hir, a gwiriwyd ei eiriau yn helaeth yn Rowlands."‡

* Gwel pen. viii. o'r llyfr hwn, y pummed.

Y mae'n anhawdd gwybod pa bryd, yn fanwl, y cymmerth y diwygiad mawr yma le yn Daniel Rowlands; ond y mae'n amlwg iddo ddigwydd o gylch yr un amser ag y torodd Howel Davies allan i bregethu yn deithiol yn sir Benfro, a Howel Harris yn sir Frycheiniog. Yr ydys yn gwybod, ar dystiolaeth Harris ei hun, mai yn y flwyddyn 1735 y llwyr argyhoeddwyd ef o bechod,§ ac iddo ddechrau "cynghori y bobl druain, y rhai a ymgynhullent i'w wrando bob prydnhawn Sabboth," yn ebrwydd ar ol cael argyhoeddiad ei hunan. Aeth i Rydychain yn nechrau Tachwedd y flwyddyn honno; ond pan welodd "yr anhrefn a'r anfoesoldeb oedd yn ei amgylchu yno, blinodd yn fuan ar y lle; ac ar ol aros yno y tymmor hwnw," sef hyd ddiwedd Chwefror, 1736, y mae'n debyg (canys pedwar mis yw term geuaf y prif ysgolion), dychwelodd i Gymru, ac nid aeth i Rydychain halogedig mwyach. Yn ebrwydd ar ol dychwel adref, aeth allan "i gynghori o dŷ i dŷ, nes ymweled â'r rhan fwyaf o deuluoedd yn ei blwyf genedigol, ynghyd â rhai yn y plwyfydd cymmydogeuthol. Yr oedd rhifedi mawr o bobl erbyn hyn yn ymgasglu ynghyd i'w wrando, fel yr oedd y tai y byddent yn cyfarfod ynddynt yn rhy gyfyng i'w cynnwys," ac yr oedd ei bregethiad mor nerthol a thanbaid, yn oed y pryd hwnw, "fel y byddai amryw yn y fan yn gweuddi allan ar Dduw am faddeu eu pechodau." Y mae genym sicrwydd i hyn ddigwydd yng Ngwanwyn 1736.‖

Ond nid oes genym y fath sicrwydd am yr *amser*, yn fanwl, y deffrowyd D. Rowlands, heb law bod yn sicr i hyny ddigwydd *ychydig* o flaen, neu ar ol y ddau Howel. Gellid casglu, braidd, oddi wrth y pennill canlynol sydd yn ei farwnad, gan Fardd Pant-y-Celyn, mai Rowlands oedd ar y maes yn gyntaf yn y Diwygiad mawr:—

"Rowlands startiodd allan gyntaf,
A'i le gadwodd ef yn lân;
Ac nis cafodd, er gwisgïed,
Ungwr gynnyg cam o'i flaen."¶

"Ond y mae perygl i ni fod yn rhy frysiog,"

† "Nid wyf yn gwybod am ddim yn holl hanes Rowlands ei hun, eb y Dr. Edwards, "sy'n dangos mwy o fawredd moesol na'r dywediahwn o eiddo gweinidog yr Ymneillduwyr yn Llwyn-y-pïod."—Traeth Llen., t. 482.

‡ Method. Cymru, cyf. i., t. 67–9.

§ Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, argr. 1828, t. 9.

‖ Han. Byr o Fywyd H. Harris, t. 16, 17.

¶ Gweithiau Wm. Williams, t. 685.

Digitized by Google

eb y Dr. L. Edwards, "o blegid nid ydyw yn sicr fod yma gyfeiriad at Howel Harris. Er hyny, pe buasai Harris wedi 'startio allan gyntaf,' nid ydyw yn debyg y buasai Williams yn anghofio y ffaith wrth gyfansoddi ei farwnad; ac y mae'n ddïau y buasai hyny yn ei rwystro i ddefnyddio geiriau mor gryfion am Rowlands."* Joshua Thomas, ei gydoeswr, a ddywed ar y matter yma fel hyn:—

"Pan ddaeth Mr. Harris o gylch y wlad, taranu yn ofnadwy yr oedd yn erbyn tyngwyr, rhegwyr, meddwon, ymladdwyr, celwyddwyr, torwyr Sabboth; a gwreichioni tân uffern, mewn ystyriaeth, yn eu plith. Byddai ef yn cynghori mewn tai, ac yn y meusydd: ni fyddai waeth ganddo ef pa le, os cai bobl i wrando, fel y buasai Mr. Walter Cradoc, Mr. Vavasor Powel, ac eraill ar hyd Cymru, o gylch can mlynedd o'r blaen. Ond yr oedd hyn yn beth newydd iawn yn ein dyddiau ni; gan hyny casglodd llawer iawn i wrando; ac o gylch yr un amser, neu'n fuan iawn wedyn, dechreuodd Mr. Daniel Rowland, gweinidog o Eglwys Loegr yn sir Aberteifi, bregethu mewn ffordd anghyffredin iawn yn Eglwys Loegr. Yr wyf yn cofio i mi ei glywed o gylch 1737, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yno lawer yn gwrando; ac mi glywais rai o'r Ymneillduwyr yn son am y bregeth wrth ddychwelyd adref. Yr wyf yn cofio mai rhan o'r ymadrodd oedd hyn, 'Ni chlywsom erioed ei gyffelyb yn Eglwys Loegr, ond Mr. Gruffydd Jones. Ni bu yn ein dyddiau ni y fath oleuni ymhlith pobl yr Eglwys.'"†

Y mae hyn yn brawf dïamheuol y bu D. Rowlands yn pregethu yn sir Gaerfyrddin yn 1737; ac nid yw yn debyg y buasai yn myned i sir arall i bregethu cyn treulio cryn amser yn ei sir ei hun, a chael arwyddion bod bendith ar ei lafur. Y gwir yw bod y tri Methodistiad mawr cychwynol, Howel Davies yn sir Benfro, Howel Harris yn sir Gaerfyrddin, a Daniel Rowlands yn sir Aberteifi, wedi "startio allan" bron yr un amser, heb wybod dim am eu gilydd ar y dechrau, fel y crybwyllwyd, a bod y tri, fel eu gilydd, ar eu cychwyniad, yn "feibion y daran" o'r fath fwyaf tanbaid ac egnïol; ond credwn nas gellir penderfynu hyd sicrwydd pa un o'r tri a "startiodd allan gyntaf" oll, pe bai hyny yn bwysig. Eithr hyn sydd sicr ddïammau: wedi i Daniel Rowlands "startio allan," yr oedd ei bregethau ef, fel eiddo'r ddau Howel, yn ofnadwy o daranllyd a bygythiol. "Yr oedd golygfa y chweched bennod o'r Datguddiad yn digwydd bob tro y pregethai: cryfion y ddeuar yn teimlo bod dydd mawr ei ddigter ef wedi dyfod, hyd nes yr oeddynt yn llewygu gan ofn, fel pe buasai y gair *Euch* yn swnio yn eu clustiau. Dywedir y byddai y rhai anystyriol yn gruddfan gan ofid."‡ "Dilynid ei weinidogaeth, bellach, gan effeithiau rhyfeddol. Deuthai ar y trigolion dïofal fel braw disymmwth: deffrôdd hwy megis gan ruad taranau trymion. Meddiannid y cannoedd a'r miloedd a ddeuent weithian i'w wrando â braw aruthrol, a syrthiai llawer o honynt i lawr fel meirwon. Gellid canfod arswyd a dychryn wedi ei bortreiadu ar wynebau y dyrfa fawr; brethid eu cydwybodau gan seuthau llymion; a llifai y dagrau yn afonydd dros eu gruddiau, fel cawodydd o wlaw ar ol taranau mawrion. Parhaodd yr effeithiau grymus hyn, medd y rhai a'i gwrandawent ef eu hunain, am dymmor maith: nid am odfa neu ddwy, a hyny yn dra anfynych, ond mewn mesur mwy neu lai am flynyddoedd. Yr oedd Rowlands y pryd hwn yn gwasaneuthu eglwysydd Llangeitho a Llangwnlle, a chafodd guradiaeth Llanddewi-brefi yn ychwanegol, yn fuan ar ol ei gyfnewidiad. Bu'n gwasaneuthu y tair eglwys dros amser maith cyn ei droi allan, a phregethai yn gyffredin dair gwaith bob Sabboth."§

"Byddai y pryd hyn yn fynych yn pregethu am oriau ynghyd. Wedi i'r cyfnewidiad gymmeryd lle, gwrthrychau cyntaf ei bryder oedd yr ieuengctid yr arferai unwaith ymgynnull gyd â hwynt ar ol y gwasanaeth i halogi dydd Duw. Wedi iddo newid ei ddull o bregethu, ymadawsant â'r eglwys: aeth yntau ar eu hol, a phregethodd iddynt ddychrynfëydd Duw ger llaw y twmpath, fel na bu yno chwarau mwy. Y mae genym amryw esamplau eraill o'r nerth oedd yn ei bregethau y pryd hyny. Daeth gwraig o Ystrad-ffin i gymmydogaeth Llangeitho i ymweled â'i chwaer. Dywedwyd wrthi am 'y person gwallgof,' fel y gelwid ef. Aeth hithau o gywreinrwydd i'w wrando. Dychwelodd i'w thŷ ei hun heb yngan gair wrth ei chwaer am y bregeth na'r pregethwr; ond y Sabboth canlynol wele hi yn nhŷ ei chwaer drachefn. Honno yn frawychus a ofynodd iddi, 'Beth ydi'r matter? A ydi'r teulu'n iach?' 'Ydynt,' eb hithau, 'y mae pob peth felly o'r gorau.' 'Beth ydi'r matter ynte?' eb y chwaer yn gyffrous. 'Nis gwn i yn iawn,' oedd yr atteb: 'rhywbeth a ddywedodd eich offeiriad crac chwi sydd wedi bod ar fy meddwl trwy'r wythnos, fel na chefais lonydd na dydd na nos.' Parhaodd i fyned yno bob Sabboth, er bod iddi dros ugain milltir o ffordd. Bu'n foddion i gael Rowlands i Ystradffin i bregethu. Adroddir hanes mewn cyssylltiad â'r lle hwn am awdurdod ei bregethu. Yr oedd gŵr bonheddig annuwiol iawn yn dychwelyd o hela y borau Sabboth yr oedd Rowlands yno i

* Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 479.
† Han. y Bedyddwyr, t. 53.
‡ Traethodydd, cyf. vi., t. 281.

§ Method. Cymru, cyf. i., t. 69, 70.

Digitized by Google

bregethu. Wedi clywed am 'yr offeiriad gwallgof,' aeth i'r eglwys, â'i gŵn a'i gymdeithion annuwiol gyd âg ef. Safai yn dalgryf ar faingc gyferbyn a'r pregethwr, gan feddwl ei faglu â'i olwg ddïystyrllyd; ond aeth Rowlands rhagddo i dreuthu yn hyf, yn ol ei arfer, mai peth ofnadwy oedd syrthio yn nwylaw y Duw byw. Yr oedd dychrynfëydd Duw yn dechrau ymaflyd yn y gynnulleidfa, ac yn eu plith yr oedd y bonheddwr balch: tröed ei lygaid dïystyrllyd yn ffynhonau o ddagrau, crynodd ei liniau fel nad allent ei gynnal, ac eisteddodd dan grymu ei ben, ac wylo yn hidl. O'r dydd hwnw allan profodd, trwy fuchedd sanctaidd, ei fod yn ddŷn newydd."*

Yr oedd ei bregethiad y pryd hyn yn daranllyd ac ofnadwy. Dywed yr un ysgrifenydd bod "ei lygaid yn melltenu, a'i law yn cyfeirio fel pe buasai'r fellten o'i lygaid yn disgyn oddi ar ben ei fys ar y neb y cyfeiriai ato, nes y teimlai aml wrandäwr, 'Myfi yw y gŵr.'" Wele ddarlun godidog "peraidd ganiedydd Cymru" o Daniel Rowlands, pan yn y rhan gyntaf daranllyd o'i yrfa bregethwrol, a gwell darlun nis gellir o hono:—

"Pan oedd tywyll nos trwy Brydain,
Heb un argoel codi gwawr;
A thrwm gwsg oddi wrth yr Arglwydd
Wedi goruwch-guddio'r llawr:
DANIEL chwythodd yn yr udgorn,
Gloyw udgorn Sinai fryn;
Ac fe grynodd creigiau cedyrn
Wrth yr adsain nerthol hyn.

"Boanerges oedd ei enw,
Mab y daran danllyd, gref,
Sydd yn siglo yn ddychrynllyd
Holl golofnau daer a nef:
'Dewch, dihunwch,' oedd yr adsain
'Y mae'n dinas ni ar dân;
Ffowch oddi yma mewn munudyn,
Ynte ewch yn ulw mân!'

"Yn Llangeitho fe ddechreuodd
Weuddi 'distryw'r anwir fyd!'
Miloedd ffodd o'r De a'r Gogledd,
Yn un dyrfa yno ynghyd:
Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
Yr holl werin, fawr a mân;
Nid oedd gwedd wynepryd undyn
Fel y gwelwyd ef o'r blaen.

"Gliniau'n crynu gan y daran,
Fel pe buasai angau'i hun
Wedi cymryd llawn berchnogaeth
Ar y dyrfa bob yr un:
'Beth a wnawn am safio'n henaid?'
Oedd yr unrhyw gydsain lef;
Chwi, sy am wybod hanes Daniel,
Dyma fel dechreuodd ef.

"Daeth y swn dros fryniau Dewi
Megis fflam yn llosgi llin,
Nes dadseinio creigiau Tywi,
A hen gapel Ystrad-ffin;
Lle daeth siroedd yn finteioedd,
Gwerin o aneirif ri',
Wrth gref adsain udgorn gloyw
Cenadwri'r nefoedd fry.

"Dyma ddyddiau pur gyffelyb
I rai Sinai hen o'r blaen:
Llais yr udgorn, a llef geiriau,
Tarth a thymmestl, mwg a thân;
Mynydd mawr yn crynu'n danbaid,
Ac yn chwarau o eigion byd
Yn datguddio yn erbyn pechod
O bob rhyw, anfeidrol lid.

"Dyma'r pryd daeth Harris fywiog,
Yn arfogaeth fawr y nef,
Megis taran annïoddefol
Yno i'w gyfarfod ef:
Dyma ddyddiau sylfaen gobaith,
Dyddiau gwewyr llym a phoen,
Wrth gael esgor ar ei meibion,
Newydd wraig yr addfwyn Oen.

"Pump o siroedd penaf Cymru
Glywodd y taranau mawr;
A chwympasant gan y dychryn,
Megis celaneddau i lawr:
Clwyfau gawd, a chlwyfau dyfnion,
Ac fe fethwyd cael iachâd,
Nes cael eli o Galfaria,
Dwyfol ddŵr a dwyfol waed."†

"Mewn perthynas i natur gweinidogaeth Rowlands yn y tymmor hwn," medd y Dr. Edwards, "dywedir yn yr un farwnad iddo

'Bregethu'r ddeddf dymhestlog,
Rai blynyddoedd yn y blaen.'

Byddai yn dda i bregethwyr gofio bod annuwiolion i'w cael etto, ac y dylai eu hachubiaeth fod yn un o'r amcanion blaenaf. Y mae'n gweddu i hyn gael ystyriaeth arbenig gan bregethwyr ieuaingc."‡

Y dystiolaeth hon sydd wir, yn ei pherthynas â *hen* bregethwyr cystal a rhai *ieuaingc*, ac y mae'r sylw yn anhreuthol bwysig. Yr ydym yn clywed gweddïo mynych yn y pulpudau a manau eraill ar i'r *eglwys* a'r *gwrandawyr* gael eu deffro, gan gymmeryd yn ganiataol bod y *pregethwyr* yn effro eisoes; pan, mewn gwirionedd, y bydd cymmaint o angen, os nad mwy, eu deffro *hwy*, a deffro eu *gwrandawyr*. Y gwir yw bod hanes pob Diwygiad mawr yn profi mai'r pregethwyr sy'n cael eu deffro gyntaf. Yn y Diwygiad Cristionogol, y mwyaf a fu yn y byd erioed, ar yr apostolion, yn gyntaf, y tywalltwyd yr Yspryd o'r uchelder. Dengys hanes y Diwygiad Protestanaidd mai Huss, Luther, Calfin, ac eraill o'r un dosparth, a ddeffrowyd gyntaf. Yn y Diwygiad Puritanaidd, drachefn, yn Lloegr a Chymru, Wycliff, Tyndal, Wroth, Erbury, Walter Cradoc, Vavasor Powel, Morgan Llwyd, a phregethwyr eraill, a gynhyrf-

* Traethodydd, cyf. vi., t. 281–2.

† Gweithiau Wm. Williams, t. 684; Traeth. Llenyddol y Dr. Edwards, t. 479–80. ‡ Yr un, t. 481.

wyd ac a ddeffrowyd gyntaf. A'r un modd yn y Diwygiad mawr Methodistaidd, eneidiau Howel Davies, Howel Harris, a Daniel Rowlands, a roddwyd ar dân gyntaf, nes eu cynhyrfu i "chwythu yn yr udgorn, gloyw udgorn Sinai fryn, nes y crynodd creigiau cedyrn wrth yr adsain nerthol hyn." A chyn y gwelir Diwygiad nerthol etto, rhaid i'r "gweledyddion" gael eu deffro i "dramwy gan bregethu y gair," a "phregethu yr Arglwydd Iesu," fel y gwnaeth yr apostolion, holl eglwys Jerusalem, a diwygwyr ymhob oes, canys nid yw "philosophi a gwag dwyll," sychlyd, yn effeithio byth "i agoryd llygaid y deillion, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw."

Dywedir y parhaodd Rowlands i felltenu "tarth a thymmestl, mwg a thân," ymhlith "pump o siroedd penaf Cymru," am bum mlynedd, nes y byddai ei wrandawyr, fel y gwelsom, yn llewygu gan ofn. Tu a'r pryd hyn, aeth hen Annibynwr diragfarn Llwyn-y-pïod at y pregethwr ieuangc, tanllyd, a dywedodd wrtho yn addfwyn a dengar, "Mr. Rowland bach! pregethwch yr efengyl i'r bobl, a chymhwyswch y balm o Gilead at eu clwyfau ysprydol; a dangoswch iddynt yr angenrhaid am ffydd yn yr Iachawdwr croeshoeliedig." "Yr wyf fi yn ofni, Mr. Puw anwyl," ebai Rowlands, "nad ydyw y ffydd honno genyf fi fy hun, yn ei llawn nerth a gweithrediad." "Pregethwch arni," ebai Puw, "hyd oni theimlwch hi yn y ffordd honno. Os ewch ym mlaen i bregethu y ddeddf yn y modd hwn, byddwch yn fuan wedi lladd hanner y bobl yn eich gwlad, canys yr ydych yn taranu melldithion y ddeddf, ac yn pregethu yn y fath ddull ofnadwy, fel nas gall neb sefyll o'ch blaen." Y fath olwg ddymunol oedd hon! Hen bregethwr Ymneillduol, yn rhydd a diragfarn, yn cynghori gŵr eglwysig ieuangc, yr hwn, ychydig amser yn ol, oedd yn falch ac uchelfryd, ond yn awr a ddygasid, gan ras Duw, yn ddigon gostyngedig i dderbyn hyfforddiant gan Ymneillduwr yn y pethau mwyaf eu pwys.* Y mae gan y Dr. Edwards sylwadau ar bregethu y ddeddf, yn ei dreuthawd ar Daniel Rowlands, sy'n dra theilwng, fel y rhan fwyaf o waith Edwards, o ystyriaeth pregethwyr a Christionogion yn gyffredin, sef y rhai canlynol:—

"Prophwydoliaeth yr hen weinidog duwiol [Puw, Llwyn-y-pïod], am Rowlands, a drodd allan yn wirionedd. Dysgwyd ef yn fanylach gan ei Dad nefol: ac y mae Williams, yn y farwnad, yn rhoddi pwys mawr ar gywirdeb ei olygiadau am athrawieuthau crefydd, a diysgogrwydd ei ymlyniad wrthynt. Bu y ddeddf iddo ef, fel i eraill o'i flaen ac ar ei ol, yn athraw at Grist. Ac nid yw hyny yn rhyfedd, o blegid y mae perthynas agosach nag y mae llawer yn ei dybied rhwng argyhoeddiad dwfn o ysprydolrwydd y gyfraith a chrediniaeth ymherson a gwaith Crist yn unig am iachawdwriaeth. Nid deddfoldeb ydyw pregethu y ddeddf; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Y mae yspryd deddfol bob amser, i raddau mwy neu lai, yn colli golwg ar ysprydolrwydd a manylrwydd y ddeddf, a thrwy hyny, i'r un graddau, yn arwain dŷn i ymorphwys yn ei hunan-gyfiawnder, ac yn ei gadw yn ddideimlad o'r angenrhaid am Gyfryngwr. Ond nid y ddeddf, fel crynhodeb o drefniadau, sy'n cynhyrchu yr effeithiau hyn; eithr y ddeddf fel y mae yn ddatguddiad o sancteiddrwydd Duw. Yr oedd Rowlands wedi gweled Duw, ac yn teimlo ei fod wedi derbyn cenadwri oddi wrtho, ac am hyny yn llefaru fel un âg awdurdod ganddo. Gallasai fod yn ddigon cywir yn ei grediniaeth o byngciau y Bibl, ac etto yn rhy wan i effeithio ar y rhai oedd o'i amgylch; ond yr oedd gweled Duw yn y gwirionedd yn peri bod y gwirionedd yn nerthol 'i fwrw cestyll i'r llawr.' Deallodd y bobl yn fuan fod yno ffynhonell o fywyd anorchfygol wedi tarddu allan o Langeitho. Yn raddol, trwy ei lafur ef ac eraill, ymdeunodd y swn trwy Gymru; ac ar y rhai oedd yn credu y dystiolaeth, yr oedd yn effeithio yn lled gyffelyb i'r hanes yn ein dyddiau ni am ddarganfyddiad cloddfa o aur yn Awstralia. Y gwahaniaeth ydyw, bod y bobl anwybodus hyn, yn amser ein teidiau, yn credu bod yr enaid yn fwy ei werth na'r corph, a bod tragywyddoldeb yn fwy pwysig nag amser. Dyma fel yr oeddynt hwy yn credu yn ddïysgog, ac yr oeddynt yn gweithredu yn gyfattebol. Hawdd iawn i'r rhai sy'n arfer geiriau heb feddyliau ydyw penderfynu y matter, trwy ddywedyd nad oedd y cwbl ond penboethni; ond y mae eiddgarwch o'r fath yma, hyd yn oed pe byddai ynglŷn â dibenion mor goel-grefyddol a Rhyfeloedd y Groes, neu bererindod i Mecca, yn profi, wedi'r cyfan, bod dŷn yn rhywbeth mwy nag anifail. Bendith fawr i unrhyw ddynion ydyw cael eu deffrôi i feddwl am wrthrychau uwch na manteision bydol, neu fwyniant anifeilaidd. Ond heb law hyn, yr oedd yma greadigaeth newydd. Y mae pererindodau y Pabyddion a'r Mahometaniaid yn cyffwrdd â'r dychymmyg; ond yr oedd y daith i Langeitho yn gadael argraph arhosol ar y galon a'r gydwybod, ac yr oedd y pererinion hyn yn dwyn ffrwythau addas i edifeirwch."†

* Cofiant D. R., gan M. D., t. 10.

Yn lled fuan ar ol annogeuthau addfwyn hen Annibynwr Llwyn-y-pïod i Rowlands, ar iddo bregethu yr efengyl i'r bobl, a chymhwyso'r balm o Gilead at eu clwyfau ysprydol, a dangos iddynt yr angen am ffydd yn yr Iachawdwr croeshoeliedig, cymmerth cyfnewidiad mawr le yn sylwedd ei bregethau; ond nid yn angerddoldeb, hyawdledd, ac egni y traddodiad o honynt. Fel yr oedd efe ei hun yn cynhyddu mewn gwybodaeth o athrawieuthau melus yr efengyl, ac yn profi mwyfwy o ryddid plant Duw, yr oedd ei bregethau yn dyfod yn fwyfwy efengylaidd, cysurlawn, a gorfoleddus; ond nid oedd eu heffeithiau rhyfeddol un mymryn llai, namyn yn hytrach i'r gwrthwyneb. Y mae darlun yr ysgrifenydd galluog yn *Y Traethodydd* o'r cyfnewidiad yma a'i effeithiau y fath fel nas gallwn ymattal heb ei ddifynu:—

"Yn lle y ddeddf, cymmerodd yr efengyl. Gadawodd

† Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 482–3.

Sinai i sefyll ar Sïon. Yr oedd ei weinidogaeth mor ddeniadol yn awr ag ydoedd o ofnadwy o'r blaen. Am y pum mlynedd cyntaf, bu, fel Ioan Fedyddiwr, yn cyhoeddi y llid a fydd; ond, fel yntau, y mae'n awr yn dechrau cyfeirio at Oen Duw, yr hwn sy'n tynu ymaith bechodau y byd. Dilynwyd y cyfnewidiad hwn, yn ei ddull ef, gan gyfnewidiad mawr yn y bobl: trodd y galar yn llawenydd, a'r wylo yn ganu. Y pryd hwn y dechreuodd gorfoledd yng Nghymru. Nid ydym ym meddwl dywedyd dim drosto ond hyn: y mae'r dynion sy'n beio arno, yn rhai heb ond ychydig deimlad. Y maent hefyd yn profi eu hunain yn anwybodus o hanes eglwys Dduw, ac o gyfansoddiad meddwl dŷn. Y mae'n dra amheus a all neb ddangos esampl i ni o bechadur mawr, wedi ei wneuthur mewn byr amser yn sant mawr, heb iddo wybod am lawenydd nas gallai ei dreuthu mewn geiriau: gan hyny neidiai, fel Dafydd, o flaen arch Duw [neu fel y dŷn cloff, a iachawyd gan Petr ac Ioan, yr hwn 'a safodd, ac a rodiodd, ac a aeth gyd â hwynt i'r deml, dan rodio, a neidio, a moli Duw']. Beth oedd y moli Duw oedd yn nychweledigion dydd y Pentecost? ai nid llawenydd cyfattebol i'r braw a barai iddynt ofyn, 'Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?' A phan ystyriom beth oedd cyflwr y wlad cyn hyn, yr argyhoeddiadau dyfnion oedd ym meddwl y bobl er ys blynyddau; a hefyd, nad oes gan bobl anwareiddiedig ond ychydig lywodraeth ar eu teimladau, nid ydym yn rhyfeddu wrth ddarllen fod y cynnulleidfaoedd, wedi canfod ffordd gwaredigaeth, yn amlygu eu llawenydd trwy neidio a moli Duw. Ac, yn wir, onid yw y dynion mwyaf coethedig, pan o dan deimlad dwys, yn amlygu hyny? Byddai cynnulleidfa Robert Hall yn fynych, yn ddïarwybod iddynt eu hunain, oll yn sefyll ar eu traed cyn diwedd y bregeth, ac aml un o honynt yn gorfod aros yn ei wely am ddyddiau, gan fel yr oedd teimlad yr enaid wedi amharu y corph. Buasai Cymro, dan yr un amgylchiadau, yn bloeddio, 'Hosanna, Haleluia, i'r Oen fu ar Galfaria,' &c., ac yn neidio gan lawenydd, ac felly yn attal i'r babell bridd gael ei niweidio gan y teimlad: ac y mae ein bod mor anghrediniol ynghylch y pethau hyn yn profi mai rhai bach yng Nghrist ydym, a'n bod yn byw mewn dyddiau pryd nad oes weledigaeth eglur. Y pryd hwnw, yr oedd yr Arglwydd Ior yn llefaru; gan hyny, pwy ni phrophwydai? Gwyddom fod llawer o bethau, y galara pob gwir Gristion o'u plegid, yn dilyn yr adfywiadau hyn. Ond os darfu i'w gwres hwynt roddi achlysur i rai gablu crefydd, onid ydyw oerni rhewllyd y rhai a feiant arnynt wedi bod yn achlysur i fwy feddwl nad ydyw crefydd yn ddim ond enw? Gellir dywedyd am danynt, fel yr ysgrifenodd Rowlands at foneddwr yn Llundain oedd yn beio ar y gorfoledd, 'Yr ydych chwi, y Seuson, yn beio arnom ni, y Cymry, gan ein galw yn Neidwyr, Neidwyr; ond y mae genym ninnau, y Cymry, beth i'w roddi yn eich erbyn chwithau: gallwn mewn cywirdeb eich galw Cysgaduriaid, Cysgaduriaid.'

"Torodd y gorfoledd hwn allan gyntaf pan oedd Rowlands yn darllen y geiriau hyny yngwasanaeth yr Eglwys [Wladol], "Trwy dy ddirfawr ing a'th chwys gwaedlyd.' Ymaflodd rhywbeth fel tân trydanol yn ei natur ef ei hun, ac ymdeunodd mewn moment trwy'r gynnulleidfa. Yr oedd Crist croeshoeliedig wedi ei bortreiadu mor fywiog ger bron eu meddwl, a phe buasai yn weledig i lygaid y corph. Syrthiodd llawer o honynt i lawr, fel Ioan yn Patmos, wedi gweled gogoniant eu Harglwydd: ac o'r dydd hwnw hyd ddydd ei farwolaeth, gwelodd Rowlands yr un effeithiau ganoedd o weithiau. Buan y daeth Llangeitho i gael ei hystyried yn Jerusalem Cymru. Y mae'n amheus a anrhydeddwyd un llanerch o'r ddeuar â mwy o'r presennoldeb dwyfol. Yma yr ymgynhullai miloedd y llwythau bob mis, ac ni chaent bron un amser ofyn am feistr y gynnulleidfa, 'Paham na ddaeth efe i'r ŵyl?' Byddai yno lïaws o offeiriaid, ond Rowlands oedd y pregethwr; ac y mae disgrifiad campus Christmas Evans yn peru i ni feddwl na bu'r fath bregethwr na chynt na chwedyn. Yr oedd y gynnulleidfa yn cael ei thanio chwegwaith neu saith yn yr un bregeth, nes y byddai llais eu gorfoledd yn boddi llais y pregethwr. Nid ychydig oedd nerth y swyn a dynai gymmaint a dwy fil o gymmunwyr yn y geuaf, a thros dair mil yn yr haf, o gymmaint pellder am hanner can mlynedd, a'r rhai hyny, nid yn bobl gyffredin yn unig, ond yn ddynion mawr mewn gwybodaeth a dawn, fel mewn gras."*

Gan ein bod weithian ynghymdeithas un o beneuthiaid y bobl, gwir sylfeunydd Methodistiaeth Cymru, rhaid i ni etto gael rhoi darlun y "peraidd ganiedydd" o hono, yn yr adeg yma o'i fywyd:—

'Nol pregethu'r ddeddf dymhestlog
Rai blynyddau yn y blaen,
A rhoi llawer yn friwedig
'Nawr cyfnewid wnaeth ei gân;
Fe gyhoeddodd iachawdwriaeth
Gyflawn hollol, berffaith llawn,
Trwy farwolaeth y Messia
Ar Galfaria un prydnhawn.

Grym ei athrawieuthau melus
Bellach oedd, meithrinu ffydd,
Trwy ddatguddio y Cyfryngwr,
Sylfaen iachawdwriaeth rydd:
Dŷn â'r Duwdod ynddo'n trigo,
Wedi prynu â'i ddwyfol waed,
Holl drysorau nef y nefoedd,
I gredadyn tlawd yn rhad.

Dyma'r pryd daeth Whitfield enwog,
Ar adenydd dwyfol ras,
Lawr i Gymru i gael profi
Y newydd win o ddwyfol flas:
Dyma'r pryd yr hyfryd asiwyd
O fewn ffwrnes fawr y nef,
Sais a Chymro mewn athrawiaeth
Loyw, ddisglair, gadarn, gref.

Pan oedd athrawieuthau cymmysg
Wedi llanw'r wlad yn un;
Baxter, Armin, a Phelagius,
Ynghyd â "Holl Ddyledswydd Dŷn;"
Y rhain waeddwyd yn eu herbyn,
Fe 'sgymmunwyd hwynt i maes,
Ac fe blanwyd, trwy'r eglwysi
Athrawieuthau dwyfol ras.

Dyma'r pryd, boed cof am dano,
Ganwyd y Gymmanfa fawr,
Ac sy er's hanner cant o flwyddau
Yn cadw i fynu hyd yn awr;
Yn gwneud undeb athrawieuthau,
Ac yn clymu cwlwm crwn,
Nas gall rhagfarn na drwg-dybiau
Fyth i ddattod dim o hwn.

'Nawr y penaf un ddihangodd,
Rowlands sy heddyw yn y nef,
Wedi derbyn coron euraidd,
Hyfryd ffrwyth ei lafur ef:
Talent, ddeg, a roddwyd iddo,
Fe'u marchnatodd hwynt yn iawn;
Ac o'r deg fe'u gwnaeth hwy'n gannoedd,
Cyn machludo'i haul prydnhawn.

Nid oes un o siroedd Cymru,
Braidd, na phlwy sy'n perchen cred,
Na bu Rowlands yn eu teithio,
Ar eu hyd ac ar eu lled:
Tros fynyddau, trwy afonydd,
Ac aberoedd gwaethaf sydd,
O Dŷ Ddewi i Lanandras,
O Gaergybi i Gaer-dydd.

Deuwch trosodd i Langeitho
Gwelwch yno ol ei law,
Miloedd meithion yno'n disgwyl,
Llu oddi yma, llu o draw;
A'r holl dorf yn 'mofyn ymborth,
Amryw'n dwedyd, "Podd y cawn?"
Pawb yn ffrostio wrth fynd adref,
Iddo gael ei wneud yn llawn.

Gwelwch Daniel yn pregethu
Yn y tarth, y mwg, a'r tân,
Mil ar unwaith yn moliannu,
Haleliwia yw y gân,
Nes bai dorf o rai annuwiol,
Mewn rhyw syndod, dwfwn, mud,
Ac yn methu rhoddi eu meddwl
Ar un dim ond diwedd byd.

Bywiol oedd ei athrawieuthau,
Melus fel yr hyfryd win;
Pawb a'i clywai a chwennychai
Brofi peth o'r nefol rin:
Pur ddiferion bythol fywyd,
Ag a roddai iawn iachâd,
I rai glwyfodd cyfraith Sinai,
Ac a ddrylliodd dan ei thraed.

Crist ei hunan ar Galfaria
Yn clirio holl hen lyfrau'r nef,
Ac yn talu'n llwyr bob hatling
O'r holl ddyled ganddo ef:
Mae'r gwrandawyr oll yn llawen,
Oll yn hyfryd, oll yn llawn,
Wedi bwyta'r bara nefol
O las forau hyd brydnhawn.

Mae'r torfëydd yn dychwel adref
Mewn rhyw yspryd llawen fryd,
Wedi taflu lawr eu beichiau
Oedd yn drymion iawn o hyd;
Y ffyrdd mawr yn frith o'r werin,
Swn caniadau i'r nefol Oen,
Nes yw'r creigydd oer a'r cymmydd
Yn adseinio'r hyfryd dôn.†

* Y Traethodydd, cyf. vi., t. 282–3.
† Cofiant D. R., gan M. D., t. 381-4.

Gan y crybwyllwyd eisoes am "ddisgrifiad campus" Christmas Evans o Daniel Rowlands, dilys genym yr hoffai lliaws o'n darllenwyr ei weled. Ysgrifenwyd y disgrifiad yma gan C. Evans i'r Parch. Edward Morgan, o Syston. Ymddengys bod Evans yn ysgrifenu'r darlun yma, mewn rhan, oddi wrth yr hyn a glywodd gan eraill am Rowlands, ac mewn rhan hefyd oddi wrth adnabyddiaeth bersonol o hono. Y mae'n awgrymu ei hun, fel y gwelir rhag llaw, iddo ei weled a'i glywed; a chan iddo gael ei eni yn yr un sir a Rowlands, ac heb fod ymhell iawn o Lancwnlle a Llangeitho, a'i fod yn 24 oed pan fu Rowlands farw, gallasai ei weled a'i glywed ef yn lled fynych yn y rhan olaf o'i oes weinidogeuthol, pan oedd C. Evans o 15 i 24 oed; ac y mae'n ddigon eglur bod ganddo y parch mwyaf diffuant iddo. Pa wedd bynag, wele "ddisgrifiad campus" yr hen Fedyddiwr diragfarn o hono:*—

"Calfinaidd, ymhob ystyr o'r gair, oedd athrawiaeth Daniel Rowlands. Byreiriog oedd ei ddull o lefaru, a byddai ei ymadroddion yn gryno, sylweddol, a synwyrlawn. Pregethai yn ei arddull priodol ei hun, ac nis gellid ei ddynwared. Yr wyf megis pe gwelwn ef yn awr, yn ei ŵn du, yn myned i mewn trwy'r drws bychan oddi allan i'r pulpud, ac yn ymddangos felly yn ddisymmwth i'r gynnulleidfa fawr. Yr oedd ei wedd, ymhob ystyr, wedi ei haddurno â mawredd, ac yn arddangos synwyr cryf, hyawdledd, ac awdurdod. Yr oedd ei dalcen yn uchel a llawn; ei lygaid yn llym, yn fywiog, a threiddiol; ei drwyn yn eryraidd, neu Rufeinig; ei wefusau yn weddus, ac yn arwyddo penderfyniad; ei ên yn taflu allan, ac yn codi ychydig; a'i lais yn soniarus, peraidd, cryf, a dylanwadol iawn. Yr arfer gyffredin fyddai i ryw weinidog ddarllen a gweddïo, cyn y cyfodai Rowlands yn y pulpud; yna rhoddai yntau allan, gyd â llais eglur a hyglyw, air o Psalm i'w ganu, megis xxvii. 4:—

'Un arch a erchais ar Dduw Naf,
A hyny a archaf etto;
Cael dyfod i dŷ'r Arglwydd glân,
A bod a'm trigfan yno.'

Un pennill a genid o flaen pregeth yn y dyddiau hyny, oedd mor rhyfedd am ddylanwadau nerthol. Ymunai'r holl gynnulleidfa i ganu gyd â gwresowgrwydd mawr; etto heb ddyblu ond ychydig o *flaen* pregeth, rhag i'r olew nefol redeg dros y llestri yn rhy fuan. Yna cyfodai Rowlands, a darllenai ei destyn yn eglur i glyw pawb. Byddai yr holl gynnulleidfa megis yn glustiau i gyd, yn astud iawn, fel pe buasent ar wrando rhyw oracl efengylaidd a nefol. Byddai llygaid yr holl bobl ar yr un pryd yn craffu arno yn ddyfal. Yn nechrau ei bregeth byddai ganddo ryw syniad tarawiadol, coffröus, megis blwch bychan o ennaint i'w agor o flaen blwch mawr ei bregeth, yr hwn, pan y'i hagorid, a wasgarai bêr-arogl yr ennaint trwy'r holl gynnulleidfa, ac a barotoai ddisgwyliadau y bobl am agoriad y blychau dilynol, o un i un, trwy'r bregeth, nes llenwi yr holl dŷ â'i arogl nefol, megis pêr-arogl blwch ennaint Mair yn Bethania gynt. Wedi cyffrôi y gynnulleidfa, fel hyn, â rhyw feddwl anghyffredin, efe a ranai ei destyn, ac âi ym mlaen gyd â'r rhaniad cyntaf, gan blygu ei ben ychydig, fel ag i daflu cipolwg ar ei nodiadau, a fyddent ar ddernyn o bapur o'i flaen. Gwelais ei nodiadau ar y testyn, 'Edifarhewch,' &c., y rhai oedd yn bur fyrion, fel hyn:—'I. Edifeirwch, o ran ystyr, yw cyfnewidiad meddwl, am Dduw ac am ddŷn, am y Ddeddf a'r Efengyl, am bechod a sancteiddrwydd, am ddrygioni'r galon a'r fuchedd, am heuddiant dŷn a heuddiant Crist, am ras Duw ac am allu dŷn, am nef a daear, ac uffern obry. II. Y mae Duw yn galw ar ddŷn i edifarhau. Clyw weinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a Christ, a Phetr ar ddydd y Pentecost, a Phaul yn Pisidia. III. Y mae Duw, o'i ras, yn rhoddi edifeirwch trwy Iesu Grist. Efe yw'r bibell euraidd, trwy'r hon y rhed holl ffrydiau gras a gogoniant. Cofia ymadrodd Petr, bod Duw yn rhoddi edifeirwch a maddeuant pechodau: drwy fendith yn dyfod o groth gwawr arfaeth fawr y nef; ac y maent fel gefeilliaid yn canlyn eu gilydd yn ddiwahân; neu fel dwy raff yn tynu llong iachawdwriaeth dros y bas-leoedd peryglus, trwy effaith eiriolaeth Crist yn tynu pechaduriaid ato ei hun.'

"Yr ydym yn awr yn dyfod at y rhan anhawddaf o'r disgrifiad, gan nas gallwn beru i ddelw fud lefaru, na dŷn marw i fod yn fyw. Wedi cymmeryd cipolwg ar ei nodiadau, o ran arfer yn fwy na dim arall, dechreuai ymadroddi yn bwyllog, gan lefaru yn rhwydd a hyglyw. Cyffelybaf ef i'r gôf yn rhoddi yr haiarn yn y tân, ac yn dywedyd wrth y chwythwr am chwythu mwy neu lai, gan gadw ei lygaid o hyd ar yr haiarn yn y tân, ac ar yr un pryd yn gallu siarad am bedoli, a durio'r swch a'r cwlltwr. Y mae'r tân yn fflamio fwyfwy, a gwreichion y twymias yn esgyn i fynu. Yna cipia yr haiarn, wedi ei ddwyn i dymmer doddedig ac ystwyth, i'r engan, a'r ordd fawr a'r morthwyl yn curo arno, nes i'r gwreichion ehedeg trwy'r holl efail. Yn gyffelyb y byddai Rowlands yn poethi ac yn brydio yn raddol, fel y byddai yn graddol deimlo ei fatter; ac o'r diwedd dyrchafai ei lais yn awdurdodol, nes y byddai yn dadseinio trwy'r holl gapel. Byddai yr effeithiau ar y bobl yn rhyfeddol: nis gwelid dim ond gwenau a dagrau yn treiglo dros eu hwynebau; a byddent ar yr un pryd yn bloeddio mewn gorfoledd. Cyfodai hyn oll o fflam ei oslef, a godidowgrwydd ei fatter; a'i fywiowgrwydd yntau o'r fflam a fyddai yn y meddyliau dyrchafedig a draddodid ganddo, yn nerthoedd yr Yspryd Glân. Yr oedd y gwahaniaeth yma rhyngddo ef a Whitfield: pan fyddai Whitfield fwyaf angerddol yn nhonau peraidd ei lais, byddai braidd yn gwanhau yn ei fatter; ond ei fatter a fyddai yn dyrchafu hyawdledd Rowlands, a byddai ei lais yn dyrchafu gyd â'i fatterion. Gwedi i'r ias hon lonyddu, dan y pen cyntaf, ac iddo frys edrych ar ei bapuryn nodiadau, dechreuai yr ail waith doddi ac ystwytho meddyliau y gwrandawyr, nes eu dwyn drachefn i'r unrhyw dymmer nefol. Gwnai felly, weithiau, chwech neu saith waith yn yr un bregeth, a byddai y twymias nefol a serch y gynnulleidfa yn y sefyllfa fwyaf angerddol. Pur ychydig fyddai ganddo yn niwedd ei bregeth mewn ffordd o gasgliad, neu gymhwysiad, gan y byddai yn cymhwyso ac yn cymmell gwirioneddau gogoneddus yr efengyl trwyddi oll. Terfynai gyd âg ychydig sylwadau tarawiadol a grymus; yna gweddïai yn fyr ac yn felus, a datganai y fendith. Yna, yn llawn chwys, brysiai allan o'r pulpud trwy'r drws bychan, a hyny mor sydyn ag y deuthai i mewn. Os na byddai cymmundeb ar ol, gadewid y gynnulleidfa fawr mewn hwyl nefol, yn mwynhau llewyrch wyneb eu Harglwydd, ac yn mawrygu ei Enw sanctaidd a holl alluoedd eu heneidiau; a hyn oll yn y modd nas gellir ei ddisgrifio ar bapur. Yr oedd pethau rhyfedd yn cymmeryd lle yn y Diwygiad crefyddol, dan weinidogaeth Rowlands a Harris yn benaf. Byddai hyd yn oed darlleniad y testyn weithiau yn taro meddyliau y bobl megis mellten o'r nef, nes cynhyrfu yr holl gynnulleidfa. Byddai wynepryd, agweddiad, a llais Rowlands yn cyfnewid yn fawr yn y pulpud, yn ol fel y byddai ei deimladau; ond nid oedd dim yn isel ac yn annymunol ynddo, eithr oll yn weddaidd ac urddasol odiaeth. Yr oedd y fath wresowgrwydd tan-

* Ysgrifenwyd y disgrifiad yma ychydig yn helaethach na'r ysgrif Gymraeg sydd yn "Hanes Bywyd" C. Evans.

baid, anorchfygol, yn ei bregethiad, fel ag i ymlid ymaith yn effeithiol yspryd diofal, bydol, a marwaidd; a byddai'r bobl, wedi eu deffro felly, yn nesâu megis yn y cwmmwl golau, at Grist, a Moses, ac Elïas, a thragywyddoldeb a'i sylweddau aruthrol yn goresgyn eu meddyliau! . . . . Seren o'r maintioli mwyaf oedd efe, a thebyg na bu yng Nghymru ei gyffelyb er dyddiau yr apostolion.—Y darlun uchod a dynais o'r pregethwr tywysogaidd hwn o barch i'w goffadwriaeth."*

Credwn yr hoffa lliaws o'n darllenwyr gael barn Howel Harris am Daniel Rowlands fel Cristion a phregethwr, fel y treutha efe hi yn y difyniadau canlynol o'i lythyrau at George Whitfield, a ysgrifenwyd yn 1741, 1742, ac 1743, ymhen ennyd ar ol i'r cyfnewidiad mawr yn null Rowlands o bregethu gymmeryd lle:—

"Am y gweinidog a'r gŵr mawr hwnw i Dduw, Mr. Daniel Rowland, argyhoeddwyd ef o gylch yr un amser a minnau, mewn parth arall o Gymru, sef sir Aberteifi; a chan mai ychydig o gydnabyddiaeth sydd rhwng y sir honno a sir Frycheiniog, aeth ym mlaen, gan gynhyddu yn raddol mewn doniau a nerth, heb wybod dim am danaf fi, na minnau am dano yntau, nes yn y flwyddyn 1737 y deuthum yn Rhaglunieuthol i'w wrando yn eglwys Defynog, ym mlaen y sir hon; ac wedi clywed y bregeth, a chanfod y doniau a roddwyd iddo, a'r nerth a'r awdurdod rhyfeddol y llefarai, a'r effeithiau o hyny ar y bobl, yr oeddwn yn wir ddiolchgar, a'm calon yn llosgi o gariad at Dduw ac ato yntau. Yma y dechreuodd fy nghydnabyddiaeth âg ef, ac ni bydd diwedd arni i dragywyddoldeb.

"Hyn a fu'r modd cyntaf i mi fyned i sir Aberteifi, lle, wedi i mi glywed ychwaneg am ei athrawiaeth o'i gymmeriad, y cynhyddais fwy mewn cariad tu ag ato; ac o'r pryd hwnw hyd yn awr, wedi cael llawer o gyfleusderau i eistedd dan ei weinidogaeth, er mawrlles i'm henaid, yr wyf dan orfod i fawrygu rhyfeddol waith Duw ynddo ef. Gan iddo fod yn fendithiol yn y fath fodd i filoedd mewn amryw siroedd, a'i fod yn cael ei arddel fwyfwy gan Dduw i alw ac adeiladu praidd Crist; felly nis gallesid disgwyl y dïangai rhag malais y gelyn, yr hwn sy'n chwythu arno ymhob ffordd y goddefir iddo, gan ddyfeisio pob math ar gelwyddau; ond y mae'r Arglwydd gyd âg ef yn y fath fodd, fel yr wyf yn credu bod y ddraig yn crynu y ffordd y cerddo. Er fy mod yn awr wedi cael y fraint o glywed a darllen llawer o waith gweinidogion Duw, etto nid wyf yn gwybod, cyn belled ag y gallaf farnu, i mi adnabod neb wedi ei fendithio yn y fath fodd â doniau a nerth, a'r fath oleuni treiddgar i Yspryd yr Ysgrythyrau, i osod allan ddirgelwch duwioldeb a gogoniant Crist. Ac er iddo gael ei gyhuddo yn fynych o gyfeiliornadau, etto y mae'r Yspryd Tragywyddol wedi ei dywys yn y fath fodd i'r holl wirionedd, a'i gadw felly rhag syrthio i unrhyw gyfeiliornad, fel y credaf bod ei weinidogaeth yn un o'r bendithion penaf y mae eglwys Dduw, yn y parth hwn, yn eu mwynhau. Y mae amryw siroedd yn cyfranogi o'r fendith hon, gan ei fod yn myned o amgylch yn ddiwyd; a chredaf mai anfynych, os un amser, yr egyr efe ei enau heb fod bendith yn dilyn, a hyny, nid am ennyd fer, ond y mae wedi parhau, i'm gwybodaeth i, am yn agos i saith mlynedd. Y mae pawb sydd yn gallu, ac yn meddu llygaid i wahanieuthu, yn cyrchu o dan ei weinidogaeth, ac yn ymgynnull o'r holl wlad o amgylch, fel y bydd pobl o *wyth* o siroedd yn fynych yn ei gynnulliadau a'i gymmundebau ar yr un pryd. Y mae'r effeithiau gweledig ar y bobl dan y gair, ac wedi ymadael, cystal a bucheddau ac ymddiddanion y rhai y gweithredwyd arnynt, yn profi i'r cyfryw sy'n meddu llygaid ysprydol, a'r rhai nad ydynt yn cau eu llygaid yn erbyn argyhoeddiad, bod Duw yn y lle mewn modd anghyffredin.

"Bum heddyw† yn gwrando y brawd anwyl, Rowland, ac ni welodd fy llygaid y fath olygfa erioed o'r blaen! Nis gallaf anfon i chwi syniad cywir am dani. Yr oedd y fath oleuni a nerth anhreuthadwy yn y gynnulleidfa. Yr oedd cannoedd o bobl yn myned o un eglwys plwyf i un arall, dair milltir o ffordd, dan ganu a gorfoleddu yn Nuw; ac wedi cyfranogi felly o swper yr Arglwydd, yn dychwelyd drachefn, lawer o filltiroedd, i'm gwrando i yn yr hwyr, pan y pregethais ar y brif-ffordd hyd wyth o'r gloch, i gryn ddwy fil o wrandawyr.

"Y mae'r hyn a glywais oddi wrth y brawd Rowland am y nerth sydd yn awr gyd âg ef,‡ tu hwnt i ddim a glywais erioed o'r blaen. Y mae'r lle bron cael ei rwygo gan nerth a phresennoldeb Duw, a llawer yn cael eu clwyfo a'u harcholli, fel y rhaid eu cario allan; a'r fath wylofain ymhlith y bobl, ac yntau ei hun yn wylo (er nad peth arferol ydyw hyny iddo ef), fel y mae'n ddigon i doddi calon gareg.

"Nis gall geiriau adrodd fel y mae'r Arglwydd yn bendithio y brawd Rowland, o sir Aberteifi,§ a'r brawd Howel Davies, o sir Benfro, a'r holl gynghorwyr, y rhai, yn eu lleoedd, a arddelir yn rhyfeddol; ac y mae'r gallu mawr, yn wir, yn y cymdeithasau yn eu cynnulliadau neillduol [y seiadau preifat]. Y mae rhai o'r mawrion yn dyfod i wrando, ac yn ymddangos eu bod yn teimlo. Ar fyr, ni welodd fy llygaid y fath beth erioed o'r blaen; ac y mae'n ymdeunu fwyfwy, fel nad oes odid blwyf na thref heb glywed yr hyfryd sain. . . . Dïau fod gan yr Arglwydd bethau mawrion i'w gwneud ar y ddeuar, ac yn y rhan dlawd a dirmygedig hon o'r ddeuar hefyd."||

Yr oedd y dylanwadau nerthol a deffröus a ddilynent bregethiad y *tri chyntaf* o Fethodistiaid Cymru yn debycach i'r tywalltiadau dwyfol, ar ddydd y Pentecost, ac wedi hyny, yn amser yr apostolion, na dim y darllenasom am dano mewn hanesyddiaeth eglwysig. Clywsom, a gwelsom hefyd, o ran hyny, a chewch chwithau weled yn y pennodau dyfodol, i ddylanwadau pur debyg ddilyn pregethiad yr ail a'r drydedd oes Fethodistaidd, ac yr ydym yn dystion o weled pethau tra chyffelyb dan bregethiad y bedwaredd oes; a byddai yn fendith anhreuthadwy i'r oes sychlyd bresennol pe gwelai hithau y cyffelyb, a dylai Cristionogion weddïo yn daer am y tywalltiadau nefol a welodd eu tadau.

Yn y flwyddyn 1739, sef yn lled fuan ar ol i Daniel Rowlands ddechrau troi yn "fab diddanwch," ar ol y tymmor y bu'n "fab y daran," cyhoeddodd bregeth a elwir "Llaeth Ysprydol," &c., ar 1 Petr ii. 2. Gan mai y bregeth hon oedd y cyfansoddiad cyntaf a gyhoeddwyd o waith y pregethwr digyffelyb yma, credir yr hoffai llawer o'n

* Christmas Evans, Caernarfon, Hydref 20, 1835; Cofiant D. R., gan M. D., t. 63–6.

† Ysgrifenwyd hyn yn Rhagfyr, 1742, ond ni nodir y diwrnod.

‡ Ysgrifenwyd hyn yn Ionawr, 1743, ond heb nodi'r diwrnod, mwy nag yn y llall.

§ Ysgrifenwyd hyn gan Harris ym Mawrth 1743, at Gymdeithas y Tabernacl, yn Llundain.

|| The Welsh Calvinistic Methodist Record for 1852, p. 34; Morgan's Ministerial Records, part i.

Digitized by Google

darllenwyr weled y pyngciau a drinid ganddo ynddi, y rhai a ddodwn ger bron yma yn ei ddull a'i eiriad ef ei hun:—

"I. Sylwn ar y gynneddf sydd raid fod ymhawb a ddymunent wellâd a chynnydd trwy air Duw, sef bod *fel rhai bychain newydd eni.*

"II. Nodwn y weithred briodol i blant bychain, sef *chwennych.*

"III. Ystyriwn y peth sydd i'w ddymuno, sef *llaeth y gair.*

"IV. Marciwn pa fath laeth sydd raid ei chwennych, sef *llaeth didwyll.*

"V. Marciwn i ba ddiben a defnydd y dylem ni chwennych didwyll laeth y gair, sef *fel y gallom gynhyddu.*"*

Er bod yn hawdd canfod, yn y cyfansoddiad yma, bod yr awdur yn ddeffröus a thanbaid, etto y mae'r bregeth yn efengylaidd a chysurlawn yn ei chymmwysiadau, yr hyn sydd brawf bod yspryd tanbaid a bygythiol y pregethwr mawr wedi tyneru ac efengyleiddio llawer, yn oed mor forau a hyn, pan oedd efe yn 26 oed.

Dywedir i Daniel Rowlands sefydlu cymdeithasau crefyddol, a elwid "seiadau preifat," a "seiadau profiad," mor forau ag 1737, ymhen tu a blwyddyn ar ol i Howel Harris sefydlu rhai o'r fath. Gwelsom eisoes mai yn 1737 y daeth Howel Harris ac yntau yn gydnabyddus â'u gilydd; ond nid yw hyspys pa un ai ar ol yr adnabyddiaeth hono, ai cyn hyny, y dechreuodd Rowlands sefydlu y cyfryw gymdeithasau. Dywedir bod gan y ddau gryn 30 o'r cymdeithasau hyn cyn i Whitfield a Wesley ymweled â Chymru, a chyn bod dim o'r fath yn Lloegr; a dywedir hefyd mai "gan y Methodistiaid y dechreuwyd cynnal y cyfarfodydd hyn yng Nghymru."† Ond y mae hyn yn gamsyniad, canys y mae'n amlwg wrth hanes Ymneillduaeth yng Nghymru, o dröedigaeth William Wroth, o gylch 1600, hyd Phylip Puw, yn amser Harris a Rowlands, bod yr hen Ymneillduwyr, yn Annibynwyr a Bedyddwyr Cymreig, yn arfer cynnal y cyfryw gyfarfodydd. Gwelsom hefyd bod Phylip Henry yn cynnal y cyfryw gyfarfodydd ar gyffiniau sir Fflint 80 mlynedd, o leiaf, cyn i Howel Harris a Daniel Rowlands sefydlu rhai o'r fath.‡

Dywedir i Rowlands sefydlu y gymdeithas neillduol gyntaf a gadwyd ganddo ef fel y canlyn:— Gofynodd i un o'r aelodau perthynol i Lancwnlle alw gyd â'r rhai oedd mewn cymmundeb yno, a'u gwahodd i'w gyfarfod ef ar noswaith bennodol, mewn tŷ a elwid y Gelli Dywyll, ger llaw Bwlchdiwargan, congl led unig o'r plwyf, yngweulod cwm cul, dolenog, sy'n arwain allan o ddyffryn Aeron, mewn cyfeiriad gogleddol, rhwng Llancwnlle a Llangeitho. Daeth y rhai a wahoddasid ynghyd erbyn yr amser; ond yr oeddynt yn methu deall beth oedd amcan Rowlands yn eu galw ynghyd i'r fath le. Ofnent braidd ei fod yn myned i geryddu rhai o honynt; ond gwasgarwyd eu hofnau yn fuan wedi cyfarfod âg ef, canys gwelsant mai ei amcan oedd eu holi hwynt am natur a diben swper yr Arglwydd, a rhoddi iddynt hyfforddiadau priodol ar y matter hwnw. Treuliasant y rhan fwyaf o'r nos gyd â'r gwaith hyfryd hwn, yn cael eu hadeiladu a'u cadarnhau yn y gwirionedd. Cedwid y cyfarfodydd hyn dros gryn amser yn nhŷ teiliwr oedd yn byw yn y cwm crybwylledig, o herwydd ei neillduedd, ac er mwyn tawelwch. Yn y lle hwnw y cynhelid y cyfarfodydd cyfrinachol hyn dros amryw flynydoedd, hyd oni symmudwyd hwynt i un o ysguboriau Daniel Rowlands, pan, oñd onid, y tröed ef allan o'r Eglwys Wladol. Cedwid y cyfarfodydd hyn, ar y dechrau, yn achlysurol, yn ol fel y byddai cyfleusdra yn caniatâu; weithiau ar y Sabboth, a phryd arall ar ddydd gwaith, yn y dydd neu yn yr hwyr; ac weithau ar ol pregeth, pan fyddai pregethwr ar ei daith; ond fel yr oedd yr achosion bychain yn lliosogi ac yn cryfhau, deuthant i gael eu cynnal yn wythnosol, fel y'u cynhelir yn bresennol, a gofelid am alw pob brawdoliaeth o'r fath yn "gymdeithas grefyddol," ac nid yn "eglwys," rhag tramgwyddo yr uchel Eglwyswyr.

Ymhen tu a phum mlynedd ar ol i Harris a Rowlands sefydlu cymdeithasau neillduol, neu "Society Profiad," fel y galwai Williams, o Bant-y-Celyn, y cyfryw gyfarfodydd, cyhoeddodd ef, ac eraill mewn cyssylltiad âg ef, lyfr yn dwyn yr enw canlynol:—

"Sail, Dibenion, a Rheolau y Cymdeithasau, neu y Cyfarfod Neillduol, a ddechreuasant ymgynnull yn ddiweddar yng Nghymru. At y rhai y chwanegwyd rhai Hymnau i'w canu yn y Cyfarfodydd. Gan wŷr o Eglwys Loegr.

"Diar. xv. 22. 'Ofer fydd bwriadu lle ni byddo cyngor.'

" xxvi. 6. 'Trwy lawer o gynghorwyr y bydd diogelwch.'

" xxvii. 17. 'Haiarn a hoga haiarn.'

"Bristol: Printed by Felix Farley, in Castle Green. M.DCC.XLII."§

* Y Deuddeg Pregeth, &c., o gasgl. M. D., t. 219.

† Cofiant D. R., gan M. D., t. 23.

‡ Gwel pen. v. o'r llyfr hwn, y pummed

§ Deuddeg Pregeth D. R., a'i Gofiant gan M. D., t. 312–32.

Ymddengys na welodd Gwilym Lleyn y llyfr hwn, canys yr enw a ddyry efe iddo yw, "Rheolau Cymdeithas Grefyddol," a dim ychwaneg. Yna efe a ddywed fel hyn:—"Yr oedd yn y cyfnod hwn amryw offeiriaid duwiol ac efengylaidd yn sir Fynwy yn cefnogi'r diwygiad Methodistaidd. Yr oeddynt yn cynnal cymdeithasau crefyddol, ac ymddengys mai i reoleiddio y cyfryw gymdeithasau y ffurf-

Digitized by Google

Gwelir nad oes enw neb yn enwad-ddalen y llyfr hwn; ond y mae enw Howel Harris wrth yr *hymn* gyntaf sydd ar ei ddiwedd, enw Morgan Jones* wrth yr ail, enw Daniel Rowlands wrth y drydedd, ac wrth y bedwaredd a'r olaf y mae enw Herbert Jenkins.†

Testyn y ddwy hymn fleunaf, yr eiddo Howel Harris a Morgan Jones, ydyw "Am Frawdgarwch ac Undeb Cristionogol," ac wele'r pennill cyntaf o'r naill a'r llall:—

"Duw cariad wyt, ac Awdur hedd,
Tangnefedd wyt yn garu:
Ti wyt mewn undeb brawdol pur
Yn eglur ymhyfrydu."—H. H.

"O Ddelw'r cariad pur a'r pwyll,
Gwna in' dy garu yn ddi dwyll;
Ac felly, o gariad arnat, Dduw,
Y carom bawb fo'n dwyfol fyw."—M. J.

"Hymn y Pererinion" yw'r enw a ddyry Daniel Rowlands i'r drydedd, yr hon sy'n dechrau fel hyn:—

"Wele, at Dduw trafaeliwn ni,
Ei Yspryd cu a'n galwodd:
Dilyn yr ŷm ol traed ei blant,
Mae arnom chwant ymddattodd."—D. R.

A thestyn y bedwaredd, eiddo Herbert Jenkins, yw "Cynnydd Gras," a dyma'r pennill cyntaf:—

"Mae holl air Duw, drych eglur yw,
Yn son, clyw, am gynhyddu
Mewn mwy o ffydd, a gafael brudd,
Yn y cariad sydd yn Iesu."—H. J.

Gellir casglu oddi wrth yr hymnau hyn nad ryw helaeth iawn oedd dawn brydyddol yr enwogion uchod, ac mai perffaith wir oedd yr hyn a ddywedodd Howel Harris am Williams, Pant-y-Celyn, mewn cymmanfa a gynhaliwyd yn yr un flwyddyn (1743), i'r hon y dygodd amryw esamplau o'u barddoniaeth, "Williams bïa'r canu."

Ymddengys bod gan y pedwar gŵr enwog a nodwyd, sef Howel Harris, Morgan Jones, Daniel Rowlands, a Herbert Jenkins, ryw gyfran ynghyfansoddiad y llyfr dan sylw, a elwir "Sail, Dibenion, a Rheolau y Cymdeithasau neu'r Cyfarfodydd Neillduol," yr hwn a gynnwys "Ragymadrodd" lled helaeth; "Sail y Cyfarfodydd; eu dibenion; Rheolau y cyttunwyd arnynt; a Holiadau i brofi ein hunain wrthynt." Y "Rheolau" a'r "Holiadau" hyn yw y rhan heleuthaf o lawer o'r llyfr, a chredwn mai y rhai hyn yw sail "Rheolau Disgybliaethol y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru," y "cyttunwyd arnynt yng nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a'r Bala, yn y flwyddyn 1823. Dodwn yma un esampl fer o'r hen lyfr dan sylw:—

"SAIL Y CYFARFODYDD.

"I. Gorchymyn yr Yspryd Glân trwy St. Paul yw, nad esgeulusom ein cydgynhulliad ein hunain, megis y mae arfer rhai, &c.

"II. Os yw'n ddyledswydd arnom gynghori ein gilydd tra y gelwir hi heddyw (neu bob dydd), o herwydd mai dyna'r modd ini ymgadw rhag cael ein caledu trwy dwyll pechod, Heb. iii. 13; yna, ni a ddylem ddyfod ynghyd i gynghori ein gilydd.

"III. Arfer y duwiolion oedd ymgynnull fel hyn dan yr Hen Destament (gwel Mal. iii. 16), a than y Newydd hefyd. Wedi ymgynnull fel hyn yr oedd [y disgyblion],

iwyd y rheolau uchod." Yna dyry yr "Hymnau Duwiol, gan Howel Harris, Morgan Jones, Daniel Rowlands, a Herbert Jenkins, ac ereill," megis llyfr ar ei ben ei hun.—Llyfr. y Cymry, t. 389.

† Ychydig iawn o hanes y gŵr hwn sydd ar gael. Ymddengys i ni mai yr un gŵr ydoedd a Morgan John Lewis, canys dywedir fel hyn:—"Mynwy, a rhan o Forganwg.—*Cymmedrolwr*, John Powel. *Arolygwyr*, Morgan John, Thomas Williams, Morgan John Lewis, Thomas Price; ac at y rhai hyn ychwanegwyd John Belcher."—Meth. Cymru, cyf. i., t. 164. Ac etto, yn t. 166, dywedir:—"Wele engraifft arall o gyfrif Morgan Jones, arolygwr dros ran o Fynwy a Morganwg." Gosodwyd ef yn y swydd o arolygwr yn 1743, yr hyn a ddengys fod gan ei frodyr feddwl pur uchel am dano. Ymddengys mai brodor o sir Fynwy ydoedd, a bod ei gartref o fewn tu ag wyth milltir i'r New Inn, ymhlwyf Pant-teg. Dywedir iddo gydlafurio â'r Methodistiaid er ys 15 mlynedd cyn ymneillduad Howel Harris yn 1751; ac felly yr oedd yn dechrau llafurio o gylch yr un amser ag y dechreuai Howel Harris, sef yn 1736.—Meth. Cymru, cyf. iii., t. 373.

Morgan Jones, neu Morgan John Lewis, oedd y cyntaf a neillduwyd i weinyddu yr ordinhadau ymhlith y Methodistiaid heb gael addysg athrofaol ac ordeiniad esgobyddol. Neillduwyd ef, fel y dangoswyd eisoes (pen. ii. o'r llyfr hwn, y pummed), yn 1756, ar annogaeth Daniel Rowlands, gan aelodau eglwys y New Inn, trwy ympryd a gweddi, a thrwy i aelodau yr eglwys godi eu deheulaw; a gwasanaethodd yr eglwys honno, ac eglwysi eraill ym Mynwy a Morganwg, a manau eraill o Gymru, am tu a 15 mlynedd ar ol ei neillduad, sef hyd o gylch y flwyddyn 1771. Wedi iddo bregethu un borau Sabboth, tu a'r pryd hyny, yn y New Inn, aeth i bregethu yn yr hwyr i dŷ ffarm, rhwng Pont-y-pwl a Blaenafon, ac yn y tŷ hwnw y llettyodd y noson honno. Borau drannoeth, cyn i Morgan John Lewis ddeffro, daeth perchennog y ffarm, gyd â math ar filwr yn dwyn cleddyf yn ei law, i'r tŷ; ac wedi i'r gŵr ddywedyd wrthynt fod y pregethwr heb godi, aethant i'w ystafell wely, a llefodd y tirfeddianydd arno, gan ddywedyd, "Heretic, deffro!" A'r peth cyntaf a welodd y pregethwr truan, ar ol agor ei lygaid, oedd y milwr yn dal cleddyf noeth uwch ei ben, fel un ar fedr ei ladd yn y fan! Dychrynodd y pregethwr diniwaid gymmaint fel y dyrysodd ei synhwyrau ar y pryd. Ymadferodd ychydig wedi hyny; ond ni bu byth yn alluog i bregethu wedyn, a bu farw ymhen tu a blwyddyn ar ol y bygythiad barbaraidd.—Meth. Cymru, cyf. iii., t. 376.

Dywedir bod y gwr enwog hwn yn Gristion gwir ostyngedig a difrifol. Ystyrid bod ei ddoniau i bregethu yn fwy na'r eiddo'r cyffredin o'i frodyr; mwy ei wybodaeth dduwinyddol, a mwy ei hyawdledd i gyfranu gwybodaeth i eraill; ac yr oedd yn un o'r pregethwyr enwocaf yn ei ddydd. Bu'n offeryn i ddwyn llawer o eneidiau at Iesu Grist ynghymmydogaeth New Inn, a theimlai yr holl wlad, mewn mesur mwy neu lai, oddi wrth nerth ei bregethau. Ymgasglai pobl o gryn bymtheng milltir o amgylch y lle i wrando arno yn pregethu.—Meth. Cymru, cyf. iii., t. 875.

‡ Os ychydig a wyddys am Morgan Jones, neu Morgan John Lewis, llai fyth am Herbert Jenkins, heb law bod yn amlwg ei fod yntau yn ei flodau pan gyhoeddwyd y "Sail," a'r hymnau sydd ar ddiwedd y llyfr, a'i fod yng nghymdeithasfa gyntaf y Methodistiaid, yr hon a gynhaliwyd yn Watford, sir Forganwg, ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr, 1742, pan y pennodwyd ef "i fod yn bregethwr cyhoeddus." Heb law hyny, dewiswyd ef yn y gymdeithasfa a gynhaliwyd yn Watford, ar y 6ed a'r 7fed o Ebrill, 1743, i gynnorthwyo Howel Harris yn yr arolygiaeth dros holl Gymru, yr hyn a ddengys ei fod yn ŵr enwog, ac yn bur gymmeradwy gan ei frodyr. Ymddengys na bu yn y swydd yma ond dros ychydig amser, canys galwyd ef rywbryd cyn y gymmanfa a gynhaliwyd ym Mhont-y-rhyd, ar y 3ydd o Hydref, 1744, "gan faint yr angen i bregethu a llafurio yn Lloegr."—Method. Cymru, cyf. i., t. 162–5.

Digitized by Google

[illegible]

[illegible] ... ar y 28ain o Fawrth,¶ 1744. [illegible] yr oedd Harris, Edwards, Williams (Pant-y-Celyn), ac eraill, cyttunwyd ar y penderfyniad canlynol:—

"Bod i ni edrych allan am bersonau cymmwys i [illegible] pawb o fewn ac o faes i'n cymdeithasau, mewn trefn i sefydlu'r praidd mewn gwybodaeth ac egwyddorion iachus, yng Nghatecism Mr. G. Jones (Llanddowror). Ac er mwyn rheoleiddio yr egwyddori yn well, well galw

[illegible] ... sul [illegible] ... y [illegible] ... yng [illegible] ... yn y [illegible]

[illegible] ... Metho- [illegible] ... Testament Newydd, [illegible] ... eg- [illegible]

[illegible] ... Howel Davies, [illegible] ... o gylch y [illegible] ... eraill [illegible] ... Howel Harris ar [illegible] ... y cyfeiriwyd [illegible] ... dim o'n [illegible] ... gofidus [illegible] ... y Dr. Lewis [illegible] ... ef:—

"[illegible] ... neillduol [illegible] ... i beri aflwydd- [illegible] ... yn nhôn [illegible] ... i ans yn fwy ar [illegible] ... y mae lle i gasglu [illegible] ... am byngc- [illegible] ... yr eglwysi yn gyff- [illegible] ... wrth Mr. Charles [illegible] ... ef ei hun ac eraill wedi bod yn [illegible] mewn un man am bum mlynedd, heb wybod dim yn mron, mewn ystyr [illegible], am berson Crist, a'u bod mor dywyll [illegible], pan glywsant bregethwr unwaith yn cyffwrdd â'r matter hwn, nas gwyddent yn iawn at ba beth yr oedd yn cyfeirio. Y mae hyn yn profi nad

* Deuddeg Preg. a Chofiant D. R., gan M. D., Attodiad, t. 317–18.
† Llyfr. y Cymry, t. 392; Cof. D. R., gan M. D., t. 89.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 394. § Yr un, t. 398.
‖ Deuddeg Preg. D. R., a'i Gofiant, gan M. D., t. 340–375.
¶ Meth. Cymru, cyf. i., t. 163.—"Ebrill 17, 1744," medd eraill, heb nodi'r fan y'i cynhaliwyd. Nid yw debyg y cynhaliwyd cymdeithasfa yn y ddau fis nesaf i'w gilydd yn yr un parth o'r Dywysogaeth.

* Cofnodion Trefecca: Life and Times of H. Harris p. 104.
† Cyffes Ffydd, argr. 1829, t. 64, Rheol 2.
‡ Act. xiv. 23: Phil. i. 1; Tit. i. 5.
§ Gwel pen. ii. o'r llyfr hwn, y pummed.
‖ Ymddengys bod y Dr. Edwards yn cymmeryd i mewn yma yr holl amser, o ymraniad y Diwygwyr â'u gilydd hyd 1751, pan y llwyr ymneillduodd Harris oddi wrthynt; ond y mae'n amlwg i'r anghydwelediad ddechrau mor forau, o leiaf, ag 1746.—Meth. Cymru, cyf. i., t. 387, &c.

Digitized by Google

oedd y pwngc mawr hwn, ar y cyntaf, yn cael llawer o ystyriaeth oddi wrth y pregethwyr eu hunain, onid e, nis gallasent fod mor ddistaw am dano; ac y mae hefyd yn rhoddi rhyw gymmaint o eglurhâd ar y gwrthwynebiad a gododd yn erbyn golygiadau Howel Harris. Ac y mae'n rhaid addef ei fod yntau yn arfer rhai ymadroddion nas gallasai ei frodyr anwylaf a mwyaf deallus mo'u cymmeradwyo yn hollol; a'r diwedd fu i ymraniad gymmeryd lle rhwng Harris a Rowlands mewn cymdeithasfa a gynhelid yn Llanidloes yn y flwyddyn 1751. Y mae dynion wedi dyfod yn ddigon doeth erbyn hyn i fedru penderfynu mai gweuledd a gwendid i gyd oedd yr achos o bob ymrysonau a fu erioed ynghylch athrawieuthau penaf y Bibl, ac nad oes dim yn werth gwneud ymraniad o'i blegid ond rhyw beth allanol mewn crefydd. Dichon y byddent yn fwy cymhedrol pe cofient mai hen ddadl y Pabyddion ydyw yr ymrysonau sydd rhwng Protestaniaid a'u gilydd. Gwerthfawr ydyw heddwch, ond iddo beidio bod yn heddwch y bedd. Nid oes dim y dylid rhoddi mwy o bris arno na chariad; ond byddai yn ddymunol i'r cariad hwnw fod yn ddigon ehang i gymmeryd i mewn yr hen Ddiwygwyr a fu'n ymladd dros yr hyn a farnent hwy yn wirionedd; er fe allai fod yn anhawdd gwybod yn sicr, weithiau, pa ochr oedd yn fwyaf cywir. Gyd â golwg ar y ddadl hon rhwng Harris a Rowlands, byddai yn annïoddefol i ni geisio dyrchafu y naill ar draul darostwng y llall. Gwirionedd mawr oedd yr hyn y dadleuai Harris drosto; ac er ei fod yn ymddangos yn newydd i lawer o'r Cymry yn yr oes honno, y mae'n sicr ei fod yn yr Eglwys Gristionogol o'r dechreuad. Y mae'n amlwg mai ei feddwl oedd, bod tragywyddol Fab Duw wedi bod yn ufudd hyd angau, ac nid ei natur ddynol yn unig. Yr oedd y cwbl a ddywedid ganddo yn wir am berson y Mab; ond pan ddywedai fod Duw wedi marw, yr oedd yn rhoddi achlysur i gamddealltwriaeth. Ymddangosai y dywediad i Rowlands yn anysgrythyrol; ond y mae sail i farnu ei fod yntau, ar rai amserau, yn arfer dull o ymadroddi oedd yn cyfyngu y darostyngiad yn ormodol i natur ddynol y Cyfryngwr. Dynion cywir oeddynt er hyny, ac yr oedd eu dibenion yn gywir, er nad yn ddigymmysg, pan yn gwrthwynebu eu gilydd. Pe buasai cylch eu darlleniad yn heleuthach, buasent yn dangos mwy o oddefgarwch. Ac nid ydym, ychwaith, yn barod i ganiatâu mai drwg yn unig a darddodd o'r ymraniad hwn. Y mae pob bywyd deuarol mewn angen am nos yn gystal a dydd, am y geuaf yn gystal a'r haf; a phwy a ŵyr nad oedd y tymmor tywyll, geuafaidd, a ddilynodd yr ymraniad, yn fuddiol i gredinwyr Cymru, i droi eu hystyrieuthau yn fwy at athrawieuthau, ac i'w gwreiddio yn ddyfnach mewn egwyddorion?

"Ond yn lle siarad ynghylch y matter, gwell fyddai i ni roddi golygiadau Harris a Rowlands yn eu geiriau hwy eu hunain. Yr hyn a ganlyn sydd gyfieithiad o eiriau Harris:—

'Tu a diwedd y flwyddyn 1749, euthum i Lundain; ac yn Ionawr, 1750, ymadewais â'm cyfeillion a'm brodyr gan ddeisyf arnynt edrych at yr Arglwydd yn unig, a phregethu ei Dduwdod a'i farwolaeth gyd â gallu i galonau y gwrandawyr, fel yr unig sylfaen i adeiladu arni. Wrth ddyfod i lawr i Gymru, gwelais yn fwy nag erioed yr athrawiaeth am anfeidroldeb ein Ceidwad, yn ei enedigaeth, ei fywyd, a'i ddïoddefiadau; anfeidroldeb ei gyfraith a'i efengyl mewn rhyw ystyr; ac anfeidroldeb ei ras a'i drugaredd, heb eisiau dim, yn wir, ond Efe. Yr oeddwn yn ei garu Ef yn ei holl weithredoedd; ond yn fwy neillduol, yn holl gamrau ei ddarostyngiad rhyfeddol. Cefais olwg ar ymadawiad dedwydd, ac y cawn fod i dragywyddoldeb gyd âg ef. Gwelais, er fy mod yn hireuthu am yr amser dedwydd, nad oedd mil o flynyddoedd ond dim i ddisgwyl y fath ddedwyddwch. Fel y darfu i'r Arglwydd ei hun fy anfon o amgylch y wlad ar fy nychweliad cyntaf, a rhoddi ynof ddymuniad i'w foddio Ef yn unig, a'm cynnorthwyo i lefaru gwirioneddau eglur; felly, y pryd hwn, gosodwyd angenrhaid arnaf i bregethu'r gwirionedd mawr hwnw a ddatguddiodd Efe i'm henaid, sef y rhyfeddol ymostyngiad, a'r dirgelwch o Dduw yn ein natur yn cymmodi'r byd âg Ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau. Duw oedd Efe ym mru Mair, pan gymmerodd ein natur, gan osod ynddo ei hun sylfaen ein iachawdwriaeth a'n gwaredigaeth. Duw Goruchaf oedd efe yn ei enedigaeth dlawd, ac yn y cadachau. Efe oedd yr Ydwyf mawr, yr Alpha a'r Omega, yn ei holl ddïoddefiadau; ac nid oes Duw arall ond Efe: y rhai sydd yn addoli Duw heb law Efe, sydd yn addoli eulun: "Ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol." A phan ddaeth yr amser i wneud iawn dros ein pechodau ni, pan ddyrchafwyd yr Aberth mawr ar y groes, yr oedd holl natur, deuar, ac uffern, mewn cynnwrf a chyffro: yr haul a dywyllwyd, y ddeuar a grynodd, y meirw a ddeffroisant ac a gyfodwyd, fel y gallai pawb ofyn, "Pa beth yw achos ac ystyr hyn i gyd?" "Duw'r Creawdwr mawr fu farw,"—Watts. Euthum ym mlaen fel hyn trwy Gymru am rai blynyddau, gan ddwyn fy nhystiolaeth i'r gwirioneddau hyn ger bron proffeswyr cnawdol, Ariaid a Sosiniaid, y rhai a siaradent yn chwerw i'm herbyn. Er i hyn achlysuro llawer o rwgnach, anghydfod, ac ymraniad; etto y mae genyf obaith bywiol y bydd i'r Arglwydd fendithio ei wirioneddau yn ei amser da ei hun.'

"Ar ryw olwg, y mae'n ofidus meddwl bod neb o frodyr Howel Harris wedi gwrthwynebu yr athrawiaeth hon. Ac etto, nis gellir gwadu bod yma ymadroddion aneglur, y rhai yn hawdd a allasent roddi lle i dybied ei fod yn gyfeiliornus yn ei farn, nid yn unig am berson y Cyfryngwr, ond am Drindod o bersonau yn y Duwdod. Felly yr oedd yn ymddangos i Rowlands, a chyfiawnder âg

Digitized by Google

yntau yw rhoddi ei olygiadau ef ar y matter yn ei eiriau ef ei hun, fel y ceir hwynt mewn llyfryn bychan, dan yr enw 'Ymddiddan rhwng Methodist Uniawngred ac un Camsyniol,' yr hwn ni ddigwyddodd i ni weled un cyfeiriad ato gan neb, er iddo gael ei argraphu ddwy waith o leiaf: yr ail waith yn 1750.* Nid oes enw un awdur ar y wyneb-ddalen; ond yn niwedd yr ymddiddan, fel yn niwedd llythyr, y mae'r enw 'Daniel Rowland' yn argraphedig. Dechrau *Uniawngred* trwy amddiffyn ei hun yn erbyn y cyhuddiad o fod yn Ariad. Ar ol ymresymu ychydig ar hyn, eir ym mlaen i ystyried ysgrythyroldeb y gair 'Personau' wrth son am Dduw. Wedi hyny, ymddiddenir am y prif byngciau mewn dull fel y canlyn:—

'*Cam.* Chwi a ellwch alw enwau. Dyma'r peth yr wyf fi yn ei gredu: bod y Tad, yn gystal a'r Mab, wedi cael ei wneuthur yn gnawd, dïoddef, a marw. Ond, attolwg, a ydych chwi yn credu i Dduw farw?

'*Uni.* Yspryd yw Duw, heb gorph, rhanau, na dïoddefiadau; ac felly ni all ddïoddef, na marw. Fe'i gelwir ef yr *Anfarwol* Dduw; ac am hyny, ni ddichon farw.

'*Cam.* Yr wyf fi yn dywedyd i Dduw dïoddef a marw.

'*Uni.* Yr wyf fi'n credu i'r ail Berson yn y Drindod fendigedig, Duw y Mab, gymmeryd arno natur ddynol; yr hwn a ddaeth i fod yn un Person yn y Duw-ddŷn; ond yr oedd y ddwy natur mor bell yn wahanol oddi wrth y llall, fel mai'r natur ddynol a ddïoddefodd, ac a fu farw. Ond fel yr oedd hi wedi ei huno â'r Duwdod, yr hyn a wnaeth ac a ddïoddefodd oedd o'r cyfryw werth a heuddiant anfeidrol, ac y boddlonodd gyfiawnder Duw am bechod dŷn. Yr ysgrythyrau canlynol sy'n dangos yn olau mai yn ei natur ddynol yn unig y bu Crist farw, 1 Petr iii. 18. Wedi ei farwoleuthu, neu a fu farw, *yn y cnawd*, 2 Cor. xiii. 4. Ei groeshoelio Ef *o ran gwendid*, neu megis yr oedd Ef yn ddŷn, 1 Petr ii. 24. Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni *yn ei gorph* ar y pren.

'*Cam.* Yr wyf fi'n credu bod y fath undeb rhwng y ddwy natur, fel y darfu i Dduw, yn gystal a dŷn, farw.

'*Uni.* Felly chwi a chwanegwch Heresi yr *Eutychiaid* at y ddwy arall. Ond yr wyf fi yn credu y gwirionedd, yr hyn y mae *Athanasius* yn ei ddal, sef bod ein Harglwydd Iesu Grist yn berffaith Dduw, a pherffaith Ddŷn, ond un Person, a hyny nid wrth *gymmysgu'r Sylwedd*, ond undeb Person. Un, nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn Gnawd, megis yr wyf fi'n dyall eich bod chwi yn ei osod Ef allan, ond gan gymmeryd y Dyndod at Dduw.

'*Cam.* Onid yw'r Ysgrythyr yn dywedyd bod y Gair wedi ei wneuthur yn Gnawd?

'*Uni.* Y mae'r Esgob duwiol *Beveridge*, yr wyfi'n meddwl, yn gosod y gwirionedd hyn mewn goleuni eglur: "Pan gymmerodd ein Harglwydd," medd efe, "ein natur ni arno, fe ddaeth yn Ddŷn, yn gystal ag yn Dduw. Y Natur ddynol ynddo ef nid oedd yn cael ei *chymmysgu*, fel ped fuasai'r ddwy Natur yn awr wedi eu gwneuthur yn un. Yr oeddynt ill dwy yn aros yn wahanol oddi wrth eu gilydd ynddynt eu hunain, er eu bod wedi eu huno yn y cyfryw fodd ag yr oeddynt yn gwneuthur ond un Person." Yn fy marn i, i ddywedyd bod Duw yn marw, a Duw yn dïoddef, sydd Gabledd ofnadwy. Heresi y *Sabeliaid* sydd yn eich arwain i osod heibio arferyd yr Arglwydd Iesu fel Cyfryngwr a Dadleuwr gyd â'i Dad; a heresi yr *Eutychiaid* sydd yn eich arwain i heuru bod corph Crist ymhob man yn gystal a'i Dduwdod.

'*Cam.* Yr wyf fi yn dywedyd bod y fath Undeb rhwng y ddwy Natur, fel lle byddo un y bydd y llall hefyd.

'*Uni.* Y mae fy Mibl i yn dywedyd wrthyf fod Corph yr Aglwydd Iesu wedi esgyn i'r nefoedd, a'i fod ef i aros *yno* hyd amseroedd adferiad pob peth. Nid yw Credo'r Apostolion a'ch Credo chwi yn cyttuno. Rhyfedd, y fath gymmysgiad o Heresiau yr ydych wedi bentyru ynghyd. Heb law eich bod chwi yn Antinomiad, yr ydych yn *Sabeliad*, *Patripassiad*, *Eutychiad*, ac yn *Unbicuitariad*.

'*Cam.* Dyma fy Marn i: Beth bynag a wnaeth Crist yn un Natur, fe'i gwnaeth ef yn y ddwy: ni wnaeth ef ddim mewn un Natur yn wahanol oddi wrth y llall.

'*Uni.* Os felly y mae, fe fu Chwant Bwyd ar y Duwdod; fe gysgodd, ac a fu'n ddarostyngedig i'r cyfryw Wendidau, yr hyn yw Cabledd erchyll yn wir. Ac os yw'r peth yr ydych chwi yn ei heuru yn wir; sef, *Beth bynnag ag a wnaeth Crist yn un Natur, fe a'i gwnaeth yn y ddwy;* ni wyddai Crist, fel ag yr oedd ef yn Dduw, pa Bryd y Byddai Dydd y Farn; ac wrth hyny nid oedd efe ddim yn wir Dduw yn eich Barn chwi, gan nad oedd efe ddim yn holl-wybodol. Gwelwch yn awr, pwy yw'r Ariad.'

"Yr oedd tegwch yn galw am roddi y difyniad hwn, gan mai ychydig sy'n gwybod pa olwg a gymmerid gan Rowlands ar y pyngciau mewn dadl, na pha resymau oedd ganddo dros ei wrthwynebiad i Harris. Ond wrth droi oddi wrth yr hanes am yr ymraniad, cysurus ydyw darllen ym Mywyd ac Amserau Lady Huntingdon am gyfarfod a gynhaliwyd yn Trefecca, 'ym mis Awst, 1769, mewn cyssylltiad â'r athrofa oedd ganddi hi yn y lle hwnw; a chyfarfod cyffelyb wedi hyny yn 1770, pan oedd lliaws o'r gweinidogion enwocaf yng Nghymru a Lloegr yn cyd-bregethu, ac yn cyd-gyfranogi o swper yr Arglwydd, ac yn eu plith Howel Harris a Daniel Rowlands."†

Yn fuan ar ol i'r anghydwelediad ddechrau rhwng Rowlands a Harris, sef yn 1747, aeth Rowlands ar ail daith i'r Gogledd,‡ pan yr antur-

* Y mae'r trydydd argraphiad o'r llyfryn yma yn gyflawn gan Morris Davies, Bangor, yn argraphiad Dolgellau, 1876, a gyhoeddwyd o Ddeuddeg Pregeth D. Rowlands, ei Gofiant, a'i Weddillion amrywiol, "dros Bwyllgor Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd." Felly, y mae hwn yn *bedwerydd* argraphiad. Cynnwys yr argraphiad yma Ragymadrodd byr i'r trydydd argraphiad, gan J. E. a J. T., sef John Evans, o'r Bala, a John Thomas, o Lancwnlle, wedi hyny o Ddinbych, yn ol barn M. Davies. Dilynir y Rhagymadrodd gan Hymn fer ar y pwngc. Yna daw yr "Ymddiddan" i mewn, yn cynnwys 5½ tudalen. Tybia M. Davies i'r treuthodyn gael ei gyhoeddi y tro cyntaf o gylch y flwyddyn 1749; yr ail waith, megis y dywedir uchod, yn 1750; a'r drydedd waith yn 1791, dros y Gymmanfa, gan y ddau ŵr a nodwyd; a chan y Gymmanfa y cyhoeddwyd y pedwerydd argraphiad, yn 1876.—Gwel Deuddeg Pregeth, &c., t. 332–340.

† Traeth. Llenyddol y Dr. Edwards, t. 485–89.

‡ Yr oedd wedi bod yn Machynlleth mor forau ag 1740; ond attaliwyd ef i bregethu yno y pryd hwnw trwy ddylanwad person y plwyf nesaf, sef Llangower, ac nid oes hanes iddo bregethu ar y daith hono o gwbl. Ymddengys nad ymdeimlai yn rhydd, hyd yn hyn, i bregethu mewn un man ond yn y llanau neu'r mynwentydd plwyfol. Pa wedd bynag, ymddengys iddo droseddu y rheol hon unwaith yn fuan ar ol ei argyhoeddiad ei hun. Arferai ei hen gymdeithion mewn oferedd ymgasglu ynghyd, ar y Suliau, i ben un o'r bryniau ger llaw Llangeitho, i ymddifyru mewn amryw fath o chwareuon ofer. Wedi methu attal y cynnulliadau llygredig hyn trwy bregethu yn eu herbyn yn y llan, penderfynodd fyned at y chwareuwyr i'w llanerch chwarau, a phregethodd yno gyd â'r fath nerth ac arddeliad fel na bu yno chwarau ar y Suliau mwyach. Y mae'n dra sicr i'r adgof am y

Digitized by Google

iodd y waith hon cyn belled a sir Gaernarfon. Wedi croesi y Traeth Mawr, bygythiwyd ef yn erchyll ym Mhenmorfa; ond cafodd bregethu ar gareg farch wrth borth y fonwent, yn Llanmell-teyrn, yn Lleyn, wedi cau drws yr eglwys yn ei erbyn. Gan fod y gareg farch honno wrth borth y fonwent, dichon yr ystyrid hi yn gyssegredig. Ei destyn oedd Jer. xxx. 22, "Canys pwy yw hwn a lwyr roddodd ei galon i nesâu ataf fi? medd yr Arglwydd." Nid anghofiwyd y tro hwnw gan lawer hyd ddiwedd eu hoes. Ymweliodd amryw weithiau â'r Gogledd ar ol hyny. Dywedir y rhoddai dro trwy Gymru oll unwaith yn y flwyddyn dros yspaid lled faith o'i oes. Bu yn pregethu hefyd yn Llundain; a phregethai yng nghapelau yr Iarlles Huntingdon yng Nghaerodor, y Badd, a manau eraill, yn ddiweddarach ar ei oes.

Cyfarfu Rowlands, fel ei gyd-lafurwyr, er nad i'r un graddau a rhai o honynt, â gwrthwynebiadau lawer oddi wrth wŷr eglwysig a boneddigion gelynieuthus, y rhai a gynhyrfent y werin anwybodus i'w gablu a'i erlid mewn llawer dull a modd; ac nid anfynych y bu mewn perygl am ei fywyd. Dyrysid yr addoliad weithiau, a byddai raid iddo ef a'i wrandawyr ffoi rhag ffyrnigrwydd eu herlidwyr, dan gawodydd o laid a cherig, nes dîangc o'u cyrraedd i ryw gilfach ddirgel; ac yno mewn tawelwch mwynhaent y fath gysur a diddanwch crefyddol ag a dalai yn dda am yr holl ddirmyg a'r gorthrymderau. Ond ymhen amser, daeth y wlad i'w ddeall ef a'i gyd-bregethwyr yn well: lliniarodd y gorthrymderau, fel ymhell cyn diwedd ei oes y cai berffaith lonyddwch, ac ymgasglai tyrfaoedd mawrion a pharchus i'w wrando pa le bynag y pregethai. Yn Llanddewi-brefi y byddai'r cynnulliadau llîosocaf, tra yr arhosodd o fewn cyffiniau yr Eglwys Sefydledig, gan fod yr eglwys yno yn llawer ehangach na'r ddwy eraill. Dywedir ei bod mor ehang fel y cynhwysai o ddwy i dair mil o bobl: er hyny, mor llîosog fyddai y gwrandawyr fel y gorfodid y rhan fwyaf o honynt i sefyll ar eu traed, a chyn dyned ag a annent o gwr bwygilydd i'r adeilad. Byddai llawer o'r gwrandawyr yn dilyn Rowlands o'r naill eglwys i'r llall ar hyd y Sabboth, heb ddychwelyd adref hyd yn bur hwyr, na chael dim lluniaeth, ond tamaid a gludent gyd â hwy, ar hyd y dydd, heb law yr ymborth ysprydol a fwynhaent mor ddiandlawd.*

Yr oedd Rowlands yn tramwy cymmaint, gan bregethu y gair, fel na chafodd adeg i barotôi dim i'r wasg ar ol yr "Ymddiddan" a fu dan sylw eisoes, hyd 1759, pan y cyfieithodd efe lyfryn a elwir fel y canlyn:—

"Aceldama neu Faes y Gwaed. Sef Hanes alaethus o'r Anghyfanedd-dra gresynol sy'n amgylchu Trigfannau Rhyfel. Gwedi ei gymmeryd allan o Ddau Lythyr a Scrifennwyd yn gyntaf yn y Jaith Germanaidd (neu Dutch) gan y Parchedig Mr. Sorge yn Shilberg, yn Newmark ar y 13 a'r 14 o Hydref, yn y Flwyddyn 1758, at ddau o'i Gyfeillion. Wedi ei gyhoeddi yn Saesonaeg gan y Parchedig George Whitfield. A'i gyfieithu i'r Gymraeg gan y Parchedig Mr. Daniel Rowland. Ac ar werth gan y Parchedig Mr. Peter Williams."

Y mae sylwadau ysgrifenydd galluog yn *Y Traethodydd* ar y llyfryn yma mor briodol a tharawiadol ar hyn o bryd (ac ar bob pryd arall hefyd, yn wir), pan y mae ein llywodraeth ni yn rhyfela â'r Affghanistaniaid, ac yn son am ryfela âg eraill, fel y credwn y bydd yn dda gan lîaws o'n darllenwyr gael difyniadau o honynt, heb law eu bod yn dangos mor groes i ryfel oedd Daniel Rowlands, a'r enwogion eraill a nodir yn enw'r treuthodyn dan sylw. Dyma fel y dywed adolygydd medrus y llyfryn:—

"Nid yn fynych y gwelir y fath gyd-gyfarfyddiad a hwn: George Whitfield, Daniel Rowland, a Peter Williams. Ac yr oedd y testyn yn deilwng o'r dynion. Nid oes dim y dylai gweinidogion yr efengyl godi eu llais yn fwy unfrydol yn ei erbyn na rhyfel; ac, ysywaith, y mae'n rhy amlwg fod yr angenrhaid am hyny heb ddarfod etto. Gallasid meddwl, wrth ystyried y ddyled anorfod sydd bron llethu'r deyrnas hon, y buasai Brydain wedi cael digon ar y gwaith; ond yn lle hyny, y mae braidd bob blwyddyn yn ychwanegu ei pharatoadau rhyfelgar, a thrwy wneuthur felly y mae'n annog teyrnasoedd eraill i ymddwyn yn gyffelyb. Fel mewn teuluoedd yn yr un gymmydogaeth, os bydd plant yn y naill wedi cael rhyw ddilledyn newydd, y mae'n rhaid i'r lleill gael yr un peth; felly y mae afradlonedd y naill deyrnas yn cynhyrfu yr un duedd mewn teyrnasoedd eraill. Er bod ein llywodreuthwyr yn cadw dynion, er dirfawr gost, fel cenhadau drostynt, yn holl brif ddinasoedd y byd, dan yr esgus o amddiffyn heddwch; etto nid ydynt erioed wedi gwneud cais na chynnyg at ddyfod i gyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad heddychol â'u gilydd, er mwyn y byddinoedd a'r llongau rhyfel o bob ochr. Ond edrychant yn fanwl a fydd llong newydd yn cael ei hadeiladu yn rhywle, ac yna adeiledir dwy ar ei chyfer yn y deyrnas hon. Bydd hyny yn achlysur i'r deyrnas gyntaf wneud parotoad ychwanegol, yr hyn a effeithia yn ol i beri mwy o draul drachefn ym Mrydain. Ac os dywed Cobden, Bright [neu Henry Richard], ryw air yn y Senedd o blaid gostwng y trethi, gwneir pob math ar nadau anynad i geisio eu rhwystro. Ac fel hyn y bydd tra y gadewir yr etholiadau dan awdurdod ein pendefigion, a thra y bydd y fyddin yn lloches i'w plant.† 'Hael yw Hywel ar bwrs y wlad.'

llwyddiant yma ei galonogi, mewn amser dyfodol, i fyned, fel yr apostolion ac aelodau eglwys Jerusalem, i'r prif-ffyrdd a'r ceuau, i gymmell pechaduriaid i ddyfod at y Gwaredwr.—Deuddeg Pregeth, &c., t. 19, 20.

* Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 88.

† Gwellhawyd y gwall gwarthus yma i raddau pan wnaed y gyfraith i bleidleisio trwy'r tugel (*ballot*), ac y diddymwyd yr hawl i brynu swyddi yn y fyddin, fel y mae gwastraff a difrod rhyfel yn ymddibynu mwy yn awr ar y pleidleiswyr (*voters*) nag ydoedd yn 1848, pan ysgrifenwyd yr erthycl ragorol yma, o'r hon y difynwn.



Digitized by Google

nas gallaswn weddïo gair dros rai munudau; ïe, hen bobl gleifion a ddymunasant gael eu dwyn i'r eglwys. Mor hawddgar oedd Tŷ Dduw y pryd hyn! Parhasom mewn gweddi dros Awr a hanner, hyd ddeuddeg o'r Gloch; ac am un peidiodd y twrf. Minnau aethum ar draed i Soldin yn llawn gofid i gael gwybod pwy ennillodd y Dydd. Tu a'r hwyr dyma saith gant o ffoaduriaid Rwssia ar un waith yn dyfod i Soldin: golwg resynol yn wir! Rhai yn codi dwylaw, yn tyngu a rhegi, eraill yn ymswyno ac yn canmol Brenin Prwssia; heb hetiau, heb ddillad, a'u gwallt o boptu eu llygaid; rhai ar draed, eraill dau ar un ceffyl; eu penau a'u breichiau wedi eu rhwymo â napcynau; rhai yn glynu wrth y gwartholion, eraill ynghynffonau'r meirch: felly daethant i gyd i'r Ddinas, ac yn eu plith Charles Tywysog Saxoni, (y Ffaglwr hwnw ag oedd â llaw fawr ganddo yn llosgiad Custrin a Zittai); Tywysog Dontleben o Saxoni, a Thywysog St. Andrew o Awstria; heb ddim o'u holl ddodrefn perthynol i'w gwersyll.

"Am dri o'r gloch borau y chweched dydd ar hugain, aethant allan o'r ddinas ar ffrwst gan gyfeirio tu a Lansberg. Anrheithiasant yr holl bentrefi yr aethant trwyddynt; a'r gweinidoglon Mr. Weinholt, o Burgge, a Mr. Smidt, o Nonen orough, a driniwyd yn flin. Yr oedd trwst a swn y rhyfel mor groch y diwrnod hwnw ag o'r blaen; ond ymhen pedair awr ar hugain enillwyd y frwydr, a chyhoeddwyd buddugoliaeth ym mysg lluoedd Prwssia. Fermer, blaenor y Rwssiaid a giliodd i Lansberg, wedi iddo anrheithio yr holl wlad o amgylch, fel nad adwaener hi mwyach. Mewn ugain o bentrefi nid oes na dŷn nac anifail, na dim ond anghyfanedd-dra gresyn: teiau wedi eu bwrw i lawr, eglwysi wedi eu distrywio, ysguboriau wedi eu tori i lawr, a'r tir yn anial: Duw yn unig a ŵyr a adeiledir ac a drefnir hwy byth; a'r trigolion mewn rhan a lusgwyd ymaith, ac mewn rhan a ddiheuyddwyd.—Y chweched dydd ar hugain, am un ar ddeg o'r gloch, mi anturiais i fyned fy hun i'r lle y bu'r ymladdfa; ac wedi i mi gerdded ynghylch deng milltir, march un o'r Cossacks a ddaeth i'm cyfarfod mewn brys mawr: myfi a'i deliais ac a'i marchogais, gan gyfeirio at swn y cannon a glywn o'm blaen; ond gallai un feddwl bod holl drueni bywyd dŷn wedi cyfarfod yma ynghyd; canys saith milltir tu yma i faes y gwaed gwelais y meirw a'r clwyfus yn gorwedd ar y ddaear wedi eu tori yn druenus; a pho pellaf yr awn, mwyaf i gyd a welwn o'r creaduriaid truain yn gorwedd yn garneddau! Nid anghofiaf byth yr olwg. Y Cossacks archolledig pan i'm gwelsant, a waeddasant, 'Oh! weinidog anwyl, Dwfr! Dwfr! Dwfr!' Duw cyfiawn! pa fath olwg ydoedd! gwŷr a gwragedd, plant, Rwssiaid, Prwssiaid, meirch, ychain, menni, cistiau powdwr, a phob celfi perthynol i ryfel, i gyd yn gorwedd yn un garnedd i uwchder dŷn: saith o'r pentrefi mwyaf hardd a chyfoethog yn yr holl ardaloedd, i gyd ar dân, a'r trigolion naill ai wedi eu darnio neu wedi eu taflu i'r fflamau; a'r archolledig truain, ar hyd maes y gwaed, yn parhau i saethu at eu gilydd gyd â'r soriant mwyaf, ac yr oeddwn mewn perygl mawr am fy mywyd yn eu plith.

"Maes y gwaed ydoedd wastadedd hyfryd, ynghylch dwy filltir a hanner o hyd, ac i gyd oll wedi ei orchuddio â'r meirw a'r archolledig, fel nad oedd le i mi osod fy nhraed ar lawr heb sangu ar rai o honynt. Gwelais lawer o nentydd wedi eu llanw i fynu gan y Rwssiaid meirwon. Gallaf yn gywir ddywedyd eu crugio ar gefn eu gilydd i uchder dau ddŷn; ac yn ymddangos fel bryniau ar dir gwastad. Prin y dadebrodd fy ysprydoedd oddi wrth y braw a gefais gan eirad [irad] grochlef y rhai oedd yn trengu yn eu gwaed. Swyddwr ardderchog o Brwssia, yr hwn a gollodd ei ddwy glun, a lefodd arnaf, 'Syr, offeiriad ydych, ac yn pregethu trugaredd; attolwg, dangoswch drugaredd i mi; dygwch ymaith fy mywyd poenus ar unwaith.' Hyn a gyffyrddodd yn ddwys â'm calon, a gyrais ymaith mor gynted ag y medrwn; ond nid yn ddiberygl, canys yr holl ffordd cyfarfum â rhai o'r Cossacks archolledig: pa fodd bynag, ni wnaethant i mi niwaid.—Y Rwssiaid eu hunain a'm haddefant yn eirwir, os cyfrifaf eu colled yn ugain mil ar bymtheg o laddedigion, ac un fil ar bymtheg o archolledig.—Nid yw ein colled ni yn y cwbl dros naw mil. Tân y *cannon* a wnaeth y lladdfa fwyaf: yr oeddynt yn gollwng megis un daran, yn ddigyfrwng, dros bedair awr."*

Wrth ystyried y gyflafan ofnadwy a ddarlunir yn y difyniadau uchod, a thrwy yr holl lyfr, nid rhyfedd i'r efengylwr Rowlands, yn oed ynghanol ei lafur yn teithio i bregethu, fyned i'r drafferth i'w gyfieithu, er mwyn creu dygasedd ymeddyliau dynion at alanastra erchyll -rhyfel. Yn awr, os oedd difrod un frwydr y pryd hwnw, fel y dangosir yn y llyfr dan sylw, yn ddinystr i 45,000 o fywydau dynol, heb son am y miloedd diniwaid o bob rhyw ac oedran, a'r eiddo o bob math, a ddifethwyd, beth a raid fod y gyflafan erchyll a wneir yn awr mewn brwydrau, pan y mae arfau, o bob math, yn fil mwy dinystriol nag oeddynt yn amser Daniel Rowlands! Yn wir, fe ddylai pob Cristion cywir weddïo, gyd â Dafydd, "O Dduw! cerydda dyrfa y gwayw-ffyn, cynnulleidfa y gwrdd-deirw, gyd â lloi y bobl, fel y delont yn ostyngedig â darnau arian: gwasgar y bobl sydd dda ganddynt ryfel."

Gyd â golwg ar y *cyfieithiad*, rhaid cyfaddef nad ydyw yn odidog iawn, fel y cyfryw, gan ei fod yn rhy lythyrenol, ac yn dilyn y llafarwedd Seisnig yn llawer rhy fanwl, yn enwedig trwy ddechrau y brawddegau, yn gyffredin, â'r enwai (*nominative*), yn lle â'r ferf, megis y gwna'r Gymraeg fynychaf. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng cyfieithiadau Rowlands a'i bregethau, y rhai, ar y cyfan, sy'n llithrig, hyawdl, a Chymreigaidd. Y gwaith nesaf a gyhoeddwyd o'r eiddo Daniel Rowlands oedd y bregeth ganlynol: y gyntaf a gyhoeddwyd o'i bregethau:—

"Llais y Durtur. Sef Gwahoddiad Grasol Crist ar Bechaduriaid. Neu Bregeth a Bregethwyd yn Llanddewi Tach. 1. 1761. Ar Dat. iii. 20. Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo, &c. Gan y Parchedig Mr. Daniel Rowlands. Gweinidog yr Efengyl yn Llangeitho. . . . 1762."†

Blwyddyn bwysig iawn yn hanes bywyd Daniel Rowlands oedd 1763, yn ystod yr hon, fel y cyt-

* Traethodydd, llyfr iv., t. 385-9.

† Llyfr. y Cymry, t. 468.—Dywed Morris Davies mai "cyhoeddwr a golygydd yr argraphiadau cyntaf o bregethau Rowlands oedd un Thomas Davies, ger llaw Hwlffordd, yn sir Benfro. Am y gŵr hwn," eb efe, "nid oes, hyd y gwyddys, nemmawr ddim gwybodaeth ar gael; ond tybia rhai ei fod yn un o'r Cynghorwyr a lafurient gyd â'r Methodistiaid yn yr oes honno, a'i fod, fel cyhoeddwr llyfrau, yn ŵr ymdrechgar, bywiog, a gofalus. Ymddengys nad oedd yr awdur ei hun yn derbyn dim elw oddi wrth werthiad ei bregethau [na'i lyfrau eraill ychwaith, ond odid]: rhoddasai y copïau o honynt i'r cyhoeddwr; ac

Digitized by Google

anwiredd. Ymneillduodd y Methodistiaid am eu bod o gydwybod yn gorfod gwneud yr hyn yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn ei wahardd; hyny yw, ymdrechu, hyd y gallent, i achub eu cyd-ddynion. Felly yr oedd Ymneillduaeth yr hen Anghydffurfwyr a'r hen Fethodistiaid yn dwyn perthynas, yn fwyaf neillduol, â chydwybod. Ond gellid meddwl, weithiau, bod Ymneillduaeth yr oes hon yn dwyn perthynas, yn fwyaf neillduol, â'r llogell. Beth os yr Anghydffurfwyr, a'r hen Fethodistiaid, wedi'r cwbl, ydoedd ar y tir cadarnaf?

"Adroddir am Rowlands [fel y gwelir uchod], iddo ddywedyd, cyn ei droi allan, 'Fe ddaw y bobl gyd â fi.' Pa un a ddywedodd efe y geiriau hyn ai peidio, y mae'n hysbys mai fel hyn y bu. Codwyd capel helaeth iddo yn ddioed, mewn man cyfleus, ac yno y bu'n gweinidogeuthu wedi hyny am 27 o flynyddau. Gofalai yn arbenig am fod yno unwaith bob mis, ar Sul y cymmundeb, pryd y byddai dim llai, meddir, na phedair neu bum mil yn arfer ymgynnull. Dywed ei fywgraphiedydd mai tebycach i ffair fawr, o ran niferi, oedd yr ymgynnull; ond nad oedd yno ddim o ddadwrdd na therfysg ffair, gan fod nerth anorchfygol y weinidogaeth yn eu sobreiddio. Rhyfyg o'r mwyaf fyddai i ni geisio disgrifio Rowlands fel pregethwr. Yn ol tystiolaeth y rhai mwyaf cymmwys i farnu, yr oedd yn ddigyffelyb. Dywedai Mr. Charles, yn yr hen *Drysorfa*, bod ucheledd a phob rhagorieuthau yn ei ddoniau: dyfnder defnyddiau, grym a phereidd-dra llais, ac eglurder a bywiowgrwydd yn traddodi dyfnion bethau Duw, er syndod a'r effeithiolrwydd mwyaf ar ei wrandawyr. Dywedai y diweddar Mr. Griffith, o Nefern, yr hwn oedd wedi gwrando llawer ar y gweinidogion enwocaf yn Lloegr a Chymru, mai Rowlands oedd y pregethwr mwyaf a godidocaf a glywodd erioed. Y mae'n amlwg fod ynddo gymmwysderau naturiol mwy na chyffredin; ond am ansawdd y cymmwysderau hyny, nid oes genym ond hyspysrwydd amherffaith. Nid oedd yn canu nac yn bloeddio. Nid ydym yn dywedyd hyn i ddiystyru y naill na'r llall: ac yn sicr ni ddymunem golli yr hen dôn serchiadol, na'r floedd soniarus, o bulpudau Cymru. Ond y mae hyn yn dangos nad ydynt yn anhebgorol, ac na raid i neb feddwl nas gall bregethu yn effeithiol, er nad yw wedi ei gynnysgeuddu â dawn i ganu nac i floeddio. Siaradai Rowlands yn naturiol a bywiog; dyrchafai ei lais yn raddol wrth fyned ym mlaen; a phan ddeuai at ddiwedd y matter, byddai y dôn hono drosodd, a dechreuai yntau yn bwyllog ar fatter arall. Ond fel y dywedodd ef ei hun, nas gellid trosglwyddo i bapur yr elfen fywiol oedd yn ei bregethau, felly nis gellir rhoddi un meddylddrych am danynt trwy ddisgrifiad. Yr oeddynt yn llawn o dân byw. Yr oedd rhyw angerddoldeb ofnadwy ynddynt, ac yr oeddynt, o ganlyniad, yn effeithio yn gyfattebol ar y gwrandawyr."*

Yn ystod yr un flwyddyn ag yr ymadawodd o'r Eglwys Sefydledig, sef 1763, cyhoeddwyd ei gyfieithiad o "Bymtheg Araith, ar Amryw Destunau," o flaen y rhai y mae rhagymadrodd gan Peter Williams.† Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r gwaith yma yn 1767;‡ neu ynte, rhoddwyd enwad-ddalen newydd i argraphiad 1763. Tybir hefyd mai D. Rowlands oedd gyfieithydd llyfr a gyhoeddwyd yn 1769, dan yr enw "Cwmni yn y Goelbren," sef dwy bregeth o waith y Parch. Thomas Boston ar Preg. vii. 13, a'r Diar. xvi. 19.§

Yn y flwyddyn 1772, cyhoeddwyd "Tair Pregeth" o waith Daniel Rowlands ar Mat. ii. 8, 9; Heb. i. 9; a Mat. xviii. 15. Ac yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd "Pum Pregeth" o'i waith ar Luc xxiii. 42, 43; Rhuf. viii. 28; Dat. iii. 20; Judas 9; 1 Petr ii. 2; ac ychwanegwyd amryw hymnau atynt.* Yn 1774, cyhoeddwyd cyfieithiad o "Ryfel Ysprydol" John Bunyan, gyd â rhagymadrodd byr, ond pur ddyddorol, gan "Daniel Rowland."† Ac yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Thomas Davies "Wyth Bregeth" Saesneg o'i waith, "a bregethwyd ar Byngciau Ymarferol, yn yr Eglwys [Capel] Newydd, yn Llangeitho, Deheudir Cymru."‡ Yn y flwyddyn nesaf, 1775, cyhoeddwyd "Tair Pregeth" o'i waith ar Luc xv. 5; Ioan v. 6; Psalm lxv. 5.§ Yn y flwyddyn 1776, cyhoeddwyd "Ychydig Hymnau yn ychwaneg gan y Parchedig D. Rowland."‖ Y gwaith olaf o'i gyfansoddiad ef a gyhoeddwyd, hyd y canfyddwn ni, oedd "Llwyddiant wrth Orsedd Gras:" pregeth ar Judas 20, a gyhoeddwyd yn 1813.¶

Dengys nifer y llyfrau uchod, ynghyd â'r rhai a nodwyd o'r blaen, nad areithiwr digyffelyb yn unig oedd Daniel Rowlands, ond hefyd ei fod yn ysgrifenydd diwyd a helaeth iawn, ac ystyried maint ei lafur a'i deithiau fel pregethwr. Prawf ei bregethau argraphedig hefyd nad dawn effeithiol i draddodi yn rymus yn unig oedd ganddo ef, ond ei fod yn dduwinydd rhagorol ymhell cyn diwedd ei oes lafurfawr; ac, megis y dywedodd Mr. Charles, fel y gwelsom, yr oedd ef yn meddu "dyfnder defnyddiau." Ysgrifenydd arall a ddywed fod ei bregethau "yn Ysgrythyrol ac efengylaidd; yn eglur, dwys, a chymmwysiadol iawn; yn llawn o feddwl a matter, wedi eu gosod allan mewn iaith ddymunol, ac ymadroddion cryno, destlys, a tharawiadol. Y mae ei gymmarieuthau lliosog wedi eu cymmeryd oddi wrth braidd bob peth yn y byd, ac yn hawdd i'r mwyaf diddysg eu deall. Oddi eithr engraifft neu ddwy, y mae eu cyfaddasder yn dra nodedig a darluniadol. Y mae'n amlwg y byddai yn tynu yn lled helaeth weithiau o awdwyr cymmeradwy a ddarllenai; ond gwisgai y cwbl yn ei ddull priodol ei hun, ac i'r amcan a fyddai ganddo mewn golwg. Y mae eisiau argraphiad newydd, cywirach, a llawer mwy destlus, o'r Deuddeg Pregeth, nag a gafwyd etto; yn cynnwys hefyd rai traethodau byrion, llythyrau, a hymnau, o'i waith sydd etto ar gael."**

* Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 489–91.
† Llyfr. y Cymry, t. 465. ‡ Yr un, t. 498. § Yr un, t. 507.

* Deuddeg Preg. D. R. a'i Gofiant, gan M. D., t. 87.
† Yr un, t. 89. ‡ Yr un, t. 88. § Yr un, t. 87.
‖ Yr un, t. 89. ¶ Yr un, t. 88.
** Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 91.

Digitized by Google

pan ymddangosodd Crist iddynt wedi ei adgyfodiad, ac y dywedodd, 'Tangnefedd i chwi,' Luc xxiv. 33-36.

"IV. Ein Hiachawdwr a addawodd fod yn y canol lle y byddai dau neu dri (oni fyddai ychwaneg) wedi ymgynnull, yr hon addewid y mae pawb a ymgynnullasant mewn gwirionedd, ymhob oes, wedi ei phrofi yn cael ei chyflawni, Mat. xviii. 30."*

Yn y flwyddyn 1743, cyhoeddwyd y llyfr canlynol:—

"Traethawd ar Farw i'r Ddeddf a Byw i Dduw. Ymha un yr amlygir yn helaeth y Modd y mae'r Yspryd Glan yn dwyn yr Enaid o'r Cyfammod o Weithredoedd i'r Cyfammod o Râs. O'r Hunan i Grist. At ba un y chwanegwyd Chwech o Hymnau buddiol, ar amryw ystyriaethau. O Waith y Parchedig Mr. Daniel Rowlands."†

Cyfieithiad ydyw y treuthawd o waith Ralph Erskine. Yn y flwyddyn nesaf (1744), cyhoeddwyd y llyfr canlynol:—

"Y Rhyfel Ysprydawl a wnaethpwyd gan Shaddai ar Diabolus, er ennill yn ôl Fam-ddinas Byd: Neu golli ac ennill drachefn Dref Mansoul. Gan John Bunyan, Awdwr Taith y Pererin. Y Gynta a'r Ail Ran."

Dywed Gwilym Lleyn y dengys "y rhagymadrodd gan 'Dl. Rowland,' mai'r Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, a'i golygodd, os nad a'i cyfieithiodd."‡ Yn yr un flwyddyn (1744) etto, cyhoeddwyd:—

"Hymnau Duwiol, yw canu mewn Cymdeithasau Crefyddol. A Gyfansoddwyd gan mwyaf gan y Parchedig Daniel Rowlands, Gweinidog o Eglwys Loegr."§

Er y dywedir yn yr enwad-ddalen, fel y gwelir uchod, i'r hymnau, "gan mwyaf," gael eu cyfansoddi gan D. Rowlands, y gwir yw nad yw ei ran ef o'r llyfr ond 25 o dudalenau o 72; gan hyny, geiriwyd yr enwad-ddalen yn amryfus gan gyhoeddwr neu argraphydd y gwaith. Nifer yr hymnau yma, o waith Rowlands, yw 27.‖ Cyhoeddwyd hwy yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd y "Peraidd Ganiedydd" o Bant-y-Celyn y rhan gyntaf o'i "Aleluja," fel y ceir gweled rhag llaw.

Mewn cymdeithasfa a gynhaliwyd yn Abergefenni ar y 28fed o Fawrth,¶ 1744, lle yr oedd Harris, Rowlands, Williams (Pant-y-Celyn), ac eraill, cyttunwyd ar y penderfyniad canlynol:—

"Bod i ni edrych allan am bersonau cymmwys i gateceisio pawb o fewn ac o faes i'n cymdeithasau, mewn trefn i sefydlu'r praidd mewn gwybodaeth ac egwyddorion iachus, yng Nghatecism Mr. G. Jones [Llanddowror]. Ac er mwyn rheoleiddio yr egwyddori yn well, wedi galw personau cymmwys i'r gwaith, dylai yr arolygwyr fod yn bresennol i gynnorthwyo."*

Ymddengys mai'r penderfyniad yna ydyw sail y rheol ganlynol sydd yng "Nghyffes Ffydd" y Corph, y penderfynwyd arni, ymhlith eraill, yng Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a'r Bala, yn y flwyddyn 1823:—

"Y mae pob Cymdeithas Neillduol i fod dan olygiad dau neu ychwaneg o Flaenoriaid, wedi eu dewis gan yr holl Gymdeithas, a'u cymmeradwyo gan Gymdeithas Fisol y Sir, ac yn meddu'r cyfryw gymmwysiadau ag a ddarlunir yn Rheol 33."†

Y mae'n amlwg, gan hyny, i'r Diwygwyr Methodistaidd, yn forau ar y Diwygiad, osod amryw flaenoriaid ymhob eglwys, swyddogion cyfattebol i henuriaid neu esgobion y Testament Newydd, amryw o'r rhai a osodai yr apostolion ymhob eglwys.‡

Aeth y Diwygiad mawr ym mlaen yn llwyddiannus iawn, ac yn bur gysurus, dros gryn naw mlynedd, sef o'r flwyddyn 1737, pan yr ymunodd y tri Diwygiwr cyntaf â'u gilydd, sef Howel Davies, Howel Harris, a Daniel Rowlands, hyd o gylch y flwyddyn 1746, pan y tybiodd yr olaf, a rhai eraill o'i frodyr, nad oedd golygiadau Howel Harris ar berson Crist yn uniongred, at yr hyn y cyfeiriwyd eisoes.§ Ond yn hytrach na threuthu dim o'n syniadau ein hun etto ar yr amgylchiad gofidus yma, dodwn farn a syniadau addfed y Dr. Lewis Edwards arno ger bron, trwy ei ganiatâd ef:—

"Nid ydym yn cael hanes am ddim neillduol wedi digwydd am ddeng mlynedd‖ i beri aflwyddiant. Ond er bod Rowlands wedi newid yn nhôn ei bregethau, ac wedi myned i aros yn fwy ar athrawieuthau yr efengyl; etto y mae lle i gasglu mai diffygiol iawn mewn gwybodaeth am byngciau sylfeunol crefydd oedd yr eglwysi yn gyffredinol. Dywedodd hen grefyddwr wrth Mr. Charles, o'r Bala, ei fod ef ei hun ac eraill wedi bod yn aelodau eglwysig mewn un man am bum mlynedd, heb wybod dim ym mron, mewn ystyr dduwinyddol, am berson Crist, a'u bod mor dywyll fel, pan glywsant bregethwr unwaith yn cyffwrdd â'r matter hwn, nas gwyddent yn iawn at ba beth yr oedd yn cyfeirio. Y mae hyn yn profi nad

* Deuddeg Preg. a Chofiant D. R., gan M. D., Attodiad, t. 317–18.
† Llyfr. y Cymry, t. 392; Cof. D. R., gan M. D., t. 89.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 394. § Yr un, t. 398.
‖ Deuddeg Preg. D. R., a'i Gofiant, gan M. D., t. 340–375.
¶ Meth. Cymru, cyf. i., t. 163.—"Ebrill 17, 1744," medd eraill, heb nodi'r fan y'i cynhaliwyd. Nid yw debyg y cynhaliwyd cymdeithasfa yn y ddau fis nesaf i'w gilydd yn yr un parth o'r Dywysogaeth.

* Cofnodau Trefecca; Life and Times of H. Harris p. 104.
† Cyffes Ffydd, argr. 1829, t. 64, Rheol 2.
‡ Act. xiv. 23; Phil. i. 1; Tit. i. 5.
§ Gwel pen. ii. o'r llyfr hwn, y pummed.
‖ Ymddengys bod y Dr. Edwards yn cymmeryd i mewn yma yr holl amser, o ymraniad y Diwygwyr â'u gilydd hyd 1751, pan y llwyr ymneillduodd Harris oddi wrthynt; ond y mae'n amlwg i'r anghydwelediad ddechrau mor forau, o leiaf, ag 1746.—Meth. Cymru, cyf. i., t. 387, &c.

Digitized by Google

oedd y pwngc mawr hwn, ar y cyntaf, yn cael llawer o ystyriaeth oddi wrth y pregethwyr eu hunain, onid e, nis gallasent fod mor ddistaw am dano; ac y mae hefyd yn rhoddi rhyw gymmaint o eglurhâd ar y gwrthwynebiad a gododd yn erbyn golygiadau Howel Harris. Ac y mae'n rhaid addef ei fod yntau yn arfer rhai ymadroddion nas gallasai ei frodyr anwylaf a mwyaf deallus mo'u cymmeradwyo yn hollol; a'r diwedd fu i ymraniad gymmeryd lle rhwng Harris a Rowlands mewn cymdeithasfa a gynhelid yn Llanidloes yn y flwyddyn 1751. Y mae dynion wedi dyfod yn ddigon doeth erbyn hyn i fedru penderfynu mai gweuledd a gwendid i gyd oedd yr achos o bob ymrysonau a fu erioed ynghylch athrawieuthau penaf y Bibl, ac nad oes dim yn werth gwneud ymraniad o'i blegid ond rhyw beth allanol mewn crefydd. Dichon y byddent yn fwy cymhedrol pe cofient mai hen ddadl y Pabyddion ydyw yr ymrysonau sydd rhwng Protestaniaid a'u gilydd. Gwerthfawr ydyw heddwch, ond iddo beidio bod yn heddwch y bedd. Nid oes dim y dylid rhoddi mwy o bris arno na chariad; ond byddai yn ddymunol i'r cariad hwnw fod yn ddigon ehang i gymmeryd i mewn yr hen Ddiwygwyr a fu'n ymladd dros yr hyn a farnent hwy yn wirionedd; er fe allai fod yn anhawdd gwybod yn sicr, weithiau, pa ochr oedd yn fwyaf cywir. Gyd â golwg ar y ddadl hon rhwng Harris a Rowlands, byddai yn anniöddefol i ni geisio dyrchafu y naill ar draul darostwng y llall. Gwirionedd mawr oedd yr hyn y dadleuai Harris drosto; ac er ei fod yn ymddangos yn newydd i lawer o'r Cymry yn yr oes honno, y mae'n sicr ei fod yn yr Eglwys Gristionogol o'r dechreuad. Y mae'n amlwg mai ei feddwl oedd, bod tragywyddol Fab Duw wedi bod yn ufudd hyd angau, ac nid ei natur ddynol yn unig. Yr oedd y cwbl a ddywedid ganddo yn wir am berson y Mab; ond pan ddywedai fod Duw wedi marw, yr oedd yn rhoddi achlysur i gamddealltwriaeth. Ymddangosai y dywediad i Rowlands yn anysgrythyrol; ond y mae sail i farnu ei fod yntau, ar rai amserau, yn arfer dull o ymadroddi oedd yn cyfyngu y darostyngiad yn ormodol i natur ddynol y Cyfryngwr. Dynion cywir oeddynt er hyny, ac yr oedd eu dibenion yn gywir, er nad yn ddigymmysg, pan yn gwrthwynebu eu gilydd. Pe buasai cylch eu darlleniad yn heleuthach, buasent yn dangos mwy o oddefgarwch. Ac nid ydym, ychwaith, yn barod i ganiatâu mai drwg yn unig a darddodd o'r ymraniad hwn. Y mae pob bywyd deuarol mewn angen am nos yn gystal a dydd, am y geuaf yn gystal a'r haf; a phwy a ŵyr nad oedd y tymmor tywyll, geuafaidd, a ddilynodd yr ymraniad, yn fuddiol i gredinwyr Cymru, i droi eu hystyrieuthau yn fwy at athrawieuthau, ac i'w gwreiddio yn ddyfnach mewn egwyddorion?

"Ond yn lle siarad ynghylch y matter, gwell fyddai i ni roddi golygiadau Harris a Rowlands yn eu geiriau hwy eu hunain. Yr hyn a ganlyn sydd gyfieithiad o eiriau Harris:—

'Tu a diwedd y flwyddyn 1749, euthum i Lundain; ac yn Ionawr, 1750, ymadewais â'm cyfeillion a'm brodyr gan ddeisyf arnynt edrych at yr Arglwydd yn unig, a phregethu ei Dduwdod a'i farwolaeth gyd â gallu i galonau y gwrandawyr, fel yr unig sylfaen i adeiladu arni. Wrth ddyfod i lawr i Gymru, gwelais yn fwy nag erioed yr athrawiaeth am anfeidroldeb ein Ceidwad, yn ei enedigaeth, ei fywyd, a'i ddïoddefiadau; anfeidroldeb ei gyfraith a'i efengyl mewn rhyw ystyr; ac anfeidroldeb ei ras a'i drugaredd, heb eisiau dim, yn wir, ond Efe. Yr oeddwn yn ei garu Ef yn ei holl weithredoedd; ond yn fwy neillduol, yn holl gamrau ei ddarostyngiad rhyfeddol. Cefais olwg ar ymadawiad dedwydd, ac y cawn fod i dragywyddoldeb gyd âg ef. Gwelais, er fy mod yn hireuthu am yr amser dedwydd, nad oedd mil o flynyddoedd ond dim i ddisgwyl y fath ddedwyddwch. Fel y darfu i'r Arglwydd ei hun fy anfon o amgylch y wlad ar fy nychweliad cyntaf, a rhoddi ynof ddymuniad i'w foddio Ef yn unig, a'm cynnorthwyo i lefaru gwirioneddau eglur; felly, y pryd hwn, gosodwyd angenrhaid arnaf i bregethu'r gwirionedd mawr hwnw a ddatguddiodd Efe i'm henaid, sef y rhyfeddol ymostyngiad, a'r dirgelwch o Dduw yn ein natur yn cymmodi'r byd âg Ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau. Duw oedd Efe ym mru Mair, pan gymmerodd ein natur, gan osod ynddo ei hun sylfaen ein iachawdwriaeth a'n gwaredigaeth. Duw Goruchaf oedd efe yn ei enedigaeth dlawd, ac yn y cadachau. Efe oedd yr Ydwyf mawr, yr Alpha a'r Omega, yn ei holl ddïoddefiadau; ac nid oes Duw arall ond Efe: y rhai sydd yn addoli Duw heb law Efe, sydd yn addoli eulun: "Ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol." A phan ddaeth yr amser i wneud iawn dros ein pechodau ni, pan ddyrchafwyd yr Aberth mawr ar y groes, yr oedd holl natur, deuar, ac uffern, mewn cynnwrf a chyffro: yr haul a dywyllwyd, y ddeuar a grynodd, y meirw a ddeffroisant ac a gyfodwyd, fel y gallai pawb ofyn, "Pa beth yw achos ac ystyr hyn i gyd?" "Duw'r Creawdwr mawr fu farw,"—Watts. Euthum ym mlaen fel hyn trwy Gymru am rai blynyddau, gan ddwyn fy nhystiolaeth i'r gwirioneddau hyn ger bron proffeswyr cnawdol, Ariaid a Sosiniaid, y rhai a siaradent yn chwerw i'm herbyn. Er i hyn achlysuro llawer o rwgnach, anghydfod, ac ymraniad; etto y mae genyf obaith bywiol y bydd i'r Arglwydd fendithio ei wirioneddau yn ei amser da ei hun.'

"Ar ryw olwg, y mae'n ofidus meddwl bod neb o frodyr Howel Harris wedi gwrthwynebu yr athrawiaeth hon. Ac etto, nis gellir gwadu bod yma ymadroddion aneglur, y rhai yn hawdd a allasent roddi lle i dybied ei fod yn gyfeiliornus yn ei farn, nid yn unig am berson y Cyfryngwr, ond am Drindod o bersonau yn y Duwdod. Felly yr oedd yn ymddangos i Rowlands, a chyfiawnder âg

Digitized by Google

gŵr mawr hwn yn Israel y Cymry, rhaid i ni derfynu ein cyfeillach âg ef, "gyd â dywedyd," yngeiriau y Dr. Edwards, "bod torf wedi ymgynnull i Langeitho, fel arferol, un dydd Sadwrn, pan ddaeth y newydd fod yr efengylwr seraphaidd wedi ei gymmeryd oddi wrthynt i fyd yr ysprydoedd. Bu farw yr 16fed o Hydref, 1790, pan oedd ei oedran yn 77."*

Ychydig iawn o hanes teulu y gŵr enwog hwn sydd wedi ei throsglwyddo i ni. Enw ei wraig, yr hon a'i goroesodd ef rai blynyddau, oedd Eleanor, merch John Davies, Cefngarllyges, a elwir yn awr Cae'rllyges, neu'n fwy priodol Cae'rlluest, ymhlwyf Llangeitho. Bu iddynt dri o feibion a phedair o ferched. Dygwyd dau o'r meibion i fynu yn offeiriaid.

Ni fynegir pa le y cafodd John, y mab hynaf, ei addysg; ond gellir casglu iddo fod yn un o'r prif ysgolion. Pan foddodd ei ewythr John yn 1760, efe a gafodd bersonoliaeth Llangeitho a Llancwnlle, fel yr awgrymwyd eisoes. Hefyd, cafodd ryw fywioliaeth yn y Mwythig, lle y preswyliai hyd ei farwolaeth yn 1815. Dywedir bod ei blant a'i wyrion wedi llwyr golli eu Cymraeg yn y dref honno, lle y preswylia eu hiliogaeth hyd y dydd hwn.†

Y mae Nathaniel, ail fab Daniel Rowlands, ychydig yn fwy adnabyddus na'i frawd John. Ganwyd ef yn 1749. Gorphenodd ei addysg yng Ngholeg Eglwys Crist, yn Rhydychain, lle y cafodd ryw raddau. Priododd ferch y Parch. Howel Davies, curad Llys-y-fran, un o dri phrif gychwynwyr Methodistiaeth, fel y crybwyllwyd ar ddechrau y bennod hon. Dywedir ei fod yn perchen doniau helaeth, a gwnaed ef yn gaplan i'r Duc Gordon, ac i'r Iarlles Huntingdon. Parhaodd mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid, ac ystyrid ef yn bregethwr poblogaidd, hyd 1807, pan y terfynodd ei undeb â hwy o herwydd iddo gwympo trwy feddwdod. Tybir iddo gael ei wared o'r amryfusedd hwnw; ond ni ddychwelodd mwy at y Methodistiaid Cymreig, o herwydd iddynt neillduo pregethwyr heb urddau Esgobol i weini yr ordinhadau, yr hyn a gymmerth le yn y flwyddyn 1811. Preswyliai mewn lle a elwir Parciau, ger llaw Henllan Amgoed, yn sir Benfro; a phregethai i gynnulleidfa a alwent eu hunain yn Fethodistiaid, ac a godasant gapel iddo yn Hwlffordd. Bu farw yn ei breswylfod, y Parciau, ar yr 8fed o Fawrth, 1831, yn 82 oed. Y mae ei ŵyr a'i etifedd, George Thomas, Ysw., yn preswylio yn y Parciau etto, ac yn ŵr o barch a dylanwad.*

Dafydd oedd enw trydydd mab yr enwog Daniel Rowlands, a dygwyd ef i fynu yn of alcan (tinman). Dywedir ei fod yn gantor gwych; ond o herwydd ei fywyd gwyllt ac afreolus, y bu'n llawer o flinder i'w dad enwog a'r teulu. Arferai ddilyn porthmyn y wlad gyd â gwartheg i Loegr. Bu farw yn 45 oed.†

Enwau merched Daniel Rowlands oedd Rachel, Elizabeth, Ann, a Sara. Priododd Rachel Mr. Morgan, Cil-y-pill, Llangeitho, amaethwr, a blaenor parchus gyd â'r Methodistiaid.—Elizabeth a briododd J. Morgan, Ysw., meddyg, o'r Gorsfawr, Lledrod: gŵr enwog yn ei alwedigaeth.—Gŵr Ann oedd Daniel Jenkins, Llangeitho. Pregethwr oedd efe, ac arferai bregethu yn hen gapel *Wilderness Row*, a phregethai yn fynych yn *Gravel Lane* a *Deptford*.—Sara, yr ieuengaf, a briododd Mr. Jones, Trecefel, Tregaron, yn sir Aberteifi. Dywedir bod yr enw anrhydeddus, ROWLANDS, wedi diflanu erbyn hyn o'r teulu, am fod y canghenau gwrywaidd wedi darfod.‡

* Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 491.
† Cofiant D. R., gan M. D., t. 76.

* Cambrian Quarterly Magaz., vol. iii., p. 394; En. Cymru, I. F., t. 921; Cofiant D. R., gan M. D., t. 76.
† Cofiant D. R., gan M. D., t. 76.
‡ Method. Cymru, cyf. ii., t. 13, 127; cyf. iii., t. 437-8; Cofiant D. R., gan M. D., t. 76-7.

---

## PENNOD XIX.

### HOWEL HARRIS AC ERAILL.

CAFWYD achlysur yn fynych eisoes, mewn cyssylltiad â'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid, Edmund Jones, Daniel Rowlands, ac eraill, i gyfeirio at y gŵr enwog hwn, HOWEL HARRIS, ac i heleuthu ychydig weithiau ar ei hanes nodedig. Y mae llawer o ysgrifenwyr galluog wedi ysgrifenu ar Howel Harris, megis y Parch. T. Charles, yn y *Drysorfa*, 1810; y Parch. David Peter, yn *Hanes Crefydd yng Nghymru*, 1816; y Parch. R. Jones, yn *Drych yr Amseroedd*, 1820; Nathan Hughes, yn ei *Hanes Byr*, 1838; y Parch. John Hughes, ym *Methodistiaeth Cymru*, 1851; y Parch. Edward Morgan, yn *The Life and Times of Howel Harris*, 1852; y Parch. R. Williams, yn *Enwogion Cymru* (Eminent Welshmen), 1852; y Dr. Thomas Rees, yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales*, 1861; ysgrifenydd galluog yn *Y Traethodydd*,

1864; un arall yn *Y Gwyddoniadur*, 1866; Gwilym Lleyn, yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, 1869; I. Foulkes, yn *Enwogion Cymru*, 1870; heb law ei farwnad odidog gan Fardd Pant-y-Celyn, 1773. Gwelir, gan hyny, mai ein gorchwyl ni yma, megis wrth adrodd hanes pob peth a ddigwyddodd cyn ein hamser, yw dethol, lloffa, a chrynhoi yn y modd gorau ag y gallwn.

HOWEL HARRIS, y cyntaf o dri chychwynwyr galluog Methodistiaeth Cymru, fel y gwelsom yn y bennod flaenorol, a anwyd ymhreswylfod ei dad, yr hwn a drigiannai ar dyddyn o'i eiddo ei hun, yn Nhrefeca,* ymhlwyf Talgarth, yn sir Frycheiniog, ar y 23ydd o Ionawr, 1714, yn yr un flwyddyn ag y ganwyd Whitfield† (Witffild), un o Fethodistiaid cyntaf Lloegr, a thu a blwyddyn ar ol Daniel Rowlands, fel y gwelsom: tri o gawri a fu wŷr enwog gynt. Un o dri brawd oedd Howel, a bu'r tri yn hynod yn eu ffyrdd. Yr oedd Joseph Harris, yr hynaf, yn ŵr o gynheddfau cryfion, a gwybodaeth eang. Ysgrifenodd amryw dreuthodau ar seryddiaeth a rhifyddiaeth. Llanwai swydd dan y Llywodraeth, ac yr oedd yn ŵr mawr yn ei ddydd. Aeth Thomas Harris, yr ail fab, i Lundain, ac ennillodd yno gyfoeth mawr, yr hyn a'i galluogodd i brynu rhandiroedd helaeth Tregynter, ynghymmydogaeth Talgarth. Y trydydd, a'r ieuengaf, ydoedd HOWEL. Cadwyd ef mewn ysgol gan ei rieni nes oedd yn 18 oed, gan y bwriadient ei ddwyn i fynu i'r Eglwys Sefydledig; ond bu farw ei dad y pryd hwnw, sef yn 1732, a bu raid iddo yntau droi i gadw ysgol i

* Pentref bychan yw Trefeca, wyth milltir i'r de-orllewin o'r Gelli (*Hay*), yn cynnwys tu a 45 o dai, a 236 o drigolion. Safai tŷ a thyddyn tad yr enwog Howel Harris gynt ynghwr y pentref nodedig hwnw.

† Gan y cyfarfyddwn yn lled fynych â'r gŵr enwog hwn, yn oed yng Nghymru, a chan y cymmerai ddyddordeb mawr yn y Diwygiad Methodistaidd Cymreig ar ei gychwyniad yn y wlad yma, credir y bydd talfyriad o'i hanes yn gymmeradwy gan y darllenydd.—Ganwyd GEORGE WHITFIELD yng Ngwestty'r Gloch (*Bell Inn*), yng Nghaerloyw, tu a diwedd y flwyddyn 1714. Cafodd ei addysg foreuol yn ysgol ramadegol Caerloyw, lle y dysgodd y Groeg a'r Lladin yn dda; ac yn 1733, derbyniwyd ef yn heilyn (*servitor*) Coleg Penfro, Rhydychain, ac efe yn 19 oed. Yn y Brifysgol daeth yn gydnabyddus yn fuan â John a Charles Wesley, ac eraill, arferion crefyddol y rhai oedd wedi tynu sylw mawr eisoes, ac wedi eu gwneud yn agored i fân ymosodiadau erlidgar. Ynghymdeithas y gwŷr duwiol ac enwog hyn, cafodd argyhoeddiad dwfn o'i bechod, a daeth yn fuan i brofi blas maddeuant, ac i fwynhau cysuron yr efengyl. Yr oedd yn meddu'r llais mwyaf nerthol, peraidd, a soniarus, a'r talentau areithyddol disgleiriaf a mwyaf effeithiol. Pan ar ymweliad â'i ddinas enedigol yn 1736, er adfer ei iechyd, urddwyd ef yn ddiacon gan y Dr. Benson, Esgob Caerloyw. Traddododd ei bregeth gyntaf yn Eglwys St. Mary de Crysp, yn y ddinas honno, pan y rhoddes brawf addawol o'r hyn a fyddai rhag llaw. Wedi hyny, dychwelodd i Rydychain, lle, mewn amser cyfaddas, y derbyniodd ei raddau. Yna aeth i bregethu am ddau fis i Eglwys y Tŵr, yn Llundain, lle yr ymgynhullai tyrfaoedd mawrion yn wastad i'w wrando, ar y rhai yr effeithiodd yn ddirfawr. Pa le bynag y pregethai, ai yn y wlad, yn Llundain, neu Gaerodor, byddai yr un teimlad angerddol yn dilyn ei draddodiad yn wastadol. O gylch y pryd hyn, derbyniodd wahoddiad gan y ddau Wesley i'w cynnorthwyo yn eu hantur genhadol bwysig yn Georgia, un o daleithiau Gogledd America; ac yn ystod y ddau fis oedd rhwng yr amser y derbyniasai yr alwad a'r pryd y gallai gychwyn, pregethodd yng Nghaerodor, a manau eraill, gyd âg effaith mawr a chynhyddol. Wedi cyrraedd y drefedigaeth bellenig a didrefn honno, heb law pregethu yn egnïol ac effeithiol i'r trigolion annosparthus, ymroddes i sefydlu Tŷ-amddifaid, yr hyn a chwanegodd yn ddirfawr at ei lafur a'i bryder. Er mwyn cael cymmorth i ddwyn yr amcan clodfawr hwnw i ben, a chael urdd offeiriad, dychwelodd i Brydain yn 1739, ac urddwyd ef yn offeiriad gan y caredig Esgob Benson. Croesawyd ei ddychweliad gan filoedd, ac ymgasglai tyrfaoedd afrifed braidd i'w wrando lle bynag y pregethai yn Llundain, ac yn enwedig yng Nghaerodor. O herwydd ei lwyddiant mawr, cynfigenwyd wrtho gan glerigwyr dïegni Caerodor, a gwrthodasant roddi eu heglwysydd iddo; ac anfonodd canghellydd yr esgobaeth rybudd iddo, y dylai "attal ei weithrediadau." Ond torodd y dŷn hwn, oedd wedi ei anfon gan Dduw, trwy y gwaharddiad; ac ar y 7fed o Chwefror, 1739, safodd ar ucheldir o fewn cyrraedd i byllau glo Kingswood, yr hwn oedd "ei faes-bulpud cyntaf." Yno, o Sabboth i Sabboth, cynhullai o'i amgylch dyrfaoedd mwyfwy y naill Sul ar ol y llall o'r bobl anwar hyny, o'r sawl y derbyniodd miloedd fendithion tymhorol ac ysprydol y grefydd Gristionogol. "Yr oedd y bobl yn sefyll o amgylch y mynydd yn y fath ddull arswydol, a'r distawrwydd dyfnaf, nes fy llenwi â syndod sanctaidd." Gwrandawai a chlywai 20,000 o bobl y llais nerthol a soniarus hwnw yn berffaith eglur; gwnai ffrydiau o ddagrau rychau ar hyd gruddiau duon gan lwch glo; wylai miloedd, ac edifarhai lliaws mawr, a gadawent eu gyrfa ddrygionus am byth. Yn yr ymarferiadau crefyddol hyn, perffeithiodd Whitfield ei ddoniau rhyfeddol fel areithiwr, fel pregethwr, ac fel llefarwr yn yr awyr agored. Cyrhaeddodd hefyd berffaith hunan-lywodraeth; a dysgodd trwy allu naturiol a ffraethineb greddfol pa fodd i fynych drechu arweinwyr gwehilion y bobl. Yr oedd ei waith yn Kingswood yn esampl o lafur ac effaith efengylwr ym Mrydain ac yn America. Nodwedd gyrfa Whitfield oedd rhoddi y lle blaenaf yn wastad i gynlluniau o elusengarwch. Croesodd y Môr Atlantic i'r wlad hon i gasglu trysorfa at Dŷ-amddifaid yn Georgia; ac yn awr, wedi canfod iddo ynnill calonau glowyr Kingswood, gosododd gynllun ar droed i godi Ysgol Rad i'w plant. Dododd i lawr gareg gyntaf adeilad i'r perwyl hwnw cyn dychwel i Lundain. Yn y brif-ddinas hon, aeth Whitfield, yr hwn a gauid allan o'r eglwysydd, ym mlaen "i ymosod ar Satan yn ei gadarnleoedd ei hun," ym Moorfield, Kennington, a Blackheath. Mynych yr ymosodwyd arno yn greulon yn y lleoedd hyn; ac weithiau, prin y diangai â'i fywyd ganddo; ond nid oedd efe "yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr ganddo ei einioes ei hun, os gallai orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r gwasanaeth a dderbyniasai gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw."

Pan ddychwelodd o'r America, lle y cafodd ei wasanaeth effaith dirfawr, aeth i bregethu yng Nghymru, yn Ysgotland, ac yn y Werddon, a theimlid nerth mawr ei bregethiad grymus gan y tair cenedl, yn ol eu gwahanol ansoddau, ac yn ol eu diwylliad moesol a chrefyddol. Bu Whitfield mewn pump, o leiaf, o gymmanfaoedd y Methodistiaid yng Nghymru, sef yn y gyntaf a gynhaliwyd yn Watford, Ionawr, 1742; yn yr ail, a gynhaliwyd yn yr un lle, Ebrill, 1743; yn y drydedd, a gynhaliwyd yn y Gelli-Glyd, ym Mai yr un flwyddyn; yn y bedwaredd, a gynhaliwyd yn Nhrefeca, ym Mehefin yr un flwyddyn; ac yn y bummed, a gynhaliwyd yn Abergefenni ym Mawrth, 1744; ac efe a ddewisid yn gymmedrolwr bob amser pan yn bresennol.

Tra'r oedd ar ei daith bregethwrol yn Ysgotland, aeth yn gydnabyddus â Selina, Iarlles Huntingdon, yr hon, yn 1748, a'i gwnaeth ef yn un o'i Chaplaniaid, sefyllfa a'i cyflwynodd ef i gylchoedd uwchaf urddas a llenyddiaeth. Yr oedd parch, cyfoeth, a dyrchafiad yn awr yn gwbl gyrreuddadwy iddo; ond rhoddes efe brawf etto mai achub ei gyd-ddynion, o ba wlad a chenedl bynag y byddent, oedd amcan mawr ac unigol ei fywyd ef; a than ddylanwad sanctaidd yr awyddfryd yma, gadawodd wlad ei enedigaeth unwaith etto, yn 1769, ac aeth i Georgia. Er ei fod weithian wedi gwywo llawer o ran ei gorph gan ormod llafur yngwasanaeth ei Arglwydd, a hyny ymlodau ei ddyddiau; etto parhai i bregethu bob dydd hyd ei ddiwedd. Pan oedd yn Newbury Port, yn Lloegr Newydd, ymosodwyd arno gan ddiffyg anadl tost, yr hyn a derfynodd ei oes lafurfawr a defnyddiol ar y 30fed o Fedi, 1770, ac efe yn yr 56fed flwyddyn o'i oedran. Cyhoeddwyd cyfrolau o'i Deithlyfrau ganddo ef ei hun; ac yn 1771, cyhoeddwyd chwe chyfrol o'i bregethau, ei lythyrau, a'i dreuthodau, yn Llundain.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., pp. 1337–8; Wright's Royal Dict. Cyclo., vol. v., p. 914; Method. Cymru, cyf. i., t. 161, &c.

Digitized by Google

blant ei ardal. Ymddengys ei fod yn llengcyn ofer a gwyllt y pryd hyny, ac yn dilyn y "lliaws i wneuthur drwg;" "er hyn," eb efe ei hun, "nid oeddwn yn cael cwbl lonydd, gan ryw reddf o argyhoeddiad calon yn fynych." Pa wedd bynag, bu'r ysgol yn foddion i'w ddwyn i gydnabyddiaeth â rhai o gyfoethogion yr ardal, "a chefais trwy hyny," eb efe, "addewidion a golygiadau teg am ddyrchafiad yn y byd, canys yr oeddynt yn bwriadu fy ordeinio yn ol trefn Eglwys Loegr." Y mae'n debyg mai addaw ei gynnorthwyo i fyned i Brifysgol yr oeddynt, er ei barotôi i gael ordeiniad esgobol. Beth bynag am hyny, ni chyflawnasant eu haddewidion dros rai blynyddau, os gwneuthant byth.

Ymhen deufis ac ychydig ddyddiau ar ol pasio ei 21 oed, sef ar y 30fed o Fawrth, 1735, wrth wrando offeiriad y plwyf yn annog ei blwyfolion, yn ei bregeth, i gyfranogi o swper yr Arglwydd y Sul canlynol, yr hwn oedd Sul y Pasg y flwyddyn honno, llwyr fwriadodd gydsynio â'r cyngor; ac er mwyn bod yn fwy cymmwys, ymheddychodd â chymmydog oedd mewn ymrafael âg ef, ar ei ffordd adref o'r llan. Pan ddaeth y Sul canlynol, wele yr oedd Howel Harris wrth fwrdd y cymmun! Nid oedd etto yn adnabod ei hun, na Gwaredwr pechaduriaid, oddi eithr ychydig mewn hanes yn unig; ond yr oedd ei feddwl yn bur gyffrous eisoes; profasai ddiflasdod nid bychan ar ei ddull annuwiol o fyw; felly, pan ar ei liniau wrth allor y llan, a phan yr adroddai yr offeiriad y geiriau canlynol yn y gyffes gyffredin, "Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhau, ac yn ddrwg gan ein calonau dros ein cam weithredoedd hyn: eu coffa sydd drwm arnom: eu baich sydd anrhaith ei oddef," &c., dechreuodd ymholi ai felly yr oedd mewn gwirionedd gyd âg ef. Deallodd nad oedd y gyffes ond geiriau gweigion yn unig yn ei enau ef. Cafodd ei argyhoeddi y dylasai ei bechod wasgu arno, ac nad oedd ond myned at fwrdd yr Arglwydd â chelwydd yn ei enau. Prin y gallodd nesu ym mlaen, gan faint yr euogrwydd a deimlai; ond trwy addo iddo ei hun yr ymroddai i ddilyn buchedd newydd rhag llaw, at y bwrdd cyssegredig yr anturiodd efe dan grynu. Teimlodd beth y pryd hwnw nas llwyr ymadawodd âg ef byth. Dyma adeg ei dröedigaeth, ac y mae'r man lle yr ymwelodd Yspryd Duw â'i enaid i'w weled, ac yn cael ei nodi allan, yn Eglwys Talgarth, hyd y dydd hwn. Y mae'r cofnod hwn o'r amgylchiad, ynghyd â'r man dyddorol yma, yn werth ei osod i lawr, o herwydd mai dyma y wreichionen fechan a ymddangosodd gyntaf, neu, o leiaf, un o'r ddwy gyntaf,* yr hon a dorodd allan yn dân angerddol, wedyn, trwy Ddeheudir a Gogledd Cymru, yn y diwygiad rhyfedd hwnw ar grefydd a roddes fôd a ffurf i Gorph y Methodistiaid Calfinaidd, ac a fu hefyd yn gymmaint o foddion adfywiad a chynnydd ar grefydd ym mysg cyfundebau crefyddol eraill, nes y mae'r Dywysogaeth erbyn heddyw, mewn cymhariaeth i wledydd eraill, megis "gardd yr Arglwydd." Dyma fel y canodd y Prifardd o Bant-y-Celyn ar hyn ym Marwnad Howel Harris:—

"Pan 'roedd Cymru gynt yn gorwedd
Mewn rhyw dywyll farwol hun,
Heb na Phresbyter na Ffeiriad,
Nac un Esgob ar ddihun:
Yn y cyfnos tywyll, pygddu,
Fe ddaeth dŷn, fel mewn twym ias,
Yn llawn gwreichion golau, tanllyd,
O Drefeca fach i maes.

"'Nawr mae'n gorwedd yn y graian,
Mewn lle tywyll, distaw iawn,
Harris gynt â'i waedd ddihunodd
Weinidogion lawer iawn;
Cans trwm gwsg oddi wrth yr Arglwydd,
Oedd fel diluw'n llanw'n lân,
Yn y dydd cyhoeddodd Howel
I fod Nini'n mynd ar dân.

"Dyddiau ag 'roedd Ralph ac Eben,
Draw yn Scotland oer ar dân;
Whitfield glonog fry yn Lloegr
Yn cyhoeddi'r 'fengyl lân;
Rowland, Harris, a rhyw chydig,
Yma yng Nghymru'n seinio maes,
Weithiau o Sina, weithiau o Sion,
Hen ddirgelion Dwyfol ras."

Er iddo golli'r teimladau a brofodd ar y Sul Pasc hwnw i raddau yn lled fuan; etto, ni chollodd efe byth yn llwyr mo'r "dwyfol ras" a brofodd efe y pryd hwnw. Dyma fel y dywed efe ei hun ar y pwngc yma, a barodd iddo gymmaint o bryder:—

"Yma [ar ol y Sul Pasc crybwylledig], mi a ddechreuais, yr wythnosau canlynol, fod yn fwy sobr a gwyliadwrus, gan ymroddi i weddi, ac ymdrechu i gadw fy nghalon a'm meddyliau yn ddïysgog ar yr Arglwydd; ond wedi'r cwbl, yn ofer yr aeth fy holl waith. Aethum ym mlaen fel hyn dros bythefnos, nes i mi golli agos fy holl argyhoeddiadau.

"*Ebrill yr 20fed*, 1735. Dododd Rhagluniaeth lyfr yn fy llaw, ac mi a edrychais bob rhan o hono, fel cymmorth i hunan-ymholiad; ac argyhoeddwyd fi fy mod yn ddiffygiol ac euog ymhob cangen o'm dyledswydd tu ag at fy Nuw, fy hunan, a'm cymmydog. Yn yr un prydnhawn, cyfarfyddais â llyfr arall, a ysgrifenwyd gan *Bryan Duppa*† ar y gorchymynion; a bu hwn yn foddion i ddyfnhau

* Gwel y bennod flaenorol ar Daniel Rowlands.

† Dywed un o gofianwyr Harris nas gwyddai pwy oedd y *Bryan Duppa* hwn, ac nas gwelodd ei waith erioed. Dichon fod llawer o'n darllenwyr yn gyffelyb; ac am hyny, y bydd ychydig bach o'i hanes yn gymmeradwy. *Brian De Uphaugh*, yn ol Anthony Wood, oedd ei enw; a *Brayan Dupha* y geilw Mr. Charles ef; ond ni ddyry yntau ddim o'i hanes. Ganwyd ef yn Lewisham, ar y 10fed o Fawrth,



Digitized by Google

fy argyhoeddiadau. Po mwyaf a ddarllenwn, mwyaf oll o oleuni ysprydol a lewyrchai i'm meddwl, gan ddatguddio ehangder y gyfraith, ac yn fy ngalw i gyfrif, nid yn unig o herwydd pechodau cyhoeddus, ond hefyd fy edrychion a'm dibenion ymhob dim a feddyliwn, a siaradwn, ac a weithredwn. Yna [illegible] fy mod wedi fy ninystrio am byth. Fel hyn, [illegible] a chwiliwn i natur pethau, mwyaf oll y [illegible] o'm cydnabod, ar y [illegible]. Yna argyhoeddwyd fi yn [illegible] y bywyd ysprydol; a [illegible] yn mawr [illegible] ac wedi fy ngwerthu dan [illegible] fy hun, nac yn [illegible] mwy nag y gallwn ddringo [illegible] fy hun trwy [illegible] ymhob cysuron tym[illegible] etto i hunanymwadiad [illegible] ein Iachawdwr; ac nid oedd genyf [illegible] Iesu, yr unig 'Ffynnon a agor[illegible]' Zech. xiii. 1. Yr oeddwn yn [illegible] ac o herwydd hyny, [illegible] yma mewn cyflwr damniol, [illegible] yn y diwedd."

Fel hyn y bu efe, rhwng hyder ac ofn, dros [illegible] wythnos. Teimlai awydd cryf weithiau i roddi ei hun yn hollol i'r Arglwydd; ac yn ymyl hyny, perswadid ef gan y Diafol, os gwnai hyny, y [illegible] golli ei ryddid, ac na byddai yn [illegible] ei hun, na than ei lywodraeth ei hun mwyach. O'r diwedd daeth y Sulgwyn, a dyma fel y dywed efe ei hunan:—

"[illegible] 1735. Mi euthum at fwrdd yr Arglwydd [illegible] fy mhechodau. Yr oeddwn wedi [illegible] at fwrdd yr Arglwydd, [illegible] yn yr Arglwydd Iesu Grist, y byddem [illegible] ein holl bechodau; ac yn [illegible] trwy yr Ysbryd Glân [illegible] [illegible]

Mo[illegible] gan ofn a dychryn

[illegible] rhag colli y fath brofiadau melus a hyfryd, fel yr ymroddodd i ympryd, a gweddi, a gwyliadwriaeth barhaus; ac yr oedd yn ofni meddyliau ysgafn, geiriau segur, a phob math ar goeg-ddigrifwch, pethau yr oedd mor dueddol iddynt wrth natur, fel ei elynion penaf a mwyaf peryglus; a dyma fel y mynega'r canlyniad:—

"*Mehefin y 18fed*, 1735. Pan ar weddi ddirgel, teimlais fy nghalon yn ddisymmwth yn toddi ynof fel cwyr o flaen tân o gariad at Dduw fy Iachawdwr. Teimlais nid yn unig gariad a thangnefedd, ond hefyd 'chwant i'm dattod, ac i fod gyd â Christ;' ac yr oedd llef yn eigion fy enaid, na theimlais y cyffelyb erioed o'r blaen, fel hyn —'Abba Dad! Abba Dad!' Nis gallwn beidio galw Duw yn Dad i mi, canys gwyddwn mai ei blentyn ef oeddwn, a'i fod yn fy ngharu ac yn fy ngwrando. Cafodd fy enaid fel hyn ei lenwi a'i ddiwallu, nes yr oeddwn yn llefain, 'Digon! Digon! Cefais fy modd[illegible]: dyro i mi nerth, a mi a'th ddilynaf trwy ddwfr a thân.' Yr oeddwn yn gallu dywedyd fy mod yn wir ddedwydd, a bod ynof 'Ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol' (Ioan iv. 14), a 'Chariad Duw wedi ei dywallt yn fy nghalon, trwy yr Yspryd Glân yr hwn a roddwyd i mi' (Rhuf. v. 5)."

Yr oedd ei lygaid o hyd ar fod yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig; a pharhai i gadw ysgol yn yr eglwys, gan ddisgwyl cael galwad gan berthynas iddo i fyned i Rydychain. Yn y cyfamser, goddiweddwyd ef gan amheuon ac ofnau; ond ar y cyfan, yr oedd hwn yn amser o ddiddanwch mawr iddo, fel y dengys yn y difyniad canlynol:—

"O [illegible] a fu genyf o ddedwyddwch, yr oeddwn yn [illegible]; ond tosturiodd Duw [illegible] trwy ei Yspryd y gair [illegible] wrth fy enaid—'Myfi yr Arglwydd [illegible].' Nis gwyddwn ar y pryd fod y [illegible] yn Ysgrythyr [illegible] pa fodd y gallwn [illegible], nes i oleuni dori [illegible] nad ar fy ffyddlondeb i yr oedd fy iachawdwriaeth yn [illegible], eithr ar ffyddlondeb Iesu Grist [illegible], etto, gan nad [illegible] fy mod yn ddirgel. Yna [illegible] a chefais orphwysfa ddi[illegible] fy Nuw a'm Iachawdwr. Yr oedd [illegible] i bob math ar [illegible] hyn yn unig a wyddwn, [illegible] ac y carai efe fi yn rhad [illegible] y diwedd. Yr oedd hyn [illegible] ac i fyfyrio pa fodd [illegible] ymhob modd. Nis gallaf [illegible] a fwynhai fy enaid y pryd [illegible] ym mlaen yn [illegible] a'm holl ymarweddiad [illegible]. Nis [illegible] am ddim ond am bethau [illegible] arnaf wawd a dirmygwch. Yr [illegible] yn feunyddiol, ac [illegible]. Cefais rhai fy nychryn, ac [illegible] i ddoethineb y byd [illegible] gyda mi. Fy holl ymgais yn

[illegible] Ar [illegible] Charles II. yr orsedd, dy[illegible] Caerwynt (Winchester), a bu farw yn [illegible] eraill, ac [illegible] a welodd Howel Harris. —[illegible] vol. i. pp. 179—80.

awr oedd dangos fy ngharïad at Dduw. Pa wedd bynag, yr oedd yn ofid parhaus i mi, am nad oeddwn yn gweled nac yn clywed am neb yn y wlad a ymddangosai yn ddifrifol 'weithio allan ei iachawdwriaeth ei hun trwy ofn a dychryn' (Phil. ii. 12), nac yn meddu gwybodaeth gadwedigol o Dduw yng Nghrist Iesu. Nid oeddwn yn meddwl dim y pryd hyny y byddai i'r Arglwydd fy nefnyddio i er bendith i neb, canys nid oeddwn yn gweled y tebygrwydd lleiaf o hyny, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Meddyliwn yn fynych am ymguddio oddi wrth fy nghyfeillion, heb ofni dim yn fwy na pharch y byd a'i gydnabyddiaeth. Parodd hyn i mi roddi heibio gyfeillach â phob gradd o bobl, a gwrthod pob cynnyg am ddyrchafiad bydol. Ië, gwerthais yr hyn oedd genyf, a rhoddais i'r tlodion; ac ymhlith pethau eraill, y cyfryw ddillad a farnwn yn anweddus i Gristion. Gwelais wrth ddarllen Mat. xix. 21–25, mai peryglus iawn yw peidio cymmeryd Duw yn ei air; yna cefais nerth i ymddiried yn addewid ein Iachawdwr yn adn. 29, 'A phob un a'r a adawodd dai, neu frodyr, neu chwiorydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er fy mwyn i, a dderbyn y can cymmaint, a bywyd tragywyddol a etifedda efe.' Ar yr addewid hon, rhoddais fy nghorph a'm henaid i'w ofal am byth. O hyny allan, gallaf ddywedyd i mi gael nerth i fyw bywyd ffydd, trwy gydnabod wrth fy Iachawdwr, trwy ymorphwys yn gyfangwbl ar ei addewidion gwerthfawr ef; a chefais ef yn parhau yn ffyddlon, a'r rhai oll a ymddiriedant ynddo ni chywilyddir. Dichon hyn ymddangos fel penboethni i gig a gwaed. Er ein bod yn dywedyd wrth Dduw, 'Ein Tad,' ac yn ei addef ef yn Benllywodreuthwr pob peth, a bod ei air yn wirionedd; etto, ni roddwn iddo ef y grediniaeth a roddwn yn gyffredin i ddŷn marwol. Ymddangosai hyn i mi, yn wir, yn beth erchyll iawn; am hyny, llwyr ymroddais i ymddiried yn ei addewidion digyfnewid ef, am bethau tymhorol, cystal ag am bethau tragywyddol. Fel hyn, yn fy holl ddiffygion, nid oedd genyf un lle i fyned i ofyn yr hyn a fyddai arnaf ei eisiau, ond at yr Addewid; a gallaf dystio yn hyf i mi ei chael yn ddigonol hyd yma dan bob amgylchiad, tufewnol ac allanol."

Wrth weled athrawon, pencuthiaid, a gweledyddion y bobl, megis rhai y "tywalltodd yr Arglwydd arnynt yspryd trwmgwsg, gan gau eu llygaid, a'u gorchuddio" (Esa. xxix. 10), fel na welent anwiredd y genedl; ac wrth weled y wlad wedi ei llenwi âg anfoesoldeb, anystyriaeth, a phob drygioni, cynhyrfwyd yspryd Howel Harris o'i fewn, fel nas gallai ymattal heb rybuddio ei gymmydogion o'u perygl, a llefaru yn groyw yn erbyn eu drwg-fucheddau, gan eu hannog yn egnïol a thanllyd i "ffoi rhag y llid a fydd," megis y tystia ei hun fel y canlyn:—

"Yna nis gallwn ymattal yn hwy heb ei wneuthur fel fy unig neges i lefaru wrth bawb y deuwn yn agos atynt am eu perygl. Angau a barn oedd swm penaf fy athrawiaeth, a'r angenrhaid am weddïo, derbyn swper yr Arglwydd, a'r cyffelyb. Er nad oedd genyf ond gwybodaeth fechan, hyd yn hyn, am ffordd iachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist; etto yr oeddwn yn ddedwydd trwy deimlad o'r gwynfydedigrwydd o hyny yn fy enaid fy hun. Gosodais i fynu addoliad teuluaidd yn nhŷ fy mam; a'r boreuau Suliau, cyn pryd eglwys, arferai amryw o'r cymmydogion ddyfod i'm gwrando yn darllen y Llithoedd, Psalmau, &c. Treuliwn y prydnhawn gyd âg ychydig gyfeillion y cyffyrddasai yr Arglwydd â'u calonau i weled a theimlo eu perygl. Yr oedd tân Duw yn llosgi yn fy enaid, ac nis gallwn orphwys na dydd na nos heb wneuthur rhywbeth dros fy Nuw a'm Iachawdwr; ac nis gallwn, gyd â boddlonrwydd, roddi cwsg i'm llygaid na hun i'm hamrantau, os na byddwn wedi gwneud rhyw wasanaeth iddo Ef yn ystod y dydd. Yr oedd amser mor werthfawr yn fy ngolwg, fel nas gwyddwn pa fodd i'w dreulio yn orau a hollol er gogoniant Duw, a lles i eneidiau dynion. Pan yn unig, ni wnawn ddim ond darllen, gweddïo, ac ysgrifenu; a hefyd, parhawn i fyned ym mlaen i gynghori y bobl druain a ddeuent i'm gwrando bob prydnhawn Sul. Yr oeddwn erbyn hyn yn dechrau myned yn ddihareb gan y bobl ar hyd y wlad; ond yr oeddwn yn cael fy nghario, megis ar adenydd, trwy bob helbulon, tufewnol ac allanol. Yn wir, yr oeddwn yn cael tiriondeb mawr gan Gyfaill pechaduriaid, ac yr oeddwn, mewn cymhariaeth, yn gwbl ddŷn arall. Nid oedd arnaf ofn cael fy ngwaradwyddo gan neb. Er bod y rhai a garent y tywyllwch yn fwy na'r goleuni yn bygwth peryglu fy mywyd; etto nid oedd hyny yn siglo dim arnaf, eithr ym mlaen yr euthum yn gysurus, heb feddwl fawr ar y pryd y byddai raid i mi fod yn fwy cyhoeddus. Fel hyn y treuliais haf y flwyddyn 1735."

Yn nechrau Tachwedd y flwyddyn hon, cafodd Harris fyned i Rydychain, trwy ryw foddion nad ydyw yn ei hyspysu. Gan fod ei ddau frawd, fel y gwelsom, mewn sefyllfaoedd uchel, ac yn bur gyfoethog, y mae'n debyg mai trwy eu cynnorthwy hwy yn benaf y cafodd y fantais, od oedd yn fantais hefyd. Beth bynag am hyny, yno yr aeth efe, a rhoddes ei enw i mewn yn Neuadd Mair Santes (*St. Mary's Hall*), dan ofal un Mr. Hart; ac wele ei brofiad, y gobeithion oedd o'i flaen, a'i ymddygiad yntau tra y bu yno, yn ei ymadroddion ei hun:—

"O blegid nad oedd genyf yn awr flas ar y difyrwch o fod yno, treuliwn y rhan fwyaf o'm hamser mewn gweddi ddirgel, neu yn yr addoliad cyhoeddus. Yr oedd fy nghyfeillion yn gobeithio y cawn fy llwyr ddiwygio yn Rhydychain o'm penboethni crefyddol, fel y dywedent; ond yr oedd yr Arglwydd Iesu yn awr wedi meddiaunu fy nghalon, fel nad oedd yr holl addewidion teg a osodent o'm blaen, yn cael fawr o effaith arnaf. Er bod genyf addewid sicr o gael fy nerbyn i fod yn Ben Athraw yr Ysgol Fawr, ynghyd a bywioliaeth eglwysig o 140p. y flwyddyn, gan ryw ŵr bonheddig; ac er fy mod wedi fy amgylchu â rhagolygon dymunol am ddyrchafiad yn y byd; etto pan welais yr anhrefn a'r anfoesoldeb â'm hamgylchynai yno, blinais yn fuan ar fy lle, a deisyfais ar Dduw fy rhyddhau oddi yno; ac felly ar ol aros y tymmor hwnw yno, cefais drachefn ffordd rydd i ddyfod yn ol at fy anwyl gyfeillion yng Nghymru."

Gan ei bod yn fis Tachwedd, 1735, ar Howel Harris yn myned i Rydychain, ac iddo aros yno dros "dymmor" (*term*) cyffredin y Brifysgol, y mae'n debyg ei bod yn fis Chwefror, 1736, pan ddychwelodd i'w wlad ei hun. Yn ebrwydd ar ol dychwel adref, dechreuodd dramwy, gan bregethu y gair o dŷ i dŷ; a pharhaodd i wneud hyny nes ymweled â'r rhan fwyaf o deuluoedd yn ei blwyf ei hun, ynghyd â rhai yn y plwyfydd cyfagos; ac ymdyrai y fath luoedd i wrando arno, fel y byddai y tai yr ymgynhullent ynddynt yn rhy fychan i'w

Digitized by Google

cynnwys. "Yr oedd y fath awdurdod yn cydfyned â'r gair," eb efe ei hun, "fel y llefai amryw allan yn y fan ar Dduw am faddeuant o'u pechodau; a chyffesai y rhai a fyddent mewn ymrafael â'u gilydd eu beiau y naill i'r llall, ac ymheddychent, ac ymddangosent fel rhai difrifol ynghylch eu cyflwr tragywyddol." Dechreuwyd addoliad teuluaidd mewn llawer o dai; a chyn belled ag yr oedd efe wedi bod, yr oedd tyrfaoedd mwy o bobl yn ymgasglu i'r eglwysydd, a mwy hefyd yn myned at fwrdd yr Arglwydd. A dyma'r canlyniad, eb efe ei hun:—

"Erbyn hyn, yr oedd yn llawn bryd i'r gelyn ymosod i'm herbyn mewn rhyw ddull arall; am hyny cynhyrfodd, nid yn unig y cyffredin bobl i'm gwatwor a'm herlid, eithr hefyd cyffrodd y penswyddogion a gweinidogion yr eglwys i ymegnïo i'm gwrthsefyll; y naill yn fy mygwth i, a'r rhai a'm derbynient i'w tai, â dirwy; tra y dangosai'r lleill eu digofaint, hyd eithaf eu gallu, i'm digaloni trwy foddion eraill. Bu hyn yn beth rhwystr dros ychydig amser, etto nis gallasid diffoddi y fflam a ennynwyd. Y mae'n wir i lawer sefyll yn ol gan ofn, er hyny nis gellid dychryn y rhai a ddenwyd trwy'r tyniad nefol; ac yr oeddwn innau yn parhau i gyfarfod y rhai hyny yn ddirgel, pan na feiddiem wneud hyny yn gyhoedd. Dechreuais drachefn fyned o dŷ i dŷ y Gwanwyn canlynol, fel o'r blaen, gan lefaru wrth bawb a dueddid i'm gwrando. Erbyn hyn yr oeddwn wedi ynnill cydnabyddiaeth âg amryw o'r Ymneillduwyr, y rhai a'm derbyniasant yn groesawus i'w tai. Fel hyn yr euthum ym mlaen hyd ddiwedd haf 1736. Yna annogwyd fi gan gyfaill caredig i agor ysgol yn Nhrefeca, yr hyn a wneuthum; eithr yn fuan wedyn symmudais i gadw ysgol yn Eglwys y plwyf. Rhoddes hyn gyfleusdra i amryw wŷr ieuaingc ddyfod i gael eu hyfforddi ymhellach yn ffordd iachawdwriaeth.

"O gylch diwedd y flwyddyn hon [1736], yr oedd dŷn o'm cymmydogaeth yn myned o'r naill blwyf i'r llall i ddysgu pobl ieuaingc i ganu Psalmau. Rhoddes hyn gyfleusdra arall i mi i wneuthur daioni, ac i ddangos fy nghariad at fy nghydbechaduriaid. Pan fyddai y bobl yn ymgasglu i ddysgu, ac i wrando arno ef yn canu, ni roddai neb ddim yn eu herbyn, mwy na phed ymgynnullasent i ddawnsio, neu ymladd ceiliogod; felly, pan ddarfyddai ef eu dysgu i ganu, rhoddwn innau iddynt air o gyngor, a ffurfiwyd amryw gymdeithasau crefyddol.* Dechreuais sefydlu y rhai hyn ar y cynllun y dyry'r Dr. Woodward hanes am rai cyffelyb mewn treuthawd bychan a ysgrifenodd efe ar hyny. Nid oedd hyd yn hyn ddim cymdeithasau o'r fath yng Nghymru na Lloegr.† Yr oedd y Methodistiaid Seisnig heb son am danynt etto, er bod yr Arglwydd, fel y clywais wedyn, wedi bod yn gweithio ar rai o honynt yn Rhydychain, a manau eraill. Eithr pan oeddwn fel hyn yn agored i bob math ar wrthwynebiadau, ac heb weled pa fodd y gallwn gymmeryd un llwybr diogel arall, agorwyd y ffordd o'm blaen drachefn, er eu bod yn bygwth fy nistewi, ac na chawn lefaru mwy. Ond, pa wedd bynag, yn nechrau yr haf canlynol, 1737, anfonodd rhyw ŵr bonheddig o sir Faesyfed am danaf i'w dŷ i lefaru, a chynhyrfodd cywreinrwydd rhai o wŷr mawr y gymmydogaeth hwy i ddyfod i'm gwrando. Symmudwyd rhagfarn rhai wrth ymddiddan â mi, ac argyhoeddwyd eraill o'u pechodau. Cefais achos i gredu y rhyngodd bodd i'r Arglwydd fendithio fy llafur. Yr oeddwn yn parhau i gadw yr ysgol hyd yn hyn, ac awn bob nos i lefaru yn y cyfryw leoedd ag yr anfonid am danaf, a gwnawn yr un modd ar y dyddiau gwylion a'r Sabbothau. O'r diwedd, tu a therfyn y flwyddyn hon, tröed fi allan o'r ysgol, a rhoddwyd terfyn arni; yr hyn, pa ddelw bynag, a fu'n foddion i heleuthu cylch fy llafur fel pregethwr. Ar ol hyn yr oeddwn yn barod, ac heb un rhwystr ar fy ffordd, i fyned i bob man y gelwid am danaf; a llefarwn y dydd a'r nos; weithiau pregethwn dair gwaith neu bedair yn y diwrnod, ac ar rai prydiau bum waith neu chwech yr un diwrnod, i dyrfaoedd mawrion o wrandawyr.

"Weithian yr oeddwn yn cael fy llwytho â phob math ar gam-achwyniadau, o bob cyfeiriad. Bygythiai yr ynadon fy nghospi, a phregethai yr offeiriaid yn fy erbyn yn yr eglwysydd, gan fy nodi allan fel gau brophwyd a thwyllwr; ac yr oedd gwehilion y bobl, dan gyfarwyddyd eu harweinwyr deillion, mor gyflym ag y gallent, ymhob lle, yn barod i'm niweidio. Etto, er yr holl ymosodiadau hyn, yr oeddwn yn cael fy nghludo yn orfoleddus, yr holl amser yma, megis ar adenydd eryrod, uwch law y cwbl. Nid arferwn gymmeryd un testyn neillduol, ond llefaru yn rhydd, fel y gwnai Ioan Fedyddiwr, yr apostolion, a holl aelodau eglwys Jerusalem, megis y rhoddai yr Arglwydd i mi ymadrodd. Tueddai y ddawn a dderbyniaswn hyd yn hyn, yn benaf, i ddeffro ac argyhoeddi y gydwybod o bechod. Ymddangosai yn awr argoel cyffredin o ddiwygiad mewn amryw siroedd. Yr oedd difyrwch cnawdol ac annuwioldeb yn lleihau, a son am grefydd yn cynhyddu; ac yr oedd lluoedd mawrion o bobl yn ymdyru i'r lleoedd addoliad. Yr oedd Ysgolion Cymreig Rhad yn ymdeunu fwyfwy trwy ymdrechion y Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror, a phobl gyffredin yn dangos parodrwydd i gymmeryd eu dysgu; a ffurfiwyd cymdeithasau mewn amryw fanau.

"O gylch yr amser yma, clywais gan gyfaill a ddeuthai o Lundain, fod gŵr eglwysig ieuangc, sef Mr. Whitfield, yn pregethu bedair gwaith y dydd, a'i fod o fendith i lawer. Wrth glywed hyn am dano, unwyd fy nghalon âg ef yn y fath fodd, fel na theimlais y cyffelyb undeb rhyngof âg un dŷn erioed o'r blaen; ond er fy nirfawr ofid, nid oedd genyf y gobaith lleiaf y pryd hwnw y cawn ei weled ef byth, canys hyspyswyd fi iddo fyned y tu hwnt i'r môr, o blegid hon oedd ei fordaith gyntaf i'r America. Pa wedd bynag, yn nechrau Ionawr, 1738, cefais y syndod dymunol o dderbyn llythyr oddi wrtho, yr hyn a'm llawenychodd yn ddirfawr. Yr oedd ef, yn rhagluniaethol, wedi clywed peth o'm hanes, ac ysgrifenodd ataf er mwyn fy nghalonogi i fyned ym mlaen yn eofn yn y gwaith mawr a ddechreuaswn. Yr oeddwn ar y pryd mewn gofid meddwl dirfawr o blegid fy ngwaith yn myned o amgylch fel pregethwr teithiol: er hyny yr oeddwn yn myned ym mlaen gan lefaru gyd â phob bywiowgrwydd. Yr oeddwn yn cael cymdeithas felus â Duw mewn gweddi ddirgel yn feunyddiol, ac yn neillduol wrth fwrdd yr Arglwydd, at yr hwn yr awn ar bob cyfleusdra. Etto yr oeddwn yn cael fy mlino yn barhaus o blegid fy null teithiol o bregethu, ac yn cael fy siglo gan Satan, a chan deimlad o fawredd y gwaith, a golwg ar fy ngwendid a'm hanfedrusrwydd fy hun i fyned trwyddo: er hyny yr oeddwn yn cael cymhelliad i fyned ym mlaen gan deimlad o'r awdurdod parhaus oedd yn cydfyned â mi yn y gwaith; trwy daerni y rhan fwyaf o'r bobl, a thrwy eglur duedd dda fy llafurwaith, ynghyd âg unol alwad a chymmeradwyaeth y rhai

* "Society Profiad" y galwodd Williams, Pant-y-Celyn, y cymdeithasau hyn (Holl Weithiau Wm. Williams, t. 651); yr un rhai ag a alwodd Daniel Rowlands yn "Gymdeithasau neu Gyfarfodydd Neillduol," i'r sawl yr ysgrifenodd efe "Reolau."—Cof. D. R., gan M. D., t. 315.

† Hyny yw, ni wyddai Harris am rai o'r fath yng Nghymru na Lloegr; ond y gwir yw bod cyfarfodydd cyffelyb yn cael eu cynnal yn achlysurol, o leiaf, fel y crybwyllwyd eisoes, er amser y Puritaniaid, Wroth, Erbury, Cradoc, ac eraill, y rhai a elwid yn gyffredin yn "gyfarfodydd parotoad," er mwyn hyfforddi y rhai a fwriadent dderbyn swper yr Arglwydd. Gwelsom hefyd bod Phylip Henry yn cynnal cyfarfodydd o'r fath ar gyffiniau sir Fflint a sir Gaer, er yn agos i 80 mlynedd cyn i Howel Harris sefydlu "cymdeithasau neillduol."

Digitized by Google

a ystyriwn i yn weinidogion grasol. Byddai fy yspryd fel hyn yn cael ei fywhau o'r newydd, yn enwedig pan yng ngwaith yr Arglwydd yn llefaru, fel na byddai arnaf ofn na dŷn na diafol. Nid oedd genyf y fath nerth a gwrol-deb wrth natur; am hyny ymddangosai i mi yn ddïam-heuol ei fod yn oruwchnaturiol, ac oddi wrth Dduw.

"O berthynas i bwngc fy ymadrodd, yr oedd yn cael ei roddi oll i mi mewn modd nodedig, heb y rhagfyfyrdod lleiaf; ac nid cynnyrch fy nghof ydoedd ychwaith, canys nid cof da oedd genyf erioed wrth natur: am hyny nerthol gynhyrfiad diragfyfyr a deimlwn yn fy enaid ydoedd; yn wir, nis gallwn ymattal, gan yr angenrhaid a osodid arnaf i ddeffrôi eneidiau pechaduriaid. Fel hyn yr oeddwn yn myned ym mlaen, ond dan ofn a dychryn, rhag y gallai eraill, o gam-ddibenion, gymmeryd achlysur oddi wrth fy esampl i, i fyned o amgylch i bregethu. Parodd hyn i mi daer weddïo am gael gwybod ewyllys Duw yn fwy cyf-lawn, pa un ai ei ogoniant ef, ac iachawdwriaeth fy nghyd-bechaduriaid oedd yr unig amcanion yn fy ngolwg. Wedi holi fy hun fel hyn, cefais nerth i ymddiried, ymhob peth, ar y cadernid a'r gras sydd yng Nghrist Iesu, am gym-morth i'm dwyn yn ddïysgog trwy'r gwaith mawr; ac os galwai ei anrhydedd ef i mi ddïoddef, i gael fy ngharcharu a'm poenydio, y cawn ef yn gyfaill ffyddlon ymhob cyf-yngder, yn angau, ac i bob tragywyddoldeb. Er cael o honof fel hyn amryw arwyddion cysurus bod fy anfoniad oddi uchod, etto nid oeddwn yn gwbl foddlawn yn fy meddwl fy hun, nes i mi gael fy ngwysio i ymddangos ger bron gŵr cyfrifol, i roddi cyfrif o'm gwaith yn myned o amgylch i bregethu fel yr oeddwn, pan y daeth y geiriau hyn yn rymus iawn i'm meddwl, 'Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau,' Dat. iii. 8. Wrth yr effaith rasol a weithredwyd ar fy enaid, yr wyf yn credu yr anfonwyd yr addewid hon i mi gan yr Yspryd Glân.

"Erbyn hyn* yr oedd y Parch. Daniel Rowlands, yng-hyd â dau neu dri eraill o weinidogion ieuangc Eglwys Loegr, wedi cael eu galw yng Nghymru i bregethu yr efengyl yr un modd a minnau."

Fel hyn y dechreuodd gwasanaeth un o'r pre-gethwyr mwyaf llwyddiannus a esgynodd erioed i bulpud, neu uchelfan yng Nghymru. Nid ystyrid ef yn bregethwr mawr, yn ol yr ystyr a roddir i fawredd pregethwr gan rai a honnant eu hunain yn feirniaid pur fawr; ond os mawredd pregethwr yw argyhoeddi pechaduriaid, a'u dychwel at Dduw, yr hyn yw prif amcan pregethu yn ol y Testa-ment Newydd, yr oedd Howel Harris yn un o'r pregethwyr mwyaf a gyfodwyd gan Dduw ar ol yr apostolion. Ei amcan mawr ef wrth bregethu oedd gwneuthur fel y cyfarwydda Paul, yr hwn a ddywed—"Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyd â phob hir-ymaros, ac athrawiaeth," 2 Tim. iv. 2. Prif gynnwys ei bregethau "diragfyfyr" ef, fel y galwai hwynt, dros gryn amser ar ol ei gychwyniad, oedd dangos drygedd ofnadwy pech-od yn angau, yn y farn, ac yn uffern. Yr oedd ei eiriau yn disgyn fel peleni o dân ar y lluoedd dïofal a phechadurus; ac yn ystod chwech neu saith mlynedd, cynhyrfodd ef a'i gydlafurwyr yr holl Dywysogaeth. Yr oedd ei ymddangosiad y mwyaf mawreddog; ei lais yn ddwys, soniarus, a chadarn; a'i ddifrifwch yn gwbl anwrthsafadwy ac awdurdodol. Byddai ei holl wrandawyr bron yn cael eu taro naill ai â difrifwch arswydus, neu yn myned yn llidiog a gorphwyll yn ei erbyn. Cafodd llawer iawn eu gwir ddychwelyd at Dduw, a mygodd eraill lais cydwybod trwy erlid y pre-gethwr a'i gyfeillion. Er bod Howel Harris yn aelod o'r fath fwyaf cywir a diffuant o'r Eglwys Sefydledig, etto canfu mai clerigwyr yr eglwys honno, a'u hymlynwyr, oedd ei wrthwynebwyr chwerwaf; yn wir, prin y gellir dywedyd iddo gyfarfod â dim teilwng o'r enw gwrthwynebiad oddi wrth neb ond Eglwyswyr. Yn lled fuan ar ol iddo ddychwel o Rydychain, a dechrau pre-gethu, derbyniodd y llythyr canlynol oddi wrth Ficar ei blwyf ei hun:—

"Talgarth, Chwefr. 1735-6.

"Syr,—Pan hyspyswyd fi gyntaf eich bod yn cymmeryd arnoch hyfforddi eich cymmydogion yn Nhrefeca ar ach-lysur neillduol, sef ar natur y sacrament, a'u cymmell i gyflawni y ddyledswydd, trwy ddarllen pennod o'r llyfr rhagorol a elwir 'Holl Ddyledswydd Dŷn,' tybiais ei fod yn deilliaw o duedd dduwiol a charedig. Ond gan i chwi fyned mor bell a thraddodi eich darlithiau cyhoeddus o dŷ i dŷ, y mae'n llawn bryd eich hyspysu am y pechod a'r gosp a dynwch arnoch eich hun trwy wneuthur felly. Nid yw'r swydd a gymmerasoch mor rhydd yn perthyn i neb o'r lleygwyr yn ddim pellach nag yn ddirgel yn eu tai eu hunain: ac os rhynga bodd i chwi gymmeryd eich Bibl mewn llaw, chwi a ganfyddwch yno y barnau trymion a dywalltodd Duw ar gyssegr-yspail ac annuwioldeb y rhai a gymmerasant arnynt yn rhyfygus ruthro i'r swydd wei-nidogeuthol. Od ymgynghorwch â hanesion y genedl hon, cystal a chenhedloedd eraill, chwi a welwch effeithiau erchyll a galarus zel bleidgar, a sanctiolaeth Puritanaidd: canys gwaith hawdd ydyw hudo pobl anwybodus ac annysg-edig, a thrwy awgrymiadau cyfrwys o dŷ i dŷ, eu cymmell i gofleidio pa egwyddorion bynag a ddewisoch. Y mae genyf un trosedd trwm etto i'w ddodi yn eich erbyn, sef hwn:—Eich bod, ar ol i chwi esponio, un dydd Sul, ar 'Holl Ddyledswydd Dŷn' i'ch gwrandawyr, yr hwn, yn fy marn i, sydd wedi ei ysgrifenu mor eglur a dealladwy, fel y mae'n amhossibl ei aralleirio heb dywyllu a dyrysu meddwl yr awdur, wedi terfynu trwy weddi ddifyfyr hir, yn llawn o ailadroddion, adeiriadau, &c. Attolwg, ystyr-iwch pa mor atgas y sawria peth fel hyn o benboethni a rhagrith. Yr wyf yn gobeithio y bydd i'r hyn a ddywed-ais eisoes eich anghefnogi i gyflawni y fath ddrwg arferion rhag llaw. Ond os na lwydda cyngor eich gweinidog, bydd i mi hyspysu eich brawd am danoch; ac os cyndyn bar-hewch yn eich ffordd eich hun, rhaid i mi hyspysu fy esgob yn eich cylch, yr hyn a fydd yn rhwystr anorfod i chwi gael Urddau Sanctaidd, canys dyry eich gwaith yn

* Tua a'r flwyddyn 1738, medd ysgrifenydd yn *Y Traethodydd* (llyfr. x. t. 5), "y clywodd Harris son am Rowlands, Llangeitho, gyntaf. Bu'n awyddus iawn dros dymmor, wedi clywed am y grym-u-derau oedd yn cydfyned â gweinidogaeth Rowlands, i'w wrando. Cafodd y cyfleusdra cyn bo hir, yn Defynog, sir Frycheiniog, tra'r oedd Rowlands ar daith yn pregethu yn y parthau hyny." Howel Davies, yn ddïau, oedd un o'r "dau neu dri" y cyfeiria Harris atynt uchod. Pwy oedd yr un neu'r ddau arall, nis gwyddom, canys nid oedd Williams o Bant-y-Celyn, na Peter Williams, wedi tori allan etto i bregethu yn y prif ffyrdd a'r ceuau, fel y ceir gweled rhag llaw.

Digitized by Google

tunir yn gyffredin, y tröed ef allan o'r Eglwys Sefydledig, wedi bod yn gwasanaethu ynddi am 30 mlynedd, sef o 1733 hyd 1763. Y cyhuddiad a roddid yn ei erbyn oedd, ei fod yn pregethu mewn lleoedd anghyssegredig, a'i fod yn myned o amgylch i bregethu. Ymddengys bod ei feibion, yn enwedig yr hynaf, John, yn fwy cydweddol â'r Eglwys Sefydledig nag ef ei hun; am hyny, pan foddodd ei frawd hynaf yn 1760, fel y crybwyllwyd, rhoddwyd bywioleuthau Llangeitho a Llancwnlle i'w fab hynaf, ac felly curad oedd Daniel Rowlands, o 1760 hyd 1763, i'w fab ei hun! "Gwnaeth Rowlands iddo ei hun elynion," medd awdur *Methodistiaeth Cymru*, "trwy ddywedyd y gwir. Cynfigenai yr offeiriaid dilafur a diles wrth ei lwyddiant a'i boblowgrwydd: teimlent yn dramgwyddedig o blegid yr athrawiaeth a bregethai, ac o blegid yr eiddigedd a ddangosai yn erbyn drwg-foesau gwreng a bonheddig. Ymddengys ddarfod ei alw o flaen yr esgob amryw weithiau mewn canlyniad i'r achwynion a wneuthid yn ei erbyn. Dywedir i'r esgob ymresymu âg ef amryw weithiau ynghylch yr hyn a dybid yn afreolaeth, gan ei gymmell i roi heibio yr arfer o wibio yma ac acw i bregethu. Dywedai Rowlands, mewn ffordd o esgusawd, bod amgylchiadau y wlad yn gofyn y fath ymdrechiadau, a'i fod yn credu bod arddeliad y nef ar y gwaith, ac am hyny na allai lai na pharhau ynddo."*

Y mae dau ddull ar hanes ei droad allan o'r Eglwys Wladol. Dywed y Parch. J. Owen a'r Parch. E. Morgan mai yn Llanddewi-brefi yr oedd efe yn gweinyddu pan ddaeth y swyddogion ato, gyd â gorchymyn oddi wrth yr esgob, y rhai, wedi myned i'r eglwys tra yr oedd efe yn darllen y gweddïau, a'i bwriasant ef allan cyn iddo ddechrau pregethu; a darfod iddo, ar daer gais y gynnulleidfa, bregethu iddynt oddi ar fur y fonwent.

Yr hanes arall am droad bythgofiadwy Rowlands allan o'r Sefydliad Gwladol a gafodd awdur *Methodistiaeth Cymru* gan un o flaenoriaid oedranus yr eglwys Fethodistaidd yn Llangeitho, yr hwn a dystiai nad cywir yr hanes uchod, ac a ysgrifenai ato i'r ystyr yma:—

"Yn Nadolig y flwyddyn 1763 y tröed ef allan gan swyddogion yr esgob. Tybiaf fod camgymmeriad yn hanes ei fywyd gan y Parch. J. Owen, pan y dywed mai o Landdewi-brefi y tröed ef allan, canys y mae'r hanesion a gefais i yn sicrhau mai yn Llangeitho a Nantcwnlle yr oedd ef yn gweinidogeuthu ar y pryd. Bûm yn ymddiddan â hen ŵr a'i enw John Jenkins, yr hwn, pan yn hogyn tu a 15 oed, a aethai gyd â'i rieni i Nantcwnlle i wrando Rowlands ar ryw Sabboth, ac i ddau swyddog oddi wrth yr esgob ddyfod yno i droi Rowlands allan; a bod Rowlands wedi dechrau yr addoliad cyn eu dyfod. Attaliodd y bobl y gwŷr wrth y drws nes iddo orphen pregethu; yna aeth rhywun i hyspysu iddo ddyfodiad y gwŷr, a'u diben. Ar hyn, disgynodd Rowlands yn ddïoed o'r pulpud, a daeth atynt i'r drws, gan ofyn eu neges. Hwythau a fynegasant iddo. 'O,' ebai Rowlands, 'gallasai ei arglwyddiaeth gymmeryd llai o boen arno na'ch danfon chwi yma. O'm rhan i, nid âf byth o fewn i'w muriau mwy. Os mynwch chwi, hi gaiff fod yn lletty dylluanod. Y mae'r bobl yn barod i ddyfod gyd â fi.'

"Tystiai yr hen ŵr ei fod ef yn bresennol ar y pryd, ac yn clywed hyn oll; ac mai yn y modd a ddarluniwyd y bu'r amgylchiad. Ac fe ŵyr pawb sydd mewn oedran i gofio hefyd, mai yn gwbl anghyfannedd, ym mron, y bu y rhan fwyaf o'r llanau, yn y cymmydogeuthau hyn, am amser maith ar ol troad Mr. Rowlands allan."†

Tybiwn mai at y tystioleuthau uchod y cyfeiria'r Dr. Edwards yn y difyniadau canlynol, y rhai sydd yn dra theilwng o ddarlleniad ac ystyriaeth:—

"Difyr yw darllen ym *Methodistiaeth Cymru* am y dull y llwyddodd yr hen ddïacon craffus o'r Dolau Bach, i gael allan brofion i ddangos bod Rowlands yn Ymneillduwr ewyllysgar. Nid oes un ymresymiad cadarnach yn Euclid. Ond er bod Rowlands yn parotôi i ymadael, etto tynodd yr Eglwys Sefydledig arni ei hun yr anfri o'i droi allan. Os oedd y pechod o *sism* yn gyssylltedig o gwbl â'r amgylchiad hwn, y mae'n rhaid mai yr esgob a'i trodd ef allan oedd yn euog; ac nis gwyddom nad yw yr euogrwydd hwnw yn gorwedd hyd heddyw ar yr eglwys o'r hon y cafodd ei ddïarddel. Ond cyn gadael y matter hwn, y mae i ni air hefyd â'r Ymneillduwyr. Cymmerir yn ganiataol ein bod ni, yn yr oes hon, ryw bellder mawr o flaen yr oesoedd a aethant heibio gyd â golwg ar egwyddorion Ymneillduaeth; ac nid ydym yn ammau nad oes goleuni chwanegol wedi ei roddi ar ryw ranau o'r achos hwn, fel achosion eraill. Ond pan glywn y dynion mwyaf yn cael eu diraddio, y mae'n creu gradd o wrthdarawiad yn ein meddwl, ac yn peru i ni ymofyn a oeddynt hwy ddim yn gweithredu oddi ar ryw egwyddor yn gystal a ninnau. Egwyddor fawr y Puritaniaid ydoedd gwirionedd; ac egwyddor fawr yr hen Fethodistiaid ydoedd achubiaeth y byd. Ymneillduodd y Puritaniaid o'r diwedd, am eu bod o gydwybod yn methu gwneud yr hyn yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn ei ofyn; hyny yw, yn methu dyweyd

y mae yntau, mewn nodyn ar ddiwedd y rhestr o enwau y derbynwyr am y 'Pum Pregeth,' yn dïolch iddo yn gyhoeddus am danynt. Addefa y cyhoeddwr, yn ei ragymadrodd i'r tair cyntaf, bod y brys i'w dwyn allan gymmaint fel na chafodd yr awdur, ynghanol ei lafurwaith, amser i'w darllen wedi eu hysgrifenu, cyn rhoddi'r copïau o'i law i'w hargraphu. Nid oedd ychwaith mewn cyfleusdra i edrych drostynt ar eu dygiad allan o'r wasg. Dywed y golygydd ddarfod iddo wneud ei orau i'w cael yn gywir, a chaniateir hyn yn rhwydd iddo; ond y mae'r orgraph [y llythyraeth] yn aml yn afreolaidd a gwallus, a'r gwahannodiad yn dra diffygiol, fel yn y cyffredin o lyfrau y ganrif ddiweddaf. Y mae ymadroddion cryno yr awdur yn fynych yn cael cam, trwy daflu amryw ynghyd i wneud un ymadrodd maith, a bod y brawddegau yn aml yn rhedeg i'w gilydd, o ddiffyg defnyddio'r attalnodau a'r prif lythyrenau priodol. Y mae trefniad a rhifnodiad y gwahanranau, y penau, a'r adranau, yn rhai o'r pregethau yn ddyrys ac aneglur; a'r dyryswch, weithiau, wedi ei wneud yn fwy yn yr argraphiadau dilynol. Y mae ambell air hefyd wedi ei adael allan, fel y mae'n anhawdd weithiau gwneud allan yr ystyr. Cymmerwyd cryn ofal i osgöi y diffygion hyn yn yr argraphiad presennol," sef argraphiad 1876.—Gwel y Cofiant yn yr argraphiad hwn, t. 84–5.

* Method. Cymru, cyf. i., t. 354–5.

† Method. Cymru, cyf. i., t. 354, 357–8.

Digitized by Google

anwiredd. Ymneillduodd y Methodistiaid am eu bod o gydwybod yn gorfod gwneud yr hyn yr oedd yr Eglwys Sefydledig yn ei wahardd; hyny yw, ymdrechu, hyd y gallent, i achub eu cyd-ddynion. Felly yr oedd Ymneillduaeth yr hen Anghydffurfwyr a'r hen Fethodistiaid yn dwyn perthynas, yn fwyaf neillduol, â chydwybod. Ond gellid meddwl, weithiau, bod Ymneillduaeth yr oes hon yn dwyn perthynas, yn fwyaf neillduol, â'r llogell. Beth os yr Anghydffurfwyr, a'r hen Fethodistiaid, wedi'r cwbl, ydoedd ar y tir cadarnaf?

"Adroddir am Rowlands [fel y gwelir uchod], iddo ddywedyd, cyn ei droi allan, 'Fe ddaw y bobl gyd â fi.' Pa un a ddywedodd efe y geiriau hyn ai peidio, y mae'n hysbys mai fel hyn y bu. Codwyd capel helaeth iddo yn ddïoed, mewn man cyflëus, ac yno y bu'n gweinidogeuthu wedi hyny am 27 o flynyddau. Gofalai yn arbenig am fod yno unwaith bob mis, ar Sul y cymmundeb, pryd y byddai dim llai, meddir, na phedair neu bum mil yn arfer ymgynnull. Dywed ei fywgraphiedydd mai tebycach i ffair fawr, o ran niferi, oedd yr ymgynnull; ond nad oedd yno ddim o ddadwrdd na therfysg ffair, gan fod nerth anorchfygol y weinidogaeth yn eu sobreiddio. Rhyfyg o'r mwyaf fyddai i ni geisio disgrifio Rowlands fel pregethwr. Yn ol tystiolaeth y rhai mwyaf cymmwys i farnu, yr oedd yn ddigyffelyb. Dywedai Mr. Charles, yn yr hen *Drysorfa*, bod ucheledd a phob rhagorieuthau yn ei ddoniau: dyfnder defnyddiau, grym a phereidd-dra llais, ac eglurder a bywiowgrwydd yn traddodi dyfnion bethau Duw, er syndod a'r effeithiolrwydd mwyaf ar ei wrandawyr. Dywedai y diweddar Mr. Griffith, o Nefern, yr hwn oedd wedi gwrando llawer ar y gweinidogion enwocaf yn Lloegr a Chymru, mai Rowlands oedd y pregethwr mwyaf a godidocaf a glywodd erioed. Y mae'n amlwg fod ynddo gymmwysderau naturiol mwy na chyffredin; ond am ansawdd y cymmwysderau hyny, nid oes genym ond hyspysrwydd amherffaith. Nid oedd yn canu nac yn bloeddio. Nid ydym yn dywedyd hyn i ddiystyru y naill na'r llall: ac yn sicr ni ddymunem golli yr hen dôn serchiadol, na'r floedd soniarus, o bulpudau Cymru. Ond y mae hyn yn dangos nad ydynt yn anhebgorol, ac na raid i neb feddwl nas gall bregethu yn effeithiol, er nad yw wedi ei gynnysgeuddu â dawn i ganu nac i floeddio. Siaradai Rowlands yn naturiol a bywiog; dyrchafai ei lais yn raddol wrth fyned ym mlaen; a phan ddeuai at ddiwedd y matter, byddai y dôn honno drosodd, a dechreuai yntau yn bwyllog ar fatter arall. Ond fel y dywedodd ef ei hun, nas gellid trosglwyddo i bapur yr elfen fywiol oedd yn ei bregethau, felly nis gellir rhoddi un meddylddrych am danynt trwy ddisgrifiad. Yr oeddynt yn llawn o dân byw. Yr oedd rhyw angerddoldeb ofnadwy ynddynt, ac yr oeddynt, o ganlyniad, yn effeithio yn gyfattebol ar y gwrandawyr."*

Yn ystod yr un flwyddyn ag yr ymadawodd o'r Eglwys Sefydledig, sef 1763, cyhoeddwyd ei gyfieithiad o "Bymtheg Araith, ar Amryw Destunau," o flaen y rhai y mae rhagymadrodd gan Peter Williams.† Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r gwaith yma yn 1767;‡ neu ynte, rhoddwyd enwad-ddalen newydd i argraphiad 1763. Tybir hefyd mai D. Rowlands oedd gyfieithydd llyfr a gyhoeddwyd yn 1769, dan yr enw "Cwmni yn y Goelbren," sef dwy bregeth o waith y Parch. Thomas Boston ar Preg. vii. 13, a'r Diar. xvi. 19.§

Yn y flwyddyn 1772, cyhoeddwyd "Tair Pregeth" o waith Daniel Rowlands ar Mat. ii. 8, 9; Heb. i. 9; a Mat. xviii. 15. Ac yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd "Pum Pregeth" o'i waith ar Luc xxiii. 42, 43; Rhuf. viii. 28; Dat. iii. 20; Judas 9; 1 Petr ii. 2; ac ychwanegwyd amryw hymnau atynt.* Yn 1774, cyhoeddwyd cyfieithiad o "Ryfel Ysprydol" John Bunyan, gyd â rhagymadrodd byr, ond pur ddyddorol, gan "Daniel Rowland."† Ac yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Thomas Davies "Wyth Bregeth" Saesneg o'i waith, "a bregethwyd ar Byngciau Ymarferol, yn yr Eglwys [Capel] Newydd, yn Llangeitho, Deheudir Cymru."‡ Yn y flwyddyn nesaf, 1775, cyhoeddwyd "Tair Pregeth" o'i waith ar Luc xv. 5; Ioan v. 6; Psalm lxv. 5.§ Yn y flwyddyn 1776, cyhoeddwyd "Ychydig Hymnau yn ychwaneg gan y Parchedig D. Rowland."‖ Y gwaith olaf o'i gyfansoddiad ef a gyhoeddwyd, hyd y canfyddwn ni, oedd "Llwyddiant wrth Orsedd Gras:" pregeth ar Judas 20, a gyhoeddwyd yn 1813.¶

Dengys nifer y llyfrau uchod, ynghyd â'r rhai a nodwyd o'r blaen, nad areithiwr digyffelyb yn unig oedd Daniel Rowlands, ond hefyd ei fod yn ysgrifenydd diwyd a helaeth iawn, ac ystyried maint ei lafur a'i deithiau fel pregethwr. Prawf ei bregethau argraphedig hefyd nad dawn effeithiol i draddodi yn rymus yn unig oedd ganddo ef, ond ei fod yn dduwinydd rhagorol ymhell cyn diwedd ei oes lafurfawr; ac, megis y dywedodd Mr. Charles, fel y gwelsom, yr oedd ef yn meddu "dyfnder defnyddiau." Ysgrifenydd arall a ddywed fod ei bregethau "yn Ysgrythyrol ac efengylaidd; yn eglur, dwys, a chymmwysiadol iawn; yn llawn o feddwl a matter, wedi eu gosod allan mewn iaith ddymunol, ac ymadroddion cryno, destlys, a tharawiadol. Y mae ei gymmarieuthau lliosog wedi eu cymmeryd oddi wrth braidd bob peth yn y byd, ac yn hawdd i'r mwyaf diddysg eu deall. Oddi eithr engraifft neu ddwy, y mae eu cyfaddasder yn dra nodedig a darluniadol. Y mae'n amlwg y byddai yn tynu yn lled helaeth weithiau o awdwyr cymmeradwy a ddarllenai; ond gwisgai y cwbl yn ei ddull priodol ei hun, ac i'r amcan a fyddai ganddo mewn golwg. Y mae eisiau argraphiad newydd, cywirach, a llawer mwy destlus, o'r Deuddeg Pregeth, nag a gafwyd etto; yn cynnwys hefyd rai traethodau byrion, llythyrau, a hymnau, o'i waith sydd etto ar gael."**

* Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 489–91.
† Llyfr. y Cymry, t. 465. ‡ Yr un, t. 498. § Yr un, t. 507.

* Deuddeg Preg. D. R. a'i Gofiant, gan M. D., t. 87.
† Yr un, t. 89. ‡ Yr un, t. 88. § Yr un, t. 87.
‖ Yr un, t. 89. ¶ Yr un, t. 88.
** Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 91.

Digitized by Google

Cydsyniwyd â'r dymuniad gwladgarol yma i'r llythyren, bron yr un adeg ag yr ysgrifenid ef, fel y gwelir isod.*

Ond, pa mor enwog, defnyddiol, a chymmeradwy bynag y dichon i ddŷn fod, y mae "amser terfynedig i ddŷn ar y ddeuar:" felly dyddiau Daniel, yr un modd a "dyddiau Dafydd, a nesasant i farw." Ychydig amser yn ol, pan ddeallodd rhyw Eglwyswr pur zelog ein bod mewn cyssylltiad â'r gwaith hwn, cawsom annogaeth ddifrifol iawn i gofio cofnodi bod Daniel Rowlands, ychydig cyn terfynu ei oes, wedi annog ei fab Nathaniel yn ddifrifol i beidio ymadael o'r Eglwys Sefydledig, ar un cyfrif. Gan fod y matter yma yn hollol ddïeithr i ni, gadawn i'r unig ysgrifenydd a welsom yn cyffwrdd âg ef dreuthu ei len arno:—

"Y maent hwy [yr Eglwyswyr] yn ofalus iawn i ddwyn ym mlaen dystiolaeth Rowlands wrth ei fab o blaid yr Eglwys, sef ei annog i beidio ei gadael, o blegid bod diwygiad mawr i gymmeryd lle ynddi. I beidio son bod y ddau beth yn anghysson, paham yr ânt i'r boen o geisio rhoddi esgus cloff dros yr esgob, pan y mae cyfaddefiad Rowlands yn cyfiawnhau yr esgob. Ond nid yw'r dystiolaeth hon yn profi dim, ond profi mor araf y mae goleuni yn dyfod i mewn i'r meddwl dynol; ac nad yw geiriau, mwy nag ymddygiadau, Diwygwyr i'w cymmeryd yn dystiolaeth ar ddim, heb ystyried, yn gyntaf, beth oedd gwaith eu hoes. Y maent oll yn dechrau trwy alw pechaduriaid at Dduw; cael defnyddiau eglwys, heb feddwl dim am ffurf eglwysig. Nid oedd un meddwl ym mynwes Luther, yn y dechrau, am ymadael âg Eglwys Rhufain; yn hytrach, ei diwygio hi oedd ei amcan ef, heb feddwl bod y gwallau mawrion oedd ynddi yn rhanau hanfodol o honi, ac nid yn bethau damweiniol. Ond ar ol ei fwrw allan, gwelodd yn raddol mai hi ei hun oedd y gwallau hyny, a bod yn amhossibl symmud y naill heb symmud y llall. Bu agos i Melancthon werthu y Diwygiad, er mwyn cadw undeb âg Eglwys Rhufain. Nid ydym yn gwybod i'r un o'r Eglwyswyr a sefydlasant Fethodistiaeth, ddyfod o'r Eglwys oddi ar argyhoeddiad meddwl bod cyssylltiad y cyfryw â'r wlad yn anysgrythyrol; ond deuthant allan am na chaniateid iddynt fod mewn cyssylltiad â hi; a hefyd, am ddefnyddio pob adeg a gaent i rybuddio pechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd. Pe goddefasid iddynt wneuthur hyny, ni buasant yn meddwl am ymadael, mwy nag y buasai Luther yn meddwl am ymadael âg Eglwys Rhufain, pe goddefasid iddo yntau bregethu mai trwy ffydd y cyfiawnheir dŷn gyd â Duw. Ond yr oedd ymadawiad âg Eglwys Rhufain yn nhuedd yr athrawiaeth yna, er nad oedd Luther yn canfod hyny ar y dechrau: felly ni ddarfu i'r Pab wrth ei ysgymmuno ef a'i ganlynwyr ond prysuro peth a fuasai yn cymmeryd lle o hono ei hun mewn amser. A phe buasai yr esgob heb droi Rowlands allan [o'r Eglwys], fe allai y gallasai efe farw yn ei mynwes hi; ond yr oedd ymadawiad â hi yn natur yr ysgogiad a gychwynwyd gan Rowlands. Yr oedd yn rhaid i Fethodistiaeth ymadael â hi yn hwyr neu hwyrach; a da oedd iddynt wneuthur y pryd y gwneuthant. Ac os na welodd ef fod y gwallau sydd yn Eglwys Loegr yn hanfodol i'w chyfansoddiad hi, fel y gwelodd Luther am wallau Eglwys Rhufain, yr achos o hyny oedd, nad yw'r gwallau hyny mor fawrion, ac felly mor amlwg, yn y naill ag ydynt yn y llall. Yr oedd Anghydffurfwyr yn nyddiau y Puritaniaid, fel y mae yn awr; ond yr oedd y rheswm a roddent hwy dros eu Hanghydffurfiaeth yn dra gwahanol i'r hwn a roddir dros Anghydffurfiaeth y dyddiau hyn. Nid cyssylltiad yr Eglwys â'r Wladwriaeth a barai i'r Puritaniaid ei gadael, ond y pethau a ystyrient hwy yn Babaidd a berthynent i ddefodau ei gwasanaeth hi. Y mae Anghydffurfwyr y dyddiau hyn yn ymneillduo o blegid anysgrythyroldeb cyssylltiad Eglwys â Gwlad. Etto, y maent yn blant, ymhob ystyr, i'r Anghydffurfwyr cyntaf; a phe buasai y rhai cyntaf yn fyw, buasent hwythau yn Anghydffurfwyr heddyw am yr un rheswm a'u plant. Os oeddynt yn casâu y ffrwd am ei bod yn chwerw, buasent, ond cael amser i'w holrhain i'w ffynhonell, yn casâu honno hefyd o blegid yr un peth. Os gadawodd Rowlands yr Eglwys er ys can mlynedd yn ol am nad allasai gael pregethu Crist, a pherthyn iddi, buasai yr un Rowlands yn ei gadael yn y dyddiau hyn oddi ar weled mai ei chyssylltiad â'r Llywodraeth oedd y ffynnon oedd yn chwerwi yr holl ffrydiau. Ymddygodd Rowlands, fel y Puritaniaid, i fynu at oleuni ei oes. Nid oedd goleuni wedi ei roddi y pryd hwnw, ond ar y drwg oedd yn yr Eglwys; eithr y mae goleuni yn awr wedi ei roddi ar yr achos o hono; a dïau y buasai yr un egwyddor ag a'i cymhellodd ef i ymddwyn i fynu at oleuni gwanaidd yr oes honno, yn ei gymmell i ymddwyn i fynu at oleuni cryfach yr oes hon. Am hyny, cymmered Eglwyswyr eiriau Rowlands, os mynnant, yn ddadl y dylai y Methodistiaid ddychwelyd i'r Eglwys: cânt hwythau gymmeryd gweithredoedd Rowlands yn ddadl dros eu hymneillduaeth.

"Rhag i neb feddwl ein bod, wrth ddywedyd y pethau hyn, yn angharedig ac annïolchgar i Eglwys Loegr, nid ydym yn anghofio mai i'w gweinidogion a'i haelodau hi yr ydym yn ddyledus am y Bibl i'n iaith. Yr oedd Salesbury, Morgan, a Parry, yn perthyn iddi hi. Nid ydym yn anghofio mai un o'i hoffeiriaid hi a ysgrifenodd 'Lyfr y Ficar,' yr hwn oedd Ioan Fedyddiwr y dyddiau gynt. Gwyddom mai un o'i gweinidogion hi oedd Gruffydd Jones, yr hwn a fraenarodd Gymru i dderbyn yr had da. Gwyddom mai un o'i haelodau hi a fu'n offeryn i argyhoeddi Peraidd Ganiedydd Cymru. Gwyddom mai oddi ar fwa un o'i hoffeiriaid hi yr aeth y saeth i galon Rowlands. Addefwn yr holl bethau hyn, fel yr addefwn mai i Fynachod Eglwys Rhufain yr ydym yn ddyledus am gadw gwybodaeth, ac yn enwedig am gadw y Bibl yn y byd trwy yr oesoedd tywyll. Ond nid yw hyn yn ddigon o reswm dros i ni gymmeradwyo yr eglwys honno: felly, nid yw yr holl gymmwynasau hyn a wnaed i Gymru gan weinidogion Eglwys Loegr ddim yn ddigon o reswm dros i ni gymmeradwyo ei phob peth hi; ac yn wir, y mae'r pethau yn fynych yn hytrach yn myned yn erbyn yr Eglwys, o blegid ei harfer hi yn yr oes honno oedd troi o'i chymmundeb y rhai a wneuthant y pethau ar gyfrif pa rai y mae hi, yn y dyddiau hyn, yn gofyn ein parch a'n cariad."†

Ond, er mor ddifyr yw bod ynghymdeithas y

* Cyhoeddwyd y "Deuddeg Pregeth" y tro cyntaf yn 1814, ymhen 24 blynedd ar ol marwolaeth yr awdur enwog. Yn 1864, cyhoeddwyd ail argraphiad o honynt, gyd â chofiant, gan D. Thomas, Dowlais; ac yn 1876, cyhoeddwyd trydydd argraphiad destlus a manwl iawn o'r "Deuddeg Pregeth. . . . Hefyd Cofiant yr Awdur ynghyd ag Attodiad yn cynnwys Gweddillion Amrywiol o'i waith, a Marwnadau Coffadwrieuthol iddo. Casglwyd, Trefnwyd, a Golygwyd, gan Morris Davies, Bangor, dros Bwyllgor Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd.

"Dolgellau: argraphwyd yn swyddfa'r *Goleuad*, gan D. R. Jones. M.DCCC.LXXVI."

Yr ydym yn gwybod i Mr. Davies, yr hwn oedd ŵr diwyd, medrus, a gonest, gymmeryd llawer iawn o drafferth a chost er cael pob defnyddiau angenrheidiol at wneud yr argraphiad hwn yn deilwng o'r awdur enwog, ac y mae'r llyfr yn profi ddarfod iddo lwyddo yn dra rhagorol.

† Traethodydd, llyfr vi., t. 286–8.

gŵr mawr hwn yn Israel y Cymry, rhaid i ni derfynu ein cyfeillach âg ef, "gyd â dywedyd," yngeiriau y Dr. Edwards, "bod torf wedi ymgynnull i Langeitho, fel arferol, un dydd Sadwrn, pan ddaeth y newydd fod yr efengylwr seraphaidd wedi ei gymmeryd oddi wrthynt i fyd yr ysprydoedd. Bu farw yr 16fed o Hydref, 1790, pan oedd ei oedran yn 77."*

Ychydig iawn o hanes teulu y gŵr enwog hwn sydd wedi ei throsglwyddo i ni. Enw ei wraig, yr hon a'i goroesodd ef rai blynyddau, oedd Eleanor, merch John Davies, Cefngarllyges, a elwir yn awr Cae'rllyges, neu'n fwy priodol Cae'rlluest, ymhlwyf Llangeitho. Bu iddynt dri o feibion a phedair o ferched. Dygwyd dau o'r meibion i fynu yn offeiriaid.

Ni fynegir pa le y cafodd John, y mab hynaf, ei addysg; ond gellir casglu iddo fod yn un o'r prif ysgolion. Pan foddodd ei ewythr John yn 1760, efe a gafodd bersonoliaeth Llangeitho a Llancwnlle, fel yr awgrymwyd eisoes. Hefyd, cafodd ryw fywioliaeth yn y Mwythig, lle y preswyliai hyd ei farwolaeth yn 1815. Dywedir bod ei blant a'i wyrion wedi llwyr golli eu Cymraeg yn y dref honno, lle y preswylia eu hiliogaeth hyd y dydd hwn.†

Y mae Nathaniel, ail fab Daniel Rowlands, ychydig yn fwy adnabyddus na'i frawd John. Ganwyd ef yn 1749. Gorphenodd ei addysg yng Ngholeg Eglwys Crist, yn Rhydychain, lle y cafodd ryw raddau. Priododd ferch y Parch. Howel Davies, curad Llys-y-fran, un o dri phrif gychwynwyr Methodistiaeth, fel y crybwyllwyd ar ddechrau y bennod hon. Dywedir ei fod yn perchen doniau helaeth, a gwnaed ef yn gaplan i'r Duc Gordon, ac i'r Iarlles Huntingdon. Parhaodd mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid, ac ystyrid ef yn bregethwr poblogaidd, hyd 1807, pan y terfynodd ei undeb â hwy o herwydd iddo gwympo trwy feddwdod. Tybir iddo gael ei wared o'r amryfusedd hwnw; ond ni ddychwelodd mwy at y Methodistiaid Cymreig, o herwydd iddynt neillduo pregethwyr heb urddau Esgobol i weini yr ordinhadau, yr hyn a gymmerth le yn y flwyddyn 1811. Preswyliai mewn lle a elwir Parciau, ger llaw Henllan Amgoed, yn sir Benfro; a phregethai i gynnulleidfa a alwent eu hunain yn Fethodistiaid, ac a godasant gapel iddo yn Hwlffordd. Bu farw yn ei breswylfod, y Parciau, ar yr 8fed o Fawrth, 1831, yn 82 oed. Y mae ei ŵyr a'i etifedd, George Thomas, Ysw., yn preswylio yn y Parciau etto, ac yn ŵr o barch a dylanwad.*

Dafydd oedd enw trydydd mab yr enwog Daniel Rowlands, a dygwyd ef i fynu yn of alcan (tinman). Dywedir ei fod yn gantor gwych; ond o herwydd ei fywyd gwyllt ac afreolus, y bu'n llawer o flinder i'w dad enwog a'r teulu. Arferai ddilyn porthmyn y wlad gyd â gwartheg i Loegr. Bu farw yn 45 oed.†

Enwau merched Daniel Rowlands oedd Rachel, Elizabeth, Ann, a Sara. Priododd Rachel Mr. Morgan, Cil-y-pill, Llangeitho, amaethwr, a blaenor parchus gyd â'r Methodistiaid.—Elizabeth a briododd J. Morgan, Ysw., meddyg, o'r Gorsfawr, Lledrod: gŵr enwog yn ei alwedigaeth.—Gŵr Ann oedd Daniel Jenkins, Llangeitho. Pregethwr oedd efe, ac arferai bregethu yn hen gapel *Wilderness Row*, a phregethai yn fynych yn *Gravel Lane* a *Deptford*.—Sara, yr ieuengaf, a briododd Mr. Jones, Trecefel, Tregaron, yn sir Aberteifi. Dywedir bod yr enw anrhydeddus, ROWLANDS, wedi diflanu erbyn hyn o'r teulu, am fod y canghenau gwrywaidd wedi darfod.‡

## PENNOD XIX.

### HOWEL HARRIS AC ERAILL.

CAFWYD achlysur yn fynych eisoes, mewn cyssylltiad â'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid, Edmund Jones, Daniel Rowlands, ac eraill, i gyfeirio at y gŵr enwog hwn, HOWEL HARRIS, ac i helaethu ychydig weithiau ar ei hanes nodedig. Y mae llawer o ysgrifenwyr galluog wedi ysgrifenu ar Howel Harris, megis y Parch. T. Charles, yn y *Drysorfa*, 1810; y Parch. David Peter, yn *Hanes Crefydd yng Nghymru*, 1816; y Parch. R. Jones, yn *Drych yr Amseroedd*, 1820; Nathan Hughes, yn ei *Hanes Byr*, 1838; y Parch. John Hughes, ym *Methodistiaeth Cymru*, 1851; y Parch. Edward Morgan, yn *The Life and Times of Howel Harris*, 1852; y Parch. R. Williams, yn *Enwogion Cymru* (Eminent Welshmen), 1852; y Dr. Thomas Rees, yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales*, 1861; ysgrifenydd galluog yn *Y Traethodydd*,

* Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 491.
† Cofiant D. R., gan M. D., t. 76.

* Cambrian Quarterly Magaz., vol. iii., p. 394; En. Cymru, I. F., t. 921; Cofiant D. R., gan M. D., t. 76.
† Cofiant D. R., gan M. D., t. 76.
‡ Method. Cymru, cyf. ii., t. 13, 127; cyf. iii., t. 437-8; Cofiant D. R., gan M. D., t. 76-7.

1864; un arall yn *Y Gwyddoniadur*, 1866; Gwilym Lleyn, yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, 1869; I. Foulkes, yn *Enwogion Cymru*, 1870; heb law ei farwnad odidog gan Fardd Pant-y-Celyn, 1773. Gwelir, gan hyny, mai ein gorchwyl ni yma, megis wrth adrodd hanes pob peth a ddigwyddodd cyn ein hamser, yw dethol, lloffa, a chrynhoi yn y modd gorau ag y gallwn.

HOWEL HARRIS, y cyntaf o dri chychwynwyr galluog Methodistiaeth Cymru, fel y gwelsom yn y bennod flaenorol, a anwyd ymhreswylfod ei dad, yr hwn a drigiannai ar dyddyn o'i eiddo ei hun, yn Nhrefeca,* ymhlwyf Talgarth, yn sir Frycheiniog, ar y 23ydd o Ionawr, 1714, yn yr un flwyddyn ag y ganwyd Whitfield† (Witffild), un o Fethodistiaid cyntaf Lloegr, a thu a blwyddyn ar ol Daniel Rowlands, fel y gwelsom: tri o gawri a fu wŷr enwog gynt. Un o dri brawd oedd Howel, a bu'r tri yn hynod yn eu ffyrdd. Yr oedd Joseph Harris, yr hynaf, yn ŵr o gynheddfau cryfion, a gwybodaeth eang. Ysgrifenodd amryw dreuthodau ar seryddiaeth a rhifyddiaeth. Llanwai swydd dan y Llywodraeth, ac yr oedd yn ŵr mawr yn ei ddydd. Aeth Thomas Harris, yr ail fab, i Lundain, ac ennillodd yno gyfoeth mawr, yr hyn a'i galluogodd i brynu rhandiroedd helaeth Tregynter, ynghymmydogaeth Talgarth. Y trydydd, a'r ieuengaf, ydoedd HOWEL. Cadwyd ef mewn ysgol gan ei rieni nes oedd yn 18 oed, gan y bwriadient ei ddwyn i fynu i'r Eglwys Sefydledig; ond bu farw ei dad y pryd hwnw, sef yn 1732, a bu raid iddo yntau droi i gadw ysgol i

* Pentref bychan yw Trefeca, wyth milltir i'r de-orllewin o'r Gelli (*Hay*), yn cynnwys tu a 45 o dai, a 236 o drigolion. Safai tŷ a thyddyn tad yr enwog Howel Harris gynt ynghwr y pentref nodedig hwnw.

† Gan y cyfarfyddwn yn lled fynych â'r gŵr enwog hwn, yn oed yng Nghymru, a chan y cymmerai ddyddordeb mawr yn y Diwygiad Methodistaidd Cymreig ar ei gychwyniad yn y wlad yma, credir y bydd talfyriad o'i hanes yn gymmeradwy gan y darllenydd.—Ganwyd GEORGE WHITFIELD yng Ngwestty'r Gloch (*Bell Inn*), yng Nghaerloyw, tu a diwedd y flwyddyn 1714. Cafodd ei addysg foreuol yn ysgol ramadegol Caerloyw, lle y dysgodd y Groeg a'r Lladin yn dda; ac yn 1733, derbyniwyd ef yn heilyn (*servitor*) Coleg Penfro, Rhydychain, ac efe yn 19 oed. Yn y Brifysgol daeth yn gydnabyddus yn fuan â John a Charles Wesley, ac eraill, arferion crefyddol y rhai oedd wedi tynu sylw mawr eisoes, ac wedi eu gwneud yn agored i fân ymosodiadau erlidgar. Ynghymdeithas y gwŷr duwiol ac enwog hyn, cafodd argyhoeddiad dwfn o'i bechod, a daeth yn fuan i brofi blas maddeuant, ac i fwynhau cysuron yr efengyl. Yr oedd yn meddu'r llais mwyaf nerthol, peraidd, a soniarus, a'r talentau areithyddol disgleiriaf a mwyaf effeithiol. Pan ar ymweliad â'i ddinas enedigol yn 1736, er adfer ei iechyd, urddwyd ef yn ddiacon gan y Dr. Benson, Esgob Caerloyw. Traddododd ei bregeth gyntaf yn Eglwys St. Mary de Crysp, yn y ddinas honno, pan y rhoddes brawf addawol o'r hyn a fyddai rhag llaw. Wedi hyny, dychwelodd i Rydychain, lle, mewn amser cyfaddas, y derbyniodd ei raddau. Yna aeth i bregethu am ddau fis i Eglwys y Tŵr, yn Llundain, lle yr ymgynhullai tyrfaoedd mawrion yn wastad i'w wrando, ar y rhai yr effeithiodd yn ddirfawr. Pa le bynag y pregethai, ai yn y wlad, yn Llundain, neu Gaerodor, byddai yr un teimlad angerddol yn dilyn ei draddodiad yn wastadol. O gylch y pryd hyn, derbyniodd wahoddiad gan y ddau Wesley i'w cynnorthwyo yn eu hantur genhadol bwysig yn Georgia, un o daleithiau Gogledd America; ac yn ystod y ddau fis oedd rhwng yr amser y derbyniasai yr alwad a'r pryd y gallai gychwyn, pregethodd yng Nghaerodor, a manau eraill, gyd âg effaith mawr a chynhyddol. Wedi cyrraedd y drefedigaeth bellenig a didrefn honno, heb law pregethu yn egnïol ac effeithiol i'r trigolion annosparthus, ymroddes i sefydlu Tŷ-amddifaid, yr hyn a chwanegodd yn ddirfawr at ei lafur a'i bryder. Er mwyn cael cymmorth i ddwyn yr amcan clodfawr hwnw i ben, a chael urdd offeiriad, dychwelodd i Brydain yn 1739, ac urddwyd ef yn offeiriad gan y caredig Esgob Benson. Croesawyd ei ddychweliad gan filoedd, ac ymgasglai tyrfaoedd afrifed braidd i'w wrando lle bynag y pregethai yn Llundain, ac yn enwedig yng Nghaerodor. O herwydd ei lwyddiant mawr, cynfigenwyd wrtho gan glerigwyr dïegni Caerodor, a gwrthodasant roddi eu heglwysydd iddo; ac anfonodd canghellydd yr esgobaeth rybudd iddo, y dylai "attal ei weithrediadau." Ond torodd y dŷn hwn, oedd wedi ei anfon gan Dduw, trwy y gwaharddiad; ac ar y 7fed o Chwefror, 1739, safodd ar ucheldir o fewn cyrraedd i byllau glo Kingswood, yr hwn oedd "ei faes-bulpud cyntaf." Yno, o Sabboth i Sabboth, cynhullai o'i amgylch dyrfaoedd mwyfwy y naill Sul ar ol y llall o'r bobl anwar hyny, o'r sawl y derbyniodd miloedd fendithion tymhorol ac ysprydol y grefydd Gristionogol. "Yr oedd y bobl yn sefyll o amgylch y mynydd yn y fath ddull arswydol, a'r distawrwydd dyfnaf, nes fy llenwi â syndod sanctaidd. Gwrandawai a chlywai 20,000 o bobl y llais nerthol a soniarus hwnw yn berffaith eglur; gwnai ffrydiau o ddagrau rychau ar hyd gruddiau duon gan lwch glo; wylai miloedd, ac edifarhai lliaws mawr, a gadawent eu gyrfa ddrygionus am byth. Yn yr ymarferiadau crefyddol hyn, perffeithiodd Whitfield ei ddoniau rhyfeddol fel areithiwr, fel pregethwr, ac fel llefarwr yn yr awyr agored. Cyrheuddodd hefyd berffaith hunan-lywodraeth; a dysgodd trwy allu naturiol a ffraethineb greddfol pa fodd i fynych drechu arweinwyr gwehilion y bobl. Yr oedd ei waith yn Kingswood yn esampl o lafur ac effaith efengylwr ym Mrydain ac yn America. Nodwedd gyrfa Whitfield oedd rhoddi y lle blaenaf yn wastad i gynlluniau o elusengarwch. Croesodd y Môr Atlantic i'r wlad hon i gasglu trysorfa at Dŷ-amddifaid yn Georgia; ac yn awr, wedi canfod iddo ynnill calonau glowyr Kingswood, gosododd gynllun ar droed i godi Ysgol Rad i'w plant. Dododd i lawr gareg gyntaf adeilad i'r perwyl hwnw cyn dychwel i Lundain. Yn y brif-ddinas hon, aeth Whitfield, yr hwn a geuid allan o'r eglwysydd, ym mlaen "i ymosod ar Satan yn ei gadarnleoedd ei hun," ym Moorfield, Kennington, a Blackheath. Mynych yr ymossodwyd arno yn greulon yn y lleoedd hyn; ac weithiau, prin y diangai â'i fywyd ganddo; ond nid oedd efe "yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr ganddo ei einioes ei hun, os gallai orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r gwasanaeth a dderbyniasai gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw."

Pan ddychwelodd o'r America, lle y cafodd ei wasanaeth effaith dirfawr, aeth i bregethu yng Nghymru, yn Ysgotland, ac yn y Werddon, a theimlid nerth mawr ei bregethiad grymus gan y tair cenedl, yn ol eu gwahanol ansoddau, ac yn ol eu diwylliad moesol a chrefyddol. Bu Whitfield mewn pump, o leiaf, o gymmanfaoedd y Methodistiaid yng Nghymru, sef yn y gyntaf a gynhaliwyd yn Watford, Ionawr, 1742; yn yr ail, a gynhaliwyd yn yr un lle, Ebrill, 1743; yn y drydedd, a gynhaliwyd yn y Gelli-Glyd, ym Mai yr un flwyddyn; yn y bedwaredd, a gynhaliwyd yn Nhrefeca, ym Mehefin yr un flwyddyn; ac yn y bummed, a gynhaliwyd yn Abergefenni ym Mawrth, 1744; ac efe a ddewisid yn gymmedrolwr bob amser pan yn bresennol.

Tra'r oedd ar ei daith bregethwrol yn Ysgotland, aeth yn gydnabyddus â Selina, Iarlles Huntingdon, yr hon, yn 1748, a'i gwnaeth ef yn un o'i Chaplaniaid, sefyllfa a'i cyflwynodd ef i gylchoedd uwchaf urddas a llenyddiaeth. Yr oedd parch, cyfoeth, a dyrchafiad yn awr yn gwbl gyrreuddadwy iddo; ond rhoddes efe brawf etto mai achub ei gyd-ddynion, o ba wlad a chenedl bynag y byddent, oedd amcan mawr ac unigol ei fywyd ef; a than ddylanwad sanctaidd yr awyddfryd yma, gadawodd wlad ei enedigaeth unwaith etto, yn 1769, ac aeth i Georgia. Er ei fod weithian wedi gwywo llawer o ran ei gorph gan ormod llafur yngwasanaeth ei Arglwydd, a hyny ymlodau ei ddyddiau; etto parhai i bregethu bob dydd hyd ei ddiwedd. Pan oedd yn Newbury Port, yn Lloegr Newydd, ymosodwyd arno gan ddiffyg anadl tost, yr hyn a derfynodd ei oes lafurfawr a defnyddiol ar y 30fed o Fedi, 1770, ac efe yn yr 56fed flwyddyn o'i oedran. Cyhoeddwyd cyfrolau o'i Deithlyfrau ganddo ef ei hun; ac yn 1771, cyhoeddwyd chwe chyfrol o'i bregethau, ei lythyrau, a'i dreuthodau, yn Llundain.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., pp. 1337–8; Wright's Royal Dict. Cyclo., vol. v., p. 914; Method. Cymru, cyf. i., t. 161, &c.

blant ei ardal. Ymddengys ei fod yn llengcyn ofer a gwyllt y pryd hyny, ac yn dilyn y "lliaws i wneuthur drwg;" "er hyn," eb efe ei hun, "nid oeddwn yn cael cwbl lonydd, gan ryw reddf o argyhoeddiad calon yn fynych." Pa wedd bynag, bu'r ysgol yn foddion i'w ddwyn i gydnabyddiaeth â rhai o gyfoethogion yr ardal, "a chefais trwy hyny," eb efe, "addewidion a golygiadau teg am ddyrchafiad yn y byd, canys yr oeddynt yn bwriadu fy ordeinio yn ol trefn Eglwys Loegr." Y mae'n debyg mai addaw ei gynnorthwyo i fyned i Brifysgol yr oeddynt, er ei barotôi i gael ordeiniad esgobol. Beth bynag am hyny, ni chyflawnasant eu haddewidion dros rai blynyddau, os gwneuthant byth.

Ymhen deufis ac ychydig ddyddiau ar ol pasio ei 21 oed, sef ar y 30fed o Fawrth, 1735, wrth wrando offeiriad y plwyf yn annog ei blwyfolion, yn ei bregeth, i gyfranogi o swper yr Arglwydd y Sul canlynol, yr hwn oedd Sul y Pasg y flwyddyn honno, llwyr fwriadodd gydsynio â'r cyngor; ac er mwyn bod yn fwy cymmwys, ymheddychodd â chymmydog oedd mewn ymrafael âg ef, ar ei ffordd adref o'r llan. Pan ddaeth y Sul canlynol, wele yr oedd Howel Harris wrth fwrdd y cymmun! Nid oedd etto yn adnabod ei hun, na Gwaredwr pechaduriaid, oddi eithr ychydig mewn hanes yn unig; ond yr oedd ei feddwl yn bur gyffrous eisoes; profasai ddiflasdod nid bychan ar ei ddull annuwiol o fyw; felly, pan ar ei liniau wrth allor y llan, a phan yr adroddai yr offeiriad y geiriau canlynol yn y gyffes gyffredin, "Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhau, ac yn ddrwg gan ein calonau dros ein cam weithredoedd hyn: eu coffa sydd drwm arnom: eu baich sydd anrhaith ei oddef," &c., dechreuodd ymholi ai felly yr oedd mewn gwirionedd gyd âg ef. Deallodd nad oedd y gyffes ond geiriau gweigion yn unig yn ei enau ef. Cafodd ei argyhoeddi y dylasai ei bechod wasgu arno, ac nad oedd ond myned at fwrdd yr Arglwydd â chelwydd yn ei enau. Prin y gallodd nesu ym mlaen, gan faint yr euogrwydd a deimlai; ond trwy addo iddo ei hun yr ymroddai i ddilyn buchedd newydd rhag llaw, at y bwrdd cyssegredig yr anturiodd efe dan grynu. Teimlodd beth y pryd hwnw nas llwyr ymadawodd âg ef byth. Dyma adeg ei dröedigaeth, ac y mae'r man lle yr ymwelodd Ysbryd Duw â'i enaid i'w weled, ac yn cael ei nodi allan, yn Eglwys Talgarth, hyd y dydd hwn. Y mae'r cofnod hwn o'r amgylchiad, ynghyd â'r man dyddorol yma, yn werth ei osod i lawr, o herwydd mai dyma y wreichionen fechan a ymddangosodd gyntaf, neu, o leiaf, un o'r ddwy gyntaf,* yr hon a dorodd allan yn dân angerddol, wedyn, trwy Ddeheudir a Gogledd Cymru, yn y diwygiad rhyfedd hwnw ar grefydd a roddes fôd a ffurf i Gorph y Methodistiaid Calfinaidd, ac a fu hefyd yn gymmaint o foddion adfywiad a chynnydd ar grefydd ym mysg cyfundebau crefyddol eraill, nes y mae'r Dywysogaeth erbyn heddyw, mewn cymhariaeth i wledydd eraill, megis "gardd yr Arglwydd." Dyma fel y canodd y Prifardd o Bant-y-Celyn ar hyn ym Marwnad Howel Harris:—

"Pan 'roedd Cymru gynt yn gorwedd
Mewn rhyw dywyll farwol hun,
Heb na Phresbyter na Ffeiriad,
Nac un Esgob ar ddihun:
Yn y cyfnos tywyll, pygddu,
Fe ddaeth dŷn, fel mewn twym ias,
Yn llawn gwreichion golau, tanllyd,
O Drefeca fach i maes.

"'Nawr mae'n gorwedd yn y graian,
Mewn lle tywyll, distaw iawn,
HARRIS gynt â'i waedd ddihunodd
Weinidogion lawer iawn;
Cans trwm gwsg oddi wrth yr Arglwydd,
Oedd fel diluw'n llanw'n lân,
Yn y dydd cyhoeddodd HOWEL
I fod Nini'n mynd ar dân.

"Dyddiau ag 'roedd Ralph ac Eben,
Draw yn Scotland oer ar dân;
Whitfield glonog fry yn Lloegr
Yn cyhoeddi'r 'fengyl lân;
Rowland, Harris, a rhyw chydig,
Yma yng Nghymru'n seinio maes,
Weithiau o Sina, weithiau o Sïon,
Hen ddirgelion Dwyfol ras."

Er iddo golli'r teimladau a brofodd ar y Sul Pasc hwnw i raddau yn lled fuan; etto, ni chollodd efe byth yn llwyr mo'r "dwyfol ras" a brofodd efe y pryd hwnw. Dyma fel y dywed efe ei hun ar y pwngc yma, a barodd iddo gymmaint o bryder:—

"Yma [ar ol y Sul Pasc crybwylledig], mi a ddechreuais, yr wythnosau canlynol, fod yn fwy sobr a gwyliadwrus, gan ymroddi i weddi, ac ymdrechu i gadw fy nghalon a'm meddyliau yn ddïysgog ar yr Arglwydd; ond wedi'r cwbl, yn ofer yr aeth fy holl waith. Aethum ym mlaen fel hyn dros bythefnos, nes i mi golli agos fy holl argyhoeddiadau.

"*Ebrill yr 20fed*, 1735. Dododd Rhagluniaeth lyfr yn fy llaw, ac mi a edrychais bob rhan o hono, fel cymmorth i hunan-ymholiad; ac argyhoeddwyd fi fy mod yn ddiffygiol ac euog ymhob cangen o'm dyledswydd tu ag at fy Nuw, fy hunan, a'm cymmydog. Yn yr un prydnhawn, cyfarfyddais â llyfr arall, a ysgrifenwyd gan *Bryan Duppa*† ar y gorchymynion; a bu hwn yn foddion i ddyfnhau

* Gwel y bennod flaenorol ar Daniel Rowlands.

† Dywed un o gofianwyr Harris nas gwyddai pwy oedd y *Bryan Duppa* hwn, ac nas gwelodd ei waith erioed. Dichon fod llawer o'n darllenwyr yn gyffelyb; ac am hyny, y bydd ychydig bach o'i hanes yn gymmeradwy. *Brian De Uphaugh*, yn ol Anthony Wood, oedd ei enw; a *Brayan Dupha* y geilw Mr. Charles ef; ond ni ddyry yntau ddim o'i hanes. Ganwyd ef yn Lewisham, ar y 10fed o Fawrth,

fy argyhoeddiadau. Po mwyaf a ddarllenwn, mwyaf oll o oleuni ysprydol a lewyrchai i'm meddwl, gan ddatguddio ehangder y gyfraith, ac yn fy ngalw i gyfrif, nid yn unig o herwydd pechodau cyhoeddus, ond hefyd fy edrychion a'm dibenion ymhob dim a feddyliwn, a siaradwn, ac a weithredwn. Yna gwelais yn eglur fy mod wedi fy ninystrio am byth. Fel hyn, po mwyaf a chwiliwn i natur pethau, mwyaf oll y gwelwn fy hun, a phawb o'm cydnabod, ar y ffordd lydan i ddistryw tragywyddol. Yna argyhoeddwyd fi yn llwyr fy mod yn gwbl wâg o'r bywyd ysprydol; a deuthum i deimlo fy mod yn gnawdol, ac wedi fy ngwerthu dan bechod; ac nas gallwn fy ngwaredu fy hun, nac yn oed alaru o blegid fy mechodau, mwy nag y gallwn ddringo i'r wybr. Dechreuais drachefn fy narostwng fy hun trwy ympryd a gweddi, a hunanymwadiad ymhob cysuron tymhorol; er hyny yn gwbl ddïeithr etto i hunanymwadiad tufewnol, a ofynir gan ein Iachawdwr; ac nid oedd genyf iawn wybodaeth am waed Iesu, yr unig 'Ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid,' Zech. xiii. 1. Yr oeddwn yn llwyr ddïeithr hefyd i fywyd ffydd; ac o herwydd hyny, teimlwn fy mod yr holl amser yma mewn cyflwr damniol, ac mewn perygl o fod yn golledig yn y diwedd."

Fel hyn y bu efe, rhwng hyder ac ofn, dros gryn bum wythnos. Teimlai awydd cryf weithiau i roddi ei hun yn hollol i'r Arglwydd; ac yn ymyl hyny, perswadid ef gan y Diafol, os gwnai hyny, y llwyr gollai ei ryddid, ac na byddai yn eiddo ei hun, na than ei lywodraeth ei hun mwyach. O'r diwedd daeth y Sulgwyn, a dyma fel y dywed efe ei hunan:—

"*Mai 25ed*, 1735. Mi euthum at fwrdd yr Arglwydd dan bwys euogrwydd, a grym fy mhechodau. Yr oeddwn wedi darllen mewn llyfr, od elem at fwrdd yr Arglwydd, gan gredu yn syml yn yr Arglwydd Iesu Grist, y byddem sicr o dderbyn maddeuant o'u holl bechodau; ac yn wir, felly y bu i mi: cefais brawf eglur, trwy yr Yspryd Glân, fod Crist wedi marw drosof fi, a bod fy anwiredd i gyd wedi ei roddi arno ef (Es. liii. 6), a'm bod yn awr yn rhydd ger bron brawdle cyfiawnder, ac yn fy nghydwybod fy hun. Profodd y dystiolaeth hon ei bod yn wir ffydd, wrth yr heddwch, llonyddwch, gwyliadwriaeth, casineb at bechod, a'r ofn anfoddloni Duw, a ganlynodd hyny. . . . Weithiau, yr oedd y byd hwn, a phob meddyliau am ddyrchafiad, a chlod dynol, wedi cwbl ddifanu o'm golwg; a'r byd ysprydol a thragywyddoldeb, er yn wan etto, yn dechrau ymddangos. Yr oeddwn yn awr yn dechrau cael golygiadau a chynhyrfiadau eraill, gwahanol i'r rhai oedd genyf o'r blaen, canys yr oeddwn yn teimlo rhyw ddymuniadau awyddus am gadwedigaeth pechaduriaid truain: yr oedd fy nghalon yn hireuthu am iddynt gael eu hargyhoeddi o'u pechodau a'u truenus gyflwr. Teimlwn fy mod yn ddïeithr ar y ddeuar, a'm holl galon wedi ei denu o'r byd a phethau gweledig, ac yn ymestyn am olud mwy gwerthfawr a pharhaus. Yr oeddwn yn awr yn dechrau bod yn fwy dedwydd nag erioed; ac nis gallwn lai na dywedyd wrth eraill ar fy ffordd adref o'r eglwys, y Sulgwyn hwnw, y gwyddwn bod fy mhechodau wedi eu maddau; er na chlywswn erioed neb arall yn gwneud y fath gyffesiad, nac yn dywedyd bod y fath beth i'w gael; ond yr oeddwn i wedi cael profiad mor ddwfn o hyny, fel nas gallai dim fy siglo o'm sicrwydd o hono."

Meddiannwyd ef ar ol hyn gan ofn a dychryn rhag colli y fath brofiadau melus a hyfryd, fel yr ymroddodd i ympryd, a gweddi, a gwyliadwriaeth barhaus; ac yr oedd yn ofni meddyliau ysgafn, geiriau segur, a phob math ar goeg-ddigrifwch, pethau yr oedd mor dueddol iddynt wrth natur, fel ei elynion penaf a mwyaf peryglus; a dyma fel y mynega'r canlyniad:—

"*Mehefin y 18fed*, 1735. Pan ar weddi ddirgel, teimlais fy nghalon yn ddisymmwth yn toddi ynof fel cwyr o flaen tân o gariad at Dduw fy Iachawdwr. Teimlais nid yn unig gariad a thangnefedd, ond hefyd 'chwant i'm dattod, ac i fod gyd â Christ;' ac yr oedd llef yn eigion fy enaid, na theimlais y cyffelyb erioed o'r blaen, fel hyn —'Abba Dad! Abba Dad!' Nis gallwn beidio galw Duw yn Dad i mi, canys gwyddwn mai ei blentyn ef oeddwn, a'i fod yn fy ngharu ac yn fy ngwrando. Cafodd fy enaid fel hyn ei lenwi a'i ddiwallu, nes yr oeddwn yn llefain, 'Digon! Digon! Cefais fy moddloni: dyro i mi nerth, a mi a'th ddilynaf trwy ddwfr a thân.' Yr oeddwn yn gallu dywedyd fy mod yn wir ddedwydd, a bod ynof 'Ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol' (Ioan iv. 14), a 'Chariad Duw wedi ei dywallt yn fy nghalon, trwy yr Yspryd Glân yr hwn a roddwyd i mi' (Rhuf. v. 5.)"

Yr oedd ei lygaid o hyd ar fod yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig; a pharhai i gadw ysgol yn yr eglwys, gan ddisgwyl cael galwad gan berthynas agos iddo i fyned i Rydychain. Yn y cyfamser, goddiweddwyd ef gan amheuon ac ofnau; ond ar y cyfan, yr oedd hwn yn amser o ddiddanwch mawr iddo, fel y dengys yn y difyniad canlynol:—

"O achos colli'r mwynhâd a fu genyf o ddedwyddwch, yr oeddwn yn barod i anobeithio; ond tosturiodd Duw wrthyf yn fuan drachefn, gan lefaru trwy ei Yspryd y gair cysurus hwn, gyd âg awdurdod, wrth fy enaid—'Myfi yr Arglwydd ni'm newidir!' Nis gwyddwn ar y pryd fod y cyfryw ymadrodd yn Ysgrythyrol, na pha fodd y gallwn ei gymhwyso ataf fy hun mewn un wedd, nes i oleuni dori i mewn ar fy enaid, i ddangos imi nad ar fy ffyddlondeb i yr oedd fy iachawdwriaeth yn dibynu, eithr ar ffyddlondeb Iesu Grist: am hyny, er i mi gyfnewid, etto, gan nad yw efe yn cyfnewid, teimlwn fy mod yn ddïogel. Yna rhyddhawyd fi o'm holl ofnau, a chefais orphwysfa ddirwystr ynghariad a ffyddlondeb fy Nuw a'm Iachawdwr. Yr oeddwn y pryd hyny yn gwbl ddïeithr i bob math ar ymrafeulion ynghylch crefydd: hyn yn unig a wyddwn, sef bod Duw yn fy ngharu, ac y carai efe fi yn rhad er mwyn ei enw ei hun hyd y diwedd. Yr oedd hyn yn peru i minnau ei garu ef drachefn, ac i fyfyrio pa fodd i ddangos fy nghariad tu ag ato ymhob modd. Nis gallaf adrodd y fath ddiddanwch a fwynhai fy enaid y pryd hwnw, canys yr oeddwn yn cael fy nwyn ym mlaen yn barhaus yn ei bresennoldeb nefol, a'm holl ymarweddiad yn y nefoedd. Nis gallwn siarad am ddim ond am bethau ysprydol, yr hyn yn fuan a ddygodd arnaf wawd a dïystyrwch. Yr oedd rhai yn fy ngwawdio yn feunyddiol, ac eraill yn tosturio wrthyf. Ceisiai rhai fy nychryn, ac eraill fy nenu â chynghorion rhy debyg i ddoethineb y byd hwn i gael nemmawr bwys gyd â mi. Fy holl ymgais yn

1588. Cafodd ei addysg athrofaol yn Westminster ac Eglwys Crist, Rhydychain. Dilynodd Charles I. i Ynys Wyth; ac yn 1634, gwnaed ef yn athraw i'r Tywysog Charles, sef Charles II. wedi hyny. Yn 1638, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Caergai (*Chichester*); ac yn 1641, i Esgobaeth Caercaradog (*Salisbury*). Yn ystod y Weriniaeth, bu fyw ar encil yn Richmond. Pan gafodd Charles II. yr orsedd, dyrchafwyd yntau i Esgobaeth Caerwynt (*Winchester*), a bu farw yn 1662. Cyhoeddodd ychydig bregethau, a darnau defosiynol eraill, ac yn eu plith y treuthodyn ar y gorchymynion a welodd Howel Harris. —Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. i., pp. 179–80.

Digitized by Google

awr oedd dangos fy ngharïad at Dduw. Pa wedd bynag, yr oedd yn ofid parhaus i mi, am nad oeddwn yn gweled nac yn clywed am neb yn y wlad a ymddangosai yn ddifrifol 'weithio allan ei iachawdwriaeth ei hun trwy ofn a dychryn' (Phil. ii. 12), nac yn meddu gwybodaeth gadwedigol o Dduw yng Nghrist Iesu. Nid oeddwn yn meddwl dim y pryd hyny y byddai i'r Arglwydd fy nefnyddio i er bendith i neb, canys nid oeddwn yn gweled y tebygrwydd lleiaf o hyny, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Meddyliwn yn fynych am ymguddio oddi wrth fy nghyfeillion, heb ofni dim yn fwy na pharch y byd a'i gydnabyddiaeth. Parodd hyn i mi roddi heibio gyfeillach â phob gradd o bobl, a gwrthod pob cynnyg am ddyrchafiad bydol. Ië, gwerthais yr hyn oedd genyf, a rhoddais i'r tlodion; ac ymhlith pethau eraill, y cyfryw ddillad a farnwn yn anweddus i Gristion. Gwelais wrth ddarllen Mat. xix. 21–25, mai peryglus iawn yw peidio cymmeryd Duw yn ei air; yna cefais nerth i ymddiried yn addewid ein Iachawdwr yn adn. 29, 'A phob un a'r a adawodd dai, neu frodyr, neu chwiorydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er fy mwyn i, a dderbyn y can cymmaint, a bywyd tragywyddol a etifedda efe.' Ar yr addewid hon, rhoddais fy nghorph a'm henaid i'w ofal am byth. O hyny allan, gallaf ddywedyd i mi gael nerth i fyw bywyd ffydd, trwy gydnabod wrth fy Iachawdwr, trwy ymorphwys yn gyfangwbl ar ei addewidion gwerthfawr ef; a chefais ef yn parhau yn ffyddlon, a'r rhai oll a ymddiriedant ynddo ni chywilyddir. Dichon hyn ymddangos fel penboethni i gig a gwaed. Er ein bod yn dywedyd wrth Dduw, 'Ein Tad,' ac yn ei addef ef yn Benllywodreuthwr pob peth, a bod ei air yn wirionedd; etto, ni roddwn iddo ef y grediniaeth a roddwn yn gyffredin i ddŷn marwol. Ymddangosai hyn i mi, yn wir, yn beth erchyll iawn; am hyny, llwyr ymroddais i ymddiried yn ei addewidion digyfnewid ef, am bethau tymhorol, cystal ag am bethau tragywyddol. Fel hyn, yn fy holl ddiffygion, nid oedd genyf un lle i fyned i ofyn yr hyn a fyddai arnaf ei eisiau, ond at yr Addewid; a gallaf dystio yn hyf i mi ei chael yn ddigonol hyd yma dan bob amgylchiad, tufewnol ac allanol."

Wrth weled athrawon, peneuthiaid, a gweledyddion y bobl, megis rhai y "tywalltodd yr Arglwydd arnynt yspryd trwmgwsg, gan gau eu llygaid, a'u gorchuddio" (Esa. xxix. 10), fel na welent anwiredd y genedl; ac wrth weled y wlad wedi ei llenwi âg anfoesoldeb, anystyriaeth, a phob drygioni, cynhyrfwyd yspryd Howel Harris o'i fewn, fel nas gallai ymattal heb rybuddio ei gymmydogion o'u perygl, a llefaru yn groyw yn erbyn eu drwg-fucheddau, gan eu hannog yn egnïol a thanllyd i "ffoi rhag y llid a fydd," megis y tystia ei hun fel y canlyn:—

"Yna nis gallwn ymattal yn hwy heb ei wneuthur fel fy unig neges i lefaru wrth bawb y deuwn yn agos atynt am eu perygl. Angau a barn oedd swm penaf fy athrawiaeth, a'r angenrhaid am weddïo, derbyn swper yr Arglwydd, a'r cyffelyb. Er nad oedd genyf ond gwybodaeth fechan, hyd yn hyn, am ffordd iachawdwriaeth trwy ffydd yng Nghrist; etto yr oeddwn yn ddedwydd trwy deimlad o'r gwynfydedigrwydd o hyny yn fy enaid fy hun. Gosodais i fynu addoliad teuluaidd yn nhŷ fy mam; a'r boreuau Suliau, cyn pryd eglwys, arferai amryw o'r cymmydogion ddyfod i'm gwrando yn darllen y Llithoedd, Psalmau, &c. Treuliwn y prydnhawn gyd âg ychydig gyfeillion y cyffyrddasai yr Arglwydd â'u calonau i weled a theimlo eu perygl. Yr oedd tân Duw yn llosgi yn fy enaid, ac nis gallwn orphwys na dydd na nos heb wneuthur rhywbeth dros fy Nuw a'm Iachawdwr; ac nis gallwn, gyd â boddlonrwydd, roddi cwsg i'm llygaid na hun i'm hamrantau, os na byddwn wedi gwneud rhyw wasanaeth iddo Ef yn ystod y dydd. Yr oedd amser mor werthfawr yn fy ngolwg, fel nas gwyddwn pa fodd i'w dreulio yn orau a hollol er gogoniant Duw, a lles i eneidiau dynion. Pan yn unig, ni wnawn ddim ond darllen, gweddïo, ac ysgrifenu; a hefyd, parhawn i fyned ym mlaen i gynghori y bobl druain a ddeuent i'm gwrando bob prydnhawn Sul. Yr oeddwn erbyn hyn yn dechrau myned yn ddihareb gan y bobl ar hyd y wlad; ond yr oeddwn yn cael fy nghario, megis ar adenydd, trwy bob helbulon, tufewnol ac allanol. Yn wir, yr oeddwn yn cael tiriondeb mawr gan Gyfaill pechaduriaid, ac yr oeddwn, mewn cymhariaeth, yn gwbl ddŷn arall. Nid oedd arnaf ofn cael fy ngwaradwyddo gan neb. Er bod y rhai a garent y tywyllwch yn fwy na'r goleuni yn bygwth peryglu fy mywyd; etto nid oedd hyny yn siglo dim arnaf, eithr ym mlaen yr euthum yn gysurus, heb feddwl fawr ar y pryd y byddai raid i mi fod yn fwy cyhoeddus. Fel hyn y treuliais haf y flwyddyn 1735."

Yn nechrau Tachwedd y flwyddyn hon, cafodd Harris fyned i Rydychain, trwy ryw foddion nad ydyw yn ei hyspysu. Gan fod ei ddau frawd, fel y gwelsom, mewn sefyllfaoedd uchel, ac yn bur gyfoethog, y mae'n debyg mai trwy eu cynnorthwy hwy yn benaf y cafodd y fantais, od oedd yn fantais hefyd. Beth bynag am hyny, yno yr aeth efe, a rhoddes ei enw i mewn yn Neuadd Mair Santes (*St. Mary's Hall*), dan ofal un Mr. Hart; ac wele ei brofiad, y gobeithion oedd o'i flaen, a'i ymddygiad yntau tra y bu yno, yn ei ymadroddion ei hun:—

"O blegid nad oedd genyf yn awr flas ar y difyrwch o fod yno, treuliwn y rhan fwyaf o'm hamser mewn gweddi ddirgel, neu yn yr addoliad cyhoeddus. Yr oedd fy nghyfeillion yn gobeithio y cawn fy llwyr ddiwygio yn Rhydychain o'm penboethni crefyddol, fel y dywedent; ond yr oedd yr Arglwydd Iesu yn awr wedi meddiannu fy nghalon, fel nad oedd yr holl addewidion teg a osodent o'm blaen, yn cael fawr o effaith arnaf. Er bod genyf addewid sicr o gael fy nerbyn i fod yn Ben Athraw yr Ysgol Fawr, ynghyd a bywioliaeth eglwysig o 140p. y flwyddyn, gan ryw ŵr bonheddig; ac er fy mod wedi fy amgylchu â rhagolygon dymunol am ddyrchafiad yn y byd; etto pan welais yr anhrefn a'r anfoesoldeb â'm hamgylchynai yno, blinais yn fuan ar fy lle, a deisyfais ar Dduw fy rhyddhau oddi yno; ac felly ar ol aros y tymmor hwnw yno, cefais drachefn ffordd rydd i ddyfod yn ol at fy anwyl gyfeillion yng Nghymru."

Gan ei bod yn fis Tachwedd, 1735, ar Howel Harris yn myned i Rydychain, ac iddo aros yno dros "dymmor" (*term*) cyffredin y Brifysgol, y mae'n debyg ei bod yn fis Chwefror, 1736, pan ddychwelodd i'w wlad ei hun. Yn ebrwydd ar ol dychwel adref, dechreuodd dramwy, gan bregethu y gair o dŷ i dŷ; a pharhaodd i wneud hyny nes ymweled â'r rhan fwyaf o deuluoedd yn ei blwyf ei hun, ynghyd â rhai yn y plwyfydd cyfagos; ac ymdyrai y fath luoedd i wrando arno, fel y byddai y tai yr ymgynhullent ynddynt yn rhy fychan i'w

Digitized by Google

cynnwys. "Yr oedd y fath awdurdod yn cydfyned â'r gair," eb efe ei hun, "fel y llefai amryw allan yn y fan ar Dduw am faddeuant o'u pechodau; a chyffesai y rhai a fyddent mewn ymrafael â'u gilydd eu beiau y naill i'r llall, ac ymheddychent, ac ymddangosent fel rhai difrifol ynghylch eu cyflwr tragywyddol." Dechreuwyd addoliad teuluaidd mewn llawer o dai; a chyn belled ag yr oedd efe wedi bod, yr oedd tyrfaoedd mwy o bobl yn ymgasglu i'r eglwysydd, a mwy hefyd yn myned at fwrdd yr Arglwydd. A dyma'r canlyniad, eb efe ei hun:—

"Erbyn hyn, yr oedd yn llawn bryd i'r gelyn ymosod i'm herbyn mewn rhyw ddull arall; am hyny cynhyrfodd, nid yn unig y cyffredin bobl i'm gwatwor a'm herlid, eithr hefyd cyffrodd y penswyddogion a gweinidogion yr eglwys i ymegnïo i'm gwrthsefyll; y naill yn fy mygwth i, a'r rhai a'm derbynient i'w tai, â dirwy; tra y dangosai'r lleill eu digofaint, hyd eithaf eu gallu, i'm digaloni trwy foddion eraill. Bu hyn yn beth rhwystr dros ychydig amser, etto nis gallasid diffoddi y fflam a ennynwyd. Y mae'n wir i lawer sefyll yn ol gan ofn, er hyny nis gellid dychryn y rhai a ddenwyd trwy'r tyniad nefol; ac yr oeddwn innau yn parhau i gyfarfod y rhai hyny yn ddirgel, pan na feiddiem wneud hyny yn gyhoedd. Dechreuais drachefn fyned o dŷ i dŷ y Gwanwyn canlynol, fel o'r blaen, gan lefaru wrth bawb a dueddid i'm gwrando. Erbyn hyn yr oeddwn wedi ynnill cydnabyddiaeth âg amryw o'r Ymneillduwyr, y rhai a'm derbyniasant yn groesawus i'w tai. Fel hyn yr euthum ym mlaen hyd ddiwedd haf 1736. Yna annogwyd fi gan gyfaill caredig i agor ysgol yn Nhrefeca, yr hyn a wneuthum; eithr yn fuan wedyn symmudais i gadw ysgol yn Eglwys y plwyf. Rhoddes hyn gyfleusdra i amryw wŷr ieuaingc ddyfod i gael eu hyfforddi ymhellach yn ffordd iachawdwriaeth.

"O gylch diwedd y flwyddyn hon [1736], yr oedd dŷn o'm cymmydogaeth yn myned o'r naill blwyf i'r llall i ddysgu pobl ieuaingc i ganu Psalmau. Rhoddes hyn gyfleusdra arall i mi i wneuthur daioni, ac i ddangos fy nghariad at fy nghydbechaduriaid. Pan fyddai y bobl yn ymgasglu i ddysgu, ac i wrando arno ef yn canu, ni roddai neb ddim yn eu herbyn, mwy na phed ymgynnullasent i ddawnsio, neu ymladd ceiliogod; felly, pan ddarfyddai ef eu dysgu i ganu, rhoddwn innau iddynt air o gyngor, a ffurfiwyd amryw gymdeithasau crefyddol.* Dechreuais sefydlu y rhai hyn ar y cynllun y dyry'r Dr. Woodward hanes am rai cyffelyb mewn treuthawd bychan a ysgrifenodd efe ar hyny. Nid oedd hyd yn hyn ddim cymdeithasau o'r fath yng Nghymru na Lloegr.† Yr oedd y Methodistiaid Seisnig heb son am danynt etto, er bod yr Arglwydd, fel y clywais wedyn, wedi bod yn gweithio ar rai o honynt yn Rhydychain, a manau eraill. Eithr pan oeddwn fel hyn yn agored i bob math ar wrthwynebiadau, ac heb weled pa fodd y gallwn gymmeryd un llwybr dïogel arall, agorwyd y ffordd o'm blaen drachefn, er eu bod yn bygwth fy nistewi, ac na chawn lefaru mwy. Ond, pa wedd bynag, yn nechrau yr haf canlynol, 1737, anfonodd rhyw ŵr bonheddig o sir Faesyfed am danaf i'w dŷ i lefaru, a chynhyrfodd cywreinrwydd rhai o wŷr mawr y gymmydogaeth hwy i ddyfod i'm gwrando. Symmudwyd rhagfarn rhai wrth ymddiddan â mi, ac argyhoeddwyd eraill o'u pechodau. Cefais achos i gredu y rhyngodd bodd i'r Arglwydd fendithio fy llafur. Yr oeddwn yn parhau i gadw yr ysgol hyd yn hyn, ac awn bob nos i lefaru yn y cyfryw leoedd ag yr anfonid am danaf, a gwnawn yr un modd ar y dyddiau gwylion a'r Sabbothau. O'r diwedd, tu a therfyn y flwyddyn hon, tröed fi allan o'r ysgol, a rhoddwyd terfyn arni; yr hyn, pa ddelw bynag, a fu'n foddion i heleuthu cylch fy llafur fel pregethwr. Ar ol hyn yr oeddwn yn barod, ac heb un rhwystr ar fy ffordd, i fyned i bob man y gelwid am danaf; a llefarwn y dydd a'r nos; weithiau pregethwn dair gwaith neu bedair yn y diwrnod, ac ar rai prydiau bum waith neu chwech yr un diwrnod, i dyrfaoedd mawrion o wrandawyr.

"Weithian yr oeddwn yn cael fy llwytho â phob math ar gam-achwyniadau, o bob cyfeiriad. Bygythiai yr ynadon fy nghospi, a phregethai yr offeiriaid yn fy erbyn yn yr eglwysydd, gan fy nodi allan fel gau brophwyd a thwyllwr; ac yr oedd gwehilion y bobl, dan gyfarwyddyd eu harweinwyr deillion, mor gyflym ag y gallent, ymhob lle, yn barod i'm niweidio. Etto, er yr holl ymosodiadau hyn, yr oeddwn yn cael fy nghludo yn orfoleddus, yr holl amser yma, megis ar adenydd eryrod, uwch law y cwbl. Nid arferwn gymmeryd un testyn neillduol, ond llefaru yn rhydd, fel y gwnai Ioan Fedyddiwr, yr apostolion, a holl aelodau eglwys Jerusalem, megis y rhoddai yr Arglwydd i mi ymadrodd. Tueddai y ddawn a dderbyniaswn hyd yn hyn, yn benaf, i ddeffro ac argyhoeddi y gydwybod o bechod. Ymddangosai yn awr argoel cyffredin o ddiwygiad mewn amryw siroedd. Yr oedd difyrwch cnawdol ac annuwioldeb yn lleihau, a son am grefydd yn cynhyddu; ac yr oedd lluoedd mawrion o bobl yn ymdyru i'r lleoedd addoliad. Yr oedd Ysgolion Cymreig Rhad yn ymdeunu fwyfwy trwy ymdrechion y Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror, a phobl gyffredin yn dangos parodrwydd i gymmeryd eu dysgu; a ffurfiwyd cymdeithasau mewn amryw fanau.

"O gylch yr amser yma, clywais gan gyfaill a ddeuthai o Lundain, fod gŵr eglwysig ieuangc, sef Mr. Whitfield, yn pregethu bedair gwaith y dydd, a'i fod o fendith i lawer. Wrth glywed hyn am dano, unwyd fy nghalon âg ef yn y fath fodd, fel na theimlais y cyffelyb undeb rhyngof âg un dŷn erioed o'r blaen; ond er fy nirfawr ofid, nid oedd genyf y gobaith lleiaf y pryd hwnw y cawn ei weled ef byth, canys hyspyswyd fi iddo fyned y tu hwnt i'r môr, o blegid hon oedd ei fordaith gyntaf i'r America. Pa wedd bynag, yn nechrau Ionawr, 1738, cefais y syndod dymunol o dderbyn llythyr oddi wrtho, yr hyn a'm llawenychodd yn ddirfawr. Yr oedd ef, yn rhaglunieuthol, wedi clywed peth o'm hanes, ac ysgrifenodd ataf er mwyn fy nghalonogi i fyned ym mlaen yn eofn yn y gwaith mawr a ddechreuaswn. Yr oeddwn ar y pryd mewn gofid meddwl dirfawr o blegid fy ngwaith yn myned o amgylch fel pregethwr teithiol: er hyny yr oeddwn yn myned ym mlaen gan lefaru gyd â phob bywiowgrwydd. Yr oeddwn yn cael cymdeithas felus â Duw mewn gweddi ddirgel yn feunyddiol, ac yn neillduol wrth fwrdd yr Arglwydd, at yr hwn yr awn ar bob cyfleusdra. Etto yr oeddwn yn cael fy mlino yn barhaus o blegid fy null teithiol o bregethu, ac yn cael fy siglo gan Satan, a chan deimlad o fawredd y gwaith, a golwg ar fy ngwendid a'm hanfedrusrwydd fy hun i fyned trwyddo: er hyny yr oeddwn yn cael cymhelliad i fyned ym mlaen gan deimlad o'r awdurdod parhaus oedd yn cydfyned â mi yn y gwaith; trwy daerni y rhan fwyaf o'r bobl, a thrwy eglur duedd dda fy llafurwaith, ynghyd âg unol alwad a chymmeradwyaeth y rhai

* "Society Profiad" y galwodd Williams, Pant-y-Celyn, y cymdeithasau hyn (Holl Weithiau Wm. Williams, t. 651); yr un rhai ag a alwodd Daniel Rowlands yn "Gymdeithasau neu Gyfarfodydd Neillduol," i'r sawl yr ysgrifenodd efe "Reolau."—Cof. D. R., gan M. D., t. 815.

† Hyny yw, ni wyddai Harris am rai o'r fath yng Nghymru na Lloegr; ond y gwir yw bod cyfarfodydd cyffelyb yn cael eu cynnal yn achlysurol, o leiaf, fel y crybwyllwyd eisoes, er amser y Puritaniaid, Wroth, Erbury, Cradoc, ac eraill, y rhai a elwid yn gyffredin yn "gyfarfodydd parotoad," er mwyn hyfforddi y rhai a fwriadent dderbyn swper yr Arglwydd. Gwelsom hefyd bod Phylip Henry yn cynnal cyfarfodydd o'r fath ar gyffiniau sir Fflint a sir Gaer, er yn agos i 80 mlynedd cyn i Howel Harris sefydlu "cymdeithasau neillduol."

Digitized by Google

a ystyriwn i yn weinidogion grasol. Byddai fy ysbryd fel hyn yn cael ei fywhau o'r newydd, yn enwedig pan yng ngwaith yr Arglwydd yn llefaru, fel na byddai arnaf ofn na dŷn na diafol. Nid oedd genyf y fath nerth a gwroldeb wrth natur; am hyny ymddangosai i mi yn ddïamheuol ei fod yn oruwchnaturiol, ac oddi wrth Dduw.

"O berthynas i bwngc fy ymadrodd, yr oedd yn cael ei roddi oll i mi mewn modd nodedig, heb y rhagfyfyrdod lleiaf; ac nid cynnyrch fy nghof ydoedd ychwaith, canys nid cof da oedd genyf erioed wrth natur: am hyny nerthol gynhyrfiad diragfyfyr a deimlwn yn fy enaid ydoedd; yn wir, nis gallwn ymattal, gan yr angenrhaid a osodid arnaf i ddeffrôi eneidiau pechaduriaid. Fel hyn yr oeddwn yn myned ym mlaen, ond dan ofn a dychryn, rhag y gallai eraill, o gam-ddibenion, gymmeryd achlysur oddi wrth fy esampl i, i fyned o amgylch i bregethu. Parodd hyn i mi daer weddïo am gael gwybod ewyllys Duw yn fwy cyflawn, pa un ai ei ogoniant ef, ac iachawdwriaeth fy nghydbechaduriaid oedd yr unig amcanion yn fy ngolwg. Wedi holi fy hun fel hyn, cefais nerth i ymddiried, ymhob peth, ar y cadernid a'r gras sydd yng Nghrist Iesu, am gymmorth i'm dwyn yn ddïysgog trwy'r gwaith mawr; ac os galwai ei anrhydedd ef i mi ddïoddef, i gael fy ngharcharu a'm poenydio, y cawn ef yn gyfaill ffyddlon ymhob cyfyngder, yn angau, ac i bob tragywyddoldeb. Er cael o honof fel hyn amryw arwyddion cysurus bod fy anfoniad oddi uchod, etto nid oeddwn yn gwbl foddlawn yn fy meddwl fy hun, nes i mi gael fy ngwysio i ymddangos ger bron gŵr cyfrifol, i roddi cyfrif o'm gwaith yn myned o amgylch i bregethu fel yr oeddwn, pan y daeth y geiriau hyn yn rymus iawn i'm meddwl, 'Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau,' Dat. iii. 8. Wrth yr effaith rasol a weithredwyd ar fy enaid, yr wyf yn credu yr anfonwyd yr addewid hon i mi gan yr Ysbryd Glân.

"Erbyn hyn* yr oedd y Parch. Daniel Rowlands, ynghyd â dau neu dri eraill o weinidogion ieuangc Eglwys Loegr, wedi cael eu galw yng Nghymru i bregethu yr efengyl yr un modd a minnau."

Fel hyn y dechreuodd gwasanaeth un o'r pregethwyr mwyaf llwyddiannus a esgynodd erioed i bulpud, neu uchelfan yng Nghymru. Nid ystyrid ef yn bregethwr mawr, yn ol yr ystyr a roddir i fawredd pregethwr gan rai a honnant eu hunain yn feirniaid pur fawr; ond os mawredd pregethwr yw argyhoeddi pechaduriaid, a'u dychwel at Dduw, yr hyn yw prif amcan pregethu yn ol y Testament Newydd, yr oedd Howel Harris yn un o'r pregethwyr mwyaf a gyfodwyd gan Dduw ar ol yr apostolion. Ei amcan mawr ef wrth bregethu oedd gwneuthur fel y cyfarwydda Paul, yr hwn a ddywed—"Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog gyd â phob hir-ymaros, ac athrawiaeth," 2 Tim. iv. 2. Prif gynnwys ei bregethau "diragfyfyr" ef, fel y galwai hwynt, dros gryn amser ar ol ei gychwyniad, oedd dangos drygedd ofnadwy pechod yn angau, yn y farn, ac yn uffern. Yr oedd ei eiriau yn disgyn fel peleni o dân ar y lluoedd dïofal a phechadurus; ac yn ystod chwech neu saith mlynedd, cynhyrfodd ef a'i gydlafurwyr yr holl Dywysogaeth. Yr oedd ei ymddangosiad y mwyaf mawreddog; ei lais yn ddwys, soniarus, a chadarn; a'i ddifrifwch yn gwbl anwrthsafadwy ac awdurdodol. Byddai ei holl wrandawyr bron yn cael eu taro naill ai â difrifwch arswydus, neu yn myned yn llidiog a gorphwyll yn ei erbyn. Cafodd llawer iawn eu gwir ddychwelyd at Dduw, a mygodd eraill lais cydwybod trwy erlid y pregethwr a'i gyfeillion. Er bod Howel Harris yn aelod o'r fath fwyaf cywir a diffuant o'r Eglwys Sefydledig, etto canfu mai clerigwyr yr eglwys honno, a'u hymlynwyr, oedd ei wrthwynebwyr chwerwaf; yn wir, prin y gellir dywedyd iddo gyfarfod â dim teilwng o'r enw gwrthwynebiad oddi wrth neb ond Eglwyswyr. Yn lled fuan ar ol iddo ddychwel o Rydychain, a dechrau pregethu, derbyniodd y llythyr canlynol oddi wrth Ficar ei blwyf ei hun:—

"Talgarth, Chwefr. 1735-6.

"Syr,—Pan hyspyswyd fi gyntaf eich bod yn cymmeryd arnoch hyfforddi eich cymmydogion yn Nhrefeca ar achlysur neillduol, sef ar natur y sacrament, a'u cymmell i gyflawni y ddyledswydd, trwy ddarllen pennod o'r llyfr rhagorol a elwir 'Holl Ddyledswydd Dŷn,' tybiais ei fod yn deilliaw o duedd dduwiol a charedig. Ond gan i chwi fyned mor bell a thraddodi eich darlithiau cyhoeddus o dŷ i dŷ, y mae'n llawn bryd eich hyspysu am y pechod a'r gosp a dynwch arnoch eich hun trwy wneuthur felly. Nid yw'r swydd a gymmerasoch mor rhydd yn perthyn i neb o'r lleygwyr yn ddim pellach nag yn ddirgel yn eu tai eu hunain: ac os rhynga bodd i chwi gymmeryd eich Bibl mewn llaw, chwi a ganfyddwch yno y barnau trymion a dywalltodd Duw ar gyssegr-yspail ac annuwioldeb y rhai a gymmerasant arnynt yn rhyfygus ruthro i'r swydd weinidogeuthol. Od ymgynghorwch â hanesion y genedl hon, cystal a chenhedloedd eraill, chwi a welwch effeithiau erchyll a galarus zel bleidgar, a sanctiolaeth Puritanaidd: canys gwaith hawdd ydyw hudo pobl anwybodus ac annysgedig, a thrwy awgrymiadau cyfrwys o dŷ i dŷ, eu cymmell i gofleidio pa egwyddorion bynag a ddewisoch. Y mae genyf un trosedd trwm etto i'w ddodi yn eich erbyn, sef hwn:—Eich bod, ar ol i chwi esponio, un dydd Sul, ar 'Holl Ddyledswydd Dŷn' i'ch gwrandawyr, yr hwn, yn fy marn i, sydd wedi ei ysgrifenu mor eglur a dealladwy, fel y mae'n amhossibl ei aralleirio heb dywyllu a dyrysu meddwl yr awdur, wedi terfynu trwy weddi ddifyfyr hir, yn llawn o ailadroddion, adeiriadau, &c. Attolwg, ystyriwch pa mor atgas y sawria peth fel hyn o benboethni a rhagrith. Yr wyf yn gobeithio y bydd i'r hyn a ddywedais eisoes eich anghefnogi i gyflawni y fath ddrwg arferion rhag llaw. Ond os na lwydda cyngor eich gweinidog, bydd i mi hyspysu eich brawd am danoch; ac os cyndyn barhewch yn eich ffordd eich hun, rhaid i mi hyspysu fy esgob yn eich cylch, yr hyn a fydd yn rhwystr anorfod i chwi gael Urddau Sanctaidd, canys dyry eich gwaith yn

* Tu a'r flwyddyn 1738, medd ysgrifenydd yn *Y Traethodydd* (llyfr. x., t. 5), "y clywodd Harris son am Rowlands, Llangeitho, gyntaf. Bu'n awyddus iawn dros dymmor, wedi clywed am y grymusderau oedd yn cydfyned â gweinidogaeth Rowlands, i'w wrando. Cafodd y cyfleusdra cyn bo hir, yn Defynog, sir Frycheiniog, tra'r oedd Rowlands ar daith yn pregethu yn y parthau hyny." Howel Davies, yn ddiau, oedd un o'r "dau neu dri" y cyfeiria Harris atynt uchod. Pwy oedd yr un neu'r ddau arall, nis gwyddom, canys nid oedd Williams o Bant-y-Celyn, na Peter Williams, wedi tori allan etto i bregethu yn y prif ffyrdd a'r ceuau, fel y ceir gweled rhag llaw.

Digitized by Google

parhau yn eich camarfer i mi, cystal ag i eraill, ddigon o reswm i benderfynu nad yw cynheddfau eich meddwl yn iachus.

"Ydwyf, eich ewyllysiwr da,

"A'ch diffuant ostyngedig was,

"P. DAVIES.

"O.Y.—Yr wyf yn anfon Mr. Nelson* i chwi gyd â hwn, a thrwy bwyso yn ddifrifol yr hyn a ddywedir yno am y swydd sanctaidd, argyhoeddir chwi o'ch cyfeiliornad.

"*I Mr. Howel Harris, yn Nhrefeca.*" †

Tra'r oedd yr Eglwyswyr yn ysgrifenu at Howel Harris i'w anghefnogi, i'w gondemnio, ac i'w fygwth fel hyn, am ymdrechu moesoli ac achub ei gyd-ddynion, yr oedd yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid yn ysgrifenu ato i'w galonogi, ei gymmeradwyo, ac i erfyn ei gynhorthwy i efengyleiddio y wlad, fel y dengys y llythyrau canlynol:—

"ANWYL Mr. HARRIS,—Hyn sydd i'ch hyspysu, wedi i mi glywed gan Mr. Jones [Pont-y-pwl], ddarfod i mi gyhoeddi y byddwch yn ein plwyf ni (Eglwysilian), mewn dau le, rhwng tair a phedair milltir oddi wrth eu gilydd, yn y rhai y disgwyliwn ymgynhulliad mawr o bobl. Yr amser a nodwyd yw Mercher y Sulgwyn, ym Mwlch-y-cwm, a thrannoeth ym Maesdiofal, lle y cyferfydd Mr. Jones chwi, i'ch cyrchu i'w dŷ. Deuaf finnau fy hun, neu anfonaf, i Bedwellty, i'ch cyrchu i'n tŷ ni y noson honno. Attolwg, gadewch i mi ychwaneg o sierwydd am hyn gyd â'r dygiedydd. Gobeithiaf y gwna ymweliad âg yma lawer o les; a thaer weddïaf ar Dduw (a chymhellaf eraill i wneud yr un modd), ar i chwi ddyfod yn awdurdod a nerth ei Yspryd Ef.

"Ydwyf, anwyl Syr,

"Eich cyfaill mwyaf diffuant

"A'ch gostyngedig was,

"DAVID WILLIAMS.

"Pwll-y-nant, Mai 17, 1738."

---

"GAREDIG AC ANWYL SYR,—Yr oedd llawer yn disgwyl eich gweled a'ch clywed yn Aberdâr, a Llan, Llanwnno. Y mae'n resyn genyf dros y bobl a siomwyd yn y lleoedd hyny, lle y llawn fwriadech fod pan y gwelais i chwi. Gwelais y gŵr duwiol a zelog, Mr. Gruffydd Jones, yr hwn oedd yn bur ymofyngar yn eich cylch, ac yn gweddïo ar i'r Duw mawr a daionus fendithio eich ymdrechion gonest i wneud daioni i lawer o eneidiau; a dywedodd na bydd ef byth yn rhwystr i chwi; ond yr oedd yn ofni y byddai i ryw bersonau anwybodus ymgymmeryd â'r gwaith, heb gymmwysderau ato.

"Dymunaf gael atteb i'r llythyr hwn gyd â'r cyfleusdra cyntaf. Bydded i'r Duw mawr fendithio ei ymweliad â chwi; ac os yn glaf, bydded i chwi gael mêl ar wïalen eich cystudd, a'ch puro, fel aur, yn y ffwrnes hon. Byddem yn dra llawen eich gweled a'ch clywed yn y lleoedd yr addawsoch fod ynddynt: y mae miloedd lawer yn disgwyl i chwi ddyfod. Erfynaf eich gweddïau gwresocaf at Dduw drosof fi a'r eiddof. Gorphwysaf eich cyfaill diffuant yn yn rhwymaf gorau cariad,

"HENRY DAVIES.

"Nant Celyn, Mehef. 9, 1738.

"O.Y.—Erfyniaf y ffafr o gael llinell oddi wrthych, od ydych ar dir y byw.

"*I Mr. Howel Harris, yn Talgarth. I'w adael gyd â Mr. John Powel, yn y Glynn. Hyn gyd â gofal a brys.*"

---

"Pwll-y-pant, ymhlwyf Eglwysilian,
"Mehef. 12, 1738.

"ANWYL MR. HARRIS,—Y dygiedydd sydd genad neillduol a anfonwyd i ymofyn pa fodd yr ydych: y mae'n un a ddygwyd dan ryw argyhoeddiadau trwy'r hyn a glywodd genych chwi, y rhai yr wyf yn gweddïo Duw ar iddynt fod yn barhaus. Mawr oedd y disgwyliadau am eich dyfodiad i'r lleoedd y bwriadech, sef Llanwnno, Llantrisant, a St. Nicolas; a chyfododd y siomedigaeth ddymuniadau a hiraeth miloedd o eneidiau. Dilynwyd gwasanaeth y ddau ddiwrnod gyd â ni â llwyddiant rhyfeddol. Y mae'r eglwysi a'r cyfarfodydd yn orlawn, ac y mae tori'r Sabboth yn myned i lawr: edrychir ar yr arfer gyd âg atgasrwydd: y mae dawnsio wedi ei attal, a llefir yn erbyn tyngu halogedig, ac ymladd ceiliogod. Ond nid ydych yn tybied bod y diafol yn fud a llonydd; nac ydyw, y mae'n llefaru ac yn gweithredu; ond yr wyf yn meddwl yr ymddengys bod mwy yn ei erbyn nag sydd o'i blaid yn y parth yma o'r wlad. Y mae eich cyfeillion yn lliosocach na'ch gwrthwynebwyr: pregethir yn eich erbyn mewn rhai manau; ond y mae'n troi er gwarth i'r rhai sydd yn ei wneuthur. Yspryd celwyddog yw'r diafol yngenau y rhai sydd yn eich camgyhuddo wrth y boneddigion, er mwyn eu cynhyrfu yn eich erbyn; ond rhyngodd bodd i Dduw etto symmud y cyhuddiad enllibus. Ar y cyfan, nis gallaf lai na chredu (heb ddim pleidgarwch) y bu eich dyfodiad yma o Dduw, ac y gwelodd Duw yn dda ei hun ddyfod yma gyd â chwi yn nerth ac awdurdod ei Yspryd. Gobeithiaf yr estynir eich bywyd defnyddiol, ac y bydd i Dduw trwy eich bwrw i lawr, eich parotoi at wasanaeth mwy; a hyderaf na orweddwch i lawr, ac na newidiwch eich gyrfa, tra y mae Duw fel hyn yn eich arddel yn weledig. Pan fethodd Satan gyrraedd ei amcan wrth wawdio a bygwth trwy ei weision ymroddgar, pwy nis gŵyr na all efe ymrithio yn angel goleuni, a dodi rhyw ddynion da a duwiol i'ch anghefnogi, yr hyn nis gall y sarph gyfrwys lai na gwybod a fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol i weithredu arnoch? Ond gweddïaf ar Dduw i chwi gael eich dysgu i wybod ei ddichellion *ef* pa fodd bynag y gweithreda. Yr wyf yn gobeithio y deuwch i'r manau a nodwyd uchod cyn gynted ag yr adfer Duw chwi i iechyd a nerth. Pa un bynag ai amser cynheuaf neu ryw amser arall a fydd, credaf na bydd o nemmawr wahaniaeth, gan fod y bobl mor awyddus i'ch gwrando. Yr oeddwn yn bwriadu eich cyfarfod megis y cyttunwyd, a nodi pump neu chwech o fanau i'w cynnyg i chwi, y rhai oedd eisiau eich gwasanaeth, yn awyddus am dano, a hefyd yn gyfleus, y rhai a ddodaf o'ch blaen pan welaf chwi y tro nesaf, yr hyn, gobeithiaf, na fydd yn hir cyn i chwi ddyfod i'r lleoedd uchod. Gobeithiaf y meddyliwch fod yr hanes a roddais i yn awr yn cynnwys llawer o'r llais a glywodd Paul mewn gweledigaeth, 'Tyred drosodd i Macedonia, a chymmorth ni.' O byddwch alluog i ysgrifenu, attolwg anfonwch linell gyd â'r dygiedydd. Y mae fy rhieni a'r holl deulu yn anfon eu serch a'u cofion attoch, ac yn gweddïo am adferiad eich iechyd a pharhâd eich defnyddioldeb, megis hefyd y gwna eich cyfaill diffuant, a'ch gostyngeiddiaf was,

"DAVID WILLIAMS.

* "Y mae'n amlwg mai Nelson ar Ymprydiau a Gwyliau a feddylir."—*Dr. T. Rees.*

† Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 364-6.

"O.Y.—Gwelais Mr. Edmund Jones ddydd Sadwrn diweddaf, yr hwn a ddymunai arnaf ei gofio atoch od ysgrifenwn."

---

"Pwll-y-pant, Gorph. 14, 1738.

"ANWYL MR. HARRIS,—Gobeithiaf eich bod yn ymadfer, ac yn cael nerth parhaus. Disgwylir am danoch yn fawr iawn i'r parthau hyn, a hyderaf bod eich tueddiadau chwithau i ddyfod yn cynhyddu. Y mae effeithiau daionus eich ymweliad olaf yn weladwy yma fyth. Bydd yr wythnos olaf o'r mis hwn, neu'r gyntaf o'r nesaf, yn bur gyfleus. Y lleoedd mewn golwg, heb law y rhai a siomwyd, yw Llanedarn (o St. Nicolas yno), oddi yno i Machen neu Bassalleg, un o'r ddau, fel y meddylir yn fwyaf cyfleus. Soniasom am dŷ y dygiedydd, ond nid ydym yn rhoddi iddo ef addewid bennodol, fel y gallom fod at ein rhyddid i ddewis y lle mwyaf cyfleus a'r a allom. Yr wyf yn ofni nad yw'r dygiedydd, yr hwn a fu ddŷn gwyllt, yn teimlo yr un o loesion yr enedigaeth newydd; cafodd y fath darawiad, ond prin y gŵyr paham. Os gellwch gael cyfleusdra, attolwg siaradwch âg ef yn ddifrif am natur edifeirwch ac adenedigaeth. Collodd gyfleusderau a allasent fod, ond odid, o wasanaeth iddo. Pan ddeloch yma, yr wyf yn dymuno eich cyfleu mewn lleoedd eraill am ddwy noson. Un a fydd yn agos i dŷ y gŵr bonheddig y siaredais â chwi am dano, lle yr wyf yn disgwyl iddi hi eich cyfarfod; a'r llall sydd mewn lle angenrheidiol, lle y cyfarfyddir chwi gan bobl ieuaingc, rhai o'r sawl y gweithredwyd arnynt gan yr hyn a glywsant genych chwi, ac sydd fyth dan argraphiadau gobeithiol. Yr wyf yn bwriadu cael cyfarfod â rhai cyfeillion, ond yn gyfrinachol, i weddïo am gynhorthwy a bendith Ddwyfol. Dylaswn ddywedyd wrthych y disgwylir chwi o'r plwyf hwn i Gelligaer. Y mae'r curad, yr hwn a alwodd yn ein tŷ ni y nos o'r blaen, dros gefnogi hyd eithaf ei allu, er y gall weithredu ychydig tu ol i'r lleni, gan ei fod yn awr ar dderbyn urddau offeiriad. Efe yw'r caredicaf o holl glerigwyr y parthau hyn: y mae'n pregethu gyd â llawer o fywyd, ac yn ymdrechu gwneud cymmaint o ddaioni ag a all yn y plwyf. Nid annogwn chwi i wneud dim niwaid i'r achos, yr hwn hyderaf y gallaf ddywedyd ei fod yn agos at fy nghalon; ond gallaf ddywedyd wrthych na raid i chwi fod yn *anghyfeillgar* âg Ymneillduwyr yn y parthau hyn, megis mewn rhai manau, canys, dïolch i Dduw, y mae rhagfarn yn darfod fwyfwy yma.

"Attolwg ysgrifenwch gyd â'r dygiedydd, a phenderfynwch yr amser. Yr wyf yn deimladwy o weithrediadau yr un gelyn, *hunan*, rhag yr hwn yr ydych chwi yn cwyno cymmaint, a'r hwn a ofnaf fi yn fwy na'r diafol ei hunan. Ar i Dduw, yr hwn a'ch tueddodd chwi i fyned o amgylch fel hyn, eich cadw rhag effeithiau melldigedig Satan, a gelyniaeth ei offerynau, ac ar iddo barhau i lwyddo eich ymdrechion gonest a diffuant fwyfwy, ydyw, ac a fydd, gweddi ddyfal a chywir,

"Anwyl Syr,

"Eich cyfaill serchog,

"A'ch gostyngedig was,

"DAVID WILLIAMS."*

---

"Blaen-gwrach, Gorph. 28, 1738.

"GAREDIG AC ANWYL SYR,—Ysgrifenais atoch o'r blaen yn ystod y pythefnos yma. Y mae'r gŵr difrifol, zelog, a duwiol, Mr. William Thomas, clerigwr yn Llanilltyd Nedd, yn dra awyddus am eich gweled, a chael ymddiddan â chwi. Daeth yn fwriadol i'ch gwrando yn yr Abatty (*Abbey*), ond siomwyd ef a miloedd yn ychwaneg. Ceryddwyd ef yn dost gan glerigwyr chwerw sy'n byw yn Nedd. Y mae'r clerigwyr wedi ymranu, y naill yn erbyn y llall, yn ein hardaloedd ni. Y mae capten ymladdfeydd ceiliogod, yr hwn a'ch clywodd yn y Bettws, yn addaw na ddilyn efe y chwarau drygionus hwnw mwyach; ac un arall, *duc omnium malorum* (arweinydd pob drygioni), sydd wrth lan y môr, a dorodd benau ei geiliogod pan aeth adref wedi bod yn gwrando arnoch chwi. Gwelais ef y dydd cyntaf o'r wythnos ddiweddaf, ac ymddengys ei fod yn wrandawr difrifol. Gwahoddodd fi i'w dŷ. I Dduw yn unig y perthyn y moliant. Canfyddaf ddiwygiad mawr mewn llawer ar ol i chwi fod y ffordd yma, yr hyn sy'n galw yn uchel arnoch ddyfod etto mor fuan ag y bo'n ddichonadwy. Y mae boneddiges gŵr bonheddig mawr, cyfreithiwr is law i ni, yn dra awyddus am ddyfod i'ch clywed, ond y mae efe yn wrthwynebus. Credaf bod y diafol wedi colli rhai milwyr medrus, y rhai sydd wedi ymrestru i fod yn filwyr ffyddlawn dan 'Gapten mawr ein hiachawdwriaeth,' ein Harglwydd Iesu. Cofiwch fi yn garedig at Mr. William Herbert, a phob cyfeillion Cristionogol ymofyngar. O gweddïwch ar fod i fwy o gyflegrau gael eu hanfon i hyrddio i lawr dyrau Satan. Yr wyf yn erfyn eich gweddïau a'ch deisyfiadau ar i'r Arglwydd roddi i mi fwy o ffydd, gostyngeiddrwydd, amynedd, a zel sanctaidd. Yr wyf yn caru ac yn hireuthu am eich gweled.

"Gorphwysaf eich cyfaill,

"Eich brawd a'ch diffuant was,

"HENRY DAVIES.

"O.Y.—Anrhydeddwch fi â llythyr pan dderbynioch hwn, a gadewch i mi wybod pa bryd y deuwch i'n hardaloedd ni, a pha fodd y mae gwaith ein Meistr mawr a daionus, Crist Iesu, yn llwyddo yn eich parthau chwi. O parhewch mewn gweddi dros eich brawd truan. Dymunaf arnoch gael llythyrau Mr. Gruffydd Jones oddi wrth Mr. Rowlands; ac os gellwch, llwyddwch gyd âg ef i ddyfod i'r parthau hyn i bregethu yr efengyl dragywyddol. Mi ymdrechaf gael llythyr cydsyniad gan un o'n clerigwyr os daw efe. Rhoddwch fy nghofion a'm serch ato."†

Tu a dechrau y flwyddyn hon, neu ddechrau y nesaf, ysgrifenwyd y llythyr hynod a ganlyn at Howel Harris:—

"Merthyr Tydfil, Mawrth 3, 1738-39.

"FRAWD ANWYL,—Yr wyf yn sicr na ddïystyrwch chwi mo'r cyfarchiad efengylaidd yna. Bydded ein prawf yn eglur o'n hawl i'r rhagorfraint, Heb. ii. 11, iii. 1. Mewn brys yn awr, fel bob amser, yr wyf yn anfon gyd â chyfarchiadau diffuant cariad serchog, a gwir barch, i ddymuno, ymleunaf oll, ar i ni weddïo dros ein gilydd, ein llafur, a'n perthynasau; yna y fath gyfeillach a allwn ei chadw; ac, ymhellach, gyd â phob erfyniadau, ar i chwi hebgor i ni wythnos, mor fuan fyth ag y galloch, rhwng y Faenor, Merthyr, Aberdâr, a Llanwnno. Gadewch i mi wybod pa bryd, frawd caredig, y goddefwch i mi addaw y byddwch yn y lleoedd appwyntiedig, am 10 neu 11 y

* Dywedwyd cymmaint ag a wyddys am y "Dafydd Williams" yma eisoes, cyf. i., t. 137, nod ‡.

† "Brodor o sir Gaerfyrddin oedd Henry Davies. Addysgwyd ef dan Mr. William Evans yng Nghaerfyrddin, ac ordeiniwyd ef yn Mlaen-gwrach yn Nglyn Nedd, tu ar fl. 1718. Efe oedd sefydlwr a bugail cyntaf yr Eglwys Annibynol yn Cymmer, ger llaw Pont-y-pridd. Gorphenodd y gŵr enwog hwn ei yrfa ddeuarol yn Gorphenaf, 1766, yn y 70fed flwyddyn o'i oedran. Yr oedd ynddo ef gyfuniad dedwydd o ddysg yr Annibynwr, ac o dân y Methodist."—Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 374, note *.

Digitized by Google

borau. Maddeuwch fy hyfder mewn cariad, er mwyn cyfleusdra ac adeiladaeth eneidiau anfarwol. Eich gwaith yn oedi eich teithiau addawedig sy'n peri y dymuniad yma yn awr; a chan ddymuno curo'r haiarn cyn iddo oeri a chaledu, a bod mwy o debygolrwydd i ni, greaduriaid rhesymol, ddisgwyl argraph dyfnach, er bod y llwyddiant bob amser i'w briodoli i ddylanwad Dwyfol, fel y bo iddo Ef, yr hwn sy'n gwneud y gwaith yn effeithiol, gael yr anrhydedd sydd deilwng iddo.

"Ni feiddiaf fi, frawd, gyfeirio eich dewisiad o byngciau. Y mae bygythion y gyfraith yn gadael rhai megis yn Deut. xxix. 19. Y mae eraill yn dïystyru rhad ras yr efengyl, Mat. xi. 17. Nis gall na barnau, na thrugareddau, na gweinidogion, gyrraedd i diriogaeth yr Yspryd Glân, 2 Cor. iii. 5, 6. Bydded ein gofal a'n myfyrdod cywir a pharhaus am ei foddhau ef: bydded iddo ef gadw ein calonau a'n hymddygiad dan ei ddylanwadau sanctaidd a gwir felus; ein cyfaill, ein harweinydd, a'n diddanydd gorau. Yna gallwn ddisgwyl, ïe, ac ymddibynu ar gael arweiniad, cynhorthwy, a llwyddiant: cyfeiriaf yn unig at 1 Cor. ii. 1, 2.

"Rhaid i mi derfynu: yr wyf yn ddyledus, ac yn wir ddïolchgar i chwi am eich llafur diweddar yma. Gobeithiaf na bydd yn ofer. Yr wyf yn eich cymmell i ddyfod etto yn fuan, ac erfyniaf i chwi aros dwy noson y pryd hyny yn fy nhŷ i. Gan eich cyflwyno chwi a'ch amgylchiadau i Dduw, ac i air ei ras ef,

"Gorphwysaf, eich anheilwng serchus

"Gyfaill, brawd, a gwasanaeuthwr,

"JAMES DAVIES.

"O.Y.—Y mae'n cyfeillion yn Ynys-Taf yn cael cyfarfodydd mynych; a chefais innau un mawr a chysurus yno ddoe. Yr wyf yn erfyn arnoch fel fy nghyfaill, ac yn eich cymmell fel fy mrawd Cristionogol, fy nghofio yn eich gweddïau dirgel. Disgwyliaf glywed oddi wrthych yn feunyddiol, er nas gwn pa le y cyferfydd y darn ysgrif yma â chwi.

"Yr eiddoch yn gywir i'n gilydd, J. D."*

Dengys y llythyrau dyddorol hyn, nid yn unig bod yr Ymneillduwyr yn bur bleidiol i Howel Harris y pryd hyn, ond hefyd ei fod ef wedi bod yn pregethu mewn amryw fanau yn sir Forganwg *cyn* haf 1738, gyd â llwyddiant mawr, a chymmeradwyaeth uchel yr holl Ymneillduwyr yn y lleoedd hyny; a'u bod yn dra awyddus am iddo fyned i'w plith eilwaith. Dengys y llythyrau hyn mai'r achos iddo dori ei gyhoeddiad oedd rhyw afiechyd anhyspys, a ddygwyd arno, y mae'n debyg, gan ormod llafur a phryder meddwl. Hefyd, gellir casglu oddi wrthynt bod holl offeiriaid sir Forganwg, fel rhai ei sir ei hun, yn dra gwrthwynebus iddo, ond curad Gelligaer, a pherson Llanilltyd Nedd.

Yn nechrau y flwyddwyn 1739, aeth Harris, am y tro cyntaf, ar daith trwy Ogledd Cymru i bregethu; a thaith beryglus ac erledigeuthus erchyll a gafodd yno, fel y gwelsom eisoes. Wedi bod cyn belled a'r Bala ar y daith flinderus honno, dychwelodd i sir Drefaldwyn, ac aeth oddi yno trwy siroedd y Deheudir, nes iddo gyrraedd Caerdydd; ac yno, er ei lawenydd anhreuthol, cyfarfu â Mr. Whitfield, ar ei ddychweliad o'r fordaith gyntaf o'r America. "Dyma'r tro cyntaf," eb efe, "y gwelais ef, ac y cefais y mawr hyfrydwch o gydymddiddan âg ef wyneb yn wyneb."

Tu a diwedd Mawrth, 1739, aeth i Lundain, lle y bu ei ymddiddan â chyfeillion duwiol a dysgedig o fendith fawr er ei oleuo a'i gadarnhau yn y ffydd sydd yng Nghrist Iesu. Tu a dechrau haf y flwyddyn hon, dychwelodd oddi wrth ei gyfeillion yn Llundain i Drefeca. Yn ebrwydd wedi dychwelyd, aeth ar neges i'r Fenni. Oddi yno, aeth trwy sir Henffordd; a phan yn y Dref-Hir, yn y sir honno, pregethodd i dyrfa fawr oedd yn chwarau yno mewn gwylmabsant. Cyfeiriodd ei ymadrodd yn hyf at offeiriad y plwyf a dau ynad heddwch oedd yno yn mwynhau y digrifwch anfoesol. Gofynodd yr holiad yma iddynt yn ddifrifol ac awdurdodol—"Pa fodd, mewn difrif, y rhoddwch gyfrif o'ch goruchwyliaeth i Dduw, yn nydd y farn ofnadwy, gan eich bod fel hyn yn cefnogi pob oferedd, afreolaeth, ac anfoesoldeb?" Dirmygodd rhai o'r boneddigion ef, gan lefain, "Tynwch i lawr y bragaldiwr!" Pa wedd bynag, diangodd heb gael dim niwaid, a dychwelodd oddi yno i'r Fenni, lle y cafodd gyfeillach hyfryd yn nhŷ un Mr. T. Jones âg Edmund Jones, "hen brophwyd Pont-y-pwl." Aeth o'r Fenni (gyd âg E. Jones, yn ddïau) i Bont-y-pwl, lle y pregethodd yn rymus ac effeithiol ar ffydd ac hyfder

* JAMES DAVIES a anwyd yn Llanelli, sir Gaerfyrddin. Y mae ei hanes foreuol yn gwbl anhyspys. Ordeiniwyd ef yn Llanwrtyd, sir Frycheiniog, yn y flwyddyn 1710. Yr oedd ei boblowgrwydd anghyffredin yno yn cyrhyrfu yr holl wlad. Symmudodd i Merthyr Tydfil o gylch 1720, lle yr oedd yn gyfartal boblogaidd am ugain mlynedd; ond gorfywiodd ei boblowgrwydd a'i ddefnyddioldeb. Yr amgylchiadau a fu'n ddinystr iddo oedd y rhai canlynol:—Yn 1738, ordeiniwyd Mr. Richard Rees, aelod cyfoethog o'r eglwys, i fod yn gynnorthwywr iddo. Addysgwyd ef dan Mr. Perrot yng Nghaerfyrddin, ac fel y rhan fwyaf o'i fyfyrwyr ef, trodd allan yn Arminiad. Achosodd hyny gynnwrf buan yn yr eglwys. Pregethai y bugail hynaf Galfiniaeth, tra y defnyddiai yr ieuengaf holl ddylanwad ei dalentau, ei ddysg, a'i gyfoeth, i deunu egwyddorion Arminaidd. O'r diwedd cymmerth ymraniad le. Ymneillduodd y blaid Arminaidd, ac adeiladasant le addoliad iddynt eu hunain yn Nghefncoed-y-Cymmer; ond yr oedd ei hymneillduad ymhell oddi wrth adfer tangnefedd yr eglwys ym Merthyr, gan fod y rhan fwyaf o'r aelodau yn berthynasau agos neu bell, ac yn cydymdeimo â'u gilydd, er yn anghyttuno yn eu syniadau athrawieuthol. Pa wedd bynag, yr oedd hyder ei frodyr yn y weinidogaeth, a'r eglwysi cyfagos, gan Mr. Davies, nes yr ymsefydlodd ei fab, Mr. Samuel Davies, un arall o fyfyrwyr Caerfyrddin, yno yn 1750, "i gynnorthwyo ei dad, ac i ymdrechu cyfanu y rhwyg." Dechreuodd y gŵr ieuangc talentog yma bregethu Pelagiaeth noeth yn ebrwydd; a'i dad, fel Eli, trwy dawel oddef yn ei fab ei hun yr hyn a wrthwynebai mor zelog yn ei gynnorthwywr blaenorol, Mr. Richard Rees, a aberthodd hyder y Calfiniaid a'r Arminiaid. Ni chredai y naill blaid na'r llall ei fod yn gywir mewn dim. Fel hyn, dedfrydwyd un o'r pregethwyr mwyaf enwog a phoblogaidd yn y Dywysogaeth i derfynu ei ddyddiau mewn dinodedd ac annefnyddioldeb. Bu farw ar y 29fed o Ebrill, 1760.—Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 340–1.

Digitized by Google

Daniel, Sadrach, Mesach, ac Abednego. Yma cymmerwyd ef i fynu gan ynad heddwch, a gorfu arno roddi meichiau i atteb ym mrawdlys Mynwy, yn y mis Awst canlynol. Digwyddodd hyn, eb efe, tu a chanol mis Mehefin, 1739. Yn y cyfamser, rhoddes ei fryd ar fod mor ddiwyd ag y gallai yng ngwaith ei Arglwydd. Ymddengys y tybiai y dedfrydid ef ym mrawdlys Mynwy i gael ei garcharu, ac i hyny ei symbylu i fwy fyth o ddiwydrwydd. Aeth o Bont-y-pwl i Gaerodor; a chredai fod ei fynediad yno oddi wrth Dduw, o herwydd y budd a'r llwyddiant a gafodd yno. Aeth o Gaerodor, gan bregethu trwy *holl* siroedd y Deheubarth; ac, eb efe, "yr wyf yn credu na bu fy llafur yn ofer, eithr i'r Arglwydd ei fendithio i laweroedd." Dychwelodd o'r daith hirfaith hon i Drefeca ar y 7fed o Awst; ac ar brydnhawn yr un diwrnod, aeth cyn belled a'r Fenni, er mwyn bod mewn pryd ym mrawdlys Mynwy, rhag y cospid ei feichiau os na byddai yno yn brydlon. Yr oedd yn gyfyng iawn ar ei feddwl yn yr amgylchiad tywyll yma, canys nid oedd ganddo arian i dalu i gyfreithwyr am ei amddiffyn, ac nis gwyddai am unrhyw gyfeillion a wnelent hyny. Yn y cyfyngder mawr yma, ymroddes i weddïo ar i'r Arglwydd roddi prawf penderfynol iddo, pa un a oedd ei waith yn teithio i bregethu, a hyny heb urddau o fath yn y byd, yn gymmeradwy ganddo, ai peidio. Erbyn iddo gyrraedd Trefynwy, yr amser gosodedig, "Yr oedd yr Arglwydd," eb efe, "heb wybod i mi, wedi cynhyrfu llawer o'm cyfeillion crefyddol i ddyfod yno o amryw barthau, megis Llundain, Caerloyw, Cymru, &c., i sefyll o'm plaid; a'r pen-swyddogion, wedi cydymgynghori o honynt ynghylch y matter, ni thybiasant yn addas sefyll i'm herbyn, ac felly cefais fy ngollwng yn rhydd."

Bu'r amgylchiad rhyfedd yma yn foddion effeithiol i lwyr symmud ei betrusder ynghylch Ysgrythyroldeb ei waith yn tramwy, gan bregethu y gair, heb urddau dynol o fath yn y byd; ac nid ymddengys iddo eu ceisio byth mwyach, canys ym mis Awst y flwyddyn hon (1739), yn ebrwydd ar ol brawdlys Mynwy, efe a ysgrifenodd fel hyn:—

"Wedi fy ngollyngdod, cefais fy sefydlu yn fwy yn fy enaid nag erioed bod fy anfoniad i bregethu yn deithiol, heb urddau, oddi wrth Dduw, yn enwedig gan i mi ymofyn am gael fy ordeinio gynnifer o weithiau, a chael fy nhroi heibio, ac heb ganddynt un rheswm i'm herbyn, ond yn unig fy mod yn pregethu yn deithiol heb urddau eglwysig. Ni bu arnaf byth wedyn ddim petrusder meddwl mewn perthynas i'm dull yn myned o amgylch i bregethu y gair heb ordeiniad dynion; eithr cefais fy nghadarnhau fwyfwy; *yn gyntaf*, oddi wrth esamplau Ysgrythyrol; ac *yn ail*, oddi wrth farn ac ymarferiad yr eglwys, a hen dduwinyddion hynod gynt. Mewn perthynas i bregethu heb ordeiniad, gwelais hanes Apolos yn Act. xviii. 24-28; ac yn hanes holl eglwys Jerusalem, y rhai a wasgarwyd o blegid y blinder a godasai ynghylch Stephan, y rhai oll a dramwyasant gan bregethu y gair, ar hyd Phenice, a Cyprus, ac Antiochia; ac a gawsant gymmeradwyaeth yr apostolion am eu llafur: Act. viii. 1, 4; xi. 19-24: am ba rai, nid oes hanes iddynt gael un math ar ordeiniad, neu anfoniad dynol, namyn trwy gynhyrfiad yr Yspryd Glân yn unig, a chariad at anfarwol eneidiau eu cyd-bechaduriaid. Minnau a dybiais, wedi ystyried llawer o bob tu, mai prin y gellid cael un amser mwy angenrhaid na'r pryd hwn, pan y mae yr holl wlad yn gorwedd mewn marweidd-dra a dideimladrwydd. Pan ddechreuais i dramwy gan bregethu y gair, nid oedd mewn llawer o eglwysydd, o fewn fy ngwybyddiaeth i, un bregeth dros rai misoedd ynghyd; ac mewn eraill, byddai pregeth Saesneg ddysgedig yn cael ei thraddodi i gynnulleidfa o Gymry uniaith ac anllythyrenog! A'r lle y byddid yn treuthu pregeth ddealladwy, byddai honno yn rhedeg mor ddeddfol yn iaith yr hen gyfammod, gan ddyrchafu gallu a gweithredoedd dyn, heb gymmaint a son ynddi am Gyfryngwr, mwy na phe buasai heb un yn bod; a phe buasai eu gwrandawyr yn dal ond ychydig sylw, gallasent yn hawdd ganfod nad oedd y gyfryw athrawiaeth yn eu harwain at Grist o gwbl, yr hwn yw'r unig ffordd newydd a bywiol at Dduw. Wrth ganfod hyn, a theimlo cariad Crist yn fy nghymmell, angenrhaid a osodwyd arnaf i fyned o amgylch, i daenu ar led efengyl fy anwyl Arglwydd a'm Prynwr."*

Yn haf 1740, cyfarfu Harris âg un Mr. Seward yn y Bont-faen, sir Forganwg, yr hwn oedd bregethwr teithiol fel yntau. Aethant gyd â'u gilydd i Gaer-dydd, Castell-newydd-ar-Wysg, Caerlleon-ar-Wysg, Brynbiga, a Mynwy. Cawsant driniaeth erchyll o greulawn, fel y gwelsom eisoes, yn y Castell-newydd, Caerlleon, a Thre Mynwy. Aeth y ddau oddi yno i Colford, ac yna i Gaerloyw. Er mwyn lledeunu yr efengyl yn helaethach, ymadawsant â'u gilydd yn gariadus iawn yng Nghaerloyw: aeth Mr. Seward i'r Gelli, sir Frycheiniog,† ac aeth Harris i sir Faesyfed. Gwelsom

* Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 32-3; Morgan's Life and Times of Howel Harris, pp. 40-1.

† Ychydig iawn o hanes bersonol yr enwog Seward sydd genym, heb law yr ychydig a geir ar gareg ei fedd. Tra'r oedd yn pregethu yn y Gelli, tarawodd rhyw ddihiryn ef yn ei ben â chareg, fel y cwympodd i lawr yn hanner marw yn y fan, a threngodd yn fuan o herwydd effaith yr ergyd; a phan yn ymyl marw, erfyniodd na byddai i neb erlyn ei lofruddiwr. Gwelsom iddo gael ei daro â chareg yn ei lygaid, cyn yr ergyd farwol uchod, yng Nghaerlleon-ar-Wysg, nes yr aeth y llygaid hwnw yn ddall yn ebrwydd. Claddwyd ef ym monwent Corsop, ger llaw y Gelli, a cherfiwyd yr hyn a ganlyn ar ei gareg fedd:—

"Here lyeth the body of William Seward, of Badsey, in the county of Worcester, Gent., who departed this life, Oct. the 22nd, 1742. Aged 38.

'To me to live is Christ, and to die is gain.' Phil. chap. i. 21 vs.

'If earth be all,
Why o'er and o'er a beaten path
You walk and draw up nothing new?
Not so our Martyred seraph did,
When from the verge of Wales he fled.'"



Digitized by Google

eisoes y modd yr achubwyd ef o afflau ei erlidwyr yn y sir honno, am bregethu yn erbyn dihirwch gwylmabsant y cyfarfu â hi yno, trwy gyfrwng cyfreithiwr enwog, a roddasid ar waith gan ryw ŵr bonheddig i'w amddiffyn yn y brawdlys y rhwymasid ef i ymddangos ynddo; a'r modd y gwaredwyd ef rhag cael ei lofruddio gan y milcinllu, y rhai a fynnent ei hyrddio bendramwnwgl dros risiau y neuadd, a'i sathru i farwolaeth.

Yn nechrau y flwyddyn 1741, aeth Harris ar ail daith i'r Gogledd, lle y cafodd yr amharch mwyaf a ddigwyddodd iddo yn ei holl fywyd, er iddo yn fynych gyfarfod â difrïaeth ac enbydrwydd mawr. Wele ddarlun Harris ei hun o'r daith beryglus, erlidgar honno, a'r gwaredigeuthau hynod a gafodd rhag ei lofruddio gan yr erlidwyr:—

"Fel yr oeddwn yn myned ym mlaen yng Ngogledd Cymru, cyffrôdd y gelyn yn ddirfawr yn erbyn fy ngwaith yn anturio teunu yr efengyl yn ei diriogeuthau ef. O herwydd paham, amcanodd fy ngwrthsefyll hyd y gallai; a cheisiodd, hyd y cafodd genad, gymmeryd ymaith fy einioes hefyd. Yr oedd rhai wedi bod yn daer wrthyf am ddyfod i'r Bala, a myned trwy'r Gogledd, er bod o honof yno unwaith neu ddwy o'r blaen. Felly wedi i mi weddïo, ac ystyried y matter, ymddiriedais i Dduw am fy einioes, ac aethum ym mlaen, gan bwyso ar ei ffyddlondeb ef yn unig. Pan oeddwn yn agos i'r Bala, digwyddodd i mi oddiwes offeiriad y plwyf, ar y ffordd, yr hwn a ddywedodd wrthyf yn sarug am beidio myned i mewn i'r dref er fy mherygl. Minnau a'i hattebais ef yn addfwyn, gan ddywedyd, 'Yr wyf fi yn gwbl sicr mai fy nyledswydd yw myned yno; ac nid oes genyf un bwriad ond cyhoeddi y newyddion da am iachawdwriaeth i bechaduriaid; ac ni fynwn o'm bodd dramgwyddo neb.' Pa wedd bynag, dechreuodd fy nifrïo, a'm difenwi yn ffyrnig, gan ddynesu ataf i'm taro â'i ffon. Dywedais wrtho fy mod i wedi fy nysgu, pan y'm difenwid, i beidio difenwi drachefn, gan fyned ym mlaen yn bwyllog tu a'r dref. Pan euthum i mewn iddi, gwelwn dyrfa lïosog yn disgwyl am danaf; a dywedwyd wrthyf mai gwerinorf weuthaf yr holl sir oeddynt, wedi ymgynnull o bwrpas i'm herlid a'm rhwystro i bregethu yno. Ar ddymuniad fy nghyfeillion, ymadewais o'r heol, ac euthum i dŷ helaeth i bregethu. Yr oeddwn yn teimlo yma yn bur ddedwydd yn fy enaid er yr holl gythrwfl, ac yn cael fy llenwi â nerth a hyder i ddyrchafu fy llais fel udgorn, fel y gallai'r bobl fy nghlywed, er gweuthaf yr holl gynnwrf a'r trwst a wnai'r mileinllu wrth y drws a'r ffenestr, y rhai a ddrylliwyd yn ddarnau ganddynt. Yr oedd y terfysgwyr wedi ymbarotôi i ymosod arnaf trwy yfed i ormodedd o ddïod feddwol a roddasid iddynt gan yr offeiriaid; ac wedi i mi lefaru dros ychydig amser, rhuthrasant i ganol y gwrandawyr oedd gyd â mi yn y tŷ. Yna dymunodd cyfaill arnaf ddistewi; a minnau, gan wrando ar gyngor fy nghyfaill, rhag ei friwio, yn hytrach nag ar y nerth a'r hyder yspryd a deimlwn yn fy meddwl, a beidiais a llefaru. Yna teimlais yr awdurdod oedd gyd â mi cyn hyny yn cilio oddi wrthyf yn y fan, a deallais i mi wneuthur yr hyn na ddylaswn. Pa ddelw bynag, ymneillduo a wneuthum i ystafell yn y llofft. A'r terfysglu, yn lle ymgilio, a aeth yn fwy cynddeiriog fyth: amgylchodd rhai o honynt y tŷ, tra y dringai eraill i'w ben, gan dyngu a bygwth y lladdent fi cyn gynted ag y deuwn allan. Gan ei bod yn dynesu at y nos, tybiais mai'm dyledswydd oedd myned allan i'w plith, gan orchymyn fy hun i ddwylaw fy Arglwydd. Cyn cynted ag yr euthum allan o'r tŷ, dechreuodd un o honynt fy llindagu, gan fy nhynu yn erbyn fy napcyn; ond trwy i hwnw lithro oddi am fy ngwddf, achubwyd fi rhag syrthio i lawr. Tarawodd un arall fi ar fy wyneb, tra'r oedd eraill yn taflu cerrig ataf, ac yn lluchio tom arnaf; a thybiais bod fy nghoelbren wedi syrthio i mi gael marw o farwolaeth Stephan yn eu canol hwynt. Yr oeddwn yn parhau i lefaru wrthynt, ac i weddïo drostynt; a thra'r oeddwn yn gwneuthur hyn, daeth cyfaill ataf, gan ddywedyd fy mod yn temtio yr Arglwydd wrth aros yn eu plith; ond cyn gynted ag y troais fy nghefn ar fy ngelynion, teimlais fy mod yn cael fy ngadael i mi fy hun, a'm bod yn soddi dan y tonnau. Nid oedd arnaf ofn angau, gan wybod mai mynediad ydyw i'r orphwysfa dragywyddol; ac nid oedd amheuaeth ynof am ffafr Duw trwy waed Crist fy Iachawdwr. Etto, parodd y teimlad o anewyllysgarwch i farw trwy ddwylaw y creuloniaid hyny i mi beth gofid meddwl. Yr oeddynt yn para i'm curo yn ddibaid, a'm lluchio â cherig, nes o'r diwedd i mi syrthio dan draed y mileiniaid, a hwythau yn para i'm curo ar lawr. O'r diwedd, cyffyrddodd yr Arglwydd â chalon un o honynt, naill ai o dosturi ataf, neu gan ofn cael eu cymmeryd i fynu am fy lladd. Tyngodd hwnw na chaent fy nghuro yn hwy, ac achubodd fi o'u dwylaw gweudlyd. Cafodd llawer o'm cyfeillion driniaeth gyffelyb, er bod yno ddigon o honynt i wrthsefyll yr erlidwyr; etto, ufuddhasant i orchymyn Crist Iesu eu Harglwydd (Mat. v. 29), gan ddïoddef yn amyneddgar, megis yr erfyniwn arnynt wneuthur. O'r diwedd, aethom ynghyd i'n lletty, lle y trwsiasom archollion ein gilydd, gan lawenychu am ein cyfrif yn deilwng i ddïoddef er mwyn enw Crist Iesu ein Harglwydd." *

"Aethum o'r Bala ar fy nhaith i sir Gaernarfon, a chyrheuddais yno ar nos Sadwrn. Gofynais drannoeth ymha le yr oedd y pregethwr gorau i'w gael mewn eglwys, a dywedwyd ei fod o fewn dwy neu dair milltir ymhellach, lle yr oedd y canghellwr yn pregethu. Euthum yno, a chlywais bregeth y tybiaswn nas gallasai byth ddyfod i feddwl dŷn ddychymmyg ei bath, chweuthach ei threuthu. Yr oeddid wedi hyspysu'r canghellwr ddyfod o honof fi i rai o siroedd y Gogledd. Cymmerth yntau, gan hyny, achlysur

Yma y gorwedd corph William Seward, o Badsey, yn sir Gaerwrangon, Wr bonheddig, yr hwn a ymadawodd â'r bywyd hwn ar yr 22fed o Hydr., 1742. Yn 38 oed.

Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw. Phil. i. 21.

Os deuar yw y cwbl,
Paham y teithiwch fyth a hefyd yr un llwybr
Heb ddwyn i'r amlwg ddim o newydd?
Nid felly y gwnaeth ein seraph merthyredig,
Pan yr ehedodd ef o ymyl Cymru.

Y mae'n amlwg mai Sais o genedl oedd yr enwog William Seward; ac nid ydym yn gwybod a fedrai efe bregethu yn Gymraeg ai peidio. Y mae'n debyg mai clywed am anfoesoldeb, ac amddifadrwydd trigolion cyffiniau Cymru a Lloegr o foddion efengylaidd, a barodd iddo fyned i'r gororau hyny i bregethu y gair, lle y bu farw yn ferthyr duwiol a thangnefeddus.

* Dywed cydoeswyr geirwir i farnau amlwg oddiwes amryw o erlidwyr creulonaf Howel Harris yn y Bala. Syrthiodd y gŵr a daflodd y gareg gyntaf i'r tŷ lle'r oedd Harris yn pregethu, oddi ar gefn ei geffyl wrth ddychwel o'r ffair, a thorodd asgwrn ei gefn, a bu farw yn fuan. Un arall, yr hwn a fynnai fwrw Harris bendramwnwgl dros ddibyn serth i bwll tu a chwe llath o ddyfnder, a syrthiodd iddo ei hun yn fuan wedyn, ac a fu farw yn y fan. Gŵr ieuangc grymus arall, yr hwn oedd un o'r ymosodwyr creulonaf ar Harris, a syrthiodd ar ei ben ar gareg oddi ar ei geffyl, ac a drengodd mewn munud. Dau arall o'r prif greuloniaid a ddaliwyd gan y fath orphwylledd angeuol, fel nas gallai pedwar o ddynion eu dal yn eu gwelyau, a'u rhwystro i gnoi eu dwylaw, eu breichiau, a'u tafodau yn ysfilon; a buant feirw yn druenus. "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw!"—Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 43, nod *.

Digitized by Google

i ragrybuddio y bobl ym mlaen llaw, rhag digwydd o honof ddyfod i'r parthau hyny. Ymleunaf, cymmerth arno fy nodi allan fel cenad Satan, a gelyn Duw a'i eglwys, ynghyd â holl ddynol ryw. Yna aeth rhagddo i'm darlunio fel un llawer gwaeth na'r diafol ei hun:—'O blegid,' eb efe, 'nis gall hwnw weithredu yma ond trwy y cyfryw offerynau drygionus.' Yna dywedodd, 'Y mae'n weinidog dros y cythraul, yn dwyllwr, ac yn gau brophwyd.' Yna aeth ym mlaen, gan fy narlunio fel un gwaeth na'r heretic mwyaf anghenfilaidd, ïe, na'r diafol ei hun; a dywedodd wrth y bobl bod yn ddyledswydd arnynt, o gariad at Dduw, ei eglwys, a'u gwlad, gyttuno yn unfryd yn erbyn y fath ddŷn ofnadwy, yr hwn a deunai y fath wenwyn marwol ym mysg dynion, a'r hwn a ddinystriai, nid yn unig eu corph, ond hefyd eu hanfarwol eneidiau yn oes oesoedd. Nid oedd ef, na'r bobl druain a gamarweinid ganddo, yn meddwl fawr fy mod mor agos atynt. Wedi iddynt ddyfod allan o'r eglwys, euthum at yr offeiriad, i ymddiddan ynghylch sefydlu ysgolion Cymraeg; a dywedais hefyd wrtho am fy anfoddlonrwydd i'w bregeth ryfeddol. Yna tybiodd y bobl mai myfi oedd y gŵr a ddiarhebwyd ganddo yn yr eglwys, a chyfleuasant eu hunain yn drefnus ar y ffordd o'm blaen, gan fwriadu cymmeryd fy ngheffyl, a'm lluchio â cherig; ond er iddynt chwyrndaflu llawer o gerig ataf, etto cefais fy achub gan yr Arglwydd allan o'u dwylaw creulon, heb gael llawer o niwaid. Bûm mewn mawr beryglon yr holl wythnos honno, a thybiais lawer gwaith na chawn genad i ddychwelyd byth yn fyw o'r parthau hyny.

"Deuthum yn ol i Benmorfa, yn agos i'r Traeth Mawr; a thra'r oeddwn yn aros am fyned trosodd, cyffrôdd yr erlidwyr yn greulon i'm herbyn. Yr oedd yspryd llofruddion i'w weled yn eu hwynebau a'u hymddygiad ataf. Amharchasant beth arnaf; ond gan eu bod mewn cadwyn gan fy Nuw, nis gallent niweidio llawer arnaf. O'r diwedd cefais ddïangfa o gyrraedd eu cynddaredd, a deuthum drosodd i'r Abermaw, i dŷ gweinidog Ymneillduol, yn sir Feirionydd; ac oddi yno deuthum trwy Fachynlleth, lle y bu fy einioes mewn mawr berygl drachefn; eithr achubwyd fi fel ysglyfaeth o enau'r llew. Aethum ym mlaen oddi yno trwy sir Drefaldwyn, gan ymweled â'r holl gyfeillion, y rhai erbyn hyn oedd wedi ymgynnull yn gymdeithasau bychain mewn amryw fanau yn y sir honno."*

Dyma ddarlun byr, ond pur effeithiol, o'r driniaeth farbaraidd a gafodd y pregethwr enwog hwn gan y Gwyneddwyr, yn 1741, am ddyfod yma i gynnyg iddynt efengyl y tangnefedd! Y mae'n amlwg nad oedd gan Howel Harris un amcan mewn golwg, ar ei fynediad cyntaf allan i bregethu, heb law deffro'r llïaws dïofal o'u cysgadrwydd ysprydol; neu, fel y dywed Johnes, "anfon yr Eglwyswr i'r Eglwys, a'r Ymneillduwr i'r Capel Ymneillduol." Sefydlodd efe hyd yn oed y cymdeithasau a drefnodd yn unig er mwyn hyfforddiant ysprydol yr aelodau, ac nid er mwyn eu harwain i dori eu cyssylltiad â'r cyfundebau i'r sawl y perthynent yn fleunorol, yn wirioneddol nac yn enwadol. Ymddengys iddynt gael eu sefydlu ar yr un egwyddor yn hollol a Chyd-Gymdeithasau Diwygiadol, neu Gymmanfau Cristionogol y Gwŷr Ieuaingc yn yr oes hon, lle y cyferfydd pobl o wahanol sectau ar yr un tir a'u gilydd.

* Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 40-5.

Tra'r ymlynodd Harris wrth yr egwyddorion ansectaraidd hyn, cydweithredodd y rhai mwyaf gweithgar ymhlith yr Ymneillduwyr âg ef yn galonog, gan ei gynnorthwyo i sefydlu y cyfryw gymdeithasau, ac ymweled â hwynt yn ei absennoldeb. Ond cyn bo hir, wedi iddo ddechrau cyfeillachu â'r clerigwyr deffröedig, mabwysiadodd efe gynllun cyfyngach, a honnodd hawl ymhawb yr effeithiwyd arnynt i raddau mwy neu lai gan ei bregethiad ef, ac a ymrestrasant yn aelodau o'r cymdeithasau neillduol, fel ei ddychweledigion ef. A chan ei fod ef ei hun yn aelod o'r Eglwys Sefydledig mwyaf eiddigus, disgwyliai i holl aelodau y cymdeithasau ystyried eu hunain hefyd yn aelodau o'r eglwys honno. Gan fod y nifer amlaf o'r rhai hyny, yn y rhan fwyaf o leoedd yn y Deheubarth yn enwedig, yn aelodau eisoes gyd â'r Anghydffurfwyr, neu wedi arfer gwrando ar yr Anghydffurfwyr o'u mebyd, ystyriai y gweinidogion Anghydffurfiol ei fod ef fel hyn yn cynnyg troi yr Anghydffurfwyr yn Eglwyswyr; a throdd y gweinidogion i'w wrthwynebu, ac o ganlyniad darfu eu cydweithrediad yn raddol. Prin yr oedd un gweinidog Ymneillduol yn cymdeithasu llawer âg ef ar ol 1741, oddi eithr Mr. Henry Davies a Mr. Benjamin Thomas, ac aeth yr olaf o'r diwedd yn Fethodistiad proffesedig.† Dyma fel y dywed Harris ei hun ar y matter yma:—

"Yr oeddwn yn cael fy nghymmeradwyo yn fawr gan yr Ymneillduwyr ar y cyntaf, o blegid fy mod yn annog y bobl i fyned i wrando i bob man, yn enwedig i ba le bynag y byddai Crist yn cael ei bregethu iddynt, a hwythau yn cael mwyaf o fudd i'w heneidiau. A phan welwyd fod y bobl yn ymdyru i'r lleoedd o addoliad, trwy fy ngwaith fel hyn yn eu hannog, cefais fy mharchu yn fawr, dros amser, gan bob plaid o bobl; ac annogaeth hefyd gan amryw o honynt i ymgyssylltu â hwynt. Eithr gallaf dystio i mi gael fy nghadw gan yr Arglwydd rhag ymyryd yn yr ymrafeulion a'r dadleuon ynghylch rhanau allanol crefydd, canys yr oeddwn yn arswydo y canlyniadau drwg a allai hyny eu cynhyrchu, megis bod yn rhwystr i eneidiau gweiniaid newydd eu deffrôi, a'r cyffelyb. Felly, o blegid llawer o resymau, cefais fy nghyflawn berswadio, yn fy meddwl fy hun, i mi gael fy ngalw i lafurio fel aelod o'r Eglwys Sefydledig, am na chawn genad yn fy nghydwybod i ymneillduo oddi wrthi. A phan ddeuthum i ganfod barn gul rhai ymhlaid eu daliadau crefyddol eu hunain, ynghyd â chlaiarineb a syniad deuarol eraill; a hefyd, eu dull deddfol o bregethu; yna dechreuais ddwyn fy nhystiolaeth yn eu herbyn. Wedi hyny, oerodd cariad llawer o honynt tu ag ataf, ac eraill a ymddadleuasant â mi, gan dybied bod hyny yn ddyledswydd arnynt, i geisio gwanhau fy nwylaw hyd y gallent."‡

O'r ochr arall, dyma fel y dywed Ymneillduwr ymhellach ar y pwngc:—

"Profodd pregethiad Harris, yn ystod y tair neu'r pedair

† Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 381-2.
‡ Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 84-5.

Digitized by Google

blynedd cyntaf o'i weinidogaeth, yn nodedig o ddefnyddiol i adfywio a chynhyddu llawer o gynnulleidfaoedd Anghydffurfiol; ond ymddengys iddo arwain mwy ymaith oddi wrthynt nag a fu'n foddion i chwanegu atynt, pan yr ymosododd, mewn cyssylltiad â'i gyfeillion clerigol, i ffurfio y corph Methodistaidd. Trodd rhai gweinidogion Anghydffurfiol, a fuasent ei gyfeillion gwresocaf, braidd yn chwerw yn ei erbyn ef a Methodistiaeth, pan welsant rai o'r aelodau mwyaf gweithgar yn ymadael â'u heglwysi. Eraill, yn fwy pwyllog, ni ddywedasant ac ni wneuthant ddim yn erbyn Methodistiaeth, tra'r arferent eu holl ddylanwad i attal ymadawiad aelodau yr eglwysi o restrau Anghydffurfiaeth. Dichon mai Edmund Jones, Pont-y-pwl, oedd un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn y golygiad yma. Tra yn craffus ragweled i ba beth yr arweiniai y cynlluniau a fabwysiadwyd gan Harris a'r clerigwyr Methodistaidd, efe a'u rhagfleunodd hwynt trwy ffurfio tair neu bedair o'r cymdeithasau, dros y rhai yr oedd ganddo ef ddylanwad, yn eglwysi Annibynol."*

Hyn a roddes achlysur i Howel Harris i ysgrifenu y llythyr hynaws a ddifynwyd eisoes† at Edmund Jones, i dyner achwyn ar ei waith yn ymyryd â'r cymdeithasau crefyddol a gasglasai Harris. Ymddengys wrth y difyniadau uchod, a'r llythyr y cyfeiriwyd ato, bod eiddigedd pleidiol yr hen Ymneillduwyr, wedi ennyn gormod o'r cyffelyb, erbyn hyn, yn Howel Harris. Y gwir yw, fel y gwelsom yn y pennodau blaenorol, bod hanesyddiaeth yn profi, tu hwnt i bob dadl, bod yr hen Ymneillduwyr Cymreig, o William Wroth hyd Edmund Jones, wedi cael ymhell dros gan mlynedd i efengyleiddio Cymru, ac mai gwaethwaeth yr oedd cyflwr moesol a chrefyddol y genedl yn myned o oes i oes, nes i Howel Harris, a'r "clerigwyr Methodistaidd," Daniel Rowlands, Howel Davies, Williams o Bant-y-Celyn, a Peter Williams, gyfodi a deffro yr hen bregethwyr Ymneillduol, ac i gynhyrfu yr holl genedl trwy eu tanbaid bregethu teithiol a'u cymdeithasau crefyddol; ac y mae mawr angen ar yr oes farwaidd a diffrwyth hon am ddiwygwyr tanllyd cyffelyb iddynt.

Yn yr haf canlynol, sef haf 1741, fel yr ydym yn casglu,‡ galwyd Howel Harris i Lundain drachefn, i gynnorthwyo dros amser yn y Tabernacl. Yn y cyfamser, aeth trwy Gaerodor, ac amryw drefydd eraill yn Lloegr; a chafodd lawer o gamdriniaeth mewn rhai o honynt, a llawer o gysur mewn eraill wrth weled pechaduriaid yn edifarhau. Er bod Harris wedi cynhyddu llawer erbyn hyn mewn gwybodaeth dduwinyddol trwy ddarllen, myfyrio, a chyfeillachu â dynion enwog; etto ymddengys mai y dull taranllyd, cynhyrfus, a bygythiol a

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 382.
† Gwel pen. xv. o'r llyfr hwn, t. 123.
‡ Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 46-7.

arferai efe hyd yn hyn yn ei bregethau, yn ol y darlun a ddyry Bardd Pant-y-Celyn o hono, yn y pennillion canlynol:—

"Yn y daran 'roedd e'n aros,
Yn y cwmmwl 'roedd ei le,
(Ysbryd briw, drylliedig, gwresog,
Sy'n cael cyngor Brenin ne');
Ac yn seuthu oddi yno allan
Fellt ofnadwy iawn eu rhyw,
At y dorf aneirif dywyll
Yn eu pechod oedd yn byw.

"Gorfu gwrando ei ciriau geirwon;
Cadarn yw awdurdod nen;
Os gwrthwynebu wna pechadur,
Trymach cwymp hi ar ei ben:
Dilyn ergyd a wnaeth ergyd,
Nes gwneud torf yn foddlon dôd
At yr Iesu, mewn cadwynau,
Fyth i ddilyn ol ei droed.

"Gwerin fawr o blant pleserau
Y pryd hwnw gafodd flas,
Ag nad â tra fyddo anadl
O'u hysprydoedd ddim i maes;
'Roedd ei ciriau dwys, sylweddol,
Heb eu studio'n mlaen llaw'r un,
Wedi eu ffitto gan yr Yspryd
I gyflyrau pob rhyw ddŷn.

"Gwell na hwyl serchiadau natur
Argyhoeddiadau o ddyfnach rhyw,
Scuthau'n glynu ac yn gwneuthur
Calon galed, ddrwg, yn friw;
Ac yn dodi'r ddeddf i rwymo
A'r rheiny mewn cadwynau tyn,
Ag y darfu i efengyl bywyd
Roi iddynt ryddid wedi hyn."§

Y mae holl hanes Howel Harris yn dangos mai gweithiwr llafurus, difefl oedd efe, a'i holl enaid wedi ymroddi at y gorchwyl o achub eneidiau dynion. Dyry'r darlun byr canlynol o'i brofiad ryw ddychymmyg i ni o'i ymdrechion apostolaidd i bregethu Crist i'r bobl:—"Treulid fy nerth corphorol," eb efe, "gymmaint gan lafur parhaus, ddydd a nos, fel, pan awn o flaen cynnulleidfa, nas gallwn yn fynych sefyll o'r bron, nes y cawn gymmorth i ddadlau yr addewid honno, 'Y rhai a ddisgwyliant wrth yr Arglwydd, a adnewyddant eu nerth,' pryd y teimlwn bod genyf nerth digonol mewn meddwl a chorph i'm dwyn trwy'r gwaith." Dengys y darn llythyr canlynol bod Harris yn dra awyddus am i'w frodyr yn yr efengyl fod o'r un yspryd gwrol, ymdrechgar ag ef ei hun:—

"FY ANWYL GYDFILWR,—Derbyniais lythyr yr wythnos ddiweddaf oddi wrthych, a chymmeraf y cyfleusdra cyntaf i'w atteb. A allaf fi anghofio fy anwyl frawd, yr hwn, nid yn unig a anwyd o had brenhinol, ond hefyd sy'n milwrio yn yr un ryfel, ac wedi ei anfon ar yr un neges? Bydded i ddeuar, uffern, pechod, a Satan ymuno â'u gilydd: tydi ŵr Duw, tydi dywysog y Duw byw, estyn allan dy law, ac yn nerth y Goruchaf nyni a awn trwy'r dyfroedd; ni a sathrwn ar ysgorpionau; ni a fuddugolieuthum yn y fflamau; ni a orfoleddwn, ac a neidiwn dros

§ Holl Weithiau William Williams, t. 675.

Digitized by Google

bob mur; ni a awn i mewn, ac a feddiannwn wlad dda yr addewid. Cerdd ym mlaen, tydi genad Arglwydd y lluoedd; ymorchesta; yr Arglwydd, yr Arglwydd Hollalluog, yr Iesu gogoneddus sy'n teyrnasu ar bob byd: y mae'n llywodreuthu, ac yn goruwch-lywodreuthu, pob peth, ïe, hyd yn oed pethau niweidiol, a dichellion y diafol. . . . I'r frwydr, i'r frwydr, fy mrawd: bloeddia, nac arbed; sathr y gelyn dan wadn dy droed, fel gorchfygwr galluog: gad iddo wybod bod dy weinidogaeth yn dwyn argraph fawr y nefoedd arni; ac nad arfau cnawdol yw dy arfau, ond nerthol trwy Dduw; gorfoledda a chana ynghanol y cwbl, canys y mae pob peth yn dda; pob peth yn eiddo chwi, a chwithau yn eiddo Duw."

"Ymhob man 'roedd son am dano;
Diafol ar ei ol yn rhuo;
Cân y meddwon ydoedd yma,
Seuthent ato am y cynta':
Gwawd, celwyddau, erlid, senau,
Fwrient arno yn gawodau;
Ond llawenhau yntau wnai,
Pan teilwng cai ei gyfri',
Gyd â'r holl dduwiolion gwmni,
Oddef gwradwydd gyd â'r Iesu."

Gwedi i Harris aros dros rai misoedd yn Llundain, sef o ddechrau haf 1741 hyd rywbryd yn 1742, fel yr ymddengys,* dychwelodd trwy amryw o drefydd Lloegr i Gaerodor, ac oddi yno i Gymru. Dywed Mr. Charles, ynglŷn â'r flwyddyn olaf a nodwyd, fel y canlyn:—

"Yn y blynyddoedd canlynol, cyfnewidiad go fawr a gymmerodd le yngweinidogaeth Mr. Harris: aeth i bregethu yn fwy i broffeswyr nag i ddeffroi y byd yn gyffredin fel o'r blaen. Dau beth yr oedd yn eu gweled yn fyr ynddynt, sef eu hadnabyddiaeth o berson yr Iachawdwr, a'u profiad tufewnol o effeithiau ffydd yn y marwhâd o bechod, a chwbl ymroddiad i'r Arglwydd. Tebygol iddo gael golygiadau neillduol o ogoneddus ar fawredd person yr Iachawdwr fel Duw-ddŷn, rhagor nag oedd ganddo o'r blaen. Yr oedd yn addef fod darllen llyfryn bychan a elwir *A Sling and a Stone* (=Ffon Dafl a Chareg), yn profi Duwdod Crist yn y dull cyffredin o brofi hyny, wedi bod o neillduol fendith iddo. Tybiaf fod Mr. Harris o dymmer lled wresog; a pheth bynag a gymmerai yn ei feddwl, yr oedd yn ei dderbyn ac yn ei ddilyn gyd â bywiowgrwydd poethlyd. Tebygol fod y bobl heb eu haddysgu yn fanwl yn y pyngciau mawrion hyn, gan fod yr athrawiaeth [sef athrawiaeth y Diwygwyr, Harris, Rowlands, Davies, ac eraill] gan mwyaf yn cerdded llwybr cwbl wahanol. . . . Cafodd Mr. Harris ei wrthwynebu gan rai brodyr oedd yn cael eu blino gan ei ddull yn llefaru am berson a marwolaeth Crist, sef bod Duw wedi marw, &c. Barnasant ei fod yn ddywediad anysgrythyrol, ac yn tueddu at Sabeliaeth. Yr oedd gwrthwynebiad oddi wrth ei frodyr crefyddol yn beth hollol anadnabyddus i Mr. Harris: hyd yn hyn yr oeddynt yn gwrando arno fel eu tad a'u pen athraw, fel yr oedd yn wirioneddol i'r rhan fwyaf o honynt. Yn lle ceisio arafu a phwyllo, ac ystyried yn ddifrifol a oedd ei ymadroddion yn addas am y pyngciau uchod, chwerwodd ei yspryd ef tu ag atynt; a phellasant oddi wrth eu gilydd yn raddol, hyd nes y diweddodd mewn ymraniad gofidus."

Dyna'r dull tyner, pwyllog, a didramgwydd y cyfeiria Mr. Charles at yr "ymraniad gofidus" rhwng Rowlands a Harris. Gan ein bod eisoes wedi cyfeirio at yr amgylchiad anhyfryd yma, yn yr ail bennod o'r llyfr hwn (y pummed), ac wedi difynu sylwadau craffus, teg, a diduedd y Dr. Lewis Edwards yn gyflawn arno, yn y bennod flaenorol, ni ddywedwn ni ddim ychwaneg arno yma; ond caiff Harris ei hun dreuthu ychydig ar yr amser a'r modd y cymmerth y cyfnewidiad le yn ei feddwl:—

"Yn y flwyddyn 1743, argraphwyd gogoniant Duwdod Iesu Grist yn ddyfnach ar fy enaid nag erioed o'r blaen. Po mwyaf y myfyriwn ar y testyn hwn, 'Mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd' (1 Tim. iii. 16), mwyaf oll yr oedd y gogoniant o hono yn llewyrchu ar fy enaid. Cefais hefyd lawer o gymmorth i weled mwy o ogoniant a rhyfeddodau Duwdod Crist wrth ddarllen treuthawd a elwir yn Saesneg *A Sling and a Stone*. Erbyn hyn, fe'm dygwyd i weled mwyfwy o ryfeddodau yn ei anfeidrol gnawdoliaeth, ei fywyd, ei waed, ei angau, ei adgyfodiad, ynghyd â holl ogoniant ei swyddau, a holl ogoniant ei eglwys ef: gelwir hi yn ddywedi, ei deml, ei deulu, ei lu, ei gyflawnder ef, a'r cyffelyb. Ond etto nid oeddwn ddideimlad o weithrediadau hunan, a'i gosododd ei hun i fynu yn erbyn ei holl swyddau ef; eithr cefais olwg amlycach o hono yn fy enaid fy hun. Arweiniwyd fi, trwy y datguddiadau hyn, y rhai a gefais yn raddol o hono ef, a mi fy hunan, i weled bod pob gwirionedd, pan y datguddir ef gan yr Yspryd, yn addysgiadol, ac yn cael ei briodol effaith ar yr enaid, trwy ddarostwng y pechadur, a dyrchafu yr Iachawdwr. Ac fel y byddai gogoniant Duw yn ein natur ni, fel hyn, yn teunu ei belydrau dwyfol ar fy enaid, byddwn innau yn teimlo ei fod yn cynhyddu fy ffydd; a daeth fy nghariad yn fwy helaeth, fy llawenydd yn fwy dïysgog, fy ymroddiad yn fwy cyflawn, fy yspryd yn fwy tawel a llonydd, a mwy o ymysgaroedd tosturi a thrugaredd tu ag at bechaduriaid truain. Hefyd, deuthum i ddeall amryw Ysgrythyrau na fedrwn eu hamgyffred yn ysprydol o'r blaen; a deuthum yn awr i weled llawer mwy o ddyfnder, a mwy o ogoniant, na'r hyn a welais ac a ddeallais yn flaenorol mewn Ysgrythyrau. Daeth pob moment o amser hefyd yn werthfawr iawn yn fy ngolwg; ac yr oedd yr holl amser, y talentau, y trugareddau, a'r doniau, a'r ni ddefnyddiwyd gan yr Arglwydd, a thros yr Arglwydd, yn ymddangos i mi, nid yn unig yn golled, ond hefyd wedi eu camarfer yn ei erbyn ef."

Yn y flwyddyn 1744, galwyd Harris i Lundain drachefn, lle y cafodd fwynhâd mawr i'w enaid ei hun; ond cwyna fod y gelyn wedi mawr gyffroi o'r tu mewn o blegid y gwirioneddau a bregethai, er nas beiddiai bellach wneuthur dim trwy erledigeuthau o'r tu allan. Er hyny, credai bod gan lawer, yn y Brifddinas, wir ffydd i ymborthi ar yr Iachawdwr, ac y byddent byw yn dragywydd. Wedi iddo ddychwel o Lundain i Gymru, efe a briododd Ann, merch John Williams, Ysw., o'r Scrîn, ar y 18fed o Fehefin, 1744. Yr oedd yn ferch syml a duwiol iawn, wedi ei hargyhoeddi dan bregethiad Harris, rai blynyddoedd yn ol. Ymddengys iddo fyned i Lundain drachefn tu a diwedd y flwyddyn 1746; a dengys y llythyr duwiolfrydig a hynaws canlynol at Rowlands ei

* Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 46–7.

Digitized by Google

fod yn cael ei flino yn dost gan ei ymosodiadau ef ac eraill arno:—

"Llundain, Ionawr 4, 1747.

"Fy Anwyl, Anwyl Frawd,—Hyderaf y caiff hwn chwi yn edrych ar y dirgelwch mawr, Duw wedi ei wneud yn ddŷn! At hyn y mae'n rhaid i ni ddyfod. Dyma ddiwedd pob gwybodaeth, a gwreiddyn pob dedwyddwch. O fy mrawd! bydded i ni fod am byth wedi ein boddi mewn syndod a rhyfeddod. Yn awr, yn y weithred o ysgrifenu, y mae fy enaid yn toddi o'm mewn, a theimlaf fy mod yn hireuthu cael ymadael â'r corph hwn o bechod, i gael golwg ar y weledigaeth weddnewidiol hon. A elwch chwi fi M——, neu A——? Na ato Duw! Bywyd fy enaid ydyw, ac nid pluen fenthyg; nid dychymmyg penboeth, ond fy nedwyddwch sylweddol. O! yr Iawn Mawr! Pa bryd y boddir ni yn ei ddyfroedd diweulod? &c.

"Ydwyf, fy anwylaf frawd, a'm cydlafurwr, gyd â'm parch mwyaf calonog i'r brawd Williams, ynghyd â'r holl frodyr, a'r cymdeithasau (*societies*), gan hireuthu am eich gweled oll,

"Yr eiddoch yn y rhwymau gorau tros byth,

"HOWEL HARRIS."

Yn y flwyddyn nesaf, pan oedd yr ymosodiadau anfrawdol arno yn prysur ddynesu at eu heithafnod, ysgrifenodd etto at Rowlands yn yr un yspryd addfwyn a duwiolfryd, fel y canlyn:—

"Gorphenaf 2, 1748.

"Fy Anwylaf Frawd Rowlands,—Yr ydym oll wedi tristâu yr Yspryd Glân; ac yr ydym wedi mawr annog Sanct yr Israel i ddatguddio ein noethder. O fy mrawd! y mae'n dda i ni ei fod ef yn Dduw uwch law pawb, wedi ymwisgo â'n cnawd ni. I'r llwch bydded i ni fyned, a suddo i lawr, ïe, i ddiddymdra. Bydded i ni ymafael yn ein cariad cyntaf, a myned allan yn unol mewn calon, geiriau, a gweithredoedd," &c.

Ond er holl addfwynder, duwioldeb, a hirymaros Howel Harris, ni liniarodd y "chwerwder bustlaidd" yn ei erbyn, fel y dywed un, hyd nes y cymmerth yr ymraniad mawr le "mewn cymmanfa fechan yn Llanidloes, yn y flwyddyn 1751," pan, fel y gwelsom o'r blaen, y llwyr ymneillduodd "Harris a'i bobl" oddi wrth "Rowlands a'i bobl." Nis gwyddom a gyhoeddodd y "gymmanfa fechan," hunan-etholedig honno, ysgymmundod ar Harris ai peidio, fel y gwnaeth un ar ei hol ar Peter Williams, o blegid yr un syniadau. Beth bynag am hyny, cilio a wnaeth Harris ar ol y gymmanfa honno, yn hytrach nag ymryson yn hwy â'i frodyr pregethwrol, i'w dŷ ei hun yn Nhrefeca, ar ol bod yn pregethu yn llafurus, diwyd, a llwyddiannus iawn, am o gylch 17 flynedd, trwy holl Gymru braidd, a llawer o Loegr hefyd, a hyny yn fynych, fel y gwelsom, ynghanol erledigeuthau creulon, a pheryglon mynych ar ei fywyd. Mewn canlyniad i ymgiliad Harris, ymranodd y corph Methodistaidd yn ddwy blaid elynol, a elwid, fel y crybwyllwyd, yn "bobl Harris a phobl Rowlands." Glynodd yr holl glerigwyr, a nifer mawr, os nad y lliosocaf, o'r pregethwyr diurddau hefyd, wrth Rowlands; ond cymmerth llawer o'r dosparth olaf blaid Harris yn y modd mwyaf zelog, tra y dychwelodd amryw oedd o'r dechrau yn aelodau yn yr eglwysi Annibynol at eu hen gyfeillion. Mr. Morgan a ddyry'r darlun canlynol o'r ymraniad galarus yma:—

"Yr oedd effaith yr ymraniad yma yn un o'r fath fwyaf poenus a gresynol trwy'r holl Dywysogaeth. Yr oedd y gwahanol bleidiau yn dadlau â'u gilydd, ac yn enllibio y naill y llall â'u holl egni, nes i gymdeithasau blodeuog a sefydlasid yn ddiweddar gael eu dryllio a'u distrywio trwy yr holl wlad. Felly daeth crefydd yn bur isel, a distrywiwyd hi bron mewn llawer o fanau lle yr ymddangosai gynt yn llwyddiannus a gobeithiol iawn. Aeth y pregethwyr oedd mewn cyssylltiad â Harris, yn ddïoed, trwy y rhan fwyaf o barthau Cymru, lle'r oedd cymdeithasau neillduol wedi eu sefydlu; ac wedi pregethu yn y lleoedd hyny, galwent y cyfeillion ynghyd, a gofynent, 'Pwy sydd ar du yr Arglwydd?' A dywedent bod yn llawn bryd iddynt gymmeryd gofal na bo iddynt gael eu twyllo; a sicrhaent bod y *personiaid*, fel y galwent Rowlands a'i gyfeillion, *wedi colli Duw!* Gan fod y rhan fwyaf o aelodau yr eglwysi yn ieuaingc a dibrofiad, dyryswyd hwy i'r fath raddau fel nas gwyddent pa beth i'w wneuthur. Nid âi llawer o honynt ar gyfyl Rowlands a'i blaid, rhag ofn iddynt gael eu twyllo ganddynt, megis y rhybuddid hwy gan y pregethwyr eraill. Ceuid llawer o'r lleoedd addoliad yn erbyn Rowlands a'i gyfeillion. Ond yn ystod amser, at Rowlands a'i blaid y dychwelodd y rhan fwyaf o'r cymdeithasau a'r pregethwyr."*

Ymddengys i lawer o bleidwyr Harris ei ddilyn ar unwaith i Drefeca yn 1751, a phregethai yntau iddynt hwy, ac eraill a ddeuent i wrando arno, yn ei dŷ ei hun, ddwywaith neu dair yn y dydd, mor wresog ac egnïol ag o'r blaen, at yr hyn y cyfeiria Williams yn y llinellau canlynol:—

"Y mae gweddi cyn y wawrddydd
Yn Nhrefeca ganddo fe,
'R amser bo trwm gwsg breuddwydlyd
Yn teyrnasu yn llawer lle;
A chyn llanw'r bol o fwydydd,
Fe geir yno gyngor prudd;
A chyn swper, gweddi a darllen:
Tri addoliad yn y dydd.

"Cymrwch siampl, ben teuluoedd,
Gadw pur addoliad llawn,
Gweddi ac addysg yn y borau,
Gweddi ac addysg y prydnhawn:
Boed eich eglwys yn y gegin,
Neu y parlwr, fel bo lle;
Ac nes gwneuthur fel gwnaeth yntau,
Peidiwch a'i gondemnio fe."

Taenwyd y son yn fuan, trwy Gymru bendaladr, am ei ymgiliad i Drefeca, gan y pregethwyr a'i pleidient, cystal a chan eraill; a chan yr amlygodd lliaws o'i gyfeillion, yngwahanol barthau y wlad, awydd am fyw gyd ag ef, er mwyn ei bre-

* Morgan's Ministerial Records, part i., pp. 74–5.

Digitized by Google

gethau a'i gynghorion difrifol, penderfynodd yntau godi adeilad ehang yno i'w derbyn, yr hwn a eilw Bardd Pant-y-Celyn yn "Fynachlog," fel y ceir gweled rhag llaw. Gosododd sail yr adeilad helaeth yn Ebrill, 1752, mewn llawn hyder bod y Duw a'i danfonasai ar y cyntaf allan i bregethu yn ei alw yn awr at y gorchwyl yma. "Fe'm cymhellwyd i adeiladu," eb efe, "gan yr un Yspryd ag a'm danfonodd allan i bregethu, a hyny ar amser nad oedd genyf na chyfeillion nac arian i'm cynnorthwyo, canys y cyfeillion* a'm gadawsant, ac yn lle arian yr oeddwn mewn dyled, a chenyf o gylch 40 o weithwyr i dalu iddynt a'u cynnal: etto ni ddefnyddiais foddion yn y byd i gael cymmaint a swllt, ond gostyngedig ymbil ar Dduw, a hyderu yn yr addewid, yr hon yr ymddiriedwn ynddi am bob peth amserol ac ysprydol." Yn fuan wedi iddo ddechrau adeiladu, aeth rhai i gynnyg eu gwaith iddo, er mwyn cael cyfleusdra beunyddiol o'i glywed yn pregethu, ac yn myned trwy'r gwasanaeth. Ymgasglodd llïaws ato o bob parth o'r wlad yn 1753; ac erbyn dechrau 1754, yr oedd "teulu Trefeca," fel y'u gelwid, o gylch cant o nifer. Byddai weithiau mewn cyfyngder mawr am fodd i'w cynnal. "Bum yn fynych mewn caledi ynghylch pethau amserol," eb efe, "ac eisiau ugain punt, neu hanner cant, neu gant, ac heb un lle genyf i droi am gymmorth ond at yr addewid: yr Arglwydd heb fy llaw i, hyd y cyfyngder eithaf, ïe, y pryd hyny hefyd, a ymddangosai o gwr nas gallasai neb ei ddisgwyl: rhai yn rhoddi, a rhai yn anfon i mi ddeg, neu ugain, neu gant o bunnau, er y byddent yn byw 70 neu 80 milltir oddi wrthyf." Aeth amryw deuluoedd yno yn 1755, gan mwyaf o'r Gogledd, a chymmerasant ffermydd yn y gymmydogaeth, er mwyn cael cael cyfle i wrando Harris. Deuai rhai â meddiannau ganddynt, ac eraill yn dlodion, a derbyniai efe bawb i mewn yn ddiwahaniaeth. Dywedir bod y "teulu" ar un amser yn naw ugain o rifedi. Yr oedd holl amgylchiadau y sefydliad, yn dymhorol ac ysprydol, yn cael ei arolygu a'i drefnu yn y modd mwyaf gweddus gan y sylfeunydd enwog; ac nis gallodd y gelynion mwyaf maleisus erioed ei gyhuddo ef, na neb o'i "deulu" llïosog, o ddim anaddas i'r grefydd sanctaidd a broffesent, oddi eithr yn unig eu bod yn ceisio gosod i fynu sefydliad a ymddangosai yn anghysson âg anian Protestaniaeth, ac anghyfaddas i atteb unrhyw ddiben gwerthfawr. Fel hyn y cân Bardd Pant-y-Celyn ar y sefydliad:—

"Pam y llechaist mewn rhyw ogof,
Castell a ddyfeisiodd dŷn?
Ac anghofiaist y ddïadell
Argyhoeddaist ti dy hun:
Y mae plant it ar hyd Cymru,
Yn bymtheng mlwydd ar hugain oed,
Ag ddymunsai glywed genyt
Y pregethau cynta erioed.

Eisiau parch, neu eisiau elw,
Neu rhyw fendith is y ne,
Rhoist ffarwel i'r fintai ddefaid,
Ac arhosaist yn dy le?
Yr oedd cannoedd gynnau'n gridd-fan,
Ac yn gofyn beth yw hynt
Yr hen udgorn fu'n Nhrefeca,
Ac yn uchel seiniodd gynt?

Ai bugeila cant o ddefaid,
O rai oerion, hespion, sych,
Ac adeilio iddynt balas,
A chorlanau trefnus, gwych,
Ettyb seinio pur efengyl
Bloeddio'r iachawdwriaeth rydd,
O Gaerlleon bell i Benfro,
O Gaergybi i Gaer-dydd?

Pam y treuliaist dy holl ddyddiau,
I wneud rhyw Fynachlog Fawr,
Pan y tynodd Harri frenin
Fwy na mil o'r rhain i lawr?
Dïau buasit hwy dy ddyddiau,
A melusach fuasai nghân,
Pe treuliasit dy holl amser
Ynghwmpeini'r defaid mân.

Ond mae pawb yn maddau heddyw,
Mae rhyw arfaeth faith uwch ben
Ag sy'n trefnu pob matterion
A ddychmygo dŷn is nen;
Ac mae bywyd, ac mae angau,
A'r gorchwylion lleia eu rhyw,
Cyn cenhedlu dŷn, na'i nabod,
Yn nirgelaidd gwnsel Duw.

Ac yn awr pan est o'r ddeuar,
Maent hwy'n chwilio ar dy ol;
Ac mae cannoedd a ddymunai
It ddychwelyd heddyw'n ol,
Gan ryw dybied cait oleuni,
Os doit etto atynt hwy,
I wneud Fflint, a Môn, a Phenfro,
Fel Trefeca iti mwy.

Trist yw'r ffrwythau a ddigwydd-odd
O it beidio rowndio'r byd;
Mwy fuasai dy ogoniant
Hyn pe buasai'th waith o hyd;
Cans mae 'fengyl heb un gyfraith,
Hwyl heb unrhyw gerydd syn,
Os yw'n peru i'r egin dyfu,
Yn rhoi hefyd faeth i'r chwyn.

Ond pa bena le† bo enaid
Ag fo'n llawn o'r nefol dân,
Pe mewn congl, hwnw a garia
Waith ei Arglwydd mawr yn mlaen:
Ti fuost ffyddlon yn dy deulu,
Llym yn dy adeilad mawr,
Ac a dynaist flys ac enw,
A gogoniant dŷn i lawr.

Ac ti wnest dy blant yn ufudd
At eu galwad bob yr un;
Byw i'th reol, byw i'th gyfraith,
Byw i'th olau di dy hun;
Fel na fedr neb yng Nghymru,
Trwy na chleddyf fyth na ffon,
Ddod a thŷ o'r un rhifedi,
Tan y dymmer hyfryd hon.

Byth na chofier am ei bechod,
Na 'sgrifener dim o'i fai;
Blotiwyd llyfrau'r nef yn hollol,
Pan caiff rhagfarn dŷn barhau?
Ni chaiff pin, nac inge, na thafod,
'R wy'n eu gwardd o hyn i maes,
Son am ddim ond y Diwygiad
Trwyddo lanwodd Gymru las."

Ymhen rhyw ennyd ar ol yr ymgyrch mawr i Drefeca, dechreuodd amryw o'r "teulu," ac yn eu plith rhai o'r pregethwyr, flino ar eu sefyllfa yno Dychwelodd rhai adref, mewn rhan, am nad oedd eu hamgylchiadau yn caniatâu iddynt aros. Cwynai rhai bod yr ymborth yn rhy galed; eraill, bod y pregethu a'r ddisgyblaeth yn rhy lym; a bod Mr. Harris yn geryddwr annïoddefol, a'r cyffelyb. Er hyny, arhosodd llawer yno, yn enwedig rhai sengl, yn feibion a merched, gan roddi eu hunain i'r Arglwydd a'i waith, o blegid eu bod yn credu mai rhan o waith yr Arglwydd ydoedd, a'i fod yn gyttunol â'r rheolau a roddwyd i lawr yn y Bibl. Wele ddarlun Robert Jones, Rhos-y-lan, o'r amgylchiadau yma:—

"Darfu i amryw o'r pregethwyr a arhosodd yno anturio

* Y mae'n ddïau mai "pobl Rowlands" a olygai yma wrth "gyfeillion," canys yr oedd ganddo yntau ei "bobl" ar hyd yr amser, a rhai o honynt yn bur zelog drosto hefyd, fel y gwelsom.

† Pa le bynag.

weithiau i ffeiriau a marchnadoedd i bregethu, fel Mr. Harris; ond am nad oeddynt wedi eu haddasu i'r gwaith pwysfawr hwnw fel efe, ni chafwyd dim hanes i'r gorchwyl a gymmerasant mewn llaw atteb fawr o ddiben. Am eraill o'r llefarwyr a safasant o blaid Mr. Harris, unodd y rhan fwyaf o honynt mewn amser â Mr. Rowlands a'i frodyr; trodd rhyw ychydig at yr Ymneillduwyr; a gwyrodd eraill yn ardaloedd Llanfairmuallt at Antinomiaeth, ac un Thomas Seen yn athraw iddynt. Unodd rhyw nifer â'u gilydd yn sir Drefaldwyn, sef Thomas Meredydd ac Evan Thomas; ac yn sir Ddinbych, Moses Lewis, ac amryw gyd â hwy, y rhai a fuasent o'r blaen yn wresog o blaid Mr. Harris. Methasant foddloni i gartrefu gyd â theulu Trefeca, eithr ymadawsant; a rhag i neb eu cyfrif yn wrthgilwyr, ffurfiasant gyd â'u gilydd ryw fath ar grefydd led ryfedd, o amryw ddefnyddiau. Benthyciasant gryn lawer o waith Mr. Cudworth,* ac amryw o'r pethau anhawddaf eu deall o waith Mr. Morgan Llwyd a Mr. William Erbury: a thu ag at wneud eu proffes yn ddigon ysprydol, rhoisant gryn swm o surdoes y Crynwyr am ben y defnyddiau eraill. Yn ol dodi'r holl gymmysg hyn ynghyd, yr oedd y grefydd yma fel gwisg glytiog cardotyn, yn anhawdd dirnad pa beth oedd ei dechreuad. Nid oedd ganddynt ystyr llythyrenol ar un rhan o'r Ysgrythyrau, ond golygu'r cyfan yn ysprydol. Er siampl, nid y ddeuar yr ydym ni yn byw arni a losgir, ond y ddeuar sydd mewn dŷn. Yr haul yn tywyllu, haul rheswm ydyw. Dwy fydd yn malu mewn melin: y ddwy anian, &c. Nid oedd ganddynt un parch i'r Sabboth, nac i un o ordinhadau yr efengyl; er hyny cawsant rai canlynwyr mewn pump o siroedd Cymru; ond y maent yn awr [1820] wedi hollol ddarfod a diflannu er ys blynyddoedd, am wn i, ymhob man."†

Tu a diwedd y flwyddyn 1759, cynhygiodd rhai o foneddigion sir Frycheiniog swydd i Howel Harris ynghartreflu (*militia*) y sir honno. Yr oedd ofn mawr yn y wlad ar y pryd rhag i'r Ffrangcod, oedd mewn rhyfel â'r wlad hon yr amser hwnw, ddyfod yma a gorchfygu y genedl, a sefydlu Pabyddiaeth yma yn lle Protestaniaeth. Am hyny, wedi llawer o ystyriaeth, a chael boddlonrwydd y "teulu," cydsyniodd Harris â chynnyg y boneddigion, ar yr ammod iddo gael pregethu yr efengyl lle bynag y byddent ynddo. Wedi gosod pob peth mewn trefn yn y "teulu," aeth Harris, ynghyd â 24 o'r "teulu" gyd âg ef, yn nechrau 1760, gyd â'r bwriad o wasaneuthu yr Arglwydd yn hyn, fel ymhob peth arall. Yr oedd deuddeg o'r gwŷr hyn ar ei draul ef ei hun. Cafodd swydd banerwr yn gyntaf, ac wedi hyny gwnaed ef yn gapten. Bu dair blynedd yn y cartreflu, yn symmudol mewn gwahanol fanau yn Lloegr, a chafodd gyfleusdra i bregethu lle bynag yr elai. Bu efe a'i gartreflu bychan yn aros yn Yarmouth, Bideford, Torrington, Barnstaple, a Phlumouth, dros dymmor, a gwnaeth lawer o les a daioni yn y manau hyny, fel ymhob man arall yr elai iddynt.

Ar ol i'r rhyfel â Ffrainge derfynu yn 1763, dychwelodd yntau, a'i "deulu" gyd âg ef, i Drefeca. Treuliodd y gweddill o'i oes gyd â'r "teulu" yno, oddi eithr ychydig o deithiau a gymmerth i bregethu yng Nghymru a Lloegr. Gan mai yn yr Eglwys Sefydledig y dechreuodd y Diwygiad Methodistaidd, nid oedd yn barnu y dylasai ymneillduo oddi wrthi. Yr oedd efe, a'r holl "deulu," yn myned i eglwys y plwyf bob Sabboth; a byddai y ficar yn cyfranu swper yr Arglwydd iddynt bob mis ar eu penau eu hunain er y flwyddyn 1764, a threfnodd iddynt gael y llofft i ganu ynddi yn y gwasanaeth bob Sabboth.‡

Y mae un amgylchiad arall na wiw myned heibio iddo yn ddisylw, mewn cyssylltiad â Howel Harris, wedi hynodi Trefeca, heb law ei bod yn breswylfod y diwygiwr enwog hwnw. Yr oedd Howel Harris yn bur gydnabyddus â'r Iarlles Huntingdon§ er ys rhai blynyddau. Yr oedd wedi llafurio llawer yn ei chapelau mewn gwahanol fanau yn Lloegr; yn gyfaill gan ei chaplan, George Whitfield; ac wedi pregethu llawer yn ei chlyw hi ei hunan. Daeth i feddwl yr Iarlles, er ys cryn amser yn ol, i sefydlu Coleg yn rhywle, i addysgu gwŷr ieuaingc, er eu cymhwyso i bregethu yr efengyl. Syrthiodd ei llygaid o'r diwedd ar Drefeca, fel mangre iach a chyfleus, lle hefyd y preswyliai ei hen gyfaill ffyddlon a llafurus, Howel Harris, yr hwn y gwyddai hi y gallai fod o wir wasanaeth i'r myfyrwyr trwy ei esamplau, ei bre-

* Athronydd dysgedig oedd Cudworth, a anwyd yn Aller, yng Nghwlad yr Haf, neu Wlad yr Hafren, yn 1617. Cymmerai arno fod yn bleidiwr i'r Weriniaeth yn amser Cromwel, ac yr oedd yn gyfaill mawr i Thurloe; ond trodd yn frenhinwr pan ddyrchafwyd Charles II. i'r orsedd. Yn 1662, anrhegwyd ef â pherigloriaeth Ashwell, yn sir Hertford; ac yn 1678, gwnaed ef yn gorberiglor Caerloyw. Math ar ddilynwr Plato ydoedd fel athronydd; ac fel duwinydd yr oedd yn Eangfrydiaid (*Latitudinarian*). Yr oedd "yn rhoddi y llaw uwchaf i'r Atheistiaid," medd Shaftesbury; "a gosodid ef allan," medd Warburton, "fel Atheist yn ei galon, ac Ariad yn ei lyfr." Ysgrifenodd lawer o lyfrau yn ei oes, pur ddysgedig a phur anfuddiol; a bu farw ar y 26ain o Fehefin, 1688, yn 71 oed.—Mackenzie's Dict. Univ. Biog., vol. i., pp. 1144-5.

† Drych yr Amseroedd, t. 136-7.

‡ Trysorfa 1810, t. 194.

§ Gan fod cyssylltiad neillduol rhwng y foneddiges enwog a duwiol yma â Chymru, trwy gyfrwng Howel Harris a Threfeca, credwn y bydd talfyriad o'i hanes yn y lle hwn yn bur gymmeradwy. Ei henw priod oedd Selina Shirley, merch Washington Shirley, Iarll Ferress. Ganwyd hi yn 1707, can mlynedd i'r flwyddyn cyn geni ysgrifenydd hyn o linellau. Yn 1728, priododd Theophilus Hastings, Iarll Huntingdon, yr hwn a fu farw yn 1746, gan adael ei holl gyfoeth mawr dan lywodraeth ddiwahardd ei weddw, digonol i'w chadw hi a'i phlant yn y sefyllfa uchel yr oeddynt ynddi; ond mewn gwirionedd, cyfyngodd hi ei thraul i derfynau pur gyfyng, gan ystyried ei chyfoeth helaeth yn ymddiriedaeth, yr hwn yr oedd yn hyfrydwch ganddi ei ddefnyddio i hyrwyddo yr amcanion uwchaf. Bernir mai marwolaeth ei gŵr, a'r trallodion teuluaidd a ddilynasant hyny, a ddechreuasant ogwyddo meddwl y foneddiges ardderchog hon at ystyrieuthau crefyddol; ac o hyny hyd ddiwedd ei hoes, llwyr ymgyflwynodd i'r diben mawr o ledeunu egwyddorion Cristionogaeth, lle bynag y caffai gyfleusdra. Yn y cyfamser, pan oedd dau arweinydd Methodistiaeth Seisnig, Wesley a Whitfield, yn cymmeryd cyfeiriad gwahanol mewn

Digitized by Google

gethau, a'i gynghorion. Penderfynwyd ar Drefeca Isaf, o fewn dau gae i gartrefle Harris. Hen adeilad oedd hwn a gyfodasid gan Harri II., mor forau a'r flwyddyn 1176; a thybid ei fod yn rhan o hen gastell. Wedi i Harris ddeall beth oedd bwriad yr Iarlles, dechreuodd adgyweirio yr hen adeilad, yn llawen iawn, tu a diwedd 1767 a dechrau y flwyddyn ganlynol, ac a'i gosododd dan ardreth iddi i fod yn Goleg. Pan agorwyd y Coleg ar y 24ydd o Awst, 1768, dydd genedigaeth yr Iarlles, pregethodd Mr. Whitfield ar Ex. xx. 24, "Ymhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat ac y'th fendithiaf." Yn y flwyddyn ganlynol, 1769, cadwyd cylchwyl gyntaf agoriad y Coleg, a daeth yno amryw bregethwyr enwog o Gymru a Lloegr i gydweithredu ar yr achlysur. Ond yr oedd lle yr enwog Whitfield yn wag, canys yr oedd efe wedi myned i'r America cyn hyny, o'r lle ni ddychwelodd mwy, fel y gwelsom eisoes; ond yr oedd Daniel Rowlands, Williams o Bant-y-Celyn, Howel Davies, a Peter Williams yno. Pregethodd D. Rowlands ar y geiriau hyn, "Ai ychydig yw y rhai cadwedig?" i dyrfa lïosog yng nghapel y Coleg. Gweinyddwyd swper yr Arglwydd yn y prydnhawn, pryd y cyfarchodd Mr. Fletcher, o Madeley, y gynnulleidfa, a phregethodd Howel Harris yn y cyntedd oddi wrth y geiriau hyn, "Daeth yr amser i ddechrau o'r farn o dŷ Dduw," &c. Y Sabboth canlynol, pregethodd un Mr. Shirley, am 10 y borau, ar "Ymarfer, attolwg, âg ef, a bydd heddychlawn." Am 1 o'r gloch, gweinyddwyd swper yr Arglwydd eilwaith, a chyfarchwyd y gynnulleidfa gan Rowlands a Fletcher, bob yn ail, a dibenwyd â chyfarchiad gan Mr. Williams. Yn y prydnhawn eilwaith, safodd Mr. Fletcher yn y cyntedd, a llefarodd i gynnulleidfa lïosog iawn, yn Saesneg, ar y geiriau hyn, "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist, o blegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth." Ar ol y cyfarchiad hwn, a chanu hymn, llefarodd Rowlands ar y geiriau yma, "Gosodwyd i ddynion farw unwaith."

Y dydd Mercher canlynol, pregethodd Mr. Wesley; a thrannoeth gweinyddwyd swper yr Arglwydd gan Mr. Wesley a Mr. Shirley, yn gyntaf i'r offeiriaid oedd yn bresennol, yna i'r myfyrwyr; ac wedyn i'r Iarlles Huntingdon, yr Iarlles Buchan, yr Arglwyddes Erskine, Miss Orson, ac aelodau eraill y teulu. Deg o'r gloch, wedi i dyrfa ddirfawr ei maint ymgynnull ynghyd, darllenwyd gwasanaeth Eglwys Loegr gan Daniel Rowlands a Howel Davies. Yna pregethodd Mr. Fletcher yn ardderchog yn y cyntedd, gan fod y gynnulleidfa yn llawer gormod i'r capel. Wedi iddo ef ddarfod, pregethodd Williams, Pant-y-Celyn, yn Gymraeg, hyd ddau o'r gloch. Am ddau, ciniawodd y pregethwyr a'r boneddigesau oll gyd â'r Iarlles Huntingdon, a dosparthwyd bara a chig yn fasgedeidiau i'r bobl oedd yn y cyntedd, llawer o'r rhai a ddeuthent o bellder mawr. Dechreuodd y gwasanaeth cyhoeddus drachefn am dri o'r gloch, pryd y pregethodd Mr. Wesley, ac ar ei ol Mr. Fletcher; a dibenwyd am bump o'r gloch. Dechreuodd y gariad-wledd rhwng saith ac wyth o'r gloch yn yr hwyr. Yn ystod y wledd hon, traddodwyd cyfarchiadau byrion gan Shirley, Davies, a Rowlands; ac yna gweddïodd Peter Williams a Howel Harris. Yr oedd wyth o offeiriaid yn bresennol. Pwy oeddynt, ni fynegir; ond gwyddys i'r gwŷr hyn gael urddau esgobol, sef Rowlands, W. Williams, H. Davies, P. Williams, Wesley, a Fletcher, ac, ond odid, Shirley hefyd; ond a oedd y rhai hyn ym mysg yr "wyth offeiriad" y cyfeirir atynt gan J. Hughes, nid ydym yn gwybod.

Trannoeth ar ol y wledd grybwylledig, sef dydd Gwener, aeth Wesley i Gaerodor, ac ymadawodd

pyngciau duwinyddol, y blaenaf yn zelog dros yr hyn a elwir Arminiaeth, a'r llall dros Galfiniaeth; ar y pryd, proffesodd yr Iarlles ei chymmeradwyaeth wresog i'r athrawiaeth Galfinaidd: ac fel canlyniad o'r dewisiad penderfynol yma, ymgyssylltodd â Whitfield, a rhoddes ei holl gymmorth a'i dylanwad i'r ochr oedd yn groes i Fethodistiaeth Wesleyaidd. Gan fod Whitfield yn meddu gormod o symledd calon i chwennych yr hynodrwydd o sylfeunu cyfundeb crefyddol newydd, yr hyn hefyd a fuasai yn anghyfaddas i'w alluoedd ef, rhoddes efe ei gynhorthwy galluog i'w noddes enwog, yn ei hymdrechion helaeth i gynnal a lledeunu Methodistiaeth Galfinaidd. Fel hyn, gan hyny, y daeth yr Iarlles yn llywyddes yr hyn a elwir "cyfundeb yr Iarlles Huntingdon." Yr oedd y symmudiad costus yma yn cynnwys adeilad lliaws o dai addoliad ehang, cynhaliad pregethwyr, ynghyd â sefydlu a gwaddoli coleg, fel y dywedir uchod, i addysgu gwŷr ieuaingc crefyddol a fwriadent bregethu; a sefydlodd ei meddwl o'r diwedd, fel y gwelir, ar Drefeca, ar dreftadaeth Howel Harris. Cynhelir y "cyfundeb" yma fyth, a'r prif gapelydd a berthyn iddo. Arferir ffurfwasanaeth yr Eglwys Sefydledig yng nghapelydd y corph yma, yn ol telerau rhwym-weithredoedd pob capel. Profir bod cynheddfau meddwl yr Iarlles Huntingdon o ansawdd uchel iawn, gan y dull hynaws a thirion, ond awdurdodol, y llywyddodd gynnifer o bregethwyr dysgedig ac annysgedig, mor faith a thangnefeddus. Er ei bod yn troi yn y cylch uwchaf o gymdeithas, ac yn cyfeillachu, yn achlysurol, â phrif athronwyr, awduron, a dysgedigion yr oes, megis Chesterfield, Bolingbroke, ac amryw esgobion dysgedig; etto, medrai hi ymostwng i gyfeillachu â'r dosparth isaf o gymdeithas, yn enwedig â duwiolion y dosparth hwnw, i'r hwn ddosparth hefyd y bu yn dra haelionus a charedig. Megis gyd â Wesley, felly hefyd gyd â'r Iarlles Huntingdon, ymroddes o'r diwedd, er gyd â'r hwyrfrydigrwydd mwyaf, i ymneillduo yn ffurfiol oddi wrth yr Eglwys Sefydledig; eithr nid cyn i hyny ddyfod yn anocheladwy. Yna bu raid iddi ymofyn nawdd y gyfraith i'w phregethwyr a'i chapelau, dan aden Deddf y Goddefiad. Bu farw y foneddiges rinweddol, alluog, ac enwog hon yn 1791, yn 84 oed.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 983.

Rowlands a Davies o Drefeca; ond yn y prydnhawn pregethodd yn y cyntedd drachefn, ar Heb. vii. 25, "Efe a ddichon yn gwbl iachâu." "Ar ol hyn," ebai yr Iarlles Huntingdon, "cawsom bregeth bob dydd am bedwar o'r gloch, tra'r arhosodd Shirley a Fletcher gyd â ni. Cawsom gawodydd helaeth o fendithion ar bob llaw. Dïau, da yw Duw i Israel." Y Parch. John Hughes a ddywed ar yr amgylchiad yma fel hyn:—

"Y cyfryw ydoedd cylchwyl gyntaf Coleg Trefeca. Gwelwn yma y fath ymgyssegriad llwyr i waith yr Arglwydd a feddiannai y dynion hyn! Y fath undeb a brawdgarwch oedd rhyngddynt! Ac yn neillduol y mae'n amgylchiad i graffu arno, y modd y cydweithredai y Methodistiaid Cymreig â'u hen frawd a'u cydlafurwr, Howel Harris. Ymddengys bod yr hen ymrafael wedi diflanu, o leiaf, yn nwydau pob ochr. Yr oedd Harris, erbyn hyn, yn dechrau heneiddio, a chanddo lawer o ofal a llawer o lafur yn disgyn arno yn feunyddiol, fel na allai, pe mynasai, ymroddi eilwaith i deithio Cymru fel cynt, a chydweithredu â'i hen frodyr, fel y gwnai ym mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Edrychid yn barchus arno ef yn ddïau, fel dŷn duwiol a defnyddiol, pa mor gamsyniol bynag y tybid bod y sefydliad yn Nhrefeca.

"Er prawf ychwanegol bod hen archollion yr ymrafael gynt wedi eu hiachâu, a bod yr hen dadau Methodistaidd ac yntau yn coleddu teimladau tyner at eu gilydd, cofnodir amgylchiad a ddigwyddodd pan oedd Harris yn gapten yn y Cartreflu. Cyhoeddwyd y cynhelid cymdeithasfa y Methodistiaid yn Llanymddyfri ar ryw adeg bennodol, a daeth rhyw nifer o bregethwyr yno i'w chynnal, gan fwriadu pregethu allan yn heol y dref, oddi ar gareg fawr a ddefnyddid y pryd hyny, ac ymhell ar ol hyny, yn gareg farch. Penderfynodd gelynion crefydd rwystro y cyfarfod, ac ymbarotôdd nifer o wehilion y bobl i aflonyddu yr addoliad, ac i faeddu'r pregethwyr, a'u hymlid ymaith. A phan wnaed y cais ar bregethu, ymosodasant yn ffyrnig ar y pregethwyr, a deallwyd yn bur fuan fod pob gobaith am lonyddwch yn diflannu; ac ymroisant i gilio o'r dref, gan fyned gyd â brys tu a Phant-y-Celyn, i lechu ac i orphwys. Ond ar y ffordd, cyfarfu y Capten Howel Harris â hwynt, mewn hugan fawr yn cuddio ei ddillad milwrol. 'Ho!' eb efe, wedi adnabod y pregethwyr, a gwybod am eu ffoedigaeth, 'pa beth yw hyn? Deuwch gyd â fi yn ol.' Gyd âg ef y dychwelasant, a gwnaed ail gais ar bregethu. Deallodd yr erlidwyr hyny, ac ymosodasant ar y 'Penau Cryniaid' yn ffyrnicach nag o'r blaen. Yna safodd Harris i fynu, gan geisio eu darbwyllo i wrando arno, ac i fod yn llonydd. Ond ni fynnent wrando arno mewn un modd, ond dechreuasant chwyrndaflu cerig gyd â ffyrnigrwydd barbaraidd. Ar hyny, galwodd Harris am osteg, *yn enw Brenin y nefoedd;* ond nid oedd neb o honynt yn gwrando. Yna diosgodd yntau ei hugan, a datguddiodd iddynt ei wisg filwraidd, gan lefain yn awdurdodol, fel y gwnai ar ei wŷr, 'Llonyddwch! yn enw brenin Lloegr!' Llwyddodd hyn i lonyddu'r dorf fileinig mewn munud. Daliwyd hwy oll â syndod disymmwth, ac â braw mawr; a chafodd Harris y fantais o edliw iddynt leied oedd eu parch i Frenin y brenhinoedd, pryd na roddent osteg iddo am funud, ond yn llonyddu yn y fan ar ei waith yn defnyddio enw brenin deuarol. Cafodd y pregethwyr eraill lonyddwch yn ei gysgod i gynnal y gymdeithasfa."*

Yn y flwyddyn 1770, bu farw gwraig dduwiol a rhinweddol Howel Harris, wedi iddynt fyw yn gysurus ac anwyl iawn o'u gilydd am 26 blynedd. Dechreuodd ei iechyd yntau amharu yn fuan ar ol ei hymadawiad hi. Yn y flwyddyn olaf o'i fywyd, cafodd wasgfeuon trymion a dirdynol oddi wrth ddolur y gareg, yr hyn o'r diwedd a'i dygodd ymaith. Er ei boen dirfawr yn wythnosau olaf ei fywyd, etto ymdrechai yn ddyfal i bregethu i'r "teulu," a'u cynghori, a hyny gyd â difrifwch mawr, a llawer o rym. Cynghorai lawer arnynt i wylied rhag ymorphwys ar grefydd allanol, a derbyn gwirioneddau Duw yn ysgafn, heb deimlo eu heffeithiau gwirioneddol ar y galon, yn cyfnewid yr yspryd a'r holl ddŷn, i ddyfod yn un yspryd â Christ, trwy brofi grym ei adgyfodiad ef, ynghyd â holl rinweddau ei farwolaeth. Y mae geiriau a thystiolaeth ddiweddaf Howel Harris yn hynod a chyffrous dros ben; ond gan fod o honom eisoes yn lled faith ynghymdeithas y dŷn mawr, rhinweddol, ac enwog hwn, rhaid i ni foddloni ar ychydig o ddifyniadau, fel y canlyn:—

"Yr wyf heddyw mewn poen dirfawr, ac yn wan iawn, a phob peth sydd o'm hamgylch yn bethau diflas genyf; er hyny, y mae fy yspryd yn llefain, 'O! fy anwyl Dad, a wyt ti yn dyfod i daro yr ergyd ddiweddaf? Yr wyf yn teimlo angau yn dyfod yn nes nes. O! tyred, tyred, tyred: na âd i mi fod yn glaf o hiraeth. Od ydyw fy ngwaith wedi darfod, cymmer fi adref. O! prysura dy ddyfodiad! A gaf fi ddyfod i'r lle yr wyt yn datguddio dy ogoniant, dy gariad, a'th ddïoddefiadau! O cymmer fi adref, adref, canys dïeithr ydwyf yma, ac wedi fy ni ddyfnu oddi wrth bob peth dan haul.

"Yr wyf yn cael rhyddid neillduol i lefain am fyned oddi yma i'r gogoniant; ac yr wyf hefyd yn pwyso arno mewn modd nas gwneuthum erioed o'r blaen, ac megis â'm gafael am wddf fy Nuw a'm Tad, yn gystal a chusanu ei draed, gan lefain, 'Yr wyf yn awr ynot ti, ymhlith yr ysprydoedd gogoneddus. Tydi yw fy nefoedd yn oes oesoedd.'

"O! mor hawddgar genyf yw yr arwydd lleiaf o fod angau yn agosâu. Y mae pob argoel o ddynesiad angau yn llawenydd ac yn fywyd i mi yn wir. O! y fath etifeddiaeth yr wyf mewn gobaith o gael ei meddiannu ymhen ennyd bach. Yr wyf yn rhoddi fy hun i fynu i ewyllys fy anwyl Arglwydd, i wneuthur fel y mynno â mi; ond gan iddo fy ngharu â chariad tragywyddol, nis gad efe fi yn hir.

"Yr wyf yn meddwl i mi gael sicrwydd y caf fyned adref yn fuan, gan ei fod wedi dangos i mi ei ogoniant, hyny yw, ei ogoniant iddo fy ngharu, bechadur tlawd yn wir; fy nghyfiawnhau, a'm hachub, a'm golchi yn ei waed; a hefyd, dyrchafu o hono, ac anrhydeddu y fath greadur tlawd a thruenus ag wyf fi.

"Gan weled y cyfan yn y golau yma, yr wyf yn teimlo bod yn hawdd ymadael â phob peth. Y mae fy yspryd, gan hyny, yn llefain, 'O! tyred, tyred, Arglwydd; tyred ar frys.' Yr wyf yn teimlo fy yspryd ymhlith y rhai sydd yn ymbil yma, o flaen yr orsedd, ac yn cael rhyddid i ddywedyd, 'Gorphenais fy ngwaith, cyflawnais fy nhystiolaeth, a rhedais fy ngyrfa: beth yn ychwaneg sydd i mi i'w wneuthur, ond dyfod adref at fy anwyl Dduw, a'm Tad, fy nghyfaill a'm perthynas gorau?' Dy holl gyfeillion di yw fy nghyfeillion innau, a'th holl elynion di yw fy ngelynion innau. O! tyred, Arglwydd Iesu; tyred ar

* Meth. Cymru, cyf. i., t. 396–8.

frys, a dwg fi adref. Yr wyf yn teimlo fy yspryd yn gorfoleddu ac yn canu, fel hyn:—

'Fy Arglwydd aeth, i'w ganlyn ef
Mae'n rhaid i minnau fynd i'r nef."

Gyd â chyffelyb ymadroddion hyderus a hynod yn ei enau, ehedodd yspryd y dŷn mawr, duwiol, a llafurus hwn, ar yr 21fed o Orphenaf, 1773, yn y 60fed flwyddyn o'i oedran, "i fyned i Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion, i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sy'n dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel."

Claddwyd ef yn agos i fwrdd yr allor, yn Eglwys Talgarth, yn y fan lle yr argyhoeddwyd ef o bechod, ac y cafodd yr amlygiad cyntaf o Grist i'w enaid, yn yr un beddrod a'i anwyl wraig dduwiolfryd, a gosodwyd cerfiad helaeth yno, er coffadwriaeth am y ddau;* a cheir gweled yn fuan y fath deimladau oedd yn ei angladd, a'r fath gladdedigaeth ryfedd a gafodd.

Gan mai'r gŵr tra enwog a rhyfedd yma oedd sylfeunydd cyntaf Methodistiaeth Cymru, er yn ddïarwybod iddo ei hun ar y pryd, ac yn groes i'w amcan, fel yr ymddengys, hyd y diwedd, credwn y maddeuir i ni am gadw ei gyfeillach yn hwy na'r cyffredin, ac y bydd y tystioleuthau canlynol am dano yn bur gymmeradwy gan y darllenydd, megis y maent genym ninnau. Dyma fel yr ysgrifenodd ei gydoeswr anfarwol, George Whitfield, am dano, ymhen rhyw dair blynedd ar ol iddo ddechrau rhedeg ei yrfa fel pregethwr teithiol, sef yn y flwyddyn 1739:—

"Efe sydd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo yn y parthau hyn: gwrthglawdd yn erbyn halogedigaeth ac anfoes, a chyhoeddwr diflino o efengyl wir ein Harglwydd Iesu Grist. Tueddodd Duw ef er ys tair neu bedair blynedd yn ol i fyned o amgylch i wneuthur daioni. Y mae yn awr uwch law 25 oed. Dwywaith ceisiodd urddau eglwysig, ac yr oedd ymhob modd yn gymmwys; ond gwrthodwyd ef, dan yr esgus gwag ei fod dan oed, er ei fod y pryd hyny yn ddwy ar hugain a chwe mis oed. Tu a mis yn ol, ymgynhygiodd drachefn, ond rhoddwyd ef heibio. Ar hyn penderfynodd, ac felly y mae etto, i fyned rhagddo yn ei waith; a dangosodd zel angherddol yngwasanaeth ei Feistr mawr. Y mae wedi pregethu yn ystod y tair blynedd hyn, fel y dywedodd wrthyf ei hun, ddwywaith bron bob dydd, am dair neu bedair o oriau; nid fel gweinidog urddedig, awdurdodol, ond fel pregethwr diurddau, yn annog ei gyd-ddynion i edifarhau, a chredu yng Nghrist Iesu. Tebygaf iddo fod mewn saith o siroedd, ac arferai fyned i wylmabsantau, a'r cyffelyb, i droi dynion oddi wrth y fath oferedd celwyddog. Y mae llefain tost yn ei erbyn gan dafarnwyr, crythwyr, a thelynwyr, fel Demetrius gynt, am iddo ddyrysu eu gorchwylion. Gwnaed ef yn destyn lliaws o bregethau; bygythiwyd ef âg erlyniadau cyfreithiol; ac anfonwyd hedd-geidwaid i'w ddal ef; ond Duw a'i bendithiodd ef â gwroldeb anorchfygol. Rhoddid iddo yn y fan nerth ebrwydd o'r nef; ac ym mlaen y mae etto yn myned, gan orchfygu, ac i orchfygu. Y mae ei yspryd yr un mwyaf haelfrydig, yn caru pawb sy'n caru ein Harglwydd Iesu Grist; ac am hyny, gelwir ef gan ddallbleidwyr yn Ymneillduwr. Dirmygir ef gan bawb sydd yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw; er hyny, Duw a fawr fendithiodd ei lafur. Llawer a'i harddelant, ac a'i galwant ef yn dad ysprydol iddynt; a chredaf y rhoddent eu bywydau drosto. Pregetha weithiau mewn maes, bryd arall mewn tŷ, oddi ar fur, bwrdd, neu unpeth arall. Planodd 30 o gymdeithasau yn Neheudir Cymru, ac ymehanga cylch ei faes yn feunyddiol. Y mae yn llawn o ffydd ac o'r Yspryd Glân."

Y cyfryw oedd y dystiolaeth a roddai yr enwog Whitfield iddo, pan nad oedd ond 25 oed, a phan nad oedd ei lafur fel pregethwr, fel y crybwyllwyd, ond ychydig dros dair blwydd oed. Nid oedd etto wedi bod ond unwaith yng Ngwynedd, a hyny mewn cwr o honi, lle y bu ei lafur ar ol hyny mor fendithiol, a lle y dïoddefodd yntau, fel y gwelsom, gymmaint o erlidiau. Ysgrifenodd yr Iarlles Huntingdon lawer o lythyrau ato, y rhai sy'n dangos y coleddai y parch mwyaf ato, a'r meddyliau uwchaf am dano. Mewn un o honynt dywed fel hyn:—"Miloedd ar filoedd o ddïolchiadau calon am y gweddïau yn Nhrefeca." A therfyna un arall fel y canlyn:—"Ydwyf, yn y modd mwyaf cywir a serchog, ymhob cariad a dïolchgarwch Cristionogol, yr eiddoch, S. Huntingdon." Dyma etto dystiolaeth am Howel Harris gan Robert Jones, Rhos-y-lan, yr hwn a fu'n cydoesi âg ef am 28 mlynedd:—

"Ar ol i Mr. Howel Harris gael ei ddeffrôi am ei gyflwr fel pechadur colledig, noeth, ac agored i ddigofaint Duw dros dragywyddoldeb, a chael datguddiad o Gyfryngwr y Testament Newydd yn ddigonol Waredwr oddi wrth y llid a fydd, ni allodd ymattal heb ddyrchafu ei lais fel udgorn i weuddi ar bechaduriaid, lle bynag y cai afael arnynt, gan eu cymmell i ffoi ar frys i'r noddfa, canys yr oedd y gair fel tân wedi ei gau o fewn ei esgyrn. Tarawodd allan fel un o feibion y daran, yn ddidderbyn wyneb, i'r prif ffyrdd a'r ceuau, trefydd a phentrefydd, i ddeffrôus argyhoeddi torwyr Sabbothau, tyngwyr, meddwon, celwyddwyr, a'r cyffelyb, gan ddarlunio y farn ofnadwy megis o flaen eu llygaid, a gwreichioni tân uffern, mewn ystyriaeth, yn eu plith. Bu'n offerynol i ddeffrôi llawer o drwmgwsg pechod. Yr oedd gallu'r Nef yn nerthol weithio trwy ei weinidogaeth. Erbyn hyn, yr oedd diafol a'i weision yn dechrau cynhyrfu, a'r cryf-arfog yn ymgynddeiriogi rhag colli eu neuadd. Ond er pob dichell a malais uffernol, llwyddo yr oedd y gwaith."

Mr. Charles, o'r Bala, drachefn, yr hwn, yntau, a fu'n cydoesi â Harris o gylch 18 mlynedd, a ysgrifenodd am dano fel y canlyn:—

"Un nôd o wir genhadon Duw yw bod gwasgfa oddi wrth Dduw ar eu meddwl am iechydwriaeth eneidiau

* Hanes Byr o Fywyd Howel Harris, t. 95; Meth. Cymru, cyf. i., t. 401.

Digitized by Google

Nid ydym yn gwybod i Howel Harris ysgrifenu dim ond ychydig hymnau, heb law ei Ddyddlyfrau, Llythyrau, a'i Hunan-Gofiant, o'i enedigaeth hyd y flwyddyn 1751, yr hwn a ysgrifenodd efe, fel yr ymddengys, ymhen cryn amser ar ol iddo sefydlu ei "deulu" yn Nhrefeca. Nis gallwn ganfod i ddim o'i waith gael ei argraphu yn ei oes ef, ond yr hymn fleunaf sydd yn y llyfr a elwir "Sail, Dibenion, a Rheolau y Cymdeithasau neu y Cyfarfodydd Neillduol," a nodwyd yn y bennod fleunorol. Yr ydym yn casglu mai ar ol ei farwolaeth yr argraphwyd y llyfr canlynol, er i Gwilym Lleyn ei gyflëu yn y flwyddyn 1771, dwy flynedd cyn ei farw:—

"Cennadwri a Thystiolaeth ddiweddaf Howel Harris, Yswain. Gydag ychydig o ystyriaethau ysprydol, a bigwyd allan o wahanol fannau yn ei ddydd-lyfr, &c.—Trefecca."*

Gwelir nad oes amseriad wrth y gwaith yna. Cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg o'r llyfr uchod yn "Trevecka," yn 1774,† yn fuan, fel y casglwn, ar ol cyhoeddi yr un Cymraeg. Y llyfr nesaf a gyhoeddwyd o waith Howel Harris oedd yr un canlynol:—

"Ychydig Lythyrau ar Ystyriaethau ac Achosion Ysprydol. Ynghyd â Hymnau am Dduwdod a Marwolaeth ein Iachawdwr. Gan Mr. Howel Harris.—Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn M.DCC.LXXXII."‡

Yr olaf o waith Howel Harris, hyd canfyddwn, a gyhoeddwyd, yw y llyfr canlynol:—

"Hanes Ferr o Fywyd Howell Harris, Yscwier; a dynwyd allan o'i Ysgrifeniadau ef ei hun. At ba un y chwanegwyd Crynodeb byrr o'i Lythyrau, o'r Flwyddyn 1738 hyd y Flwyddyn 1772.—Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn M.DCC.XCII. (Pris Swllt)."§

Cyhoeddwyd "ail argraphiad" o'r llyfr hwn ym Merthyr, yn 1833, gan Nathan Hughes, dan yr enw "Hanes Byr o Fywyd Howell Harris, Ysw., o Drefecca; a dynwyd allan o'i Ysgrifeniadau ef ei hun," yr hwn sydd ger ein bron. Cynnwys yr argraphiad yma holl Hunan-Gofiant Howel Harris; "yr ail Ran, a gasglwyd gan y rhai a osododd ef yn olygwyr dros ei deulu;" "rhai sylwadau byrion, a ysgrifenodd ef ei hun, yn ei glefyd diweddaf;" "Marwnad er coffadwriaeth am Mr. Howell Harris, . . . gan y diweddar Barch. William Williams, o Bant-y-Celyn;" ynghyd â'i "Fedd Argraph." Ond gadawyd allan o hwn y "Crynodeb Byrr o'i Lythyrau, o'r Flwyddyn 1738 hyd y Flwyddyn 1772," oedd yn yr argraphiad cyntaf, yr hyn ni ddylasid ei wneuthur. Fel hyn y terfynwn ein pennod ar un o'r rhai enwocaf o "Enwogion y Ffydd."

* Llyfr. y Cymry, t. 552. † Yr un, t. 559.
‡ Yr un, t. 612. § Yr un, t. 667.

## PENNOD XX.

### MORGAN RHYS, EDWARD RICHARD, A HOWEL DAVIES.

MORGAN RHYS ydoedd ŵr enwog fel crefyddwr, athraw, pregethwr, a bardd; er hyny, ychydig iawn a wyddys am dano ond trwy gyfrwng ei gyfansoddiadau. Y mae awdur *Methodistiaeth Cymru* yn cyfeirio ato ym mysg eraill "o ddynion da eu gair, eiddigeddus eu hyspryd, a ffyddlawn eu gwasanaeth," ac fel "prydydd rhagorol."‖

Tybir iddo gael ei eni o gylch 1714, neu, ond odid, ychydig yn gynharach, yr hyn a ddigwyddodd ynghymmydogaeth Llanddyfri. Ni wyddys ddim am sefyllfa ei rieni, na pha fath ddygiad i fynu a gafodd, na dim am helyntion borau ei oes; ond y mae'n sicr iddo ddysgu darllen Cymraeg yn dda, naill ai trwy gyfrwng ei rieni, ai trwy ei egni ei hun, neu trwy gael rhywfaint o ysgol, canys efe a fu dros ryw yspaid yn un o athrawon Ysgolion Cymraeg Cylchynol yr enwog Gruffydd Jones, Llanddowror; ac wedi hyny, yn y rhan ddiweddaf o'i oes, bu'n cadw ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun, yn ardal Capel Isaac, ger llaw Llandeilo-fawr, yn sir Gaerfyrddin. Y mae'n gwneud coffa parchus a serchog iawn am Gruffydd Jones, ym Marwnad Howel Davies, W. Richard, a John Parry, fel y canlyn:—

"Jones, Llanddowror, addfwyn, cu,
Ar orsedd fry'n teyrnasu.

"Jones, Llanddowror, nid yw'n wylo,
Tros y byd annuwiol yno:
Er mor helaeth fu ei lafur,
Cadd gan cymmaint, nid wrth fesur."

Tybir mai trwy bregethiad Howel Harris neu Daniel Rowlands yr ennillwyd ef at grefydd. Yn ebrwydd ar ol cael ei argyhoeddi, ymunodd â'r Methodistiaid yng Nghil-y-Cwm, lle y bu'n aelod llafurus a defnyddiol hyd ddiwedd ei oes. Preswyliai mewn tŷ bychan ar dir Cwm-gwaun-hendy, ymhlwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, ac yno y terfynodd ei yrfa. Gellir casglu iddo ddechrau pregethu yn lled fuan ar ol ymuno â chrefydd, a hyny, y mae'n bur debyg, cyn iddo ddechrau cadw ysgol Gymraeg dan Gruffydd Jones. Ni fynegir pa un ai yng nghapel y Methodistiaid yng Nghil-y-Cwm ai yn ei dŷ y cadwai ysgol, ar ol

‖ Method. Cymru, cyf. ii., t. 428, 450.

Digitized by Google

iddo ei chychwyn ar ei gyfrifoldeb ei hunan. Gan mai mewn "tŷ bychan" y preswyliai efe, y tebygrwydd yw mai yn y capel y cadwai yr ysgol. Cyhoeddodd amryw fân lyfrau crefyddol yn ystod y 18 mlynedd olaf o'i oes, a'r cwbl mewn barddoniaeth; ac y mae rhai o honynt yn dra dyddorol, fel y dengys eu henwau a'u cynhwysiad, y rhai a ddodwn ger bron yma:—

1. "Casgliad o Hymnau, am Gwymp Dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i Gyfodiad yn yr Ail: Neu Ddyn wrth Natur heb ûn Cyfiawnder, a Christ yn bôb Pêth. Gan Morgan Rhys.—1770. Pris Dwy Geiniog."

2. "Golwg o Ben Nebo ar Wlad yr Addewid; mewn casgliad o Hymnau, am gwymp dyn yn yr Adda Cyntaf a'i gyfodiad yn yr Ail. Yr ail argraphiad. At ba un y chwanegwyd Hymnau ac Odlau newyddion, ar amryw Fesurau, i'r Pererinion, sy'n Teithio o Ddinas Distryw i'r Gaersalem newydd. Gan Morgan Rhys.—1764." 84 t. 12plyg."

Y mae'n amlwg mai "ail argraphiad," a heleuthiad, ydyw hwn o'r llyfr uchod; a hwn ydyw prif waith Morgan Rhys. Cyhoeddwyd y llyfr gwerthfawr hwn ddwy waith drachefn yn oes yr awdur, sef yn 1773 ac yn 1775.

3. "Golwg ar Ddull y Byd hwn yn myned heibio, a Thragwyddoldeb a Happusrwydd yn nessau, i holl Waredigion Seion; sef, Perffaith Ryddhad i'r Carcharorion gobeithiol, neu ddedwydd Fynediad Priodas-ferch yr Oen i Dragwyddol Deyrnas ei Harglwydd Iesu Grist.—1767. [Pris Dwy Geiniog]."

Nid oes enw awdur ar enwad-ddalen y llyfr hwn; ond mewn cyssylltiad â'r hymn ddiweddaf, dywedir—"Hyn yn fyr (ac fe allai'r diweddaf) oddi wrth eich cyd-bererin i'r byd arall, Morgan Rhys."*

4. "Marwnad, neu Goffadwriaeth o ddedwydd Farwolaeth rhai o Weinidogion ffyddlon yr Efengyl, a ymadawodd â'r byd hwn yn ddiweddar, yn Neheudir Cymru: sef y Parchedig Mr. Howel Davies, yn Sir Benfro; Mr. William Richard, yn Sir Aberteifi; a Mr. Sion Parry, yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd âg amryw eraill o'r Saint fu yn cydaddoli Duw gyda rhai o honom yn y Byd presennol, sydd heddyw yn holl-iach yn y Byd tragwyddol. Gan Morgan Rhys.—1770."

5. "Golwg ar y Ddinas Noddfa; mewn Casgliad o Hymnau i Ddifyru y Pererinion, sydd yn teithio trwy Lyn Wylofain i'r Breswylfa lonydd. Ynghyd â Marwnad Ester, gwraig William Sion, o'r Llawelau, ym Mhlwyf Llansawel, yn Sir Gaerfyrddin. Hi a fu briod ag ef 19 o Flynyddoedd. Gorphenodd ei Gyrfa yn 55 oed; Chwefror 5, 1770. Gan Morgan Rhys."

Gan nad yw'r llyfryn hwn wrth law genym, nis gwyddom pa un ai rhan o'r trydydd llyfr uchod ydyw y rhan gyntaf o hwn ai peidio. Y mae'r "Pererinion sy'n Teithio o Ddinas Distryw i'r Gaersalem newydd," a'r "Pererinion sydd yn teithio trwy Lyn Wylofain i'r Breswylfa lonydd," yn arwyddo, braidd, mai yr un cyfansoddiad ydynt.

* Llyfr. y Cymry, t. 498-9.

Nid oedd Gwilym Lleyn yn sicr ymha flwyddyn yr argraphwyd hwn, am fod cwr y ddalen lle yr oedd y flwyddyn arno wedi colli, fel nas gwelid ond 17—; ond dyry efe ef yn 1771.†

6. "Hanes byr o Fywyd dichlinaidd, a dedwydd Farwolaeth Morgan Nathan, yn Llandeilo-fawr, yn sir Gaerfyrddin. M. R."

Nid yw'r flwyddyn yr argraphwyd hwn ar yr enwad-ddalen; ond tybia Gwilym Lleyn mai 1774 ydoedd. Ar gân y mae hwn, fel holl lyfrau Morgan Rhys.‡

7. "Y Frwydr Ysprydol; mewn Casgliad o Hymnau Newydd, ar amryw Fesurau. Gan Morgan Rhys, a Thomas Dafydd."

8. "Griddfanau'r Credadyn am Berffeithrwydd ac Anllygredigaeth; ar Fesur newydd. Gan Morgan Rhys."

Nid oes amseriad wrth yr un o'r ddau yna; ond tybia golygydd y *Llyfryddiaeth* i'r bleunaf gael ei gyhoeddi mor gynnar ag 1770,§ a'r olaf tu a'r flwyddyn 1773.‖ Dyna holl gyfansoddiadau y bardd crefyddol enwog hwn, hyd y gallwn ni ganfod, yr hwn a orphenodd ei yrfa ddeuarol, ac a gladdwyd, yn ol cofnod sydd yng nghofrestr y claddedigeuthau yn eglwys plwyf Llanfynydd, ar y 9fed o Awst, 1779.

Y mae lliaws o bennillion, a rhai hymnau cyfain, o waith M. Rhys yn ein gwahanol lyfrau hymnau, er nad oes ond *rhai* o'n casglwyr hymnau yn cydnabod hyny. Y mae ei hymnau ef ym mysg y rhai mwyaf arferedig yn ein plith; ac y maent yn gyfartal, ymhob ystyr, i waith prif fardd a phrif farddones Cymru, Williams o Bant-y-Celyn ac Ann Gruffydd o Ddolwar-fechan, fel y dengys yr esamplau canlynol o'i waith:—

"O agor fy llygaid i weled
  Gogoniant dy arfaeth a'th air."

"Pan sycho'r moroedd dyfnion,
  Pan syrthio ser y nen, [maith,
Yr Hwn fu farw, ac sydd fyw
  Ar Sïon fydd yn Ben.

"Ei enw bery tra bo haul,
  Yn glodfawr byth y bydd;
Ac ni bydd diwedd ar ei glod
  I dragwyddoldeb ddydd.

"Bendithion rif y tywod mân,
  A gwlith y ddeuar lawr,
Ynghadw i'r ffyddloniaid sydd
  Byth yn ein Harglwydd mawr.

"Aed enwau'r byd i gyd yn ddim,
  Dyrchafer Brenin nef;
Mae pob cyflawnder, gras, a nerth.
  Yn trigo ynddo ef."

"Ces ddŵr o'r graig i'w yfed,
  I dori'm syched mawr;
Ces beunydd fara i'w fwyta,
  O'r nef a ddaeth i lawr;
Ces delyn tu yma i angau,
  Fy holl gystuddiau ffodd,
I ganu i'r Oen fu farw;
  Mae'n Briod wrth fy modd."

"Peraidd ganodd ser y borau,
  Pan y ganwyd Brenin nef;
Doethion a bugeiliaid, hwythau,
  Ddeuthant i'w addoli Ef;
    Gwerthfawr drysor!
  Yn y preseb Iesu gaed.

"Dyma y newyddion hyfryd,
  Dreuthwyd gan angylion Duw:
Bod y Ceidwad wedi ei eni
  I golledig ddynol ryw;
    Ffyddlawn gyfaill!
  Bechaduriaid, molwn Ef."

"Gwnaed concwst ar Galfaria fryn,
Am dano canodd myrdd cyn hyn:
  Fe feuddwyd uffern faith i gyd,

† Llyfr. y Cymry, t. 531. ‡ Yr un, t. 553.
§ Yr un, t. 576. ‖ Yr un, t. 565.

Digitized by Google

Fe brynwyd gwael golledig dŷn;
Fe wnaed y ddwyblaid ddig yn un,
A gwaed Iachawdwr mawr y byd.

"Wel dyma'r Cyfaill gorau gaed,
Mae'n ganmil gwell na mam na thad;
Ymhob caledi ffyddlon yw:
Mae'n medru maddau a chuddio bai,
Ac o'i wir fodd yn trugarhau,
Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw."

"Teilwng yw'r Oen a laddwyd
O'r holl ogoniant mawr,
Trwy ganol nef y nefoedd,
Ac yma ar y llawr;
Pan elo'r holl greadigaeth
Yn ulw gan y tân,
Teilyngdod Iesu drosof
Fydd fy nhragwyddol gân.

"Agorodd ddrws i'r caethion,
I ddod o'r cystudd mawr," &c.*

"Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod
Yw'r ffordd a gymmerodd Efe,
I achub pechadur colledig,
Trwy farw ei hun yn ei le," &c.

"Tragwyddol glod i'r Cyfiawn
Fu farw dros fy mai," &c.

"Ni cheisia'i'n wyneb Moses
Ond Iesu i bledio'm cwyn," &c.

"Capten mawr ein hiechydwriaeth
Welaf yn y frwydr hon," &c.

"Er gwneutha'r maen a'r milwyr,
Fe gododd Iesu'n fyw;
Daeth yn ei law alluog
A phardwn dynol ryw," &c.

"Boed iddo'r holl ogoniant:
Iachawdwr mawr y byd!
Mae arnaf rwymau i'w ganmol,
Pe byddai pawb yn fud:
Mae'n medru cydymdeimlo
A'r gweula' o lwch y llawr,
A charu heb gyfnewid
I dragwyddoldeb mawr."

"Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai," &c.

"Cydganed y ddeuar a'r nefoedd ynghyd
Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd," &c.

"Nis gallai'r holl foroedd byth olchi fy mriw,
Na gwaed y creaduriaid, er amled eu rhyw," &c.

"Dy hen addewid rasol
A gadwodd rif y gwlith
O ddynion wedi eu colli,
A gân am dani byth," &c.

"Dewch hen ac ieuaingc, dewch
At Iesu, mae'n llawn bryd;
Rhyfedd amynedd Duw
Ddisgwyliodd wrthym cŷd!
Aeth yn brydnhawn: mae yn hwyrhau;
Ond drws trugaredd sydd heb gau.

"Dewch hen wrthgilwyr trist,
At Iesu Grist yn ol:
Mae'i freichiau'n awr ar led,
Fe'ch derbyn idd ei gôl:
Mae Duw yn rhoddi etto'n hael
Drugaredd i droseddwyr gwael."

"Pechadur wyf, O Arglwydd,
Yn curo wrth dy ddôr," &c.

"Gwasgara'r tew gymmylau
Sy oddiyma i dŷ fy Nhad," &c.

"Wel dyma'r Un sy'n maddau
Pechodau rif y gwlith," &c.

"O gariad! O gariad! anfeidrol ei faint,
Bod llwch mor anheilwng yn cael y fath fraint," &c.

"Teimlaf f'enaid'n awr yn caru'r
Oen ogwyddodd droswy'i ben:
Dywedodd Iesu mawr 'Gorphenwyd!'
Pan yn talu ar y pren," &c

"Gwnes addunedau fil
I gadw'r llwybyr cul,
Ond methu'r wy'," &c.

"Fe welir Sïon fel y wawr,
Er saled yw ei gwedd," &c.

"Ymado wnaf â'r babell
'R wy'n trigo ynddi'n awr,
Colofnau'r tŷ ddattodir,
Fe'u cwympir oll i lawr," &c.

"Mi gysgaf hun yn dawel,
Dros ennyd yn y grafel,
Nes dattod trefn y rhod," &c.

"Henffych i'r borau hyfryd!
Ddaw gelyn byth nac adfyd,
I dir y bywyd fry," &c.

Y mae hyn yn ddigon i ddangos bod Morgan Rhys yn awdur rhai o'r hymnau mwyaf poblogaidd, melus, ac efengylaidd a'r a feddwn, fel cenedl. Un ysgrifenydd galluog a dreutha ei farn ar hymnau Rhys fel y canlyn:—

"Rhaid addef nad yw eu trefniad mor dda ag y buasai yn ddymunol, ac y gellid yn hawdd eu had-drefnu yn well. Prif ragoriaeth cynhyrchion awenyddol Morgan Rhys ydyw eu gwreiddioldeb a'u melusder. Nid oes dim tebyg i gyfieithiad nac efelychiad yn ei waith, fel y gellir edrych ar ei gyfansoddiadau yn wreiddiol Gymreig, er nad ydynt yn dangos nemmawr wybodaeth o nerth a chyfoeth yr iaith, yr hyn a allasai fod o wasanaeth gwerthfawr iddo er gwneuthur ei syniadau yn fynych yn fwy tarawiadol, hyfryd, ac adeiladol. Y mae ei destynau yn Ysgrythyrol, ac ansawdd y brydyddiaeth yn efengylaidd a phrofiadol. Ynghyd â'r ystyriaeth o bechadurusrwydd a thrueni dŷn dan y cwymp yn yr Adda cyntaf, y mae'n dal allan yngoleuni yr efengyl ei godiad i gymmod, heddwch, a ffafr Duw yn yr ail Adda, yr Arglwydd o'r nef. Y mae'n gorfoleddu yn yr amlygiad o anfeidrol gariad Duw, a chyfoeth ei ras yn iachawdwriaeth ei bobl trwy yr Arglwydd Iesu Grist. Y mae'n tynu ei gynhaliaeth a'i gysuron, ar daith yr anialwch, a than orthrymderau a gormes gelynion ei enaid, allan o drysorau yr addewidion, a ffyddlondeb y Gwaredwr; ac yn yr olwg ar fyrder a breuder oes dŷn ar y ddeuar, ac ar 'ddull y byd hwn yn myned heibio,' y mae'n esgyn i ben Nebo i syllu trwy yspïenddrych ffydd ar wlad yr addewid, y Ganaan nefol, etifeddiaeth y saint tu draw i angau. Y mae'n fynych yn pyngcio yn hyfryd am ogoneddiad a gwynfyd y briodasferch, gwraig yr Oen; ond yr hyn sy'n tanio ei serchiadau mewn clodforedd gorfoleddus a buddugol ydyw gogoniant person y Gwaredwr fel Duwddŷn, teilyngdod ei aberth, llwyddiant ei eiriolaeth y tu fewn i'r llen, ei dradyrchafiad ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch leoedd, ac fel Alpha ac Omega yr holl oruchwylieuthau dwyfol mewn credigaeth, rhagluniaeth, ac yn iachawdwriaeth yr eglwys: 'ar yr hyn bethau y mae'r angylion yn chwennychu edrych.' . . . Y mae'r rhagorieuthau a nodwyd yn myned ymhell i wneud iawn am ei golliadau. Nid yw byth yn ymgais am un math o addurn na gorchest; a lle y mae'n brydferth, ymddengys felly yn hollol naturiol. Nid yw yn ymgais am gynghanedd blethedig, fel rhai cyfansoddwyr emynau; a phan y ceir ganddo rywbeth tebyg, y mae felly yn gwbl o ddamwain." †

Gwelir yn y rhestr flaenorol o gyfansoddiadau Morgan Rhys ei fod wedi cyfansoddi amryw farwnadau, cystal a hymnau, y rhai sy'n dangos ei fod yn meddu teimladau tyner iawn, a'i fod yn dra chydnabyddus â chrefyddwyr ei oes yn siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, a'u bod yn bur anwyl yn ei olwg. Y mae'n cyfeirio at y rhai ymadawedig o honynt yn bur gynnes a serchog, ac at eu teuluoedd a'r eglwysi y perthynent iddynt, gyd â llawer o gydymdeimlad, a chyd â'r symledd mwyaf; ond nid i dristâu fel rhai heb obaith.

## EDWARD RICHARD.

Fel ieithydd medrus, hanesydd manwl, bardd awengar a moesol, crefyddwr cydwybodol, ac athraw galluog a gonest, y mae Edward Richard yn deilwng o le ymhlith "Enwogion y Ffydd." Ganwyd ef ym mhentref Ystradmeurig, sir Aberteifi, ym mis Mawrth, 1714. Dilledydd oedd ei dad, Thomas Richard; a'i fam a gadwai dafarndy bychan, ac adnabyddid hi gan ysgolheigion Ystradmeurig fel yr "Hen Wenllïan," neu "Modryb Gwen; a dywedir nad oedd eu hamgylchiadau

* Pan fo'r pennill yn bur nyspys, ni ddifynwn ond rhyw ddwy linell neu bedair, gan gymmeryd yn ganiataol bod y gweddill o'r pennill yn ddigon hyspys.

† Traethodydd am 1872, t. 57-70; Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 116.

Digitized by Google

bydol ond lled isel. Yr oedd gan Edward frawd hynach nag ef, a'i enw Abraham, yr hwn, ar ol treulio peth amser yn athrofa Henffordd, ac ysgol rammadegol Caerfyrddin, a aeth i Goleg yr Iesu yn Rhydychain, fel y gwelir yn ei lawysgrif sydd mewn llyfr yn Llyfrgell Ystradmeurig, fel hyn—"Abraham Richards, Jesus College Oxford." Yr oedd Abraham y pryd hyn tu a 19 oed; ac yn ystod dyspeidiau (*vacations*) y Brifysgol, arferai gadw ysgol yn eglwys Ystradmeurig, er mwyn cael arian i dalu am ei addysg yn Rhydychain. Yn yr ysgolion hyn, a gedwid gan ei frawd, fel y dywedwyd, y cafodd Edward elfenau ei wybodaeth helaeth yn Saesneg, y Groeg, a'r Lladin, yr hon a barodd iddo ddisgleirio mor hynod ynghanolddydd ei fywyd.

Yr oedd Edward yn bur hoff, ymoreuddydd ei fywyd, o'r campau gwledig oedd mewn bri mawr yn y wlad y pryd hwnw, megis rhedeg, codymu, taflu maen a throsol, cicio y bêl droed, a'r cyffelyb, yn y rhai yr ystyrid ef yn ben campwr; a phan ddaeth ato ei hun, ymddengys yr ymofidiai yn ddirfawr o blegid y treuliasai gymmaint o'i amser boreuol ar y campau diles hyny, yn lle ymroddi i fyfyrio ieithoedd, a gwybodau daionus eraill. Bu ei frawd farw pan oedd efe yn lled ieuangc, trwy syrthio dros ddibyn serth craig, a elwid "Craig y Colomenod." Cafodd y ddamwain alarus honno argraph ddofn ar feddwl Edward ieuangc, er ei ddifrifoli, a'i wneud yn llawer mwy ymdrechgar nag y bu erioed. Teimlai nad oedd wedi prynu yr amser, na derbyn cymmaint o les ag a ddylasai oddi wrth hyfforddiadau brawd oedd weithian ymhriddellau y dyffryn; a chynhyrfwyd ef gan yr ergyd drom yma, ynghyd â chyhuddiadau cydwybod, i ymdrechiadau egnïol a difrifol mewn dysg a chrefydd. Glynai yn ddyfal wrth ei lyfrau; ond teimlai yn ddwys o ddiffyg cynnorthwy, ac o blegid ei esgeulusdod blaenorol, a gwelodd yn fuan y rhaid iddo etto wrth athrawon. Aeth ar y cyntaf i ysgol rammadegol Caerfyrddin, yr hon oedd ar y pryd dan arolygiaeth alluog y Parch. Mr. Madox. Wedi hyny aeth i ysgol Pontygiddo, ymhlwyf Llanarth, lle y bu dros ryw ennyd dan addysg y Parch. Mr. Puw, yr hwn oedd yn enwog iawn am ei wybodaeth o'r iaith Roeg.

Dywedir bod yr awen Gymreig wedi dechrau ymddangos ynddo hyd yn oed yn ystod ei nwyfiant ieuengaidd, cyn marwolaeth ei frawd, a bod y fath swyn yn ei chynhyrchion cyntaf fel yr arferai yr hen bobl ddifyru eu gilydd wrth eu hadrodd a'u canu; ond ni fynnai efe, wedi dyfod i addfedrwydd oedran, eu cyfaddef na'u harddel, ac ni welwyd yr un o honynt ymhlith yr ysgrifeniadau a adawyd ganddo ar ei ol.

Wedi iddo ddychwel adref o ysgol Llanarth, gan ei fod yn ŵr ieuangc hardd-deg, yn dra synhwyrgraff, ac yn llawn bywiowgrwydd corphorol; a hefyd, gan fod yn hyspys weithian ei fod yn coleddu yr awen Gymreig, cafodd dderbyniad croesawgar i deuluoedd John Llwyd, Ysw., Ffosy-bleiddiaid, a Richard Stedman, Ysw., Monachlog Ystrad Fflur, lle y byddai ei bresennoldeb bob amser yn dra chymmeradwy. Hefyd, Mrs. Stedman, merch William Powel, Ysw., yr hon a ail briododd Syr Herbert Llwyd, o Ffynnon Bedr, ger llaw Nantoes, boneddiges synhwyrol ac athrylithgar, a roddodd iddo bob cefnogaeth, a mwynhaodd gyfeillach y foneddiges enwog honno hyd ddiwedd ei oes.

O ddeutu y flwyddyn 1734, neu o leiaf 1735, cychwynodd ysgol ar ei gyfrifoldeb ei hun yn Ystradmeurig, yr hon, yn raddol, a ddaeth i gryn enwogrwydd; ond, tra yn gweled cynnydd beunyddiol yn rhif ei ysgolheigion, a llawer o honynt yn arddangos arwyddion o ddawn neillduol; a thra'r oedd yntau ynghanol ei lafur o gyfranu addysg i'w meddyliau ieuaingc, a'i fri yn prysur heleuthu, gwnaeth benderfyniad disymmwth, yr hwn nis gallasai dim ond meddwl cyfiawn ei annog, na dim ond yspryd eofn beru iddo ei gyfaddef a'i ddilyn. Gollyngodd ymaith ei holl ysgolheigion yn ddisymmwth, gan hyspysu iddynt hwy a'u perthynasau, yn ddigêl, nad ystyriai efe ei hun, ar ol y profiad a gafodd gyd â'i ysgolheigion, yn meddu gwybodaeth ddigonol i wneud cyfiawnder â hwynt, a bod yn rhaid iddo ef ymroddi i heleuthu ei wybodaeth a'i ddysg ei hunan cyn cynnyg eu hyfforddi hwy ymhellach. Wedi gwneud y penderfyniad, ymroddodd yn ddïattreg i fyfyrio y prif awduron Groeg a Lladin. Y lle a ddewisodd i ddilyn ei fyfyrdodau oedd eglwys y plwyf; ac am yspaid dwy flynedd, cychwynai tu a'r eglwys bob dydd, haf a geuaf, heb ddisgwyl cyfarfod â neb yno ond ei gyfaill, y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), y bardd a'r hynafieuthydd, yr hwn a fuasai unwaith yn ddisgybl i'w frawd, ac arhosodd Ieuan gyd âg ef nes yr aeth i Rydychain. Parodd yr ymddygiad cyfiawn a chydwybodol yma deimlad dwys o'i blaid ymhob parth o'r wlad; a phan ail agorodd efe ei ysgol tu a'r flwyddyn 1746, y fath oedd y syniad

Digitized by Google

uchel a chyffredinol am ei enwogrwydd, fel yr heidiai ysgolheigion ato o bob parth o'r Dywysogaeth. Deallai gyfansoddiadau y beirdd Groegaidd a Lladinaidd yn drwyadl, a mwynhai hyfrydwch mawr wrth ddangos eu teleidrwydd a'u teilyngdod i'w ysgolheigion. Yr oedd yn meddu llawer o urddasolrwydd personol, a hwnw wedi ei gyddymheru âg addfwynder, sirioldeb, ac ymddiddanion synhwyrgall, fel yr oedd ei ysgolheigion yn ei ddirfawr hoffi.

Yn y flwyddyn 1745, darfu y Parch. Thomas Oliver, yr hwn oedd enedigol o Ledrod, plwyf cyfagos i Ystradmeurig, ond ar amser ei farwolaeth oedd yn beriglor Dudley, yn sir Gaerwrangon, roddi yn ei ewyllys dyddyn a elwid Ynys-y-garn, ynghyd â 400p. i gynnal ysgol yn sir ei enedigaeth, er mwyn dysgu nifer pennodol o fechgyn tlodion. Rhoddwyd yr hawl i bennodi athraw i'r ysgol i John Llwyd, Ysw., Ffos-y-bleiddiaid, a'i etifeddion; ond diddymwyd y rhodd trwy ryw ddadleuon cyfreithiol, eithr cyflawnodd Mrs. Oliver fwriad ei gŵr, a thrwy ei rhadlonrwydd hi neillduwyd y tai a'r tiroedd canlynol at y perwyl, sef Briwffosydd a Ffos-y-pilicorn, ymhlwyf Llanrhystyd; Pantyscuthan a Blaeniago, ymhlwyf Llandyssul; Dôl, bwthyn a gardd, yn nhref Tregaron; a Swyddyffynnon, tŷ a chae bychan, ymhlwyf Lledrod; ynghyd âg Ynys-y-garn, y tyddyn a grybwyllwyd eisoes, yn yr un plwyf.

Wedi i Mrs. Oliver sicrhau y rhoddion haelfrydig hyn i Mr. Llwyd, ymddiriedolwr cyntaf ei gŵr, yr athraw cyntaf a bennododd Llwyd oedd Edward Richard, yr hwn a aeth â'i waith ym mlaen gyd âg ymdrech adnewyddol; a buan y gorlanwyd ei ysgol gan ysgolheigion. Gwellhaodd ei amgylchiadau bydol lawer yn fuan ar ol hyn; ond parhaodd efe i fyw yn gynnil fel o'r blaen. Ei hen fam barchus, Gwenllïan Richard, a ofalai am ei dŷ, a thrwy ei charedigrwydd a'i thymmer addfwyn gwnaeth ef yn gartref cysurus iddo; a bu yntau yn fab tyner, serchog, a chymmeradwy iawn iddi hithau hyd ei bedd.

Fel yr oedd ei dda bydol yn prysur gynhyddu, yr oedd yntau yn dyfal gynllunio pa fodd i'w defnyddio orau er gogoniant Duw a lles ei gydwladwyr, yn enwedig ei gymmydogion o amgylch Ystradmeurig. Yn y flwyddyn 1754, neillduodd dyddyn a brynasai i waddoli ysgol rammadegol i blant ei gymmydogion tlodion, trwy weithred yn Llys y Canghellwr. Yn y flwyddyn 1759, sefydlodd lyfrgell at wasanaeth yr ysgolheigion, dan arolygiaeth yr athraw.

Ymddengys mai'r gân gyntaf o waith yr enwog E. Richard, a arddelai efe fel yr eiddo ei hun, ydyw yr un a elwir "Cân y Bont." Yr oedd cryn gynnwrf yn bod, pan ysgrifenodd efe y gân hon, pa un ai plwyfydd Caron a Gwnws, ai *sir* Aberteifi, a ddylasai fyned i'r draul o adeiladu pont dros y Teifi, ger llaw Rhydfendigaid. Penderfynwyd yn y Llys Chwarterol mai y *sir* oedd i'w hadeiladu, a'i chadw mewn cywair cyfaddas; a hyny a roddes achlysur i'r bardd i gyfansoddi "Cân y Bont," yr hon a ddechrau fel y canlyn:—

"Am Bont Rhydfendigaid mae son mawr a synied,
Ar fyr cewch ei weled mor danbaid a'r dydd,
Fel castell gwyn amlwg, goreulan i'r golwg,
Neu gadwyn i fwnwg afonydd.

"Hi saif yn ei hunman, y bont ar ddau bentan,
Yn hynod ei hunan, a llydan er lli:
Tra Bangc Pen-y-banau yn dal uwch y dolau
A ffrydiau mewn tonnau'n mynd tani.

"Gwna'r pentre mwyn serchog tros fyth yn gyfoethog,
Wrth ddwyn yr ariannog yn llwythog i'r lle;
A phan elo'n athrist heb ddim yn ei ddwygist,
Hi helpa'r dŷn didrist fynd adre.

"Os digwydd ar brydiau bod llif dros y dolau,
A gwragedd y pentre'n eu crysau'n rhoi cri,
Geill cyfaill heb gafan, ar dwllwch fynd allan
Heb gwrdd âg un dafan o Deifi.

"Er gwneud hon yn ffyddlon, er mwyn y glân ddynion,
A'r rheiny'n gymdogion da mwynion i mi,
Bydd 'Ned o'r Dre'* druan, ar fyrder mewn graian,
A llawer awff trwstan aiff trosti," &c.

Gellir casglu i'r bont gael ei gorphen yn gynnar yn 1761, os nad cyn hyny; ond cafodd Richard siomedigaeth anaele ynddi; am hyny efe a ganodd iddi fel y canlyn:—

ATTEB I GÂN Y BONT.

"Er swn ofer ddynion anallu a'u pennillion,
Yn canmol cymdeithion a'r haelion wŷr hy,
'R wy i beunydd yn clywed am Bont Rhyd-fendiged,
Mor amled ocheneid a chanu.

"Pont grin yn tin grynu, pont dŵr yn pentyru,
Pont haf, a phoen Teifi, pan lifo hi ar led:
Gwirionedd sy beunydd, â'r dŵr dros ei ddeurydd
Gan gystudd o gwilydd ei gweled.

"Mae'n fin-gul, mae'n fon-gam, mae'n war-gul, mae'n wyrgam,
Mae llwybr di-adlam anhylam yn hon:
Ni welwyd un ellyll, na bwbach mor erchyll
Erioed yn traws sefyll tros afon.

"Ni chei di'n y pentre, na merch wen i eiste
Dan son am wen sanau neu laesau ar dy lin,
Na rhynion o'r crasa, yn lân am felina,
Ond llif yn difetha dy fwthyn.

"Pob awen sy'n gwywo, pob dŷn sy'n oer diwnio,
Pob cangen sy heb ffrwytho yn llwydo'n ei lle;
Ni welir ar fyrdro na glanddyn yn rhodio,
Na maen o'r bont yno ar bentanau.

* Yr oedd y bardd yn adnabyddus yn y gymmydogaeth wrth yr enw "Ned o'r Dre."



Digitized by Google

"Os llif dros y dolau fydd rhyngot ti a chartre,
Er bod melusderau dy gaerau'n dy go,
Yn lletty'r aderyn, le noeth, dan lwyn eithin,
Neu frigyn coed eirin cei dario.

"Os Pont Rhyd-fendiged yw gwenwyn y gweiniaid,
Cyfiawnder, heb arbed, fo'n gweled y gwall:
Y tân fo'n mynd trwyddi, a rhyw un y foru,
Fo'n peri pentyru pont arall."

O gylch yr un amser, cyfansoddodd E. Richard yr "Emyn neu Hymn" ganlynol, yr unig gyfansoddiad o'r fath, hyd y gwyddys, sydd ar gael o'i waith, fel y mae mwyaf gresyn:—

"Mae Crist â pheraidd lwysaidd lais,
Hyfrydlais i'r afradlon,
I'w goel yn ne'n ein galw ni,
Gwael ŷm ni, a gelynion.

"O! deffro f'enaid, deffro'n fwyn,
A gwna dy gŵyn yn gynnes;
Cans noeth, newynog, euog wyf,
A gwae fi! clwyf a gefais.

"Llidiog mae a lledu ymhell,
Heb gymmorth Cyfaill cywir;
Yr hwn ar groes a'n rhoes yn rhydd,
Anaele fydd fy nolur.

"Trwy lawer loes, a'i ddwylo ar led,
Och! hylled ei archollion!
Ym poenau tyr, o'm pen i'm traed,
Ag eli o waed ei galon.

"Er bod ei galon union e
Dros fyd a'i gwadai'n gwaedu,
A mil o friwiau'n malu ei fron,
Bu ffyddlon hon er hyny.

"Ond aden ffydd nid edwyn ffol,
Y fi â'n ol f'anwylyd,
Yn was i hwn mewn oes o hedd,
Diddiwedd yr addewyd."

Ar yr 16fed o Fawrth, 1762, anfonodd Edward Richard yr emyn uchod, a dwy "Gân y Bont," i Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn), oedd yn byw ar y pryd ym Mhenbryn-y-barcud, Llanbadarn-fawr, sir Aberteifi, er mwyn cael ei farn ef arnynt. Ar y 27fed o'r un mis, anfonodd Lewis Morris atteb iddo.* Yr ydym yn casglu oddi wrth lythyr Morris i Richard ysgrifenu y geiriau canlynol yn debyg i hyn—Dol*e* (dol*au*), crys*e* (crys*au*), mwyn*edd* (mwyn*aidd*), cregi*n* (creg*yn*), san*e* (*h*osan*au*), eist*e* (eist*edd*), &c., er mwyn iddynt atteb i eiriau yn terfynu yn *e*, a'r cyffelyb.† Ar ol rhagymadrodd tirion a charedig iawn, dywed Lewis Morris fel hyn:—

"Y mae eich dwy gân ar y Bont yn ardderchog, o ganiadau y Deheubarth, yn rhagori ar bob peth a welais i erioed wedi ei wneud yn y wlad honno, a dywedaswn unrhyw wlad, pe buasai ynddynt un cyflyr, sef purdeb ieithwedd. Yr anffawd ydyw, a cholled fawr i'r byd, eich bod chwi yn deall yr hen Roegiaid a'r Rhufeiniaid yn well na'r hen Geltiaid a'r Brytaniaid. Buasai caniadau y Bont yn rhagori ar bethau gorau Huw Morus, pe buasech yn gywir yn yr iaith; ond dywedaf etto, o ganiadau y Deheubarth, mai hwynt-hwy a bïau'r llawryf. Nid wyf fi mor ddestl a mesur pob prydyddiaeth wrth reolau Gwynedd, a manyldeb grammadegol. Mi wn fod y gwledydd hyn, y rhai oedd gynt yn dywysogeuthau gwahanol, yn meddu gwahanol ieithweddau hefyd, y rhai y gofelid am eu cadw er mwyn adnabod y brodorion wrthynt. Ped ysgrifenasai Deheuwyr rammadegau, buasai genym derfyniadau llïosog yn *e* yn lle *au*,‡ &c., a chyflawnder o drwyddedau o'r cyffelyb natur. . . . Gofynasai beirniad sarig pa fodd y gallai *dŷn athrist* fod yn 'ddŷn didrist.' . . . Y mae'n wir bod yr ieithwedd yma yn rhoddi mwy o ryddid at odli nag a gymmerai Huw Morus; ond y mae'r darluniau yn llawer cryfach yma, ac wedi eu tynu yn llawer gwell na dim sydd gan Huw Morus, yn gymmaint a bod bardd y Deheubarth yn fwy cydnabyddus â dysgeidiaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, y rhai yn ddïammau oedd y prif gampwyr yn y ffordd honno. . . . Nid oes angenrhaid i mi ddywedyd wrthych chwi mai peth diweddar yw cerdd-ysgrifeniad (*song-writing*), mewn dynwarediad o'r Saeson a'r Ffrangcod; a Huw Morus ydyw yr unig ysgrifenydd sydd genym ni a ragorodd erioed yn y gwaith. Cymmerth efe beth rhyddid gyd â'r iaith na feiddia ysgrifenwyr y pedwar mesur ar hugain ei gymmeryd, rhag ofn ysgymmundod; a chan mai efe ydyw safon cerdd-ysgrifeniad, gan iddo gael ei eni o'n blaen ni; felly, megis Homer, ceidw efe ei dir, er ei holl fân wallau. Ond dilys ddïammau fod yn bossibl i ddŷn ysgrifenu cân dda mewn iaith dda; a buasech chwithau yn gwneud hyny, pe myfyriasech fwy ar iaith eich mam, trwy ddarllen yr hynafiaid a ragorasant yn hyny. Ychydig o ddiffygion eich caniadau yw y rhai hyn:—Tanbed, am tanbaid; lli, am llif; adre, am adref. Gwneir i pentref ['pendre' sydd gan Richard] odli â crysau ['cryse']. Cafan a dafan, am cafn a dafn. Cawsay: Angl. Causey. [Cawsay, am *cawsai*, nid '*causey*,' sydd gan E. R.] Gefel, am gefail: y llïosog yn gefeiliau. Eiff, am â.§ Gwneir i hyny odli â Teifi. Trwscwl, am trwscl. Co, am cof. Camedd a mwynedd, am camaidd a mwynaidd: cregin, am cregyn. Gwneir i clywed, odli âg ochenaid; cryna, â Teifi; beunydd a cywilydd, â cystudd a drenydd; yr hyn, mewn ystyr fanwl, ni ddylai fod, er bod Huw Morus wedi dangos y ffordd. Gwneir i pentref ac eistedd ['pentre' ac 'eiste' sydd gan E. R.], odli â hosanau ['sane']. Pentane, am pentanau. Dolau a cartref ['dole' a 'cartre']. Gwneir i eithin ac eirin, odli âg aderyn a brigyn. Pennill ardderchog er hyny oll. Gwneir i cegin, odli â cardotyn; bonheddig, â tebyg; pared, â llymaid ['llymed]'; gweiniaid ['gweinied'], âg arbed; trwyddi, âg y foru. Oddi eithr y mân ddiffygion hyn mewn ieithwedd, yr wyf yn datgan, fel fy marn, nas gwn am ganiadau cyfartal i'r ddwy hyn." . . . .

Ar y 12fed o Fai, 1762, ysgrifenodd Edward Richard atteb i'r llythyr uchod;‖ ac y mae ei sylwadau yn werth i bob ysgrifenydd caniadau rhyddion (yr unig ganiadau sydd o werth i'r genedl yn gyffredinol) sylwi arnynt yn fanwl. Ar ol rhagymadrodd hynaws a chanmolieuthol, gan ddyrchafu Lewis Morris yn uchel fel beirn-

* Cambrian Reg., vol. ii., p. 541.

† Argraphiad diweddar (1851) Mr. Spurrell sydd genym ni o ganiadau Richard, yn yr hwn yr ysgrifenir dol*au*, crys*au*, mwyn*aidd*, &c.; ond dylasai y golygydd, pwy bynag ydoedd, ddilyn arddull y bardd.

‡ Y mae hyn yn gamsyniad dybryd. Yr oedd William Gambold, gŵr o'r Deheubarth, wedi cyhoeddi Grammadeg Cymraeg yn Saesneg yn 1724, ddeunaw mlynedd ar hugain cyn i Lewis Morris ysgrifenu y llythyr hwn; ac y mae'r terfyniadau llïosog yn y Grammadeg hwnw yn llawn mor gywir ag ydynt yng Ngrammadeg Cymraeg yn Lladin y Dr. Davies o Fallwyd; ac y mae Grammadeg Gambold trwyddo yn anhreuthol ragori ar yr eiddo John Rhydderch, a gyhoeddwyd ymhen pedair blynedd ar ei ol. Pwy hefyd nis gŵyr fod Cymraeg John Walters yn tra rhagori o ran ieithwedd ar Gymraeg y Dr. Pughe? Y mae'n bur anhawdd penderfynu hefyd pa un ragoraf, ai Cymraeg *Drych y Prifoesoedd*, ai eiddo y *Bardd Cwsg*. Chwarau teg i'r Deheubarthwyr cystal a'r Gwyneddon!

§ Dywedodd Ioan Tegid, mewn llythyr at yr ysgrifenydd tu a 40 mlynedd yn ol, bod *aiff*, neu *eiff*, yn llawer cryfach a mwy persain nag *â*, am hyny yn well. Pa wedd bynag, gweled ein prif awduron yr ydym ni, megis cyfieithwyr y Bibl, Edward James, Elis Wynn, Edward Samuel, Charles Edwards, Theophilus Evans, a'u cyffelyb, yn defnyddio y naill ddull a'r llall yn achlysurol.

‖ Cambrian Reg., vol. ii., p. 543.

Digitized by Google

iad tyner a manwl, dywed Edward Richard fel y canlyn:—

"Yr unig sylw beirniadol a wnewch, sydd ar fy ieithwedd a'm geirweddiad, ac nis gall hwn ddal yn hwy nag y bydd i mi brofi, oddi wrth esamplau cyffelyb, y cyfiawnheir fi yn esampl holl Feirdd Gwynedd, ac yn enwedig Huw Morus, trwy wneud i *ae*, *au*, *e*, &c., odli â'u gilydd; a rhaid mai diffyg cof a barodd i chwi ei gyhuddo ef o arwain y ffordd, gan fod yn eglur wrth yr holl hen ganiadau, na wnaeth ond rhodio yn y llwybr sathredig, a thrwy ei awdurdod a roddes gadarnhâd i'r trwyddedau a gymmerasid er ys llawer blwyddyn cyn ei eni ef. Od oedd y mab hwnw i Benenwad (*Acrostic*), Dafydd Nanmor, yn hoff o lyffetheiriau, ac yn caru dawnsio fel mochyn mewn rhyfelwisg, nis gallai gwir hiliogaeth Homer (cynys yr ydych chwi a Pezron yn profi mai yr un iaith yw'r Groeg a'r Gymraeg) oddef y caethiwed, a thaflasant ymaith yr hualau, a gwneuthant ddefnydd o bob llafarwedd. . . . Gallwn brofi fy heuriad trwy ddifyniadau o'r prydyddion Groegaidd a Lladinaidd, heb son am 'Leicentia poetica systoles diastoles Cæsura's Apreopes, Paragoges,' &c. Ond gan y gellid dywedyd y byddai hyn yn werthu hawliau Cadair Idris am ddeddfau gosodedig Parnassus, mi a'i gadawaf heibio, nid yn unig gan y gallai ymddangos yn amherthynol i'm hamcan, ond hefyd yn awydd truenus o ymddangos yn ddysgedig: 'Respue quod nonos,' Persius. Bydd ychydig esamplau o Huw Morris yn ddigon. Yn argraphiad John Rhydderch, t. 54, gwneir i arffed odli â coflaid. T. 82, tywyll â dull; eneidiau â lle; wantan â tân; ninnau â nef; a chyffelyb ryddid yn yr un gân. T. 386, lli am llif, a hi â chwi. Argraphiad Dafydd Jones, t. 16, go am gof, âg yno. T. 19, malais âg ormes a mynwes. 21, Iesu â fy, &c. 22, gefail â rhyfel; linief am liniau, â nef, &c., yn yr un gân. 26, gre ac eneidiau, &c., etto. 41, ne â ganiadau, &c. 50, *onor*, etto; llwybur am lwybr, âg ysgrythyr. 56, gwrthryfel, hoedel, buagail. 64, admiral, gildio, &c. 68, A thristwch i'th *rostio*. 80. *Pherls* drudion. 87, yr hon, gyd â llaw, a ystyrir yn un o'i ganiadau gorau. Asgen, hunen, dawen. Ne blodau, pechu, gwely, tybiaid, arbed, nef, ammau. 107, efail, rhyfel; *maits* o *fowlio*.* 260, *cowslips*, *mwsg*. 262, *cwrteisi* i ddyn *clown*. 268, *passio* llif, â ffu. 287, cyfle, â minnau; *pleser*, *ffasiwn*, *ffansi*. 295, caled âg anifeiliaid. 358, *seler*. 365, *bleserau* â *thrugarha*. 461, *ffrolig*, *gowper*. 463, *siwt*, *pwyntryd*, &c. 474, borau â tafarnau; gormesiaid âg yfed, yn yr un gân; cellwair â pleser; siccurr a rhyhir; hefyd a golud; lawer â feisterr, *ffeind*. 484, oruchafiaeth âg ymaith. 485, dadal âg anial.

"'Myn wybod yn awr, ai siacced dy fab yw hon, ai nad e.' Chwi a welwch mai llafarwedd Gwynedd yw hon; ac nis gallasai dim ond gwir angenrhaid, a hunan-amddiffyniad, beri i mi ddwyn i mewn y fath ddifyniadau rhyfedd. Y mae esamplau o'r fath i'w cael bron yn ddiddiwedd, canys cyfarfyddir â hwynt yng ngwaith yr holl feirdd yn ddiwahaniaeth. 'Comunis error facit jus.' Mi a wn mai tarddiad Seisnig sydd i *cawsai* a *didrust*, canys felly y dylasid eu sillebu; ond beth, attolwg, yw'r geiriau a nodwyd yn Huw Morus? Pwy o honoch a ddywedodd, 'Ni bu sadler cowper crach, neu deiliwr anwadalach?' Beth yw hwsmon yn Dafydd ab Gwilym? 'Quid Autem—cæcilio Plotoque dabit Romanus ademptum Virgilio Varioq.' Horas. Art of Poetry, v. 54. Nid oes dim yn ymddangos i mi yn fwy eglur nad yw'r beirdd yn petruso dim â defnyddio geiriau Seisnig yn eu gwaith, fel y delont yn ddealladwy, o blegid yr hyn, yn wir, y mae ganddynt awdurdod Horas. 'Licuit semper que licebit signatum præsenti nota producere nomen:' lib. v. 59. . . . Wrth gofio, sylwch, attolwg: nis gallaf fi ddeall pa fodd y gellir dywedyd mai peth diweddar yw cerdd-ysgrifeniad; ac nid wyf fi yn dewis bod dan ddim rhwymau am dano i'r Saeson na'r Ffrangcod, canys gan ein bod wedi derbyn Brutus i'n plith, nis gwn i paham y dylem adael ei delyn ef heibio, neu dybied ei fod ef yn llai gwron na'i ragfleunwyr. Yr oedd 'canu gyd â'r tannau' yn beth pur gyffredin yn amser y rhyfel Droianaidd (*Trojan war*), fel yr ydym yn dysgu oddi wrth Homer, a dilys ddïau ei fod ymhell cyn hyny hefyd. Cerdd-ysgrifeniad [Hymnau, Marwnadau, Bugeilgerddi, a Serch-ganiadau], yn ol y farn ddysgedicaf, yw'r dull hynaf o brydyddiaeth, gan ei fod wedi ei blanu yn ein natur; ac y mae cyn hyned a'r byd.—'Dechreuodd canu, ar y cyntaf,' medd Scaligar, 'ym mysg y bugeiliaid, wrth fugeilio eu praidd, naill ai trwy gynhyrfiad natur, neu fel dynwarediad o nodau adar, neu sibrwd y coed.'"

Ar y 29fed o'r un mis, sef Mai, 1762,† attebodd Lewis Morris y llythyr uchod yn y modd mwyaf caredig, yn arweiniad yr hwn y dywed iddo gael ei siommi yn ddirfawr, o'r ochr orau, yng ngwybodaeth Edward Richard o hen ganiadau y Cymry, canys pan y tybiai efe bod y rhai hyny is law sylw Richard, gwelai, er ei lawenydd, ei fod yn llawer mwy cynnefin, yn oed â chaniadau Huw Morus, nag y bu efe erioed; ac am hyny, nad rhyfedd oedd bod caniadau y Bont, a'r emyn a ddanfonasai Richard iddo, yn rhai mor ardderchog. Yna efe a ddywed fel hyn:—

"Yr wyf etto o'r farn, cyn belled ag y gallaf ymddiried i'm cof, mai Huw Morus yw'r cerdd-ysgrifenydd cyntaf yn ein iaith ni, a gopïodd natur, neu a ysgrifenodd ddim o'r fath yn weddol dda. Yr oedd Siôn Tudur, Wiliam Cynwal, Wiliam Llŷn, ac ysgrifenwyr eraill oes y Frenhines Elizabeth, yn ddïeithr i'r dull yma o ganu. Ac nid wyf yn cofio i mi weled dim ar ddull cân neu emyn, hyd deyrnasiad digrif Charles II., pan y dechreuodd cerddysgrifeniad draddu, fel dynwarediad o'r Saeson a'r Ffrangcod; a chuddiodd pob Cywyddau ac Awdlau sylweddol eu penau o gylch yr amser hwnw. Y mae'n wir i Huw Morus ysgrifenu ychydig yn amser Charles I., ac yn amser Oliver; ond yr oedd yn bur llac ac anghywir; ac yr wyf yn tybied i chwi daro wrth rai o'i ddarnau boreuaf, yn y darlun a dynasoch o hono. Hefyd, rhoddir gryn ganiatâd ynglŷn a phyngciau digrifol, llawen, ac ysgafn, yn y rhai yr ymddengys cymmysgedd doeth o ieithoedd yn ddigon prydferth. Yr wyf yn addef bod cerdd-ysgrifeniad yn bur hen ymhob iaith, ac nid wyf am wneud eithriad o'r hen Geltiaid, beirdd y rhai yn ddilys ddïau a wneuthant ddefnydd o hono; ond syrthiodd y Brytaniaid i fath o brydyddiaeth wronaidd, pan y deuthom yn daleithiau Rhufeinig, y rhai a luniwyd o newydd gan Gruffydd ap Cynan, ac a ddilynwyd, megis yn grefyddol, hyd amser y Frenhines Elizabeth, pan y dechreuodd edwino, a chymmerodd cerdd-ysgrifeniad ei le yn fuan wedyn, bron yn yr un dull ag y mae genym ni yn awr, er nad i'r un perffeithrwydd. Dyma'r goleuni yn yr hwn yr wyf fi yn edrych ar bethau: fe allai y gellwch chwi edrych trwy well gwydrau, ac yr wyf yn sicr bod genych chwi well llygaid. Weithian, gan y gwelaf eich bod yn caniatâu rhyddid mawr mewn cerdd-ysgrifeniad; ïe, ac yn ei honni fel eich hawl ddïamheuol eich hunan, nid yn unig fel un o'r hen genedl, ond hefyd fel disgynydd o Gaerdoiau, yr wyf yn anturio gosod un o'm caneuon llesg fy hunan ger eich bron

* "Maittghs o fowlis," yw'r sillebiad yn y *Cambr. Reg.*, yn yr hwn y mae llïaws o eiriau Huw Morus wedi eu camsillebu gan y cyssodwyr Seisnig, y rhai a ddiwygiasom, am fod argraphiad D Jones wrth law genym.

† Cambrian Reg., vol. ii., p. 546.

Elis Wynn o Las Ynys, a wnaeth y gwallau sydd yn y carolau sydd gyssylltedig wrth 'Brif Addysg y Cristion,' gan Edward Wynn, t. 176, ac 178: 'Cu frenin cyfrinach, pen gwreiddyn pob gwirbarch.' 'Y byd aethai'n domen, niwl pechod fal uffern.' 'Os plangc ar y cefnfor, os pardwn i'r marwol.' 'O weled mewn preseb roi aer tragwyddoldeb cyn lleied a saled cesseilwrn.' A allaf gredu fy llygaid fy hun? Ai nid ydwyf yn gwbl effro? A oes rhyw feirniad hawddgar a gynnyg, er cariad neu arian, rywbeth fel amddiffyniad i ysgrifenydd mor enwog? . . . Cyrheuddaf fy eithafnod, a difynaf un esampl ychwaneg, yr hon yr wyf yn ofni y rhaid i mi gyhuddo eich anrhydedd, a dau o'ch meibion, Gronwy ac Ieuan Fardd, o'i herwydd: 'A'r daran fawr a deifl ei bolld I leinio ei holl elynion.' . . . Ond gobeithaf y gwelaf eich meibion, Lewis a John, yn rhoddi i mi argraphiad newydd a mwy cywir."

Yr ydym yn gweled wrth amryw lythyrau L. Morris a'r Dr. Phillips at E. Richard, sydd yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*, ei fod ef wedi ysgrifenu llawer o lythyrau ar wahanol byngciau at y dysgedigion hyny, a bod ganddynt hwythau feddwl uchel iawn am ei ddysg a'i wybodaeth; eithr nid ydym yn gwybod bod yr un o'i lythyrau ef atynt hwy, nac at neb arall, wedi eu cadw, ond y ddau y difynwyd o honynt uchod, y rhai sy'n arwyddo ehangder ei ddarlleniad, cryfder ei gof, a chraffder manwl ei feirniadaeth, cystal a hynawsedd ei dymmer, yn oed wrth ddadlau ac amddiffyn ei hun.

Yn y flwyddyn 1765, bu farw mam dyner y llenor enwog hwn, yr hyn, er ei fod i'w ddisgwyl o blegid ei mawr oedran hi, er hyny a gafodd effaith ddwys iawn ar ei feddwl tyner ef. Yr amgylchiad galarus yma, yr hwn a ddigwyddodd pan oedd y bardd yn 51 oed, a roddes achlysur iddo gyfansoddi ei "Fugeilgerdd gyntaf," yr hon, o ran tynerwch ei hymadroddion, ei haddysgiadau moesol a chrefyddol, a'i mydryddiaeth farddonol, sydd braidd yn ddigymmar yn yr iaith Gymraeg. Y mae wedi ei cyfansoddi ar gynllun bugeilgerddi y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, mewn dull o ymddiddan rhwng dau fugail, un yn hireuthu am farwolaeth ei fam, a'r llall yn ymdrechu ei gysuro, trwy osod ger ei fron annogeuthau moesol a Christionogol; a diammau genym y bydd yn hoff gan lawer o'n darllenwyr gael esampl o honi, gan nad yw gwaith y bardd enwog yn bur hyspys yn y wlad. Gosodwn ger bron rai o'r pennillion blaenaf yn y gân, fel y gwelo'r darllenydd, nad yw gwaith y bardd ganddo, y cynllun:—

"GRYFFYDD.

"Pwy ydyw'r dŷn truan, fel hyn wrtho'i hunan,
'R wy'n ganfod yn cwynfan, fel baban dan berth,
A'r dŵr dros ei ddeurudd, yn gostwng dan gystudd?
Myneged i Ryffydd ei drafferth.

"MEURIG.

"Di weli d'anwylyd, hen gyfaill, mewn gofid,
Corph egwan dan adfyd, o'i blegid a blyg:
Bid imi drugaredd, fe ddarfu pob rhinwedd,
Anrhydedd a mawredd i Meurig.

"GRYFFYDD.

"A laddodd y bleiddiaid, yn ddifwyn, dy ddefaid?
Neu a giliodd dy goelaid, lloer ganaid, o'i lle?
O'r ŵyn aeth i Frwyno,* 'does un nad oes yno,
Pob un a gyrwydro, geir adre.

"MEURIG.

"Ymwasgu â gwag gysgod, a charu'r byd ormod
Ar ddarn o ddiwrnod i drallod a dry:
Ni chefais fawr golled, am dda nac am ddefaid,
Mae'r ddôr yn agored i garu.

"GRYFFYDD.

"Ai trawsion trwy ysu, di fudd sy'n dy faeddu,
A thramawr orthrymu'n diraenu dy rudd?
Ochneidiau rhy oerion sy ynghiliau fy nghalon,
Fod dwyfron dŷn gwirion dan gerydd.

"MEURIG.

"Fy nyddiau'n anniddan, ân oll o hyn allan,
Gosodwyd GWENLLIAN mewn graian a gro:
Mae hiraeth fel cleddau, yn syn dan f'asenau,
Fe lwyda liw'r aeliau, lle'r elo.

"GRYFFYDD.

"Er syrthio o'r dywarchen i'r ddu oer ddeuaren,
Hi gyfyd fel heulwen, yn llawen o'i llwch:
I'r sawl sy'n troi ato, mae bywyd heb wywo,
Ym mreichiau ei Dad iddo, a dedwyddwch.

"MEURIG.

"O! taer yw naturiaeth; ni thry er athrawiaeth,
Ond wylo gan alaeth, a hiraeth am hon;
A'r galon dan glwyfau, di les a du loesau,
A dyr, heb naws geiriau'n ysgyrion.

"GRYFFYDD.

"Mewn henaint, mewn iengtid, mewn nych, ac mewn iechyd,
Mae'n aml rai yn symmud o fywyd i fedd:
Nid oes na dyfeisio, na golud, na gwylio,
All rwystro neb yno, na bonedd.

"MEURIG.

"Fy nydd sydd yn nyddu yn fanwl i fynu,
A'r nos sydd yn nesu, i roi'n isel fy mhen;
Ac un nid oes geny', er wylo ar oer wely,
Pan bo im glafychu, glyw f' ochain.†

"GRYFFYDD.

"Ymostwng yn astud, i Ffynnon y Bywyd,
Ac ochain am iechyd i'th glefyd a'th glwy;
E fydd, y mae'n addo, i'r gwas sy'n ei geisio,
Dan wylo ei gŵyn wrtho, 'n gynhorthwy.

"MEURIG.

"GWENLLIAN fwyn serchog, 'r wy fyth yn hireuthog;
Ynghŵyn yr anghenog, gwnai'n rhywiog ei rhan;
A phorthi'r trafferthus, yn hael, a'r anhwylus,
Gwnaeth llawer gwan lliwus, GWENLLIAN.

"GRYFFYDD.

"Pe rhanwn yn rhywiog, fy nghroen i'r anghenog,
Heb waed yr Oen serchog, ŵr euog yr wyf,
A thynu'm gwythenau ar led, a f' aelodau,
I'r poenau'n dameidiau, dim ydwyf,

* "Brwyno" oedd bordir defaid gynt, ger llaw monachlog Ystradffiur.

† Dywed y *Cambro-Briton* nad oedd neb yn nhŷ y bardd pan fu efe farw.

Digitized by Google

"MEURIG.

"Os hoff gorchymyn ei Dad wna'r credadyn,
(Trugarog i adyn o elyn yw o),
Ac addef ei ddiffygion, mewn cof am Un cyfion,
Ni chais ei law dirion le i daro.

"GRYFFYDD.

"Gan hyny, bydd foddlon, bod cariad mor dirion,
Yn myned yn union at Sion a Saint:
Fel ffrwyth pan addfedodd, mor deg hi ymadawodd,
O'i gwirfodd, hi hunodd mewn henaint."

Nid yw hyn ond prin hanner y gân odidog hon; ond y mae'n ddigon i ddangos ei hansawdd barddonol, ei hamcan galarus, ac ymroddiad duwiolfrydig ei hawdur enwog i ewyllys a threfn ei Dad nefol. Dywed ysgrifenydd yn *Seren Gomer* y "gorphenwyd y gerdd hon tu a diwedd y flwyddyn 1765, ac yr ymddangosodd mewn Almanac Cymreig y flwyddyn ganlynol." Ni fynegir ymha "Almanac" y cyhoeddwyd hi; ond ymddengys y gwelodd Gwilym Lleyn hi ar ei phen ei hun, eithr heb amseriad wrthi, na mynegiad ymha le nac ymha amser y cyhoeddwyd hi; ond dyry efe hi dan y flwyddyn 1765, fel hyn:—

"Bugeilgerdd. Gan Edward Richard, Ystrad Meurig."*

"Ystradmeurig, Ionawr 1, 1776," sydd ar ol y gerdd uchod yn argraphiad Spurrell, 1851; ond y mae'n dra sicr mai amseriad arolygiad olaf y bardd arni ydyw yr amseriad yna. Un gerdd arall, heb law y pedair a nodwyd, sydd ar gael o waith y bardd moesol enwog hwn, sef "Bugeilgerdd," yn cynnwys 64 o bennillion. Ei thestyn yw, "Hywel ac Iwan yn cyfarfod yn y tŷ wrth Lyn Teifi, yn annog y naill y llall i ganu, yn achwyn ar yr amser, yn cysuro ac yn cynghori eu gilydd. Swm y cwbl, 'Yr un peth angenrheidiol.'" Dechrau y gerdd brydferth yma fel hyn:—

"HYWEL.

"Hoff iawn oedd gorphenu tŷ hâf wrth Lyn Teifi,
A'i donnau'n ymdanu yn loywder at y lan:
Mae gweled ein gilydd yn llunio llawenydd,
Cawn beunydd gân newydd gan Iwan.

"IWAN.

"Mae Hywel mor hwylus, mor wych ac mor awchus,
Wr enwog o'r ynys, gardd felus gerdd fwyn,
Min miwsig mwy moesol ac araith ragorol,
Mor siriol a gwennol y gwanwyn.

"HYWEL.

"Yn fore myfyrio mwyn gân a min Gweno†
Yw golud bugeilio a rhodio yn ŵr rhydd,
Yn llwm ac yn llawen; mae'n amlach brig brwynen
Na deilen erfinen ar fynydd."

Terfyna'r fugeilgerdd hon â'r pennill tlws canlynol:—

"Ar bob rhyw berffeithrwydd daw diwedd yn ebrwydd,
Ond cyfraith yr Arglwydd i'r dedwydd ŵr doeth
Sydd ehang a hyfryd: na weler f'anwylyd
O'n bywyd un ennyd yn annoeth."

Nid oes amseriad wrth y fugeilgerdd hon; ond gellir casglu oddi wrth rai awgrymiadau sydd ynddi fod y bardd mewn gwth o oedran pan y'i cyfansoddodd, megis y pennillion hyn:—

"HYWEL.

"Yr oit ti'n llangc llawen, yn llawn o'r feillionen,
Fe nythai'r fwyalchen dan dalcen dy dŷ;
Peth rhyfedd i dderwen, mor union a brwynen,
Fel scolpen o'r gromen wargrymu.

"IWAN.

"Lle bûm yn byw'n bena o gant ar y cynta,
'R wy'n awr y gŵr gwaela a lleia'n y llys;
A'r ddwyrudd i'r ddaeren, a ngham yn anghymen,
A'r ddeutroed anniben a nawbys."‡

Ymddengys bod y bardd gwladgarol a chrefyddol yn cadw addysg ei gydwladwyr tlodion, ar ol ei ymadawiad ef, mewn golwg yn barhaus dros yr ugain mlynedd olaf o'i oes, fel yr oedd yn gweled ei gyfoeth yn cynhyddu wrth addysgu pob dosparth yn ystod ei fywyd. Yn 1771, neillduodd amryw diroedd at gynnal ei ysgol rammadegol, heb law y tyddyn a neillduasai i'r perwyl yn 1754. Ei brif bryder tu a diwedd ei oes oedd dyfeisio cynlluniau a darpariadau er mwyn attal i'w elusenau gael eu camddefnyddio mewn amser dyfodol; a phan ymgynhygiai rhywbeth i'w feddwl a fyddai yn debyg o niweidio yr achos oedd mor agos at ei galon, ffurfiai reol yn y fan i'w attal, ac i gadarnhau yr elusen. Yn 1774, gwnaeth weithred newydd, ar yr hon y cafodd awdurdod Llys y Canghellwr, yn cynnwys darpariadau er gochel camddefnyddio y rhoddion, a'r cyffelyb. Enwau y tiroedd a roddes efe at yr ysgol rad yn y weithred hon yw y rhai canlynol:—Bryn-y-perfedd, ymhlwyf Ystradmeurig; Tŷ-mawr, Pen-y-gwndwn, a Bryn-garw, ymhlwyf Lledrod; a Phrygnant, ymhlwyf Llanfihangel-y-creuddin. Yr ymddiriedolwyr a bennodwyd ganddo yw, Esgob Tŷ Ddewi dros yr amser y byddo yno, yr hwn hefyd yw yr unig ymwelwr a rheolydd achlysurol; yr Iarll Lisburne; y Dr. William Powel, Nanteos; James Llwyd, Ysw., Mabws; a Thomas Hughes, Ysw., Hendrefelen; a'u hetifeddion dros byth. Cymmwysderau yr athraw, yn ol yr un weithred, ydyw bod yn aelod proffesedig o Eglwys Loegr, yn meddu cymmeriad moesol da, ac yn addas i ddysgu eraill yn y Groeg a'r Lladin, fel y

* Llyfr. y Cymry, t. 486.
† Mam y bardd etto.

‡ Yr oedd y bardd, pan yn cyfansoddi'r fugeilgerdd hon, wedi colli un o fysedd ei droed trwy ddamwain a ddigwyddasai iddo.

dysgir hwynt yn ysgolion grammadegol Lloegr, fel y byddo'r plant a ddygir i fynu yn yr ysgol hon yn gymmeradwy ym Mhrifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt. Yn yr un weithred etto, penderfynodd bod yr ysgol hon i gael ei chadw dros fyth ymhentref Ystradmeurig: yn eglwys y plwyf, cyhyd ag y caniateid hyny; ac os gwrthodid, yna mewn rhyw le cyfleus arall yn y pentref. Nifer yr ysgolheigion i fod, yn ol y weithred, yn 32, a bod y dewisiad i gael ei wneud ymleunaf o blant tlodion y plwyf hwnw, ac yna o blant y plwyfydd cyssylltedig; ac os nad ellid gwneud y nifer i fynu o'r plwyfydd hyny, gellid derbyn ysgolheigion hyd y nifer pennodedig o unrhyw blwyfydd yn sir Aberteifi.

Yn ei ewyllys ddiweddaf, a amserwyd yr 28fed o Chwefror, 1777, cadarnhaodd yr holl roddion crybwylledig, ac ychwanegodd atynt ei holl lyfrau, y rhai oedd i gael eu dodi yn y llyfrgell a sefydlasai efe o'r blaen, ac i fod dan ofal yr athraw am yr amser, a thrwy ei ganiatâd ef i'r ysgolheigion. Ceir prawf pellach o'i deimladau cariadus at drigolion pentref ei cnedigaeth yn yr ewyllys hon, trwy iddo roddi melin a brynasai yn ddiweddar i'w gyfaill James Llwyd, Ysw., Mabws, a gorchymyn ar i drigolion Ystradmeurig gael hawl gwastadol i wneud defnydd o honi, heb dalu mwy na hanner y doll gyffredin. Ychwanegodd yr attodiadau canlynol at ei ewyllys ddiweddaf:—

"At fy Nghymmunweinyddion,—Fy ewyllys yw llesoli yr oes bresennol cystal a'r oesau dyfodol. Bydded i gariad flaenori hunan-lesâd. Gwerther fy meddiannau personol yn y dull mwyaf manteisiol, a defnyddier yr arian i brynu llyfrau da i'r llyfrgell. Rhodder fy nillad a'r bwydydd a fyddont yn y tŷ i'r tlodion.

"At fy Olafiaid yn yr Ysgol.--Nid yw yr ysgol hon i fod yn segur swydd. Rhaid i chwi weini yn gysson a rheolaidd, ac ennill eich bara trwy lafur a diwydrwydd. Hyn yw fy ewyllys, a gobeithiaf y cydsynir â'm dymuniad. Gan hyny, attolwg, cyflawnwch eich swydd, a'r ymddiried a gyflwynir i chwi, yn ffyddlawn a gonest, gan ystyried eich bod yn attebol am eich ymddygiad, nid yn unig i'r Ymddiriedolwyr, ond hefyd i'r HOLLALLUOG. Cadwer yr ysgol a'r llyfrgell mewn trefn a chyflwr da, a gwelläer hwynt hyd y byddo moddion yn caniatau. —EDWARD RICHARD."

Yr oedd ysgrifenydd yn *Seren Gomer*, yn 1837, yn ammau bod dymuniadau y gwladgarwr haelionus hwn yn cael eu gweithio allan yn bresennol, ac addawai wneud ymchwiliad pellach i'r achos; ond methasom ni daro wrth y cynnyrch. Dywed y Parch. R. Williams y bu'r ysgol hon yn dra blodeuog a llwyddiannus, dan ofal ac ordeiniad athrawon galluog, dros lawer o flynyddoedd, hyd oni oroeswyd hi, i raddau mawr, trwy agoriad Coleg Dewi Sant, yn Llanbedr, yn 1827. Nis gwyddom pa ddefnydd a wneir yn awr o elusenau haelfrydig a helaeth Edward Richard: a ddefnyddir hwy i addysgu plant tlodion Ystradmeurig, a'r plwyfau cylchynol, yn ol ei ewyllys ef, nid ydym yn gwybod; ond dylai gwladgarwyr y plwyfydd hyn edrych allan. Treuliodd y bardd enwog, yr athraw dysgedig, y gwladgarwr haelionus, a'r Cristion dirodres hwn, ei holl oes yn ddibriod; a bu farw yn dawel a hyderus ar y 4ydd o Fawrth, 1777, yn 63 oed. Claddwyd ef yn Eglwys Ystradmeurig, ar ochr orllewinol y pulpud, yn agos i'r mur gogleddol. Gosodwyd careg er coffadwriaeth am dano ar fur y llyfrgell, ar yr hon y mae cerfiad Lladin lled helaeth, yn cynnwys rhai manylion am ei fywyd a'i farwolaeth. Ond y gofadail orau o ddigon am dano ydyw y Cywydd Marwnad byr a ganodd ei ddisgybl, Dafydd Ionawr, iddo, yr hwn sydd fel hyn:—

"Marwnad Iorwerth Rhisiart, gynt Athraw Ysgol Ystradmeurig, yn sir Aberteifi, am yr hwn y gellir dywedyd, yn wirioneddol, na adawodd ef yng Nghymru mo'i gymmar ar ei ol.

"Præcipe lugubres
Cantus Melpomene.—Hor. lib. i. carm. 24.

"Ai gwir a glywir (Gwae'n gwlad!
Gwae finnau o'r gofyniad!)
Farw gŵr o fawr ragoriaeth?
O rhy wir! ni fu wir waeth.
O Iorwerth! y gŵr certh cu,
Gloywddoeth, pan glybum gladdu
Dy harddwch mewn llwch a llaid,
Griddfanodd gwraidd fy enaid.
Mae achos mawr i'm ochi,
Wr rhagorol, ar d'ol di:
Canwaith ydd wyf mewn cynnwrf;
Meddalu a lleusu'n llwrf.
"Gwae Gymru gladdu y glod!
Ei hoenus Athraw hynod!
Gwae arw gur, gwae oer gerydd!
E ddarfu, e ddarfu ei ddydd!
Minnau, pe bâi'm awenydd
Odidawg oreuawg rydd,
Gwrdd olau gerdd a eiliwn
O fawl i'r heuddawl ŵr hwn:
Fe wyddai fu o addysg,
A'i ddawn oedd gymmaint a'i ddysg
Ac ar ol ei farwolaeth
E fydd awenydd yn waeth:
Rhwng ynfydion gwylltion gau
Hi dawodd yn y Deau:
Hi dawodd megis diddim;
Hi fu, hi ddarfu yn ddim.
Aeth beirdd Deheubarth i'w bedd,
A gweiniaid yw beirdd Gwynedd,
"Nyni'n wir a wnawn eiriau
Ceimion, pur weigion i wau:
Fe'n unig, fwyn Awenydd!
Eiliai'r gân ddiddan i'w ddydd
Rhagorol rywiog araith,
Synhwyrol, sylweddol waith.
Ei gerddi enwog eurddoeth,
Tra bo llên ac awen goeth,
A fyddant yn rhyfeddawd,
Diwedd eu bri fydd Dydd Brawd.
Yna yr ennyna'r nef
Wên gannaid: gwaith Ion gwiwnef
A'i lwysgyrdd a gyd-losgant,
Ar unwaith yn oddaith ânt!
"I ddofion blant amddifad,
Bu'n noddwr, bu'n dŵr, bu'n dad.
Gonest galon ac wyneb;
Ni wrthodawdd nawdd i neb.
"Da fuost yn dy fywyd,
Da beunydd a fydd dy fyd.
Y gŵr gan Dduw a garwyd,
Yn Sïon yr Ion yr wyd:
Y duwiau wrendy d' Awen
Yn entrych y nef wych wen:
At y pêr nifer nefol,
Drwy nerth Naf, deuaf ar d'ol."

Cyhoeddwyd gwaith Edward Richard, sef y ddwy Fugeilgerdd fawr, dwy Gân y Bont, a'r Emyn a nodwyd eisoes, y tro cyntaf yn Llundain, yn 1811, ac a alwyd "Yr Eos; sef Gwaith Prydyddawl Mr. Edward Richard, o Ystradmeurig, gyd â Hanes ei Fywyd;" a chyhoeddwyd yr un gwaith drachefn, gan Spurrell, Caerfyrddin, fel y

Digitized by Google

crybwyllwyd, yn 1851, yr hwn a alwyd "Gwaith Prydyddawl Edward Richard, o Ystradmeurig, yn sir Aberteifi."*

### HOWEL DAVIES.

Ystyrir y gŵr enwog hwn ym mysg y rhai bleunaf yn y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru, o ran amser ac enwogrwydd. Er hyny, prinion iawn yw defnyddiau ei hanes, megis amryw eraill o wŷr enwog yr amseroedd hyny; ond y mae digon ar gael i ddangos ei fod yn un o ragorolion y ddeuar. Y mae'n amlwg ei fod wedi yfed yn ddwys o yspryd yr efengyl, ac na wnai gyfrif o ddim yn gyfartal "i orphen ei yrfa trwy lawenydd, a'r gwasanaeth a dderbyniasai gan yr Arglwydd Iesu, i dystioleuthu efengyl gras Duw."

Dywedir iddo ddisgyn o deulu parchus a chrefyddol yn sir Benfro; ac yn ol pennawd ei farwnad gan Fardd Pant-y-Celyn, ganwyd ef yn 1717,† yr un flwyddyn ag y ganwyd y bardd efengylaidd ei hun, a dangosai awydd cryf am wybodaeth, ac athrylith i'w chyrraedd, o'i ieuengctid. Wedi iddo fod dros ryw yspaid mewn ysgol yn ei ardal enedigol, anfonwyd ef gan ei rieni gofalus i Landdowror, sir Gaerfyrddin, i fod dan addysg yr hybarch Gruffydd Jones, yr hwn a gadwai fath ar athrofa i hyfforddi gwŷr ieuaingc difrifol yn egwyddorion crefydd.‡ Gellir casglu oddi wrth hyn fod ysprydoedd y rhieni, cystal a'r mab, wedi eu lefeinio gan naws crefyddol; pe amgen, nid anfonasid ef am hyfforddiant at un o fath "apostol Cymru," i Landdowror. Daeth y disgybl ieuangc, difrifol, yn fuan, dan bregethiad golau ac effeithiol ei athraw galluog, i adnabod "y gwirionedd megis y mae yn yr Iesu." Er nad oedd ei iechyd ond gwanaidd, etto cynhyddodd yn gyflym, dan arweiniad y fath athraw, mewn dysg, gwybodaeth, a duwioldeb. Canfu'r craffus G. Jones yn fuan fod cymhwysder neillduol yn Howel ieuangc i bregethu yr efengyl, a bod gogwydd cryf a difrifol yn ei feddwl yntau at y gwaith; a than gyfarwyddyd ei athraw enwog, ymofynodd am urddau yn yr Eglwys Sefydledig, yr hyn a ganiatawyd iddo. Dywedir i hyn ddigwydd o gylch yr un amser ag y dechreuodd Howel Harris bregethu, sef tu a'r flwyddyn 1736. Os ydyw yr oedran a ddyry pennawd ei farwnad iddo, pan fu farw, sef 53 yn 1770, yn gywir, fe'i hurddwyd ef pan oedd tu a 19 oed, yr hyn sydd yn hynod, braidd, gan nad yw yr esgobion gwladol yn urddo neb, o leiaf neb a ddygir i fynu yn y prif athrofâu, Rhydychain a Chaergrawnt, nes y byddont yn 23 oed; ond gan mai mewn athrofa neillduol y dygwyd Davies i fynu, dichon iddo, trwy gefnogaeth ei athraw, gael bod yn eithriad.

"Ar ddydd ei urddiad," medd un ysgrifenydd, "rhoddes Mr. Jones hyspysiad o hyny i'r holl gynulleidfa, ac erfyniodd ran yn eu gweddïau, ar fod i Ben Mawr yr eglwys dywallt ei Yspryd arno, a'i wneuthur yn llwyddiannus yn y weinidogaeth. Fel hyn yr aeth allan; ac yn yspryd a nerth Elïas, pregethodd, nid efe ei hunan, eithr Crist Iesu yr Arglwydd. Gellid dyfalu wrth y ffeithiau cyssylltedig â'i ymroddiad i'r weinidogaeth, a'r dull difrifol y gosodwyd ef yn y swydd, mai 'gweithiwr difefl' a fyddai, a llwyddiannus 'i droi calonau y tadau at y plant, a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn; i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod.' Felly hefyd y bu, fel y gwelwn yn y canlyniad."

Dywedir y bu'n gwasaneuthu dros ryw ennyd, yn ebrwydd ar ol cael ei urddo, fel curad i'w athraw ffyddlon yn Llanddowror, a chafwyd prawf yn fuan fod gweddïau y gynnulleidfa honno ar ei ran wedi llwyddo, canys bu'n foddion yno i droi llawer o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw. Wedi hyny, cafodd alwad i wasanaeuthu yn Eglwys Llys-y-frân, yn sir Benfro. Rhoddes brawf yn fuan yno, megis yn Llanddowror cyn hyny, nad gwyliedydd dall a diffrwyth ydoedd; ond efe, gyd â ffyddlondeb teilwng i'r ymddiried a roddasid ynddo, a rybuddiai yr annuwiol, gan ddywedyd, "Ti, annuwiol, gan farw y byddi farw." Ond nis gallai y gynnulleidfa yn Llys-y-frân oddef gwirioneddau mor llymion; ac yn wyneb pregethiad mor effro ac argyhoeddiadol, rhaid oedd iddynt naill ai cwerylu â'r pregethwr, neu â'u pechodau; a dewisodd y gynnulleidfa honno, er eu bythol warth, y bleunaf, a llwyddodd yn lled fuan i fwrw'r pregethwr ieuangc tanllyd ac egnïol allan o Eglwys Llys-y-frân. Bwriadwyd hyn, gan y diafol a'i deulu, er niwaid i'r efengyl; ond Duw a'i trefnodd yn hollol wahanol, megis y trefnodd garchariad Paul yn Rhufain, canys yr oedd Howel Davies bellach yn rhydd i fyned i unrhyw eglwys, neu i bob eglwys, trwy yr holl wlad, a alwai am ei wasanaeth. Ymdeunodd y son am dano i bob cwr fel pregethwr digyffelyb, ac ymgasglai lluoedd mawrion i'w wrando, lle bynag y ceid allan ei fod i bregethu. Rhoddwyd cyfleusdra iddo, trwy wibio o'r naill blwyf i'r llall, fel y crybwyllwyd, i ddwyn yr efengyl, yn ei symledd a'i blas priodol, i gyssylltiad â llaweroedd ymhob parth o'r wlad, na chawsant y fraint honno

* Gwaith Pryd. E. Richard; Seren Gomer, llyfr xx., t. 1–3; Gwaith Dafydd Ionawr, t. 819; Williams's Em. Welshmen, p. 455; En. Cymru, I. F., t. 898; Llyfr. y Cymru, t. 486; En. Sir Aberteifi, Glan Menai, t. 133.

† Holl Weith. Wm. Williams, Pant-y-Celyn, t. 690.

‡ Gwel pen. ix. o'r llyfr hwn, y pummed.

Digitized by Google

ped arhosasai yn Eglwys Llys-y-frân. Yr oedd maes ei lafur yn awr wedi ehangu yn ddirfawr, a chafodd brofion lawer fod llaw gan Dduw yn yr amgylchiad, a'i fod wedi ei fwriadu ganddo ef er daioni, er ei ddwyn o amgylch gan "ddwylaw anwir," y rhai, yn ddïarwybod, a fuant yn offerynau "i wneuthur pa bethau bynag a ragluniodd llaw a chyngor Duw eu gwneuthur."

Ymhen rhyw ennyd ar ol i Davies gael ei fwrw allan o Lys-y-frân, symmudodd i Hwlffordd, yn sir Benfro, fel curad etto i rywun, y mae'n debyg. Yr oedd crefydd ar y pryd yn isel iawn yn y lle hwnw, fel yr oedd trwy'r holl sir. Yr oedd yr ychydig broffeswyr oedd yn y dref yn llwfr a difywyd, a'r bobl yn gyffredin yn gwbl ddïofal am bethau ysprydol. Ond nid hir y bu H. Davies yn pregethu yn y dref cyn bod swn a chynnwrf ymhlith yr esgyrn sychion. Bendithiwyd ei lafur i ddwyn llïaws dan argyhoeddiadau dwysion; ac yn lle myned i gyfarfodydd llygredig, ac at gymdeithion ofer, cynniweirient bellach at ŵr Duw, i ofyn iddo, fel ceidwad y carchar gynt, "Beth sydd raid i ni ei wneuthur fel y byddom gadwedig?" Ymdeunodd y cyffro yn lled fuan o Hwlffordd dros holl sir Benfro, trwy ei lafur ef, ac eraill o gyffelyb feddwl. Yr oedd sir Benfro, fel pob rhan arall o'r Dywysogaeth, yn dra llygredig ac ofergoelus pan ddechreuodd H. Davies ar ei yrfa bregethwrol, fel y gellid dywedyd, "Cyffelyb bobl ac offeiriad." Anurddid yr holl wlad gan chwareuon ofer ac annuwiol ar y Sabbothau, yr hyn, yn ddïau, oedd effaith y gyfraith anfad a archai ddarllen "Llyfr y Chwareuon" gynt yn y llanau. Ystyrid darlleniad y llyfr halogedig hwnw fel trwydded y Llywodraeth i'r bobl i chwarau ar y Sabbothau ar ol darfod y gwasanaeth; a chan mai yn y llan yn unig y darllenid y llyfr, edrychid ar y llan a'r chwareuon yn dwyn cyssylltiad agos â'u gilydd, a bod y gwasanaeth o mewn, a'r chwarau oddi allan, yr un mor gymmeradwy a buddiol. Yn yr eglwys yr oedd yr addoli, ac yn y fonwent yr oedd y campio: y ddau yn cael eu cyflawni gan yr un bobl, a'r ddau yn cael eu trwyddedu gan yr un awdurdod! Pa wedd bynag, yr oedd hyn o wahaniaeth rhyngddynt: yr oedd yr addoli o mewn yn *ffurf*, a'r chwarau oddi allan yn *yspryd;* y bleunaf yn *farwaidd* ac yn *flin*, a'r olaf yn *fywiog* ac yn *ddifyr*. Ond yr oedd y ddau bron mor anghymmeradwy gan Dduw a'u gilydd, ac am danynt y dywedai Duw, "Y maent yn faich arnaf; blinais yn eu dwyn."

Bu llafur Davies o anhreuthol werth i sir Benfro oll, fel yr awgrymwyd; ond nid oedd ei lafur etto yn agos mor ehang ag y mynnai'r Gwaredwr bendigedig iddo fod; a thrwy elynion, yn hytrach na thrwy gyfeillion, y trefnwyd llwybr i'w ehangu. Dyma fel y bu: eiddigeddodd ei frodyr offeiriadol gymmaint wrtho o blegid ei yspryd, ei fuchedd, a'i athrawiaeth, y rhai, o herwydd eu purdeb, oedd mor wahanol i'r eiddynt hwy, ac yn eu condemnio yngolwg y wlad, fel y ceuasant eu heglwysydd, y naill ar ol y llall, yn ei erbyn. Yr oedd ei boblowgrwydd a'i lwyddiant mor boenus iddynt, ac mor groes i'w difrawder a'u claiarineb hwy, ac yn eu gwarthruddo gymmaint yngolwg y bobl, fel yr oeddynt mewn penbleth tost pa fodd i roi terfyn ar ei rwysg efengylaidd. Os gadewid iddo fel hyn i ymweled â gwahanol eglwysydd y sir, fe âi pawb ar ei ol, fel yr elai pobl Judea a Galilea ar ol ei Arglwydd o'i flaen; ac, wrth reswm, fe syrthiai'r gwyliedyddion deillion i anfri cyferbyniol. Nid oedd dim yn well, gan hyny, yn eu barn hwy, na'i gau allan o'r eglwysydd. Bellach, nid oedd ganddo un eglwys blwyfol yn y sir i weinyddu yn sefydlog ynddi, ac ni chaniateid iddo weinyddu yn achlysurol mewn eglwysydd eraill. Yn y fath amgylchiad, angenrhaid a osodwyd arno, naill ai rhoddi pregethu heibio yn gwbl oll, neu ddilyn esampl yr Arglwydd Iesu ei hun,* yr apostolion,† a holl aelodau eglwys lïosog Jerusalem,‡ fel y gwnai Diwygwyr pob oes, gan fyned allan, fel cenad anfonedig y nefoedd, i'r prif-ffyrdd a'r ceuau, ac i heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd, i gymmell pechaduriaid i ddyfod i mewn, fel y llenwid tŷ y Gwaredwr. Y cynllun yma ddewisodd efe, a seliodd Pen yr eglwys ei ddewisiad â'i gymmeradwyaeth; a pharodd iddo droi allan fwyfwy er llwyddiant i'r efengyl.

Bernir, fel y crybwyllwyd o'r blaen, i Howel Davies ddechrau cynhyrfu y wlad trwy ei bregethau o gylch yr un amser a Howel Harris a Daniel Rowlands, ac yn agos hefyd, fel y mae ryfeddaf, i'r amser y dechreuodd Whitfield a Wesley eu gyrfa o bregethu teithiol bywiog yn Lloegr; a hyny, fel y dywedwyd, heb i'r un o honynt wybod dim am eu gilydd, yr hyn sydd brawf hynod eu bod oll dan arweiniad yr un Yspryd goruchel. Ond wedi iddynt ddyfod yn adnabyddus o'u gilydd, ymhen tu a blwyddyn, fel y tybir, ar ol

* Luc viii. 1.
† Luc ix. 1–6; x. 1–12; Rhuf. xv. 19; Act. xix. 10.
‡ Act. viii. 1, 4; xi. 19–21.

iddynt ddechrau llafurio ar wahân, buant o gyfhûd nodedig i'w gilydd, ac er ehangiad mawr i faes eu llafur. Ymddengys i Davies, ar ol hyn, yr un modd a Harris, Rowlands, a'r ddau Williams, deithio Cymru, er gwaned ei gorph a'i iechyd, o ben i ben, fel y dywed Williams yn ei farwnad:—

"Dwedent ini fel y teithiodd,
  Pan oedd yn ei iechyd gynt,
Mynwy, Dinbych, a Chaernarfon,
  Mon, Meirionydd, a sir Fflint;
Fel cyhoeddodd yr efengyl,
  Gyd â'g yspryd bywiog, rhydd,
O Lanandras i Dŷ Ddewi,
  O Gaergybi i Gaer-dydd."*

Yn fuan ar ol i Davies ddyfod yn gydnabyddus â Harris a Rowlands, cafodd gydnabyddiaeth â Whitfield hefyd, yr hwn a'i cryfhaodd yn fawr yn y penderfyniad o bregethu efengyl gras Duw ymhob man y rhoddid cyfleusdra iddo, pa un bynag ai yn y llanau plwyfol ai o'r tu allan iddynt. Ar gais Whitfield a'r Iarlles Huntingdon, ymwelodd Davies â Llundain, a bu ei bregethiad yno, yn enwedig yn y Tabernacl a Llys Tottenham, o fendith fawr i liaws o breswylwyr y brif-ddinas. Llafuriodd lawer o bryd i bryd, dros lawer o flynyddau, ynghapelydd yr Iarlles Huntingdon yn Brighton, Caerodor, a manau ereill, a diferai ei bregethau fel y gwlaw er ffrwythloni y diffeithdir cras, at yr hyn y cyfeiria Bardd Pant-y-Celyn fel y canlyn:—

"Dwedent ini fel y teithiodd
  Fry yn Llundain boblog, lawn,
Wrth bregethu gair y deyrnas,
  Weithiau foreu, weithiau nawn:
Bryste, hithau, oer derfysglyd,
  Glywodd swn ei efengyl gref;
Môr a thonnau, llif a storom,
  Gurodd ganwaith arno ef."†

Dywedir y bu Howel Davies yn pregethu am yn agos i ugain mlynedd, weithiau mewn llan, weithiau mewn tŷ, ac weithiau yn yr awyr agored, heb gael un adeilad a elwir capel i wasanaethu iddo yn ei wlad ei hun. Y capel cyntaf a adeiladwyd yn y sir oedd capel Woodstock (Bon-y-[illegible]), yn y flwyddyn 1754; a'r ail oedd y Capel Newydd, ar derfyn gogleddol y sir, yn y flwyddyn 1763. Yn y ddau hyn, ynghyd â dau addoldy perthynol i'r Eglwys Sefydledig, ond diwaddol, sef Capel Mounton, ger llaw Narberth, a St. Daniel, ger llaw Penfro. Yn y pedwar lle hyn y pregethai y gŵr enwog fynychaf, a gweinyddai swper yr Arglwydd ynddynt bob mis. Cynhwysent pob un o'r cynnulleidfaoedd hyn, ar gyfartaledd, yn ol Williams, Pant-y-Celyn, gynnifer a 7000 o wrandawyr, os nad cymmunwyr, canys, medd y bardd:—

"Howel Davies ffyddlon, gywir,
  Bugail *pedair eglwys fawr*,
Sydd yn mynd i fonwent Prengast
  Heno, i orwedd yno i lawr:
Rwyf yn clywed *saith o filoedd*
  Yn ocheneidio tu a'r nen,
Ac yn dweyd, 'Beth ddaw o'r gorlan
  Wasgaredig sy heb ben.'"‡

Dywedir mai anfynych y byddai'r cymmunwyr ar y gweinyddiad misol o'r swper sanctaidd yn llai na *dwy fil* o rifedi, ac mai mynych y gwagheid yr addoldy i wneud lle i ail a thrydydd gynnulleidfa i gyfranogi o'r swper. Dywedir hefyd mai Howel Davies oedd y cyntaf o offeiriaid Eglwys Loegr a weinyddodd mewn addoldy heb ei gyssegru gan esgob, a'r unig un a weinyddai yr ordinhadau yn y fath leoedd yn ei sir ei hun yn ystod ei oes ef. Cesglir bod ambell eglwys blwyfol yn rhoi derbyniad iddo, megis Eglwys Prengast, yn Hwlffordd, ac Eglwys Llechryd, ger llaw Aberteifi, cyn adeiladu y Capel Newydd yn sir Benfro. Tra y llafuriai yn y lle hwn, aeth y llan yn rhy fechan i gynnwys y gynnulleidfa a ymgasglai yno i'w wrando. Am hyny arferai yntau bregethu yn y fonwent: llanwyd honno hefyd, ynghyd â'r llanerch ger llaw, a elwid Bangc Llechryd. Yr oedd yr effeithiau a ddilynent ei bregethiad yn y lle hwn yn fawrion iawn. Torai y gynnulleidfa fawr allan mewn mawl a gorfoledd, a pharhaent i orfoleddu weithiau hyd yr hwyr, er bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn y borau. Bu Howel Harris yn pregethu yno gyd âg ef ar un achlysur; ond nid yn y llan na'r fynwent, eithr ar y maes ger llaw iddynt. Y gwir yw bod y gynnulleidfa yn llawer rhy fawr i'r eglwys, a phregethai un Howel yn y fonwent, a'r Howel arall o'r tu allan i'r tir cyssegredig. Er mai brodyr oeddynt yn yr Arglwydd, ac er mai yr un gwirionedd a gyhoeddent, ac mai at yr un nôd y cyrchent; etto, ni oddefid ond i un o honynt fyned o fewn muriau'r fonwent i gyhoeddi Ceidwad i bechaduriaid!

Cymmerth digwyddiad tra hynod le mewn cysylltiad â Howel Davies o gylch y pryd hyn. Yr oedd gŵr yn byw yn Llundain ar y pryd a'i enw Bateman, yr hwn oedd beriglor St. Bartholomëus Fwyaf, yn y brif-ddinas; ac yr oedd ganddo beriglориaeth hefyd yn sir Benfro. Ar un o'i ymweliadau â'i beriglоriaeth Gymreig, cafodd gyfleusdra i bregethu mewn llan yr arferai Davies bregethu

* Holl Weith. Wm. Williams, t. 691.

† Yr un lle.

‡ Holl Weith. Wm. Williams, t. 691.

Digitized by Google

ynddi, a defnyddiodd y cyfleusdra i fytheirio cableddau enllibus ar Davies a'r Methodistiaid, a rhybuddiai ei wrandawyr, er mwyn eu heneidiau, i'w gochelyd. Pa wedd bynag, syrthiodd rhyw brudd-der yspryd a chyfyngder meddwl arno yn fuan ar ol traddodi'r bregeth enllibaidd honno, na allai roddi un cyfrif am danynt, a'r fath ag a'i gwneuthai yn gwbl ddiawydd am y gyfeillach a garai o'r blaen; a than ddylanwad y prudd-der hwnw, tueddwyd ef, megis o'i anfodd, i fyned i wrando Howel Davies yn pregethu, a hyny yn yr un addoldy ag y buasai efe, ychydig amser yn ol, yn ei wawdio ef a'i ganlynwyr. Trywanodd y bregeth honno ei gydwybod fel picell. Teimlai ei bechodau bellach yn ei lethu: "ei gamweddau a aethant dros ei ben: megis baich trwm, yr oeddynt yn rhy drwm iddo ef." Bu yn y cyfyngder hwnw dros fis o amser cyn cael esmwythâd i'w enaid archolledig; ond o'r diwedd cafodd ymwared trwy droi ei wyneb at y Gwaredwr, iau yr hwn sydd esmwyth, a'i faich yn ysgafn. Bu o fendith fawr o hyny allan i laweroedd yng Nghymru ac yn Llundain hefyd.

Crybwyllwyd eisoes, yngeiriau Bardd Pant-y-Celyn, y bu Howel Davies ar deithiau pregethwrol mewn amryw fanau yng Ngogledd Cymru, cystal ag yn y Deheubarth. Y mae'n bur anhawdd i ni. yn yr oes hon, ddychymmyg pa fath antur oedd i neb ddyfod ar daith i bregethu yr efengyl yn y Gogledd yma tu a chant a deugain mlynedd yn ol. Yr oedd y ffyrdd, ar y pryd, yn ddrwg ac yn fynyddig; y llettyau yn weulion ac anaml; caredigion yr efengyl, gan mwyaf, yn dlodion eu sefyllfa, ac yn ychydig o rifedi; yr addoldai yn ychydig, yn weulion, oerion, a phell oddi wrth eu gilydd; y rhagfarn yn erbyn y "Pengryniaid" yn greulawn fel y bedd; y werin yn derfysglyd a dideimlad; y clerigwyr yn llawn cynddaredd; a'r gwŷr mawr yn llygadu am gyfleusdra i fwrw eu dïal ar y dynion a gyfrifid ganddynt hwy yn aflonyddwyr y byd. Pan ystyrir yr amgylchiadau hyn, canfyddir nad gorchest fechan i ŵr o sefyllfa Howel Davies, ac o iechyd mor wanaidd, oedd teithio'r Gogledd i bregethu yr efengyl. Etto, gwnaeth efe hyny yn wrol; a cheir aml grybwylliad am ei enw hyd heddyw, fel un a arddelwyd mewn modd amlwg, ac i raddau helaeth iawn er dychwelyd pechaduriaid at Dduw yng Nghrist. Crybwyllir ei fod yn un o'r rhai oedd yn y gymdeithasfa gyntaf erioed a gynhaliwyd yn y Bala. Fe allai mai at y daith honno i'r Gogledd y cyfeiria efe ei hun mewn llythyr at Howel Harris, lle y dywed fel hyn:—

"Gyd â golwg ar waith ein Meistr mawr yn ein plith, yr wyf yn meddwl ei fod ar gynnydd. Er bod genym rai a syrthiasant oddi wrth eu gwresowgrwydd cyntaf; etto, yn y lleoedd amlaf, y mae eu cynnydd yn amlwg. Y mae'r Arglwydd Jehofah yn teyrnasu ynddynt mewn gwirionedd: y mae ei ogoniant i'w weled yn amlycach nag erioed, a llawer etto, yma a thraw, a chwanegwyd atom. Bendigedig a fyddo ei enw! Er pan ymadawsom o'r gymmanfa, rhoddais dro yn sir Forganwg, a bu i rai yn amser hyfryd iawn. Am danaf fy hun, yr wyf yn hireuthu am fyned yno drachefn yn fuan, canys dïau fod Duw gyd â hwynt. Ymherthynas i'm mynediad i'r Gogledd, yr wyf yn meddwl y bydd yn rhy boenus i mi, sydd yn parhau o hyd yn llesg a chelfyca; ond pa fodd bynag, yr wyf yn penderfynu cynnyg hyny, pe gorfyddai i mi farw ar y ffordd."

Y mae'r ymadroddion olaf o'r llythyr yn profi, nid mawredd yr anturiaeth yn unig, ond hefyd zel ac yspryd y diwygiwr, pan yr ymroddai i fyned dan y fath wendid corphorol, ac heb wybod nad allai y daith gostio iddo ei fywyd. Dywed un ysgrifenydd bod Howel Davies yn ddadleuwr cryf dros bregethu teithiol; a phrofa trwy yr Ysgrythyrau, megis hanes teithiau y Gwaredwr, yr apostolion, holl aelodau eglwys Jerusalem, a'r cyffelyb, i bregethu, bod cynnydd crefydd yn y byd yn ymddibynu ar hyny. Dan yr argyhoeddiad o wirionedd hyn, ymdrechai i gael pregethwyr o bell i'r cynnulleidfaoedd y buasai efe yn offeryn i'w cyfodi; ac elai yntau, gyd â phob parodrwydd meddwl, i bregethu i gynnulleidfaoedd pellenig, lle bynag y cai allan y byddai ei wasanaeth yn dderbyniol. Cafodd lawer o arwyddion fod ei bregethiad gartref, ac oddi cartref, wedi bod yn dra bendithiol, a bod ei Arglwydd wedi ei anrhydeddu yn fawr iawn, trwy ei wneuthur yn bregethwr hynod o lwyddiannus.

Effeithiodd llafur mawr a dyfal y gŵr enwog hwn ar ei gyfansoddiad gwanaidd i'r fath raddau, fel y cafodd noswylio yn lled gynnar. Fel yr oedd yn araf, ond yn sicr, nesu i ben ei daith, yr oedd yn cael graddau anghyffredin o gysuron yr efengyl. Yr oedd wedi ymgynnefino âg angau a byd arall er ys amser maith, a llenwid ei yspryd â gorfoledd yn y gobaith am fywyd ac anllygredigaeth. Myfyriai yn hyfryd ar y munud y rhyddheid ef oddi wrth lyffetheiriau y cnawd, ac y dïosgid ef o bob gwisg ddeuarol; y munud y gwisgid ef â'r tŷ sydd o'r nef. Fel hyn, wedi oes o lafur ffyddlawn dros ei Arglwydd, ac o ddefnyddioldeb mawr iawn i'w genhedlaeth, efe a hunodd yn yr Iesu, "ar ddydd Sadwrn y prydnhawn," medd Williams, Pant-y-Celyn, y 13ydd o Ionawr, 1770, ac efe yn ddim ond 53 oed. Claddwyd ef ym

Digitized by Google

monwent Prengast, Hwlffordd; ac wele ddarlun y "Peraidd Ganiedydd" o'i angladd:—

"Y mae'r olwg ar yr angladd
Wedi'm dodi'n drist fy ngwedd;
Hanner sir i'm tyb sy'n eisiau,
Pan mae DAVIES yn ei fedd:
Ni alla'i ddim dioddef edrych
Arno'n myned dan y don,
Heb fod hiraeth cryf a chariad
Yn terfysgu dan fy mron.

"Gwelwch gwmni ar ol cwmni,
Yn ugeiniau ar bob llaw,
Oll yn wylo dagrau heilltion,
Yn ei gwrddyd yma a thraw:
Yr *hers* yn cerdded yn y canol,
Dyna'r arwydd pena erio'd,
Ag a welodd gwledydd Penfro,
Bod rhyw ddrygau mawr i ddod.

"Pwy sydd yn y coffin pygddu,
Trwin, ynghanol y fath lu?'
Medd trafeulwyr ar y gefnffordd;
Rheini'n synu hefyd sy:
HOWEL DAVIES, ffyddlon, gywir,
Bugail pedair eglwys fawr," &c.*

Safai Howel Davies yn uchel iawn ym mysg ei frodyr. Perchid ef yn fawr am hynawsedd ei yspryd a chyssondeb ei ymarweddiad. "Gŵr tirion a mwynaidd oedd Mr. Howel Davies," ebai yr hybarch John Evans o'r Bala, "a phregethwr ennillgar iawn." Yr oedd hefyd yn meddu llawer o wybodaeth, dysg, a doniau; ac yr oedd ei holl gyrrcuddiadau a'i dalentau wedi eu henneinio â'r olew sanctaidd, nes peru iddo ddisgleirio yn brydferth a thra defnyddiol. Dywedai rhai nad oedd braidd ddim yn fyr o fod yn gydwastad â Daniel Rowlands ei hun o ran doniau ennillgar a phregethiad gwlithog. Yr oedd ei dymherau yn hynaws, a'i yspryd yn iraidd gan fwyneidd-dra yr efengyl. Prif nôd ei fywyd oedd rhyngu bodd ei Arglwydd, ac achub eneidiau dynion. Parai hyn fod ei ymadrodd "yn defnynu fel y gwlaw, ac yn diferu fel y gwlith." Un ysgrifenydd a ddywed am dano fel hyn:—

"Boanerges oedd Mr. Davies, ac nis gallai ffurfiau sychion oddef y dull tanllyd yn yr hwn y cyhoeddai efe iachawdwriaeth yr Iesu. Yr oedd yr eglwysydd ehangaf yn agored iddo dros beth amser, ac ymdyrai miloedd ar filoedd i'w wrando. Rhoddes yr amgylchiad olaf yma dramgwydd i'r clerigwyr annychweledig, ac yn raddol daeth y pulpudau yn geuedig rhagddo. Yna dilynodd efe esampl y prophwydi, yr Arglwydd Iesu ei hun, yr apostolion, y merthyron, a'r Diwygwyr, gan bregethu yn yr awyr agored i luoedd o wrandawyr astud."†

Dengys ei farwnad y bu iddo ddwy o wragedd, y rhai a fuant feirw o'i flaen ef. Dyma fel y dywed y bardd:—

"Dwy o'i wragedd, ymhlith myrddiwn
Ddaeth at borth y ddinas bur,
Idd ei roesaw i'r heolydd
Hyacinth a grisial clir:
Nawr chwiorydd ydynt iddo,
A 'fy mrawd' y galwant ef;
Nid oes gwreica, nid oes gwra,
Ddim drwy holl balasau'r nef."

Gadawodd un ferch amddifaid ar ei ol, a'i henw Margaret, fel y mae'n amlwg wrth eiriau y bardd, yr hwn a ddywed:—

"Pegi, Pegi, paid ag wylo
Am dy dirion anwyl dad;
Diangc wnaeth ef o'r anialwch
Idd ei hen artrefol wlad:
Fe aeth trwy'r Iorddonen ddofon,
Ac mae heddyw'n frenin mawr,
Fath erioed na welodd llygad
Ei gyffelyb ar y llawr."‡

* Holl Weith. Wm. Williams, t. 691.
† Evangel. Magazine for 1814, p. 338.

## PENNOD XXI.

### WILLIAM WILLIAMS, PANT-Y-CELYN, A'I DEULU.

WILLIAM WILLIAMS, o Bant-y-Celyn, sydd un o'r rhai mwyaf adnabyddus, cystal a mwyaf anwyl, gan y Cymry, fel cenedl, ymhob gwlad dan haul, lle y maent yn preswylio, o neb a ellir eu rhestru ymhlith "Enwogion y Ffydd." Fel arwydd o'r anwyldeb yma y gelwir ef yn fynych "Williams Pant-y-Celyn," "yr hen Williams," a "Pheraidd Ganiedydd Cymru." Y mae'r cyfenwad olaf wedi ei fenthyca oddi wrth "y gŵr a osodwyd yn uchel, enneiniog Duw Jacob, a *pheraidd ganiedydd Israel*." Llawer o feirdd enwog a gosodasant ymhlith y Cymry, o Aneurin Gwawdrydd, yr hwn a lofruddiwyd gan ryw ddihiryn a elwid Eiddin, tu a'r flwyddyn 570, hyd yr enwog Emrys, yr hwn a fu farw o'r parlys mud, ar yr 31fed o Hydref, 1873, heb son am ein beirdd byw; a llawer dernyn godidog, mewn rhyw ystyron, a ganwyd ganddynt, o'r "Gododin" hyd yr "Awdl Fuddugol er Coffadwriaeth am y diweddar Dywysog Cydweddog, Albert Dda," ac y mae'n bur debyg y cedwir eu prif ganeuon bychain ym mysg rhyw un dosparth o'r genedl tra y lleferir yr iaith, os nad yn hwy; ond y mae'n ddilys ddiammau fod, ac y bydd, mwy o ganiadau Williams Pant-y-Celyn ar gof a chadw y genedl oll nag y sydd, nac a fydd, o waith yr holl feirdd Cymreig eraill ynghyd; ac yr ydym ni yn credu er ys talm, pe bai hyny o ryw bwys, mai efe ydyw y *bardd mwyaf* a gyfododd hyd yn hyn ymhlith cenedl y Cymry, a chymmeryd i mewn (heb son am y mân "Gynfeirdd" a'r "Gogynfeirdd") Dafydd ab Gwilym, Lewis Glyn Cothi, Huw Morus, Goronwy Owain, Dafydd Ionawr, Dewi Wyn o Eifion, Eben Fardd, Emrys, a phwy bynag arall a ddewiser. Credwn ni y saif "yr Hen Williams" mewn perthynas gyffelyb i'r Cymry ag y safai Dafydd i'r Hebreaid, Homer i'r Groegiaid, Virgil i'r Lladiniaid, Dante i'r Italiaid, Goethe i'r Germaniaid, Mil

‡ Holl Weith. Wm. Williams, t. 690-2; Method. Cymru, cyf. i., t. 80-4; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 378-9; Gwyddoniadur, cyf. iii., t. 363-5; En. Cymru, I. F., t. 202-3.

awyddus i gael a chadw coffadwriaeth am wroniaid Cymru na'r Cymry eu hunain. 'Fy mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly.'"*

Ymddengys bod rhyw awydd naturiol ymhob cenedl, braidd, am wybod hanes pob cyfnod o fywyd eu henwogion, o'u cryd i'w bedd, megis cyfnod eu plentyndod, eu hieuengctid, eu canol oed, a'u hen ddyddiau: er hyny, pur gynnil ydyw y bywgraphwyr anffaeledig o hanes yr enwogion Ysgrythyrol, hyd oni ddelent i addfedrwydd oedran, ac i ddechrau gwneud gwrhydri. Yr oedd Adda ac Efa yn eu cyflawn faint pan ddeuthant i hanfod; am hyny, rhaid edrych arnynt hwy fel eithriadau. Ganwyd Cain ac Abel yn fabanod, fel eraill; ond yr hanes gyntaf a geir am danynt, ar ol mynegi am eu genedigaeth, ydyw bod Abel yn fugail defaid, a Chain yn llafurio y ddeuar. Yna, ceir eu hanes yn aberthu; Cain yn lladd ei frawd; yn ffoi i dir Nod; yn priodi yno, a mab yn cael ei eni iddynt, a'i enw Enoch; a Chain yn adeiladu dinas, ac yn ei henwi yn ol enw ei fab Enoch; a dyna'r cwbl a geir o'i hanes, heb law ambell gyfeiriad ato fel llofrudd ei frawd rhinweddol. Cyffelyb, o ran byrder, yw hanes babandod ac ieuengctid yr holl batriarchiaid, y prophwydi, a'r apostolion, oddi eithr ychydig iawn o eithriadau, megis Moses, Samuel, Solomon, Jeremiah, Iesu Grist ein Harglwydd, Paul, a Timothëus; ac nid yw hanes babandod ac ieuengctid yn oed y rhai hyny ond pur fyr a chryno. Hanes babandod ac ieuengctid ein Gwaredwr bendigedig, ond odid, yw'r manylaf a geir yn yr Ysgrythyr Lân; ac y mae hyny yn weddus, er bod ein hawydd ni yn wahanol, canys ychydig iawn o werth, ysywaeth, a wnaeth odid neb arall yn eu mebyd a'u hieuengctid. Bydd yr ystyriaeth o hyn yn tawelu peth ar ein meddwl, yn wyneb bod hanes foreuol ein henwogion Cymreig mor fyr ac anorphenol. Cyffelyb, o ran byrder, ydyw hanes foreuol Williams Pant-y-Celyn i hanes cyfnodau cyntaf y rhan fwyaf o enwogion y byd.

Enw tad ein "Peraidd Ganiedydd" oedd John Williams, ac enw ei fam oedd Dorothy Lewis. Dywedir mai o serch at ei fam yr ysgrifenodd y bardd, ar ryw adeg o'i fywyd, y llinellau canlynol ar wydr ffenestr annedd lle y trigai geneth ieuangc, grefyddol, fel y gellir casglu, o'r un enw a'i fam, yr hon eneth sydd weithian yn anhyspys:—

"*Dorothea* yw dy enw:
 Ystyr hyn yw '*Rhodd dy Dduw;*'
Ac yn ol yr enw hyfryd
 Yn y bywyd bo it fyw:
Rhodd yw'th ddysg, a rhodd yw'th ddoniau,
 A rhodd yw'th fod yn ferch fach lân;
Rhodd y rhoddion ydyw hyny,
 I'th gadw di rhag uffern dân."

Mab Cefn-y-Coed, ymhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, ger llaw Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, oedd John Williams, tad y bardd, ac efe oedd perchenog y tyddyn hwnw; a merch Pant-y-Celyn, tyddyn tu a dwy filltir o Gefn-y-Coed, oedd Dorothy Lewis, ei fam, a'i rhieni hi oedd perchenogion Pant-y-Celyn. Yr oedd gan Dorothy ddau frawd; ond bu'r ddau farw yn lled ieuangc, ac felly daeth Pant-y-Celyn yn etifeddiaeth iddi hi.

Ganwyd ein Pencerdd yng Nghefn-y-Coed, treftadaeth ei dad, yn y flwyddyn 1717; a chan mai efe oedd unig fab ei rieni, daeth Cefn-y-Coed a Phant-y-Celyn yn etifeddiaeth iddo ar eu hol hwy. Yr oedd ei rieni yn aelodau zelog a pharchus o eglwys Annibynol Cefnarthen, a bu ei dad yn ddïacon yn yr eglwys honno hyd ddiwedd ei oes. Arferai yr eglwys ymgynnull ar y cyntaf liw nos, yn amser yr erledigaeth, yn Ogof Castell Craig-y-wyddon, yn agos i Gefnarthen. Wedi hyny, ymgyfarfyddai yr eglwys mewn amaethdy a elwid Cil-y-pentan, tu a dwy filltir o'r lle yr ymgyfarfyddai ar y cyntaf, ac yno yr arferai ymgynnull nes y rhoddes mam y bardd ddarn o dir Pant-y-Celyn i adeiladu capel arno, yr hwn a elwid Capel Pentre-tŷ-gwyn; ac y mae yno addoldy hyd y dydd hwn. Bu farw John Williams pan nad oedd ei unig fab William ond lled ieuangc, ac felly disgynodd ei ddygiad i fynu ar ei fam, yr hon a gyflawnodd ei dyledswydd tu ag ato yn bur ofalus a ffyddlon. Bu'r fam rinweddol yma fyw hyd y flwyddyn 1784, pan y bu farw yn 95 oed; dim ond saith mlynedd o flaen ei mab enwog. Dywed Mr. Charles i ewythr y bardd, o frawd ei fam, "adael iddo ef a'i fam etifeddiaeth weddus;" ond ni fynega ymha le yr oedd yr etifeddiaeth honno,

o lenyddiaeth, cystal ag mewn amryw bethau eraill. Dilynwyd ef gan y Dr. Richards o Lynn, yn y *Cambro-British Biography;* yna cawsom lïaws o fywgraphiadau yn *Seren Gomer*, y *Cambro-Briton*, *Y Dysgedydd*, *Y Gwyliedydd*, *Y Drysorfa*, *Y Gwladgarwr*, *Yr Eurgrawn*, *Y Greal*, *Hanes y Bedyddwyr*, y *Cambrian Register*, y *Cambrian Quarterly Magazine*, *Methodistiaeth Cymru*, *Hanes Ymneillduaeth yng Nghymru*, *History of Protestant Nonconformity in Wales*, *Y Traethodydd*, *Yr Adolygydd*, *Y Beirniad*, *Y Brython*, *Y Gwyddoniadur*, *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, *Llyfryddiaeth y Cymry*, &c. Y mae genym amryw lyfrau gwerthfawr hefyd weithian yn cynnwys dim ond bywgraphiadau Cymreig, megis y *Cambrian Plutarch*, *Eminent Welshmen*, *Enwogion Cymru*, *Enwogion Sir Aberteifi*, &c., heb law lïaws o fywgraphiadau personau unigol. Felly, nid ydym mor "dlawd," erbyn hyn, o leiaf, ag yr awgrymir yn *Y Traethodydd*, yn 1846, ein bod, yn y gangen ddyddorol hon o lenyddiaeth; ac yr ydym ni, a'n cefnogwyr galluog, yn bwriadu profi hyny trwy gyfrwng y llyfr hwn, sef "Enwogion y Ffydd."

* Traethodydd, llyfr ii., t. 225.

Digitized by Google

na pha faint oedd ei gwerth blynyddol a chyfangwbl; eithr dywed un arall o'i fywgraphwyr fod Williams yn werth tu a 200p. y flwyddyn, yr hyn oedd o gylch cyfartal i 666p. o'n harian ni yn awr, canys dywedir bod 6s. y pryd hyny yn agos i gyfartal i bunt yn bresennol. Hyn a'i cynnorthwyodd i deithio cymmaint i bregethu yr efengyl yn rhad.

Nid yw hyspys ymha ysgolion y cafodd y bardd ei addysg foreuol, na phwy oedd ei athrawon; ond y mae'n amlwg iddo gael digon o addysg yn rhywle i'w gymhwyso i fod yn fyfyriwr yng Ngholeg yr Annibynwyr yn y Llwynllwyd, ger llaw y Gelli (*Hay*), yn sir Frycheiniog, yr hwn goleg oedd ar y pryd dan ofal y duwiol Vavasor Gruffydd,* gweinidog hen eglwys Annibynol Maes-yr-onnen, yn sir Faesyfed.† Ni wyddys ymha flwyddyn yr aeth Williams i'r coleg hwnw; ond gan yr arferai gwŷr ieuaingc aros mewn colegau y pryd hwnw, fel yn awr, dros dair neu bedair blynedd, ac y gwyddys iddo ddychwelyd adref oddi yno yn 1738, pan yn 21 oed, gellir casglu iddo fyned yno yn y flwyddyn 1734 neu 1735, pan oedd tu a 14 neu 15 oed; eithr nid yw hyn ond *casgliad*. Beth bynag am hyny, cyttunir gan ei haneswyr mai ei fwriad wrth fyned i'r coleg oedd bod yn feddyg. Astudiodd physygwriaeth yn ddyfal, a bu o les i laweroedd fel meddyg trwy ystod ei oes. Ond er mai ar iachâd y corph y rhoddes y llengcyn Williams ei fryd, etto Duw a'i bwriadodd ef yn offeryn i iachâu eneidiau. "Calon dŷn a ddychymmyg ei ffordd; ond yr Arglwydd a gyfarwydda ei gerddediad ef." "Wrth ddyfod adref o'r athrofa, A.D. [O.C.] 1738," medd Mr. Charles, "cafodd ei alw wrth wrando ar Mr. H. Harris yn treuthu ei genadwri bwysig ar ol y gwasanaeth yn mynwent Talgarth." Ond hwdiwch ddarlun awenyddol yr ysgrifenydd yn *Y Traethodydd* ar y digwyddiad dyddorol yma:—

"Ar ryw forau (Sabboth, y mae'n debygol) yn y flwyddyn 1738, dyna sain cloch llan blwyfol, mewn pentref neillduedig yn sir Frycheiniog, yn gwahodd yr addolwyr i ymgynnull ynghyd i'r gwasanaeth crefyddol. Ymgynnull lluaws at eu gilydd. Yn eu mysg, dacw ŵr ieuangc tu ag un-ar-hugain oed, o gorph lluniaidd, a thaldra canolig, ac ymddygiad mwy boneddigaidd na'r cyffredin, yn myned i mewn i le'r addoliad. Telir sylw mwy na chyffredin iddo. Y mae naill ai yn ddïeithr yn y lle, neu y mae newydd ddychwel i blith cydnabyddion wedi cryn absennoldeb. Craffwch arno! Y mae rhywbeth yn ei wynepryd a dynodiant ei lygaid a bâr i chwi deimlo rhyw fwy o ddyddordeb ynddo nag mewn unrhyw ŵr ieuangc arall trwy yr holl gynnulleidfa; ond ni wyddoch yn iawn pa beth ydyw chwaith: rhywbeth ydyw na ellwch roddi cyfrif am dano, ac na ellwch chwaith help i chwi eich hunain wrtho. Pâr i chwi yn awr ac yn y man, drachefn a thrachefn, daflu eich llygaid arno, bron yn ddïarwybod i chwi eich hun. Dyma'r gweinidog yn dyfod i mewn, a'r gwasanaeth yn myned i ddechrau. Ar hyn wele ŵr canol oed, lled fyr o gorpholaeth, o agwedd ddifrifddwys anghyffredinol, yn dyfod i'r lle. Y mae pob llygad yn y synagog yn canolbwyntio arno. Cynhyrfa yr olwg arno wahanol deimladau yn y gynnulleidfa, y rhai a ddatguddiant eu hunain trwy lygaid a delweddau wynepryd y naill a'r llall. Ei ymddangosiad a dery fath ar syndod ac arswyd trwy y lle. Y sylw a'r teimladau rhyfeddol a gynhyrfid fel hyn trwy ei ymddangosiad, a ennyn gywreinrwydd y gŵr ieuangc y buom yn edrych arno; a gofyn yn wylaidd a distaw i'r agosaf ato, 'Pwy yw'r gŵr rhyfedd yma sy'n ennill y fath sylw cyffredinol ato?' Yr ateb ydyw, 'Dyna Howel Harris!' Y mae meddwl a llygad y gŵr ieuangc yn y fan yn cael eu hoelio wrtho. Clywsai bethau rhyfedd am dano, ond ni welsai ef o'r blaen. Dyma'r dŷn hynod oedd yn aflonyddu y byd, ac fel yn gyru dynion a chythreuliaid i gynddeiriowgrwydd, yn awr o flaen ei lygaid. Edrycha arno gyd â gradd o ofn a chryndod.

"Dyna'r gwasanaeth ar ben: rhedasid trwyddo mewn dull sychlyd a marwaidd. Arweinir y gynnulleidfa allan gan y gweinidog: aiff ef ym mlaen gyd âg un neu ddau tu a'r persondy, ond erys y gynnulleidfa ar y fynwent, ac ymgasgl eraill o'r pentref a'r wlad oddi amgylch atynt. Erys y gŵr ieuangc hefyd ar ol. Ymhen ychydig, dyma'r gŵr a welsom gynnau yn dyfod i'r llan yn esgyn ar gareg fedd, a phob llygad wedi adsefydlu arno. Y mae bywiowgrwydd anghyffredin yn gerfiedig ar lygad ac wynepryd y gŵr ieuangc yn awr. Dyna genad y nef yn agoryd ei enau. Y mae ei lais fel swn taranau cryfion, neu sain dyfroedd lawer: disgyn ei eiriau fel tân ar y bobl. Newid lliw eu wynepryd gyd â phob ymadrodd. Ai yr un bobl a welwn yn awr yn y fynwent ag a welsom ychydig funudau o'r blaen o fewn y muriau yna? Ië, yr un bobl gan mwyaf ydynt; ond nid yr un yw'r pregethwr. 'Y mae hwn yn llefaru fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion.' Gafeula rhywbeth ym meddyliau a chydwybodau y bobl yn awr, a bâr i'r cryfaf ei galon frawychu, ac i'r gliniau cadarnaf guro yn erbyn eu gilydd. Y maent fel pe byddai y nefoedd yn gwlawio tân a brwmstan am eu penau. Llenwir rhai o gynddaredd yn erbyn y pregethwr a'i athrawiaeth; eraill a lesmeiriant dan bangfëydd o argyhoeddiad cydwybod; eraill a lefant allan, 'Pa beth a wnawn ni?' Y mae yn gyffro cyffredinol; ond pa le y mae'r gŵr ieuangc dyddorgar hwnw? Dacw efe, â'i wyneb wedi gwynlasu, a'i holl gorph yn ysgwyd gan gryndod a braw. Y mae'n wir ddelw o ddychryn. Disgwyl bob moment weled Mab y dŷn yn dyfod ar gymmylau y nefoedd: aeth rhyw saeth loyw-lem oddi ar fwa athrawiaeth y gŵr sydd ar y gareg fedd acw i'w galon. Y mae cleddyf dau-finiog wedi ei drywanu hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd. Y mae ganddo olwg wahanol arno ei hun yn awr i'r hyn a fu ganddo erioed o'r blaen. Mewn gair, y mae yn ddŷn newydd! Daeth allan o'r fynwent y borau hwnw wedi ei greu o newydd. Am y tro hwn, medd hanes ei fywyd, canodd fel y canlyn yn ei farwnad i Howel Harris:—

'Dyma'r borau, fyth mi gofiaf,
Clywais innau lais y nef:
Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod,
Gan ei swn dychrynllyd ef;
Ac er crwydro'r dyrys anial
Ol a gwrthol di lesâd,
Tra bo anadl yn fy ffroenau
Mi a'i galwaf ef yn dad.'

Ië, borau i'w gofio byth oedd hwnw hefyd iddo ef; ac i Gymru oll, yn wir, o hyny allan. Disgynodd yr had ar

* Gwel pen. viii. o'r llyfr hwn, y pummed.

† Trysorfa, llyfr. ii., t. 445; Meth. Cymru, cyf. i., t. 77; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 479; Holl Weith. Wm. Williams, t. vi.

Digitized by Google

un dernyn o dir, y tro hwnw, a gynhyrchodd ffrwyth ar ei ganfed. Pe na buasai i weinidogaeth Howel Harris fod yn offerynol i ddychwelyd un enaid ond y gŵr ieuangc hwn, buasai o fendith anhraethadwy i'r Dywysogaeth. Ond dyna'r cwbl a gawn yn yr hanes am y tro; hanes y ddalfa: ond pa hyd y bu ynddi heb ei ollwng i ryddid yr efengyl, ni ddywedir i ni. Pa gyhyd y bu yn y dymhestl cyn dyfod i gysgod y 'Gŵr sydd megis yn ymguddfa rhag y gwynt:' pa faint o ddyfroedd chwyddedig a aeth tros ei enaid cyn iddo ganfod cilfach a glan iddi, nis gwyddom. Pa un ai yn gyffelyb i *Plenopax* [llawn heddwch], neu *Fenusta* [anlladrwydd], yn *Theomemphus* [ymofynwr Duw], y naill ond tu a hanner awr, a'r llall tu a deg a hanner o oriau, ar ol eu hargyhoeddiad, cyn mwynhau tangnefedd yr efengyl; ynte fel *Theomemphus* ei hun, 'ryw ddeuddeg lloer ac un' yn ymladd am ei fywyd:

'Anobaith yn ei lethu,
Ac weithiau gobaith gwan
Yn 'maflyd yn ei yspryd,
A'i godi'n llesg i'r lan;'

ynte pa fodd y bu, nis gallwn hyspysu. Ond un peth a wyddom, mor sicr ag iddo gael ei ddal 'wrth y wŷs oddi uchod, gan ei swn dychrynllyd ef,' iddo hefyd rywbryd gael ei ollwng yn rhydd o afeulion euogrwydd a llywodraeth ei bechodau, a dychrynfeydd argyhoeddiad o'i gyflwr; i'r goriau sydd

'fel y gwin,
Oll o mewn yn dwyn tangnefedd
Ag sydd o anfeidrol rin,'

ddeddfu yn llais distaw main i'w fewn yntau, a pheru i bob lleisiau eraill

'Ddistewi a mynd yn fud,'

nes i'r tangnefedd, 'yr hwn sydd uwch law pob deall,' ei feddiannu a'i lenwi."*

Nid oes genym hanes mwyach am Williams dros y ddwy flynedd gyntaf ar ol ei argyhoeddiad, ac ni wyddys a oedd efe yn proffesu crefydd cyn y bregeth honno gan Harris yn Nhalgarth ai peidio. Gellir casglu, braidd, nad ydoedd, ac mai i eglwys y plwyf yr aeth ar ol dychwel adref o Goleg Annibynol Llwynllwyd; a hyny, ond odid, o barch i'w dad yng Nghrist, Howel Harris, yr hwn oedd Eglwyswr zelog ar hyd ei oes, er mor anghysson oedd hyny â'i ymddygiad fel pregethwr teithiol, yn enwedig pan y pregethai, fel y gwnai yn fynych, mewn lleoedd heb eu cyssegru gan esgob, fel y gwelsom.† Pa wedd bynag, hyn sydd sicr, sef darfod i Williams, ar ol cael ei argyhoeddi, roi'r bwriad o fod yn feddyg proffesedig heibio, a phenderfynu myned yn offeiriad Eglwys Loegr. Trwy ba foddion y llwyddodd i gael ei urddo gan Esgob Gwladol, tra nad oedd wedi bod dan addysg ond mewn Coleg Annibynol, ni wyddys; ond llwyddodd rywsut i gael hanner urdd offeiriadol, a elwir urdd dïacon, canys, medd Mr. Charles, "urddwyd ef yn ddïacon yn yr Eglwys Sefydledig, A.D. 1740, gan Nicholas Claget, Esgob Tŷ Ddewi, i guradiaeth Llanwrtyd a Llanddewi-Abergwesyn. Gwasanaethodd y guradiaeth am dair blynedd, a phregethodd gyd âg ond ychydig lwyddiant i bobl dywyll ac anfoesol iawn.‡ . . . Dywedai gyd â llawer o ddifyrwch iddo gael ei roddi yn Llys yr Esgob, pan yn gwasanaethu Llanwrtyd, am bedwar ar bymtheg o bechodau y bu'n euog o honynt, sef am beidio rhoi arwydd y groes wrth fedyddio, a pheidio a darllen rhai rhanau o'r gwasanaeth, a'r cyffelyb bethau bychain dibwys. Y Parch. G. Whitfield, yn benaf, a'i hannogodd i adael yr Eglwys [Wladol], a myned allan i'r priffyrdd a'r caeau. Yr oedd yn gwasanaethu ei eglwys o Gefn-y-Coed, ddeuddeng milltir, o leiaf, o Landdewi-Abergwesyn. Yn y dyddiau hyny, yr oedd yn cadw gweddi deuluaidd dair gwaith yn y dydd; ac yr oedd ei holl ymarweddiad yn syml ac yn dduwiol, yn gyfattebol i hyny. Ni chafodd erioed ei gyflawn urddau, fel y dywedant. Pallodd yr esgob ei urddo, o herwydd ei afreolaeth yn pregethu ymhob man heb law [cystal ag] yn eglwysydd y plwyfau yr oedd yn gweinidogeuthu ynddynt. Nid oedd yn cymmeradwyo yr afreolaeth hwn yn ei feddwl yn ol llaw dros ei holl fywyd. Gweithred fyrbwyll ynddo, yr oedd yn ei barnu, ac y gallasai fod yn fwy defnyddiol, pe buasai yn fwy araf a phwyllog; ond geill Duw ddwyn ei amcanion i ben trwy ffolineb dynion; a hwyrach mai fel yr oedd, yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni ei amcanion ef."§

Ar yr hanes yna, o waith Mr. Charles, gwna yr ysgrifenydd doniol yn *Y Traethodydd* y sylwadau craff-dduchanol a ganlynant:—

"Rhaid i ni bellach droi yn ol i adolygu ychydig ar y dernyn uchod. Gall ei urddiad gan esgob yn ddïacon yn yr Eglwys Sefydledig, ag yntau wedi ei ddwyn i fynu mewn athrofa Ymneillduol, ac heb iddo fod ddim erioed yn y brifysgol, nac yn un athrofa Eglwysaidd, fod yn syndod i rai o'n darllenwyr. Pa fodd bynag, cafodd yr esgob achos i edifarhau yn fuan am ei amryfusedd y waith hon, o blegid ni bu y llwdn barus hwn o gorlan Ymneillduaeth ddim tair blynedd yn ei gynnefin newydd nad oedd wedi

* Traethodydd, cyf. ii., t. 227–9.

† Gwel pen. xviii. o'r llyfr hwn, y pummed.

‡ Dengys y llythyr canlynol a anfonwyd at yr enwog Gruffydd Jones, Llanddowror, ac a gyhoeddwyd ganddo ef yn y *Welsh Piety* am y flwyddyn 1741, bod cyflwr "tywyll ac anfoesol" ei blwyfolion, ac yn enwedig diffyg moddion addysg i'w plant, yn pwyso yn ddwys ar feddwl eu "curad" ieuangc, yn ebrwydd ar ol iddo ymsefydlu yn eu plith:—

"BARCH. SYR,—Hyn sydd i sicrhau bod athraw yr Ysgol Gymraeg ger llaw Pentre-tŷ-gwyn, ymhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, wedi ymddwyn yn weddus, ac yn ol y rheolau pennodedig, ac na wnaeth ddim yn anghyfaddas i'w alwad; ac archwiliwyd yr hanes a ddygwyd i chwi, a chanfyddwyd ei fod yn gywir genym ni, y rhai y mae ein henwau yn ysgrifenedig isod.

"JOHN JONES, Curad, Llanfair-ar-y-bryn.
"WILLIAM WILLIAMS, Curad, Llanwrtyd.

§ Trysorfa, llyfr ii., t. 445–6.

Digitized by Google

cyflawni pedwar ar bymtheg o bechodau! Rhestr ddychrynllyd! A'r pechadur yn son gyd â difyrwch am danynt! Mwy dychrynllyd fyth! Pechodau o'r fath natur hefyd, fel y traddodid ef i Lys yr Esgob i gael ei geryddu o'u plegid! Pa bethau oeddynt, ddarllenydd, debygid? Meddwdod, godineb, dilyn rhedegfeydd meirch, dawnsiau, cardiau, gwleddoedd annuwiol, a'r cyffelyb? Nage! Yr oedd degau o weinidogion eglwysig i'w cael yn arfer pethau felly; ond nid oedd Llys yr Esgob, mwy na Llys Galio, yn gofalu am ddim o'r pethau hyn. Yr oedd pechodau ein gwrthrych o arlliw tywyllach, ac yn llawer mwy ysgeler na'r pethau uchod; a dyma hwy:—Peidio rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio! Gadael heibio rai darnau o wasanaeth y 'Llyfr Gweddi Gyffredin!' &c. Och! och! Ië, ïe, dyma'r pechodau ofnadwy y bu yn euog o honynt. Beth a fuasai troseddu rheolau a gorchymynion pendant yr Ysgrythyrau wrth y gwaith o redeg yn uniongyrch fel hyn i'r gwrthwyneb i osodiadau pendant y 'Llyfr Gweddi Gyffredin?' Yr ydym yn dychrynu wrth feddwl am y pechadur a gyflawnai bedwar ar bymtheg o bechodau fel hyn; ac yn neillduol pan ddywedir wrthym y soniai am danynt gyd â difyrwch ar hyd ei oes! Ond cafodd yr esgob, yntau, gyfleusdra i roi swmbwl ynghnawd y bustach hwn, na fynnai ei gynnefino â'r iau, trwy wrthod rhoddi ei gwbl urddau, fel y dywedent, iddo, 'o herwydd ei afreolaeth (un o'r pedwar pechod ar bymtheg, ond odid) yn pregethu ymhob man heb law eglwysydd y plwyfau yr oedd yn gweinidogeuthu ynddynt.' Cymherwch, am funud, ymddygiad yr esgob (ac esgobion yn gyffredin dan y cyffelyb amgylchiadau) â gorchymyn pendant 'Bugail ac Esgob' eneidiau dynion i'w weinidogion ef. 'Ewch i'r priffyrdd a'r ceuau, a chynnifer oll ag a gaffoch, cymhellwch hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ.' 'Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur.' 'Nid felly,' medd yr esgob hwn wrth ei ordeiniedigion, ond 'nac ewch i un man allan o'ch plwyf, neu eich plwyfau pennodol eich hunain; ac os ewch, cewch deimlo fy anfoddlonrwydd.' Ar ba un o'r ddau esgob y dylid gwrando? Y mae gorchymyn y naill yn taro yn uniongyrch yn erbyn eiddo y llall. Dywedai apostol dan amgylchiadau cyffelyb, 'Ai cyfiawn ger bron Duw wrando arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw? bernwch chwi.' 'Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion.'

"Darfu 'i'n heglwys ar iawn a dwys ystyriau yn ei chymmell i hyn' yn ddïammau, ac nid trwy 'ddefosiwn annispwyll,' drefnu hanner bedydd Cristionogol, a hanner urddiad gweinidogeuthol. Yr hon drefn (yn gystal ag eraill o'i chyffelyb), 'nid eiddo'r gwerin ei happwyntio;' ac am hyny ni ddylai neb o'r bobl 'gymmeryd arnynt, na rhyfygu, na threfnu, na newid, un osodedigaeth gyhoedd neu gyffredin o fewn eglwys Crist, ond y sawl a awdurdodir yn gyfreithlawn i hyny.' Yr ydym, heb gymmeryd arnom ryfygu, trefnu, na newid yr osodedigaeth dan sylw, nac ychwaith 'wneuthur rhuthrau rhyehwyllt i'w herbyn,' yn barod i ddatgan ein bod yn methu gwybod pa fodd y gall ddigwyddo yn amgen na bod hanner adenedigaeth, hanner olyniaeth apostolaidd, a hanner nefoedd, &c. Ni all hanner bedydd fod yn amgen na hanner adenedigaeth, na hanner urddiad yn amgen na hanner olyniaeth: os ydynt, i ba beth y mae'r hanner arall da? Os nad ydynt, beth a ddaw o'r hanner bedyddiedig a fyddo marw felly yn hanner ail anedig? . . . Hanner apostolieuthiad a gafodd Williams, druan, a hyny o herwydd bod gormod o yspryd apostol ynddo, ac o ddelw apostol arno, gan yr elai allan, fel yr apostolion gynt, i bregethu ymhob man. . . .

"Ond y mae'r ymadrodd nesaf yn ei hanes yn ein synu, ac yn ein gofidio:—'Nid oedd yn cymmeradwyo yr afreolaeth hwn yn ei feddwl yn ol llaw dros ei holl fywyd. Gweithred fyrbwyll ynddo, yr oedd yn ei barnu, ag y gallasai fod yn fwy defnyddiol, pe buasai yn fwy araf a phwyllog.' Dïau mai cwbl wagedd yw pob dŷn. Ai nid oedd yn cymmeradwyo ei ufudd-dod i orchymyn pendant ei Feistr mawr? Yma, er ein holl bleidgarwch tu ag at ein gwron, yr ydym bron yn cwympo allan âg ef. Pa fodd yn y byd y gallasai anghymmeradwyo ei ymddygiad hwn, fel byrbwylledd annoeth, ac y gallasai dybio y buasai yn fwy defnyddiol pe buasai yn fwy araf a phwyllog, pan oedd gorchymyn pendant ei Feistr nefol yn ei alw allan, a phan oedd Cymru yn dyddfu gan newyn am fara y bywyd? Ai amser i dewi â son ydoedd y fath amser a hwn? Ai callach, doethach, a gwell ydoedd manwl ofalu am gadw a dilyn trefn, gosodiadau, ffurfiau, a chanonau awdurdodau o sefydliad dynol, pan oedd eneidiau o amgylch ymhob man yn marw o eisiau gwybodaeth? Ha! nid oeddym barod i gyfarfod âg ymadroddion fel hyn. Disgwyliasem ei glywed yn gorfoleddu yn hwn yn fwy na'r deunaw pechodau eraill hyny; y buasai ei feddwl yn edrych yn ol arno gyd â chymmeradwyaeth trwy ei oes. O'r tu allan i'r porth ar fynwent Talgarth y dychwelwyd ef trwy ras; a dïau mai o'r tu allan i wersyll y Grefydd Wladol y mynnasai yr hwn a'i galwodd yno iddo fyned, 'gan ddwyn ei waradwydd ef.' Pe buasai iddo, ac eraill o dadau y diwygiad yng Nghymru, aros i wrando ar reswm cnawdol, ymgynghori â chig a gwaed, a thrigo o fewn cylch sefydledig, ni buasai Methodistiaid Cymru i'w cael yn y dalaeth heddyw, na'r diwygiad y buont yn offerynol i'w gychwyn a'i deunu trwy'r wlad erioed wedi cymmeryd lle. Ond pa fodd y gallasai yr hen dad hybarchus anghymmeradwyo ei ymddygiad hwn yn gysson â'i syniadau datganedig ei hun mewn perthynas i'r un ymddygiad mewn eraill? Am y Parch. G. Jones, periglor Llanddowror, y dywed yn ei farwnad i H. Harris, fel hyn:—

> 'Ond am fod ei forau'n dywyll,
> Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
> Fe arswydodd fynd i'r meusydd,
> Ac i'r lleoedd nad oedd llan.'

"Drachefn, am Mr. Harris:—

> 'Yntau Howel, heb arddodiad
> Dwylaw dynion o un rhyw,
> Na chael cenad gan un esgob
> Ag sy'n llawer llai na Duw:
> Fe bregethodd yr efengyl
> A'i hanfeidrol ddwyfol stôr,
> O derfynau Hafren dawel,
> Obry i'r Gorllewin fôr.'

"*Tywyllwch* a *gwendid ffydd* G. Jones a'i cadwodd heb fyned allan '*i'r meusydd, ac i'r lleoedd nad oedd llan;*' ond afreolaeth a byrbwylldra ynddo ef ei hun oedd gwneud hyny. Gogoniant Howel Harris ydoedd iddo dori allan, a phregethu yr efengyl o derfynau Hafren i fôr y Gorllewin, heb ofyn 'cenad gan un esgob' i wneud hyny, yr hyn beth y gwyddai yn dda na chawsai byth, pe gofynasai. Ond byrbwylledd beius ynddo ef ydoedd myned allan felly, a pheidio gofalu am ryngu bodd yr esgob. Mr. Charles, yn ei sylw ar hyn, a ddywed—'Ond geill Duw ddwyn ei amcanion i ben trwy ffolineb dynion; a hwyrach mai fel yr oedd, yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni ei amcanion doeth ef.' Os felly yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni ei amcanion ef, dywedwn ninnau mai felly yr oedd addasaf, ynte, ar bob cyfrif. 'Nid trwy ewyllys dŷn y daeth gynt brophwydoliaeth:' felly nid trwy ewyllys y cnawd, a thrwy yr hyn a ystyria rheswm dynol yn ddoethineb a gweddeidd-dra, y daeth un diwygiad i'r byd erioed. Yr oedd Petr yn gwneud yn fyrbwyll ac anweddaidd iawn ym marn hyd yn oed yr Iuddewon oedd Gristionogion, yn ei waith yn myned at y Cenhedloedd i dŷ Cornelius; ac nid dim llai na gweledigaeth o'r nef a'i perswadiasai ef ei hun o weddusdra y peth. I gychwyn, a dwyn ym mlaen bob diwygiad, y mae'r Arglwydd yn trefnu ac yn goruwch lywodreuthu amgylchiadau i ddyfod i wasgu yr offerynau etholedig ganddo ef i'r gwaith i ymaflyd ynddo, bron yn ddïarwybod, ac weithiau bron heb yn wenthaf iddynt eu hunain. 'Hudaist fi, a mi a hud-

wyd,' medd Jeremiah: 'cryfach oeddit na mi, a gorchfygaist.' Ymadroddion y gallai pob gwir ddiwygiwr, ym mron, eu cymhwyso ato ei hun."*

Y mae'r Parch. John Hughes yn rhoi golau gwahanol ar yr hyn y dywed Mr. Charles a ystyriai Williams yn "afreolaeth a byrbwylldra" ynddo, sef ei waith yn troi allan i'r prif-ffyrdd a'r ceuau i bregethu y gair; a chredwn y bydd yn dda gan y darllenydd gael barn Mr. Hughes ar y matter, ynglŷn â'n bardd cenhedleuthol. Dyma fel y dywed efe:—

"Y peth olaf a grybwyllwyd (myned i'r prif-ffyrdd a'r ceuau i bregethu), a wnaeth ar annogaeth y Parch. George Whitfield, gŵr oedd wedi pechu llawer yn y ffordd hon, ac yn hoffi yn fawr cael eraill i'r un rhestr bechadurus ag ef ei hun. . . . Dywedir bod Williams yn anghymmeradwyo yr afreolaeth yma yn ei feddwl, yn ol llaw, dros ei holl ddyddiau. 'Gweithred fyrbwyll ynddo y'i cyfrifid ganddo, a barnai y gallasai fod yn fwy defnyddiol *pe buasai yn fwy araf a phwyllog*.' Am ei waith yn pregethu yr efengyl draw ac yma, lle bynag y byddai drws yn agor iddo, yr ydym yn tueddu yn fawr i gredu na chafodd Williams le i edifeirwch, mwy nag am y deunaw pechod arall. A phrin y gallaf fi feddwl mai felly yn gymmwys yr oedd. Dichon bod Williams yn edrych ar ei ysgogiadau gyd â gweinidogaeth yr efengyl o'r dechreuad yn fyr o bwyll a dwysder; yn cymmeryd yn gyntaf ei urddo yn ddïacon gan esgob, a thrachefn yn bwrw ymaith yr iau a gymmerasai arno ei hun mor ddiweddar. Fe allai y dangosasai fwy o bwyll a dwysder pe nad euthai i'r Eglwys [Wladol] oll; ïe, nid amhossibl ydyw y buasai mwy o ystyriaeth a difrifwch yn ei attal i gymmeryd ei urddo gan un esgob. Yr oedd ei dad yn Ymneillduwr, a than athraw Ymneillduol y derbyniodd ef ei ddysgeidiaeth: ac o dan y fath amgylchiadau, nid rhyfedd a fuasai iddo ystyried ei waith yn myned i'r Eglwys [Wladol], ac nid ei waith yn ei gadael, yn effaith ysgafnder a byrbwylldra. Ond nid yw'r modd yr edrychai Williams ar ei ymddygiad yn effeithio dim ar y cwestiwn ynddo ei hun, ai priodol ai amhriodol ei ymddygiad; ai myned i'r Eglwys [Wladol] ar y dechrau, ynte ei gadael drachefn oedd y bai trymaf.

"Y mae Crist ei hun, i'r hwn y perthyn sefydlu cyfreithiau i'w deyrnas, wedi gorchymyn i'w ddisgyblion fyned i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur, gan addaw ei bresennoldeb ei hun yn y gwaith. Nid yw yn werth munud o amser, gan hyny, ymofyn a oes hawl gan Esgob Eglwys Rhufain, neu Esgob Eglwys Loegr, i osod deddf wrthwyneb i'r eiddo Crist. Ni roddwyd y fath hawl i neb erioed. Nid oes cyfyngu i fod ar weinidogaeth neb o weision Crist, ond o fewn y terfynau a esyd rhagluniaeth ddwyfol iddynt. *Hyd y mae ynddynt hwy*, dylent fod yn barod i bregethu y gair, mewn amser, ac allan o amser, a hyny i bawb, ac ymhob man. Gwyddom yn dda na all yr un o weision Crist bregethu yr efengyl i *bob creadur*, trwy ymdrechiadau personol; etto, ni ddylai yr un gyfundrefn ddynol eu lluddias i wneuthur hyny, hyd y mae ynddynt hwy. Gadawer i ragluniaeth Duw, a galluoedd terfynol creadur, ac amgylchiadau anorfod, osod ffiniau iddynt, ac nid gosodiadau dynol. Amlwg ydyw na all un dŷn fod ond mewn un man ar unwaith. Rhaid fydd iddo adael un man, os myn fyned i fan arall; ac angenrheidiol a fydd iddo wrth ddoethineb i'w gyfarwyddo yngwahanol amgylchiadau ei oes; pa bryd, ar ba achlysuron, y byddai yn fuddiol iddo deithio oddi cartref. Nid yn erbyn yr ystyriaeth o beth sy'n ddyledswydd ar y pryd y llefarwn, ond yn erbyn y gyfundrefn gaeth ac anhyblyg, sydd yn caethiwo cydwybodau tyner a da; cyfundrefn a fydd yn eu rhwymo, naill ai i anufuddhau i Dduw, neu ynte i dynu arnynt ŵg eu huchafiaid.

"Yr oedd y sylwadau hyn, tebygid, yn gymmwys yn y lle hwn, gan mai y Parch. William Williams, o Bant-y-Celyn, oedd yr offeiriad cyntaf a droes allan o'r Eglwys [Wladol] ymhlith tadau y Methodistiaid yng Nghymru. Drachefn, y mae'n rhaid addef mai yn ol y ffordd a alwant hwy yn *afreolaeth* y cododd y diwygiad Methodistaidd: oddi yma y cafodd ei ddechreuad. Yr un modd hefyd y bu yn Lloegr, gyd â Whitfield a Wesley. Anhawdd iawn, gan hyny, pe'r ewyllysiem hyny, a fyddai i ni amddiffyn y diwygiad hwn, a gosod allan ardderchowgrwydd ei darddiad, a llesoldeb ei effeithiau, heb amddiffyn hefyd y rhai a fuant yn brif offerynau i'w gynhyrchu. A phwy a fedr eu hamddiffyn hwy heb ddadlau dros eu gwaith yn tori allan ar y llaw ddehau ac ar y llaw aswy i bregethu yr efengyl? A pha fodd y gellir eu hamddiffyn yn hyn heb ddadlau dros yr hyn a gyfrifir yn afreolaeth, a beio ar y rhai, pwy bynag oeddynt, a fynnent eu lluddias! Y gwir ydyw, yr oedd y peth o Dduw: angenrhaid a osodwyd arnynt, a hyny gan Un anfeidrol ei allu a goruchel ei awdurdod. 'Ei air ef oedd yn eu calonau yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn eu hesgyrn; blinent yn ymattal, ac ni allent beidio,' Jer. xx. 9. Hoffem yn fawr weled pethau cyffelyb etto. Nid testyn wylofain a fyddai genym pe clywem fod esgobion ac archesgobion wedi eu llenwi â'r tân hwn, fel nad allent ommedd llefaru ar fynydd neu ar fôr, mewn ysguboriau a thai, mewn ffeiriau a gwylmabsantau, . . . dan ddylanwad yr un fath gynhyrfiad a Whitfield neu Harris, a'u cymdeithion, yn codi eu llef fel udgorn, trwy barthau tywyll ein gwlad, nes cyffroi pechaduriaid diofal wrth y miloedd. Clywsom am Ioan Fedyddiwr a wnaeth hyny; a chlywsom hefyd am Un a elwid 'mab y saer' a wnaeth hyny! Ni fyddai yn ddianrhydedd, tebygem, i neb arall, pa mor urddasol bynag, wneuthur yn gyffelyb. Rhoddwyd urddas a bri tra mawr ar ysgogiadau o'r fath, gan i Fab Duw ei hunan wneuthur felly." †

Pa un bynag ai edifarhau a wnaeth Williams o blegid iddo ymuno erioed â'r Eglwys Sefydledig, ai ynte am iddo ei gadael, rhaid cyfaddef bod gan syniadau y blaid y dygir dŷn i fynu ynddi, neu a ddewisir ganddo ef ei hunan, ryw ddylanwad rhyfeddol ar y meddwl cryfaf. Pwy nis gŵyr am ymlyniad Luther wrth y blaid Babyddol, yn yr hon y dygwyd ef i fynu, er dyfned oedd ei argyhoeddiad ei bod yn anysgrythyrol? Ac am Williams Pant-y-Celyn, er iddo adael yr Eglwys Sefydledig ei hun, neu gael ei ddïarddel o honi, fel y ceir gweled yn ebrwydd; etto, dyma fe yn dwyn ei ddau fab i fynu yn offeiriaid ynddi; a chyffelyb y gwnaeth Daniel Rowlands, a Peter Williams hefyd! A cheir gweled rhag llaw mai byd mawr a gafodd Mr. Charles a'i olynwyr i beidio dilyn ei chynllun. Yr unig ffordd i ddeall gwir gynllun yr Eglwys Gristionogol ydyw darllen a myfyrio y Testament Newydd ar y pwngc, heb ofalu dim am ein syniadau bleunorol ein hunain na neb arall.

* Traethodydd, llyfr ii., t. 230–33

† Method. Cymru, cyf. i., t. 78–9.

Digitized by Google

Yr hanes nesaf a geir am y "Peraidd Ganiedydd" ydyw pan oedd tu a 26 oed, a'i lafur dilynol, am yr hyn y dywed Mr. Charles fel y canlyn:—

"Gwedi gadael, neu gael ei droi allan, nis gwn pa un yn iawn, o'r Eglwys Sefydledig, daeth yn gydnabyddus â'r Parch. Daniel Rowlands, yr hwn a fyddai yn dyfod yn achlysurol i bregethu i Gapel Ystrad-ffin,* yr hwn sydd yn sefyll yn y plwyf yr oedd ef yn byw ynddo. O hyny hyd ei farwolaeth, parhaodd i deithio trwy holl Gymru, fel efengylwr, i dreuthu gwirioneddau Duw i drigolion tywyll y dalaeth ymhob man lle y cai neb i'w wrando. Parhaodd i wneud hyny dros ynghylch hanner can mlynedd. Byddai yn gyffredin yn myned yn fisol i Langeitho, i gynnorthwyo Mr. D. Rowlands i gyfranu y sacrament swper yr Arglwydd i'r tyrfaoedd lliosog iawn a fyddai o bob parth o Gymru yn dyfod i gymmuno. Parhaodd y brawdgarwch anwylaf rhyngddynt tra y buont byw, fel y gellir canfod wrth y farwnad† a gyfansoddodd i'r gŵr hwnw ychydig cyn iddo ef ei hun farw. Pregethodd dros 35 mlynedd yng Nghapel Llanlluan unwaith bob mis, ac yng Nghauo a Llansawel dros yr un amser unwaith yn y mis, ond pan ymwelai âg eglwysi Gwynedd, neu ryw dro maith yn y Deheudir.‡ Nid ydwyf yn gwybod am ddim amrywiaeth neillduol yn ystod ei fywyd; ond yr oedd yn myned rhagddo yn gysson yn y llwybr hwn o ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth ymhlith Methodistiaid Cymru, a chynnorthwyo yn Llangeitho yn fisol hyd ddydd ei farwolaeth."§

Gyd â golwg ar ei gyssylltiad â'r Eglwys Wladol, dywed y Dr. T. Rees iddo gael ei amddifadu o'i drwydded, ar ol bod yn ei gwasanaeth fel curad am dair blynedd; ac y gwrthododd yr esgob roddi iddo urdd offeiriad o blegid ei Fethodistiaeth.‖ Arwydda hyn mai ei "droi allan o'r Eglwys Sefydledig" a gafodd. Beth bynag am hyny, pan dorodd ei gyssylltiad â'r sefydliad gwladol, ac y

* Capel anwes (*chapel of ease*) oedd hwn, yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig yn Llanfair-ar-y-bryn.

† Gwel esamplau o'r farwnad honno yn pen. xviii. o'r llyfr hwn, y pummed; a gwel y farwnad ei hun yn Holl Weithiau Wm. Williams, t. 684.

‡ Dywedir y byddai yr "hen Williams" weithiau, fel y bydd pob gwir fardd, os gwir a ddywed Macaulay, yn colli arno ei hun pan yn nyfnder myfyrdod, neu yn cael ei gyffroi gan ryw ddigwyddiad disymmwth. Pan oedd ar daith unwaith ymhell oddi cartref, ac i bregethu wrth lan y môr, a'r un a ddechreuai y gwasanaeth o'i flaen ar derfynu, clywai gôg yn canu ar frigyn ger llaw; ac wedi i'r blaenaf orphen, neidiodd yntau i fynu, gan adrodd y pennill canlynol a redai i'w feddwl yn y fan:—

"Hed y gwcw, hed yn fuan,
Hed aderyn glas ei liw,
Hed oddi yma i Bant-y-Celyn;
Gwêd wrth Mali mod i'n fyw:
Hed oddi yno i Lanfair Muallt,
Gwêd wrth Jac am gadw ei le;
Os na chawn gwrddyd ar y ddeuar,
Ni gawn gwrddyd yn y ne."

Ymaflodd ei gyfaill ynghwr ei gôt, a dywedodd yn ddistaw, "Mr. Williams, nid yw'r pennill yna weddus mewn addoliad." "Gwir a wedi di," eb yntau: ac ar yr un anadl, rhoddes y pennill canlynol allan, a ddaeth i'w feddwl yn y fan wrth glywed swn y môr:—

"Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lan;
Mae ynddi ddigon, digon byth
I'r truan ac i'r gwan."

§ Trysorfa, llyfr ii., t. 446–7.

‖ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 380.

daeth yn gydnabyddus â G. Whitfield, D. Rowlands, a H. Harris, y mae'n amlwg iddo ymroddi i deithio gwahanol barthau y wlad i bregethu; a theithio yn ddiarbed a wnelai hefyd, fel y dengys y difyniad canlynol o lythyr a anfonodd at Mr. Charles o'r Bala ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth:—

. . . "Nid oes genyf ond ychydig obaith y byddaf alluog i fyned nemmawr o amgylch mwyach, os dim etto, canys yr wyf weithian yn dair ar ddeg a thriugain oed. Ond meddyliwch y fath siommedigaeth y rhaid ei fod i un a arferai *deithio tair mil o filltiroedd yn flynyddol, yn ystod deng mlynedd a deugain*, ac sydd yn awr yn analluog i symmud dim mwy na rhyw ddeugain troedfedd yn y dydd, sef oddi wrth y tân i'r gwely! Ond fel hyn y gwna fy Arglwydd â mi, ac y mae'n ddaionus."*

Yn ol y cyfrif yna, teithiodd "yr Hen Williams," yn ystod y 50 mlynedd crybwylledig, gynnifer a *chant a hanner o filoedd* (150,000) *o filltiroedd* i bregethu ac i werthu ei lyfrau cymmeradwy, sef mwy o 840 o filltiroedd na chwech amgylchedd y ddeuar! Ond er cymmaint a deithiodd, medd Mr. Charles, "nid llawer a oddefodd o erledigeuthau o herwydd crefydd. Adroddai yn aml am un tro fu arno rywle yng Ngwynedd. Yr oedd wedi ei gyhoeddi i bregethu mewn tafarndy. Ar yr amser gosodedig, daeth gŵr bonheddig a bygylwyr gyd âg ef i'w erlid. Y tafarnwr a'i gwisgodd â'i ddillad ei hun, er iddo gael diangc yn anadnabyddus iddynt. Gwedi iddo ddyfod i'w plith, daeth yr ysgrythyr honno gyd â'r fath effaith i'w feddwl, "Pwy bynag a'm gwado i ger bron dynion," &c., fel y gorfu arno fyned yn ei ol, a gwisgo ei ddillad ei hun, a daeth felly i'w plith. Ymosodwyd arno yn fuan; ond y tafarnwr a'i hachubodd ef. Y mae'r hanes hon yn dangos tynerwch ei gydwybod, ei ffyddlondeb dros ei Arglwydd, a gofal Duw am ei bobl."† Gyd â golwg ar hyn, dywed yr ysgrifenydd doniol yn *Y Traethodydd* fel y canlyn:—

"Peth rhyfedd oedd iddo ddiangc cystal rhag erledigaeth yn yr oes honno, ag yntau yn arfer teithio cymmaint trwy Gymru oll. Yn hyn yr oedd yn eithriad i'w gydwladwyr yn gyffredin. Gallai fod ei awen yn dipyn o gysgod iddo. Yr oedd ofn y beirdd yn fawr o flaen llygaid y Dywysogaeth yn y dyddiau hyny. Yr oedd ar offeiriaid erlidgar ei amser fil waith mwy o ofn 'Twm o'r Nant' nag oedd arnynt o ofn Duw; a diau i'w awen ffraethlem ef roddi genfa ymhen llawer o honynt er eu hattal i ddynesâu at lawer pregethwr truan i'w erlid a'i faeddu. Hwynthwy oedd y blaenoriaid dan Satan yn yr holl erlid a fu ar grefydd yng Nghymru yn yr oes ddiweddaf; ac awen y bardd o'r Nant, yn benaf, hwyrach, a fu y llif ddanneddog a fu'n offerynol i lifio ymaith y cyrn hyn."‡

* Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 380.

† Trysorfa, cyf. ii., t. 449.

‡ Traethodydd, llyfr ii., t. 236.

Digitized by Google

Am gymhwysder Williams fel pregethwr, dywed Mr. Charles fel hyn:—

"Yr oedd ei ddoniau areithiol yn helaeth; ei bregethau yn efengylaidd, yn brofiadol, ac yn felus; yn chwilio i mewn i gau athrawieuthau a gau brofiadau, ac yn gwahanieuthu yn fanwl rhwng gau a gwir yspryd. Yr oedd ei ddychymmyg yn gryf; ei lygad yn graff a threiddgar; a llawer o ddylanwadau nefol ar ei yspryd wrth bregethu yn gyhoeddus, ac yn ei ymddiddanion â dynion am fatter eu heneidiau yn y cymdeithasau neillduol. . . . Pan sefydlodd yr Iarlles Huntingdon ei hathrofa yn Nhrefeca, daeth yntau yn gydnabyddus â'r *Arglwyddes etholedig honno.* Yr oedd ganddi feddyliau parchus am dano: ei barn am dano oedd, fel y dywedai yn aml, 'nad oedd gan Gymru un gŵr mwy, ac ystyried pob peth, i ymffrostio ynddo.' Tra y byddai hi yno, ymwelai â hi bob amser, pan yr âi i'r parthau hyny o'r wlad. Wrth ei dymuniad y cyfansoddodd lyfr bychan o hymnau yn Saesneg, i'w anfon, fel y dywedai, i'r Amddifatty (*Orphan-house*) yn America. Titl hwnw yw '*Gloria in Excelsis*'=Gogoniant yn y Goruchafion. Cyfansoddodd lyfr bychan arall yn Saesneg, a elwir '*Hosannah to the Son of David*'=Hosanna i Fab Dafydd."*

"Y disgrifiad o hono fel pregethwr," medd yr ysgrifenydd yn *Y Traethodydd*, "sydd yn gyfryw ag a ddisgwyliasem. Y dystiolaeth am ei bregethau a gyfattcb yn gymmwys i'r pregethau a esyd ef yngenau *Evangelius* yn *Theomemphus.* Os cyfansoddai, ac os traddodai, ei bregethau ei hun yn gyffelyb i'r rhai hyny, yr oeddynt yn wir yn efengylaidd a melus; yn ireiddiol a dylanwadol, 'fel gwlith-wlaw ar îr-wellt, ac fel cawodydd ar laswellt.' Clywsom y dibynai lawer ar yr 'hwyl' wrth draddodi; a hawdd genym gredu hyny. Adroddwyd i ni chwedl am ymddiddan a fu rhyngddo unwaith â'i gyd-lafurwr hybarchus, Mr. Peter Williams, ynghylch pregethu. 'Am danat ti, Peter,' meddai wrth ei gyfaill, 'gellit fyned trwyddi yn burion, pe byddai'r Yspryd Glân yn America; ond am danaf fi wneud dim byd o honi, os na bydd ef yn fy ymyl.' Clywsom lawer gan y rhai a'i cofient yn dda, am ei graffder neillduol yn y cymdeithasau eglwysig, i chwalu at wraidd cyflyrau proffeswyr, ac i ddwyn i'r golau ddirgeloedd y galon; ac y mae'r ddawn a'r craffder yma i'w gweled yn nodedig yn yr ymddiddan rhwng y *Dr. Alethius* a *Theomemphus*, yn y llyfr hwnw."†

Ond rhaid i ni brysuro at ei hanes lenyddol, yr hon hefyd, mewn gwirionedd, sy'n gyfrodeddig â'i hanes grefyddol. Ymddengys mai mewn cymmanfa y cynhyrfwyd ei ddawn farddonol ar y cyntaf; ond y mae cryn anhawsder gwybod pa bryd, ac ymha le, yn fanwl y digwyddodd hyny. Mr. Charles a ddywed fel hyn:—

"Y Gymdeithasfa gyntaf ymhlith Methodistiaid Cymru a gynhaliwyd yn nhŷ Jeffrey Dafydd, o'r Rhiwiau, ymhlwyf Llanddeusant, swydd Gaerfyrddin. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn, Mr. H. Harris, Parch. D. Rowlands, y Parch. W. Williams, a dau neu dri o gynghorwyr. . . . Dywedir i Mr. Harris, mewn cymmanfa forau wedi hyn, annog pawb oedd yno i gyfansoddi ychydig bennillion o brydyddiaeth erbyn y gymmanfa nesaf, i edrych a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi dawn prydyddiaeth i un o honynt, a phwy oedd hwnw. Felly y gwnaethant! Ac wedi iddynt i gyd ddarllen eu cyfansoddiadau, penderfynwyd yn gyttûn mai Mr. W. Williams a gafodd y dawn godidog hwn; ac annogodd Mr. Harris, a phawb eraill, iddo ei harferyd er gogoniant i Dduw, a lles i'w eglwys."‡

Gwelir mai "yn Llanddeusant, swydd *Gaerfyrddin*," y cynhaliwyd y gymmanfa hon, a elwir gan Mr. Charles "y Gymmanfa *gyntaf* ymhlith Methodistiaid Cymru;" eithr ni fynegir uchod *pa bryd* y'i cynhaliwyd yno; ond Mr. Hughes a ddywed mai yn Waterford, neu Watford, yn sir *Forganwg*, y cynhaliwyd "y Gymdeithasfa gyntaf gan y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru, ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr, 1742;" ac yr oedd yn bresennol yn honno, eb efe, "o Eglwyswyr urddedig, George Whitfield, Daniel Rowlands, William Williams [Pant-y-Celyn], a John Powel. O bregethwyr diurddau, yr oedd yn bresennol Howel Harris, Joseph Humphreys," &c. Y mae'n amlwg bod Williams a Harris yn y gymmanfa hon, cystal ag yn yr un a grybwyllir gan Mr. Charles; ond ni chrybwyllir i ddim son am brydyddu fod yn y gymmanfa yma. Y cymmanfaoedd nesaf, yn ol Hughes, a gynhaliwyd fel hyn:—Yn Watford, ar y 6ed a'r 7fed o Ebrill, 1743; yn y Gelli-glyd, ar y 1af o Fai; ac yn Nhrefeca, ar y 29fed a'r 30fed o Fehefin, yr un flwyddyn.§ Yr ydym yn casglu y rhaid mai i un o'r cymmanfaoedd yna y dygodd Williams ffrwyth cyntaf ei awen doreithiog a chyssegredig; pan y dywed hanes arall i Howel Harris dori allan, wedi i bob un o'r brodyr ddarllen cynnyrch ei awen, a dywedyd, "Williams pïau'r canu!" Yr ydym yn casglu hyn, o bleigid y gwyddys i Williams gyhoeddi y rhan gyntaf o'i hymnau yn gynnar yn 1744, yn lled fuan ar ol tori ei gyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig; a bu'r fath alwad prysur am y gwaith fel y gorfodwyd ef i gyhoeddi ail argraphiad o hono cyn diwedd yr un flwyddyn, dan yr enw canlynol:—

"Alelujah; neu, Casgliad o Hymnau, ar amryw Ystyriaethau. O Waith y Parchedig Mr. William Williams. Yr ail Argraphiad. . . . MDCCXLIV."

Cyhoeddwyd "yr Ail Ran" a'r "Drydedd Ran"

* Trysorfa, llyfr ii., t. 447–8.

† Traethodydd, llyfr ii., t. 235.

‡ Trysorfa, llyfr ii., t. 449.

§ Method. Cymru, cyf. i., t. 161–3.

Digitized by Google

yn 1745. Galwyd yr ail yn "Aleluwia," a'r drydedd yn "Aleluia." Cyhoeddwyd "y Pedwerydd Ran," dan yr enw olaf, yn 1746; a'r "Bummed Ran," dan yr un enw etto, yn 1747.* Gwelir bod hymnau Williams yn rhedeg trwy'r wlad, bron mor gyflym ag y rhedent trwy ei awen yntau. "Yr ydys yn casglu," ebai Morris Davies, Bangor, "ddarfod argraphu y pump ynghyd yn un llyfr, a bod dau argraphiad wedi eu cyhoeddi felly, yn y cyfwng o 1747 i 1758, gan fod un y flwyddyn honno 'y Drydedd Argraphiad.'† Nid yw'r ysgrifenydd yn gwybod am un argraphiad arall o'r 'Aleluwia' yn oes yr awdur. . . . Cynnwys ei lyfr cyntaf hwn 242 o hymnau, a thestyn neu gynhwysiad pob un o'u blaen. Y mae llawer o'r hymnau hyn y prydferthaf yn ein hiaith, ac mewn arferiad cyffredinol; ond y mae ganddo eraill braidd yn anystwyth a di-farddoniaeth. Yn ei hymnau gorau, y mae'r iaith yn gyffredin yn goeth, destlus, a pherseiniol; ond yn y lleill yn wael a gwallus. Y mae rhai geir-doriadau lled anghelfydd ganddo, megis ''Rwi'n,' yn lle 'yr wyf yn;' 'Tr'wi ar y dda'r,' yn lle 'byddwyf ar y ddaear;' 'Par'to'd,' yn lle 'parotowyd,' neu 'parotoed;' 'O'n,' 'po'n,' 'lo's,' 'cro's,' 'gwa'd,' &c., yn lle 'oen,' 'poen,' 'loes,' 'croes,' 'gwaed,' &c., i odli â sôn, nôs, rhad, a geiriau cyffelyb. Y mae toliadau o'r fath yn anharddu y farddoniaeth yn fawr;‡ a mwy dewisol gan lawer fuasai ysgrifenu y cyfryw eiriau yn llawn, a goddef oliad amherffaith, yn hytrach nag anffurfio'r iaith trwy doriad diystyr.§ Yn lle 'i gyd,' ysgrifenai yr awdur 'ei gyd,' yn llïosog 'eu gyd;' ac weithiau 'i fi,' yn lle 'i mi;' 'eirad,' yn lle *irad;* 'dringad,' yn lle *dringo;* 'landio,' yn lle *glanio*, neu *dirio*, &c."‖

Ymddengys y rhoddes Williams ei bin ysgrifenu buan heibio am un pedair blynedd, ar ol cyhoeddi y "Bummed Ran" o'r "Aleluia" yn 1747, am fod ganddo fatter arall, heb law ei fod yn teithio i bregethu, pur bwysig mewn golwg, sef priodi, canys yn y flwyddyn 1749, ac efe yn 32 oed, efe a briododd ferch rinweddol, yr hon a elwid ganddo ef "MALI," sef Mary Francis, unig ferch ac etifeddes Mr. Thomas Francis, yr hwn oedd yn byw ym Mhen-lan, ymhlwyf Llansawel, sir Gaerfyrddin, ac yn perchen dau o dyddynod ymhlwyf Llanllawddog, yn yr un sir, y rhai a werthwyd gan Williams, ar ol marw ei dad ynghyfraith, er mwyn prynu Troed-y-rhiw, yn ardal Cefnarthen, yr hwn, cystal a Phant-y-Celyn, sydd yn awr ym meddiant gorŵyr y bardd, y Parch. John Griffiths, gweinidog yr Annibynwyr yn St. Florence, ger llaw Dinbych y Pysgod (*Tenby*), sir Benfro. Mr. Charles etto, cydoesydd Williams, cofier, a ddywed ar y pwngc yma:—"Pan oedd ynghylch deuddeg ar hugain oed, priododd Mary Francis, priodor o Lanfynydd, ac wedi hyny a drigodd yn Llansawel. Bu Miss Francis yn aros gyd â'r Parch. Gruffydd Jones, yn Llanddowror.¶ Yr oedd yn ferch synhwyrol, dduwiol, ac a fu'n wraig addas, serchog, a chysurol iddo ef holl ddyddiau ei fywyd. Yr oedd gofal yr Arglwydd am dano yn ymddangos yn fawr yn y fath rodd iddo a gwraig gall, brydferth, ddoeth, dduwiol, mwynaidd, a serchog."

Dywed yr un hanesydd fod Williams "yn dra cuog o'r arfer afiachus o eistedd i fynu y nos i astudio ac ysgrifenu. Anfynych yr âi i'w wely cyn dau o'r gloch y borau;" ac yn wir, y mae

* Llyfr. y Cymry, t. 396, 400, 408, 410.

† Yr un, t. 449.

‡ Chwarau teg i'r "Hen Williams!" Y mae ganddo awdurdod yr holl feirdd o'i flaen, o Aneurin Gwawdrydd hyd ei gydoeswr ei hun, Edward Richard, dros doliadau cyffelyb, fel y profodd yr olaf yn y bennod flaenorol, fel y gwelsom. Ymddengys i ni hefyd bod y tolnodau (*apostrophies*) ynghanol geiriau, nid yn unig yn wrthyn a blinderus i'r cyssodydd, ond hefyd yn afreidiol, oddi eithr yn bur anfynych. Pe tolnodid pob geiriau talfyredig sydd yn y Gymraeg, byddai golwg ryfedd o dolnodol arni, megis y geiriau canlynol, er esampl yn unig:—Pymtheg (pump-deg), pythefnos (pump-deg-nos), meithrin (maeth-trin), gwrthrych (gwrth-drych), cyffwrdd (cyf-hwrdd), dyffryn (dwfr-hynt), chwecheiniog (chwech-ceiniog), canfed (cant-med), canwaith (cant-gwaith), neithiwr (naith-hwyr), pam (pa-ham), nâd (na-gad), does (nid-oes: "Distaw mul, *does* dim well," H. C. Ll.); pond (pa-ond: "Tri modd, *pond* da'r ymweddyn," T. A.); *gwys*, *rhoi*, a *rhom*, am *gwyddys*, *rhoddi*, a *rhyngom:* "Ni *wys* heddyw na suddir: Och *roi* môr tawch *rhom* a'r tir!" T. A.; *cad* a *caed*, am *cafwyd:* "Pan *gad* etifedd Cadell, Byth ni *chaed* gŵr o waed well," T. P.: a mil o'r cyffelyb. Y gwir yw bod pob llythyren sydd yn yr iaith Gymraeg yn newid, yn colli, neu yn cael ei rhoi i mewn, ynghyfansoddiad geiriau, er mwyn hysain; a dywedir i ni mai cyffelyb yw'r iaith Roeg a'r Lladin, yr ieithoedd mwyaf diwylledig yn y byd. Y mae gan y beirdd hefyd hawl, neu drwydded, i estyn geiriau er atteb eu diben, megis *cafan* am *cafn*, *cefen* am *cefn*, *abal* am *abl*, *crwydyr* am *crwydr*, *llwybyr* am *llwybr*, *llyfyr* am *llyfr*, a'r cyffelyb. Gwelir, gan hyny, na wnaeth "yr Hen Williams" ond bod dipyn yn hyf ar drwyddedau ei frodyr ieithyddol a barddonol; ac os cofir mai canu i'r *cyffredin bobl* a wnai efe, fel ei frawd-fardd, "yr Hen Ficar," o'i flaen, ac nid dysgedigion a'r cywreinion, haws fyth a fydd maddau iddo.—GOL.

§ Pe ysgrifenasai Williams, fel y mynnai M. D. iddo wneuthur, "Tra byddwyf ar y ddaear," yn lle "Tr'wi ar y dda'r" (neu Trwi ar y ddâr, fel y gallasai wneud), buasai ei linell yn rhy hir o *dair sill;* a pha beth a wnenthai y *cerddor* yn wyneb hyny?—GOL.

‖ Nid yw y rhain etto ond pethau lled ddibwys, a gwelsom fod gan y bardd drwydded ei frodyr ieithyddol a barddonol i wneuthur llawer mwy (Llyfr. y Cymry, t. 397).—GOL.

¶ Dywed un arall o fywgraphwyr Williams mai fel cydymaith yr arhosai Miss Francis yn Llanddowror, i Mrs. Jones, yr hon oedd chwaer i Syr John Philips, Barwnig, o Gastell Picton, trwy yr hyn y cafodd gyfleusdra i weled a chlywed llawer o bersonau a phethau nas gwelsai ac nas clywsai am danynt byth yn ei chartref ei hun, yn Llansawel; ac yr oedd hyn, ynghyd â'i hansoddau naturiol hithau, yn ei mawr gymhwyso i fod yn gydymmaith bywyd hyfryd i Williams, ym Mhant-y-Celyn, lle y dechreuasant eu byd gyd â'i fam rinweddol ef.

Digitized by Google

Williams ei hun yn gwirio'r dystiolaeth yna yn y pennill canlynol:—

"William Williams wnaeth y gwersi
(Yr oedd yn ei charu'n fawr),
Ddechrau'r nos mewn fflam o hiraeth,
Rhodd ei bin sgrifenu lawr:
Ni orphwysodd ef ond rhedeg
Yn ddïaros yn y bla'n,
Nes oedd *tri o'r gloch y borau*
Yn gwneud terfyn ar y gân."

Y mae'r farwnad odidog yma yn 42 o bennillion, fel yr uchod, sef 336 o linellau. Y fath gân faith ac ardderchog a wnaeth efe, yn fyrfyfyr, dan ddylanwad yr ias farddonol, o ddechreunos hyd "dri o'r gloch y borau!" Y mae Mr. Charles yn beio Williams yn llym o blegid yr arfer yma o eistedd i fynu y nos i ysgrifenu, ac yn rhybuddio eraill yn ddwys i beidio dilyn ei esampl "afiachus." Ymddengys mai gwneud pob peth wrth ei synwyr a'i bwyll y byddai Mr. Charles, ac na wyddai efe odid ddim am iasau neu ffitiau barddonol a llenyddol; a pha mor ddifyr, pan ddelo'r ias ar ddŷn, ydyw eistedd i fynu yn nyfnder tawelwch y nos, wedi i bawb fyned i'w "hun a'u heddwch," ond y bardd, neu'r myfyriwr ei hunan, i gymdeithasu yn unigol â'r Awen, fel y gwyddai'r "Peraidd Ganiedydd," ac y gŵyr llawer un arall, yn dda. Ymddengys y byddai'r ias yn syrthio ar Williams weithiau yn ddisymmwth, yn oed wedi iddo orwedd ynghôl ei anwylyd yn ei wely, pan y llefai, yn ei ddull cyflym arferol, "Mali, Mali! Canwyll, canwyll! Y mae arnaf eisiau ysgrifenu!" Ac yn lle grwgnach yn surllyd ac anniddig, fel y gwneuthai llawer un, cyfodai yr addfwyn Mali yn y fan ar ei archiad; ac wedi golau y ganwyll, elai ei hun i'w gwely yn dawel, gan adael ei phriod doniol, cynhyrfus, heb ddim drwg-dybiaeth *(jealously)*, ynghymdeithas ei Awen doreithiog. Y fath fendith oedd y gyfryw "wraig rinweddol," nid yn unig i'r bardd ei hun, ond hefyd i'r Cymry oll, y rhai a fwynhânt ffrwyth ei iasau toreithiog, "tra môr, tra Brython!"

Ymhen rhyw ddwy flynedd ar ol i Williams briodi, cyhoeddodd y llyfryn canlynol:—

"Hosanna i Fab Dafydd, neu Gasgliad o Hymnau o Waith William Williams. . . . 1751."

Gan mai hymnau oedd cyfansoddiadau cyntaf Williams Pant-y-Celyn, cystal a'r rhai, wrth y sawl yr adnabyddir ef orau yn y wlad, â'i hymnau, ac âg yntau fel emynwr, y bydd a fynnom ni yn gyntaf âg ef yn bresennol. Cyhoeddodd "yr Ail Ran" o'r llyfr uchod yn 1754; ac yn 1757, cyhoeddwyd gwaith a alwodd efe fel hyn:—

"Rhai Hymnau a Chaniadau Duwiol ar Amryw Ystyriaethau. Gan William Williams."

Yn 1759, cyhoeddodd lyfr hymnau Seisnig bychan, yr hwn a gyfansoddwyd ganddo, medd Mr. Charles, "yn ei ddyddiau boreuol." Ei enw ydyw—

"Hosannah to the Son of David; or, Hymns of Praise to God, for our Glorious Redemption by Christ. Some few translated from the Welsh Hymn-Book, but mostly composed on new subjects. By William Williams."

Ni chyhoeddwyd yr "Hosanna i Fab Dafydd" yn Gymraeg, fel y gwelsom uchod, hyd 1751, pan oedd yr awdur yn 34 oed, o'r hwn y mae *rhai* o'r hymnau Seisnig yn gyfieithiad; a'i fod wedi cyhoeddi hyd yn oed y *bummed ran* o'r "Aleluia" er ys pedair blynedd cyn hyny, nis dichon bod y llyfr Seisnig hwn wedi ei gyfansoddi "yn nyddiau boreuol" yr awdur, fel y tybiai Mr. Charles. Cynnwys y llyfr Saesneg uchod 71 o hymnau. Yn 1762 cyhoeddodd lyfr a alwodd efe, yn ol argraphiad cyflawn Caerfyrddin, 1811, fel hyn:—

"Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c., i Frenin y Saint."

"Tebygol mai yr argraphiad cyntaf o'r 'Caniadau ar y Môr o Wydr' ydoedd hwn," medd Morris Davies, "yn cynnwys yr 'Hosanna i Fab Dafydd,' gyd â chwanegiadau. . . . Cynnwys ragymadrodd mewn rhyddiaith, a naw o ganiadau heb law yr hymnau. Yn yr olaf o'r caniadau hyn y mae 'Ffydd ac Anghrediniaeth, Gras a Serchiadau Natur, yn cael eu darlunio mewn Cân Benrydd.' Math ar alarnad ydyw, a'r ymgais cyntaf i gyfansoddi yn Gymraeg ar y mesur anghyfawdl.*

* Y mae hyn yn gamsyniad: canodd Llywarch ap Llywelyn, a elwid Prydydd y Moch, un o brif feirdd y 12fed ganrif, "gân benrydd," a elwir "Cyfarch gwell Ddafydd," sef Dafydd ap Owain Gwynedd (Myv. Arch., p. 201; Han. y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 180). Yr oedd cyfansoddiadau fel yr isod hefyd yn cael eu hystyried yn brydyddiaeth:—

"Gorau doethineb, tewi.
Gorau pererindod, cyrchu golychwyd,
Gorau newyn, newyn ariant.
Gorau cyfoeth, boddlondeb.
Gorau adnabod, adnabod ei hun.
Gorau arglwydd, cydwybod.
Gorau dysg, ystyriaeth.
Gorau meddwl, meddwl am Dduw..
"Catwg Doeth ai cant."

Ystyrid hefyd bod Trioedd o fath y rhai canlynol yn brydyddiaeth:—

"Tri brodyr llwyddiant: gofal, hyder, a diwydrwydd.
"Tri brodyr cymmydogaeth: cymmwynasgar, trywyngar, a chynneddfawl.
"Tri brodyr gwladoldeb: teuluawg, llonyddgar, a gwelleugar.
"Tri brodyr diddanwch: cerddgar, cyfarwydd, a difyr.
"Tri brodyr celfyddyd: cofus, anghenus, a myfyr.
"Tri brodyr teuluaeth: syberwyd, sywder, a serchowgrwydd.
"Tri brodyr dedwyddyd: cariad, cywirdeb, ac iselfryd calon.
"Rhisiart Iorwerth a'u cant."

Oddi wrth Hysbysiad yn niwedd 'Attebiad Philo-Evangelius i Martha Philopur,' yn 1763, ymddengys bod y llyfr hwn yn dra chymmeradwy, gan y dywedir 'y gwerthwyd dros ddeuddeg cant' o hono 'mewn ychydig fisoedd,' a bod galwad am argraphiad newydd.* Methodd yr ysgrifenydd gael amseriad yr ail a'r trydydd argraphiad; ond daeth y pedwerydd argraphiad allan yn 1773, a'r pummed yn 1795.

"Y mae'r 'Môr o Wydr' yn llai llyfr na'r 'Aleluia,' yn cynnwys yr hymnau o 243 hyd 383, yn argraphiad 1811 o holl hymnau yr awdur. Cyfieithiad o hymn Seisnig Williams yw'r olaf, gan ei fab, y Parch. John Williams, golygydd yr argraphiad hwnw. . . . .

"Am yr hymnau hyn, dywed yr awdur yn ei ragymadrodd crybwylledig, 'Nid oes yma ond ychydig hymnau nas gall y gwanaf yn yr eglwys eu canu, am eu bod naill ai mewn dull o weddi am rai o roddion y cyfammod newydd, neu achwyniad am bechod, lle y mae llawer o'r rhai cyntaf yn ffaelu cael eu canu gan rai, o herwydd y llawn sicrwydd ffydd sydd ynddynt am fywyd tragywyddol. Fel y maent, byddent er can bendith trwy bob ardal sydd wedi cadw'r iaith Gymraeg tan eu hadenydd.' Ymddengys wrth hyn ei fod yn ymdrechu ysgoi un anfantais oedd yn perthyn i'w lyfr cyntaf, sef yr 'Aleluia.'"† Yn 1764, cyhoeddodd lyfryn wrth yr enw isod:—

"Hymnau Newyddion, nad oedd yn yr un o'r Ddau Argraphiad cyntaf."

Dywed M. Davies yr "ymddengys mai'r ychwanegiadau at yr argraphiadau cyntaf o'r 'Môr o Wydr' oedd yr 'Hymnau Newyddion' hyn, yn cael eu gwerthu, fe allai, wrthynt eu hunain, er mwyn y rhai oedd wedi prynu y rhanau, neu'r argraphiadau cyntaf. Yr oedd yr hymnau o 330 hyd 342 wedi eu hychwanegu at yr ail argraphiad; a 343 hyd 353 at y trydydd, yn ol eu rhif yn argraphiad 1811; hymnau sacramentaidd, o 354 hyd 365; a'r gweddill ar destynau cyffredinol."‡

Argraphwyd y 'Môr o Wydr' y drydedd waith yn 1764, gyd âg amryw ganiadau chwanegol; ac yn 1766, cyhoeddodd lyfryn a elwir fel hyn:—

"Ffarwel Weledig; Groesaw Anweledig Bethau, neu rai Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen. Yr ail Ran."

Credwn mai y *rhan gyntaf* a ddylai fod wrth hwn, gan na welsom hanes y gwaith yna o'r blaen. Cyhoeddwyd "y Drydedd Ran" o hono yn 1769, a chyhoeddwyd y tair rhan ynghyd yn 1770. Yn 1771, cyhoeddwyd y llyfr canlynol:—

"Gloria in Excelsis. Neu Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen. Y rhan gyntaf."

Y mae'r rhan olaf o'r enw yma yr un a'r rhan olaf o'r "Ffarwel Weledig;" ond rhyfedd, braidd, bod "y rhan gyntaf" yn cael ei chyhoeddi ar ol y ddwy ran arall. Cyhoeddwyd "yr ail argraphiad" o'r "Gloria in Excelsis" yn 1772, a M. Davies a ysgrifena arno fel hyn:—"Ai nid yr *ail ran* a ddylasai hwn fod? Cyhoeddwyd y 'Gloria in Excelsis" mewn dwy o ranau: y mae'r gyntaf yn cynnwys yr hymnau 689 hyd 717, a'r ail o 718 hyd 810 (o argraphiad 1811). Nid oes dim yn y rhaniadau hyn yn effeithio ar ansawdd yr hymnau, ond yn unig yn dangos y modd y'u cyhoeddwyd ar y cyntaf, fel yr oedd yr awdur diwyd a llafurus yn gallu eu cyhoeddi, ymhlith lliaws o orchwylion pwysig eraill."§

Yn y flwyddyn 1772, cyhoeddodd Williams lyfr Saesneg dan yr enw canlynol:—

"Gloria in Excelsis; or Hymns of Praise to God and the Lamb."

Dywed Mr. Charles, fel y gwelsom, mai ar gais yr Iarlles Huntingdon y cyhoeddodd y bardd y llyfr hwn; a M. Davies a ddywed—"Hwn ydoedd ail lyfr Hymnau Seisnig yr awdur. Cynnwysai 72 o dudalenau, a 70 neu 71 o hymnau. Y mae yr argraphiadau diweddaf yn cynnwys 72, trwy chwanegu hymn arall o waith Williams, set

Fe allai fod "cân benrydd" Williams yn un o'r rhai cyntaf ar ddull pryddest ddïawdl (*blank verse*) y Saeson; ond nid "yr ymgais cyntaf i gyfansoddi yn Gymraeg ar y mesur anghyfawdl," o gannoedd o flynyddau, fel y gwelsom.

* Dywedir bod "yr Hen Williams" cystal *gwerthwr* llyfrau bron ag ydoedd o gyfansoddwr. Wedi cael ei lyfrau yn barod o'r wasg, cymmerai hwy mewn sachau lledr ar gefn y ceffyl a farchogai i bregethu ar hyd y gwledydd; ac ar ol pob pregeth, cymhellai hwynt i'w wrandawyr mor ddoniol a brwdfrydig ag unrhyw arwerthwr cyhoeddus. Yr oedd yn bur fedrus hefyd ar y gorchwyl o hyspysu ei lyfrau, a hyny cyn bod un papur newydd Cymraeg mewn hanfod. Wele esampl hynod o'i ddull o hyspysu, a geir ar ddiwedd yr argraphiad cyntaf o'r "*Aurora Borealis:*"—

"Bydded hyspys i'r cyffredin bod amryw yn cymmell yr awdur i argraphu ei Lyfr Hymnau, Aleluia; ac y mae efe yn foddlawn i wneuthur hyny, os bydd iddo gael rhagdalwr am bum cant o lyfrau, ac iddynt ragdalu wrth y dwsin, a thalu chwe swllt ym mlaen llaw, a chwe swllt arall wrth dderbyn y llyfrau; ond yn yr ail argraphiad hwn, deallodd yr awdur bod cymmaint am y llyfrau hyn ag a ettyb y rhifedi uchod; am hyny, efe ei hun, neu E. Evans, argraphydd, yn Aberhonddu, a dderbyn yr arian; ac ymhen dwsenau byrion o leuadadau, os na ddaw y llyfrau allan o'r argraphwasg, efe, neu ei ecsecutionaid, a dâl yr arian yn ol gyd â rhagor o lôg nag y buont o ddyddiau y Brenin Fortigern hyd yn awr."

Dywedir i Williams Pant-y-Celyn fod yn ennillwr mawr ar ei lyfrau, a hyny, yn ddïau, o blegid ei fedr a'i ofal gyd â'r prynwyr; ond bu Peter Williams, o ddiffyg ffelder a gofal cyffelyb, ynghyd â rhai anffodion eraill, yn golledwr tost ar amryw o'r llyfrau gwerthfawr a gyhoeddodd.

† Llyfr. y Cymry, t. 466.

‡ Yr un, t. 479.

§ Llyfr. y Cymry, t. 534, nod *.

Digitized by Google

'Guide me, O Thou Great Jehovah,' cyfieithiad o'r Gymraeg, 'Arglwydd, arwain trwy'r anialwch,' a ddaeth allan yn gyntaf yng Nghasgliad Hymnau Whitfield, yn 1774. Nid ydys yn sicr ai yr awdur ei hun a'i cyfieithiodd, ynte W. Evans, cyfieithydd 'Llyfr y Ficar' i'r Saesneg, gan fod y cyfieithiad yn dwyn arno lawer o'i ddelw ef."*

Y mae genym hen gyfrol 12plyg o ganiadau Williams, yn cynnwys dau lyfr ynghyd, neu un llyfr â dwy enwad-ddalen iddo, fel yr oedd i amryw hen lyfrau. Y mae enwad-ddalen y cyntaf wedi colli: fe allai mai "Y Môr o Wydr" oedd hwn. Hymnau sydd yn y blaenaf i gyd, sef 221 o nifer, a chynnwys 179 o dudalenau. Yr hymn ddiweddaf ynddo a elwir "Pren y Bywyd," a dyma hi:—

"Pren bywiol sy'n y nefoedd fawr,
Ac hyd y llawr â'i gangau;
A ffrwythau'n pyngo arno'n llawn
Yn rhad brydnawn a borau.

"Adar ein Duw, dewch yma gŷd
O eitha'r byd yn llawen;
Yn ei ganghenau cewch wneud nyth
Sychedwch fyth drachefen.

"Aroglau yn diferu o'r nen
Sy fyth ar bren y bywyd;
Myrr, aloes, thus, a chasia gawn
Yn werthfawr iawn a hyfryd."

Enwad-ddalen yr ail, yn llawn, sydd fel hyn:—

"Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c. I Frenhin y Saint. Yn Dair Rhan: I. Hymnau Ysprydol ar amryw Destynau. II. Hymnau Sacramentaidd. III. Caniadau Moesol, ar amryw Fesurau ac Ystyriaethau.—Y Pedwerydd Argraphiad, gyd â Chwanegiad o Hymnau newyddion nad oedd yn un o'r Argraphiadau o'r blaen. Gan W. Williams.

"1 Cor. xiv. 15. Canaf â'r Yspryd, a chanaf â'r Deall hefyd.

"Aberhonddu: Argraphwyd tros yr Awdwr, gan E. Evans, yn y Coleg: Lle gellir cael Argraphu pob math • Lyfrau ar Lythyren dda, am Bris gweddaidd. M,DCC,LXXIII."

Y mae hwn yn 168 o dudalenau; a chynnwys "Rhai pennillion ar Ystyriaethau y llyfr hwn," 104 o "Hymnau Duwiol," 12 o "Hymnau Sacramentaidd," 10 o "Ganiadau Duwiol," a 17 o "Hymnau Newyddion."

Yn 1774, cyhoeddodd yr awdur "Rai Hymnau ar fesur newydd," ynglŷn â llyfr a elwir "Antinomiaeth Bwbach y Rhan Ffurfiol o'r Eglwys Gristionogol, &c. Yn 1781, cyhoeddodd yr awdur "Rai Hymnau Newyddion ar Fesurau Newyddion, ar gais cynnulleidfaoedd Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin." Cyhoeddwyd "ail argraphiad" o hwn yn 1782. Hefyd, cyhoeddodd bump o hymnau mewn cyssylltiad â'i gân o "Atteb i Wr Boneddig," yn 1784. Etto, yn 1787, cyhoeddodd "Rai Hymnau Newyddion ar Fesurau Newyddion." "Hymnau olaf 'Per Ganiedydd y Cymry' yw y rhai hyn," medd M. Davies, "yn cynnwys hymn 847 hyd 860 yn yr argraphiad o'r holl waith. Llyfran bychan ydoedd o 12 tudalen, cyffelyb i ddau arall a argraphesid o'r blaen. Yn y modd hwn y gorphenodd ei hymnau gwerthfawr, wedi bod yn cyfansoddi o 1743 hyd 1787, pedair a deugain o flynyddoedd! Y mae'r hymn olaf, sef 860, yn ddiweddglo tra phriodol i'r cyfan, ac yn gyflawn o deimlad,"† yr hon sydd fel y canlyn:—

"Henffych, Iesu'r Duw tragwyddol!
Gwir a sanctaidd berffaith ddŷn!
Dwy ryw natur mewn un Person,
Syndod nefoedd fawr ei hun!
A phob natur a phriodoledd,
Etto'n hollol gadw'u lle;
Dynded heb gymmysgu â Duwdod,
Priod f'enaid byth yw E.

"Fe yn unig ydwy'n addef
Yn llawn deilwng o fy mryd;
Fe yn unig ydyw gwrthrych
Fy serchiadau oll i gyd:
Tan dy aden rasol, dyner,
Trwy dy ddïoddefiadau maith,
'R wyf fi'n disgwyl yn ddiangol
Hyfryd gyrraedd pen fy nhaith."

Wed dilyn ein "Peraidd Ganiedydd" fel hyn, yn cynhyrchu ei hymnau godidog, o'r gyntaf hyd y ddiweddaf, y rhai yw ffrwyth penaf a mwyaf adnabyddus ei awen gyfoethog, erfyniwn ganiatâd yn awr i gyflwyno amryw ddifyniadau o ysgrif gampus y Pencerdd Hiraethog arnynt i sylw y darllenydd:—

"Ar ryw olwg, nid oes angen dywedyd nemmawr ddim am danynt: nid rhaid iddynt hwy, megis i rai, wrth lythyrau canmoliaeth yng Nghymru. Digon o brawf bod eu teilyngdod yn cael ei werthfawrogi yn ddyladwy ydyw yr arferiad cyffredinol a wneir o honynt yn ein cynnulleidfaoedd. Ennillasant a sefydlasant eu gorseddfa bellach ynghyssegr yr addoliad Cymreig. Yma, yn nesaf at 'beraidd ganiedydd Israel,' eistedda peraidd ganiedydd y Cymry. Morgan Rhys; Ann Gruffydd; Edward Jones, Maes-y-plwm; Benjamin Francis; T. Williams, Bethesda; a T. Williams, o Ros-y-cae, ydynt yn ddïau yn sêr disglair yn ffurfafen ein caniadaeth gyssegredig; ond 'yr Hen Williams' yw yr haul. Efe yw tywysog y maes, a rhaid i ysgubau y brodyr hyny oll ymgrymu i'w ysgub ef.

"Prawf dïymwad o wir fonedd cynheddfau awenyddiaeth ydyw ei gallu i swyno teimladau pob gradd a dosparth o gymdeithas fel eu gilydd: bod y dealltwrieuthau cryfaf, y meddyliau mwyaf caboledig, ynghyd â'r werindorf ddisyml yn gyffredinol, yn gallu cydfwynhau a chydwledda ar ei chynhyrchion. Tery athrylith emynau Williams y galon ddynol fel y cyfryw, nes y cyd-ddychlama teimlad yr athronydd uchelgoeth, a theimlad y bugail gwledig, dan ddylanwad ei gwefriad. Tywysogion mewn dysg a doniau, a phob gradd oddi yno i wared hyd at y weddw ddinod yn ei bwthyn neillduedig, a gydaddefant ei rhin. Clust dyner-foneddigaidd yr ysgolhaig, a chlust

* Llyfr. y Cymry, t. 536.

† Yr un, t. 630.

anian;' ond hefyd lygad yn *gweled* yr *efengyl*, calon yn *teimlo* yr *efengyl*, a glewder a faidd *gydfyned â'r efengyl.* Gwna wrthrychau ac elfenau anian yn llawforwynion i wasaneuthu yr efengyl. . . .

"Peth arall cynnorthwyol i'w heffeithioldeb ydyw absennoldeb cynghanedd. Meddyliau cryfion a syniadau dyrchafedig, wedi eu gwisgo mewn cynghanedd gywrain ac ystwyth, ydynt brydferth a tharawgar dros ben mewn cywydd, neu awdl gyfansoddedig yn y goreuon o'r mesurau ceuthion; ond ni wedda gormod o ymgais am gynghanedd mewn emynau cynnulleidfaol. Y mae Edward Jones, Maes-y-plwm, yn rhyfeddol ddedwydd yn ei gynganeddion: y mae swn y gynghanedd i'w glywed yn clecian ac yn tingcian ymhob llinell; ac er nad yw'r bardd yn ymddangos fel pe byddai mewn gorchest i gynhyrchu y cyfryw, y mae swn yr efydd a'r symbal yn lleihau yr effaith i gryn raddau. Efe yn ddïau yw'r dedwyddaf o'r holl odlwyr cynganeddol: parabla ei gynganeddion ef yn rhydd a chroyw, yn naturiol a didrafferth; tra y mae rhai eraill yn rhedeg ar draws pob cloddiau ar ol y gynghanedd, nes ydynt ym mron tori eu gwynt, ac yn dyheu am dani; ac etto yn methu cael ond prin afael yn ei chynffon yn aml, a bydd ei sain mor aflafar a hen gloch llan wedi crecio! bloesg fydd ei lleferydd, a chloff ei cherddediad. Deallodd Williams athroniaeth emynau yn well: ni wnaeth yr ymgais lleiaf at gydgordiad geiriau mewn cynghanedd: cydodliad a mesuriad yn unig a ofalai ef am danynt, a'r canlyniad a brawf iddo wneuthur yn ei le.

"Dodwn y pennillion canlynol fel engreifftiau i brofi ein heuriad o rym ac effeithioldeb ei ddull yn portreiadu gwahanol deimladau a dymuniadau y Cristion:—

'Fy enaid llesg sydd yn llwfrhau,
Gan fy nhrachwantau sy'n parhau,
A'm beiau maith yn lleusu dim:
O! ple mae effaith dwyfol waed,
Y balm o Gilead ry iachâd,
A dyr y nwydau mwya'u grym?

'O! ple mae'r manna perffaith gwir,
A'r dyfroedd tawel, sanctaidd, pur?
Mae'm syched, Arglwydd, yn parhau:
'R wy'n methu tynu dŵr yn awr,
Fy anghrediniaeth sydd mor fawr,
Agor y graig, 'r wy' bron llesgâu.

'Anghenus wyf, bechadur gwan,
Am hyn 'r wy'n tynu tu a'r lan,
Yn gweled digon yn fy Nuw:
Trysorau, pe cawn eu mwynhau,
A laddai ngofid, laddai ngwae,
Ac a'm gwnai'n llawen tra fawn byw.'*

"Wel, pa galon a all attal ei thosturi a'i chydymdeimlad â'r truan tlawd a gofidus? Y mae, fel Job, yn tywallt ei gwynfanau 'fel dyfroedd;' mewn 'cyfyng-gyngor, ond nid yn ddïobaith.' 'Brefa fel yr hydd am yr afonydd dyfroedd;' ond y mae'n dyfod i'w golwg o'r diwedd, ac yn tynu tu ag atynt. Gwrandawer etto ar lais ffydd a hyder y credadyn helbulus:—

'Nid yw'r holl greadigaeth ebang
Denar, awyr, dŵr, a môr,
'Nghyd â'u llwythau maith diderfyn,
'Nghyd â'u hanherfynol stôr,
Ond dy weision gyd â'u gilydd,
Fel y mynost, felly gwnaen,
A hwy dront, er pob gwrthnebrwydd,
Fynd a'th enw yn y blaen.

'Tân dry'n ddŵr, a'r dŵr dry'n wenfflam,
Os d' ewyllys iddynt bair:
Gwnai i'r morfil mawr, esgyrnog,
I lesmeirio wrth dy air:
Beth yw mhechod it ond gwyfyn,
Er ei ruad, er ei rym!
Gwna, fe gwymp ond wrth dy amnaid;
Ni raid iti ddwedyd dim.

'Mae fy enaid yn ehedeg
Ar adenydd ysgeifn ffydd;
Ac yn syllu trwy'r ehangder
Uchel, maith, at bethau fydd;
'Nawr mi welaf
Wlad o hedd yn agosâu.

'Rhwng cymmylau duon, tywyll,
Gwelaf draw yr hyfryd wlad:
Mae fy ffydd yn llefain allan,
"Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad!"
Digon, digon!
Mi anghofia'm poen a'm gwae.

''R wyf yn dechrau profi eisoes
Beraroglau'r gwledydd draw,
Gyd â'r awel denau'n hedeg,
Dïau fod y tir ger llaw:
Dere'r tir dymunol, hyfryd!
Dere ardal lawn di drai!
Dy bleserau o bob rhywiau,
Gad im bellach eu mwynhau.'†

"Pan oedd Columbus a'i gydfordwywyr yn hwylio mewn ymchwil am y Cyfandir Gorllewinol; ac wedi bod ar y cefnfor mawr anadnabyddus dros lawer o wythnosau, a misoedd rai, ac ar roddi i fynu yr ymchwil mewn anobaith, tybiai un o'r morwyr ei fod yn arogli arogl llysiau, yr hwn a gludid gan y gwynt yn chwythu oddi ar y tir. Gwnaeth hyn yn adnabyddus i'w gydforwyr; a dyna lle'r oeddynt yn sawrio ac yn ffroeni, nes y tybient oll yr un peth, ac y llanwyd eu meddyliau â gobaith ac â llawenydd. Yn fuan daeth y tir dymunol i'r golwg, a haws dychymmygu na disgrifio eu teimladau ar yr amgylchiad. Tebygol mai y digwyddiad hwnw a roddodd i'r bardd y meddylddrych dyrchafedig a phrydferth a gynhwysir yn y pennill digymmar uchod.‡ Llygad yn gweled, a chalon yn credu ac yn dymuno tir y bywyd, oedd gan y Cristion yn y pennillion blaenorol; ond yma y mae ganddi ffroen yn arogli ei flodau oddi ar ganol y cefnfor cyn cyrraedd i'w olwg; ac wrth brofi ei beraroglau, y mae'r enaid ar dân o lawenydd, ac, fel morwyr Columbus, yn ymestyn mewn dymuniadau am ei weled a'i fwynhau:—

'Dere'r tir dymunol, hyfryd!'

"Gallasem, dan y pen hwn, yn hawdd ychwanegu ugeiniau o ddetholion llawn mor ardderchog a'r rhai a ddodasom, a gwneud i fynu *Draethodydd* cyfan o'r cyfryw; ond rhaid ymattal.—Yn y pennillion canlynol, disgrifir, yn y modd mwyaf bywiog a chynhyrfiol, helyntion enaid argyhoeddedig yn ymdrechu am ei fywyd; yn addunedu, ac yn tori ei addunedau; yn suddo i'r dyfnder, i fin uffern, ac i safn angau; ac yn cael ei winllanoedd o'r fan honno, a Dyffryn Achor yn ddrws gobaith:—

'Saith o weithiau, ol a gwrthol,
Torais dy orchmynion glân:
Saith adduned fawr a wneuthum
I ymgadw rhag y tân:
Yn y dyfnder cefais gyntaf
Weld dy wyneb gwridog, gwyn,
Oni buasai fflam euogrwydd,
Ddeuthwn byth i Sïon Fryn.

'Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,
Fe wnaeth twllwch dudew'r nos,
Im roi naid trwy ddyledswyddau,
Cael neu golli, at y groes;
Ar fin uffern, ces y nefoedd,
Yn safn angau, cefais fyw,
Yn nharanau Mynydd Sinai,
Gynta des i gwrdd â Duw.

'Mellt a thranau, mŵg a chenllysg,
Oedd euogrwydd imi'r pryd:
Profais fod maddeuant pechod
Fil o weithiau'n well na'r byd:
Gwna i mi gofio'r oriau hyny,
Oriau fy mhriodas ŷn',
Pan ddaeth Crewr nef a deuar,
A'r pechadur gweula'n un.'

"Yn yr un canlynol, cyfleir y meddylddrych mwyaf cadarngryf a barddonol, ynghanol yr adroddiad mwyaf syml a diaddurn:—

*Difyna'r awdur galluog dri o bennillion eraill o gyffelyb ansawdd; ond rhaid i ni adael llawer o'r esamplau allan, er mwyn cael lle i gymmaint ag a allom o'r sylwadau.—Gol.

†Difyna'r awdur 16 o bennillion cyffelyb ar y pwngc dyddorol yma.—Gol.

‡Dichon hefyd bod y geiriau godidog sydd yn Esa. xxxiii. 17, ynglwg y bardd:—"Dy lygaid a welant y brenin yn ei degwch: gwelant y tir pell."—Gol.

Digitized by Google

'Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,
A'r eulynod pena erioed;
*Mi'ch tyngheda yngŵydd y nefoedd,*
*Na ddilynoch ôl fy nhroed!*
Mynd 'rwy'n llwm tu a thir y bywyd,
Ffon yn unig yn fy llaw;
Af ym mlaen trwy yr Iorddonen:
Mae nghyfeillion anwyl draw.'

"Dyna'r pererin yn cymmeryd ei draed, fel Jacob gynt; yn canu yn iach i bawb ac i bob peth; ac, wrth gychwyn, y rhai a fynnent ei berswadio i aros, na ddilynent ac na rwystrent ef. Dywed i ba le y mae wedi rhoddi ei fryd ar fyned, a hobia ym mlaen tu ag yno wrth ei ffon gynted ag y gallo. Y tynghedu yngŵydd y nefoedd a dyr allan fel taran gref, yn ddisymmwth, pan nad oes neb yn disgwyl am dani. Ar ol iddi fyned heibio, llonydda pob peth ar unwaith drachefn, ac aiff y pererin ym mlaen yn syml a diniwaid ddigon i son am ei ffon, ei daith, a'i gyfeillion anwyl draw.

"Ond *person, dioddefaint, heuddiant, a gogoniant y Cyfryngwr, a'r iachawdwriaeth trwyddo*, yw y prif destyn. Dyma gartref yr awen gyssegredig hon. Yma y mae'n cynnull ynghyd holl nerthoedd ei hyspryd, ei henaid, a chwbl sydd ynddi, i ddisgrifio a chlodfori. Pentyra ar eu gilydd yr ymadroddion mwyaf nerthol a bywiog, ynghyd â'r cymmarieuthau cryfaf, i ddisgrifio a chanmol. Dychwel at y testyn drachefn a thrachefn, a metha yn lân a boddio ei hunan bob tro. Rhag chwyddo y sylwadau hyn yn ormodol, ni roddwn ond ychydig engreifftiau:—

'Yr hoelion geirwon, caled,
Gynt a'i trywanodd E,
Sy'n awr yn dal y nefoedd
Gwmpasog yn ei lle:
Mae gobaith meibion dynion
Yn llifo oll i gyd
Oddi wrth yr awr trywanwyd
Creawdwr mawr y byd.

'Pe unwaith y darfyddai
Awdurdod Calfari,
Darfyddai pob cysuron
Ar unwaith genyf fi:
O bawb yn sicyr byddwn,
Y truenusaf ddŷn,
Fe lyngcai'r bedd dychrynllyd
Fi'n fuan iddo ei hun.

'Y baich oedd annioddefol
I'r cryfa o ddynol ryw,
Gadd orwedd yn ofnadwy
Ar ysgwydd gref fy Nuw:
Cyfiawnder oedd yn gofyn,
Am bechod dinacâd,
Y swm anfeidrol dalwyd
Trwy eithaf chwys a gwaed.

'Pe buasai mil o fydoedd
Yn cael eu prynu 'nghyd
A'r cyfryw bris, buasent
Yn llawer iawn rhy ddrud:
Does angel fyth, na seraph,
Na cherub o un rhyw,
I'r filfed ran all ddwedyd
Mor werthfawr gwaed fy Nuw.

'Bethdithion ar fendithion,
Trysorau angau loes,
Grawnsypiau mawrion, addfed,
Yn hongian ar y groes,
Sydd yn cwmpasu'm henaid,
Rhinweddau mawr eu grym,
A minnau yn eu canol
Yn methu dwedyd dim.

'Mi welaf yn ei fywyd
Y ffordd i'r nefoedd fry,
Ac yn ei angau'r taliad
A roddwyd trosof fi:
Yn ei esgyniad gwelaf
Drigfanau pur y nef,
A'r wledd dragwyddol berffaith
Gaf yn ei gwmni Ef.

'Dacw'r hoelion geirwon, llymion,
Wedi eu curo'n awr i dre;
Dacw'r bicell yn trywanu
I mewn o dan ei ystlys E:
Dacw boen addfwyn Oen,
Yn rhoi'r nefoedd dewi son.

''Nawr mi glywa'r gair "Gorphenwyd,"
Gorphen iechydwriaeth wir!
Ac mi wela'r gwaed yn hidlo
Tros ei ruddiau sanctaidd, pur!
Dyma wlad, caf iachâd,
A chaf gyflawn wir ryddhâd.

'Dwyfol waed, a dwyfol boenau,
Heuddiant ydoedd hwn mor ddrud,
Ac oedd dafan bach o hono
'N abal ddigon brynu byd;
A phe bai maint ei fai,
Ganmil trymach nag y mae.

'Wel fenaid cerdd y ffordd yn hy,
Yn union tu a Sïon fry
A chadw'th lygad ar y nôd:
Carfaria fryn, lle gweli'r groes,
A'i haberth arni tan ei loes,
Rhyfeddod mwya'r erioed.

'Does un aflendid, unrhyw fai,
Nad yw ei heuddiant yn glanhau,
Pechodau duaf glywyd son
A foddir yn yr afon fawr
Mewn amryw liwiau ddaeth i lawr
O ystlys addfwyn nefol Oen.

'Pechod yma, cariad acw,
Bwyswyd yn y glorian fawr;
Ac er trymed oedd y pechod,
Cariad bwysodd hyd y llawr:
Gair "Gorphenwyd"
Wnaeth i'r glorian bwysig droi.

'Heuddiant Duwdod, o'i gymharu,
Yn erbyn uffern fawr o'r bron;
Dafn o'r gwaed sy'n ganmil trymach
Nag aflendid dudew hon:
Gwradwyddiadau
Duw rydd iawn am feiau'r byd!'*

"'Wele, aeth ein nant yn afon, a'n hafon yn fôr.' Ni fwriadem fod hanner cyn feithed wrth ddechrau difynu; ond wedi myned unwaith i gyrraedd dylanwad y swyn, anhawdd iawn yw ymryddhau o hono. Ugeiniau a channoedd lawer o'r cyffelyb bennillion a ymrithient ger ein bron, ac a'n temtient i'w trosysgrifio; a bu raid i ni o'r diwedd erfyn arnynt droi eu llygaid oddi wrthym, canys gorchfygent ni. Y disgrifiadau o ogoniant a dedwyddwch y nefoedd, a roddir yma a thraw yn yr emynau, ydynt ymhlith y goreuon; ond rhaid eu gadael" o ddiffyg lle.

Am y "geiriau isel, estronol, a bastarddaidd" a ddefnyddir yn lled fynych gan y bardd mewn rhai hymnau, dywed yr adolygydd fel y canlyn:—

"Y llwynogod bychain hyn ydynt i'w canfod yn fynych yn difwyno y gwinllanoedd, neu fel y gwybed meirw yn ennaint yr apothecari. Gwaith da fyddai hidlo yr ennaint, eu dal, a'u deol ymaith. Gellid yn hawdd wneud hyny heb newid dim ar yr ystyr. Gwell genym ni air Saesneg pur, diledryw, na rhyw fastard . . . o air, hanner Sais, hanner Cymro, megis *ffito, resolvo, waito, ffeinto, ffeindo*,† &c. Fel mai gorau y modd, yn y pennillion gweulaf a gwanaf y digwyddant fynychaf; ac nid gwiw gwadu, cyfarfyddir â nifer mawr o rai gweulion a gweinion yma a thraw; llawer yn bur anystwyth eu cymmylau, a hynod afluniaidd eu hesgeiriau. Gellid meddwl mai rhwng cwsg ac effro yr oedd y bardd pan y'u cyfansoddai, pryd na wyddai nemmawr ragor rhwng y naill iaith, na'r naill air a'r llall. Ond ambell waith, canfyddir y bastarddair yn frycheuyn du ar wyneb y pennill prydferthaf a melusaf; ac yr ydym yn ddicach wrtho o'r hanner na phan gyfarfyddom âg ef mewn hanner cant o bennillion na bydd genym gyfrif o honynt. Dan yr amgylchiad hwn, tueddir ni i ofyn i'r erthyl, 'Y cyfaill, pa fodd y deuthost ti i mewn yma?'

"Trosedda yn erwin yn erbyn natur weithiau, trwy fod yn hyf a threisiol arni, a cheisio llusgo ei gwrthrychau a'i helfenau i wneuthur cymharieuthau o honynt na bydd y priodoldeb na'r cyssondeb lleiaf ynddynt. Y mae am-

*Nid yw y rhai hyn ond pigion o ddifyniadau lliosog yr awdur. —Gol.

†Teimlwn rwymau arnom i ddywedyd gair etto o blaid "yr Hen Williams," yn herwydd y geiriau hyn a'u cyffelyb. Ychydig iawn, os dim, mwy Seisnig, neu'n hytrach mwy estronol, ydyw "*ffito, resolvo, waito, ffeinto, ffeindo*, &c., neu, fel y lleferid ac yr ysgrifenid hwy yn Ngwynedd, *ffitio, resolfio, gweitio, ffeintio, ffeindio*: ychydig iawn mwy estronol ydynt, meddwn, nag ugeiniau, os nad cannoedd, a ddefnyddir yn bur fynych, yn oed gan ein prif ysgrifenwyr, megis *Ysgrythyr* (L. scriptura), *natur* (L. natura), *apothecari* (Gr. apothêcê), *astronomydd* (Gr. astronomos), *philosophydd* (Gr. philosophos), *teml* (L. templum), *temtio* (L. tento), *malais* (L. malitia, En. malice), *sanctaidd* (L. sanctus), *picell* (Fr. pique, En. pick), *cwmni* (L. compagnio), *possibl* (L. possibilis), *perswadio* (L. persuadeo), *person* (L. persona), *pasio* (Fr. passer), *disgybl* (L. discipulo), *disgrifio* (L. describo), *ffenestr* (L. fenestra), *capten* (Fr. captaine), *dwbl* (L. duplex), *Pab* (L. papa), *ceffyl* (L. caballus), *cario* (Fr. charrier), *capel* (L. cappella), *cant* (L. centum), *Bibl* (Gr. biblos), *accen* (L. accentus), *abl* (L. habilis), a lliaws dirfawr cyffelyb. Fe fyddai golwg ryfedd ar y Gymraeg pe defnyddid y geiriau yna, a lliaws eraill o'r fath, yn eu dull gwreiddiol. Heb law hyny, dylid cofio o hyd mai canu i werin y Cymry, yn benaf, yr oedd Bardd Pant-y-Celyn, yn hytrach nag i'w dysgedigion; ac ni ddylid anghofio bod gan y beirdd lawer o drwyddedau nad oes gan ysgrifenwyr eraill mo honynt, fel y crybwyllwyd o'r blaen.—Gol.

Digitized by Google

hriodoldeb ac anghyssonderau y disgrifion yn y pennillion canlynol yn wrthun iawn :—

'Mi wneuthum degan gynt o'r byd,
I gael arogli hwn o hyd :
Pan cododd haul o'r dwyrain draw,
Yn ddistaw gwywodd yn fy llaw.

'Ni chara'i mo'i deganau mwy,
Pryd rheitia darfod y maent hwy:
Does yma lysiau o un rhyw,
A ddalia lid digofaint Duw.

'Fy nhegan mwy fydd Iesu gwiw,
Aroglaf ef tra byddwyf byw.' . . .

"*Arogli* tegan! a *thegan* yn gwywo! Wel wfft! Pe gwneuthai *bwysi** o'r byd, yn lle tegan, a dywedyd iddo arogli hwnw, ac iddo wywo yn ei law, buasai y gymhariaeth yn briodol. Ystyr briodol tegan ydyw, peth i'w roddi yn llaw plentyn iddo i *chwarau* âg ef, nid i'w *arogli*. Eilwaith, dywedyd nad oes yn y byd 'lysiau o un rhyw a ddalia lid digofaint Duw,' sydd yn wendid dirfawr. Yn ddïau yr oedd rhyw awr wan ar goryn yr awen pan lefarai fel hyn. Drachefn, 'Fy nhegan mwy fydd Iesu gwiw.' Gwaeth fyth! Pe dywedasai, *fy mhwysi*, buasai priodoldeb a phrydferthwch yn y pennill, a buasai ganddo awdurdod Cân y Caniadau dros arfer y gymhariaeth: 'Fy anwylyd sydd i mi yn bwysi myrr,' &c. Ond gwneud tegan o'r Gwaredwr sydd drosedd yn erbyn pob gweddeidddra. Etto :—

'Y byd 'rwy ynddo sydd yn llawn
O ryw fwystfilod rheibus iawn:
Amrywiol ryw, im wastad sy
I'm denu oddi wrth fy Mhriod cu.'

A glywodd neb erioed y fath beth? Bwystfilod rheibus yn denu! Dychrynu a llarpio pawb a phob peth a wna bwystfilod rheibus hyd y gallant: ni chlywsom erioed am danynt yn denu o'r blaen. Pe dodasid *hudolieuthau cyfrwys iawn*, yn lle y *bwystfilod rheibus*, buasai pob peth yn dda. Etto :—

'Mae'm siwrnai drwy'r anialwch maith,
Mae'r *tide* a'r tonnau ar ein taith.'

Yn y môr y mae *tide* a thonnau: nid yn yr anialwch. Etto :—

'Ti ffynnon bywyd beraidd, ddwys,
Arnat dy hun 'rwy'n rhoddi mhwys.'

Pwys ar ffynnon?

"Gellid lïosogi engreifftiau o gyffelyb amryfusedd, ond ymattaliwn. Pan y mae'r awen yn effro, ac yn ymroi ati, mor fedrus, bywiog, a phrydferth y pletha ei geiriau! ac mor briodol a hardd y cydgordedda ei chymharieuthau,"† fel y gwelsom eisoes, ac y ceir gweled etto.

Wel, ddarllenydd hoff, dyna i ti ddarluniau y Pencerdd Hiraethog, sef y duwinydd enwog, W. Rees, D.D., o amryw ragorieuthau, ac ychydig golliadau, awen emynol, gyssegredig Williams Pant-y-Celyn; a chei ychwaneg etto yn fuan o'r cyffelyb berlau, ynglŷn â chynhyrchion eraill awen ein "peraidd ganiedydd." Er mai emynau "yr Hen Williams" sydd fwyaf adnabyddus i'n cenedl ni yn gyffredin, etto y mae bwrneli mawrion o "bwysi myrr," nodedig o beraidd i'r arogl Gristionogol, ynghaniadau eraill ein prifardd; ac nid hyny yn unig, ond hefyd y mae ynddynt "sypiau grawnwin mawrion, addfed," i loni a chryfhau y Cristion "ar ei daith i'r Ganaan wlad." Cyfansoddwyd y gyntaf, a'r benaf, fel y bernir yn gyffredin, o'r caniadau hyn, pan oedd y bardd doniol ymlodau ei ddyddiau, a chyhoeddwyd hi yn 1756, pan oedd efe yn 39 oed, dan yr enw canlynol:—

"Golwg ar Deyrnas Crist: neu Grist yn bob Peth, ac ymhob Peth," &c.

Yr oedd Williams wedi hyspysu ar gefn y rhagddalen i'r "Hosanna i Fab Dafydd," a gyhoeddwyd yn 1753, gan ddywedyd, "Yr wyf yn meddwl printio llyfr bychan o ddeutu'r un faintioli a hwn, a'i enw 'Buddugoliaeth yr Efengyl,' yn un gân, yn cynnwys wedi tri chant o Wersi." Ond ni chyhoeddodd efe byth lyfr na chân dan yr enw hwnw; ac "nid oes amheuaeth," medd Gwilym Lleyn, "mai'r gân honno wedi ei heleuthu yw'r gwaith hwn ['Golwg ar Deyrnas Grist'], a'i gyhoeddi dan enw arall, a gwell."‡ Yn 1764, cyhoeddwyd "ail argraphiad" o "Olwg ar Deyrnas Crist," "wedi ei ddiwygio o amryw feiau, a chwedi ychwanegu llawer o bethau ato, nad oedd yn yr argraphiad cyntaf."§ Hwn oedd yr argraphiad olaf a gyhoeddwyd yn oes yr awdur athrylithgar. Ymhen saith mlynedd ar ol marwolaeth yr awdur, cyhoeddwyd argraphiad arall o'r gwaith godidog yma, yr hwn sydd ger ein bron, enwad-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Golwg ar Deyrnas Crist, neu Grist yn Bob Peth ac Y'mhob Peth: sef Caniad mewn dull o agoriad ar Col. iii. 11. 1 Cor. xv. 25. Gan y Diweddar Barch. W. Williams.

"Y Trydydd Argraphiad, wedi ei ddiwygio o amryw Feiau.

"Ille Deum Vitam accepiet, Divis; videbit
Permeixtos Heroas, & ipse videbitur illus;
Pacatumq; reget Patriis Virtutibus Orbem.
—" VIRGIL.

"Trefecca, Argraphwyd 1799. *Pris Swllt.*"

Y mae'r "arwrgan benigamp" hon, fel y geilw'r Prifardd Hiraethog hi, yn cynnwys 1367 o bennillion, y rhai a drefnir yn y gân fawr hon yn gyffredin yn bedair llinell hir, o 13 sill ymhob llinell, megis, er esampl, y pennill cyntaf, fel hyn:—

"Deffrowch yr holl greaduriaid sy'n gorwedd yn eich bedd,
Agorwch eich amrantau, a gwelwch Frenin hedd:
Yr Alpha oedd yn happus erioed cyn creu y byd,
A nol ei fynd yn danllwyth, a bery felly o hyd."

Ond, mewn gwirionedd, mesur yn cymmeryd 8

* Poesy=blodeuglwm, swp o flodau.—GOL.
† Traethodydd, llyfr iii., t. 159-174.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 438, 444.
§ Yr un, t. 474.

Digitized by Google

linell yn y pennill ydyw'r mesur, 7 a 6 sill bob yn ail, yr hwn a drefnir fynychaf fel hyn:—

"Messia yw ei enw,
Efe enneiniodd Ner,
Yn Frenin mawr tragwyddol
Ar luoedd uwch y ser;
Y lluoedd ar y ddeuar,
A hwythau hefyd sy
Yn rhwym yn eu cadwynau,
Yn nyfnder uffern ddu."

Yn ol y trefniad yma, cynnwys y gân 10,936 o linellau. Gan y gall y darllenydd gael beirniadiaeth odidog Hiraethog yn gyflawn ar y gân ardderchog hon yn "Holl Weithiau" Williams, a gyhoeddwyd gan Mr. Mackenzie, t. xiv., a'r gân ei hunan yn t. 417, ni ddifynwn ond ychydig yma o'r naill na'r llall, er mwyn prysuro at gân benigamp arall o waith y peraidd ganiedydd, ar yr hon ni cheir sylwadau y Prifardd Hiraethog yn yr "Holl Weithiau." Dyry'r difyniadau canlynol giptrem ar gynnwys, ansawdd, a thuedd y "Golwg ar Deyrnas Crist:"—

"Dosperthir y gân i chwech o bennodau, a'r pennodau i amrywiol adranau. Cynnwysiad y bennod gyntaf ydyw, 'Rhoddiad y Deyrnas i Grist, neu Crist yn bob peth yn yr arfaeth.—Cyfammod y Prynedigaeth rhwng y Tad a'r Mab yn nhragywyddoldeb,' &c. Yr ail, 'Crist yn gosod i fynu ei deyrnas, neu Crist yn bob peth yn y greadigaeth.—Lle y rhoddir golwg ar greadigaeth y nef a'r ddaear, yr elfenau, y creaduriaid, y coedydd, a llysiau, ac yn olaf, dŷn; y cwbl trwy Grist, ac er ei fwyn.' Y drydedd, 'Crist yn achub ei deyrnas yn y gwrthryfel cyffredin; neu Crist yn bob peth yn addewid Eden.' Y bedwaredd, 'Crist yn llywodraethu ei deyrnas; neu Crist yn bob peth yn rhagluniaeth.' Y bummed, 'Llyfr *Statute* y deyrnas; neu Crist yn bob peth yn y Bibl.' Y chweched, 'Teyrnas neillduol Crist; neu Crist yn bob peth yn iachawdwriaeth ei saint; lle y traethir ar ei swyddau fel prophwyd, offeiriad, a brenin.' Ac yn olaf, 'Ar y farn, a rhoddiad i fynu'r deyrnas i Dduw a'r Tad, fel y byddo Duw oll yn oll.'

"Dyma'r fath ydyw cylcheden *(framework)* y gân. Ymaflyd yn y fath destyn mawreddog, yn cynnwys y fath amrywiaeth o fatterion, a'r rhai hyny y mwyaf pwysig a fuant erioed, neu a fyddant byth, yn wrthrychau myfyrdod dynion ac angylion, ydoedd yn ddïau yn anturiaeth orchestol. Cynhyrchu cân deilwng o'r fath destyn hefyd a raid fod yn un o orchestion penaf anturieuthau awenyddol. I lenwi'r gylcheden uchod, rhaid i'r gân fod, nid yn unig yn gyfan-gorph cryno o dduwinyddiaeth, ond hefyd rhaid iddi gynnwys ser-draith, elfydd-draith, deuardraith, môr-draith, mil-draith, a llysieu-draith, i ryw fesur; ac felly y mae. Buasai cynnyg cân dlawd a gwael ar destyn mor oruchel, yn sarhâd annïoddefol ar holl ddeiliaid y Deyrnas y cenid iddi, ac yn anwiredd i'w gospi gan y beirniaid â'r ceryddon trymaf a allasai yr ysgrif-bin eu gweinyddu. Heuddasai y fath anturieuthwr rhyfygus ei ddwrdio a'i fflangellu am ei draha, er esampl i bob un o'i gyffelyb rhag llaw i ochelyd y cyffelyb amryfusedd."*

Cymmerwch etto nodiadau yr un beirniad galluog ar ansawdd a thuedd y gân fawreddog hon:—

"A gadael allan o ystyriaeth y gwallau ieithyddol, ni phetruswn honni ei chystadledd â phrif orchestion awenyddiaeth annwyfoledig yr oesoedd. O ran ei chorph (ei chynlluniad), cydosodiad ei haelodau, a gweddusder ystum ei chymmalau a'i chyssylltiadau, y mae'n brydferth a hardd dros ben. Yn ein bryd ni, ni allai fod yn well. Y mae'r esgeiriau oll yn ogyhyd, fel nad oes na llesgedd na chloffni i'w ganfod.† Ac am ei henaid (y meddylddrychau), y mae nerth bywyd angerddol ynddo. Er bod peth tebygolrwydd ynddi i 'Goll Gwynfa,' y mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy yn fawr hefyd. Y mae gallu dychymmygol y bardd Seisnig yn fwy o grewr na'r eiddo y bardd Cymreig. Nid yw'r olaf mor eofn ac anturieuthus a'r bleunaf. Ond i'r graddau y gollynga'r ffrwyn iddo, y mae mor gryf a bywiog a'r llall. Y meddylddrychau ydynt yn llawn mor danllyd a hedegog; ond y mae'r athrylith a red ynddynt o ryw ansawdd wahanol. Pâr athryth Milton i ni ymgrymu yn wylaidd ger ei bron: trwy ei mawrhydi awdurdodol, rhaid i chwi syrthio i lawr o'i blaen, boddlawn neu anfoddlawn. Yr eiddo Williams a'ch hudddena â rhywbeth sydd yn ei gwedd a'i llais, na ellwch roddi cyfrif am dano pa beth ydyw; ond *rhywbeth* ydyw, ac y mae yn *rhywbeth*. Adnebydd y glust ei llais hi ynghanol lleisiau mil o awenyddion: dodai ei hargraphnod ar bob llinell ym mron, fel nad yw braidd yn ddichonadwy ei lladrata na'i dynwared, heb i'r lleidr, neu'r ffugiwr, fod yn y perygl mwyaf o gael ei ddala. Milton a'ch swyna yn aruthrol, nes y byddo holl flew eich cnawd yn sefyll: cyfyd ddrychioleuthau ger eich bron a bâr i ofn ac arswyd ymaflyd yn eich cnawd a'ch esgyrn; neu, os o natur hyfryd y byddant, a barant i'ch mynwes chwyddo o ddyddordeb. Williams a estyna ei law trwy ryw dwll, ac a gyffyrdda â holl dannau eich ymysgaroedd: gyr eich calon i losgi ynoch yn ddïarwybod i chwi. Ni allwn ddarllen 'Coll Gwynfa' heb gael ein cynhyrfu a'n cyffrôi braidd tu hwnt i'r hyn a all natur ei oddef; ond nid tasg anhawdd i ni fyddai ei ddarllen o'i ddechrau i'w ddiwedd heb ollwng cymmaint a diferyn o ddagrau. Eithr wrth ddarllen 'Golwg ar Deyrnas Crist,' trwy ein dagrau yn unig y gallwn fyned yn ein blaen. Ac os ei ddarllen yn uchel i gylch o gyfeillion a allont gydfwynhau y wledd, rhwystra'r wylo y tafod yn fynych i accenu yn llawn a chroyw. Bu'n gywilydd genym drosom ein hunain o blegid hyn rai prydiau, ond ni feddem help: trechai yr athrylith ni; troai y deigr-lestri a'u gwyneb yn isaf, a'r defnynau heillt-loywon a redent allan.

"Hwyrach na chyfeiliornem pe dywedem fod y ddwy gân dan sylw, 'Coll Gwynfa' a 'Golwg ar Deyrnas Crist,' yn ddelweddau o ansoddion gwahanieuthol y ddwy oes, yn gystal a'r eiddo y ddau fardd. Oes y meddyliau dwfnwreiddiol; yr yspryd cadarn fel craig, dïysgog ac anhyblyg fel deri Basan; oes y Puritaniaid, oedd oes Milton; ac y mae'r meddwl a'r yspryd yma yn rhedeg trwy ei gân. Ei gydoeswyr ef oeddynt Phylip Nye, y Dr. Owen, Howe, Baxter, Vane, Hampden, a llu o'r cyffelyb gedyrn dihefelydd. Yr oedd nerth y taranau cryfion yn eu meddyliau, eu hyspryd, eu gweinidogaeth, a'u gweithredoedd. O'r tu arall, oes y 'telynorion yn canu ar eu telynau' oedd oes Williams. Yr oedd eu doniau, a dylanwad eu gweinidogaeth, fel 'gwres eglur ar lysiau, fel niwl gwlith yng ngwres cynheuaf.' Yn ei ddyddiau ef y blodeuodd Whitfield a Wesley yn Lloegr, a Daniel Rowlands a llïaws o'i gyffelyb yng Nghymru; ac y mae ei gân dan sylw (a'i ganiadau eraill) yn dwyn y ddelw yma. Y mae 'Coll Gwynfa' a 'Golwg ar Deyrnas Crist' yn fath o gof-golofnau o nodweddau ac amgylchiadau y ddwy oes.

"Yn ei thuedd ymarferol a'i defnyddioldeb cyffredinol, anturiwn roddi'r fleunoriaeth i'r gân Gymreig ar yr un Seisnig. Y Dr. Campbell, yn ei waith gorchestol a elwir '*The Martyr of Erromanga*,' a fyn ddyrchafu clod a theilyngdod cân fugeiliol Hesiod uwch law arwrgerdd *Iliadol* Homer, ar gyfrif tuedd ymarferol ragorach y

* Traethodydd, llyfr ii., t. 867; Holl Weith. Wm. Williams, t. xv.

† "Sylwer ar ddosparthiad y pennodau," &c.

athronydd meddyliol; ac yn y ddwy fel eu gilydd, yn athronydd Cristionogol. Wrth ganu ar 'Deyrnas Crist,' treutha am arfaeth, creadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth Duw; ond yn 'Theomemphus,' gesyd allan weithrediadau pechod a gras yn enaid dŷn. Y groes, er hyny, yw canolbwynt y ddwy. Yn y fleunaf, y mae athrawiaeth y groes mewn golyg-ddysg (*theory*) yn benaf; yn yr olaf, dangosir hi yn fwy yn ei gwaith, ei dylanwad, a'i heffeithiolaeth.

"Cyfansoddiad darfelyddol, o'r un natur ac amcan a 'Thaith y Pererin,' gan Bunyan, ydyw 'Theomemphus,' fel yr awgrymwyd yn barod, ond ei fod ar gân. Cynnwys ugain o bennodau. Rhy faith fyddai dodi yma grynhodeb o'u sylwedd, fel y mae o flaen pob pennod yn y llyfr.* Dodwn yn unig dalfyriad o'r cynhwysiad, er gosod math ar fraslinelliad o'r gwaith ger bron y darllenwyr. Rhoddir yn gyntaf hanes mebyd ac ieuengctid *Theomemphus*, a'i fuchedd cyn ei dröedigaeth; yna ei argyhoeddiad dan bregeth *Boanerges*, ynghyd â nifer o'i gymdeithion; gau-athrawon yn ei dawelu â gau heddwch: ail bregeth *Boanerges* yn ei ail drywanu: ei ofnau a'i helyntion mewnol: yn methu cael tawelwch trwy athrawieuthau sychlyd a chnawdol y gau-athrawon: *Evangelius* yn pregethu yr efengyl: effeithiau y bregeth ar *Theomemphus:* yr heddwch a'r gorfoledd a brofodd yn fuan wedi hyny: ei gynnydd mewn gwybodaeth, profiad, a defnyddioldeb crefyddol: ei demtasiynau, gwrthgiliadau, ac adferiadau: yn caru *Philomela:* y Dr. *Aletheius* yn ei holi ac yn ei geryddu: ei brofedigaeth lem, a'i ymadawiad â *Philomela:* malais *Iratus* tu ag ato: yn priodi *Philomela*, a'i dywydd blin wedi hyny: ei ymdrech yn erbyn hudoliaeth *Jezebel* (Antinomiaeth): ei ddadl âg *Academicus:* angau yn ei gyfarfod: *Theomemphus* yn terfysgu, ac yn y diwedd yn marw mewn tangnefedd a gorfoledd: ei ysgrifen-fedd.

"Anaf, dybygem ni, ar y gân ydyw na buasai yn cyfyngu ei gwrthrych o fewn cylch gwlad ac oes. Gogoniant ffug-hanesiaeth ydyw ei bod yn dwyn cymmaint o ddelw ffaith ag a fyddo bossibl. 'Hanes Robinson Crusoe,' gan yr enwog Daniel Defoe, sydd gyfansoddiad dihefelydd ar y cyfrif hwn. Ni all un darllenydd o'r llyfr hynod hwnw ymgadw heb ei ddirgel weithio i gredu ei fod yn wirionedd, er gwybod yn amgen cyn dechrau; a sylwai un beirniad yn ddiweddar y rhaid bod Defoe ei hun yn cael ei weithio felly wrth ei ysgrifenu. Y mae '*Theomemphus*' yn y gwrthwyneb i hyn. Argyhoeddir y darllenydd yn y fan mai ffug-hanesiaeth ydyw, a thyr hyny y swyn ar unwaith: ettyl ei gydymdeimlad â'r gwrthrych, a lleiheir trwy hyny y dyddordeb yn fawr. Ni wyddys yn y byd pa bryd y ganwyd *Theomemphus*, medd hanesydd ei fywyd; ond dywed mai 'yn nhiroedd Nod' yn rhywle, ac mai 'Hittes ac Amoriad' oedd ei fam a'i dad. Dywed iddo grwydro trwy yr Aipht a Sodom, a Thyrus a Sidon, a a chant o fanau, gan hau hadau melldith a thrueni ffordd y cerddai. Deuai yn benrhyswr mewn annuwioldeb a phechod ymhob lle. Dysgai ffyrdd newyddion o bechu i bechaduriaid pob gwlad yr ymwelai â hi, a dyfeisiai lawer o bechodau newyddion na buasai son am danynt cyn ei amser ef. Trwythodd ei hunan yn ffosydd pob anwiredd a ffieidd-dra, a chludodd ar ei ben bob euogrwydd dichonadwy i greadur. Yr ydym yn ei gael gyd â Pharaoh yn erlid ar ol Israel i'r Môr Coch; ond diangodd rywfodd heb ei foddi. Ymhen cannoedd o flynyddau wedi hyny, yr ydym yn ei gyfarfod yn llys Belsassar yn Babilon, ac 'efe oedd y cyntaf un o lestri teml Sïon a feddwodd ar y gwin.' Diangodd â'i fywyd yn ysglyfaeth ganddo oddi yno hefyd. Ymhen cannoedd o flynyddau drachefn, ni a'i cyfarfyddwn yn y fintai o lofruddion a anfonodd Herod frenin i ladd plant Bethlehem, ac wedi hyny yn plethu y goron ddrain i'w dodi ar ben Iachawdwr y byd; ac eilwaith, y mae prif amgylchiadau ei fywyd yn ei osod allan fel brodor o Gymru, ac yn oesi tu a chanol y ddeunawfed ganrif. Y mae'r holl ddisgrifion yn nerthol a chynhyrfus dros ben, ond bod y ddychymmyg yn wamal ac yn wylltiog erwinol, yn hyrddio *Theomemphus* o'i blaen trwy holl oesoedd a gwledydd y byd, ac yn ei wneuthur yr anghenfil mwyaf ofnadwy mewn drygioni. Da fuasai ei chenglu, ei ffrwyno, a'i disgyblu, yn lle ei gollwng i brangcio fel hyn. Dychymmyg gref, dan feistrolaeth a llywyddiad barn a chwaeth, sydd brydferth a golygus, fel 'harddfarch yn y rhyfel;' ond pan ollynger hi iddi ei hun, hi a 'ddinystria y march a'r marchog,' fel yr estrys pan ymgyfyd yn uchel.

"Wedi dilyn *Theomemphus* i bob man, a thrwy bob pydew o ddrygioni, i berffeithio y darlun dywedir:—

'Fe flinai yma ac acw, i aros yno'n hwy,
Fe chwiliai am ryw ardal lle cai bleserau mwy;
Doedd dŷn, na diawl, na phechod, ynghyd pe buasent gant,
Yn abal dofi ei nwydau, yn abal llanw ei chwant. †

'Ymhob rhyw afradlondeb, ni roddodd un mwynhâd
Lonyddwch idd ei ysbryd, ar fôr, mewn tref, na gwlad;
Er cael pob nwyd ei rhyddid, pob blys i lanw ar goedd,
Doedd *Theomemphus* etto un gronyn wrth ei fodd.

'Ond etto trwy bob pleser yn eitha'i rwysg a'i rod,
Fe ofnai fe rai prydiau am amser oedd i ddod;
'R oedd angau du, dychrynllyd, a Barnwr mawr y ne,
O'i anfodd yn ymlusgo i mewn i'w feddwl e.

''R oedd fflamau poeth y pydew diweulod, dwfwn mawr,
I'w gof yn dirgel redeg bryd arall ac yn awr;
Ond nis caent aros yno, fe'u gyrai hwynt i maes,
Trwy loddest fawr a meddwdod, a chymdeithasau cas.

'Ond pan 'roedd wedi methu cael dim pleserau'n llawn,
Na dim parhâd i'r pleser benthyciol fyth yn iawn;
Efe feddyliodd unwaith droi'i feddwl tu a'r ne,
Heb wybod mai'r Jehofa rodd hyny ynddo fe.'

"Ond wedi hyny ymgyndynodd, ymgaledodd, ac ymgynddeiriogodd mewn pechod a drygioni yn fwy nag erioed. Trodd yn erlidiwr creulonach na Saul o Tarsis. Torasai diwygiad crefyddol allan yn yr ardal yr oedd *Theomemphus* yn byw y pryd hwn, a llawer o'i gyfoedion a'i gymdeithion mewn drygioni oeddynt yn gadael eu ffyrdd, ac yn dyfod yn greaduriaid newydd. Gyrodd hyn *Theomemphus* yn saith mwy cynddeiriog nag o'r blaen. Ond 'lle yr amlhaodd pechod y rhagor amlhaodd gras.' Y mae'n awr ar fin cyfnod pwysicaf ei fywyd:—

'Ond ar ryw un diwrnod, yn hwnw trodd y rhod,
Ni welodd *Theomemphus* ddydd tebyg iddo erioed;
Pan oedd ef yn y borau yn marchog yn ei lid,
A mil o weithrediadau cynddeiriog yn ei fryd:

'Yn meddwl rhoi mewn carchar bob un a ddwedai air,
Yn gyhoedd neu yn ddirgel dros Fab y Forwyn Fair,
Yn meddwl lladd a llosgi bob un o honynt hwy,
A ddwedai fod maddeuant trwy rinwedd marwol glwy;

'Ond cyn cael dim o'i feddwl, na dyfod gair o'i ben,
Fe deimlai'r ddaer yn crynu; fe welai'n duo'r nen,
Fe lidiodd y cymmylau yn un cynddeiriog dân,
Fe dduodd haul y nefoedd, do, ganol dydd o'i flaen.

'Fe grynodd *Theomemphus*, fe gurai'i liniau 'nghyd,
Y funud gyntaf credodd oedd hon am ddiwedd byd;
Fe ofnodd fod y felldith heuddiannol wedi dod,
Ochneidiodd na buasai'n awr heb ei eni erioed.'

"Beth oedd ond *Boanerges*, fel angel cadarn, mewn rhwysg a gallu mawr, yn disgyn o'r nefoedd, â chenadwri danllyd ganddo i'w thraddodi wrth bechaduriaid y ddeuar. Y mae mawreddigrwydd y disgrifiad yn ysplenydd anghymharol: yr olygfa a ddarlunir yn ofnadwy danllyd. Nid rhyfedd i *Theomemphus* frawychu a chrynu, er mor dalgryf a chaled galon ydoedd. Ddarllenyddion! os nad

* Gwel y gân yn Holl Weith. Wm. Williams, t. 360, &c.—Gol.

† Er mwyn cynnilo lle, dodir y mesur mewn pedair llinell, fel y mae yn y gwreiddiol.

Digitized by Google

yw eich gewynau yn gryfion iawn, cynghorem chwi i gilio o'r neillduo, neu osod gorchudd dros eich wynebau, o blegid, yn wir, y mae'r olygfa yn arswydlawn dros ben!—

'Ac yna Boanerges agorodd ei enau pur,
Rhwng deuar ddudew, dywyll, a nefoedd olau, glir;
Mil oedd o glustiau'n gwrando, a *Theomemph* yn un,
Ac ofon yn ei galon, a chryndod yn ei lin.

'Uwch coryn Mynydd *Sinai*, yn uchel fynu fry,
Ar aden cwmmwl gwibiog, mewn awyr dywyll, ddu,
Lle clywai gwlad o ddynion, lle y dadseiniai'r Nef,
Mewn eithaf godidowgrwydd 'roedd ei sefyllfa ef.

'Ei lais oedd fel taranau amrywiol iawn ynghyd,
Neu fel yr utgorn olaf a ddeffry feirw'r byd;
Yn creu rhyw arswyd rhyfedd trwy'r ddeuar faith a'r Nef,
A miloedd yn llewygu wrth swn ei eiriau ef.'

"Yna y canlyn ei bregeth, yr hon trwyddi oll sydd yn fellt ac yn daranau, yn gorwynt ac yn genllysg, yn gwibio, yn rhuo, yn rhuthro, ac yn ymdywallt, nes ydyw y trueniaid sydd dan y gawod yn brawychu ac yn llewygu gan ddychrynfëydd. Ond dywedir ddarfod i amryw o gymdeithion anystyriol a halogedig *Theomemphus* ddal y bregeth yn galed a dïarswyd; tra y daliwyd eraill gan ddwys a dwfn argyhoeddiad, y rhai a ddygid yn fuan i orfoleddu yn y mwynhad o dangnefedd yr efengyl. Ond am *Theomemphus*, bu ef fisoedd a blynyddau rai yn rhwym ynghaethiwed ofnau a dychrynfëydd cydwybod. Rhy faith fyddai i ni ei ddilyn trwy'r holl amgylchiadau y dygir ef wedi hyn: pregeth *Seducus*, a'r effeithiau o honi arno: ail bregeth *Boanerges*, a'i heffeithiau hithau: pregethau *Orthocephalus* a *Schematicus*, *Arbitrius Liber*, a'u gwahanol effeithiau hwythau ar *Theomemphus*, ac eraill.

"Braidd na feddyliem fod agwedd foesol ac ysprydol Cymru o flaen meddwl yr awdur yn y rhanau hyn o'r gân. Y mae dull ac ansawdd gweinidogaeth *Boanerges* o'r un ddelw a'r eiddo Howel Harris, ac eraill o dadau y diwygiad. Pregeth *Seducus* sydd wir bortreiad o'r athrawiaeth esmwyth, wenieithus, a dinystriol, a bregethid yn gyffredinol y pryd hyny, ac yn rhy gyffredin etto, yn y llanau plwyfol. *Orthocephalus* sydd bregethwr uniongred, ond hunanol, anffaeledig, ffrostgar, a chyn syched ag ysglodyn. *Schematicus* sydd gyffelyb iddo: gwaith hwn ydyw condemnio, fel cyfeiliornadau heresiol, egwyddorion ac athrawiaeth pawb ond yr eiddo ei hun; a darlithio ar yr 'arfaeth' yn ddiddiwedd, a hyny oddi wrth yr un testyn 'dros ddeugain Sul ac un!' *Arbitrius Liber* a bregetha yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy weithredoedd. Y mae'r disgrifiad a roddir o'r athrawon a'r gwahanol athrawieuthau yn ddynodol a chraff iawn: y disgrifiad o'r dylanwad a gaffai eu gwrandawiad ar amryw fath ar ddynion a phroffeswyr o grefydd, yn dra phriodol a chywir. Yn y dylanwad a gaffent ar feddwl *Theomemphus*, dangosir y fath feddyginiaeth wrthodedig a dïeffaith yw athrawieuthau sychlyd cnawd a deddf i enaid drylliedig dan wir argyhoeddiad o drueni ei gyflwr. Hanes *Athemelion* ac *Abasis* a ddengys y mawr berygl o bwyso ar deimladau a thymherau, yn lle bywyd a sylwedd crefydd. Hanes alarus, ond cywir, cannoedd lawer o broffeswyr gwresog, a gobeithiol yr olwg arnynt am dymmor, a welwyd yng Nghymru, ydyw: y creigle yn derbyn y gair trwy lawenydd, yn egino yn ebrwydd, ac yn wyneb y brofedigaeth yn gwywo yn ebrwydd drachefn.

"Ei 'guro yn nhrigfa dreigiau, a thoi drosto â chysgod angau,' a gafodd *Theomemphus*, druan, dros hir yspaid. Wylo, ocheneidio, a rhuo gan aflonyddwch ei galon, yw ei waith ddydd a nos. Methai ei enaid trallodedig gael gorphwysdra nac esmwythdra mewn un man. Nid yw dysgeidiaeth benrhydd *Seducus*, gweinidogaeth sychlyd *Orthosephalus*, darlithiau poethlyd *Schematicus*, ac athrawieuthau deddfol *Arbitrius Liber*, yn dygymmod dim oll â'i glwyf ef. O'r diwedd, dyma genad o ladmerydd yn ymddangos!—

'Fel hyn, a *Theomemphus* mewn myfyr wrtho ei hu
Heb gaffael naws cyfrwyddyd, na chysur gan un dŷn;
A'i drigfan er ys dyddiau o fewn y ddinas wiw,
*Theopolis* gyfenwir, sy â'i phlant yn 'mofyn Duw.

'Ond ar ryw un diwrnod, y cyntaf un o'r saith,
Pan oedd pawb wedi gadael gorchwylion bydol waith;
Boreuddydd disglair hyfryd, cyn codi'r heulwen lon,
Sy'n gwneud i'r llysiau chwerthin 'rhyd wyneb deuar gron

'Fe welai gwmmwl disglair yn dod o'r dwyrain draw,
A'i olau yn tywyllu yr heulwen maes o law;
Fe welai'r haul fel lleuad yn ehang pell y nef,
A'r cwmmwl golau'n hedeg tu ag at ei ddinas ef.

'Fe welai angel cadarn, nid angel oedd ond dŷn,
Yn nesu yn agosach bob munud ato ei hun;
A'i wyneb fel y wawrddydd, yn crëu math o hedd
Ynghalon *Theomemphus*, wrth edrych ar ei wedd.

'Fe, *Evangelius* ydoedd, yn wastad mae e'n dwyn
Newyddion teg a hyfryd, nefolaidd, tawel, mwyn;
Newyddion o lawenydd i'r rheiny sydd yn drist,
Newyddion rhad i ddynion trwy angau Iesu Grist.

'Fe gasglodd *Theopolis* ei phlant o'r bron* i gyd,
I wrando y newyddion, a seliwyd cyn bod byd;
Er lled y dorf aneirif, prin iawn oedd yno un
Am glywed gair o heddwch, fel *Theomemph* ei hun.

'Ac yno fe ddadseiniodd, fel utgorn aur i maes,
Ogoniant Bryn Calfaria, holl egwyddorion gras;
A thorf o gwmpas iddo, tu aswy a thu de,
Angylion, archangylion, disgleiriaf yn y ne.'

"Yma y canlyn pregeth faith, efengylaidd, ac anghymharol *Evangelius*: darn o gyfansoddiad, hwyrach nad gormod dywedyd nad oes mo'i ragorach, ymhob ystyr, mewn unrhyw iaith. Byddai ei dodi oll i lawr yma yn myned a gormod o le; gan hyny, dodwn ychydig bigion.

Difyna yr awdur 16 o bennillion yn y lle yma o bregeth *Evangelius*, yr hon a welir yn "Holl Weithiau" Williams, t. 373–5. Annogwn ein darllenwyr i fynnu gweled y bregeth hon, "nad oes mo'i rhagorach, ymhob ystyr, mewn unrhyw iaith." Ni wiw i ni ddodi yma ond y pennill bleunaf o wahanol ddifyniadau ein hawdur galluog. Cynnwys y difyniad cyntaf 4 pennill; yr ail, 6 phennill; y trydydd, 12 pennill; a'r pedwerydd, 4 pennill:—

'Gwrandewch am hyny newydd tragwyddol ei barhâd,
A seiliwyd ac a seliwyd mewn dwyfol ddynol waed:
Trugaredd fel y moroedd o galon Duw ei hun,
Yn llifo'n anherfynol at wael syrthiedig ddŷn.
. . . . . . . . . . .

'Mae ynddo nerth diderfyn, doethineb mawr yn rhad,
Deng miliwn o rinweddau yn rhagor yn y gwaed:
Mae ynddo bob rhyw angen sydd ar bechadur gwan,
Tan filoedd o amheuon i godi ei ben i'r lan.
. . . . . . . . . . .

'O iachawdwriaeth gyflawn, anfeidrol led a hyd,
Mae'n fwy na'r nef ei hunan, mae'n llawer mwy na'r byd:
Mae'n drysor anchwiliadwy o berlau drud eu bri,
Does dim yn gymmar iddi sydd ar ein deuar ni.
. . . . . . . . . . .

''N ol treuthu'r athrawieuthau hyfrydaf hyn ynghyd,
A llawer iawn yn rhagor nag ellir gofio i gyd;
Gorphenodd *Evangelius*, ac yna'r nef o'r bron,
Dywynodd ei hwynepryd yn ddisglair ac yn llon.'

* Y mae "o'r bron," yn y Deheubarth, yn arwyddo *y cwbl*; gan hyny, y mae "o'r bron i gyd" yn gyfystyr âg *oll i gyd*.—Gol.

Digitized by Google

"Pregethau *Boanerges* ac *Evangelius* a ellir eu golygu, fel y sylwyd, fel esampl deg o'r weinidogaeth a effeithiodd y diwygiad ag ydoedd yn nerthol weithio yng Nghymru yn yr amser y cyfansoddwyd '*Theomemphus*.' Y mae o bwys a gwerth i ni, gan hyny, geisio ymofyn beth oedd eu gwir nodweddau. Meddyliem mai dirgelwch ei nerth ydyw ei symledd a'i diweirdeb: bendith a melldith, angau ac einioes, yn cael eu gosod ger bron yr enaid yn ddihoced a dïorchudd. Deddf ac efengyl yn cael eu dwyn adref yn uniongyrch at gyflwr y colledig yn y modd mwyaf diffuant a dirodres. Ym mhregethau *Boanerges* y mae'r gyfraith yn myned allan gyd âg awdurdod a nerth i ddeffro, dal, ac euog-farnu y troseddwyr. Ymeifl ei gallu ysprydol yn ei holl enaid, a barna feddyliau a bwriadau ei galon. Saif fel cerub disglair, â'i gleddyf tanllyd yn ei law, a cheua i fynu ffordd pren y bywyd o flaen yr euog, gan luchedenu melldithion a damnedigaeth yn ei wyneb, os cynhygia ddynesâu. Ymhregeth *Evangelius*, o'r tu arall, y mae—

'Hedd yn rhedeg o Galfaria,
Fel yr afon tan y groes.'

"Yma, ac yma yn unig, y gwahoddir yr euog colledig i 'edrych, a dim ond edrych,' i gael bywyd a thangnefedd. Ni adewir amser iddo ddiwygio nac ymbarotôi, i chwilio am ras nac ammod; ond derbyn maddeuant a iachawdwriaeth rad a llawn, yn euog, aflan, a damniol, fel y mae. 'Cred yn unig' ydyw iaith y weinidogaeth wrtho; a sicrheir iddo y bydd i gredu symmud ei faich a'i ofnau, cynhyrchu pob gras a rhinwedd yn ei enaid, a pheru i holl 'ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist er gogoniant a moliant i Dduw,' dyfu yn ei fywyd. Gweinidogaeth syml, gyfeiriol, ddiseremoni, digwmpas, a hynod o apostolaidd ei hyspryd a'i delw ydoedd, ac am hyny yr oedd nerthoedd yn gweithio ynddi. Ni adawai funud o heddwch i bechadur ar dir difrawder a diofalwch. Ymlidiai ef â mellt a tharanau oddi ar dir deddfoldeb: ysgubai ei chorwyntoedd a'i chenllysg ei noddfëydd celwydd: ar fynydd Sïon yn unig y dangosai ymwared a dïogelwch iddo. Ymdorodd ac ymlifeiriodd yr athrawiaeth hon fel 'afon bur o ddwfr y bywyd, disglair fel grisial,' trwy Gymru dlawd, nes gwneuthur ei 'hanialwch fel Eden, a'i diffeithwch fel gardd yr Arglwydd.' Clywid ynddi lawenydd, a hyfrydwch, dïolch, a llais cân, yn lle rhuad dreigiau, a bwystfilod, a chrygleisiau dylluanod, ac adar y nos, fel o'r blaen. Weinidogion a phregethwyr Cymru! caniatëwch i ni ofyn, Ai dyma dôn gyffredinol gweinidogaeth y dyddiau hyn? A beidiodd yr 'aur coeth da' a newid, a thywyllu graddau wedi'r dyddiau hyny? A ddarfu i yspryd *Orthocephalus* a *Schematicus* beidio a nychu yspryd *Boanerges* ac *Evangelius* i ryw fesur? Ai ni ddarfu i beth o surdoes egwyddorion y bleunaf lefeinio ryw gymmaint ar weinidogaeth yr oes hon? A ymgadwodd yr areithfaoedd yn llwyr rhag tuedd sarhaus yr athrawon hyny; y naill i euog farnu y llall, ac i honni bob un iddo ei hunan yr anrhydedd o osod allan yr athrawiaeth iachus, ac felly fagu yspryd y pwngc a'r blaid, ar draul nychu yspryd edifeirwch a ffydd yn y gwrandawyr? Ai nid oes raidd fwy o'r cecraeth a'r cyndyn-ddadlau a ddisgrifia ein hawdur fel cynhyrchion gweinidogaeth y ddau bregethwr llawn-zelog bleunaf, wedi bod yng Nghymru y blynyddau diweddaf, nag o'r clwyfo, y lladd, a'r bywhau, a ganlynai weinidogaeth y ddau olaf? Y mae'r matter yn deilwng o sylw ac ymofyniad dwys; ac os ceir bod y pethau hyn felly, carther allan yr hen lefain o'n hareithfaoedd, fel y byddo'r weinidogaeth yn does newydd; yr adferer iddi wefus bur; ac fel y byddo ein barnwyr megis cynt, a'n cynghorwyr megis yn y dechreuad. Yna gallwn ddisgwyl gweled yr unrhyw ddylanwadau.

"Gadawsom *Evangelius* a'i fintai yn esgyn tu a'r nefoedd, a phlant *Theopolis* yn canu dan effeithiau ei bregeth. Ond pa beth a ddaeth o *Theomemphus*? Y mae efe etto, druan ŵr, yn ei gadwynau, er iddo gael ei symmud, i raddau, o'r pydew erchyll yr oedd ynddo o'r blaen:—

'Ond *Theomemph* oedd etto heb gael ei lwyr ryddhau,
Yn methu cymryd cysur, yn methu llawenhau;
Er iddo gael awelon, rhyw brawf o nefol dân,
Na chafodd ef eu tebyg hwy etto erioed o'r blaen.'

"Wedi gwrandaw y bregeth, aeth i goedwig, wrtho ei hunan, i fyfyrio a gweddïo; ac yno yr oedd ei enaid yn faes ymdrechion egnïol, rhwng ofnau a gobeithion, anghrediniaeth a dymuniadau:—

'Pan oedd e'n rhodio'n ddistaw, mewn myfyr wrtho'i hun,
Mewn coedwig ar lan afon, heb yn ei weled ddŷn.

'Fe waeddodd ar ei liniau fel yma tu a'r ne,
Ochenaid 'nol ochenaid yn codi ynddo fe,
Fel ton 'nol ton yn dyfod o'i galon drom i'r lan,
Anghredu'n gwneud ei yspryd yn eiddil iawn a gwan.*

. . . . . . . . . . .

'Ond pan nas gallsai ddïoddef, dïoddef dim yn hwy,
Gan wres a phoen digymmar ei argoeddiadol glwy,
Danfonwyd gair i wared, fe dâl ei gofio ef,
Gair oedd yn fwy na'r ddeuar, gair oedd yn well na'r nef.

'Rhaid oedd ei gael neu farw, hwn oedd y gair mewn pryd:—
"Ha fab! mae'th holl aflendid 'nawr wedi ei faddau i gyd:
Mae Aberth wedi ei gaffael, fe gafwyd perffaith iawn
Am bob rhyw fai fu ynot, fe roddwyd taliad llawn."

. . . . . . . . . . .

'Fe synodd, fe ryfeddodd, (be fe) fe drodd y rhod,
Trodd ofnau yn gysuron perffeithiaf fu erioed;
Ymblith pob rhyfeddodau, hwn yw yr uwcha'i ryw,
Caiff *Theomemphus* aflan feddiannu nefoedd Duw.

'Fy Nuw! fy Nhad! fy Iesu! Boed clod i'th enw byth,
Doed dynion i dy foli fel rhif y borau wlith:
O na bai gwellt y ddeuar oll yn delynau aur,
I ganu i'r hwn a anwyd ym Methlem gynt o Fair!'

"Ac felly ym mlaen. Dyma fe wedi ei godi i'r lan o'r 'pydew erchyll, allan o'r clai tew, . . . ei draed ar graig, a chân newydd o foliant yn ei enau:' ac y—

'Mae'n dweyd, tra ar y ddeuar, y cofia am yr awr,
Daeth nerth y nef i wared i dori ei gadwyn fawr:
Ni red fyth o'i feddyliau pa beth yw enw'r dydd,
'Nol blwyddau maith o garchar, y rhoed ei draed yn rhydd.'

"Yr amser a ballai i ni ei ddilyn gam a cham, wedi hyn, trwy ei wahanol helyntion a'i dywydd ysprydol: ei gysuron a'i drallodion, ei brofedigeuthau, ei gwympiadau, a'i adferiadau, lle y manwl olrheinir gweithrediadau gras a llygredd: yr hen ddŷn a'r dŷn newydd yn enaid y credadyn; ac y dengys yr awdur gydnabyddiaeth graff â phla y galon, a helaeth adnabyddiaeth o brofiad efengylaidd. Y mae'r Dr. *Aletheius*, wrth nodi *Theomemphus*, yn ei chwilio i'r byw, ac megis â llusernau a dywynent eu goleuni i holl ystafelloedd ei galon. Daw *Theomemphus*, pa fodd bynag, trwy ei brawf dwys yn ddïangol. Rhydd ei attebion berffaith foddlonrwydd i'w holydd manwl, a gollynga ef ymaith dan ei fendithio, a dywedyd 'Duw yn rhwydd' wrtho.

"Dywed yr awdur, yn ei ragymadrodd, ddarfod iddo olrhain *Theomemphus* trwy lïaws o beryglon a phrofedigeuthau, y rhai nad aethai Bunyan dduwiol â'i bererin ef trwyddynt; ac iddo fanylu ac ymheleuthu yn neillduol ar ei garwriaeth â *Philomela*, gan y golygai mae'r cyfryw amgylchiadau yw'r mwyaf profedigeuthus o gwbl i broffeswyr ieuaingc, yn yr hwn y maent yn y perygl mwyaf o golli yspryd crefyddol, a gwneuthur llongddrylliad o'u ffydd a'u proffes. Bu agos i *Theomemphus* golli ei draed

* Y mae etto ormod o ddifyniadau i ni roddi dim ond esamplau o honynt; eithr gwel y cyfan yn yr "Holl Weithiau," pen. vi., t. 375. —GOL.

yn yr amgylchiad hwn. Wedi i'r Dr. *Aletheius* ei holi eilwaith ar y matter, a chael allan ei hanes, ceryddodd ef yn llym, yr hyn a fu'n foddion i'w adferu; ond costiodd ei ymadawiad â *Philomela* yr ymdrech a'r gofid caletaf iddo. Wedi cael yr oruchafiaeth ar ei serchiadau cnawdol, canodd gân ymadawiad â *Philomela*, yr hon sydd lawn o'r syniadau mwyaf cynhyrfus:—

'Nis gall swynion *Philomela*,
Ddim i demtio'm henaid mwy;
Ac ni ofna i wedd yr wyneb,
Ganwaith roddodd i mi glwy':
Ces o'r diwedd fuddugoliaeth,
Buddugoliaeth werthfawr lawn.
Hi ddechreuodd yn y borau,
Hi berffeithiwyd y prydnhawn.*

. . . . . . .

'Tyred, bellach, *Philomela*,
Nid oes niwaid imi fod
Yn dy gwmni bob amserau;
Ces fy mhechod dan fy nhroed:
Rho dy law, a thyred allan,
Rhodiwn yn ddiniwaid iawn,
Rhwng y beddau, tan fyfyrio,
O foreuddydd hyd brydnhawn.

'Ni eisteddwn ar y meirw,
A chwedleuwn am yr awr
Byddwn ninnau yno'n gorwedd,
Rhwng y graian mân i lawr:
Canwn hyny i Dwysog Heddwch,
Soniwn am ei farwol glwy',
Ymadawn heb natur gofid,
P'un a gaffom gwrddyd mwy.'

"Ond trwy bob dyrysni, cyrheuddodd *Theomemphus* ben ei daith helbulus o'r diwedd. Llawer croes, a chystudd, a gelyn a'i cyfarfu, wedi iddo gael ei droed yn rhydd o faglau *Philomela*. Mynych yr ydym yn ei weled megis 'wedi ei fwrw i lawr, ond heb ei ddifetha; mewn cyfynggyngor, ond nid yn ddïobaith; yn gystuddiol, ond nid mewn ing; megis wedi ei geryddu, ond heb ei ladd.' I roddi terfyn ar ei holl drallodion, daeth y gelyn diweddaf i ymosod arno yn lled annisgwyliadwy:—

'Pan oedd yr haul yn twnu yn hyfryd un prydnhawn,
A'r llysiau'n rhoddi allan aroglau peraidd iawn:
Y meusydd yn wyrddleision, a'r coed yn llawn o ddail,
A natur ar eu gilydd yn chwerthin bob yn ail;

'A *Theomemph* yn eistedd yn dawel wrtho'i hun,
Mewn myfyr syn am ddechrau a diwedd siwrnai dŷn,'

pwy a ruthrodd arno yn ddisymmwth ond angau! gan ddangos ei wedd, a bostio yn ofnadwy. Wedi dal ei dir yn ddewr, a herio galluoedd angau dros dro, y mae nerth a gwrolder *Theomemphus* yn pallu; ond wedi hir ymdrech, y mae'n cael ei anadl drachefn, ac yn gadael y byd dan ganu:—

'Ni ches ond gweutha' uffern, ni ches ond gweutha'r byd,
Cha'i ond dy weutha' dithau, O angau glas ynghyd!
Mi lechaf yn y ddeuar, caiff llwch at lwch i fynd;
Ond, angau! ti gei wybod fod Iesu imi'n ffrynd.'

"Fel y mae'n myned ddyfnach ddyfnach i'r dwfr, clywn ei lais bloesg yn parablu yn ddistaw:—

'Mae'r anadl byr yn darfod, mae'm hyspryd yn llesgâu,
Mae natur gref yn methu, mae angau yn nesâu;
'R wy'n ceisio craffu'm llygaid ar hyfryd waed y groes,
Dal f'enaid afael arno yn nyfnder angau loes.'

"Fel hyn y bu farw *Theomemphus*, â'i draed ar ben angau! 'yn fwy na choncwerwr, trwy yr hwn a'i carodd:' gorchfygodd 'trwy waed yr Oen:' hunodd mewn tangnefedd, â'i lygaid yn gweled iachawdwriaeth Duw. Dodwyd ei gorph yn y ddeuar, a'r ysgrifen ganlynol ar ei fedd:—

'Wel dyma'r dŷn a garwyd, a gannwyd yn y gwaed,
Deng miliwn lawn o feiau faddeuwyd iddo'n rhad:
Ei dynu wnawd o'r danllwyth, ac yntau'n mynd i lawr,
Fe gadwyd hwn o uffern, mae e yn y nef yn awr.

'Mi gaf fy nghorph i fynu, fel fy Anwylyd cu,
Heb nwydau drwg byth mwyach i'm blino fel y bu;
Does dŷn ŵyr is yr wybyr ddedwydded yw fy lle,
Ac nis gall dŷn ddychmygu dim am bleserau'r ne'.

'Heb saeth, heb fraw, heb ofon, heb ofid ac heb boen,
Mae'n canu o flaen yr orsedd ogoniant Duw a'r Oen,
Ynghanol myrdd myrddiynau, mae'n hyfryd lawenhau,
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau.'

"Wel cysga, cysga dithau, hen bererin gwych, wedi dy daith drafferthus a blinderus. Bydd priddellau y dyffryn yn felus i ti mwyach, i orphwys ac ymddadflino hyd y borau y cei dy gorph gwael i fynu, wedi ei gyfnewid i'r 'un ffurf a'i gorph gogoneddus Ef.' Ffarwel, *Theomemphus* hawddgar, ffarwel! Bydded fyw dy goffadwriaeth, ac na fydded farw byth yng Nghymru. Dymunem weled hanes dy fywyd yn nwylaw holl feibion a merched Sïon yn y Dywysogaeth, ac iddo argraphu dy yspryd a'th ddelw ar galon pob un o honynt, fel y llanwer ein heglwysi â dy fath. Amen ac amen.

"Wedi i ni fel yna fras-ddilyn *Theomemphus* trwy wahanol amgylchiadau ei oes, a'i hebrwng trwy'r Iorddonen i dir y bywyd, a dodi ei gorph i orphwys 'mewn gwir ddïogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragywyddol,' rhaid i ni derfynu ar ychydig eiriau mewn perthynas i elfenau y cyfansoddiad a fu dan ein sylw. Crybwyllasom rai pethau eisoes a ddigwyddent yn achlysurol ar ein ffordd wrth ymdaith o honom trwy'r gwaith, fel nad yw angenrheidiol i ni ychwanegu llawer etto.

"Y brif elfen yn ansawdd y gân hon, fel eraill o ganiadau Williams, ydyw y feistrolaeth a geidw ar ein teimladau. Y dŷn a allo ei darllen, neu ei gwrando, heb deimlo dim o effeithiolaeth ei swyn, braidd na heurem y rhaid bod y cyfryw o ryw rywogaeth arall o fodolion, wedi ei draws-ffurfio ar lun a delw dŷn. Anaml y ceisia athrylith awenyddol Williams ein brawychu â dychryniadau arswydlawn: hoffach ganddi hi, fel telyn Anachreon, ganu caniadau cariad. Gwir y gall weithiau ehedeg 'uwch coryn mynydd Sinai, ar aden cwmmwl gwibiog, mewn awyr dywyll, ddu,' a chymmysgu tân a brwmstan, a mellt a tharanau; ond gwell ganddi ysgwyd ei hesgyll rhwng erchwynion bŵa tangnefedd, ar fynydd Sïon, yr hwn a ffurfir gan belydrau Haul y Cyfiawnder, yn tywynu ar y gwlith a ddisgyn ar y mynydd hwnw. Nid yw yn ymddangos yn ei helfen a'i hawyr briodol pan yn cymmeryd ei safle ar y 'mynydd teimladwy, sydd yn llosgi gan dân a thymmestl:' y mae yno, fel Moses, y llarieiddiaf o feibion dynion, 'yn ofni ac yn crynu.' Ond unwaith pan y saif ar fynydd Gerizim, i efengylu tangnefedd, ac i gyhoeddi y fendith, mor weddaidd yw ei thraed. Trais ar ei natur, braidd, ydyw iddi geisio cynddrychioli *Boanerges*, i seuthu mellt, a rhuo taranau ar fynyddoedd Ebal a Sinai; ond pan y cynddrychiola *Evangelius* ar fynyddoedd Sïon a Chalfaria, y mae gartref yn ei hawyr ei hunan, ac yn gwisgo ei gwir nodwedd. Denu, toddi, ennill, swyno, â'r 'llef ddistaw fain,' yw ei chynnefin a'i phriodol waith.

"Ond nid dyna yw ei hunig briodoledd. Tra yn gwresogi ac yn tanio, y mae hefyd yn llewyrchu ac yn goleuo. Cafodd athronyddion allan i sicrwydd bod pelydrau y gwres a phelydrau y goleuni, a seuthant o gorph yr haul, yn amrywiol oddi wrth eu gilydd, fel y dichon i'r naill hanfod ar wahan oddi wrth y llall. Y mae ambell athrylith ddynol yn gyffelyb i'r lleuad, yr hon a adlewyrcha oleuni, ond ni ddyry ddim gwres. Rhydd yr awduron

* Y mae'r gân gynhyrfus hon yn 11 o bennillion, ar fesur gwahanol (8 a 7 sill) i'r holl gyfansoddiad. Difyna yr awdur 7 bennill o'r gân yma, yr hon a welir yn gyflawn yn yr "Holl Weithiau," t. 400. —GOL.

Digitized by Google

hyn, meibion y lleuad, radd o oleuni a mwynhad dealltwrieuthol i'w darllenyddion, tra y gadawant y galon i rynu dan eu dylanwad. Ond mab yr haul oedd Williams: seuthai gwres a goleuni allan o gorph ei athrylith ef. Tra y mae'r dealltwriaeth yn cael ei hyfforddi a'i oleuo, y mae'r galon hefyd yn cael ei thwymno a'i thoddi. Y ddwy briodoledd hyn ynghyd ydynt anhebgor i wir farddoniaeth. Caniad llawn o synwyr ac athrawiaeth, ond amddifaid o serchowgrwydd a theimladaeth, nid yw amgen na math ar sylwedd oerllyd heb fywyd ynddo. Ac o'r tu arall, un llawn o deimlad a bywiowgrwydd, ac amddifaid o ddysg a gwybodaeth, nid yw ond math ar fywyd dïansawdd, heb na ffurf na diben iddo. Y mae '*Theomemphus*' yn rhagori, fel y sylwasom, yn ei wres; ac y mae hefyd yn gyflawn o addysg ac athrawiaeth.

"Yn gyssylltedig â hyn drachefn, y mae ei athrawiaeth o duedd ymarferol ragorol: yn fwy o duedd ymarferol na 'Golwg ar Deyrnas Crist.' Y mae ynddo wirioneddau priodol *i*, a chyfeiriad *at*, bob cyflwr ac amgylchiadau. Ni all y difraw, a'r anystyriol, a'r cyndyn ei ddarllen, heb deimlo bod ei gyflwr truenus yn cael ei osod o flaen ei wyneb. Yr argyhoeddedig a'r pryderus ynghylch iachawdwriaeth ei enaid a'i caiff yn disgrifio ei brofiad a'i deimlad, ac arweinir ef at y 'balm sydd yn Gilead.' Y babanod a'r rhai bach yng Nghrist a gant eu porthi â llaeth cyfaddas i'w harchwaeth a'u cylla hwythau. Y credadyn buddugolieuthus ar uchel-fanau maes profiad efengylaidd, a gaiff yn '*Theomemphus*,' yn ei ddyddiau hapusaf, gydymaith o'r un yspryd a theimlad ag ef. Athrawon a gweinidogion y gair a allant ei ddarllen er mawr fuddioldeb iddynt eu hunain, er gochelyd athrawiaeth, yspryd, a nodwedd yr athrawon a feir ynddo, a'u cynhyrfu i ymdebygu i'r rhai canmoladwy; a hefyd, er awchlymu a minio eu hysprydoedd yngwirioneddau mawrion yr efengyl.

"Proffeswyr ieuaingc a gânt ynddo gynghorion, rhybuddion, ac addysg fuddiol. Ond ni fynnem ganmol '*Theomemphus*' ymhob peth yn amgylchiadau ei ymadawiad â *Philomela*, na'i osod fel esampl i un gŵr ieuangc crefyddol i'w ddilyn, a ddichon fyned etto, fel yr aeth llaweroedd o'r blaen, i'r unrhyw brofedigaeth. O ran dim sy'n ymddangos i'r gwrthwyneb yn yr adroddiad o'r amgylchiad, gwnaeth *Theomemphus* ei benderfyniad i ymadael â *Philomela* heb wneud un cais i'w pherswadio hi i ddyfod i'r un feddwl ag ef; a gallasai drwy hyny wneuthur anghyfiawnder o'r mwyaf â hi, a thori archoll anfeddyginieuthol yn ei theimladau. Bu'r canlyniadau mwyaf gofidus i amgylchiad fel hwn lawer gwaith. Llawer calon a waedwyd i farwolaeth yn y modd yma, a chysur a defnyddioldeb llawer Cristion a gymmylwyd am ei oes; ac nid bychan y trallod a achosodd i lawer eglwys. Dichon yr *esgeulus*wyd yn ormodol o lawer y ddyledswydd o rybuddio a chynghori disgyblion ieuaingc ar y matter pwysig hwn; a hyny a'n cymhellai i wneuthur y crybwyllion hyn, gan ei fod yn dyfod yn deg yn ein ffordd.

"Peth arall y'n tueddir i achwyn arno braidd ydyw, gwaith *Theomemphus* yn gwahodd ei hen gariad-ferch i ddyfod allan yn ei fraich i rodiana, ag yntau wedi tori ei gyfrinach â hi. Dywed y gallent rodio gyd â'u gilydd 'yn ddiniwaid iawn, o foreuddydd hyd brydnhawn,' 'rhwng y beddau.' Er mai lle go oerllyd i deimladau i rodio ydyw 'rhwng y beddau,' etto 'hawdd cynnau tân yn hen aelwyd.' Nid yw hyn amgen na chwarau â'r brofedigaeth, a themtio temtasiwn. Ymddengys hyn i ni yn fwy o ryw fath ar boeth-wendid crefyddol nag o wir ddoethineb a deall da; ac ni ryfeddem, dan y fath amgylchiadau, i serchiadau natur orthrechu penderfyniadau crefyddol y meddwl, ac i'r pleidiau gael eu trochi'n ddyfnach nag o'r blaen ymhwll y brofedigaeth. Gyd â'r crybwyllion hyn, yr ydym yn gadael '*Theomemphus*,' dan ei daer gymmell i sylw ein cydwladwyr." *

Heb law ei holl hymnau Cymreig, a'r ddwy gân fawr a nodwyd eisoes, "Golwg ar Deyrnas Crist" a "Theomemphus," cyfansoddodd "yr Hen Williams" *ddeg* o ganiadau eraill (heb son yn awr am ei farwnadau), a rhai o honynt yn lled feithion, sef "Cerdd am Briodas," yn cynnwys 114 o bennillion, 8 linell, 7 a 6 sill; "Atteb i Wr Bonheddig," 64 o bennillion; "Myfyrdodau ar Angau," 84 o bennillion; "Gwerthfawrowgrwydd y Bibl," 19 o bennillion; "Atteb i'r Annerch Prysur," 9 o bennillion; "Reliquiæ Poeticæ" = Gweddillion Awenyddol, tair cân, yn cynnwys 115 o bennillion; "Liber Miscellaneorum" = Llyfr yr Amrywioldeb, 40 o bennillion; a "Ffydd ac Anghredintaeth, mewn Cân Benrydd," 269 o linellau.

Y mae'r un athrylith loyw, yr un awen hedegog, a'r un yspryd efengylaidd yn rhedeg trwy y rhai hyn ag a red trwy ei hymnau, ei "Olwg ar Deyrnas Crist," a'i "Theomemphus;" ond byddai yn llawer rhy faith i ni sylwi ar y rhai hyn o un i un; gan hyny, ni a ymgyfyngwn dros ychydig amser at y "Gân Benrydd" yn unig, yr hon a gyhoeddwyd y tro cyntaf gyd â'r "Môr o Wydr" yn 1762. Ymleunaf, dodwn farn Williams ei hun ar y mesur hwn, a geir yn ei ragymadrodd i'r argraphiad hwnw o'r gwaith:—

"Am y gân benrydd (yr hon a eilw'r Saeson arni *Blank Verse*), yr wyf yn gwybod pe bech wedi ymgynnefino â hi, y carech hi yn orau o bob prydyddiaeth. Y mae hi'n rhoi cenad i'r prydydd i arferyd ei holl ddoniau, ei ddychymygion, ei droell-ymadroddion, ei ehediadau, a phob dyfais a allo gras a natur i gael allan, i wresogi y darllenydd yn y nwydau hyny y bo'r bardd am ennyn ynddo; lle y mae cymmaint o gaethiwed gyd â'r llall, trwy amryw glymu geiriau o'r un swn, a hyn mewn iaith nad oes fawr iawn i gael ynddi o eiriau, ag sy'n peri bod y bardd yn rhwym draed a dwylaw; etto rhaid iddo neidio, nofio, ymladd, a rhedeg, heb law na throed."

Y Prifardd Hiraethog a ddywed am "Gân Benrydd" Williams:—"Dernyn tra gorchestol ydyw hwnw, a thrueni na buasai wedi cyfansoddi mwy ar y mesur hwn. Y mae mwy o gyd-darawiad dawn, athrylith, ac yspryd rhyngddo â'r chwilfrydig Cowper, nag un arall o'r beirdd Seisnig; a mwy o hyn i'w weled, fe allai, yn y 'Gân Benrydd' nag yn ei ganiadau eraill."

Camsyniad cyffredin y beirdd Cymreig am y mesur hwn ydyw, mai *mesur Seisnig* ydyw; ac ymddengys, braidd, mai hyny oedd syniad "yr Hen Williams" am dano. Pa wedd bynag, y gwir yw ei fod ar arfer gan y beirdd Cymreig er amser Aneurin Gwawdrydd, ac i wared hyd amser Ed-

* Traethodydd, llyfr iii., t. 37-51.—Yr ydym yn ystyried beirniadaeth y Prifardd Hiraethog ar hymnau a dwy gân fawr "y peraidd ganiedydd," ym mysg y gemau llenyddol gwerthfawrocaf sydd genym yn yr iaith Gymraeg.

Digitized by Google

ward Dafydd o Fargam, a diweddarach. Ei enw Cymraeg yw "Y Gyhydedd Wen, ddeg sill."* Dyma ychydig esamplau o hono, o lïaws o ellid eu nodi yn y *Gododin:*—

"Ni chyliei o gamhawn yn y verei
Waet mal brwyn gomynei gwyr nyt elei
Nys adrawdd Gododin ar lawr mordei.

"Eithinyn voleit mur greit tarw trin.
A charneddawr tra gogynhe gwyr trin.
Hu byddei yncyvrein present mab pel."†

Wele esamplau diweddarach o'r un gyhydedd:—

"Cerais gael gwanwyn mewn llwyn a llanerch;
Cerais gael cân adar mân i'm hannerch.

"Yn awr yr un bert, mae'n oer yn ei bedd,
A mi am dani dan guli gwaeledd:
Hiraeth a galar, Duw o'i drugaredd
A'm rhotho foddlonfryd o hyd a hedd."‡

Yr oedd yr hen feirdd yn gofalu bob amser, megis yn yr esamplau uchod, am derfynu y gyhydedd wen, ddeg sill, fel pob cyhydedd arall, â chorfan rhywiog, gan roddi yr accen ar y sill olaf ond un yn y llinell; neu â chorfan hir, sef gair unsill pwysleisiol, megis *hedd,* neu air a'r accen ar y sill olaf, megis *mwynhâd;* ond ni therfynent byth y gyhydedd wen, nac unrhyw gyhydedd arall, â'r corfan crych disgynedig, sef sill accenol a dwy sill anaccenol ar ei hol, megis sȳnăgŏg, neu cērddĕd fĕl (dŷn), a'r cyffelyb. Y mae'r beirdd Seisnig gorau, megis Milton, yn dilyn y rheol hon yn fanwl, gan ddiweddu llinellau yn y gyhydedd wen yn eu "mesur anghyfawdl," yn wastad, â gair neu sill pwysleisiol, megis—

"Sing, heavenly Muse, that on the secret top
Of Oreb, or of Sinai, didst inspire
The Shepherd, who first taught the chosen seed."

Credwn, pe chwilid y "Paradise Lost" o'i ddechrau i'w ddiwedd, na chanfyddid cymmaint ag un linell yn terfynu â *dwy sill anaccenol* olynol. Y mae ein beirdd Cymreig diweddar gorau ni yn bur anwyliadwrus yn hyn o beth, wrth ddefnyddio y gyhydedd wen yn y mesur anghyfawdl, canys terfynant hwy eu llinellau, nid anfynych, â dwy sill anaccenol, sef yn y corfan crych disgynedig, megis—

"Anadlu o'r awelon bywiŏl, fĕl
Y cyfranogo awen marwol ddŷn.

"Ymblethed ei llinellau'n dyniŏn ăm
Serchiadau saint Cymreig."

"A pha le
Mae'r llais oedd fel pe yn dirgrynŭ găn
Hyawdledd distaw, ond angerddol, dwfn?

"Yno Golyddan uchelfrydĭg oĕdd
Yn cael cymmundeb cydradd gyd â'i Fam!"

"Yr hon ar ddirgel gopa Horĕb, nĕu
Ar Sinai.

"Efe trwy ddichell, wedi ennŷn găn
Gyntigen a dialedd."

"Ac onid ydyw'n wir
Yn aberth mawr i'w wneud o gariăd ăt
Fyd cas, gwrthnysig?

"O'r hon y deuai griddfan dwys yn llef
Dragwyddol ataf, gan erfŷn ăm
Ryw ronyn o drugaredd."

Buasai yn hawdd ychwanegu esamplau cyffelyb, wrth y dwsinau; ond y mae hynyna yn ddigon i atteb y diben mewn golwg. Yr oedd "yr Hen Williams" yn bur ofalus gyd â golwg ar y mesur, cystal ag ar ansawdd godidog y farddoniaeth, mewn ystyr foesol a chrefyddol, fel y dengys yr esamplau canlynol o'i "Gân Benrydd" ar "Ffydd ac Anghrediniaeth:"—

"O fyd! O fyd! pa beth wna'i yma'n byw?
Fe ddarfu pleser, pleser o bob math:
Ddoe'r oeddwn mewn rhyw faith baradwys deg;
Ond heddyw trowyd fi maes o honi'n llwyr.
Mil o bleserau ddoe oedd yn fy rhan;
Ond heddyw feddai'r un o dan y nen:
Mae dŷn, mae da, mae'r cyfan is yr haul,
Yn gryno wedi rhoi ffarwel i mi.
Yn awr mae'm dealltwriaeth fel y môr,
Yn rhuo yma a thraw, un gronyn gwell,
Yn mofyn pleser, nid oes un i'w gael.
"Oes un i'w gael? Oes un, didrange di drai,
A hwnw sydd yn dod i maes yn llif
O dan yr orsedd, gorsedd wen yr Oen.
Wel, mi obeithiaf ddringo i mewn i'r nef,
A gado'r llawr, lle nad oes da i'w gael:
Y nef ei hunan ettyb fy holl wae;
Y nef ei hunan, yno byddaf iach.
Ac os aeth lluoedd maith o'm hanwyl rai
I maes o'r byd, caf yno eu cwrddyd oll.
Caf yno weld *Ouranus,* nefol ddŷn,
Fu'n rhodio'n hir trwy'r dyrys anial maith,
Yn cael ei ladd trwy gydol faith y dydd,
Ac yn dïoddef oll heb rwgnach dim,
Yn wirion fel yr Oen, heb roddi dant
Am ddant i neb; ond achwyn arno'i hun;
Na blino neb am groesau'r byd a'i wae,
Ond edrych ar y goron draw i'r bedd;
A llawenhau yn fynych wrtho ei hun,
Wrth weld ei olaf ddydd yn agosâu.
O'r diwedd daeth, a buan rhodd ffarwèl:
Mae'n canu'n awr ymhlith cynnifer myrdd
O seintiau, ac angylion, ag sy o ser
Yn chwarau yn yr ehang gloyw las;
Wedi anghofio'i boen, anghofio'r byd,
Y gwawd, a'r erlid, a'r ochneidiau trist:
Hwynt yno oll'n awr wedi eu troi yn hedd,
Yn gariad, a llawenydd maith di drai,
Ac anorchfygol bleser, neb nis gŵyr,
Ond sydd yn canu'n awr o flaen y fainge.
"O! ddedwydd ddŷn! mi roddwn ugain mil
O fydoedd ehang, pe baent yn fy rhan,
Am gael bod yna heddyw'r man yr wyt.
Yno mae *Philomela,* addfwyn ferch,
Dybygais i mai angel oedd, nid dŷn;
A gwedd angylaidd ar ei hwyneb llon,
Yn sugno holl serchiadau'r saint o'i hol.

. . . . . . . . .

"Y nef ei hun sydd yn terfynu gyd,
Bob rhyw droiadau chwerwon is y nen,
Mewn nefol gwsg yn dawel dug hi i'r lan;
Cans addfed oedd i wisgo'r goron bur,
A chanu'r delyn aur ei gwaith hi'n awr.

* Cyfr. y Beirdd, t. 48. † Myv. Arch., pp. 1, 12, 13.
‡ Cyfr. y Beirdd, t. 88.

Digitized by Google

O ran na chaiff neb seintiau fyw yn hwy
Nag bont yn addfed at gwmpeini'r Oen.
Mi gwela' hi'n awr a'i gwisg fel eira gwyn,
Neu fel yr haul ymhlith y ser di rif,
Ymleuna' o dorf forwynion llawn o wres,
A fflamau cariad at y Brenin mawr,
Y ledio côr nefolaidd gân i'r Oen,
Tu faes i'r ddinas sanctaidd unwaith fu
Rhwng daer a nef, yn hongian ar y bryn.

. . . . . . . . . .

"Ca'i yno weld *Pedista* aeth i'r bedd
Cyn gweled haul ar y gyhydedd fawr
Un waith yn croesi i wneuthur gaua'n haf;
Na'r lloer dair gwaith trwy'r deuddeg arwydd fynd;

. . . . . . . . . .

Ond dacw hi'n awr o flaen yr orsedd fawr,
Ymhlith saith ugain mil o saint a mwy,
Ddiangodd yno heb gael gweld yr haul,
Na derbyn dwfwr bedydd yma erioed,
Na chael yr enwau roddir gan y byd;
Ond bedydd oddi mewn a gawsant hwy,
Ac enwau na ddeallir is y nen;
Ac wrth fath enwau yno maent yn cael
Eu galw'n unol oll at ganiad pur,
Fyth newydd gaingc i'r addfwyn anwyl Oen.
Mae'i chorph hi'n gorwedd heddyw yn y bedd,
Rhwng muriau o faen a chalch, yn fwyd i'r pryf.
Yn ol nis daw; af ati'n fuan iawn.
Caf ran o'i gwely'n ddistaw yn y pridd;
Ac yna ni gyfodwn pan ddel cri
Arch-angel mawr, na chlywd erioed ei fath,
Nes chwalu holl sylfeini'r ddeuar drom,
A'r meirw i glywed, ac ŷnt godi i'r lan:
Yn lle hireuthu bellach llawenhâf.
Mi rois *Pedista* i fyw.
"Wrth lawenhau y mae rhyw storom fawr
O mewn, o maes, yn dyfod yn eu grym,
Bron curo'm hyspryd gwan o dan y dŵr.
Aeth *Eloisa* i'r bedd? O addfwyn ddŷn!
Addfwynaf ddŷn fu ar y ddeuar las.
O ymddifad fi! Pa beth wna i yma'n byw?

. . . . . . . . . .

Ond taw fy enaid! gwagedd yw dy lais;
Dy ochneidiau, gwagedd ydynt oll o'r bron.
Pa le mae'r nef? pa le mae'r Iesu'n byw?
Pa le mae *Eloisa* 'nawr ei hun?
Pa le mae'm ffydd? pa le mae'm grasau o'r bron?
Ai colli cymmar wna i mi lwfrhau?
Nag e! mi welaf trwy spien-ddrych clir
(O nefol waith) fod *Eloisa* yn fyw:
Yn fyw mewn gwlad âf finnau cyn bo hir;
'R wy'n gwybod hyn, hi garodd Iesu mawr
Fil mwy na dim teganau is yr haul.
Mi glywa hyfryd, berffaith, nefol dôn
Yn awr yn dod o rhwng ei dwylo hi maes,
Oddi ar y delyn aur.

. . . . . . . . . .

"'R wy'n awr mewn hwyl yn gweuddi maes mi âf:
Ffarwel greaduriaid, o bob lliw a llun,
Gwŷr, meibion, merched, gwragedd, plant, a ffryns:
Ffarwel, ffarwel! ni phwysa' i arnoch mwy,
Aur a meddiannau, holl drysorau'r byd,
Ei barch, a'i enw, darfu i chwi'n awr,
Does genyf ddim ond Duw ei hun o'm plaid;
A Duw sydd ddigon, mae e'n fwy na phawb;
Ac bellach nid oes arnaf chwant y nef,
Am fod *Pedista* wedi mynd o'm blaen,
Neu *Eloisa*, cyfaill llawer mwy;
Ond am fod Iesu ei hunan yn y bedd,
Ac am ei fod o fewn y nefoedd fry,
Yn ben ar gynnifer sanct a seraph pur,
Ag sydd o dywod mân ar fin y môr;
Ac nid fy nghysur yw ymado â'r byd
Am fod rhyw fyrdd o seintiau draw o'm blaen;
Ond fod Duw ei hunan yno gyd,
I'w fwynhau byth yn ddi drai, ddi drangc.
"O! ffynnon bur o oleuni! O! ddi drai
Gysuron! O! anfeidrol unig un!
Dy hunan ydwyt fwy na'r nef o'r bron,
Yn fwy na'r byd, yn fwy na'r moroedd mawr,
Yn fwy nag angau, ac yn fwy na'r bedd;
Tydi wyt ddigon, a dim ond tydi:
Neb ond tydi ni cheisiaf tan yr haul.
Ti ar y ddeuar, ti yn y nefoedd fry,
Tydi yn angau, a thi yn y bedd.
Wel digon yw i mi dy fod yn Nduw:
Mae pob dedwyddwch ynot ti dy hun:
Cyfoethog, tlawd, a chlaf, a iach sydd un,
A byw a marw'r un wedd ynot ti;
Rhwng nef ac uffern nid oes dim gwahân,
Pe fflamau'th gariad ddoi i lanw'r ail."

Y mae'r awen hedegog sy'n treiddio trwy'r gân ardderchog hon wedi ein hysgubo ar ei hedyn chwim i feithder nas bwriadem; ond weithian rhaid ymattal. Cyfansoddodd y "peraidd ganiedydd" un "Gân Benrydd" arall, sef "Marwnad Maria Sophia, merch i Evangelius, y Pregethwr, a fu farw yn bythefnos oed; a gyfansoddwyd wrth weled yr effaith a gafodd hyny ar serchiadau ei mam." "Dywedir mai merch yr awdur oedd Maria Sophia, ac mai i gysuro ei mam yn ei galar ar ei hol y cyfansoddwyd" y gân. Y mae'r un medr yn y mesur, a'r un awen alluog yn treiddio trwy hon ag sydd yn y gân ar "Ffydd ac Anghrediniaeth;" er, wrth reswm, nad yw hon mor odidog oruchel a honno. Wele esampl o'i dechrau a'i diwedd:—

"Un gofal rhagor, ac un gofid mawr,
Aeth tros fy mhen, nas gwela'i hono mwy:
Deng mil o ddyddiau, cyd pe buaswn fyw,
A byw *Maria*, gofal fuasai byw:
Dymuniad, gobaith, cariad maith, a chwant
Ei gweld hi'n ddedwydd, fuasai dan fy mron.
Hi aeth i'r bedd!

. . . . . . . . . .

"Mae'r peth yn siwr; mi wela'n eglur iawn,
Tros yr agendor fawr rhwng daer a nef,
I fod *Maria* 'nawr ymhlith y llu,
Ymhlith torfeydd, torfeydd ar ol torfeydd,
Fry, o fabanod pur. heb frychau'n awr.
Ac ni feddyliais i fod mwy o'r rhain
Na neb rhyw eraill, heddyw yn y nef.
Dyrchafwyd gras fel hyn yn llawer mwy,
Di ddysg, diddeall iaith, di dda, di ddim,
Yn seinio maes ganiadau pur y nef;
Yn nabod dyfais iachawdwriaeth rad;
Pob caingc, pob gwreiddyn, a phob rhan yn llwyr,
Uwch Abram, Joseph, Pedr, Ioan, neu Paul,
Gynt ar y ddaer, yn awr mae'r baban gwan,
'N awr 'rwy'n gweld mewn myfyr bethau mwy
Nag a feddyliais i erioed o'r blaen.
Does heddyw'r un yn fyw ym Mrydain Fawr
O'r mwya'u donian, y mwyaf oll eu gras,
A ŵyr y ganfed ran am Iesu Mawr
A ŵyr yr eiddil aeth i maes o'i phoen:
'R wyf wrth fy modd, 'r wyf trwy'r ehangder mawr
Yn gweld y marw'n awr yn berffaith fyw:
Ond O! 'r fath dorf o ryw gwestiynau maith
Sy'n llifo mewn, fel moroedd, i fy mryd!
A oes dim hiraeth ar y dorf ddi rif
O bur fabanod am eu cyrph i'r lan?
A phan ddel hyn i ben, ar forau wawr
Yr adgyfodiad mawr o'r llwch i'r lan:
O ba faintioli cwyd ei chorph hi o'r bedd?
Fel 'raeth ef lawr? neu o faintioli mwy?
Fel corph ei Harglwydd 'nawr sydd ar y faingc.
Pwy atteb im i ofyn cwestiwn mwy,

Pa fodd gall enaid unig lawenhau?
A gweld, a chlywed, canu nefol gân,
A'r tafod, clust, a'r llygad yn y bedd?
O taw, fy enaid! mi gaf yn y man,
I weld fy hun, ac nid rhaid gofyn mwy:
Cael prawf sydd ddigon, mi nabyddaf oll."

Cyfansoddodd Williams 35 o farwnadau eraill, i wahanol bersonau. Y mae rhai o honynt yn bur feithion, ac y maent oll yn dra gwerthfawr, nid yn unig fel barddoniaeth odidog, ond hefyd fel hanes y rhai y cenir iddynt, a hanes crefydd yng Nghymru yn eu hamser. Cafwyd achlysuron eisoes i gyfeirio at amryw o'r cyfansoddiadau prydferth hyn, ac i ddifynu o rai o honynt, megis marwnad Lewis Rees, Daniel Rowlands, Howel Harris, a Howel Davies. Ymddengys mai un o ddau gyfansoddiad olaf y "peraidd ganiedydd" oedd marwnad Daniel Rowlands, yr hwn a ymadawsai â'r fuchedd hon ryw dri mis yn unig o flaen yr awdur athrylithgar; ac y mae'r gân odidog honno yn dangos bod awen y bardd mor gref, a'i ddychymmyg mor fywiog a threiddgar pan yn ei chyfansoddi, ag ydoedd ymlodau ei ddyddiau.

Y mae rhan fawr etto o lafur yr enwog Williams heb ei nodi genym, sef ei dreuthodau lliosog; ac ni oddef lle i wneud dim ond crybwyll y rhan fwyaf o honynt, a nodi yr amser y cyhoeddwyd hwynt. Ymddengys mai cyfieithiad oedd y cyntaf a ysgrifenodd, sef pregeth gan Ebenezer Erskine ar "Sicrwydd Ffydd," ac a gyhoeddwyd yn 1759. Y llyfr rhyddieithiol helenthaf o lawer a ysgrifenodd yw yr un canlynol:—

"Pantheologia: sef Hanes Holl Grefyddau'r Byd, sef y Grefydd Baganaidd, y Fahometanaidd, yr Iuddewig, a'r Gristionogol; yr hon sydd yn cynnwys y tair Canghen, Eglwys *Rhufain*, Eglwys *Groeg*, yr Eglwys *Brotestanaidd*, ynghyd ac amryw Sectau ymhob un o'r rhain. At ba un y chwanegwyd Nodau yn rhoi Hanesion am amrywiol jawn o Wledydd yn *Europe*, *Asia*, ac *America*, eu Sefyllfa, eu Marsiandaeth, eu Ehangder, ynghyd a Moesau, Dŷsc, Arferion, Ymborth, a dull Gwisgoedd, a threfn Bywyd, eu Trigolion. Wedi ei dynnu o'r Awdwyr diweddaraf, Gorau, a Chyweiriaf. Gan Wm. Williams, Gweinidog Eglwys Loegr. . . . . 1762."

Y mae hwn yn llyfr trwchus, 12plyg, copi o'r argraphiad cyntaf o'r hwn sydd yn ein meddiant. Cynnwys 654 o dudalenau, mewn argraph fân, heb law enwad-ddalen ac 11 tudalen o ragymadrodd. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn dull o ymddiddan rhwng *Apodemus* ac *Eusebius;* ac y mae, fel holl waith Williams, yn hynod o ddifyrus ac adeiladol i'w ddarllen, ac annogem bob mab a merch ieuangc fynnu cael ei ddarllen. Cyhoeddwyd yr ail argraphiad o hono gan Mr. Mackenzie, yn "Holl Weithiau" Williams, t. 509.

Dilynwyd y gwaith mawr uchod gan y treuthodau canlynol:—"Llythyr Martha Philopur at y Parchedig Philo-Evangelius ei Hathraw," 1762; "Atteb Philo-Evangelius i Martha Philopur," yn 1763; "Hanes Llwyddiant yr Efengyl," yn 1766 (cyfieithiad, fel yr ymddengys); "Crocodil Afon yr Aipht, wedi ei weled ar Fynydd Seion, sef Cenfigen wedi ei olrhain trwy'r Byd a'r Eglwys," yn 1767; "Hanes Bywyd a Marwolaeth Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht,"* yn 1768; "Aurora Bore-

* Enwau y "Tri Wŷr" dychymmygol hyn yw *Avaritius*, yr Awyddus; *Prodigalus*, yr Afradlon; a *Fidelius*, y Cristion." Y mae gan yr awdur farwnad i bob un o'r tri, ac y maent yn gyfansoddiadau o'r fath fwyaf disgrifiadol a gynhyrchwyd gan unrhyw awenydd. Dechrau un *Avaritius* fel hyn:—

"Ble heddyw mae'th drysorau, ti druenusaf ddŷn?
Pwy sydd yn cadw'th godau a'th filiau wrth ei glun?
Pwy bia'th feusydd meithion, a'th neuadd ddisglair, lân?
A gest ti wybod hyny gan rywun yn y tân?

"Dy gyfoeth a'th adawodd; am d'enw nid oes son:
Mae eraill yn gwasgaru a gesglaist ti trwy boen:
Dy awydd a'th orthrymu, dy drais a'th dwyll ynghyd,
A gofir, a ddannodir, ganlynir gan y byd.

"Llosgfeydd o dân tragwyddol yw'th wely heno a'th nyth,
Yn lle dy balas cadarn meddyliaist drigo fyth;
Ellyllon hyll, uffernol, sy'n gwawdio'th boen a'th loes,
Am gadw'r tlawd heb wrthban i orwedd tano'r nos."

Gan nad yw marwnad *Prodigalus* ond ber, dodwn hi yma yn gyflawn:—

"Dacw loddest wedi darfod, dacw feddwdod yn ei rym,
Ag a llediodd Prodigalus, heddyw wedi mynd yn ddim:
Dacw'r bleunor wedi trengi, 'drychwch ar y penaf un,
Wedi dodi'r bwyd a'r ddiod gorau i'w ddinystrio'i hun.

"Pwy bleserau'n awr sydd ganddo? ai nid llais y delyn fawr?
Neu ynte swn y droed rygyngog sydd yn jiggo'r hyd y llawr?
P'un ai gwin, ai sac, ai brandi, mae e'n yfed yn ei hynt?
A yw'n llawen yn y cwmni? ac yn ddifyr megis cynt?

"O! nag e, fe ddarfu hyny, yn lle gwin euogrwydd trwm
Sydd yn llosgi ei goluddion, megis y berwedig blwm:
Screch cythreuliaid ydyw'r delyn, dyna'r dawns mae e'n fwynhau,
Myrdd o ellyllon sydd yn boenwyr, a thrwy'u gilydd yno'n gwau.

"Dyna'r swper sy iddo heno, brwmstan todd yn danllwyth las,
Bwyta hwnw, hwnw'n tarddu trwy rwyd-dyllau'i groen i maes:
Yn lle cymmysg pob rhyw licer, yfed llid tragwyddol sydd,
Twllwch dudew ellir deimlo, yn lle hyfryd olau'r dydd.

"Dewch yn gryno, feibion pleser, yma dewch i lan y llyn,
Tros un funud gwrandewch ruddfan, gwelwch ddagrau'r adyn hyn,
Rhowch ffarwel i bob pleserau, rhowch ffarwel, y mae'n brydnhawn,
Ymhen chydig bach o ddyddiau chwi gewch berffaith daliad llawn.

"Mae yn Eden well pleserau, uwch pleserau tan y groes;
Cariad ragor nag mewn natur sydd i'w weld yn angau loes:
Mwy llawenydd, mwy digrifwch, ffeinach cysur, uwch ei ryw,
Nag a welwyd ar y ddeuar, sydd ymhresennoldeb Duw."

Ond hwdiwch un difyniad byr o ddechrau marwnad brydferth *Fidelius*:—

"Wel dacw fe, Fidelius, o'r diwedd yn ei le!
Trwy'r anial wedi dringo i mewn i deyrnas ne!
Heb ofon ac heb flinder, heb forau na phrydnhawn,
Ar delyn aur yn canu am iachawdwriaeth lawn.

"Ei nwydau oll sydd heddyw heb derfysg yn gyttûn,
Yn gryno yn moliannu Creawdwr nef yn ddŷn;
Fy llestyr sydd yn frogus gan rif y tonnau maith
A gwrddais gynt, ac etto wy'n gwrddyd ar fy nhaith.

"Galluocdd maith ei enaid mewn digymmysgedd boen,
Sy'n swnio'r hymn dragwyddol i'r croeshoeliedig Oen.

Digitized by Google

alis, neu Y Goleuni yn y Gogledd, fel arwydd o Lwyddiant yr Efengyl yn y dyddiau diweddaf; neu Shecinah'r Mil Blynyddoedd," yn 1774; "Antinomiaeth, Bwbach y Rhan Ffurfiol o'r Eglwys Gristionogol (ar ol ei hela trwy holl Wledydd Cred) wedi ei ddal," yn 1774; "Temphum Experientiæ Apertum; neu Ddrws Society Profiad, wedi ei agor o led y pen, fel y gallo y sawl a chwennych edrych i mewn," yn 1777; "Nuctor Nuptiarum: neu Gyfarwyddwr Priodas," yn 1777; "Hanes Troedigaeth rhyfedd a hynod y Parchedig Thomas Goodwin, D.D.," 1779; "Hanes Troedigaeth un o'r Indiaid digred i'r Grefydd Gristionogol," 1779; "Ber Hanes o'r pethau mwyaf hynod ym mywyd James Albert Ukawsaw Groniasaw, Tywysog o Affrica," 1780; "Immanuel: neu Ddirgelwch dyfodiad Mab Duw yn y Cnawd wedi ei Agor. Gan y Gwir Barchedig Dad yn Nuw, Thomas Usher," 1786 (cyfieithiad); "Annerch Prysur a Difrifol, yn cael ei osod at Ystyriaethau Crist'nogion haelionus, i gyfranu rhyw ran o'u meddiannau tymhorol, at wneud i fynu Ffynd neu Drysor bychan bob blwyddyn i ddwyn ymlaen yr Ysgolion Cymraeg Rhydd yng Nghymru, yn yr un dull y dechreuwyd ac y dygwyd hwynt ymlaen gan y Parchedig Mr. Griffith Jones a Mrs. Bevan," 1790; "Dialogous [Dialogus]: neu Ymddiddan rhwng Philalethes ac Eusebius, mewn perthynas i wir Gristnogrwydd," 1791.*

Y mae braidd yn sicr mai hwn oedd y cyfansoddiad olaf a ysgrifenodd yr awdur enwog, a hyny yn lled fuan, ond odid, ar ol cyfansoddi marwnad anfarwol Daniel Rowlands; ond ni chyhoeddwyd ef hyd ymhen tu a chwe mis ar ol i bin ysgrifenu buan y bardd orphen ei waith, canys amser ei argraphiad (nid ei ysgrifeniad, fel y tybiai Gwilym Lleyn) yw Gorphenaf 21, 1791. Amcan y treuthodyn, fel y dywed Gwilym Lleyn, oedd amddiffyn yr enwog Peter Williams yn erbyn ymosodiadau bryntion a wneid arno y pryd hwnw gan rywrai, "o blegid rhyw gyfnewidiadau a wneuthai yn sillebiaeth a geiriadaeth Bibl bychan, gyd â chyfeiriadau, y Parch. John Cann, yn y flwyddyn flaenorol." Yr oedd rhyw ymhonwyr hefyd yn ymosod yn ffyrnig ar P. Williams, y pryd hwnw, nid yn unig o blegid y cyfnewidiadau dibwys a wneuthai yn sillebiad a geiriad y Bibl crybwylledig, ond hefyd o herwydd ei olygiadau ar Dduwdod Crist; eithr amddiffynodd Bardd Pant-y-Celyn a Daniel Rowlands ef hyd eu diwedd, fel y ceir gweled rhag llaw.

Yn awr, credwn y dengys yr hanes flaenorol, yr orau a allem ni ei chasglu, bod "yr Hen Wiliams," nid yn unig y bardd enwocaf yn ei oes, ond hefyd y mwyaf a gyfododd hyd yn hyn yng Nghymru mewn unrhyw oes, a'i fod gyd â hyny yn dduwinydd dwfn a golau, yn bregethwr doniol ac effeithiol, yn hanesydd craff a manwl, ac yn ddadleuwr gonest a nerthol. Ond y gwir yw, "y mae'r doeth yn marw fel yr annoeth;" ond gyd â hyn o wahaniaeth, "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig, ond enw y drygionus a bydra." Ymddengys bod y bardd enwog, pan yn cyfansoddi marwnad Daniel Rowlands, rhyw bum mis cyn ei farwolaeth ei hun, yn ymwybodol fod terfyn ei yrfa yn agosâu. "Y geiriau diweddaf yn honno," ebai Mr. Charles, "a fynega orau, medd ei fab, y Parch. John Williams, ei brofiad yn ei ddyddiau olaf:—

"'Etto er i lyffetheiriau
Sydd yn rhwymo'r corph ynghyd
Y mae'r nefoedd fawr yn agos,
Rhwygwyd y cymmylau i gyd;
Mae fy yspryd am gartrefu
Gyd â'r dorf aneirif fawr,
O rai cyntaf-anedigion,
Y sydd yn y nef yn awr.'"

Yr oedd yn cael ei flino yn dost yn ystod blynyddau olaf ei fywyd gan y graianwst. Pan aeth yn rhy egwan i gyfodi, ac i ddarllen ei hun, byddai ei wraig rinweddol, yn ol ei ddymuniad, yn darllen ychydig iddo bob dydd o'r Testament Newydd a'r Psalmau. Annogai bawb o'i amgylch, tra yn gallu siarad, i lynu wrth yr Arglwydd o lwyrfryd calon. O'r diwedd, ar yr 11fed o Ionawr, 1791, bu farw mewn tangnefedd heddychol yn ei breswylfod, ym Mhant-y-Celyn, yn 74 oed. Claddwyd ef yn yr ochr ddwyreiniol ym mynwent Llanfair-ar-y-bryn. "Yr oedd tyrfa lïosog iawn yn ei gladdedigaeth," medd Mr. Charles, "a phregethodd William Llwyd, Ysw., o Henllan Cayo, yn enwog, yn ol ei arfer, i'r dyrfa. Canasant yn orfoleddus i'r llan," "a dïammau," medd Hiraethog:—

'Yn arwyl y bardd, a pha odlau cymhwysach?
Dilynid ei elor â'i odlau ei hun.'"

"Fe ddarfu wylo heddyw, does wylo yn y nef;
Fe sychodd Duw ei hunan ei ddagrau gwlybion ef;
Llawenydd pur digymmysg, mwynhâd di drangc, di drai,
Yw gwledd dragwyddol hyfryd y cadwedigol rai.

"Mae ef yn medi'r awrhon yr had a gadd ei hau;
Nid oedd yr had ond chydig, mae'r ffrwythau'n amlhau;
Bydd coron o ogoniant yn eistedd arno ef,
Tra paro Duw ei hunan, tra paro nef y nef."

* Y mae holl gyfansoddiadau yr awdur enwog, yn farddonol a rhyddieithol, oddi eithr ei gyfieithiadau, wedi eu hargraphu â llythyren eglur, ar bapur da, gan Mr. Mackenzie; a dylai pob Cymro a Chymraes, a allont fforddio, fynnu ei feddiannu.

Digitized by Google

"Rhoddwyd careg fedd arno," medd Mr. Charles, "a'r argraph ganlynol arni yn Saesneg, a'r pennill diweddaf o Theomemphus arni yn Gymraeg:—

"Er coffadwriaeth i'r diweddar Barch. W. Williams, o Bant-y-Celyn, yn y plwyf hwn, awdur amrywiol dreuthodau mewn prydyddiaith a rhyddiaith. Disgwyl yma seren ddydd yr adgyfodiad cyntaf, pan wrth swn udgorn yr archangel yr adfywia y llwch cysglyd, ac y llyngcir angau ei hun mewn buddugoliaeth. Llafuriodd yngwinllan yr efengyl dros hanner can mlynedd, ac a barhaodd yn ei ymdrechiadau er ei llwyddiant, yn gystal wrth bregethu ac ysgrifeniadau. Ac i'w lawenydd anhreuthadwy, gwelodd ei heffeithiau yn heleuthu, a'r gallu yn ymddangos yn iachawdwriaeth miloedd.

"Heb saeth, heb fraw, heb ofn, heb ofid, a heb boen,
Mae'n canu o flaen yr orsedd, ogoniant Duw a'r Oen,
Ynghanol myrdd myrddiynau, yn caru oll heb drai,
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau."

"Fel hyn," medd Mr. Charles, "y gorphenodd y gŵr enwog hwn ei yrfa lafurus. Yr oedd yn ei ieuengctid yn ŵr hardd, bywiog, o'r maintioli cyffredin. Ei dymherau oeddynt boethlyd, ond yn gyffredinol yr oedd yn dirion ac yn hawddgar tu ag at bawb. Wrth roddi pob peth ynddo at eu gilydd, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf ei ddoniau, ei barch, a'i ddefnyddioldeb yn ei oes. Yr oedd yn meddu doniau prydyddol, wedi eu rhoddi yn naturiol a helaeth iddo gan yr Arglwydd. Ehedai yn aml ar adenydd cryfion iawn, y sydd yn ei gario yn odidog ac yn uchel. Aberth mawr y groes yw sylwedd a phwngc penaf ei holl ysgrifeniadau; a thra y byddo cariad at y gwrthrych mawr hwnw ynghalonau y Cymry, bydd ei waith yn gymmeradwy yn eu plith, yn neillduol ei hymnau.

"Nid astudiodd nemmawr ar gynghanedd brydyddol y Cymry, nac ar gadw purdeb iaith, ond ehedai ar awel nefol, a chymmerai y geiriau nesaf at law, a chwbl ddealladwy i'r werin yn gyffredin, y rhai a hoffant ei ganiadau yn ddirfawr. Er nad oedd yn gymmeradwy ynddo i esgeuluso purdeb yr iaith Gymraeg* yn gymmaint, etto yn ei iaith gyffredin y mae'n ddealladwy i bawb, ac yn dwyn ein meddyliau a'n calonau gyd â grym a gogoniant ei fatterion a'i ehediadau.

"Effeithiodd ei hymnau gyfnewidiad neillduol ar agwedd crefydd ymhlith y Cymry, a'r addoliad cyhoeddus yn eu cyfarfodydd. Y mae rhai pennillion yn ei hymnau fel marwor tanllyd, yn poethi ac yn tanio yr holl nwydau wrth eu canu, ac yn peri eu dyblu yn aml, nes y byddont yn gweuddi ac yn llawen o orfoledd. Y mae'r effeithiau cryfion hyn yn brawf neillduol o rym yr achos sydd yn eu peri.

"Pregethau Mr. Daniel Rowlands a chaniadau Mr. William Williams a wneuthant yr oes yr oeddynt yn byw ynddi yn fwy nodedig na nemmawr o oesoedd a fu ar Gymru erioed. Y pedwar peth canlynol ydynt yn ymddangos yn nodedig ynddo, sef grym a heleuthrwydd ei ddoniau naturiol, ei ddiwydrwydd mawr yn eu defnyddio nos a dydd, y graddau helaeth iawn a fwynhaodd ei hun o ddylanwadau yr Yspryd Glân yn ei waith, a'r fendith fawr oedd ar y bobl trwyddo."†

Mewn cyssylltiad â hyn, dywed y Prifardd Hiraethog fel y canlyn:—

"Yr ydym yn hollol gydsynio â barn yr Iarlles Huntingdon a Mr. Charles am dano, sef, *ac ystyried, a dodi pob peth at eu gilydd ynddo, na feddai Cymru yr un gŵr mwy i ymffrostio o hono, a'i fod yn un o'r dynion mwyaf ei ddoniau a'i ddefnyddioldeb yn ei oes.* 'Y dystiolaeth hon sydd wir.' Ymffrostia Cymru, yn gyfiawn hefyd, ynddo. Tueddir ni i fyned gam ymhellach na'r 'arglwyddes etholedig' a Mr. Charles, a honni uwchafiaeth iddo ar holl gedyrn ei oes, a dodi pob peth at eu gilydd. Gŵr a fedrai ysgwyd teimladau cenedl gyfan o bobl ar unwaith, ac sydd yn parhau o hyd i wneud hyny yn fwy nag un o'i gydoeswyr, sydd yn teilyngu ei osod ynghadair y Tachmoniad, yn benaeth cedyrn ei ddyddiau. Y mae hyawdledd areithyddol digymmar Rowlands, o Langeitho, bron a myned erbyn hyn i ebargofiant, tra y mae'r eiddo ef mor fywiol ac effeithiol ag erioed. 'Nid astudiodd nemmawr ar gynghanedd brydyddol y Cymry,' medd Mr. Charles. Y mae hyny yn eithaf gwir, ac ni buasai o nemmawr ddiben iddo geisio gwneud hyny chwaith. Ni fuasai waeth ceisio rhwymo 'yr unicorn â'i did mewn rhych,' na cheisio gosod ei awen ef i dynu yn nhresi y pedwar mesur ar hugain. Ni allasai Dafydd ap Edmwnt byth gael ganddi 'lyfnu y dolydd' ar ei ol ef yn yr offer honno, mwy nag y gallasai Job gael gan yr unicorn wneud hyny. Asen wyllt ydoedd, a chwarddasai am ben lliaws tref o feirdd 'wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain,' pe fuasent yn rhedeg ar ei hol, ac yn galw arni. Nid ydym yn teimlo un radd yn ofidus o blegid hyn. 'Ni ofalodd chwaith am gadw purdeb iaith,' medd yr hanesydd. Y mae hyn etto yn bur wir, a drwg genym hyn. Buasai ei ganiadau yn fwy dymunol a chymmeradwy i bob chwaeth goeth pe buasent wedi eu nithio â gwyntyll ac â gogr gofal a dehewyd, er puro a gloywi y iaith. Ond y fath ydoedd yscil ei athrylith hudolieuthus, fel y mae'r hyawdledd a'r effaith weithiau yn cael yn hytrach eu mwyhau trwy hyd yn oed *wallau* y ieithyddiaeth!‡ Caniadau William Williams o Bant-y-Celyn, ac areithiau William Williams o'r Wern, ydynt yn dwyn cyffelybrwydd mawr i'w gilydd yn hyn, fel mewn amryw bethau eraill. Etto, *gwall* ydoedd yn y ddau, a pheth, fel y dywed Mr. Charles, nad oedd *gymmeradwy*. Er hyn oll, ymgadwai yn bur ofalus, yn gyffredin, o fewn cylch y mesur y canai arno. Anfynych iawn y gwelir llinell ry hir na rhy fer ganddo. Y gwall hwn, o dor mesur, a wna emynau melusion Ann Griffiths yn anghymmalog ac anystwyth, lawer o honynt, ac a bâr anfantais i'r datgeiniaid. Y mae rhai, hyd yn oed o ben-campwyr y pedwar mesur ar hugain, yn hynod o ddilywodraeth gyd â'r mesurau rhyddion: yn gyffelyb i feirch porthiannus pan ollyngir hwynt o'r gobr, hwy a godant eu cynffonau, ac a brangciant ymaith dros wrychoedd a chloddiau, modd na byddo dal arnynt. Rhed pennillion Williams yn esmwyth a naturiol o fewn cylch priodol ei fesur: anaml y ceir llinell nad yw yn gorwedd yn ei gwely yn dawel."§ . . . . .

Bu "Mali" yr hen fardd, sef ei wraig enwog, fyw wyth mlynedd ar ei ol ef, sef hyd 1799, pan y "bu farw yn fuddugolieuthus," medd Mr. Charles, a hi yn 76 oed. Bu iddynt ddau o feibion, a phump neu chwech o ferched. Ymddengys i'r hen fardd ddwyn ei ddau fab i fynu i'r offeiriadaeth yn Eglwys Loegr, sef William a John. Methasom daro wrth ddim braidd o hanes Wil-

* Y mae'n anhawdd iawn gwybod yn fanwl beth a olygir wrth "burdeb yr iaith Gymraeg." Os wrth ei phurdeb y golygir bod ei geiriau yn tarddu o'r hen Geltaeg, prin y gellir taro wrth un ymadrodd yng ngwaith neb yn bur. Dyna'r ymadroddion uchod o waith Mr. Charles: *astudiodd* a ddeillia o'r Lladin *studiosus*; *purdeb*, Ll. *purus*, neu S. *pur*; *etto*, Gr. *eti*; *matterion*, Ll. *materia*, Saes. *matter*; *effeithiodd*, Ll. *effectus*; *hymnau*, Ll. *hymnus*, Gr. *humnos*. Ar fyr, yr iaith buraf, i'n tyb ni, ydyw yr iaith y byddo ei geiriau oll, yn wreiddiol a benthyciol, yn fwyaf hysain, a'i hymadroddion yn fwyaf ystwyth a dealladwy i bob dosparth o ddarllenwyr; a chydnebydd pawb bod iaith "yr Hen Williams" felly mewn modd arbenigol.

† Trysorfa, llyfr ii., t. 453-4.

‡ Gwel y nodiad olaf ond un ar odrau y ddalen.

§ Traethodydd, llyfr ii., t. 238.

Digitized by Google

liam, ond yr hyn a ddywed Mr. Charles am dano, a'r cyfeiriadau ato yn llythyrau ei frawd John. Cafodd guradaeth Newlyn, yn agos i Truro, yng Nghernyw, a dichon mai yno bu farw yn ddibriod: o leiaf, yr oedd ef, fel ei frawd John, heb briodi yn 1813, pan ysgrifenai Mr. Charles hanes bywyd eu tad.

Ganwyd John, yr ail fab, ar y 23ydd o Fai, 1754. Cafodd ei addysg foreuaf gan ei dad ym Mhant-y-Celyn, ac wedyn bu dan addysg gyd â pheriglor Llandeilo'rfan; ac aeth oddi wrtho ef i ysgol rammadegol Caerfyrddin. Nid ymddengys y bu ef, mwy na'i dad enwog, yn un o brifysgolion Lloegr. Urddwyd ef yn ddïacon gan yr Esgob Warren, yn Abergwili, Hydref 17, 1779, yr hwn a ddywedodd wrtho yn ddifrifol ar y pryd, "Byddwch wych, fy mab: gochelwch na wneloch ddim cyfeillach â'r Methodistiaid, a dïammau genyf y byddwch yn gysur i chwi ei hun, ac yn addurn i'r eglwys." Llawen oedd Mr. Williams am gyrraedd o hono ei amcan eglwysig; ond wrth ddychwel adref, dywedai wrtho ei hun, "Nid yw fy arglwydd esgob yn adnabod y Methodistiaid hyn cystal ag yr adwaen i hwynt; pe amgen, nid annogasai fi i beidio cyfeillachu â hwynt. Arglwydd, na ddyro y pechod hwn yn erbyn dy hen was! Ac am danaf finnau, byddaf weulach etto na hyn; byddaf ddirmygus yn fy ngolwg fy hun; a chyd â'r llaw-forwynion (am y rhai y llefarai yr esgob) y'm gogoneddir." Ymddengys, gan hyny, i gyngor yr esgob gael effaith hollol wahanol ar feddwl ei "fab" ieuangc i'r hyn y bwriadai efe iddo ei gael, canys yn lle llwyddo i bellâu John Williams oddi wrth y Methodistiaid, y mae'n amlwg y bu'n foddion i'w ddyneau yn llawer nes atynt. Pa wedd bynag, yn gymmaint a bod gan y gŵr ieuangc feddyliau mor uchel am y Methodistiaid ar y pryd, yr oedd yn dra beius yn ymofyn am urddau yn yr Eglwys Sefydledig. Ymddygodd yn hyn yn gwbl *fel y* gwnaeth ei dad o'i flaen, ond gyd â hyn o wahaniaeth: yr oedd y tad wedi cael argyhoeddiad trwyadl dan bregethiad Howel Harris, fel y gwelsom, cyn ymofyn urddau esgobol; tra'r oedd y mab, *fel y* dywed Mr. Hughes, yn gwbl ddïeithr i'r cyfryw argyhoeddiad pan yn eu hymofyn ac yn eu derbyn, fel y profodd ei fuchedd dros ryw yspaid wedi hyny.

Wedi i John Williams gael urdd dïacon, gwasaneuthodd yn Eglwys Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, ac ar y 18fed o Fedi, 1780, cwbl urddwyd ef yn offeiriad. Ymhen dwy flynedd wedi hyny, cafodd guradieuthau Llanfair-ym-muallt a Llanddewi'r-cwm, yn sir Frycheiniog. "Aeth i lettya yno," medd Hughes, "at un Mr. Jones, meddyg, gwraig yr hwn oedd yn Gristion loyw, ac mewn cymmundeb gyd â'r Methodistiaid, ac a barhaodd felly hyd ddydd ei marwolaeth. Ymddengys bod ei dad o Bant-y-Celyn ar daith yn y Gogledd pan y rhoddwyd iddo weinidogaeth yr Eglwys Wladol yn Llanfair," ac ar yr achlysur ysgrifenodd y pennill digrifol a ddifynwyd eisoes, yn yr hwn y dywedai wrth y gwcw—

"Hed oddi yma i Bant-y-Celyn, gwêd wrth Mali mod i'n fyw;
Hed oddi yno i Lanfair-muallt, gwêd wrth Jac am gadw'i le."*

Ynglŷn â hyn, dywed Mr. Hughes fel y canlyn:—

"Ond nid cadw ei le a wnaeth *Jac!* Yr oedd anghymmedroldeb mewn dïodydd cryfion yn fagl iddo, ac wedi bod felly dros ryw gymmaint o'i oes eisoes. Nid oes sicrwydd a oedd hyn yn adnabyddus i'r wlad ai peidio, ond yr oedd ef ei hun yn ymwybodol o'r gwendid hwn, ac ar ryw amgylchiad ar ol ei sefydlu yn ei guradiaeth, daeth yn adnabyddus i eraill, o blegid, pan oedd unwaith yn

* "Daeth hanes arall i law am y bardd pan ar daith ym Môn, ac yn yr hanes y mae ffurf wahanol ar y pennill uchod, ac ar yr amgylchiad a barodd ei gyfansoddi. 'Cymmerwyd y bardd yn afiach,' medd yr hanes, 'yn y Garnedd-ddu, a bu'n gorwedd ddyddiau rai. Yn ei salwch aeth yn isel iawn ei feddwl, a theimlai hiraeth angherddol am ei gartref, ac am ei deulu. Wylai, a chanai fel hyn:—

'Nawr 'rwy'n eitha Môn yn aros, ac mae yn fy yspryd glwy
Am gael gweled Pant-y-Celyn, chaf ei weled mono mwy!
Hed y gwcw dros y bryniau, hed aderyn glas ei liw,
Dwg im newydd, dwg yn fuan, a yw yno bawb yn fyw.

'Hed oddi yno i Lanfair-muallt, dwêd wrth Jac am gadw'i le,
Os na cha'i weled ar y ddeuar, y caf ei weled yn y ne:
Hed oddi yno, dos at MALI, dywed wrthi'n ddistaw bach,
Os ca'i genad gan fy Arglwydd, y dof fi adre etto'n iach.'

"Yr oedd yr hen fardd yn hoff iawn o gerddoriaeth cystal ag o farddoniaeth; a dywedir hefyd fod ei wraig, a elwid ganddo ef *Mali*, yn lled fedrus a soniarus ei chân. Ymddengys hefyd, ar rai amgylchiadau, y bu'r medrusrwydd hwn o wir wasanaeth iddo yn ei deithiau.

"Yr oedd unwaith ym Môn yn teithio, ac ym mysg manau eraill daeth i bregethu i Langefni, ymhell, tybygid, cyn bod yno un addoldy, na dim achos sefydlog gan y Methodistiaid. Y tro hwn yr oedd ei wraig gyd âg ef. Ar ol y bregeth, aeth y ddau i Ben-y-bont, tafarndy adnabyddus yn y dref, i lettya. Yr oedd cynllwyn eisoes yngwersyll yr erlidwyr yn erbyn y pregethwr; ac wedi deall pa le yr oedd, ymgasglodd haid o honynt wrth ddrws y gwestty. Yr oedd gyd â hwy grythor, yr hwn, ond odid, oedd wedi bod eisoes yn eu difyru mewn rhyw gynhulliad llawen o'r eiddynt. Ar y pryd, yr oedd Mr. Williams a'i wraig yn y parlwr. Clywent drwst traed lawer yn y fynedfa (*passage*), a gwelent ddrws y parlwr yn agor yn araf, a'r crythor yn sefyll o'u blaen, tra'r oedd llu o ddïeithriaid wrth ei gefn. Pan ganfu Mr. W. ef, galwodd arno, 'Tyred i mewn, fachgen.' Y crythor a ofynodd gyd â llawer o goeg-foesgarwch, 'A garech chi gael tiwn?' 'Carem,' ebai Mr. W.: 'gad dy glywed yn chwarau.' 'Pa diwn?' gofynai y crythor. 'Rhyw diwn a leici di, fachgen: *Nancy Jig*, neu rywbeth arall,' oedd yr atteb. Ar hyn, dechreuodd ryglnu'r crwth; a gweuddodd Williams yn effeithiol ar ei wraig, 'Tyred, Mali, cân:—

'Gwaed y groes sy'n codi i fynu
'R eiddil yn goncwerwr mawr,' &c.

"Tynodd y canu hwn sylw yr oferwyr; a bu gwaith W. a'i wraig yn canu am waed y groes mor effeithiol nes gostegu anwybodaeth y dynion ffolion hyn, a llithrasant ymaith bob yn un ac un, mewn gwarth a chywilydd, heb wneuthur dim ychwaneg o aflonyddwch."

darllen gwasanaeth y claddu uwch ben y bedd, canfyddwyd ei fod yn siglo ar ei draed, a diau y syrthiasai i'r bedd oni buasai i ryw gyfaill oedd ger llaw ymaflyd ynddo a'i achub. Yntau ei hun a ddadebrodd yn y fan; ac ar ol iddo ddyfod i'w bwyll, aeth yn saeth i'w galon. Dychwelodd i'w letty mewn dagrau; ceuodd arno yn ei ystafell; ac ni welwyd ef hyd drannoeth. Treuliodd y noson honno 'heb roddi cwsg i'w lygaid, na hun i'w amrantau,' a'i enaid yn toddi gan ing. Wele rai o'i ymadroddion ar yr achlysur:—'Dywedaf wrth y pwll, tydi yw fy nhâd; ac wrth y pryf, fy mrawd a'm chwaer wyt. Fy ngheudod sydd anwireddau. Nid oes ynof fi ddim da yn trigo. Aflan, aflan! Fy nghalon sydd fel Babilon, yn lletty cythreuliaid, ac yn nyth i bob aderyn aflan ac atgas, &c.'

"Wedi ei archolli mor drwm, nid hir a fu cyn i'r fuddugoliaeth gael ei hestyn iddo. Wedi profi dwfn edifeirwch, cafodd cyn hir brofi maddeuant a hedd. Daeth i allu ymhyfrydu yn Nuw yn wyneb Iesu Grist. Cafodd waredigaeth, ar yr un pryd, oddi wrth y pechod a fuasai barotaf i'w amgylchu. Mewn llythyr at ei frawd, yn y flwyddyn 1784, fe ddywed—'I Dduw y byddo'r diolch, yr wyf wedi cael y fath oruchafiaeth ar y pechod a wyddoch chwi oedd barod i'm hamgylchynu, fel nad oes neb o'm cyfeillion yn fy nrwg-dybio; a thrwy drugaredd, nid rhaid iddynt.'

"Wedi'r tro crybwylledig, darllenai y gwasanaeth a phregethai dair gwaith ar y Sabboth yn Eglwys y Plwyf; ac yn yr wythnos, ymgyssylltai â'r Methodistiaid. Aeth y son am ei dröedigaeth yn fuan trwy holl sir Frycheiniog; ac ym mysg eraill, daeth yn hyspys i'r Iarlles Huntingdon. Yr oedd prif athraw y coleg, ar y pryd, yn rhwym o fyned oddi cartref am rai misoedd; a thybiodd y bendefiges oddi ar yr hyn a glywsai am ddysg Mr. Williams, a'i gymmwysderau, na allasai gael neb gwell i wneud y diffyg i fynu. Ysgrifenodd wahoddiad iddo, gan hyny, i gymmeryd gofal yr athrofa am dymmor; i'r hyn y cydsyniodd yntau, a bu yno o Awst hyd ddiwedd Rhagfyr, 1784. Bu yn Llanfair ddwy flynedd ar ol hyny; ond yn y flwyddyn 1786, o herwydd diswyddiad y pen-athraw yn Nhrefeca, ac o herwydd y boddlonrwydd a gawsid yn Mr. Williams yn y tymmor bleunorol, rhoddwyd gwahoddiad unfrydol iddo gymmeryd y lle. Felly hefyd y gwnaeth, a bu yno yn cyflawni y swydd bwysig o ben-athraw dros bum mlynedd. Yr oedd ei dad, yr hen Fardd o Bant-y-Celyn, bellach wedi marw, a barnodd y mab mai ei ddyledswydd ar yr adeg oedd myned i'w hen gartref, a chymmeryd gofal ei fam yn ei hen ddyddiau; a disgwyliai hefyd, fel yr oedd yn rhesymol, y rhoddid iddo fwy o amser a seibiant i bregethu yr efengyl.*

"Nid cymmaint a deithiodd Mr. Williams a llawer o hen bregethwyr y Methodistiaid; nid er ys llawer cymmaint a'i dad. Cyfyngai ei weinidogaeth, gan mwyaf, i sir Frycheiniog, a rhyw ranau o sir Gaerfyrddin. Etto, fe ymwelodd amryw weithiau â'r holl eglwysi yn y Deheubarth, a bu ddwy waith hefyd yn y Gogledd. Yn un o'r teithiau hyn yr oedd pan ysgrifenai lythyr at ei frawd, yr hwn oedd offeiriad yn Lloegr [yng Nghernyw, fel y gwelsom], ac y darluniai yr olwg aleuthus a gawsai ar yr Eglwys Wladol yng Ngwynedd. Yr oedd wedi teithio 600 o filltiroedd; 'ac yn fy holl daith,' meddai, 'ni chlywais am gymmaint ag un gweinidog effro yn yr Eglwys Sefydledig!'

"Mewn llythyr arall at ei frawd, yn 1812, y dywed—'Nid oes un offeiriad yn perthyn i gorph y Methodistiaid yn sir Frycheiniog, ond fy hunan. Y mae pellder rhyngom ni â'r Eglwys Sefydledig yn ymledu bob dydd; ac y mae'r bobl ieuaingc yn cymmeryd yn ganiataol nad yw yr eglwys ond math ar Gristionogrwydd Gwladol. Y mae'r hen bobl o hyd yn llochi gradd o bleidgarwch i'r eglwys; ond nis gwaeth gan y dosparth ieuangc o honom pe byddai yr holl offeiriaid wedi eu halltudio i'r ochr draw i'r Ganges.'

"Nid oedd iechyd Mr. Williams, am y pymtheng mlynedd olaf o'i oes, ond amharus ac ansicr, fel na allai deithio nemmawr oddi cartref. Gan gyfeirio at daerineb ei frodyr ar iddo ymweled â hwy, yn y naill le a'r llall, fe ddywed—'Nid gwiw i mi ddywedyd am fy afiechyd: ni wna fy mrodyr anwylaf ond chwerthin am fy mhen, gan feddwl nad oes dim ond yr *hip*† yn fy mlino, canys felly y galwant hwy bob peth nad ydynt yn ei ddeall; ac ni chredant fod un clefyd ar bregethwr ond yr *hip*, nes clywed ei fod wedi marw; yna dywedant, "Y mae'n debyg ei fod yn afiach er ys blynyddau, er nad oeddym ni yn ei gredu."'

"Ni bu Mr. Williams erioed yn briod. Yr oedd yn perchen treftadaeth o ryw faintioli, ac mewn amgylchiadau cysurus; ac yr oedd yn dra elusengar. Yr oedd ei dŷ, ei fwrdd, a'i logell yn gweinyddu at gyfreidiau pregethwyr; a chyfranai yn flynyddol at achosion elusengar, nid llai yn fynych na 200p., ac weithiau fwy na hyny. Dywed ei gofiantydd am dano—'Er bod Mr. W. yn enwog fel dŷn, fel ysgolhaig, fel Cristion, ac fel gweinidog ffyddlon; etto ei brif ragoriaeth oedd ei elusengarwch. Ni welodd Cymru ond ambell un cyffelyb iddo.' Gadawodd hefyd yn ei lythyr Cymmun rhwng 800p. a 900p. at wahanol achosion crefyddol ac elusengar. Nid ydym yn deall bod Mr. Williams yn bregethwr hyawdl iawn; etto yr oedd yn bregethwr call a thra chymmeradwy. Cyn darllen ei destyn, dywedai bob amser, *Gair yr Arglwydd;*' yna darllenai yr adnod mewn llais uchel a chryf, ddwy waith neu dair drosodd. Byrion, gan amlaf, a fyddai ei bregethau: anaml y parhai yn fwy na hanner awr."‡

Nid ymddengys i John Williams ysgrifenu ond ychydig ei hunan. Cafodd ryw fesur o ddawn farddonol ei enwog dad, "yr Hen Williams." Y mae dwy o'i hymnau, o leiaf, yn bur boblogaidd, sef y rhai sy'n cynnwys y pennillion hyspys sy'n dechrau fel hyn:—

"Dros y bryniau tywyll, niwliog,
Yn dawel, f'enaid, edrych draw, &c.

"Doed yr Indiaid, doed Barbariaid,
Doed y Negroes du yn llu, &c.

"Ar ardaloedd maith o dwllwch,
Twnu wnelo'r heulwen lân, &c.

"Gwawria, gwawria, hyfryd forau,
Ar ddiderfyn fagddu fawr, &c.

"Hed fel mellten, bur efengyl,
A gorchfyga oll yn lân," &c.

Yn y flwyddyn 1811, cyhoeddodd J. Williams hymnau ei dad, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn un gyfrol 12plyg drwchus, yn cynnwys cynnifer ag 860 o hymnau, a rhai o honynt yn bur feithion, y rhai, ynghyd â holl ysgrifeniadau eraill y Bardd o Bant-y-Celyn, a gyhoeddwyd gan Mr. Mackenzie, fel y gwelsom eisoes, yn "Holl Weithiau" Williams.

Bu John Williams yngwasanaeth yr Eglwys Wladol o 1779 hyd 1786; ond pregethai gyd â'r

* Bu farw ei dad, fel y gwelsom, yn gynnar yn Ionawr, 1791, ac ymadawodd yntau o Drefeca yn Ebrill y flwyddyn honno; ac ymhen dau fis wedi hyny, sef ar yr 17fed o Fehefin, bu farw yr Iarlles Huntingdon; ac mewn canlyniad, symmudwyd y coleg i Cheshunt, yn sir Herts.

† "Neu yr *hyp*: talfyriad o'r gair *hypochondriacism*, sef y prudd-glwyf."

‡ Method. Cymru, cyf. iii., t. 344–8.

Methodistiaid hefyd ar ol ei dröedigaeth. Pan ddychwelodd o Drefeca at ei fam i Bant-y-Celyn, yn y flwyddyn olaf a nodwyd, llwyr ymneillduodd oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, a chyflwynodd ei wasanaeth fel pregethwr diwyd a chymmeradwy i'r cyfundeb Methodistaidd yn unig, o hyny hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd, er galar mawr i bawb a'i hadweunent, ar y 5med o Fehefin, 1828, ac efe yn 74 oed, yr un oedran a'i enwog dad o Bant-y-Celyn. Claddwyd ef ynghladdfa'r teulu, yn Llanfair-ar-y-bryn, lle y mae gwyddfaen cerfiedig i'w goffadwriaeth.

"Dysg a dawn, ac aur ac arian,
Corph ac iechyd, tra yn fyw,
A gyssegrodd ef yn gyfan
At wasanaeth eglwys Dduw;
Ac wrth farw nid anghofiodd
Achos Duw ac angen dŷn;
Wrth ymadaw fe gyfranodd
Yn haelionus i bob un."

Ymddengys i un o ferched Williams Pant-y-Celyn farw yn ei babandod, sef *Maria Sophia*, i'r hon y canodd efe un o'i ganiadau penrhydd, fel y gwelsom. Dywed Mr. Charles fod pedair o'i ferched wedi priodi, pan ysgrifenai efe hanes bywyd eu tad yn 1813, a bod y llall yn byw gyd â'u brawd John, ym Mhant-y-Celyn, heb briodi. Dywed Hiraethog fod dwy o'r merched yn fyw pan ysgrifenai efe ar eu tad yn 1846, ac yn aelodau eglwysig ynghyfundeb yr Annibynwyr. Y mae'n amlwg, gan hyny, bod yr holl deulu doniol a duwiol yma yn wir deilwng i gael eu rhestru ymlith "Enwogion y Ffydd."*

---

## PENNOD XXII.

### JOSHUA THOMAS A'I DAD, THOMAS DAVIES, JOHN GRUFFYDD, WILLIAM EDWARDS, THOMAS WILLIAMS, A LEWIS EVAN.

Joshua Thomas ydoedd un o brif enwogion y Bedyddwyr yn ei oes, ac fel y cyfryw y mae'n deilwng i gael ei gyflcu genym ninnau ym mysg "Enwogion y Ffydd." Mab hynaf oedd y gŵr enwog a llafurus hwn i'r duwiol Thomas Morgan Thomas,† Tŷ-hen, ymhlwyf Caio (neu Cayo), sir Gaerfyrddin, yr hwn a symmudodd wedi hyny, fel y gwelir isod, i dyddyn a elwid Esgairithri, yr hwn nid oedd neppell oddi wrth y Tŷ-hen. Yn y lle olaf y ganwyd Joshua, ar yr 22fed o Chwefror, 1718. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol a phur ddïargyhoedd. Ymunasant â'r eglwys Annibynol (Bresbyteraidd, yn ol Joshua yn y nodiad isod), a ymgyfarfyddai mewn lle a elwid Crofft-y-cyff, o gylch y flwyddyn 1717, yn fuan ar ol priodi, os nad ychydig cyn hyny. Dygasant eu mab hynaf, cystal a'u plant eraill, i fynu yn ofalus, gan ei feuthu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Dysgasant iddo ddarllen ei Fibl yn iaith ei fam yn forau, a pharhaodd yntau i'w ddarllen a'i fyfyrio ar hyd ei oes. Gan fod yr Annibynwyr, y pryd hyny, yn gadael eu plant allan o'r cyfeillachau crefyddol, hyd oni chynhygient eu hunain yn aelodau, felly y gadawyd yntau; er hyny, dywedir bod ei fuchedd yn ystod ei flynyddoedd boreuol yn hardd a phur foesol, yr hyn oedd effaith naturiol i ofal ei rieni duwiol am dano.

O gylch y flwyddyn 1737, pan oedd Joshua tu a 19 oed, digwyddodd rhyw gweryl rhwng ei rieni ac un o aelodau dylanwadol yr eglwys Annibynol; a chan y credent nad oeddynt hwy yn cael chwarau teg yn yr ymdrafodaeth, ymneillduasant oddi wrth yr Annibynwyr, ar ol bod yn aelodau diwyd a ffyddlon gyd â hwynt am gryn ugain mlynedd, ac ymunasant â'r Bedyddwyr oedd ar y pryd yn ymdrechu sefydlu eglwys yn yr

* Trysorfa, llyfr ii., t. 443–54; Tracthodydd, llyfr ii., t. 225, 364; iii., t. 37, 159; Williams's Em. Welshmen, p. 540; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 379, 380; Method. Cymru, cyf. i., t. 77, &c., trwy'r gwaith; *En. Cymru*, I. F., t. 1050; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 490; *Cofiant* y Parch. J. Williams, gan y Parch. M. Davies, Llanfair-muallt; Method. Cymru, cyf. iii., t. 344; En. Cymru, I. F., t. 1011.

† "Ganwyd fy nhad," medd Joshua Thomas, "yng Nghwm-Twrch, plwyf Cayo, sir Gaerfyrddin. Yn y Tŷ-hen, ger llaw, y bu fyw o gylch pedair blynedd wedi priodi. Yno y ganwyd fi a Timothy fy mrawd. Yna symmudodd fy nhad a'r teulu i Esgairithri, yng Nghwmpedol, yn yr un plwyf. Yno y gorphenodd ei yrfa, wedi byw yn yr un lle ynghylch 38 o flynyddau. Bedyddiwyd ef wrth Bencoed (neu'r Coed-gleision) yn 1737 neu 1738." Mewn man arall efe a ddywed—"Yn 1760, bu farw fy anwyl a pharchus dad yn 70 oed. Efe a fu'n offerynol yn benaf i ddwyn y Bedyddwyr i blwyf Cayo, a'r parthau hyny o'r wlad. Ymdrechodd lawer dros grefydd yn ei amser. Bu'n aelod gyd â'r Presbyteriaid o gylch 20 mlynedd; ond wedi ei ddwys argyhoeddi o fedydd y crediniol, a bod ennyd o amser yn ystyried y pwngc, ufuddhaodd i Air Duw, er cymmaint oedd yr anhawsder iddo gael ymadael oddi wrth ei hen gyfeillion. Bu dros 20 mlynedd yn aelod defnyddiol gyd â'r Bedyddwyr. Bu fyw i weled ei bum plentyn yn arddel crefydd gyd â'r un proffeswyr, a thri o honynt yn pregethu, a llawer o ddiwygiad ymhlith ei gymmydogion, ac amryw o honynt yn aelodau o'r un eglwys ag ef, er eu bod yn ddynion anwybodus iawn pan ddaeth efe i'w plith, ac yn hir wedi hyny."

Gan fod teulu Thomasiaid Aberduar yn wir bwysig yn hanes y Bedyddwyr yng Nghymru a Lloegr, difynwn etto yr hyn a ganlyn o'r *Bunyan Library*, vol. ix., p. 43:—"Y mae hanes gyfachyddol y teulu hwn o ddyddordeb neillduol, yn enwedig i ddarllenwyr perthynol i'r Bedyddwyr. Ymunodd Mr. Thomas Morgan Thomas â'r Bedyddwyr yn 1737. Deilliodd un ar ddeg, o leiaf, o weinidogion y Bedyddwyr o'r cyff yma, sef Joshua Thomas, o Lanllian [gwrthddrych y cofiant uchod]; Timothy Thomas, awdur 'Y Wisg Wen,' a chyhoeddiadau defnyddiol a darllenadwy eraill; Zechariah Thomas, o'r Llwyn; Timothy Thomas, o Islington; Timothy Thomas, yr Ail, o Aberduar; — Thomas Thomas, o Peckham, un o sylfeunwyr ac ysgrifenydd cyntaf Coleg Stepney; Benjamin Thomas, o Clumstock, Devon; Josiah Evans, cyfaill mynwesol y seraphaidd Pearce, o Birmingham; John Evans, Tan-y-cwm; Thomas Thomas, o Fwlch-y-rhiw; a Timothy Thomas, o'r Castell-newydd-yn-Emlyn."

Digitized by Google

ardal; ac, fel yr oedd yn ddigon naturiol, aeth Joshua, a'r plant eraill, gyd â'r rhieni i gyfarfodydd cyhoeddus y Bedyddwyr. Methasom gael allan pa fath a pha faint o addysg ysgolaidd a gafodd Joshua yn nyddiau ei faboed; ond y mae'r gwirionedd iddo gael ei brentisio yn sidanydd (*mercer*) yn Henffordd (*Hereford*), tref hollol Seisnig, pan oedd o gylch 20 oed, yn 1738, yn arwydd sicr ei fod wedi dysgu Saesneg, a rhyw faint o rifyddiaeth, cyn hyny. Ymddengys bod Henffordd y pryd hwnw yn lle gwyllt a thra anghrefyddol, ac nad oedd un gynnulleidfa o Fedyddwyr yn y gororau, at y rhai yr oedd ei feddwl ef, erbyn hyn, yn cryf dynu. Gan nad oedd dim gogwydd yn ei feddwl difrifol ef i gydredeg i'r unrhyw ormod rhysedd â ieuengctid gwamal y dref esgobol honno ar y Sabbothau, arferai efe fyned i wrando pregethu i gapel y Presbyteriaid oedd yn y ddinas.

Wedi bod yn y dref wyllt honno am tu a blwyddyn, cyfarfu yn ddamweiniol â gwraig dduwiol oedd yn byw yn agos i Lanllieni (*Leominster*), yr hon oedd yn aelod gyd â'r Bedyddwyr yn y dref olaf, a chafodd lawer o hanes achos y cyfundeb yno ganddi, ynghyd â mân gofion am amryw bersonau a fuasent yn addurn i grefydd yno yn ystod y deugain mlynedd blaenorol. Yn Rhagfyr 1739, efe a aeth i Lanllieni, er ei bod tu a 13 milltir o Henffordd, er mwyn cael clywed y Bedyddwyr yn pregethu, a chafodd fawr foddhâd yn eu gwrando. Wedi hyny, cyrchai i'r dref honno mor fynych fyth ag y gallai ar y Sabbothau; ac ym Mai, 1740, bedyddiwyd ef trwy drochiad, a derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yno, ac efe yn 22 oed.

Tu a diwedd 1743, daeth ei brentisiaeth yn Henffordd i fynu, a dychwelodd yntau i Gymru, lle yr oedd ei galon ar hyd yr amser, a llwyr fwriadai aros yno hyd ddydd ei farwolaeth; ond, medd y Penllywydd mawr a chyfiawn, "Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i." Wedi cyrraedd anwyl wlad ei enedigaeth, arhosodd gyd â'i rieni yn Egair Ithri dros ddwy flynedd. Yn ystod yr amser hwnw, cymhellwyd ef gan ei frodyr i ddechrau pregethu; a chan fod ei gymmwysderau yn dra chymmeradwy gan ei gyfeillion, taer annogwyd ef i lwyr ymroddi at y gwaith; ond o blegid ei fod wrth natur yn bur wylaidd, ac yn meddwl, fel y cyffredin o grefyddwyr yr oesau hyn, bod pregethu yn fwy cyssegredig nag un ddyledswydd arall a berthyn i gredinwyr, gwrthodai bregethu ond yn anfynych dros rai blynyddau.

Yn 1746, ac efe yn 29 oed, priododd ferch ieuangc syml a duwiol, ac ymsefydlodd yn ebrwydd mewn masnach yn y Gelli (*Hay*), sir Frycheiniog. Yna ymunodd âg eglwys y Bedyddwyr ym Maes-y-berllan; ac yn 1749, neillduwyd ef, neu, fel y dywedir yn gyffredin, urddwyd ef i fod yn gynnorthwywr i hen weinidog yr eglwys honno, a'r eglwysi eraill oedd dan ei olygiad.

Yr oedd Gruffydd Jones, Llanddowror, wedi cyhoeddi llyfryn bychan, yn 1747, a alwyd "Twenty Arguments for Infant Baptism"=Ugain o Resymau dros Fedydd Babanod. Mewn cymmanfa a gynhaliwyd gan y Bedyddwyr yn Llanelli, yn 1749, yn fuan ar ol i Joshua Thomas gael ei gwbl urddau, cyttunwyd "bod i rai o'r gweinidogion feddwl am attebiad. Enwyd pedwar neu bump, ond ni phenderfynwyd ar neb. Ymgymmerodd amryw â'r pwngc, ac yn eu plith tynodd Joshua Thomas ychydig awgrymiadau, a chefnogwyd ef i fyned ym mlaen."—"1750, Molston.—Cyttunwyd bod i'r hyn a ysgrifenodd y brawd Joshua Thomas ar fedydd, mewn attebiad i'r Ugain Rhesymau, gael ei argraphu. Argraphwyd yr Ugain Rhesymau yn Saesneg, ac ysgrifenodd y Dr. Gill attebiad byr; a chyttunwyd cymmeryd rhan o argraphiad ei lyfryn ef hefyd."* Cyhoeddwyd yr "Atteb i'r Ugain Rhesymau, gan Josuah Thomas a Dr. Gill," yn 1751. Hwn oedd ffrwyth cyntaf athrylith llenyddol yr enwog Joshua Thomas.

Yr oedd eglwys y Bedyddwyr yn Llanllieni, â'r hon yr ymunasai J. Thomas gyntaf, wedi myned yn bur isel erbyn 1753, a'r aelodau yn dra anghysurus ymhlith eu gilydd; ac yr oeddynt heb weinidog er ys pum mlynedd, a mynych y methent gael pregethwr achlysurol. Yn wyneb hyn, anfonent yn aml at J. Thomas i erfyn arno ddychwel atynt. Yr oedd yntau yn teimlo yn ddwys yn eu hachos, yn enwedig gan yr ystyriai mai yr eglwys honno oedd ei fam ysprydol; ond o herwydd nad oedd wedi arfer pregethu yn Saesneg, ymdeimlai yn bur anewyllysgar i fyned yno i bregethu, hyd yn oed am unwaith. Pa wedd bynag, gan eu bod hwy yn parhau i daer erfyn arno, ofnodd o'r diwedd y gallai ddigio Duw trwy eu nacâu, ac aeth yno yn Hydref 1753. Ymddengys iddo gael golygfa dra anghysurus yno ar

* History of the Welsh Association

Digitized by Google

y pryd, canys dywed yn ei Amserlyfr—"Yr oedd yn agos i ddeng mlynedd er pan ymadawswn o Lanllieni. Yr oedd llawer wedi myned i'r byd arall, ac heb un enaid wedi ei chwanegu at yr eglwys yn ystod yr holl amser hyny. Golygfa druenus iawn yn ddilys ddïammau." Ei destyn cyntaf yno oedd Esa. viii. 17, "A minnau a ddisgwyliaf am yr Arglwydd sydd yn cuddio ei wyneb oddi wrth dŷ Jacob, ac a wyliaf am dano." Detholwyd y testyn ganddo ef, a derbyniwyd ef ganddynt hwythau, fel un tra addas i'w sefyllfa. Bu'r ymweliad crybwylledig yn dra chymmeradwy gan y brodyr yn Llanllieni, a thaer erfyniasant arno ymweled â hwy mor fynych fyth ag y gallai; â'r hyn y cydsyniodd yntau, er bod o gylch ugain milltir rhwng y Gelli a Llanllieni. Cafodd yr ychydig frodyr a chwiorydd oedd yno y fath flas ar ei bregethau, a'i gymdeithas yn y cyfeillachau neillduol, yn ystod ei ymweliadau achlysurol â'r dref, fel y taer erfyniasant arno symmud yno i gymmeryd eu gofal; ac o'r diwedd, wedi ystyriaeth ddwys, wrth ystyried iselder yr achos yn y dref, cydsyniodd â'u cais, a symmudodd ef a'i deulu yno ar y 19ydd o Ragfyr, 1754. Yn ei goflyfr, ysgrifena ar yr achlysur fel hyn:—"Derbyniais ofal gweinidogeuthol yr eglwys fechan hon, a hyny, fel y gobeithiaf, yn ofn a phresennoldeb yr Arglwydd. Nid oedd neb dïeithr yn cynnorthwyo," h.y., y mae'n debyg, yn y seremoni o'i sefydliad fel gweinidog yn y lle. Tri ar ddeg oedd o aelodau yn yr eglwys y pryd hyny; ond trwy fendith Duw ar ei lafur diwyd ef, cynhyddodd rhifedi yr eglwys yn raddol; ac erbyn diwedd ei oes ef, yr oedd yn eglwys dra blodeuog a llwyddiannus.

Dywedir nad oedd yn meddu llawer o hyawdledd fel traddodwr, ac nad ymgeisiodd erioed at ffraethineb hedegog fel areithiwr; ond yr oedd ei wybodaeth ddofn yn yr Ysgrythyrau, a'i adnabyddiaeth graffus o ddynol ryw, ac o hono ei hun, y fath fel yr oedd ei bregethau, a fyfyriai efe yn dda, yn cael eu treuthu gyd â gwres ac enneiniad, er boddhâd ac adeiladaeth mawr i wrandawyr difrifol a synhwyrol. Derbyniodd aml alwadau i symmud o Lanllieni. Bu eglwys Pont-y-gogledd (*Bridgenorth*), sir Amwythig, yn daer iawn arno i fyned yno; eithr ni fynnai efe ymadael â'i frodyr yn Llanllieni yn erbyn eu hewyllys, er y buasai hyny yn fantais fawr iddo mewn ystyr fydol. O ganlyniad, yno yr arhosodd efe dros y tair blynedd a deugain olaf o'i oes, yn fawr ei barch a'i gymmeradwyaeth. Gan nad oedd yr hyn a dderbyniai am bregethu yn ddigonol i gynnal ei deulu cynhyddol yn gysurus, efe a sefydlodd ysgol ddyddiol yn y dref, yr hon a gadwodd dros hir flynyddoedd yn gymmeradwy a llwyddiannus, a chafodd llïaws o blant a phobl ieuaingc addysg dda ymhob ystyr o'r gair ganddo. Ymhen tu a thair blynedd ar ol i Thomas ymsefydlu yn Llanllieni, cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Tystiolaeth y Credadyn am ei Hawl i'r Nefoedd, neu Gynnig Byr tuag at Gysur Cristnogol, neu Lawenydd Ysprydol. Ymha un y dichon y Cristion wneuthur ei hawl i'r Etifeddiaeth Nefol, &c. A gyfieithiwyd gan Josuah Thomas. . . . . 1757."

Yr oedd Joshua Thomas yn nodedig o ofalus am ranu a defnyddio ei amser. Wrth ystyried ei fod yn athraw ysgol ddyddiol dros gyhyd o flynyddau; bod ganddo y fath waith i ddarpar pregethau erbyn pob dydd cyntaf o'r wythnos i'r gynnulleidfa y perthynai iddi; ei fod yn ymweled yn rheolaidd â'i frodyr a'i wrandawyr yn y dref; a'i fod yn teithio cymmaint i gymmanfaoedd ei frodyr yn Neheudir a Gogledd Cymru yn gysson, bron bob blwyddyn ar hyd ei oes;* wrth ystyried hyn oll, y mae llafur llenyddol Joshua Thomas yn ddigon a pheru i'r cyflymaf ei ysgrifell, a'r mwyaf gofalus am iawn ddefnyddio ei amser, ryfeddu ato. Nid ydys yn rhyfeddu dim at y mynegiad am dano, sy'n hyspysu na bu yn ei wely ar ol pump o'r gloch y borau, na haf na gauaf, dros yn agos i driugain mlynedd; ond y rhyfeddod, er hyny, ydyw ddarfod iddo lwyddo i wneud cymmaint o waith gorchestol. Yn y flwyddyn 1767, parotôdd yr awdur llafurus y gwaith canlynol i'r wasg:—

"Atteb i Lyfr Mr. Hitchin, a elwir, Achos Babanod yn cael ei ddadleu, ei eglurhau, a'i amddiffyn, &c. Gan y diweddar Barchedig Mr. Samuel Ewer, o Hamstead, ger llaw Llundain. Wedi ei gyfieithu gan Josuah Thomas."†

Yn y flwyddyn 1775, cyhoeddodd yr awdur diflin y llyfr canlynol:—

"Nodiadau ar Bregeth Mr. Abel Francis, yng Nghwm Wysg, gerllaw Trecastell: Y Trydydd Dydd ar Ddeg o Awst, 1732. Gan William Herbert. Wedi ei 'sgrifenu a diwygio'r Iaith. Gan Josuah Thomas." . . . .

Testyn y bregeth oedd Ezec. xviii. 32. Traddodwyd hi pan oedd y dadleuon Arminaidd yn aflonyddu y Bedyddwyr yn y Deheudir. Yn ei

* Yr oedd ei gariad at wlad ei enedigaeth yn angerddol, er iddo dreulio y rhan orau o'i oes ymhlith y Saeson.

† "Darfu i Mr. Thomas, heb law cyfieithu, chwanegu hefyd rywfaint ato.—*Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas t. 409."—Gwilym Lleyn, Llyfr. y Cymry, t. 494, nod *.

lythyr "At y Darllenydd," sydd o flaen y "Nodiadau," dywed Jos. Thomas fel hyn:—

"Pan fum yng Nghymru yn ddiweddar, dangoswyd i mi gopi o'r Nodiadau canlynol, a dymunwyd arnaf eu 'sgrifenu o newydd, gan farnu y byddai'n fuddiol eu hargraphu. Y maent yn fy meddiant i ys mwy nag ugain mlynedd, o waith llaw yr awdwr ei hun, lle mae efe yn dywedyd na 'sgrifenodd efe erioed o'r blaen gymmaint o Gymraeg; gan hynny yn cydnabod amherffeithrwydd yr yspeliad a'r iaith. Mi a ddewisais ei ysgrifenu o'i waith ef ei hun yn hytrach nag o un copi.* Felly beiai'r iaith, eiddo fi ydynt, oddieithr fod gwallau yn yr argraph. Am yr athrawiaeth, eiddo yr awdwr ydyw. Ni ddarfu i mi newid na gwyro dim arni, ar a wn i.

"Y mae'r pregethwr a'r nodiadwr wedi myned i orphwys ys llawer blwyddyn. Nid eu hamcan hwy oedd i'w gwaith gael ei wneud yn gyhoeddus, uwch law deng mlynedd ar hugain ar ol eu marwolaeth. Gan hynny, nid yw yn weddus yma na'u canmol na'u ——. Ond er eu mwyn hwy, etto byw yw athrawiaeth y naill a'r llall. Yr wyf fi yn barnu fod y Nodiadau canlynol yn iachus, yn ddeallus, yn ysgrythyrol, ac yn efengylaidd. Os gwel Duw yn dda eu bendithio, nid wyf yn ammau na byddant yn llesiol, yn gynnorthwyol, ac yn adeiladol i'r darllenydd ystyriol."

Ond prif waith ein hawdur llafurus, yr hwn a gyhoeddwyd ganddo pan oedd o gylch 60 oed, yw yr un canlynol:—

"Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry. Gan Josuah Thomas. . . . . 1778."

Llyfr 8plyg bychan, trwchus, ydyw hwn, yn cynnwys 468 o dudalenau, heb law xxxvi. o dudalenau o arweiniad. Gan fod peth o ddechrau y copi sydd genym ni wedi colli, ni wyddom pa nifer o ddalenau yw y rhagymadrodd, &c. Mewn annerchiad Seisnig at y darllenydd,† sydd o flaen "Hanes y Cymmanfaoedd Bedyddiedig yng Ngymru,"‡ dywed yr awdur am y llyfr uchod fel y canlyn:—

"Yr oedd cynnygiad wedi ei wneud i'r awdur i ymgymmeryd â'r gorchwyl er ys 30 mlynedd o'r blaen. Nid oedd ganddo nemmawr feddwl am dano y pryd hwnw. Cyn pen hir cymmerth ei sylw yn achlysurol. O ddeutu 1745, dechreuodd gasglu rhai awgrymiadau, fel y digwyddent yn ei ffordd. Yn 1754, efe a symmudodd i Lanllieni, yn sir Henffordd. Wrth adael y Dywysogaeth fel hyn, bu agos iddo roddi pob meddwl am y pwngc i fynu; ond barnodd fod yn briodol iddo roddi yr ychydig ddarnau a gawsai mewn rhyw drefn, ac yna eu hanfon i Gymru i'w lledeunu a'u diwygio cystal ag y gallent. Felly y gwnaeth efe. Edrychodd un drostynt, a dywedodd na allai efe chwanegu dim atynt; a gwnaeth un arall yr un modd. Yr oedd yr awdur yn y Gymmanfa yng Nghymru yn 1770, pryd yr adgofiwyd iddo am yr Hanes. Yntau a fynegodd yr hyn a wneuthai efe, a chymhellwyd ef i adgymmeryd y gwaith. Addawodd yntau wneuthur felly, os na chymmerai neb arall y gwaith mewn llaw.

"O gylch yr amser hwnw yr oedd Mr. Thomason, o Lundain, yn casglu hanes fer am y tri enwad o Ymneillduwyr trwy Loegr a Chymru. Anfonwyd llythyr at yr awdur i Lanllieni ar y pwngc, yr hyn a'i tueddodd i ail ymaflyd yn y gorchwyl hir ohiriedig. Yr oedd ei feddwl wedi ei roddi arno weithian gyd â gradd o benderfyniad: meddyliodd, adgofiodd, ac ysgrifenodd lythyrau: mewn gair, gwnaeth gymmaint ag a ganiatâi ei sefyllfa gaeth, yr hon a'i gorfodai i bregethu bedair gwaith neu bump yn yr wythnos, heb law cadw ysgol. Yn 1776, aeth ar daith fer trwy Ddeheudir Cymru. Cafodd y Gymmanfa yn ei ffordd, a bu oddi cartref am o ddeutu chwech wythnos, gan gasglu defnyddiau yn y cyfamser. Wedi dychwelyd, ac edrych dros ei bapurau, buan y gwelodd ddiffygion. Yna efe a ysgrifenodd i'r naill le a'r llall am ychwanegiadau ac egluriadau, gan fyned ym mlaen gyd â'r gwaith yn ddiwyd. Yng ngwanwyn 1777, argraphwyd rhai hysbysiadau, a theunwyd hwy ymhlith yr eglwysi, yn eu hyspysu o sefyllfa y gwaith, gan ddymuno arnynt ymgynghori ynghyd pa un a elid ym mlaen, ynte a ollyngid ef i lawr; ac i roddi eu meddwl iddo ef yn y Gymmanfa. Yn ganlynol, deallodd fod pob eglwys yn dymuno i'r Hanes gael ei hargraphu. Yr oedd y nifer y cyttunwyd eu cymmeryd o ddeutu 800: talwyd 1s. ym mlaen, ac argraphwyd 1200.

"Sylwodd yr awdur mewn Llythyr at y Darllenydd, gan fod y gwaith y treuthawd cyntaf ar bwngc dyrys, na allai neb yn briodol ddisgwyl iddo fod yn berffaith; ond os darganfyddid rhyw gamgymmeriadau, y derbyniai efe yr hyspysiad yn ddïolchgar. Pan ledeunwyd y llyfr, gwnaed sylwadau, rhai yn gywir, a rhai yn anghywir; rhai mewn ffordd gyfeillgar, eraill heb fod yn hollol felly; ond gwnaeth yr ysgrifenydd gymmaint o ddefnydd ag a allai o bob hyspysiad, heb ofalu pa un a ddeuai ai oddi wrth gyfaill ai oddi wrth elyn. Ymhen tu ag ugain mis, argraphwyd 18 tudalen o *Ddiwygiadau ac Ychwanegiadau*,§ o'r un plygiad a'r llyfr, a theunwyd hwy yn rhodd, fel y gallai'r neb a ddewisai eu cydrwymo. Cyn belied a hyn, gwnaeth yr ysgrifenydd *yr hyn a allai.*"

Ni chawsom ni'r ffawd o weled y "Diwygiadau ac Ychwanegiadau" crybwylledig. Dywed Gwilym Lleyn am danynt—"Dernyn gwerthfawr yw hwn, ac nid yw yn ddïogel dilyn 'Hanes y Bedyddwyr' gan y Parch. J. Thomas heb fod y 'Diwygiadau a'r Ychwanegiadau' hyn wrth law. Y mae weithiau yn gydrwymedig â'r 'Hanes;' os amgen, y mae'n anhawdd cael gafael arno. Heb law hyny, cafodd yr awdur hanes hen eglwys neu gynnulleidfa Llanilltyd (Ilston), yr hon a ddygasid i America gyd âg ymfudwyr cynharol perthynol i'r Bedyddwyr; ac yn honno gwelodd drachefn rai camgymmeriadau, y rhai a ddiwygiodd, ond yn Saesneg, yn y llyfryn a enwir isod."‖

Y mae'n amlwg bod yr awdur llafurus wedi gwneud egni mawr at wneud ei "Hanes," prif orchest ei fywyd, mor fanwl a chywir ag y gallai, ac y mae yn waith rhagorol hefyd ar Anghydffurfiaeth yng Nghymru; eithr gan nad ydyw yn

* "Y mae'n debyg, felly, eu bod wedi eu lledaenu gryn lawer ar hyd y wlad, trwy eu hail ysgrifenu, y naill gopi ar ol y llall, cyn eu hargraphu."—G. Lleyn.

† An Address to the Reader.

‡ A History of the Baptist Associations in Wales.

§ Argraphwyd y rhai hyn yn 1780, dan yr enw canlynol—"Rhai diwygiadau ar, ac ychydig ychwanegiadau at Hanes y Bedyddwyr."

‖ "A History of the Baptist Associations in Wales, from the year 1650 to the year 1790, shewing the Times and Places of their Annual Meeting, whether in Wales, London, or Bristol, &c. Including several other interesting articles. By Joshua Thomas, Leominster. London, 1795."

Hwn oedd y llyfr diweddaf a gyhoeddwyd gan y diwyd a'r enwog Joshua Thomas, a hyny pan oedd efe yn 77 oed.

Digitized by Google

proffesu bod yn hanes ond un cyfundeb, nid yw ei gyfeiriadau at gyfundebau eraill ond damweiniol yn unig. Ac er bod y gwaith yn wir werthfawr, ar lawer ystyriaeth; etto, y mae'n cynnwys amryw gam-fynegiadau lled bwysig, megis bod un William Thomas (Bedyddiwr) yn gyd-fugail â William Wroth; mai Bedyddiwr oedd Vavasor Powel o ddechreuad ei weinidogaeth; a bod John Penry, William Erbery, a Henry Maurice yn perthyn i'r cyfundeb.* Pe buasai yr awdur llafurus mewn cyfleusdra i wybod yn amgen, dïammau na buasai yn cyhoeddi y fath fynegiadau anghywir. Yn y flwyddyn 1791, cyhoeddwyd y llyfr canlynol:—

"Cyffes Ffydd y Bedyddwyr. Cyfieithiad Newydd gan Josuah Thomas."

Ac yn 1794, cyhoeddwyd y gwaith hwn:—

"Athrawiaeth y Drindod, mewn rhan o Lythyr Cymmanfa oddiwrth Weinidogion a Chenhadon amryw Eglwysi Bedyddiedig, mewn cyfarfod yn Olney, Bucks, yr 28, 29 o Fai, 1776. A ysgrifenwyd gan y diweddar wir Barchedig Mr. Robert Hall. Ac a gyfieithwyd o'r ail argraphiad Saesnig gan Josuah Thomas."

Hwn oedd y llyfr diweddaf a gyhoeddwyd gan yr "ysgrifenydd buan" ac enwog yma, ond y llyfr Saesneg y cyfeiriwyd ato eisoes, sef "Hanes y Cymmanfaoedd Bedyddiedig yng Nghymru." Ond heb law yr holl lyfrau a nodwyd, dywedir y gadawodd ddigon o ysgrifeniadau ar ei ol ar hanes eglwysig Cymru i wneud dwy gyfrol cymmaint a "Hanes y Bedyddwyr yng Nghymru," y rhai a gedwid yn 1870 yn y llyfrgell berthynol i Athrofa y Bedyddwyr yng Nghymru: perthynol i ba un o'u hathrofäu, ni fynegir. Dywed y Dr. T. Rees ddarfod iddo ef wneud ymofyniadau dyfal amryw weithiau yn Llundain a Chaerodor am yr ysgrifeniadau crybwylledig, ond na lwyddodd i daro wrth neb a wyddai ddim am danynt. Gresyn od ydynt wedi colli yn anadferadwy.

Y mae peth dyryswch ynghylch y flwyddyn y ganwyd ein crefyddwr enwog a'n hawdur clodfawr. J. M. Thomas, ei nai, a ddyry amser ei enedigaeth yn *Seren Gomer*, 1822, t. 65, fel hyn: —"Chwefror 22, 1718–9," yr hwn a ddilynir gan David Jones, awdur *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru*, ac yng *Nyeiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru*, gan Josiah Thomas Jones; ond R. Williams yn ei *Eminent Welshmen*, y Dr. T. Rees yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales*, ac Isaac Foulkes yn ei *Enwogion Cymru*, a ddodant ei enedigaeth yn 1719; eithr ysgrifenydd yn *Y Gwyddoniadur* a ddewisodd y flwyddyn gyntaf a nodir yn y *Seren*, ac felly y gwnawn ninnau. Y maent yn cyttuno yn gyffredin iddo farw ar y 25med o Awst, 1795. Y mae peth anghyssondeb hefyd yn ymddangos i ni yn llythyreniad ei enw. Ei holl fywgraphwyr, y rhai a ddilynasom ninnau, a'i hysgrifenant ef yn *Joshua;* ond yn ei holl lyfrau Cymreig, *Josuah* ydyw y llythyreniad. Y mae'n wir nad yw hyn ond dibwys; eithr, rywsut, yr ydys yn teimlo dyddordeb yn oed yn y pethau lleiaf a berthynant i ŵr mor enwog a JOSUAH THOMAS.

O berthynas iddo fel dŷn, cyfaill, duwinydd, Cristion, pregethwr, a hanesydd, nis gallwn wneud yn well na difynu y dernyn canlynol o lythyr a anfonwyd gan John R. Jones, o Romoth, at awdur *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru:*—

"Yn fyr, gallaf ddywedyd yn ddiweniaith ei fod yn bregethwr tra dwys a synhwyrlym, er nid yn areithiwr hyawdl; ond yr oedd ei ymddygiad a'i ymddangosiad yn yr areithfa yn dra difrifol a difregaidd; ei bregethau yn dra threfnus, ac wedi eu myfyrio yn dda; a'i gasgliadau yn gyfaddas a dwys. Yr oedd yn hanesydd mawreddog, ac yn feirniad galluog yn iaith ei fam. Ac mor bell ag yr adnabûm i ef, yr oedd ei ymddygiad yn enghreifftiol [yn esampl ?] o bob rhinwedd Gristionogol ymhlith ei deulu, ei gyfeillion, a'r byd. Fel cydymdeithydd yr oedd yn siriol a boddus. Yr oedd ei gof mor gynhwysgar, ei wybodaeth mor sylweddol, a'i gasgliadau mor briodol a pherthynasol, fel y gallai foddhau ac adeiladu ei gyfaill trwy gydol y dydd, trwy adrodd hanesyddiaeth a mân gofion hynodawl, addasedig i osod allan ddaioni Duw tu ag at ei bobl mewn amryfal ffyrdd. Ac fel cyfaill a gohebydd, yr oedd y mwyaf manwl, ffyddlon, ac addfwyn ag a gwrddais erioed yn y byd drwg presennol. Treuliais oddeutu wythnos yn ei gyfeillach ef yn Llanllïeni ym Mai, 1794; a chefais yr hyfrydwch o gyd-deithio gyd âg ef oddi yno, heibio i Henffordd, i'r Gymmanfa, yr hon oedd y flwyddyn honno yn yr Olchon. A thyna y tro diweddaf y cefais y dedwyddwch o'i weled ef. Y mae genyf 42 o lythyrau, wedi eu nodi o'r flwyddyn 1790 hyd 1797, yr hon oedd y flwyddyn ddiweddaf o'i fywyd dilynwiw. Heddwch fyddo i'w lwch i aros adgyfodiad y cyfiawn. Bydd ei goffadwriaeth yn werthfawr genyf fi tra byddo genyf anadl i'w thynu."

Er bod geiriad y difyniad yna dipyn yn fympwyol, etto y mae'n ddarlun pur wych, a hyny gan gydoeswr, o wrthrych enwog hyn o goffadwriaeth.†

### THOMAS DAVIES.

Ganwyd y gŵr enwog hwn yn Llanfrynach, sir Benfro. Nid ydys sicr o amser ei enedigaeth; ond tybir i hyny ddigwydd o gylch y flwyddyn

* Gwel llyfr ii., pen. vi.; llyfr iii., pen. ix., pen. x.; llyfr iv., pen. xi., pen. xxi.

† Seren Gomer, cyf. v., t. 64; Han. y Bed. yn Neheudir Cymru, t. 65; Williams's Em. Welshmen, p. 486; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 438; En. Cymru, I. F., t. 950; Llyfr. y Cymry, t. 427, 445, 494, 568, 600, 688, 693; Geir. Bywgr. o En. Cymru, J. T. J., cyf. iii., t. 591; Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 677.

Digitized by Google

1718. Y mae hanes ei ddyddiau boreuaf hefyd yn anhyspys. Yr oedd ei dad a'i fam yn aelodau yn eglwys Annibynol Glyndwr, yn yr hon yr oedd ei dad, John Davies, wedi ei ddewis yn ddïacon, ac wedi hyny yn henuriad llywodreuthol. Heb law gweinidogion a dïaconiaid, arferai y rhan fwyaf o eglwysi Annibynol y dyddiau hyny ddewis rhai a alwent yn henuriaid llywodreuthol hefyd i gynnorthwyo y swyddogion eraill.

Gellir casglu i Thomas Davies gael addysgiadau da yn ei ddyddiau boreuol gan ei rieni, ac iddo yntau wneud defnydd da o honynt. Derbyniwyd ef yn aelod o eglwys Glandwr pan yn 13 oed; a chafodd fanteision dysgeidiaeth dda dan ofal athrawol y Parch. John Gruffydd, gweinidog yr eglwys honno, yr hwn a gadwai ysgol ieithyddol i fechgyn gobeithiol y lle. Nid ymddengys y bwriadai Davies ieuangc ar y pryd fyned yn bregethwr, er mai felly y bwriadai ei rieni. Pan ymadawodd o ysgol Glandwr, dechreuodd gadw ysgol ei hun ym Mhen-y-groes, ymhlwyf yr Eglwyswen, er iddo gael ei annog i ymgais am dderbyniad i'r athrofa, yr hon a gynhelid yr amser hwnw yn y Fenni, dan ofal y Dr. Benjamin Davies; ond y fath oedd ei wylder, a'i ddiffyg hyder ynddo ei hun, fel y gwrthododd ymgynnyg ar y pryd. Pa wedd bynag, ufuddhaodd o'r diwedd i gais ei gyfeillion, a derbyniwyd ef i'r athrofa, lle y bu am bedair blynedd; a chyfaddefai wrth gyfaill neillduol iddo y cyrheuddodd fwy o wybodaeth a phrofiad o wir grefydd nag a gyrheuddasai yn ei holl fywyd blaenorol, trwy gyfrwng pregethau ac ymddiddanion ei athraw parchus, crefyddol, a llariaidd, esampl yr hwn a ddilynodd yntau yn bur ofalus ar hyd ei oes.

Wedi iddo orphen tymmor yr athrofa, derbyniodd alwad i fod yn weinidog i eglwys Annibynol Hanofer, sir Fynwy, lle yr ymsefydlodd. Gan fod Hanofer yn agos i'r Fenni, pennodwyd ef hefyd i fod yn gynnorthwywr i'r Dr. Davies yn yr athrofa, a llanwodd y cylch pwysig hwnw er boddhâd cyffredinol. Bu yn y sefyllfa yma am saith mlynedd, ac ystyrid ef, nid yn unig yn addurn i'r sefydliad hwnw, ond hefyd yn bregethwr llafurus a ffyddlon.

Ym mis Mai, 1780, symmudodd Mr. Davies i Hwlffordd, i fod yn weinidog i'r eglwys Annibynol a ymgynhullai yn St. Thomas's Green. Bu'n gwasaneuthu yno yn ffyddlon a diwyd am wyth mlynedd, a bu'n foddion i ennill llawer at grefydd. Perchid ef yn fawr o herwydd ei dalentau, ei zel, a'i dduwioldeb. Y Parch. Morus Philips a ddywedai am dano—"Y mae'n ddŷn rhagorol: dŷn Duw ydyw. Y mae'n alluog, taer, a difrifol mewn gweddi, yn gystal a zelog, doeth, a synhwyrol fel pregethwr. Y mae ei weddïau ar ran y gynnulleidfa wedi eu cofrestru yn y nef, y rhai, yn ddïau genyf, a ettyb yr Arglwydd yn ei amser ei hun." Wrth ymadael o Hwlffordd yn 1788, bwriadai Davies fod yn bregethwr teithiol o hyny allan. Ymddengys mai cyflwr isel crefydd mewn llawer parth o'r wlad a'i cynhyrfodd i wneud y penderfyniad yma; ac y mae'n debyg fod llwyddiant mawr Daniel Rowlands, Howel Harris, Williams Pant-y-Celyn, ac eraill, fel pregethwyr teithiol, yn peru iddo feddwl y gallai yntau fod o fwy o les i'w gydwladwyr yn gyffredinol wrth deithio i bregethu, nag wrth aros fyth a hefyd yn sefydlog yn yr un man. Fel pregethwr teithiol, dywedai y Parch. M. Jones, Trelech, fel hyn am dano:—

> "Y mae wedi pregethu mewn llaweroedd o fanau, ac wedi bod yn foddion i ennill llawer o dywyllwch i'r goleuni. Pregethai hefyd i gynnulleidfaoedd mawrion yn Gymraeg, yn ei gymmydogaeth enedigol, gyd â chymmeradwyaeth gweinidogion a phobl. Yr oedd ei ofal a'i bryder am sefyllfa eneidiau ei gyd-ddynion mor amlwg, fel nad oedd yn ddichonadwy llai na gweled ei dduwiolfrydedd a'i zel dros ogoniant Duw."

Pan oedd yn glaf iawn yn ei afiechyd olaf, yn nhŷ ei gyfaill, Mr. Marsden, clywodd Mr. Jones, Trelech, a Mr. Gruffydd, Glyndwr, bod gwythïen waed wedi tori yn ei fynwes, ac aethant i ymweled âg ef; ac wedi ei weled, dywedodd Gruffydd wrth Jones, pan gafodd gyfle, "Y mae'n ddŷn marw!" Ar eu hymadawiad, aeth Davies allan yn llesg ym mraich Jones, a dywedodd wrtho—"Y mae arnaf ofn siarad llawer, rhag i'r gwaed ddyfod i fynu. Ond pe gallwn, dywedwn am yr hwn a'm carodd, ac a roddes ei hun droswyf: y mae efe oll yn hawddgar. Yr oeddwn y borau heddyw mewn rhyw derfysg meddwl rhyfeddol, pan feddyliais mewn modd disymmwth fod angau wedi ymaflyd ynof; ond yn awr y mae'r meddwl terfysglyd hwnw wedi fy ngadael: yr wyf yn dawel ac yn barod: ewyllys yr Arglwydd a wneler."—Fel hyn, ymhen llai na thri mis ar ol iddo roddi gweinidogaeth yr eglwys yn Hwlffordd i fynu, gorphenodd ei yrfa ddeuarol ar y 25med o Orphenaf, 1788.*

### JOHN GRUFFYDD.

Ychydig iawn o hanes y gŵr enwog hwn sydd wedi ei throsglwyddo i'r oes bresennol. Brodor o

* En. Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 169.

Digitized by Google

Leyn, sir Gaernarfon, ydoedd; a'r enw cyffredin a roddid iddo gan ei gymmydogion oedd, Siôn Gruffydd Elis. Methasom daro wrth yr amser y ganwyd ef, na pha bryd y bu farw, na phwy oedd ei deulu, nac ymha le y preswyliai yn Lleyn; ond y mae'n amlwg ei fod yn ei flodau o gylch y flwyddyn 1741, pan yr argyhoeddwyd ef dan bregeth Howel Harris, y tro cyntaf yr ymwelodd efe â sir Gaernarfon. Ni fynegir chwaith pa bryd y dechreuodd bregethu; ond ymddengys iddo wneuthur hyny yn lled fuan ar ol iddo ef ei hun gael ei "droi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw," canys dywedir ei fod yn un o'r to cyntaf o bregethwyr y Methodistiaid yn sir Gaernarfon. Y mae'n amlwg hefyd ei fod yn un o bregethwyr anurddedig enwocaf y cyfundeb yn yr oes honno, canys dywed R. Jones, Rhos-y-lan, ei fod ef yn un o'r rhai a bregethasant yng Nghymdeithasfa gyntaf sir Gaernarfon, yr hon a gynhaliwyd ar yr heol ymhentref Clynnog. Fel pregethwr, dywed R. Jones am dano fel hyn:—

"Gellir dywedyd na chynnysgeuddwyd neb yng Ngwynedd, ym morau y diwygiad, â'r fath gyflawnder o ddoniau golau, iraidd, a gwlithog, ag ef. Yr oedd y Gogledd a'r Dehau yn sychedu am ei weinidogaeth; a pha ryfedd? canys byddai effeithiau grymus a thoddedig yn dilyn ei genadwri."—"Sonir hyd heddyw," medd y Parch. John Hughes, "am bregeth o'r eiddo yng Nghymdeithasfa y Bala, ar y geiriau yn Zech. xiii. 7, 'Deffro gleddyf yn erbyn fy mugail,' &c., bod rhyw arllwysiad anarferol wedi disgyn ar y gynnulleidfa, fel pe torasai cwmmwl arnynt; a'i fod yntau ei hun, gan rym yr ysprydoliad, wedi llesmeirio. Dilynid ei weinidogaeth [ei bregethiad] yn achlysurol â'r fath rymusder, fel pe gollyngasid argeuau mawrion, ac yr ysgubid pob peth o flaen y cenllif rhyferthol. Ond y mae'n resyni ychwanegu darfod ei gloffi ef yn ei yrfa gyflym. Daeth cwmmwl tywyll dros y goleuad disglair. Syrthiodd y Samson hwn i ddwylaw ei elynion; collodd ei wallt; difuddiwyd ef o'i nerth; a bylchwyd ei weinidogaeth dros flynyddau. Y ddïod feddwol a'i maglodd ac a'i dyrysodd. Pwy na theimlai wŷn o ymddial arni am hyn! 'Llawer a gwympodd hi yn archolledig; ïe, gwŷr grymus lawer a laddodd hi.' Gallwn ddywedyd am dani fel y dywedodd y Philistiaid am Samson—'Yr hon oedd yn anrheithio ein gwlad ni, ac a laddodd lawer o honom ni.' Eithr fe adferwyd Siôn Gruffydd Elis dalm o amser cyn ei farwolaeth; ond er iddo gael ei adfer o ran ei yspryd, ac i'w le a'i swydd, etto ni bu cyffelyb arddeliad arno byth ar ol hyny."*

#### WILLIAM EDWARDS.

Y mae i'r gŵr enwog hwn ddau gymmeriad disgleirwych, sef fel celfyddydwr, ac fel crefyddwr. Gan mai fel celfyddydwr cywrain yr enwogodd ei hun yn benaf, yn y rhan gyntaf o'i oes, ninnau a edrychwn arno dros fyr amser yn y cymmeriad hwnw.

Ganwyd William Edwards yn y flwyddyn 1719, ymhlwyf Eglwys-Elian (a elwir yn gyffredin Eglwysilan), sir Forganwg. Enw ei dad oedd Edward Dafydd, a phreswyliai, pan y ganwyd William, mewn ffarm ger llaw y Groes-wen, sef naill ai yn y Tŷ-canol, neu yn y Bryn-tail.† Bu ei dad farw pan nad oedd efe ond dwy flwydd oed, gan adael gweddw, tri mab, ac un ferch, o ba rai William oedd yr ieuengaf. Bu'r pedwar gyd â'u mam ar y ffarm nes iddynt gyrraedd cyflawn oedran. Dywed un o'i fywgraphwyr iddo gael cymmaint o ysgol ag a'i galluogodd ef i "ddysgu darllen ac ysgrifenu ychydig yn iaith ei wlad." Y mae braidd yn sicr y medrai efe ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg pan yn ieuangc; ond methasom gael prawf iddo erioed fod mewn ysgol ddyddiol. Gwyddom am rai wedi dysgu darllen ac ysgrifenu iaith eu mam heb fod erioed mewn un math ar ysgol.

Yr oedd archwaeth nodedig gan William Edwards, er yn blentyn, at adeiladu. Cyn gynted ag y daeth yn alluog o ran nerth corphorol, arferai adgyweirio y muriau cerig o amgylch tŷ ac ar ffarm ei fam; ac erbyn ei fod tu a 15 oed, yr oedd wedi cyrraedd medr nodedig yn y gorchwyl, a gallai ei wneud yn fuan, trefnus, a chadarn, er na chawsai ddim dysgeidiaeth yn y gelfyddyd. Wrth weled ei waith mor lân a chadarn ar ffarm ei fam, dechreuodd y cymmydogion alw am dano i wneud y cyffelyb waith ar eu tyddynod hwythau; ac felly, lledeunodd ei glod yn gyflym am adeiladu magwyrydd, a chai gyflawnder o waith a chyflog da am dano. "Gwaith sych" yn unig, fel y dywed y seuri meini, a arferai William hyd yn hyn, sef gwaith maen heb na chlai na chymmrwd yn gymmysgedig âg ef. Nid oedd wedi gweled un saer maen rheolaidd yn gweithio erioed etto; ond yn lled fuan wedi iddo dynu sylw ei gymmydogion, fel adeiladydd medrus ar "gloddiau cerig," daeth saer maen neu ddau i'r gymmydogaeth i adeiladu "gefail gof," neu fath ar daflod i bedoli ceffylau ynddi. Tarawyd ef â syndod wrth weled y modd destlus yr adeiladent y colofnau, a rhanau eraill yr adeilad; a mynych y cyrchai yno i edrych arnynt yn gweithio. Craffai yn neillduol ar wneuthuriad eu morthwylion. Sylwai fod y gwegil, fel bwyell, i naddu'r cerig, a'u bod yn dra gwahanol i'r morthwyl afrosgo a arferai efe hyd yn hyn. Mynodd yntau arf tebyg gan y gôf ar un-

* Drych yr Amseroedd, t. 163, 187; Method. Cymru, cyf. ii., t. 136; En. Cymru, I. F., t. 303; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 253.

† En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 242; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 380.



Digitized by Google

waith, a hwnw wedi ei ddurio yn dda, fel y rhai a welsai gan y seuri cerig crybwylledig.

Teimlai ei fod bellach yn gymmwys i gymmeryd gwaith mwy pwysig na muriau cerig sychion rhwng meusydd a'u gilydd; a'r gorchwyl cyntaf a gafodd oedd adeiladu gweithdy i ŵr o'r gymmydogaeth. Gwnaeth y gwaith hwnw mor wych a destlus fel y gosodwyd melin iddo i'w hadeiladu yng Nghwm Tridwr, yn ei blwyf ei hun; a phan wrth y gwaith hwn y daeth i wybod gyntaf pa fodd i wneud bwa maen. Wedi gorphen y gwaith hwn, daeth ei gymmeriad fel dŷn medrus, geirwir, a gonest, i'r gymmeradwyaeth uchaf ym Morganwg. Aeth ei enw mor gyhoeddus ar ol hyn, fel y daeth adeiladwyr o barthau eraill o'r wlad i glywed am dano, ac i edrych ei waith; a thystiai pob un o honynt ei fod yn arddangos athrylith llawer uwch na'r cyffredin yn y gelfyddyd. Yr oedd gwaith erbyn hyn yn dylifo iddo o bob parth o'i blwyf ei hun a'r rhai cyfagos, ac adeiladodd lïaws o dai, ysguboriau, melinau, a'r cyffelyb. Yn y flwyddyn 1740, pan oedd efe ynghylch 21 oed, cymmerth dawdd-dŷ (*iron-forge*) mawr i'w adeiladu yng Nghaerdydd. Yr oedd yn llettya yno gyd â hen ŵr dall a'i enw Walter Prosser, gan yr hwn y dysgodd efe elfenau yr iaith Saesneg. Dysgodd rifyddiaeth hefyd, heb ún athraw; a daeth yn fuan yn ddigon hyddysg yn y Saesneg i wneud defnydd o awduron, ac i gyfeillachu â'r rhai a siaradent yr iaith honno. Yr oedd gweddillion mawreddog hen gastell Caerphili yn ei blwyf genedigol ef, a mynych yr ymneillduai yr adeiladydd ieuangc i fyfyrio adeilad y bwäu meini a'r colofnau, y rhai a adeiladasid yn yr arddull Gothaidd. Yn y flwyddyn 1746, pan oedd Edwards yn 27 oed, cymmerth y gorchwyl pwysig o adeiladu pont dros yr Afon Taf, wrth Bont-y-pridd. Gorphenodd y bont yn y fath fodd ag a roddes foddlonrwydd neillduol i'r rhai a roddasant y gwaith iddo ef, yn hytrach nag i amryw adeiladwyr medrus a gynhygient yn ei erbyn. Cynhwysai y bont brydferth honno dri bwa maen naddedig, a'r olwg arnynt yn hardd a mawreddog dros ben. Ond yn fuan wedi ei gorphen, daeth yn wlawogydd trymion iawn, a chododd holl ffrydiau y cymmydd, nes chwyddo llif yr afon yn aruthrol. Usgubwyd darnau mawrion o goed, a phethau eraill, gyd â'r llifogydd, y rhai a rwystrwyd wrth y bont; ac yn fuan cododd y dwfr yr ochr uchaf yn gronfa anferth ei maint, a rhuthrwyd y bont gyd â'r rhyferthwy. Yr oedd Edwards dan ammod i gadw'r bont mewn cywair dros ryw amser; am hyny yr oedd dan angenrhaid i'w hadgyweirio. Er mwyn gochel yr un digwyddiad oddi wrth rym yr afon, adeiladodd hi y waith hon o un bwa mawr. Gorphenodd y bwa, fel nad oedd dim ar ol ond adeiladu y mur-ganllawiau; ond, er ei ddirfawr siomedigaeth, gyrodd y gareg glo o'i lle, fel y syrthiodd yr adeilad godidog yn un garnedd. Digwyddodd yr ail anffawd yma yn 1751. Eisteddodd Edwards, druan, i lawr, ar ol y ddamwain erchyll yma, ger llaw yr adfeilion, yn bur ddigalon, heb wybod amcan deuar beth i'w wneuthur. Yna, daeth ei holl weithwyr ato yn llawen, a dywedasant y gweithient hwy am ddim iddo, er rhoddi trydydd cynnyg, os gallai efe gael ymborth iddynt; ac felly fu. Lluniodd y bwa o'r un maintioli ag o'r blaen; ond er mwyn cadw'r bont rhag pwysau mawr y pentanau, y rhai oedd yn ormod i atteb y rhychwant (*span*), gwnaeth dri o dyllau crynion ymhob pen, y rhai sy'n graddol leihau wrth nesu at y cribyn. Attebodd y rhai hyn ddau ddiben, sef lleihau y pwysau, ac addurno yr olygfa hefyd. Gorphenwyd y gorchestwaith yma yn y flwyddyn 1755, sef ymhen naw mlynedd ar ol dechrau y bont gyntaf; ac y mae'n sefyll hyd heddyw, yn addurn i'r cwr hwnw o'r wlad, ac yn gofadail i athrylith ddisglair yr adeiladydd ieuangc, hunan-ddysgedig o'r Groes-wen. Gelwir hon yn Bont-y-pridd, a hi oedd yr hwyaf ei rhychwant yn yr holl fyd, hyd oni adeiladwyd pont Caerlleon yn y flwyddyn 1830. Y mae rhychwant y bont odidog yma yn 140 o droedfeddi, ac yn 35 troedfedd uwch law yr afon ar ddwfr isel; ac y mae'r cwbl wedi ei lunio yn un bwa o 175 troedfedd ei dryfesur.

Cododd yr adeilad orchestol yma enw William Edwards i ben pinacl enwogrwydd, fel "pen saer celfydd" mewn gwaith maen. Deuai'r dynion mwyaf urddasol, o bob parth o'r deyrnas gyfunol, i weled y gorchestwaith godidog, ac ystyrient yn anrhydedd iddynt gael ysgwyd llaw ac ymddiddan â'r adeiladydd penigamp, hunan-ddysgedig. Mewn canlyniad i'w lwyddiant ysplenydd yn yr antur mawr yma, cafodd fwy na digon o alwadau i godi pontydd, ac adeiladau cywrain eraill, yr hyn a'i dyrchafodd o'r diwedd i sefyllfa gysurus ac uchel yn y byd. Adeiladodd dair pont dros yr Afon Tawy; un dros yr Afan, yn sir Forganwg; un dros yr Aman; un dros y Tywy, yn sir Gaerfyrddin; un dros yr Wysg, yn sir Fynwy; ac un dros yr Wy, yn sir Faesyfed. Canfu Edwards,

Digitized by Google

ymhen amser, bod ei bontydd cyntaf yn ymgodi yn rhy uchel, ac am hyny yn anhawdd eu croesi gyd â cherbydau a llwythi trymion. Y mae'r esgyniad a'r disgyniad yn y naill ben a'r llall, o Bont-y-pridd, yn ei gwneud yn bur anfantcisiol i'w chroesi, a hyny o blegid lled anferth y bwa. Er bod hyn yn ychwanegu at hynodrwydd yr olygfa arni, etto y mae yn lleihau ei ddefnyddioldeb. Wedi cael cryn brofiad yn y gwaith o adeiladu pontydd, cadwodd dri pheth mewn golwg wrth adeiladu y rhai dilynol, sef gwastadrwydd i groesi, lled i ollwng pob rhwyddineb i'r llif, a chadernid gwaith i barhau. Darganfu yr egwyddorion hyn, nid trwy ddarllen, na thrwy hyfforddiad neb arall, ond trwy arweiniad ei feddwl athrylithgar ei hun. Hawsder y teithiwr, rhwyddineb y llif, a dïogelwch y gwaith, a fynnai efe, mewn cyssondeb perffaith â'u gilydd, byth mwy. Dygodd ei athrylith, ei hynawsedd, a'i onestrwydd y fath glod iddo, fel y mae rhai o brif ysgrifenwyr Lloegr, yr Alban, a'r America, cystal a rhai Cymru, wedi ysgrifenu bywgraphiadau canmolieuthol iddo, fel y ceir gweled ar derfyn yr ysgrif ganolig hon.

Ond, nid arhosasem ni cyhyd ynghymdeithas William Edwards, fel celfyddydwr cywrain a medrus, oni buasai ddarfod iddo ef, er ei fythol glod, ddefnyddio ei gelfyddyd, cystal a holl alluoedd ysplenydd ei feddwl gwreiddiol, yn ebrwydd ar ol ei dröedigaeth, fel y dylai pob dŷn wneuthur, er hyrwyddo moesoldeb a chrefydd ymhlith ei gydwladwyr, ac er heleuthu teyrnas ei Waredwr bendigedig ymhob man lle y trigai, pa un bynag ai dros ychydig ai dros lawer o amser y digwyddai hyny. Bernir iddo gael ei ddwyn i fynu, er yn blentyn, dan ofal ei fam, mewn gwybodaeth grefyddol; ond nid ymddengys iddo wneud proffes gyhoeddus o grefydd hyd o gylch y flwyddyn 1738, pan oedd efe tu a 18 oed. Y pryd hwnw yr ymwelodd Howel Harris y waith gyntaf â phlwyf Eglwys-Elian; ac ymddengys bod W. Edwards yn un o'r llawer yr effeithiodd ei bregethiad tanllyd ef arnynt yn achubol. Bernir iddo ef, fel eraill o ddychweledigion H. Harris, ymuno â'r eglwys yn Watfford; ond wedi adeiladu capel y Groes-wen yn 1742, gwnaeth ef ei gartref yn benaf yno. Tybir mai tu a'r amser hwnw y dechreuodd efe arfer ei ddawn fel pregethwr, pan oedd efe o gylch 23 oed. Canfu'r brodyr yn fuan ei fod yn ddŷn duwiol iawn, a bod ei gynheddfau yn llawer cryfach, a'i ddoniau yn llawer heleuthach na'r cyffredin; am hyny ymddengys y dymunent ei neillduo yn weinidog iddynt. Ond cyn gwneuthur hyny, dymunent gael barn Edmund Jones, "Hen Brophwyd Pont-y-pŵl," ar y matter; ac anfonasant ef, ac un Edward Llwyd, yr hwn oedd aelod parchus o'r eglwys, yno i ymgynghori â'r "prophwyd" ar yr achos. Pan gyrheuddasant ddrws "yr Hen Brophwyd," yr oedd ef ar weddi gyd â'i deulu; am hyny safasant hwy allan nes iddo orphen. Pan gyfododd oddi ar ei liniau, dywedodd fod dau o weision yr Arglwydd yn sefyll wrth y drws, a gwahoddwyd hwynt i mewn. Wedi ymgynghori ar y matter, dywedodd "yr Hen Brophwyd" wrth Edward Llwyd am i'r eglwys neillduo William Edwards i'r weinidogaeth, ac addawodd fyned atynt ei hun i'w cynnorthwyo; ac felly fu. Gan fod cymmaint o alwad ar Edwards i fyned ymhell ac agos i adeiladu pontydd, a gweithydd pwysig eraill, barnodd yr eglwys y byddai yn ddoeth iddi neillduo un arall fel cydweinidog âg ef, a dewisasant un Thomas Williams,* a neillduwyd y ddau yr un amser, sef yn y flwyddyn 1745, fel y tybir; ac y mae sicrwydd y gwasanaethodd William Edwards yr eglwys yn y Groes-wen yn ffyddlawn ac effeithiol hyd ddiwedd ei oes, a thybir i Williams wneuthur yr un modd. Yr oedd Edwards, medd golygydd *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, "yn bregethwr efengylaidd a blasus. Gwelsom rai degau o'i bregethau yn llawysgrifen un o'i wrandawyr, ac y maent yn profi ei fod yn bregethwr gwir alluog." Pan yn cael ei alw ymhell o'i gartref i adeiladu, byddai ef yn gwneud ei hun yn wasaneuthgar i achos crefydd ymhob lle yr elai Dodwn un esampl ger bron, o lawer y gellid eu nodi:—

"Er nad oes ond 43 blynedd er pan gorpholwyd yr eglwys a gyferfydd yn Libanus, Treforris, yn Eglwys Annibynol, etto yr oedd yn y gymmydogaeth hon gangen o eglwys Tŷ'rdwncyn yn cynnal addoliad cyhoeddus yn rheolaidd er ys amryw oesau. Bernir bod gwasanaeth crefyddol wythnosol yn cael ei gadw yn gysson yn y Tŷ-coch er y flwyddyn 1682, os nad cyn hyny, gan aelodau

* Y gŵr hwn, medd golygydd *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* (cyf. ii., t. 380), oedd y Thomas Williams y cyfeiriwyd ato eisoes yn y gwaith hwn (cyf. ii., t. 8), a alwyd i gyfrif gan y Methodistiaid yng Nghymdeithasfa Watfford, Medi 27, 1744, am ddywedyd rhywbeth yn erbyn y gwisgoedd offeiriadol. Ni wyddys ond ychydig am y gŵr duwiol yma. "Yr oedd yn bregethwr yn 1742. Yn y flwyddyn honno gosodwyd ef yn arolygydd y cymdeithasau crefyddol a ffurfiasid yn ol cynllun Mr. Howel Harris, yn y rhan ddwyreiniol o Forganwg. Y mae'n ymddangos wrth hyn ei fod yn cael ei ystyried yn fwy galluog na'r cynghorwyr yn gyffredin, gan fod rhai o honynt i'w cael agos ymhob cymdeithas, ac yntau wedi cael ei osod yn arolygydd arnynt oll. . . . . Y mae genym le i gasglu oddi wrth ryw gyfeiriadau ato yn llawysgrifau Thomas Morgan, o Henllan, bod Thomas Williams yn Ymneillduwr egwyddorol, er iddo gymmeryd rhan gyhoeddus gyd

Digitized by Google

Tŷ'rdwncyn a gyfanneddent yn y gymmydogaeth; a byddai rhai o aelodau y Chwarel-bach, Castell-nedd, yn dyfod yn fynych i'r cyfarfodydd hyn. Dywedir bod y bobl a gyfarfyddent yn y Tŷ-coch yn rhai diarhebol am eu gwresowgrwydd crefyddol. Teimlid er ys blynyddau bod y Tŷ-coch yn lle go anghyflëus i gynnal y cyfarfodydd wedi i boblogaeth Treforis liosogi, a bod angen am adeiladu tŷ cyfarfod; ond yr oedd Mr. Lewis Rees, a phobl y Mynydd-bach, yn groes i hyny, rhag ofn y buasai pobl Treforis, ar ol cael tŷ cyfarfod, yn ymneillduo o'r Mynydd-bach, ac yn myned yn Eglwys Annibynol. Syniad cyffredin yr hen bobl dda gynt oedd cael rhyw un lle mawr i gyfarfod ynddo bob borau Sabboth,* a chadw addoliadau yn yr hwyr mewn pump neu chwech o wahanol ardaloedd. Edrychid ar adeiladu capel o fewn dwy neu dair milltir i addoldy y fam-eglwys yn gystal a rhwyg. Ystyrid cerdded lawer o filltiroedd i'r addoliad ar forau'r Sabboth fel prawf o ragoriaeth mewn crefydd. Y mae'r syniad hwn o eiddo'r hen bobl yn cael ei osod allan yn dda gan Williams, Bethesda, yn y pennill canlynol :—

Mae crefyddwyr â'u teimladau
'Nawr mor dyner, nad aent trwy
Wres nac oerfel i addoliad,
O fewn milltir fach neu ddwy:
Rhaid cael temlau'n agos agos,
Tŷ cwrdd yma, tŷ cwrdd draw,
Gormod gwaith yw cerdded milltir,
Chwaethach cerdded wyth neu naw.'†

"Barnai pobl y Mynydd-bach mai diogi i gerdded, a difatterwch crefyddol, oedd yn peru i bobl y Tŷ-coch awyddu am gael addoldy yn Nhreforis. Pa fodd bynag, fe drefnodd Rhagluniaeth, yn ei hamser, i bobl Treforis gael yr hyn a ddymunent. Daeth galwad i Mr. WILLIAM EDWARDS, gweinidog y Groes-wen, ddyfod i aros am rai misoedd yn yr ardal, pan oedd yn adeiladu Pont-y-fforest, wrth Dreforis. Yr oedd Mr. Edwards yn ŵr dylanwadol iawn ym mysg boneddwyr y wlad, ar gyfrif ei enwogrwydd fel adeiladydd pontydd; ac yr oedd iddo barch mawr fel pregethwr gan bawb a'i hadweunai. Llwyddodd Mr. Edwards i gael gan Mr. Rees a'i bobl, yn y Mynydd-bach, foddloni i adael iddo ef adeiladu capel yn Nhreforis i'r gangen a gyfarfyddai yn y Tŷ-coch; ond gosod ammod yn y weithred na byddai cyfarfodydd i gael eu cynnal ynddo ar forau Sabbothau, rhag lleihau cynnulleidfa y Mynydd-bach, ac na byddent i fyned yn eglwys ar eu penau eu hunain. Cyttunodd y bobl â'r ammodau hyn. Adeiladodd Mr. Edwards y capel, a chasglodd ddigon i ddwyn y draul ym mysg y boneddion yr oedd ef yn gydnabyddus â hwynt, a rhoddodd y capel, heb un geiniog o ddyled arno, yn anrheg i'r gynnulleidfa. Cymmerth hyn le yn y flwyddyn 1782,"‡ pan oedd yr enwog William Edwards yn 63 oed.

Gwnai'r gŵr duwiol a galluog hwn ryw gymmwynasau cyffelyb i grefydd a chrefyddwyr ymhob ardal yr elai iddi, heb law y pregethai iddynt ar y Sabbothau. Gan nad oedd yr enwog William Edwards, mwy nag eraill o'r oes honno, a'r oesau dyfodol, wedi sylwi bod yr Apostol Paul yn gorchymyn yn bendant i henuriaid neu esgobion sefydlog eglwys beidio "chwennych aur, neu arian, neu wisg neb" am eu gwasanaeth sefydlog i eglwys,§ arferai yntau dderbyn rhyw gydnabyddiaeth gan yr eglwys, fel ei gweinidog; ond rhanai efe yr hyn oll a dderbyniai felly, a llawer ychwaneg, yn elusenau rhwng y tlodion. Arwydda hyn ei fod ef, fel yr enwog Joseph Barker, yn dirgel gredu mai aelodau eglwysig tlodion, analluog i gynnal eu hunain, sy'n meddu hawl Ysgrythyrol i gael eu cynnal yn sefydlog gan yr eglwys.‖ Parhaodd yr enwog Edwards i wasanaethu eglwys y Groes-wen, a llawer o eglwysi Annibynol eraill y Deheubarth, yn y rhai y digwyddai fod yn achlysurol wrth ddilyn ei gelfyddyd fel adeiladydd, a hyny yn ffyddlon ac effeithiol iawn, hyd oni therfynodd ei oes lafurus a gwerthfawr ar y 7fed o Awst, 1789, ac efe yn 70 oed. Claddwyd ef ym mynwent plwyf Eglwys-Elian, sir Forganwg, lle y mae careg ar ei fedd a'r geiriau canlynol wedi eu cerfio arni:—

"In memory of the Reverend William Edwards, of this parish, who departed this life August 7, 1789, aged 70 years.

"One loved of Christ that lieth here,
The cross of Christ his heart did cheer,
The cause of Christ he did maintain,
To live was loss, to die was gain."

Golygydd *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* a ddywed—"Y mae amryw o hiliogaeth Mr. Edwards wedi bod o oes i oes yn enwog fel crefyddwyr. Yr oedd ei fab, David Edwards, yn un o enwogion y Groes-wen. Yr oedd tu a phedwar ugain oed pan fu farw. Wyr i'r hen weinidog yw'r Dr. Daniel Edwards, gynt o Lundain, ac yn awr o Uckfield, un o'r dynion mwyaf talentog a duwiol y cawsom erioed y fraint o gyfeillachu âg ef; a gor-ŵyr iddo yw'r Dr. T. Edwards, Caerdydd, yr hwn sy'n glynu yn ffyddlawn wrth yr egwyddorion a broffesid gan ei hynafiaid."¶

### LEWIS EVAN.

Ganwyd y gŵr duwiol a llafurus yma (yr hwn a elwid yn gyffredin yn ei oes yn *Lewis Ifan*) yn y flwyddyn 1719, ymhlwyf Llanllugan, sir Drefal-

A'r achos Methodistaidd ar ei gychwyniad. Ar wrthodiad Cymdeithasfa y Methodistiaid i urddo rhai o'r pregethwyr, cafodd ef a William Edwards eu hurddo, yn ol y drefn Ymneillduol, yn gydweinidogion i eglwys y Groes-wen. Dichon i'w hurddiad gymmeryd lle tu a haf y flwyddyn 1745. Buont ill dau yn cydlafurio yma am flynyddau. Yr ydym yn barnu i Thomas Williams farw, neu symmud oddi yma, yn fuan ar ol y flwyddyn 1761. Nid oes genym unrhyw hanes bellach i'w roddi am dano."—Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 380.

* Hyny yw, yr hen Annibynwyr, y rhai a ddilynent gynllun yr Eglwys Wladol yn hyn, fel mewn amryw bethau eraill, cyn cychwyniad Methodistiaeth yn y wlad.

† Nid rhyfedd, gan hyny, bod crefydd mor isel yng Nghymru ar gychwyniad yr hen Fethodistiaid yn y wlad.

‡ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 55–6.

§ Act. xx. 17, 28–35.

‖ Gwel y profion Ysgrythyrol ar hyn yn nhreuthawd campus Barker, sydd yn y *Dysgedydd*, 1843, t. 268, 301, 330.

¶ Seren Gomer, llyfr xvii., t. 68; Gwladgarwr, cyf. iii., t. 298; Williams's Em. Welshm., p. 133; En. Cymru, I. F., t. 274; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 242; Hanes Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 380; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. ii., p. 215.

Digitized by Google

dwyn. Yr hanes gyntaf am dano ydyw, ei fod yn byw gyd â'i daid yn y Crugnant, ac yn dilyn y gelfyddyd o wehyddiaeth. Yn y flwyddyn 1739, pan oedd Lewis tu ag 20 oed, aeth Howel Harris, am y tro cyntaf, i Drefeglwys, yn sir Drefaldwyn, i bregethu; ac aeth yntau i wrando arno, a chafodd ei argyhoeddi o'i anwiredd, a'i ddychwel at grefydd. Yn ebrwydd ar ol ei ddychweliad, ymroddodd i chwilio yr Ysgrythyrau, yr hyn a'i gwnaeth ef yn hyddysg ac yn gadarn ynddynt, a chymhellai bawb a ddeuent i'w gyrraedd i wneuthur yr un modd. Wedi iddo gael y fath flas ar y Bibl ei hunan, dechreuodd fyned i dai ei gymmydogion a'i derbynient i'w gymmell iddynt hwythau, ac i'w ddarllen iddynt. Arweiniodd hyn ef i roddi gair o gyngor iddynt, ac i derfynu yr ymweliad trwy weddi. Dywedir na wyddai Lewis Ifan fod neb wedi gwneud hyny o'i flaen ef; gan hyny, nid dynwarediad oedd ei bregethiad ef, ond effaith awydd duwiol am achub ei gydgreaduriaid.

Yr oedd gwaith dŷn ieuangc o grefftwr cyffredin, fel yr oedd Lewis Ifan, yn myned o dŷ i dŷ i ddarllen y Bibl, i gynghori, ac i weddïo, yn beth hynod o ddïeithr yn y wlad y pryd hyny, a deuai amryw deuluoedd ynghyd i dŷ y cymmydog ar y nos y disgwylid ei ddyfodiad ef yno. Pa wedd bynag, nid hir y cafodd fyned rhagddo fel hyn cyn iddo gael gwybod bod pyrth uffern yn anfoddlawn i'w ymddygiad a'i weithredoedd. Gallasid disgwyl y cawsai barch a chlod am ei ymdrechion hunymwadol i wella a chrefyddoli ei gymmydogion anwybodus ac anfoesol; ond yn lle hyny, ei ddirmygu a'i erlid a gafodd. Yr oedd dŷn cryf a chreulon yn gwasaneuthu yn y Plashelyg, yr hwn oedd ar ffordd Lewis i un o'r tai yr arferai fyned iddo i ddarllen a gweddïo; a dywedodd yr adyn hwnw wrtho, os na roddai heibio ddyfod y ffordd honno i gynhyrfu pobl â'i ddarllen a'i weddïo, y rhoddai efe burion curfa iddo, os gadawai iddo ei fywyd. Ond yr oedd y gair yng nghalon y gŵr ieuangc yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn ei esgyrn, ac nis gallai ymattal;* ac fel yr oedd efe yn myned yn lled fuan ar ol hyny i dŷ cymmydog y ffordd honno i gyflwyno ei genadwri, rhoddes y dihiryn crybwylledig ei fygythiad mewn grym, gan guro y pregethwr truan, nes oedd ei waed yn llifo; ac yna taflodd ef i ffos oedd ger llaw, gan fygwth y lladdai efe ef y tro nesaf y deuai'r ffordd honno i dwyllo pobl â'i ffiloreg, fel Pengrwn! Ond yn lle bwgwth cyfraith y tir ar y mileinddyn, y cwbl a ddywedodd Lewis wrtho oedd—

"Dywed i mi, fy machgen gwyn,
Paham y beuddi fi fel hyn?"

Yn fuan wedi hyn, dechreuodd Lewis Ifan bregethu yn deithiol, neu "gynghori," fel y dywedai yr hen Fethodistiaid; a cheir bod ei enw yn cael ei grybwyll, fel cynghorwr, yng Nghymdeithasfa y Methodistiaid yng Nglan-yr-afon, sir Gaerfyrddin, ar y 1af o Fawrth, 1742, ac yn cael ei osod i gynnorthwyo Morgan Huws i ofalu am y cymdeithasau neillduol yn Llanfair, Llanllugan, a Llanwyddelan. O hyny hyd y flwyddyn 1745, pryd y mae'r cofnodau yn terfynu, ceir enw Lewis Ifan ym mysg y cynghorwyr a fyddent bresennol yn holl gyfarfodydd y brodyr cyfagos iddo. Mewn cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Nhrefeca yn 1744, penderfynwyd "Bod y brawd Lewis Ifan i fyned cyn belled ag y gallai i sir Feirionydd, ac i'r Gogledd, yn gysson â'r alwad a fyddai arno." Ac ni bu'r brawd Lewis Ifan yn anufudd i'r cyngor brawdol hwn, ond bu'n ddiwyd a ffyddlon i deithio Gwynedd, mewn cyssylltiad â brodyr o'r Dehau, dros flynyddau lawer, mewn amser yr oedd y croesaw yn fychan, a'r blinderau yn aml ac yn chwerwon. Rhoddir canmoliaeth uchel iddo gan Richard Tibbot, yr arolygydd, mewn llythyr at y Gymdeithasfa yn y flwyddyn 1745, fel hyn:—"Y mae derbyniad da i Lewis Evan ac Evan Jenkins, gyd â'r bobl gyffredin, a daw llawer i'w gwrando." Ac mewn llythyr arall, dywed yr un gŵr:—"Y mae genyf le i gredu bod Duw yn bendithio ac yn llwyddo Lewis Evan, Llanllugan, ac Evan Jenkins, Llanidloes. Arddelir hwy yn fawr mewn ffordd o dueddu'r bobl i agor eu drysau i dderbyn yr efengyl, ac i ddyfod i wrando y gair."

Cafodd Lewis Ifan ei ran yn helaeth o erlidiau o herwydd pregethu yr efengyl. Pan oedd ar daith unwaith yn sir Feirionydd, ac yn pregethu yn nhref y Bala, anfonodd ynad heddwch oedd yn byw yn y gymmydogaeth swyddogion i'w ddal, a'i ddwyn ger ei fron ef. Galwyd ef i'r parlwr, lle y bu'r ymddiddan canlynol rhyngddynt:—

*Ynad.* "Ai tydi a fu'n pregethu yn y Bala?
*L. E.* "Ië, syr, myfi a fu'n rhoi gair o gyngor i'r bobl.
*Ynad.* "O ba le yr wyt ti'n dyfod?
*L. E.* "O sir Drefaldwyn, o blwyf Llanllugan.
*Ynad.* "Beth yw dy orchwyl pan fyddi gartref?
*L. E.* "Gwehydd wyf fi, syr, wrth fy nghelfyddyd.
*Ynad.* "A oedd genyt ddim gwaith gartref?
*L. E.* "Oedd, syr, ddigon.

* Jer. xx. 9.

Digitized by Google

*Ynad.* "I ba beth, ynte, y deuthost ffordd yma?
*L. E.* "I roi gair o gyngor i'm cydbechaduriaid, syr.
*Ynad.* "Nid oes yma ddim o dy eisiau. Y mae genym ni bersoniaid wedi eu dwyn i fynu yn Rhydychain, neu Gaergrawnt, trwy draul fawr, at y gorchwyl o bregethu.
*L. E.* "Y mae digon o waith iddynt hwy a minnau, syr; o herwydd y mae'r bobl yn myned tu a distryw yn lluoedd, er y cyfan.
*Ynad.* "Mi a'th anfonaf di i garchar am dy waith.
*L. E.* "Bu fy ngwell i mewn carchar o'm blaen, syr. Carcharwyd yr Arglwydd Iesu ei hun, yr hwn a ddaeth i'r byd 'i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid,' canys 'O garchar ac o farn y cymmerwyd ef: a phwy a dreutha ei oes ef? canys efe a dorwyd o dir y rhai byw; rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl.' Bendigedig a fyddo ei enw sanctaidd ef!
*Ynad, mewn natur ddrwg.* "A wyt ti'n meddwl pregethu yn fy mharlwr i?
*L. E.* "Nid wyf yn meddwl, syr, bod eich parlwr chwi yn rhy dda i ddywedyd am yr Arglwydd Iesu Grist ynddo."

Ymddengys y gwelodd yr ynad nad oedd dim tebyg yr ennillai fawr ar y pregethwr gwehyddol trwy ymddiddan o'r fath; am hyny rhoddes ef i ofal y swyddogion, ac anfonwyd ef i garchar Dolgellau, ac yno y bu efe am hanner blwyddyn. Y mae rhagfarn a nwyd wedi dallu dynion call a chraffus lawer gwaith, ac felly y bu'r waith hon. Chwiliodd cyfeillion Lewis Ifan i mewn i'r achos, a chawsant allan nad oedd ei garchariad yn rheolaidd a chyfreithlon, a bod yr ynad rhagfarnllyd yngafael y gyfraith o herwydd ei amryfusedd cadarn. Rhoddwyd hyny ar ddeall i'r ynad byrbwyll, a bod cyfeillion y dioddefydd yn bwriadu amddiffyn ei gam; a phrysurodd yntau i Ddolgellau, ac wedi myned at Lewis Ifan i'r carchar, cymmerth yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt:—

*Ynad.* "Wel, Lewis, ai yma yr wyt ti fyth?
*L. E.* "Ië, syr, dyma lle'r ydwyf.
*Ynad.* "Y mae'n debyg mai yma y byddi di byth bellach.
*L. E.* "O nage, syr; nid yma y byddwch chwi na minnau byth.
*Ynad.* "Pe rhoddit ychydig arian, gallwn i dy gael allan.
*L. E.* "Yn wir, syr, chwi a ddylech fy nghael i allan am ddim, yn gymmaint a bod genych law fawr yn fy rhoddi i mewn.
*Ynad.* "Dywed i mi, a oes llawer o honoch?
*L. E.* "Oes, syr, lawer iawn; ac fe fydd llawer mwy etto ymhen ychydig amser.
*Ynad.* "Wel nghrog y boch chwi wrth un gangen!
*L. E.* "O! syr, byddwch chwi wedi hen bydru cyn hyny."

Dygwyd Lewis Ifan o'r carchar yn ebrwydd ar ol y digwyddiad yma, a hyny heb orfod talu dim, fel y gellid disgwyl. O ganlyniad, ni yrodd cyfeillion y carcharor diniwaid yr erlyniad ym mlaen yn erbyn yr ynad byrbwyll ac anofalus; ond doddwyd ar ddeall iddo, os gwnai y fath gamwri rhag llaw, nad arbedid ef drachefn. Cafodd Lewis Ifan nawdd nodedig Rhagluniaeth mewn llawer amgylchiad peryglus. Y mae R. Jones, Rhos-y-lan, yn adrodd yr hanesyn canlynol am dano:—

"Yr oedd Lewis Ifan wedi addaw dyfod i bregethu, ar brydnhawn Sabboth, ar fryn bychan, ger llaw y ffordd o Wytherin i Lansannan [sir Ddinbych]. Yr oedd yn y cyfamser ŵr yn byw ger llaw a fyddai yn ymhyfrydu yn fawr mewn cellwair a choeg ddigrifwch. Meddyliodd hwnw unwaith am fyned i'r Llan; ond ofnodd y delid ef yn rhy hir os âi yno, ac y collai'r difyrwch o wawdio y pregethwr. Ond wedi aros ychydig yn y dafarn, aeth tu a'r lle yr oedd y cyfarfod ynddo; a chan nad oedd neb wedi dyfod, gorweddodd y gŵr i lawr, a chysgodd. Ymhen ennyd, daeth yno ŵr arall, cyn i'r bobl ymgynnull ynghyd, a chanfu'r dŷn a ddeuthai o'r dafarn yn cysgu. Rhodiodd y gŵr i fynu ac i wared ar hyd y bryn i aros i'r bobl ddyfod ynghyd; ac wrth edrych o'i gwmpas, canfu welltyn praff megis wedi ei blanu yn y ddeuar. Ymaflodd ynddo, a chanfu yn ebrwydd mai powdwr oedd ynddo; ac wedi iddo gloddio â'i law, cafodd dywarchen fechan, a phowdwr oddi tani, a ffos neu rigol main yn cyrheuddyd i ben y bryn, a phowdwr ynddi o ben bwygilydd; ac ar ben y bryn le crwn wedi ei dori yn y ddeuar, ac o gylch dwy droedfedd drosto, ac ynddo lawer o bowdwr, a gwellt yn ei orchuddio yn dra chywrain, a thywyrch wedi eu rhoddi yn drefnus ar bob man, fel na byddai i neb ammau bod yno un math ar berygl. Darfu i'r gŵr a ganfu y gwelltyn grafu ymaith y powdwr yn llwyr, a dodi'r tywyrch yn eu lle fel o'r blaen; a'r gwelltyn hefyd a ddododd efe yn ei le fel y cawsai ef. Erbyn hyn yr oedd y pregethwr a'r bobl yn dyfod; a safodd y gŵr i bregethu yn gymmwys ar y fan yr oedd y powdwr wedi ei guddio ynddo. Yr oedd y gŵr a ganfu'r bradwriaeth yn sylwi yn fanwl pwy a ddeuai at y lle yr oedd y gwelltyn ynddo; ac ymhen ychydig, dyma ddŷn yn rhedeg, â gwisg menwr am dano, a mŵg o'i gwmpas; a phan gyrheuddodd hyd at y gwelltyn, dechreuodd chwythu ei dân. Erbyn hyn, dyma'r gŵr a ganfuasai y ddichell yn gweuddi arno, 'Methodd genyt dy gast yrwan!' Felly amddiffynodd Duw ei bobl megis yn wyrthiol y pryd hyny. Gwas i gyfreithiwr oedd y dŷn a ddaeth â'r tân; ond pa un ai efe, ai ei feistr, oedd ddyfnaf yn y ddichell, dydd y farn a'i dengys."*

Dŷn bychan o gorpholaeth oedd Lewis Ifan, ond yr oedd yn dra bywiog ei ysgogiadau. Yr oedd ei ymadroddion yn gyflym, a'i attebion yn barod. Er nad ystyrid ef yn bregethwr mawr, etto bu'n dra llafurus a defnyddiol yn ei ddydd; ac fe ddysgai eraill ymhob man lle yr elai. Yr oedd rhyw adnod o'r Bibl, rhyw addysg neu gyngor, yn wastad yn ei enau. Ni ddiangai neb yn y tŷ lle y llettyai, na mab na merch, na gwas na morwyn, mwy na'r gŵr a'r wraig, heb air oddi wrtho. Pa un bynag ai yn y tŷ ai yn y maes, ar y ffordd ai yn yr addoldy, cyfranu rhyw addysg fuddiol a chrefyddol oedd ei waith a'i hyfrydwch. Yr oedd Lewis Ifan fel Ysgol Sabbothol *symmudol;* a bernir bod mwy wedi derbyn lles yn y llwybr yma trwyddo ef na thrwy nemmawr neb arall. Teithiodd lawer iawn ar hyd ac ar led Cymru, yn enwedig y Gogledd, mewn amser enbyd, a than amgylchiadau o warth, anghysur, a

* Drych yr Amseroedd, t. 97.

Digitized by Google

pherygl; a gwnaeth hyny yn ddiwyd, dïoddefgar, a siriol. Dywedir bod Lewis Ifan yn meddu llawer o ffraethineb, ynghanol diniweidrwydd diddichell. Dringodd ef, a Mr. Foulkes, Machynlleth, unwaith i ben y Wyddfa; ac wedi cyrraedd y fro awyrol honno, tynodd Mr. Foulkes ei het, gan ddywedyd,—

"Beth ped elem i weddi dros ychydig amser yn y fan hon, Lewis?

"Da iawn, Mr. Foulkes, da iawn. Yr ydych mewn lle da i weddïo: ni buoch erioed o'r blaen mor agos i'r nef," oedd yr atteb parod.

Pan oedd Lewis Ifan mewn cyhoeddiad unwaith, ar daith yn sir Gaernarfon, digwyddodd fyned trwy dref Pwllheli yn lled hwyr ar ddiwrnod ffair; a goddiweddwyd ef gan ddau ŵr lled feddwon, ar gefn ceffylau, a chymmerth yr ymgom canlynol le:—

"Pwy sydd yma?" gofynai un o'r marchogion.
"Gŵr dïeithr ar ei daith," oedd yr atteb.
"I ble rydach chi'n mynd fordd yma?" oedd yr holiad nesaf.
"Ychydig ymhellach," medd yntau.
"Ai porthmon ydach chi?" medd un o honynt.
"Nage," oedd yr atteb.
"A fyddwch chi'n prynu moch ne ddefaid?" oedd yr holiad nesaf.
"Na fyddaf," medd yntau.
"Pengrwn ydi o," medd un, gan dyngu.
"Nid wyf yn tybied bod fy mhen i yn grynach na phen dŷn arall," eb yntau.
"Mi laddwn ni di," medd un o honynt, gan dyngu yn arswydus.
"Na nei! chei di mo'i ladd o," eb y llall.
"Mi trawa i o ynta," medd y cyntaf.
"Well iti beidio! os gnei di, mi trawa inna ditha," eb yr ail.
"Beth!" eb y llall: "wyt ti'n meddwl cymmyd i blaid o? Wyt titha wedi dy ail eni?"

Ar hyny, dechreuasant guro eu gilydd, a chafodd y diniwaid lonydd i fyned i'w daith, ac nis gwelodd hwynt mwyach. Cafodd ddihangfa y tro hwnw heb dderbyn dim niwaid; ond nid felly y bu mewn amgylchiad arall a gofnodir gan R. Jones yn y difyniad canlynol:—

"Un tro, safodd dau ddŷn â phastynau mawrion yn eu dwylaw, wrth bont yn Nyffryn Clwyd, i ddisgwyl y pregethwr oedd i ddyfod y ffordd honno, sef Lewis Ifan. Tarawodd un o honynt ef yn dra chreulon ar ei ben, nes oedd ei waed yn ffrydio; ond er hyny, ni thaflwyd ef oddi ar ei farch. Ni wyddai, gan y syndod oedd yn ei ben o achos y dyrnod, bod ei waed yn llifo, nes i ryw wraig ei gyfarfod, a gofyn yn gyffrous iddo, 'Yn enw'r Mawredd! beth yw'r drefn yna sydd arnoch?' Cyrheuddodd, fel yr oedd, at rai o'i gyfeillion i gael ei ymgeleddu, ac iachâu ei friwiau."*

Cofnoda Mr. John Hughes un digwyddiad arall pur flinderus, ond ffodus, yn y pen draw, fel y canlyn:—

"Dro arall, pan oedd yn ceisio rhoddi gair o gyngor i bechaduriaid Darowen, mewn lle a elwid Cefn-yr-hosan, nid ymhell o Fachynlleth, daeth haid fawr o erlidwyr, tu a 60 o nifer, o'r dref i aflonyddu, gan fwriadu niwaid i'r pregethwr gyd â hyny. Golwg anferth iawn oedd i driugain o wŷr mileinig ymosod ar un dŷn, a hwnw heb fod yn nerthol o gorpholaeth, ac yn gwbl anarfog. Yr oeddynt yn rhy ffyrnig i ymresymu â hwynt, ac yn rhy gryfion i'w gwrthsefyll, ac nid oedd, gan hyny, ond ceisio ffoi er mwyn dïogelwch; a ffoi a wnaeth Lewis Ifan. Gan ei fod yn ysgafn o gorph, ac yn chwimmwth ar ei draed, yr oedd iddo obaith y dihangai rhagddynt. Yr oedd y ffordd a gymmerodd yn ei arwain dros ryw rôs, a elwid Rhos Hendreronn; ac yn ei fraw a'i ffwdan, collodd ei gam, a syrthiodd i ffos ddofn, yr hon a ddigwyddai fod yn sech ar y pryd. Daeth i'w feddwl, yn y fan, y gallai'r ffos y syrthiasai iddi fod yn ymguddfa iddo. Ynddi, gan hyny, y llechodd, a chollodd yr erlidwyr bob golwg arno; ond gan dybied ei fod wedi cyfeirio ei gamrau tu a llwyn o goed ger llaw, troisant i'w geisio yno, ac felly y cafodd ddïangc."

Ni wyddys ond ychydig, mewn cymhariaeth, am lafur a blinderau y pererin hwn dros yspaid hanner can mlynedd a mwy; ond y mae'n hyspys iddo ymdrechu ymdrech deg o blaid achos ei Waredwr, pan oedd yn isel a dirmygedig yn y wlad, a hyny ynghanol erlidiau a pheryglon. Gorphenodd ei yrfa mewn llawenydd yn y flwyddyn 1792, ac efe yn 73 oed. Canodd ei nai, James Lewis, farwnad iddo, yr hon sy'n dechrau fel hyn:—

"Hunodd un o'r hynaf dadau,
Mewn tawelwch hedodd adrau:
Ffyddlon fu i'r gŵr a'i galwodd,
Ddeg a deugain o flynyddoedd:
Lewis Ifan oedd ei enw,
Hyspys iawn i bawb oedd hwnw:
Ple bena le,
Mewn gwlad a thre,
Fe fydde'n ofalus,
O lwybrau'i berchen byddai'n barchus,
O flaen y byd ynghyd â'r eglwys:
Dyweda'i brofiad, yn bur groyw,
Wrth un o'i frodyr cyn ei farw:
'Tawelwch mawr
Sydd yn awr,
Trwy ddwylaw'r cawr creulon;
Y mae'r Iesu imi'n ddigon,
Ffarwel, mynd 'rwy'i ffrydiau'r afon.'"†

## PENNOD XXIII.

### RICHARD TIBBOTT, THOMAS WALTERS, TIMOTHY THOMAS, JOHN RICHARDS, JOHN HARRIS, AC ERAILL.

GANWYD Richard Tibbott mewn lle a elwid Hafod-y-pant, ymhlwyf Llanbryn-mair, sir Drefaldwyn, ar y 18fed o Ionawr, 1719. Yr oedd ei rieni yn rhai duwiol iawn, ac o herwydd hyny yr oeddynt yn hynod yn eu hoes, am nad oedd nemmawr o'u cyffelyb y pryd hyny yn yr holl wlad o'u hamgylch. Aelodau oeddynt o'r eglwys Annibynol

* Drych yr Amseroedd, t. 101.

† Method. Cymru, cyf. i., t. 123; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 272.

Digitized by Google

yn Llanbryn-mair. Bu iddynt chwech o blant, a chawsant yr hyfrydwch o weled pump o honynt yn proffesu crefydd, a dau o honynt yn pregethu yr efengyl. Richard oedd yr ieuengaf o honynt, ac yr oedd efe yn ofni yr Arglwydd o'i febyd, a derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys cyn ei fod yn bymtheg oed, sef ychydig fisoedd cyn i Lewis Rees ymsefydlu yn Llanbryn-mair;* ac felly yr oedd yn aelod eglwysig dros dair blynedd cyn i Harris a Rowlands ddechrau pregethu. Dywedir ei fod, tu a'r amser y cafodd aelodaeth eglwysig, wedi ei ddiddyfnu mor llwyr oddi wrth ofalon bydol, ac wedi ei lyngcu i fynu mor drwyadl mewn myfyrdod a gweddi, er ieuenged ydoedd, fel y tybiai rhai bod ei synwyr yn dyrysu. Prynai neu fenthyciai bob llyfr o werth o fewn ei gyrraedd, gan mor angerddol y sychedai am wybodaeth.

Dechreuodd bregethu o gylch y flwyddyn 1738, pan oedd o ddeutu 18 oed, sef tu a'r un amser ag yr oedd Harris a Rowlands yn dechrau dyfod i sylw. Yn lled fuan ar ol hyny, ar annogaeth Lewis Rees, fel y tybir, aeth i'r ysgol i Landdowror, yr hon oedd dan ofal yr enwog Gruffydd Jones, lle na bu ond dros ychydig fisoedd; ond, yn ol tystiolaeth y Dr. Edward Williams, yr hwn a ysgrifenodd gofiant iddo i'r *Evangelical Magazine*, am 1802, yr oedd, trwy ei egni a'i ddiwydrwydd dyfal, wedi dyfod yn lled gyfarwydd yn y Groeg a'r Lladin, ac yr oedd yn deall ychydig o'r Hebraeg hefyd. Methasom gael dim sicrwydd pa fanteision addysg a gafodd yn ystod tymmor ei blentyndod. Bernir mai'r pryd yr oedd yn Llanddowror yr ymunodd efe â'r Methodistiaid, gyd â'r rhai y llafuriodd yn dra defnyddiol a chymmeradwy am gryn dair blynedd ar hugain. Ynglŷn â Chymdeithasfa'r Methodistiaid a gynhaliwyd yn Watfford, sir Forganwg, ar y 5med a'r 6ed o Ionawr, 1742, ceir y cofnodiad canlynol:—

"Cyttunwyd bod Richard Tibbott i fod yn ymwelwr cyffredinol y dosparthiadau (*bands*)."†

Tybia'r Parch. John Hughes nad oedd efe yn awr yn arfer pregethu ar ol ymuno â'r Methodistiaid. Dichon mai'r achos o'r bwlch hwn yn ei bregethu oedd, ei waith yn newid ei gyfundeb. O leiaf, gwyddys mai yr arfer yn awr ydyw, pan newidio pregethwr ei gyfundeb, peidio ei alw i bregethu yn ebrwydd yn ei gyfundeb newydd; ac ymddengys mai cyffelyb oedd yr arfer y pryd hwnw. Y peth nesaf a gyfarfyddir yn ei hanes ydyw penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod misol a gynhaliwyd y mis Chwefror canlynol, yn nhŷ Jeffrey Dafydd, Llanddeusant, sir Gaerfyrddin, sef—

"Cyttunwyd bod i'r brawd Richard Tibbott gadw ysgol yn sir Benfro."‡

Cadarnhawyd y penderfyniad yna mewn cymdeithasfa gyffredinol a gynhaliwyd ymhen ychydig wythnosau yn ddiweddarach. Mewn cyfarfod arall a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fehefin, 1743, yn y Tŷ-hir (*Longhouse*), sir Benfro, ceir y penderfyniad canlynol:—

"Ar fod i'r brawd Richard Tibbott *weithio*§ hyd nes y gallai gael ysgol Gymraeg."||

Mewn cymdeithasfa yn Nhrefeca, yn niwedd yr un mis, ceir enw Tibbott ymhlith y cynghorwyr cyhoeddus, ac yntau yn bresennol yn y gymdeithasfa. Yr hanes am dano ar ol hyn ydyw, yn yr un flwyddyn etto, ei fod yn ei wlad enedigol, ac wedi ei osod yn arolygwr ar y cymdeithasau eglwysig bychain a ffurfiasid mewn rhai manau yn y gororau hyny, megis y rhai oedd yn y Tyddyn (a elwid gan y brodorion *Tyfyn*), Llanbryn-mair, Llanfair, Llanllugan, Mochdre, Llandinam, Llangurig, Llanidloes, Llanwyddelan, a Bwlch-y-cae-haidd. Yr oedd yr eglwysi bychain hyn dan olygiad Cymdeithasfa y Deheubarth, flynyddau lawer cyn ffurfio un gymdeithasfa yn y Gogledd. Ceir enw Richard Tibbott yn gysson ynghyfarfodydd y Methodistiaid hyd y flwyddyn 1745, sef tra y mae'r hanes yn cyrheuddyd. Mewn cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Nant-y-mêl, sir Faesyfed, ar y 18fed o Ebrill, 1744, pasiwyd y penderfyniad canlynol:—

"Bod i'r brawd Richard Tibbott ymroddi yn hollol, ac yn gwbl, i'r gwaith o ymweled â'r holl eglwysi, yn sir Drefaldwyn, unwaith bob wythnos."

Mewn cymdeithasfa arall a gynhaliwyd yn Hydref yr un flwyddyn, mewn rhyw le nad enwir, ceir y penderfyniad rhyfedd canlynol mewn perthynas iddo:—

"Bod y brawd Richard Tibbott i fyned at y brawd John Richard, *i ddysgu'r grefft o rwymo llyfrau.*"

Arwydda hyn bod cymdeithasfaoedd yr hen Fethodistiaid yn honni hawl, nid yn unig i reoli yr eglwysi, ond hefyd i bennodi pa *grefft* neu *waith* oedd i'r prif aelodau ei dilyn! Dywedir i Richard Tibbott anfon "adroddiad am agwedd yr

* Gwel pen xv. o'r llyfr hwn, y pummed.

† Trefeca Minutes.

‡ Trefeca Minutes.

§ Beth a fedrai "weithio," heb law cadw ysgol, ni fynegir.

|| Trefeca Minutes.

achos Methodistaidd yn sir Drefaldwyn i'r gymdeithasfa yn yr un flwyddyn" (1744); ond ai i'r un a wnaeth y penderfyniad uchod, ai i ryw un arall yr anfonodd ef, ni fynegir. Y mae'r "adroddiad" yma yn bur ddyddorol, nid yn unig o blegid yr hanes a gynnwys, ond hefyd am mai dyma'r unig gyfansoddiad o waith Mr. Tibbott a welsom ni. Dyma fe:—

"Ni ddigwyddodd braidd ddim anghyffredin ym mysg y cymdeithasau hyn er y gymdeithasfa ddiweddaf. Mwynheir llawer o ryddid (sef rhyddid allanol oddi wrth erledigaeth) i ymgyfarfod ac i gynghori; ond etto, ychydig o ddynion cnawdol a ddeffröwyd, ac ychydig o arwyddion sydd o gyfnewidiad cywir ac achubol ar ond ychydig. Y mae'r rhai sydd yn aelodau yn myned rhagddynt yn lled dda, tybygid; ac wrth ystyried cyflwr truenus a thywyll dŷn wrth natur, gwerthfawr ydyw gweled cynnifer o arwyddion gras a sancteiddhâd ag a welir mewn llawer. Ond wrth edrych, ar y llaw arall, ar ragoroldeb y grefydd Gristionogol, a rhyfeddol gariad Duw yng Nghrist; ar werthfawrowgrwydd y pethau a gynhwysir yn y cyfammod newydd, addewidion Duw, a doniau'r brynedigaeth, &c., blin ydyw gweled leied sydd o wybodaeth ysprydol a phrofiadol; mor ychydig sydd o fywyd sanctaidd a nefol yn gyfattebol, fel y gweddai i saint, ac yn neillduol i'r rhai sydd yn aelodau o'n cymdeithasau ni. Nid ydynt ond ieuangc mewn gras, ac felly mwy dewisol ganddynt, gan amlaf, gael gradd o *deimlad gwych a hwyliau uchel* nag ymborthi trwy ffydd ar bethau mawrion Duw: pethau y disgwyliwn lawn fwynhâd o honynt yn fuan. Am fod eu ffydd yn wan, a'u bod, mewn rhan, yn colli'r gweithrediad o honi, pan y collant hwyl a theimlad, y mae eu bod yn fabanod, ac y mae'n rhaid iddynt wrth laeth, ac nid bwyd cryf.

"Y mae yma rai drysau newyddion yn ymagor yn ddiweddar i dderbyn y gair, a lle i gredu bod gan Dduw waith i'w wneuthur yn ei amser ei hunan. Y maent yn ddiwyd iawn yn dyfod ynghyd amrywiol weithiau yn yr wythnos, a sail i gredu bod rhai wedi eu hargyhoeddi. Y mae drws wedi agor hefyd tu draw i Lanfair, ymhlwyf Llangynog, lle y mae rhai cannoedd yn dyfod i wrando; ond, gan mwyaf, y maent yn dra ysgafn. Aeth un brawd i dragywyddoldeb er mis Mai, sef Dafydd o Lanfair. Yr oedd yn olau a chysurus iawn arno yn ymadael, heb un gradd o amheuaeth ganddo nad oedd yn myned at Grist. Y mae cymdeithas Llanfair yn lled ddiwyd yn dyfod ynghyd, a chan rai brofiad rhagorol am waith gras. Y mae gradd o farweidd-dra yn yr hen gymdeithas yn Llanllugan. Y maent yn awr yn fwy diwyd ym Mochdre i ddyfod at eu gilydd; etto, ychydig sydd yn adnabod gwaith gras. Y mae cymdeithas Tyfyn [Tyddyn] yn lled dda. Cwyna rhai eu bod yn farwaidd: y mae eraill yn lled galonog. Felly, y maent yn weddol dda ymhob man: ychydig sydd yn gwrthgilio, ac ychydig sy'n cael eu chwanegu.

"Da fyddai ganddynt i rai o honoch chwi, fy mrodyr, ddyfod i'w mysg mor aml ag y bo modd, o blegid nid oes yma ond ychydig nifer wrth sydd mewn lleoedd eraill. Dyma wedd gyffredinol y ddiadell fechan gyd â ni."*

Dengys y difyniad isod bod R. Tibbott a'i gydweithwyr yngwinllan Crist yn llafurio mewn amser enbyd y pryd hyn:—

"Mewn cymdeithasfa a gynhaliwyd ym Mlaen-y-glyn, ar y 3ydd o Orphenaf, 1745, derbyniwyd dau o lythyrau, un oddi wrth J. Richard, a'r llall oddi wrth R. Tibbott. Yr oedd arnynt ofn cael eu traisgipio i'r fyddin, od elent i bregethu i rai manau yr arferent ymweled â hwy o'r blaen. Gofynasant ai ni ddylent gymmeryd trwydded (*licence*) i bregethu, er mwyn bod yn ddïogel. Barnodd y rhan fwyaf o honom y dylai y rhai o honom na faidd y gelyn eu cyffwrdd, fyned i bregethu i'r cyfryw leoedd peryglus; a bod i eraill fyned yn fwy dirgel, a defnyddio pob doethineb syml, gan nad yw hyn ond prawf dros amser yn unig. Ond cyttunasom, o deuai yr erledigaeth yn gyffredinol, ac i'r efengyl gael ei hattal, y byddai i appeliad gael ei wneud at y ddeddfwriaeth, ac os gwrthodid nawdd, at yr Esgobion; ac yna, os llwyr gymmerid ein rhyddid oddi arnom, y byddai ein ffordd yn amlwg i Ymneillduad."†

Dengys hyn pa mor hwyrfrydig oedd yr hen Fethodistiaid clerigol i ganiatâu yr un rhyddid i rai heb urddau esgobol i bregethu y gair ag a fwynheid ganddynt hwy eu hunain, a pha mor gyndyn oeddynt i ymneillduo oddi wrth eu hen Fam Esgobol, er mor ddidrugaredd yr erlidid hwy ganddi. Y mae'n rhyfedd iawn hefyd i ni, sy'n byw yn yr oes bresennol, pa fodd yr oedd Richard Tibbott, yr hwn a ddygasid i fynu gyd â'r Annibynwyr, yn gallu goddef y fath gulni sectarol; ond felly y gwnaeth dros hir amser.

Dywedir bod John Richard, y gŵr yr aeth Tibbott ato i ddysgu rhwymo llyfrau, yn arolygu dosparth o wlad yn cynnwys rhan o sir Gaerfyrddin, a rhan o Forganwg. Pa hyd y bu Tibbott yno, nid yw hyspys; ond tybir iddo ddychwel yn ol yn y flwyddyn 1745, a pharhau dros ryw gymmaint o amser i arolygu yr eglwysi yn sir Drefaldwyn, hyd nes y galwyd arno, fel yr amlhaodd yr eglwysi yn y Gogledd, i gymmeryd arolygiaeth siroedd eraill hefyd. Pan y penderfynodd y gymdeithasfa i Tibbott fyned i sir Benfro, rhoddwyd gofal yr ychydig eglwysi bychain yn sir Drefaldwyn i dri brawd oedd yno eisoes yn dechrau cynghori, sef Morgan Huws, Benjamin Cadman, a Lewis Evan, neu Ifan. Nid oes dim braidd o hanes y ddau fleunaf ar gof a chadw. Casgl Mr. Hughes mai gŵr o sir Aberteifi oedd Morgan Huws, ac mai yno yr aeth yn ol. Am B. Cadman, dywedir iddo ef, ymhen dwy neu dair blynedd, gilio oddi wrth y Methodistiaid, ac ymuno â'r Ymneillduwyr; a chadarnheir y dywediad gan y cofnod canlynol am gymdeithasfa a gynhaliwyd ar yr 22fed o Awst, 1745, yn y "Tyfyn," ger llaw Llanidloes:—

"Wedi dadlau llawer â'r brawd Benjamin Cadman, gan nad ydyw yn benderfynol ei feddwl, pa un a wna ai dal ei undeb gyd â ni, ai cilio at yr Ymneillduwyr, cyttunwyd ar iddo roi heibio gynghori, hyd ein cymdeithasfa chwarterol

* Method. Cymru, cyf. i., t. 130.

† Morgan's Life and Times of H. Harries, pp. 104-5.

nesaf; a bod i'r brawd Richard Tibbott ddwyn ei syniadau ef, a syniadau yr eglwysi am dano ef, yno."*

Wedi i'r diwygiad Methodistaidd ymehangu yn siroedd y Gogledd, pennodwyd Richard Tibbott i arolygu yr holl gymdeithasau a berthynent i'r cyfundeb yn siroedd Meirion, Arfon, Dinbych, a Threfaldwyn. Ymwelai â phob un o honynt unwaith bob tri mis, a dygid pob matter o bwys ato ef i'w benderfynu. Yr oedd yn adeg derfysglyd iawn y pryd hyn ar grefydd yng Ngwynedd: adeg y gosodid y pregethwyr teithiol yn agored i bob math ar flinder, anghysur, ac enbydrwydd. Gan y gelwid ar Richard Tibbott, o ran ei swydd, i arolygu yr eglwysi yn y siroedd crybwylledig, cafodd ei ran yn helaeth o'r erledigaeth. Pan oedd yn pregethu unwaith yn sir Gaernarfon (yn rhywle yn Lleyn, y mae'n debyg), aeth gwas rhyw ŵr boneddig ato, a churodd ef â ffon mor erchyll ar ei dalcen, a manau eraill o'i gorph, fel y syrthiodd i lawr mewn llewyg, a bu'n glaf dros ennyd o amser. Yn yr un sir dro arall, daliwyd ef, a dygwyd ef ger bron ynad heddwch. Trinodd y gŵr hwnw ef fel crwydryn (*vagabond*), ac anfonodd ef tu ag adref, o'r naill gwnstabl i'r llall. Wrth fyned trwy Ddolgellau, rhoddwyd ef i lettya yn y carchar. Ond yn wyneb hyn oll, a llawer mwy, ymddygai ef yn bwyllog, tawel, a llariaidd.

Pan gymmerth ymraniad le rhwng Harris a Rowlands, yn 1751, a ddarluniwyd genym yn flaenorol, teimlai Mr. Tibbott yn ddwys a gofidus dros ben. Yr oedd wedi cydlafurio â hwy er ys blynyddau bellach; wedi mwynhau llawer o'u cymdeithas a'u doniau, yn ddirgel a chyhoeddus; ac yn eu caru fel ei enaid ei hun. Yr oedd ef yn nodedig am ei yspryd hynaws, rhydd, a diragfarn, ac yr oedd ei feddwl yn cael ei lethu gan dristwch wrth weled yr enwogion hyny yn methu cydweled a chydweithredu â'u gilydd. Bu am ryw dymmor fel gŵr yn sefyll yn syn, heb wybod ar ba law i droi. O'r diwedd cafodd lwyr foddlonrwydd i'w feddwl ei hun pa fodd y dylasai ymddwyn. Yna ysgrifenodd at Howel Harris, gan osod ei resymau i lawr, mewn dull gostyngedig, dros ymneillduo oddi wrtho ef a'i ddilynwyr. Ymunodd wedi hyny yn ebrwydd â Daniel Rowlands a'i gydlafurwyr, a pharhaodd i lafurio yn y cyfundeb am o ddeutu un mlynedd ar ddeg ymhellach.

Symmudodd Lewis Evan, fel y gwelsom,† o Lanbryn-mair, yn 1759, i Dy'rdwncyn, ger llaw Abertawe; a bu'r eglwys Annibynol yn Llanbrynmair heb weinidog sefydlog o hyny hyd 1762, pan y rhoddes alwad unfrydol i Richard Tibbott. Ymddengys, ar y cyfan, mai taerineb eglwys Llanbrynmair, â'r hon yr ymunodd efe gyntaf, ac yn yr hon yr oedd ei holl deulu yn aelodau, a barodd iddo dderbyn ei galwad, yn hytrach nag o herwydd y gwahaniaeth oedd rhwng trefn eglwysig yr Annibynwyr a'r Methodistiaid, canys parhaodd i ddal cymmundeb â'i frodyr Methodistaidd, fel o'r blaen, cyn belled ag y goddefai amgylchiadau iddo wneuthur. Pregethai yn ddiwahaniaeth ynghapelau y ddau enwad, a derbyniai bregethwyr y naill fel y llall i'w dŷ. Ymddengys y credai efe, fel y cred llawer etto, mai *annibynol* yw yr eglwysi i fod, yn ol y Testament Newydd; ond mai *teithiol* ydyw pregethu i fod, yn ol yr un awdurdod. Am hyny, nid oedd efe yn gweled nemmawr o ddewis yn y naill na'r llall, a chymmeryd pob peth i ystyriaeth. Ymddengys y credai bod *pregethu teithiol* yn anhebgorol er ehangu teyrnas y Gwaredwr; o herwydd paham, parhaodd i deithio cyn belled fyth ag y goddefai ei amgylchiadau hyd ddiwedd ei oes. Gyd â golwg arno yn yr ystyrieuthau hyn, dywed y Parch. J. Hughes fel y canlyn:—

"Y mae enw'r gŵr hwn yn heuddu ei gofrestru i oesoedd dyfodol, o blegid iddo fod yn llafurus a ffyddlawn i ameuthu y diwygiad yng Nghymru, mewn amser na cheid ond ychydig a wnai; amser nad oedd ond y gwarth a'r blinder mwyaf yn perthyn iddo yn allanol. Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf yng Ngwynedd a gyssegrodd ei amser a'i alluoedd i rwyddhau ei fynediad ym mlaen. Carodd Richard Tibbott yr achos *er ei fwyn ei hun*. Yr oedd y cariad hwn ymhell uwch law cariad at un blaid; a dangosodd y gŵr da yma ei fod felly dan amgylchiadau tra hynod. Er y gallem feddwl iddo gael ei fagu gyd â'r Annibynwyr, etto wele Tibbott yn ymuno gyd â'r Methodistiaid, ac yn llafurio yn ffyddlawn a heddychlawn yn eu plith am [yn agos i] chwarter canrif. Ond er iddo dreulio borau ei oes gyd â hwy, ni chrintachwyd ei feddwl ehang ef at ei hen frodyr, trwy flynyddoedd o ddïeithrwch cymmarieuthol. Ac er iddo wasaneuthu Eglwys Gynnulleidfaol Llanbrynmair am bymtheng mlynedd ar hugain, ni chyfyngodd ei lafur i'r eglwys honno, ond efe a gadwodd gymmundeb difwlch â'i hen frodyr y Methodistiaid yr un pryd. Y gwir ydyw, yr oedd Richard Tibbott yn caru *hanfodion crefydd* yn anhreuthol fwy na *phethau priodol plaid*. Dywedir am dano nad oedd neb yn fwy cadarn ac anhyblyg nag ef ymhethau pwysig crefydd, na neb yn fwy goddefol i amrywio yn ei phethau amgylchiadol. Canfyddai fod y saint gwirioneddol, er maint o wahaniaeth oedd rhyngddynt, yn UN mewn mwy o bethau nag yr amrywient ynddynt; a'u bod yn ddïau yn un yn yr hyn sydd hanfodol i wir grefydd. Nid oedd, yn y ganrif ddiweddaf, nemmawr grefyddwr yng Ngogledd a Dehau Cymru nad adweunai Richard Tibbott: nid oedd gapel gan Fethodistiaid, Annibynwyr, na Bedyddwyr, na dderbynid ef yn groesawgar iddo, na mynwes a wresogwyd gan gariad Crist nad oedd hyfryd ganddo ei gymdeithas. Ac er bod mewn enw yn weinidog cynnulleidfa, yr oedd ei lafur mor amrywiol ag ydyw nemmawr un o'r Methodistiaid etto.

* Trefeca Minutes.—Am Lewis Evan, gwel y bennod flaenorol.
† Gwel pen. xvi. o'r llyfr hwn, y pummed.

Digitized by Google

Yr oedd i'w weinidogaeth reolaidd gylch helaeth, o Fachynlleth i Landinam, dosparth y mae erbyn hyn ddeuddeg o weinidogion yn llafurio. Ymwelai bob blwyddyn â'r Dehau a'r Gogledd, a chymmerai ofal i rwyddhau y ffordd i fod yn bresennol ynghymdeithasfaoedd Llangeitho a'r Bala bob blwyddyn, hyd ddiwedd ei oes. Ennillai mwyneidd-dra ei dymmer serch ei frodyr, a chadernid a gwastadrwydd ei gynheddfau eu llwyr ymddiried."

O ran cyfansoddiad ei gorph, yr oedd yn ŵr cadarn nerthol. Cerddodd lawer gwaith, pan yn ieuangc, dros ddeng milltir ar hugain yr un diwrnod, gan bregethu mewn tri o wahanol fanau pellenig oddi wrth eu gilydd. Heb law y llwyddiant cysson oedd ar ei lafur fel pregethwr, cafodd ddau adfywiad neillduol o nerthol yn Llanbrynmair, ar ol ymuno â'r eglwys yno; un yn 1778, a'r llall yn 1787, pan ychwanegwyd lluoedd at yr eglwys, llawer o'r sawl a fuant yn addurn i'w proffes, nes iddynt esgyn yn fuddugol i etifeddu yr addewidion.

Dywedir mai'r enwog Richard Tibbott oedd y cyntaf o'r Ymneillduwyr a anturiodd bregethu yn nhref Caernarfon, a hyny yn y flwyddyn 1770, ymhen tu ag wyth mlynedd ar ol iddo ymuno yr ail waith âg eglwys Annibynol Llanbryn-mair. Yr oedd yr enwog Fardd o Bant-y-Celyn wedi rhoi cynnyg ar bregethu yno rywbryd cyn hyny, wrth ddychwel yn ol o'i daith bregethwrol ym Môn. Dywedir bod ei wraig gyd âg ef y tro hwn, fel y byddai yn fynych; ac wrth groesi'r Fenai o borth Tan-y-foel, dyrysodd Mrs. Williams yn ryw fodd yngodrau'r hwyl, a thaflwyd hi dros ymyl y cwch i'r môr. Yr oedd amheuaeth cryf, ar y pryd, mai y porthweision, neu ryw rai eraill oedd yn y cwch, yn gwybod neges Mr. Williams yn y dref, a wneuthent yr anfadwaith yn fwriadol! Pa wedd bynag, gwaredwyd hi rhag boddi, a thiriasant yn ddïogel yng Nghaernarfon. Deallodd Mr. Williams yn fuan nad allai anturio pregethu yn y dref, rhag maint oedd penderfyniad y werin afreolus i'w rwystro, os nad ei ladd; a barnodd mai ei ddyledswydd oedd llechu yn ddistaw y noson honno yn y dref, a myned oddi yno y borau drannoeth mor ddirgel ag y gallai. Ymddengys nad oedd y werin anfad wedi gwareiddio odid ddim erbyn yr amser yr aeth Richard Tibbott i'r dref i roi cynnyg iddynt o'r efengyl; er hyny, ni roddes efe i fynu yr amcan. Safodd ar risiau tŷ un Huw Owen, lledrwr *(currier)*, gyferbyn a thŷ tafarn a elwid "Y Delyn," yngweulod heol Pen-yr-allt ddeheuol; ond nid oedd heddwch iddo bregethu, canys yn fuan wedi iddo ddechrau, daeth rhyw ddihiryn, a elwid Twm-y-goes-fawr, ac a safodd ar risiau cerig yn ogyferbyn a'r rhai y safai'r pregethwr arnynt, ac a daflodd bren-ddysgl *(trencher)* ato â'i holl nerth, a tharawodd ef yn ei ben nes oedd ei waed yn llifo. Daeth rhyw ddihiryn arall, yn ystod yr un odfa, gan ddefnyddio offeryn mwy arswydus fyth, â'r hwn y llawn fwriadai ei archolli yn drwm, os nad ei ladd yn farw. Annelai hwnw ddryll at y pregethwr, a thynai y glicied amryw weithiau, ond ni thaniai. Yna llefodd y pregethwr arno, gan ddywedyd, "Tro dy bistol ffordd arall, druan, ac aiff yr ergyd allan i ti." Gwnaeth yr adyn hyny, ac aeth yr ergyd allan yn y fan! Yn yr un odfa llefai rhyw un allan mewn cynddaredd cyfartal i'w anwybodaeth, ac o bossibl mai'r dŷn â'r dryll ydoedd, "I beth y mae'r diawliaid hyn yn dŵad yma i ddwyn yr efengyl oddi ar Grist, nis gwn i!" Ni fynegir pa fodd y terfynodd yr odfa hon, na pha effeithiau a'i canlynodd. Y tâl a gafodd yr enwog Tibbott am y bregeth honno oedd cael ei garcharu ei hun a'i anifail yn y castell dros y nos; ond gollyngwyd y ddau i ffordd drannoeth heb dderbyn dim niwaid. Digwyddodd hyn tu a deng mlynedd cyn i'r Methodistiaid ddechrau pregethu yng Nghaernarfon, yr hyn a ddigwyddodd yn 1780.*

Dywedir iddo fod yn pregethu unwaith ar brydnhawn Sabboth mewn rhyw le rhwng Llansannan a Henllan, sir Ddinbych, a bod offeiriad plwyf Llanefydd yn flin iawn o herwydd bod neb yn pregethu yn ei blwyf ef ond ei hunan. Wedi cael hyspysrwydd bod pregeth i fod mewn lle yn yr ardal, aeth at un Mr. Wynn, Plasnewydd, plwyf Henllan, i ofyn a ddeuai gyd âg ef i rwystro y pregethwr; â'r hyn y cydsyniodd yntau. Wedi cyrraedd y lle, dodasant eu meirch dan ofal y gwas i'w gwarchod, ac aethant hwythau i'r buarth i wrando. Ymddengys nad oedd Mr. Wynn mor barod i aflonyddu yr odfa ag y buasai yn ddymunol gan ei gydymaith, a dewisai efe wrando yn hytrach. Ar y llaw arall, penderfynodd yr offeiriad fyned i mewn i edrych, eb efe, pa fath lyfr oedd gan y pregethwr. Yna, eb yr offeiriad, "Paham y meiddiwch bregethu mewn tŷ heb ei *recordio?* Yr wyf fi yn pregethu i'r plwyfolion bob Sabboth, ac nid oes achos i neb arall ymyraeth." Deallodd Tibbott wrth hyn mai offeiriad ydoedd, a dywedodd, "Yr wyf yn tybied, syr, mai o'r un llyfr a minnau yr ydych chwi yn pregethu, ac, fe allai, ar yr un testynau." "Rhowch weled

* Hanes Ymneillduaeth, D. M., t. 276; Method. Cymru, cyf. ii., t. 227-8.

Digitized by Google

pa lyfr sydd genych," eb yr offeiriad. Yna estynodd Tibbott y llyfr iddo; ac erbyn iddo ei edrych, Testament Groeg ydoedd. Tarawodd hyn y ddau yspiwr â synod. Gwelsant yn y fan fod y pregethwr yn ddŷn o ddysg a gwybodaeth, ac nad oedd dim modd iddynt wneud dim iddo ef heb ddwyn gwarth arnynt eu hunain, fel rhai yn gwrthwynebu gwaith da, ac ymosod ar ddynion mor helaeth eu gwybodaeth a hwy eu hunain; gan hyny, ymaith a hwy heb yngan gair yn ychwaneg.

Y Sabboth olaf y pregethodd yr enwog Richard Tibbott oedd yr 21fed o Ionawr, 1798. Pregethodd ddwywaith y dydd cyntaf o'r wythnos hwnw, a gweinyddodd swper yr Arglwydd mewn dau le. Ymddangosai fel pe buasai ei gorph yn gryfach, a'i deimladau yn fwy nefolaidd nag arferol y diwrnod hwnw. Sylwai un o'i wrandawyr ei fod, wrth siarad am ddïoddefiadau Iesu Grist, fel pe buasai yn y nefoedd, heb feddwl fawr mai'r tro hwnw oedd yr olaf iddo yfed o ffrwyth y winwydden gyd â'r eglwys ar y ddaear. Y dydd Mawrth canlynol, pregethodd ei bregeth olaf yn nhŷ cyfaill iddo. Dychwelodd adref ddydd Mercher yn lled lesg, ond yn weddol ddiboen, a llawn fwriadai bregethu y Sul canlynol; ond fel arall y gwelodd yr Arglwydd yn dda ordeinio. Cymmerwyd ef yn glaf iawn nos Sadwrn gan y graianwst (*gravel*), a bu mewn poenau dirdynol agos yn ddïattal o'r pryd hwnw hyd Ddydd yr Arglwydd, y 18fed o Fawrth, 1798, pryd y rhyddhawyd ef o'i boenau gan angau, ac efe yn y trydydd mis o'i 80fed flwyddyn o'i oedran. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol; a'r Sabboth ar ol hyny, pregethodd y diweddar Barch. John Roberts, ei ganlyniedydd fel gweinidog eglwys Annibynol Llanbryn-mair, ar ei farwolaeth, oddi wrth 2 Sam. iii. 38, "Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?"

Bu Richard Tibbott yn briod dair gwaith, ac yr oedd pob un o'i wragedd yn nodedig, fel yntau ei hun, am eu duwioldeb. Cafodd bymtheg o blant, a bu deg o honynt fyw ar ei ol ef. Mab iddo ef oedd y diweddar addfwyn Richard Tibbott, Llanfyllin.*

### THOMAS WALTERS.

Nid oes dim o hanes foreuol y gŵr enwog hwn ar gof a chadw. Ameuthwr cyfrifol ydoedd yn ardal Mynyddislwyn, yn sir Fynwy, ac yr oedd ei gymmeriad yn uchel yn yr ardal fel gŵr syml a chrefyddol. Ymddengys mai i Eglwys y Plwyf yr arferai fyned i addoli yn nechrau ei yrfa grefyddol. Yr oedd ef, a phump o wyr eraill yn yr ardal, yn rhagori ar y rhan fwyaf o'u cymmydogion mewn crefydd a duwioldeb. Wedi cydystyried yn ddifrifol, deuthant i'r penderfyniad bod yr Eglwys Wladol yn anysgrythyrol, ac mai eu dyledswydd oedd ymneillduo oddi wrthi, yr hyn hefyd a wneuthant yn y flwyddyn 1758. Ymgyfarfyddent ar y dechrau i addoli mewn tŷ annedd, a elwid Migyn-y-bwlch, ger llaw Tyddyn-yreglwys. A oedd rhyw bregethwyr yn eu plith ar y pryd, nid yw hyspys; ond tybir i Thomas Walters ddechrau pregethu yr amser hwnw, os nad oedd yn "gynghorwr" gyd â'r Methodistiaid cyn hyny. Yn 1760, symmudodd y gynnulleidfa fechan o Figyn-y-bwlch i Bendaren, tyddyndy a safai yn agos i safle bresennol gweithfa wlan Mr. John Howels. Arferent ymgynnull yn y lle hwnw nes i'r capel, a elwir Tynewydd, gael ei adeiladu yn 1765. Perchenogion y tir yr adeiladwyd y capel arno oedd Henry Jones ac Ann, ei wraig, y rhai oedd yn aelodau o'r eglwys. Rhoddasant y tir i'r achos crefyddol yn y lle dros 999 o flynyddau, ac amserwyd y weithred ar y 13ydd o Fai, 1765, yn yr hon enw Thomas Walters yw'r bleunaf o'r ymddiriedolwyr. Dywedir bod Walters yn meddu doniau helaeth, a gwybodaeth ehang yn yr Ysgrythyrau; am hyny, pan adeiladwyd y capel newydd, neillduwyd ef i wasaneuthu yr eglwys ynddo. Bernir mai aelodau yr eglwys eu hunain a'i neillduasant ef i'r swydd, fel y gwnaed mewn eglwys arall, a elwid New Inn. Gan fod Thomas Walters yn byw mewn tyddyn o'i eiddo ei hun, ac yn cadw ysgol hefyd, yr oedd yn gallu gwasaneuthu yr eglwys bron am ddim, yr hon nid oedd ond bechan a thlawd ar y dechrau; a bu efe yn bur llwyddiannus yno yn ei amser, a hyny pan oedd gwir grefydd yn bur isel yn y gororau. Tu a diwedd ei oes ef torodd diwygiad mawr a grymus allan yn yr eglwys, yr hwn barhaodd am gryn dair blynedd, nes gwneud y crefyddwyr yn hynod am eu zel a'u gwresowgrwydd; ac o herwydd eu bod yn bur ddiragfarn a Christionogol, byddai amryw o bregethwyr y Methodistiaid yn troi atynt yn achlysurol i bregethu iddynt, pan ar eu teithiau yn yr ardal. Yr oedd nai i Daniel Rowlands, Llangeitho, yn offeiriad yn Mynyddislwyn a Bedwellty, dros rai blyn-

* Method. Cymru, cyf. i., t. 119; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 597; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 251.

Digitized by Google

yddau yn amser Walters; a dywedir i Rowlands ofyn ryw dro i Williams, Pant-y-Celyn, pan glywodd iddo fod yn pregethu yn y Tynewydd, paham nad aethai i bregethu i eglwys ei nai ef yn hytrach nag i'r Tynewydd. Atteb parod yr hen fardd hybarch ydoedd, "Yr wyf bob amser yn hoffi myned i nithio lle y byddo gwynt."

Parhaodd Thomas Walters i wasaneuthu yr eglwys yn ddiwyd, ffyddlon, a llwyddianus am naw mlynedd ar hugain ar ol adeiladu y Tynewydd, a bu farw yn hen ac yn llawn o ddyddiau yn 1794. Claddwyd ef o fewn muriau y capel, ac y mae cerfiad ar y mur er coffa am dano i'w weled hyd y dydd hwn, yn tystio ei fod yn un o wir "Enwogion y Ffydd."*

### TIMOTHY THOMAS.

Mab ydoedd y gŵr enwog hwn i Thomas Morgan Thomas, Tŷ-hen, plwyf Cayo, sir Gaerfyrddin, a brawd i Joshua Thomas, a gofnodwyd yn nechrau y bennod flaenorol. Ganwyd Timothy yn y Tŷ-hen, tu a'r flwyddyn 1720, a phroffesodd grefydd yn forau, canys dechreuodd bregethu cyn bod yn 20 oed, sef yn 1740, y flwyddyn y bu Enoch Francis farw; a dywedir mai'r diwrnod yr hunodd Mr. Francis y traddododd efe ei bregeth gyntaf. Dywedir y byddai yn pregethu yn dderbyniol iawn, ac yr ystyrid ef yn ddŷn wedi ei godi gan y Goruchaf i lanw lle Enoch Francis, marwolaeth annisgwyliadwy yr hwn a achosai y fath alar cyffredinol trwy'r Dywysogaeth; a dïau nad heb resymau cryfion yr edrychent arno yn fath ar Eliseus wedi ei anfon i wisgo mantell yr Elias ymadawedig. Yn y flwyddyn 1723, cafodd ef a John Thomas eu hordeinio i fod yn gyd-weinidogion â J. D. Evans yn eglwys wasgarog Aberduar, yr hon a ymgyfarfyddai y pryd hwnw mewn annedd-dai ymhell ac yn agos, yn ardaloedd bryniog siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi; a phrofodd y ddau ddŷn ieuangc briodoldeb eu dewisiad i'r cylch gweinidogeuthol trwy weithio yn galed a llwyddiannus. Pregethent yn Aberduar, Pen-y-Coed, Argoed (ger llaw Tregaron), Bethel, a Bwlch-y-Rhiw, y rhai a wnaed yn fath ar un eglwys, trwy'r hyn a elwir corpholiad, yn 1742, wedi marwolaeth Evan Saunders, yr hwn a ystyrid yn un o'r dynion mwyaf defnyddiol, ac, fe allai, y gorau o bawb yn Aberduar. Dywed Jos. Thomas y byddai aelodau eglwys Aberduar, tu a'r flwyddyn 1760, yn byw mewn dau ar hugain o wahanol blwyfi, yr hyn sy'n dangos mai o dan anfanteision dirfawr y byddai crefyddwyr y cyfnod hwnw yn gwasaneuthu Ceidwad Israel. Yn 1741, llwyddodd Timothy a'i dad, mewn cyssylltiad âg eraill, i gael addoldy yng Nghaercaradog, yr hwn a alwasant yn Bethel. Wedi i'r ddau frawd uchod gael eu hordeinio, ychwanegwyd llïaws at yr eglwys. Gan y byddai'r cyfeillion yn ymgyfarfod mewn cynnifer o fanau, a rhai o'r lleoedd hyny ymhell o'u cartrefi, y mae'n amlwg nad ysgafn oedd llafur y gweinidogion; etto llwyddent i gynnorthwyo eglwysi eraill yn achlysurol; a byddent yn newid weithiau â gweinidogion yn yr un wlad, yn ol yr arfer gyffredin yn y dyddiau hyny. Cawsant alwad droion i eglwysi eraill; ond gan eu bod mor dderbyniol gartref, a'u cyfeillion yno mor awyddus i'w cadw, ni chydsyniasant i ymadael dros rai blynyddau. Ond yn 1748, derbyniodd John Thomas weinidogaeth Maes-y-berllan, ym Mrycheiniog; eithr arhosodd Timothy Thomas yn Aberduar. Wedi ymadawiad J. Thomas, yr oedd llafur T. Thomas yn drwm iawn, canys yr oedd oedran yr hen weinidog yn ei analluogi i roddi iddo lawer o gynhorthwy; a'r hyn a chwanegai yn fawr at drallod Mr. Thomas oedd ei wendid corphorol. Byddai yn angenrheidiol iddo deithio llawer dros fryniau noethlwm, ar dywydd oer a gwlawog, a phregethu mewn annedd-dai llawn a chyfyng, yr hyn oedd yn anfanteisiol iawn i ddŷn afiach a gwanllyd; a thybir y prysurodd y cyfryw lafur ei farwolaeth. Anfynych y cai efe leoedd ehang a chysurus i bregethu ynddynt ym morau ei oes, canys yn 1761 yr adeiladwyd capel Aberduar, tu a saith mlynedd cyn iddo farw; ac yn ei amser ef yr adeiladwyd Bethel, Bwlch-y-Rhiw, a gwnaeth efe lawer tu ag at hwnw ac Aberduar.

Yr oedd crefydd wedi bod yn isel yn Aberduar cyn 1761; ond pan gafwyd addoldy newydd, adnewyddodd yr achos, a bu arddeliad dymunol ar ei wasanaeth yntau yn yr ardaloedd. Dywedir iddo fedyddio 14 yr un pryd, ac ymunodd tu a 60 â'r achos yn ystod 1761 ac 1762. Gan fod canghenau yr eglwys yn llïosog ac ymhell oddi wrth eu gilydd, ac iechyd T. Thomas yn adfeiliedig, gwahoddwyd ei frawd ieuangaf, Zechariah, yno i'w gynnorthwyo, yr hwn oedd wedi dechrau pregethu yng Nghastell-Newydd-Emlyn er y flwyddyn 1757. Ymunodd Zechariah â'i frawd yn Aberduar yn 1762, fel cynnorthwywr iddo; a bu'r ddau yn cydlafurio yn ddedwydd hyd farw-

* En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 608; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 90-2.

Digitized by Google

olaeth Tim. Thomas, yr hyn a ddigwyddodd ar y 12fed o Dachwedd, 1768, ac efe yn 48 oed. Claddwyd ef ym mynent Pencareg (am nad oedd mynwent yn Aberduar), lle y claddasid dau o'i blant yn flaenorol. Galarwyd yn ddwys ar ei ol, nid yn unig yn Aberduar, ond hefyd trwy'r holl Ddeheubarth. Cyfansoddwyd amryw alarnadau am dano, ac un gan yr enwog Benjamin Francis. Cyrheuddodd dau o'i blant enwogrwydd mawr fel pregethwyr, sef Timothy Thomas (yr ail), o Aberduar, a Thomas Thomas, Peckham, ger llaw Llundain.

Er gwaned oedd iechyd Timothy Thomas, ysgrifenodd amryw lyfrau tra chymmeradwy gan lïaws o ddarllenwyr. Yn 1757, cyhoeddodd "Y Garreg Wen," sef pregeth ar 2 Petr i. 10. Cyhoeddwyd "Y Garreg Wen" mewn cyssylltiad â llythyr a gyfieithwyd gan ei frawd, Joshua Thomas, sef "Tystiolaeth y Credadyn am y Nefoedd."* Yn 1759, cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Traethiad am y Wisg-Wen Ddisglair, gymmwys i fyned i Lys y Brenhin, sy'n cael ei gwisgo am y dyn noeth truenus: neu Amlygiad o ddirfawr drüeni Dyn, trwy bechod; ac o'i waredigaeth gyflawn, a'i jechydwriaeth ardderchog ef, trwy Jesu Grist: lle y dangosir yn helaeth am Gyfiawnhâd a Sancteiddhâd, yn ol yr Ysgrythyrau. Yn gyttunol, fwyaf i gyd, â Chyffes Ffydd, a osodwyd allan yn y Fl. 1689; â Chatecism y Gymmanfa; ac â'r rhan athrawiaethol o Erthyclau Eglwys Loegr. Gan Timothy Thomas. . . . . 1759."

Y mae ar ddechrau hwn lythyr "At Eglwys Iesu Grist yr hon sydd yn cyfarfod ynghyd ar brydiau yn Aberduar, Penycoed, Bethel, a Bwlch-y-rhiw," wedi ei amseru yn y "Maes, ym Mhencarreg, Ion. 1. 1756." Y llyfr nesaf a gyhoeddodd yr awdur llafurus oedd yr hwn a ganlyn:—

"Amlygiad Byr am Arddodiad Dwylaw; a'r Derbyniad o'r Yspryd Glân: ar y Dull o Ymddiddan rhwng Ymofynwr a Ffyddlon. Gan Timothy Thomas. Ac a wnaethpwyd yn gyhoeddus ar ddymuniad Cymmanfa o Weinidogion, a gyfarfuant yn Rhydwilym, Hydref 24, 1764."†

Yn yr un flwyddyn etto, sef 1764, cyhoeddodd lyfr hymnau bychan, o'i waith ei hun. Yn 1765, cyhoeddwyd "Atteb i Lyfr Mr. Thomas ar Arddodiad Dwylaw;" a'r flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd yntau "Amddiffyniad i Lyfr cyntaf Mr. Thomas ar Arddodiad Dwylaw," ond heb enw yr awdur wrtho. Tu a diwedd 1766, cyhoeddodd lyfr dan yr enw canlynol:—

"Rhwymyn Perffeithrwydd, neu Frawdgarwch Parhaus; wedi cael ei drin yn ffyddlon gan Timothy Thomas, Gweinidog yr Efengyl yn Aberduar, swydd Gaerfyrddin, awdwr y 'Wisg Wen.'"‡

Ymroddai Mr. Thomas i weithio er gwaned oedd ei iechyd, ac er y disgwyliai am ymweliad angau gryn flynyddau cyn iddo farw.

### JOHN RICHARDS.

Ganwyd y gŵr enwog yma yn y flwyddyn 1720, ym Mrwynog-uchaf, ger llaw Llanrwst. Ni wyddys ddim am ei rieni, na'i ddygiad i fynu; ond y mae lle cryf i gasglu oddi wrth ffrwyth ei lafur yn y rhan olaf o'i oes ei fod wedi cael yr addysg orau a allai ei gymmydogaeth fforddio, os na chafodd ryw fanteision amgenach. Yr oedd yn ŵr ieuangc heinif a phrydferth, uwch o daldra a chryfach ei esgeiriau na chyffredin. Yr oedd hefyd yn ddŷn parchus yn ei gymmydogaeth gan wreng a bonheddig, am ei fod yn fedrus ymhob camp; a chan ei fod yn ddifyrus ymhob cwmni, edrychid arno fel y blodeuyn prydferthaf yn y fro. Yr oedd hefyd yn ŵr o dymherau siriol a hynaws; ac yn ychwanegol at y pethau a nodwyd, yr oedd yn brydydd gwych, yr hyn a ystyrid y pryd hyny yn bwysig dros ben.

Ymddengys iddo gael dechrau ei gynhyrfu ynghylch ei sefyllfa beryglus fel pechadur yn y dull canlynol:—Ym mis Medi, 1740, pan oedd efe tu ag 20 oed, cynhaliwyd gwylmabsant yn Nhrefriw, pentref tu a dwy filltir i'r gogledd-orllewin o Lanrwst. Y diwrnod y cynhelid yr ŵyl oedd y Dydd Cyntaf o'r Wythnos, a elwir yn gyffredin y Sabbath. Clybuwyd yn yr ŵyl rywfodd bod gŵr dïeithr i bregethu y diwrnod hwnw mewn tŷ annedd a elwid Brwynog-isaf, yr hwn oedd tu a dwy filltir ymhellach i'r gorllewin na Threfriw, mewn cwm tawel ynghanol mynyddoedd Arfon, lle y disgwylid bod y trigolion yn llonydd, ac y cai'r

* Fe allai mai'r llyfr canlynol oedd hwn:—"Y Garreg Wen, neu Draethawd bychan, ymherthynas i Sicrwydd: ymha un yr amlygir, 1. Fod Sicrwydd yn Gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn. 2. Sicrwydd o ba beth sydd gyrhaeddadwy. 3. Yr angenrheidrwydd i ymofyn am dano, a'r budd o'i gael. 4. Pa fodd i'w gael. Gan Timothy Thomas. . . . . 1759."—Gol.

† "Yr oedd eglwysi y Bedyddwyr yng Nghymru yn zelog iawn dros arddodiad dwylaw ar y bedyddiedig o'r flwyddyn 1689 hyd 1737, heb nemmawr o ddadl. Yn y flwyddyn olaf a nodwyd, yr oedd dŷn ieuangc yn ymgeisydd am gymmundeb; ac wrth ei holi, dywedodd nad oedd ei feddwl ef yn glir ar y pwngc hwnw. Achlysurodd hyny i'r pwngc gael ei chwilio, ac achlysurodd ddadleuon blinion rhwng gweinidogion arno: rhai drosto ac eraill yn ei erbyn. Bu dadl frwd arno yn eu heglwys yn Aberduar yn 1743. Yr oedd y Parch. T. Thomas, gweinidog Aberduar, yn zelog dros yr arddodiad. Fel yr oedd y ddadl yn lledaenu, efe a roddodd ynghyd ychydig o feddyliau arno; ac mewn cyfarfod chwarterol yn y gymmydogaeth, efe a'u darllenodd i'r gweinidogion oedd yn bresennol; ac ar gais rhai o honynt, efe a'u cyhoeddodd fel uchod, gyd â rhai hymnau o'i gyfansoddiad ei hun."—Gwilym Lleyn, Llyfr. y Cymry, t. 480.

‡ Ymddengys i ni mai hwn oedd y llyfr diweddaf a gyhoeddwyd gan y diwyd Timothy Thomas. Dywed awdur yr erthycl uchod ar Mr. Thomas mai efe a gyhoeddodd gyfieithiad o waith Samuel Ewer ar fedydd; ond yn enwad-ddalen y llyfr hwnw dywedir—"Wedi ei gyfieithu gan *Josuah Thomas*."—Llyfr. y Cymry, t. 494.—Gol.

Digitized by Google

pregethwr seibiant, os nad croesaw, i draddodi ei genadwri. Wedi i fechgyn yr ŵyl glywed bod un o bregethwyr y "Pengryniaid" i fod yn y fro, penderfynodd chwech o honynt adael eu difyrwch a myned yno, nid i wrando y pregethwr, ond i'w niweidio, os nad ei ladd yn farw. Cymmerth pob un o honynt ei bastwn gyd âg ef, gan ddewis y gŵr a dybid yn ddewraf o honynt i fod yn arweinydd iddynt. Pa wedd bynag, cyttunwyd i wrando ar y pregethwr dros ennyd cyn ymosod arno, gan gredu y dywedai rywbeth haerllug a roddai iddynt achos teg o'u hymosodiad. Ond, cyn gynted ag yr aethant i swn y pregethiad, syrthiodd dychryn disymmwth arnynt, fel y gollyngodd pob un o honynt ei bastwn i lawr, megis yn ddïarwybod. Dïangodd pump o honynt adref, fel rhai yn ffoi am eu bywyd; a'u bleunor yn unig, sef Dafydd Thomas, o'r Wernbwys, ymhlwyf Llanddoged, a adawyd ar ol. Ymwthiodd ef ym mlaen i wrando yr hyn a dreuthid gan y pregethwr. Llwyr orchfygwyd ei ragfarn, a phrofai bod y gair yn llymach nag un cleddyf llym dau-finiog, yn trywanu ei gydwybod âg argyhoeddiadau dyfnion. Enwau y pump a ffoisant ymaith oedd William Edwards, Tŷ-uchaf; Robert Williams, Pen-y-graig; William Owen, Groeslon; Humphrey Thomas, Glyn; a John Richards, Brwynog-uchaf (neu, fel y geilw rhai ef, Bryniog-uchaf). Dychwelwyd y pump yma, cystal a'u bleunor, Dafydd Thomas, yn bur fuan ar ol hyn; ond ychydig sydd o hanes pedwar o honynt ar gof a chadw. Pan giliodd Howel Harris oddi wrth Rowlands a'i blaid, dywedir i rai o honynt fyned ato i Drefeca, lle y treuliasant weddill eu hoes; a bod y lleill wedi bod yn dra defnyddiol yn eu broydd genedigol, yn enwedig

JOHN RICHARDS. Cymmerwyd y gŵr hwn yn glaf yn fuan ar ol yr amgylchiad a nodwyd, yn ei gartref ym Mrwynog; ac yr oedd ei glefyd mor drwm nes yr oedd efe ei hun ac eraill yn anobeithiol am ei adferiad. Bendithiodd Duw y clefyd hwnw i ddeffro cryn raddau ar ei gydwybod; ac addunedodd yntau, os adferid ef, y newidiai ei ddull o fyw, ac yr ymadawai â'i holl hen gyfeillion ofer. Gwelodd Rhagluniaeth yn dda roddi iddo ei ddymuniad, ac adferwyd ef i'w iechyd a'i nerth. Yntau, yn ol ei adduned, a ymosododd yn erbyn ei hen arferion a themtasiynau ei oes, gan ymroddi i fyw yn foesol a dichlynaid; a gweddïai gyd â'i deulu hwyr a borau. Tybir nad oedd yn gwybod nemmawr, hyd yn hyn, am drefn cadwedigaeth trwy Gyfryngwr, ond bod ei gydwybod yn dyner, a'i amcan yn gywir. Aeth son am ei gyfnewidiad trwy'r holl wlad; ac ym mysg eraill clybu'r ychydig frodyr Methodistaidd oedd yn y fro am dano, ac anfonasant air ato, amryw weithiau, i hyspysu iddo pan ddisgwylid gŵr dïeithr i bregethu yn yr ardaloedd hyny. Ond ni wnai efe un sylw o'u gwahoddiadau dros ryw dymmor. Pa wedd bynag, dechreuodd feddwl o'r diwedd y gallai fod gan yr Arglwydd lais tu ag ato trwyddynt, ac nad iawn oedd iddo fod yn fyddar i'r llais hwnw. Felly, penderfynodd fyned i wrando y bregeth nesaf a ddigwyddai fod yn yr ardal. Y lle y digwyddodd y bregeth nesaf honno fod oedd yn yr awyr agored wrth Dafarn-y-fedw, pentref bychan o gylch milltir i'r dwyrain o dref Llanrwst. Methasom gael allan, ysywaeth, pwy oedd y pregethwr; ond pwy bynag oedd y pregethwr, gwelodd Duw yn dda fendithio ei bregeth i ddwyn John Richards i brofi argyhoeddiad dwysach nag erioed o'i drueni, ac i ddeall y drefn i achub pechadur trwy'r Gwaredwr yn gywirach. Dygwyd ef, trwy gyfrwng y bregeth honno, i ffoi i gymmeryd gafael yng ngobaith yr efengyl, a llanwyd ei enaid o lawenydd trwy gredu yn Iesu Grist. O hyny allan, rhoddes ei hunan i'r Arglwydd, ac i'w bobl ef. Ymunodd bellach â'r ychydig grefyddwyr tlodion oedd yn yr ardal, y rhai a ddirmygid yn fawr gan y byd, ond a obeithient yn enw yr Arglwydd. Tarawodd tröedigaeth Richards ei gydnabod oll â syndod aruthrol; ond ni feiddiai neb o honynt ymliw âg ef, gan mor uchel y safai ynghyfrif ei gydwladwyr. Er hyny, y mae'n amlwg wrth y pennillion canlynol, a ganodd efe "ar ei dröedigaeth ei hun," nid yn unig ei fod ef yn bur llygredig ei foes cyn ei gyfnewidiad mawr, ond hefyd bod yr hen sarph wedi chwythu anfri arno yntau, trwy ei ddrwg-liwio fel "Pengrwn" peryglus, coegyn hunanol, neu grefyddwr penisel a phruddglwyfus. Wele'r pennillion:—

"TRI PHENNILL AR Y VOES.

"Mi fum dros ennyd, trwy gamsyniaeth,
Yn byw mewn dygn anwybodaeth;
Porthi taeraidd gwrs naturiaeth,
Hudoliaeth diffaith dwyll:
Pob digrifwch ffol digrefydd,
A ddilynwn drwy lawenydd,
Ar hyn fy nyfais rown yn ufudd,
Beunydd yn ddi bwyll.
Tyngu llwon,
Heb achosion,
Mewn moddion pur ddi fudd;
A chymryd enw Duw'r uchelder
Yn ofer yn fy nydd:
Halogi'n hy
Y Sabbath cu,
A digio'r Arglwydd, llywydd llu,
A boddio'r gelyn dygn du,
Wrth bechu felly'n faith:
Canu maswedd,
Siarad gwagedd,
Cabledd ffiaidd ffol:
Galw Belial
Ar bob dadal,
Yn amal iawn i'm nôl;

Digitized by Google

Er hyn i gyd,
Cawn glod yn glyd,
A'm cyfri'n barchus yn y byd,
Yn ddŷn diddanol freiniol fryd,
Am wneuthur ynfyd waith.

"Wrth hir ddilyn cymmain camwedd.
Fy nghydwybod barod bruddedd,
Ddaeth i'm blino, dwedai'n blaenedd,
'Bechadur clafedd clyw!
Os dal i bechu, dyla buchedd,
Wyt ti'n ddewis hyd dy ddiwedd,
Cei fynd i uffern, gethern gaethedd,
I ddioddef dialedd Duw.'
Wrth glywed hyny,
Dechrau crynu,
A synu a wnes i;
Cael fy mwrw am oferedd,
I chwerwedd groesedd gri:
Oddi yma ymröi,
Gan ffraeth ddeffröi,
O'r aswy ffordd, a wnes, a ffoi,
I grefu'n drist am ras i droi,
Gan Dduw sy'n rhoi pob rhad:
A cheisio treulio'r dydd sancteiddiol
Mewn duwiol siriol swydd,
Gan ymgospi
Ymhob cwmpeini,
Rhag tyngu a rhegi'n rhwydd;
Gan chwennych byw
'Nol deddfau Duw,
A chwilio'i eiriau golau gwiw,
Ei ddawn a roes i ddynol ryw,
I ochel briw a brad.

"Pan welodd rhai cymdeithion doethedd,
Na ddown i ganlyn ac i goledd,
Pob difyrwch ac oferedd,
Gwagedd Sul a gŵyl,
Hwy roisant arna'i enw o hownyd,
'Pengrwn anfwyn, gwirion, ynfyd,
Ffwl consetedd rhyfedd hefyd
Anhyfryd, drwg ei hwyl:'
Rhai yn brolio
Dan yspeitio,
'Fe ddarfu witsio'i wedd,
Y mae fe'n edrych fel rhyw angau,
A fyddai yn ei fedd.'
Ac er i'r byd
Fy nghablu ynghyd,
Yr wyf yn credu, er hyny i gyd,
Y caiff gwasneuthwyr Duw ryw bryd,
Lawenfyd, ffraethfyd, ffri:
Duw maddau i'r bobol anystyriol,
Sy'n beio ar dduwiol ddawn;
A thro'u meddyliau i fyw'n dduwioledd,
Mewn pur wirionedd iawn:
Duw dyro ras
I mi dy was,
I ochel camwedd, suredd siâs,
A dwg fi gwedi yn ddi gas,
I'th addas deyrnas di."

Pa anfri bynag a deflid ar Richards gan rywrai, rhagddo yr aeth efe yn benderfynol a chyflym yn ei yrfa grefyddol. Yr oedd yn cynhyddu yn gyflym mewn gras a gwroldeb, ac ymosododd â'i holl egni i ymlid ymaith y caddug o dywyllwch a orchuddiai y wlad. Eiddigeddai am achub ei gymmydogion, y rhai a eisteddent mewn tywyllwch du, ym mro a chysgod angau. Denodd un Gabriel Jones, crydd, i fyned gyd âg ef i wrando, ac ennillwyd yntau trwy air y gwirionedd i wneuthur cyffelyb ddewisiad o Dduw a'i bobl ag a wneuthai John Richards ei hun. Dywedir mai'r Gabriel Jones hwn oedd y blaenor, neu'r henuriad cyntaf, a fu gan y Methodistiaid yn y rhan hon o'r wlad. Buasai yn ddymunol gwybod pwy a arferent fyned i'r parthau hyn o'r wlad i bregethu yn y dyddiau boreuol hyny; ond nid oes dim hanes ar gael am hyny yn bresennol. Gwyddys y byddai Howel Harris yn cynniwair yn awr ac eilwaith trwy Wynedd, a'i fod fel ôg fawr yn rhwygo y tir y ffordd y cerddai; a bernir yn gryf iddo fod yn y gororau yma, er na chofnodir hyny yn ei ddyddlyfr, mwy nag amryw fanau eraill y mae'n hyspys iddo fod ynddynt. Ychydig o fanau agored i dderbyn pregethu, yn y De a'r Gogledd, oedd pan ymwelodd Howel Harris â hwy yn ystod y tymmor rhwng 1739 ac 1750. Bu yn y Gogledd laweroedd o weithiau yn yspaid y deuddeng mlynedd crybwylledig, a bu ei bregethiad o fendith i lïaws o bobl y gwahanol ardaloedd yr ymwelai â hwynt, er nad yw efe na neb arall wedi cofnodi hyny yn fanwl ac amseriadol. Tybir hefyd y bu Daniel Rowlands a Williams o Bant-y-Celyn, a rhai offeiriaid efengylaidd eraill, mewn rhai parthau o Wynedd o gylch y flwyddyn 1745. Yr oedd amryw bregethwyr teithiol ym mysg y Methodistiaid o gylch y pryd hyn, megis Lewis Evan, Richard Tibbott, Benjamin Thomas, a rhai eraill; ac y mae yn sicr i rai o honynt ymweled â Llanrwst, a'r ardaloedd tywyll, erlidgar, o'i hamgylch, er nad oes hanes bennodol am hyny weithian ar gof a chadw.

Dywedir y dechreuodd John Richards bregethu yn y flwyddyn 1749, pan oedd efe yn 29 oed, a dwy flynedd cyn yr ymraniad rhwng Harris a Rowlands. Pregethai yn fynych yn Nghoed-y-garth, Tafarn-y-fedw, mynwent Capel Garmon, Llanddoged, Llanbedr, Crafnant, Bettws-y-coed, a Llettydomlyn. Yr oedd efe yn ŵr mor barchus fel na feiddiai neb ei erlid mewn un man. Yr oedd yn ymresymwr cadarn, ac o ddoniau rhwydd a thra ennillgar. Cafodd y diwygiad Methodistaidd nawdd da yn ei gysgod, a bu'n offeryn defnyddiol i rwyddhau ei fynediad ym mlaen hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ei ymarweddiad mor ddichlynaidd a dïargyhoedd, fel yr arferai yn oed person y plwyf ddywedyd am dano, "Yr wyf yn credu bod John Richards yn ŵr duwiol," a chyfarchai ef yn barchus bob amser y cyfarfyddai ef. Gellir casglu y bu Richards yn foddion i ddwyn pregethu lled gysson i'w ardaloedd cymmydogeuthol, yn enwedig i'r lle a elwid Crafnant, canys galwyd crefyddwyr yr ardaloedd hyny yn "Benau Crynion Crafnant." Yr oedd John Richards, fel eraill o'r pregethwyr Methodistaidd boreuaf, yn arfer pregethu ger llaw monwentydd y llanau, ar yr adeg y disgwylid i'r gynnulleidfa ddyfod allan o'r llan, o herwydd bod mor anhawdd cael y bobl ynghyd ond ar yr adegau yr arferent ymgynnull at eu gilydd. Llafuriodd John Richards yn ddiwyd ac egnïol iawn yn ystod yr adeg y bu yn y winllan; a bu'n bur llwyddiannus hefyd, ac ystyried mor anial ac anniwylliedig oedd maes ei lafur ar y pryd; eithr ni bu ei dymmor ond byr, canys bu farw ar ganol ei ddefnyddioldeb, yn y flwyddyn 1764, pan nad oedd ond 44 oed.*

JOHN HARRIS.

Ganwyd y gŵr enwog a llafurus hwn yn y fl.

* Method. Cymru, cyf. i., t. 139.

1721. Ei gartref, pan yn dechrau dyfod yn hyspys, oedd Treamlod, yn sir Benfro. Ymunodd â'r Methodistiaid tu a'r flwyddyn 1742, pan nad oedd ond 21 oed. Ymddengys iddo ddechrau pregethu yn fuan ar ol ei dröedigaeth, a bod gan y tadau Methodistaidd, Howel Harris, Howel Davies, a Daniel Rowlands, feddyliau pur uchel am dano, canys mewn cyfarfod misol a gynhaliwyd yn y Tŷ-hir (*Long-house*), ar yr 8fed o Fehefin, 1743, ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo wneud proffes o grefydd, a phan nad oedd ond 22 oed, gosodwyd ef yn un o "Arolygwyr y rhan isaf o Geredigion a sir Benfro;" a dengys y llythyr canlynol, a ysgrifenwyd cyn diwedd y flwyddyn grybwylledig at Rowlands a Davies, ei fod o ddifrif gyd â'r gwaith, er ieuenged ydoedd:—

"Anwyl a Charedig Fugeiliaid,—O'r diwedd, cymhellir fi, o gariad at yr anwyl Immanuel, i'ch hyspysu pa fodd y mae wedi bod gyd â mi er ein cymdeithasfa fisol ddiweddaf, pryd y rhoddasoch arnaf ofal yr amryw gymdeithasau a enwir isod.* Pan y gofynwyd i mi y pryd hyny am fy rhyddhâd, mi a attebais yn ol a ddisgwyliwyd; ond disgynwyd arnaf yn ebrwydd, pa fodd y gallwn sefyll i fynu fel clorian i bwyso eneidiau, a minnau yn blentyn mewn profiad. Meddyliais ynof fy hun mai llai niweidiol i enaid a fyddai i ryw amryfusedd gael ei wneud wrth esponio, nag a fyddai barnu ar gam rhwng cnawd ac yspryd, a gwir a gau gariad. Pa fodd bynag, fe fu'r gair 'Rhydd,' yn fy atteb i chwi, yn gadwyn i'm rhwymo i edrych pa beth a gymmerais mewn llaw. Syrthiodd dychryn ar fy enaid rhag imi fod, nid yn unig yn anffyddlawn i'r anwyl Oen, ond hefyd yn dristwch i'm hoff athrawon; a hefyd, yn waradwydd i ffyrdd a phlant Duw. Yr oedd fy maich mor annïoddefol fel yr oedd corph a meddwl ym mron a chael eu llethu dano. Bûm mewn ing meddwl am gryn amser. Meddyliwn fwy am roi fy nghyfrif i'r gymdeithasfa, yr hon oedd yn agosâu, nag am y frawdle fawr ei hun! Ymroddais i anfon at y cymdeithasau i ymgynnull ar amser pennodol, ac mewn trefn, pryd yr ymddangoswn innau fel gŵr mewn awdurdod! Ar y 13ydd o'r mis hwn cyfarfyddais âg ŵyn Prendergast ac Ismason yn Phanton (25 o rifedi), pryd yr agorwyd ffenestri y nefoedd, ac y tywalltwyd arnom wlith cariad Duw, nes yr oeddym ar golli a boddi yn y môr mawr, ac y rhoddwyd i minnau deimlo doethineb, gwybodaeth, deall, gostyngeiddrwydd, a chydymdeimlad â fy ŵyn anwyl yn llifo i'm calon, fel y gallwn ddywedyd, 'Teyrnas Dduw sydd o fewn i mi,' a hefyd mai 'Duw, cariad yw.' Yr oedd y ddïadell fel asgwrn o'm hasgwrn i, a chnawd o'm cnawd i. Canasom âg un anadl ganiad newydd.

"Y 14ydd o'r mis yn Llanhawden. Nid oedd ond 11 o rifedi; ond yr oedd fy serch yn parhau ac yn chwanegu. Nid digon oedd penlinio mewn gweddi; ond syrthiodd dau ar eu hwynebau ar y llawr, a phrin y medrent gyfodi. A thra'r oeddwn yn gosod cariad Duw o'u blaen, ni allent aros yn yr ystafell, ond aethant allan o un i un, gan ymdreiglo yn y llwch, a gweiddi, 'Cân di, Michael, yr ydym ni yn methu.'

"Y 15fed o'r mis, yn Jefferson. Yr oedd Tŵr Babel yma yn ysgwyd, ac yn gogwyddo i gwympo yn ddirgel ac ar gyhoedd. Yr oedd sain hyfryd rhad ras ymhob genau, a phob calon yn llawn o gariad.

"Y 18fed o'r mis, yn Carew (25 o rifedi). Ar ol cynghori yn gyhoeddus, datguddiwyd i mi nad oedd dim moddion yn gofidio'r diafol yn fwy na'r cyfarfodydd eglwysig. Rhoddid prawf o hyny trwy ei offerynau, sef y rhai cnawdol ym mysg pob enwad: casëir hwy ganddynt yn fwy na dim. Er bod y drws yngheuad, ar y dechrau, yn y gymdeithas neillduol; etto, yr anwyl Oen a ddaeth, ac a safodd yn y canol, gan ddywedyd, 'Tangnefedd i chwi.' Yna y ddïadell a ddodwyd mewn dagrau, ac a lanwyd o gariad Duw. Gweuddodd un allan, 'Gresyn! gresyn! Y mae'n rhedeg drosodd! Na fydd hannerog, ond llanwer eraill hefyd!' A thorodd y lleill allan i lefain, 'Bendigedig fyddo Duw am Iesu Grist.'

"Y 19ydd o'r mis, yn y Mynydd, ger llaw Narberth (y rhifedi oedd 9). Mwynhasom gymmundeb hyfryd â'r anwyl Immanuel. O herwydd gwlybaniaeth yr hin, ac amgylchiadau eraill, yr oedd 13 o'r aelodau yn absennol, oddi ar dybied na ddeuthum atynt.

"Yr 20fed o'r mis, yn Gelli-dawel (y nifer oedd 15). O'r dechrau hyd yma, ni chymmerodd yr anwyl Oen ei wên oddi wrthyf, ond diddanodd fi megis ar ei lin, nes fy llenwi, a'r ddïadell hefyd, o gariad, a pheru i ni lefain ar lu'r nef, 'O chwi wyryfon gogoneddus! cenwch, o blegid rhyddhawyd chwi oddi wrth y clai. Treblwch eich cân nes y deuwn ninnau atoch!'

"Yn y modd yma, anwyl frodyr, fel y galwaf chwi, y'm gwneuthpwyd i yn gyfranog o'ch pryder yn eich gwaith mawr. Tybiaf fy mod yn cyd-ddwyn y baich gyd â chwi. A chan fy mod yn credu bod ein hanwyl Archoffeiriad yn eich cynnorthwyo, ac mai efe yw Awdur, yr wyf yn coelio y bydd hefyd yn Brophwyd y gwaith; er y gall Satan a'i offerynau ddywedyd, fel Tobiah wrth Sanbalat am waith Nehemiah yn adeiladu muriau Jerusalem, 'Ped elai lwynog i fynu, efe a fwriai i lawr eu mur cerig hwynt.' Ewch ym mlaen: yn wir y mae gan Oen Duw law yn y gwaith y mae a wneloch chwi âg ef; a chwithau a gewch fedi o ffrwyth eich llafur, &c. Hyn oddi wrth yr anheilyngaf o bawb ag sydd yn ceisio gwyneb yr Oen.

"John Harris."

Y mae'r llythyr nodedig uchod yn ddangoseg ddiffael o ansawdd nefolaidd yspryd y dŷn enwog hwn, ac o'i lafur diball, a'i ganlyniadau dymunol. Dengys hefyd bod John Harris, fel yr Apostol Paul, heb farnu y gwyddai ddim ymhlith y rhai y llafuriai, ond ei "anwyl Oen," ei "anwyl Immanuel," ei "anwyl Archoffeiriad," a'i "anwyl Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Dyma oedd swm a sylwedd ei holl bregethau cyhoeddus, a'i ymddiddanion yn y cymdeithasau neillduol; a chan nad oedd efe byth yn eu cymdeithasau â sych philosophi a gwag dwyll, anfynych iawn y byddai ei wrandawyr ac yntau heb eu "toddi mewn dagrau, a'u llenwi o gariad Duw."

Methasom daro wrth yr amser y priododd John Harris, ac ni wyddom pwy a ddewisodd yn gymhares bywyd; ond ymddengys iddo briodi yn lled ieuangc, canys y mae genym sicrwydd ei fod yn meddu tŷ ei hun ymhen dwy flynedd ar ol ysgrifenu y llythyr uchod, sef yn 1745, pan oedd efe tu a 24 oed, fel y ceir gweled yn fuan. Y mae'n amlwg hefyd bod ei wraig yn ddynes rinweddol, fedrus, a gofalus, canys dywedir y "byddai Harris

* "Llanhawden, Prendergast, Jefferson, Carew, Llandysilio, Gelli-dawel, &c."

yn teithio trwy'r sir unwaith yn y mis i bregethu yr efengyl, ac i blanu ac ameuthu eglwysi; ac na chysgai yn ei dŷ ei hun ond unwaith yn ystod y mis, am flynyddoedd, gan mor ddiwyd a chysson a fyddai yn llafurio er adeiladaeth yr eglwysi; y gwnai hyn heb edrych am wobr, ond oedd yngbadw yn y nef; ac y cynnorthwyid ef i gyflawni hyn oll heb bwyso ar yr eglwysi gweiniaid trwy fod ei *wraig, a'i fab,** yr hwn a droediodd yn ei gamrau, yn cymmeryd gofal y tyddyn a ddelid ganddo." Dengys y difyniadau canlynol o lythyr a ysgrifenwyd gan John Harris, o Kenox, y 12fed o Fai, 1745, at Howel Harris, pa fath ydoedd fel pregethwr, o ran gwroldeb meddwl, a pha fath oedd yr anhawsderau a'i cyfarfyddaï, yn awr ac eilwaith, yn ei lafur fel efengylwr:—

"Y mae hiraeth arnaf am eich gweled, er mwyn rhoddi i chwi fer hanes am lwyddiant yr efengyl yn y sir; y newyddion mwyaf derbyniol, tybygaf, gan yr anwyl frawd Harris o bob newyddion; ac yn wir, yr wyf finnau fy hun yn llawn calon gyd â'r gwaith: bendigedig fyddo Duw! Y mae teyrnas ein Harglwydd wedi dyfod, a dydd dïal ein Duw yn erbyn pechod. Y mae'r Arglwydd yn heleuthu lle ei babell fwyfwy: nid oes, bellach, yr un rhan o'n sir na fum mi yn cynghori ynddi, ond tref Penfro, a bwrdeisdref Tenby [Dinbych-y-pysgod], yr hon sydd borthladd tu a phump neu chwe milltir o Benfro. Mi fum yn llefaru nos Wener diweddaf o fewn dwy filltir i'r lle; ac nid oedd genyf ond un brawd crefyddol yn byw yn Tenby. Mynych y ceisiodd hwn genyf ddyfod i bregethu i'r dref; ac yn awr anfonais ato i ddywedyd y deuwn i'w dŷ i lettya; ac os gwelai yn orau y gallai wahodd rhyw nifer o wŷr a gwragedd, adnabyddus iddo ef, fel rhai yn chwennych gwrando, i'm cyfarfod, a minnau a esponiwn ychydig adnodau yn yr ystafell gefn. Felly hefyd y gwnaeth y gŵr. Ond pan oeddwn ar ganol y gwasanaeth, daeth ceisbwl i mewn, gan ddywedyd, 'Syr, rhaid i chwi dewi: gorchymynir i mi gan y maer eich dwyn chwi yn ddïoed o'i flaen ef.' Minnau a ddywedais, 'Mi a gydsyniaf â'i gais; ond gan fy mod ar wasanaeth meistr arall yn awr, yr wyf yn erchi caniatâd i draddodi fy neges.' Gyd â hyn efe a adawodd yr ystafell. Cyn i mi orphen, daeth y curad i mewn, a chyd âg ef yr oedd y ceisbyliaid a phedwar neu bump o wŷr bonheddig. Y curad a fynnai i'r swyddog fy llusgo i lawr; ond i hyn y swyddog a attebai, 'Gresyn fyddai hyny, cyn iddo orphen, o blegid y mae'n llefaru yn felus.'

"'I lawr ag ef,' ebai'r curad wrth y swyddog, 'onid e, mi rof gyfraith arnat ti am esgeuluso dy ddyledswydd.'

"Er bod y dynion (y ceisbyliaid) yn hanner meddw, etto cefais ganiatâd i orphen yr odfa; ac yn wir, yr oedd yn hyfryd ar fy yspryd i, ac ar fy ngwrandawyr hawddgar. Eu nifer oedd tu a 40. Mi a ddisgynais oddi ar y lle y safaswn; a thra'r oeddynt yn ymesgusodi wrth ŵr y tŷ, yr oedd eu gwedd yn llwyd i ryfeddu. 'Ni a ddeuthom,' meddent hwy, 'i weled y darluniau gwych sydd genych, Mr. Thomas.' Minnau a attebais, 'Tybygwyf, foneddigion, mai fi yw'r darlun y daethoch chwi i'w weled.' Ar hyn y swyddog a roddes ei law ar fy ysgwydd, gan ddy-

* Enw ei fab oedd Evan Harris. Efe oedd y cyntaf o bregethwyr llëyg y Methodistiaid yn sir Benfro a neillduwyd, yn y flwyddyn 1811, i weini yr ordinhadau (*Hanes a Chyffes Ffydd y Methodistiaid*, t. 45). Nid yw amser ei enedigaeth wedi ei gofnodi, ac ni wyddom ddim am ei ddyddiau boreuol, heb law ei fod yn cynnorthwyo ei fam, fel y crybwyllir uchod, i ofalu am y tyddyn, er mwyn i'w dad gael aberthu ei holl amser ar allor crefydd. Ymddengys iddo ddechrau pregethu rai blynyddoedd cyn marw ei dad, sef tu a'r flwyddyn 1784. Yn ol y cyfrif hwn, treuliasai 35 mlynedd yn y gwaith cyhoeddus, gan mai yn y flwyddyn 1819 y bu efe farw. Yr oedd yn cael ei ystyried yn bregethwr dawnus, ac yn meddu cyrreuddiadau helaeth; ac yr oedd ei fuchedd yn dda, a'i ddylanwad yn fawr yn y wlad. Fel hyn y dywedir am dano gan ŵr o Woodstock a'i hadweunai yn dda:—"Yr oedd y Parch. Evan Harris yn un hynod ymhlith ei frodyr. Er ei fod o dymmer lled drymaidd, etto yr oedd ei galon yn bwrlymu o gariad at ei frodyr, fel yr oedd yn hawdd i'r lleiaf nesâu ato, cystal a'r mwyaf, a'r gwanaf yn yr eglwys i ddywedyd eu profiadau wrtho yn gystal a'r cryfaf."

Yr oedd Harris yn perchen cryn lawer o feddiannau bydol; ond er ei fod mewn sefyllfa gysurus, ymwadai â llawer o'i esmwythyd ei hun er mwyn achos ei Waredwr bendigedig, ac er mwyn gwasaneuthu ei genhedlaeth trwy ewyllys Duw. Mynych yr elai am filltiroedd, ar ei draed, ar nosweithiau gwaith, er mwyn cymdeithas ei frodyr, i bregethu, neu i gadw cyfeillachau neillduol, i'r wlad o amgylch ei gartref. Hoff destyn ei holl bregethau ef, fel pregethau ei dad, a phregethau yr apostolion sydd yn y Testament Newydd, oedd "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio;" a mynych y rhoddai Gwrthrych gogoneddus ei bregethau ei bresennoldeb ynddynt, nes y byddai ei wrandawyr yn llefain am eu bywyd, "Beth sydd raid i ni ei wneuthur fel y byddom cadwedig?" Casglai efe oddi wrth yr adnodau hyn, Act. xx. 17, 28; Rhuf. xv. 14; 1 Cor. xiv. 26–31; Col. iii. 16; Heb. xiii. 7, 17; 1 Petr v. 1–3, a'u cyffelyb, mai dyledswydd henuriaid neu esgobion pob eglwys yw bugeilio, hyfforddi, porthi, a dysgu credinwyr yn yr eglwysi; ond mai prif amcan pregethu o'r pulpud, neu fanau eraill, yw argyhoeddi anghredinwyr, a'u hannog i ffoi rhag y llid a fydd.

Yr oedd gŵr a'i enw George Thomas, un o'r henuriaid perthynol i Pendergast, yn cartrefu gyd âg Evan Harris, ac yn gweithio ar y tyddyn. Yr oedd George yn hoff iawn o Harris, ac yntau yn hoff iawn o George. Bernid George yn ŵr crefyddol iawn; ond yr oedd rhyw bethau yn perthyn iddo a dybid yn blentynaidd. Un diwrnod, gadawodd ei waith yn fyrbwyll, ac aeth at Mr. Harris, gan ddywedyd, "Harris bach, allaf fi ddim gweithio mwy heddi." "Paham?" gofynai Mr. Harris. "Mi welais gymmaint o ogoniant yng Nghrist nes wy'i bron mynd yn ddwl," oedd yr atteb. Gwyddai Evan Harris nad rhith a rhodres oedd hyn, ac effeithiodd mor ddwys arno fel mai prin y gallodd lywodreuthu ei deimladau.

Yr oedd George, bryd arall, yn teithio gyd â Mr. Harris fel cydymaith, yn sir Aberteifi; ac ar un tro, wrth weddïo o'i flaen, ar ddechrau odfa, digwyddodd, wrth erfyn am ryw fendith, gyfarch Iachawdwr dynion â'r enw "Iesu *bach* anwyl." Ar ddiwedd yr odfa, aeth yr hynod Owen Enos at Mr. Harris, gan ddywedyd, "Mi glywais lawer o ddywedyd erioed am yr Iesu; ond ni chlywais neb o'i ffrindiau erioed o'r blaen yn galw *bach* arno!"

"O," ebai George, "gwyddai fe o'r gorau mai o gariad ato y gwnaed hyny."

Y Sabboth cyn marwolaeth Evan Harris, aeth ei fab, y Parch. Thomas Harris, gynt o Hwlffordd, yr hwn a fuasai yn pregethu y Sabboth hwnw yn lle ei dad, i'r ystafell lle'r oedd yr hen henuriad ffyddlon yn gwylio ei feistr. Yn y cyfamser, bu'r ymddiddan canlynol:—

"Yn wir, Harris bach," ebai George, "fyddwch chwi ddim byw."

"Paham yr ydych yn meddwl hyny?" gofynai yr olaf.

Atteb George oedd, "Mi'ch gwelais yn glaf amryw weithiau; ond fe fyddai gweddïau yr eglwys mor hynod fel nas gallwn feddwl y byddech farw. Eithr nid felly yn bresennol." Drachefn, eb ebe—"Yr ydych yn edrych yn esmwyth a didaro yn yr olwg ar fyd tragywyddol. Carwn wybod beth sydd yn eich gwneud chwi felly."

I hyn yr attebodd Harris—"Y mae fy mhechodau wedi bod o flaen fy meddwl, ac wedi bod yn pwyso arnaf fel mynyddau o blwm; eithr y mae un gair wedi eu gwasgaru, sef 'Ond y mae gyd â thi faddeuant fel y'th ofner.'"

"O Harris bach," ebai George; "O! na allwn ddod gyd â chwi! Ni wn i ddim siwt i fyw ar eich ol!" "Cariadus ac anwyl oeddynt yn eu bywyd, ac ni allai marwolaeth eu gwahanu" oddi wrth eu gilydd eithr dros dymmor byr. Bu farw Mr. Evan Harris o'r cystudd hwnw, mewn llawn sicrwydd gobaith o wynfyd tragywyddol yn y nef. Aeth ei henwas ffyddlon a'i frawd anwyl, George Thomas, ar ei ol cyn hir, ac ar ei wely angau nis gadawyd yntau. Ar fynediad un o'i gydhenuriaid i ymweled âg ef, dywedodd wrtho, yn orfoleddus ei enaid—"Y mae'r llyfrau wedi eu croesi â gwaed, a'r penaf bechadur yn gadwedig trwyddo."—Method. Cymru, cyf. ii., t. 307–9; Enwogion Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 463.

Digitized by Google

wedyd, 'Yr ydych yn garcharor, syr, a rhaid i chwi ddyfod o flaen y maer.' 'Yr wyf fi yn barod i ddyfod gyd â chwi,' meddwn innau.

"Pan aethum i'r heol, a hyny rhwng 9 a 10 o'r gloch y nos. yr wyf yn credu bod yno fil, o leiaf, o bobl, yn wŷr a gwragedd, gyd â'u llusernau a'u canwyllau, yn fy nisgwyl, ac yn llefain yn echrys, 'Ymaith âg ef! ymaith âg ef!'

"At y maer yr aethom, yr hwn, heb edrych yn fy wyneb, a ofynodd am fy nhrwydded (*license*). Dywedais innau nad oedd genyf yr un. Gofynodd yntau, 'Pa fodd y beiddiwch ddyfod i'n tref ni i bregethu?' I'r hyn yr attebais innau, 'Ni chyhoeddwyd fi i bregethu yma, ond mi ddeuthum yma i lettya; ac wedi i'r bobl wybod fy nyfodiad, deuthant i mewn yma, a minnau a esponiais iddynt ychydig adnodau, a chanasom bennill neu ddau, ac a weddiasom.' 'Rhaid i chwi,' ebai'r maer, 'roi meichiafon am eich ymddangosiad yma yn y chwarter sessiwn nesaf.' Dywedais innau, 'Da fyddai genyf wybod, sir, beth sydd genych yn fy erbyn.' 'Eich gwaith yn pregethu,' oedd yr atteb. 'Os hyny yw'r trosedd, sir,' meddwn innau, 'chwi a gewch y meichiafon yn bur ewyllysgar. Am ba swm y gofynir hwynt?' 'Am ddau gynt o bunnau,' oedd yr atteb.

"Yr oedd yno ddau o frodyr yn barod i ymrwymo; ond gofynodd rhyw rai oedd yn sefyll ger llaw i mi, 'A roddwch chwi eich gair na ddeuwch yma i bregethu mwy, os cewch eich gollwng yn rhydd yn awr?' 'Nis gallaf wneuthur hyny,' meddwn innau; 'ac er na ddeuthum yma y tro hwn i bregethu, etto nid oes genyf sicrwydd na bydd raid i mi bregethu yma cyn nos yfory, o blegid nid oes genyf awdurdod arnaf fy hun.' 'Gan bwy, attolwg, y mae awdurdod arnoch?' gofynai gwraig y maer. 'Dan awdurdod fy meistr yr wyf,' meddwn innau. 'Pwy ydyw eich meistr? ai y diafol?' eb hithau. 'Nag e,' meddwn innau: 'fy meistr i sydd feistr ar y diafol, ac arnoch chwithau hefyd.' 'Ust!' eb y maer wrth ei wraig: 'tewch a son.' Gyd â hyn galwyd arnaf i law-arwyddo yr ymrwymiad, a gollyngwyd fi yn rhydd."

Nid yw'r llythyr yn hyspysu dim mwy am yr amgylchiad, ac ni wyddys pa fodd y terfynodd y ffrwgwd. Dywed John Harris ei hun fod y terfysgwyr yn dorf fawr o'r tu allan i dŷ'r maer, a golwg ffyrnig arnynt yn disgwyl am dano. Hawdd y gellir casglu hyny, o blegid yr esampl a roddid i'r werin gan eu huwchafiaid yn y byd a'r eglwys; a dïau y cawsai'r pregethwr driniaeth erchyll gan y fileindorf oedd yn ei ddisgwyl allan o dŷ'r maer, oni buasai i Dduw ddarpar amddiffynwr iddo mewn modd annisgwyliadwy. Yr oedd yn y lle ynad heddwch, yr hwn a deimlai ei hun dan rwymau i ryw frawd crefyddol adnabyddus i John Harris. Hwn, o wir garedigrwydd at ei gymmwynaswr, a roes ei aden drosto y noswaith honno, gan ei amddiffyn rhag y terfysgwyr, ac a'i llettyodd ef fel "mab brenin." Dychwelodd yntau drannoeth i'w dŷ ei hun, ac, eb efe, "â'r dagrau yn llifo dros fy ngruddiau, o wir dosturi at drigolion tlodion Tenby."

Y mae'n ddilys ddïammau y gallasid cofrestu llawer o hanesion cyffelyb ym mywyd John Harris, ac eraill o'i gydlafurwyr, yn amser boreuaf y diwygiad Methodistaidd; ond nid oedd neb yn meddwl y pryd hwnw am eu hysgrifenu "i'r oes a ddêl." Er hyny, y mae ambell amgylchiad, fel yr un uchod, wedi dïangc, megis yn ddifwriad ac achlysurol, i roddi i ni ryw giptrem i mewn i helyntion boreuaf y tadau. Dïau y buasai yn ddyddorol, a buddiol hefyd, pe cawsem lawer yn ychwaneg.

Yr oedd John Harris yn ŵr o gynheddfau cryfion, ac yr oedd ei arafwch a'i bwyll yn hyspys i bawb. Yr oedd uniondeb ei farn ar bethau, ynghyd â dwysder ei fuchedd fel Cristion, yn ennill iddo le a dylanwad mawr yn naturiol ym mysg ei frodyr.

Yr oedd y gwŷr canlynol yn cydoesi ac yn cydlafurio â John Harris, sef John Gibbon, o'r Gelli; Benjamin Thomas, a William Gambold.* Bu yr olaf gyd â John Harris rai gweithiau trwy'r Gogledd ar gyhoeddiad; ac unwaith yn neillduol, dywedir iddynt fod mewn perygl am eu bywyd wrth ryw bont, lle y cyfarfu â hwynt lu mawr o ddihirod ar fedr eu beuddu, os nad eu lladd. Ni fynegir na'r lle na'r amser y bu hyn: er hyny, nid oes dim yn anhygoel yn yr hanes, gan mai mewn amser pell yn ol (can mlynedd, fe allai) y bu hyny, adeg y gwyddys oedd yn nodedig am ragfarn a chreulondeb y werin anwybodus at ganlynwyr Mab Duw.

Yr oedd y Parch. Rowland Hill (Hul), o Lundain, yn gydnabyddus iawn â John Harris, ac yn coledd meddwl pur uchel am dano. Yr oedd Mr. Hill yn pregethu unwaith yn y tŷ y buasai John Harris fyw ynddo, a hyny pan oedd ei fab, y Parch. Evan Harris, yno. Yr oedd gweddw yr hen bregethwr yn fyw ar y pryd, wrth yr hon y dywedodd Mr. Hill, "Od ewch i'r nefoedd o'm blaen i, cofiwch fi at John Harris, a dywedwch wrtho fy mod innau hefyd yn dyfod." Dro arall, pan aeth y Parch. T. Harris, gynt o Hwlffordd, ŵyr John Harris, pan yn Llundain, i gyfarch

* Nid oes genym odid ddim o hanes y gwŷr enwog hyn, ond ychydig am yr olaf yn unig. Dywed un ysgrifenydd "eu bod yn pregethu yn dra bywiog, plaen, a diaddurn, nid yn anhebyg i ddŷn yn 'bocsio'r cwmpas,' o Genesis i'r Datguddiad; ond y byddai dylanwadau ar brydiau yn eu gwneuthur yn 'feistriaid y gynnulleidfa.' Rhaid cyfaddef y byddent yn troi fel hen felin, yn lled dolciog ar amserau; etto, yr oedd y gynnulleidfa newynog yn ymborthi ar y blawd yn hyfryd." Bu'r brodyr hyn "ffyddlawn ar ychydig: gosodwyd hwy ar lawer, ac aethant i mewn, yn ddïau, i lawenydd eu Harglwydd."—Method. Cymru, cyf. ii., t. 309.

Am WILLIAM GAMBOLD, mab ydoedd efe i William Gambold, offeiriad Puncheston a Llanychaer, sir Benfro, awdur enwog y Grammadeg Cymraeg a Saesneg (gwel pen. viii. o'r llyfr hwn, y pummed). Yr oedd yn frawd hefyd i'r Parch. John Gambold, esgob y Morafiaid yn Hwlffordd. Ni wyddys yn fanwl pa bryd y ganed ef, na pha bryd y bu farw; ond yr oedd yn cydoesi dros ryw dymmor â John Harris, ac â'i fab, Evan Harris.—Enwogion Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 379.

Digitized by Google

gweld i Mr. Hill, gofynodd yr olaf iddo, "Pwy ydych chwi?" Attebodd Harris, "Yr wyf yn ŵyr i'r diweddar John Harris, o Dreamlod." Ar hyn, heb wneud sylw pellach, dywedodd Mr. Hill, "Od oes un dŷn o'n byd llygredig ni yn y nef, y mae'r hen John Harris yn sicr o fod yno." Un arall a ddywed am dano, "Yr oedd John Harris yn ŵr nodedig o dduwiol a llafurus gyd âg achos ei feistr. Anaml yr âi noswaith heibio na byddai mewn rhyw fan neu gilydd yn y gymmydogaeth yn rhybuddio ei gyd-bechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd; a hyd yn oed ar y ffordd fawr, dywedai air wrth hen ac ieuangc am eu cyflwr tragywyddol, a hynod fel y perchid ac y cerid ef." Cyfarchai ei gydwladwyr o bob graddau ac oedran, ymhob man lle y byddai, gan ddywedyd rhyw air wrthynt ynghylch eu hachos pwysig gyd â Duw. Yr oedd unwaith yn llettya dros nos mewn ffarmdy, pryd y cymmerth achlysur i sibrwd gair wrth y gweinidogion ynghylch eu cyflwr, a'u dyledswydd i fod yn grefyddol. Borau drannoeth, dywedodd y feistres wrth un o'r morwynion, "Dos a botasau y gŵr dïeithr iddo, Siân fach." "Nag âf wir, meistres," ebai y llangces. "Pam hyny?" gofynai y feistres. "Fe wêd wrthwi mod i'n *bechadur*," oedd yr atteb. Deallai y forwyn nad esgeulusai y gŵr dïeithr hwn un adeg i geisio argyhoeddi y rhai a ddeuent i'w gyrraedd. Esampl deilwng o efelychiad. Bu'r gŵr duwiol ac enwog hwn farw yn nhŷ offeiriad yn Nhrefdraeth, yn y flwyddyn 1788, yn 67 oed, wedi bod yn pregethu am 46 o flynyddau.*

* Method. Cymru, cyf. i., t. 164, 167-8; cyf. ii., t. 303-6; Enwog. Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 463; Enwog. Cymru, I. Foulkes, t. 468.

# LLYFR VI.

---

## ENWOGION Y PUMMED CYFNOD: O 1760 HYD 1879.

### GEORGE III., GEORGE IV., WILLIAM IV., A VICTORIA.

### PENNOD I.

#### SYLWADAU CYFFREDINOL AR HANES A NEILLDUOLION Y CYFNOD.

Yn y rhagarweiniad a'r sylwadau cyffredinol sydd ar ddechrau y pum llyfr blaenorol, cymmerwyd cipolwg ar grefydd yn dechrau ymysgwyd, ac yn araf ymgodi o ddyfnderoedd llygredigaeth a chaethiwed Pabaidd, gan nofio trwy lynoedd o erledigaeth ac afonydd o waed gwirion tu ag ardaloedd rhyddid, o ddeffroad Wycliff a'i ragfleunoriaid diwygiadol yn Lloegr, deffroad Luther a'i ragfleunoriaid yn Germania, a deffroad Wroth a'i ragfleunoriaid yng Nghymru, nes y glaniodd crefydd o'r diwedd ar dir rhyddid cymharol yn 1688, yn niwedd teyrnasiad Iago II., ac o hyny hyd 1760, yn niwedd oes George II. Deallir a chredir bron yn gyffredinol erbyn hyn, ym Mrydain, bod gwahardd dynion a wrthwynebant ryw drefniadau o unffurfiad, i addoli Duw mewn un ffordd arall, yn sarhâd ar ddynoliaeth, dros yr hyn nis gellir cael un math ar esgus. Y mae'n wir y gall Pabydd, gyd â'i syniadau cwbl gau am gymdeithas ddynol, yn gysson honni anffaeledigrwydd ac undeb yr eglwys, fel rheswm dros reoli a llunio pob buddiannau dynol er atteb i'w amcanion ei hun; ond y mae'r Protestant yn tori pob tir o'r fath oddi tan ei draed; ac y mae Ymneillduwr oddi wrth Eglwys Rhufain a gospo ei gymmydog am ymneillduo oddi wrtho ef, yn anferthwch perffaith yn ein moesoldeb cymdeithasol. Er mwyn ymryddhau oddi wrth y fath ynfydrwydd, y mae'r erlidiwr Protestanaidd yn gwneud yr ymarferiad o ryddid crefyddol yn drosedd gwladol. Gwneir rhyw gredo a threfn bennodol o addoliad yr un peth a theyrngarwch. Ystyrir gwahanieuthu oddi wrth y safonau hyn yn arwydd o gasineb at y Llywodraeth, a bod Ymneillduaeth yr un peth a gwrthryfel. Ystyrir nad yw Ymneillduwr yn ddim ond hanner Brytaniad, a dim ond yr hanner leiaf. Hen arfer gan lywodreuthwyr yw meddwl felly. Dilynwyd cynlluniau Paganaidd er yn bur forau gan dywysogion Cristionogol. Syrthiodd y Diwygwyr i'r amryfusedd creulon. Nis gallai gwladweinwyr doethaf y ddoethaf o freninesau ymysgwyd oddi wrth yr ynfydrwydd yma. Trosglwyddodd y dynion a ymladdasant y frwydr yn erbyn gormes Charles I. eu hunain, mewn amser, i'r dull gwahanol yma o ormes: y Presbyteriaid i raddau helaeth, a'r Annibynwyr, er i raddau llawer llai, etto digon i wneud rhai o honynt yn amddiffynwyr trwsgl wedi hyny o lawn oddefiad yn oed iddynt eu hunain. Yr oedd Brenhinwyr yr Adferiad yn ddigon ewyllysgar i ddilyn hen esamplau: i fyned ymhellach yn ol na'r attaliadau lliniarol dan Cromwel, ac i ymsuddo i anoddefgarwch cyn ddyfned a'r cyntaf o'r Stuartiaid a'r olaf o'r Tuduriaid. Y mae'r ymdrech i wneud rhyddid crefyddol yn drosedd gwladol wedi dyfod weithian yngolwg pob plaid agos, fel y mae'n ddedwyddaf, yn anghenfil o'r fath anghenfilaf. Y mae'r prawf o deyrngarwch yr Anghydffurfwyr dros fwy na chanrif a hanner wedi ymarferol wrthbrofi y ffug-chwedl ddirmygus; ond y mae'n wirionedd pur ddiraddiol i hanes dynoliaeth nad yw goddefiad fel athrawiaeth boblogaidd, yn oed yn y wlad hon, sy'n cymmeryd arni arwain byddin rhyddid, ond prin bedwar ugain oed.*

Pan esgynodd George III. i orsedd Brydain, yr oedd sefyllfa addysg yng Nghymru, cystal ag yn Lloegr, oddi eithr ym mysg y dosparth uchaf, yn

* Stoughton's Church and State, p. 404.

Digitized by Google

bur druenus; a thra bo addysg yn y fath gyflwr, nis gellir disgwyl i grefydd fod yn llewyrchus iawn. Y gwir yw na ddechreuodd llenyddiaeth effeithio nemmawr ar y genedl yn gyffredinol nes y cymmerth y syniad am YSGOLION SABBOTHOL feddiant o feddwl dyngarol a duwiol y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, yn y flwyddyn 1789, y 29fed flwyddyn o deyrnasiad George III. Bu'r cynllun dedwydd yma, fel yr awgrymwyd eisoes,* ac y ceir gweled yn heleuthach rhag llaw, yn foddion i ddwyn allan dalent guddiedig a duwiol yr Eglwys Gristionogol, ac effeithiodd ar sefyllfa feddyliol a moesol pob dosparth o'r Cymry, yn enwedig plant ac ieuengctid y dosparth canol a gweithgar. Bu dygiad y cynllun gogoneddus yma i weithrediad yn foddion i greu cyfnod newydd yn ein gwlad ni. Yr Ysgol Sabbothol, mewn gwirionedd, oedd seren forau dynesiad y dydd ar ein cenedl: hi oedd rhagredegydd gwybodaeth, rhyddid, a rhinwedd yn ein plith. O gylch yr un amser, dyfeisiodd Andrew Bell gynllun yr Ysgolion Cenedleuthol *(National Schools)*; ac yn fuan wedyn sefydlwyd Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a Thramor, ar gynllun Joseph Lancaster, yn Lloegr; a chafodd Cymru lawer o les oddi wrth y naill a'r llall, ond dim i'w gymharu â'r Ysgolion Sabbothol.

Gan fod Mr. Charles yn arfer teithio llawer trwy'r wlad i bregethu, ac i sefydlu Ysgolion Sabbothol, daeth yn bur adnabyddus o angen dirfawr ei gydwladwyr am Fiblau, a theimlai yn dra gofidus o'r plegid. Yr oedd yr angen yma wedi cael ei achosi i raddau mawr trwy i lawer, mewn gwahanol ranau o'r wlad, gael eu deffro i weled yr angen oedd arnynt am grefydd, gan bregethiad tanllyd Howel Harris, Daniel Rowlands, Williams Pant-y-Celyn, a'u cydlafurwyr, o flaen Mr. Charles. Wedi i'r bobl gael eu dwyn i deimlo gwerth pethau tragywyddol, yr oedd arnynt eisiau cael darllen am danynt eu hunain, yr hyn a greodd awydd angerddol am lawer mwy o Fiblau Cymraeg nag oedd i'w cael; ac ychwanegodd yr Ysgolion Sabbothol yr angen a'r awydd yn fil mwy nag oeddynt yn flaenorol. Ond nid oedd yn y wlad un moddion etto i gyfarfod y cyfryw ddymuniadau, yr hyn a barodd ofid angerddol i feddwl duwiolfryd a gwladgarol yr enwog T. Charles. Pan yn y cyfyngder dirfawr yma, efe a aeth i Lundain, yn 1802, i ymdrechu sefydlu cymdeithas i ddiwallu Ysgolion Sabbothol y Cymry â Biblau, yr hyn, dan gyfarwyddyd Rhagluniaeth ddaionus, a arweiniodd i sefydliad y "Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor," i roi

"Bibl i bawb o bobl y byd."†

Fel hyn, y mae'r naill amcan daionus yn arwain i amcan daionus arall. Yr oedd nifer y copïau o'r Bibl Cymraeg, y Testament Newydd, a'r rhai dwyieithawg Cymraeg a Saesneg, a ddosparthwyd gan y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, o'i hargraphiad cyntaf yn 1806, y 47fed flwyddyn o deyrnasiad George III., hyd ei hargraphiad yn 1853, yr 16fed flwyddyn o deyrnasiad Victoria, yr yspaid o 47 mlynedd, yn 818,745. Cyhoeddwyd argraphiadau helaeth o'r Bibl a'r Testament Cymraeg, yn ystod yr un amser, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol; ond methodd y Parch. T. Phillips, awdur *Llyfr y Jubili*, er pob ymdrech, â chael cyfrif o'r rhifedi; eithr tybia efe nas gallai cyfanrif nifer y copïau a argraphwyd o'r Biblau a'r Testamentau Cymraeg, yn ystod y cyfnod a nodwyd, fod yn llai nag UN MILIWN o gopïau.‡ Methasom gael cyfrif o'r Biblau a'r Testamentau Cymraeg a argraphwyd yn ystod y 26 blynedd diweddaf, o 1853 hyd 1879; ond credwn yn sicr bod y nifer yn llawn MILIWN arall o gopïau. "Mor gadarn y cynhyddodd Gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd!"

Bu'r Ysgol Sabbothol, y Bibl Gymdeithas, a phregethu teithiol y Methodistiaid, yn foddion effeithiol i ddeffro, nid yn unig y cyfundebau Anghydffurfiol oedd yn y wlad, ond hefyd yn oed yr Eglwys Sefydledig ei hunan. Yr oedd sefyllfa crefydd yn yr eglwys hon wedi suddo i bwynt pur isel yn ystod teyrnasiad George III. Yr oedd y nifer amlaf o'r clerigwyr yn ddynion

* Gwel t. 3 o'r gyfrol hon, yr ail.

† Y mae Robert Davies, Nantglyn, yn awgrymu, yn y llinellau canlynol, bod "Sior y Trydydd" yn gefnogwr ffyddlon i'r Bibl Gymdeithas:—

"SIOR DRYDYDD, eilfydd i'w oes,—ni chafwyd
Na chyfuwch Deyrn eirioes,
Na'i dirionach drwy'i einioes,
Na gallu mwy, na gwell moes.

. . . . . . .

"Dir nesodd i'w teyrnasiad
Amlder goleuder i'n gwlad;
Bu'n ffyddlon foddion di fâr
I Air Duw euraw daear;
Carai anfon caer wynfyd,
*Bibl i bawb o bobl y byd*
I'r byd gael gwir wybodaeth
O deg Ner, y Duw a'i gwnaeth.

"Annogai fel mynegair
Iach rad bregethiad y gair;
Gloywai'r byd o'r gwŷd gau,
Gyrai niwl o'i gornelau;
I Dad haul ddifodi twyll
Bu'n gweini'n ben y ganwyll;
Dilynodd gadw ei linyn
Wrth fodd Duw, ac wrth fodd dŷn.*

‡ Llyfr y Jubili, t. 61-2.

* "Dywedir bod mwy o gymdeithasau wedi eu sefydlu tu ag at heleuthu gwybodaeth Gristionogol, a llesâd dynol ryw yn gyffredinol, yn nheyrnasiad SIOR Y TRYDYDD, nag a fu yn yr holl yspaid amser o'r blaen er dydd y Prynedigaeth."—Dilian Barddas, t. 13, 22-3.

Digitized by Google

amddifaid o wir grefydd; ac yr oedd y bobl wedi suddo i anfadrwydd a phechod, ac yn casâu gwirionedd ymarferol yn eu calonau. Y mae hanes yr ymddygiad at yr enwog a'r duwiol Charles Simeon yng Nghaergrawnt o gylch y flwyddyn 1782, yr 22fed flwyddyn o deyrnasiad George III., yn ddarlun cywir o ymddygiad amryw yng Nghymru tu a'r un amser. Pan gyflwynwyd ef i fywioliaeth Eglwys y Drindod yn yr eisteddle hynafol hwnw i ddysgeidiaeth, yr oedd ei athrawiaeth bur mor ddiflas i feddyliau amhur y bobl, fel y dododd pawb bron o'r gynnulleidfa gloion ar eu seti, ac nid elent iddynt eu hunain, ac ni oddefent i neb arall fyned iddynt; a phan lanwodd efe y lleoedd gweigion â seti amserol, tynodd y wardeiniaid hwynt i lawr, neu drylliasant hwynt yn chwilfriw. Pan y cyflwynai ei amser i ymweled â'i blwyfolion, prin y derbyniai neb ef i dŷ; pan y sefydlodd bregethau hwyrol, ceuid drysau yr eglwys yn ei erbyn, a chedwid yr agoriadau gan y wardeiniaid. Beth a fu'r canlyniad? Cymharer dechreuad a diwedd ei yrfa. Safai yn unig dros lawer blwyddyn; gwrthwynebid, gwadid, a gochelid ef dros hir amser; camddarlunid ei athrawiaeth; duchanid mân hynodion ei lais a'i ddull; cyfodid terfysg yn fynych yn yr eglwys; yr oedd yn berson nad ystyrid megis clerigwr rheolaidd yr eglwys. Y fath oedd dechreuad ei yrfa; ond sylwer ar ei therfyniad. Yr oedd pob peth yn cyflym newid cyn diwedd ei oes. Gwahoddid ef yn fynych i draddodi cyfres o bregethau ger bron y brifysgol. Cydnabyddid yr egwyddorion mawrion a bregethai bron o bob pulpud yng Nghaergrawnt. Llenwid ei eglwys gan fyfyrwyr ieuaingc. Ac ar ei farwolaeth, talodd y brifysgol fwy o barch iddo nag a dalodd i unrhyw ŵr anghyhoedd arall.*

Tebyg iawn yr ymddygwyd at y Diwygwyr Eglwysig Cymreig ar eu cychwyniad, megis at Howel Davies, Daniel Rowlands, Williams Pant-y-Celyn, Peter Williams, ac eraill; ond yn lle eu parchu hwy tu a diwedd eu hoes, fel y gwnaed yng Nghaergrawnt â Charles Simeon, ysgymmuno y Diwygwyr Clerigol Cymreig allan o'i magwyrydd a wnaeth yr Eglwys Wladol, er ei dirfawr golled a'i gwaradwydd. Pa wedd bynag, y mae hithau wedi gwella llawer yng Nghymru erbyn hyn, canys y mae ynddi amryw glerigwyr enwog a llafurus; ac o digwydd i ambell un lychwino ei broffes trwy losgach, meddwdod, neu ryw ddrwg fuchedd arall, ymdechir eu ceryddu a'u diwygio, er maint a gostio hyny i'r esgobion. Mewn gwirionedd, y mae'r Eglwys Wladol wedi deffro yn ganmoladwy yn ein gwlad er ys mwy na hanner canrif bellach, ac y mae'n gweithio yn ddifefl er moesoli, dysgu, a chrefyddoli ein cenedl. At yr hen ysgolion plwyfol, y mae wedi ychwanegu ysgolion gwladwrieuthol ymhob plwyf, tref, a phentref, y rhai a gynhelir â rhoddion gwirfoddol; a chynhelir Ysgolion Sabbothol hefyd, fel yr awgrymwyd eisoes, mewn llawer eglwys plwyf trwy y wlad. Yn ystod yr un amser, adeiladwyd dros 4000 o eglwysydd newyddion, gwerth dros ugain miliwn o bunnau, heb son am y miliynau a gyfranodd ei haelodau at gymdeithasau cenhadol cartrefol a thramor, a'i haneirif sefydliadau elusenol. Y mae'n wir bod gorddefodaeth yn peryglu undeb a heddwch yr Eglwys yn ormodol, ac yn arwain rhai eneidiau anwadal tu a Rhufain; ond y mae rhwysg y blaid honno weithian yn edwino.

Yn y flwyddyn 1835, appwyntiwyd dirprwyaeth eglwysig, ac ar y 19ydd o Fawrth cyflwynodd y dirprwywyr eu mynegiad i'r Senedd, yn cynnwys cyfrif o ddosparthiadau tirol, elw, a nawddogaeth yr eglwys. Yn 1836, gwnaed ysgrif yr Eglwys Sefydledig yn gyfraith, a gwnaed trefniad newydd ar yr esgobeuthau. Appwyntiwyd dwy esgobaeth newydd, sef Manchester a Ripon; cyfartalwyd graddau ar elw yr esgobeuthau mwyaf, a sefydlwyd dosparthiad y llafur a'r elw ychydig yn decach. Yn y Senedd yr un flwyddyn etto, gwnaed Ysgrif Cyfnewidiad y Degwm yn gyfraith, yr hon a drefnodd i'r degwm gael ei dalu yn arian, yn lle yn eiddo fel cynt.†

Nid ydym yn cofio i unrhyw ddiwygiad, na newidiad arall o bwys, yn dwyn dim perthynas â Chymru, ddigwydd yn ystod y cyfnod presennol, heb law yr un a nodir yn y bennod ganlynol. Prin y perthynai yr ymrwygiad a ddigwyddodd yn 1839, yn Eglwys Sefydledig Ysgotland, ddim i'n gwlad ni, pan yr ymneillduodd dros 400 o'r clerigwyr Presbyteraidd oddi wrth y sefydliad gwladol yno, ac y dechreuodd y cyfundeb crefyddol a elwir "Eglwys Rydd Ysgotland," yr hon, erbyn 1873, oedd yn cynnwys cryn lawer dros 900 o gynnulleidfaoedd.‡ Yr un peth a ellir ei ddywedyd, gyd â golwg ar Gymru, am ddad-

* Ferguson's Hist. Eng., vol. iv., pp. 132–4; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 986.

† Mackenzie's Fam. Hist. Eng., vol. vi., pp. 125, 133.

‡ Alison's Europe, chap. xliii.; Mackenzie's Fam. Hist. Eng., vol. vi., p. 151.

Digitized by Google

sefydliad a dadwaddoliad yr Eglwys Sefydledig yn y Werddon, yn 1869.*

---

Yn awr, wrth derfynu ein "Sylwadau Cyffredinol" ar y cyfnodau, credir mai cymmeradwy gan ein darllenwyr fydd cael crynhodeb byr o'r prif ymdrechion crefyddol y cyfeiriwyd atynt, y rhai a ddigwyddasant yng Nghymru a manau eraill er y Diwygiad Protestanaidd.

Yr ymdrech crefyddol cyntaf oedd y *Diwygiad* ei hun, yr hwn a ddechreuodd mor bell yn ol yn oed ag amser Wycliff, ac a gafodd fuddugolieuthau nid anenwog yn y 14edd ganrif; ond y mae llawer yn barnu i'r diwygwyr, fel Joas yn ystafell wely marw Eliseus, beidio taro yn rhy fuan; ac yn lle taro yr hyn oedd Babaidd yn yr Eglwys ddim ond tair gwaith, y dylasent daro bump neu chwech o weithiau, nes ei lwyr ddifa.

Yr ail ymdrech oedd am *Oruchafiaeth.* Ymladdai yr Esgobeuthwyr a'r Puritaniaid â'u gilydd, er mwyn gweled pa un a ddylasai fod yn frenin yn y byd eglwysig, a pha un a ddylasai gadw y llall mewn cwbl darostyngiad: daeth hyn wedyn yn ymdrechfa am hanfod. Yr oedd yr Esgobeuthwyr yn llethu y Puritaniaid dan Iago I. a Charles I., a'r Puritaniaid yn llethu yr Esgobeuthwyr yn ystod y Weriniaeth.

Y trydydd ymdrech oedd am *Ganiatâd* neu *Ehangedd.* Ni fynnai y blaid oedd mewn awdurdod roddi caniatâd. Cawsant hwy eu cau allan dros rai blynyddau, ac yr oeddynt hwythau yn awr yn penderfynu talu y pwyth gyd â mwy na dialedd dyblyg. Nid yn unig yr oeddynt yn gyru eu brodyr ymaith heb drugaredd; nid yn unig yr oeddynt yn gwrthod rhoddi y bummed ran o'u cyllid fforffetiedig i'w cadw rhag newynu, y gyfran a roddid i'r clerigwyr a fwriwyd allan o'u bywioleuthau dan y Weriniaeth; ond hefyd yr oeddynt yn eu herlid i garcharau, i alltudiaeth, ac i angau, yr hyn ni wneuthai y Puritaniaid erioed, yn eu dyddiau mwyaf blodeuog, â'u cymmydogion Esgobyddol.

Yn bedwerydd, wedi colli pob gobaith am ganiatâd neu ehangedd, daeth yn oed y Presbyteriaid o'r diwedd, cystal a'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Crynwyr, yn falch o gael ymdrechu am *Oddefiad.* Bu'r Ymneillduwyr yn gyffredin yn ymdrechu dros yn agos i ugain mlynedd am ryddid yn unig i addoli yn ddirwystr; am y cyntaf o hawliau dynoliaeth, yr hawl o gael llonydd yngwasanaeth Arglwydd cydwybod. Cafwyd y dogn lleiaf o ryddid crefyddol ar y Chwyldroad; a chymmerth lawer mwy na chanrif i sicrhau dogn arall o'r ddyled, ac yn oed i gymmodi meddyliau pobl gulfarn â chymmaint ag a ganiatasid i Ymneillduwyr trwy Ddeddf y Goddefiad. Y mae gorfodi unffurfiad yn ol y syniad cyntefig yn cael ei gyhoeddi weithian yn gyffredinol yn anghyfiawn. Ymddengys cynlluniau o ganiatâd, oddi wrth brofiad blaenorol, i'r rhan fwyaf yn annichonadwy: hawlir cyflawn ryddid addoliad ar y naill law, a chaniateir ef ar y llaw arall; ac y mae hawliau cyffredin gwladyddiaeth yn perthyn weithian trwy gyfraith i bob math o grefyddwyr. Pa ddiwygiadau crefyddol a ddygir i weithrediad yn yr amser a ddaw, ni ŵyr neb ond yr Hollwybodol.†

---

## PENNOD II.

### Y WESLEYAID.

DYNODA yr enw y rhai sydd yn ffurfio y cyfundeb a sefydlwyd gan y Parch. John Wesley, A.C. Y mae amryw ganghenau wedi tori allan oddi wrth y cyfundeb gwreiddiol, o blegid gwahaniaeth yn benaf am drefniadau eglwysig; ond i'r cyfundeb gwreiddiol y perthyn y cyfenwad, *Wesleyaid*, neu, yn fwy cyflawn, *Y Trefnyddion Wesleyaidd.* Wesleyaid a Wesleyaeth a ddefnyddir yma er mwyn byrdeb.

Amserir dechreuad y cyfundeb, gyd â sefydliad y cymdeithasau, yn niwedd y flwyddyn 1739. Un ammod yn unig a ofynid gan y rhai a ddymunent ymuno â'r cymdeithasau, sef "Dymuniad i ffoi rhag y llid a fydd, a chael eu gwared oddi wrth eu pechodau." Achlysur sefydliad y cymdeithasau oedd cyflwr llygredig y wlad ar y pryd, ac, yn arbenig, yr anfoddlonrwydd a ddangosid o fewn terfynau yr Eglwys Wladol i bob ymgais at gynhyrchu deffroad ac adfywiad crefyddol. Dangosid yr amharodrwydd mwyaf i ymneillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig gan arweinwyr Wesleyaeth; a thrwy gael eu bwrw allan o derfynau yr Eglwys Wladol y gwasgwyd hwy i sefydlu y cymdeithasau. Ni fwriedid hwy ar y cyntaf ond fel cymdeithasau o fewn terfynau yr Eglwys, a deuthant yn sefydliad corphoredig dan bwysau gorfodaeth.

Amcan proffesedig a gwirioneddol sefydliad y cymdeithasau ydoedd "lledeunu sancteiddrwydd

* Mackenzie's Fam. Hist. Eng., vol. vi., pp. 328–30.

† Stoughton's Church and State, pp. 431–3.

Digitized by Google

trwy'r tir." Nid oedd a fynnai *credo athrawieuthol* â dechreuad y symmudiad o gwbl. Yr oedd Wesley a Whitfield, er o ddaliadau athrawieuthol cwbl wahanol, yn gydweithwyr â'u gilydd yn nechreuad yr adferiad. Gwir iddynt ar ol hyny ymwahanu, yn benaf o blegid gwahaniaeth yn eu golygiadau ar y "pum pwngc;" ond nid oedd a fynno hyny â sefydliad Wesleyaeth. Coleddai Mr. Wesley y golygiadau Arminaidd ar y "pump pwngc," a'r golygiadau hyny, fel y rhoddir amlygrwydd iddynt yn ei bregethau a'i esponiad ar y Testament Newydd, yw safon athrawieuthol yr enwad. Yn hytrach na bod a fynno golygiadau athrawieuthol â chychwyniad Wesleyaeth, ceisiwyd sefydlu tir canolig i gydgyfarfod arno er mwyn dïogelu cydweithrediad yn nygiad oddi amgylch yr adfywiad oedd wedi ei ddechrau. Y mae athrawieuthau sydd yn dal perthynas mwy uniongyrchol â chrefydd bersonol a phrofiadol, yn llawn mor nodweddiadol o'r enwad Wesleyaidd a'r golygiadau Arminaidd ar y "pum pwngc," megis—Ffydd yn unig ammod cyfiawnhâd dŷn gyd â Duw; tystiolaeth yr Yspryd i fabwysiad y credadyn i deulu Duw; perffeithrwydd Cristionogol, sef llwyr lanhâd dŷn oddi wrth bob pechod a halogrwydd yn y fuchedd bresennol, a'r cyffelyb.

Nid oedd a fynno golygiadau neillduol am gyfundrefn eglwysig, ychwaith, â chyfodiad Wesleyaeth. Coleddai Mr. Wesley ar y cyntaf eiddigedd angherddol dros y gyfundrefn eglwysig Esgobyddol: glynai wrth y tair gradd swyddogol, yr Esgob, y Presbyter, a'r Diacon. Siglwyd ef yn gynnar yn ei gredo, ond ymlynai megis yn erbyn ei argyhoeddiad wrth ei syniadau uchel-Eglwysig. Trwy ddylanwad ei farn y goddefodd i lëygwyr ymgymmeryd â phregethu y gair. Dengys hyn nad oedd a fynno golygiadau neillduol am gyfundrefn eglwysig â dechreuad Wesleyaeth.

Y mae'r gyfundrefn eglwysig a ffurfiwyd ganddo yn fwy o gyfaddasiad o Gristionogaeth i gyfarfod anghenion amgylchiadau na dim arall. Y peth cyntaf a wnaeth ydoedd dosranu ymgeiswyr am aelodaeth yn y cymdeithasau yn wahanol restrau *(classes)*, a gosod deuddeg o bersonau o dan ofal un dŷn, yr hwn a elwid yn Flaenor. Gelwid y gwahanol restrau a gyfarfyddai yn yr un lle yn Gymdeithas. Yn raddol daeth angen am swyddogion i'r gymdeithas. Sefydlwyd dau i fod yn Oruchwylwyr y Gymdeithas, gorchwyl y rhai yw derbyn y cyfraniadau oddi wrth y blaenoriaid, a chasgliadau cyhoeddus, ynghyd â gofalu am gyhoeddiadau, llettyau a chysuron eraill y pregethwyr. Daeth angen drachefn am ryw rai i ofalu am elfenau swper yr Arglwydd, ac am dlodion y gymdeithas; a phennodwyd dau swyddog, y rhai a elwir yn Oruchwylwyr y Tlodion. Perthyn i bob cymdeithas lys swyddogol, a elwir yn Gyfarfod Blaenoriaid, cyfansoddedig o'r blaenoriaid a'r goruchwylwyr, yn cael ei lywyddu gan weinidog, gwaith yr hwn yw ymwneud â holl amgylchiadau y gymdeithas. Gosodir nifer o gymdeithasau ynghyd, o chwech i ddeunaw, yn ol fel y bydd yn fanteisiol, i ffurfio yr hyn a elwir yn Gylchdaith, o dan ofal un gweinidog fel arolygwr, gyd âg un neu ddau o gydlafurwyr, fel y bydd yr amgylchiadau yn gofyn. Perthyn i bob cylchdaith lys eglwysig, a elwir yn Gyfarfod Chwarterol, yr hwn sydd yn cyfarfod bedair gwaith mewn blwyddyn, ym Mawrth, Mehefin, Medi, a Rhagfyr, neu yn agos i hyny. Yng nghyfarfod Rhagfyr bob blwyddyn, etholir dau swyddog a elwir yn Oruchwylwyr y Gylchdaith, gwaith y rhai yw gofalu am gyllid y gylchdaith, cyfarfod treulion y gweinidogion, gwahodd gweinidogion i'r Gylchdaith, a chynddrychioli y Gylchdaith mewn llys uwch. Aelodau y Cyfarfod Chwarterol ydyw y gweinidogion a fyddont yn llafurio ar y Gylchdaith, goruchwylwyr y Gylchdaith, blaenoriaid a goruchwylwyr y cymdeithasau a'r tlodion, pregethwyr lleol, pan wedi bod yn eu swydd am dair blynedd, ac ymddiriedolwyr capeli, os yn aelodau eglwysig. Gan y cyfarfod hwn y mae cymmeradwyo ymgeiswyr am y weinidogaeth, a thrafod amgylchiadau eraill perthynol i'r Gylchdaith. Perthyn i bob Cylchdaith gyfarfod o'r Pregethwyr Lleol; hefyd, cyfarfod o holl Ymddiriedolwyr gwahanol gapeli y Gylchdaith. Unir nifer o gylchdeithiau ynghyd i ffurfio Talaeth. Cynhelir dau gyfarfod talaethiol mewn blwyddyn, y naill ym Mai a'r llall ym Medi, neu yn agos i hyny. Aelodau y cyfarfodydd hyn yw y gweinidogion a goruchwylwyr y cylchdeithiau. Yn y cyfarfodydd hyn, ymyrir â'r achos yn ei holl arweddion, yn ysprydol a chyllidol. Cynddrychiolir y cyfarfod talaethiol drachefn yn y Gynnadledd, llys uwchaf yr enwad. Yn ystod bywyd Mr. Wesley, er bod cynnadleddau yn cael eu cynnal yn flynyddol, bron yn ddïeithriad, etto efe ei hun ydoedd canolbwynt pob awdurdod a gallu; ond trwy yr hyn a elwir yn Weithred y Datganiad (*Deed of Declaration*), y mae'r gallu deddfwriaethol wedi ei gorphori yn y nifer o *gant* o weinidogion, y



Digitized by Google

rhai a elwir yn Gant Cyfreithiol (*Legal Hundred*), er yr arferai cynnifer a *saith* neu *wyth* gant o weinidogion a chymmeryd rhan yng ngweithrediadau y Gynnadledd. Yng Nghynnadledd 1878, dechreuodd cyfnod newydd yn hanes y cyfundeb, trwy dderbyniad lleygwyr i gymmeryd rhan yn ei gweithrediadau. Y maent yn bresennol i ymyryd â holl ranau cyllidol y gwaith, er mai i'r gweinidogion y perthyn penderfynu etto ar bobpeth sydd yn perthynu yn briodol i'r weinidogaeth. Fel hyn y mae Wesleyaeth yn gyfaddasiad graddol a chynhyddol o Gristionogaeth i gyfarfod anghenion amgylchiadau.

Yr oedd Wesleyaeth wedi ei sefydlu *un a thriugain* o flynyddoedd cyn cychwyniad Wesleyaeth Gymraeg. Yr oedd holl Wesleyaid Ewrop ar y pryd yn 109,961; America, 75,018; yn gwneud cyfanswm o 184,979. Nifer y cylchdeithiau rheolaidd ym Mrydain, ar wahân i'r gorsafau cenhadol, oedd 161, gyd â 449 o weinidogion, yn cynnwys yr uwchrifiaid.

Bellach rhaid i ni gyfyngu ein sylw at y Wesleyaid Cymreig; ac y mae planiad Wesleyaeth yng Nghymru yn cael ei gyssylltu, a hyny yn briodol, ynglŷn âg enw Mr. Edward Jones, Bathafarn. Ganed y gŵr hwn ar y 9fed o Fai, 1777, yn amaethdy Bathafarn, ger llaw hen balasdy o'r enw sydd yn Nyffryn Clwyd, o fewn milltir a hanner i dref Ruthyn. Enw ei dad oedd Edward Jones, ac enw ei fam ydoedd Jane. Ganwyd i'w rieni bedwar o blant eraill, sef dau frawd a dwy chwaer, Thomas, David, Jane, ac Ann. Edward, sef ein gwrthrych, oedd yr hynaf yn y teulu. Derbyniodd addysg well na'r cyffredin o'i gydradd, a'r hyn a ellid ei ystyried yn addysg dda, yn ol safon addysg gwlad yn yr oes honno. Ymddengys fod ei rieni yn glyd eu hamgylchiadau, ac yn alluog i fforddio talu am addysg felly i'w cyntaf-anedig; ac yr oedd Ysgol Rammadegol Rhuthyn, yn yr hon yr addysgwyd ef, mewn cyflwr pur lewyrchus y pryd hyny, ac yn cael ei golygu yn un o ysgolion rhagoraf Gogledd Cymru. Wedi gorphen ei ysgol, ac efe etto yn bur ieuangc, aeth oddi cartref i dref Manceinion, gan ddewis yn hytrach fyned yno i ddysgu trin cotwm, a chael gweled y byd, nag aros gartref gyd â'i dad i amaethu. Yr oedd o dymmer hynaws, wastad, a defosiynol er yn fachgen, ac o ymarweddiad dïargyhoedd a boneddigaidd yn y dref fawr a hudolus, fel yr oedd cyn myned yno, tra yr ydoedd o dan lygaid ei dad a'i fam. Y tebygolrwydd yw mai Eglwyswyr oedd ei rieni, ac mai ynghymmundeb yr Eglwys Wladol y dygasid yntau i fynu; ond trwy ryw fodd nas gwyddom, tueddwyd ef ym Manceinion i fynychu addoldy Seisnig y Wesleyaid yn *Oldham Street*. Un nos Sabboth, tu a diwedd y flwyddyn 1795, efe a ymunodd â'r gymdeithas, a phrofodd yr efengyl iddo yn allu Duw er iachawdwriaeth. Gweinidog ieuangc, a'i enw Marsden, oedd yn pregethu y noson honno, ac ymddengys iddo gael odfa rymus a llwyddiannus anarferol, canys tra yr oedd efe yn llefaru am y drugaredd faddeuol, yr oedd gwŷr cedyrn yn crynu, a phobl gelyd iawn yn wylo yn hidl; ac o'r diwedd aeth yn floeddio chwerw am drugaredd. Taflwyd y *vestry* yn agored, casglwyd y pregethwyr a'r blaenoriaid iddi, ac yna gwahoddwyd pob ymofynydd prydus am iachawdwriaeth i fewn attynt. Derbyniodd lliaws mawr y gwahoddiad; ac yno, yn swn y cynghori a'r gweddïo, adnabyddodd aml un drugaredd. Cyn diwedd y cyfarfod, wele ŵr ieuangc gwylaidd, eiddil gorph, a boneddigaidd yr olwg arno, yn codi oddi ar ei liniau, gyd â gwên yn chwarau trwy ei ddagrau, fel pelydr haul ar wlith y borau, gan ddatgan gyd â hyder mawr, "Cymmodwyd fi â Duw." Nid allai y gŵr ieuangc hwn fod yn fwy na deunaw mlwydd oed, canys cyfeirio yr ydym at fab Bathafarn. Dylid crybwyll fod un James Wood (tad y Dr. Wood, Southport), a Jabez Bunting (wedi hyny y Dr. Bunting, a llywydd y Gynnadledd bedair gwaith), ymhlith dychweledigion yr odfa hon, a bod cyfeillgarwch dwys ac anwyl wedi ymffurfio rhwng y gŵr ieuangc a nodasom a'r Cymro ieuangc o Ruthyn, yn benaf trwy gyfrwng eu cydymdrech âg ef i geisio ac i wneuthur daioni, ym Manceinion, am rai blynyddau ar ol eu tröedigaeth.

Yn y flwyddyn 1799, cymmerodd cyfres o amgylchiadau le oedd yn galw arno ef i adael y dref am dŷ ei dad. Yn ei eiriau ef ei hun, "Yr achosion a barasant fy nychweliad (i Gymru) oedd marwolaeth fy mrawd, henaint a methant fy rhieni, a'u bod hefyd dan gymmaint o ofalon bydol. Y mae'n wir fod fy iechyd y pryd hwn yn lled wanaidd, ac wedi bod felly er pan aethum gyntaf i Loegr; a bernid y buasai awyr iach gwlad fy ngenedigaeth yn dra llesol i mi." Er bod galwad ei gyfaill Bunting i waith y weinidogaeth, yn y flwyddyn honno, wedi lleihau ychydig ar ei ymlyniad wrth Fanceinion, etto profedigaeth lem i'w deimladau mwyaf cyssegredig oedd cefnu ar y dref,

Digitized by Google

a hyny yn benaf o blegid y parai y symmudiad iddo golli manteision crefyddol, a llu o gyfeillion oedd wrth fodd ei galon, a chael ei daflu i ardal i fyw lle nad oedd dim o gyfleusderau, na chymmaint ag un o bobl ei ddewisiad i'w cael yn agos iddi. Parai hyn fod y bwriad i ddychwelyd adref i fynwes ei rieni, er anwyled oeddynt ganddo, dristyd mawr i'w galon. "Yr oedd yn groes drom i mi," meddai, "i adael y fath freintiau a manteision, a dyfod i ardal nad oedd cymmaint ag un, ar a wyddwn i, yn proffesu yr un enw a mi." Cyn ymadael â Manchester, galwodd gyd âg arolygwr ei Gylchdaith, ac adroddodd iddo ei fwriad i ymadael, ynghyd â'i deimladau trallodus gyd â golwg ar anfanteision y symmudiad. Nid oedd yr arolygwr gweinidogaethol hwnw yn neb llai na'r hyawdl a'r enwog Samuel Bradburn. Derbyniodd Mr. Bradburn ef yn nodedig o dirion; do, fel tad ei fab anwyl ganddo, ac amlygodd deimlad dwys a charedig yn ei achos. Cynghorodd ef, ymhlith pethau eraill, i ymweled â phregethwyr Wesleyaidd Caerlleon ar ei ffordd adref, i erfyn arnynt ddyfod i Ruthyn yn awr ac eilwaith i bregethu. Dilynodd Mr. Jones y cyngor hwn. Arhosodd yng Nghaer ar ei ffordd adref. Galwodd yno ar Mr. Hutton, y gweinidog, ac arolygwr y Gylchdaith, yr hwn yn garedig a addawodd y deuai ef a'r pregethwyr eraill ar gylch drosodd yn achlysurol, yn ol ei gais, cyn gynted ag y gallai efe drefnu iddynt yn Rhuthyn ddrws agored. Hefyd, tra yn aros fel hyn yn ninas Caer, clybu am Gymro a'i enw John Bryan, oedd yn aros yn y ddinas, ei fod yn aelod, ac yn bregethwr cynnorthwyol gyd â'r Wesleyaid, ac yn abl i ddeall a siarad Cymraeg. Cafodd ef ym masnachdy Misses Williams. Cawsant ychydig eiriau gyd â'u gilydd ynghanol prysurdeb y siop; a dechreuodd cyfeillgarwch rhyngddynt ar yr awr honno a barhaodd yn ddigwmmwl dros weddill eu hoes. Agorodd ei fynwes i Mr. Bryan gyd â chalon rwydd; mynegodd am ei dröedigaeth a'i gyssylltiadau crefyddol dedwydd ym Manceinion, ei orfodaeth i gefnu arnynt oll er mwyn ei rieni, a'r trallod dirfawr a barai hyny iddo, yn benaf oll am nad oedd Wesleyaeth na Wesleyaid i'w cael yn Nyffryn Clwyd; ac at y cwbl, mynegodd ei ddyhewyd am weled achosion crefyddol yn cael eu sefydlu yn y Dywysogaeth gan bobl ei ddewisiad, ynghyd â'i fwriad difrifol i ymofyn am ddrysau agored i bwrpas felly yn Rhuthyn a'r amgylchoedd.

Cyrhaeddodd ein gwrthrych adref i Bathafarn ar y dydd olaf o'r flwyddyn 1799. Nis gwyddom yn sicr pa ddiwrnod o'r wythnos oedd y dwthwn hwnw; ond gwyddom hyn yn sicr ddigon, ei fod ef ymhen tridiau ar ol cyrraedd adref, sef erbyn y 3ydd o Ionawr, 1800, wedi cymmeryd lle cyfleus ymhen y dref, yn Rhuthyn, i gynnal ynddo gyfarfodydd crefyddol, sef ystafell fawr Mr. John Edwards, y cariwr. Y fath zel a phenderfyniad meddwl a ganfyddir yn forau yn hanes yr hwn a fu yn offeryn dechreuad Wesleyaeth yng Nghymru! Yn fuan wedi iddo ef sicrhau yr ystafell, daeth Mr. Riddal, un o weinidogion Caer, drosodd i Ruthyn, ac a bregethodd i gynnulleidfa dda a syml. Ond ni wnaed nemmawr o argraph ar y wlad na'r dref y waith hon, o blegid mai yn Saesneg y cynhelid y gwasanaeth. Anfynych y gallai gweinidogion Caer ddyfod mor bell a Rhuthyn, ac yr oedd y bobl yn parhau i ymgasglu i ystafell y cariwr, fel y daeth yn bwngc o angenrheidrwydd i'r gŵr ieuangc gwylaidd a ddechreuasai y gwaith i ymdrechu, hyd y gallai, i gyflenwi y diffyg, trwy gynnal cyfarfodydd gweddïau, darllen i'r bobl un o bregethau argraphedig Mr. Wesley, a phob yn ychydig ac ychydig i draddodi gair o gyngor iddynt ar ei gyfrifoldeb ei hun. Ac at hyn yma, deuai Mr. Harrison yno, weithiau, o Laneurgain, ger llaw y Wyddgrug; Mr. Evan Roberts, o dref Dinbych; Mr. Linnel, o Lansanan; a Mr. Bryan, o Gaerlleon, ac a bregethent i'r bobl. Ym mis Chwefror, 1800, ceir hanes yr olaf yn ymweled â Rhuthyn, dybygid, am y waith gyntaf, ac yn cynnal odfa rymus iawn. Aeth mab Bathafarn, a chynnifer o wŷr ieuangc ag oedd wedi ymwasgu ato, i gyfarfod y pregethwr borau Sul, i ben Foel Famau, mynydd o ddeutu tair milltir o Ruthyn; ac wedi cwrdd âg ef, ymunodd y pregethwr â hwynt i ganu pennill ar ben y mynydd, sef y geiriau canlynol:—

"Newyddion braf a ddaeth i'n bro," &c.

Ac wrth fyned i mewn i'r dref, canasant drachefn, yn Saesneg y tro hwn,—

"Let heaven and earth agree," &c.

Bu hyn yn foddion i gynhyrfu trigolion y dref, a daeth tyrfa fawr ynghyd am ddau yn y prydnhawn, ac am chwech yn yr hwyr, i wrando ar bregethwr y "sect newydd." Bu y weinidogaeth dan arddeliad mawr; ac ar derfyn y dydd, ymunodd amryw o'r newydd â'r gymdeithas. Ynglŷn â hanes ymweliad arall o eiddo Bryan â'r lle, ym mis Mehefin y flwyddyn honno, ceir gweled fod

Digitized by Google

yr achos yn Rhuthyn wedi tyfu i gryn faintioli mewn amser byr; bod canghenau o hono wedi ymestyn i'r trefi cymmydogol, sef mor bell a Chorwen ar un llaw, a Llanrhaiadr ar y llaw arall; a bod y cyfeillion a fuont yn cynnal rhyw fath o achos Saesneg yn nhref Dinbych er ys deuddeng mlynedd, wedi cael calondid dirfawr.

Ond er hyn oll, ymddengys fod yspryd Mr. Jones o hyd yn anesmwyth, ac yn dyheu am ryw ddarpariaeth amgenach na hyn, o ran cyflawnder a sefydlowgrwydd, i gyfarfod anghenion crefyddol Rhuthyn a'r amgylchoedd. Ië, hiraethai am weled sefydlu cenhadaeth Wesleyaidd Gymreig yn y Dywysogaeth. Teimlai fod y cymdeithasau a ffurfiasid eisoes yn cael cam o eisiau bugeiliaid ysprydol i ofalu am danynt, a bod galwad ar y cyfundeb i ba un y perthynai i ddyfod allan yn gynhorthwy tu ag at efengyleiddio Cymru. Fel yr oedd ei egnïon ef ac eraill yn llwyddo, a'r "sect newydd" yn dyfod i sylw, codai gwrthwynebiadau lled fygythiol i'w erbyn ef a'r achos, o wahanol gyfeiriadau, oedd yn tueddu i'w ddigaloni. A chan faint ei bryder ynghylch yr achos a garai mor fawr, ac heb arwyddion ymwared o un man yn ymddangos, ond yn hytrach fod y rhwystrau yn ymgryfhau, efe a gymmerodd ato i'r fath raddau nes amharu ei iechyd yn enbyd. Ofnid gan ei gyfeillion ei fod ymhell yn y darfodedigaeth, ac i ganlyn ei nerth corphorol collodd ei yspryd, a syrthiodd i brudd-der mawr. Un diwrnod, tu a chanol mis Awst, 1800, yr oedd ei yspryd wedi suddo yn ddyfnach nag arferol, yn gymmaint felly hyd nes penderfynu gofyn i Dduw am gael marw, a dïangc am byth o'i boen. Yn coledd meddyliau fel hyn, cychwynodd yn bendrwm o'r tŷ. Cyfeiriodd ei gamrau yn araf tu a'r foel sydd yn codi rhwng Bathafarn a'r Wyddgrug; amcanai gael esgyn i'w choppa, a chael taflu oddi yno un edrychiad hiraethlawn ynghyfeiriad Manceinion; ac wedi hyny, llawn fwriadai erfyn ar yr Arglwydd i'w gymmeryd ymaith oddi ar y ddaear, fel y cymmerasai Moses ei was o ben y mynydd, ato ei hun. Tra yn dringo ochr y foel yn llesg ac athrist, clywai lais o'i ol yn galw yn sydyn, "Mr. Jones! Mr. Jones!" gan chwanegu, "Mae eich eisiau chwi adref yn union; mae acw lythyr i chwi." Pan droes i edrych, canfyddai mai un o weision ei dad oedd yn galw ar ei ol, oedd wedi cael ei anfon ar frys i'w gyrchu i'r tŷ. Troes yn ol gyd â'r llangc, mewn digalondid mawr, gan ofni mai rhywbeth i'w boeni ef oedd yn y llythyr a dderbyniwyd. Ac yn awr, tra y mae'r gŵr ieuangc pruddglwyfus a llesg yn cyrchu tu a'r tŷ, gadewch i ni edrych yn ol am gyssylltiadau a rhagflaenorion yr epistol prydlawn hwn.

Cynhelid y Gynnadledd Wesleyaidd y flwyddyn honno yng nghapel City Road, Llundain; y Parch. James Wood yn llywydd, a'r Parch. Samuel Bradburn yn ysgrifenydd. Yr oedd y Dr. Coke, y Cymro haelfrydig o Aberhonddu, yn bur ddiweddar yn cyrraedd y brifddinas, o herwydd cael ei gadw yn y Werddon dros amser gan wyntoedd croesion. Cyn ei ddyfod ef i'r Gynnadledd, yr oedd tipyn o siarad wedi bod am sefyllfa ac anghenion Cymru; ond nid oedd dim wedi cael ei wneuthur ar ei chyfer. Erbyn hyn yr oedd sefydliadau y gweinidogion wedi eu cwblhau: Owen Davies i lawr ar Gernyw, a John Hughes ar Leek, ynghanolbarth sir Stafford; a gobaith Cymru, am y flwyddyn honno o leiaf, ar fachludo. Ar hyn, dyma y Doctor pybyr i mewn i'r Gynnadledd, ac yn ddïoed cynhygiodd, ar y 6ed o Awst, fod cenhadaeth i gael ei sefydlu yng Ngogledd Cymru; a dadleuodd achos ei wlad mor effeithiol fel ag i gario ei gynhygiad trwy y cyfarfod. Chwanegwyd at y gorsafau un gylchdaith newydd, sef *Rhuthyn;* a sefydlwyd arni, fel y cenhadon Cymreig cyntaf o bennodiad y Gynnadledd, Owen Davies a John Hughes. Wedi trefnu pethau fel hyn, ysgrifenodd y Parch. Owen Davies at Mr. Jones, Bathafarn, yn adrodd yr hanes. A phan gyrhaeddodd Mr. Jones y tŷ o lethr y foel, yn ol cais y genad a anfonasid ar ei ol, ac agor y llythyr oedd yn disgwyl am dano, canfu, er ei syndod a'i lawenydd, enw "Owen Davies" dano, a'r newydd cysurlawn a ddarluniwyd yn cael ei ddatguddio ynddo. Trodd hyn ei alar yn gân, a'i dristwch yn orfoledd. Adfywiodd ei holl natur, ei gorph, a'i yspryd hefyd. Nid oedd dim cwynfan mwyach, na son am farw chwaith. Yn lle dymuno cael marw ar y mynydd, fel Moses, dymunai bellach gael byw gyd â Josua, i weithio ei ran yng ngwasanaeth ysprydol ei genedl a'i wlad. "Parodd y newydd hwn," eb efe, "y fath lawenydd i'm calon, fel na theimlais y nychdod a'r gofid hwn mwy." Dydd Iau, y 27fed o Awst, 1800, gwnaeth Owen Davies a John Hughes eu hymddangosiad yn Rhuthyn, a dechreuwyd gwaith mawr Wesleyaeth Gymreig mewn modd rheolaidd a ffurfiol yn y Dywysogaeth, yr un flwyddyn ag y dechreuodd y ganrif hon.

Wedi i ni adrodd hanes bywyd a llafur cariad

Digitized by Google

Jones, Bathafarn, hyd adeg sefydliad Wesleyaeth yng Nghymru, eiddunwn genad y darllenydd i sefyll am ychydig yn y fan hyn, ac i droi oddi wrtho ef i olrhain y rhagbarotoadau mawrion oedd wedi cymmeryd lle yng ngolygiadau a sefyllfa gymdeithasol Cymru i dderbyn Trefnyddiaeth yn ei ffurf Wesleyaidd, yr hyn sydd, i raddau helaeth, yn cyfrif am lïosowgrwydd y drysau agored oedd o flaen y cenhadon drwy yr holl wlad, ynghyd â'r llwyddiant mawr fu ar eu gweinidogaeth a'u trefniadaeth yn nychweliad dynion at Dduw, ac yn nifer, llïosowgrwydd, a nerth yr eglwysi a blanwyd trwy eu hofferynoliaeth yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Tra yr ydys yn arfer cydio dechreuad Wesleyaeth yn Nghymru âg enw Jones, Bathafarn, y mae'n briodol cofio fod gweithwyr eraill yn cymmeryd rhan, a rhan swyddogol bwysicach nag ef, yn y gwaith hwn, hwyrach mai yn y cyfwng hwn yn ei hanes ef y mae'n fwyaf cyfleus gwneuthur "byr goffa" o'u hanes, eu llafur, a'u cymmeriad hwythau.

Fel y ceir gweled wrth fyned ym mlaen gyd â hanes bywyd ein gwrthrych, a'i gydweithwyr gweinidogeuthol, yr oedd rhyw *addfedrwydd nodedig* yn y Dywysogaeth i dderbyn eu cenadwri, mewn canlyniad, yn ddïau, i ddylanwad rhyw nerthoedd oedd wedi bod yn cynhyrfu y wlad, ac yn parotôi y ffordd o'u blaen. Tra y mae symmudiadau crefyddol o'r fath yn cael eu harwain gan ychydig ddynion amlwg ac arwrol, etto nid ydynt un amser yn digwydd heb fod yna ddynion llai amlwg wedi bod yn llafurio ac yn addfedu y wlad ar gyfer y chwyldroad mawr. A thra y gwelir amgylchiadau, yn y naill engraifft, yn creu dynion mawr i gyflawni y gwrhydri, y mae yn yr engraifft arall olwg ar ddynion llai wedi bod wrthi am genedlcuthau, hwyrach, yn gweithio yn ddistaw, ac yn creu amgylchiadau. Fel hyn y bu yn hanes diwygiadau gwladwriauthol; ac y mae'r un peth yn wir gyd â golwg ar foddion effeithiol diwygiadau crefyddol. Yr oedd ar y Cyfandir aml i Ioan Fedyddiwr wedi bod yn parotôi ffordd Martin Luther, pendragon y Diwygiad Protestanaidd: "Diwygwyr cyn y Diwygiad," fel y'u gelwir. Ac yr oedd Walter Brute, Sion Cent, ac eraill, wedi cyflawni gwasanaeth lled fawr fel rhagredegwyr y Diwygiad Protestanaidd yng Nghymru. Yr oedd y Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr, yn y ddeunawfed ganrif, yn cael ei ragflaenu gan wylwyr oedd yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos, ac yn disgwyl am y borau. A'r un modd y bu ynglŷn â chyfodiad Wesleyaeth yng Nghymru, yr hyn a adroddir gan y diweddar Barch. W. Davies, D.D., fel y canlyn:—

"Un o'r pethau hynotaf, fe allai, yn holl hanes y symmudiad dan sylw, sef cychwyniad Wesleyaeth yng Nghymru, oedd y *parodrwydd meddwl* a amlygwyd mewn llïaws o engraifftiau i wneud derbyniad o Wesleyaeth pan gafwyd y cynhygiad o honi. Cafodd ein cenhadon cyntaf, mewn llawer o fanau, yng ngwir ystyr y gair, 'bobl barod' iddynt: cawsant eu 'hamserau' wedi eu rhagddarparu iddynt. Nid plygu eu 'hamserau' i'w hamcanion eu hunain a wneuthant; ond tystia pob peth fod rhyw law ddirgelaidd ac oll-effeithiol wedi bod ar waith yn rhagbarotoi Cymru i'r Wesleyaid, cyn gwneuthur o'r cenhadon eu hymddangosiad yn y wlad. Eu cipio ymaith a gawsant hwy, a hyny bron heb yn wybod iddynt eu hunain, gan 'Yspryd yr Arglwydd,' a llifeiriant amgylchiadau. Addefwn yn rhwydd, a dadleuwn hefyd, fod ein tadau hyny wedi eu cymhwyso yn gyflawn, yn hynod o gyflawn, i'r 'amserau' ag y disgynasant arnynt; ond rhaid i ni addef hefyd, yn llawn mor rhwydd a hyny, fod y llaw alluog honno a fu yn eu cymhwyso hwy i'w 'hamserau' wedi bod ar waith, ar yr ochr arall hefyd, ym cymhwyso yr 'amserau' mewn modd nodedig iddynt hwythau. Gwnaeth yr 'unig ddoeth Dduw,' yn yr achos hwn, fel ymhob achos arall, 'y naill ar gyfer y llall,' a phob peth yn deg yn ei amser."

Y mae genym lïaws o esamplau o hyn, ar y rhai y gellid ymheleuthu; ond ni oddef lle i ni nodi ond ychydig o honynt. Yr oedd Wm. Thomas a'i wraig Jane, o Gonwy, ymhlith y Wesleyaid cyntaf yn y dref honno, pan aeth Mr. Jones, Bathafarn, a Mr. Bryan, yno i bregethu. Gwraig arall gyffelyb oedd Dorothy Pierce, Ribo, ger llaw Llanrwst, yr hon a dderbyniodd y Parch. John Hughes a'i athrawiaeth yn llawen. Yr oedd gŵr pwyllog a synhwyrol, a'i enw William Jones, yn byw mewn ameuthdy golygus a elwid Coch-y-moel, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Yr oedd ei wraig yn aelod gyd â'r Methodistiaid, ac yntau yn wrandawr cysson arnynt; ond yn ei fyw nis gallai dderbyn eu hathrawiaeth. Tu a'r flwyddyn 1803, clybu fod un o'r Wesleyaid i bregethu yn Sarn-Follteyrn, ger llaw Coch-y-moel, ac aeth i wrando arno; a chafodd y fath foddlonrwydd yn ei athrawiaeth fel y dywedodd, "Dyma fy mhobl i, a'u Duw hwynt a gaiff fod yn Dduw i minnau." Cyffelyb yr ymddygodd William Jones, Bryntirion, sir Feirionydd; Robert Jones, Brithdir, sir Drefaldwyn; ac amryw eraill y gallasid eu nodi pe goddefasai lle. Dengys yr esamplau hyn, a'u cyffelyb, bod "amserau" Mr. Jones, Bathafarn, a'i gydweithwyr, wedi eu parotôi iddynt yn llawn cyn i un o honynt ddechrau gweithredu arnynt.

Fel ail achosion i sefydliad Wesleyaeth yng Nghymru, nodwn rai pethau mor fyr ag y gallwn. Un, yn ddïau, oedd ymweliadau mynych Mr. Wesley â'r wlad. Digwyddodd hyn mor forau a'r

Digitized by Google

flwyddyn 1739, y flwyddyn y sefydlwyd y gymdeithas Wesleyaidd gyntaf yn y byd. Ac o'r flwyddyn honno hyd ddiwedd ei oes, ymwelodd â'n gwlad dros *ddeugain o weithiau;* ac nid dyfod yma i syllu ar ryfeddodau natur y byddai efe, er ei fod yn ddigon galluog i hyny, ond i weithio gwaith yr hwn a'i hanfonodd. Rhaid bod ymweliadau bendithfawr Mr. Wesley â'n gwlad wedi parotôi llawer arni i dderbyn y cenhadau Cymreig. Achos arall a gyfranodd at hyn oedd sefydliad cylchdeithiau Wesleyaidd Seisnig yma a thraw ar hyd terfynau Cymru. Dechreuwyd ar hyn er ys mwy na chan mlynedd yn ol, canys ni a gawn weinidogion Seisnig rheolaidd yn llafurio yn gysson yn sir Benfro, Caerfyrddin, Morganwg, a Mynwy. Ymhen yspaid wedi hyny, cawn y cyrau terfynol o siroedd Trefaldwyn, Dinbych, a Fflint, yn cael eu teithio yn ddiwyd gan "bregethwyr Mr. Wesley." Ac y mae'n naturiol meddwl fod presennoldeb a llafur dynion fel Samuel Bradburn, James Wood, John Mason, James Buckley, ac eraill cyffelyb, yn rhwym o effeithio, er nad yn uniongyrchol, etto yn sicr, ar hyd yn oed y meddwl Cymreig. Ond at y pethau amlwg hyn, y mae'n ddigon sicr fod yna achos arbenig arall wedi bod ar waith, os yn ddistaw a thawel, etto yn rymus ac effeithiol iawn, sef amlhâd Biblau Cymraeg yn yn y ganrif ddiweddaf. Y mae'n ffaith nodedig fod yspryd darllen y Bibl wedi disgyn mewn modd grymus iawn ar Gymru tu a'r chwarter olaf o'r ganrif ddiweddaf; ac y mae'n ddïogel genym fod hwnw i'w briodoli, yn fwyaf neillduol, dan Dduw, i'r "Diwygiad Methodistaidd" cyntaf. Pa un bynag, y mae'n hyfryd iawn adgofio fod y duedd fendigedig i chwilio yr Ysgrythyrau wedi cael ei swcro a'i chefnogi yn fawr gan ddynion crefyddol a galluog yr oes, ac yn neillduol felly gan rai offeiriaid duwiol a dysgedig. Y mae'n debyg iawn fod "Y Gymdeithas er Lledeunu Gwybodaeth Gristionogol" wedi cyhoeddi yn y ganrif ddiweddaf o ddeutu deugain mil o'r Bibl Sanctaidd at wasanaeth y Cymry uniaith;* ac y mae'n deilwng o goffadwriaeth barchus a dïolchgar hefyd fod y Parch. Peter Williams wedi gwasanaeuthu ei genedl yn zelog a hunanymwadol iawn yn y ffordd arderchog honno.† Trwy bob peth, daeth gair Duw i gyrraedd y bobl yn eu hen iaith eu hunain, a mawr y chwilio oedd arno. I orphen y cwrsweithrediad rhagbarotoawl dan sylw, ni a gawn ambell bregethwr Cymreig yn cynniwair yma a thraw, gan bregethu yr athrawiaeth Wesleyaidd. Dros gan mlynedd yn ol, deng mlynedd ar hugain cyn sefydliad Wesleyaeth yng Nghymru, dygwyd gŵr a'i enw Harri Llwyd, o'r Rhydri, yn sir Forganwg, i adnabod y gwirionedd trwy lafur y pregethwyr Seisnig. Ymhen ychydig wedi ei ddychwelyd at Dduw, dechreuodd bregethu; a chan ei fod yn fwy o Gymro nag o Sais, treuliai lawer iawn o'i amser yn tramwy i wahanol fanau ymharthau mwyaf deheuol Cymru, gan bregethu Cymraeg i'w gyd-genedl ynddynt. Ymhen ychydig bach o amser ar ol codiad Harri Llwyd yn y Deheubarth, rhoddes Duw anrheg gyffelyb i'r Gogledd hefyd. Arweiniwyd gwehydd synhwyrol a'i enw Richard Harrison, ar ryw neges neu gilydd, o Laneurgain, yn sir Fflint, i Liverpool. Tra yn y dref honno, arweiniwyd ef rywfodd i wrando ar weinidog Wesleyaidd yn pregethu. Glynodd y gair ynghalon y gwehydd, a dychwelodd i Gymru yn greadur newydd. Gwaith cyntaf Harrison ar ol cyrhaeddyd adref oedd ymwasgu â'r disgyblion, trwy ymuno â'r gymdeithas Seisnig yn y Bryngwyn. Dechreuodd bregethu yn y man, a bu o fendith fawr ymharthau Cymreig sir Fflint, a chyrau sir Ddinbych. Ymhen blynyddoedd ar ol hyn, cyfododd Duw yr hen bererin zelog, Evan Roberts, o Ddinbych, i fendithio Dyffryn Clwyd a'i amgylchoedd â'i bregethau cynnes, ac â'i gynghorion gwerthfawr. Ac yn y modd yma yr oedd ambell i offeryn ar waith yn parotôi ffordd cenhadon dewrion yr "iachawdwriaeth gyffredinol." Dyma, ynte, sefyllfa pethau yng Nghymru pan ddychwelodd "Jones, Bathafarn," o Fanceinion, ac y cymmerodd ystafell fawr y cariwr yn nhref Ruthyn fel tŷ cyfarfod.

"Yr oedd ymweliadau Mr. Wesley â'r Dywysogaeth, a llafur ei bregethwyr Seisnig ef yma a thraw ynddi; yr oedd amlhâd Biblau Cymraeg, a'r yspryd darllen a chwilio a ddilynodd hyny, ynghyd â llafur anymhongar ychydig o bregethwyr lleoi Cymreig, dan fendith Duw, wedi cydweithio yn effeithiol er parotôi Cymru i'r symmudiad mawr oedd yn awr ar gymmeryd lle. Yr oedd y maes yn barod i'r had pan roddes yr hauwr ei droed anturieuthus arno. Mewn geiriau eraill, yr oedd llawer o eneidiau pryderus yn disgwyl am y wawr, fel y gwylwyr am y borau."

Ar ol bwrw golwg ar sefyllfa ragbarotöedig ein gwlad i dderbyn athrawieuthau y cyfundeb y bu

* Cyhoeddodd y "Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol" 110,000 o gopïau o'r Bibl, a 400 o Destamentau, o 1718 hyd 1799, yr yspaid o 81 mlynedd; ond cyhoeddodd y "Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor," yr hon y bu'r Parch. T. Charles yn foddion i'w sefydlu, 319,115 o gopïau o'r Bibl Cymraeg; 437,644 o Destamentau; a 1,986 o rai Cymraeg a Saesneg; oll yn 818,745 o gopïau, o 1806 hyd 1853, yn yr yspaid o 47 mlynedd!—Llyfr y Jubili, t. 58–61; gwel T. Charles, pen. xviii. o'r llyfr hwn, y vi.—Gol.

† Gwel Peter Williams, yn y bennod ganlynol.—Gol.

Jones, Bathafarn, y prif offeryn i'w ddwyn yma, goddefer i ni adrodd, yn fyr, hanes bywyd a llafur y ddau genhadwr cyntaf a sefydlwyd yn y Dywysaeth trwy bennodiad y gynnadledd Wesleyaidd, ynghyd â chydweithwyr eraill ein gwrthrych, a fuont yn foddion sefydliad a lledeuniad y gwaith mawr a gychwynwyd trwy ei offerynoliaeth ef. Dechreuwn gyd â'r Parch. Owen Davies, o blegid mai efe a bennodwyd yn arolygwr y "Welsh Mission," fel ei gelwid, i gymmeryd y gofal a'r cyfrifoldeb dros yr holl faes eang oedd yn awr yn agored o'i flaen. Ganwyd ef yn Wrecsam, yn y fl. 1752; ond efe a symmudwyd i Loegr yn bur ieuangc, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i ddyddiau boreuol. Ym mysg y Saeson y dychwelwyd ef at grefydd, ac y dechreuodd bregethu yr efengyl. Cydoesai am rai blynyddoedd â Mr. Wesley, ac ar ei gymhelliad ef y derbyniwyd Mr. Davies i waith rheolaidd y weinidogaeth, pan oedd yn 37 oed; a gwnaed ef yn arolygwr y genhadaeth Gymreig yn y fl. 1800. Arddangosodd lawer o ddoniau y trefnydd yn ystod yr 16 mlynedd y bu yn gofalu am y genhadaeth Gymreig. Rhagorai fel cynllunydd a disgyblydd. Adweunai y llwybr doethaf i sefydlu gorsafau cenhadol newyddion, i ddosparthu maes a dyledswyddau y llafur ychwanegol a gynhyrchid trwy hyny, ac i wneuthur y gorau o'r dynion a'r defnyddiau a ymddiriedasid i'w ofal. Un anfantais bwysig i'w ddefnyddioldeb fel pregethwr ydoedd ei anallu i bregethu yn yr iaith Gymraeg. Llwyddodd i ddysgu yr iaith mor bell ag i allu ei darllen, ei deall, a'i siarad mewn ymddiddanion cyffredin; ond ni cheisiodd bregethu ynddi ond unwaith (yn Rhuthyn), hyd y gwyddys, ac ni wnaeth nemmawr ddim trwy y cais hwnw, namyn profi i'w foddlonrwydd ei hun ac eraill ei anallu hollol i bregethu yn Gymraeg. Pregethai yn Saesneg yn rhagorol. Parhaodd i bregethu mor fynych ag y goddefai ei nerth iddo, yn ystod y deuddeng mlynedd y bu fyw. Ond daeth diwedd ar ei einioes yntau. Ei eiriau olaf oeddynt, "Ewyllys yr Arglwydd a wneler." Bu farw y 12fed o Ionawr, 1830, yn y 78fed flwyddyn o'i oedran.

Y gŵr a bennodwyd i gydlafurio â Mr. Owen Davies oedd John Hughes, Aberhonddu, fel y gelwid ef, yr hwn oedd, yntau hefyd, yn Gymro trwyadl. Ganed ef yn Aberhonddu, ar yr 18fed o Fai, 1776, ac felly yr oedd efe ryw ychydig ddyddiau dros flwyddyn yn hynach na Jones, Bathafarn. Anfonwyd John Hughes i'r ysgol yn bur ieuangc, a rhagorodd yn fuan ar ei gydysgolheigion, yn enwedig yn yr ieithoedd gwreiddiol. Dywedir ei fod yn gyfarwydd â'i Destament Groeg pan nad ydoedd ond pymtheng mlwydd oed; ac wrth dyfu i fynu, daeth yn ysgolhaig uwchraddol a chlasurol. Brodor o Aberhonddu hefyd oedd y Dr. Thomas Coke, a Chymro o "waed coch cyfan" oedd y dŷn mawr a haelfrydig hwnw. Wedi ei eni yn y flwyddyn 1747, yr oedd ef o ddeutu naw mlynedd ar hugain yn hynach na John Hughes, ac wedi dechrau ar waith y weinidogaeth y flwyddyn y ganed ef. Offeiriad yn yr Eglwys Wladol oedd Thomas Coke ar y cyntaf; ond ar ol ei ddychweliad gwirioneddol at Dduw, efe a ymwasgodd at Mr. Wesley a'i ganlynwyr, a chymmerodd y dyddordeb mwyaf, a rhan helaeth, yn llwyddiant Wesleyaeth. Yn 1786, rhoddwyd yr achos cenhadol tramor i'w ofal, a chroesodd y môr ddeunaw gwaith yn ei herwydd. Yn 1784, ordeiniwyd ef gan Mr. Wesley yn esgob i'w ganlynwyr yn America; a mawr oedd y gwasanaeth a gyflawnodd ynglŷn â sefydliad y cyfundeb ar y cyfandir mawr Gorllewinol. Teithiodd lawer cyn ac wedi hyny yng Nghymru a Lloegr, i bregethu yr efengyl, ac i gasglu at y genhadaeth. Pan oedd John Hughes o ddeutu 13 oed, daeth y Doctor ar ei daith, a phregethodd yn Aberhonddu; ac o dan y bregeth honno, derbyniodd y gŵr ieuangc argyhoeddiad dwys o bechod. Bu mewn ing meddwl cyn cael ei ddwyn i fwynhau tangnefedd yr efengyl. Yn y cyfamser, glynai wrth ddarllen treuthodyn o waith Fletcher; derbyniodd gymmorth un "Sion Gloff;" cafodd les mawr dan bregeth un o'r gweinidogion Seisnig a lafuriai ar y pryd ym Mhenfro; a bu o leiaf unwaith, yn y cyfnod cyfyng hwn arno, dan weinidogaeth Mr. Wesley, yr hwn a bregethai yn Aberhonddu ar ei daith o gynnadledd Caerodor. Yn y flwyddyn 1792, terfynodd ei ysgol, a symmudodd i Gaerlleon-ar-Wysg, i fyw at ewythr iddo o frawd ei fam oedd yno yn offeiriad yr Eglwys Wladol. Y bwriad y pryd hyny oedd ei ddwyn yntau i fynu yn "berson;" ond oddi ar ei ymlyniad wrth ddaliadau "y sect newydd," safodd yn benderfynol yn erbyn hyny. Cefnodd ar yr ewythr, a dychwelodd at ei rieni a'i bobl i Aberhonddu. Cyn hir ar ol hyn, dechreuodd bregethu gyd â'r Wesleyaid; ac yn 1796, gosodwyd ef ynghyflawn waith y weinidogaeth, pan nad oedd uwch law ugain mlwydd oed. Nid oedd achos Cymraeg gan y cyfundeb yn yr holl fyd y flwyddyn honno; ac, wrth gwrs, i'r gwaith Seisnig yr aeth Mr. Hughes,

Digitized by Google

a chyd â hwy y bu yn llafurio am bedair blynedd cyn cael ei anfon ynghymdeithas Owen Davies i sefydlu y genhadaeth Gymraeg yn 1800. Bu am flwyddyn yn y lleoedd canlynol: Caerdydd, Hwlffordd, Caerdydd (yr ail waith), a Thrallwm. Er mai yn y gwaith Seisnig y llafuriai, etto y mae'n hynod mai Cymru oedd ei facs, a hyny yn aml ymlith pobl oedd yn medru deall a siarad Cymraeg; a dichon fod a fynnai hyn fwy nag a feddylir â pharotôi ffordd sefydliad y genhadaeth Gymreig. Gwelsom yn gynnar yn hanes Jones, Bathafarn, mai'r Dr. Coke a fu yn offerynol i sicrhau awdurdod y gynnadledd yn 1800, gyd â sefydliad y genhadaeth a phennodi y cenhadon Cymreig; a phan ychwanegir at hyn y ffaith mai o drysorfa y Genhadaeth Dramor, yr hon oedd dan ofal uniongyrchol y Doctor, yr estynid cymmorth tu ag at gynhaliaeth y cenhadon Cymreig, y mae'n amlwg mor agos oedd y cyssylltiad rhwng y Dr. Coke â'r holl symmudiad. A phan gofiom ymhellach am y gydnabyddiaeth agos ac anwyl a ffynnai rhwng y Dr. Coke â John Hughes, nid annaturiol yw tybio fod a fynnai yr hyn a welodd, a glywodd, ac a deimlodd calon John Hughes yn achos ei genedl, yn ystod y pedair blynedd y bu'n llafurio yn y cylchdeithiau Seisnig yng Nghymru, gyd â zel angerddol, â gweithrediad pybyr y Doctor yn achos y Cymry; ac o ganlyniad, fod a fynnai John Hughes fwy nag a gydnabyddir gan haneswyr yn gyffredin â sefydliad Wesleyaeth yng Nghymru. Modd bynag am hyny, ar ol ei sefydliad yn y gwaith Cymraeg yn 1800, ceir ei hanes yn pregethu ar deithiau meithion yngwahanol siroedd y Gogledd. Ar ol bod chwe blynedd yn y gwaith Cymreig, dychwelodd at y Saeson. Ymhen tair blynedd, ceir ei enw drachefn ynglŷn â'r genhadaeth Gymreig am yspaid un flwyddyn. Gyd â'r eithriad o ychydig fisoedd yn Rhuthyn, ni lafuriodd ddim yng Nghymru y flwyddyn honno, gan iddo gael ei symmud ym mis Chwefror i Lundain, i gyfieithu a golygu dygiad allan esponiad Coke yn yr iaith Gymreig. Ar ol cyhoeddi chwech o rifynau o hono, enciliodd oddi wrth y gorchwyl diddïolch hwnw, ac a dreuliodd weddill ei oes yn y weinidogaeth Seisnig. Yn y flwyddyn 1811, bu'r Dr. Coke yn daer arno i fyned i'r India yn genhadwr. Ond gwrthododd y cais hwnw; ac yn yr un flwyddyn, priododd ferch grefyddol a'i henw Esther Clarke. Gofod a ballai i'w ddilyn ymhellach o gylchdaith i gylchdaith. Wedi teithio o hono am 36 mlynedd, yn y flwyddyn 1832 eisteddodd i lawr fel uwchrif, gan fyw mewn lle a elwir Knutsford, yn sir Gaer. Ar ol cyrraedd oedran teg, a nychu yn raddol, bu farw yn orfoleddus ar y 15fed o Fai, 1843, yn 67 oed.

Fel llenor, cyhoeddodd Mr. Hughes, rhwng pob peth, o ddeutu 14 o wahanol weithiau. Cyfieithiadau o'r Saesneg ydyw rhai o honynt; eraill nid ydynt amgen na llyfrynau bychain. Yn Saesneg yr ymddangosodd ei brif weithiau. A ganlyn sydd restr o radd o'i weithiau argraphedig:—"Natur a Diben Rheolau Cyffredinol y Trefnyddion Wesleyaidd," 1804; "Llyfr Hymnau," 1802; "Athrawiaeth Rhaglunieuthiad Dwyfol, a dwy Bregeth," 1803; "Prynedigaeth Gyffredinol," 1803; "Pregeth ar Eph. v. 14," 1802; "Horæ Britannicæ, or Studies in Ancient History," yn 2 gyfrol 8plyg, 1819; "An Essay on the Welsh Language," 1822; "A Plea for Religious Liberty;" "Theological Essay and Discourses on Public Worship;" "The Book of the Chronicles of the Methodists, and their sojournings in the Land of Cambria," 1804. Ymddangosodd cyfieithiad o'r llyfr hwn yn yr *Eurgrawn*, 1842. Dechreuodd hefyd ysgrifenu sylwadau byrion ar y Bibl ar ol pob pennod, tebyg i'r eiddo y Parch. Peter Williams; ond pallodd ei ddyfalbarhâd yntau yn hyn o orchwyl gyd â diwedd llyfr Genesis. Bu yn ohebydd cynhyrchiol i'r *Eurgrawn* am y blynyddoedd cyntaf. Derbyniodd wobrwyon gan Gymdeithas y Cymmrodorion am ei weithiau dysgedig, a thri bathodyn arian, yn cynnwys cerfiadau priodol. Yn 1824, cynhaliwyd Eisteddfod Powys, ac efe, dan y ffugenw "Blegwyryd," a ennillodd y wobr ar y prif destyn. Yr oedd ef yn gyfarwydd yn rheolau barddoniaeth, a chyfansoddodd ychydig, gan mwyaf emynau. Prin y gellir dywedyd ei fod wedi ei eni yn fardd. Ieithoedd a hynafieuthau oedd y canghenau y rhagorai fwyaf ynddynt.

Yn y gynnadledd a gynhelid yn Leeds, yn 1801, galwyd John Bryan allan i waith rheolaidd y weinidogaeth, a phennodwyd ef i gydlafurio â'r ddau genhadwr ar gylchdaith Rhuthyn; a chan mai efe oedd y cyntaf a alwyd allan yn weinidog ynglŷn â'r genhadaeth Gymreig, dylem roddi byr-nodion am dano cyn ail ymaflyd yn hanes Mr. Jones, Bathafarn.

Brodor o sir Drefaldwyn oedd John Bryan. Ganed ef yn Llanfyllin, yn y flwyddyn 1770. Symmudodd ei rieni i fyw i Groesoswallt, pan nad ef ond ieuangc iawn; ond trwy garedigrwydd un John Rogers, ewythr iddo o frawd ei fam,

cafodd ef aros yn Llanfyllin. Bu fyw gyd â'i ewythr hwn hyd nes oedd yn ddeuddeng mlwydd oed, yn cael ei fagu yn dyner, a'i addysgu, nid yn unig yn addysg yr ysgol ddyddiol, ond hefyd mewn rhinwedd a chrefydd. Ar farwolaeth ei ewythr, symmudodd y bachgen i'r Amwythig, lle y bu am o ddeutu deng mlynedd. Yna aeth i Gorwen, a Llanycil, a chymmydogaeth y Bala, lle y bu am rai blynyddoedd allan o'r saith a dreuliodd yn y parth yna o'r wlad, yn dilyn y swydd o ysgrifenydd i ryw gyfreithiwr. Yna symmudodd i Wrecsam, ac oddi yno i ddinas Caerlleon; ac yn y lle olaf yr ydoedd pan alwyd ef allan i deithio. Bu yn llafurio am y 14 blynedd cyntaf o'i weinidogaeth gyd â'r Cymry; ac yna aeth yntau, gyd âg amryw eraill, drosodd at y Saeson, o herwydd achos y ceir ei egluro yn y man ynglŷn â hanes Jones, Bathafarn. Yna, ar ol teithio wyth mlynedd gyd â'r Saeson, efe a ymneillduodd o waith y weinidogaeth reolaidd, ac a ymaflodd mewn masnach, ar y cyntaf yn Lloegr, ac wedi hyny yn nhref Caernarfon. Yn y dref hon y treuliodd weddill ei oes, gan fasnachu ddyddiau yr wythnos, ac efengylu ar y Sabboth, fel pregethwr cynnorthwyol, gyd â chymmeradwyaeth a llwyddiant. Ar yr 28fed o Fai, 1856, bu farw mewn heddwch mawr, yn 86 oed. Yr oedd Mr. Bryan yn gymmeriad arbenig, ac yn meddu llawer iawn o neillduolrwydd mewn corph a meddwl. Yr oedd o dymmer obeithiol a serchog; ac, ar yr un pryd, yn ddigon pybyr, chwyrndro, a phenderfynol. Pan gynhyrfid ef yn iawn, medrai deimlo yn chwerw, a siarad yn llym, er nad oedd diffyg tynerwch yn ei galon, na phall ar ei garedigrwydd tu ag at ei bethau a'i bersonau dewisedig. Yr oedd yn nodedig o ffraeth, ac yn meddu gradd dda o ddawn farddonol. Er na chanodd ef ddim llawer ei hunan, gwnaeth wasanaeth dirfawr i'r cyfundeb a'i genedl trwy droi ei feddwl yn forau at roddi hymnau rhagorol Wesley mewn diwyg Gymreig. Ei gyfieithiadau ef ydyw bron yr holl hymnau sydd yn llyfr hymnau Cymraeg y Wesleyaid, ac enw Wesley wrthynt; ac y mae'r cyfieithiadau hyny mor llithrig, awenyddol, a rhagorol fel nad allasai neb ond un o wir blant yr awen eu cynhyrchu. Digon prin fod dim erioed wedi ei gyfieithu yn well na "*Wrestling Jacob*" Charles Wesley, gan Bryan.

Wedi chwangu Mr. Bryan at y ddau genhadwr, yr oedd tri o weinidogion yn llafurio ynghyd ar y gylchdaith, yr hyn a'u galluogodd i heleuthu terfynau, a lliosogi ei chymdeithasau yn ddiattreg. Cydiwyd wrth y gylchdaith Gymreig yr achosion oedd yn Wrecsam, Bangor-is-y-coed, Bersham, Caergwrle, a Brymbo, cymdeithasau oedd cyn hyn yn perthyn i gylchdaith Seisnig Caerlleon. Heb law hyny, fe sefydlwyd gorsafau newyddion yn Llangollen, Llandegla, Bryneglwys, ynghyd âg amryw bentrefi yn yr amgylchoedd; ac, yn wir, wrth edrych ar ddyddlyfr un o'r tadau, gellid meddwl fod y gylchdaith y pryd hyn (1801), yn ymestyn dros y rhan fwyaf o siroedd Dinbych a Fflint, ac amrywiol fanau ym Maldwyn a Meirionydd. Nis gellir bod yn hollol sicr am rifedi yr aelodau eglwysig y flwyddyn honno, o herwydd bod Ludlow ynglŷn â Rhuthyn yn y cyfrif a geir ar gofnodau y gynnadledd. Fel hyn:—

| | | |
|---|---|---|
| Ludlow Mission, | . . . . . . | 282 |
| Ruthin „ | . . . . . . | |

Yn hanes bywyd John Hughes, Aberhonddu, ceir seiliau i gasglu fod o ddeutu 180 o'r cyfanswm uchod yn perthyn i'r genhadaeth Gymreig. Ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1802, agoryd capel Dinbych, y capel Cymreig cyntaf a adeiladwyd i'r Wesleyaid yng Ngogledd Cymru; a'r tebygolrwydd yw mai hwn oedd y capel Wesleyaidd Cymreig cyntaf yn yr holl fyd. Yr oedd dau neu dri o gapeli a ddeuthant at wasanaeth y Cymry yn y Deheudir wedi cael eu hadeiladu o'i flaen, ond yn rhy gynnar i fod mewn cyssylltiad â'r genhadaeth Gymreig. Yn yr adeg gynnar honno yn hanes yr achos, ystyrid capel Dinbych yn un ehang, hardd, ac ar gynllun hynod o fanteisiol i'r gwasanaeth yr oedd wedi ei fwriadu; yn gymmaint felly fel y cymmerwyd ef yn gynllun i nifer mawr o gapeli ar ei ol yn nhrefi y Dywysogaeth. Fel yr awgrymasom o'r blaen, yr oedd yn Ninbych fath ar achos Wesleyaidd er ys deuddeng mlynedd cyn sefydliad y genhadaeth Gymreig. Yn nheulu Evan Roberts, y dŷn da, hunanymwadol hwnw, y cawsai yr hedyn cyntaf wreiddyn yno. Yr oedd ei frawd ef, William Roberts, wedi gadael cartref yn gynnar i fyned i Lerpwl. Yno y dychwelyd ef at grefydd, ac yr ymunodd gyd â'r Wesleyaid Seisnig. O ddeutu y flwyddyn 1779, ymwelodd y brawd hwn â'i deulu yn Ninbych, a thrwy y ganmoliaeth a roddai i ddaliadau a phobl ei ddewisiad, tueddwyd ei frawd, Evan Roberts, i fyned i Lerpwl. Tra yno, clybu Mr. Wesley yn pregethu. Ymunodd â'r gymdeithas ar unwaith; a chan faint ei ddyhewyd am iachawdwriaeth ei genedl ei hun a'i gymmydogion yn



Digitized by Google

Ninbych, ceisiodd gan Mr. Wesley anfon pregethwyr i'w dref enedigol. Trwy gyfarwyddyd Mr. Wesley, caed un Mr. Ranshaw drosodd, ynghyd âg un Richard Davies, brodor o Ddinas Mawddwy. Cymmerodd y pregethwr ei safle wrth y Neuadd Drefol; ond gan na chawsai lonydd yno gan gartreflu y sir oedd yn digwydd bod yn y dref ar y pryd, agorwyd drws o ymwared iddo yn nhŷ Henry Carter. Yno pregethodd, a phrofodd yr efengyl yn allu Duw er iachawdwriaeth i'r teulu, canys mab i'r dyngarwr crybwylledig oedd y Parch. Hugh Carter, yr hwn a fu yn weinidog defnyddiol yn y cyfundeb am hanner can mlynedd. Trwy gynhorthwy Mr. Harrison, Llaneurgain, yr hwn a ymwelai â hwynt ddwywaith yn y chwarter am flynyddau, a gwasanaeth gweinidogion Caer am dymmor byr, ynghyd â ffyddlondeb dirfawr un Edward Linnell, y cyllidydd, yr hwn oedd yn aelod o'r cyfundeb, yn fab i weinidog Wesleyaidd (Seisnig), yn bregethwr cynnorthwyol, ac, ar y pryd, yn byw yn Llansanan, cadwyd yr achos bychan yn Ninbych yn fyw hyd y flwyddyn 1800, sef pan sefydlwyd y cenhadon a nodwyd mor fynych genym, ac y daeth yn rhan o faes eu llafur neillduol hwy. Pan ymwelodd y Parch. Owen Davies gyntaf â'r lle ym mis Awst, 1800, cafodd fod yno bump o aelodau eglwysig, sef Edward Linnell, Llansanan; Evan Roberts; Wm. Jones, Berllan, a'i wraig; ac Elizabeth Foulkes (Mrs. Games wedi hyny). Mor fuan ag y cafwyd bugeiliaid, a phregethu Cymraeg, tyfodd yr achos yn Ninbych yn gyflym mewn aelodau a dylanwad, a daeth yn un o'r gorsafau pwysicaf ar faes y genhadaeth, yn enwedig ar ol adeiladiad y capel. Troes y flwyddyn 1802 allan yn adeg o lwyddiant mawr, canys ceir fod nifer yr aelodau yn 545; a dyblwyd rhif y gweinidogion, o blegid galwyd tri allan y flwyddyn honno i lafurio gyd â'r tri oeddynt eisoes ar y maes, sef John Jones, Corwen; John Maurice ac Edward Jones, Bathafarn.

Yr olwg ddiweddaf a gawsom ar ein gwrthrych oedd yn croesawu y ddau genhadwr Cymreig i Ruthyn, ac yn cynnorthwyo hyd eithaf ei allu tu ag at gasglu cynnulleidfaoedd iddynt yn llofft ardrethol y cariwr, ac mewn manau eraill yn yr amgylchoedd. Yr oedd ef y pryd hyny yn arfer gweddïo yn gyhoeddus, a chynghori yn achlysurol, er mor glapiog oedd ei Gymraeg. Ond yn fuan ar ol sefydliad y genhadaeth Gymreig, efe a ddechreuodd bregethu, ac yn y flwyddyn 1802, fel y nodwyd, gosodwyd ef yn y weinidogaeth, a'i enw ef oedd y pedwerydd ar y gylchdaith. Cafodd Mr. Jones lawer o wrthwynebiad oddi wrth amryw yn ei gymmydogaeth ei hun, yn nechrau ei daith weinidogeuthol yn Nyffryn Clwyd, o herwydd mai efe a fu yn foddion i ddwyn y "sect newydd" hon i'r wlad: edrychent arno fel pe buasai wedi dwyn rhyw bla dinystriol i'w plith. Yr oedd y gylchdaith yn ehang a llafurus, ac yn cymmeryd i mewn Ddinbych, Treffynon, Llanelwy, Abergele, Llanrwst, Conwy, Caernarfon, Pwllheli, Bomaris, Amlwch, Caergybi, Aberffraw, ynghyd â'r lleoedd cymmydogeuthol i'r trefi hyn. Yn 1803, cododd yr aelodau o 545 i'r nifer o 1,344 (mwy na dyblu mewn blwyddyn), a rhanwyd y maes yn ddwy gylchdaith, sef Rhuthyn a Chaernarfon; ac wedi rhoddi cylchdeithiau Saesneg Wrecsam a'r Trallwm at y ddwy gylchdaith Gymreig, gwnaed hwynt yn un dalaeth y flwyddyn honno, dan yr enw "*Talaeth Gogledd Cymru.*" Ar gylchdaith Caernarfon y pennodwyd ef i lafurio y flwyddyn honno, a chyd âg ef ei gefnder, John Maurice. O Gaernarfon symmudodd i Fachynlleth. Yn y flwyddyn 1806, priododd â Miss Dorothy Roberts, gynt o Blas Llangwyfan, ger llaw Rhuthyn. Tra yn Machynlleth, cymmerodd ef a W. Davies deithiau pregethwrol llafurus trwy ranau o'r Deheudir. Yn 1807, sefydlwyd ef yn Aberystwyth; 1808, yn Llandilo; 1809–10, yng Nghaerfyrddin; 1811, yng Nghastellnedd; 1812, yn Abertawe; 1813–4, yng Nghaerdydd; ac yn 1815–6, yn Llynlleifiad. Ar ol gweinidogeuthu yn Lerpwl am ddwy flynedd i'r Cymry, cymmerwyd ef i'r gwaith Seisnig, yn yr hwn y treuliodd weddill ei oes. Erbyn hyn yr oedd Wesleyaeth wedi dyfod yn allu lled bwysig yn y Dywysogaeth. Yr oedd yr aelodau o ddeutu pum mil o eneidiau, ac yr oedd namyn un deugain o weinidogion teithiol ar y maes; ac yr oedd gorsafau ei gweithrediadau yn lled lïosog, ac yn wasgaredig trwy y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Ond yn y flwyddyn honno, gwnaed chwalfa a fu yn ddinystriol iawn i'r achos, yn attaliad y cymmorth arferedig tu ag at gynhaliaeth y weinidogaeth o Drysorfa y Genhadaeth Dramor, ar ol marwolaeth y Dr. Coke yn 1814. Mewn canlyniad i hyny, fe aeth John Jones, Corwen; J. Bryan, D. Rogers, H. Carter, Owen Davies, Jones, Bathafarn, a phawb arall bron oedd yn gyfarwydd â'r Saesneg, i'r gwaith Seisnig, ac amddifadwyd Cymru dlawd o barhâd eu gweinidogaeth. Dywedir na chollwyd llai na dau-ar-bymtheg o'n dynion, o herwydd

hyn, o fewn cylch ychydig flynyddau, yn yr adeg dywyll honno. Llafuriodd Mr. Jones gyd â chymmeradwyaeth gyffredinol wedi hyny mewn gwahanol fanau yn Lloegr, hyd ddydd ei farwolaeth. Bu farw ar y 26ed o Awst, 1837, yn 60 oed, wedi bod yn y weinidogaeth am o ddeutu 35 mlynedd. Afreidiol yw manylu i ddangos rhagoroldeb ei gymmeriad fel Cristion. Dysg hanes ei dröedigaeth, cyssondeb difwlch ei fuchedd, a thangnefedd mawr ei feddwl yn awr marwolaeth, ei fod yn blentyn trwyadl, amlwg, ac anwyl iawn i Dduw. A dyma'r dŷn, Cymro syml o Ddyffryn Clwyd, dŷn ieuangc ychydig uwch law ugain oed, a hyny pan nad oedd etto ond llëygwr dinawdd a diurddau, a fu yn brif foddion cychwyniad Wesleyaeth Gymreig yn y Dywysogaeth.

Wedi dilyn hanes Wesleyaeth yng Nghymru hyd y fl. 1816, yn ei pherthynas â Mr. Jones, Bathafarn, a'i gydweithwyr, y Parchedigion Owen Davies, John Hughes, a John Bryan, y mae genym i ddilyn yr hanes mewn arweddion gwhanol. Hyd yn hyn ni welsom ond tir wedi ei freunaru i dderbyn athrawiaeth y Wesleyaid, a llwyddiant yn coroni yr ymdrechion ar bob llaw. Ond yn y fl. 1816, y mae amgylchiadau yn newid gwedd yr achos. Dibynai cynhaliaeth yr achos, hyd yn hyn, i raddau pell, ar adnoddau Seisnig. Digon tebyg na feithrinwyd yn briodol yr egwyddor o hunangynhaliaeth gan arweddwyr yr achos. Mewn canlyniad, pan leihawyd y cymmorth a dderbynid o Drysorfa y Genhadaeth Dramor, ar ol marwolaeth y Dr. Coke, ac yr attaliwyd ef yn llwyr yn y fl. 1816, nid oedd digon o yni a gwroldeb i ymgystadlu â'r anhawsderau. Ymddengys gyd â hyny fod yr achos yn myned trwy ryw fath o wrthweithiad *(reaction)* yn effaith gordyfiant. Bu y gwrthweithiad yn cael ei deimlo am amser, o'r fl. 1812 hyd y fl. 1817. Yn y cyfnod hwn, tynwyd rhif y cylchdeithiau i lawr o 21 i 12; rhif y gweinidogion o 48 i 35; a rhif yr aelodau o 5,374 i 4,062. Dengys y rhifau hyn fod rhywbeth heb law colli y gynhaliaeth a dderbynid oddi wrth y Saeson yn rheswm am y lleihad. Yr oedd y lleihad wedi dechrau ym mlaen llaw. Ar ol y fl. 1816 y teimlwyd mwyaf oddi wrth attaliad y cymmorth; ond dechreuodd rhif yr aelodau fyned ar gynnydd yn y fl. 1818, a pharhaodd y cynnydd i fyned rhagddo yn raddol bob blwyddyn hyd y fl. 1831. Gwir fod rhif y cylchdeithiau a'r gweinidogion wedi eu tynu i lawr, ac wedi eu cadw i lawr am gyfnod maith. Daeth rhif y cylchdeithiau i lawr o 20 i 11, a rhif y gweinidogion o 48 i 29. Yr oedd a fynno attaliad y cymmorth oddi wrth y genhadaeth â hyn; ond yr oedd rhyw wywiant wedi cymmeryd meddiant o'r achos cyn hyny, er na pharhaodd ond am dymmor byr. Fe allai mai yr amgylchiad mwyaf neillduol yn hanes Wesleyaeth Gymreig, yn y cyfnod hwn, ydyw y rhwyg a gymmerodd le yn Liverpool yn y blynyddoedd 1817 a 1818. Yr oedd Wesleyaid Cymreig Liverpool yn cael eu cyfrif y pryd hyny, ac am lawer o flynyddau wedi hyny, yn perthyn i dalaeth Liverpool (Seisnig), fel nad oedd yn dyfod i ymyryd cymmaint â sefyllfa yr achos yng Nghymru. Am achos y cynnwrf, dywed yr *Eurgrawn Wesleyaidd* am y fl. 1872, "Fe allai mai prif, os nad unig, achos yr ymraniad oedd cynhaliad y weinidogaeth. Gwir fod hyny wedi cael ei guddio o'r golwg â phroffes o ofal am wragedd gweddwon, ac â honiad o dra-arglwyddiaeth y gweinidogion. Ond awydd i lymhau cefn, ysgafnhau llogell, a theneuo bwrdd y gweinidog oedd y gwir achos." Collwyd rhai blaenoriaid, ac ymadawodd o ddeutu hanner cant o aelodau. Yn gymmaint a bod trafnidiaeth lled helaeth yn bod cydrhwng Liverpool a chyrau siroedd Fflint a Dinbych, darfu i'r cynhyrfwyr greu aflonyddwch ym mynwesau rhai yng Nghymru; ond ni chymmerodd ymraniad le. Un a'i enw Thomas Jones oedd arweinydd y rhwyg, yr hwn oedd yn frodor o ardal Prestatyn, ac yn flaenor a phregethwr lleol. Adeiladasant gapel iddynt eu hunain, a buant yn ymdrechgar i godi achos; ond ni fu fawr o lewyrch arnynt erioed, ac ymhen blynyddau diflanasant yn llwyr.

Parhau i gynhyddu a wnaeth yr achos o flwyddyn i flwyddyn. Yn y fl. 1828, yr oedd rhif y cylchdeithiau yn 16, rhif y gweinidogion yn 32, a rhif yr aelodau yn 7,181. Yn y flwyddyn hon rhanwyd y dalaeth Gymreig yn ddwy dalaeth. Fel y crybwyllwyd, dynodid y gwaith Cymreig ar gofnodau y gynnadledd, ar y dechrau, fel "Cenhadaeth Rhuthyn" *(Ruthin Mission)*. Yn y fl. 1803, cyssylltwyd cylchdeithiau Seisnig Wrecsam a'r Trallwm gyd â'r achos Cymreig, o dan yr enw "Talaeth Gogledd Cymru," a phennodwyd y Parch. O. Davies yn gadeirydd. Yn y drefn yma y parhaodd pethau hyd y fl. 1808. Yn y flwyddyn hon, yr oedd rhif y cylchdeithiau wedi codi i 13, rhif y gweinidogion i 41, a rhif yr aelodau yn 5,168. Ad-drefnwyd terfynau y dalaeth. Cymmerwyd cylchdeithiau Seisnig Wrecsam a Thrall-

Digitized by Google

wm ymaith, a ffurfiwyd y cylchdeithiau Cymreig yn unig yn dalaeth, o dan yr enw "Talaeth Gogledd Cymru." Cynhwysid yr holl gylchdeithiau Cymreig yn y dalaeth hon, oddi eithr cylchdeithiau Crughywel a Chaerphili, y rhai a gynhwysid yn "Nhalaeth Deheudir Cymru," yr hon a ffurfiasid o gylchdeithiau Seisnig. Yn 1809, crynhowyd yr holl waith Cymreig yng Nghymru yn un dalaeth, o dan yr un enw fyth, "Talaeth Gogledd Cymru;" ond newidiwyd yr enw yn 1810, a galwyd hi "Y Dalaeth Genhadol Gymreig," ac o dan yr enw hwn y parhaodd hyd y fl. 1815. Yn 1814, rhoddwyd yr achos Cymreig ynglŷn â'r achos Seisnig mewn pump o gylchdeithiau yn y Deheubarth, sef yng Nghaerfyrddin, Abertawe, Merthyr, Aberhonddu, a Chaerdydd; ac yn 1815, galwyd y dalaeth Gymreig wrth yr hen enw, "Talaeth Gogledd Cymru." Ond daeth newidiad buan ar bethau drachefn. Yn 1816, nid oedd ond cylchdeithiau y Gogledd, a thair eraill yn y Deheudir, yn rhai Cymreig digymmysg o'r cwbl a fu unwaith. Unwyd gwahanol gylchdeithiau yn un, sef Machynlleth â Dolgellau, Caernarfon â Phwllheli, a Chaergybi â Bomaris, fel nad oedd rhif y cylchdeithiau yn y Gogledd ond *wyth*. Newidiwyd enw y dalaeth etto, gan ei galw yn "Dalaeth Rhuthyn," a gosodwyd y Parch. David Rogers yn gadeirydd iddi. Hyd yn hyn, y Parch. O. Davies oedd wedi bod yn arolygwr cyffredinol, ac yn gadeirydd y dalaeth Gymreig; ond y pryd hyn, aeth yn ol i'r gwaith Seisnig, a Mr. Rogers a bennodwyd yn ei le. Yn 1817, crynhowyd yr holl waith Cymreig yn un dalaeth etto, yn cynnwys deuddeg o gylchdeithiau: 1. Merthyr ac Aberhonddu; 2. Caerdydd; 3. Caerfyrddin a Llandeilo; 4. Aberteifi; 5. Aberystwyth; 6. Rhuthyn a Llangollen; 7. Dinbych a Llanrwst; 8. Treffynnon; 9. Llanfyllin; 10. Machynlleth a Dolgellau; 11. Caernarfon a Phwllheli; 12. Caergybi a Bomaris. Galwyd hi "Yr Ail Dalaeth Gymreig," a pharhaodd Mr. Rogers yn y swydd o gadeirydd hyd y fl. 1819, pryd y pennododd y gynnadledd y Parch. John Williams (1af) yn olynydd Mr. Rogers, a pharhaodd yn y swydd am ddwy flynedd. Dilynwyd ef yn y swydd gan y Parch. William Davies (1af), neu, fel yr adnabyddid ef yn gyffredin, "W. Davies Affrica," yr hwn a lanwodd y swydd am chwe blynedd. Am y flwyddyn 1827, llanwyd y swydd gan y Parch. John Davies.

Yng nghynnadledd 1828, cymmerodd cyfnewidiad pwysig le. O'r fl. 1818, yr oedd cynnydd cysson wedi cymmeryd lle hyd y fl. 1828. Cododd rhif y cylchdeithiau o 12 i 16, a rhif yr aelodau o 4,763 i 7,181. Gwelwyd yn angenrheidiol i ranu y dalaeth. Cyssylltwyd Merthyr Tydfil, Caerdydd, a Llandeilo, âg Aberhonddu; Abertawe, Caerfyrddin, Aberteifi, ac Aberystwyth, â Llanidloes, yn un dalaeth, o dan yr enw "Ail Dalaeth Deheudir Cymru;" a phennodwyd y Parch. John Davies yn gadeirydd. Unwyd y gweddill o'r cylchdeithiau, sef Rhuthyn â Llangollen, Dinbych â Llanrwst, Treffynon, Bomaris, Caernarfon, Pwllheli, Dolgellau, ynghyd â Llanfyllin, â Llanfair, i ffurfio talaeth arall, o dan yr enw "Talaeth Gogledd Cymru," a phennodwyd y Parch. William Batten yn gadeirydd. Y mae'r dosraniad hwn wedi parhau mewn grym hyd yn bresennol, gyd â'r gwahaniaeth o gyfnewid enw y dalaeth gyntaf yn 1860 i "Dalaeth Deheudir Cymru." Gwir y bu rhanu, ad-drefnu, &c., ar y cylchdeithiau; ond y mae Wesleyaeth Gymreig yn rhanedig i ddwy dalaeth o'r flwyddyn 1828 hyd yn awr. Bu'r Parch. Hugh Hughes yn gadeirydd talaeth Deheudir Cymru o 1829 hyd 1843; y Parch. J. Davies yn 1844 ac 1845; y Parch. H. Hughes yn 1846; y Parch. Thomas Jones (yr 2il) o 1848 hyd 1866; y Parch. Isaac Jenkins o 1867 hyd 1874; a'r Parch. David Evans (Degar) o 1875 hyd yn bresennol. Llanwyd cadair "Talaeth Gogledd Cymru" gan y Parch. W. Batten o 1829 hyd 1833; gan y Parch. David Evans (y 1af) o 1834 hyd 1838; gan y Parch Edward Anwyl o 1839 hyd 1854; gan y Parch. Thomas Aubrey o 1855 hyd 1865; ac o 1866 hyd yn bresennol gan y Parch. Saml. Davies. Yn 1832, a'r blynyddoedd dilynol, cafodd yr achos yn y Gogledd drallod oddi wrth y rhwyg a wnaed gan y rhai a elwid yn "Wesla Bach." Dechreuodd ym Môn, ac ymledodd hyd sir Gaernarfon, ac i ranau o Meirion, Dinbych, a Fflint. Ceir y cofnodiad canlynol am yr helynt yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd* am y flwyddyn 1832, t. 241:—

"Blwyddyn o brofi a nithio a fu hon arnom, yn enwedig ym Môn ac Arfon. Nid erledigaeth oddi wrth y byd a fu, ond oddi wrth frodyr gau, y rhai oedd eisiau cyrraedd at le a phethau nad oedd ganddynt hawl iddynt yn ol trefn cyfreithiau gwlad nac eglwys. Ond y boen yw eu bod wedi llwyddo am dro i lithio a hudo rhai diniwaid, trwy dwyll, i ganlyn eu hoced: ond y maent yn dechrau gweled mai annoeth a fuont, a buan y dychwelo y fath ddiwygwyr at wirionedd a chyfiawnder."

Trawsfeddiannwyd amryw o gapeli yr enwad, collwyd amryw bregethwyr lleol a blaenoriaid, a chefnodd nifer o aelodau a gwrandawyr. Ond er y golled hon, yr oedd yr achos yn myned ar gyn-

Digitized by Google

nydd, a rhif yr aelodau yn amlhau. Yr unig gyffroad arall o'r cyffelyb natur a brofodd yr enwad yng Nghymru, ydoedd yr hyn a gymmerodd le yn y blynyddoedd 1849, 1850, ac 1851, yn yr adeg yr oedd "Everett, Dunn, a Griffith," yn creu aflonyddwch yn Lloegr. Y mae'n lled debygol mai y Deheudir a deimlodd fwyaf oddi wrth y cyffroad hwn, er bod cais egnïol wedi ei wneuthur yn sir Fflint, yn y Gogledd, i rwygo yr eglwysi. Ond y mae'n hynod fod cynnydd o 1,309 yn rhif yr aelodau, gyd âg 1,038 ar brawf am aelodaeth, wedi bod gyd â'r enwad yng Nghymru yn y fl. 1850.

Yn y Gogledd y mae'r enwad yn meddu y nerth mwyaf. Y mae rhif aelodau talaeth Gogledd Cymru, a chyfrif y rhai ar brawf am aelodaeth, yn ymyl 14,500, tra nad yw yr aelodau yn y Deheudir ond 5,126. Y cyfrif a gynhygir yn gyffredin am hyn ydyw, fod yr iaith Seisnig yn fwy o rwystr i'r achos Cymreig yn y Dehau na'r Gogledd; y plant yn ymarfer mwy a siarad yr iaith Seisnig, ac yna yn ymgymmeryd a mynychu y capeli Seisnig, am y proffesant na ddeallant yr iaith Gymraeg. Gall hyn fod yn gyfrif teg mewn llawer o engreifftiau; ond nid yw yn gyfrif digonol. Nid yw y Wesleyaid Seisnig wedi myned ar gynnydd neillduol ond mewn rhai manau yn y Deheudir, fel nas gallant hwy fod wedi derbyn ond ychydig o blant y Cymry. Gyd â hyny, y mae enwadau eraill yn gallu dïogelu achosion Cymreig, er yr holl gynnydd sydd ar yr iaith Seisnig yn y Dehau. Gall nad yw Wesleyaeth, ar gyfrif ei manylder, mor gydnaws â thymheredd y Deheudir, o blegid yr enwadau mwyaf rhydd eu golygiadau am natur eglwys yw y rhai mwyaf llïosog yn y Deheudir, tra y mae fel arall yn y Gogledd. Ond y mae'n ddïau mai y rheswm cryfaf am nychdod cymharol yr achos yn y Deheudir ydyw, diffyg cynlluniau a gweithgarwch i ddwyn yr achos yn ei flaen.

Ymhlith ystadegau eraill perthynol i ysgolion Sabbothol y ddwy dalaeth, ceir y rhifau canlynol:—Ysgolion, 324; athrawon, 4,115; ysgolorion, 29,282; Gobeith-luoedd *(Bands of Hope)*, 120 gyd â 4,294 o aelodau; a 3,853 yn cyfarfod mewn Bibl-restrau.

Y mae'r tair blynedd ar hugain diweddaf wedi bod yn gyfnod o ymdrechion egnïol a dyfalbarhaol ar ran meddiannau gwarcheidiol yr enwad: symmud ymaith hen ddyledion; adgyweirio, helcuthu, ac adeiladu capelau newyddion, ynghyd â thai i'r gweinidogion. Ynglŷn â sefydliad yr achos yn nechrau y ganrif, adeiledid capeli mewn cornelí anghyfleus, am fod yn amhossibl cael safleoedd mwy manteisiol ar gyfrif y gwrthwynebiad oedd i'r "sect newydd" yn y wlad. Yr oedd cynllun llawer o'r capeli yn dra anhymmig, os gellid dywedyd fod iddynt gynllun o gwbl. Ond yn waeth na'r cyfan, yr oedd yr adeiladu, bron oll, "trwy ffydd" heb "weithredoedd." Athrawiaeth llawer o'r hynafiaid oedd, mai digon iddynt hwy ydoedd y drafferth o adeiladu, ac mai rhwymedigaeth yr oes ddyfodol oedd dwyn y draul. Codid arian ar lôg; ac mewn llawer engraifft yr oedd y llogau mor drymion, a'r gallu i'w cyfarfod mor fychan, fel mai y canlyniad ydoedd suddo i fwy o ddyled. Bu hyn yn achlysur llawer o brofedigaeth i'r achos. Gwesgid ar yr ymddiriedolwyr oedd o dan gyfrifoldeb, a pharai hyny iddynt hwy a'u teuluoedd oeri a chilio oddi wrth yr enwad. Daethpwyd i deimlo yn ddwys oddi wrth hyn o'r fl. 1816 ym mlaen. Yng Nghyfarfod Talaethiol y Gogledd am 1832, pennodwyd dirprwy i ymweled â'r gynnadledd, er ceisio cymmorth yn wyneb y cyfyngder. Nid yw yn ymddangos iddynt lwyddo nemmawr. Y drefn y pryd hyny yn gyffredin ydoedd i'r capeli oedd ddyfnaf mewn dyled gael casglu atynt gan ryw bregethwr, ar hyd a lled y wlad. Ond yn 1856, dechreuwyd cyfnod newydd yn hanes yr enwad ynglŷn â'u meddiannau gwarcheidiol. Yng Nghyfarfod Cyllidol y flwyddyn uchod, a gynhaliwyd yn Llanrhaiadr-ym-Mochnant, tynwyd allan gynllun i godi *mil o bunnau* yn y dalaeth, ac i appelio at y Saeson i ofyn benthyg *dwy fil o bunnau* am ddeng mlynedd yn ddilôg, i'w talu yn ol yn rhandaliadau blynyddol. Yr amcan ydoedd rhoddi echwyn dilôg i gapelau mewn gwasgfa, er eu gwaredu allan o berygl. Gweithiwyd y cynllun allan yn llwyddiannus. Yn 1867, ehangwyd y cynllun. Penderfynwyd yng Nghyfarfod Cyllidol Pwllheli y flwyddyn honno i godi mil arall o bunnau, ac i ofyn am ddwy fil yn echwyn dilôg am ddeng mlynedd gan y Saeson, er chwyddo trysorfa yr echwynion i chwe mil o bunnau. Penderfynwyd hefyd i ffurfio cangen arall o drysorfa i estyn rhad-roddion *(grants)*, yn ogystal ag echwynion, tu ag at godi capelau. Ffurfir y gronfa trwy danysgrifiadau personol, tanysgrifiadau ymddiriedolwyr capeli, casgliadau cyhoeddus, &c. Yn ol deall a gafwyd ynghychwyniad y symmudiad gyd â'r gynnaddledd, y mae rheoleiddiad amgylchiadau y capeli wedi ei ymddiried i'r dalaeth, ac nid i bwyllgor capeli y cyfundeb fel o'r blaen. Cymmerodd symmudiad cyffelyb le yn y dalaeth

Digitized by Google

Deheuol, ond ar raddau llai, ac yn fwy diweddar, fel nad ydynt hwy etto wedi medi yr holl fantais oddi wrth y cynllun. Gwelir y gwaith a wnaed oddi wrth yr ystadegau canlynol:—Yn 1856, nid oedd gwerth cyfrifedig holl gapeli talaeth Gogledd Cymru ond 58,810p.; ac o'r swm uchod, yr oedd yn aros yn ddyled 31,243p. Ond yn 1879, y mae gwerth cyfrifedig y capeli yn 140,123p., tra nad yw y ddyled arnynt ond 18,351p., a'r rhan fwyaf o'r swm yn echwynion dilôg. Rhif capeli y dalaeth yw 213, gyd â 26 o gapeli ac ystafelloedd ardrethol; ac 16 o dai gweinidogion. Y mae gan y dalaeth Ddeheuol 87 o gapeli, gyd âg 16 o gapeli ac ystafelloedd ardrethol; ond ni ddaeth gwerth y capeli a swm y ddyled i law cyn i ni fyned i'r wasg.

Symmudiad pwysig arall gyd â'r achos Wesleyaidd yng Nghymru ydoedd sefydliad y Genhadaeth Gartrefol. Byth er pan gollodd y Cymry eu cymmorth o drysorfa y Genhadaeth Dramor, daeth yn ddibynol ar drysorfa Cenhadaeth Gartrefol y cyfundeb. Costiai yr achos Cymreig 3,960p. yn flynyddol i'r cyfundeb yn y blynyddoedd hyny. Yr unig adgyflenwad a dderbyniai trysorfa y cyfundeb oddi wrth y Wesleyaid Cymreig, ydoedd swm cymharol fychan o'r hyn a elwir gan y cyfundeb yn "gasgliad blynyddol," yr hwn a wneir ymhlith yr aelodau tu a mis Ebrill bob blwyddyn. Fel yr oedd yr achos yn gwreiddio ac yn casglu nerth, yr oedd y cymmorth a dderbynid yn llai, a'r adgyflenwad a roddid yn fwy. Yn 1862, daeth y dalaeth Ogleddol i gyd-ddeall âg awdurdodau y gynnadledd eu bod yn myned yn annibynol ar drysorfa y cyfundeb, ac i gael rheolaeth dros y casgliad blynyddol, a pha arian bynag a godid yn y ffordd honno yn y dalaeth. Dyma ddechreuad y Genhadaeth Gartrefol Gymreig. Bu hyn yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes yr enwad. Yr oedd ymryddhau oddi wrth yspryd dibynol a gwasaidd, a dysgu bod yn hunan-gynhaliol, yn ymarferiad tra iachusol; ond araf ydoedd y trawsfudiad. Nid oedd yr holl swm a gasglwyd gan holl gylchdeithiau y Gogledd, am y flwyddyn gyntaf, ond 388p., tra yr oedd yn y flwyddyn 1877 yn 784p. Defnyddir yr arian hyn tu ag at sefydlu gorsafau newyddion, cyfnerthu ac ehangu y gwaith mewn hen gylchdeithiau, prynu neu adeiladu tai gweinidogion, a chynnorthwyo cylchdeithiau i ddodrefnu y tai hyny. Yn y naill ffordd a'r llall y mae'r achos yn cael mantais.

Y mae Wesleyaid Cymru yn parhau mewn undeb â Chenhadaeth Dramor y cyfundeb, ac anfonwyd y swm o 2,358p. i'r drysorfa, gan y ddwy dalaeth Gymreig, yn 1877; ond er nad yw Wesleyaeth Gymreig yn gweithredu yn annibynol gyd â'r Genhadaeth Dramor, etto y mae llawer o'i meibion wedi eu hanfon allan, ac wedi bod yn llafurio ar y meusydd cenhadol, sef y Parchn. John Lewis, Talsarn; David Jones, Ffinant; David Jehu, Meifod; W. Davies, Croesefa; Owen Rees, ac eraill. Y mae yn awr ar y maes y Parchn. Ellis Roberts, Dyffryn Clwyd; D. A. Rees, Aberdar; Griffith H. Jones, Abermaw; ac Ellis Jones Williams, Liverpool.

Perthyn i Wesleyaeth Gymreig lyfrfa *(book-room)*, trwy ba un y mae'n dosparthu llenyddiaeth ar gyfer angen yr enwad a'r genedl yn gyffredin. Dechreuodd yr enwad yn gynnar yn ei hanes o ddwyn cynhyrchion allan trwy y wasg. Yn 1803, cyhoeddasant eu Llyfr Hymnau cyntaf, yr hwn a barotowyd gan y Parch. John Hughes, Aberhonddu, ac a gyhoeddwyd gan Mr. Hemingway, Caerlleon; ac er hyny y mae wedi myned trwy un-ar-bymtheg o argraphiadau. O'r fl. 1803 hyd 1809, llyfrau dadleuol oedd yr holl gynnyrch, megis "Amddiffyniad o'r Methodistiaid Wesleyaidd;" "Hyffordd a Beread," gan y Parch. Owen Davies, a'r cyffelyb. Yn 1809, dechreuwyd dwyn allan fisolyn dan yr enw *Eurgrawn Wesleyaidd*, ac y mae wedi parhau ar y maes hyd yn awr, nes bod y misolyn hynaf yn y Dywysogaeth. Cyhoeddiad misol arall yr enwad yw y *Winllan*, yr hwn a gychwynwyd yn 1847, yn benaf ar gyfer yr ieuengctid. Yn hytrach na rhoddi rhestr o'r llyfrau Wesleyaidd mewn trefn amseryddol, yn ol fel y cyhoeddwyd hwy, gwnawn ddosparthiad o'r rhai mwyaf adnabyddus a gyfansoddwyd, a gyfieithwyd, a gasglwyd, neu a gyhoeddwyd gan Wesleyaid:—Esboniadau: y Dr. Adam Clarke ar y Testament Newydd; y Dr. Coke, etto; y Parch. John Wesley, etto; Yr Esboniad Beirniadol ar y Testament Newydd, a Phum Llyfr Moses; y Parch. Samuel Davies (1af) ar y Nawfed Bennod o'r Rhufeiniaid, ynghyd â Phigion o'r Bibl-amlieithawg gan y Parch. Hugh Carter, gyd â Rhagymadrodd gan y Parch. W. Davies, D.D.; Corph o Dduwinyddiaeth; Y Drysorfa Efengylaidd, gan y Parch. S. Davies (1af) a'r Parch. Thomas Jones, D.D.; Geiriadur Ysgrythyrol, gan y Parch. W. Davies, D.D.; etto, Agoriad i'r Ysgrythyrau, gan yr unrhyw. Holwyddoregau: Yr Egwyddorydd Ysgrythyrol, gan y Parch. John Williams (1af);

Digitized by Google

Holwyddorydd Duwinyddol, gan y Parch. R. Prichard; Holwyddorydd Hanesyddol, gan yr unrhyw; Elfenau Duwinyddiaeth, gan y Parch. Thos. Jones, D.D.; Yr Allwedd, gan y Parch. W. H. Evans; Yr Hyfforddydd, gan y Parch. D. Evans; Y Llusern Ysgrythyrol, gan y Parch. H. Jones; a Holwyddorydd y Gynnadledd. Cyfrolau o Bregethau, gan y Parchn. Owen Davies, Rowland Hughes, W. Powell, Thomas Aubrey; 55 gan wahanol weinidogion a phregethwyr Wesleyaidd; Dwfr y Bywyd, gan yr unrhyw; a'r Efengylydd, gan y Parch. S. Davies; Pregethau ar y Nawfed Bennod o'r Rhufeiniaid, gan y Parch. John Jones (Vulcan); Tappan ar yr Ewyllys, wedi ei gyfieithu gan y Parch. John Evans (Eglwysbach); Yr Ewyllys, gan y Parch. O. Williams. Bywgraphiadau: Y Bywgraphydd Wesleyaidd, gan Homilis; Cofiant y Parch. John Davies, gan y W. Rowlands; Cofiant y Parch. Hugh Hughes, gan y Parch. Isaac Jenkins; Cofiant y Parch. S. Davies (1af), gan y Parch. Samuel Davies; Cofiant y Parch. R. T. Owen, gan y Parch. H. Jones; ynghyd âg amryw eraill. Llenyddiaeth: Llyfryddiaeth y Cymry, gan y Parch. W. Rowlands; Y Goleuad Dwyreiniol, gan y Parchn. H. Hughes a John Williams (2il); Y Darlithoedd Talacthiol, gan Weinidogion Wesleyaidd; Diffyniad Wesleyaeth, gan y Parch. R. Hughes; Annibyniaeth a Wesleyaeth, gan y Parch. W. Rowlands; ynghyd â niferoedd o fân lyfrau eraill. Trwy y llyfrfa hefyd y cyflenwir yr ysgolion Sabbothol â llyfrau at eu gwasanaeth. Y mae'r sefydliad yn fwy o allu i'r enwad yn awr nag y bu erioed.

---

## PENNOD III.

### PETER WILLIAMS.

**PETER WILLIAMS** oedd un o'r dynion mwyaf enwog, llafurus, a defnyddiol fel duwinydd, pregethwr, ac ysgrifenydd, a fagwyd erioed yng Nghymru; ac y mae'n hyfryd genym gael dechrau y cyfnod pwysig presennol â dŷn yn meddu'r fath gymmeriad uwchraddol ymhlith "Enwogion y Ffydd." O bob hanes bywydau, yr hanes a ysgrifeno dŷn enwog am dano ei hun ydyw y fwyaf dyddorol, ac, ond odid, y fwyaf adeiladol hefyd, ar y cyfan. Er esampl, dyna'r hanes fer a ddyry yr Apostol Paul am dano ei hun yn yr Actau, ger bron y pencapten yn Jerusalem, a cher bron Ffelix, Ffestus, ac Agrippa, ynghyd â'r hyn a ysgrifena o'i hanes yn ei Epistolau at y Corinthiaid a'r Galatiaid. Gyd â'r fath ddyddordeb yr ydys yn darllen yr hanes yma, nid yn unig am ei bod yn ddwyfol, ond hefyd am mai *Paul ei hun* a'i hysgrifenodd! Felly yn gymmwys y teimlwn gyd â golwg ar hanes Peter Williams. Y mae'r hyn a ysgrifenodd efe ei hun, ac a gyhoeddwyd yng "Ngwaith Saesneg" ei fab, y Parch. Eliezer Williams,* yn llawer mwy ei swyn i ni na dim a ysgrifenodd neb arall arno, a chredwn mai felly y teimla ein darllenwyr yn gyffredin. Am hyny, crynhoad o'r hyn a ysgrifenodd efe am dano ei hun a ddodwn yma ymleunaf oll:—

"Deilliodd pob un o'm rhieni o deuluoedd parchus. Yr oeddynt yn byw cyn priodi yn nhref Llacharn; ond yn fuan ar ol eu huniad, cymmerasant ffarm helaeth ymhlwyf Llansadwrneu, yn agos i derfyn plwyf Llacharn, ac yno yr anadlais gyntaf. Priododd fy nhad a'm mam trwy gydsyniad eu rhieni, esampl y dylai ieuengctid o'r ddau ryw ei dilyn yn wastad. Ganwyd fi ar y 7fed o Ionawr, 1772: felly yr wyf yn awr (1794) yn dechrau y 72fed flwyddyn o'm hoedran, yr hyn, fel y gwyddys, sydd tu hwnt i'r terfyn a osodwyd i blant dynion yn byd hwn.

"Yr oedd fy mam yn hoff o grefydd; a phan oeddwn i rhwng pump a chwech oed, byddai yn fy nghymmeryd yn ei hysgîl ar gefn ceffyl weithiau i wrando y pregethwr ffyddlawn a llafurus hwnw i Grist, y Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror: canys er bod ganddi ddau o blant eraill, mab a merch, a'u bod oll wedi cael addysg foreuol, ac yn medru darllen ac ysgrifenu, etto myfi oedd ei hoffusaf blentyn, o blegid mawr foddhawn fy mam am y cymmerwn hyfrydwch yn dysgu rhanau o'r Ysgrythyr allan, a'u hadrodd wrthi hi.

"Cydymgynghorai fy rhieni yn fynych pa fodd i ddwyn y plant i fynu: dywedent y rhaid rhoi'r bechgyn mewn rhyw fasnach neu broffes; ond mynnai fy mam i mi gael fy nwyn i fynu yn Eglwyswr, gan y credai yn ei chalon fy mod i wedi fy arfeuthu i fod yn rhywun mawr yn yr eglwys, megis Samuel neu Dafydd: yn wir, ni phetrusai ragfynegi y byddwn yn bregethwr ryw bryd neu gilydd. Cadarnhawyd ei chred yn hyn gan freuddwyd hynod a freuddwydiais, yr hwn y prysurais ei adrodd iddi hi.

"Bu fy mam farw yn ystod y fl. 1733, a bu fy nhad hefyd farw ymhen blwyddyn wedi hyny, a gadawodd dri o blant amddifaid ar ei ol: fy chwaer yn 14 oed, minnau yn 12, a'm brawd o gylch 10 oed, a chymmerth perthynasau ein gofal. Brawd fy mam, yn ol ei dymuniad hi, a'm cymmerth i ato, ac efe a ofalodd am fy nysgeidiaeth. Pan gyrheuddais y ddeunawfed flwyddyn o'm hoedran, cefais fyned, yn ol fy nymuniad, i Ysgol Rydd Caerfyrddin, yn yr hon y bûm yn dra astud dros dair blynedd. Yn ystod yr amser yma llwyddais i gael sylw a chymmeradwyaeth fy athraw, y Parch. Thomas Eynon, at yr hwn yr ysgrifenais lythyr o ddiolchgarwch wedi hyny, yn Lladin; a chredaf i hwnw rwyddhau fy ffordd i gael urddau cyssegredig [yn yr Eglwys Wladol]. Ychydig fisoedd cyn i mi ymadael o Gaerfyrddin, daeth y Parch. George Whitfield yno i bregethu. Yr oedd i ddechrau pregethu un ar ddeg ym Mhen-y-pistyll, Heol Awst. Pan glybu fy athraw am hyn, rhybuddiodd ei ddisgyblion, yn enwedig y rhai o'r prif ddosparth, i ochel myned i wrando arno, rhag ofn iddynt gael eu llychwino gan Fethodistiaeth. 'O herwydd,' eb efe, 'yr wyf yn clywed ei fod yn pregethu pechod gwreiddiol, y rhaid geni dŷn drachefn, ac

* El. Williams's English Works, pp. clix.-clxxxi.

y rhaid ein cyfiawnhau ger bron Duw, trwy ffydd, heb weithredoedd.' Pa wedd bynag, ymlithrodd pedwar o honom yn ddirgel i ganol y dorf fawr i wrando y pregethwr. Testyn Mr. Whitfield y diwrnod hwnw oedd y geiriau hynod sydd yn Esa. liv. 5. Yr oedd y pregethwr yn llefaru fel un âg awdurdod ganddo, ac aeth ei eiriau megis saethau i'm calon i: cefais fy nharo yn y fath fodd nes yr oeddwn yn crynu trwy bob aelod; a gwneuthpwyd fi, o ryfedd drugaredd, trwy ras, yn ddŷn arall, yn greadur newydd. Nid oedd genyf ddim hyfrydwch bellach i ddarllen yr awdurdodau paganaidd. Awn i'r ysgol fel cynt, ond nis gallwn gasglu fy meddyliau i fyfyrio fy ngwersi. Cefnodd fy hen gyfeillion gynt arnaf; ie, tröent ymaith yn yr heolydd rhag fy nghyfarfod. Dywedai llawer o'm cydnabod y disgwylient y byddwn yn ysgolhaig da, ac yn gydymaith diddan; ond clywent weithian i mi fyned yn ynfyd, a'm bod yn amddiffyn achos y Methodistiaid.

"Yn yr 21fed flwyddyn o'm hoedran, ymadewais o'r ysgol, a dechreuais fod yn ysgolfeistr fy hun yng Nghynwyl Elfed, lle y bûm dros flwyddyn, o leiaf; a gall amryw dystio ddarfod i mi wneud gryn lawer o les yno. Yr oedd y gamp uchel o alwedigaeth Duw yn wastad yn fy meddwl; nid yn unig y fraint o fod yn ddisgybl i Grist, ond hefyd yr anrhydedd o fod yn weinidog i Grist. Pan nesaodd yr amser, mi a ymbarotoais, ac appeliais am ordeiniad; a chefais *wir* hawl yn Eglwys Gymmun. Cefais yr holl dyst-lythyrau angenrheidiol [yn 1745]; ac er yr amheuid fy mod yn Fethodist, etto derbyniwyd fi i urddau diacon, canys ni ddywedodd fy athraw, at yr hwn yr ysgrifenais y llythyr Lladin crybwylledig, air yn fy erbyn; ond clywais iddo fy nghyflwyno i'r esgob. Yna prysurais i'm plwyf. Yr oedd gan fy noddwr, y ficar, ryw bersonoliaeth neu ficeriaeth dda yn Lloegr, ac unwaith yn y flwyddyn yn gyffredin y deuai adref, er mwyn derbyn y degwm. Am hyny, disgynodd holl ofal y plwyf arnaf fi. Barnai rhai fy mod yn rhy grefyddol, a bod gormod o arogl Methodistiaeth ar fy ngweithrediadau. Daeth y ficar adref i Gymru tu a mis Awst; a bu raid i minnau ymddangos ger bron yr esgob, yr Arglwydd Treferthen, yr hwn a ddywedodd wrthyf, 'Yr wyf wedi clywed eich hanes: yr ydych wedi bod yn pregethu yn Llanlleian a Chapel Ifan.' 'Y mae'r ddau yn lleoedd cyssegredig, fy arglwydd,' meddwn innau. 'Od ymddygwch yn weddus dros dair blynedd,' eb yntau, 'rhoddaf i chwi gyflawn urddau.' 'Ond pa fodd y byddaf byw, fy arglwydd?' oedd fy holiad innau. 'Cloddio nis gallaf, a chardota sydd gywilyddus genyf.' Yntau a attebodd, 'Byddwch byw fel y mynnoch. Eich ufydd was.' Aethum allan o'r palas heb gael cynnyg ar na bwyd na dïod.

"Dywedodd Mr. Gruffydd Jones, Llanddowror, wrthyf iddo glywed bod eisiau curad yn Abertawe. Yr oedd genyf geffyl y pryd hwnw i'm cario, yr hwn a borthid am ddim gan gyfaill i mi, ger llaw Capel Llanlleian, ameuthwr cyfoethog, merch yr hwn ymhen tair blynedd wedyn a briodais.* Pan gyrheuddais Abertawe, cefais dderbyniad caredig. Yr oedd y ficar wedi myned oddi cartref, a galwyd arnaf yn fuan i gyflawni y gwasanaeth. Yr oeddwn i weini mewn dwy eglwys, un yn Gymraeg yn y rhan uchaf o'r dref [Eglwys Ifan], a'r llall yn Saesneg yn y rhan isaf o'r dref [Eglwys Fair]. Gofynwyd i mi fyned i fedyddio mewn tŷ pennodol; ac ystyriwn innau fy hun yn rhwym o gydwybod i ymddwyn fel y gweddai i wasaneuthwr Crist, ac nid difyru y rhai a fyddent bresennol âg ymadroddion ofer, fel y gwneir yn rhy gyffredin ar y fath achlysuron; namyn dilyn cyfarwyddyd Paul i aelodau Eglwys Ephesus, sef 'Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi, ond y cyfryw un ag a fyddo da i adeiladu yn fuddiol, fel y paro ras i'r gwrandawyr.' O herwydd paham, anfoddlonwyd amryw o'r cymdeithion, tra y cydnabyddai rhai eraill bod Cristionogaeth heb Yspryd Crist fel corph heb enaid; ac yn gymmaint ag i ni ymuno yn broffesedig mewn gweddi ar i'r baban a fedyddid ar y pryd gael ei ail eni gan yr Yspryd Glân, bod yn dra phriodol i ni ymofyn a wyddem ni ein hunain am yr hyn a feddylir wrth adenedigaeth.

"Gwyddys bod y maer yn arfer myned i'r eglwys ar ddydd pennodol, ar ol cael ei ethol, yr hwn a ddilynir gan yr henuriaid (*aldermen*) am y flwyddyn honno. Digwyddodd y diwrnod hwnw yn fuan ar ol i mi fyned i Abertawe. Darllenais y gwasanaeth: ac yn ebrwydd wedyn, cyfododd y boneddigion i fyned allan; ond amneidiais ar y clochydd i roi Psalm allan i'w chanu, yr hon a bennodasom ym mlaen llaw. Yna aethum o'r ddarllenfa yn y fan i'r pulpud; a phan welodd y boneddigion hyny, eisteddasant, a rhoddasant wrandawiad gweddus. Aethum ym mlaen yn bur reolaidd, fel y tybiwn, er mwyn fy nghymmeriad. Yr oeddwn wedi ysgrifenu penau fy mhregeth, a'm testyn oedd 2 Chron. xix. 6, 7. Nid oedd ganddynt ddim i'w ddywedyd yn fy erbyn; ond clywais nad oeddynt yn cymmeradwyo fy mhregethiad. Dywedent fy mod yn rhy zelog, ac yn llefaru yn rhy uchel; ac y barnent na byddwn yno yn hir. Ymhen tu a mis ar ol hyn, wedi gorphen y gwasanaeth yn yr eglwys uchaf, aethum i'r llall, fel arferol, yn union erbyn un ar ddeg; ac yr oedd y gloch yn canu. Wedi myned i'r eglwys, ac edrych ar y ddarllenfa a'r pulpud, gwelwn un arall yn y ddarllenfa eisoes. Aethum i fynu at y gŵr, a gofynais, 'Syr, ai chwi sydd am wasaneuthu yma heddyw?' Attebodd yntau yn sarug, 'Ië.' 'O'r gorau,' meddwn innau; 'ond os gwelwch yn dda, mi ddarllenaf fi'r gwasanaeth.' 'Na!' meddai yntau, 'mi a'i darllenaf fy hun.' Eisteddais innau i lawr, lle yr arhosais hyd ddiwedd y gwasanaeth; ond nid arhosais i gyfarch fy mrawd clerigol, gan fy mod yn rhy lawn, ond aethum at y rhai a'm rhoddasant ar waith i ofyn y rheswm am hyn. 'Nid yw'r plwyfolion yn eich hoffi,' oedd yr atteb. 'Deuwch yma yfory, a chewch eich tâl.'

"Aethum oddi yno yn ebrwydd i Gaerfyrddin, lle'm hyspyswyd bod eisiau curad yn Llangranog a Llandyssilio, yn sir Aberteifi. Prysurais yno, a chyflogais i wasaneuthu yr eglwysydd am dri mis, canys gwrthodasai y curad oedd yno eu gwasaneuthu heb gael ychwaneg o gyflog. Edifarhaodd hwnw, a chafodd addewid am ei le drachefn cyn gynted ag y byddai fy nhymmor i wedi darfod. Ymhen tu a dau fis, wedi i mi fod yn Llandyssilio yn y borau, aethum i Langranog, a chefais ddrws yr eglwys yngheuad, nid yn fy erbyn i, ond yn erbyn y curad, yr hwn a geisiai fy nisodli. Pan agorwyd y drws, rhuthrasom i mewn, a'r dyrfa wrth ein sodlau. Ymaflodd ef yn fy ngholar i, ac ymeflais innau yn ei golar yntau, canys yr oeddwn yn ieuaingc y pryd hwnw; ac ynnillais y pulpud, a chefais lawer o drafferth i dawelu y bobl. Erchais, yn enw'r brenin, am dawelwch, a llwyddais i'w gael yn lled fuan; yna pregethais yn nerthol. Nid ymdrechais law-law byth wedyn am na'r pulpud na'r ddarllenfa; ond penderfynais ddilyn arweiniad Rhagluniaeth, a phregethu yr efengyl pa le bynag y cawn le, i mewn neu allan, yn y maes neu ar y domen, os gallwn ennill eneidiau at Grist, i gyfranogi o'i anfeidrol iachawdwriaeth ef, yn ol yr esampl a roddes efe

* Yr ydym yn gweled yng ngwaith y Parch. Eliezer Williams mai un Morgan Jenkins, yr hwn oedd yn byw yn y Gorse, ymhlwyf Llanarthney, sir Gaerfyrddin, ac yn meddu etifeddiaeth dirol fechan, oedd y "cyfaill" yma, unig ferch yr hwn, a'i henw Mary, a briododd Peter Williams, o gylch y fl. 1748, pan oedd efe tu a 26 oed. Ni fynegir a oedd iddi frodyr ai peidio. Yr ydym yn casglu nad oedd; ac os felly, aeth yr etifeddiaeth yn eiddo iddi hi ar ol ei rhieni. Pa wedd bynag, dywed eu hŵyr, y Parch. Armstrong Williams, y bu eu hundeb yn nodedig o anwyl a bendithiol, ac y bu iddynt chwech o blant, tri o feibion a thair o ferched, ac mai yr hynaf o'r plant oedd ei dad ef, Eliezer. Bu Mrs. Peter Williams farw yn y Gelli, ger llaw Caerfyrddin, ar yr 8fed o Fawrth, 1822, yn 97 oed; am hyny ganwyd hi yn y fl. 1725, ac felly yr oedd hi yn ieuengach na'i gŵr o dair blynedd; ond bu hi fyw 26 blynedd ar ei ol ef. Claddwyd hi yn yr un bedd ag yntau, ym mynwent Llandyfeiliog, ger llaw Caerfyrddin.—El. Williams's English Works, p. clxxxviii. See also p. iv.

Digitized by Google

ei hun, yr apostolion, a holl aelodau Eglwys fawr Jerusalem.

"Yn fuan ar ol hyn, clywais fod cynghorwr enwog* mewn rhyw barth o sir Benfro. Aethum i'w wrando, ac i ymddiddan âg ef. Cefais ei fod ef yn cynnal cyfarfod mewn lle mynyddig ger llaw Castell y Gelli (*Hays Castle*). Mwynheais y fath hyfrydwch wrth ei wrando fel, wedi iddo ef orphen, y torais allan i weddio, er syndod mawr i'r gynnulleidfa, canys ni wyddai neb pwy oeddwn i, ond yr hwn a gymmeraswn yn arweinydd. Pa wedd bynag, clymodd yspryd ffydd a chariad, a anadlai yn y weddi, eu calonau hwy a minnau ynghyd, fel y tystient yr ystyrient hi megis llais o'r nef yn galw ar bechaduriaid adref: amgylchiad nad anghofiaf byth. Cymmerwyd fi gan y pregethwr, neu'r cynghorwr, fel yr arferai efe yn ostyngedig alw ei hun, gyd âg ef i gymdeithasfa o bregethwyr Methodistaidd a gynhelid ar ororau sir Benfro. Cyflwynodd fi i'w sylw; cefais enw yn eu plith, a chyd â hwy y parheais i gymdeithasu o'r bedwaredd flwyddyn ar hugain o'm hoedran [1746], hyd onid oeddwn yn ddeg a thriugain neu ychwaneg [chwe blynedd a deugain, o leiaf].† Yn ebrwydd ar ol ymuno â'r Methodistiaid, teithiais yn raddol dros yr holl wlad, gan ofalus sylwi ar law Rhagluniaeth, megis y gwyliai yr Israeliaid gyfeiriad y golofn a nodai le eu gwersylloedd yn yr anialwch. Dysgais gynhwysiad y wers ddefnyddiol sydd yn Jer. x. 23, trwy brofiad mynych, sef 'Nid ar law gŵr a rodio y mae llywodreuthu ei gerddediad.' Ac ymdrechais ddysgu yr hyn y dywed Paul iddo ef ei ddysgu, sef 'Ymha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawn,' Phil. iv. 11.

"Aethum i Gapel Abergorlech. Yr oedd Mr. Daniel Rowlands yno yn pregethu. Rhoddes efe fi yn y pulpud, a chynnorthwywyd fi i bregethu mewn modd, fel y gobeithiaf, oedd yn 'hoff gan Duw, a chymmeradwy gan ddynion' (Rhuf. xiv. 18), canys dododd yr Arglwydd ei sêl ar fy ngwasanaeth; ac ychwanegwyd rhai at eglwys Crist, yn enwedig un Esther, o Lan Rhyd, ger llaw Brechfa, yr hon a ddechreuodd fod yn ddisgybles i Grist y dwthwn hwnw, ac a barhaodd hyd y diwedd (Ioan viii. 31; Mat. xxiv. 13). Yna aethum i Langeitho, a phregethais yno. Ni wyddwn y pryd hyny ond ychydig am yr hyn a wahanieuthai rhwng yr Arminiaid, y Baxteriaid, y Morafiaid, &c.; er hyny canfyddais trwy brofiad bod pregethu Crist wedi ei groeshoelio dros bechaduriaid yn ddigon i eneidiau y byddai newyn a syched arnynt am gyfiawnder, o blegid yr oedd y cyfryw rai yn gwledda bob dydd ar ddanteithion heddwch a chariad.

"Cyfarwyddwyd fi o Langeitho i Lanidloes, lle yr oedd gŵr duwiol o grydd, a'i enw Evan Morgan, yn caru yr Arglwydd Iesu, ac yn derbyn pregethu i'w dŷ, yn yr Heol Ogledd (*North Street*); ond cyfodwyd terfysg blin yno, fel y bu raid i mi ymadael yn ebrwydd. Aethum ar fy nhaith oddi yno trwy'r Drefnewydd, heb ond diferu ambell bregeth yma ac acw, lle y cawn ganiatâd. Fy ngorphwysfa nesaf oedd y Bala, canys clywswn fod yno fwy na dau neu dri wedi cofleidio achos yr efengyl, ac oll yn perchen eiddo. Pregethais unwaith yno ynghanol terfysg. O'r Bala aethum i Leyn, yn sir Gaernarfon, wedi clywed bod yn y lle ychydig wedi derbyn yr efengyl. Pregethais fel arferol i dyrfaoedd lliosog, canys yr oedd y newydd-deb o bregethu allan, a hyny gan glerigwr, wedi dwyn llu mawr ynghyd, ac yn eu plith yr oedd gwraig gyfoethog, yr hon a dröed yn effeithiol, a chydnabyddai fi ar hyd ei hoes fel ei thad ysprydol.

"Yn nesaf, aethum i sir Fôn, wedi clywed bod yno bregethwr, a'i enw William Prichard,‡ Plas Penmynydd, yr hwn a symmudasai o sir Gaernarfon i'r wlad honno. Rhoddes efe hanes erchyll i mi am y rhagfarnau chwerwon a goleddid yn erbyn pregethwyr teithiol a'u canlynwyr. Pa wedd bynag, anturiais i bregethu ar ben bryn, ac yma ac acw, lle bynag y gallwn gael pump neu chwech i'm dilyn. Dechreuwn bregethu cyn gynted ag y gellid, heb aros i'r llïaws ymgynnull, canys canfyddais trwy brofiad, os gallwn ennill clustiau fy ngwrandawyr, yr ennillwn eu calonau yn fuan, ac mai anfynych yr ymhyfrydent mewn erlid wedyn.§ Y tlodion a'r dosparth canol oedd y gwareiddiaf, y rhai a gynhygient i mi letty, ac a'm croesawent â'r pethau a fyddai ganddynt. I Drefriw, yn sir Gaernarfon, yr aethum nesaf; ond ni oddefai y terfysglu i mi bregethu yno. Rhwystrai dau foneddwr i'r dorf anfoesol, i'r rhai yr oeddynt yn arweinwyr, fy nghuro a'm beuddu; ond bwriwyd fi i dŷ tafarn, i ganol ugeiniau o watwarwyr meddwon ac annuwiol, o chwech o'r gloch brydnhawn hyd ddau y borau drannoeth. Daeth un o'r arweinwyr ataf i ofyn am fy llythyrau urddau; ac am na feiddiwn ei ommedd, rhoddais hwynt iddo. Wedi edrych arnaf yn sarug, gwrthododd eu dychwel i mi, ac aeth ymaith. Wedi disgwyl tu a dwy awr, daeth merch ieuangc ar geffyl i ymofyn am danaf: rhodd ar ddeall i mi mai merch y gŵr a yspeiliasai fy llythyrau ydoedd. Ymddengys i'r dŷn fostio o'i weithred ardderchog, yn ol ei feddwl ei hun, ac i rywun ei rybuddio o'i berygl od erlynid ef â chyfraith, ac am hyny iddo eu hanfon gyd â phob brys, gan ddeisyf arnaf, trwy gyfrwng ei ferch, eu cymmeryd yn ol."

Yma y terfyn yr hanes a roddes yr enwog Peter Williams i ni â'i law ei hun, o'r hon y tynwyd yr hanes flaenorol. Gwelir nad yw efe yn son dim am ei lafur llenyddol, y rhan fwyaf parhaus o'i holl lafur helaeth a gwerthfawr; a dywed ei ŵyr, y Parch. St. George Armstrong Williams, y teithiodd lawer mwy nag a gofnoda efe yn yr hanes flaenorol. Y mae'n ddigon hyspys iddo lafurio yn ffyddlawn a diwyd iawn yngwinllan ei Arglwydd, o'r amser yr aeth efe gyntaf i mewn iddi, pan oedd tu ag 21 oed, hyd ei farwolaeth; ac ychydig iawn yng Nghymru a ddygodd fwy, a gwell, ffrwyth yn y winllan honno. Ni chymmerai ei luddias gan un math ar dywydd; ac ystyriai yn anrhydedd iddo gael dïoddef erledigaeth yn achos y

* "Y Parch. Howel Davies, y mae'n debyg."

† Bu'r digwyddiad yma o fendith anhreuthol, nid yn unig i'r Methodistiaid, fel cyfundeb, ond hefyd i Gymru benbaladr. Yn y cyfnod hwn, yr oedd y cyfundeb Methodistaidd yn ei fabandod, a chaffeuliad anmhrisiadwy iddo oedd cael y fath ŵr a Peter Williams. Yr oedd yn rhagori ar ei holl frodyr fel pregethwr trefnus, cryno, a phwrpasol.

‡ Y mae yma ychydig gamsyniad, canys er bod William Prichard yn goleddwr ac amddiffynydd zelog a ffyddlawn i bregethwyr, o amser ei dröedigaeth hyd ei fedd, etto ni bu efe ei hun erioed yn bregethwr cyhoeddus.—Gwel llyfr v., pen. xv.

§ Y mae *Drych yr Amseroedd* (t. 85–6) yn cofnodi yr hyn a ganlyn am Peter Williams pan ar y daith yma, ond odid, ym Môn, yr hyn, fel yr ymddengys, a ebargofiwyd gan Williams ei hunan:—"Cyhoeddwyd Peter Williams ryw bryd i bregethu yn agos i Benrhos Lleugwy, wrth dŷ tafarn. Erbyn ei ddyfod yno, yr oedd cwmni anhawddgar yn disgwyl am dano. Ni chai fyned i'r tŷ, na lle i'w geffyl. Ond gan ei fod ef yn ŵr o feddwl gwrol, ac o ddygiad boneddigaidd i fynu, methasant ei wrthsefyll. Yna yn ebrwydd safodd i fynu, a rhoes y gair hwnw o'r Salm allan i'w ganu:—

'Yr Arglwydd bïau'r ddaear lawr,
Ei llawnder mawr sy'n eiddo:
Yr Arglwydd bïau yr holl fyd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo.'

Cerddodd y fath awdurdod gyd â'r gair nes oedd gwŷr y pastynau a'r cyrn yn taflu pob peth o'u dwylaw; ac wedi eu dal gan ddychryn, dechreuasant nesu ym mlaen, a gwrandawsant yn llonydd hyd ddiwedd y cyfarfod. Dan y bregeth honno y dychwelwyd Owen Thomas Rowland a Richard Hughes, dau ddŷn hynod mewn duwioldeb a zel dros achos Duw. Ar ol hyny, goddefasant lawer o gam a gorthrymder."



Digitized by Google

Gwaredwr bendigedig, a bu o fendith i filoedd mewn oes dywyll a hanner Pabyddol. Yr oedd yr olwg arno yn hynod o fywiog ac effro yng ngwaith ei Arglwydd. Cynnysgeuddwyd ef â corph cadarn a lluniaidd, ac â meddwl cyflym, treiddgar, a phenderfynol, yr hyn a'i galluogai i lafurio yn galed, i deithio yn hir, ac i ddïoddef caledi ac eisiau; a gwnai hyny, pan fyddai achos, yn dawel a dirwgnach; a byddai achos, ysywaeth, yn ei oes ef, yn bur fynych. Yr oedd hefyd yn nodedig o lariaidd a boneddigaidd ei foesau, a boddlonai ar bob math ar letty a lluniaeth yn ddïolchgar a siriol. Yr oedd ei dalentau o'r radd uchaf, ac yn ei gymhwyso yn nodedig i dywallt goleuni a gwirionedd yr efengyl i feddyliau tywyll ac anniwylledig ei wrandawyr. Fel pregethwr, yr oedd yn hynod o fywiog, egnïol, a nerthol. Gweithiai ei ffordd i galonau y bobl trwy ei ddull deniadol yn llawn cymmaint a thrwy rym ei resymau, a phrydferthwch ei ddychymmyg; a bu o fendith anhreuthadwy i filoedd lawer yn yr oes dywyll yr oedd yn byw ynddi. Swm a sylwedd ei bregethau oedd trueni dŷn wrth natur, a'i achubiaeth trwy yr Arglwydd Iesu; a mynych y byddai ei wrandawyr yn wylo o blegid eu trueni, ac yn gorfoleddu am "yr iachawdwriaeth fawr yng Nghrist."

Gwneid ymdrech egnïol yn ei oes ef i ddilëu yr iaith Gymraeg, trwy ddwyn ysgolion a llyfrau Seisnig i'r wlad, ar draul llwyr esgeuluso y Gymraeg; ac yr oedd personiaid a churadiaid yr Eglwys Sefydledig yn gyffredin yn cefnogi hyny â'u holl egni, trwy ddarllen pregethau Saesneg, ac yn fynych y gwasanaeth oll yn yr iaith honno, i bobl nad oeddynt yn deall un gair o'r hyn a ddarllenent! O herwydd paham, aeth y werin bobl yn hynod o anwybodus, ac yn dra llygredig eu moesau a'u harferion. Yr oedd hyn yn ofid calon i'r enwog Peter Williams, a'r ychydig dduwiolion eraill oedd yn y wlad, yr hyn a'i cymhellodd ef, pan ynghanol pregethu teithiol trwy'r holl Dywysogaeth, fel y gwelsom, i ddechrau ysgrifenu llyfrau yn iaith ei fam a'i genedl. Tybir mai dechreuad ei lafur llenyddol oedd cyfieithu y llyfr canlynol:—

"Traethawd Defnyddiol ar Ben-Arglwyddiaeth Duw, a'i Gyfiawnder ynghyd a'r Pethau Pwysfawr, sy'n tarddu oddiwrth ei Ben-arglwyddiaeth ef, sef; Etholedigaeth, Prynedigaeth, Galwedigaeth effeithiol, a Pharhad mewn Gras. O waith Mr. Eliseus Cole, yn Saesoneg. . . 1760."

Dywed Peter Williams, yn ei "Annerch at y Darllenydd," sydd o flaen yr argraphiad hwn, i'r cyfieithiad yma gael ei gymmeryd o'r wythfed argraphiad Seisnig, tra'r oedd y lleill o'r chweched argraphiad. Dywed "John Humphreys" wrth y "Darllenydd Hynaws," o flaen argraphiad 1802, mai "cyfieithydd" argraphiad 1760 oedd "y Parchedig P. Williams," a dyna yw barn Gwilym Lleyn,* er nad yw ei enw ef ar yr enwad-ddalen. Ond gwaith mawr ac anfarwol Peter Williams oedd,—

"Y Bibl Sanctaidd: sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Nodau a Sylwadau ar bob Pennod.—Caerfyrddin: argraphwyd dros y Parch. Peter Williams. 1770." [4plyg].

Cynhwysai hwn yr Apocrypha, a Psalmau Cân yr Archddiacon Prys; ond gallai y rhai a ddewisent ei gael heb yr Apocrypha. Rhoddes Richard Morris, o Lundain, brawd Lewis a William Morris, o Fôn, ddwy barthlen (*map*) i'w harddu. Dyma y tro cyntaf i'r Bibl gael ei argraphu yng Nghymru, a'r tro cyntaf hefyd i "Nodau a Sylwadau ar bob Pennod" gael eu hysgrifenu yn Gymraeg. Dywed y bywgraphwyr yn gyffredin mai 3,600 oedd nifer copïau yr argraphiad cyntaf hwn;† ond yn ol Gwilym Lleyn, yr oedd y nifer yn 8,000.‡ Cyhoeddwyd yr ail argraphiad yn 1781§ (nid yn 1779), a dywedir mai nifer y copïau oedd 6,400. Yn 1788, ac nid 1796, y cyhoeddwyd y *trydydd* argraphiad,‖ sef tu ag *wyth mlynedd* cyn i'r awdur enwog farw. Ni welsom nifer yr argraphiad yma: dyfeler ei fod yn 4,000 o gopïau. Yn ol y cyfrif yma, gwelodd yr awdur 18,400, o leiaf, o'r Bibl, a'i sylwadau yntau arno, wedi ei gyhoeddi yn ystod 18 mlynedd o'i oes! Ni chyhoeddwyd y *pedwerydd* argraphiad, yr hwn a eilw'r bywgraphwyr yn *drydydd*, hyd 1797¶ (nid 1896), sef ymhen tu a blwyddyn ar ol i'r awdur duwiol a llafurus farw. Dywedir mai 4,000 o gopïau oedd yr argraphiad yma. Dywed y Parch. T. Phillips yr argraphwyd "Bibl Peter Williams" ddeuddeg o weithiau, o leiaf, yng Nghaerfyrddin, heb son am argraphiadau a wnaed o hono mewn manau eraill.** Cyhoeddwyd argraphiad 1plyg ardderchog o hono, ychydig flynyddoedd yn ol, gan Mr. Mackenzie. Yr argraphiad olaf o hono, gyd â "Nodiadau ac Egluriadau gan y Parch. Matthew Henry, y Parch. Albert Barnes, ac eraill; Arweiniad i bob un o'r Llyfrau Sanctaidd; a Chyfeiriadau Ysgrythyrol; at yr hyn y Rhagddodwyd Hanes Bywyd y Parch. Peter Williams a'r Parch. Matthew Henry," &c.,

* Llyfr. y Cymry, t. 459.
† Williams's Em. Welshm., p. 533; En. Cymru, I. F., t. 1021: En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 623.
‡ Llyfr. y Cymry, t. 513. § Yr un, t. 603
‖ Yr un, t. 632. ¶ Yr un, t. 707.
** Llyfr y Jubili, t. 60.

Digitized by Google

a gyhoeddwyd yn y fl. 1876, "dan olygiad Gweirydd ap Rhys." Y gwir yw bod *llawer can mil* o "Fibl Peter Williams" wedi ei argraphu, ei brynu, a'i ddarllen, yn ystod y 106 blynedd, o 1770 hyd 1876.

Yr oedd prinder mawr o Fiblau yn y wlad pan gyhoeddodd Peter Williams yr argraphiad cyntaf yn 1770; ac, yn wir, parhaodd y prinder hyd oni ddechreuodd "Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor" gyhoeddi y Bibl yn 1806. Heb law hyny, nid oedd Ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu yn y wlad hyd yn hyn; ac yr oedd llawer o wŷr o ddylanwad a dysg, "mewn gwlad ac eglwys," fel y crybwyllwyd eisoes, megis y mae rhyw ychydig etto, yn darogan dinystr buan y Gymraeg, ac yn dadlau na ddylasid dosparthu ond Biblau Seisnig i'r werin Gymreig. Yn y fath amser, rhaid mai antur bwysig i un dŷn oedd cyhoeddi *wyth mil* o Fiblau mawr, pedwarplyg, punt yr un, yn Gymraeg, heb son am y llafur dygn o ysgrifenu sylwadau ar bob pennod, gyd âg aml gyfeiriadau ar ymyl y dail. Ond yr oedd Peter Williams yn ddïarhebol am ei ddewrder cystal ag am ei fedr. Yr oedd ei gyfeillion yn barod i feddwl, ar y cyntaf, mai rhyfyg oedd iddo ymgymmeryd â'r gorchwyl; ond efe a ymroddes ato yn wrol, ac a'i cyflawnodd yn deg, er eu syndod.

Fel esponiad ar y Bibl, nis gall yr eiddo Peter Williams fod, fel y gellid disgwyl, ond byr ac anghyflawn. Nid yw yn cynnwys ond "nodau a sylwadau ar bob pennod," ac nid ar yr adnodau yn gyffredinol. Ond, yn ol ei derfynau, y mae'n dra llwyddiannus, ar y cyfan, yn ei amcan i "eglurhau y Gair." Pan gofier nad oedd un esponiad o'i flaen ar y Llyfr Dwyfol, na mawr na bychan, yn Gymraeg, nid rhyfedd ei fod yn cael ei brisio fel anrheg werthfawr gan Gymry uniaith. Y mae'n rhoi golwg gryno ar brif fatter neu fatterion pob pennod, yn taflu goleuni ar yr adnodau anhawsaf eu deall, ac yn cyfranu gwersi ymarferol a chymmwysiadol, a'r cyfan mewn iaith sathredig a dealladwy. Y mae craffder deall, neu synwyr cryf, yn ymddangos fel prif gynneddf y sylwedydd: y mae ei nodiadau yn gyffredin yn naturiol, ac i'r pwrpas. Ond rhaid i ni adael prif waith ein hawdur enwog ar hyn o bryd, i dreuthu gair ar y gweddill o'i lafur llenyddol a duwinyddol. Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd yr awdur y Bibl a fu dan sylw, bu ganddo law arbenig ynghyhoeddiad y llyfr canlynol, yr hwn oedd y *cyhoeddiad cyfnodol* cyntaf yn yr iaith, ac a alwyd—

"Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg." [8plyg. 1770].

Cyhoeddid y "Drysorfa" neu yr "Eurgrawn" yma unwaith bob pythefnos, pob rhifyn yn 32 o dudalenau, pris tair ceiniog. Yr oedd pob rhifyn yn bedwar dosparth, a phob dosparth yn wyth tudalen, wedi eu rhifnodi ar wahân, yr hyn a wnai bedwar o lyfrau, yn cynnwys 120 o dudalenau bob un, yn ol prif ddosparthiadau y cyhoeddiad, sef 120 o "Frut y Brenhinoedd," 120 o "Ymresymiadau ar amrywiol Destynau," 120 o "Brydyddiaeth," a 120 o "Newyddion Cartrefol a Phellennig." Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ddydd Sadwrn, y 3ydd o Fawrth, 1770, a'r olaf ddydd Sadwrn, y 15fed o Fedi, yr un flwyddyn. Felly, *pymtheg* rhifyn a gyhoeddwyd o hono, canys rhoddwyd ef i fynu o ddiffyg cefnogaeth.

Golygwyr yr "Eurgrawn" oedd y Parch. Peter Williams ac Evan (Ifan) Thomas, argraphydd.* Dywedir yn Hanes Bywyd Eliezer Williams† mai ei dad ef, Peter Williams, a fu yn offerynol i *gychwyn* yr "Eurgrawn Cymraeg;" ac y mae'n dra sicr mai arno ef yr oedd prif bwys yr olygiaeth, tra mai gorchwyl penaf "Ifan Thomas (Ieuan Fardd Du), cyssodydd," ynglŷn â'r gwaith, oedd darllen a chywiro y profleni.‡ Ymddengys mai John Ross, Sais neu Ysgotiad o genedl, oedd y cyhoeddwr, yr hwn a ganmolir yn fawr gan y Dr. Edwards.§ Ond, fel y crybwyllwyd, y mae'n ddilys ddïammau mai Peter Williams oedd y prif olygydd, a'i fod hefyd yn ysgrifenu llawer iddo. Y mae'r Dr. Edwards yn difynu dau ddernyn o'n "Eurgrawn," ac un yn lled faith, ac yn dywedyd, "Yn y rhai, os nad ydym yn camsyniad, nid yw anhawdd canfod dullwedd y Parch. Peter Williams." Y mae'n dra sicr fod yn yr "Eurgrawn" amryw ddarnau eraill o waith Peter Williams, megis "Ynghylch Boddlonrwydd," a'r cyffelyb. Y mae amryw wedi dywedyd bod Ieuan Brydydd Hir *Ieuaf* yn ohebydd i'r "Eurgrawn;" ond y Parch. D. Silvan Evans (Hirlas) a ddywed fel hyn:—

"Dywedir weithiau fod y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir) ymhlith gohebwyr y greal hwn; ond er bod genyf gyfargraph lled gyflawn o'r cyhoeddiad, yr wyf yn methu canfod dim o'i waith ef ynddo. Y mae'r Dr. Lewis Edwards wedi cyhoeddi yn y *Traethodydd*, a'i adgyhoeddi yn ei *Draethodau Llenyddol*, 'Gywydd Methiant,' yr hwn a argraphwyd yn yr 'Eurgrawn' o waith Ieuan Brydydd Hir *Hynaf*, yr hwn oedd yn ei flodau o gylch y fl. 1450, a'i briodoli i Ieuan Brydydd Hir *Ieuaf*, sef y dywededig Evan Evans, neu 'Ieuan Fardd ac Offeiriad,'

* Llyfr. y Cymry, t. 514–15. † Cambro-Briton. vol. i., p. 452.
‡ Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 509–11. § Yr un, t. 512.

Digitized by Google

fel yn gyffredin y galwai efe ei hun. Gwnaed yr un camgymmeriad gan ysgrifenydd yn y *Brython* (cyf. iv., t. 34); ond dangoswyd mewn rhifynau eraill o'r un cylchgrawn, tu hwnt i'r chwythryn lleiaf o amheuaeth, mai gwaith bardd y bymthegfed ganrif ydyw; ac ymhlith prawfion eraill, crybwyllwyd bod darnau helaeth o'r cywydd yn argraphedig yn *Flores Poetarum Britannicorum*, yr hwn a gyhoeddwyd yn y fl. 1710, ugain mlynedd cyn geni y Prydydd Hir o Geredigion. Gwelais y cywydd hwn hefyd mewn casgliad o farddoniaeth lawysgrifol a wnaed ar bwys dau gan mlynedd. O ran hyny, y mae'r cywydd yn dwyn digon o brofion mai cyfansoddiad gŵr yn dïoddef pwys henaint a methiant ydyw; tra nad oedd Evan Evans ond rhyw ddeugain oed yr amser y cyhoeddid yr 'Eurgrawn.'"*

Ymhen tu a blwyddyn ar ol cyhoeddi yr "Esponiad" a'r "Eurgrawn," sef yn 1771, cyfieithodd Peter Williams ddwy bregeth o waith y Parch. David Edwards, ar farwolaeth George Whitfield. Y llyfr nesaf a gyhoeddwyd gan yr awdur llafurus oedd y gwaith pwysig a gwerthfawr canlynol:—

"Mynegair Ysgrythyrol: neu Ddangoseg Egwyddorol o'r holl Ymadroddion yn yr Hen Destament a'r Newydd. Yn Ddwy Ran. Y Rhan gyntaf, yn cyfarwyddo at y Llyfr, y Bennod, a'r Adnod, lle y cynhwysir Prif Eiriau pob Ymadrodd: Ynghyd âg Arwyddocâd Geiriau Anghyfiaith. Yr ail Ran, yn cyfarwyddo at Enwau priodol Dynion, Llefydd, &c., gydâ'u Harwyddoccâd yn y Ieithoedd gwreiddiol, o ba rai y maent yn deilliaw. Gan y Parchedig Peter Williams. . . . M,DCC,LXXIII." [4plyg: 2,000 o gopïau].

Dywed yr awdur iddo seilio'r gwaith llafurfawr a phwysig hwn ar "Fynegair i'r Bibl, sef Concordance, a argraphwyd yn Pensylfania,"† at yr hwn yr ychwanegodd efe lawer. Y mae'r gwaith tra defnyddiol yma wedi myned trwy lïaws o argraphiadau, a chredwn nad oes un gwaith Cymraeg mor boblogaidd, ond "Bibl Teuluaidd" yr awdur ei hun yn unig.

Heb law y llyfrau gwerthfawr a nodwyd, yn 1774 cyhoeddodd "Lythyr Rysiart Davies, D.D., Esgob Tŷ Ddewi, at y Cymry, yr hwn Lythyr a 'sgrifenodd efe at ei Gydwladwyr, o flaen Cyfieithiad William Salsbri o'r Testament Newydd, i'w hannog hwy i ddarllen a defnyddio Gair Duw." Yn 1782, cyhoeddodd y "Cydymaith mewn Cystudd, neu Hyfforddiwr trwy ddyffryn marwolaeth." Yn 1783, Cymreigiodd "Ffordd anffaeledig i Foddlonrwydd." Yn 1784, cyhoeddodd "Y Briodas Ysprydol," sef pregeth fuddiol ar Esa. liv. 5. Yn 1788, cyhoeddodd ei gyfieithiad a alwyd ganddo "Cyfoeth i'r Cymry. Ymadroddion. O gasgliad Toplady." Yn 1790, cyhoeddodd "Y Bibl Sangtaidd; sef yr Hen Destament a'r Newydd, â Nodau ysgrythyrol ar ymyl y ddalen, wrth y rhai y gwelir mai'r Ysgrythyr yw Deonglydd cywiraf o'r Ysgrythyr." Hwn ydyw yr un a elwir "Bibl John Canne," am mai cyfeiriadau y Bibl a gyhoeddwyd yn Saesneg gan y gŵr hwnw a ddefnyddir ar ymyl y dail. Dywedir bod y Parch. D. Jones, gweinidog y Bedyddwyr, yn cynnorthwyo Peter Williams i'w ddwyn allan. Argraphwyd ef yn Nhrefeca. Bydd genym achlysur i ddywedyd gair am y Bibl yma etto.

Y gweddill o lafur llenyddol a duwinyddol y gŵr mawr a diwyd hwn, hyd y canfyddwn, yw'r mân lyfrau canlynol:—"Marwnad y Parch. Daniel Rowlands," 1791.—"Goruchwyliaeth Crist: neu Ragoriaeth yr Efengyl:" cyfieithiad o bregeth y Dr. Playfere, 1792.—"Tafol Gywir i bwyso Sosiniaeth: neu Atteb i Lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar, dan yr enw Appel at Broffeswyr difrifol," &c., 1792.—"Dirgelwch Duwioldeb: neu Athrawiaeth y Drindod: wedi ei datguddio mewn dull eglur a chynnefin, i'r Diben o wneuthur Egwyddorion Crefydd Crist yn hyfryd, ac yn flasus, i bob Enaid duwiol, yn ddirgel ac yn gyhoedd," 1792.—"Gwreiddyn y Matter: neu Hyfforddiad i Wybodaeth y Gwirionedd. A gyhoeddwyd er lles i'r Cymry; sef, I'r diben o wneuthur pethau tywyll yn oleu, a gwneuthur Crefydd Crist yn hyfrydwch, ac athrawiaeth yr Ysgrythyrau yn flasus; trwy adnabod Duw; Tad, Mab, ac Yspryd; yn Dad, yn Frawd, yn Briod, yn Gyfaill, ac yn Ddiddanydd i bob enaid grasol," 1794.—"Hunan-Gofiant," 1794.—Ysgrifenodd y ddau waith olaf yn y 72fed flwyddyn o'i oedran. Priodol y dywed awdur *Methodistiaeth Cymru* am ei lafur llenyddol fel y canlyn:—

"Gyd â llafurio llawer iawn yn egnïol yngweinidogaeth y gair [fel pregethwr teithiol] trwy'r Dywysogaeth, fe ymdrechodd y Parch. Peter Williams fwy na neb arall o'i gydoeswyr Methodistaidd i lesâu ei genedl trwy yr *argraphwasg*. Gorchwyl oedd hwn nad oedd ond ychydig etto wedi ymosod ato; ond gorchwyl, er hyny, yr oedd mawr angen am dano. Yn ystod y 40 mlynedd a aethai heibio, yr oedd doniau ac addysgiadau y pulpud wedi amlhau yn ddirfawr; ond nid felly llenyddiaeth y genedl. Yr oedd llyfrau da a buddiol yn brinion iawn; ïe, yr oedd yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn anaml iawn. Yr oedd pob dŷn tyner ei galon, a chraff ei sylw, yn canfod y gwall hwn, ac yn gofidio o'i blegid. Ond yr oedd cryn anhawsder ar ffordd dŷn a fynnai ddiwallu yr angen, a'r anturiaeth gyssylltedig â'i ddiwallu yn ddirfawr. Rhaid oedd i'r neb a ymgymmerai â'r gorchwyl fod yn meddu ar lawer o wroldeb meddwl, ac ymroddiad penderfynol, yn ogystal a medrusrwydd a dysg. Nid llawer o'r cyfryw oedd i'w cael ym mysg y Methodistiaid cyn y fl. 1770: y mae'n amheus a oedd neb yn meddu ar y cymmwysderau

* Llyfr. y Cymry, t. 515.

† Enw y llyfr hwnw yw, "Cyd-gordiad Egwyddorol o'r Scrythyrau, neu Gyfarwyddyd i gael pôb lle o'r Scrythyr Lân. Gan Abel Morgan.—Philadelphia: argraphwyd yn 1730."—Llyfr. y Cymry, t. 355.

Digitized by Google

priodol, ar y pryd, ond y Parch. P. Williams. Pa un bynag, efe oedd y gŵr a ymosododd ar y gorchwyl."*

Llyfrau ar y ddadl anffodus a gynhyrfwyd gan rai o frodyr crefyddol byrbwyll a hunan-dybus Peter Williams oedd y tri diweddaf ond un a ysgrifenwyd ganddo, sef y "Dafol Gywir," "Dirgelwch Duwioldeb," a "Gwreiddyn y Matter." O herwydd ei fod ef yn credu geiriad y Testament Newydd yn llythyrenol am Dduwdod Crist, megis y rhai hyn:—"A Duw oedd y Gair;" "Duw a ymddangosodd yn y cnawd;" "o blegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol;" "y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân, a'r tri hyn un ydynt," a'r cyffelyb; ac am na ddeallai ymadroddion anysgrythyrol, a ddefnyddid ar y pwngc, megis "y Drindod," "tri pherson yn y Drindod," ac eraill o'r fath: am na chredai y rhai hyn yr un fath a rhai o'i frodyr a ystyrient eu hunain dipyn yn anffaeledig, dechreuasant ei gyhuddo o *Sabeliaeth.* Ymddengys mai arweinydd yr ymosodiad erledigeuthus oedd Nathaniel Rowlands,† mab y Parch. Daniel Rowlands. Y mae'n anhawdd gwybod yn fanwl pa bryd y dechreuodd yr ymosodiad anfad ar yr awdur llafurus, a'r pregethwr ymdrechgar a llwyddiannus. Y Parch. John Hughes a ddywed fel hyn:—

"Ond ynghanol y llafur dirfawr hwn [sef cyfansoddi a chyhoeddi y llyfrau llïosog a nodwyd], a thra'r oedd defnyddioldeb y gŵr duwiol yn ei uwchafiaeth mwyaf, ymddangosodd cwmmwl bychan ar ei awyr, yr hwn oedd yn darogan bod ystorm ar godi. Ymddangosodd rhai ymadroddion yn y sylwad ar y bennod gyntaf o Efengyl Ioan, yn neillduol, a barent anniddigrwydd ac anfoddlondeb. Nid yn ebrwydd y craffwyd ar yr ymadroddion amheus, ac nid oedd ynddynt ddim a allai dynu nemmawr o sylw y darllenydd cyffredin. Etto, parodd y sylwadau hyn ar athrawiaeth y Drindod anfoddlonrwydd i lawer, a chynhyrfodd 'ddadleuon ac ymrysonau.' Ymhen tu a saith mlynedd ar ol y 'Mynegair,' cyhoeddodd argraphiad newydd o'r Bibl, mewn plyg llai [12plyg], cymmwys i'r llogell. Yr oedd llythyren hwn yn fân, a nodau cyfeiriol John Canne ar ymyl y dail, a nodiadau byrion o'r eiddo ei hun ar eu godrau.‡ Wedi argraphu hwn, dwyshaodd ei drallod yn fawr. Yn y Bibl hwn yr oedd wedi amrywio oddi wrth y cyfieithiad awdurdodedig,* gan feddwl, yn ddïau, ei wella a'i berffeithio; ond fe wnaeth hyn o hono ei hun, heb un cydymgynghoriad â'i frodyr crefyddol. Chwanegodd hyn, yn ddïamheuol, yr anfoddlonrwydd a gynnyrchasid eisoes trwy ei syniadau ar y Drindod. Ymddangosodd gradd o'r un syniadau yn y Bibl bychan, heb law y newidiad a wnaed yn y cyfieithiad."†

Ymddengys, gan hyny, yn ddigon amlwg mai ar ol cyhoeddi, neu yn hytrach pan yn cyhoeddi, "Bibl John Canne," ymhen ugain mlynedd ar ol cyhoeddi yr argraphiad cyntaf o'r "Bibl gydâ Nodau a Sylwadau ar bob Pennod," y rhoddwyd yr ymosodiad anfrawdol dan sylw yn ei lawn rym ar Peter Williams. Cadarnheir hyn yn y difyniad canlynol o'i hanes gan ei ŵyr, Mr. Armstrong Williams:—

"Yn 1790, efe a gyhoeddodd 4,000 o gopïau, trwy danysgrifiad, o Fibl John Canne, gyd â chyfeiriadau ychwanegol ar ymyl y dail, a nodiadau. Yr oedd ei frodyr, y Methodistiaid Calfinaidd, wedi addaw noddi'r gwaith, ac wedi rhoddi eu henwau fel tanysgrifwyr am dano, er mwyn y treuliau; ond fel yr oedd y gwaith yn dyfod allan o'r wasg, tynasant hwy, yn un corph, eu cynhorthwy yn ol, gan adael holl faich y cyhoeddiad ar y golygydd, a rhoddi, fel rheswm am hyny, bod y golygydd wedi newid ei syniadau am athrawiaeth y Drindod, er nad oedd hyny mewn un modd yn wirionedd. Llwyr adawyd ef ar ei adnoddau ei hun; a heb foddloni ar hyny, ceuasant eu drysau yn ei erbyn, a bwriasant ef allan o'u cymdeithasfaoedd. Bu'r ymddygiad creulon yma yn achos iddo golli chwech neu saith gant o bunnau; a mwy na hyny, bu'n foddion i fyrhau ei oes, canys ni pheidiodd byth a bod yn orthrwm i'w ysbryd."‡

Profir yr un peth mewn llyfryn a gyhoeddwyd yn 1791, a elwir "Dialogous [Dialogus], neu Ymddiddan rhwng Philalethes ac Eusebius, mewn perthynas i wir Grist'nogrwydd," yr hwn, medd Gwilym Lleyn, sydd "Amddiffyniad, gan y Bardd o Bant-y-Celyn, i'r Parch. Peter Williams, yn erbyn ymosodiadau ei gyfeillion o'r oes honno arno, o blegid rhyw gyfnewidiadau a wneuthai yn sillebiad a geiriadaeth Bibl bychan, gyd â chyfeiriadau y Parch. John Canne, yn y flwyddyn ddiweddaf." Bu'r Bardd o Bant-y-Celyn farw, fel y gwelsom,§ ar y 11fed o Ionawr, 1791; gan hyny, rhaid ei fod wedi ysgrifenu y llyfr amddiffynol hwn i'w gyfaill ffyddlon, Peter Williams, yn fuan ar ol ymddangosiad y "Bibl bychan" yn

* Method. Cymru, cyf. i., t. 414.

† Hwn oedd y dŷn balchaf a'r a welsai y Parch. Rowland Hill erioed, a gwelsom i'w dad ei geryddu o herwydd ei haerllugrwydd yn ymosod ar Peter Williams, gan ddywedyd, "Nat! Nat! ti a gondemniaist dy well." Yn y fl. 1807, ymhen 11 mlynedd ar ol marwolaeth Peter Williams, rhwystrwyd ef i weinyddu yn yr Eglwys Wladol o herwydd rhyw ddrwg fuchedd; a phan neillduodd y Methodistiaid rai diuddan esgobol i weini yr ordinhadau, ymneillduodd efe oddi wrthynt. Yna cyfodwyd capel iddo yn Hwlffordd gan blaid fechan o'r Methodistiaid na dderbynient yr ordinhadau gan neb ond offeiriaid Eglwys Loegr. Bu farw mewn lle a elwid Parc, yn sir Benfro, a chladdwyd ef yn Henllan Amgoed, yn 1831, yn 82 oed.—Method. Cymru, cyf. i., t. 418–19; Cambrian Quarterly Magazine, vol. iii., p. 394; Brython, cyf. v, t. 32.

‡ Y mae yma 10 mlynedd o gamysgrif, canys yn 1773 y cyhoeddwyd y "Mynegair," tra na chyhoeddwyd "Bibl John Canne," fel y gwelsom, hyd 1790.

* Nid yw cyfieithiad y Dr. Parry, yr hwn a ddilynir yn gyffredin ymhob argraphiad o'r Bibl byth er pan y'i cyhoeddwyd yn 1620, nac unrhyw gyfieithiad Cymraeg arall, yn "gyfieithiad awdurdodedig," fel y mae'r cyfieithiad Saesneg a awdurdodwyd gan y Senedd yn amser Iago I.; am hyny, nid oes gan y Cymry "gyfieithiad awdurdodedig" fel hwnw i "amrywio oddi wrtho," fel y tybia Mr. Hughes, ac y tybia eraill, fod. O herwydd paham, y mae "Bibl John Canne" yn llawn mor "awdurdodedig," mewn ystyr wladol, ag ydyw "Bibl y Dr. Parry," neu ryw Fibl Cymraeg arall.

† Method. Cymru, cyf. i., t. 415.

‡ El. Williams's English Works, p. clxxxiii.

§ Gwel llyfr v., pen. xxi.

Digitized by Google

1790, er na chyhoeddwyd ef hyd "Gorphenaf, 1791," fel y gwelir ar gwr aswy y ddalen olaf. Y mae'n debyg, gan hyny, mai Peter Williams ei hun a gyhoeddodd y llyfryn hwn. Yr oedd D. Rowlands a Williams o Bant-y-Celyn, yn ystod ei hoes hwy, yn cadw ffrwyn ymhenau yr erlidwyr, fel na feiddient ddïarddel y Parch. Peter Williams, yr hwn y gwyddent ei fod y gŵr mwyaf defnyddiol o holl dadau y Methodistiaid yng Nghymru. Ond wedi i'r ddau wron enwog hyny farw, ymddengys nad oedd gan Peter Williams, druan, un amddiffynwr o bwys, mwyach, yn y cyfundeb; am hyny, nid oedd ganddo ddim i'w wneud ond amddiffyn ei hun yn gystal ag y gallai, a gallodd wneuthur hyny yn bur rymus hefyd yn y ddau lyfr cyntaf a gyhoeddodd ar y ddadl, sef y "Dafol Gywir" a "Dirgelwch Duwioldeb," ac mewn amryw lythyrau nerthol a ysgrifenodd efe ar yr un pwngc. Ond er hyn oll, ymhen llai na blwyddyn ar ol marwolaeth ei amddiffynydd olaf, sef y "Peraidd Ganiedydd" o Bant-y-Celyn, mewn cymmanfa a gynhaliwyd yn Llandeilo yn y fl. 1792, ysgymmunwyd y teithiwr diwyd ac anturieuthus, y pregethwr effeithiol a llwyddiannus, a'r ysgrifenydd eglur ac efengylaidd, o gyfundeb y Methodistiaid, ac efe yn 70 oed, ac wedi bod yn pregethu ac yn llafurio yn eu plith hwy dros 46 blynedd!

Mewn canlyniad i hyny, ysgrifenodd Peter Williams amryw lythyrau nodedig o addfwyn, gostyngedig, a chrefyddol, at ei hen frodyr, yn erfyn arnynt ail ystyried eu hymddygiadau, a'i dderbyn yn ol i'w cymmundeb; ond gan fod y cyfarfodydd anysgrythyrol a elwir cymmanfaoedd yn gyffredin, yn honni cryn lawer o anffaeledigrwydd, er pan sefydlwyd hwy gyntaf gan "y dŷn pechod" o gylch o.c. 200, i ddadlau ynghylch y Pasg, a seremonïau anghristionogol cyffelyb,* hyd yr olaf a gynhaliwyd yn y wlad hon, ni fu wiw ganddynt gymmaint ag atteb, na gwneud un sylw, o erfyniadau taerion a gostyngedig y duwiol a'r enwog Peter Williams! Profir hyn yn y difyniad isod o un o'i lythyrau olaf atynt:—

"GYFEILLION A BRODYR,—Myfi a roddais arwyddion o'm didwyll serch tu ag atoch fwy nag unwaith, ond ni chefais atteb. A aethum yn ddirmygedig yn eich golwg, fel un anheilwng yn eich plith? Gyfeillion Cristionogol, ystyriwch fy nghwyn. Yr ydych yn gosod allan achwyn yn fy erbyn: a ydwyf yn haeddu'r cyfryw driniaeth a osodir yn eich gweithredoedd yn fy erbyn er ys tair blynedd? A ydwyf wedi pechu y pechod anfaddeuol? Na atto Duw!"†

Ar ol i'r Methodistiaid ei ddïarddel, a gwrthod gwneud un math ar gyfeillach âg ef, derbyniwyd ef yn garedig gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr i'w capelydd trwy'r holl Dywysogaeth; ac er eu clod, gwneuthant eu gorau er ei ddigolledu, trwy ei gynnorthwyo i werthu "Bibl John Canne," a'i lyfrau eraill; ond er hyny, bu efe yn golledwr dirfawr, fel y gwelsom, yr hyn, ynghyd âg ymddygiad angharedig ei hen frodyr ato, a effeithiodd yn ddwys iawn ar ei feddwl, ac yn dra niweidiol i'w iechyd.

Ychydig a drwg a fu dyddiau blynyddoedd einioes yr enwog efengylwr llafurus, Peter Williams, ar ol y gamdriniaeth a nodwyd; ond ymhen tu a phedair blynedd ar ol yr anffawd anghymen a nodwyd, ar yr 8fed o Awst, 1796, ac efe yn 74 oed, rhoddwyd iddo lwyr fuddugoliaeth, pan y dattodwyd ei ddeuarol dŷ o'r babell hon, ac y cafodd adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd. Claddwyd ef ym monwent Llandefeiliog, sir Gaerfyrddin, a rhoed cerfiad hardd a helaeth ar ei feddfaen.

Cyfansoddwyd tair, o leiaf, o farwnadau ar yr awdur diwyd ac enwog: un gan John Williams, o Sant Athan, Morganwg, ar fesur rhydd; un gan Thomas Williams, o Ffonmon, Morganwg, ar fesur rhydd; ac awdl ar y 24 mesur, gan Griffith Williams, Braich Talog (Gutyn Peris).‡

Cyhoeddwyd argraphiad o'r Testament Newydd yng Nghaerfyrddin, gan J. Evans, yn 1811, ymhen pymtheng mlynedd ar ol marwolaeth Peter Williams, enwad-ddalen yr hwn sydd fel hyn:—

"Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist; gyda Sylwadau ac Adnodau cyfeiriol ar Ymyl y Ddalen, gan y diweddar Barchedig Peter Williams."

Y cyfeiriadau a'r mân sylwadau ar eiriau sydd ar ymyl dail "Bibl Peter Williams" sydd ar ymyl dail hwn; ond nis gwyddom a oedd gan Peter Williams gopi o hono wedi ei barotôi ei hun ai peidio. Llyfr 12plyg trwchus ydyw, yn cynnwys 624 o dudalenau, wedi ei argraphu ar bapur bras, melynlliw; ond y mae'r argraph yn ddigon eglur a darllenadwy.

## PENNOD IV.

### GORONWY OWEN, MORGAN EDWARDS, A RICHARD PRICE.

GORONWY OWEN (Gronwy Ddu o Fôn) ydoedd un o brif awenyddion Cymru, ac offeiriad llafurus yn

* Euseb. v. 16.

† Cofiant P. W. gan O. W., t. 101.

‡ Cofiant P. W. gan O. W., t. 111-131.

Digitized by Google

Eglwys Loegr. Mab ydoedd i weithiwr tlawd, neu eurych (tingcof=*tinker*), yn ol un hanes, enw yr hwn oedd Owen Gronwy, ac enw ei fam oedd Sian Parry.* Ganwyd Goronwy, neu Gronwy, fel yr arferid ei alw yn gyffredin, mewn bwthyn distadl ar fin y Rhos-fawr, ymhlwyf Llanfair-math-afarn-eithaf, ger llaw y Traeth-coch, tu a phum milltir i'r dwyrain o Lanerch-y-medd, a saith milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Bomaris. Gan nad yw ei enw yn ysgrifenedig yng nghoflyfr eglwys y plwyf y ganed ef ynddo, nis gellir bod yn hollol sicr pa bryd, yn fanwl, y digwyddodd hyny. "Tybir," medd Dafydd Ddu o Eryri, "iddo gael ei eni ynghylch y fl. 1722."† O blaid yr amseriad yma hefyd y mae llythyr Goronwy ei hun at Risiart Morys o Lundain, ynghylch ei urddiad yn ddïacon;‡ ei lythyr at Owen Meirig, Ysw., o Fodorgan, yn erfyn ei gymmorth i fyned i un o'r Prifathrofâu; a'i "Gywydd i'r Calan," a ysgrifenodd ddydd Calan, 1752, lle y dywed fel hyn:—

"Ar ddydd *Calan* i'm ganwyd;
*Calan*, nid anniddan wyd. . . .
Nodwyl fy oedran ydwyt;
*Ugeinfed* a *degfed* wyt:
Cyflym ydd â rym yr oes;
Duw anwyl, fyred einioes!"§

Heb law bod rhieni Goronwy mewn sefyllfa isel, yr oedd ei dad, fel llawer eraill yn yr oes honno, yn bur elynieuthus i ddysgeidiaeth, yr hon y chwennychai ei fab am dani mor angerddol. Dïange i'r ysgol a wnaeth y tro cyntaf gyd â bechgyn eraill, pan oedd o gylch 10 neu 11 oed, heb yn wybod i'w dad a'i fam, a mynnai ei dad ei guro am hyny; ond achubwyd ef gan ei fam, a thrwy ei heiriolaeth a'i hymdrech hi y cafodd barhau i fyned i'r ysgol, "hyd oni ddysgais," eb efe, "ennill fy mwyd."‖ Rhyw ysgol a gedwid yn Llanallgo, ger llaw ei gartref, oedd hon; a thra'n blentyn yn yr ysgol honno yr aeth yn gydnabyddus â Morysiaid caredig ac enwog Pentre Eirianell, ffarm oedd yn agos i'w gartref, a pharhaodd ei hoffder o'r teulu hyny hyd ddiwedd ei oes, yn enwedig y ddau fab ieuengaf, Rhisiart a William, fel y prawf ei lythyrau llïosog atynt. Tra yn ysgol Llanallgo, rhedai yn fynych o honi i Bentre Eirianell, lle y câi groeso caredig, fel y dywed ei hun yn y difyniad isod o lythyr at Rhisiart Morys:—

"Hoff iawn oedd genyf redeg o'r ysgol ar brydnhawn Sadwrn, o ysgol Llanallgo, i Bentre Eirianell; ac yno byddwn sicr o gael fy llawn hwde ar fwyta brechdanau o fêl, triag, neu ymenyn, neu yr un a fynnwn o'r tri rhyw; papur i wneud fy nhasg, ac amryw neges arall; a cheiniog yn fy mhoced i fyned adref; ac anferth siars wrth ymadael i ddysgu fy llyfr yn dda; a phwy bynag a fyddai byw yn y byd, y ceid fy ngweled yn glamp o berson."*

Dengys y difyniad canlynol o lythyr at William Morys y byddai yntau (Goronwy) mor ddïolchgar ag y gallai am y caredigrwydd a dderbyniai ym Mhentre Eirianell:—

"Rhoddwch fy ngharedig annerch at eich tad a'ch mam: dywedwch wrth eich mam fy mod hyd heddyw yn cofio, ac yn dïolch iddi am y frechdan fêl a gefais ganddi; ac odid na chofia hithau ddywedyd o honof, 'Ped fai genyf gynffon, mi a'i hysgydwn.'"†

Yn ei lythyr at Rhisiart Morys, y cyfeiriwyd ato eisoes, efe a ddywed, "Yn sir Gaernarfon a sir Ddinbych y buaswn yn bwrw y darn arall o'm hoes er yn un ar ddeg oed," sef y "darn," fel y tybir, cyn iddo fyned i'r Brifysgol. Yn Ninbych yr oedd teulu ei fam, ac fe allai mai yn Ysgol Rammadegol Rad Dinbych y bu o 11 hyd 15 oed. Dywedir iddo fod yn is-athraw yn Ysgol Rammadegol Bottwnog, ger llaw Pwllheli, pan oedd yn 15 oed; ond nis gallwn ni gyssoni hyny â'r hyn a ddywed efe ei hun yn ei lythyr at Owen Meirig o Fodorgan, sef "Trwy ddiflin ddiwydrwydd fy rhieni, y rhai sydd dlodion iawn, gellais fyned i Ysgol Gyhoeddus Bangor, ac aros ynddi o'r flwyddyn 1737 hyd 1741," sef o'r pryd yr oedd yn 15 oed nes oedd tu a 18 oed, fel y dywed yn nechrau y llythyr hwnw. Ni wyddys pa effaith a gafodd ei appeliad erfyniol at Owen Meirig o Fodorgan; ond cyttunir mai trwy haelioni Mr. Edward Wynn o Fodewryd, Môn, y galluogwyd ef i fyned i Rydychain, lle y graddiwyd ef yng Ngholeg yr Iesu; ac yn y fl. 1745, pan oedd efe tu a 23 oed, urddwyd ef yn ddïacon, neu, fel y dywedai pobl Môn, eb efe, yn "offeiriad hanner pan."

Yn ebrwydd ar ol hyn, pennodwyd ef gan gaplan Esgob Bangor yn gurad ei blwyf genedigol, er ei fawr lawenydd; eithr bu raid iddo ymadael oddi yno yn ebrwydd, i roi lle i fab rhyw ŵr cyfoethog oedd yn gyfaill i'r esgob; ac er nad oedd y cyflog ond 20p. y flwyddyn, etto cafodd brofedigaeth ddwys o herwydd gorfod gadael

* Jones's Poet. Works of Gor. Owen, vol. ii., p. 8.

† Diddanwch Teuluaidd, t. v.

‡ Gronoviana, t. 161.—Y Rhisiart Morys hwn oedd frawd i Lewis Morys o Fôn (Llywelyn Ddu); a William Morys, o Gaergybi, oedd frawd arall iddo. At Rhisiart a William Morys yr ysgrifenodd Goronwy y rhan fwyaf o lawer o'i lythyrau sydd ar gael, y rhai sydd ym mysg yr esamplau godidocaf a'r a feddwn o Gymraeg ystwyth a geirweddiadol.

§ Gronoviana, t. 39. ‖ Yr un, t. 167.

* Gronoviana, t. 183. † Yr un, t. 180.

Digitized by Google

gwlad ei enedigaeth, lle y bu, eb efe, am dair wythnos yn fawr ei barch a'i gariad gyd â phob math o fawr i fach. Gan nad oedd ganddo un golwg am le yng Nghymru, appeliodd am guradiaeth Croesoswallt, yn sir y Mwythig, yr hon a gafodd. Yn lled fuan ar ol myned yno, daeth i Lanelwy i gael urdd offeiriad. Bu yng Nghroesoswallt am dair blynedd, ac yno y priododd, yn Awst, 1747. Ym Medi, 1748, symmudodd i Donnington, yn sir Gaerlwytcoed *(Lincoln)*, lle y ganwyd iddo ddau fab; enw yr hynaf oedd Robert, a'r icuengaf Goronwy. Yr oedd ganddo ysgol yn Donnington, ac eglwys i'w gwasaneuthu yn Uppington; a'r cwbl am 26p. y flwyddyn; gyd â golwg ar yr hyn y dywed—"Pa beth yw hyny tu ag at gadw tŷ a chynnifer o dylwyth; yn enwedig yn Lloegr, lle y mae pob peth yn ddrud, a'r bobl yn dostion ac yn ddigymmwynas. Er hyny, na atto Duw i mi anfoddloni, o herwydd 'Po cyfyngaf gan ddŷn ehangaf gan Dduw.' Nid oes ond gobeithio am well troiad ar fyd." Ymddengys nad oedd yr ysgol yn dygymmod dim âg archwaeth farddonol a llenyddol ein hawdur enwog, o herwydd yr hon y cwyna yn dost fel y canlyn:—

"Pa beth a all fod yn fwy diflas i ddŷn sydd yn myfyrio na gwastadol gwrnad a rhingcyn cywion Saeson? Prin y caf odfa i fwyta fy mwyd ganddynt; a bychan a fyddai bod cell haiarn i bob un o honynt o'r neiildu, gan yr ymdderu a'r ymgeintach y byddant; ac fel tynu afangc o lyn yw ceisio eu gwastrodedd. Ond nid hyn mo gorph y gaingc chwaith: y mae'r rheini yn waeth ac yn dostach na'r plant: pobl gïaidd, galedion, ddigymmwynas, anoddefus ydynt oll; a'r arian yn brin, a'r cyflog yn gwta, a'r cegau yn aml, a'r porthiant yn ddrud gyd â minnau: Duw a'm dyco o'u mysg hwynt, i'r nef neu i Gymru yr un a welo yn orau." *

Y mae'n amlwg fod hiraeth Goronwy am Gymru, ac yn arbenigol am Fôn, yn angerddol ddigyffelyb. Dywedai wrth Lewis Morys y buasai yn falch o gael bod yn geidwad drws, ond iddo gael byw yn ei hoff ynys. Y mae ei deimlad hiraethlawn am wlad ei enedigaeth yn cael ei amlygu yn darawiadol yn y llinellau canlynol:—

"Cerais fy ngwlad, geinwlad gu,
Cerais, ond ofer caru!
Dilys, Duw yw'n Didolydd,
Mawl iddo, a fynno fydd.
Dyweded ef na'm didol
Gair o Nef a'm gyr yn ol."

Tu a phedair blynedd a hanner y bu'r bardd yn Donnington, sef o Medi 1748 hyd Ebrill 1753, pan y symmudodd i Walton-on-the-Hill, yn lled agos i Nerpwl. Yn y lle hwn y ganwyd ac y claddwyd ei ferch fechan, Elin, ar ol yr hon y canodd farwnad nodedig o hireuthlawn. Digon helbulus oedd ei amgylchiadau yn y lle hwn etto. Mewn llythyr a ysgrifenodd y 30fed o Ebrill, 1753, at Wm. Morys, efe a ddywed:—"Pymtheg punt ar hugain yw'r hyn a addawodd fy *mhatron* i mi; ond yr wyf yn deall y bydd yn beth gwell na'i air. Ni rydd i mi ffyrling o'i boced; ond y mae yma ysgol rad, yr hon a gafodd pob curad o'r blaen, ac a gaf finnau oni feth ganddo: hi dâl dair punt ar ddeg yn y flwyddyn, heb law Ty'n-y-fynwent i fyw ynddo; ac os caf hi, fe fydd fy lle yn well na deugain punt yn y flwyddyn."

Ymadawodd o Walton tu a chanol y fl. 1755, canys dengys llythyr a ysgrifenodd at Wm. Morys ei fod ef a'i deulu yn Llundain ar y 7fed o Fehefin y flwyddyn honno. Ymddengys mai'r achos iddo symmud i Lundain oedd disgwyl y cai offeiriadaeth mewn cyssylltiad âg Eglwys Sefydledig Gymreig y bwriedid ei sefydlu yn y brifddinas; ond gan na ddygwyd yr amcan hwnw i ben, cafodd yntau ei siomi yn ei ddisgwyliad. Er i hyn fod yn brofedigaeth dost iddo dros ychydig amser, etto ymddengys na chafodd lawer o achos i gwyno yn y diwedd, canys mewn llythyr at Rhisiart Morys, ar y 9fed o Hydref, 1755, canfyddir ei fod, er ys cryn amser cyn hyny, mewn curadiaeth yn Northolt, plwyf o fewn deng neu ddeuddeng milltir i Lundain, o blegid dywed wrth ei gyfaill—"Dyma guro wrth fy nrws am hanner blwyddyn o dreth y goleuad, a chwarter o dreth y tlodion ac eglwys."

Ymddengys wrth amryw o lythyrau y bardd o gylch y pryd hyn, bod byd digon difyr arno ef a'i deulu yn Northolt, lle y derbyniai 50p. yn y flwyddyn o gyflog. Pa wedd bynag, cyfarfu âg un digwyddiad, tra yn y lle hwn, a barodd iddo drallod blin a digalondid mawr, fel y dengys mewn llythyr a ysgrifenodd at R. Morys ar yr 20fed o Fai, 1756,† sef gwaith Lewis Morys yn digio yn anghymmodlawn wrtho, o herwydd ei weled yn ysmocio yng Nghyfarfod y Cymmrodorion, pan y tybiodd ei fod yn feddw ar y pryd. Y mae holl ganiadau Lewis Morys, y rhai sy'n hynod o fasweddol a dichwaeth,‡ yn profi mai dŷn pur eithafol ydoedd; ac y mae ei ymddygiad at y prifardd Goronwy, ar ol y digwyddiad a nodwyd, ac yn enwedig ei ymosodiad brwnt arno mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo at rywun, wedi ei amseru y 18fed o Fehefin, 1757,§ yn dangos mai dŷn dïal-

* Gronoviana, t. 177.

† Gronoviana, t. 319. ‡ Diddanwch Teuluaidd, t. 129–284.
§ Brython, cyf. iv., t. 465.

Digitized by Google

gar, anystywallt ydoedd. Ond yn y gwrthwyneb, y mae holl ganiadau a llythyrau y prifardd, Goronwy o Fôn, yn profi ei fod yn ddŷn o feddwl coeth, moesol, ac uchelryw; ac y mae'r llythyr hynaws y cyfeiriwyd ato, a ysgrifenodd ar y digwyddiad anffodus dan sylw, ac yn bendifaddau y deyrnged ardderchog o barch a dalodd i goffadwriaeth L. Morys, yn ei Awdl Farwnad odidog iddo,* yn dangos ei fod yn ddŷn hynaws, dïolchgar, a maddeugar, yn oed er gwybod o hono i wrthrych ei glodforedd ei sarhau a'i ddirmygu.

Er yr ymddengys i'r bardd a'i deulu fod yn fwy cysurus yn Northolt, fel y crybwyllwyd, nag mewn un man arall y buasai yn preswylio ynddo, etto nid oedd iddo ef yno chwaith "ddinas barhaus," o blegid ar yr 2il o Dachwedd, 1757, ymhen tu a dwy flynedd ar ol iddo fyned i'r lle yma, ceir ef yn ysgrifenu annerch-lythyr cariadlawn a chwynfanus at anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, i erfyn ychydig gymmorth er ei alluogi ef, ei wraig, a'i dri phlentyn, i fyned, nid i wlad, ond i fyd newydd, sef America. Caiff efe ei hun roi ei resymau dros yr antur yma, yn y difyniad isod o'r llythyr crybwylledig:—

"Dŷn wyf fi (fel y gŵyr amryw o honoch) a welodd lawer tro ar fyd, er na welais nemmawr o dro da; ac mi allaf ddywedyd wrthych, fal y patriarch Jacob i Pharao gynt, Ychydig a blin fu dyddiau eich gwas, hyd yn hyn; ond yn awr yr wyf yn gobeithio fod y Nef yn dechrau gwenu arnaf, ac y bydd wiw gan yr Hollalluog, sy'n porthi cywion y gigfran pan lefant arno, roi i minnau fodd i fagu fy mhant yn ddiwall, ddïangen. Er eu mwyn hwy yn unig y cymmerais yn llaw y fordaith hirfaith hon, heb ammau genyf nad galwad Rhagluniaeth ydyw. Hir a maith yn ddïau ydyw'r daith i Virginia; ond etto, y mae'n gysur pan elir yno gael *dau gan punt yn y flwyddyn* at fagu'r plant. Y mae hyn yn fwy nag a ddisgwyliais erioed ym Mrydain na'r Werddon; a pha fodd yr attebwn i'm teulu pe gwrthodwn y fath gynnyg trwy lwfrdra a difiäwch! Er eu mwyn hwy ynte mi deflais y dis, gan roddi fy einioes yn fy llaw, a diystyru pob perygl a allai fy ngorddiwes, a hyny nid yn fyrbwyll, ond o hir ystyried, ac ymgynghori â'm carai." †

Ymddengys wrth y nodiad canlynol a ysgrifenwyd ar gefn yr annerch, gan R. Morys, llywydd Cymdeithas y Cymmrodorion ar y pryd, na chafodd y prifardd helbulus ddim cynnorthwy oddi wrth y gymdeithas honno, fel y cyfryw:—"Y Parchedig Goronwy Owen yn gofyn cymmorth y Cymmrodorion i fyned i Virginia; ond nid oedd gwiw darllen y llythyr iddynt." A oedd gan L. Morys ryw law yn yr attalfa yma, nid yw hyspys. Pa wedd bynag, y mae sicrwydd y cyfranodd amryw o aelodau y gymdeithas yn bersonol, a chyfeillion eraill, ddigon i'r prifardd allu ymfudo gyd â'i deulu i "fyd y gorllewin." Y mae'n deilwng o sylw nad yw'r bardd yn cyfeirio o gwbl, gymmaint ag unwaith, yn ei ganiadau at ei amgylchiadau teluaidd, a helyntion ei fywyd helbulus. Pa ddelw bynag, chwedl yntau, y mae'n debyg mai yn y rhagolwg pruddglwyfus o gefnu byth ar wlad ei enedigaeth, ei anwyl Fôn,

"Nef fechan y Naf uchod,"

y cyfansoddodd y cywydd toddedig, lle y ceir y llinellau prydferth canlynol, mewn cyfeiriad at Fôn:—

"Poed yt hedd pan orweddwyf
Ym mron llawr estron lle'r wyf.
Gwae fi na chawn enwi nôd
Ardd wen, i orwedd ynod;
Pan ganer trwmp Iôn gwiwnef,
Pan gasgler holl nifer nef,
Pan fo Môn a'i thirionwch,
O wres fflam yn eirias fflwch,
A'i thorog wythi arian,
A'i phlwm a'i dûr yn fflam dân!
Pa les cael lloches o'r llaid?
Duw rano dŷ i'r enaid,
Gwiw gannaid dŷ gogoniant,
Ynghaer y ser, ynghôr Sant;
Ac yno'n llafar ganu.
Eirian eu cerdd i'r Iôn cu,
Poed *Gwŷr Môn* a *Goronwy*,
Heb allael ymadael mwy:
Cyduned, a llefed llu
*Monwysion*, Amen, Iesu." ‡

Gwelwn oddi wrth lythyr a ysgrifenodd y bardd at ei gyfaill, R. Morys, ar y 12fed o Ragfyr, 1757, ei fod ef a'i deulu, y diwrnod hwnw, ar fwrdd llong a elwid *Trial*, yn angorfa *Spithead*, rhwng Aberporth (*Portsmouth*) ac Ynys Wyth, ar eu taith i'r America. Dengys y bardd mai creaduriaid annuwiol, aflan, ac annosparthus dros ben oedd yr holl forwyr, o'r capten i wared; § ac er bod hyny yn ychwanegu yn ddirfawr at annedwyddwch "y fordaith hirfaith hon," etto nid oedd ond megis diferyn o'r gwpan chwerw y gorfodwyd ef ei hyfed cyn cyrraedd "gwlad yr addewid," canys bu raid iddo, er ei ofid aneule, gyflwyno ei anwyl wraig, a'i blentyn ieuengaf, i'w gorphwysle yn y dyfnder, cyn cyrraedd pen ei daith, fel y dengys llythyr a ysgrifenwyd gan W. Morys ar y 1af o Hydref, 1758.‖ Yn gynnar yn y flwyddyn hon, appwyntiwyd ef yn athraw Ysgol Rammadegol William a Mari, mewn cyssylltiad â Choleg Williamsburg, Virginia, trwy ddylanwad Iarll Powys, fel y tybir; a thalodd y Llywodraeth 20p. at ei gludo ef a'i deulu i'r lan yno.¶ Ychydig o hanes ein prifardd sydd ar gael yn ystod y tair blynedd ꝛ bu yn Williamsburg, heb law y crybwyllir ei enw yn unig

* Gronoviana, t. 116. † Yr un, t. 330.

‡ Gronoviana, t. 17. § Yr un, t. 332.
‖ Jones's Poet. Works of Gr. Owen, vol. ii., p. 278.
¶ Id., pp. 267-8, 272.

ym mlwyddolion y coleg. Crybwyllir mewn llythyr a ysgrifenodd W. Morys, y 26ed o Ragfyr, 1758, ddarfod iddo briodi, yn lled fuan ar ol ymsefydlu yn Williamsburg, ag un Mrs. Clayton, gweddw, a meistres y coleg, chwaer y Parch. Thomas Dawson, y llywydd. Dywedir i'r wraig hon farw yn ddiblant yr un flwyddyn ag y priodasant.

Yn y fl. 1760, yn ebrwydd ar ol marw ei ail wraig, symmudodd yr enwog Fardd Gronwy i St. Andrews, neu Lan Andreas, fel y galwai efe y lle, yn sir Brunswick, Virginia. Yr unig gofnod y gellir ymddiried ynddo, sy'n treuthu ar fywyd y bardd tra yn Llan Andreas, ydyw y llythyr a ysgrifenodd efe ei hun y 23ydd o Orphenaf, 1767, yn Brunswick, ymhen tu a deng mlynedd ar ol glanio yn America, at ei gyfaill R. Morys, gyd â'i "Awdl Farwnad Lewis Morys." Yn y llythyr hwnw, dywed nad oedd un o'i deulu Seisnig yn fyw, ond ei fab Robert; ei fod yn briod â'i drydedd wraig; a bod iddo dri o blant a aned yno.*

Yr hanes fwyaf awdurdodol a allwn ei chanfod am ddiwedd oes ein bardd athrylithgar, a geir mewn llythyr oddi wrth un Robert Saunders, Williamsburg, at J. Gordon Jones, gŵr a gymmerth ddirfawr drafferth i chwilio i wir hanes y bardd. Dyma fel y dywed Mr. Saunders:—

"Oddi wrth goflyfrau Plwyf St. Andrews, canfyddir bod y Parch. Goronwy Owen wedi bod yn Beriglor y plwyf o'r 13ydd o Ragfyr, 1760, hyd yr 22fed o Orphenaf, 1769; ac iddo farw yno o ddeutu yr amser hwnw [ac efe o gylch 47 oed]. Ymddengys oddi wrth ran o'i Ewyllys, yr hon sydd ym meddiant rhai o'i ddeiliaid yn Brunswick, ddarfod iddo adael ar ei ol bedwar o feibion, sef Robert, Rhisiart, Goronwy, ac un arall, a darfod i'r ddau ieuengaf farw yn ieuangc. Pan fu Robert farw, gadawodd yntau amryw o blant ar ei ol; ac y mae dwy ferch iddo yn fyw yn awr [1856]. Y mae'r Parch. Mr. Mowror yn fy hyspysu bod y boneddigesau hyn yn rhai tra chymmeradwy, ond eu bod yn dlodion."

Cynnwys y *Gronoviana* dair o Awdlau Marwnad i'r prifardd, sef yr eiddo Dewi Wyn o Eifion; Thomas Edwards o'r Nant; a Gutyn Peris. Dewi Wyn a ddywed am dano:—

"Canai Awdlau Cenhedloedd,—ac iddo
Rhoed Cywyddau'r nefoedd:
Angel i wneud Englyn oedd;
Mawr awdur Cymru ydoedd!"

Yn y fl. 1831, gosodwyd maen mynor hardd i fynu yn Eglwys Gadeiriol Bangor, ac arno gerfiad Lladin lled helaeth, er cof am yr enwog Goronwy Owen, ar odrau yr hwn y cerfiwyd y ddau englyn canlynol, o waith Daniel Ddu o Geredigion:—

"Tra haul mwyn yn dwyn gwên dydd,—ac enaid
I gwyno ing prydydd,
Yn haeddu ei barchu bydd
Goronwy gawr awenydd.

"Gwaith ei gerdd yn goeth a gawn,—brif orchest
Brawf archwaeth synhwyrlawn;
Ei gofio haeddai'n gyfiawn,
Arwr dysg ac eryr dawn."

O ran ei berson a'i ymddangosiad allanol, dŷn bychan o gorpholaeth oedd y Parch. Goronwy Owen; bywiog ei dymherau a'i ysgogiadau; o bryd tywyll, a dau lygaid duon, disglair, chwareus; ac athrylith fyw yn pelydru trwyddynt. Yr oedd ei alluoedd meddyliol o'r graddau uwchaf, ac yr oedd ei wybodaeth a'i ddysg yn nodedig o helaeth. Dywedir bod ei gyflymder i ddysgu ieithoedd yn synu pawb a'i hadweunai. Dywedodd hen offeiriad wrth Dafydd Ddu mai tair wythnos y bu'n dysgu yr Arabaeg. Yr oedd mor hyddysg yn y Wyddelaeg fel y gallai ymddiddan yn rhwydd ynddi; ac am yr Hebraeg, y Groeg, a'r Lladin, yr oedd yn eu deall cystal ag iaith ei fam; a phrawf ei ganiadau a'i lythyrau ei fod yn gwbl gynnefin yn holl gyfansoddiadau prif awduron yr ieithoedd hyny.

Y mae'n anhawdd gwybod pa fodd i ddeall Goronwy yn yr hyn a ddywed efe mewn llythyr Awst 15, 1752, at Rhisiart Morys, sef "Er ei fod [sef 'Ieuan Fardd'] yn iau na mi o ran oedran, etto y mae'n hŷn brydydd o lawer, o blegid ryw bryd yngwyliau y Nadolig diweddaf y dechreuais: oni buasai'ch brawd [Lewis Morys = Llywelyn Ddu o Fôn] a yrodd i mi ryw damaid o waith Ieuan, ac a ddywed yn haerllug y medrwn innau brydyddu, ni feddyliaswn i erioed am y fath beth."† Y mae'n debyg mai'r hyn a olygai Goronwy ydoedd, na feddyliasai efe ddim y gallai wneud bardd gwerth son am dano, hyd nes y dywedodd Llywelyn Ddu hyny wrtho o gylch Nadolig 1751. Beth bynag, yr ydys yn gwybod i Goronwy ddechrau prydyddu ddeng mlynedd, o leiaf, cyn 1751, canys trosglwyddwyd y caniadau canlynol i ni, ynghyd â'r amserau y cyfansoddwyd hwy, sef wyth o "Englynion i Dduw," 1741; "Cân (*ode*) Lladin i Mr. Richard Rathbone, o Lanystumdwy," 1742; "Calendr y Carwr: Cywydd Serch," 1743 (diwygiodd y bardd ychydig ar hwn yn 1753); ac englyn "Ar Ddydd Calan, dydd genedigaeth y Bardd," 1746. Y tebygolrwydd yw i Lywelyn Ddu weled y caneuon crybwylledig, ac iddo o gylch yr amser a nodwyd annog y bardd ieuangc i ymroi at gyfansoddi barddoniaeth, â'r hyn, y mae'n amlwg, y cydsyniodd yntau yn egnïol a llwyddiannus. Mewn llythyr at W. Morys y 24ydd o Chwefror, 1753,

* Gronoviana, t. 334.

† Gronoviana, t. 172.

dywed y bardd mai'r unig fesurau cynganeddol a wyddai efe y pryd hyny oedd pedwar, sef Englyn Unodl Union, Cywydd Deuair Hirion, Gwawdodyn Byr, ac Englyn Milwr. Dywed mai Lewis Morys a ddysgodd y ddau olaf iddo; a gofyn i W. Morys anfon esampl neu ddwy o'r lleill iddo ymhob llythyr, ac os gallai gael benthyg Grammadeg Siôn Rhydderch iddo.* Y mae'n amlwg nad oedd wedi gweled "Rheolau Barddoniaeth" hyd yn hyn: dim ond *esamplau* yn unig; ond, er syndod i bawb sy'n gwybod rhywbeth am y mesurau caethion, yr oedd wedi cyfansoddi un o'r darnau cynganeddol gorau sydd yn yr iaith Gymraeg, a'i brif gyfansoddiad yntau, yn ol y farn gyffredin, sef "Cywydd y Farn Fawr," er ys misoedd cyn hyny, canys mewn llythyr at R. Morys, Mehef. 22, 1752, efe a ddywed fel hyn:—

"Am 'Gywydd y Farn,' buaswn wedi ei anfon i chwi o ewyllys calon, oni buasai y tybiwn bod Mr. Elis, gweinidog Caergybi, yn bwriadu myned i'r gost o'i argraphu; a hyny, y mae'n debyg, oedd yr achos i Mr. Wm. Morys beidio anfon i chwi gopi o hono."

Ymddengys nad oedd efe wedi gweled esamplau o'r 24 mesur hyd ddiwedd y fl. 1753, neu ddechrau 1754, canys mewn llythyr at W. Morys yr 2il o Ionawr y flwyddyn a nodwyd ddiweddaf, efe a ddywed fel y canlyn:—

"Dyma fy hen gyfaill anwylaf, y Parch. Mr. Hugh Williams (yn awr) Periglor Aberffraw ym Môn, wedi gyru i mi Rammadeg Siôn Rhydderch, i'm hyfforddio yn yr hen gelfyddyd. Nid yw'r Grammadeg hwnw (e ŵyr Duw) ond un o'r fath waelaf, etto y mae'n well na bod heb yr un, canys y mae ynddo engraffau o'r Pedwar Mesur ar hugain; ac y mae hyny yn fwy nag a welswn erioed o'r blaen."

Mewn llythyr ar y 24ydd o'r un mis (Ionawr 1754), at R. Morys, dywed iddo gael Grammadeg Siôn Dafydd Rhys. Yn ystod yr un flwyddyn, cyfansoddodd farwnad, ar y 24 mesur, i Mr. John Owen, o'r Plas yng Ngheidio; ac yn y flwyddyn ganlynol (1755), cyfansoddodd "Arwyrain y Cymmrodorion," ar y 24 mesur. Y mae'r holl ganiadau a gyfansoddwyd ganddo, o'r fl. 1751 hyd 1756, o gylch 46 o nifer (cywyddau, gan mwyaf), ac y mae rhai o honynt yn lled feithion, ac o'r fath deilyngdod fel ag i gyfiawn ennill i'w hawdur yr hawl o fod yn un o brifeirdd Cymru yn y mesurau caethion. Yr oedd wedi canu cymmaint ar fesur cywydd, eb efe wrth W. Morys, yn y llythyr y cyfeiriwyd ato eisoes (Chwefr. 24, 1753), fel y teimlai ei fod "mor ddiflas a photes wedi ei ail dwymno!" Y mae'n amlwg wrth lythyr y bardd ar yr 21fed o Orphenaf yr un flwyddyn, at yr un cyfaill, ei fod mor forau a hyny yn bwriadu cyfansoddi arwrgerdd yn Gymraeg, a'i fod yn dyfal chwilio am destyn cyfaddas i'r fath gerdd oruchel. Fel hyn y dywed ar y pwngc:—

"Rheswm arall dros fy ngwaith yn gohirio fy awen ydyw, fy mod yn bwriadu, pan y caf Rammadeg Siôn Dafydd Rhys, ymdrechu gwybod a oddef ein hiaith ni Gerdd Arwyrain; ac am hyny yr wyf yn anfoddlawn i ddihyspyddu unrhyw destyn da, nac i ludded fy awen cyn ei gymmeryd mewn llaw. O chaf fi ddim amser hamddenol, ni luddir fi i ysgrifenu gan natur ddrwg, neu dymmer feirniadol, undyn byw."

Y mae'n amlwg hefyd, oddi wrth y byr ddifyniadau canlynol o waith ein prifardd, bod byrdeb a chaethder diffrwyth y mesurau cynganeddol yn rhwystrau mawrion yn ei olwg i wneud cerdd odidog fel Iliad Homer, Eneid Virgil, neu Goll Gwynfa Milton:—

"Pe rhoddai amser, fy ewyllys yn fwy na dim yw amcanu rhywbeth ar ddull arwyrain [arwrgerdd]; ond y mae byrdeb y mesurau yn ein hiaith yn peru i mi agos ddigaloni llwyddo. . . . . . Nid yw'n mesurau ddim mwy na naw neu ddeg sill, hyd yr eithaf, yn y braich: saith neu wyth yn fynychaf. Ond beth er hyny? Ai nid oes y fath beth a newid yr hyd hyny, ac felly osgôi yr anghyfleusdra? neu gyssylltu dau fesur, hir a byr, yn un? Diau fod pedwar mesur ar hugain yn ddigon i ethol o honynt. 'Ond ni oddefir dim cyfnewidiad yn ein prydyddiaeth ni,' meddwch, 'chweuthach ei dderbyn a'i ganlyn.' Paham hyny, attolwg? Ai ni bu'r amser pan oedd prydyddiaeth arwraidd, a phob prydyddiaeth, yn wir, ond peth newydd ymhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hefyd, yn enwedig yr olaf? A pha mor hen yw prydyddiaeth arwraidd ymhlith ein cymmydogion, y Saeson a'r Ffrangcod? Nid llawer oes, mi debygwn. . . . . . Meddyliais yn fynych hefyd mai po rhwyddaf a lleiaf o lyffetheiriau cynghanedd a fo yn y mesur, gorau y rhaid bod y gerdd. . . . . . Nid yw'r mydr Groegaidd yn agos mor ddarostyngedig i ddognaeth sillau ag un y Rhufeiniaid; ac y mae un y Saeson yn rhyddach na phob un o honynt, gan nad oes iddo na rhif sefydledig, na dognedd sillau, nac yn oed odlaeth yn y diwedd, chwaethach hualau cynghanedd, yr hyn ni bu ormes yn y byd i ieithoedd eraill, ond sydd bron llethu ein hiaith ni."†

Dyna farn ein prifardd am y 24 mesur, a'u caethder niweidiol ac anystywallt; ac nid oes genym ond galaru am na buasai un mor alluog a dysgedig wedi cael hamdden gan helbulon y byd i gyflawni ei fwriadau gwladgarol. Ymddengys na wyddai yr enwog fardd Oronwy ddim am gyhydeddau Morganwg, y rhai sy'n cyrraedd o bedair sill hyd bedeirsill ar ddeg.‡ Wrth ystyried ansawdd syniadau y bardd enwog am y mesurau caethion a'r gynghanedd, fel y'u gwelir yn y difyniadau uchod, y mae'n syn iddo, ac efe mewn llawn addfedrwydd barn pan yn cyfansoddi yr unig gerdd a wnaeth yn America, hyd y gwyddys, sef Awdl Marwnad Lewis Morys, ymostwng i'r

* Gronoviana, t. 195–6.

† Y Greal (Llundain), t. 245–7.

‡ Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. ii., t. 176–7.

fath blentyneiddiwch afreidiol, nid yn unig trwy arfer cynghanedd gaeth ynddi, ond hefyd defnyddio yr un odl o'i dechrau i'w diwedd, sef *on* neu *ion*, a thrwy hyny wneud caethiwed y mesurau ceuthion yn geuthach nag y gofyn y rheolau manylaf. Dodwn y pennill bleunaf a'r ddau olaf ger bron fel esampl:—

"Och dristyd ddyfryd ddwyfron!—och Geli!
Och galed newyddion!
Och eilwaith, gorph a chalon!
Och roi'n y bedd mawredd Môn!

. . . . . . .

"Gwedi caledi, cyni, cwynion,
Artaith, erchyllwaith, ac archollion,
Gwaed ffrau a ffrydiau, dagrau digron,
A chur marwol, a chrïau mawrion,
Gwyarlliw, fraenfriw oer frwynfron,—nid mud
Mawl cain côr astud mil can Cristion.

"Eiddunaf finnau Ddaw Naf union,
Allu im uno â'u llu mwynion,
Prydu i geisio perwawd gysson,
I lwyswawd eirioes Lewis dirion,
Cywyddau, cu odlau cydlon—ganu,
Lle mynno Iesu lleu Monwysion."

Er holl gaethiwed y gân hon, nid yw nemmawr lai ei theilyngdod yn oed i "Gywydd y Farn;" ïe, y mae rhai yn barnu ei bod yn rhagori ar y gân odidog honno, fel barddoniaeth. Fe allai mai'r hyn a gynhyrfodd y Goronwy gorenwog i ymgyfyngu fel y gwnaeth yn yr awdl hon, oedd dangos i feirdd Cymru, er ised oedd ei farn am y mesurau ceuthion, y gallai efe ganu, hyd yn oed yn y dull ceuthaf, cystal a'r gorau o honynt. Wedi darllen ei waith drosodd a throsodd drachefn, ein cwyn ydyw na buasai wedi cael hamdden i gyflawni ei brif fwriad, sef cyfansoddi cân arwrol, y buasai raid ei chyfieithu i wahanol ieithoedd, megis caniadau Homer, Virgil, Dante, a Milton; a gresyn cenedleuthol ydyw na chyfodai rhyw fardd cyffelyb i'r Goronwy yn ein plith a gyfansoddai y cyfryw gân, yn lle bod ein holl feirdd yn tameidio canu byth a hefyd ar y diffrwyth ac annefnyddiol fesurau ceuthion.

Ond, os felly y mae barddoniaeth ein gorenwog Oronwy, nid felly y dylai ei lythyrau fod, o'r sawl y mae hanner cant yn y *Gronoviana* yn unig, yn y rhai y ceir y cyfleusdra gorau i'w farnu fel llenor ac ysgolhaig, cystal ag y ceir cipdrem ar helyntion ei fywyd helbulus. Yn y llythyrau hyn, fel y dywed ei fywgraphydd yn y *Gronoviana*, y "dettyd ei fynwes i'w dri chyfaill, a threfyd bob pwngc, o'r nodau dysgedig ar Gywydd y Farn hyd at gampau diniwaid y ddeulangc, Robert a Goronwy, a mân drafferthion y 'wraig Elin rywiog olau;' ac felly, nid oes yma na hug na chochl wedi eu taflu drosto ef na'i amgylchiadau; ac yr ydym yma, nid yn unig yn darllen Goronwy o Fôn, ond megis yn gweled yn noeth ysgogiad pob olwyn a chymmal ymheirianwaith mewnol ei feddwl." Ond prif werth y llythyrau godidog hyn sydd gynnwysedig yn rhagoroldeb eu cyfansoddiad. O ran geirweddiad ac ieithwedd, y maent ym mysg y cynlluniau Cymreig gorau i'w hefelychu, ac fel y cyfryw nis gellir eu darllen a'u myfyrio yn rhy fynych; a gresyn na cheid argraphiad o honynt ar wahân i'r farddoniaeth. Nis gallwn derfynu ein hysgrif fer ar yr offeiriad, y bardd, a'r llenor enwog hwn yn well nag yngeiriau ei fywgraphydd a nodwyd ddiweddaf, yr hwn a ddywed:—

"Ni fedd Morys Cyffin, yn ddïau, ar ystwythder a lledneisrwydd llathrlyfn y Bardd Du [o Fôn); ac yn wir, pa fodd y gallasai dan yr anfantais o gaeth-gyfieithiad? Ni feddai Charles Edwards, ar y llaw arall, ar nerth a dillynder ei arddull; tra y mae holl deithi ysgrifenyddiaeth o'r radd uchaf yn cydgyfarfod yn ein bardd, sef esmwythder, grym, a chlassuredd, heb un amser redeg i rygoethedd a mursendod. Ac os buddiol i'r bardd ieuangc ddarllen Awdl Farwnad Lewis Morys, er mwyn y glod farddonol; byddai yr un mor fuddiol, os nad mwy felly, i'r Cymro ieuangc yfed yn ddwfn o'i ysgrifeniadau rhyddion, i'r diben o ymgydnabod âg arddull y Cicero Cymreig." *

## MORGAN EDWARDS.

Pan neillduwyd Morgan Harri i'r weinidogaeth ym Mleunau Gwent yn 1713, neillduwyd brawd a'i enw Thomas Edwards i'w gynnorthwyo, am nad oedd y bleunaf yn iach. Mewn gohebiaeth o Gymru i Lundain ynghylch gweinidogion y Dywysogaeth, dywedir am T. Edwards "ei fod yn gynnorthwywr ieuangc yn y weinidogaeth, yn obeithiol iawn, yn isel yn y byd, ac yn canlyn celfyddyd." Dywed yr ysgrifenydd hefyd y buasai yn weinidog disglair pe yn meddu amser a llyfrau, ond ei fod yn ddefnyddiol iawn er ei holl anfanteision. Golygir mai mab i'r Thomas Edwards hwnw oedd yr enwog Morgan Edwards, Trosnant, yr hwn a ymdrechodd yn galed, ac i fesur helaeth yn llwyddiannus, yn erbyn Uchel-Galfiniaeth ei oes. Ymddengys mai yn ardal Bleunau Gwent y ganwyd Mr. Edwards, yn y fl. 1722, ac iddo symmud i gymmydogaeth Pont-y-pwl pan yn ieuangc, canys yn eglwys Pen-y-garn yr ymaelododd ac y dechreuodd bregethu. Nis

* Gronoviana; Jones's (Vicar of All Saints, Rotherhithe) Poetical Works of the Rev. Gr. Owen, with the Life and Correspondence, &c.; Diddanwch Teuluaidd, Corph y Gaingc, Greal (Llundain), Gwyliedydd, Gwladgarwr (Caer), Cambro-Briton, Cambrian Register, Williams's Em. Welshmen, En. Cymru (I. F.), En. Cymru (J. T. J.), Brython, Gwyddoniadur.

Digitized by Google

gwyddom gan bwy na pha bryd y bedyddiwyd ef; ond gan iddo ddechrau pregethu yn yr eglwys honno, yn 1738, pan nad oedd ond 16 oed, dïau nad oedd ond ieuangc iawn pan ymunodd â chrefydd. Yn 1740, derbyniwyd ef i Athrofa Trosnant, o'r hon yr aeth i Goleg Caerodor; a thybir mai yno, dan addysg Foskett ac Evans, y gorphenodd ei yrfa golegol. Wedi ymadael oddi yno, bu'n pregethu am dymmor i'r Saeson yn Lloegr, cyn symmud i'r Werddon, lle'r ordeiniwyd ef yn 1757. Treuliodd tu a naw mlynedd ymhlith y Gwyddelod yn gymmeradwy a llwyddiannus, ac yna daeth yn ol i Loegr. O herwydd rhyw reswm anhyspys, yr oedd ynddo fwy o duedd i lafurio ym mysg y Saeson na'r Cymry, er y gallai bregethu Cymraeg yn gymmeradwy. Gan ei fod yn ysgolhaig rhagorol, graddiwyd ef yn A.C. *(M.A.)* gan un o athrofâu America. Yn 1761, ymfudodd i'r America, ac yno yr enwogodd ei hun yn benaf fel pregethwr ac ysgrifenydd. Ymsefydlodd yn Philadelphia, lle yr aeth yn bur enwog fel pregethwr a hanesydd ymhlith y Bedyddwyr. Yn fuan wedi ymsefydlu yn y Gorllewin, dechreuodd ysgrifenu Hanes y Bedyddwyr mewn deuddeg talaeth yn America, yr hwn a gyhoeddwyd yn ddeuddeg o lyfrau, y cyntaf o'r sawl a argraphwyd yn 1770, dan yr enw "Materials towards History of the Baptists in Pennsylvania." Teifl hwn lawer o oleuni ar hanes yr enwad, nid yn unig mewn rhanau o'r America, ond hefyd yn y wlad hon. Bu'r gwaith hwn yn bur fanteisiol i Joshua Thomas pan yn ysgrifenu Hanes y Bedyddwyr. Nid ydys sicr pa bryd, nac ymha le, yn America y bu Mr. Edwards farw; ond ni ddigwyddodd hyny cyn iddo sicrhau iddo ei hun enwogrwydd anfarwol ymhlith Bedyddwyr y Gorllewin.

### RICHARD PRICE (RHISIART PRYS).

Mab oedd y Dr. R. Price i Rees Price (Rhys Prys), gweinidog gyd â'r Annibynwyr yn ardal Pen-y-bont-ar-ogwy, sir Forganwg. Ganwyd ef mewn ffarmdy a elwid Tynton, ar y 22fed o Chwefror, 1723.* Yr oedd ei rieni mewn amgylchiadau da. Dygasid ei dad i fynu yn Athrofa Brynllywarch; ac wedi heneiddio a llesgâu o'r hybarch athraw, Samuel Jones, dewisodd Rees Price yn gynnorthwywr fel athraw a gweinidog, ac arhosodd yno yn weinidog hyd ddiwedd ei oes. Bu'n briod ddwywaith: claddodd ei wraig gyntaf ar y 12fed o Orphenaf, 1712, a'r ail ar y 4ydd o Fehefin, 1740. Yr oedd yn bur gyfoethog pan fu farw; ond gan ei fod yn credu, fel llawer o'i flaen ac ar ei ol, yn nwyfoldeb deddfau etifeddiaeth a chyntaf-anedigaeth, gadawodd ei holl feddiannau i'w fab hynaf o'r wraig gyntaf, gan adael yr ail wraig a'i phlant yn dlodion; a Richard oedd yr ieuengaf o chwech o'r wraig hon.†

Er i'w dad roddi Athrofa Brynllywarch i fynu ar sefydliad Athrofa Caerfyrddin yn 1704, etto rhodd i'w fab Richard yr addysg orau oedd o fewn cyrraedd yn yr oes honno. Pan oedd yn wyth oed, yr oedd yn yr Ysgol Rammadegol a gedwid gan Joseph Simmons, yn rhywle rhwng Castellnedd ac Abertawy. Wedi iddo fod yno bedair blynedd, symmudwyd ef i ysgol uwchraddol a gedwid gan Samuel Jones yn Pentwyn, sir Gaerfyrddin. Yr oedd y ddau ysgolfeistr uchod wedi eu dwyn i fynu yn Athrofa Caerfyrddin, dan addysg Thomas Perrot, ac y mae'n amlwg fod rhyw arogl Undodaidd yn dilyn eu gyrfa.

Yr oedd R. Price yn yr athrofa pan fu farw ei fam; a symmudodd o Gaerfyrddin, o herwydd llygredd y lle, i sir Frycheiniog, dan ofal Vavasor Gruffydd. Pan welodd ei hanner brawd hynaf yn myned i deyrnasu gartref, penderfynodd ymadael oddi yno; ac wedi derbyn yr hyn a ddigwyddai iddo o'r da, yn ol ewyllys ei dad, rhanodd y cwbl braidd rhwng ei ddwy chwaer, y rhai a farnai heb fod mor alluog ag ef i ymladd eu ffordd trwy'r byd; a chychwynodd, â'i ysgrepan ar ei gefn, gan gerdded hyd Gaerodor, lle y cafodd bedrolfen nwyddau, ac yn honno y cyrheuddodd brif ddinas Llundain, heb ond ychydig iawn o arian yn ei logell.

Yr oedd Samuel Price, brawd ei dad, yn gydweinidog â'r Dr. Watts yn Llundain er y fl. 1703, ac yr oedd yn ŵr parchus iawn ymhlith gweinidogion y brif ddinas. Cafodd Richard, trwy ddylanwad ei ewythr, dderbyniad rhwydd i'r athrofa, a olygid ar y pryd gan Mr. Evans, am yr hwn y dywedai'r Dr. Watts mai efe oedd y dŷn dysgedicaf yn ei oes. Wedi bod yno am bedair blynedd, ymsefydlodd yn gaplan teuluaidd i Mr. Streatfield, Stoke Newington, a chynnorthwyai y Dr. Chandler yn Old Jewry. Pan fu farw ei ewythr, gadawodd iddo lawer o gyfoeth, a phriododd yntau foneddiges ieuangc o sir Leicester, a symmudodd i Hackney; ond yn fuan wedi ymsefydlu yn Hackney, cafodd alwad i Newington Green, ac arhos-

* Hist. of Dissenters, by D. Bogue and J. Bennet, vol. iv., p. 421.

† Unitarian Worthies, p. 178.

Digitized by Google

odd yno hyd farwolaeth ei wraig yn 1786; yna dychwelodd i Hackney. Yn 1763, gwnaed ef yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol; yn 1769, derbyniodd radd D.D. o Athrofa Aberdeen; ac yn 1783, cafodd radd LL.D. o Goleg Yale, America. Cydsyniai pawb o'i gydoeswyr na bu urddau yn gweddu yn well i neb erioed. Er cymmeryd o hono weinidogaeth eglwys Gravel Pit, Hackney, byddai yn pregethu bob prydnhawn Sabboth yn Newington Green. Yn gynnar yn 1791, rhoddes y weinidogaeth i fynu o herwydd afiechyd. Traddododd ei bregeth ymadawol yn Chwefror; ac ar ol dïoddef arteithiau dwysion gan anhwyldeb y bledren, bu farw yn dawel ar y 19ydd o Ebrill, 1791, yn 69 oed. Rhanodd ei gyfoeth rhwng ei chwaer a dau nai.

Safai yn uchel fel pregethwr a duwinydd, a rhoddai foddlonrwydd i bawb yn y cylchoedd a lanwai; ond yr oedd wedi myned yn Ariad, neu yn Undodiad, ymhell cyn diwedd ei oes. Nid oes sicrwydd pa bryd y dechreuodd broffesu y golygiadau Ariaidd: tybia rhai ei fod yn eu harddel er pan gipiodd ei dad waith y Dr. Clark o'i law, gan ei daflu i'r tân, am ei fod yn cynnwys golygiadau gwrth-Galfinaidd. Nid oes amheuaeth na bu hyny yn foddion i'w gynhyrfu i ymresymu bod eisiau crefydd ragorach na'r un Galfinaidd, yr hon oedd yn dysgu ei dad i'w rwystro ef i chwilio am y gwirionedd ymhob lle y gallai. Tybia eraill i sylfeini ei Undodiaeth gael eu gosod i lawr yn Ysgol Pentwyn, fel y crybwyllwyd; ond cyttuna pawb mai yr amser yr oedd yn cydweinidogeuthu â'r Dr. Chandler y dechreuodd eu cyhoeddi.

Safai y Dr. Price fel arddansoddydd *(metaphysician)*, ac fel gwyddonydd *(mathematician)*, yn uwch o'i ysgwyddau i fynu na neb yn Ewrop yn ei oes. Amcan bleunaf ei holl ymchwiliadau a'i ysgrifeniadau oedd gosod pob gwyddor ac athrawiaeth ar sylfeini cedyrn a safadwy. Rhoddes oleuni newydd ar hanfodion moesoldeb, ac ar egwyddorion sylfeunol llywodreuthau gwladol. Yr oedd yn gampwr rhyddid ymhob ffurf, ac yn werinwr o'r "lliw cochaf." Chwalai gaethiwed a gorthrwm ar bob llaw, a rhuthrai gyd â gwroldeb Brutus i'w gwrthwynebu; ond pan yn dadlau ar byngciau crefyddol, yr oedd yn debygcach i ddŷn yn chwarau â'i wrthwynebwr nag i un wedi myned i yspryd ei bwngc. Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i amddiffyn hawl yr Americaniaid i daflu ymaith iau orthrymus Brydain; a than ddylanwad y chwyldroad Americanaidd y traddododd ei bregeth fythgofiadwy ar Ebargofwyl *(Jubilee)* y chwyldroad Brytanaidd, yr hon a fu'n achos i Burke daflu cryn lawer o lysnafedd am ei ben. Pa wedd bynag, cyn bod Burke ond prin wedi cyhoeddi ei oganau, anrhydeddwyd Price gan y Ffrangcod, trwy ei ddewis yn aelod o'u Cymmanfa Genedleuthol, er mwyn ei galonogi.* Gwrthododd dderbyn titl o'r America yn 1770, o herwydd bod y wlad honno ar y pryd dan bawen Brydain; ond pan aeth y wlad yn werinlywodraeth, derbyniodd yr anrhydedd, er mwyn dangos ei gymmeradwyaeth i'r ffurf honno o lywodraeth. Barnai ei fywgraphydd bod hyny yn wendid ynddo; ond pe buasai yr ysgrifenydd yn fyw heddyw, dichon y teimlasai yn wahanol; o leiaf, nis gallwn ni lai nag edmygu yr hyn a wnaeth. Myfyriodd ac ysgrifenodd lawer ar wir fanteision ac urddas dŷn, trwy'r hyn y gwnaeth ei hun, nid yn unig yn enwog, ond hefyd yn wasanceuthgar i'w wlad a'r byd am oesau dyfodol. Ystyrid ei ysgrifeniadau ar foeseg (*ethics*) yn rhagori ar bob gwaith a gyhoeddasid yn flaenorol ar y pwngc: yr oedd eu tuedd uniongyrchol i arwain y darllenydd i barchu Duw, rhyfeddu ei drefniadau, ac i ymostwng ger ei fron.†

Yr oedd rhyw ysfa anturieuthus, fel clefyd poeth, wedi meddiannu dosparth llïosog yn y wlad hon o gylch y pryd hyn: ffurfient gwmnïau, a sefydlent gymdeithasau yswiriol ymhob rhan o'r wlad, gan addaw elw dirfawr a manteision anhygoel i'r bobl oddi wrthynt; ac y mae'n debyg y buasent mor andwyol i'r wlad ag y bu'r "South Sea Bubble" (=Burlwm Môr y De), oni buasai i'r Dr. Price, yr hwn a gydnabyddid yr awdurdod uchaf yn y deyrnas ar fatterion cyllidol, ddangos i'r genedl bod y fath addewidion yn seiliedig ar anwiredd noeth, a bu hyny yn foddion i osod terfyn buan ar yr hudoliaeth. Bu hyny yn foddion i'w ddwyn i sylw masnachwyr y deyrnas; ac ni theimlai un cwmni yn barod i ymgymmeryd âg un anturiaeth, ac ni theimlai y genedl ei hun yn barod i gymmeryd rhanau mewn un anturiaeth, nes iddynt dderbyn cymmeradwyaeth y Dr. Price.‡

* Encyclo. Britannica, vol. xv., p. 503.

† O'i holl ysgrifeniadau llïosog, bernir mai ei waith athronyddol penaf yw y "Review of the Principal Questions and Difficulties in Morals" (=Adolygiad ar Brif Byngciau ac Anhawsderau Moesyddiaeth), yr hwn a gyhoeddwyd pan nad oedd yr awdur ond ieuangc mewn cymhariaeth.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 732.—Gol.

‡ Tynodd ei "Appeal" (=Appêl) ar y ddyled wladol ac o blaid y soddgyff (*sinking fund*) sylw arbenig, a dywedir yr arferai Mr. Pitt gymmeryd ei awgrymiadau yn fynych o hono ar fatterion cyllidol.—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 732.—Gol.

Digitized by Google

Y mae hyd yn oed y rhai na chydwelant â'r Dr. Price yn cyfaddef iddo amddiffyn golygiadau Clark a Cudworth yn decach ac yn gryfach na neb arall yn yr iaith Saesneg. Canlynai Plato braidd yn rhy bell mewn arddansoddiaeth; ac y mae rhai o'i syniadau yn ymddangos yn gymmysglyd a thywyll. Credai yn ysprydolrwydd yr enaid; ond daliai ei fod, mewn rhyw ystyr, yn myned gyd â'r corph i gysgu hyd forau yr adgyfodiad; ond nid oedd yn hollol yr un syniad ar hyn a'r Dr. Priestley.*

Nid oedd ei gymmeriad cyhoeddus, fel gwladwr a dinesydd, yn rhagori dim ar ei gymmeriad crefyddol a chyfrinachol. Nodweddid ei holl gyflawniadau crefyddol, cyhoeddus a theuluaidd, gan ryw enneiniad nas gellir ei ddarlunio. Meddai galon orlawn o dynerwch, ac nid oedd ei ymddygiad at ei ddwy chwaer pan yn gadael y cartref ond engraifft o'r hyn a barhaodd hyd ei fedd. Nid oedd yn dynerach fel brawd, pan yn 18 oed, nag oedd fel priod pan yn 58 oed. Bu ei wraig yn gystuddiol ac yn analluog i symmud o'i hystafell am flynyddau; a gwnai yntau bob peth yn ei allu i'w chysuro a'i diddanu. Heb law ei dynerwch yn ei deulu, yr oedd yn ddïarhebol am wneud cymmwynasau i ddïeithriaid: ar air, ni fedrai ddywedyd "na" wrth neb a elai ar ei ofyn; ond clybuwyd ef yn achwyn yn fynych bod y fath gymmwynasau yn trethu'n drwm ar ei amser a'i orchwylion mwy pwysig.

Yr oedd braidd yn fychan o gorpholaeth, cryf ei gyhyrau, a bywiog ei symmudiadau; a'i gefn braidd yn crymu, yr hyn a achosid, y mae'n debyg, gan ei duedd fyfyrgar ac ysgrifenyddol. Tybir mai disgrifiad o hono ef, dan yr enw *Simplicius*, ydyw yr un a ysgrifenwyd mor odidog gan Mrs. Barbauld.†

## PENNOD V.

### EDWARD PARRI A JOHN EVANS.

Enw preswylfod Edward Parri oedd Brynbugad, tyddyn ymhlwyf Llansannan, sir Ddinbych. Ganwyd ef mewn lle a elwir Llys-bychan, ger llaw Llansannan, yn y fl. 1723. Ni chafodd nemmawr o fanteision dysgeidiaeth; er hyny medrai ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg yn dda; a chyrheuddodd gymmaint o wybodaeth gyffredinol, trwy lafur a dyfalbarhâd, fel y medrai ymadroddi yn hyawdl a synhwyrol ar unrhyw fatter a osodid ger ei fron, ac yr oedd yn meddu graddau naturiol helaeth o'r ddawn brydyddol. Bu Edward yn gweithio fel ameuthwr nes oedd tu a 18 oed, pryd y rhwymwyd ef yn brentis i ddysgu celfyddyd saer coed. Priododd E. Parri Gwen, merch Dafydd Huws, Plasbugad (a elwir yn awr Plaspigod), Llansannan, yn 1746, pan oedd efe yn 23 oed. Ymddengys i Parri gael tröedigaeth yn lled fuan ar ol priodi; a thybir iddo ddechrau pregethu yn y fl. 1749,‡ pan oedd efe yn 26 oed. Cymmerodd E. Parri dyddyn bychan o dir yn ebrwydd ar ol priodi, a elwir Cefn-byr, yn agos i Lansannan.

Pan ddechreuwyd pregethu yn Henllys, ymhlwyf Llanfair-Talhaiarn, heb fod ymhell iawn o Lansannan, trwy i'r wraig weddw oedd yn byw yno gael breuddwyd tra rhyfedd,§ aeth y son am y pregethu yno yn gyflym trwy'r holl ardaloedd cylchynol, a thynwyd yno lïaws o bobl i wrando. Rhai a ddeuent yno o wir gywreinrwydd, heb un neges ond i weled ac i glywed rhywbeth newydd; ac nid oes amheuaeth na pharodd breuddwyd y wraig weddw fwy o ysfa ym meddwl y bobl nag arferol i fynnu gwybod beth oedd ar ddyfod, ac i hyny fod yn foddion i ennyn y dyb bod rhywbeth goruwch naturiol yn yr amgylchiad, fel nad ydym yn cael bod cymmaint o wrthwynebiad wedi cael ei ddangos i'r pregethu yn y lle hwn ag a ddangosid gan amlaf mewn cymmydogeuthau eraill. Ymhlith y rhai a aethant yno o ran cywreinrwydd, un Sabboth, yr oedd Edward Parri. Am yr odfa honno, ac am a brofai trwyddi, efe a ddywedai fel hyn:—

"Mi synais yn fawr pan aethum i'r tŷ; ac wrth wrando, teimlwn lawr y tŷ yn crynu dan fy nhraed. Tybiwn bod y dysglau yn curo yn eu gilydd yn y lle; a deuthum ar unwaith i'r penderfyniad i ymlynu wrth y bobl hyn tra fyddwn byw."

O hyny allan, llwyr ymadawodd â'i hen gyfeillion gwâg, gan fyned i wrando pregethu ar bob cyfleusdra a gaffai. Yn fuan wedyn, cymhellodd bregethwyr o'r Deheudir i ddyfod i'w dŷ i bregethu. Y mae enw'r pregethwr cyntaf a aeth i bregethu yn ei dŷ yn anhyspys. Ymhen ennyd, llwyddodd i gael ei "dad" ysprydol i ddyfod yno, sef Dafydd William Rhys. Tŷ E. Parri oedd y cyntaf a agorwyd ymhlwyf Llansannan i'r Methodistiaid i bregethu ynddo; a'r cyntaf, yn wir, ar ol Henllys, yn yr holl ardaloedd cylchynol.

* Encyclo. Britannica, vol. xv., p. 503

† Ibid., vol. xv., p. 505.

‡ Method. Cymru, cyf. i., t. 144-146; En. Cymru, J. T. Jones, cyf. ii., t. 376.

§ Method. Cymru, cyf. i., t. 142.

Tynodd E. Parri ŵg llawer arno ei hun trwy agor ei dŷ i dderbyn pregethwyr y "Penau Cryniaid" iddo, yn enwedig gŵg offeiriad y plwyf, yr hwn, wrth weled y wlad yn cyffrôi, a nifer mawr yn ymgasglu i'r Cefn-byr at E. Parri i wrando yr efengyl, a ffromodd yn aruthr wrtho. Ennillodd yr offeiriad y meistr tir hefyd i wgu arno. Bygythiodd hwnw, oni roddai heibio lochi y crwydriaid estronol a deithient y wlad i "aflonyddu'r byd," trwy gymmeryd arnynt bregethu, y troid ef allan o'i dyddyn. Dywedodd E. Parri wrtho, yn bwyllog, yn wyneb hyny, "Nid yw eich tir chwi, syr, ond dros amser; ond y mae crefydd i bara byth." Y canlyniad fu iddo gael rhybudd i ymadael. Ychydig cyn amser ei fudiad ymaith, cafodd gyfleusdra i ymddiddan â Mr. John Foulkes, o'r Wenallt, gŵr yn meddu peth etifeddiaeth, ac anturiodd gwyno wrtho ei fod yn gorfod ymadael o'i dyddyn, ac heb arall i fyned iddo; a chymmerth yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt:—

*F.* "Am ba beth yr ydych yn cael eich troi allan?"
*P.* "Am dderbyn pregethu i'm tŷ, syr."
*F.* "Onid gwaith da ydyw hyny? Nid oes genyf un tyddyn yn awr yn wâg i'ch derbyn; ond gan eich bod chwi yn saer, gellwch godi tŷ i chwi eich hun, a rhoddaf finnau dir i chwi mewn gweithred."

Derbyniodd Edward Parri y cynnyg yn llawen. Cafodd brydles ar bedwar neu bump o geuau (meusydd), a chododd dŷ ar un o honynt mewn ychydig o amser, yr hwn a alwyd Tan-y-fron, ar lan yr Afon Deunant, o fewn tu a milltir a hanner i'r dwyrain-ogledd o Lansannan; ac y mae'r hen enw ar y lle cyssegredig hyd y dydd heddyw. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol i Edward Parri ddechrau pregethu, sef yn 1751, digwyddodd yr ymraniad galarus, a fu dan sylw eisoes,* rhwng Daniel Rowlands a Howel Harris, yr hwn a effeithiodd yn dra dwys ar E. Parri, fel y gwnaeth ar lïaws o ddynion eraill tyner eu teimladau. Yr oedd efe yn tueddu i bleidio Harris yn hytrach na Rowlands; ac nid oedd efe yn unig chwaith yn hyny, canys yr oedd y rhan fwyaf o bregethwyr Gwynedd, a elwid "cynghorwyr," yn tueddu yr un ffordd, tra'r oedd rhai y Deheubarth yr ochr arall. Dan effaith y ddadl anhyfryd ac afreidiol honno, syrthiodd Parri i gryn raddau o ddigalondid a llwfrdra mewnol, a rhoddes heibio bregethu am gryn dymmor. Yn yr adeg ddigysur yma, ail ymunodd âg Eglwys Loegr, a llawen iawn oedd offeiriad y plwyf am ei adferiad; a chan lawenydd o blegid hyny, ac i ddangos ei barch iddo, gwnaeth ef yn warden y plwyf. Yn yr yspaid yma, gan fod E. Parri yn preswylio yn lled bell oddi wrth eglwys y plwyf, darllenai wasanaeth gosper ar brydnhawn Suliau yn ei dŷ ei hun, gan wneud sylwadau ar y Psalmau a'r Llithoedd wrth fyned ym mlaen. Yr oedd yn y plwyf y pryd hyn amryw chwareuon ac ofer-gampau, difyrwch a dawns, yn cael eu cynnal ar brydnhawn Sabbothau. Elai E. Parri i gynnifer o'r cyfarfodydd hyn ag a allai i ddarllen y gosper iddynt, a chymhellai y bobl, yn ol ei swydd fel warden, i ddyfod i'r gosper dan berygl cospedigaeth; a bu'n llwyddiannus i ymlid y chwareuon llygredig hyny bron yn llwyr allan o'r plwyf. Nid ydym sicr dros ba hyd y parhaodd Edward Parri yn Eglwyswr y waith hon; ond dywedir iddo, ar ol bod yn y tŷ a adeiladasai yn Nhan-y-fron, dros rai blynyddau yn dilyn ei grefft fel saer, gymmeryd tyddyn arall sydd yn ymyl Tan-y-fron, a elwid Brynbugad, yn 1761, lle yr arhosodd hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth. Unwaith, pan oedd yn darllen y gosper ym Mrynbugad, ac yn adrodd pennill o hymn i'w ganu, meddyliodd nad oedd y gynnulleidfa yn deall mo'r emyn. Ei chynhwysiad oedd dyfodiad Israel o'r Aipht i Ganaan. Parodd yr ystyriaeth yma iddo ddechrau ei hegluro. Olrheiniodd hanes Israel o alwad Abram, ei ymdeithiad yn nhir yr addewid, gorthrymder Israel yn yr Aipht, eu gwaredigaeth, a'u dyfodiad yn y diwedd i Ganaan. Tra'r oedd yn llefaru fel hyn, disgynodd rhyw hwyl hyfryd arno ef a'i wrandawyr, gwahanol i ddim a brofasant o'r blaen. Ystwythodd hyn ei yspryd i ymosod ar y gwaith o bregethu, fel cynt. Ymunodd yn ebrwydd â phlaid Rowlands, fel y'i gelwid; bu ei dŷ yn gartref i'r achos o hyny hyd oni adeiladwyd y capel; a bu yntau ei hun yn ffyddlon ac effro dros weddill ei oes, fel pregethwr effeithiol a chymmeradwy.

Yn y fl. 1763, pan oedd efe yn 40 oed, bu farw ei wraig; ac ymhen dwy flynedd wedyn, efe a ail briododd. O gylch y pryd hyn, daeth gŵr a elwid "Huws o Fôn," yr hwn oedd ar y pryd yn berson Ysbytty Ifan, trwy'r wlad i bregethu, a chafodd dderbyniad croesawgar yn Arllwyd, y ffarmdy yn yr hwn yr oedd ail wraig E. Parri yn byw ynddo, ac a saif yn agos i derfynau Llansannan, Llannefydd, a Henllan. Taenwyd y son am ddyfodiad yr offeiriad Huws yno i bregethu trwy'r holl wlad, a daeth y fath lïaws o bobl ynghyd yno i wrando fel na chynhwysai y tŷ mo'u chwarter hwy; o ganlyniad, ar riniog yr ysgubor y safodd y pre-

* Gwel llyfr v., pen. xvii. a xviii.

Digitized by Google

gethwr, a'r bobl yn sefyll ar y buarth o'i flaen. Deuai Huws yno dros ryw yspaid bob tair wythnos neu fis, a pharhaodd y gynnulleidfa i gynhyddu bob tro y deuai, yn hytrach na lleihau. Deuai pregethwyr eraill yno hefyd yn eu tro, yn ol eu cyfleusdra.

Yr oedd gan Edward Parri ddwy ffarm y pryd hyn, sef Brynbugad, ei gartref ei hun, ac Arllwyd, cartref ei wraig. Parodd y cynnulliadau llïosog yn Arllwyd lawer o gyffro a siarad trwy'r holl ardaloedd, a ffromodd offeiriad Llansannan yn aruthr etto. Deallodd fod person Henllan yn gyfaill mawr i feistr tir Arllwyd; gan hyny, anfonodd ato i ddeisyf arno ymdrechu i gael gan berchenog y tir roi rhybudd i wraig E. Parri i ymadael, a llwyddodd hwnw yn ei fudr ymgais. Ar yr un pryd, gan na wyddai efe am y brâd oedd yn gweithio yn ei erbyn, yr oedd yntau wedi penderfynu rhoi y Brynbugad i fynu, a myned i fyw at ei wraig i Arllwyd, am fod hwnw yn well tyddyn. Aeth ef i dalu am ei dir ac i'w roi i fynu; a phan oedd y wraig yn talu am ei thir hithau yr un amser, cafodd rybudd i ymadael; ac felly, erbyn cyfarfod eu gilydd, yr oedd y ddau dyddyn megis wedi eu colli; ond cafodd Brynbugad, ei gartref ei hun, eilwaith, am nad oedd neb arall yn ymofyn am dano.

Digwyddodd yr ymosodiad offeiriadol yma arnynt yn y fl. 1767; o ganlyniad, ymsefydlodd y ddau gyd â'u gilydd ym Mrynbugad a Than-y-fron. Yr oedd y wlad bellach yn dechrau ymuniawni ar ol rhuthr ymraniad Rowlands a Harris, ac aeth y diwygiad ym mlaen yn yr ardal hon fel manau eraill. Yr oedd y wraig ac Edward Parri o'r un meddwl ac un galon am hyrwyddo y gwaith da ym mlaen. Yr oedd y pregethwyr bellach yn dechrau amlhau, ac ymwelid â Than-y-fron gan rai o Fôn, Arfon, Fflint, a Meirion, heb law ambell un o sir Drefaldwyn. Ymwelid â hwy yn fynych gan John Evans, Thomas Foulkes, ac Wmphrey Edward, o'r Bala; ac ymddangosai mwyfwy o sirioldeb ar yr achos. Weithian dechreuwyd sefydlu cymdeithas eglwysig (*seiat breifat*) yn nhŷ Brynbugad bob nos Iau. Dyma'r gymdeithas eglwysig gyntaf yn yr holl wlad hon. Cynhyddodd eu rhif a'u dylanwad yn gyflym iawn. Aeth y tŷ yn rhy fychan i gynnwys y rhai a ddeuent ynghyd i'r cyfarfodydd eglwysig; ac Edward Parri oedd yn dwyn yr holl draul ei hunan hyd yn hyn. Cyrchai pobl bellach o wyth i ddeg o blwyfau cylchynol i Brynbugad i wrando pregethu, a phrofodd llïaws mawr awdurdod y gwirionedd ar eu cydwybodau. Arferai Edward Parri fyned i ardaloedd newyddion i bregethu, a bu hyny yn foddion i arloesi y ffordd i bregethwyr ieuaingc, llai eu gwroldeb nag ef, a gyfodent yngwahanol barthau y wlad, trwy'r hyn yr ymehangodd Methodistiaeth yn gyflym, ymhell ac yn agos. Erbyn hyn, dechreuodd hen bregethwyr y Deheudir ddyfod eilwaith i'r Gogledd, ac nid oedd un man lle y caent groesaw mwy cynnes nag ym Mrynbugad. Gan fod aelodau hen eglwys Brynbugad mor wasgarog, ac oll yn barod i agor eu tai i Edward Parri ac eraill i bregethu ynddynt, dechreuwyd pregethu, gan Parri, yn benaf, ymhlwyfau Llannefydd, Abergele, Pentrefoelas, a manau eraill yn yr holl ardaloedd cylchynol. Yr oedd Parri yn nodedig am dori tir newydd, a dwyn yr efengyl i ardaloedd tywyll a digrefydd. Yr oedd ei gymhwysder i hyn yn cyfatteb yn gyflawn i'w awyddfryd.

Yr oedd llyfrau crefyddol, yn amser Edward Parri, yn brinion iawn yn y wlad, ac o ganlyniad yr oedd manteision gwybodaeth yn bur fychain. Nid oedd yr Ysgol Sabbothol hyd yn hyn wedi ei sefydlu, ac ymddibynai y bobl bron yn hollol am bob gwybodaeth grefyddol a moesol ar yr hyn a glywent o'r pulpud, neu o ba le bynag y traddodid pregethau. Er mwyn gwneud y diffyg yma i fynu i raddau, ymunodd Edward Parri â dau ŵr arall i gyhoeddi y llyfryn bychan canlynol:—

"Y Perl Gwerthfawr; neu Bennau o Wybodaeth Iachus i Bechadur am ffordd y Bywyd, &c. Wedi ei gyfieithu i'r Cymraeg, er lles i'r Cymru. . . . M,DCC,LXIV. Pris 4d."

Yr oedd Biblau hefyd, cystal a phob llyfrau da eraill, yn brinion iawn yn amser Edward Parri; a phan gyhoeddodd Peter Williams "Y Bibl, gyda Nodau a Sylwadau ar bob pennod," yn 1770, gwnaeth ei orau i'w lledeunu yn ei ardal, nid yn unig er mwyn yr awdur llafurus, ond hefyd er mwyn heleuthu breintiau ei gymmydogion.* O gylch y pryd hyn, neu ychydig yn gynt, fe allai, torodd adfywiad grymus allan ym Mrynbugad. Aeth rhywrai a fyddent yn arfer llefain, neu "or-

* Dywed un o fywgraphwyr E. Parri y cyhoeddodd lyfr a elwid "Treithawd ar y ddau Gyfammod;" ond nis gallwn ni ganfod hyny, eithr cyfansoddodd rai hymnau, y sawl a gyhoeddwyd yn 1789, ymhen tu a thair blynedd ar ol ei farwolaeth, mewn cyssylltiad â rhai eraill, dan yr enw canlynol:—"Ychydig o Hymnau, na buont yn argraffedig o'r blaen, o waith Edward Parry, o blwyf Llansannan, yn sir Ddinbych, ac hefyd o waith William Evans, o Fedw Arian, ger llaw y Bala, yn sir Feirionydd, &c.—Argraffwyd tros ddyn tlawd a elwir William Ellis, trwy ganiatad y brodyr Ynghymanfa Caerwys." Llyfr. y Cymry, t. 643.



Digitized by Google

soleddu," fel y dywedid, yn y cyfarfodydd yng Nghapel y Dyffryn ac yn y Bont-uchel i Frynbugad, a buan yr aeth yr holl gymdeithas eglwysig yn wenfflam. Aeth y son am y peth dïeithr hwn yn ebrwydd trwy'r holl wlad, a sugnodd lïaws o bobl o ardaloedd eraill i weled ac i glywed. Safai rhai o'r edrychwyr yn syn, heb wybod pa farn i'w ffurfio; rhai a wawdient yn erchyll, gan ledeunu y chwedlau mwyaf anferth am y peth; ac eraill a ddelid megis gan wŷs o'r nef, ac a ymostyngent yn dawel i seuthau llymion argyhoeddiad. Cedwid y cyfarfodydd ar y pryd am dri o'r gloch prydnhawn ddydd Sul, a mynych y parheid mewn gweddi a mawl hyd doriad y dydd drannoeth.

O ddeutu yr un amser, dechreuodd pedwar o fechgyn ieuaingc oedd yn gweini gyd â Robert Roberts, Grugor-isa, ymgynnull ynghyd, ar ol odfa prydnhawn Sul, i ddarllen, cynghori, ac egwyddori eu gilydd. Nid oeddynt yn gwybod i neb o'r blaen wneud y fath beth; gan hyny, nid dynwared neb arall yr oeddynt, ond disgyn a wnaeth y peth ar eu meddyliau, er mwyn adeiladaeth a budd. Aeth son am y fath gyfarfod yn gyflym trwy'r gymmydogaeth, a daeth eraill o blant yr ardal atynt, nes iddynt gynhyddu i gryn rifedi. Barnodd Edward Parri y byddai yn fuddiol arolygu dros yr ieuengctid hyn, a gwahoddodd hwy i gyfarfod ymharlwr Brynbugad. Llwyddodd hefyd i gael gan y meistriaid gwaith ganiatâu iddynt ddyfod at eu gilydd un noswaith yn yr wythnos; a phenderfynodd yntau eu cyfarfod i'w dysgu a'u hegwyddori. Felly, ceid y bobl ieuaingc ymharlwr y Bryn, a'r hen bobl yn y gegin, a'u bryd ar yr un amcan, ac yn trafod yr un pethau. Caed allan yn lled fuan bod y ddau gyfarfod yn rhy agos i'w gilydd, gan y digwyddai yn lled fynych y torai'r plant allan i folianu, a'r hen bobl bryd arall, yr hyn a sugnai y ddau gyfarfod at eu gilydd. Yn wyneb hyn, parotôdd Edward Parri hen ysgubor Tan-y-fron i gynhulliad yr ieuengctid, ac ymgyfarfyddent yno yn gysson dros rai blynyddau Bu eu rhifedi unwaith rhwng pedwar ugain a chant. Bu'r cyfarfodydd hyn, dan olygiad gwŷr hen a doeth, yn dra bendithiol. Cyfododd amryw bregethwyr llafurus a defnyddiol iawn o fysg y plant hyn, megis John Llwyd, Llansannan; John Jones, am yr hwn y dywedodd Edward Parri bod "Sion *ysmala* wedi ei wneuthur yn John *ddifrif*" (efe oedd tad Isaac Jones, Nantglyn); John Davies, gwehydd, o Gefn-meiriadog; John Williams, o Henllan; Peter Roberts, o Frynanllech, ac wedi hyny o Lansannan; pregethwyr oedd yn hyspys, ddeugain mlynedd yn ol, trwy holl Ogledd Cymru, os nad y Deheudir hefyd. Byddai yn fuddiol iawn i grefyddwyr yr oes glaiaraidd hon ddilyn esampl fendithiol Edward Parri gyd â'r ieuengctid, yn lle eu gadael, fel y gwneir yn awr yn rhy fynych, ym mysg eglwysi llïosog, heb na chyngor, na chyfarwyddyd, nac annogaeth, ddydd mewn blwyddyn.

Nid llawer a deithiodd Edward Parri i bregethu ar hyd gwledydd Cymru; ond teithiodd lawer yn ei wlad ei hun. Ymwelai weithiau hefyd âg eglwysi y Methodistiaid ym Môn, Arfon, a Fflint; a dywedir yr anfonwyd am dano unwaith i Lundain, i bregethu i'r Cymry yn y ddinas fawr honno. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi ym Mrynbugad cyn iddo gychwyn, am nodded yr Arglwydd drosto, ac am arddeliad a llwyddiant ar ei lafur; esampl dra theilwng o'i dilyn, yn oed yn y dyddiau hyn, er bod teithio i Lundain yn awr yn dra gwahanol i'r hyn ydoedd yn y ganrif a aeth heibio. Annogid E. Parri yn fynych i fyned yn amlach trwy Gymru i bregethu; ond ei atteb ef fyddai, "Nid oes genyf fi ddoniau i wneud y lles a ddymunwn i'm gwrandawyr." Ymddengys bod ei ddull ef o bregethu yn debycach i Williams o Bant-y-Celyn nag i Peter Williams, gan yr ymddibynai efe gryn lawer ar yr "hwyl" a'r arddeliad a gaffai; ac nid aml y byddai yn amddifaid o hyny.

Cafodd Edward Parri fyw i weled llwyddiant mawr, mewn cymhariaeth, ar yr achos oedd mor agos at ei galon. Aeth y gynnulleidfa yn rhy lïosog i dŷ Brynbugad, ac aeth yntau yn bur anesmwyth am gael adeiladu capel. Digwyddiad anfynych, yn y dyddiau hyny, oedd cael gŵr bonheddig a foddlonai i roddi nac i werthu tir at y fath amcan. Gwelsom i foneddwr fod yn ffafriol iddo ef ar ddechreuad ei grefydd, trwy osod tyddyn bychan iddo yn Nhan-y-fron; ac ymhen 25 mlynedd wedi hyny, sef yn 1773, cafodd garedigrwydd gan ei ŵyr, sef John Foulkes, Ysw., o'r Wenallt, trwy gael lle ganddo i adeiladu capel arno, ac adeiladwyd ef ar dir Tan-y-fron, yn ymyl y tŷ a adeiladasai Parri gynt iddo ei hun. Ychydig o gapelau oedd wedi eu hadeiladu y pryd hyny; ac yr oedd sirioldeb neillduol ar y gwaith yn ei holl ranau, a llaweroedd wedi "rhoddi y gwddf ynddo." Yr oedd y lle yn enwog yn y Gogledd y pryd hwnw. Cynhelid cymmanfaoedd a chyfarfodydd misol yn Nhan-y-fron, ac ar y cyfryw achlysuron byddai y capel yn llawer rhy fychan i gynnal y

Digitized by Google

gynnulleidfa; am hyny, cynhelid y cyfarfodydd allan, ger llaw y capel.

Wedi i Edward Parri fod yn ddiwyd dros gryn 11 mlynedd ar ol adeiladu y capel, teimlodd ei hun, tu a'r fl. 1784, yn gwanychu o ran ei iechyd; am hyny penderfynodd adael y tyddyn, Brynbugad, i'w deulu, a chilio gyd â'i wraig i'r tŷ a godasai gynt yn Nhan-y-fron, wrth yr hwn yr adeiladasid y capel, gan benderfynu treulio gweddill ei oes i fyned o amgylch, fel y gallai, i bregethu yr efengyl. Pa wedd bynag, ni bu'r tymmor yma ond byr. Yr oedd yn cwyno er ys tro gan ddolur y gareg a'r lledewigwst *(piles)*; ac i roi terfyn buan ar ei boen, ymaflodd clefyd poeth ynddo, o'r hwn y bu farw mewn tangnefedd ar yr 16fed o Fedi, 1786, yn 63 oed; a gellir dywedyd yn ddibetrus am dano, ei fod yn un o rai "rhagorol y ddeuar."*

### JOHN EVANS O'R BALA.

Ysgrifenwyd yn helaeth ar fywyd a llafur John Evans o'r Bala gan wahanol awduron galluog, sylwedd yr hyn yr ymdrechir ei ddodi yma mor gryno ag y gallom, gan fod ein gofod yn prysur brinhau.

Ganwyd John Evans mewn lle a elwir Glan-yr-afon, ymhlwyf Gwrecsam, sir Ddinbych, ar y 30fed o Hydref, 1723. Enw ei dad oedd William Evans, gweithiwr ar dir; a bydwraig oedd ei fam, a'i henw Ann Evans. Symmudodd ei rieni, pan oedd efe tu a 4 blwydd oed, i dyddyn bychan o'u heiddio eu hunain yn Adwy'r-clawdd, yn yr un plwyf, yr hyn, fel y ceir gweled rhag llaw, a fu o fendith fawr i'r ardal honno. Arferai ei rieni fyned i'r Eglwys Sefydledig ar y Suliau. Ystyrid hwy yn bobl foesol, a pherchid hwy yn fawr gan eu cymmydogion. Dywed John Evans yr arferai ei fam ei gynghori yn fynych rhag cyflawni drygau anfad megis lladrad, celwydd, tyngu, a'r cyffelyb. Ymddengys iddo gael rhyw faint o ysgol ddyddiol, gan ei fod yn medru darllen ei Fibl yn Gymraeg a Saesneg yn dda pan o ddeutu 9 neu 10 oed; a dysgodd ysgrifenu a rhifyddu hefyd, naill ai yn yr ysgol ai wedi hyny. Arferai, pan o gylch yr oedran hwnw, fyned i dai ei gymmydogion i'w difyru trwy ddarllen hanesion Ysgrythyrol, megis hanes Noa, Abraham, Joseph, Moses, a'r cyffelyb, y rhai, fel y credai mewn amser dyfodol, oedd mor ddïeithr i'r trigolion ag i bobl dduon Affrica.

* Method. Cymru, cyf. i., t. 143-6; cyf. iii., t. 113-25; Enwogion Cymru, J. T. Jones, cyf. ii., t. 375-8.

Pan oedd rhwng 12 a 13 oed, rhwymwyd ef yn brentis o wehydd am dair blynedd, pryd y cynhyddodd mewn corpholaeth a chryfder tu hwnt i'r cyffredin. Wedi iddo orphen tyfu, yr oedd yn dalach a chryfach na'r cyffredin, a'r olwg arno yn fawreddog a pharchus. O gylch y pryd hyn, cyfododd awydd cryf ynddo am ymuno gyd â'r gwŷr meirch yn y fyddin, ac aeth i Gaerlleon, yn gwbl groes i daer ddymuniad ei fam, er mwyn rhoi ei amcan mewn grym; ond erbyn iddo gyrraedd yno, yr oedd y gwŷr meirch wedi ymadael o'r ddinas er y diwrnod blaenorol, a gwrthododd yntau ymuno â'r gwŷr traed, er iddo gael ei annog yn daer i wneuthur hyny. Credai wedi hyny bod "dirgel law Rhagluniaeth" yn yr amgylchiad, am fod Duw yn bwriadu iddo fod yn offeryn, nid i ladd dynion, ond i'w cadw yn fyw dros byth.

Wedi bod yn dilyn ei grefft dros ryw dymmor byr, cododd awydd arno am fyned yn fwnwr, ac aeth i weithio i waith plwm oedd yn yr ardal, lle y collodd, fel y cwynai wedi hyny, bob argraph grefyddol o'i feddwl, wrth gyfeillachu â'r mwnwyr halogedig. Pan yn y gwaith hwnw, llwyr fwriadai fyned i Loegr i weithio, gan nad oedd dim croesach i'w feddwl, yn y cyfamser, na threulio ei oes "yng Nghymru fynyddig;" ond nid ei feddyliau ef oedd meddyliau ei Oruwch-lywodreuthwr. Tra'r oedd yn y gwaith mŵn, ac efe o gylch 18 oed, digwyddodd ymrafael chwerw rhwng ei lettywr ef a gŵr y tŷ nesaf, yr hwn a ddywedodd ynghlyw John Evans y lladdai efe ei lettywr. Yn wyneb hyny, rhybuddiodd J. Evans ei lettywr o'i berygl, ac o ganlyniad gwysiwyd y bygylwr o flaen ynad heddwch; ac ym mysg eraill, gwysiwyd J. Evans i roddi ei dystiolaeth. Pa wedd bynag, gan nad oedd efe yn cofio geiriau y dŷn yn fanwl, ac yr ystyriai, os dywedai un gair ar ei lw heb fod yn gywir, y byddai hyny yn dyngu anudon, ac yn bechod anfaddeuol, syrthiodd y fath ofn arno fel y dywedodd wrth yr ynad nas cymmerai ei lw ar un cyfrif; a bygythiodd yr ynad, os gwrthodai, y rhoddai efe ef yngharchar. Dywedodd yntau, â'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, fod yn well ganddo fyned i garchar na chymmeryd ei lw, gan yr ofnai nad oedd yn cofio geiriau y dŷn yn fanwl. Deallodd yr ynad, wrth hyny, mai ofn oedd arno, a dywedodd yn dyner wrtho, "Nid yw llw yn gofyn dim ond y gwir hyd eithaf eich gwybodaeth." Yntau, gan ddal ar y geiriau, "hyd eithaf eich gwybodaeth," a gydsyniodd i gymmeryd ei lw, a rhwymwyd y

Digitized by Google

bygythiwr i ymddangos yn "y Sessiwn fawr;" ac, wrth reswm, yr oedd yn rhaid i'r tystion ymddangos yno hefyd.

Er i John Evans gael peth esmwythdra i'w feddwl trwy ddarllen y gyntaf o "Saith o Bregethau Robert Russell," yn yr hon y treuthir ar y "pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân;" etto, fel yr oedd y brawdlys yn agosâu, goddiweddwyd ef gan y fath ofn cymmeryd ei lw ar gam drachefn, fel y penderfynodd adael y wlad. Y Sul cyn y brawdlys, gadawodd dŷ ei rieni heb yngan gair wrth neb, gan fwriadu myned i ryw un o weithiau mŵn sir Fflint; ond pan ar ei daith tu ag yno, cofiodd glywed fod gwaith mŵn helaeth yn sir Aberteifi, ac mai trwy'r Bala yr oedd myned yno. Trodd yn ol yn y fan; ac erbyn iddo gyrraedd y Bala y nos Sul honno, yr oedd yn hwyr, ac yntau yn lluddedig, ac heb ond ychydig arian yn ei logell at gael bwyd a lletty. Yn y cyfyngder yma, meddyliodd y gallai fod rhai gwehyddion yn y dref; a chyfarwyddodd rhywun ef i dŷ hynafgwr o'r un gelfyddyd ag ef, a'i enw Edward William, yr hwn, er ei ddirfawr lawenydd, a'i gwahoddodd ef yn garedig i'w dŷ i lettya dros nos. Gwedi iddo ofyn a oedd arno eisiau gweithiwr, dywedodd yr hen Edward, yn bur garedig, gan ei bod yn Sabboth, y byddai cystal oedi yr ymddiddan hwnw hyd drannoeth, pan y caent hamdden i siarad ymhellach ynghylch y peth, canys yr oedd Edward William, un o'r Methodistiaid cyntaf yn y Bala, yn grefyddwr duwiol; a'i "dŷ ef oedd y lle y byddai yr ychydig bobl, wyth neu ddeg o rifedi, ag oedd wedi eu deffro yn eu heneidiau ychydig amser a aethai heibio, trwy bregethiad Mr. Harris a Siencyn Morgan, yn arfer ymgynnull at eu gilydd ar y Sabbothau i ddarllen, gweddïo, a chanu mawl." Ymhen ychydig funudau ar ol i John Evans eistedd yn nhŷ Edward William y noswaith honno, daeth y cyfeillion proffesedig i'r tŷ, a dechreuasant yn ddïoed ar eu gorchwyl arferedig o ddarllen, gweddïo, a chanu mawl. Yr oedd John Evans wedi synu wrth weled a chlywed y rhai hyn, gan nas gwelsai neb erioed o'r blaen wrth y gwaith hwnw gyd â'r fath fywiowgrwydd ac egni difrifol. Yr oedd yn methu dirnad beth oeddynt; "ond pa beth bynag oeddynt," eb efe, "nid oeddwn yn cael dim o'i le yn yr hyn oeddynt yn ei ddywedyd nac yn ei wneuthur."

Y borau drannoeth, sef dydd Llun, ar ol bwyta, darllen, a gweddïo, cyttunodd Edward William â John Evans i aros gyd âg ef i weu. Erbyn hyn, dechreuodd John Evans, er dalled oedd, eb efe, feddwl mai'r Arglwydd a drefnasai iddo gael lletty, gwaith, a chyflog mor rhwydd, mewn lle cwbl anadnabyddus, ac yntau wedi myned yno ar a fath ffrwst, mor ddifeddwl, ac wedi rhagddarpar cyn lleied ar gyfer y daith; a theimlai ei galon dros amser yn llosgi o gariad at Dduw, am ofalu fel hyn yn ei Ragluniaeth ddaionus am dano. Ond er yr argraphiadau hyn ar ei feddwl, ac er holl diriondeb Rhagluniaeth tu ag ato, etto cwyna y bu dros gryn hanner blwyddyn wedyn heb gael lle i feddwl bod un cyfnewidiad trwyadl wedi ei weithio yn ei galon, gan iddo ddychwel, yn yr yspaid hwnw o amser, at ei hen bleserau megis cynt.

Dywed John Evans fod yr erledigaeth wedi bod mor chwerw a llem ar Howel Harris y tro diweddaf y bu yn y Bala, cyn ei fynediad ef yno, fel nad oedd neb o bregethwyr y Methodistiaid yn beiddio myned yn nes yno na Llanuwchllyn, lle y cyrchai pregethwyr o'r Deheudir weithiau, i le a elwid y Weirglodd Gilfach, i'r lle yr elai ychydig o bobl y Bala i wrando arnynt; ac eb efe, "pregethwyr da a fyddai yn dyfod y rhan amlaf." O gylch y pryd hyn, sef yn y fl. 1742, pan oedd John Evans tu a 19 oed, llwyddodd yr hen Edward William, un nos Sabboth, trwy fawr daerni, i ddenu ei weithiwr, Evans, gyd âg ef i'r Weirglodd Gilfach, tu a chwe milltir o'r Bala, i wrando rhyw ŵr dïeithr yn pregethu (ni ddywedir pwy, ysywaeth). Ymddengys mai dyma'r tro cyntaf iddo glywed neb o'r Ymneillduwyr yn pregethu; ac yr oedd yn mawr synu wrth glywed y gŵr yn gweddïo ac yn pregethu heb lyfr, ac er hyny yn llefaru mor gall a deheuig. Ond yr holl effaith a gafodd y bregeth hon arno, ac amryw ar ol hyny, eb efe, oedd ei ddifyru. Yr oedd y difyrwch a fwynhai dan y pregethau yn ei ddenu i wrando yn fynych; a bu gwrando yn foddion i oleuo ei feddwl, nes deall, eb efe, "mai trwy ffydd y cyfiawnheir dŷn, ac nid trwy weithredoedd, ac y gallai dŷn fod yn broffeswr, ac er hyny yn rhagrithiwr, heb wirionedd gras ynddo." Un o'r pethau cyntaf a amlygwyd iddo yr amser yma, medd efe, oedd ei gyflwr truenus, a chaledwch ei galon, yr hyn a barai iddo ofni yn fynych nad oedd ei gyflwr yn dda.

Yn y fl. 1744, pan oedd John Evans yn 21 oed, efe a briododd Margaret Morus, merch i un Morus ap Robert, yr hwn oedd yn aelod gyd â'r Ymneillduwyr Presbyteraidd yn y Bala, y rhai a

Digitized by Google

arolygid ar y pryd gan bregethwr a elwid Mr. Baddy, o Ddinbych, yr hwn a arferai fyned i'r Bala yn achlysurol i ymweled â'r praidd bychain, amddifaid, oedd yno, ac i'w cysuro. Yr oedd Morus ap Robert yn rhagori ar y rhan fwyaf o'i gyfoedion o ran dawn a gwybodaeth grefyddol. Yr oedd ei ferch, Margaret, wedi ymuno â'r ychydig Fethodistiaid oedd yn y Bala, cyn i John Evans ei phriodi; a bu'n wraig rinweddol, ffyddlon, a diwyd iawn iddo. Nid oedd efe yn proffesu gyd â'r "Corph" hyd yn hyn, er yr ymddengys ei fod yn ddichlynaidd o ran ei fywyd, ac yn profi argyhoeddiadau dwysion y gwirionedd yn fynych ar ei feddwl. Nid oedd y "Seithfed Reol" o "Reolau Dysgybliaethol y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru," sy'n gwahardd "Na byddo iddynt briodi un digred," sef un heb fod "mewn cymmundeb eglwysig,"* wedi ei ffurfio hyd yn hyn; am hyny, ni ddïarddelwyd Marged Morus am briodi John Evans, er nad oedd efe etto yn proffesu, fel y crybwyllwyd uchod.

Yn y fl. 1744, pan briododd John Evans Margaret Morus, dechreuodd fod yn wrandawyr cysson ar y Methodistiaid. Nid oes hyspysrwydd, hyd y gwelsom ni, pa un ai Presbyteriaid ai rhyw gangen arall o'r Ymneillduwyr oedd y rhai a bregethent yn y Weirglodd Gilfach, Llanuwchllyn, ar y rhai yr âi efe a'i hen feistr duwiol, Edward William, i wrando yn achlysurol cyn hyny. Byddai'n cael ei lenwi yn gyffredin wrth wrando, gan fwynhâd o gariad Duw; a thybiai yn fynych y pryd hyny ei fod wedi cael gwir grefydd. Dywed nas gwyddai bod nemmawr i'w gael mewn crefydd ond hyny.

Ar ddydd y Sulgwyn, 1745, ymhen tu a blwyddyn ar ol i John Evans briodi, ac efe o gylch 22 oed, bu pregeth dra hynod yn y Bala, eb efe, "tebyg, mewn rhyw fesur, i honno yn Jerusalem, ddau gant ar bymtheg a mwy o flynyddau o'r blaen." Y mae John Evans yn terfynu ei hanes ei hun, yn ddisymmwth, "ar hanner dryll ymadrodd," fel y sylwa'r Parch. Simon Llwyd, cyn gorphen adrodd hanes "Dydd y Pentecost" hwnw yn y Bala; ond y mae'n eglur, fel y dywed Mr. Llwyd, mai yn y cyfarfod hwnw, ar y Sulgwyn crybwylledig, y cafodd John Evans wir argyhoeddiad i fywyd, ac efe a lwyr ymroddodd o hyny allan i ddilyn buchedd newydd. Ni fynegir pwy oedd y pregethwr, fel y mae mwyaf gresyn, ar y Sulgwyn bythgofiadwy hwnw.

* Trysorfa Ysprydol, cyf. i., t. 25; Cyff. Ffydd, 1829, t. 47-8.

Ymhen tu a 14 blynedd ar ol i John Evans ymroddi i fyw yn grefyddol, dechreuodd ysgrifenu er lles ei genedl. Y llyfr cyntaf a gyfieithodd oedd yr un canlynol:—

"Y Prif Feddyginiaeth, sef Physigwriaeth yr Oesoedd gynt, neu Ffordd Hawdd a Naturiol i Jachau y rhan fwyaf o Glefydau. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, allan o'r pummed argraphiad yn Saesoneg, er lles i'r Cymry. . . . . 1759."†

Yn fuan ar ol cyhoeddi y llyfr uchod, cyfieithodd John Evans ddau o lyfrau eraill, y rhai a nodir isod:—

"Natur Bwriad a Chyffredin Rheolau y Cymdeithasau unedig yn Llundain, Bristol, Kingswood, &c.—Argraphwyd yn y Bala gan John Rowland yn y fl. 1761."‡

Ymddengys bod rhyw gydweddiad arbenig rhwng meddwl treiddgar a threfnus John Evans a meddwl mawr, athronyddol John Wesley, yr hyn a rydd gyfrif, i ryw raddau, bod y bleunaf mor hoff o lyfrau yr olaf. Y llyfr arall a gyfieithodd John Evans yn ebrwydd ar ol yr uchod oedd hwn:—

"Byrr Hanes am Fywyd a Marwolaeth Nathaniel Othen, yr hwn a saethwyd i farwolaeth y'nghastell Dover, y 26 o hydref, 1757. A gyfieithwyd gan John Evans." 1761.

Dyna'r llyfr olaf a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd gan John Evans, canys wedi iddo ddechrau pregethu, yr oedd ganddo braidd fwy na llonaid ei freichiau o orchwylion, rhwng rhai tymhorol ac ysprydol, fel nas gallai hebgor dim amser i ysgrifenu llyfrau. Ymhen tu a phedair blynedd ar ol cyhoeddi y ddau lyfr olaf a nodwyd, sef tu ag ugain mlynedd ar ol ei dröedigaeth, o gylch y fl. 1765, ac efe tu a 32 oed, fe ganfu rhai o'r brodyr yn y Bala fod ganddo gymhwysder at y gwaith o bregethu, a rhoddasant annogaeth iddo i ddechrau. Bu'n ddiwyd iawn, yn enwedig ar y Sabbothau, i fyned i gonglau tywyll yr ardaloedd cymmydogeuthol i dreuthu yr efengyl yn ei phurdeb Ysgrythyrol i bechaduriaid tywyll ei oes; ac yr oedd halltrwydd ei athrawiaeth, a phurdeb difrycheulyd ei ymarweddiad, fel halen yn llaw yr Arglwydd i attal llygredigaeth i ba le bynag yr

† "Wrth y rhaglythyr y mae 'J. E.,' h.y. John Evans, o'r Bala; ac wrth y rhagymadrodd y mae 'J. W.,' h.y. John Wesley, canys cyfieithiad ydyw o'r llyfr a elwir 'Wesley's Primitive Physick,' wedi ei gyhoeddi a'i gylchdeunu yng Nghymru trwy offerynoliaeth y Methodistiaid Calfinaidd, ac yn eu plith, un a deugain o flynyddau cyn i ddilynwyr John Wesley ddechrau gweinidogaeth Gymraeg yn y Dywysogaeth."—Llyfr. y Cymry, t. 450.

‡ "Rheolau cymdeithasau y Methodistiaid Wesleyaidd yw y rhai hyn, wedi eu cyhoeddi a'u lledeunu ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, 89 o flynyddau cyn i'r corph Wesleyaidd ymsefydlu yn Gymraeg yn y Dywysogaeth."—Llyfr. y Cymry t. 462.

Digitized by Google

elai. Ni byddai pregethu John Evans byth, fel y llifeiriant, yn trystio ac yn gorlcdu, ond yn hytrach fel afonig yn llifo'n gysson, araf, a thawel. Rhyw dro, ymhen talm o amser ar ol iddo ddechrau pregethu, ac ymhell cyn i Mr. Charles fyned i'r Bala, a chyn i gyfarfod misol gael ei sefydlu yn y sir, barnodd amryw o'r hen bregethwyr oedd yn y Bala a'r gymmydogaeth, fel yr ymddengys, gan fod pregethiad J. Evans mor dawel a diarddeliad, fel y dywedid, nad oedd wedi cael ei alw at y gwaith i bregethu, ac mai doeth a fuasai iddo roi y gorchwyl heibio. Cynhaliwyd math ar gyfeisteddfod ar yr achos, yn ei absennoldeb ef, a daeth pawb oedd yn bresennol i'r penderfyniad yn unfryd unllais mai gwell fyddai i J. E. beidio pregethu mwyach; a phennodwyd un o'r brodyr oedd yno i gludo'r genadwri iddo, yr hwn a ddywedodd wrtho—"Y mae'r brodyr wedi bod yn ystyried eich achos, John Evans; a chan nad oes ond ychydig o arwyddion bod yr Arglwydd yn arddel eich pregethiad, y maent wedi dyfod i'r penderfyniad mai doeth a fyddai i chwi roi'r pregethu i fynu." "Ho, mi glywaf!" eb yntau. "Wel, hwn a hwn bach, ewch chwithau yn ol atynt, a dywedwch wrthynt y pregethaf fi nes y gwelwyf yma rywun a fedro bregethu yn well na mi yn dechrau arni." Y mae'r atteb yna yn llefaru drosto ei hun, sef bod John Evans yn ei ystyried ei hun yn well pregethwr na neb oedd yn y cyfeisteddfod hwnw.

Yr oedd pregethu yng Nghymru, yn enwedig yn y Gogledd, yn nechrau oes bregethwrol John Evans, yn ddrud iawn i'r pregethwyr; a chafodd yntau dalu ei ran yn helaeth am ei lafur cariad. Erlidiwyd ef yn greulawn a chwerw yn fynych, a bu raid iddo ffoi am ei einioes lawer gwaith o'r manau yr elai i bregethu iddynt, rhag creulondeb yr erlidwyr. Yr oedd rhyw nifer o berchenogion tiroedd, a elwir yn foneddigion, ym Mhenllyn, ger llaw y Bala, yn dra chreulawn at Fethodistiaid y Bala a'r ardaloedd, yn enwedig at yr enwog John Evans; ac er mwyn cael gwared rhagddo o'r wlad, penderfynasant ei bresio yn filwr yngwasanaeth y brenin. Bu raid iddo ffoi o'i dŷ unwaith o achos hyny, ac mewn cae ŷd ymhlwyf Llanycil y bu'n ymguddio rhag ei erlidwyr. Tra'r oedd efe unwaith yn myned yn fyfyrgar ar hyd un o heolydd y Bala, tarawodd un o'r erlidwyr ef â chareg, nes tyllu ei wefus isaf, a thori un o'i ddannedd; a syrthiodd yntau i lesmair ar yr heol. Cafodd wybod wedyn pwy oedd yr adyn; ond yn lle ei gospi, yn ol ei heuddiant, pan gyfarfu âg ef ym Mettws-Gwerfil-Goch, heb arian yn ei logell, talodd J. Evans am giniaw iddo! Dyma'r fath ddynion oedd hen grefyddwyr Cymru. Nid rhyfedd i'r efengyl lwyddo mor gyflym ac effeithiol yn nwylaw rhai mor debyg i Grist a'r Apostolion. Yr oedd John Evans, un tro, wedi myned gyd â John Owen, o'r Berthen-Gron, y pregethwr Methodistaidd cyntaf, fel y tybir, yn sir Fflint, gyd â rhai cyfeillion crefyddol eraill o'r Bala, i gwr plwyf Llanfachreth, ym Meirion, ar fedr pregethu yno; ond daeth lliaws o'r gwerinos erlidgar ar eu gwarthaf, a dechreuasant eu beuddu yn ddiymaros; ac am fod J. Evans yn gyflymach ar ei draed na'r un o'r erlidwyr, y diangodd rhag cael ei niweidio. Tyngent yn erchyll yr ymlidient ar ol "y cythraul heglog" oedd wedi diangc o'u crafangau, er dial arno. Erbyn hyn, yr oedd ei gyd-bregethwr, John Owen, yn gorwedd ar lawr mewn llesmair, gan effaith y dyrnodiau a gafodd. Meddyliodd yr erlidwyr eu bod wedi ei ladd; ac yn eu braw o'r herwydd, anghofiasant eu bygythion yn erbyn J. Evans, a chafodd ef fyned i'w ffordd yn ddihangol.

Yn y cyfeillachau neillduol, ym mysg crefyddwyr a phregethwyr, yr oedd galluoedd a doniau John Evans yn tywynu ddisgleiriaf, canys er ei fod ef yn bregethwr da, sylweddol, a golau iawn, etto ymddengys yn bur eglur, dybygid, mai fel henuriad neu esgob eglwys yr oedd efe yn rhagori yn benaf oll; ac y mae'n amlwg fod ei frodyr craffaf, megis Mr. Charles ac eraill, yn deall hyny yn drwyadl. Yr oedd ei ddull o gyfranu gair y gwirionedd yn y cymdeithasau neillduol, ei arafwch, ei dynerwch hynaws at bawb, a'i ddywediadau ffraeth a phwrpasol, y fath ag nas gellid eu gwrthwynebu. Ei ddull cyffredin yn y gyfeillach eglwysig oedd holi ei frodyr a'i chwiorydd, gan ofyn un holiad i hwn, ac un arall i'r llall; a phryd arall byddai ganddo ryw un pwngc neillduol, yr hwn a ofynai i gynnifer o'r cyfeillion a allai yn ol yr amser.

Yr oedd arafwch, doethineb, a gallu John Evans i drin a phenderfynu materion dyrys, yn hyspys i holl eglwysi y Methodistiaid yn y wlad o amgylch y Bala; am hyny, pan godai rhyw ddyryswch neu ymrafael mewn rhyw eglwysi cyfagos, a rhai lled bell weithiau hefyd, byddai galwad am dano ef, yn un, bob amser i ddwyn pethau i drefn a dosparth, ac ni fethai un amser yn ei amcan.

O herwydd y cymmwysderau a nodwyd, rhoddid

Digitized by Google

y blaen i John Evans ynghyfarfodydd misol a chymmanfaoedd chwarterol a blynyddol y cyfundeb, nid yn unig o blegid ei oedran, ond hefyd o herwydd doethineb a dwysder ei gynghorion a'i sylwadau treiddgar. Ar neillduad cyntaf pregethwyr y cyfundeb i weini yr ordinhadau yng Nghymdeithasfa y Bala, ym Mehefin, 1811, ef a ddewiswyd i ddechrau y gwasanaeth, fel y dengys y difyniadau canlynol:—

"Yn gyntaf, y gŵr hynaf a pharchedicaf yn y Corph, John Evans o'r Bala, a ddarllenodd 1 Tim. iii.; ac wrth ei darllen, a wnaeth ychydig sylwadau addas a syml ar y cynheddfau gofynol yng ngweinidogion yr efengyl yn y bennod honno; ac wedi iddo ddarfod darllen, gweddïodd ar yr achos yn syml ac addas iawn.*

"Mr. John Evans o'r Bala oedd ŵr cadarn iawn yn yr Ysgrythyrau; dïanwadal a sefydlog yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Bu'r gŵr hwn yn sefyll yn dyst ffyddlawn o blaid y gwirionedd, mewn athrawiaeth a disgyblaeth, ynghylch triugain mlynedd. Nid yn fynych y gwelir y cyffelyb."†

Yr oedd tymmer oeraidd a phwyllog John Evans yn ei arwain yn naturiol, fel y gellir tybied, yn erbyn brwdfrydedd crefyddol, gan yr ystyriai efe hyny megis "tân dïeithr," cwbl wahanol i waith yr Ysbryd Glân. Ond y mae oerfelgarwch tymmer mor beryglus i arwain ei berchenog yn rhy bell i un ochr, ag ydyw brwdfrydedd i arwain ei berchenog yntau yn rhy bell yr ochr arall; a gellir casglu i dymmer araf, oeraidd J. Evans ei yru ar y pellaf yn y cyfeiriad hwnw.

Yr oedd awdurdod mawr yn nywediadau ffraeth a phwrpasol John Evans; ond ni oddef lle i ni nodi ond ychydig o honynt. Mewn cymdeithasfa unwaith yn y Deheubarth, cwynai nad oedd neb o bregethwyr y De yn galw heibio i ychydig frodyr tlodion oedd yn y Graig, ger llaw Machynlleth, wrth ddyfod i'r Gogledd, gan erfyn arnynt beidio anghofio y praidd bychan, amddifaid hwnw mwyach. Yna cyfododd Jones o Lan-gan, a dywedodd, "Wel, John Evans, nid oes neb o honynt hwy oddi yno yn dyfod i ddywedyd wrthym, 'Deuwch.'" "Wel, syr," ebai Evans, "a ydych chwi wedi anghofio ddarfod dywedyd wrthych, 'Ewch?'" Bu raid i ŵr ffraeth Llan-gan eistedd, gan wenu, dan argyhoeddiad. Mewn cymdeithasfa arall, yn y Bala, yr oedd J. Evans ar ei draed, ac yn llefaru'n bur floesg a lled anhawdd ei ddeall, â'i wyneb at y pregethwyr oedd gyd â'u gilydd dan y pulpud; a chyfododd Elias o Fôn, a dywedodd wrtho yn uchel, "Trowch at y bobl, John Evans: dywedwch wrth y bobl." Edrychodd yntau ar Elias gyd â golwg treiddiol, a gofynodd yn ei ffordd rymus ei hun, "Beth! ai nid pobl ydych chwi?" nes oedd Elias, er ei ddewred, yn gorfod cilio i'w le yn bur wylaidd, a da oedd ganddo eistedd yn un o'r "bobl" i wrando'r cyngor. Un tro, cyfarfu Crynwr â J. Evans ar un o heolydd Caerlleon; ac wrth sylwi ar ei wisgiad dirodres, ei agwedd syml, a'i gerddediad pwyllog, tybiodd ei fod yn un o'r frawdoliaeth, a dywedodd wrtho, "Y mae'r yspryd yn dywedyd wrthyf dy fod yn un o honom ni." Edrychodd J. Evans arno yn dreiddgar, a dywedodd, "Os yspryd a ddywedodd hyny wrthyt, yspryd celwyddog ydyw." Nis gallasid rhoi ergyd trymach i un o'r Cyfeillion na thystio ei fod dan arweiniad yspryd celwyddog. Pan oedd J. Evans a Charles unwaith yn croesi Mynydd Migneint, ar eu taith i bregethu, ar ddiwrnod pur ystormus, dywedodd Charles ar ben y mynydd, "John Evans, os na wnawn ryw ddaioni ar ben ein taith, byddwn y bobl ffolaf yn y byd." Yntau a ddywedodd, "Wel, Mr. Charles, os gwnawn ryw ddaioni, byddwn y bobl gallaf yn y byd." Dywedir fod Mr. Charles yn bur hoff o dynu J. Evans allan, o herwydd ei ffraeth attebion synhwyrol. Gofynodd Margaret, gwraig J. Evans, iddo unwaith yn ddisymmwth, "John, a fyddwn ni yn adnabod ein gilydd yn y nefoedd." Yntau a attebodd yn y fan, "Wel byddwn yn siwr: a ydych yn meddwl y byddwn ni'n ffolach yno nag ydym yma?" Yna, wedi meddwl dros foment, dywedodd, "Ond, Marged, gallwn fod yn ymyl ein gilydd am fil o flynyddau yno, heb wneud fawr, os dim, sylw y naill o'r llall, gan faint gogoniant a rhyfeddodau Person y Gwaredwr Mawr a fydd yn llanw ein holl sylw a'n bryd."

Nid oedd dim a roddai gymmaint o foddhâd i J. Evans, yn ei ddyddiau diweddaf, a son am lwyddiant crefydd mewn gwahanol leoedd, yn enwedig yn y manau yr oedd mwyaf o wrthwynebiad ar y dechrau i dderbyn yr efengyl. Dywedai, gyd â hyfrydwch mawr, wrth son am achos crefydd yn Adwy'r-clawdd, "Myfi a gafodd y fraint o ddwyn y marworyn cyntaf yno. Yr oedd fy nhad a'm mam wedi fy ngwrthwynebu i ddwyn pregethu yno dros ennyd, gan ddywedyd bod yr Eglwys Sefydledig yn ddigon; ond wedi cael adferiad o glefyd trwm, cawsant eu hystwytho i ganiatâu i mi ddyfod a phregethwr i gadw odfa yn y tŷ. Y cymmydogion a ddeuthant ynghyd; ac wedi darfod y bregeth, gofynasant, 'Ai gŵr wedi bod mewn *trance*, neu weledigaeth, oedd y pregeth-

* Cyffes Ffydd, t. 42. † Yr un, t. 27.

Digitized by Google

wr?' gan ei fod yn traddodi pethau dïeithr i'w clywedigaeth hwy. Dywedais innau, 'Nag e: oni chlywsoch y gŵr yn cymmeryd ei destyn o'r Bibl?'" Nid yw John Evans yn mynegi pwy oedd y pregethwr a ddygwyd ganddo i Adwy'r-clawdd gyntaf, na pha ryw amser y bu hyny; ond "sicr ydyw," ebai Mr. Hughes, "ei bod rywbryd rhwng y blynyddau 1744 ac 1751. Yr oedd pregethu yn yr ardal hon o leiaf yn y fl. 1748, gan y cawn grybwylliad am hyn yn un o lythyrau Mr. Howel Harris, yr hwn a ysgrifenwyd at un Mr. Baddington, wedi ei amseru yr 20fed o Hydref, 1748."*

Fel cyfaill a brawd, yr oedd llarieidd-dra, tynerwch, caredigrwydd, a ffyddlondeb John Evans tu hwnt i bob amheuaeth. Pan oedd Mr. Charles yn glaf iawn, o herwydd dadwreiddiad ei fawd ar ol iddi rewi, fel y ceir gweled yn ei hanes ef, byddai John Evans yn ymweled âg ef bob dydd yn gysson; a chyn ymadael, byddai bob amser yn darllen rhan o'r Ysgrythyr, ac yn gweddïo gyd âg ef, a rhyw ran am ddïoddefaint yr Arglwydd Iesu a ddarllenai bob tro. Gofynodd Mr. Charles iddo o'r diwedd, paham yr oedd yn darllen rhyw ran o'r hanes am ddïoddefaint Crist bob tro yn ei glywedigaeth. "Y mae rhyw ddiben genych yn hyn, y mae'n debyg," eb efe. "Oes, syr," ebai J. Evans, "y mae diben yn fy ngolwg. Nid oes dim diddanwch i bechadur o un man ond sydd yn tarddu o ddïoddefiadau Crist; ac nid oes un esampl wedi bod erioed ar y ddeuar yn debycach o ddyfod â ni i ddïoddef yn amyneddgar nag esampl ei ddïoddefiadau ef: yr hwn a ddïoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid, fel na lwfrhaom, ac nad ymollyngom yn ein heneidiau."

Fel cymmydog, yr oedd J. Evans yn gymmwynasgar a charedig, nid yn unig i'w frodyr crefyddol, ond i bawb a ddeuent ar ei ofyn. Gwelsom esampl hynod o hyn eisoes, yn ei ymddygiad at yr adyn a'i tarawodd yn ei ben â chareg ar heol y Bala. Gan ei fod yn fwy o ysgolhaig na chyffredin yn y dyddiau hyny, a bod ei wybodaeth o'r gyfraith wladol yn lled ehang, byddai yn cael ei alw yn fynych i heddychu rhwng cymmydogion, ac i ysgrifenu cyttundebau, ewyllysiau, a'r cyffelyb; a gwyddai pawb yn ei ardal fod J. Evans yn barod bob amser i wneud iddynt gymmaint o ddaioni ag a allai. O blegid hyny, yr oedd ei barch, megis y teilyngai, yn fawr, ac nid ofnai neb a'i hadweunai roddi yr ymddiriedaeth lwyraf iddo. Yr oedd yn nodedig o ddiargyhoedd yn ei fuchedd, ac mor gyfiawn yn ei fasnach nes yr oedd ei enw da fel y cyfryw yn ddihareb yn yr holl wlad. Prynodd geffyl unwaith gan gymmydog, a thalodd am dano. Ymhen ennyd wedyn, dywedodd cymmydog arall wrtho y talai'r ceffyl fwy o bunt nag a roddasai efe am dano. "Os felly," eb yntau, "y mae'n gymmwys i'r gŵr gael y bunt," ac anfonodd hi iddo yn ddïoed.

Yr oedd diwydrwydd John Evans, mewn ystyr dymhorol yn gystal ag ysbrydol, braidd yn ddigyffelyb. "Ni fwytaodd efe fara seguryd," meddai Mr. Llwyd; "ond trwy chwys ei wyneb y bwytaodd efe fara, hyd onid oedd yn agos i 90 oed." Byddai yn pregethu ar y Sabbothau yn wastad, ac yn achlysurol ar amserau eraill hefyd; ond nid oedd ei holl lafur ysprydol yn ei luddias i ddilyn ei alwedigaeth yn feunyddiol. Pan aeth i'r Bala gyntaf, bu'n dilyn ei gelfyddyd fel gwehydd dros rai blynyddau; wedi hyny, bu'n rhwymo llyfrau am rai blynyddoedd; a thros y gweddill o'i oes, dilynodd y gelfyddyd o wneud canwyllau.

Ond er ei holl gryfder, ei ddefnyddioldeb, a'i ddiwydrwydd, ymhob ystyr, nesaodd ei ddyddiau yntau o'r diwedd i farw. Yr oedd ei glefyd olaf gan mwyaf yn ei ben, yr hyn a barai beth dyryswch yn ei synwyr ar amserau: er hyny, yr oedd yn dawel, llawen, a thra crefyddol, ac ymddangosai heb nemmawr o boen corphorol hyd y diwedd. Dywedodd wrth gyfaill, "Yr wyf yn barnu fy mod wedi cael dyrnod; ond gan mai prif wynfydedigrwydd dŷn yw mwynhâd o gymdeithas Duw, dymunol yw myned lle y ceir ei fwynhau yn ddidor." Pan aeth dau ŵr ieuangc i ymweled âg ef, yn ei ddyddiau olaf, gofynasant iddo a oedd ganddo ddim i'w ddywedyd wrthynt hwy. Yntau a attebodd, "Oes: os bydd genych ymborth a dillad, ymfoddlonwch ar hyny." Parhaodd efe, fel y gwnai yr apostol Paul, i weithio am ei ymborth a'i ddillad, ond pan ar deithiau yn pregethu, hyd onid oedd dros 90 oed; ac wedi iddo fethu gweithio, cafodd ei gynnal yn barchus, fel yr oedd yn gweddu, gan ei frodyr crefyddol yn sir Feirionydd.

Bu fyw yn llafurus, duwiol, a rhinweddol iawn, fel y dengys ei holl hanes; ac fel canlyniad naturiol i'r fath fywyd sanctaidd a difrycheulyd, bu farw mewn tangnefedd, a chafodd fynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd ar y 12fed o Awst, 1817, ar fin ei 94edd flwyddyn o'i oedran,

* Method Cymru, cyf. i., t. 147.

Digitized by Google

wedi bod yn proffesu Crist gyd â'r Methodistiaid am yn agos i 72 mlynedd, ac yn pregethu yn eu plith am tu a 52 mlynedd. Claddwyd ef yn barchus iawn yn hen fonwent Llanycil, ger llaw y Bala, yn ymyl Llyn Tegid, lle y mae llawer o gyrph hen saint enwog y Methodistiaid yn tawel huno, megis Thomas Charles, Simon Llwyd, Dafydd Cadwaladr, Richard Jones, ac eraill: mewn gwirionedd, gellir edrych ar fonwent Llanycil fel Maes Macpela Methodistiaid Gogledd Cymru.*

---

## PENNOD VI.

### THOMAS LLEWELYN, WILLIAM DAVIES, JOHN WILLIAMS, JOHN OWEN, A ZACHARIAH THOMAS.

THOMAS LLEWELYN oedd fab i Evan Llewelyn, Penalltau-isaf, ymhlwyf Gelli-gaer, sir Forganwg. Dywedir yn *Hengoediana* fod y rhieni ac amryw o'r plant yn aelodau yn Hengoed. Thomas oedd yr ieuengaf o'r plant. Tybir iddo gael ei eni yn 1724 neu 1725, a chesglir iddo ymuno â chrefydd pan oedd yn bur ieuangc, canys tybir iddo gael ei fedyddio yn Hengoed o gylch y fl. 1738, pan nad oedd ond tu a 14 oed.

Ni wyddys pa fanteision addysg foreuol a gafodd; ond tybir iddo gael rhywfaint o ysgol wledig, ac y mae'n hyspys ei fod yn dra awyddus a galluog i ddysgu o'i febyd i fynu. Pan ddaeth i oedran cyfaddas, prentisiwyd ef yn ddilledydd *(tailor)*, a dywedir mai grôt yn y dydd a dderbyniai fel gwnïedydd dros ryw dymmor. Yr oedd ganddo chwaer yn byw mewn tŷ a elwid Cas-bach, yr hwn yn awr sy'n bentref bychan rhwng Caerdydd a Chasnewydd-ar-Wysg. Yr oedd y chwaer honno a'i gŵr yn Fedyddwyr zelog, a chyd â hwy y cartrefai Thomas dros ryw ennyd fel gwnïedydd, a chyrchai yno yn fynych o Lundain wedi iddo gyrraedd pinacl enwogrwydd.

Tybir mai yn Hengoed y dechreuodd bregethu, pan yn bur ieuangc, ac mai oddi yno yr aeth i Athrofa Trosnant, Pont-y-pwl, tu a'r fl. 1740, yr hon a lywyddid ar y pryd gan John Mathews, o Abertawe. Wedi bod yno dros rai blynyddau, aeth i Athrofa Caerodor, oedd dan arweiniad Bernard Foskett. Wedi iddo fyfyrio dros ryw dymmor yno, symmudodd i Lundain, lle y cafodd ei egwyddori ynghanghenau uchaf dysgeidiaeth dan John Hubbard, y Dr. Walker, y Dr. Marryatt, y Dr. Jennings, ac eraill. Tybir mai trwy gynhorthwy eglwysi y Bedyddwyr yn Llundain, y rhai oedd yn bur haelionus at addysgu gwŷr ieuaingc gobeithiol, y galluogwyd T. Llewelyn i fwynhau manteision dysg yng Nghaerodor a Llundain. . Pan aeth i Lundain, ymunodd â'r eglwys yr oedd Mr. Wilson yn weinidog iddi. Wedi iddo orphen ei addysg golegol, rhoddes yr eglwys honno alwad iddo i fod yn weinidog iddi, yr hyn a wrthododd yntau, gan gredu, o herwydd nad oedd ganddo ddoniau hyawdl fel llefarwr, y gallai fod yn fwy defnyddiol fel athraw, awdur, a phregethwr teithiol.

Yn lled fuan ar ol gorphen ei amser yn yr athrofa, priododd foneddiges gyfoethog, yr hyn a'i gwnaeth yn gwbl annibynol, ac yn alluog i ddefnyddio ei amser a'i dalentau yn y modd a farnai yn orau. Yn fuan ar ol priodi, cymmerth y gwaith o addysgu pregethwyr ieuaingc ar ei draul ei hun. Wedi hyny, dodwyd ef yn brif athraw gan eglwysi y Bedyddwyr yn Llundain mewn sefydliad colegol lled fychan, yn yr hwn yr hyfforddwyd llawer o wŷr enwog a dysgedig, megis y Dr. Jones, o Hammersmith; Mr. Newton, yr hwn a fu wedyn yn athraw yn Athrofa Caerodor; ac amryw eraill, y rhai a fuant yn ddefnyddiol iawn yn eu hoes. Tra'r oedd T. Llewelyn yn y gorchwyl pwysig yma, ymdeunodd ei glod, fel ysgolhaig galluog, dros yr holl deyrnas, ac anrhydeddwyd ef gan Athrofa Aberdeen âg M.A., ac wedi hyny âg LL.D. (D.C.=Doethawr yn y Cyfreithiau); ac ni raddiodd yr athrofa honno neb teilyngach erioed. Yr oedd y Dr. Llewelyn yn dra hoff o wlad ei enedigaeth hyd ddiwedd ei oes. Dywedir iddo fod yn llwyddiannus i gael argraphiad helaeth o'r Bibl Cymraeg i'w gydwladwyr. Yn y fl. 1768, cyhoeddodd lyfryn Saesneg gwerthfawr dan yr enw canlynol:—

"An Historical Account of the British or Welsh Version and Editions of the Bible. With an Appendix, containing the Dedications prefixed to the first Impressions"=Cyfrif Hanesyddol o Gyfieithiadau ac Argraphiadau y Bibl Brytanaidd neu Gymraeg. Gyd âg Attodiad, yn cynnwys y Cyflwyniadau a ragddodwyd i'r Argraphiadau cyntaf.

Cynnwys y gwaith tra dyddorol hwn hanes yr holl gyfieithiadau a'r argraphiadau o'r Bibl Cymraeg, ac o'r Testament Newydd, hyd yr argraphiad yn 1752; a sylwa, er yr holl argraphiadau a gawsid, bod prinder dirfawr o Fiblau yng Nghymru, a'r angen mawr oedd am ei leihau, trwy ddiwallu y genedl â Gair Duw. Dywed Gwallter Mechain

* Traethodydd, llyfr v., t. 86; Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 551; Method. Cymru, cyf. i., t. 482; Enwog. Cymru, I. F., t. 341; Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 284.

mai'r penaf o gyhoeddiadau y Dr. Llewelyn oedd y treuthawd hanesyddol crybwylledig. Dywed mai'r treuthawd nerthol a Boanergaidd hwnw a gyffrôdd haelioni y Gymdeithas er Cynhyddu Gwybodaeth Gristionogol, fel y cyhoeddodd ddeng mil o Fiblau Cymraeg 8plyg yn y flwyddyn ganlynol i gyhoeddiad y treuthawd, sef yn y fl. 1759.* Yn y treuthawd dan sylw, y mae'r Dr. Llewelyn yn rhoi canmoliaeth uchel iawn i'r Dr. Morgan, cyfieithydd cyntaf y Bibl Cymraeg, a gyhoeddwyd yn 1588, fel ysgolhaig trwyadl yn ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyrau, gan ddywedyd:—

"Nis gallaf ddarllen y bennod gyntaf o Genesis, yn Hebraeg a Chymraeg, heb benderfynu yn ebrwydd fod y Dr. Morgan yn gyflawn addas i'r gwaith a gymmerth mewn llaw, ac iddo gyfieithu yn ddigyfrwng yr Hen Destament allan o'r iaith wreiddiol. Pob beirniad, cymmwys i farnu, a fydd o'r un farn, ond iddo yn unig ddal sylw ar ddull yr ymadrodd: "a'r hwyr a fu, a'r borau a fu, y dydd cyntaf,' &c., adn. 5, 8, 13, &c. Yn yr adnodau hyn, ac amryw eraill yn yr Hen Destament, y mae'r Gymraeg yn debycach i'r Hebraeg nag un iaith arall adnabyddus i mi. Ni fuaswn yn sylwi ar efelychiad cystrawen a theithi y ddwy iaith, ond er mwyn diheuro'r Dr. Morgan yn erbyn enllib disylfaen un Ames, yr hwn, yn ei *Hynafieuthau Argraphyddol*,† a fynnai heuru mai allan o'r Saesneg y cyfieithwyd yr Ysgrythyrau Cymraeg. Rhaid bod Mr. Ames yn ddyledus i ryw Suddas o Gymro am y ffughanes a gafodd i sylfeuuu ei gau dystiolaeth arni. Y gair rhwystr, wrth yr hwn y tramgwyddodd, yw *crythau*, yn Dat. v. 8; ond y cyhuddwr, yn ei gaddug o anwybodaeth, a ddywedai mai yn yr argraphiad 1567 yr oedd y gair." ‡

Gwallter Mechain a ddywed fod y Dr. Llewelyn yn "ŵr o ddoniau a chynheddfau canmoladwy, ac yn heuddu parch i'w enw tra byddo dau Gymro yn medru ymddiddan â'u gilydd yn eu hiaith gynhenid. Yr oedd iachawdwriaeth eneidiau yn un o'r pethau nesaf at ei galon, fel yr ymddengys wrth ei ymdrechiadau i gael mwy o Fiblau Cymraeg yn rhodd neu ar werth ymhlith ei wladwyr.

Heb law yr effaith a gafodd y treuthawd crybwylledig ar y gymdeithas y cyfeiriwyd ati, aeth yr awdur gwladgar at oruchwylwyr y gymdeithas yn bersonol, i'w darbwyllo am yr angen mawr am gyflawnder llawer ehangach o Fiblau nag a fwriadent hwy; a llwyddodd i raddau helaeth, trwy fyned yn gyfrifol ei hun am rai miloedd o gopïau. Wedi cael cydsyniad swyddogion y gymdeithas, ymwelodd â llawer o foneddigion Lloegr am eu cymmorth, a chyfranodd yn helaeth ei hun er diwallu ei genedl â gair y bywyd. Dywedir mai'r Dr. Llewelyn ei hun oedd golygydd yr argraphiad llïosog yma (20,000 o gopïau, fel y crybwyllwyd), ac mai i hyny y dylid cyfrif ei gywirdeb; a dosparthodd y nifer mawr o gopïau a gafodd o'r argraphiad ym mysg pob cyfundeb crefyddol o'i gydwladwyr yn hynod o ddiduedd. Dywedir mai 4s. 6c. oedd y pris y gwerthai'r gymdeithas yr argraphiad yma; drutach o 6c. nag argraphiad T. Gouge a Stephen Hughes yn 1678; ac mai'r achos o'r codiad oedd llwyddiant ysgolion Gruffydd Jones, Llanddowror, ynghyd â chodiad a chynnydd cyflym y Methodistiaid yn y wlad. Dywedir bod y fath brinder o Fiblau Cymraeg yn y wlad erbyn y fl. 1741, rhyw 26 blynedd cyn yr argraphiad llïosog yma, fel nas gellid cael copi am lai na phunt, ac y gofynid chwaneg na hyny weithiau am dano, yr hyn a ddengys bod y gymmwynas a wnaeth y Dr. Llewelyn i'w gydwladwyr, ynglŷn â'r Bibl yn 1769, yn gwbl amhossibl ei phrisio yn rhy uchel.

Gan fod cymmaint o ragfarn ac anwybodaeth ym mysg y Saeson ynghylch yr iaith Gymraeg, cyhoeddodd y Dr. Llewelyn yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd yr argraphiad crybwylledig o'r Bibl (1769), y treuthawd canlynol:—

"Historical and Critical Remarks on the British Tongue, and its Connection with other Languages, founded on its State in the Welsh Bible"=Sylwadau Hanesyddol a Beirniadol ar yr Iaith Gymraeg, a'i Chyssylltiad âg Ieithoedd eraill, sylfaenedig ar ei Hansawdd yn y Bibl Cymraeg. [Pris dau swllt.] §

Yn y rhan gyntaf o'r llyfr, y mae'n edrych ar yr iaith fel yr oedd yn ei amser ef, ac yn cymharu ei gwreiddioldeb a'i chyssylltiad âg ieithoedd eraill, gan wneud y Bibl Cymraeg yn fath ar safon i'w phurdeb. Cyfansoddiad yr iaith, ei rhagorieuthau ar y Saesneg, a phyngciau eraill cyffelyb, a drafodir ganddo yn yr ail ran. Dengys y treuthawd hwn, fel y llall a fu dan sylw, fel y sylwa Gwallter Mechain ac eraill, bod dysgeidiaeth yr awdur yn ehang a choethedig, a'i fod yn meddu cyflawnder dirfawr o wybodaeth gyffredinol.

Yr oedd y Dr. Llewelyn yn un o sylfeunwyr a noddwyr penaf "Cymdeithas y Cymmrodorion" yn Llundain, a "Chymdeithas y Gwyneddigion" yno wedi hyny. Tanysgrifiai yn helaeth at y sefydliadau hyn, a phob sefydliad arall perthynol i'r Cymry yn y brif ddinas, fel y dengys y nodiad

* Yr oedd yr argraphiad hwnw yn 20,000 o gopïau.—Llyfr y Jubili, t. 59.—Gol.

† Ames's Typographical Antiquities, p. 321.—Gol.

‡ Llewelyn's Hist. Acc., pp. 58-61; Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 225-5.—Gol.

§ "Y mae'n ddernyn tra chelfydd a dysgedig, ac yn dangos gwybodaeth fanwl a beirniadol, nid yn unig o iaith ei fam, ond hefyd o'r ieithoedd Lladin, Groeg, a Hebraeg. Y mae'n dra theilwng o ddarlleniad pawb a ddymunant ehangu eu gwybodaeth o'r iaith Gymraeg, i'r hon, fel yr ymddengys, y rhoddes yr awdur dysgedig nid ychydig o sylw."—Dr. Richards.—Gol.

Digitized by Google

canlynol sydd yn hanes "Cymdeithas y Gwyneddigion:"—

"Yr oedd y Dr. Llewelyn yn un o'r aelodau cyntaf, a pharhaodd i gynnorthwyo y gymdeithas yn fywiog dros lawer o flynyddau. Preswyliai yn Queen's Square, ac arfollai y prif aelodau yn bur haelionus ar achlysuron. Efe oedd y llywydd yn 1775."

Cymmerodd ran bwysig hefyd ynghynhaliaeth yr Ysgol Gymreig yn Llundain; ac yn 1771, efe a'i gyfaill Robert Hughes (Robin Ddu o Fôn), oedd y goruchwylwyr yn y cinio perthynol i'r sefydliad. Yr oedd efe yn hynod o ymlynedig wrth wlad ei enedigaeth. Er mai yn Llundain yr oedd ei gartref, ynghanol llawnder, fel y gwelsom; etto treuliai yr haf bron oll yng Nghymru, yn enwedig yn ei flynyddau olaf; a phregethai yno, a gwnai bob peth arall yn ei allu (ac nid cyfyng oedd hwnw) er lles tymhorol ac ysprydol ei gydwladwyr. Ysgrifenodd yn nerthol iawn ar amhriodoldeb gwrthun llywodreuthwyr Eglwys Loegr yn pennodi esgobion ac offeiriaid Seisnig i fywioleuthau Cymreig. Difyna A. J. Johns, Ysw., dudalenau cyfain o'i waith yn ei dreuthawd ar "Achosion Ymneillduaeth yng Nghymru."

Yn y fl. 1776, llwyddodd y Dr. Llewelyn i gael amryw o'i gyfeillion yn Llundain a Deheudir Cymru i ymuno âg ef i sefydlu Cymdeithas Genhadol Gymreig i Ogledd Cymru, perthynol i'r Bedyddwyr. Mewn gwirionedd, i'r Dr. Llewelyn yn benaf oll y mae'r Bedyddwyr yn y Gogledd yn ddyledus am eu hanfod yno, fel cyfundeb, canys nid oedd odid un gymdeithas o Fedyddwyr yn y parth hwnw o'r wlad cyn sefydliad y gymdeithas grybwylledig. Y mae'n deilwng o sylw mai'r Dr. Llewelyn oedd yn gofalu am arian i gynnal y genhadaeth hon, o'i sefydliad cyntaf hyd ddiwedd ei oes, a mawr y dyddordeb a gymmerai yn ei llwyddiant. Llwyddodd y Dr. Llewelyn, ychydig amser cyn iddo farw, i gael gan Mr. Ross, argraphydd a llyfrwerthydd cyfrifol yng Nghaerfyrddin, i gyhoeddi argraphiad cymmwys i'r llogell o'r Testament Newydd yn Gymraeg, yr hwn a fu'n ddefnyddiol iawn i'r Cymry, yn wyneb prinder o Air Duw.

Dïoddefodd y gŵr enwog, duwiol, a gwladgarol hwn lawer, yn enwedig yn y blynyddau olaf o'i fywyd, oddi wrth ddolur y gareg, yr hyn o'r diwedd a roddes derfyn ar ei oes ddefnyddiol yn Awst, 1793, ac nid yn 1796, fel y dywed y Dr. W. O. Pughe yn y *Cambrian Biography*.* Claddwyd ef yn Bunhill Fields, yn yr un bedd ag y claddwyd y Dr. Watts.

Dywed awdur *Hengoediana* fod ei gyfoeth yn fawr iawn, ac iddo adael tu a mil o bunnau yn ei ewyllys i gymdeithasau crefyddol, a phersonau tlodion, heb law gwerth tu a 1,500p. o lyfrau at wasanaeth Athrofa Caerodor; a rhanodd lawer o'i gyfoeth rhwng ei berthynasau tlodion yng Nghymru; ond ni sonir iddo adael plant ar ei ol.

* Y Dr. Richards a ddyry ei farwolaeth yn 1783 (Cambro-Brit. Biog., p. 286); ond Joshua Thomas a'r Parch. W. Roberts (Nefydd) a'i dyry yn yr amser a nodir uchod.—Hanes y Bed., t. 208-10; Seren Gomer, 1855.—Gol.

### WILLIAM DAVIES, CASTELL-NEDD.

Ganwyd y gŵr enwog hwn o gylch y flwyddyn 1727, mewn lle, fel y tybir, a elwid Ystrad-grach, ymhlwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin. Nid oes genym ddim o hanes borau ei oes, na'i ddygiad i fynu, heb law y gwyddys iddo gael digon o ddysg yn rhywle i gael urdd offeiriad Eglwys Loegr. Nis gellir gwybod chwaith, hyd y canfyddwn ni, pa bryd yr argyhoeddwyd ef; ond gan yr arferai amryw o hen bregethwyr y Methodistiaid, megis Howel Harris, Daniel Rowlands, John Belcher, John Richard o Lansamled, ac eraill, ond odid, bregethu er yn forau yng Nghastell-Nedd, cesglir mai eu pregethiad hwy yno a fu'n foddion i wneud William Davies yn gyfranog o'r alwedigaeth nefol.

Yr oedd gŵr crefyddol a charedig, a elwid Mr. Pinkney, yn berson yng Nghastell-Nedd a Llanelltyd, yr hwn a fawr hoffodd William Davies fel gŵr ieuangc duwiol, addfwyn, a gweithgar; a chymmerth ef yn gurad, i wasaneuthu yn benaf, fel yr ymddengys, yn Eglwys Llanelltyd. Pan aeth Davies i'r ardaloedd hyny gyntaf, dywedir nad oedd ond ychydig o'r bobl gyffredin yn arfer myned i Eglwys y Plwyf; am hyny, âi efe atynt i'w tai, ac i'w llanerchau chwarau, a phregethai iddynt oddi ar hen gadair neu ystôl drithroed, neu oddi ar y twmpath chwarau, gan fod achub eneidiau a gogoneddu ei Waredwr yn llawer mwy pwysig yn ei olwg ef nag ymgadw yn fanwl at ddefodau y llan. Gan ei fod yn bregethwr galluog, difrifol, a phur effeithiol, cystal ag yn gymmydog addfwyn a chyfeillgar, gorlanwyd yr eglwys yn fuan â gwrandawyr astud; a bu yntau yn foddion i argyhoeddi llawer o honynt i fywyd, ac yn eu plith yr hynod Jenkin Thomas (Siencyn Penhydd). Ato ef, i Eglwys Llanelltyd, y cyrchai Methodistiaid crefyddol yr ardaloedd hyny i gyfranogi o swper yr Arglwydd, y rhai a'i hystyrient

Digitized by Google

ef fel rhodd y Goruchaf iddynt, yn atteb i'w gweddïau; a chawsant brawf ychwanegol o wirionedd eu golygiad cyn hir.

Pa wedd bynag, yr un ansoddau ag a ynnillodd iddo gyfeillion ffyddlon a duwiol, a fu'n achlysuron hefyd i godi iddo amryw elynion gwenwynllyd ac annuwiol. Ymhlith y rhai olaf, yr oedd cryn lawer o bobl fawr y dref a'i hamgylchoedd, y rhai a'i casäent am fod ei athrawiaeth yn rhy bur a thanbaid, ei fuchedd yn rhy syml a sanctaidd, a'i zel dros ogoniant Duw yn rhy egnïol a thanbaid. Cydfwriadodd y caseion hyn i'w fwrw ymaith o'u plith yn ddïoed; ond ni fynnai Mr. Pinkney wrando ar eu ceisiadau afresymol, a chadwodd Davies, er eu gweuthaf, yn ei wasanaeth hyd ddydd ei farwolaeth. Ond yn ebrwydd ar ol marwolaeth Mr. Pinkney, ymosododd yr un gelynion ar Mr. Davies eilwaith, a llwyddasant y waith hon i gyrraedd eu hamcan. Yn y cyfamser, ymdrechodd y rhan fwyaf o blwyfolion Llangiwc, plwyf o fewn tu a phum milltir i Gastell-Nedd, gael Davies yn glerigwr i'r plwyf hwnw; ond gan fod y gwŷr mwyaf yno, fel yn y ddau blwyf arall, yn chwenych cael clerigwr mwy cydffurf â'u chwaeth, gwrthodwyd ef, a rhoddwyd y lle i ŵr arall, a fyddai yn debyg o bregethu llai yn erbyn anfoes y trigolion, yn enwedig y cyfoethogion.

Er nas gellir profi ddarfod i William Davies gael ei fwrw allan yn ffurfiol o'r Eglwys Sefydledig, fel y cafodd rhai o'i frodyr Methodistaidd o'i flaen; etto, dengys y crybwyllion uchod yn amlwg i'w wasanaeth gael ei gwrthod gan yr Eglwyswyr. Pan welodd efe, gan hyny, nad oedd dim gobaith iddo gael cyfle mwyach i fod yn ddefnyddiol o fewn cyffiniau yr Eglwys Wladol, penderfynodd na flinai efe mo honi mwy, ond yr ymroddai i waith yr Arglwydd o'r tu allan iddi, ym mysg y Methodistiaid; ac ymddengys i amryw eraill o'i wrandawyr yn y llanau cyfagos wneuthur yr un modd. Yn fuan ar ol yr ymneillduad yma, ymffurfiodd Mr. Davies a'i gyfeillion yn gymdeithas eglwysig yn nhŷ un Edward Morgan, Penuwchlyn; ac weithian yr oedd holl Gymru yn agored i Davies i lafurio ynddi. Pregethai yn fynych bellach mewn tai yn y gymmydogaeth, ac yn yr awyr agored, a dychwelwyd llaweroedd yn nhref Castell-Nedd a'r amgylchoedd trwy ei bregethiad ef at yr Arglwydd. Aeth tŷ Edward Morgan yn rhy fychan yn lled fuan i gynnwys y gynnulleidfa, a chafwyd dau dŷ arall ynghwr dwyreiniol y dref, y rhai a gymhwyswyd yn lle cyfarfod. Ymhen rhyw ennyd ar ol hyn, priododd Mr. Davies, a bu dros ryw dymmor yn cadw ysgol ddyddiol yn y dref; ac nid oes neb ond Duw a ŵyr pa faint o les a wnaeth trwy gyfrwng ei ysgol a'i bregethau.

Ni ddiangodd y gŵr enwog hwn, mwy nag eraill o efengylwyr ymdrechgar ei oes, heb brofi gelyniaeth rhai o erlidwyr ei amser. Pan oedd efe yn pregethu unwaith yn Eglwys Cenarth, ger llaw Castellnewydd-yn-Emlyn, gyrodd gŵr cyfoethog a elwid y Capten Lewis, o'r Gelli-dywyll, ei was yno gyd â gwn i'w seuthu. Hyspyswyd hyny i'r pregethwr, yr hwn a ddywedodd, "Gadewch i mi fyned i'r pulpud yn gyntaf, ac yna byddaf foddlon iddo fy seuthu wedi hyny." I'r pulpud y cafodd fyned, a phregethodd mor rymus ac effeithiol nes oedd y gynnulleidfa a'r gwas yn un foddfa o ddagrau. Bu'r erlidiwr farw yn lled fuan ar ol hyny; ac yr oedd mor druenus a dychrynllyd, fel nas gallai y dynion mwyaf anystyriol aros yn yr ystafell wrth ei wely angau.

O ddeutu'r fl. 1776, adeiladwyd tŷ addoliad a elwid Capel Gyfylchi, ymhlwyf Mihangel, i'r dwyrain o dref Castell-Nedd. Adeiladwyd yr hen gapel hwnw yn debyg iawn i eglwys plwyf; ond nid ymddengys iddo gael ei gyssegru erioed gan esgob gwladol, canys methodd yr Eglwyswyr ei feddiannu pan y rhoddasant gais ar hyny. Yn yr hen gapel hwnw y gweinyddid swper yr Arglwydd i Fethodistiaid yr ardaloedd gan Davies, Jones (Llan-gan), Howels (Trehil), ac eraill o hen offeiriaid Methodistaidd y cyfundeb. Tybir mai'r Wm. Davies yma a gyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Chwech ar Hugain o Lythyrau ar Destynau Crefyddol Gan Omicron. Wedi newydd ei gyfieithu o'r Saesonaeg i'r Cymraeg, er Budd i'r Cymry. Gan William Davies. At ba un y chwanegwyd ychydig Hymnau ar amryw fesurau, i'w canu yn gyhoeddus. . . . 1777." [202 o dudalenau 12plyg."]*

Ychydig o hanes y gŵr enwog hwn sydd genym yn ystod y deng mlynedd olaf o'i oes, heb law y dywedir iddo deithio llawer, trwy'r De a'r Gogledd, i bregethu yr efengyl ar ol iddo ymuno â'r Methodistiaid, a bu'n foddion i droi llawer at yr Arglwydd. Bu farw yn y fl. 1787, yn 60 oed, a chladdwyd ef ym monwent Eglwys Castell-Nedd. Y Parch. D. Jones, Llangan, a draddododd ei bregeth angladdol, a dywedir ei fod yn wylo'n hidl uwch ben bedd ei anwyl gyfaill, ac y dywedai, "O! Davies anwyl!

* "OMICRON, awdur y llythyrau hyn, ydoedd y Parchedig JOHN NEWTON, Olney, cyfaill mynwesol y bardd Cowper."—Llyfryddiaeth y Cymry, t. 580.

Digitized by Google

O! Davies, gwas yr Arglwydd! ti a fuost farw!
Do! disgynaist i'r bedd â'th goron ar dy ben!"*

### JOHN WILLIAMS, LL.D.

Mab i ffarcer cyfrifol, a'i enw Williams, yr hwn oedd yn byw yn Llanbedr-pont-Stephan, yn sir Aberteifi, oedd John Williams. Ganwyd ef ar y 25med o Fawrth, 1727. Rhoddwyd ef mewn ysgol rad yn nhref Llanbedr i gychwyn, lle y cyrheuddodd gryn lawer o wybodaeth yn y Groeg a'r Lladin. Gan iddo ddangos tuedd cryf, pan yn ieuangc, at fod yn bregethwr ymhlith yr Annibynwyr, pan oedd yn 19 oed dodwyd ef yn Athrofa Caerfyrddin, oedd ar y pryd dan ofal Thomas a Davies, lle y daeth yn dra hyddysg yn y celfyddydau, yn enwedig rhif a mesur.

Wedi treulio ei amser yn yr athrofa, galwyd ef, fel athraw ieithyddol, i gynnorthwyo un Mr. Howel mewn ysgol fawr yn Birmingham. Yn y fl. 1752, derbyniodd alwad unfryd eglwys Annibynol oedd yn Stamford, sir Lincoln; ond gan ei fod yn awyddus am fod yn agos i Lundain, er mwyn y manteision llenyddol a duwinyddol oedd yno, efe a dderbyniodd alwad o eglwys Annibynol oedd yn Workingham, sir Berk, ac a symmudodd yno yn y fl. 1755, ac efe yn 28 oed. Yn ystod yr amser y bu yn y lle hwn, gorphenodd waith y bu'n dyfal lafurio wrtho dros lawer o flynyddau; ac yn 1767, cyhoeddodd ef dan yr enw canlynol:—

"A Concordance to the Greek New Testament, with an English version to each word, and short Critical Notes"= Mynegair i'r Testament Newydd Groeg, gyd â chyfieithiad Saesneg o bob gair, a Nodiadau Beirniadol byrion.

Bu'r llyfr hwn, dros lawer o flynyddau, yn un o'r rhai mwyaf defnyddiol i fyfyrwyr y Testament Newydd a gyhoeddwyd erioed ym Mrydain. Yr ydym yn credu mai'r gwaith godidog hwn a roddes y syniad i gyfansoddwyr yr "Englishman's Greek Concordance of the New Testament" (=Mynegair Groeg y Sais i'r Testament Newydd), a gyhoeddwyd gan Longman a'i Gyf. yn 1840 ac 1844, yr hwn, i'n bryd ni, sydd werthfawrocach i fyfyrwyr y Testament Newydd nag unrhyw lyfr arall a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn Saesneg na Chymraeg. Yr ydym yn casglu mai ar ol cyhoeddi ei Fynegair godidog y cafodd John Williams y radd o Ll.D. (=Doethor Cyfreithiau), gan ryw brif ysgol. Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd y Dr. Williams ei Fynegair, sef 1767, cafodd alwad i ddilyn un Mr. Baron fel gweinidog i eglwys Annibynol yn Sydenham, lle y gwasanaeuthodd yn ffyddlon am wyth mlynedd a'r hugain. Yn 1768, efe a briododd Mrs. Martha Still, gweddw, ac aelod tra chyfrifol o eglwys Workingham, lle y bu efe yn weinidog, fel y gwelsom, cyn iddo symmud i Sydenham. Bu farw ei wraig yn 1777; ac yn yr un flwyddyn, dewiswyd yntau yn arolygydd Llyfrfa odidog y Dr. Daniel Williams, yn Heol Redcross, Llundain, yr hon lyfrgell a gynnwys gasgliad dirfawr o lyfrau prinion a gwerthfawr, yn enwedig cyfansoddiadau yr Anghydffurfwyr. Yn y lle hwn cafodd hamdden a chyfleusdra i gwblhau gwaith a ddygasai gryn lawer o'i sylw a'i fyfyrdod, yr hwn a alwodd efe, "A Free Enquiry into the Authenticity of the 1st and 2nd Chapters of St. Matthew's Gospel" (=Rhyddymofyniad i Wirionedd y Bennod 1af a'r 2il o Efengyl Matthew). Ysgrifenodd amryw dreuthodau Seisnig eraill; ond y ddau a nodwyd eisoes oedd y rhai mwyaf pwysig. Yr unig ddau waith a gyfansoddodd yn dwyn cyssylltiad neillduol â Chymru oedd dau dreuthawd Seisnig yn cynnwys "Ymchwiliad i Wirionedd y Traddodiad am Ddarganfyddiad America gan y Tywysog Madog ap Owain Gwynedd." Cyhoeddwyd y cyntaf yn 1791, a'r llall yn 1792. Nis gwyddom beth oedd ffrwyth y cyfryw "Ymchwiliad," gan nas gwelsom yr un o'r llyfrau.†

Yn 1781, priododd y Dr. Williams eilwaith, ac efe yn 54 oed, â Miss Elizabeth Dunn, un o ferched John Dunn, Ysw., o Lanerch Newington, yr hwn a fuasai gynt yn fasnachydd enwog yn Llundain, ac un o'r gŵyr lleyg mwyaf defnyddiol ymhlith yr Ymneillduwyr. O herwydd y cyfnewidiadau mynych a ddigwyddent o gylch y pryd hyn yn y pentrefi o amgylch Llundain, lleihaodd nifer yr Ymneillduwyr yn ddirfawr yn y parthau hyny o'r wlad, yr hyn, ynghyd â bod prydles y capel yn terfynu yn 1795, a barodd i'r Dr. Williams roddi ei le fel gweinidog i fynu, ac ymneillduo i Islington, lle y treuliodd weddill ei oes.

Gellir dywedyd yn ddibetrus am y Dr. Williams ei fod fel dŷn yn barod bob amser i ymegnïo o blaid lles cyffredinol dynol ryw; fel Cristion, ei fod o ymarweddiad pur a dïargyhoedd; fel pregethwr, ei fod yn ymdrechu'n ddifrifol i iawn gyfranu gair y gwirionedd; ac fel awdur, mai ei amcan penaf oedd egluro yr Ysgrythyrau, yn enwedig y Testament Newydd. Ei waith olaf

* Method. Cymru, cyf. iii., t. 41-4; Traethodydd, llyfr vi., t. 69; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 188; En. Cymru, I. F., t. 244.

† Hanes y Brytaniaid a'r Cymry, cyf. ii., t. 59, 60.

Digitized by Google

oedd cyfieithu llyfr prin a thra gwerthfawr o waith M. P. Cheilomeus, a elwid "Græco Barbara Novi Testamenti," &c. (=Groeg Tywyll y Testament Newydd, &c.), gwaith o'r un amcan a'r cyntaf a ysgrifenodd, sef egluro ymadroddion tywyll y Testament Newydd; ond cyn iddo lwyr orphen y gwaith pwysig hwnw, efe a fu farw ar ddydd Sul yn Ebrill, 1798, yn 71 oed, er mawr golled i grefydd, a galar dwys i'w holl gydnabod.*

JOHN OWEN, O'R BERTHEN-GRON.

Mab oedd y gŵr enwog yma i Owen Thomas, o Leyn, sir Gaernarfon. Deuthai ei rieni i sir Fflint o gylch y fl. 1725, i dyddyn a elwid Mwrcwd, ymhlwyf Ysgeifiog. Ymddengys bod Owen Thomas yn ddŷn rhinweddol a dichlynaidd, os nad oedd yn ŵr crefyddol hefyd; ond yr oedd dan lawer o anfanteision, am nad oedd ganddo neb i'w gyfarwyddo. Pa wedd bynag, ymdrechodd roi gradd o addysg i'w blant, a chynghorai hwynt, yn ol y goleuni oedd ganddo, i rodio yn ol gair yr Arglwydd. Ganwyd iddo bedwar o blant, sef John, Humphrey, Sarah, ac Ann. John, yr hynaf, gwrthrych hyn o hanes, a anwyd yn y fl. 1727, ymhen tu a dwy flynedd ar ol i'w rieni ymsefydlu yn y Mwrcwd. Ystyrid John yn ŵr ieuangc dichlynaidd a medrus. Arferai fyned i'r llan yn gysson ar y Sul, ac ystyrid ef yn brydydd enwog gan ei gymmydogion. Cyfansoddodd rai Ysmaldodau *(Interludes)* doniol, a medrai eu chwarau yn bur effeithiol, ac o herwydd hyny yr oedd yn llangc hynod o boblogaidd ym mysg ei gydnabod; ond pan oedd ynghanol ei rwysg a'i rysedd ieuengaidd, dywedir y byddai yn teimlo'n ddwys yn fynych oddi wrth euogrwydd cydwybod, yr hyn a barai iddo fawr anesmwythyd meddwl.

Yr oedd tŷ to gwellt bychan yn Llangwyfan-Dyffryn-Clwyd, a elwid "Tŷ Modlan," o herwydd, y mae'n debyg, mai *Modlan* (Magdalen) oedd enw y wraig a breswyliai ynddo. Beth bynag am hyny, y tŷ bychan hwnw oedd y cyntaf yn yr holl ardal a agorwyd i'r Methodistiaid i bregethu ynddo. Dyma'r tŷ yn yr hwn yr ymwelodd yr Arglwydd yn effeithiol â John Owen, am yr hyn y dywedir fel y canlyn:—

"Pan oedd [John Owen] o ddeutu 25 oed [o gylch y fl. 1752], efe a aeth i ŵylmabsant i Langwyfan-Dyffryn-Clwyd; ac wrth fyned yno, yr oedd yn ei fryd gael cyfle i ymddiddan â merch ieuangc a'i henw Mary Edwards, merch i ŵr oedd yn byw ym Mhlas-Llangwyfan, yr hon hefyd a briododd efe yn fuan ar ol hyny. Yr oedd Mr. Rowlands, Llangeitho, i'w ddisgwyl, yn y cyfamser, i bregethu yn y plwyf nesaf, sef yn y tŷ to gwellt y soniwyd am dano, a elwid 'Tŷ Modlan,' yr hwn nid oedd dros chwarter milltir o Langwyfan; ac yr oedd y ferch ieuangc a hoffid gan John Owen eisoes wedi cychwyn i'r bregeth. I'r bregeth, gan hyny, yr aeth yntau ar ei hol, a than y bregeth honno y tywynodd goleuni argyhoeddiad gyntaf ar ei feddwl. Deuthai Mary Edwards i 'wybodaeth o'r gwirionedd' cyn hyny; ac weithian, wele'r ddau yn gyfiawn yngolwg yr Arglwydd, ac yn rhodio yn ei orchymynion ef. Ar ol priodi, aethant i fyw i dyddyn a elwid y Berthen-gron, ymhlwyf Ysgeifiog, sir Fflint."†

Yn ebrwydd ar ol iddynt ymsefydlu, dechreuasant ymdrechu cael pregethu i'r Berthen-gron. Nid oedd gan y Methodistiaid, ar y pryd, un eglwys yn sir Fflint, nac un pregethwr ychwaith. Yr oedd Dafydd Jones tu ag 20 milltir oddi yno; ac yr oedd tu a 30 i Lanrwst, ger llaw y lle yr oedd John Richards. Y ddau hyn oedd agosaf i'r lle, oddi eithr Edward Parri, Brynbugad, a Robert Llwyd, Plasaspwl, y pedwar yn sir Ddinbych. O'r Deheudir, gan mwyaf, y ceid pregethwyr y pryd hyny, yn enwedig y rhai mwyaf doniol. Byddai Rowlands a Dafydd Morus, ac yn ddiweddarach Jones (Llan-gan) a Davies (Castell-Nedd), yn dyfod i'r Gogledd ddwywaith neu dair bob blwyddyn, yn lled gysson. Trwy bregethiad achlysurol y tadau hyn ac eraill, galwyd llawer i fod yn saint yn y parthau hyn o'r wlad; ac yn eu plith yr oedd Humphrey, brawd John Owen, a'i ddwy chwaer, y rhai a fu'n ffyddlon a defnyddiol dros eu hoes. Dyma ddechreuad Methodistiaeth sir Fflint.

Dechreuodd John Owen bregethu y gair o gylch y fl. 1755, ymhen tu a thair blynedd ar ol priodi, a pharhaodd yn ffyddlon a defnyddiol iawn yn y gorchwyl hyd ei farwolaeth. Yn y blynyddau cyntaf, yr oedd yr arddeliad a roddid ar bregethu ar y naill law, a'r ffyrnigrwydd a ddangosid yn erbyn y gwaith ar y llaw arall, yn cyfatteb i'w gilydd. Rhoddid tywalltiadau rhyfeddol o'r gwlaw graslawn, nes gorlenwi rhai â gorfoledd, darostwng eraill i ufudd-dod, peri syndod aruthr mewn rhai, ac ennyn cynddaredd creulawn mewn eraill. Fel yr oedd nifer y crefyddwyr yn lliosogi, a'r achos yn ymehangu i'r ardaloedd cymmydogeuthol, yr oedd y gwrthwynebiad yn ymgadarnhau, ac ni chafodd John Owen a'i deulu ddim diangc.

Y ddyfais gyntaf a ddefnyddiwyd i'w flino a wnaed gan ei gyd-blwyfolion, yn fuan ar ol iddo ddechrau pregethu, trwy ei orfodi i gymmeryd swydd gwarcheidwad *(warden)* Eglwys y Plwyf,

* Seren Gomer, llyfr xx., t. 321; Williams's Em. Welshm., p. 530; En. Cymru, I. F., t. 1010; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 639.

† Method. Cymru, cyf. i., t. 157.

Digitized by Google

ond ni chawsant lawer o ddigrifwch mewn canlyniad i hyny. Gan iddynt hwy ei orfodi i gymmeryd y swydd, penderfynodd yntau ei chyflawni yn ffyddlon. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd gorfodi yr offeiriad i ddyfod i'r gwasanaeth forau'r Sul mewn pryd. Arferai y gŵr parchedig hwnw fyned i hela yn fynych ar forau'r Suliau, a mynych y byddai ar ol ei amser yn dychwelyd. Yr oedd unwaith ar ol hanner dydd arno yn dychwelyd, pryd yr oedd John Owen ymhlith y bobl a ddisgwylient am dano i fyned trwy'r gwasanaeth. Gan fod y borau wedi myned heibio, gwaharddodd y gwarcheidwad iddo ddarllen y *boreuol* wasanaeth, a gorfododd ef i ddyfod mewn pryd i'r gwasanaeth prydnhawnol, ac i barhau i wneuthur felly bob Sul rhag llaw; a rhag ofn y gwarcheidwad, bu raid iddo fod yn fwy gofalus. Erbyn hyn yr oedd yn rhywyr glas gan yr offeiriad truan a'i gefnogwyr weled blwyddyn swyddogol y gwarcheidwad Methodistaidd manwl yn dyfod i ben; a phan ddaeth, ni flinwyd ef mwy gan y swyddogaeth honno; ond cyfarfu yr enwog John Owen â digwyddiadau mwy profedigeuthus iddo, hyd yn oed na bod yn warcheidwad yr Eglwys Blwyfol.

Yr oedd gan John Owen a'i frawd Humphrey waith plwm, yn werth ar y pryd tu a 3,000 o bunnau. Wedi iddynt droi yn grefyddwyr; ïe, ac yn fleunoriaid y "sect newydd," cynhyrfodd perchenogion y tir, ynghyd â'r goruchwyliwr, yn dost yn eu herbyn, a phenderfynasant naill ai llethu eu crefydd, neu yspeilio eu meddiannau. Anhawdd, fe allai, penderfynu pa un oedd fwyaf dewisol gan yr erlidwyr; ond yr oedd yma fantais naill ai i ddinystrio yr hyn oedd gas ganddynt, neu i feddiannu yr hyn oedd hoff ganddynt. Anfonwyd am y ddau frawd i'w cyfarfod yng ngwestty y March Gwyn (*White Horse*), yn Nhreffynnon, lle'r oedd llawer o wŷr mawr eraill wedi dyfod ynghyd ar yr achlysur tra buddiol (?) o redeg ceffylau. Dygwyd y ddau frawd ger bron; ac wedi blino yn eu gwawdio, rhoddwyd iddynt eu dewis, naill ai gadael eu crefydd, ai colli eu gwaith; a dywedid y rhoddid amser iddynt i ystyried. Dywedodd John Owen yn bwyllog, ond yn gwbl ddisyfl, nad oedd eisiau amser i ystyried y peth: os ymadael oedd raid âg un o'r ddau, mai'r gwaith plwm, er cystal oedd, a fyddai hwnw; ac felly y bu.

Nodwyd yr amgylchiad arall eisoes, wrth dreuthu ar John Evans y Bala, pan aeth ef a John Owen i Lanfachreth, sir Feirionydd, lle yr ymosododd yr erlidwyr mor greulon ar John Owen fel y tybiasant iddynt ei ladd, tra y diangodd John Evans, am ei fod yn gyflymach na hwynt ar ei draed.* Gellid nodi amryw ddigwyddiadau cyffelyb, ond ni oddef lle.

Er pob rhagfarn a gwrthwynebiad, llwyddo yn barhaus, a lled gyflym hefyd, yr oedd gwaith yr Arglwydd yn ardal y Berthen-gron. Aeth yr adeilad y pregethid ynddo yn rhy gyfyng, a gwelwyd bod angenrhaid cael capel i gynnwys y gynnulleidfa a ddeuai ynghyd. Yr oedd eglwys yma bellach wedi ymgrynhoi, ac yn parhaus lïosogi. Nid oedd un arall ar y pryd o fewn y sir; ac nid oedd yr un yn sir Ddinbych ychwaith yn nes na Llanbedrog, Dyffryn Clwyd. Gan hyny, wrth weled y gwaith yn llwyddo, ymosododd John Owen a'i frawd ar y gorchwyl o ymdrechu cael lle heleuthach i addoli. Llwyddasant yn lled fuan i gael tir dan brydles, gan foneddiges a elwid Miss Llwyd, sef perchenoges y Berthen-gron. Dechreuwyd adeiladu yn y fl. 1775, a gorphenwyd ef y flwyddyn ganlynol. Bernir y disgynodd y draul yn gwbl ar John Owen ei hunan, oddi eithr yr ychydig gynhorthwy a gafodd i gludo'r defnyddiau ato. Pan oedd yr addoldy bron ei orphen, aeth John Owen i Langeitho, prif ffynhonell Methodistiaeth, i ymofyn Rowlands, apostol Cymru, i'w agor. Dywedodd wrth y saer, cyn cychwyn, "Nid wyf yn disgwyl dychwel yn fy ol yn fyw; ond gweithia di dy orau, ac yr wyf yn hyderu y daw Mr. Rowlands i'w agor ar yr amser pennodedig." I Langeitho yr aeth, a chydsyniodd Mr. Rowlands â'i gais; ond wrth ddychwel, cymmerwyd y ffyddlawn John Owen yn glaf, a methodd ddyfod yn nes adref na Llangurig, pum milltir o Lanidloes, sir Drefaldwyn; ac yno y bu farw, yn y fl. 1776, ac efe yn ddim ond 49 oed. Dygwyd ei gorph i'w gladdu i fonwent Ysgeifiog, ei blwyf genedigol. Ymddengys wrth y dyrfa fawr a ddeuthai i'w angladd bod iddo barch mawr yn ei gartref, er mor erledigeuthus oedd y tymmor, o blegid dywedir bod yr orymdaith yn cyrraedd o'r Berthen-gron i Ysgeifiog, milltir a hanner o ffordd. Cyflawnodd Mr. Rowlands ei addewid i'r pererin ffyddlon, trwy ddyfod o Langeitho i'r Berthengron i agor y capel.†

#### ZECHARIAH THOMAS.

Y gŵr enwog hwn oedd fab i John Morgan

* Gwel y llyfr hwn (y vi.), pen. vi.

† Method. Cymru, cyf. iii., t. 141-46; En. Cymru, J. T. Jones cyf. ii., t. 847.

Digitized by Google

Thomas, Esgair-Ithri, plwyf Conwyl-Gaio, sir Gaerfyrddin, a brawd i Joshua Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn Lymington, ac i Timothy Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn Aberduar, sir Gaerfyrddin. Ganwyd Zechariah ar y 13ydd o Awst, 1727, a maethwyd ef yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd o'i faboed; a gwyddai yr Ysgrythyr Lân er yn fachgen, canys dysgwyd iddo Holwyddoreg byraf y Gymmanfa pan yn faban; ac erbyn ei fod yn 12 oed, yr oedd wedi darllen y Bibl oll drosto. Gan nad oedd un gymdeithas o Fedyddwyr yn agos i'r lle yr oedd yn brentis, arferai fyned i wrando ar y Methodistiaid yn ystod y tymmor hwnw. Wedi gorphen ei brentisiaeth, bu'n aros mewn gwahanol barthau o'r wlad, a rhoddid parch mawr iddo ymhob man, o herwydd ei sobrwydd, ei ddefnyddioldeb, a'i ddiwydrwydd.

Yn y fl. 1748, pan yn byw yn y Gelli, derbyniwyd ef yn aelod gan y Bedyddwyr ym Maes-y-berllan. Bu ei fuchedd weddus a duwiol tra yn y lle hwn yn foddion i'w wneud yn hoff iawn gan yr eglwys a'i gweinidog, rhwng y rhai y bu cyfeillgarwch parhaus. Pan oedd yn 21 oed, priododd ferch Mr. Rees Thomas, ger llaw Llandyssul, sir Aberteifi. Yr oedd y tad a'r ferch yn aelodau gyd â'r Bedyddwyr yng Nghastell-newydd-Emlyn. Symmudodd yntau i fyw i'r ardal honno, ac ymunodd â'r Bedyddwyr yn y lle. Ennillodd barch mawr yn fuan yn yr eglwys yno; a chyn hir, annogwyd ef i ddechrau pregethu. Wedi i'r eglwys gael boddlonrwydd o'i ddawn a'i wybodaeth, neillduwyd ef i weini yr ordinhadau yn y fl. 1757, ac efe yn 30 oed. Wedi gwasanaeuthu yn y Castell-newydd, a manau eraill, yn dra derbyniol, symmudodd yn y fl. 1762 i dyddyn a elwid Pendyan, heb fod ymhell o'i gartref genedigol, ac aeth yn gynnorthwywr i'w frawd, y Parch. Tim. Thomas, yngweinidogaeth Aberduar, Pen-y-coed, Bethel, a Bwlch-y-rhiw. Llafuriodd yn y lleoedd hyn gyd â derbyniad mawr a chymmeradwyaeth gyffredinol. Yn 1768, bu farw ei frawd, Mr. Timothy Thomas, fel y gwelsom.* Yn y fl. 1771, dewiswyd ef a dau bregethwr arall i wasanaeuthu yr eglwysi a nodwyd uchod, yn hen faes llafur ei ddiweddar frawd enwog, lle y bu yn dra llafurus a chymmeradwy am wyth mlynedd ar hugain. Cafodd fwynhau llawer o gysuron a llawer o brofedigeuthau yn ystod yr amser hwnw. Un o'i brofedigeuthau llymaf, yn y cyfamser, oedd colli ei wraig dduwiol a rhinweddol iawn yn 1782, wedi mwynhau ei chymdeithas garuaidd a hyfryd dros 34 o flynyddau. Trwy'r digwyddiad gofidus hwnw, gadawyd ef a chwech o blant yn amddifaid a galarus. Ymhen tu a phum mlynedd ar ol marwolaeth ei anwyl wraig, daeth prydles ei dyddyn i ben, a derbyniodd yntau rybudd i ymadael, yr hyn oedd brofedigaeth lem arall iddo, am nas gallai gael lle arall i fyned. O herwydd hyny, bu raid iddo dalu cymmaint arall o ardreth ag a dalai'r tyddyn am gael aros ynddo.

Tra'r oedd ynghanol y gaddug yma, gwawriodd Rhagluniaeth arno yn annisgwyliadwy, a chafodd dyddyn yn y gymmydogaeth a elwid y Llwyn, i'r hwn yr aeth i fyw yn y fl. 1790, ac yno y bu hyd ddydd ei farwolaeth. Ymhen tu a thair blynedd ar ol iddo symmud i'r Llwyn, bu farw cyfaill iddo, sef y Parch. Joshua Evans, o'r Ty'n-y-cwm, Abergwesyn, ar ol yr hwn y cyfansoddodd yntau farwnad hireuthus a thoddiadol.† Y farwnad hon, a'r un ar ol ei frawd Timothy, y cyfeiriwyd ati eisoes, ydyw yr unig ddau gyfansoddiad argraphedig o'i waith, hyd y gwyddom ni.

Yr oedd Zechariah Thomas yn ŵr mawr iawn mewn gweddi; yn bregethwr efengylaidd ac Ysgrythyrol; yr oedd yn amyneddgar, didderbyn wyneb, a llym yn erbyn pechod: yr oedd yn dduwinydd enwog; ac yr oedd ei zel dros ledeuniad gwirioneddau yr efengyl yn angerddol. Bu farw ar yr 16fed o Ionawr, 1816, yn 89 oed, wedi bod yn pregethu yn ffyddlawn ac ymdrechgar iawn am yn agos i 60 mlynedd.‡

## PENNOD VII.

### EVAN EVANS A SION ROBERT LEWIS.

Yr hyn, yn benaf, a ddyry hawl i'r athrylithgar Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir yr ail) i gael ei restru ymhlith "Enwogion y Ffydd," yw crefyddolrwydd, moesoldeb, difrifwch, defnyddioldeb, gwladgarwch, a lledneisrwydd gweddus a boneddigaidd ei aml gyfansoddiadau rhyddieithol a barddonol dysgedig ac athrylithgar.

Ganwyd Evan Evans mewn tŷ a elwid y pryd hyny "Cynhawdref," ond a elwir yn awr "Cynhawdref Uchaf," ymhlwyf Lledrod, sir Aberteifi,

* Gwel llyfr v., pen. xxii.—Cyfansoddodd Mr. Zech. Thomas farwnad ragorol ar ol ei frawd enwog, yr hon a argraphwyd yn 1769.—Llyfr. y Cymry, t. 512.

† Llyfr. y Cymry, t. 677.

‡ En. Cymru, J. T. Jones, cyf. ii., t. 571; Hanes y Bed., D. J., t. 328.

Digitized by Google

ar yr 20fed o Fai, 1731, yn ol yr hen gyfrif, yr hwn oedd arferedig y pryd hwnw.* Enw ei dad oedd Sienkin Ifan (Jenkin Evans); ac ymddengys bod y bardd, o gylch yr amser yr aeth i Rydychain, yn arfer ysgrifenu ei enw yn "Evan Jenkin Evan," dull digon cyffredin yn yr oes honno. Gwelir ef felly wrth rai o'i ganiadau boreuol; ceir ef yn yr un wedd ymhlith y tanysgrifwyr at Eiriadur Cymraeg y Parch. Thomas Richards, a gyhoeddwyd yn 1753;† ac y mae'n debygol mai at y tri enw hyn y cyfeirir ganddo yn y Llythyr II.‡ Ond nid hir y bu cyn gadael enw ei dad o'r neilldu, ac ymgyfenwi yn Evan Evans yn unig. Ymddengys mai enw a roddwyd arno ar y cyntaf gan ei gyfoedion, o herwydd ei fod yn ŵr tal, oedd IEUAN BRYDYDD HIR, canys ni welwn ei fod ef ei hun byth yn arfer nac yn arddel y cyfryw enw. Yr oedd Ieuan Brydydd Hir, y cyntaf o'r enw, yn byw o ddeutu canol y 15fed ganrif.§ Gwyddai y bardd yn dda ddigon am dano, a chan hyny gellir bod yn lled sicr mai prin y buasai efe yn dangos cymmaint o ddiffyg chwaeth a phriodoldeb a galw ei hun (yn ol arfer rhai yn yr oes hon) ar enw un o'r enwogion gynt. Ond y mae'r enw bellach wedi glynu wrtho mewn modd nas gellir ei ysgaru; a rhaid i ni, er mwyn gwahaniaeth, alw Prydydd Hir y 15fed ganrif yn Ieuan Brydydd Hir *Hen*, neu Ieuan Brydydd Hir *Hynaf*. Pan y defnyddiai'r bardd enw barddonol, yn ol arfer y frawdoliaeth, yn hytrach na'i enw priod, *Ieuan Fardd*, neu *Ieuan Fardd ac Offeiriad*, oedd y cyfenwau a arferid ganddo; eithr y mae'r rhai hyn wedi myned dan orchudd llwch ebargofiant, ac "IEUAN BRYDYDD HIR" wedi cymmeryd cyflawn feddiant o'u gorsaf. Ond nid oedd y cyfenw "Ieuan Brydydd Hir" yn anhyspys ym myw y bardd, canys gwelir bod Gwilym Hywel, yn ei Amseroni am y fl. 1773, yn priodoli "Cywydd y Methiant," o waith Ieuan Brydydd Hir Hynaf, i Ieuan Brydydd Hir Ieuaf;‖ a phrin y mae'r camsyniad wedi diflannu o feddwl ambell un hyd y dydd heddyw.

Derbyniodd Evan Evans ei addysg foreuol yn Ysgol Rammadegol Ystrad Meurig, dan y cynathraw Edward Richard; ac yn 1751, ymaelododd yng Ngholeg Merton, Rhydychain. O herwydd prinder moddion, fel y mae'n debygol, ymadawodd â'r Brifysgol heb gymmeryd ei radd. Nid oes genym sicrwydd pa bryd yr urddwyd ef, nac ymha blwyf yng Ngheredigion y dechreuodd ei weinidogaeth; ond y mae'n amlwg mai yn rhywle yn ei ardal enedigol yr ydoedd.*

Dichon bod yn amhossibl penderfynu yn fanwl weithian pa bryd y dechreuodd Ieuan brydyddu; ond gellir casglu ei fod wedi dechrau yn lled ieuangc, pan ydoedd, y mae'n debyg, yn Ysgol Ystrad Meurig, dan addysg y bardd godidog, Edward Richard. Profir gan lythyr a ysgrifenodd Goronwy Owen at Rhisiart Morys, Awst 15, 1752, bod Ieuan yn ddisgybl barddonol i Lewis Morys (Llywelyn Ddu o Fôn), brawd R. Morys, er ys llawer o amser cyn y flwyddyn honno.† Y cyfansoddiadau boreuaf o waith y bardd a'r llenor enwog hwn a ysgrifenwyd ganddo yn 1751, y flwyddyn yr aeth efe i Goleg Merton, pan nad oedd ond 20 oed. Gellir casglu iddo gyfansoddi chwech o ganiadau y flwyddyn honno, sef pum cywydd ac un gân rydd.‡ Heb law'r caniadau a nodwyd, cyfansoddodd y bardd 60 o ganiadau eraill, rhai yn fyrion a rhai yn lled hirion, o'r fl. 1752 hyd 1787, o'r sawl y mae pedair Seisnig ac un Lladin, heb son hyd yn hyn am ei gyfansoddiadau rhyddion.

Nid oes sicrwydd, hyd y gwelsom ni, pa hyd y bu'r bardd ieuangc ym Mrifysgol Rhydychain, ac ni welsom neb yn ceisio dyfalu am hyd y tymmor hwnw; ond yr ydym ni yn sicr, oddi wrth ei lythyrau at Rhisiart Morys, ei fod yn Rhydychain yn Awst 11, 1751; Tach. 9, yr un flwyddyn; a'i fod yng Ngholeg Merton, Rhydychain, y 27fed o Fehefin, 1758,§ yr yspaid o saith mlynedd, os bu yno yn ddidor o Awst 1751 hyd Fehefin 1758. Dywedir ei fod yn perchen etifeddiaeth fechan yng Ngheredigion, yr hon a drosglwyddodd i frawd ieuengach, er mwyn cael arian i'w gynnal yn y Brifysgol.‖ O bu yn y Brifysgol cyhyd ag y gellir casglu oddi wrth yr amseriadau uchod, y mae'n rhyfedd braidd nad oes un cofnod ar gael yn profi iddo dderbyn unrhyw raddau yno. Dywed ei fywgraphwyr yn gyffredin iddo wasan-

* Cadarnheir cywirdeb yr amseriad yma mewn cofnod a ysgrifenodd y bardd â'i law ei hun.—Gwaith Evan Evans, gan y Parch. D. Silvan Evans, Rhagym. t. 6.

† "Mr. Evan Jenkin Evan, of Merton College, Oxford."

‡ Gwaith Evan Evans, t. 157.

§ "Ymddengys mai gŵr o Feirionydd oedd y Prydydd Hir cyntaf, a dywedir ei gladdu ym Mynachlog y Cymmer, ger llaw Dolgellau."—Gwaith Evan Evans, t. 8, nod *.

‖ Yr un, t. 8, nod †.

* Cymmerwyd yr hanes flaenorol yn ddidalfyr, trwy ganiatâd, o Ragymadrodd "Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), golygiedig gan D. Silvan Evans, B.D." (t. 6–9), a argraphwyd gan H. Humphreys, Caernarfon, 1876.

† Gronoviana, t. 172.

‡ Gwaith Evan Evans, t. 28, 60, 63, 74, 76, 77.

§ Gwaith Evan Evans, t. 156–161.

‖ Williams's Em. Welshm., p. 149.



Digitized by Google

euthu fel curad, ar ol gadael y coleg, yn Nhywyn Meirionydd; Llanberis a Llanllechid, sir Gaernarfon; a Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych.* Y mae'n amlwg wrth ei lythyrau y bu'n gwasanaethu swydd curad mewn amryw fanau eraill hefyd. Gwelsom eisoes y barna golygydd dysgedig ei "Waith" mai mewn rhyw "blwyf yng Ngheredigion y dechreuodd ei weinidogaeth," a hyny "yn rhywle yn ei ardal enedigol." Cadarnheir y casgliad yna mewn olysgrif i lythyr y bardd ei hun at y Parch. William Llwyd, Cowden, Medi 25, 1767.†

Ymddengys wrth gywydd o waith "Sion Owain o Lundain at Ieuan Fardd ac Offeiriad," mai yn "Llanllechyd, yn swydd Gaernarfon, 1758," yr oedd y bardd ryw bryd yn y flwyddyn honno, ar ol bod dros ryw dymmor byr yng Ngheredigion, dan "y cybydd angor," chwedl yntau. Ymddengys mai i Drefriw, sir Gaernarfon, yr aeth o Lanllechid, canys y mae genym chwech o'i lythyrau o Drefriw, y cyntaf wedi ei amseru Hydref 12, 1759, a'r diweddaf Mawrth 21, 1761,‡ yr yspaid o gylch blwyddyn a chwarter. Y mae'n galw Trefriw yn *gartref* yn y llythyr a ysgrifenwyd ganddo yno yn Ebrill 23, 1760, gan ddywedyd:—"Chwi a glywsech oddi wrthyf cyn hyn, oni buasai i mi fod oddi cartref er y Pasc."§ Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth a rhyddiaith yn ystod y 15 mis y bu yn Nhrefriw; a thybir mai yn ystod yr un amser y cyfansoddodd y llyfr canlynol, wrth yr hwn nid oes amseriad:—

"Yr Addoliad Cristnogol, neu dair Pregeth am fuddiol wrandawiad y Gair, uno mewn Gweddi, a chanu Moliannau i Dduw, &c. Gan Job Orton. Cyfieithwyd gan Evan Evans."||

Yn ystod yr un amser hefyd, adysgrifenodd rai hen lawysgrifau a gafodd yn *Llyfrgell Gloddaeth* a manau eraill, heb law cyfansoddi rhywfaint o'i "De Bardis Dissertatio"=Treuthawd ar y Beirdd. Y lle nesaf y cyfarfyddwn â'r Bardd Ieuan yw Llanfair Talhaiarn, sir Ddinbych. Cynnwys ei "Waith" 15 o'i lythyrau o'r lle hwn, 15 at Rhisiart Morys, ac un at Lewis Morys, ei athraw barddonol. Amserwyd y cyntaf ym Medi 10, 1761, a'r diweddaf ym Mehefin 23, 1766, yn agos i bum mlynedd. Yn y fl. 1764, tra yn y lle hwn, y cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards. Translated into English, with Explanatory Notes on the Historical Passages, and a short Account of Men and Places mentioned by the Bards, in order to give the Curious some Idea of the Taste and Sentiments of our Ancestors, and their Manner of Writing. By the Rev. Mr. Evan Evans, Curate of Llanvair Talyhaern, in Denbighshire."

"Y mae'r gwaith hwn yn gynnwysedig o dair rhan: y rhan gyntaf yn Saesneg, yr ail yn Lladin, a'r drydedd yn Gymraeg. Y mae dalen enw yn blaenori pob rhan neu ddosparth. Y gyntaf yw'r Saesneg, yr hon yw rhagddalen yr holl gyfrol, a'r hon a gofnodir uchod. Dechrau y Lladin ar dudalen 60, a rhagddalen y rhan honno sydd fel y canlyn:—'De Bardis Dissertatio; in qua nonnulla quæ ad eorum antiquitatem et munus respiciunt, et ad præcipuos qui in Cambria floruerunt, breviter discutiuntur. Studio et opera Evani Evans, Cereticensis.' Gelwir yr holl lyfr yn fynych wrth yr enw Lladin hwn. Dechrau y Gymraeg ar dudalen 95, a rhed yr enwad fel hyn:—'Ychydig Awdlau* o waith yr hen Feirdd, yn amser Tywysogion Cymru, wedi eu cyfieithu i'r Saesoneg: Er mwyn dangos ansawdd ein Prydyddiaeth i wyr cywraint, dysgedig, anghyfiaith: â nodau byrrion, i eglurhau enwau Dynion, a Lleoedd, a grybwyllir ynddynt; a hanes byrr o honynt, wedi ei gasglu allan o Drioedd Ynys Prydain, a hen Goffadwriaethau eraill; er dywenydd i'r oes hon, ac er adfer eu haeddedigawl barch i'r hen famiaith Gymraeg, ac i'n Gwlad; a'u dyledus glod i'w thrigolion dewrwych gynt.' Nid oes argrapheb ond i'r tudalen cyntaf yn unig. Y drydedd ran a gynnwys yr 'Awdlau' gwreiddiol; yn y rhan gyntaf ceir cyfieithiad Seisnig o honynt; a'r ail ran, neu'r dosparth Lladin, sydd dreuthawd ynghylch yr hen feirdd a'u barddoniaeth. Gwelir bod Llanfair *Talhaiarn* wedi ei gamsillebu yn Llanvair *Talyhaern* ar y ddalen gyntaf. Rhisiart Morys oedd golygwr y gwaith trwy'r wasg yn Llundain. Y mae llawer o gyfeiriadau at y gwaith hwn yn llythyrau y Prydydd Hir."†

Y mae'r bardd a'r hanesydd yn rhoddi ei resymau yn helaeth ger bron dros gyhoeddi y gwaith hwn, yn ei annerch "At y Cymry," sydd o flaen y drydedd ran. Heb law y gwaith llafurfawr hwn, cyfansoddodd y bardd liaws o ganiadau yn ystod ei arhosiad yn Llanfair, ac ysgrifenodd rai cyfrolau o'r Brutiau, y cyfreithiau, a hen lawysgrifau Cymreig eraill. Ymddengys i ni mai i'r Gynhawdref, ei le genedigol, ar dreftadaeth ei hynafiaid, y dychwelodd efe o Lanfair Talhaiarn, canys y mae'r llythyr olaf at Rhisiart Morys, o Lanfair, wedi ei amseru y 23ydd o Fehefin, 1766, fel y crybwyllwyd; a'r bleunaf, at yr un gwladgarwr, o'r Gynhawdref, y 29fed o Dachwedd, yr un flwyddyn. Beth a barodd iddo ymadael o guradiaeth Llanfair, ni fynegir. Ei lythyr olaf o'r Gynhawdref, y

* Cambrian Quar. Mag., vol. i., p. 133; Williams's Em. Welshm., p. 149; Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 542.
† Gwaith Evan Evans, t. 78, 233.
‡ Gwaith Evan Evans, t. 162–70. § Yr un, t. 164.
|| Llyfr. y Cymry, t. 448.

* Wrth "Awdlau" y golygir yma, cerddi digynghanedd yr hen awduron Cymreig, megis "Hirlas Owain Cyfeiliog," y gyntaf yn y casgliad, yr hon a ddechrau fel y canlyn:—

"Gwawr pan ddwyre gawr a ddoded,
Galon yn anfon anufydd dynged,
Goleurudd ein gwyr gwedi lludded trwm,
Tremit gofwy mur *Maelawr Drefred*."

† Llyfr. y Cymry, t. 477.—Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r gwaith hwn gan John Pryse, Llanidloes, heb amseriad wrtho.

waith hon, a amserwyd ar y 7fed o Fai, 1767; a chan mai o "Rey, Mehefin 8, 1767," yr ysgrifenodd y llythyr nesaf, yr ydym yn casglu iddo aros yn ei hen gartref, y tro yma, o gylch hanner blwyddyn. Gwelir oddi wrth ei lythyr nesaf, a amserwyd y 9fed o Orphenaf, 1767, yn Newick, Sussex, iddo gael cynnyg ar guradiaeth mewn lle diffaith ym mysg y Saeson a elwir Appledore, ger llaw Tenterden, yng Nghaint *(Kent)*; ond darfod iddo symmud oddi yno yn ebrwydd i guradiaeth yn Newick.*

Nis gellir gwybod hyd sicrwydd, wrth ei lythyrau, dros ba hyd y tariodd yn y lle hyfryd hwn. Y *llythyr* olaf sydd ar gael, a ysgrifenwyd ganddo oddi yma, a amserwyd Medi 30, 1767; ond y mae'n debyg y bu yno dros ryw dymmor yn hwy. Pa wedd bynag, y mae genym sicrwydd ei fod yn gurad yn Nhywyn Meirionydd, o 1773 hyd 1776, oddi wrth y llyfrau canlynol a gyhoeddwyd ganddo:—

"Rhybŷdd Cyfr-drist i'r diafol [diofal?) a'r difraw: Neu gywir hanes am gyfiawn farn Duw, a oddiweddodd ystafellaid o ynfydion anystyriol yn ninas Caerlleon; y rhai ar ganol eu difyrwch a chwythwyd i'r awr gan Bowdwr Gwnn, a'r Tŷ lle yr oeddynt a wnaed yn gyd wastad a'r llawr. At yr hyn yr ychwanegwyd Pregeth oddiwrth y geiriau hynny, Eithr, o nŷd edifarhewch, chwi a ddifethir oll yn yr un modd, Luc xiii. 3. Gan y Parch. Evan Evans, Curat [Tywyn].—Argraphedig Ynghaerfyrddin gan J. Ross, . . . 1773."†

Y llyfr arall y cyfeiriwyd ato yw hwn:—

"Casgliad o Bregethau, ar y Pyngciau mwyaf Sylweddol mewn Perthynas i Fuchedd ag Ymarweddiad Cristianogol. Wedi eu cyfieithu o waith yr Awduron gorau yn Saesonaeg, gan y Parchedig Evan Evans, Curad Towyn Meirionydd. At ba rai i chwanegwyd, Annerch i Benteulu, ynghylch y Ddyledswydd bwysfawr o Addoliad-Teuluaidd; a Ffurf Weddi i Deulu, o waith P. Doddridge, D.D. Y Llyfr I. —Argraphwyd yn y Mwythig, gan J. Eddowes. 1776." [12plyg].

Y mae rhagddalen yn yr un geiriau i'r Llyfr II. Detholwyd y pregethau hyn gan y Cymreigydd enwog o waith Doddridge, Watts, Tillotson, ac eraill; a hwy yw'r pregethau a gyhoeddwyd yn gyfrolau y tro cyntaf erioed yn Gymraeg. Y maent yn gyfansoddiadau gwir werthfawr o ran syniadau ac ieithwedd; ond y mae'r llythyraeth, fel y sylwa golygydd gwaith y bardd, sef y Parch. D. Silvan Evans, yn gwahanieuthu oddi wrth bob un a fu ar arfer mewn un oes, yn enwedig defnyddio *i*, *ir*, ac *idd*, yn lle *y*, *yr*, ac *ydd*, o flaen perwyddiaid.‡

Y mae'r Prydydd Hir, yn ei gyflwyniad Saesneg o'r pregethau dan sylw i Syr Watkin, sydd ar ddechrau y Llyfr I., mewn iaith gref a phrydferth iawn, yn cribo mawrion ac urddasolion Seisnig yr Eglwys Wladol yng Nghymru yn bur gethin, a gwna'n debyg yn Gymraeg yn ei annerch "At y Darllenydd." Dywed y duwinydd a'r bardd, mewn llythyr at "Mr. Eliezer Williams, Coleg yr Iesu, Rhydychain; Aberystwyth, Medi 6, 1778," fel hyn:—"Y mae Syr Watkin yn profi ei fod yn noddwr dïymmod a haelfrydig i mi, ac yr wyf wedi cyfranogi yn ddiweddar o'i haelfrydedd o herwydd i mi gyflwyno y Pregethau iddo."§ Gellir casglu oddi wrth lythyr arall, fel y ceir gweled yn ebrwydd, yr awgrymai Syr Watkin, wrth roddi y *wobr* neu y *rhodd* yma, a eilw'r bardd yn "*salary* neu *bounty*," i fod yn barhaus, neu flynyddol. Gellir casglu hefyd, oddi wrth yr un llythyr, pa bryd y dechreuodd yr awdur dderbyn y rhodd dan sylw, gan y dywed efe ei hun, yn 1778, mai "yn ddiweddar" y dechreuodd efe "gyfranogi o haelfrydedd ei noddwr." Y mae'n dra sicr iddo ysgrifenu y cyflwyniad i Syr Watkin pan yn rhoi'r pregethau yn y wasg yn 1776. Felly, y mae'n bur debyg mai o gylch y flwyddyn honno y dechreuodd efe dderbyn y flwydd-dal dan sylw.

Dywed bywgraphwyr y bardd yn gyffredin ei fod yn cael rhyw flwydd-dal fechan gan y Dr. Warren, Esgob Bangor, hefyd; ond methasom ni gael prawf o hyny yng ngwaith y bardd ei hun. Pa wedd bynag, y mae genym sicrwydd bod Syr Watkin wedi tynu ei rodd oddi wrtho erbyn y flwyddyn 1779, canys dyma fel y dywed y bardd truan mewn llythyr ar yr 8fed o Fai y flwyddyn honno, "at Mr. Owen Jones" (Owain Myfyr), ysgrifenydd y Cymmrodorion:—

"Ni welaf yr awron ddim modd i argraphu dim mewn Brutaniaith, o ran fod ein bonedd mor annaturiol i'w gwlad a'u hiaith. Dyna Syr Watcyn wedi tynu oddi wrthyf ei *Salary* neu ei *Bounty*. Y mae chwarëyddion, miwsigyddion, a chwareuwyr hud a lledrith yn fwy dywenydd ganthaw na gwŷr o ddysg. Y mae'n rhaid i mi, gan hyny, edrych am ryw ffordd arall i gael bywioliaeth. Nid oes dim a fynnwyf fi âg ef na'i fath tra byddwyf byw mwy."||

Dywed bywgraphydd y bardd yn y *Cambrian Quarterly Magazine*, mai o herwydd ei lymder gerwin yn erbyn appwyntio esgobion a phersoniaid Seisnig yng Nghymru, yn arweinolion y pregethau a gyhoeddwyd ganddo, yr ymddygasant hwythau ato fel y gwneuthant. Y mae lle i gasglu, gan hyny, i Syr Watkin roddi yr anrheg flynyddol yn ebrwydd ar ol derbyn y cyflwyniad oddi wrtho, o falchder am gael yr anrhydedd o fod

* Gwaith Evan Evans, t. 217. † Llyfr. y Cymry, t. 537
‡ Rhagym. i Waith Evan Evans, t. 5.
§ Gwaith Evan Evans, t. 243. || Yr un, t. 247.

Digitized by Google

yn noddwr i'r fath ddŷn; ac y mae'n bur debyg iddo wneuthur hyny heb ddarllen nac odid synio dim ar gynnwys y cyflwyniad; ond wedyn darfod i'r preladiaid Seisnig berswadio yr hen foneddwr diniwaid ac anwybodus i dynu ei ddobrwy yn ol oddi wrth y bardd, am iddo eu sarhau hwy; â'r hyn y cydsyniodd yntau.

Pan ddeallodd yr haelionus wladgar Paul Panton, o Blas-gwyn, Pentraeth, Môn, am y cyngrair esgobol bradwrus, efe a sefydlodd 20p. y flwyddyn i'r bardd yn ebrwydd, ar yr ammod bod ei holl lawysgrifau i gael eu trosglwyddo i'r Plas-gwyn wedi i'r ysgrifenydd farw; ac felly yr aethant, sef ynghylch *cant o gyfrolau.* Y maent weithian ymeddiant rhai o anwladgar ddisgynyddion yr enwog Panton, sy'n byw yn Ynys Cybi, ynghwr gorllewinol Ynys Môn, os nad ydynt wedi eu hysu gan bryfed, neu wedi breunu gan leithder, canys ceuwyd hwynt oll i fynu, ar ol marwolaeth Mr. Panton, mewn hen gistiau clöedig, ac ni chafodd neb ganiatâd i'w gweled byth mwyach, er i amryw geisio hyny, ac yn eu plith ysgrifenydd hyn o gofiant y bardd a'r duwinydd enwog a diwyd. Dïau y cynhwysai'r cyfrolau hyny lawer o gyfansoddiadau y bardd ei hun, yn gystal a'i ddadysgrifau o waith hen awduron. "Ym mysg ei gynhyrchion llenyddol na sonir yn gyffredin am danynt," medd golygydd dysgedig "Gwaith y Parch. Evan Evans," "gellir nodi y gwaith canlynol, yr hwn sydd i'w weled ymhlith Llawysgrifau y Cymmrodorion yn y Gywreinfa Frydeinig:"—

"Cynnwysiadau Llyfrau a Phennodau yr Hen Destament a'r Newydd, gydag Ystyriaethau Bucheddol. A ysgrifenwyd gyntaf yn Ffrangeg gan y Parchedig Mr. Osterfald, Athraw Difinyddiaeth ag un o Weinidogion Eglwys Neufchatel yn Swisserland, ag wedi ei chyflwyno gantho ef i'r Cymdeithas a sefydlwyd tuag at chwanegu Gwybodaeth Gristianogawl; a gyfieithiwyd i'r Saesoneg gan Ioan Chamberlayne, Yswain, ag o'i Gyfieithiad ef i'r Gymraeg gan y Parchedig Mr. Evan Evans. Yn Dair Rhan. Y Rhan I. Y pedwerydd argraphiad wedi ei atgyweirio a'i Ddiwygio, ag wedi chwanegu llawer atto allan o'r Argraphiad unplyg mawr a argraphwyd yn Neufchatel, 1744."

"Cynhwysir y gwaith," medd yr un ysgrifenydd, "mewn tair cyfrol bedwarplyg;* cyrheudda hyd ddiwedd y drydedd bennod ar ddeg o Lyfr cyntaf y Brenhinoedd, a therfyna yn y geiriau canlynol:—'A dioeddef ein hunain gael ein denu gan y sawl y sydd yn ceisio ein tynnu oddiwrth ein dyledswydd.'"†

Yr ydym yn casglu mai yn ystod ei arhosiad yn Nhowyn Meirionydd y cyhoeddodd y llyfryn prydyddol Seisnig sydd heb amseriad wrtho, a elwir "The Love of our Country," yr hwn a ddodir gan ei fywgraphwyr yn gyffredin yn 1772.

Nis gallwn ganfod dim a ysgrifenodd y bardd yn Llanberis, sir Gaernarfon, na dim sicrwydd iddo fod yno mewn curadiaeth o gwbl. Yn Aberystwyth yr oedd yn Chwefror a Mai 1779, o'r lle yr ysgrifenodd at Mr. Owen Jones (Owain Myfyr), ysgrifenydd Cymdeithas y Cymmrodorion.‡ Iolo Morganwg a ddywed mewn llythyr at Owain Myfyr, wedi ei amseru y 10fed o Orphenaf, 1780, fel hyn:—

"Y mae Ieuan Fardd ac Offeiriad yn awr yn weinidog Maesaleg; eithr nid oes yno un *Ifor Hael.* Y mae'r Bardd wedi troi yn ddŷn sobr a chrefyddol iawn; ond y mae'r byd yn isel iawn arno. Yr wyf yn meddwl mai yr un tlotaf o'i alwedigaeth yn yr ynys yw. Ni fyddai fawrbeth i'r Cymmrodorion ei anrhegu âg wyth neu ddeg punt, yr hyn a fyddai er mawr les a gwasanaeth iddo ar hyn o dro."

"Dywed Iolo Morganwg, mewn lle arall," medd golygydd "Gwaith" y bardd, "iddo drigiannu dwy neu dair blynedd yng Ngwent a Morganwg; ei fod ef yn dra chydnabyddus âg ef yn ystod y blynyddoedd hyny; ac yr arferai Ieuan fwrw dau ddiwrnod neu dri yn achlysurol yn ei dŷ ef pan yr arhosai yn y cyfryw barthau."§

Y mae'n amlwg nad oedd y bardd mewn unrhyw guradiaeth tu a diwedd 1780, canys mewn llythyr a ysgrifenodd o Lanrhystud ar y 24ydd o Dachwedd y flwyddyn honno, at y Parch. Benjamin Davies, Rhyd-y-gors, efe a ddywed fel hyn:—"Yn fy sefyllfa bresennol, yr wyf yn crwydro draw ac yma ym mysg fy hen gyfeillion a'm cydnabod, nes y gallaf gael rhyw guradiaeth i ymsefydlu ynddi."‖ Mewn llythyr diamseriad a dinodiad o le, a ysgrifenodd yr un flwyddyn, fel y tybir, at ryw "Deilwng Syr," yr hwn, fel y cesglir, ydoedd un o ddisgynyddion Ifor Hael o Wern y Clepa, ond heb fod o'r un anian haelfrydig a'i hynafiaid, fel y gellir casglu oddi wrth y difyniad blaenorol o lythyr Iolo Morganwg, dengys y bardd bod ei iechyd wedi mawr ddirywio.

Ymddengys na bu'r bardd truan ddim haws o adrodd ei gwyn wrth "y cybydd angor" hwnw, ac mai para i adfeilio a wnaeth iechyd y llafurwr diwyd ar ol hyn; ac yna, y dychwelodd yntau, ymhen rhyw ennyd, i'w hen gartref yn y Gynhawdref, i fyw cystal ag y gallai ar 20p. y flwyddyn a roddid iddo gan ei haelfrydedig noddwr diweddaf, Paul Panton, Ysw., Plas-gwyn, Pentraeth.

* "Additional MSS. 15050, 15051, 15052."—Gol. Gwaith E. E.
† Gwaith Evan Evans, t. 9, 10.
‡ Gwaith Evan Evans, t. 245-6.
‖ Yr un, t. 249.
§ Yr un, t. 9.

"Taenwyd llawer chwedl am ddull ac achos ei farwolaeth," medd golygydd galluog ei "Waith," "ac ymhlith pethau eraill, dywedwyd ei farw o newyn ar ben rhyw fynydd anghyspell, ac ar y ffurf hon o'r chwedl y mae ei alarnad Seisnig, gan y Parch. Rhisiart Williams, wedi ei sylfeunu. Ond y gwir yw, yn ol tystiolaeth unfrydol yr ardal, iddo farw o farwolaeth naturiol, ond yn bur ddisymmwth, yn y Gynhawdref, y tŷ y ganed ef ynddo, ym mis Awst, 1789. Claddwyd ef yn Lledrod, ei blwyf genedigol, lle nid oes na maen na mynor yn cofnodi 'man fechan ei fedd.'"*

JOHN ROBERTS.

Fel Siôn Rhobert Lewis, Almanaciwr, Caergybi, yr adnabyddid y gŵr llafurus hwn orau yn ei amser. Ystyriwn ef yn deilwng o gongl ymhlith "Enwogion y Ffydd," o herwydd y mawr les a wnaeth efe trwy gyfrwng ei lyfrau, yn benaf, i oleuno a moesoli ei gydwladwyr. Yr oedd yn oed ei Almanaciau, heb son yn awr am ei lyfrau eraill, yn tueddu at yr amcan daionus hwnw.

Enw tad John oedd Robert Lewis, ac o herwydd hyny gelwid yntau yn gyffredin yn Siôn Rhobert Lewis, yn ol arfer gyffredin y wlad y pryd hyny. Ganwyd John ymhlwyf Llanaelhaiarn, ger llaw Clynog-Fawr, yn sir Gaernarfon, yn y fl. 1731. Amddifadwyd ef o'i fam yn ei fabandod, a magwyd ef gan ei dad a'i fam ynghyfraith. Ni fynegir dim am y dull o'i ddygiad i fynu, heb law y dywedir mai "trwy ei lafur ei hun, heb hyfforddiant neb, a hyny yn gyssylltedig â miloedd o rwystrau, yr ennillodd iddo ei hun enw." Pan yn gwrando Howel Harris yn pregethu unwaith yn ei fro enedigol, effeithiodd arno i'r fath raddau fel y penderfynodd fyned i Drefeca, ac ymuno â'r gymdeithas a ffurfiasid yno gan Harris, a bod yn aelod ynddi holl ddyddiau ei fywyd. Pa wedd bynag, o herwydd rhyw achos anhyspys, nid arhosodd yno ond dros ychydig o wythnosau. Wedi dychwel i Lanaelhaiarn, ymunodd â chymdeithas yr ychydig Fethodistiaid oedd yn y fro, y rhai a gynhalient eu cyfarfodydd cyfrinachol mewn tŷ annedd oedd heb fod ymhell oddi wrth dŷ ei dad; a chan y cyfrifid ef yn uwch o'i ysgwyddau i fynu mewn gwybodaeth na neb braidd yn yr ardal, a bod ei fywyd yn ddichlynaidd a dïargyhoedd, derbyniwyd ef gyd â llawenydd. Yn lled fuan ar ol ei dderbyn yn aelod, barnodd y frawdoliaeth ei fod yn meddu dawn i gynghori yn gyhoeddus, ac annogwyd ef i ymafael yn y gwaith yn ddïymaros; ac yntau a gydsynodd. Dywedir na bu efe erioed "yn bregethwr rheolaidd," sef un wedi myned trwy ryw seremonïau mewn cyfarfod misol a sasiwn, ac mai tuedd ei bregethau oedd at ddymchwel ofergoelion gwageddol yr oes, ynghyd â'r arferion diles oedd yn ffynnu ymhlith pob gradd oedd yn y tir.

Wedi iddo ymroddi i chwilio y Testament Newydd, aeth ei feddwl yn fwy ansectol a rhyddfrydig y naill flwyddyn ar ol y llall, ac o'r diwedd rhoddes ei aelodaeth gyd â'r Methodistiaid i fynu; ond âi i'w cyfarfodydd hwy, a holl sectau crefyddol eraill ei ardal; cyfeillachai yn siriol â blaenoriaid pob plaid, a chadwai ei dŷ yn agored i groesawu pawb a bregethent yr efengyl a ddigwyddent fyned i'r ardal y cyfanneddai ynddi, a hyny mewn amser nad edrychai neb braidd arnynt ond gyd â llygaid cilwgus. Dywedir mai efe a lwyddodd i gael lle i Mr. John Bryan, y Wesleyaid, i bregethu ar ei ymweliad cyntaf â Chaergybi; ac yr oedd yr un mor groesawgar i'r tair plaid arall, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Methodistiaid. Hefyd, byddai yn myned yn lled fynych i'r gwasanaeth yn yr Eglwys Wladol, yn ol arfer y Methodistiaid yn gyffredin yn y dyddiau hyny.

Ymhen rhyw ennyd o amser ar ol dychwel o Drefeca, ymaflodd rhyw afiechyd yn ei goesau, yr hyn a'i lluddiodd i ddilyn ei alwedigaeth am gryn amser. Wedi iddo wella, dechreuodd gadw ysgol; a phan oedd pethau yn myned ym mlaen yn lled ddeheuig, cafodd wŷs o gwrt Bangor am gadw ysgol, ac yntau heb ei drwyddedu i'r gwaith. I Fangor yr aeth, a chafodd yr anrhydedd o ymddiddan â'r "Gwir Barchedig Dad yn Nuw," yr hwn, ar ol maith ymgom ynghylch egwyddorion addysg, a ofynodd iddo, "Ymha le y buoch chwi yn dysgu seryddiaeth?" Yntau a attebodd mewn Saesneg Cymreigaidd o'r fath a feddai ar hyd ei oes, "Ar fryniau Clynog, fy Arglwydd Esgob, wrth gadw defaid fy nhad, ac wrth ymofyn am danynt pan yn myned ar ddisperod." Ymddygodd yr Esgob yn dra thirion tu ag ato; ac ar ol talu'r swm gofynedig, rhyddhawyd ef o grafangau ei erlidwyr. Dyna swm a sylwedd yr hyn a ysgrifenodd ei fab Owen am dano.†

Wedi i Roberts roddi dysgu ei gymmydogion heibio trwy lefaru, ymroddes i ddysgu ei genedl mewn dull mwy parhaus, trwy'r wasg. Heb law ei fod yn llenor Cymreig da yn ei amser, yr oedd hefyd yn meddu dawn prydyddu rhwydd a blasus, ac efe a'i defnyddiai yn gyssylltedig â phob peth

† Gwaith Evan Evans, Rhagymadrodd, t. 6–10; Cambrian Quarterly Magazine, vol. i., pp. 133, 393; Williams's Eminent Welshm., p. 149; Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 542; Enwogion Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 318

† Traethodydd, 1856, t. 465.

braidd a ysgrifenai. Os byddai congl neu dudalen gwâg yn niwedd rhagymadrodd i lyfr, neu ar ddiwedd y llyfr ei hun, efe a'i llenwai â phennillion; ac weithiau gwnai yr holl enwad-ddalen mewn rhydd-farddoniaeth. Yn y dull hwnw y byddai enwad-ddalen ei "Gyfeillion," neu ei Almanaciau, bron bob amser, a rhai llyfrau eraill hefyd, am y gwyddai bod y cyfryw ddull yn bur boblogaidd a chymmeradwy gan y werin yn y dyddiau hyny. Yr Almanac cyntaf a gyhoeddwyd ganddo oedd yr un am y fl. 1760, pan oedd efe tu a 29 oed. Parhaodd i gyhoeddi un bob blwyddyn hyd y fl. 1804, pan oedd efe yn 73 oed, sef am 44 blynedd; a gwerthid o *bymtheg i ugain mil o gopïau* yn flynyddol! ac y mae "Almanac Caergybi" yn para yn ei boblowgrwydd hyd y dydd hwn, er ei fod weithian yn 119 oed! Yr oedd llïaws o awduron, neu gasglwyr, Almanaciau wedi bod ar y maes o flaen Siôn Rhobert Lewis, megis Thomas Jones, John Jones, Siôn Prys, Siôn Cain Jones, Siôn Rhydderch, Evan Davies, Mathew Williams, William Howel, John Harris, ac eraill; ac yr oedd rhai o honynt ar y maes pan ddechreuodd efe ar y gorchwyl. Byddai y gwahanol fân a choeg seryddwyr hyn yn trin eu gilydd yn gethin ar brydiau yn eu rhagymadroddion, gan briodoli anwybodaeth a llen-ladrad i'w gilydd, a hyny yn fynych mewn iaith isel a dichwaeth; ond pan ddaeth Seryddwr Caergybi i'r maes, darfu eu cynnen yn ddisymmwth, a bu un o honynt, o leiaf, mor onest a chydnabod bod "John Roberts yn rhagori arnynt oll." Llyngcodd "Cyfeillion" Caergybi y gwerthiant yn llwyr, "o Fôn i Fynwy;" ac er mwyn ceisio gwerthu yr ychydig sothach a gyhoeddid gan eraill dan yr enw "Cyfaill," arferai y mân werthwyr gyhoeddi yn y ffeiriau a'r marchnadoedd mai "Almanac Caergybi" a fyddai ganddynt, pwy bynag a fyddai yr awdur neu'r casglydd. Aeth ei enw mor enwog trwy'r Dywysogaeth fel y clywid y gwerthwyr yn eigion y Deheudir yn llefain yn y marchnadoedd a'r ffeiriau, "Cyfeillion *Caergybi!*" "Cyfeillion *Caergybi!*" A byddai raid i'r gwerthwyr fyned bron ar eu llw wrth yr ameuthwyr ac eraill mai "Siôn Rhobert Lewis o Gaergybi" a fyddai yr awdur. Nid ydys yn gwybod i neb erioed nodi gwall yn ei "Gyfeillion" ef, am na "newydd-loer" na "dydd gŵyl," yn ystod ei faith gyhoeddusrwydd; a dïau bod hyny yn un elfen bwysig yn ei lwyddiant a'i gymmeradwyaeth. Heb law hyny, gofalai Siôn Rhobert Lewis am fod yr rhagymadroddion a'r holl nodiadau a roddai efe yn ei "Gyfeillion" yn tueddu i lesâu a moesoli eu darllenwyr; a dilynwyd ei esampl yn hyn yn ganmoladwy gan ei olynwyr, ei feibion a'i wyrion.

Yr oedd toll drom ar Almanaciau a argrephid yn Lloegr, Cymru, ac Ysgotland yn amser Siôn Rhobert Lewis, a thros 24 blynedd ar ol ei amser ef; ond nid oedd na threth na dirwy ar y rhai a argrephid yn y Werddon; am hyny, yn Dublin yr argrephid ei "Gyfeillion" yn wastad, ac yno yr argrephid hwy gan ei olynwyr hyd o gylch y fl. 1830, pan ddiddymwyd y dreth ormesol honno.

Yr oedd *Hymnau* yn boblogaidd iawn yn oes Siôn Rhobert Lewis, pan oedd cymmaint o "orfoleddu" yn tori allan dan y pregethau; a hyfryd a fyddai cael pennill newydd i ddarlunio y teimladau crefyddol a gynhyrfid gan ddoniau tanllyd yr hen bregethwyr, a darparodd S. R. Lewis ar gyfer hyny. Y *llyfr* cyntaf a gyhoeddwyd ganddo, yr hwn, er nad yw ei enw wrtho ond fel cyhoeddwr, y gellir casglu wrth ei ansawdd mai efe oedd ei awdur. Ei enw oedd—

"Rhai Hymnau: a gasclwyd ynghyd er Annogaeth a Diddanwch Teulu Sion. Cenwch i'r Arglwydd Ganiad newydd, a'i foliant ef ynghynuilleidfa y Saint. Llawenhaed Israel yn yr hwn a'i gwnaeth: gorfoledded meibion Sion yn ei Brenin. Psalm 149. 1. 2.

"Argraphwyd 'Modedern yn Sir-Fon, gan John Rowland: tros Richard Jones a John Roberts."

Er nad oes amseriad i'r llyfryn uchod, gellir casglu yn deg iddo gael ei argraphu o gylch 1760, neu beth yn gynt, ond odid, canys yr oedd John Rowland wedi mudo i'r Bala erbyn 1761. Y mae argraphwaith y llyfr yn dra gwallus, cyffelyb i'r enwad-ddalen uchod, ac megis yr oedd holl waith argraphyddol J. Rowlands, mewn gwirionedd. Y mae hyspysiad, neu "Rybydd," yn niwedd y llyfr hwn, bod "ar feder dyfod allan (os Duw a'i caniadhâ âg Egoryd Calonnau, Llawer i gynnorthwyo' y gwaith) Lyfr elwir 'Cowyr Ddychwelwr; Gwedi chwanegu atto, y ddwy Bregeth, adawyd Heb eu Cyfieuthu o'r blaen. O waith Thomas Seppard, Gynt o Gollege Emanuel Ynghambrige.'" Yna rhoddir y cynhwysiad yn llawn, a'r "AMMODAU," yn terfynu, "Eich gwasaneuthwr John Roberts, o blwy Caer Gybi ym Mon. Yr arian a dderbynir genifi ac Evan Ellis. Gwerthwr Llyfrau Ple bynag y bo a chan."

Y mae'n sicr mai ail argraphiad y bwriedid i hwn fod o'r llyfr a gyhoeddasid yn y fl. 1657, yr hwn a elwid "Y Cywir Ddychwelwr, yn Datguddio y Nifer bychan o'r rhai Gwir Gredadwy,

a'r anhawsder mawr o droedigaeth cadwedigol,"* &c. Ymddengys na chafodd J. Roberts mo'r gefnogaeth a ddisgwyliai, ac am hyny nid ydys yn gwybod i'r llyfr gael ei gyhoeddi ganddo ef na neb arall mwyach. Er mor aflerw yr argraphodd John Rowland yr Hymnau, ym Modedern; etto, ato ef, i'r Bala, yr aeth John Roberts â'r llyfryn nesaf i'w argraphu, sef—

"Traethawd Byrr yn dangos beth-yw'r Anedigaeth Newydd Ynghyd a difrifol annogaeth i ymofyn am dani A gyfiaethwyd i'r Gymmraeg er Budd i'r Cymru.—Argraphwyd yn y Bala gan John Rowland tros John Roberts."

Treuthodyn 12plyg bychan ydyw hwn, yn cynwys 16 o dudalenau, heb amseriad; ond Gwilym Lleyn a'i cyflea yn y fl. 1762. Gan nad oedd J. Rowland yn gwella dim fel argraphydd, penderfynodd J. Roberts droi at argraphwyr eraill. Y llyfr nesaf a gyhoeddwyd ganddo, er nad yw ei enw wrtho, yw yr un canlynol:—

"Drych y Cristion, neu Gadwedigol Ffydd, wedi ei Datguddio, mewn Ymddiddan—I. Rhwng y Carwr, a'r Cymro: Iw Gymell i Addoli Duw yn ei *Dy*. II. Rhwng *Iesu* a'r *Publican*. I Gyfarwyddo y Pechadur sy'n gweled ei Anheilyngdod. III. Rhwng *Iesu* a'r *Phariseaid*. I Argyhoeddi y Rhagrithiwr sy'n pwyso ar ei waith ei hun. IV. Rhwng *Iesu* a'r *Credadyn* Ammheus. I Gyssuro y Gwir Gristion.—Dublin: Argraphwyd gan S. Powell a'i Fab. MDCCLXVI."

Argraphiad oedd hwn o lyfryn rhagorol a argraphasid gan Thomas Gouge a Stephen Hughes, yn y fl. 1677, a alwyd "Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd,"† a chynhwysai yr holl fân lyfrau oedd yn hwnw, megis "Carwr y Cymro," &c.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd S. R. Lewis y llyfr uchod, sef 1766, pan oedd efe o gylch 35 oed, efe a briododd Margaret, a hi yn 21 oed, merch rinweddol i un John Jones, o Fodedern, yr hwn, yntau hefyd, a gyfrifid yn ddarllenwr mawr, hyddysg yng ngwaith y beirdd; ac yr oedd yn fardd lled wych ei hunan. Bu'r ferch honno yn ymgeledd gymmwys i S. R. Lewis hyd ddiwedd ei oes. Yn y flwyddyn ganlynol ar ol priodi, efe a gyhoeddodd lyfryn etto o'i waith ei hun, enwad-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Hymnau; neu Ganiadau er Mawl a Gogoniant i Dduw. Yn Cynnwys Ocheneidiau, Gryddfanau, Ymdrechiadau, a Byddygoliaethau, y Pererinion, wrth ymdeithio tu a'r Bywyd. Gan John Roberts.—Caerileon: Argraphwyd gan J. Harvie. M.DCCLXVII."

Llyfrynach bychain, a werthid am ychydig geiniogau, oedd y rhai a nodwyd, y sawl a fwriedid gan yr awdur gwladgar i greu awydd yn y dosparth crefyddol o'i gydgenedl am ychwaneg o wybodaeth efengylaidd.

* Llyfr. y Cymry, t. 175. † Yr un, t. 209.

Teimlodd John Roberts, yn lled fuan ar ol dechrau cadw ysgol, bod braidd yn amhossibl dysgu y gelfyddyd fuddiol o rifyddiaeth i blant y dosparth a roddid dan ei addysg ef, trwy gyfrwng y Saesneg, rhag mor fyr oedd y tymmor y cedwid plant y dosparth hwnw yn yr ysgol yn ei amser ef; am hyny penderfynodd ddarpar yn egnïol ar eu cyfer, a ffrwyth y penderfyniad godidog hwnw oedd y llyfr canlynol:—

"Arithmetic: Mewn Trefn Hawdd ac Eglur. I wneuthur y Rheolau Canlynol, yn y Ffordd Cyffredin, Degrannau; ac wrth y Sliding Rule, &c. Gyda chyfarwyddyd i gael arwynebiad, ac Eang-fesur amryw luniau, megis Tiroedd, muriau Tai, a'u pennau, llofftydd, byrddau, Gwydr, Plangciau, Coed ysgwar a chrynion, Llestri a Llongau, &c. O Gasgliad John Roberts.—Dublin, Argraffwyd gan S. Powell, Dame Street, tros yr Awdur. MDCCLXVIII."

Bu'r llyfr defnyddiol yma yn foddion effeithiol i ddwyn ei awdur talentog i sylw pob dosparth o'i gydwladwyr yn Ynys Môn, o hyny hyd ddiwedd ei oes; a daeth galwad mawr am dano i fesur "Llestri, llongau, muriau a phennau tai, coed ysgwar a chrynion," a'r cyffelyb. O herwydd bod ei onestrwydd mor ddïamheuol, ac uniondeb ei farn mor hyspys, yr oedd yn meddu llwyr ymddiried y bobl, ac yn un o honynt, ond yn uwch o'i ysgwyddau i fynu mewn gwybodaeth na hwynt oll. Os byddai dadl rhwng neb â'u gilydd am fesuriad a gwir werth gwaith, i Gaergybi, at Siôn Rhobert Lewis, y cyfeirid er tori'r ddadl; ac, yn gyffredin, boddlonid y ddwyblaid. Yn wir, ystyrid ef megis oracl gan y cyffredin, am agos i bob peth yn ei oes, cyssylltedig â thrafodaeth dynion â'u gilydd. Cafodd ei "Arithmetic" dderbyniad mor wresog gan y genedl, fel y cafodd yr awdur yr hyfrydwch o gyhoeddi ail argraphiad o hono cyn diwedd ei oes, yn y fl. 1796, wedi ei ddiwygio a'i heleuthu; a thrwy gyfrwng yr argraphiad hwnw y dechreuodd yr ysgrifenydd gyrraedd hyny o wybodaeth rifyddol sydd yn ei feddiant, cyn iddo ddechrau ymroddi i ddysgu ieithoedd.

Nid oedd gan y Cymry hyd yn hyn (o leiaf, y Cymry ym Mrydain‡) na Mynegair *(Concordance)*

‡ Y mae'n wir fod Abel Morgan, fel y gwelsom (gwel llyfr v., pen. viii.), wedi cyhoeddi Mynegair bychan, diffygiol, i'r Bibl Cymraeg, yn Philadelphia, Gogledd America, yn 1730; ond dïau nad oedd hwnw gan un o bob deng mil o'r Cymry yn y wlad hon pan oedd Siôn Rhobert Lewis yn ysgrifenu ei Eirlyfr o 1770 i 1773, yr hwn a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd Peter Williams ei Fynegair.

Digitized by Google

na Geiriadur Ysgrythyrol o fath yn y byd, yr hyn a wnaeth i'r craffus Siôn Rhobert Lewis ymroddi i gasglu, cyfieithu, a threfnu defnyddiau at y llyfr pwysig canlynol, er cynnorthwyo ei gydwladwyr amddifaid i chwilio a deall Gair Duw:—

"Geir-lyfr Ysgrythurol: neu Egwyddor, yn Dangos Arwyddocead y Rhan fwyaf o Eiriau, ac Ymadroddion caled, a Natturiaeth Creaduriaid, a Gynnhwysir yn yr hen Destament a'r Newydd. Yn gyttunol a Lityrgi, Erthyclau, a Homiliau, Eglwys Loegr. Wedi ei Dalfyru, gan mwyaf allan o Eirlyfr y Parchedig Mr. Wilson, &c. Gan John Roberts.—Argraphwyd yn Nulyn gan S. Powell. M,DCC,LXXIII."

Llyfr 12plyg ydyw hwn, yn cynnwys 282 o dudalenau, ynghyd âg arweinolion, yn cynnwys 3 thudalen "At y Darllenydd;" 4 tudalen ar "Ardderchawgrwydd yr Ysgrythyr Lan, ynghyd a Rhagymadrodd i'r Llyfr hwn, ar fesur Cerdd;" 2 dudalen "Am helynt a chyfieithiad y Bibl;" ac 1 tudalen yn cynnwys "Cyfarwyddyd i'r Anwybodus Ddyall y Llyfr hwn." Yr oedd y llyfr rhagorol hwn yn wir werthfawr yn ei ddydd, a byddai yr un mor werthfawr etto ped ail argrephid ef yn ofalus, mewn dull diweddarach, ac yn llythyraeth bresennol ein Bibl, canys gwnai lawlyfr gwir odidog i athrawon a deiliaid yr Ysgol Sabbothol, ac eraill o ddarllenwyr y Bibl; a gresyn calon na chymmerai rhywun medrus y gorchwyl mewn llaw. Teimlwn ein hunain yn falch bod ein hynafiaid difanteision yn gallu gwerthfawrogi y fath lyfr defnyddiol, y cyntaf erioed o'i gyffelyb iddynt hwy, canys gwerthwyd yr argraphiad cyntaf yn rhwydd; a daeth cymmaint o alwad am ail argraphiad, fel y calonogwyd yr awdur, yn y fl. 1788, i hyspysu y bwriadai gyhoeddi ail argraphiad llawer helaethach o hono. Yn y cyfamser, yr oedd y Parch. Thomas Charles o'r Bala yn llafurio yn yr un maes toreithiog; a'r canlyniad fu i Siôn Rhobert Lewis werthu yr ysgifeniadau a barotoisai efe at y Geirlyfr i Mr. Charles; ac yr oedd y teulu yn cwyno'n dost am na buasai Mr. C. yn cydnabod hyny yn ei ragymadrodd i'w "Eiriadur Ysgrythyrol," fel y cydnabu'r Parch. Peter Williams "Gyd-gordiad Egwyddorol o'r Scrythyrau," gan Abel Morgan, yn ei ragymadrodd i'w "Fynegair Ysgrythyrol."*

I Siôn Rhobert Lewis y priodolir y llyfr canlynol:—

"Caniadau Preswylwyr y Llwch, neu Hymnau ac Odlau y Gwaredigion o Wlad yr Aipht i Gaersalem Newydd. . . MDCCLXVII."

Nid oes enw argraphydd nac awdur wrth y llyfr hwn; ond gan fod hyspysiad cyssylltedig âg ef am gyhoeddiad yr "Athrofa Rad," gan yr un awdur, ac am y "Diferyn Dewisol o Fel," i Siôn Rhobert Lewis y priodolir ef. Y llyfr diweddaf a gyfansoddwyd gan yr awdur llafurus hwn, heb law ei "Gyfeillion," hyd y canfyddwn, oedd yr un canlynol:—

"Yr Athrofa Rad. O gasgliad a myfyriad John Roberts. M,DCC,LXXXVIII."

Math ar sillebydd mawr ydyw hwn. Heb law yr enw uchod, y mae'r gweddill o'r tudalen cyntaf wedi ei lenwi, fel y byddai ei "Gyfeillion," â phrydyddiaeth arweiniol. Yr oedd hwn yn llyfr tra chymmwys i hyfforddi hunan-ddysgwyr, y rhai a fynnent fod yn hyddysg mewn darllen y pryd hwnw, cyn sefydliad yr Ysgol Sabbothol; ac y mae'n ddilys ddïammau i laweroedd ddyfod yn ddarllenwyr medrus heb ddim cynhorthwy ond a gawsant yn yr "Athrofa Rad" hon, trwy wneud defnydd o honi yn eu horiau hamddenol ar hirnos gauaf, ac amseroedd eraill; a gresyn oedd gollwng yr "Athrofa" hynafol yma i ebargofiant.

O ran y dŷn oddi allan, yr oedd Siôn Rhobert Lewis yn dalach na chyffredin, ac yn gorphol a phur nerthol. Yr oedd ei wyneb yn siriol, ond o edrychiad penderfynol, a'i dalcen yn uchel a llydan. Yr oedd ei ffraethder yn ddïarhebol. Gwelwyd hyny yn ei atteb i Esgob Bangor, ac y mae amryw esamplau eraill ar gof a chadw. Gofynai rhyw offeiriad iddo unwaith, gan ddywedyd, "Ymha le yn y Bibl y ceir cefnogaeth i gynnal 'Seiat Fisol?'" gan gyfeirio at "Gyfarfod Misol" y Methodistiaid. Yntau a attebodd yn y fan, "'Bydd hefyd o newydd-loer i newydd-loer, ac o Sabbath i Sabbath, i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron, medd yr Arglwydd;' ac y mae'r lloer yn newydd yn fisol, fel y dywedwch pan welwch hi gyntaf ar ol y newydd, 'Dyna leuad newydd.'" Dyna "geuad ar biser" hwnw; ond pe gofynasai yr offeiriad, "Ymha le yn y *Testament Newydd* y ceir cefnogaeth i gynnal 'Seiat Fisol?'" gyrasai y gŵr ffraeth i fwy o benbleth.

"Ar un o'i helyntion trwy siroedd Gwynedd," medd ei fab, Owen Roberts, "ac efe yn sefyll ar bont, canfu ddŷn yn cyfeirio tu ag ato, yr hwn, wedi ei gyfarch, a ddywedodd wrtho ei fod ef yn wybodus yn y gwyddorion tywyll, ac y medrai ddangos pa anffodion a ddigwyddai iddo, a rhoddi iddo gynghorion fel y gallai ochel pob perygl; a'r cyfan am swllt. Pan glybu yntau eiriau y twyllwr, 'Y gŵr mwyn,' eb efe, 'a wyddoch chwi eich tynged eich hun?' 'O! gwn,' ebr y dŷn; 'yr wyf yn berffaith hyspys o bob amgylchiad a'm cyferfydd; a gwn pa fodd i ochel pob dŷn a fo a'i fryd ar fy niweidio.' Gyda'r gair, ymaflodd fy nhad ynddo (dŷn mawr o gorph a chryf oedd

* Llyfr. y Cymry, t. 543-5.

fy nhad), a bwriodd ef bendramwnwgl dros y canllaw i'r dwfr; a phan welodd ef wedi cael glan, dywedodd, 'Gwylia, dwyllwr! rhag dyfod i'm cyfarfod byth mwy â chenadwri fel yna, rhag digwydd i ti beth a fo gwaeth.'"

Dywed Mr. O. Roberts ymhellach fel hyn am dano:—

"Yr oedd gwraig fonheddig yn byw nid llawn can milltir o Gaergybi, gan yr hon yr oedd awrlais wedi anhwyluso; a chan fod fy nhad yn medru'r gelfyddyd o drin y cyfryw beiriannau, anfonwyd am dano i'w adgyweirio. Cyfrifid y foneddiges yn un gybyddlyd a chrintachlyd, ac yn un na chredai roddi digon o ymborth i'r rhai a'i gwasanaethai. Wedi rhoddi'r cloc mewn hwyl, cyrchwyd fy nhad i'r neuadd at y gweinidogion i gael cinio; ac wedi i'r cyfan a ddodasid ar y bwrdd ddiflannu, daeth y fenyw i mewn, a chan edrych ar fy nhad, gofynodd, 'John, a gawsoch chwi ddigon?' Edrychodd yntau arni yn ffrochlyd, gan ddywedyd, 'Digon! do, Madam, cefais ddigon i godi'r newyn oddi ar ei nyth.' Dywedir i'r atteb byr ond cynhwysfawr hwnw gael y fath effaith ar y wreigan, fel na chlybuwyd cwyn byth mwy yn ei phalas o herwydd prinder bwyd."

Dywedodd ei fab, Robert Roberts, y deuaryddwr, wrth yr ysgrifenydd yr arferai ei dad unwaith fyned yn lled gysson i Eglwys y Plwyf; ond gan fod pob defodau a seremoniau anysgrythyrol yn bur atgas yn ei olwg; pan droai'r gwrandawyr eu hwynebau tu a'r dwyrain, troai yntau ei wyneb tu a'r gorllewin, yr hyn a barai ofid dwys i'r offeiriad. O'r diwedd, cyfarfu yr offeiriad âg ef yn fwriadol, a gofynodd iddo yn bur chwyrn, "John Roberts, paham y trowch chwi eich wyneb bob amser tu a'r gorllewin, pan y try'r gynnulleidfa ei hwyneb tu a'r dwyrain?" Yntau a attebodd yn bur hamddenol, "Ofn fydd arnaf, syr, i ryw anffawd ddyfod o'r gorllewin pan fydd yr holl gynnulleidfa â'i chefn tu ag yno, fel y gallwyf ei rhybuddio os digwydd rhyw berygl." Ffromodd yr offeiriad yn aruthr wrth yr atteb ffraeth a digyffro, ac aeth ymaith yn ddigllon. Ymhen rhyw ennyd wedyn, cyfarfu yr offeiriad âg ef drachefn, a gofynodd iddo, "John Roberts, a wyddoch chwi eich bod wedi eich ysgymmuno o'r Eglwys am eich ystyfnigrwydd yn troi eich wyneb i'r gorllewin, bob amser pan dry'r gynnulleidfa ei hwyneb i'r dwyrain?" "Na wn wir, syr," eb yntau yn bur ddigyffro. "Wel," eb yr offeiriad, "yr wyf fi wedi eich ysgymmuno er ys tair wythnos bellach." "Wel, yn wir, syr!" eb yntau yn bur ddifrifol, "nid wyf fi yn teimlo dim o'r effaith ar fy nghorph na'm meddwl; am hyny y mae'n ymddangos i mi mai peth pur ddibwys ydyw eich ysgymmundod, fel llawer o wag ddefodau eraill a arferir genych."

Canfu John Roberts argoelion amlwg, tu a diwedd 1803, ei fod yn cyflym ddynesu tu a phen ei yrfa ddeuarol; er hyny, cyfansoddodd "Gyfaill" am y fl. 1804, a hyny trwy ymdrech galed. Ar ddiwedd hwnw dododd y llinellau tarawiadol a ganlyn:—

"Ffarwel, gyfeillion mwynlan,
Yn gyfan oll i gyd;
Eich annerch mwy nis gallaf
Tra byddaf yn y byd:
Mae fy synhwyrau'n darfod,
Hawdd imi wybod hyn;
Ac mae y dydd yn nesu
I'm claddu yn y glyn."

Parodd y llinellau yna, nid yn unig i deulu, ond i genedl, alaru. Bu'r awdur llafurus ac enwog farw ar y 19ydd o Fedi, 1806, yn 75 oed. Pan gyrheuddodd y newydd am ei farwolaeth y Brifddinas, cynhygiodd aelodau Cymdeithas y Cymmrodorion wobr am yr englyn gorau i'w gerfio ar gareg ei fedd, ac i'r un canlynol y dyfarnwyd y wobr:—

"Yn ei oes o foes a fu—ŵr llesawl,
Arlloesai o Gymru
Bob gwag arfaeth o draethu
Hwyl, haul a sêr, leufer lu." *

---

## PENNOD VIII.

### JOHN GRIFFITHS, THOMAS FOULKES, A DAFYDD JONES O LAN-GAN.

JOHN GRIFFITHS, neu "GRIFFITHS GLANDWR," fel y'i gelwid er pan oedd tu ag 28 oed hyd ddiwedd ei oes, ydoedd fab i ameuthwr cefnog a breswyliai mewn ffarm a elwid Castell-garw, ymhlwyf Llanglydwen, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn y fl. 1731. Y mae enwau ei rieni yn anhyspys i ni; ond dywedir mai efe oedd y trydydd o'u plant. Ni wyddys chwaith pwy oedd ei athraw cyntaf; ond gan y bwriadai tad John ei ddwyn i fynu yn offeiriad i'r Eglwys Sefydledig, anfonwyd ef pan yn lled ieuangc i ysgol yn Hwlffordd, a gedwid gan offeiriad dysgedig yn yr Eglwys Wladol a elwid Tusker. Wedi iddo fod yn yr ysgol honno dros ryw dalm o amser, dychwelodd adref, a chychwynodd ysgol ei hun yng Nglandwr, heb fod ymhell o'r Castell-garw, preswylfod ei rieni. Pan wrth y gorchwyl hwnw, ac yn cyfeillachu, y mae'n debyg, â John David, oedd yn weinidog eglwys Annibynol Glandwr ar y pryd, rhoddes Griffiths i fynu bob meddwl am fyned yn offeiriad, ac ymunodd â'r eglwys Annibynol yng Nglandwr; ac yn lled fuan wedyn, annogwyd ef gan yr eglwys i ddechrau pregethu, â'r hyn y cydsyniodd yntau.

* Traethodydd, 1856, t. 464–76.



Digitized by Google

Ni fynegir pa fodd yr ymddygodd ei rieni ato ar ol iddo droi yn Annibynwr; ond y mae lle i gasglu nad oeddynt yn ffafriol iawn iddo, canys dywedir y derbyniwyd ef yn fyfyriwr i Athrofa Caerfyrddin ar y 7fed o Hydref, 1754, pan oedd efe yn 23 oed, "ar draul y Bwrdd Cynnulleidfaol," ac nid ar draul ei rieni. Wedi iddo fod yn yr athrofa honno am ychydig gyd â blwyddyn, tynodd y Bwrdd Cynnulleidfaol ei gynhorthwy yn ol oddi wrth Athrofa Caerfyrddin, o herwydd y drwgdybid bod Samuel Thomas, gweinidog eglwys Annibynol Heol Awst, Caerfyrddin, yn Belagiad neu Ariad; a sefydlodd y "Bwrdd" athrofa arall yn Abergefenni, dan ofal athrawol un David Jardine. Symmudodd pedwar o'r myfyrwyr o Gaerfyrddin i Abergefenni i'r athrofa newydd, ac yn eu plith yr oedd Griffiths.

Pan fu farw y Parch. John David, yn 1757, ail weinidog yr eglwys Annibynol yng Nglandwr, derbyniodd J. Griffiths alwad yr eglwys, â'r hon yr ymunasai efe gyntaf, yn olynwr iddo; ac ar yr 20fed o Fehefin, 1759, urddwyd ef yn weinidog iddi gan John Davies, Tre-lech, a David Jardine, ei athraw yn Abergefenni.

Yr oedd cylch pregethwrol J. Griffiths yn ehang iawn, canys dywedir mai canghenau o eglwys Glandwr oedd Capel Ieuan, yn sir Gaerfyrddin; Pen-y-groes, yn sir Benfro; Rhyd-y-ceisiaid; Nantlleddfon, ymhlwyf Clydau; a Llandudoch, ger llaw Aberteifi.

Er maint oedd cylch pregethwrol Mr. Griffiths, dechreuodd gadw ysgol yn ebrwydd ar ol ymsefydlu yng Nglandwr, a pharhaodd i'w chadw hyd oni luddiwyd ef gan y parlys a hen ddyddiau; a dywedir ei fod yn *ysgol-feistr diail.* Cafodd amryw offeiriaid eu haddysg yn ei ysgol ef; ac nid oedd nemmawr o bregethwyr Annibynol yng Nghymru, o 1760 hyd 1800, nad oeddynt wedi bod dros rywfaint o amser yn ysgol enwog Glandwr, ac mewn canlyniad i hyny daeth "Griffiths" a "Glandwr" yn enwau anwyl ac adnabyddus trwy Gymru oll agos yn hir cyn diwedd y 18fed ganrif.

Ymhen rhyw ennyd ar ol iddo ymsefydlu yng Nglandwr, efe a briododd Dinah, merch Mr. Dyfnallt, neu *Devonald,* o'r Graig, ymhlwyf Llanfynach, yr unig ffarmwr yn y plwyf, fel y tybir, oedd y pryd hwnw yn Ymneillduwr proffesedig. Yr oedd gan Mr. Dyfnallt ddwy ferch a dwy ffarm hefyd, sef y Graig a Glandwr, y rhai a roddes efe i'w ferched. Bu Mr. Griffiths a'i wraig byw am beth amser ar ol priodi yn Nant-y-Seison, sef rhan o'r Graig. Wedi hyny, rhodd Mr. Dyfnallt ffarm Glandwr i'w ferch, Mrs. Griffiths, ac aeth hi a'i gŵr yno i fyw; ac yno y buant hyd derfyn eu hoes. Dywedir bod Mrs. Griffiths yn un o'r gwragedd parchusaf yn yr holl wlad, a'i bod yn dra rhagorol o ran ei synwyr a'i gras. Bu hi fyw dros rai blynyddau ar ol ei phriod.

Yr oedd cateceisio yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o waith gweinidog yn oes Mr. Griffiths, Glandwr, ac yr oedd pob gweinidog yn yr oes honno, i raddau mwy neu lai, yn gateceiswyr lled dda; ond ymddengys bod J. Griffiths yn rhagori ar y rhan fwyaf, os nad arnynt oll. Catecism Byraf y Gymmanfa oedd y llyfr a ddefnyddid ganddo i egwyddori y cynnulleidfaoedd, i'r rhai yr oedd yn weinidog, mewn gwybodaeth grefyddol. Cadwai gyfarfodydd egwyddori yn gysson ymhob un o'r lleoedd a wasaneuthid ganddo; a thrwy ei fedr a'i lafur dibaid, gwnaeth aelodau y cynnulleidfaoedd y pregethai iddynt yn fwy gwybodus mewn duwinyddiaeth nag odid unrhyw bobl yn y wlad. Cyhoeddodd argraphiad neu ddau o "Gatecism Byraf y Gymmanfa," gan ddiwygio gwallau yr argraphiadau blaenorol. Dywedir hefyd iddo gyhoeddi argraphiad diwygiedig o gyfieithiad Mathias Maurice (Morus) o waith y Dr. John Owen, a elwir fel hyn:—

"Byr Hyfforddiad yn Addoliad Duw, a Disgyblaeth Eglwysi y Testament Newydd." *

Ni fynegir ymha flynyddau y cyhoeddodd John Griffiths y llyfrau crybwylledig; ond y mae genym sicrwydd iddo gyhoeddi'r llyfr canlynol fel y mynegir isod:—

"'Stafell Gyfaill: neu Gyfarwyddid i Ddynion difrifol, yn y Ddyledswydd bwysig o Hunan Ymholiad, i'r diben i'w osod i fynu yn nirgel 'Stafell y Cristion, mewn Trefn i'w atgofio a'i gynnorthwyo yn y Gwaith. A gyfieithwyd gan y Parchedig I. Griffith, o Glandwr.—Caerfyrddin Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. 1791." †

Dywedir y cyfansoddodd ac y cyhoeddodd farwnad i Mr. Morris Griffiths, Trefgarn, yn cynnwys un ar ddeg o bennillion, ar y mesur "Gwel yr Adeilad." Dywed awduron *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*—"Nid ydym yn gwybod iddo gyhoeddi dim heb law y pethau hyn."

Cafodd John Griffiths (*Griffith* ydyw yn y llyfr blaenorol, fel y gwelir) dymmor maith ac iechyd da i lafurio yngwinllan ei Arglwydd, a gwnaeth yntau y gorau o'i dalentau lliosog; ac er y mwynhaodd lawer o gysur yn y gwaith, bu raid iddo

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 51.
† Llyfr. y Cymry, t. 660.

Digitized by Google

ddioddef cryn lawer o anghysur, yn enwedig yn y rhan olaf o'i yrfa grefyddol. Bu yno ddau ymraniad wedi iddo fyned i wth o oedran. Yr oedd efe a'r rhan fwyaf o'r eglwys yn uchel-Galfiniaid; ond cododd yno blaid o isel-Galfiniaid, neu Arminiaid, medd rhai. Ymneillduodd y blaid hon dan arweiniad un Dafydd Phylip, ac adeiladodd gapel a elwir Rhyd-y-Parc. Yn y fl. 1799, daeth William Griffiths, mab John Griffiths, adref o Athrofa Gwrecsam; ac amlygodd y rhan fwyaf o'r eglwys awydd am ei urddo yn gydweinidog â'i dad, â'r hyn y cydsyniodd yr hen ŵr. Gan mai isel-Galfiniad oedd W. Griffiths, tramgwyddodd yr uchel-Galfiniaid wrth yr hen weinidog a phlaid ei fab, ac ymneillduasant dan arweiniad un William Evans, yr hwn a urddasid yn 1798, yn gynnorthwywr i John Griffiths; ac adeiladasant gapel a alwyd yn Hebron, o fewn tu a thri chwarter milltir i gapel Glandwr.

O herwydd yr anghydfod a nodwyd, nid ymddengys i W. Griffiths gael ei urddo fel cynnorthwywr i'w dad hyd 1803, pan y tarawyd John Griffiths gan y parlys, ac efe yn 72 oed. Bu'r hen bregethwr doniol, dysgedig, a llafurus, yn analluog wedyn i wneud nemmawr yn gyhoeddus hyd derfyn ei oes. Bu farw ar y 7fed o Dachwedd, 1811, yn 80 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Glandwr.*

### THOMAS FOULKES.

Y gŵr hwn ydoedd un o'r "cedyrn a fu wŷr enwog gynt," pan oedd Methodistiaeth yn ei babandod, yn dlawd, ac heb ei llwyr wared oddi wrth erledigaeth; a dengys ei hanes mewn modd hynod beth a ddichon gras a thalentau ei wneuthur tu ag at i ddynion fod yn wir ddefnyddiol yn eu hoes a'u cenhedlaeth. Un na chafodd ond ychydig iawn o ddysg a choethder, yn ol syniadau yr oes fursenaidd hon am y cyfryw bethau, oedd Thomas Foulkes; er hyny, gwnaeth les amhrisiadwy i'w gydgenedl trwy ymdrech, egni, a dyfalbarhâd.

Ganwyd ef yn y fl. 1731, ymhlwyf Llandrillo-yn-Edeyrnion, yr hwn sy'n gorwedd ynghesail y mynyddoedd rhwng Corwen a'r Bala, yn sir Feirionydd. Nid ymddengys i T. Foulkes gael dim mwy o ysgol nag a'i galluogai i ddarllen ac ysgrifenu ychydig. Pan oedd efe tu a 23 oed, aeth i Gaerlleon, a bu yno a'r pentrefi cylchynol dros ryw yspaid o amser; ond ni wyddys beth oedd ei orchwyl yno. Tu a'r fl. 1755, aeth i wrando ar John Wesley yn pregethu yn un o'r ardaloedd hyny (yr hyn a brawf ei fod yn deall Seisneg ar y pryd), pan y dwys argyhoeddwyd ef, ac ymunodd â'r gymdeithas Wesleyaidd yn Neston, ger llaw Caerlleon; ond bu mewn trallod dirfawr am ei gyflwr dros gryn flwyddyn wedi hyny, "a'r pryd hyny," yn y fl. 1756, eb efe, "fe'm cymmodwyd â gwir heddwch trwy Iesu Grist, fy anwyl Waredwr."

Ymhen rhyw ennyd ar ol hyn, dychwelodd i Gymru, ac aeth i aros yn y Bala, lle yr ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, ac yno priododd ferch i un o'r crefyddwyr a elwid Gruffydd Siôn, yr hwn oedd gynghorwr yn eu plith. Bu ei wraig farw yn lled fuan, gan adael un plentyn dan ei ofal, yr hwn hefyd a fu farw cyn bo hir. Tybir ei fod erbyn hyny wedi dechrau pregethu gyd â'r Methodistiaid yn y Bala. Yr oedd gwraig weddw rinweddol iawn y pryd hyny, a elwid Mrs. Jones, gyd â'i merch, a'i henw Sarah, yn cadw siop yn y Bala, ac mewn sefyllfa gysurus. Priododd Thomas Foulkes y wraig weddw honno, ac ni bu undeb erioed mwy dedwydd, canys yr oedd hi, fel ei gŵr, yn hynod mewn duwioldeb a phob rhinweddau Cristionogol. Yr oedd y ddau yn dra haelionus at bob achos da; a pho mwyaf a gyfranent, mwyaf oll a dywalltai Rhagluniaeth i'w rhan.

Yr oedd Foulkes yn arfer darllen llawer o lyfrau y ddau Wesley, a theimlai awydd i'w gydwladwyr fwynhau yr un fraint. Am hyny, ymunodd ef â'i gyfaill John Evans, oedd o'r un deimlad a'r un oedran ag ef, yn y fl. 1759, i gyhoeddi dwy bregeth o waith Charles Wesley, y naill ar "Deffro di, yr hwn wyt yn cysgu," &c., a'r llall ar "Bydd barod, Israel, i gyfarfod â'th Dduw." Bernir hefyd ei fod yn cynnorthwyo John Evans i gyhoeddi "Y Prif Feddiginiaeth," a'r "Natur Bwriad a Cyffredin Rheolau y Cymdeithasau unedig," &c.† Nid ydys yn gwybod bod gan Mr. Foulkes law mewn cyhoeddi dim arall. Fel pregethwr teithiol y cyflawnodd efe fwyaf o waith dros ei Waredwr. Pregethai ymhob man y caffai gyfleusdra: mewn ffarmdai, mewn bwthynod bychain ar ochrau mynyddoedd, mewn ysguboriau, ac yn aml iawn yn yr awyr agored. Codai yn forau, o bedwar i bump yn yr haf, ac o bump i chwech yn y gauaf, yn enwedig ar forau Suliau, pan fyddai ganddo daith

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 44-7, 50 1; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 428; En. Cymru, I. F., t. 412.

† Gwel y bennod flaenorol o'r gwaith hwn. Hefyd, Llyfr. y Cymry, t. 450, 462; Method. Cymru, cyf. i., t. 502.

Digitized by Google

bell o'i flaen; a chymmerai fara a chaws yn ei boced pan fyddai yn myned i leoedd tlodion, fel y digwyddai fynychaf. Anfynych y cychwynai i'w daith nos Sadwrn, rhag pwyso ar ei frodyr tlodion. Dywedir nad oedd yn ddoniol iawn fel pregethwr; ond yr oedd yn hynod o wlithog ar amserau, a byddai dylanwadau anghyffredin yn cydfyned â'i draddodiad weithiau, fel y tystia *Senex*, sef ei gyfaill John Evans, yn y *Drysorfa*.*

Byddai teithiau Sabbothol Thomas Foulkes weithiau o gylch deugain neu driugain milltir. Pregethai dair neu bedair gwaith ymhob math ar leoedd, fel y cai dderbyniad; a derbyniad pur oer a gaffai mewn llawer man. Lle y byddai croesaw, gwael iawn a fyddai'r lluniaeth yn gyffredin; ond nid oedd yr hen genhadon ymroddgar, oedd yn arloesi y wlad erbyn yr oesau mwythus hyn, yn gofalu fawr am y croesaw a'r lluniaeth, pe buasent hebddo trwy'r dydd, os caffent lonydd heb eu herlid a'u beuddu. Ar ol ei deithiau meithion a llafurus ar y Sabboth, dychwelai Mr. Foulkes adref yn hwyr; a byddai i fynu drannoeth yn ddiwyd gyd â'i fasnach, mor forau a neb yn y dref. Gwiriwyd geiriau Solomon yn llythyrenol ynddo ef mewn mwy nag un ffordd, sef "Enaid y diwyd a wneir yn fras."

Er y perchid Mr. Foulkes, yn gyffredin, yn oed gan elynion crefydd, o herwydd ei fuchedd sanctaidd a dïargyhoedd, a'i helaeth elusengarwch; etto, bu mewn perygl rai gweithiau am ei fywyd wrth gynnyg pregethu i anwariaid ei oes. Yr oedd Methodistiaid y Bala wedi cymmeryd tŷ dan brydles, a elwir Pant-y-cra, i bregethu ynddo, o fewn tu a milltir o dref Dolgellau. Un Sabboth, yr oedd addewid i Mr. Foulkes fyned yno i bregethu. Teunodd y son am hyny; a phan ddaeth yr amser, ymgasglodd gwerinos *(rabble)* y wlad a'r dref yno yn lluoedd, gan fygwth, os deuai efe yno, y lladdent ef, ac y claddent ef mewn pwll mawn ger llaw. Pan glywodd rhai o'r cyfeillion am fwriad y dorf fileinig, aethant i gyfarfod Mr. Foulkes, ac attaliasant ef rhag myned yno. Wedi i'r erlidwyr gael eu siomi felly, rhuthrasant ar y tŷ, a thynasant ran o hono i lawr; ond wedi ystyried eu bod yn agored i gosp cyfraith, adgyweiriasant ef drachefn.† Dro arall, yr oedd Mr. Foulkes yn pregethu yn Maentwrog, sir Feirionydd; ac ymaflodd yr erlidwyr ynddo ef, ac mewn gwraig barchus o'r gymmydogaeth, a thaflasant hwy i'r afon. Niweidiwyd y wraig yn dost yn y codwm, trwy iddi ddisgyn ar gareg yn yr afon; ac aeth adref wedi ei llychwino gan waed, a'i hanafu i'r fath raddau fel y bu'n gorwedd dros ennyd o amser. Yna ysgrifenodd ei mab at gefnder iddo oedd yn gyfreithiwr yn Llundain, gan egluro iddo yr holl drafodaeth. Anfonodd hwnw at ddynes gyfoethog (nid yw deilwng i'w galw yn "foneddiges") oedd yn rhoddi'r erlidwyr ar waith, i'w bygwth â chyfraith y tir. Wedyn cafwyd llonydd i addoli yn yr ardal honno.

Yn y fl. 1783, priododd y Parch. Thos. Charles, o'r Bala, Sarah, merch ynghyfraith (merch gwraig) Mr. Thos. Foulkes, yr hon oedd mor hoff ganddo a phe buasai yn ferch naturiol iddo ef ei hun. Cafodd Mr. Charles gymmeryd ei gartref yn gysurus wedyn yn y siop gyd â'i wraig, a'i dad a'i fam ynghyfraith. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol y digwyddiad dedwydd yma, cymmerwyd gwraig rinweddol Mr. Foulkes yn glaf hyd angau, er galar dirfawr i'r teulu bychan, dedwydd. Pan ofynodd ei merch, Mrs. Charles, iddi, wrth ei gweled yn prysur ymlithro i "lyn cysgod angau," am y gobaith oedd ganddi, dywedodd hithau yn siriol a hyderus wrthi, "Y mae genyf gydwybod dawel, fy ngeneth i, trwy waed yr Oen, canys ynddo ef y mae fy ngobaith i am fywyd tragywyddol." Bu farw mewn tangnefedd heddychol ar y 26ed o Hydref, 1785.

Rhoddes Mr. Foulkes y fasnach i fynu, yn lled fuan wedyn, i'w ferch ynghyfraith a Mr. Charles, ac enciliodd i fyw ar yr hyn a ynnillasai, gan fwriadu byw yn weddw, fel yr ymddengys, hyd ddiwedd ei oes. Pa wedd bynag, wedi byw felly yn weddw am tu a dwy flynedd, meddyliodd nas gallai fod yn gysurus felly yn hwy, ac ymroddes y drydedd waith i ymofyn am "ymgeledd gymmwys;" a tharawodd wrth ferch hynod o dduwiol y waith hon etto, yr hon oedd yn aelod gyd â'r Methodistiaid yn y Bala, sef Miss Lydia Llwyd, merch Simon Llwyd, Ysw., Plas-yn-dre, Bala, a chwaer y Parch. Simon Llwyd, awdur enwog yr *Amseryddiaeth Ysgrythyrol*. Bendithiwyd y briodas hon âg wyth o blant. Wrth weled ei deulu yn lliosogi, a'i wraig yn ieuangc (27 mlynedd yn iau nag ef), ac yntau yn heneiddio, barnodd mai ei ddyledswydd oedd ail ymaflyd mewn masnach. Ond gan nad oedd yn dewis drygu dim ar ei ferch ynghyfraith a Mr. Charles, trwy godi masnach yn y Bala, ymhlith ei hen gwsmeriaid, symmudodd i Fachynlleth, lle yr ymsefydlodd mewn masnach eang; a chan fod uniondeb ei gymmeriad a'i

* Trysorfa, llyfr ii., t. 517–8 † Yr un, llyfr ii., t. 137–8.

Digitized by Google

gywirdeb masnachol yn ddiharcb trwy yr holl wlad, bendithiodd Rhagluniaeth ef â llwyddiant mawr.

Pan aeth efe i Fachynlleth gyntaf, yr oedd yr ychydig Fethodistiaid oedd yno yn dlodion a dirmygus, ac heb gapel nac un lle cysurus arall i addoli ynddo; ond wedi ei fynediad ef yno, newidiodd agwedd pethau yn fuan er gwell. Yr oedd ei sefyllfa barchus, ei ymarweddiad dïargyhoedd, ei onestrwydd masnachol, a'i fawr haelioni, yn creu parch a gwrandawiad iddo, na allasai neb o'r crefyddwyr truain eraill oedd yn y dref eu cael. Llwyddodd yn lled fuan ar ol ymsefydlu yno i gael lle i adeiladu capel arno, yn Heol Maelgwyn; a chododd y pererinion eu penau bellach, uwch law bygythion a gwaradwydd, i'r sawl yr oeddynt yn agored gynt. Meiddient fyned yn awr ar hyd yr heolydd i'w cyfarfodydd crefyddol, yn lle gorfod myned yn llechwraidd, y tu cefn i'r dref, fel yr arferent cyn i Mr. Foulkes fyned yno. Yr oedd ei sefyllfa bwysig ef ym Machynlleth, yr hon a saif megis rhwng y De a'r Gogledd, yn dra manteisiol i'r teithwyr Methodistaidd ac eraill a elent o'r naill dalaeth i'r llall i bregethu yr efengyl i'r trigolion amddifaid a hanner anwaraidd, canys yn lle cael eu herlid a'u beuddu ym Machynlleth fel cynt, caent dderbyniad croesawgar yno bellach, a lletty hael a chysurus, yn nhŷ Mr. Foulkes a'i briod rinweddol. Yn wir, bernir mai er mwyn hyn, yn benaf, yr ymsefydlodd efe ym Machynlleth, yn anad un dref arall yn y Gogledd. Teithiodd yntau hefyd, yn ddyfal iawn, i bregethu ymhell ac yn agos, yn y ddwy dalaeth, hyd oni phallodd ei nerth, ychydig cyn ei farwolaeth.

Wele ni weithian wedi dilyn y gŵr enwog, llafurus, a gonest hwn, hyd yn agos i derfyn ei daith ddeuarol. Gwelsom y coleddai Mr. Foulkes y meddyliau tyneraf at y Wesleyaid byth ar ol iddo gael ei argyhoeddi dan bregeth y Parch. John Wesley: yn wir, nid oedd rhagfarn at un blaid grefyddol yn cael dim lloches ym mynwes haelfrydig Mr. Foulkes. O gylch y fl. 1800, digwyddodd i bregethwr Wesleyaidd, pan ar ei daith o'r Werddon, fyned trwy Fachynlleth; a phan wrth y tollborth, gofynodd a oedd rhyw bobl grefyddol yn y dref, a chyfarwyddwyd ef i dŷ Mr. Foulkes, lle y derbyniwyd ef gyd â chariad a llettygarwch Cristionogol. Drannoeth, pregethodd y gŵr dïeithr, ar gais Mr. Foulkes, yng Nghapel Maengwyn, i gynnifer ag a allasid gael yn deall ychydig Saesneg. Wedi i'r pregethwr fyned i Loegr, ymddengys iddo adrodd yr holl hanes wrth ei gyfeillion; ac yn fuan wedyn, ysgrifenodd y Gynnadledd Wesleyaidd at Mr. Foulkes, yn cynnyg anfon gweinidog i ddechrau achos Wesleyaidd yn y dref. Gan ei fod ef wedi treulio ei holl oes grefyddol gyd â'r Methodistiaid, ac wedi bod yn llwyddiannus a chwbl gysurus yn eu plith, a'i fod yn ofni achosi dim cynnwrf crefyddol yn y lle, barnodd mai doethineb oedd iddo beidio atteb llythyr y Gynnadledd.

Pa wedd bynag, yn nechrau Mai, 1802, galwodd y Parch. Owen Davies a'r Parch. John Hughes, y ddau genhadwr Wesleyaidd a bennodasid gan y Gynnadledd i ddechrau achos yng Nghymru, yn nhŷ Mr. Foulkes, gan hyspysu pwy oeddynt, a pha beth oedd eu neges. Nid oes angen hyspysu iddynt gael eu derbyn i'w dŷ gyd â serch a chariad efengylaidd. Y borau drannoeth (dydd Sadwrn), pregethodd y ddau ŵr dïeithr, am 10 o'r gloch, yng nghapel y Methodistiaid, yn Heol Maengwyn. Testyn Mr. Davies oedd Phil. i. 21, "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw;" a chyn diwedd y gwasanaeth, cymmerwyd Mr. Foulkes yn glaf iawn, ac aeth adref yn llesg ym mraich ei anwyl briod. Bu hi yn serchus, gofalus, a dyfal iawn tu ag ato, nos a dydd, tra y parhaodd ei gystudd; ac yr oedd yn awyddus iawn am wybodaeth sicr o sefyllfa ei feddwl cyn ei farwolaeth. Un noswaith, gofynodd un o'i forwynion ffyddlawn, yr hon a eisteddai i fynu gyd âg ef trwy'r wythnos y parhaodd ei gystudd, â'i meistres ger llaw, a gai hi newid agwedd ei orweddiad yn y gwely; i'r hyn yr attebodd yntau yn berffaith dawel, "Nid oes fatter, fy ngeneth i, ymha agwedd y byddo fy nghorph: y mae fy ngobaith yn eglur ac yn gadarn yn fy Ngwaredwr bendigedig!" Dyna'r geiriau olaf a lefarodd; ac yn y fan, penliniodd Mrs. Foulkes wrth y gwely, â'i meddwl yn llawn o gysur, wrth glywed ei dystiolaeth gadarn a siriol. Yr oedd hi wedi cael mynych dystiolaeth o'r blaen, yn ystod y pedair blynedd ar ddeg y bu'n briod âg ef, ddarfod iddo rodio gyd â Duw mewn gwirionedd: er hyny, yr oedd yn dra awyddus am glywed ei dystiolaeth olaf, a chafodd ei llawn foddloni. Bu farw ddydd Sadwrn, y 15fed o Fai, 1802, yn 71 oed, mewn cyflawn obaith am fwynhâd o anllygredigaeth a bywyd tragywyddol, "wedi bod yn pregethu," medd un o'i fywgraphwyr, "tu a deugain mlynedd."*

* Traethodydd, llyfr vi., t. 397; En. Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 367; En. Cymru, I. F., t. 353.

Digitized by Google

### DAFYDD JONES O LAN-GAN.

Dafydd Jones, neu "Jones o Lan-gan," fel yr adnabyddir ef er ys dros gan mlynedd bellach yng Ngwynedd a Deheubarth, a anwyd mewn tŷ ffarm a elwid Aberceiliog, ymhlwyf Llanllwni,* sir Gaerfyrddin, ar wastadedd hyfryd glan yr Afon Teifi, yn y fl. 1735. Tri o blant oedd gan ei rieni, y rhai oedd yn ameuthwyr cefnog, sef un mab hynach na Dafydd, ac un ferch. Bwriadai y rhieni ddwyn eu mab hynaf i fynu yn offeiriad Eglwys Loegr, a Dafydd yn ffarmwr, fel ei dad; ond syrthiodd Dafydd pan yn blentyn ieuangc i bair llawn o laeth berwedig, a bu agos iddo gael ei ysgaldian i farwolaeth; a bu'n wanaidd iawn dros rai blynyddau, yr hyn a barodd i'r tad newid ei gynllun, trwy ddwyn Dafydd i fynu yn offeiriad, a'i frawd hynaf yn ffarmwr. Arferai Jones ddywedyd, mewn cyfeiriad at hyn, "Y mae nodau achos fy ngalwedigaeth ar fy nghefn."

Ni wyddys odid ddim, gyd â sicrwydd, am ei addysg foreuaf; ond y mae un dywediad o'i eiddo pan yn blentyn yn awgrymu mai ei fam a ddysgodd iddo ddarllen y Bibl, a'i fod yntau yn bur hyddysg ynddo er yn blentyn. Un diwrnod, ymhen hir amser ar ol y llosgiad, ond cyn i Dafydd bach wella oddi wrth ei effeithiau, efe a ymwthiai yn llesg at ei fam. Hithau, rhwng difrif a chwarau, a roddes hwth esmwyth iddo, gan ddywedyd, "Druan o honot! yr wyf wedi blino yn dy fagu." Edrychodd yntau yn ei hwyneb yn dyner a difrif, a dywedodd yn y fan, "Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn." Cyn iddo ond prin orphen yr ymadrodd, cipiodd ei fam ef i'w breichiau, gwasgodd ef at ei mynwes, a dywedodd, "Am y gair yma, mhlentyn i, mi'th fagaf di yn llawen tra byddaf byw." Nid rhyfedd i un mor ffraeth ac mor hyspys yn yr Ysgrythyrau, pan yn blentyn egwan, ddyfod, mewn amser dyfodol, yn ddigon galluog i ysgwyd Cymru benbaladr; ïe, cafodd

"Llundain boblog, falch, derfysglyd
Glywed llais ei bibell ef:
Cafodd wybod fod yng Nghymru
Un yn llawn o ddoniau'r nef."

Yn Athrofa Caerfyrddin y cafodd hyny o ddysg athrofaol a fwynhaodd. Tybir iddo gael "urdd dïacon" o gylch y fl. 1757, canys dywedir iddo gael "urdd offeiriad" tu a'r fl. 1758, a chael curadiaeth Llanafan-fawr, yn sir Feirionydd, yr un flwyddyn. Symmudodd oddi yno yn fuan i ryw guradiaeth yn Lleyn, sir Gaernarfon; eithr ni bu ei arhosiad yno chwaith ond o fyr barhâd, canys ceir ef yn gwasaneuthu plwyfau Trefethin† a Caldicot, yn sir Fynwy, yn y fl. 1760, ymhen dwy flynedd ar ol cael ei urddo. Beth oedd yr achos o'r symmudiadau cyflym yma, i bellderau mor feithion oddi wrth eu gilydd, ni fynegir. Yr oedd yn cael ei ystyried o'r dechrau yn bregethwr ennillgar ac effeithiol; ond yn ystod ei arhosiad yn y lleoedd a nodwyd olaf, yn sir Fynwy, y cafodd deimlo nerth achubol y gwirionedd ar ei enaid y tro cyntaf, a dywedir mai darllen gwaith yr enwog Flavel a fu'n foddion i'w ddychwelyd at Dduw. Ymddangosodd y cyfnewidiad yn ei bregethau yn gystal ag yn ei fuchedd. Parodd hyn gyffro dirfawr yn yr ardal, y thynai dyrfaoedd lïosog i'w wrando. Ond tynodd hyny wg ei beriglor arno, a chafodd ar ddeall yn fuan ei fod yn rhy dduwiol ac ymroddgar i fod yn gurad Llanfethin a Chaldicot, canys rhoddwyd rhybudd iddo i ymadael yn ddïoed. Symmudodd oddi yno i ryw blwyf, na hyspysir ei enw, ger llaw Caerodor. Yr oedd yn rhy dduwiol, yn rhy lafurus, ac yn rhy ddifrifol i fod yn y lle hwn hefyd ond dros fyr amser; ac wedi i'r person ei fwrw allan oddi yno, cafodd guradiaeth yn rhywle yn Wilts. Ond nid oedd derbyniad na llonyddwch i gurad o'i ysbryd ef i'w gael y pryd hwnw yn Lloegr mwy na Chymru. Yr oedd y "tân sanctaidd" oedd yn enaid Dafydd Jones yn "dân dïeithr" i berchenogion bywioleuthu eglwysig ar y pryd; am hyny, ni fynnent hwy fyw yn ei wres a'i angerddoldeb. Pa wedd bynag, wedi ei ddodi yn y peiriau annymunol a nodwyd, gofalodd Rhagluniaeth ddaionus am dano o'r diwedd, trwy ddarpar ymwared iddo. Tra'r oedd Mr. Jones yn sir Wilts, ymddengys iddo fyned yn gydnabyddus rywfodd â'r enwog Iarlles Huntingdon, yr "Arglwyddes etholedig" oedd â'i llygaid ar ffyddloniaid y tir, i'w cyfarwyddo a'u noddi yngwasanaeth eu Harglwydd. Yr oedd yr Iarlles dduwiol hon wedi bod yn foddion i ddwyn pendefiges arall at y Gwaredwr, yr hon weithian oedd o gyffelyb ysbryd a hithau, sef yr Arglwyddes Charlotte Edwin, perchenog etifeddiaeth ehang yn sir Forganwg, yn hawl yr hon yr oedd personoliaeth **LLAN-GAN**, neu, fel y geilw gwŷr Morganwg y lle, *Llangana*. Pan

* Enwir y plwyf hwn gan wahanol ysgrifenwyr Cymreig diweddar yn *Llanllueni*, *Llanllieni* (enw Cymraeg *Leominster*, yn sir Henffordd), a *Llanllawnwy*; ond *Llan Llwni* ydyw yn y Myv. Arch., t. 746.

† "Tref Ddyn" ydyw enw y plwyf hwn yn y Myv. Arch., t. 749.

aeth y bersonoïaeth honno yn wâg yn y fl. 1768, cyflwynodd yr Arglwyddes Edwin hi, ar annogaeth yr Iarlles dduwiol, i DAFYDD JONES, ac efe yn 33 oed.

Plwyf bychan ydyw Llan-gan ynghanol gwlad, rhwng Penybont-ar-ogwy a Phont-y-fôn (neu y Bont-faen, fel y'i gelwir ar lafar gwlad), ym Mro Morganwg, ac yn Esgobaeth Llandaf. Gwelir, gan hyny, nad oedd Llan-gan ond lle bychan, dinod, cyn sefydliad Mr. Jones yno; ond wedyn daeth yn enwog trwy holl Gymru, a llawer o Loegr hefyd, mewn cyssylltiad â'i enw ef, a bydd felly tra y darllenir ieithoedd y ddwy wlad, os nad yn llawer hwy. Wedi i Mr. Jones ymsefydlu yno, cafodd waredigaeth oddi wrth draws awdurdod personiaid, y rhai nad allent gydymdeimlo â'i yspryd ef, na goddef ei lafur a'i ymroddiad fel pregethwr effeithiol a llwyddiannus. Wedi iddo gael y waredigaeth honno, dechreuodd yrfa hirfaith o wasanaeth a fydd byth mewn coffadwriaeth fendigedig. Yr oedd Llan-gan, a'r ardaloedd o amgylch, pan aeth Mr. Jones yno, nid yn unig bron yn llwyr amddifaid o grefydd, ond hefyd yr oedd moesau ac arferion y trigolion yn druenus o isel a llygredig. Gwylmabsantau, nosweithiau llawen, chwaryddieuthau a champau llygredig, ymladdau dynion a cheiliogod, a'r cyffelyb ryseddau annuwiol, oedd yn myned â holl feddylfryd trigolion yr ardaloedd, "Sul, gŵyl, a gwaith." Hefyd, "Deillion oedd eu gwyliedyddion: ni wyddent hwy oll ddim, cŵn mudion oeddynt hwy oll, heb fedru cyfarth; yn cysgu, yn gorwedd, ac yn caru hepian. Ië, cŵn gwangcus, ni chydnabyddent â'u digon, a bugeiliaid ni fedrent ddeall; wynebent oll ar eu ffordd eu hun, pob un at ei elw ei hun o'i gwr."* "Gwyrasant oll, aethant i gyd yn anfuddiol; nid oedd un yn gwneuthur daioni, nac oedd un."† "Ac oedd yr un fath, bobl ac offeiriaid."‡

Y fath oedd maes llafur Mr. Jones. Cyn ei fynediad ef yno, yr oedd yr holl fröydd fel "Tir Zabulon, a thir Naphtali, wrth ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, Galilea y Cenhedloedd;" ond pan aeth efe yno, "Y bobl oedd yn eistedd mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr, ac i'r rhai a eisteddent ym mro a chysgod angau y cyfododd goleuni iddynt."§ Clybuwyd rhyw sŵn dïeithr yn Eglwys Llan-gan: sŵn yr efengyl dragywyddol ydoedd. Dechreuodd y bobl ymdyru at eu gilydd, gan ofyn, mewn syndod, "Beth yw hyn?" Ymgasglai y rhai y cyffyrddasai yr Arglwydd â'u calonau yno o holl gyrau'r wlad, yn enwedig ar y Suliau misol, pan ddeuai'r brodyr ynghyd i gofio am farwolaeth eu Gwaredwr mawr. Dylifai'r bobl yno ar y Suliau hyny yn forau; llïaws mawr ar feirch, ond llawer mwy ar draed, o bellderau meithion, megis y Wig, Llanffa, Ty'r-croes, Tregolwyn, Pen-y-bont, Trelelas, y Pil, Llangynwyd, Margam, ac Aberafon; ïe, ac yn oed o Langyfelach, y Gopa, ac Abertawe. Ar forau "y Sabboth cymmundeb" yn gyffredin, byddai rhyw "gynghorwr" yn annerch y gynnulleidfa yn ysgubor y persondy, neu yn yr ydlan o'i hamgylch, pan fyddai y gynnulleidfa yn rhy lïosog i'r ysgubor, am 9 o'r gloch, canys nid elai Jones ei hun i'r llan hyd hanner awr wedi 10. Ond ni chyfyngai Jones ei hun i Lan-gan yn unig, nac at bulpud yr Eglwys Blwyfol, nac at ei gwasanaeth defodol, nac at ei gwisg Iuddewig. Nid dirmygus ganddo ef oedd yr ysgubor, yr heol, y tŷ annedd, cysgod pren, neu lechwedd mynydd; rhywle, a phob lle, y rhoddid cyfleusdra iddo i bregethu Crist a'i groes. Ni phetrusai gyfarch pechaduriaid oddi ar ben ystôl, neu fol clawdd, mwy nag o fewn mur cyssegredig y fonwent. Ceid ef weithiau yn arddangos yr Eglwyswr urddedig, ac yn cyflawni yr hyn oll a ofynid ganddo yn y canonau awdurdodedig. Ceid ef drachefn wedi cymmeryd ei safle ychydig yn is, ac yn pregethu yn llawn gwres a llwyddiant ynghapelau hanner eglwysaidd yr Iarlles Huntingdon. Ac os parheid i'w ddilyn, ceid ef ar safle is etto: cyfarfyddid âg ef, fel yr awgrymwyd, mewn capel, neu dŷ annedd, ar ganol maes, neu ar ochr bryn, yr un mor ewyllysgar, a chyd â llawn cymmaint o sirioldeb, a llawer mwy o lwyddiant, yn utganu mewn utgorn mawr, ac â'i holl enaid yn cymmell pechaduriaid i "ffoi rhag y llid a fydd." Ond os newidiai ei safle, ac os amrywiai ei ddiwyg, safai yn gysson at yr un testyn, ac annelai yn gywir at yr un nôd. Od oedd yn glerigwr direol, yr oedd yn efengylwr digymmar; od oedd yn Eglwyswr anghysson, yr oedd yn Gristion hardd a dïargyhoedd. Yr oedd yn prisio cymmeradwyaeth Duw yn fwy na gwenau y mawrion; a gwell oedd ganddo ddychwelyd pechaduriaid o'u ffyrdd drygionus, na llïosogi unrhyw sect neu gyfundeb.

Byddai Mr. Jones yn arfer teithio llawer i bregethu trwy Ddeheudir a Gogledd Cymru, a llawer parth o Loegr, heb law y Brifddinas. Gan ei fod

* Esa. lvi. 10, 11. † Rhuf. iii. 12. ‡ Hos. iv. 12
§ Mat. iv. 15, 16; Esa. ix. 1, 2.

yn gydnabyddus â'r Iarlles Huntingdon, arweinid ef yn fynych i efengylu ym mysg y Saeson, yn y gwahanol gapeli a berthynent i'r bendefiges honno. Yr oedd yn dda gan y cynnulleidfaoedd hyny gael mwynhau ei bregethau, ac yr oedd yn dda ganddo yntau dalu ymweliad â hwy; a byddai bob amser yn gwneud yr ymweliadau hyny â chyfoethogion Lloegr yn fantais i dlodion Cymru. Prin yr elai un amser i Llundain, neu ddinasoedd Seisnig mawrion eraill, na byddai yn hau pethau ysprydol iddynt hwy, ac yn medi eu pethau cnawdol hwythau er lles ei genedl ei hun. Byddai ganddo ryw gapel, neu ysgoldy eisiau ei gyfodi, neu dalu am dano, yn wastadol; ac yr oedd arian at y cyfryw achosion daionus yn anhawdd iawn eu cael yng Nghymru, rhag mor ychydig oedd nifer y crefyddwyr y byddai angen am y fath adeiladau, a'r rhai hyny, gan mwyaf o lawer, yn isel eu hamgylchiadau. Yr oedd ei olwg boneddigaidd, ei ddull deniadol, a'i ddawn hyawdl, yn meddu'r fath ddylanwad ar ei wrandawyr, fel nas gallai neb o honynt attal eu rhoddion oddi wrtho, at ba un bynag ai capeli, ysgoldai, ai tlodion y casglai. Adroddai yr hen bobl lawer hanesyn digrif am dano mewn cyssylltiad â'i gasgliadau. Cymmerer esampl neu ddwy. Pan yn casglu unwaith yn un o gapeli Llundain, digwyddodd bod Cymro yno yn gwrando. Gollyngai y pregethwr holl ffrwd ei hyawdledd a'i ffraethineb ar y bobl, er mwyn eu cynhyrfu i gyfranu. Teimlai'r Cymro y cwlwm oedd rhyngddo â'i arian yn cyflym ddattod; ac yn y man, heb allu ymattal yn hwy, llefodd yn iaith ei fam ynghanol y Seuson, "Jones! Jones anwyl! ymattaliwch, da chwi! onid e, bydd raid i mi roi'r cwbl a feddaf, ac ni bydd genyf ffyrling i'm cludo adref!" Dro arall, yn yr un ddinas fawreddog, eglurai hanes Petr yn bwrw ei fach i'r môr, ac yn cael pysgodyn â darn o arian yn ei enau, yn y modd mwyaf effeithiol at ei bwrpas. Borau dranoeth, curai gwas boneddiges gyfoethog wrth ddrws ei letty, gan adael basged yno, â chyfeiriad arni, "*To Rev. Mr. Jones, Llangan, Wales.*" Erbyn ei hagor, wele bysgodyn ynddi, a llythyr yn ei safn, yn cynnwys ysgrif am *ddeg punt.* Yr oedd Mr. Jones yn gweled llaw yr Arglwydd yn yr amgylchiad mor amlwg ag y gwelai Petr hyny yn ei amgylchiad yntau.

Yn y fl. 1775, ymhen saith mlynedd ar ol ei fynediad i Lan-gan, prynodd ddwy erw o dir ym Mhencoed, tu a thair milltir i'r gogledd o Lan-gan. Adeiladwyd capel yno, yr hwn a ystyrid yn un mawr dros ben ar y pryd; ac adeiladwyd ystabl ragorol i geffylau y pregethwyr o'r tu cefn iddo, a buarth helaeth i geffylau y gwrandawyr. Rhanwyd y gweddill o'r tir yn ddau gae, neu berci, fel y'u gelwir gan bobl Ceredigion; un i gael porfa i geffyl y pregethwr yn yr haf, a'r llall i gael gwair iddo erbyn y gauaf. Adeiladwyd "tŷ capel" cysurus yno hefyd, i lettya pregethwyr teithiol y Methodistiaid. Galwyd y capel yn Salem; a hwn oedd y capel cyntaf perthynol i'r cyfundeb yn sir Forganwg, oddi eithr y Groeswen a'r Aberthyn. Costiodd y tir a'r adeiladau yn Salem lawer o arian; ond ni orphwysodd y casglydd hyawdl a llafurus nes cael y cyfan yn gwbl ddiddyled. Dangosai Mr. Jones serch mawr at y capel hwn ar hyd ei oes. Pregethai bob dydd cyntaf o'r wythnos yn Eglwys Llan-gan yn y borau, am hanner awr wedi 10, ac yn Salem am 2 yn y prydnhawn. Yn y capel yma hefyd y cynhelid y cyfarfodydd bob amser, yn wythnosol; a chyfarfod rhagbarotoawl unwaith yn y mis, sef am 1 o'r gloch ddydd Sadwrn o flaen "Sul y Cymmundeb." Byddai y cyfarfodydd misol hyn yn boblogaidd iawn, gan y byddai lluoedd o ddïeithriaid, fel y crybwyllwyd eisoes, yn dyfod o bellderau mawrion iddynt, er mwyn cael cyfranogi o swper yr Arglwydd.

Yr oedd yr erlid mawr, creulon, fel y cyfryw a ddïoddefid gan yr hen Ymneillduwyr, o William Wroth hyd Edmund Jones; ac a ddïoddefai yr hen Fethodistiaid, o Howel Harris hyd Peter Williams, wedi lleddfu i raddau mawr a dymunol erbyn amser Dafydd Jones o Lan-gan; er hyny, cafodd yntau brofi mai gwir oedd geiriau ei Waredwr wrth ei ddisgyblion, sef "Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd. Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau hefyd." Yr oedd ganddo lawer o elynion eiddigus ym mysg personiaid a deiliaid eraill yr Eglwys Sefydledig, yn enwedig un gŵr goludog oedd yn byw yn ei blwyf ef, yr hwn oedd yn dra ffyrnig wrtho, am fod cynnifer o bobl yn dyfod i Lan-gan, ac yn "dryllio'r eglwys." Yr oedd amryw wŷr eglwysig amgylchynol hefyd yn mawr gynfigenu at boblowgrwydd "yr offeiriad Methodistaidd." Blinai y giwed erlidgar hyny y Dr. Barrington, Esgob tyner Llandaf, âg achwyniadau parhaus yn ei erbyn; ac wedi hir ddïoddef, meddyliodd yr Esgob o'r diwedd y rhaid galw Jones i gyfrif. Pan alwyd y pregethwr hyawdl ger ei fron, efe a ddywedodd wrtho, "Y mae'n ddrwg genyf, Mr. Jones, bod achwyniadau yn

eich erbyn yn dyfod i'm clustiau yn barhaus. Dywedir wrthyf eich bod yn pregethu mewn lleoedd anghyssegredig." "Naddo erioed, fy arglwydd," ebr yntau: "pan roddes Mab Mair ei droed ar y ddeuar, cyssegrodd bob modfedd o honi. Oni buasai hyny, yr wyf yn ofni na wneuthai unrhyw gyssegriad o eiddo eich arglwyddiaeth ddaioni yn y byd." Boddiodd yr atteb yr Esgob yn fawr, a chafodd Jones fyned ymaith yn ddigerydd. Er bod Jones yn parhau i bregethu ymhob man y cai gyfle etto, fel o'r blaen, gwelodd ei elynion yr Esgob Barrington ac yntau yn rhodio fraich ym mraich, gan ymddiddan â'u gilydd yn gyfeillgar, er mawr ofid calon i'r cynfigenwyr. Y gwir yw, nad oedd yr Esgob da hwnw yn dewis ei attal, a hoff fuasai ganddo pe buasai y lleill o offeiriaid diffrwyth ei esgobaeth yn fwy tebyg iddo. Symmudwyd y Dr. Barrington, yn y fl. 1782, i Esgobaeth Salisbury, a gosodwyd y Dr. Watson yn ei le ar Esgobaeth Llandaf. Adnewyddwyd yr achwyniadau yn ebrwydd ar y pregethwr ffyddlawn a phoblogaidd, a gwnaed pob ymdrech i lanw meddwl yr Esgob newydd â rhagfarn yn ei erbyn. Ymddengys iddo yntau lwyr benderfynu ei orfodi i aros yn ei blwyf ei hun, neu ei ddisgyblu yn ol y gyfraith; ond wedi iddo gael cyfle i'w adnabod yn well, newidiodd ei feddwl. Galwodd ef o'r neilldu ar ddydd ei ymweliad ym Mhont-y-fôn, a dywedodd wrtho y rhaid iddo ymgadw yn ei blwyf ei hun: nad oedd rhyddid iddo ymyryd â phlwyfi eraill, nes iddo gael sail gadarn i gredu bod pob enaid yn ei blwyf ef wedi ei achub. Mr. Jones a attebodd yn ostyngedig, "Yr wyf yn teimlo rhwymedigaeth arnaf, fy arglwydd, i gydsynio â'r cymmelliadau teurion a ddylifant ataf o blwyfi eraill, lle yr esgeulusa yr offeiriaid eu dyledswyddau, a lle y mae'r trigolion truain yn meirw o eisiau gwybodaeth." Yr Esgob a ddywedodd, "Os felly, rhaid i mi gymmeryd mesurau i'ch attal." A Jones a ddywedodd yn ostyngedig, ond cwbl benderfynol, "Gellwch chwi wneud hyny, fy arglwydd; ond nis gallaf fi newid fy mhenderfyniad." Synodd yr Esgob yn ddirfawr wrth weled y fath wroldeb digyffro, wedi ei gyssylltu â'r fath ostyngeiddrwydd boneddigaidd, a gofynodd yn bryderus, "A oes genych deulu, Mr. Jones?" Yntau a attebodd, "Oes, fy arglwydd; y mae genyf wraig a thri o blant." Yr oedd yr Esgob erbyn hyn wedi ei orchfygu, ac wedi newid ei wedd a'i lais, a dywedodd yn addfwyn, "Wel, Mr. Jones bach, nis gallaf fi mewn modd yn y byd feddwl am eich niweidio; ond y mae offeiriaid plwyfi P—h a Ff— yn wrthwynebol dros ben i chwi. Gwnewch hyn, attolwg, ar fy nghais: peidiwch a myned i'w plwyfi hwy." "Gwnaf, fy arglwydd," ebr yntau; a chadwodd ei air.

Bu farw yr enwog Iarlles Huntingdon yn y fl. 1791, er mawr alar a cholled i Mr. Jones, ynghyd â llawer eraill; a thraddododd yntau bregeth angladdol ar ei hol, yng Nghapel Spafields, Llundain, ar y 3ydd o Orphenaf y flwyddyn honno, yr hon a argraphwyd yn ebrwydd. Nid ydym yn gwybod i'r bregeth honno gael ei chyfieithu i'r Gymraeg.* Nid oedd hyn ond dechrau gofidiau i'r tyner Jones o Lan-gan, canys ymhen tu a blwyddyn wedi hyny, sef ar y 5med o Awst, 1792, bu farw ei wraig rinweddol a duwiol, Sina, yn 60 oed, gan ei adael ef, dau fab, a merch, yn amddifaid a galarus iawn. Dygodd un o'i feibion i fynu yn offeiriad; am y llall, dywed yn un o'i lythyrau, "Y mae Dan ym Mhen-y-bont, ac hyd yn hyn yn aflwyddiannus;" a dywedir mai ym Mhen-y-bont ac yn aflwyddiannus y bu hyd ei fedd. Priododd ei ferch un Mr. Llewelyn, tyddynwr cyfrifol yn yr ardal; a mab iddynt hwy yw'r Dr. Llewelyn, Deon Tŷ Ddewi, a phrif athraw Coleg Dewi Sant, Llanbedr.

Yn y fl. 1793, bu Mr. Jones ar fin priodi âg un Miss Read, merch i'r enwog feddyg Read, o Bont-y-moel, ger llaw Pont-y-pwl; ac ymddengys bod diwrnod y briodas wedi ei bennodi. Yr oedd cymdeithasfa yng Nghaerffili o gylch yr amser hwnw. Bwriadai yntau briodi drannoeth ar ol y gymdeithasfa; ond er ei fawr syndod, pan aeth i ymddiddan â'r foneddiges, diwrnod neu ddau cyn y cyfarfod, cafodd ei bod hi wedi llwyr newid ei meddwl, ac na fynnai hi briodi ar unrhyw gyfrif. Dywedai rhai o'r brodyr oedd yno ei fod yn "ymddangos yn dra isel ei yspryd ar ginio;" ac nid yw hyny ryfedd yn y byd. Er mor ofidus yr amgylchiad, pregethodd yn ardderchog yn y gymdeithasfa ar Ruth i. 16, "Dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fydd fy Nuw innau." Dywedai chwaer Miss Read mai hon oedd un o'r pregethau rhagoraf a glywodd ganddo erioed. Ymhen ychydig fisoedd ar ol hyn, ysgrifenodd lythyr at y foneddiges ieuangc, yn yr hwn y dywedai—"Er eich bod wedi troi yn Orpah i mi, yr wyf yn gobeithio y galluogir chwi gan ddwyfol ras i fod yn Ruth i'm hanwyl Arglwydd, o blegid yr wyf yn gostyngedig hyderu eich bod wedi eich priodi am

* Llyfr. y Cymry, t. 662.

byth âg efe." Ymhen rhyw ennyd wedyn, priododd Mr. Jones foneddiges gyfrifol a chrefyddol o Manorowen, yn agos i Aber-gwaun, yn sir Benfro, a chyd â hi yno y preswyliodd o hyny allan; er hyny, parhaodd i fyned yn fisol i Lan-gan hyd ei fedd.

Gwelsom eisoes fod Mr. Jones yn barod, bob amser, i gefnogi pob achos a ystyriai efe yn dda er moesoli a chrefyddoli y byd. Yr oedd efe yn un o'r rhai cyntaf i bleidio cychwyniad Cymdeithas Genhadol Llundain *(London Missionary Society)*; a nodwyd ef i bregethu y bregeth genhadol yn ail gyfarfod cyffredinol y gymdeithas honno yn Llundain, ar y 13ydd o Fai, 1796, tu a dau fis cyn i'r fintai gyntaf o genhadon gael eu hanfon i Ynysoedd Môr y De. Yn adroddiad y cyfarfod pwysig hwnw, gwnaed y sylw canlynol ar bregeth Mr. Jones:—"Ar ddydd Gwener, dibenwyd ein cyfarfodydd cyhoeddus â phregeth ragorol gan y Parchedig Mr. Jones, o Lan-gan. Y mae ei ddull a'i yspryd ef yn rhy adnabyddus i wneuthur unrhyw ganmoliaeth oddi wrthym ni yn angenrheidiol." Cyhoeddwyd y bregeth hon ddwywaith, o leiaf, yn Saesneg (yr iaith y traddodwyd hi): unwaith yn y gyfrol gyntaf o'r *Missionary Sermons* (y Pregethau Cenhadol), ac wedyn yn llyfryn gan T. Chapman, Fleet Street, Llundain. Ac ymhen rhyw amser ar ol i'r awdur farw, cyhoeddwyd hi yn Gymraeg, dan yr enw canlynol:—

"Pregeth Genhadol a Bregethwyd yng Nghapel Seion, Llundain, ym Mai 1796, gan y diweddar Barch. D. Jones, Llanganna. Cyfieithedig, ac Argraffedig, gan E. Griffiths, Abertawe."

Ond "angau yw terfyn pob dŷn byw:" felly hefyd "dyddiau" Jones o Lan-gan "a nesasant i farw," a rhyfedd mor ddigyffro y wynebai efe frenin y dychryniadau. "Ni frysia yr hwn a gredo." Y gymmanfa olaf y bu ynddi, tu ag wythnos cyn ei farwolaeth, oedd cymmanfa Llangeitho. Pwngc mawr y cymmanfaoedd y blynyddau hyny oedd neillduad pregethwyr lleyg, a elwid "cynghorwyr," i "gyflawn waith y weinidogaeth," sef i fedyddio a thori bara, cystal a phregethu, i'r hyn yr oedd Mr. Jones ac amryw o'r "offeiriaid" Methodistaidd eraill yn dra gwrthwynebol. Dywedodd efe yn y gymmanfa honno—

"Mi fentrais i fy mara beunyddiol er mwyn bod gyd â chwi, a chyd â chwi y cefais fod hyd yma; ond os ydych chwi yn myned i rwygo yr achos, ewch eich hunain: ni ddeuaf fi gyd â chwi ymhellach."

Pregethodd yn y gymmanfa honno gyd â hwyliau neillduol ar Ioan vi. 55, "Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddïod yn wir." Dywedir bod y miloedd oedd yn ei wrando yn hyfryd fwynhau y wledd am yr hon y llefarai. Wrth ddychwel adref, pregethodd yn y Capel-newydd, sir Benfro, ar Esa. i. 18, "Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd: pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wyned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Hon oedd y bregeth olaf a draddododd, a dywedir ei fod mewn hwyl nefolaidd yn cyhoeddi maddeuant rhad. Cyrheuddodd ei gartref, Manorowen, ar ddydd Gwener, y 10fed o Awst, a deallodd yn ebrwydd bod ei yrfa ddeuarol yn prysur ddirwyn i ben. Ymwelwyd âg ef ddydd Sadwrn gan y Parch. T. Harris, o Abertawe wedi hyny. Yn ystod yr ymddiddan âg ef, tynodd allan ei logell-lyfr, a darllenodd Esa. xlv. 24, "Yn ddïau yn yr Arglwydd (medd un) y mae i mi gyfiawnder a nerth." Yr oedd wedi ysgrifenu yr adnod felus hon yn ei lyfr er y dydd Iau blaenorol. "Hon sydd genyf, anwyl Harris," eb efe, "ac y mae'n ddigon i'm nerthu i wynebu'r byd arall wrth fy modd." Yn y prydnhawn, dywedwyd wrtho bod y cyfeillion wedi ei gyhoeddi i bregethu yn Woodstock drannoeth. "Y maent yn eon iawn arnaf," medd yntau; "ond nid yn fwy felly na'r croesaw." Dywedai wrth un o'i forwynion nos Sadwrn, "Lettice fach, y mae yma lonaid y tŷ o weision lifrai y nef wedi dyfod i gyrchu fy enaid tu ag adref. Paid a chymmeryd ofn, da merch i, os tarewi wrth esgyll rhai o honynt." Bu farw cyn toriad gwawr Sul, y 12fed o Awst, 1810, yn 75 oed, wedi pregethu yn y dull godidog a nodwyd am 52 mlynedd.*

## PENNOD IX.

### BENJAMIN DAVIES, REBECCA JONES, A BENJAMIN EVANS.

Benjamin Davies ydoedd fab ieuengaf y Parch. Rees (Rhys) Davies, Canerw, Llanfoidy, sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn y fl. 1739. Yr oedd ei dad yn dirfeddiannydd cyfrifol, ac yn weinidog parchus i'r Annibynwyr, yn gyntaf yn y Drefach, ac wedyn ym Mhen-y-graig, ger llaw Caerfyrddin. Derbyniodd B. Davies y rhan gyntaf o'i addysg mewn ysgol a gedwid gan y dysgedig

* Drych yr Ams., t. 173; Traethodydd, llyfr vi., t. 141 Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 650; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 363; Method. Cymru, cyf. i., t. 359, 461; Enwog. Cymru, I. F., t. 575.

Digitized by Google

Thomas Morgan, o Henllan; a derbyniwyd Davies yn aelod o'r eglwys Annibynol honno pan oedd efe yn dra ieuangc. Yr oedd o yspryd tawel a myfyrgar er yn blentyn. Dywedir yr arferai ymneillduo oddi wrth y plant pan yn ymddifyru yn eu chwareuon, i ryw le wrtho ei hun, i fyfyrio ei lyfrau; ac yr oedd ei athraw yn dra hoff o hono. Cymhellwyd ef gan eglwys Henllan i ddechrau pregethu yn lled fuan ar ol iddo gael ei dderbyn yn aelod.

Yn y fl. 1754, neu ddechrau 1755, derbyniwyd ef i Athrofa Caerfyrddin, pan oedd yn 15 neu 16 oed, lle y treuliodd bedair neu bum mlynedd yn ddiwyd a llwyddiannus fel myfyriwr. Yr athrawon y pryd hwnw oedd Mr. Evan Davies a Mr. Samuel Thomas, dau ŵr nodedig am eu dysg, eu duwioldeb, a'u hymdrech i addysgu'r gwŷr ieuaingc oedd dan eu gofal. Yr oedd cynnydd B. Davies mewn ieithoedd, athroniaeth, mesuroniaeth, a duwinyddiaeth, yn rhagori ar ei holl gydfyfyrwyr. Ar derfyn ei amser yng Nghaerfyrddin, etholwyd ef yn is-athraw i'r Athrofa Annibynol yn Abergefenni; ac ar farwolaeth Mr. Jardine, yn 1766, pennodwyd ef yn brif athraw, a'r flwyddyn ganlynol urddwyd ef yn weinidog yr eglwys. Yn niwedd 1781, rhoddes y swyddi hyn i fynu, pan ddewiswyd ef i fod yn athraw yng Ngholeg Homerton, Llundain. Rhoddir canmoliaeth uchel i'r Dr. Davies, fel athraw, gan weinidog enwog ger llaw Llundain, a ddygwyd i fynu dan ei addysg, fel y canlyn:—

"Yr amser y gosodwyd fi dan ei ofal, yr oeddwn yn rhy ieuangc a rhy anwybodus i werthfawrogi ei ddysgeidiaeth a'i wybodaeth ef yn briodol. Ond yr wyf yn cofio yn dda y parch dwfn, yn gymmysgedig â serch gwresog, a goleddai y myfyrwyr tu ag ato. Ni chyfarfyddais âg un anhawsdra, yn fy myfyrdodau classurol, yr hwn ni wnai efe ei egluro heb un munud o betrusder, pan ddygwn ef ato. . . Gwyleidd-dra nodedig a gormodol y Doctor enwog a guddiai ei dalentau a'i werth oddi wrth y cyhoedd. Yr oedd yn ddŷn o wir ddysgeidiaeth, ac o dduwioldeb disglair. Ni pheidiai y rhai a'i hadwaenent ef yn y Fenni a galaru o herwydd ei ymadawiad oddi yno."

Yn Chwefror, 1783, derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys Annibynol yn *Fetter Lane*, Llundain, a dechreuodd ei weinidogaeth yno ar yr 24ydd o Ebrill, yn yr un flwyddyn. Rhoddes ei swydd i fynu fel athraw yn Homerton yn haf y fl. 1787, o herwydd cystudd; ond parhaodd yn weinidog *Fetter Lane* hyd yr 31fed o Orphenaf, 1795, pan y gorfodwyd ef gan afiechyd i roddi ei le i fynu, er gofid dwys i'r eglwys, yr hon oedd yn ei garu yn fawr. Yna symmudodd o Lundain i Reading, lle y trigodd dros dymmor. Pregethai yno yn achlysurol, pan ganiatâi ei iechyd iddo, er mawr hyfrydwch i Mr. Douglas a'r bobl. Symmudodd oddi yno i Wells, lle y bu'n byw dros rai blynyddau gyd â'i nith, merch ei frawd. Aeth oddi yno i Gaerbaddon (Bath), lle y treuliodd weddill ei oes yn ddedwydd iawn yng Nghapel Argyle, lle yr oedd y Dr. William Jay yn weinidog. Pregethai y Dr. Davies yn fynych yn lle y Dr. Jay. Bu farw ar yr 22fed o Orphenaf, 1817, yn 78 oed. Pregethodd y Dr. Jay ar ei farwolaeth, ar y 3ydd o Awst, oddi wrth Ioan xi. 16; ac ar y 10fed o Awst, pregethodd Mr. Burder, ei olynydd yn *Fetter Lane*, ar yr un amgylchiad, oddi wrth Psalm xxxvii. 34. Dyry'r ddau ŵr enwog hyny y ganmoliaeth uwchaf i'r Dr. Davies fel llenor, athraw, duwinydd, a Christion.

O herwydd gormod gwylder, oedd yn duedd naturiol iddo ef, anhawdd iawn oedd ganddo gyhoeddi ei gyfansoddiadau; ond y mae'r ychydig a gyhoeddwyd ganddo yn wir werthfawr, ac yn gwbl deilwng o safle a dysg uchel a choethedig yr awdur; eithr y maent oll, hyd y gwyddom ni, yn yr iaith Saesneg. Gallwn nodi y rhai canlynol:—

"Israel's Testament"=Llythyr Cymmun Israel: Gen. xlviii. 21. Pregeth ar farwolaeth y Dr. Gibbon, yn y fl. 1785.

"Real Christians, the Salt of the Earth"=Gwir Gristionogion yn Halen y Ddeuar. Pregeth a draddodwyd mewn cyfarfod misol.

"The Deity of the Saviour, the Riches of Christianity"=Duwdod yr Iachawdwr yw Cyfoeth Cristionogaeth. Pregeth a gyhoeddwyd ganddo yn y fl. 1812.

"Primitive Candour"=Tegwch Cyntefig. Traethodyn oedd hwn, yn atteb i'r Dr. Priestley, yr Undodiad.

Dywedir mai'r ddau gyfansoddiad a nodwyd ddiweddaf oedd y rhai penaf a gyhoeddodd. Cafodd y Dr. Priestley, yr hwn oedd yn awdur galluog, dysgedig, a boneddigaidd, y fath foddhâd yn yspryd teg a llednais yr ysgrifenydd, fel yr ymweledd âg ef, i ddïolch iddo am ei yspryd boneddigaidd a duwiolfrydig.*

### REBECCA JONES.

Heuddai Rebecca Jones gael ei rhestru ymhlith y rhai a weithiasant yn rymus; a chredir y gwedda ei hanes yn rhestr yr "Enwogion," cystal ag y gwedda hanes Rahab yn rhestr y "cwmmwl tystion."

Ganwyd hi yn Philadelphia, prif ddinas Pensylfania, yng Ngogledd America, ar yr 8fed o Orphenaf, 1739. Brodorion o sir Feirionydd oedd ei rhieni, William a Mari Jones, y rhai a ymfudas-

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 50; En. Cymru. J. T. J., cyf. i., t. 153.

Digitized by Google

ant yn bobl ieuaingc i'r America. Dygasid hwy i fynu yn egwyddorion Eglwys Loegr. Glànforwr *(coaster)* oedd ei thad, a bu farw ar un o'i fordeithiau cyn bod Rebecca mewn oedran i gofio am dano. Felly, gadawyd hi a'i brawd, yr hwn oedd 9 mlwydd hynach na hi, dan ofal eu mam weddw, yr hon, trwy fod yn ddiwyd ac ymdrechgar i gadw ysgol ddyddiol, a alluogwyd i ddwyn ei dau blentyn yn barchus, gan eu hyfforddi yn dda yn y gwybodau cyffredin, ac yn egwyddorion Eglwys Loegr. Yr oedd y Crynwyr yr adeg honno yn lliosog iawn yn Philadelphia, ac ymddengys bod rhieni Rebecca yn byw yn eu canol, ac mai gyd â phlant y Crynwyr y byddai hi yn arfer chwarau. Byddai yn aml, cyn bod yn 12 oed, yn arfer gofyn caniatâd ei mam i fyned gyd â hwynt i'w cyfarfodydd, yr hyn a ganiateid yn rhwydd pan yn gyfleus, o blegid dywedai ei mam "nad oedd dim perygl i'r Crynwyr gael dylanwad ar ei meddwl, gan nad oedd ond plentyn." Pa wedd bynag, credai hi, yn ei dyddiau addfetach, "fod llaw Duw yn ei harweiniad i Gymdeithas y Crynwyr," ac y buasai yn fendith fawr iddi pe gwrandawsai yr amser hwnw ar gymhellion ei chalon ieuangc a thyner.

Dechreuodd ei mam gymmeryd sylw o'i hymlyniad wrth y Crynwyr, a'i gofal am fyned i'w cyfarfodydd; a phan ofynai am reswm dros ei hymddygiad, yr unig atteb a roddai oedd, "Ni wn i ddim, heb law bod yn well genyf gyfarfodydd y Crynwyr, am fod yno lai o godi ac eistedd nag sydd yn yr Eglwys Wladol." Parhaodd dros dymmor i ddilyn cwmni ysgafn, yr hyn a'i harweiniodd, i raddau, ar gyfeiliorn; er hyny, parhaodd yr Yspryd i ymwneud â'i henaid, yn oed yn yr amser ysgafnaf a fu ar ei bywyd. Rhedai i'r cyfarfodydd yn aml heb yn wybod i'w mam, ac yr oedd yn well ganddi gyfarfodydd distaw na chyfarfodydd pregethu.

Ymwelodd dwy chwaer grefyddol â'r Crynwyr yn America, un o Frydain, a'r llall o'r Werddon, pan oedd Rebecca yn lled ieuangc; a bu eu gweinidogaeth, un nos Sabboth, yn foddion i wneud iddi hi lefain ar goedd y gynnulleidfa, "O Arglwydd! beth a fynni di i mi ei wneuthur?" Bu yn hir ynghyfyngder yr argyhoeddiad, yn ofni bod drws trugaredd wedi ei gau, ac nad oedd bendith iddi i'w chael, er iddi, fel Esau, "trwy ddagrau ei thaer geisio hi." Tra yn y cyflwr yma, ysgrifenodd lythyr at yr hon a fuasai yn foddion i'w deffro, i ofyn ei chyfarwyddyd; ond yr oedd yn rhy wylaidd i ddodi ei henw wrtho. Rhoddes ef yn ei llaw yn ddistaw, pan yn myned i'r cyfarfod un prydnhawn; ac ymhen dau ddiwrnod, ymddiriedodd y genhades yr attebiad canlynol i un o'i brodyr, i geisio cael allan pwy ydoedd yr hon a roddasai y llythyr yn ei llaw:—

"Fy Mlentyn Anwyl,—Darllenais dy lythyr yn ofalus; ac o dynerwch yspryd, yr wyf yn teimlo drosot. Yr wyf yn dra sicr mai da fydd i ti ymlynu wrth y dylanwad sydd wedi ymweled â thi. Y mae wedi bod yn ddigon o oleuni i'th argyhoeddi o ddrwg pechod; ac os gadewi iddo gael chwarau teg, fe fydd iddo etto ddistrywio pechod yn dy galon di. Y rheswm dy fod mewn cymmaint o gyfyngder ydyw, bod yr oruchwyliaeth honno eisoes wedi dechrau; ond daw yn fwy tawel fel y byddych di yn cael nerth i orchfygu. . . . . . CATHERINE PEYTON."

Tawelodd y llythyr hwn ei theimladau, a dechreuodd ffurfio penderfyniadau newyddion. Ai i'r cyfarfodydd yn fwy rheolaidd nag erioed, er iddi orfod goddef anfoddlonrwydd a chroesau mawrion gartref. Credai ei mam y byddai ymuniad ei merch â'r Crynwyr yn sicr o andwyo ei hysgol. Yr oedd yn ddrwg iawn gan Rebecca weled ei mam yn gofidio o'i herwydd hi; ond teimlai y "rhaid ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion;" ïe, hyd yn oed i'w mam ei hunan. Edrychai arni ei hun fel cangen wedi ei thori ymaith o'r olewydden wyllt, a'i himpio yn y wir olewydden.

Yn gynnar yng ngwanwyn 1756, pan oedd Rebecca tu a 17 oed, hwyliodd Catherine Peyton, a thri o gyfeillion mwyaf mynwesol Rebecca ieuangc, am Ewrop, yr hyn a fu'n achos iddi golli ei harchwaeth, dros dymmor, at bob math o gyfarfodydd crefyddol, a methai wybod am ennyd i ba gyfeiriad i droi; ond torodd y wawr ar ei meddwl cyn hir, a theimlodd fod y breichiau tragywyddol oddi tani. Ail ymaflodd yn ei dyledswyddau; mawr awyddai am gael ei derbyn i freintiau cyflawn aelodaeth; a bu dan ei baich o gyfarfod i gyfarfod hyd y 9fed o Orphenaf, 1758. Wedi i un o'r brodyr lefaru yn ddoniol ar y pwys o galonogi y neb a allai fod yno dan faich o amheuon ac ofnau, cododd Rebecca ar ei thraed, a gollyngodd allan ei theimladau mewn ychydig eiriau anhrefnus. Pa wedd bynag, teimlai ddarfod i faich trwm syrthio oddi ar ei hysgwydd; a gobeithiai, od oedd wedi camsynied, y dygai Duw hi i'r iawn drwy ryw foddion. Pan welodd ei mam ei bod wedi ymuno â'r Crynwyr, ac wedi tori allan yn gyhoeddus yn eu plith, penderfynodd beidio bod yn groes; ac o hyny allan, dangosodd bob caredigrwydd iddi hi a'r Cyfeillion pan ymwelent â hi. Bu ei mam farw ym Medi, 1761, gan adael tystiol-

Digitized by Google

aeth dda ar ei hol, a chladdwyd hi yn barchus ym mynwent yr Eglwys Esgobol.

Daeth holl ofal yr ysgol yn awr ar Rebecca Jones; ac er nad oedd cadw ysgol yn gydnaws â'i theimladau, etto penderfynodd ei dwyn ym mlaen hyd y cyfarfod blynyddol. Cymmerth ferch ieuangc, a'i henw Hannah Cathrall, i'w chynnorthwyo; a bu honno o gysur mawr iddi pan yn llesg o ran corph, ac yn dywyll ei meddwl. Cadwasant yr ysgol yn ddifwlch am yn agos i saith mlynedd. Pan ymunodd â'r Crynwyr, llwyr ymwrthododd â phob ysgafnder mewn arferion, geiriau, a gwisgoedd. Ni ddysgai neb i chwarau offerynau cerdd, dawnsio, na gwneud un math ar addurnwaith edau a nodwydd. Ceisiodd cyfeilles iddi, a elwid Hannah Tane, ganddi fyned yn forwyn briodas iddi, gan gynnyg iddi wisg sidan werthfawr (peth pur brin yn yr oes honno), os cydsyniai; ond nis goddefai ei meddwl iddi ei derbyn, ac ni bu gwisg sidan am dani hyd ddydd ei marwolaeth. Ystyrid Rebecca Jones yn ysgolfeistres ddiguro: nid yn unig yr oedd yn alluog i gyfranu addysg, ond hefyd medrai ddenu'r plant i garu rhinwedd heb yn wybod iddynt eu hunain. Tynai allan eu galluoedd, a chadwai lygad ar eu gwneud yn blant da cystal ag yn blant dysgedig. Yr oedd rhyw urddas yn ei hedrychiad, dylanwad yr hwn a gadwai'r plant rhag dirmygu ei hieuengctid hi, er nad oedd ond geneth. Daeth yn ferch barchus iawn yn y lle, trwy ynnill serch a pharch y plant, ac ymddiried eu rhieni. Edrychid arni fel math ar Gynghorwr neu Gyfreithiwr Cyffredinol yn y ddinas; ac âi rhywrai ati braidd bob dydd i wneuthur cyttundebau, biliau, neu ewyllysiau. Yr oedd yn amser cynhyrfus yn yr America yn y blynyddau hyny; ac y mae'n anhawdd i ni ddychymmyg, yn yr oes hon, am yr anhawsderau oedd ar ffordd y Crynwyr i weithio allan eu hegwyddorion. Y mae ger ein bron restr o reolau ei hysgol, â'r rhai y gorfodid ei hysgolheigion i gydymffurfio tra y byddent dan ei gofal hi; a byddai yn fendith pe dygid plant y dyddiau hyn dan reolau cyffelyb.

Gwelodd yr eglwys yn amlwg, yn lled fuan, bod goruchwyliaeth gras yn ddwys ar feddwl Rebecca Jones, a gwyddai pawb bod ganddi dalentau ymhell tu hwnt i'r cyffredin; a'r canlyniad fu cynnal pwyllgor detholedig ar ei hachos, a phenderfynwyd ei chydnabod yn "Efengyles."

Yn y fl. 1775, ymwelodd merch ieuangc o Ogledd Cymru â Philadelphia, gweinidogaeth yr hon a fu o fendith fawr i eglwysi America; ac ymddengys i gymdeithas honno, a Chrynwyr eraill o Frydain, godi awydd ar Rebecca Jones i ymweled â "Hen Wlad ei Thadau." Yr oedd wedi ennill ffafr y frawdoliaeth trwy ei gweinidogaeth nerthol a'i gohebieuthau, ac edrychid arni fel un gymmwys i flaenori mewn unrhyw gymdeithas grefyddol. Am hyny, ynghyfarfod misol dosparth Gogleddol Philadelphia, ar y 27fed o Ionawr, 1787, rhoddwyd llythyr gollyngdod iddi, gyd â'r parodrwydd mwyaf, a hi o gylch 48 oed, i fyned ar ymweliad â'r lle y mynnai yn Ewrop. Arwyddwyd y llythyr gan 112 o Grynwyr, o'r sawl yr oedd tu ag 20 yn Gymry. Dywedir yn y llythyr hwnw eu bod hwy oll, yn unfryd, yn ei chymmeradwyo fel un o fywyd dïargyhoedd, ac o weinidogaeth nerthol.

Hwyliodd hi, a phump o Grynwyr eraill, mewn llong a elwid "Commerce," o borthladd Newcastle, ar y 25med o Ebrill, 1787. Pan gyrheuddodd hi a'i chyfeillion i'r porthladd, yr oedd yno ddwy long yn barod i hwylio i Lundain, un fawr ac un fechan. Aethant hwy, ar gais y Cyfeillion a aethant i ganu'n iach iddynt, i'r llong fawr, gan feddwl y buasai honno yn fwy dïogel i groesi'r môr. Wedi eistedd o honynt dros ennyd yn y caban, torodd un o honynt allan, gan lefain "Tywyllwch ac angau!" Ymdeunodd teimladau cyffelyb dros y lleill oll; o ba herwydd, aethant i gyd ar fwrdd y llong fechan; ac wedi eistedd ar y bwrdd, teimlasant yn ddedwydd, ac fel pe wedi cael gwaredigaeth. Bu'r capten yn garedig iawn iddynt ar hyd y fordaith. Rhoddes heibio chwarau cardiau er eu mwyn; a phenderfynodd, cyn diwedd y fordaith, beidio chwarau byth mwy. Arferai alw am lonyddwch ar bob adeg gyfleus, er mwyn i Rebecca Jones gael pregethu i'r teithwyr; ac yr oedd hi mewn parch cyffredinol gan bawb yn y llong. Wedi iddynt gyrraedd Llundain, dywedai y capten wrth ei gyfeillion bod boneddiges o'r America wedi dyfod yno ar fwrdd ei long ef, yr hon oedd yn perthyn i'r Crynwyr, a bod mwy o synwyr yn ei phen nag oedd ymhenau aelodau dau Dŷ'r Senedd. Glaniasant yn *Gravesend*, ar yr 28fed o Fai, wedi bod ar y môr am ddeng niwrnod ar hugain, tra na chyrheuddodd y llong arall hyd ymhen pedwar diwrnod ar ddeg ar ol hyny.

Yr oedd Rebecca Jones a Chyfeillion yn y ddinas nos y diwrnod cyn cyfarfod blynyddol y Crynwyr, a chymmerth hi ran fleunllaw yng ngwaith y cyfarfod hwnw. Ni chaniateid i'r merched gymmeryd

Digitized by Google

rhan ynghyfarfodydd neillduol a disgybleuthol cyn hyny; ond pan ddygwyd y pwngc ger bron, dadleuodd hi mor alluog drosto fel y caniatawyd y cais ar unwaith. Dywedai un, wrth ysgrifenu hanes y cyfarfod hwnw at gyfaill, mai'r peth rhyfeddaf a gymmerasai le ynddo ydoedd, darfod i'r merched ennill pwynt y sychedent er ys talm am dano, sef "cael cyfarfod blynyddol wedi ei ethol gan y cyfarfodydd chwarterol; a dichon y byddi di, ryw dro, yn aelod o'r Senedd fenywaidd hon."

Ymwelodd Rebecca Jones â phob lle pwysig yn y deyrnas hon, o lan Môr Ffraingc i lan y Tweed yn Ysgotland. Teithiodd hefyd y rhan fwyaf o'r Werddon, gan bregethu y gair gyd â nerth, a chadarnhau yr eglwysi; a derbynid hi ymhob man fel cenad Duw.

Tynwyd ei sylw at gyflwr y caethion yn gynnar yn 1788, ac ni adawai i un cyfleusdra fyned heibio heb ddwyn eu hachos ger bron y gwahanol gyfarfodydd, gan eu hannog i ledeunu llenyddiaeth ar y pwngc. Annogai y frawdoliaeth ymhob lle i ymffurfio yn bwyllgorau, er mwyn cynhyrfu y wlad i ddadlau eu hachos. Yr oedd yn Llundain ar y 4ydd o Chwefror, yn trefnu ar gyfer dychwel i'r America; ond ni bu barod i gychwyn hyd fis Awst. Pan yn traddodi ei phregeth ymadawol yn *Gracechurch Street*, aeth llawer o Grynwyr yno i ganu yn iach iddi, a chawsant gyfarfod nefolaidd anarferol. Yn y prydnhawn, cynhaliodd gyfeillach yn *Devon Street;* ac am 6 yn yr hwyr, cynhaliodd gyfarfod i wasaneuthwyr a thlodion. Ar y 13ydd o Awst, gwahoddwyd hi, a'r holl gwmni oedd yn myned i groesi y môr gyd â hi, i giniaw i dŷ J. Gurney Bevan, lle y gwnelai ei chartref yn ystod ei harhosiad yn y wlad hon. Ar ol ciniaw, aethant gyd â'u gilydd i *Gravesend*, ac yr oeddynt ar fwrdd y "Pigeon" am 7 o'r gloch, yn hwylio o flaen y gwynt i lawr i'r *Downs;* ac ar ol mordaith ystormus o 49 niwrnod, glaniodd yn Salem. Teithiodd 20,490 o filltiroedd yn ystod y pedair blynedd a hanner y bu ym Mrydain, a chynhaliodd 1,598 o gyfarfodydd, yr hyn, ar gyfartaledd, oedd yn bedwar cyfarfod y dydd.

Teimlai ei hun, ar ol dychwelyd, yn gwbl analluog i ail ymuno â Hannah Cathrall i gadw'r ysgol fel cynt; ond gan nad oedd ganddi fodd i fyw heb wneud rhywbeth, dechreuodd fasnach mewn dillad o bob math, trwy'r hyn y llwyddodd i ynnill ei bywioliaeth yn gysurus; ond gofalodd na chai'r fasnach ymyryd dim â'i chrefydd. Yr oedd yn parhau i gynhyrfu y wlad yn achos y caethion; a phan ddadleuai rhywrai nas gellid cael siwgr heb gadw caethion, aeth hithau allan i sefydlu cymdeithasau trwy'r holl wlad, i lwyr ymattal oddi wrth siwgr, nes y gellid ei gynhyrchu trwy lafur rhyddid; a gorfodwyd pleidwyr caethiwed i adael y ddadl honno syrthio i'r llawr.* Yn 1793, llwyddodd i ddwyn y Crynwyr yn America a Brydain i fath ar undeb, cyffelyb i'r undebau sydd heddyw ymhlith gwahanol enwadau y wlad hon.

Yn haf y fl. 1793, torodd y dwymyn felen (*yellow fever*) allan yn Philadelphia, a bu agos â diboblogi y ddinas. Bu farw dros 4,000 o bobl mewn llai na phedwar mis, ymhlith y rhai yr oedd llawer o gyfeillion mwyaf mynwesol Rebecca Jones. Ceid corph marw neu ddau ymhob tŷ y borau, ac yr oedd bron yn amhossibl cael neb i'w claddu hwynt. Ond byddai hi yn gweini'n ddïarbed, yn ol ei gallu, i angenrheidiau ei chymmydogion: ymgeleddai y claf a diddanai y galarus yn dra egnïol a duwiolfrydig. Ond o'r diwedd, cymmerwyd hithau yn glaf, ac nid oedd ond gobaith gwan am ei hadferiad yn ystod y bythefnos gyntaf. Yr oedd cymmaint o ofn y clefyd ar y cymmydogion, fel mai trwy anhawsder mawr y ceid neb i weini arni, er talu dau ddolar y dydd am hyny. Ar y 25med o Hydref, credwyd ei bod wedi marw, a chyhoeddwyd ei henw ym mysg y marwoleuthau y dydd canlynol. Pan oedd y wraig a weinyddai arni yn myned allan dan gyhoeddi ei bod wedi marw, yr oedd y meddyg yn myned i mewn; a phan ddeallodd fod anadl ynddi, dywedodd na chai farw, os gallai efe mewn un modd ei hattal. Arhosodd yno ei hun trwy'r nos i weini arni, ac erbyn y borau yr oedd yn llawer gwell, a chafodd adferiad, ond yn raddol iawn. Ymwelodd y flwyddyn ganlynol (1794) â phob teulu oedd ynghylch y cyfarfod misol. Edrychid arni gan y frawdoliaeth fel un wedi codi oddi wrth y meirw, a'u bod hwy felly wedi cael yr hyn a ommeddasid i'r "gŵr goludog."

* Gwelsom mai yn 1788 y dechreuodd y ferch odidog hon ddadlau o blaid rhyddid y caethion, yr un flwyddyn ag y dechreuodd yr enwog William Wilberforce ddadlau eu hachos ger bron Senedd Brydain, pan oedd hi yn Llundain; ac y mae'n debyg mai hyny a dynodd ei sylw hi at yr achos. Yr oedd Wilberforce, pan yn fachgen ysgol yn Pocklington, wedi ysgrifenu llythyr i un o bapurau Caerefrog (York), yn condemnio y "fasnach atgas mewn cnawd dynol;" ac yn 1784, datganodd "obaith y byddai iddo ef ar ryw amser neu gilydd liniaru camwri y caethion truain dirmygedig yn yr India Orllewinol." Ond ni chafodd gyfleusdra i ddechrau ei waith, yr hwn a gostiodd iddo lafur egnïol am ugain mlynedd, hyd 1788, pan oedd Rebecca Jones yn Llundain.—GOL.

Digitized by Google

Yn y fl. 1795, yr oedd yn gweithio yn ddiwyd i gynhyrfu y frawdoliaeth i drefnu mesurau er gwareiddio yr Indiaid; a llwyddodd i gael gan y cyfarfod blynyddol i sefydlu cenhadaeth i'r amcan hwnw. Casglodd y Crynwyr ym Mrydain ac America yr arian i dalu'r treuliau; a chafwyd nifer o bobl ieuaingc, o'r ddau ryw, yn ewyllysgar i fyned i'w haddysgu ynghelfau cyffredin bywyd, ac mewn crefydd.

Ail ymwelodd y dwymyn felen â Philadelphia etto, a ffodd pob teulu a allai i'r wlad am ddiogelwch. Gwahoddwyd R. Jones gan Catherine Howel, yr hon oedd yn byw yn *Edgeley*, ar lan y *Schuilkil*, i aros gyd â hi nes yr elai'r clefyd heibio. Wrth fyned, cyfarfu â damwain, trwy'r hon yr analluogwyd hi i symmud o'i hystafell am rai misoedd; a chredwyd unwaith y byddai raid tori ei choes ymaith, gan mor ddrwg ydoedd. Nid oedd erioed wedi bod yn gref a heinif; ond trwy gael gwely llaith pan ar ei thaith yn y Werddon, gafeulodd y cryd cymmalau ynddi, a gwnaeth hi yn llawer mwy llesg a methiantus. Ond er yn fethedig, yr oedd ei thynerwch, a'i golwg anrhydeddus, yn ei gwneud yn dderbyniol ymhob man; ac ni theimlai neb ddim yn ormod i'w wneud er ei dedwyddu. Pa galedi bynag a ddaliai bersonau neu deuluoedd, o ba blaid crefyddol, cenedl, neu liw bynag y byddent, rhedent ati hi i ymofyn ei chynghor a'i chymmwynas; a cheid hi bob amser yn barod i'w cynnorthwyo hyd eithaf ei gallu. Yr oedd fel Dorcas i'r tlodion, ac fel Debora i'r mawrion. Yr oedd ei thŷ bob amser yn agored i'r helbulus, ei bwrdd yn rhydd i'r newynog, ei chydymdeimlad yn ddihyspydd, a chadwai bob cyfrinach fel y bedd.

Parhaodd hi i "lafurio yn y gair a'r athrawiaeth," ynghanol llawer o lesgedd, gofidiau, a thrafferthion masnachol; ond gofalai bob amser am ddwyn masnach ym mlaen er mwyn crefydd, ac nid crefydd er mwyn masnach. Pan yn parotôi i anfon 200p. yn llaw capten llong, oedd yn byw yn y tŷ nesaf ati, i geisio nwyddau, daeth rhyw amheuaeth fel cwmmwl dros ei meddwl, wedi gorphen ysgrifenu yr archeb; yna taflodd yr archeb i'r tân, a dododd yr arian allan ar lôg. Nis gallai esponio yr amgylchiad ar y pryd; ond deallodd, ar ol hyny, bod llaw Duw yn yr amgylchiad, canys ni ddychwelodd y llong na'r capten byth yn ol.

Yn y fl. 1799, rhoddes i fynu bob gofalon masnachol, ar ol yr amgylchiad a nodwyd, ac ystyriai ei bod yn ymddwyn dan gyfarwyddyd Rhagluniaeth. Parhaodd yn ddiwyd yng ngwaith yr efengyl, gan lafurio llawer mwy nag a ganiatâi ei hiechyd; a bu fyw i weled claddu y rhan fwyaf o'i chyfoedion, a'i chydlafurwyr cyntaf. Cafodd y dwymyn lyferth *(typhus fever)* yn drwm iawn yn ei hen ddyddiau; ac nid adferwyd hi mwyach, ond yn unig i allu myned ychydig o amgylch yn ei hystafell. Er hyny, byddai yn ysgrifenu yn ddibaid, ac ymdrechai ddwyn ei meddwl yn dawel wrth fyfyrio am y frawdoliaeth yn lle mwynhau eu cymdeithas. Wrth ysgrifenu at ei hen gyfeilles, Catherine Hustler, ar yr 16ed o Ebrill, 1816, dywedai—"Paid anghofio dy hen gyfeilles, a gad i mi glywed oddi wrthyt unwaith etto. Yr wyf bron yn ddall, ac yn 77 oed." Gwelid yn amlwg fod dydd ei dattodiad yn agosâu, a gwylid drosti yn ofalus gan y ferch a fagesid ganddi mor dyner, yr hon a fu byw gyd â hi dros ugain mlynedd.

Bu Rebecca Jones farw ar y 10fed o Fawrth, 1817, â gwên ar ei gwyneb, a chladdwyd hi yn y fynwent a berthynai i addoldy *Mulberry Street.* Bu ei marwolaeth yn achos o alar cyffredinol i'r Crynwyr yn Lloegr a Chymru, cystal ag yn America. Yr oedd wedi bod yn un o golofnau yr eglwys dros hanner can mlynedd; ac nid oedd ond un yn ei chladdedigaeth o'r rhai oedd bresennol yn y cyfarfod misol pan gymmeradwywyd hi i'r weinidogaeth, o ba herwydd edrychai yr oes honno arni fel mam yn Israel.*

## BENJAMIN EVANS.

Ganwyd y gŵr enwog a llafurus hwn mewn lle a elwid Ffynnon-Adda, ymhlwyf Meline, sir Benfro, ar y 23ydd o Chwefror, 1740. Yr oedd ei dad, Daniel Evans, yn aelod gyd â'r Bedyddwyr yn Rhydwilym, ac yr oedd ei fam yn aelod gyd â'r Annibynwyr yn Brynberain. Dysgwyd ef i ddarllen y Bibl yn Saesneg gan ei fam, pan nad oedd ond 5 mlwydd oed. Anfonwyd ef, pan yn ieuangc, i ysgol yn Glyndwr. Aeth oddi yno i Monkton, yn agos i Narberth, ac oddi yno i Hwlffordd. Gadawodd yr ysgol pan oedd tu a 15 mlwydd oed.

Ymddengys bod B. Evans dan argraphiadau crefyddol yn bur ieuangc; ac am na chafodd ei fedyddio pan yn faban, gweinyddwyd yr ordinhâd arno pan oedd yn 24 oed, a derbyniwyd ef yn aelod i'r eglwys Annibynol yn Nhrewyddel (Mael-

* Memorial of Rebecca Jones, by J. W. Allinson.

Digitized by Google

grove), lle yr oedd y diweddar Barch. Dafydd Gruffydd, Lledrod, ar y pryd yn weinidog. Canfyddwyd yn fuan fod B. Evans yn meddu cymmwysderau i bregethu, ac annogwyd ef i arfer ei ddawn, yr hyn a wnaeth gyd â chryn gymmeradwyaeth. Yn lled fuan ar ol iddo ddechrau pregethu, annogwyd ef i fyned ar daith trwy Ogledd Cymru, lle y mawr hoffwyd ef, yn enwedig yn Llanuwchllyn, ger llaw y Bala, yn sir Feirionydd. Rhodd yr eglwys Annibynol yno alwad iddo, â'r hon y cydsyniodd yntau.

Tu a diwedd y fl. 1768, priododd Ann Llwyd, merch y Parch. Daniel Llwyd, Brynberain, gyd â'r hon y bu fyw mewn undeb a chariad am 53 blynedd a chwe mis. Llafuriodd yn Llanuwchllyn am fwy nag 11 mlynedd; ac yn y cyfamser, pregethodd mewn amryw leoedd newyddion yn wyneb llawer o rwystrau ac erledigeuthau. Ai yn fynych i'r Abermaw i bregethu; a chan fod yno wrthwynebiad mawr ac erlid oddi wrth yr Eglwyswyr, gwasaneuthodd yr ynadon â Theyrnwys (*Mandamus*) er mynnu tŷ at wasanaeth crefydd; ac attaliwyd yr erlid pan wnaed yn hyspys ganddo ef fod yr Ymneillduwyr dan nawdd cyfraith y tir. Digwyddodd trychineb mawr, o ddamwain neu o fwriad drwg, yng Nghaerlleon o gylch y pryd hyn, a chyhoeddodd B. Evans y cyfansoddiad canlynol ar yr amgylchiad:—

"Pregeth ar yr achlysur o Chwythiad arswydus Powdwr gwnn yng Nghaerlleon gawr. Gan Jos. Jenkins o Wrexham, M.A. Cyfieithwyd gan Benjamin Evans o Lanuwchllyn."

Nid oes amseriad wrth y cyfieithiad uchod, ond dyry Gwilym Lleyn ef yn 1772.* Barnai Mr. Evans bod y niwl a'r tarth a gyfodai o Lyn Tegid yn niweidio ei iechyd yn Llanuwchllyn; am hyny penderfynodd ymadael, er gofid mawr i'w frodyr yn yr ardal honno a'r rhai cylchynol. Pan wnaeth ei benderfyniad yn hyspys, derbyniodd alwad, yn y fl. 1777, oddi wrth yr eglwys Annibynol yn *St. Thomas's Green*, Hwlffordd. Nid arhosodd ond ychydig yn y lle hwnw, canys yn 1779 derbyniodd alwad o eglwys Annibynol y Dre-wen, yn sir Aberteifi. Cydsyniodd yntau â'r alwad ar yr ammod iddo gael bod at ei ryddid i draddodi iddynt holl gyngor Duw, fel y credai ac y deallai efe ef. Yr oedd ym mysg y cymmunwyr a'r gwrandawyr y pryd hyny rai Calfiniaid, Arminiaid, Pelagiaid, Ariaid, a rhai yn dechrau gogwyddo at Undodiaeth. Ymddengys mai Calfiniad lled uchel oedd Evans; ond pan aeth efe i'r Dre-wen, arferodd lawer o bwyll a doethineb, fel y gallai, os byddai modd, ennill ei wrandawyr oll i'r un golygiadau ag yntau. Felly llwyddodd i gadw y rhan fwyaf o honynt ynghyd, tra yr ymneillduodd y lleill oddi yno. Coronwyd ei ymdrech â llwyddiant mawr, canys ffrwyth ei lafur ef yw'r cynnulleidfaoedd lliosog sy'n awr yn Hawen, Glynarthen, Penrhiw-galed, a Chapel-y-wig.†

Yr oedd y Bedyddwyr o gylch y pryd hyn yn diwyd wasgar treuthodau bychain ym mysg aelodau eglwys y Dre-wen ar fedydd trochiad; a thueddwyd rhai o aelodau yr eglwys i ammodau eu bedydd, a chredent y dylent ymostwng i gymmeryd eu trochi. Yn wyneb hyny, cymmerth Mr. Evans y pwngc dan ei sylw ymchwiliadol, a phregethai yn achlysurol arno, a hyny gyd â'r fath rym ac eglurder fel y credid yn fuan gan lawer ei fod yn feistr ar y ddadl, a bod ei olygiadau yn hollol gyttunol â'r Testament Newydd, a hyny gyd â golwg ar ddeiliaid bedydd cystal a'r dull o'i weinyddu. O gylch y pryd hyn, cyhoeddodd y treuthodyn canlynol ar fedydd:—

"Llythyrau at Gyfaill ar y Pwngc o Fedydd. . . 1788."

Cynnwys hwn naw o lythyrau ar y pwngc, a dywed Gwilym Lleyn mai "dadleuon ydynt â'r Dr. W. Richards, o Lynn;" ond nis gallwn ni ganfod, yn y *Llyfryddiaeth*, ddarfod i Richards ddechrau ysgrifenu ar fedydd yn erbyn Evans, nac ar y pwngc o gwbl, yn wir, hyd y flwyddyn ganlynol, 1789.‡ Ac yn yr un flwyddyn, ar ol ymddangosiad llyfr Richards, y mae'n debyg, cyhoeddodd Evans y llyfr canlynol:—

"Llythyrau at Gyfaill ar y Pwngc o Fedydd. Ynghyd ag Amddiffyniad o honynt mewn 'chwanegol Lythyrau."

Yn yr un flwyddyn etto (1789), cyhoeddodd yr awdur llafurus y ddau lyfryn canlynol:—

"Dioddefiadau miloedd lawer o Ddynion Duon mewn caethiwed truenus yn Jemiaica a lleoedd eraill; yn cael eu gosod at ystyriaethau difrifol y Cymry hawddgar, er mwyn ceisio eu hennill i adael Siwgr, Triagl, Rum. Gan Gymro, gelynol i bob gorthrech."

"Achwynion Dynion Duon, mewn Caethiwed Truenus yn Ynysoedd y Siwgr."

"Papuryn argraphedig ar un wyneb i'r ddalen yw y Cwyn uchod," medd y Parch. D. Silvan Evans. "Ni fynegir pwy a'i hargraphodd, nac ymha flwyddyn yr ymddangosodd; ond y mae'n debygol mai gwaith yr un awdwr a rhif 18 [sef y llyfryn blaenorol], dan y flwyddyn

* Llyfr. y Cymry, t. 533.

† Hanes Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 167.

‡ Llyfr. y Cymry, t. 645.

Yn yr un flwyddyn hefyd (1789), cyhoeddwyd "Atteb Byrr i Lyfr y Parcheeig Mr. Benjamin Evans, ar y Pwngc o Fedydd. Gan Ioan Rhys.—Llyfr. y Cymry, t. 644.

Digitized by Google

hon [1789] ydyw, ac mai o gylch yr un amser yr argraphwyd ef. Cynnwysa 12 pennill o wyth llinell bob un, ar y mydr saith a chwech."*

Yn y flwyddyn ganlynol (1790), cyhoeddodd Mr. B. Evans y dernyn canlynol:—

"Can ar y testyn o Fedydd, mewn attebiad i eiddo y Parchedig B. Francis: ac mewn Amddiffyniad i Hawl Babanod i'r Ordinhad."

Gwelir yn awr fod gan Mr. Evans dri, o leiaf, o wrthwynebwyr ar ddadl bedydd, sef Ioan Rhys, B. Francis, a William Richards. Parhaodd yr olaf i ysgrifenu ychwaneg ar fedydd yn erbyn Mr. Evans, a hyny, fel y gellir casglu, yn fwy gwawdus nag ymresymiadol ac Ysgrythyrol;† am hyny, ni chymmerth Evans sylw o hono ef na'r lleill mwyach. Y gwaith olaf a ysgrifenodd efe, hyd y gwyddom ni, oedd yr un canlynol:—

"Crefydd Gymdeithasol wedi ei darlunio mewn Hanes o sefydliad cyntaf Crist'nogaeth yn ninas Caerludd (sef Llundain), mewn Ymddiddanion. A gyfieithwyd allan o waith y Parch. Matthias Morris, gan B. Evans. . . 1797."

Dywedir iddo gyhoeddi dau Gatechism, un i egluro egwyddorion Annibyniaeth ac Ymneillduaeth; ond methasom gael dim ychwaneg o'u hanes. Yr un awdurdod a ddywed iddo gyhoeddi pedair o bregethau byrion yn 1813, y rhai sy'n wir deilwng o ddarlleniad cyffredinol.‡

Gan fod Mr. Evans yn weinidog i gynnifer o eglwysi, nid amgen y Dre-wen, Hawen, Glynarthen, Penrhiw-galed, a Chapel-y-wig, ac yntau yn dechrau pallu gan henaint, rhoddes yr eglwysi, yn y fl. 1814, trwy ei annogaeth ef, fel yr ymddengys, alwad i'w nai, Mr. Thomas Griffiths, Horeb, i ddyfod yn gynnorthwywr iddo. Bu'r ddau yn cydlafurio hyd o gylch y fl. 1818, pan y cyfododd rhyw deimladau annymunol rhwng Griffiths a rhai o eglwys y Dre-wen, yr hyn a derfynodd yn ei ymadawiad ef oddi yno, er dirfawr ofid iddo ef a'i ewythr oedranus.

Yr oedd Mr. Evans o gyfansoddiad corphorol cryf; ond yn Hydref, 1816, cafodd wely llaith, yr hyn a achosodd boen angerddol trwy ei holl gorph, yr hwn, yn y diwedd, a lwyr ddiffrwythodd ei law ddehau. Blinid ef hefyd yn dost gan ddiffyg anadl, yr hyn, ynghyd â llesgedd henaint, a'i llwyr gaethiwasant ef i'w ystafell, heb fedru syflyd oddi yno. Pan yn y cyfyngder yma, dywedodd wrth ei nai, Mr. T. Griffiths, "Nid oes genyf ewyllys o'm heiddo fy hun: ewyllys yr Arglwydd a wneler." Dydd Sadwrn, y 24ydd o Chwefror, 1821, teimlodd gyfnewidiad mawr: aeth ei anadl yn gaethach a byrach, er nad yn fwy poenus. Pan ofynodd Mr. Grffiths pa fodd y teimlai, dywedodd yntau, "Gwelaf drefn yr iachawdwriaeth mor olau a hanner dydd, ac y mae fy enaid yn ymhyfrydu ynddi." Bu farw mewn tangnefedd heddychol ar yr 2fed o Fawrth, 1821, yn 81 oed, wedi bod yn pregethu am 56 o flynyddau.§

* Llyfr. y Cymry, t. 648.

† Gwel hanes Richards a'i gyfansoddiadau yn pen. xi. o'r llyfr hwn, y chweched.

‡ Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 283.

---

## PENNOD X.

### ABRAHAM REES, D.D., DAFYDD MORYS, DAFYDD DAFIS, A ROBERT JONES.

ABRAHAM REES, D.D. Y mae digwyddiadau bywyd, fel y mae'n ddigon hyspys, yn gwneud preswylfeydd dynion yn dra ansier; ac am hyny, er eu geni mewn un parth o'r ddaear, ni wyddys yn y byd ymha barth o honi y trefna Rhagluniaeth iddynt gyflawni eu rhan yn helyntion dynol ryw, a diweddu eu gyrfa amserol ar ol gorphen eu priodol orchwylion. Er hyny, arfer pob gwlad a chenedl ydyw honni rhyw hawl yn y gwŷr a enir ynddi, neu a ddeilliant o honi, pa cyn lleied bynag y digwydda bod eu harhosiad yn y gyfryw wlad, neu eu gwasanaeth i'r gyfryw genedl yn ystod eu hoes a'u hantur trwy'r byd. Gellir cymhwyso yr ystyrieuthau hyn yn eu llawn rym at wrthrych y fer hanes ganlynol, y Dr. Abraham Rees, yn yr hwn y mae gan y Cymry yr hawl ddyblyg o waedoliaeth a genedigaeth, fel y dangosir yma.

Mab ydoedd Abraham i Lewis Rees, gweinidog Llanbryn-mair, sir Drefaldwyn.‖ Ganwyd ef yn nhŷ yr Hen Gapel, yn y plwyf hwnw, yn y fl. 1743. Anfonwyd ef, pan yn ieuangc, i Athrofa Caerfyrddin, yr hon ar y pryd oedd dan ofal y Dr. Jenkin Jenkins. Symmudwyd ef oddi yno i Athrofa Hoxton, ger llaw Llundain, lle y cynhyddodd mor gyflym mewn dysgeidiaeth fel y dewiswyd ef, cyn ei fod yn 20 oed, yn athraw mesuronol yn yr athrofa honno, swydd a weinyddwyd ganddo am yr yspaid maith o 22 flynedd. Yn 1766, derbyniodd alwad i wasanaethu eglwys Ymneillduol St. Thomas, Southwark. Yn 1781, galwyd ef i wasanaethu yr eglwys yn Old Jewry. Cynhyddodd y gynnulleidfa yno, dan ei bregethiad, i'r fath raddau fel y bu raid iddynt adeiladu capel helaethach yn Heol Jewin, Cripplegate, lle y parhaodd i

§ Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 282; Hanes Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 166–8. ‖ Gwel llyfr v., pen. xvi.

lafurio cyhyd ag y parhaodd ei iechyd. Dywed y Dr. David Thomas, golygydd yr *Homilist*, "bod y Dr. A. Rees wedi bod yn athraw i rai o addurniadau disgleiriaf yr Ymneillduwyr, a'i fod yn odidog hefyd fel pregethwr. . . . . . Heb law yr holl lafur yma, yr hwn a fuasai yn dihyspyddu adnoddau unrhyw ddŷn cyffredin, cymmerth ran helaeth yngorchwylion cyhoeddus Ymneillduwyr Llundain, ac ymhob cynllun dyngarol."

Rhoddes y Dr. Rees, ynghyd â'i gydathrawon, y Doctoriaid Savage a Kippis, eu swyddi i fynu yn Athrofa Hoxton, yn y fl. 1784; eithr ni hyspysir beth oedd yr achos, ond rhoddwyd yr athrofa hefyd i fynu mewn canlyniad. Yn fuan wedi hyny, sefydlwyd Athrofa Hackney yn ei lle, i'r hon yr etholwyd y Dr. Rees yn athraw mewn athroniaeth ac yn y celfyddydau. Parhaodd i weini y swyddi hyny hyd oni ddaeth y sefydliad i derfyn yn y fl. 1795.

Yn y flwyddyn 1776, appwyntiwyd ef yn olygydd *Chambers's Cyclopædia* (Gwyddoniadur Chambers), a chwblhawyd y gwaith yn bedair cyfrol unplyg fawr yn 1786. Yn y bywgraphiad o Chambers a ysgrifenwyd gan y Dr. Kippis i'r *British Biography* (y Bywgraphydd Brytanaidd), efe a ddywed am y Dr. A. Rees fel hyn:—

"Buasai yn anhawdd nodi person mwy cymmwys na'r Dr. Rees i olygu y *Cyclopædia*. Yr oedd yn ddŷn o feddwl eang, ac yn meddu cyfran helaeth a manwl o wybodaeth gyffredinol. Yr oedd yn ddiflino yn ei ymdrechiadau, ac yn gwbl gyfarwydd yn y celfyddydau ac mewn athronddysg, heb yr hyn ni buasai ei gymmwysderau ereill yn tycio iddo. Y mae'r gwaith wedi llwyddo dan ei olygiaeth ef tu hwnt i bob disgwyliadau: gwerthir o bump i chwe mil o ranau o hono yn wythnosol; ac y mae'r galwad sydd am dano yn cynhyddu yn feunyddiol. Trosglwyddir enwau Chambers a Rees i lawr yn glodfawr i oesoedd etto a ddeuant: y blaenaf fel awdwr, a'r ail fel golygydd y gwaith ardderchog hwn."

Cynhyrfodd y gymmeradwyaeth helaeth a roddwyd i'r gwaith uchod y perchenogion i'w heleuthu yn fwy fyth, a chydsyniodd y Dr. Rees i fod yn olygwr hwn etto, yr hwn a elwir *Rees's Encyclopædia* (Gwyddoniadur Rees). Dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1802, a gorphenwyd ef yn 45 o gyfrolau 4plyg yn 1819. Ennillodd y gwaith mawr hwn enwogrwydd dirfawr i'w olygydd diwyd a dysgedig, yr hwn a bery tra y darllenir yr iaith Saesneg.

Heb law y llyfrau mawrion a nodwyd, efe a ysgrifenodd y rhai canlynol, y sawl a gyhoeddwyd fel hyn:—

"Economy Illustrated and Recommended: 1800.'
"Antidote to the Alarm of Invasion: 1805."
"Practical Sermons, in 2 vols.: 1809-1812."
"The Principles of the Protestant Dissenters Stated and Vindicated."

Ysgrifenodd lawer hefyd i'r *Literary Review*, a chyhoeddiadau Seisnig ereill. Nid ydym yn gwybod i ddim o'i gyfansoddiadau godidog gael eu cyfieithu i'r Gymraeg, oddi eithr difyniadau gan wahanol awduron, wrth ysgrifenu ar wahanol byngciau. Cafodd y radd o D.D. o Athrofa Edinburgh, Ysgotland, ar annogaeth y Dr. William Roberts, yr hanesydd. Yr oedd hefyd yn Aelod o'r Gymdeithas Frenhinol (F.R.S.), ac o'r Gymdeithas Linnæaidd (F.L.S.). Yr oedd y Duc Sussex yn gyfaill neillduol iddo, yr hwn a amlygodd gymmaint o barch ato fel y mynnodd bortreiad o hono, gan ei osod yn ei balas yn Kensington, yn ymyl portreiad y Dr. Parr. Pan oedd y Duc Brenhinol yn Eisteddfod Dinbych, yn y fl. 1828, crybwyllodd yn barchus am dano yn ei araeth, gan ei alw "fy nghyfaill y Dr. Rees." Bu farw'r Cymro dysgedig ac enwog hwn ar y 9fed o Fehefin, 1825, wedi cyrraedd yr oedran teg o 82 flwydd.*

### DAFYDD MORYS.

Dafydd Morys, neu Morris, a anwyd yn Lledrod, sir Aberteifi, yn y fl. 1744. Enw ei dad oedd Morys Morgan. Nid oes dim o hanes ei ddyddiau boreuol ar gof a chadw. Pa fodd yr argyhoeddwyd ef, ni wyddys; ond ymddengys iddo ymuno â'r Methodistiaid yn ieuangc, canys dechreuodd bregethu yn 1765, pan oedd yn 21 oed, a daeth yn un o bregethwyr grymusaf ei oes yn bur fuan. Ni wyddys pa fanteision addysg a gafodd; ond gallai ysgrifenu yn dda; dysgodd hefyd ddeall awduron Seisnig, a chyrheuddodd fesur helaeth o wybodaeth dduwinyddol.

Ynnillodd sylw a dylanwad mawr yn fuan ar ol dechrau pregethu, o herwydd y nerthoedd rhyfedd oedd yn cydfyned â'i bregethau. Yr oedd ei lais yn gryf a soniarus; deall da a dychymmyg bywiog; a phan fyddai y goleuni nefol yn llewyrchu ar ei feddwl wrth bregethu, yr hyn a ddigwyddai yn dra mynych, teimlid bod grymusder anarferol yn ei bregethiad, a byddai yn feistr hollol ar y cynnulleidfaoedd a'i gwrandawent. Gwelsom yn fynych eisoes mai "Cynghorwyr" y gelwid pregethwyr ym mysg y Methodistiaid yn gyffredin yn y dyddiau hyny, os na byddent wedi

* Seren Gomer, cyf. ix., t. 129; Gwladgarwr, cyf. vi., t. 129; Williams's Em. Welshm., p. 480; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 784; Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 646.

Digitized by Google

cael "urddau" yn Eglwys Loegr; ond bu raid i'r holl frawdoliaeth addef yn fuan mai *pregethwr*, a phregethwr gwir fawr hefyd, oedd Dafydd Morys, er nad oedd wedi ei urddo gan esgob, ond "Esgob eneidiau," sef Pen yr Eglwys.

Daeth ar daith trwy ranau o Ogledd Cymru pan nad oedd ond pregethwr lled ieuangc, ac effeithiodd ei bregethau yn ddwys a helaeth y tro hwnw. Bu ar gyhoeddiad wedi hyny yn fynych trwy holl siroedd y Gogledd, cystal a'r Deheubarth: ar fyr, byddai galwad parhaus arno i fyned ar deithiau pregethwrol o holl barthau Cymru. Daliodd tewder corphorol mawr ef pan oedd yn ddŷn lled ieuangc, a chynhyddodd arno i raddau anarferol, nes oedd yn anghysurus iddo ei hun, ac yn syndod i eraill. Er hyny, parhaodd i deithio trwy'r holl wlad hyd ddiwedd ei oes, "gan bregethu y gair," a "phregethu yr Arglwydd Iesu," gyd âg arddeliad a llwyddiant tra nodedig. Yr oedd mor dew fel y gofynai egni mawr iddo ymwthio trwy ddrysau pulpudau. Defnyddiai glustog o'i flaen ar y cyfrwy, er mwyn iddo allu marchogaeth gyd â gradd o esmwythdra. Yr oedd ei dewder mawr yn peri iddo fod yn dra thueddol i gysgu, yn oed ar ei farch, neu yn y pulpud pan fyddai brawd yn dechrau yr odfa a'i flaen; ond ni chysgai neb wedi iddo ef ddechrau pregethu. Teimlid bod yn y corph mawr hwnw enaid mwy, a hwnw mor llawn o dân nes gwneud eneidiau ei wrandawyr yn wenfflam gan lawenydd neu ddychryn.*

Yr oedd pob cymhwysder yn Dafydd Morys i fod yn bregethwr mawr a dylanwadol. Yr oedd golwg awdurdodol a pharchus ar ei wynepryd: yr oedd ei wedd yn llyfndeg; ei lygaid yn fawrion, bywiog, a threiddgar; ei wallt yn winaufelyn, yn disgyn yn denau ar draws ei dalcen uchel; a'i lais yn gryf, uchel, a soniarus. Er hyny, byddai yn cyfarfod weithiau â chryn brofedigaethau ar ei deithiau pregethwrol mynych a meithion, ac ni ddihangodd chwaith heb beth erledigaeth. Pan ar daith genhadol unwaith yn sir Ddinbych, yn lled fuan ar ol iddo ddechrau pregethu, ac yn myned o'r Bont-uchel i Adwy'r-clawdd, ger llaw Gwrecsam, lle yr oedd un o eglwysi boreuol y Methodistiaid yn yr ardaloedd hyny, nid oedd neb yn ei ddisgwyl, na neb ychwaith yn ei adnabod. Ond cyfarwyddwyd ef at rai gwragedd oedd yn proffesu, i'r sawl yr hyspysodd ei fod wedi dyfod yno i bregethu yr efengyl, ac y gofynodd ai nid oedd modd anfon gair ar led yr ardal, a chymmell nifer o bobl ynghyd i wrando. Gyd â hyny, wele y bleunor eglwysig yn dyfod i'r lle, yr hwn a edrychodd yn lled chwith ar y pregethwr dieithr; a gofynodd iddo mewn modd dreng, "Pwy ydych chwi? A ydych yn un sy'n werth i ni anfon allan am wrandawyr i chwi?" Nid yw atteb y pregethwr i'r holiadau haerllug yna wedi eu trosglwyddo i ni. Pa wedd bynag, teunwyd y gair am yr odfa; ac wedi iddo ef ddechrau ar ei waith, deallwyd yn fuan nad dŷn cyffredin ydoedd. Yr oedd llais, dawn, yspryd, a phethau y gŵr dieithr yn gwneud i'w wrandawyr ryfeddu, teimlo, wylo, a llefain; ac yn eu plith, yr oedd yr hen fleunor talgryf yn gorfod ystwytho. Ar ol yr odfa, aeth at y pregethwr i ymesgusodi, gan ddywedyd, "Dafydd Morys bach! gobeithio y maddeuwch i mi am fy ymddygiad atoch cyn yr odfa." Edrychodd y pregethwr drwyddo, â'i lygaid mawrion a llymion, a dywedodd wrtho, "Y dŷn! mi welaf mai ci wyt ti. Dangos dy ddannedd a wnait cyn yr odfa, ac ysgwyd dy gynffon yr wyt ti yn awr." Gellid casglu braidd oddi wrth yr hyn a ddigwyddodd wedyn, bod Dafydd Morys yn meddu gradd o ddawn yr eglwysi cyntefig i wahanieuthu ysprydoedd, canys dangosodd y bleunor hwnw, mewn gwirionedd, mai ci, ac nid dafad, ydoedd. Er ei holl honiadau a'i swyddogaeth, trodd ei gefn ar yr achos, gan ymdrybeuddu mewn anfoesoldeb cyhoeddus, a gwrthwynebu gwaith yr Arglwydd.

Crybwyllwyd y cafodd Dafydd Morys, fel eraill o'i gydbregethwyr boreuaf, ei ran o erledigaeth. Pan ar daith yn sir Fôn, unwaith, cyhoeddasid ef i bregethu yn Amlwch cyn bod yno gapel. Yr oedd i bregethu wrth dalcen tŷ William Roberts, y crydd, hen bregethwr oedd yn byw yn y pentref. Yr oedd llyn o ddwfr lled fawr a budr ger llaw y tŷ y pryd hwnw. Yr oedd ffarmwr erlidgar a breswyliai yn lled agos wedi clywed am y bregeth, a phenderfynodd fyned yno i wawdio ac aflonyddu. Aeth yno ar ei geffyl, gan fwriadu marchogaeth yn chwyrn trwy'r gynnulleidfa, er ei dyrysu a'i chwalu; ond pan aeth at y llyn, wele'r ceffyl yn troi i hwnw, er gweuthaf ei berchenog, a gorweddodd ynddo, a'i farchog mewn rhan oddi tano, fel nas gallai symmud. Ofnid mai boddi a wnai, ac aeth rhywrai yno i'w achub. Pan ddeallodd rhyw hen wraig oedd yn bresennol hyny, dywedodd, "O na! gadewch iddo. Gan i'r Llywydd mawr weled yn dda fyned âg ef yna, yna y dylai fod." A oedd yr hen chwaer yn gwybod

* Method. Cymru, cyf. i., t. 231.

am yr adnod a ddywed, "Dŷn a wnelo drawsedd i waed neb, a ffy i'r pwll; nac attalied neb ef," ac mai ei hesponio yn llythyrenol oedd yn peru iddi warafun ei achub, nid yw hyspys. Beth bynag am hyny, yr oedd yn dda i'r erlidiwr fod yn y gynnulleidfa rai mwy tosturiol na'r hen wraig honno. Wedi cryn drafferth yn ei ryddhau oddi wrth y ceffyl, llusgwyd ef i'r lan heb lawer o niwaid arno; ond yr oedd ei ddillad yn bur fudron. Aeth adref wedyn yn bur llipa, a chafodd y bobl hamdden i wrando ar y pregethwr dïeithr doniol, er eu mawr hyfrydwch. Gellid nodi amryw esamplau eraill, ond ni oddef lle.

Er maint oedd llafur Dafydd Morys, fel pregethwr teithiol, cyfansoddodd a chyhoeddodd lyfr hymnau tra chymmeradwy, enw ac amseriad yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Cân y Pererinion Cystuddiedig ar eu taith tua Seion: neu ychydig o Emynau profiadol, er mawl i Dduw, a Chynnydd i'r Cristion. Gan D. Morys, ger llaw Lledrod.
"Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior, ger llaw yr Eglwys. M,DCC,LXXIII."

Dengys amryw o hymnau y gŵr talentog hwn y gallasai efe fod yn rhestr flaenaf beirdd Cymru, pe rhoddasai gymmaint o sylw i farddoni ag a roddai i bregethu. Dodwn un emyn fer o'i waith ger bron, er esampl, am y nefoedd:—

"Mae brodyr imi aeth ym mlaen
Yn holliach a chyttûn:
Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid yw ond un.

"Mae pawb o'r brodyr yno'n un,
Heb neb yn tynu'n groes,
Yn moli'r Duwdod yn y dŷn,
A chofio angau loes.

"Ni theimlir yno unrhyw boen,
Na chwyno gan un clwy;
Ond pawb mewn hwyl yn moli'r Oen,
I dragwyddoldeb mwy.

"Daw'r holl dduwiolion yno ynghyd
O'r Gogledd, De, heb ri;
A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân,
A'u cân am Galfari."

Ymddengys bod nifer pregethau Dafydd Morys bron yn afrifed. Dywedir y cyfansoddai chwech neu saith o bregethau, weithiau, ar yr un testyn, megis Act. xvi. 30, 31. Pan ar ei deithiau, pregethai yn fynych gynnifer a phymtheg neu ddeunaw o wahanol bregethau weithiau yr un wythnos.

Yn y fl. 1774, symmudodd o Ledrod i ardal y Tŵr-gwyn, yn yr un sir, ar daer ddymuniad yr eglwys fechan oedd yn y lle hwnw; a bu ei fynediad yno o fendith fawr i'r ardal honno, a'r holl ardaloedd o amgylch. Ychwanegwyd llïaws at yr eglwys mewn canlyniad i effeithiau grymus ei bregethau; darostyngwyd rhagfarn trigolion anghrefyddol y fro, i raddau helaeth, yn erbyn Methodistiaeth; a buan y bu raid heleuthu y capel. Ar forau un Sabboth yn 1784, torodd adfywiad nerthol allan dan bregethiad Dafydd Morys, yr hwn a gyrheuddodd y gwrandawyr yn gyffredinol, a llïaws mawr o honynt a argyhoeddwyd ac a ddychwelwyd at Dduw. Parhaodd yr adfywiad hwnw dros hir amser. Byddai galwad parhaus am dano yn y De a'r Gogledd, ac ni roddes ei ymsefydliad yn y Tŵr-gwyn ddim attaliad ar ei bregethu teithiol.

Ond daeth tymmor y gŵr enwog, llafurus, defnyddiol, a chymmeradwy yma i ben yn fuan, canys ar yr 17fed o Fedi, 1791, efe a fu farw yn 47 oed, wedi bod yn pregethu am tu a saith mlynedd ar hugain. Bu ei wraig farw tu a thair blynedd o'i flaen ef, a chladdasid dau o'i feibion yn ieuaingc cyn hyny, sef Theophilus ac Eleazar; ond gadawodd un mab ar ei ol, sef Ebenezer, yr hwn a ddechreuasai bregethu yn y flwyddyn y bu ei fam farw, a llewyrchodd yn ddisglair yn ffurfafen Methodistiaeth dros lawer o flynyddau. Bu galar dwys a maith ar ol Dafydd Morys yn eglwys y Tŵr-gwyn, a'r wlad o amgylch, a chan y Methodistiaid yn gyffredinol trwy holl Gymru.*

### DAFYDD DAFIS, CASTELL HOWEL.

Ganwyd y gŵr hyglod hwn mewn tŷ ffarm, a elwir y Goetre-isaf, plwyf Llangybi, yn agos i'r ffordd sy'n arwain o Lanbedr-pont-Stephan i'r Castellnewydd-yn-Emlyn, sir Aberteifi, ar y 14ydd o Chwefror, 1745. Yr oedd ei rieni yn aelodau o eglwys Annibynol y Cilgwyn, i'r hon, y pryd hwnw, yr oedd yr addfwyn Phylip Puw yn weinidog.† Bu iddynt saith o blant, pump o feibion a dwy o ferched, y rhai a ddygasant i fynu yn grefyddol, yn ol manteision yr oes honno. Dafydd oedd yr hynaf o'r saith.

Llenwid sir Aberteifi yr amser hwnw âg Arminiaeth, Ariaeth, a Sosiniaeth; ac ni chafodd yr athrawieuthau hyny fwy o ddyfnder deuar mewn un lle nag yn yr eglwysi a wasaneuthid gan Phylip Puw. Ond er bod y cyfryw athrawieuthau yn amlhau, dysgwyd Dafydd o'i gryd i feddwl yn fawr am Dduw, yr hyn a gynhyrchwyd, yn ddïau, gan grefydd yr aelwyd.

* Drych yr Amseroedd, t. 174; Method. Cymru, cyf. ii., t. 83; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 800; Gwyddoniadur, cyf. ii., t. 553; Llyfr. y Cymry, t. 546.
† Gwel llyfr v., pen. ix.

Digitized by Google

Anfonwyd ef yn ieuangc i'r ysgolion gorau o ddeutu ei gartref; a phan oedd yn 13 neu 14 oed, dodwyd ef yn ysgol ei ewythr, y Parch. Jos. Thomas, Llanllieni, lle y bu ynghylch blwyddyn a hanner. Wedi hyny, bu yn ysgol Dafydd Jones, Llan-y-bydder. Pan oedd ynghylch 16 oed, symmudwyd ef i ysgol a gynhelid yn Llangeler, dan ofal y Parch. T. Llwyd, Ficar Penboyr, lle y treuliodd dair blynedd. Dïau mai at yr adeg yma y cyfeiria yn y llinellau canlynol:—

"Mi ges lawer odfa wiw
Pan yn ieuangc ym Mhen-rhiw."*

Yn Ionawr, 1764, dodwyd ef yn Athrofa Caerfyrddin, yr hon ar y pryd oedd dan ofal S. Thomas a J. Jenkins, y rhai a ystyrid gan yr Annibynwyr yn gyfeiliornwyr peryglus; a chollodd yntau, fel y rhan fwyaf o fyfyrwyr Caerfyrddin y dyddiau hyny, bob teimlad crefyddol, naill ai trwy ddylanwad yr ymrafeulion parhaus cyssylltedig â'r athrofa, neu trwy ddylanwad rhyw athrawicuthau penrhydd a ddysgid ynddi, yr hyn a welir yn amlwg yn ei dystiolaeth ef ei hun yn y llinellau canlynol:—

"Difyrwch gwag, a dull y dre,
A droes fy enaid gwan o'i le.

"Mi eis gyd â rhwysg fy ieuengctid,
Dros dro, i adael Duw yn ynfyd."

Wedi iddo fod yn yr athrofa am bedair blynedd, cyfododd gradd o ymgystadleuaeth am ei wasanaeth rhwng eglwysi Llanedi a'r eglwysi Presbyteraidd yn sir Aberteifi mewn lleoedd a elwir Ciliau Aeron, Caeronnen, a'r Cilgwyn. Yn Ionawr 1, 1769, ymsefydlodd yng Nghiliau Aeron; ac ymhen pedair blynedd wedyn, gwnaed ef yn gydweinidog â'r Parch. D. Llwyd yn Llwynrhydonnen, a'r eglwysi eraill perthynol i'r cyfundeb Undodaidd. Ar y maes eang hwn y bu'n llafurio dros hanner can mlynedd, ac oddi yma yr aeth ei enw fel ysgolhaig, pregethwr, ysgolfeistr, a bardd, yn hyspys trwy'r holl wlad.

Ar y 15fed o Ragfyr, 1776, efe a briododd Ann Evans, o'r Foelallt, Ciliau Aeron, yr hon oedd ferch ieuangc rinweddol. Ennillodd glod uchel fel gwraig dyner, gyweithas, a siriol, ac fel mam ystyriol a gofalus; ac yr oedd yn hynod haelionus i'r tlawd. Symmudodd Dafis a'i wraig, yn fuan ar ol priodi, i Gastell Howel i fyw, lle y treuliasant weddill eu hoes; ac wrth yr enw Dafis Castell Howel yr adnabyddir ef hyd heddyw. Aeth ei ysgol yn fuan i enwogrwydd mawr trwy'r holl Dywysogaeth, a chydnabyddir ef fel un o brif athrawon ei oes. Os na ddysgai llangc yn ysgol Castell Howel, nid oedd obaith mwyach wedi ei adael iddo. Ymdyrai pobl ieuaingc o bell ac agos, bonedd a gwreng, o bob enwad, i'w ysgol, nes yr aeth Castell Howel i gael ei alw yn Athen sir Aberteifi.

Hyd amser Horsley, Esgob Tŷ Ddewi, byddai Eglwyswyr yn gystal ag Ymneillduwyr yn derbyn cynseiliau eu haddysg gyd âg ef. Wedi deall o Horsley fod y rhan fwyaf o glerigwyr ei esgobaeth wedi bod yn ddisgyblion i Mr. Dafis, yr Ymneillduwr, cyhoeddodd nad urddai efe neb byth mwyach o ysgolheigion Castell Howel.† Dywedai Mr. Dafis iddo fod yn addysgu ieuengctid mewn rhyw ddull neu gilydd am yr yspaid hirfaith o bum mlynedd a thriugain; ac os nad oedd yn ddyfeisgar iawn i chwilio allan y llwybr byraf a mwyaf effeithiol i *ennill* meddyliau ei ysgolheigion ieuaingc i hoffi addysg, etto yr oedd ei ffraethder, yr ystôr o fân chwedlau a feddai yn wastad at law, ei awydd am gynnydd ei ysgolheigion, a'i synwyr cryf i'w gyfarwyddo i ddwyn allan ryw chwedl ddigrif, mewn amser a dull priodol i gyffröi uchelgais, a chynnal meddyliau y rhai a addysgai, rhag iddynt ddigaloni wrth gyfarfod â rhwystrau ar eu hesgynfa; yr oedd y pethau hyn a'u cyffelyb yn gosod ei gymmeriad yn uchel iawn fel ysgolfeistr.

Gofalai Mr. Dafis bob amser am ymgadw ymhell oddi wrth y pyngciau dadleugar oedd yr amser hwn yn aflonyddu eglwysi, am yr hyn y beir ef gan ei fywgraphydd, o herwydd rhestra yr Undodiaid ef yn un o honynt hwy, a disgwylient iddo gyhoeddi eu golygiadau Undodaidd yn ddïamwys. Y mae'n wir mai â'r blaid Undodaidd y byddai efe yn dal mwyaf o gymdeithas. Yr oedd yr eglwysi y gweinyddai iddynt yn Ariaid proffesedig: un o honynt wedi cael ei chasglu ynghyd gan Jenkin Jones, yr hwn a rwystrwyd i bregethu yn hen eglwys Galfinaidd Pant-y-Creuddyn; a'r lleill wedi llithro yn raddol i'r golygiadau hyny dan weinidogaeth esmwyth Phylip Puw. Hefyd, yr oedd yr holl weinidogion oedd yn ei urddiad naill ai yn Ariaid proffesedig, neu yn Annibynwyr wedi cofleidio "cyfeiliornadau Caerfyrddin," fel y'u gelwid, ac yn gondemniedig gan y frawdoliaeth Galfinaidd; ac aeth tri o'i feibion yn weinidogion i eglwysi Undodaidd. Ond

* Eglwys Arminaidd y pryd hyny, ond Undodaidd wedi hyny. ger llaw Llangeler.

† Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 474.

Digitized by Google

ni welsom air yn ei gyfansoddiadau barddonol na rhyddieithol yn rhoi lle i dybied ei fod ef ei hun yn tueddu i wadu Duwdod Crist, oddi eithr nad oes rhywbeth yn amwys yn ei ddadl englynol â'r Parch. D. Saunders, Merthyr Tydfil; ond gellir nodi amryw ddarnau yn ei waith lle y cydnabyddir Crist mor uchel ag y gallai un Trindodwr wneuthur; eithr byddai yn bur law-drwm yn aml, fel ei gydoeswr, Ifan Tomos Rhys, yr hwn oedd yn aelod yn eglwys Llwynrhydonnen, ar Galfiniaid Antinomaidd yr oes honno.

Yr oedd yn bleidiwr rhyddid yn ei holl egwyddorion, gwladol a chrefyddol; ac o herwydd iddo ddangos cydymdeimlad â'r Ffrangcod yn amser y chwyldroad, credodd y mawrion yn y wlad hon ei fod yn amcanu at ryw ddrwg, ac awdurdododd Pit (prif swyddog y Llywodraeth ar y pryd) un Johnson, goruchwyliwr y trethi, i agor pob llythyr oddi wrth Mr. Dafis, a phob un ato; yr hyn hefyd a wnelsid, oni buasai i offeiriad parchus yn y gymmydogaeth gyfryngu. Dïoddefodd amryw o gydwladwyr Mr. Dafis drinieuthau cyffelyb, yn enwedig Iolo Morganwg, yr hwn a gymmerwyd, â'i holl bapurau gyd âg ef, ger bron yr awdurdodau, ar y ddrwgdybiaeth ei fod yn amcanu at chwyldroad! Yr oedd ei olygiadau ar ryddid crefyddol, ac ehangder tiriogaeth cymdeithas Gristionogol, braidd heb un linell derfyn. Tybia rhai bod ei olygiadau yn ymylu ar ryddfrydiaeth *(latitudinarianism)*.

Ymddengys mai yn ei gydnabyddiaeth â'r ieithoedd classurol yr oedd ei brif enwogrwydd, fel ysgolhaig, yn gynnwysedig. Ystyrid ef yn berffaith feistr ar y Groeg a'r Lladin; ac felly, o angenrhaid, yr oedd wrth ddarllen ysgrifeniadau yr ieithoedd hyny yn meddu gradd helaeth o gydnabyddiaeth â hanes hynafol. Gellir tybied, wrth gyfansoddiad ei feddwl, y gallai ei fod yn hoffach o'r beirdd nag o'r haneswyr a'r athronwyr.

Yr oedd ei amser yn cael ei gymmeryd i fynu mor llwyr, rhwng yr ysgol a phregethu, fel na chafodd hamdden i gyfansoddi ond ychydig, yn enwedig mewn rhyddiaith; a dïau y bu hyny yn golled i'r genedl. Yn ystod cystudd ysgafn a gafodd pan tu a 34 oed, cyfieithodd y llyfr canlynol, yr hwn oedd y cyntaf o'i gynhyrchion rhyddieithol:—

"Bywyd Duw yn Enaid Dyn: neu, Natur a Rhagoroldeb y Grefydd Grist'nogol. Ynghyd a'r modd i gyrraedd y Gwynfyd ag y mae hi yn ei Gynnyg. Yn Saesonaeg gan Henry Scougal, A.M. Ac wedi ei droi i'r Gymraeg gan D. D. . . . . M,DCC,LXXIX."

Llyfr 12plyg ydyw hwn, a chynnwys 120 o dudalenau. O gylch yr un amser, ysgrifenodd feirniadaeth Saesneg ar farddoniaeth Dafydd ab Gwilym, a chyfieithodd rai esamplau o'i waith i'r Saesneg.* Yn y fl. 1792, cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Cri Carcharorion dan farn Marwolaeth, &c. Gan D. Davies, Castell Howel."

Hwn ydyw yr unig waith rhyddieithol Cymraeg a gyhoeddodd; ond nid yw yn agos gyfartal i'w gyfieithiad o "The Life of God in the Soul of Man," y llyfr a nodwyd eisoes, sef "Bywyd Duw yn Enaid Dŷn." Ymddengys, mewn gwirionedd, ei fod ef yn llawer gwell cyfieithwr na chyfansoddwr, a hyny, y mae'n debyg, am ei fod yn ieithydd cyffredinol mor odidog. Y llyfr nesaf a gyhoeddodd oedd hwn:—

"Myfyrdod ar Einioes ac Angau, a ysgrifenwyd mewn Mynwent yn y Wlad, ym mrig yr hwyr. Wedi ei droi o Saesonaeg T. Gray. . . . . 1789."

Gellir rhestru y cyfieithiad yma, yn ddibetrus, ymhlith y marwnadau rhagoraf sydd yn yr iaith Gymraeg, megis marwnad yr Esgob Heber, gan Alun; marwnadau Williams o Bant-y-Celyn, a'r cyffelyb. Cyttuna beirniaid galluog yn y ddwy iaith y gwisgir y meddyliau yn y cyfieithiad mewn iaith fwy barddonol, ystwyth, a naturiol, nag yn y gwaith gwreiddiol ei hunan; a chyn belled ag y mae a fynno iaith â barddoniaeth, yn annibynol ar grebwyll a darfelydd, y rhagora Bardd Castell Howel ar Fardd Stoke Pogis.

Yn y fl. 1824, pan oedd yr awdur enwog yn 79 oed, cyhoeddwyd crynhodeb o'i gyfansoddiadau barddonol gan Longman, Llundain, yn llyfr 12plyg destlus, a elwir "TELYN DEWI," yn cynnwys 219 o dudalenau; a chafodd dderbyniad croesawgar a helaeth, a heudda yn dda gael cyffelyb dderbyniad etto. Pan welodd y bardd fod ei waith mor gymmeradwy, dywedodd, "Pe gwybuaswn y cawsai fy marddoniaeth y fath dderbyniad gan y cyffredin, buaswn yn achlesu mwy ar yr awen; ond y mae'n rhy ddiweddar bellach i ail ddechrau."

Bu'r ysgolfeistr llwyddiannus, y pregethwr enwog, y llenor galluog, a'r bardd cymmeradwy hwn farw ar y 3ydd o Orphenaf, 1827, yn 82 oed. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Llanwenog, wrth ochr ei hen gydweinidog, y Parch. D. Llwyd. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan y Parch. Thomas Gruffydd (Tau Gimel); ond nid yn aml y gwelsom lyfryn bychan mor wasgarog a didrefn. Y mae erthygl gampus ar ei hanes a'i waith yn y

* Analytical Review, vol. vii., p. 297.

*Traethodydd.* Cynhygiwyd gwobr am yr alarnad orau iddo yn Eisteddfod Castellnewydd-Emlyn, yn y fl. 1859, yr hon wobr a ranwyd rhwng D. Aubrey (Meilir Môn) a B. Davies, o'r Castellnewydd. Ond priodol y gellir dywedyd bod ei garedigrwydd, ei ddysg, ei lafur, a'i dduwioldeb wedi gadael ar ei ol enw—

"A chofiant llawnach hefyd,
Na chareg bedd, na chreig byd."*

ROBERT JONES, RHOS-Y-LAN.

Y gŵr enwog, llafurus, a galluog hwn a alwyd i weithio yn egnïol yngwinllan ei Arglwydd cyn i oes gyntaf Methodistiaeth Cymru derfynu, am yr hwn y dywed y Parch. John Hughes fel y canlyn:—

"Nid oedd nemmawr fwy nag ugain mlynedd wedi treiglo heibio oddi ar doriad y wawr Fethodistaidd, cyn i'r hybarch Robert Jones, Rhos-y-lan, fel y'i gelwid, ac awdur *Drych yr Amseroedd*, ddyfod i'r maes i gynnorthwyo y Diwygiad. Cafodd hefyd oes faith, yr hon a dreuliodd yngwasanaeth ei Arglwydd. Efe a welodd lawer o ymosodiadau ar Fethodistiaeth, mewn gwaradwydd ac erlid oddi allan, ac mewn heresiau ac ymrysonau oddi mewn, yn yspaid mwy na 60 mlynedd y bu efe ar y maes. Yn ystod y 60 mlynedd hyny y bu'r llwyddiant mwyaf ar Fethodistiaeth Cymru, y dygwyd i mewn y cyfnewidiadau mwyaf, ac y cododd y nifer mwyaf o bregethwyr defnyddiol ac enwog."†

Ganwyd Robert Jones mewn lle a elwid Suntur, ymhlwyf Llanystumdwy, sir Gaernarfon, ar y 13ydd o Ionawr, 1745. Ychydig o fanteision addysg a gafodd, fel y rhan fwyaf o ieuengctid ei oes; ac oni buasai y gogwyddiad cryf oedd yn ei feddwl ef ei hun i gyrraedd gwybodaeth, ni allasai ragori yn hyny ar ei gydoeswyr. Yr oedd ei fam wedi ei chynnysgeuddu â synhwyrau naturiol cryfion a bywiog. Medrai ddarllen Cymraeg yn dda, ac arferai ddarllen llawer ar y Bibl a Llyfr Gweddi Gyffredin Eglwys Loegr, a hi a'i rhoddodd yntau ar ben y ffordd i ddarllen; ond er dirfawr golled i Robert, druan, bu ei fam alluog farw pan nad oedd ef ond 11 oed. Tu a chwech wythnos o ysgol a gafodd yn ei oes; ond dygodd ei lafur a'i ddiwydrwydd ef rhagddo, nes y daeth yn un o'r dynion heleuthaf ei wybodaeth gyffredinol o neb yn y wlad.

Yr oedd syched angerddol am wybodaeth ynddo er yn ieuangc, a hyny cyn iddo gael ei ddwyn i ymofyn am grefydd. Y fath oedd ei fryd ar ddarllen, ehangu ei wybodaeth, a choethi ei feddwl, fel na chollai un cyfleusdra i wneuthur hyny. Gosodai lyfr o'i flaen pan yn bwyta ei brydiau bwyd; a gwnaeth offeryn priodol i ddal y llyfr, fel y gallai ei ddefnyddio yn fwy hylaw pan yn bwyta. Yr oedd ymroad fel hyn i ddarllen yn beth pur anghyffredin yn yr oes honno. Daeth rhyw wraig i'r tŷ unwaith, pan oedd Robert yn bwyta ac yn darllen ar unwaith, a dywedodd wrtho yn gyffröus—"Ymgroesa, Robert! Oni wyddost ti mai trwy ddarllen wrth fwytà yr aeth A— o'i gof?" Heb law bod Robert Jones yn ddarllenwr mawr, yr oedd ei gof hefyd yn nodedig o afaelgar, ac yr oedd y pethau a drysorodd yn ei gof pan yn ieuangc yn gwbl at ei alwad yn ei hen ddyddiau.

Gyd âg un Thomas Gough (Goff) y cafodd yr ychydig ysgol a fwynhaodd, yr hwn a arferai egwyddori ei ysgolheigion yng Nghatecism G. Jones, Llanddowror. Cafodd gopi ei hun o'r llyfr da hwnw pan oedd tu a 17 oed, a bu ei ddarllen, ynghyd â'r ychydig egwyddori ynddo yn flaenorol, yn dra bendithiol iddo, er difrifoli ei yspryd, ac ehangu ei wybodaeth yn athrawiaeth yr efengyl. O gylch y pryd hyny, aeth i wrando ar Lewis Ifan, o sir Drefaldwyn, a gŵr arall na roddir ei enw, yn pregethu yn ei ardal. Yr oedd Robert Jones yn cael difyrwch mawr wrth ddal ar wahanol ystumiau L. Ifan, gan y bwriadai ei ddynwared wrth ei gyfeillion; ond pan ddechreuodd y gŵr arall bregethu, gorfodwyd ef i wrando yn ddifrifol; trywanwyd ei gydwybod, sobrwyd ei feddwl, dododd heibio ei oferymarweddiad, ac ymunodd â'r gymdeithas fechan o Fethodistiaid oedd ym Mrynengan, yr unig gymdeithas neillduol o grefyddwyr, fel y tybir, oedd yn y fro honno ar y pryd.

Dygasid ef i fynu yn saer coed, crefft y bwriadai ymberffeithio ynddi; ond pan ddeffrowyd ef am ei gyflwr ei hun, daeth trallod mawr ar ei feddwl ynghylch cyflyrau rhai eraill, yn enwedig y plant a'i gyfoedion ieuaingc. Dan y teimladau hyn, aeth ar ei draed at Madam Bevan i Lacharn, sir Gaerfyrddin, oedd dros gan milltir o'i gartref ef, i erfyn arni dosturio wrth blant tlodion, diddysg Gwynedd, ac anfon ysgolfeistriaid i'w dysgu. Dywedir y cerddodd yno, gan weddïo yn ddyfal ar hyd y ffordd; ond erbyn iddo gyrraedd, nid oedd y foneddiges gartref, a gorfu arno ddychwel heb ei neges. Er hyny, gadawodd annerchiad cwynfanus ati ar ei ol, yn yr hwn y taer erfyniai ei chynhorthwy. Gan ei fod eisoes yn y Dehau, ac

* Hanes Bywyd y Parch. D. Davies, gan Tau Gimel; Williams's Em. Welshm., p. 112; Traethodydd, llyfr iv., t. 197; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 134; Llyfr. y Cymry, t. 598, 671, 695, 719.
† Meth. Cymru, cyf. ii., t. 186.

wedi clywed llawer am Howel Harris, penderfynodd fyned i Drefeca i weled y sefydliad rhyfedd hwnw, a chafodd ymddiddan â'r sefydlwr enwog ei hunan.

Aeth R. Jones i Lacharn drachefn, ar ei draed, fel o'r blaen, ar yr un neges bwysig, a hyny pan nad oedd ond llencyn tu a 18 oed, a heb un cyfarfod misol, na chymmanfa, na neb arall yn ei anfon, nac yn addaw dwyn ei draul. Ei deimlad dros ei gydwladwyr truain, oedd yn cael eu gadael i'r gelyn diafol i'w "difetha o eisiau gwybodaeth," yn unig a'i cynhyrfai, a'i awydd angerddol am iddynt gael eu "troi o dywyllwch i'r goleuni, ac o feddiant Satan at Dduw." Cafodd y foneddiges gartref y waith hon, a rhoddwyd cyfleusdra iddo i adrodd ei ddeisyfiad gwladgarol a chrefyddgarol wrthi; ond o blegid y siomedigaethau a gawsai y foneddiges haelionus mewn athrawon anffyddlon a drygionus, bwriadai ei nacâu; eithr cyn llwyr benderfynu gwrthod, dywedodd wrtho yn ddisymmth, wrth ganfod ei daerineb awyddus a diledrith, "Os ewch chwi eich hun i'w chadw, yr wyf yn foddlawn i'w rhoddi." Yntau, wedi sefyll yn syn a phryderus iawn, dros ennyd fer, er mawr foddhâd i'r foneddiges dduwiol a chraffus, a dywedodd yn ostyngedig, "Wel, Madam! yn hytrach na gadael i'm cyfoedion a'm cydwladwyr redeg i bob rhyw ormod rhysedd, heb neb yn ceisio eu hattal a'u hyfforddi, yr wyf yn foddlon i wneud cynnyg ar y gwaith pwysig;" ac felly y bu.

Dywedir mai yng Nghapel-Curig, ger llaw Bettws-y-Coed, sir Gaernarfon, y dechreuodd efe ar ei orchwyl newydd o gadw ysgol, ac yno hefyd y dechreuodd bregethu. Yr oedd eisoes yn arfer egwyddori plant yr ysgol mewn pethau crefyddol, eu cynghori a gweddïo gyd â hwy; ac nid oedd y cam o hyny at gynghori dynion oedd yn llawn mor anwybodus mewn pethau crefyddol a phlant ond byr a hawdd; a cham ydoedd a gymmerwyd gan lawer o ysgol-feistriaid crefyddol yn yr oes honno. Digwyddodd bod gŵr dïeithr wedi ei gyhoeddi i bregethu mewn tŷ yng Nghapel-Curig; ond methodd y gŵr hwnw ddyfod at ei gyhoeddiad, a chymhellwyd R. Jones, yr hwn a aethai yno i wrando, i roi gair o gyngor i'r ychydig bobl a ddaethent ynghyd. Ufuddhaodd yntau i'r cais, a pharhaodd yn y gorchwyl yn ffyddlon, llafurus, a llwyddiannus hyd ddiwedd ei oes.

Symmudid ysgolion Madam Bevan, ar ol aros ychydig fisoedd mewn un ardal, fel rheol, i ardal arall, gan yr ystyrid bod tymmor lled fyr yn ddigon i ddysgu Cymro i ddarllen y Bibl, ac er mwyn rhoddi cyffelyb fantais i wahanol ardaloedd. O gylch y fl. 1770, symmudodd Robert Jones, ac efe tu a 25 oed, o Gapel-Curig i Ruddlan, sir Fflint, i gadw'r ysgol; ac y mae'r darlun a ddyry efe o'r lle ar y pryd yn dangos bod y trigolion yn hynod o dywyll a barbaraidd. Dyma fel y dywed:—

"Yr oedd y dref a'r ardaloedd yn blaenori mewn annuwioldeb ar y wlad yn gyffredin. Cedwid yno bob Sabboth, tra y parhai y cynhauaf, fath ar gyfarfod lliosog, a elwid y gwylmabsant, ymha un y cyflogid y medelwyr tros yr wythnos. Gwerthid hefyd grymanau, ac amryw bethau eraill, megis pe buasai yn ddiwrnod marchnad. Wedi darfod eu negesau, ymdyrent i'r tafarndai i ganu, dawnsio, a meddwi, yn fynych hyd forau dydd Llun; ac odid na byddai yno ymladd gweudlyd cyn ymadael. Chwi ellwch feddwl nad oedd hi ddim llai na pherygl bywyd wynebu yno i gynnyg pregethu; ac er hyny, anturiodd un William Gruffydd, ger llaw y Wyddgrug; a safodd ar yr heol, o achos na cheid un tŷ. Ni chafodd braidd ond dechrau, nad dyna'r dom a'r cerig yn cael eu lluchio ato ar unwaith, a chafodd ei lusgo a'i feuddu ganddynt yn ddidosturi." *

Cyfododd gwrthwynebiad cryf i Robert Jones gychwyn ysgol yn Rhuddlan, er ei bod dan nawdd boneddiges o eglwys-wraig; a gommeddwyd yn hollol iddo ei chadw yn eglwys y plwyf. Am hyny, aeth efe oddi yno i le a elwir y Cwm, plwyf arall cyfagos; a chaniataodd offeiriad y plwyf hwnw iddo wneud y cynnyg. Dywedodd hwnw wrtho, "Y mae croesaw i chwi gael cynnyg; ond y mae'r trigolion mor annuwiol ac anystyriol, fel na welant ddim gwerth mewn dysg, na dim arall sydd dda." Cyhoeddwyd yr ysgol, a dywedwyd hefyd y dysgid y plant am ddim. Er hyny, nid aeth neb ond tri phlentyn iddi; o herwydd paham, gorfodwyd ef ei rhoi i fynu, a dychwel i Ruddlan.

Ar ei ddychweliad i'r dref, deallodd fod y drws yn graddol ymagor i gael ysgol ynddi. Teimlodd rhyw nifer o wŷr cyfrifol yn y plwyf dros amddifadrwydd y werin ymhob math ar wybodaeth, a phenderfynasant fynu lle i'r ysgol. Cafwyd lle i'w chadw mewn adeilad a elwid *Banquet-house* (Gwledd-dŷ). Yr oedd y trigolion mor arswydus o anwar a difoes fel, pan welent yr ysgol-feistr newydd yn myned ar hyd yr heol, y byddent yn llefain ar ei ol ac yn ei regi, er mwyn ei ofidio. Yr unig le oedd ganddo i dywallt ei gŵyn oedd yr hen Gastell, lle yr elai bob canol dydd ar ol gollwng y plant o'r ysgol y borau, ac y tywalltai ei galon mewn gweddïau drosto ei hun, a thros ei gymmydogion anfad a drygionus.

Llwyddodd yr ysgol yn fawr, cafwyd lliaws o

* Drych yr Amseroedd, t. 105.

Digitized by Google

blant iddi, ac ennillodd yr athraw siriol ac addfwyn eu serchiadau oll. Canmolid yr athraw gan y plant gartref wrth eu rhieni, ac adroddent fel y byddai yn eu dysgu, eu hegwyddori, eu rhybuddio, a'u cynghori. Agorodd R. Jones ysgol nos hefyd, er rhoddi cyfleusdra i eraill, heb law y plant, i fod yn bresennol i wrando arno yn holi'r plant, ac i dderbyn addysg eu hunain. Cedwid yr ysgol hon ar ddwy noswaith yn yr wythnos; ac yn raddol, aeth llïaws o bobl ieuaingc yno, heb law'r plant; ac erbyn diwedd yr ysgol, pryd y dechreuid holwyddori, byddai nifer mawr o hen bobl yn y lle. Bu hyn yn foddion i ddarostwng llawer ar ragfarn y trigolion yn erbyn y crefyddwyr; dygwyd llawer hefyd i ystyried eu cyflwr ysprydol; ac nid oes achos i ammau mai trwy'r moddion dirodes hyn yr ymwreiddiodd Methodistiaeth yn Rhuddlan. O gylch y pryd hyn, teimlodd Robert Jones awydd i dori allan ar dde ac aswy i bregethu y gair; ond yr oedd cryn anhawsder i wneud hyny, gan nad oedd un tŷ yn agored i'w dderbyn. Ymhen ennyd gwahoddwyd ef gan ryw hen ferch yn Dyserth, tu a dwy filltir o Ruddlan, i ddyfod i'w thŷ hi i bregethu. Cydsyniodd yntau cyn gynted ag y gallodd; ac erbyn iddo fyned yno, yr oedd llïaws o'r cymmydogion wedi ymgasglu i wrando ar yr ysgol-feistr. Mwnwyr gan mwyaf oedd y gynnulleidfa; a hynod oedd y siarad yn y tŷ: gallasid casglu mai cyfarfod i'r pentrefwyr i siarad ydoedd, ac nid i'r ysgol-feistr bregethu. Pan ddaeth yr awr, cododd R. Jones ar ei draed, a'r Bibl yn ei law, a dywedodd, "Gwrandewch i gyd: yr wyf yn awr am ddarllen i chwi ran o air Duw." "Be mae o'n ddeyd, dywed?" ebai un wrth y nesaf ato. "Deyd fod o'n mynd i ddarllen rhan o air Duw i ni," oedd yr atteb. "Ho!" ebai'r llall, gan ddisgwyl difyrwch mawr dros ben. Cafwyd gosteg yn fuan bellach, ac aeth y pregethwr ym mlaen. Aeth yr ystafell yn rhy lawn yn fuan i fod yn gysurus. Eisteddai un neu ddau ar y drestl *(dresser)*; ac yn anffodus, cyffyrddodd un o honynt â'i benelin y llestri priddion oedd o'r tu cefn iddo, nes dryllio rhai o honynt. Ar hyny, gwylltiodd yr hen ferch yn aruthr, a chipiodd gogail y droell bach oedd ger llaw, gan ddechrau eu curo yn ddïarbed âg ef, a llefain, "Dwed i nhŷ fi i dori'r llestri, ai e? Mi dala i chi, mi naf hefyd!" Mawr bellach oedd y cyffro a'r crechwen, ac allan â'r bobl oll; a chan ddynwared yr hen ferch, curent eu gilydd o'r tu allan, gan adrodd ei geiriau. Aeth y pregethwr hefyd allan, rhag digwydd iddo yr un dïal gan yr hen ferch; a rhoddwyd dyrnod bychan iddo gan rywun wrth iddo fyned allan, yn fwy o ddireidi nag o ddifrif. Ar hyn, llefai ffarmwr o'r ardal allan, "Chware teg i'r *schoolmaster!* Lle mae o? Mi geiff ddwed i melin i, i roi gair o gyngor. Dowch, bobol!" I'r felin yr aed. Un ganwyll ddimai oedd yn y lle; a phan oedd R. Jones yn dechrau darllen ei destyn, diffoddodd honno, naill ai o fwriad neu o ddamwain; a dyna bawb yn y tywyllwch. Llwyr ddyryswyd y cyfarfod, ac aeth y dihirod adref, wedi cael llawn cymmaint ag a ddisgwylient o ddifyrwch, rhwng yr hen ferch a'r tywyllwch yn y felin.

Pan ddaeth amser yr ysgol i fynu yn Rhuddlan, symmudodd R. Jones oddi yno i Frynsiencyn, ym Môn, lle y cyfarfu âg erledigaeth bur chwerw. Wrth weled ei lwyddiant gyd â'r plant, a'i gymmeradwyaeth fel cynghorwr, cynfigenodd offeiriad y plwyf gymmaint wrtho fel y penderfynodd ei symmud o'r ardal. Ysgrifenodd at Madam Bevan, gan ddisgrifio yr ysgol-feistr fel dŷn peryglus i heddwch y plwyf, ac erchi iddi ei anfon o'r plwyf yn ddïoed. Ond yr oedd y foneddiges wedi cael y fath foddlonrwydd ei hun yn R. Jones fel na chredai yr offeiriad, ac nid attebodd ei lythyr. Ysgrifenodd ddau lythyr arall ati i'r un perwyl, ond ni chafodd atteb i'r un o honynt. Yna aeth yr offeiriad at R. Jones, a dywedodd na chai yr eglwys mwyach i gadw ysgol, am ei fod yn pregethu ar y Suliau tu a Brynsiencyn; a throdd ef a'r plant allan o'r eglwys ar ganol yr ysgol. Aeth y plant adref dan wylo, a dymuno pob anffawd i'r hwn a'u hyspeiliodd o'u hathraw tirion a charedig. Yn fuan ar ol hyn, aeth yr offeiriad yma i ymweled â Mrs. Llwyd, o'r Gesail, ger llaw Penmorfa; a thra'r oedd yno, ymwelodd ag un arall o'i gyfeillion yn yr ardal, yr hwn a ddywedodd wrtho fod tenant i Mrs. Llwyd yn derbyn y Methodistiaid i'w dŷ i bregethu, ac y tybiai nas gwyddai y foneddiges hyny. Dywedodd yntau, mewn nwyd ddrwg, na fwytâi efe damaid o ginio nes dywedyd hyny wrth y foneddiges, ac ymaith âg ef ar ffrwst tu a'r Gesail; ond erbyn iddo gyrraedd yno, yr oedd ei gêg yn gam! Meddyliodd y gweinidogion mai cellwair yr ydoedd; ond deallwyd yn fuan mai wedi ei daro â'r parlys yr ydoedd, ac ni ddywedodd air byth wedyn ond *yes* neu *no*, a hyny yn bur floesg. "Adweunir yr Arglwydd wrth y farn a wna!"*

* Drych yr Amseroedd, t. 113-4; Cofiant Robert Jones, t. 11-13; Method. Cymru, cyf. ii., t. 188-190.



Digitized by Google

Cyn ymadael o Fôn, ar ol i'r person uchod fwrw ei ysgol allan o eglwys Llanidan, aeth R. Jones ar gyhoeddiad trwy'r Ynys gyd âg un o'r offeiriaid Methodistaidd, yr hwn nid enwir; a phregethent yn y prif ffyrdd a'r ceuau, a phob man lle y caent wrandawiad. Yr oedd gwrando mawr y pryd hwnw ar bob offeiriad a bregethai allan o'r eglwys. Cafodd trigolion Môn gyfleusdra y waith hon i glywed "gŵr lleyg" yn pregethu; a chan fod R. Jones yn bregethwr call a chynhwysfawr, yn meddu llais peraidd a dull deniadol, bu'r tro yn foddion i symmud rhagfarn yr ynyswyr at y cyfryw bregethwyr, a'u dwyn i gredu bod yr Arglwydd yn anfon rhai i bregethu yr efengyl heb law yr offeiriaid.

Wedi i R. Jones orphen ei daith bregethwrol ym Môn, ymddengys mai i Langybi, yn Eifionydd, sir Gaernarfon, y symmudodd i gadw ysgol; a bernir mai tra yr arhosai yno y priododd efe Magdalen, merch Rhisiart Gruffydd, Caer'r-tyddyn, Llangybi, yr hon a fu'n ymgeledd gymmwys iddo ef, ac yn fam dduwiol a gofalus i'w blant; a bu hefyd yn "fam yn Israel" hyd ddiwedd ei hoes. Yr oedd yn hynod mewn duwioldeb a lletygarwch. Bu farw yn y fl. 1813, yn 63 oed.

Tra'r oedd Robert Jones yn cadw ysgol yn Llanbadarn, sir Gaernarfon, arferai fyned i Lanllyfni, tu a phum milltir o ffordd, i gadw ysgol nos; a bu ei lafur yn hyny yn dra bendithiol. Yr oedd yn meddu llawer o gymhwysder i ennill serchiadau ei ysgolheigion, ac i gyfranu addysg iddynt, fel y crybwyllwyd yn barod. Wedi i'r ieuengctid a ddeuent i'w ysgolion nos ddysgu darllen yn dda, gosodai hwy o'r neilldu i ddysgu canu, tra y dysgai ac yr holwyddorai yntau rai ieuengach a mwy anfedrus mewn darllen. Pan oedd efe wrth ei orchwyl, un noswaith, efo'r dosparth olaf, clywai ryw swn dïeithr ym mysg y cantorion. Dynesodd atynt, a chynhyddu yr oedd y sain ysprydol; ac o'r diwedd, torasant allan i lefain, "Bendigedig, dïolch, haleliwia," &c., a hyny am hir amser. Dywedai i'r rhai hyny oll braidd gael crefydd, a chymmorth i bara hyd y diwedd.

Symmudodd R. Jones o Lanbadarn i Frynengan; ac wedi iddo orphen tymmor yr ysgol yno, cymmerth brydles (*lease*) ar dyddyn o dir, am saith mlynedd, a elwid Tir-bach, Rhos-y-lan, ymhlwyf Llanystumdwy. Adeiladodd dŷ helaeth ar y tir hwnw; un ran o'r adeilad yn dy annedd, a'r rhan arall yn gapel. Gwnaeth pregethu ei ol yn rymus yn y lle hwnw tra y parhaodd y weithred; ond ar ol hyny, disgynodd y tir i feddiant Eglwyswr, yr hwn a'i cynhygiodd i Robert Jones drachefn, ond ar yr ammod iddo droi pregethu allan o'r tŷ. Ni chyttunai yntau â hyny; o herwydd paham, bu raid iddo ymadael. Mewn canlyniad i hyny, chwalwyd yr eglwys i amryw fanau yn y cwmpasoedd, megis y Garn, y Bont-fechan, &c., yr hyn a fu'n foddion effeithiol i chwanegu cymdeithasau a phroffeswyr Methodistaidd, yn lle eu lleihau, fel y dymunai y tirfeddianwyr eglwysig.

Pan orfodwyd Robert Jones i ymadael o'r Tirbach, Rhos-y-lan, cymmerth dyddyn heleuthach gan Mr. Williams, Bwlch, Llanengan, a elwir Tŷ-bwlcyn, ymhlwyf Llaniestyn, yn yr un sir, lle y preswyliodd hyd farwolaeth ei wraig. Wedi claddu ei briod, rhoddes y tir i fynu, ac aeth i lettya at John Williams, gynt o'r Felin Fadryn, yr hwn a ymddygodd ato yn dra charedig. Er mwyn bod yn ymyl y capel, a elwir Capel Dinas, aeth i lettya at James Jones ac Elin ei wraig, yr hon a fu'n ffyddlon i roddi iddo bob ymgeledd a charedigrwydd yn ei henaint hyd derfyn ei oes, yr hon a derfynodd yn dawel a hyderus ar y 18fed o Ebrill, 1829, ac efe yn 84 oed, a chladdwyd ef yn barchus ym monwent Llaniestyn.

Yr oedd R. Jones yn hanesydd gwych, yn fardd da, ac yn Gymreigydd manwl, cywir, a llithrig. Yr oedd ei wybodaeth gyffredinol yn fwy na nemmor un yn ei oes a'i wlad; a chyrheuddodd y cwbl, fel y gwelsom, trwy ei ymdrech ei hun, heb ond ychydig iawn o gymmorth ond a gafodd gan ei fam yn unig pan yn blentyn. Ysgrifenodd lawer, wrth ystyried maint ei lafur fel ysgolfeistr a phregethwr. Wele restr o'r llyfrau a gyhoeddodd:—

"Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth; neu Draethawd am Ryfel y Saint yn erbyn Diafol, &c. Y Rhan Gyntaf. Gan William Gurnal, B.D. . . . A 'Sgrifenwyd yn Gymraeg er budd i'r Cymro anhyddysg yn yr Iaith Saesonaeg. 1773."

Y mae enwau "Robert Jones, John Pierce," ar ddiwedd yr "Hysbysiad" sydd yn niwedd y rhan uchod; ond dywedir mai *cyhoeddwyr* y gwaith yn unig oedd y ddau wŷr hyny, ac mai'r *cyfieithwr* oedd un Thomas Humphreys, o Ben-y-bryn, Edeyrn.* Wrth gymharu y cyfieithiad trwsgl yma â chyfansoddiadau ystwyth a Chymreigaidd R. Jones, y mae'n hawdd credu hyny.

"Llefarydd yr Asyn er gwahardd Ynfydrwydd y Prophwyd. Sef Copi o Lythyr at wr urddasol a anfonodd ei was i aflonyddu addoliad Crefyddol. . . . . 1776."

* Traethodydd, llyfr iii., t. 898; Method. Cymru, cyf. ii., t. 142.

Digitized by Google

Er nad oes enw wrth y llyfr, cyttunir mai R. Jones oedd yr awdur.*

"Drych i'r Anllythyrrenog, &c. . . . Trefecca, 1788."

Dyna fel y mae'r enw yn *Llyfr. y Cymry*, t. 638; ond fel y canlyn y mae yng *Nghofiant* Robert Jones:—

"Arweinydd i'r Anwybodus, pris 6d.—Crynodeb o'r unrhyw, pris 3d.——."

"Grawn-sypiau Canaan, neu gasgliad o Hymnau; gan mwyaf o waith y diweddar Barchedig Mr. William Williams, sef Pigion o'i holl lyfrau cynghaneddol ef, ac o rai awdwyr eraill, wedi eu casglu ynghyd yn un llyfr; i'r diben o gynorthwyo ymdeithwyr ffordd y bywyd, i foliannu a derchafu Tywysog eu hiachawdwriaeth, ar daith eu pererindod.

"*Yr hwn a abertho foliant a'm gogonedda i.*— Dafydd.

"A gasglwyd ynghyd, gan *un* sy'n caru llwyddiant fforddolion dyffryn Baca.

"Liverpool: argraphwyd gan J. Gore, dros Daniel Jones, 1795."

Y Daniel Jones uchod ydoedd fab i Robert Jones, ac yn byw yn Liverpool mewn sefyllfa gysurus. Yr oedd yn grefyddwr difrycheulyd, ac yn llenor Cymraeg da, fel ei dad enwog. Y llyfr nesaf o waith Robert Jones a gyhoeddwyd oedd yr un canlynol:—

"Achos Pwysig yn cael ei ddadleu, mewn tri o Gydymddiddanion, rhwng Dr. Opium, Galio, a Discipulus. A fwriadwyd er argyhoeddi gwawdwyr Cyfeiliornus, &c. A gyfieithwyd i'r Gymraeg, (allan o'r seithfed argraphiad yn Saesoneg), er addysg i'r anwybodus.—Liverpool: Argraphwyd gan Robinson a Lang."

Nid oes dim amseriad wrth hwn; ond Gwilym Lleyn a'i dyry yn 1799.† Y mae'n bur debyg mai dan olygiad Daniel Jones, mab galluog y cyfieithydd, y cyhoeddwyd hwn, fel y "Grawn-sypiau." Y llyfr diweddaf o waith yr enwog R. Jones, a gyhoeddwyd, ydyw hwn:—

"Drych yr Amseroedd, yn cynnwys ychydig Hanesiaeth am y pethau mwyaf nodedig a ddigwyddasant Y'Ngwynedd, yn y ddwy Ganrif ddiweddaf, mewn perthynas i Grefydd; sef, pa bryd, a chan bwy, y cyfieithwyd yr Ysgrythyrau sanctaidd i'r iaith Gymraeg; a'r amrywiol argraffiadau o honynt. Y'nghyd â dangosiad o'r agwedd dywyll ac anfoesol oedd ar y wlad yn gyffredin, cyn i lewyrch Haul Cyfiawnder yru ymaith mewn mesur, y fagddu o dywyllwch o'i flaen. Hefyd, y moddion a ddefnyddiodd yr Arglwydd i oleuo y wlad, i raddau, o'i mawr dywyllwch; megis, *Yr Ysgolion rhad—Y Gymdeithas tu ag at helaethu gwybodaeth Grist'nogol—Bibl Gymdeithas, Brytanaidd a Thramor—Ysgolion Sabbothol—ac yn enwedigol, Pregethiad yr Efengyl.* Crybwyllir hefyd am y gwrthwynebiadau, a'r erlid a fu ar grefydd, yn nechreuad y diwygiad: ynghyd a dichellion y diafol yn hau cyfeiliornadau, i'r diben o geisio aflwyddo y gwaith oedd gan yr Arglwydd yn ei ddwyn y'mlaen. Rhoddir y'mhellach, fer hanes am amryw o'r hen dadau, a fuant yn ffyddlon a defnyddiol yn y winllan, ac sydd yn awr wedi gorphen eu gyrfa, ac yn gorphwys oddi wrth eu llafur. Y'nghyd ag ychydig o hanes y diwygiad sydd yn bresennol mewn amryw barthau o'r gwledydd. Mewn dull o ymddiddan rhwng Ymofyn-gar a Sylwedydd. Gan Robert Jones, Capel Dinas, gynt o *Roslan.*

"*Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd.* . . . Dafydd.

"Trefriw: Argraffwyd gan J. Jones. . . 1820. [Gwerth 1s. 6d."]

Y mae'r enw hirfaith yna, fel yr oedd enw hen lyfrau yn gyffredin, yn fath ar ddangoseg o gynnwys y llyfr tra difyrus, dyddorol, a buddiol yma. Dïau ei fod yr hanes orau a'r a feddwn o'r Diwygiad Methodistaidd, yn enwedig yng Ngwynedd, o'i ddechrau, tu a'r fl. 1739, hyd 1820, gan ei bod yn ffrwyth athrylith, craffder, a sylw personol yr awdur manwl a gofalus ei hun, am tu a 55 mlynedd o'r cyfnod hwnw, sef o'r fl. 1765, pan oedd efe tu ag 20 oed, hyd 1820, pan oedd yn 75 oed.

Heb law bod R. Jones yn llenor gwych, yr oedd hefyd yn brydydd da, hyddysg yn y mesurau ceuthion cystal a rhyddion, fel y prawf y "Pigion o'i Waith Prydyddol" sydd yn ei Gofiant; ac oni buasai bod cymmaint o'i amser yn cael ei dreulio, ar hyd ei oes, i addysgu plant ac eraill, i bregethu yn deithiol, ac i ysgrifenu treuthodau, dïau y gallasai efe gynhyrchu llawer o farddoniaeth odidog yn y mesurau ceuthion a rhyddion.‡

---

## PENNOD XI.

### WILLIAM RICHARDS AC EDWARD WILLIAMS, D.D.

#### WILLIAM RICHARDS.

Adnabyddir y gŵr enwog hwn yn gyffredin fel y Dr. Richards o Lynn. Ganwyd ef mewn lle a elwid Penrhydd, yn agos i Hwlffordd, a thu a saith milltir o Aberteifi, yn y fl. 1749. Enw ei dad oedd Henry Richards, tyddynwr parchus, ac aelod gyd â'r Bedyddwyr, yr hwn a symmudodd yn y fl. 1758, pan oedd William tu a 9 oed, i fyw i ardal St. Clears, yn sir Gaerfyrddin. Amlygodd William syched angerddol am ddysgeidiaeth pan yn ieuangc, a chyrheuddodd wybodaeth wych o'r Gymraeg a'r Saesneg yn forau. Ymunodd â'r Bedyddwyr ryw bryd cyn marwolaeth ei dad yn 1768, a dechreuodd bregethu yn y flwyddyn ganlynol, pan oedd ef yn 20 oed; a thrwy ei ymdrechion ef, yn benaf, y codwyd y capel bychan, a elwir Salem, Meidrim, yn yr hwn y bu'n pregethu dros ennyd. Yn 1773, aeth i Athrofa Caer-

* Method. Cymru, cyf. ii., t. 150; Llyfr. y Cymry, t. 573.

† Llyfr. y Cymry, t. 719.

‡ Cofiant Robert Jones, argr. Llanrwst, 1834: Method. Cymru, cyf. ii., t. 186; cyf. iii., t. 166; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 92.

Digitized by Google

odor, yr hon a lywyddid ar y pryd gan y Parch. Hugh Evans, M.A., ac a gynnorthwyid gan ei fab, Caleb, yr hwn, ar ol hyny, a raddiwyd yn D.D. Dau Gymro gwladgarol oedd y rhai hyn, o Bont-newydd-ar-Wy, sir Fynwy. Y gwŷr hyn, ynghyd â'r Dr. Llewelyn, o Hengoed, ac eraill, a gychwynasant yr athrofa hon, yn yr hon yr addysgid eu pregethwyr hyd oni sefydlwyd athrofa y Fenni yn 1807.

Wedi bod yn yr athrofa hyd 1776, aeth i gynnorthwyo y Dr. Ash, awdur grammadeg a geiriadur Saesneg, yr hwn oedd weinidog y Bedyddwyr yn Pershore, sir Gaerwrangon (*Worcestershire*); ac ar y 5med o Orphenaf, yr un flwyddyn, efe a sefydlwyd yn weinidog i eglwys y Bedyddwyr yn Lynn, sir Norffolk, lle y treuliodd weddill ei oes.

Dywedir nad oedd doniau Richards, fel pregethwr, yn bur boblogaidd; ond gwerthfawrogid ei alluoedd, a mawr hoffid ef gan wrandawyr a garent synwyr a dysg yn hytrach na hwyliau areithyddol. Ni byddai byth braidd yn ysgrifenu ei bregethau; am hyny, ni adawodd odid ddim pregethau ar ei ol. Barnai efe, a dïau ei fod yn gywir yn hyny, bod pregethu felly yn tynu mwy o sylw, ac yn gadael mwy o argraph ar feddyliau y gwrandawyr, na seremonïol bregethu o lyfr. Byddai yn ymweled yn fynych â'i gyfeillion a'i berthynasau yng Nghymru, ac yn aros yno yn hir weithiau cyn dychwelyd yn ol, o herwydd gwendid iechyd. Yr oedd Methodistiaeth, y pryd hyny, yn ei llawn rym ieuengaidd yn y wlad; a mynych iawn y byddai neidio a gorfoleddu yn eu plith yn yr addoliad cyhoeddus, i'r hyn yr oedd Richards yn dra gwrthwynebus, a gwawdiai y cyfryw bethau fel lloerigrwydd gwallgof. Ond dengys yr Ysgrythyrau yn eglur bod Richards yn camsynied yn ddirfawr yn hyn,* beth bynag am bethau eraill.

Y mae'n anhawdd iawn gwybod, yn fanwl, beth oedd golygiadau duwinyddol Mr. Richards. Bernir nad oeddynt na Chalfiniaeth nac Arminiaeth, yn ol yr ystyr cyffredin a roddir i'r geiriau hyny, er y cyhuddid ef o fod yn Arminiad gan ei wrthwynebwyr, yr hyn a ystyrid gan Galfiniaid, ar y pryd, yn un o'r pechodau gwrthunaf. Gwyrodd nifer o eglwysi Bedyddwyr y Deheubarth at Arminiaeth yn niwedd y ganrif o'r blaen, a dïarddelwyd deuddeg o eglwysi yn y gymmanfa yn 1799. Richards oedd yn cael y bai am hudo'r gweinidogion a'r eglwysi i Arminiaeth; ond dywed un o'i fywgraphwyr fod yn anhawdd iawn rhoi darlun o'i syniadau ef ar athrawiaethau yr efengyl; nad oedd na Chalfin, nac Armin, na Sosin; ac nad oedd ychwaith yn Drindodwr, Sabeliad, nac Ariad. Yr oedd ganddo barch mawr i Mr. A. M'Lean, o Edinburgh, ac ymohebai âg ef yn fynych. Bu'n gohebu llawer hefyd â J. R. Jones, o Ramoth; a gwyddys nad oedd dim tuedd yn y ddau hyny at Arminiaeth. Ymddengys i ni y safai Richards, fel duwinydd, yn bur debyg ag y saif Carlyle fel hanesydd, y medrai efe fwynhau rhagoriaethau ymhawb, a'i fod yn ymofynydd awyddus a gonest am y gwirionedd. Y mae'n amlwg fod Richards yn meddu rhai cynheddfau cryfion, a bod ei ddysg a'i wybodaeth yn bur helaeth. Ysgrifenodd amryw lyfrau yn Gymraeg a Saesneg. Y cyntaf o'i lyfrau Cymraeg oedd y canlynol:—

"Dadl dros ddarllen yr Ysgrythyrau mewn Cynnulleidfaoedd Cyhoeddus."

Nid oes amseriad wrth y llyfr hwn; ond Gwilym Lleyn a'i doda yn y fl. 1780.† Y llyfrau nesaf a gyhoeddwyd gan Richards yw y rhai canlynol, ar ddadl bedydd â'r Parch. Ben. Evans:‡—

"Athrawiaeth Bedydd Dwfr yn cael ei hamddiffyn, a'i Llygriad gan Mr. B. Evans, yn ei Lythyrau diweddar ar y Pwngc o Fedydd, yn cael ei brofi; a'r Bedyddwyr yn cael eu cyfiawnhau oddiwrth amryw Achwynion camweddus a ddygir yn eu herbyn yn y Cyhoeddiad hwnnw: Mewn amryw Lythyrau at Gyfaill. Gan William Richards. . . MDCCLXXXIX."

"Llun Anghrist: neu, Arddangosiad eglur a didwyll, o Lygriadau Ffydd Grist'nogol; ac o wendid ac oferedd Ymdrechiadau Mr. B. Evans, dros Daenelliad Babanod. Mewn chwech o Lythyrau at Gyfaill. Gan William Richards. . . . . 1790."

"Pregeth eglur a difrifol ar Fedydd, yn ei gyssylltiad ag Egwyddorion cyntaf ac Ysbryd Cristionogaeth. Gan W. Richards, Ll.D.,§ gynt o Lynn."

"Traethawd difrifol ynghylch Bedydd: ym mha un y mae'r Ordinhad Sanctaidd honno yn cael yn ofalus ei gwahaniaethu oddiwrth yr Arfer lygredig sydd yn gyffredin yn myned dan yr un enw, a'i Harwyddocead a'i

* 2 Sam. vi. 12–16; Act. ii. 1–4, 12, 13; iii. 1–8. Hefyd, gwel gân odidog Williams o Bant-y-Celyn, a elwir "Atteb i Wr Bonheddig, a geisiodd brydyddu senn i'r yspryd a ddisgynodd ar rai gwrandawyr bywiol yn ddiweddar, ac a'u gwnaeth hwy i ganu a dyblu canu mawl i Dduw a'r Oen; ïe, bendithio, moliannu, llawenhau, llamu, a neidio o orfoledd yr iachawdwriaeth," &c. A darllener yn fanwl yr Ysgrythyrau y cyfeiria'r bardd atynt ynglŷn â'r gân honno.—Holl Weithiau Wm. Williams, argr. Mackenzie, t. 671, 742 3.

† Llyfr. y Cymry, t. 599. ‡ Gwel y bennod flaenorol.

§ "Nis gallasai y radd o Ddoctor y Cyfreithiau (Ll.D.) fod yn perthyn i Mr. Richards y pryd hwn," medd gol. y *Llyfryddiaeth*, "canys yn 1818 y derbyniodd efe hi oddi gan Goleg y Bedyddwyr yn Ynys Rhod. T. C.; ac ni chyrhaeddodd y graddlythyr y wlad hon hyd ymhen rhyw gymmaint o amser ar ol ei farwolaeth, yr hon a ddigwyddodd ar y 12fed o Fedi, yn y flwyddyn honno. Yr oedd efe yn byw yn Lynn yr amser y cyhoeddwyd y bregeth. Cymmerodd ein hawdur [Gwilym Lleyn], fel yr ymddengys, yr enw, nid o'r bregeth ei hun, ond o ryw gyfeiriad diweddar ati."—Llyfr. y Cymry, t. 657, nod †.

Digitized by Google

Diben hefyd yn cael eu dal allan; mewn Llythyr at y Diduedd, y Rhesymol, a'r Ymofyngar, ym mysg Arddelwyr Taenelliad Babanod yng Nghymru. At yr hyn y Chwanegwyd Ol-Ysgrifen, yn cynnwys Attebiad digonol i Drydydd Llythyr Mr. Evans o'r Drewen. Gan William Richards. . . . . MDCCXCI."

Ni wnaeth Evans o'r Dre-wen ddim sylw o'r llyfr hwn, gan yr ystyriai ef, a phethau eraill a ysgrifenid ar y pwngc y pryd hwnw, medd un o'i fywgraphwyr, yn cynnwys "mwy o dafod drwg nag o ddadl, yr hyn a ganfuwyd yn uniongyrchol gan y wlad; ac egwyddorion Bedyddwyr babanod a lewyrchent yn fwy tanbaid o herwydd gwendid y rhai a'u gwrthwynebent. Gwnaeth Llythyrau Evans ddaioni mawr yn y Dywysogaeth, trwy ddangos gwendid y rhai a'u gwrthwynebent. Ond bu'r ddadl hon yn achos i iselhau ei fri yngolwg y Bedyddwyr; ac o blegid i ddwfr dori i mewn i'w fedd ar ddydd yr angladd, cafwyd llythyr yng Nghastell-newydd-Emlyn, wedi ei ddyddio [ei amseru] yn y nefoedd, a'i arwyddo gan William Richards o Lynn, yn gwneud gwawd o'r amgylchiad. Ond y mae'n rhy waradwyddus ac ysgymmunedig i'w roddi ger gŵydd darllenwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg."*

Ymddengys mai'r ysgymmunbeth a nodir uchod oedd yr olaf a ysgrifenodd Richards ar fedydd. Yn y fl. 1792, efe a gyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Ymborth ar Ddydd-ympryd: neu Ychydig o Resymmau prydlawn tu ag at wasanaeth y Bobl ddaionus hynny ag sydd yn credu ym mhriodoldeb ac effaith Ympryd iau Cyhoeddus. Gan William Richards, M.A., Aelod o Gymdeithas yn Pensylfania tu ag at Annog yn y Blaen Ddiddymiad Caethiwed. Argraphwyd tros y Cymry unaith."

Nid oes amseriad wrth y gwaith hwn; ond Gwilym Lleyn a'i dyry yn y flwyddyn grybwylledig, 1792.† Yn enwad y llyfr yna hefyd y mae'r unig grybwylliad a ganfyddwn ni bod yr awdur wedi cael y radd o Athraw yn y Celfyddydau (M.A.). Gwilym Lleyn a ddyry'r llyfr canlynol, yr hwn sydd heb amseriad nac enw awdur wrtho, yn y fl. 1793:—

"Sylwad Byrr ar y Papur."

"Y papurau hyn," medd Gwilym Lleyn, "oedd rifcres a elwid 'Papurau Achlysurol o ddadleuon sectaraidd, a phersonol, isel, rhwng y Dr. Richards o Lynn a'r Parch. Joseph Harris (Gomer), o Abertawy.' Y mae'n syn nad yw bywgraphwyr yr enwog Harris yn crybwyll dim am y sarhâd hwnw a daflwyd arno gan yr ysgolhaig o Lynn, yr hwn, ynghyhoeddiad y papurau hyny, ydoedd yn gorselu ei hun yn fwy na'i wrthwynebydd mwy medrus, er yn llai ei ddysg."*

Gwelir na fynegir beth oedd pwngc, neu byngciau, y ddadl rhwng Richards a Harris; ond y mae'n sicr nad bedydd ydoedd, canys yr oedd Harris alluog yn credu bedydd y crediniol trwy drochiad yn llawn mor gadarn a chydwybodol ag y gallai Richards ei hun wneuthur hyny. Y mae'n debyg mai llyfrau galluog Harris ar Dduwdod yr Arglwydd Iesu, yn erbyn y Sosiniaid, a'r cyffelyb, a gynhyrfodd ymosodiadau isel "yr ysgolhaig o Lynn" ar ei "wrthwynebydd mwy medrus, er yn llai ei ddysg," o Abertawy, canys yr oedd golygiadau "yr ysgolhaig" yn bur amheus ar y pwngc mawr a phwysig hwnw a'i gyffelyb, fel yr awgrymwyd eisoes, tra yr oedd golygiadau ei "wrthwynebydd mwy medrus" cyn gadarned arnynt a chreigiau yr oesoedd, a chyn oleued a chanol dydd, fel y ceir gweled yn ei hanes.

Yn y fl. 1798, cyhoeddodd Richards Eiriadur Saesneg a Chymraeg bychan. Ysgrifenodd lawer hefyd yn Saesneg, megis—

"History of Lynn (2 vols. 8vo)—Review of the Memoirs of the Protectorial House of Cromwell, by the Rev. Mark Noble†—Reflections on French Atheism, and on English Christianity—Food for a Fast Day‡—A Brief Account of the Original State of the Sacred Writings—Reflections on Allegorical Preaching§—A Review of Mr. Carter's Strictures on Infant Baptism, in Three Letters to a Friend—A Word in Season, or a Plea for the Baptists—The History of Antichrist—a The Welsh Nonconformists' Memorial; or, Cambro-British Biography, containing Sketches of the Founders of the Protestant Dissenting Interest in Wales. To which are prefixed an Essay on Druidism, and Introduction of the Gospel into Britain. With an Appendix, including the author's Minor Pieces, and his Last Views of the Christian Religion."

Cyhoeddwyd y gwaith olaf, yr hwn y dywedir mai ei brif waith ydyw, gan y Dr. John Evans, gweinidog y Bedyddwyr yn Worship Street, Llundain, yn y fl. 1820, ymhen tu a dwy flynedd ar ol marwolaeth yr awdur. Llyfr 8plyg bychan ydyw, yn cynnwys 504 o dudalenau, ac 36 tudalen o arweinolion. Cyttunir mai y rhan werthfawrocaf, cystal a hcleuthaf, o'r gwaith ydyw y rhan fywgraphiadol. Am Dderwyddiaeth Richards, y mae yr un o ran natur a sylwedd a Derwyddiaeth ddy-

* En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 282.
† Llyfr. y Cymry, t. 670.

* Llyfr. y Cymry, t. 681.
† Mawr ganmolid y gwaith hwn gan gyfeillion rhyddid gwladol a chrefyddol yn yr oes honno.
‡ Cyfieithiad ydyw hwn o'r llyfr Cymraeg (neu y Cymraeg o hwn) a elwir "Ymborth ar Ddydd-Ympryd." Amcan hwn, a'r un o'i flaen (y "Reflections"), oedd gwrthwynebu rhyfeloedd, a meithrin heddwch cyffredinol.
§ "Pethau digon anhawdd i'r brodyr ffugyrol eu dïoddef oedd y 'Reflections' uchod; ac nid rhyfedd, os oedd y rhai a nyddent y Bibl i ystum, yn nyddu ac yn gŵyrdroi pob peth perthynol iddo yntau."—Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 134.

Digitized by Google

chymmygol ddiweddar Meyryg Morganwg, Llywelyn Siôn, Iolo Morganwg, y Dr. Pughe, y Celtig Ddafis, Ab Ithel, a'r cyffelyb, heb ynddi odid ddim o'r wir Dderwyddiaeth hynafol a ddarlunir gan Cesar, Siculus, Strabo, Mela, Lucanus, Plinius, Tacitus, Laertius, a Marcellinus.*

Y mae y rhestr a nodwyd o waith Richards yn dangos ei fod yn ŵr llafurus, dysgedig, gwladgarol, dyngarol, a dadleugar. Gwelsom i Goleg y Bedyddwyr yn Ynys Rhod, Gogledd America, anfon iddo y radd o Ddoethor yn y Celfyddydau (Ll.D.), ond na chyrheuddodd y graddlythyr y wlad hon hyd ymhen rhywfaint o amser ar ol ei farwolaeth, yr hon a ddigwyddodd ar y 13ydd o Fedi, 1818. Wedi iddo farw, galwyd ef y DR. RICHARDS O LYNN.†

### EDWARD WILLIAMS, D.D.

Yr ydym weithion yn myned i ysgrifenu ber hanes (a drwg genym y rhaid iddi fod yn fer) un o brif "Enwogion y Ffydd;" nid yn unig un o brif enwogion Cymru, ond hefyd un o brif enwogion y byd. Ganwyd EDWARD WILLIAMS ar y 14ydd o Dachwedd, 1750, mewn tŷ ffarm a elwir Glan-Clwyd, tu a phum milltir o dref Dinbych, yn lled agos i ganol y Dyffryn Clwyd, tu a milltir a hanner o Landyrnog, ger llaw y ffordd sy'n arwain i Bodfari, ar lan yr Afon Glwyd. Enw ei dad oedd Thomas Williams, ac enw ei fam Ann, merch Edward Evans, o Fryn-y-meibion; ac yr oedd hynafiaid y ddau deulu wedi bod yn preswylio ar lan y Glwyd er yn agos i 150 o flynyddau.

Er nad oedd manteision crefyddol E. Williams, pan yn blentyn, ond bychain, gan nad oedd crefydd ei rieni, y rhai oedd yn aelodau o'r Eglwys Wladol, nemmor amgen na ffurf; etto teimlai efe argyhoeddiadau llymion, pan yn bur ieuangc, ar brydiau, yn enwedig pan gyflawni ryw droseddau amlwg. Temtiwyd ef unwaith i gymmeryd enw Duw yn ofer. Wedi troseddu, ciliodd i le dirgel; ac yno y bu yn wylo dros amser, nes y cafwyd ef gan un o'r teulu, a thrafferth fawr a gafwyd i'w dawelu. Cafodd Edward lawer mwy o addysg nag a roddid yn gyffredin i feibion ffarmwyr yn y dyddiau hyny. Pan oedd tu a 5 oed, anfonwyd ef, a'i chwaer hynaf, Elizabeth, i ysgol a gedwid gan ferch oedranus, yr hon oedd un o athrawesau diwyd y dyddiau hyny; a'r hon oedd yn bur ofalus am foesau cystal ag addysg ei disgyblion. Yn y fl. 1759, symmudwyd ef i ysgol arall, er ei wellâu mewn rhifyddiaeth, a phethau eraill; ond gan mai athraw pur ddiofal am foesau a dysg ei ddisgyblion oedd hwnw, ni bu Edward fawr well, os nad gwaeth, o'i herwydd. O gylch y pryd hyn, ymosodwyd arno gan y frech wen mor dost fel y bu rhagddarbod am ei einioes am gryn amser.

Ymhen rhyw amser ar ol iddo wella o'r frech wen, a'i rieni yn sylwi, fel yr ymddengys, ei fod o duedd mor ddifrifol a myfyrgar o'i febyd, yr oeddynt yn dra awyddus am ei ddwyn i fynu yn offeiriad Eglwys Loegr, am yr hon y meddylient hwy mor uchel; ac er mwyn ei barotôi at yr alwedigaeth honno, gyrwyd ef i ysgol a gedwid gan glerigwr yn Llanelwy. Gan y dangosai wrthwynebiad cryf, yn oed mor forau a hyny, i fyned i wasanaeth yr Eglwys, ceisiwyd ei ddwyn i fynu yn gyfreithiwr; ac yn 1766, pan oedd efe yn 16 oed, anfonwyd ef i ysgol rammadegol a gedwid yng Nghaerwys, er ei gymhwyso, fel yr ymddengys, i astudio y gyfraith. Pa wedd bynag, nid oedd ei feddwl ef yn dygymmod â'r alwedigaeth honno chwaith; am hyny, ni bu ei arhosiad yno ond ychydig amser. Dychwelodd adref i "goledd y ddeuar" gyd â'i dad, a chanlynodd lawer arno i'r ffeiriau yma a thraw; ac unwaith aeth gyd âg ef mor bell a Llundain. Ymroddai yn y tymmor hwn, weithiau, i ddifyrion mebyd ac ieuengctid; ond dychwelai yn fuan drachefn at bethau sobr a chrefyddol. Yr oedd llaw yr Arglwydd yn amlwg arno, a'i ofal yn nodedig drosto, fel y cadwyd ei gydwybod yn effro, a'i galon yn dyner trwy'r cwbl.

Pan oedd efe tu a 17 oed, ac yn dilyn yr alwedigaeth ameuthyddol gyd â'i dad gartref, anfonwyd ef gan ei dad, un diwrnod, gyd â dwy anner i Blas-Ashpool i bori glaswellt, o blegid yr oedd y ddwy ffarm yn ymyl eu gilydd, ac yr oedd y ddau ffarmwr, Thomas Williams, Glan-Clwyd, a Robert Llwyd, y Plas, ar delerau cyfeillgar â'u gilydd.‡

* Hanes y Bryt. a'r Cymry, cyf. i., t. 87–92; Gwyddon., cyf. iii., t. 442–458.

† Dr. J. Evans's Memoirs of the Life and Writings of Dr. Richards; Dr. J. Evans's Dedication and Preface to Richards's Cambro-Brit. Biog., and his Introduction to the Appendix of the same work; Williams's Em. Welshm., p. 454; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 490; Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 134.

‡ Yr oedd Robert Llwyd yn un o bregethwyr hynaf a ffyddlonaf y Methodistiaid. Preswyliai, pan ymunodd gyntaf â chrefydd, mewn ffarm a elwid Tarth-y-dwfr, ymhlwyf Cilcain, ger llaw y Wyddgrug, o'r hon y bwriwyd ef allan o herwydd ei grefydd yn y fl. 1749, a chafodd Blas-Ashpool, ar lan yr Afon Glwyd, am na chymmerai neb arall hi, o herwydd y credid ei bod yn cael ei blino yn erchyll gan ysprydion; ond pan aeth R. Llwyd yno, ciliodd yr ysprydion ymaith yn ebrwydd! Dyma'r gŵr duwiol ac ymdrechgar a fu'n foddion i ddwyn yr enwog Edward Williams i gyssylltiad â'r Ymneillduwyr. Dyry Mr. Hughes hanes ddyddorol am Robert Llwyd ym *Method. Cymru*, cyf. i., t. 156–7; cyf. iii., t. 137–9; ond ni oddef lle i ni ymhelaethu.

Digitized by Google

Y diwrnod hwnw, neu'r noswaith honno, yr oedd yr enwog Daniel Rowlands yn pregethu mewn tŷ annedd oedd ger llaw Plas-Ashpool, a elwid "Tŷ Modlan," a denodd Robert Llwyd Edward Williams yno gyd âg ef i'w wrando. "Felly," ebai Mr. Hughes, "clywodd Edward Williams, am y tro cyntaf iddo glywed pregeth gan Ymneillduwyr, y pregethwr mwyaf yng Nghymru ar y pryd, os bu ei gyfartal rywbryd yn y wlad, yn pregethu." Bu'r bregeth honno yn bur ddrud i Edward, druan, canys ceuwyd ef allan o'r tŷ y noswaith honno. Ond er maint a gostiodd y bregeth honno iddo, ac er cymmaint o hyfrydwch a gafodd wrth ei gwrando; etto, ymddengys mai pregeth a glywodd efe wedi hyny, gan ryw "gynghorwr," sy'n anhyspys erbyn hyn, mewn "ysgubor wael," a fu'n foddion effeithiol i'w argyhoeddi ef, a'i lwyr ddychwelyd at y Gwaredwr. Bernir mai ysgubor tyddyn a elwir Cefn-y-gwrdu, ymhlwyf Llangwyfan, tu a phedair milltir o gartref rhieni Edward Williams, oedd yr "ysgubor wael" yn yr hon y clywodd efe y bregeth effeithiol honno, canys yn y tŷ hwnw yr ymunodd efe yn ebrwydd wedyn â'r Methodistiaid, a bu'n aelod gyd â hwy, medd awdur y *Methodistiaeth*, dros ddwy neu dair blynedd. Yr oedd gwrthwynebiad ei dad iddo fod yn Fethodist yn para o hyd; a'r cynnyg olaf a roddes iddo, trwy gyfrwng un o'i gyfeillion, oedd addaw ei gynnal yn Rhydychain. Dadleuai yntau nad oedd efe yn meddu digon o ddysg ragbarotoawl; ond cyfarfu ei dad yr anhawsder hwnw yn y fan, a dywedodd y cai athraw neillduol i'w barotöi. Cydsyniodd yntau, rhwng bodd ac anfodd, â hyny; ac ar y 3ydd o Hydref, 1770, pan oedd efe bron yn 20 oed, rhoddwyd ef dan addysg clerigwr Eglwys Loegr, oedd yn byw mewn lle a elwid Derwen. Ymroddodd i ddysgu, ac yr oedd ei gynnydd cyflym yn synu ei athraw. Tra'r ydoedd yno yn ymbarotöi, fel y tybiai ei dad, i fod yn offeiriad Eglwys Loegr, digwyddodd bod urddiad esgobol yn Llanelwy, yr hon ddefod a elwir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin yn "Ffurf a Dull Gwneuthur, Urddo, a Chyssegru Esgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid, yn ol Trefn Eglwys Loegr." Cafodd Williams genad ei athraw i fyned i weled y seremoni. Tra'r oedd efe ar y ffordd i Lanelwy, ac yn y dref hefyd, pan yn gwrando ac yn syllu ar y ddefod, gwelodd a chlywodd bethau a barodd iddo benderfynu yn ddifrifol nad ymostyngai efe byth i fyned yn offeiriad i'r Eglwys Sefydledig.

Wedi iddo benderfynu gadael yr Eglwys Wladol, dychwelodd adref o'r Dderwen; ac yn fuan wedyn, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Ninbych, i'r hon yr oedd y Parch. Daniel Llwyd yn weinidog. Un ystyriaeth a barodd i Williams ymuno â'r Annibynwyr, yn hytrach nag â'r Methodistiaid, ar ol dychwel o'r Dderwen, yn ol tystiolaeth un o'i chwiorydd, oedd awydd ei dad am iddo gael addysg athrofaol, os mynnai, er pob peth, fyned i bregethu gyd â'r Ymneillduwyr; a dïammau ei fod yntau ei hun hefyd yn awyddus am ychwaneg o ddysgeidiaeth. Gwyddai nad oedd gan yr hen Fethodistiaid un athrofa; a dichon y gwyddai hefyd eu bod hwy yn credu bod "manuffactro pregethwyr mewn colegau," fel y dywedai yr hen John Elias, yn groes i gynllun y Testament Newydd. Yn lled fuan wedi iddo ymuno â'r Annibynwyr, dechreuodd bregethu. Aeth un tro, yn fuan ar ol iddo ddechrau ar y gwaith, gyd â Mr. Llwyd i Dreffynnon, a phregethodd ar yr heol ar ddiwrnod marchnad; ac er bod cawodydd o fudreddi yr heol yn cael eu lluchio arno, bu yn hir heb roddi i fynu.

Yn y fl. 1771, pan oedd Williams tu ag 21 oed, cafodd fyned i'r athrofa Annibynol, oedd y pryd hyny yn Abergefenni, dan arolygiad y Dr. Davies. Pan welodd ei dad mai Ymneillduwr a fynnai ei unig fab fod, er pob peth, gorchymynodd iddo ddychwel adref o'r athrofa; ac os gwrthodai, yr attaliai efe ei gynhaliaeth oddi wrtho. Pan oedd Williams, druan, yn y cyfyngder yma, addawodd cyfeillion yr athrofa yn Llundain ei gynnorthwyo. Pan ddeallodd ei dad hyny, cynhyrfwyd ei falchder, a phenderfynodd na chai ei fab ef ymddibynu ar elusengarwch neb. Mewn canlyniad i hyn, cafodd y myfyriwr ieuangc, penderfynol, ei gynhaliaeth yn ddidrafferth. Yn ystod yr amser y bu yn yr athrofa, pregethai i'r eglwysi a alwent am ei wasanaeth; ac ymddengys ei fod yn hynod ym mysg y myfyrwyr, o ran sobrwydd a diwydrwydd. Un o'i gydfyfyrwyr a ddywed am dano fel hyn:—

"Yr oedd yn dra difrifol a duwiolfrydig; hynod o ofalus rhag gwastraffu dim o'i amser; a braidd y gwelid ef un adeg heb lyfr yn ei law, hyd yn oed pan fyddai ei gydfyfyrwyr yn mwynhau eu pleserau diniwaid: er hyny, yr oedd yn fwyn, ac yn gwbl amddifaid o yspryd honiadol a balch o bob math. Nid wyf yn cofio i mi weled na gŵr ieuangc na hen oedd mor rydd oddi wrth bob math ar ysgafnder. Yr oedd ei ymddiddanion bob amser yn adeiladol ac yn werthfawr; ac, yn gyffredin, ar byngciau crefyddol."

Ar derfyn ei amser yn yr athrofa, derbyniodd

alwad oddi wrth eglwys Annibynol Ross, yn sir Stafford; ac ar y 27fed a Fawrth, 1776, sefydlwyd ef i'w gwasanaethu. Ymhen ychydig fisoedd gyd â blwyddyn ar ol ymsefydlu yn Ross, sef ar yr 28fed o Orphenaf, 1777, priododd ferch ieuangc a'i henw Mari Llewelyn, yr hon oedd yn hanu o deulu parchus; ac yr oedd hithau yn foneddiges nodedig o ran ei moesau a'i duwioldeb. Bu iddynt naw o blant, pedwar o'r rhai a fuant feirw yn eu babandod.

Ymhen tu a deufis ar ol i Williams briodi, derbyniodd alwad o Groesoswallt *(Oswestry)*, yn sir y Mwythig, a symmudodd yno ym Medi, 1777. Heb law pregethu i'r eglwys yn y dref, bu yn athraw dros yspaid o amser i fyfyrwyr a gyflwynwyd i'w ofal gan foneddiges a elwid Lady Glenorchy. Ymhen yspaid ar ol ei ymsefydliad yng Nghroesoswallt, symmudwyd yr athrofa o Abergefenni yno, er mwyn i'r myfyrwyr gael y fantais o fod dan ei addysg ef, fel y cymhwysaf a feddai y cyfundeb i ymddiried yr athrofa i'w ofal. Parodd hyn bryder mawr iddo; ond o'r diwedd cydsyniodd, yn wylaidd, â chais ei gyfeillion, ac ar y 14ydd o Fai, 1782, cyrheuddodd y llyfrau a'r offerynau gwyddonol a berthynent i'r sefydliad i Groesoswallt, a dilynwyd hwy gan amryw o'r myfyrwyr. Cafodd llawer o bregethwyr Annibynol Gogledd a Deheudir Cymru eu haddysgu ganddo tra yng Nghroesoswallt. Llafuriodd yn galed yno, rhwng pregethu, addysgu myfyrwyr, ac ysgrifenu. Yn ystod ei arhosiad yno y daeth ei alluoedd fel ysgrifenydd i'r golwg gyntaf. Ymddengys mai'r llyfr cyntaf a gyhoeddwyd ganddo oedd talfyriad, gyd â nodiadau a diwygiadau, o'r llyfr buddiol a difyrus o waith y Parch. Mathias Maurice (Morys), a elwir "*Social Religion Exemplified*"—Eglurhâd ar Grefydd Gymdeithasol. Y gwaith nesaf a gyhoeddodd Williams oedd "*An Abridgment of the Exposition on the Epistle to the Hebrews*"=Talfyriad o'r Esponiad ar yr Epistol at yr Hebreaid, gan y Dr. John Owen, mewn pedair cyfrol 8plyg. Ei amcan oedd gwneud y gwaith llafurfawr hwnw yn fwy cyfaddas at wasanaeth Cristionogion yn gyffredin, a llwyddodd yn ei ymgais. Ysgrifenodd ddau lythyr gwerthfawr mewn cyssylltiad â'r gyfrol gyntaf; un at y Dr. Priestley, yr Undodiad enwog, a'r llall at Mr. David Lefi, yr Iuddew, yn eu difrifol annog i ddarllen yr Epistol at yr Hebreaid, ac i gymmeryd y Bibl yn unig, ac nid traddodiad, opiniynau, na dychymmygion disail i benderfynu y pyngciau pwysig yr ymdrinir â hwynt yn yr Epistol hwnw. Tra'r oedd Williams yng Nghroesoswallt hefyd y cyhoeddodd efe bregeth a elwir "*The Influence of Religious Practices on our Inquiries for the Truth*"=Dylanwad Ymarferion Crefyddol ar ein Hymofynion am y Gwirionedd, ynghyd â llythyr at Mr. Belsham mewn cyssylltiad â hyny. Ond y prif waith, yn ol syniad Bedyddwyr Babanod, a ysgrifenodd Williams tra yng Nghroesoswallt, oedd yr un canlynol:—

"Anti-Pædobaptism Examined"=Ymchwiliad i Wrthfedydd Babanod.

Bernir y cynnwys hwn yr hyn oll a ellir ei ddywedyd o blaid taenellu a bedyddio babanod. Yr hyn a barodd iddo ysgrifenu y llyfr hwn oedd cyhoeddiad gwaith ar fedydd gan ysgrifenydd galluog iawn a berthynai i'r Bedyddwyr, sef y Parch. Abraham Booth, yn y fl. 1784, dan yr enw "*Pædobaptism Examined*"=Ymchwiliad i Fedydd Babanod. Y mae beirniaid galluog yn credu bod llyfrau Booth a Williams yn cynnwys pob peth o bwys a'r a ellir ei ddywedyd ar y naill ochr a'r llall.

Heb law y gorchwylion a nodwyd, fel gweinidog yr Annibynwyr yng Nghroesoswallt, athraw yr athrofa yno, ac ysgrifenydd y llyfrau a nodwyd, yr oedd Williams hefyd yn dra egnïol o blaid ysgolion rhad, dyddiol a Sabbothol, mewn amryw barthau o Gymru, heb son am ei bregethu achlysurol i wahanol gynnulleidfaoedd cymmydogeuthol. Cafodd gymmorth arianol mawr at ei ysgolion gan gyfaill iddo, a'i enw Henry Thornton, Ysw., aelod Seneddol oedd yn byw yn Llundain, yr hwn a arferai gyfranu 5,000p. yn y flwyddyn at wahanol achosion crefyddol. Cafodd Williams gynhorthwy arianol mawr at ei ysgolion hefyd gan foneddiges gyfoethog a haelionus a'i henw Mrs. Davenport; a thrwy gynhorthwy y naill a'r llall, fel y dengys llythyr a ysgrifenodd at Mr. Thornton, ar y 14ydd o Fai, 1789 (y flwyddyn y sefydlodd Mr. Charles Ysgolion Sabbothol, fel y ceir gweled rhag llaw), yr oedd Williams wedi sefydlu ysgolion dyddiol a Sabbothol cyn y flwyddyn honno (1789) yn y mannau canlynol:—Treffynnon, Dinbych, Caernarfon, Bala, a Llanfyllin. Hefyd, dengys llythyr arall a ysgrifenodd Williams at yr un cyfaill haelionus, ar yr 31fed o Ragfyr, 1790, ei fod wedi sefydlu ysgolion ychwanegol erbyn hyny yn y Pentre, Sarnau, Bangor, a Machynlleth.* At

* Y mae'r cynhorthwy arianol a gaffai Mr. Williams at ei ysgolio dyddiol a Sabbathol yn awgrymu i ni mai ysgolion ar gynllun y Parch.

Digitized by Google

wasanaeth yr ysgolion hyn y cyfansoddodd efe ei "*Evangelical Catechist*"=Yr Holwyddorydd Efengylaidd. Cynnwys hwn brofion Ysgrythyrol i'r attebion, yn debyg i'r catecismau sydd genym yn Gymraeg, ond ei fod yn llawer heleuthach, oddi eithr catecism Jones Llanddowror. Cyhoeddwyd y llyfr yn Saesneg yn dair rhan: y gyntaf i blant, yr ail i bobl ieuaingc, a'r drydedd i rai addfetach mewn gwybodaeth. Dengys y llythyr at Mr. Thornton, sydd yn y rhan gyntaf, yr hon a gyhoeddwyd yn 1790, y bwriadai yr awdur ei hun gyfieithu y llyfr i'r Gymraeg, "er mwyn y rhai nad allent ddarllen Saesneg." Gallai y gwaith rhagorol yma, yr hwn sy'n gwbl wahanol i bob catecismau a arferir yn ein hysgolion Sabbothol, fod yn bur fuddiol i'n hieuengctid, pe cyfieithid ef yn awr i'r iaith Gymraeg. Amcan penaf y gwaith hwn yw gwneud prif wirioneddau y Bibl yn hyspys ynglŷn â'r personau hynotaf y ceir eu hanes ynddo.

Teimlodd Williams fod ei lafur yng Nghroesoswallt yn fwy nag a allai ei ddwyn, heb niweidio ei iechyd; ac agorodd drws o waredigaeth iddo, trwy gael galwad gan eglwys Annibynol Carr's Lane, Birmingham, â'r hon y cydsyniodd yntau. Ar y 1af o Ionawr, 1792, efe a symmudodd yno, ac efe yn 32 oed. Tra'r oedd efe yn myfyrio y bregeth gyntaf a draddododd yn y lle hwn, sef Gal. vi. 14, derbyniodd y radd o Ddoethor Duwinyddiaeth (D.D.) o Brifysgol Edinburgh. Yr oedd 25 o broffeswyr dysgedig wedi arwyddo y graddlythyr *(diploma)*. Parodd y graddlythyr syndod a phryder dirfawr iddo, gan nad oedd yn disgwyl nac yn meddwl dim am y fath beth; ond yr oedd amryw o'i gyfansoddiadau erbyn hyn wedi cyrraedd y fath enwogrwydd fel nad oedd neb arall yn synu dim iddo gael yr anrhydedd.

Ymhen tu a blwyddyn ar ol ymsefydlu yn Birmingham, sef yn 1793, ysgrifenodd y Dr. Williams gylchlythyr, ar ddymuniad amryw wŷr enwog, i annog ei frodyr i ymdrechu mwy o blaid lledeuniad heleuthach o'r efengyl gartref, ac mewn gwledydd tramor; ac y mae Ol-Ysgrif i'r llythyr hwnw, wedi ei chyfeirio at weinidogion yr Annibynwyr yn holl siroedd Lloegr a Chymru. Ymhen tu a dwy flynedd wedyn, sef yn 1795, sefydlwyd "Cymdeithas Genhadol Llundain," trwy gydymdrech y Dr. Williams a'r Dr. Bogue, yn cael eu cefnogi a'u cynnorthwyo gan lïaws o enwogion eraill yn Lloegr a Chymru.

Gruffydd Jones, Llanddowror, oedd ei ysgolion Sabbothol ef, cystal a'i rai dyddiol: ac nad oedd efe wedi darganfod cynllun dihyspydd yr enwog Charles, o greu athrawon ac athrawesau rhad ymhob Ysgol Sabbothol.

Yn ystod y tair blynedd y bu'r Dr. Williams yn Birmingham, mwynhaodd dymmor o lonyddwch cymharol, ar ol ei lafur caled yng Nghroesoswallt; ac mewn canlyniad, cryfhaodd ei iechyd i raddau dymunol. Yn y cyfamser, derbyniodd alwad i fod yn llywydd yr Athrofa Annibynol yn Rotherham, yn sir Gaerefrog, ac yn weinidog i'r Eglwys Annibynol ym Masbro, ger llaw y dref; â'r hon alwad y cydsyniodd yntau. Ond ar yr 28fed o Orphenaf, 1777, cyn iddo symmud o Birmingham, bu farw Mrs. Williams, ei anwyl Fari Llewelyn, yn 37 oed, er ei ddirfawr ofid a'i brofedigaeth, gan ei adael ef yn weddw, a phump o blant amddifaid ar ei hol, sef Elizabeth, Sara, Anna Maria, Samuel, a Theophilus. Ymhen tu a deufis ar ol marwolaeth Mrs. Williams, symmudodd y Doctor i Rotherham; ac ar y 30fed o Fedi, 1795, dechreuodd ei orchwylion pwysig ym Masbro. Ar y 5med o Dachwedd canlynol, agorwyd yr athrofa, ac yn y lle hwn y llafuriodd hyd derfyn ei oes; ac fel y Dr. Williams o Rotherham y mae'n fwyaf adnabyddus. Pregethodd, dysgodd, ac ysgrifenodd lawer iawn yn y lle hwn. Ar yr 28fed o Orphenaf, 1796, galwyd arno ar fyr rybudd i draddodi annogaeth *(charge)* i'r cenhadon cyntaf oedd i gael eu hanfon i Ynysoedd Môr y De gan Gymdeithas Genhadol Llundain. Cyfansoddwyd yr annogaeth ragorol honno mewn un diwrnod, traddodwyd hi drannoeth, ac argraphwyd hi y diwrnod canlynol. Y mae wedi ei seilio ar Gen. xvii. 1.

Tu a diwedd y flwyddyn hon (1796), priododd y Dr. Williams Miss Yeomans, o Gaerwrangon (*Worcester*), a bu iddynt un mab a'i enw Edward, yr hwn a ddygwyd i fynu yn feddyg, ac a fu farw yn ddibriod.

Cyhoeddodd y Dr. Williams lïaws o lyfrau tra gwerthfawr yn ystod y 18 mlynedd y bu yn Rotherham, megis y rhai canlynol:—

"Sermons"=Pregethau; "Charges"=Annogeuthau neu Annerchiadau; Tracthodau (Dissertations) "On the Present State of Moral Science"=Ar Sefyllfa Bresennol Gwybodaeth Foesol; "Evidence in Moral Science"=Prawf mewn Gwybodaeth Foesol; "Power: its different kinds" =Gallu: ei wahanol fathau; "Voluntary Operations"= Gweithrediadau Gwirfoddol; "Liberty and Necessity"= Rhyddid ac Angenrhaid; "Nature of Things, and Hypothetical Tendencies"=Natur Pethau, a Thueddiadau Tebygol; "Divine Prescience and Scientia Media"=Rhagwybodaeth Ddwyfol a Gwybodaeth Gyfryngol; "On a First Cause"=Ar Achos Cyntaf; "On a Necessary Agent" =Ar Weithredydd Angenrheidiol; "Moral Obligation and Inability"=Rhwymedigaeth Foesol ac Anallu; "Moral Evil"=Drwg Moesol; "Motives"=Annogyddion: "Vir-

tue and Vice"=Rhinwedd a Drygioni; "God's Ultimate End in Creation"=Diben Eithaf Duw mewn Creadigaeth; "Views on War"=Golygiadau ar Ryfel; "Internal Evidence on Christianity"=Prawf Mewnol ar Gristionogaeth; "Internal Evidence on Justification"=Prawf Mewnol ar Gyfiawnhâd; "Academic Exercises"=Preithiadau (Ymarferion) Athrofaol; "Hints to the Student"=Awgrymiadau i'r Myfyriwr; "Syllabus of Lectures"=Crynhodeb o Ddarlithiau; "Church Fellowship"=Cymdeithas Eglwysig; ac amryw dreuthodau eraill.

Yn ystod yr un cyfnod hefyd, cyhoeddodd waith y Dr. Doddridge, trwy gynhorthwy y Parch. Edward Parsons, o Leeds, mewn deg o gyfrolau hardd, gyd â nodiadau gwerthfawr ganddo ef ei hun ar y prif byngciau yng ngwaith yr awdur galluog. Hefyd, cyhoeddodd waith Jonathan Edwards ("*President* Edwards"), o'r America, gyd â nodiadau gwerthfawr o'i waith ei hun, er mwyn egluro, coethi, diwygio, ac amddiffyn amryw bethau yng ngwaith y gŵr mawr ac enwog hwnw. Y mae sylwadau y Dr. Williams ar "Dreuthawd Edwards ar yr Ewyllys" yn nodedig o werthfawr. Cyhoeddodd bregeth hefyd, o'i waith ei hun, ar "Etholedigaeth," gyd âg "Ol-Nodion," yr hon a dynodd sylw mawr yn Lloegr a Chymru. Gwrthwynebodd amryw wŷr galluog ei olygiadau ar "Darddiad Drwg Moesol," y rhai a eglurir ganddo i raddau yn yr Ol-Nodion; ond barn llawer nad oedd y gwrthwynebwyr yn amgyffred y pwngc cystal ag y buasai ddymunol. Hefyd, cyhoeddodd argraphiad o Salmau a Hymnau y Dr. Watts, ac Attodiad gwerthfawr, ynghyd âg Awgrymiadau Cerddorol (*Musical Hints*) at wasanaeth cantorion cynnulleidfaol. Cyhoeddodd hefyd lyfr tra gwerthfawr i bregethwyr a elwir "*The Christian Preacher*"=Y Pregethwr Cristionogol. Ond y gwaith mwyaf a gyhoeddodd efe tra yn Rotherham, ac, yn wir, prif waith ei oes, yw yr un canlynol:—

"The Equity of Divine Government and the Sovereignty of Divine Grace, and an Examination of the Arminian System"=Uniondeb y Llywodraeth Ddwyfol a Phenarglwyddiaeth Dwyfol Ras, ynghyd âg Ymchwiliad i'r Gyfundrefn Arminaidd.

Yr oedd yr awdur duwiol, llafurus, a dyfnddysg wedi ysgrifenu llawer o'r gwaith gorchestol yma cyn iddo ymadael o Groesoswallt, a dïau iddo barhau i'w ysgrifenu yn achlysurol tra'r oedd yn Birmingham, pan y cai hamdden, ac yn y blynyddoedd cyntaf o'i ymsefydliad yn Rotherham; ond ni chyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o hono hyd y fl. 1809, ymhen tu a 14 blynedd ar ol iddo ymsefydlu yn y lle olaf. Gellid dodi barnau dysgedigion penaf yr oes ar y gwaith digyffelyb hwn, megis eiddo'r Dr. Chalmers, y Dr. Hamilton, a'r cyffelyb; ond ni oddef lle i ni ond dodi dyfyniad byr o eglurhâd yr awdur ei hun ar ei amcan yn ei gyhoeddi, yn ei Ragymadrodd:—

"Y mae'r awdur yn hyspysu yn rhydd mai ei amcan, trwy'r gwaith hwn, yw gwrthweithio dylanwad ffurf o athroniaeth foesol a ystyria efe sy'n anghywir, yr hon sy'n ymdeunu yn barhaus; gosod allan gymmeriad y Duwdod mewn goleuni anrhydeddus, hawdd i'w garu, ac sydd yn tueddu i ennyn serch dynion, a'u tynu tu ag ato; cyssoni anghyssonderau ymddangosiadol ymherthynas i ymddygiadau Duw; cadarnhau Cristionogion difrifol yn egwyddorion gwreiddiol y Datguddiad dwyfol, yn erbyn ystrywiau amheuwyr; ac amddiffyn crefydd brofiadol yn wyneb y cyhuddiad rhy gyffredin a roddir yn ei herbyn, mai penboethni ydyw."

Credwn nas gall neb gael syniadau cywir am hyd a lled, dyfnder ac uchelder, amrywiol wybodau rhyfeddol y Dr. Williams, heb ddarllen y llyfr hwn, yn aned yr un o'i lïosog gyfansoddiadau, yn fanwl ac amyneddgar. Credir i'r awdur galluog hwn gyssoni, i raddau pellach na neb a fu o'i flaen nac a ddaeth ar ei ol hyd yn hyn, yr anhawsderau sy'n ymddangos rhwng "Cyfiawnder y Llywodraeth Ddwyfol," a "Phenarglwyddiaeth Dwyfol Ras," a'r llu o byngciau dyrys sy'n ymgodi o hyny, ac yn perthyn i ddŷn fel deiliaid o lywodraeth y Jehofa, fel pechadur, fel gwrthrych galwad yr efengyl, ac fel derbynydd ffyddiog neu wrthodwr anghrediniol o honi; ac yn ei gyssylltiad â thragywyddoldeb. Gall darllenydd ystyriol o'r gwaith hwn gael syniadau eglur a chyflawn am ystyr y geiriau *cyfiawnder* a *phenarglwyddiaeth;* am yr hyn y gall creadur cyfrifol ei ofyn fel pwngc o hawl gan ei Lywodreuthwr, a'r hyn y gall efe ei dderbyn fel cymmwynas ganddo. Y mae deall cywir ar y pethau hyn yn anhebgorol angenrheidiol tu ag at feddu syniadau cysson a boddhaol ar y pyngciau mwyaf pwysig a berthynant i grefydd, yn athrawieuthol ac ymarferol. Gresyn na roddai rhyw gyhoeddwr gwladgarol ryw ieithydd galluog ar waith i gyfieithu y llyfr digyffelyb hwn i'r Gymraeg. Y mae'n ddïammau y darllenid ac y myfyrid ef yn awyddus gan filoedd o'n chwarelwyr, ein mwnwyr, a dosparthiadau eraill o'n cydwladwyr, yn eu horiau hamddenol; a gwell gwaith nis gallent ei wneuthur, oddi eithr darllen a myfyrio y Bibl sanctaidd. Wedi i'r Dr. Hamilton ddarllen pregeth y Cymro enwog hwn ar "*Jesus Christ the Creator and Lord of the Universe*"=Iesu Grist Creawdwr ac Arglwydd y Bydysawd, y mae'n dwyn y dystiolaeth ganlynol am ei alluoedd:—

"Yr wyf yn credu bod gan yr athraw penaf hwn mewn

Digitized by Google

duwinyddiaeth, yr hwn sydd fwy i'n hoes ni nag ydoedd yn oed Awstin i'w oes ef, sef y Dr. Williams, o Rotherham, ryw ffugr cyffelyb yn ei ysgrifeniadau yntau. Nid wyf yn cofio pa le y mae i'w gael. Bydd yn damaid hapus i'r dŷn a ymfoddlona i chwilio am dano yn ei ysgrifeniadau, hyd yn oed pe na byddai iddo gael gafael ynddo cyn dyfod at yr ymadrodd olaf y darfu i'w law farwol ei bysgrifenu. Pan y darllenir ac y deallir ef, ni bydd gan neb sail i ddywedyd mwyach (fel y mae rhai yn dywedyd) bod pregethau y blynyddoedd diweddaf hyn wedi dirywio."

Yn y fl. 1811, ymhen tu a dwy flynedd ar ol i'r Dr. Williams gyhoeddi "Uniondeb y Llywodraeth Ddwyfol," &c., cyhoeddodd y Dr. George Tomline, Esgob Lincoln ar y pryd, ac wedi hyny Esgob Winchester, waith yr ymddengys iddo gymmeryd llawer iawn o drafferth i'w ysgrifenu, yr hwn a elwir "*A Refutation of Calvinism*"= Gwrthbrawf i Galfiniaeth.* Dywedir i'r llyfr hwn gael ei gyhoeddi yn benaf o herwydd y dychryn a deimlwyd mewn rhai cylchoedd uchel, am fod llawer o glerigwyr yr Eglwys Sefydledig y pryd hwnw yn coleddu golygiadau Calfinaidd, a bod eu nifer yn cynhyddu. Heb law hyny, yr oedd yr Ymneillduwyr ar y pryd yn cynhyddu yn gyflym hefyd, ac yn dyfod yn fwyfwy i sylw y naill flwyddyn ar ol y llall, yn enwedig yng Nghymru, canys yn yr un flwyddyn ag yr ysgrifenodd y Dr. Tomline ei "Wrthbrawf i Galfiniaeth" y neillduwyd 22 o "wŷr lleyg" i weini yr ordinhadau ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngogledd a Deheudir Cymru;† ac yr oedd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, ar y cyfan, mor Galfinaidd a'r Methodistaidd, a chyffelyb oedd cynnydd y farn Galfinaidd ymhob parth o'r deyrnas gyfunol. O herwydd hyn, yr oedd angenrhaid i rywun o allu, a dylanwad, a sefyllfa uchel, ymosod ar y golygiadau "tra pheryglus hyn," fel yr ystyrid hwy gan brif glerigwyr yr Eglwys Sefydledig, cystal a'r Arminiaid, oedd yn prysur gynhyddu yn y wlad ar y pryd; a'r Dr. Tomline a ddaeth allan i gymmeryd y gorchwyl pwysig mewn llaw. Ymosododd ar y Calfiniaid yn ddïarbed, ac ystyrid ei waith yn y cylchoedd pendefigaidd ac eglwysig yn ergyd farwol i Galfiniaeth. Pa wedd bynag, ymosododd y Dr. Williams ar y gorchwyl o'i atteb yn ebrwydd ar ol ei gyhoeddiad. Dechreuodd ysgrifenu arno ym mis Medi, ac yr oedd y cynnyrch mawr allan o'r wasg cyn Nadolig yr un flwyddyn, dan yr enw "*Modern Calvinism Defended*"=Calfiniaeth Ddiweddar yn cael ei Hamddiffyn. Bernir, wrth y gwaith, mai'r anhawsder penaf a deimlai yr awdur galluog ydoedd taflu'r corph mawr o honiadau ac ymresymiadau cymmysglyd sydd yng ngwaith y Dr. Tomline i drefn a dosparth, fel y gallai un atteb wneud y tro i bob pwngc neillduol yr ymdrinai yr esgob âg ef; a chyflawnodd y gorchwyl yn deilwng o'i fawr enwogrwydd. Dylid cofio nad egluro ac amddiffyn golygiadau John Calfin y mae'r Dr. Williams yn ei ddau brif waith duwinyddol, sef "Uniondeb y Llywodraeth Ddwyfol" a "Chalfiniaeth Ddiweddar yn cael ei Hamddiffyn," namyn gwneud trefn ar yr athrawiaeth a elwid yn Galfiniaeth, trwy resymau anattebadwy ei bod, ond edrych arni wedi ei hegluro yn briodol, yn gysson âg anrhydedd y Jehofa, â chyfrifoldeb dŷn, ac â thystioleuthau y Bibl sanctaidd. Wrth wneuthur hyny, y mae efe wedi bwrw ymaith hyny o gymmysgedd a ymddangosai ynghyfundrefn yr hen ddiwygiwr, fel peth anghysson âg Ysgrythyr ac â rheswm, a'r hyn sydd wedi creu rhagfarn ym meddyliau llaweroedd yn erbyn yr holl gyfundrefn Galfinaidd. Y mae pob tudalen a'r ddau waith dan sylw yn dangos yspryd boneddigaidd ac ysgolheigdod uchel yr awdur, cystal a'i onestrwydd a'i addfwynder Cristionogol.

Effeithiodd golygiadau y Dr. Williams yn y ddau lyfr crybwylledig, a elwir "Calfiniaeth Ddiweddar" ac "Isel-Galfiniaeth," yn ddirfawr ar olygiadau llïaws o dduwinyddion enwog yn Lloegr a Chymru, yn bur fuan ar ol eu cyhoeddiad; a daeth y galluog Andrew Fuller i'r maes bron yr un adeg i gefnogi yr un golygiadau, mewn amryw lyfrau godidog, megis "Yr Efengyl yn deilwng o bob Derbyniad," gwaith a'i suddodd mewn dadl â'r gau-Galfiniaid am ugain mlynedd; "Y Cynlluniau Calfinaidd a Sosinaidd yn cael eu Cymharu o ran eu Tueddiad Moesol;" a llyfrau eraill cyffelyb.

Rhai o ddisgyblion y Dr. Williams yn Lloegr oedd y Dr. J. Pye Smith, o Lundain; y Parch. Joseph Gilbert, o Nottingham; y Dr. Chalmers, o Edinburgh, yn Ysgotland, &c. Un o ddisgyblion boreuaf y Dr. Williams yng Nghymru oedd ei ddisgybl colegol, y Parch. John Roberts, hynaf, o Lanbryn-mair, yr hwn a ddilynwyd gan ei feibion; y Parch. T. Jones, Newmarket, ac eraill. Dygwyd llïaws o'r Bedyddwyr hefyd, yn bur fuan, i gofleidio golygiadau y Dr. Williams, trwy gyfrwng yr enwog Andrew Fuller yn benaf. Y Methodistiaid a fuant hwyaf heb gofleidio "y system newydd," fel y galwent Galfiniaeth gymhedrol y

* "Treuthawd," eb y Dr. Eadie, "sy'n methu gwneud ei enw yn wirionedd."—Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Biog., vol. iii., p. 1161.
† Cyffes Ffydd, argr. 1829, t. 42–45.

Digitized by Google

Dr. Williams a Fuller; ac aml a blin a fu'r dadleuon yn eu plith o'u plegid yn y cymmanfaoedd chwarterol a blynyddol, y cyfarfodydd misol, a chylchoedd eraill. Y mae'n debyg fod y diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn (Llanllyfni gynt), yn un o'r Methodistiaid cyntaf yr effeithiwyd arno gan "system newydd" y Dr. Williams, a hyny trwy gyfrwng cyfarfodydd nosawl a gynhelid gan y diweddar Barch. Evan Evans (*Ieuan Glan Geirionydd*), yn nhŷ ei dad yn Nhant-y-celyn, pan oedd J. Jones yn gweithio ynghloddfa lechi Llanrhychwyn, yn agos i Drefriw, fel y gwelir yng "Nghofiant" Jones gan y Dr. Owen Thomas, Liverpool.*

Yn lled fuan ar ol i'r Dr. Williams orphen ei lyfr olaf, sef "Calfiniaeth yn cael ei Hamddiffyn," yn atteb i "Wrthbrawf" y Dr. Tomline "i Galfiniaeth," dechreuodd ei iechyd, a lwythid gan ormod llafur, amharu yn ddirfawr, trwy gael amryw ymosodiadau o'r cryd melyn. Un diwrnod, wedi dïoddef poenau dirdynol dros bymtheng awr, nes oedd bron yn rhy wan i siarad, dywedodd—"Nid yw gweithrediad fy meddwl, er fy holl boenau, yn ddim llai; ac yr wyf yn teimlo fy hun yn gysurus yn Nuw fy iachawdwriaeth, er nad allaf lefaru ond ychydig." Dro arall dywedodd—"Bûm yn ddiweddar yn ceisio meddwl am fy achos personol fy hun; ond yn awr y mae fy meddwl yn cael ei lenwi yn hollol âg achosion yr eglwys, ac â'r pethau a berthynant i ogoniant Duw." Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, ymwelodd un o'i hen fyfyrwyr âg ef, a chafodd ef yn dawel a chwbl ymwybodol, fel y disgwylid y byddai, a dywedodd wrtho—"Y mae fy holl obeithion wedi eu sylfeunu ar Lwon, Addewidion, a Gwaed."

Ar y 9fed o fis Mawrth, 1813, dywedodd—"Nis gwn pa fodd y mae pethau yn bod: y mae fy meddwl wedi peidio gweithredu." Yna dywedodd Mrs. Williams yn siriol—"Hyn oedd eisiau: y mae genyf weithian ryw obaith." Ond cafodd ar ddeall yn fuan, er ei syndod a'i thristwch anaele, mai gobaith heb sail iddo ydoedd, canys ynghorph y dydd hwnw, yn ebrwydd ar ol iddo lefaru y geiriau uchod, llithrodd yn araf ac yn ddistaw, mewn cwsg esmwyth, i huno yn yr Iesu, a chafodd orphwys yn dragywyddol oddi wrth ei lafur, yn y 63edd flwyddyn o'i oedran. Claddwyd y Cymro gwladgarol, enwog, a llafurus hwn dan yr areithfa, o'r hon y pregethodd yr efengyl mor fynych ac mor onest i wrandawyr oedd mor anwyl ganddo ac mor hoff o hono.

* Cofiant y Parch. John Jones, gan O. Thomas, t. 85.

Casglwyd cyfansoddiadau y Dr. Williams, ychydig flynyddoedd yn ol, a chyhoeddwyd hwynt yn bedair cyfrol drwchus a hardd gan Nisbet a'i Gyf., Llundain, dan olygiad y Parch. Evan Davies, o Dalston, yr hwn, trwy hyny, a wnaeth wasanaeth gwerthfawr i ddynion myfyrgar ym mysg pob cyfundeb crefyddol. Ni chynnwys y cyfrolau hyn ei nodiadau ar waith Jonathan Edwards, Esponiad y Dr. Owen ar yr Hebreaid, nac ar waith y Dr. Doddridge; ac nid yw ei "*Christian Preacher*" yntau ei hun, na'i "*Social Religion Exemplified*," i mewn ynddynt. O holl gyfansoddiadau dyfnddysg a godidog y Dr. Williams, bernir mai ei brif orchestwaith yw'r tri hyn:—"*Anti-Pædobaptism Examined*"=Ymchwiliad i Wrthfedydd Babanod; "*Equity and Sovereignty*"=Uniondeb a Phenarglwyddiaeth; a "*Modern Calvinism Defended*"=Calfiniaeth Ddiweddar yn cael ei Hamddiffyn. Nid ydym yn gwybod i un o gyfansoddiadau llïosog y Cymro galluog, duwiol, a gwladgarol hwn gael eu cyfieithu i'r Gymraeg; ac y mae hyny, fel y crybwyllwyd eisoes, yn resyn, ac yn golled ddirfawr i'r rhai nad ydynt yn deall Saesneg, o'r sawl y mae llïaws etto yn y Dywysogaeth; ac o'r rhai sydd yn deall Saesneg, y mae miloedd yn hoffach o'r Gymraeg.†

## PENNOD XII.

### THOMAS JONES, CREATON; JOHN GRIFFITH, CAERNARFON; A DAFYDD CADWALADR, BALA.

### THOMAS JONES, CREATON.

Mab ydoedd y gŵr enwog hwn i un John Thomas, yr hwn oedd Gymro diledryw, o dad a mam, ac yn byw ar ei dir ei hun, a elwid yr Hafod, o fewn tu a 12 milltir i Aberystwyth, yn sir Aberteifi. Ei fam oedd ferch i un Hugh Bonnor, yr hwn a ddeuthai i Nanteos o Cumberland, yn oruchwyliwr i deulu y Poweliaid. Ganwyd Thomas ar yr 2fed o Ebrill, 1752, yn nhŷ ei dad a'i fam, sef yr Hafod. Nis gwyddom pa fanteision addysg a gafodd yn ystod dyddiau boreuaf ei blentyndod; ond pan oedd yn 13 oed, anfonwyd ef i Ysgol Ystradmeurig, dan addysg yr enwog Edward Richard y Bardd,‡ lle oedd tu ag wyth milltir o dŷ ei rieni, ynghanol mynyddoedd Ceredigion.

† Rev. Evan Davies in Dr. Williams's Works, by Nisbet & Co.; Gwyddoniadur, cyf. x., t. 259; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 630; En. Cymru, I. F., t. 1103; Cymru, O. J., cyf. ii., t. 573.
‡ Gwel llyfr v., pen. xix.

Digitized by Google

Ymddengys bod rhyw argraphiadau crefyddol ar feddwl Thomas pan oedd yn bur ieuangc; ond pa fodd y dygwyd hwy ar y cyntaf i weithredu arno, ni fynegir; eithr ymddengys ei fod wrth natur o feddwl difrifol. Gyd â golwg ar hyn, dywed ei hun—"Yr wyf o'r farn fod hedyn gras wedi cael ei roddi yn dra borau yn fy nghalon, er i chwyn llygredigaeth attal ei dyfiant a'i ffrwythlondeb." Arferai ymneillduo, pan yn blentyn, i ryw gongl ddirgel i weddïo. Gellir casglu, oddi wrth hyn, bod ei rieni yn bobl grefyddol, ac yn arfer gweddïo, neu ddarllen gweddïau yr Eglwys Sefydledig yn ei glyw, er na fynegir hyny. Dywedodd efe ei hun unwaith, wrth gyfaill iddo, pan yn cyfeirio at ei waith yn gweddïo pan yn blentyn, y byddai yn wylo llawer y pryd hyny, wrth weddïo yn ddirgel, ac yn dywedyd rhyw bethau nas gwyddai pa beth. Yn lled fuan ar ol iddo fyned i Ysgol Ystradmeurig, aeth yr hyawdl Daniel Rowlands, Llangeitho, i bregethu i le a elwir Pont-rhyd-fendigaid, pentref o fewn tu a 3 milltir i Ystradmeurig, ac aeth Thomas ieuangc i wrando arno. Ymddengys i ddull effeithiol y pregethwr enwog ddenu sylw y gwrandäwr ieuangc i'r fath raddau fel nad anghofiodd ef byth, er y dywedir nad effeithiodd y bregeth gymmaint arno.

Wedi i Thomas Jones fod yn Ysgol Ystradmeurig am o gylch naw mlynedd, cafodd urdd offeiriad gan Esgob Tŷ Ddewi ym Medi, 1774, pan oedd efe tu a 22 oed; a'r guradiaeth gyntaf a gafodd ar ol ei urddo oedd yr Eglwys Fach a Llangynfelin, rhwng Aberystwyth a Machynlleth. Isel iawn oedd sefyllfa foesol trigolion y guradiaeth gyntaf hon a gafodd pan aeth efe iddi. Yr oedd ymladd ceiliogod, cicio'r bêl droed, a chwareuon llygredig eraill, yn eu llawn rwysg yno ar y Sabbothau, heb neb yn ceisio eu hattal; ond pan aeth efe yno, ymroddodd i ddiwygio, moesoli, a chrefyddoli y trigolion, a llwyddodd yn rhagorol, canys llwyr ymlidiodd y chwareuon anfad o'r ardaloedd cyn ymadael oddi yno. Ond er maint a chystal oedd ei lafur yn y guradiaeth hon, ychydig iawn oedd y gydnabyddiaeth arianol a gai am dano. Dywedai yn ei hen ddyddiau—"Yr wyf yn dïolch i Dduw na wybum mi ond ychydig am ofalon y bywyd hwn. . . . . Fe'm hurddwyd yn gurad yng Nghymru am 20p. y flwyddyn." "Ai hyny oedd eich holl gyflog?" gofynai cyfaill iddo. "Ië," medd yntau; ac yr oeddwn yn byw yn dda ar hyny. Yr oeddwn yn rhoi 6p. am fy mwrdd a'm lletty, 6p. am ddillad, 3p. am borfa i'm ceffyl ar y mynyddoedd, ac 1p. yn clusenau." Ni fynegir pa fodd y treuliai'r 4p. eraill; ond gellir casglu oddi wrth ei lafur llenyddol mai am lyfrau y rhoddai hwynt. Wedi treulio pum mlynedd yn y lle hwn yn dra llwyddiannu, mewn ystyr foesol, fel y gwelsom, symmudodd i Loegr, yr hyn a edrydd yn fyr fel y canlyn:—"Ar y 29ed o Awst, 1779, symmudais i Leintwardine, yn sir Henffordd," a dyna'r cwbl a wyddys am yr amgylchiad. Os "drwg gynt" oedd ei blwyfolion yn yr Eglwys Fach a Llangynfelin, llawer "gwaeth gwedyn" oeddynt yn Leintwardine. Ni bu ei arhosiad ymhlith y paganiaid anystywallt hyn ond tu a blwyddyn a hanner, canys digiodd y plwyfolion a'r ficar wrtho, am fod ei bregethau yn rhy efengylaidd a llymion yn erbyn eu pechodau, a'i ymddygiad yn rhy debyg i'r "Cradociaid" Cymreig; ac yn Rhagfyr, 1780, efe a symmudodd i guradiaeth Longnor, yn sir y Mwythig. Ymddengys i'r fywiolaeth yma gael ei chynnyg iddo yn annisgwyliadwy, pan nad oedd ganddo le yn y byd mewn golwg wedi colli'r llall, canys efe a ddywed—"Y mae'r Arglwydd yn parotöi ac yn agor drws newydd ar fy nghyfer, pan y mae un yn cau yn fy erbyn." Er na bu ei arhosiad yn y lle hwn ond prin saith mis; etto, ymddengys i'w feddwl gael rhyw adnewyddiad rhyfeddol yn ystod hyny o amser, canys fel hyn y dywed am yr adeg bwysig yma:—

"Yr wyf yn ystyried hwn yn gyfnod newydd yn fy mywyd. Pa un a oeddwn wedi cael adnewyddu fy nghalon cyn hyn, nid wyf yn gwybod; o leiaf, y mae'n eglur i mi fod Yspryd yr Arglwydd wedi bod yn hir cyn hyn yn ymryson â mi, ac wedi argraphu golygiadau a theimladau crefyddol ar fy enaid. Beth bynag oedd fy sefyllfa cyn hyn, yr wyf yn credu bod *cyfnewidiad pwysig* wedi cymmeryd lle y pryd hwn, a bod pob peth wedi eu gwneud yn newydd; o leiaf, bod gwellhâd mawr wedi cymmeryd lle yn sefyllfa fy nghalon."

Ar y 15fed o Orphenaf, 1781, symmudodd o Longnor i guradiaeth Croesoswallt, plwyf a gynhwysai ar y pryd rhwng chwech a saith mil o drigolion, moesau ac arferion y rhai a esgeulusid am oesau, ac o herwydd hyny yr oeddynt yn hynod mewn drwg arferion ac annuwioldeb. Pregethai Mr. Jones un ran o foreuau'r Sabbothau yn Gymraeg, ac yr oedd yn barchus iawn gan ei gydwladwyr yn y dref a'r amgylchoedd. Yr oedd amryw o offeiriaid y llanau gwledig cylchynol yn preswylio yng Nghroesoswallt; a chan nad oedd ganddynt ond gwasanaeth yn y borau yn unig yn eu heglwysdd eu hunain, arferent fyned yn fynych i eglwys y dref honno yn hwyr y dydd. Nid hir y

Digitized by Google

bu Mr. Jones heb dramgwyddo amryw o'r gwŷr dïofal hyny, trwy ei bregethiad egnïol o'r gwirionedd, y rhai o'r diwedd a godasant y fath gynnwrf yn ei erbyn, trwy gynhorthwy y Deon Gwladol (*Rural Dean*), a rhyw gyfreithwyr anystywallt, fel y bu raid iddo symmud oddi yno yn y fl. 1782; a'r lle nesaf a gafodd oedd curadiaeth Loppington, ger llaw Wem, yn sir y Mwythig. Yr oedd sefyllfa crefydd yn dra thebyg yn y gymmydogaeth hon i'r hyn ydoedd yng Nghroesoswallt; ond bu ei bregethiad egnïol ac effro ef yn bur fendithiol yno i rai, tra yr ennynai gasineb dynion anystyriol a rhagfarnllyd. Bu farw y ficar ymhen tair blynedd ar ol iddo fyned yno, a bu agos iddo yntau gael y plwyf, yn ol addewid a roddid iddo gan yr Arglwydd Thurlow, noddwr y ficeriaeth; ond annogodd rhyw gyfreithiwr diras oedd yn y plwyf y wardeiniaid i gau drws yr eglwys yn ei erbyn. Yntau, yn hytrach na chodi dim cynnwrf, a benderfynodd ymadael oddi yno. Pa wedd bynag, yr oedd siomedigaeth llïaws o'r plwyfolion y fath, o blegid i ymddygiad brwnt ei wrthwynebwyr beru iddo ymadael, fel y penderfynodd tu a deugain o'r plwyfolion lwyr ymadael o'r llan, ac ymffurfio yn Eglwys Ymneillduol; a dywedir eu bod yn para felly hyd y dydd hwn. Am yr amgylchiad yma, dywed ei fywgraphydd—"Ymadael oedd raid iddo, a dyfod yn gurad enwog Creaton, enw a gofir pan y bydd llawer ficar, periglor, ac esgob wedi eu llwyr anghofio." Pan orfodwyd ef i ymadael o Loppington, ysgrifenodd at Mr. Riland, Birmingham, i adrodd ei gŵyn a'i gam, yr hwn a'i gwahoddodd i fyned yno i'w gynnorthwyo ef. Cynhaliwyd cyfarfod offeiriadol yn Birmingham yn fuan wedi iddo fyned yno, yn yr hwn yr oedd Mr. Simeon, Caergrawnt, a Mr. Romaine, Llundain. Yr oedd eisiau curad ar y pryd yn Creaton, sir Northampton; a gofynodd Mr. Simeon i Mr. Jones a elai efe yno, yr hyn hefyd a gefnogwyd gan Mr. Romaine. Yn unol â chais y gwŷr enwog hyn, i Creaton yr aeth efe ar y 10fed o Fedi, 1785, lle y bu yn llafurio yn ddiwyd a llwyddiannus hyd ddiwedd 1833, pan y rhoddes y lle i fynu o herwydd llesgedd a henaint. Bu ei lafur yn dra bendithiol yn ystod yr holl amser y bu yno. Bu amryw ddiwygiadau grymus yn y plwyf, ac elai llawer o'r plwyfydd cyfagos yno i'r gwasanaeth. Dywedir y byddai pobl o bymtheng neu ugain o blwyfydd cylchynol yn ymgynnull yno bron bob Sabboth. Ymhen amser, cymmerth diwygiadau le mewn pump neu chwech o blwyfydd o amgylch Creaton. Yn mis Medi, 1787, ysgrifenodd Mr. Jones at Mr. Charles o'r Bala ynghylch y diwygiad yn Creaton, fel y canlyn:—

"Wythnos i'r Sabboth diweddaf, anrhydeddwyd ni, yn Creaton yma, â cherbydaid o'r tu hwnt i Northampton, sef llonaid cerbyd o hen wragedd, y rhai a'm boddhasant i yn ddirfawr. Bydded i Dduw gael ei glodfori am y symlrwydd mawr a welaf ym mysg y werin bobl yn Creaton. Ni chanfyddais neb yn Lloegr sy'n tebygu cymmaint i'm cydwladwyr. Y mae eu canu weithiau yn cynhyrfu fy nghalon galed."

Effeithiodd llafur caled a phryderus Mr. Jones yn ddwys ar ei iechyd yn lled fuan wedi iddo ymsefydlu yn Creaton; ac yng Ngorphenaf y fl. 1789, efe a aeth i Abergele, er mwyn cryfhau ei iechyd. Tra'r oedd yn aros yno, efe a ysgrifenodd at Mr. Charles fel y canlyn:—

"Y mae'r bobl yn meirw o eisiau gwybodaeth. Ni ddichon yr Indiaid deillion fod mewn mwy o angen am addysg na phobl y wlad hon. Yr wyf yn gwybod hyn, canys ymddiddenais â llawer o honynt, ac y mae'n boen i mi fod heb dreuthodau i'w rhanu yn eu plith."

Y mae'n debyg mai yn ebrwydd ar ol hyn y daeth i feddwl Mr. Jones sefydlu ysgol Sabbothol, canys pe buasai wedi ei sefydlu cyn hyn, y mae'n dra sicr y soniasai am hyny yn ei lythyr at Mr. Charles: beth bynag, y mae sicrwydd mai yn ystod y fl. 1789 y sefydlodd efe ysgol Sabbothol yn Creaton, yr hon oedd y gyntaf a sefydlwyd yn sir Northampton, a bu o fendith fawr i'r ardal. A'r hyn sydd ryfedd ydyw, mai yn yr un flwyddyn y sefydlodd Mr. Charles ysgol Sabbothol yng Nghymru.* Pa un ai Mr. Jones ai Mr. Charles a wnaeth y gymmwynas fawr hon i grefydd gyntaf, nis gallwn ni benderfynu; ond y mae'n sicr i'r ddau wneuthur hyny yn yr un flwyddyn, fel y crybwyllwyd, a hyny, ond odid, yn ddïarwybod i'w gilydd, er cymmaint cyfeillion oeddynt. Fe allai i'r ddau gael y syniad, o gylch yr un amser, gan yr enwog Robert Raikes, yr hwn a sefydlasai ysgol Sabbothol yng Nghaerloyw (*Gloucester*), yn 1780. Am yr ugain mlynedd cyntaf o arhosiad Mr. Jones yn Creaton, elai yn gysson i'r ysgol bob Sabboth, a mwynhai y llafur gymmaint ag un rhan o wasanaeth y dydd.

Yn ystod yr un flwyddyn etto, sef 1789 (pa un ai cyn i Mr. Jones fod yn Abergele, ai ar ol hyny, ni fynegir), cynhygiwyd bywioliaeth eglwysig iddo yn sir Ddinbych; a chan faint ei hoffder o'r Cymry a Chymru, carasai yn fawr dderbyn y cynnyg; ond wedi iddo ymgynghori ar yr achos â Mr.

* Cofiant Thos. Charles, gan T. Jones, t. 173; *Crefydd yr Oesau Tywyll*, gan W. Roberts (Nefydd), t. 81.

Digitized by Google

Newton a Mr. Robinson, gwrthwynebai y gwŷr da hyny yr amcan yn egnïol, gan y barnent ei fod mewn lle yr oedd mawr angen am ei fath ef ynddo, a chan fod ganddo yntau fwy o hyder ym marn y gŵyr enwog hyny nag yn yr eiddo ei hun, efe a ufuddhaodd i'w hannogeuthau.

Yn y fl. 1791, ymwelodd Mr. Jones âg ardal ei enedigaeth a'i hamgylchoedd, yn Neheudir Cymru; a thra yn teithio yno, cafodd allan fod llef uchel a chyffredinol ym mysg y bobl am Fiblau, ac nad oedd yr un i'w cael yn rhodd nac am arian. Effeithiodd hyn yn ddwys arno, a gofidiodd ef yn ddirfawr. Ymdrechodd â'i holl egni i gael gan y Gymdeithas er Lledeunu Gwybodaeth Gristionogol argraphu 10,000 o gopïau, ac ymrwymodd i dalu am 4,000 cyn gynted ag y byddent yn barod. Gwrthodasant dros dro, er ei fawr ofid ef, gydsynio. Yn wyneb hyny, ysgrifenodd at y Dr. Madan, Esgob Peterborough, gan erfyn arno ef ddefnyddio ei ddylanwad gyd â'r gymdeithas, yr hyn a wnaeth yntau yn rwydd, ac o'r diwedd efe a lwyddodd. Argraphwyd 10,000 o Fiblau (yr Hen Destament a'r Newydd), a 2,000 o'r Testament Newydd ar wahân, a gwerthwyd yr holl argraphiad cyn gynted ag y cyhoeddwyd ef; a chafodd Jones allan yn ebrwydd nad oedd y *bedwaredd* ran o'r wlad wedi ei chyflenwi. Yr oedd y cri am ychwaneg o Fiblau wedi dyfod yn awr yn uwch nag erioed yng Nghymru; ond nid oedd gopi i'w gael mewn gwlad na thref. Teimlodd Mr. Jones yn ddwys iawn o herwydd hyny, a phenderfynodd wneud ail appeliad at yr hen Gymdeithas er Lledeunu Gwybodaeth Gristionogol, a chefnogwyd ef yn rhwydd gan y Dr. Madan, Wilberforce, Scott, ac eraill; ond llwyr wrthododd y gymdeithas gydsynio â'r cais gwladgarol, yn wyneb yr hyn dywed Mr. Jones fel y canlyn:—

> "Yn y palldod yma, eiddo'r hen gymdeithas, gellir gweled *hedyn* y Fibl Gymdeithas newydd. Pe buasai cyfeisteddfod y gymdeithas wedi caniatäu y cyflenwad y galwai Cymru am dano, y mae'n debyg na buasai yr un gymdeithas newydd yn cael ei ffurfio hyd heddyw.* Wylasom yn dost y pryd hwnw o herwydd iddynt nacäu rhoddi i ni yr hyn a ddymunem mor daer; ond ar ol hyny, cawsom lawer o achosion i lawenychu eu bod wedi ein nacäu. Cyn lleied a ddeallwn ni ar drefn Duw ar gyfer yfory! Fe lwyddodd cynllun Duw pan fethodd ein cynllun ni."

Pan oedd pob gobaith wedi darfod am gynhorthwy pellach oddi wrth y gymdeithas grybwylledig, y cynllun nesaf a gynhygiodd y penderfynol Mr. Jones i'w ohebwyr yng Nghymru oedd, cyttuno â Mr. Jones, argraphydd parchus yng Nghaerlleon, am argraphiad 12plyg, a gosod casgliad ar droed yng Lloegr a Chymru, er gostwng y pris, fel y gallai'r tlodion gael eu diwallu ar ammodau esmwyth. Ond nid aeth y cynllun hwnw o'r eiddo Mr. Jones ym mlaen, er iddo gael ei gymmeradwyo ar y pryd. Yn ddiweddaf oll, cynhygiodd Mr. Jones i'w gyfeillion offeiriadol yn y Deheudir, ac yn neillduol i'w gyfaill Mr. Charles, yng Ngogledd Cymru, ffurfio *cymdeithas*, unig amcan yr hon a fyddai argraphu Biblau Cymraeg, ac anfonodd atynt lythyr yn cynnwys y cynllun.†

Dyna'r cynnyg cyntaf at ffurfio Bibl Gymdeithas ar yr un cynllun a'r un egwyddor ag y mae'r Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, sef peidio argraphu dim ond y ddau Destament ynghyd. Cymmeradwyodd Mr. Charles y cynllun yn fawr cyn gynted ag yr aeth i'w law, ac ymroddodd â'i holl egni i'w weithio allan; a chan mai Mr. Charles yn unig oedd i'w weled yn gweithio yng Ngwynedd, yr oedd yn ddigon naturiol i drigolion y parth hwnw o'r Dywysogaeth gasglu mae efe oedd cynlluniwr yr holl waith. Dïammau mai hyn a arweiniodd un o'i fywgraphwyr i egluro pethau yn y golau hwnw, ac i hyspysu mai Mr. Charles a ddefnyddiodd Mr. Jones yn yr holl waith; pan, mewn gwirionedd, mai Mr. Jones a ddefnyddiodd Mr. Charles, fel y gellir gweled yn eglur wrth rediad cynnwys tu a deuddeg o lythyrau Mr. Jones, y rhai a roddwyd gan Mr. Owen, ysgrifenydd cyntaf y gymdeithas, tu a dechrau ei hanes o honi, wrth ba rai ni osodwyd enw Mr. Jones.‡ Parhaodd llafur Mr. Jones dros y Bibl Gymdeithas a'i ymlyniad wrthi, hyd derfyn ei oes. Cydymdeimlai â hi yn ei helbulon, ac yr oedd ei llwyddiant yn achos o fawr lawenydd iddo, fel y dengys llythyr helaeth a ysgrifenodd efe ar y pwngc at ei gyfaill, y Parch. J. Owen, Thrussington.§

Er nad yw ond o ychydig bwys pwy oedd y cyntaf, na phwy oedd y diweddaf, ynghynlluniad y gymdeithas werthfawr dan sylw, fel y dywed Mr. Jones ei hun yn y llythyr crybwylledig; etto, iawn ydyw rhoddi y lle priodol i bawb a anrhydeddwyd gan Dduw â rhyw fesur o wasanaeth yn ffurfiad "Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor." Cyn ei ffurfiad, yr oedd Mr. Jones a Mr. Charles megis ar wahan, ac wedi hyny mewn undeb, yn ymdrechu diwallu y Cymry oll, yn dlawd a chyfoethog, â Biblau; Mr. Jones yn

* Ysgrifenwyd hyn gan Mr. Jones yn Creaton, ar y 30fed o Dachwedd, 1833.

† Llyfr y Jubili, t. 86. ‡ Llyfr y Jubili, t. 88, nod. 1.
§ Llyfr y Jubili, t. 81–89.

Digitized by Google

Lloegr yn cynllunio er diwallu y Cymry â Gair Duw, a Mr. Charles yng Nghymru yn cynllunio er cydweithredu âg ef. Pan aeth yr olaf i Lundain o gylch y pryd hyn, gosododd achos y Dywysogaeth o flaen Cymdeithas y Treuthodau Crefyddol, gan awgrymu cynllun Mr. Jones at ddiwallu y Cymry, ac ennillodd gydymdeimlad y cyfarfod. Yna y Parch. Joseph Hughes, Battersea, megis un yn cael gweledigaeth ddisymmwth, a ddywedodd, "Os er mwyn Cymru, paham nad er mwyn y deyrnas a'r byd hefyd?" Ar ol hyn, yr oedd yr achos yn nwylaw swyddogion y gymdeithas a nodwyd; ac yn Ionawr, 1804, ffurfiwyd y gymdeithas ar gynllun heleuthach nag a fwriadwyd gan Mr. Jones a Mr. Charles, pan nad oedd yr un o honynt hwy yn bresennol, a phenderfynwyd "Mai enw y gymdeithas fyddai 'Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor,' yn unol a chynhygiad yr ysgrifenydd, a dymunwyd arno ef barotöi cylch-lythyr ar y matter." Ond, er nad oedd y ddau Gymro gwladgarol, Mr. Jones a Mr. Charles, yn bresennol ar yr achlysur pwysig yma; etto, y mae'n eglur mai hwynt-hwy, trwy eu llafur blaenorol, a anrhydeddwyd i ddwyn cyflwr anghenus eu cydwladwyr i sylw, yn y fath fodd ag i arwain i sefydliad cymdeithas, nid yn unig i ddiwallu Cymru, ond y byd hefyd, â'r Ysgrythyrau Sanctaidd.

Ond wedi cael ein harwain fel hyn, gan ein henwog Gymro o Creaton, i gymdeithasu dros ennyd âg amryw enwogion eraill a ddygwyd i gydweithredu âg ef mewn un o'r cynlluniau pwysicaf i grefydd yn y byd hwn, rhaid i ni droi ychydig yn ol etto ato ef yn fwy personol. Y mae'n hawdd canfod bod Mr. Jones yn meddu cariad dwfn at wlad ei enedigaeth, a theimlai bryder dwys bob amser ynghylch llesâd ysprydol ei gydgenedl; ac ymddengys oddi wrth lythyr a ysgrifenodd efe ar y 13ydd o Ionawr, 1796, at ei hoff gyfaill, Mr. Charles, ymhen 11 mlynedd wedi iddo ymsefydlu yn Creaton, bod y cyfryw deimlad yn para yn ei fynwes, er ei hir arhosiad yn Lloegr.

Bu amryw ddiwygiadau grymus yn Creaton a'r ardaloedd cylchynol yn amser arhosiad Mr. Jones yno, ac ymgasglai llawer o blwyfydd cyfagos yno i'r gwasanaeth. Dywedir y byddai pobl o 15 neu 20 o blwyfydd yn ymgynnull yno bron bob Sabboth. Byddai prif enwogion Lloegr oedd yn perthyn i'r Eglwys Wladol yn ymweled â'r lle yn amser Mr. Jones, ac yn pregethu yno, megis Newton, Scott, Romaine, Venn, Robinson, ac eraill; a byddai y cynnulliadau ar y cyfryw achlysuron yn ddirfawr eu maint.

Yn y fl. 1810, cafodd Mr. Jones guradiaeth Spratton yn ychwanegol at Creaton, a gwasanaethodd yno am 18 mlynedd, sef hyd y fl. 1828; ac o herwydd nad oedd ond milltir a hanner rhwng y ddau le, byddai yr un gwrandawyr yn y ddau fan. Un gwasanaeth a gynhelid ar y Sabboth ganddo yn y naill a'r llall. Yn y flwyddyn a grybwyllwyd ddiweddaf, sef 1828, pan oedd efe yn 76 oed, dyrchafwyd ef i berigloriaeth Creaton, ar ol gwasaneuthu yno fel curad am tu a 43 blynedd. O gylch pum mlynedd y gwasaneuthodd efe y lle fel periglor, sef hyd 1833, pan y rhoddes y swydd i fynu, fel y crybwyllwyd, ac efe yn 81 oed, gan yr ystyriai ei hun yn anghyfaddas o ran oedran i'w chyflawni yn ddyladwy, yr hyn, fel llawer o bethau eraill, sy'n dangos bod Mr. Jones yn dd ŷn nodedig o onest a chydwybodol. Ond er i'r Cymro enwog a duwiol hwn roddi y swydd offeiriadol i fynu, o herwydd y rheswm a nodwyd; etto, ni roddes efe lafurio i fynu, fel awdur a duwinydd, dros gryn amser wedyn.

Cyhoeddodd Mr. Jones lïaws o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg. Dechreuodd ar y gorchwyl yma mor forau a'r fl. 1783, pan oedd efe yn 31 oed. Cyfieithiadau oedd yr holl lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd ganddo oddi eithr un, ac wele restr o honynt:—

1. "Rhodd i'th Gymmydog; neu Iawn Adnabyddiaeth o Dduw, ac o honom ein Hunain. Gan Sir Richard Hill, Marchog." 1783.
2. "Tragywyddol Orphwysfa'r Saint. Gan Richard Baxter." 1790.*
3. "Gwledd i'r Eglwys, neu ddeuddeg Pregeth ar Gân Solomon. Gan y Parch. W. Romaine." 1792.
4. "Drws yr Eglwys Weledig wedi ei agor yn lled y Pen, fel y gallo credinwyr a phlant bychain ddyfod i mewn. Gan Thomas Jones, curad Creaton, yn sir Northampton." 1799.†
5. "Y Byd Cristionogol wedi ei ddadorchuddio." Gan Berridge.‡
6. "Pregeth ar farwolaeth Thorton." Gan Scott.
7. "Cyfaill Pechadur." 1834.§

* "Argraphwyd 3,000 o hwn, i'w gwerthu am swllt; a rhoddodd y cyfieithydd yr holl elw tu ag at Ysgolion Rhad Cymreig Mr. Charles o'r Bala."—Llyfr. y Cymry, t. 648.

† Hwn ydyw yr unig lyfr a gyfansoddwyd ganddo yn Gymraeg. Ceir y mynegiad canlynol yn ei ddiwedd:—"Bydd yn hawdd i'r Cymru [Cymry] faddeu fy anwybodaeth o'r iaith Gymraeg, pan glywant i mi droi yn Sais, er ys agos i ugain mlynedd." Achlysurodd cyhoeddiad y llyfr hwn ddadl rhwng yr awdur a'r Parch. Christmas Evans. Cyhoeddwyd ail argraphiad yn 1801, yr hwn a gynnwys attebion Mr. Jones i Mr. Evans.—Llyfr. y Cymry, t. 720.

‡ Cyhoeddwyd y cyfieithiad yma yn y *Drysorfa Ysprydol* yn 1799, dan yr enw "Ymddiddan rhwng Odegos a Tuphlos," yn lle "Doctor and Farmer," fel yn y Saesneg.

§ Yr oedd yr awdur llafurus yn 82 oed pan gyhoeddwyd y cyfieithiad yma.

Digitized by Google

Yr oedd cyfansoddiadau Seisnig yr awdur yn 17 o nifer, un o ba rai, sef "*The Scripture Directory*"=Y Cyfarwyddwr Ysgrythyrol, a gyrheuddodd i *ddeg* o argraphiadau. Ei brif waith Seisnig yw "*Jonah's Portrait*"=Darlun Jona, yr hwn a gyrheuddodd wyth o argraphiadau. Hefyd, cyhoeddwyd pedwar argraphiad Seisnig o'i "*Immanuel, or Scriptural Views of Jesus Christ*"=Immanuel, neu Olygiadau Ysgrythyrol am Iesu Grist, yr hwn hefyd a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Cyhoeddwyd pedwar argraphiad hefyd o'i "*Prodigal Pilgrimage*"=Y Pererindod Afradlon, a chyhoeddwyd chyfieithiad o hono yn y *Y Gwyliedydd*. Y llyfr diweddaf a gyhoeddodd efe oedd yr un canlynol:—

"A Faithful Warning to Christian Congregations against the Oxford Heresy"=Rhybudd Ffyddlon i Gynnulleidfaoedd Cristionogol yn erbyn Heresi (Geugred) Rhydychain. 1841.

Yr oedd yr awdur yn 89 oed pan gyhoeddodd y llyfr hwn. Yn y fl. 1836, ymhen tu a thair blynedd ar ol iddo roddi periglorìaeth Creaton i fynu, symmudodd y teulu, gyd â'r rhai y llettyai Mr. Jones er pan aeth gyntaf i'r ardal honno yn 1785, o Creaton i Spratton i fyw, ac aeth yntau yno gyd â hwy; a chyd â hwynt yno y terfynodd ei oes lafurus a defnyddiol. Nid ymddengys iddo fod erioed yn ŵr priod, canys ni chrybwylla yr un o'i fywgraphwyr ddim am na gwraig na phlant iddo. Byddai bob amser yn dymuno am i'w afiechyd olaf fod yn fyr, a rhyngodd bodd i'w Dad nefol ganiatâu iddo ei ddymuniad. Cymmerwyd ef yn glaf ddydd Gwener, y 3ydd o Ionawr, 1845, a pharhaodd mewn sefyllfa dawel a llonydd hyd y dydd Mawrth canlynol, pan yr ehedodd ei enaid dedwydd i "Dragywyddol Orphwysfa y Saint," ac efe yn 93 oed. Claddwyd ef y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Spratton, mewn llanerch o'i ddewisiad ei hun.*

### JOHN GRIFFITH, CAERNARFON.

Ganwyd y gŵr llafurus ac enwog hwn ar y 10fed o Fawrth, 1752, ymhlwyf Llanfihangel-ar-Arth (neu Ieroth), ger llaw Pencadair, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn ddeiliad teimladau crefyddol yn forau iawn, ac ymunodd yn ieuangc â'r hen eglwys Annibynol ym Mhencadair. Gwelwyd yn fuan ei fod wedi ei ddonio tu hwnt i'r cyffredin, ac annogwyd ef i ddechrau pregethu; a phan oedd yn 18 oed, derbyniwyd ef i Athrofa Caerfyrddin, lle yr oedd y Parch. Robert Gentleman a'r Parch. Dr. Jenkins yn athrawon ar y pryd. Yr oedd ynddo lawer o yspryd cenhadol trwy ei oes. Yr yspryd yma, fel y tybir, a'i harweiniodd, ar derfyn ei efrydiaeth yn y coleg, i'r Gogledd, lle yr oedd y cynhauaf yn fawr, a'r gweithwyr yn anaml iawn: dim ond rhyw hanner dwsin o gapelau gan yr Annibynwyr yn y chwe sir.† Aeth Mr. John Griffith ar ei hynt i Lanfyllin. Cafodd fod yno gapel, a gyfodasid y tro cyntaf yn y fl. 1708, a losgasid gan yr erlidwyr yn 1712, ac a ail adeiladasid yn 1717, ar draul y Llywodraeth. Pan aeth Mr. Griffith yno tu a'r fl. 1777, yr oedd yr achos bron wedi darfod, a'r capel wedi ei gau. Cyhoeddodd yntau ei hun i bregethu yno, a chasglodd gynnulleidfa. Yn fuan derbyniodd alwad i ymsefydlu yn eu plith, ac urddwyd ef yno ar y 5med o Orphenaf, 1780. Nid arhosodd yno ond dwy flynedd; er hyny, dywed un a'i hadweunai yn dda y bu'n hynod lafurus a llwyddiannus yno i heleuthu achos crefydd trwy'r holl wlad o amgylch, ac yr ymdyrai lluoedd i wrando arno yn y meusydd ac ar y mynyddoedd. Bu mewn perygl am ei einioes lawer gwaith ar ei gychwyniad yn Llanfyllin. Pan yn dyfod o'r addoldy un noswaith, ymosodwyd arno gan wŷr llofruddiog. Rhedodd yntau i'r "Eagles," a chyfarwyddwyd ef i ddiangc i'r llofft. Yna cymmerth mab y tŷ bastwn trwm yn ei law, a lloriodd y gelynion y naill ar ol y llall.

O gylch y pryd hyn, priododd Mr. Griffith un Miss Agnes Meredith (Meredydd), o Guilsfield, yn lled agos i'r Sarnau, lle yr oedd Mr. Griffith wedi sefydlu achos crefyddol yn lled ddiweddar, ac aeth i'r ardal honno i breswylio. Pregethodd yno yn y prif ffyrdd a'r ceuau, ac mewn tai annedd; ac ymgynhullai tyrfaoedd lliosog i wrando arno. Adroddir yr hanesyn canlynol am dano a ddigwyddodd yn yr ardal hon, yr hwn a ddengys mor dra awyddus ydoedd am achub eneidiau:—

"Yr oedd wedi myned yno i bregethu mewn ameuthdŷ, a gofynodd i ŵr y tŷ, Mr. Thomas Prys, taid Mrs. T. G. Jones, o'r Siop, Llansantffraid, am gael myned o'r neilldu i ystafell am ychydig amser. Dangoswyd iddo ystafell i fyned iddi; ac wrth ei weled yn hir heb ddychwelyd, dechreuodd gŵr y tŷ anesmwytho, ac anfonodd y forwyn

* The Memoir of the Rev. T. Jones, Creaton, by Rev. John Owen, of Thrussington; Dealtry's Defence of the same; Williams's Em. Welshm. p. 561; Llyfr y Jubili, t. 110; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 640; En. Cymru, I. F., t. 643; Llyfr. y Cymry, t. 613, 648, 651, 665, 718, 720.

† Yr oedd deg o gynnulleidfaoedd Annibynol yn y Gogledd yn 1715, yn ol y Dr. J. Evans; a dywed awdur *Methodistiaeth Cymru* bod rhai cannoedd o eglwysi Methodistaidd bychain yn britho De a Gogledd yn 1745.—Gwel llyfr iii., t. 116; llyfr v., t. 10.—Gol.



Digitized by Google

i alw arno, gan ei bod yn amser dechrau yr odfa. Aeth y llangces; ond erbyn ei bod wrth y drws, clywai Mr. Griffith yn dywedyd yn uchel—'Nid âf, oni ddeui gyd â mi.' Brysiodd y ferch yn ol, a dywedodd wrth ei meistr bod yno rywun gyd â'r pregethwr. 'Does dim fath beth,' eb ei meistr; ond teurodd y llangces mai felly yr oedd, ac ychwanegodd—'Oni chlywais i e'n dyweyd nad â e ddim heb i'r llall ddod efo fo?' 'Gad iddo, ynte,' eb ei meistr: 'fe ddaw'r ddau cyn hir.' Daeth Mr. Griffith allan o'r ystafell yn fuan, a chafwyd prawf cyn diwedd yr odfa nad yn unig y daeth, ond bod y Gŵr y bu mewn ymdrech am ei gael wedi dyfod gyd âg ef."*

Dywed y Parch. D. Morgan, awdur y *Traethawd ar Ymneillduaeth*, mai Mr. Griffith a ddechreuodd bregethu yn y Trallwm hefyd, yn ystod y ddwy flynedd y bu yn Llanfyllin, o 1780 i 1782; ac ychwanega mai Mrs. Griffith (Miss Meredith) a'i mam a roddasant dir i adeiladu capel yno. Y mae'r ymroddiad mawr a ddangoswyd gan Mr. Griffith i ehangu terfynau yr achos tra y bu ym Maldwyn, cystal a'r traddodiad sydd am dano yn y dref a'r amgylchoedd, yn ein tueddu i gydsynio â Mr. Morgan, mai i'w lafur ef y mae'r achos yn y Trallwm yn ddyledus am ei gychwyniad. Dywed S. R., yn *Y Cronicl*, i Mr. Griffith fyned unwaith i Lys yr Ynadon yn Nhrefaldwyn er cael trwyddedu tŷ i bregethu ynddo; ac wedi i'r rhai hyny hir ymdderu yn gyndyn âg ef, dywedodd yntau, "Yr wyf yn gofyn i chwi, foneddigion, cyn ymadael, *a wnewch chwi drwyddedu* y lle, ai ni wnewch?" Ar hyny, neidiodd Mr. Jones, o'r Maen-gwyn, cyfreithiwr, ar ei draed, a dywedodd wrth yr ynadon, "Y mae'n awr yn y pen: y peth nesaf a wna'r bonheddwr fydd anfon i Lundain, a daw teyrnwys (*mandamus*) i'ch gorfodi i gydsynio." Dychrynodd hyny yr ynadon anwybodus, a chydsyniasant yn ddïoed.

Tu a diwedd y fl. 1782, derbyniodd Mr. Griffith alwad o Gaernarfon, â'r hon y cydsyniodd. Ar ei ffordd yno, llettyodd yn y prif westty yn Nolgellau, a elwid "Siop." Cynhygiodd hanner gini i ŵr y tŷ am wasanaeth yr ystafell ehangaf a feddai am ddwy awr o amser; ond pan ddeallodd y gŵr mai i bregethu yr oedd ei heisiau, gwrthododd, yn fwy rhag ofn y canlyniadau na dim arall. Dywedodd yntau, "Rhaid i mi bregethu yn Nolgellau;" ac allan ag ef i'r gwagle o flaen ei letty. Daeth tyrfa ynghyd, ac yn y fan dechreuodd rhai gynhyrfu a chwythu bygythion. Yr oedd yn y gynnulleidfa ŵr bonheddig na wyddai neb pwy ydoedd, yr hwn a ddywedodd yn Saesneg, wrth weled y cynnwrf, os cyffyrddai neb â'r pregethwr, yr edrychai efe ar eu hol. Felly, cafwyd llonyddwch, a dywedir mai honno oedd y bregeth gyntaf a gafodd tref Dolgellau gan Annibynwr yn yr oes honno.

Wedi iddo fyned i Gaernarfon, gwelodd fod yno faes ehang o'i flaen, a dechreuodd yn ddïoed ar y gwaith â'i holl egni; a pharhaodd i lafurio felly mewn amser ac allan o amser, am ddwy flynedd, megis yn Llanfyllin. Mewn goruwch-ystafell y pregethai, yn y cwr o'r dref a elwir Treffynnon, gyferbyn a chapel presennol Salem.

Ar yr 17fed o Fehefin, 1784, derbyniodd Mr. Griffith alwad oddi wrth yr eglwys Annibynol yn Abergefenni, â'r hon y cydsyniodd yntau. Bu yno yn llafurio yn egnïol am ddeuddeng mlynedd, ac yr oedd yn dra chymmeradwy gan y bobl orau a mwyaf crefyddol yn y lle. Pregethai deirgwaith bob Sabboth, un ai yn Gymraeg neu Saesneg; ac yr oedd "Griffith y Fenni," fel y'i gelwid y pryd hyny, yn bur boblogaidd yn holl siroedd y Deheudir. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol i'r Parch. George Lewis (y Dr. G. Lewis wedi hyny) ymadael o Gaernarfon i Lanuwchlyn, rhoddes eglwys Annibynol Caernarfon alwad i'w cyn-weinidog, Mr. Griffith; a chydsyniodd yntau â'u cais. Dïau fod yr ymraniad gofidus a ddigwyddasai yn eglwys Annibynol y Fenni yn 1786,† cystal a'i hoffder o'i hen gyfeillion yng Nghaernarfon, yn peru i'w symmudiad fod yn fwy boddhaol iddo. Ymsefydlodd Mr. Griffith, yr ail waith hon, yng Nghaernarfon yn Chwefror, 1796, a chafodd foddlonrwydd i'w feddwl mai hyny oedd ewyllys ei Arglwydd. Ymhen ychydig gyd â blwyddyn ar ol iddo ymsefydlu yng Nghaernarfon, cyfarfu â phrofedigaeth lem, trwy farwolaeth ei briod hawddgar, yr hon a fu'n ymgeledd gymmwys iddo fel dŷn a gweinidog. Hunodd Mrs. Griffith yn dawel yn yr Iesu ar yr 28fed o Fehefin, 1797, yn 42 oed, a chladdwyd hi ym mynwent Llanbeblig. Nid oedd iddo blentyn i alaru ar ei hol; ond gwelwyd ei phriod parchedig yn colli dagrau uwch ben ei beddrod ymhen pymtheng mlynedd ar ol ei deuaru.

Priododd Mr. Griffith eilwaith yn y fl. 1799, â Janet, gweddw Mr. Hugh Parry, o Dyddyn-y-gareg, Dolbenmaen, a bu iddynt bedwar o blant, John, William, Thomas, ac Ann. Bu yr hynaf dros y deugain mlynedd olaf o'i oes yn weinidog ffyddlon a llwyddiannus yn Buckley, sir Fflint. Y mae yr ail yn aros hyd yr awr hon, ac yn parhau i lafurio yn y Tabernacl, Caergybi; ond y mae'r ddau ieuengaf wedi myned i dangnefedd er

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 328.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 44.

ys llawer blwyddyn. Cyn hir ar ol priodi yr ail waith, symmudodd Mr. Griffith o Dyddyn-y-gareg, lle y ganed ei fab John, i ffarm a elwir Glan'rafon, ger llaw Caernarfon; ac yno y ganwyd William, ar y 12fed o Awst, 1801. Yn y flwyddyn ganlynol, ymwelwyd â'r teulu dedwydd gan gystudd mawr. Tarawyd Mr. Griffith â'r parlys pan yn rhodio allan yn un o'i feusydd, ar y 25med o Fai, 1802; ac yr oedd yr ergyd mor drom a disymmwth fel y syrthiodd i lawr megis marw, a chollodd bob ymwybyddiaeth dros rai dyddiau. Pan ddaeth ato ei hun, ymwelwyd âg ef gan ddau o ddïaconiaid yr eglwys. Wylodd pan y'u gwelodd, heb fedru dywedyd gair wrthynt. Bu felly yn fud am o ddeutu hanner blwyddyn. Yna daeth brawd yn y weinidogaeth i'w weled, a gofynodd iddo pa fodd yr oedd yn ymdeimlo o ran ei feddwl. Ei atteb oedd yn Saesneg—"Clear: clear as can be"=Golau: mor olau ag y gall fod. Parodd ei eiriau cyntaf hyn lawenydd mawr i laweroedd; ond yn ebrwydd, tröed eu llawenydd yn dristwch. Ymaflodd ynddo fath ar dwymyn ar ol twymyn, a darostyngwyd ef i ddirfawr wendid hyd at byrth angau. Tybiodd ei gyfeillion fod y diwedd wedi ei oddiwes; ond pan oedd gobaith pawb yn pallu, torodd yntau allan i ganu, mewn sain gorfoledd, gan ddywedyd:—

> "Talodd ef ein dyled fawr,
> Rhyddion ydym ninnau'n awr;
> Wedi ein prynu ar y pren,
> I feddiannu'r nefoedd wen: Aleluia."

Cododd hyny ddisgwyliadau drachefn am ei adferiad; ac yn raddol, casglodd yntau nerth mewn corph a meddwl. Ar yr Iau Dyrchafael canlynol, pan oedd amryw wedi dyfod i edrych am dano, traddododd iddynt annerchiad byr oddi wrth Phil. ii. 9–11. Teimlwyd yn y fan fod "taer weddi" wedi llwyddo ar ei ran, ac felly y bu. Ychwanegwyd at ei ddyddiau, megis i Hezeciah gynt, ac i'r Parch. Thomas Charles, ei gydoeswr, bymtheng mlynedd. Y Sabboth cyntaf iddo bregethu, ar ol ei glefyd tost, oedd ym mhulpud Pen-dref; ei destyn oedd Phil. i. 26, 27, a'r emyn cyntaf a roddes allan i'w chanu oedd yr hon sy'n terfynu fel hyn:—

> "Duw mawr! cyflwynaf f'oriau i ti,
> Tra meddwyf fi oleuni;
> Yna fy haul fachluda'n llon,
> A daw nos dirion imi."

Talodd ei adduned i'r Arglwydd, a chyflwynodd ei oriau yn llwyrach nag o'r blaen i wasanaeth Duw yn efengyl ei Fab. Heb law gweini i'r eglwys yng Nghaernarfon, trodd allan i'r wlad o amgylch ar dde ac aswy i'w llenwi âg efengyl Crist, yn ol esampl yr apostolion,* a holl aelodau eglwys lïosog Jerusalem,† ac fel y gwnelsai yntau o'r blaen ym Maldwyn. Yr oedd efe yn un o'r Annibynwyr cyntaf a gynhygiodd bregethu ym Mangor, lle y tarawodd rhyw adyn o erlidiwr ef yn ei ben â chareg wedi ei hamwisgo âg eira, nes ei glwyfo mor dost fel y teimlodd oddi wrth yr ergyd hyd ddiwedd ei oes.‡

Wedi hyny, dechreuodd Mr. Griffith bregethu yn Rhos-y-lan, Llanaelhaiarn, Tal-sarn, Saron, a Bethel. Yn y lle olaf, aeth dan yr holl gyfrifoldeb o adeiladu y capel cyntaf, a'r cyntaf ydoedd yn holl blwyf Llanddeiniolen. Rhoes y tir i adeiladu y capel, a monwent ynglŷn âg ef, yn rhodd i'r eglwys a fyddai yno hyd byth. Dywedai Mr. Wm. Evans, Tyddyn-mawr, un o hen ddïaconiaid parchusaf Bethel, mai'r hyn a effeithiodd gyntaf erioed arno ef, er peru iddo feddwl bod rhywbeth mewn crefydd, oedd gweled gŵr bonheddig fel Mr. Griffith yn dyfod yno i bregethu allan ac yn y tai, i ychydig bobl druain dlodion, heb ddim am ei boen ond hyny o wobr oedd i'w gael yn y gwaith. Felly, y mae'r Yspryd Glân yn defnyddio moddion o bob math er peru i'r meddwl deimlo dylanwad y gwirionedd.

Wedi pregethu un borau Sabboth yn Arfon, croesodd Mr. Griffith y Fenai i Fôn, a phregethodd y prydnhawn mewn ysgubor, ar lan y môr, ger llaw Trefarthen, ymhlwyf Llanidan. Yr oedd gŵr ieuangc ymhlith y gynnulleidfa na wyddai y byd na'r eglwys odid ddim am dano ar y pryd. Y prydnhawn hwnw y cyrheuddodd saeth lem o argyhoeddiad ef, nes ei ddwys bigo yn ei galon. Y gŵr ieuangc hwnw a adweunid wedi hyny trwy'r holl fyd Cymreig a'r eglwysi fel Daniel Jones, o Lanllechid, un o bregethwyr mwyaf llwyddiannus y Methodistiaid, ac un o seraphiaid mwyaf tanllyd eu pulpudau. Byddai yn hoff ganddo byth wedyn gydnabod Mr. Griffith fel ei dad ysprydol yn yr efengyl.

Amcan mawr Mr. Griffith oedd rhoi cyfleusdra i'r holl wlad glywed yr efengyl; ac yn hyn yr oedd yn debycach i'r hen Fethodistiaid nag i'r hen Annibynwyr. Ond yn lle ei gynnorthwyo i ledeunu pregethiad y gair, bu ambell hen weinidog sefydlog yn ei feio am wasgu ar gyffiniau ei esgobaeth ef, er y byddai gryn bymtheng milltir, mwy

* Act. xiii. a'r xiv. oll. † Act. viii. 1, 4; xi. 19–24.
‡ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 267.

neu lai, rhwng ei bulpud ef a'r tŷ neu'r ysgubor y pregethai Mr. Griffith ynddynt. Er nad ymrafeuliai efe â neb; etto, ni chymmerai ei luddias i ledeunu achos ei Waredwr gan unrhyw rwystrau, canys y mae profion iddo wneud ymdrechion egnïol, a llwyddiannus hefyd, ar y cyfan, i sefydlu pregethu mewn amryw fannau, nid yn unig yn Arfon, ond hefyd ym Môn a Meirionydd. Y mae dangosiad ar gael etto ddarfod iddo, tra yng Nghaernarfon, dalu i un John James, o Lanerch-y-medd, Môn, ardreth am dŷ, yn yr hwn y dechreuwyd pregethu yn y drefan honno. Er hyny, Caernarfon a fendithiwyd â'r rhan fwyaf o lawer o lafur ei oes, ac yno y bu yn fwyaf llwyddiannus, o herwydd iddo dreulio mwy o'i amser a'i ddoniau yno nag mewn un man arall.*

Yr oedd yr un mor nodedig fel penteulu ag ydoedd fel pregethwr a gweinidog. Llywodreuthai ei blant heb eu gyru i ddigio, a'i wasaneuthwyr heb eu bygwth. Nid oedd raid iddo wrth na gwïalen na ffon. Yr oedd ei *ymddygiad* yn effeithio i gynhyrchu ofn a chariad ar unwaith yn y deiliaid, a'r naill yn gydbwys a'r llall, yr hyn yw cuddiad cryfder pob llywodreuthwr doeth a da. Ymgadwai yn ddigon pell oddi wrthynt i beru iddynt ei ofni yn fwy na phawb, ac yn ddigon agos i beru iddynt ei garu yn fwy na phawb. O ganlyniad, yr oedd yn llywodreuthu ei dŷ ei hun mor ddidwrf ag y llywodreutha yr haul y dydd a'r lleuad y nos.

Nid llawer o waith a roddes Mr. Griffith i'r wasg. Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd oedd yr un canlynol:—

"Amryw Salmau a Hymnau Profiadol, perthynol i addoliad Eglwysig a Theuluaidd. A gasglwyd allan o Waith yr Awdwyr hynottaf yn yr oes bresennol, er cynnorthwy i'r sawl a foliannant yr Arglwydd." 1783.

Cynnwys y gwaith hwn ddeucant a phump o Salmau a Hymnau, ac yr oedd yn bur gymmeradwy yn ei amser ym mysg yr Annibynwyr. Cyfieithiad llithrig a Chymreigaidd oedd y llyfr nesaf a gyhoeddwyd gan Mr. Griffith o'r llyfr godidog a elwir Doddridge's "*Rise and Progress of Religion in the Soul*," yr hwn a alwodd efe fel y canlyn:—

"Dechreuad a Chynnydd Crefydd yn yr Enaid. A eglurwyd mewn amryw Gyfarchiadau Difrifol ac Ymarferol, wedi eu cymhwyso at bob Math ac Amgylchiad o Ddynion; gyda Duwiol Fyfyrdod, neu Weddi, wedi ei 'chwanegu at bob Pennod. Gan P. Doddridge, D.D. A gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r unfed ar ddêg Argraphiad yn Saes'neg, er lles i'r Cymru [Cymry] un Iaith." 1788.

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 243.

Ni bu lyfr anysprydoledig erioed yn fwy bendithiol i droi pechaduriaid, ac i adeiladu y saint, na'r llyfr hwn. Parai Mr. Griffith i'w blant ei hun ddarllen iddo gyfran o hono yn feunyddiol, ac y mae un o honynt yn cofio hyd heddyw fel y gorchfygid ei deimladau, nes y byddai yn waith anhawdd eu celu: er hyny, eu celu a fynnai calon anhydyn, serch gwybod mai amcan y tad duwiol ar y pryd oedd eu cynhyrchu, a gwybod hefyd na buasai dim yn fwy llawenydd iddo na'u canfod. Y llyfr nesaf a gyhoeddodd oedd hwn:—

"Hyfforddwr neu Lyfr yn cynnwys pob cyfarwyddiadau angenrheidiol i ddysgu darllain a deall Cymraeg: ynghyda llawer o wersi buddiol yn tueddu i godi blys at ddarllain ac i oleuo deall yr anwybodus." 1799.

"Y mae rhagymadrodd maith a buddiol iawn yn rhagfleunu y *Reading Made Easy* hwn, yn arwyddedig 'J. G., Caernarfon, 27 Hydref, 1799,' lle yr oedd yr awdur yn gweinidogeuthau ar y pryd."† Cyfieithiodd a chyhoeddodd hefyd "Gatecism y Gymmanfa,"‡ er budd yn benaf i bobl ieuaingc, tragywyddol lesâd y rhai oedd mor agos at ei feddwl. Hefyd, dechreuodd "Esponiad ar Lythyr Paul at y Rhufeiniaid," yr hwn, yn ddïau, a fuasai yn drysor gwerthfawr i'w gydwladwyr pe buasai wedi ei orphen. Ond er iddo ysgrifenu cryn lawer, fel y gwelir; etto, pregethu yr efengyl gartref ac oddi cartref oedd ei brif orchwyl ef, ac un o'i deithiau pregethwrol a fu yn angau iddo. Cafodd wely llaith ac oer. Parodd hyny gryndod iddo, a drodd yn chwys erbyn y borau. Cyfododd yn y cyflwr hwnw, a'r tywydd yn oer; ac erbyn cyrraedd adref, yr oedd yn wael iawn. Er hyny, pregethodd ddwywaith yn dra effeithiol y Sabboth canlynol, sef y 30fed o Dachwedd, 1817, oddi 2 Cor. iii. 18, a Luc xvii. 21. Y nos Lun ganlynol aeth i'r cyfarfod gweddi cenhadol oedd yn y capel, a cheisiodd gan un o'r brodyr ddarllen yr ail Psalm; a gwnaeth yntau sylwadau priodol ar lwyddiant brenhiniaeth "yr Arglwydd a'i Grist ef" ar y ddeuar. Methodd bregethu y Sabboth canlynol, y 7fed o Ragfyr; ond cafodd nerth i weinyddu swper yr Arglwydd. Dechreuodd ddihoeni wedi hyny yn gyflym dan effeithiau anorchfygol y darfodedigaeth; ond tra'r oedd y dŷn oddi allan yn llygru, yr oedd yn amlwg i bawb a'i gwelai fod y dŷn oddi mewn yn adnewyddu o ddydd i ddydd. Cyflwynai ofal ei deulu yn hyd-

† Llyfr. y Cymru, t. 722.

‡ Methasom gael enw y llyfr hwn yn llawn. Gan nad ydyw yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, tybygwn mai rywbryd yn nechrau y ganrif bresennol y cyhoeddwyd ef.—GOL.

Digitized by Google

erus iawn i Dad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon. Teimlai dangnefedd heddychol yngolwg y diwedd. Hireuthai am awr ei ymddattodiad; ac fel datganiad o'i brofiad, dywedai:—

"Caersalem, dinas hedd,
O! na bawn yno'n byw:
O hyd cawn weled gwedd
A siriol wyneb Duw."

Ei eiriau diweddaf oedd, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd!" Felly yr hunodd y gweinidog da hwn yn dawel ar y 13ydd o Chwefror, 1818, yn 66 oed. Claddwyd ef ym monwent Llanbeblig, yn yr un beddrod a'i briod o'i flaen, a dau o'i blant ar ei ol; a'r noson honno pregethwyd yn bwrpasol i'r amgylchiad gan ei hen frawd a'i gydymaith, y Parch. Benjamin Jones, Pwllheli, ar Heb. xiii. 7.

### DAFYDD CADWALADR, O'R BALA.

Yr oedd y gŵr hynod, duwiol, diwyd, ac enwog hwn yn un o'r pregethwyr mwyaf adnabyddus yng Nghymru ym mysg y Methodistiaid, hanner can mlynedd yn ol, a chyn hyny, a gwnaeth ei ran yn ffyddlon ac effeithiol er dwyn diwygiad mewn moesau a chrefydd ym mlaen ymhlith ei gydwladwyr. Yr oedd efe yn un o'r rhai cyntaf o'r ail do o bregethwyr gyd â'r Methodistiaid yn sir Feirionydd, ac ni chyfodasai ond rhyw wyth neu naw o bregethwyr gyd â'r cyfundeb o'i flaen ef yn y sir honno. Pan ddechreuodd efe bregethu o gylch y fl. 1780, nid oedd un ysgol Sabbothol wedi ei sefydlu yn y wlad, ac ni sefydlwyd yr un am gryn naw mlynedd ar ol y cynnyg cyntaf a roddes efe ar bregethu; ac nid oedd ond dau gapel gan y Methodistiaid ym Meirion ar y pryd, sef un yn y Bala, a'r llall ym Mhenryn-Deudraeth. Perthynai Dafydd Cadwaladr i'r un dosparth o bregethwyr a holl aelodau lliosog eglwys Jerusalem,* dosparth a elwir gan glerigwyr yr holl enwadau "Pregethwyr ffos y clawdd," ond dosparth a wnaeth anhreuthol waith er efengyleiddio Cymru; a dengys "Cenadwri Cymdeithasfa Machynlleth," a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, 1879, at y cyfarfodydd misol dilynol, ynghylch trueni "Sefyllfa Foesol a Chrefyddol Cymru," bod llawn cymmaint o angen am yr un dosparth yn awr yng Nghymru ag ydoedd yn amser Dafydd Cadwaladr.† Perthyn i'r dosparth hwn, mewn gwirionedd, yr oedd holl gawri pregethwrol Cymru, o Howel Harris hyd John Elias; ie, a John Jones, Tal-y-sarn. Dynion oeddynt a godid gan Rhagluniaeth Ddwyfol o blith y werin, gan mwyaf, heb ddim dysgeidiaeth ond a gyrheuddent trwy eu llafur eu hunain, na dim o'r hyn a eilw yr apostol yn "philosophi a gwag dwyll;" ond wedi eu cynnysgeuddu â chynheddfau nerthol, a doniau anghyffredin, i wneud gwaith mawr, trwy bregethu yn benaf, ar werin eu gwlad. Dyma'r dynion a gawsant Gymru fel "anialwch gwag erchyll" o bob rhinweddau, ac a'i gwneuthant yn yspaid ychydig o amser, mewn cymhariaeth, fel "gardd paradwys," o'i chymharu â'r hyn ydoedd cyn eu dyfodiad hwy. Cyfodid hwy o bob dosparth gweithgar yn y wlad, megis crefftwyr, llafurwyr *(labourers)*, chwarelwyr, mwnwyr, ameuthwyr, a bugeiliaid. Un o'r dosparth olaf, fel y ceir gweled yn ebrwydd, oedd Dafydd Cadwaladr. Yr oedd mwy o dân, a llai o gelfyddyd, ymhregethau y dynion hyn nag yn eiddo y rhai a ddygid i fynu yn y colegau. Siaradent â'u gwrandawyr yn iaith syml, ddealladwy y Bibl Cymraeg, fel rheol, heb odid ddim o'r hyn a elwir yn "goethder arddunol," yr hwn sydd mor fynych "yn tywyllu cyngor âg ymadroddion heb wybodaeth." Yr oedd y werin, gan hyny, yn eu deall ac yn eu mawrhau, er bod coeg-ddysgedigion yn eu diraddio, gan eu galw yn "Bregethwyr ffos y clawdd." Bu Dafydd Cadwaladr yn dra defnyddiol, yn ystod ei oes faith, i ddeffröi llawer iawn o'i gydwladwyr diofal ynghylch y pethau a berthynent i'w heddwch a'u hiechydwriaeth; gan hyny, iawn iddo gael congl ymhlith "Enwogion y Ffydd."

Mab ydoedd i Cadwaladr a Chatrin Dafydd, o'r Erw-Ddinmael, ymhlwyf Llangwm, sir Ddinbych, a ganwyd ef yn y fl. 1752. Yr oedd rhieni Dafydd, druan, fel rhieni yn gyffredin yn y tymmor hwnw, yn gwbl anwybodus a digrefydd eu hunain; ac o ganlyniad, nid oeddynt yn gofalu dim am na dysg, na moesau, na chrefydd eu plant. Ni chafodd Dafydd, gan hyny, gymmaint a diwrnod o ysgol yn ystod ei holl fywyd, na neb i'w gyfarwyddo i ddysgu darllen yn oed iaith ei fam. Pa wedd bynag, fe ddysgodd Dafydd ddarllen, a hyny trwy'r moddion rhyfeddaf, ond odid, y dysgodd dŷn erioed ddarllen. Pan ddaeth efe yn ddigon galluog o ran oedran, arferai fyned gyd â'i frawd i'r mynydd i fugeilio defaid ei dad; a thrwy graffu ar y pŷg-lythyrenau y nodid defaid ei dad a'r cymmydogion â hwynt, daeth yn gydnabyddus â swn y llythyrenau. Ar un Sul, wedi i'w dad a'i fam

* Act. viii. 1, 4; xi. 19–24.
† Baner ac Amserau Cymru, Rhag. 3, 1879, t. 7; Rhag. 10, t. 13; Rhag. 17, t. 13; Ionawr 7, 1880, t. 13, 14.

Digitized by Google

fyned i'r eglwys, cafodd afael ar Lyfr Gweddi Gyffredin Eglwys Loegr, a chanfyddai ynddo lythyrenau cyffelyb i'r rhai a welsai ar y defaid; a thrwy ddyfal graffu a chymharu, daeth yn raddol i adnabod yr holl lythyrenau, i fedru sillebu geiriau, ac i ddarllen ymadroddion. Prawf hyn, ymhlith llawer o bethau eraill, bod ei feddwl, yn oed pan yn blentyn, yn gryf, craffus, a phenderfynol, a'i gof yn hynod o afaelgar.

Ymddengys bod holl grefydd ei rieni yn gynnwysedig mewn myned i Eglwys y Plwyf ryw unwaith yn y mis; er hyny, dechreuwyd cynhyrfu meddwl Dafydd ynghylch crefydd pan nad oedd ond pedair oed, a hyny yn llawn mor rhyfedd ag y dysgodd ddarllen; ond caiff ef ei hun ddywedyd yr hanes, fel yr adroddodd hi wrth ei ferch:—

"Pan ar ryw amser y digwyddai tymmestl ddychrynllyd o fellt a tharanau, fy mam a ddeuai i'r ystafell lle'r oeddwn yn cysgu, ac yno y syrthiai ar ei gliniau, gan wylo yn chwerw, a dywedyd yn ddifrifol iawn y Pader a'r Credo; ac wedi hyny y geiriau o'r Litani yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, 'Duw Dad o'r nef, trugarha wrthym, wir bechaduriaid.' A chan na welswn erioed y fath beth o'r blaen, gofynais iddi pa beth oedd arni. 'O! fy machgen bach i,' ebr hithau, 'gad i mi lonydd i weddïo Duw, canys y mae arnaf ofn fod dydd y farn wedi dyfod.' Hyn a'm dychrynodd yn ddirfawr, a minnau a ddechreuais weddïo i'w chanlyn; a dyna'r pryd y bu i mi ddysgu y Pader a'r Credo. Peidiodd fy mam â gweddïo pan beidiodd y mellt a'r taranau, ond myfi a ddaliwn ati am rai wythnosau, nes o'r diwedd y gorfu i mi dewi, trwy i'm tad ddyfod a'm chwipio.* Wedi hyny, byddwn yn myned ar fy mhen fy hun, ac yn llefain, 'Duw Dad o'r nef, trugarha wrthym, wir bechaduriaid,' nes yr oedd y cymmydogion yn meddwl fy mod wedi colli fy synhwyrau. Pa fodd bynag, yr wyf yn meddwl hyd heddyw ddarfod i'r Arglwydd y pryd hwnw wrando arnaf, greadur tlawd, a thrugarhau wrthyf."

Dyry'r difyniad yna i ni ryw feddylddrych ar ba fath aelwyd y magwyd D. Cadwaladr; ac nid efe yn unig, ond y rhan fwyaf o'i gyfoedion, mewn llawer llan heb law Llangwm. Pan oedd Dafydd tu ag 11 oed, cyflogwyd ef i weini mewn lle a elwir Garth-meilio, ymhlwyf Llangwm; a hudwyd ef gan esamplau llygredig ei gyfoedion, ynghyd â gwamalrwydd ei feddwl llygredig ei hun, i rodio yn ol helynt y byd hwn, ond nid heb deimlo dychrynfëydd ofnadwy pan ar ei ben ei hun, neu pan y gorweddai yn ei wely'r nos. Trwy ryw ddamwain anhyspys yn awr, cafodd afael ar y ddau lyfr hynod a elwir *Y Bardd Cwsg* a *Thaith y Pererin*, a thrysorodd gynnwys y ddau bron i gyd yn ei gof cadarngryf. "Yr oedd cof Dafydd Cadwaladr," medd Dafydd Rolant, "fel uffern: ni ddywedai byth 'Digon.'" Yr oedd cynnwys y llyfrau rhagorol a nodwyd, yn enwedig y bleunaf, yr hwn sydd wedi ei ysgrifenu yn llafarwedd ystwythaf a grymusaf yr iaith Gymraeg,† yn foddion tra effeithiol i lanw meddwl y myfyriwr ieuangc â dull godidocaf iaith ei fam, yr hyn, yn ddïau, a fu'n fantais fawr iddo ar hyd ei oes.

Arferid yn y dyddiau hyny, fel y crybwyllwyd o'r blaen yn y gwaith hwn, i gymmydogion gyrchu i dai eu gilydd, yn enwedig ar hirnos geuaf, i wau hosanau wrth y tân, gan ddifyru eu gilydd trwy ganu cerddi gwagedd, neu adrodd chwedlau digrif a hynod; ac mysg eraill, safai Dafydd yn uchel ymhlith y cwmni, am ei fod yn medru adrodd y llyfrau a ddarllenai gyd â'r fath rwyddineb a nerth. A chan mor hynod, cyffrous, a dïeithr oedd cynnwys y llyfrau hyny i'r truain gwerin, rhoddai pob un ei gân a'i chwedl heibio er mwyn clywed gwas bach Garth-meilio yn adrodd darn o'r *Bardd Cwsg* neu *Daith y Pererin*. Byddai y bleunaf yn eu dychrynu yn arswydus, yn enwedig rhanau o "Weledigaeth Uffern;" tra y llanwai hanes peryglon a chyfyngderau Cristion hwy â thosturi a chydymdeimlad. Mor falch hefyd oedd ei feistres (Mrs. Wynn ?) fod ganddi was bach yn medru difyru cymmaint ar y cymmydogion, fel y gadawai iddo fyned i bob man y gelwid am dano. Cynhyrfai y gymmeradwyaeth yma, ynghyd â'r pleser a fwynhai ei hun, ef â'r fath awydd i ddarllen fel y penderfynai roddi ei holl gyflog am lyfrau, oddi eithr ychydig a fyddai yn anhebgorol at ddillad. Dywedir iddo lwyddo cyn pen dwy flynedd i gael Bibl i'w feddiant ei hun, a chymmaint o waith John Bunyan ag a gyhoeddasid yn Gymraeg;‡ a bu hyny yn dra bendithiol iddo.

Ni wyddai Dafydd Cadwaladr ar y pryd y cyfeiriwn ato, pan yr oedd, fel y tybir, tu a 15 oed, ddim oll am y cyfarfodydd eglwysig; ond cafodd hyspysiad am danynt, medd ei fywgraphydd, mewn modd damweiniol, fel y canlyn:—

"Ar ryw brydnhawn Sul, pan oedd y boneddigion oddi cartref, deuai llawer o bobl at blas Garth-meilio i chwarau pêl; a digwyddodd i un gŵr urddasol dori pedroryn (*pane*) o wydr un o'r ffenestri, a'r borau drannoeth cafodd Dafydd ei anfon i'r Bala i gyrchu gwydrwr i'w adgyweirio, cyn i'r teulu ddychwelyd adref. Ar y ffordd, digwyddodd iddo daro wrth ryw eneth ieuangc, yr hon, yn ei hymddiddan âg ef, a ddywedodd wrtho, 'Yr oedd acw *seiat* yn ein tŷ ni neithiwr.' '*Seiat!*' ebr yntau: 'beth yw hyny?' 'Wel,' medd hithau, 'pobl yn ymgyfarfod â'u gilydd i ddarllen a gweddïo, ac i ymddiddan am bethau ysprydol.' Glynai hyn yn ei feddwl rhag llaw, a bu'n hireuthu yn hir am

* Dengys hyn mai hen greadur pur anghrefyddol oedd Cadwaladr Dafydd, canys yn lle dysgu ei blentyn bach i weddïo, ei chwipio a wnaeth efe am weddïo!

† Gwel llyfr v., pen. vi.

‡ Ychydig Gofion am Dafydd Cadwaladr, t. 10.

Digitized by Google

gael mwynhau cyfarfod o'r fath, canys hyd yn hyn ni chlywsai erioed am y cyfryw beth."*

Gellir casglu na chlywodd D. Cadwaladr neb yn pregethu hyd yn hyn, ond person y plwyf; ond trwy ddarllen y Testament Newydd, a'i ddysgu ar ei gof nerthol, yr oedd wedi deall y byddai Iesu Grist, yr apostolion, y deg disgybl a thriugain, a holl aelodau eglwys Jerusalem, "yn tramwy, gan bregethu y gair;" a theimlai yntau ryw awydd pregethu yr hyn a wyddai o'r Ysgrythyrau i'w gymmydogion anwybodus. William Evans, o'r Fedw-arian, oedd y pregethwr cyntaf erioed a glywsai, heb law offeiriad y plwyf; a mawr oedd ei ofn y disgynai arno ŵg ei uwchafiaid am ryfygu gwrando neb ond offeiriaid.

Cyn iddo fod lawn chwe blynedd yn Garthmeilio, goddiweddwyd ef gan y frech wen, a bu raid iddo ddychwel adref. Dymunai boneddigion y lle hwnw iddo ddychwel atynt cyn gynted ag y gwellâi; ond pan ddeallodd efe fod pregethu yn y Bala, dewisodd fyned i ffarm a elwir Nant-y-cyrtiau, o fewn pedair milltir i'r Bala, pan oedd efe tu a 17 oed. Yn y lle hwnw, rhoddid rhyddid iddo i fyned i'r lle y mynnai ar y Suliau, ond iddo beidio dychwel yno i gael bwyd. Achubai Dafydd y cyfleusdra i fwynhau moddion gras yn y Bala; a mynych iawn y byddai yn ymprydio o forau hyd hwyr, er mwyn y manteision crefyddol. Pan oedd tu a 19 oed, cyflogodd i wasanaeth Wm. Evans, y Fedw-arian. Wele ef bellach mewn lle i fwynhau moddion crefyddol yn y teulu, yn chwanegol at yr hyn a fwynheid ganddo yn y moddion cyhoeddus; a thra yn y lle hwn yr ymunodd â chymdeithas eglwysig y Methodistiaid yn y Bala, lle y bu yn aelod dros 60 mlynedd, sef hyd ddiwedd ei oes.

Pan oedd yn 25 oed, priododd ferch dduwiol iawn a'i henw Judith Humphreys, o'r Bala, a bu iddynt bedwar o feibion a phump o ferched; ond bu'r meibion oll feirw o flaen eu tad. Yn fuan ar ol priodi, gwasgai y tueddfryd i bregethu yn ddwysach nag erioed ar ei feddwl; a phan oedd efe tu ag 28 oed, annogodd yr hybarch John Evans, o'r Bala, ef a Dafydd Edward, gŵr duwiol arall o'r eglwys honno, i fyned i bregethu i Langwm a Cherig-y-drudion. Ar y ffordd, cyttunasant i Dafydd Cadwaladr ddarllen a gweddïo cyn y bregeth yn Llangwm, a Dafydd Edward i bregethu; a thra'r oedd yr olaf yn pregethu, gresynai D. Cadwaladr yn fawr, rhag mor ddïamcan ydoedd yn ol ei farn, a thybiai y gallai efe wneud yn llawer gwell. Ar y ffordd i'r odfa nesaf, cyttunwyd i D. Edward ddarllen a gweddïo, a D. Cadwaladr bregethu; ond ei dystiolaeth yn y diwedd oedd, "Os gwael yn Llangwm, llawer iawn gweulach yng Ngherig-y-drudion." Nacaodd Dafydd Cadwaladr bregethu ar ol hyn, gan y llwyr gredai nad oedd gymmwys i'r gwaith. Ond ymhen tu a dwy flynedd ar ol yr hyn a ystyriai efe yn "bregeth fethiant," cydsyniodd eilwaith, ar daer ddymuniad Thomas Foulkes, o'r Bala,† i fyned i bregethu yn ei le ef i Landrillo a Llanarmon. Cafodd lawer mwy o rwyddineb y tro hwn nag a ddisgwyliai, a pharhaodd yn y gwaith hyd ddiwedd ei oes. Ymhen tu a dau fis ar ol hyn, aeth i ryw gymdeithasfa yn y Deheubarth. Annogwyd ef yno i bregethu, yr hyn a barodd gyffro dirfawr iddo, rhag mor ieuangc ydoedd yn y gwaith. Llithrodd yn ddirgelaidd i ffordd, ac ni welwyd ef hyd onid oedd yn amser i fyned i'r gwely. Pan ofynodd y brodyr pa le y buasai, addefodd iddo fwriadu unwaith ddïangc adref, ond i ail ystyriaeth ei attal, rhag y buasai yn pechu trwy hyny. Ni chymmerth na thamaid na llymaid y noswaith honno; a dywedodd y gŵr a gysgai yn yr un ystafell ag ef mai gweddïo y bu trwy'r nos. Trannoeth, "gwisgwyd ef â nerth o'r uchelder." "Rhoddwyd iddo ymadrodd, trwy agoryd ei enau yn hyf, i hyspysu dirgelwch yr efengyl." Coronwyd ei bregeth y tro hwn âg ardderchowgrwydd anarferol, a disgynodd ar y gwrandawyr gyd â nerth anorchfygol, nes oedd yr odfa yn debyg i'r un ar ddydd y Pentecost. Dwysbigwyd llawer yn eu calon, nes iddynt lefain yn groch, "Ha wŷr frodyr! beth a wnawn ni?" Dyrchafodd y bregeth honno ef yn uchel iawn ym marn ei frodyr yn y Deheubarth.

Yr oedd Dafydd Cadwaladr, mewn gwirionedd, yn bregethwr tra hynod. Pur daranllyd a chyffröus oedd ei bregethau yn ystod y blynyddoedd cyntaf y dechreuodd bregethu. Darluniai ddrwg ysgeler pechod, ac echryslonrwydd y gosp heuddiannol iddo, mewn ymadroddion mor nerthol, a chyd â goleuni mor danbaid, fel mai anfynych y byddai ei wrandawyr yn gallu dal heb deimlo awydd angerddol i "ffoi rhag y llid a fydd." Ond yn ystod ei flynyddoedd olaf, trodd ei bregethau yn llareiddiach ac yn fwy efengylaidd, gan dueddu yn fwy i adeiladu yr eglwysi, i ddiddanu y gwan eu meddwl, ac i gysuro pob galarus. Soniai lawer

* Ychydig Gofion am Dafydd Cadwaladr, t. 10.

† Gwel pen. viii. o'r llyfr hwn (vi.)

Digitized by Google

hefyd am ddedwyddwch y nef, a hyfrydwch bywyd o dduwioldeb yn y byd hwn. Un o brif ragorieuthau ei bregethau oedd eu hysgrythyroldeb. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yn y Bibl; a pha fatter bynag a gymmerai mewn llaw, byddai ganddo gyflawnder o Ysgrythyrau i'w brofi a'i egluro, a byddai yn dda iawn i bregethwyr yr oes hon ddilyn ei esampl. "Pregethu y gair" y byddai efe, ac nid "philosophi a gwag dwyll."

Dengys yr hanesyn canlynol, a adroddwyd gan D. Cadwaladr wrth gyfaill, y bu raid iddo ef, fel eraill o'i flaen, a rhai o'i gydoeswyr, fyned trwy beryglon ac anhawsderau mawrion i bregethu yr efengyl, a pha mor benderfynol oedd yr hen bregethwyr yn achos eu Gwaredwr:—

"Yr oeddwn yn dyfod, ar forau Sabboth, o Aberdyfi i Lanegryn i bregethu. Pan oeddwn yn dyfod ar hyd y traeth tu a Thywyn-Meirionydd, gwelwn ddŷn yn dyfod i'm cyfarfod; a chan sefyll o fy mlaen, gofynodd i mi, 'Ai chwi yw'r gŵr sy'n myned i Lanegryn heddyw?' 'Ië,' meddwn innau. Yntau a ddywedodd, 'Wel, fe'ch lleddir chwi yn sicr: y maent yn penderfynu gwneuthur; a mi a ddeuthum yn un swydd i fynegi i chwi.' Yn sicr, yr oedd ei ddywediad yn hynod o effeithiol. Rhedai i'm meddwl yn ddïorphwys, 'Pa beth os rhagrithiwr ydwyf! Yna, os lladdant fi, yn uffern y byddaf yn y fan!' Yna safwn ennyd, ac ail fyfyriwn; a disgynais ar y penderfyniad nad oeddwn ragrithiwr, ac mai braint fawr i mi a fyddai cael marw yn ferthyr i achos a thros enw Iesu Grist. Hyn a barai i mi fyned ym mlaen yn wrol. Canlynodd y gŵr fi am lawer o filltiroedd, nes dyfod dros Bont Syni: yna efe a safodd, a dywedodd, 'Wel, druan! mi welaf mai i Lanegryn y mynnwch chwi fyned; ac yn wir, y mae'n ddrwg genyf i ddŷn fel chwi gael ei ladd. Ni ddeuaf fi ymhellach, os amgen ni allaf ddisgwyl ond yr un driniaeth a chwithau. Dyma i chwi ddwy geiniog. Ewch i'r tŷ tafarn, a gelwch am eu gwerth o gwrw; ac os llwyddwch i gael teulu y dafarn o'ch plaid, ni bydd i chwi lawer o berygl. Ond yn wir, penderfynu eich lladd y mae'r bobl. Ffarwel i chwi.' Aethum yn fy mlaen, a gwneuthum â'r ddwy geiniog fel y'm haddysgwyd; a phan ddaeth yr amser i ddechrau, mi a aethum, ac a sefais ar ben rhyw beth i ddechrau yr odfa. Edrychai y bobl ar y cyntaf yn lled hyll; ond rhyw fodd, mi gefais lonydd hollol yn fuan i bregethu. Ar ol i mi ddarfod, wele ddŷn, trwsiadus yr olwg arno, yn esgyn i ben clawdd, ac yn dywedyd, 'Bobl! ni wn i ddim am y Methodistiaid; ond dŷn iawn ydyw hwn! Y mae hwn yn dywedyd y Bibl. Mi fedra i'r Bibl cystal a neb, ac mi wn na ddywedodd hwn ddim ond y Bibl; am hyny, mi a fynnaf chwarau teg iddo.' Gyd â hyn, aeth pawb i'w cartref."

Ymddengys na chafodd D. Cadwaladr wybod, hyd ei fedd, pwy oedd y ddau ŵr crybwylledig a fuant yn foddion i'w achub rhag y mileinllu yn Llanegryn. Yr oedd efe yn ddŷn cryf o gorph, cystal ag yn wrol ei feddwl. Dŷn tenau, tal, ydoedd, heb wybod ond ychydig erioed beth oedd lludded corphorol. Adroddir llawer am ei orchestion fel teithiwr. Un cydnabyddus âg ef a ddywed, "Clywais amryw yn dywedyd y byddai, pan ynghyflog yn y Fedw-arian, yn olaf yn cadw ei bladur nos Sadwrn, yn amser cynheuaf gwair, ac yn gyntaf yn ymaflyd ynddi borau Llun, wedi bod ym Mhenrhyn-Deudraeth a'i hamgylchoedd yn pregethu y Sabboth, pellder, rhwng myned a dychwelyd, o ddeng milltir a deugain, a hyn i gyd ar ei draed. Ar ol iddo briodi, gweithiai yn galed ar ei dyddyn bychan, a elwid Penrhiw, ddyddiau yr wythnos; eisteddai yn ei gongl y nos i weu hosanau, yn ol arfer y wlad honno; a'r Sabboth, pregethai dair neu bedair gwaith mewn gwahanol fanau, gan gerdded degau o filltiroedd, fel y crybwyllwyd, rhwng yr odfaon. Tu ag wythnos cyn ei farwolaeth, pan oedd efe bron ar ben ei 82fed flwyddyn, cerddodd yr holl ffordd o'r Bala i Abermaw, pellder o 30 milltir, er mwyn bod yn bresennol yno mewn Cyfarfod Misol.

Ond pa mor gryf, penderfynol, a defnyddiol bynag y bu Dafydd Cadwaladr, "nesaodd dyddiau Dafydd i farw," fel dyddiau Dafydd Brenin Israel, a phawb eraill; ac ar forau y 9fed o Orphenaf, 1834, efe a hunodd yn yr Iesu, wedi cyrraedd yr oedran patriarchaidd o 82 o flynyddau, 52 o'r sawl a dreuliodd i bregethu yn ffyddlon, egnïol, a llwyddiannus gyd â'r Methodistiaid Calfinaidd. Efe a ymdrechodd ymdrech deg, efe a gadwodd y ffydd, a chafodd fynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Claddwyd ef ym mynwent Llanycil.

Yr oedd Dafydd Cadwaladr yn fardd lled dda; a phed ymroddasai at y gwaith hwnw fel yr ymroddes i ddysgu y Bibl ac i bregethu y gair, dïau y buasai yn enwog ym mysg y frawdoliaeth farddol. Cyfansoddodd gryn lawer o ganiadau yn ei ieuengctid. Tueddu at y duchanol *(satiric)* yr oedd ei awen ef; am hyny, rhoddes ei delyn ar yr helyg, hyd oni chafodd angau yn destyn i'w dduchan yn ei hen ddyddiau. Cyfansoddodd farwnad i Mr. Charles, o'r Bala, a'i wraig, yn ebrwydd ar ol iddynt feirw, yr hon a gyhoeddodd efe ymhen tu a thri mis wedyn, dan yr enw "Ehediadau y Meddwl." Cynnwys y llyfryn 16 o dudalenau, rhwng yr enwad-ddalen, "At y Darllenydd," a'r "Rhagymadrodd," yr hwn sydd ar gân; a dywedir y gwerthwyd 8,000 o gopïau o hono yn ebrwydd ar ol ei gyhoeddi. Nid ydym yn gwybod i Dafydd Cadwaladr gyhoeddi dim arall o'i gyfansoddiadau.*

* Ychydig Gofion am Dafydd Cadwaladr; Method. Cymru, cyf. i. t. 543; Enwog. Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 47; Enwog. Cymru, I. Foulkes, t. 88.

Digitized by Google

## PENNOD XIII.

### THOMAS CHARLES, A.B., BALA.

**Crybwyllwyd** eisoes ein bod ni, y Cymry, yn hoff iawn o Drïoedd o bob math, a bod genym lïaws mawr o honynt. Enwasom rai o'r eiddom ni ac eraill, ac yn eu plith yr un canlynol:—

Tri chymmwynaswyr crefyddol penaf Cymru: y Dr. Morgan, Gruffydd Jones o Landdowror, a Thomas Charles o'r Bala, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw Thomas Charles o'r Bala.*

Ganwyd Thomas Charles ar y 14ydd o Hydref, 1755, mewn lle a elwid Pant-dwfn, ymhlwyf Llanfihangel-Abercowyn, sir Gaerfyrddin. Ffarmwr cyfrifol oedd ei dad, a'i enw Rice (Rhys) Charles. Dodwyd ef mewn ysgol cyn gynted ag y canfu ei rieni fod ei alluoedd yn addas i dderbyn addysg; a phan oedd o 10 i 12 oed, meddyliasant ei ddwyn i fynu yn offeiriad Eglwys Loegr, a than ddylanwad y syniad hwnw anfonasant ef i'r ysgol yn Llanddowror, tu a dwy filltir o'i gartref, lle yr arhosodd am dair neu bedair blynedd; ac yn yr yspaid hwnw y profodd yr argraphiadau crefyddol cyntaf ar ei feddwl. Arweiniodd hyn ef i fod yn fwy dyfal am wrando pregethu, darllen y Bibl, a phob llyfrau da eraill y cai afael arnynt. O bob llyfrau heb law y Bibl, *Bunyan ar y Ddau Gyfammod* a gafodd yr effeithiau dwysaf ar ei feddwl. Tybiai fod pob un a arferai fyned i Eglwys y Plwyf yn lled gysson yn grefyddol; ond rhyfeddai yn aruthr nad oedd byth yn eu clywed yn son dim am grefydd, yn oed ar y Suliau. Bu'n llwyr amddifaid o gyfeillion crefyddol, nes y tarawodd wrth hen ŵr duwiol a'i enw Rhys Huw, yr hwn oedd yn byw yn agos, ac yn hen ddisgybl i Gruffydd Jones. Galwai gyd âg ef unwaith neu ddwy bob wythnos, ac ystyriai ef fel ei dad yng Nghrist Iesu. Yn yr amser hwn aeth i gyfranogi o swper yr Arglwydd; ymdrechai hefyd yn egnïol ddwyn crefydd i deulu ei rieni, oedd o gylch deunaw o nifer, ac ennillodd ddylanwad dymunol arnynt oll trwy ei diriondeb a'i ddifrifwch, am yr hyn y teimlai yn bur ddïolchgar i Dduw. "A bydded i ddaioni Duw," eb efe, "a ddangoswyd mor anhaeddedig tu ag ataf, fy nghymmell yn barhaus i fyw i Dduw."

Pan oedd o ddeutu 14 oed, anfonwyd ef i'r athrofa oedd yng Nghaerfyrddin, ac yn fuan wedyn ymunodd â'r Methodistiaid yno. Pa fodd bynag, yr oedd yno, fel ymhob man lle y mae proffeswyr yn lled lïosog, fintai o broffeswyr hunanol a gweigion, a bu cyfeillach y rhai hyny yn niwaid mawr iddo; ond yn lled fuan, agorodd yr Arglwydd yn rasol ei lygaid, a gwaredodd ef allan o'u rhwyd. Bu darllen *Ymddiddanion Harvey*, a llyfrau da eraill, o fendith neillduol iddo. Pan oedd yn 18 oed, efe a aeth yr holl ffordd, ar yr 20fed o Ionawr, 1773, i'r Capel Newydd, sir Benfro, i wrando Rowlands, Llangeitho, pryd y cafodd ei lwyr argyhoeddi, a'i "droi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw."

Yn y fl. 1775, agorodd y ffordd yn annisgwyliadwy iddo fyned i Rydychain; ond wedi iddo fod yn yr athrofa, attaliwyd y cymmorth arianol a dderbyniai o Gymru yn ddisymmwth, a hyny pan oedd yn ddyledwr o 20p. i'r coleg. Tra yn y cyfyngder yma, anfonodd gŵr bonheddig am dano i giniawa gyd âg ef; ac wrth iddo fyned allan, rhoddes 20p. yn ei law, a dywedodd na chai fod dim diffyg arno tra yn Rhydychain; a bu cystal a'i air. Ar y 14ydd o Chwefin, 1778, urddwyd ef yn ddïacon, a chafodd guradiaeth yng Ngwlad yr Haf; ond gan nad oedd eisiau ei wasanaeth am beth amser, aeth, trwy gymhelliad ei gyfaill, Mr. Simon Llwyd (yr hwn hefyd oedd yn Rhydychain ar y pryd), i'r Bala, lle yr aeth yn gydnabyddus â Sara Jones, merch Jane Jones, ail wraig Thomas Foulkes, Bala (Machynlleth wedyn), yr hwn a gofnodwyd genym eisoes.† Yn ystod yr ymweliad hwn, teithiodd Mr. Charles, gyd â Mr. Llwyd, trwy ran fawr o Ogledd Cymru; ac ymhen pum wythnos, aeth y ddau i'r Deheudir, tu a chartref Mr. Charles. Wrth fyned trwy Langeitho, clywsant ddwy bregeth gan Mr. Rowlands, er mawr hyfrydwch iddynt; ac oddi yno teithiasant i'r Pant-dwfn. Tra yn aros gartref, pregethodd, ar yr 16fed o Awst, yn Eglwys Llanfihangel.

Tu a dechrau mis Mawrth, 1779, graddiwyd ef yn A.B., canys ar y 14ydd o'r mis hwnw efe a ddywed—"Yr wyf wedi newydd ddychwelyd o Rydychain, lle y bûm yn ddiweddar i dderbyn fy ngradd, Gwyryf yn y Celfyddydau. Nid wyf mwyach yn aelod o'r Brifysgol." Ar yr 21fed o Fai, 1780, urddwyd ef yn offeiriad. Wedi iddo fod yn llafurio am bum mlynedd yn Halifax, efe a briododd y Sara Jones y crybwyllwyd ei henw uchod, â'r hon y deuthai yn gydnabyddus pan ar ei daith i'r Bala gyd â Mr. Llwyd. Gweinyddwyd y briodas ar yr 20fed o Awst, 1783, ac ymsefydlodd yntau yn y Bala dros y gweddill o'i oes. O ddeutu

* Gwel cyf. ii., t. 77.

† Gwel pen. viii. o'r llyfr hwn (y vi.)



Digitized by Google

dechrau y fl. 1784, cafodd guradiaeth Llanymowddwy; ond achwynwyd arno gan rai o'r plwyfolion ei fod yn egwyddori y plant bob Sabboth ar ol y gosper, a rhoddes y periglor iddo rybudd i ymadael. Am y digwyddiadau a ddilynodd hyn, dywed y Parch. T. Phillips fel y canlyn:—

"Bu ar ol hyn, am rai gweithiau, yn gwasaneuthu yn Llanddwyn; a rhag bod yn segur, yr hyn oedd yn boen o'r trymaf i'w enaid effro, aeth drachefn i weinidogeuthu amryw droiau, yn achlysurol, i Shawbury, er meithed oedd y daith iddo fyned a dychwelyd, ac amryw rwystrau eraill. Ond er y cwbl, nid oedd Mr. Charles etto wedi cael digon o foddlonrwydd meddwl ynghylch ewyllys Duw o berthynas i'r llwybr oedd iddo i'w gymmeryd, fel ag i ymroddi, heb oed na disgwyliad ymhellach, i adael yr Eglwys Sefydledig, nac i bregethu unwaith y tu allan i'w muriau. Ymgynghorai â'i gyfeillion, y Parch. J. Newton, ac eraill, y rhai a'i hannogent i ymadael â Chymru yn gwbl, a myned i Loegr; ond nis gallai wneud hyny, am ei fod, meddai, mor dueddol i gymmeryd Cymru fel y cymmerodd ei wraig, 'er gwell ac er gwaeth,' hyd oni wahanai angau hwynt. Gan ei fod yn methu cael lle i weinidogeuthu yn yr Eglwys Sefydledig, ac, o'r ochr arall, yn berffaith argyhoeddedig yn ei feddwl ei fod wedi ei alw i bregethu, gallwn ddirnad ei deimladau, i ryw radd, pan y dywed, mewn llythyr at gyfaill, wedi ei amseru y 12fed o Fehefin, 1784, 'Y mae'n gyfyng arnaf o'r ddeutu, rhwng gadael yr eglwys ac aros ynddi. Wedi cael fy nhroi o dair o eglwysydd, yn y wlad, ac heb obaith o gael un arall, pa beth a wnaf? Yn yr eglwys ddiweddaf a wasaneuthais, bûm dri mis. Cafodd yr efengyl ei bendithio yn fawr yno, fel y mae pethau yn ymddangos yn bresennol. Y mae'r bobl yno yn gweiddi arnaf, dan wylo, am eu porthi â bara'r bywyd. Pa beth a wnaf? Y mae geiriau Crist yn swnio yn barhaus yn fy nghlustiau, "Portha fy ŵyn." Yr wyf yn meddwl bod fy nghalon yn barod i ymaflyd yn y gwaith, bydded y canlyniad a fyddo.' O'r diwedd, ar ol ymdrech a disgwyliad maith, a datgan ei ewyllysgarwch i weinyddu am ddim i Eglwyswyr ei gymmydogaeth, a chael ei wrthod, cafodd ei dueddu, neu yn hytrach ei nerthu mewn ymroddiad, i ddilyn arweiniad Rhagluniaeth a bwrw ei goelbren ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd."*

Gallasid disgwyl y cawsai dderbyniad rhwydd a thra chroesawus ganddynt hwy; ond nid felly y bu. Yr oedd llawer o'r Methodistiaid yn edrych arno, ar y cyntaf, fel un balch, diddawn, a diddefnydd; ond yr oedd y rhai callaf, wrth reswm, yn ei barchu. Pan glywodd y Parch. Daniel Rowlands ef yn pregethu am y tro cyntaf, fel y tybir, yn Llangeitho, o gylch y fl. 1785, dywedodd yn llawen am dano, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw Charles." Gallasai ddywedyd, "i'r Deheudir hefyd; îe, ac i'r holl fyd." Arddelodd yr Arglwydd ef yn fuan ar ol hyn mewn modd tra neillduol. "Yn nyddiau y Nadolig y flwyddyn hon (1785)," medd ei fywgraphydd, "y mae'n dra chofus gan y cyhoeddwr, yn un o lawer, ei fod wedi ei glywed yn pregethu mewn cymmanfa yn y Bont-uchel, ger llaw Rhuthyn, yn sir Ddinbych, ar Gal. iv. 4, 5, a'i fod wedi llefaru am berson anfeidrol ac ufudd-dod gweithredol a dïoddefol y Prynwr gyd â'r fath eglurdeb, awdurdod, ac effeithiau nefolaidd, ag a roddodd y gynnulleidfa mewn syndod deffröus a dïolchus, ac mewn ymdoddiad serchiadol ac ysprydol, na welwyd y cyffelyb ond anfynych. Y mae'n debyg mai ymhen amryw flynyddoedd ar ol hyn y gwelwyd yr un fath ddylanwadau ar gynnulleidfa lïosocach o lawer, tan ei bregeth, mewn cymmanfa yn Aberystwyth."†

Gellir casglu oddi wrth hyn, heb son am ddim arall, nad mewn dawn i bregethu yr oedd "cuddiad cryfder" Mr. Charles, ac mai ar achlysuron yn unig yr oedd efe yn hynod iawn fel pregethwr; eithr fel duwinydd, dyngarwr, a llenor duwinyddol yr oedd yn rhagori ar bawb o'r Diwygwyr Cymreig. Teithiodd lawer trwy wahanol barthau o Gymru i bregethu, ac i sefydlu ysgolion dyddiol a Sabbothol, o'r pryd yr ymunodd â'r Methodistiaid hyd y fl. 1799. Yn fuan ar ol dechrau geuaf y flwyddyn honno, wrth deithio ar noswaith oerlem dros Fynydd Migneint, ar ei ddychweliad o sir Gaernarfon, ymaflodd oerfel dwys ym mawd ei law aswy, yr hyn a barodd iddo ddolur maith a gofidus, a bu raid iddo yn y diwedd oddef ei thori, neu'n hytrach ei chodi ymaith. Yr oedd gweddïau aml yn yr achos, gan yr ystyrid bod ei fywyd mewn enbydrwydd; a chofir hyd heddyw am eiriau un hen weddïwr hynod a'i enw Rhisiart Owen, yr hwn a ddadleuai gyd â thaerineb a hyder, gan ddywedyd—"Pymtheng mlynedd yn ychwaneg, O Arglwydd! Yr ydym yn erfyn am bymtheng mlynedd o estyniad at ddyddiau ei oes; ac oni roddi di bymtheng mlynedd, O ein Duw! er mwyn dy eglwys a'th achos?" "Pa esponiad bynag a roddir ar yr amgylchiad," medd un o gofiannwyr Mr. Charles, "y mae'n iawn cofnodi y ffaith mai o fewn ychydig i bymtheng mlynedd ar ol hyn y diweddodd gyrfa ddeuarol Mr. Charles." Yr oedd efe wedi ysgrifenu cryn lawer cyn y digwyddiad gofidus i'w fawd yn 1799, fel y ceir gweled rhag llaw; ond wedi hyny, ar ol iddo fethu teithio cymmaint ag o'r blaen, efe a ymroddes yn fwy i ysgrifenu. Parhau i edwino yn raddol ac yn gyflymach, o flwyddyn i flwyddyn, a wnaeth ei iechyd ar ol yr anffawd a nodwyd ynghylch ei fawd, nes o'r diwedd y llesgaodd yn ddirfawr; ac i ychwanegu at ei ofid a'i bryder, cafodd ei anwyl wraig ddyrnod o'r parlys mud yn haf 1814, ac o gylch yr un amser goddiweddwyd hen forwyn ffyddlon, dduwiol, a charuaidd iawn iddynt gan afiechyd marwol.

* Llyfr y Jubili, t. 105.

† Cofiant Thomas Charles, gan T. Jones, t. 165.

Digitized by Google

Mewn llythyr at ei anwyl gyfaill, y Parch. Thos. Jones, Dinbych (Caerwys gynt), tu a diwedd Mai y flwyddyn hon, efe a ddywed—"Yr ydym ni ein dau (Mrs. Charles ac yntau) ar ddisgynfa yr einioes; ond y mae hi yn ymddangos fel yn myned yn fwy cyflym na mi." Er hyn, efe a aeth gyflymaf o ychydig ddyddiau, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Ym mis Awst yr un flwyddyn, aeth efe a Mrs. Charles i'r Abermaw am bythefnos; a thra'r oedd yno, dywedodd wrth ei anwyl wraig, "Wel, Sàli! y mae'r *pymtheng mlynedd* yn agos ar ben." Aethant oddi yno at eu perthynasau i Fachynlleth, lle y pregethodd ddwywaith ar y dydd Sabboth, y 4ydd o Fai: yn y borau ar Luc xv. 7, ac yn y prydnhawn ar 1 Cor. xvi. 22, a'r rhai hyny oedd ei bregethau olaf. Dychwelodd ar y 10fed o Fedi; ac wrth dreuthu ei lawenydd a'i ddïolchgarwch am gael cyrraedd adref, efe a ddywedodd, "Bellach, nid oes genyf ddim i'w wneuthur ond marw."

Ar y 30fed o Fedi, 1814, rhagfleunwyd Mr. Charles i'r "anneddle lonydd" gan "ei forwyn rasol, Peggi Edwards." Ymwelodd cyfaill â'g ef y borau y bu farw, a dywedodd, "Wel, Mr. Charles, y mae dydd trallod wedi dyfod." Yntau a ddywedodd, "Y mae noddfa," a dyna ei eiriau diweddaf. Bu farw ar ddydd Mercher, y 5med o Hydref, 1814, ac efe yn 59 oed; a dilynwyd ef gan ei briod dduwiol ar y 19ydd o'r un mis. Felly cafodd ei ddymuniad a amlygodd efe yn un o'i lythyrau at ei anwyl briod cyn ei phriodi, sef "Bydded i'r nefoedd ganiatâu i mi yr unig ffafr yr wyf yn ei gofyn o natur ddeuarol, sef cael *morio* yn yr un llestr a *chwi* dros donnau tymhestlog y byd hwn, a bod y cyntaf i'ch croesawu yng ngwlad y gwynfyd."*

Y mae'r Dr. Edwards yn rhanu gwaith Mr. Charles, yn bur briodol, i ddau ddosparth, sef ei lafur dyngarol, a'i lafur awdurol.

I'w lafur dyngarol y perthyn ei ymdrechion o blaid addysg. Er bod Gruffydd Jones wedi gwneyd gwaith mawr a bendithiol iawn, trwy gyfrwng ei ysgolion Cymreig dyddiol symmudol; etto, nid yn unig yr oedd addysg yn bur isel yn y wlad pan darawodd Thomas Charles allan, ond hefyd yr oedd moesau y trigolion yn dra llygredig. Gyd â'g Ysgolion Dyddiol ar gynllun Jones† y cychwynodd Charles ei yrfa addysgol; a theg yw cydnabod nad oedd Gruffydd Jones, yn ei ymdrech yntau, ond dilynwr Thomas Gouge,‡ sefydlwr cyntaf Ysgolion Cylchynol i ddysgu darllen Cymraeg i drigolion tywyll a difanteision y Dywysogaeth. Yn wir, nid yr un person sydd yn dechrau ac yn perffeithio unrhyw ddiwygiad na darganfyddiad pwysig yn y byd hwn. Pa wedd bynag, pe nas gwneuthai Charles ddim ond a wnaeth gyd â'r Ysgolion Dyddiol, buasai hyny yn unig yn gymmaint ag a wnaeth rhai yr ysgrifenwyd cyfrolau am danynt yn Lloegr. Yr oedd ganddo nifer o ysgolfeistriaid yn cadw yr ysgolion hyny yngwahanol barthau o'r wlad, a dangosodd ddoethineb a chraffder mawr yn eu dewisiad. Rhoddes lawer ei hun at eu cynnal, a chasglodd lawer i'r un perwyl oddi wrth ewyllyswyr da yn Lloegr a Chymru; ac heb law hyny, os gwelai ddŷn ieuangc gobeithiol, anfonai ef i ryw ysgol i'w barotöi i fod yn ysgolfeistr.

Ond perffeithiad cynllun addysgol Mr. Charles oedd sefydliad yr Ysgol Sabbothol. Y mae'n wirionedd, fel y crybwyllwyd yn fynych, bod meddyliau amryw ddynion da yn cael eu cynhyrfu bron yr un amser, mewn gwahanol fanau, i gychwyn yr un diwygiad pwysig. Ymddengys i hyn ddigwydd i ryw raddau, o leiaf, mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sabbothol. Y mae'n hyspys mai yn y fl. 1789 y sefydlodd Mr. Charles yr Ysgol Sabbothol; ond gwelsom i'r Parch. Thomas Jones sefydlu Ysgol Sabbothol yn Creaton yr un flwyddyn. Methasom gael allan pa un o'r ddau a wnaeth hyny gyntaf; ond gwyddys bod y ddau yn gyfeillion mynwesol, ac yn ysgrifenu yn fynych at eu gilydd. Dywed y Parch. W. Roberts (Nefydd), y "dywedir i M. J. Rhys sefydlu Ysgol Sabbothol yn Hengoed flwyddyn neu ddwy cyn i T. Charles sefydlu rhai yn y Gogledd. Nis gallaf, ar hyn o bryd," medd Nefydd, "ddwyn prawf digonol dros hyn; ond hyn sydd amlwg, os gwir yw y dywediad [am M. J. Rhys], mai ysgolion Charles a lwyddodd, ac a lanwasant Gymru ar ol hyny."§

Gwelsom mai cynllun cyntaf Mr. Charles oedd Ysgolion Cylchynol, neu symmudol, tebyg i ysgolion T. Gouge a G. Jones; ond yr oedd ganddo ef bwynt mewn golwg na feddyliodd y ddau ŵr enwog hyny am dano, sef gwneud defnydd o'r rhai a ddysgid yn yr ysgolion symmudol hyny i ddysgu

* Daeth Eglwyswr bach pur zelog ym mlaen yn ddiweddar, yn un o'r papurau wythnosol, a elwir *Y Goleuad*, i heuru bod Mr. Charles yn edifarhau, "yn ei oriau diweddaf," am gefnu ar Eglwys Loegr, ac ymuno â'r Methodistiaid; ond profodd y Dr. Edwards, y Dr. Charles, ac ysgrifenwyr eraill, yn yr un papur, bod yr heuriad yn hollol ddisail.

† Gwel llyfr v., pen. x. ‡ Gwel llyfr iv., pen. xiv.
§ Crefydd yr Oesau Tywyll, t. 80.

Digitized by Google

eraill ar y Sabbothau. Enwogrwydd Charles oedd gallu darbwyllo Cristionogion *mai eu gwaith hwy oedd dysgu gair Duw i'r bobl*, a thrwy hyny nid oedd berygl i'w sefydliadau ef feirw gyd âg ef, fel yr eiddo Gouge, na chael eu dyrysu gan gyfraith, fel y cynllun gwaddoledig gan Gruffydd Jones a Madam Bevan; ond myned ym mlaen yn nerth Efengyl gras. Gwyddai Charles, ond iddo allu bachu cerbyd yr YSGOL wrth hon, na byddai perygl iddi fethu myned, am fod hon yn fath o hunan-symmudydd nerthol.

Peiriant ardderchog i wneud darllenwyr y Bibl Cymraeg, a chrefyddwyr hefyd, oedd gan Gouge. Gwnaeth filoedd ar filoedd yn ystod y deng mlynedd y bu ar waith. Ond beth oedd hwnw i'w gymharu âg un Gruffydd Jones? yr hwn oedd yn troi allan tu a *deng mil* yn y flwyddyn, am amser maith; tu a *thri chan mil* mewn 40 mlynedd. Ond y mae'r cyfan yn myned o'r golwg yn ymyl peiriant Charles, yr hwn sy'n cynhyrchu darllenwyr Cymraeg agos wrth y *tri chan mil* ar y pryd; a pho mwyaf a dry yr olwynion, mwyaf oll o waith a wna'r peiriant, a mwyaf i gyd o nerth sydd ynddo i droi drachefn; ac y mae'n gwneud mwy bob blwyddyn, y naill ar ol y llall, o ddarllenwyr Cymraeg a myfyrwyr Ysgrythyrol.

Rhagoriaeth arall, dirfawr ei bwys, a berthyn i'r Ysgol Sabbothol ydyw, ei bod yn foddion, fel y mae yng Nghymru, yn yr hwn y gall yr holl saint, yn frodyr a chwiorydd, dan yr enw o athrawon ac athrawesau, ymroddi i ddysgu eu gilydd, ac argyhoeddi y byd, yn ol y cyfarwyddiadau dwyfol sydd yn yr Ysgrythyrau canlynol, a'u cyffelyb:—Mat. xxviii. 19; Marc xvi. 15; Act. ii. 13–18; viii. 1, 4; xi. 19–24. Yr Ysgol Sabbothol ydyw yr unig foddion cyhoeddus trwy'r hwn y gall y ddau ryw, yn awr, wneuthur yn ol y cyfarwyddiadau a'r esamplau a geir yn yr Ysgrythyrau a nodwyd, a'u cyffelyb, heb i ddefodau a seremonïau eglwysig eu rhwystro. Am hyny, dylai yr eglwysi wneud llawer mwy o ddefnydd o'r moddion godidog yma i gyrraedd yr amcanion pwysig a grybwyllwyd nag a wneir ganddynt.

Hefyd, *moddion rhad* i ddysgu y bobl a'u plant i ddarllen Gair Duw a'i gredu y bwriadai Mr. Charles i'r Ysgol Sabbothol fod; ac y mae ei defnyddio i dalu dyled capelydd, sy'n afreidiol ddrudfawr ac addurnedig, yn gwbl groes i amcan gwreiddiol a goruchel y sefydliad ardderchog hwn. Gwyddom am rai teuluoedd tlodion yn gorfod aros gartref eu hunain, a chadw eu plant gartref hefyd, o'r Ysgol Sabbothol, o herwydd y trethi anysgrythyrol a osodir, neu, o leiaf, a gymhellir yn drahaus, mewn rhai manau, ar y deiliaid! "Ni ddylai y pethau hyn fod felly."

Dywed y Dr. Edwards bod "un weithred ddyngarol yn arwain i un arall," ac y "bu ymdrech gyd â'r Ysgol Sabbothol yn achos o sefydliad Cymdeithas y Biblau. Y mae llawer o ysgrifenu," eb efe, "wedi bod am ddechreuad y gymdeithas ardderchog hon, ac ychydig o wahaniaeth barn wedi ei amlygu o barth i'r personau a ddylent gael eu hystyried fel ei sylfaenwyr. Y mae enwau rhai wedi eu llusgo i'r ddadl nad oedd un berthynas rhyngddynt â'r achos, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Yr unig ddau sy'n teilyngu cael eu cofrestru fel cychwynwyr y gymdeithas yw Thomas Charles a Joseph Hughes."

Credwn y cydsynia pawb, sy'n gwybod hanes y Bibl Gymdeithas, fod gan Thomas Charles a Joseph Hughes hawl arbenig i gael eu cofrestru fel ei chychwynwyr; ond dengys y diweddar Barch. Thomas Phillips, D.D., ysgrifenydd diweddar y gymdeithas, yr hwn yr oedd ganddo bob mantais i wybod, fod gan eraill hefyd law neillduol yn ei chychwyniad. Ymddengys i ni mai'r Parch. T. Jones, offeiriad Creaton, ar ol iddo fod yn y Deheudir yn 1791, a gweled amddifadrwydd a chri'r trigolion yno am Fiblau, fel y crybwyllwyd yn y bennod flaenorol o'r gwaith hwn, oedd y cynhyrfydd cyntaf oll am sefydlu *cymdeithas* i ddiwallu y Cymry â Biblau. Ond caiff y Dr. Phillips dreuthu ei lên ar hyn:—

"Dichon y byddai yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n llefaru yn gyhoeddus am y gymdeithas, pe gosodid y ffeithiau ger bron mewn trefn amseryddol.

"1. Sefydliad Ysgolion Sabbothol a Dyddiol, a llwyddiant gweinidogaeth efengylaidd, yn sefydlog ac yn deithiol, yng Nghymru, yn yr hanner diweddaf o'r ddeunawfed ganrif, a achlysurodd alwad am yr Ysgrythyrau.

"2. Heb law yr ychydig a wneuthpwyd trwy anturiaeth bersonol i amlhau Biblau, yn benaf yn Neheudir Cymru, yr unig sefydliad oedd yn alluog i ddiwallu yr angen oedd y 'Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol,' cymdeithas berthynol i'r Eglwys Sefydledig yn hollol.

"3. Trwy offerynoliaeth y Parch. T. Jones, offeiriad Creaton, ac eraill, cafwyd amryw argraphiadau o'r Bibl Cymraeg, y rhai a ledaenwyd am bris isel trwy ran o'r Dywysogaeth. Yn y gorchwyl hwn yr oedd y cydweithrediad mwyaf calonog rhwng Mr. Jones a Mr. Charles. Yr oedd Mr. Jones yn cael gwybodaeth o Gymru trwy Mr. Charles, ac yr oedd Mr. Charles yn cael Biblau o Loegr trwy Mr. Jones. Yr oedd Mr. Jones yn dwys deimlo yn achos ei gydgenedl; ond o herwydd ei fod yn byw yn Lloegr, nid oedd yn bossibl iddo weithredu yn amlwg yng Nghymru. Ar y llaw arall, nid oedd Mr. Charles yn meddu y dylanwad oedd yn angenrheidiol i effeithio ar y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Yr oedd y ddau, er eu bod ar wahân, ac ymhell oddi wrth eu

gilydd, etto, ynhrefn rasol Rhagluniaeth, yn cydweithio er daioni y Cymry tlodion.

"4. Yn ol tystiolaeth Mr. Jones, cwbl fethwyd cael ychwaneg o gymmorth o'r hen gymdeithas; ac o ganlyniad, ceisiwyd trefnu mesurau eraill i ddiwallu yr angen cynhyddol am Fiblau. Dyfeisiwyd cynllun rhagorol gan Mr. Jones; anfonodd ef i'w gyfaill, Mr. Charles: ond yr oedd amgylchiadau y wlad ar y pryd yn anffafriol i weithredu arno. Diben y cynllun oedd argraphu Biblau yng Nghaerlleon ar gyfer y Cymry, i'w gwerthu am bris isel, ac i'w rhoddi i'r tlawd am *ddim*, gan ddisgwyl i'r cryf gynnorthwyo y gwan, trwy gyfraniadau a chasgliadau.

"5. Yn niwedd y fl. 1802, aeth Mr. Charles, yn ol ei arfer, i Lundain. Cafodd gyfleusdra, trwy ei gyfaill, Mr. Tain, i osod achos y Cymry o flaen cyfeisteddfod 'Cymdeithas y Traethodau.' Dywedir iddo 'egluro ei gynlluniau, a dymuno yn daer am gynhorthwy er dwyn yr amcan oddi amgylch;' ond ni ddywedir pa gynlluniau—pa un ai y cynllun a gynhygiwyd gan Mr. Jones, o ffurfio cymdeithas yng Nghymru at argraphu Biblau Cymreig, ai ynte y cynllun o gymdeithas yn Llundain, ar yr un egwyddor a Chymdeithas y Traethodau, i'r un pwrpas. Dichon iddo gynnyg gwahanol lwybrau i gynnysgeuddu y Cymry â chyflawnder o Fiblau. Pa fodd bynag, ennillodd gydymdeimlad y cyfarfod; cafodd le i obeithio am lwyddiant. Bibl i Gymru! a Bibl i'r holl fyd! oedd teimlad pawb oedd yn bresennol.

"5. O'r pryd hwn, gwelir yr holl achos yn nwylaw Cymdeithas y Traethodau; ac yn eu cynlluniau hwy, gwelir elfenau cynnygiadau Mr. Jones a Mr. Charles yn *ehangu* ac yn *addfedu*, nes o'r diwedd, heb gymmorth na phresennoldeb y naill na'r llall o honynt, y ffurfiwyd y BIBL GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR.

"7. Y mae Cymru a'r byd yn ddyledus i Mr. Jones a Mr. Charles am y cynlluniau a'r achlysuron *darpariadol* i Gymdeithas y Traethodau, ac yn enwedig i'r Parch. Joseph Hughes am dderbyn, gwellâu, ac *ehangu* y cynllun tu hwnt i derfynau Cymru; i'r Meistri Mills, Rayner, Cowie, Wilks, Townsend, ac eraill, am lunio rheolau, &c.; i'r Parch. Josiah Pratt, a'r Parch. John Owen, am roddi *prawf* gwirioneddol a gweledig o'r *undeb* sydd rhwng Eglwyswyr ac Ymneillduwyr yn y gymdeithas yn eu hesampl eu hunain, a thrwy ennill Esgob Llundain i noddi y gymdeithas yn ei babandod a'i gwendid; ac i'r Dr. Steinkopff fel *cwlwm* rhwng Eglwysi Brydain ac Eglwysi y Cyfandir.*

"8. Ar sail y ffeithiau hyn, onid priodol yw dywedyd, 'Nac ymorfoleddwch mewn dynion?' Cyfaddefir bod i'r Bibl Gymdeithas sylfaenwyr; ond nid oes un dŷn yn deilwng o'i alw yn *unig sylfaenydd* y sefydliad. Nid yw yr anrhydedd hwn yn perthyn i un person unigol, nac i un blaid Gristionogol. Iaith calon a genau y dynion y mae eu henwau yn anrhydeddus a'u coffadwriaeth yn beraroglaidd, mewn cyssylltiad â dechreuad y gymdeithas, oedd, 'Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod y gogoniant.'"†

Pan aeth Mr. Charles i Lundain yn 1802, "gwnaeth yr hyn oedd yn perthyn iddo," fel y dywed y Dr. Edwards: llafuriodd ef, mewn cyssylltiad â'r rhai a nodwyd gan y Dr. Phillips yn y difyniadau blcunorol, nes y bu eu llafur yn achlysur i sefydlu y Bibl Gymdeithas. Pa ran bynag a gymmerth y gwŷr enwog a noda'r Dr. Phillips yn y gorchwyl pwysig, nid oes dim yn ymddangos i ni yn eglurach nag ydyw, mai Cymry a fu yr achos gwreiddiol o sefydlu y gymdeithas ardderchog hon, sef Thomas Jones, Creaton, wrth weled amddifadrwydd truenus y Deheuwyr o Fiblau; a Thomas Charles, wrth weled amddifadrwydd cyffelyb y Gogleddwyr.

Ond rhaid i ni brysuro at yr ail ran o lafur y gŵr enwog hwn, sef ei lafur llenyddol ac awdurol; ac ni oddef lle i ni wneud nemmawr fwy na dodi eu henwau ger bron, ynghyd â nodiadau byrion arnynt yngodrau y ddalen.

"Yr Act am Bwyso Aur, a osodwyd allan mewn Trefn Ysprydol, mewn Dull o Ymddiddan, &c. 1775." 12plyg.*

"Crynhodeb o Egwyddorion Crefydd: neu Gatecism Byrr i Blant, ac Eraill, i'w Dysgu. . . . 1789." 12plyg.†

"Llythyr at Mr. T. Jones, o'r Wyddgrug; yn cynnwys Hanes o Fordaith lwyddiannus y Llong Duff, yr hon a anfonwyd i drosglwyddo deg ar hugain o Cenhadau (*Missionaries*) i bregethu yr Efengyl i drigolion paganaidd Ynysoedd y Mor Deheuol; ynghyd ag ychydig Annogaethau i gynnorthwyo y gorchwyl pwysfawr a chanmoladwy. . . . 1798."‡

"Trysorfa Ysprydol, yn cynnwys Amrywiaeth o bethau ar amcan Crefyddol, yn athrawiaethol, yn annogeuthol, yn hanesiol, &c. Y'nghyd ag Ychydig Farddoniaeth. . . . Caerlleon. 1799." 8plyg.§

* Mewn llyfryn a elwir "Mary Jones," dyry yr awdur, Mr. R. O. Rees, Dolgellau, bwys mawr ar waith ei wrones, pan tu ag 16 oed, yn 1800, yn teithio yr holl ffordd o'i chartref yn Llanfihangel-y-Pennant i'r Bala (tu a 25 milltir), at Mr. Charles i ymofyn Bibl, fel dolen led bwysig yn sefydliad "Y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor;" ac y mae'n ddilys ddigon fod taith yr eneth honno, a'i hawydd am Fibl, wedi ychwanegu at awydd Mr. Charles am gymdeithas effeithiol i ddiwallu y Cymry â Biblau. Ond y mae'n sicr, fel y gwelsom uchod, fod Mr. Charles, mewn undeb â'i gyfaill, Mr. Jones, Creaton, yn cynllunio at sefydlu y fath gymdeithas ymhell cyn hyny.

† Llyfr y Jubili, t. 100–2.

* Y mae'r llythyr "At y Darllenydd" ag enw Rowland Hill dano, a thybia Gwilym Lleyn mai efe oedd yr awdur, ac nad oedd Mr. Charles ond cyfieithydd; ond "Gan T. C." sydd ar yr enwad-ddalen. Ysgrifenwyd ef pan oedd Mr. Charles tu ag 20 oed, y flwyddyn yr aeth efe i Rydychain.

† Y gwaith rhagorol hwn yw sylfaen yr HYFFODDWR, a chynnwys 96 o dudalenau. Gellir ei ystyried megis pedair rhan: 1af. "Crynhodeb o Egwyddorion Crefydd;" 2il. "Catechism Byrach;" 3ydd. Catechism ar Adnodau Neillduol; 4ydd. Naw o Erthyglau Eglwys Loegr.

Nid ymddengys i'r gwaith hwn, wedi newid ychydig arno, ac ychwanegu ychydig ato, gael ei gyhoeddi dan yr enw "Hyfforddwr yn Egwyddorion y Grefydd Gristionogol" hyd tu a dechrau y ganrif bresennol, canys nid oes grybwylliad am dano wrth yr enw olaf yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, yr hwn a derfyna gyd â'r fl. 1800; ond argraphwyd ugeiniau, os nad cannoedd, o filoedd o'r "Hyfforddwr" yn ystod y ganrif bresennol.

‡ Prif amcan y gwaith hwn oedd cynhyrfu Cristionogion Cymru i fod yn haelionus yn eu cyfraniadau tu ag at anfon cenhadon i'r gwledydd tramor, paganaidd. Cyhoeddwyd math ar ail argraphiad o'r "Llythyr" uchod yn y fl. 1804, wedi ei fawr helaethu, "trwy annogaeth a chymmorth" Mr. Charles, dan yr enw isod:—

"Talfyriad o Hanesyddiaeth Genhadol: yn cynnwys Hanes Mr. Kicherer, ac ereill, am eu llafur a'u llwyddiant, y'mhlith yr Hottentots, yn Neheudir Affrica, ac yn yr India Orllewinol: Holiadau ac Attebion tri o'r Boschemen dychweledig: hefyd, sefydliad Cymdeithas yn Llundain, Mawrth 4, 1804, tu ag at Ddosparthu Biblau y'mhlith holl genhedloedd y ddaear."

Y fath awydd angerddol oedd yn y dŷn enwog a llafurus hwn am ennill yr holl fyd yn ddeiliaid i'w Waredwr bendigedig! A'r fath angen sydd am ei gyffelyb etto, hyd yn oed yng Nghymru, lle y mae miloedd o'r trigolion, yn enwedig *tlodion ein trefydd*, heb glywed gair o Efengyl, na darllen adnod o'r Bibl, ddydd mewn blwyddyn, er amled ein heglwysydd a'n capelydd gorwychion!

§ Chwe rhifyn chwarterol a argraphwyd yng Nghaerlleon. Argraphwyd y rhifyn olaf yn Rhagfyr, 1801; ac y mae "Gan T. C. a T. J.'

Digitized by Google

"Hyfforddiant i'r Anllythyrenog i ddarllain Cymraeg; a gyfansoddwyd i'w arferyd yn yr Ysgolion tan Olygiad y Cymdeithas a Sefydlwyd yn Llundain, i gynnal ac i annog Ysgolion Sul, trwy y Deyrnas."*

"Geiriadur Ysgrythyrol; yn cynnwys Arwyddocad Geiriau Anghyfiaith, ynghyd ag Enwau a Hanesion yr Amrywiol Genhedloedd, Teyrnasoedd, a Dinasoedd y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau; hefyd, Eglurhad Byr ar holl brif Byngciau Crefydd; ac y mae yn dangos sefyllfa a maintioli Mynyddoedd, naturiaeth Creaduriaid, Coedydd, a Meini Gwerthfawr; Aberthau, Gwyliau, a Defodau Iuddewig: gyd a'u cyfeiriad a'u harwyddocad fel Cysgodau o bethau Ysprydol ac Efengylaidd: hefyd, Sylwadau Beirniadol ar lawer o Ysgrythyrau."†

Heb law y llyfrau a nodwyd, "a llawer o lyfrau mân er addysg i'r rhai ieuangc, &c.," cyhoeddodd y llyfrau canlynol yn ystod y ganrif bresennol:—Argraphiad newydd (y trydydd yn 1808) o gyfieithiad Morus Cyffin, wedi ei newid gan Mr. Charles ei hun, o "*Apologia Ecclesiæ Anglicanæ*" yr Esgob Jewel, a elwir gan Mr. Charles "Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr."‡ Hefyd, cyhoeddodd argraphiad newydd o waith Walter Cradoc. Cyhoeddodd lyfryn o'i waith ei hun a elwir "Esponiad ar y Deg Gorchymyn," ac un yn Saesneg a'i enw "*A Vindication of the Welsh Methodists*," yn erbyn gwaith y Parch. John Owen, person Llandyfrydog, Môn, "yr hwn a gymmerai arno brofi bod rhai o honynt [y Methodistiaid], mewn modd dirgelaidd, yn feithrinwyr teyrnfradwriaeth. Er bod y gŵr hwn a'i gyhuddiadau disail wedi myned i ebargofiant, y mae'r treuthawd (eiddo Mr. Charles) yn werth ei ddarllen etto, fel engraifft o iaith brydferth ac yspryd efengylaidd."§

Yn ei flynyddoedd olaf, yr oedd Mr. Charles wedi dechrau ysgrifenu Mynegair Ysgrythyrol, ar gynllun newydd, at wasanaeth y Cymry; ond bu farw cyn ei orphen. Gwelsom un rhifyn o hono lawer o flynyddau yn ol, ac yr ydym yn meddwl na chyhoeddwyd dim ychwaneg o hono. Beth oedd yr achos o hyny, nis gwyddom. Ymhellach etto, dywed ei fywgraphydd fel hyn:—

"Efe a fu mewn llafur mawr a maith, ym mlynyddoedd olaf ei fywyd, yn cydgymharu llawer argraphiad o'r Bibl, i'r diben o fod er cynhorthwy i'r gymdeithas [Cymdeithas y Biblau], at gael argraphiad neu argraphiadau newydd yn fwy cywrain a chywir. Yn y llafur hwn bu'n codi yn foreuol, ac yn chwilio yn ddyfal, gyd â chynhorthwy rhai eraill hefyd, tros amser neu amserau maith. Wrth barotöi copi at yr argraphiad ar ystrydeb (*stereotype*) i Brifysgol Caergrawnt, yn y fl. 1804, bu'n ddyfal i chwilio *pob adnod, a'r attaliadau oll*, gan gymharu wyth o argraphiadau Cymreig a *thri* o'r rhai a gyfrifid ym mysg y rhai gorau yn Saesneg, tu ag at gael argraphiad cywir. Ac, yn ei flynyddoedd olaf, 1813 ac 1814, pan oedd eu hargraphiad 8plyg (gan argraphwyr y brenin) yn myned ym mlaen, yr oedd Mr. Charles ar waith yn ddyfal yn adolygu copi iddynt o'r argraphiad olaf a fuasai yn Rhydychain. Ei ddymuniad cryf a hireuthlon oedd am ei gael yn gywrain, digoll, er budd i'w gydwladwyr; ac yn gyfattebol yr oedd ei lafur a'i fawr ymdrech, heb geisio na chael un wobr gan neb o ddynol ryw. Yn y gorchwyl hwn, efe a addefodd ei ddymuniad am gael byw nes ei ddwyn i ben. 'Yna,' ebr efe, 'mi a fyddaf foddlon i osod fy mhen i lawr a marw.' Cafodd fyw i weled ei orpheniad; datganodd ei fawr ddïolchgarwch i'r Arglwydd am ei arbediad tirion o hono i gael hyny; ac yr ydys yn tybied mai'r geiriau olaf a ysgrifenwyd ganddo oedd y rhai hyn, mewn golygiad ar y gwaith hwn, 'Y mae wedi ei orphen!'"||

Y mae Mr. T. Jones a'r Dr. Edwards yn tybied mai un hymn ydyw holl ffrwyth awen brydyddol Mr. Charles, yr hon a gyfansoddwyd ganddo ar ei adferiad o'i gystudd a ddilynodd ddadwreiddiad ei fawd. Yr enw a roddes efe i'r hymn oedd "Hyder Pererin Cystuddiol." Ni ddywed yr un o'r ddau awdur pa nifer o bennillion a gynhwysai yr hymn honno; ond dywed Jones mai yr olaf ydyw mewn casgliad a argraphwyd yn y fl. 1808, yn y Bala, yr hwn nid yw at law genym. Dywed y Dr. Edwards bod y pennillion oll "yn un gadwen o feddwl a theimlad barddol, er eu bod wedi eu hargraphu weithiau heb fod mewn cyssylltiad â'u gilydd." Nis gwyddom, fel y crybwyllwyd, pa nifer o bennillion oedd yn yr hymn wreiddiol, ond y mae naw o honynt ar wasgar yn "Y Salmydd Cymreig" (argraph. Dinbych, 1856), yn y tudalenau 94, 255, 341, 432; ac y mae'r pennillion prydferth hyny yn peru i ni resynu am na

ar yr enwad-ddalen, sef Thomas Charles a Thomas Jones o'r Wyddgrug gynt, o Ddinbych wedyn. Ni ddechreuwyd cyhoeddi y "Llyfr II.," dan yr un enw a'r cyntaf, ond y gadawyd y gair "Ysprydol" allan hyd Mawrth, 1809, yn y Bala; a gadawyd "T. J." allan o'r enwad-ddalen, lle y mae "Cyhoeddwyd tan olygiad y Parchedig Thomas Charles, A.B." Cyhoeddwyd deuddeg rhifyn o'r gyfrol hon, yr olaf yn Tachwedd, 1813.

* "Sillebydd yw hwn," ebr Gwilym Lleyn, "heb fod wrtho enw awdur nac argraphwr, y lle na'r flwyddyn y cafodd ei gyhoeddi. Dywed traddodiad mai gwaith y Parch. T. Charles ydoedd," a thybir iddo gael ei gyhoeddi yn y fl. 1799. Y mae'n debyg mai yr un ydyw hwn ag a elwir "Sillydd" gan y Dr. Edwards, yr hwn, ond odid, a gyhoeddwyd dan yr enw hwn yn nechrau y ganrif bresennol, "yr hwn," ebr y Doctor, "sydd yn awr allan o arferiad, er colled, yn hytrach na mantais, i ieuengctid yr oes hon, gan fod ynddo lîaws o gyfarwyddiadau mewn pethau bychain, yn y rhai y mae'r Cymry fwyaf ar ol."

† "Enwad-ddalen y trydydd argraphiad ydyw yr uchod, a gyhoeddwyd yn y Bala yn y fl. 1836, yn ddwy gyfrol 8plyg breiniol. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf yn y flwyddyn 1811, yn bedair cyfrol 8plyg. Hwn yw prif waith llenyddol a duwinyddol Mr. Charles, â'r hwn y mae pob Cymro ymofyngar yn gydnabyddus: a dilys ddïammau ei fod yn un o'r llyfrau gwerthfawrocaf sydd yn yr iaith Gymraeg. Fe allai mai ei brif ddiffyg ydyw peidio bod yn llythyraeth arferedig y Bibl Cymraeg, canys yn y llythyraeth honno y dylai pob llyfrau duwinyddol fod; ond y mae ei ieithwedd, neu ei arddull, yn llithrig, ystwyth, a Chymreigaidd, heb fod "yn rhy hen nac yn rhy newydd, yn rhy uchel nac yn rhy isel," fel y dywed y Dr. Edwards. Bu'r awdur diwyd "wrth y gwaith godidog hwn yn ddyfal," medd ei fywgraphydd, y Parch. T. Jones, "ar bob egwyl a chyfle a gaffai, am saith neu wyth o flynyddoedd," a saif yn gofgolofn ardderchog o'i allu, cystal a'i ddiwydrwydd, tra y darllenir yr iaith Gymraeg.

‡ Gwel llyfr ii., pen. vii.

§ Llyfr. y Cymry, t. 544; Traeth. Llen. y Dr. Edwards, t. 279.

|| Cofiant Thomas Charles, gan T. Jones, t. 201.

Digitized by Google

chasem ychwaneg o ffrwyth ei awen efengylaidd. Dyma'r bleunaf o honynt:—

"Dyfais fawr tragwyddol gariad
  Ydyw'r iachawdwriaeth lawn;
Sail cyfammod hedd sydd gadarn;
  Ac nis derfydd byth mo'i ddawn:
Dyma'r fan y gorphwys f'enaid;
  Dyma'r fan y byddaf byw,
Mewn tangnefedd pur, heddychol,
  Ymhob stormydd gyd â'm Duw."

Ysgrifenodd Mr. Charles un cyfansoddiad arall, yr hwn nis dylid ei adael, ar un cyfrif, yn ddisylw, sef ei DDYDDLYFR, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo ar wahanol adegau, o'r 20fed o Ionawr, 1773, hyd yr 20fed o Awst, 1783, ac a gyhoeddwyd yn ei "Gofiant" gan Mr. Jones, t. 8–153, am yr hwn gyfansoddiad y dywed y Dr. Edwards fel y canlyn:—

"O'i holl gyfansoddiadau, fe allai nad oes yr un yn dangos mwy o wreiddioldeb a mawredd meddwl na'i *Ddyddlyfr*, yr hwn a argraphwyd yn hanes ei fywyd. Yn hwn y mae'n chwilio dirgeledigeuthau y galon ddynol, ac yn plymio dyfnderoedd profiad ysprydol. Yn lle aros yn yr ymddangosiadau arwynebol, y mae yn eu holrhain i lawr yn barhaus at yr achosion cyffredinol yn eigion yr enaid, lle y mae pob amrywiaeth personol yn cydgyfarfod, ac yn diflannu o'r golwg mewn egwyddorion tragywyddol; ac o ganlyniad, y mae ei *Ddyddlyfr* yn gyflawn o'r addysgiadau dyfnaf i bob dŷn, ymhob oes."

Yn awr, ddarllenydd hynaws, wele ni wedi rhoi crynhodeb mor gyflawn ag y caniatâi ein gofod o un o "Enwogion" penaf "y Ffydd" yng Nghymru, yr hwn a wnaeth fwy na neb a anadlodd yn ei hawyr, hyd yn hyn, er dysgu, diwygio, a chrefyddoli ei gydgenedl ymhob parth o'r byd trigiannol. Gellir casglu oddi wrth hanes y gŵr enwog hwn, fel y dywed y Dr. Edwards, "gymmaint y dichon un dŷn ei wneuthur, os bydd o ddifrif. Pe cyfranogai holl bregethwyr," holl esgobion neu henuriaid pob eglwys, ynghyd â holl aelodau yr eglwysi crefyddol trwy'r wlad, "yn helaeth o'r un yspryd ag oedd Mr. Charles; pe byddent oll mor hunanymwadol, a phed ymdrechent i wneuthur cymmaint . . . ag a wnaeth efe, . . . y mae yn ddïamheuol y byddai effeithiau newyddion i'w gweled yn fuan oddi wrth eu gweithrediadau. Pe caent yr un ffydd ag oedd ganddo yntau; ffydd yn Nuw i ddechrau, a ffydd mewn dynion yn nesaf, hwy a symmudent fynyddoedd etto yn yr oes hon."*

* Cofiant y Parch. T. Charles, gan y Parch. T. Jones; Morgan's Life of Charles; Hanes Bywyd Charles, o flaen y 3ydd argraph. o'r Geiriadur Ysgrythyrol, Bala, 1836; Method. Cymru, cyf. i., t. 326; Williams's Em. Welshm., p. 74; Llyfr y Jubili, t. 102; Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 328; Traeth. Llen. y Dr. Lewis Edwards, t. 266; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 391, 414; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 68; Llyfr. y Cymry, t. 564; En. Cymru, I. F., t. 123.

## PENNOD XIV.

### THOMAS JONES, SIMON LLWYD, BENJAMIN JONES, AC EVAN RICHARDSON.

THOMAS JONES o Ddinbych, fel yr adnabyddir ef fynychaf, a anwyd tu a diwedd mis Chwefror, 1756, mewn ffarm fechan o eiddo ei dad a elwir y Pen-uchaf, ger llaw Caerwys, sir Fflint; ac fel Thomas Jones o Gaerwys y bu yn adnabyddus am yn agos i ddeugain mlynedd. Anfonwyd ef i ysgol pan yn bedair blwydd oed, a chanfuwyd fod ynddo duedd a chymhwysder i ddysgu mor forau a hyny, ymhell tu hwnt i blant o'r un oedran ag ef. Wrth weled hyny, penderfynai ei rieni ei ddwyn i fynu yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. Pan oedd tu a saith oed, bu farw ei fam, ar ol yr hon yr hireuthai yn ddirfawr. Priododd ei dad eilwaith yn lled fuan, a bu ei chwegr yn bur dirion wrtho. Tueddai ei chwegr at y Methodistiaid, ac âi i wrando ar y rhai a bregethent yn achlysurol yn y gymmydogaeth. Aeth yntau gyd â hi unwaith neu ddwy; ond ni theimlai nemmawr o effaith y pregethau ar ei feddwl. Ymollyngodd wedyn dros ennyd i arfer y chwareuon a ddilynid gan ei gyfoedion ar y Suliau, er yr addefai y byddai ei gydwybod yn ei geryddu yn llym; a bygythid gwïalen ei dad arno weithiau hefyd. Pan wedi dadymwisgo unwaith i gymmeryd rhan yn y campau, syrthiodd y fath ofn arno fel y bu raid iddo ymwisgo drachefn, a myned adref heb chwarau, dan yr esgus na theimlai yn iach. Hefyd, bu'r amryw beryglon a'r gwaredigeuthau a'i cyfarfu yn foddion, i ryw raddau, i ddyfnhau yr argyhoeddiadau oedd ar ei feddwl.

Nid yw efe ei hun na'i fywgraphwyr yn mynegi pa bryd yr aeth i ysgol yn Nhreffynnon; ond dychwelodd adref oddi yno tu a Nadolig, 1771, cyn iddo gyrraedd 16 oed. Yr oedd erbyn hyny wedi cyrraedd gwybodaeth weddol o'r Saesneg, Lladin, a Groeg; am hyny, bwriadai ei dad iddo aros gartref dros ennyd, cyn ei anfon i Brifysgol Rhydychain. Teimlai awydd cryf, o gylch y pryd hyny, i ymdrechu byw yn dduwiol, a goddiweddid ef yn fynych gan ofn marw a bod yn golledig. Ym mis Mawrth, 1772, aeth un o'r Methodistiaid at ei dad i geisio ganddo osod tŷ iddynt i bregethu ynddo yng Nghaerwys. Yr oedd T. Jones, ychydig cyn hyny, wedi bod yn gwrando ar yr hybarch Robert Llwyd, Plas-ashpwl, yn pregethu, ac effeithiodd y bregeth honno yn ddwys ar ei feddwl ef. Dymunodd ar ei dad, er mawr syn-

dod i hwnw, gydsynio â chais y brodyr, a llwyddodd o'r diwedd i gael ei ddymuniad. Wedi hyny, yn lled fuan, aeth efe a'i frawd oedd ieuengach nag ef, trwy genad ei chwegr, i Ffynnon-Feuno i wrando Robert Evans o Lanrwst yn pregethu, ac effeithiodd y bregeth honno gymmaint ar ei feddwl fel yr aeth drannoeth i'r un lle i wrando Edward Parri o Frynbugad, Llansannan, yn pregethu. Cafodd gyfleusdra wedyn i wrando amryw o'r Methodistiaid yn pregethu, ac effeithiai y pregethau yn ddwys iawn ar ei feddwl, er nad oedd hyd yn hyn ond lled anghyfarwydd yn yr Ysgrythyrau. Gan fod ei dad yn gweled gogwydd cryf ym meddwl Thomas at y Methodistiaid, cymhellodd ef, tu a dechrau haf 1772, i fyned eilwaith i'r ysgol, er ei barotöi i fod yn offeiriad. Dywedodd yntau wrth ei dad nad oedd yn dewis anufuddhau i'w orchymynion ef; ond gan iddo weled bod yr offeiriaid, fel rheol, mor hynod o anfucheddol, fel yr oedd efe yn llwyr gasâu y swydd, dywedai na byddai dim diben iddo fyned i'r ysgol mwyach er ymbarotöi i'r swydd honno; ac yn y diwedd cydsyniodd ei dad iddo gael aros gartref. Ymroddes bellach i lafurio ar ffarm ei dad, a threuliai ei oriau hamddenol, ar ddyddiau yr wythnos a'r Sabbothau, i ddarllen y Bibl a llyfrau crefyddol eraill. Tu a diwedd yr haf hwn, cafodd ar ddeall fod ychydig gyfeillion crefyddol yn arfer cydymgyfarfod mewn cyfeillachau neillduol yng Nghaerwys; ac ar gymhelliad rhai o honynt, aeth yntau atynt, a derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys.

Er ei fod weithian yn aelod eglwysig, etto yr oedd yn cael poen aneule yn fynych gan amheuon ac anghrediniaeth. Tu a diwedd mis Medi, 1772, clywodd fod Daniel Rowlands, Llangeitho, i bregethu y Sul canlynol yn y Bont-uchel, tu a phymtheng milltir o'i gartref; a chan iddo glywed cymmaint am ddoniau y pregethwr digyffelyb hwnw, penderfynodd, er pelled oedd y ffordd, fyned i wrando arno, gan ddisgwyl yn bryderus y cai waredigaeth o'i ofidiau a'i amheuon ynghylch ei gyflwr. Testyn y bregeth oedd Gen. xlix. 18, "Am dy iachawdwriaeth di y disgwyliais, Arglwydd." Er iddo gael rhywfaint o gysur yn y bregeth, etto aros arno yr oedd y baich, ac mor drwm fel, er bod y pregethwr enwog yn pregethu drannoeth yn y Berthen-gron, o fewn tu a phedair milltir i'w gartref, yr oedd efe yn rhy ddigalon i fyned i wrando arno. Pa wedd bynag, efe a aeth i'r cyfarfod eglwysig a gynhelid y noswaith honno yng Nghaerwys, yn yr hwn yr adroddai un o'r chwiorydd am ddaioni yr Arglwydd yn ymweled â'i henaid, trwy'r bregeth a wrandawsai y diwrnod hwnw yn y Berthen-gron; a chyn diwedd y cyfarfod, aethpwyd i foliannu a gorfoleddu, a theimlodd yntau, er maint ei ofn a'i bryder, fod graddau o wawr yn tywynu ar ei enaid gofidus.

Ymosododd llawer o dywydd meddwl ar Mr. Jones, dros lawer o flynyddau, ar ol iddo ymuno â'r Methodistiaid; a bu yntau yn hynod o ddigalon yn fynych, heb law bod ei iechyd yn wanaidd ac amharus. Dechreuodd feddwl, o gylch y pryd hyn, mai ei ddyledswydd oedd ymroddi i bregethu yr efengyl; ond ofnai y byddai ei wylder, a'i ddiffyg o rwyddineb ymadrodd, yn rhwystr mawr ar ei ffordd i fod yn bregethwr defnyddiol gyd â'r Methodistiaid. Yn nechrau haf 1782, cafodd glefyd trwm yr ail waith; ac yn y cyfamser, penderfynodd, os estynid ei fywyd, yr ymroddai i bregethu yr Arglwydd Iesu, pa mor anghymmwys bynag yr ystyriai ei hun at y gwaith. Wedi iddo wneud y penderfyniad yma, ymosodwyd arno drachefn i ymuno â'r Eglwys Sefydledig, ynglŷn â'r hon y cynhygid iddo fanteision bydol mawrion; a thybiai yntau ei hun, weithiau, mai hyny oedd ei ddyledswydd, gan nad yw yr eglwys honno yn gofyn cymmaint o nerth a hyawdledd ag a ofynai yr *hen* Fethodistiaid, heb law ei bod ar y pryd yn bur amddifaid o bregethwyr efengylaidd. Ymgynghorodd â'i frodyr, mewn cyfarfod chwarterol, ynghylch ymuno â'r Eglwys Wladol; a braidd na chefnogent hwythau iddo wneuthur hyny. Tra'r oedd yn yr helbul yma, ymosododd profedigaeth lymach fyth arno, trwy gael rhyw gynnyg a "ymddangosai yn deg iawn," eb efe ei hun, "gan fod rhyw radd (etto o fewn terfynau gosodedig) o ryddid yn ei ganlyn;" ond cafodd ras i wrthod hwn hefyd, er mwyn yr hyn a ystyriai efe yn rhyddid crefyddol cyflawn. Rywbryd yn Ionawr, 1783, pan oedd efe tu a 27 oed, ymosodwyd arno yn llym gan ddolur y gareg, yr hwn a'i blinodd, ar amserau, hyd derfyn ei oes.

Wedi gwella i raddau oddi wrth y dolur hwnw, a gwrthod rhai manteision golygus eraill ynglŷn â'r Eglwys Sefydledig, dechreuodd bregethu gyd â'r Methodistiaid ym mis Mai, 1783, a pharhaodd yn ffyddlawn gyd â'r gwaith yn eu plith, cyn belled ag y caniatâi ei iechyd, hyd angau. O herwydd ei aml afiechyd, dïoddefodd lawer yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf o'i lafur pregethwrol, a bu ei fywyd yn fynych mewn perygl. Tynwyd

Digitized by Google

careg oddi wrtho ddwywaith, ac yr oedd yr arteithiau mor fawrion bob tro fel yr ofnid am ei fywyd; ond gwelodd yr Arglwydd yn dda ei arbed, ac adfer ei iechyd i raddau ar ol pob ymosodiad. Daeth yn bregethwr tra chymmeradwy yn fuan ar ol dechrau ar y gwaith, a byddai galwad mawr am ei wasanaeth o wahanol barthau y wlad; a theithiodd yntau lawer, ac ystyried gwendid ei iechyd a'i gyfansoddiad; ond trwy ei ysgrifeniadau yn benaf y gwasaneuthodd efe ei genhedlaeth, fel y ceir gweled yn ebrwydd.

Yn Hydref 1795, ymunodd Mr. Jones mewn priodas â Miss E. Jones, o'r Wyddgrug, i'r lle y symmudodd yntau i breswylio. Ond ychydig o gysur a gafodd y wraig rinweddol honno gyd âg ef, o herwydd ei fawr afiechyd a'i wendid, mewn canlyniad i'r gareg gyntaf a dynwyd o hono. Cymmerwyd hi yn glaf yn fuan ar ol tynu'r gareg honno, ac ar yr 2il o Dachwedd, 1797, bu hi farw. Cynhyddu yn raddol a wnaeth ei afiechyd a'i boenau yntau hyd Ebrill, 1801. Yn yr haf canlynol, cafodd ychydig seibiant; ond yn niwedd y flwyddyn, ail ymosodwyd arno, a bu'n dïoddef arteithiau dybryd hyd Ebrill, 1802, pan y tynwyd yr ail gareg o hono, yr hon oedd yn llawer mwy na'r gyntaf. Gwellhaodd yn dda yn lled fuan ar ol hyn; a chyn diwedd Medi yr un flwyddyn, yr oedd wedi teithio cannoedd o filltiroedd i bregethu yngwahanol barthau y Dywysogaeth. Ym Medi, 1803, gwahoddwyd ef i bregethu i gynnulleidfa o Gymry yn Llundain. Wedi bod yno am o ddeutu pedwar mis, tra y pregethai yn achlysurol i gynnulleidfa neu ddwy o Saeson, efe a ddychwelodd adref yn nechrau y gwanwyn canlynol. Ym mis Mawrth, 1804, priododd ei ail wraig, sef Miss A. Maysmor, o Lanelidan; ac er mawr golled a hiraeth i Fethodistiaid y Wyddgrug am ei lafur, lle y bu yn dra llwyddiannus a chymmeradwy am tu a naw mlynedd, efe a symmudodd i Ruthyn i breswylio. Ymhen llai na blwyddyn wedi iddo briodi y waith hon, cafodd Mrs. Jones annwyd trwm; ac wedi dihoeni yn nychlyd dros rai misoedd, bu farw ar y 14ydd o Awst, 1805, er mawr alar i'w gŵr a'i chydnabod. Yn yr haf dilynol, teithiodd Mr. Jones lawer mwy nag arferol i bregethu y gair, ac yr oedd ei wasanaeth fel pregethwr yn dyfod yn fwyfwy gwerthfawr yngolwg ei frodyr yn barhaus. Ym mis Hydref, 1806, efe a briododd ei drydedd wraig, sef Miss M. Llwyd, o Lanrwst, yr hon a fu'n ymgeledd wir gymmwys iddo am y gweddill o'i oes, a bu fyw dros ugain mlynedd ar ei ol. Yn Ebrill, 1809, symmudodd Mr. Jones o Ruthyn i Ddinbych i breswylio.

Yr oedd amryw o'r Methodistiaid, er ys peth amser cyn hyn, ac yn eu mysg Mr. Jones, yn dra awyddus am gael gweinyddu bedydd yn eu plith eu hunain, ac am gael swper yr Arglwydd yn amlach ac yn fwy cysson. Yr oedd yr aelodau, hyd yn hyn, yn gorfod myned a'u babanod i Eglwys Loegr i'w bedyddio; a byddai aml gymdeithas eglwysig yn eu plith am flwyddyn, neu ychwaneg, heb gael cyfranogi o swper yr Arglwydd. Yn y cyfamser, digwyddodd i Mr. Jones gael ei ddenu i fyned gam o flaen ei frodyr yn y cyfeiriad yma, a goleddent yr un syniadau ag yntau, fel y canlyn:—Ganwyd plentyn i un o aelodau eglwys Fethodistaidd Dinbych, yr hwn, ynghyd âg amryw o'i frodyr, a ddeisyfiasant arno, fel gweinidog yr eglwys yn y dref, fedyddio y plentyn; a defnyddiasant amryw resymau yn erbyn myned ag ef i un gynnulleidfa arall i'w fedyddio. Wedi dwys ystyried y peth, addawodd yntau gydsynio, os byddai i gorph yr eglwys, wedi ymgynghori â'r Arglwydd, ei alw i wneud hyny. Wedi ymgyfarfod yn ei absennoldeb ef, daethpwyd i benderfyniad unfryd, oddi eithr un yn unig, alw arno i wneuthur hyny. Cydsyniodd yntau, er yr ofnai y byddai iddo dramgwyddo rhai brodyr yr oedd ganddo y parch mwyaf iddynt. Credai ei fod wedi ei alw i bregethu, a bod yr alwad honno, a galwad yr eglwys, ynghyd âg amgylchiadau eraill, yn ddigon o alwad arno i fedyddio. Yn fuan ar ol hyn, cydsyniwyd mewn cyfarfod misol iddo gael gweinyddu bedydd a swper yr Arglwydd yn eglwys Dinbych. Ac erbyn cymdeithasfa chwarterol y Bala yn y Mehefin canlynol (1810), yr oedd pawb yn cydolygu, ac yn eu plith Mr. Charles, bod yr amser wedi dyfod i neillduo amryw bregethwyr i weinyddu bedydd a swper yr Arglwydd; ac ym Mehefin y flwyddyn ganlynol (1811), ynghymdeithasfa y Bala, neillduwyd wyth i wneuthur hyny, ac yn eu plith Mr. Jones.*

Yn y fl. 1816, annogwyd Mr. Jones, gan amryw gyfeillion, i ymofyn trigfan yn y wlad, gan obeithio y byddai hyny yn foddion i gryfhau ei iechyd, yr hwn oedd yn bur wanaidd, fel y gwelsom, ar hyd ei oes, ond oedd yn awr yn llawer mwy amharus na chyffredin, ac am hyny yn analluog i deithio bron ddim i bregethu, yr hyn oedd yn golled fawr i'r wlad. Yn unol â'r cais crybwylledig, efe a symmudodd, ym Mai y flwy-

* Cyffes Ffydd, argr. 1829, t. 42-5.



Digitized by Google

ddyn honno, o Ddinbych i Syrïor, yn agos i'r Bettws, ger llaw Abergele, tu a deuddeng milltir o dref Dinbych; ond gwelodd yn fuan nas gallai ddal i deithio ond ychydig, yn enwedig yn y geuaf. Ym Mai, 1817, galwyd ef i Lundain i bregethu ger bron Cymdeithas Genhadol Llundain. Y testyn oedd Ex. lx. 15, ac argraphwyd y bregeth gan y gymdeithas. Yr oedd efe yn bleidiwr zelog i'r Gymdeithas Genhadol hon o'i dechreuad, ac yn gyfranwr haelionus i'w thrysorfa, ynghyd âg amryw gymdeithasau eraill, yn enwedig y Bibl Gymdeithas, i'r hon yr oedd efe yn ysgrifenydd dros Gymdeithas Gynnorthwyol sir Ddinbych.

Gan nad oedd anneddu yn y wlad yn effeithio braidd ddim er adfer ei iechyd, a bod ganddo wasg yn Ninbych i edrych ar ei hol, efe a ddychwelodd i'r dref ym mis Mai, 1818. Yr oedd adeg terfyniad ei fywyd llafurus a defnyddiol weithian yn cyflym agosâu. Y Sul diweddaf y pregethodd yn Ninbych, dywedodd yn dra theimladwy y credai mai honno oedd y bregeth olaf a draddodai, ac felly fu. Cymmerwyd ef yn glaf iawn yn ebrwydd ar ol hyny; ac ar ddydd Gwener, yr 16fed o Fehefin, 1820, efe a fu farw mewn tangnefedd heddychol, a'i lygaid yn gweled iachawdwriaeth yr Arglwydd, ac efe yn 64 oed, o'r sawl y treuliodd 37 flynedd i "dramwy gan bregethu y gair," a "phregethu yr Arglwydd Iesu," gyd â llwyddiant a chymmeradwyaeth gyffredinol.

Ond y mae hanes llafur mwyaf parhaus y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, a'r llafur a bery hwyaf yn fuddiol i'w gydwladwyr hefyd, heb ei adrodd genym etto, sef hanes ei lafur llenyddol; eithr ni oddef lle i ni wneud dim ond eu henwi, megis y gwneuthom â chyfansoddiadau ei hoff gyfaill a'i gydweithiwr, Mr. Charles, ynghyd â dodi nodiadau byrion arnynt ar odrau y dail:—

"Marwnad ar Farwolaeth Mrs. Ann Parry. . . 1787."*

"Sylwadau ar Draethawd a elwir Undeb Crefyddol, neu Rybudd yn erbyn Schism, &c. Mewn ffordd o Lythyr at yr awdwr o hono: yn dangos Ddarfod iddo, yn y Traethawd hwnnw, gondemnio amryw Byngciau o Athrawiaeth a amddiffynir yn y Bibl, a chan Erthyglau a Homiliau Eglwys Loegr, ym mha un y mae efe yn proffesu ei fod yn Weinidog; ynghyd a phrawf o'i gam-farn ar y bobl a elwir Methodistiaid, &c. . . . 1793."†

"Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg: An English and Welsh Dictionary, in which the English Words, with many of the English Phrases, are explained by those which synonymise or correspond with them in the Welsh Language. . . . 1826."‡

"Sylwadau ar Lyfr Mr. Owen Davies, yn ei Ymddiddanion rhwng Hyffordd a Beread; ynghyd â Gwobr o Bwys yn gynnygiedig iddo ar Ammod Teg. . . . 1808."§

"Diwygwyr, Merthyron, a Chyffeswyr Eglwys Loegr, ynghyd â'r Prif Gyffeswyr yn Scotland, a Gwledydd Tramor; a phrawf eglur a dilys o'r Egwyddorion Crefyddol yr ymdrechasant o'u plaid. Hefyd, Crynhodeb o Hanes Eglwys Crist hyd amser y Diwygiad Protestanaidd. . . . 1813."||

"Cofiant, neu Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parch. Thomas Charles, Gwyryf yn y Celfyddydau, yn ddiweddar o'r Bala, sir Feirionydd. . . . 1816."¶

"Ymddiddanion ar Brynedigaeth. . . . 1816."**

* Cyfansoddodd Mr. Jones lawer o brydyddiaeth ar ol y farwnad hon, yn y mesurau ceuthion a rhyddion. Yr oedd llawer o hynodrwydd crefyddol a naturiol yn perthyn i'r Ann Parry yma; ond ei hynodrwydd crefyddol a gynhyrfodd awen Mr. Jones. Preswyliai mewn ffarm ger llaw y Bont-uchel, rhwng Rhuthyn a Dinbych. Argyhoeddwyd hi mewn pregeth a wrandawodd yn y Bont-uchel, o gylch y fl. 1763. Wedi hyny, cedwid cyfarfodydd cymdeithas eglwysig y Methodistiaid ym Mryn-mulan hyd ddiwedd ei hoes hi a'i phlant. Bu farw yn y fl. 1787, yn 69 oed. Pan agorwyd ei bedd yn 1830, ymhen 43 o flynyddau ar ol ei chladdu, i gladdu ei mab, James Parry, canfuwyd bod ei chorph heb odid ddim amhariaeth arno, ac yn ymddangos fel pe buasai newydd farw; a chafwyd ei fod yn gyffelyb wedyn pan agorwyd ei bedd i gladdu gwraig James Parry, yn 1836. Bu llïaws yn edrych ar y rhyfeddod y naill dro ar ol y llall (Method. Cymru, cyf. iii., t. 152), canys er bod cyrph dynion ac anifeiliaid yn crisialu *(crystalize)* yn lled fynych mewn gwledydd oerion, etto peth pur anfynych ydyw yn y gwledydd hyn; ond dywedir y canfyddwyd rhai yma hefyd, heb law corph Ann Parry, Bryn-mulan.

† Amcan Mr. Jones yn y "Sylwadau" craffus a threiddgar hyn yw dangos bod y llyfr dan ei sylw yn gyfeiliornus; a dangos beth yw *sism*, a pha fath rai sy'n euog o hono. Hefyd, bod barn cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd ar brif byngciau crefydd, a'r athrawieuthau mwyaf pwysig, yn unol â'r Ysgrythyrau, â barn ysgrifenwyr gorau yr oesoedd cyntaf ar ol yr oes apostolaidd, â barn y rhan fwyaf o'r diwygwyr ymhob oes a gwlad, â daliadau y merthyron yn gyffredinol, ac, ar y cyfan, eu bod yn unol âg Erthyclau a Homiliau Eglwys Loegr, a'r cyffelyb.

‡ Enwad-ddalen y trydydd argraphiad yw yr un uchod. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf yn 1800. Bu'r Geiriadur tra defnyddiol hwn yn bur boblogaidd, hyd nes y cyhoeddodd Mr. Gee Eiriadur Saesneg a Chymraeg mawr, digyffelyb, y Parch. D. Silvan Evans, yn 1852, &c.

§ Tu a diwedd y ganrif flaenorol, a dechrau yr un bresennol, yr oedd y Wesleyaid wedi dechrau pregethu yng Nghymru, ac yn amlhau yn bur gyflym; a chyhoeddasant rai llyfrau i egluro ac amddiffyn Arminiaeth. Dychrynodd hyn y Calfiniaid yn dost, ac annogasant Mr. Jones, fel un o'r rhai galluocaf yng nghyfundeb y Methodistiaid ar y pryd, i ysgrifenu amddiffyniad i Galfiniaeth; â'r hyn y cydsyniodd yntau, a chyhoeddodd y llyfryn a elwir y "Drych Athrawiaethol," gan addaw ysgrifenu yn helaethach ar y pwngc. Attebwyd y "Drych" gan y Parch. Owen Davies, ac achlysurwyd dadl frwd, yn ystod yr hon y cyhoeddwyd amryw draethodau gan y ddwy blaid, ac yn eu plith y "Sylwadau" dan sylw, "gan Thomas Jones, Rhuthyn."

|| "Merthyrdraith," neu "Hanes y Merthyron," ydyw yr enwau cyffredin a roddir i'r gwaith hwn ar lafar gwlad; ond gwelir uchod nad yw y naill na'r llall o'r enwau hyn yn yr argraphiad cyntaf, a gyhoeddwyd dan olygiad yr awdur ei hun. Llyfr 4plyg trwchus ydyw hwn, yn cynnwys 1165 o dudalenau, heb law 16 o dudalenau o arweinolion. Bernir i'r llyfr rhagorol hwn, yr hwn yw prif waith yr awdur llafurus, wneud mwy i oleuo y Cymry am ddrygedd Pabyddiaeth nag unrhyw waith a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.

¶ Yn y llyfr rhagorol hwn y mae "Dyddlyfr" anghymharol yr enwog T. Charles, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, fel y crybwyllwyd yn y bennod flaenorol.

** Ymddengys fod yr awdur wedi pregethu sylwedd y llyfr hwn mewn gwahanol fanau, a bod ei olygiadau wedi peri cryn gyffro ym mysg rhyw ddosparth o'i frodyr, y rhai a heurent "fod ei farn ar Brynedigaeth yn wrthwynebol i farn y Corph y perthynai iddo; nad ydoedd mewn undeb â'i Gorph ei hun; ond ei fod yn derfysgwr," a'r cyffelyb, yr hyn a barodd ofid aneule i'w feddwl tyner ef, ac ysgrifenodd at amryw Gymdeithasfaoedd i gwyno o'r herwydd. Cafodd attebion caredig oddi wrth ysgrifenyddion y cyfarfodydd hyny, yn tystio nad oeddynt hwy yn ei "gyfrif yn gyfeiliornwr, nac yn foddlon bod *neb* yn ei *alw* felly." Archasant iddo hefyd, os clywai "ryw berson, neu bersonau," yn gwneuthur hyny, ar iddo eu nodi, "fel y galler eu galw i gyfrif, naill ai mewn Cyfarfod Misol, neu *Association*."—Cofiant T. Jones, gan Humphreys a Roberts, t. 91–100.

Digitized by Google

"Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth; neu Draethawd am Ryfel y Saint yn erbyn y Diafol, yn mha un yr amlygir y Gelyn mawr hwnw i Dduw a'i Bobl, yn ei Gyfrwysdra, ei Allu, Eisteddle ei Ymerodraeth, ei Ddrygioni, a'i brif Fwriad yn erbyn y Saint: hefyd, Arf dy yn cael ei agoryd, o ba le y mae'r Cristion yn cael ei addurno ag Arfau ysprydol i'r Frwydr, cynnorthwy i roi ei Arfogaeth am dano, ac addysg i drin yr Arfau; ynghyd a diweddiad dedwydd yr holl Ryfel. . . . 1819."*

Heb law y llyfrau a nodwyd, ymunodd Mr. Jones, fel y gwelsom yn y bennod flaenorol, â'i hoff gyfaill, Mr. Charles, i olygu y *Drysorfa Ysprydol*, y dechreuwyd ei chyhoeddi yn y fl. 1799. Ysgrifenodd Jones gryn lawer i'r gyfrol gyntaf honno o'r *Drysorfa*, mewn rhyddiaith a barddoniaeth, megis dwy bregeth faith a dysgedig ar 2 Cor. 11, 15, 16, a rhai llythyrau difrifol ar byngciau crefyddol. Hefyd, rhai hymnau a chywyddau, ac oll o ansawdd grefyddol a buddiol. Gwel yr hyddysg yn *Rheolau Dafydd ap Edmwnt* bod Mr. Jones yn deall y rhai hyny yn drwyadl; ond nid rhyw lawer o farddoniaeth hedegog, aruchel, i'n tyb ni, sydd yn ei ganiadau ceuthion. Y mae rhai o'i bennillion rhyddion yn dlysion dros ben, megis, er esampl, yr hwn sy'n dechrau fel hyn:—

"Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
A'm prynodd â thaliad mor ddrud," &c.

Cyfansoddodd Mr. Jones lawer o ganiadau heb law y rhai a nodwyd, megis Cywydd i'r Fronfraith; Marwnad am D. Rowlands, W. Williams, a Dafydd Morris; Marwnad ar Farwolaeth Mr. Charles; Cân yr Haf a Chynhauaf Gwlyb y fl. 1817; a Llyfr Hymnau bychan, yr hwn, fel yr ymddengys, ni chafodd nemmawr ledeuniad.

Heb law'r cyfansoddiadau gwerthfawr a nodwyd, a rhai pethau eraill, ond odid, ysgrifenodd Mr. Jones Hunan-Gofiant tra rhagorol, yn atteb i holiadau a anfonwyd iddo gan ei hoff gyfaill, Mr. Charles, yr hwn Hunan-Gofiant a gyhoeddwyd yn nechrau ei "Gofiant" gan Humphreys a Roberts. Dengys yr holl lafur a nodwyd bod y Parch. Thos. Jones o Ddinbych yn wir deilwng i gael ei gyflëu ymhlith "Enwogion y Ffydd" yng Nghymru.†

* Cyhoeddwyd y cyfieithiad gwerthfawr hwn o "Lyfr Gurnal," fel y'i gelwir yn gyffredin, yn bedair cyfrol, ac enwad-ddalen fel yr uchod o flaen pob un o'r pedair. Dywed Mr. Jones yn ei "Ragymadrodd," sydd o flaen y cyfieithiad yma, ei fod wedi cyhoeddi ei gyfieithiad o'r *drydedd ran* o'r gwaith hwn yn agos i 28 blynedd cyn hyny; ond nid yw Gwilym Lleyn wedi cofnodi hyny yn *Llyfryddiaeth y Cymry*. Yr oedd Robert Jones, o Ros-y-lan, wedi cyfieithu a chyhoeddi y ddwy ran gyntaf ryw bryd cyn hyny. Ail gyfieithiodd T. Jones y ddwy ran gyntaf, er mwyn i'r gwaith a gyhoeddwyd ganddo yn 1819 fod yn unffurf, a chyfieithiad rhagorol ydyw. Gresyn na buasai yn llythyraeth y Bibl, o'r hwn y dyfyna yr awdur enwog, Gurnal, mor fynych.

† Cofiant, gan Humphreys a Roberts; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 397; Llyfr. y Cymry, t. 629, 674, 718, 730; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 138.

## SIMON LLWYD, B.A.

Yr oedd Simon Llwyd, neu Lloyd, fel yr ysgrifenai efe ei enw, yn hanu o un o'r teuluoedd hynaf a pharchusaf yn sir Feirionydd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1756. Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. Dywedir i Mr. Llwyd wasaneuthu fel curad mewn amryw fanau ar ol iddo gael urddau eglwysig; ond ni nodir ond Bryneglwys, yn sir Ddinbych, o'r lle y bwriwyd ef allan am ei fod yn rhy grefyddol. Yna pennododd Syr Watkin, Wynnstay, ef i guradiaeth barhaus Llanuwchllyn, sir Feirionydd; ond gwrthododd yr Esgob Seisnig Horsley gadarnhau y pennodiad, am y dywedid wrtho gan rai Eglwyswyr digrefydd fod gormod o duedd yn Llwyd at Fethodistiaeth. Yn wyneb yr holl gamdrinieuthau hyn, penderfynodd Mr. Llwyd ymadael â'r Eglwys Sefydledig, ac ymuno â'r Methodistiaid, gan fyw ar ei dreftadaeth ei hun ym Mhlas-yn-dre, ger llaw y Bala, lle y bu hyd ddiwedd ei oes yn cydlafurio â'i hoff gyfaill Mr. Charles. Digwyddodd hyn ryw bryd rhwng 1785 ac 1790. Mr. Llwyd oedd yr ail Eglwyswr (Mr. Charles oedd y cyntaf) a ymunodd â'r Methodistiaid yng Ngwynedd, a'r ddau yn byw yn y Bala.‡

Er nad oedd dawn Mr. Llwyd, fel pregethwr, yn hyawdl, etto yr oedd ei fatterion yn sylweddol ac Ysgrythyrol; ac o herwydd ei fawr symledd a'i dduwioldeb, yr oedd yn dra chymmeradwy gan y dosparth mwyaf gwybodus a chrefyddol o'i wrandawyr a'i gyfeillion. "Bu'n ffyddlon yn ei dymmor," medd Mr. Hughes, "i deithio Cymru fynyddig, a chymmerai y byd a'i cyfarfyddai gyd â'r efengyl, mewn tai tlodion, yn ddiddig. Yr oedd hyn iddo ef yn fwy chwith nag i lawer, gan ei fod yn ŵr bonheddig o berchen etifeddiaeth helaeth, ac wedi ei ddwyn i fynu yn gyfattebol."

Yr oedd Mr. Llwyd yn ddŷn o wybodaeth ehang, yn ysgolhaig rhagorol, yn hanesydd ymchwilgar, yn amseryddwr Ysgrythyrol heb ei gyffelyb yng Nghymru; ac yn addurn ar y cwbl, yr oedd yn ŵr duwiol, gonest, a chwbl dirodres. Y prif waith a ysgrifenodd, ac y mae yn un o'r llyfrau gorau yn yr iaith Gymraeg, ydyw yr un canlynol:—

"Amseryddiaeth Ysgrythyrol, yn cynnwys Hanesyddiaeth yr Hen Destament a'r Newydd, mewn saith dosparth; o Greadigaeth y Byd hyd y flwyddyn 98 o oed Crist: ynghyd â Hanesyddiaeth y Pedair Ymherodraeth

‡ Method. Cymru, cyf. i., t. 597; Williams's Em. Welshm., p. 286.

Digitized by Google

Fawr, yn y cynoesoedd: hefyd, Daearyddiaeth Gwlad Canaan, a'r gwledydd cymmydogaethol. At yr hyn y chwanegwyd, Cyssondeb Byr o'r Pedwar Efengylwr, gyda Sylwadau Eglurhaol. Gan y Parchedig Simon Lloyd, B.A., gynt o Ysgoldy yr Iesu, Rhydychain.

"Bala: argraffedig gan Robert Saunderson. 1817." 8plyg.

Dywed amryw o'r bywgraphwyr mai yn 1816 y cyhoeddwyd y gwaith gorchestol a thra buddiol yna, ac y cyhoeddwyd *ail* argraphiad o hono; ond nid ydym ni yn gwybod am hwnw, ac nid ydynt hwythau yn mynegi ymha flwyddyn na chan bwy y cyhoeddwyd ef; ond yr ydym yn sicr y dylasai bod *ail* a *thrydydd* argraphiad hefyd o hono allan cyn hyn, canys nid oes genym well gwaith ar yr Ysgrythyrau yn ein hiaith nag ydyw. Dywedir y bu'r awdur yn myfyrio y gwaith gorchestol hwn am 30 mlynedd. Gellir casglu oddi wrth y difyniad canlynol o'r Rhagymadrodd y bu'r awdur llafurus wrtho yn ddyfal iawn dros hir amser:—

"Pe gofynid pa beth a'm harweiniodd i ysgrifenu ac i gyhoeddi gwaith ar y testynau crybwylledig [yn yr enwad-ddalen a'r paragraph cyntaf o'r Rhagymrodd], fy atteb fyddai, mai hynny a fu yn rhan fawr o hyfrydwch fy oes, i ddarllen Hanesyddiaeth, Amseryddiaeth, a Daearyddiaeth, yn neillduol y rhannau hynny o honynt ag oedd yn tueddu i daflu goleuni ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ysgrifenais ar y cyntaf heb ddiben i gyhoeddi; ond wedi cael y gwaith i drefn, bernais mai buddiol i'm cydwladwyr fyddai eu gwneuthur yn gyfrannog o'r hyn a lafuriais ynddo, yn neillduol wrth ystyried mor amddifaid yr oedd y rhai hynny o honynt ag oedd heb ddeall ond eu hiaith eu hunain, o'r cynnorthwyon ag sydd mewn ieithoedd eraill tu ag at gael amgyffred gywir o lythyren y gair dwyfol, heb ba un nis gellir dirnad, yn fynych, y synwyr ysprydol."

Gwaith arall pur ddyddorol, a ysgrifenwyd gan yr awdur craffus, yw yr un canlynol:—

"Esponiad Byr ar Lyfr y Datguddiad. . . Bala, 1828." 8plyg.

Dywedir i'r gwaith hwn hefyd gael ei ail argraphu; ond gan bwy, ac ymha le, ni fynegir. Dywedir iddo "ysgrifenu amryw lyfrau;" ond ni chofnodir, hyd y gwelsom ni, ond y ddau grybwylledig; eithr hyspysir iddo ddwyn allan ddwy gyfrol o'r *Drysorfa* ar ol marwolaeth Mr. Charles. Pa wedd bynag, pe nad ysgrifenasai ddim ond yr "Amseryddiaeth Ysgrythyrol," buasai ei enw yn deilwng o fod byth mewn coffadwriaeth gan genedl y Cymry.

Bu farw ar y 6ed o Dachwedd, 1836, yn 80 oed, a chladdwyd ef yn anrhydeddus ym meddrod y teulu, ym monwent Llanycil.*

* Method. Cymru, cyf. i., t. 598; Williams's Em. Welshm., p. 286; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 111; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 29.

BENJAMIN JONES.

Ganwyd y gŵr enwog a dysgedig hwn yn Nhrecyrnfawr, ymhlwyf Llanwinio, sir Gaerfyrddin, ar y 29fed o Fedi, 1756. Yr oedd ei rieni yn bobl barchus a chefnog; a chan eu bod yn aelodau zelog o'r Eglwys Sefydledig, bwriadent ddwyn eu mab Benjamin i fynu yn offeiriad yn yr eglwys honno. Treuliodd flynyddoedd ei ieuengctid mewn ysgol dan ofal offeiriad Llanddewi-Felffre, yn sir Benfro, lle y dangosodd ei fod yn meddu deall cryf a chof bywiog, a chynhyddodd ei wybodaeth yn gyflym mewn ieithoedd a changhenau eraill. Arweiniwyd ef rywfodd, pan yn ieuangc, i wrando R. Morgan, Henllan, a J. Griffiths, Glandwr, yn pregethu, ac argyhoeddwyd ef o drueni ei gyflwr wrth natur, a pharodrwydd y Gwaredwr bendigedig i'w achub. Yn ebrwydd wedyn, penderfynodd ymuno â'r Annibynwyr, ac felly dyrysodd fwriadau ei rieni i'w ddwyn i fynu i offeiriadaeth yr Eglwys Sefydledig. Pan welodd y rhieni ei benderfyniad, buant yn ddigon doeth a rhyddfrydig i beidio ei wrthwynebu, a chynnaliasant ef yn yr ysgol fel o'r blaen. Nid yw hyspys a ymunodd ei rieni â'r un cyfundeb ag yntau cyn eu marw ai peidio; ond y mae sicrwydd i amryw o'r teulu wneuthur hyny, mewn amseroedd diweddarach. Derbyniwyd ef yn aelod i eglwys Henllan; ac wedi cael prawf boddhaol ar ei ddoniau a'i gymmwysderau, annogwyd ef i ddechrau pregethu.

Bu'n derbyn addysg dros beth amser dan ofal Mr. Griffiths, Glandwr; ac ar yr 2fed o Ionawr, 1775, derbyniwyd ef i Athrofa Abergefenni. Cynhyddodd yn gyflym yno mewn dysgeidiaeth, a rhagorai ar y rhan fwyaf o'i gydfyfyrwyr. Yr oedd y manteision boreuol a gawsai yn dra ffafriol i hyny, heb law bod ynddo gymhwysder anghyffredin at ddysgeidiaeth o radd uchel. Parhaodd trwy ei oes i fyfyrio Hebraeg, Groeg, a Lladin. Arferai gymmeryd ei Destament Groeg gyd âg ef, i ba le bynag yr elai, ar hyd ei oes.

Wedi bod yn yr athrofa am bedair blynedd, yn ol yr arfer gyffredin, derbyniodd alwad o eglwys Pencader, sir Gaerfyrddin, ac ordeiniwyd ef yno ar y 25med o Fai, 1779, pan oedd efe yn 23 oed. Cyfrifid eglwys Pencader yn enwog o ran gwybodaeth y pryd hwnw, ac o blegid hyny yr oedd cymhwysder nodedig yn Mr. Jones ar ei chyfer. Dechreuodd ei wasanaeth yno dan amgylchiadau tra gobeithiol, ac yn ystod y flwyddyn gyntaf bu'n ddefnyddiol a llwyddiannus iawn.

Digitized by Google

Ymhen blwyddyn ar ol ymsefydlu ym Mhencader, priododd Miss Mary Evans, Cwrt, Llangeler; a chyn hir ar ol hyny, ymadawodd o Bencader. Yn y fl. 1784, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Annibynol Rhos-y-meirch, Môn, lle y llafuriodd gyd â chymmeradwyaeth a llwyddiant mawr am bum mlynedd. Teimlai ymlyniad mawr wrth Ros-y-meirch trwy ei oes, a byddai amheuaeth yn ei feddwl yn fynych a wnaeth efe yn ddoeth wrth symmud oddi yno. Pa wedd bynag, yn y fl, 1789, derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys Annibynol oedd ym Mhwllheli a'i "changhenau," fel y dywedir, i'r lle y symmudodd y flwyddyn honno; ac yno y bu'n llafurio gyd â phob diwydrwydd a ffyddlondeb am 34 blynedd, sef hyd derfyn ei oes. Ymhen tu a phedair blynedd ar ol iddo ymsefydlu ym Mhwllheli, cyhoeddodd y llyfryn canlynol:—

"Athrawiaeth y Drindod, mewn Tair Pregeth: I. Ar Berson Crist yr Immanuel. II. Ar Bersonoliaeth a Duwdod yr Yspryd Glân. III. Ar Wahaniaethol Bersonau y Tad y Mab a'r Yspryd Glân. Ynghyd ag Attebiad i rai Gwrthddadleuon.—Machynlleth: . . . 1793."

Ymhen tu a deuddeng mlynedd wedyn, cyhoeddodd y treuthodyn canlynol:—

"Ffynhonau Iachawdwriaeth; neu Amddiffyniad o Athrawiaethau Gras: sef, byrr Attebiad i Lyfr a elwir Traethawd ar Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth, ac Helaethder y Prynedigaeth Crist'nogol.—Caernarfon: . . . 1805."

Nid ydys yn gwybod iddo gyhoeddi dim arall. Gwelir wrth enwau y ddau llyfr a nodwyd bod Mr. Jones yn hoff o ymdrin â phyngciau mawrion a dyfnion duwinyddiaeth, ynghylch y rhai y mae llawer o wahaniaeth barn ym mysg Cristionogion.

Cafodd gryn lawer o drallodion teuluaidd cyn diwedd ei oes, trwy ei gyssylltiad masnachol â'i fab-ynghyfraith, yr hwn a drodd allan yn esgeulus ac afradlon; ond galluogwyd ef i ymgynnal dan y cwbl, a theimlai pawb nad oedd ei gymmeriad ef, mewn un modd, wedi ei lychwino. Er brif wall, fel yr hen Annibynwyr yn gyffredin, oedd diffyg yspryd cenhadol. Cyfyngai ei wasanaeth bron yn hollol i Bwllheli, gan adael Lleyn ac Eifionydd, a'r holl wlad o amgylch, yn ddiffeithwch anniwylledig; ac felly y bu, nes yr aeth y cenhadon Methodistaidd yno, er eu mawr glod, i'w harloesi a'u meddiannu. Daliodd Mr. Jones i bregethu hyd o fewn pythefnos i derfyn ei daith. Bu farw yn dawel a hyderus ar yr 17fed o Chwefror, 1823, yn y 67fed flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd ef ym mynwent Pwllheli.*

* Hanes Ymneillduaeth, D. M., t. 266; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 169; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 5; En. Cymru, I. F., t. 569; Llyfr. y Cymry, t. 673.

### EVAN RICHARDSON, CAERNARFON.

Y gŵr enwog hwn ydoedd brif sefydlydd Methodistiaeth yn nhref hynafol Caernarfon. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1759, mewn lle a elwid Bryn-gwyn-bach, ymhlwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, o fewn tu a phum milltir i dref Aberystwyth, yn sir Aberteifi. Enw ei dad oedd Rhisiart Morus Huw *(Richard Morris Hugh)*, yr hwn oedd saer maen wrth ei gelfyddyd. Gan y bwriadai ei dad ei ddwyn i fynu yn offeiriad Eglwys Loegr, rhodd ef yn ysgol enwog Ystradmeirig,† dan addysg Mr. Williams, athraw yr ysgol honno ar y pryd.

Yr oedd rhyw dynerwch nodedig ym meddwl Evan er yn blentyn, braidd. Dechreuodd feddwl yn forau nad oedd ei gyflwr yn dda rhyngddo a Duw. Dwyshaodd y cyfryw syniadau yn ei feddwl yn ddirfawr, yn lled fuan wedi iddo fyned i ysgol Ystradmeirig; a daeth i'r penderfyniad nad oedd efe gymmwys, mewn un modd, i bregethu i eraill, ac yntau yn gwybod ei fod ei hun yn anghymmeradwy. Pan yn ysgol Ystradmeirig, aeth i wrando Daniel Rowlands a Dafydd Morys yn pregethu, a symmudwyd ei ofnau, a chafodd dawelwch meddwl. Erbyn iddo orphen ei ysgol yn Ystradmeirig, yr oedd yn hyddysg yn Saesneg, Ffrangcaeg, Lladin, Groeg, a Hebraeg. Pan ddeallodd ei dad nad âi yn offeiriad Eglwys Loegr, ffromodd yn aruthr wrtho, a bu raid iddo droi allan yn fuan i ymofyn am ei gynhaliaeth fel y gallai. I ryw le sydd weithian yn anhyspys, yn agos i Landdewi-brefi, sir Aberteifi, yr aeth efe yn gyntaf i gadw ysgol. Tybir mai'r pryd hyn, pan nad oedd efe ond ieuangc, yr ymunodd â'r Methodistiaid mewn rhyw le cyfagos; ac âi bob mis yn gysson i Langeitho ar Sul cymmundeb, i wrando Mr. Daniel Rowlands.

Dygodd dysg, dawn, a duwioldeb dirodres Evan Richardson ef i sylw ei frodyr yn bur fuan; ac o'r diwedd, pan oedd efe tu ag 20 oed, fel y tybir, cymhellwyd ef i fyned gyd âg un Williams (un o'r offeiriaid Methodistaidd, fel y tybir), ar daith trwy Wynedd, i ddechrau y cyfarfodydd o'i flaen. Pan gyrreuddasant Ddolgellau, ar eu dychweliad adref, dywedir i Mr. Williams ei gymmell i bregethu o'i flaen, â'r hyn y cydsyniodd yntau.

Pan oedd Mr. Richardson ar y daith grybwylledig, cyttunodd â Mr. Robert Jones, Rhos-y-lan, ar annogaeth Mr. Williams, i fyned i Frynengan, yn sir Gaernarfon, i gadw ysgol. Bu yno dros

† Gwel llyfr v., pen. xix.

Digitized by Google

ryw ennyd yn llwyddiannus a derbyniol iawn gyd â'r ysgol, a phob moddion crefyddol yn yr ardal. Wedi hyny aeth i Bwllheli; ond ymddengys na chafodd fawr o lwyddiant yno; am hyny, efe a symmudodd oddi yno yn fuan i Langybi, ger llaw Glasfryn-fawr, lle y bu yn nodedig o lwyddiannus. Dywedir bod ganddo dros 120 o blant yn yr ysgol; ond cynfigenodd rhywrai wrth ei lwyddiant, a llwyddasant i gael gan berson y plwyf ei droi oddi yno, dan yr esgus ei fod yn gweddïo yn yr eglwys! Dywedir hefyd i ryw ŵr bonheddig o'r ardal ddigio yn dost wrtho am iddo fod yn foddion, yn llaw Duw, i achub cyfnither iddo, a'i henw Miss Jane James, yr hon a ymunodd â'r Methodistiaid yn yr ardal; ond dywedir i'r gŵr bonheddig hwnw ddangos llawer o garedigrwydd i Mr. Richardson mewn amser dyfodol, yr hyn sy'n arwyddo ddarfod iddo ganfod ei gamymddygiad, ac edifarhau o'i blegid. Dywedir na welwyd erioed gymmaint o wylo yn Llangybi ag ar ei ymadawiad ef oddi yno: yr oedd y plant a'r bobl ieuaingc yn wylo yn chwerw dost, a'r rhieni yn wylo; ac yr oedd y dagrau yn llifo dros ei ruddiau tyner a phrydferth yntau ei hunan.

Caernarfon oedd y maes nesaf a drefnodd Rhagluniaeth i Mr. Richardson i'w wrteithio a'i lafurio, a hyny hyd ddiwedd ei oes ddefnyddiol; ac er iddo gael y maes hwnw yn bur anniwylledig ac anial, cafodd fyw i weled cnwd toreithiog arno, fel ffrwyth ei lafur ef yn benaf, ond mewn undeb cywir, wrth reswm, â llawer o frodyr ffyddlon eraill. Ymsefydlodd yng Nghaernarfon yn y fl. 1789, pan oedd efe tu ag 28 oed. Dechreuodd ei ysgol mewn rhyw ysgoldy ynghanol y dref; ac yn fuan wedyn cymmerth dŷ a elwid Tan-yr-allt, i gynnal moddion crefyddol ynddo. Ymhen rhyw dair neu bedair blynedd ar ol hyny, priododd wraig dduwiol iawn, a'i henw Elizabeth, gweddw un Richard Owen, un o Fethodistiaid hynaf Caernarfon, a chawsant ddau o blant.

Ymhen tu a phum mlynedd ar ol i Mr. Richardson ymsefydlu yng Nghaernarfon, llwyddodd i brynu tir i adeiladu capel arno, yr hwn a orphenwyd yn y fl. 1793. Yr oedd Mr. Richardson wedi ymroddi i lafurio yn y dref â'i holl egni. Yr oedd ganddo ysgol lïosog a chyfrifol iawn. Yr oedd ynddi lawer o bobl gyfrifol yn y dref, a'r wlad o amgylch, ynghyd â llïaws o ieuengctid a rhai mewn cryn oedran. Tu a'r fl. 1796, cafodd y fraint o fod yn athraw i'r enwog JOHN ELIAS, dros rai misoedd, o'r hwn yr oedd Mr. Richardson yn dra hoff, fel y gellid disgwyl; ac efe a fu yn foddion i yru Mr. Elias i sir Fôn am y tro cyntaf i bregethu, fel y ceir gweled rhag llaw. Cadwai Mr. Richardson gyfarfod un noswaith yn yr wythnos i holwyddori y plant, pregethai noswaith arall, a chadwai gyfarfod eglwysig y drydedd noswaith. Buan iawn y daeth efe i barch mawr yn y dref; a llwyddiannus iawn a bendithiol a fu ei lafur i'r preswylwyr. Mewn gwirionedd, efe a fu'n foddion, fel y crybwyllwyd, i sefydlu yr achos Methodistaidd yng Nghaernarfon.

Gan fod ei ysgol mor llïosog, ac yn gofyn cymmaint o'i amser a'i egnïon, ni theithiai ond ychydig ymhell iawn i bregethu, ond pan dorai yr ysgol i fynu. Y pryd hyny, teithiai yn ddiwyd i amryw wledydd a threfydd Cymru a Lloegr. Arferai ymweled â'r Deheudir yng Ngwyliau y Nadolig dros lawer o flynyddau; ac wedi i'r wlad honno brofi blas ei bregethau, nid oedd boddloni arni heb gael prawf heleuthach.

Yr oedd dull Mr. Richardson o bregethu yn wreiddiol ac arbenigol iddo ei hun. Pa faint bynag oedd ei wybodaeth ef o byngciau duwinyddol, a pha faint bynag oedd ei gyrreuddiadau mewn canghenau dysgeidiaeth, nid oedd neb a ddangosai lai o hono ei hun yn y pethau hyny nag efe wrth bregethu. Yr oedd pob cyssondeb duwinyddiaeth yn ei bregethau, heb ei ffurf; a phob gweddusrwydd dysgeidiaeth, heb ei gwisg. Yr oedd ei ymadroddion yn fyrion, yn gryno, ac yn hyfryd; yr oedd ei lais yn glir ac yn beraidd; a'i ysbryd yn fywiog ac efengylaidd. Nid yn fynych y trinai efe un matter fel pwngc noeth, er y byddai ei bregethau yn llawn o sylweddau athrawiaethol. Nid oedd neb cyffelyb iddo am daro ar gnewullyn ei bregeth, megis ar unwaith, heb un rhagymadrodd nac olrheiniad graddol a blaenorol. Nid oes amheuaeth na bu ef yn un o'r prif offerynau i ddwyn trigolion Arfon i wrando yr efengyl; ac nid ei ddawn poblogaidd, ei lais clir, yn ennill teimladau y werin ddifeddwl, oedd prif ragoriaeth y pregethwr enwog hwn; ond yr oedd yn perthyn iddo hefyd ddwysder cymmeriad, hynawsedd ysbryd, doethineb ymddygiad, a ffyddlondeb llafur, a barai barch diffuant iddo gan y rhai a'i hadweunent orau, fel gŵr Duw a gweinidog cymmwys y Testament Newydd. Perchid ef yng Nghaernarfon yn fwy nag mewn un man arall. Nid oedd neb dïeithr yn meddu cymmaint o ddylanwad ag ef yno, nac un pregethwr yn cael mwy o wrandawyr yno.

Digitized by Google

Pa wedd bynag, goddiweddwyd yr athraw dysgedig, y duwinydd craff, a'r pregethwr enwog a chymmeradwy hwn, o'r diwedd, gan darawiad o'r parlys, yr hyn a fawr amharodd ei gof, ei olwg, a'i ddefnyddioldeb; ac wedi bod yn dïoddef am rai blynyddau dan effaith yr ergyd, bu farw mewn tangnefedd heddychol ar y 29fed o Fawrth, 1824, yn 64 oed, wedi bod yn pregethu am o ddeutu 45 o flynyddau. Ei eiriau olaf oedd y rhai hyn—"Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw."

Nid ydym yn gwybod i ddim o waith y gŵr enwog hwn gael ei argraphu, od ysgrifenodd rywbeth i'r perwyl hyny. Yr oedd ei amser ef yn cael ei gymmeryd i fynu mor llwyr gan yr ysgol a phregethu, fel yr oedd yn bur anhawdd iddo gynhyrchu dim i'r wasg; ac wrth ystyried ei ddysg, ei ddawn, ei dduwioldeb, a'i wybodaeth dduwinyddol, y mae hyny yn resyn dirfawr, canys y mae'n ddigon hyspys mai gwaith *argraphedig* dŷn da a galluog a fydd yn foddion parhaus i hyfforddi ei olafiaid.*

---

## PENNOD XV.

### EDWARD JONES, WALTER DAVIES, ROBERT ROBERTS, A GEORGE LEWIS.

EDWARD JONES, o Faes-y-plwm, ydoedd fab i John Jones, mab Edward Jones, o Hafod-y-gareg, Pentre'r-foelas, sir Ddinbych; a'i wraig, Margaret Pierce (Prys), merch Dôl-fadryn, Gwytherin, yn yr un sir. Mam E. Jones ydoedd Ann, ail ferch William Williams, o Ryd-y-cilgwyn, a'i wraig, Ruth Llwyd, merch Plas-yr-Hâl, ger llaw Rhuthyn. Ymddengys iddo hanu o hynafiaid cefnog yn y byd; ond ni hyspysir bod neb o honynt yn feibion athrylith: yn wir, lled anfynych y mae cyfoeth ac athrylith yn cyfarfod eu gilydd, ac ymddengys bod hyny o drefniad Rhagluniaeth. Ond beth bynag am hynafiaid E. Jones, fel un o brif feirdd crefyddol Cymru y mae efe yn deilwng o gongl ymhlith "Enwogion y Ffydd;" a drwg genym y rhaid i ni ei gyfyngu ef ac eraill, bellach, i le llawer cyfyngach nag y dymunem.

Ganwyd Edward ar y 19ydd o Fawrth, 1761, mewn tyddyn a elwir Tan-y-waun, Prion, Llanrhaiadr-ynghinmeirch, o fewn tu a thair milltir a hanner i dref Dinbych. Bu ei dad farw pan oedd efe tu a 10 oed, ac nid oedd ei fam weddw yn alluog i roddi iddo ond ychydig ysgol, a hyny gyd âg un Mr. Llwyd, gweinidog yr Annibynwyr, yn Ninbych; ond gan fod ei awydd ef yn angerddol am ddysgeidiaeth er yn blentyn, defnyddiai bob manteision yn ei gyrraedd i gynhyddu mewn darllen, ysgrifenu, rhifyddu, a'r cyffelyb.

Yr oedd tuedd gref ynddo at brydyddu er yn blentyn. Dywedai y cyfansoddodd amryw bennillion pan yn gyru yr ychain i'w dad wrth aredig, tra nad oedd ond tu a 6 neu 7 oed, a glynodd yr awen wrtho hyd angau. Yr oedd yn bur hoff o ganu hefyd; a chofiai, gyd â gofid, bod myned i Eglwys y Plwyf i ganu gyd â'i gyfeillion ieuaingc wedi bod o fawr niwaid iddo, o herwydd eu harferion llygredig gyd â'r gwaith hwnw. Arferai fyned i wrando pregethau (y Methodistiaid, fel yr ymddengys) cyn hyny, y rhai a effeithient yn ddwys ar ei feddwl ar amserau; ond ymollwng a wnaeth dros gryn amser i redeg gyd â'i gyfeillion llygredig ac anystyriol, er y costiai hyny yn ddrud i'w feddwl a'i deimlad yn bur fynych.

Pan oedd tu a 22 oed, aeth ef a chyfaill iddo i ysgol yng Nghaerlleon dros ryw yspaid; ac er y bu hyny o les i'w ddysg, etto cwynai y bu hyny hefyd o niwaid i'r argraphiadau crefyddol a deimlasai ar ei feddwl. Pan oedd o gylch 24 oed, priododd Jane Pierce, merch yr Hewl (Heol?), ym mhlwyf Llanrhaiadr, ac aethant i fyw i dyddyn a'i enw Bryn-y-gwynt, yn yr un plwyf, lle y ganwyd iddynt bedwar o blant, tri o'r rhai a fuant byw ar ei ol ef. Goddiweddwyd ef yn lled fuan ar ol priodi gan glefyd trwm, fel y bu rhagddarbod dros amser am ei fywyd, a bu hwnw yn foddion i ddwyn yr hen argraphiadau yn ol i'w feddwl gyd â dwysder dirfawr.

Wedi bod dan ofnau mawrion dros hir amser, cafodd radd o ymwared o'r diwedd trwy gyfrwng yr adnod hon—"Ac os ydwyf fi yn gwneuthur y peth nid wyf yn ei ewyllysio, nid myfi mwyach sydd yn ei wneuthur, ond y pechod sydd yn trigo ynof fi." Ar nos Fawrth y Pasg, yn y fl. 1787, ac efe o gylch 26 oed, ymunodd â chrefydd gyd â'r ychydig Fethodistiaid a ymgyfarfyddent ym mharlwr Ann Parry, Bryn-mulan, y crybwyllwyd ei henw eisoes; ac nid oedd nifer yr aelodau ar y pryd namyn 14 neu 15. Pan ymunodd gyntaf â chrefydd, yr oedd ei wraig yn bur wrthwynebus iddo; ond trodd yn fuan i fod mor ffafriol iddo ag ydoedd o'r blaen o wrthwynebol. Bu ei wraig farw yn y fl. 1794; a'r flwyddyn ganlynol, priododd yntau Margaret, merch John Roberts, o'r Tŷ-

* Cofiant Evan Richardson, gan G. Solomon; Method. Cymru, cyf. ii., t. 229; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 591.

Digitized by Google

mawr, Grîn, Dinbych, gyd â'r hon y bu yn briod am o ddeutu 23 o flynyddau; a bu iddynt 13 o blant, o ba rai yr oedd pump yn fyw yn y fl. 1839, pan gyhoeddodd dau o'i feibion, John a Daniel, ei gofiant. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol ail briodi, symmudodd Edward Jones a'i deulu o Fryn-y-gwynt i'r Tŷnewydd-Pont-Ystrad; ymhen tu a blwyddyn wedyn, aethant i Ben-y-Bangc; ac yn y fl. 1801, ymadawsant i Faes-y-plwm. Pan oedd ym Mryn-y-gwynt, dechreuodd gadw ysgol Seisnig, yng Nghapel Prion, a chynhaliodd hi am bedair blynedd. Pan yn byw ym Mhen-y-Bangc, bu mewn Cyllidfa *(Custom-house)* dan y brenin, yn Nerpwl, am o ddeutu pedwar mis. Wedi dychwel i'w gartref, bu'n cadw ysgol eilwaith yn Prion am tu a dwy flynedd. Yn 1805, bu yng Nghaerlleon am tu a blwyddyn, yn arolygu argraphiad o gyfieithiad Bibl y Parch. S. Clarke, dros J. Humphreys, o Gaerwys. Wedi iddo ddychwel adref, dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys Prion.

Yn 1818, bu farw ei ail wraig; ac yn Ionawr, 1825, gadawodd Faes-y-plwm i'w fab Edward, ac aeth i Lyn-y-pandy, sir Fflint, i gadw ysgol yng nghapel y Methodistiaid. Yn 1829, symmudodd o Lyn-y-pandy i gadw ysgol yn ysgoldy Cilcain, lle y bu gyd â'i ferch a'i fab ieuengaf hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd ar y 27fed o Ragfyr, 1836, ac efe yn 76 oed.

Dywed un ysgrifenydd bod "Edward Jones wedi ei ragfwriadu i fod yn un o beraidd ganiedyddion Sïon, i'w chysuro a'i diddanu ar ei thaith;" a gwir yw bod llïaws o'i hymnau a'i ganiadau ym mysg y rhai pereiddiaf a mwyaf efengylaidd sydd yn yr iaith Gymraeg. Dywedir mai yn yr argraphiad cyntaf o'r llyfr a elwir "Grawn Sypiau Canaan," gan Robert Jones, o Ros-y-lan, yr ymddangosodd y gân gyntaf a argraphwyd o waith E. Jones, yr hon sy'n dechrau fel hyn:—

"Clywch lais ac uchel lef,
Tôn telynorion nef,
I'r baban byw,
Oen Duw pan anwyd Ef."*

Y mae'r argraphiad cyntaf o'r "Grawn Sypiau," a gyhoeddwyd yn 1795, yn ein meddiant; ond nid yw'r gân grybwylledig yn hwnw. Dengys y *Llyfryddiaeth* yr argraphwyd hi yng Nghaernarfon yn 1797, gan T. Roberts, dan yr enw "Carol ar Concwest Gwyr y Gogledd."† Canodd Iago Trichrug (y Parch. James Hughes) i'r "Carol" yma fel hyn:—

"Dy gân—'Clywch lais ac uchel lef'—
Sydd orchest awen bur o'r nef;
Myfi a'i cenais lawer gwaith,
Yn nechre fy nghrefyddol daith.

"Ac wrth ei chanu ambell dro,
Mi welais orfoleddu, do;
Hen wragedd bro Llangeitho gu,
A wylent,—dïau hyn a fu."

Dywedir y byddai yr hyawdl Christmas Evans yn adrodd darnau o'r carol crybwylledig weithiau yn ei bregethau, nes gwefreiddio ei holl wrandawyr. Cyfansoddodd Edw. Jones amryw ganeuon eraill, a'r cwbl ar byngciau moesol a chrefyddol. Nid yw hyspys iddo ymgystadlu ar destyn eisteddfodol ond unwaith yn ei oes, a hyny ar daer annogaeth ei gyfaill ieuangc, Caledfryn, i Eisteddfod y Trallwm, yn 1824. Y testyn oedd, "Ffolineb Swyngyfaredd a phob Ofergoelion eraill," ac efe a gafodd y wobr, er bod yno amryw feirdd galluog yn cystadlu, megis Bardd Nantglyn, Cawrdaf, ac eraill; ac ni chlybuwyd bod neb yn anfoddlon i'r feirniadaeth. Ond o holl ganiadau Edward Jones, ei hymnau yw y rhai mwyaf defnyddiol a pharhaus. Y mae llïaws o'i bennillion ym mysg y rhai melusaf a godidocaf a'r a feddwn, megis, er esampl, y rhai sy'n dechrau a'r llinellau canlynol:—

"Llond y nefoedd, llond y byd.
"Cyfammod hedd, cyfammod cadarn Duw.
"Cyflawnwyd y gyfraith i gyd.
"Un teilwng wyt Ti i'th foli gan fyrdd.
"Mi fûm wrth borth uffern yn curo.
"Mae gan fy Nhad lywodraeth.
"Wele'n chwysu'r dafnau gwaedlyd
"Clyw f'enaid llwythog euog i.
"Os pery'r dydd yn boeth."

Dywed un o adolygwyr gwaith Edward Jones fel hyn, â'r hwn yr ydym yn llwyr gydsynio:—"'Nid da gormod o ddim,' medd y ddihareb. Bai ein hen gyfaill o Faes-y-plwm, os bai hefyd, ydoedd dilyn y gynghanedd yn rhy fanwl a dichlyn. Er ei fod, ar y cyfan, yn gallu cydgerdded â hi yn ddiflin a hyfryd, rhaid addef ei fod weithiau yn aberthu iaith, os nad synwyr, i fyned ar ei hol."

Yn y fl. 1810, cyhoeddodd lyfryn o'i gyfansoddiadau, yr hwn a gafodd dderbyniad croesawgar gan ei gydwladwyr. Ymhen tu a deng mlynedd wedyn, cyhoeddodd lyfryn arall o'i hymnau a'i ganiadau, a alwyd ganddo "yr ail ran," ac ail argraphwyd y rhan gyntaf. Yn y fl. 1839, cyhoeddwyd ei "Gofiant, ynghyd â Gweddillion o'i Ganiadau," gan ei feibion, y Parch. John Jones, Runcorn, a'r Parch. Daniel Jones, o Fryniau Cassia,

* Traethodydd, 1857, t. 243; Llyfr. y Cymry, t. 704. † Yr un lle.

Digitized by Google

y cenhadwr. Wedi hyny, crynhowyd ei holl gyfansoddiadau prydyddol, a chyhoeddwyd hwy yn y fl. 1857, dan yr enw "Gweithiau Barddonol y diweddar Mr. Edward Jones, Maes y Plwm." Dywed y cyhoeddwr fod hwn yn "argraphiad cyflawn ac unffurf o'i holl waith: ei emynau, ei garolau, ei ganeuon ar wahanol destynau, ei englynion, ei farwnadau, ei emynau claddedigaethol, oll wedi eu cyfleu ynghyd gyda eu gilydd."*

## WALTER DAVIES (GWALLTER MECHAIN).

Ganwyd y gŵr enwog hwn mewn tŷ a elwid y Wern, ymhlwyf Llanfechain, sir Drefaldwyn, ar y 15fed o Orphenaf, 1761. Dywedir y gallai efe olrhain ei achau i deuluoedd uchaf y wlad, ond nad oedd ei rieni ef ond lled isel eu hamgylchiadau. Ni wyddys ond ychydig iawn o'i hanes, hyd onid aeth i Brifysgol Rhydychain. Dywedir y byddai yn dynwared llythyrenau a lluniau ar lechi pan oedd tu a thair oed. Ni wyddys pa faint o ysgol a gafodd yn ei faboed; ond dywedir iddo, tra ynddi, ragori ar ei athraw.

Nid yw hyspys pa bryd y dechreuodd Walter brydyddu. Y mae'r gyfrol gyntaf o'i "Waith," a gyhoeddwyd dan olygiad y Parch. D. Silvan Evans, yn 1868,† yn cynnwys 160 o'i ganiadau, ceuthion a rhyddion, hirion a byrion, y rhai a gyfansoddwyd ganddo o'r fl. 1789, pan oedd efe tu ag 28 oed, hyd y fl. 1849, pan oedd yn 88 oed! Yr oedd cryn gyffro Eisteddfodol yn y wlad o gylch yr amser cyntaf a nodwyd. Cynhaliwyd Eisteddfod yn Llangollen yn Ionawr, 1789, a thybir bod G. Mechain ynddi; ond ni wyddys iddo gyfansoddi dim i honno. Ym Mai yr un flwyddyn, cynhaliwyd Eisteddfod yng Nghorwen, yr hon a agorwyd trwy i Gwallter adrodd cywydd annerchiadol gwych dros ben. Yr oedd Jonathan Huws a Thomas Edwards (Twm o'r Nant), yn bresennol yn yr Eisteddfod honno, ac yn ymgystadlu. Rhoddwyd deuddeg o destynau i'r beirdd i gyfansoddi arnynt yn ddifyfyr, ac i Walter Davies y dyfarnwyd "Yr Ariandlws a'r Gadair,"‡ er ei fod ef yn llawer ieuengach o ran oedran ac fel bardd na'r ddau eraill. Ym mis Medi, yr un flwyddyn etto (1789), cynhaliwyd Eisteddfod yn y Bala, yn yr hon yr ennillodd Gwallter Mechain Gadair y Gwyneddigion, am yr hon yr ymrysonai Dafydd Ddu Eryri, Twm o'r Nant, Jonathan Huws, ac eraill. Y testyn oedd awdl, "Ystyriaeth ar Oes Dyn."* Yn y flwyddyn ganlynol etto (1790), cynhaliwyd Eisteddfod yn Llanelwy, prif destyn yr hon oedd "Traethawd ar Ryddid," o gynhygiad Cymdeithas y Gwyneddigion; a Gwallter Mechain a farnwyd yn fuddugol, ac efe a gafodd yr ariandlws. Cyhoeddwyd y treuthawd godidog hwn yn 1791, ar draul Owain Myfyr, ac ail argraphwyd ef yng "Ngwaith" yr awdur a gyhoeddwyd yn 1868.† Bernir mai'r treuthawd rhagorol yma sy'n terfynu cyfnod y prifawduron (*classics*) Cymreig, o gyfieithiad y Dr. Morgan o'r Bibl yn 1588, a gwaith Edmund Prys, Morus Cyffin, Henri Perri, Edward James, y Dr. Parry, y Dr. Davies o Fallwyd, Charles Edwards, Elis Wynn (y Bardd Cwsg), Edward Samuel, Theophilus Evans, S. Thomas, Dafydd Jones o Gaio, Edward Richards, Joshua Thomas, Peter Williams, Goronwy Owain,‡ a rhai eraill ond odid, hyd y treuthawd hwn ar ryddid yn 1790, cyn i fympwyon y Dr. Puw gael eu dwyn i mewn i glogyrneiddio yr iaith. Y mae'r treuthawd dan sylw yn hynod brydferth o ran llythyreniaeth, ieithwedd, a syniadau. Dyrchafwyd yr awdur medrus yn bur uchel, gan y cyfansoddiadau a nodwyd, ym marn bonheddig a gwreng, a fawrygent yr iaith Gymraeg; ac yn ebrwydd ceir gweled y canlyniad.

Y mae'n anhawdd gwybod beth oedd syniadau crefyddol Gwallter Mechain cyn iddo fyned i'r Eglwys Sefydledig; ond dengys ei "Arwyrain Rhyddid,"§ a gyfansoddwyd yn yr un flwyddyn (1790), a'r "Traethawd ar Ryddid," ei fod, o ran ei syniadau gwladol, yn Rhyddfrydwr pur eithafol, fel amryw o'i gydoeswyr barddonol, megis Iolo Morganwg, Dafydd Ddu Eryri, Siôn Glan-y-gors, ac eraill; ond, medd Cynddelw (R. Elis), "Ymddengys i Gwallter Mechain radloni llawer ar ol myned i'r Eglwys [Wladol] yn weinidog, canys dywedodd cyn diwedd ei oes, 'Yr oeddym ni o'n cofau i gyd yr amser hwnw, ond Burke.'"‖

Yn nechrau y fl. 1792, gwelodd amryw gyfeillion cyfoethog, fel yr awgrymwyd eisoes, bod Walter Davies yn ddŷn pur anghyffredin, a thrwy eu caredigrwydd hwy anfonwyd ef i Brifysgol Rhyd-

* Cofiant a Gweddillion Caniadau Edward Jones, gan ei feibion, John a Daniel Jones; Traethodydd, 1857, t. 242; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 75; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 365.

† Y mae'r "Gwaith" godidog yma yn dair cyfrol 8plyg trwchus. Y i., yn cynnwys ei gyfansoddiadau barddonol Cymreig; yr ii., ei dreuthodau Cymreig; a'r iii., ei dreuthodau Seisnig.

‡ Gwaith Walter Davies, cyf. i., t. 226–239.

* Gwaith Walter Davies, cyf. i., t. 381. † Yr un, cyf. ii., t. 1.

‡ Gwel hanes y gwŷr a nodwyd yn y gwaith hwn, "Enwogion y Ffydd."

§ Gwaith Walter Davies, cyf. i., t. 210.

‖ Blodau Arfon, 1869, Attodiad, t. 5.



Digitized by Google

ychain. Ymaelododd yntau, ar y cyntaf, yn Neuadd Sant Alban; ond symmudodd wedyn i Goleg yr Holl Eneidiau, lle y cymmerth radd Baglor y Celfyddydau (B.A.) yn Hydref 1795, ac ymraddiodd yn Athraw y Celfyddydau (M.A.), fel aelod o Goleg y Drindod, yng Nghaergrawnt, yn 1803. Gwnaed ef yn Is-geidwad y Gywreinfa Ashmolaidd yn 1792. Urddwyd ef yn ddiacon, ar guradiaeth Meifod, gan yr Esgob Bagot, yn Llanelwy, Rhagfyr 6, 1795, ac yn offeiriad ar y 25med o Fedi, 1796. Yn 1799, rhoddes y diweddar Arglwydd Mostyn iddo guradiaeth barhaus Ysbytty Ifan; cafodd bersonoliaeth Llanwyddelan gan yr Esgob Horsley, Mai 20, 1803; cyflwynodd yr Esgob Cleaver ef i beriglorlaeth Manafon, Gorphenaf 7, 1807; a dyrchafodd yr Esgob Carey ef i fywioliaeth Llanrhaiadr-Mochnant ar yr 18fed o Dachwedd, 1837.

Ar y 15fed o Hydref, 1799, priododd Mary, gweddw Rice Pryce (Rhys Prys), Ysw., o Rosbryn-bwa, ymhlwyf Meifod, a bu iddynt bedwar o blant, sef, 1. Cecil Leland; 2. Amelia Ceilia, a bu'r ddau feirw yn eu babandod; 3. Y Parch. Walter Cecil Davies, A.C., yr hwn a fu farw yn 1863, ac a gladdwyd ym mynwent Tywyn Meirion, yn ymyl ei geraint a'i gyfeillion mynwesol, John Vaughan (Fychan), Ysw., o Benmaen Dyfi, a Mrs. Vaughan, ei hanner chwaer; 4. Jane, yr hon sydd yn awr (1880) yn fyw, ac yn ddibriod.

Daliodd cynheddfau enaid a galluoedd corph Gwallter Mechain bron hyd derfyn ei hirfaith oes heb ddirywio ond ychydig. Ymddengys mai ei gyfansoddiad diweddaf yw "Awdl y Greadigaeth," yr hon y gorphenodd efe ei hysgrifenu â'i law ei hun, "Mai 26, 1849," yn yr 77fed flwyddyn o'i oedran! Anfonodd yr awdur yr awdl hon, dan y ffugenw *Credadyn*, i ymgystadlu am gadair Eisteddfod Aberffraw, a gynhaliwyd yn Awst y flwyddyn honno. Yr oedd y copi a anfonwyd i'r Eisteddfod yn 280 o linellau; ond methodd golygydd gwaith Walter Davies gael mwy na 273 o linellau.* Dywed Joseph Jones, un o feirniaid anfarddonol cadair Aberffraw, am awdl *Credadyn*—"Not worthy of being put in competition with the others;" ond Eben Fardd, un arall o feirniaid y gadair honno, prif feirniad barddonol ei oes, a gyflea awdl *Credadyn* yn ail yn y trydydd dosparth, a gwna feirniadaeth led helaeth arni; ond dywed ei bod braidd yn fer i wneud cyfiawnder â'r amryw byngciau y cyfeirir atynt yn y ddangoseg sydd o flaen yr awdl.

* Transactions of the Aberffraw Royal Eisteddfod, p. xi.; Gwaith Walter Davies, cyf. i., t. 426.

Heb law yr holl gyfansoddiadau llïosog sydd yn y *tair cyfrol* a nodwyd mor fynych o "Waith y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain)," cyhoeddodd yr awdur enwog a llafurus y llyfrau canlynol:—

"Diwygiad neu Ddinystr: wedi ei dynnu allan o lyfr Saesnaeg a elwir *Reform or Ruin*, a'i gymhwyso at Ddealldwriaeth y Cymry. Croeoswallt, 1798." 16plyg.

"Eglur Olygiad o'r Grefydd Gristionogol, ac o Hanesiaeth (Histori) cyn belled ag y perthyn i ddechreuad Cristionogaeth, ac i'w chynhyddiad hyd yr amser presennol. Newydd ei gyfieithu allan o waith Saesnaeg Thomas Gisborne, A.M. Gwresam, 1801." 8plyg.†

"General View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales. . . . . Drawn up and published by Order of the Board of Agriculture and Internal Improvement. London, 1810." 8vo.

"General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales. . . . . Drawn up for the Consideration of the Board of Agriculture and Internal Improvement. London, 1814." Two volumes 8vo.

"Eos Ceiriog, sef Casgliad o Bêr Ganiadau Huw Morus, yn ddau Llyfr: o Gynnulliad a Diwygiad W. D. Gwrecsam, 1823." 12plyg.

"Gwaith Lewis Glyn Cothi. The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi, a celebrated Bard, who flourished in the reigns of Henry VI., Richard III., and Henry VII. Oxford, 1837." 8vo.‡

"Heb law y cyhoeddiadau hyn o'r eiddo ei hun, cyfranodd yn helaeth i *Yorke's Royal Tribes*, *Carlisle's Topographical Dictionary of Wales*, *Owen and Blakeway's History of Shrewsbury*, *Lewis's Topographical Dictionary*, *Bingley's Tour*, y *Myvyrian Archæology*, y *Greal*, a'r *Mabinogion*; ac y mae'r *Cambrian Register* a'r *Cambrian Quarterly Magazine* dan ddyled iddo am lawer o gymmwynasau yn ychwanegol i'r erthyclau sydd ynddynt yn dwyn ei enw. Yn wir, nid ymddangosodd nemmawr o lyfrau yn dal perthynas â Chymru a'r cyffiniau, yn ystod hanner cyntaf y ganrif bresennol, heb iddo ef estyn ei gymmorth gwerthfawr iddynt; ond nid bob amser y mae'r sawl a gynnorthwywyd felly ganddo wedi gwneuthur cymmaint a chydnabod eu rhwymedigaethau iddo."

Byr iawn a fu afiechyd diweddaf Gwallter Mechain enwog. Cymmerwyd ef yn glaf ddydd Llun, a bu farw mewn tawelwch y dydd Mercher canlynol, sef y 5med o Ragfyr, 1849, yn 78 oed, ym Mhersondy Llanrhaiadr; a chladdwyd ef yn y fynwent honno, ar fin yr Afon Rhaiadr, dan gysgod ywen friglas, a blanasid dan ei arolygiad ef ei hun.§

† "Cyfieithwyd y gwaith hwn (yr hwn a gynnwys 258 o dudalenau, heb law 30 o ragarweiniad 'Y Cyfieithydd at y Cymry') ar gais Esgob Llanelwy, ac offeiriaid yr esgobaeth hóno. Cyhoeddwyd ef, yr un fath a'r llyfryn blaenorol, heb un enw cyfieithydd."—Gol. Gwaith W. Davies.

‡ "Y gwaith hwn a olygwyd ac a eglurwyd ganddo, mewn cyssylltiad â Thegid, dros Gymdeithas y Cymmrodorion."—Gol. Gwaith W. Davies.

§ Gwaith W. Davies, cyf. i., t. viii.-xii.; Williams's Em. Welshm., p. 555; Gwyddoniadur, cyf. x., t. 517; Enwog. Cymru, J. T. Jones, cyf. i., t. 132.

Digitized by Google

## ROBERT ROBERTS, CLYNOG.

Y gŵr enwog hwn ydoedd un o bregethwyr mwyaf effeithiol a dylanwadol yr ail do o Fethodistiaid Calfinaidd. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1786, pan yn 24 oed. Felly bu'n pregethu am o ddeutu pedair blynedd yn oes bregethwrol Daniel Rowlands, pum mlynedd yn oes bregethwrol Williams o Bant-y-Celyn, deng mlynedd yn oes bregethwrol Peter Williams, deuddeng mlynedd yn oes bregethwrol Christmas Evans,* ac wyth mlynedd yn oes bregethwrol John Elias; ac yn ol pob hanes am dano ef a hwythau, yr oedd yn gyfartal, os nad mwy na hyny mewn rhai pethau, i'r cyfryw "gawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny," sef "y cedyrn a fu wŷr enwog gynt."†

Mab oedd Robert Roberts i Robert Thomas a Chathrin Jones, o'r Ffridd, Baladeulyn, ymhlwyf Llanllyfni, sir Gaernarfon. Ganwyd Robert ar y 12fed o Fedi, 1762. Yr oedd ei dad a'i fam yn proffesu ar y pryd gyd â'r Methodistiaid, mewn lle a elwid Buarthau, ymhlwyf Llanllyfni. Dysgwyd Robert i ddarllen Cymraeg yn ieuangc gan ei dad a'i frawd hynaf, sef John Roberts, o Langwm wedi hyny. Pan oedd Robert yn 16 oed, denwyd ef gan ei frawd John i wrando y Parch. Dafydd Jones, o Lan-gan, mewn lle a elwid Bryn-yr-odyn, ger llaw Caernarfon, ac argyhoeddwyd ef i fywyd dan y bregeth honno. Ymunodd yn fuan wedyn â'r eglwys yn y Buarthau. Yr oedd efe ar y pryd yn gweithio yng nghloddfa lechi y Cilgwyn, yn agos i'w gartref.

Yn fuan wedi ymuno â chrefydd, gadawodd y gloddfa ar annogaeth ei deulu, ac aeth i weini at ffarmwr oedd yn byw mewn lle a elwid Cefnpencoed, yn Eifionydd, lle y bu am chwe blynedd o gwbl; ac ymunodd â'r gymdeithas grefyddol oedd ym Mrynengan, lle y cafodd bob tiriondeb a charedigrwydd gan y cyfeillion. Wedi hyny, cyflogodd i fyned yn ben-gwas (hwsmon) at John Prichard, o'r Coed-cae-du, ymhlwyf Llanystumdwy, tad y Parch. Richard Jones, o'r Wern. "Yr oedd efe erbyn hyn wedi dyfod yn ddŷn tal, cryf, bywiog, a gweithgar; o gynheddfau bywiog, a chof cryf anarferol; ac ysgrifenai y rhan fwyaf o bob pregeth a glywai," mewn "rhyw le a welai yn gyfleus," ar ol dychwel adref. Arferai aros ar ei draed yn hwyr iawn i ddarllen ac ysgrifenu, ar ol cadw noswyl; a phan ddywedodd ei frawd John wrtho unwaith y gallai hyny niweidio ei iechyd, dywedodd yntau, "Nid oes genyf fi fodd yn y byd i roi heibio ddarllen, gan y fath bleser yr wyf yn ei gael yn y Bibl."

Bu'n gwasanaeuthu, fel y crybwyllwyd, am tu a saith mlynedd; a'r flwyddyn ddiweddaf, ymosododd annwyd a pheswch trwm arno, a derfynodd yn grydcymmalau mor dost "nes ei wneuthur, o fod yn ddŷn lluniaidd a thal, yn grwbach byr a chrwca; a dyma agwedd ei gorph afiachus yn llafurio, holl ystod amser ei weinidogaeth." Yr oedd wedi gwneud ammod priodas cyn cael ei gymmeryd yn glaf; a chan fod y ferch ieuangc (ni fynegir pwy ydoedd, na pha beth oedd ei henw) yn barod i'w gymmeryd, "a'i wasaneuthu, ei garu, ei berchi, a'i gadw, yn glaf ac yn iach, er gwell er gwaeth, er cyfoethocach er tlotach," efe a'i priododd, pan oedd efe o gylch 23 oed, ac i dŷ ar dir Coed-cae-du, a elwid yr Ynys-galed, yr aethant i fyw; a dechreuodd efe bregethu ymhen tu a blwyddyn ar ol ymsefydlu yno. Ymhen rhyw yspaid wedyn, fel yr ymddengys, bu gyd â Mr. Richardson, Caernarfon, dros ychydig amser, yn dysgu Saesneg; a threuliodd rai blynyddau wedi hyny, yn yr Ynys-galed, i gadw ysgol Gymraeg, yr hon a gefnogid gan ardalwyr Eifionydd. Yn lled fuan ar ol iddo ddechrau yr ysgol, daeth deisyfiadau teurion arno i bregethu trwy holl Gymru, a threfydd Lloegr lle y preswyliai Cymry; ac o herwydd bod ei iechyd mor fregus, a'r galwadau am dano i bregethu mor fynych a theurion, barnodd y brodyr y byddai yn well iddo roi yr ysgol i fynu, ac aeth i fyw, ar annogaeth ei gyfeillion, i dŷ yn perthyn i Gapel-uchaf Clynog; ac yno, wedi bod o fendith anhreuthol i'r gymmydogaeth a'r holl wlad, "yr hunodd efe yn yr Iesu, ar yr 28fed o Dachwedd, 1802," yn y 40fed flwyddyn o'i oedran; a gadawodd wraig a phump o blant, heb law lliaws afrifed o gyfeillion, i alaru ar ei ol. O berthynas iddo fel pregethwr, dywed Eben Fardd fel hyn:—

"Tystiai ei gyd-weinidogion, ac eraill a'i hadweunent, 'ei fod fel rhyw lewyrch tanbaid yn ffurfafen yr eglwys, ac fel angel tanllyd yn ehedeg ynghanol y nef, a'i lef fel taranau cryfion yn erbyn Babilon fawr,' nes gwneud i'w wrandawyr braidd ddychymmygu bod adsain ei lef yn cydatteb o fryniau tragywyddoldeb, ac o fedd-gelloedd tanddeuarol merthyron a saint; pan ddywedir y byddai, ar amserau, 'y fath gyflawnder o arddeliad yn ymdywallt ar ei weinidogaeth nes y byddai ei natur yn methu ym-

* Dywedir mai marworyn oddi ar allor Roberts a daniodd enaid Christmas wrth wrando arno yn pregethu, ac a roddes y meddylddrych i'r "Bunyan Cymreig" hwnw, y dull drychfarddonol (*dramatical*) o draddodi pregethau.

† Gwel hanes ac amserau yr enwogion a nodwyd yn y gwaith hwn.

gynnal dano, a'r bobl yn llefain wrth yr ugeiniau a'r cannoedd, fel pe buasai gleddyfau yn eu trywanu, a'u dagrau yn rhedeg!' Pan ddywedir yr holl fawrion bethau hyn am dano, nis gwyddom beth i feddwl, na beth i farnu am ei nodweddiad, ei dalentau, a'i gyrreuddiadau. Yr ydym yn awyddus i wybod ei ddull personol, ei arferion neillduol, delw ei wynepryd, edrychiad ei lygaid, tôn ei lais, ysgogiad ei ddwylaw a'i ben; ïe, blinder yspryd yw ei gofio ynglŷn â'i fawredd hwn, heb fod genym ryw gynddrychioliad o hono mewn ffurf hefyd, a ddygai ar gof ac ar ddeall i ni ryw olygiadau cywir a manwl am ansawdd y dŷn rhyfedd hwn."

"O ran ei gymmwysderau i'r weinidogaeth," medd R. Jones, o'r Wern, "er ei fod, o ran agwedd ei berson yn wael, etto yr oedd ei lais yn glir, ei barabl yn groyw, ac o gof da; ac er nad oedd yn deall ffugeiriau [ffugyrau?] areithyddiaeth, etto yr oedd yn eglur i bawb ag oedd yn eu deall eu bod fel ffrydiau yn tryloywi yn naturiol ynghymhwysder ei eiriau, a phriodoldeb ei gyffelybieuthau, a phwys ei resymau; ac yn enwedigol pan y byddai llewyrch yr arddeliad ar ei yspryd; a chyd â hyn, yr oedd bywiowgrwydd ac eondra digonol yn ei yspryd a'i wynepryd."

Y mae Eben Fardd yn heleuthu yn hyawdl, fel y medrai efe wneuthur ar bapur, ar gymmwysderau areithyddol Mr. Roberts, gan seilio ei syniadau, yn benaf, ar y difyniad uchod; ond ni oddef lle i ni ddodi ond talfyriad o'i sylwadau craffus yma, fel y canlyn:—

"1. Eondra a bywiowgrwydd yspryd ac wynepryd. Y dewrder moesol hwn sydd anhebgorol i bregethwr tu ag at fod yn llwyddiannus ac effeithiol. Arwydda deimlad a chydwybodolrwydd o wirionedd a phwysfawredd ei genadwri, arbenigrwydd ei orchwyl, a difrifolrwydd ei amcan; ac yn ei effeithiau, tuedda i orchfygu a darostwng y gwrandawyr, fel ag i'w tymheru i ymroddiad a goddefolrwydd tawel ac ewyllysgar. . . . . .

"2. Llais. Nid oes, fe allai, unrhyw allu, neu briodoliaeth, o fwy canlyniad i bregethwr na'i lais; ac, yn wir, i bob areithiwr cyhoeddus. Y mae pregethwyr yn fynych, trwy bereidd-der eu lleisiau, megis rhinwyr a swynwyr cyfarwydd, yn denu y glust i wrandawiad dyfal a hyfrydol ar yr hyn, pe'i traddodasid mewn llais cyffredin, na buasai ond suo y gwrandawyr i gysgu; pan, ar yr un pryd, y mae'r meddwl yn ymsefydlu, a'r teimlad yn ymdoddi, uwch ben golygiëydd, y rhai, pe darlunasid hwynt mewn rhyw sain anhynod, diaddurn, a diberoriaeth, na buasent byth yn ennyn sylw na dyddordeb. Ond dywedai amryw o hen wrandawyr Mr. R. bod ganddo ef lais clir, llyfn, ystwyth, a threiddiol; uchel yn gyffredin, ac ar amserau yn dra uchel a pherorieuthol.

"3. Parabl. . . . . Er nad yw dynion yn gyffredin yn bareblwyr da a chroyw, . . . . etto y mae dynol ryw yn gyffredin yn meddu gallu i werthfawrogi y gyfryw ddawn; ac y mae'n ddawn a ennill i'w meddiannydd bob amser ffafr yngolwg ei wrandawyr, tueddrwydd at ei wrando, a chymmeradwyaeth i'w dreuthiad, pa un bynag a wneir ai credu ai anghredu sylwedd ei genadwri. Dibyna y weithred olaf hon, mewn ystyr ysprydol, ar achosion eraill. Yr oedd gan Mr. Roberts 'barabl croyw.'

"4. Cof. . . . . Wele etto elfen arall a gyfranogai efe at wneud i fynu ei boblowgrwydd. Y mae cof da yn hanfodol angenrheidiol i wneud i fynu siaradwr cyhoedd da. Dylai y cyfryw gynnwys, mewn trefn a dosparth, bob hyspysrwydd ag a allai fod, mewn un modd, yn wasaneuthgar, neu gynnorthwyol i dreuthiad hyawdl a hylithr: dylai lleaf y defnyddiau yn y cof fod yn drefnus a dosparthus, tu ag at eu gwneud yn gwbl barod at gyrchiadau byrbwyll a disymmwth y meddylfryd yn nilyniad prysur gwahanrywiol. . . . .

"5. Rhesymiaeth. Awgrymir i ni ei fod yn meddu medrusrwydd a deheurwydd cynhenid mewn rhesymiaeth ac areithyddiaeth, a hyny i raddau lled helaeth; a rhaid ei fod: meddyliem y buasem yn cael ein harwain yn naturiol i briodoli hyn iddo, pe nad awgrymasid dim yn ei gylch; o blegid oni buasai yn meddu y medrusrwydd a nodwyd, ni buasai yr 'eondra a'r bywiowgrwydd' a grybwyllwyd ond cyflymu ei gwymp i wrthuni meddyliol, anghyssondeb geiriol, a chwyddiaith ddïystyr a dieffaith; ïe, ni buasai ei 'gof da,' a'i 'lais clir,' a'i 'barabl croyw,' ond cynnifer o foddion i'w chwyrn-luchio i dreuthiadau anghyssylltiol cymmysglyd a thywyll. . . . .

"Gwahanieuthid ei nodweddiad yn neillduol trwy'r pethau canlynol:—Carueiddrwydd tymmer, brydfrydedd a gwresowgrwydd yspryd a theimlad, mwydolrwydd ei enaid a'i feddwl yn sylwedd ei bregethau, a bywiowgrwydd ac ennynolrwydd ei nwydau a'i deimladau.

"Ei alluoedd cyffroadol, trwy y rhai yr oedd, fel yr angel gynt, 'yn gwnenthur yn rhyfedd,' yn fwyaf arbenig, oedd y rhai hyn:—Edrychiad llym, deffrous, awdurdodol, a threiddgar; cyfarchiadau byrbwyll, brawychus, awdurdodol, a threiddgar; ystumiau corphorol, amlygiadol o ansawdd a sylwedd yr hyn a dreuthai; a dyspeidiadau [tewi] disymmwth ac annisgwyliadwy ynghanol treuthiad gwresowglym a thanbaid; ac yr oedd ei 'wylo,' am ei fod yn tarddu o'r galon, yn dra nodedig o effeithiol a thoddiadol. . . . .

"Weithiau, byddai darlleniad ei destyn yn unig yn peri effeithiau rhyfeddol. Yr ydym yn hyspys trwy ffafr un oedd yn gwrando arno ar y pryd am un tro y darllenai yn destyn y geiriau canlynol:—'Brasâ galon y bobl hyn,' &c. Darllenai gyd â'r fath gyffroad, ac mewn dull mor danllyd ac effro, ag a wnelai i'w wrandawyr deimlo yn y fan y fath iasau o fraw a dychryn ag a barai i'w calonau ddirgrynu o'u mewn. Dro arall darllenai y geiriau hyn yn destyn: —'Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd,' &c. Yn ebrwydd annerchai ei wrandawyr mewn dull tra chyffröus, gan weiddi allan 'Bobol! bobol! bobol! dyma fôr heb waelod iddo: trwy gymmorth Duw myfi a anturiaf i'w gwr. Deliwch eich golwg arnaf bobol!' yr hyn a effeithiai gynnwrf brawychus trwy'r holl gynnulleidfa. Adroddir am dano yn pregethu amser arall yn ei ddull bywiog, llym, a thanbaid; pan, ynghanol ei hyawdledd cyffröus, y gogwyddai ei ben yn ddisymmwth yn lled isel, ac arhosai yn yr agwedd honno am ennyd bach, heb yngan gair; yna cododd ei ben, a gwaeddodd dair gwaith, 'Ust! ust! ust! Pa beth yw'r swn a glywaf?' Ar hyn bloeddiai yn uchel a tharanllyd, 'Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau tân a brwmstan,' &c., nes dryllio yr holl gynnulleidfa. Dro arall darluniai Jona yn cael ei daflu i'r môr, a'r morfil yn ei lyngcu, ac yn trywanu gyd âg ef trwy'r dyfnder nes oedd y dyfroedd yn 'frigwyn,' gan weiddi yn ei agwedd, 'Cliriwch y ffordd i *fessenger* y brenin!' a Jona oddi mewn yn llefain, 'Teml! teml! teml!' Ei ddull nefolaidd a thyner, a'i lais peraidd, lleddf, a thoddedig yn ail adrodd y gair 'Teml' a barai effaith nodedig o gyffröus a hyfrydlawn."

Ond rhaid i ni ymattal o ddiffyg lle. Ymddengys, mewn gwirionedd, y gallai'r dŷn rhyfedd, digoleg, a duwiolfryd hwn wneud i'w wrandawyr lefain mewn dychryn, neu orfoleddu mewn llawenydd, wrth weuddi "Bobol! bobol! bobol!" neu "Ust! ust! ust!" neu "Teml! teml! teml!" fel y medrai Whitfield wneud i'w wrandawyr yntau orfoleddu trwy lefain "Macedonia!" Gresyn na bai mwy o bregethwyr cyffelyb iddynt yn yr oes oerllyd, seremonïol, a mursenaidd hon!

Digitized by Google

Cafodd Eben Fardd rai esamplau o bregethau y gŵr enwog hwn "yn ei ysgrifen ef ei hun. Ymddengys mai ychydig iawn a fyddai yn ysgrifenu o honynt; ac nid oedd ei ysgrifen, debygid, o nemmawr help iddo." Pa wedd bynag, dengys yr ychydig hyny ei fod yn ŵr hynod o graffus a chynnefin iawn yn yr Ysgrythyrau. Wele un esampl:—

"Luc ii. 14. 'Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw,' &c. Dyma anthem foreuol a ganwyd uwch ben genedigaeth Crist.

"Yn I. Am gantorion yr anthem hon: yr angylion. Pan osododd Duw sylfaeni y ddaear, yr oedd yr angylion yno yn canu, 'Pan gydganodd ser y borau,' &c. Job xxxviii. 7.

"Pan yr oedd y Salmydd yn prophwydo am osod sail yr eglwys efengylaidd, cawn yno gantorion. Psal. lxxxvii. 7. Pan y dywedir yn ganlynol am sylfaen yr eglwys, sef 'y maen a wrthododd yr adeiladwyr,' &c., dyna yr anthem allan, 'Gorfoleddwn a llawenychwn ynddo.' Psal. cxviii. 22-24. Pan osodwyd sylfaen yr ail deml, O! y floedd oedd yno. Ezra iii. 10. Pan y gosodo Duw sylfaen, fe gred ffydd y daw y gwaith i ben. Zec. iv. 7. Felly, pan oedd sylfaen Sion Duw yn Ddyn bach yn y cadachau, dyma angylion yn canu. Fe elwir Crist yn gareg. Zec. iii. 9. Fe'i torwyd o fynydd cyfammod tragywyddol Duw; fe'i cawd ym Methlehem. Arglwydd y lluoedd a naddodd naddiad y gareg yma, i ddangos mai o Dduw yn unig yr oedd y dwyfol genhedliad yn y groth, &c. Yr oedd saith o lygaid i'r gareg, i ddangos fod holl gyflawnder perffeithrwydd y Duwdod yn y dyn bach; ac i ddangos hefyd y byddai llawer o edrych ar Grist, megis gan y nefoedd, yr holl briodoliaethau, yr addewidion, y prophwydoliaethau, y ddeddf farnol, &c.

"I hwn y canodd yr angylion anthem. Canwn ninnau ei glod dyledus.

"II. Ymha le y canwyd yr anthem gyntaf? Canwyd hi ar faesydd Bethlehem i fugeiliaid.

"1. I ddangos i ni mai dynion wrth ryw alwedigaeth gyfreithlawn sydd debycaf o roi clust i'r efengyl.

"2. I ddangos dirgelwch, bod y Bugail mawr yn ymddangos i'r bugeiliaid bach.

"3. Bod trefn Duw yn *ddi-altro*. I fugeiliaid y datguddiwyd Crist yn gyffredin dan yr hen oruchwyliaeth: Abel, y Patriarchiaid, Moses, Dafydd, &c.

"4. I ddangos fod Duw am wneud cyfeillach â thlodion y byd.

"III. Pa beth yw swm yr anthem? [Nid oes dim ar lawr dan y pen hwn."]

Dewi Wyn a ddywed am yr efengylydd nefolaidd hwn fel y canlyn:—

"Danfonodd Duw e'n genad wisgi,
Drwy ei odidog awdurdodi:
Tywalltodd olew'r Gair yn ffrydiau,
Fel gwin addfed i'w gynheddfau: . . .
Yr Ysbryd Glân, fel fflam wresogol,
Oedd yn tanio'i enaid doniol;
I gadarnhau'r gwan dan yr iau.
Ei ddoniau ymfyddinent;
Ei ymysgaroedd a esgorent
Ar dosturi, a dwys dorent.

"Ei goeth ergydion ef a'i saethau,
Miniog glynent mewn calonau:
Fe ga'dd fwynhau, bendithion clau,
Y dyddiau diweddaf:
Ond yn ei flodau, gefn cynheuaf,
Hunodd Robert! hyn ddiarhebaf. . .
"Yn lle'r cledd tân, fe gafodd gân,
Nefolaidd, lân filwr." *

GEORGE LEWIS, D.D.

Unig blentyn ydoedd y gŵr enwog hwn i Wiliam a Rachel Lewis, y rhai oedd yn byw mewn tyddyn a elwid y Coed, yn agos i dref Caerfyrddin. Ganwyd George yn y fl. 1763. Yr oedd ei fam yn aelod dichlynaidd o Eglwys Loegr; ac yr oedd ei dad yn ŵr bucheddol, er nad oedd efe yn proffesu crefydd hyd ymhen llawer o flynyddau ar ol genedigaeth ei fab. Arferai George, pan yn blentyn ieuangc, fyned gyd â'i fam i Eglwys y Plwyf, yr hon a ymdrechai greu parch yn ei feddwl at yr eglwys honno.

Rhoddwyd George mewn ysgol yn dra ieuangc gyd â'r Parch. John Prichard, person plwyf Trelech. Wedi hyny bu dan addysg y Parch. Thos. Evans; y Parch. Owen Davies, gweinidog yr Annibynwyr yn Nhrelech; ac yna gyd â'r Parch. John Griffith, gweinidog yr Annibynwyr yn Glandwr, sir Benfro, yr hwn yr oedd ei glod fel athraw yn hyspys trwy'r holl wlad, fel y gwelsom.† Yr oedd George Lewis yn dra astud gyd â'i lyfrau, a dichlynaidd ei fuchedd o'i febyd; ond pan oedd tu ag 16 oed yr argyhoeddwyd ef i fywyd, wrth wrando rhyw bregethwr Annibynol enwog yn Nhrelech, enw yr hwn, ysywaeth, nid yw hyspys. Ymroddes George yn ebrwydd ar ol cael ei argyhoeddi i ddarllen y Testament Newydd a Holwyddoreg Palmer ar drefn eglwys; ac ar ol cael ei argyhoeddi mai'r drefn Annibynol sydd yn ol yr Ysgrythyrau, ymunodd, pan oedd tu a 17 oed, â'r Annibynwyr yng Nghapel y Graig, Trelech, lle'r oedd Mr. Owen Davies yn weinidog. Ymunodd ei dad yn lled fuan wedyn â'r un eglwys; ond parhaodd ei fam yn aelod ffyddlon o Eglwys Loegr hyd ei bedd.

Yn lled fuan wedi iddo ymuno â'r eglwys, annogwyd ef i ddechrau pregethu, â'r hyn, wedi iddo bwyllog ystyried y peth, y cydsyniodd yntau. Annogwyd ef wedyn i fyned i'r athrofa; ond er mwyn bod yn gymhwysach i fyned yno, aeth i ysgol enwog Davies, Castell-Howel, am flwyddyn; ac yn Awst, 1781, derbyniwyd ef i Athrofa Caerfyrddin, lle y derbyniodd gymmeradwyaeth uwchaf yr athrawon, Mri. Gentleman a Davies. Bu yn yr athrofa honno am dair blynedd, sef hyd oni

* Cofiant Robert Roberts, 1829; Gweithiau Barddonol, &c., Eben Fardd, t. 471; Blodau Arfon, 1869, t. 176; Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 69; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 506.

† Gwel pen. viii. o'r llyfr hwn, y vi.

symmudwyd hi i Abertawe. Wedi iddo orphen ei addysg, annogwyd ef gan Samuel Jones, Pont-y-pwl, i fyned ar daith trwy'r Gogledd, â'r hyn y cydsyniodd yntau; ac yn 1784, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Annibynol fechan Caernarfon, a bu yn dra llafurus a llwyddiannus yno, a'r holl wlad oddi amgylch, am tu a naw mlynedd. Dywedir mai efe a fu'n foddion, yn ystod yr amser y bu yng Nghaernarfon, i sefydlu eglwysi Annibynol ym Mangor, Bethel, a Bethesda, a'i fod hefyd yn cadw ysgol yng Nghaernarfon. Yn yr adeg yma, priododd Miss Jane Jones, merch Mr. Thomas Jones, Bodermid, yr hon a fu'n ymgeledd gymmwys iddo hyd ei farwolaeth, a bu hithau farw yn fuan ar ei ol.

Yr oedd yn adeg gynhyrfus iawn, mewn ystyr wladol a chrefyddol, pan oedd George Lewis yng Nghaernarfon. Yn y fl. 1783, o gylch blwyddyn cyn iddo fyned yno, y digwyddodd y chwyldroad Americanaidd, ac y cyhoeddwyd llywodraeth werinol yr Unol Daleithiau; ac yn 1789, ymhen tu a phum mlynedd wedi iddo ymsefydlu yno, y cyhoeddwyd gwerinlywodraeth Ffraingc; ac o herwydd y deddfau gormesol a osodid ar Ymneillduwyr yn y wlad hon y pryd hyny, penderfynodd George Lewis ymfudo i'r America, gan ei fod yntau yn werinwr eiddgar o ran ei syniadau gwladol. Dan ddylanwad yr amgylchiadau hyn, hyspysodd eglwys Annibynol Caernarfon ei fod yn rhoddi ei le i fynu yno, er mwyn myned i'r America. Ond pan oedd ar fin ymfudo, perswadiwyd ef yn ddifrifol, gan y Dr. Ed. Williams, o Rotherham, a chyfeillion eraill, i aros yng ngwlad ei enedigaeth, lle yr oedd mawr angen am ei lafur. Yn y cyfamser, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Annibynol Llanuwchllyn, sir Feirionydd, i'r lle y symmudodd ym mis Mawrth, 1794, a bu yno yn ddiwyd, derbyniol, a llafurus iawn, fel pregethwr ac awdur, hyd y fl. 1812.

Ymddengys mai yn ystod ei arhosiad yn y fangre dawel, fynyddig yma, yr ysgrifenodd yr awdur dysgedig a diwyd y rhan fwyaf o lawer, os nad yr holl, lyfrau a gyhoeddwyd ganddo, oddi eithr, ond odid, y rhanau olaf o'i "Esponiad ar y Testament Newydd." Y mae genym sicrwydd am y rhai canlynol:—

"Drych Ysgrythyrol, neu Gorph o Ddifinyddiaeth. Yn cynnwys Eglurhad a Phrawf o Amrywiol Ganghenau yr Athrawiaeth sydd yn ol Duwioldeb. Yn Chwech Rhan. Gan George Lewis, Gweinidog yr Efengyl yn Llan-uwchllyn. Caerlleon, 1797."* 8plyg.

Ar ddiwedd llyfryn a elwir "Henuriaid ym mhob Eglwys, neu Sylwedd Pregeth ar Actau xiv. 23. . . . Gan George Lewis, Gweinidog yr Efengyl yn Llanuwchllyn. Bala, argraffedig gan R. Saunderson, 1810," ceir y rhestr ganlynol o "Lyfrau a gyhoeddwyd gan G. Lewis," heb amseriad wrthynt; ond y mae'n amlwg iddynt gael eu cyhoeddi oll cyn 1810:—

| | | s. | c. |
|---|---|---|---|
| 1. | Esponiad ar Mathew, Marc, a Luc, . . . | 8 | 6 |
| 2. | „ ar Ioan a'r Actau,. . . . . | 10 | 0 |
| 3. | „ ar y Rhufeiniaid, . . . . . . | 8 | 0 |
| 4. | Corph o Ddifinyddiaeth, . . . . . . . | 7 | 0 |
| 5. | Gogoneddus Ddirgelwch Trugaredd Duw, . | 1 | 2 |
| 6. | Cyfiawnhad trwy Ffydd, . . . . . . . | 1 | 0 |
| 7. | Galwad Gyffredinol yr Efengyl, . . . . | 0 | 6 |
| 8. | Gorfoledd Crist yn y Nef, . . . . . . | 0 | 6 |
| 9. | Athrawiaeth Etholedigaeth, . . . . . | 0 | 6 |
| 10. | Henuriaid yn mhob Eglwys,. . . . . . | 0 | 6 |
| 11. | Arweinydd i'r Anwybodus,. . . . . . | 0 | 6 |
| 12. | Catecism y Gymmanfa, . . . . . . . | 0 | 4 |
| 13. | Galwad ar Ieuenctid i gofio eu Creawdwr, . | 0 | 3 |
| 14. | Catecism Athrawiaethol ac Ymarferol, . . | 0 | 2 |
| 15. | Catecism Eglwysig,. . . . . . . . . | 0 | 2 |
| 16. | Hymnau i'r Ysgolion Sabbothol, . . . . | 0 | 2 |
| 17. | Arweinydd i Blentyn, . . . . . . . . | 0 | 1 |

Dywedir mai yn y flwyddyn hon (1810) y "graddiwyd ef â'r titl o D.D., gan un o Brif Athrofäu America, ac na bu neb ym mysg ein cenedl y teimlid yn gyffredinol fod yr anrhydedd yn gorwedd yn esmwythach arno." Dywedir y bu'r awdur galluog yn llafurio ar ei brif waith, sef ei "Esponiad ar y Testament Newydd," am *ugain mlynedd*, yr hwn a gyhoeddwyd yn saith gyfrol 8plyg. Felly, dechreuodd ar y gwaith mawr a godidog yma mor forau a'r fl. 1802, ymhen tu ag wyth mlynedd ar ol ymsefydlu yn Llanuwchllyn. Bu'r Dr. Lewis farw cyn gorphen y gyfrol ddiweddaf o'r Esponiad, yr hon a orphenwyd gan ei fab ynghyfraith, y diweddar Barch. Ed. Davies, yr hwn a'i canlynodd ef yn llywyddiaeth y coleg yn y Dref Newydd, ac wedi hyny yn Aberhonddu. Bu Mr. Davies farw yn 1867.†

Ymddengys y bwriadai'r Dr. Lewis dreulio ei oes allan yn Llanuwchllyn. Yr oedd y bobl yn dra hoff o hono, ac yr oedd yntau yn hoff iawn o honynt hwythau a'r ardal. Yno yr oedd efe wedi magu mwyaf ar ei blant;‡ yno y daeth yn

* Y mae'r copi sydd ger ein bron o'r gwaith godidog yma, yr hwn a argraphwyd, fel y dywedir uchod (a chredwn mai hwn yw'r argraphiad cyntaf), yn cynnwys 527 o dudalenau, 8 tudalen o arweinolion, a 5 o olddodion. Dengys Gwilym Lleyn (Llyfr. y Cymry, t. 699) yr argraphwyd y gwaith yn y "Bala, 1796;" ond credwn mai camhyspysiad yw hyny, canys nid oes dim arwydd yn "Rhagymadrodd" yr awdur, sydd yn ein copi ni, a amserwyd yn "Llan-uwch-llyn, Gorph. 1, 1797," i argraphiad blaenorol ymddangos.

† Llyfr. y Cymry, t. 700, nod *.

‡ Bu iddo dri o blant, sef dau fab ac un ferch. George, yr hynaf, oedd feddyg cymmeradwy yng Ngwrecsam; William oedd feddyg enwog yn Llundain; a Sara oedd wraig Mr. E. Davies, A.C., athraw classurol Athrofa Aberhonddu, y crybwyllwyd o'r blaen am dano.

Digitized by Google

enwog fel awdur y llyfrau cymmeradwy a nodwyd; yno y treuliasai flynyddau dedwyddaf ei oes; ac am hyny yno, fel yr awgrymwyd, y llwyr fwriadai derfynu ei yrfa.

Pa wedd bynag, tu a diwedd y flwyddyn 1811, cafodd y Dr. Jenkin Lewis, athraw Athrofa Gwrecsam, alwad gan goleg newydd Manceinion (*Lancaster College* yn awr) i fyned yn athraw yno, a chydsyniodd yntau. Yn y cyfyngder yma, appeliwyd at y Dr. George Lewis gan lïaws o Annibynwyr cyfrifol yn Llundain a Chymru, megis y Dr. Williams, o Rotherham; y Dr. Pye Smith; Griffith, o Gaernarfon; Roberts, o Lanbryn-mair, a llïaws eraill, i erfyn arno, fel y cymhwysaf y gwyddid am dano, fel ysgolhaig a duwinydd, fyned yn athraw i'r athrofa yng Ngwrecsam; â'r hyn, o barch i alwad ei frodyr, yr hwyrfrydig gydsyniodd yntau. Symmudodd yno yn nechrau Ionawr, 1812, a rhodd yr eglwys Annibynol yno alwad unfrydol iddo i fod yn weinidog iddi hithau

Yr oedd y Dr. Lewis o gyfansoddiad cryf, yn ŵr tal a heinif, heb wybod braidd ddim am afiechyd yn yr ardaloedd iachus y buasai ynddynt; ond o herwydd gormod llafur, a diffyg ymarferiad yn yr awyr agored, dechreuodd ei iechyd edwino yn lled fuan ar ol ymgyfyngu i'r athrofa yng Ngwrecsam; ac o'r diwedd, wrth ymdeimlo yn gwaethygu beunydd, penderfynodd roi ei le i fynu, ac ymsefydlu mewn rhyw ardal fwy agored ac iachus. Ond mor gymmeradwy oedd efe gan bwyllgor yr athrofa, a'r fath ddylanwad oedd ganddo ar y myfyrwyr, y rhai a dybient nad oedd ŵr cyffelyb iddo ar y ddeuar, fel na wrandawid ar ei gais i roi yr athrofa i fynu gan neb a berthynai iddi; ond cynhygid iddo gael ei symmud hi i'r fan a fynnai. Dewisodd yntau Lanfyllin, yn sir Drefaldwyn; ac yn nechrau y fl. 1816, trosglwyddwyd hi yno. Tybir iddo wella dros ychydig amser ar ol symmud i Lanfyllin; ond erbyn diwedd y fl. 1818, yr oedd cyn waned, os nad gwanach, a phan yr ymadawodd o Wrecsam. Canfu erbyn hyn nad y lle, ond y gwaith, oedd yn effeithio ar ei gyfansoddiad, a chynhygiodd ei swydd i fynu eilwaith; ond y fath oedd y parch ato gan noddwyr yr athrofa fel, yn lle derbyn ei ymddiswyddiad, y trefnasant iddo gael athraw cynnorthwyol, er mwyn lleihau ei lafur. Ond er newid lle, a lleihau ei lafur, yr oedd wedi adfeilio cymmaint erbyn y fl. 1820 fel yr ofnid am ei adferiad. Yr oedd un o feibion y Dr. Lewis wedi ymsefydlu erbyn hyn fel meddyg yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, a thybiodd yntau y byddai yn fanteisiol iddo gael bod yn agos ato; am hyny, ym Medi 1821, symmudodd ef a'r athrofa yno, ond ni thyciodd hyny chwaith i adfer iddo ef ei iechyd. Cyn pen naw mis wedi iddo ymsefydlu yn y Drefnewydd, cymmerwyd ef yn glaf iawn; ac wedi un diwrnod ar bymtheg o gystudd trwm, efe a hunodd yn dawel yn yr Arglwydd, ar y 5med o Fehefin, 1822, yn 59 oed, er colled a galar dwys i holl Annibynwyr ei wlad.*

---

## PENNOD XVI.

### DAVID PETER, CHRISTMAS EVANS, JOHN ROBERTS, A THOMAS PHILLIPS, D.D.

GANWYD DAVID PETER (Dafydd Petr) ar ddydd Llun, y 5med o Awst, 1765, yn Aberystwyth, sir Aberteifi. Saer llongau oedd ei dad o Landudoch, sir Benfro, yr hwn a aeth i Aberystwyth i ddilyn ei alwedigaeth, lle y priododd ferch o Fachynlleth, sir Drefaldwyn, yr hon a aethai i Aberystwyth at berthynas iddi; ac yr oedd hi a'i gŵr yn aelodau zelog o'r Eglwys Sefydledig.

Anfonwyd Dafydd, eu hunig fab, i ysgol yn Aberystwyth cyn gynted ag y gallodd gerdded; ond ni ddysgodd efe odid ddim yn honno ond i gasâu ysgol, o herwydd bryntwch yr athraw; eithr gwnaeth cofio am hyny mewn amser dyfodol les iddo.

Symmudodd rhieni Dafydd yn 1772, pan oedd efe yn 7 oed, i'r Ceinewydd, yn sir Gaerfyrddin, i ddilyn ei alwedigaeth fel saer llongau, a bu yn lled lwyddiannus yno. Derbyniodd Dafydd yr addysg orau a allai ysgolion yr ardal honno ei rhoddi iddo; a chan fod ei dad yn awyddus am ei ddwyn i fynu i offeiriadaeth Eglwys Loegr, rhoddai bob cefnogaeth iddo ddilyn ei lyfrau. Dechreuodd argraphiadau crefyddol dwysion ar ei feddwl mor forau ag 1775, pan oedd efe tu a 10 oed, ac ni lwyr ddilewyd hwy byth o'i feddwl. Pan oedd yn 14 oed, dymunai fyned yn llongwr; ond ni fynnai ei rieni iddo fyned i'r môr ar un cyfrif. Pan soniodd am ddysgu galwedigaeth ei dad, dywedodd ei rieni y gobeithient allu ei ddwyn i fynu at ryw alwedigaeth ragorach. Ymrôdd yntau wedyn yn fwy egnïol nag erioed i ddysgu ei lyfrau; ac ym mysg pethau eraill, i ddysgu Groeg

* Williams's Em. Welshm., p. 271; Henuriaid yn mhob Eglwys, gan George Lewis, t. 48; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 561; Llyfr. y Cymry, t. 699; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 385; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 169.

Digitized by Google

a Lladin. Yn 1782, aeth i ysgol enwog y Parch. D. Davies, Castell-Howel, lle y cynhyddodd yn gyflym mewn dysg a gwybodaeth. Tra'r oedd yng Nghastell-Howel y daeth i gydnabyddiaeth gyntaf â'r Ymneillduwyr. O gylch y pryd hyn, cafodd gyfleusdra i wrando Mr. B. Evans yn pregethu, pan y llwyr argyhoeddwyd ef o wirionedd egwyddorion yr Annibynwyr; ac ym mis Mawrth, 1783, derbyniwyd ef yn aelod eglwysig ym Mhenrhiwgaled. Pan ddeallodd ei dad hyny, dywedodd wrtho, "Wel, Dafydd bach, y mae'n deg i ti gael dewis crefydd drosot dy hun, a bydd dy dad yn berffaith foddlon ond i ti fod yn dedwydd a defnyddiol." Da iawn yr hen Eglwyswr! Bu ei dad farw yn lled fuan ar ol hyn, ac yr oedd ei fam gall a duwiol wedi marw er ys rhai blynyddau yn flaenorol. Dechreuodd bregethu tu a diwedd 1785; ac aeth ar ei draul ei hun i Athrofa Caerfyrddin, oedd dan ofal Mr. R. Gentleman. Wedi symmud yr athrofa i Abertawe, derbyniwyd ef iddi ar draul y Bwrdd Presbyteraidd; ac yn 1789, dewiswyd ef yn athraw cynnorthwyol yn yr athrofa.

Ar y 19ydd o Ragfyr, 1791, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Heol Awst, Caerfyrddin; ac ar yr 8fed o Fehefin, 1792, urddwyd ef yn weinidog iddi. Tu a deugain oedd nifer aelodau yr eglwys pan aeth Mr. Peter yno; ac nid oedd y gwrandawyr oll dros gant o nifer. Bu ei lafur ef mor llwyddiannus yno, fel y bu raid ehangu y capel ddwy waith yn ei oes ef, sef yn 1802 ac yn 1826; ac yr oedd nifer yr aelodau dros 600 pan fu efe farw. Yn y fl. 1796, symmudwyd yr athrofa o Abertawe yn ol i Gaerfyrddin, a dewiswyd Mr. Peter yn athraw; a bu yn y swydd uchel honno hyd y fl. 1835, yr yspaid o 39 blynedd, heb law y ddwy flynedd y bu yn athraw cynnorthwyol yn Athrofa Abertawe, yr hyn, ynghyd â'i lwyddiant fel gweinidog yr eglwys, a brawf ei fod yn ddŷn tra rhagorol.

Bu Mr. Peter yn briod ddwywaith. Enw morwynol ei wraig gyntaf oedd Sara Llewelyn, merch William Llewelyn, masnachydd haiarn yn nhref Caerfyrddin, a gweddw y Capten Lewis. Wedi i'r wraig rinweddol hon fyw yn gysurus gyd âg ef am 25 mlynedd, bu hi farw yn y fl. 1820. Ar y 18fed o Orphenaf, 1822, priododd Mr. Peter yr ail waith â Charlotte, merch hynaf Mr. Nott, Pontgarreg, a chwaer Syr William Nott, y cad-lywydd. Bu hithau farw yn 1834. Gwaelodd iechyd Mr. Peter yn gyflym ar ol marwolaeth ei wraig, ac annogodd yr eglwys i ddewis gweinidog yn ei le; ac ar y 30fed o Fai, 1835, rhoddes ei swydd fel athraw yn yr athrofa i fynu. Parhaodd i waelu yn araf ac ymroddgar ar ol hyn; ac ar y 4ydd o Fai, 1837, bu farw mewn tangnefedd heddychol, ac efe yn 72 oed. Claddwyd ef yn Heol Awst, lle y mae maen mynor hardd wedi ei osod i fynu gan yr eglwys er coffadwriaeth am dano.

O ran gwneuthuriad ei gorph, yr oedd Mr. Peter yn gryf a lluniaidd: yr oedd ei holl symmudiadau yn foneddigaidd a thyner, ac yr oedd yn bwyllog a phenderfynol yn ei holl gyflawniadau. O ran ei syniadau duwinyddol, yr oedd o'r un ysgol ag Andrew Fuller a'r Dr. Edward Williams. Yr oedd ei bregethau bob amser yn sylweddol a golau. Bu drwy ei oes yn un o brif bleidwyr rhyddid gwladol a chrefyddol. Argraphwyd llawer o'i bregethau a'i areithiau. Rhoddir canmoliaeth uchel i'w bregeth ar "Y Dydd yn Gwawrio." Ond ei brif waith yw y llyfr canlynol:—

"Hanes Crefydd yng Nghymru, o'r amser y daeth y Cymry i Ynys Brydain hyd y flwyddyn 1816."

Argraphwyd y gwaith y tro cyntaf yn y flwyddyn a nodwyd (1816), ac ail argraphwyd ef yn 1851, gyd âg ychwanegiadau a gwaethygiadau gan un D. Davies. Cynnwys yr ail argraphiad (nid yw'r cyntaf at ein llaw) 275 o dudalenau 8plyg, 16 o dudalenau o arweinolion, a 22 o dudalenau o attodiad, oll yn 323 o dudalenau. Dengys y gwaith ol llafur mawr, ac y mae'n gronfa o wybodaeth werthfawr. Nid ystyrir ef yn gyfansoddiad llenyddol gwych iawn, ac nis gellir ymddiried i'w amseriadau a'u ffugrau bob amser. Mr. D. Morgan a ddywed am y gwaith fel hyn:—

"Nid yw ei wir gymmeriad [gwir gymmeriad yr awdur] yn ymddangos ynddo na thrwyddo. Nid oes amheuaeth nad yw'r llyfr yn cynnwys llawer o bethau da, angenrheidiol i ddynion eu gwybod: y mae'n goflyfr defnyddiol o amseriad pethau a gymmerasant le yn y byd mewn amser hen a diweddar; ond y cymmysgedd anphilosophaidd a gynhwysa, a'r dull anghelfydd ac anhrefnus y gosodir hwy wrth eu gilydd, sydd yn ei wneud, feddyliem, yn ambriodol i'r amcan, ac yn siomedig i'r darllenydd."*

Tybiwyd bod cymmaint a hyn o ocheliad i'r darllenydd yn angenrheidiol, er bod y llyfr yn gofgolofn o lafur mawr.

### CHRISTMAS EVANS.

Wele ni yn awr yn cyfarfod un o'r tri phregeth-

* Traeth. ar Ymneillduaeth, D. Morgan, t. 431; Han. Bywyd D. Peter, ganddo ef ei hun; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 382; Williams's Em. Welshm., p. 403; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 434: En. Cymru, I. F., t. 825; En. Sir Aberteifi, G. J., t. 120; Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 855; Ysgrif y Dr. Pan Jones.

Digitized by Google

wr a ystyrid gan bawb yn eu hoes, a hyny yn eithaf priodol yn ddïau, "y tri chyntaf," neu benaf, yn rhengau yr Ymneillduwyr Cymreig yn nechrau y ganrif bresennol. Y mae'n ddigon hyspys mai'r ddau arall oedd JOHN ELIAS a WILLIAMS O'R WERN. CHRISTMAS EVANS oedd yr hynaf o'r tri: yr oedd yn hynach nag Elias o wyth mlynedd, ac na Williams o bymtheng mlynedd. Yr oedd tebygrwydd ac anhebygrwydd hynod yn perthyn i'r tri wŷr hyn. Yr oeddynt yn debyg iawn i'w gilydd o ran sefyllfa eu rhieni. Crydd, mewn sefyllfa isel, oedd tad Christmas Evans; gwehydd, mewn sefyllfa gyffelyb, oedd tad John Elias; a thyddynwr bychan, mewn ardal fynyddig, oedd tad Williams o'r Wern. Mor briodol, gyd â golwg ar hyn, yw'r difyniad canlynol o waith y Dr. W. Rees (Hiraethog):—

"Pan graffom ar hanesyddiaeth Eglwys Dduw dan bob goruchwyliaeth, yr ydym yn cael mai arferiad gyffredin yr Arglwydd, ymhob oes a gwlad, ydoedd codi dynion o sefyllfaoedd a dospeirth isaf cymdeithas i'r swyddau a'r graddau uchaf mewn defnyddioldeb yn ei dŷ a'i deyrnas; gwneuthur tlodion y ddeuar yn bendefigion ei bobl; rhai bychain y byd yn fawrion yn Sïon. O'r cawell brwyn, cuddiedig yn hesg yr afon, y cyfododd Moses ei was i fod yn waredydd ac arweinydd i'w bobl. 'O gorlanau y defaid, ac oddi ar ol y defaid cyfebron,' y cymmerth Dafydd, ac y 'daeth ag ef i borthi Jacob ei bobl, ac Israel ei etifeddiaeth.' 'O fysg bugeiliaid Tecoa' y galwodd Amos i fod yn brophwyd. O bysgodwyr tlodion Môr Galilea y gwnaeth Crist ei apostolion: o'r sefyllfa a'r alwedigaeth waelaf hon y dyrchafodd efe y dynion hyny i'r swydd a'r sefyllfa uchaf o anrhydedd ac ymddiried y gosodwyd dynion erioed ynddi. Yn gyffelyb y mae wedi gwneuthur o ddyddiau yr apostolion hyd heddyw."*

Ond os oedd sefyllfa rhieni "y tri chyntaf" o bregethwyr Cymru, yn nechrau y ganrif hon, yn debyg i'w gilydd, ac i sefyllfa prif grefyddwyr "pob oes a gwlad," yr oedd prif alluoedd y tri mor anhebyg ag y gwna Natur bethau yn gyffredin. Prif fawredd Christmas Evans oedd athrylith hedegog a dychymmygfawr; prif fawredd John Elias oedd dawn areithyddol nerthol a meistrolgar; a phrif fawredd Williams o'r Wern oedd meddwl athronyddol craffus a threiddgar.

Ganwyd Christmas ar ddydd Nadolig, 1766, mewn bwthyn a elwid Ysgarwen, ar dir Dyffryn-llunod, ymhlwyf Llandysul, sir Aberteifi. Dywedir mai'r achos o'i alw yn *Christmas* oedd iddo gael ei eni ar ddydd Nadolig. Enw ei dad, yr hwn oedd grydd, fel y crybwyllwyd, oedd Samuel Evans, ac enw ei fam oedd Johanah Lewis. Yr oedd amgylchiadau y teulu mor isel fel nad yw hyspys i'r plant gael dim dysgeidiaeth; yn wir, y mae'n amlwg bod Christmas wedi "gweini'r byd" pan oedd "o gylch wyth oed," gyd âg un "Dafydd Llwyd, ustus heddwch, Gallt-yr-odyn," lle y gyrai geffylau i aredig. Pan yngwasanaeth hwnw, rhedodd un o'r ceffylau, ac yntau ar ei gefn; ac, ebr efe, "yn lle taro fy ymenydd allan wrth gapan drws yr ystabl, cyfryngodd Rhagluniaeth ar fy rhan."

Pan oedd Christmas Evans tu a 9 oed, bu ei dad farw, ac ymddengys iddo yntau gael ei fwrw "ar y plwyf," fel y dywedir, i "fugeilio gwartheg" un James Lewis, Llanfihangel-yr-arth, y plwyf nesaf i Landysul, am yr hwn y dywed efe—"Nid aml y gallaswn weled gwaeth esampl yn holl gwrs y byd drygionus, na dŷn mwy digydwybod." Ymddengys mai yngwasanaeth yr adyn hwnw yr oedd efe pan gwympodd o ben coeden uchel, ac y bu mewn "llewygfa farw" nes y digwyddodd rhywun ei weled. Pan oedd o gylch 12 oed, yr oedd mewn lle a elwid Tŷnewydd, yn Llanfihangel-yr-arth, lle y cwympodd i bwll dwfr, tu a dwylath o ddyfnder, o'r hwn yr ymgripiodd i fynu, na wyddai amcan deuar pa fodd, yr hyn a ystyriai yn waredigaeth fawr. "Hefyd," ebr efe, "fel yr oeddwn yn llange bychan, o gylch 15 oed, ac yn bugeilio ar ben Aelhedog, aeth yn ffrwgwd am ryw wegi rhyngwyf a bugail arall. Yntau a dynodd gyllell allan, ac a'm brathodd â'i holl nerth yn fy mron ddehau; ond darfu i'r asgwrn rwystro i'r gyllell fyned i mewn a niweidio fy mywiol ranau; ac felly yma drachefn, myfi a gefais ddihangfa." Yr oedd Christmas Evans yn gweled llaw warcheidiol ei Dduw yn ei gadw, trwy'r holl waredigeuthau hyn, at gyflawni gwaith mawr drosto yn y byd.

Y lle nesaf y cyfarfyddwn Christmas Evans, pan oedd yn 17 oed, ydyw yngwasanaeth yr enwog Dafydd Dafis, o Gastell-Howel, gweinidog y Presbyteriaid Arminaidd yn Llwyn-rhyd-Owen; ac nid oedd efe, ar y pryd, yn "medru gair ar lyfr!" Yr oedd adfywiad crefyddol yn y lle yr adeg honno; ac er y teimlodd Christmas argraphiadau crefyddol dwysion ar ei feddwl pan yn ieuangc ar achlysuron, etto y pryd hwnw y cafodd ei ddeffro i bwrpas ynghylch matter ei enaid; a phan oedd tu a 18 oed, ymunodd â'r eglwys yn Llwyn-rhyd-Owen. Yn ebrwydd ar ol ymuno â chrefydd, rhoddes ei holl enaid galluog ar waith i ddarllen a chasglu gwybodaeth. Dywedir mai un o'r llyfrau cyntaf a fenthyciwyd iddo, ac a ddarllenodd yntau yn awchus, oedd *Taith y Pererin;* ac y mae'n

* Cofiant Williams o'r Wern, gan W. Rees (Hiraethog), t. 6, 7.



Digitized by Google

bur debyg mai "Breuddwyd hynod y Tingcer o Bedfford" a ddechreuodd gynhyrfu meddwl athrylithgar Christmas Evans, yr hwn wedi hyny a ddaeth y cryfaf ei grebwyll a'i ddychymmyg o holl bregethwyr Cymru. Ymhen tu a blwyddyn ar ol iddo ymuno â'r eglwys, ac efe o gylch 19 oed, amlygodd i rai o'r cyfeillion fod arno awydd dechrau pregethu; ac, er eu clod, annogasant hwythau ef i fyned ym mlaen; ond gan fod y ddefod wag, anysgrythyrol, a Phabaidd, yn eglwys Llwyn-rhyd-Owen, nad oedd neb i bregethu yn ei phulpud hi heb gael addysg glerigol mewn athrofa, "mewn cyfarfod gweddi, a gynhelid mewn tŷ ymhlwyf Llangeler," y traddododd Christmas ei bregeth gyntaf. Dywedir iddo fod am chwe mis yn ysgol enwog ei hen feistr, Dafis o Gastell-Howel; a gellir casglu i hyny ddigwydd cyn iddo ddechrau pregethu, canys dywed ef ei hun, "Fy mhregeth gyntaf, yr oeddwn wedi ei *chyfieithu* o [waith] yr Esgob Beveridge."

O gylch y pryd hyn, gan fod ei amgylchiadau yn isel, a bod arno yntau awydd angerddol am ychwaneg o ddysg, aeth ar daith i sir Henffordd, yn ol arfer llafurwyr ei wlad, i weithio yn y cynheuaf, er mwyn cael modd i dalu am ysgol; ond yn lle ynnill arian yno, ymosododd pump neu chwech o ddihirod arno, a tharawyd ef "â chwibren" yn ei lygad, fel y collodd ef yn y fan. Wedi iddo gael adferiad ar ol y ddamwain erchyll honno, ymroddes i bregethu â'i holl egni; a chan ei fod yn ddŷn bucheddol, a'i ddoniau mawrion erbyn hyn yn dechrau ymagor, ac o herwydd nad oedd rhyddid iddo bregethu, fel y crybwyllwyd, ymhulpud Presbyteraidd cyssegredig Llwyn-rhyd-Owen, gwahoddid ef i bregethu gan yr Annibynwyr ym Mhen-cader, Pant-y-croiddyn, Crug-y-maen, a manau eraill; gan y Bedyddwyr ym Mhen-y-bont, Llandysul; a chan y Methodistiaid yng Nghefn-Llanfair.

Wedi bod yn llafurio fel hyn am tu a thair blynedd, a'i ddoniau yn parhau i addfedu, ymdrechodd argyhoeddi un o'r Bedyddwyr o'i gamsyniad fel trochwr; ond yn lle hyny, argyhoeddodd y Bedyddiwr ef, a bedyddiwyd ef trwy drochiad yn Afon Duar, gan y Parch. Timothy Thomas, yn 1788, ac efe yn 22 oed; ac ymadawodd o eglwys Llwyn-rhyd-Owen, gyd â dymuniad gorau yr aelodau a'r gweinidog, y Parch. D. Dafis.

Yn y flwyddyn ganlynol, annogwyd ef gan William Roberts, o Leyn, a J. R. Jones, o Ramoth, i fyned ar daith trwy'r Gogledd, â'r hyn y cydsyniodd yntau. Y flwyddyn ganlynol, sefydlwyd ef fel math ar genhadwr i eglwysi bychain Llangïan, Galltraeth, Salem, Rhoshirwain, a Nefyn, yn sir Gaernarfon; a mawr y llwyddiant a ddilynodd ei lafur yn eu plith. Wedi ymsefydlu yn Lleyn, ymwelai yn flynyddol â'r Deheubarth, a hyny ar ei draed dros hir amser. Er mai prif amcan yr ymweliadau blynyddol hyn oedd casglu at dalu dyledion capeli bychain y Gogledd, etto disgwyliai y Deheuwyr am danynt gyd â'r fath ddyddordeb ag y disgwylient am y gôg yn ei thymmor, gan faint yr hyfrydwch a fwynhaent wrth wrando ei bregethau hedegog a bywiol. Yn ystod ei arhosiad yn Lleyn y tarawodd wrth gymhares gymmwys ei fywyd, un Catherine Jones, yr hon oedd wraig dduwiol, addfwyn, a hynod o ddarbodus. Yn wir, yr oedd "Catrin fach," fel y galwai efe hi, wedi ei darpar yn amlwg gan Ragluniaeth ar ei gyfer. Pan welai hi ef weithiau ar ymddyrchafu yn rhy uchel yngwynfydedd ei feddylddrychau, ymaflai hi yn ei odrau rhag iddo fyned o'r golwg; a phan ddisgynai yn rhy isel i geunant pruddglwyf, fel y gwnai yn rhy fynych ar ol cyffroadau hedegog iawn, byddai hi yn wastad wrth law i'w gysuro, ac i ddyrchafu ei feddwl i wastadedd cymmedrol. Ar air, yr oedd "Catrin fach" yn un o ragorolion y ddeuar. Yn lled fuan ar ol iddo ymsefydlu yn Lleyn, cafodd gyfleusdra i wrando Robert Roberts, o Glynog, yn pregethu, brenin y pulpud Cymreig ar y pryd; ac ymhen llawer o flynyddau wedyn, dywedodd mai'r pregethwr digyffelyb hwnw a roddes yn ei law ef yr agoriad i feddyliau ei wrandawyr.

Yr oedd Christmas Evans, ar ei daith gyntaf trwy'r Gogledd, wedi bod trwy sir Fôn, cystal a thrwy siroedd eraill Gwynedd; ac ymddengys i iselder achos y Bedyddwyr yn yr Ynys lynu yn barhaus wrth ei feddwl. Llafuriodd mor galed yn Lleyn nes y bu agos iddo golli ei iechyd. Pregethai bum waith yn gyffredin ar y Sabboth, a theithiai ugain milltir neu chwaneg ar ei draed. Yr oedd ei lafur wedi bod yn dra llwyddiannus yn Lleyn a'r ardaloedd, canys dywed ei hun y bedyddiodd "o gylch 50 y flwyddyn gyntaf yn Ty'ndomen yn unig." Yr oedd achos y Bedyddwyr ym Môn yn bur isel y pryd hyny; ond yr oedd y Monwysiaid wedi cael blas ar bregethiad godidog Christmas Evans pan fu trwy'r wlad tu a thair blynedd yn ol, ac yn dwys hiraethu am ei wasanaeth effeithiol. Yn y fl. 1791, derbyniodd wahoddiad taer oddi wrthynt, yn erfyn arno ym-

sefydlu yn yr Ynys; â'r hyn, wedi iddo ddwys ystyried ei cyflwr, y cydsyniodd yntau. Symmudodd i Fôn ar ddydd Nadolig (dydd ei enedigaeth) y flwyddyn honno, ac ymsefydlodd yn Nghildwrn, Llangefni, lle y bu am 35 mlynedd, yn llafurio yno a manau eraill yn yr Ynys yn egnïol a llwyddiannus. Swm ei gyflog, am tu ag ugain mlynedd o'r amser y bu ym Môn, oedd 17p. y flwyddyn, heb law y rhoddai yr ameuthwyr wahanol roddion o ymborth iddo ef a'i anifail. Dylid cofio hefyd bod punt y pryd hyny yn llawn gyfartal i ddwy bunt yn awr. Yr oedd y lleoedd canlynol yn cyttuno i wneud y cyflog crybwylledig i fynu, sef Llangefni, Caergybi, Llanfachreth, Capel Gwyn, Amlwch, Capel Newydd, Llanfair, Bomaris, Pencarneddi, a Llanerch-y-medd. Hefyd, medd Mr. Morgan, "yn yr amser hyny, yr oedd Mr. Evans yn gorfod teithio a gwerthu llyfrau, y rhai a ysgrifenodd ar wahanol fatterion, i gael ei gynhaliaeth, gyd âg ychydig gynhorthwy oedd yn ei gael o'r drysorfa yn Llundain." Gellir casglu, gan hyny, nad y 17p. y flwyddyn oedd unig ffynhonell ei gynhaliaeth ef tra y bu ym Môn. Yr oedd eglwysi y Bedyddwyr ym Môn wedi cynhyddu yn ddirfawr, trwy ei lafur ef yn benaf, erbyn y fl. 1811, ymhen ugain mlynedd ar ol iddo ef ymsefydlu yno; a'r pryd hyny, cyfododd yr eglwysi ei gyflog i 21p. y flwyddyn, yr hyn a gafodd, ynghyd â'r pethau eraill a nodwyd, yn ystod y pymtheng mlynedd diweddaf y bu yn yr Ynys.

Ond, heb law y codiad bychan a nodwyd yn ei gyflog, cafodd lawer iawn o helbulon chwerwon ynghorph yr un blynyddoedd. Pan yn casglu unwaith yn y Deheudir at dalu dyled un o gapeli Môn, cymmerwyd ef mor glaf fel yr ofnid am ei fywyd; ond adferiad graddol a gafodd. Wrth son am gasglu, dywedir y casglodd 1500p. at ddiddyledu capeli Môn, a theithiodd gannoedd lawer o filltiroedd i'r perwyl hwnw. Cafodd flinderau chwerwon eraill yn ystod y blynyddau olaf hyn oddi wrth y Sandemaniaid; oddi wrth anghydfod rhwng eglwysi y sir, o ddiffyg eu bod yn ddigon annibynol; oddi wrth gynnen yn erbyn ei farn, o herwydd nad oedd ei frodyr yn ddigon uniongred am hawl bersonol dŷn i farnu drosto ei hun. Caseid ef gan yr Armin, gan dybied ei fod yn Galfin; a chan y Calfin, am y tybiai ei fod yn Ffwleriad; ac i goroni yr holl anghysur, bu farw "Catrin fach," ei anwyl, ofalus, a duwiol briod, yr hon a gladdwyd ym mynwent Capel Cildwrn, yn ymyl ei ddrws! O berthynas i'w ymadawiad o Fôn, yr hyn a ddigwyddodd yn y fl. 1826, ac efe yn 60 oed, efe a ddywed fel hyn:—

"O'r diwedd trodd y penderfyniad i mi ymadael â Môn, yn afiachus fel yr oeddwn. Yr oeddwn fel Jacob yn gadael ei dad a'i fam, ac yn myned â'i ffon yn unig gyd âg ef dros yr Iorddonen. Felly yr oeddwn innau yn ymadael â'r eglwys y gweddïais, ïe, yr ymdrechais â Duw dros ei llwyddiant, ac y llafuriais agos i ddeugain mlynedd gyd â hi, yn awr yn ymadael heb ddim o'r byd hwn ond y ceffyl oedd danaf, ac ychydig arian yn fy llogell; a phrin y gallaswn ddywedyd bod y rhai hyny yn rhydd genyf."

Yr oedd wedi derbyn galwad er ys ychydig amser cyn ymadael o Fôn, oddi wrth eglwys y Bedyddwyr yng Nghaerffili, sir Forganwg, lle yr ymsefydlodd yn y flwyddyn grybwylledig (1826). Llwyddodd ei lafur, yn ystod y ddwy flynedd y bu yno, yn dra dymunol, canys derbyniwyd tu a 120 i'r eglwys. Dywed ei hun, "Ni threuliais ychydig o amser, sef dwy flynedd, mewn mwy o gysur erioed, o blegid bod arch Duw wedi ymddangos yno, a thelynau o gylch saith ugain wedi canu." Yn lled fuan ar ol ymsefydlu yno, priododd ei ail wraig, sef Mary Evans, o Fôn, yr hon a fu'n wraig ffyddlon a gofalus iddo dros weddill ei oes. Tu a diwedd y ddwy flynedd a nodwyd, torodd rhyw ymryson allan yn yr eglwys; ac yn Hydref 1828, symmudodd yntau i eglwys y Bedyddwyr oedd yng Nghaerdydd. Bu'n dra llwyddiannus yno etto, ar ei fynediad cyntaf i'r lle; ond "cyfododd oerfelgarwch ac anghariad rhyngddo a rhai o'r eglwys; ac am nad oedd ei dymmer naturiol ef yr addfwynaf, aeth yn ofidus arno, a symmudodd i Gaernarfon yn 1832,"* lle y bu hyd ddiwedd ei oes.

Yr oedd Christmas Evans yn 66 oed pan ymsefydlodd yng Nghaernarfon, ac yr oedd achos y Bedyddwyr yn bur isel ar y pryd yn y dref. Tu a 30 oedd nifer yr aelodau, ac yr oedd 800p. o ddylid ar y capel. Casglodd un John Edwards, gynt o Langollen, 400p. at y capel, a thalwyd hwy gan C. Evans. Cynhyddodd yr eglwys yn gyflym ar ol ei sefydliad ef yng Nghaernarfon. Teithiodd lawer yn ystod y chwe blynedd y bu yno, trwy Dde a Gogledd, i gyfarfodydd cyhoeddus yn benaf. Penderfynai orphen talu dyled y capel; ac yn 1837, cymmerth daith trwy'r Gogledd i'r perwyl hwnw, ac aeth i'r Deheudir ar yr un achos yn 1838. Pregethodd ar y daith hon yng Nghymmanfa Mynwy. Aeth oddi yno trwy Gaerffili a Chaerdydd i Abertawe. Ar y 15fed o Orphenaf, pregethodd yno ar Luc xxiv. 47, a dy-

* Han. y Bed. yn Ne. Cymru, D. J., t. 630.

Digitized by Google

wedir fod honno yn un o'r pregethau mwyaf effeithiol a draddododd yn ei oes; ac er prined y lle, rhaid i ni gael rhoi un paragraph bychan o'r bregeth ryfedd honno ger bron. Wrth dreuthu ar y geiriau olaf o'r testyn, sef "Gan ddechrau yn Jerusalem," dywedodd—

"'*Yn Jerusalem*, Arglwydd?' 'Ië.' 'O Arglwydd! ond yno y darfu y dynion dy groeshoelio di! Nid ydym i bregethu i'r *rhai hyny?*' 'Ydych: pregethwch i bawb!' 'I'r dŷn a blethodd y goron ddrain, ac a'i dododd ar dy ben?' 'Ië, a dywedwch wrtho y gall efe gael coron gogoniant allan o'r gwarth hwnw.' 'Beth pe cyfarfyddem â'r dŷn a hoeliodd dy ddwylaw sanctaidd a'th draed ar y groes; a'r dŷn a wanodd dy ystlys, a boerodd yn dy wyneb?' 'Pregethwch yr efengyl iddynt oll, mai Myfi yw'r Achubydd; fod croesaw i bawb i gyfranogi o fendithion fy iachawdwriaeth; fy mod i yn Arglwydd ar bawb, ac yn gyfoethog tu ag at bawb a alwant arnaf fi.'"

Wrth ddyfod i lawr o'r pulpud, dywedodd, "Dyma'r bregeth olaf i mi." Cymmerwyd ef yn glaf y noswaith honno; gwaethygodd yn raddol hyd nos Iau; a thu a 2 o'r gloch y borau ddydd Gwener, galwodd ar bawb oedd yn nhŷ y Parch. D. Davies, lle y llettyai; diolchodd i Mr. Davies a'i briod am eu mawr garedigrwydd iddo, a dywedodd—

"Yr wyf yn eich gadael. Yr wyf wedi llafurio yn y cyssegr am 53 o flynyddau; a'm hyder a'm cysur yn yr adeg hon ydyw, na lafuriais heb y gwaed yn y llestr. Pregethwch Grist i'r bobl, frodyr. Edrychwch arnaf fi ynof fy hun, nid wyf yn ddim ond colledigaeth; ond edrychwch arnaf yng Nghrist, yr wyf yn nefoedd a chadwedigaeth.

"'O gyfiawnder pur tragwyddol!
O gyfiawnder maith didrai!
Rhaid i'm henaid noeth, newynllyd,
Gael yn fuan dy fwynhau:
Dyma'r wisg ddisgleirwen olau,
Cuddia'm noethni hyd y llawr,
Fel nad ofnwyf byth ymddangos
Mwy o flaen dy orsedd fawr.'"

Yna, taflodd ei law fel pe buasai yn gweled ei hun yn myned mewn cerbyd, gan ddywedyd—"*Good bye! Drive on!*" Ac ymollyngodd yn dawel i gwsg angeuol y borau hwnw, yr 20fed o Orphenaf, 1838, yn 72 oed.

Rhaid i ni etto nodi rhai o brif ansoddau y dŷn mawr ac enwog hwn. Yr oedd o deimlad naturiol cryf, llawen, a difyr; o dymherau cyffröus a sydyn; ac o alluoedd meddyliol nerthol a bywiog dros ben. Yr oedd ynddo, fel y mae ymhob dŷn, rai gwendidau (canys "heb ei fai heb ei eni"), megis byrbwyllder, anwadalwch, ac anochelgarwch; ond yr oedd ynddo ef ddigon o ragorieuthau i'w gorbwyso, megis gonestrwydd, maddeugarwch, haelioni, a duwioldeb diffuant. Ond ei brif ragoroldeb ef oedd ei gymmwysderau fel pregethwr. Yr oedd y rhai hyny yn gynnwysedig, yn benaf, yn nerth a chyflymder ei grebwyll a'i ddychymmyg, ei ymroad, a galluoedd creadigol ei feddwl anhyspydd; ac yr oedd ganddo lais cryf a soniarus. "Yr oedd ei feddwl," ebai'r Parch. D. Rhys Stephen, "yn gallu esgor mewn ychydig funudau ar yr hyn a fuasai yn ddigon o *fortune* [cynhysgaeth] i lawer un am ei oes."

Ond er holl ragorieuthau a galluoedd Christmas Evans, ni chyrreuddasai efe byth y safle a gyrheuddodd yng Nghymru, oni buasai ei *lafur* parhaus a diflino. Yr oedd wedi dwyn ei hun i'r fath arferiad o ddiwydrwydd, fel yr oedd yn ail natur iddo. Gwelsom nad oedd yn "medru gair ar lyfr" pan yn 17 oed; er hyny, dysgodd ddigon o Saesneg fel y gallai bregethu yn effeithiol yn yr iaith honno ymhell cyn diwedd ei oes. Hefyd, dysgodd ddigon o Hebraeg, Groeg, a Lladin, fel y gallai eu deall yn weddol trwy gynhorthwy geirlyfrau; ac yr oedd yn ysgrifenydd Cymreig cywir a grymus. Heb law hyny, yr oedd yn meddu gwybodaeth hanesyddol, wladol ac eglwysig, hen a diweddar, pur fanwl a chyffredinol; ond ei hoff bwngc gwastadol ef oedd duwinyddiaeth. Tybir iddo gyfansoddi rhai miloedd o bregethau, ac ysgrifenodd braidd bob un yn lled gyflawn. Y mae rhai cannoedd o honynt a ysgrifenodd yng Nghaerffili, a'r rhai hyny wedi eu hysgrifenu yn lled lawn. Y mae'n debyg mai'r cyfansoddiad a gyhoeddwyd gyntaf o'i waith yw'r llyfryn a elwir "Sara, neu Eglwys y Jerusalem uchod yn bwrw allan ac yn naccau Aelodaeth Eglwysig iddynt," &c., yr hwn a argraphwyd yn y fl. 1800,* pan oedd yr awdur tu a 34 oed. Dywedir mai yng Nghaerdydd, rhwng 1828 ac 1832, y parotôdd y gyfrol o'i bregethau a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin yn ei oes ef, ac a ail argraphwyd yng Nghaerdydd ar ol ei farwolaeth. Y mae'r gyfrol honno wedi ei chyfieithu i'r Saesneg yn America er ys mwy nag ugain mlynedd bellach. Dywedir y rhestrir hi yno gyd â phrif gyfansoddiadau Howe, Baxter, ac Edwards, a bod ei chynnwys yn ail o ran poblowgrwydd i freuddwyd anfarwol Bunyan. Nid ydym yn gwybod i unrhyw bregethau Cymraeg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ond yr eiddo Christmas Evans yn unig. Pan oedd efe yng Nghaernarfon, o gylch 70 oed, yr ysgrifenodd ac yr argraphodd ei "Ddarlithiau Esponiadol ar Lyfr y Datguddiad;" ond nid ymddengys y cyrheuddodd y rhai hyny enwogrwydd ei bregethau. Ysgrifenodd ar ddirwest hefyd o gylch yr un am-

* Llyfr. y Cymry, t. 731.

Digitized by Google

ser. Heb law y cyfansoddiadau a nodwyd, yr oedd efe yn un o gyfieithwyr Esponiad y Dr. Gill ar y Testament Newydd; ac ysgrifenodd amryw fân dreuthodau ar byngciau dadleuol, a llïaws o erthyclau ar wahanol fatterion i'r *Seren Gomer*. Hefyd, cyfansoddodd amryw hymnau rhagorol: yn wir, yr oedd crebwyll *(imagination)*, darfelydd *(invention)*, a dychymmyg *(fancy)* Christmas Evans mor nerthol, bywiog, a disglair fel, pe buasai wedi ymroddi cymmaint i brydyddu ag a wnaeth i bregethu ac ysgrifenu rhyddiaith, y gallasid, yn ol pob tebyg, ei restru gyd â Homer, Dante, Milton, a Williams o Bant-y-Celyn.*

## JOHN ROBERTS, O LANBRYN-MAIR.

Ganwyd y gŵr llafurus ac enwog hwn ar y 25med o Chwefror, 1767, yn Bronllan, ymhlwyf Mochdref, sir Drefaldwyn. Yr oedd ei rieni, Evan Roberts, a'i wraig Mary, yn aelodau gyd a'r Annibynwyr yn Llanbryn-Mair. Yr oedd ei dad yn aelod eglwysig pan yn 15 oed, a pharhaodd yn grefyddwr dichlynaidd hyd ei farwolaeth, pan yn 86 oed. Ymroddes y rhieni duwiol hyn i hyfforddi eu plant, yn ofalus ac egnïol, "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." Dechreuwyd argraphiadau crefyddol ar feddwl John ieuangc, gwrthrych hyn o hanes fer, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, fel y canlyn:—

"Pan o gylch 4 oed, cefais yr hyfrydwch un noson o gysgu gyd â'm mam. Wedi i ni orwedd yn y gwely, treuliwyd ganddi beth amser i ddysgu i mi Weddi yr Arglwydd. Gofynais iddi, 'A raid i mi farw?' Attebodd hithau, 'Y mae pawb i farw; ond y mae genyt enaid i fyw byth mewn byd arall.' Ac wrth geisio gwasgu ar fy meddwl fy mod 'i fyw byth,' torodd allan i wylo; ac wrth ei chlywed, ymollyngais innau i wylo, a gwnaed argraph y pryd hyny ar fy meddwl nas gellir byth ei ddilëu. Mynych iawn y cofiwn ar ol hyny, pan, dichon, ynghanol difyrwch fy mebyd, bod genyf 'enaid i fyw byth;' a byddai pob adgofion o'r tro hwnw yn gwneud dwys argraphiadau ar fy meddwl, ac yn peru i mi wylo llawer."

Bu farw ei fam dduwiol pan oedd efe o gylch 11 oed, a pharodd hyny iddo feddwl gyd â mwy o ddwysder nag erioed am angau a byd tragywyddol. Ar y 29fed o Hydref, 1786, pan oedd efe yn 19 oed, ymunodd â'r eglwys Annibynol yn Llanbryn-Mair; ac ar yr 21fed o Ionawr, 1790, traddododd ei bregeth gyntaf, mewn lle a elwid Tŷ-brith, Manafon. Yn y mis Mawrth canlynol, aeth i Athrofa yr Annibynwyr, oedd ar y pryd yng Nghroesoswallt, dan ofal yr enwog Ddr. Edward Williams, o Rotherham wedi hyny.† Wedi bod yno hyd y Sulgwyn canlynol, aeth i Lanuwchllyn, dan addysg Richard Tibbot; ac oddi yno aeth i Bwllheli, dan addysg Benjamin Jones, lle yr arhosodd hyd y Nadolig canlynol. Yn Ionawr 1791, dychwelodd i Athrofa Croesoswallt. Yn Ionawr 1792, symmudodd y Dr. Williams i Birmingham, a symmudwyd yr athrofa i Wrecsam, dan ofal Jenkin Jones; ac aeth J. Roberts yno, a threuliodd dair blynedd yno yn gysurus a llwyddiannus. Tu a naw mis cyn gorphen ei amser yn yr athrofa, gwahoddwyd ef gan eglwys Llanbryn-Mair i fyned yno fel cynnorthwywr i Richard Tibbot; â'r hyn y cydsyniodd yntau. Dechreuodd ar ei wasanaeth yn Ionawr, 1795; ac yn Awst, 1796, cyflawnwyd y seremoni o'i urddo yno. Yn Ionawr y flwyddyn ganlynol, efe a briododd wraig rinweddol, a bu iddynt bump o blant; a chawsant yr hyfrydwch o'u derbyn oll i gymdeithas yr eglwys. Yr oedd dau o honynt, Samuel Roberts (S. R.), a John Roberts (J. R.), wedi dechrau pregethu yn oes eu tad; ac y mae'r trydydd, Richard Roberts (Gruffydd Rhisiart), yn pregethu er ys llawer o flynyddau bellach.

Bu Richard Tibbot farw yn 1798, fel y gwelsom;‡ ac yn y Mehefin canlynol, galwodd yr eglwys John Roberts i'w gwasaneuthu yn ei le. "Gan fod ysgol y Dr. Daniel Williams yn Llanbryn-Mair [ar yr hon yr oedd Mr. Roberts yn athraw], a chylch y weinidogaeth yn ehang,§ a Mr. Roberts yn heneiddio, teimlid bod angen cynnorthwywr arno; ac fel yr oedd yn hollol naturiol disgwyl, dewisodd yr eglwys ei fab hynaf, Mr. Samuel Roberts, yn gynnorthwywr iddo. Ar derfyniad ei amser yn Athrofa'r Drefnewydd, derbyniodd Mr. S. Roberts yr alwad, ac urddwyd ef ar y 15fed o Awst, 1827. . . . . Llafuriodd Mr. S. Roberts, fel plentyn gyd â thad, am naw mlynedd, hyd nes y rhoddwyd terfyn ar fywyd defnyddiol yr hybarch John Roberts, ar yr 21fed o Orphenaf, 1734."‖

Treuthodd yr enwog Williams o'r Wern yn lled helaeth ar y pethau canlynol oedd ynghymmeriad yr hybarch John Roberts:—

* Cofiant Christmas Evans, gan W. Morgan; Memoir of Christmas Evans, by D. R. Stephen; Christmasia, Brutus; Han. y Bed. yn Ne. Cymru, D. J., t. 630, 635; Williams's Em. Welshm., p. 148; Traethodydd, llyfr x., t. 81, 200; Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 565; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 325; En. Cymru, I. F., t. 310; En. Sir Aberteifi, G. J. (Glan Menai), t. 36.

† Gwel pen. xi. o'r llyfr hwn, y vi.

‡ Gwel llyfr v., pen. xxii.

§ Dywedir bod chwech o addoldai perthynol i'r Annibynwyr, heb law un Llanbryn-Mair, yngwahanol ranau y plwyf, i'r rhai y gweinyddai Mr. Roberts yn ddiwyd a ffyddlon.—En. Cymru, J. T. Jones, cyf. ii., t. 510.

‖ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 239–40.

"1. Ei brif addurn oedd ei dduwioldeb: ofn pechu. Yr oedd yn gadael arogl sanctaidd a duwiol ar ei ol ymhob man lle yr elai, ac ar bob cyfeillach y byddai ynddi. . . . 2. Yr oedd yn disgleirio yn fawr yn ei ostyngeiddrwydd a'i lareidd-dra. Ni welais neb erioed yn cythruddo llai yn wyneb celwyddau a chableddau anfoneddigaidd a chwerwon. . . . . 3. Peth arall oedd yn llewyrchu yn rhagorol yn ei nodweddiad oedd, ei awyddfryd i wneuthur lles i eraill. Nid oedd, fel llawer, yn meddwl bod ei *holl* waith yn yr areithle; ond ymhob tŷ, ac ymhob cyfeillach yr oedd yn chwilio am le i roi gair i mewn dros Grist, er gwneuthur daioni. . . . . 4. Yr oedd ei ofal yn fawr am achos Crist yn gyffredinol. Nid llawer, er dyddiau Paul, a allasai ddywedyd yn fwy priodol—'Heb law y pethau sy'n digwydd oddi allan, yr ymosod yr hwn sydd arnaf beunydd, y gofal dros yr holl eglwysi.' . . . . 5. Yr oedd bob amser yn wyliadwrus i ymddwyn yn ddoeth a gochelgar. Ychydig o weinidogion yng Nghymru, os neb, oedd yn fwy anwyl a pharchus gan ei eglwys gartref, a chan ei frodyr yn gyffredinol. . . . . 6. Fel duwinydd, yr oedd Mr. R. o olygiadau cysson ac eglur ar y Bibl. Nid oedd yn rhwymo ei gred wrth unrhyw gyfundraeth ddynol, ond wrth air Duw yn unig."

Go debyg yw darlun y Parch. James Griffiths, Tŷ Ddewi, a'r Parch. John Roberts, ond ei fod gryn lawer yn heleuthach na'r eiddo Mr. Williams; eithr rhaid i ni brysuro at ei lafur llenyddol, yr hwn oedd yn bur helaeth ac ystyried ei fod yn athraw ysgol ddyddiol, cystal ag yn bregethwr. "Ysgrifenodd lawer llai nag a ddylasai," ebr ei fab, S. R., "trwy ei fod mor gaeth ac mor fanwl gyd â'i ysgol ddyddiol, ac odfeuon bob nos o'r wythnos, ond nos Sadwrn." Wele restr o'i brif gyfansoddiadau argraphedig:—

"Galwad Caredigol ar yr Arminiaid i ystyried pwy a wnaeth y rhagoriaeth rhyngddynt hwy ac eraill." 1807.

"Cyfarwyddiadau ac Annogaethau i Gredinwyr i roddi cwbl ddiwydrwydd i wneuthur eu Galwedigaeth a'u Hetholedigaeth yn sir. A gasglwyd yn benaf allan o waith y Parch. Jonathan Edwards, o Loegr Newydd, sef ei Draethawd ar Serchiadau Crefyddol; ac o Esboniad Dr. Owen ar Salm cxxx."

"A Friendly Address to the Arminians." 1809.*

"A Second Address to the Arminians." 1811.

"Remarks on a Pamphlet entitled 'The Welsh Looking Glass,' in a Letter addressed to its Author." 1813.†

"Hanes Bywyd y Parchedig Lewis Rees, gynt o Lanbrynmair, wedi hyny o'r Mynydd-bach." 1814.

"Cynnygiad Gostyngedig i Egluro yr hyn a ddysgir i ni yn Ysgrythyrau y Gwirionedd am ddybenion cyffredinol a neillduol Dyoddefaint Iesu Grist, mewn dau Lythyr at Gyfaill." 1814.‡

* Attebwyd y gwaith hwn gan Mr. Brocas, o'r Mwythig, gŵr lleyg perthynol i'r Wesleyaid, yr hyn a barodd i Mr. Roberts gyhoeddi ei "Second Address."

† "Awdur y 'Welsh Looking Glass' oedd y Parchedig Thomas Jones, curad Creaton, sir Northampton, a'r hwn a gyfieithiodd 'Baxter's Saints' Rest' i'r iaith Gymraeg. Treuliodd S. R. ddeuddydd dedwydd ynghyfeillach yr hen gurad enwog o Creaton tu a hanner can mlynedd yn ol, pan oedd ef yn 89 oed; ac yr oedd ef y pryd hyny yn siarad yn barchus am yr hen John Roberts, gan gydnabod ei fod wedi amddiffyn cymmeriadau Ymneillduwyr Cymru yn yr yspryd boneddigeiddiaf."—Llythyr S. R., Rhag. 26, 1879.

‡ "Y dadleuon a achlysurwyd gan y Ddau Lythyr hyny a'i cynhyrfodd ef i ysgrifenu a chyhoeddi y 'Galwad Difrifol,' ac a arweiniodd hefyd i lawer iawn o ohebiaethau cyfrinachos a chyhoeddus."—Llythyr S. R. Rhag. 26, 1879.

"Amddiffyniad Byr o Hawl Plant yn gyffredinol i'r Ordinhad o Fedydd."§

"Y Wenynen: Casgliad o Hanesion Byrion." 1815.

"Galwad Ddifrifol ar Ymofynwyr am y Gwirionedd i ystyried Tystiolaeth yr Ysgrythyrau ynghylch Helaethrwydd Iawn Crist, yn cynnwys Sylwadau ar Lyfr o waith y Parch. Thomas Jones, o Ddinbych." 1820.

Cyhoeddwyd llyfr Mr. Jones, o Ddinbych, fel y gwelsom,‖ yn 1819, dan yr enw "Ymddyddanion rhwng Ymofynydd a Henwr ar Brynedigaeth," a chymmerth amryw eraill ran yn y ddadl. Tybiwn mai yr "Alwad Ddifrifol" yw'r llyfr diweddaf a argraphwyd o waith yr enwog John Roberts, a dïau mai hwnw yw ei brif waith. Maint y llyfr yw 16plyg, a chynnwys, rhwng yr arweinolion, yr "Attodiad," yr "Olysgrifen," a'r cynhwysiad, 130 o dudalenau. Gwaith Mr. Roberts, mewn ugain o bennodau byrion, ydyw y rhan gyntaf o'r llyfr, mewn 80 o dudalenau, a chynnwys yr "Attodiad" chwech o fyr dreuthodau o'r un ansawdd a'r rhan gyntaf, gan yr enwogion canlynol:—Williams o'r Wern, Morgans o Fachynlleth, Everett o Ddinbych, Jones o Lanuwchllyn, Griffiths o Dŷ Ddewi, a Breese o Nerpwl. Nid ydym yn gwybod i'r gwaith godidog, hynaws, ac Ysgrythyrol hwn gael ei ail argraphu; ond gwyddom bod yn resyn mawr na bai yn fwy hyspys i drigolion Cymru.

Heb law y llyfrau a nodwyd, ysgrifenodd Mr. Roberts lïaws o erthyclau i'r *Seren Gomer*, *Y Dysgiedydd*, a'r *Congregational Magazine;* ac yr oedd yn un o ymddiriedolwyr yr *Evangelical Magazine*, ac yn ohebydd cysson i'r cylchgrawn rhagorol hwnw. Hefyd, y mae ei Gofiant, a argraphwyd yn Llanelli, 1837, yn cynnwys "Pigion" o 98 o'i lythyrau at ei gyfeillion, heb law "Adgofion" o 107 o'i bregethau. Gan hyny, y mae'r gŵr enwog a llafurus hwn, fel y rhan fwyaf o'n prif "Enwogion y Ffydd," "er 'wedi marw, yn llefaru etto,' wrth *ieuengctid*, wrth *eglwysi*, ac wrth *weinidogion* y gair."¶

### THOMAS PHILLIPS, D.D., O'R NEUADD-LWYD.

Mab oedd y gŵr enwog hwn i John Phillips, ac Ann ei wraig, y rhai a breswylient yn gysurus mewn ffarm a elwid Scythlyn, ymhlwyf Llanfihangel-ar-arth, sir Gaerfyrddin, ac yno y ganwyd Thomas ar ddydd Sul, y 29fed o fis Mawrth,

§ Dywed S. R. i hwn gael ei gyhoeddi "tu ag 1815."

‖ Gwel pen. xiv. o'r llyfr hwn, y vi.

¶ Cofiant John Roberts, 1837; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 463–4; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 509; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 239; En. Cymru, I. F., t. 902; Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 54.

Digitized by Google

1772. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r eglwys Annibynol ym Mhencader pan anwyd Thomas, yr hwn oedd eu hail sab. Yr oedd ese yn nodedig o feddylgar a myfyrgar er yn blentyn, a bu ei dymmer fyfyrgar o wasanaeth mawr i Thomas ieuangc, gan y tueddai ef i ymgadw oddi wrth ffoledd a gwegi, ac i ffurfio cydnabyddiaeth â phethau pwysig y byd tragywyddol. Pan oedd tu a 7 oed, teimlodd argraphiadau dwysion ar ei feddwl wrth wrando Mr. B. Evans yn pregethu ar 2 Cor. x. 4. Yr oedd gogwydd ei feddwl er yn forau at bregethu, ac ychydig iawn o duedd oedd ynddo at ddim arall. Byddai'n pregethu yn fynych i'w gyfoedion a'i gydchwaryddion plentynaidd. Teimlodd argyhoeddiadau llymion yn fynych, yn enwedig pan oedd tu a 10 oed, a llawer o ieuengctid yr ardal yn ymuno â'r eglwys ym Mhencader; ond ymgyndynu a wnaeth ef nes oedd tu a 18 oed, pan y cynhygiodd ei hun i'r eglwys yno, ac y derbyniwyd ef yn groesawgar.

Yn lled fuan ar ol iddo ymuno â'r eglwys, annogwyd ef i ddechrau pregethu, â'r hyn y cydsyniodd yntau mewn ofn ac awydd, pan oedd yn "llawn 20 oed." Yr oedd wedi cael llawer o fanteision addysg o'i febyd, o'r fath ag ydoedd yn ysgolion yr ardal; a bu am ychydig dros flwyddyn, cyn dechrau pregethu, yn ysgol enwog Davies o Gastell-Howel, lle yr ymberffeithiodd yn dda yn y Groeg a'r Lladin. Yn y fl. 1792, aeth i Athrofa Caerfyrddin, ac arhosodd yno am ddwy flynedd a chwarter. Yn y fl. 1794, gwahoddwyd ef gan hen eglwys Edmund Jones, yn Ebenezer, Pont-y-pwl, i fyned yno ar brawf, â'r hyn y cydsyniodd yntau; ond ni arhosodd yno ond chwe mis. Yn lled fuan ar ol dychwel oddi yno, cafodd alwad gan eglwys y Neuadd-lwyd; ond gan y bwriadai fyned i Athrofa Homerton, bu dros ennyd yn naca cydsynio. O'r diwedd, ar annogaeth ei gyfeillion, derbyniodd yr alwad, a sefydlwyd ef yno ar y 5med a'r 6ed o Ebrill, 1796; a bu llwyddiant mawr ar ei lafur yno. Wedi cydsynio â'r alwad, aeth i lettya at un John Jones, a'i ddwy chwaer hawddgar, yn y Neuadd-lwyd, amaethdy cyfrifol yn ymyl y capel, oddi wrth yr hwn amaethdy y cafodd y capel ei enw.

Yn yr adeg yma, ac am flwyddyn wedyn, arferai Mr. Phillips fyned i bregethu at ei hen gyfeillion i Bencader, ac fi ddwywaith yn y mis i bregethu i Benrhiwgaled; a pharhaodd i wneud hyny am gryn ugain mlynedd. Pan yn pregethu ym Mhenrhiwgaled un tro, yn lled fuan ar ol ymsefydlu yn y Neuadd-lwyd, ar y geiriau, "O thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo," llym argyhoeddwyd geneth ieuangc a'i henw Mary Jones, unig ferch ffarmwr cyfoethog a elwid Mr. Jones, Rhydlydan, ymhlwyf Llanarth. Ar y 29fed o fis Mawrth (dydd genedigaeth Phillips), efe a briododd y Mary Jones honno, pan oedd hi yn 17 oed, ac yntau yn 26 oed. Cafodd gryn lawer o gyfoeth gyd â'i wraig rinweddol, trwy'r hyn y galluogwyd ef i fod yn fwy defnyddiol, ac yr ychwanegwyd llawer at ei ddylanwad yn y wlad. Yn lled fuan ar ol priodi, derbyniodd alwadau oddi wrth amryw eglwysi Annibynol, pell ac agos; ond penderfynodd ef a'i wraig ieuangc fyw yn hen ardal y Neuadd-lwyd, ac yno, yn lled agos i'r capel, cymmerth dyddyn ymhlwyf Hen-Fynyw, ar yr hwn yr adeiladwyd tŷ newydd iddynt, a alwyd yn bur briodol Pen-y-bangc. Bu iddynt naw o blant. Aeth pedwar o'r meibion yn bregethwyr, a bu eu merch hynaf yn wraig i Mr. Moses Rees, Drewen. Wedi i Mr. Phillips ymsefydlu yn y Neuadd-lwyd, ymroddes i sefydlu eglwysi mewn amryw fanau yn yr holl ardaloedd o amgylch, megis Llanbadarn, Tal-y-bont, Cilcenin, Nebo, a Madriolyn, os nad ychwaneg; a gwelodd lwyddiant mawr ar ei lafur yn achos ei Waredwr bendigedig. Gyd â golwg ar y manau lliosog hyn, efe a ddywed, "Y maent i gyd dan fy ngofal i; etto na feddylied neb fy mod yn *pluralist* [aml-eglwysog]: na, nid felly, eithr wedi magu llawer o blant yr ydwyf, a'r rhai hyny yn parhau yn weiniaid; ac yr wyf yn rhy hoff o honynt i'w gadael, tra y gallwyf eu cynnorthwyo."

Yn y fl. 1810, penderfynodd gweinidogion Annibynol sir Aberteifi, a'r siroedd cylchynol, sefydlu math ar athrofa yn y Neuadd-lwyd, er addysgu pregethwyr rhy hen i fyned i athrofäu o radd uwch, ac er parotöi dynion ieuaingc i fyned i athrofa Caerfyrddin, Gwrecsam, neu un o golegau Lloegr. Er mwyn arbed traul, penderfynwyd dechrau yr athrofa, fel y'i gelwid, mewn tŷ a adeiladasai Mr. Phillips ar dir Pen-y-bangc, er cael rhywun i hyfforddi ei blant ei hun.* Penodwyd Mr. John Maurice (Morys) i fod yn athraw classurol, a Mr. Thomas Phillips yn athraw duwinyddol. Bu farw Mr. Maurice cyn pen chwe

* Gan fod y tŷ hwnw yn un pur ryfedd, y mae'n werth i'r darllenydd gael darlun byr o hono. "Bwthyn to gwellt a muriau pridd" ydoedd, y peth a eilw pobl Môn yn "dy mwdwal." Yr oedd y tŷ godidog (?) yn cynnwys dwy ystafell anghyfartal; a chan y safai'r tŷ ar lethr gallt, yr oedd un ystafell yn uwch na'r llall. Yn yr ystafell isaf y rhoddid y bechgyn mwyaf i eistedd, ac yn yr uchaf a'r heleuthaf yr eisteddai yr athraw a'r plant lleiaf.—Traethodydd, llyfr iv., t. 374.

Digitized by Google

mis ar ol agor yr ysgol, a syrthiodd yr holl ofal ar Mr. Phillips. Parhaodd ef i fod yn athraw effeithiol ar y sefydliad hyd o fewn ychydig flynyddau i'w farwolaeth, pan y bu raid rhoi y sefydliad i fynu. Dywed Mr. Phillips, gyd â golwg ar yr hyn a fu yr ysgol hon iddo ac eraill, fel hyn:—

"Daeth cyfrifoldeb yr ysgol ar fy ysgwyddau i [yn unig, ar ol marwolaeth Mr. Maurice], a chedwais hi trwy gael fy nghynnorthwyo gan y bechgyn hynaf, pryd y dymunodd y gweinidogion arnaf ei chymmeryd yn gwbl, a dewis y neb a fynwn i'm cynnorthwyo. Bu yn llafur caled i mi, ac yn bryder mawr; a chefais lawer mwy o ddiddanwch yn fy mynwes wrth wneud y gwaith, nag a gefais o dâl yn fy llogell. Y mae o ddeutu dau gant o'r rhai a fuant dan fy ngofal yn y weinidogaeth; rhai yn Nghymru, Lloegr, Ffraingc, America, China, ac Olahite. Y mae chwech neu saith o honynt yn yr Eglwys Wladol; rhai gyd â'r Bedyddwyr, rhai gyd â'r Methodistiaid Calfinaidd, a rhai gyd â'r Wesleyaid.

Yn y fl. 1831, derbyniodd Mr. Phillips, pan oedd efe yn 59 oed, y radd o D.D. (Doethawr Duwinyddiaeth), o Athrofa Jersey Newydd, America. "Os yw titl o'r fath yn anrhydedd," medd golygwyr *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, "yr oedd gweinidog galluog y Neuadd-lwyd, ac athraw llwyddiannus yr athrofa, mor deilwng o hono a neb yng Nghymru." Cyfarfu y Dr. Phillips âg amryw amgylchiadau adfydus yn ystod y naw neu'r deng mlynedd olaf o'i fywyd, y rhai a effeithiasant yn ddwys ar ei gorph a'i feddwl. Yn y fl. 1834, bu farw ei fab John, yr hwn oedd yn un o'r gweinidogion ieuaingc mwyaf gobeithiol yn y wlad. Ar y 25med o Ebrill, 1842, bu farw ei briod hoff a duwiol, ar ol bod yn ymgeledd gymmwys iddo am 44 blynedd; ac ar yr 22fed o Ragfyr, yr un flwyddyn, hunodd yntau yn yr angau, yn yr 71fed flwyddyn o'i oedran.

Y mae'n anhawdd dirnad maint llafur y Dr. Phillips rhwng darllen, myfyrio, hyfforddi pobl ieuaingc mewn dysgeidiaeth, a theithio i bregethu. Arferai gadw cyfrif o nifer y rhai a dderbyniai yn aelodau eglwysig, yn nechrau ei oes weinidogeuthol, cyn i lafur mawr yr ysgol syrthio arno; ac yr oedd eu nifer, mor forau a'r fl. 1820 (tu a 22 flynedd cyn ei farw), dros 2,000! Ymddangosai yn ddedwyddach yn y pulpud nag mewn un lle arall. Yr oedd yn edrych yn foneddigaidd ac ennillgar bob amser, yr hyn a sicrhai iddo dderbyniad croesawgar i bob lle yr elai, a bu hyny o fantais neillduol iddo wrth fyned i bregethu i leoedd newyddion. O herwydd bod ganddo y fath faes ehang i lafurio ynddo, a chynnifer o ddyledswyddau i'w cyflawni, ni chafodd amser i ysgrifenu ond ychydig mewn cymhariaeth, a phrin y mae'r pethau a gyhoeddwyd o'i waith yn deilwng o hono ef fel ysgolhaig a duwinydd. Wele restr o honynt:—

"Pregeth ar 1 Corinthiaid, xv. 3." 1803.
"Pregeth ar Galatiaid, iii. 9." 1808.
"Brenhiniaeth Crist, wedi ei hystyried mewn pregeth ar Luc i. 33." 1812.
"Natur Cyfammod Eglwysig." 1815.
"Ychydig Fasgedeidiau o Sypiau Grawnwin." 1818.
"Ychydig o Loffion Grawnwin." 1826.
"Esponiad Byr ar y Testament Newydd."* 1828.
"Gweddi yr Arglwydd wedi ei hystyried yn ddwys, a'i hegluro yn amlwg." 1834.
"Ychydig o Hymnau Efengylaidd ar Destynau Ysgrythyrol a Phrofiadol."

Fel dŷn, yr oedd y Dr. Phillips yn llawn chwe throedfedd o daldra, a'r olwg arno yn hardd a mawreddog. Yr oedd yn meddu synwyr cryf, a meddwl gwastad a sefydlog; ac yr oedd yn syml, cyfeillgar, rhyddfrydig, diymyrgar. Fel pregethwr, yr oedd yn eglur, addysgiadol, naturiol, a theimladol. Pregethau byrion a draddodai yn wastad; ond byddai effeithiau mawrion yn cydfyned â hwy ar amserau. Fel Cristion, ei brif harddwch oedd ei fod yn gosod y pwys mwyaf ar bethau pwysicaf crefydd, sef cariad at Dduw, cadw ei orchymynion ef, bod yn ddefnyddiol gyd âg achos Iesu Grist, ac yn ymdrechgar i achub eneidiau.†

---

## PENNOD XVII.

### TITUS LEWIS, JOSEPH HARRIS, A RICHARD JONES.

Titus Lewis ydoedd fab i'r Parch. Lewis Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yng Nghilfowyr, sir Benfro, lle y ganwyd Titus ar yr 21fed o Chwefror, 1773. Teimlai argraphiadau crefyddol ar ei feddwl er yn ieuangc; ac ar y 1af o Fehefin, 1793, bedyddiwyd ef ar ei broffes o'i ffydd, ym Mlaen-y-waun, ger llaw Aberteifi. Dechreuodd bregethu ymhen chwech wythnos ar ol ei fedyddio; ac yn 1798, sefydlwyd ef yn weinidog i eglwys Blaen-y-waun. Yn y fl. 1800, priododd ferch ieuangc dduwiol a'i henw Elizabeth Havard, o dref Caerfyrddin. Symmudodd yntau yno i breswylio, ac

* Hwn ydyw prif waith y Dr. Phillips. Dywed efe ei hun iddo ei ysgrifenu mewn saith mis o amser; ond gresyn na chymmerasai *saith mlynedd* o amser ato. Y mae'r gwaith yn llawer rhy fyr, ac o herwydd hyny, a diffygion eraill sydd ynddo, ni wnaeth ddim er cyfodi cymmeriad ei awdur fel ysgolhaig a beirniad Ysgrythyrol; ond gwnaeth lawer o niwaid i'w logell, am na bu'r gyfrol erioed yn boblogaidd.

† Cofiant y Dr. Phillips, gan M. Rees, Groeswen, 1845; Traethodydd, llyfr iii., t. 829., llyfr iv., t. 878; Traeth. ar Ymneillduaeth, D. M., t. 174; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 106; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 390; Gwyddon., cyf. viii., t. 585; En. Cymru, L. F., t. 837; En. Sir Aberteifi, G. J., t. 121; Ysgr. y Dr. Pan Jones.

Digitized by Google

aeth yn weinidog i eglwys y Porth-tywyll, yn y dref honno; ond parhaodd i fod yn aelod o eglwys Blaen-y-waun, a pharhaodd i fyned yno i weinyddu unwaith yn y mis tra y goddefai ei nerth, er bod y pellder yno o Gaerfyrddin tu a 30 milltir.

Ni chafodd Mr. Lewis ond ychydig o fanteision addysg; ond trwy nerth athrylith, diwydrwydd, a dyfalbarhad, cyrheuddodd wybodaeth ehang mewn ieithyddiaeth, hanesyddiaeth, a duwinyddiaeth. Llafuriodd yn galed iawn, yn llawer rhy galed er lles ei iechyd, trwy bregethu, ysgrifenu, a theithio. Treuliai tu a phedair awr ar ddeg bob dydd yn ei lyfrgell, pan fyddai gartref. Pregethai bedair gwaith yn yr wythnos yn gyffredin; ac yr oedd ol llafur a myfyrdod dwys ar ei bregethau, cystal a'i holl gyfansoddiadau eraill. Ystyrid ef yn un o bregethwyr penaf Cymru yn ei ddydd; ac nid ystyriai y Bedyddwyr eu cymmanfa yn gyflawn, lle bynag yng Nghymru y byddai, heb i Titus Lewis fod yn bresennol. Yr oedd ef a Christmas Evans yn pregethu yng Nghymmanfa Glynceiriog yn y fl. 1810 (yr olaf y bu efe ynddi), ac ar ol gwrando ar y ddau yn pregethu yn eu "hwyliau" gorau y tro hwnw, dywedodd rhyw hen frawd wrth C. Evans, mewn tipyn o gellwair, "Yr ydych chwithau wedi cyfarfod â'ch meistr o'r diwedd." Canmoliaeth uwch na hyn i Titus Lewis fel pregethwr nis gallasid ei rhoddi. Ond pa mor enwog bynag ydoedd fel pregethwr, ei lafur llenyddol a drosglwydda ei enw a'i glod yn barchus i oesau dyfodol, ac y mae hwnw yn ddirfawr ei faint ac ystyried byrder yr amser a gafodd i'w gyflawni. Wele'n canlyn y rhestr gyflawnaf a allasom ni ei chasglu o'r llyfrau a ysgrifenodd:—

"Geiriadur Cymraeg a Saesneg." 1805.*

"Trysorfa Efengylaidd."† 1806.

"Hanes Wladol a Chrefyddol Prydain Fawr: o'r amser y daeth y Brutaniaid i wladychu iddi gyntaf hyd yn bresennol. 1810."‡

Methasom daro wrth amseriadau y llyfrau canlynol a ysgrifenwyd ac a gyhoeddwyd ganddo; ond dīau iddynt ymddangos rhwng 1800 ac 1811:—

"Holwyddoreg ar holl byngciau crefydd."

"Esponiad ar y Cyffelybiaethau." Cyfieithiad o waith Keach.

"Llyfr y Rhyfeddodau."

"Y Testament Newydd, gyd âg ychydig Nodiadau ar odrau y dail."§

"Casgliad o Hymnau; a Chasgliad o Psalmau Cân Edmund Prys."

"Esponiad y Dr. Gill ar y Testament Newydd."

Yr oedd Christmas Evans a Joseph Harris (Gomer) yn ei gynnorthwyo i gyfieithu y gwaith hwn; ond bu Mr. Lewis farw ar y 1af o Fai, 1811, yn 38 oed; a chan mai efe oedd yn golygu'r wasg, ac yn cywiro y prawfleni, safodd y gwaith dros amryw flynyddau, yr hyn sy'n arwyddo yn bur eglur mai ar Mr. Lewis yr oedd prif bwys y cyfieithiad hwnw.

Hefyd, "ysgrifenodd a chyhoeddodd lyfryn ar fedydd, yr hwn a gynnwys agos holl ymresymiadau y Bedyddwyr ar y pwngc hwnw, a gafaela gyd â grymusder mawr ar ymresymiadau ei wrthwynebwyr." Ar fyr, gellir dywedyd i haul y gŵr enwog hwn fachludo "hanner dydd."‖

## JOSEPH HARRIS (GOMER).

Byddai yn hawdd ysgrifenu cyfrol lled helaeth ar y gŵr gwir enwog hwn, trwy gymmorth y gwahanol ysgrifeniadau arno sydd yn ein cyrraedd; ond rhaid i ni ymdrechu rhoi ei brif nodweddau ger bron mewn cyn lleied o le ag y gallwn.

Ganwyd Joseph Harris yn y fl. 1773, mewn lle a elwid Llantyddewi,¶ ymhlwyf St. Dogwel, ger llaw Hwlffordd, yn sir Benfro. Enw ei dad oedd William Harris, maenorydd *(farm bailiff)* i ryw foneddiges yn yr ardal, ac yr oedd ef a'i wraig, yn eu dyddiau boreuaf, yn aelodau o Eglwys Loegr; ond yr oedd W. Harris wedi ymuno â'r Bedyddwyr yn Beula, Castell-newydd-bach, er ys rhai blynyddau cyn iddo farw yn 1825, gan ddilyn esampl ei fab Joseph, fel y gellir casglu. Ni chafodd Joseph ddim gwell addysg, pan yn blentyn, nag a roddid yn ysgolion cyffredin ei ardal, a gwyddys nad oedd y rhai hyny, ar y pryd, ond pur ddiffygiol. Ond gan fod ei awydd ef yn angerddol o'i febyd am wybodaeth, rhoddai bob awr

* Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r geiriadur hwn yn y fl. 1815.

† Cyhoeddiad chwarterol oedd hwn, a ddygid allan ganddo ef a'r Parch. Joseph Harris (Gomer). Nid ydys yn gwybod i ddim ond dau rifyn o hono gael eu cyhoeddi.

‡ Maint y gwaith hwn yw 8plyg, a chynnwys 624 o dudalenau, heb law arweinolion yn cynnwys 16 o dudalenau; a dīau mai hwn yw prif orchestwaith yr awdur enwog. Y Parch. D. Jones, awdur *Hanes y Bedyddwyr*, a ddywed am y gwaith hwn—"Darllenais gyd âg ychydig fanylrwydd agos holl haneswyr hirfaith y deyrnas hon, megis Hume, Echard, ac eraill, a thalfyriadau, megis Goldsmith, ac eraill; ac yr wyf yn rhwym o dystiolaethu bod Hanes Prydain Fawr, gan Titus Lewis, yn cynnwys eu mêr, neu eu hufen hwynt i gyd. Rhyfedd genyf na buasai y Cymry wedi galw am amryw argraphiadau o'r gwaith hwn cyn yn awr" (1839).

§ Plygiad bychan at wasanaeth yr Ysgol Sabbothol ydoedd hwn.

‖ Seren Gomer, 1825, t. 127; Han. y Bedyddwyr, D. J., t. 486; Gwyddon., cyf. vi., t. 566; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 161; En. Cymru, I. F., t. 671.

¶ "Ym *mhlwyf* Llantyddewi," medd amryw o'i fywgraphwyr; ond "ym mhlwyf Sant Dogwells," medd D. D. Evans (*Seren Gomer*, 1826, t. 2); ac "at Llantydewi, in the parish of St. Dogwell's," medd Williams (*Em. Welshm.*, p. 211). Nid yw y rhestr a berthyn i sir Benfro o "Blwyfau Cymru," sydd yn y *Myv. Archæology*, p. 745, yn cynnwys Llantyddewi; ond y mae "St. Dogwel" yn y rhestr.



Digitized by Google

hamddenol, a llawer o amser cysgu, i ddarllen a myfyrio, a mawr ryfeddol a fu'r canlyniad.

Yn ei ddyddiau boreuaf, elai Joseph gyd â'i rieni i Eglwys y Plwyf; ond wedi iddo gynhyddu ychydig mewn oedran, arferai fyned i wrando yn lled fynych ar y Bedyddwyr i gapel Beula, yr hwn a ystyrid yn perthyn i Langloffan. Byddai argraphiadau dyfnion ar ei feddwl er yn forau; a phan ydoedd yn 19 oed, ymunodd â'r Bedyddwyr yn y lle crybwylledig, a bedyddiwyd ef gan y Parch. H. Davies, gweinidog Llangloffan. Ymhen tu a blwyddyn neu lai ar ol i Mr. Harris ymuno â'r eglwys yn Beula, cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"Ychydig o Hymnau Newyddion, ar amryw fesurau. At ba rai y chwanegwyd, Cân o Gyngor i Ieuengctid. Gan Joseph Harris, Castell Blaidd,* ger llaw Llangloffan, sir Benfro. . . . . M,DCC,XCII."†

Y mae genym amryw brofion, heb law y llyfryn hwn, bod Mr. Harris yn perchen awen a fuasai yn ei wneud yn fardd enwog, pe cawsai amser i'w choleddu a'i gwrteithio, megis "Marwnad ar ol Titus Lewis," "Ymddiddan Tad âg Ieuan Ddu," ac yn enwedig "Galar Tad ar ol ei Unig Fab," yr hon sydd gân wir odidog. Dan y flwyddyn hon (1793) hefyd y cyflea Gwilym Lleyn y llyfryn canlynol:—

"Sylwad Byrr ar y Papur."

Nid oes nac amseriad, nac enw awdur nac argraphydd wrth y "Sylwad" yma; ond ynglŷn âg ef, dywed Gwilym Lleyn fel hyn:—

"Y papurau hyn oedd rifres a elwid 'Papurau Achlysurol o ddadleuon sectaraidd, a phersonol, isel, rhwng y Dr. Richards o Lynn a'r Parch. Joseph Harris (Gomer), o Abertawy.'‡ Y mae'n syn nad yw bywgraphwyr yr enwog Harris yn crybwyll dim am y sarhad hwnw a daflwyd arno gan yr ysgolhaig o Lynn, yr hwn ynghyhoeddiad y papurau hyny ydoedd yn goriselu ei hun yn fwy na'i wrthwynebydd mwy medrus, er yn llai ei ddysg."§

Wrth weled bywyd diargyhoedd, galluoedd disglair, doniau helaeth, a llafur diwyd Joseph Harris, annogodd y brodyr yn Beula a Llangloffan ef i ddechrau pregethu; ac yn y fl. 1796, pan oedd efe tu a 23 oed, cydsyniodd yntau â'u cais. Yn yr un flwyddyn, yn ol G. Lleyn, cyhoeddodd—

"Casgliad o Hymnau, gan Joseph Harris."||

Wedi iddo fod yn pregethu yn gymmeradwy a llwyddiannus yn Llangloffan a'r ardaloedd cylchynol, am o ddeutu pedair blynedd, ordeiniwyd ef yn 1800, ac efe o gylch 26 oed, yn weinidog Llangloffan. O gylch y pryd hyn, neu ychydig yn gynharach, ond odid, priododd Mr. Harris Miss Martha Symmons, merch Mr. Symmons, ger llaw Castell-newydd-bach, yr hon a ddygasid i fynu yn grefyddol a pharchus, ac a fedyddiasid yn Llangloffan o gylch yr un amser a Harris ei hun. Yn lled fuan ar ol cael ei ordeinio, aeth Harris ar daith trwy sir Forganwg; ac ymhlith manau eraill aeth i Abertawe, lle y pregethodd yn nerthol a chymmeradwy iawn mewn capel a elwid Heol Gefn. Ymhen ychydig amser wedyn, ymadawodd y gweinidog oddi yno, a thaer wahoddasant Mr. Harris i ymweled â hwy drachefn, â'r hyn y cydsyniodd yntau. Mewn canlyniad i hyny, rhoddwyd galwad unfryd iddo gan yr eglwys i fyned yn weinidog iddynt. Teimlai y cyfeillion yn Llangloffan yn dra anfoddlawn iddo ymadael; ond wrth ystyried taerineb a sefyllfa yr eglwys yn Abertawe, a gogwyddiad ei feddwl yntau hefyd, cydsynio â'u cais a wnaeth o'r diwedd, a symmudodd yno yn y fl. 1801.

Yn fuan ar ol ymsefydlu yn Abertawe, teimlai Mr. Harris yr anfantais o fod yn ddiffygiol mewn gwybodaeth ymarferol o'r iaith Saesneg; a thrwy gydsyniad yr eglwys y gweinyddai iddi, aeth i Athrofa'r Bedyddwyr yng Nghaerodor, oedd dan arweiniad y Dr. Ryland. Bwriadai ar y cyntaf aros yn yr athrofa am flwyddyn; ond o herwydd rhyw amgylchiadau eglwysig, ni chafodd aros yno ond pedwar mis yn unig. Pa wedd bynag, cafodd ben y ffordd yn yr yspaid byr hwnw i fod yn hyddysg yn y Saesneg; ac yn fuan wedyn, yr oedd yn alluog i bregethu a chyfansoddi ynddi. Yn y cyfamser, aeth yn gydnabyddus âg amryw o weinidogion y Bedyddwyr yn Lloegr, a dechreuwyd cyfeillach rhyngddo a'r Dr. Ryland, a gryfhaodd ar hyd eu hoes. Ar ol ymsefydlu yn Abertawe, ymroddes i lafurio yn galed ac egnïol, fel pregethwr ac awdur. Arferai bregethu deirgwaith bob Sabbath, a phregethai lawer hefyd yn yr ardaloedd cylchynol. Fel awdur, llafuriodd yn ddiwyd, galluog, a defnyddiol dros ben. Heb law y tri llyfryn a nodwyd eisoes, ynghyd â'i erthyclau yn y *Seren Gomer* a'i bregethau, cyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i waith:—

"Yr Anghyffelyb Broffeswr yn ei Ganol-ddydd Disgleirdeb." 1802.¶

* Ymddengys mai enw cartref Joseph Harris oedd Castell Blaidd.

† Llyfr. y Cymry, t. 681.

‡ Nid aeth Mr. Harris i Abertawe hyd y fl. 1801, fel y ceir gweled yn ebrwydd; gan hyny, yr ydym yn casglu i Gwilym Lleyn leoli'r gwaith yma wyth mlynedd, o leiaf, yn rhy forau.

§ Llyfr. y Cymry, t. 681.

|| Yr un, t. 699.—Nid oes amseriad nac enw argraphydd wrth y gwaith yma chwaith.

¶ Cyfieithiad o'r Saesneg yw'r llyfryn hwn yn erbyn y Sosiniaid.

Digitized by Google

"Bwyell Crist yn Nghoed Anghrist." 1804.*

"A Sermon on Baptism, from Mat. iii. 6." 1806.†

"Traethawd ar Briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist, ynghyd âg Atebiad i brif Wrthddadleuon y Sosiniaid, sef Sylwedd dwy Bregeth a draethwyd yn Addoldy Heol-Gefn, Abertawy, Rhag. 10 a'r 11, 1815.—Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac ychwanegu ato, gan yr Awdwr."‡ 1816.

"'Gair Duw yn erbyn Dychymmyg Dyn;' neu Hawl Plant Bychain i'r ordinhad o Swper yr Arglwydd, wedi ei brofi trwy yr ysgrythyrau, yn ol ymresymiadau 'T. Powel, gweinidog yr Efengyl yn Aberhonddu.' Gan Gyfaill Babanod. Ynghyd ag amryw Sylwadau Beirniadol ar Aelodaeth Eglwysig Babanod, a'r iawn Ddull o Fedyddio, gan Wrthwynebwr Cyfaill Babanod." 1822.

Y ddadl ar fedydd, a gynhyrfwyd yn y Deheubarth gan Williams o Lanwrtyd, a Powel o Aberhonddu, y pryd hyny, a gynhyrfodd Harris i gyhoeddi y llyfryn uchod. Yr amcan ynddo yw profi hawl babanod i swper yr Arglwydd â'r un profion ag a ddug Powel dros eu hawl i fedydd. Ond, rhaid i ni droi ychydig yn ol, weithian, at brif orchest llenyddol ein hawdur llafurus a galluog, sef y Seren Gomer.

Yr oedd sefyllfa y Cymry, o ran moddion gwybodaeth gyffredinol, yn isel iawn yn nechrau y ganrif bresennol; ac nid oedd neb yn teimlo mwy o herwydd yr anfantais yma na Mr. Harris. Nid oedd cyhoeddiadau cyfnodol, sy'n gyfryngau mor fanteisiol i ledeunu gwybodaeth gyffredinol, i'w cael yn y wlad. Yr oedd *Cylchgrawn Cymraeg* Morgan ap Ioan Rhys, a *Geirgrawn* Dafydd Dafis o Dreffynnon, wedi cael eu llindagu gan ein Llywodraeth gulfarn yn niwedd y ganrif flaenorol; ac yr oedd *Trysorfa* chwarterol Mr. Charles a Mr. Llwyd wedi terfynu, ac nid oedd neb etto, hyd y cofir, wedi cynnyg un math ar gyhoeddiad wythnosol na misol. Dan deimlad dwys o'r anfantais cenedleuthol yma, cyttunodd Mr. Harris i gychwyn cyhoeddiad wythnosol Cymreig â'r boneddigion gwladgarol hyn:—John Voss, Ysw.; John Walters, Ysw.; Thomas Walters, Ysw.; David Walters, Ysw.; a'r argraphydd, Mr. Dafydd Jenkin. Ac ar y laf o fis Ionawr, 1814, daeth y rhifyn cyntaf allan, dan yr enw canlynol:—

"Seren Gomer, neu Hyspysydd Wythnosol Cyffredinol dros holl Dywysogaeth Cymru."

Mr. Harris ei hun, wrth reswm, oedd y golygydd, i'r hwn, bellach, y rhoddwyd y ffugenw *Gomer;* ac fel y canlyn y gesyd efe allan, yn ei annerchiad, amcanion y cyhoeddiad:—

"Bydd i *Seren Gomer* wynebu ar derfynau anwybodaeth, a gwahodd y preswylwyr yn gariadlawn i fwynhau pleserau gwybodaeth. Bydd yn cynnwys hanesion pellenig a chartrefol, am ryfel a heddwch; newyddion gwladol ac eglwysig; crynhodeb o'r cryfreithiau newyddion a wneir yn ein hamser; ymdrechiadau a llwyddiant y cenhadon Cristionogol ymhlith eulunaddolwyr; pris yr ŷd, ac amryw bethau eraill; amser ffeiriau yn y Dywysogaeth, ynghyd â phob peth arall hefyd a fyddo yn gysson â moesoldeb, tra y byddo lle; canys tra y bo'n llewyrchu ar achosion y fuchedd bresennol, fe ymdrechir ei thebygu i'r seren yn y Dwyrain i dywys at Seren Jacob, neu hyd at yr hwn a anwyd i fod yn Frenin yr Iuddewon. Saif *Seren Gomer* hefyd yn yr adwyau rhwng yr hoff-iaith Gymraeg a'i gelynion, trwy annog a denu pobl i ddarllen; hyspysu cyfansoddiadau gwerthfawr; a chefnogi ymdrechiadau barddonol yn yr iaith hon; ynghyd â derbyn ysgrifeniadau yn tueddu i'w phuro a'i diwygio," &c.

Ond er mor ganmoladwy oedd yr ymdrech godidog yma i oleuo a dysgu y Cymry, ac er mor gymmwys at y gwaith oedd y golygydd talentog, bu raid i'r cwmni gwladgarol roi yr amcan clodfawr i fynu ar ol cyhoedddi yr 81fed rhifyn, yr hwn a ddaeth allan ar yr 16fed o Awst, 1815; a gofidus yw gorfod hyspysu y bu'r meddiannwyr clodwiw yn golledwyr o amryw gannoedd o bunnau.§ Fel cymmeradwyaeth o waith Mr. Harris gyd â'r *Seren* wythnosol, a chydymdeimlad clodwiw â'i siomedigaeth a'i golled, anrhegwyd ef gan *Gymdeithas y Gwyneddigion* (Llundain), â *thlws arian* prydferth, gyd â llythyr caredig yn mawr ganmol y *Seren* wythnosol, ac yn datgan eu gobaith y byddai i'w ddiwydrwydd a'i allu ef lwyddo etto i anrhegu ei genedl ddifanteision â chyhoeddiad pythefnosol neu fisol. Ymddengys i hyn, a'i awydd tanbaid a gwladgarol yntau am lesâu ei genedl, ei symbylu i roddi *ail gynnyg;* ond cyfryngodd ei antur y waith hon, o herwydd rhyw resymau, i'w gyfundeb ei hun, y Bedyddwyr; ac

* Attebiad yw hwn i lyfryn bychan a gyhoeddasid gan Mr. Joseph Rhys, o'r Gelli-gron, a'r Undodiaid Cymreig, a gwaith pur alluog ydyw, ac ystyrir bod yr awdur yn gwbl feistr ar y pwngc. Nid oedd hwn ond dechreuad llafur Mr. Harris ar y pwngc tra phwysig yma, fel y ceir gweled yn ebrwydd.

† Traddodwyd y bregeth hon i gynnulleidfa Heol-gefn, ac ar eu hannogaeth hwy yr argraphwyd hi.

‡ Cafodd y treuthawd yma dderbyniad gwresog a sylw mawr. Ystyrid Mr. Harris yn amddiffynwr cadarn i'r gwirionedd yn erbyn y syniadau Sosinaidd a ledeunid, ac ennillodd barch Eglwyswyr ac Ymneillduwyr fel eu gilydd, o blegid ei wasanaeth i'r gwirionedd. Yn ei annerchiad i'w glerigwyr, cymhellodd y Dr. Burgess, Esgob Tŷ Ddewi, dreuthawd Joseph Harris i'w sylw manylaf. Y mae galluoedd ymresymiadol yr awdur yn dyfod i'r golwg yn amlwg yn y gwaith rhagorol hwn; ac anfynych, yn ddïau, yr ymdrinir â'r matter pwysig yn fwy cryno ac eglur nag y gwneir ynddo. Rhagora yr awdur ynddo fel ymosodwr ac amddiffynwr.

§ Y mae rhai o fywgraphwyr Mr. Harris yn rhoddi *holl* fai yr anffawd yma ar ddifatterwch y Cymry, ar y pryd, am wybodaeth gyffredinol, iachus ac adeiladol. Rhaid addef nad oedd archwaeth y Cymry, fel cenedl, wedi cael ond ychydig iawn o wrteithiad hyd yn hyn; ond yr oedd cyfleusderau trosglwyddiad y pryd hwnw mor ychydig ac mor ddrudfawr, a llyfrwerthwyr Cymreig mor anaml a diantur, fel y credwn ni yn ddïau y dylid priodoli *rhan helaeth*, o leiaf, o'r anffawd i'r rhai hyny, cystal, os nad gwell, ag i ddifatterwch y Cymry am wybodaeth.

Digitized by Google

yn Ionawr 1817, cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o gylchgrawn a alwyd ganddo—

"Greal y Bedyddwyr."

Ond, ysywaeth! siomedigaeth a gafodd y gwladgarwr galluog yn yr antur yma etto, canys ni ddaeth ond un rhifyn o'r gwaith hwnw allan, a hyny, medd golygydd y *Greal* yn y fl. 1839, "o herwydd nad oedd ei frodyr yn gyffredinol mor hewydus ac ymdrechgar ag efe i amaethu gwybodaeth, a dyrchafu meddyliau yr annysgedig at wybodeuthau a'u gwnaent yn fwy defnyddiol a heirdd mal gwladyddion a chrefyddwyr." Nid ydys yn gwybod a oedd Mr. Harris yn rhoi coel i'r hen ddywediad Cymreig yma ai peidio, sef "Y trydydd tro y bydd y goel:" beth bynag, cymmaint oedd ei awydd ef am fod o les i'w oes a'i genedl, ar faes llenyddiaeth, fel na lwyddodd yn oed *ail* fethiant i'w attal i roddi *trydydd* cynnyg i'w gwasaneuthu yn yr un modd. Y fath yw penderfyniad gwir wladgarwr athrylithgar! Ar y 1af o Ionawr, 1818, daeth y rhifyn cyntaf o'i gyhoeddiad misol allan, dan yr enw canlynol:—

"Seren Gomer: neu Gyfrwng Gwybodaeth Cyffredinol i'r Cymry."

Maint y rhifynau oedd 8plyg, yn cynnwys 32 o dudalenau, heb law yr amleni, "pris tair ceiniog." Llafuriodd Mr. Harris yn ddyfal i wneuthur y *Seren*, yn y dull hwn, yn gyhoeddiad teilwng o gefnogaeth; a hyfryd genym ganfod y llwyddodd, "y trydydd tro," gyd â chymmorth amryw ysgrifenwyr galluog eraill, i'w gwneud yn gyfrwng gwybodaeth ac addysg ymhob man, ymhell tu hwnt i'w disgwyliadau. Y mae'n debyg nas gellir gwybod, hyd sicrwydd, pa nifer yw holl ysgrifau Mr. Joseph Harris ei hun yn y *Seren;* ond y mae "Gweithiau Awdurol y diweddar Barch. Joseph Harris (Gomer), . . . gan D. ap Rhys Stephen," ei fab ynghyfraith, yn cynnwys 93 o erthyclau o'i waith ef fel golygydd, neu yn dwyn y ffugenwau hyn:—Adelphos Cymraeg, Llewelyn, *August*, Iorwerth, Gweinidog y Fflangell, Gomer, Emrys Fychan, Gwrthddiffynwr, Llai na'r Lleiaf, a Gedeon. Y mae rhai o'r erthyclau crybwylledig yn lled feithion, canys llanwant oll gynnifer a 346 o dudalenau o'r "Gweithiau Awdurol" (8plyg), ac y mae amryw o honynt ymhlith y cyfansoddiadau grymusaf a mwyaf Cymreigaidd a fedd cenedl y Cymry, yn enwedig y rhai sydd ar byngciau crefyddol.

Crybwyllwyd eisoes, yn ein cofiant byr am y Parch. Titus Lewis, bod Mr. Harris yn cynnorthwyo y gŵr enwog hwnw, ynghyd â'r Parch. Christmas Evans, i gyfieithu y rhan gyntaf, a rhan o'r ail, o "Esponiad y Dr. Gill ar y Testament Newydd." Cyhoeddodd Mr. Harris hefyd "Fibl Dwyieithawg," yr hwn a gafodd dderbyniad da gan y genedl. Ond, ysywaeth! rhaid i ni ddyfod weithian, er ein mawr ofid, at gyfansoddiad olaf yr enwog Gomer, sef—

"Cofiant y diweddar John Ryland Harris (Ieuan Ddu o Lan Tawy), yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn Rhag. 4, 1823, Mab y Parch. J. Harris, Abertawe, gan ei Dad: ynghyd â Galar Tad ar ol ei Unig Fab."*

Am y gwaith difrifol hwn, dywed y Parch. D. R. Stephen fel y canlyn:—

"Nid ydym yn meddwl bod cymmaint o dynerwch a theimladrwydd mewn unrhyw lyfr arall yn Gymraeg. Ei ddarlleniad ystyrgar a barai hyfforddiant i'r athronydd o barthed *phenomena* [ymddangosiadau] y meddwl dynol. Hyfrydwch anhylon yr enaid cystuddiedig i boeni ei hun trwy fyfyrio yn ddiymdor ar ei wae; cywreinrwydd arswydus y meddwl i wrthod pob cysur; a'i ymroddiad diflin i gynnal a chynhyddu ei arteithiau, er eu dygned a'u poenused, ydynt addysgiadol i'r sawl a garo adnabyddiaeth o dueddiadau a gweithrediadau y *Byd Bychan* [y natur ddynol]. Yr arwyddion hyn ydynt ganfyddadwy iawn yn y 'Cofiant' dan sylw. Er holl annogaeth ei gyfeillion iddo ymattal rhag ei ysgrifenu, yr oedd y cwbl yn anhyciannol: gyd â phenderfyniad, cyfagos i ystyfnigrwydd, ymroddodd at a pharhaodd yn y gorchwyl, er bod pob llinell a ysgrifenai yn peri clwyf anaele ar ei galon, a phob gwahanran yn trywanu ei enaid âg aeth angeuol."†

Pan fu farw Ieuan Ddu yr amser a nodwyd eisoes, dechreuodd iechyd yr enwog Gomer adfeilio yn gyflym, dan bwys hiraeth gorlethol ar ol ei anwyl fab. Rhoddes olygiaeth y *Seren* i fynu yn ngwanwyn y fl. 1825, a pharhaodd ei iechyd i fyned waethwaeth hyd y 10fed o Awst y flwyddyn honno, pan y bu farw yn 52 oed. Bu farw ein Gomer enwog o wir alar a thor calon, o herwydd colli ei fab gobeithiol; ond dilys ddiammau nad oedd yr ymollyngiad dïobaith hwnw yn un rhan o enwogrwydd Gomer, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb. Gwyddom am Gymro arall a gollodd fab oedd fel canwyll ei lygaid yntau, yr hwn fab hefyd a fawrygid fel bardd a llenor coeth a thalentog, sef Golyddan;‡ ond cafodd ei dad ef ras i wrando ar gyfarwyddyd yr Apostol Paul, yr hwn a ddywed—"Ond ni ewyllysiwn, frodyr, i chwi fod heb wybod am y rhai a hunasant, na thristaoch, megis eraill y rhai nid oes ganddynt obaith."

Y mae'n sicr ddïamheuol y collodd Cymru, trwy farwolaeth ei henwog Gomer, un o'i gwladgarwyr ffyddlonaf, ac un o'i llenorion enwocaf. Yr oedd

* Gweithiau Awdurol Harris, t. xxxiii.
† Gweithiau Awdurol Harris, t. xx.
‡ Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 497.

Digitized by Google

ynddo ragorieuthau llïosog a mawrion, fel dŷn, fel Cristion, fel pregethwr, ac fel awdur talentog; ond rhaid i ni gelnu arno er ei anwyled genym, a gwnawn hyny gyd â'r difyniadau prydferth canlynol:—

"Gwasaneuthodd ei genedl mewn modd rhagorol. Cododd ynddynt ymofyniad am wybodaeth gyffredinol; dysgodd iaith eu hen deidiau iddynt; ac ymlidiodd o'u plith y bwbachod a'u brawychent ddydd a nos. Bydd enw Gomer yn gydoesol â llawer sydd etto heb eu geni."—*John Herring.*

"Lledeuniad gwybodaeth gyffredinol ym mysg trigolion yr holl Dywysogaeth a osododd y gwladgarwr hwn yn brif nôd ei fywyd; ac amcanodd ei gyrheuddyd, trwy lafur ac ymdrech didor, yn wyneb colledion a rhwystrau a ystyrid gan rai llai penderfynol nag ef yn anorchfygol."—*Venedocian.*

"Wrth ddarllen rhai o fyfyrdodau ysgrifenedig Joseph Harris, yr ydym yn teimlo fel pe byddai un o brif philosophyddion hen Groeg gynt a'i feddwl seraphaidd wedi cael ei drochi a'i drwytho yn athrawieuthau dwyfol Cristionogaeth; ac yna wedi dysgu yr hen Gymraeg, er mwyn trosglwyddo ei amgyffredion disglair i blant Cymru dlawd. Gallem yn hawdd dreulio diwrnodau cyfain gyd â difrifwch dibaid a digwmmwl yn myfyrio ei ddynion da, neu yn syn-ryfeddu ei ystyrieuthau ardderchog ar briodolieuthau anghyfranogol y Duwdod. Yr oeddym bob amser yn meddwl yn uchel ac yn barchus am Joseph Harris; ond nid oedd genym un rhith-ddychymmyg na dirnadaeth, cyn darllen ei waith trwyddo, a'i fyfyrio yn drwyadl o benbwygilydd, ei fod yn ddŷn mor wir fawr, nac, yn ddïau, mor rhyfeddol dda. Gyd a gwirionedd perffaith, gallwn yn awr fabwysiadu geiriau brenhines Seba wrth Solomon—'A hi a ddywedodd wrth y brenin, Gwir yw y gair a glywais yn fy ngwlad am dy ymadroddion di, ac am dy ddoethineb. Etto ni chredais y geiriau nes i mi ddyfod, ac i'm llygaid weled; ac wele ni fynegasid i mi yr hanner: mwy yw dy ddoethineb a'th ddaioni na'r clod a glywais.' . . . . . Pa bethau a gyfansoddant athronydd moesol a meddyliol campus? Dylai fod ei wybodaeth yn helaeth ac yn gyffredinol, ei gyrheuddiadau yn ehang ac yn nerthol, ei amgyffredion yn wrol ac yn wreiddiol, ei galon yn iach ac yn wresog, a'i fedrusder i drin arfogaeth ei feddwl y fath nes y dichon ddadlenu holl ddirgeledigeuthau ystafelloedd dyfnion, dyrys, tywyll enaid a chalon dŷn i'r cyfryw oleuni ac eglurder, fel y medro y neb a redo eu darllen. Os ydyw y darluniad neu'r portreiad amherffaith hwn, o'r pethau sy'n angenrheidiol i wneud gwir athronydd moesol neu feddyliol, yn cynnwys rhyw gymmaint o wirionedd, dïau y dywed pawb a'r a adwaen Joseph Harris, fel y mae yn byw ac yn bod yn ei ysgrifiadau mawrion a meistrolaidd—'Wele, ynte, heuddai hwn, heb os nac oni bâi, gadair ymhlith prif philosophyddion cred.' Fel yr oeddym yn troi dalen ar ol dalen o'r gwaith hwn, meddyliem y gwelem athrylith yr hen Gymraeg yn syllu gyd â difrifwch gwynfydedig ar ei mab gwych, anrhydeddus, ac yn adganu trwy'r holl nefoedd mewn banllef fawr, uchel, gynhyrfiol, synwyr meddyliau, os nad geiriau, y Sais—'*I herald thee to immortality;*' ac yn ddiffuant, ac o eigion calon, dywedwn ninnau Amen, Amen yn wir, ac am byth bythoedd."*—*Traethodydd.*

RICHARD JONES O'R WERN.

Y Richard hwn ydoedd unig fab John Prichard, a Margaret ei wraig, y rhai a breswylient yn gefnog mewn ffarm helaeth a elwid Coed-cae-du, ger llaw Brynengan, ymhlwyf Llanystumdwy, yng nghantref Eifionydd, sir Gaernarfon, lle y ganwyd Richard yn y fl. 1773. Dywed ei fywgraphydd hynaf y "rhoddwyd Richard i gael addysg dan ofal y Parch. Evan Richardson (wedi hyny) o Gaernarfon, yr hwn a gadwai ysgol yn y gymmydogaeth [Brynengan], a'i athraw a'i hegwyddorai ynghynseiliau yr ieithoedd Saesneg, Lladin, a Groeg."† Dengys awdur *Methodistiaeth Cymru* yr aeth Richardson i gadw ysgol ym Mrynengan yn y fl. 1781, ac y bu yno, ym Mhwllheli, ac yn Llangybi, ger llaw Glasfryn-fawr, hyd 1787, pan y symmudodd i Gaernarfon.‡ Felly, gallasai Richard Jones fod dan addysg yr enwog Evan Richardson, yn y gwahanol fanau a nodwyd, am chwe blynedd, sef o 8 oed hyd 14 oed. Nis gwelwn ni ddim arwydd iddo fod dan ei addysg yng Nghaernarfon o gwbl, fel y tybia rhai o'i fywgraphwyr diweddaraf. Gan fod Richard Jones yn fachgen diwyd, sobr, ac ymroddgar i ddysgu, y mae'n sicr i'w athraw craffus a gonest wneud ei egni i'w hyfforddi ymhen y ffordd i ddysgeidiaeth.

Ymddengys i Richard Jones ymroddi i amaethu ar ffarm ei dad ar ol ymadawiad Mr. Richardson o'r gymmydogaeth; ac er bod ganddo hyfrydwch mawr mewn amaethyddiaeth, etto parhaodd i ddarllen llyfrau a myfyrio gwahanol ganghenau gwybod yn ddyfal a llwyddiannus ar hyd ei oes. Prin y gellid ei gyfarfod un amser heb lyfr yn ei law, pan heb fod yn gweithio. Cyrheuddodd y fath raddau o ddysg yn y gwybodau a'r celfyddydau, pan yn lled ieuangc, fel y cynhygiodd rhyw fargyfreithiwr oedd yn byw yn yr ardal ei ddwyn i fynu yn yr alwedigaeth barchus ac ennillfawr honno, yr hyn, o herwydd rhyw resymau sy'n anhyspys weithian, a wrthododd yntau.

Gan ei fod o natur dawedog, yn cadw ei holl gyfrinach, braidd, iddo ei hun, a'i fod yn sobr a difrifol o'i febyd, y mae'n bur anhawdd gwybod pa mor forau y dechreuodd argraphiadau crefyddol ar ei feddwl. Y mae'n bur debyg i hyny ddechrau pan dan addysg ei athraw duwiol a gofalus. Pa wedd bynag, ymddengys mai'r digwyddiad syml canlynol a'i dygodd i lwyr benderfynu gwneud proffes gyhoeddus o'r Gwaredwr bendigedig. Yr oedd efe un diwrnod wrth ei orchwyl ar fin llwybr

* Seren Gomer, 1826, t. 1; Gweith. Awd. Harris; Han. y Bedyddwyr, D. J., t. 528; Traethodydd. llyfr i., t. 233; Williams's Em. Welshm., p. 211; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 478; En. Cymru, I. F., t. 471; Gwyddoniadur, cyf. x., t. 586; Cymru, O. J., cyf. i., t. 623.

† Cofiant y Parch. R. Jones, gan John Jones, Tremadog, t. 5, 6.
‡ Method. Cymru, cyf. ii., t. 335, 381.

Digitized by Google

oedd yn arwain i gapel Brynengan, pan aeth gwraig grefyddol o'r ardal heibio, ar ei ffordd tu a'r capel i wrando pregeth, yr hon oedd yn lled hyf arno, a gofynodd iddo, "Richiart, ddowch chi ddim i'r capel heiddiw?" Yntau a ddywedodd, "Na ddo i." "O rhen Pharo!" ebr hithau, ac ymlaen â hi. Ymddengys nad oedd efe yn bur hyddysg yn y Bibl ar hyny o bryd, gan fod amaethyddiaeth a gwybodau *(sciences)* eraill yn myned a chymmaint o'i fryd a'i amser, pan nad oedd yntau etto ond ieuangc. Pa wedd bynag, gan y barnai fod y wraig wedi ei gyffelybu i ryw greadur lled ddrwg, penderfynodd ddarllen yr hanes; a dywedir i hyny fod yn foddion i ddwyshau argraphiadau crefyddol ar ei feddwl. Ymunodd â'r gymdeithas eglwysig ym Mrynengan, er mawr syndod i'w gyfeillion, gan nad *ymddangosai* nemmawr gyffro arno. Am hyny, nid rhyw dderbyniad croesawgar iawn a gafodd ar y cychwyn, gan fod yno rai hen frodyr yn ofni ei fod yn rhoi mwy o'i fryd ar ddarllen, ac yn enwedig ar *farddoni*, nag ar grefydd, canys yr oedd barddoni, yn bendifaddau ar y *mesurau ceuthion*, yn an-Fethodistaidd iawn y pryd hyny; ac yr oedd Richard Jones yn hoff o'r rhai hyny, cystal a'r rhai *rhyddion*, canys clywodd un o'i fywgraphwyr ef "yn darllen *cywydd* o'i waith ei hun," a hyny "mewn Eisteddfod Beirdd yn y Wern, Penmorfa," pan nad oedd efe ond "gŵr ieuangc penfelyn, gwylaidd;" ac yr oedd myned i *Eisteddfod* yn fwy anuniongred braidd yn oed na chanu yn y *mesurau ceuthion!* Pa wedd bynag, "dal ei ffordd" a wnaeth R. Jones, ac "ychwanegu cryfder," o hyny hyd ddiwedd ei oes; a daeth ei rinweddau personol a'i ymddygiad diymhongar mor amlwg yn fuan fel y graddol ddiflannodd rhagfarn y rhai mwyaf culfarn o'i frodyr.

Pan oedd Richard Jones o gylch 21 oed, yn y fl. 1794, dechreuodd bregethu y gair; ac o herwydd nad oedd ei ddawn yn llithrig, a'i ddull yn danbaid a chynhyrfus, bu cryn ragfarn yn ei erbyn ym mysg rhyw ddosparth, dros ennyd, fel pregethwr, canys ym marn y cyfryw ddosparth, yn yr oes honno, nid ystyrid neb o anfoniad dwyfol i bregethu os na byddai yn ymadroddwr hyawdl; ac os llafargenid y bregeth, yn enwedig tu a'i diwedd, gorau oll. Ond nid oedd odid ddim o'r fath bethau i'w cael ymhregethiad Richard Jones: ei brif hynodrwydd ef oedd dawn afrwydd a gwybodaeth helaeth, a honno yn wybodaeth wedi ei chael trwy lafur caled ac ymroddiad penderfynol; yr unig ffordd, mewn gwirionedd, i gyrraedd gwir wybodaeth. Llafuriai ef yn ddiwyd ac ymdrechgar yn yr ardal y preswyliai ynddi; a chyn belled ag y goddefai ei amgylchiadau, "elai o amgylch gan wneuthur daioni," a daeth ei wybodaeth ddofn a chyffredinol, a'i lafur helaeth ac ymroddgar, o'r diwedd i gael eu gwerthfawrogi yn deilwng gan holl ddynion gorau ei gyfundeb.

Ar yr 28fed o Ionawr, 1805, ac efe tu a 32 oed, priododd Frances, merch Griffith Poole (Pŵl), o Egryn, sir Feirionydd, a bu iddynt ddau fab a thair merch. Ymhen rhyw ennyd ar ol priodi, symmudodd o Goed-cae-du i ffarm a elwid Llwynimpiau, ymhlwyf Clynog, Arfon, a gwnaeth ei egni, tra y bu yno, i ledeunu achos crefydd yn yr ardal. Symmudodd yn lled fuan oddi yno i ffarm a'i henw y Wern, ymhlwyf Llanfrothen, sir Feirionydd, ac fel "Richard Jones o'r Wern" y mae'n fwyaf adnabyddus erbyn hyn yng Nghymru, fel "un o brif golofnau y Trefnyddion Calfinaidd." Erbyn iddo symmud i'r Wern, yr oedd ei feibion wedi dyfod i oedran cymmwys i gymmeryd gofal y rhan fwyaf o'i achosion bydol, ac thrwy hyny cafodd yntau ei holl amser braidd i lafurio fel pregethwr ac ysgrifenydd; ac ymlynyddau olaf ei oes nid oedd neb yng Ngogledd Cymru yr hoffid yn fwy clywed ei gyhoeddi. Byddai yn hoff iawn o ddefnyddio goruchwyliaeth Moses, ac yn enwedig y ddeddf seremonïol, i roddi goleuni ar bethau yr efengyl, a hyny, yn ei flynyddau olaf, gyd â blas ac arddeliad anghyffredin. Un o'i bregethau mwyaf nodedig yn y ffordd honno oedd ar 2 Cor. iii. 7–9. Bu llawer o son am bregeth a draddododd yn y Deheudir, y tro olaf y bu yno, ar 1 Ioan v. 20, "Efe a roes i ni feddwl," &c. Pregethodd hi yng Nghymmanfa y De gyd âg arddeliad anarferol. Pan gyd â Dafydd yn myned yn erbyn y cawr, fel esampl o un wedi cael meddwl newydd, manylai gyd âg ef nes oedd y gynnulleidfa yn llawn teimlad. Yr oedd un o weinidogion oedranus yr Annibynwyr ym mysg y gwrandawyr, yr hwn a âi ym mlaen yn ei feddwl gyd â'r darluniad yn gynt na Mr. Jones, ac a weuddodd allan, "Dacw hi i'w dalcen!" nes oedd y gynnulleidfa wedi ei thrywanu. Priodol y dywedodd Mr. Hughes am dano, "Pwysai ei wrandawyr ar ei wefusau; cadwai eu hastudrwydd yn ddyfal, a'u disgwyliad yn effro; ac ar rai achlysuron, disgynai oddi wrtho, fel cenllif gref, ryw ffrwd o feddyliau cryfion, nes gorlenwi pob mynwes â syndod, a rhoddi llaweroedd mewn dagrau."

Ond rhaid i ni brysuro at Mr. Jones fel awdur.

Digitized by Google

Yn ei flynyddoedd olaf, gyd âg anhawsder y ceid ef o'i lyfrgell yn oed i gymmeryd ychydig ymarferiad. Er ei fod yn nodedig o siriol a chymdeithasgar yn ei deulu, etto ni chymmerai ond ychydig amser at ymddiddanion teuluaidd, oddi eithr pan yn bwyta ei brydiau. Ysgrifenodd lawer i'r cyhoeddiadau misol perthynol i'w gyfundeb ei hun, dan yr enw "Cymro Gwyllt." Ysgrifenodd sylwadau meistrolgar ar y "Gwrthryfel Ffrengig" i'r *Seren Gomer* wythnosol, ac aml erthycl alluog i *Oleuad Cymru*, megis "Rhybudd i Bregethwyr a Gwrandawyr Efengyl," "Sylwadau ar y Mammon Anghyfiawn," "Offrymu wrth Gladdu," ac erthyclau eraill ond odid. Ysgrifenodd erthycl alluog i'r *Drysorfa* am 1825, ar "Allu ac Anallu Dŷn." Cyfansoddodd ddau "Holwyddoreg," un i rai yn dechrau darllen, a'r llall i ddosparth uwch. Hefyd, casglodd "Lyfr Hymnau;" ond nid ymddengys iddo gael derbyniad helaeth. Yr oedd efe yn awdur hymnau ei hun, ac y mae rhai o honynt yn aros mewn bri hyd y dydd hwn, megis—

"Tyrd Yspryd Glân i'n clonau ni," &c.

Ond ystyrir yn gyffredin mai ei brif waith yw—

"Drych y Dadleuwr." 1829. 12plyg.

Yn y gwaith meistrolgar hwn, cerydda dduwinyddion Cymru yn llym am gydymddadlau, ac arddengys lawer o graffder a gallu wrth egluro ac esponio gwahanol byngciau eu dadleuon. Teflid y cyhuddiad yn ol i'w erbyn gan rai ei fod, neu o leiaf darfod iddo fod gynt, yn rhy debyg i'r rhai a feiai. Ond credir y daw y rhai a ddarllenant yr ysgrifeniadau dadleuol hyny yn bwyllog i ganfod mai Mr. Jones, o'r holl ysgrifenwyr hyny, oedd y mwyaf gochelgar rhag darostwng awdurdod yr Ysgrythyrau i ryw gyfundrefn dduwinyddol, ac mai efe, o holl dduwinyddion ei oes yng Nghymru, a edrychodd ar y pethau hyn yn debycaf i'r modd yr edrychir arnynt gan y mwyafrif o dduwinyddion Cymru yn bresennol.

Yr oedd Mr. Jones wedi ysgrifenu "Eglurhad ar y Bibl" hyd ganol y Psalmau, a chyhoeddwyd ei eglurhad ar Bum Llyfr Moses; a gresyn na chyhoeddasid y gweddill. Bwriadai gyhoeddi llyfr ar "Gyfryngdod Crist," ac ysgrifenodd lawer o hono; a thrueni na buasai yr hyn a ysgrifenodd o hono wedi ei gyhoeddi cyn hyn. Cyhoeddwyd, yn *Y Traethodydd* (llyfr ix., t. 1), ei "Draethawd ar y Cyfammod Gras," a gafwyd ym mysg ei lawysgrifau ar ol ei farwolaeth. Ymddengys mai math ar bregeth ydyw y gwaith hwnw ar y geiriau hyn —"Cesglwch fy saint ynghyd ataf fi, y rhai a wneuthant gyfammod â mi trwy aberth," Ps. l. 5. Gellid casglu oddi wrth y cyfansoddiad godidog hwn bod yr holl Fibl ar gof yr ysgrifenydd. Cymmerer y ddau baragraph byr bleunaf fel esampl:—

"Y mae'r Psalmydd yn nechrau y Psalm hon yn proffesu crediniaeth o'r gwir Dduw (sef Jehofa), fel Creawdwr, Cynhaliwr, Llywodraethwr, a Barnwr yr holl fyd, 'o godiad hyd fachludiad haul,' Ps. xix.; Rhuf. x. 18. Ac nid hyny yn unig, ond bod yr Arglwydd gwedi trefnu modd, a neillduo man, ar y ddeuar i wneuthur amlygrwydd mwy rhagorol o hono ei hun, mewn gras a doethineb, er llesâd myrdd o bechaduriaid o ddynol ryw; a'r man lle y mae wedi gosod ei orseddfaingc i weini yr oruchwyliaeth hon ydyw yn Sïon. A'r modd yw, trwy weinidogaeth ei air, ei weision, a'i Yspryd, ynghyd â phob peth sydd wrth ei law a'i alwad, megis is-weision a llaw-forwynion, i wneuthur unrhyw wasanaeth a welo fe'n dda i alw am danynt er llwydd i'w amcan mawr, Eph. i. 21, 22; Ps. lxxxix. 1, 2; cxix. 89–91; Esa. xvi. 5.

"Ond ni phery goruchwyliaeth y weinidogaeth hon yn hir na bydd wedi gorphen ei holl waith ar y ddeuar ym mynydd Sïon; ac yna ceir gweled yr Hwn a goronwyd â drain yn esgyn i, ac yn eistedd ar, orseddfaingc barn, ac yn meddiannu yn gyflawn bob mawredd ac awdurdod i'w llenwi, a phob cyfaddasrwydd i weini yr achos (Act. xvii. 31; Ioan v. 22, 27, 30; 1 Cor. xv. 24, &c.); a bydd nefoedd a deuar, at amnaid ei awdurdod, oll i gyflawni unrhyw ddiben a welo fe'n dda (Dat. xx. 11, &c.; Dan. vii. 9, 10); a bydd pawb yn ei adnabod yn y dydd hwnw (Act. xvii.)

Ond, daeth amser i'r enwog a'r llafurus "Richard Jones o'r Wern," fel pawb eraill, i gadw noswyl. Dechreuodd ei iechyd adfeilio yn gynnar yn y fl. 1832; er hyny, anturiodd fyned ar daith i sir Drefaldwyn yn yr haf, ac i'r Deheudir ym mis Hydref. Parhau yr oedd ei iechyd i amharu, a pharhau yr oedd yntau, er hyny, i dreulio oriau meithion bob dydd, fel y byddai cyn hyny, yn ei lyfrgell; ac erbyn Ionawr, 1833, yr oedd ei wendid ym mron wedi ei lwyr orchfygu, fel mai o'r braidd y gallai adael ei ystafell wely; ac ar y 26fed o Chwefror, 1833, efe a fu farw mewn tangnefedd, yn 60 oed.*

## PENNOD XVIII.

### JOHN ELIAS A RICHARD LLWYD.

Wele ni yn awr am gynnyg rhoi darlun o un o'r "cawri oedd ar y ddeuar" ymhlith y Methodistiaid yn nechrau y ganrif bresennol—un o'r "tri chyntaf" yn ei oes, "y Tachmoniad a eisteddai yn

* Cofiant Richard Jones, gan J. Jones, Pen-y-cae; Cof. R. Jones, gan J. Jones, Tremadog; Method. Cymru, cyf. ii., t. 270; En. Cymru J. T. J., cyf. i., t. 655; En. Cymru, I. F., t. 629; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 407.

Digitized by Google

y gadair, yn benaeth y tywysogion;" ac er na oddef y cant *(frame)*, sydd at ein galwad yn bresennol, i'r darlun hwn fod mor helaeth ag un y cawsom yr anrhydedd i'w dynu o hono o'r blaen, etto hyderwn y bydd hwn yn llawn mor gywir; ïe, ac yn gywirach hefyd, mewn rhai manylion.

JOHN ELIAS ydoedd fab i Elias Jones, mab John Elias, clochydd Aber-erch. Enw nain ein gwrthrych, o du ei dad, oedd Siân (Jane) Joseph, merch Dafydd Siôn Joseph. Enw ei fam oedd Siân Roberts, merch Maes-y-cwm, Llanhaiarn. Preswyliai Elias Jones a'i wraig gyd â'i dad ef, mewn tyddyn bychan a elwid Bryn-llwyn-bach, ymhlwyf Aber-erch, yn agos i Bwllheli, sir Gaernarfon. Heb law amcuthu'r tyddyn, yr oedd Elias Jones, fel ei dad, John Elias, yn wehydd, celfyddyd yr oedd galwad mawr am dani yn y dyddiau hyny yng Nghymru, pan y gwisgai'r trigolion yn gyffredin frethynau, gwlaneni, llieiniau, ac ystyffiau cartref, a phan oedd holl ddillad eu gwelyau, eu llieiniau byrddau, a'u carpedau yn cael eu gweu yn y wlad hon. Ganwyd i Elias Jones a'i wraig, Sïan Roberts, dri o feibion a thair o ferched, sef John (gwrthrych yr ysgrif yma), Joseph, Dafydd, Mari, Catrin, ac Ann, a dygwyd y tri mab i fynu yng nghelfyddyd eu tad a'u taid, sef gwehyddiaeth.

Ganwyd JOHN ELIAS ar y 6ed o fis Mai, 1774, yn y Bryn-llwyn-bach. Heb law bod John Elias, y taid yn glochydd, ac felly yn medru darllen Cymraeg, yr oedd efe hefyd yn ŵr moesol a doeth, a chymmerai ddyddordeb neillduol yn ei ŵyr bach o'i febyd, yr hwn, fel y crybwyllwyd, oedd yr un enw ag ef; ac y mae'n bur debyg y gwnai hyny y berthynas rhyngddynt yn anwylach fyth. Ymroddes yr hen ŵr doeth a da i ddysgu ei ŵyr bach i ddarllen cyn gynted ag y daeth i allu siarad; ac erbyn bod "Siôn bach" rhwng pedair a phump oed, yr oedd yn medru darllen ei Fibl yn rhwydd, a daeth yn fuan i gymmeryd mawr hyfrydwch yn y gorchwyl. Cyn gynted ag y daeth yr ŵyr bach i fedru cerdded, cymmerai ei daid ef yn ei law bob Sul i Eglwys y Plwyf, a gwnai ei orau i'w hyfforddi yn egwyddorion moesoldeb a rhinwedd. Erbyn ei fod yn saith oed, yr oedd wedi darllen y Bibl o'i ddechrau hyd ganol Llyfr Jeremïa. Byddai ystyrieuthau difrifol yn dyfod i'w feddwl yn oed mor íorau a hyny am Dduw, y farn, a byd arall; brawychid ef yn fynych gan freuddwydion am ddydd y farn a thragywyddoldeb; a mawr ofnai fyned i uffern. Pan ar ben ei 7 mlwydd oed, cafodd y frech-wen yn drom iawn, a bu ei adferiad yn amheus dros hir amser. Bu ei synhwyrau yn ddyryslyd dros gryn ennyd, a bu heb weled dim am bythefnos gyfan. Pan y trodd i wella, ac y dechreuodd ddyfod i weled, aeth ei daid pryderus at ei wely dan wylo, a gofynodd iddo, "Machgen bach i, wyt ti yn cofio ymhle mae dy wers di?" Attebodd yntau, "Wdw, nhaid bach," ac enwodd ryw bennod yn Jeremïa. Llawenychodd yr hen ŵr gofalus yn ddirfawr pan ddeallodd fod ei ŵyr bach, er ei holl gystudd, heb anghofio pa ran o'r Bibl a ddarllenasai ddiweddaf cyn ei gymmeryd yn glaf, a bod gobaith iddo gael ei olwg drachefn i ddarllen yr Ysgrythyrau. Bu am dair neu bedair blynedd ar ol hyn yn llesg a lled afiach. Cyn gynted ag y daeth yn alluog, byddai yn myned i'r Eglwys bob Sul gyd â'i daid fel o'r blaen; a pharhaodd yr hen ŵr i'w hyfforddi ymhen ei ffordd, a phan heneiddiodd, nid ymadawodd yntau â hi.

Pan oedd o ddeutu 9 oed, clywodd y byddai rhai pregethwyr hynod, o'r De a'r Gogledd, yn arfer myned i Bwllheli, y Pentre-uchaf, a manau eraill yn y gymmydogaeth, a chododd awydd cryf ynddo am eu clywed. Dywedodd hyny wrth ei daid; ac o hoffder at ei ŵyr, âi yr hen ŵr yn fynych gyd âg ef, yn y prydnhawn neu'r hwyr, ar ol bod yn yr Eglwys y borau, i wrando pregethwyr y Methodistiaid yn y lleoedd a enwyd. Byddai yn flin gan ei daid weled y bobl yn llercian ac yn gwagsiarad o ddeutu y tŷ cwrdd, tra'n aros am y pregethwr; ac annogai John i ddarllen yn rhywle wrth ochr y cloddiau, lle byddai y bobl yn sefyll ac yn siarad. Yr oedd clywed bachgen bychan yn darllen yn dda yn rhyfeddod yn y dyddiau hyny, ac yn gyffredin cai wrandawiad astud. Un Sul, aeth y ddau i'r Pentre-uchaf; ac wedi bod yn hir ddisgwyl am y pregethwr, dywedodd ei daid wrth John, "Mae'n drueni bod y bobol yn segura fel hyn dros gyd o amser: dos i'r pulpud, Siôn bach, a darllen bennod iddyn nhw!" a chan agor y drws, gwthiodd ef i mewn, a cheuodd arno. Darllenodd yntau ran o bregeth Crist ar y mynydd, ac yr oedd pawb yn gwrando yn dra difrifol. Wedi myned ym mlaen dros ennyd, edrychodd dros ei ysgwydd, a phwy a welai yn sefyll wrth ddrws y pulpud ond y pregethwr. Dychrynodd yn aruthr, ceuodd y Bibl, ac aeth i lawr ar ffrwst. Tybir ei fod yn tynu at 12 oed y pryd hyny, a dyma'r tro cyntaf i JOHN ELIAS fyned i'r pulpud! Bychan a wyddai ef, ei daid, a'r holl gynnulleidfa honno y gwelid ef mor fynych yngwahanol bulpudau ei wlad, ac y byddai

Digitized by Google

mor ddefnyddiol ynddynt. Yr oedd ef yn dra awyddus am wneud daioni yn yr oedran hwnw, a byddai amryw o blant y gymmydogaeth yn ymgasglu ato ar y Suliau i ddysgu darllen. Digwyddodd hyn a gylch y fl. 1786, sef tu a tair blynedd cyn i Mr. Charles sefydlu Ysgolion Sabbothol yn y wlad.

Pan oedd John rhwng 12 a 13 oed, dechreuodd ddysgu celfyddyd ei dad a'i daid, sef gwehyddiaeth, fel y crybwyllwyd; ac o gylch yr un amser, collodd gyfeillach ei daid i fyned i'r pregethau, gan nas gallai yr hen ŵr gerdded iddynt, o herwydd llesgedd, dros rai blynyddau cyn ei farwolaeth. Wedi hyny ñi efe i'r pregethau ar ei ben ei hun, am nas gallai oddef cyfeillach plant anystywallt yr ardal, ac nid ystyriai ei hun etto yn ddigon crefyddol i ymwasgu at y disgyblion. Byddai yn fynych yn gwrando tair pregeth ar y Sul, er pelled y byddai raid iddo deithio i'w cael. Pan ddeuai pregethwr enwog o'r Deheudir i'r ardaloedd, cerddai weithiau ddeng milltir ar forau Sul i gael y bregeth gyntaf, a dilynai y pregethwr hyd yr hwyr, a hyny yn fynych heb ond ychydig iawn o ymborth ar hyd y dydd. Yr oedd yn cael hyfrydwch dirfawr mewn gwrando, ac yr oedd ei awydd am ddarllen yn cyflym gynhyddu; ond ychydig iawn, heb law'r Bibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, oedd at ei alwad—dim ond Bibl Peter Williams, eiddo ei daid; gwaith Gruffydd Jones o Landdowror, Eliseus Cole, John Bunyan, a rhyw ychydig eraill, y rhai a ddarllenai yn awyddus ac egnïol.

Pan oedd tu a 15 oed, dechreuodd ymwasgu yn wylaidd at rai o'r disgyblion wrth fyned i'r pregethau, a dychwel o honynt; a bu eu hymadroddion crefyddol a'u hymarweddiad duwiol o les mawr iddo, a theimlai awydd cryf am fyned i'w cymdeithas eglwysig; ond lluddiwyd ef i gynnyg ei hun dros ychydig flynyddau ar ol hyn, gan ofn a gwylder. Ymddengys fod ei daid wedi marw erbyn hyn; a chan yr arferai yr hen ŵr defosiynol ddarllen pennod o'r Bibl, ynghyd â sylwadau Peter Williams arni, a gweddi o waith Gruffydd Jones, Llanddowror, yn y teulu, hwyr a borau, teimlai John, druan, yn chwithig iawn ar ei ol ef am addoliad teuluaidd. Un noswaith, pan yn gwrando pregeth, daeth yr adnod ganlynol i'w feddwl gyd â grym mawr—"Canys pwy bynag a fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon, bydd cywilydd gan Fab y dŷn yntau hefyd, pan ddêl yng ngogoniant ei Dad, gyd â'r angylion sanctaidd," Marc viii. 38. Pan gyrheuddodd adref, dywedodd wrth ei dad a'i fam am y trallod blin oedd ar ei feddwl, a gofynodd genad i ddarllen a gweddïo yn y teulu, yr hyn a ganiatawyd iddo; canys er nad oedd ei rieni yn proffesu crefydd, yr oeddynt yn bobl foesol a hynaws.

Ymhen tu a blwyddyn ar ol hyn, pan oedd efe tu ag 16 oed, teimlodd awydd mawr am fyned i Langeitho i glywed a gweled Daniel Rowlands yn pregethu, i'r hwn y clywsai gymmaint o ganmoliaeth. Un Sul, o gylch y pryd hyn, aeth i Bwllheli i wrando rhyw bregethwr Methodistaidd; ond gan iddo fyned yno yn rhy fuan, neu o herwydd i'r pregethwr aros yn rhy hwyr, aeth i wrando y Parch. Benjamin Jones, i gapel yr Annibynwyr. Ei destyn oedd 2 Sam. iii. 28, "Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?" Dywedodd y pregethwr mai yr achlysur iddo gymmeryd y testyn hwnw oedd, iddo glywed y newydd galarus fod y Parch. Daniel Rowlands, yr hwn oedd dywysog a gŵr mawr yn Israel Duw yng Nghymru, wedi syrthio yn angau. Effeithiodd yr hyspysiad mor ddwys ar deimladau Elias ieuangc nes peru iddo wylo yn chwerw dost.

Yn y fl. 1792, pan oedd efe tu a 18 oed, penderfynodd fyned i "Sassiwn y Bala," am yr hon yr oedd cymmaint o son yn y dyddiau hyny; a dywed iddo gael hyfrydwch mawr ynghymdeithas y rhai a gyd-deithient âg ef yno ac yn ol; fel yr ymddiddanent ar hyd y ffordd am bethau ysprydol; y canent psalmau a hymnau; ac y gweddïai un neu ddau tra y gorphwysai y lleill; ac er bod yno lawer o feibion a merched ieuaingc, nad oedd yn cofio iddo weled edrychiad gwamal na chlywed gair ysgafn gan neb yn ystod yr holl daith. "Yr oeddynt fel yn ystyried eu bod yn myned i gymmanfa," ebr efe, "i ddisgwyl cael cyfarfod â Duw! O! na byddai ieuengctid proffesedig yr oes hon yn gyffelyb!" Dywedodd hen fleunor, yr hwn oedd yn ieuangc ar y pryd, ac yn y fintai oedd yn myned i'r Bala, wrth y Dr. Owen Thomas, bod Elias yn eu plith, ond yn ddïeithr i bawb oedd yno. Edrydd y Dr. Thomas yr hanes fel hyn:—

"Fe ddywedodd yr hen ŵr wrthym bod rhyw sobrwydd yn ei ymddangosiad nad oedd ef erioed wedi sylwi ar ddim o'i gyffelyb. Yn Ffestiniog, ar eu ffordd tu a'r Bala, fe benderfynwyd cael cyfarfod gweddi. Gofynwyd a oedd Bibl gan rywun; ond nid oedd yr un yn digwydd bod gan neb; o leiaf, nid oedd neb yn atteb bod ganddo un. O'r diwedd, dyma'r gŵr ieuangc sobr, distaw, dieithr i bawb, â dillad pur lwydaidd am dano, yn dywedyd bod ganddo ef Fibl, ac yn ei dynu allan o'i logell. Gan fod y Bibl ganddo ef, fe'i hannogwyd ef i ddarllen pennod. 'Yr hyn a wnaeth,' meddai'r hen ŵr, 'nes oedd y bennod yn newydd

i ni i gyd.' Annogwyd ef i fyned i weddi. 'Ac os oedd y darllen,' meddai, 'yn rhyfedd, yr oedd y weddi yn rhyfeddach fyth. Nid wyf yn meddwl i mi glywed y fath weddïo na chynt na chwedyn.'* Nid oedd efe etto yn aelod eglwysig, er bod ei daith i'r Bala, a'r llewyrch rhyfedd oedd ar y pregethau yno, wedi ei ddwyn i'r penderfyniad i wneud hyny bellach ar frys."†

JOHN ELIAS yn yr eginyn oedd hwn; ond beth am dano pan ddaeth "yr ŷd yn llawn yn y dywysen!" Dechreuodd gynllunio yn ebrwydd, ar ol bod yn y Bala, pa fodd i gael mwy o gymdeithas pobl grefyddol. Pan oedd yn y cyfyngder yma, clywodd fod ar un Gruffydd Jones, Ynys-y-pandy, ger llaw Penmorfa, yn agos i Dremadog, yr hwn oedd o'r un gelfyddyd ag yntau, ac yn bregethwr gyd â'r Methodistiaid, eisiau gweithiwr; a thrwy fodd ac anfodd ei rieni, aeth yno i gynnyg ei wasanaeth iddo, a derbyniwyd ef yn llawen, yr hyn a briodolai efe i ofal Rhagluniaeth am dano. Cafodd lawer iawn o diriondeb gan G. Jones a'i wraig dduwiol; ac ym mis Medi, 1793, ac efe tu a 19 oed, anturiodd, mewn ofn a phryder dirfawr, gynnyg ei hun yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd a gyfarfyddai yn Hendre-Howel; ac, ebr efe, "er fy mawr syndod, buant yn dirion iawn wrthyf: cefais yr hyn yr hireuthais am dano flynyddoedd meithion, ac yr ofnais na chawn ef byth, sef lle yn nhŷ Dduw."

Gwelwyd yn fuan ei fod yn meddu doniau anghyffredin, a chymhellwyd ef gan y frawdoliaeth fechan oedd yno i gymmeryd rhan yn y cyfarfodydd gweddïau, ac, yn fuan, i roddi gair o gyngor i'r bobl oddi wrth y bennod a ddarllenai. Gwnaeth yntau hyny, y naill dro ar ol y llall, gyd â'r fath nerth ac arddeliad fel yr aeth son am dano yn fuan trwy'r holl ardaloedd. Ymhen tu a blwyddyn a chwarter wedi iddo ymuno â chrefydd yn gyhoeddus, annogwyd ef gan ei frodyr yn Hendre-Howel, a chan fleunoriaid y cymdeithasau cymmydogaethol, ac yn enwedig gan John Richards, bleunor yn y Garn, Dolbenmaen, i fyned i Gyfarfod Misol oedd i fod ym Mryn-yr-odyn, ger llaw Caernarfon, ddydd Nadolig, 1794, i ofyn caniatâd i bregethu yn gyhoeddus. Gwahoddwyd ef gan J. Richards i'w dŷ ef i lettya y noswaith cyn y Nadolig hwnw, a chyhoeddodd ef i bregethu mewn Plygan y borau drannoeth yng Nghapel y Garn, yr hyn a wnaeth yntau; a chwynai Mr. Elias yn dost, pan yn ysgrifenu ei hanes yn ei hen ddyddiau, fod hyny "yn afreolus iawn." Nid oedd efe, mwy na llawer eraill, wedi sylwi bod holl aelodau eglwys Jerusalem, a wasgarasid o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan, wedi tramwy gan bregethu y gair, heb ofyn cenad yn oed gan yr apostolion; a'u bod hwythau wedi cymmeradwyo eu gwaith, a gwnaeth Apolos yr un modd.‡ Y gwir yw bod gan bawb sy'n proffesu yr Arglwydd Iesu awdurdod y Testament Newydd i'w bregethu, os mynnant, "heb ymgynghori â chig a gwaed."§ Aeth Elias, druan, tu a Bryn-yr-odyn yn bur ddigalon, rhag ofn mai ei wrthod a gaffai, yn un peth am ei fod mor ddïeithr i bregethwyr y sir, a hefyd rhag y bu ei waith yn pregethu heb eu cenad yn ei erbyn; ac fe fu rhai o'r pregethwyr yn ddigon llawdrwm arno; ond ei dderbyn yn aelod o'r Cyfarfod Misol a gafodd, a chaniatâd i bregethu yn y lleoedd y gelwid am dano.‖ "Nid oedd angenrhaid rhoddi iddo heleuthach *charter* [breinlen] nag iddo gael myned i'r lleoedd y gelwid am dano," ebai Mr. Hughes, "o blegid yr oedd yr alwad am dano yn fawr iawn; ac er ei geryddu gan rai o fod yn teithio yn rhy bell ac yn pregethu yn rhy aml, etto parhau yr oedd ei boblowgrwydd, a chynhyddu a wnai ei bregethiad mewn awch, dwysder, a defnyddioldeb." Y Dr. Thomas a ddywed ar hyn fel y canlyn:—

"Fe deimlwyd ar unwaith fod pregethwr digyffelyb wedi codi yn y wlad. Yr oedd y fath ddifrifoldeb yn ei ddull, y fath briodoldeb a newydd-deb yn ei bethau, y

* Wrth son am John Elias fel gweddïwr, dywed y Dr. Edwards o'r Bala am dano fel y canlyn:—"Ond yr hyn a adawodd yr argraph ddyfnaf ar fy meddwl oedd ei weddïau teuluaidd. Yr oeddwn yn rhyfeddu mwy at ei weddïau nag at ei bregethau. Yr oedd newydddeb yn ei weddïau bob dydd, yn peru iddynt fod mor wahanol i gyflawniadau ffurfiol ag ydyw y ffrwd risialaidd i'r dwfr arhosol yn y pydew. Nid y geiriau yn unig oedd yn newydd, ond yr oedd pob gweddi yn dyfod yn fyw bob dydd o ddyfnder teimlad. Yr oedd ymdrech enaid ymhob deisyfiad; a hyder ffydd yn ei nerthu i fyned at Dduw fel ei dad, ac i'n dwyn ninnau gyd âg ef, nes y teimlem fod Duw yn wir yn y lle. Wrth roddi y ddau beth yma at eu gilydd, yr oeddwn yn cael rhyw eglurhad ar effeithiolrwydd ei bregethau. Os ceir dŷn o feddwl cryf yn efrydwr mawr, ac yn weddïwr mawr, y mae'n lled sicr ei fod yn bregethwr mawr. Er hyny, y mae'n wirionedd amlwg fod cymmwysderau eraill yn angenrheidiol tu ag at fod yn bregethwr poblogaidd; ac yr oedd Mr. Elias yn meddu y cymmwysderau hyny yn gymmaint, os nad yn fwy, na neb yn ei oes. Y mae rhai yn fawr heb fod yn boblogaidd, ac eraill yn boblogaidd heb fod yn fawr; ond yr oedd ef, mewn modd neillduol, yn uno y ddau gymmeriad. Ni ddigwyddodd i mi glywed ei bregethau mwyaf nerthol, y rhai oedd yn ffurfio cyfnod ym mywyd y neb a gafodd y fraint o'u gwrando; ond ni chlywais ef unwaith yn pregethu yn wael, ac yr oedd hyny am dano ef yn beth nas gallaswn ei ddychymmygu."

† Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn, gan O. Thomas, t. 848.

‡ Act. viii. 1, 4; xi. 19–24; xviii. 24–28

§ Gal. i. 16, 17; Phil. i. 12–18.

‖ "Ni a glywsom hefyd," medd y Dr. O. Thomas, "mai yn y Cyfarfod Misol hwn y newidiwyd ei enw i John *Elias*. Gofynodd Mr. John Jones, Edeyrn, beth oedd ei enw. Attebwyd mai 'John Jones' ydoedd. 'Beth ydyw enw ei dad o?' meddai yntau. Attebwyd mai 'Elias Jones.' 'Yn en dŷn, gelwch y bachgen yn *John Elias*, onid e ni a fyddwn yn John Jonesiaid i gyd yma yn fuan.' Yr oedd John Jones o Leyn, John Jones y Penrhyn, ac yntau ei hunan o Edeyrn, beth bynag am eraill, yno. Pa fodd bynag, felly y bu: yn *John Elias* yr adnabyddwyd ef byth wedi hyny. Ac fe'i hadnabyddwyd ef yn fuan iawn."—*Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn*, t. 849.

Digitized by Google

fath angerddoldeb yn ei deimlad, y fath nerth yn ei dradodiad, y fath lewyrchiadau ar ei yspryd, ac, yn enwedig, y fath arddeliad ar ei genadwri, fel yr oedd ei weinidogaeth [ei bregethiad], o'i gychwyniad cyntaf allan, yn cyffröi yr holl wlad. I ba le bynag yr elai, yr oedd yr holl ardaloedd yn cyrchu i'w wrando. Yr oedd y galwadau arno o bob parth yn ddibaid; ac yr oedd yntau, heb arbed dim arno ei hun, yn cydsynio â hwy. . . . . O herwydd nad oedd ef yn deall y drefn oedd yn adnabyddus yn y cyfundeb, sef nad oedd neb hyd ryw amser pennodol arno fel pregethwr i roddi cyhoeddiad tu allan i gylch ei sir ei hunan, yr oedd efe yn cydsynio â'r galwadau arno, ac yn rhoddi cyhoeddiadau am Sabbothau i leoedd yn siroedd Meirionydd a Dinbych, neu ymhellach na hyny. Tynodd arno ei hunan, trwy hyny, ŵg yr awdurdodau yn y Cyfarfod Misol; a cheryddwyd ef yn garedig, meddai efe, ond yn arw iawn, fel y clywsom ni, am ei afreoleidd-dra. Ond ni fynnai'r wlad ei gyfyngu, ac yn fuan fe gafodd yr awdurdod angenrheidiol i fyned, fel pregethwyr eraill, i gyhoeddiad Sabboth i'r man y mynnai; ac ar daith i siroedd eraill y gelwid am dano, trwy ganiatâd arferol y frawdoliaeth yn y Cyfarfod Misol. Wedi cael awdurdod felly, rhoddes gyhoeddiadau trwy ranau o amrywiol siroedd Gogledd Cymru, oddi eithr Môn, ac i'r trefi, *Liverpool* a *Manchester.*"

Pan oedd mewn cymdeithasfa yn Llanfair-caereinion, sir Drefaldwyn, yn ystod y daith gyntaf y bu yn y sir honno, pennodwyd ef i ddechrau un o'r odfeuon trwy ddarllen a gweddïo; yr hyn a wnaeth yntau gyd â'r fath ddwysder ac enneiniad nes yr oedd mwy o son am ddarlleniad a gweddi y bachgen o sir Gaernarfon nag am un o'r pregethau a draddodwyd yno. Yr oedd pwys y gwaith o bregethu yn dyfod yn ddwysach beunydd ar feddwl Elias, a'i anghymmwysder i'w gyflawni yn ddyladwy yn dyfod yn amlycach iddo yn barhaus; a daeth awydd mawr arno yn fuan am gael myned i ysgol i ddysgu Saesneg, er mwyn heleuthu ei wybodaeth gyffredinol. Pan aeth i Fanchester y tro cyntaf i bregethu, rhoddes y fath foddlonrwydd i'w frodyr yno fel y cynnygiasant ei gynnal yn yr ysgol yno, er mwyn iddo bregethu iddynt ar y Suliau; ond pan ofynodd yn ostyngedig, yng Nghyfarfod Misol sir Gaernarfon, am ganiatâd i fyned yno, "yn lle caniatâu fy nymuniad," ebr efe ei hun, "ceryddasant fi yn llym am ofyn y fath beth, gan heuru mai balchder fy nghalon, ac awydd am fyned yn bregethwr mawr, oedd yn peru i mi son am ysgol a dysgeidiaeth." Cymmerodd yntau y cwbl yn dawel, gan gredu eu bod hwy yn gweled rhyw beryglon nad oedd efe yn eu canfod, ac mai gofal gwirioneddol am dano oedd yn peru iddynt feddwl a siarad felly. Ond er yr holl attalfëydd a'r siomedigeuthau hyn, yr oedd llygad craff Elias wedi canfod gormod o werth mewn gwybodaeth, ei enaid mawr yn sychedu gormod am dani, a'i benderfyniad i'w chael yn rhy anhyblyg, i oddef i ddim ei amddifadu o honi; ac uwch law'r cwbl, fel y dywed ei hun, yr oedd pryder mawr ar ei feddwl rhag i'r eglwysi a'r gwrandawyr y pregethai iddynt gael colled o herwydd yr anfanteision y buasai efe danynt i gael dysgeidiaeth a gwybodaeth yn ei ieuengctid. "Yn wyneb hyn," ebr efe, "penderfynais ymroddi, os cynnorthwyai yr Arglwydd fi, i wneud y diffyg i fynu trwy ddiwydrwydd a llafur." Ië, dyma un o ddirgelion cuddiad cryfder JOHN ELIAS: ei *benderfyniad.* "Edrychwch i lawr ar athrylith," ebai Haydon, y lliwiedydd hanesyddol, "a hi a ymgyfyd yn gawres: cynhygiwch ei llethu, a hi a ymddyrchaif yn dduwies." Dyma fel y treutha Elias ei hun ar yr ymdrafodaeth rhyngddo ag arweinwyr rhyfedd y Cyfarfod Misol:—

"Cyn pen hir wedi hyny, gofynais i'r brodyr drachefn yn y Cyfarfod Misol [nid a roddent hwy, na neb o'r eglwysi, gynhorthwy arianol iddo, cofier! yn ol arfer yr oes hon, ond] a roddent hwy genad i mi fyned i'r ysgol at y Parch. Evan Richardson, yn Nghaernarfon, am ychydig amser [ar ei gost ei hun, sylwer!]; a hwy a ganiatasant hyny i mi. Bûm yno gyd âg ef am rai misoedd [dim ond rhai misoedd!], a chefais diriondeb mawr ganddo, a lles nid bychan o fod dan ei addysgiadau buddiol. Dysgais yn fuan gymmaint o'r iaith Saesneg ag y gallwn ddeall sylwedd yr hyn a ddarllenwn yn yr iaith honno, yr hyn a deimlwn yn dra manteisiol i mi. Ac er na ddysgais ddim i berffeithrwydd, etto cefais fy rhoddi ar ben y ffordd i ddysgu amryw bethau fy hunan trwy gyfrwng llyfrau. Cefais gymmorth i ymroddi yn ddiflino, ddydd a nos, nes i mi gyrraedd rhyw raddau o wybodaeth gyffredinol am y pethau mwyaf angenrheidiol i mi eu gwybod gyd â golwg ar y gwaith mawr yr ymaflaswn ynddo. Ond dysgu yr wyf fi etto (yn awr yn 67 mlwydd oed), ac yn gweled mwy o angen am ddysgu bob dydd."

Mr. Richardson, yr hwn oedd yn hyddysg yn yr Hebraeg, y Groeg, y Lladin, yn gystal a'r Gymraeg a'r Saesneg, a arferai ddywedyd am Mr. Elias —"Ni bu genyf neb tebyg iddo erioed, mor awyddus am wybodaeth, ac mor naturiol i ddysgu ieithoedd. Nid yn unig yr oedd efe yn alluog i ddeall yr iaith Saesneg mewn byr amser, ond hefyd ei rhanau grammadegol." Nid yn unig rhoddes Richardson Elias ar ben y ffordd i ddysgu ieithoedd, ond hefyd i feistroli llawer o'r gwybodau a'r celfyddydau, yn enwedig rhesymeg ac areitheg; ac mewn canlyniad, daeth "holl agweddau Elias yn yr areithfa yn dra phrydferth a theilwng, ac yn gynllun addas i bob pregethwr i'w efelychu." O gylch y fl. 1796, pan oedd Mr. Elias tu a 22 oed, llwyddodd y Parch. Ebenezer Morris i gael ganddo roddi taith trwy'r Deheudir am y tro cyntaf.* Yr oedd ar rai o'r hen frodyr

* Dywedodd hen flaenor a'i enw Meredydd Morgan, o Faes-y-careiau, ger llaw Machynlleth, wrth y Dr. O. Thomas yn y fl. 1850, mai pan ar y daith honno trwy'r Deheudir y gwelodd ac y clywodd efe

gwyliadwrus ofn mawr i'r daith honno wneud niwaid i'w ysbryd ef, ac i'r achos crefyddol; yn benaf, am fod yn afreolaidd, yn eu tyb hwy, i bregethwr mor ieuangc fyned mor bell, ar antur mor fawr: ond tystiai Mr. Morris i'w bregethau hyawdl a thanllyd ar y daith honno wneud un o'r cyffroadau mwyaf nerthol a bendithfawr a wyddai efe am danynt.

O gylch yr un amser, sef pan oedd Elias yn yr ysgol gyd â Mr. Richardson, aeth un o flaenoriaid Capel Bryn-du, yn lled agos i Aberffraw, Môn, i Gaernarfon at Mr. Richardson, i erfyn arno fyned i bregethu yno, mewn Cyfarfod Misol. Dywedodd yntau, os nad elai yno ei hun, yr anfonai rywun gwell yno, fel pregethwr, a Mr. Elias a anfonodd yno.† Pregethodd Elias ieuangc yno mor

Elias am y tro cyntaf erioed. Yr oedd yn pregethu ym Mathafarn, lle yr oedd Mr. Jones, Dôl-y-fonddu wedi hyny, y pryd hwnw yn byw. Dyma adroddiad syml yr hen ŵr:—"Yr oedd John Elias yn pregethu allan yn y buarth, o blegid yr oedd yno ormod o bobl o lawer i fyned i'r tŷ; yn wir, yr oedd yno dyrfa fawr iawn o'i flaen. Yr oedd Mrs. Jones, ac un o'r morwynion, yn y tŷ yn parotói cinio, o blegid yr oedd yno lawer iawn o ddieithriaid wedi ymgasglu; ond yr oedd hi a'r forwyn yn rhyw ddyfod allan, bob yn ail, i wrando ychydig o'r bregeth. Y testyn oedd Ioan i. 29, 'Wele Oen Duw, yr hwn sy'n tynu ymaith bechodau y byd.' Ac yr oedd yn pregethu gyd â'r fath oleuni, a nerth, ac effeithiau, nad oeddym ni, yn y wlad yma, erioed wedi clywed dim byd cyffelyb. Yr oedd y bobl o'i flaen o fel pe gwelsech gae gwenith o flaen ystorm fawr o wynt. Yr oedd yno ddynion mawr, cryfion, celyd, yn gweiddi allan am eu bywyd. Ond toc, fe ddaeth at y gair hwnw. 'Y teulu yn rhy fychan i'r Oen.' 'Beth ydi'r tramwy sydd rhwng y De a'r Gogledd, a rhwng y Gogledd a'r De?' "Y teulu sy'n rhy fychan i'r Oen!" 'Beth ydi'r cyffro sydd yn y dyddiau yma i anfon cenhadon i filiynau tywyll India, i baganiaid duon Affrica, ac i lwythau anwar Ynysoedd Môr y De?' "Y teulu sy'n rhy fychan i'r Oen!" 'Bobol!' meddai, ac yn codi ei lais yn uchel, 'y mae'r wledd ar y bwrdd: Duw ei hunan sydd wedi ei darpar: y mae cyflawnder Duw ynddi: y mae croesaw, y mae galwad arnoch i gyd i ddyfod ati: yr wyf fi wedi dyfod yma heddyw yn un pwrpas i'ch hyspysu bod lle i chwi wrth y bwrdd: mae "y teulu yn rhy fychan i'r Oen!"' Ar hyny, fe aeth yn weiddi mawr trwy'r lle i gyd; ac yr oedd Mr. Jones, Dôl-y-fonddu, yn gweiddi ac yn neidio fel hogyn. Gyd â hyny, dyna'r forwyn, oedd yn digwydd bod ar y pryd allan, yn rhedeg i'r tŷ, mewn dychryn mawr, ac yn gweiddi, 'Meistres, Meistres! dowch allan mewn munud: y mae Meistar wedi mynd o'i go!' Yr oedd yno y lle rhyfeddaf a welsoch chwi erioed. Allwch chwi ddim dychymmygu am y nerth oedd gyd âg o pryd hyny. Wel, ni a aethom ar ei ol o, am wn i, bob enaid o honom, i Fachynlleth y noswaith honno, nes oedd pobl Machynlleth wedi dychryn, yn meddwl ein bod ni'n mynd i gymryd y dref! Nid oedd yno ddim digon o le i hanner y bobl yn y capel. Yr oedd yno un o hen offeiriaid y Deheudir, oedd yn dyfod tu a'r Gogledd yma ar gyhoeddiad, yn ei gyfarfod o ym Machynlleth; ac mi feddyliodd hwnw, y creadur gwirion! mai ar 'i ol o yr oedd y bobl wedi dyfod; ac yr oedd am rwystro i John Elias gael pregethu! Ond fe ddywedwyd wrtho mai ar ol y dŷn ieuangc yr oedd y bobl wedi dyfod; ac os na chai efe bregethu, yr âi y rhan fwyaf, os nad y cwbl, o honynt ymaith ar unwaith Ac felly, pregethu a wnaeth yn y ffenestr yno. Ac fe gafodd y fath hwyl y noswaith honno drachefn fel na wnai'r offeiriad gynnyg pregethu ar 'i ol o. Ac, yn wir, yr oedd yn llawer callach wrth beidio pregethu nag oedd o pan am ei rwystro yn y dechrau. A therfynu y cyfarfod trwy weddi a wnaeth efe."—*Cofiant y Parch. J. Jones, gan O. Thomas*, t. 752–3.

Dyna ddarlun diflygiol o'r effeithiau rhyfeddol a ddilynent bregethiad digyffelyb y gorenwog JOHN ELIAS yn gyffredin. Y mae'n ambossibl rhoddi darlun cywir, ar bapur, o'r fath bregethwr hyawdl, difrif, nerthol, dylanwadol ag ydoedd y gŵr digymmar hwn. Er hyny, dyma'r PREGETHWR am yr hwn y dywedodd rhyw ddau golegyn pregethwrol, sychlyd, wrth yr ysgrifenydd yn ddiweddar, "na wneuthai mo'r tro sut yn y byd yn yr oes olau, ddysgedig hon!" Gofynwyd iddynt, mewn gradd o gyffro, heb son am enwogion Groeg a Rhufain, a gwledydd eraill, a wneuthai enwogion y Bibl, o Moses hyd yr Apostol Paul, "mo'r tro sut yn y byd yn yr oes olau, ddysgedig hon!" Beth! a wneuthai yr areithiwr meistrolgar, dylanwadol, a ddarlunir gan Eben Fardd yn y pennill canlynol, "mo'r tro sut yn y byd yn yr oes olau, ddysgedig hon?"—

"Dywedai'r gair, tynerai Anian!
Gostyngai 'i law, ac wylai myrdd:
Pan wgai'n wrol, beilchion gryuent,
Arswydai'r coegddyn ffol ei ffyrdd:
Ei law dyrchafai, bloedd gorfoledd
A ddadseiniai trwy y llu!
'Roedd hyd yn oed ei *attal-dwedyd*
Yn gyfwng o hyawdledd cu."

Gan hyny, chwi ddirmygwyr John Elias, sylwch beth a ddywed EMRYS wrth rai a ymddygent yn gyffelyb at John Jones, Tal-y-sarn:—

"Clywch, wehilion, fu'n ei wawdio,
Fel gŵr *uniaith* a di ddysg:
Casglodd fwy o wybodaethau
Na'r rhai mwyaf yn eich mysg;
A phe gallech chwi feistroli
Pob tafodiaith dan y nef,
Ni chyrheuddech y filfedran
O'i wybodaeth ehang ef."

Y mae'r heuriad a wneir mor fynych gan rywrai, yn enwedig rhai wedi cael rhyw fymryn o fanteision coleg ar draul yr eglwysi, ac yn methu llwyddo i fod yn boblogaidd, na wneuthai cawri fel Christmas Evans, John Elias, Williams o'r Wern, a Thomas Aubrey, "mo'r tro sut yn y byd yn yr oes olau, ddysgedig hon," yn wir atgas yn ein golwg ni. Gallai dynion o fath y rhai hyn wneud y tro mewn unrhyw oes, am eu bod yn meddu'r briodoledd o wir fawredd, ac y gallent ddoeth gyfaddasu eu hunain at amgylchiadau yr oes y byddo eu coelbren wedi syrthio ynddi, a natur y genadwri y gelwid hwynt i'w chyflawni. Yr ydym yn llwyr gredu Carlyle, "y gall yr arwr fod yn Brydydd, yn Brophwyd, yn Frenin, yn Offeiriad, neu ba beth bynag a ddewiser, yn ol yr oes y canfyddo ei hun ynddi. Yr wyf yn credu," ebr efe, "nad oes genyf fi ddim syniad am ddŷn gwir fawr nad allai fod yn *bob math* ar ddynion." Gallasai Moses, Aaron, Dafydd, Esaia, Homer, Socrates, Plato, Cicero, Cesar, Seneca, Caswallon, Aneurin, Milton, Goronwy Owen, Christmas Evans, John Elias, Williams o'r Wern, Thomas Aubrey, a'r cyffelyb, fod yn Brydyddion, Prophwydi, Offeiriaid, Pregethwyr, Brenhinoedd, neu ryw swyddi eraill, "yn yr oes olau, ddysgedig hon," cystal ag yn yr oesau y digwyddasant fucheddu ynddynt, am eu bod yn fawrion *natur*, ac nid yn fawrion *gwneuthur*.

† Cawsom sylwedd yr hanes ganlynol am fynediad Mr. Elias i'r Cyfarfod Misol hwnw o enau hen flaenor duwiol (John Jones, Capel Llanrhyddlad, Môn) oedd yn bresennol, ac yn cymmeryd mawr ddyddordeb yn yr amgylchiad pwysig:—Yr oedd Cyfarfod Misol Môn y pryd hwnw (ac ymhell ar ol hyny) yn dra phoblogaidd, yn enwedig os byddai gŵr dieithr o enwogrwydd Evan Richardson, Caernarfon, i fod yno. Byddai, nid yn unig y blaenoriaid, ond hefyd nifer mawr o aelodau yr holl eglwysi yn cyrchu yno. Gan nad oedd y brawd a fuasai yng Nghaernarfon wedi awgrymu bod dim amheuaeth na byddai Richardson yn bresennol, yr oedd y cyfarfod oedd yn y Bryndu y tro hwnw yn dra lliosog. Pa wedd bynag, pan ddaeth y cyfarfod, yn lle yr enwog Richardson, bachgenyn ieuangc, tu a 22 oed, llwydaidd, garw ei bryd, tal, esgyrniog, oedd yno, a'i enw John Elias, ar yr hwn y teflid aml gildrem wagelog ac amheugar; er nad allai neb syllu ond ychydig yn ei lygaid treiddgar a thanbaid. Y fath siomedigaeth! Yr oedd amryw o'r hen frodyr mwyaf gochelgar yn dra amheus a ddylasid goddef i'r fath fachgenyn dinod bregethu o gwbl mewn Cyfarfod Misol mor hynod o lliosog; ond rhag tramgwyddo ei athraw, penderfynwyd o'r diwedd iddo ddywedyd gair o flaen rhywun. Yr oedd ein hyspysydd wedi anghofio pwy, a thybiai i bawb arall oedd yno anghofio yr un modd. Fel yr oedd efe yn dringo grisiau'r pulpud yn arafaidd a gorddifrifol, fel y byddai yn arfer, yr oedd cannoedd o lygaid yn tremio yn bryderus arno. Yr oedd rhywbeth yn y sangiad hwnw na welwyd erioed o'r blaen ei gyffelyb yn Ynys Môn. Yna y weddi ddwys, ddistaw, ddofn, â'i wyneb ar gefn y pulpud am funud neu ddau: y fath ddistawrwydd! Y drem danllyd, ddifrifddwys, fawreddog, dros yr holl gynnulleidfa oedd y nesaf. Yr oedd y bobl eisoes yn dechrau dal eu hanadl. Ni

Digitized by Google

effeithiol fel yr ymdyrodd y blaenoriaid o wahanol barthau y sir o'i amgylch, ar ol y bregeth, i erfyn cael cyhoeddiad ganddo, yr hyn a ganiataodd yntau i amryw o honynt. Dyma fynediad cyntaf JOHN ELIAS i Ynys Môn, prif faes ei lafur o hyny hyd ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

Wedi i Mr. Elias ymadael o ysgol Mr. Richardson, efe a ymroddes i deithio y siroedd, ac yr oedd nerthoedd Duw yn cael eu teimlo ymhob man dan ei bregethiad, a phob rhan arall o'r gwasanaeth a gyflawnid ganddo. Yr oedd yn dechrau yr odfa y prydnhawn cyntaf, mewn Cymdeithasfa a gynhaliwyd yn Llanfair-caereinion, sir Drefaldwyn, yn Ebrill 11 a 12, 1796; ac yr oedd mwy o son am weddi "y bachgen o sir Gaernarfon," fel y gelwid ef ar y pryd, nag am ddim arall, ar ol y Gymdeithasfa honno. Yr oedd yn awr yn ymroddi i lafurio yn ddïarbed; ac i ba le bynag yr elai, yr oedd effeithiau hynod yn dilyn ei holl lafur. Rhoddwyd ef i bregethu, am y tro cyntaf yn Sassiwn y Bala, yn y fl. 1797, pan oedd efe tu a 23 oed, a chafodd y fath hwyl a dylanwad ar ei bregeth ag oedd yn coroni yr holl gyfarfod. Pregethodd yno, y flwyddyn ganlynol, am ddau o'r gloch, a phregethodd yno bob blwyddyn o hyny hyd ei farwolaeth, oddi eithr y fl. 1832 yn unig, pan y lluddiwyd ef gan y ddamwain ofidus a'i cyfarfu ar y ffordd o'r Fronheulog i'r Bala, trwy neidio o hono allan o'r cerbyd, gan ddychryn wrth weled y ceffyl wedi gwylltio, gan syrthio ar ei ben, fel y gwna pawb a neidio o gerbyd pan yn rhuthro ym ymlaen, ac y bu mewn llewygfa dros hir amser.

Yn nechrau y fl. 1799, trefnodd Rhagluniaeth iddo symmud o sir Gaernarfon i sir Fôn; ac, ebr efe, "er ei bod yn ofidus iawn i mi ymadael â'm cyfeillion, cawsom wneud hyny mewn cariad a thangnefedd." Ar yr 22fed o Chwefror y flwyddyn honno, pan oedd efe yn 24 blwydd a 9 mis oed, priododd Elizabeth, merch hynaf Mr. Richard Broadhead, Tre'r-gof, Llanbadrig, Môn. Yr oedd hi ar y pryd yn byw yn Llanfechell, ac yn cadw siop yno; ac aeth yntau yno ati yn fuan ar ol priodi, lle y bu yn preswylio am 31 o flynyddau, sef hyd ymhen dwy flynedd ar ol marwolaeth ei wraig rinweddol. Yr oedd tad Mrs. Elias yn dirfeddiannwr lled helaeth, er nad pur gyfoethog. Sorodd yn chwerw wrthi, dros gryn amser, am briodi John Elias, a meddyliodd am dori yr holl etifeddiaeth oddi wrthi. O herwydd hyn, ni roddai ddim cynhorthwy i'w ferch yn ei sefyllfa, od oedd yn alluog i wneud hyny. Pa wedd bynag, gwelodd yr hen Broadhead, cyn marw, bod John Elias yn ŵr bonheddig ymhob ystyr o'r gair, ond cyfoeth; ac yn ei ewyllys ddiweddaf, gan nad oedd iddo fab, rhoddes ei rhan o'r etifeddiaeth i Mrs. Elias, fel ei chwiorydd eraill. Ganwyd iddynt bedwar o blant. Bu'r ddau ieuengaf feirw yn eu babandod; ond bu'r ddau hynaf, sef Phœbe a John, fyw hyd oedran teg, ac yn addurn i grefydd ar hyd eu hoes. Bu yr olaf yn fleunor parchus, llafurus, a thra chymmeradwy yn y cyfundeb am fwy na 50 mlynedd.

Yr oedd Mrs. Elias yn dra nodedig am wneud pob peth yn ei gallu, a thu hwnt i'w gallu, er mwyn i'w phriod gael llonydd, fel yr arferai hi ddywedyd, "i lafurio yngwinllan ei Arglwydd." "Ymdrechai fy mam," ebr Elias ieuengaf, "i gymmeryd holl ofal y tŷ a'r fasnach, fel na byddai i feddwl fy nhad gael ei aflonyddu. Ni chai un ystyriaeth beru iddi leusu yn ei hymdrechion; ond dywedai, 'Y mae ei bethau ef yn llawer mwy pwysig na gorchwylion y siop.' Yr oedd ei thrafferthion bydol hi yn ymdrechion dros yr efengyl. Dyma oedd ei hiaith ynghanol ei thrafferthion, 'Wele dy lawforwyn yn wasaneuthferch i olchi traed gwas fy Arglwydd.'" Dywedodd dynes dduwiol, a fu yn nheulu Mr. Elias am yn agos i

welwyd yno erioed y fath agwedd o'r blaen. Agoriad y Bibl oedd y nesaf. Y fath barch a gwyliadwriaeth! Gweddi ddistaw etto uwch ei ben, a'r wyneb yn y cadach poced, am funud neu ddau: distawrwydd dyfnddwys etto! Dim edrych o amgylch mwyach. na dim troi dalenau, oddi eithr un neu ddwy: pob peth yn barod! Tynu yr anadl yn gryf, unwaith neu ddwy, fel pe ar wylo, tra'n ysgwyd bys blaen y llaw dde yn ddestlys uwch ben y bennod. Beth! A ydyw'r bachgen am ddarllen pennod na chlywyd moni erioed o'r blaen? Ydyw; na chlywyd ac na welwyd moni erioed, yn yr un goleuni a nerth. Yr oedd y gynnulleidfa yn glust i gyd, a phob enaid wedi ei rwymo yn ddïogel wrth enau y llefarwr cyn iddo ei hagor! Bellach, dyna ddarlleniad y bennod yn dechrau, mewn llais gwylaidd, soniarus, a chadarngryf, fel y clywai y neb oedd yn y gornel bellaf o'r capel mor eglur a'r rhai oedd wrth y pulpud; a thystiai ein hyspysydd na chlywsai y fath ddarlleniad difrifddwys, pwysleisiol, a golau, yn ystod ei holl fywyd blaenorol, a bod y darlleniad hwnw yn fwy addysgiadol na hanner dwsin o bregethau cyffredin. Yna, rhoddiad y pennill allan i'w ganu: y fath enneiniad oedd ar bob peth cyssegredig yr ymaflai y dŷn rhyfedd hwn ynddo! Ond y weddi ddifrifddwys, afeulgar, hyawdl, a ddilynodd! Y mae pob darluniad yn pallu: yr oedd y bachgen dinod, yr edrychid arno ar y dechrau gyd â'r fath amheuaeth dïymddiried, wedi myned eisoes yn seraph yngolwg pawb oedd yn bresennol. Yr oedd yn amlwg fod Duw yn wir yn y lle, ac yn sefyll ar ddeheulaw ei genad ieuangc; ac erbyn iddo orphen gweddïo, yr oedd pob llygad yn y lle yn ffynnon o ddagrau, a phob genau yn llawn o ocheneidiau duwiolfrydig. Nid gorchwyl anhawdd oedd pregethu bellach; a'r fath bregeth a gafwyd! Byddai ceisio ei darlunio mor ofer a chynnyg peuntio yr enfys. Yr oedd arddeliad dwyfol ar yr holl wasanaeth. Yr oedd "y peth hwnw," "yspryd y peth byw," yn y cyfan. Yr oedd effeithiau yr odfa honno, yr hon y cafodd Elias gannoedd cyffelyb ym Môn wedi hyny, wedi eu hargraphu mor ddwfn ym meddyliau y rhai oedd yn bresennol, fel yr oedd y dwfr yn neidio i lygaid yr hen flaenor duwiol a adroddai yr hanes wrth yr ysgrifenydd ymhen deng mlynedd ar hugain ar ol y cyfarfod hwnw

ugain mlynedd, wrth yr ysgrifenydd na alwai Mrs. Elias mo'i gŵr o'i fyfyrgell ar ol 10 o'r gloch y borau, a 2 yn y prydnhawn, er neb na dim, oddigerth yn unig ar achos crefyddol, neu i roddi cyngor i glaf neu glwyfus. Os dywedai rhywun hyfach na'r cyffredin nas gallai efe wneud rhyw neges fydol a fyddai ganddo hebddo, gofynai hithau iddo yn ei dull sydyn hi, "Pa sut y buasech yn gwneud pe buasai Mr. Elias yn y Deheudir, neu Nerpwl, neu Lundain? Felly, gadewch i ni wneud yr un fath a phe buasai oddi cartref." Dyma ddirgelwch eangder gwybodaeth Mr. Elias mewn duwinyddiaeth, ac yn y gwybodau a'r celfyddydau yn gyffredinol: i'w wraig ddiwyd, ofalus, a duwiol y mae'r Cymry yn ddyledus, i raddau mawrion iawn, am y trysorau a gyfranwyd iddynt trwy gyfrwng pregethau ac areithiau toreithiog ei gŵr anghymharol. Gwelsom eisoes fod Mr. Richardson, o Gaernarfon, yn ystod yr "ychydig fisoedd" y bu Mr. Elias yn ei ysgol, wedi agor drysau dysg a gwybodaeth o'i flaen; ond yn Llanfechell, yn cael ei gynnorthwyo gan ymdrechion diflino ei wraig rinweddol, y cafodd efe hamdden i fyned i mewn i fysg y trysorau. Yno yr oedd ei lyfrgell ehang, yn cynnwys y llyfrau gorau ar bob cangen o wybodaeth fuddiol, ond yn benaf duwinyddiaeth. Nid yn unig yr oedd yn deall Saesneg yn drwyadl, ac yn lled alluog i'w hysgrifenu, ond hefyd gallai ddeall yr Ysgrythyrau yn weddol yn yr Hebraeg a'r Groeg, trwy gynhorthwy geirlyfrau; ac yr oedd ganddo grap ar y Lladin hefyd. Y mae'n dra amheus a oedd neb yng Nghymru, yn ei oes, yn heleuthach ei wybodaeth gyffredinol nag efe. Yr oedd yn hyddysg mewn deuaryddiaeth gyffredinol, mewn hanesyddiaeth eglwysig a gwladol, mewn seryddiaeth, rhesymeg, ac yn arbenig mewn areitheg; a thalodd sylw neillduol i adeiladaeth, yn benaf er mwyn cynllunio capelydd cyflëus a manteisiol. Yn wir, yr oedd efe yn troi pob gwybodaeth at wasanaeth cyssegredig, fel y gŵyr pawb oedd yn gydnabyddus âg ef, ac a'i clywsant yn pregethu. Yr oedd yn dra chyfarwydd ynghyfreithiau ei wlad, a gellid ymddiried mwy i'w gynghorion nag aml gyfreithiwr. Gwnaeth gyfansoddiad y corph dynol hefyd yn destyn myfyrdod dwys; ac yr oedd yn deall clefydau, meddyginiaeth, a llysieuaeth yn dda, a gwnaeth ei gynghorion meddygol les mawr i gannoedd o'i gymmydogion. Ond prif faes ei lafur ef oedd duwinyddiaeth, ac eglurhad Ysgrythyrol. Gallasid meddwl, wrth wrando arno yn pregethu, fod y Bibl o'i ddechrau i'w ddiwedd ar ei gof, a phob rhan o hono yn gwbl at ei alwad; ac felly hefyd yr oedd gwaith y prif dduwinyddion Seisnig, yn enwedig yr hen Buritaniaid. Y gwaith hoffusaf ganddo o'r holl dduwinyddion oedd eiddo y Dr. Owen. Bu ganddo ddau gopi cyflawn o waith y duwinydd enwog hwnw: un a brynasai yn ail llaw, ar wahanol amseriadau, ac yn wahanol blygiadau, cyn iddo ddyfod yn bur gefnog yn y byd; a'r llall, yn 28 o gyfrolau 8plyg unffurf, a brynasai ar ol meistroli y byd, trwy gyfrwng ei wraig a'i blant gofalus a darbodus. Wedi iddo gael yr argraphiad olaf, anrhegodd wahanol gyfeillion â'r argraphiad arall. Rhoddes y gyfrol ar Gymmundeb â Duw ("*Communion with God*") i ysgrifenydd hyn o hanes, â'i law ei hun, â'i enw ar ei ddechrau, yr hon gyfrol sydd werthfawrocach yn ei olwg na'r aur colladwy.

Yr ydym yn llwyr gydsynio â'r hyn a ddywed un o'i fywgraphwyr am JOHN ELIAS, sef ei fod, fel pregethwr, yn gwbl anarluniadwy. Yr oedd rhywbeth ynddo nas gellir rhoi un syniad am dano i'r rhai nas clywsant ef ei hunan yn llefaru, a rhywbeth oedd yn gwneud ei ddylanwad ar ei wrandawyr yn anghymharol. Yr oedd ei ragorieuthau neillduol yn gymmaint uwch law pawb eraill fel, nid yn unig nad oedd neb cyffelyb iddo, ond hefyd nad oedd neb yn agos ato i'w gystadlu âg ef. Y mae'n ddïamheuol mai efe oedd y pregethwr mwyaf poblogaidd a gyfododd erioed etto yng Nghymru, a pharhaodd felly o'i gychwyniad cyntaf hyd ei ddiwedd. Yr oedd felly gartref yn gystal ag oddi cartref; yn sir Fôn yn gystal ag yn sir Fynwy; yn Llanrhyddlad a Llangefni yn gystal a Llangeitho neu Gaerfyrddin. Yr oedd felly yn y dref, ac felly yn y wlad; felly gyd â'r cyfoethogion a gwŷr mawr a dysgedig, ac felly gyd a'r tlodion, y werin, a'r mwyaf anllythyrenog. Pa bryd bynag y cyhoeddid ef i bregethu, ai ar ganol dydd gwaith, ar amser cynheuaf yn y wlad, ai ar ganol dydd marchnad neu ffair yn y dref, cystal ag ar noson gyffredin yn yr wythnos, neu ar y Sul, ni byddai y capeli mwyaf ond prin ddigon helaeth i gynnwys ei wrandawyr, a byddai raid iddo, gan amlaf, mewn llaweroedd o fanau, am flynyddau meithion, bregethu yn y ffenestr, neu mewn rhyw le dan yr awyr agored.

Yr ydym yn llwyr gydsynio bod y pethau canlynol ym mysg elfenau hanfodol ei fawredd, fel pregethwr, sef argyhoeddiad dwfn a dwys o ddwyfoldeb yr efengyl, ac o bwysfawrowgrwydd ei chyn-

hwysiad ar gyfer byd colledig; meddwl wedi ei gyfoethogi, i raddau tra anghyffredin, â gwybodaeth yn yr amryw ganghenau gwasaneuthgar iddo, fel pregethwr; gallu fel ymresymwr poblogaidd o'r radd uchaf; dychymmyg areithyddol anghyffredin a nerthol iawn; a gallu traddodiadol tu hwnt i bob disgrifiad. Buasai yn hawdd rhoddi llïaws o esamplau nodedig i brofi hyn oll, ond ni oddef ein gofod.

Nis gallwn gydsynio, mewn un modd, â'r rhai sy'n tybied nad oedd John Elias yn meddu *mawredd meddyliol* anghyffredin. Credu yr ydym ni ei fod yn ddŷn *gwir* fawr, yn ddŷn o athrylith *ysplenydd*, ac am hyny y gallasai efe, fel y dywed Carlyle, fod yn athronydd, yn brydydd,* "neu y peth a fynnoch," y troisai ei feddwl galluog ato. Canfu ei feddwl craffus a duwiolfryd ef, wrth ddarllen a myfyrio y Testament Newydd, mai amcan mawr a phenaf pregethu yw argyhoeddi pechaduriaid, a'u cymmell i ddyfod i mewn fel y llanwer tŷ Dduw; ac mai yn y tŷ, yn yr eglwysi, y mae "dysgu y dychweledigion i wadu annuwioldeb, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon;"† am hyny, trodd efe holl nerthoedd ei athrylith uchelryw i "bregethu y gair," "pregethu yr Arglwydd Iesu," a chynhyrfu ei gydwladwyr "i ffoi rhag y llid a fydd," yn null syml ac effeithiol yr apostolion a'r efengylwyr cyntefig. Gwelodd, mewn pryd, na chyrhcuddai "philosophi a gwag dwyll" byth mo amcanion goruchel pregethu; ac o ganlyniad, ni chynhwysai ei bregethau ef ddim ond gwirioneddau eglur a chymmelliadol, y rhai y gallai y gwanaf eu meddyliau o'i wrandawyr eu hamgyffred yn drwyadl. Pe troisai John Elias i lenwi ei bregethau âg athroniaeth, a sych byngciau o'r fath, fel y gwnai John Foster ac eraill, yn lle gwirioneddau syml ac eglur, fel y rhai sydd yn ei bregethau argraphedig, dichon mai cyffelyb a fuasai'r canlyniad, sef "gwaghau y capeli."

Heb law y pethau mawrion a nodwyd oedd yn Elias, er ei wneud yn bregethwr o'r radd fleunaf, yr oedd ynddo lawer o bethau eraill hefyd, llai eu pwys, ond pur effeithiol iddo fel pregethwr dylanwadol. Yr oedd yn ddŷn tal, ychydig dros bum troedfedd a deng modfedd; yn llydan ac esgyrniog; yn sefyll yn syth; ei wynepryd yn dywyll; arwydd i'r frech-wen fod yn drom arno, ond wedi gwisgo llawer ymaith; ei lygaid yn llwyd-leision, yn fywiog, yn dreiddgar, ac yn nodedig o ddynodiadol; ei wallt yn ddu, yn grych, ac yn gryf; ei fochgernau yn uchel ac amlwg; ei dalcen yn llydan, llawn, ac uchel; y genau yn arwyddo beiddgarwch dïarswyd a phenderfyniad dïysgog; yr ên, a'r rhan isaf o'r wyneb, yn ymddangos braidd yn gul, am fod y rhan uchaf o'r pen mor llydán, fel y dengys y darlun godidog o hono sydd yn y gwaith hwn, y gorau a welsom erioed o hono. Yr oedd yr holl olwg arno yn arddangos dŷn o'r difrifwch a'r sobrwydd mwyaf; ac er hyny, un hynod o feiddgar, hyf, ac awdurdodol. Yr oedd ei lais yn gryf a chyrheuddgar dros ben, ond yn fwy cyfaddas i'r cyffröus a'r ofnadwy nag i'r tyner a'r serchiadol; ac yr oedd efe yn meddu meistrolaeth perffaith arno. Yr oedd ganddo gyflawnder o eiriau, a'r rhai hyny bob amser yn briodol i'w amcan, ac yn hollol ddealladwy i'r llïaws, heb byth syrthio i'r isel a'r gwael. Yr oedd ei ymadroddion yn syml a naturiol, ac wedi eu llunio i siarad yn y modd mwyaf effeithiol. Yr oedd nodwedd ei ymdriniaeth yn wastad mor gelfydd ag i beri digon o ddyddordeb ymhawb i sicrhau sylw perffaith; yr oedd ei feistrolaeth ar ei lais cadarngryf y fath fel ag i'w amrywio yn ol ei ewyllys, i gyfatteb yn berffaith i ansawdd y matter a fyddai dan ei sylw, yn enwedig o fewn cylch y gorchymynol, y bygythiol, y difrifol, a'r ofnadwy; ac yr oedd ei acceniad mor hysain a chroyw; ei bwysleisiad mor naturiol a chywir; ei ystum mor weddaidd, priodol, a dynodiadol; a'i holl ymddangosiad mor sobr, difrifol, a sanctaidd; ar fyr, yr oedd pob peth o'i amgylch y fath ag i'w wneud, o'r munud yr agorai ei enau, yn un nad oedd yn bossibl peidio gwrando arno, ac yn un yr oedd yn annichonadwy gwneud hyny heb deimlo oddi wrtho. Heb law hyn oll, fel yr elai rhagddo, arddangosai y fath ymroad, ac egni, a grym; y fath wres ac angerddoldeb teimlad, fel y byddai ei holl natur yn llosgi megis ffwrn, a'r gwreichion poethion yn cael eu taflu oddi wrtho, nes gwneud y gynnulleidfa yn un oddaith, ïe, yn un eirias danllyd.

* Y mae'r tair emyn a gyfansoddwyd gan Elias yn profi tu hwnt i ddadl y gallasai wneud prydydd godidog, pe troisai ei feddwl galluog at hyny. Dechrau y cyfryw emynau fel hyn:—

"Ai am fy meiau i
Dioddefodd Iesu mawr?"

*Y Salmydd Cymreig*, t. 144.

"Ar fynydd Golgotha cilgwthiwyd,
Cadwynwyd, fe ddrylliwyd y ddraig."

*Yr un*, t. 171.

"Mae haeddiant mawr rhinweddol waed fy Nuw,
Yn llawer mwy na'r pechod gwaetha'i ryw."

*Yr un*, t. 171.

† Rhuf. xv. 14; 1 Cor. xiv. 23-31; Col. iii. 16; 2 Petr i. 12.

Digitized by Google

Byddai y fflamau yn ymestyn ymhob cyfeiriad, nes gwelid y dynion cryfaf yn llewygu gan ofn, ac y teimlid bod "nerthoedd y byd a ddaw" yn ymaflyd ymhob meddwl a chydwybod ger ei fron. Er hyny, ynghanol y cyffroad ofnadwy hwn, byddai efe, nid yn unig yn ei feistroli ei hun yn berffaith, ond hefyd yn ymddangos yn cynhyddu mewn hunanfeddiant. Po mwyaf y gwres, lleiaf y mwg, a chryfaf y golau. Ymddangosai yn myned yn ddyfnach mewn dirnadaeth, fel y byddai yn ymddyrchafu mewn teimlad. Byddai ei lygaid yn clirio, fel y byddai ei galon yn twymo; ac nid oes un amheuaeth na byddai ei iaith yn ymloywi ac yn ymgryfhau, y meddylddrychau yn myned yn fwyfwy disglair a gogoneddus, a'r bregeth yn ymberffeithio fel cyfansoddiad, yn ol y graddau y byddai ei natur yn cael ei chyffröi gan ymweithiad y trydan ofnadwy yr oedd wedi ei lwytho âg ef. Yr oedd ei allu darluniadol y fath fel y byddai yn gosod ei wrandawyr yn gwbl ynghanol y golygfëydd, yn clywed y swn, ac yn gweled y gwrthrychau darluniedig yn fyw ger bron eu llygaid. Er prawf o hyn, crybwyllwn esampl neu ddwy yn unig o fysg llïaws y gellid eu nodi:—Darluniai Petr mor fyw ac effeithiol, mewn pregeth unwaith, fel y dywedodd un gwrandawr wrth un arall, wrth fyned adref, "Yr oeddwn i'n gweled Petr yn sefyll wrth y bont yna." Mewn pregeth arall, darluniai Paul yn ei gadwynau ger bron Agrippa mor fyw o flaen y gynnulleidfa fel y llefodd rhyw longwr allan oedd yn gwrando, "Ffei, ffei! tynwch y *chainiau* yna ar unwaith oddi am ddwylaw y dŷn!" Ar fyr, credwn yn bwyllog fod y fath ardderchowgrwydd ymhregethiad John Elias ag a fuasai yn ddigon, mewn gwlad heb fod mor gauedig oddi wrth y byd o blegid ei hiaith ag ydyw Cymru, i greu cyfnod newydd yn hanes y pulpud Cristionogol.*

Ond rhaid i ni brysuro at y terfyn. Pan aeth Elias i Fôn, nid oedd ond ychydig o gapelydd yn y wlad, a'r rhai hyny, gan mwyaf, yn fychain ac anghyfleus. Ychydig hefyd oedd y gwrandawyr, ond ar achlysuron neillduol, ac mewn ychydig o fanau; a bychain oedd y cymdeithasau neillduol yn gyffredinol. Bu ef y prif offeryn, yn llaw Rhagluniaeth, i adeiladu a heleuthu llïaws o gapelydd yn y sir, ac i fwyhau nifer y gwrandawyr a'r aelodau eglwysig.

Hefyd, yr oedd amryw o hen arferion llygredig yn uchel eu penau yn y sir pan aeth efe yno, megis cynnal gwylmabsantau, cicio pêl droed, ymladd ceiliogod, chwarau ysmaldodion *(interludes)*, malu yn y melinau gwynt, a'r cyffelyb, ar y Suliau. Ymroddes Mr. Elias i garthu'r llygredigeuthau hyn allan o'r wlad. Pregethai yn fynych yn eu herbyn ar lethr y bryn, ar lan y môr, wrth ochr y ffordd, neu pa le bynag y clywai y cynhelid hwynt; a llwyddodd i lwyr lanhau y sir oddi wrthynt, a gwnaeth yn gyffelyb mewn rhai siroedd eraill hefyd.

Yng Nghymmanfa y Bala, a gynhaliwyd ym Mehefin, 1811, neillduwyd Mr. Elias, ym mysg y rhai cyntaf a neillduwyd yng nghyfundeb y Methodistiaid Cymreig, i weinyddu bedydd a swper yr Arglwydd. Ar ol marwolaeth Mr. Charles yn Hydref, 1814, disgynodd y flaenoriaeth yn y cymmanfaoedd yn naturiol ar Elias.

Ar yr 2fed o Ebrill, 1828, cafodd ein gwron enwog ergyd chwerw i'w deimladau trwy farwolaeth ei anwyl wraig, ar ol cydfyw yn gysurus dros naw mlynedd ar hugain. Effeithiodd yr amgylchiad yma mor ddwys arno nes achosi iselder ysbryd peryglus arno, ac annogodd y meddyg a'i gyfeillion ef i fyned i gymmanfaoedd Llanidloes, Aberystwyth, Nerpwl, Manchester, a'r Bala, gan bregethu ar hyd y wlad yn y cyfamser. Gwnaeth hyny les mawr iddo. Yn fuan wedyn, rhoddes y fasnach i fynu i'w blant, fel y gallai gyssegru y gweddill o'i oes yn llwyr i bregethu. Yn Chwefror, 1830, priododd weddw Syr John Bulkeley, Prysaddfed, ger llaw Bodedern, Môn. Yna aeth efe a'i ail wraig i fyw i'r Fron, ger llaw Llangefni, lle y buont hyd ei farwolaeth ef. Cafodd ardal Llanfechell a'r amgylchoedd, ac yn enwedig hen eglwys y Methodistiaid yn Llanrhyddlad, lle yr oedd efe wedi bod yn aelod dros 31 mlynedd, golled ddirfawr, anadferadwy, yn symmudiad Mr. Elias o'u plith; ac yr ydym yn gwybod bod hiraeth dwys am dano ym mysg yr hen aelodau yno, hyd ddiwedd eu hoes. Y gwir yw bod Mr. Elias yn llawn mor hynod yn y gymdeithas eglwysig ag ydoedd yn y pulpud. Y ddwy brif elfen fawr oedd yn ei wasanaeth ef yn yr eglwys, fel yn y pulpud, oedd tynerwch ac awdurdod: yr olaf, yn ddïau, oedd y gryfaf yn ei natur oruchel ef. Gwelsom olygfëydd rhyfedd o orfoledd ac wylo yn y seiat lawer gwaith, pan y cysurai y saint dan eu hofnau, neu y disgyblai yr afreolus am eu camymddygiad; ond ni oddef lle i ni nodi esamplau.

Ond daeth yr amser i'r "tywysog a'r gŵr mawr" hwn "syrthio yn Israel," megis eraill. Ni lwyr

* Cofiant J. Jones, Tal-sarn, gan y Dr. O. Thomas, t. 854-869.

adferodd ei iechyd ef byth ar ol y codwm erchyll a grybwyllwyd eisoes, a gafodd yn 1832, wrth fyned yn y cerbyd o Fronheulog i Sassiwn y Bala. Byddai yn ddarostyngol i boenau mawrion ar amserau; ond nid oedd ei lafur crefyddol, hyd y goddefai ei nerth, yn ddim llai, ac yr oedd ei boblowgrwydd, o ran gwrandawyr, hyd derfyn ei oes ddefnyddiol. Tu a diwedd 1840, ymaflodd poen yn ei droed, fel effaith annwyd. Ar y cyntaf, nid oedd yn teimlo llawer oddi wrtho; ond cynhyddu a wnaeth nes rhoi terfyn ar ei fywyd gwerthfawr a defnyddiol. Ymddengys bod Mr. Elias yn deall y genadwri hon ato yn well na neb arall. Pan dreuthodd cyfaill ei obaith wrtho nad oedd yr anhwyldeb ar ei droed ond peth a giliai yn raddol ymaith: "Na," ebr yntau, "angau sydd yma yn gweithio." Sylwai ei briod bod ei glywed yn dywedyd felly yn ddigalondid tost iddi hi. "O!" medd yntau, "dylem gydnabod bod tiriondeb yr Arglwydd yn fawr iawn tu ag atom, yn anfon angau i ddechrau gweithio yn y troed, y man pellaf o eisteddle y bywyd; pan y gallasai ei anfon i'r pen neu i'r galon rhag ei flaen, i beri marwolaeth ddisymmwth, gan ladd ar un ergyd. Ond fel hyn, dattodir y cwlwm sydd rhyngom yn raddol, a dattodir finnau yn raddol oddi wrth y ddeuar. Mor drugarog ydyw! yn rhoi rhybudd ac amser, trwy'r byr ysgafn gystudd hwn, i barotöi y meddwl yn gyfaddas i ddal tragywyddol bwys gogoniant!" Dyma JOHN ELIAS pan wyneb yn wyneb âg angau, brenin y dychryniadau! Sylwodd wrth gyfaill arall bod y poen yn ei droed yn dyrysu ei gwsg; ond byddai yn cael golygiadau rhyfedd ar amserau, yn nhrymder y nos. "Y borau heddyw," ebr efe, "cefais ryw gof bywiog am rai o weision yr Arglwydd wedi bod â'u traed yn y cyffion: nid oes genyf fi ond un troed yn rhwym. Canfyddaf hefyd y bydd rhwymo traed a dwylaw y gwas anfuddiol, a'i daflu i'r tywyllwch eithaf; ond yr wyf yn credu na wna fy Nhad nefol mo hyny â mi byth bythoedd!" Pan anfonodd brawd hoff ato, er gwybod pa fodd yr oedd agwedd ei feddwl ar ddiwedd ei daith ar y ddeuar, dywedodd yntau—"Yr wyf wedi rhoddi fy nghorph a'm henaid yngofal y Gwaredwr mawr er ys deng mlynedd a deugain; ac yno y maent etto." Bryd arall dywedodd—"Nid oes un cwmmwl yn myned rhwng fy enaid a'm Duw: y mae'r cysuron yr arferwn eu mwynhau ym moddion gras, ac yn y weinidogaeth, yn dylifo etto i'm henaid; ïe, y maent weithiau yn gryfach, ac yn fwy bywiog, yn awr nag y buont erioed. Dywedodd wrth frodyr a euthant i ymweled âg ef y dydd Sadwrn olaf y bu fyw—"Ni chefais erioed noswaith mor boenus o ran fy nghorph, na chysuron mor gryfion i'm hyspryd, ag a gefais neithiwr." Fel hyn, pan yr oedd ei gnawd a'i galon yn pallu, cafodd ei Dduw "yn nerth i'w galon, ac yn rhan iddo yn dragywydd." Ei ddiwedd, ymhob ystyr, oedd tangnefedd. Hunodd yn yr Iesu, heb ruddfaniad nac ochenaid, ddydd Mawrth, yr 8fed o Fehefin, 1841, yn 67 oed. Ymdeunodd y newydd galarus fel tân gwyllt trwy Ogledd a Deheudir Cymru, ac ym mron trwy'r holl fyd Cristionogol; a miloedd o leisiau a syn adseinient—"JOHN ELIAS wedi marw! Ai gwir?" Wele, "Gwyn eu byd y meirw y rhai sy'n marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Yspryd, fel y gorphwysont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt."

Claddwyd ei gorph, ar ei ddymuniad ef ei hun, wrth ochr corph ei serchocaf gyfaill, y Parch. Richard Llwyd, Bomaris,* ym monwent Llanfaes, o ddeutu 14 milltir o Langefni, a thu a 2 filltir i'r gogledd-orllewin o Bomaris; ac yr oedd y fintai

* Mab oedd Richard Llwyd i Robert Llwyd, Nantannog, ffarm helaeth ymhlwyf Llantrisant, Môn; a'i fam oedd ferch William Prichard, Clwchdernog, Llanddeusant, Môn (gwel llyfr v., pen. xv.). Ganwyd ef yn y fl. 1771, tu a thair blynedd o flaen John Elias. Gan fod ei rieni yn ffarmwyr cefnog, cafodd yr ysgolion gorau a allent gael iddo yn sir Fôn ar y pryd. Yr oedd dan argyhoeddiadau am ei gyflwr er yn ieuangc; a phan oedd tu a 18 oed, yn y fl. 1789, llwyr ddychwelwyd ef dan bregeth Ebenezer Morys; ac yn fuan wedyn, ymunodd âg eglwys fechan y Methodistiaid yng Ngwalchmai, Môn. Canfu y brodyr yn ebrwydd ei fod yn fachgen o wybodaeth, duwioldeb, ac ymroddiad crefyddol anghyffredin, a dewisasant ef yn fleunor. Ymhen ennyd wedyn, sef yn y fl. 1794, pan oedd efe tu a 23 oed, cymhellwyd ef i ddechrau pregethu, â'r hyn y cydsyniodd yntau. Bu dylanwadau nerthol yn oed ar rai o'i bregethau cyntaf. Yr oedd ei ddull yn pregethu, a'i agwedd brydferth a dirodres o draddodi, yn gymmeradwy iawn gan bawb o'i wrandawyr, a pharhaodd felly hyd derfyn ei oes.

Ar y 13ydd o Fai, 1800, priododd ferch Mr. John Roberts, o'r Garnedd-wen, ffarm ymhlwyf Llanfair-pwll-gwyngyll, Môn, a symmudasant i Bomaris i gadw siop, lle y buont yn dra chymmeradwy a llwyddiannus ar hyd eu hoes. Pan aeth Mr. Llwyd yno i fyw, ni chynhwysai yr eglwys Fethodistaidd yn y dref ond tri neu bedwar o frodyr, ac ychydig o chwiorydd tlodion, y rhai a ymgynhullent mewn tŷ bychan i addoli. Llwyddodd Mr. Llwyd yn fuan i gael lle i adeiladu capel. Cynhyddodd y gwrandawyr yn gyflym yno; ac ymhen ychydig flynyddau, bu raid ail adeiladu a helaethu y capel. Yn Sassiwn y Bala, 1811, neillduwyd Mr. Llwyd, ymhlith y rhai cyntaf a neillduwyd yng Nghymru, i weinyddu bedydd a swper yr Arglwydd. Yr oedd Mr. Llwyd yn dduwinydd dwfn, yn bregethwr sylweddol a hyawdl; ac yr oedd mor hynaws, pwyllog, gostyngedig, a dirodres, fel yr hoffid ac y perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadweunai; ond nid yn fwy gan neb na chan ei gymmydogion ei hun o bob graddau, oedran, a sefyllfa. Cynhyddodd yr achos mor gyflym, trwy ei ymdrech ef yn benaf, fel y gwelodd y rhaid trydydd helaethu y capel; ac yr oedd ei ymdrech a'i lafur i'w orphen yn gyflym y fath fel pe buasai yn gwybod bod ei dymmor gweithio ef ar ben. Yn fuan ar ol gorphen y capel, cymmerwyd ef yn glaf; ac ar ddydd Sul, y 25med o Fai, 1834, bu farw yn dawel a hyderus, yn 68 oed, wedi bod yn pregethu am 40 mlynedd yn egnïol, cymmeradwy, a llwyddiannus. Nid ydym yn gwybod iddo adael dim cyfansoddiadau ar ei ol, ond ychydig o hanes ei dröedigaeth ei hun, ac un neu ddau o'i gyfeillion. Cyfan-

a'i hebryngodd ef yno mewn cerbydau, ar feirch, ac ar draed, erbyn cyrraedd y fonwent, tu a milltir a hanner o hyd, yn cynnwys o ddeutu deng mil o bobl, oll yn awyddus i dalu'r deyrnged olaf o barch i goffadwriaeth un a hoffent mor fawr, ac a fu mor enwog a defnyddiol yn eu mysg.*

Yr oedd llafur Mr. Elias, fel pregethwr, mor fawr, yr hwn a fyddai ar deithiau pregethwrol bron yn barhaus tra yn ei gynnefin iechyd, fel nad oedd yn ddichonadwy iddo gyfansoddi llawer i'r wasg. Dyma y rhestr gyflawnaf o'i gyfansoddiadau argraphedig y gallasom ni ei chasglu:—

"Traethawd ar y Sabbath, yn yr hwn yr ystyrir—I. Moesoldeb y Gorchymyn. II. Newidiad y Diwrnod dan yr Oruchwyliaeth Newydd. III. Sancteiddiad y Sabbath: y'nghyd ag amryw Annogaethau a Chyfarwyddiadau i'w Sancteiddio ef. 1804." 8plyg.

"Pregeth ar Fanteision Pobl Ieuaingc o ddwyn yr Iau yn eu Hieuengctid. 1812."

"Pregeth ar Farwolaeth y Brenin, George III. 1820."

"Golygiad Ysgrythyrol ar Gyfiawnhad Pechadur; sef Traethawd, yn dangos y ffordd y mae Duw, yn ei ras anfeidrol, yn cyfiawnhau pechaduriaid, yn unol â Chyfiawnder ei Natur, ei Uniondeb fel Barnwr, ac â Phurdeb ac Anghyfnewidioldeb ei Gyfraith. 1821."

"Rhagymadrodd i Gyfieithiad o Bregethau Hurrion. 1821."

"Marwolaeth Gweinidogion Ffyddlawn i Dduw yn achlysur i annog y rhai byw i ymwroli y'ngwasanaeth eu Harglwydd. Sef, Sylwedd Pregeth a draddodwyd Y'nghymdeithasfa Llanrwst, Medi 30, 1825, gyda golwg ar farwolaeth y Parchedig Ebenezer Morris, ac amryw o Weinidogion defnyddiol eraill a fuant feirw yn y Flwyddyn hon. Bala, 1826."

"Holwyddoreg byr ar y Deg Gorchymyn. 1826."†

"Mawr Ddrwg y Pechod o Ymgaledu o dan Freintiau Crefyddol. Sef Sylwedd Pregeth a draddodwyd Y'nghymdeithasfa Llanrwst, Rhagfyr 28, 1827. (Gyda chwanegiad.) Llanrwst, 1828."

"Pregeth ar Farwolaeth y Duc York. 1827."

"Archiad, neu Gynghor ar yr achlysur o neillduo Mr. Josiah Hughes yn Genadwr i Malaca, yn Asia. Liverpool, 1830. Ordeiniad Cenadol,"‡ t. 64.

"Byr-Hanes o Fywyd Mr. Elias, ganddo ef ei hun. 1840–1."

Heb law y cyfansoddiadau gwerthfawr a nodwyd, cyhoeddwyd y rhai canlynol o'i waith, ar ol iddo farw:—

"Pregethau y diweddar Barch. John Elias. Wedi eu hysgrifenu mewn llaw fer, wrth eu gwrando, gan R. Hughes, Liverpool. Cyf. I. Wyddgrug, 1845."§

"Valuable Letters, Essays, and other Papers of the late Reverend John Elias, of Anglesea: together with Observations on his Publications. By the Rev. E. Morgan, M.A., Vicar of Syston. Carnarvon, 1847."||

At yr holl lafur ehang a gwerthfawr a nodwyd, yr oedd Mr. Elias yn gefnogwr zelog, galluog, a llwyddiannus i bob cymdeithasau daionus. Dywedodd cyfeisteddfod y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, yn eu hadroddiad blynyddol am 1842, fel hyn:—

"Y mae mwy na theyrnged gyffredin o serchowgrwydd a galar yn ddyledus i goffadwriaeth y Parch. John Elias oddi wrth y Bibl Gymdeithas. Wedi marwolaeth yr hybarch Charles o'r Bala, yr oedd Elias, a llefaru yn ddynol, yn brif gynhalydd y gymdeithas, ac yn ddadleuwr diflino drosti yng Ngogledd Cymru; a chredir iddo draddodi mwy o areithiau ar ei rhan, a chasglu mwy o arian ati, nag un dŷn arall heb fod mewn cyssylltiad swyddogol â'r gymdeithas. Yn ei farwolaeth ef, collodd y gymdeithas aelod o weddïwr mawr, cyfranwr haelionus, a dadleuwr hyawdl a gwir effeithiol."

Yr oedd hefyd yn bleidiwr ffyddlawn a llwyddiannus i Gymdeithas Genhadol Llundain, ac i Gymdeithas Genhadol Dramor a Chartrefol y Methodistiaid Calfinaidd. Cafodd Cymdeithas Cymmedroldeb hefyd ef yn bleidiwr galluog yn ebrwydd ar ol ei chychwyniad; a phan sefydlwyd y Gymdeithas Ddirwestol, yr oedd efe yn barod i bleidio honno drachefn, fel y moddion diogelaf i sobri'r byd. Y gorchwyl cyhoeddus diweddaf a wnaeth oedd llefaru o blaid y gymdeithas hon yn un o'i chyfarfodydd yn Llangefni, yn niwedd mis Rhagfyr, 1840. Ond er mor anhawdd ydyw, rhaid i ni ffarwelio â'r pregethwr hyawdl ac effeithiol, y cyfansoddwr diwyd, y gwladgarwr ffyddlawn, a'r crefyddwr duwiol, gonest, ac enwog hwn, a gwnawn hyny âg englyn bleunaf ac olaf yr enwog Fardd Hiraethog iddo:—

"JOHN ELIAS! enw i luoedd—sy'n anwyl,
Sai'n enwog am oesoedd:

---

soddodd y Parch. Dafydd Elias farwnad helaeth ar ei ol, yr hon sy'n dechrau fel hyn:—

"Teithiodd Gymru gan bregethu
Efengyl Iesu i bob gradd:
Gwas y Brenin oedd, anfonwyd
I'r prif ffyrdd a'r ceuau i wa'dd
I'r wledd a barotôdd Doethineb,
Mewn taerineb, bawb o'r bron:
Galwai'r pena' o bechaduriaid
I fwynhau danteithion hon."—

Method. Cymru, cyf. ii., t. 528, 571; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 214; Ysgrif y Thesbiad.

* Cyfansoddodd Eben Fardd alarnad ardderchog ar ei ol (*Gwaith Eben Fardd*, t. 358); ac y mae englynion Gwilym Hiraethog ar yr un testyn yn odidog ragorol.—*Cofiant J. Jones, Talsarn*, t. 870.

† Yr ydys yn cofio'n dda bod graddau o farweidd-dra wedi ymdeunu o gylch y pryd hyn dros Ddosparth Ysgol Sabbothol Llanrhyddlad. Deallodd Mr. Elias hyny, a chyfansoddodd yr Holwyddoreg uchod, fel "pwngc ysgol," ar y Deg Gorchymyn; ac wedi ei argraphu yn llyfryn ar ei draul ei hun, rhoddes yr holl argraphiad yn anrheg i'r Dosparth. Cafwyd ganddo gydsynio yn rhwydd i ddyfod i'r Cyfarfod Ysgolion (canys yr oedd efe yn bur hoff o'r cyfarfodydd hyny), lle yr holodd ar y Deg Gorchymyn, ac y pregethodd ar fuddioldeb yr Ysgol Sabbothol yn y fath fodd fel y cafwyd adfywiad yn y Dosparth, ac y parhaodd ei effeithiau am flynyddoedd wedi hyny.

‡ Math ar bregeth ardderchog ydyw yr "Archiad" yma oddi wrth 2 Tim. iv. 1, 2, yn cynnwys 20 o dudalenau 12plyg.

§ Cynnwys y gyfrol 12plyg hon 39 o'i bregethau, mewn 479 o dudalenau, heb law 8 tudalen o arweinolion. Credwn, er ein gofid, na chyhoeddwyd byth y gweddill o'i bregethau gwerthfawr.

|| Llyfryn 16plyg prydferth ydyw hwn, mewn llythyren fân, eglur, yn cynnwys 296 o dudalenau; ac y mae ei gynnwys yn wir ddyddorol a gwerthfawr.

Digitized by Google

Dŷn i'w wlad yn wawl ydoedd;
Dŷn Duw fe adwaenid oedd. . . .

"Ond, Ow! efe a dawodd!—athraw mâd,
A thrwm yw'r ymadrodd;
Ei fad aur dafod oerodd;
Ys y clai'n Llanfaes a'i clodd!"*

## PENNOD XIX.

JOHN PARRY, JOHN HUGHES, ARTHUR JONES, HUGH HUGHES, JAMES HUGHES, WILLIAM EVANS, A JOHN JENKINS.

MAB ydoedd JOHN PARRY i Owen Parry, o'r Groeslon, ymhlwyf Llandwrog, sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn y fl. 1775, a chafodd ei addysg ddechreuol yn un o ysgolion cylchynol Madam Bevan, ac wedi hyny mewn ysgol a gedwid yn Llanllyfni gan y Parch. John Roberts, brawd yr enwog Robert Roberts, Clynog. Bu hefyd dros ryw dymmor yn ysgol un Mr. Wilson, yn dysgu Saesneg ac elfenau cyffredin dysgeidiaeth, ac wedi hyny yn ysgol Mr. Richardson, Caernarfon. Hefyd, bu mewn ysgol yn Nerpwl dros ychydig amser, er mwyn ymgymhwyso i fod yn athraw ysgol. Ym Mrynsiencyn, sir Fôn, yr ymsefydlodd gyntaf i gadw ysgol, lle y bu am bum mlynedd a hanner. Ymddengys mai yno, ym mis Rhagfyr, 1797, pan oedd efe tu a 22 oed, y dechreuodd efe bregethu gyd â'r Methodistiaid. Wedi hyny aeth i ysgol ym Manceinion (*Manchester*), er mwyn ymgymhwyso ymhellach i ddysgu eraill. Yn niwedd y fl. 1799, dychwelodd eilwaith i Frynsiencyn. Yna aeth ar daith bregethwrol trwy rai o siroedd Cymru, a dychwelodd i'w hen gartref yn y Groeslon, Llandwrog. Ar ol bod yno dros fyr amser, aeth i Gaergybi yn Chwefror, 1800, i gadw ysgol. Yn y cyfamser, yr oedd Mr. Parry yn achub pob cyfle a gaffai i dramwy gan bregethu y gair yng Ngogledd Cymru, a rhai o drefydd Lloegr; ac mor ddiwyd y bu yn hyn, yn ol ei dystiolaeth ei hun, fel yr oedd wedi pregethu 640 o weithiau erbyn Nadolig, 1801, ymhen tu a phedair blynedd ar ol iddo ddechrau.†

Yn y fl. 1804, priododd ferch ieuangc grefyddol o sir Fflint, a'i henw Catherine Belis, nith o ferch chwaer i John ac Humphrey Owen, Berthen-gron; ac ymhen dwy flynedd wedyn, gwnaeth ei gartref yng Nghaerlleon. O hyny allan, adnabyddid ef wrth yr enw "John Parry, Caer." Erbyn diwedd y fl. 1805, yr oedd Mr. Parry wedi pregethu 1,819 o weithiau, sef yn yr yspaid o wyth mlynedd. Pan ymsefydlodd efe yn y ddinas, yn y fl. 1806, nid oedd un pregethwr Cymreig o'i mewn, ac nid oedd nifer yr aelodau proffesedig gyd â'r Methodistiaid yno ond o ddeutu 30; ond bu ei ymsefydliad ef yn y ddinas yn foddion arbenig i ddwyn yr achos gwan yn ei flaen. Yr oedd yr ysgol Sabbothol wedi ei chychwyn yno er ys tu a blwyddyn cyn ymsefydliad Mr. Parry yn y lle, a chafodd hon achles neillduol ganddo. Gan ei fod ef wedi bod yn cadw ysgol dros hir amser, yr oedd yn gymhwysach i gyfranu addysg na'r cyffredin o grefyddwyr ei oes. Arferai gyfarfod yr athrawon ar foreuau Sabboth i'w hyfforddi, er mwyn eu cymhwyso yn fwy i ddysgu eraill. Llafuriodd Mr. Parry yn ddiwyd hefyd gyd â'r Saeson yngoror Clawdd Offa, a chyd â chyfundeb y Parch. P. Oliver, heb law ei lafur rheolaidd gartref, ac o fewn cylch Cyfarfod Misol sir Fflint, i'r hwn yr oedd efe yn perthyn. Yn y flwyddyn 1814, ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth.

Ond nid fel pregethwr yn unig y gwasaneuthodd Mr. Parry ei genedl, ond gwnaeth hyny yn helaeth iawn, dros lawer o flynyddau, trwy'r wasg hefyd. Cyhoeddodd amryw lyfrau, rhai ar dduwinyddiaeth, i blant, ac i bobl o oedran addfetach, megis y ddau ganlynol:—

"Rhodd Mam i'w Phlentyn."‡
"Esponiad ar Lyfr y Prophwyd Esaia."‡

Rhai ar ieithyddiaeth, megis y ddau hyn:—

"Grammadeg Hebraeg; er cyfarwyddyd i'r Cymro Uniaith i ddysgu darllen a deall Hebraeg, yn gywir a rheolaidd, heb Gynnorthwy Athraw. . . . 1818."§
"Grammadeg o'r Iaith Gymraeg; wedi ei drefnu yn fyr ac yn eglur, a'i gyfansoddi mewn iaith rwydd, er addysg i Bobl Ieuaingc ac Ereill."||

Eraill a gyhoeddwyd ganddo ar wybodaeth gyffredinol, megis y *Goleuad* a'r *Drysorfa*. Ymddengys i'r awdur llafurus bwrcasu gwasg iddo ei hun rywbryd yn ystod y fl. 1818, ac yn y flwyddyn honno y dechreuodd gyhoeddi y *Goleuad* dan yr enw canlynol:—

"Goleuad Gwynedd; sef Cylchgrawn Gwybodaeth, yn

* Cofiant y Parch. J. Elias, gan J. Roberts a J. Jones, Liverpool; Eliasia, gan Bleddyn; Traethodydd, llyfr i., t. 305, 437; Adgofion am J. Elias, gan R. Parry; Morgan's Memoir of the Rev. J. Elias; Morgan's Letters, Essays, &c., of Rev. J. Elias; Gwyddoniadur, cyf. iv., t. 300; Method. Cymru, cyf. ii., t. 596; Cofiant J. Jones, Talsarn, t. 814; Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 257; Enwog. Cymru, I. F., t. 293.

† Goleuad Cymru, Ion. 1820, t. 239.

‡ Catecism byr i blant ydyw hwn. Nis gwyddom pa bryd y cyhoeddwyd ef, na'r Esponiad, y tro cyntaf.

§ Llyfryn 12plyg yw hwn, yn cynnwys 78 o dudalenau.

|| Llyfryn 16plyg ydyw hwn, yn cynnwys 80 o dudalenau. Nis gwyddom pa bryd y cyhoeddwyd hwn y tro cyntaf, canys y trydydd argraphiad sydd genym ni, yr hwn a gyhoeddwyd yn y fl. 1823.

Digitized by Google

cynnwys cynnulliad o Fywgraffiadau, Byr-draethiadau, Hysbysiadau, Addysgiadau, a Choffadwriaethau o natur Foesol, Athronol, Rhifyddol, Difyrol, Gwladol, Eglwysig, &c. &c. &c. Ynghyd ag amryw gyfansoddiadau mewn Barddoniaeth a Pheroriaeth."

Newidiodd y cyhoeddwr y gair *Gwynedd* am *Cymru,* ar ddymuniad y Deheuwyr, a galwyd y misolyn wedyn yn "*Goleuad Cymru,*" &c., a pharhaodd i'w gyhoeddi hyd y fl. 1830. Y pryd hwnw, gosodwyd cylchgrawn misol y Methodistiaid, fel corph, iddo i'w olygu a'i argraphu, sef—

"Y Drysorfa: yn cynnwys amrywiaeth o bethau ar amcan crefyddol, yn Athrawiaethol, Annogaethol, a Hanesiol, ynghyd a Hanesiaeth Genhadol a Gwladwriaethol, ac amrywiol gyfansoddiadau mewn Barddoniaeth a Pheroriaeth. A gyhoeddwyd dan olygiad y Trefnyddion Calfinaidd, gan John Parry."

Bu'r *Drysorfa* dan olygiad Mr. Parry, ac yn cael ei hargraphu ganddo, o'r fl. 1830 hyd ddiwedd ei oes. Cyfarfu y duwinydd a'r llenor diwyd hwn âg amgylchiad yn y fl. 1823 a'i difuddiodd, i fesur helaeth, o'i gysur, ac i raddau o'i ddefnyddioldeb hefyd, trwy gael annwyd trwm i'w ben, wrth bregethu ar yr heol yng Nghymmanfa Llanfyllin, fel ag i fawr drymhau ei glyw; a pharhaodd hyny i'w flino, i raddau mawr, o hyny allan, er iddo arfer pob moddion o fewn ei gyrraedd i'w symmud. Ond er yr anghyfleusdra hwnw, parhaodd Mr. Parry i lafurio yn ddiwyd a chymmeradwy dros lawer o flynyddau, fel pregethwr, awdur, a golygydd. Pa wedd bynag, wedi ymdrech maith, llafur ffyddlawn, ac ymarweddiad gwastad a difwlch, galwyd ef oddi wrthynt i'r "anneddle lonydd" ar yr 28fed o Ebrill, 1846, yn 71 oed, wedi bod yn pregethu am yn agos i 50 o flynyddau, 40 o'r rhai a dreuliodd efe yng Nghaerlleon. Claddwyd ei gorph ym monwent Ioan Sant, Caerlleon, ar y 1af o Fai y flwyddyn grybwylledig (1846). Credwn nas gellir darlun byr rhagorach o'r gŵr enwog hwn nag a roddir gan ei olynydd fel golygwr *Y Drysorfa*, sef y Parch. Roger Edwards, yn *Nyddiadur y Methodistiaid* am 1847, yr hwn ddarlun sydd fel y canlyn:—

"Yr oedd yn ŵr o yspryd rhydd, diragfarn, a thangnefeddus; o feddwl gwastad ac o dymmer gyfeillgar; yn fanylaidd a threfnus yn ei holl arferion; yn ddïargyhoedd yn ei holl ymarweddiad; yn iraidd o ran ei brofiad ysprydol; yn bregethwr efengylaidd, blasus, a defnyddiol; ac yn hynod o adeiladol yn y cyfeillachau eglwysig; ac fel hyn, yr oedd yn gymmeradwy ym mysg llïaws ei frodyr."*

* Cofiant y Parch. J. Parry, gan J. a J. Parry, 1849; Method. Cymru, cyf. iii., t. 428; Traethodydd, llyfr v., t. 401; Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. ii., 367.

### JOHN HUGHES.

Ganwyd y gŵr enwog a llafurus hwn mewn tŷ bychan a elwid Y Fawnog, ymhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, sir Drefaldwyn, yn y fl. 1775. Ni wyddys pwy oedd ei rieni, na pha fath oedd eu sefyllfa; ond gellir casglu nad oeddynt ond lled isel eu hamgylchiadau. Nid yw hyspys ychwaith pa fanteision addysg a gafodd John ym morau ei oes; eithr tybir nad oeddynt ond ychydig. Beth bynag am hyny, dysgodd ef lawer yn ystod ei fywyd, canys meistrolodd yr iaith Saesneg, a dysgodd gymmaint o'r Hebraeg a'r Groeg fel y medrai ddefnyddio geiriaduron yn yr ieithoedd hyny. Pan oedd yn lled ieuangc, prentisiwyd ef yn wehydd gyd â thad y Parch. John Davies, cenhadwr Otaheite, yr hwn oedd yn byw ar y pryd ar ran o ffarm Pendugwm, ger llaw Pont-Robert. Dechreuodd cyfeillach gynnes y pryd hwnw rhwng John a'r cenhadwr duwiol, a thybir mai yn ystod yr amser hwnw y dechreuodd efe brofi argraphiadau crefyddol ar ei feddwl.

Bu John Hughes yn cadw ysgol, dros ryw dymmor, yn ei blwyf genedigol; wedi hyny symmudodd i Gemmaes, sir Drefaldwyn, ac oddi yno i Bont-Robert, yn yr un sir, lle y treuliodd weddill ei oes. Wedi treulio y rhan fleunaf o'i oes yn ysgol-feistr ac yn wehydd, bob yn ail, dechreuodd bregethu gyd â'r Methodistiaid yn y fl. 1800, ac efe yn 25 oed. O gylch yr un amser, priododd Ruth, merch Morys Evans, o'r Mardy, yr hon a fuasai yn forwyn am bedair blynedd yn Nolwar-Fechan, cartref Ann Gruffydd, y farddones efengylaidd. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol priodi, aethant i fyw i dŷ-capel y Methodistiaid ym Mhont-Robert, ac yno y treuliasant weddill eu hoes. Wedi ymsefydlu fel hyn, ymroddes J. Hughes i fyfyrio duwinyddiaeth yn egnïol a llwyddiannus. Dechreuodd fyfyrio yr Hebraeg a'r Groeg yn fuan ar ol dechrau pregethu, er mwyn deall yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol; a thu ag at ymgydnabyddu â'r Groeg, dywedir iddo ddechrau ysgrifenu rhyw fath ar Eiriadur Groeg a Chymraeg. Yr oedd J. Hughes yn fyfyriwr dwfn, craffus, a threiddgar. Ymollyngai mor llwyr yn ei fyfyrdodau yn fynych fel na wyddai ddim beth a ddigwyddai o'i amgylch.

O ran ei ymddangosiad allanol, yr oedd yn ŵr o daldra cyffredin, ei gorph yn llydan a thrwchus, gwyneb llydan agored, a'r olwg arno yn hynod o wladaidd. Fel pregethwr, traddodai yn bwyllog

Digitized by Google

ac arafaidd yn gyffredin; ond pan gynhyrfid ef ar amserau gan syniadau ei destyn, byddai yn rymus a thanbaid dros ben. Yr oedd yn meddu'r gallu gwerthfawr i ddywedyd llawer iawn mewn ychydig eiriau, a hyny yn eglur a grymus. Yr oedd ei feddylgarwch a'i ddifrifoldeb dwys a naturiol yn sicrhau iddo le mawr ynghalon goreuwyr ei wlad a'i oes. Yr oedd yn ysgrifenwr golau a chadarn, ac yn brydydd lled wych; a chyhoeddodd amryw fân lyfrau, o'r sawl y mae'r rhai canlynol wrth law genym:—

"Hymnau i'w canu yn yr Ysgolion Sabbothol. Yn ddwy ran. Rhan I. Hymnau Athrawiaethol; Rhan II. Hymnau Ymarferol. . . . 1821."*

"Cyfansoddiad Prydyddol ar Lyfr Caniad Solomon, yn yr hwn y mae holl Adnoddau y Llyfr, ynghyd â Gradd o Eglurhad. Wedi eu cyfansoddi i'w canu ar amryw Donau arferedig. Hefyd, Cyfansoddiad Newydd Prydyddawl ar Psalm lxviii. . . . 1821."†

"Cofiant am y diweddar Barch. Owen Jones, o'r Gelli, swydd Drefaldwyn, Gweinidog yr Efengyl ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, ynghyd a Chân o Alar ar yr achos. . . . 1830."‡

"Cofiant am y diweddar Barch. John Jones, o Dreffynnon, swydd Fflint, Gweinidog yr Efengyl ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, yr hwn a fu farw Awst 2, 1830, yn y 66 flwyddyn o'i Oedran, a'r 37 o'i Weinidogaeth. . . . . 1831."§

"Cofiant Mrs. Ann Griffiths, Dolwar Fechan, plwyf Llanfihangel Yngwynfa, swydd Drefaldwyn, yr hon a fu farw yn mis Awst, yn y flwyddyn 1805, yn 26 oed, neu ychydig fisoedd yn rhagor. Y'nghyd a'i holl Hymnau, a llawer o honynt na buont yn Argraffedig o'r blaen. Wedi ei gasglu a'i ysgrifenu gan y Parch. John Hughes, Pont Robert. Ynghyd ag amryw Ganiadau ganddo yntau. . . . 1847."

Hwn, yn ddïau, yw'r gwerthfawrocaf o'r holl lyfrau a gyhoeddwyd gan y Parch. J. Hughes. 12plyg ydyw'r llyfr hwn, a chynnwys 60 o dudalenau. Cyhoeddodd y rhai canlynol, y rhai nid ydynt wrth law genym ni, sef "Hanes Bywyd y Parch. Evan Griffiths, Meifod, ynghyd â Galargan am dano, 1841;" "Cofiant am Thos. Griffiths, brawd hynaf y Parch. E. Griffiths, Meifod, a Mrs. Griffiths, ei fam, 1841;" "Cofiant am y Parch. Wm. Jones, Dolyfonddu, 1841;" "Cofiant y Parch. Abraham Jones, Aber-rhaiadr, ynghyd â Galarnad am dano, 1842;" "Cofiant y Parch. John Price, Trefeglwys, a Galarnad am dano, 1842." Hefyd, cyhoeddodd "ryw hanner dwsin o bregethau," ac ysgrifenodd gryn lawer i'r *Drysorfa* yn ei ddydd. Y mae llïaws o'i hymnau yn rhagorol o ran sylwedd ac athrawiaeth, ac y mae llawer o honynt ar arfer gyffredin ym mysg crefyddwyr ein cenedl.‖ Arferai yr hen awdur diwyd ac enwog gludo sypynau o'i lyfrau gyd âg ef i'w deithiau pregethwrol; ac ar ddiwedd y cyfarfodydd yn ei deithiau, ac yn y cyfarfodydd misol a'r cymmanfaoedd, cymhellai ei wrandawyr i'w prynu, yr hyn a dolai rywfaint ar ei barch yngolwg ambell rai arwynebol.

Yn ystod ei flynyddoedd olaf, efe oedd yr awdurdod fawr mewn matterion disgybleuthol trwy holl gylch ei sir ei hun. Parai ei ymddangosiad ddychryn i derfysgwyr eglwysig. Tarawai ei ffon fawr yn y llawr, ac archai i derfysgwyr fyned allan o'i bresennoldeb. Teimlai bryder ac awydd mawr dros burdeb a thangnefedd eglwysig. Efe oedd tad cyfarfodydd misol y sir. Yr oedd y "gadair," yn y cyfarfodydd hyny, wedi myned megis yn feddiant iddo. Bu farw ar ddiwrnod Cyfarfod Misol, sef dydd Iau, y 3ydd o Awst, 1854, yn 79 oed, wedi bod yn proffesu Crist yn ddifwlch am 57 flynedd, ac yn pregethu yn egnïol a chymmeradwy am 54 blynedd. Pan gyrheuddodd y newydd galarus i'r cyfarfod misol y diwrnod y bu farw, dywedodd Dafydd Dafis, Cowarch, yn ei ffordd gyffröus ei hun, "Wel, bobol! be newch chi rŵan? Dyna'ch tad chi wedi marw!" Bu farw yn hollol fel y bu fyw. Tawel a digyffro ydoedd yn ei fywyd, ac ni frysiodd efe yn nydd marwolaeth. Aeth trwy'r afon mewn perffaith dangnefedd. Dengys y difyniad canlynol a wnaed gan ei frodyr yng Nghymdeithasfa Caernarfon ym Medi, ymhen tu a mis ar ol ei farwolaeth, bod ganddynt barch diffuant iddo, a meddwl uchel iawn am dano:—

"Gellir dywedyd yn briodol fod, yn ei farwolaeth ef, dywysog a gŵr mawr wedi syrthio yn ein mysg. Y mae'n wir ei fod yn ddiffygiol o ryw addurniadau oedd yn rhwystro i rai dosparthiadau o bobl weled ei fawredd; ond pa le bynag y byddai gradd o farn a dwysder meddwl, fe welid yn ebrwydd bod J. Hughes yn ŵr o amgyffred clir a chadarn, ac yn meddu ar gyflawnder gweinidogaeth. Cawsai ei ddwyn i fynu yn hollol dywyll a difatter am grefydd; ond pan ymaflodd gwirionedd yr efengyl yn ei feddwl, cyfododd fel cawr, gan weithio ei ffordd trwy anhawsderau i gyrraedd gwybodaeth; a thrwy anhawsderau y dechreuodd bregethu, ac yr aeth ym mlaen nes cyrraedd dylanwad fel un o arweinwyr y Cyfundeb. Yr oedd ganddo, mewn corph swrth a marwaidd, yspryd penderfynol a di-ildio: dŷn ydoedd a osodai ei holl fryd ar y peth yr ymaflai ynddo. Yr oedd yn ddïysgog yn athrawiaeth yr efengyl; ac efe a ymdrechodd ymdrech deg, ac a gadwodd y ffydd, heb i neb ddwyn ei goron. Bu farw a phwys ei enaid ar y gwirionedd a bregethodd yn ei fywyd." ¶

* Llyfryn 16plyg ydyw hwn, yn cynnwys 32 o dudalenau.

† Llyfryn o'r un plyg ydyw hwn, a chynnwys 80 o dudalenau, "Pris Chwe Cheiniog."

‡ Yr un plyg ydyw hwn etto, yn cynnwys 87 o dudalenau. "Pris Chwe Cheiniog."

§ Y mae "J. Hughes a W. Pierce, Treffynnon," ar enwad-ddalen hwn. Yr un plyg a'r lleill ydyw, a 87 o dudalenau a gynnwys. "Pris Chwe Cheiniog."

‖ Y mae 18 o'i Hymnau yn *Y Salmydd Cymreig* (Dinbych, 1856) t. 75, 111, 135, 136, 199, 235, 326, 389, 391, 397, 412, 414, 416 477, 493, 505, 513, 516.

¶ Trysorfa, 1854, t. 377.

Digitized by Google

Y mae'n bur hyfryd genym weled nad mewn geiriau yn unig y dangosodd ei frodyr eu parch i goffadwriaeth yr enwog JOHN HUGHES o Bont-Robert, eithr mewn gweithred a gwirionedd, canys yn y fl. 1866, ymhen tu a deuddeng mlynedd ar ol ei farwolaeth, rhoddes Cyfarfod Misol y sir gof-golofn hardd ar ei fedd, ac yn gerfiedig arni brif neillduolion ei gymmeriad.*

### ARTHUR JONES, D.D.

Ganwyd y gŵr enwog hwn yn Llanrwst, ar y 12fed o Chwefror, 1776. Yr oedd ei dad yn ŵr parchus yn y dref, yn dal y Felin Isaf, ac yn golygu drosti fel y prif felinydd; a threuliodd yntau ryw faint o'i ddyddiau boreuol fel melinydd. Yr oedd ei fam, Elen Elis Morgan, yn disgyn o'r un llinach a'r Dr. William Morgan, Esgob Llanelwy, y cyfieithydd cyntaf o'r holl Fibl i'r iaith Gymraeg. Ni wyddys ddim pa fanteision dysg a gafodd yn ei ddyddiau boreuaf; ond gan fod ei rieni mewn sefyllfa gysurus, gellir casglu iddo gael rhywfaint o ysgol yn oes ei dad; ond bu ef farw pan oedd Arthur yn ieuangc; ac ail briododd ei fam yn lled fuan, a newidiodd ei sefyllfa yntau yn y teulu er gwaeth mewn canlyniad i hyny.

Pan oedd Arthur rhwng 17 a 18 oed, ymunodd âg eglwys y Methodistiaid yn Llanrwst; a chan ei fod yn fachgen cryf, iach, a bywiog, ac yn cael ei ystyried fel bleunor yn chwareuon ei gyfoedion cyn hyny, yr oedd cryn betrusdod ym meddyliau yr hen frodyr gwyliadwrus yn ei gylch ar y dechrau; ond gwelodd y rhai mwyaf craffus yn eu plith yn fuan fod defnydd Cristion llafurus a defnyddiol yn y llangc ieuangc hoenus hwnw, a deuthant yn anwyl iawn o'u gilydd. Am y rhai hyn efe a ddywed—"Nis gallaf gyflawni un gorchwyl crefyddol heb gofio dechreuad fy ngyrfa ysprydol, a rhyw ddynion anwyl a fuont yn gyfeillion gwerthfawr, dysgawdwyr dawnus, a chyfarwyddwyr gofalus i mi. Nid digon fyddai genyf, pe gallwn, ddodi aur ar gerrig eu beddau: hoff iawn genyf eu coffadwriaeth."†

Ymddengys iddo symmud i Nerpwl yn bur gynnar yn ei yrfa grefyddol, canys dywed—"Yn *society* y Methodistiaid yn Llanrwst ac yn *Liverpool,* lle yr arhosais dros amser, dysgais lawer o bethau da;"‡ ac ymhlith y pethau hyny, dïau iddo ddysgu cryn lawer o Saesneg, yn enwedig yn Nerpwl. Dywedir mai o gylch y pryd hyn y dechreuodd Arthur Jones bregethu; ac yn fuan wedyn, gosodwyd ef ym Mettws-y-coed, dan nawdd y Parch. T. Charles, fel egwyddorydd a chynnorthwywr, trwy gadw ysgol ddyddiol i blant yr ardal, a phregethu yn y gororau, fel y byddai galwad am dano, ac amgylchiadau yn caniatâu. Symmudodd o'r Bettws i Ddinbych i gadw ysgol ddyddiol. Dywed un o'i fywgraphwyr iddo weled llyfryn a ysgrifenwyd ganddo y pryd hyn, a elwid *Orthoepy* [Cynaniaeth], yn cynnwys rhestr helaeth o'r geiriau mwyaf dïeithr a dyrys o'r iaith Saesneg, a'r modd i'w cynanu, neu eu seinio yn briodol, at wasanaeth ei ysgolheigion yn ei ysgol ei hun; ac nid hawdd y gallesid cyhoeddi dim buddiolach at yr amcan yn wyneb amgylchiadau yr oes honno. Ni byddai yn syn genym nad dyma'r gwaith cyntaf a dynodd yr awdur trwy'r wasg."

Wedi ymsefydlu yn Ninbych, priododd ferch y bardd poblogaidd, Thomas Edwards (Twm o'r Nant). Yr oedd hi yn ferch ieuangc grefyddol, ac yn llawn o wybodaeth ac athrylith, fel ei thad a'i mam, ac yn cadw siop yn Ninbych. Aeth yntau, wrth reswm, i fyw ati; ond bu hi farw yn fuan ar ol priodi, yr hyn a ddilynwyd yn fuan gan helbulon tost gyd â'r fasnach. Ymddengys i'w gyfeillion crefyddol ymddwyn ato, mewn canlyniad, yn llawer rhy erwin, yn ol ei farn ef, o leiaf. Mewn cyfeiriad duchanllyd at hyn, efe a ddywed —"Yn society tref dinbach gwelais ddynion nad enwaf gwedi cymmeryd hawl i gario megis caib a gordd heb wybod y pryd a'r modd gorau i'w trin."

Mewn amser cyfaddas, priododd Mr. Jones eilwaith â merch synhwyrol a chrefyddol, yr hon a fu'n ymgeledd gymmwys iddo hyd ei fedd. Yn fuan wedi hyny, ymneillduodd oddi wrth y Methodistiaid, ac ymunodd â'r Annibynwyr yn Ninbych; a phan edliwiodd un o'i hen frodyr iddo ei fod wedi gwrthgilio, dywedodd yntau yn y fan—"Nac ydwyf: nid wyf wedi gwrthgilio. Yr wyf etto gyd â'r un gwaith, yn yr un filwriaeth, a than yr un Tywysog; ond yr wyf wedi *enlistio* oddi wrth y *Militia* at y *Regulars.*" Ni chlywodd son mwyach am ei wrthgiliad; a dïau na feddyliodd ei galon yntau erioed am wrthgilio, o'r dydd cyntaf yr ymunodd â chrefydd hyd ei ddydd olaf. Ymddengys mai derbyniad lled oeraidd a gafodd Mr. Jones ar ei ymuniad cyntaf â'r Annibynwyr, yn enwedig gan bregethwyr lleiaf y cyfundeb; ond daeth y dynion mwyaf yn gyfeillion

* Gwyddoniadur, cyf. x., t. 602; Cofiant Ann Griffiths, gan J. H. ei hun; Method. Cymru, cyf. ii., t. 416; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 561; En. Cymru, I. F., t. 512.

† Pyngciau Athrawiaethol, Rhagym., t. xvii.

‡ Yr un lle.

Digitized by Google

a chefnogwyr caredig iddo, megis T. Jones, St. George; J. Roberts, Llanbryn-mair; W. Griffiths, Glandwr; J. Griffiths, Caernarfon; y Dr. George Lewis, ac eraill.

Yn y fl. 1809, derbyniodd A. Jones alwad oddi wrth eglwys Annibynol Bangor; ac ar y 3ydd o Ionawr, 1810, "urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth." Llafuriodd yno, ac yn y gororau o amgylch, yn ddiwyd, a bu o fendith i laweroedd. Ymhen rhyw yspaid wedi ymsefydlu yno, dechreuodd Mr. Jones gyhoeddi syniadau duwinyddol y Dr. Ed. Williams, o Rotherham, yr hyn a gyffrôdd lawer o'r pregethwyr i'w wrthwynebu yn eiddigus, a llwyddasant i gyffröi amryw o aelodau yr eglwys ym Mangor yn ei erbyn; ond yr oedd efe yn rhy gydwybodol a phenderfynol i wadu yr egwyddorion a gredai; am hyny, ymadawodd o Fangor, ar ol bod yno am chwe blynedd; ac yn y fl. 1814, aeth i bregethu i'r Cymry yn Woolwich a Deptford, ger llaw Llundain, lle yr oedd llawer o honynt yn gweithio, yn ystod y rhyfel â Ffraingc, yn llong-gadlasau *(dockyards)* y Llywodraeth. Ond wedi i'r rhyfel ofnadwy honno ddarfod, ymadawodd lliaws o'r Cymry; ac yn y fl. 1823, derbyniodd Mr. Jones alwad oddi wrth ei hen gyfeillion ym Mangor; a dychwelodd yntau atynt, a llafuriodd yno a manau eraill yn ddiwyd am 31 o flynyddau. Yn lled fuan ar ol ei ddychweliad i Fangor y waith hon, aeth yr hen gapel yn rhy fychan, ac ail adeiladwyd ef, ynghyd â thŷ i'r gweinidog dan yr unto, ac ysgoldy helaeth o'r tu cefn i'r tŷ a'r capel. Sefydlwyd ysgol ddyddiol yn yr ysgoldy yn ebrwydd, yn yr hon y cymmerai Mr. Jones fawr ddyddordeb, gan fod addysgu plant a phobl ieuaingc yn waith tra hoff ganddo. Yn lled fuan ar ol sefydlu yr ysgol, llwyddodd i gael 25p. o waddol y Dr. Williams, i dalu rhan o gyflog yr athraw, ac i brentisio rhai o'r ysgolheigion; a derbyniodd ugeiniau lawer o blant Bangor a'r gororau addysg ynddi, er eu cymhwyso i gyflawni gwahanol ddyledswyddau bywyd. Yn y fl. 1838, cyhoeddodd Mr. Jones ei brif waith, enwad-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Pyngciau Athrawiaethol: yn y rhai y mae amryw Ganghenau Ysgrythyrol, y rhai sydd angenrheidiol anhebgorol i dywys y Meddwl i Gyssondeb y Ffydd, yn ol y Bibl Sanctaidd. Gan y Parchedig Arthur Jones, Bangor.
"Disgwylir y byddant o fudd mawr,
"I. I roddi gwersi o honynt i'r Ysgolion Sabbothol.
"II. I eu darllen yn achlysurol mewn teuluoedd.
"III. I gynhyrfu a chychwyn cyd-ymddiddanion mewn cymdeithasau crefyddol.
"IV. I'w cymmeryd o'r llawgell i edrych iddynt (wrth gyfleusdra) mewn gwaith neu ar daith." *

Dywed un o'i fywgraphwyr mai mewn canlyniad i gyhoeddiad y llyfr uchod y derbyniodd Mr. Jones "y radd o D.D., o'r America;" ond ei fywgraphwyr eraill a ddywedant mai "o brifysgol Giessen, yn yr Almaen, y graddiwyd ef â'r urdd o D.D.;" ond ni chrybwyllant hwy mai mewn canlyniad i gyhoeddiad y "Pyngciau Athrawiaethol" y graddiwyd ef. Cyhoeddodd y Dr. Jones amryw draethodau eraill yn ei ddydd, a rhai pregethau; a than ei olygiad ef y cyfieithodd Mr. R. Parry (Robyn Ddu Eryri) *Fleetwood's Life of Christ* (Bywyd Crist gan Fleetwood) i'r iaith Gymraeg.

Wedi llafurio yn ddiwyd iawn ym Mangor dros yr yspaid maith a nodwyd, fel pregethwr ac awdur, ym Medi, 1854, yn ddisymmwth, ac yn gwbl ddi drwst, rhoddes ei wasanaeth i'r eglwys yno i fynu, er prudd-der dwys i aelodau yr eglwys, a symmudodd i Gaerlleon i fyw, at ei ferch Sara, a'i gŵr, E. G. Salisbury, Ysw., diweddar aelod seneddol dros ddinas Caer; ac yno y terfynodd ei yrfa ddeuarol, yn dduwiol ac anrhydeddus. Ychydig amser cyn ei farwolaeth, aeth ei fab, y Parch. Eliezer Jones, Ipswich, i ymweled âg ef, a dywedodd —"Fy nhad, y mae'r breichiau tragywyddol oddi tanoch, onid ydynt?" Trodd yntau ato gyd âg edrychiad meddylgar, gan ddywedyd—"Fy machgen i, yr oeddynt felly yn wastadol; a phan na byddwn yn eu teimlo un ochr, byddwn yn eu teimlo yr ochr arall. O! bu yr Arglwydd bendigedig yn dda iawn i mi holl ddyddiau fy mywyd." Yn y teimlad duwiolfrydig yma yr ehedodd yspryd y gwron Cristionogol enwog yma "at Dduw yr hwn a'i rhoes ef," ar y 29fed o Chwefror, 1860, ac efe yn 84 oed. A dydd Llun, y 5med o Fawrth canlynol, claddwyd ei gorph yn yr un bedd ag y claddasid ei fab, John Jones, wrth gapel Bethlehem, Caegwigyn, Tal-y-bont, ger llaw Bangor.

O ran ei berson, yr oedd y Dr. Jones yn lled dal, yn tueddu at fod yn gorphorol yn ei hen ddyddiau. Yr oedd ei safiad yn syth, cadarngryf, a phrydferth; a'i wynepryd yn arddangos hawddgarwch, penderfyniad, ac annibyniaeth. O ran

* Cyfrol 8plyg ydyw'r gwaith, yn cynnwys 360 o dudalenau, heb law 18 tudalen o arweiniolion; ac y mae'n llyfr tra gwerthfawr, a dylai fod ymhob teulu Cymreig ymhob parth o'r byd. Math ar draethodau o wahanol hyd, ar gynllun pregethau, ydyw, mewn ymadroddion ffraeth a byrion, ar wahanol eiriau ac ymadroddion, yn cynnwys "Pyngciau Athrawiaethol." Cymmerir y geiriau a gynhwysant y pyngciau yn y dull egwyddorol, fel hyn:—Abba, Aberth, Adenedigaeth, Adgyfodiad, &c.; Barn, Bedydd, Bendith, Bibl, &c.; Cydsyniad mewn Glân Briodas, Cyfiawnhad, Cyfammod, &c.; Duw, Dyledswydd Teulu; a chyd â'r erthygl hon y terfyna y gwaith.

Digitized by Google

ymddangosiad yr oedd yn bendefig, o ran ymddygiad yn foneddwr, ac o ran yspryd yn Gristion. Yr oedd yn nodedig am noddi talent, amddiffyn y gwan, ac adgyweirio y dirywiedig. Buasai yn hawdd ysgrifenu llyfr ar ei ragorieuthau fel pregethwr, ysgrifenydd, diwygiwr, gwladgarwr, Annibynwr, ac fel Cristion; ond rhaid ymattal.*

HUGH HUGHES.

Y gŵr enwog a llafurus hwn a anwyd mewn lle a elwid Y Llan, ymhlwyf Llanor, ger llaw Pwllheli, sir Gaernarfon, ar y 14ydd y Fedi, 1778. Dygwyd ef i fynu yn arddwr, a symmudodd i Nerpwl pan yn lled ieuangc. Dygwyd ef i wrando y Wesleyaid gan ei frawd Robert, yr hwn oedd yn bregethwr lleol yn y fl. 1805. Yn Nerpwl y dechreuodd bregethu, a galwyd ef i'r gwaith teithiol yn y fl. 1807. Bu'n ddadleuwr zelog, yn ei flynyddoedd cyntaf, o blaid Arminiaeth, a daeth i wrthdarawiad, yn enwedig yn y Gogledd, â rhai yn credu Calfiniaeth. Yn y Deheudir y bu'n teithio gan mwyaf, a llwyddodd i chwanegu llawer at yr eglwysi ynghylchdeithiau Aberhonddu, Llanidloes a manau eraill. Yr oedd yn ddiwyd gyd â holl ranau y gwaith. Rhoddai sylw neillduol i'r Ysgolion Sabbothol, a gwnai hwy yn allu mawr yn y cylchoedd y troai ynddynt. Gwnai ei egni er dadblygu galluoedd pobl ieuaingc ymhob man lle yr elai. Bu'n ddiwyd iawn hefyd i dalu dyled capeli ymhob cylchdaith yr elai iddi.

Heb law yr holl lafur a nodwyd, gwasaneuthodd ei genedl yn ffyddlawn trwy'r wasg. Dechreuodd yn forau ysgrifenu i'r *Eurgrawn*. Yn 1818, cyfieithodd dalfyriad o "Brif Physygwriaeth" Mr. Wesley; ac o gylch yr un amser, mewn undeb â'r Parch. John Williams yr ail, cyfieithiodd "Esponiad ar y Testament Newydd, gan y Parch. John Wesley, M.A.," a llwyddodd i gael gan y gweinidogion gyd-ddwyn y draul. Mewn cysylltiad â'r un gŵr, cyhoeddodd "Y Goleuad Dwyreiniol," er egluro arferion a defodau dwyreiniol, fel cynhorthwy i ddeall llawer o ranau tywyll yr Ysgrythyrau. Cyfieithodd a chyhoeddodd hanes *Y Maria Mail Boat*, yr hon oedd yn rhwym i'r India Orllewinol, gyd â nifer o genhadon ar ei bwrdd; a chafodd gylchrediad helaeth o herwydd y swyn cyffrous a thorcalonus oedd yn yr hanes. Ysgrifenodd Ddyddlyfr helaeth hefyd, yn cynnwys nodiadau manwl ar amgylchiadau y byd a'r eglwys yn ei amser, yr hwn sydd yn gwneud y rhan fwyaf o'i *Gofiant*, a barotowyd i'r wasg gan ei fab ynghyfraith, y Parch. Isaac Jenkins.

Yn y fl. 1829, pennodwyd ef yn Gadeirydd "Ail Dalaeth Ddeheuol Cymru;" ac ni bu neb ffyddlonach nag ef yn y swydd, a chadwodd serch ac ymddiried ei frodyr ef ynddi hyd onid ymneillduodd i orphwys fel "Uwchrif" yn y fl. 1843. Yn y fl. 1834, etholwyd ef yn un o'r "Cant Cyfreithiol" sy'n ffurfio y Gynnadledd Wesleyaidd; ac ymddengys mai efe oedd y cyntaf o'r brodyr Cymreig a gafodd yr anrhydedd hwnw, yr hwn a gyfrifir yn uchel iawn yn y cyfundeb.

Pan ymneillduodd o'r gwaith teithiol, ymsefydlodd yn nhref Caerfyrddin; ac, yn ol ei nerth, ymroddai i wasaneuthu yr achos trwy bregethu, ymweled o dŷ i dŷ, blaenori rhestr *(class)*, a thrwy gefnogi pob sefydliad daionus yn y dref a'r amgylchoedd. Er ei fod yn ddŷn gwrol a phenderfynol, etto yr oedd yn gyfeillgar a hygar gyd â phawb. Yr oedd yn ymlynydd tyn wrth ei bobl ei hun; er hyny ymgymmysgai â phawb i hyrwyddo teyrnas Iesu Grist ym mlaen. Yr oedd iddo air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd ei ddiwedd yn dangnefedd. Bu farw yn orfoleddus ar y 17fed o Ragfyr, 1855, yn 77 oed, ac wedi bod yn y weinidogaeth am 47 o flynyddau.†

JAMES HUGHES.

Ganwyd y gŵr enwog a llafurus hwn yn y fl. 1779, mewn lle a elwid Y Neuadd-ddu, ymhlwyf Ciliau Aeron, wrth droed y mynydd Trichrug, yn sir Aberteifi, ac oddi wrth y mynydd hwnw y cymmerth ef ei enw barddonol ymhen amser wedyn, sef "Iago Trichrug." Dywedir na chafodd ond ychydig iawn o fanteision addysg yn ei ieuengctid, gan y cedwid ef i ddilyn gorchwylion amaethyddol a bugeiliol, canys dywed ei hun ei fod, pan yn

"Iraidd langc,
Yn arail praidd ei dad ar ben y bangc."

Cyn gynted ag y daeth yn ddigon cryf, prentisiwyd ef gan ei rieni i ddysgu gwaith gof. Er nad oedd ei rieni yn proffesu crefydd, etto yr oedd James, er yn blentyn, yn dra hoff o gyfarfodydd crefyddol. Un nos Sul yn haf 1797, pan oedd

* Pyngc. Athraw., t. xvii.; Beirniad, rhif. xxv., xxvi., xxviii.; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 22; En. Cymru, I. F., t. 568; Gwyddon., cyf. vi., t. 402; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 273.

† Ysgrif y Parch. H. Jones, Caerlleon; Cofiant, gan y Parch. I. Jenkins; Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 551; Enwog. Cymru I. F., t. 506.

Digitized by Google

efe yn 18 oed, aeth i wrando un Dafydd Parry, o sir Frycheiniog, yn pregethu yn y Gelli, yn agos i Dalsarn; ac fel hyn y dywed ef ei hun am y pregethwr a'r bregeth:—"Y mae genyf barch mawr i'r dŷn gwerthfawr hwnw; o blegid os cefais dröedigaeth a dychweliad at yr Arglwydd erioed, yr wyf yn meddwl mai trwyddo ef y cefais." Ymddengys iddo ymuno â'r Methodistiaid o gylch y pryd hyny. Yn fuan ar ol hyn, symmudodd i ardal Llangeitho i weithio; ond nid arhosodd yno ond dros ychydig amser, canys yn 1800, pan oedd efe yn 21 oed, aeth i Deptford, o fewn tu a thair milltir a hanner i Lundain, lle yr oedd modryb iddo wedi priodi gof a'i enw Richard Davies, yr hwn oedd yn gweithio ar y pryd yn Llong-gadlas (*Dockyard*) y Llywodraeth. Gan fod Davies yn weithiwr pur fedrus, yr oedd wedi ennill dylanwad mawr yn y lle, a llwyddodd yn ebrwydd i gael gwaith i'w nai, James; ac yno y bu yn gweithio yn galed am bum mlynedd ar hugain. Er nad oedd efe ond tarawr haiarn â gordd ar yr eingion yn y dechrau, etto daeth yn un o'r gweithwyr medrusaf yn y lle yn fuan; ac fel y cyfryw, galwyd ef gan ei gydweithwyr yn "*Prince of Wales.*" Ni ymfoddlonai J. Hughes un amser ar fod yn *gyfartal* âg eraill, ond mynnai *ragori;* ac y mae ei holl fywyd yn llawn profion o lwyddiant ei ymgais.

Yr oedd efe yn aelod gyd â'r Methodistiaid, fel y crybwyllwyd, er ys cryn dair blynedd cyn myned i Deptford, a bu'n ffyddlon gyd â'r Methodistiaid Cymreig yn y brifddinas dros ryw hyd wedi myned yno. Pan aeth efe i'r lle gyntaf, prin yr oedd ganddo ddigon o Saesneg i ofyn y ffordd o Lundain i Deptford; a chan ei fod mor awyddus am ddysgu Saesneg yn drwyadl, dywedodd ei ewythr wrtho, gyd â'r hwn y llettyai, y byddai yn llawer gwell iddo fyned i wrando ar y Saeson yn pregethu; â'r hyn y cydsyniodd yntau o'r diwedd. Gan fod y cyfarfodydd Seisnig yn cael eu cynnal yr un amser a'r rhai Cymreig, nis gallai Hughes, wrth reswm, fod yn y naill a'r llall; am hyny, tybiodd rhai o'r hen frodyr Cymreig mai gwrthgiliad a balchder Seisnig oedd wrth wraidd y cyfan, yr hyn oedd bechod atgas yn eu golwg, a thorasant ef ymaith fel aelod o'u cymdeithas. Ymddengys i hyny, yn naturiol hefyd, ei oeri yntau atynt, a pheru iddo ymlynu yn dynach wrth y cyfarfodydd Seisnig. Ei bwnge pwysig ef oedd dysgu yr iaith Saesneg yn drwyadl, a gallu ei siarad yn rhwydd; a dilys ddïammau, ped ymddygasai yn wahanol, er mor ofidus ydoedd i'w frodyr Cymreig, na buasai ei orchestion llenyddol a duwinyddol ond ychydig mewn cymhariaeth i'r hyn ydynt. Ac os peidiodd a bod yn Fethodistiad Cymreig dros ryw ennyd, ni pheidiodd a bod yn grefyddol, fel y mae rhai wedi camliwio yr amgylchiad. Eithr ni foddlonodd James Hughes ar fedru siarad Saesneg, ond dysgodd ysgrifenu yr iaith, cystal a'r Gymraeg, yn gywir a hyawdl, a hyny yn ol yr un cynllun ag y dysgodd rhai eraill, adnabyddus i ni, yr un ieithoedd, heb law dwy neu dair eraill, sef trwy ysgrifenu rhestr o eiriau Saesneg a Chymraeg ar gyfer eu gilydd yn y nos, a'u dysgu ar dafod leferydd yn y dydd, wrth weithio a bwyta.

Yr oedd yr hen dân Cymreig yn llosgi ar hyd yr amser a nodwyd ym mynwes James Hughes; ac o'r diwedd, wedi iddo lwyr feistroli y Saesneg, a diflasu ar gyfarfodydd sychlyd y Saeson, dychwelodd at ei hen frodyr Cymreig, a chafodd dderbyniad croesawgar ganddynt. Yn y fl. 1806, pan oedd yr enwog Elias o Fôn yn pregethu yn Llundain dros dymmor, derbyniwyd ef eilwaith yn gyflawn aelod yn eglwys y Methodistiaid. Yn lled fuan ar ol hyn, debygid, priododd Mr. Hughes gares i'w fodryb, yr hon a acthai i Deptford i wasaneuthu; a bu'r ferch hawddgar a duwiol honno yn wraig rinweddol iddo hyd ddiwedd ei oes. Cawsant lïaws o blant, llawer o afiechyd, ac amryw a chwerwon brofedigeuthau: "Er hyny arhôdd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwylaw a gryfhasant, trwy ddwylaw grymus Duw Jacob." Dechreuodd bregethu yn y fl. 1809, pan yn 30 oed, ac "ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth" yng Nghymdeithasfa Llangeitho, yn y fl. 1816. Daeth Mr. Hughes yn ysgolhaig gwych. Pregethai yn yr iaith Saesneg mor rhwydd ag yn Gymraeg, ac yr oedd yn deall Groeg a Lladin yn dda, a'r Hebraeg yn lled weddol; ac y mae hyn yn syndod, pan gofir mai prin yr oedd ganddo ddigon o Saesneg i ofyn y ffordd o Lundain i Deptford y tro cyntaf yr aeth yno. Dylid cofio hefyd ei fod yn gorfod gweithio â'i ddwylaw am flynyddau lawer ar ol dechrau pregethu.

Ymddengys i Mr. Hughes fyned yn gydnabyddus âg amryw o Gymmrodorion Llundain, yn enwedig y Dr. Pughe, yn lled fuan ar ol iddo fyned i'r brifddinas; a ffurfiwyd cyfeillach mor agos rhyngddynt, fel y treulient lawer o amser mewn cystadleuaeth i gyfieithu y darnau anhawddaf o waith enwogion barddonol y Saeson, a



Digitized by Google

beirniadent yn fanwl a chaled, ond cyfeillgar, ar waith eu gilydd; a cherid y gystadleuaeth ym mlaen mewn grammadeg ac ieithyddiaeth dros hir amser yn yr hen *Seren Gomer*. Felly, daeth efe yn enwog fel ysgolhaig Cymraeg a Saesneg, ond yn arbenig fel cyfieithydd o'r naill i'r llall; ac yr oedd, megis yn ddïarwybod iddo ei hun, yn ymbarotôi at brif waith mawr ei oes. Gwnaeth y gystadleuaeth a nodwyd, ynghyd â'r talentau disglair oedd yn ei feddiant, ef yn gampwr fel cyfieithydd barddoniaeth, fel y prawf ei gyfieithiadau galluog o "*Blair's Grave*," "*Gray's Bard*," a "*Byron's Darkness;*" a dywed beirniaid galluog bod ei gyfieithiadau ef yn llawn gyfartal, mewn ystyr farddonol, i'r cyfansoddiadau gwreiddiol, a chanmoliaeth uwch na hyn i gyfieithiad barddonol nis gellir ei rhoddi. Y mae ei hymnau llïosog, y rhai sy'n nodedig am eu hystwythder a'u tlysni, ac a genir gyd â blas hyd heddyw ynghynnulliadau cyhoeddus y saint, yn profi yn ddïamheuol ei fod yn fardd uchelryw.* Y mae ei englynion llïosog yn profi hefyd ei fod yn gwbl hyddysg yn y mesurau cynganeddol. Heb law y pethau a nodwyd, a'i ysgrifeniadau llïosog i'r *Seren Gomer*, y *Dysgedydd*, a'r *Drysorfa*, "cyfieithodd amryw dreuthodau gwerthfawr o'r Saesneg, ac ym mysg eraill treuthawd y Parch. Thomas Watson ar 'Swper yr Arglwydd.'" Ond ei brif waith, yr hwn sydd ymhlith rhagorolion ein llyfrau Cymraeg o ran prydferthwch a llithrigrwydd iaith, a buddioldeb sylwedd, a'r hwn a ddarllenir tra peru yr iaith Gymraeg, yw yr un canlynol:—

"Y Testament Newydd, gyda Nodau Eglurhaol ar bob Adnod; wedi eu dethol, a'u cyfieithu i'r Gymraeg, gan y Parch. James Hughes, Gweinidog yr Efengyl yn Llundain, allan o waith Poole, Scott, Guyse, a Doddridge; y'nghyd a holl Nodau Cyfeiriol y diweddar Barch. T. Scott. Wyddgrug: J. Lloyd. 1835."

Dechreuodd Mr. Hughes ar y gwaith clodfawr hwn yn y fl. 1829.† Cyhoeddid ef yn rhifynau 6c. yr un, a thelid 5p. y rhifyn i Mr. Hughes am ei ysgrifenu. Gorphenwyd cyfansoddi a chyhoeddi y gwaith yn 1835, yn ddwy gyfrol 12plyg, y gyntaf yn 628 o dudalenau, a'r ail yn 768; yr esponiad a'r cyfeiriadau Ysgrythyrol llïosog mewn argraph bur fân. Wedi i'r genedl gael blas ar y gwaith rhagorol hwn, mynnai i Mr. Hughes fyned rhagddo yn yr un dull gyd â'r Hen Destament; o ganlyniad, yn y fl. 1838, dechreuwyd argraphu yr esponiad ar hwnw yn yr un dull a'r Newydd; eithr wedi i Mr. Hughes gyrraedd y xxxv. bennod o Lyfr Jeremiah, gan ddiweddu ar y 6ed adnod, ymaflodd y fath afiechyd dwys yn yr ysgrifenydd galluog fel na fedrodd ysgrifenu un linell mwyach.‡ Parhaodd i waelu yn gyflym o hyny hyd forau yr 2fed o Dachwedd, 1844, pan y rhoddes angau derfyn ar ei holl ofidiau, yn ei dŷ ei hun yn Rotherhithe, rhwng Deptford a Llundain, ac efe yn 65 oed, wedi bod yn pregethu dros 34 o flynyddau, ac yn proffesu ei Arglwydd am o gylch 45 o flynyddau. Ei eiriau diweddaf, wrth ddisgyn yn dawel a hyderus i'r glyn, oedd y rhai canlynol:—"O Dad! i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd. Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd." Claddwyd ef yn barchus yn hen fynwent Bunhill Fields, yn ninas Llundain, lle y gorwedd llu mawr o'r hen Buritaniaid mwyaf adnabyddus yn hanes yr Eglwys Brotestanaidd.

Fel dŷn, yr oedd Mr. Hughes yn hynod o olygus. Yr oedd ei ben mawr a'i dalcen llydan ac uchel, ac, yn ei hen ddyddiau, ei goryn moel, dis-

* Y mae'r llyfr godidog a elwir "Y Salmydd Cymreig" (Dinbych: T. Gee, 1856), yn cynnwys 16 o leiaf o'i hymnau, a rhai o honynt yn lled feithion; ac, yn ol ein barn ni, y maent yn gwbl deilwng i fod yn yr un llyfr a Psalmau Edmwnt Prys, a Hymnau Williams o Bant-y-Celyn ac Ann Gruffydd, a chanmoliaeth ragorach iddynt nis gallwn ni ei dyfeisio.

† Un o fywgraphwyr Mr. Hughes a ddywed, gyd â golwg ar y gwaith pwysig hwn, fel y canlyn:—"Ond ym meddwl pwy y gwreiddiodd y syniad gyntaf o gael esponiad i'r Ysgol Sabbothol, a'r Cymry yn gyffredinol? Pwy a feddai y gwroldeb, y penderfyniad, a'r gallu i ymgymmeryd â'r fath anturiaeth bwysig a hon yn yr adeg y dygwyd ef allan? Nid ym meddwl James Hughes, nac ychwaith ym meddwl y cyhoeddwr diweddar, sef Mr. Peter M. Evans. Ond cychwynodd ym meddwl bachgenyn tra yn darllen y xxiv. bennod o Efengyl Matthew, yn yr ysgol Sabbothol yn hen gapel Pentrefelin, ger llaw Gwrecsam, pan y gofynwyd llawer o gwestiynau dyrys ac anhawdd, ac y rhoddwyd attebion amrywiol iddynt. Ond nid oedd y cwestiynau na'r attebion yn iawn, yn ol ei feddwl ef, nac yn ei foddloni. "Ac," eb efe, ynddo ei hun, "y mae ar ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol angen am Esponiad ar y Bibl." Ac ar ei ffordd adref o'r ysgol, penderfynodd, os cai fyw i ddyfod yn rhydd o'i brentisiaeth, ac os gwelai y Brenin mawr yn dda estyn ei einioes, a llwyddo ei lafur, y mynnai efe esponiad. Yr oedd gan y gŵr bach ddeuddeng mlynedd o lafur o'i flaen cyn y byddai yn ŵr rhydd; ond cadwodd afael yn y syniad hwn, fel y gwna â phob un arall a gymmeradwyir ganddo, a llwyddodd. Y gŵr hwnw ydyw Mr. Evan Lloyd, gynt o'r Wyddgrug, ond yn awr [1879] o Lundain, mab i'r diweddar Barch. Evan Lloyd, o Adwy'r Clawdd. Efe a'i cynlluniodd ac a'i cychwynodd yn yr Wyddgrug am lawer o'r blynyddoedd cyntaf o'i gyhoeddiad.

"Y cam pwysig nesaf oedd cael gŵr cymmwys i ysgrifenu yr Esponiad. Nid gorchwyl hawdd oedd hyny. Na: yr anhawddaf ar lawer ystyriaeth. Pa fodd bynag, hyspyswyd Mr. Lloyd, pe caffai gan y Parch. James Hughes o Llundain, i ymgymmeryd â'r gwaith, ei fod ef y mwyaf cymmwys i'r gwaith y gwyddid am dano yn un man y pryd hwnw. Gohebwyd âg ef heb oedi. Ond nis gellid mewn un modd cael ganddo ymgymmeryd â gwaith mor fawr, er defnyddio pob cymhelliad y meddylid am dano at hyny. Ond yn yr adeg hon, daeth amgylchiadau i gyfarfod Mr. Hughes, fel yr oedd dan orfodaeth i ymgymmeryd â rhywbeth heb law pregethu i'r Methodistiaid yn Llundain, er ei alluogi i gynnal ei deulu; a'r canlyniad o hyny fu iddo gydsynio i ymgymmeryd â'r gwaith hwn. Erbyn hyn, yr oedd pob peth yn barod, a chychwynwyd yr Esponiad gan Mr. Lloyd yn yr Wyddgrug, yn y fl. 1829."—*Gwyddoniadur*, cyf. x., t. 609.

‡ Dylid crybwyll y gorphenwyd y gwaith yn deilwng gan y Parch. Roger Edwards o'r Wyddgrug, a chyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf ar yr Hen Destament mewn pump o gyfrolau unffurf â'r ddwy ar y Testament Newydd.

Digitized by Google

glair, a'i wallt gwyn, yn rhoddi rhyw olwg hynod o batriarchaidd arno; ac o ran ei dymmer naturiol, yr oedd yn un o'r mwyaf hynaws a charedig. Fel pregethwr, yr oedd wedi ei addurno â chymmwysderau lawer; ac yr oedd "yn weinidog cymmwys y Testament Newydd," yn ystyr helaethaf y gair, o ran sylwedd, coethder, a thraddodiad. Ond er y rhagorieuthau hyn, blinid ef yn aml gan iselder meddwl a llwfrdra yspryd, yr hyn a barai flinder iddo gan ofn dŷn. Ond eithriadau oedd y pethau hyn, canys teimlid yn llawer amlach ei fod yn derbyn yr "enneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw," nes ei godi i "ehedeg fel angel ynghanol y nef;" ac ymhob peth ymddygai yn addas i ŵr Duw, fel y teimlid yn wastad ei fod yn byw mewn amgylch sanctaidd.*

### WILLIAM EVANS.

Mab ydoedd y gŵr llafurus ac enwog hwn i Thomas Evans, morwr; a'i fam oedd ferch Mr. John Lloyd (Llwyd), Pant-Howel, Llandegfan, Môn, yr hwn oedd uchelwr, ac unwaith yn perchenogi Plas Pant-Howel. Ganwyd William yng Nghaernarfon ar y 25med o Hydref, 1779. Cafodd ysgol dda pan yn blentyn. Ymgymmerodd â'r alwedigaeth o eillydd *(barber)*, a bu fyw dros ennyd yn afradlon; ond pan ymwelodd y cenhadon Wesleyaidd âg Amlwch, Môn, yn niwedd y fl. 1802, pan oedd yn 23 oed, argyhoeddwyd ef o'i bechadurusrwydd. Ymunodd â'r achos Wesleyaidd ar y 4ydd o Ionawr, 1803. Ar ol gwella o dwymyn beryglus, dechreuodd bregethu y Sul ar ol Nadolig, 1804; ac yn Chwefror, 1806, aeth i'r gwaith teithiol i Ddolgellau, Machynlleth, Aberystwyth, &c. Yn Awst, 1806, anfonwyd ef yn genhadwr i Gaerdydd.

Llafuriodd yn ddyfal a chaled fel pregethwr teithiol hyd y fl. 1844, pryd yr aeth yn uwchrif, ac efe yn 65 oed, ac ymsefydlodd ym Machynlleth. Cafodd brofedigaeth lem pan ar gylchdaith Caernarfon, yn y fl. 1831, pryd y torodd y "Wesley Bach" allan i rwygo yr eglwysi. Ymddengys mai pregethwr sylweddol a chysson ydoedd; ond hynodai ei hun yn fwy fel awdur nag fel pregethwr. Yn 1823, cyhoeddodd lyfryn a elwid "Ymddiffynwr y Gwir," sef adolygiad ar lyfr o waith y Parch. John Roberts, Llanbryn-Mair. Cofleidiodd Mr. Roberts yr hyn a elwid y "System Newydd;" ac wrth ei hegluro, barnai Mr. Evans ei fod yn camddarlunio golygiadau y Wesleyaid, yr hyn a barodd iddo ddyfod allan i'w hamddiffyn. Pan oedd Mr. Evans ar gylchdaith Abertawe yn 1837, cyhoeddwyd llyfryn ar "Barhad y Saint mewn Gras," gan y Parch. P. Griffith, Alltwen, Pont-ar-dawe; a chyhoeddodd Mr. Evans lyfryn yn dangos nad oedd dysgeidiaeth y llyfr a dysgeidiaeth y Bibl yn gysson â'u gilydd. Cyhoeddwyd amddiffyniad i olygiadau Mr. Griffith; a chyhoeddodd Mr. Evans "Sylwadau" ar hwnw. Pan oedd "Everett, Dunn, a Griffith" yn creu rhwyg yn y cyfundeb Wesleyaidd, yn 1849 ac 1850, cyhoeddodd Mr. Evans dreuthodyn a alwyd ganddo yn "Wesleyaeth fel y Mae," er amddiffyn y cyfundeb. Yr oedd ef yn gyfarwydd iawn yn athrawieuthau, rheolau, ac arferion y cyfundeb, a bu'n casglu defnyddiau at ddwyn allan lyfr y bwriadai ei alw yn "Wesleyana," sef crynhodeb o neillduolion yr enwad; ond ni chafodd fyw i'w ddwyn trwy'r wasg. Gwasanaethodd y Parch. W. Evans y swydd o Ysgrifenydd Cyllideb y cyfundeb am 16 o flynyddau; a bu'n olygydd yr *Eurgrawn* am y bl. 1824 ac 1825. Llanwai bob cylch y gosodid ef ynddo er anrhydedd iddo ei hun, er boddhad i'w frodyr, ac er llwyddiant i'r achos. Bu farw ym Machynlleth ar y 30fed o Orphenaf, 1854, yn 75 oed, ac wedi bod yn y weinidogaeth am 49 o flynyddau.†

### JOHN JENKINS.

Y gŵr enwog hwn oedd un o'r esamplau hynotaf y gwyddys am dano fel hunanddysgwr. Ganwyd ef ymhlwyf Llangynidr, sir Frycheiniog, ar yr 28fed o Dachwedd, 1779. Gweithiwr tlawd ar ffarm oedd ei dad, a chanddo saith o blant, i'r sawl nis gallai roi dim mantais ysgol. Yr oedd John yn 15 oed pan ddechreuodd ddysgu llythyrenau y Gymraeg. Gwas i ffarmwr oedd y pryd hwnw yn ei blwyf genedigol. Yr oedd ei feistr yn ddarllenwr da, ac yn wrandawr cysson ar bregethwyr y Bedyddwyr a elent i'r ardal yn achlysurol. O gylch y pryd hyny, ymwelodd Morgan John Rhys, o Bont-y-pwl, â Llangynidr, ym mysg lleoedd eraill, i gymmell y trigolion i sefydlu ysgolion Sabbothol a nosawl yn yr wythnos, er mantais i'r dosparthiadau gweithiol a esgeulusid. Yr oedd Mr. Rhys wedi darpar llyfrau Cymraeg addas ar gyfer y cyfryw ysgolion. Prynodd John Jen-

* Williams's Em. Welshm., p. 558; Gwyddon., cyf. x., t. 609; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 558; Method. Cymru, cyf. iii., t. 442; En. Cymru, I. F., t. 507; En. Sir Aberteifi, t. 63.

† Ysgrif y Parch. H. Jones, Caerlleon.

Digitized by Google

kins un o honynt am 3c.; ac wedi derbyn ychydig wersi mewn ysgol nos a gynhelid yn y plwyf, dysgodd ddarllen y Bibl Cymraeg. Ar y 29fed o Dachwedd, 1794, derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Llanwenarth. Pan oedd yn 21 oed, dechreuodd bregethu y gair. Yr oedd yn gweithio y pryd hwnw mewn gwaith mŵn yn Sirhowy. Yn y cyfamser, analluogwyd ef i weithio dros rai dyddiau gan ddolur ei goes; a deisyfodd ar ei gydlettywr ysgrifenu copi iddo, fel y gallai ddysgu ysgrifenu. Er na bu pin ysgrifenu erioed yn ei law cyn hyny, etto dysgodd ysgrifenu llaw-ysgrif, mewn un diwrnod, ag y gellid ei darllen yn rhwydd. Pan yn 22 oed, priododd wraig weddw ag iddi deulu, y rhai a ddeuthant ar unwaith yn ddibynol ar lafur ei ddwylaw. Gweithiai yn galed yn nyddiau yr wythnos, a phregethai bob Sul ddwywaith neu dair i wahanol gynnulleidfaoedd, gan gerdded pymtheg neu ugain milltir rhwng yr odfaon.

Ar yr 21fed o Fai, 1806, ordeiniwyd ef yn weinidog i eglwys oedd newydd ymgynnull ynghyd yn Llangynidr; ond gorfodid ef i weithio fel o'r blaen, gan nad oedd ei gyflog oddi wrth yr eglwys ond prin 3p. y flwyddyn. Yn y fl. 1808, derbyniodd alwad oddi wrth hen eglwys Hengoed, sir Forganwg. Nid oedd ei gyflog yno chwaith, dros rai blynyddoedd, yn fwy nag 16p. y flwyddyn, fel yr oedd yn rhaid iddo weithio yn galed fyth at ei gynnal ei hun a'i deulu. Yn hyn, yr oedd Jenkins yn ymddwyn fel Paul, a'r cenhadon apostolaidd.* Yn fuan ar ol ymsefydlu yn Hengoed, dechreuodd ysgrifenu Corph o Dduwinyddiaeth, yr hwn a gyhoeddodd efe yn un gyfrol 8plyg yn y fl. 1811, dan yr enw canlynol:—

"Gwelediad y Palas Arian."

Dywedir bod y llyfr hwn, os ystyrir anfanteision yr awdur, yn gampwaith llenyddol a duwinyddol. Yn y fl. 1817, dechreuodd ysgrifenu "Esponiad ar y Bibl," yr hwn a orphenwyd yn y fl. 1831, ac a gyhoeddwyd yn dair cyfrol 4plyg trwchus. Y mae'r gwaith trwyddo yn arddangos synwyr cryf, ac y mae'n lân oddi wrth syniadau dieithr a dychymmygion gwylltion. Cyhoeddodd hefyd amryw dreuthodau ar wahanol byngciau duwinyddol, a lliaws o lythyrau dadleuol ar y cyfryw byngciau yn *Seren Gomer;* ond yn ol barn y Dr. Owen Thomas, o Lerpwl, nid yw y llythyrau hyn o nemmawr glod iddo.† Yn y fl. 1852, derbyniodd Mr. Jenkins y radd o D.D. o Athrofa Lewisburgh, America; ac ar y 5med o Fehefin, 1853, gorphenodd yr enwog Ddr. Jenkins ei fywyd gweithgar, defnyddiol, a llwyddiannus, yn 74 oed.‡

* Act. xviii. 2, 3; xx. 33-35; 1 Cor. iv. 12; 1 Thes. ii. 9; 2 Thes. iii. 8.

† Cofiant J. Jones, Talsarn, gan y Dr. O. Thomas, t. 469, &c.

‡ Cofiant J. Jenkins, gan ei feibion, J. a Ll. Jenkins, 1859; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 478; En. Cymru, I. F., t. 561; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 598.

---

## PENNOD XX.

### ANN GRIFFITHS, DAVID MORGAN, JOHN WILLIAMS (Y CYNTAF), EBENEZER RICHARD, THOMAS RICHARD, A WILLIAM WILLIAMS.

ANN GRIFFITHS, neu ANN GRUFFYDD, fel y galwai yr hen Fethodistiaid hi, ydoedd *Beraidd Ganiadyddes Cymru*, ac un gwbl gymmwys, fel barddones grefyddol, i'w gosod yn gyfochr â Williams o Bant-y-Celyn, cyn belled ag y mae ei chaniadau yn cyrraedd o ran rhifedi. Yn wir, barna rhai beirdd galluog bod ganddi rai pennillion na chanodd "yr *hen* Williams" ddim cyfartal iddynt. Dywedodd "Golyddan" yn ei ddyddiau diweddaf, yr hwn y cydnabyddir yn gyffredin ei fod wedi cyfansoddi rhai caniadau uchelryw, yn enwedig ei bryddest ar "IESU;" dywedodd y rhoddasai efe ei holl ganiadau yn llawen, pe gallasai, am gael bod yn awdur yr un pennill canlynol o waith Ann Gruffydd:—

"Dyma babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed
Dyma noddfa i lofruddion,
Dyma i gleifion Feddyg rhad:
Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneud ei nyth,
A chyfiawnder pur y nefoedd
Yn siriol wenu arno byth."

"A glywsoch chwi erioed feddyliau mwy goruchel, nhad?" ebr y bardd ieuangc, ychydig ddyddiau cyn iddo farw. "Sylwch! Dyma *fan yn ymyl* DUWDOD i *bechadur* wneud ei nyth! A *chyfiawnder pur* y nefoedd yn *siriol wenu arno byth!'* Y mae'r syniadau bendigedig yma," ebr efe, mewn syndod difrifol, "yn deilwng i'w gosod yn ymyl yr eiddo Dafydd, Esaiah, a Habacuc!" Wel, awdures athrylithgar y syniadau yna, a'u cyffelyb, yw gwrthrych hyn o fer hanes.

Merch ieuengaf ydoedd yr Ann enwog hon i John a Jane Thomas, y rhai a breswylient yn gefnog mewn ffarm a elwid Dolwar-fechan, ymhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, sir Drefaldwyn,

ac yno y ganwyd hi yn nechrau y fl. 1779. Cafodd gymmaint o ysgol, pan yn eneth ieuangc, ag i'w dysgu i ddarllen Saesneg ac ysgrifenu; ond nid oedd yn deall ond ychydig Saesneg. Wedi iddi dyfu i fynu, yr oedd yn dalach na chyffredin o'i rhyw; ei chyfansoddiad yn dyner; ei gwynepryd yn wyn a gwridog; ei thalcen yn lled uchel a llydan; ei gwallt yn hir a thywyll; ei llygaid yn siriol, ar don y croen; a'r olwg arni yn foneddigaidd a lled fawreddog, ond yn bur hoff a chyfeillgar gyd â'i chydnabod. Er nad oedd ei hiechyd ond lled wanaidd, etto yr oedd llawer o ddirieidi ysmala a diniwaid yn ei natur, ac yr oedd yn dra hoff o ddawnsio, nosweithiau llawen, ac arferion gwagsaw eraill ei hoes.

Yr oedd ei rhieni yn Eglwyswyr zelog ar y cyntaf, ac yn nefodau yr Eglwys Sefydledig y dygasant eu plant i fynu. Yr oedd John Thomas, tad Ann, yn dipyn o fardd, a dywedir bod rhai englynion a phennillion ar gael, ac ymgom neu ddau rhyngddo a'i ferch pan oedd hi yn lled ieuangc. Edrychai Ann ar Ymneillduaeth, cyn ei thröedigaeth, gyd â dirmyg chwarëus, a defnyddiai ei doniau trahaus i watwar yr Ymneillduwyr, yn enwedig y Methodistiaid. Un tro, wrth weled rhai o'i chymmydogion yn myned i "Sassiwn y Bala," dywedai yn wawdus, "Dacw'r pererinion yn myned i Mecca." Pa wedd bynag, daeth cyfnewidiad lled fuan ar y ferch ieuangc ysgafnfryd, ddoniol hon; a gwelwyd hithau, aml dro wedyn, ym mysg y "pererinion" a arferent "fyned i Mecca" (Bala) y Methodistiaid; ac ymhen ennyd gwelodd, er ei hanhreuthol lawenydd, ei thad, ei dau frawd, a'i chwaer, ymhlith y "pererinion" Methodistaidd. Rywbryd o gylch dechrau y fl. 1797, pan oedd Ann yn 18 oed, aeth ar un borau Sul i Lanfyllin, gan fwriadu mwynhau difyrwch gwageddus gwylmabsant a gedwid yno y dydd Sul hwnw. Wedi iddi gyrraedd y dreflan, cyfarfu yn ddamweiniol â merch a fuasai'n forwyn yn y teulu, yr hon a ddywedodd wrthi fod yno ŵr enwog yn pregethu y Sul hwnw, a chymhellodd hi yn daer i fyned gyd â hi i'w wrando yng nghapel yr Annibynwyr; a chydsyniodd hithau. Y pregethwr hwnw oedd y Parch. Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr ym Mhwllheli; a chafodd hi destyn i ddiolch byth am y tro, canys effeithiodd y bregeth honno ar ei chalon i'r fath raddau fel y penderfynodd yn y fan ymofyn am grefydd, yn lle dilyn gwagedd. Ymlynodd ei serch mor dyn wrth yr Annibynwyr o herwydd hyn, fel y gofynodd i'w thad am gael myned i Lanfyllin i ddysgu gwnïo; eithr ei hamcan penaf oedd cael bod ynghyrraedd ei phobl ddewisol; a chafodd ei gydsyniad. Ond cyn iddi roddi'r bwriad hwnw mewn grym, aeth i wrando Ishmael Jones, fel y tybir, i Bont-Robert; ac o dan y teimladau dymunol a gafodd yn y bregeth honno, rhoddes ei bwriad o fyned i Lanfyllin heibio, gan benderfynu gwneud ei chartref gyd â'r Methodistiaid; ac yn ebrwydd wedyn, ynghorph y flwyddyn a nodwyd (1797), cynhygiodd ei hun yn aelod iddynt ym Mhont-Robert, lle y derbyniwyd hi yn gyfeillgar.

Llanwyd ei chalon, yn ebrwydd ar ol myned yn aelod eglwysig, â zel dros achos Duw, a byddai ei theimladau yn fynych yn tori allan yn gyhoeddus yn ffrwd gref o orfoledd yn y mwynhâd o gysuron ysprydol efengyl y tangnefedd. Y merched mwyaf syml a duwiolfryd a berthynent i eglwys Pont-Robert oedd prif gyfeillesau merch Dolwar-fechan. Arferai rhai o honynt fyned i'w hebrwng tu ag adref ar ol y moddion yn y Bont; eithr nid ymadawent â'u gilydd un amser heb i un neu ddwy o honynt fyned i weddi, a mynych iawn y torai yn orfoledd cryf arnynt, nes adseinio y cymau â'u pêr ganiadau. Byddai Ann y pryd hyny, fel eraill o'r un gororau, yn myned i'r Bala ar brydiau i dderbyn swper yr Arglwydd, yr hwn a weinyddid gan y Parch. T. Charles, o herwydd mai tra anfynych y gweinyddid y swper sanctaidd yr amser hwnw ym Mhont-Robert a Llanddwyn, pellder o ugain milltir. Un tro, wrth ddychwel adref o'r Bala, llanwyd meddwl Ann â golygiadau ar ddirgelwch y Duwdod, gogoniant y Gwaredwr, a dedwyddwch y saint ar ol cael eu golchi a'u cannu yng ngwaed yr Oen, hyd oni lyngcwyd ei myfyrdodau mor llwyr, fel na wybu ddim am dani ei hun nes iddi fyned dros Ferwyn, yr hyn oedd ynghylch pum milltir o ffordd, a hyny ar gefn anifail a fyddai'n arfer bod yn lled afreolus. Y pryd hwnw y cyfansoddodd y pennill canlynol:—

"Dedwydd fydd tragwyddol orphwys
O bob llafur yn y man,
Ynghanol môr o ryfeddodau,
Heb un gwaelod byth na glan:
Caffael mwy fynediad helaeth
I drigfanau Tri yn Un;
Dwfr i nofio heb fynd trwyddo,
Dŷn yn Dduw, a Duw yn ddŷn!"

Y mae'n dra sicr mai dan gynhyrfiadau nefol fel hyn, wedi llwyr anghofio pethau deuar, y byddai'r farddones efengylaidd hon yn cyfansoddi y rhan fwyaf, os nad ei holl bennillion a'i hymnau

Digitized by Google

nefolaidd, ac mai hyny ydyw un achos mawr bod ei holl waith mor oruchel a gogoneddus. Yn wir, braidd na chredem ni sylw Macaulay ar Milton, mai dan gynhyrfiadau o'r fath, wedi i'r meddwl lwyr ymgolli mewn syniadau goruwch naturiol, yr hyn a eilw efe yn "orphwylledd barddonol," y cynhyrchir y farddoniaeth fwyaf uchelryw yn wastad. Byddai ein barddones enwog weithiau, pan wrth ei throell yn nyddu, yn cael cymdeithas â'r Anweledig, gyd â'r fath ymroad a theimlad nes y byddai'r dagrau yn llifo dros ei gruddiau, ac yn lluddias iddi ddilyn ei gorchwyl. Hoffai yn fawr, pan dan y fath deimladau, gael pob distawrwydd i dywallt ei chalon ger bron Duw, ac ymneillduai i'w hystafell ddirgel i wneuthur hyny. Byddai weithiau yn cael y fath ymweliadau grymus yn y dirgel, nes y torai allan mewn gorfoledd mor uchel fel y gellid ei chlywed o bellder ffordd oddi wrth y tŷ. Terfynai y fath ymweliadau nefol bron yn wastad mewn hymn odidog, o wahanol hyd a gorucheledd. Ymddengys nad ysgrifenodd y farddones efengylaidd ond ychydig iawn o ffrwyth ei hawen oruchel, a hyny ar bapurach rhyddion a hawdd eu colli; ac y mae'r modd yr achubwyd y rhan fwyaf o'i hymnau godidog yn un o'r pethau hynotaf mewn hanes lenyddol. Yr oedd yn Nolwar-fechan, am bedair blynedd y pryd hyn, forwyn dduwiol a'i henw Ruth Evans, yr hon oedd yn gantores wych, ac a fu wedyn yn wraig i'r Parch. John Hughes, Pont-Robert, fel y gwelsom.* Pan gyfansoddai Ann Thomas bennillion o farddoniaeth dan y cynhyrfiadau crefyddol crybwylledig, adroddai hwynt wrth Ruth, a dymunai arni eu canu, er mwyn gwybod a ddeuent ar y tonau arferedig. Trysorai Ruth hwynt yn fanwl yn ei chof, a chanai hwy yn fynych ynghymdeithas ei meistres, ac eraill o'i chwiorydd crefyddol, wrth ddychwel adref o'r cyfarfodydd o'r Bont-Robert. Ond, rhaid i ni brysuro.

Yng ngwanwyn y fl. 1803, bu farw John Thomas, tad ein barddones, yn ddisymmwth, ac effeithiodd mor ddwys ar ei meddwl tyner hi fel y gwanychodd ei hiechyd i gryn raddau tra y bu hi byw. Yn Hydref, 1804, priododd Miss Ann Thomas Mr. Thomas Griffiths, brawd y Parch. Evan Griffiths, Ceunant, Meifod; ac o hyny allan galwyd hi Ann Griffiths, neu'n hytrach Ann Gruffydd, ar lafar gwlad. Ynghylch pen deng mis wedi priodi, esgorodd Mrs. Griffiths ar ferch, yr hon a fu farw yn bythefnos oed; ac ar y 12fed o Awst, 1805, ymhen ychydig wythnosau ar ol ei baban, hunodd y fam dyner a gwanaidd yn dawel yn yr Iesu, pan nad oedd ond tu a 26 oed.†

Yn fuan ar ol marwolaeth yr emynyddes enwog, aeth y Parch. Thomas Charles o'r Bala i Bont-Robert i bregethu, ac ymddengys mai yn nhŷ y Parch. John Hughes, a'i wraig Ruth, y llettyai. Yn y cyfamser, adroddodd Mrs. Hughes amryw o bennillion Ann Griffiths wrth Mr. Charles, er ei syndod a'i lawenydd; ac erfyniodd yntau ar Mr. Hughes eu hysgrifenu oll iddo ef, fel y gallai eu hargraphu. Ysgrifenwyd rhyw nifer hefyd gan nai yr awdures, Mr. John Jones o Llanfyllin; ac yn y fl. 1806, cyhoeddwyd hwynt oll yn y Bala, dan olygiad Mr. Charles. Yn y fl. 1808, cyhoeddwyd hwy drachefn yn gyflawnach, dan yr enw "Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen," ond heb eu gwahanieuthu oddi wrth hymnau eraill yn y casgliad. Dygwyd dau argraphiad arall o'r rhai hyn trwy'r wasg; ac yn 1817, cyhoeddwyd hwy gan Mr. Hugh Jones (Erfyl), Caerlleon, ynghyd â hymnau ei gŵr, Mr. Thomas Griffiths. Argraphwyd hwynt etto, neu aralleiriad o honynt, yn Llanfyllin, yn 1847, dros y Parch. J. Hughes, Pont-Robert, gyd â rhai ychwanegiadau, cofiant yr awdures, ac wyth o'i llythyrau, y rhai sydd bron yn gyfartal, o ran dawn a sylwedd, i'w hemynau. Cyhoeddwyd ei hymnau drachefn yn Aberystwyth, yn 1854; ac yn Ninbych, gan Mr. Gee, yn 1865, dan olygiad Mr. Morris Davies, Bangor. Cynnwys yr argraphiad prydferth hwn ei bywgraphiad, ei llythyrau, ynghyd â nodiadau gan Caledfryn ar ei hymnau. Y mae hwn yr wythfed argraphiad o'i hymnau; ac nid oes odid un casgliad diweddar o hymnau yn Gymraeg nad ydyw yn cynnwys y rhan fwyaf o bêr ganiadau yr emynyddes enwog o Ddolwar-fechan, ac adroddir hwynt yn feunyddiol, ar dafod leferydd, gan filoedd o dduwiolion hen ac ieuaingc.‡

### DAVID MORGAN.

David Morgan, neu Dafydd Morgan, fel y gelwid ef yn gyffredin ar lafar gwlad, a anwyd ar y 27fed o Ragfyr, 1779, mewn lle a elwir Dolwen, ymhlwyf

* Gwel y bennod flaenorol.

† Claddwyd hi yn barchus, gan dorf liosog a galarus, ym monwent Llanfihangel-yng-Ngwynfa; ond ymddengys na roddwyd dim coffadwriaeth ar ei bedd y pryd hyny. Pa wedd bynag, yn y fl. 1864, ymhen 59 o flynyddau ar ol ei marwolaeth, gosodwyd cofgolofn hardd ar ei bedd, trwy danysgrifiadau cyhoeddus, yr hon a wnaed o wenithfaen coch Aberdeen, yn 15 troedfedd o uchder, a chostiodd 66p.

‡ Cofiant Ann Griffiths, gan J. Hughes, Pont-Robert; Bywgraphiad A. Griffiths, gan M. Davies, Bangor; Traethodydd, llyfr ii., t. 420; Gwyddoniadur, cyf. v., t. 149; Method. Cymru, cyf. ii., t. 416; En. Cymru, I. F., t. 393; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 434.

Digitized by Google

Llanfihangel-y-creuddyn, un o ardaloedd gwylltaf a mwyaf mynyddig sir Aberteifi. Ameuthwr cyfrifol oedd ei dad, ac yn perchen cryn lawer o dir; ac yr oedd ei hynafiaid wedi byw yn y Ddolwen er ys llawer o oesoedd. Bu ei fam farw pan nad oedd efe ond dwyflwydd oed, a disgynodd ei ddygiad i fynu ar ei dad a'i chwaer hynaf, yr hon oedd ferch dirion, ac yn proffesu crefydd gyd â'r Methodistiaid Calfinaidd, â'r rhai yr ymunodd yntau cyn bod yn 16 oed. Cafodd Dafydd Morgan well addysg nag a roddid yn gyffredin yn y dyddiau hyny, hyd yn oed i blant amaethwyr cyfoethog a thirfeddianwyr; ond achwyn efe ei hun yn dost o herwydd anfedrusrwydd ei athrawon.

Pan oedd efe tu a 19 oed, collodd ei gariad cyntaf, ciliodd oddi wrth grefydd, ac aeth i rodio "yn ol helynt y byd hwn;" ond ymgadwodd o fewn terfynau moesoldeb, yn ol syniad y lliaws yn yr oes honno. Wedi iddo gyrraedd 20 oed, symmudodd ei dad o'r Ddolwen i'r Dolau, rhwng Tal-y-bont ac Aberystwyth. Yr oedd ei chwioryd a'i frawd hynaf wedi priodi erbyn hyn, ac yntau wedi ei adael ei hunan gyd â'i dad; ac ail briododd ei dad, pan oedd efe tu a 23 oed. Yna aeth Dafydd i ysgol yn y Mwythig dros dymmor. Wedi gorphen ei ysgol yno, penderfynodd fyned yn fasnachwr, a chyttunodd i'r perwyl gyd âg un a elwid "John Jones y Siopwr," ym Machynlleth. Yr oedd y gŵr hwnw yn aelod parchus gyd â'r Annibynwyr yn y dref, ac yn ei dŷ ef y llettyai eu pregethwyr. Y noswaith gyntaf i D. Morgan fod yn ei le newydd, yr oedd y Parch. J. Roberts, Llanbryn-Mair, yn pregethu yn y dref; ac i dŷ "John Jones y Siopwr," wrth reswm, yr aeth i lettya. Rhoddwyd ef a D. Morgan i gysgu yn yr un ystafell, ac yr oedd y ddau yn gwbl ddieithr i'w gilydd. Wedi cau y drws, cyn myned i'r gwely, dechreuodd yr apostol o Lanbryn-Mair, yn ol ei arfer ar bob cyfleusdra a gaffai, bob amser, ymddiddan yn dyner â'r gŵr ieuangc ynghylch matter ei enaid. Deallodd Mr. Roberts yn fuan fod teimladau crefyddol cryfion ynghalon y llangc, a pharhaodd yr ymadrodd rhyngddynt, megis yn Troas gynt, "hyd hanner nos," os nad diweddarach. Dechreuodd cyfeillach gynnes y noswaith honno rhwng y ddau Gristion, nas darfu hyd ddiwedd oes Mr. Roberts; a dilys ddïammau ei bod yn parhau hyd y dydd hwn, ac nas derfydd byth. Chwe mis yr arhosodd Mr. Morgan ym Machynlleth, gan nad oedd ganddo chwaeth at fasnach, a dychwelodd adref i'r Dolau, gan benderfynu ymroddi i fod yn ameuthwr. Yr oedd yr Annibynwyr erbyn hyny wedi dechrau pregethu yn Nhal-y-bont; a chan ei fod ef wedi arfer gwrando arnynt ym Machynlleth, i wrando arnynt hwy yr aeth ar ol dychwel adref.

Ar y 4ydd o Dachwedd, 1805, priododd Mr. Morgan Mary, merch hynaf John Hughes, Ysw., Llwyn-glas, Llanfihangel-y-Glyn, sir Aberteifi. Drannoeth ar ol dydd y briodas, agorwyd capel perthynol i'r Annibynwyr yn Nhal-y-bont, ac aeth ef a'i wraig yno i wrando. Aethant i fyw i ffarm a elwid Cerrig-carnau, o fewn tu a dwy filltir i Dal-y-bont; ac ym Medi, 1807, derbyniwyd y ddau yn aelodau eglwysig yn y capel hwnw, gan y Parch. Ashariah Shadrach. Ymroddes Mr. Morgan wedyn i ddarllen a myfyrio â'i holl egni, a cheir gweled y canlyniad yn ebrwydd. Ymhen rhyw chwech wythnos ar ol ei dderbyn yn aelod, galwyd arno i draddodi annerchiad ar gyfran o'r Ysgrythyr yn y seiat; ac er syndod a llawenydd i'r holl aelodau, siaradodd gyd â'r fath rwyddineb a nerth fel y penderfynodd y brodyr y rhaid iddo ddechrau pregethu yn gyhoeddus yn ddïoed; ac o hyny allan, gelwid arno yn fynych i bregethu yn yr ardaloedd cylchynol. Bu am fwy na chwe blynedd yn pregethu bedair neu bum waith bob wythnos yn y gororau o amgylch, a hyny heb dderbyn dim tâl arianol am ei lafur. Wedi llafurio trwy'r dydd ar ei ffarm, cymmerai ei anifail, a marchogai filltiroedd ym mrig yr hwyr i bregethu mewn tai, capeli, neu yn yr awyr agored, fel y digwyddai'r cyfleusdra.

Arferai fyned unwaith yn y mis dros Afon Dyfi i Dywyn-Meirionydd, Llanegryn, a Llwyngwril, i gynnorthwyo y Parch. James Griffith, yr hwn oedd yn weinidog ar y pryd i'r lleoedd hyn, mewn cyssylltiad â Machynlleth. Ym Mawrth y fl. 1813, urddwyd Mr. Morgan mewn cyfarfod i'r perwyl a gynhaliwyd yn y Tywyn. Ym mis Rhagfyr, 1814, cydsyniodd â galwad oddi wrth eglwys Annibynol Machynlleth, a symmudodd ei deulu yno i fyw; ac fel "Morgan Machynlleth" yr adnabyddid ef wedyn am *ddwy flynedd ar hugain.* Coronwyd ei lafur egnïol yno, am yr yspaid hwnw, â llwyddiant dirfawr. Pan ymsefydlodd efe yno, nid oedd gan yr Annibynwyr ond dau gapel o fewn deng milltir o amgylchedd, ac nid oedd nifer yr aelodau, rhwng Aberhosan a'r dref, yn fwy na 120; ond ymroddes efe â'i holl egni "i gyflawni ei weinidogaeth," "mewn amser ac allan o amser." Pregethai mewn tai annedd, ar y meusydd, ac

Digitized by Google

mewn ysguboriau, neu pa le bynag y rhoddid cyfleusdra iddo. Yn y fl. 1824, ail adeiladwyd capel Machynlleth, ac yr oedd y mwyaf a feddai yr enwad ar y pryd yng Ngogledd Cymru. Bu Mr. Morgan yn foddion hefyd i adeiladu amryw gapeli bychain yn y gororau o amgylch y dref, yn benaf at gynnal ysgolion Sabbothol ynddynt, a phregethu achlysurol. Derbyniodd Mr. Morgan fwy na 500 o aelodau eglwysig yn ystod yr amser y bu ym Machynlleth, ac nid oedd ei gyflog yn ystod yr holl amser y bu yno yn fwy na 30p. y flwyddyn; ond yr oedd 1p. y pryd hyny yn llawn gyfartal i 30s. yn awr, os nad ychwaneg.

Yn y fl. 1836, barnodd Mr. Morgan mai doeth oedd iddo ymadael o Fachynlleth, o herwydd rhyw ymrafeulion oedd yn yr eglwys; a phan welodd y cyfeillion yno, ac yn y gororau, mai ymadael a fynnai, cyflwynasant iddo anrheg o 28p., fel arwydd o'u parch diffuant tu ag ato, mewn cyfarfod a gynhaliwyd i'r pwrpas; ac estynwyd llythyr caredig iddo ar yr achlysur, wedi ei lawnodi gan bymtheg o brif aelodau a diaconiaid yr eglwys. Yn y cyfamser, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Annibynol Gartside Street, Manchester; ond gan nad oedd awyr dawchus y dref fawr honno yn dygymmod â'i iechyd, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys Annibynol Llanfyllin, sir Drefaldwyn; ac ym mis Tachwedd, 1839, efe a ymsefydlodd yno. Nid oedd dim yn fwy naturiol i'w deimlad na chael dychwel i dreulio gweddill ei oes ym mysg ei hen gyfeillion ym Maldwyn. Llafuriodd yn Llanfyllin, a'r wlad o amgylch, am ddeunaw mlynedd, hyd nes y teimlodd fod methiant a gwendid wedi ei oddiwes, ac nas gallai mwyach fod mor ddefnyddiol ag y dymunai. Rhoddes ei le fel gweinidog yr eglwys i fynu ym mis Hydref, 1857, pan o fewn deufis i orphen ei 78fed flwyddyn, a phan oedd ei goron a'i gymmeriad cyn ddisgleiried a phan gychwynodd ei yrfa grefyddol gyd â'r Annibynwyr. Yn y rhagolwg o'i ymneillduad oddi wrth ei lafur caled, yr oedd eglwysi yr enwad, er mwyn dangos eu cymmeradwyaeth o'i wasanaeth diwyd a hirfaith, wedi casglu tysteb i brynu blwydd-dal iddo. Casglwyd cannoedd o bunnau, a suddwyd cyfran o'r swm yn ariansoddion *(funds)* y Llywodraeth; ond ni bu Mr. Morgan fyw i fwynhau dim o'u ffrwyth. Cyn pen dau fis wedi eu suddo yn yr ariansoddion, ac ymhen wyth mis wedi iddo roddi ei wasanaeth yn Llanfyllin i fynu, "dyddiau Dafydd a nesasant i farw," y rhai a ddeuthant i ben ar y 14ydd o Fehefin, 1858, ymhen tair wythnos ar ol iddo symmud i Groesoswallt, ac efe yn 79 oed. Claddwyd ef ym monwent capel Llanfyllin, lle y llafuriodd dros gynnifer o flynyddau.

Yr oedd Mr. Morgan, pan yn anterth ei ddydd, yn dalach na'r cyffredin o ddynion; yn esgyrniog a chydnerth; a gallasai ei gyfansoddiad oddef unrhyw swm o lafur heb ddiffygio. Yr oedd penderfyniad yn amlwg yn ei lygaid a thalweddau ei wyneb, ac yr oedd yr olwg arno yn hynod o bendefigaidd. Yr oedd o alluoedd meddyliol cryfion a bywiog, cylch ei ddarlleniad yn ehang iawn, a thrwy hir ymarferiad, yr oedd wedi dwyn ei feddwl mor llwyr dan ddisgyblaeth fel y gallai ddwyn ei fyfyrdodau at y matter fyddai dan sylw ganddo, pa le bynag y byddai. Am y pethau a gredai, yr oedd yn eu credu yn drwyadl. Fel Annibynwr, ystyriai rhai ei fod yn eithafol, ac o herwydd hyny llysenwyd ef gan rywrai yn "Morgan y Sentar mawr." Fel pregethwr, llefarai yn gyflym, synhwyrol, ond lled undonol. Ond fel awdur y pery efe i lefaru tra y darllenir yr iaith Gymraeg. Y mae ei lafur fel awdur yn rhyfeddod, os ystyrir cymmaint o'i amser a dreuliai i bregethu, a'r llafur dirfawr a ofynai rhai o'i lyfrau. Ysgrifenodd lawer i'r *Dysgedydd*, o bryd i bryd, er ei gychwyniad cyntaf. Nid ydym yn sicr a ydyw y rhestr ganlynol yn cynnwys yr holl gyfansoddiadau a gyhoeddodd yn llyfrau:—

"Hanes yr Eglwys Gristionogol, o ddyddiau yr apostolion hyd ein dyddiau ni." Dwy gyfrol 8plyg drwchus. 1830.*

"Dyledswydd yr Eglwysi at eu Gweinidogion, yn cael ei ystyried mewn Pregeth." 1830.

"Esboniad ar y Dadguddiad, a chymaint o Lyfr Daniel a fernir sydd yn dal perthynas â'r amseroedd hyn: mewn amryw Ddarlithoedd. . . . 1844."†

"Hanes Ymneillduaeth: yn cynnwys olrheiniad manwl o'r Egwyddorion hanfodol a'r Ymarferiadau perthynol i'r Cyfundraeth uchod; ei ddechreuad a'i ledaeniad llwyddiannus yn y Deyrnas hon yn wyneb y gwrthwynebiadau mwyaf cyffrous, yn nghyda'i sefyllfa bresennol, yn enwedig yn Nghymru. . . Mewn dwy gyfrol. Cyf. I. . . 1855."‡

* Y gwaith mawr hwn a ysgrifenwyd gan Mr. Morgan pan ym mlodau ei ddyddiau ym Machynlleth, a chostiodd iddo lafur dirfawr. Dywedai hen forwyn a fu yn ei wasanaeth am naw mlynedd yn yr adeg yma, na wyddai hi amcan deuar pa bryd y byddai ei meistr yn myned i'w wely, na pha bryd y byddai yn codi: mai yn ei lyfrgell y byddent yn ei adael y nos, ac mai yno y byddent yn ei gael y borau. Bu am flynyddau yn codi dri o'r gloch y borau, ac yn ddiwyd gyd â "Hanes yr Eglwys" hyd giniaw; yna rhoddai y prydnawn at barotoi ei bregethau; ac ar ol te, byddai fynychaf bob nos yn cychwyn allan at ryw gyfarfod neu gilydd.

† Ystyriai efe hwn y gorau a'r pwysicaf o'i holl gyfansoddiadau; ac yr oedd efe yn meddu chwaeth neillduol at ddehongli prophwydoliaethau, a chwilio i mewn i ragfynegiadau yr Ysgrythyrau o'r pethau a fydd ar ol hyn.

‡ Dechreuodd yr awdur llafurus gyhoeddi y gwaith gofalus hwn yn rhifynau 8plyg, 1s. yr un, mor forau a'r fl. 1835, y flwyddyn ddiweddaf y bu ym Machynlleth; ond ni orphenwyd yr unig gyfrol a

Nis gwyddom pa bryd y cyhoeddwyd y cyfansoddiadau canlynol, am nad oes gopi o honynt wrth law genym:—

> "Pregeth ar Ymneillduaeth."
> "Pregeth ar Ddiwygiad Crefyddol."
> "Cyflwr Gwreiddiol Adda a'i Gwymp, yn nghyda'i nodweddiad fel Cynnrychiolwr ei Hiliogaeth."
> "Nad yw Anghrediniaeth dynion yn gwneuthur ffydd (neu drefn) Duw yn ofer."*

Y mae'r holl gyfansoddiadau yna, fel pob peth arall a ysgrifenwyd gan Mr. Morgan, yn arddangosiad o feddwl cryf a threiddgar, barn addfed a llwyr annibynol, medr a chraffder rhagorol mewn rhesymeg, ac iaith bur a chyfoethog, etto nerthol a chadarn, os nad yn rhy lem wrth ymdrin â phleidiau o wahanol farnau. Ni welid byth mono ef yn cellwair gyd â'r gwirionedd, neu'n curo yn ddïofal o'i gwmpas; ond agorai ef i'r gweulod, a hyny gyd â hyfdra diarswyd un yn teimlo mai gair oddi wrth Dduw oedd ganddo i'w dreuthu. Ar fyr, un ydoedd Mr. Morgan, a'i gymmeryd oll dan ystyriaeth, na chyfyd ei gyffelyb ond anfynych ym mysg cenedl.†

### JOHN WILLIAMS (Y CYNTAF).

Ganwyd ef ger llaw Bodedern, Môn, ar yr 28fed o Ebrill, 1779; ond gan mai yn Llanrwst yr ymunodd â'r achos crefyddol, y dechreuodd bregethu, ac mai oddi yno yr aeth yn bregethwr teithiol yn y fl. 1805, fel John Williams, Llanrwst, y mae'n fwyaf adnabyddus. Efe ydoedd awdur y llyfr canlynol:—

> "Egwyddorydd Ysgrythyrol; neu Gatecism ar brif Athrawiaethau a Dyledswyddau y Grefydd Gristionogol. . . . 1828."‡

Hwn ydyw y "llyfr holi" mwyaf hwylus yn yr enwad. Bu'r Parch. John Williams yn Gadeirydd y Dalaeth Gymreig yn y blynyddoedd 1819 ac 1820. Enciliodd o'r gwaith yn y fl. 1834. Bu farw yng Nghaerfyrddin ar yr 16fed o Dachwedd, 1865, yn 87 oed, gan adael tystiolaeth ar ei ol ei fod yn myned i wlad sydd well i fyw. Prif byngciau ei bregethau oedd mawredd dirywiaeth dŷn, a heleuthrwydd gras Duw. Yr oedd yn Drefnydd goleuedig a ffyddlon. Meddai lawer o dalent farddonol, a gadawodd rai darnau tlysion ar ei ol. Daeth i berchenogi cryn lawer o gyfoeth, a bu ei haelioni yn gyfartal i'w foddion.§

### EBENEZER RICHARD.

Mab hynaf ydoedd y gŵr enwog hwn i Henry Richard, o'i ail wraig Hannah. Ganwyd ef ar y 5med o Ragfyr, 1781, ym mhentref Treffin, ymhlwyf Llanrhïan, sir Benfro. Yr oedd ei dad yn ŵr duwiol a dichlynaidd, a bu'n bregethwr defnyddiol a chymmeradwy gyd â'r Methodistiaid am 60 mlynedd. Yr oedd ei fam hefyd yn wraig rinweddol a duwiol iawn; a'r canlyniad dedwydd oedd iddo ef a'r plant eraill gael eu meuthu "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd" o'u mebyd. Nis gwyddom pa fanteision addysg a gafodd. Dywedir y bu ei dad yn athraw mewn cyssylltiad âg ysgolion Madam Bevan mewn amryw fanau yn Neheudir a Gogledd Cymru, a cheir gweled yn ebrwydd y bu yntau yn athraw gwahanol ysgolion; gan hyny, gellir casglu iddo gael rhyw fanteision addysgol heb law gan ei rieni duwiol gartref.

Yn y fl. 1796, pan oedd efe yn 15 oed, cafodd glefyd trwm, a bu rhagddarbod am ei einioes; ond cafodd adferiad. Yn fuan wedyn, derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys ar ei ymgyflwyniad ei hun, ac nid mwyach, fel o'r blaen, ar gyfrif ei rieni. Ymhen yspaid o amser ar ol hyn, symmudodd o breswylfod ei rieni i le a elwir Brynhenllan, rhwng Trefdraeth ac Abergwaun, i gadw ysgol. Pan yn y lle hwn, ac yn tynu at 20 oed, cafodd argyhoeddiad mor danllyd nes effeithio ar ei iechyd a'i synwyr, a bu raid iddo roi ei alwedigaeth fel

gyhoeddwyd o'r gwaith hyd y fl. 1855. Yr enw a roddwyd i'r gwaith o'i gychwyniad hyd t. 97 yw "Traethawd ar Ymneillduaeth;" yr enw sydd ar frig y dail o'r t. 98 hyd t. 143 yw "Hanes Ymneillduaeth;" ac o'r tudalen hwnw hyd y diwedd, t. 586, "Hanes Ymneillduaeth" yn y siroedd canlynol. y naill ar ol y llall, sydd ar frig y dail. sef sir Aberteifi, sir Gaernarfon, sir Frycheiniog, sir Gaerfyrddin, sir Ddinbych, a sir Fflint; ar yr un cynllun, bron, ag a ddilynwyd gan y Dr. T. Rees a'r Dr. J. Thomas yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, yn bedair cyfrol 8plyg trwchus.

Deg rhifyn a gyhoeddwyd o waith llafurfawr Mr. Morgan, yn cynnwys y nifer a nodwyd (586) o dudalenau; canys o herwydd bod mor anhawdd gan ddynion anfon hanes y gwahanol eglwysi iddo, a hwyrfrydigrwydd llawer iawn o'r derbynwyr, neu'r dosparthwyr, i dalu, ynghyd â llesgedd a henaint yr awdur clodfawr ei hun, bu raid iddo roi'r gwaith i fynu ar ei hanner, er dirfawr siomedigaeth i'w feddwl.

* Treuthodyn ydyw hwn sydd yn yr "Attodiad" i'r "Galwad Ddifrifol" (t. 86), neu'r "Llyfr Glas," fel y'i gelwid gan yr awdur, y Parch. John Roberts, Llanbryn-Mair.

† Cofiant y Parch. J. Griffith; Dysgedydd, 1836, t. 385; Traethodydd, llyfr i., t. 273 The Congreg. Year Book, 1859; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 276, 289; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 589; En. Cymru, I. F., t. 732; En. Sir Aberteifi, t. 113; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 281.

‡ Yr ail argraphiad, a gyhoeddwyd yn y fl. 1830, sydd wrth law genyn ni. Y mae'n llyfryn trwchus, 16plyg, yn cynnwys 389 o dudalenau, ac 8 tudalen o arweinolion. Dengys y gwaith lafur dirfawr, a chydnabyddiaeth nodedig yr awdur galluog â'r holl Ysgrythyrau. Nid yw yr attebion yn gyffredin ond byrion, a phrofir pob un, yn hynod briodol, i'n tyb ni, âg adnod neu adnodau, at y sawl y cyfeirir yn ofalus.

§ Ysgrif y Parch. H. Jones, Caerlleon.



Digitized by Google

athraw i fynu, a dychwel at ei rieni. Dyma fel y dywed ei hun yn ei Ddyddlyfr:—

"*Gorphenaf* 1*af*, 1801.—Y noswaith hon oedd y fwyaf ofnadwy yn fy mywyd; ond yr wyf yn gobeithio mai ynddi hi y dechreuodd *dydd* na bydd terfyn arno byth."

Yr oedd bellach wedi cael golwg ar ddihangfa, ac wedi cael ei nerthu i gymmeryd gafael yng ngobaith yr efengyl. Dychwelodd etto i Frynhenllan, ac efe weithian yn *ddyn newydd.* Daeth ei ddoniau a'i ras i'r golwg yn fuan iawn, a chymhellwyd ef gan ei frodyr i arfer ei ddoniau yn gyhoeddus, trwy ddechrau yr odfeuon, ac ymarferiadau eraill; ac o'r diwedd, ar daer ddymuniad ei frodyr, dechreuodd bregethu. Mewn lle a elwir Dinas, yn agos i Frynhenllan, y traddododd efe ei bregeth gyntaf, pryd y cafwyd arwyddion amlwg o foddlonrwydd yr Arglwydd ar yr holl wasanaeth. Yn lled fuan ar ol hyn, derbyniwyd ef a'i frawd Thomas* i'r cyfarfod misol. Dywedai Mr. Jones, Llan-gan, yr hwn yn benaf a'u holai, "Y mae'r ddau fachgen hyn yn pregethu fel dau angel." O gylch y pryd hyn, yr oedd iechyd Mr. Richard mor wanaidd fel yr ofnid y byddai farw dan y darfodedigaeth. Yn y cyfamser, aeth i Aberteifi i ymgynghori â meddyg, yr hwn a ddywedai, os symmudai i'r dref honno, fel y byddai yn agos ato ef i gymmeryd ei gyfferi yn rheolaidd, ei fod yn tybied y gallai ei adferu. Cydsyniodd yntau â'r annogaeth, a throdd gobaith y meddyg yn fwynhad. Symmudodd i Aberteifi yn nechrau y fl. 1806. Yr oedd gŵr bonheddig duwiol yn byw y pryd hyn yn Aberteifi, a'i enw James Bowen, Ysw., o Lwyn-y-gwair wedi hyny. Cymmerth y gŵr hwnw Mr. Richard i'w deulu, i fod yn athraw i'w blant. Bu'n ddedwydd iawn am dair blynedd yn y teulu duwiol hwnw; ac yr oedd efe, yn y cyfamser, o fawr wasanaeth a bendith i'r dref a'r wlad oddi amgylch, fel pregethwr galluog a chefnogwr ymdrechgar i'r Ysgol Sabbothol, yr hon oedd bellach yn dechrau ymwreiddio ac ymledu yn y wlad.

Ar y 1af o Dachwedd, 1809, priododd Mr. Richard Mary, unig ferch Mr. William Williams o Dregaron. Gan fod rhieni ei briod yn oedranus, a hithau yn anfoddlon i ymadael oddi wrthynt, symmudodd Mr. Richard, er mawr siomedigaeth a cholled i'r achos crefyddol yn Aberteifi, ac er holl ymdrech ei frodyr yno i'w rwystro, i fyw i gartref ei briod yn Nhregaron, ac fel "Richard o Dre-

* **Thomas Richard** ydoedd frawd i Ebenezer Richard, fel y gwelir uchod. Yn Nhreffin y ganwyd yntau, ar yr 11fed o Chwefror, 1783, ymhen tu a blwyddyn a dau fis ar ol ei frawd Ebenezer; ac ni bu brodyr erioed anwylach o'u gilydd. Er hyny, yr oeddynt yn bur wahanol eu tymherau. Yr oedd y gwahaniaeth yn bur hawdd ei ganfod, yn oed wedi iddynt dyfu i fynu, a chyrraedd ill dau i'r dosparth uchaf, o ran poblogrwydd a dylanwad, fel pregethwyr ym mysg eu cenedl. Yr oedd Ebenezer yn ddŷn tawel, gwaraidd, gochelgar, a chyfrwys; ond Thomas yn fwy agored, rhydd, prysur, ac anwyliadwrus. Ymddengys mai bachgen gwyllt, a lled anystywallt, oedd efe, er maint oedd gofal ei rieni, yn enwedig ei fam, am dano. Dyma ei dystiolaeth ef ei hun:—"Llawer gwaith y bu fy anwyl fam dduwiol yn wylo dagrau uwch fy mhen am ddôd gyd â hi i'r *society* (y cyfeillachau neillduol). Minnau yn gwrthwynebu ar wastad fynghefn ar y llawr, fel y mae'r dylluan yn arfer ymladd, yn llawn llid a chynddaredd. Fel hyn y parheais mewn pob gwylltineb ac ynfydrwydd, yn meuddu ac yn gorchfygu pawb, hyd o ddeutu pedair ar ddeg oed."

Gwelir wrth y difyniad yna na pharhaodd ei gyndynrwydd yn hir. O gylch y pryd hwnw (1797), teimlodd argyhoeddiadau llymion iawn ar ei feddwl, y rhai a derfynasant yn ei wneuthur yn ddŷn newydd, ac ymroddes o hyny allan i fywyd a llafur crefyddol.

Yn y fl. 1803, ymhen ychydig wythnosau ar ol i'w frawd Ebenezer ddechrau pregethu, dechreuodd yntau ar y gwaith, a derbyniwyd y ddau ar unwaith, fel y gwelsom uchod, yn aelodau o'r Cyfarfod Misol; a pharhaodd y naill fel y llall yn y gwaith yn dra ymdrechgar a defnyddiol, ac yr oeddynt ymhlith y pregethwyr mwyaf defnyddiol a chymmeradwy hyd ddiwedd eu hoes. Dywedir nad oedd neb yn y Deheudir mor boblogaidd ag ef, oddi eithr ei frawd, Ebenezer, Ebenezer Morris, a John Evans, New Inn. Byddai torfëydd mawrion yn ei ddilyn o gapel i gapel, ac yn fynych iawn byddai "nerthoedd y byd a ddaw" yn cydfyned â thraddodiad ei bregethau. Wrth ystyried ei boblowgrwydd a'i fawr gymmeradwyaeth, y mae'n syn, braidd, paham na neillduasid ef i'r holl waith, yn yr ordeiniad cyntaf, yn 1811, pan neillduwyd ei frawd ac eraill. Pa wedd bynag, ni wnaed hyny hyd y fl. 1814.

Ar y 30fed o Ebrill, 1819, priododd Mr. Richard Miss Bridget Gwynn, merch ieuangc dra chrefyddol, o deulu cyfoethog, yr hon oedd yn nith i, ac a fagwyd gan, Mrs. Jones o Faenorowen, ail wraig y diweddar Jones o Lan-gan. Ar ol priodi, aeth i fyw i balasdy bychan, perthynol i'r Gwynniaid, a elwid Cwrt, Llanllawer. Yn fuan wedyn, symmudodd i Drellewelyn, yn agos i Faenorowen. Symmudodd oddi yno i le a elwid Crwca, i ffarmio, lle y cafodd lawer o helbulon byd. O gylch diwedd y fl. 1824, symmudodd o'r lle helbulus hwnw i Abergwaun, lle y treuliodd ef a'i wraig rinweddol weddill eu hoes; ac fel "Richard Abergwaun" yr adnabyddwyd ef o hyny allan, trwy holl siroedd Cymru a threfydd Lloegr.

Wedi i Mr. Richard deithio yn galed, gartref ac oddi cartref, i "bregethu efengyl y deyrnas," gwanhaodd ei iechyd yn fawr rai blynyddau cyn ei farwolaeth, fel y caethiwyd ef bron yn hollol i'w gartref, a'r capeli cymmydogaethol. Tra'r oedd ef yn y gwendid hwnw, fe gollodd ei anwyl briod ar y 9fed o Fehefin, 1855, yr hyn a effeithiodd yn ddirfawr ar ei lesg gyfansoddiad. Yr oedd ei afael yn y byd hwn weithian yn llacio fwyfwy, a'i hiraeth am y nefoedd yn mawr gryfhau; ac ar ddydd Iau, y 3ydd o Ionawr, 1856, ac efe yn gyflawn o dangnefedd, "efe a hunodd yn yr Iesu," yn 73 oed.

Nid ydym yn gwybod i ddim o'i waith gael ei gyhoeddi, ond a geir yn ei *Fywgraphiad* tarawiadol, gan y Parch. Edward Matthews, yr hwn sydd yn nodedig o ddyddorol. Ni oddef ein terfynau i ni ddifynu dim o'i waith, ond y dernyn canlynol a drenthodd wrth ryw gyfeillion, mewn canlyniad i'r llythyrau mynych a dderbyniai i'w wahodd i bregethu mewn gwahanol gyfarfodydd, pan oedd yn llesg a methedig. ac y mae hwn yn ddarlun hynod o'r dŷn. Dyma fel y dywedodd:—

"Ah! y mae'r bobl yn camsynied yn ddirfawr: y maent hwy yn meddwl mai'r dŷn a welsant hwy yn y cymmanfaoedd ddeugain mlynedd yn ol sydd yma yn awr. Nid hwnw, ffryns, sydd yma bellach. Yr oedd y dŷn hwnw yn wridgoch a phenfelyn; ond y dŷn hwn yn welw a phenwyn. Yr oedd y dŷn hwnw yn gryf ac yn gefn-gymmwys; ond y dŷn hwn yn nychlyd ac yn wargam. Yr oedd y dŷn hwnw yn ieuangc a heinyf; ond y dŷn hwn yn hen ac anystwyth. Yr oedd y dŷn hwnw yn gallu siarad, ac yn gallu gweiddi; ond y dŷn hwn ni all siarad na gweiddi. Nid yr un dŷn, bobl, oedd y dŷn hwnw a'r dŷn hwn: dyw hwnw ddim yma yn awr. Ni byddaf mwy yn eich cyfarfodydd ond *lumber;* rhywbeth ar y ffordd, yn cymmeryd lle dŷn, heb allu gwneud gwaith dŷn. Yr wyf bellach yn dyfod i deimlo fy hun yn fwy cymmwys i'r bedd nag i'r pulpud. Y mae tymmor i bob peth; ac y mae tymmor pregethu wedi darfod, a thymmor gorphwys wedi dyfod. Gadewch fi yn llonydd bellach, canys nid y dŷn yr ydych chwi yn ei ymofyn yma sydd yma yn awr."—Bywgraph. T. Richard, gan E. Matthews; Gwyddon., cyf. ix., t. 121; Cofiant John Jones, Talsarn, gan O. Thomas, t. 896; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 485; Cymru O. J., cyf. ii. t. 492.

Digitized by Google

garon" yr adnabyddwyd ef o hyny hyd ei fedd, ac, yn wir, hyd heddyw. Bu ei fynediad yno o fendith fawr i'r plwyf hwnw, a'r holl wlad o amgylch; ïe, bu ei lafur ef fel pregethwr enwog a llafurus yn fendith i Gymru benbaladr, ac i'r Cymry yngwahanol drefydd Lloegr.

Yn y fl. 1810, pennodwyd Mr. Richard yn ysgrifenydd Cyfarfod Misol y sir; ac ar yr 11fed o Awst, 1811, yng Nghymmanfa Llandeilo-fawr, neillduwyd ef a deuddeg eraill o wahanol siroedd y Deheubarth i weini bedydd a swper yr Arglwydd. Parodd hyn gyffro dirfawr, nid yn unig ym mysg yr hen offeiriaid Methodistaidd, megis Jones o Langan, Nathaniel Rowlands, ac eraill, fel y gwelsom yn y pennodau blaenorol, ond hefyd ym mysg rhai Methodistiaid *anurddedig*. O herwydd y cythrwfl dan sylw, barnai rhai Eglwyswyr zelog a chrefyddol ei bod yn adeg y gellid denu rhai o'r prif Fethodistiaid i gymmeryd "urddau Esgobol;" ac yr oedd Mr. Richard yn un o'r rhai cyntaf yr ymosodwyd arno. Er mwyn cyrraedd yr amcan, aeth un o brif offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn sir Aberteifi at John Jones, Ysw., *Dery Ormond*, ger llaw Llanbedr, yr hwn oedd berthynas agos i Mrs. Richard, i ddeisyf arno ymdrechu cael gan Mr. Richard dderbyn "urddiad Esgobol." Gan nad oedd Mr. Jones yn gwir adnabod cymmeriad Mr. Richard, ymrwymodd wrth y person y llwyddai efe yn yr amcan. Anfonodd Mr. Jones am dano i'r Dery yn ddïoed, heb amlygu dim iddo, ond ei fod yn dymuno ei weled yn ebrwydd. Ufuddhaodd yntau i'r gwahoddiad yn y fan; ac wedi ei groesawu yn garedig, dywedodd Mr. Jones ei fod ef a'r Parch. Mr. Evans, Ficar Llanbadarn-fawr, wedi bod yn ymddiddan yn ei gylch yn ddiweddar, ac wedi penderfynu cynnyg ei ordeinio i bersonoliaeth eglwysig, lle y derbyniai fywioliaeth lawer mwy esmwyth a chyflawn nag y gallai obeithio ei mwynhau yn ei sefyllfa bresennol; a'i fod ef (Mr. Jones) wedi gwystlo ei air i'r Ficar y llwyddai i'w gael i gydsynied. Dywedodd Mr. Richard, yn gadarn a dibetrus, "Y mae'r peth yn amhossibl, syr." Synodd y gŵr bonheddig yn ddirfawr, a gofynodd "Paham?" Yntau a attebodd, "Byddai cydsynio â'r cynnyg hwn, yn gyntaf, yn gwbl groes i'm cydwybod, o blegid fy mod, o egwyddor, yn ymneillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig. Yn ail, yr wyf yn barnu y gallaf fod yn fwy defnyddiol gyd â'r gwaith yn y man yr ydwyf. Ac, yn drydydd, y mae cymmaint o undeb rhyngwyf a'm brodyr fel y byddai y rhwygiad yn annïoddfol i'm teimladau." Nis gallai y gŵr bonheddig feic na gwrthbrofi y rhesymau; ond dywedodd, gyd â gwedd siomedig, ei fod yn bur ffol ar ei les ei hun, trwy wrthod y fath gynnyg haelionus. Pa ddelw bŷnag, ni newidiodd Mr. Richard byth mo'i farn na'i benderfyniad.

Yn y fl. 1813, pennodwyd Mr. Richard, ar annogaeth Mr. Charles o'r Bala, yn ysgrifenydd Cymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid yn y Deheubarth, yn yr hon swydd y parhaodd hyd ddiwedd ei oes. Y mae'n anhawdd i'r anghyfarwydd ddychymmyg faint oedd llafur y gŵr enwog a defnyddiol hwn mewn teithio, pregethu, myned i gyfarfodydd misol a chwarterol; mewn gohebiaeth â De a Gogledd; mewn ysgrifenu cofnodau y cymmanfaoedd, a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac eglwysig, dros ddeng mlynedd ar hugain. Dyry'r crynhodeb canlynol o daflen a gymmerwyd o'i Ddyddiadur, o'r flwyddyn 1815 hyd 1836, ryw feddylddrych am faint y llafur dirfawr yr aeth trwyddo yn ystod y blynyddau hyny:—

| | |
|---|---|
| Nifer traddodiad ei Bregethau, . . . . . . | 7,048 |
| Nifer gweinyddiad Swper yr Arglwydd, . . | 1,360 |
| Nifer gweinyddiad Bedydd, . . . . . . . | 824 |
| Nifer y Cyfarfodydd Cyhoeddus y cymmerth ran ynddynt, . . . . . . . . . . . . | 651 |
| Nifer y milltiroedd a deithiodd, . . . . . . | 59,092 |

Yn y fl. 1832, parodd ei lafur digyffelyb iddo gael ymosodiad o'r hun-glwyf (*lethargy*), sef math ar gwsg trwm, annaturiol, o'r hwn nis gellid ei lwyr ddeffro dros lawer o ddyddiau. Digwyddodd i'w fab hynaf, Edward, yr hwn oedd feddyg, fod gartref ar y pryd, a bu o gymmorth mawr iddo. Ym mis Tachwedd, 1835, aeth Mr. Richard a'i wraig i Lundain, i urddiad eu mab, Mr. Henry Richard, yn weinidog i eglwys Annibynol *Marlborough Chapel*, *Old Kent Road*, Llundain;* ac yn y mis canlynol (Rhagfyr), ymosododd yr hen hun-glwyf arno eilwaith, a bu'r tro hwn hefyd mewn enbydrwydd am ei einioes; ond adferwyd ef drachefn dros fyr amser. Pa wedd bynag, yr oedd arwyddion lled amlwg, weithian, fod ei afiechyd yn cryfhau, a'i gyfansoddiad yntau yn adfeilio; ac yn gynnar ym mis Mawrth, 1837, dychwelodd yr hun-glwyf ato gyd âg adnewyddol nerth. Ar y 9fed o'r mis hwnw, yr un flwyddyn (1837), rhoddes derfyn ar ei oes lafurus a defnyddiol, pan nad oedd efe ond 56 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Tregaron.

*Ar ddymuniad amryw o gyfeillion heddwch, rhoddes y Parch. Henry Richard y weinidogaeth i fynu rai blynyddau yn ol, er mwyn bod yn Ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch; a chyd â hyny, y mae efe yn Aelod Seneddol, er ys blynyddau bellach, dros Ferthyr Tydfil.

Digitized by Google

Yr oedd Ebenezer Richard yn un o'r pregethwyr mwyaf defnyddiol a dylanwadol yng Nghymru. Anfynych y ceir dŷn, mewn unrhyw oes, yn meddu'r fath uniad hapus o gynnifer o gynheddfau gwasaneuthgar. Yr oedd yn addfwyn iawn, ac etto yn benderfynol; yn hynod o dduwiol, ac etto heb un gradd o ffug sancteiddrwydd; yn effeithiol iawn fel pregethwr, bob amser, ac ar brydiau ysgubai ei hyawdledd boppeth o'i flaen; yn ofalus a threfnus neillduol fel arolygydd gweithrediadau ei gyfundeb crefyddol, ac yn ddiwyd a diorphwys ynghyflawniad ei holl ddyledswyddau.

Nid oes genym hanes i ddim o waith Mr. Richard gael ei gyhoeddi, ond yr hyn sydd yn ei "Fywyd," gan ei feibion, E. W. Richard a H. Richard. Y mae'r gyfrol wir werthfawr honno yn cynnwys lliaws mawr o'i lythyrau at ei blant, a gwahanol gyfeillion, ac y maent yn rhagori o ran tynerwch duwiol, addysgiadau crefyddol, a gofal am achos y Gwaredwr bendigedig, ar unrhyw lythyrau a ddarllenasom ni, oddi eithr eiddo yr apostolion. Hefyd, cynnwys y llyfr "Rai o ddywediadau Mr. Richard ar amryw destynau, ac ar wahanol achlysuron;" talfyriad o amryw o'i bregethau; ac "engreifftiau o brydyddiaeth Mr. Richard." Y mae rhai pennillion o'i brydyddiaeth yn dangos y gallasai efe fod yn fardd gwych pe rhoddasai gymmaint o'i sylw i farddoniaeth ag a roddes i dduwinyddiaeth a chrefydd.*

### WILLIAM WILLIAMS O'R WERN.

Wele un o'r "tri chyntaf" yn ei oes, yng Ngogledd Cymru. Christmas Evans a John Elias, fel y gwelsom, oedd y ddau eraill. Ganwyd William yn y fl. 1781, mewn lle mynyddig a elwir Cwmhyswn†-ganol, ymhlwyf Llanfachreth, sir Feirionydd. Ei rieni oedd William a Jane Probert; ac enw cyntaf y tad a roddwyd yn gyfenw i'r mab, yn ol arfer gyffredin y Cymry yn y dyddiau hyny. Yr oedd ei rieni yn dal tyddyn bychan, ac yr oeddynt yn gymmydogion hynaws a thangnefeddus. Yr oedd ei fam yn wraig rinweddol iawn, ac yn proffesu gyd â'r Methodistiaid. Nid yw hyspys fod ei dad yn proffesu gyd âg un enwad; ond yr oedd yn ŵr dichlynaidd, ac arferai gynnal addoliad yn ei deulu. Yr oedd William yn naturiol o dymmer lawen, siriol, a chwareus; yn gymmaint felly fel y dywedai ei dad yn fynych am dano, na wyddai yn iawn beth a ddeuai o hono, a'i fod yn ofni y byddai'n *od* ar holl blant y gymmydogaeth; "ac yn wir," medd ei fywgraphydd enwog, y Parch. Wm. Rees, D.D. (Hiraethog), "felly y bu: ni fagwyd o'r blaen ei gyffelyb yn yr holl ardaloedd hyny, nac ar ei ol ychwaith, hyd yma." Pan oedd tu a 13 oed, teimlodd argraphiadau dwysion ar ei feddwl, wrth wrando y Parch. Rhys Dafis,* Saron, sir Gaerfyrddin, yn pregethu mewn lle a elwid Bedd-y-coedwr. Derbyniwyd y llangc, William, cyn ei fod yn 15 oed, yn gyflawn aelod yn hen gapel Penystryd, Trawsfynydd. Yr oedd derbyn un mor ieuangc yn beth anghyffredin yn yr oes honno, ac yr oedd yno lawer yn barod i ofyn, "Beth a fydd y bachgen hwn?"† er na ddaeth i galon yr un o honynt ddychymmyg y deuthai yr hyn y daeth ar ol hyny.

Nid oedd wedi cael odid ddim ysgol; ond dysgasai ddarllen Cymraeg yn lled ieuangc, a hyny, y mae'n debyg, trwy gymmorth ei dad a'i fam. Ymddengys mai ychydig iawn o lyfrau oedd at alwad y bachgen William y pryd hyny. Dywedir mai y rhai a hoffai fwyaf, heb law y Bibl, oedd "Traethawd ar Benarglwyddiaeth Duw," gan Eliseus Cole,‡ a "Llwybrau Nefolaidd, &c.," a briodolir i'r Esgob Hall.§ Yr oedd ei chwaer Catherin yn cyd-ddechrau proffesu âg ef, ac yr oeddynt yn hynod hoff o'u gilydd. Arferai ef fyned a'i lyfrfa fechan gyd âg ef o'r neilldu i le dirgel; a phan holai ei dad am dano i wneud rhywbeth, megis porthi neu ddyfrhau yr anifeiliaid,‖ rhedai ei chwaer

* Bywyd y Parch. E. Richard, gan ei feibion, E. W. R. a H. R.; Method. Cymru, cyf. ii., t. 108; Gwyddon., cyf. ix., t. 117; Enwog. Cymru, I. F., t. 897; Enwog. Sir Aberteifi, G. Menai, t. 132; Cofiant J. Jones, Talsarn, O. T., t. 890; Enwog. Cymru, J. T. J., cyf. ii. t. 483; Cymru, O. J., cyf. ii., t. 490.

† Cwm-y-swn, yn ol rhai, tra y tybia eraill y tardd yr enw o Cwm-wy-y-swn, mewn cyfeiriad at yr Afon Disyni, Di-swn-wy.

* "Y gŵr hwn a ddaeth, wedi hyny, yn dra adnabyddus fel 'Rhys Dafis y glun bren.' Nid oedd Rhys Dafis ond pregethwr tra chyffredin, a nodedig o arw a thrwsgl ei ddawn; ond yr oedd gan Mr. Williams barch dwfn iddo trwy ei oes, fel ei dad yn yr efengyl."—*Han. Egl. Annib. Cymru*, cyf. iv., t. 15.

† Dywedai y Parch. W. Jones, Trawsfynydd, hen weinidog Penystryd, pan aeth William i'r gyfeillach eglwysig, yn llencyn 15 oed, yn ei hugan lïain, a'r olwg arno yn lled wael a difoes, na wyddai efe a'r eglwys yn y byd beth i wneud âg ef, pa un ai ei dderbyn ai peidio, er bod elfenau y dŷn mawr, Williams o'r Wern, yn y llangc y pryd hwnw, a daeth ei lafur a'i ddiwydrwydd ef i'r golwg yn fuan.—*En. Cymru*, J. T. J., cyf. ii., t. 649.

‡ Yr oedd dau argraphiad o'r gwaith hwn wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg cyn bod Williams yn 13 oed, sef yn 1729 ac 1760.

§ Yr unig lyfr sydd yn cynnwys enw *Hall*, oedd yn Gymraeg, oedd yr uchod, cyn i Williams fod yn 13 oed, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1782. Ei enw yn Gymraeg sydd fel hyn:—"Llwybrau Nefolaidd, &c. A gasglwyd o lyfr a argraphwyd yn y flwyddyn 1664, fel yr ymddengys trwy gymmeradwyaeth Dr. J. Hall. Wedi ei droi i'r Cymraeg gan J. Davies.

‖ Mewn llythyr at y Parch. W. Rees, dywed y Parch. Cad. Jones, Dolgellau, fel hyn:—"Adwaenwn y brawd WILLIAMS [o'r Wern] er ys cryn amser cyn iddo ddechrau pregethu. Arferai ddyfod i Lanuwchllyn i ambell odfa a chyfarfod blynyddol a gynhelid yno. Meddyliai y pryd hyny am fyned yn *saer coed*, ac arferai naddu mwy na'r rhan fwyaf o'i gymmydogion; ond pan y cafodd annogaeth i bregethu

yn y fan i weini yn ei le, er mwyn iddo ef gael llonydd gyd â'i lyfrau. Ymddengys i'r chwaer graffus honno adnabod ei brawd William o flaen neb arall; a bydded ei choffawriaeth yn fendigedig byth am hyny.

Pa wedd bynag, daeth yr eglwys a'i gweinidog i weled, cyn hir iawn, bod y llangc William, nid yn unig yn ddiargyhoedd, ffyddlon, a diwyd gyd â phob moddion crefyddol, ond hefyd ei fod yn meddu deall cyflym, synwyr cryf, a dawn rhwydd a difyr i draddodi ei feddwl; a phan oedd efe yn 19 oed, cymhellwyd ef i ddechrau pregethu. Wedi bod yn pregethu yn ei fro enedigol am o ddeutu dwy flynedd, aeth i ysgol yn Aberhafesp, ger llaw y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, er mwyn ymbarotôi i fyned i'r athrofa, ac arhosodd yno o gylch naw mis. Yn y fl. 1803, derbyniwyd ef i'r athrofa yng Ngwrecsam, lle y bu am bedair blynedd. Nid rhyw lawer o gynnydd a wnaeth yno yn yr ieithoedd dysgedig, fel y'u gelwir; ond dywedir y gallai ddeall y Testament Groeg yn weddol. Dywedir iddo ddywedyd wrth ei athraw, yn ei ddull chwarëus ei hun, pan yn ymadael o'r athrofa, y credai nad ymadawodd nemmawr oddi yno yn onestach nag efe, gan olygu nad oedd yn dwyn rhyw ystôr helaeth o ddysgeidiaeth oddi yno. Pan annogid ef gan ryw gyfeillion i aros ychydig yn hwy yn yr athrofa, dywedodd yntau, "Na, na; os felly, bydd y cynheuaf drosodd tra byddwyf fi yn hogi fy nghryman." Pan oedd yn yr athrofa y dechreuodd ei dalentau ysplenydd, fel pregethwr, ymddadblygu ac ymddisgleirio, yr hyn sy'n arwyddo nad rhyw hir iawn yr arhosai ei feddwl ef ymhorfëydd y grammadegau. Rhagorai y rhan fwyaf o'i gydfyfyrwyr arno wrth adrodd eu gwersi ger bron yr athraw; ond taflai yntau hwy oll i'r cysgod wrth bregethu ger bron y gynnulleidfa.

gan eglwys Penstryd, trodd beibio yn hollol y naddu, a'r meddwl am fyned yn *saer coed.*

"Am dano fel dŷn, gellir dywedyd ei fod y pryd hwnw yn ŵr ieuangc gwridgoch, teg yr olwg, ac o gorph cadarn nerthol. Yr oedd yn ŵyr [o du ei fam, fel yr ymddengys] i Edmund Morgan, y gŵr cryfaf, o ran corpholaeth, y gwyddid am dano yng Ngogledd Cymru, yr hwn a fu farw, meddant, yn 110 oed. O ran ei enaid, yr oedd yn meddu deall cyflym, gwroldeb, a hyfdra. Unwaith, pan yn myned heibio i darw rhuthrog, yr hwn, pan y'i gwelodd, a redodd ar ei ol; ond cafodd Williams ben y clawdd o'i flaen, a safodd yno; a chyd â hyny, dyma'r tarw wrth ei sodlau, ac yn cynnyg y clawdd ar ei ol, dan ruo'n ddychrynllyd; ond Williams nid ysgogodd o'r fan, eithr a'i mesurodd yn ei dalcen â gwegil y fwyell oedd yn ei law, gan weiddi allan ar y pryd, '*Mi ro iti'r hen chwech!*' Tarawodd ef nes aeth i fath ar lewygfa; a phan ddaeth ato ei hun, rhedodd ymaith fel un yn diangc am ei einioes, a chafodd Mr. Williams, fel hyn, fuddugoliaeth ar ei elyn. Dywedai'r teulu i'r hwn y perthynai y tarw ei fod yn cofio'r geiriau, '*Mi ro iti'r hen chwech,*' tra y bu byw; a phan y dywedid hwy wrtho, y dangosai yr arswyd mwyaf."—*Cofiant W. Williams, gan W. Rees*, t. 87.

Pa ddelw bynag, dysgodd ddigon o Saesneg tra yn yr athrofa i allu pregethu yn yr iaith honno yn effeithiol; canys er nad oedd ei gynaniad o'r Saesneg ond trwsgl, yr oedd ganddo gyflawnder o'i hymadroddion at ei alwad, ac yr oedd y Saeson mor hoff o'i wrando fel y cai gynnulleidfaoedd lliosog ymhob man yr elai i'w plith. Yr oedd rhywbeth yn swynol yn oed yn ei wallau Seisnig, fel y mae'n hawdd deall oddi wrth ymofyniad rhyw foneddiges o gynnulleidfa y Dr. Fletcher yn Llundain, wedi ei glywed unwaith, yr hon a ofynodd yn bryderus i'r Doctor—

"Where is that preacher who, in preaching on the religious instruction of the young, told us to give them good *shampl?*"

Ymwelodd Mr. Williams unwaith neu ddwy â rhanau o'r Deheubarth, yn ystod gwyliau yr athrofa, lle yr ennillai enw a chymmeradwyaeth anghyffredin fel pregethwr. Wedi ei ddychweliad oddi yno y tro diweddaf, derbyniodd alwad unfrydol eglwys Annibynol liosog Horeb, sir Aberteifi; ond cyn iddo roi atteb cadarnhaol, cymmerth ei berswadio i fyned yn weinidog i gynnulleidfaoedd bychain y Wern a'r Harwd, heb fod ymhell o Wrecsam: ac urddwyd ef yn y Wern ar yr 28fed o Hydref, 1808. Ymaflodd yn ei waith ar unwaith, â'i holl egni, a bu yn nodedig o lwyddiannus. Gwasaneuthai yr eglwys fechan hefyd oedd newydd ei sefydlu yn Rhosllanerchrugog; a thrwy ei lafur ef, yn benaf, y sefydlwyd eglwysi Annibynol yn Rhiwabon a Llangollen. Yr oedd ganddo ofal dros yr holl eglwysi; a pha le bynag y teimlid y baich yn gwasgu, ato ef yr elid am gymmorth. Daeth yn fuan yn brif bregethwr ei enwad yng Nghymru, ac yn un o gedyrn y pulpud Cymreig. Gelwid am ei wasanaeth bron i holl gyfarfodydd a chymmanfaoedd yr enwad yng Ngogledd Cymru, ac ymwelai yn fynych â'r Deheubarth hefyd.

Yr oedd ei farn a'i athrawiaeth yn Galfiniaeth uchel ar ei fynediad cyntaf allan, fel, yn wir, yr oedd holl bregethwyr yr Annibynwyr ar y pryd yng Nghymru; ond cymmedrolodd ei olygiadau ef yn fuan. Manwl ddarllenodd gyfansoddiadau y Dr. Bellamy, y Dr. Edward Williams, ac Andrew Fuller, a chofleidiodd eu golygiadau. Yr oedd efe yn un o "Seithwyr y Llyfr Glas," fel y gelwid "Galwad Ddifrifol" y Parch. J. Roberts, Llanbryn-Mair;* ac y mae'n ddilys ddīammau mai efe yn y

* "Sylwadau ar Iawn Crist" ydyw yr eiddo Mr. Williams yn y llyfr hwnw, fel y crybwyllwyd yn hanes Mr. Roberts (pen. xvi.); a chredwn mai'r treuthodyn hwnw oedd ffrwyth cyntaf ei ddarfelydd cyfoethog ef trwy'r wasg.—*Galwad Ddifrifol*, t. 81.

pulpud, a Mr. Roberts trwy'r wasg, a wneuthant fwyaf o neb yng Nghymru i droi yn ol genllif Antinomiaeth oedd wedi dyfod dros ein gwlad. Dyry'r difyniad byr canlynol, o waith diaconiaid Rhosllanerchrugog, ddarlun pur gywir o ddull hynaws ac effeithiol Mr. Williams o draddodi ei olygiadau:—

"Yr athrawiaeth a bregethai Mr. Williams oedd, i raddau, yn wahanol i'r hyn a bregethid yn yr ardaloedd hyn o'r blaen; ac nid ychydig a fu'r gwrthwynebiadau a gafodd, a'r llafur a gymmerodd, i argraphu ar feddyliau y bobl yr egwyddorion syml, ymarferol, ac Ysgrythyrol a draddodai efe iddynt. Byddai ei ddull yn wastad yn esmwyth a didramgwydd: ni byddai byth yn ergydio at bersonau nac enwadau eraill, nac yn collfarnu y rhai a olygent yn wahanol iddo. Gosodai ei egwyddorion yn olau, syml, a theg ger bron ei wrandawyr, heb gymmeryd arno ei fod yn gwybod bod neb yn y byd yn barnu yn wahanol iddo. Gadawai iddynt weithio eu ffordd yn eu nerth a'u goleuni eu hunain; a gweithio eu ffordd a wneuthant trwy lifeiriant o wrthwynebiadau, ac y maent yn awr yn sefydlog a chadarn ym meddyliau a chalonau ei wrandawyr."

Yn y fl. 1817, priododd Mr. Williams Miss Rebecca Griffiths o Gaerlleon, boneddiges ieuangc dra chrefyddol, ac yn meddu cryn gyfoeth, a'r hon a drodd allan yn wraig dda odiaeth iddo, ac ymhob ystyr yn "goron i'w gŵr." Bu iddynt ddau fab a dwy ferch. Aethant i fyw am dymmor ar ol priodi i Langollen; ac wedyn symmudasant i'r Talwrn, rhwng y Wern a'r Rhos, lle y buant yn ddedwydd iawn am flynyddau lawer. Ar y 3ydd o Fawrth, 1836, bu farw Mrs. Williams, ar ol bod yn dihoeni yn hir, ac effeithiodd hyny yn fawr ar ei iechyd a'i feddwl yntau.

Yn yr amgylchiad profedigeuthus yma, gogwyddwyd ei feddwl i ymadael o hen faes ei lafur, yn benaf am fod mor chwith ganddo weled lle ei briod rinweddol yn wâg; a phan ddeallodd eglwys y Tabernacl, Great Cross-hall Street, Liverpool, hyny, rhoddes alwad unfrydol iddo, â'r hon y cydsyniodd yntau. Rhoddes ei wasanaeth i eglwysi y Rhos a'r Wern i fynu, gyd â chalon drom, ac er syndod a gofid dirfawr iddynt hwythau, wedi bod o honynt gyd â'u gilydd mewn cariad ac anwyldeb mawr am wyth mlynedd ar hugain.

Bu yn nodedig o ddefnyddiol yn Nerpwl. Nid oedd nifer yr aelodau ar ei sefydliad yn y Tabernacl, ym mis Hydref, 1836, namyn 256; ond cyn pen tair blynedd, yr oedd wedi lliosogi i fwy na 400, ac yr oedd yr achos yn ei holl ranau mewn gwedd lewyrchus a dymunol. Ond dadfeiliodd iechyd Mr. Williams yn fawr. Nid ymuniawnodd byth ar ol marwolaeth ei anwyl briod; ac erbyn hyn, yr oedd iechyd ei anwyl ferch hynaf, Elizabeth, yn prysur ddadfeilio. Ac i wneud y drwg yn waeth, cafodd anwyd tost wrth fyned, ar ddiwrnod tymhestlog, i Heol Mostyn, i gyfarfod dirwestol, fel yr ofnid o hyny allan bod ei ddydd gwaith ar ben. Er hyny, parhaodd i lafurio yn Nerpwl hyd fis Awst, 1839, pan y dywedodd ei feddyg y rhaid iddo adael Nerpwl, a ddychwel i Gymru; os amgen, nad oedd ganddo ddim gobaith am ei adferiad ef, na'i anwyl ferch Elizabeth. Pan ddeallodd eglwysi y Wern a'r Rhos ei fod dan orfod i symmud yn ol i Gymru, cyttunasant, er eu mawr anrhydedd, i anfon gwahoddiad caredig iddo ddychwel atynt hwy i dreulio gweddill ei ddyddiau. Cydsyniodd yntau â'u cais; ac er mor dyn oedd ei afael yn eglwys y Tabernacl, a'u gafael hwythau ynddo yntau, traddododd ei bregeth ymadawol iddynt ar nos Sul, yr 20fed o Hydref, 1839. Symmudodd i dŷ un Mr. Bersham, ger llaw Gwrecsam, ac ymddangosai yn adfywio'n fawr ar y cyntaf; ond yr oedd angau yn y tŷ, ac ni bu yn hir heb ei lwyr ddadfeilio. Ychydig o weithiau y pregethodd ar ol symmud i'w wlad, fel yr oedd yn analluog i fyned ond yn anaml o'i dŷ. Yr oedd adfywiad grymus yn eglwysi y Wern a'r Rhos, fel yn y rhan fwyaf o eglwysi y wlad, ar y pryd, ac yr oedd ei enaid yntau yn ymhyfrydu wrth glywed y newyddion da a ddygid iddo, er ei fod yn gofidio am nas gallai gymmeryd rhan yn y gwaith. Yn ei ymddiddanion â'i gyfeillion, y rhai a ymwelent âg ef, yr oedd yn amlwg iddynt ei fod yn prysur addfedu i'r nefoedd. Yr oedd ei anwyl Elizabeth, fel y crybwyllwyd, yn bur afiach ar y pryd, ac yr oedd yn anhawdd iawn gwybod pa un a groesai y glyn gyntaf. Yn y *Dysgedydd* am Mai, 1840, ceir y difyniad tarawiadol a ganlyn:—

"Ymddengys eu bod yn arfer ymddiddan â'u gilydd am farw, ac am fyned i'r nef, fel pe buasent wedi cynnefino â hyny, ac yn ymhyfrydu yn y meddwl o gael eu dattod a bod gyd â Christ, gan gredu mai llawer iawn gwell ydyw. Byddai Mr. Williams, pan godai y borau, yn myned at ei gwely i edrych am dani. Ar un tro gofynai iddi, 'Wel, Eliza, pa fodd yr ydych chwi heddyw?' 'Gwan iawn, fy nhad,' oedd yr atteb. Ebr yntau, 'Yr ydym ein dau ar y *race:* pwy a â gyntaf i'r pen, debygech chwi?' 'O!' ebr hithau, 'disgwyliaf mai myfi, fy nhad; bod genych chwi waith i'w wneuthur etto ar y ddeuar.' 'Na,' ebr yntau; 'meddyliaf bod fy ngwaith innau agos ar ben.' 'Wel,' ebr hithau, 'yr wyf yn meddwl mai myfi a â'n gyntaf.' Yntau a ddywedodd, 'Hwyrach mai felly y mae'n orau; fy mod i ychydig yn gryfach i ddal yr ergyd. Ond a ydych yn hireuthu am weled pen y daith?' ebr efe drachefn. 'Ydwyf, o'm calon,' oedd ei hatteb. 'Paham hyny?' 'Am y caf weled llawer o'm hen gydnabyddiaeth; a chaf weled fy mam; a mwy na'r cwbl, caf weled Iesu.' 'Ho!' ebr yntau: 'wel, dywedwch wrthynt fy mod innau yn dyfod.'"

Bu hi farw ar yr 21fed o Chwefror, 1840, a

Digitized by Google

chladdwyd hi ym medd ei mam. Gwaelodd yntau yn gyflym o hyny allan. Nos Lun, yr 16fed o Fawrth, dymunodd gael gweled diaconiaid y Wern a'r Rhos; ac wedi eu cael ato, ymddiddanodd gryn lawer â hwynt ynghylch amgylchiadau yr eglwysi, a rhoddes lawer o gynghorion iddynt. Pan aethant ymaith, sylwyd ei fod yn colli ei wybodaeth, ac yn prysuro ymaith; a'r borau drannoeth, o ddeutu 9 o'r gloch, *a* WILLIAMS *o'r Wern nid oedd mwyach!* Bu farw ar yr 17fed o Fawrth, 1840, yn 59 oed; ac ar y 25med o'r un mis, claddwyd ef yn barchus ym monwent y Wern, yngŵydd tyrfa dra llïosog a hireuthlawn.

Yr oedd cymmaint o amser Mr. Williams, fel pregethwyr Cymreig mawrion eraill ei oes, yn cael ei gymmeryd i bregethu, ac i blanu ac adeiladu eglwysi, a phob gwasanaeth crefyddol cyhoeddus arall, fel na ddylid rhyfeddu llawer nad ysgrifenodd efe ond ychydig mewn cymhariaeth; ond y mae yr hyn a gyhoeddwyd o'i waith yn y *Galwad Ddifrifol*, yn y *Dysgedydd*, ac yn ei *Gofiant* gan y Parch. W. Rees, yn peru i ni ofidio yn ddwys am na chawsem fwy o'i gyfansoddiadau godidog. Buasai yn hoff genym heleuthu llawer ar Mr. Williams fel dŷn, fel Cristion, fel pregethwr, ac fel gweinidog yr eglwysi; ond rhaid i ni ymattal, o ddiffyg gofod, gyd â difynu yr hyn a ganlyn:—

"Ni buasai son am Williams o'r Wern, mwy na rhyw bregethwr arall, oni buasai ei alluoedd i dynu allan 'egwyddorion' (fel y dywedai efe) y gwirionedd, ac i anfon ei appeliadau at y teimlad i'r byw. Ni buasai son am John Elias, mwy na rhyw ddynion da eraill oedd yn ei amgylchynu yn ei enwad parchus yntau, oni buasai ei ddoniau areithyddol: y ffrydiau o hyawdledd a fyddent yn disgyn oddi wrtho fel rhaiadrau nerthol ar y gynnulleidfa. Felly hefyd, ni buasai Christmas Evans yn fwy na llawer o'r Bedyddwyr, na chymmaint a rhai oedd yn fyw yn ei oes ef, oni buasai nerthoedd a chyflymder ei ddychymmyg, ei ymroad, a galluoedd creadigol ei feddwl."*

---

## PENNOD XXI.

### EDWARD JONES, JAMES GRIFFITHS, DAVID ROGERS, SAMUEL GRIFFITHS, CADWALADR JONES, JOHN DAVIES, WILLIAM JONES, A DAVID WILLIAMS.

EDWARD JONES III., fel y'i gelwid, er ei wahanieuthu oddi wrth Mr. Edward Jones, Bathafarn, a Mr. E. Jones o Gorwen. Ganwyd ef yn Llantysilio, ger llaw Llangollen, yn y fl. 1782. Dechreuodd ei yrfa grefyddol gyd â'r Methodistiaid; ond pan ddaeth y cenhadau Wesleyaidd i'r ardal, newidiodd ef ei feddwl, ar ol mawr drallod, am yr athrawiaeth, ac ymunodd â'r achos Wesleyaidd. Dechreuodd yn fuan arfer ei ddoniau yn eu plith; ac yn y fl. 1805, galwyd ef allan i waith y weinidogaeth, ac anfonwyd ef fel cenhadwr i'r Merthyr Tydfil. O hyny allan teithiai yn y Dehau a'r Gogledd, yn ol fel y sefydlid ef, am 43 o flynyddau. Daeth yn Uwchrif yn 1849, a bu farw yn Llanidloes ar yr 22fed o Orphenaf, 1855, yn 73 oed, a'r 49fed flwyddyn o'i weinidogaeth.

O ran corpholaeth, yr oedd braidd yn fyr, ond yn gadarn nerthol. Yr oedd o dymmer siriol, ac yn hoff o chwarau ar eiriau mewn cyfeillach. Ni bu gweithiwr caletach nag ydoedd: gweithiodd lawer â'i gorph trwy gerdded a phregethu, ac â'i feddwl trwy fyfyrio. Yr oedd yn ddarllenwr ac efrydydd diwyd. Teimlai eiddigedd angerddol dros yr athrawieuthau Wesleyaidd, ac yr oedd yn hoff o'u hamddiffyn o'r pulpud a thrwy'r wasg. Pregethai beunydd ar rad ras yr efengyl, a'r "iachawdwriaeth gyffredinol." Ysgrifenodd lawer i'r *Eurgrawn* ar yr athrawieuthau. O gylch y fl. 1819, cyhoeddodd lyfr a elwid "Amddiffynwr y Gwir." Adolygiad ydoedd ar lyfr arall a'i enw "Ymddiddanion rhwng Colier a Miner. Gan Hen Finer." Ymosodiad ar yr athrawiaeth Wesleyaidd oedd yr "Ymddiddanion," ac amddiffyniad iddynt oedd yr "Amddiffynwr." Tu a'r fl. 1826, cafodd Mr. Jones afael ar "Dabl yn dangos Trefn ac Achosion o Iachawdwriaeth a Damnedigaeth, yn ol gair Duw." Yr oedd wedi clywed mai'r Dr. Gill oedd awdur y "Dabl." Cyhoeddodd Mr. Jones hi, ynghyd â sylwadau arni, dan yr enw "Y Lladmerydd." Y mae'r "Dabl" yn gyfansoddiad tra chywrain; ond gan ei bod yn priodoli colledigaeth dŷn i arfaeth Duw, yn agored a difloesgni, yr oedd ei chyhoeddiad yn wrthodedig, ac yn creu cynnwrf yn y gwersylloedd Calfinaidd. Yr unig atteb a roddwyd i'r "Lladmerydd" ydoedd "Gwialen i Gefn yr Ynfyd: sef Cân i'r Enllibiwr, &c. Gan Edward Jones, Maes-y-plwm."

Mr. Jones a ddechreuodd ddwyn allan "Yr Esboniad Berniadol," a bu yn olygydd *Yr Eurgrawn* o'r fl. 1829 hyd 1835. Y mae ei enw yn hynod gymhlethedig â hanes Wesleyaeth yng Nghymru, am yn agos i hanner canrif.†

#### JAMES GRIFFITHS.

Mab ydoedd efe i David a Margaret Griffiths o'r

* Cofiant y Parch. W. Williams, gan W. Rees; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 15; Gwyddoniadur, cyf. x., t. 200; Dysgedydd, llyfr xix., t. 148, 164; En. Cymru, I. F., t. 1038; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 649.

† Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer.

Digitized by Google

Clungwyn, ymhlwyf Meidrym, sir Gaerfyrddin, lle y ganed ef ar yr 2fed o Awst, 1782. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r eglwys Annibynol yn Bethlehem, St. Clears, yn yr hon eglwys yr oedd ei dad yn ddiacon parchus. Cafodd addysg gyffredin dda pan yn fachgen. Prif uchelgais James, pan yn blentyn, oedd bod yn bregethwr, fel ei ewythr o frawd ei fam, Mr. W. Thomas, Llwyn-bychan, yr hwn oedd "bregethwr cynnorthwyol," fel y dywedir, yn Bethlehem. Teimlai argraphiadau crefyddol ar ei feddwl pan oedd yn bur ieuangc; a phan fu farw ei fam dduwiol, tra nad oedd efe ond ychydig dros 9 oed, teimlai awydd cryf am fod yn aelod eglwysig; ond ofnai ei dad mai teimlad plentynaidd ydoedd, a safai yn ei erbyn! Bu ymddygiad annoeth ei dad yn brofedigaeth lem i'r bachgen, truan, i ymollwng gyd â bechgyn anystywallt yr ardal; ond ei gadw a gafodd. Rhyfedd nad ystyriai rhieni proffesedig y gall plant a hyfforddir yn briodol "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd," "wybod yr Ysgrythyr Lân" yn forau, fel Timothëus; ac yn lle sefyll ar eu ffordd i broffesu Crist, eu dyledswydd yw eu cymmell i wneuthur hyny.

Pan oedd James tu a 15 oed, aeth at ei frawd, Benjamin Griffiths, yr hwn oedd yn fasnachwr ar y pryd yn Llanboidy. Wedi bod yno tu a blwyddyn, dychwelodd i dŷ ei dad; ac yn ebrwydd wedyn, derbyniwyd ef yn aelod yn Bethlehem, ac efe yn 16 oed. Bu ei dad farw yn fuan wedi hyny; ond bu ei frawd, Dafydd, yn bur garedig i James, ac iddo ef y datguddiodd ei awydd am bregethu gyntaf, yr hwn, yn hynaws, a'i hannogodd ef i fyned rhagddo. Wedi hyny, aeth i'r ysgol at y Parch. G. Evans, offeiriad St. Clears, lle yr arhosodd o gylch dwy flynedd. Tra yn aros yno y rhodd y cynnyg cyntaf ar ei hoff waith o bregethu; ac er mai pur dywyll y bu arno y tro cyntaf, rhagddo yr aeth, a llwyddodd. Pan oedd yn 18 oed, ymadawodd o St. Clears, ac aeth i ysgol rammadegol oedd yng Nghaerfyrddin, dan ofal y Parch. Timothy Davies, mab yr ysgolhaig enwog D. Davies, Castell-Howel. Wedi bod yno ddwy flynedd, derbyniwyd ef i'r coleg oedd ar y pryd dan ofal D. Peter, a D. Davies, Llwyn-y-bri, ac arhosodd yno bedair blynedd. Yr oedd ei gynnydd mewn dysg a gwybodaeth tu hwnt i odid neb o'r efrydwyr, yr hyn a'i gwnai yn dra chymmeradwy gan ei athrawon.

Erbyn iddo orphen ei dymmor yn y coleg, yr oedd wedi cael galwad gan amryw eglwysi i fyned yn weinidog iddynt, megis Machynlleth, Pen-y-bont-ar-ogwy, Llanedi, a Llanelli; ac i Fachynlleth y dewisodd fyned, lle yr urddwyd ef ar y 7fed o Fawrth, 1807. Yr oedd cylch ei lafur yma yn fawr iawn, nid amgen Pennal, Aberhosan, Towyn, Llanegryn, a Llwyngwril, cystal a Machynlleth. Ar y 7fed o Hydref, 1811, priododd Mr. Griffiths Miss Sarah Phillips, Llanferan, boneddiges grefyddol, yr hon oedd yn aelod o'r eglwys Annibynol yn Rhodiad. Bu'n byw y flwyddyn gyntaf ar ol priodi yn Llanferan. Arferai fyned ddau Sul bob mis, y pryd hyny, yr holl ffordd i Fachynlleth i bregethu; a gofalai am ryw rai eraill i bregethu iddynt y ddau Sul arall, tra y cynnorthwyai yntau y Parch. William Harris yn Rhodiad a Solfach, sir Benfro, am ddim. Wedi llafurio fel hyn am flwyddyn, symmudodd ef a'i deulu i Fachynlleth. Wedi bod yno am ddwy flynedd, digwyddodd amgylchiad a osododd angenrhaid arno ddychwel i Lanferan;* ac o ganlyniad, symmudodd ef a'i deulu yno cyn diwedd y fl. 1814. Wedi llafurio fel gweinidog yn Rhodiad, Tyddewi, a Berea, am ddeugain mlynedd yn nodedig o lwyddiannus a chymmeradwy, yn y fl. 1854 teimlodd nas gallai sefyll yn hwy dan bwys y gwaith, a rhoddes ei le i fynu fel gweinidog; ond parhaodd i bregethu wedyn hyd y gallodd. Bu'n analluog i wneuthur odid ddim y ddwy flynedd olaf o'i oes lafurus; ac ar ddydd Sul, yr 11fed o Ebrill, 1858, bu farw yn lled ddisymmwth, yn 76 oed, a chladdwyd ef ym monwent hen Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

Yn y fl. 1811, yn lled fuan ar ol i Mr. Griffiths ddyfod i'r Gogledd, cyhoeddodd lyfryn bychan a'i enw "Trefn Eglwys y Testament Newydd," amcan yr hwn oedd goleuo'r wlad am egwyddorion, dull, a threfn yr eglwysi Annibynol. Ychydig cyn ymadawiad Mr. Griffiths o Fachynlleth, cyhoeddodd y Parch. J. Roberts, Llanbryn-Mair, lyfryn ar "Ddibenion Marwolaeth Crist," yn yr hwn yr oedd erthycl o waith Mr. Griffiths ar y "Dwyfol Ewyllys." Gan fod gryn ogwydd yn y ddau dreuthawd at y gyfundrefn a elwid y pryd hyny "Y System Newydd," neu *Ffwleriaeth*, fel y'i gelwir yn awr, creodd eu gwaith gynnwrf dirfawr ymhlith y blaid uchel Galfinaidd, a gwnaed ymosodiad ffyrnig ar y ddau awdur galluog. Parodd hyny i Mr. Roberts gyhoeddi y "Llyfr Glas,"

* Yr amgylchiad hwnw, fel y gellir casglu, oedd rhyw ddigwyddiad yn nheulu Mrs. Griffiths a ddygodd iddi hi ryw feddiannau, canys dywedir bod Mr. Griffiths o gylch y pryd hyn yn perchen dau dyddyn o dir.

Digitized by Google

fel y gelwid y "Galwad Ddifrifol," mal y crybwyllwyd eisoes, gyd â'r hwn yr ail argraphwyd erthycl Mr. Griffiths. Gan fod gweinidogion yr Annibynwyr yn y De yn hynod Galfinaidd ar y pryd, ac yn bur gulfarn hefyd, fel y gellid disgwyl, galwyd cyfarfod dirgelaidd o'r gweinidogion i Faenclochog, amcan yr hwn oedd diarddel Mr. Griffiths, a'i frawd, Mr. B. Griffiths, Trefgarn, o'r cyfundeb; ond daethant hwy i wybod am dano, ac aethant yno yn annisgwyliadwy i'r bradwyr, fel y dyryswyd eu holl gynlluniau. Dyna esampl arall o ddrygioni cyfarfodydd clerigol a gynhelir yn absennoldeb yr eglwysi. Yr oedd Mr. Griffiths yn fwy galluog na hwynt oll ynghyd mewn dadl, heb law eu bod hwy yn camddeall, ac o blegid hyny yn camesponio, ei olygiadau yn hollol. Parodd yr ymrysonfa gryn lawer o fwg a thywyllwch ar y pryd; ond wedi i'r dymestl dawelu, gwelwyd fod rhyddid barn a chydwybod wedi ei dal yn ddïanaf.*

### DAVID ROGERS.

Y gŵr enwog hwn ydoedd fab i John a Jane Rogers o'r Garth, plwyf Llanfair-dyffryn-clwyd, ger llaw Rhuthyn. Ganwyd ef yn y fl. 1783. Magwyd ef gan ewythr iddo o frawd ei dad, yr hwn a roddes iddo yr holl fanteision addysg oedd yn gyrreuddadwy iddo ar y pryd. Ymddengys iddo gael ei ddychwel at grefydd dan bregethiad Mr. Jones, Bathafarn, pan oedd o ddeutu 17 oed; ac felly yr oedd yn un o flaenffrwyth Wesleyaeth Gymreig. Dechreuodd bregethu, yn ol tystiolaeth ei frawd, yn ei ardal enedigol, a bu'n llafurio wedyn fel cynnorthwywr yn Llangollen a Llynlleifiad.

Yn y fl. 1805, galwyd ef i'r weinidogaeth deithiol, a sefydlwyd ef ar Gylchdaith Dinbych, mewn undeb â Mr. Bryan. Bu'n llafurus iawn, nos a dydd, yn ystod y flwyddyn hon, i gyrraedd gwybodaeth, a bu yn hynod o lwyddiannus. Yn y bl. 1806 ac 1807, sefydlwyd ef ar Gaernarfon, mewn undeb â Mr. Bryan yn unig y flwyddyn gyntaf, a'r ail ymunodd Mr. S. Davies â hwynt. Parhaodd i lafurio am wybodaeth yma fel o'r blaen; ac un a'i hadwaenai yn dda a ddywed, "Ac o'r amser yma hyd ddiwedd ei oes, yr oedd yn blodeuo fwyfwy, fel y gwelwyd cannoedd a miloedd o bobl yn crogi wrth ei wefusau, a chyd â hyfrydwch yn derbyn ei eiriau." Treuliodd flwyddyn ar ol hyn yn Llandeilo-fawr, sir Gaerfyrddin, gyd â mawr gymmeradwyaeth. Aeth oddi yno i Gaerphili, yn sir Forganwg, lle y treuliodd ddwy flynedd. Yn y cyfamser, cyfieithodd dreuthawd i'r Gymraeg a elwid "Prawf-Draethawd: cymmorth i ddeall a dehongli yr Ysgrythyrau," yr hwn a gyhoeddwyd yn *Yr Eurgrawn* yn y fl. 1811. Hefyd, cyfieithodd lyfr a alwyd "Hunanymholiad," sef rheol y Parch. R. de Courcy, periglor St. Alkmond, Amwythig, i brofi ac adnabod ei hun, ynghyd ag amryw ddarnau eraill.

Yn y bl. 1812 ac 1813, pennodwyd ef yn weinidog Cymreig yn Llundain; ac efe oedd yn golygu *Yr Eurgrawn* y ddwy flynedd hyny, yr hwn a argrephid yn y brifddinas. Yn y cyfamser, adolygodd bregeth o eiddo'r Dr. Lewis, ynghyd ag amryw erthyclau yng *Ngeiriadur Ysgrythyrol* Mr. Charles o'r Bala. Bu 1814 yn flwyddyn o drallod iddo. Sefydlwyd ef i lafurio ar Gylchdaith Seisnig Aberhonddu; a thybiodd rhai o'r Saeson, o herwydd eu dïeithrwch iddo, nad oedd alluog i bregethu yn eu hiaith hwy, a chodasant yn ei erbyn, ac aethant mor bell ag i wrthod y capel iddo. Yr oedd eu hofnau yn hollol ddisail; a dywed ei fywgraphydd yn briodol, "Ni bu yn eu pulpud, er dyddiau Mr. Wesley ei hun, weinidog oedd yn ei lanw yn well, os cystal." Effeithiodd hyny yn ddwys ar ei feddwl, ac appeliodd at y Gynnadledd am gael ei symmud. Yn y fl. 1815, sefydlwyd ef ar Gaernarfon, ac am y bl. 1816 ac 1817 ar sir Fôn. Yn ystod y ddwy flynedd olaf, ysgrifenodd "Ymddiddanion rhwng dau Ymdeithydd, sef Hwntw a Gwyneddwr," y rhai a gyhoeddwyd yn *Yr Eurgrawn*. Cynhwysant driniaeth fanwl ar rai o brif athrawiaethau crefydd, yn arbenig yr athrawiaeth o *barhad mewn gras*. Hefyd, cyhoeddodd bregeth alluog iawn ar "Gyfiawnhad."

Yn y fl. 1816 [y gyntaf o'i arhosiad ym Môn], pennodwyd Mr. Rogers yn Gadeirydd "Talaeth Rhuthyn," ac am 1817 ac 1818 yn Gadeirydd yr holl achos Cymreig, wrth yr enw "Yr Ail Dalaeth Gymreig." Yn y fl. 1819, sefydlwyd ef i lafurio yn y Drefnewydd, sir Drefaldwyn, gyd â'r Saeson. Symmudodd oddi yno i Knaresborough, a thrachefn i Darlington. Yn y lle hwn y terfynodd ei daith ddeuarol, ar y 24ydd o Ionawr, 1824, yn 41 oed, wedi bod yn y weinidogaeth am 19 o flynyddau. Yr oedd ei ymddangosiad personol yn hardd a boneddigaidd, a'i alluoedd naturiol yn

* Cofiant y Parch. D. Griffiths, gan Simon Evans, Hebron; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 25; En. Cymru, I. F., t. 408; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 403.



Digitized by Google

gryfion a disgybledig. Llefarai yn naturiol, esmwyth, a dylanwadol. Fel awdur, y mae ei waith yn arddangosiad o graffder, treiddgarwch, a gallu rhesymegol o'r radd uwchaf. Gwasanaethodd ei enwad yn y pulpud, trwy y wasg, ac yn y llysoedd eglwysig yn dra effeithiol.*

SAMUEL GRIFFITHS.

Ym Mlaenbrwynen, tyddyn bychan ar lethr rhamantus y "Fenni-Fawr," ymhlwyf Clydau, sir Benfro, y ganwyd Samuel, ar y 9fed o Hydref, 1783. Yr oedd ei rieni, Thomas a Mari Griffiths, yn aelodau dïargyhoedd gyd â'r Annibynwyr, y naill yn Glandwr a'r llall yn Nhrelech. Gan mai efe oedd y mab hynaf, bu raid iddo droi allan i weini'r byd yn ieuangc; ac wedi bod yn was ameuthwyr am ddeng mlynedd, ymrwymodd yn brentis o saer maen. Teimlai ddylanwadau crefyddol ar ei feddwl pan oedd tu a 7 oed; ond ni ddechreuodd broffesu crefydd hyd y fl. 1806, pan oedd tu a 23 oed, pryd y derbyniwyd ef yn aelod o hen eglwys Annibynol Trelech. Gwelwyd yn fuan ei fod yn meddu mwy na chyffredin o ddawn a gwybodaeth, ac annogwyd ef i ddechrau pregethu. Amserwyd ei drwydded *(license)* ar y 27fed o Ionawr, 1814.

Yn y fl. 1809, pan oedd tu a 26 oed, priododd Esther James, Pontyrch, yr hon a fu yn wraig rinweddol iddo ar hyd ei oes, ac yn fam i ddeuddeg o blant, y rhai oll a hyfforddwyd ganddynt "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." Yr oedd efe wedi dysgu ysgrifenu Cymraeg a Saesneg yn dda yn ei oriau hamddenol, pan yn dilyn ei gelfyddyd fel saer maen. Yn lled fuan ar ol priodi, rhoddes heibio drin y meini, ac aeth i gadw ysgol ddyddiol yn Llwyn-yr-hwrdd dros rai blynyddau, lle y gwnaeth ddaioni dirfawr. Gorfu arno ymuno â'r cartreflu (*militia*) yn amser terfysgoedd Bonaparte. Llwyddodd i gael caniatâd i bregethu ar y Suliau, a hoffai adrodd fel y byddai yn pregethu yn ei "gôt goch," a'i gleddyf wrth ei glun.

Ym Medi, 1818, urddwyd ef yn weinidog i eglwys Annibynol Horeb, a symmudodd yntau i fyw i'r Llethr, yn agos i'r lle y saif Bwlch-y-groes arno yn bresennol. Agorodd ysgol ddyddiol yno mewn ysgubor. Aeth honno yn rhy fechan, a chafodd dir i adeiladu ysgoldy arno gan Mr. Parry, Gurnos, a chynnorthwyodd y gwaith; ac wedi llwyddo yno yn rhagorol, adeiladwyd yno gapel prydferth yn y fl. 1833. O ddeutu'r fl. 1821, dechreuodd bregethu yn Carmel, ynghanol yr Undodiaid, lle yn fuan yr ymgynnullodd eglwys lïosog. Yn y fl. 1824, symmudodd i fyw o'r Llethr i Droedrhiwffenyd, yr hwn oedd le agos i ganol y manau yr arferai bregethu ynddynt; ac yno y bu hyd derfyn ei oes. Gweithiodd ei ffordd yn raddol o Garmel i blith yr Undodiaid; ac yn y fl. 1837, dechreuodd bregethu yn ardal Llanwenog, lle yr adeiladwyd capel yn 1838, a alwyd Brynteg. Arferai bregethu bedair gwaith ddau Sul o'r mis am flynyddau, a phregethai deirgwaith bob amser. Pan symmudodd i Droedrhiwffenyd i fyw, symmudodd yr ysgol i'w ganlyn i Horeb, a pharhaodd i'w chadw ar adegau hyd o fewn deng mlynedd i derfyn ei oes. Yr oedd yn ddïarhebol am ei fedr i ddysgu plant, ac yn enwog iawn am ei ymdrechion gyd â'r ysgol Sul; ac y mae dylanwad ei lafur ar yr eglwysi hyd y dydd hwn. Yr oedd arwyddion arno ddwy neu dair blynedd cyn ei farwolaeth bod ei gyfansoddiad cadarn yn adfeilio; ond parhaodd i bregethu hyd y Sul olaf ond un y bu fyw. Gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd heddychol ar y 4ydd o Orphenaf, 1860, yn 77 oed, a chafodd gladdedigaeth tywysogaidd ym monwent capel Bwlch-y-groes, lle y bu yn weinidog ffyddlon a gofalus.

Yr oedd yn Samuel Griffiths, Horeb, y fath gyfarfyddiad dedwydd o ragorieuthau fel ag i'w wneud yn ddŷn nodedig o bwysig, dylanwadol, a pharchus o fewn holl gylch ei adnabyddiaeth. Fel dŷn a chyfaill, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf dymunol, dirodres, a chywir a fu erioed mewn cymdeithas. Yr oedd ei hynawsedd yn amlwg i bob un a edrychai yn ei wynepryd mwyn a diddrwg. Dichon nad oedd un o bob deng mil o'i gydoeswyr yn fwy cyflawn nag ef fel gwladwr yn gystal ag fel duwinydd. Bu o wasanaeth dirfawr i'w gymmydogion, ac arbedodd iddynt fwy o arian nag a ŵyr neb a fuasent yn myned i gyfreithwyr, trwy ysgrifenu iddynt ewyllysiau a chyttundebau, a thrwy fod yn offeryn i gymmodi rhwng pleidiau ymrysongar. Yr oedd ei ofal fel ysgrifenydd medrus a chywir, a grym ei synwyr a'i natur dda, y fath fel na wnai ddim yn wallus, ac ni fethai braidd un amser roddi terfyn ar bob ymryson. Ato ef yr elai pawb trwy'r gymmydogaeth, o bob enwad crefyddol, i ofyn cyngor ar bob matter dyrys; ac anfynych y methent gael yr hyn a ddymunent. Gellid nodi llïaws o esamplau, eithr ni oddef ein gofod; am hyny cymmerer y gan-

* Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer.

Digitized by Google

lynol yn unig, a ysgrifenwyd gan ŵr sy'n fyw, a'i hadweunai yn dda:—

"Unwaith, torodd anifeiliaid un o'r Undodiaid i gae ŷd un o aelodau Horeb, ac aeth yn anghydfod rhyngddynt ynghylch y golled a wneuthant. Boddlonodd y ddwy blaid i Mr. Griffiths a chymmydog arall fod yn ganolwyr rhyngddynt. Wedi ystyried yr achos, barnodd y ddau fod y golled yn hyn a hyn. Gosododd perchen yr anifeiliaid y swm a enwyd ar unwaith ar y bwrdd; ond barnai y gŵr a gawsai'r golled nad oedd y swm yn ddigon. Ar hyny dywedodd Mr. Griffiths wrtho, 'Yr ydym ni, ein dau, wedi barnu yn gydwybodol fod y swm a enwasom yn ddigon i wneud i fynu eich colled; ond os ydych chwi yn barnu yn wahanol, deuwch yfory i'm hysgubor i, a chymmerwch gymmaint o ŷd oddi yno ag a farnoch yn angenrheidiol i'ch digolledu.' Ar hyny, tawelodd y dŷn, a darfu yr ymryson. Er iddo fod lawer gwaith yn cymmodi pleidiau gelynol, etto ni chlywsom iddo gymmaint ag unwaith losgi ei fysedd wrth wneuthur hyny."

Dyma ŵr enwog yn gwasaneuthu yr eglwysi, ac yn trin ffarm at gynnal ei deulu llïosog; a chredwn ni yn ddïysgog na lwydda crefydd byth fel y dylai nes y cydymffurfio henuriaid neu esgobion sefydlog pob eglwys â chyfarwyddiadau Paul i henuriaid neu esgobion sefydlog eglwys Ephesus, Act. xx. 28–35. Fel Cristion, yr oedd Mr. Griffiths yn un o'r dynion mwyaf duwiolfrydig a nefolaidd ei yspryd yn ei oes. Yr oedd ei ymddiddanion a'i holl gyflawniadau cyhoeddus yn dangos yn eglur mai dŷn ydoedd yn byw mewn cymmundeb agos iawn â'r Arglwydd. Fel pregethwr, yr oedd ynddo gynnifer o ragorieuthau, fel y gellir ei ystyried yn un o gedyrn y pulpud Cymreig. Fel ysgrifenydd, yr oedd yn fedrus a galluog iawn; ond gan faint ei orchwylion cyhoeddus a theuluaidd, nis gallodd gael amser i barotôi ond ychydig bethau i'r wasg. Ei dreuthawd ar "Grefydd Deuluaidd a Swper yr Arglwydd;" "Hanes Bywyd y Parch. Morgan Jones, Trelech;" "Traethawd ar Hunanymholiad;" darlith, a elwid "Gwaedd yng Nghymru;" a nifer o lyfrau "Pwngc" i'r ysgolion Sul, yw'r cwbl a gyhoeddwyd ganddo, hyd y gwyddys.*

### CADWALADR JONES.

Enwau tad a mam y gŵr enwog hwn oedd John a Dorothy Cadwaladr. Preswylient mewn ffarm a'i henw Deildref-uchaf, ar lethr cwm a elwir Pennantlliw-bach, ymhlwyf Llanuwchllyn, sir Feirionydd; ac yno y ganwyd eu hunig blentyn, Cadwaladr, ym mis Mai, 1783. Yr oedd y tad, o ran ei dymmer naturiol, yn lled wyllt, ac fel y cyfryw yn gyffredin byddai yr ystorm drosodd yn ebrwydd; ond yr oedd y fam yn wraig bwyllog, synhwyrol, a hynod o garedig. O ran eu crefydd, tueddent at yr Eglwys Sefydledig, ac yr oeddynt yn nodedig o gymmeradwy yn eu hardal. Treuliasant oes faith, yn glyd arnynt, yn y Ddeildref. Bu'r tad farw pan o gylch 90 oed, a'r fam tu ag 91 oed.

Nid yw hyspys pa hyd y bu Cadwaladr ieuangc yn ysgol ddyddiol Rhos-y-fedwen; ond gan fod ei rieni yn gefnog yn y byd, ac yn nodedig o hoff a gofalus am eu hunig blentyn, y mae'n ddïau iddo gael cymmaint o ysgol a neb yn yr ardal honno. Pan oedd Cadwaladr yn 11 oed, symmudodd y Dr. George Lewis o Gaernarfon i fod yn weinidog i eglwys Annibynol Llanuwchllyn; ac i wrando arno ef y byddai pobl Pennantlliw, agos oll, yn myned y pryd hwnw. Yn eu plith yr oedd Cadwaladr y Ddeildref yn wrandawr cysson, ac yn mawr hoffi ei bregethiad. Ym mis Mai, 1803. pan oedd Cadwaladr Jones yn 20 oed, derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys a ymgyfarfyddai yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn. Yr oedd yn hyspys i bawb yn yr ardal yr ymhyfrydai "Cadr. Jones," fel yr ysgrifenai efe ei enw, mewn darllen a chasglu pob math ar wybodaeth; a chymhellwyd ef gan y Dr. Lewis a'r eglwys i ddechrau pregethu. Yng Ngorphenaf 1806, dechreuodd ar y gorchwyl; ac ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, derbyniwyd ef i'r athrofa yng Ngwrecsam, oedd ar y pryd dan ofal y Parch. Jenkyn Lewis. Gan mai ar ei gost ei hun yr aeth Mr. Jones, treuliai y geuaf yn yr athrofa, a'r haf adref, yn gweithio ar y tyddyn, ac yn pregethu yn yr ardaloedd cylchynol. Pregethai ar y Suliau yn agos ac ymhell, fel y byddai galwad am dano. Pregethai ar nosweithiau gwaith yn ardaloedd y plwyf ehang y ganesid ef ynddo, a Chwm-glanllafar. Nid oedd braidd dŷ ymhlwyf Llanuwchllyn na bu yn pregethu ynddo yn ystod y tymmor o'r fl. 1806 hyd 1811. Heb law y manau a nodwyd, pregethai yn fynych, yn ystod yr un tymmor, yn Rhyd-y-main, Brithdir, Cutiau, Llanelltyd, a Dolgellau; ac yr oedd ei bregethau ac yntau yn dra chymmeradwy gan bob gradd.

Yn y fl. 1810, rhoddwyd galwad i Mr. Jones i fod yn olynydd i Mr. Pugh o'r Brithdir; a llettyai, ar ei fynediad cyntaf i'r ardal yn y Perthi-llwydion, Brithdir, gyd â thad a mam ei ragflaenydd, Mr. Pugh. Ar y 23ydd o Fai, 1811, cynhaliwyd cyfarfod yn Nolgellau i'w neillduo i'r gwaith. Rhif

* Bywgraphiad y Parch. S. Griffiths, gan y Dr. Pan Jones, Mostyn, argr. 1879; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 201; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 439; En. Cymru, I. F., t. 415.

Digitized by Google

yr aelodau yn yr holl eglwysi y gweinyddai iddynt, pan ddechreuodd ar ei lafur, oedd 113. Yr oedd maes ei lafur yn cyrraedd o Ddrws-y-nant hyd i'r Abermaw, ac o gymmydogaeth uchaf y Brithdir i'r Ganllwyd, tu a 18 milltir o hyd, a 12 o led; a hyd ei deithiau, rhwng myned a dyfod, yn 42 o filltiroedd. Ymroddodd Mr. Jones i'w waith gyd âg egni neillduol; ac nid oedd gerwinder tywydd, rhew, eira, a gwlaw, yn cael ei attal, mewn un modd, rhag myned i'w gyhoeddiadau. Felly, treuliodd flynyddau lawer, yn dawel ac ymroddgar, yn cyflawni gwaith efengylwr yn dda ac yn llwyddiannus iawn.

Ar yr 11fed o Fai, 1813, priododd Mr. Jones Margaret, merch Rees (Rhys) Griffith ac Elen Jones o'r Farch-ynys-fawr, ameuthwyr cyfrifol ger llaw Abermaw; ac aeth Mr. Jones i fyw dros rai misoedd i gartref ei wraig. Yna symmudasant i'w tŷ eu hunain yn Nolgellau. Yn y fl. 1818, rhoddes Mr. Jones y Cutiau a Llanelltyd i fynu, wedi llafurio yn ddiwyd, trwy'r holl gylch, am saith mlynedd. O gylch y pryd hyn, neu ychydig yn gynt, ond odid, symmudodd Mr. Jones a'i deulu o'r dref i fyw i ffarm a gymmerasai, a elwid Trefeiliau, rhyw filltir i'r de-ddwyrain o Ddolgellau, er mwyn cael cynhaliaeth mwy cysurus i'w deulu. Cafodd brofedigaeth lem iawn ar y 3ydd o Ebrill, 1819, pan fu farw ei anwyl wraig rinweddol yn bur ddisymmwth, gan adael eu mab John yn amddifaid, dan ofal ei dad; ac yr oeddynt wedi claddu dau eraill yn eu babandod.

Mewn cynnadledd o bregethwyr ac eraill, a gynhaliwyd yn Ninbych yn y fl. 1821, penderfynwyd cyhoeddi *cylchgrawn misol*, at wasanaeth yr enwad Annibynol yn benaf; a'r Parch. Cadwaladr Jones, Dolgellau, a ddewiswyd yn olygydd iddo, a dewisiad mwy hapus erioed ni wneuthpwyd. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf yn Nolgellau ym mis Tachwedd y flwyddyn grybwylledig, dan yr enw canlynol:—

"Y Dysgedydd Crefyddol: yn cynnwys Bywgraffiadau, Traethodau, Amrywiaeth, Peroriaeth, Barddoniaeth, ac Hanesion. Pob drwg oddiwrth y creadur.—Pob da oddiwrth y Creawdwr. Gan Weinidogion yr Annibynwyr. Rhoddir yr holl elw a dardda oddiwrth y Cyhoeddiad hwn at achosion crefyddol."

Dan yr enw yna y cyhoeddwyd y *Dysgedydd* hyd y fl. 1839; ac yn y fl. 1840, gadawyd y gair "Crefyddol" allan (paham, nis gwyddom), a gwnaed rhai cyfnewidiadau dibwys eraill yn yr enwad-ddalen. Bu Mr. C. Jones yn golygu y cyhoeddiad cyfnodol hwn am o ddeutu 31 o flynyddau, sef o'r fl. 1821 hyd 1852; a gwell golygydd, ymhob ystyr, yn ddilys ddiammau, ni bu erioed uwch ben cylchgrawn crefyddol, a barn gwŷr galluog ydyw bod ei ysgrifau ef yn y *Dysgedydd* ymhlith ei ragorolion. Dichon mai ei brif ragorieuthau, fel golygydd, oedd synwyr cryf; arafwch, pwyll, ac yspryd barn; amhleidgarwch ac annibyniaeth meddwl; ac eglurdeb a symledd fel ysgrifenydd. Er mwyn egluro hyn, rhaid i ni gael rhoi'r difyniad byr canlynol i mewn, o waith un o'i fywgraphwyr, er prined ydyw ein gofod:—

"Yn y tymmor hir y bu [Mr. Jones] yn eistedd wrth lyw y *Dysgedydd*, cafodd lawer cyfle i ddangos mor addfed oedd ei feddwl ar byngciau duwinyddol. 'Y System Newydd,' fel y'i gelwid, oedd yn peri cyffro mawr ym mlynyddau cyntaf ei olygiaeth. Un o'r rhai bleunaf ym mysg dadleuwyr y dyddiau hyny oedd yr hybarch John Roberts, Llanbryn-Mair; a hen ddadleuwr teg a boneddigaidd iawn ydoedd; tyn a phenderfynol dros ei bwngc, y mae'r wir; ond yr oedd yn hawdd gweled mai ymofynydd gonest am y gwirionedd ydoedd. Ei ddadl ef â D. S. Davies, Llundain, ac eraill, yn erbyn 'Sion y Wesley,' oedd un o'r rhai cyntaf yn y *Dysgedydd*. Rhoddes y golygydd bob tegwch iddynt. Nid oedd byth ddim brys arno i gau y dadleuon i fynu; a gallasid bod yn bur sicr, os soniai'r golygydd am dynu pen ar unrhyw ddadl, bod corph y darllenwyr wedi llwyr flino arni. Yn rhifyn Mai, 1825, y mae'n cloi y ddadl honno i fynu; ac y mae'n gwneud hyny gyd â'r pwyll â'r craffder oedd mor briodol iddo. Dywed yn bur ddigynnwrf, 'Nid ydym yn deall fod y ddadl wedi parhau cyhyd o blegid cyfattebolrwydd ymddangosiadol yn synwyr, dysg, a rhesymau y dadleuwyr; ond o blegid *gorhoffedd* "Sion" yn, a'i zel dros, y gwaith o wrthwynebu ei wrthwynebwyr *gorau y gallai*, pan na byddai ganddo ond ychydig iawn o feddyliau newyddion.' Mor ddidwrw, onid e? y mae yn ei droi o'r neilldu! Yna y mae'n myned ym mlaen i sylwi ar bwyntiau y ddadl. Bu yr un ddadl ger bron, mewn gwahanol ffurfiau, lawer gwaith ar ol hyny; ac ymddengys i ni, bob amser, bod terfyniad 'Dadl Etholedigaeth,' yn *Nysgedydd* Ebrill, 1847, yn un o'r ysgrifau galluocaf a gyhoeddwyd erioed ar y pwngc yn ein hiaith."*

"Nid ydym yn gwybod," medd Ieuan Gwynedd, "ddarfod i Mr. Jones ysgrifenu dim [ond yn y *Dysgedydd*] heb law treuthodyn bychan yn erbyn y diweddar Barch. John Elias, yr hwn a gyhuddasai yr Annibynwyr o fod yn Hanner-Pelagiaid. Y mae ei gyfansoddiad yn ymosodiad nerthol, wedi ei ysgrifenu gyd â llawer o graffder, a chryn lymder. Nid attebodd Mr. Elias ef byth; ond adgofiodd ei wrandawyr, mewn cymdeithasfa ddyfodol a gynhaliwyd yn Nolgellau, y gallai efe *weddïo dros y rhai a ysgrifenasant yn ei erbyn*."† Ond rhaid i ni brysuro at y terfyn.

Yn y fl. 1823, priododd Mr. Jones ei ail wraig, sef Catherine, merch tyddyn a elwid Ceinewydd, ymhlwyf Llanaber, yn agos i'r Abermaw, yr hon

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 458.

† The Principality, November 2, 1847.

Digitized by Google

oedd ferch ieuangc nodedig o grefyddol a pharchus. Bu chwech o blant o'r briodas ddedwydd hon, ac oll yn feibion. Tu ar fl. 1833, symmudasant o'r Trefeiliau i ffarm heleuthach, tu a'r un pellder o dref Dolgellau, a elwid Cefn-maelen; ac yno y cartrefasant hyd derfyn eu hoes.* Yn y fl. 1839, barnodd Mr. Jones yn briodol roddi ei wasanaeth i'r Brithdir a Rhyd-y-main i fynu, am y teimlai fod ei lafur i gynnifer o eglwysi, ynghyd â'i waith fel golygydd, yn pwyso yn rhy drwm ar ei natur, ac efe weithian yn dechrau heneiddio; a chyfyngodd ei wasanaeth bellach i Ddolgellau, Islaw'r-dre, a Llanelltyd, ond arferai newid Sabboth yn fisol â gweinidog y Brithdir.

Yn y fl. 1845, cyfarfu Mr. Jones â phrofedigaeth deuluaidd chwerw iawn etto, trwy farwolaeth ei anwyl ail wraig dduwiol a gofalus, ar y 14ydd o Chwefror y flwyddyn honno, pan oedd hi yn 50 oed, yr hon a gladdwyd yng nghapel yr Annibynwyr yn Nolgellau, dan fwrdd y cymmundeb. Yr oedd efe wedi cael y fath gysur ynghyfeillach y ddwy wraig rinweddol fel nas gallai feddwl byw ei hunan yn hir iawn heb gyfeilles; ac o ganlyniad, anturiodd y drydedd waith i'r sefyllfa briodasol yn y fl. 1847, trwy briodi Mrs. Ellen Williams, diweddar o'r Maes-gwyn, Llanuwchllyn, yr hon a fu yn ymgeledd gymmwys a hyfryd iddo am 16 mlynedd. Yn y fl. 1852, pan oedd efe yn 69 oed, barnodd fod ei oedran yn galw arno ymneillduo o gyfrifoldeb yr olygiaeth; ac mewn cyfarfod rheolaidd a gynhaliwyd yn Nolgellau ar y 25med o Awst y flwyddyn honno, cyflwynodd y gorchwyl gofalus i fynu i'w frodyr. Yn ei annerchiad ymadawol yn y Rhagymadrodd y flwyddyn honno, gwelir ei fod yn gollwng yr awenau o'i law yn siriol a llawen, gyd â'r dymuniadau gorau i'w olynwyr yn yr olygiaeth.

Yn y fl. 1858, teimlai fod tymmor henaint wedi ei orddiwes, a barnai y dylid cael gweinidog ieuengach i Ddolgellau ac Islaw-dre; am hyny efe a ymddidolodd, wedi bod yn gwasaneuthu yr eglwysi yn ddyfal, llwyddiannus, a chymmeradwy am 47 mlynedd; ond parhaodd i gydlafurio â'i hen gyfaill E. Davies, Trawsfynydd, yn Llanelltyd, ac â'i gyfaill hoff, R. Elis o'r Brithdir, yn Tabor. Bu raid i Mr. Jones fyned trwy un brofedigaeth deuluaidd ddwys iawn etto, ac efe yn 80 oed, canys ar y 14ydd o Fehefin, 1863, bu ei drydedd wraig dduwiol farw, a chladdwyd hi ym monwent y Brithdir. Pa wedd bynag, parhaodd efe i bregethu wedyn am ychydig flynyddau ymhellach. Yn y Brithdir, ar brydnhawn Sul yn niwedd haf 1867, y traddododd ei bregeth olaf, ar Luc xv. 2. Teimlai yn rhy lesg i bregethu yn yr hwyr, a dychwelodd adref i Gefn-maelen. Nid oedd un afiechyd neillduol arno, ond bod natur yn graddol ymollwng, fel derwen yn gwywo, am nad all mwy dderbyn nodd i fod yn iraidd. Bu farw yn union fel y bu fyw, ar ddydd Iau, y 5med o Ragfyr, 1867, yn 85 oed, mewn hunanfeddiant tawel, a'i galon yn glymedig â'r pethau y cyssegrasai ei fywyd iddynt; a'i ymddiried yn ei Dduw yn dal mor ddïysgog a'r graig, yn oed yn ymchwydd yr Iorddonen; wedi bod yn pregethu am 62 flynedd, ac yn aelod eglwysig am 65 o flynyddau. Ar forau yr 11fed o'r Rhagfyr hwnw, symmudwyd corph ei ail wraig o gapel Dolgellau, ar ddymuniad ei meibion, a chladdwyd hi y diwrnod hwnw yn yr un bedd a'i hanwyl briod, ym monwent y Brithdir. Ac fel y sylwai y Parch. E. Evans, Llangollen, ar lan y bedd agored, "Symmudwyd hi heb ei deffro," i gydorwedd â'i phriod, nes y deffroir hwy gan "lef yr arch-angel, ac âg utgorn Duw."†

### JOHN DAVIES.

Ganwyd ef ar y 7fed o Hydref, 1784, ymhlwyf Helygen, sir Fflint. Enw ei dad oedd Thomas Davies, yr hwn oedd aelod gyd â'r Methodistiaid; ond yr oedd ei nain o du ei dad, Jane Davies, yn aelod gyd â'r Wesleyaid gryn ugain mlynedd cyn dyfodiad y Cenhadau Cymreig i'r wlad, ac yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i groesawu eu dyfodiad i ardal Llanergain a Helygen. Argyhoeddwyd John, ei hŵyr, dan bregethiad Mr. Bryan yn y Wyddgrug, ar yr 17fed o Awst, 1800. Cafodd gryn dywydd ar gychwyniad ei yrfa grefyddol. Mynnai'r tad iddo ymuno â'i bobl ef, tra'r oedd osgo gref y bachgen at y Wesleyaid, ac yn eu plith hwy y bwriodd ei goelbren. Cynhyddodd yn gyflym fel crefyddwr, a chaniatëid iddo ef ac eraill fyned oddi amgylch i gynnal cyfarfodydd gweddïo. Elent cyn belled a Llanasa, Llanelwy, ac ym mlaen

* Beir Mr. Jones yn llym gan rai o'i fywgraphwyr am ffarmio i gynnal ei deulu, fel y gwelsom y gwnai'r Parch. Saml. Griffiths, yn lle dysgu a chymmell yr eglwysi a wasaneuthai i gyfranu yn heleuthach at ei gynnal; ond y mae'n amlwg wrth Act. xx. 17, 28–35, a'r 1 Thes. ii. 5–9, mai dilyn esampl Paul i henuriaid neu esgobion sefydlog eglwys Ephesus ac eglwys Thessalonica a wnai Griffiths a Jones, fel y gwnai hen bregethwyr y Methodistiaid pan y llanwasant holl Gymru â'u hegwyddorion.

† Cofiant C. Jones, gan R. Thomas, Bangor; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 457; Gwyddon., cyf. x., t. 617; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 670.

Digitized by Google

hyd Gonwy. Byddai John yn darllen rhanau o'r Ysgrythyrau yn y cyfarfodydd hyny, gan eu hegluro a'u cymhwyso at y gwrandawyr. Bu hyn yn barotoad iddo at ddechrau pregethu.

Ar y laf o Fai, 1806, dydd a gofid gan Mr. Davies ar hyd ei oes, aeth, ar ddymuniad Mr. Owen Davies, i lafurio yng Nghylchdaith Caernarfon. Yn Awst yr un flwyddyn, lluniwyd yr hyn a adnabyddir fel Cylchdaith Llangollen, a gosodwyd Mr. Davies i gydlafurio yno â Mr. John Maurice (Morus), cefnder i Mr. Jones, Bathafarn. Yr oedd Mr. Davies yn ŵr ieuangc ymroddgar iawn i'w waith, a bu o wasanaeth mawr ar y tir gosodedig iddo i'w lafurio. Cyrheuddai y Gylchdaith y pryd hwnw i gyrau uchaf sir Drefaldwyn. Ei Gylchdaith nesaf oedd Môn. Symmudwyd ef oddi yno i Lanbedr-pont-Stephan, sir Aberteifi; ac yn y Deheudir y treuliodd y gweddill o'i ddyddiau, oddi eithr un tymmor yn sir Fflint, ac un arall ym Maldwyn. Nodweddion amlycaf ei fywyd oedd duwiolfrydedd, ymroddiad, a diwydrwydd difwlch. Gwelir hyny wrth rif y pregethau a draddododd, a'r teithiau a gymmerodd. Pregethodd 600 o weithiau mewn dwy flynedd yn Llandeilo, 727 o weithiau yn Aberteifi mewn tair blynedd, 533 o weithiau yng Nghaerdydd mewn dwy flynedd, 679 o weithiau yn Nhreffynnon mewn dwy flynedd, 886 o weithiau yn Llanfyllin mewn tair blynedd, ac yn gyffelyb, ar gyfartaledd, yn y cylchdeithiau eraill. Am ei deithiau, dywed ei fywgraphydd fel hyn:—

"Yn Hydref 31, 1825, gwnaeth gyfrif o'i deithiau er Ion. 25, 1824, yr hyn sy'n cyrraedd 6,330 o filltiroedd ar geffyl. O'r pryd hwnw hyd y nos Wener cyn ei farwolaeth, cadwodd gyfrif o'i deithiau bob dydd, gan eu symio i fynu bob mis, a'u dwyn drosodd o flwyddyn i flwyddyn; ac yr oeddynt yn gwneud i fynu'r cyfanswm o 90,905 o filltiroedd mewn 21 o flynyddau; a phan ystyrir iddo deithio o 17 i 18 mlynedd, cyn dechrau cadw cyfrifon, gellir dywedyd iddo deithio o leiaf 181,000 o filltiroedd, a'r rhan fwyaf ar draed."*

Yr oedd ef yn llai tueddol na'i frodyr at yspryd dadleuol ei oes. Ychydig o'r pyngciau dadleuol oedd yn ei bregethau. Troi pechaduriaid, ac adeiladu'r saint, oedd cyfeiriadau gwastadol ei bregethau ef. Ymunodd yn gynnar â'r symmudiad dirwestol, a chymmerai safle amlwg yn y prif gylchwyliau. Yr oedd hefyd yn wrthysmygwr (gwrth-ysmociwr) eiddigus, a gwnaeth ei orau i roddi yr arferiad i lawr. Llanwodd swyddi pwysig ynglŷn â Wesleyaeth. Gosodwyd ef yn Gadeirydd yr "Ail Dalaeth Gymreig" yn y blynyddau 1827 ac 1828. Yn y fl. 1833, gosodwyd ef yn Ysgrifenydd "Ail Dalaeth Deheudir Cymru," a pharhaodd yn y swydd hyd y fl. 1843, pryd y gosodwyd ef yn Gadeirydd y Dalaeth honno, yr hon swydd a gadwodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn dra disymmwth ym Merthyr Tydfil, ar yr 21fed o Ragfyr, 1845, ac efe yn 61 oed. Yn ei funudau olaf dywedai, "Tyred, Arglwydd Iesu." Claddwyd ef ym monwent y Crynwyr.

Bu'n briod ddwywaith, a chladdodd y rhan fwyaf o'i blant tra nad oeddynt ond ieuaingc. Ychydig o ffrwyth ei ysgrifell a ymddangosodd trwy'r wasg. Cyfieithodd y rhan gyntaf o "Holwyddorydd y Gynnadledd" i'r Gymraeg. Ysgrifenai yn achlysurol i'r *Eurgrawn;* ond "Teithiau Mr. Wesley yn Nghymru" oedd y llafur pwysicaf o'r cyfan, at yr hwn orchwyl yr oedd yn meddu cymhwysderau neillduol.†

* Gellir casglu, ynte, na theithiodd y cenadwr gweithgar hwn ddim llawer llai na'r Apostol Paul ei hunan.—Gol.

#### WILLIAM JONES.

Mab oedd efe i William ac Elizabeth Jones o'r Bala, lle y ganwyd ef yn y fl. 1784. Yr oedd ei rieni yn aelodau parchus gyd â'r Methodistiaid yn y Bala, a'i dad yn fleunor eglwysig galluog a defnyddiol yno. Yr oedd tuedd at bregethu yn William er yn ieuangc; a phan anfonwyd ef i'r ysgol, dysgai yn fwy awyddus na'i holl gydysgolheigion, a phregethai iddynt wrth fyned a dyfod. Pan oedd tu a 16 oed, aeth i wrando'r Dr. T. Phillips o'r Neuadd-lwyd yn pregethu yng nghapel yr Annibynwyr yn y Bala; ac yn ebrwydd wedyn, bwriodd ei goelbren ymhlith yr Annibynwyr yno. Ymhen tu a blwyddyn ar ol hyny, sef yn 1801, annogwyd ef gan yr eglwys a'i gweinidog i ddechrau pregethu; â'r hyn y cydsyniodd yntau, a daeth ar unwaith yn gymmeradwy a derbyniol i ba le bynag yr elai.

Gan iddo gael addysg dda yn ieuangc, aeth i gadw ysgol, ar ol iddo ddechrau pregethu, i Bentrellyn-cymmer, sir Ddinbych. Yn y fl. 1805, pan oedd yn 21 oed, derbyniwyd ef i'r athrofa yng Ngwrecsam, a bu yno yn ddiwyd a diesgeulus iawn hyd ddiwedd 1809; ac ar ei fynediad oddi yno y pryd hwnw, yr oedd yn un o'r pregethwyr dysgedicaf yng Nghymru. O gylch yr un amser, derbyniodd alwad oddi wrth eglwysi Annibynol Pen-y-bont-ar-ogwy a Brynmenyn, sir Forganwg,

† Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer; Cofiant y Parch. J. Davies, gan W. R. (Gwilym Lleyn); En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 165; En. Cymru, I. F., t. 218.

Digitized by Google

ac urddwyd ef yno ar y 29fed o Fawrth, 1810. Yn fuan wedi ei sefydliad yn yr ardal, chwanegwyd at y ddau le crybwylledig ddau gapel bychain eraill ymhlwyfi Coity a Llangrallo; a pharhaodd i bregethu ymhob un o'r pedwar hyd ddiwedd ei oes, a gwelodd gynnydd a llwyddiant mawr ar yr achos ynddynt.

Yn y fl. 1814, priododd Mr. Jones Miss Mary Turberville, yr hon oedd yn aelod dichlynaidd o'r eglwys ym Mhen-y-bont. Buant fyw ynghyd yn ddedwydd iawn am 22 flynedd, a chawsant ddeg o blant, y rhai oll a fagasant yn weddus a chrefyddol. Bu Mrs. Jones farw yn y fl. 1836; ac wedi i'w ferched oll adael eu tad, priododd yntau yr ail waith âg un Mrs. Howells, gweddw barchus a chrefyddol, ac aelod o eglwys Maendy; a bu hi yn ymgeledd gymmwys iddo hyd ddiwedd ei oes.

Yr oedd Mr. Jones, o ran y dŷn oddi allan, yn ŵr tal, tu a phum troedfedd a deng modfedd, lled dew yn y rhan olaf o'i oes, ac arafaidd ei ysgogiad; ac yr oedd cydgyfarfyddiad o hynawsedd a phrudd-der yn ei wyneppryd. Yr oedd ei bregethau, fel ei holl ysgrifeniadau, yn sylweddol yng ngwir ystyr y gair, ac yn ffrwyth myfyrdod cysson a chaled. Pregethai dair gwaith bob Sul, a phedair gwaith un Sul o bob mis; a gwnaeth hyny y Sul olaf y bu fyw, gan weini swper yr Arglwydd ddwywaith y Sul hwnw. Cyrheuddodd adref y noswaith honno yn bur llesg, a dïoddefodd boenau dirfawr yn ystod y chwe diwrnod canlynol, o herwydd ennyniad yr afu; eithr rhyddhawyd ef gan angau ar brydnhawn Sadwrn, y 5med o Fehefin, 1847, pan yn 63 oed, ar ol bywyd o lafur diattal am 37 o flynyddau. Claddwyd ef wrth gapel yr Annibynwyr yn Mhen-y-bont-ar-ogwy, yngŵydd tyrfa fawr o alarwyr.

Y mae rhagoriaeth Mr. Jones fel *duwinydd* yn hyspys trwy Gymru benbaladr. Cyhoeddodd amryw lyfrau o wahanol faintioli, ar wahanol byngciau, megis y rhai canlynol:—

"Saith o Bregethau ar Ioan iii. 14-21." Abertawe, 1829.
"Pregeth ar Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist." Abertawe, 1832.
"Diaconia, neu swydd Diaconiaid." Llanelli, 1836.
"Geiriadur Duwinyddol."

Y *Geiriadur* godidog hwn yw ei brif waith. Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o hono yn ddwy gyfrol 8plyg, yn 1837–39; ac yn 1864, ail argraphwyd ef yn un gyfrol 4plyg drwchus. Am y gwaith hwn, dywed un o'i fywgraphwyr fel hyn:—

"Gall y neb a ddarlleno'r prif erthyclau yn y gwaith amhrisiadwy hwn, ganfod bod yr awdur yn feddyliwr dwys, yn ymresymydd cadarn, ac yn deall gwirioneddau crefydd yn eu gwahanol ganghenau, eu cyssylltiadau, a'u cyssondeb â'u gilydd, yn llawn cystal a neb a ysgrifenodd arnynt mewn unrhyw oes; ac yn ddiddadl, nid oes un ysgrifenydd Cymraeg etto wedi dyfod i fynu âg ef ar holl byngciau duwinyddiaeth. Gall fod rhai wedi ysgrifenu yn rymusach, heleuthach, a mwy treiddgar, ar byngciau neillduol; ond, a chymmeryd duwinyddiaeth yn y crynswth, y mae'n anhawdd genym gredu y rhoddai unrhyw farnydd diduedd y flaenoriaeth arno i un duwinydd Cymreig. Y mae ei ragoriaeth fel duwinydd yn gynnwysedig yn fwy yn ei ofal i osod allan ei feddyliau mewn geiriau eglur a phriodol; i ymresymu yn deg ac argyhoeddiadol; i sylfeunu ei holl osodiadau ar ymadroddion Ysgrythyrol pendant, neu gasgliadau naturiol oddi wrthynt; ac i fod yn ofalus i beidio gwrthddywedyd ei hun; yn hytrach nag mewn gorddyfnder ac arucheledd meddylddrychau. Ychydig cyn ei farwolaeth, yr oedd wedi dechrau ysgrifenu *Geiriadur* ar droell-ymadroddion Ysgrythyrol; a dïau pe cawsai fyw i'w orphen, a'i ddwyn allan, y buasai yn drysor gwerthfawr."

Heb law y llafur mawr a godidog a nodwyd, ysgrifenodd Mr. Jones lawer, pan yn ieuangc, i *Seren Gomer*, ar y genhadaeth. Hefyd, bu'n olygydd i'r "Drysorfa Genedlaethol," cyhyd ag y dygwyd hi allan yn Abertawe; ysgrifenodd lïaws o erthyclau campus i'r *Diwygiwr;* a chyfieithodd "Fibl Teuluaidd" Morrison i'r Gymraeg. Wedi iddo farw, cyhoeddodd ei ganlyniedydd ym Mhen-y-bont, y Parch. J. D. Williams, gyfrol fechan o'i bregethau, y rhai, fel ei gyfansoddiadau eraill, sy'n arddangos meddwl galluog a choethedig.*

## DAVID WILLIAMS.

Rhieni y gŵr enwog hwn oedd David ac Ann Williams, Siglan-fawr, Llanfair-pwll-gwyngyll, sir Fôn. Ganwyd ef ar y 24ydd o Ragfyr, 1785. Dychwelwyd ef at grefydd yn y fl. 1806, wrth wrando ar y pregethwr Wesleyaidd a elwid y Parch. William Davies, Affrica, yn pregethu ar Esa. xii, 12. Dechreuodd yntau bregethu yn y fl. 1807, yn Aberffraw; a'i farn ef ei hun am ei gynnyg cyntaf ydyw, "Ni wneuthum ond gorchwyl gwael o honi; ïe, truenus, yn wir." Wedi iddo lafurio fel pregethwr lleol hyd Nadolig y fl. 1809, a symmud o hono i drigo i Gaergybi, gwahoddwyd ef i Gylchdaith Caernarfon, fel cynnorthwywr; ac wedi cymmerwyd pythefnos o amser i ystyried y cais, ac i weddïo am arweiniad Dwyfol, penderfynodd gydsynio. Dechreuodd ar y weinidogaeth deithiol yn Awst, 1810. Pennodwyd ef i lafurio ar Gylchdaith Llanrwst gyd â'r Parch. Evan Parry. Yn y fl. 1811, symmud-

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 208; En. Cymru, I. F., t. 650; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 136.

Digitized by Google

odd i Ruthyn; yna, yn 1812, i Ddolgellau; ac wedi treulio'r fl. 1813 yn Abertawe, aeth i Gynnadledd Bristol, yn 1814, i gael ei ordeinio. Bellach, symmudai yma a thraw, trwy Ddehau a Gogledd Cymru, gan gymmeryd Manchester, Llundain, a Nerpwl, yn ei dro (oddi eithr y fl. 1822, pan y bu'n glaf), hyd y fl. 1850, pan yr aeth yn Uwchrif. Wedi hyny, ymsefydlodd yn Nerpwl; ac yno, wedi treulio deuddeng mlynedd yn y dref, a gwneud cymmaint ag a allai o ddaioni gyd â chrefydd, y terfynodd ei oes lafurus yn orfoleddus, ar y 19ydd o Fehefin, 1862, yn 77 oed, wedi bod yn pregethu am 55 mlynedd.

Fel dŷn, yr oedd Mr. Williams o faintioli cyffredin, ymddangosiad dynol, a gwneuthuriad cadarn, heb fod o gorpholaeth rhy dewychus. Yr oedd ei wynepryd yn llawn, llyfn, a glandeg; ei dalcen yn llydan, heb fod yn uchel iawn, yn cysgodi llygaid gleision, llawn o sylw a chraffder; ei wallt yn winau, byr, ac yn cael ei osod i dyfu ar i fynu; ei drwyn o'r ffurf eryraidd; a'r wefus isaf yn dewychus, ac yn taflu allan. Yr oedd difrifwch, cywirdeb, annibyniaeth, ac eofndra yn wasgaredig ar ei wedd. Dïau fod gan ei ymddangosiad personol hardd, uchelfrydedd naturiol ei yspryd, yn gystal a'i safle uchel fel pregethwr, gryn lawer er rhoddi iddo y cyfenwad "Brenin," a "Dafydd Frenin," fel yr adnabyddid ef yn gyffredin. Ond er y gwahanol bethau a nodwyd, yr oedd gras wedi ei wneud mor hynaws a hydrin a phlentyn. Y peth hawddaf yn y byd oedd cyffroi ei deimlad, a thynu dagrau o'i lygaid. Yr oedd ei serch perthynasol yn angerddol gryf, ac yr oedd ei ffyddlondeb i'w gyfeillion yr un mor ddisyfl. Casâi anffyddlondeb, twyll, brad, a phoppeth o'r fath, â chas cyflawn, a defnyddiai ymadroddion celyd i'w darlunio.

Fel ysgolhaig, ymddengys mai ychydig o fanteision addysg a gafodd W. Davies pan yn blentyn; ond trwy ymroddiad a llafur, cyrheuddodd wybodaeth helaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cymmerai ddyddordeb mawr mewn llunio geiriau newyddion o'r hen wraidd Cymreig, ac mewn symleiddio geiriau mawrion. Dan ddylanwad y syniad yma, defnyddai *fa* am *gartref*, ac *efelu* am *efelychu*, a'r cyffelyb.* Ysgrifenodd gryn lawer, y rhai a gyhoeddwyd mewn gwahanol ddulliau, megis y pethau canlynol:—

"Golwg ar waith mawr ein Iachawdwriaeth." Pregeth ar Ioan i. 14. 1833.

"Adgyfodiad y Meirw," a "Gwirionedd y Grefydd Gristionogol." Dwy bregeth a gyhoeddwyd mewn cyfrol gan Mr. Humphreys, Caernarfon. 1840.

"Etholedigaeth yn ei Hegwyddor." Pregeth ar Esa. xliii. 1. Bl. 1848.

"Etholedigaeth."† Pregeth ar Eph. i. 3-12. O gylch yr un amser.

"Y Nefoedd a'r Ddaear Newydd."‡ Pedair o erthyclau yn yr *Eurgrawn*, yn y fl. 1861.

"Trugaredd Duw at yr hil ddynol, yn ei osodiadau yn y ddaear." Wyth o erthyclau yn yr *Eurgrawn*. Bl. 1862.

"Y Messiah dan ei Goron." Math ar draeth-bregeth a gyhoeddwyd mewn llyfr a elwir "Dwfr y Bywyd."

Dywedir yr ysgrifenodd lïaws o bethau eraill; ond dyma'r cwbl y medrasom ni gael eu henwau. Ond pa mor ragorol bynag ydyw Mr. Williams trwy'r wasg, yn y pulpud, fel pregethwr, yr ymddangosai efe odidocaf. Bu am tu a deugain mlynedd yn un o ddynion amlycaf y Wesleyaid mewn cyfarfodydd mawrion, taleuthol, ac achlysuron cyhoeddus eraill. Yr oedd yn feistr y gynnulleidfa mewn gwirionedd. Bu torfëydd yn crogi wrth ei wefusau gannoedd o weithiau. Pregethodd mewn Cyfarfod Taleuthol yn Amlwch, er ys llawer blwyddyn yn ol, ar y geiriau, "Hebof fi, ni ellwch chwi wneuthur dim," nes creu cyffro trwy'r holl ynys. Mewn Cyfarfod Taleuthol arall yng Nghaernarfon, pregethodd i'r miloedd ar y Maes, a'r diweddar Caledfryn yn ei wrando, yr hwn a ddywedodd, "Buaswn yn credu mai angel o'r nef oedd yna, pe na buasai genyf sicrwydd ei fod yn ddŷn."§

---

## PENNOD XXII.

### WILLIAM ROBERTS A MICHAEL JONES.

William Roberts, Amlwch, Môn, ydoedd fab i Robert Evans ac Elizabeth Prichard. Yr oedd R.

* Nid rhyfedd, gan hyny, i un o'i fywgraphwyr ddywedyd—"Er ei fod yn ysgrifenu yn nerthol, ac yn myned allan o'r ffordd gyffredin i drin ei bwnge, yr oedd yn fwy golau yn y pulpud nag ydoedd o eglur ac ystwyth trwy'r wasg. Byddai yn ormod gwaith i neb yn y swyddfa ddeall rhai o'i frawddegau mewn ysgrifau a anfonai yn achlysurol 'r *Eurgrawn*. Yr hyn a allasai fod yn ystwyth iddo ef, oedd yn aneglur iddynt hwy." Nid ydym yn synu dim at hyn, od arferai lawer o eiriau o fath "*fa* am gartref!" Nis gallwn ni weled un math ar sail i hyn, a'r cyffelyb, ond mympwy noeth. Y Dr. Davies a eglura wraidd y gair cartref fel hyn:—"Cartref...A *càr*, jucta, apud. & *Tref*, habitatio." A'r Dr. Pughe a'i treigla o *tref*. Beth a wnaeth i Mr. Davies ddychymmyg mai "*fa*" oedd ei wreiddyn, nis gwyddom ni amcan deuar, oddi eithr nad oedd blys ar yr hen frawd, fel Tegai, ysgrifenu yr iaith "fel y *dylai* fod," yn ol ei fympwy ef, felly, yn lle fel y *mae* yng ngwaith ein prif ysgrifenwyr.—Gol.

† Dywedai y diweddar Barch. Rowland Hughes am y bregeth hon, mai ofer i neb ymyryd â'r testyn uchod ar ol Mr. Williams; ei fod wedi ymdrin â'r testyn mor fedrus, mor glir, ac mor llwyr, fel y byddai pob ymgais at ragori yn aflwyddiannus.

‡ Dengys yr erthyclau galluog hyn bod meddwl Mr. Williams o duedd athronyddol, ac y dilynai egwyddorion crefydd i'w gwahanol gyssylltiadau a pherthynasau. Hefyd, dengys yr erthyclau dan sylw y treuliodd lawer o amser ac o allu i fyfyrio perthynas y gwahanol oruchwylieuthau â'u gilydd; eu lle, eu gwasanaeth, a'u sylweddiad yn yr un Gristionogol.

§ Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer; Enwog. Cymru, J. T. Jones, cyf. ii., t. 614.

Digitized by Google

Evans, yr hwn oedd enedigol o sir Gaernarfon, yn gefnder i Elias Jones, tad y Parch. John Elias. Felly, yr oedd Roberts ac Elias yn gyfyrdyr; ac "Nid cenhedlawg ond cyfyrdyr," eb yr hen ddihareb. Yr oedd ei fam, E. Prichard, yn hanu o hen deuluoedd Môn: yr oedd ei thaid hi a thaid y diweddar Arglwydd Dinorben yn ddau frawd. Ganwyd WILLIAM, gwrthrych yr erthycl hon, ar y 19ydd o Fedi, 1784, mewn lle a elwir Aber-arch, ymhlwyf Llaneilian, ger llaw Amlwch. Pan oedd William tu a 5 oed, symmudodd ei rieni o Aber-arch i dyddyn bychan yn yr un ardal, a elwir Hen-felin; ac y mae rhai o'r teulu yn preswylio yno hyd y dydd hwn. Heb law trin y tyddyn, yr oedd Robert Evans yn gweithio fel mwnwr ym Mynydd Paris.*

Ymddengys bod rhieni William yn gwbl anllythyrenog a digrefydd yn nyddiau ei fabandod ef, er eu bod yn bobl onest a pharchus yn eu hardal. Dywedir na chafodd efe ddiwrnod o ysgol pan yn blentyn; er hyny, ceir gweled iddo ef ddysgu rhai ieithoedd, a llawer o wybodau eraill, mewn amser dyfodol, a hyny bron yn hollol trwy ei allu, ei lafur, a'i ddiwydrwydd ei hun. Pan oedd tu a 10 oed, cymmerwyd ef gyd â'i dad i Fynydd Paris, i weini i rywrai oedd yn gweithio yno; ac ymhen ennyd, dechreuodd lafurio yno ei hun fel mwnwr, a pharhaodd yn y gorchwyl hwnw dros rai blynyddoedd. Fel yr oedd yn tyfu i fynu, dywed ei nai, y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, iddo ddyfod "yn ddŷn o gyfansoddiad corphorol esgyrniog, ystwythgryf, ac felly yn fwy galluog na'r cyffredin i gyflawni gorchestwaith. Tynai gryn sylw arno fel dŷn cryf a gweithgar. Clywsom ef yn dywedyd, fwy nag un unwaith, iddo wneuthur cam â'i natur trwy ryw orchestion ffol, a thrwy weithio yn rhy galed." Parhaodd ar hyd ei oes yn dra hoff o lafur corph a meddwl, ac nid oedd dim mwy annïoddefol ganddo na dïogi. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf o'i oes, yr oedd yn gwbl ddifeddwl am grefydd, ac yn ymroddi i fywyd o oferedd, ac yr oedd argoelion arno y troai allan yn bencampwr yngwasanaeth Satan; ond cafwyd prawf lled fuan nad meddyliau y werin am dano oedd meddyliau yr Arglwydd.

Yr oedd ei chwaer, Ann, mam Mr. Hughes o'r Gaerwen, yr hon oedd 7 mlynedd hynach nag ef, wedi ei hennill ryw fodd, pan oedd ef tu a 10 oed, i ymuno â'r Methodistiaid; ac yr oedd cadwedigaeth ei theulu yn gorphwys yn drwm iawn ar ei meddwl. Ymhen rhyw bedair blynedd wedyn, ennillwyd y fam atynt yr un modd; a rhwng y chwaer a'r fam, ennillwyd yntau i wrando pregethau yn lled gysson, cyn ei fod yn 12 oed; ac yr oedd yn cael hyfrydwch mawr yn hyny, er nad oedd y pregethau etto wedi effeithio i ladd ei dueddiadau anianol. Er hyny, dywedai ei hun i bregeth gan Peter Williams effeithio yn ddwys iawn ar ei feddwl. Nis gallai efe fod ond ieuangc y pryd hyny, canys bu Mr. Williams farw, fel y gwelsom, yn y fl. 1796, cyn bod W. Roberts yn 12 oed. Dywedai hefyd i bregeth Robert Roberts, Clynog, effeithio yn ddirfawr ar ei feddwl, pan nad oedd ond pur ieuangc. Pa wedd bynag, parhau yr oedd, er teimlo fel hyn yn achlysurol, i fyned rhagddo mewn caledwch ac annuwioldeb, hyd ryw amser, pan oedd ei gyfyrder, John Elias, yn pregethu yn hen Gapel Lledrod, ger llaw Amlwch, pryd y teimlodd y fath argraphiadau ar ei feddwl fel y penderfynodd adael ei lwybrau pechadurus o hyny allan byth, ac ymroddi yn hollol i ddilyn Iesu Grist. Yn lled fuan wedyn, pan oedd rhwng 17 a 18 oed, efe a ymunodd â'r Methodistiaid yn hen Gapel Lledrod.

Wedi i William Roberts ymuno â'r eglwys, buan yr ennillodd barch mawr ym mysg ei frodyr. Yr oedd yr argyhoeddiadau dwysion a brofasai wedi rhoddi elfen o ddifrifwch yn ei feddwl; ac yr oedd hyny, ynghyd â gwedd sobr, nerth cymmeriad, a symlrwydd buchedd ymhob peth, yn peru i'w frodyr feddwl yn fawr iawn am dano. Heb law hyn, disgynodd ei goelbren ym mysg crefyddwyr cymmwys iawn i arwain a phorthi un ieuangc fel efe. Yr oedd yn yr eglwys rai dynion â llygaid yn eu penau; ac felly, nid hir y bu William Roberts yn eu plith cyn iddynt ganfod ynddo, er ei holl wyleidd-dra, gymhwysder i fod yn fwy cyhoeddus na'r cyffredin o'i frodyr. Cafwyd ganddo yn lled fuan, trwy daer gymmell, gymmeryd rhan yn achlysurol yn y cyfarfodydd gweddïo a gynhelid yn y capel, ac mewn tai annedd, yma a thraw, yn y gymmydogaeth. Yr oedd hefyd weithian wedi dechrau cael hyfrydwch mewn darllen llyfrau, ac yn gwneud y defnydd gorau o bob un felly a fyddai yn ei gyrraedd. Pan oedd rhwng 18 a 19 oed, daeth rhyw waeledd ar ei iechyd a'i hanalluogodd i ddilyn ei alwedigaeth

* Dywedir mai hen enw'r mynydd, neu'r ucheldir yma, oedd Mynydd-y-Trysglwyn, neu Fynydd-y-Tristlwyn; ond pan wnaed un *Robert Paris* yn ddirprwywr gan Harri IV., i ddirwyo boneddigion Môn am bleidio Owain Glyndwr, y rhoddwyd yr ucheldir yma, ym mysg pethau eraill, i'r dirprwywr hwnw, am ei ffyddlondeb i'r brenin, ac wedyn y galwyd y lle yn *Fynydd Paris*.

ym Mynydd Paris; a phan yn y gwendid hwnw aeth i ysgol ddyddiol y Parch. John Evans, gweinidog yr Annibynwyr yn Amlwch, lle y bu am dri mis; a dyna'r holl ysgol ddyddiol a gafodd yn ystod ei fywyd. Tra yn yr ysgol, adnewyddodd ei nerth a'i iechyd; ond ni theimlai duedd mwyach i fyned yn fwnwr; am hyny, cyflogodd i fyned yn weithiwr ar dir un Mr. Roberts, lledrwr (*currier*), yn Llanerch-y-medd, yr hwn oedd yn henadur yn eglwys y Methodistiaid yn y pentref hwnw. Ymroddai yno etto, gyd â diwydrwydd mawr, i fywyd crefyddol, a daeth yn fuan yn adnabyddus i'r eglwys fechan oedd yno ar y pryd fel gŵr ieuangc hynod mewn duwioldeb, ac o allu pell uwch law'r cyffredin i wasaneuthu crefydd, ond ei fod yn boenus hwyrfrydig i ymgymmeryd â phob gwaith cyhoeddus: er hyny, nis gallai fod yn guddiedig. Yr oedd y cyfeillion yn ei dynu ym mlaen; a pha bryd bynag y ceid ganddo weddïo, ac yn enwedig i ddechrau cyfarfod, a dywedyd ychydig ar y bennod cyn myned i weddi, byddai ei gyfarchiadau yn ysgwyd yr holl gynnulleidfa, ac yn cynhyrchu teimladau hynod o ddwysion.

Ar ol bod yn Llanerch-y-medd am flwyddyn, symmudodd i Amlwch, i wasanaeth un William Morgan, yr hwn oedd yn ffarmwr a chanwyllwr, ac yn fleunor eglwys y Methodistiaid yn y dref. Prif orchwyl W. Roberts weithian oedd gwneud canwyllau; ond gweithiai yn achlysurol ar y tir. Llettyai yn awr gyd â'i rieni, a daeth etto yn aelod o eglwys Lledrod, â'r hon yr ymunasai gyntaf. Yn bur fuan, pan nad oedd ond 21 oed, dewiswyd ef yn fleunor ar yr eglwys honno. Pan oedd yn 23 oed, dechreuodd bregethu. Cydnabyddai fod ganddo ryw feddwl am hyny er ys rhai blynyddau; er hyny, trwy anhawsder mawr y cafwyd ganddo ddechrau. Ond pan y cafwyd ganddo ddechrau, yr oedd y fath sobrwydd yn ei ymddangosiad, y fath symledd yn ei amcan, y fath graffder a phriodoldeb yn ei sylwadau, ac yn neillduol y fath awdurdod a nerth yn ei draddodiad, fel y cyfododd ar unwaith i barch a dylanwad mawr ymhlith ei frodyr.

Yn nechrau y fl. 1817, pan oedd efe yn 33 oed, ymsefydlodd mewn masnach gyffredinol drosto ei hun yn Amlwch.* Ym mis Mehefin y flwyddyn honno, neillduwyd ef i'r holl waith yng Nghymdeithasfa y Bala. Ar ol yr 2fed o Fawrth y flwyddyn ganlynol (1818), priododd Miss Sarah Jones, Gwern-Howel, Yspytty, sir Ddinbych, yr hon a fu iddo, ymhob ystyr o'r gair, yn "ymgeledd gymmwys." Gwnaeth ei rhan yn ardderchog i'w gynnorthwyo yn ei waith mawr fel pregethwr a masnachydd. Calonogai a chymhellai ef i fyned i'w gyhoeddiadau, pan y byddai efe yn teimlo tuedd i lwfrhau; a rhoddai iddo bob mantais a allai hi i barotöi ar eu cyfer, trwy ofalu am y siop ei hunan, hyd eithaf ei gallu, mewn undeb â gwas a morwyn. Y mae'n syndod iddi allu cymmaint er hyrwyddo ei waith fel efengylwr, os cofir ei bod yn fam i naw o blant, a bod eu masnach mor helaeth ag ydoedd.

Fel dŷn, heb law bod Mr. Roberts yn perchen corph tal, cadarn, yr oedd hefyd yn meddu meddwl cryf, craffus, treiddgar, a phenderfynol, y fath ag a'i galluogodd i ragori ymha gangen bynag o wybodaeth a gymmerai dan ei sylw. Er na chafodd ddim dysg ym morau ei oes, na dim ond rhyw dri mis o ysgol o gwbl, fel y gwelsom; er hyny, trwy ymroddiad diball, a llafur caled wrtho ei hun, yr oedd wedi llwyddo i feistroli yr iaith Saesneg yn dda o ran ei deall; a gallai ei siarad yn weddol, a'i hysgrifenu yn lled rwydd a chywir. Yr oedd hefyd wedi llwyddo i ddeall cymmaint o'r Hebraeg a'r Groeg fel y gallai, trwy gymmorth geiriaduron, farnu drosto ei hun, i ryw fesur, am ystyr yr adnodau yn yr Hen Destament a'r Newydd a ddewisid ganddo i bregethu arnynt. Ac nid yn unig hyny, ond yr oedd wedi cyfoethogi ei feddwl, i raddau helaeth iawn, â gwybodaeth gyffredinol, yn enwedig â phob peth a dybid ganddo yn fanteisiol iddo, er ei gymhwyso i "bregethu y gair," a "phregethu yr Arglwydd Iesu." Yr oedd yn hynod o hoff ganddo fywgraphyddiaeth a hanesyddiaeth, cyffredin ac eglwysig; a gallai ddefnyddio yr hanesion a'r digwyddiadau a ddarllenai gyd â grym ac effaith dirfawr, er egluro y gwirioneddau neillduol a fyddent ganddo o bryd i bryd dan sylw. Y llyfrau a hoffai fwyaf oedd yr *Encyclopædia Britannica* (y Gwyddoniadur Brutanaidd), gwaith y Dr. Lightfoot, y Dr. Gill, a Macknight, sylwedd y rhai a wnai yn eiddo iddo ei hun:—

Fel penteulu, dywed un o fywgraphwyr Mr. Roberts am dano fel hyn:—

"Yr oedd y priod serchocaf, a'r tad mwyaf tyner. Nid

* Dywedodd Mr. Roberts ei hun wrth yr ysgrifenydd mai 100p. oedd ganddo pan yn dechrau masnachu; ond ei fod, cyn pen hanner blwyddyn ar ol dechrau, mewn 800p. o ddyled i wahanol dai masnachol yn Nerpwl, Manchester, a Birmingham! Er hyny, o herwydd ei fawr ofal a'i graffder digyffelyb, braidd, llwyddodd yn fuan i fod yn un o brif fasnachwyr y dref, a bu farw yn un o fasnachwyr cyfoethocaf yr holl wlad.

Digitized by Google

oedd neb a hoffai ei deulu, ac a hoffid gan ei deulu, yn fwy nag ef. Parai hyn iddynt ymhyfrydu ynghymdeithas eu gilydd. Er hyny, y mae'n rhaid dywedyd y byddai yn cael ei flino yn dost, ar brydiau, gan brudd-der mawr, yr hyn a dueddai i daflu mesur o drymder ar yr holl deulu. Ond yr oedd ganddo 'angel yn ei dŷ' ymherson ei wraig, yr hon oedd yn dra llwyddiannus i ymlid ymaith y drwg yspryd yna. Er hyn oll, yn gymmaint a'i fod yn ddarostyngedig i'r anhwylder hwn, ceid ef trwy ei oes mewn gwahanol foddau ar wahanol amserau. Yn y modd prudd y ceid ef bob amser bron yn cychwyn o hono i daith bregethwrol, neu i gymmanfa. Byddai amgylchiadau fel hyn yn taflu eu cysgodion tywyll ar ei feddwl am wythnosau cyn eu hamser, gan beru iddo boeni a phryderu nes amharu ei iechyd. Meddiennid ef gan y fath brudd-der, weithiau, fel nas gellid llai na thosturio wrtho. Ar adegau fel hyn, gorchwyl caled fyddai ei gychwyn oddi cartref. Byddai rhaid cuddio ei hen ddillad, a dodi ei ddiwyg Sabbothol yn ei ymyl, ac erchi y march allan; ac nis gwyddid yn iawn, hyd oni welid ef ar ei farch, pa un a wnelai ai cychwyn ai peidio. A llawer gwaith y gwelwyd ef, wrth gychwyn i'w deithiau, â'i ddagrau ar ei ruddiau, fel plentyn. Ymddengys mai cael ei lethu y byddai gan deimlad o'i anghymhwysder i'r gwaith o'i flaen, a chan ofn myned yn faich ar bobl. Yr oedd ei wraig yn ei ddeall yn drwyadl, a da oedd hyny iddo ef, ac i eraill hefyd. Gwyddai hi hefyd yn burion, ond ei gael ef unwaith ar ei farch (a chyd â llaw, marchogwr dihafal ydoedd), y cai ymwared buan oddi wrth ei anhwylder."

Fel pregethwr, dïau ei fod yn un o'r rhai blaenaf o holl bregethwyr Cymru; a dichon ei fod, o ran gwreiddiolder, treiddgarwch, annibyniaeth, nerth, difrifwch meddwl, heb gymmaint ag un yn rhagori arno. Ni bu neb erioed mwy gwreiddiol. Prin y gallai ddywedyd dim fel dŷn arall. Yr oedd yn meddwl yn hollol arno ei hunan; yn cymmeryd ei safle ei hunan i edrych ar bob matter; yn dethol (os dethol hefyd) ei eiriau ei hunan i osod allan y meddwl a fyddai ganddo; yn cyssylltu y geiriau hyny wrth eu gilydd, er llunio ei ymadroddion, mewn rhyw ddull priodol yn unig iddo ei hunan; ac yn eu traddodi drachefn mewn dull gwahanol i bawb arall, ac na buasai yn gweddu i neb ond iddo ef. Yr oedd gafeuliad ei feddwl, ymha beth bynag yr ymaflai, yn aruthrol o gryf, a chylch ei sylwadaeth ar bob pwngc yn ehang, ac, ar yr un pryd, yn fanwl iawn. Yr oedd rhyw ddifrifwch yn ei ymddangosiad a'i gosodai arno ei hunan ynghanol ei holl frodyr. Yr oedd mantais fawr ganddo i hyny, y mae'n wir, yn ei wedd allanol, yn ei wefusiau trymion, ei bryd tywyll, yn gystal ag yn ei ardymheredd naturiol. Pe na buasai ond hyny, buasai yr olwg arno yn gibog, cuchiog, a surllyd, yn hytrach na difrifol; ond, gan ei fod yn cymdeithasu yn wastad â gwrthrychau mawrion, ysprydol; yn ymdeimlo yn gysson â phresennoldeb a sylw yr Anfeidrol, ac yn y cyffredin yn obeithiol o'i fod ei hunan mewn heddwch âg ef; ar fyr, yn gymmaint a bod difrifwch gwirioneddol yn llanw ei feddwl, difrifwch pur a diledrith a ganfyddid yn ei ymddangosiad. Yr oedd pawb yn teimlo nad dim ffugiol, nad dim yn cael ei wneud, ac nad dim yn cyfodi ar y pryd oddi ar amgylchiadau neillduol, ond mai cynnyrch naturiol ac uniongyrchol agwedd gyffredin meddwl y dŷn ydoedd. Yr oedd y difrifwch hwn yn elfen bwysig yn ei ddylanwad ar ei gyd-ddynion. Yr oedd yn gosod rhyw barchedigaeth ar ei wedd, yn enwedig pan ymddangosai ger bron cynnulleidfa i bregethu iddi "efengyl y tangnefedd."

Yr oedd rhyw hynodrwydd arbenig yn ei ddull o roddi pennill allan i'w ganu. Y mae hyny, o bossibl, mor fyw am dano ynghof ei hen wrandawyr a dim a berthynai iddo. Yr oedd, rywfodd, wrth roddi'r pennill allan, yn creu yspryd canu yn yr holl gynnulleiddfa. Darllenai ei destyn yn gyffredin yn gynhyrfus, ac yn fynych iawn yn gnyciol a haciog, gan ail ddechrau, weithiau, fwy nag unwaith, cyn y llwyddai i fyned trwyddo; ond etto, yn wastadol braidd, os byddai mewn lle yr oedd yn adnabyddus, gyd â chryn effaith ar y gynnulleidfa. Wedi dywedyd gair o ymesgusodiad, ond odid, fe daflai allan ryw sylw dwfnddreiddiol, a wasanaethai yn dra naturiol i arwain meddyliau y gwrandawyr at y testyn, yn gystal ag i roddi cyweirnod dedwydd i'r bregeth. Yna, dechreuai egluro ei destyn, ac fe wnai hyny yn ardderchog. Yr oedd yn rhagori bron ar bawb am ddangos ystyr y testyn yn y cyssylltiad y gorweddai ynddo, gan agor y cyssylltiad hwnw yn fanwl ger bron ei wrandawyr. Bernir gan rai nad oedd yn dyfod i fynu â Mr. Elias am esponio geiriau neillduol testyn, nac am ei godi allan, nes peru iddo sefyll arno ei hunan hyd byth ym meddyliau ei wrandawyr; ond yr oedd yn rhagori arno mewn gallu i roddi golygiad ar rediad yr holl adran y perthynai y testyn iddi, yn enwedig os cynhwysai ryw ymresymiad, ac mewn gallu i roddi ffurf bendant, a hollol rydd oddi wrth hualau pob cyfundraeth, i'r ymresymiad hwnw. Wedi penderfynu ystyr y testyn, disgynai ar y cynllun a fwriedid ganddo i'r bregeth; ac yn y fan yma, nid oes un amheuaeth nad oedd yn dirfawr ragori ar bawb o'r hen bregethwyr; ac, yn wir, yn hyn, nid ydys yn gwybod am odid neb i'w gystadlu âg ef. Cydiai yn wastadol yn hanfod y testyn, a thynai ef allan mewn dau neu dri o osodiadau mor briodol a naturiol ag i argyhoeddi y rhai mwyaf deallus a meddylgar ymhlith ei wrandawyr

Digitized by Google

a [illegible] ger eu bron wir ystyr ysprydoliaeth ynddo, a hyny mewn rhyw ddull mor effeithiol nes peri i'r rhai mwyaf dïofal a difeddwl deimlo, i fesur, oddi wrth bwysfawrowgrwydd yr ystyr hwnw, yn ei berthynas â hwy eu hunain. Byddai yn hawdd nodi amryw esamplau, ond ni oddef lle; gan hyny, cymmerer un yn unig. Traddodwyd y bregeth a nodir genym ar nos ddiweddaf Cymdeithasfa Caernarfon, Medi 11, 1851. Yr oedd Mr. John Davies o Nerquis ac yntau yn pregethu yng Nghapel Morïah. Yr oedd y capel mawr yn orlawn ymhob cwr o hono. Yr oedd y Parch. Owen Thomas (y Dr. Thomas o Nerpwl yn awr), a'r diweddar Barch. John Hughes o Nerpwl (Gwrecsam gynt), yn eistedd yn yr un sêt yn y *gallery*, gyferbyn a'r pulpud. Wedi i Mr. Davies orphen pregethu, dyna Mr. Roberts yn sefyll i fynu ger bron y gynnulleidfa. Gyd â'i fod yn y golwg, gofynodd Mr. Hughes i'r Dr. Thomas, mewn syndod, "Wel, mewn difrif! a welsoch chwi olwg mor barchedig ar ryw un erioed!" "Naddo, erioed," ebr yntau, "oddi eithr, nid hwyrach, y Dr. Gordon o Edinburgh." "Y Dr. Gordon!" ebr yntau: "ni bu yr un doctor erioed yn ymddangos mor *venerable* a hyn!" Ac, yn wir, yr oedd rhywbeth, y noswaith honno, yn ei ymddangosiad mwy mawreddig, medd y rhai oedd yn bresennol, nag a welwyd ar odid ddŷn erioed; ond yr oedd hyny heb ddim rhwysg a hyfdra: yn wir, yn y cyfuniad dedwydd o awdurdod a gwylder, urddas a gostyngeiddrwydd, yr oedd dirgelwch mawr dylanwad ei bresennoldeb ef yn gorwedd. Ei destyn ydoedd Eph. i. 10, "Fel ynghyflawnder yr amseroedd, y gallai grynhoi ynghyd yng Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear, ynddo ef." Wedi esponio cyssylltiad y testyn, a manylu mwy nag a fyddai arferol iddo ef ar ei eiriau neillduol, ac yn enwedig bod y gair "crynhoi" yn arwyddo "*crynhoi ynghyd dan un pen*," cymmerodd y cynllun canlynol i'w bregeth:—

"I. Bod dyfodiad pechod i'r byd wedi taflu creadigaeth Duw i anghrefn: y mae rhyw dybiaeth am wasgariad mawr yn y geiriau, 'crynhoi ynghyd.'

"II. Y cynllun y syrthiodd doethineb dwyfol arno i adfer pethau i drefn oedd, gosod pen newydd; gosod ei Fab yn ben: 'crynhoi ynghyd yng Nghrist.'

"III. Yr adeg neillduol i ddwyn hyn oddi amgylch: 'goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd.'"

Yr oedd yn pregethu, y tro hwn, fel y gwnai yn fynych, gyd â dylanwad rhy fawr i neb allu ei ddarlunio ar bapur. Byddai gwahaniaeth dirfawr ynddo, hyd yn oed gyd â'r un testyn, ar wahanol adegau. Er y byddai cynllun ei bregeth, fe allai, yr un; etto, byddai sylwedd y sylwadau yn dibynu, i fesur mawr, ar yr hwyl neillduol y byddai ei feddwl ynddi ar y pryd, ac yn enwedig ar y graddau o gyffroad a fyddai ar ei natur.* Yr oedd pwys anghyffredin yn hyny; ac, ond cael digon o hwnw, nid oedd un perygl na byddai y cyfarfod yn troi allan yn llwyddiannus. Ar y cyntaf, fe ymddangosai yn drwsgl: y geiriau fel pe yn ymguddio rhagddo, a'r frawddeg yn ymlusgo yn anniben i'w therfyn. Byddai yn gymmaint felly, weithiau, nes peru i rai dïeithr iddo deimlo trosto, ac ofni iddo fethu, gan dybied mai oddi ar dlodi meddwl y cyfodai yr afrwyddineb. Ond i'r meddylgar, o'r dechrau, a hyd yn oed pan fyddai yn fwyaf trwsgl, fe ymddangosai yn dra gwahanol; ac yr oedd y rhai mwyaf adnabyddus o hono yn mawr fwynhau y musgrellni, gan wybod nad ydoedd ond rhywbeth yn rhagfleunu rhaiadrau trochionog aruthrol o hyawdledd a ddisgynai oddi wrtho cyn y diwedd; ac yn y cyffredin, er nad bob amser, felly y byddai. Wedi chwarter awr lled hwyrdrwm, neu ychwaneg, fe allai, gwelid ef yn dechrau cyffröi; dyna ei lygaid yn tanio; dyna'r penelin dehau yn taro astell y pulpud gyd â nerth mawr. Toc, dacw'r Bibl dan ei gesail (arwydd sicr ei fod yn yr hwyl, ac wedi anghofio ei hunan); dyna'r talpiau o feddyliau mawrion, trymion, yn cael eu lluchio oddi wrtho, gyd â nerth arswydus; meddyliau y buasai un o honynt yn ddigon i wneud ffortiwn (*fortune*) pregethwr cyffredin, ond yn ymddangos fel yn ddiddiwedd ynddo ef. Y mae'r gynnulleidfa yn awr i gyd wedi cyfranogi, i ryw raddau, o ddifrifoldeb ofnadwy y pregethwr, a dwysder teimlad yn treiddio trwyddi: y mae ei lais yntau yn graddol leddfu. Cyn hir y mae ei dymmer ar ymddryllio; dacw'r dagrau gloywon yn treiglo dros ei ruddiau; dyna'r gallu siarad yn darfod; a chyd âg appeliadau difrifol, fel o olwg y

*Cafodd yr ysgrifenydd, ymhlith eraill, brawf nodedig o hyn unwaith. Yr oedd Mr. Roberts wedi pregethu, un tro, yn hen Gapel Llanrhyddlad ("Bethel Hen"), yn hynod o rymus ac effeithiol, ar Diar. xxii. 6, "Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd; a phan heneiddio, nid ymedy â hi." Pregeth i athrawon yr Ysgol Sabbothol ydoedd yn benaf; ac yr oeddynt hwy ac eraill wedi cael y fath foddhad a chyfarwyddiadau ardderchog ynddi, fel yr oeddynt yn orawyddus am ei chlywed drachefn. Yr oedd genym ni achlysur i alw gyd â Mr. Roberts yn Amlwch, yn lled fuan ar ol hyny, a dymunodd amryw o'r athrawon arnom erfyn arno ei thraddodi i ni drachefn, y tro nesaf y deuai i Lanrhyddlad. Wedi gwrando ar ein cais, tynodd Mr. Roberts bapuryn bychan, at faint "cledr llaw gŵr," o'i logell-lyfr, a dywedodd, fel y medrai efe ddywedyd, "Wel, yn wir, R. bach, dyma'r cwbl sydd gen i o honi; a phe rhoddwn ail gynnyg arni, nid hwyrach y byddai yn hollol wahanol." Pa wedd bynag, cydsyniodd â'n taer gais i roi "ail gynnyg," ac yn wir yr oedd "yn hollol wahanol;" ond er hyny, yr oedd yn llawn mor nerthol, buddiol, a boddhaol. Credwn nad *ysgrifenai* efe ond ychydig iawn o'i bregethau dylanwadol, ond *myfyriai* hwynt yn egnïol a thrwyadl.

Digitized by Google

byd tragywyddol, at y gwrandawyr i syrthio i mewn, ar unwaith, â threfn yr efengyl am eu bywyd, y mae'r bregeth yn terfynu, a phawb yn ymadael wedi teimlo rhyw gymmaint o "nerthoedd y byd a ddaw." O ran nerth a gwreiddiolder meddwl, dyfnder ac angerddoldeb teimlad, difrifwch ac awdurdod dull, a symledd a phurdeb amcan, yr oedd arbenigrwydd i'w gofio byth ar bregethiad a holl wasanaeth William Roberts, Amlwch.

Erbyn i Mr. Roberts gyrraedd anterth ei ddyddiau, yr oedd y rhagorieuthau mawrion a nodwyd, ynghyd âg eraill cyffelyb, wedi ei wneud yn naturiol, heb ddim ymwthiad o'r eiddo ei hun, yn un o ddynion pwysicaf ei gyfundeb, nid yn unig ym Môn, ond hefyd trwy Gymru benbaladr; a bu'n dda iawn i'r cyfundeb yn fynych wrth ei bwyll, ei graffder, a'i amhleidgarwch doeth a phenderfynol. Yr oedd rhywrai, yn ystod y blynyddoedd o 1830, neu yn gynharach, ac ym mlaen, yn ceisio gwthio yn barhaus i feddwl amryw o hen bregethwyr "y Corph," megis John Elias; John Hughes, Pont-Robert; John Jones, Tremadog, ac eraill, bod y rhan fwyaf o'r pregethwyr ieuaingc yn gwyro oddi wrth yr hen athrawiaeth a bregethid gan eu tadau; ac yr oeddynt hwythau yn rhoddi gormod o goel i'r fath chwedlau, a byddent braidd ymhob Cymdeithasfa yn taflu allan awgrymiadau angharedig gyd â golwg ar ryw rai o honynt, a'r rhai hyny, yn gyffredin, heb gymmaint a rhithyn o sail iddynt. Y pregethwyr ieuaingc a amheuid oedd Griffith Hughes, Edern; John Jones, Talsarn; Owen Thomas, Llundain (y Dr. Thomas o Nerpwl yn awr); Dafydd Jones, Caernarfon, brawd John Jones, Talsarn; Robert Hughes, Uwch-law'r-ffynnon; John Owen, Ty'n-llwyn; William Charles, Gwalchmai, a'r cyffelyb. Bu farw Richard Jones o'r Wern, fel y gwelsom, yn y fl. 1833, yr hwn oedd un o'r cyfryngwyr gorau rhwng yr hen bregethwyr a'r rhai ieuaingc. Byddai Mr. Roberts o'r Rhos, a Mr. Humphreys o'r Dyffryn, yn fynych yn gwrthwynebu ymosodiadau yr hen frodyr; ond yr oeddynt hwythau eu hunain yn rhai a amheuid, ac felly nid oedd ond ychydig iawn o rym yn eu gwrthwynebiad hwy. O'r diwedd, teimlodd gwrthrych enwog ein herthycl, Mr. Roberts, Amlwch, bod yn llawn bryd gwneuthur rhywbeth er attal yr yspryd drwgdybus ac anghysurus oedd yn ymdeunu trwy'r cyfundeb; ac ofnai fod amryw o awgrymiadau a sylwadau Mr. Elias, a'r hen frodyr eraill, o bryd i bryd, yn y Cymdeithasfaoedd, yn feithriniad a chefnogaeth iddo. Yr oedd ei barch ef i Mr. Elias yn anhreuthol; ac yr oedd gan Mr. Elias ymddiried braidd diderfyn ynddo yntau. O ran hanfod eu golygiadau athrawieuthol, yr oeddynt yn hollol yr un, ond bod duwinyddiaeth Mr. Roberts yn fwy rhydd a dilyffethair, ac heb fod yn agos mor gaeth i gyfundraeth. Yr oedd Mr. Roberts hefyd yn llawer mwy arafaidd, a phwyllog, a gochelgar, na Mr. Elias, ac yn deall yn llawer gwell nag ef yr angenrhaid, ymhob Cymdeithas, am ganiatâu rhyw gymmaint o wahaniaeth barn ac ymadrodd ymhlith ei haelodau, er sicrhau undeb a nerth gwirioneddol iddi. Gyd â'r syniadau hyn, ac oddi ar yr yspryd a'i llywodreuthai, fe lwyddodd, amryw weithiau, i roddi cyfeiriad tra dedwydd i sylwadau a allasent, heb ei gyfryngiad ef, derfynu yn dra gwahanol. Cymmerer esampl neu ddwy, yn lle lliaws y gellid eu nodi.

Mewn Cymdeithasfa yn Amlwch, Mehefin 20, 21, 1838, ymddiddenid â'r diweddar Wm. Charles o Walchmai, a Richard Roberts o Lanerch-y-medd, yn ol y drefn gyffredin y pryd hyny, gyd â golwg ar eu derbyn yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Yr oedd Charles wedi syrthio dan amheuaeth gan rai o'r hen frodyr, yn enwedig Mr. Dafydd Elias, ei fod yn gwyro oddi wrth y gwirionedd; ac yr oeddynt yn ymosod yn galed arno, er ceisio ei wasgu i adrodd ei gyffes yn eu geiriau cyfyng hwy. Yr oedd Mr. Roberts yno yn ddistaw, yn pallu dywedyd gair; ac er ei gymmell unwaith ac eilwaith, yr oedd yn nacâu cyfodi i ddywedyd dim, tra yn amlwg yn ei agwedd yn anghymmeradwyo cyfeiried yr ymddiddan. O'r diwedd, fe gyfododd; ac wrth ei weled yn ysgogi at hyny, dywedodd W. Charles wrth gyfaill, "Mi welwn fod fy ymwared yn agosâu." Yna, yn ei ddull cyffröus ac effeithiol ei hunan, efe a ddywedodd:—

"Ni bydd dim yn fy mhlesio i yn fwy mewn pregethwr na'i weled o yn bur ddiofal uwch ben y Bibl. Nid diofalwch ysgafnder ydwy'n feddwl, ond dïofalwch ffydd. Y mae ambell i bregethwr, fe feirniada awr uwch ben y gair '*byd*:' y mae o bron colli ei wynt wrth ddywedyd '*pawb*.' Fe amgylcha fôr a thir rhag cyfarfod â '*phob dŷn*;' ond am y Bibl, y mae o yn dywedyd '*byd*' mor groyw a '*defaid*;' '*pawb*' yr un fath ag '*eglwys*;' '*pob dŷn*' fel '*etholedigion*.' *Trystiwch* gryn lawer i'r Bibl, da chwi!"

Ac ar hyny, fe eisteddodd i lawr. Yr oedd y sylw yn gwefreiddio y cyfarfod trwyddo, a rhoddes gyfeiriad hollol wahanol i'r ymddiddan o hyny i'r diwedd. Yr esampl arall o'i ddylanwad daionus er rhwystro ymrafeulion a nodwn, a ddigwydd-

Digitized by Google

odd yng Nghymdeithasfa Bangor, Medi 11, 12, 1838, pan yr ymddiddenid â Mr. John Owen, Ty'n-llwyn, a Robert Hughes, Uwch-law'r-ffynnon, i'w derbyn yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Yr oedd y ddau frawd, yn enwedig Mr. John Owen, wedi syrthio dan gryn amheuaeth, ym meddwl Mr. J. Jones, Tremadog, ynghylch cywirdeb eu credo. Pan holwyd Mr. J. Owen ynghylch "Etholedigaeth Gras," efe a ddywedodd i'r ystyr canlynol:—

"Yr wyf fi yn credu yr athrawiaeth, megis gwirionedd datguddiedig; ond yr wyf yn amheus iawn am danaf fy hun, a allaf fi ei phregethu yn y fath fodd ag a fyddai yn debyg o atteb amcan y datguddiad hwnw."

Yr oedd yn hawdd gweled ar wyneb Mr. Roberts, Amlwch, bod y sylw yn ei foddhau ef yn fawr. Siaradodd amryw ar y pwngc. Mr. Elias oedd y cyntaf, yr hwn a siaradodd yn dda, a digon didramgwydd. Dilynwyd ef gan Mr. Jones, Tremadog; ond ymddangosai fod sylw Mr. Owen yn rhy ddwfn iddo ef ei ddeall; am hyny siaradodd ef yn rhy faith, amherthynasol, a braidd yn angharedig at yr ymgeiswyr. Dilynwyd ef yn yr un cyfeiriad gan Mr. D. Elias, a Mr. W. Morris, Tŷ-Ddewi. Yr oedd Mr. Roberts, y pryd hyn, yn hollol ddistaw, ac yn edrych yn dra anniddig. Ceisiai y cadeirydd ganddo siarad o flaen Mr. Morris; ond gwrthodasai. Tra'r oedd Mr. Morris yn siarad, yn gwbl ddieithr i'r amgylchiadau, ond yn tueddu ei hunan at syniadau lled uchel, ac yn amlwg fel un yn ofni bod rhyw wyrni yn yr ymgeiswyr, yr oedd Mr. Roberts yn ymddangos yn siomedig a phoenus iawn. Yr oedd Mr. Owen Thomas, Llundain y pryd hwnw (y Dr. Thomas, Nerpwl, yn awr), yn eistedd yn yr un sêt a Mr. J. Jones, Talsarn; ac ebai Jones wrth ei gyfaill, "Welwch chwi Roberts, Amlwch, yn edrych mor anesmwyth. Ni a'i cawn hi allan yn ofnadwy ganddo yn o fuan." Wedi i Morris orphen, cymhellwyd Roberts drachefn; a dyna fo'n codi, ac yr oedd golwg ryfedd ar y cyfarfod pan y cododd. Yr oedd llawer wedi cyfodi ar eu traed, gan ddisgwyl yn sicr am rywbeth tra gwahanol i ddim a ddywedasid, a phawb yn teimlo y byddai tôn y cyfarfod i'w ddiwedd, os nad tynged y ddau frawd oedd ger bron, yn dibynu ar nodwedd a chyfeiriad ei sylwadau ef. Dodwn sylwedd ei araeth gynhyrfus ger bron; ond y mae darlunio ei heffaith nerthol ar y gwrandawyr yn gwbl annichonadwy. Fel hyn y dywedodd:—

"Ar ol codi, nid wyf fi'n gwybod yn iawn pa beth i'w ddywedyd ar gwestiwn fel hwn. Ac y mae o bwys mawr mewn lle fel hyn na ddywedom ni yr un hanner gair a fyddo yn tueddu i anafu teimladau ein gilydd. Yr oeddwn i, o'm rhan i, yn hoffi yn fawr y sylw a wnaeth y gŵr ieuangc yma, ei fod ef yn amheus iawn am dano ei hunan, a allai efe bregethu etholedigaeth gras yn y fath fodd ag i atteb amcan y datguddiad o honi. Yr oedd y sylw yn fy nharo i fel sylw dŷn oedd wedi meddwl bod rhyw bwrpas i bregethu heb law siarad. Ni wn i ddim a fyddwch chwi byth yn ddigon o bregethwyr i bregethu etholedigaeth. Ni wn i ddim pwy o honom sydd felly, os oes rhywrai. Ond, os ewch chwi byth i dreio, ceisiwch edrych arni i chwi eich hunain, a'i dangos i'ch gwrandawyr, yn y cysylltiadau y cewch hi ynddynt yn Llyfr Duw. Ac, yn enwedig, peidiwch a'i chadw hi draw yn nhragywyddoldeb: ni wnaiff hi ddim daioni byth yno. Dowch a hi i lawr y capel, i ganol y bobl: hi a wnaiff achub yn y fan honno. Yn ei gwaith yn unig y gallwn ni ei deall, os medrwn ei deall hi o gwbl. Edrychwch ar y peiriant mawr, cywrain, â'i amrywiol olwynion, a phibellau, a bachau, a chadwynau; y naill yn y llall, ac yn gwau trwy eu gilydd. Y peiriannydd, yr *engineer*, sydd yn deall ei gyfansoddiad, ac a fedr ei esponio megis y mae ynddo ei hun; ei wahanol ranau, a pherthynas y gwahanol ranau â'u gilydd, i wneuthur un peiriant. Ond mi allaf fi ei weled yn gweithio; ac fe all dŷn cyffredin, anllythyrenog, heb wybod dim am ddeddfau *Mechanics* [Gallofyddiaeth], ac heb wybod yr enwau sydd gan yr *engineer* ei hunan ar amrywiol rannau'r peiriant; fe all hwnw ei ddefnyddio, a gweithio gyd âg ef, i gyrraedd yr amcan oedd mewn golwg wrth ei wneud, a'i osod i fynu. A chwithig iawn fyddai gweled y gweithwyr anwybodus, yn lle defnyddio peiriant i'w amcan yn y gwaith, yn myned i ddadlau â'u gilydd ynghylch ei gyfansoddiad. Pan ewch chwi i bregethu etholedigaeth, pregethwch hi yn ei gwaith. Gwyliwch fyned yn hyfion, i hylldremu, a chwilio yn gywrain i weithrediadau rhanau tufewnol y peiriant; a gochelwch daflu profedigaeth o flaen eich gwrandawyr i wneud yr un peth. Dangoswch werth ac ardderchowgrwydd y peiriant trwy ei ddangos yn gweithio. Dangoswch werth etholedigaeth gras trwy ei dangos yn achub y rhai sy'n methu achub eu hunain. Dyna'r olwg a roddir arni yn y Bibl; a dyna, am wn i, yr unig werth sydd ynddi i bechadur. Oni buasal hyny, nid ydwy' i ddim yn meddwl y buasai yr efengyl byth yn ei chydnabod yn perthyn dim iddi hi. Eithr, o'i deall yn iawn, y mae, nid yn unig yn perthyn iddi, ond hefyd yn un o'r darnau melus o honi. Y mae ei Fab o'r fath fri ym meddwl y Duw mawr, fel na ddamnia efe neb a gaffo fo ynddo, heb ei gwestiyno unwaith byth pa fodd y cafodd o i mewn iddo; ond y mae'n werth bywyd i ambell greadur dwl, ac ystyfnig, a dinerth, fel fi, fod ganddo ddarpariaeth, o'i anfeidrol ras, sy'n atteb i'm hamgylchiadau innau, ac na wêl o byth ddim ynof a all droi yn siomedigaeth iddo; ei fod yn gwybod fy holl hanes, ymhell cyn fy mod i yn gwybod dim o'm hanes fy hunan."

Yna fe eisteddodd i lawr. Yr oedd effeithiau y sylwadau ar y cyfarfod yn hollol drydanol ac annisgrifiadwy. Prin y gwelwyd dim cyffelyb erioed er pan gychwynodd Methodistiaeth. Dywedodd Jones o Dalsarn wrth ei gyfaill Thomas, oedd yn yr un sêt ag ef, mewn gwynfynedd, "Dyna'r hen Amlwch wedi tynu eu hadeilad nhw i lawr yn y llwyr, a chadw'r pwngc yn gyfan hefyd!" Yr oedd yr effeithiau mor syfrdanol fel yr aeth peth amser heibio cyn i neb ddywedyd gair. Ond, o'r diwedd, dyna Mr. Jones, Tremadog, i fynu o hono ei hunan, gyd â golwg siomedig arno; ac yn niniweidrwydd ei galon yn dywedyd—"Wel,

Digitized by Google

dyma hi! Dyma'r holl gwbl a ddarfu ni ddywedyd wedi ei dynu i lawr i gyd!! Fe gymran nhw fantais etto ar hyn i ddywedyd mai nhw sydd yn iawn, a'n bod ni wedi ei cholli hi yn deg!!!" Yr oedd Jones o Dalsarn yn awr yn chwerthin, fel un wedi colli pob meddiant arno ei hun. Yna cyfododd Mr. Elias, gan droi at Mr. Jones, Tremadog, a chan syrthio ar unwaith i farn Mr. Roberts, a dywedodd:—

"Wel, ïe, John Jones, y mae'n rhaid i chwithau gofio, 'Y dirgeledigeuthau sydd eiddo yr Arglwydd ein Duw, a'r pethau amlwg a roddwyd i ni, ac i'n plant hyd byth;' a'n pwngc ni ydyw, bod 'yn ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr.' Ac y mae'n rhaid i *ni* ddechrau yn ein '*galwedigaeth.*' Y mae Duw yn gallu dechrau, ac yn dechrau, yn yr '*etholedigaeth;*' ond y mae'n rhaid i ni ddechrau yn nes atom: a thrwy gydio yn yr hyn sydd yn ein hymyl, nid hwyrach y down ni yn raddol i allu ymaflyd yn yr hyn sydd yn awr o'n cyrraedd. Dyna'r drefn i'r Cristion ei hunan, a dyna'r modd y dylem deimlo gyd â golwg ar ein gwrandawyr. Ein pwngc mawr ni ddylai fod, eu cael i gredu ym Mab Duw am eu bywyd. Ac, yn aned pob peth, ni a ddylem wylio rhag troi'r unig beth sydd genym i'n calonogi yn ein hymdrech am hyny, yn achlysur digalondid i un pechadur i droi, fel y byddo, at Iesu Grist, ac i obeithio ynddo am iachawdwriaeth. Y mae'n rhywbeth pur hynod, bod rhai o'r gwahoddiadau tyneraf ac ehangaf o eiddo ein Gwaredwr mawr ar bechaduriaid, i'w cael mewn cyssylltiad uniongyrchol â'r datganiadau mwyaf croyw a phendant am y bwriadau dwyfol, mewn penarglwyddiaeth a gras, i gadw rhyw rai neillduol i fywyd tragywyddol. Y mae hyny yn dangos nad oes un anghysondeb rhwngddynt a'u gilydd yn ei feddwl anfeidrol ef."

Terfynodd y cyfarfod gyd âg amryw sylwadau o'r fath, yn nodedig o lewyrchus a chysurus, a chyflwynwyd y brodyr [Mr. J. Owen a Mr. R. Hughes] yn siriol i'r cyfarfod yn y prydnhawn, i'w derbyn yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Fel hyn yr oedd Mr. Roberts, braidd ymhob Cymdeithasfa y byddai efe yn bresennol, yn dylanwadu er cadw pethau o fewn rhyw derfynau, ac felly yn llwyddo i attal llawer iawn o ddrygau.* Ond rhaid i ni adael y Cymdeithasfaoedd, i ddyfod at bethau mwy personol, dros fyr amser, ym mywyd yr enwog W. Roberts, Amlwch.

Er bod masnach Mr. Roberts, erbyn hyn, wedi dyfod yn helaeth iawn, gan y byddai amryw siopau bychain yn y wlad o amgylch yn myned i'w fasnachdy cyflawn ef i gael cyflenwad o wahanol nwyddau; etto, trwy gymmorth ei wraig ddiwyd, a'i blant gofalus, galluogid ef i fyned i holl Gyfarfodydd Misol ei sir ei hun, a'r rhan fwyaf o Gymdeithasfaoedd y Gogledd, a llawer o rai y Deheudir hefyd; a mawr y lle y gwthid ef iddo ynddynt, fel y gwelsom, i ba le bynag yr elai. Pregethai bob Sul mewn rhyw barth o Ynys Môn, ac weithiau ymhellach na hyny; a phregethai un Sul yn y mis, bron yn gysson, yn Amlwch. Ni dderbyniai ddim am ei wasanaeth yno, yn ei gartref, gan ei fod yn ddigon craff i weled mai felly y gwnai yr Apostol Paul, pan yn sefydlog dros ryw amser yn yr un fan, megis yn Ephesus, lle y bu dros dair blynedd "yn gweithio â'i ddwylaw," fel na phwysai ar yr eglwys, er mwyn dangos i henuriaid neu esgobion sefydlog eglwys Ephesus mai felly y dylent hwythau wneuthur.† Felly hefyd y gwelai Roberts Paul yn ymddwyn, pan yn sefydlog yng Nghorinth.‡ Gwelai hefyd fod gan *genhadon teithiol*, y rhai a elent *o amgylch* i bregethu yr efengyl, yn ol esampl "Petr a'r apostolion eraill, awdurdod i arwain o amgylch wraig a fyddai chwaer, i fod heb weithio, ac i fyw wrth yr efengyl," pan ar eu teithiau cenhadol;§ am hyny, pan elai yntau oddi cartref, ar daith i bregethu i wahanol fanau, derbyniai yr hyn a roddid ynghil ei law; ond cyfranodd fwy ddengwaith at wahanol achosion crefyddol nag a dderbyniodd erioed am bregethu.

Nid ydys yn gwybod iddo ysgrifenu ond ychydig. Yr oedd ei fasnach helaeth, a'r galwad parhaus arno oddi cartref i bregethu, ac ar achlysuron eraill perthynol i'r cyfundeb, yn enwedig ar ol marwolaeth Mr. Elias, canys efe a alwyd i lanw lle y gŵr mawr hwnw: yr oedd yr holl bethau hyn yn myned a chymmaint o amser Mr. Roberts fel nas gallasai gael adeg i ysgrifenu ond ychydig iawn, heb law penau ei bregethau lliosog,‖ ac ambell lythyr crefyddol at gyfeillion ar wahanol achosion, y rhai sydd brofion y gallasai ysgrifenu yn gywir ac effeithiol iawn, pe caniatasai amser iddo.¶ Ond, ysywaeth! rhaid i ni brysuro at ei "ddyddiau blin," a therfyn ei daith ddeuarol lafurus a llwyddiannus.

Ar yr 11fed o Ionawr, 1864, collodd ei anwyl briod Sarah, yr hon a fu'n wraig rinweddol, ofalus, a thra defnyddiol iddo am 47 o flynyddau. Y mae'r "*Alargan*" dyner a theimladol a gyfansoddodd ar ei hol, ac efe yn 80 oed, yn brawf dïamheuol y gallasai fod yn fardd gwych pe coleddasai yr Awen yn ieuangc. Ymhen ychydig wythnosau ar ol claddu ei anwylyd, cymmerwyd

* Cofiant J. Jones, Talsarn, gan O. Thomas, t. 587–592.

† Act. xx. 33–35. ‡ Act. xviii. 1–4. § 1 Cor. ix. 1–14.

‖ Y mae un bregeth led gyflawn o'i waith yn y llyfr dyddorol a elwir "Y Gofadail Fethodistaidd" (Treffynnon, argr. 1880, t. 309); ond nis gwyddom a gafwyd hi yn ei lawysgrif ef ai peidio. Y mae ei ddelw ef, fel pregethwr, i'w gweled ynddi yn bur ddymunol.

¶ Gwel Gofiant J. Jones, Talsarn, gan O. Thomas, t. 637, 743.

Digitized by Google

yntau yn glaf iawn; ac wedi dioddef arteithiau cystudd yn dawel, dros rai misoedd, rhyddhawyd ef oddi wrth faich y cnawd, "ac efe yn galw ar Dduw, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd," ar y 19ydd o Orphenaf, 1864, pan nad oedd ond deufis a diwrnod rhyngddo a gorphen ei 80edd flwyddyn o'i oedran, wedi bod yn pregethu am 46 o flynyddau; a diamheuol "y trefnwyd iddo fynediad helaeth i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist."*

### MICHAEL JONES.

Ganwyd y gŵr enwog hwn yn y flwyddyn 1785, mewn lle a elwid yr Aipht, ymhlwyf Hen-fynyw, ger llaw y Neuadd-lwyd, yn sir Aberteifi. Ameuthwyr oedd ei rieni, a elwid Daniel a Mary Jones; ac yr oeddynt ill dau yn nodedig am eu cryfder corphorol a meddyliol. Yn lled fuan ar ol genedigaeth Michael, symmudodd ei rieni i dyddyn a elwid Ffos-y-bont-bren, yn yr un ardal, ac yno y treuliodd efe y rhan fwyaf o'i ddyddiau boreuol. Er nad oedd ei rieni yn proffesu crefydd yn ystod y rhan fleunaf o'u hoes briodasol, etto dygasant eu plant i fynu mewn moesau cyffredin; a chyn diwedd ei oes, ymunodd Daniel Jones â'r Wesleyaid yng Nghapel Ficar, ac ymunodd ei wraig Mary â'r Methodistiaid yn Ffos-y-ffin. Gwelir, gan hyny, bod rhieni Michael, fel yntau, wedi dysgu barnu drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol; a dywedir bod Arminiaeth a Chalfiniaeth yn cydfyw yn eithaf heddychol dan yr un gronglwyd. Ond er mai Wesleyad oedd tad Michael, a'i fam yn Fethodist; etto, i'r Neuadd-lwyd y cyrchai efe, i wrando ar y Dr. Thomas Phillips yn pregethu. Prawf arall o annibyniaeth meddwl y teulu yma.

Wedi i Michael dyfu i fynu, aeth i weini at amcuthwr cyfrifol; a chan ei fod yn gryf o gyfansoddiad, yn fywiog a gweithgar, ac heb law hyny yn sobr a rheolaidd yn ei holl ymddygiadau, ymddiriedai ei feistr lawer o'i brif ofalon yn hollol iddo. Ymhen rhyw ennyd, penderfynodd fyned i ddysgu gwaith saer maen; ond cyn iddo ymaflyd yn y gorchwyl hwnw, annogwyd ef gan ei frawd Evan i fyned am ychydig i ysgol, er ei wneud yn fwy cymmwys fel meistr yn y gwaith y bwriadai fyned iddo; a chan fod gan Evan dipyn o arian wrth ei gefn, cynnorthwyodd ef i dalu am ei ysgol. Cafodd y fath flas ar addysg yn yr ysgol honno, fel na chollodd mono tra bu byw. Diddyfnodd llyfrau ei fryd oddi wrth bob peth arall; ac er mwyn cael bod yn eu cyfeillach yn barhaus, aeth i Lanbedr i ddysgu rhwymo llyfrau.

Ar y 27fed o Fedi, 1807, pan oedd yn 22 oed, derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Annibynol yn y Neuadd-lwyd, i'r hon ar y pryd yr oedd y Dr. T. Phillips yn weinidog. Yn fuan wedyn, annogwyd ef gan y gweinidog a'r eglwys i ddechrau pregethu. Traddododd ei bregeth gyntaf mewn lle a elwir Pen-rhiw. Wedi hyny aeth i ysgol Mr. D. Davies, Castell-Howel; ac yr oedd ganddo feddwl uchel trwy ei oes am Mr. Davies fel athraw. Treuliodd dair blynedd, weithiau yn yr ysgol, a phryd arall yn gweithio, er ennill arian i'w gynnal hyd y fl. 1810, pan y derbyniwyd ef yn fyfyriwr i'r athrofa yng Ngwrecsam, oedd dan ofal y Dr. Jenkin Lewis. Rhagorodd ar y rhan fwyaf o'i gydysgolheigion fel ysgolhaig cywir a manwl; ac fel ysgolhaig yr hynododd ei hun yn fwy nag fel pregethwr, er bod ei bregethau, hyd yn oed yn y cyfnod hwnw, yn sylweddol, ac yn cynnwys hanfod yr efengyl.

Wedi gorphen ei dymmor yn yr athrofa, derbyniodd alwad gan hen eglwys Annibynol Llanuwchllyn, fel olynydd y Dr. G. Lewis, â'r hon y cydsyniodd; ac ar y 10fed o Hydref, 1814, urddwyd ef yn weinidog i'r eglwys honno. Yn y fl. 1816, priododd Mr. Jones Miss Mary Hughes, trydydd merch Mr. Edward Hughes, Cwmcarnedd, Llanbryn-Mair, a bu iddynt bump o blant, dau o feibion a thair o ferched. Claddwyd y mab ieuangaf o flaen ei dad; ond y mae'r tair merch a'r mab hynaf, y Parch. M. D. Jones, athraw Athrofa Annibynol y Bala, etto yn fyw.

Ymhen rhyw ennyd ar ol i Mr. Jones ymsefydlu yn Llanuwchllyn, codwyd ystorm erwin yn ei erbyn. Yn ol y darlun a ddyry'r diweddar Barch. R. Thomas (Ap Fychan) o'r ymrysonfa,† barnai llawer fod yr holl fai ar Mr. Jones, a barnai llawer eraill fod yr holl fai ar y gynnulleidfa: er hyny, digon tebyg bod y gwirionedd yn gorwedd yn y canol, rhwng pob eithafion. Yr oedd Mr. Jones yn ŵr mawr, cadarn yn yr Ysgrythyrau, cryf ei feddwl, ehang ei amgyffredion, manwl a threiddiol o ran ei wybodaeth dduwinyddol a philosophaidd. Yr oedd yn hollol ddifrycheulyd o ran ei

* Cofiant J. Jones, Talsarn, gan O. Thomas, t. 907-915; Cofiant W. Roberts, Amlwch, gan H. Jones; Gwyddoniadur, cyf. ix., t. 72; Method. Cymru, cyf. ii., t. 557; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 507.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 416.

Digitized by Google

nodweddiad moesol. Ni chynhygiodd neb erioed ei gyhuddo o anfoesoldeb. Yr oedd yn ddŷn o dduwioldeb dwfn a dïamheuol. Yr oedd llawer hefyd o'i bleidwyr yn yr eglwys yn bobl ddeallus, nodedig felly; ac yn lân a difrycheulyd o ran eu bucheddau. O'r ochr arall, yr oedd llawer o'r blaid wrthwynebol i Mr. Jones, er yn amddifaid o syniadau ehang a philosophaidd ar byngciau; etto, yn Ysgrythyrwyr rhagorol, ac yn dra chydnabyddus â syniadau eu gweinidog blaenorol, yr hybarch Ddr. Lewis. Yr oedd yn eu mysg lawer o bobl onest a duwiol, yn ofni Duw ac yn cilio oddi wrth ddrygioni. Gwadu hynyna fyddai cario pethau i eithafion, ac amlygu rhagfarn a chulni hollol anheilwng o hanesydd teg a gonest. Ond, er bod Mr. Jones yn un o'r dynion gorau, a manylaf a fagodd Cymru yn yr oes honno; etto, nid ydym yn honni ei fod ef, mwy na dynion eraill, yn rhydd oddi wrth fân wendidau; a mwy na thebyg ydyw bod rhai pethau ynddo ef, yn enwedig gormod o annibyniaeth meddwl, cyndynrwydd, ac anhyblygedd, yn cydweithio â phethau eraill yn y gynnulleidfa i ddwyn oddi amgylch y rhwygiad a ddigwyddodd yn Llanuwchllyn.

Achlysuron yr anghydweledìad oedd Calfiniaeth uchel, fel eiddo'r Dr. Gill, yr hon a goleddid gan y blaid wrthwynebol i Mr. Jones; a Chalfiniaeth isel, fel eiddo'r Dr. E. Williams, yr hon a goleddid gan Jones a'i blaid. Yr oedd yr un testynau ymrafael ymhlith y Methodistiaid, o gylch yr un amser, fel y gwelsom yn yr erthygl flaenorol ar Wm. Roberts, Amlwch. Dengys ysgrif Mr. Thomas fod y blaid wrthwynebol i Mr. Jones yn cynnwys dau ddosparth, o leiaf. Un dosparth yn ddynion duwiol o uchel-Galfiniaid, y rhai a gredent yn gydwybodol bod athrawiaeth Mr. Jones yn ei bregethau ac yn y cymdeithasau neillduol yn afiachus a pheryglus, ac yn tueddu at Arminiaeth. Yr oedd dosparth arall o'i wrthwynebwyr yn fwy craffus ynghylch trefn eglwys, fel y'i gosodir allan yn y Testament Newydd. Credent hwy y dylai *amryw* o henuriaid neu esgobion fod *ymhob eglwys*, megis y trefnodd yr apostolion yn eglwysi Lystra, Iconium, Antiochia, Pisidia, Pamphylia, Attalia,* Ephesus,† Philippi,‡ Creta,§ a manau eraill. Credai y dosparth yma y dylai henuriaid neu esgobion sefydlog pob eglwys "weithio â'u dwylaw," rhag pwyso ar yr eglwysi, yn ol yr esampl a roddes Paul i esgobion sefydlog eglwys

* Act. xiv. 21-25. † Act. xx. 17, 28.
‡ Phil. i. 1. § Titus i. 5, 7.



Ephesus, pan fu ef yn aros yno "dros dair blynedd." Credai yr un rhai o wrthwynebwyr Jones nad oes gan neb ond *cenhadon teithiol* yn unig awdurdod i "fyw wrth yr efengyl," ac "i fod heb weithio."* Nid oedd gweinidog sefydlog, cyflogedig, ond "rhyw ddrwg angenrheidiol (*necessary evil*): rhywbeth i'w *oddef*." Tystiai y rhai hyn bod Mr. Jones yn debycach i *frenin* yn yr eglwys nag i'w *gwas cyflog;* ac y mae lle i gasglu bod gormod o wir yn hyny, yn yr amgylchiad yma, fel mewn llawer un arall.

Y canlyniad fu, rhwygiad penderfynol a thra anghysurus; ac y mae'n sicr i'r ddwy blaid ymddwyn yn bur anghariadus, ïe, ac anghrefyddol hefyd, canys appeliodd y ddwy blaid at gyfraith y tir er meddu y capel, yr hyn oedd yn gwbl groes i gyfraith y Testament Newydd.† O'r diwedd, aeth y blaid wrthwynebol a'r capel oddi ar Mr. Jones a'i blaid; ac aeth yntau gyd â hwy, i gynnal cyfarfodydd yn ei ysgubor ei hun. Pa wedd bynag, cymmerth y pregethwyr yn gyffredin blaid Mr. Jones a'i ddilynwyr, fel y gallasid disgwyl iddynt wneuthur, trwy wrthod myned i'r capel at ei wrthwynebwyr i bregethu. Mewn canlyniad i hyny, bu raid i'r capelwyr, ymhen rhyw amser, ymostwng. Galwasant Mr. Jones a'i blaid yn ol i'r capel atynt, ac yna "bu tawelwch mawr."

Bu'r "Athrofa Ogleddol," berthynol i'r Annibynwyr, dros ryw dymmor, yn Llanuwchllyn, dan ofal Mr. Jones. Pan symmudwyd hi i'r Bala yn 1842, dewiswyd Mr. Jones yn athraw iddi, a rhodd yntau eglwys Llanuwchllyn i fynu, ar ol bod yno am 28 o flynyddau; ac yn y Bala y treuliodd weddill ei oes, yn athraw i'r coleg, ac yn weinidog i'r Annibynwyr yn y Bala, Ty'n-y-bont, Bethel, Llandderfel, a Soar. Heb law ei ddyledswyddau fel athraw y coleg, ac fel gweinidog i'r eglwysi a nodwyd, yr oedd ganddo ofal un o'r ysgolion rhad a sefydlasid yng Ngwynedd gan ymddiriedolwyr y Dr. Daniel Williams. Dengys hyn oll fod Michael Jones yn weithiwr dirfawr ei faint. Codai yn wastad rhwng pump a chwech o'r gloch y borau; ac unwaith neu ddwy yn yr wythnos, rhwng un a dau o'r gloch y borau. Yr oedd yn ddŷn o nerth anianyddol anghyffredin; ac yn wir, ped amgen, nis gallasai byth fyned trwy'r llafur dirfawr yr aeth trwyddo. Yr oedd yn gwahanieuthu hefyd, o ran ffurfiad ei feddwl, oddi wrth bawb o'i gyd-ddynion. Meddyliai yn wahanol i bawb, bron, ar bob pwngc; ac wedi

* Act. xx. 28-35. † 1 Cor. ix. 1-14.



Digitized by Google

iddo unwaith wneud ei feddwl i fynu, nid oedd dim a ysgogai y graddau lleiaf arno. Gŵr am ffeithiau a rhifau oedd Michael Jones. Nid oedd dim barddoniaeth ynglŷn â'i gyfansoddiad ef; a chredai nad oedd odid neb o'r beirdd yn feddylwyr dyfnion. Yr oedd ei benderfyniad yn gwneud ei agwedd weithiau yn erwin a sarug. Yr oedd ei benderfyniad, ei hynodrwydd, a'i ymddibyniad ar ffeithiau neu wirioneddau, yn ei wneud braidd yn sychlyd yn ei bregethau. Yr oedd ganddo dalent neillduol o wych i gyfranu addysg; ac fel holwr pwngc mewn ysgol, yn yr hyn yr oedd ganddo fawr hyfrydwch, yr oedd braidd yn ddigyffelyb. Un ysgrifenydd galluog a ddywed am dano, yn *Yr Annibynwr*, fel hyn:—

"Safai Mr. Jones wrtho ei hun fel pregethwr, yn gystal a phethau eraill. Tueddai ei lais i'r cras a'r aflafar; a llefarai yr un dôn, agos, trwy gydol y bregeth. Sefydlai ei olygon ar un man trwy'r holl amser, tu a dwy lath uwch law penau y bobl, os na byddai oriel; neu, os byddai, tu a'r man y saif yr awrlais yn gyffredin. Nis gallai droi ei ben tu a'r dde na'r aswy, nac edrych am nemmawr amser yn wyneb y gynnulleidfa. Nid oedd ei droed o un gwasanaeth iddo ond i sefyll, na'i law ond i droi dail y llyfr. Nid oedd dim yn ffugrol, dychymmygol, na rhamantus yn ei bregethau; ond ymffrostient yngwirioneddau ac yn ffeithiau dïymwad ac anwrthwynebadwy, fel y llifeiriant dïattal, a'u hamcan yn eglur i bawb. Gallasid eu hysgrifenu air yng ngair, fel y traddodid hwynt, a'u gyru i'r wasg heb unrhyw welliant, yr hyn ni ellir ei wneud â'r rhan fwyaf o bregethau. Yr oedd ei bregethau ef yn arddangosiad cywir o amcanion pregethu yr efengyl."

Dywed un o fywgraphwyr Michael Jones nad ysgrifenodd efe ond ychydig, ac na theithiodd gymmaint ag a fuasai ddymunol; ond y pregethodd ac y dysgodd lawer iawn am yn agos i 50 o flynyddau. Daeth ei amser ef i noswylio oddi wrth ei lafur helaeth ac egnïol yn lled gynnar. Teimlai yn achlysurol oddi wrth boen ac anhwyldeb am y ddwy flynedd olaf o'i oes; ond daeth y diwedd yn gynt nag yr oedd neb yn disgwyl. "Daliodd gyffes ei obaith hyd y diwedd." Nid oedd gan bennillion fawr o ddylanwad arno ef wrth fyw, ac ni fynnai bwyso arnynt wrth farw. Wrth ei weled yn ei boenau olaf yn cael ei arteithio, dywedodd Mrs. Jones wrtho, "Wel, fy anwylyd, y mae'n galed iawn!" "Nac ydyw," ebr yntau, yn ei ddull pwyllog ei hun: "Byr ysgafn gystudd, yn odidog ragorol, yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant" Adroddodd Mrs. Jones yn ei glyw y pennill adnabyddus sy'n dechrau fel hyn:—

"Ar lan'r Iorddonen ddofn
'Rwy'n oedi'n nychlyd;
Mewn blys mynd trwy, ac ofn
Ei stormydd enbyd."

"Na, na: dim ofn. Ysgrythyr, fy anwylyd, Ysgrythyr!" Darllenwyd iddo y xxiii. Psalm; a phan ar ganol y geiriau, "Ië, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwaid," dywedodd yntau yn orfoleddus, "Dyna, dyna! fy anwylyd: dyna graig yn awr;" a bu farw fel y bu fyw, gan bwyso ar "graig yr oesoedd," ar y 27fed o Hydref, 1853, yn 68 oed. Claddwyd ef ar yr 31fed o'r un mis, ym monwent Hen Gapel Llanuwchllyn; ac yr oedd mwy na 36 o weinidogion y gwahanol enwadau, gyd â thorf fawr, alarus, yn ei angladd, ac ystyriai pawb bod "tywysog a gŵr mawr yn Israel wedi syrthio."*

---

## PENNOD XXIII.

### J. P. DAVIES, ELLIS EVANS, RICHARD BONNER, JOHN WILLIAMS (YR AIL), THOMAS PRICE, A SAMUEL DAVIES (Y CYNTAF).

JOHN PHILIP DAVIES ydoedd fab i'r Parch. D. Davies, offeiriad Bangor a Henllan, yn sir Aberteifi. Ganwyd ef ym Mangor ar y 12fed o Fawrth, 1786. Dywed y Parch. D. Rhys Stephen, yn ei gofiant, ei fod wedi mabwysiadu golygiadau y Bedyddwyr wrth ddarllen llyfrau oedd yn llyfrgell ei dad, cyn bod yn sicr a oedd y fath enwad a'r Bedyddwyr yn bod; ond y mae hyn braidd yn amheus, canys yr oedd y Parch. Daniel Davies, brawd i'w dad, yn weinidog y Bedyddwyr yn Nhalgoed, ac y mae'n bur debyg y gwyddai efe hyny erbyn ei fod yn alluog i amgyffred llyfrau. Yr oedd brawd arall i'w dad yn weinidog i'r Annibynwyr yn Aberhonddu.

Cafodd John addysg gyffredin, o'r fath ag ydoedd, yn ei ardal enedigol. Ymunodd â'r Bedyddwyr mewn lle a elwid y Dre-fach, pan yn ieuangc, a dechreuodd bregethu yn bur fuan wedi hyny. Yna aeth ar daith bregethwrol trwy'r Gogledd, ac ymwelodd â sir Fflint, lle y bu yn hynod o lwyddiannus. Casglodd gynnulleidfa fechan yn Nhreffynnon; ac yn y fl. 1810, pan oedd efe yn 24 oed, urddwyd ef yn weinidog i'r gynnulleidfa honno, yr hon oedd y gyntaf o Fedyddwyr a ffurfiwyd yn sir Fflint. Yn fuan wedi hyny, priodd ferch o sir Benfro, yr hon, er ei alar a'i golled, a fu farw cyn pen blwyddyn, gan adael merch

* Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. i., t. 409; Yr Annibynwr. Meh. a Gorph., 1857; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 373; En. Sir Aberteifi, G. Menai, t. 91; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 614.

fechan ar ei hol. Ymadawodd yn lled fuan wedyn o Dreffynnon, ac aeth yn weinidog i eglwys Gymreig o'r Bedyddwyr oedd yn Nerpwl; a thra'r oedd yno, priododd yr ail waith â merch o deulu cyfrifol yn sir Fflint, yr hon, gan nad oedd o dymmer lariaidd iawn, a fu o gryn flinder iddo hyd ei fedd. Symmudodd o Nerpwl i fod yn weinidog i'r Bedyddwyr Cymreig yn Llundain. Ni bu dim "dinas barhaus" iddo ef yno chwaith, canys symmudodd oddi yno yn lled fuan i fod yn weinidog i'r Bedyddwyr yng Nglan-y-feri a Chydweli, yn sir Gaerfyrddin.

Tra'r oedd yn y lle diweddaf y dechreuodd ei fywyd llenyddol. Y peth cyntaf a wnaeth fel llenor oedd cyfieithu "Esponiad Andrew Fuller ar Lyfr y Datguddiad;" a chyfieithiad hynod o anystwyth ydyw, gan ei fod ef yn ddisgybl zelog i'r Dr. Pughe. Yn y fl. 1818, derbyniodd alwad oddi wrth eglwys y Bedyddwyr yn Nhredegar, ac fel "Davies o Dredegar" y mae'n fwyaf adnabyddus. Yr oedd aelodau yr eglwys honno, pan aeth efe yno, yn bur wasgaredig ar hyd ardaloedd Sirhoyw, Rhymni, Pen-y-cae, a Glyn-ebwy. Bu ef yn foddion i sefydlu eglwysi yn y pedwar lle hyny; ac erbyn hyn, y mae deuddeg o eglwysi blodeuog yn y maes eang y llafuriai efe ynddo. Daliodd Mr. Davies ei boblowgrwydd yn Nhredegar yn wyneb llawer o anfanteision. O herwydd, yn un peth, yr oedd llïaws o bregethwyr y Bedyddwyr yn y Deheudir, fel pregethwyr yr Annibynwyr a'r Methodistiaid, yn Galfiniaid uchel; tra'r oedd Mr. Davies wedi mabwysiadu golygiadau y Dr. Edward Williams ac Andrew Fuller, ac o blegid hyny yr oedd llawer o ddrysau capeli ei enwad ei hun yn gauedig yn ei erbyn. Blinid ef hefyd, fel yr awgrymwyd, gan ei wraig, yr hon oedd o dymmer anhywaith a gwastraffus; a chan ei fod ef yn greadur diniwaid a difeddwl drwg, suddai hi ef yn fynych mewn dyledion, yr hyn a fuasai yn andwyol iddo oni buasai fod ganddo gyfeillion ffyddlon i'w waredu. Heb law hyny, ychwanegid yn fawr at ei drallodion gan weuledd iechyd, yr hyn a'i hanalluogai yn fynych, dros wythnosau a misoedd, i bregethu; ond yn wyneb y cwbl, yr oedd yn hynod dawel; ac yr oedd ei dduwioldeb, ei serchowgrwydd, a'i sirioldeb, ynghyd â hyawdledd swynol ei ddawn pregethwrol, yn ennill iddo serch a chydymdeimlad cyffredinol.

O gylch y flwyddyn 1821, cyhoeddodd Mr. Davies ddwy bregeth ar "Iawn Crist." Y mae'n amlwg i'r gyntaf gael ei bwriadu yn erbyn y golygiadau masnachol ar yr iawn, y dadleuai Christmas Evans drosto, ac a gofleidid yn lled gyffredin y pryd hyny gan y Bedyddwyr yng Ngwent a Morganwg. Nid yw'r bregeth arall yn cyffwrdd dim â'r ddadl. Yn *Seren Gomer* am Hydref, 1822, t. 294, cyhoeddodd Mr. Davies ysgrif ar "Helaethrwydd yr Iawn. Sylwadau ar Lythyrau J. Jenkins, *Tudal.* 236," yr un flwyddyn. Y ffugenw a ddefnyddiai oedd "Mab Dewi Ddu." Ac yn *Seren* Tachwedd, yr un flwyddyn, t. 323, cyhoeddodd ysgrif arall, dan yr un enw, a alwyd ganddo "Ffwleriaeth. Attebiad i Lythyr J. Jenkins, *Tudal.* 268." Dilynwyd yr ysgrifau yna gan lïaws eraill, o blaid ac yn erbyn, gan wahanol ysgrifenwyr; ond nid ydym yn gwybod iddo ef ysgrifenu dim ychwaneg ar y pwngc yn y *Seren.* Yn *Y Gwyliedydd* am Chwefror, 1825, t. 46, cyhoeddwyd "Traethawd ar y Iaith Gymraeg. Gan y Parch. J. P. Davies;" ac ar ei diwedd y mae "Mab Dewi Ddu." Ac ym Mai yr un flwyddyn, cyhoeddwyd yr un ysgrif yn *Seren Gomer*, t. 136, wrth yr enw "Araeth ar yr Iaith Gymraeg, gerbron Cymdeithas Cymreigyddion Tredegar." Dilynwyd yr ysgrif yma etto yn y *Seren* gan amryw o'i phlaid ac yn ei herbyn; ond nid ydym yn gwybod i Mr. Davies ysgrifenu dim ychwaneg i'r *Seren*, oddi eithr esampl o "Eiriadur Cymraeg Oll," a gyhoeddasid yn y *Seren* am 1824. Yn y fl. 1826, cyfieithodd "Lythyrau Ymadawol Ward y Cenhadwr." Bu farw y gŵr enwog a llafurus hwn ar y 23ydd o Awst, 1832, yn 46 oed.

Ymhen tu a dwy flynedd ar ol iddo farw, cyhoeddwyd cyfrol o'i "Draethodau ar Amrywiol o Byngciau Athrawiaethol y Grefydd Gristionogol, ynghyd â Nodiadau ar Ddyscyblaeth Eglwysig," dan olygiad y Parch. David Rhys Stephen; ac ail gyhoeddwyd y gyfrol yn Unol Daleuthau yr America. Am y gwaith hwn, dywed y Dr. O. Thomas, Nerpwl, fel y canlyn:—"Y mae'r gyfrol hon, . . . yn ein bryd ni, yn un o'r llyfrau gorau yn ein hiaith; ac y mae'n resyn dirfawr ei bod mor anadnabyddus, o leiaf yng Nghymru."*

### ELLIS EVANS.

"Gorchwyl anhawdd yw tynu darlun teg a chywir o Ellis Evans," medd Cynddelw, "o herwydd ei ragorieuthau amryddawn a llïosog. Un o 'werthfawr feibion Sïon, a chystal ag aur pur,' ydoedd.

* Gwyddoniadur, cyf. x., t. 515; En. Cymru, I. F., t. 222; En. Sir Aberteifi, G. Menai, t. 25; Cofiant J. Jones, O. T., t. 470; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 105.

Digitized by Google

Yr oedd efe fel un o fynyddoedd mawrion Meirionydd, yn ymddangos yn llai o lawer o bell nag wrth sefyll yn ei ymyl. Hollol groes i hyny yw mawredd dynion yn gyffredin. Ymddengys rhai dynion yn fawrion o bell; ond erbyn dynesu atynt, eu mesur, a'u pwyso, bychain ac ysgafn ryfeddol ydynt. Y mae gwylder a gostyngeiddrwydd dirodres bob amser yn nodweddu gwir fawredd. Yr oedd hyny yn hynodi Ellis Evans. . . . Y mae rhai personau yn ymgodi uwch law eu galw yn *Mr.*, *Dr.*, a'r cyffelyb, canys y mae eu henwau yn ddigon, megis John Calfin, Martin Luther, John Bunyan, John Foster, Robert Hall, Andrew Fuller, John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, Charles o'r Bala, Ellis Evans, &c. Pan gyhoeddwyd cofiant Christmas Evans, yr oedd dynion o chwaeth gywir yn beio am ei alw yn Mr. Evans, &c., gan heuru mai mwy cydweddol â'i barch henadurol a fuasai ei alw yn 'Christmas Evans.' Bu llawer Mr. Evans, a llawer Dr. Evans; ond un Christmas Evans, ac un Ellis Evans a fu erioed, ac, fe allai, a fydd byth. Ac oddi ar yr ystyrieuthau hyn, yr ydym ni yn gwneud ein gorau i fytholi yr hen enw anwyl, ELLIS EVANS." Oni fyddai yn chwithig dros ben gweled rhywun yn ysgrifenu Mr. Petr, y Parch. Ioan, neu y Dr. Paul? Ond ni wiw i ni ymheleuthu fel hyn.

Ganwyd Ellis Evans yn ucheldir Penllyn, ym Meirionydd, mewn lle a elwid Pig-y-swch, ar yr 22fed o Fehefin, 1786. Enw ei dad oedd Evan Ellis, a chymmerth yntau yr enwad Ellis Evan Ellis, yn ol arfer llawer yn y dyddiau hyny; ond rywbryd gadawodd i'r Ellis olaf syrthio ymaith, a boddlonodd ar fod yn Ellis Evans. Yr oedd taid Ellis Evans, a nain Robert Ellis (Cynddelw), yn frawd a chwaer. Dŷn esgyrniog a chadarn, lled arw ei foes, oedd tad Ellis Evans; ond yr oedd ei fam yn wraig dyner, hawddgar, ac yn meddu llawer o dueddiadau crefyddol. Magwyd ef ynghanol gwylltineb rhamantus Llanuwchllyn; a chan fod ganddo yntau "lygad yn gweled anian, calon yn teimlo anian, a glewder a feiddiai gydfyned âg anian," nid rhyfedd iddo gynhyddu yn eryr arwraidd ac uchelryw fel y gwnaeth, a hyny yn forau. Digon garw a helbulus oedd dyddiau mebyd Ellis Evans. Yr oedd colli ei fam dyner a meddylgar yn gwneud ei gartref yn oer a digysur iddo. Gorfu arno droi allan yn forau i weini gyd â thyddynwyr mynyddig Llanuwchllyn. Ysgol adfyd a chaledi iddo oedd honno, er ei barotöi at galedfyd llafurus ei fywyd fel pregethwr; a dyna'r unig ysgol a gafodd yn ei fro ei hun. Yr oedd Llanuwchllyn yn uwch mewn breintiau crefyddol na nemmawr ardal yng Ngogledd Cymru yn nyddiau maboed Ellis Evans. Yr oedd gan yr Annibynwyr eglwys flodeuog, yn cyfarfod yn yr Hen Gapel, ymhell cyn ei eni ef, a dynion enwog megis Richard Tibbot, Benjamin Evans (o'r Dre-wen wedyn), ac eraill, wedi bod yno yn weinidogion. Ymsefydlodd George Lewis (y Dr. Lewis wedi hyny) yno yn y fl. 1795, pan oedd Ellis Evans yn 9 oed: ac arferai efe gyrchu yno yn gysson i'r Hen Gapel i wrando arno.

Ymddengys mai at yr Annibynwyr yr ymwasgodd Ellis Evans ar y dechrau, wedi iddo benderfynu arddel Crist; "a digon tebyg," medd y Dr. Prichard o Langollen, yn y *Greal*, "iddo feddwl treulio ei fywyd crefyddol gyd â'r Annibynwyr. Nid yw'r manylion ynghylch ei ymuniad â'r Bedyddwyr wedi eu cofnodi yn eglur. Dechreuodd y Bedyddwyr bregethu, yng nghapel yr Annibynwyr yn Llanuwchllyn, ar y dechrau, mor forau a'r fl. 1776, tu a deng mlynedd cyn geni Ellis Evans. Yna pregethent mewn tai annedd yno, yn achlysurol, hyd ei amser ef; ond ymddengys na wybu efe ddim am danynt hyd onid oedd tu a 19 oed. Wedi iddo fod yn gwrando un o honynt yn pregethu ar fedydd, fel yr ymddengys, ymrôdd yntau, yn llawn rhagfarn atynt, i ddarllen a myfyrio y Testament Newydd ar y pwngc; a'r canlyniad fu cael ei argyhoeddi mai'r Bedyddwyr sydd gywir, ac ym Medi, 1806, bedyddiwyd ef trwy drochiad wrth Bont-y-llan."*

Ymhen tu a thair blynedd wedyn, sef yn 1809, pan oedd efe o gylch 23 oed, dechreuodd bregethu. Bu am flwyddyn a hanner neu ddwy flynedd yn pregethu yn achlysurol, ac yn synu'r Meirionwyr â'i feddyliau grymus, a'i ddull syml a dirodres o draddodi. Ymhen rhyw adeg ar ol iddo ddechrau pregethu, aeth i'r ysgol at Jesse Jones, yn y Ffordd-las, Llansant-ffraid Glanconwy; ac ym mis Medi, 1811, derbyniwyd ef i Athrofa'r Fenni, lle yr arhosodd hyd Ebrill, 1813. Dywed ei fywgraphydd ei fod yn 25 oed cyn dechrau ysgrifenu a darllen Saesneg. Wrth ystyried pethau fel hyn, y mae'r orsaf uchel a gyrheuddodd mewn dysg a gwybodaeth, ymhell cyn ei farw, yn syndod i rai, a chalondid i eraill. Yn fuan ar ol dyfod o'r Fenni, priododd Ellis Evans ferch dduwiol, a'i henw Mari Jones o'r Ffordd-las, fel yr addawsai cyn myned yno. Bu'n trigannu dros amser yn yr

* Tyst Apostolaidd, Awst, 1847.

Digitized by Google

ardal honno, heb ganddo olwg am gael myned yn weinidog i unrhyw eglwys; ond pregethai bob Sul mewn rhyw le neu gilydd. O'r diwedd, agorodd drws gobaith o'i flaen; ac ar yr 2fed o Dachwedd, 1815, urddwyd ef yn weinidog i eglwysi y Bedyddwyr yn Llanefydd, Llansannan, a Llangernyw, sir Ddinbych. Yn y lleoedd hyny y bu, am bedair blynedd, yn fawr ei bryder a'i lafur, yn pregethu i gynnulleidfaoedd bychain iawn ar y Suliau, ac yn cadw ysgol yn Llanefydd ar ddyddiau yr wythnos.

Yn y fl. 1819, derbyniodd alwad i fyned yn weinidog i eglwys y Bedyddwyr yn y Cefnmawr, sir Ddinbych; ac fel ELLIS EVANS, CEFNMAWR, yr adnabyddir ef trwy Gymru oll. Bu ei arhosiad yno yn 45 mlynedd, sef o 1819 hyd 1864. Nid oedd y Cefnmawr yn enwog cyn ei fynediad ef yno, ac nid oedd yntau yn enwog chwaith cyn ei sefydliad yn y Cefnmawr; ond yr oedd cyflawnder o ddefnyddiau cyfoeth yn yr ardal, ac yr oedd cyflawnder o ddefnyddiau enwogrwydd ynddo yntau. Daeth y lle ac yntau i enwogrwydd yngolwg Cymru grefyddol gyd â'u gilydd, megis y deuthai Williams a'r Wern i sylw gyd â'u gilydd ychydig yn gynharach. Ymroddes Evans i wella moesau y trigolion yn ebrwydd ar ol ymsefydlu yn y lle, y rhai, cyn hyny, oedd yn lled anwaraidd; a bu ei "lafur cariad" i raddau mawr yn llwyddiannus. Bwriodd olew ar ddyfroedd terfysglyd yr eglwys; llafuriai yn galed, mewn amser ac allan o amser, i geisio plygu yr anufudd, ac i ddwyn y cyfrgolledig adref; pregethai mewn manau bychain o amgylch ei gartref; a dygai lusern yr efengyl yn ei law i fanau tywyll a barbaraidd. Bu'n foddion i sefydlu eglwys ac adeiladu capel ym Mrymbo; ac y mae wyth neu naw o gapeli yn awr yn hen faes ei lafur ef, yn ymestyn o'r Fron, wrth droed y Berwyn, hyd ym Mrymbo. Yr oedd holl galon Ellis Evans yn ei waith. Yr oedd yn bregethwr duwinyddol a dwfn-dreiddgar; yn feddyliwr gwreiddiol, craff, a meistrolaidd; a thrwy ddyfalbarhad a diwydrwydd ymroddgar, llwyddodd i ddeall yr iaith Saesneg yn drwyadl; ac yr oedd yn deall Groeg yn lled dda, a medrai ddefnyddio y Lladin a'r Hebraeg trwy gymmorth geirlyfrau. Am dano fel awdur, dywed Cynddelw fel y canlyn:—

"Nid yw awduriaeth Ellis Evans mor helaeth ag y dylasai fod, ac nid oedd yntau wedi diwyllio a disgyblu ei feddwl at hyny i'r graddau y gallasai. . . . . Yr oedd ei gymmwysderau naturiol at fod yn awdur yn fawrion a lliosog. Yr oedd ei wybodaeth, ei gof, a'i barodrwydd yn ei gymhwyso i eistedd wrth y bwrdd, ac ysgrifenu cyfrol bron mor gyflym a Syr Walter Scott neu Alexander Dumas; etto, rywfodd, nid yw meddyliau o'r fath yn troi allan yn awdwyr gloywon a llwyddiannus bob amser. Yr oedd cynlluniau amgyffredol Ellis Evans am awduriaeth yn rhy uchel a pherffaith i'w fedrusrwydd crefftwrol allu eu gweithio allan er boddlonrwydd iddo ef ei hun; ac yr oedd ymgais at gyrraedd rhyw berffeithrwydd tybiadol oedd yn ei feddwl, yn ei yru i gyfansoddi yn fwy tywyll nag y buasai heb hyny. Yr oedd llawnder ei feddyliau yn peru iddo droi yn ol ac ym mlaen yn ormodol. . . . . Y mae dulliaith wasgaredig yn well at lefaru nag at ysgrifenu, am ei fod yn cadw'r matter yn hwy ger bron y gwrandawyr: felly y mae llawer o bregethwyr enwog yn ysgrifenwyr dirym. Er i Christmas Evans ysgrifenu llawer, etto mewn pregethu yr oedd efe yn tra rhagori; a gellir dywedyd yr un peth am John Elias, a Williams o'r Wern hefyd. Ni fynnai Williams, er dim, anturio i'r wasg, canys gwyddys yn dda mai ychydig iawn a ysgrifenodd efe. Yr oedd Ellis Evans yn debycach i Robert Hall nag un o'r enwogion uchod: ni fedrai R. Hall foddio ei hun fel cyfansoddwr, ac o herwydd hyny ychydig a barotôdd efe i'r wasg. Felly Ellis Evans hefyd: poenodd lawer arno ei hun yn ceisio cynllunio ei Hanes i gyfatteb i chwaeth ei feddwl, a gadawodd y gwaith, wedi'r cwbl, yn anorphenedig."

Ymddengys bod y gyfres ganlynol yn cynnwys yr holl lyfrau a gyhoeddwyd o waith yr enwog Ellis Evans:—

"Llythyr Cymmanfa y Cefnmawr. Unoliaeth a Gweledigrwydd yr Eglwys." 1827.

"Arddangosiad syml o syniadau gwahaniaethol, neu egwyddorion priodol Bedyddwyr y Crediniol, oddiar Act. xxviii. 22."* 1829.

"Annogaeth i athrawon ac athrawesau ein hysgolion Sabbathol i roddi cwbl-ymegnïad at y gwaith o addysgu yr anwybodus yn iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; a draddodwyd mewn pregeth oddi ar Preg. ix. 10: at yr hon y chwanegwyd hanes byr o ddechreuad, sefydliad, a gweithrediadau Cymdeithas yr Ysgol Sabbathol." 1830.

"Hanes y Bedyddwyr."

"Hwn," medd ei fywgraphydd, "oedd prif orchestwaith llenyddol Ellis Evans. Dechreuodd ar y gwaith hwn yn forau, a bu'n ddiwyd gyd âg ef hyd ddiwedd ei oes. Ymddengys nad oedd ganddo gynllun pennodol yn ei feddwl ar y cyntaf, yr hyn sy'n rhoddi cyfrif am y gwahanol gynlluniau a gyhoeddodd o'r gwaith. Hanes y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru oedd y cwbl yr amcanai ato ar y cyntaf; ond ymehangodd y maes wrth ei chwilio, nes y daeth holl Fedyddwyr y byd yn bobl ei ofal. Gwelsom ryw grybwylliad am y gwaith hwn mor forau ag 1827; ond bu'r awdwr llafurus farw cyn gorphen ei orchwyl."

* Pregeth alluog ydyw hon, am yr hon y dywed un adolygydd fel hyn:—"Gorchestwaith un o awdwyr galluocaf y Dywysogaeth, a llafur cynheddfau cedyrn ar eu llawn waith ydyw. Y mae ehangder, amrywiaeth, a heleuthrwydd drychfeddyliau; llawnder, grymusder, eglurdeb, ac ystwythder yr iaith yn deilwng o'r testyn uchelryw, ac yn anrhydedd i'r awdur hybarch a llafurus."—Ei hegwyddorion sylfeunol yw y rhai canlynol:—

"I. Ysprydolrwydd yr Oruchwyliaeth Efengylaidd.

"II. Unig a chyflawn benogaeth Crist ar ei eglwys weledig o dan yr Oruchwyliaeth Efengylaidd.

"III. Bod y Testament Newydd yn unig a chyflawn reol gweinyddiad ei ordinhadau ei hun; a bod Bedyddwyr y Crediniol, o herwydd eu hymlyniad gwastadol a'u hymarferiad cydwybodol o'u hegwyddorion neillduol, wedi dïoddef llawer o ddywedyd yn eu herbyn braidd ymhob man a phob oes."

Digitized by Google

Y dosparth cyntaf yn unig o'r gwaith hwn a gyhoeddwyd; ac fel cydnabyddiaeth o'i ragoroldeb, anrhegwyd yr awdur â'r radd o D.D. gan un o golegau yr America. Bwriadai yr awdur, yn ol ei hyspysiad ei hun, gyhoeddi "Tracthawd ar Arwyddion yr Amserau, ynghyd â dyledswydd pob gradd i sylwi arnynt, a'u hadnabod, oddi ar Mat. xvi. 3;" ond ymddengys na chafodd "annogaeth ddigonol" i'w ddwyn trwy'r wasg. Heb law y cyfansoddiadau a nodwyd, gohebodd yr awdur llafurus lawer i'r *Greal (Greal y Bedyddwyr), Seren Gomer, Yr Athraw, Y Tyst Apostolaidd*, &c. Hefyd, cyfansoddodd rai hymnau rhagorol, ac ychydig o englynion. Rhoddes ei ofalon, fel gweinidog, i fynu yn 1858, a neillduwyd y Parch. A. J. Parry fel olynydd iddo yn y Cefnmawr. Er hyny, parhaodd efe i bregethu yn fynych hyd y diwedd. Bu farw ar yr 28fed o Fawrth, 1864, yn 78 oed, wedi bod yn aelod eglwysig am 58 mlynedd, yn bregethwr am 55 mlynedd, ac yn y Cefnmawr am 45 mlynedd.*

RICHARD BONNER.

Brodor oedd y gŵr enwog hwn o Lanarmon-yn-Ial, ger llaw Rhuthyn, sir Ddinbych. Ganwyd ef yn y fl. 1787, mewn tyddyn a elwid Tyddyn-y-sach, yn y plwyf hwnw. Ymhen rhyw ennyd ar ol ei enedigaeth, symmudodd ei rieni i dyddyn arall yn yr un plwyf, a elwid Sgubor. O herwydd hyny, difyrai efe ei gyfeillion weithiau trwy ddywedyd iddo gael ei eni mewn *sach*, a'i fagu mewn *Sgubor*. Y mae ei gyfenw, *Bonner*, yn arwyddo ei fod o haniad estronol, o du ei dad o leiaf. Yr unig ŵr y gwyddom ddim am dano o'r un cyfenw, heb law rhai o deulu ein gwrthrych, yw *Edmund Bonner*, Esgob Hanley, sir Gaerwrangon, yn amser Harri VIII., a'i ddwy ferch, Mari Waedlyd ac Elizabeth. Ond os oedd cyfenw y ddau yr un, yr oedd gwahaniaeth dirfawr rhwng crefydd y ddau, canys Pabydd penboeth ac erlidgar oedd y Bonner Seisnig,† eithr Protestant cydwybodol a rhyddfrydig oedd y Bonner Cymreig.

Ni wyddys odid ddim am ddyddiau boreuaf Mr. Bonner. Dywedodd ynghyfarfod Canmlwyddiant Wesleyaeth, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, yn y fl. 1839, iddo "gael ei ddysgu trwy offerynoliaeth y Methodistiaid Calfinaidd, ond ei achub trwy y Wesleyaid." Y mae hanes tröedigaeth Richard Bonner yr un mor anhyspys a hanes ei ddyddiau boreuaf; ond ymddengys iddo ymuno â'r Wesleyaid o gylch y fl. 1807, pan oedd efe yn 20 oed. Nid yw hyspys chwaith pa bryd y dechreuodd bregethu; ond dechreuodd ar y gwaith teithiol yn y fl. 1814. Treuliodd flwyddyn ymhob un o'r lleoedd canlynol cyn cael ei ordeinio, sef Llanidloes, Llanfyllin, Llanrwst, ac Aberystwyth. Neillduwyd ef i'r holl waith yn Leeds, yn y fl. 1818. Wedi hyny teithiodd am 36 o flynyddau yn y cylchdeithiau canlynol:—Caernarfon, Llanfyllin, Treffynnon, Merthyr Tydfil, Llundain, Amlwch, Pwllheli, Dolgellau, Dinbych, Llangollen, Nerpwl, Treffynnon (yr ail waith), yr Wyddgrug, Llanrwst, Abermaw, Nerpwl (yr ail waith), Manchester, Bangor, a Bomaris; ac yn y fl. 1854, gwnaed ef yn Uwchrif. Yna ymsefydlodd yng Nghaernarfon, ac yno y gorphenodd ei yrfa ddaearol, ar yr 28fed o Orphenaf, 1867, yn 80 oed.

Yr oedd Mr. Bonner yn un o'r cymmeriadau hynotaf a mwyaf adnabyddus a fu yn y weinidogaeth Wesleyaidd yn y Dywysogaeth. Fel dŷn, yr oedd o "*size* go fawr," fel y dywedai ei hun. Yr oedd yn llawn dwy lath o daldra, ac o ffurfiad ehang a llydan, er nad yn bur dewychus. Yr oedd ei wyneb yn hir, y bochgernau yn codi yn uchel, y talcen yn uchel a llydan, yr aeliau yn drymion a blewog, y wefus isaf yn syrthio i lawr, a'i edrychiad braidd yn sarug; ond yr oedd yr olwg arno yn foneddigaidd. Er y dywedir bod ei deulu yn glyd arnynt, etto ymddengys mai ychydig iawn o addysg a gafodd ef pan yn ieuangc, canys arferai ofyn i wahanol bregethwyr ieuaingc, "A fedri di Saesneg?" A phan gai atteb cadarnhaol, dywedai, "Y mae gen ti beth nad oedd gen i, pan yn troi allan i'r byd."

Yr oedd wedi ei gynnysgeuddu â galluoedd meddyliol uwchraddol, ac wedi eu gwrteithio yn dda gyd â chylch ehang o ddarlleniad ac efrydiaeth galed. Yr oedd yn meddu dirnadaeth dreiddgar, ac amgyffred ehang; ac er nad oedd ei allu rhesymegol yn finiog, etto arferai feddwl yn fanwl a choeth. Yr oedd ei ddychymmyg yn fywiog a chwarëus, er nad yn ymgodi yn uchel iawn, nac yn cymmeryd ehediadau pell. Meddai gryn lawer o anianawd barddonol; a phe gwrteithiasai y dalent honno, gwneuthai fardd da. Yr oedd yn deall y mesurau ceuthion yn wych, a chyfansoddodd amryw englynion tarawgar. Ar fynediad y Parch. David Gravel i Nerpwl i gyd-deithio âg ef, cyfansoddodd yr englyn pert canlynol iddo:—

* Cofiant E. Evans, gan R. Ellis (Cynddelw); En. Cymru, I. F., t. 823; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 363.
† Wright's Royal Dict. Cyclo., s.v. Bonner.

"Ai *Gravel* yw sail dy grefydd,—neu dywod?
O dywed im' Dafydd;
Neu dawel lan, o dywydd,
Yng Nghrist llon, yw ffon dy ffydd?"

Er nad oedd Mr. Gravel yn fardd ei hun, etto cafodd gyfaill, ger llaw Rhuthyn, i barotöi yr attebiad a ganlyn iddo:—

"Mewn hyder, Bonner, 'rwy'n byw,—yng Nghrist,
Fy Nghraig rhag y distryw;
Fy Adail, efe ydyw;
Tŷ a ddeil y tywydd yw."

Cyfansoddodd lawer o ddarnau barddonol yn ystod ei oes, ac y mae rhai o honynt yn dlysion iawn, megis y "Fronfraith yn Canu," a gyhoeddwyd yn yr *Eurgrawn* am y fl. 1835.

Safai yn uchel fel pregethwr. Parotoai yn fanwl ar gyfer y pulpud. Y mae ei bregethau yn gyfoethog o brif wirioneddau yr efengyl, wedi eu hegluro yn olau, eu trefnu yn ddestlys, a'u cymhwyso yn darawgar, ac wedi eu gwisgo mewn iaith ddetholedig a choeth. Yr oedd swyn rhyfeddol yn nhraddodiad ei bregethau. Llefarai yn araf, ond yn rhwydd; yn fanwl, ond yn ddyddorol; ac yn dawel, ond yn rymus ac effeithiol. Yr oedd ei lais, er nad yn gryf, etto yn soniarus, yn dyner, a threiddgar. Ennillai sylw y gynnulleidfa ar unwaith, a sicrhai gydymdeimlad ei wrandawyr â'r gwirioneddau a dreuthai. Byddai ganddo droadau sydyn yn ei bregethau: y funud yma, cynhyrchai wên ar wyneb pawb; ond y funud nesaf, tynai ddagrau o bob llygaid.

Yr oedd yn allu ar y llwyfan (*platform*) yn ddïeithriad. Ni fethodd un amser a chael y gynnulleidfa i'w law, pa un bynag ai y Bibl Gymdeithas, y Genhadaeth, ai rhyw achos arall a fyddai yn cael ei ddadlau. Nid oedd neb a dderbynid yn fwy siriol gan bob cynnulleidfa. Ni siaradai ar ddim heb feddu cydymdeimlad â'r hyn a fyddai dan sylw, ac ni chydymdeimlai âg unrhyw symmudiad heb ei ddeall yn llwyr: ac ar ol ei ddeall ei hun, llwyddai i gael eraill i'w ddeall, i gydymdeimlo gyd âg ef, ac i wneud eu rhan i'w gefnogi. Byddai ganddo ef ryw eglurhad hapus, neu ryw hanesyn difyrus, neu ryw arabedd tarawiadol, i egluro pob gwirionedd ac egwyddor i ddyfnder natur ei wrandawyr. Ac ambell funud byddai y gynnulleidfa yn glust i gyd, yn gwrando arno yn treuthu giriau gwirionedd a sobrwydd; a'r funud nesaf, byddent yn ymwau yn swn ei arabedd a'i hanesion, ac yntau yn sefyll yn syn, fel pe yn rhyfeddu am ba beth y gwenai y bobl, a'i edrychiad yn creu gwên arall dros y gynnulleidfa; a byddai'r cwbl mor naturiol a gweddus iddo ef fel nad allai yr uchaf ei chwaeth, a'r mwyaf llednais ei yspryd, lai nag ymgolli yn llonder y gynnulleidfa.

Ni chyhoeddwyd ond ychydig o'i gyfansoddiadau rhyddieithiol yn ei oes ef. Nid ydys yn gwybod ond am ddwy bregeth yn unig, y naill ar "Gariad Crist," a gyhoeddwyd mewn llyfr a elwir "Dwfr y Bywyd," a'r llall ar y "Dŷn yn cael ei Gyfnewid," yn yr *Eurgrawn* am 1833. Bwriedir dwyn cyfrol o'i gyfansoddiadau allan o'r Llyfrfa Wesleyaidd, gan awdurdodau yr hon y mae ei holl ysgrifau.*

## JOHN WILLIAMS (YR AIL).

Mab ydoedd y gŵr enwog a llafurus hwn i David ac Ann Williams, Siglan-fawr, Llanfairpwll-gwyngyll, Môn. Ganwyd ef ym mis Mawrth, 1788. Er yr arferai fyned i'r ysgol Sabbothol ac i'r pregethau yng nghapel y Methodistiaid yn yr ardal, ac er y cythryblid ei feddwl yn fynych, pan yn dra ieuangc; etto, para yn wyllt ac anystywallt a wnaeth nes oedd tu a 15 oed. O gylch y pryd hyny, aeth Mr. Bryan i'r ardal i bregethu, ac aeth John i'w wrando, a chafodd ei argyhoeddi. Er hyny nid ymunodd efe â'r gymdeithas Wesleyaidd hyd ddydd Calan, 1806. Ymhen dwy flynedd wedyn, dechreuodd bregethu, a chanfyddwyd yn fuan nad dŷn cyffredin ydoedd; a phennodwyd ef, yn 1809, i lafurio ar Gylchdaith Rhuthyn gyd âg Edward Jones (y trydydd), a William Jones o Bomaris. Y flwyddyn ganlynol, pennodwyd ef ar Gylchdaith Machynlleth. Pan yn sefydlog yno, heb law llanw cylch cyffredin gweinidog Wesleyaidd, sefydlodd ysgol rad i blant tlodion y dref, yr hon a gadwai am dri neu bedwar diwrnod bob wythnos, yr hyn oedd o werth dirfawr y pryd hwnw, pan oedd addysg mor brin. Heb law rhoddi addysg elfenol iddynt, cymmerai efe bob cyfleusdra i'w dysgu yn "y pethau a berthynent i'w heddwch." Ni oddef lle i ni ei ddilyn o gylchdaith i gylchdaith; ond bu ef yn llafurio yn ddiwyd a llwyddiannus hyd y fl. 1833. Y pryd hyny, goddiweddwyd ef gan gystudd, yr hwn a barhaodd i drymhau hyd y 15fed o Ionawr, 1834, pan y bu farw mewn tangnefedd gorfoleddus, pan nad oedd ond 46 oed.

Anfynych iawn y ceir hanes am neb a lafuriodd mor galed a Mr. Williams, ac a wnaeth gymmaint mewn tymmor mor fyr. Ni bu ei fanteision addysg

* Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer.

Digitized by Google

ym morau ei oes ond prin; ond trwy ymroddiad diflino, daeth efe yn gydnabyddus iawn â gwahanol ganghenau gwybodaeth. Yr oedd yn deall Cymraeg yn drwyadl. Yn y fl. 1827, cyhoeddodd yn *Yr Eurgrawn* "Ieithadur Arweiniol i ddeall yr Iaith Gymraeg." Yr oedd yn gwbl hyddysg hefyd yn y Saesneg, fel y prawf y rhan a gymmerth ynghyfieithiad Esponiad Mr. Wesley i'r Gymraeg. Yr oedd yn deall yr iaith Roeg yn dda hefyd. Yn 1818, cyhoeddwyd "Traethawd ar Fedydd" o'i waith yn *Yr Eurgrawn*, yr hwn a ddengys ysgolheigdod uwchraddol, a chydnabyddiaeth helaeth â'r pwngc. Yr oedd ganddo law hefyd yn nygiad allan y "Goleuad Dwyreiniol," yn yr hwn yr eglurir defodau ac arferion y Dwyrain, &c. Yn y fl. 1827, cyhoeddodd gyfres o "Lythyrau at Bregethwyr Ieuaingc," y rhai sy'n dangos, nid yn unig ei ofal am bregethwyr ieuaingc, a'i gydymdeimlad â hwynt, ond hefyd ei gydnabyddiaeth helaeth â gwaith gwahanol awduron. Yn nechrau y fl. 1828, ymgymmerodd â rhoddi allan "Hanes Wesleyaeth yng Nghymru," yn *Yr Eurgrawn*, o fis i fis, a pharhaodd i ymddangos hyd Orphenaf 1830. Hwn oedd y cynnyg cyntaf at gyhoeddi hanes Wesleyaeth, a bydd Wesleyaid Cymru yn ddyledus byth iddo am ei lafur dirfawr. Cyhoeddodd lyfr a elwir "Llusern Ysgrythyrol," yr hwn sy'n ymdrin â pharhad ammodol y saint. Cyfieithodd Gofiant y Parch. Samuel Bradburn. Hefyd, cyhoeddodd y gyfres ganlynol o bregethau:—

"Pen Corph yr Eglwys: Col. i. 18.—Y Tynu Dwyfol: Ioan vi. 27.—Hollbresennoldeb Duw: 2 Chron. vi. 18.—Cyflawnder yr Amser: Gal. iv. 4, 5.—Cyfoeth yr Efengyl: Eph. iii. 8.—Yr Hyfryd Lais: Ps. xxxix. 15."

Ysgrifenodd hefyd ar amryw byngciau crefyddol i'r *Eurgrawn* dan yr enwau *Philoadelphos* a *Darllenwr yr Eurgrawn.* Bu'n olygydd *Yr Eurgrawn* am y bl. 1826–28, ac yn "Ysgrifenydd Cyllidol Ail Dalaeth Deheudir Cymru" am y bl. 1831 ac 1832; a gwnai hyn oll heb esgeuluso dim o'i orchwyl fel pregethwr. Pa fodd y gallodd wneud cymmaint o waith llenyddol, yn ychwanegol at ei lafur gweinidogeuthol, sydd ddirgelwch. Yr oedd y cylchdeithiau y pryd hyny mor ehang, pregethu wythnosol mor fynych, a'r gofal am yr achos mor amrywiol, fel y rhaid ei fod wedi trethu ei natur â llafur gormodol.*

THOMAS PRICE.

Adnabyddir y gŵr enwog a llafurus hwn yn well gan y Cymry yn gyffredinol wrth ei enw llenyddol, CARNHUANAWC, nag wrth ei enw priod, Thomas Price (neu Prys). Ganwyd ef ar yr 2fed o Hydref, 1788, mewn lle a elwir Pencaerelin, yn Llanfihangel-bryn-Pab-Ieuan (*Bryn-Pabuan*, medd eraill), ymhlwyf Llanafan-fawr, yng Nghantref Buallt, sir Frycheiniog. Efe oedd yr ieuengaf o ddau fab y Parch. Rhys Price, Ficar Llanwrthwl, a churad parhaus Llangantan, ym Mleunau sir Frycheiniog, yn 1789. Cafodd y mab hynaf, John Rhys Price, ei addysg yng Ngholeg Wadham, Rhydychain. Bu ef farw yn y fl. 1825, yn 40 oed. Bachgen synllyd a myfyrgar oedd Thomas o'i febyd; ond, medd hen gydnabod iddo, "yr oedd yn rhyfeddol o dreiddlym, ac yn hynod yn ei ffyrdd." Credai, er yn blentyn, bod ei hynafiaid, o fab i dad, yn siarad Cymraeg yn ddidor, er y gwasgariad ym Mabel! Dysgodd naddu a cherfio yn forau, a lluniodd fath ar delyn ddiaddurn er difyrwch iddo ei hun, a rhyfeddod i'r cymmydogion. Yr oedd ei dynerwch serchoglawn yn ddiderfyn: rhanai ei damaid â'r anghenus wrth fyned i'r ysgol, pan yn blentyn, heb feddwl am y newyn a'i goddiweddai cyn cyrraedd adref i'w swper.

Yn y fl. 1805, pan oedd efe tu a 17 oed, aeth i Ysgol Rammadegol Aberhonddu. Yr oedd amryw Ffrangcod dysgedig yn y dref y pryd hwnw, yn garcharorion rhyfel; a dysgodd yntau eu hiaith yn rhagorol. Yr oedd yn ymwelydd cysson â thŷ Mr. Theophilus Jones, tra'r oedd y gŵr dysgedig hwnw yn cyfansoddi ac yn argraphu Hanes Sir Frycheiniog (*History of Breconshire*). Yr oedd tad Carnhuanawc wedi bod yn gynnorthwywr pwysig i Mr. Jones wrth gasglu defnyddiau at y gwaith hwnw; ac yr oedd Carnhuanawc erbyn hyn wedi dyfod yn gerfiwr medrus ar fettel, a'i waith ef ydyw y cerfiadau sydd yn yr ail gyfrol o'r gwaith godidog hwnw. Bu farw ei dad yn niwedd 1810; ond bu Mr. Theophilus Jones a'i wraig yn garedig iawn wrtho hyd derfyn ei arhosiad yn y coleg. Ar y 10fed o Fawrth, 1811, urddwyd ef yn ddiacon gan y Dr. Burgess, Esgob Tŷ Ddewi, a chafodd guradieuthau Llan-llyr-ynrhos a Llanfihangel-Helygen, sir Faesyfed. Ar y 12fed o Fedi, 1812, cafodd "urdd offeiriad" gan yr Esgob Burgess, yn Eglwys Petr, Caerfyrddin.

Collodd Carnhuanawc ei gyfaill a'i noddwr, Mr. Theophilus Jones, yn nechrau 1812; ond bu yr Archddiacon Payne, hynafieithydd dysgedig arall, yn foddion i'w ddwyn o sir Faesyfed, a symmudodd i fyw i Grughowel, ar yr 2fed o Ebrill, 1813,

* Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer.

Digitized by Google

a chafodd guradieuthau Llangeneu, Llanbedr-ystrad-yw, a Patrishaw. Tu a'r un amser, cynhygiodd y Celtig Ddafis guradiaeth Olverton iddo, gan ei fod ef ei hun yn gorfod symmud i'w fywioliaeth yn Llandeilo-fyrwallt; ond dewisodd ef aros gyd â'r Cymry. Yn y fl. 1816, doded ef yn gurad yn Llangattwg, Crughowel, a Llanelli. Yr oedd trigolion y plwyfi hyn yn dra gwasgaredig, o Grughowel i'r Bryn-mawr; ond bu ef yn ddiwyd a llafurus yn cyflawni ei wasanaeth. Tra bu'n preswylio yn y lle hwn, cystal ag mewn lleoedd eraill, ennillodd serchiadau y trigolion yn gyffredinol, fel dŷn hynaws, caredig, diragfarn, a chymmwynasgar. Yr oedd yr Ymneillduwyr y pryd hwnw heb un lle i gynnal moddion yn yr ardaloedd hyny. Pan oedd Mr. Price yn myned i'r eglwys ar ryw forau Sul, aeth un hen frawd i'w gyfarfod, a dywedodd ei gŵyn wrtho, gan ei hyspysu ei fod ef yn dra awyddus am le mwy canolog a chyfleus i gynnal ysgol Sabbothol a moddion eraill ynddo. Dywedodd Mr. Price yn siriol wrtho, "Byddaf fi heddyw yn ciniawa gyd â Mr. Scale, perchenog y gwaith. Deuwch yno, a mynnaf weled beth a allaf wneuthur trosoch." Aeth y brawd yno, a chafodd Mr. Price yn llawen, am ei fod wedi llwyddo gyd â'r bonheddwr i gael lle cyfleus i'r Ymneillduwyr i wersyllu ynddo. Nid oes angen am ragor na hyn i esponio yspryd rhyddgarol a meddwl diragfarn yr enwog Garnhuanawc, er y byddai yn hawdd ychwanegu amryw esamplau cyffelyb.

Wedi i'r gŵr enwog hwn fod yn gweini o le i le fel curad dros 13 blynedd, gan lafurio ynddynt gyd â diwydrwydd a llwyddiant na cheid eu cyffelyb ond anfynych iawn, pennodwyd ef o'r diwedd, yn y fl. 1825, yn Ficar Cwm-du, rhwng Crughowel a Thalgarth; ac ymhen amser wedyn, cafodd guradiaeth barhaol hen Gapel Eglwysig Tretŵr, am wasaneuthu y rhai y derbyniai tu a 200p. y flwyddyn.

Fel dŷn, yr oedd Carnhuanawc yn dal a thenau, ei dalcen yn uchel a llydan, ei lygaid yn fywiog a chraffus, ei wynepryd a'i holl ysgogiadau o ymddangosiad prydferth a thywysogaidd. Er ei fod yn byw ar gyffiniau y Saeson, ac yn ymgymmysgu llawer â boneddigion o bob gradd a chenedl; etto, Cymro diledryw, o'r hen arddull, oedd efe. Mynnai ei holl wisgoedd o wlan defaid mynyddoedd Cymru, wedi ei gribo a'i nyddu gan hen wragedd ei blwyf, ac wedi ei weu, ei liwio, a'i banu gan ryw gymmydogion medrus. Ni roddai y brethyn i'r teiliwr cyn eistedd llawer arno yn ei gadair ddwyfraich, nes y byddai pob peth tebyg i gotwm a graen newydd-deb wedi llwyr ddiflannu! Yr oedd casineb at bob peth tebyg i rodres a gwagedd y byd hwn wedi greddfu yn ei galon. Yr oedd yn gerddwr bron heb ei fath. Gan ei fod yn dal a hoyw, yr oedd ei gam yn hir a chyflym.

Hefyd, yr oedd Carnhuanawc yn gerddor medrus; yn chwareuwr celfydd ar y delyn Gymreig, cynllun o'r hon a wnaeth efe, fel y crybwyllwyd, â'i law ei hun; yn llysieuwr gwybodus, yn bregethwr sylweddol a difrif, ac yn areithiwr hyawdl ac eofn. Ond er yr holl ragorieuthau hyn, a llawer eraill hefyd, oedd yn y dyngarol Garnhuanawc, fel awdur llenyddol y pery ei glod ef ym mysg y Cymry, y Saeson, a'r Llydawiaid, "Tra môr tra Brython."

Er mai yn Gymraeg yr ysgrifenodd efe ei brif waith, fel y ceir gweled yn fuan; etto, yn Saesneg yr ysgrifenai fynychaf; ond pyngciau Cymreig neu Geltig a fyddai ganddo yn wastad. Nid ydym yn gwybod am ddim o'i waith yn Gymraeg ond yr un y cyfeiriwyd ato, a'i ysgrifeniadau yn *Seren Gomer*. Dechreuodd ei yrfa fel awdur mor forau a Medi, 1811, pan nad oedd ond 23 oed, sef—

"An Account of some Roman Remains near Llandrindod, in a Letter from the Rev. Thomas Price to Theophilus Jones, Esqr., F.S.A."*

Cyhoeddwyd y llythyr gyd â darluniau o'r olion Rhufeinig yn yr *Archæologia*, vol. xviii. Cyflwynwyd y llythyr gan Mr. Jones i Nicholas Carlisle, awdur y *Topographical Dictionary*, ac ysgrifenydd y Gymdeithas Hynafieithol, gyd â chanmoliaeth i'w gyfaill ieuangc, yn dechrau fel hyn:—"Yr wyf yn anfon i chwi fraslun o lythyr, yr hwn a dderbyniais yn ddiweddar oddi wrth hynafieithydd ieuangc, ond meddylgar a zelog."

Un peth a dynodd sylw Carnhuanawc yn forau oedd amddifadrwydd y Llydawiaid (ceraint y Cymry) o Air Duw. Ysgrifenodd at Gymdeithas Hynafieithol Ffraingc ar y matter mor forau ag 1819. Tybiai nad oedd neb ond Cymro yn debyg o ymaflyd yn y gorchwyl. Bu'n ddiwyd a ffyddlawn iawn mewn cyssylltiad â'r achos yma. Bu'n areithio o'i blaid, ac yn casglu arian ato yngŵyl Cymreigyddion Aberhonddu Ddydd Gŵyl Dewi, 1824; ac er bod rhai am ei ddigaloni yn ei frwdfrydedd dyngarol, yr oedd Cymreigyddion Powys a Chymreigyddion Llundain yn ei gefnogi, a buwyd

* Hanes rhai Olion Rhufeinig ger llaw Llandrindod, mewn Llythyr oddi wrth y Parch. Thomas Price at Theophilus Jones, Ysw., C.C.H."

yn gohebu â'r Bibl Gymdeithas ar y matter. Yn y cyfamser, yr oedd yn myfyrio y Llydawaeg gyd â diwydrwydd dïorphwys, er ei gymhwyso ei hun i fod o ryw gynhorthwy yn yr achos. Cyfieithwyd y Testament Newydd i'r Llydawaeg gan M. Le Gonidec. Carnhuanawc a ddarllenai y prawfleni, ac anfonai nodiadau beirniadol a diwygiadau i'r cyfieithydd; ac erbyn 1828, yr oedd y gwaith wedi ei argraphu.

Rywbryd o gylch y fl. 1821, sefydlodd Carnhuanawc Gymdeithas Cymreigyddion Aberhonddu, ac efe oedd ei llywydd. O gylch yr un amser, dechreuodd ohebu i *Seren Gomer*, dan yr enw CARNHUANAWC, ac ysgrifenodd restr o lythyrau ar yr "Iaith Gymraeg." Yr oedd ei ysgrifau dysgedig yn tynu sylw bob amser, ac yn cael darlleniad manwl ac ystyriol. Tu a'r pryd hyn, bu dadl yn y *Seren* rhyngddo a'r Dr. Pughe ynghylch caniadau Myrddin, ar yr holiadau yma:—"A oedd geiriau Gwyddelig ynddynt, ai nad oedd? ac, A oedd ffordd Rufeinig yn croesi Gwaith Emrys (*Stonehenge*)?" Addefodd ar ol hyny, fel gŵr bonheddig, mai'r Dr. Pughe oedd yn gywir. Yr oedd gohebieuthau a dadleuòn Carnhuanawc yn britho *Seren Gomer* am 1821. Yn y *Seren* am 1822, ysgrifenodd yn helaeth ar "Hen Drigolion yr Alban," a "Hen Drigolion Siluria," a gwrthwynebai y Dr. Pughe mewn amryw bethau.

Yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1823, yr oedd yn "areithio yn rhagorol ar Gyfundrefn y Beirdd (*Bardic System*), a'r manteision a ddeilliodd trwy hyny i genedl y Cymry." Yn Eisteddfod y Trallwm, drachefn, yn 1824, traddododd "Araeth ddysgedig, ddoeth, a hyawdl." Dywedodd y llywydd, yr Arglwydd Clive, ar ganol yr araeth, ei fod yn ei ammau, gan ei fod yn dywedyd gormod am y Cymry. Dywedodd yntau, yn eofn, na fynnai efe ei attal, yn oed gan arglwydd, tra y safai ar y gwirionedd; ac ar y diwedd, gwnaeth ei arglwyddiaeth esgusawd, gan addef ei anwybodaeth. Ymddengys mai yn yr Eisteddfod hon yr ennillodd ein gwron y wobr Eisteddfodol gyntaf, ar y testyn canlynol:—

"The Causes and Extent of the Early Intimacy and Mutual Intercourse between the Armoricans and Britons, and the National Affinity still existing between their Descendants."*

Dyma'r tro cyntaf hefyd, fel y tybir, iddo gynnyg ysgrifenu treuthawd Saesneg, a chynnwys hwn lawer o fatter gwerthfawr, wedi ei drefnu yn alluog. Corpholwyd hwn yn ei dreuthawd ar ei "Daith trwy Lydaw,"† a ddaw dan sylw yn ebrwydd. Cofiwyd yn hir am yr olwg oedd arno ar lwyfan Eisteddfod Aberhonddu yn 1826, â sypyn o lyfrau Cymreig dan ei gesail, yn dywedyd yn eofn a hyawdl, "Dangoswch i mi ryw genedl arall o ddynion ar wyneb yr holl ddeuar, ymhlith yr hon y mae'r dosparthiadau gweithiol yn unig noddwyr y wasg!" Ac yna, gan daflu'r cyhoeddiadau cylchynol, y naill ar ol y llall, ar y bwrdd, dywedai yn uchel ac awdurdodol, "Dyma fy nhystion!" Yn Eisteddfod Dinbych yn 1828, yr oedd y Duc o Sussex yn synu at ei hyawdledd; etto, dywedai nad oedd ryfedd fod golygfëydd mor brydferth, a thonau mor swynol, a rhai'r delyn Gymreig, yn tanio enaid mor athrylithgar a'r eiddo Carnhuanawc.

Yn y fl. 1829, aeth ar daith i Lydaw, ar ei draed. Ei neges benaf yno oedd ymweled â Le Gonidec. Clywsai nas gallai y gŵr enwog hwnw fyned ym mlaen gyd â chyfieithu yr Hen Destament i'r Llydawaeg heb Eiriadur Cymraeg a Lladin, a Lladin a Chymraeg, y Dr. Davies o Fallwyd; a mynodd yntau gopi o hono, ac ni orphwysodd nes ei gyflwyno i Le Gonidec â'i law ei hun. Dychwelodd adref ddechrau Awst y flwyddyn honno, am yr hon daith dywed wrth gyfaill fel hyn:—

"Euthum i Lydaw o Agoulême, i weled M. Le Gonidec, a chefais ef yn cyfieithu yr Hen Destament i'r Frythonaeg [Llydawaeg]. Y mae efe wedi gorphen Llyfr Genesis. Archwiliais y rhan gyntaf gyd âg ef, a chefais ei fod yn gyfieithiad rhagorol. . . . . . Chwiliais agos yr holl lyfrgellau cyhoeddus yn Llydaw a Pharis, i edrych am lawysgrifau Cymreig neu Frythonig; ac y mae'n ddrwg genyf ddywedyd, heb y gronyn lleiaf o lwyddiant."

Cyhoeddwyd hanes ddyddorol o'r daith hon yn y *Cambrian Quarterly Magazine* am 1830 ac 1831, a ysgrifenasid gan yr awdur ei hun yn Saesneg, wrth yr enw, "*A Tour through Brittany, made in the Summer of* 1829." Cynnwys y treuthawd dyddorol hwnw y pethau canlynol:—

"Olion Celtaidd yn Ynys Jersey; disgrifiadau o'r Dalaeth Lydawaidd, a'i thrigolion; cerddoriaeth Lydawaidd; Llawysgrifau Llydawaidd; Llawysgrifau Gwyddelig hynod; treuthiad ar y Llydawaeg ac Ieithoedd eraill; defodau priodasol Bas Léon, yn cael eu cymharu â rhai Cymru; Llenyddiaeth Lydawaidd; Chwaryddiaeth (*Drama*) Pedwar Mab Aymon; llyfrau diweddar yn yr iaith Lydawaidd; prophwydolieuthau Myrddin (Merlin); cerdd hanesyddol o'r 14edd ganrif, a elwir *The Combat des Trente* (Brwydr Trente); gwisgoedd Llydawaidd; defodau ac iaith y Llydawiaid."‡

* "Achosion a Helaethder y Cyfeillgarwch Cyntefig a'r Ymgyfathrach rhwng y Llydawiaid a'r Brytaniaid, a'r Tebygolrwydd Cenedleuthol sydd fyth rhwng eu Hiliogaeth."

† Price's Literary Remains, vol. i., p. 1.
‡ Price's Literary Remains, vol. i., pp. 3–111.

Digitized by Google

Ail argraphwyd y traethawd godidog hwn yn 1854, gan W. Rees, Llanddyfri, yn y gyfrol gyntaf o *Price's Literary Remains*, dan olygiad y llenores wladgar, Jane Williams, Ysgafell, a chynnwys 111 o dudalenau y gyfrol 8plyg honno. Yn yr un flwyddyn (1829) ag yr ysgrifenodd hanes ei Daith trwy Lydaw, cyhoeddodd y llyfr canlynol:—

"An Essay on the Physiognomy and Physiology of the present Inhabitants of Britain."*

Cafodd y llyfr hwn ganmoliaeth uchel am grefyddolder ei yspryd, dyfnder ei ddysgeidiaeth, a diwydrwydd ei ymchwiliadau. Yn y fl. 1832, dyrchafwyd Carnhuanawc yn Ddeon Gwladol ar un dosparth Eglwysig o sir Frycheiniog; ac yn Awst y flwyddyn honno, bu yn Eisteddfod Bomaris, Môn, lle yr areithiai yn ddoniol ar byngciau llenyddol Cymreig. Yn niwedd y fl. 1833, ffurfiwyd "Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni," yn cynnwys 26 o aelodau, y rhai a ymgyfarfyddent mewn gwestty a elwid "Yr Haul." Cynhyddodd rhif yr aelodau yn fuan i 75; a chefnogid hwy gan brif deuluoedd Gwent a Morganwg. Etholwyd Carnhuanawc yn aelod, a thaflodd yntau ei holl ddylanwad o blaid y gymdeithas; ac efe oedd ei henaid am y pymtheng mlynedd olaf o'i oes. Teimlai bryder mawr rhag i'r aelodau ymollwng i yfed gormod o ddïod gadarn, a hyny cyn bod dim son am gymmedroldeb na llwyrymattaliad, fel cymdeithasau. Dyma ran o un o'i gyfarchiadau i'r aelodau:—

"Dymunol fyddai, pe dichonadwy, na bo dim yn cael ei yfed yn ystod oriau y cyfarfod. Y mae gwladgarwch yn glodwiw, ac y mae ein hiaith wedi bod yn foddion i gynnysgaeddu ein cenedl ni â breintiau anhreuthadwy. Y mae'n ddilys genyf mai cymmeradwy gan Dduw ydyw i ni ei choleddu a'i meithrin megis trysor gwerthfawr; ac os gwnawn hyny gyd a moesoldeb, ac yn ofn Duw, pwy a ddichon ddywedyd na bydd iddi gael ei pharhau i ni yn gyfrwng gwybodaeth a bendithion ysprydol, hyd nes y cyflawnir yr oruchwyliaeth bresennol?"

Yn yr yspryd dymunol yna y byddai yr enwog Garnhuanawc yn trin Eisteddfodau. Bu Cymreigyddion y Fenni yn wasanaethgar iawn i'w gwlad a'u cenedl am ugain mlynedd, a Charnhuanawc oedd eu bywyd a'u doethineb. Byddai yn cystadlu ei hun ar y prif destynau yn achlysurol, yn enwedig testynau nad allai ond ychydig bersonau yn y byd llenyddol ysgrifenu arnynt, fel y ceir gweled yn fuan. Yn y fl. 1834, cynhygiodd Eisteddfod Caerdydd wobr am y testyn canlynol:—

"An Essay on the Welsh Saints, or the Primitive Christians usually considered to have been the Founders of Churches in Wales."†

Carnhuanawc oedd un o'r beirniaid, a'r Proffeswr Cymreig, Rice Rees, o Goleg Dewi Sant, a ennillodd y wobr. Cyhoeddwyd y traethawd gorchestol hwn yn 1836, gan W. Rees, Llanddyfri, yn gyfrol 8plyg brydferth, yn cynnwys 358 o dudalenau, a 14 tudalen o arweinolion; ac y mae'n ddilys ddïammau ei fod y cyfansoddiad gorau sy'n bod ar hanes crefydd yn y wlad hon, o'i dyfodiad cyntaf yma hyd y 7fed ganrif. Gresyn calon na chyhoeddid cyfieithiad Cymreig da o hono gan ryw gyhoeddwr anturus. O gylch y pryd hyn, neu ychydig yn gynharach, ond odid, teimlid bod ar y Cymry wir angen am hanes dda o'u cenedl eu hunain; ac annogodd Thomas Williams, argraphydd, Crughowel, Carnhuanawc i ymaflyd yn y gorchwyl, â'r hyn y cydsyniodd yntau, a daeth y rhan gyntaf o'r gwaith godidog a ganlyn allan yn y fl. 1836:—

"Hanes Cymru, a Chenedl y Cymry, o'r Cynoesoedd hyd at farwolaeth Llywelyn ap Gruffydd; ynghyd â rhai Cofiaint perthynol i'r amseroedd o'r pryd hyny i waered."

Gorphenwyd y gwaith llafurfawr a gorchestol hwn mewn 14 o ranau, swllt yr un, yn 1842, yn gyfrol 8plyg hardd, yn cynnwys 798 o dudalenau, ynghyd âg 8 tudalen o arweinolion. Y mae'n wir na bu'r gwaith rhagorol hwn erioed yn llyfr poblogaidd, o herwydd nad yw mewn Cymraeg ystwyth a rhywiog, fel *Drych y Prifoesoedd*, *Hanes y Ffydd*, *Y Bardd Cwsg*, a'r cyffelyb; ond y mae'n drysor amhrisiadwy i gyfeirio ato, ac i'w ddefnyddio fel cynhorthwy y gellir ymddibynu yn gyffredin ar ei gywirdeb hanesyddol. Yr oedd Carnhuanawc yn gynhorthwy mawr i'r Arglwyddes Charlotte Guest, o gylch yr un amser, yngolygiaeth *Y Mabinogion*, y rhai a gyhoeddwyd yn 1838. Yr oedd Carnhuanawc yn ymgeisydd yn Eisteddfod y Fenni, a gynhaliwyd yn Hydref, 1838, am y wobr o 60 gini, ar y testyn canlynol:—

"An Essay on the Influence which the Welsh Traditions have had on the Literature of Europe."‡

Ei ffugenw oedd "*Ugnach ab Mydno.*" Yr oedd pump o ymgeiswyr, a dyfarnwyd y wobr gan Mr. Hallam, yr hanesydd enwog, i J. D. Hardinge, Ysw., Glanogwr, sir Forganwg, yn benaf, fel y tybir, o blegid rhagoriaeth ieithwedd ei waith

* Traethawd ar Weddofyddiaeth ac Anianyddiaeth Trigolion presennol Brydain.

† Traethawd ar y Saint Cymreig, neu y Cristionogion Cyntefig, yr ystyrir yn gyffredin iddynt fod yn Sylfeunwyr Eglwysydd Cymru

‡ Traethawd ar y Dylanwad a gafodd Traddodiadau Cymreig ar Lenyddiaeth Ewrop.

Digitized by Google

Pa wedd bynag, mawrygid teilyngdod mewnol treuthawd Carnhuanawc i'r fath raddau gan y Chevalier Bunsen, ac amryw ddysgedigion enwog eraill, fel y gwasgasant ar yr awdur ei gyhoeddi yn ddïoed; ond gwrthododd y boneddigaidd Garnhuanawc gydsynio, rhag yr ymddangosai hyny fel cynnyg i wrthwynebu dedfryd y beirniad, gan yr ystyriai efe bod ei waith yn anfon ei dreuthawd i'r gystadleuaeth yn arwyddo ei gydsyniad distaw â'r feirniadaeth. Pe bai fwy o gystadleuwyr Cymreig aflwyddiannus o'r un anian a'r bonheddwr dysgedig, anhunanol hwn, ceid llai o rwgnach a dihirwch distadl mewn canlyniad i ddedfrydau beirniaid Eisteddfodol. Pa wedd bynag, parhaodd efe i wellâu a heleuthu y treuthawd dan sylw, a chyhoeddwyd ef yn gyflawn ar ol ei farwolaeth.*

Yn Eisteddfod Nerpwl, yn y fl. 1840, ennillodd ein hawdur, dan yr un ffugenw ("Ugnach ab Mydno"), y wobr o 30p., a thlws gwerth 5p., am y cyfansoddiad gorau ar y testyn canlynol:—

"Yr Hanes orau yn Gymraeg o'r Tywysogion Cymreig."

Corpholodd sylwedd y treuthawd rhagorol yma yn "Hanes Cymru." Ond y llyfr rhyfeddaf o'i holl gyfansoddiadau oedd yr un canlynol:—

"On the Geographical Progress of Empire and Civilisation." †

Cyfieithwyd hwn i'r Germanaeg, ac argraphwyd ef yn yr *Augusburg Gazette*, y 23ydd o Fedi, 1844. Ail ysgrifenodd hwn wedyn; ac yn 1847, daeth "*Y Kyffrawd*" allan yn Saesneg. Tybiai fod rhyw ddylanwad trydanol yn ysgogi uwch ben, ac yn teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin, gan feithrin talent a gwareiddiad. Yn unol â hyny yr ystyriai efe fod gwareiddiad wedi gadael y Dwyrain, ac yn prysuro yn awr i'r Gorllewin. Yn Eisteddfod y Fenni am Hydref, 1845, ennillodd ein hawdur galluog y brif wobr o 87p. a 3s. ar y testyn canlynol:—

"An Essay on the Comparative Merits of the Remains of Ancient Literature in the Welsh, Irish, and Gaelic Languages, and their value in elucidating the Ancient History and the Mental Cultivation of the Inhabitants of Britain, Ireland, and Gaul." ‡

Enw ffugiol yr awdur wrth y treuthawd hwn oedd "Branawc." Y beirniad oedd yr anianydd clodfawr a'r ysgolhaig gwych, y diweddar James Cowles Prichard, M.D., F.R.S., yr hwn a ragymadroddai ei ddosraniad o'r cyfansoddiad buddugol â'r nodiadau canlynol:—

"Y mae awdur y treuthawd y tanysgrifiwyd Branawc wrtho (enw priod yr hwn a gadwyd oddi wrthyf fi yn gwbl ddirgel), yn ol fy marn i, wedi llawn deilyngu y wobr sydd i gael ei chyflwyno gan yr Eisteddfod agosaol. Cynnwys ei dreuthawd ddosraniad galluog a meistrolgar o weddillion llenyddiaeth Geltaidd yn ei gwahanol ganghenau. Y mae wedi gosod ger bron y darllenydd hanes eglur a llachar o natur ac elfenau yr amryw lafarieithoedd Celtaidd; ac nid yn unig y mae wedi dangos barn gref a manwl wrth gymharu eu teilyngdod priodol, ond hefyd y mae wedi dethol, gyd âg archwaeth a medr godidog, y fath ddifyniadau ac esamplau o gynhyrchion pob oes ac iaith, fel y gall y darllenydd ei ddilyn yn rhwydd yn yr archwiliad, a ffurfio barn drosto ei hun." §

Y treuthawd nesaf a ysgrifenodd ein hawdur oedd un ar y testyn canlynol erbyn Eisteddfod y Fenni, yn 1848:—

"A Critical Essay on the History of the Language and Literature of Wales, from the time of Gruffydd ap Cynan and Meilyr to that of Sir Gruffydd Llwyd and Gwilym Ddu: accompanied with specimens, both in the original and in a close English translation, of the Poems most characteristic of that period." ||

Thomas Stephens, Merthyr Tydfil, oedd yr ymgeisydd llwyddiannus ar y testyn dyddorol uchod. Cyhoeddwyd ei waith ef gan W. Rees, Llanddyfri, yn y flwyddyn ganlynol (1849), yn llyfr 8plyg, yn cynnwys 512 o dudalenau, a 12 tudalen o arweinolion, yr hwn a alwyd "*The Literature of the Kymry, being a Critical Essay*," &c.; a gwaith godidog dros ben ydyw. Yr oedd iechyd ein Carnhuanawc enwog a galluog yn dechrau ad, feilio erbyn yr amser hwnw; er hyny, y mae ei dreuthawd yntau, o'i faint, yn un tra rhagorol. Anfonodd yr awdur diwyd dreuthawd arall i Eisteddfod y Fenni am Hydref, 1848, ar y testyn canlynol:—

"An Historical Account of the Statuta Walliæ, or the Statutes of Rhuddlan, by which Wales was annext to England." ¶

Y wobr oedd 5p. 5s., a roddid gan Lady Parry o Fadryn. Disgrifid y gwaith hwn gan yr Archddiacon Williams fel "treuthawd wedi ei ysgrifenu yn y modd galluocaf a gorau, yr hwn a fydd yn sicr o fod yn dra dyddorol i bawb o chwaeth hynafieithol." Dyfarnwyd y wobr i'r awdur, enw ffugiol yr hwn oedd "Rhynyr Ynad;" a chyn-

* Price's Literary Remains, vol. i., pp. 233-303.

† Ymdaith Deuaryddol Ymherodraeth a Gwareiddiad.

‡ Treuthawd ar Deilyngdod Cymharol Gweddillion Llenyddiaeth Hynafol yn yr Ieithoedd Cymraeg, Gwyddelaeg, a Gaeleg, a'u gwerth i egluro Hanes Hynafol a Diwylliad Meddyliol Trigolion Brydain, y Werddon, a Gâl.—*Price's Lit. Rem.*, vol. i., pp. 115-232.

§ Price's Literary Remains, vol. i., p. 113.

|| Treuthawd Beirniadol ar Hanes Iaith a Llenyddiaeth Cymru, o amser Gruffydd ap Cynan a Meilyr hyd amser Syr Gruffydd Llwyd a Gwilym Ddu: gyd âg esamplau, yn y gwreiddiol ac mewn cyfieithiad Seisnig caeth, o'r caniadau mwyaf dynodiadol o'r cyfnod hwnw.—*Price's Lit. Rem.*, vol. i., pp. 307-344.

¶ Disgrifiad Hanesyddol o Statuta Walliæ, neu Gyfreithiau Rhuddlan, trwy y rhai y chwanegwyd Cymru at Loegr.—*Price's Lit. Rem.*, vol. i., pp. 347-391.

Digitized by Google

hwysai amlen seliedig ei enw priod, a "*Dying Gladiator*" (Campryswr yn Marw) mewn argraph ar y cwyr. Er bod ei lygaid, wrth dderbyn y wobr, yn serenu gyd â gloywder anarferol; etto, teyrnasai y fath welwlesni angeuol ar ei wyneppryd fel yr ofnai ei gyfeillion iddo farw ar y llwyfan! Hwn oedd cyfansoddiad olaf yr enwog a'r llafurus Garnhuanawc.

O gylch yr un amser ag yr ysgrifenai y ddau dreuthawd uchod, yr oedd Mr. Jenkins, Morlaix, yn parotöi cyfieithiad diwygiedig o'r Testament Newydd Llydawaeg i'r wasg; ac ymgynghorai yn fynych â Charnhuanawc ar fanau dyrys. Dywedodd y diweddar Ddr. Phillips iddo alw ddwywaith yn ei dŷ ef i ymgynghori ar y matter, a'i fod ar adeg ei farwolaeth yn cymharu y ddau gyfieithiad â'u gilydd, sef yr eiddo Le Gonidec a Mr. Jenkins. Fel hyn, tra'n llafurio yn egnïol o blaid llenyddiaeth a chrefydd ei wlad ei hun, a'i geraint y Llydawiaid, bu farw ein henwog Garnhuanawc yn dawel a thangnefeddus iawn, ar y 7fed o Dachwedd, 1848, yn 60 oed.

Yr oedd Carnhuanawc yn un o addurniadau penaf Cymru, yn un o weinidogion mwyaf ymroddgar a diragfarn yr Eglwys Sefydledig, ac yn un o hynafieithwyr dysgedicaf ei oes; ond cafodd fyw a marw yn Thomas Price, Ficar Cwmdu, heb nac M.A., nac Ll.D., na D.D., nac F.A.S., na dim ar ol ei enw (pe bai ryw bwys mewn llythyrenau o'r fath), ond Carnhuanawc, i'w wahanieuthu oddi wrth ryw Thomas Price arall. Er hyny, cofir ac anwylir ei goffadwriaeth tra byddo haul yn tywynu ar garneddau a mynyddoedd Cymru. Y mae ei ohebieuthau llïosog yn profi ei fod yn myfyrio yr Ysgrythyrau yn ddwys a dysgedig yn yr ieithoedd gwreiddiol. Cynghorai glerigwyr ieuaingc i wneud pob cangen o'u myfyrdod yn is-wasaneuthgar i'w galwedigaeth fel gweinidogion crefydd; a chwynai yn fynych, tu a diwedd ei oes, bod llenyddiaeth wedi lladrata gormod o'i amser ef, ac wedi denu ei fryd yn ormodol oddi wrth bethau pwysicach.

Yn y fl. 1854, cyhoeddwyd y treuthawd Seisnig a nodwyd, ei weddillion gohebol ac areithyddol, ynghyd â'i fywgraphiad, yn Saesneg, dan olygiad Jane Williams, Ysgafell, gan W. Rees, Llanddyfri, yn ddwy gyfrol 8plyg hardd, dan yr enw yma:—"*The Literary Remains of the Rev. Thomas Price, Carnhuanawc, Vicar of Cwmdû, Breconshire, and Rural Dean, author of Hanes Cymru, &c.*"=Gweddillion Llenyddol y Parch. Thomas Price, Carnhuanawc, Ficar Cwmdu, sir Frycheiniog, Deon Gwladol, awdur Hanes Cymru, &c. A gallwn sicrhau nad oes yn yr iaith Saesneg lyfr llenyddol mwy dyddorol i Gymro gwladgarol.*

### SAMUEL DAVIES (Y CYNTAF).

Adnabyddid y gŵr enwog hwn yn y cylch Wesleyaidd fel Samuel Davies y cyntaf, er ei wahanieuthu oddi wrth ŵr arall a ddaeth i'r weinidogaeth ar ei ol. Ganwyd ef ym mis Mehefin, 1788, mewn ffarm fechan a elwid Y Ffordd, Maes-y-groes, plwyf Cilcain, sir Fflint. Efe oedd fab ieuengaf ei rieni, John ac Elizabeth Davies. Ychydig o addysg a gafodd ym morau ei oes, am iddo chwerwi wrth yr ysgolfeistr, o herwydd iddo ei geryddu am ryw ddireidi plentynaidd a gyflawnodd. Fel bachgen ieuengaf ei rieni, cafodd fwy o'i ffordd ei hun nag a ddylasai gael, a thyfodd yntau i fynu yn ystyfnig ac afrywiog ei dymmer; ond yn ei adegau mwyaf anystywallt, teimlai euogrwydd o herwydd ei bechodau. Dyfnhawyd yr argraphiadau ar ei feddwl trwy gyfrwng ysgol Sabbothol a sefydlwyd yn yr ardal, gan un Evan Robert, oedd yn aelod gyd â'r Methodistiaid. Effeithiwyd yn ddwys ar ei feddwl dan bregethiad Mr. Jones, Bathafarn, yn Llanferes a Phant-y-mwn, a than bregethiad Mr. Bryan ar ol hyny; ond dan arweiniad y Parch. John Morris yr ymunodd efe â'r gymdeithas, ar y 9fed o Ebrill, 1802, pan oedd yn 14 oed. Yn fuan ar ol iddo brofi y cymmod ei hun, daeth awydd angerddol arno am lesâu eraill. Llwyddodd i sefydlu achos Wesleyaidd yn yr ardal yn fuan; ac ar y 23ydd o Hydref, 1803, agorwyd o capel yno. Gwnaeth les mawr hefyd yn ardal Llansannan wedi hyn; ac elai mor bell a Llanfair-talhaiarn a'r Bettws, i flaenori rhestrau a chynnal cyfarfodydd gweddïo; ac yn fuan, dechreuodd bregethu.

Ym mis Ionawr, 1807, ar gais y Parch. Owen Davies, aeth i bregethu i sir Aberteifi, lle y cyffrowyd ei ysbryd gan y syniadau Undodaidd, a goleddid yno yn dra chyffredinol; a gwnaeth ei egni yn eu herbyn, ac nid yn gwbl aflwyddiannus. Yn Awst, 1807, sefydlwyd ef ar gylchdaith Caernarfon gyd â J. Bryan a David Rogers, lle y bu yn fawr ei barch a'i ddefnyddioldeb. Yn y fl. 1809, symmudodd i gylchdaith Dinbych, i gydlafurio âg Owen Davies ac R. Humphreys. Tra

* Gentleman's Magazine for February, 1849; Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 469; Williams's Em. Welshm., p. 422; En. Cymru, J. T. J. cyf. ii., t. 414; En. Cymru, I. F., t. 858.

Digitized by Google

yn yr ardal honno, aeth yn gydnabyddus â merch ieuangc rinweddol a'i henw Miss Twiston, ac yn y fl. 1814 priododd hi. Symmudwyd ef o Ddinbych i Nerpwl, lle y bu yn 1810 ac 1811. Llettyai gyd â Mr. Bogie am y flwyddyn gyntaf, a chyd â Mr. Gaulter yr ail flwyddyn. Cafodd yno fanteision mawrion i ddeall yr iaith Saesneg, a gwnaeth yntau y defnydd gorau o honynt; ac yr oedd y Wesleyaid Cymreig yn y dref yn gorhoffi ei weinidogaeth.

Yn y fl. 1811, ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yng Nghynnadledd Sheffield, lle yr ymddengys yr aeth yn gydnabyddus â'r Dr. Coke. Yr oedd y gŵr mawr hwnw y pryd hyn yn llawn brwdfrydedd ynghylch sefydlu cenhadaeth yn yr India Ddwyreiniol; a'r fath oedd ei syniadau am alluoedd, ymroddiad, a duwioldeb Mr. Davies, fel y rhoddes ei fryd ar ei ddenu i fyned i'r maes pellenig hwnw; ac oni buasai gwrthwynebiad Mr. Twiston, a ddaeth wedyn yn dad ynghyfraith iddo, fel y gwelsom, ac anfoddlonrwydd Mr. O. Davies hefyd, ond odid, i ollwng gafael o hono, y mae'n bur sicr mai i'r maes ehang hwnw yr aethai i lafurio. Yn Awst, 1816, aeth i gylchdaith Treffynnon. Dyma'r pryd y traddododd ei bregeth adnabyddus ar "Brynedigaeth Gyffredinol," oddi wrth 2 Cor. v. 15, yr hon a greodd gyffro cyffredinol trwy'r holl wlad. Yng Ngorphenaf 1818, cyhoeddwyd y bregeth honno; ac yn gynnar yn 1819, cyhoeddwyd llyfryn yn swyddfa Mr. Parry, Caer, yn cynnwys "Sylwadau ar Bregeth S. Davies, ar Grist wedi marw dros bawb, &c.," gan Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd). Yn Chwefror 1820, cyhoeddodd Mr. Davies lyfr a alwyd ganddo "Calfiniaeth yn cael ei Ddadlenu, a'r Gwirionedd yn cael ei Amddiffyn," fel atteb i "Sylwadau" Ieuan Glan Geirionedd. Cyfieithwyd y llyfr hwn i'r Saesneg, gan Gymro yn Nerpwl. Dangoswyd y copi i'r Dr. Adam Clarke, yr hwn a ddywedodd na ddarllenodd ddim cryfach ar y pwngc erioed, a synai fod Cymro wedi cyfansoddi y fath waith meistrolgar. Y ffordd a gymmerth Ieuan i atteb y llyfr dan sylw oedd cyfieithu Pregethau Hurrion i'r Gymraeg, y rhai a gyhoeddwyd gan J. Parry, Caer, gyd â Rhagymadrodd gan John Elias. Tra yr oedd Mr. Davies yn Nghaernarfon, yn 1834 ac 1835, cyhoeddodd yr "Hyfforddwr Teuluaidd," sef cyfarwyddiadau i benau teuluoedd ynghylch magu plant, &c. Ond ei brif waith yw yr un canlynol:—

"Etholedigaeth Ddiammodol yn cael ei Gwrthbrofi: sef Esboniad ar Rhuf. ix., lle y danghosir, mewn sylwadau helaeth ar bob adnod, nad oes sail yn y bennod hon i'r Athrawiaeth o Wrthodedigaeth bersonol, angenrheidiol, a thragwyddol, ac yr amddiffynir Hawliau Duw fel Penllywydd Moesol: yn nghyda Sylwadau ar Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth bersonol a thragwyddol, &c. . . . . . . MDCCCXXXIX." 8plyg.

Cynnwys y llyfr hwn, rhwng yr arweinolion a'r "ddanghoseg," 416 o dudalenau. Y mae'r medr yr eglura efe Air Duw yn y gyfrol hon, ar wahân i'r golygiadau a amddiffynir ganddo, yn sicr o fod yn uwchraddol. Efe a ysgrifenodd y *pedwerydd* a'r *pummed* o'r dosranau, a elwir yn "Llyfrau" yn y "Drysorgell Efengylaidd," sef Corph o Dduwinyddiaeth a berthyn i'r enwad. Heb law y llyfrau a nodwyd, brithid *Yr Eurgrawn* ar hyd y blynyddau â chofiantau, pregethau, a darnau eraill o'i waith. Y mae amryw o'r pregethau wedi eu casglu a'u cyhoeddi yn un gyfrol, a elwir "Efengylydd," o dan olygiad y Parch. J. H. Evans. Er mai ei ysgrifeniadau dadleuol sydd wedi ei wneud yn fwyaf adnabyddus, etto y mae'n iawn crybwyll eu bod yn rhydd oddi wrth chwerwder yspryd a chyfeiriadau personol. Rhagorai yn hyn ar lawer o'i frodyr, yn ogystal ag ar lawer o'r ysgrifenwyr gwrthwynebol. Teimlai yn eiddigus dros ei bwngc, ac amlygai ei feddwl yn gryf; ond y mae ei ysgrifau yn lân oddi wrth bethau anghydnaws â'r efengyl.

Ym mis Mawrth, 1840, bu farw ei anwyl briod; a rhwng gofid, pryder, ac afiechyd, gwanychwyd ei alluoedd meddyliol yn fawr. Yn 1846, aeth yn Uwchrif, a symmudodd i fyw at ei ferch i Nerpwl. Ail briododd yn 1847; ac yn 1851, symmudodd i Gaerlleon, lle y cafodd ergyd drom o'r parlys, a phan yn y cyflwr hwnw bu farw ei ail wraig. Wedi hyny, symmudodd, yn 1852, at ei ferch i Ddinbych; ac yno, ar y 7fed o Fawrth, 1854, y bu farw yn 66 oed, wedi bod yn y weinidogaeth am 47 o flynyddau. Claddwyd ef ym monwent eglwys newydd Dinbych, a elwir St. David's, lle y mae cofgolofn hardd ar ei fedd.*

## PENNOD XXIV.

### JOHN JONES, TAL-Y-SARN; THOMAS AUBREY, A JOHN PETER (IOAN PEDR).

GAN fod ein terfynau yn ein gorfodi i brysuro tu a'r diwedd, rhoddwn ddynodiad mor gryno ac

* Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer. Hefyd, gwel Eurgrawn Wesleyaidd, 1864-5; Gwyddon., cyf. x., t. 516; En. Cymru, I. F., t. 235; En. Cymru, J. T. J., cyf. i., t. 207.

Digitized by Google

mor gywir ag y gallwn o'r enwogion y mae eu darluniau yn addurno y gwaith hwn nas nodwyd eisoes; ac o herwydd prinder lle, bu raid i ni adael llïaws o wŷr gwir enwog allan, a fuchedd-ent yn niwedd y ganrif o'r blaen, ac o hyny hyd yn awr. Dilynwn yr un cynllun yn y bennod hon ag a ddilynasom eisoes, hyd y gallwn, gan gyfleu yr enwogion o hynaf i hynaf, oddi eithr y rhai sydd wedi meirw, y rhai a gyflwynwn ym mleunaf.

### JOHN JONES, TAL-Y-SARN, SIR GAERNARFON.

Ganwyd y gŵr enwog a thra phoblogaidd hwn, sydd wedi rhoddi y fath urddas ar y dull tanllyd Cymreig o bregethu yr efengyl, mewn tyddyn a elwir Tan-y-castell, ymhlwyf Dolyddelen, sir Gaer-narfon, am bedwar o'r gloch brydnhawn ddydd Iau, y 1af o fis Mawrth, 1796. Enw ei dad oedd John Jones, neu, fel y gelwid ef yn fwyaf cyff-redin gynt, Siôn Siôn William, mab Siôn William Llwyd o Dan-y-castell, mab William Llwyd o Gor-ddunant, Dolyddelen. Mam Siôn Siôn William, nain ein harwr, oedd Catherine, merch ieuengaf William ap Rhisiart ac Angharad James, Parlwr, Penammon, Dolyddelen.

Enw morwynol mam ein gwrthrych oedd Elen uch Rhisiart, sef merch Rhisiart Owen, Bertheos, Dolyddelen, a Margaret ei wraig, merch Rhisiart Isaac, Llanfrothen, sir Feirionydd, a Gwen ei wraig, merch hynaf William ap Rhisiart ac Ang-harad James, Parlwr, Dolyddelen. Gwelir, gan hyny, bod tad a mam ein harwr wedi disgyn o William ap Rhisiart ac Angharad James, a bod ei dad yn ŵyr iddynt trwy eu merch ieuengaf, a'i fam yn orwyres iddynt trwy eu merch hynaf. Yr oedd y teulu llïosog hyn yn olrhain eu hachau i Hedd Molwynog, cyff cenedl y chweched o Bym-theg Llwyth Gwynedd, goruchwyliwr Dafydd ap Owain Gwynedd, o'r fl. 1170 hyd 1195. Pres-wyliai yr Hedd Molwynog hwnw yn Llys Maen Henllys, Uwch Aled; ac yr oedd yn fab i Greddf, ab Garanawg, ap Tymyr, ap Llawr, ap Llawfrod-edd Farchawg.*

Ond yr oedd ein gwron yn perthyn i deulu o dras llawer uwch na'r tylwythau yna, oddi eithr na ddichon bod rhai o honynt yn saint, canys yr oedd ei dad a'i fam ef, ynghyd â'i frodyr a'i chwi-orydd, yn rhai "hynod ym mysg y saint." Yr ydym ni yn gwybod bod *pump*, o leiaf, o'i berth-ynasau yn bregethwyr cymmeradwy gyd â'r Meth-odistiaid, sef Cadwaladr Owen, Dolyddelen; John Williams, Dolyddelen; Samuel Roberts, Bangor; William Jones, America, ei frawd; a David Jones, Treborth; ac y mae David Roberts, gweinidog yr Annibynwyr yng Ngwrecsam, ymhlith ei geraint, heb law llïaws eraill o bobl dduwiol mwy anghy-hoedd, ond llawn mor ddefnyddiol yn eu cylch-oedd. Bu rhai o hynafiaid John Jones yn dra charedig wrth y Methodistiaid, pan yn egwan, a than erledigaeth ar eu cychwyniad. Crybwyllir am ei hen daid, Rhisiart ap Isaac o Hafod y Myn-ydd, Penrhyn-deudraeth, sir Feirionydd, ddarfod iddo, ar un achlysur, tu a chan mlynedd yn ol, gyfryngu rhwng mintai fechan o grefyddwyr a ymgynnullasent mewn rhyw lanerch i addoli a'r creuloniaid a'u herlidient, trwy agor llidiart i oll-wng y crefyddwyr i'w dir ei hun, ac yna y safai yn y porth, gan fygwth cospi pwy bynag a feiddiai fyned i mewn i'w dir ef i'w haflonyddu; ac felly cawsant lonydd i fwynhau y cyfarfod hwnw dan ei nawdd ef. Sonir hefyd am hen ewythr i'n gwrthrych, o frawd ei nain, sef Siôn ap Rhisiart o Hafod y Mynydd, yn gwrando pregeth mewn lle a elwid Ogof Llychwyn, tŷ ei gefnder, Robert ab Morus ap Isaac, ac arwyddion arno ei fod yn teimlo yn ddwys wrth ei gwrando. Hefyd, cer-aint iddo ef oedd Mr. a Mrs. Llwyd o'r Tyddyn-isaf, yn ardal y Penrhyn, y rhai a dderbyniasant Rowlands o Langeitho i'w tŷ, pan yr aeth gyntaf i'r ardal honno i bregethu. Gwelir, gan hyny, bod John Jones o wehelyth pur ddyrchafedig, bod yr efengyl wedi rhoddi nod perchenogaeth ar y teulu er ys oesoedd, a bod Brenin y nefoedd wedi rhoi llawer uwch urddas i lïaws o'r teulu yma nag a allai brenin Lloegr na thywysog Cymru, neu unrhyw deyrn daearol arall, byth ei roddi ar eu deiliaid, pa mor deilwng bynag y dichon iddynt fod o hono.

Bu i Siôn Siôn William ac Elen uch Rhisiart o Dan-y-castell bedwar o feibion, sef John (gwrthrych yr erthygl hon), Richard, William, a Dafydd; a phump o ferched, sef Margaret, Catherine, Mary, Gwen, a Jane. Y mae Richard wedi marw yn dangnefeddus er ys llawer blwyddyn; y mae Wil-liam Jones yn un o brif bregethwyr Cymreig America; ac y mae Dafydd Jones, y pregethwr efengylaidd, y bardd athrylithgar, a'r llenor dysg-edig a choeth, wedi marw er ys deuddeng mlyn-edd bellach.

John oedd yr hynaf o fechgyn Tan-y-castell; a chan fod y teulu yn cynhyddu yn gyflym, a'r

* Y Greal (Llundain), t. 156.

tyddyn yn fychan a gwael, yr oedd yn rhy anhawdd rhoi nemmawr o addysg iddo, heb law addysg yr aelwyd a'r ysgol Sabbothol, ar yr adeg honno, pan oedd addysg mor brin yn y Dywysogaeth. Byddai yn myned gyd â'i rieni duwiol i'r pregethau, a phob moddion crefyddol eraill; a rhwng poppeth, magwyd tuedd gref ynddo at bregethu pan nad oedd ond plentyn, a'i hyfrydwch penaf fyddai ymgilio i ryw gongl neillduedig, lle y cai seibiant i dreuthu ei feddwl ar ffurf pregeth. Byddai ei ddychymmyg plentynaidd a bywiog yn portreiadu yr hen geunant ddiaddurn o'i flaen yn addoldy godidog, a choed a cherig y llanerch yn wrandawyr astud. Yr oedd cangau y gwŷdd yn offerynau cerdd iddo, a thrwst dibaid y gornant ger llaw yn arwyddion cymmeradwyaeth o'r bregeth. Safai yntau, fel offeiriad y lle, gyd â difrifwch sobrddwys na welir ond anfynych, heb law ar wyneppryd plentyn. Adroddid aml hanesyn digrif gan ei hen gyfeillion am dano fel pregethwr plentynaidd. Dywedir ei fod un diwrnod wedi casglu cynnulleidfa i un o'r beudai, a myned i bregethu iddynt. Hwyaid oedd y gynnulleidfa y tro hwnw: ac fel yr oedd y pregethwr ieuangc yn siarad uwch eu penau, gan daflu ei law weithiau tu ag atynt, yr oedd y gwrandawyr, gan ddisgwyl tamaid o'r llaw, yn "porthi y gwasanaeth" yn lled hwylus; a dïammau fod hyny yn mawr foddio y pregethwr. Ond o'r diwedd, barnai y gynnulleidfa mai pregeth dlawd iawn oedd ganddo; a chan i'w hamynedd ballu yn disgwyl tamaid o'r llaw a estynid atynt mor fynych, torasant allan i glegran yn dra anystywallt, nes oedd eu trwst bron boddi llais y pregethwr. O herwydd hyny, dywedodd yntau wrthynt, yn bur ddifrifol, "O! fy mhobl bach i, y mae hi yn rhy fuan etto i chwi ddechrau canu: nid ydi'r bregeth ddim wedi ddarfod; ac yr ydym ni yn arfer gweddïo wedyn cyn canu." Adroddir ei fod dro arall gyd â nifer o blant yn "cadw odfa," fel y dywedir. Yr oedd y pregethwr wedi esgyn i ben rhyw gareg, er mwyn bod ychydig yn uwch na'r gynnulleidfa; ac yr oedd y gwrandawyr wedi trefnu eu hunain yn dra defosiynol o'i flaen. Gellir casglu bod "gorfoledd" yn yr ardal ar y pryd, ac y byddai rhai merched yn syrthio i lewyg dan bwys y genadwri, a bod cynnulleidfa John i'w dynwared. Pa wedd bynag, fel yr oedd y pregethwr plentynaidd yn dyrchafu ei lais, cwympodd un o'r genethod i lewyg dynwaredol. Ar hyny, ymaflodd rhai o'r plant eraill ynddi, gan ddadglymu rhai o linynau ei dillad, er mwyn iddi gael ei hanadl; a rhedodd un o'r bechgyn i gael llestraid o ddwfr er ei dadebru. Ond yn ei ddireidi, yn lle ei roddi iddi i'w yfed, arllwysodd ef i'w mynwes. Dadebrodd hyny yr eneth yn y fan, wrth reswm; a chan neidio i fynu, dechreuodd guro'r plant o'i hamgylch yn ddïarbed, ac yn ffagl wyllt yr aeth hi trwy'r holl gynnulleidfa; ond aeth y pregethwr ym mlaen mor sobr a difrifol a phe na buasai dim terfysg wedi digwydd.

Bu farw tad John Jones pan oedd efe o gylch 12 oed, a'i frawd ieuengaf, Dafydd, tu a dwyflwydd a hanner. Felly, gadawyd tyaid o blant ieuaingc amddifaid dan ofal mam weddw. Yr oedd hi yn "wraig rinweddol," ddarbodus, a gofalus iawn am ei theulu; ac ymdrechodd, a llwyddodd hefyd, i'w "meuthu hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." Edrychai ei frodyr a'i chwiorydd i fynu at John bellach fel eu tad. Tybiai y cymmydogion nad oedd nemmawr ddaioni ynddo fel gweithiwr, nac ond ychydig gariad yn ei galon; ond trodd ef allan yn llawer gwell na disgwyliadau ei gyfeillion mwyaf gobeithiol. Nid oedd ei gymmydogion yn ei adnabod ef etto. Yr oedd yn cyfeillachu llawer â gwrthrychau anweledig mewn myfyrdod, yn enwedig â Duw yn y dirgel; a thybient hwy mai rhyw freuddwydiwr segur ydoedd.

Ymddengys i John unwaith, wedi tyfu tipyn i fynu, a phan oedd ei feddwl yn lled ddioruchwyliaeth, benderfynu myned i'ffair Llanrwst, i'r hyn yr oedd ei fam yn bur anfoddlawn. Ond myned a fynnodd efe er poppeth; ac y mae'n ddïau ei fod yn disgwyl cael mwynhau rhyw lawer o hyfrydwch yn y ffair honno; ond gan fod ei fam dduwiol yn fwy hyspys na'i mab am y peryglon y byddai yn agored iddynt yn y fath le, penderfynodd dreulio y diwrnod hwnw mewn gweddïau drosto, yn ei hystafell ddirgel, am i'r Arglwydd ei gadw rhag cael niwaid trwy demtasiynau y ffair. Dychwelodd John adref yn gynnar yn y prydnhawn, a golwg bruddaidd arno; a'r ymadrodd cyntaf a ddywedodd wrth ei fam ydoedd, "Nid â i byth etto i ffair i chwilio am bleser, mam! Ni welis i ddim lle mwy annifyr erioed!" Parodd hyny lawenydd i galon ei fam, canys credai fod Duw wedi gwrando ei gweddïau ar ei ran, gan chwerwi y ffair i'r bachgen, rhag iddo ymlygru yn ei hoferedd.

Ymhen rhai blynyddau ar ol marwolaeth ei dad, barnai John mai doethineb fyddai iddo droi allan

Digitized by Google

i weini, a gadael tyddyn bychan Tan-y-castell dan ofal ei fam a'i frodyr ieuengach nag ef, y rhai, erbyn hyny, oedd yn lled alluog i edrych ar ei ol. Felly, fe aeth at ei chwaer Mary, yr hon oedd wedi priodi yn ieuangc, ac yn byw mewn tyddyn a'i enw Cemmaes, ymhlwyf Llangernyw, sir Ddinbych. Wedi iddo ddechrau ymroddi i'r byd, ar ol i'w dad farw, aeth yn fwy difatter am bethau crefydd. Datganu oedd yn myned â'i holl fryd yn adeg ei wrthgiliad; ond nid hir y bu heb weled gwagedd pob peth ond crefydd, a phenderfynodd ei cheisio o ddifrif. Yn y cyfamser, bu adfywiad grymus ar grefydd, a alwyd "Diwygiad Beddgelert," a theimlodd yntau ei ddylanwad yn rymus iawn; ac yn y fl. 1819, pan oedd efe tu a 23 oed, efe a ymunodd eilwaith â chrefydd, yn Nolyddelen, medd ei frawd William.* Ymddengys mai ar ei dro yr oedd y pryd hyn yn Nolyddelen. Yng ngeuaf yr un flwyddyn, dychwelodd at ei chwaer i Gemmaes, ac ymunodd yn gynnar â'r cyfeillion crefyddol yn y Capel Coch, Llangernyw.

Yn nechrau haf 1820, dychwelodd John Jones drachefn o Langernyw i'w gartref yn Nolyddelen, er llawenydd mawr i'w deulu ac i'r cyfeillion crefyddol yn y lle, yn enwedig y cantorion, canys yr oedd efe yn gantwr heb ei fath. Yr oedd pregethu, erbyn hyn, yn berwi ei holl enaid; ac er nad ynganai efe air wrth neb am hyny, etto yr oedd yr hen frodyr craffaf wedi dyfod i ddeall ei fod yn gwbl addas at y gorchwyl, wrth wrando ei weddïau hyawdl ac Ysgrythyrol. Yn fuan ar ol dychwel i Ddolyddelen y waith hon, canfu fod ei frodyr yn gwbl alluog i drin y tyddyn. Am hyny aeth ef i Gapel Curig, i weithio ar y ffordd fawr ("ffordd bost") newydd Caergybi, rhwng Capel Curig a Llyn Ogwen; ond dychwelai adref bob nos Sadwrn, ac yn amlach weithiau. Bu wrth y gorchwyl caled yma dros flwyddyn o amser! Elai at ei waith dros y mynydd forau dydd Llun, a dychwelai nos Sadwrn, yn wastad wrtho ei hun, gan fyfyrio, gweddïo, a phregethu yr holl ffordd, yn ol a blaen. Pan aeth at grefydd, nid llawer a ddywedai; ond yr oedd ei zel yn danllyd, ei ymddygiadau yn ddifrifol, a'i deimladau yn angerddol. Wedi dyfod adref nos Sadwrn, cofleidiai ei fam yn serchus iawn; ond yn fuan, ymneillduai i un o'r meusydd, a elwid y Cae Uchaf, am oriau, gan gymdeithasu yno â natur dawel, ac â'i Dduw. Ni siaradai braidd ddim â neb wedi dyfod o'r cae i'r tŷ; ond synfyfyriai yn ddistaw, gan eistedd mewn congl neillduedig o'r tŷ, â'i lygaid yngheuad. Er mor angerddol oedd ei deimladau crefyddol, etto nid oeddynt yn suro dim ar ei serch, nac yn chwerwi dim ar ei dymherau ef, fel y ceir esamplau rhy fynych pan fyddo'r meddwl dan argyhoeddiadau dyfnion iawn, canys yr oedd llygedyn byw ei serch ef yn para mor loyw a dilwgr ag erioed; ac nid ymddengys iddo ddigio wrth neb ond wrth bechod. Nodwn un esampl o hyn, o fysg llawer a ellid eu nodi. Un prydnhawn Sadwrn, fel yr oedd yn dychwel adref, cyfarfu ei fam ef ar un o'r ceuau ychydig oddi wrth y tŷ; ac yr oedd yr hen wraig yn wylo, a'r olwg arni yn dra thrallodus. Gofynodd yntau iddi yn dyner, gan ddywedyd, "Mam bach, paham yr ydych yn wylo?" "O! machgen bach i," ebr hithau, "mae diwrnod talu'r ardreth yr wythnos nesaf, ac nid oes gen i ddigon ar ei gyfer." "Peidiwch wylo am hyny, mam anwyl," ebr yntau: "mi wnaf fi y diffyg hwnw i fynu;" a chyd â'r sirioldeb mwyaf, rhoddes iddi y swm gofynol. Mor wir yw'r hen ddihareb Ysgrythyrol a ganlyn, fel holl eiriau y Bibl, "Rhyw un a wasgar ei dda, ac efe a chwanegir iddo: a rhyw un arall a arbed mwy nag a weddai, ac a syrth i dlodi." Gwasgarodd John Jones ei dda ar bethau teilwng yn fynych heb law y tro a nodwyd, a gofalodd Rhagluniaeth am ychwanegu ei dda yn helaeth. Fel yr oedd teimladau crefydd J. Jones yn dwyshau, yr oedd yn rhaid iddo gael cyfleusdra i roddi arllwysiad iddynt; a chynhyddodd yr awydd hwnw at bregethu, oedd wedi bod bob amser, er pan oedd yn blentyn, fel y gwelsom, nes yr oedd wedi dyfod yn ail natur iddo. Am hyny, ymgiliai yn ddirgel i ryw gwm neu geunant, â'i Fibl bychan yn ei logell; a bu twmpathau eithin a grug, a chlogwyni aruthr ardaloedd Dolyddelen, Bettws-y-coed, Capel Curig, a Llanrhochwyn, yn mynych fud wrando hyawdledd a fuasai yn addurn i'r pulpud mwyaf gorwych. Ni ddywedodd neb erioed well gwir nag a ddywedodd Dewi Arfon am y pregethwr mawr a galluog hwn, sef—

> "Clogwyni coleg anian—wnaeth ryfedd
> Athrofa i Ioan:
> Ai yn null gwron allan·
> Mawr Ŵr Duw! rhoes Gymru ar dân."

Penderfynodd y brodyr yn Nolwyddelen, o'r diwedd, y byddai raid i John Jones ddechrau pregethu; ac yntau, wedi hir a phwyllog ystyriaeth, a gydsyniodd, ac ar nos Sul y Sulgwyn, y 10fed o Fehefin, 1821, traddododd ei bregeth gyhoeddus

* Cofiant y Parch. J. Jones, gan O. T. (y Dr. Owen Thomas, Liverpool), t. 60-64.



Digitized by Google

gyntaf, mewn tŷ a elwid y Garnedd, ymhlwyf Dolyddelen, ar Rhuf. viii. 17. Yr oedd rhyw si wedi myned allan y byddai efe yn pregethu y noswaith honno, ac yr oedd y tŷ wedi ei orlenwi â gwrandawyr. Torodd yn wylo a gorfoledd trwy yr holl fangre cyn diwedd y bregeth, a thystiai y rhai oedd yn bresennol na chlywsant ef byth wedyn yn fwy nerthol ac ofnadwy. Cafodd ganiatâd y Cyfarfod Misol, yn lled fuan ar ol hyny, i bregethu yn yr ardaloedd o amgylch; a mawr oedd y galwad a fyddai am dano, a'r cyrchu a fyddai i'w wrando, a'r arddeliad rhyfeddol a ddilynai ei bregethiad ymhob man. Yr oedd ei amgylchiadau allanol y pryd hyn yn dra anfanteisiol iddo, fel pregethwr. Yr oedd y gwaith ar "ffordd bost Caergybi" yn nodedig o galed; ac yr oedd yn gorfod cerdded milltiroedd ato ac oddi wrtho bob dydd i'w letty, heb law bod cydweithio â Saeson anystywallt, y rhai nad oedd yn deall odid air o'u hiaith, yn gwbl groes i'w deimladau crefyddol a gwladgarol ef. Am hyny, ymadawodd oddi yno rywbryd yn ystod y flwyddyn 1821. Wedi bod gartref dros ychydig amser, symmudodd i Drefriw, i weithio yng Nghloddfa Clogwyn y Fuwch. Elai adref oddi yno bob Sabboth, a chadwai ei aelodaeth eglwysig yn Nolyddelen. Er mai prin yr oedd yn adnabyddus yno fel pregethwr, etto tynodd sylw ei gydweithwyr yn fuan trwy ddifrifoldeb ei ymddygiad, ac yn neillduol trwy arfer siarad neu ganu wrtho ei hun pan yn cerdded at ei waith neu oddi wrtho, yn gystal ag yn y gwaith pa bryd bynag y cai ei hun mewn dim ymneillduaeth. Symmudodd yn bur fuan o'r gloddfa honno i Gloddfa Llanrhochwyn, neu Lanrhychwyn, yn yr un gymmydogaeth. Adroddai ei gydweithwyr lawer ystori ddifyr am dano tra yn y chwarel hon, yn enwedig ynghylch ei gryfder corphorol. Yr oedd ei gydweithwyr yn ymhyfrydu mewn profi ei nerth; ond ni lwyddasant erioed i wybod ei fawr gryfder. Er mwyn cael boddlonrwydd ar y pwngc, llwythasant ferfa olwyn, un diwrnod, yn y fath fodd fel na fedrai neb yn y lle ei symmud. Wedyn, aeth un o honynt ato, gan erfyn arno, yn wyneb drist, ei gyru o'r lle. Cydiodd yntau yn y ferfa: cododd hi yn hollol ddiboen, a rowliodd hi o'r lle yr ydoedd, heb ymddangos ei fod wedi gwneud unrhyw orchest. Adroddir llawer o'r cyfryw fân hanesion am ei nerth corphorol tra yn y chwareli; ond y mae genym ni lawer o bethau mwy pwysig i'w treuthu am dano.

Yn ystod yr amser yr oedd John Jones yng Nghloddfa Llanrhychwyn, yr oedd Evan Evans (y Parch. Evan Evans, *Ieuan Glan Geirionydd*, wedi hyny) gartref gyd â'i dad yn Nhan-y-celyn, ac yn aelod ffyddlawn a defnyddiol yn eglwys y Methodistiaid yn Nhrefriw. Yr oedd efe yn fwy dysgedig nag odid neb o'i sefyllfa yn y dyddiau hyny; ac yr oedd o feddwl tra ymchwilgar, o yspryd hynaws a gostyngedig, ac o dymmer nodedig o garuaidd a chyfeillgar. Arferai efe gynnull ychydig o wŷr ieuaingc a berthynent i eglwys y Methodistiaid yn Nhrefriw, ar nosweithiau cyfleus o'r wythnos, i gydymddiddan ar wahanol byngciau duwinyddol; ac yr oedd John Jones yn un o'r rhai dyfalaf a chyflymaf ei amgyffred o neb o honynt. Ymhlith pethau eraill, byddai Mr. Evans yn cyfieithu ac yn egluro rhanau o waith y Dr. Williams o Rotherham ar "*Equity of Divine Government*," "*Modern Calvinism Defended*," ac eraill cyffelyb; ac yr oedd John Jones yn un o'r Methodistiaid cyntaf i gofleidio a phregethu y syniadau Ysgrythyrol hyny, a chafodd gryn lawer o helbul o'r plegid, fwy nag unwaith, fel y gwelsom yn hanes y Dr. Williams a Wm. Roberts o Amlwch;* ond daeth efe allan o'r brwydrau opiniynol hyny yn fwy na choncwerwr, canys y mae'r rhan fwyaf o bregethwyr ei gyfundeb erbyn hyn yn cofleidio ac yn pregethu yr un golygiadau.

Mewn Cyfarfod Misol yn y Bala, yn niwedd y fl. 1821, neu yn nechrau 1822, derbyniwyd John Jones yn aelod o Gyfarfod Misol sir Feirionydd, ac efe etto yng Nghloddfa Llanrhochwyn. O gylch y pryd hyn, aeth Azariah Zadrach, hen weinidog parchus gyd â'r Annibynwyr, i ardal Llanrhochwyn i gasglu at ryw achos, pan y dywedwyd wrtho am ddoniau, galluoedd, ac anfanteision dysg J. Jones. Mynodd yr hen bregethwr ffyddlon ei weled; ac wedi peth ymddiddan âg ef, a chael mawr foddhâd ynddo, dywedodd wrtho y gallai efe ei gael i ysgol y Neuadd-lwyd, od ewyllysiai efe fyned yno. Wedi i J. Jones ddïolch yn gynnes iawn iddo, dywedir iddo ei gyfarch dan wenu, "Heb law hyny, Mr. Zadrach, y mae arnaf ofn i'r cynheuaf fyned heibio tra y byddaf fi yn hogi fy nghryman."†

* Gwel pen. xx. a'r xxii. o'r llyfr hwn, y vi.

† Priodolir y dywediad yna i Williams o'r Wern hefyd, pan gymmellid ef i aros yn hwy yng Ngholeg Gwrecsam, yn y fl. 1806, rhyw bymtheng mlynedd cyn yr amser y priodolir ef i J. Jones. Dichon mai wedi ei glywed yr oedd Jones: ond pa un bynag, y mae'n sicr bod digon o athrylith yn y ddau i gynhyrchu meddyliau llawer pwysicach nag a gynnwys yr ymadrodd ffraeth dan sylw.—*Cofiant Williams o'r Wern*, gan W. Rees, t. 11. Hefyd, gwel t. 445 o'r gyfrol hon.

Digitized by Google

Yn nechrau Hydref 1822, aeth John Jones i bregethu i Bentir, yr Ysgoldy, y Rhyd-fawr, Llanrug, y Waun-fawr, a Bronfedw, sir Gaernarfon. Yr oedd cyfnither iddo wedi priodi un Griffith Williams, yr hwn oedd ar y pryd yn olygwr Chwarel Tal-y-sarn. Yr oedd y gŵr hwnw yn gwrando arno yn pregethu ym Mronfedw, ac aeth Mr. Jones gyd âg ef adref i lettya. Pan ddeallodd Mr. Williams bod Llanrhochwynt yn lle mor anghyfleus iddo fel pregethwr, perswadiodd ef i symmud ar unwaith i Chwarel Tal-y-sarn, gan addaw bwyd a lletty iddo am ddim dros un flwyddyn, mwy o gyflog iddo fel chwarelwr, a gwell cyfleusderau iddo fel pregethwr. Wedi iddo ystyried y cynnyg haelionus yn bwyllog, a chael cydsyniad ei fam a'r teulu yn Nhan-y-castell, symmudodd i Dal-y-sarn yn gynnar yn Ionawr 1823. Cyn gynted ag yr ymsefydlodd yn y gymmydogaeth, dechreuodd ymroddi o ddifrif i wneud yr hyn a allai ymhlaid yr achos crefyddol yn Nhal-y-sarn a Llanllyfni. Sefydlodd gyfarfodydd canu yn y ddau le, a byddai lluoedd o ieuengetid, yn feibion a merched, yn cyrchu iddynt, ac yntau wrth ei fodd yn eu harwain ac yn eu dysgu. Yr oedd ei ddifrifwch a'i holl ymddangosiad yn gosod ei arswyd ar bawb, fel na feiddiai neb wneud un math ar anweddusder yn ei bresennoldeb. Pa wedd bynag, disgynodd ei lygaid ar un eneth ieuangc grefyddol, hynod o brydweddol, a arferai fod yn wastad yn y cyfarfod canu; ac erbyn edrych, yr oedd hithau wedi ei orhoffi yntau cyn iddynt erioed siarad gair â'u gilydd, na gwybod dim am ei deimladau ef tu ag ati. Ei henw oedd Ffanni (Frances) Edwards, merch Thomas Edwards, Taldrwst, amaethwr yn yr ardal, ac arolygwr Chwarel Llechi, Cloddfa'r Lon, Nantlle. Y canlyniad fu, wedi cael cydsyniad ei rhieni hi, iddynt briodi ar y 14ydd o Fai, 1823, ymhen tu a phedwar mis ar ol iddo ymsefydlu yn Nhal-y-sarn, pan oedd efe yn 27 oed, a hithau bron yn 18 oed. Cafodd hi yn wraig wir rinweddol a chymmwys iddo ymhob modd, hyd ddiwedd ei oes; un yr oedd ei holl galon arno, ac nad oedd dim yn ormod ganddi ei wneud er ei fwyn; un a digon o allu ac ewyllys ganddi i gymmeryd arni ei hun, yn fuan, agos holl bwysau eu hamgylchiadau bydol, er mwyn rhoddi pob mantais a allai iddo ef gyd â'r gwaith mawr o bregethu, yr hwn yr oedd ei holl fryd arno, ac i'r hwn yr oedd wedi ei gymhwyso mor arbenig gan natur a gras.

Wedi iddynt briodi, adeiladodd perchenog Chwarel Tal-y-sarn dŷ iddynt yn agos i'r capel, lle y dechreuasant fasnachu ychydig. Yr oedd y siop yn gwbl dan ofal Mrs. Jones, ac yntau yn gweithio, fel cyn priodi, yn y gloddfa, ac yn dilyn ei gyhoeddiadau yn ffyddlawn ar y Suliau. Yr oedd y fath alwadau parhaus arno i bregethu ymhell ac agos; a byddai raid iddo weithiau, ar ol bod yn gweithio yn galed yn y chwarel ddydd Sadwrn, gerdded o 15 i 30 milltir i'w gyhoeddiad. Ar ol pregethu yn egnïol dair gwaith ar y Sul, cyfodai yn forau ddydd Llun, a byddai wrth ei waith bron yn wastad ar ol cinio ganol dydd. Yr oedd gyd â hyny yn gysson yn y cyfarfodydd wythnosol yn Llanllyfni a Thal-y-sarn, a phregethai yn fynych ar nosweithiau yr wythnos yn y capeli yn yr ardaloedd cyfagos. Teimlai ei wraig feddylgar yn ddwys drosto, gan y credai, er cadarned oedd ei gyfansoddiad, nas gallai barhau yn hir yn y fath lafur caled heb dderbyn niwaid; am hyny, penderfynodd hi heleuthu y siop, er mwyn ei alluogi ef i adael y gloddfa, a chael mwy o amser at ei hoff waith o bregethu. Cydsyniodd yntau â'i phenderfyniad. Yn ebrwydd ar ol heleuthu y fasnach, yn y fl. 1824, gadawodd Mr. Jones y gloddfa ar ddymuniad ei wraig ofalus. Er hyny, ychydig iawn o help oedd ef iddi hi yn y siop, o blegid bod ei feddwl ef yn wastad ar bethau anfeidrol uwch na nwyddau y siop. Noda ei fywgraphydd lawer o droion digrif a wnaeth efe yn y siop; ond ni chawn ni nodi ond un. Pan ddaeth nwyddau adref unwaith o Fanchester, edrychai Mrs. Jones dros y nwyddrestr *(invoice)* er ei chymharu â'r nwyddau a dderbyniasid, a dywedodd wrth Mr. Jones am fesur sypyn helaeth o frethyn, yr hyn a wnaeth yntau yn y fan. Yna gofynodd Mrs. Jones, wedi iddo orphen mesur, "Sawl llathen ydi o, John Jones?" Yntau a attebodd, mor ddiniwaid a phlentyn, "Yn wir ionedd i, Ffanni bach, ddaru mi ddim cyfrif!" Ar fyr, syrthiodd holl ofal y fasnach braidd yn gwbl ar Mrs. Jones, nes y tyfodd y plant i fynu i'w chynnorthwyo.

Yn lled fuan ar ol i Mr. Jones adael y gloddfa, yn 1824, derbyniwyd ef yn aelod o'r Gymdeithasfa yng Nghaernarfon; ac wedi hyny teithiodd yntau yn ddiwyd a llwyddiannus iawn trwy Gymru a threfydd Lloegr i bregethu yr efengyl. Yng Nghymmanfa y Bala, a gynhaliwyd yr 17fed a'r 18fed o Fehefin, 1829, neillduwyd ef i weini bedydd a swper yr Arglwydd, ac efe yn 33 oed, wedi iddo fod yn pregethu am wyth mlynedd. Bu'n

Digitized by Google

pregethu wedi hyny am 28 mlynedd, sef hyd y fl. 1857; a theimlad y cynnulleidfaoedd, i ba le bynag yr elai, ydoedd ei fod yn myned yn fwyfwy anwyl ganddynt o hyd. Ar y Sul, yr 22fed o Fawrth, y flwyddyn hon, yr oedd ei gyhoeddiad yng Nghapel Moriah, Caernarfon. Pregethodd yno y borau a'r hwyr, ac yn y lle cyssylltedig yn y prydnhawn. Sylwai y gynnulleidfa yn gyffredin ei fod yn ymddangos yn welw a sal, er nad oedd dim pall ar nerth na phereidd-dra ei lais; ac yr oedd pawb yn teimlo ei fod mewn hwyl ardderchog. Dyna'r bregeth olaf a draddododd. Ei destyn oedd 1 Ioan iii. 2, "Anwylyd, yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo, o blegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae." Y mae hen Goflyfr ar gael, yn ei lawysgrif ef ei hun, yn rhoddi cyfrif o'i destynau, a'r lleoedd y pregethai ynddynt, o'r cychwyn ar nos Sul y Sulgwyn, y 10fed o Fehefin, 1821, hyd y 23ydd o Ebrill, 1832. Dengys yr hen Goflyfr hwnw y pregethodd, yn ystod yr un mlynedd ar ddeg hyny, 2775 o weithiau. Y mae yn sier iddo bregethu yn llawn mor fynych, os nad mynychach, yn ystod y 25 mlynedd dilynol, o 1832 hyd 1857. Ond os yr un nifer o weithiau y pregethodd bob blwyddyn, ar gyfartaledd, pregethodd yn ystod yr 36 mlynedd y bu wrth y gorchwyl o gylch 9,120 o weithiau!

Wedi dychwel adref o Gaernarfon y Sul crybwylledig, penderfynodd lwyr ymattal oddi wrth bob llafur am yr wythnos honno a'r ddilynol, gan obeithio y byddai wedi gwella i'r fath raddau ag y gallai fyned i Fanchester i'r Cyfarfod Blynyddol at y Pasc, y 12fed o Ebrill, fel yr addawsai. Aeth cyn belled a Rhyl i'r amcan hwnw; ond cymmerwyd ef yn bur glaf yno, a bu dan law meddyg yn Rhyl am gryn saith wythnos, gyd â'i ferch hynaf, yr hon oedd yno ar y pryd yn trigiannu. Gan mai gwaelu yr oedd yn barhaus, dychwelodd adref i Dal-y-sarn. Ofnid ar y dechrau bod dafad wyllt (*cancer*) yn ei ochr; ond cafwyd allan wedyn mai anhwyldeb ar yr iau ydoedd, wedi ei achosi gan ddyrnod erchyll a gawsai yn ei ochr gan wagon, pan ar ymweliad â'r gloddfa yn 1852. Cafodd gystudd trwm gan boen yn ei ochr, yr hyn a ddïoddefodd yn dawel a hyderus hyd 10 o'r gloch forau Sabboth, yr 16fed o Awst, 1857, pan yr hunodd yn dawel "yn yr Iesu," ac efe yn 61 mlwydd a 5 mis oed. Ar ddydd Gwener, yr 21fed o'r un mis, hebryngwyd ei gorph i "dŷ ei hir gartref," ym mynwent Llanllyfni, lle y mae gwyddfa hardd wedi ei chyfodi ar ei fedd. Yr oedd yn bresennol yn ei angladd 8 o feddygon, 65 o weinidogion a phregethwyr, 70 o flaenoriaid, 200 o gantorion a chantoresau, o ddeutu 4,000 o feibion a merched, 40 o gerbydau yn cludo'r perthynasau, a 15 o feirch; a bernir i gryn 2,000 yn ychwaneg ymuno â'r orymdaith bruddaidd ym Mhen-y-groes, ar y ffordd i Lanllyfni. Gallasai hyd yn oed estron i'r wlad a'r genedl ddeall yn y fan, wrth wedd alarus y miloedd, bod tywysog a gŵr mawr yng Nghymru wedi syrthio. Cyhoeddwyd *pump*, o leiaf, o farwnadau campus ar ei ol, o waith y beirdd canlynol:—Ebenezer Thomas (Eben Fardd), Hugh Hughes (Tegai), William Ambrose (Emrys), Thomas Jones (Glan Alun), a Robert Hughes (Glan Collen).*

Fel dŷn, yr oedd Mr. Jones yn ŵr tal, llydan, a chadarngryf ryfeddol, fel yr awgrymwyd eisoes. O ran pryd, a gwedd, a chorph, yr oedd yn rhagori mewn prydferthwch ar agos i bob dŷn a ddelai i'r un fan ag ef. Yr oedd ei lygaid yn dreiddgar ryfeddol; ei dalcen mor uchel a llydan fel yr ymddangosai ei ên braidd yn gul. Nid anhebyg iawn oedd *llun* ei wyneb i'r eiddo John Elias, fel y gall y darllenydd weled trwy gymharu eu darluniau prydferth sydd yn y gwaith hwn.

Fel pregethwr, ymddangosai yn y pulpud tywysog; ac yr oedd, mewn gwirionedd, yn un o "feistriaid y gynnulleidfa." Sylwer beth a ddywedai Mr. Owen Thomas, tad y ddau Ddr. Thomas o Nerpwl, am dano yng Nghaergybi, wrth ei wraig ac eraill, wedi bod yn ei wrando ym Mangor (lle yr oedd yn gweithio ar y pryd), ar gychwyniad "Pregethwr y Bobl" allan yn y fl. 1824. Dywedodd Mr. Thomas wrth y teulu yn y tŷ yn debyg i hyn:—

"Y mae rhyw bregethwr anarferol wedi codi yn sir Gaernarfon acw. Y mae nerthoedd y nef yn cydfyned âg ef ymhob odfa; ac y mae'n tynu'r holl wlad ar ei ol. Ni chlywaist ti, Mari," ebr efe wrth ei wraig, "neb erioed tebyg iddo fo." "Beth!" ebr hithau, "a ydi o cystal a JOHN ELIAS?" "Ddarfu mi ddim dywedyd cystal na gwell na neb; ond ni chlywaist ti neb tebyg iddo fo; ac y mae o, gyd â hyny, y dŷn harddaf a fu yn y byd yma er pan grewyd Adda!"

Canmolodd Mr. Thomas "y pregethwr ieuangc o sir Gaernarfon" drachefn nos Sul, nes y penderfynodd y cyfeillion yno fynu cael ei gyhoeddiad trwy sir Fôn, mor fuan fyth ag y byddai possibl. Y Sabboth, Ionawr 30, 1825, yr oedd cyhoeddiad John Elias yng Nghaergybi, lle y pregethodd am

* Cofiant J. Jones, gan O. T., t. 769–786.

ddau yn y prydnhawn, ac am chwech yn yr hwyr. Pan ddaeth yr adeg i hyspysu am y moddion rhag llaw, fe ddywedodd y cyhoeddwr y byddai John Jones o sir Gaernarfon yno y Sabboth canlynol. Gyd â'i fod wedi cyhoeddi, dyna Mr. Elias yn dywedyd fel hyn:—

"Fyddaf fi byth yn arfer dywedyd dim yn gyhoeddus, cyn eu dyfodiad, am y brodyr dïeithr a fyddant yn ymweled â'n gwlad. Yn wir, yr wyf yn fwriadol wedi arfer peidio, rhag creu ryw ddisgwyliadau a allont wedi hyny gael eu siomi, ac felly peru i'r gŵr dïeithr a'r gwrandawyr fwy o niwaid nag o les. Ond yr wyf yn meddwl bod y gŵr a gyhoeddwyd i fod yma y Sabboth nesaf y fath ag i'm cyfiawnhau am adael fy arfer, braidd bob amser hyd yma, o'r neilldu. Y mae yno lawer John Jones yn sir Gaernarfon, ac y mae yno fwy nag un John Jones yn bregethwr; ond mi fyddai yn dda genyf fi i chwi ddeall nad rhyw John Jones cyffredin ydyw y brawd a gyhoeddwyd i fod yma yn pregethu y Sabboth nesaf. Mi gefais i gyfleusdra, er ys tu a dwy flynedd bellach, i wrando arno yn pregethu ryw noswaith ym Meddgelert, sir Gaernarfon. Fe fynnai y gŵr ieuangc, yn wylaidd iawn, beidio pregethu, a thrwy gryn drafferth y cafwyd ganddo ddywedyd dim. Ond yr oeddwn i wedi clywed rhyw son am dano, ac yn dra awyddus i'w wrando; ac fe lwyddwyd o'r diwedd i gael ganddo gydsynio. Mi a deimlais ar unwaith bod yno rywbeth newydd a nerthol, a gwerthfawr iawn yn ei ddawn. Bu agos iddo bregethu hyny o bregeth oedd genyf fi o'm meddwl. Ni theimlais braidd erioed yn fwy anhawdd cyfodi i fynu ar ol neb." Ac yna fe derfynodd ei gyfarchiad yn ei ddull effeithiol ei hunan:—"Mae'n dda genyf fi fod daear i nghuddio i o olwg y pregethwyr y mae'r Arglwydd ar gyfodi."*

Yr oedd hynyna yn ddigon i gasglu tyrfaoedd ynghyd yn yr holl ororau, ac i godi disgwyliadau anghyffredin, ac, mewn rhai, agos afresymol, wrth y pregethwr ieuangc. Ond yr oedd ef yn meddu y fath nerth corph, llais, a meddwl; y fath gyflawnder o syniadau dyfnion a hynod; a'r fath arbenigrwydd hyawdl yn ei draddodiad, fel na chafodd y disgwyliadau penaf wrtho mo'u siomi, ond o'r ochr orau: yn wir, yr oedd llawer yn barod i ddywedyd, ar ol ei wrando, fel y dywedodd Brenhines Seba, "Wele, ni fynegwyd i mi yr hanner."

Ond heb law yr hyn a nodwyd, a llïaws o bethau eraill y gallasid eu nodi, pe goddefasai lle, fe fu John Jones o Dal-y-sarn yn foddion i ddwyn oddi amgylch gyfnod newydd yn null y Methodistiaid o bregethu. O gylch yr amser yr oedd efe yn dechrau, cynhyrchwyd cryn deimlad ym mysg yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr am y dull gorau o bregethu. Tybiai amryw y dylid pregethu yn fwy ymarferol; y dylid llefaru wrth y bobl am eu dyledswyddau hwy at Dduw, yn gystal a darlunio trefn gras ar gyfer dŷn. Cynhyrchwyd hyn, yn benaf, gan ysgrifeniadau campus y Dr. Edward Williams ym mysg yr Annibynwyr, a chan gyfansoddiadau godidog Andrew Fuller ymhlith y Bedyddwyr, y rhai a astudiwyd yn bur egnïol, dan gyfarwyddyd Ieuan Glan Geirionydd, gan John Jones, fel y gwelsom, pan oedd yn gweithio yng Nghloddfa Llanrhochwyn. Yr hen ddull oedd pregethu duwinyddiaeth y "pum pwngc," a'r angenrhaid i bawb fod yn "iach yn y ffydd," trwy eu credu. Pregethid am sefyllfa dŷn trwy bechod, trefn cyfiawnhâd, sancteiddhâd, a'r cyffelyb. Teimlodd llawer fod rhywbeth yn ddiffygiol yn y dull hwnw; bod yr efengyl yn llefaru wrth ddŷn yn bersonol, ac am hyny y dylid ei gyfarch yn bersonol; a dangos iddo bod ganddo yntau rywbeth i'w wneud er bod yn gadwedig. Y mwyaf cyhoeddus, yn yr ystyr yma, gyd â'r Bedyddwyr, oedd J. P. Davies, Tredegar. Parodd ef gynnwrf mawr iawn yn eu mysg, am yr heurid ei fod yn dwyn y gogoniant oddi ar Dduw wrth bregethu dyledswydd dŷn! Ym mysg yr Annibynwyr, Williams o'r Wern oedd un o arwyr y cyfnewidiad; a John Jones o Dal-y-sarn oedd prif bregethwr dyledswydd ym mysg y Methodistiaid. Dïoddefodd ef lawer o herwydd ei gredo a'i ddull o bregethu, yn enwedig ym morau ei oes bregethwrol; ond daeth ef trwy'r holl ystorm yn ddïogel. Cai yr hen flaenoriaid lefaru, a cheryddu, a chwyno faint a fynnent am fwy o Galfiniaeth yn nhŷ y capel. Gwrandawr yn unig a fyddai efe yno. Dichon y cilwenai dipyn weithiau. Yn yr amser priodol, efe a âi i'r pulpud, a llefarai ei farn wrth y bobl yn gwbl ddifloesgni; ac ambell dro, awgrymai at ymddiddan ac ofnau y blaenoriaid; ond gofalai am derfynu gyd â bloedd fuddugol, gan ddywedyd, "Dyna i chwi Galfiniaeth! Yr ydych yn gweiddi am dani yn ei phurdeb: dyna hi ichwi!" Nid yr un ffordd oedd ganddo i gyfarfod y pregethwyr a ofnent ei fod yn gwyro oddi wrth y wir athrawiaeth. Cyfarfyddai hwy mewn dull hynod o syml. Gofynai iddynt beth a glywsant ganddo ef na chlywodd yntau ganddynt hwythau; a'r atteb yn wastad fyddai distawrwydd. Ymosododd y blaenoriaid yn bur drwm arno mewn rhyw le unwaith, gan ddywedyd "na fyddai waeth iddo fyned yn Armin ar unwaith, a dywedyd yn groyw fod Crist wedi marw dros bawb." Ni ddywedodd efe air wrthynt nes yr aeth i'r pulpud. Dechreuodd yno yn union ar bwngc yr ymddiddan yn y tŷ; a phan ynghanol ei wres, efe a lefodd â'i holl nerth dirfawr, "Efe a fu farw dros bawb!" Yna dechreu-

* Cofiant J. Jones, gan O. T., t. 157.

Digitized by Google

odd ymddiddan yn debyg i hyn:—"A ydych chwi yn gofyn beth a ddywedais i? Atteb, Ysgrythyr. 'Esponiwch yr adnod i ni.' Dyna fi wedi ei rhoddi i ti, fel y rhoddes Duw hi i minnau; ac os nad yw hi wrth dy fodd di, tafl hi i Dduw yn ei hol, a phaid a'i thaflu hi i mi, os gweld di'n dda." Cafodd heddwch i bregethu fel y gwelai yn dda yn y lle hwnw o hyny allan. Gellid nodi lliaws o esamplau cyffelyb a'i cyfarfu, a'i ddull meistrolgar yntau o'u cyfarfod; ond rhaid i ni ymattal. Dywedodd Morris Hughes, Felinheli, pan oedd ei goffadwriaeth dan sylw yng Nghymdeithasfa Caernarfon, "Mr. Jones, Tal-y-sarn, oedd y prif offeryn i greu dull newydd o bregethu ym mysg y Trefnyddion Calfinaidd yng Nghymru." Bu dull nerthol, rhyddfrydig, cymmelliadol, ac Ysgrythyrol J. Jones o bregethu yn foddion i gynhyrfu y rhan fwyaf o'i gyfoedion pregethwrol yn y cyfundeb Methodistaidd i chwilio a myfyrio gwaith y Dr. Williams, Jonathan Edwards, Andrew Fuller, ac awduron cyffelyb, a'u cymharu â'r Ysgrythyrau; ac erbyn hyn, y mae holl brif bregethwyr y Methodistiaid, cystal a rhai yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, fel y crybwyllwyd, yn pregethu yr un athrawieuthau a'r ENWOG JOHN JONES O DAL-Y-SARN.

Nid ydym yn gwybod i Mr. Jones ysgrifenu dim o bwys ond pregethau a thonau. Clywsom yr arferai ysgrifenu ei bregethau yn llawn, ac y traddodai hwynt yn fanwl, yn ol yr ysgrifen, oddi eithr pan gynhyrfid ef gan ryw ymyrwyr anghymen, megis y nodwyd eisoes, neu pan fyddai'r gwynt nerthol yn chwythu yn rymus yn ei hwyliau; yna ymollyngai i lefaru "megis y rhoddai yr Yspryd iddo ymadrodd." Dengys y gyfrol o'i bregethau a gyhoeddwyd gan Mr. Gee, Dinbych, ei fod yn gyfarwydd iawn â'r iaith Gymraeg, a'i fod yn fedrus ryfeddol i ddethol y geiriau mwyaf cyfaddas i lunio ei ymadroddion nerthol, pwrpasol, a dealladwy. Credwn nad oes gyfrol o bregethau yn yr iaith yn rhagori ar hon, ymhob ystyr, ac nad oes ond ychydig iawn yn gyfartal iddi. Cyfansoddodd Mr. Jones lawer o donau hefyd, yn enwedig yn ystod ei gystudd diweddaf, ac argraphwyd amryw o honynt yn y llyfr a elwir *Jeduthun*, a gyhoeddwyd gan R. Jones, Bethesda.*

### THOMAS AUBREY.

Nid oes odid enw mwy adnabyddus i'r Cymry ymhob gwlad nag enw y dŷn enwog hwn. Ganwyd ef yng Nghefn-coed-y-cymmer, ger llaw Merthyr Tydfil, sir Forganwg, ym mis Mawrth, 1808. Glöwr oedd ei dad, ac yr oedd ef a'i wraig yn aelodau anrhydeddus o'r dosparth gweithiol. Symmudodd ei rieni, pan oedd efe yn ieuangc, i Nant-y-glo, sir Fynwy, ac yno a ystyriai efe fel ei hen gartref. Nid ymddengys iddo gael odid ddim addysg ym morau ei oes. Bu raid iddo ddechrau yn ieuangc yn y gwaith haiarn; a'r gangen a gymmerth efe oedd gwaith rholwr (*roller*). Pan oedd efe tu a 14 oed, yr oedd John Williams (yr ail), o Bwll-gwyngyll, Môn, yn pregethu yn Nant-y-glo. Aeth yntau, megis o ddamwain, i wrando arno, a glynodd saeth argyhoeddiad yn ei galon; ac ymhen ychydig wedyn, ymunodd â'r eglwys Wesleyaidd yn y lle, yr hyn a fu'n ddechreuad cyfnod newydd yn ei fywyd. Yn ebrwydd ar ol ymuno â'r eglwys, ymroddes â'i holl egni i ddarllen a myfyrio, er gwneud diffygion borau ei oes i fynu; a bu ei lwyddiant yn gyfartal i'w ymdrech.

Pan oedd tu ag 16 oed, dechreuodd bregethu, a phregethu y byddai nes synu pob cynnulleidfa y pregethai iddi: "yr oedd yn gallu creu mellt yn y pulpud," yr hyn a ystyriai Williams o'r Wern yn un o anhebgorion pregethwr llwyddiannus. Yn y fl. 1826, pan oedd efe yn 18 oed, galwyd ef i'r gwaith teithiol, ar gylchdaith Dinbych a Llanrwst, gyd âg Evan Hughes a Morgan Griffith; ond yr oedd i roddi hanner ei lafur ar gylchdaith Rhuthyn. Yr oedd maes ei lafur yn cyrraedd o Abergele i Benmachno, ac o Gonwy i Brymbo. Y mae'r un maes yn awr yn cynnwys 9 o gylchdeithiau, a 14 o bregethwr. Pregethai bob nos yn yr wythnos, bron yn ddidor, a theirgwaith y Sabboth. Yn y cyfamser, ymroddes i ddysgu Cymraeg yn gywir, trwy gymmorth Grammadeg a Geiriadur y Dr. Pughe, a llyfrau eraill, a than gyfarwyddyd ei gyfaill, y bardd a'r llenor galluog Clwydfardd; a daeth yn fuan yn Gymreigydd gwych a llithrig. Yn y fl. 1827, pennodwyd ef ar gylchdaith Llangollen a'r Abermaw, a'r lleoedd cyssylltiol, gyd â Lot Hughes ar y dechrau, yna gyd â W. Evans. Yr oedd ei bregethau yn cael eu tywallt ar y gwrandawyr fel llifeiriant, yn cludo poppeth o'i flaen. Yr oedd efe y pryd hyn, ac, yn wir, hyd ddiwedd ei oes, yn ymroddi i ddarllen a myfyrio yn egnïol a llwyddiannus, er maint oedd

* Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn, . . . gan Owen Thomas (y Dr. Thomas, Liverpool); Cofiant John Jones, Talsarn, gan Hugh Hughes, *Tegai;* Pregethwr y Bobl, neu Fyfyrdodau a achlysurwyd gan Farwolaeth y Parch. John Jones, Talsarn, gan Glan Alun; Gwyddoniadur, cyf. vi., t. 380; En. Cymru, J. T. J., cyf. ii., t. 24; En. Cymru, I. F., t. 609.

Digitized by Google



J. Thomas. Photo. L. Lowenstam. Sc.

Digitized by Google

ei lafur gweinidogeuthol. Cludai lyfrau gyd âg ef i bob man, gan eu darllen a'u myfyrio ar ei deithiau meithion, ac yn y tai lle y llettyai, gan godi yn forau a myned yn hwyr i gysgu. Yn y fl. 1829, pennodwyd ef i wasaneuthu yr eglwys Wesleyaidd yn Llundain, lle y bu am ddwy flynedd. Cafodd fanteision mawrion yn Llundain, trwy ddyfod yn gydnabyddus â dynion enwog, megis y Parch. Richard Watson a'r cyffelyb, heb law ei fod ynghyrraedd pob math ar lyfrau, ac yn cael llawer mwy o amser i'w darllen a'u myfyrio na phan mewn cylchdeithiau yn y wlad; a gwnaeth yntau y defnydd gorau o bob mantais a ddelai i'w gyrraedd. Yr oedd "Cymdeithas Cymreigyddion Llundain" y pryd hwnw yn flodeuog, a chymmerai yntau ran amlwg yn ei gweithrediadau yn fynych. Traddododd ddarlith yno ar *Enllib*, yr hon a gyhoeddwyd yn *Yr Eurgrawn* am Ebrill a Mai, 1831. Yn ystod ei arhosiad yn Llundain, priododd ferch ieuangc o Ruthyn, yr hon y deuthai yn gydnabyddus â hi pan yn y gylchdaith honno, a'i henw Mary Williams, yr hon a fu yn ymgeledd gymmwys iddo hyd derfyn ei oes; a bu iddynt ddeg o blant. Yn y fl. 1831, dychwelodd i lafurio yng nghylchdaith Rhuthyn a Llangollen. Y cylchdeithiau y bu ynddynt wedi hyny oedd y rhai canlynol: Treffynnon a'r Wyddgrug, yn 1832–3; Llanfyllin a Llanfair-caereinion, yn 1834–6; Dinbych a Rhuthyn, yn 1837–9; Nerpwl, yn 1840–2; Caernarfon, yn 1843; Llangollen, yn 1844–5; Merthyr Tydfil, yn 1846–8; Nerpwl, yn 1849–51; Bangor, yn 1852–4; Treffynnon, yn 1855–6; Bangor, yn 1857–9; Nerpwl, yn 1860–2; a Llangollen, yn 1863–4.

Yn y fl. 1854, ymneillduoedd y Parch. Edward Anwyl o'r swydd o Gadeirydd y Dalaeth Ogleddol. Ar Thomas Aubrey yr oedd llygaid pawb yn disgyn yn naturiol i fod yn olynydd iddo; ac efe a etholwyd i'r swydd. Dangosodd yntau yngweinyddiad y swydd ei fod, nid yn unig yn ymadroddwr hyawdl a nerthol, fel pregethwr o'r radd fleunaf, ond hefyd yn meddu gallu a medr i fyned i mewn i fanylion pethau, ac i drefnu y gwahanol fatterion a ddygid ger ei fron yn ddeheuig a boddhaol. Llanwodd y swydd hon gyd â llawer mwy o fedrusrwydd nag y disgwylid gan ei gyfeillion mwyaf hyderus. Cymmerth lafur mawr arno ei hun; ac er ei fod yn ddŷn cryf, ac yn meddu cyfansoddiad cadarn a heinyf yn naturiol, gan fod galwad mawr am ei wasanaeth trwy'r holl gyfundeb Cymreig, cystal ag yn ei gylchdeithiau pennodol, dechreuodd gormod llafur effeithio o'r diwedd yn ddwys ar ei iechyd. Pan yng nghylchdaith Llanfyllin (y ddiweddaf y bu'n llafurio ynddi), adfeiliodd ei iechyd i'r fath raddau fel y bu raid iddo roddi ei amryw swyddi i fynu, ac ymsefydlodd fel Uwchrif yng Nghaerlleon; ond symmudodd yn fuan oddi yno i Ryl. Tra y daliodd ei nerth, parhaodd i lafurio yma a thraw, trwy gynnal cyfarfodydd pregethu; ond yr oedd ei gyfansoddiad cadarn yn plygu dan bwysau cystudd. Cafodd wythnosau o nychdod poenus; ond yr oedd yn hynod o ddedwydd. Ar ol dywedyd y gair "*joyful*" lawer dwsin o weithiau, a methu ei orphen y tro olaf, dim ond "joyf" ar ei wefusau, ehedodd ei enaid i'r trigfanau dedwydd am chwarter wedi 11, nos Wener, yr 16fed o Dachwedd, 1867, ac efe yn 59 oed, wedi bod yn pregethu am 43 o flynyddau. Carasem heleuthu llawer ar y gŵr enwog hwn; ond rhaid i ni foddloni ar ddifynu y darlun prydferth canlynol o hono, a dynwyd pan oedd yn anterth ei ddydd, gan y diweddar Barch. Wm. Davies, D.D., o Fangor:—

"Tu a 35 [57 bellach] mlynedd yn ol, mwy neu lai, yr oedd capel newydd bychan yn perthyn i'r Wesleyaid yn y Bont-goch, cylchdaith Aberystwyth, i gael ei agor; ac yr oedd Mr. Aubrey, y pryd hwnw ar gylchdaith Llanfyllin, a'r hybarch Robert Owen, i weinyddu ar yr achlysur. Dyna'r tro cyntaf y gwelais i fy hen gyfaill. . . . Gan fod y capel bach yn rhy fach o lawer i gynnwys chwarter y dyrfa, bu raid cynnal y cyfarfod allan ar y maes. Safai [Mr. Aubrey] o'n blaen ar hen wagen, yn ddŷn lluniaidd, unionsyth, prydferth, a boneddigaidd. Yr oedd o ddeutu pum troedfedd a naw modfedd o daldra. Prin y gellid meddwl hyny hefyd yn ei flynyddoedd olaf, canys yr oedd erbyn hyny wedi tyfu yn fwy ffurfiol a chorphorol. Yr oedd ei wyneb yn grwn a phur agored; talcen llydan; ond nid edrychai yn uchel, canys tyfai ei wallt yn isel, braidd; aeliau trwchus, a thanynt ddau lygad du, disglair, a thanbaid iawn. Y mae o bryd tywyll, ac o ymddangosiad iachus a chadarn.* Denir ein sylw yn union gan y gair cyntaf a seinia: y mae tonau ei lais yn hollol wahanol i bob peth a glywsom o'r blaen; ac y mae'r llais cyfoethog hwnw dan lawn lywodraeth ganddo. Y mae'r cynghaniad (*modulation*) yn berffaith, a'r oslef (*cadence*) yn effeithiol i'w ryfeddu. Ond tynir ein sylw gan rywbeth heb law'r llais. Beth a ddywedodd ef yn awr? Arhoswch chwi: dŷn anghyffredin yw hwn, yn siwr i chwi. Y mae'n egluro ei destyn mor fedrus, mor felus, mor olau! Y fath iaith gref, brydferth, dda, sydd ganddo! a'r fath awdurdod drosti hefyd! Dechrau bellach fanylu ar ei destyn, y ffugyrau sydd ynddo, a'r athrawiaethau a ddysgant i ni. Y mae'r 'dydd hwnw' yn ei danio! Dydd! a dyna ei grebwyll a'i ddarfelydd yn ei gipio i fynu, ac yntau rhyngddynt yn ymgodi i ganol y golygfeydd mwyaf ysplenydd, arddunol, a gogoneddus; ac o'r uchelderau clir, mewn llais toddlyd a chynhyrfus, a iaith brydferth farddonol, yn eu darlunio i ni oedd ar lawr nes ein swyno a'n synu, ein llwytho a'n llethu, gan gyflawnder yr addysg a'r boddhâd. Yna disgynai yn ol, a chodai i fynu ryw bwynt arall a alwai yn eglurhâd, cadarnhâd, ac amddiffyniad. Yr wyf yn cofio yn awr fod Athrawiaeth yr Iawn yn un

* Gwel ei ddarlun destlys sydd yn y gwaith hwn.

Digitized by Google

o'r rhai hyny. Ar fatter felly, dechreuai ymresymu yn fanwl, yn gywrain, ac yn anwrthwynebadwy. Wedi gorphen arloesi ei ffordd fel hyn, ymgodai i gylchoedd asur drachefn. Ac yn y modd yma, o esponiad i esponiad, o resymiad i resymiad, o ffugyr i ffugyr, o ddarlun i ddarlun, o esgyneb i esgyneb, daliodd i'n llwyr feddiannu, gorph, enaid, ac yspryd, nes i'r *peroration* (areithglo) olaf ymdori arnom yn ffrydlif o oleuni a nerth, a'n gollwng yn rhydd o afeulion tynion ei allu mawr, a'i ddylanwad anarferol."

Nid ydym yn gwybod i ddim o waith Mr. Aubrey gael ei gyhoeddi, yn ei oes ef, ond yr araith ar *Enllib* a grybwyllwyd eisoes, a dau rifyn chwe cheiniog o "Draethawd ar Fedydd," mewn canlyniad i ddadl ar y pwngc hwnw rhyngddo a'r Parch. John Evans, gweinidog gyd â'r Bedyddwyr. Yr ydym yn deall iddo adael rhyw "Weithiau" ar ei ol, y rhai y bwriedir eu cyhoeddi.*

### JOHN PETER (IOAN PEDR).

Ganwyd y gŵr enwog a llafurus hwn ar y 10fed o Ebrill, 1833, yn y Bala, sir Feirionydd. Peter ac Elen Jones oedd ei rieni: pobl mewn sefyllfa gyffredin, ond yn onest, diwyd, a chrefyddol. Bu farw ei dad pan oedd efe tu ag 8 oed; ond y mae ei fam, a'i nain hefyd, yn fyw etto, ac y mae yr olaf o fewn ychydig i fod yn "ferch canmlwydd." Anfonwyd ef i'r ysgol pan yn blentyn, ac yr oedd ei dymmer addfwyn yn peru i bawb ei hoffi. Pan yn 10 oed, derbyniwyd ef i hen Ysgol Rammadegol Tŷ-tan-y-domen, Bala, a bu yno am bedair blynedd. Bu raid iddo ymroddi wedyn i ddysgu celfyddyd ei dad a'i daid, sef saer melinau, a buan y daeth yn hynod fedrus yn y gelfyddyd honno. Er gorfod gweithio â'i ddwylaw i ennill ei fara, parhaodd i ddarllen yn ddyfal, i fyfyrio yn ddiwyd, ac i ddysgu rhywbeth yn ddïorphwys. Yr oedd yn un dyfal ac ymchwilgar er yn blentyn; ond trwy gyfrwng "Cymdeithas Lenyddol Meirion" y dadblygwyd ei dalentau, fel y dywed ei gyfaill, y Parch. J. D. Jones, A.M., yn y *Drych Americanaidd*, fel hyn:—

"Ganwyd Ioan Pedr a minnau o fewn deuddydd i'n gilydd: buom yn cydchwarau ar lanau y Tryweryn, y Ddyfrdwy, a Llyn Tegid. Treuliasom bedair blynedd yn hen Ysgol Waddoledig 'Tŷ-tan-y-domen,' yn yr un dosparth. Yr oeddym yn yr un Ysgol Sabbothol, a'r un eglwys. Dechreuasom ddysgu grammadeg ein hiaith, a rheolau ein barddoniaeth, tu a'r un amser. Cof da sydd genyf am yr adeg pan y darfu i ddyrnaid o honom sefydlu Cymdeithas Lenyddol yn yr awyr agored, dan gysgod hen dderwen ar un o feusydd y Rhiwlas. Ni feddem allu i logi ystafell, gan nad oeddym oll ond tlodion; ac yr oedd tipyn o wyleidd-dra arnom hefyd, yn gystal ag ofn i'n huwchafiaid chwerthin am ben ein huchelgais. Nid hir, pa fodd bynag, y buom heb gael gwahoddiad i ddefnyddio ystafell mewn tŷ cyfaill. Ymhen amser, daeth ein cyfarfodydd a'n hymdrechion am ddiwylliant dan sylw rhai o ddysgawdwyr y dref; a chawsom fenthyg ystafell berthynol i Athrofa y Methodistiaid Calfinaidd. Dechreuodd myfyrwyr y ddau goleg gymmeryd rhan gyhoeddus yn ein gweithrediadau. Fel hyn, cyn hir, daeth y gymdeithas yn deilwng o'r enw 'Cymdeithas Lenyddol Meirion,' gyd â changhenau yn y plwyfydd cyfagos."

Yr oedd Ioan Pedr yn un o brif golofnau y gymdeithas, yr hon a fu o ddirfawr les i laweroedd. Yr oedd pryddest neu awdl ar y "Diluw" yn destyn y gymdeithas am y fl. 1852, a Ioan Tegid yn feirniad y testyn; ond bu farw cyn derbyn y cyfansoddiadau; eithr cafwyd gan Tegidon, un arall o blant y Bala, gymmeryd ei le fel beirniad, a barnwyd Ioan Pedr yn ail orau ar y testyn. Dilynodd ei grefft fel saer melinau celfydd am rai blynyddau; ac yn y cyfamser, dysgodd rifyddiaeth, mesuryddiaeth, ac elfenau Groeg, Lladin, Ffrangcaeg, a Germanaeg, heb ddim cynhorthwy ond *Cassell's Popular Educator;* a dechreuodd astudio Deuareg *(Geology)* yn ystod yr un cyfnod.

Yn y fl. 1855, pan oedd efe tu a 22 oed, dechreuodd bregethu gyd â'r Annibynwyr, ym mysg y rhai y dygasid ef i fynu o'i febyd. Yn yr un flwyddyn bu yn Germania dros ychydig fisoedd, er mwyn ymberffeithio yn yr iaith Germanaeg; ac yn y fl. 1856, derbyniwyd ef i'r Coleg yn y Bala. Yn adeg dyspeidiad y Coleg yn 1857, aeth i Paris am ddau fis i ymberffeithio yn y Ffrangcaeg. Ar ben y chwe mis cyntaf o'i efrydiaeth yng Ngholeg y Bala, urddaelododd (*matriculated*) yn anrhydeddus yn Athrofa Llundain. Bwriadai gymmeryd y radd o B.A. yn yr athrofa honno; ond rhwystrwyd ef gan ormod gorchwylion eraill.

Ar derfyn ei efrydiaeth yng Ngholeg y Bala yn y fl. 1859, dewiswyd ac urddwyd ef i fod yn gydweinidog a'r Parch. M. D. Jones i eglwysi y Bala a Thy'n-y-bont; ac yn yr un flwyddyn, dewiswyd ef i fod yn athraw cynnorthwyol yng Ngholeg y Bala. Ar ol iddo fod yn cynnorthwyo y prif athraw, y Parch. M. D. Jones, am ddwy flynedd, canfu pwyllgor y coleg fod ei wasanaeth yn anhebgorol; ac ym mis Mawrth, 1861, dewiswyd ef yn is-athraw trwy bleidlais unol y pwyllgor, a gwasaneuthodd y swydd yn ffyddlawn a llwyddiannus hyd ddiwedd ei oes. Am dano fel athraw, dywed y *Dysgedydd* fel y canlyn:—

"Yr oedd yn athraw ffyddlawn, tirion, gofalus, a manwl. Rhaid dywedyd am dano, 'Da was, da, a ffyddlawn.' Yr oedd yn un o'r dynion tirionaf, a llawnaf o gydymdeimlad, a gyfarfuasom erioed. Medrai gyd-ddwyn â gwendid, a chydymdeimlo âg anhawsder pob myfyriwr, os byddai yn

* Ysgrif y Parch. H. Jones, Caer; Gwyddoniadur, cyf. x., t. 446; En. Cymru, I. F., t. 1068.

Digitized by Google



J. Thomas Photo. G.J. Stodart Sc.

PARCH. JOHN PETER,

DIWEDDAR O'R BALA.

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERTAWE

Digitized by Google

Digitized by Google

weithiwr dewr a phenderfynol; ond nis gallai oddef difatterwch a dïogi. Mynnai gael y gwaith wedi ei wneud yn drwyadl. O! yr olwg ddedwydd a fyddai arnom yn y dosparth gyd âg ef! Afraid yw dywedyd bod pob un a fu dan ei addysg erioed yn ei garu fel cyfaill, ac yn ei barchu fel tad. Ond y mae yr arabydd pert, y bardd cywrain, yr ysgolhaig medrus, yr athraw llwyddiannus, y cyfaill cywir, y cymmydog parod ei gymmwynas, y dŷn addfwyn, y dirwestwr cydwybodol, a'r Cristion gloyw wedi marw."

Yn y fl. 1861, yr un flwyddyn ag y gwnaed ef yn gyd-athraw yng Ngholeg y Bala, aeth i gydnabyddiaeth â Miss Elizabeth Noall, merch ddysgedig Mr. John Noall, mordir-wyliwr (*coast-guard*), a cherddor medrus, yng Nghemmaes, sir Fôn, ac unwyd hwy mewn glân briodas. Am yr undeb dedwydd yma, dywed *Y Beirniad* fel hyn:—

"Gallwn ddywedyd yn ddibetrus na bu gŵr llên erioed yn fwy ffodus ynghymmar ei fywyd. Meddwl pur, chwaeth goeth, teimlad tyner, yspryd boneddigaidd, perffaith gydymdeimlad â'r weinidogaeth, yn gystal ag olrheiniadau llenyddol: dyma brif elfenau ei gwaddol, ac i'w gŵr buant o fendith amhrisiadwy. Ymddangosai i ni fel pe buasai wedi ei threfnu o bwrpas ar ei gyfer."

Bu Mr. Peter yn efrydydd caled ar hyd ei oes. Talodd sylw manwl i'r gwahanol wybodau (*sciences*), megis deuareg, fferylliaeth, seryddiaeth, ieithyddiaeth, a'r cyffelyb. Yr oedd yn deall yr ieithoedd canlynol yn dda, sef Hebraeg, Groeg, Lladin, Germanaeg, Ffrangcaeg, Italaeg, Hispaenaeg, Isdiraeg (*Dutch*), Rwssiaeg, a'r gwahanol gangenau Celtaidd; ac ym mlynyddoedd olaf ei fywyd, ymroddes i fyfyrio y *Sanscrit*. Dywedir nad oedd dysgu iaith ond trafferth fechan iddo. Gwnaeth lenyddiaeth Gymreig yn un o brif byngciau ei fyfyrdod, ac ysgrifenodd lawer i'r prif gyfnodolion Cymreig. Yn y fl. 1867, cynhygiwyd y testyn canlynol erbyn Eisteddfod Genedleuthol Rhuthyn yn 1868:—

"Gwobr o 10p. 10s., a medal arian, am y Traethawd byr gorau (Cymraeg neu Saesneg) ar y Berthynas sydd rhwng yr Iaith Gymraeg a Hen Ieithoedd eraill. Beirniad, y Parch. Rowland Williams, D.D., Broad Chalk, Hants.—Wyth o gyfansoddiadau. Dau yn tra rhagori, '*Gâliad*' a '*Celtiad*,' sef y Parch. J. Peter, Coleg Annibynol y Bala, a Gweirydd ap Rhys. Rhanwyd y wobr rhyngddynt, gan roddi medal i bob un."

Dyma fel y terfyna'r Dr. Williams ei feirniadaeth ddysgedig ar y treuthodau crybwylledig:—

"Fy mhenderfyniad, ar y cyfan, ydyw y gellir ystyried y ddau dreuthawd olaf hyn, sydd yn anhebyg o ran nodwedd, megis yn gyfartal mewn teilyngdod: canys gallai y flaenoriaeth a allwn i ei rhoddi, yn rhesymol, i'r naill, dderbyn cyfeiriad gwahanol, yr un mor resymol, pe digwyddasai fod genyf gydswyddog yn y feirniadaeth hon. Gan hyny yr wyf fi, dan argyhoeddiad eglur bod y llwybr a ddilynaf yn gywir, yn annog pwyllgor yr Eisteddfod hon i ranu y wobr ar 'Berthynas yr Iaith Gymraeg' rhwng awduron y treuthodau a arwydd-nodwyd 'Gâliad' a 'Celtiad.' Y mae genyf yr hyfrydwch o ychwanegu bod y ddau yn cyflawn gynnal y safon uchel sydd wedi boddhaol ddynodi y treuthodau a gynhyrchwyd mewn Eisteddfodau yr amseroedd diweddar."*

Yn ystod y blynyddau 1870 ac 1871, ysgrifenodd Ioan Pedr amryw bennodau ar lenyddiaeth i "Hanes y Brytaniaid a'r Cymry,' dan olygiaeth Gweirydd ap Rhys; a'r Parch. John Peter oedd golygydd, os nad ysgrifenydd hefyd, yr 88 tudalen blaenaf o "Enwogion y Ffydd." Heb law hyny, dechreuodd gyfansoddi "*Gramadeg Cymraeg*." Bwriadai hefyd gyhoeddi cyfrol o'i bregethau; ond, ysywaeth! bu raid iddo ef fyned a gadael llawer o'i gynlluniau heb eu gweithio allan. "Bwriadau lawer sydd nghalon dŷn; ond cyngor yr Arglwydd, hwnw a saif." Yr oedd Ioan Pedr hefyd yn gerddor a bardd. Cyfansoddodd lawer o ddarnau byrion, a beirniadodd lawer o gerddoriaeth a barddoniaeth. Hefyd, cyfieithodd ddarnau helaeth o Virgil, Milton, Shakspeare, ac eraill. Yn y Bala, yr oedd efe yn aelod o'r Bwrdd Lleol a'r Bwrdd Ysgol, yn un o lywodreuthwyr hen Ysgol Rammadegol y Bala, yn gydysgrifenydd â'r Dr. Edwards i'r gangen o'r Bibl Gymdeithas sydd yno; a hefyd, cydysgrifenodd â'r diweddar Barch. James Jones, Abermaw, i Gyfarfod Chwarterol yr Annibynwyr ym Meirion.

Fel dŷn, yr oedd Ioan Pedr o ymddangosiad cadarn a nerthol; yn ŵr tal, llydan, a phrydferth iawn; gwyneb glân, difrifol, ond hynod o garuaidd; llygaid treiddgar a hoffus, a thalcen llawn ac uchel, fel y mae'n hawdd canfod wrth y darlun tlws o hono sydd yn y gwaith hwn; ond, "y mae efe yn gwanhau nerth y rhai cryfion," a "machludodd ei haul yntau tra yr oedd hi yn ddydd." Pan yr ymdeimlai ei fod yn cyflym ymlithro i "lyn cysgod angau," cysurai ei hoffus briod, ei fam, a'i berthynasau, gan ddywedyd, "Cawn gyfarfod oll yn y nefoedd;" a'r geiriau diweddaf a ddywedodd oedd, "Yr wyf yn cyflwyno fy enaid i'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân: nid trwy unrhyw heuddiant o honof fy hun, ond trwy heuddiant Iesu Grist." "Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a hunodd," ar y 17fed o Ionawr, 1877, heb fod ond 44 oed, wedi bod yn pregethu am 22 flynedd, ac yn athraw yng Ngholeg y Bala am 18 mlynedd. Ar yr 21fed o'r un mis, claddwyd ei gorph yn barchus iawn yn hen fonwent Llanycil, lle y mae beddadail brydferth wedi ei chodi uwch ben ei dawel fedd.†

* Baner ac Amserau Cymru, Awst 12, 1868.
† Gwyddoniadur, cyf. x., 679.



Digitized by Google

# PENNOD XXV.

Y PARCH. WILLIAM REES, D.D. (HIRAETHOG); Y GWIR BARCH. JOSHUA HUGHES, D.D.; Y PARCH. LEWIS EDWARDS, D.D.; HENRY RICHARD, YSW., A.S.; Y PARCH. THOMAS DAVIES, D.D.; Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.; Y PARCH. THOMAS REES, D.D.; Y PARCH. THOMAS PRICE, M.A., PH.D.; YR HYBARCH ARCHDDIACON GRIFFITHS; A'R PARCH. JOHN EVANS.

---

Yn y bennod olaf hon, o'n pedwerydd dosparth, ymdrechwn nodi rhai o'r prif ddigwyddiadau ym mywydau cynnifer o'r enwogion byw ag a allwn, y rhai y mae eu darluniau yn y gwaith hwn. Cymmerwn yr enwogion hyn etto o hynaf i hynaf, hyd y gallwn, yn ol ein cynllun o'r dechreuad.

### Y PARCH. WILLIAM REES, D.D. (HIRAETHOG),

(Yr hwn yw'r hen enw anwylaf genym ni, braidd, am ei fod mor Gymreigaidd, ac mor hyspys i ni er ys cyhyd o amser), yw yr hynaf, hyd y gallwn ganfod, o'r rhai byw y mae eu darluniau i mewn genym yn y gwaith hwn. Mab ydyw efe i Dafydd Rees, Chwibren-isaf, plwyf Llansannan, sir Ddinbych, a'i wraig, Ann Williams o Gefn-y-fforest. Enw taid Hiraethog oedd Harri Rees, gwr genedigol o Landeilo-fawr, sir Gaerfyrddin. Deuthai i Lansannan yn gyllidydd, a phriododd Gwen Llwyd, etifeddes Chwibren-isaf, a thyddynod eraill yn y plwyf. Yr oedd hynafiaid Gwen Llwyd wedi bod yn cyfanneddu yn y Chwibren o genhedlaeth i genhedlaeth, dros lawer o oesau dilynol, a chyfrifid hwy yn nosparth uchelwyr y wlad. Disgynyddion oeddynt o Hedd Molwynog, cyff cenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, yr hwn a gyfanneddai yn Henllys, Llanfairtalhaiarn.

Wedi i Harri Rees farw, gosododd ei wraig, Gwen Llwyd, Chwibren-isaf, dan ardreth i'w mab Dafydd, tad Hiraethog, ac yno, gyd â'i mab Dafydd a'i deulu, yr ymgartrefodd tra y bu hi byw. Er bod yn ein gwron HIRAETHOG "wrthwynebiad greddfol," fel y dywedodd wrthym mewn llythyr, "i ysgrifenu dim am dano ei hun;" etto, llwyddasom, megis heb yn weuthaf iddo, i dynu tipyn allan o hono, heb law ambell awgrym a geir yma ac acw yn ei lïosog gyfansoddiadau ef ac eraill. Bu gan ei rieni bump o blant, sef Gwen, HENRY (y pregethwr mawr), Thomas, WILLIAM (ein (*Hiraethog*), a Dafydd.

Ganwyd William ar yr 8fed o Dachwedd, 1802, a hyny yn y Chwibren-isaf, fel y dengys y pennill canlynol o'i "Adgofion Mebyd ac Ieuengctid:"—

"Hiraeth a'm dych'mygol huda
Dros y môr a thros y wlad,
I roi tro i Chwibren-isa,
Hen dreftadaeth teulu nhad:
Awn i'r hen *ystafell honno*,
Lle tarawai'r galon hon
*Guriad cyntaf bywyd yno*
Yn y fynwes dan fy mron."*

Pan oedd tu a 3 blwydd oed, cafodd y frech wen yn drom iawn, yr hon a ddiffoddodd ganwyll ei lygad dehau. Cafodd ychydig ysgol yn ei fachgendod, lle y dysgodd ddarllen Saesneg, ysgrifenu, ac ychydig rifyddiaeth. Darllenodd y Bibl amryw weithiau drosto yn y tymmor hwnw, a phob llyfr Cymraeg arall y gallai gael gafael arno, megis Daearyddiaeth R. Roberts o Gaergybi, Geiriadur Charles, Amseryddiaeth Llwyd o'r Bala, a rhai eraill. Ymddengys mai'r gorchwyl cyntaf a gafodd, ar ol tyfu tipyn i fynu, oedd bugeilio defaid ei dad, yn yr haf, ar lethrau difyr Mynydd Hiraethog, oedd ger llaw ei gartref, fel yr awgryma yn eglur yn y llinellau tlysion hyn:—

"Awn i rodio hyfryd fryniau
Hen gynnefin praidd fy nhad,
Lle bu *Tango*'r ci a minnau
'R ddau ddedwyddaf yn y wlad:
Mi ni wyddwn, mwy na *Thango*,
Am ofidiau bywyd gau,
On' bai'r ddafad un-gorn honno,
Buasem berffaith ddedwydd ddau.

"Minnau ddygwyd, megis Dafydd,
O fugeilio'r defaid mân,
I fugeilio ar Sïon fynydd,
Braidd yr Ion—ei eglwys lân:
Mi gyfarfum, gallaf gwyno,
Ambell ddiriad ddŷn diras,
Barai imi fynych gofio
Am y ddafad un-gorn gas."†

Bu raid i alluoedd meddwl Hiraethog, fel yr eiddo llawer un arall o'r mawrion gynt, ymagor, tyfu, ac addfedu heb gymmorth na choleg nac athrofa. Beth bynag a gynhyrchodd maes ei feddwl ef (ac anaml iawn y mae maes a gynhyrchodd gymmaint), y mae'r cyfan yn ffrwyth diledryw natur ac athrylith gynhwynol. Er na chafodd efe gymmorth athrawon colegawl, etto bu iddo yntau athrawon anrhydeddus ac uchelryw, nid amgen Anian a'r Bibl; ac fel y dywed yr hen "Drioedd Cerdd," yr oedd ganddo ef lygad yn eu gweled, calon yn eu teimlo, a glewder a feiddiai gydfyned â hwynt. Y mae'n hawdd casglu oddi wrth ei gyfansoddiadau llïosog, yn farddonol a rhyddieithol, ddarfod iddo ef fod yn ddisgybl cyfrin ac anwesog i'r athrawon gogoneddus a nodwyd, canys y mae efe yn arfer adrodd mwy o'u cyfrinion cyfoethog hwy nag odid un disgybl o'r eiddynt y gellir ei gyfarfod y dyddiau hyn. Y mae rhyw berarogl maes hyfryd yn esgyn oddi wrtho, nes swyno a chyfareddu pawb a wrandawo arno yn llefaru, neu a ddarlleno ei waith, yr hyn sydd brawf, er iddo dyfu yn fachgen mawr, er ys llawer dydd; etto, amlwg ydyw mai "bachgen ysgol" yw efe fyth, ac na fyn ymadael â'r hen athrawon er gweuthaf henaint ac aml nychdod. Gellid casglu, braidd, er pan ganodd efe i'w draed, nes myned o honynt yn gwbl iach, bod un o'i athrawon, sef Natur, wedi datguddio iddo gyfrinddysg sydd wedi colli o'n mysg

* Caniadau Hiraethog, t. 222.

† Caniadau Hiraethog, t. 222, 224.

Digitized by Google



G. W. Webster Photo. G. J. Stodart. Sc.

Digitized by Google

er dyddiau yr oraclau, y tylwythion teg, a'r môr-forwynion! Dichon mai mantais oedd i fab natur mor gynhenid a Hiraethog gael ei adael dan ei haddysg hi a'r Athraw mawr arall a nodwyd (y Bibl) yn gyfangwbl, er mwyn i'r oes hon gael un esampl, o leiaf, o allu gwir athrylith ddigynhorthwy, ond yr athrawon crybwylledig. Yr oedd yr oes o'r blaen wedi gweled amryw o honynt, megis Christmas Evans, John Elias, Roberts o Amlwch, ac eraill a nodwyd genym eisoes. Y mae athrawon dynol, gwneuthuredig gan ddysg a defodau, yn naddu ac yn tocio cymmaint ar ganghenau natur, pan y tarawont wrthynt, fel mai prin y gellir gwybod rhagor rhyngddynt hwy a phlanhigion celfyddydol. Y mae'n ddigon da i fechgynos cyffredin gael y fath addurniadau benthyg; ond medr y gwir fawr fyw a gweithio hebddynt, nes synu pawb a'u hadweunont. Y mae'n wir i Hiraethog lafurio yn galed, mewn amser ac allan o amser; er hyny, nid oes *ol* "gwneuthur" ar ddim a berthyn iddo, ond yn hytrach *ol tyfiant* naturiol ac iraidd a welir ar bob dawn sydd yn ei feddiant. Efe ei hun a ddywed ar hyn fel y canlyn:—

"Yr hyn a ddenai fy sylw a'm serch boreuol, yn benaf, ydoedd hanesyddiaeth a seryddiaeth; ond prin iawn oedd fy manteision i borthi y tueddfryd hwn. Cyfyngid fi yn hollol, braidd, at hanesyddiaeth y Bibl. . . . . Mawr oedd fy awydd am ehangiad moddion gwybodaeth yn y canghenau hyn yn neillduol, ac ystyriwn y rhai oedd ganddynt gyflawnder o'r trysorau hyny o wybodaeth yn eu cyrraedd y dynion hapusaf dan haul; a thybiwn, pe buasent yn fy meddiant i, y buaswn yn gwbl ddedwydd. Ond y mae i bob sefyllfa ei manteision yn gystal a'i hanfanteision. Bu fy anfanteision boreuol hyny yn fanteisiol i minnau mewn un peth: cyfyngodd gylch fy narlleniad yn benaf oll at yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yr hyn a'm dygodd i'r fath gydnabyddiaeth â hwy na chyrreuddaswn mo honi, ond odid, pe buasai genyf wrth law ddigonedd o lyfrau eraill; cydnabyddiaeth a ystyriaf heddyw y penaf a'r gwerthfawrocaf peth a feddwyf." *

Yr oedd rhieni Hiraethog yn bobl grefyddol cyn priodi. Bu ei dad, Dafydd Rees, yn fleunor ffyddlon a defnyddiol iawn gyd â'r Methodistiaid, er pan oedd tu ag 21 oed hyd oni bu farw yn y fl. 1828. Bu addysgiadau ac esamplau ei rieni duwiol yn foddion, dan fendith y nef, i gynhyrchu ynddo dynerwch cydwybod, ac ofn cyflawni drygau cyhoeddus, fel rhai bechgyn eraill yn ei ardal. Dygai ei rieni ef a'r plant eraill gyd â hwy i'r cyfarfodydd crefyddol, ac i'r gymdeithas neillduol (y *seiat*); ond ni bu ef erioed yn aelod eglwysig gyd â'r Methodistiaid. Yr oedd ynddo gryn awydd i fod yn bregethwr pan yn fachgen ieuangc; peth pur gyffredin ym mysg plant Cymru y dyddiau hyny, ac, nid hwyrach, y dyddiau hyn hefyd. Byddai ei frawd Henry ac yntau yn pregethu y naill ar ol y llall, weithiau, pan ar eu penau eu hunain. Fel hyn y dywed efe am ei frawd Henry ac yntau ei hun, fel pregethwyr, y pryd hwnw:—

"Efe (Henry) oedd y pregethwr gorau. Yr oedd rhai hen wŷr a hen wragedd cyfarwydd yn arfer dywedyd y gwneuthwn innau bregethwr ryw dro, yn sicr ddigon; ac yr oedd hyny yn fy moddio innau yn fawr, er nas gallwn wybod beth a welent ynof i beri iddynt feddwl y fath beth am danaf." †

Priododd yn ieuangc, ebr efe ei hun; ond ni ddywed pa mor ieuangc. Enw ei wraig oedd Ann Edwards, merch Evan ac Ellen Edwards, Waunddilen, ger llaw Nantglyn: a dyma farn ei gwr athrylithgar am dani, mewn llythyr at yr ysgrifenydd:—

"Gwraig oedd yn deilyngach o fywgraphiad na'i gŵr. Mawr berchid hi gan bawb, o bob gradd, a'i hadweunent ymhob lle y buom yn trigiannu, yn Saeson a Chymry. 'Benyw yn ofni yr Arglwydd, hi a gaiff glod.' Cafodd hi, beth bynag, glod na chafodd nemmawr i wraig o'i sefyllfa a'i manteision hi uwch clod erioed. Heddwch i'w llwch. Amen."

Bu iddynt naw o blant; ond nis gwyddom ni ond am bedwar o honynt, sef Ebenezer Rees, yr hwn sydd ariannydd (*banker*) parchus yn y *North and South Wales Bank*, yn Nerpwl; ac y mae'n wr crefyddol, galluog, a thra defnyddiol; Dafydd Rees, yr hwn oedd yn llangc hynod dduwiol, athrylithgar, ac anwyl gan bawb a'i hadweunai, ac a fu farw yn y fl. 1856, yn 21 oed, ar ol yr hwn y canodd y diweddar Barch. T. Pierce, Nerpwl, fel hyn:—

"Dewi Rees, harddbryd rosyn,—oedd goron
Hawddgarwch yn blentyn:
Ebrwydd daeth, fel bardd a dŷn,
Yn enwog yn ei wanwyn.

"Adweunai waith duwinydd,—a dedwydd
Hediadau bardd celfydd;
Ai'n graffus fedrus fydrydd
Mawr ei ddawn ym more'i ddydd.

"Darllenai, gwyddai agweddion—y byd;
Rho'i barch i'n llenorion;
A'r lawnaf gyfrol union
Garai ef, sef geiriau Ion.

"Dawn ddiwall, deall ei dad,—a'i awen
Oedd fyw yn ei lygad;
A'i gael oedd ein disgwyliad
O wir les fel athraw'r wlad.

"Ond Duw a'i pennodai ef,—yn iach sant,
I uwch swydd a chartref:
Rhoed iddo, 'n lle hir ddïoddef,
Urdd yn un o feirdd y nef." ‡ . . .

Y trydydd o'r plant athrylithgar hyn y gwyddom ni ychydig am dano yw'r Parch. Henry Rees, yr hwn sydd weinidog doniol a galluog gyd â'r Annibynwyr Cymreig yng Nghaerlleon; § a'r pedwerydd o'r plant dan sylw yw Angharad Rees, geneth fach, anwyl iawn, a fu farw yn 6 oed, er galar aneule i'r holl deulu, pan oedd ei thad yn weinidog yn Heol Mostyn, sir Fflint, ar ol yr hon y canodd ei thad galarus fel y canlyn:—

"Er y diwrnod y gadewais
Lanau Aled, hyfryd fro,
Llawer blinfyd chwerw brofais,
Yn y byd, o dro i dro:
Gwell yw tynu lleni drostynt;
Gwell yw peidio i go' eu dwyn;
Ond yn unig un o honynt;
Colli fy Angharad fwyn.

"Fy ngholomen fwyn, ddiniwaid,
Hoffder llygaid mam a thad;
Ergyd trwm in' oedd ei cholli;
Hir fu'n hiraeth ei barhâd:
Heilltion ddagrau tros ein gruddiau,
A dreiglasant lawer tro;
Nid aeth ugain o flynyddau
Ag Angharad fach o'n co'.

"Buasai'n deilwng ferch i Moses,
Yn llarieidd-dra'i thymmer fwyn;
Hudai'i gwedd a'i llygaid serchus
Bawb i'w charu gan eu swyn:
Oedd ry dyner i'r anialwch
Oer a garw'n deuar ni;
Ac i wlad o ddïogelwch,
Angel ddaeth, a chipiodd hi." ‖

* Caniadau Hiraethog, At y Darllenydd, t. vi.

† Trysorfa y Plant, am 1871, t. 213.

‡ Fy Nhad a Fy Mab, gan W. Rees, t. 17-39.

§ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 432.

‖ Caniadau Hiraethog, t. 225.

Digitized by Google

Ond, rhaid i ni frysio at y *tad* talentog. Pan ddechreuodd yr Annibynwyr bregethu yn rheolaidd yn Llansannan, ac y sefydlwyd eglwys yno yn y fl. 1828, tueddwyd meddwl Hiraethog i ymuno â hwy, gyd â dau gyfaill a fuasent yn gyfeillion ei ieuengctid; dynion o wybodaeth a thalentau pell uwch law i'r cyffredin o ddynion yn eu hamgylchiadau hwy ac yntau. Annogwyd ef yn fawr, gan yr ychydig gyfeillion yn yr eglwys fechan honno, i ddechrau pregethu; ond yr oedd yn hwyrfrydig iawn, ar lawer ystyriaeth, i ymaflyd yn y gorchwyl pwysig; eithr gorchfygwyd yr hwyrfrydigrwydd hwnw o'r diwedd gan annogeuthau parhaus y cyfeillion. "Er bod y dechreuad yn fychan, etto ei ddiwedd a gynhyddodd yn ddirfawr."

Yn y fl. 1831, derbyniodd Hiraethog alwad oddi wrth yr eglwys Annibynol yn Heol Mostyn, sir Fflint, a symmudodd yno ym Mai y flwyddyn honno. Ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth ddydd Gwener Croglith, 1832, pan oedd efe tu a 29½ oed. Y Parch. Henry Rees, ei frawd, a draddododd siars i'r gweinidog ar yr achlysur. Yn Chwefror, 1837, symmudodd o Fostyn, ar ol bod yno am yn agos i 6 blynedd, i Ddinbych, i fod yn weinidog i'r eglwys Annibynol yno; ac wedi bod yno yn fawr ei lafur, ei barch, a'i lwyddiant, am tu a 6 blynedd arall, symmudodd ym Mai, 1843, i fod yn weinidog i eglwys Annibynol y Tabernacl, yn Nerpwl. Yn 1853, derbyniodd alwad o eglwys Annibynol Salem, Nerpwl, lle y bu yr un mor dderbyniol a llwyddiannus hyd 1875, wedi bod yn y ddau le am yr yspaid maith o 32 mlynedd. Yr oedd ei anwyl briod wedi marw erbyn hyny, a theimlai yntau ei hun weithian yn prysur ymlithro i ddyffryn henaint; a'r canlyniad fu iddo roi y weinidogaeth sefydlog i fynu, ac ymneillduodd at ei ferched i Gaerlleon, gan fwriadu cymmeryd ei fyd dipyn esmwythach yn ei hen ddyddiau, fel yr ymddengys; ond y mae'r galwadau mor fynych ac mor deurion o bell ac agos am ei wasanaeth i bregethu neu areithio, heb son am ysgrifenu, ac y mae yntau mor dyner ei deimladau fel nas ddywedyd "Na" wrth neb, hyd y bo yn ei allu, fel y mae braidd yn galetach arno yn awr nag o'r blaen. Y mae'n wir hefyd fod gweithio yn ail natur iddo yntau, fel pob dŷn arall o wir athrylith; a gweithio a fyn gael, nes y dywed Rhagluniaeth wrtho, "Attal dy law."

Rhaid i ni weithian daflu trem frysiog ar ein harwr fel areithiwr, fel bardd, fel llenor, fel golygydd, ac fel beirniad. Nid oes berygl yn y byd i dipyn o ganmoliaeth, os digwydd, effeithio er newaid i'r dŷn a ysgrifenodd yr ymadroddion canlynol (ac a ymddygodd yn eu hol ar hyd ei oes), y rhai sy'n ddigon teilwng i gael eu hargraphu âg "aur dilin," a'u dodi uwch ben drws pob trigfan ddynol trwy'r byd:—

"Mor eglur brofedig yn hanes plant dynion ydyw y ffaith, mai gwobr gostyngeiddrwydd yw anrhydedd! Mai 'yr hwn sy'n gostwng ei hun a ddyrchefir, a'r hwn sy'n dyrchafu ei hun a ostyngir!' Ac etto, mor hwyrfrydig yw plant dynion, yn gyffredin, i ddysgu a chredu y gwirionedd hwn! Byddai yn dda gosod yr ymadrodd hwnw, o eiddo Solomon, yn rhagtalau rhwng llygaid llawer un, a'i lefain yn barhaus yn ei glustiau, 'Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun.' Y fath yw'r natur ddynol wedi ei chyfansoddi, fel y mae'r neb a fyddo bob amser yn utganu ei glod ei hunan yn annioddetol ganddi, ac yn ddirmygedig yn ei golwg; ac y mae'r elfen hon ynddi yn un o ddeddfau llywodraeth y Brenin mawr arni, trwy'r hon y mae efe yn cyflawni ei amcan o dynu'r balch i lawr, a dyrchafu'r gostyngedig i fynu. Bydded talentau, galluoedd, ac athrylith yr ymffrostgar y peth y byddont, y mae'r gwybedyn marw o hunan-fost yn drewi yr holl ennaint."*

Fel pregethwr y cychwynodd ein harwr ei yrfa areithyddol, yn Llansannan, ei hen ardal ef a'i deulu er ys cyn cof, fel y gwelsom; a chynhyddodd mor gyflym yn y gorchwyl fel y mynnwyd ei gael o'i fro enedigol yn fuan, i beidio dychwel iddi mwy, er hoffed ydyw ganddo. Credwn yr edrychir ar Hiraethog (y Dr. Rees er ys llawer dydd bellach), yn gyffredin, cystal a chenym ninnau, fel Tywysog ymhlith areithwyr Cymreig penaf ei oes, pa un bynag ai yn y pulpud ai ar y llwyfan (*platform*) y byddo. Nid dawn gloff, lerciog, ydyw yr eiddo ef, ac nid un ynfydwyllt, ddireswm moni chwaith; ond y mae ei areithyddiaeth ef yn hoyw, boneddigaidd, gref, hyawdl, a phur. Yr oedd unwaith, pan yn irder ei ddyddiau, ac y mae etto i raddau pell, yn feistr trwyadl ar y gwaith o lefaru. Y mae ffynhonell ei eiriau, fel yr eiddo Mr. Bright neu Mr. Gladstone, yn ddihyspydd; a geiriau detholedig, cryfion, a diledryw ydynt. Y mae ei ddychymmyg yn gryf, bywiog, hoyw, a hynod o chwarëus. Gall yru cynnulleidfa i sefyllfa hollol ddilywodraeth arni ei hun pan y mynno. Y mae ffordd y dagrau a ffordd y gwenau yn gwbl hyspys iddo ef. Y mae'r olwg arno yn y pulpud neu ar y llwyfan yn foneddigaidd a mawreddog. Y mae ei lais (o leiaf yr oedd, yn nydd ei nerth) yn gryf, peraidd, a soniarus. Y mae nodwedd arbenig i ddull ei draddodiad; ac y mae gan agwedd ei gorph, ysgydwad ei ben, disgyniadau ei lais, a phwysleisiad ei eiriau, y fath swyn cyfareddol ar lygaid a meddwl y gwrandwyr, fel nas gallant wrthsefyll eu grym a'u dylanwad. Y mae ei ymadroddiad yn araf, ond yn llithrig; yn ddoniol a gogleisiol, ond yn gwbl hamddenol a thawel. Nid oes angenrhaid iddo ef, megis i rai, weithio ei hun i uchelbwynt neillduol o frwdfrydedd, er mwyn cyffrôi ac awchlymu ei feddyliau pan ar wynebu cynnulleidfa o bobl, canys y mae nod angen dawn gynhyrfus natur ar ei ymadroddion ef. Dïau mai cuddiad ei gryfder ydyw ei allu digyffelyb i wneud gwirioneddau y Bibl yn fyw a theimladwy.

Ond, pa mor ddifyr, grymus, effeithiol, a bendithiol bynag ydyw y Dr. William Rees, fel pregethwr ac areithiwr, fe ddaw terfyn ar hyny yn fuan; eithr fel llyfrysgrifenydd, barddonol a rhyddieithiol, fe bery Gwilym Hiraethog i bregethu ac areithio i'w gydwladwyr hyd "na bo amser mwyach." Wrth ystyried beth a wna llyfrysgrifenwyr yn y byd, a pha beth a wna'r byd â llyfrysgrifenwyr, gellir dywedyd ei fod y peth mwyaf anghyfartal a all y byd yn awr ei ddangos. Pe cynhygiem roddi cyfrif am dano, ymsuddem i fôr nas gellir ei blymio. Gan hyny, ni wnawn ond bwrw trem frysiog dros y peth. Yr oedd ein cyndadau, er yr hen oesoedd, wrth deimlo y pwys sydd mewn llefariad dŷn wrth ddynion, yn adeiladu eglwysydd, ac yn eu gwaddoli yn orhaelionus; ac y mae Pulpud, wedi ei amgylchu â phob math ar atddodiadau addurniadol, yn y byd gwareiddiedig bron ymhob man, fel y mae gan ddŷn a fedr lefaru yn hyawdl y manteision gorau i gyfarch ei gyd-ddynion. Teimlid bod hyn y peth mwyaf pwysig, ac heb hyn, nad oedd dim da i'w ddisgwyl; ac y mae eisiau dynion i lefaru y gwirionedd wrth eu cydddynion, ond ni ddengys y Testament Newydd fod goraddurniadau ynglŷn â hyny yn angenrheidiol. Ond gyd â golwg ar y wybodaeth o ysgrifenu, y mae teimlad y byd yn hollol wahanol! Yn awr, ai nid Pregethwr ydyw Ysgrifenydd Llyfr, yn pregethu nid i'r plwyf yma neu arall, nac i'r gynnulleidfa hon neu honacw, ar y dydd hwn neu arall, ond i bob dŷn, bob amser, ac ymhob man? Yn sicr ddiau,

* Fy Nhad a Fy Mab, t. 27.

Digitized by Google

y mae o'r pwys mwyaf ei fod *ef* yn gwneud ei waith yn iawn, pwy bynag a'r nas gwnelo felly; y dylai y *llygad* fod yn olau, os amgen yr "holl gorph fydd yn dywyll!" Wel, pa fodd y gall efe wneud ei waith, pa un a wna ef yn gam neu gymmwys, neu a wna ef o gwbl ai peidio, sydd bwngc nad oes neb yn y byd wedi cymmeryd y drafferth i feddwl am dano. Dichon y gall fod o bwys i ryw lyfrwerthwr, a ymdrecho gael tipyn o arian am ei lyfrau; ond dim pwys gan neb arall. Math ar ddigwyddiad ydyw y Llyfr-ysgrifenydd mewn cymdeithas. Y mae'n crwydro fel Ismaeliad gwyllt yn y byd i'r hwn y mae efe yn arweinydd, er da neu er drwg ofnadwy! "Fy mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly."

Yn awr, edrychwn ar GWILYM HIRAETHOG fel Llyfrysgrifenydd, barddonol a rhyddieithol. Gyd â golwg ar ei gychwyniad fel Bardd, credwn nas gall neb ddywedyd cystal ag ef ei hunan. Dyma fel y traetha:—

"Yr oeddwn tu ag 20 oed pan dueddid fy meddwl gyntaf i sylwi ar farddoniaeth. Cyn hyny, ni theimlaswn nemmawr i ddim dyddordeb yn y gelfyddyd.* Caniadau Williams o Bant-y-Celyn, yn wir, a roddent i mi fawr hyfrydwch er yn blentyn; ond prin yr edrychwn ar farddoniaeth yn y mesurau caethion. Yr un a fu'n offerynol gyntaf i dueddu fy meddwl yn y ffordd hon ydoedd R. ab Dafydd (Robert Davies) o'r Gilfach-lwyd, Llansannan, yr hwn oedd i ni yn gymmydog agos, a chanddo ef drysorfa led gyfoethog o lyfrau Cymraeg, hynafiaeth a barddoniaeth, a'r hwn oedd yn dra hyddysg yng ngrammadeg yr iaith, a rheolau ei barddoniaeth. Cyrchwn at fy nghyfaill Robert Davies, bob cyfleusdra a gawn, i ddarllen ei lyfrau, ac i dderbyn ei addysgiadau. Ewyllysiai ef wneuthur bardd o honof [yn y mesurau caethion," bid sicr]; ond cafodd waith caled i'm disgyblu, cyn y gallai hyd yn oed gynhyrchu unrhyw awydd ynof at y gelfyddyd, a gwaith calctach na hyny drachefn i'm haddysgu i ddeall y rheolau ac adnabod beiau gwaharddedig cerdd dafod. Bum yn hir 'fel llo heb ei gynnefino â'r iau.'† Athraw llymfanwl oedd R. Davies: nid oedd trugaredd na maddeuant i'w cael ganddo am wall gramadegol neu gynghaneddol. Dwrdiodd fi yn erwindost lawer tro am wallau felly. Byddwn yn arswydo wrth fyned a chyfansoddiâd i'w ddangos iddo; ond yr oedd fy nghynnydd graddol yn peri iddo fawr foddhâd, a chredaf yn ddilys bod llwyddiant fy anturiaeth gystadleuol gyntaf yn Aberhonddu wedi peri cymmaint o lawenydd i feddwl fy athraw ag a barodd i mi fy hun. Ystyriaf nad teg fuasai i mi esgeuluso y cyfleusdra hwn

* Credu yr ydym mai cyfeiriad sydd yma at yr amser y dechreuodd ein Pencerdd fyfyrio barddoniaeth fel "*celfyddyd*," sef y "Mesurau Caethion," canys ymddengys i ni, wrth y pennillion prydferth sy'n canlyn, y byddai yr "Awen" yn ymrithio iddo, gan ddenu ei serch i'w charu, pan nad oedd ond glas lefnyn, yn bugeilio defaid ei dad ar lethrau hyfryd hen Fynydd Hiraethog, a cher llaw glanau difyr yr Afon Aled. Dyma ein tystion:—

AWEN! telyn fwyn fy ieugctid,
  Ti felusaist lawer awr,
Fuasent hebot ti yn ofid
  Prudd, ac annifyrwch mawr:
Chwarau ar dy dannau mwynion
  A'm difyrai, pan yn syn;
Gyrodd fyrdd o ddrwg ysprydion
  Ymaith lawer gwaith cyn hyn.

Sibrwd rhediad Afon Aled
  Tros y cerig llyfnion mân,
A dy demtiai, wrth ei glywed,
  Lawer gwaith i ellio cân:
Tyner fysedd yr awelon,
  Pan chwareuent ar y dail,
A'th ennynent dithau'n union
  I wneud pennill bob yn ail.

Pan y byddai blinder llwythog,
  Neu ryw nychdod dan y fron,
Awel iachus hen Hiraethog
  A adferai iechyd llon;
Llawer hafddydd, ar ei frynlau,
  Dreuliais yn dy gwmni gynt,
Lle ni safai ein gofidiau
  Mwy na'r us o flaen y gwynt.

Mae'm dychymmyg yn delweddu
  Hen lanerchau'r funud hon,
Buost, Awen fwyn, yn tynu
  Llawer pigyn o fy mron:
Wrth adgofio hen linellau,
  Mae myfyrdod yn fy nwyn,
Etto'n ol i'r hyfryd fanau
  Cefais bob rhyw linell fwyn.

—*Caniadau Hiraethog*, t. 220.

† Nid ydym yn synu dim at hyn: yr oedd, ac y mae, Awen Hiraethog yn llawer rhy anystywallt a hedegog i neb allu ei chystwyo, ar chwarau bach, er ei dofi, a'i dwyn i gylch mor grebachlyd ag ydyw y "mesurau caethion." Wrth ehedeg yn rhydd yn "awyr agored" y mesurau digynghanedd a dilyfethair y mae ei Awen uchelryw ef yn ei helfen, fel y prawf yr "Hiraethgan" am Williams o'r Wern, y rhan olaf o "Job," "Adgofion Mebyd ac Ieuengetid," ac yn arbenig yr "Emmanuel." Yr un fath yn union y teimlai Awen odidog Goronwy Ddu o Fôn, fel y gwelsom yn pen. iv. o'r llyfr hwn, y vi.

i dalu y gydnabyddiaeth ddyledus hon i'm cynathraw a'm hen gyfaill cywir galon.*

Y mae cyfansoddiadau prydyddol ein hawdur, yn gynganeddol a digynghanedd, yn gystal a'i gyfansoddiadau rhyddieithol, mor lliosog fel na oddef lle i ni nodi ond ychydig o honynt: ni ddywedwn y rhai *penaf*, am nad ystyriwn ein hunain yn ddigon o feirniaid i'w dethol, namyn y rhai *hwyaf* a mwyaf cyhoeddus.

Ei gynnyg prydyddol *cyhoeddus* cyntaf oedd "Cywydd ar Frwydr Trafalgar (Traffalgar), a Marwolaeth y Llyngesydd Nelson," un o destynau Eisteddfod Freiniol Aberhonddu, yn 1826, pan oedd yr awdur yn 24 oed, am yr hwn gywydd y derbyniodd y wobr o wyth gini, ac ariandlws, gwerth dau gini. Dywed yr awdur iddo gyfansoddi y cywydd hwnw "ar y meusydd gyd â'i oruchwylion," ac y rhedai "â dernyn ar ol dernyn yn yr hwyr at ei athraw i'w ddiwygio." Cyhoeddwyd y cywydd dan sylw, gyd âg ychydig ganiadau eraill, yn fuan ar ol Eisteddfod Aberhonddu, a thrachefn yng "Nghaniadau Hiraethog."† Cwyna yr awdur yn ei ragymadrodd i'r "Caniadau," ymhen 29 mlynedd ar ol cyfansoddi y cywydd hwn, mai "un o yspryd ryfelgar iawn ydyw," ond nad oedd yn barnu y buasai yn deg iddo newid dim ar ei yspryd a'i dôn, gan y buasai hyny yn dinystrio ei unrhywiaeth.

Anturiaeth gystadleuol nesaf ein hawdur ydoedd yn Eisteddfod Freiniol Dinbych, yn 1828, ymhen dwy flynedd ar ol ei antur gyntaf. Cyfansoddodd ar dri o destynau i Ddinbych, sef "Cywydd ar Ymdrech Buddug yn erbyn y Rhufeiniaid," yr hwn a fernid yn ail orau;"‡ "Cywydd ar Orllifiad y Môr dros Gantref y Gwaelod," i'r hwn y dyfarnwyd y wobr, sef ariandlws gwerth pum punt;§ ac "Awdl Farwnad i Goronwy Owen" (Goronwy Ddu o Fôn). Ni chafodd neb y wobr ar y testyn olaf, er bod rhai o oreufeirdd y dyddiau hyny wedi cyfansoddi arno. Aeth y cyfansoddiad hwn ar goll, ac nid oedd yr awdur, ysywaeth, wedi cadw copi o hono.

Cyfansoddiadau ein Pencerdd yn ystod chwe blynedd ei drigias yn Heol Mostyn oedd cân ar "Gwymp Babilon;"‖ cân ar "Ymadawiad y Cenhadau o Madagascar yn y fl. 1835;"¶ "Marwnad y diweddar Barch. J. Roberts o Lanbryn-Mair;"** a rhai cyfieithiadau o'r Saesneg.

Nid ymddengys i awen ein bardd gynhyrchu rhyw lawer yn ystod y chwe blynedd y bu yn Ninbych; ond y mae yr hyn a gynhyrchodd yn sicr o fod yn nosparth blaenaf barddoniaeth ein gwlad. Dichon mai'r darn cyntaf a gyfansoddodd yn yr amser yma oedd "Adgofion Mebyd ac Ieuengetid,"†† sef yr holl gân honno, ebr efe ei hun, "oddigerth y pennillion a gyfeiriant at y dref Seisnig [Nerpwl], a'r pedwar neu'r pum pennill olaf;" a chredwn ni nad oes ddernyn mwy hoenus-farddonol na'r gân brydferth honno yn holl gylch ein prydyddiaeth Gymreig, od oes ei chyfartal. Yn yr adeg hon hefyd y cyfansoddodd "Hiraethgan" ar farwolaeth Williams o'r Wern,‡‡ yr hon, medd efe ei hun, "ydyw un o'r darnau mwyaf boddhaol genyf

* Dyna rywbeth fel y dylai fod! Prawf arall o fawredd, gostyngeiddrwydd, a diolchgarwch Hiraethog. Buasai creadur bychan, hunanol, ac anniolchgar, yn sicr o anghofio, neu gymmeryd arno anghofio, ei athraw, oddi eithr i'r olaf fod yn ddŷn y bydd yn amhossibl ei anghofio.

† Caniadau Hiraethog, t. 147. ‡ Yr un, t. 156.

§ The Gwyneddigion, p. 159; Caniadau Hiraethog, t. 165.

‖ Caniadau Hiraethog, t. 226. ¶ Yr un, t. 234.

** Yr un, t. 198. †† Yr un, 220.

‡‡ Cof. Williams o'r Wern, t. 135; Can. Hiraeth., t. 200.

Digitized by Google

o'm holl gynhyrchion awenyddol; ac nid rhyfedd hyny, canys yr oedd ei gwrthrych genyf yr hawddgaraf a'r anwylaf o feibion dynion." Yr ydym ninnau yn credu ei bod yn llawn gyfartal â'r orau o farwnadau Williams o Bant-y-Celyn, a chanmoliaeth fwy nis gallwn ni ei rhoddi. Am y cyfansoddiad barddonol nesaf a gynhyrchodd y bardd yn ystod ei arhosiad yn Ninbych, dewiswn iddo ef ei hun dreuthu yn ei gylch:—

"O fewn corph y tymmor hwn hefyd y cynhaliwyd Eisteddfod y Gordofigion yn Liverpool [sef yn 1840], testyn cadair yr hon oedd 'Cystuddiau ac Amynedd Job.' Meddyliais unwaith gyfansoddi awdl i'w hanfon i'r gystadleuaeth ar y testyn hwn; ond wedi cyfansoddi tu a 150 o linellau, rhoddais yr amcan i fynu, mewn rhan o ddiffyg hamdden ato, ac mewn rhan o ddiffyg hyder ynof fy hun i allu cyflawni gwaith o deilyngdod ar y testyn; canys, mewn gwirionedd, nid ystyriwn fy hun erioed yn deilwng o le ac enw yn y dosparth uchaf o feirdd Cymreig yr oes."

Fel yna y gadawodd yr "Awdl ar Job" pan ymadawodd o Ddinbych i Nerpwl yn y fl. 1843. Wedi iddo ddangos y darn a gyfansoddasai o honi i'w gyfaill barddonol, y Parch. T. Pierce, nid oedd heddwch iddo gael heb fyned rhagddo, a chyfansoddodd ryw 886 o linellau yn y mesurau caethion at y 150 a gyfansoddasai yn Ninbych, nes oedd tu a 986 o linellau cynganeddol. Erbyn hyny, teimlai ei bod wedi myned yn rhy bell i adael iddi sefyll yn anorphenol, a dyma ei deimlad ar y matter yn ei eiriau ef ei hun:—

"Wrth edrych o'm blaen, a gweled y tir oedd genyf i'w deithio cyn y gallaswn ei pherffeithio yn ol y cynllun y dygasid hi ym mlaen hyd hyny, hollol ddigalonais allu cyrhaeddyd byth i ben yr yrfa, a rhodio yn hualau y mesurau caethion, gan nad allaswn hebgor ond ambell seibiant, yn awr a phryd arall, at y gorchwyl. Teimlaswn awydd lawer gwaith at gyfansoddi ar y mydr anghyfawdl (*blank verse*), ond erioed ni wneuthum ddim hyd yn hyn. Fodd bynag, ar ganol y ganiad hon, penderfynais wneud y prawf arno, gan benderfynu hefyd, os nad allaswn wneud dim o honi yn y ffordd hon, a myned yn rhwyddach ym mlaen ar hyd-ddi nag y gallwn yn ffordd gyfyng y gynghanedd gaeth, i wneud aberth llosg o'r holl gyfansoddiad ar y testyn, fel na buasai i'r olwg arno, fel tŵr wedi ei hanner adeiladu, fy mlino ond hyny. Wedi unwaith gychwyn o ddifrif, deuthum i hoffi y mydr fwyfwy Yr oedd fy nghyfaill, Mr. Pierce, yn anfoddlawn iawn i'r peth ar y cyntaf; ond ymgymmododd âg ef i raddau o dipyn i beth."

Ymhen ennyd wedyn, cafodd Hiraethog gyfleusdra i ddarllen y "dernyn diawdl" i glywedigaeth Eben Fardd ac Emrys, y rhai a'i mawr gymmeradwyent; a'r canlyniad fu iddo gyhoeddi y gân ar Job, gan ei galw yn bryddestawdl, mewn chwech o ranau,* a gallwn ddywedyd yn ddibetrus bod y gân honno ymhlith gemau barddonol ein gwlad.

Rywbryd yn ystod y fl. 1850, cyhoeddwyd y cynhelid "Eisteddfod Freiniol Madog" yn y flwyddyn ganlynol, 1851, ac mai testyn y gadair fyddai "Awdl ar Heddwch." Yr oedd hwn yn destyn wrth fodd calon Hiraethog; a dim rhyfedd iddo ddywedyd, "Teimlais awydd cryf i gyfansoddi 'Awdl ar Heddwch' i'r gystadleuaeth honno, deued a ddelai o honni. Yn gymmaint ag mai brwydr ydoedd testyn fy nghyfansoddiad cystadleuol cyntaf, y byddai i hwn, yr olaf yn ddïau i mi, ddwyn ei dystiolaeth dros Heddwch, a datgan rhinweddau a bendithion tangnefedd." Yr enw wrth yr awdl odidog hon oedd "Hedd Molwynog," a'r beirniaid oedd Caledfryn, Eben Fardd, a Nicander. Dyma eu barn hwy am ei theilyngdod:—

"Hedd Molwynog.—Cymmer yr awdur hwn olwg eang ar ei destyn yn ei holl gyssylltiadau. Dechreua yn y man y dylasai ddechrau, a diwedda yn y man y dylasai ddiweddu. Nis gellir mynegi hyny am bob awdl sydd ger ein bron. Darlunia heddwch cyntaf y byd yn brydferth. . . . Cymmer yr awdur olwg wedi hyny, yn yr ail ran, ar heddwch dynol ryw yn cael ei dori y tro cyntaf ymherson Cain. Rhwysg Nimrod; llunio pob math o eirf dinystr. Rhyfeloedd yn cael eu hachosi gan bethau bychain; llain o dir; menyw. Echryslonrwydd rhyfel. . . . Yn y drydedd ran, daw'r bardd o'r tân, a'r mwg, a'r gelanedd, i gymmeryd ei anadl; ac y mae fel pe byddai yn eistedd yn hamddenol yn nrws ei babell, ac yn tynu darlun prydferth o heddwch; ymdrechion Cymdeithas Heddwch; y Palas Gwydr; yr Awen yn cael ei throi o du heddwch; Ardalydd Môn, a'i nawdd i'r Eisteddfod; y gof yn cael nifer o hen gleddyfau i'w troi yn sychau; yn gafael

'Yn hyf mewn hen gleddyf glas,
Luniodd lawer galanas. . . .

'Rhed ei fawd ar hyd ei fin.

Ac wedi ei ddodi yn y tân,

'Fe'i cura nes â yn swch.'

"Y mae'r awdl hon yn gyfanwaith teg; yn llawn o dân awenyddol. . . . . Y mae'n rhagori digon ar bob un o'r lleill, ac, yn ein barn ni, teilynga y wobr." †

Y mae'r holl gyfansoddiadau barddonol a gynhyrchodd yn ystod ei arhosiad yn Nerpwl yn rhy lïosog i ni eu crybwyll o un i un; ond ei bencampwaith, yn ddilys ddïammau, ydyw yr "Emmanuel," yr hon arwrgerdd a argraphwyd gan Mr. Gee, Dinbych, yn ddwy gyfrol 12plyg hardd; y gyntaf yn 1861, yn cynnwys 312 o dudalenau, a'r ail yn 1867, yn cynnwys 506 o dudalenau—y gân hwyaf a godidocaf ar a feddwn, yn sicr ddïau, yn yr iaith Gymraeg.

Yr unig wall a ganfyddasom ni ynddi ydyw'r gwall mydryddol dibwys o derfynu y llinellau yn lled fynych â'r "corfan crych disgynedig," sef un sill accenol yn cael ei dilyn gan ddwy sill anaccenol, megis—

"O! p'le mae'r seraff cymmynàsgâr ✗
Ehedai'n fuan at fab Amos gynt?"

Y mae'r un gwall i'w ganfod yng nghaniadau anghyfawdl Golyddan, sef "Iesu," a rhanau o "Angau, neu Gwenafwy," ac ynghyfieithiad rhagorol I. D. Ffraid o'r "*Paradise Lost;*" ond ni cheir y gwall hwn braidd byth yng nwaith Milton ei hun. Terfyna efe ei linellau yn wastad â'r corfan crwn, sef unsill pwysleisiol; neu â'r "corfan rhywiog," sef sill accenol yn cael ei dilyn gan unsill anaccenol, megis—

"That durst dislike his reign, and, me prefèring."

Y caniadau anghyfawdl Cymreig glanaf oddi wrth y gwall dan sylw y gwyddom ni am danynt ydyw "Kyuarch Gwell Dauyt," gan "Prydyt y Moch;"‡ a "Chân Benrydd" Williams o Bant-y-Celyn.§

Cawsom gryn ddifyrwch wrth weled hanes rhyw "Gymrodoriaeth Farddonol" ddibwys, yn Eisteddfod leol Llanrwst, yn cydnabod Bardd Cadeiriog "Eisteddfod Freiniol Madog" yn "Bencerdd!" Nid oeddym yn synu dim gweled Gwilym Hiraethog yn ymostwng i dderbyn yr anrhydedd (?), canys fe wna dynion gwir fawr boppeth diniwaid er boddhau pethau bychain.

Fel Emynwr, y mae ei gyfansoddiadau llïosog yn "Aberth Moliant" yn profi ei fod yn gwbl gymmwys i fod yn yr un dosparth goruchel a Williams o Bant-y-Celyn ac Ann Griffiths o Ddolwar-fechan; ac fel cyfieithydd barddoniaeth gyssegredig, prawf "Twr Dafydd" ei fod yn gydymaith addas i Edmwnt Prys a Dafydd Jones o Lanwrda. Dylai holl ganiadau Hiraethog gael eu cyhoeddi, wedi eu

* Caniadau Hiraethog, t. 1.

† Caniadau Hiraethog, t. 93.
‡ Myv. Arch., p. 201. § Y Môr o Wydr, t. 131.

Digitized by Google

Digitized by Google



Engraved by G J Stodart, from a Photo. by S A Walker. 230 Regent Street. London.

Digitized by Google

trefnu ganddo ef ei hun, yn ddïoed, yn gyfrol fawr, o'r un plygiad a'i Rydd-weithiau."

Fel Llenor, y mae cyfansoddiadau rhyddieithiol lliosog Hiraethog, cystal a'i aml ganiadau, yn profi ei fod yn alluog i gyfansoddi ar bob math ar destynau, yn ol eu gwir natur a'u hansawdd: y difrifol, megis ei Gofiantau am Williams o'r Wern ac Emrys: y cyssegredig, megis ei "Draethawd ar Grefydd Ddatguddiedig," ei "Nodiadau Eglurhaol ac Ymarferol ar yr Epistol at yr Hebreaid," &c.; a'r hoenus a chwedlonol, megis "Caban F'ewyrth Twm," "Aelwyd F'ewyrth Robert," "Llythyrau yr Hen Ffarmwr," "Llythyrau yr Hen Deiliwr," &c., heb son am ei ganeuon difrifol a hoenus.

Fel Golygydd, y mae Hiraethog yn sefyll ym mysg y tywysogion golygyddol, megis Joseph Harris, Gwallter Mechain, Parry o Gaer, Ieuan Glan Geirionydd, a'r cyffelyb, fel y prawf ei erthyclau golygyddol campus sydd yn yr hen *Amserau* gwerthfawr, y newyddiadur Cymreig cyntaf, ond yr hen *Seren Gomer*, cyn dechrau ei chyhoeddi yn bythefnosol a misol.

Fe allai nad oes swydd fwy anfoddog (*touchy*) ym mysg llenorion (ym mysg llenorion Cymru, beth bynag) na swydd Beirniad; etto, er i Hiraethog fod ynddi lawer-oedd o weithiau, ni chlywsom fod cymmaint ag un ymgeisydd wedi grwgnach erioed yn erbyn ei feirniadaeth. Y mae hyn braidd yn rhyfedd, pan ystyriom y grwgnachwyd yn haerllud, lawer gwaith, yn erbyn beirniadeuthau cwbl deg a chyfiawn. Dichon fod dau beth yn achos o'r distawrwydd crybwylledig, sef medr a gonestrwydd y beirniad ei hun, a barn uchel y wlad am ei allu a'i ddiffuantrwydd, fel y buasai grwgnach a baldardd yn ei erbyn ef fel beirniad yn bechod cenedleuthol.

Credwn nad gweddus fyddai i ni derfynu hyn o fras nodiadau, am y gwr enwog hwn, heb ddywedyd gair am dano fel Gwleidyddwr. Y mae'n ddilys ddïammau na bu wleidyddwr erioed yng Nghymru mwy goleuedig, effro, a gwasanaeuthgar nag ef. Y mae wedi bod yn hynod ymdrechgar a llwyddiannus i hyfforddi ei genedl yn egwyddorion llywod-ddysg rydd, ehang, ddoeth, a chymmedrol. Saif Hiraethog yn y cyssylltiad yma i genedl y Cymry yn debyg fel y saif Cobden, Bright, a Gladstone i genedl y Saeson.

Ar fyr, beth bynag yr ymafael llaw y dŷn mawr a galluog hwn ynddo i'w wneuthur, y mae yn ei wneud i bwrpas; ac er hyny, yn ei wneud mor hamddenol, meistrolgar, a naturiol, fel nad *ymddengys*, o leiaf, i neb ei fod yn ei wneuthur "*â'i holl egni*." Nid rhyfedd i Carlyle ddywedyd "y gall yr Arwr [dŷn o athrylith] fod yn Brydydd, yn Brophwyd, yn Frenin, yn Offeiriad, neu beth bynag a ewyllysioch, yn ol y byd y cenfydd ei hun wedi ei eni iddo." Yn yr ystyr yma, *gallai* y DR. WILLIAM REES (*Gwilym Hiraethog*) ddywedyd yn ddibetrus, er y gwyddom nas dywed efe byth, "y llawenydd hwn mau fi gan hyny a gyflawnwyd."*

Y GWIR BARCHEDIG JOSHUA HUGHES, D.D., ARGLWYDD ESGOB LLANELWY.

Ganwyd yr Esgob Hughes o deulu parchus, yn perthyn i ddosparth canol cymdeithas, yn Neheubarth Cymru, yn y fl. 1807. Cafodd fam dduwiol i gyfeirio ei feddwl yn ieuangc at y Gwaredwr bendigedig. Yr oedd ef yn hoff o'i Destament Newydd yn oed cyn cychwyn o hono i'r ysgol ddyddiol. Yr oedd meddylgarwch bywiog a threiddgar, a dyfal-barhâd diroi i fynu, yn ei hynodi er yn blentyn. Dysgai bob peth yn gyflawn, ac ni symmudai gam o'i ffordd i ysgôi rhwystrau. Cadwodd yr un cymmeriad yn yr Ysgol Rammadegol, gan ymdrechu cael gafael yn hanfod pwngc ei fyfyrdod, a meistroli hwnw. Ennillodd yn ieuangc wybodaeth ehang a manwl o'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg, ac o'r ieithoedd classurol hefyd; a mynodd feistroli rheolau eu barddoniaeth cystal a'u grammadeg. Un o'i syniadau ef, yn oed yn awr, o berthynas i ieithyddiaeth, ydyw mai yr unig ffordd i ddyfod yn ysgrifenydd da mewn rhyddiaith yw dechrau gyd â barddoniaeth.

Pan ddaeth Joshua i oedran cyfaddas, dodwyd ef yng Ngholeg Dewi Sant, lle y cyrheuddodd y safle uchaf yn y canghenau arferol o wybodaeth a ddysgid yno; ac mewn amser priodol, cafodd y radd o B.D. Yn y fl. 1830, urddwyd ef yn ddiacon gan Esgob Caerodor; ac yn 1831, urddwyd ef yn offeiriad gan Esgob Bangor. Yn 1839, dyrchafwyd ef i Ficeriaeth Abergwrle; ac yn 1846, i Ficeriaeth Llandingad a Llanfair-ar-y-bryn (Llanymddyfri). Yn lled fuan ar ol cael y bywioleuthau hyn, pennodwyd ef yn Ddeon Gwladol Llangadog, ac yn Ddirprwywr (*Surrogate*) y Llys Eglwysig; ac wedyn etholwyd ef yn Brwyadur (*Proctor*) yr offeiriaid yng Nghyngor Eglwysig Caergaint (*Canterbury*). Tra'r oedd y Parch. Joshua Hughes yn Ficar y plwyfydd pwysig a nodwyd, am chwarter canrif, ac yn Ymwelydd Ysgol Rammadegol Llanymddyfri, y daeth ei dalentau ef i'r golwg, fel offeiriad plwyfol llwyddiannus. Gellir priodoli dirgelwch ei lwyddiant i'w ddifrifoldeb, purdeb ei amcan, ei awydd angerddol am ddwyn eneidiau at Grist, a'i grediniaeth gadarn yn nylanwad yr efengyl, trwy gymmorth yr Yspryd Glân, i wneud hyny. Yr oedd ynddo ddigon o wroldeb i gario allan ei holl argyhoeddiadau cydwybodol, ac o ddoethineb i beidio mynnu ei ffordd mewn pethau dibwys; a dilynai drefn reolaidd ymhob rhan o'i waith yn yr eglwysydd, yr ysgolion, ac yn ei ymweliadau plwyfol.

Yn y fl. 1870, trwy gymmeradwyaeth yr Anrhydeddus W. E. Gladstone, Prifweinidog Brydain ar y pryd, ac yn awr (1880), dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llanelwy, a derbyniodd y radd o D.D. gan Archesgob Caergaint. Yn nyrchafiad y Parch. J. Hughes i Esgobaeth Llanelwy, dangosodd Mr. Gladstone ei barch mawr i'r Cymry mewn dull hynod a dymunol. Y Parch. J. Hughes yw'r unig Gymro a dderbyniodd yr anrhydedd o fod yn Esgob Llanelwy er y fl. 1727, pryd y symmudodd John Wynn, D.D., oddi yno i Gaerbaddon. Y mae'n wir i John Thomas, D.D., gwr genedigol o Ddolgellau, gael ei ddewis i Esgobaeth Llanelwy yn y fl. 1743; ond symmudwyd ef i Gaerlwytcoed (*Lincoln*) cyn ei urddo. Dangosodd yr Esgob Hughes yr un penderfyniad, gweithgarwch, a doethineb, yn yr holl ddyledswyddau a berthynent i'w Esgobaeth, ag a wnai fel offeiriad plwyf. Y mae ei ymddygiad at yr offeiriaid plwyfol, a'r curadiaid, yn frawdol a chyfeillgar, yn hytrach na thadol ac awdurdodol. Yn ei nawddogaeth, edrych yn fawr ar lafur a theilyngdod profiadol, a dyry bwys mawr ar yr elfen Gymreig ymhob pennodiad. Ei syniad am nawddogaeth Eglwysig ydyw, mai er lles y plwyfolion yr ymddiriedwyd hi iddo, a bod ei gyfrifoldeb yn fawr am y defnydd a wna o honi. Yn ei ymdrafod âg

* Llythyr y Dr. Rees at yr Ysgrifenydd; At y Darllenydd o flaen Caniadau Hiraethog; Fy Nhad a Fy Mab; Trysorfa y Plant, Awst, 1871, t. 212; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 46, 57, 228, 404, 420; Y Darlunydd, Gorphenaf, 1876, Medi, 1878.

Digitized by Google

Ymneillduwyr, y mae'r Esgob Hughes yn foneddigaidd a charedig, heb edrych arnynt un amser, neu beru iddynt dybied ei fod yn edrych arnynt, oddi ar safle uwch-awdurdodol.

Fel awdur, nid ydys yn gwybod ond ychydig am ei ysgrifeniadau; eithr, a barnu oddi wrth ei annerchiad olaf i'w glerigwyr, y mae'n amlwg ei fod yn ysgrifenydd Saesneg cryf a destlys iawn, yn hanesydd eglwysig manwl, ac yn Eglwyswr trwyadl, o olygiadau cymmedrol. Fel pregethwr Cymraeg a Saesneg, y mae'n nerthol, sylweddol, a difrifol; ac y mae ei draddodiad yn llithrig, ond yn ddiaddurn; a'r iaith yn rymus, ond y Gymraeg yn gartrefol a gwledig. Pâr ei arddull syml, ei nerth a'i ddifrifoldeb, a gwresowgrwydd yspryd, iddo fod yn hynod o boblogaidd fel pregethwr Cymraeg; ac adgofia ei arddull yr oedranus o hen dadau y pulpud Cymreig. Fel areithydd, sieryd bob amser i bwrpas, yn sylweddol a synhwyrlawn.

Os sylla'r darllenydd yn feddylgar ar ei ddarlun prydferth sydd yn y gwaith hwn, cenfydd yngolygwedd ei wynepryd mawreddog feddylgarwch, pwyll, difrifwch, ac addfwynder boneddigaidd.*

Y PARCH. LEWIS EDWARDS, M.A., D.D.

Y mae'n ddrwg genym nas gallasem ysgrifenu yn helaeth ar y gwr enwog hwn; ond, fel y dywedodd mewn llythyr atom, y mae ynddo wrthwynebiad greddfol i ysgrifenu dim am dano ei hun. Pa wedd bynag, cawsom wybod y ffeithiau canlynol am dano. Ganwyd ef ar y 27fed o Hydref, 1809, mewn lle, fel y tybir, a elwir Pwll-y-cenawon, ymhlwyf Llanbadarn-fawr, ger llaw Aberystwyth, yn sir Aberteifi. Aeth i Athrofa Llundain yn y fl. 1831, pan yn 22 oed. Wedi myfyrio yno am beth amser, dewiswyd ef yn fugail i eglwys Fethodistaidd fechan yn Llacharn, sir Gaerfyrddin, a bu yno am flwyddyn. Aeth oddi yno i Brifathrofa Edinburgh, yn Ysgotland, lle y bu'n myfyrio am dair eisteddfa (*session*). Yr oedd ei ragoriaeth fel ysgolhaig y fath fel y cynhygiodd y Proffeswr Pillans, Deon Cymdeithas y Celfyddydau (*Dean of the Faculty of Arts*) i'r Prif Gyngor (*Senatus*), bod i'r myfyriwr galluog, Lewis Edwards, yn groes i'r rheolau mewn grym ar y pryd, gael caniatâd i ennill y radd o M.A. mewn tair blynedd, yn lle gorfod aros am bedair blynedd, yn ol yr arfer gyffredin. Cydsyniwyd â chynnyg rhesymol y Proffeswr Pillans, ac ennillodd Mr. Edwards y radd honno gyd âg anrhydedd anarferol. Wedi gorphen ei efrydiaeth yn Edinburgh, dychwelodd i Gymru; ac yn y fl. 1836, pan oedd efe yn 27 oed, ymsefydlodd, ar gais Cymdeithasfa Chwarterol y Methodistiaid, yn brif athraw cyntaf eu Coleg yn y Bala; ac yno y mae efe er y pryd hyny hyd yn awr wedi bod yn llafurio yn galed a llwyddiannus fel athraw, fel pregethwr, ac fel awdur dyfnddysg a galluog.

Ymhen rhyw ennyd ar ol i Mr. Edwards ymsefydlu yn y Bala, priododd wyres i'r Parch. Thomas Charles, a chwaer y diweddar Barch. David Charles, D.D., ei gydathraw cyntaf yng Ngholeg y Bala. Clywsom i Mr. Edwards gael cynnyg o'r radd D.D. o'r America fwy nag unwaith, ac iddo yntau wrthod. O'r diwedd, cynhygiwyd y radd honno iddo o Brifathrofa Edinburgh, yn yr hon y buasai efe yn fyfyriwr, fel y gwelsom, dros dair blynedd; ac efe a'i derbyniodd oddi yno, ac o hyny allan y mae efe wedi dyfod yn Ddr. Edwards.

Fel dŷn, y mae'r Dr. Edwards yn dal, syth, a chymmesurol, a'r olwg allanol arno yn hardd a boneddigaidd. Y mae ei dalcen yn fawr ac uchel; ac y mae'r llygaid, a'r rhan isaf y wyneb, yn arwyddo treiddgarwch a myfyrdod dyfnddwys a difrifol, fel y mae'n hawdd i'r craffus ganfod wrth syllu ar ei ddarlun hardd sydd yn y gwaith hwn. Y mae'n amlwg fod ei feddwl wedi syllu mor hir, mor ddwys, ac mor ddifrifol ar y pyngciau mawrion ac anfesurol perthynol i ddŷn yn y byd hwn a'r byd a ddaw, nes y maent wedi taflu eu cysgodau tros ei wynepryd, fel y mae'n ymddangos braidd yn ddwys-bruddaidd. Fel pregethwr, dywed J. Cynddylan Jones am dano fel y canlyn yn y *Christian Echo*:—

"Clywsom ef yn ddigon marwaidd (*flat*) lawer gwaith; ac un o'r profion digamsyniol nad yw ei feddwl mewn hwyl, ydyw ei ail adrodd-iad o'r ymadrodd tra adnabyddus, 'Dyma i chwi beth mawr!' Darllen ei destyn, â ym mlaen yn arafaidd, petrusgar, ac, fe allai, dipyn yn drymaidd; a chyn hir, daw yr hen ymadrodd allan, 'Dyma i chwi beth mawr!' Chwi a wrandewch; ond nid yw'r 'peth mawr' yn gwneud ei ymddangosiad. Y mae'n hercian ym mlaen yn araf a thrymaidd; drachefn, am bum munud arall. Yna ceir y geiriau y waith hon gyd â phwysleisiad trymach, 'Dyma i chwi beth mawr!' ond y mae'r 'peth mawr' etto yn gomedd dyfod ym mlaen. I ni, ag sydd yn gallu gwybod 'arwyddion yr amserau,' bydd ei farweidd-dra bron mor fwynhaol a'r hwyl. Ond pan fydd y gwynt yn llanw ei hwyliau yn deg, efe a â ym mlaen, i fynu ac i lawr, yn fawreddog, fel Môr-y-Werydd mewn tymmestl. Y pryd hwnw, efe a ddyry ei bethau mawrion heb grybwyll dim am eu mawredd: ceir meddwl ar gefn meddwl, nes eich llethu âg ofn a syndod. . . . . Bydd y Dr. Edwards, pan mewn hwyliau, yn lluchio allan ei feddyliau fel mynyddoedd, yn fawrion, crynion, a llawnion, ac yn eich gorlethu â syniadau ofnadwy am anherfynoldeb mawredd. . . . . Gwyddom am ddigon o bregethwyr mwy hyawdl yn y pulpud na'r Dr. Edwards; ond ni wyddom am un sy'n gwneud cymmaint o wir les i ni ag ef. Ni byddwn byth yn ei glywed yn pregethu heb i ni benderfynu cychwyn o'r newydd ynghyfeiriad ysprydolrwydd a sancteiddrwydd ar ein gyrfa grefyddol. Am hyny, byddwn yn dal ar bob cyfleusdra i'w wrando. Yr ydym yn adgofio yn fywiog am un achlysur pan yn gwrando ar y Dr. Edwards a phregethwr enwog arall yn pregethu yn yr un odfa. Yr oedd yr olaf yn llithrig ei barabl, yn brydferth, yn foddhaus, ac yn doreithiog mewn ymadroddion cain, a meddwl cyfoethog. Ar ei ol daeth y Dr. Edwards yn dawel, diymhongar, a thipyn yn glogyrnaidd mewn traddodiad; ond daeth y meddyliau mawrion allan yn arafaidd, ond yn nerthol, ac nid anghofiwn byth yr effaith dwfn a gafodd ei bregethu arnom. Yr ydym wedi llwyr anghofio yr hyn a ddywedodd y pregethwr hyawdl ac addurniadol, a bregethodd gyntaf; ond nid anghofiwn yr hyn a ddywedodd y Dr. Edwards tra y parhao ein cof. Yn gyffredin, ceir ef yn trafod, gyd â phwyslais ac enneiniad, ar athrawieuthau sylfeunol crefydd. Y mae ei feddwl ef yn gyfosodol (*synthetic*) o ran ei nodwedd. . . . . Nid yw efe yn dosrann (*analyze*); hyny yw, nid dyna ei lwybr amlwg. Cyfuno y mae efe: nid yw efe yn gwahanu, ond yn cyssylltu; gan hyny, ei air mawr ef ydyw 'ac.' O 'ac' i 'ac' yr â ym mlaen, nes yn fuan y cymmer afael ar yr Iawn. Ni chlywsom ef erioed yn pregethu heb ddwyn yr Iawn ger bron. Dyma ganolbwynt ei bregethau, 'IAWN.' Dyma gyweirnod ei dduwinyddiaeth, 'IAWN.' Ac nis gall neb a'i clywodd yn pregethu, yn ei ddull hapus ei hun, yn hawdd anghofio yr 'IAWN.'"

Ond, pa mor enwog ac effeithiol bynag ydyw'r Dr. Edwards fel athraw a phregethwr, fe dderfydd ei ddylanwad, fel y cyfryw, yn y byd yma, o leiaf, ymhen oesau a chanrifoedd; ond fel awdur ac ysgrifenydd, fe bery i lefaru a phregethu tra y pery yr iaith Gymraeg, ac, ond odid, yn llawer hwy. Fe ddichon y daw terfyn ar yr hen iaith anwyl, fel cyfrwng cymdeithas, ymhen canrifoedd, megis y mae wedi dyfod ar rai o'i chwiorydd Celtaidd eisoes; ond credwn, pe digwyddai hyny, nad aiff y "byd llenyddol" byth yn ddigon difatter am feddyliau dŷn o athrylith y Dr. Edwards, ag y gedy iddynt golli, mwy nag yr aeth i adael gwaith yr hen awduron gynt i golli, megis yr eiddo Thales, Socrates, Xenophon, Plato, Aristoteles, a lliaws eraill: na, y mae yn "Nhraethodau Llenyddol," a

* Y Darlunydd, Chwefror, 1877; Allwedd i Oriel y Cenhadon dros Grist, t. 13.

Digitized by Google

"Thraethodau Duwinyddol," y Dr. Edwards, elfenau na byddant feirw hyd "na byddo amser mwyach." Dywed rhai sy'n gydnabyddus âg ef "bod llawer o'i feddyliau gorau a dyfnaf heb eu hysgrifenu." Gresyn ydyw hyny, os gwir; ond fe allai ei fod ef wrthi yn ddyfal, er yn dawel a didwrf, yn ol ei arfer gyd â phoppeth. Y mae efe weithian yn prysur ymlithro i ddyffryn henaint, canys y mae newydd ddechrau ei 72fed flwyddyn. Gobeithio y caiff hwyrnos faith, dawel, a digymmylau, i orphen ei doreithiog lafur.*

### HENRY RICHARD, YSW., A.S.

Mab ydyw y gwr enwog hwn i'r diweddar Barch. Ebenezer Richard, a'i wraig Mary Williams o Dregaron, sir Aberteifi. Yr oedd ei dad, fel y gwelsom,† yn un o brif gedyrn y pulpud ym mysg y Methodistiaid, coffadwriaeth yr hwn a fydd yn anwyl gan saint Cymru tra y darllenir yr iaith Gymraeg. Ganwyd Henry, gwrthrych teilwng hyn o nodiadau, ac ail fab y pâr dedwydd a nodwyd, yn Ebrill, 1812, yn Nhregaron, ac yno y cafodd ei addysg pan yn blentyn. Tu a diwedd y fl. 1826, pan oedd Henry tu a 14 oed, a'i frawd Edward tu ag 16 oed, anfonwyd hwy i Gaerfyrddin, i ryw ysgol yno, fel y tybiwn, lle y buant am dair blynedd.‡ Ar ol gorphen eu hamser yng Nghaerfyrddin, yn 1830, aeth Edward i'r brifddinas i orphen ei addysg fel meddyg, ac aeth Henry i Aberystwyth. Tra'r oedd efe yn y lle hwn y gwylaidd hyspysodd efe ei barchedig dad, mewn llythyr wedi ei amseru y 24ydd o Ebrill, 1830, bod ei feddwl yn cael ei dueddu er ys hir amser at bregethu yr efengyl; ac er prined ein lle, nis gallwn beidio difynu rhan o lythyr ei dad duwiol ato ar y matter yma, yr hwn a amserwyd yn "Nhregaron, y 27fed o Ebrill, 1830:"—

"FY ANWYL HENRY,—Derbyniais eich llythyr a amserwyd y 24ydd, a darllenais ef yn ddïoed, gyd â'r pryder mwyaf; a phwysais yr hyn a gynnwys gyd â'r holl ofal, difrifoldeb, a sobrwydd a feddwn i, a chyd â llawer o ymdrech wrth orsedd gras am gyfarwyddyd, arweiniad, a chyngor, yn yr achos pwysfawr hwn. Pan yn myfyrio ar y pwngc, tarawodd geiriau yr Apostol Petr fy meddwl yn nerthol iawn, y rhai a lefarodd efe yn ei ddiffyniad am fyned i dŷ Cornelius, at rai dienwaededig:—'Pwy oeddwn i, i allu lluddias Duw?' ac felly, pwy ydwyf finnau, i amcanu lluddias Duw yn yr achos hwn? Na atto Duw i mi fod mor ryfygus! Na, dymunwn yn hytrach ddywedyd fel Dafydd, 'Pa beth ydwyf fi, O Arglwydd Duw, a pha beth yw tŷ fy nhad, fel y dygit fi hyd yma?' Mwy llawenydd nid oes genyf na gweled un o'm hiliogaeth gwael i yn cael ei osod yngwasanaeth y cyssegr. Felly, fy anwyl blentyn, gellwch fod yn hyderus y bydd i mi gymmeryd pob cam angenrheidiol yn yr achos pwysig hwn, heb un oediad pechadurus ar y naill law, nac, yr wy'n gobeithio, un byrbwylldra gwyllt ar y llaw arall; o blegid y mae'n rhaid i ni droedio yma gyd â phwyll a gwyliadwriaeth, gan wybod 'na frysia yr hwn a gredo.' Yn y cyfamser, rhaid i mi erfyn arnoch fod yn ofalus i ledu'r peth, yn gydwybodol ac yn gysson, o flaen Duw mewn gweddi."§ . . .

Ymhen ychydig fisoedd ar ol amseriad y llythyr yna, aeth Mr. H. Richard i Lundain, a derbyniwyd ef i Athrofa Highbury (*Highbury College*), ger llaw y brifddinas, lle y bu am bedair blynedd. Yn gynnar yn y fl. 1835, wedi i Mr. H. Richard orphen ei dymmor yn yr athrofa, derbyniodd alwad i fod yn weinidog i eglwys Annibynol ym *Marlborough Chapel, Old Kent Road*, Llundain; ac ar yr 11fed o Dachwedd yr un flwyddyn (1835), urddwyd ef yn weinidog iddi. Yr oedd ei dad, a'i fam, a'i frawd yn bresennol.‖ Bu Mr. Richard, nid yn unig yn foddion i ail fywhau eglwys wan oedd yn prysur ddiflannu, ond hefyd i'w chodi yn eglwys gref, lwyddiannus; a sefydlodd amryw achosion daionus ynglŷn â hi, yn enwedig ysgol Sabbothol ar gynllun Cymreig, yr hyn oedd yn syndod a boddhâd i Saeson meddylgar y dosparth hwnw o'r brifddinas.

Ond er mai yngwasanaeth y Saeson yr oedd Mr. Richard yn Llundain, nid anghofiodd efe wlad ei enedigaeth. Teimlai mai prin iawn oedd y cyfiawnder a wneid â Chymru gan y Llywodraeth, a'r deyrnas yn gyffredinol, o'r tu allan i gyffiniau y Dywysogaeth. Fel hyn y teimlai pan dorodd "Terfysg Rebecca" allan yn y Deheudir yn y fl. 1843. Terfysg oedd hwnw a achoswyd trwy i ameuthwyr ieuangc siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin geisio ymryddhau oddi wrth faich gorthrymus y tollbyrth. Elent allan yn y nos, dan gyfarwyddyd arweinydd dychymmygol, a dinystrient y tollbyrth a osodasid mor lïosog yn attalfeydd ar ffyrdd y parth hwnw o'r wlad. Bu hyn, er iddo gael ei wneud "rhwng difrif a chwarau," yn achlysur i genedl y Cymry gael ei henllibio yn druenus yn y wasg Seisnig. Yn wyneb hyny, daeth Mr. Richard i'r maes, fel "gwr grymus," a dangosodd yn effeithiol yr anghyfiawnder a wnelid â'i gydwladwyr; ac eglurodd "y paham a'r pa fodd" y codwyd y terfysg. Tra y condemniai yr afreoleidd-dra, profodd yn gryf ac yn eglur bod haerllugrwydd ac anhegwch y Saeson yn debyg o arwain i gyffelyb derfysg, yn hytrach na bod yn foddion i attal yr anhrefn.

Yn y fl. 1846, anfonodd y Llywodraeth Ddirprwyaeth i Gymru i chwilio ansawdd dysg a moesau y genedl; a phan ddaeth amser cyfaddas, cyhoeddasant hwythau eu hadroddiad mewn tri o "Lyfrau Gleision" trwchus. Ond ni bu erioed adroddiad mor anghywir, mor unochrog, ac mor anghyfiawn. Yr oedd yn orlawn o anghyssonderau truenus, ac anwybodaeth neu falais drygionus. Yn ol y Dirprwywyr hyny, nid oedd genedl dan haul fel cenedl y Cymry am ei hanwybodaeth, ei hofergoeledd, ei drygioni, ei meddwdod, ei hanniweirdeb, a'i chelwydd. Mawr oedd dychryn y newyddiaduron Seisnig wrth feddwl bod pobl mor arswydus o farbaraidd yn ddeiliaid teyrnas fel Brydain Fawr, mewn oes mor oleuedig ac efengylaidd! Ond daeth dau Gymro gwladgarol ym mlaen i amddiffyn eu cenedl, a'i hamddiffyn yn effeithiol a wneuthant hefyd, sef Ieuan Gwynedd yng Nghymru, a Mr. Henry Richard yn Llundain. Yn gynnar yn y fl. 1848, safodd i fynu yn eofn yn *Crossby Hall*, Llundain, a llwyr wrthbrofodd y cyhuddiadau bryntion ac anwireddus a gynhwysai y "Llyfrau Gleision," mewn araeth alluog, yr hon a argraphwyd ac a gyhoeddwyd yn llyfryn. Wedi hyny, dilynodd ei amddiffyniad i'r Cymry trwy gyfres o lythyrau gwerthfawr ar yr un matter yn y *Morning Star*. Yr oedd ffrwyth y llythyrau hyny yn llawer mwy na dirymu heuriadau anwireddus "Llyfrau Gleision" y Llywodraeth. Symmudasant ragfarnau disail o hir barhâd, hyd yn oed ym meddyliau gwŷr dysgedig. Profir hyn gan araith alluog a draddodwyd gan yr Anrhydeddus William Ewart Gladstone, ar lwyfan Eis-

* Y Darlunydd, Gorphenaf, 1879.

† Gwel pen. xix. o'r llyfryn hwn, y vi.

‡ Bywyd y Parch. Ebenezer Richard, gan ei feibion, E. W. Richard a Henry Richard, t. 97.

§ Bywyd y Parch. E. Richard, t. 133.—Y mae llythyrau Mr. Richard at ei feibion ac eraill, sydd yn y llyfr hwn, ymhlith y pethau gorau a ysgrifenwyd erioed yn yr iaith Gymraeg; a gresyn na bai'r llyfr tra gwerthfawr yma ymhob teulu yn y Dywysogaeth, ac ymhob man arall lle y preswylia Cymry.

‖ Bywyd y Parch. E. Richard, t. 181.



Digitized by Google

teddfod y Wyddgrug, yn y fl. 1873, yr hwn oedd y pryd hyny, ac yn awr hefyd, yn Brifweinidog Brydain. Yr oedd yr ysgrifenydd yn digwydd bod ar y llwyfan y pryd hyny, o fewn tu a llathen i Mr. Richard a Mr. Gladstone. Dywedodd yr olaf, yn ei araith hyawdl a nerthol, i'r perwyl canlynol:—

"Addefaf yn rhwydd i chwi fy mod, ar adeg a aeth heibio, a chyn i mi ymgydnabyddu â Lloegr a Chymru yn gystal ag yn awr, wedi coleddu y rhagfarnau oedd yn bod i raddau yn Lloegr ymhlith y Saeson, mewn perthynas i iaith a hynafieuthau Cymru; ac yr wyf wedi dyfod yma i ddywedyd wrthych paham yr wyf wedi newid fy meddwl. Nid yw ond tegwch i mi ddywedyd [gan droi at Mr. Richard, a thaflu ei law ato] bod cydwladwr o'r eiddoch, y Cymro ardderchocaf yna [*that most excellent Welshman*], Mr. Richard [llefau o gymmeradwyaeth], Aelod Seneddol yn awr, wedi gwneud llawer iawn i agor fy llygaid i ar wir sefyllfa y ffeithiau, a anfonodd efe, rai blynyddau yn ol, i newyddiadur dyddiol, a'r rhai a gyhoeddodd wedi hyny yn gyfrol fechan, yr hon yr wyf yn ei hargymmell i sylw pawb sy'n teimlo dyddordeb yn y pwngc." *

Dyna ganmoliaeth deilwng gan wr sy'n hyspys i'r holl fyd gwareiddiedig, nid yn unig fel un o'r gwleidyddwyr penaf a welodd y byd erioed, ond hefyd fel dŷn dysgedig, gonest, diragfarn, a chrefyddol. Y mae'r Cymry hefyd, yn gyffredinol, yn falch o Mr. Richard fel gwladgarwr a dyngarwr gonest, gweithgar, a chydwybodol. Yn y fl. 1848, pennodwyd Mr. Richard yn ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch. Yn yr un flwyddyn trefnodd efe, mewn cyssylltiad â'r Americanwr enwog, Elihu Burnitt, i sefydlu Cynhadledd Heddwch Gydgenedlaethol; a bu'r cyfarfodydd yn dra llwyddiannus. Yn ddiweddarach, cafwyd cynnadleddau cyffelyb yn Paris, Frankfort, Llundain, Manchester, ac Edinburgh. Parhaodd Mr. Richard dros beth amser ar ol cael ei bennodi yn ysgrifenydd Cymdeithas Heddwch i wasanaethu eglwys Capel Marlborough, yn gystal a chyflawni ei ddyledswyddau newyddion. Ond ymddengys y teimlodd efe, ymhen amser, nas gallai wneud cyfiawnder â'r ddwy swydd; am hyny, yn y fl. 1851, rhoddes y weinidogaeth eglwysig i fynu, gan benderfynu treulio ac ymdreulio yn achos heddwch. Mor ddiflin ymroddgar a fu efe yn yr achos clodwiw yma fel y mae efe, er ys rhai blynyddau bellach, wedi ennill y titl anrhydeddus o "Apostol Heddwch," ac y mae yn hollol deilwng o hono.

Yn ystod y fl. 1868, pan ddigwyddodd yr etholiad cyffredinol, rhoddwyd cyfeiriad newydd i yrfa lwyddiannus Mr. Richard. Yn y flwyddyn honno, dewiswyd ef yn aelod seneddol dros Ferthyr Tydfil, gyd â mwyafrif mawr. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Mr. Richard yn Nhŷ'r Cyffredin oedd amddiffyn ei wlad yn wyneb ymddygiad dialgar rhai tirfeddianwyr culfarn ar eu tenantiaid, trwy eu troi o'u ffermydd am bleidleisio yn groes i'w hopiniynau hwy. Traddododd y fath araith ar y pwngc fel y canfu yr holl Dŷ ar unwaith ei fod yn un o'r aelodau pwysicaf o'i fewn. Yn y fl. 1871, areithiodd yn rymus ac effeithiol iawn ar yr un pwngc drachefn, wrth bleidio Deddf y Tugel; ac o'r flwyddyn honno hyd 1877, traddododd areithiau grymus a dylanwadol yn Nhŷ'r Cyffredin o blaid Dadgyssylltu Eglwys Loegr, ar Ddeddf Claddu Osborne Morgan, ar Addysg Genedlaethol, ac ar byngciau eraill o bwys i'r holl wlad.

Yn y fl. 1873, dygodd Mr. Richard bwngc pwysig Cynnadledd Heddwch Genedlaethol i sylw Tŷ'r Cyffredin, pan y traddododd un o'r areithiau mwyaf grymus a dylanwadol a draddodwyd yn y Tŷ yn ystod y tymmor hwnw. Llwyddodd y pryd hyny i gario ei benderfyniad o blaid egwyddor fawr Cyflafareddiad rhwng teyrnasoedd, mewn amgylchiadau o anghydwelediad, yn lle Rhyfel. Cydnabyddwyd ei wasanaeth yn hyn gan amryw o brif wleidyddwyr y Cyfandir ac America. Mewn canlyniad i'r teimlad boddhaus a gynhyrchwyd gan ymdrechion Seneddol Mr. Richard ar hyn, barnwyd mai dymunol fyddai iddo ef ymweled â phrif ddinasoedd y Cyfandir, er mwyn ymgynghori yn bersonol âg aelodau y gwahanol Seneddau, ac ennill eu cydweithrediad er gwneud yr achos daionus dan sylw yn llwyddiant. Mewn canlyniad i hyny, ymwelodd Mr. Richard â Brussels, Berlin, Dresden, Vienna, Florence, Milan, Turin, a Rhufain; a derbyniwyd ef ymhob un o honynt gyd â pharch neillduol, ac mewn rhai o honynt gyd â brwdfrydedd mawr. Yr oedd y neges yn anhreuthol bwysig, ac yr oedd y dŷn yn deilwng o honi ymhob ystyr.

Pan ddaeth cyfyngder a thlodi mawr i'r wlad, yn enwedig i fysg y mwnwyr, mewn canlyniad i wastraff y Llywodraeth Wladol, o'r fl. 1877 hyd 1879, ymroddes Mr. Richard â'i holl egni i wasaneuthu ei genedl yn egnïol ac effeithiol, trwy gyfranu llawer ac ysgrifenu yn rymus ar ran y miloedd a ddïoddefent o herwydd y trueni, yn Neheubarth Cymru yn enwedig. Bu efe, Arglwydd Aberdâr, ac eraill, yn foddion i agor llogellau llawer, ac i gadw newyn allan o anneddau cannoedd o deuluoedd yn y rhan honno o'r Dywysogaeth.

Fel awdur, heb law ei ysgrifeniadau Seisnig a nodwyd eisoes, a gyhoeddwyd er amddiffyn cymmeriad ei genedl yn wyneb camgyhuddiadau y "Llyfrau Gleision," fe ysgrifenodd Mr. Richard lawer i'r cyfnodolion Saesneg a Chymraeg, ar wahanol byngciau eraill a nodwyd, megis Heddwch, Cyflafareddiad, Dadgyssylltiad yr Eglwys Wladol, Agoriad y Monwentydd i'r Ymneillduwyr, y Tugel, a'r cyffelyb; ond ei brif gyfansoddiad, hyd yn hyn, yw yr un canlynol, a ysgrifenwyd ganddo ef a'i frawd hynaf, E. W. Richard:

"Bywyd y Parch. Ebenezer Richard."

Cynnwys y llyfr gwerthfawr hwn 266 o dudalenau 12plyg, heb law 10 tudalen o arweinolion, a dylai fod ymhob teulu Cymreig trwy'r byd.

O ran y dŷn oddi allan, y Mr. Richard yn wr cadarngryf, hardd; gwyneb llydan cymmesur, addfwyn yr olwg arno; llygaid craffus a deniadol; a thalcen hynod o lawn ac uchel, fel y mae'n hawdd i'r darllenydd ganfod a graffo yn ofalus ar y Darlun Anrheg ardderchog, llawn maint o hono, a gyflwynir i danysgrifwyr y gwaith hwn. Ein dymuniad diffuant ni ydyw ar i'r gwr enwog, gwladgarol, dyngarol, a llafurus hwn gael iechyd a nerth am hir flynyddau etto i ddwyn i ben yr amcanion mawrion a chlodwiw y mae wedi gosod meddylfryd ei galon arnynt, megis Cyfiawnder Cenedlaethol, Addysg Gyffredinol, Cydraddoldeb Crefyddol, a Heddwch didor rhwng holl Genhedloedd y ddeuar a'u gilydd.†

### Y PARCH. THOMAS DAVIES, D.D., LLYWYDD COLEG HWLFFORDD.

Mab yw'r gwr enwog hwn i John ac Ann Davies, y ddau yn broffeswyr dichlynaidd a duwiol gyd â'r Bedyddwyr, ac

* Cyhoeddwyd y llythyrau crybwylledig ar "Sefyllfa Gymdeithasol a Gwleidyddol Cymru" yn y *Morning Star* ac yn llyfryn, yn y fl. 1866. Bu'r llythyrau hyny, o blegid cyflawnder eu manylion a chryfder eu profion, o les dirfawr er gosod cymmeriad a sefyllfa ein cenedl yn deg a diduedd o flaen y wlad, fel y mae'n hawdd canfod yn y difyniad uchod o'r eiddo Mr. Gladstone.

† Bywyd y Parch. Ebenezer Richard; Y Darlunydd, Chwefror, 1878.

Digitized by Google



Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google



G J Stodart. Sc.

PARCH. O. THOMAS, D. D.

LLYNLLEIFIAD.

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAEREDIN, AC ABERTAWE.

Digitized by Google

yn preswylio mewn ffarm a elwir y Wernfawr, ymhlwyf Llaneurwg (*St. Mellons*), rhwng Caerdydd a Threfdraeth (*Newport*). sir Benfro. Ganwyd eu mab Thomas ar y 13ydd o Dachwedd, 1812, a dygwyd ef, fel holl blant ei rieni duwiol a gofalus, i fyny yn grefyddol o'i febyd.

Bedyddiwyd Thomas Davies ym Merthyr Tydfil, yn y fl. 1830, pan oedd efe yn 18 oed, gan y Parch. David Saunders, a derbyniwyd ef yn aelod yng Nghapel Sïon. Preswyliai ar y pryd yn Nowlais gyd â cheraint iddo, yn cynnorthwyo mewn masnach chwegnwyddau (*grocery business*). Yn ystod ei arhosiad yn Nowlais y sefydlwyd eglwys Caersalem, ac yr oedd efe ym mysg aelodau cyntaf yr eglwys honno, yn 1830.

Dychwelodd oddi yno at ei rieni, a gollyngwyd ef a hwythau, ynghyd âg eraill, trwy lythyr, i ffurfio eglwys yn Llaneurwg. Bu'n foddion, yn y lle hwn, i sefydlu ysgol Sabbothol, a gwnai bob cymmorth a allai yn holl waith yr eglwys. Yn y fl. 1832, taer gymhellwyd ef gan yr eglwys a'i gweinidog, y Parch. Evan Jones, i ddechrau pregethu; â'r hyn, ar ol dwys betruso, y cydsyniodd yntau. Treuliodd beth amser y pryd hyn i ddysgu Saesneg, mewn ysgol a gedwid gan y Parch. W. Jones, yng Nghaerdydd. Yna appeliwyd gan y Parch. Christmas Evans, oedd ar y pryd yn weinidog yr eglwys Gymreig yng Nghaerdydd, a'r Parch. W. Jones, gweinidog eglwys Bethania, Caerdydd, at awdurdodau Coleg Caerodor, ar iddo gael myned yn fyfyriwr yno; a llwyddwyd ar ei ran, ac yng Ngwylfihangel, 1832, derbyniwyd ef i'r coleg godidog hwnw. Arhosodd yn y coleg am yn agos i bedair blynedd, a chymmerth safle da yn yr holl ddosparthau. Myfyriodd Mr. Davies Hebraeg, Duwinyddiaeth, ac Athroniaeth Foesol, am yn agos i flwyddyn, dan gyfarwyddyd llywydd dysgedig y coleg, y Parch. T. Crisp; a myfyriodd y Groeg, y Lladin, a Mesuroniaeth, dan gyfarwyddyd y Parch. W. Perchy ac eraill.

Yn y fl. 1836, ymadawodd o'r coleg, ac aeth yn weinidog i'r eglwys Seisnig ym Merthyr Tydfil, lle yr arhosodd am ugain mlynedd. Llafuriodd Mr. Davies yn ddiwyd a llwyddiannus iawn yn ystod ei faith arhosiad ym Merthyr. Y pryd hyny yr adeiladwyd capel ehang a phrydferth High Street, yr hwn a agorwyd yn y fl. 1841; ac agorwyd amryw leoedd eraill i bregethu yn ystod yr un amser, y rhai a gynhelir yn gysurus ac effeithiol. Dyma'r pryd y dechreuwyd eglwys Seisnig yn Beulah, Dowlais, ac eglwys Seisnig yn Nhroed-y-rhiw. Cadwai Mr. Davies Ysgol Rammadegol a Masnachol dros lawer o flynyddau ym Merthyr. Y mae lliaws o'i ddisgyblion ef yn byw yn awr yn llwyddiannus ym Merthyr, Rhymni (Rhymnwy), Pont-y-pridd, Caerdydd, a mannau eraill; a derbynid gwŷr ieuangc i'r gwahanol golegau o'r ysgol odidog hon o flwyddyn i flwyddyn.

Yn y fl. 1856, gwahoddwyd Mr. Davies i fyned yn llywydd y coleg yn Hwlffordd, sir Benfro, ac yn gyd-weinidog eglwys Bethania yn y dref honno; â'r hyn, trwy annogaeth ei gyfeillion, y cydsyniodd yntau. Pan ddeallodd cyfeillion Mr. Davies ym Merthyr ei fod ar eu gadael i lenwi lle mor bwysig i'w gyfundeb, anrhegasant ef, fel cydnabyddiaeth am y gwasanaeth gwerthfawr a wneuthai iddynt hwy, a gwahanhol deuluoedd Merthyr, â thysteb werthfawr, yn cynnwys Hail o Lestri Te Arian Pur (*a Solid Silver Tea Service*), ynghyd â phwrs yn cynnwys 60 gini; y cwbl yn werth tu a 130p.* Y mae efe wedi llafurio o'r pryd hwnw hyd yn awr yng ngholeg ac yn eglwys y Bedyddwyr yn Hwlffordd, sef dros 24 o flynyddau. Cynhyddodd y coleg yn ddymunol yn ystod yr amser a nodwyd. Sefydlwyd ef yn y fl. 1739; ond ni chynhygiwyd arholiad ynddo hyd y fl. 1857. Er y pryd hwnw y mae arholiadau wedi cael eu harfer yn gysson; yn gyntaf ar y cynllun tafod leferydd (*vivâ voce*) oedd ar droed ar y pryd; ond wedi hyny trwy bapurau ysgrifenedig, yn ol y cynllun a ddilynir yn ein holl sefydliadau addysgiadol cyhoeddus.

Yn y fl. 1860, derbyniodd Mr. Davies y radd o D.D. o Goleg William Jewell, City of Liberty, Missouri, America. Yn y fl. 1865, gwnaed y Dr. Davies yn unig weinidog eglwys Bethesda, Hwlffordd. Yn y fl. 1867, rhoddwyd terfyn yn y coleg ar y cynllun o lettya allan, ac aeth y myfyrwyr i lettya i adeilad cyfleus, a godwyd mewn parth hyfryd o dref Hwlffordd. Y mae cyllid y coleg wedi mwy na dyblu yn ystod y cyfnod y mae'r Dr. Davies wedi bod mewn cyssylltiad âg ef; ac y mae parch y coleg cyn uched, os nad uwch, ag y bu erioed ym marn yr eglwysi Cymreig. Y mae eglwys Bethesda hefyd mewn sefyllfa bur lewyrchus. Ail adeiladwyd y capel yn ddiweddar, yr hwn a gynnwys le i 700 i eistedd; ac y mae'r gynnulleidfa yn fawr, yn feddylgar, ac yn ddylanwadol.

Y mae llafur y Dr. Davies wedi bod mor fawr yn ystod y 44 blynedd diweddaf, fel gweinidog ac athraw, fel na chafodd amser, hyd y gwyddom ni, i gyhoeddi unrhyw gyfansoddiadau llenyddol. Y mae'n hawdd casglu, wrth syllu yn feddylgar ar ei ddarlun telaid sydd yn y gwaith hwn, bod y Dr. Davies yn feddyliwr dwys, ac yn llafurwr caled ac egniol.†

### Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

Y mae genym yr hyfrydwch yn awr o gyflwyno i'n darllenwyr fyr-gofion am y gwr enwog uchod, yr hwn y mae ei ddarlun y bleunaf yn yr ail ddosparth o'r gwaith hwn. Mab ydyw efe i Owen Thomas, naddwr cerig, o Gaergybi, ac wedi hyny o Fangor, yr hwn oedd yntau yn fab i Owen Thomas, llinwr, o'r Hen Odyn, ymhlwyf Llangoed, sir Fôn; ond cyn hyny o Landdeiniolen, sir Gaernarfon, lle hefyd y ganwyd ei holl blant. Merch y Rhydau, ymhlwyf Llanddeiniolen, sir Gaernarfon, oedd Grace, nain o du ei dad i wrthrych y nodiadau hyn. Ei fam oedd Mary, merch Robert Roberts, cylchwr wrth ei alwedigaeth, yr hwn a wasanaethai hefyd fel clochydd ymhlwyf Llanfihangel-Ysgeifiog, sir Fôn. Yr oedd Robert Roberts yn wr o gryn alluoedd, ond yn esgeuluso eu defnyddio i'r amcanion gorau. Efe oedd, ymlynyddoedd cof cyntaf ei blant am dano, y prif ddŷn gyd âg ysmaldodion (*interludes*) ym Môn, i'r hyn yr ymroddai fel ag i esgeuluso ei alwedigaeth. Collodd ei wraig Grace (dyna oedd ei henw hithau) pan ydoedd yn 35 oed. Yna rhoddes heibio, o hyny allan byth, bob ymyriad â'r chwaryddieuthau oedd cyn hyny wedi ei feddiannu yn gwbl. Yr oedd ei briod yn wraig grefyddol iawn. Yr oedd hi wedi disgyn, o du ei mam, yn ol traddodiad y teulu, oddi wrth hen frenhinoedd Ysgotland. Nid oedd ei nain hi, Elen Jacob, yn gallu siarad Cymraeg ond yn bur amherffaith. Yr oedd y teulu yn byw y pryd hyny ym Mhlas Cadnant, ger llaw Porthaethwy, ac yn perchen yr etifeddiaeth honno; ond trwy fywyd afradlon, a pheth anghyfiawnder hefyd, ond odid, fe aeth yr etifeddiaeth o'u meddiant yn gwbl, ac wele y ferch yn wraig i

* Haverfordwest and Milford Haven Telegraph, Oct. 29, 1856.

† Llythyr Cyfaill.

Digitized by Google

gylchwr!* Yr oedd rhieni y Parch. Owen Thomas, sef Owen Thomas a Mary Roberts, yn aelodau ffyddlon a dichlynaidd gyd â'r Methodistiaid o'u hieuengctid. Yr oedd ei dad yn un o'r blaenoriaid ym Mangor, a'i fam yn cael ei chydnabod yn gyffredin, gan y rhai adnabyddus o honi, ar y rhestr flaenaf o ran synwyr a chrefydd.

Ganwyd eu mab Owen (y Dr. O. Thomas yn awr) yng Nghaergybi, Môn, ar yr 16fed o Ragfyr, 1812. Cafodd beth addysg elfenol yn ysgol Owen Roberts, brawd Robert Roberts, y Deuaryddwr a'r Almanaciwr. Pan oedd Owen tu a 13 oed, dechreuodd ddysgu gwaith naddwr cerig (*stone-cutter*). Yn lled fuan, symmudodd ei rieni o Gaergybi i Fangor; ac aeth yntau, ymhen amser, i weithio ar Gastell y Penrhyn (*Penrhyn Castle*), ger llaw Bangor, a bu yn y lle hwnw am tu a saith mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnw, arferai fyned am beth amser i ysgol nos a gedwid gan Mr. Ebenezer Jones, mab y Dr. Arthur Jones, yn ysgoldy hen gapel Ebenezer, Bangor. Anfynych y gwelid ef yn myned at ei waith, nac yn dychwelyd oddi wrtho, heb lyfr neu ryw bapur yn ei law; a dywedodd un a wyddai yn dda wrthym, y byddai llyfr neu bapur o'i flaen, bob cyfle a gaffai, ar y gareg a naddai! Rhyw ysgolion fel hyn a gafodd lïaws o brif enwogion Cymru.

Pan oedd Mr. Thomas tu ag 21 oed, dechreuodd bregethu gyd â'r Methodistiaid ym Mangor; ac aeth i gadw ysgol i Ysgoldy'r Tabernacl, Bangor, am tu a blwyddyn a hanner. Aeth o'r Tabernacl, yn y fl. 1838, i Athrofa y Bala, am dair blynedd, dan arweiniad y Parch. Lewis Edwards, M.A., a'r Parch. David Charles, B.A. O'r Bala, yn y fl. 1841, aeth ef a'i gyfaill, y Parch. John Parry (D.D. wedi hyny), golygydd *Y Gwyddoniadur*, i Brifathrofa Edinburgh am ddwy flynedd; a dychwelodd oddi yno i Fangor dros ychydig amser. Yn y fl. 1843, cafodd alwad i fod yn fugail i eglwys y Methodistiaid ym Mhwllheli. Ymadawodd oddi yno yn niwedd y fl. 1846, at y Saeson i'r Drefnewydd, sir Drefaldwyn, lle y bu yn ddiwyd, llwyddiannus, a chymmeradwy am tu a phedair blynedd. Wedi bod yn gwasaneuthu yn Llundain am dros dri mis yn 1844, a thrachefn am ddeugain Sabboth yn 1850, yn y fl. 1851 galwyd ef i fod yn fugail i eglwys y Methodistiaid yn Jewin Crescent, Llundain, lle y bu yn gwasaneuthu yn egnïol a llwyddiannus iawn am tu a 14 blynedd, gan redeg, yn awr ac eilwaith, i'r "hen wlad," â'r efengyl dragywyddol ganddo, yn genadwri rymus i'w gydgenedl yno. Erbyn hyny, yr oedd enw "Owen Thomas, Llundain," yn adnabyddus, yn glodfawr, ac yn hoffus iawn trwy Gymru oll; ïe, a chan Gymry trefydd Lloegr, a Chymry America ac Awstralia hefyd.

Yn Ionawr y fl. 1860, priododd Owen Thomas Elen, merch ieuengaf y Parch. William Roberts, Amlwch, Môn; a bu iddynt bump o blant, dau fab a thair merch. Wedi iddo wrthod amryw geisiadau blaenorol i adael Llundain, yn y fl. 1865 cydsyniodd Mr. Thomas â galwad oddi wrth eglwys lïosog Netherfield Road, Nerpwl, a symmudodd i'r dref fawr a chynhyddol honno i fyw. Yn lled fuan ar ol i Mr. Thomas ymsefydlu yn Nerpwl, cafodd brofedigaeth lemdost iawn, trwy i'w wraig rinweddol gael ei chymmeryd

* Credai mam Mr. Thomas i ymddygiad ei thad fod yn achlysur angau i'w mam. Yr oedd tad ei mam, Mr. William Jones, yn rhyw fath o swyddog gwladol yn Bomaris; ac efe, oni buasai afradlonedd ei dad, a fuasai yn perchen etifeddiaeth Cadnant. Tybiai'r teulu bod hen nain mam ein gwron wedi diange o Ysgotland o gylch amser y Gwrthryfel yn 1745, pan ddaeth y Frazers a'r Chamberses, a'r lliaws Ysgotiaid eraill sydd ym Môn, i breswylio yno.

yn afiach; ac ar ol nychdod gofidus, bu hi "farw yn yr Arglwydd" ar y 24ydd o fis Mawrth, 1867, yn 35 oed, er dirfawr alar i'w phriod a phawb a'i hadweunent hi. Wedi iddo dreulio tu a chwe blynedd yn Netherfield Road, derbyniodd alwad, yn y fl. 1871, oddi wrth eglwys fawr a chyfoethog Prince's Road, yn yr un dref, lle y mae efe yn llafurio hyd y dydd hwn, yn fawr ei lwyddiant a'i gymmeradwyaeth. Yn y fl. 1877, cafodd Athrofa Princeton, New Jersey, America, yr anrhydedd o anrhegu Mr. Thomas â'r radd o D.D.; ac y mae'n sicr genym nad anrhegwyd unrhyw dduwinydd, gan unrhyw athrofa erioed, yn fwy teilwng. Byddwn ni yn teimlo braidd yn sorllyd wrth y rhai sy'n arfer sarhaus ddiystyru graddau athrofäu America, ac yn balchaidd ddyrchafu graddau Rhydychain a Chaergrawnt. Hoffem i rai o fawrygwyr y ddwy athrofa yna, a dïystyrwyr y lleill, atteb yr holiad syml canlynol:—Pwy o Ddoctoriaid Rhydychain a Chaergrawnt, ond eithro y Dr. Morgan, a wneuthent gymmaint (*cymmaint*, sylwer!) o les i grefydd, i dduwinyddiaeth, ac i lenoriaeth Cymru, a'r rhai a gawsant eu graddio o'r America?

Fel dŷn, y mae'r Dr. Thomas yn wr talgryf, tu a pum troedfedd ac wyth modfedd o uchder, a'r olwg arno yn foneddigaidd ac addfwyn, ond cwbl ddifrifol ac awdurdodol. Attolwg, sylled y darllenydd ar ei ddarlun sydd yn y gwaith hwn: y mae'r talcen yn llydan ac uchel, yr aeliau yn ymddangos braidd yn drymion, a'r llygaid yn lled fawrion a phur dreiddgar; ond yr olwg arnynt, cystal ag ar yr holl wynepryd, yn dirion a serchiadol.

Fel pregethwr ac areithiwr, y mae'r Dr. Thomas yn hyspys i'r Cymry, o bob enwad, ymhob parth o'r Dywysogaeth, yn gystal a Lloegr.

Fel duwinydd, Calfiniad cymmedrol ydyw y Dr. Thomas, o'r un dosparth a'r Dr. Edward Williams, Andrew Fuller, Williams o'r Wern, Humphreys o'r Dyffryn, John Jones, Talsarn, a'r cyffelyb; ac y mae'n resyn nas cyhoeddid ei bregethau a'i gyfansoddiadau eraill, bellach, sydd mewn ysgriflaw.

Fel awdur ac ysgrifenydd, y mae ysgrifeniadau Cymreig y Dr. Thomas yn ystwyth, manwl, a dirodres; ac y maent yn lanach o lawer na'r cyffredin o gyfansoddiadau diweddar oddi wrth ieithweddau Seisnig. Y mae efe wedi cyfoethogi llawer eisoes ar ein llenyddiaeth, a hyderwn y gwna lawer etto; canys, fel y crybwyllwyd o'r blaen fwy nag unwaith, pa mor ddylanwadol bynag y gall llefarwr bregethu neu areithio, yr *ysgrifenwr* a bery i bregethu "tra môr tra Brython." Bu'r Dr. Thomas yn cydolygu *Y Traethodydd* dros rai blynyddau, gyd â'r Parch. Roger Edwards o'r Wyddgrug, a chyhoeddwyd llawer erthycl alluog o'i waith yn y cyhoeddiad gwerthfawr hwnw. Cyhoeddwyd amryw o'i erthyclau hefyd yn *Y Gwyddoniadur*; ac efe ydyw awdur y Rhagymadrodd i'r gwaith hwnw, yn yr hwn y mae Cofiant gwerthfawr iawn i'r diweddar Barch. John Parry, D.D., golygydd *Y Gwyddoniadur*. Y mae efe hefyd yn ysgrifenu y gwaith pwysig canlynol er ys cyn iddo ymadael o Lundain, sef—

"Y Testament Newydd: yn cael ei Eglure â Sylwadau Gwreiddiol, gan John Kitto, D.D., F.S.A.; ynghyd â lluaws o Nodiadau Ychwanegol, gan y Parch. Owen Thomas, Llundain. Addurnir yr oll o'r gwaith âg o ddeutu 200 o'r Cerfluniau mwyaf ysplenydd, a Dau Steel Maps." 8plyg breiniol.

Gwelsom 14 rhifyn, 1s. yr un, o'r gwaith rhagorol yna, yn cyrraedd hyd yr ail bennod o'r Galatiaid, ac yn cynnwys 660 o dudalenau. Dywedodd cyfaill wrthym bod 22

Digitized by Google

o rifynau wedi eu cyhoeddi. Y mae "Nodiadau Ychwanegol" y Dr. Thomas yn llawer iawn heleuthach na "Sylwadau Gwreiddiol" y Dr. Kitto, ac, i'n bryd ni, y maent yn llawn mor "wreiddiol," ac yn rhagori ymhell fel eglurhâd ar y testyn dwyfol. Gwaith arall, pwysig a dyddorol dros ben, o'r eiddo y Dr. Owen Thomas, yw yr un canlynol:—

"Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cyssylltiad â Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru." 8plyg. 1874.

Cynnwys y gwaith gorchestol yna 1,052 o dudalenau, yn y llythyren eglur, ond lled fân, a elwir *Bourgeois*. Heb law hanes fanwl a helaeth iawn am y Parch. John Jones, Talsarn, cynnwys y gwaith gwerthfawr hwn hefyd hanes crefydd ymhlith y Methodistiaid yng Nghymru yn ystod ei oes ef, o'r fl. 1796 hyd 1857, ynghyd â hanes prif bregethwyr y Methodistiaid yn ystod yr un cyfnod. Ar fyr, erys y Cofiant hwn ymhlith prif gyfansoddiadau ein gwlad tra y pery yr iaith Gymraeg. Caffed y pregethwr hyawdl ac effeithiol, a'r llenor galluog ac athrylithgar, oes hir ac iechyd diball etto i argyhoeddi ac addysgu ei wrandawyr, ac i gyfoethogi a choethi llenyddiaeth ei wlad.*

Y PARCH. THOMAS REES, D.D.

Ganwyd y gwr galluog hwn ar y 13ydd o Ragfyr, 1815, mewn lle a elwir Penybontbren, ymhlwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, ac yn agos i Gapel Isaac, lle y mae achos Annibynol er y fl. 1650, os nad cyn hyny. Enwau ei rieni oedd Thomas Rees ac Hannah Williams. Crydd oedd ei dad, ac yn trin tyddyn bychan gyd â hyny. Ni chafodd Thomas, pan yn blentyn, ond y nesaf peth i ddim o addysg, heb law yr hyn a gafodd yn yr ysgol Sabbothol yng Nghapel Isaac. Nis gwyddom a ddysgodd efe gelfyddyd ei dad ai peidio: yr ydym yn tybied iddo wneuthur.

Yn y fl. 1828, torodd diwygiad crefyddol grymus allan yng Nghapel Isaac, fel ymhob man arall trwy Ddeheudir Cymru; ac ar nos Wener, y 18fed o Orphenaf y flwyddyn honno, aeth Thomas Rees a degau eraill i'r gyfeillach eglwysig. Yn Hydref yr un flwyddyn, derbyniwyd ef, pan yn 13 oed, a naw ar hugain eraill, yn gyflawn aelodau yng Nghapel Isaac. Gwelodd y frawdoliaeth yno, yn bur fuan, fod Thomas Rees ieuangc wedi ei gynnysgeuddu â gwybodaeth a doniau llawer uwch na'r cyffredin, ac annogwyd ef i ddechrau pregethu. Wedi iddo gymmeryd y peth i'w ystyriaeth ddifrifolaf, cydsyniodd yntau o'r diwedd; ac ar yr 2fed o Fawrth, 1832, pan oedd efe yn 17 oed, traddododd ei bregeth gyntaf, oddi wrth Ioan iii. 6.† Yn fuan ar ol iddo ddechrau pregethu, aeth am dri mis i ysgol ddyddiol a gedwid yng Nghapel Isaac, lle y dysgodd ysgrifenu; a dyna'r holl ysgol ddyddiol a gafodd yn ystod ei fywyd! Trwy lafur personol, mewn blynyddau dyfodol, y dysgodd Saesneg, ac y cyrheuddodd yr holl wybodaeth ehang sydd yn ei feddiant.

Ar y 15fed o Fedi, 1836, neillduwyd Mr. Rees, pan oedd efe yn 23 oed, i gyflawn waith y weinidogaeth yn yr eglwys fechan yng Nghraig-y-fargod, yn agos i Ferthyr Tydfil. Tra yr oedd efe yn y lle hwn, ar y 25med o Awst, 1838, y priododd efe Jane, merch Thomas Williams, ameuthwr, ymhlwyf Bedwellty, Mynwy; a bu iddynt bedwar o blant, dau o'r rhai sydd wedi meirw. Ym mis Awst, 1840, symmudodd Mr. Rees o Graig-y-fargod i eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdâr; ond parhaodd i fyned yn fisol i gapel bychan Craig-y-fargod hyd ddechrau 1841, pan yr ymsefydlodd Mr. David Thomas, Troed-y-rhiw, yno.‡ Bu Mr. Rees yn dra llafurus a llwyddiannus yn ystod yr amser byr y bu yn Ebenezer. Derbyniodd 150 o aelodau i'r eglwys mewn llai na dwy flynedd o amser. Gan nas gallai Mr. Rees fyw yn gysurus yn Aberdâr, derbyniodd alwad o Siloa, Llanelli; ac ym mis Mawrth, 1842, efe a symmudodd yno. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol ymsefydlu yn y lle hwn, sef yn y fl. 1844, dechreuwyd cyhoeddi ffrwyth llafur mawr llenyddol Mr. Rees, ac "ysgub blaenffrwyth" y llafur hwnw oedd cyfieithiad o'r gwaith mawr a phwysig canlynol:—

"Y Testament Newydd, gyda Sylwadau Eglurhaol ac Ymarferol. Gan y Parch. Albert Barnes, Philadelphia, America. . . . Dinbych: cyhoeddwyd gan Thomas Gee."

Y mae'r gwaith ardderchog hwn yn cynnwys chwech o gyfrolau 8plyg trwchus, oll yn 3,745 o dudalenau, mewn argraph fân, oddi eithr y testyn Ysgrythyrol. Bu'r awdur diwyd wrth y gwaith hwn am o ddeutu un mlynedd ar bymtheg, sef o 1844 hyd 1860; ac y mae'n ddilys ddiammau ei fod yn un o'r esponiadau gorau a feddwn ar y Testament Newydd. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn Cymraeg goeth, ystwyth, a darllenadwy. Tra'r oedd Mr. Rees bron ar ganol y gwaith mawr hwn, sef yn y fl. 1849, derbyniodd alwad o eglwys Carmel, yn ardal Cendl (*Beaufort*), sir Fynwy (ardal a elwid gynt yn Rhyd-y-blew), a symmudodd yno ym Mehefin y flwyddyn honno. Bu llwyddiant anarferol ar ei lafur yn y lle hwn. Ymhen tu a deufis wedi iddo ymsefydlu yno, torodd y geri marwol (*cholera morbus*) allan yn arswydus trwy'r holl ardaloedd; ac ar yr un amser, dechreuodd diwygiad crefyddol grymus iawn. O ddechrau Awst, 1849, hyd ddiwedd Hydref yr un flwyddyn, ymunodd 396 â'r eglwys yn Carmel. Ar ddydd Sul, yr 28fed o'r Hydref hwnw, derbyniwyd cynnifer a 210 i'r gyfeillach eglwysig; a bu yno ddiwygiad grymus drachefn yn 1859 ac 1860. Yn nechrau y fl. 1850, cymmerth Mr. Rees ystafell ehang y tu cefn i'r *Refiner's Arms*, i gynnal ysgol Sul i'r Saeson oedd yn bur lliosog ar y pryd yng ngweithydd haiarn yr ardal. Terfynodd hyny mewn adeiladu capel Saesneg, a sefydlu ysgol Frutanaidd yn y lle. Yn y fl. 1852, llwyddodd Mr. Rees i adeiladu ysgoldy ehang yn ardal Pont-y-gof, i gadw ysgol Sul. Yn fuan wedyn, galwyd am bregethu yno, yr hyn a arweiniodd i sefydlu eglwys Annibynol yn y lle. Gorphenwyd y llafur pwysig a buddiol a nodwyd yn y fl. 1857.§ Yn ebrwydd ar ol i Mr. Rees orphen cyfieithu esponiad helaeth Barnes, os nad cyn hyny, dechreuodd ysgrifenu y gwaith Seisnig godidog canlynol, yr hwn a gyhoeddwyd yn y fl. 1861:—

"History of Protestant Nonconformity in Wales, from its Rise to the Present Time"=Hanes Anghydffurfiaeth Brotestanaidd yng Nghymru, o'i Chyfodiad hyd yr Amser Presennol. 8plyg.

Cynnwys y gyfrol ddestlus a gwerthfawr yma 512 o dudalenau 8plyg, heb law 8 tudalen o arweinolion. Hon ydyw yr unig gyfrol ar "Anghydffurfiaeth Brotestanaidd yng Nghymru" sydd yn yr iaith Saesneg, a chostiodd i'r awdur y fath draul a llafur, eb efe ei hun, fel, pe gwybuasai eu maint cyn cychwyn, y mae'n amheus ganddo a fuasai yn meddu digon o wroldeb i ymaflyd yn y gorchwyl.‖ Pa wedd bynag, cyflawnodd ei waith yn odidog

* Ysgrif Mr. W. Thomas, brawd y Dr. Thomas; Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn; yr Herald Cymraeg; Y Darlunydd, Mehefin, 1879.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 536.

‡ Yr un, cyf. ii., t. 312–13. § Yr un, cyf. i., t. 155–6.

‖ Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pref. p. vi.

Digitized by Google

dros ben, canys y mae'r gyfrol yn drysor amhrisiadwy, nid yn unig i'r Saeson, ond i'r Cymry hefyd sy'n deall Saesneg. Fe allai mai prif nodweddau y gwaith rhagorol hwn ydyw cywirdeb, manylrwydd, ac amhleidgarwch.

Yn Ebrill, 1862, symmudodd Mr. Rees o Cendl i Abertawy, sir Forganwg, ac yno y mae efe er ys deunaw mlynedd bellach, yn fawr ei lafur, ei barch, a'i ddefnyddioldeb. Ymhen tu a dau fis ar ol i'r gwr llafurus ac enwog hwn ymsefydlu yn Abertawy, sef ym Mehefin, 1862, derbyniodd, er ei syndod, a'i bryder hefyd, y radd o D.D. o Brifathrofa Marietta, Ohio, America; ac y mae ei gyfansoddiadau lliosog a gwerthfawr yn profi na raddiwyd ond ychydig iawn, yn yr un flwyddyn, yn Edinburgh, Rhydychain, a Chaergrawnt, oedd mor deilwng o'r anrhydedd. Derbyniodd y Dr. Rees y radd grybwylledig heb wybod dim am dani ym mlaen llaw; ac y mae'n dra sicr mai meddwl uchel y Brifathrofa am ei "History of Protestant Nonconformity in Wales" a barodd iddi anfon iddo yr anrheg. Ym mis Gorphenaf, 1862, ymhen tu a thri mis ar ol i'r Dr. Rees ymsefydlu yn Abertawy, tynwyd hen gapel Ebenezer i lawr, a dechreuwyd adeiladu y capel helaeth presennol, yr hwn a orphenwyd erbyn dechrau Mehefin, 1863, a chostiodd 2,100p. Cynhaliwyd cyfarfod ei agoriad yn ebrwydd ar ol ei orphen; a rhwng yr hyn a gasglwyd yn y cyfarfod hwnw, a chan y gynnulleidfa cyn hyny, tynwyd yn agos i 600p. o'r ddyled i lawr. Trwy ymdrech y gynnulleidfa a'i gweinidog, y Dr. Rees, nid oedd ond 700p. o'r ddyled yn aros erbyn y fl. 1872; ac yr oedd y swm hwnw yn cynnwys 200p. o ddyled y capel yn *Fabian's Bay*, a gymmerasid gan eglwys Ebenezer arni ei hun, er mwyn cynnorthwyo yr achos ieuangc yn y lle hwnw. Yr oedd aelodau Ebenezer erbyn 1872 yn 534 o nifer. Adeiladwyd capel cyntaf Ebenezer yn y fl. 1803; ac erbyn y fl. 1872, yr oedd yr eglwys a'i gweinidog, y Dr. Rees, wedi bod yn foddion i sefydlu eglwysi yn Heol-y-castell, Canaan, Capel Sïon, Pentre-estyll, Cwmbwrla, Sandfields, a Walter Road.* Achos Seisnig sydd yn y capel olaf a nodwyd, a bu'r Dr. Rees yn gweini i'r gynnulleidfa nes i Mr. Jones ymsefydlu yno.† Heb law yr holl lafur a nodwyd a gymmerth y Dr. Rees arno yn Abertawy mewn sefydlu eglwysi Cymreig a Seisnig, pregethu iddynt yn y ddwy iaith, a chasglu at dalu eu dyledion, ni bu ei "bin ysgrifenu buan" ef yn segur yn y cyfamser. Yn y fl. 1867, cyhoeddodd y gwaith Seisnig canlynol:—

"Miscellaneous Papers on Subjects relating to Wales"=Amrywiol Bapurau ar Byngciau perthynol i Gymru.

Nid ydym yn gwybod dim am y gwaith yma ond ei enw, a'r amser y cyhoeddwyd ef; ond yr ydym yn tybied mai math ar Attodiad ydyw at yr "*History of Protestant Nonconformity in Wales.*" Yn y fl. 1870, dechreuodd Virtue & Co. gyhoeddi esponiad o waith y Dr. Rees ar y Bibl, dan yr enw canlynol:—

"Y Bibl Cyssegrlan: sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Sylwadau Eglurhaol ac Ymarferol ar bob Pennod. Wedi ei addurno â llawer o Ddarluniau ar Ddur."

Cynnwys y gyfrol brydferth hon 1,546 o dudalenau 4plyg mawr, yr hon y gorphenwyd ei chyhoeddi yn y fl. 1876; a chlywsom bod 8,000 o gopïau wedi eu gwerthu erbyn hyn, yr hyn sydd brawf bod y gwaith yn dra chymmeradwy gan y Cymry. Ymhen tu a blwyddyn ar ol cychwyn y gwaith uchod, neu ychydig yn gynt, ond odid, dechreuodd y Dr. Rees, mewn undeb â'r Parch. John Thomas (y Dr. Thomas yn awr), Nerpwl, gyhoeddi y gwaith canlynol:—

"Hanes Eglwysi Annibynol Cymru."

Y mae'r gwaith mawr hwn yn bedair cyfrol 8plyg trwchus, y bedair ynghyd yn cynnwys 2,240 o dudalenau, mewn argraph fân. Gorphenwyd cyhoeddi y gwaith pwysig hwn yn y fl. 1875, a dywedir yn "At y Darllenydd" y buwyd "yn casglu defnyddiau ato am fwy nag ugain mlynedd." Heb law y llyfrau a nodwyd, cyhoeddodd y Dr. Rees y rhai canlynol:—

"Hanes Bywyd y Parch. D. Thomas, Pen-main."
"Amryw Bregethau."

Hefyd, cyhoeddodd lïaws o dreuthodau ac erthyclau i'r *Dysgedydd*, y *Diwygiwr*, yr *Adolygydd*, y *Beirniad*, y *Gwyddoniadur*, &c. Gwelir wrth ffrwyth llafur llenyddol y Dr. Rees mai mewn cyfansoddi a chyhoeddi "llyfrau mawrion," ys dywedai hen Ficar Llanddyfri, yr ymhyfryda efe yn benaf.

Bu agos i ni anghofio un amgylchiad pur bwysig ym mywyd y Dr. Rees: yn wir, fe allai i ni anghofio llawer, o ran hyny. Pa wedd bynag, yn y fl. 1876, aeth efe, gyd â'r Dr. John Thomas o Nerpwl, i'r America, i ymweled â'r eglwysi Annibynol Cymreig yno; a thra yn y wlad bellenig honno, derbyniodd hyspysiad o Abertawy, er ei ddychryn a'i alar dirfawr, bod ei anwyl briod wedi marw yn bur ddisyfyd, ar y 4ydd o Orphenaf y flwyddyn honno (1876), a dychwelodd yntau adref yn ddïoed, i alaru ar ei hol. Effeithiodd hyn yn ddwys arno dros gryn amser. Y mae'n dda i'r Cymry, a'r Saeson hefyd, yn wir, bod y gwr enwog hwn wedi ei gynnysgeuddu â chorph mor gadarn ac iachus, ac â meddwl mor gryf, cyflym, a threiddgar; manteision a fwynheir ganddo yn helaeth, fel y mae'n hawdd i'r darllenydd gasglu wrth syllu ar ei ddarlun prydferth sydd yn y gwaith hwn. Wel! hir oes iddo etto i wasaneuthu ei Dduw a'i genedl.

### Y PARCH. THOMAS PRICE, M.A., PH.D.

Mab ydyw y gwr enwog hwn i'r diweddar John a Mary Price (Prys) o Lanhamlwch, neu Lanhammwlch, yn sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef ar yr 17fed o Ebrill, 1820. Nid oedd un capel nac ysgoldy, nac ysgol ddyddiol, yn perthyn i'r Anghydffurfwyr y pryd hyny o fewn y plwyf. Cafodd Thomas ychydig addysg elfenol gan hen wraig a gadwai ysgol ddyddiol ym Mhentref Pen-y-gelli. Bu'n weyn (*page*), pan yn bur ieuangc, yn nheulu boneddwr a'i enw Clifton, ymhlwyf Llanfrynach, a chafodd yr hyfrydwch y pryd hyny o deithio llawer iawn gyd â'r teulu. Bu boneddigesau y teulu yn dra charedig wrtho, trwy ddysgu iddo ddarllen, ysgrifenu, ac elfenau cyntaf rhifyddiaeth. Trwy ofal a chynnildeb, casglodd swm o arian tra yngwasanaeth y teulu crybwylledig, â'r sawl y rhwymodd ei hun yn brentis gyd âg un Watkins, Aberhonddu, yn baentiwr, gwydrwr, a phlymiwr. Wedi gorphen ei brentisiaeth, gan fod ei logell yn bur wag ar y pryd, cerddodd bob cam o Aberhonddu i Lundain. Tra yn y Brifddinas, ymunodd â'r sefydliadau a gynhelid yn *Red Lion Square*, a'r *Mechanic Institute* yn *South Brampton Buildings*; a gwnaeth y defnydd gorau o'r cyfleusderau hyny. Pan aeth gyntaf i'r Brifddinas, ymunodd âg eglwys fechan y Bedyddwyr yn *Eldon Street*, *Moorfields*.

Dechreuodd ei yrfa grefyddol trwy gymmeryd ei fed-

* Y Diwygiwr, Gorph. 1868; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 43-4. † Yr un, t. 87.



J. Thomas Photo. G. J. Stodart Sc.

[illegible]

ABERDAR

Digitized by Google

Digitized by Google



CASTELL NEDD

Digitized by Google

yn preswylio mewn ffarm a elwir y Wernfawr, ymhlwyf Llaneurwg (*St. Mellons*), rhwng Caerdydd a Threfdraeth (*Newport*). sir Benfro. Ganwyd eu mab Thomas ar y 13ydd o Dachwedd, 1812, a dygwyd ef, fel holl blant ei rieni duwiol a gofalus, i fyny yn grefyddol o'i febyd.

Bedyddiwyd Thomas Davies ym Merthyr Tydfil, yn y fl. 1830, pan oedd efe yn 18 oed, gan y Parch. David Saunders, a derbyniwyd ef yn aelod yng Nghapel Sïon. Preswyliai ar y pryd yn Nowlais gyd â cheraint iddo, yn cynnorthwyo mewn masnach chwegnwyddau (*grocery business*). Yn ystod ei arhosiad yn Nowlais y sefydlwyd eglwys Caersalem, ac yr oedd efe ym mysg aelodau cyntaf yr eglwys honno, yn 1830.

Dychwelodd oddi yno at ei rieni, a gollyngwyd ef a hwythau, ynghyd âg eraill, trwy lythyr, i ffurfio eglwys yn Llaneurwg. Bu'n foddion, yn y lle hwn, i sefydlu ysgol Sabbothol, a gwnai bob cymmorth a allai yn holl waith yr eglwys. Yn y fl. 1832, taer gymhellwyd ef gan yr eglwys a'i gweinidog, y Parch. Evan Jones, i ddechrau pregethu; â'r hyn, ar ol dwys betruso, y cydsyniodd yntau. Treuliodd beth amser y pryd hyn i ddysgu Saesneg, mewn ysgol a gedwid gan y Parch. W. Jones, yng Nghaerdydd. Yna appeliwyd gan y Parch. Christmas Evans, oedd ar y pryd yn weinidog yr eglwys Gymreig yng Nghaerdydd, a'r Parch. W. Jones, gweinidog eglwys Bethania, Caerdydd, at awdurdodau Coleg Caerodor, ar iddo gael myned yn fyfyriwr yno; a llwyddwyd ar ei ran, ac yng Ngwylfihangel, 1832, derbyniwyd ef i'r coleg godidog hwnw. Arhosodd yn y coleg am yn agos i bedair blynedd, a chymmerth safle da yn yr holl ddosparthau. Myfyriodd Mr. Davies Hebraeg, Duwinyddiaeth, ac Athroniaeth Foesol, am yn agos i flwyddyn, dan gyfarwyddyd llywydd dysgedig y coleg, y Parch. T. Crisp; a myfyriodd y Groeg, y Lladin, a Mesuroniaeth, dan gyfarwyddyd y Parch. W. Perchy ac eraill.

Yn y fl. 1836, ymadawodd o'r coleg, ac aeth yn weinidog i'r eglwys Seisnig ym Merthyr Tydfil, lle yr arhosodd am ugain mlynedd. Llafuriodd Mr. Davies yn ddiwyd a llwyddiannus iawn yn ystod ei faith arhosiad ym Merthyr. Y pryd hyny yr adeiladwyd capel ehang a phrydferth High Street, yr hwn a agorwyd yn y fl. 1841; ac agorwyd amryw leoedd eraill i bregethu yn ystod yr un amser, y rhai a gynhelir yn gysurus ac effeithiol. Dyma'r pryd y dechreuwyd eglwys Seisnig yn Beulah, Dowlais, ac eglwys Seisnig yn Nhroed-y-rhiw. Cadwai Mr. Davies Ysgol Rammadegol a Masnachol dros lawer o flynyddau ym Merthyr. Y mae lliaws o'i ddisgyblion ef yn byw yn awr yn llwyddiannus ym Merthyr, Rhymni (Rhymnwy), Pont-y-pridd, Caerdydd, a mannau eraill; a derbynid gwŷr ieuangc i'r gwahanol golegau o'r ysgol odidog hon o flwyddyn i flwyddyn.

Yn y fl. 1856, gwahoddwyd Mr. Davies i fyned yn llywydd y coleg yn Hwlffordd, sir Benfro, ac yn gyd-weinidog eglwys Bethania yn y dref honno; â'r hyn, trwy annogaeth ei gyfeillion, y cydsyniodd yntau. Pan ddeallodd cyfeillion Mr. Davies ym Merthyr ei fod ar eu gadael i lenwi lle mor bwysig i'w gyfundeb, anrhegasant ef, fel cydnabyddiaeth am y gwasanaeth gwerthfawr a wneuthai iddynt hwy, a gwahanhol deuluoedd Merthyr, â thysteb werthfawr, yn cynnwys Hail o Lestri Te Arian Pur (*a Solid Silver Tea Service*), ynghyd â phwrs yn cynnwys 60 gini; y cwbl yn werth tu a 130p.* Y mae efe wedi llafurio o'r pryd hwnw hyd yn awr yng ngholeg ac yn eglwys y Bedyddwyr yn Hwlffordd, sef dros 24 o flynyddau. Cynhyddodd y coleg yn ddymunol yn ystod yr amser a nodwyd. Sefydlwyd ef yn y fl. 1739; ond ni chynhygiwyd arholiad ynddo hyd y fl. 1857. Er y pryd hwnw y mae arholiadau wedi cael eu harfer yn gysson; yn gyntaf ar y cynllun tafod leferydd (*vivâ voce*) oedd ar droed ar y pryd; ond wedi hyny trwy bapurau ysgrifenedig, yn ol y cynllun a ddilynir yn ein holl sefydliadau addysgiadol cyhoeddus.

Yn y fl. 1860, derbyniodd Mr. Davies y radd o D.D. o Goleg William Jewell, City of Liberty, Missouri, America. Yn y fl. 1865, gwnaed y Dr. Davies yn unig weinidog eglwys Bethesda, Hwlffordd. Yn y fl. 1867, rhoddwyd terfyn yn y coleg ar y cynllun o lettya allan, ac aeth y myfyrwyr i lettya i adeilad cyfleus, a godwyd mewn parth hyfryd o dref Hwlffordd. Y mae cyllid y coleg wedi mwy na dyblu yn ystod y cyfnod y mae'r Dr. Davies wedi bod mewn cyssylltiad âg ef; ac y mae parch y coleg cyn uched, os nad uwch, ag y bu erioed ym marn yr eglwysi Cymreig. Y mae eglwys Bethesda hefyd mewn sefyllfa bur lewyrchus. Ail adeiladwyd y capel yn ddiweddar, yr hwn a gynnwys le i 700 i eistedd; ac y mae'r gynnulleidfa yn fawr, yn feddylgar, ac yn ddylanwadol.

Y mae llafur y Dr. Davies wedi bod mor fawr yn ystod y 44 blynedd diweddaf, fel gweinidog ac athraw, fel na chafodd amser, hyd y gwyddom ni, i gyhoeddi unrhyw gyfansoddiadau llenyddol. Y mae'n hawdd casglu, wrth syllu yn feddylgar ar ei ddarlun telaid sydd yn y gwaith hwn, bod y Dr. Davies yn feddyliwr dwys, ac yn llafurwr caled ac egnïol.†

### Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

Y mae genym yr hyfrydwch yn awr o gyflwyno i'n darllenwyr fyr-gofion am y gwr enwog uchod, yr hwn y mae ei ddarlun y bleunaf yn yr ail ddosparth o'r gwaith hwn. Mab ydyw efe i Owen Thomas, naddwr cerig, o Gaergybi, ac wedi hyny o Fangor, yr hwn oedd yntau yn fab i Owen Thomas, llinwr, o'r Hen Odyn, ymhlwyf Llangoed, sir Fôn; ond cyn hyny o Landdeiniolen, sir Gaernarfon, lle hefyd y ganwyd ei holl blant. Merch y Rhydau, ymhlwyf Llanddeiniolen, sir Gaernarfon, oedd Grace, nain o du ei dad i wrthrych y nodiadau hyn. Ei fam oedd Mary, merch Robert Roberts, cylchwr wrth ei alwedigaeth, yr hwn a wasaneuthai hefyd fel clochydd ymhlwyf Llanfihangel-Ysgeifiog, sir Fôn. Yr oedd Robert Roberts yn wr o gryn alluoedd, ond yn esgeuluso eu defnyddio i'r amcanion gorau. Efe oedd, ymlynyddoedd cof cyntaf ei blant am dano, y prif ddŷn gyd âg ysmaldodion (*interludes*) ym Môn, i'r hyn yr ymroddai fel ag i esgeuluso ei alwedigaeth. Collodd ei wraig Grace (dyna oedd ei henw hithau) pan ydoedd yn 35 oed. Yna rhoddes heibio, o hyny allan byth, bob ymyriad â'r chwaryddieuthau oedd cyn hyny wedi ei feddiannu yn gwbl. Yr oedd ei briod yn wraig grefyddol iawn. Yr oedd hi wedi disgyn, o du ei mam, yn ol traddodiad y teulu, oddi wrth hen frenhinoedd Ysgotland. Nid oedd ei nain hi, Elen Jacob, yn gallu siarad Cymraeg ond yn bur amherffaith. Yr oedd y teulu yn byw y pryd hyny ym Mhlas Cadnant, ger llaw Porthaethwy, ac yn perchen yr etifeddiaeth honno; ond trwy fywyd afradlon, a pheth anghyfiawnder hefyd, ond odid, fe aeth yr etifeddiaeth o'u meddiant yn gwbl, ac wele y ferch yn wraig i

* Haverfordwest and Milford Haven Telegraph, Oct. 29, 1856.

† Llythyr Cyfaill.

gylchwr!* Yr oedd rhieni y Parch. Owen Thomas, sef Owen Thomas a Mary Roberts, yn aelodau ffyddlon a dichlynaidd gyd â'r Methodistiaid o'u hieuengctid. Yr oedd ei dad yn un o'r blaenoriaid ym Mangor, a'i fam yn cael ei chydnabod yn gyffredin, gan y rhai adnabyddus o honi, ar y rhestr flaenaf o ran synwyr a chrefydd.

Ganwyd eu mab Owen (y Dr. O. Thomas yn awr) yng Nghaergybi, Môn, ar yr 16fed o Ragfyr, 1812. Cafodd beth addysg elfenol yn ysgol Owen Roberts, brawd Robert Roberts, y Deuaryddwr a'r Almanaciwr. Pan oedd Owen tu a 13 oed, dechreuodd ddysgu gwaith naddwr cerig (*stone-cutter*). Yn lled fuan, symmudodd ei rieni o Gaergybi i Fangor; ac aeth yntau, ymhen amser, i weithio ar Gastell y Penrhyn (*Penrhyn Castle*), ger llaw Bangor, a bu yn y lle hwnw am tu a saith mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnw, arferai fyned am beth amser i ysgol nos a gedwid gan Mr. Ebenezer Jones, mab y Dr. Arthur Jones, yn ysgoldy hen gapel Ebenezer, Bangor. Anfynych y gwelid ef yn myned at ei waith, nac yn dychwelyd oddi wrtho, heb lyfr neu ryw bapur yn ei law; a dywedodd un a wyddai yn dda wrthym, y byddai llyfr neu bapur o'i flaen, bob cyfle a gaffai, ar y gareg a naddai! Rhyw ysgolion fel hyn a gafodd lïaws o brif enwogion Cymru.

Pan oedd Mr. Thomas tu ag 21 oed, dechreuodd bregethu gyd â'r Methodistiaid ym Mangor; ac aeth i gadw ysgol i Ysgoldy'r Tabernacl, Bangor, am tu a blwyddyn a hanner. Aeth o'r Tabernacl, yn y fl. 1838, i Athrofa y Bala, am dair blynedd, dan arweiniad y Parch. Lewis Edwards, M.A., a'r Parch. David Charles, B.A. O'r Bala, yn y fl. 1841, aeth ef a'i gyfaill, y Parch. John Parry (D.D. wedi hyny), golygydd *Y Gwyddoniadur*, i Brifathrofa Edinburgh am ddwy flynedd; a dychwelodd oddi yno i Fangor dros ychydig amser. Yn y fl. 1843, cafodd alwad i fod yn fugail i eglwys y Methodistiaid ym Mhwllheli. Ymadawodd oddi yno yn niwedd y fl. 1846, at y Saeson i'r Drefnewydd, sir Drefaldwyn, lle y bu yn ddiwyd, llwyddiannus, a chymmeradwy am tu a phedair blynedd. Wedi bod yn gwasanaethu yn Llundain am dros dri mis yn 1844, a thrachefn am ddeugain Sabboth yn 1850, yn y fl. 1851 galwyd ef i fod yn fugail i eglwys y Methodistiaid yn Jewin Crescent, Llundain, lle y bu yn gwasanaethu yn egnïol a llwyddiannus iawn am tu a 14 blynedd, gan redeg, yn awr ac eilwaith, i'r "hen wlad," â'r efengyl dragywyddol ganddo, yn genadwri rymus i'w gydgenedl yno. Erbyn hyny, yr oedd enw "Owen Thomas, Llundain," yn adnabyddus, yn glodfawr, ac yn hoffus iawn trwy Gymru oll; ïe, a chan Gymry trefydd Lloegr, a Chymry America ac Awstralia hefyd.

Yn Ionawr y fl. 1860, priododd Owen Thomas Elen, merch ieuengaf y Parch. William Roberts, Amlwch, Môn; a bu iddynt bump o blant, dau fab a thair merch. Wedi iddo wrthod amryw geisiadau blaenorol i adael Llundain, yn y fl. 1865 cydsyniodd Mr. Thomas â galwad oddi wrth eglwys lïosog Netherfield Road, Nerpwl, a symmudodd i'r dref fawr a chynhyddol honno i fyw. Yn lled fuan ar ol i Mr. Thomas ymsefydlu yn Nerpwl, cafodd brofedigaeth lemdost iawn, trwy i'w wraig rinweddol gael ei chymmeryd yn afiach; ac ar ol nychdod gofidus, bu hi "farw yn yr Arglwydd" ar y 24ydd o fis Mawrth, 1867, yn 35 oed, er dirfawr alar i'w phriod a phawb a'i hadweunent hi. Wedi iddo dreulio tu a chwe blynedd yn Netherfield Road, derbyniodd alwad, yn y fl. 1871, oddi wrth eglwys fawr a chyfoethog Prince's Road, yn yr un dref, lle y mae efe yn llafurio hyd y dydd hwn, yn fawr ei lwyddiant a'i gymmeradwyaeth. Yn y fl. 1877, cafodd Athrofa Princeton, New Jersey, America, yr anrhydedd o anrhegu Mr. Thomas â'r radd o D.D.; ac y mae'n sicr genym nad anrhegwyd unrhyw dduwinydd, gan unrhyw athrofa erioed, yn fwy teilwng. Byddwn ni yn teimlo braidd yn sorllyd wrth y rhai sy'n arfer sarhaus ddiystyru graddau athrofäu America, ac yn balchaidd ddyrchafu graddau Rhydychain a Chaergrawnt. Hoffem i rai o fawrygwyr y ddwy athrofa yna, a dïystyrwyr y lleill, atteb yr holiad syml canlynol:—Pwy o Ddoctoriaid Rhydychain a Chaergrawnt, ond eithro y Dr. Morgan, a wneuthent gymmaint (*cymmaint*, sylwer!) o les i grefydd, i dduwinyddiaeth, ac i lenoriaeth Cymru, a'r rhai a gawsant eu graddio o'r America?

Fel dŷn, y mae'r Dr. Thomas yn wr talgryf, tu a pum troedfedd ac wyth modfedd o uchder, a'r olwg arno yn foneddigaidd ac addfwyn, ond cwbl ddifrifol ac awdurdodol. Attolwg, sylled y darllenydd ar ei ddarlun sydd yn y gwaith hwn: y mae'r talcen yn llydan ac uchel, yr aeliau yn ymddangos braidd yn drymion, a'r llygaid yn lled fawrion a phur dreiddgar; ond yr olwg arnynt, cystal ag ar yr holl wynepryd, yn dirion a serchiadol.

Fel pregethwr ac areithiwr, y mae'r Dr. Thomas yn hyspys i'r Cymry, o bob enwad, ymhob parth o'r Dywysogaeth, yn gystal a Lloegr.

Fel duwinydd, Calfiniad cymmedrol ydyw y Dr. Thomas, o'r un dosparth a'r Dr. Edward Williams, Andrew Fuller, Williams o'r Wern, Humphreys o'r Dyffryn, John Jones, Talsarn, a'r cyffelyb; ac y mae'n resyn nas cyhoeddid ei bregethau a'i gyfansoddiadau eraill, bellach, sydd mewn ysgriflaw.

Fel awdur ac ysgrifenydd, y mae ysgrifeniadau Cymreig y Dr. Thomas yn ystwyth, manwl, a dirodres; ac y maent yn lanach o lawer na'r cyffredin o gyfansoddiadau diweddar oddi wrth ieithweddau Seisnig. Y mae efe wedi cyfoethogi llawer eisoes ar ein llenyddiaeth, a hyderwn y gwna lawer etto; canys, fel y crybwyllwyd o'r blaen fwy nag unwaith, pa mor ddylanwadol bynag y gall llefarwr bregethu neu areithio, yr *ysgrifenwr* a bery i bregethu "tra môr tra Brython." Bu'r Dr. Thomas yn cydolygu *Y Traethodydd* dros rai blynyddau, gyd â'r Parch. Roger Edwards o'r Wyddgrug, a chyhoeddwyd llawer erthycl alluog o'i waith yn y cyhoeddiad gwerthfawr hwnw. Cyhoeddwyd amryw o'i erthyclau hefyd yn *Y Gwyddoniadur;* ac efe ydyw awdur y Rhagymadrodd i'r gwaith hwnw, yn yr hwn y mae Cofiant gwerthfawr iawn i'r diweddar Barch. John Parry, D.D., golygydd *Y Gwyddoniadur*. Y mae efe hefyd yn ysgrifenu y gwaith pwysig canlynol er ys cyn iddo ymadael o Lundain, sef—

"Y Testament Newydd: yn cael ei Eglure â Sylwadau Gwreiddiol, gan John Kitto, D.D., F.S.A.; ynghyd â lluaws o Nodiadau Ychwanegol, gan y Parch. Owen Thomas, Llundain. Addurnir yr oll o'r gwaith âg o ddeutu 200 o'r Cerfluniau mwyaf ysplenydd, a Dau Steel Maps." 8plyg breiniol.

Gwelsom 14 rhifyn, 1s. yr un, o'r gwaith rhagorol yna, yn cyrraedd hyd yr ail bennod o'r Galatiaid, ac yn cynnwys 660 o dudalenau. Dywedodd cyfaill wrthym bod 22

* Credai mam Mr. Thomas i ymddygiad ei thad fod yn achlysur angau i'w mam. Yr oedd tad ei mam, Mr. William Jones, yn rhyw fath o swyddog gwladol yn Bomaris; ac efe, oni buasai afradlonedd ei dad, a fuasai yn perchen etifeddiaeth Cadnant. Tybiai'r teulu bod hen nain mam ein gwron wedi diangc o Ysgotland o gylch amser y Gwrthryfel yn 1745, pan ddaeth y Frazers a'r Chamberses, a'r lliaws Ysgotiaid eraill sydd ym Môn, i breswylio yno.

Digitized by Google

o rifynau wedi eu cyhoeddi. Y mae "Nodiadau Ychwanegol" y Dr. Thomas yn llawer iawn heleuthach na "Sylwadau Gwreiddiol" y Dr. Kitto, ac, i'n bryd ni, y maent yn llawn mor "wreiddiol," ac yn rhagori ymhell fel eglurhâd ar y testyn dwyfol. Gwaith arall, pwysig a dyddorol dros ben, o'r eiddo y Dr. Owen Thomas, yw yr un canlynol:—

"Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cyssylltiad â Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru." 8plyg. 1874.

Cynnwys y gwaith gorchestol yna 1,052 o dudalenau, yn y llythyren eglur, ond lled fân, a elwir *Bourgeois*. Heb law hanes fanwl a helaeth iawn am y Parch. John Jones, Talsarn, cynnwys y gwaith gwerthfawr hwn hefyd hanes crefydd ymhlith y Methodistiaid yng Nghymru yn ystod ei oes ef, o'r fl. 1796 hyd 1857, ynghyd â hanes prif bregethwyr y Methodistiaid yn ystod yr un cyfnod. Ar fyr, erys y Cofiant hwn ymhlith prif gyfansoddiadau ein gwlad tra y pery yr iaith Gymraeg. Caffed y pregethwr hyawdl ac effeithiol, a'r llenor galluog ac athrylithgar, oes hir ac iechyd diball etto i argyhoeddi ac addysgu ei wrandawyr, ac i gyfoethogi a choethi llenyddiaeth ei wlad.*

### Y PARCH. THOMAS REES, D.D.

Ganwyd y gwr galluog hwn ar y 13ydd o Ragfyr, 1815, mewn lle a elwir Penybontbren, ymhlwyf Llanfynydd, sir Gaerfyrddin, ac yn agos i Gapel Isaac, lle y mae achos Annibynol er y fl. 1650, os nad cyn hyny. Enwau ei rieni oedd Thomas Rees ac Hannah Williams. Crydd oedd ei dad, ac yn trin tyddyn bychan gyd â hyny. Ni chafodd Thomas, pan yn blentyn, ond y nesaf peth i ddim o addysg, heb law yr hyn a gafodd yn yr ysgol Sabbothol yng Nghapel Isaac. Nis gwyddom a ddysgodd efe gelfyddyd ei dad ai peidio: yr ydym yn tybied iddo wneuthur.

Yn y fl. 1828, torodd diwygiad crefyddol grymus allan yng Nghapel Isaac, fel ymhob man arall trwy Ddeheudir Cymru; ac ar nos Wener, y 18fed o Orphenaf y flwyddyn honno, aeth Thomas Rees a degau eraill i'r gyfeillach eglwysig. Yn Hydref yr un flwyddyn, derbyniwyd ef, pan yn 13 oed, a naw ar hugain eraill, yn gyflawn aelodau yng Nghapel Isaac. Gwelodd y frawdoliaeth yno, yn bur fuan, fod Thomas Rees ieuangc wedi ei gynnysgeuddu â gwybodaeth a doniau llawer uwch na'r cyffredin, ac annogwyd ef i ddechrau pregethu. Wedi iddo gymmeryd y peth i'w ystyriaeth ddifrifolaf, cydsyniodd yntau o'r diwedd; ac ar yr 2fed o Fawrth, 1832, pan oedd efe yn 17 oed, traddododd ei bregeth gyntaf, oddi wrth Ioan iii. 6.† Yn fuan ar ol iddo ddechrau pregethu, aeth am dri mis i ysgol ddyddiol a gedwid yng Nghapel Isaac, lle y dysgodd ysgrifenu; a dyna'r holl ysgol ddyddiol a gafodd yn ystod ei fywyd! Trwy lafur personol, mewn blynyddau dyfodol, y dysgodd Saesneg, ac y cyrheuddodd yr holl wybodaeth ehang sydd yn ei feddiant.

Ar y 15fed o Fedi, 1836, neillduwyd Mr. Rees, pan oedd efe yn 23 oed, i gyflawn waith y weinidogaeth yn yr eglwys fechan yng Nghraig-y-fargod, yn agos i Ferthyr Tydfil. Tra yr oedd efe yn y lle hwn, ar y 25med o Awst, 1838, y priododd efe Jane, merch Thomas Williams, ameuthwr, ymhlwyf Bedwellty, Mynwy; a bu iddynt bedwar o blant, dau o'r rhai sydd wedi meirw. Ym mis Awst, 1840, symmudodd Mr. Rees o Graig-y-fargod i eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdâr; ond parhaodd i fyned yn fisol i gapel bychan Craig-y-fargod hyd ddechrau 1841, pan yr ymsefydlodd Mr. David Thomas, Troed-y-rhiw, yno.‡ Bu Mr. Rees yn dra llafurus a llwyddiannus yn ystod yr amser byr y bu yn Ebenezer. Derbyniodd 150 o aelodau i'r eglwys mewn llai na dwy flynedd o amser. Gan nas gallai Mr. Rees fyw yn gysurus yn Aberdâr, derbyniodd alwad o Siloa, Llanelli; ac ym mis Mawrth, 1842, efe a symmudodd yno. Ymhen tu a dwy flynedd ar ol ymsefydlu yn y lle hwn, sef yn y fl. 1844, dechreuwyd cyhoeddi ffrwyth llafur mawr llenyddol Mr. Rees, ac "ysgub blaenffrwyth" y llafur hwnw oedd cyfieithiad o'r gwaith mawr a phwysig canlynol:—

"Y Testament Newydd, gyda Sylwadau Eglurhaol ac Ymarferol. Gan y Parch. Albert Barnes, Philadelphia, America. . . . Dinbych: cyhoeddwyd gan Thomas Gee."

Y mae'r gwaith ardderchog hwn yn cynnwys chwech o gyfrolau 8plyg trwchus, oll yn 3,745 o dudalenau, mewn argraph fân, oddi eithr y testyn Ysgrythyrol. Bu'r awdur diwyd wrth y gwaith hwn am o ddeutu un mlynedd ar bymtheg, sef o 1844 hyd 1860; ac y mae'n ddilys ddiammau ei fod yn un o'r esponiadau gorau a feddwn ar y Testament Newydd. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn Cymraeg goeth, ystwyth, a darllenadwy. Tra'r oedd Mr. Rees bron ar ganol y gwaith mawr hwn, sef yn y fl. 1849, derbyniodd alwad o eglwys Carmel, yn ardal Cendl (*Beaufort*), sir Fynwy (ardal a elwid gynt yn Rhyd-y-blew), a symmudodd yno ym Mehefin y flwyddyn honno. Bu llwyddiant anarferol ar ei lafur yn y lle hwn. Ymhen tu a deufis wedi iddo ymsefydlu yno, torodd y geri marwol (*cholera morbus*) allan yn arswydus trwy'r holl ardaloedd; ac ar yr un amser, dechreuodd diwygiad crefyddol grymus iawn. O ddechrau Awst, 1849, hyd ddiwedd Hydref yr un flwyddyn, ymunodd 396 â'r eglwys yn Carmel. Ar ddydd Sul, yr 28fed o'r Hydref hwnw, derbyniwyd cynnifer a 210 i'r gyfeillach eglwysig; a bu yno ddiwygiad grymus drachefn yn 1859 ac 1860. Yn nechrau y fl. 1850, cymmerth Mr. Rees ystafell ehang y tu cefn i'r *Refiner's Arms*, i gynnal ysgol Sul i'r Saeson oedd yn bur lliosog ar y pryd yng ngweithydd haiarn yr ardal. Terfynodd hyny mewn adeiladu capel Saesneg, a sefydlu ysgol Frutanaidd yn y lle. Yn y fl. 1852, llwyddodd Mr. Rees i adeiladu ysgoldy ehang yn ardal Pont-y-gof, i gadw ysgol Sul. Yn fuan wedyn, galwyd am bregethu yno, yr hyn a arweiniodd i sefydlu eglwys Annibynol yn y lle. Gorphenwyd y llafur pwysig a buddiol a nodwyd yn y fl. 1857.§ Yn ebrwydd ar ol i Mr. Rees orphen cyfieithu esponiad helaeth Barnes, os nad cyn hyny, dechreuodd ysgrifenu y gwaith Seisnig godidog canlynol, yr hwn a gyhoeddwyd yn y fl. 1861:—

"History of Protestant Nonconformity in Wales, from its Rise to the Present Time"=Hanes Anghydffurfiaeth Brotestanaidd yng Nghymru, o'i Chyfodiad hyd yr Amser Presennol. 8plyg.

Cynnwys y gyfrol ddestlus a gwerthfawr yma 512 o dudalenau 8plyg, heb law 8 tudalen o arweinolion. Hon ydyw yr unig gyfrol ar "Anghydffurfiaeth Brotestanaidd yng Nghymru" sydd yn yr iaith Saesneg, a chostiodd i'r awdur y fath draul a llafur, eb efe ei hun, fel, pe gwybuasai eu maint cyn cychwyn, y mae'n amheus ganddo a fuasai yn meddu digon o wroldeb i ymaflyd yn y gorchwyl.‖ Pa wedd bynag, cyflawnodd ei waith yn odidog

* Ysgrif Mr. W. Thomas, brawd y Dr. Thomas; Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn; yr Herald Cymraeg; Y Darlunydd, Mehefin, 1879.

† Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. iii., t. 536.

‡ Yr un, cyf. ii., t. 312–13.

§ Yr un, cyf. i., t. 155–6.

‖ Rees's Hist. Prot. Noncon. in Wales, pref. p. vi.

Digitized by Google

dros ben, canys y mae'r gyfrol yn drysor amhrisiadwy, nid yn unig i'r Saeson, ond i'r Cymry hefyd sy'n deall Saesneg. Fe allai mai prif nodweddau y gwaith rhagorol hwn ydyw cywirdeb, manylrwydd, ac amhleidgarwch.

Yn Ebrill, 1862, symmudodd Mr. Rees o Cendl i Abertawy, sir Forganwg, ac yno y mae efe er ys deunaw mlynedd bellach, yn fawr ei lafur, ei barch, a'i ddefnyddioldeb. Ymhen tu a dau fis ar ol i'r gwr llafurus ac enwog hwn ymsefydlu yn Abertawy, sef ym Mehefin, 1862, derbyniodd, er ei syndod, a'i bryder hefyd, y radd o D.D. o Brifathrofa Marietta, Ohio, America; ac y mae ei gyfansoddiadau llïosog a gwerthfawr yn profi na raddiwyd ond ychydig iawn, yn yr un flwyddyn, yn Edinburgh, Rhydychain, a Chaergrawnt, oedd mor deilwng o'r anrhydedd. Derbyniodd y Dr. Rees y radd grybwylledig heb wybod dim am dani ym mlaen llaw; ac y mae'n dra sicr mai meddwl uchel y Brifathrofa am ei "History of Protestant Nonconformity in Wales" a barodd iddi anfon iddo yr anrheg. Ym mis Gorphenaf, 1862, ymhen tu a thri mis ar ol i'r Dr. Rees ymsefydlu yn Abertawy, tynwyd hen gapel Ebenezer i lawr, a dechreuwyd adeiladu y capel helaeth presennol, yr hwn a orphenwyd erbyn dechrau Mehefin, 1863, a chostiodd 2,100p. Cynhaliwyd cyfarfod ei agoriad yn ebrwydd ar ol ei orphen; a rhwng yr hyn a gasglwyd yn y cyfarfod hwnw, a chan y gynnulleidfa cyn hyny, tynwyd yn agos i 600p. o'r ddyled i lawr. Trwy ymdrech y gynnulleidfa a'i gweinidog, y Dr. Rees, nid oedd ond 700p. o'r ddyled yn aros erbyn y fl. 1872; ac yr oedd y swm hwnw yn cynnwys 200p. o ddyled y capel yn *Fabian's Bay*, a gymmerasid gan eglwys Ebenezer arni ei hun, er mwyn cynnorthwyo yr achos ieuangc yn y lle hwnw. Yr oedd aelodau Ebenezer erbyn 1872 yn 534 o nifer. Adeiladwyd capel cyntaf Ebenezer yn y fl. 1803; ac erbyn y fl. 1872, yr oedd yr eglwys a'i gweinidog, y Dr. Rees, wedi bod yn foddion i sefydlu eglwysi yn Heol-y-castell, Canaan, Capel Sïon, Pentre-estyll, Cwmbwrla, Sandfields, a Walter Road.* Achos Seisnig sydd yn y capel olaf a nodwyd, a bu'r Dr. Rees yn gweini i'r gynnulleidfa nes i Mr. Jones ymsefydlu yno.† Heb law yr holl lafur a nodwyd a gymmerth y Dr. Rees arno yn Abertawy mewn sefydlu eglwysi Cymreig a Seisnig, pregethu iddynt yn y ddwy iaith, a chasglu at dalu eu dyledion, ni bu ei "bin ysgrifenu buan" ef yn segur yn y cyfamser. Yn y fl. 1867, cyhoeddodd y gwaith Seisnig canlynol:—

"Miscellaneous Papers on Subjects relating to Wales"=Amrywiol Bapurau ar Byngciau perthynol i Gymru.

Nid ydym yn gwybod dim am y gwaith yma ond ei enw, a'r amser y cyhoeddwyd ef; ond yr ydym yn tybied mai math ar Attodiad ydyw at yr "*History of Protestant Nonconformity in Wales.*" Yn y fl. 1870, dechreuodd Virtue & Co. gyhoeddi esponiad o waith y Dr. Rees ar y Bibl, dan yr enw canlynol:—

"Y Bibl Cyssegrlan: sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Sylwadau Eglurhaol ac Ymarferol ar bob Pennod. Wedi ei addurno â llawer o Ddarluniau ar Ddur."

Cynnwys y gyfrol brydferth hon 1,546 o dudalenau 4plyg mawr, yr hon y gorphenwyd ei chyhoeddi yn y fl. 1876; a chlywsom bod 8,000 o gopïau wedi eu gwerthu erbyn hyn, yr hyn sydd brawf bod y gwaith yn dra chymmeradwy gan y Cymry. Ymhen tu a blwyddyn ar ol cychwyn y gwaith uchod, neu ychydig yn gynt, ond odid, dechreuodd y Dr. Rees, mewn undeb â'r Parch. John Thomas (y Dr. Thomas yn awr), Nerpwl, gyhoeddi y gwaith canlynol:—

"Hanes Eglwysi Annibynol Cymru."

Y mae'r gwaith mawr hwn yn bedair cyfrol 8plyg trwchus, y bedair ynghyd yn cynnwys 2,240 o dudalenau, mewn argraph fân. Gorphenwyd cyhoeddi y gwaith pwysig hwn yn y fl. 1875, a dywedir yn "At y Darllenydd" y buwyd "yn casglu defnyddiau ato am fwy nag ugain mlynedd." Heb law y llyfrau a nodwyd, cyhoeddodd y Dr. Rees y rhai canlynol:—

"Hanes Bywyd y Parch. D. Thomas, Pen-main."
"Amryw Bregethau."

Hefyd, cyhoeddodd lïaws o dreuthodau ac erthyclau i'r *Dysgedydd*, y *Diwygiwr*, yr *Adolygydd*, y *Beirniad*, y *Gwyddoniadur*, &c. Gwelir wrth ffrwyth llafur llenyddol y Dr. Rees mai mewn cyfansoddi a chyhoeddi "llyfrau mawrion," ys dywedai hen Ficar Llanddyfri, yr ymhyfryda efe yn benaf.

Bu agos i ni anghofio un amgylchiad pur bwysig ym mywyd y Dr. Rees: yn wir, fe allai i ni anghofio llawer, o ran hyny. Pa wedd bynag, yn y fl. 1876, aeth efe, gyd â'r Dr. John Thomas o Nerpwl, i'r America, i ymweled â'r eglwysi Annibynol Cymreig yno; a thra yn y wlad bellenig honno, derbyniodd hyspysiad o Abertawy, er ei ddychryn a'i alar dirfawr, bod ei anwyl briod wedi marw yn bur ddisyfyd, ar y 4ydd o Orphenaf y flwyddyn honno (1876), a dychwelodd yntau adref yn ddïoed, i alaru ar ei hol. Effeithiodd hyn yn ddwys arno dros gryn amser. Y mae'n dda i'r Cymry, a'r Saeson hefyd, yn wir, bod y gwr enwog hwn wedi ei gynnysgeuddu â chorph mor gadarn ac iachus, ac â meddwl mor gryf, cyflym, a threiddgar; manteision a fwynheir ganddo yn helaeth, fel y mae'n hawdd i'r darllenydd gasglu wrth syllu ar ei ddarlun prydferth sydd yn y gwaith hwn. Wel! hir oes iddo etto i wasaneuthu ei Dduw a'i genedl.

### Y PARCH. THOMAS PRICE, M.A., PH.D.

Mab ydyw y gwr enwog hwn i'r diweddar John a Mary Price (Prys) o Lanhamlwch, neu Lanhammwlch, yn sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef ar yr 17fed o Ebrill, 1820. Nid oedd un capel nac ysgoldy, nac ysgol ddyddiol, yn perthyn i'r Anghydffurfwyr y pryd hyny o fewn y plwyf. Cafodd Thomas ychydig addysg elfenol gan hen wraig a gadwai ysgol ddyddiol ym Mhentref Pen-y-gelli. Bu'n wesyn (*page*), pan yn bur ieuangc, yn nheulu boneddwr a'i enw Clifton, ymhlwyf Llanfrynach, a chafodd yr hyfrydwch y pryd hyny o deithio llawer iawn gyd â'r teulu. Bu boneddigesau y teulu yn dra charedig wrtho, trwy ddysgu iddo ddarllen, ysgrifenu, ac elfenau cyntaf rhifyddiaeth. Trwy ofal a chynnildeb, casglodd swm o arian tra yngwasanaeth y teulu crybwylledig, â'r sawl y rhwymodd ei hun yn brentis gyd âg un Watkins, Aberhonddu, yn baentiwr, gwydrwr, a phlymiwr. Wedi gorphen ei brentisiaeth, gan fod ei logell yn bur wag ar y pryd, cerddodd bob cam o Aberhonddu i Lundain. Tra yn y Brifddinas, ymunodd â'r sefydliadau a gynhelid yn *Red Lion Square*, a'r *Mechanic Institute* yn *South Brampton Buildings*; a gwnaeth y defnydd gorau o'r cyfleusderau hyny. Pan aeth gyntaf i'r Brifddinas, ymunodd âg eglwys fechan y Bedyddwyr yn *Eldon Street*, *Moorfields*.

Dechreuodd ei yrfa grefyddol trwy gymmeryd ei fed-

* Y Diwygiwr, Gorph. 1863; Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. ii., t. 43-4. † Yr un, t. 87.

Digitized by Google



J. Thomas Photo. G. J. Stodart Sc.

PARCH. THOMAS PRICE, D. D.

ABERDAR

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google



W. H. Moseley Photo. G. J. Stodart Sc.

VEN. ARCHDEACON GRIFFITHS,

CASTELL NEDD.

WILLIAM MACKENZIE, LLUNDAIN, CAERLLEON AC ABERTAWE.

Digitized by Google

yddio yn yr Afon Wysg, ac ymunodd âg eglwys y Bedyddwyr ym Mhorth-y-dwr, Aberhonddu, yn y fl. 1834, pan yn 14 oed. Dechreuodd bregethu gyd â'r Cymry yn Llundain yn y fl. 1837. Aeth o Lundain, yn y fl. 1841, i Goleg y Bedyddwyr ym Mhont-y-pwl (yn hytrach Pont-y-pwll = *Pontypool*). Yn y fl. 1845, ordeiniwyd ef yn weinidog i eglwys y Bedyddwyr yn Aberdâr, pan oedd efe yn 25 oed; ac yno y mae efe wedi treulio y 35 mlynedd diweddaf. Y mae Mr. Price, a'r eglwys y mae yn weinidog iddi, wedi bod yn foddion i godi amryw gapeli, ac i gasglu llawer o eglwysi yn Aberdâr a'r ardaloedd cyfagos. Y mae Mr. Price yn adnabyddus, ac yn cael ei fawr barchu, trwy Gymru, Lloegr, y Werddon, Ysgotland, Canada, ac Unol Daleuthau yr America. Ar gais Pwyllgor y Gymdeithas Genhadol Wyddelig, treuliodd y fl. 1869 bron oll ar ymweliad â'r eglwysi yn y Werddon, Canada, a'r Unol Daleuthau. O gylch y pryd hyn, anrhegwyd ef gan Brifysgol Leipsic, yn Saxony, â'r graddau o M.A. a PH.D.

Y mae'r Dr. Price wedi cael y fraint o lenwi y swydd bwysig o Gymmedrolydd Cymmanfa Morganwg. Yn y fl. 1875, yr oedd yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Y mae efe yn awr (1880) yn Llywydd Cymdeithas Adeiladu Cymru a sir Fynwy, ac yn Ymddiriedolwr y Gymdeithas Ddarbodol. Y mae wedi bod am flynyddau yn aelod cysson a diwyd o'r pwyllgorau canlynol, sef Undeb Bedyddwyr Brydain Fawr a'r Werddon, y Gymdeithas Genhadol Dramor, y Gymdeithas Genhadol Gartrefol, y Gymdeithas Genhadol Wyddelig, Bwrdd Addysg y Bedyddwyr, Coleg Pont-y-pwl, Coleg Hwlffordd, a Choleg Llangollen.

Y mae'r Dr. Price wedi treulio llawer o'i amser mewn cyssylltiad â'r wasg Gymreig. Bu'n gydolygydd y *Seren Gomer* gynt, y *Gwron Cymreig*, y *Gweithiwr*, y *Medelwr Ieuangc*, a *Seren Cymru*. Y mae hefyd wedi gwneud lles mawr fel darlithiwr ar Rwssia, Twrci, Garibaldi, Poland, y Colier, George Muller; ac yn benaf oll, Hanes Lenyddol y Bibl. Y mae hefyd wedi cyhoeddi amryw lyfrau, yn benaf ar y pwngc o Fedydd, ac ar wasanaeth yr Ysgol Sul.

Fel gweinidog, y mae'r Dr. Price wedi bod yn ddiwyd, llafurus, a llwyddiannus. Yn ystod y tymmor maith a dreuliodd yn Aberdâr, derbyniodd gynnifer a 3,479 o aelodau i Eglwys Calfaria, a mân eglwysi eraill cyfagos, a elwir "canghenau" o'r eglwys honno. Fel dinasydd, y mae wedi dangos pob parodrwydd i gynnorthwyo pob mudiad da, er llesoli a dyrchafu y bobl. Bu am lawer blwyddyn yn Warcheidwad Deddf y Tlodion, ac am flynyddau lawer yn aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol. Y mae yn awr yn aelod gweithgar o'r Bwrdd Claddu, ac yn Is-lywydd Bwrdd Ysgol Aberdâr. Y mae hefyd wedi profi ei hun yn gyfaill calon i'r gweithwyr, trwy gymmeryd rhan bwysig yn y Cymdeithasau Dyngarol. Cyflwynodd y rhai hyn nifer lliosog o dystebau gwerthfawr iddo, o bryd i bryd, fel cydnabyddiaeth am ei lafur caled a hunanymwadol i'r cymdeithasau hyny. Amryw flynyddau yn ol, cynhaliwyd Cynhadledd Ewropaidd i drafod y pwngc o Ystadegaeth Fywydol (*Vital Statistics*). Cymmerth ef ran egnïol yn y gymdeithas honno; gosododd o'i blaen bapurau pwysig ar y pwngc dan ystyriaeth; ac fel math ar gydnabyddiaeth am y llafur pwysig yn y cyfeiriad hwnw yr anrhegwyd ef â'r graddau colegol a nodwyd eisoes.

Y mae'r Dr. Price yn awr wedi troi ar ei 60fed flwydd oed; ond trwy drugaredd Awdur pob daioni, y mae ei fwa yn gryf, ac yntau yn byw ym mynwes yr eglwys y gweinydda iddi. Er mwyn cael rhyw syniad am ei ddynoliaeth brydferth, siriol, ac addfwyn, gwel ei ddarlun yn y gwaith hwn.*

### YR HYBARCH ARCHDDIACON GRIFFITHS, B.D.

Enw priod y gwr enwog hwn yw John Griffiths. Y mae efe wedi disgyn o hen deuluoedd cyfoethog a dylanwadol Pen-y-benglog a Llangolman, sir Benfro.† Mab ydyw i John Griffiths, mab hynaf John Griffiths, yr hwn a ddaeth o Benclun i Langafren, ger llaw Eglwyserw, tu a chanol y ganrif ddiweddaf, gwraig yr hwn, sef nain ein gwron, oedd Mary, merch Jacob Picton o Bencnwc, sir Benfro; a'i wraig ef oedd ferch Griffiths o'r Pant-gwyn, ger llaw Aberteifi.‡ Gwraig J. Picton oedd ferch Griffiths o'r Pantgwyn, ger llaw Aberteifi. Daeth tad yr Archddiacon i sir Aberteifi yn nechrau y ganrif bresennol yn oruchwyliwr etifeddieuthau Tŷ-glyn, Tŷ-glyn Aeron, a'r Mynachdy, oll yn Nyffryn Aeron, sir Aberteifi. Bu efe farw yn y fl. 1845.

Y mae'r Archddiacon wedi disgyn o deulu Normanaidd o du ei fam. Merch oedd hi i Thomas Powel o Lacharn. Ganwyd yr Archddiacon yn y fl. 1820, ym Mharc-noyadd, ymhlwyf Ciliau Aeron. Yr oedd Dol-y-gwartheg hefyd y pryd hwnw, ac etto, yn un o gartrefi yr Archddiacon. Pan oedd efe yn 5 oed, rhoddwyd ef dan ofal athraw neillduol, sef y diweddar dra adnabyddus, y Parch. John Lewis, Ficar Llanrhystyd. Pan oedd yn 13 oed, anfonwyd ef i Ysgol Rammadegol yn Aberteifi, lle y bu am bedair blynedd. Pan oedd yn 17 oed, derbyniwyd ef yn fyfyriwr i Goleg Dewi Sant, Llanbedr. Parhaodd i fyfyrio yno am ddwy flynedd, pan y cafodd ysgoloriaeth yn y dosparth cyntaf. Yna ymadawodd i gyflawni dyledswyddau prifathraw Ysgol Rammadegol Aberteifi, trwy appwyntiad y Maer a Chyngor y Fwrdeisdref honno.

Yn y fl. 1843, rhoddes swydd athraw i fynu, pan yr ordeiniwyd ef yn Ddiacon ar Ganoniaeth Aberystruth, yn sir Fynwy, gan y Dr. Coppleston, Esgob Llandaf. Yn y fl. 1844, ordeiniwyd ef yn Offeiriad gan yr un Esgob, yr hwn, ar yr un pryd, a'i pennododd ef i Guradiaeth Barhaus Nant-y-glo, sir Fynwy. Yn yr un flwyddyn (1844) efe a briododd Mary, trydydd ferch Caleb Lewis, Ysw., Aberteifi. Y mae efe yn awr yn weddw, wedi colli ei wraig yn nechrau y flwyddyn hon, 1880. Yn y fl. 1846, appwyntiwyd ef yn Beriglor Llansannor, yn sir Forganwg, ar bennodiad Syr Joseph Bailey, Barwn; ac ar yr un pryd derbyniodd Guradiaeth Llan-gan, yr eglwys a wasanaethwyd dros hir flynyddau gan yr enwog Dafydd Jones. Yn y fl. 1847, appwyntiwyd ef yn Ficar St. Mary Hill (Bryn Mair Santes), ar bennodiad Syr Digby Aubrey, Barwn. Yn 1855, daeth yn Beriglor Castell Nedd (Neath), sir Forganwg, ar bennodiad ymddiriedolwyr y diweddar Ardalydd Bute. Bu yr Archddiacon yn Gadeirydd Cyngor Cenedlaethol yr Eisteddfod o 1860 hyd 1870.

Yn 1861, ar gynnyg yr Esgob Thirlwall o Dŷ Ddewi, derbyniodd yr Archddiacon fywioleuthau pwysig Llanbadarn-fawr ac Aberystwyth; ond cyn iddo gael ei sefydlu, tynodd ei dderbyniad yn ol, ac arhosodd yng Nghastell Nedd. Yn 1863, yr oedd efe yn un o bedwar llywydd Eisteddfod Genedleuthol Aberystwyth; ac yn 1866, yr oedd yn llywydd Eisteddfod Genedleuthol Caerfyrddin.

* Ysgrif oddi wrth gyfaill.

† Fenton's Pembrokeshire.

‡ Bu'r teulu hyn yn bur garedig wrth Fedyddwyr sir Benfro, trwy roddi lleoedd iddynt i adeiladu capeli, pan oeddynt dan gryn erledigaeth yn y sir honno.

Digitized by Google

Yn 1868, yr oedd efe yn Gaplan Uchel Sirydd Aberteifi. Yn 1873, appwyntiwyd ef yn Ddeon Gwladol Deoniaeth Uchaf Groneath. Yn 1874, yr oedd yn Gaplan i Uchel Sirydd Mynwy. Yn 1875, gwnaed ef yn Gaplan Teuluaidd i Arglwydd Esgob Llandaf, ac yn Gaplan Arholiadol Cymreig. Yn 1876, gwnaed ef yn Gorberiglor Dyfrig Sant yn Eglwys Gadeiriol Llandaf; yn 1877, yn Archddiacon a Chanon Cyfarhosol Llandaf, ac yn Gorberiglor y Caerau; ac yn yr un flwyddyn, cynnysgeuddwyd ef â'r radd o B.D. gan Archesgob Caergaint.

Y mae'r Archddiacon yn awdur pregethau, ynghyd âg amryw annerchiadau cyngorfaol, ac areithiau achlysurol eraill. Clywsom ni ef yn traddodi areithiau yn Eisteddfodau Dinbych yn 1860, Aberdâr yn 1861, Caernarfon yn 1862, Llandudno yn 1864, a Rhuthyn yn 1868. Y mae'r olwg arno yn y pulpud ac ar y llwyfan, fel y gellir casglu wrth syllu ar ei ddarlun sydd yn y gwaith hwn, yn foneddigaidd, dengar, a mawreddog.

Y mae amryw o berthynasau yr Archddiacon mewn sefyllfaoedd anrhydeddus yn yr Eglwys.*

Y PARCH. JOHN EVANS.

Dyma wr enwog arall y mae darlun destlus o hono yn y gwaith hwn. Ganwyd ef ar yr 28fed o Fedi, 1840, mewn ameuthdy a elwir Tŷ-du, ymhlwyf Eglwys-bach, sir Ddinbych. Mab ydyw i David Evans, a Jane, merch ieuengaf Robert Davies, Dyffryn, ameuthwr cyfrifol yn y plwyf a nodwyd. Yr oedd ei dad yn meddu llawer o fedr i droi ei law at wahanol ganghenau llafur, megis gwaith coed, maen, haiarn, ameuthyddiaeth, a'r cyffelyb. Cynnysgeuddwyd ei fam â meddwl cryf, a natur serchog, siriol, a charedig dros ben. Pan oedd John o ddeutu 6 oed, cymmerth ei rieni y ffarm agosaf, a elwir y Goleugell, yn ychwanegol at y Tŷ-du; ac yn y Goleugell, gan mwyaf, y magwyd ef.

Cafodd chwech neu saith mlynedd o addysg, yn Ysgol Genedleuthol y Llan, dan athraw medrus a'i enw Richard Beverley. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r eglwys Wesleyaidd, ac yno y dygwyd yntau i fynu o'i febyd. Yr oedd efe o natur chwarëus a bywiog pan yn fachgen. Yn y fl. 1854, pan oedd John yn 14 oed, bu farw ei fam dduwiol, yr hyn a ddifrifolodd lawer ar ei feddwl yntau. Ymunodd â rhestr (*class*) yn yr eglwys, ac yn lled fuan dechreuodd weddïo yn gyhoeddus. Pan oedd rhwng 18 a 19 oed, dechreuodd bregethu. Derbyniodd lawer o gyfarwyddyd i fyfyrio gwahanol byngciau gan lenor a phregethwr a'i enw Robert Davies (Rhyswr Hedd), Llanrwst, ynghyd â chan y Parch. David Owen, Periglor Eglwys-bach. Yn y fl. 1860, pasiodd yr arholiad gofynol yng Nghyfarfod Taleuthol Gogledd Cymru, a phennodwyd ef i un o'r colegau Seisnig; ond lluddiwyd ef i fyned gan gystudd trwm. Yna, pan wellhaodd, aeth i ddechrau ar ei fywyd gweinidogeuthol yn Amlwch a'i gororau, yn sir Fôn. Aeth oddi yno i'r Wyddgrug, sir Fflint. Yn y fl. 1865, wedi iddo basio yr arholiadau blynyddol yn ystod ei fywyd o brawf, ordeiniwyd ef yng Nghynnadledd Birmingham i gyflawn waith y weinidogaeth. Anrhegwyd ef gan y Dr. Osborn, un o'r arholwyr, â chopi cyflawn o "Waith John Howe," yn arwydd o'i foddlonrwydd iddo yn ei arholiad yn y gynnadledd. Wedi llafurio am dair blynedd yn Amlwch a'r Wyddgrug, galwyd ef i Nerpwl. Yna aeth am dair blynedd i Bethesda, Arfon; ac oddi yno i Nerpwl yn ol.

Fel pregethwr, y mae'r Parch. John Evans yn meddu dawn hyawdl, ddengar, a hynod o ddylanwadol. Yr oedd adfywiad crefyddol grymus yn y wlad o gylch yr amser y dechreuodd efe bregethu. Yr oedd neillduolrwydd ei ddawn yntau yn foddion i roddi cynnulleidfaoedd ar dân; a buan yr ymdeunodd son am dano, fel pregethwr dylanwadol, dros yr holl wlad. Yr oedd ei deimlad yn ddwys, ar ei darawiad cyntaf allan; ei ddychymmyg yn fywiog a chynhyrfus; ei lais yn soniarus a threiddgar; ac yr oedd ganddo gyflawnder o iaith at ei wasanaeth. Gosodai bob gwirionedd allan trwy gyfrwng egluriadau hapus, ond rhai cartrefol a gwledig. Wedi ychydig funudau o wrando, teimlid cyffro trwy'r gynnulleidfa: yn raddol, teimlid y cyffro yn ymledu, yn cryfhau, yn ymgodi, nes llwyr orchfygu y gynnulleidfa o'r diwedd gan nerth y traddodiad. Ofnai rhai hen grefyddwyr gorofalus mai ieuengctid y bachgen o'r Eglwys-bach oedd y prif achos o'i boblowgrwydd digyffelyb, ac y machludai ei haul gyd â chynnydd ei ddyddiau; ond y mae'r bachgen wedi dyfod yn ddŷn er ys llawer blwyddyn bellach; ac yn lle tywyllu, y mae ei lwybr ef "fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd." Llwyr ymroddes ef i fyfyrio, a phenderfynodd ddisgyblu ei feddwl, a llwyddodd. Y mae wedi gwneud yr hynafieithydd, y teithydd, yr hanesydd, y bardd, y llenor, a'r athronydd yn gyfeillion iddo ei hun; ac y mae ei gof mor fywiog, cyflym, a gafeulgar, fel y gall ddefnyddio eu gwaith wrth ei ewyllys; ac i goroni y cwbl, y mae wedi cyssegru y cyfan i ogoneddu Duw a llesâu dŷn, ac ystyrir ef erbyn hyn yn un o brif bregethwyr Cymru. Y mae efe, er ys cryn amser bellach, yn gwasanaeuthu ei genedl ei hun, a'r Saeson hefyd yn achlysurol, yn Llundain.

Y mae'r Parch. John Evans wedi gwasanaeuthu cryn lawer hefyd ar ei genedl fel darlithydd a llenor. Y mae wedi bod yn gwefreiddio cynnulleidfaoedd â'i ddarlithiau ar "Nerth Arferiad," "Butler a Wesley," "Y Byd cyn Adda," "Gwyddoniaeth a'r Bibl," a'r "Daith i America." Fel llenor, y mae wedi cyfoethogi *Yr Eurgrawn* âg ysgrifau galluog ar "Wrthddefodaeth," "Wesley fel Llenor," &c. Ysgrifenodd amryw erthyclau hefyd i'r *Gwyddoniadur;* a'i waith ef ydyw y rhan flaenaf o'r bennod ar "Wesleyaeth" sydd yn y gwaith hwn ("Enwogion y Ffydd"). Hefyd, cyfieithodd "Jappan ar yr Eglwys;" ac y mae'r cyfieithiad wedi derbyn cymmeradwyaeth uchel gan yr adolygwyr Cymreig. Amlygodd ei gyfundeb ei edmygedd o hono trwy ymddiried iddo y swydd o "Ysgrifenydd y Capelau" yn Nhalaeth Gogledd Cymru.†

* Crockford Clerical Directory; Dr. Nicholas's Annals of County Families of Wales, &c.

† Y Darlunydd, Tachwedd, 1876.

DIWEDD CYFROL II.

ARGRAPHWYD GAN WILLIAM MACKENZIE, 43 HEOL HOWARD, GLASGOW.

Digitized by Google



J. Thomas. G. J. Stodart.

PARCH. JOHN EVANS,

LLYNLLEIFIAD

WILLIAM MACKENZIE LONDON, EDINBURGH & GLASGOW

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google